NEDL TRANSFER
HN 6ZKE M

Cyc 210
KH26

Harvard College Library

BOUGHT WITH INCOME

FROM THE BEQUEST OF

HENRY LILLIE PIERCE,

OF BOSTON.

Under a vote of the President and Fellows,
October 24, 1898.

Digitized by Google

Digitized by Google

Digitized by Google

Digitized by Google

Digitized by Google

Y

# GWYDDONIADUR CYMREIG.

## Y GWAITH CENEDLAETHOL PWYSICAF

YN YR

## Iaith Gymraeg.

Y RHAGYMADRODD, GYDA HANES BYWYD DR. PARRY,
A SYLWADAU AR EI YSGRIFENIADAU,

GAN Y PARCH. OWEN THOMAS, D.D., LIVERPOOL.

Digitized by Google

# LLYTHYRAU O GANMOLIAETH I'R GWAITH.

It seems to me a Work of great promise......I can conscientiously bid you good speed in the work, which seems to me as sound in doctrine as it is unsectarian in principle.

JOHN WILLIAMS,
*Bognor, Sussex.* *Archdeacon of Cardigan*, &c.

Y mae y gwaith yn dra theilwng o gefnogaeth oddi wrth bawb sydd yn dymuno yn dda i'w gwlad a'u cenedl.

*Llundain.* THOMAS PHILLIPS.

Llyfr tra rhagorol, yn debyg o fod o werth ac anrhydedd mawr i lenyddiaeth Gymreig, o ran ei gynnwysiad, a'r gwaith celfyddgar sydd arno.

*Llanfyllin.* DAVID MORGAN.

Y mae yn ymddangos i mi y bydd, pan ei gorphener, yn drysor ammhrisiadwy i Gymru. Y mae yn cyflenwi yn hollol ddiffyg mawr oedd, hyd yma, yn aros yn ein llenyddiaeth.

*Llundain.* OWEN THOMAS.

Dylai pob dyn ieuangc, gyda'r meddwl cyntaf am gael tŷ a theulu, feddwl hefyd am gael '*Y Gwyddoniadur*' i'w deulu, os bydd ynddo ddim awydd am iddynt 'weithio eu ffordd' yn anrhydeddus mewn unrhyw gylch o ddefnyddioldeb.

*Llanbrynmair.* SAMUEL ROBERTS.

Y mae y '*Gwyddoniadur*' yn llyfr sydd yn debyg o dynu sylw cyffredinol. Yr wyf yn penderfynu gwneyd unrhyw beth yn fy ngallu i hwyluso ei gyhoeddiad a'i gylchrediad.

*Llandeilo.* JOHN JONES, *Gwein. Wesleyaidd.*

Yr oedd yn llawen iawn genyf weled yr hysbysiad cyntaf am y '*Gwyddoniadur Cymreig*,' a da genyf chwanegu fod y llawenydd hyny wedi cynnyddu yn fawr iawn wrth ganfod y dull a'r modd y mae y gwaith yn cael ei ddwyn yn mlaen. Yr wyf o galon yn dymuno i chwi bob llwyddiant gyda y fath anturiaeth bwysig.

*Aberdâr.* THOMAS PRICE.

Y mae y gwaith hwn yn ddigon *capable* i siarad drosto ei hun wrth bawb a'i darlleno. Gobeithiaf y cewch chwi a Mr. Parry estyniad oes i orphen y gwaith; yr hyn a fyddai i ni yn 'fywyd o feirw.'

*Amlwch.* WILLIAM ROBERTS.

Y fantais benaf a gynnygiwyd erioed yn ein hiaith, hyd yn hyn, i gyrhaedd twyddi gydnabyddiaeth â phob cangen o wybodaeth gyffredinol, ydyw y '*Gwyddoniadur*.'.....Daeth allan fel cawr grymus.

*Liverpool.* WILLIAM REES.

Bydd pob Cymro, a fedr, ond a esgeulusa ei dderbyn, yn ymddwyn yn eithaf anwladgarol, ac yn euog o daflu diystyrwch pechadurus ar y wybodaeth deilyngaf o sylw dyn.

*Cendl.* THOMAS REES.

Gallaf ddyweyd yn hyderus a chydwybodol fy mod yn edrych ar y gwaith hwn, os â yn mlaen fel y mae wedi dechreu, fel y rhagoraf yn yr iaith Gymraeg.

*Athrofa Pont-y-pool.* T. THOMAS.

Y mae y rhanau sydd wedi dyfod allan yn cynnwys digon o brofion y gallwn gymmeryd yn ganiataol, pan y cwblheir ef, y bydd ei gronfa o wybodaethau y fath na chafodd y Cymry o'r blaen.

*Bangor.* JOHN PHILLIPS.

Hyderaf y bydd gan y dyn a feddianno '*Y Gwyddoniadur*' gyfaill gwybodus a pharod yn ei ymyl i ymgynghori âg ef, ac i gael hysbysrwydd a chyfarwyddyd ganddo bron ar bob mater ag y gall dyn feddwl am dano.

*Liverpool.* HENRY REES.

It appears to me, after having perused the two first parts, that the work is *exceedingly* well executed. When finished, it will be an *invaluable* treasure to the Welsh people.

*Thrussington.* JOHN OWEN, *Rural Dean.*

---

# CYMMERADWYAETHAU Y WASG.

*Yr Amserau.*—'Nid oes yr un Cymro nad ydyw yn gwybod fod y fath lyfr heb ei gyhoeddi. Nid oes ond ambell Ddic-Sion-Dafydd o Gymro, chwaith, nad ydyw yn teimlo fod eisieu y fath lyfr.'

*Y Bedyddiwr.*—'Y mae yn un o'r llyfrau mwyaf pwysig, os nid y pwysicaf oll, a gyhoeddwyd erioed yn yr iaith Gymraeg.'

*The Carnarvon Herald.*—'We beg to recommend the Work to the most cordial support of all lovers of '*Cymru, Cymry, a Chymraeg.*''

*Y Cronicl.*—'Trysor o werth ammhrisiadwy—nid yn unig i Gymry yr oes yma, ond i Gymry yr oes a ddaw.'

*Y Cylchgrawn Cymreig.*—'Y mae yr hwn sydd wedi derbyn y '*Drysorfa*' o'r dechreuad wedi gwneyd cymmaint o orchest a derbyn '*Y Gwyddoniadur.*'

*Y Diwygiwr.*—'Y mae yn ddiau y gwna llyfr fel hwn les i'r Cymry.'

*Y Drysorfa.*—'Gellir disgwyl y bydd '*Y Gwyddoniadur*,' pan wedi ei gwbleiddio, yn goron gogoniant i lenyddiaeth Cymru. Y mae enw Mr. Parry, fel golygydd, yn sicrhâd i ni am deilyngdod yr holl erthyglau.'

*Y Dysgedydd.*—'Bydd yn drysorfa gyflawn o wybodaeth gyffredinol yn ei holl ranau a'i chaughenau; yr hyn a wna y Gymraeg, fel cyfrwng gwybodaeth, mor gyflawn a chyfoethog a'r Saesneg. Bydd yr erthyglau ar ei brif faterion yn wreiddiol—nid yn gyfieithiadau.'

*Yr Eurgrawn.*—'Yr ydym yn cymmhell pob dyn ieuangc i fŷnu y llyfr hwn. Yna bydd ganddo lyfrfa gwerth ei dangos, pe na byddai ganddo un llyfr arall.'

*Y Gwron.*—'Daw y gweithwyr, drwy y llyfr hwn, yn gydnabyddus â syniadau gwŷr dysgedicaf yr oesoedd.'

*Y Seren Gomer.*—'Wele '*Wyddoniadur*' yn cael ei gynnyg gan gyhoeddwr anturiaethus—dysgedigion penaf Cymru yn ysgrifenu iddo—dan olygiaeth gŵr sydd yn deilwng o ymddiried y genedl; a phaham na chefnogwn y Gwaith?'

*Y Traethodydd.*—'Yn wir, y mae yr holl waith, o ran cynnwys, ymddangosiad, a phris—cyfansoddiad, papur, argraphwaith, ffurf, a rhadlonrwydd—yn gyfryw ag yr ydym yn llawenychu ynddo, ac y teimlem ein hunain yn pechu yn erbyn llenyddiaeth, a chrefydd, ac anrhydedd ein cenedl, pe na byddai i ni wneyd a allem er ei argymmhell i'w sylw, a rhoddi ein holl ddylanwad yn mhlaid ei lwyddiant.'

*Y Wasg.*—'Erioed ni huliwyd y fath wledd o ddanteithion llenyddol ger bron ein cydgenedl ag a gynnygir yn awr yn '*Y Gwyddoniadur.*'

Digitized by Google

Digitized by Google




Digitized by Google

# The Encyclopædia Cambrensis.

Y

# GWYDDONIADUR CYMREIG:

GAN

YSGRIFENWYR ENWOCAF Y GENEDL.

DAN OLYGIAD

Y PARCHEDIG JOHN PARRY, D.D.,

BALA.

YR AIL ARGRAPHIAD,

YN CYNNWYS

ERTHYGLAU NEWYDDION, A'R MANYLION DIWEDDARAF AR Y TESTYNAU AMRYWIOL SYDD YN Y GWAITH.

DAN OLYGIAD

THOMAS GEE.

Cyf. V.

DINBYCH:

ARGRAPHWYD A CHYHOEDDWYD GAN T. GEE A'I FAB.

MDCCCXCI.

Digitized by Google

Cyc 210

HARVARD COLLEGE
OCT 4 1902
LIBRARY.
Pierce Fund

Digitized by Google

# CYNNWYSIAD Y BUMMED GYFROL.

---

YMDDENGYS Erthyglau yn y tudalenau hyn ar Bersonau a gwahanol Wledydd y Byd, &c., gyda ffigyrau â llythyrenau o'u blaen. Wrth ddefnyddio y cynllun hwn, yr ydym yn gallu cynnwys y manylion diweddaf am danynt yn y Gwaith hwn.

Yn y gyfrol ddiweddaf, bydd *Taflen lawn* o'r holl Erthyglau a gynnwysir yn y "GWYDDONIADUR," wedi eu trefnu yn ol y wyddor, fel y bydd yn hawdd cael pob Erthygl fydd ynddo, yn mha gyfrol bynag yr ymddengys.

---


| | Tudal. |
|---|---|
| Gainsborough, Thomas | X 65 |
| Galatiaid, yr Epistol at y | 1 |
| Galbanum | 10 |
| Galeed | 11 |
| Galeniaid | 11 |
| Galenus, neu Galen | X 65 |
| Galilea | 11 |
| Galilea, Môr Gw. Gennesareth | 45 |
| Galileaid | 13 |
| Galilei, Galileo | 13 |
| Galim. | 16 |
| Galio.. | 17 |
| Galw—edig—aeth—ion | 17 |
| Gallgo. | 22 |
| Gallu ac Anallu | 22 |
| Gamaliel | 25 |
| Gambold, John | 25 |
| Gambold, William | 26 |
| Games, Stephen.. | M 65 |
| Gammadiaid | 26 |
| Gamul | 26 |
| Garan. | 26 |
| Gardd, Gerddi | 27 |
| Gareb. | 31 |
| Gareb, Bryn | 31 |
| Garibaldi, Guiseppe | T 65 |
| Garlantau | 31 |
| Garlleg | 31 |
| Garmon, Sant | 32 |
| Gasariaid | 32 |
| Gasmu | 32 |
| Gatam | 32 |
| Gath | 32 |
| Gath-hepher, neu Gittah-hepher | 33 |
| Gath-rimmon | 33 |
| Gauaf Gwel Tymmorau | — |
| Gau Gristiau | 33 |
| Gaza | 36 |
| Gazara | 37 |
| Gazathiaid, Y | 37 |
| Gazer.. | 37 |
| Gazer.. | 37 |
| Gazez. | 37 |
| Gaziaid | 37 |
| Gazzam | 37 |
| Geba | 37 |
| Gebal. | 38 |
| Geber. | 38 |
| Gebim. | 38 |
| Gedaliah | 38 |
| Gedeon | 38 |
| Geder. | 38 |
| Gederah | 39 |
| Gederathiad | 39 |
| Gederiad, Y | 39 |
| Gederoth | 39 |
| Gederothaim | 39 |
| Gedor. | 39 |
| Gefail—eiliau | 39 |
| Gefaill, Gefell | 39 |
| Gefyn—au | 39 |

| | Tudal. |
|---|---|
| Gehazi | 39 |
| Gehenna | 40 |
| Gele—od | 40 |
| Geliloth | 41 |
| Gelyn—ion—iaeth | 41 |
| Gemali | 43 |
| Gemarah Gwel Talmud | — |
| Gemariah | 43 |
| Gemau Gw. Meini Gwerthfawr | — |
| Gemwaith | 43 |
| Genau | 43 |
| Genedigaeth Crist Gw. Crist Iesu. | — |
| Genedigaeth-fraint | 43 |
| Genfa. | 57 |
| Gennesareth, Môr | 45 |
| Genesis | 46 |
| Genni. | 57 |
| Genubath | 57 |
| Geoffrey o Fynwy | 57 |
| George I. | 57 |
| George II. | 59 |
| George III. | 61 |
| George IV. | 63 |
| George, Henry | N 65 |
| Georgia, Eglwys.. | 64 |
| Gera | 64 |
| Gerah. | 64 |
| Geraint ab Elidr.. | N 65 |
| Geraint ab Erbin | N 65 |
| Geraint Fardd Glas | N 65 |
| Geraint Feddw | N 65 |
| Geraint Hir | N 65 |
| Gerar.. | 64 |
| Gerasa | 64 |
| Gergesiaid Gwel Gadara | — |
| Gerheniaid, Y | Y 65 |
| Gerizim Gwel Ebal | — |
| Germany, neu yr Almaen | 65 |
| Germany, Eglwysi | H 67 |
| Gersom | 68 |
| Gerson | 69 |
| Gersoniaid | 69 |
| Gesem | 69 |
| Gesenius, William | 69 |
| Gesur | 72 |
| Gesuriaid | 72 |
| Gether | 72 |
| Gethsemane | 72 |
| Geudeb | 72 |
| Geudy. | 72 |
| Geugred Gwel Heresi | — |
| Gewyn | 72 |
| Gezer.. | 73 |
| Gezriaid | 73 |
| Giah | 73 |
| Giau | 73 |
| Gibbar | 73 |
| Gibbethon | 73 |
| Gibbon, Edward.. | Y 65 |
| Gibeah | 74 |
| Gibeath | 76 |

| | Tudal. |
|---|---|
| Gibeathiad, Y | 76 |
| Gibeon | 76 |
| Gibeoniaid, Y | 76 |
| Gibliaid | 76 |
| Gibson, John | 66 |
| Gidalti | 77 |
| Gidel.. | 77 |
| Gideon | 77 |
| Gideoni | 79 |
| Gidom | 79 |
| Gifford, William.. | A 66 |
| Gihon. | 79 |
| Gilalai | 79 |
| Gilbertiaid | 82 |
| Gildas. | 79 |
| Gilead. | 80 |
| Gilgal. | 82 |
| Gill, John | 83 |
| Giloh.. | 84 |
| Giloniad, Y | 84 |
| Gimzo. | 84 |
| Ginath | 84 |
| Ginnetho | 84 |
| Ginnethon | 84 |
| Giraff.. | 84 |
| Giraldus Cambrensis | 85 |
| Girgasiad, Y | 85 |
| Girgasiaid | 85 |
| Gispa.. | 85 |
| Gittah-hepher Gwel Gath-hepher | 33 |
| Gittaim | 85 |
| Gittith | 86 |
| Githiaid, neu Gethiaid | 86 |
| Gizoniaid, Y | 86 |
| Glaif | 86 |
| Glan—hau—hâd, Glendid | 100 |
| Glasiaid Gwel Sandimaniaid | — |
| Glaswellt | 86 |
| Gloddest—wr | 87 |
| Gloyn byw | 87 |
| Glwth | 89 |
| Glyn—oedd | 89 |
| Glyndwr, Owen | 89 |
| Glynne, John | N 65 |
| Glywis Cerniw | 95 |
| Gnosmachiaid | 95 |
| Gnosticiaeth | 95 |
| Goath.. | 100 |
| Gob | T 65 |
| Gobaith, Gobeithio | 98 |
| Gobenydd | 100 |
| Goddefiad | B 66 |
| Godineb | 103 |
| Godwin, William | A 66 |
| Goel | 100 |
| Goethe, Johann Wolfgang | C 66 |
| Gof | 100 |
| Gofal—u | 106 |
| Gofid—io—us | 107 |
| Gog | 107 |
| Gogan. | 108 |

Tudal

Gogan-air ... ... 108
Gogan-gerdd ... ... 108
Gogon—eddu—eddus—iant.. 108
Golan. ... ... 113
Golch—i—iad—iadau—fa ... 113
Gold Coast Gwel Guinea N 65
Goldsmith, Oliver ... D 66
Goleudy—dai ... ... E 66
Goleuni ... ... 116
Goleuni Gogleddol ... G 66
Goleufynag Gwel Coelbren —
Golgotha ... ... 121
Goliath ... ... 124
Golosgiad Cyffredinol ... 124
Golud—og ... ... 129
Golyddan ... ... N 65
Gomer ... ... 125
Gomorrah ... ... 125
Good, John Mason ... I 66
Goodman, Gabriel, D.D. ... K 66
Goodman, Godfrey, D.D. ... O 65
Goodwin, Thomas, D.D. ... K 66
Gopher ... ... 126
Gorchest ... ... 126
Gorchudd ... ... 127
Gorchudd y Tabernacl a'r Deml Gwel Tabernacl, Teml ... —
Gorchymyn Pendant, Gorchymyn Newydd. Gw. Moesol —
Gordd. ... ... 128
Gordderch—wraig ... 128
Goreuro ... ... 129
Gorfoledd ... ... 130
Gorgias, Leotinus .. 130
Goris.. ... ... 131
Gorllewin ... ... 131
Gorllewin, Eglwys y — Gwel Eglwys Orllewinol ... —
Gormes ... ... 131
Gormesdeyrn ... ... 132
Goronwy Owen Gwel Owain, Goronwy ... ... —
Gorphenwyd ...Gwel Iawn 132
Gorphwys—o—fa. ... 132
Gorsedd—faingc.. ... 134
Gorsin. ... ... 134
Gorthrech—u ... ... 135
Gorthrwm — ymder — edig — ymu—wr ... ... 135
Goruch — el — af — elder, a Goruchleoedd... ... 135
Goruchwyl—iaeth—wr ... 136
Goruwchnaturiaethwyr ... 137
Goruwchystafell Gw. Ystafell —
Gorwagedd Gwel Gwagedd —
Gorweddfa ... ... 138
Gosen. ... ... 138
Gosodiadau, &c. Gw. Seremoniau ... ... —
Gosper ... ... 139
Gostyngeiddrwydd ... 139
Gothaidd, y Cyfieithiad ... 142
Gothiaid, Cristionogaeth y... 142
Gower, Erasmus, Bar. ... O 65
Gower, Henry, LL.D. ... O 65
Gower, John ... ... O 65
Gozan. ... ... 142
Graddell ... ... 142
Gradd—au ... ... 142
Gras—lawn—ol... ... 143
Grawn ... ... 143
Grawnsypiau Gwel Gwinwydden ... ... 144
Grawnwin Gw. Gwinwydden 252
Greddf ... ... 146
Gregory Fawr ... ... 144
Gregory VII. ... ... 144
Grey, Yr Arglwyddes Jane... M 66
Griesbach, Johann Jacob ... X 66
Griffith, Edmund ... 152
Griffith, George... ... 152
Griffith, George... ... O 65
Griffith, James ... ... O 65
Griffith, John, Bethesda ... P 66
Griffith, John (*Y Gohebydd*).. R 66
Griffith, Piers ... ... 167
Griffith, Richard D. ... O 65
Griffith, Robert... ... P 65
Griffith, Walter... ... P 65
Griffiths, Ann ... ... 149
Griffiths, Benjamin ... P 65
Griffiths, Daniel, Castellnedd N 66
Griffiths, David... ... P 65
Griffiths, David... ... Q 65
Griffiths, David, Bethel ... N 66
Griffiths, Evan ... ... Q 65
Griffiths, Evan, Abertawe ... O 66
Griffiths, Griffith. ... Q 65
Griffiths, Griffith. ... R 65
Griffiths, John ... ... R 65
Griffiths, John, Caernarfon... P 66
Griffiths, Morgan. ... R 65
Griffiths, Samuel. ... R 65
Griffiths, Thomas ... R 65
Griffiths, William ... R 65
Griffri, Gioffrey, neu Wilfrid 153
Groeg, Eglwys ... . B 162
Groeg Henafol ... ... 153
Groeg, Teyrnas ... ... 157
Grotius, Hugo ... ... 166
Gruffydd ab Arthur ... S 65
Gruffydd ab Cynan ... 166
Gruffydd ab Ieuan ab Llewelyn Fychan ... ... S 65
Gruffydd ab Llewelyn ab Seisyllt ... ... S 65
Gruffydd ab Nicholas ... 167
Gruffydd ab Rhys ab Tewdwr 167
Gruffydd Gryg ... ... S 65
Guatemala ... . A 162
Gudgodah ... ... 167
Guiana, neu Guayana . A 162
Guiana (Brazilaidd) . A 162
Guaiana (Brydeinig) . A 162
Guiana (yr Iseldiroedd), neu Surinam ... . A 162
Guiana (Ffrengig), neu Cayenne ... . B 162
Guiana (Venezuelaidd, neu Colombaidd) ... . B 162
Guianeco (Ynysoedd) . B 162
Guinea Gwel Gold Coast 167
Guipuzcoa ... . B 162
Guni .. ... ... 167
Gur ... ... ... 167
Gur-baal ... ... 167
Gustavus, Adolphus ... X 66
Gwaed a Dwfr ... ... 179
Gwaedlif Gwel Dyferlif —
Gwaewffon Gwel Arfau —
Gwagedd ... ... 167
Gwahanglwyf—us ... 168
Gwahanlen Gwel Llen —
Gwaharddiad, Deddf ... 169
Gwahodd—edigion ... 170
Gwair ... ... 170
Gwaith Edeu a Nydwydd ... 171
Gwaithfoed Fawr ... S 65
Gwalch ... ... 171
Gwalchmai ab Gwyar ... S 65
Gwallgofrwydd ... ... 172
Gwallt ... ... 176
Gwallter Mechain Gwel Davies, Walter, M.A. ... 66
Gwan—u ... ... 182
Gwanwyn ... ... 182
Gwaradwydd Gwel Gwarth 184
Gwarchae—edig—aeth ... 182
Gwarchdwr ... ... 182
Gwarcheidwad ... ... 182
Gwarchglawdd ... ... 184
Gwarchod ... ... 184
Gwarchodlu ... ... 67
Gwaredu—wr ... ... 184
Gwaredydd Gwel Gwaredwr 184
Gwarth—rudd—us ... 184
Gwarthaf ... ... 185
Gwartheg ... ... 185
Gwarthle—oedd... ... 189
Gwasanaeth—ferch—u—wr.. 189
Gwasg, Argraph.. ... 191
Gwasgar ... ... 192
Gwasgfa ... ... 192
Gwastadedd ... ... 193
Gwatwargerdd ... ... 195
Gwatwariaith, Gwawdiaith Gwel Rhetoreg ... —
Gwau Gwel Gwëyddiaeth 196
Gwaudd ... ... 195
Gwawd ... ... 195
Gwawdrydd, Aneurin ... 195
Gwawr—ddydd ... ... 196
Gwden—yn ... ... 196
Gwê—yddiaeth ... ... 196
Gweddi ... ... 199
Gweddill—io ... ... 206
Gweddnewidiad Crist ... 206
Gweddol ... ... 208
Gweddus—aidd—eidd-dra ... 208
Gweddw—dod—on ... 209
Gwegi ... ... 210
Gwehilion ... ... 210
Gwehyn—ydd—wyr ... 210
Gweirydd Wledig ... S 65
Gweithred Brawf ... 211
Gweithred Bum-milldir ... 211
Gweithred Goddefiad Gwel Anghydffurfiaeth ... —
Gweithred Rhydychain Gw. Gweithred Bum-milltir ... 211
Gweithred Unffurfiaeth ... 212
Gweithred y Ffydd ... 211
Gweithred y Gorphoraeth ... 212
Gweithred y Tŷ Cwrdd ... 212
Gweithredoedd Paul a Seneca 213
Gweithredoedd Paul a Thecla Gwel Actau Ffugiol yr Apostol ... ... —
Gweithredoedd Pedr Gwel Actau Ffugiol yr Apostol.. —
Gweithredoedd Pilat Gwel Actau Pilat ... ... —
Gweithredoedd y Saint Gw. Actau y Saint... ... —
Gweithredoedd yr Apostolion Gwel Actau yr Apostolion.. —
Gweinidogaeth Crist ... 213
Gweled—igaeth—ydd ... 221
Gweli—au ... ... 222
Gwely—au ... ... 222
Gwellt—yn ... ... 224
Gwen.. ... ... 224
Gwenafwy ... ... 224
Gwendid ... ... 224
Gwendidau Dibechod ... 225
Gwenfaen ... ... 225
Gwenfrewi ... ... 225
Gwenfyl ... ... 226
Gweniaith—u ... ... 226
Gwenith ... ... 226
Gwenllwyfo ... ... 227
Gwenol ... ... 227
Gwent, Richard... ... 227
Gwenyn—en ... ... 228
Gwêr.. ... ... 245
Gwerin-lowodraeth Gwel Llywodraeth ... ... —
Gwersyll—fa ... ... 245
Gwerydd ... ... 247
Gwenwyn ... ... 67

Digitized by Google

| | Tudal. |
|---|---|
| Gwg ... ... | 247 |
| Gwialen ... | 247 |
| Gwialen Aaron ... | 248 |
| Gwibed, Gwybed—yn | 248 |
| Gwiber—od ... | 249 |
| Gwilliad—iaid ... | 249 |
| Gwilym, Dafydd Ab | C 67 |
| Gwin.. ... | 249 |
| Gwinegr ... | 251 |
| Gwinllan ... | 251 |
| Gwinllanoedd, Gwastadedd y | 251 |
| Gwinn, Matthew.. | 252 |
| Gwinrawn Gw. Gwinwydden | 252 |
| Gwinwryf | 252 |
| Gwinwydd—en ... | 252 |
| Gwinwydden Sodom | 254 |
| Gwinwydden Wyllt | 255 |
| Gwirf.. ... | 256 |
| Gwirfoddolrwydd | 256 |
| Gwirionedd ... | 257 |
| Gwisg—oedd ... | 258 |
| Gwlad ... | 265 |
| Gwlad yr Hottentotiaid | 265 |
| Gwladwriaeth ... | 266 |
| Gwlân ... | 266 |
| Gwlaw ... | 267 |
| Gwledd—oedd ... | 270 |
| Gwlith ... | 272 |
| Gwn, Gynau Gw. Gwisgoedd | 258 |
| Gwneuthurwr Gwel Cread-igaeth ... | — |
| Gwnio Gwel Gwaith Edeu a Nydwydd | 171 |
| Gwobr—wy, Gwobr, Gobr ... | 272 |
| Gŵr Llen, neu Gŵr Eglwysig | 274 |
| Gŵr Lleyg ... | 276 |
| Gwrachiaidd ... | 276 |
| Gwraidd, Gwreiddyn | 276 |
| Gwraig... ... | 278 |
| Gwrandawyr ... | 280 |
| Gwregys ... | 281 |
| Gwres ... | 282 |
| Gwrtaeth ... | 284 |
| Gwrthban ... | 292 |
| Gwrthdrindodiaid | 272 |
| Gwrthdystwyr Gwel Protes-taniaid ... | — |
| Gwrtheyrn Gwrthenau | B 67 |
| Gwrthefyr Fendigaid | T 65 |
| Gwrth-fedyddwyr Babanod. Gwel Bedydd; Ail-fedydd-wyr.. ... | — |
| Gwrthfwrdeisiaid | 292 |
| Gwrthgalviniaid Gwel Ar-miniaeth ... | — |
| Gwrthgiliad ... | 293 |
| Gwrthglawdd Gw. Gwarch-glawdd ... | 184 |
| Gwrthgrist Gwel Anghrist | — |
| Gwrthodedigaeth. | 293 |
| Gwrthryfel ... | 294 |
| Gwrth-Sabbathwyr | 294 |
| Gwybed Gwel Gwibed | 248 |
| Gwybedigion ..Gwel Gnos-ticiaeth ... | 95 |
| Gwybodaeth ... | 295 |
| Gwybodaeth ... | 309 |
| Gwydion ab Don | T 65 |
| Gwydr ... | 309 |
| Gwydd—or—iaeth—ion | 310 |
| Gwyddno Garanhir | T 65 |
| Gwyddwalch ... | 311 |
| Gwyfyn ... | 311 |
| Gwyffos ... | A 67 |
| Gwyl—iau ... | 312 |
| Gwyl y Cymmod..Gwel Dydd y Cymmod ... | — |
| Gwyl y Pasc ... Gwel Pasc | — |
| Gwyl y Pebyll .Gwel Pebyll | — |
| Gwyl—der—aidd—eidd-dra.. | 313 |

| | Tudal. |
|---|---|
| Gwyl—io—iadwriaeth—fa—ied—ydd ... | 314 |
| Gwyliedydd Gwel Gwyliad-wriaeth ... | 314 |
| Gwynfydedig—rwydd | 315 |
| Gwyniau ... | 315 |
| Gwynlliw ... | 315 |
| Gwynt—oedd ... | 315 |
| Gwyntyll ... | 320 |
| Gŵyrdroi ... | 320 |
| Gwyryf Gwel Morwynig | — |
| Gwyrthiau ... | 321 |
| Gwystl—or—iaeth | 321 |
| Ha ... ... | 330 |
| Haastari ... | 330 |
| Habaiah ... | 330 |
| Habacuc ... | 330 |
| Habadim ... | 331 |
| Habor ... | 331 |
| Haccatan ... | 331 |
| Hachaliah ... | 331 |
| Hachilah ... | 331 |
| Hachmoni ... | 331 |
| Had—au ... | 331 |
| Hadad ... | 333 |
| Hadadezer, neu Hadarezer | 334 |
| Hadad-rimmon ... | 334 |
| Hadar. ... | 334 |
| Hadasah ... | 334 |
| Hadassah Gwel Esther | — |
| Hadattah ... | H 559 |
| Hades. ... | 334 |
| Hadid. ... | 337 |
| Hadlai ... | 338 |
| Hadoram ... | 338 |
| Hadrach ... | H 559 |
| Haelioni ... | 338 |
| Haerllugrwydd ... | 338 |
| Haf Gwel Tymmorau | — |
| Hafilah ... | H 559 |
| Hafoth-iair ... | H 559 |
| Hagar. ... | 338 |
| Hagariaid Gw. Agareniaid | H 559 |
| Haggai ... | 339 |
| Haggiah ... | 340 |
| Haggith ... | 340 |
| Hai ... ... | 340 |
| Haiarn ... | 341 |
| Haidd. ... | 342 |
| Haig, Heigiau—o. | 343 |
| Haint.. ... Gwel Pla | — |
| Halac, Mynydd ... | A 558 |
| Halah. ... | 343 |
| Hale, Mathew ... | B 558 |
| Haleliuia Gwel Aleliwia | — |
| Halen. ... | 343 |
| Halen, Dinas yr... | 342 |
| Halen, Dyffryn yr Gwel Dyffryn ... | — |
| Halhul ... | B 558 |
| Hali ... ... | B 558 |
| Halicarnassus ... | B 558 |
| Hall, Joseph ... | B 558 |
| Hall, Robert ... | 362 |
| Halley, Dr. Edmund | 366 |
| Halohes ... | 344 |
| Ham... ...Gwel Cam | — |
| Hamah ... | 345 |
| Haman ... | 344 |
| Hamath ... | 345 |
| Hammadetha ... | 345 |
| Hammon ... | 345 |
| Hammoth-dor ... | D 558 |
| Hamonah ... | 345 |
| Hamon-gog, Dyffryn | 345 |
| Hamor ... | 345 |
| Hampden, John... | D 558 |
| Hamuel ... | 345 |
| Hamul ... | 345 |

| | Tudal |
|---|---|
| Hamulal ... | 345 |
| Hanameel ... | 345 |
| Hanan ... | 346 |
| Hanani ... | 346 |
| Hananiah ... | 346 |
| Handel, George Frederick ... | 385 |
| Hanes. ... | 347 |
| Hanes—ydd—iaeth | 390 |
| Hanes neu Hanesiaeth Eg-lwysig ... | 400 |
| Haniel ... | 347 |
| Hanmer, John ... | H 559 |
| Hanmer, Meredith | I 559 |
| Hanmer, Thomas, Bar. | I 559 |
| Hannah ... | 347 |
| Hanner-Ariaid Gwel Ariaid | — |
| Hanner-Pelagiaid | 347 |
| Hannibal ... | 405 |
| Hanoch .Gwel Enoch | — |
| Hanum ... | 347 |
| Hapharim ... | 347 |
| Harah. ... | 348 |
| Haran. ... | 348 |
| Harbona ... | 348 |
| Hareth ... | 348 |
| Hargol ... | 348 |
| Harhur ... | 348 |
| Harim. ... | 348 |
| Hariph ... | 348 |
| Harnapher ... | 348 |
| Harod, Ffynnon.. | 348 |
| Haroseth ... | 349 |
| Harri I. ... | 349 |
| Harri II. ... | 350 |
| Harri III. ... | 353 |
| Harri IV. ... | 355 |
| Harri V. ... | 355 |
| Harri VI. ... | 356 |
| Harri VII. ... | 358 |
| Harri VIII. ... | 360 |
| Harris, Evan ... | 409 |
| Harris, Howell ... | 407 |
| Harris, Isaac ... | I 559 |
| Harris, John Ryland (*Ieuan Ddu o Lan Tawy*) | F 558 |
| Harris, Joseph (*Gomer*) | D 558 |
| Harris, Joseph ... | I 559 |
| Harsa. ... | 367 |
| Harum ... | 367 |
| Harvey, William. | G 558 |
| Hasabiah ... | 367 |
| Hasadiah ... | 367 |
| Hasaradar, &c. ..Gwel Haser | 367 |
| Hasargada ..Gwel Haser | 367 |
| Hasarmafeth ... | 367 |
| Hasarsual ..Gwel Haser | 367 |
| Hasbadana ... | 367 |
| Haser.. ... | 367 |
| Haserim ... | 368 |
| Haseroth ... | 368 |
| Hasmona ... | 368 |
| Hasor. ... | 368 |
| Hassenaah ... | 368 |
| Hasub. ... | 368 |
| Hasubah ... | 368 |
| Hasum ... | 368 |
| Hatach ... | 368 |
| Hastings, Warren | H 558 |
| Hatling ... | 368 |
| Hattus ... | 369 |
| Hau—wr ... | 410 |
| Haul... ... | 369 |
| Hauran ... | 373 |
| Havelock, Henry. | H 558 |
| Hawddgarwch ... | 411 |
| Hawl.. ... | 411 |
| Haydn, Francis Joseph | 413 |
| Hazael ... | 373 |
| Heber ... | 373 |
| Heber, Reginald, | 415 |


Digitized by Google

Tudal.

Hebog Gwel Gwalch 171
Hebraeg Gwel Egwyddor; Ieithoedd; ac Ieithoedd Semaidd ... ... —
Hebreaid Gwel Iuddewon —
Hebreaid, yr Epistol at yr ... 417
Hebreig, Llenyddiaeth . I 559
Hebron ... ... 374
Hebron ... ... 374
Hebronah ... ... 374
Heddwch ... ... 424
Heddyw ... ... 424
Hedd Molwynog.. . M 559
Hefiad—iaid ... ... 374
Hegai ... ... 375
Hegel ... ... 424
Heiddyn Hir ... . M 559
Heilyn, Peter, ... . M 559
Heilyn, Rowland . M 559
Hel—a—iwr—wriaeth—fa ... 375
Helam ... ... 375
Helbah ... ... 376
Helbon ... ... 376
Helbul—on—us... ... 376
Helcath ... ... 376
Helcath-hassurim ... 376
Heldai ... ... 376
Heleb ... ... 376
Helem ... ... 376
Heleph ... ... 376
Heles.. ... ... 376
Heli Gwel Halen 346
Helig, Foel ... . M 559
Heliopolis Gwel On —
Helm Gwel Arfau —
Helon ... ... 376
Helyg ... ... 376
Helynt ... ... 377
Heman ... ... 377
Hemdan ... ... 377
Hemerobaptistiaid Gwel Mendeaniaid ... ... —
Hen ... ... ... 378
Hen-ddyn Gwel Dyn —
Henaduriaeth ... ... 427
Henaduriaid Gwel Henaduriaeth ... ... 427
Henaint ... ... 438
Henben ... . M 559
Henffych well ... ... 438
Henriciaid ... ... 378
Henry, Matthew.. ... 439
Henry, Philip ... ... 438
Henry, Thomas... . M 559
Henuriad Gwel Henaduriaeth ... ... 427
Henuriadaeth Gwel Henaduriaeth ... 427
Heol—ydd ... .. 378
Hepher ... ... 378
Hephsibah ... ... 378
Heracleoniaid ... ... 378
Herbert, Edward . I 558
Herbert, Edward . N 559
Herbert, George.. . I 558
Herbert, William . N 559
Herculaneum ... ... 441
Hercules, neu Hercwlff . I 558
Heres ... ... 379
Heresi ... ... 442
Heresi Gataphrygaidd ... 379
Heretic ... ... 443
Hermas ... ... 379
Hermianiaid ... ... 379
Hermogenes ... ... 379
Hermogeniaid ... ... 379
Hermon ... ... 379
Hernhuttiaid Gwel Morafiaid ... ... —
Herod ... ... 380
Herodianiaid ... ... 443
Herodias Gwel Herod 380
Herodion ... ... 443
Herodotus ... ... 443
Herring, John ... . K 558
Herschel, Caroline Lucretia.. 446
Herschel, John Frederick William ... ... 445
Herschel, William ... 445
Hervey, James ... . K 558
Herzegovina Gwel Ewrop —
Herwr—iaeth ... ... 384
Hesbon ... ... 446
Hesg .. ... ... 384
Hesmon ... ... 384
Hespen—au ... ... 384
Hesrai ... ... 384
Hesro Gwel Hesrai 384
Hesron ... ... 384
Hesychastiaid ... ... 384
Heterousiaid ... ... 446
Heth—iaid ... ... 446
Hethlon ... ... 447
Hexapla ... ... 447
Hezeci ... ... 447
Hezeciah ... ... 447
Hezir.. ... ... 450
Hidai.. ... ... 450
Hidecel ... ... 450
Hiel ... ... ... 450
Hieraciaid ... ... 450
Hierapolis ... ... 450
Hieronymiaid ... ... 451
Higgaion ... ... 451
Hilary ... . K 558
Hilciah ... ... 451
Hilel... ... ... 452
Hill, Rowland ... . L 558
Himalaya Gwel Mynyddoedd ... ... —
Hin ... ... ... 452
Hin Gwel Mesurau —
Hindostan ... ... 455
Hindwaeth ... Gwel Hindostan ... 455
Hinfynag (*Barometer*) . N 558
Hinnom, Dyffryn Gwel Dyffryn Hinnom ... —
Hinsawdd ... ... 503
Hippocrates ... ... 510
Hippolytus ... ... 511
Hiram ... ... 512
Hirah ... ... 512
Hispaen, Hispania ... 512
Histori Gwel Hanesyddiaeth ... ... 390
Hoadley, Benjamin . O 558
Hobab ... ... 513
Hobab ... ... 513
Hobah ... ... 513
Hobbes, Thomas.. ... 513
Hoced ... ... 515
Hocys ... ... 515
Hodafiah ... ... 515
Hodge, Charles,... . R 558
Hoenyn—au ... ... 516
Hoffmaniaid ... ... 516
Hog—i ... ... 516
Hoglah ... ... 516
Hoham ... ... 516
Holofernes, neu Olofernes . O 558
Holon ... ... 516
Holwyddoreg Heidelberg .. 516
Holland Gwel Iseldiroedd —
Holland, Hugh ... . N 559
Hollbresennoldeb Duw Gw. Duw ... ... —
Hollbresennolwyr ... 516
Holldduwiaeth Gwel Olldduwiaeth ... ... —
Hollgyfoethog Gwel Duw —
Hollwybodaeth Duw Gwel Duw ... ... —
Homer neu Omer ... 516
Homer ... ... 516
Homoousiaid Gwel Ariaid —
Honduras Brydeinig . N 559
Honduras, Gweriniaeth . N 559
Hooper, John ... . P 558
Hooker, Richard.. ... 520
Hopcinsiaid ... ... 520
Hophni ... ... 521
Hophra, Pharaoh Gwel Pharaoh ... ... —
Hopkins, Lewis a William ... 520
Hopkins, Stephen . N 559
Hopkins, William . N 559
Hor, Mynydd ... ... 521
Hor Hagidgad ... ... 523
Horeb Gwel Sinai —
Horem ... ... 523
Hori .. ... ... 523
Hormah ... ... 523
Horne, George ... ... 523
Horne, Thomas Hartwell . P 558
Horonaim ... ... 524
Horsley, Samuel.. . P 558
Hosah ... ... 524
Hosaiah ... ... 524
Hosamah ... ... 524
Hosanna ... ... 524
Hosea ... ... 524
Hosea ... ... 526
Hotham ... ... 527
Hothis ... ... 527
Howard, John ... ... 527
Howe, John ... ... 532
Howell, James ... . O 559
Howell, John ... . O 559
Howells, David ... . S 558
Howell, Thomas... . O 559
Howells, Morgan ... 537
Howells, William . R 558
Hu Gadarn ... ... 543
Huail ... . O 559
Hual—au ... ... 544
Huccoc ... ... 544
Hucoc ... ... 545
Hudoliaeth ... ... 545
Huet, Thomas ... . A 558
Hugan Gwel Gwisg 258
Hughes, David ... . X 558
Hughes, David ... . A 558
Hughes, David ... . A 558
Hughes, Edward.. . A 558
Hughes, Griffith .. . A 558
Hughes, Hugh ... . A 558
Hughes, Hugh ... . A 558
Hughes, James ... . F 595
Hughes, John ... ... 545
Hughes, John ... . A 558
Hughes, John ... . Y 558
Hughes, John ... . O 559
Hughes, Joseph... . P 559
Hughes, Joshua... . P 559
Hughes, Morris ... . P 559
Hughes, Robert... . P 559
Hughes, Rowland ... 547
Hughes, Stephen . A 559
Hughes, William. . P 559
Hughes, William. . R 559
Huguenotiaid Gw. Ffraingc, Eglwys, a Bartholomeus, Dydd ... ... —
Hul ... ... ... 561
Huldah ... ... 550
Humboldt, Frederick Henry Alexander ... ... 550
Hume, David ... ... 561
Humphreys, Humphrey . R 559


Digitized by Google

Tudal.

Humphreys, Richard . A 559
Humphreys, Robert . R 559
Humtah ... 558
Hunan-fedyddwyr ... 558
Hunan-ddiffyniad ... 562
Hunan-laddiad ... ... 559
Hunanol—rwydd ... 558
Hungari ... . R 559
Hunniaid ... . E 559
Hunter, John ... . G 559
Huntingdoniaid ... ... 563
Huppa ... ... 563
Huppim ... ... 563
Hur ... ... ... 564
Hurai ... ... 564
Huram ... ... 564
Huri ... ... ... 564
Husah ... ... 564
Husai.. ... ... 564
Husim ... ... 564
Huss, John ... ... 565
Hussab ... ... 567
Hustingwyr ... ... 567
Hutchinsoniaid ... ... 567
Hutton, Adam, D.C.L. . T 559
Hwch Gwel Moch —
Hwfa ab Cynddelw . T 559
Hwnt ... ... 568
Hwrdd Gwel Dafad ac Aberthau ... ... —
Hwylbren Gwel Llong —
Hwyr.. ... ... 568
Hyacinthus ... 568
Hydred a Lledred Gwel d. g. Map ... ... —
Hydd . ... ... 568
Hyder Ali ... . T 559
Hyena ... ... 568
Hygoel—edd ... ... 568
Hylldremu ... ... 568
Hymeneus ... ... 569
Hymnau—yddiaeth ... 569
Hymnyddiaeth Gymreig ... 569
Hynafiaethau ... ... 573
Hynafiaethau Cymreig ... 577
Hyrcanus, Ioan ... ... 582
Hyrcanus yr Ail Gwel Asmonæaid ... ... —
Hysio.. ... ... 583
Hywel ab Dafydd ab Ieuan ab Rhys ... . U 559
Hywel ab Edwin.. . U 559
Hywel ab Einion Llygliw . U 559
Hywel ab Emyr Llydaw . U 559
Hywel ab Owain Gwynedd. U 559
Hywel Dda ... ... 583
Hywel Eryri ... . U 559
Hywel Sele ... . U 559
Hywel y Fwyell . U 559
Hywel y Pedolau . U 559

Ia ... ... ... 586
Iaacobah ... ... 586
Iaala.. ... ... 586
Iaalah ... ... 586
Iaalam ... ... 586
Iaanai ... ... 586
Iaare-Oregim ... ... 586
Iaasau ... ... 586
Iaazaniah ... ... 586
Iaaziah ... ... 586
Iaaziel ... ... 586
Iabal... ... ... 587
Iabboc ... ... 587
Iabes .. ... ... 587
Iabes-Gilead Gwel Gilead 80
Iabin .. ... ... 588
Iabneel ... ... 588
Iabneh ... ... 589
Iacan .. ... ... 589

Tudal.

Iacim.. ... ... 589
Iacob.. ... ... 589
Iacobiaid ... ... 592
Iacobiniaid ... ... 592
Iachau ... ... ... 592
Iachawdwr ... Gwel Iachawdwriaeth ... 593
Iachawdwriaeth .. ... 593
Iachin. ... ... 593
Iachiniaid ... ... 594
Iada ... ... ... 594
Iadai... ... ... 594
Iadau.. ... ... 594
Iadiel.. ... ... 594
Iado ... ... ... 594
Iadon.. ... ... 594
Iadua.. ... ... 594
Iael ... ... ... 594
Iafan .. ... ... 595
Iago ... ... ... 596
Iago I. ... ... 606
Iago II. ... ... 609
Iagur .. ... ... 612
Iah ... Gwel Iehofah 664
Iahas, Iahasah, Iahaz, neu Iasah 612
Iahasah .. Gwel Iahas 612
Iahasiah ... ... 613
Iahath ... ... 612
Iahaz.. .. Gwel Iahas 612
Iahaziel ... ... 613
Iahleel, neu Ialeel ... 613
Iahseel, neu Iaseel ... 613
Iair ... ... ... 613
Iairiaid, Yr ... Gwel Iair 613
Iairus.. ... ... 613
Iaith... ... ... 630
Ialon... ... ... 613
Iamai.. ... ... 613
Iamberes Gwel Iannes ac Iambres ... ... 614
Iamin.. ... ... 613
Iaminiaid, Yr ... ... 614
Iamlech ... ... 614
Ianna.. ... ... 614
Iannes ac Iambres ... 614
Ianoah ... ... 614
Ianohah ... ... 614
Ianum. ... ... 614
Iapan.. ... ... 615
Iapheth ... ... 614
Iaphia. ... ... 615
Iaphia. ... ... 615
Iaphlet ... ... 615
Iaphleti ... ... 615
Iapho.. ... ... 615
Iarah.. ... ... 615
Iareb .. ... ... 615
Iared .. ... ... 616
Iaresiah ... ... 616
Iarha .. ... ... 616
Iarib ... ... ... 616
Iarmuth ... ... 616
Iaroah. ... ... 616
Iasah .. .. Gwel Iahas 612
Iasen... ... ... 616
Iasiel... Gwel Iahseel 613
Iasobeam ... ... 617
Iason .. ... ... 617
Iason, Mab Eleazar ... 617
Iaspis.. ... ... 618
Iasub .. ... ... 618
Iasubi-lehem ... ... 618
Iasubiaid, Yr ... ... 618
Iattir.. ... ... 618
Iathniel ... ... 618
Iau ... Gwel Ychain —
Iawn... ... ... 618
Iazer, neu Iaazer . ... 658
Iazer, Llyfr ... ... 617
Iazerah ... ... 658

Tudal.

Iaziz ... ... ... 658
Iazrahiah ... ... 658
Ibasiel. ... ... 586
Iberiaid ... ... 658
Ibhar .. ... ... 658
Ibleam ... ... 658
Ibneiah ... ... 658
Ibri ... ... ... 659
Ibsam ... ... 659
Iosan .. ... ... 659
Ices ... ... ... 659
Iconium ... ... 659
Ichabod ... ... 659
Iconoclastiaid Gwel Delwdorwyr ... ... —
Idala... ... ... 659
Idbas .. ... ... 659
Idlaph ... ... 659
Ido ... ... ... 659
Idumea Gwel Edom —
Iearim, Mynydd .. ... 660
Ieaterai ... ... 660
Ieberechiah ... ... 660
Iebus .. ... ... 660
Iebusi ... ... 660
Iebusiad, Iebusiaid ... 660
Iecabseel ... ... 696
Iecameam ... ... 661
Iecamiah ... ... 661
Iecuthiel ... ... 661
Iecholiah ... ... 661
Iechonia, Iechoniah, neu Iechonias ... ... 661
Iedaiah ... ... 661
Iediael ... ... 662
Iedidah ... ... 662
Iedidiah ... ... 662
Ieduthun ... ... 662
Ieezer ... ... 663
Ieger-sahadutha .. ... 663
Iehaleleel ... ... 663
Iehdeiah ... ... 663
Iehesecel ... ... 664
Iehiah ... ... 664
Iehizciah ... ... 664
Iehoadah ... ... 664
Iehoadan ... ... 664
Iehoahaz ... ... 664
Iehofah-Iire ... ... 664
Iehofah-Nissi ... ... 664
Iehofah-Shalom... ... 665
Iehohanan ... ... 665
Iehoiacim, neu Ioacim ... 665
Iehoiachin ... ... 666
Iehoiada ... ... 667
Iehoiarib ... ... 668
Iehonadab, neu Ionadab ... 669
Iehonathan ... ... 670
Iehoram, neu Ioram ... 670
Iehosadac ... ... 671
Iehosaphat ... ... 672
Iehosaphat, Dyffryn ... 673
Iehozabad ... ... 674
Iehu ... ... ... 674
Iehubbah ... ... 676
Iehucal ... ... 676
Iehud.. ... ... 676
Iehudi ... ... 676
Iehudiah ... ... 676
Iehus.. ... ... 676
Ieiel ... ... ... 676
Iemimah ... ... 677
Iemimi ... ... 677
Iemuel ... ... 677
Iephthah ... ... 677
Iephthæ ... ... 677
Iephuneh ... ... 679
Ierah.. ... ... 679
Ierameel ... ... 679
Ieremiah ... ... 679

Digitized by Google

| | Tudal. |
|---|---|
| Ieremiah ... | ... 692 |
| Ieremiah, Galarnad | ... 688 |
| Ieremias ... | ... 692 |
| Iericho ... | ... 692 |
| Ierimoth ... | ... 696 |
| Ieroboam ... | ... 696 |
| Jerome ... | ... 698 |
| Jerome o Prague.. | ... 700 |
| Ierosolymitiaid ... | ... 701 |
| Ierubbaal, neu Ierubbesheth | 716 |
| Ieruel ... | ... 701 |
| Ierusa ... | ... 701 |
| Iesaiah ... | ... 701 |
| Iesanah ... | ... 701 |
| Iesarelah ... | ... 701 |
| Iesariah ... | ... 701 |
| Iesebeab ... | ... 701 |
| Ieser... ... | ... 701 |
| Ieser... ... | ... 716 |
| Iesisai ... | ... 701 |
| Iesse... ... | ... 701 |
| Iesua.. ... | ... 702 |
| Iesui... ... | ... 703 |
| Iesuitiaid ... | ... 703 |
| Iesurun ... | ... 703 |
| Iesus... ... | ... 713 |
| Iesus, Fab Sirach | ... 713 |
| Ietur... ... | ... 726 |
| Iether ... | ... 715 |
| Ietheth ... | ... 715 |
| Iethro ... | ... 716 |
| Ieus ... ... | ... 716 |
| Iezaniah ... | ... 717 |
| Iezebel ... | ... 717 |
| Ieziel.. ... | ... 718 |
| Iezreel ... | ... 718 |
| Ifah ... ... | ... 720 |
| Ifori ... ... | ... 721 |
| Igal ... ... | ... 721 |
| Igdaliah ... | ... 722 |
| Igeal... ... | ... 721 |
| Ignatius ... | ... 722 |
| Ignatius Loyola Gwel Iesuitiaid ... | ... 703 |
| Iibsom ... | ... 722 |
| Iim ... ... | ... 723 |
| Iimnah ... | ... 723 |
| Ileuerwyr ... | ... 723 |
| Ilyricum, neu Ilyria | ... 723 |
| Illtyd Farchog ... | ... 724 |


DIWEDD CYNNWYSIAD Y BUMMED GYFROL.

Digitized by Google

# Y GWYDDONIADUR.



## GALATIAID, YR EPISTOL AT Y.

### I. EI AWDURIAETH.

Y llyfr hwn yw y nawfed yn nhrefn cyflead llyfrau y Testament Newydd, ac ysgrifenwyd ef gan yr apostol Paul. Y mae yr epistol hwn yn sefyll yn y lle blaenaf, fel yr un sydd yn dwyn arno fwyaf o ddelw yr apostol, o ran nodweddion neillduol ei arddull. Y mae yn gymmaint felly, fel y sylwa Windischmann, ag y buasai pwy bynag a wadai ei ddilysrwydd, yn ei brofi ei hunan ar unwaith yn analluog i wahaniaethu rhwng y gwir a'r gau. O ganlyniad, ni bu ammheuaeth erioed o barth i awduriaeth yr epistol.

Ond heb law y profion mewnol, y mae awduriaeth yr epistol yn cael ei gadarnhau gan lawer o brofion allanol. Y mae Irenæus [*Adv. Haer.*, iii. 7, 2] yn dyfynu o'r epistol wrth ei enw. Gwneir cyfeiriadau gan Polycarp [*Ad. Phil.*, *pen.* 3] at *Gal.* iv. 26; ac yn *pen.* v. at *pen.* vi. 7. Ymddengys fod Justin Ferthyr, neu pwy bynag oedd awdwr yr *Oratio ad Græcos*, a argraffwyd yn mhlith ei weithiau, yn cyfeirio at *pen.* iv. 12; ac at *pen.* v. 20 [*Justin*, argr. Otto, td. 12]. Heb law y rhai hyn, y mae llawer o gyfeiriadau mwy anuniongyrchol yn ngweithiau Ignatius, Polycarp, a Justin, y rhai a ddyfynir gan Lardner, a Windischmann, a Davidson.—*Intro. to New Test.*, cyf. ii. td. 318, 319.

### II. Y RHAI YR YSGRIFENWYD EF ATYNT.

Ysgrifenwyd y llythyr hwn "at eglwysi Galatia:" *pen.* i. 2; iii. 1. Preswylwyr Galatia oeddynt Gâliaid neu Geltiaid yn wreiddiol (o'r hyn y cafodd y lle ei enw), y rhai a wnaethent ruthrgyrch i rai o daleithiau Asia Leiaf (Macedonia a Thracia), tua'r flwyddyn 280 c.c. [gwel GALATIA]. Gellid galw yr Epistol at y Galatiaid yn fwy llythyrenol a chywir "yr Epistol at y Gâliaid." Pan y mae yr hanesydd Livy yn son am danynt, geilw hwynt bob amser yn *Galli*. A phan y mae yr haneswyr Groegaidd yn son am drigolion cyntefig Ffrainc, y gair a ddefnyddiant hwy yw "Galatiaid." Nid yw y ddau air ond y ffurfiau Groegaidd a Lladinaidd o'r un enwau; a gellir chwanegu nad yw *Galatæ* a *Celtæ* ond yr un gair.—*Arnold's Rome*, i. 552.

Y mae nodweddion y bobl hyn—hynafiaid cenedl y Cymry—fel y dangosir hwy yn yr epistol yma, yn cyd-daraw yn hynod â'r cymmeriad a roddir i'r hil Geltaidd gan ysgrifenwyr yn gyffredinol. Darlunir hwy gan Cæsar, Thierry, a haneswyr ereill, fel cenedl o ddealltwriaeth cyflym, teimladau bywiog a serchog, hawdd dylanwadu arnynt, yn llawn brwdfrydedd a gwroldeb; ond yn ddiffygiol mewn penderfyniad a dyfalbarhad, yn dra agored i gyfnewid; ac yn wastad yn dueddol i'r ymbleidiau hyny yn eu plith eu hunain ag sydd yn tarddu oddi ar hunan-dyb neu wag-ogonedd. Yn hollol unol â'r dysgrifiad hwn yr oedd ymddygiad darllenwyr y llythyr yma at yr apostol, ac at y gwirionedd a ddysgasid ganddo. Yr oeddynt wedi croesawu yr apostol ar ei ddyfodiad cyntaf i'w plith gyda gwresogrwydd mawr, wedi dangos tuag ato bob caredigrwydd, ac wedi derbyn y gwirionedd yn llawen o'i enau: ond ebrwydd y symmudwyd hwynt oddi wrth eu ffyddlondeb iddo ef ac i'r efengyl; ac yr oeddynt yn awr yn cael eu hud-ddenu yn gyflym, trwy ddylanwad y gau athrawon, i droi yn ol oddi wrth Gristionogaeth at Iuddewiaeth.

Dygwyd yr efengyl gyntaf i'r parthau hyn gan Paul ei hunan: *Act.* xvi. 6; *Gal.* i. 8; iv. 13, 19. Sefydlwyd yr eglwysi yn Galatia yr un pryd, yn ymweliad cyntaf Paul â hwynt, ac yn ystod ei ail daith genadol, o ddeutu y flwyddyn 51 o.c. Ymddengys fod yr eglwysi hyn yn gymmysgedig—yn cael eu gwneyd i fyny o Iuddewon a Chenedloedd. Cyfansoddid hwy yn benaf o'r Cenedloedd—dychweledigion uniongyrchol oddi wrth baganiaeth—rhai ag oeddynt eto heb eu henwaedu, ond ar fin cael eu perswadio i hyny gan yr athrawon Iuddewig. Cyfansoddid hwy mewn rhan hefyd o ddychweledigion Iuddewig, yn cynnwys Iuddewon pur, yn nghyd â phroselytiaid. Dengys yr hanesydd Josephus [*Hynaf.* xvi. 6. 2], fod lluaws o Iuddewon yn trigiannu yn Ancyra—un o brif ddinasoedd Galatia; ac y mae yn debyg fod yr apostol, fel arferol, wedi dechreu ei weinidogaeth yma yn mhlith yr Iuddewon.[1] Er fod y mwyafrif yn Genedloedd, y mae yn amlwg oddi wrth waith yr apostol yn cyfeirio mor fynych at yr Hen Destament, ac yn mabwysiadu y dull rabbinaidd o esbonio drwy alegori (*pen.* iv. 21—31), fod ganddo i ymwneyd âg eglwysi ag oeddynt wedi ymgynnefino â dysgeidiaeth Iuddewaidd, ac yn gydnabyddus â'r Hen Destament. Yn yr amrywiol barotoadau i'r efengyl a raid fod wedi cymmeryd lle yn mha le bynag yr oedd nifer lluosog o Iuddewon, trwy offerynoliaeth y rhai ag oeddynt yn Ierusalem wedi clywed yr Iesu a chredu ynddo, ni raid i ni synu at unrhyw swm o ddylanwad Iuddewaidd sydd yn dyfod i'r golwg, hyd yn oed mewn eglwysi a blanesid gan yr apostol Paul ei hun.

Cyn gadael y mater yma, fe allai y dylid crybwyll fod golygiad gwahanol ar yr eglwysi y cyfeirid y llythyr hwn atynt wedi ei fyntumio yn ddiweddar—yn benaf gan rai o'r awduron

[1] "Yr oedd lluaws o Iuddewon yn preswylio yn Galatia mor fore ag yn amser Augustus, i'r rhai y caniataodd yr ymherawdwr hwnw lythyr o amddiffyniad, yr hwn sydd wedi ei gadw, dan yr enw *Monumentum Ancyrarum*, mewn cerfiad ar bres, yr hwn a osodwyd i mewn yn mur teml Augustus yn Ancyra."—*Olshausen*.



Digitized by Google

Almaenaidd: sef, mai nid trigolion Galatia (briodol) oedd y rhai yr ysgrifenai Paul y llythyr hwn atynt, ond yr eiddo Derbe a Lystra. Cyhoeddwyd y dybiaeth hon ar y cyntaf gan yr esgob Mynster o Copenhagen, mor bell yn ol a'r flwyddyn 1825; a chan Niemeyer, a Dr. Paulus o Heidelberg yn ei esboniad ar yr Epistol at y Galatiaid; ac adgyfodwyd ac amddiffynwyd y golygiad hwn yn ddiweddarach, gyda llawer o ddysgeidiaeth a chywreinrwydd, gan Ulrich a Böttger. Mae y dybiaeth hon yn un lled bwysig, fel y mae yn effeithio ar y cwestiwn o amseriad cyfansoddiad yr Epistol at y Galatiaid; yn gymmaint a bod yr apostol Paul wedi ymweled â Lycaonia yn nghyd â dinasoedd Derbe a Lystra, *cyn* iddo dalu ymweliad â Galatia briodol. O ganlyniad, os cywir y dybiaeth fod yr epistol hwn wedi ei fwriadu yn bennodol i Lycaonia—i drigolion Derbe a Lystra—gellir taflu adeg ei gyfansoddiad mor bell yn ol ag i fod cyn y cynghor apostolaidd yn Ierusalem (*Act.* xv.); yr hyn drachefn sydd yn dyfod yn lled bwysig tuag at eglurhau yr amgylchiadau a gymmerasant le rhwng yr apostolion Paul a Phedr (*Gal.* ii). Ond y mae Rückert, yn ei esboniad ar yr Epistol at y Galatiaid, ac yn rhai o'i ysgrifeniadau ereill, wedi dynoethi geudeb y golygiad hwn mor eglur, fel y gellir ei ystyried yn awr wedi ei lwyr wrthbrofi.

Nid annyddorol fe allai a fyddai i ni osod yma ger bron y darllenydd grynodeb byr o'r ddadl hon, fel y rhoddir ef gan Olshausen, yn ei arweiniad i'w esboniad ar yr Epistol at y Galatiaid. Y rhesymau a ddygir o blaid y dyb—mai wrth yr ymadrodd "eglwysi Galatia" (*Gal.* i. 2; 1 *Cor.* xvi. 1) yr ydys i ddeall eglwysi Lycaonia, ac yn enwedig yr eiddo Derbe a Lystra, ydynt y rhai canlynol. Yn ol y rhaniad Rhufeinig ar y taleithiau, yr oedd yr oll o Asia Leiaf yn cael ei rhanu i saith o ddosbarthiadau; Asia, yn ystyr gyfyngedig y gair, a Phrygia, Bithynia, Galatia, Cappadocia, Pamphylia, a Pontus. Yn ol y rhaniad hwn, y mae yn wir fod talaeth Rufeinig Galatia yn cynnwys Lycaonia hefyd, yn nghyd â Derbe a Lystra. Ond, yn ol Pliny o leiaf, ni chynnwysai ond *rhan* o Lycaonia, tra yr ymddengys fod rhan arall o honi yn perthyn i Cilicia. O ganlyniad, y mae yn ddiammheu fod yn bosibl fod Paul yn defnyddio y gair *Galatia* yn yr un ystyr ag yr oedd y Rhufeiniaid yn gwneyd yn eu dosbarthiad o Asia Leiaf i daleithiau; ac os felly, byddai yn rhaid cymmeryd rhan o Lycaonia i mewn. Ond nid ydyw y dybiaeth hon yn un debygol, a hyny o blegid y rheswm yma:—nid yw y cyfryw raniadau i daleithiau, y rhai nad oeddynt ond mympwyol ar y cyntaf, ac heb law hyny a newidid yn dra mynych yn mhlith y Rhufeiniaid—nid ydynt yn cael eu dwyn i arferiad mor rwydd mewn iaith gyffredin. Y mae Rückert yn sylwi fod hyd yn oed yn awr diriogaethau yn cadw i fyny eu hen enwau am ganrifoedd, er iddynt fod wedi cael eu dosbarthu yn wahanol gan eu llywodraethwyr. Ond yn Llyfr yr Actau y mae Lycaonia bob amser yn cael ei henwi yn bennodol (gwel *Act.* xiv. 6); yr hyn nis gallasai fod pe y dosbarthiad Rhufeinig i daleithiau a fuasai yn cael ei ddilyn, yn gymmaint ag nad oedd un dalaeth o'r enw Lycaonia yn bod yn ol y dosbarthiad hwnw. Heb law hyny, os edrychir i *Act.* xvi. 6, lle y rhoddir hanes am daith Paul o Cilicia i Macedonia trwy yr oll o Asia Leiaf, ceir gweled fod enwau y taleithiau wedi eu cyfleu fel hyn: "Ac wedi iddynt dramwy drwy Phrygia, a gwlad Galatia," &c. Y mae yn amlwg mai Galatia yn yr ystyr priodol, ac nid Lycaonia, a olygir yno. O blegid, tuag at fyned o Cilicia i Phrygia, buasai raid myned trwy Lycaonia; o ganlyniad, dylasai y geiriau fod wedi eu cyfleu yn y gwrthwyneb, sef:—"Ac wedi iddynt dramwy drwy wlad Galatia, a Phrygia," &c. Gellir chwanegu fod Derbe a Lystra wedi eu henwi o'r blaen yn benodol, yn *pen.* xvii. 1. Y mae yn wir ein bod yn darllen yn *Act.* xviii. 23—"gan dramwy drwy wlad Galatia a Phrygia" &c. Ond goddefa y geiriau yna eu hesbonio fel ag i olygu fod Paul, ar ol iddo gychwyn o Antiochia, wedi teithio trwy Cilicia a Lycaonia (y rhai ni enwir) yn gyntaf tua'r gogledd, i Galatia, ac yna tua'r gorllewin, i Phrygia.

Yr amgylchiad arall a allai ymddangos i fod yn bleidiol i'r ystyr eang yma i'r gair *Galatia*, ydyw hwn. Rhoddir yn Llyfr yr Actau adroddiadau manwl am sefydliad eglwysi yn Lycaonia. Ar y llaw arall, ni ddywedir dim am lafurwaith yr apostol Paul yn Galatia: ni ddywedir ond yn unig (*pen.* xvi. 6; a xviii. 23), fod Paul wedi myned trwy Galatia. O blegid hyn, gallai ymddangos yn fwy naturiol i ganiatau fod yr Epistol at y Galatiaid wedi ei gyfeirio at yr eglwysi adnabyddus yn Derbe a Lystra, yn hytrach nag at eglwysi nas gwyddom ddim manylion am eu tarddiad na'u sefyllfa. Ond nid ydyw y ddadl hon o unrhyw bwys, o blegid nid yw Llyfr yr Actau yn ymgymmeryd â rhoddi gwybodaeth fanylaidd gyda golwg ar ba ranau o'r ymherodraeth Rufeinig y darfu i'r apostol sylfaenu eglwysi ynddynt. Heb law hyny, ni roddir yn un man unrhyw hanes am ei daith i Creta, a llawer llai am sefydliad eglwysi yn yr ynys hono. O ganlyniad, nis gellir tynu unrhyw gasgliad yn unig oddi wrth ddystawrwydd yr Actau o berthynas i sefydliad yr eglwysi Galatiaidd. Ond yn chwanegol at hyny, y mae yn *Act.* xvi. 6, gyfeiriad anuniongyrchol at lafur a dysgeidiaeth yr apostol yn Galatia: "Ac wedi iddynt dramwy trwy Phrygia, a gwlad Galatia, a gwarafun iddynt gan yr Ysbryd Glân bregethu y gair yn Asia." O blegid gan na ddywedir ond am Asia "fod yr Ysbryd Glân wedi gwarafun iddynt bregethu y gair," yno, y mae yn ymddangos fod Luc yn golygu fod yr apostol Paul wedi bod yn llafurio yn Phrygia a Galatia yn flaenorol. Fel hyn, yr ydym yn cael ein cau i gasgliad Rückert—nad oes un rheswm digonol dros roddi i fyny Galatia yn yr ystyr priodol, ac y gallwn gasglu fel y peth mwyaf tebygol, fod yr eglwysi at y rhai yr ysgrifenai yr apostol wedi eu sefydlu yn mhrif ddinasoedd Galatia (megys Pessinus, Tabium, Ancyra, a Gordium), gan fod yr apostolion bob amser yn arfer dewis y cyfryw leoedd fel meusydd eu llafur.

### III. ACHLYSUR AC AMCAN EI GYFANSODDIAD.

Tuag at ddeall amcan yr epistol hwn, y mae yn angenrheidiol i ni ymchwilio i ystâd yr eglwysi yn Galatia ar y pryd, ac i'r amgylchiadau neillduol a fuont yn achlysur o'i gyfansoddi. Amcan penaf yr epistol, yn fyr, ydoedd cadarnhau meddyliau Cristionogion Galatia yn ffydd yr efengyl, trwy wrthweithio dylanwad y gau athrawon Iuddewig, y rhai a geisient hudo y Galatiaid oddi wrth eu hymlyniad wrth yr apostol ac oddi wrth y gwirionedd a ddysgasai efe iddynt—eu denu yn ol mewn gair oddi wrth Gristionogaeth at Iuddewiaeth, gan argymhell arnynt yr enwaediad, a chydymffurfiad cyflawn â defodau goruchwyliaeth Moses, fel pethau hanfodol er

Digitized by Google

iachawdwriaeth. Yr amcan eglur hwn ydyw yr agoriad i'r holl epistol.

Yn y chwyldroad mawr a gymmerodd le yn yr eglwys yn nygiad Cristionogaeth i mewn a sefydliad goruchwyliaeth newydd, nid oes dim yn fwy naturiol na thybied y buasai, am gryn amser, anhawsderau yn cyfodi o'r cwestiwn gyda golwg ar berthynas cyfraith Moses â'r efengyl. Dyma yn wir yr anhawsder a'r perygl mawr cyntaf a ymddangosodd yn yr Eglwys Gristionogol, yr hwn a gyfodai yn ei herbyn o'i hegwyddorion hi ei hunan. Yr oedd yr anhawsder hwn o'r dechreuad, fel y gwelir yn amlwg yn Llyfr yr Actau (*pen.* x, xv, xxi, &c.), yn dyfod i gael ei deimlo fwy-fwy yn barhaus, ac felly yn naturiol yn achlysur o ddadblygiad barnau gwahanol o berthynas iddo yn yr Eglwys Apostolaidd. Y golygiad mwyaf cyfyng ydoedd yr un a ddysgid gan gynnrychiolwyr y Phariseaid gorfanwl. Mynent hwy, nid yn unig y *gallai* y Cristionogion Iuddewig ddal i fyny ddefodau y gyfraith fel duwiol ymarferiad, ond fod yn *rhaid* ymlynu wrthynt—fod y gyfraith wedi ei bwriadu gan Dduw i fod yn ordeiniad tragwyddol, a bod iachawdwriaeth yn gyssylltiedig â'r cyflawniad allanol o honi. Darfu i'r holl apostollon yn unfryd ymwrthod â'r golygiad hwn yn eu cymmanfa (*Act.* xv.), a phenderfynu na ofynent i'r Cenedloedd a ddeuent i mewn i eglwys Crist, ond yn unig ar fod iddynt ymgadw at y gorchymynion a roddasid i Noah; ac hyd yn oed hyny, nid fel moddion iachawdwriaeth, ond yn unig o dynerwch tuag at yr Iuddewon a ddychwelasid at Gristionogaeth, y rhai a deimlent anhawsder mawr i ddiddyfnu eu hunain oddi wrth ryw osodiadau neillduol; megys, er esampl, y gwaharddiad i fwyta gwaed neu gig anifail a leddid trwy ei dagu: *Act.* xv. 20. Yr oedd yr holl Gristionogion Iuddewig, y rhai a lynent wrth yr ochr fanylaf o berthynas i gadwraeth y ddeddf, hyd yn oed ar ol penderfyniadau y cynghor apostolaidd, yn awr yn dyfod allan fwy-fwy yn eu gwrthwynebiad i'r gwirionedd, ac yn gweled eu bod o'r diwedd yn cael eu gortodi i gymmeryd iddynt eu hunain ffurf hollol sectaidd. Yr oedd dosbarth arall yn cymmeryd golwg fwy tyner ar y gyfraith, ac yn dal y dylai penderfyniadau yr apostolion gael eu parchu ac ymostwng iddynt, gyda golwg ar y rhai a anesid yn Genedloedd; ond mai gwell oedd i'r Iuddewon ganedig barhau i gydymffurfio â'r gyfraith fel duwiol ymarferiad eu tadau, ond iddynt beidio ag edrych ar y cydffurfiad hwnw fel ammod angenrheidiol iachawdwriaeth. Amddiffynid y golygiad hwn gan Iago, esgob Ierusalem, yn neillduol; ac y mae yn ymddangos mai dyma farn y mwyafrif o'r apostolion. Y mae yn debygol fod y rhai a gymmerent yr olwg hon ar bethau yn rhyw ymsynied fod y Cristionogion Iuddewig wedi eu galw i ffurfio cylch neillduol a mwy dyrchafedig yn yr eglwys ei hunan, o gwmpas yr hwn yr oedd y cylch eangach o Gristionogion Cenedlig yn sefyll mewn pellder mwy oddi wrth y canolbwynt—y rhai a ellid eu cymharu i broselytiaid y porth. Ond yn olaf, yr olwg fwyaf eang a rhyddfrydig ar y cwestiwn pwysig yma oedd yr un a gyhoeddwyd gan yr apostol Paul. Canfyddai efe, yn hollol gywir, duedd yn yr efengyl i ddiddymu y gyfraith yn gyffredinol, o ran ei ffurfiau allanol; fel, nid yn unig nad ydoedd baich y gyfraith i'w arddodi ar y Cristionogion Cenedlig, ond hefyd fod yn rhaid hyd yn oed i'r Cristionogion Iuddewig gael eu rhyddhau oddi wrtho hefyd. Ond er fod yr argyhoeddiad hwn ganddo, darfu i'r apostol, yn ei ddoethineb, ymgadw oddi wrth yr eithafnod yr aeth Marcion iddo. Nid aeth efe mewn un modd i geisio cipio y gyfraith, mewn dull gorthrechol, oddi ar y Cristionogion Iuddewig yn ebrwydd, fel pe buasai yn bechod iddynt ei chadw fel duwiol ymarferiad o eiddo eu tadau; ond gadawodd yr apostol y gwaith o ryddhau y dychweledigion Iuddewig oddi wrthi i ymddadblygiad naturiol Cristionogaeth ei hunan. Ond gyda golwg ar ei ymddygiad ei hun yn yr achos hwn, ei ddull o weithredu oedd fel y canlyn:—pan y byddai yn byw yn mysg y Cenedloedd efe a ymattaliai oddi wrth gadw defodau y gyfraith, ac arferai fyw yn rhydd megys y gwnaent hwythau; ond i'r gwrthwyneb yn mysg Iuddewon, efe a gadwai y gyfraith, fel ag i beidio rhoddi tramgwydd iddynt; "Ac mi a ymwneuthum i'r Iuddewon megys yn Iuddew, fel yr ennillwn yr Iuddewon; i'r rhai dan y ddeddf, megys dan y ddeddf, fel yr ennillwn y rhai sydd dan y ddeddf; I'r rhai diddeddf, megys diddeddf (a minnau heb fod yn ddiddeddf i Dduw, ond dan y ddeddf i Grist) fel yr ennillwn y rhai diddeddf;" 1 *Cor.* ix. 20, 21. Yn awr, er fod yn berffaith sicr mai yr agwedd meddwl rhydd yma oedd yr iawn agwedd gyda golwg ar yr apostol ei hunan, eto y mae yn hawdd i ni ddeall mor agored oedd yr ymddygiad hwn o'i eiddo i gael ei gamesbonio gan y pleidiau unochrog hyny yn mhlith y rhai yr oedd efe yn ymsymmud. Yn gymmaint a bod y Cristionogion Iuddewig, y rhai oedd yn ei ganlyn yn ymddwyn yn gyffelyb iddo yntau yn hyn, yr oedd y Cristionogion oedd am Iuddeweiddio yn haeru ei fod yn cymhell gwrthgiliad oddi wrth y gyfraith, a'i fod yn gwneyd yr Iuddewon eu hunain yn wrthgilwyr—yr hyn oedd yn bell o fod yn wirionedd, yn gymmaint a bod yr apostol yn ofalus yn gochel pob peth a fuasai o duedd i ddwyn oddi amgylch mewn dull gerwin ac uniongyrchol ddiddymiad cyfraith Moses yn mysg yr Iuddewon. Ar y llaw arall, yr oedd yr apostol yn myned i weithio mewn dull rhy arafaidd yn marn y Cristionogion Cenedlig hyny ag oeddynt yn dueddol i fesurau llymion, a'r rhai a gynnrychiolwyd wedi hyny gan y Marcioniaid. Buasai y blaid hon yn dymuno gweled cadwraeth y gyfraith yn cael ei wahardd fel pechod, megys ag y darfu i Eglwys Rhufain mewn amseroedd diweddarach ymylu ar eithaf cyffelyb, pan y gwaharddodd gadwraeth y Sabbath. Darfu i'r apostol gan hyny, gyda doethineb neillduol, ddal ar y llwybr canol rhwng rhyddid Cenedlig a gelyniaeth at yr Iuddewon, a chaethiwed Iuddewig a gelyniaeth at y Cenedloedd; ac felly cadwodd yr eglwys yn y perygl mawr cyntaf a ymosododd arni yn y cyfwng rhwng y ddwy oruchwyliaeth—yn ei chyflwr o fabandod, pan newydd ei geni megys o un ystâd i ystâd arall hollol wahanol—yn ei throsglwyddiad o'r hen fyd Iuddewig i fyd newydd ac ysbrydol yr efengyl.

Yr ydym yn tybied fod y sylwadau blaenorol yn gynnorthwy i'r darllenydd i ffurfio barn ar ystâd gyffredinol yr eglwys apostolaidd, ac felly yn agoriad i ddeall ansawdd pethau yn yr eglwysi yn Galatia yn neillduol; o blegid y perygl y cyfeiriwyd ato ydoedd yr un a ymosodai gyda grym arbenig y pryd hwn ar yr eglwysi yn Galatia. Yn ol Conybeare a Howson [*The Life and Epistles of St. Paul*], daeth y newyddion gofidus am amgylchiadau yr eglwysi yn Galatia i glustiau yr apostol yn ddioed wedi iddo gyrhaedd Corinth, ar ei ail ymweliad â'r ddinas hono. Yr oedd y

Digitized by Google

newyddion anghysurus hyn wedi cyrhaedd Corinth o'i flaen, ar hyd y ffordd unionaf y mae yn debyg, o Ephesus; ac o ddyddiad diweddarach na dim a dderbyniasai efe yn flaenorol: ac y mae yn amlwg ddarfod iddynt gynhyrfu ei syndod a'i eiddigedd yn ddirfawr. Yr oedd ei ddychweledigion yn ninasoedd Galatia, y rhai yr ymddengys yr edrychai arnynt gyda hoffder neillduol, a'r rhai yr oedd eu cariad a'u sel drosto yntau o'r blaen wedi bod mor amlwg—yr oeddynt yn awr yn gyflym yn ymwrthod â'i ddysgeidiaeth, ac yn syrthio yn ebyrth rhwydd i ystrywiau y cenadau Iuddewig o Palestina, y rhai a gynnrychiolent y blaid fwyaf cyfyng ac eithafol o Iuddewon y cyfeiriwyd ati yn barod. Yr oedd y blaid hon â'u canolbwynt yn Ierusalem; ac yr oeddynt y pryd hwn yn ymdrechu i ledaenu eu dysg newydd gydag egni a llwyddiant anarferol. Carient y rhyfel i diriogaeth eu prif wrthwynebydd, yr apostol Paul: ymdrechent i'w wrthweithio hyd yn oed yn nganolbwynt ei ddylanwad, yn mynwes yr eglwysi Cenedlig hyny ag yr oedd efe mor ddiweddar wedi eu planu. Gydag anhawsder mawr yr oedd yr apostol wedi gorchfygu cenadau y blaid hon yn Corinth, os oeddynt yn wir eto wedi eu gorchfygu; ac yn awr, ar ei waith yn cyrhaedd y ddinas hono i ddinystrio gweddillion olaf eu gwrthwynebiad, clywai eu bod wedi bod yn cyflawnu yr un drygwaith yn Galatia—y lle olaf y buasai yn ei ddysgwyl. Fel y sylwyd eisoes, yr oedd yno, fel yn y rhan fwyaf o'r eglwysi Cristionogol cyntefig, gyfran o'r eglwys yn Iuddewon o enedigaeth; ac yr oedd y corff hwn yn ffurfio atteg naturiol i ymdrechiadau y dysgawdwyr Iuddewig. Ar yr un pryd, er fod yr apostol wrth gyfarch y Galatiaid yn cymmeryd yn ganiataol fod rhai yn eu mysg yn gydnabyddus â chyfraith Moses, y mae er hyny yn rhoddi ar ddeall yn eglur fod y mwyafrif yn ddychweledigion oddi wrth baganiaeth. Y mae yn beth hynod gan hyny fod y cenadon Iuddewig hyn mor fuan wedi ennill y fath afael ar eglwysi cynnwysedig yn benaf o Gristionogion Cenedlig; ac y mae y ffaith eu bod wedi gwneyd hyny yn profi nid yn unig eu gweithgarwch diflino, ond hefyd eu medrusrwydd i ddenu a pherswadio a gweithio eu hunain i serchiadau yr eglwysi. Yr oedd eu hamcan yn ddeublyg: darostwng cymmeriad Paul fel apostol, neu yn hytrach wadu ei apostolaeth yn hollol; a thrwy hyny hudo meddyliau y Galatiaid oddi wrth y gwirionedd a ddysgasai efe iddynt. Haerent fod yr enwaediad, a chydffurfiad cyflawn â chyfraith Moses, yn hanfodol er iachawdwriaeth. Ac nid oedd yn anhawdd iddynt wneuthur eu haeriadau yn olygus, ac o gymmaint a hyny yn fwy pheryglus. Yn gymmaint a bod yr Hen Destament yn cael ei dderbyn fel cyfrol ysbrydoledig gan yr Eglwys Gristionogol, yr oedd yn hawdd iddynt wneyd allan trwy ddeongliad llythyrenol, fod y ddeddf yn aros yn dragywyddol—fod holl orchymynion cyfraith Moses yn rhwymedig ar ddynion hyd ddiwedd y byd. Trwy y ddysg hon, arweinient y credinwyr yn yr eglwysi hyn i ddyryswch ac ansicrwydd o berthynas i ffordd iachawdwriaeth.

Ond yr oeddynt yn deall yn dda mai un o'r prif rwystrau ar ffordd llwyddiant eu hathrawiaeth, ydoedd y dylanwad personol cryf a ennillasai Paul ar feddyliau y Cristionogion hyn, yr hyn a amlygid yn eu serch a'u hymlyniad gwresog wrtho. O ganlyniad, ymdrechent trwy bob ystrywiau enllibus, i ddarostwng ei gymmeriad fel apostol, a thrwy hyny leihau ei ddylanwad ar y Cristionogion Galataidd. Cyhuddent ef wrth y Galatiaid o anonestrwydd, neu ddiffyg cywirdeb, yn gymmaint a'i fod ef ei hun yn cadw y ddeddf pan yn mysg yr Iuddewon, ond eto yn perswadio y Cenedloedd i ymwrthod â hi (*Gal.* v. 11): dadleuent mai ei amcan oedd cadw ei ddychweledigion mewn cyflwr israddol, wedi eu cau allan o freintiau cyfammod cyflawn â Duw, y rhai a fwynheid gan yr enwaededig yn unig (cymharer *pen.* iv. 16, â ii. 17): haerent mai gwenieithwr hunangeisiol ydoedd (*pen.* i. 10), yn gwneuthur ei hunan "yn bob peth i bawb," fel y gallai wneyd plaid iddo ei hun: ac uwch law y cwbl mynent ei fod yn ei gamddarlunio ei hunan fel apostol i Grist, yn gymmaint ag nad oedd efe, fel y deuddeg, wedi bod yn ganlynwr Crist pan ar y ddaiar nac wedi derbyn ei gommisiwn ef, nac, o ganlyniad, yn gwybod pa beth a ddysgasai Crist ei hunan: i'r gwrthwyneb, nad oedd efe ond dysgawdwr wedi ei anfon allan trwy awdurdod y deuddeg, ac nad oedd ei ddysgeidiaeth i'w derbyn ond yn unig mor bell ag yr ydoedd yn cytuno â'r eiddynt hwy, ac yn cael ei selio ganddynt; tra yr oedd ei athrawiaeth (fel yr haerent hwy) yn awr yn wrthwynebol i'r eiddo Pedr ac Iago, a *cholofnau* ereill yr eglwys (gwel y ddwy bennod gyntaf o'r epistol). Trwy y cyfryw ymresymiadau, llwyddasant i fesur helaeth i beri i'r Cristionogion Galataidd ymddyeithro oddi wrth eu tad yn yr efengyl. Yr oedd amryw ddychweledigion diweddar eisoes wedi ymostwng i'r enwaediad (*pen.* vi. 13), ac wedi rhoddi derbyniad i blaid eu hathrawon newydd gyda'r un aiddgarwch ag a ddangosasent cyn hyny at Apostol y Cenedloedd (*pen.* iv. 14, 15); a thaflwyd y gweddill o'r eglwys i gyflwr o derfysg ac ymraniad.

Yr oedd hwn yn ddiau yn gyfnewidiad mawr a sydyn. Dyma y rhai oedd, ychydig yn ol, wedi derbyn yr apostol "megys angel Duw, megys Crist Iesu"—y rhai, "pe buasai bosibl a dynasent eu llygaid ac a'u rhoisent iddo ef"—yn awr, "wedi eu symmud mor fuan oddi wrth yr hwn a'u galwodd i ras Crist, at efengyl arall." Dyma y rhai a ddechreuasant "redeg yn dda" wedi eu "rhwystro"—wedi eu "llygad-dynu" gan y sel hono sydd yn amgylchu môr a thir i wneuthur un proselyt: wele hwynt yn awr, yn angerddoldeb eu hysbryd ymbleidiol, mor barod i "gnoi a thraflyncu eu gilydd," ag oeddynt o barod i newid y naill athraw am y llall a'r naill efengyl am "efengyl arall."

Ar dderbyniad y newyddion cyntaf am yr amgylchiadau gofidus hyn, y mae yr apostol yn prysuro i roddi attalfa ar y drwg cyn iddo fyned yn anfeddyginiaethol. Y mae yn ysgrifenu at y Galatiaid epistol sydd yn dechreu gyda'r fath sydynrwydd a llymder ag sydd yn dangos yn amlwg ei deimlad o bwys yr amgylchiad ac o fawredd y perygl. Yn gymmysgedig â'r llymder hwn, nodweddir y llythyr gan dôn o dristwch serchiadol, y cyfryw ag a deimlid yn naturiol gan ddyn o serchiadau mor wresog, pan y clywai fod y rhai a garai yn gwrthgilio oddi wrth ei achos, ac yn credu enllibiau ei elynion. Ei brif amcan yn y llythyr hwn ydyw dangos fod athrawiaeth y gau athrawon Iuddewig, mewn gwirionedd, yn dinystrio gwir hanfod Cristionogaeth, ac yn ei darostwng o fod yn fywyd tu fewnol ac ysbrydol i fod yn gyfundraeth allanol a seremoniol. Ond i'r dyben o symmud ymaith yr hadau ymddyeithriad ac anymddiried a blanesid yn fwriadol yn meddyliau ei ddychweledigion, y mae yn dechreu y llythyr trwy lawn wrthbrofi yr haeriadau

Digitized by Google

anwireddus a daenesid yn ei erbyn gan ei wrthwynebwyr; ac yn neillduol trwy amddiffyn ei deitl i'r swydd apostolaidd fel wedi ei derbyn yn uniongyrchol oddi wrth yr Arglwydd Iesu Grist ei hunan, ac yn cael ei hymarfer yn annibynol ar yr apostolion ereill. Y cyfryw ydoedd yr amgylchiadau a'r amcanion a arweiniasant yr apostol i ysgrifenu y llythyr hwn.

IV. MATER, CYNLLUN, AC ARDDULL YR EPISTOL.

Fe welir oddi wrth y sylwadau blaenorol fod amcan yr apostol wrth ysgrifenu y llythyr hwn yn ddyblyg:—1. Amddiffyn ei gymmeriad ei hun fel apostol yn ngwyneb enllibiau y gau athrawon Iuddewig. 2. Profi gwirionedd yr athrawiaeth a ddysgasai efe i'r Galatiaid, yn ngwyneb gwaith y gau athrawon hyn yn ceisio dadymchwelyd eu ffydd. Yn unol â'r amcan dyblyg hwn, y mae y llythyr yn gynnwysedig o ddwy ran ymresymiadol; at yr hyn y chwanegir rhan ymarferol. Y mae yr epistol gan hyny yn ymranu yn naturiol i dair rhan. Y mae y rhan gyntaf (*pen.* i, a ii.) yn amddiffynol (*apologetic*); yn yr hon y mae Paul yn profi ei apostoliaeth, ac yn rhoddi crynodeb o hanes ei yrfa apostolaidd. Y mae yr ail ran (*pen.* iii, a iv.) yn ddadleuol (*polemic*); yn yr hon y mae yr apostol yn egluro ac yn profi ei athrawiaeth. At hyn, chwanegir yn naturiol y drydedd ran (*pen.* v, a vi.); yr hon sydd yn cynnwys diweddglo ymarferol.

Gellir dosbarthu y prif ranr·ı hyn drachefn i adranau. Y mae y *rhan gyntaf* yn cynnwys tedair adran. Yn y gyntaf o'r rhai hyn yr ydym yn cael y cyfarchiad (*pen.* i. 1—5). Yn yr ail, y mae yr apostol yn ceryddu y Galatiaid am eu hanwadalwch; yn hòni mai yr efengyl a bregethasai efe iddynt ydoedd yr unig wir efengyl; yn dadgan ei syndod wrth eu gweled wedi eu symmud mor fuan oddi wrth yr hwn a'u galwodd i ras Crist at efengyl arall; yn dynoethi y rhai a'u hudasent fel trallodwyr yr eglwys, dattröwyr efengyl Crist, ac yn haeddu, hyd yn oed pe buasent angelion o'r nef, yn lle cael eu dilyn, fod o dan esgymundod. Y mae yn hòni dwyfol darddiad ei apostoliaeth—yn dangos ei fod wedi derbyn ei anfoniad a'i ddysgeidiaeth yn uniongyrchol oddi wrth yr Arglwydd Iesu ei hunan, yn annibynol ar bob cyfrwng dynol: y mae yn egluro hyn trwy roddi crynodeb o hanes ei ddychweliad a'i lafurwaith boreuol yn ngwasanaeth Crist, trwy yr hyn y dengys nad ydoedd, yn y blynyddoedd cyntaf ar ol ei ddychweliad, wedi bod ond ychydig yn nghymdeithas yr apostolion: *pen.* i. 6—24. Yn y trydydd paragraph, y mae yn adrodd hanes ei daith bwysig i Ierusalem—i gymmanfa yr apostolion. Dengys yr adroddiad hwn ei fod yn ymwneyd â'r apostolion ereill ar deleran hollol gydradd, a'i fod yntau yn cael ei gydnabod ganddynt fel eu cydradd—ei fod yn y cynghor wedi bod o dan angenrheidrwydd i amddiffyn ei egwyddorion mewn dadl â'r Iuddewon Cristionogol, a'i fod ef a'r prif apostolion wedi dyfod i gytundeb cyfeillgar ar fod iddo ef lafurio yn mhlith y Cenedloedd, a hwythau yn mhlith yr Iuddewon—yn unig ar fod iddo beidio anghofio y tlodion yn Ierusalem: *pen.* ii. 1—10. Yn y bedwaredd adran, y mae yr apostol yn adrodd hanes y drafodaeth hynod a gymmerodd le rhyngddo ef a Phedr a Barnabas yn Antiochia; ac yn galw sylw ei ddarllenwyr at ei waith ar yr achlysur hwnw yn amddiffyn ei egwyddorion yn eofn ac agored; ie, yn meiddio gwrthwynebu yr apostol Pedr ei hunan, "yn ei wyneb," o herwydd ei fod wedi dangos ei hunan yn llwfr a sigledig gyda golwg ar y berthynas rhwng y ddeddf a'r efengyl; trwy yr hyn y rhydd ar ddeall iddynt ei fod ef yn sefyll ar dir hollol gydradd â'r deuddeg o ran awdurdod ac urddas apostolaidd. Y mae hyn yn rhoddi achlysur i'r apostol i osod i lawr brif bwngc ei lythyr, sef yr athrawiaeth o "gyfiawnhâd trwy ffydd," neu iachawdwriaeth o ras Duw trwy ffydd yn Nghrist—nad yw pechadur, yn nhrefn yr efengyl, yn cael ei gyfiawnhau trwy weithredoedd y ddeddf, ond trwy ffydd yn Nghrist; ac o ganlyniad, nas gellid ail osod i fyny y ddeddf dan oruchwyliaeth gras, heb ddinystrio ysbryd yr efengyl; fod y Cristion "trwy y ddeddf wedi marw i'r ddeddf," a'i fod, fel y cyfryw, i fyw o hyny allan "trwy ffydd Mab Duw;" *pen.* ii. 11—21.

Yn yr adran uchod yr ydym yn cyfarfod âg un o'r adnodau hyny, o ba rai y mae amryw yn yr epistol hwn, a ystyrir gan esbonwyr fel rhai ag y mae anhawsderau neillduol yn eu cylchynu; "Canys yr wyf fi trwy y ddeddf wedi marw i'r ddeddf, fel y byddwn fyw i Dduw;" *pen.* ii. 19. Yn mha ystyr yr oedd Paul (ac y mae pob credadyn) "wedi marw i'r ddeddf?" A pha fodd y mae hyny yn cymmeryd lle "trwy y ddeddf?" Dywed Alford fod rhai o'r tadau, yn nghyd â Luther, Bengel, ac ereill, yn golygu wrth *y ddeddf* yn y rhan flaenaf o'r adnod, *yr efengyl*, yr un â "deddf ysbryd y bywyd" yn *Rhuf.* viii. 2. Cymmer rhai absennoldeb y fannod yn y gwreiddiol o flaen y gair *deddf* i gefnogi y golygiad yna: "Yr wyf fi *trwy ddeddf* wedi marw *i ddeddf*"—trwy y naill ddeddf wedi marw i ddeddf arall—trwy yr efengyl wedi marw i'r gyfraith. Ond y mae y cyd-destyn yn milwrio yn erbyn yr ystyr hwn, fel y gwelir ond dilyn ymresymiad yr apostol yn y paragraph. Nis gellir seilio unrhyw resymau grammadegol, fel y sylwa Ellicott, ar absennoldeb y fannod yn y lle hwn. Ceir llawer o anghreifftiau o νόμος (yn yr ystyr o gyfraith Moses) fel un o'r cyfun-eiriau difannod (*anarthrous concretes*) yn y Testament Newydd, yn *Winer's Grammar of the New Testament Diction* adr. xix. td. 135, ail argr. Y golygiad cywiraf a chryfaf o lawer, i'n tyb ni, ar yr adnod ydyw yr un a roddir gan Ellicott, ac â'r hwn y mae Alford, o ran sylwedd, yn cytuno. Rhoddwn yma dalfyriad o sylwadau Ellicott ar y geiriau:—"O'r holl esboniadau ar y geiriau tywyll hyn, yr un canlynol (wedi ei dynu gan mwyaf o Chrysostom) a ymddengys o lawer y mwyaf amddiffynadwy a mwyaf boddhaol. Gellir ei symio i fyny yn y gosodiadau canlynol:—1. Yr un ystyr sydd i *νομος=deddf*, yn yr adnod yn y ddau le. 2. Rhaid mai yr ystyr hwnw ydyw (fel y mae y cyd-destyn yn gofyn) y ddeddf Foesenaidd. 3. Edrychir ar y ddeddf yn yr un goleuni ag yn *Rhuf.* vii. 6—13—paragraph sydd yn cyfateb yn hollol i'r un dan sylw. 4. Rhaid peidio deall *δια νομον=trwy y ddeddf*, fel yn gyfystyr â *δια νομον* neu *κατα νομον=o blegid*, neu *ar gyfrif* y ddeddf: trwy offerynoliaeth y ddeddf (*trwy* y gorchymyn, yn *Rhuf.* vii. 8) y darfu i'r egwyddor bechadurus weithio oddi mewn a dwyn marwolaeth ar bawb 5. Nid yw "wedi marw" yn golygu yn unig *ymadael*, neu *ffarwelio â'r ddeddf*; ond gesyd allan yn gyffredinol yr hyn a enwir yn fwy neillduol yn mlaen, yn *adn.* 20, trwy yr ymadrodd "croeshoelio gyda Christ." ['Y ffordd yn mha un y darfu i mi farw i'r ddeddf oedd, trwy gael fy uno â, a'm cynnwys yn marwolaeth y corff Crist hwnw, yr hwn a groeshoeliwyd.—*Alford.*] 6. Nid ydyw *i'r ddeddf* yn golygu yn unig 'o

Digitized by Google

berthynas i," neu "gyda golwg ar" y ddeddf; ond ei fod 'wedi marw fel yr oedd y ddeddf yn gofyn.' Gellir aralleirio yr holl ymadrodd gan hyny fel hyn:—'*Myfi, trwy y ddeddf*, o herwydd pechod, a ddygwyd o dan ei melldith; ond gan fy mod wedi dyoddef hono, gyda, ac yn mherson Crist (cymharer *pen.* iii. 13, â 2 *Cor.* v. 14) yr ydwyf wedi *marw i'r ddeddf* yn yr ystyr llawnaf a dyfnaf—yr ydwyf yn rhydd oddi wrth ei hawliau, ac hefyd wedi dyoddef ei melldith.' Y mae y gwahaniaeth rhwng yr esboniad hwn a'r rhai cyffredin yn gorwedd yn benaf yn yr ystyr llawnach a roddir i'r ymadrodd "wedi marw," a'i gyfeiriad at y "cyd-groeshoelio."—*Ellicott's Commentary on the Epistle of St. Paul to the Galatians*, ar yr adnod.

Yn yr *ail ran*, neu yr un ddadleuol, y mae yr apostol yn myned i mewn yn helaeth i brif fater y llythyr—i brofi ac egluro gwirionedd y gosodiadau sylfaenol=fod cyfiawnhad pechadur trwy ffydd yn unig, ac nid trwy weithredoedd y ddeddf; ac mai y rhai sydd o ffydd ydynt unig etifeddion yr addewid, a gwir blant Abraham. Y mae yr apostol yn sefydlu y gwirionedd hwn trwy ymresymiad (*pen.* iii.); trwy appeliad (*pen.* iv. 12—20); a thrwy eglurhad neu gymhariaethau (*pen.* iv. 1—7, 21—30). Gellir dosbarthu y rhan hon eto i bedair adran. Yn y gyntaf, y mae yr apostol yn appelio yn mlaenaf dim at *brofiad* y Galatiaid, ac yn galw arnynt i gyfaddef fel yr oeddynt wedi derbyn yr Ysbryd Glân, nid trwy y ddeddf, ond trwy y pregethiad syml o'r efengyl. Yr oeddynt felly wedi "dechreu yn yr Ysbryd;" ond wrth ddychwelyd at Iuddewiaeth, yr oeddynt am gael eu "perffeithio yn y cnawd"—symmud yn ol, yn lle yn mlaen. Dengys fod hyd yn oed Abraham ei hunan, tad y genedl Iuddewig, wedi ei gyfiawnhau, nid trwy gydffurfiad âg unrhyw ddefodau, ond trwy yr un drefn ag y cyfiawnheir y Cenedloedd—trwy ffydd yn addewidion Duw am y Messiah hwnw ag oedd i ddyfod o'i lwynau; ac felly fod Abraham yn dad y *ffyddloniaid*—yn "dad *pawb* a gredant"—Iuddewon a Chenedloedd. Y mae yn profi o'r Hen Destament—Ysgrythyrau yr Iuddewon eu hunain—fod iachawdwriaeth trwy y ddeddf yn *anmhosibl;* a hyny am fod holl ddynolryw yn droseddwyr o honi, ac felly o dan ei melldith; ac heb law ei fod yn anmhosibl, fod ceisio hyny yn *afreidiol;* fod trefn cyfiawnhad trwy ffydd eisoes wedi ei rhagfynegu; fod melldith y ddeddf wedi ei symmud ymaith trwy y prynedigaeth sydd yn Nghrist, "fel y delai bendith Abraham ar y Cenedloedd trwy Grist Iesu, fel y derbyniem addewid yr Ysbryd trwy ffydd;" *pen.* iii. 1—14. Yn yr ail adran, y mae yr apostol yn mhellach yn dangos y berthynas rhwng y ddeddf a'r efengyl trwy y gymhariaeth o gyfammod neu destament dynol; ac yn profi nad oedd y ddeddf, yr hon a ddaeth yn ddiweddarach, yn dirymu yr addewid a wnaethpwyd yn flaenorol gan Dduw i Abraham.

Yn yr adran hon eto yr ydym yn cyfarfod â chyfran (o *adn.* 15 i *adn.* 20) nodedig o anhawdd —y fwyaf anhawdd ei hesbonio, fe allai, yn holl ysgrifeniadau yr apostol, ac un sydd wedi achlysuro nifer mawr o olygiadau gwahanol yn mhlith yr esbonwyr goreu, hen a diweddar. Gwelir ar unwaith nad yw yn rhan o amcan erthygl fel yr un bresennol (yr hon a fwriedir yn unig fel agoriad cyffredinol i'r epistol), ac na oddefa ein terfynau chwaith, i geisio at roddi eglurhad manwl a chyflawn ar yr holl gwestiynau dyrus sydd yn cyfodi o'r paragraph dan sylw. Amcanwn yn unig gyfleu yn fyr ffrwyth ymchwiliadau rhai o'r beirniaid goreu a mwyaf diweddar ar yr adnodau hyn, er mwyn dangos eu hystyr a'u hamcan cyffredinol, fel y maent yn ffurfio rhan o ymresymiad yr apostol yn y gyfran hon o'i lythyr.

Y mae yn amlwg mai amcan cyffredinol y paragraph ydyw egluro *lle* y ddeddf foesol, yr hon oedd megys cnewyllun neu ganolbwynt yr holl gyfundraeth Foesenaidd, yn ei pherthynas â'r efengyl—profi fod y ddeddf yn *wasanaethgar* i'r efengyl, ac nid yn *wrthwyneb* iddi. Edrychir ar yr efengyl yma yn y ffurf *addawol* a roddwyd arni o'r dechreuad, yn gwreiddio yn yr addewid a roddwyd i Abraham. Gelwir yr addewid hon, yn *adn.* 16, yn "addewidion;" yn gymmaint a'i bod wedi ei chadarnhau ar wahanol adegau, ac wedi ei chyfiwyno mewn gwahanol ymadroddion; ac yn cynnwys, fel y mae Bengel yn sylwi, nid yn unig fendithion daiarol, ond rhai nefol ac ysbrydol hefyd; mewn gair, yr oll o'r daioni dwyfol sydd yn dyfod i bechaduriaid trwy Iesu Grist. Yr oedd yr addewid hon—gwreiddyn yr holl addewidion—yn cael ei gwneuthur hefyd i Abraham yn y ffurf o *gyfammod: Gen.* xvii. 2, 4, 7—11. Profi cadernid y cyfammod hwn, neu yr efengyl dan y ffurf yma, y mae yr apostol yn y paragraph: gan ddangos nad oedd y ddeddf, yr hon a roddwyd yn ddiweddarach, yn ei ddirymu; ond yn hytrach mai un o ddybenion rhoddiad y ddeddf ydoedd parotoi y ffordd a gwasanaethu i amcanion mawr y cyfammod. Y mae yr apostol, yn *adn.* 15, yn edrych ar y pwnc oddi ar safle ddynol yn unig: "Y brodyr, dywedyd yr wyf ar wedd ddynol; cyd na byddo ond ammod dyn, wedi y cadarnhaer, nid yw neb yn ei ddirymu, neu yn rhoddi ato." Y mae Olshausen, gan ddilyn Awstin ac ereill, yn deall wrth yr *ammod* (yn hytrach "cyfammod" = διαθήκη) — "testament," y ffurf gadarnaf o gyfammod dynol, ac mai cyfeiriad at y drychfeddwl o destament sydd yn y gair *etifeddiaeth: adn.* 18. Ond y mae Alford ac Ellicott yn ymwrthod â'r syniad o destament yn y lle hwn, oddi ar drefn y geiriau, ac oddi ar y gymhariaeth a awgrymir rhwng cyfammod *dyn* a chyfammod *Duw*. Ond, fel y sylwa Calvin, nid yw o nemawr bwys, o ran yr ymresymiad, pa un o'r ddau air a gymmerir: y mae yn amlwg mai yr ystyr yw—fod hyd yn oed gyfammodau neu gytundebau dynol, wedi iddynt gael eu tynu allan yn rheolaidd, a'u cydnabod fel y cyfryw gan y pleidiau, yn gadarn a digyfnewid; pa faint mwy gan hyny addewid neu gyfammod y Duw digelwyddog? Y mae yn ddiammheu, dybygem, oddi wrth y geiriau, "cyd na byddo ond ammod *dyn*," a'r lle pwysleisiol a roddir i'r gair *dyn* yn y frawddeg, fod yma gymhariaeth yn cael ei dirgel awgrymu rhwng cadernid cyfammod dyn a'r eiddo Duw. Ar yr un pryd dylid cofio, er mwyn dilyn ymresymiad yr apostol yn fanwl, mai nid dyna y *ffurf* resymegyddol a roddir ganddo i'w ddadl yn yr adnodau hyn. Nid yw *adn.* 16 (fel y tybir yn gyffredin), yn cynnwys yr ail fraich (*minor proposition*) yn y cyfreswm: nid ydym yn cael hono hyd *adn.* 17. Felly y mae *adn.* 16 yn dyfod i mewn megys rhwng cromfachau, yn nghanol yr ymresymiad, i'w egluro a'i gadarnhau: —"I Abraham y gwnaethpwyd yr addewidion, ac i'w had ef. Nid yw yn dywedyd, Ac i'w hadau; megys am lawer; ond megys am un, Ac i'th had di, yr hwn yw Crist;" *adn.* 16. Y mae yr adnod hon wedi achosi cryn ddyryswch i esbonwyr, o amser Jerome hyd yn awr; ac y mae rhai o'r ysgrifenwyr Almaenaidd, megys Ewald a Baur,

&c., wedi beiddio cyhuddo yr apostol o gau resymu yn y lle hwn, drwy chwareu ar y geiriau *had* a *hadau*, gan ddilyn dull y rabbiniaid o esbonio, &c. Y rheswm a ddygir ganddynt dros y cyhuddiad hwn ydyw—nad yw y gair Hebraeg a gyfieithir yma *had* yn meddu ond y rhif unigol, fel enw cynnulliadol (*collective noun*); nad ydyw byth yn y rhif luosog, *hadau*, ond yn yr ystyr o rawn, megys *Dan*. i. 12. (Y mae Alford hefyd yn nodi 1 *Sam*. viii. 15, lle y defnyddir ef am ronynau ŷd.) Cymmerwn ein rhyddid yma i osod i lawr ddau neu dri o ddyfyniadau sydd yn cyfarfod â'r wrthddadl uchod, dybygem, yn hollol lwyr a boddlonol, ac ar yr un pryd yn egluro gwir feddwl yr apostol yn yr adnod. Rhoddwn y cyntaf, o esboniad ar yr epistol hwn gan Windischmann—esboniwr Pabaidd—(dyfynedig gan Alford):—"Y mae ein meistriaid diweddar mewn duwinyddiaeth wedi cymmeryd i fyny yr wrthddadl, yr hon sydd can hyned a Jerome, a chan ollwng yn anghof fod Paul yn deall Hebraeg yn well na hwynthwy, y maent wedi ei feio yn dost am bwyso ar y gair *had* (σπέρματι) yn y rhif unigol yma, ac felly cyflawnhau ei gymhwysiad at Grist; yn gymmaint ag nad oes rhif luosog i'r gair sydd yn y testyn Hebraeg, ac felly nas galleaid ei ddefnyddio yn y rhif luosog. Ac eto y maent mor garedig a chaniatau nad oedd gan Paul yr un amcan i dwyllo, ond yn unig ei fod yn dilyn esboniadaeth fympwyol Iuddewon ei amser ef. Nid ydyw ymresymiad yr apostol yn dibynu ar y ffurf ramadegol, trwy yr hon nid yw Paul yma ond yn unig yn trosglwyddo ei feddwl yn yr iaith Roeg: ond ar hyn—fod Ysbryd Duw yn yr addewid i Abraham, ac yn yr adnod o'r Ysgrythyr sydd yn cyfleu yr addewid hono, wedi dewis gair sydd yn arwyddo undod cynnulliadol, ac nad oedd yr addewid wedi ei rhoddi i Abraham *ac i'w blant*. Yn wrthwynebol i ragfarn yr Iuddewon cnawdol—y rhai a honent fod yr addewid yn perthyn i'r lluosogrwydd o honynt hwy, hiliogaeth bersonol y patriarch, fel y cyfryw—y mae yr apostol yn dal allan y gwirionedd, nad oes i neb gyfran yn yr addewid ond yn unig yr undod=Crist, yn nghyd â'r rhai a gydgorfforir ynddo ef." Y mae Olshausen eto yn gosod yr un syniad mewn goleuni cryf yn y dyfyniad canlynol:—"Yr oedd Paul yn dymuno gosod hiliogaeth Abraham *mewn un ystyr*, yn gyferbyniol i'r hiliogaeth hwnw *mewn ystyr arall*, fel nad ydyw efe yn llefaru am bersonau unigol, ond am ddosbarthiadau o bersonau. Megys nad oedd yr holl blant o gorff Abraham yn etifeddion o'i fendith ef, eithr Isaac yn unig, fel y dangosir yn mhellach (*Gal*. iv. 22, &c.), felly hefyd nid hiliogaeth Abraham, mewn ystyr naturiol yn unig, ydynt etifeddion ei addewidion ef; ond yn unig y *Crist* yn eu mysg hwynt yw yr etifedd hwnw, yr hwn (etifedd) a gyfansoddir o'r rhai a 'gerddant lwybrau ffydd Abraham;' *Rhuf*. iv. 12. Y gwahaniaeth hwn rhwng had Abraham yn ol y cnawd ac yn ol yr ysbryd, gyda golwg ar eu perthynas âg addewidion grasol Duw, ydyw yr hyn sydd i gael ei osod allan drwy y pwys a roddir ar y rhif unigol. Yn awr, pe gofynai rhywun a oedd y syniad yna yn cael ei gynnwys yn fwriadol yn y gair *had* yn y rhif unigol gan awdwr Llyfr Genesis, nis gallwn ni mewn un modd ddyweyd ei fod. Ond yr oedd gan Paul, fel yr holl ysgrifenwyr yn y Testament Newydd, trwy oleuni yr Ysbryd Glân, lawn allu i ymgyfodi uwch law y safle oddi ar ba un yr oedd yr ysgrifenydd yn ymwybodol yn edrych ar y pwnc, ac i ddadlenu gwirionedd mwyaf tufewnol y syniad, yn unol â meddwl yr hwn a addawa ac a brophwydai."—*Olshausen's Commentary on the Epistle to the Galatians*, td. 56. I'r un perwyl y mae Ellicott yn dal allan fod "ystyr cyfriniol i ddefnyddiad y gair Hebraeg yn *Gen*. xiii. 15, a xvii. 8, a gyfieithir *had*, mor sicr a bod dadl dros yr adgyfodiad yn *Exod*. iii. 6, er nad oedd yr ysgrifenydd o angenrheidrwydd yn hysbys o hyny yn y naill le na'r llall. Megys ag y mae y gair crybwylledig (זרע) yn gyffredin (oddi gerth *Gen*. iv. 25, a 1 *Sam*. i. 11), yn ei ystyr syml yn dynodi nid yn unig hiliogaeth dyn, ond ei olafiaid, a'u hystyried yn un—yn eu cyfanrwydd cydgyssylltiedig; felly yma, yn ei ystyr cyfriniol, y mae yn dynodi nid yn unig hiliogaeth ysbrydol Abraham, ond efe yn yr hwn y mae yr holl hiliogaeth hwnw wedi eu cyfluniol gydgyssylltu—y *cyflawnder*, y *Pen*, sef Crist."—*Ellicott's Com. on the Epistle to the Galat*., ar yr adnod. Y mae y darllenydd erbyn hyn, ni a dybiem, yn hollol barod i edrych ar yr ymadrodd olaf yn yr adnod dan sylw yn ei wir a'i gyflawn ystyr:—"yr hwn yw *Crist*." Nid yr "Iesu Grist" personol yn unig: pe felly, fel y sylwa Alford, yr enwad personol, "Crist Iesu," a ddefnyddiasid; fel yn *adn*. 28—"Canys chwi oll un ydych yn Nghrist Iesu." Yma, lle y dynodir *y person* yn unig, gofelir am roddi yr enw personol—Crist Iesu: ond yn yr adnod dan sylw, golyga y gair, yr Arglwydd Iesu Grist, *a'i eglwys ynddo*, ac yn *un âg ef*. "Y gwirionedd ydyw, fod yn rhaid i ni osod ein hunain yn sefyllfa Paul gyda golwg ar y syniad am Grist, cyn y gallwn gymmeryd i mewn yr oll a feddyliai efe yn y fan yma wrth y gair. Y mae Cristionogion, nid trwy ffugr, ond yn wirioneddol yn *gorff Crist;* y mae Crist yn cynnwys ei bobl, a gwnai hyd yn oed y crybwylliad am y Crist personol ddwyn gydag ef i feddwl yr apostol ei bobl grediniol fel y maent yn gynnwysedig ynddo. Yr had hwn yw *Crist;* nid yn yr ystyr gyfyngaf yn unig—y dyn Crist Iesu—ond Crist yr Had, Crist yr Ail Adda, Crist Pen y corff...... Felly, tra y mae yn angenrheidiol er mwyn ffurf yr ymresymiad yma, i'w ddynodi ef, i'r hwn y gwnaethpwyd yr addewidion.........eto y mae yr apostol wedi dwyn ei enw i mewn yn y fath fodd fel ag i beidio cau am ei bersonoliaeth, ond yn gadael lle i gymmeryd i mewn ei gorff dirgeledig ef."—*Alford*. Yr ydym yn hyderu y gwelir erbyn hyn yn lled eglur mai ystyr yr adnod dan sylw yn fyr ydyw hyn:—Ni wnaed y cyfammod, yn unig, nac yn benaf, âg Abraham, ond âg Abraham *a'i had;* ac yr oedd yr had hwnw yn cyfeirio, nid at y genedl Iuddewig, ond at Grist. Yn awr, pan roddwyd y ddeddf, nid oedd y cyfammod yna wedi ei gyflawnu; ond yr oedd y cyfammod y pryd hwnw yn aros ei gyflawniad, ac yn aros ymddangosiad y person hwnw â'r hwn y gwnaethpwyd ef.

Mewn canlyniad i hyn, y mae yr hyn a ddywedir yn *adn*. 17, yn ymddangos yn eglur: sef, "am yr ammod a gadarnhawyd o'r blaen gan Dduw yn Nghrist, nad yw y ddeddf, oedd bedwar cant a deg ar ugain o flynyddoedd wedi, yn ei ddirymu, i wneuthur yr addewid yn ofer." Yr oedd y ddeddf yn dyfod i mewn *rhwng* yr addewid a'i chyflawniad—rhwng rhoddiad yr addewid ac ymddangosiad y person mawr hwnw i'r hwn yn benaf y gwnaethid yr addewid. Pa beth a allasai y ddeddf, yn dyfod i fewn yn y cyfwng hwn, effeithio ar yr addewid? Nis gallasai ei dirymu na'i chyflawnu. Nis gallasai, yn ol natur

Digitized by Google

y naill a'r llall, "ei dirymu—i wneuthur yr addewid yn ofer:" ac yn gymmaint a bod yr addewid yn rhan o gyfundrefn o *ras*, a'r ddeddf yn dyfod rhwng yr addewid a'r cyflawniad, ac yn gofyn *ufudd-dod* gweithredol oddi ar law yr etifeddion i ba rai y gwnaethid hi, nis gallasai y ddeddf gan hyny weithredu dim tuag at gyflawniad yr addewid. Pa beth a allai y ddeddf wneyd, a pha beth a fwriedid iddi wneyd, a eglurir yn mlaen: *adn.* 19, 23, 24; "Canys os o'r ddeddf y mae yr etifeddiaeth, nid yw hayach (mwyach) o'r addewid." Os trwy gydffurfiad â'r ddeddf y mae bywyd tragwyddol (yr *etifeddiaeth* yn yr ystyr uchaf—holl fendithion teyrnas y Messïah)—dyna yr addewid wedi ei gwneyd yn ddirym ac ofer. Ond y ffaith ydyw, fod yr "etifeddiaeth" wedi ei "*rhad roddi*" gan Dduw i Abraham *trwy addewid.* Nid ymddibynai mwynhad yr etifeddiaeth ar unrhyw ammodau; ni ddaethai trwy unrhyw gyfrwng, ond *addewid*—gweithred o ras pur; o ganlyniad, nis gall fod bywyd tragwyddol i'w gyrhaedd trwy y ddeddf.

Ymofyniad naturiol sydd yn cyfodi yma ydyw hwn—Gan nad oedd y ddeddf yn meddu unrhyw allu tuag at ddirymu na chyflawnu yr addewid, fel y dangoswyd yn barod, pa beth ynte ydoedd dyben ei rhoddiad? pa beth ydoedd lle ac amcan y ddeddf yn ei pherthynas â'r addewid? Mae y cwestiwn hwn yn cael ei ofyn a'i ateb yn *adn.* 19; "Beth gan hyny yw y ddeddf?" Yr ateb ydyw, "*O blegid troseddau* y rhoddwyd hi yn chwaneg, hyd oni ddelai yr had, i'r hwn y gwnaethid yr addewid; a hi a drefnwyd trwy angelion yn llaw cyfryngwr." Ystyr yr ymadrodd, "o blegid troseddau," yn ol barn amryw o'r tadau a'r hen esbonwyr, yn nghyd âg ychydig o'r rhai diweddar, ydyw—fod y ddeddf wedi ei rhoddi *er mwyn attal troseddau*, yn wrthglawdd i attal dylif llygredigaeth rhag gorchuddio y ddaiar. Y mae ereill o'r esbonwyr hynaf, a rhai diweddar megys Meyer, Alford, &c., yn rhoddi ystyr tra gwahanol:—er mwyn *lluosogi* troseddau, eu galw allan, a'u gweithio i bwynt o aeddfedrwydd; "Eithr y ddeddf a ddaeth i mewn fel yr amlhäai y camwedd;" *Rhuf.* v. 20. Y mae yr ystyr yma o ran sylwedd dan arweddiad ychydig yn wahanol yn ngolygiad Alford:—Yr oedd swydd y ddeddf yn un ragwyddorol (*propædeutic*); sef i gyfansoddi pechod yn drosedd; gwneuthur yr hyn oedd yn y byd o'r blaen, sef *pechod*, mewn ystyr gyffredinol, i ymffurfio yn awr, wedi ei ddwyn wyneb yn wyneb â deddf Duw—yn *drosedd;* a thrwy hyny "gydgau" y byd o dan bechod, yr hyn yw "anghyfraith"—trosedd o'r gyfraith ddwyfol. Y golygiad olaf a nodwn, a'r goreu i'n tyb ni, ydyw yr eiddo Awstin, Calvin, ac ereill—ac â'r hwn hefyd y mae Ellicott yn cytuno:—mai swydd y ddeddf oedd *egluro* troseddau, deffro argyhoeddiad o bechod yn y galon a'r gydwybod, trwy y dadleniad a wna y ddeddf o'i fawr ddrygedd, yn ei wrthdarawiad i natur a llywodraeth yr Anfeidrol—("Eithr pechod fel yr *ymddangosai* yn bechod.........fel y byddai pechod *trwy y gorchymyn yn dra phechadurus*" (*Rhuf.* vii. 13); a thrwy hyn ddwyn dyn i deimlo ei angen am Waredwr. Fel hyn yr oedd y ddeddf yn barotoadol, ac yn iswasanaethgar i'r addewid: un o ganlyniadau rhoddiad y ddeddf, ac un o amcanion ei rhoddiad, oedd "cydgau pob peth o dan bechod," ac mewn canlyniad i hyny "cydgau" y byd "i'r ffydd yr hon oedd i'w dadguddio," ac felly gwasanaethu fel athraw i arwain at Grist: *adn.* 22, 23 24.

Y mae cryn wahaniaeth barn mewn perthynas i amcan yr apostol yn *adn.* 19, yn gosod i lawr yr amrywiol nodweddion a berthynant i'r ddeddf. Os i brofi *israddoldeb* y ddeddf, buasai rhai o'r pethau a enwa, dybygid, yn tueddu yn hytrach i brofi i'r gwrthwyneb. Os i ddangos *natur ogoneddus* y ddeddf, buasai hyny drachefn yn milwrio yn erbyn amcan yr ymresymiad, a chyssylltiad y cyd-destynau. Y mae yn debyg, fel y sylwa Ellicott, mai y golygiad mwyaf naturiol ydyw—mai yr amcan oedd nodi allan y *gwahaniaethau* sylfaenol rhwng y ddeddf a'r efengyl; ac oddi wrth hyny, fel canlyniad naturiol y cyferbyniad, natur derfynol a rhagddarbodol goruchwyliaeth y ddeddf. Mae yma bedwar o'r gwahaniaethau hyn yn cael eu nodi.—1. Yr oedd y ddeddf yn sefydliad cyfyngedig ac ammodol: "*o blegid troseddau* y rhoddwyd hi yn *chwaneg*" (yn chwanegol at, ac yn ddilynol i'r addewid). 2. Terfynol a rhagddarbodol: "*hyd oni ddelai yr had*, i'r hwn y gwnaethid yr addewid;" a phan y delai ef, fe ddeuai dylanwadau uwch i weithio oddi mewn. 3. Wedi ei rhoddi trwy gyfrwng (nid yn ddigyfrwng) gan Dduw: "hi a drefnwyd trwy angelion." 4. Wedi ei derbyn trwy gyfrwng (nid yn ddigyfrwng) oddi wrth Dduw: "yn llaw cyfryngwr."

"A chyfryngwr nid yw i un, ond Duw sydd un;" *adn.* 20. Dyma un o'r adnodau anhawddaf ei hesbonio yn y Testament Newydd; fel y profir yn amlwg yn y nifer anhygoel bron o wahanol esboniadau a roddwyd arni, y rhai ydynt, meddir, dros *bedwar cant* o rifedi! Ni oddef ein terfynau i ni ond gosod ger bron y darllenydd, yn fyr, rai o'r prif olygiadau ar yr adnod. Dyma a ddywed Olshausen:—"Bwriedid *adn.* 19, mae yn wir, i osod allan ragoriaeth perthynasol y ddeddf, ond yn y fath fodd fel ag yr oedd ei hisraddoldeb i'r efengyl o hyd yn amlwg. Dwyn yr israddoldeb hwn i sylw ydyw yn hollol yr hyn a amcana yr apostol wrth roddi yr eglurhad hwn ar y syniad o Gyfryngwr. Y mae y cyfryngiad yn rhagdybied y sefyllfa o fod ar wahân; nis gellir cyfryngu dros *un;* gan mai Duw ydyw *un* blaid, rhaid fod yna hefyd blaid *arall*—dynolryw, y rhai oeddynt wedi gwahanu oddi wrth Dduw. Ond yn yr efengyl y mae yn wahanol; yn Nghrist, cynnrychiolydd yr eglwys, y mae yr oll yn un, y mae pob ymraniadau a gwahaniaethau wedi eu diddymu ynddo ef, fel y dangosir yn *adn.* 28."—*Olshausen's Com. on the Ep. to the Galat.*, td. 61. Cytunir yn lled unfryd ar ystyr y rhan flaenaf o'r adnod—"a chyfryngwr nid yw i un"—sef, fod y syniad am gyfryngwr bob amser yn golygu *dwy* blaid: yn y rhan olaf y mae yr anhawsder mawr—"ond Duw sydd un." Sylwa Alford fod y gosodiad—"Duw sydd un"—yn cynnwys mwy o lawer, ac y cyflwynai i feddwl pob darllenydd fwy o lawer nag unoliaeth Duw gyda golwg ar *rifedi* yn unig; ei fod yn cynnwys—"Ei unoliaeth ef fel priodoledd hanfodol, yn ymestyn trwy yr holl gymmeriad dwyfol. Ac fel hyn, er na fuasai y gosodiad—"a chyfryngwr nid yw i un"—arno ei hunan yn cyflwyno unrhyw ystyr heb law hyny, sef fod cyfryngwr yn perthynu i fwy nag un; eto pan y cyssylltid ef â'r gosodiad, "Duw sydd un," buasai yn derbyn cysgod o ystyr nad oedd o'r blaen yn ei ddwyn, sef y fath sefyllfa ar bethau, cynnwysedig yn y ffaith fod cyfryngwr yn cael ei ddefnyddio, ag nad ydoedd yn gydredol âg unoliaeth Duw; neu, a llefaru felly, ag nad ydoedd yn gorwedd yn mhrif lwybr ei fwriad digyfnewid. Ac fel hyn, y mae y ddeddf

Digitized by Google

yr hon a weinyddwyd gan y Cyfryngwr, ac a berthynai i'r sefyllfa hono ar bethau o fod *heb fod yn un*—dau mewn ymrafael—y mae y ddeddf hono mewn ymddangosiad yn wrthwyneb i'r *addewidion*, y rhai a berthynent yn hollol i'r *un*—yr un Duw ffyddlawn......Nid yw yr wrthddadl fod yr efengyl "yn llaw cyfryngwr" yn gymhwysadwy at y lle hwn:—1. O blegid nid oes un cwestiwn yma o berthynas i'r *efengyl*, ond yn unig i'r *addewidion*, fel yn uniongyrchol oddi wrth Dduw. 2. Y mae *Cyfryngwr* yr efengyl yn hollol wahanol, a'i waith yn wahanol: y mae efe wedi hollol gymmodi y pleidiau gwrthwynebol, ac wedi eu gwneuthur yn un ynddo ei hunan." Y mae Alford yn gosod i lawr yn mhellach y rheolau canlynol o barth i esboniadaeth yr adnod:—1. "Y mae pob esboniad yn anghywir ag sydd yn golygu Crist wrth y gair—"a chyfryngwr." Y mae y cyddestyn yn ei benderfynu fel ymadrodd dansoddol (*abstract*), a bod ei cyfeiriad at Moses—cyfryngwr y gyfraith. 2. Y mae pob esboniad yn anghywir ag sydd yn golygu wrth *un* yn y rhan olaf o'r adnod—"un blaid" yn y cyfammod. Y mae y frawddeg "Duw sydd un" arni ei hun yn gwrthbrofi pob golygiad felly; gan ei bod yn osodiad cyffredinol, hollol adnabyddus, ac yn gyfryw na oddefa ei hesbonio i ystyr gyfyng a neillduol. 3. Mae pob esboniad yn anghywir sydd yn cyfyngu *un* i'w ystyr rhifyddol yn unig, ac heb gymmeryd i mewn y syniadau y gwnai y gosodiad cyffredinol eu cyfodi. 4. Y mae pob esboniad yn anghywir ag sydd am gasglu oddi wrth yr adnod gytundeb y ddeddf â'r addewidion; o blegid y mae yr apostol ei hun yn yr adnod nesaf yn tynu casgliad hollol groes i hyny oddi wrthi, ac yn gwrthbrofi hyny ar seiliau ereill hefyd. 5. Y mae pob ymgais i ymwrthod â'r adnod fel llygriad, neu chwanegiad anawdurdodedig at y testyn gwreiddiol, yn hollol ofer."—*Alford's Greek Test.*, ar yr adnod. Nis gallwn ymattal eto heb chwanegu nodiad rhagorol Ellicott ar yr adnod ddyrus a phwysighon—"'Ond Duw sydd un! Y mae rhoddwr uniongyrchol a phersonol yr addewid yn sefyll yn unig, ac ar ei ben ei hun. Yr oedd yn ymwneyd yn unigol âg Abraham; ac o ganlyniad, y mae efe yn yr addewid yn *ddigyfryngwr*—yr ail osodiad o gyfresymiad, o ba un y mae y casgliad mor eglur fel y gadewir ef allan. Allan o'r pentwr egluriadau ar y frawddeg gynnwysfawr hon (y rhai a sicrheir sydd uwch law pedwar cant o nifer), yr eiddo Schleiermacher, Winer, a Meyer, ydynt y rhai teilyngaf o sylw. Bydd sylw byr ar y rhai hyn yn foddion i ddangos natur benodol yr anhawsderau. Y maent oll yn cytuno ar y rhan flaenaf o'r adnod, wedi ei haralleirio fel hyn:—'Yn awr y mae pob cyfryngwr yn cyfleu y syniad o fwy nag un:' yn y rhan olaf, y maent yn gwahaniaethu fel y canlyn:—1. Schleiermacher: 'Ond Duw sydd un'—mewn cyfeiriad at ei addewidion, yn rhydd, heb gael ei lyffetheirio gan ammodau. 2. Winer: 'Ond Duw sydd un'—un ran, neu blaid, yn unig; rhaid mai pobl Israel ydyw y rhan arall: o ganlyniad, y maent yn rhwymedig i'r ddeddf. 3. Meyer: 'Ond (i'r gwrthwyneb) Duw sydd un'—a dim ond un; gan hyny, y mae gwahaniaeth sylfaenol yn nifer y pleidiau perthynol i'r ddeddf ac i'r addewid......Fe allai fod yr eglurhad syml a ganlyn yn llai agored i wrthddadleuon. Y mae y cyd-destyn yn gosod i lawr yn fyr y *pedwar* nodwedd gwahaniaethol a berthynent i'r ddeddf, fel y crybwyllwyd yn barod, gyda chyfeiriad dystaw at yr addewidion. Eir heibio i dri o'r rhai hyn: gwneir sylw ar yr olaf, fel yr un mwyaf pwysig. 'Yr oedd y ddeddf *gyda*, yr oedd yr addewid *heb*—gyfryngwr.' Ymddengys *adn.* 20 fel hyn yn gyfresymiad, y casgliad perthynol i'r hwn a adewir allan: '*yn awr nid yw cyfryngwr yn perthyn i un* (yn sefyll neu yn gweithredu yn unigol); *ond* (yn yr addewid) *Duw sydd un* (sydd yn sefyll ac yn gweithredu yn unigol); *gan hyny* (yn yr addewid) *nid oes gyfryngwr yn perthynu i Dduw. A ydyw y ddeddf gan hyny* (goruchwyliaeth ag ydoedd, heb law amryw o wahaniaethau ereill, yn cynnwys cyfryngwr) *yn erbyn yr addewidion y rhai a orphwysent ar Dduw* (ac na chynnwysent gyfryngwr)? *Na atto Duw*. Yn ol y golygiad hwn, y mae yr unig wir anhawsder yn cael ei gyfyngu i'r ail osodiad. *Pa fodd* yr oedd Duw yn un? Ac ymddengys mai yr ateb ydyw—nid am ei fod yn hanfodol yn undod, nac am ei fod yn un wrtho ei hunan, ac Abraham yn un wrtho ei hunan, nac ychwaith am ei fod ar unwaith y rhoddwr (y Tad) a'r derbynydd (y Mab) mewn undeb—ond, gyda'r wedd y mae y rhan olaf o *adn.* 18 yn ei roddi ar yr holl ymresymiad—am ei fod yn ymwneyd âg Abraham *yn unigol ac uniongyrchol*, yn sefyll wrtho ei hun, ac heb ddefnyddio un cyfryngwr." —*Ellicott's Com. on the Ep. to the Galatians*, ail argr., td. 64, 65. Y mae Olshausen (yn unol â'i olygiad ei hun ar *adn.* 20, yr hwn a grybwyllwyd o'r blaen) yn symio i fyny y paragraph anhawdd hwn fel y canlyn:—"Megys nas gall testament dynol gael ei ddirymu, llawer llai y gall addewid Duw, yr hon a roddwyd i Abraham ac i'w had. Nis gall y ddeddf gan hyny—yn dyfod i mewn rhwng yr addewid a'r cyflawniad—ddinystrio yr olaf; nis gall fod wedi ei bwriadu ond yn unig i effeithio fel parotoad iddo. Athraw ydyw at Grist, yn yr hwn y mae *y gwrthwynebrwydd rhwng y dwyfol a'r dynol* (sydd o hyd yn amlwg yn y ddeddf) yn cael ei wastadhau, trwy *uno y ddau yn nghyd*. Gan hyny y mae yr oll ag oedd yn wahanedig, yn gystal Iuddewig a Christionogol, yn Nghrist, yn cael eu cyfuno i undod uwch, yn yr hon ystâd hefyd yn unig y mae y gwir fabwysiad, a chydag ef ryddid yr etifedd cyflawn oed, yn cael ei roddi (*pen.* iii. 15, hyd *pen.* iv. 7)."

Yn yr adnodau hyn (*pen.* iv. 1—7), y mae yr apostol yn dangos fod sefyllfa yr eglwys dan oruchwyliaeth y ddeddf yn gyffelyb i'r eiddo etifedd cyn dyfod i'w oed—mewn cyflwr o blentynrwydd a chaethiwed—"dan ymgeleddwyr a llywodraethwyr"—"yn gaeth dan wyddorion y byd." "Ond pan ddaeth cyflawnder yr amser"—("yr amser a osodwyd gan y Tad")—"y danfonodd Duw ei Fab," &c.—dyma yr eglwys wedi dyfod i'w hoedi feddiant o'i rhyddid, ac i fwynhad cyflawn o freintiau ei hetifeddiaeth. Yn awr, dengys yr apostol trwy y darluniad hwn, fod gwaith y Galatiaid yn troi yn ol oddi wrth Gristionogaeth at Iuddewiaeth, yn ymddygiad mor chwith ac afresymol ag a fuasai gweled etifedd cyflawn oed yn diystyru ei ryddid, yn gwrthod ei etifeddiaeth, ac yn dewis dychwelyd drachefn i'r hen sefyllfa blentynaidd, "o dan ymgeleddwyr a llywodraethwyr."

Yn y drydedd adran, rhoddir rhybudd iddynt i beidio syrthio yn ol eto o'r safle ysbrydol uwch yr oeddynt wedi ei chyrhaeddyd, i'r un is gyda'i hegwyddorion llesg a thlodion. Y mae yr apostol yn adgofio y Galatiaid o'r amser pan yr oeddynt yn eu cariad cyntaf, a phan roddasent eu hunain i fyny yn llwyr iddo ef. Yn awr, y mae yn rhaid iddo, megys, eu hesgor drachefn yr ail

Digitized by Google

waith, mewn trefn i ffurfio Crist ynddynt. Dengys iddynt eto eu bod, wrth adael Cristionogaeth am Iuddewiaeth, yn dewis caethiwed yn lle rhyddid, trwy gyfeirio at enghraifft o hanesiaeth yr Hen Destament, yr hwn a ddefnyddir ganddo yma fel "alegori." Pe buasent yn iawn ddeall y ddeddf hono, at yr hon yr oeddynt am droi, hwy a gawsent ei athrawiaeth ef ynddi: hwy a welsent fod Sarah, gwraig gyfreithlawn Abraham, gyda'i mab Isaac, yn cynnrychioli eglwys y Testament Newydd, yr hon yw yr un *rydd;* fod Agar, ar y llaw arall, a'i mab hithau Ismael, yn cynnrychioli y ddeddf; yn awr y mae yn rhaid i'r olaf gael ei bwrw allan er mwyn i'r flaenaf gael teyrnasu ei hunan. O ganlyniad, ni ddylasent ar un cyfrif oddef cael eu hysbeilio o'r rhyddid â'r hwn y rhyddhaodd Crist hwynt (*pen.* iv. 8, hyd *pen.* v. 1). Yn olaf, yn y bedwaredd adran, y mae Paul yn rhybuddio ei ddarllenwyr i beidio cymmeryd eu henwaedu, gan y byddent wrth hyny yn dychwelyd i dir yr Hen Destament, ac yn eu gwneuthur eu hunain yn ddyledwyr i gadw yr holl ddeddf:—yn Nghrist, nas gall enwaediad na dienwaediad ddim, nac unrhyw beth arall allanol, ond ffydd yn gweithio drwy gariad (*pen.* v. 2—12).

Y mae y *drydedd ran* o'r epistol yn ddiweddglo ymarferol, gynnwysedig o ddwy adran. Yn y gyntaf, y mae yr apostol yn chwanegu at yr annogaeth iddynt sefyll yn eu rhyddid, y gocheliad pellach i beidio a chamarfer y rhyddid hwnw. Y mae yn erfyn arnynt rodio yn yr Ysbryd, a pheidio cyflawni trachwantau y cnawd; ac yn dangos fod rhodio yn yr Ysbryd yn cynnwys dwyn ffrwythau yr Ysbryd, a chroeshoelio y cnawd yn nghyd â'i chwantau. Y mae yr apostol yn cymhwyso yr egwyddor hon at yr amgylchiadau neillduol ag yr oedd yr eglwysi yn Galatia ynddynt ar y pryd (*pen.* v. 13, hyd *pen.* vi. 10).

Yn ddiweddaf, yn yr ail adran, y mae yr apostol yn galw eu sylw at y ffaith fod y llythyr hwn mor bwysig yn ei olwg, a'i fod am roddi ei awdurdod mor eglur a diddadl o flaen eu llygaid, fel yr ydoedd wedi ymadael am y tro â'i arferiad cyffredin o ddefnyddio ysgrifenydd, ac ysgrifenu yr *holl* lythyr (yr adran olaf hon yn unig yn ol barn ereill) â'i law ei hun, ac mewn llythyrenau breision—brasach na'r eiddo ei ysgrifenydd—pa un ai o fwriad, ynte o anfedrusrwydd i ysgrifenu, nis gwyddys: "Gwelwch *cyhyd y llythyr*" (dylai gael ei gyfieithu—"mor fawr y llythyrenau)" a ysgrifenais atoch â'm llaw fy hun: *adn.* 11. Y mae yn symio i fyny mewn brawddegau byrion y gwersi a roddasai yn yr epistol; ac yn ei ddiweddgloi, trwy erfyn arnynt beidio casglu gofidiau chwanegol ar ei gyfer ef, gwas profedig, ac erlidiedig yr Arglwydd Iesu—a thrwy gyhoeddi ei fendith apostolaidd (*pen.* vi. 11—18).

Y mae y rhan ddadleuol 'o'r llythyr hwn yn dwyn llawer o debygolrwydd i'r Epistol at y Rhufeiniaid. Proffir yr un athrawiaeth fawr yn y naill a'r llall; sef, cyfiawnhad pechadur trwy ffydd yn unig, heb weithredoedd y ddeddf. Ond y mae hyn o wahaniaeth yn amlwg rhyngddynt: yn yr Epistol at y Rhufeiniaid, ymdrinir â'r pwnc yn unig ar dir eang a chyffredin, heb gyfeiriad at unrhyw amgylchiadau neillduol; tra yn y llythyr hwn, y mae yr ymdriniaeth yn cymmeryd ffurf ddadleuol neu ymresymiadol, yn cael ei gyfaddasu at sefyllfa yr eglwysi hyn ar y pryd, a chyda chyfeiriad gwastadol at y gau athrawon Iuddewig a'u dysgeidiaeth.

O ran arddull, y mae yr epistol hwn yn cymmeryd lle neillduol o'r eiddo ei hun yn mysg Epistolau Paul. Y mae yn uno y ddau deimlad eithafol a berthynent i'w gymmeriad rhyfeddol: llymder, a thynerwch—y ddau yn briodoliaethau dyn o deimladau cryfion a dyfnion. Nis gall dim fod yn fwy difrifol o lym nag agoriad y llythyr, a *pen.* iii. 1—5; na dim yn fwy toddiadol o serchus na rhai o'i appeliadau, megys *pen.* iv. 18—20, &c. Buasai pobl hanner barbaraidd, fel y Galatiaid, adnabyddus am eu dysymledd a'r hawsder i wneyd argraff arnynt, yn debyg o wrandaw ar y ddau ddull yma o gyfarchiad—o gael eu hennill gan ei erfynion tadol, yn gystal ag o gael eu dychrynu gan ei geryddon a'i fygythion apostolaidd.

V. LLE AC AMSER EI GYFANSODDIAD.

Nid oes genym ddefnyddiau yn yr epistol ei hunan i'n galluogi i benderfynu yr amser yr ysgrifenwyd ef; nis gellir ond casglu hyn trwy ffyrdd anuniongyrchol. Ac o ganlyniad, y mae yr amseriadau mwyaf amrywiol wedi eu priodoli iddo:—rhai yn ei roddi yn *gyntaf* yn mhlith Epistolau Paul, ac ereill yn *olaf.* Ond y ddau olygiad ag y mae mwyaf o resymau drostynt o ddim cymhariaeth—y ddau olygiad yn wir ag yr ydym yn cael ein cau i ddewis rhyngddynt ydynt y rhai canlynol:—

1. Fod y llythyr hwn wedi ei ysgrifenu o *Corinth*, yn ystod gauaf y flwyddyn 57—58, yr hwn a dreuliodd yr apostol yn y ddinas hono; ac o ba le hefyd yr ysgrifenodd y Llythyr at y Rhufeiniaid. Dyma y golygiad a gymmer Conybeare a Howson, yn eu gwaith godidog ar "Fywyd ac Epistolau Paul;" ac amddiffynir ef ganddynt yn fedrus mewn nodiad maith a dyddorol: *The Life and Epistles of St. Paul*—(*intermediate edition*) cyf. ii. td. 164, 165. Seiliant y farn hon yn benaf ar dystiolaeth dufewnol; sef, y cyffelybrwydd sydd rhwng y llythyr hwn a'r un at y Rhufeiniaid, a'r tebygolrwydd o blegid hyny fod y ddau wedi eu hysgrifenu yn agos iawn i'w gilydd. "Y mae y tebygolrwydd yn hollol y fath," meddant, "ag a fuasai yn bod rhwng dau epistol wedi eu hysgrifenu yn agos i'r un amser, tra yr oedd yr un linell o ymresymiad yn cymmeryd i fyny feddwl yr ysgrifenydd, a thra yr oedd yr un ymadroddion a chymhariaethau ar ei dafod."

2. Y golygiad arall ydyw, ei fod wedi ei ysgrifenu yn ystod arosiad yr apostol yn *Ephesus* (*Act.* xix.), o ddiwedd y flwyddyn 54 hyd Bentecost y flwyddyn 57. Amddiffynir y farn hon gan Alford [*Greek Test. Pro.*, cyf. iii. td. 4, 5), o herwydd, yn un peth, fod y golygiad arall yn rhoddi tymmor rhy faith ar ol ail ymweliad Paul â Galatia, i fod yn gysson â *pen.* i. *adn.* 6: "Y mae yn rhyfedd genyf ddarfod eich symmud *mor fuan* oddi wrth yr hwn a'ch galwodd i ras Crist at efengyl arall." Ac hefyd, am fod y tebygolrwydd yn gryf o blaid y farn fod y Llythyr at y Galatiaid wedi ei ysgrifenu o flaen yr un at y Rhufeiniaid; fod y blaenaf wedi ei alw allan gan deimlad angerddol, dan gynhyrfiad yr Ysbryd, fel amddiffyniad i wirionedd a rhyddid Cristionogol, a bod yr amddiffyniad hwn drachefn, wedi ei helaethu a'i goethi a'i ad-drefnu mewn amser diweddarach, wedi ffurfio defnydd yr Epistol at y Rhufeiniaid.

GALBANUM, [חלבנה; *chelb'nâh*, medd rhai, *chalbaneh*, medd ereill]. Un o'r llysiau peraidd a ddefnyddid i barotoi yr arogldarth sanctaidd:

Digitized by Google

*Exod.* xxx. 34. Y mae tebygolrwydd yr Hebraeg i'r enw Groeg *chalbanê*, ac i'r Lladin *galbanum*, yn rhoddi lle i gasglu mai yr un llysieuyn a feddylir. Dygir y galbanum a farchnateir o India a'r Levant. Math o sudd (*gum*) ystoraidd o liw melyn-wineu, ac o arogl trwm ac annymunol, a geir yn gyffredin yn bentyrau, ond weithiau yn ddyferynau fel dagrau melynaidd. Tybiai yr hynafiaid fod ei fwg, ar ol ei losgi, yn effeithiol i yru ymaith seirff a morgrug. Ond er fod y galbanum ei hun yn eithaf adnabyddus, nid ydyw y planigyn a'i cynnyrcha wedi cael ei nodi allan. Y mae Dioscorides (iii. 87) yn ei ddysgrifio fel sudd planigyn blodeuog sydd yn tyfu yn Syria, a elwir gan rai *metôpion*. Y mae Kühn, yn ei esboniad ar Dioscorides, o blaid *ferula ferulago* Linnæus, yr hwn sydd yn tyfu yn ngogledd Affrica, Creta, ac Asia Leiaf. Yn ol Pliny (ii. 56), sudd ystoraidd planigyn a elwir *stagonitis* ydyw, sydd yn tyfu ar Fynydd Ammon yn Syria; tra mai cynnyrch pren sydd yn agos i oracl Ammon yw y *metôpion*. Y mae tystiolaeth Theophrastus [*Hist. Plant.*, ix. 7], yn tueddu i gadarnhau syniad Pliny a Dioscorides. Tybiwyd am ryw ysbaid mai cynnyrch *bubon galbanum* Linnæus ydoedd, sydd yn tyfu yn Mhenryn Gobaith Da. Canfu Don mai ffrwyth planigyn blodeuog o lwyth y *silerinæ* yw galbanum masnach, o'r hwn, eb efe, y tynid y sudd, a'r hwn a alwodd efe yn *galbanum officinale;* ond ammheuir y casgliad gan y Dr. Lindley, yr hwn a dderbyniodd ffrwyth planigyn oddi wrth Syr John Macneil, sydd yn tyfu yn Durrood, yn agos i Nishapore, yn Khorassan, i'r hwn y rhoddodd efe yr enw *opoidia galbanifera*, o lwyth y *smyrneæ*. Y planigyn yma a fabwysiadwyd gan Goleg Dublin yn eu Cyfferiadur (*Pharmacopeia*), fel yr un a rydd y sudd galbanum. Y mae M. Buhse yn ei deithiau Persiaidd yn bwrw mai yr un yw y planigyn a gynnyrcha galbanum a'r un a ganfu efe ar fynyddoedd Demawend. Yr enw a rydd y brodorion iddo yw *khassuch*, ac y mae yn bur debyg i'r *ferula erubescens;* ond ni pherthyn i lwyth y galbanum neu yr *opoidia*. Credir yn awr mai cynnyrch planigion gwahanol ydyw y galbanum Persiaidd a'r hwn a ddygir o'r Levant. Ond nid ydyw hyn wedi ei benderfynu.

Os yr un ydyw y galbanum presennol a *chebнah* yr Hebreaid, ymddengys yn rhyfedd ar yr olwg gyntaf fod sylwedd sydd yn cynnyrchu arogl mor annymunol, ar ol ei losgi, yn cael ei ddefnyddio i wneuthur yr "arogldarth aroglber" yn ngwasanaeth y tabernacl. Pa fodd bynag, yn ol awdurdod Pliny, yr oedd yn cael ei ddefnyddio, gyda sylweddau ystoraidd ereill, i wneuthur peraroglau gan yr hynafiaid; a dywed yr un awdwr eu bod yn chwanegu y sylweddau ystoraidd er mwyn i'r perarogl gadw ei arogl yn hwy. Yr oedd galbanum yn cael ei ddefnyddio hefyd i lygru yr *opobalsamum*, neu sudd y pren balsam [*Pliny*, xii. 54].

GALEED, [גלעד=*carnedd y dystiolaeth*]: yr enw a roddodd Iacob i'r garnedd a wnaeth efe a Laban ar Fynydd Gilead, yn dystiolaeth o'r cyfammod a wnaed rhyngddynt hwy: *Gen.* xxxi. 47, 48; cymharer 23, 25. Gwel GILEAD; IEGER-SAHADUTHA.

GALENIAID: dilynwyr i Galen Abraham Haan, meddyg yn Amsterdam, a phregethwr hyawdl yn mhlith y Mennoniaid. Ystyrid ef megys Latitudinariad, gan y derbyniai bawb i'w gymundeb a gredent yr Ysgrythyrau ac a feddent fuchedd grefyddol. Gwrthwynebid ef yn egniol gan feddyg arall, a phregethwr, o'r enw Samuel Apostool. Gwel APOSTOOLIAID.

GALILEA, [Γαλία, o'r Hebraeg, גליל (*Galil*)—gwreiddyn y Galilea ddiweddar, yn arwyddo *cylch* neu *gylchdaith*]. Ymddengys fod yr enw hwn, a gymhwysid yn oes y Rhufeiniaid at dalaeth eang, yn cael ei gyfyngu ar y dechreu at "gylchdaith" fechan o'r wlad o amgylch Cades-Naphthali, yn yr hon yr oedd yr "ugain ninas" a roddwyd gan Solomon i Hiram, brenin Tyrus, am ei waith yn dwyn coed iddo o Libanus i Ierusalem: *Ios.* xx. 7; 1 *Bren.* ix. 11. Yr oeddynt y pryd hyny, neu ar ol hyny, yn cael eu preswylio gan ddieithriaid, ac am hyny rhydd Esaiah yr enw "Galilea y Cenedloedd" i'r wlad; *Esa.* ix. 1. "Galilea y Cenedloedd" yw ein cyfieithiad ni o *Mat.* iv. 15; ond "Galilea yr ethnigiaid" ydyw y darlleniad Groeg. Ystyr priodol y gair *ethnicos* (a Gymreigir yn *ethnig* yn *Mat.* xviii. 17), medd Parkhurst, ydyw "dyn yn perthyn i genedl;" eithr *cenedloedd* ydyw ein cyfieithiad cyffredin ni o'r gair *ethnon*. "Galilea y Cenedloedd" sydd yn Gymraeg hefyd yn 1 *Mac.* v. 15, fel cyfieithiad o *Galilaia allophulôn*. Y mae yn debyg fod rhif y dieithriaid wedi cynnyddu, a'u bod yn ystod y caethiwed wedi dyfod yn gorff mawr y trigolion; ac ar ol ymledaenu hefyd dros y wlad amgylchynol, hwy a roddasant yr hen enw i'w tiriogaethau newyddion, fel y daeth Galilea o'r diwedd yn un o daleithiau eangaf Palestina. Yn amser y Maccabeaid, ychydig yn unig o Iuddewon oedd yn byw yn Galilea yn nghanol poblogaeth fawr o Genedloedd: 1 *Mac.* v. 20—23. Dywed Strabo [xvi. 760] y preswylid hi yn benaf yn ei amser ef gan Syriaid, Phœniciaid, ac Arabiaid; ac y mae Josephus [*Vit.* 12] yn mynegu fod Groegiaid hefyd yn preswylio yn eu dinasoedd.

Yr oedd Palestina oll yn amser ein Harglwydd yn cael ei dosbarthu yn dair talaeth; sef Iudea, Samaria, a Galilea: *Act.* ix. 31; *Luc* xvii. 11; *Joseph. Hyn. Iudd.*, iii. 3. Yr oedd Galilea yn cynnwys rhan ogleddol y wlad, sef hen diriogaethau Issachar, Zabulon, Aser, a Naphthali. Y mae Josephus yn nodi ei therfynau, ac yn rhoddi darluniad lled gyflawn o'i hagwedd, ei chynnyrch, a'i phoblogaeth. Dywed fod y tir yma yn dda a diwylliedig; fod ynddi gyflawnder o goed ffrwythlawn, a phrenau y goedwig o bob math; llawer o ddinasoedd a phentrefydd poblog—oll, yn ddim llai na dau gant a deugain, i'w canfod yn britho holl wyneb y wlad; a bod y trigolion yn ddiwyd a rhyfelgar, yn cael eu dwyn i fyny o'u mebyd i drin arfau [*Joseph. Rhyf. Iudd.*, iii. 3. 3; *Vit.* 45]. Terfynid y wlad ar y tu gorllewin gan diriogaeth Ptolemais; yn cynnwys, mae yn debyg, holl ddyffryn Akka, wrth odre Carmel. Rhedai y terfyn deheuol ar hyd godreu Carmel a bryniau Samaria hyd Fynydd Gilboa, ac yna yn disgyn i ddyffryn Iezreel wrth Scythopolis hyd at yr Iorddonen. Y terfyn dwyreiniol oedd yr Iorddonen, Môr Galilea, a'r Iorddonen uchaf, hyd y pydew yn Dan; a'r terfyn gogleddol a redai o Dan tua'r gorllewin, ar draws y trumau mynyddig, nes cyffwrdd â thiriogaeth y Phœniciaid [*Joseph. Rhyf. Iudd.*, iii. 3. 1; ii. 18. 9: cymharer *Luc* viii. 26].

Yr oedd Galilea yn cael ei rhanu yn ddau ddosbarth—Uchaf ac Isaf; a dengys un olygfa ar y wlad fod y rhaniad yn naturiol. Yr oedd Galilea Isaf yn cynnwys dyffryn mawr Esdraelon a'i wahanol geinciau, yn cyrhaedd i waered hyd yr

Digitized by Google

Iorddonen a Llyn Tiberias; a'r holl wlad fryniog gyfagos ar y tu gogleddol hyd odre y trum mynyddig. Y mae Josephus [*Hynaf. Iudd.*, iii. 3, 1] yn crybwyll fod pentref Xaloth ar y terfyn yma. Yr un oedd hwn yn ddiau a Cisloth (Heb., *Chesulloth*) *Ios.* xix. 12, a elwir yn awr *Iskál*, sydd wrth odre Mynydd Tabor, ar derfyn gogleddol y Dyffryn Mawr [*Port. Handbook*, 359]. Ond trwy gymharu Josephus [*Hyn.* xx. 6, 4, â *Rhyf. Iudd.*, iii. 2, 4], canfyddir fod Galilea Isaf yn cyrhaedd cyn belled a phentref Ginea (y *Jenîn* diweddar), ar ochr ddeheuol eithaf y dyffryn. Nid yw sefyllfa y dref derfynol, Berasbe, yn adnabyddus; ond gellir casglu yn ddamweiniol fod Arbela a Jotopata yn Galilea Isaf [*Joseph. Vix.*, 37; *Rhyf. Iudd.*, ii. 20, 6]; ac megys yr oedd y flaenaf yn sefyll yn agos i ongl ogledd-orllewin Llyn Tiberias, felly yr oedd y llall tuag wyth milldir i'r gogledd o Nazareth [*Port. Handbook*, 432, 377]: oddi wrth yr hyn y gellir casglu fod Galilea Isaf yn cynnwys yr holl wlad sydd yn cyrhaedd o ddyffryn Akka, tua'r gorllewin, hyd ororau y llyn tua'r dwyrain. Yr oedd, gan hyny, yn un o'r dosbarthau mwyaf, cyfoethocaf, a phrydferthaf a feddai Palestina. Mae dyffryn Esdraelon yn un arwynebedd eang o dir ffrwythlawn—tir mor fras, fel yr ymostyngodd llwyth Issachar i sefyllfa hanner crwydrol er mwyn ei fwynhau, ac y daeth "yn gaeth dan deyrnged;" *Deut.* xxxiii. 18; *Gen.* xlix. 14, 15. Y mae y bryniau oll, oddi gerth ychydig glogwyni creigiog o amgylch Nazareth, wedi eu gorchuddio gan goed, ac yn disgyn i waered yn llethri prydferth, gan ymagor yn ddyffrynoedd troellog, llydain, gwyrddion, a bras. Y mae yr olygfa yn amrywiol a phrydferth dros ben, a'r holl diriogaeth yn ymddangos mor fras a hyfryd ag un parth a welir yn Tuscany. Y mae y bendithion a addawyd gan Iacob a Moses i Zabulon ac Aser yn ymddangos fel pe byddent wedi eu cerfio ar holl wyneb y wlad. Zabulon, gan ymnythu yn y bryniau prydferth hyn, "a abertha ebyrth cyfiawnder," o gyflawnder y preiddiau a borthid yn eu porfeydd breision: efe a "ymlawenycha yn ei fynediad allan" ar hyd dyffryn ffrwythlawn Esdraelon, ac a "sugna o gyfoeth y moroedd." Yr oedd ei feddiannau ef yn terfynu ar fachwy (*bay*) Haifa wrth odre Carmel: ac efe "a sugna o guddiedig drysorau y tywod:"—cyfeiriad fe allai at y gwydr a wnaed gyntaf o dywod yr afon Belus: *Deut.* xxxiii. 18, 19; *Plin.* v. 19; *Tacit. Hist.*, v. Yr oedd Aser yn preswylio yn nghanol y bryniau, ar y tu gogledd-orllewin i Zabulon, ar ororau Phœnicia, lle y gwlychai ei droed mewn olew," cynnyrch ei olewydd lanoedd bras sydd fyth yn hynodi y wlad: a "bras fydd ei fwyd ef," sef cynnyrch dyffryn Phœnicia; ac y mae yr ucheldir yn wir fras: "efe a rydd ddanteithion breninol"—olew a gwin o'i olewyddlanoedd a'i winllanoedd, a llaeth ac ymenyn o'i borfaoedd toreithiog: *Gen.* xlix. 20; *Deut.* xxxiii. 24, 25. Prif ddinasoedd Galilea Isaf oedd Tiberias, Tarichaea, yn y pen deheuol o Fôr Galilea, a Sepphoris [*Joseph. Vit.* 9, 25, 29, 37]. Cymmerodd yr olaf ran bwysig yn rhyfel olaf yr Iuddewon [*Joseph. Vit.*, 45; *Rhyf. Iudd.*, ii. 18, 11]. Yr enw a roddir iddi yn awr yw *Sefûrieh;* ac y mae yn sefyll o gylch tair milldir i'r gogledd o Nazareth [*Port. Handbook*, 378]. Heblaw hyny, yr oedd yno ddwy amddiffynta gadarn, sef Iotapata, a elwir yn awr *Iefât*, a Mynydd Tabor [*Joseph. Rhyf. Iudd.*, iii. 7, 3; iv. 1, 6]. Y dinasoedd hynotaf yn hanes y Testament Newydd yw Nazareth, Cana, a Tiberias: *Luc* i. 26; *Ioan* ii. 1; vi. 1.

Yr oedd Galilea Uchaf, yn ol Josephus, yn ymestyn o Bersabe tua'r deheu hyd ddyffryn Bacca, ar derfynau tiriogaeth Tyrus ac o Meloth tua'r gorllewin hyd Thela; dinas yn agos i'r Iorddonen [*Joseph. Rhyf. Iudd.*, iii. 3, 1]. Nid oes yr un o'r dinasoedd hyn yn adnabyddus yn awr, ond nid oes dim anhawsder i benderfynu sefyllfa ac amcangyfrif o eangder y dalaeth. Yr oedd yn cynnwys yr holl drumau mynyddig sydd rhwng yr Iorddonen uchaf a Phœnicia. Yr oedd ei therfyn deheuol yn rhedeg ar hyd godre y trum Safed, o ongl ogledd-orllewin Môr Galilea hyd ddyffryn Akka. I'r parth yma y rhoddwyd yr enw o "Galilea y Cenedloedd" yn yr Hen Destament a'r Newydd: *Esa.* ix. 1; *Mat.* iv. 15. Yn Galilea Uchaf, yr lan ogleddol y llyn, yr oedd tref Capernaum [*Euseb. Onom.*, d.g. CAPERNAUM]; ac y mae y ffaith yma yn bwysig, gan y dengys pa mor bell yr ymestynai y dalaeth tua'r deheu, a chan y prawf ei bod, fel Galilea Isaf, yn terfynu ar y llyn. Parhad gogleddol o Libanus yw trum mynyddig Galilea Uchaf; oddi wrth yr hwn y gwahenir ef gan geunant ddofn Leontes [gwel LIBANUS]. Gwastattir uchel ydyw pen y trum; rhan o ba un a orchuddir yn brydferth gan dderw, yn gymmysgedig â phrysglwyni dyrysfan o ddrain gwynion a mefuswydd. Amrywir y cyfan gan wastattiroedd uchel, a lleiniau o goedwigoedd gwyrddion, yn nghyd â glynoedd gwylltion; y rhai sydd yn ymestyn i waered tua'r dwyrain a'r gorllewin. Y mae y boblogaeth fyth yn lluosog a diwyd, yr hon sydd gynnwysedig yn benaf o'r Metâwileh, sect o Fahometiaid. Safed yw y brif ddinas; ac y mae yn cynnwys tua phedair mil o drigolion, un ran o dair o ba rai sydd Iuddewon. Hon ydyw un o bedair dinas sanctaidd Iuddewon Palestina; ac y mae wedi bod er's tair canrif, neu chwaneg, yn cael ei mawrygu o blegid cyssegredigrwydd ei beddrodau, a dysg ei Rabbiniaid. Ymddengys fod Safed yn ganolbwnc dosbarth llosgfalaidd eang. Teimlir cryniadau daiargryn yno yn bur fynych. Dygwyddodd un yn 1837, yr hon a laddodd tua phum mil o wŷr [*Port. Handbook*, 438]. Ar wastattir Galilea Uchaf saif adfeilion Cades Naphthali (*Ios.* xx. 7), a Giscala (yn awr *el-Jish*)—dinas a amddiffynid gan Josephus, ac a fawrygir fel y lle olaf a safodd allan yn erbyn rhuthr y Rhufeiniaid [*Josephus Rhyf. Iudd.*, ii. 22, 6; iv. 1, adr. 1; 2, adr. 1—5].

Galilea ydoedd maes y rhan fwyaf o fywyd anghyhoedd a gweithredoedd cyhoeddus ein Harglwydd. Treuliodd ei fywyd boreuaf yn Nazareth; a phan yr ymroddodd i'w waith mawr, fe wnaeth ei gartref yn Capernaum: *Mat.* iv. 13; ix. 1. Y mae yn nodedig fod y rhan gyntaf o'r tair Efengyl yn cael eu treulio yn benaf i gofnodi gweithrediadau ein Harglwydd yn y dalaeth hon; tra yr ymdrina Efengyl Ioan fwy â thaleithiau Iudea. Yr oedd dammegion ac egluriadau ein Harglwydd yn cael eu cyfaddasu i raddau mawr gan olygfeydd neillduol a chynnyrch y wlad. Yr oedd y winllan, y ffigysbren, y bugail, a'r diffaethwch yn nammeg y Samariad trugarog, oll yn briodol i Iudea; tra y mae y meusydd ŷd (*Marc* iv. 28), y pysgodfeydd (*Mat.* xiii. 47), y marchnatawyr (*Mat.* xiii. 45), a'r blodau (*Mat.* vi. 28) yr un mor briodol i Galilea. Galileaid oedd yr apostolion oll, naill ai o enedigaeth neu o drigfod (*Act.* i. 11); ac fel y cyfryw yr oeddynt yn ddiystyrllyd, fel yr oedd eu Hathraw wedi bod, yn ngolwg yr Iuddewon beilchion: *Ioan* i.

Digitized by Google

46; vii. 52; *Act.* ii. 7. Ymddengys hefyd fod llefariad yr Iuddewon a breswylient yn Galilea, wedi dyfod yn ddull arbenig, o blegid eu cyfathrach fe allai â'u cymmydogion Cenedlig: *Mat.* xxvi. 73; *Marc* xiv. 70: *Lightfoot, Opp.*, ii. 77. Ar ol dinystr Ierusalem, daeth Galilea yn brif drigle ysgolion dysgedig yr Iuddewon, a phreswylfod eu rabbiniaid mwyaf clodfawr. Cymmerwyd y Cynghor Cenedlaethol, neu y Sanhedrim, dros amser i Iudea yn Philistia; ond symmudwyd ef yn fuan i Sepphoris, ac wedi hyny i Tiberias [*Light. Opp.*, ii. 141]. Yma y casglwyd y *Mishna* gan y rabbi Iudah Hakkodesh, tua B. A. 109—220; ac yn mhen ychydig flyneddoedd wedi hyny chwanegwyd y *Gemara* [*Buxt. Tiberias*, 19]. Y mae adfeilion y synagogau ardderchog, sydd i'w gweled eto mewn llawer o'r hen drefydd a'r pentrefydd, yn dangos fod llwyddiant yr Iuddewon o'r eilfed i'r seithfed ganrif yn ateb i'w lluosogrwydd [*Port. Handbook*, 427, 440].

**GALILEA, MOR.** Gwel GENNESARETH.

**GALILEAID:** yn yr ystyr cyntaf, a olyga drigolion gwlad Galilea, y rhai a elwir yn fynych yn y Beibl yn Galileaid. Edrychai Iuddewon Iudea yn ddiystyrllyd ar y Galileaid; a haerent na chododd prophwyd erioed o Galilea, ac na chyfodai yr un byth—heb gofio, neu heb wybod, mai Galilead oedd y prophwyd Ionah, heb son am y Prophwyd Mawr a gyfododd o Nazareth. Y mae yn debyg mai dan ddylanwad y rhagfarn cenedlaethol yma y gofynodd Nathanael i Phylip, "A ddichon dim da ddyfod o Nazareth?" *Ioan* i. 46.

Yr oedd y Cristionogion boreuol yn cael eu galw yn fynych yn Galileaid, o blegid cyssylltiad agos Crist a'r apostolion â'r wlad: *Act.* ii. 7. Prin yr arferai Julian y gwrthgiliwr un enw arall er dangos ei wawd maleisus. Galwai Iesu Grist "y duw Galileaidd;" a phan yr oedd ar fin marwolaeth, dywedir iddo lefain, fel yr oedd yn cyfarch y Gwaredwr yn wawdus, "Y Galilead! ti a orchfygaist!"

Cafodd yr enw, Galileaid, ei roddi hefyd i sect wladyddol, neu yn hytrach i blaid yn mysg yr Iuddewon—dilynwyr un Iudas, brodor o Galilea, yr hwn, yn y ddegfed flwyddyn o oed ein Harglwydd, a gynhyrfodd ei gydwladwyr, ac amryw ereill o'r Iuddewon, i gymmeryd arfau, ac anturio y gwaethaf, yn hytrach na thalu teyrnged i'r Rhufeiniaid. Yr egwyddorion a ddysgai efe i'w blaid oedd, nid yn unig eu bod yn genedl rydd, ac na ddylent ymostwng i neb arall; ond eu bod yn etholedigion Duw, ac mai efe yn unig oedd eu llywydd hwy, ac am hyny na ddylent ymostwng i drefniant unrhyw ddyn. Er i Iudas fod yn aflwyddiannus, ac i'w blaid ar y cynnyg cyntaf gael ei llwyr orchfygu a'i gwasgaru, er hyny yr oedd wedi trwytho meddyliau ei ddysgyblion mor drwyadl yn ei benboethder ei hun, fel na orphwysasant nes suddo y ddinas a'r deml i lwyr ddinystr.

Y mae Michaelis yn crybwyll am sect o Galileaid, oedd yn gryn dair neu bedair mil ar ddeg o nifer, a honent eu bod yn ddysgyblion i Ioan Fedyddiwr; y rhai, mor ddiweddar a B. A. 1779, a breswylient yn agos i Elmarkah.

**GALILEI, GALILEO:** yr hwn a adnabyddir fynychaf wrth yr enw olaf, sef ei enw bedydd, ydoedd fab i Vincentio Galilei. Ganwyd ef yn Pisa, yn Tuscany, Chwefror 15fed, 1564. Wedi derbyn addysg foreuol dan gryn anfantais, anfonwyd ef gan ei dad i brifysgol Pisa pan oedd yn 19 oed. Bwriadwyd ei ddwyn i fyny yn y broffes feddygol; ond gan fod ei athrylith yn ei arwain bron o'i febyd at fesuroniaeth ac athroniaith ymarferol, ac i'w duedd at y gwybodau mawrion hyny gynnyddu yn fawr tra yn y brifysgol, dan arweiniad caredig Guido Ubaldi, rhoddodd ei dad, yn bryderus, ganiatâd iddo i ddilyn ei hoff efrydion, yr hyn a gymmeradwyid yn fawr gan y rhai a wyddent am ei alluoedd cryfion: a dilynodd yntau hwy yn ddyfal a llwyddiannus hyd derfyn ei oes.

Y darganfyddiad pwysig cyntaf a wnaeth oedd rheoleidd-dra ysgogiad dringlyn (*pendulum*) syml yn hongian wrth begwn sefydlog. Pa fodd bynag yr oedd ei wybodaeth o ddeddf dysgyrchiad, a gwrthsafiad yr awyrgylch, &c., yn rhy anmherffaith i'w alluogi i wellhau yr offeryn i fod o ddefnydd pwysig; yr hyn a wnaed yn dra llwyddiannus gan Huyghens, yr hwn yw gwir berchenog y clod o hyn; ac nid teg ei drosglwyddo i Galileo, fel y gwneir gan rai, yr hwn y mae ei ragoriaethau yn ddigon lluosog heb fenthyca dim gan neb.

Trwy gymmwynasgarwch Ubaldi, yr hwn a fawrygai ei dalentau, ac a ragwelai ei ddefnyddioldeb dyfodol, cyflwynwyd Galileo i sylw yr uchel-ddug Ferdinand I. de Medici, yr hwn a'i happwyntiodd ef yn ddarlithiwr gwyddonol yn Pisa, yn 1589, pan ydoedd yn 25 oed; ond nid oedd ei gyflog ond bychan. Yma y dechreuodd wneud cyfres o brofion ar ysgogiad (*motion*), yr hyn a'i harweiniodd ef yn raddol i ganfod a chredu yn ddiysgog fod y deddfau symmudiad a gymmerid yn ganiataol gan yr Ysgolwyr yn gwbl anamddiffynadwy.

Wedi i feddwl Galileo gael ei ryddhau, trwy ei ymchwiliadau a'i ymbrofion, oddi wrth gadwyni awdurdod a hen arfer, ymroddodd i chwilio teilyngdod y ddwy gyfundrefn seryddol oedd yn dechreu dyfod y pryd hyny i gydymgystadleuaeth bwysig, sef y Ptolemaidd (*Ptolemaic*) a'r Gopernicaidd (*Copernican*). Canfu a phrofodd yn fuan fod y flaenaf wedi ei seilio ar anwybodaeth hollol o ddeddfau gallofyddiaeth (*mechanics*), neu ar gamgymhwysiad o ddyfyniadau o Aristotle, y Beibl, a'r Tadau. Pa fodd bynag, fe ganfu fod y fath ddallbleidiaeth o blaid yr hen gyfundrefn wallus Ptolemaidd, a'r fath ragfarn ddisail yn erbyn y Gopernicaidd, fel y barnodd yn ddoeth iddo barhau i ddarlithio yn ol y dyb Ptolemaidd, nes y byddai i amser roi cyfleusdra manteisiol i ddinystrio ei holl adeilad dychymygol trwy ffeithiau a phofion anwrthwynebol.

Un o'r gau syniadau cyntaf a wrthwynebodd oedd, y dyb y byddai i sylweddau o wahanol bwysau gymmeryd mwy neu lai o amser i gwympo i'r llawr o'r un uchder, yn ol eu gwahanol bwysau:—fel hyn, pe byddai un sylwedd yn drymach ddeng waith nag un arall, fe gwympai y trymaf trwy bellder o gan llath, tua'r llawr, yn yr un amser ag y cwympai yr ysgafnaf trwy y pellder o ddeg llath. Canfu Galileo, yr hwn, fel y dywedir, oedd y cyntaf i ffurfio syniad cywir am natur yr awyrgylch, fod y gred sefydledig yma yn anghywir; a dangosodd y disgynai sylweddau o wahanol faint a phwysau tua'r ddaiar o'r un bellder oddi wrthi, yn yr un faint o amser, pe na bai ond am wrthsafiad yr awyr. Ac er mwyn penderfynu y ddadl yn gyhoeddus, aeth i ben y tŵr enwog a elwid y Campanile, neu Dŵr Gogwyddol Pisa, a gollyngodd i lawr oddi yno amryw sylweddau, yn gwahaniaethu yn fawr yn

Digitized by Google

eu maint a'u pwysau, y rhai a gyrhaeddent y llawr oll mewn amser mor gyfartal, fel y gallesid dysgwyl na buasai neb oedd yn meddu llygaid i weled yn gallu anghredu y syniad: ond y fath oedd rhagfarn yr edrychwyr o blaid hen syniadau eu dysgawdwyr, fel na chymmerent eu hargyhoeddi hyd yn oed gan brawf gweladwy i'w llygaid eu hunain.

Dygwyddodd amgylchiad arall y pryd hwn a roddodd eglurhad boddhaol i feddwl Galileo gyda golwg ar gydbwysedd cyfartal yr awyr ar wahanol sylweddau, o wahanol faint a phwys. Yn ystod adeiladiad rhyw weithydd cyhoeddus a ddygid yn mlaen ar y pryd dan nawdd Uchel Ddug Tuscany, canfyddwyd nas gellid gwneyd i'r dwfr godi yn y sugnedydd (*pump*) yn uwch nag o ddeutu deg troedfedd ar ugain. Y rheswm a roddid y pryd hyny dros gyfodiad dwfr mewn sugnedydd oedd, fod natur yn casau gwagle; ond pan ganfyddwyd wedi y cwbl na chyfodai dwfr ond i bellder penodol, gwelwyd fod yn angenrheidiol diwygio y gred; ac yn lle dywedyd fod "natur yn casau gwagle," yr oedd yn rhaid dywedyd mai ei gasau yn unig yr ydoedd i'r uchder o tua deg llath! Tybiodd Galileo ar unwaith oddi wrth hyn, ac yr oedd ei dyb yn gywir hefyd, mai cyfodi yr oedd y dwfr yn ol dirwasgiad na awyr; a chan fod ei bwysau yn derfynol, yr achosai i'r dwfr gyfodi ond yn unig i bwynt lle y gwrthfantolid ef gan yr awyr. Dygodd Torricelli, dysgybl ein hathronydd, y syniad yma yn mlaen, fel y terfynodd yn nyfeisiad yr offeryn defnyddiol a elwir yr hinfynag (*barometer*).

Ond, yn lle argyhoeddi ei gydwladwyr o'u camsyniadau disail, ac ennill dysgyblion trwy ei ymchwiliadau a'i brofion diwyd a chedyrn, canfu Galileo iddo greu llawer o elynion dirgel, a rhai cyhoeddus hefyd, iddo ei hun; am hyny gadawodd Pisa, ac ymsefydlodd yn mhrif-ysgol Padua, yn 1592, lle y dewiswyd ef i lenwi y gadair broffesyddol am yr ysbaid terfynol o chwe blynedd. Yma, efe a ddyfeisiodd fath o hinfesurydd anmherffaith; yr hwn, ac ystyried ei fanteision ef, oedd yn ddarganfyddiad pwysig. Tua'r un amser y dechreuodd ei ohebiaeth â Kepler, yr hon a barhaodd gyda'r cyfeillgarwch gwresocaf o bobtu hyd farwolaeth Galileo.

Pan yr ail etholwyd ef i'r broffeswriaeth yn Padua, dyblwyd ei gyflog, a chynnyddai ei glod yn barhaus, ac ymgasglai efrydwyr awyddus i'w wrando o bob parth o Ewrop; ond lleiheid ei fwynhâd i raddau mawr iawn, trwy i afiechyd blin ymaflyd ynddo, yr hwn a'i dilynodd hyd ei farwolaeth. Yn y flwyddyn 1604, ymddangosodd seren newydd ddysglaer yn nghydser (*constellation*) Ophiuchus, yr hon a gymmerodd yn destyn ei ddarlithiau; y rhai a fwriedid, fel yr ymddengys, fel ymosodiad ar y gyfundrefn Ptolemaidd, yn hytrach nag fel eglurhad ar achosion ymddangosiad y seren.

Ond nid seryddiaeth yn unig oedd yn tynu holl sylw a myfyrdod Galileo. Darllenodd a mawrygodd waith Gilbert, *On the Nature of Bodies*, mabwysiadodd ei olygiadau ar ddysgyrchiad y ddaiar, a ffurfiodd dŷnfeini yn ol ei gynllun ef. Tua'r un amser gwnaed ymosodiad lled chwerw ar un Capra, yr hwn a hònai mai efe oedd dyfeisiwr math o gwmpas a ffurfiwyd gan Galileo; ac ysgrifenodd hefyd ar ddulliau ymarferol i fesur uchderau a phellderau. Yn fuan ar ol hyny, mynegodd mewn llythyr y bwriadai "ysgrifenu tri o lyfrau ar gyfundrefn y greadigaeth; tri o lyfrau ar ysgogiad lleol; a thri llyfr ar allofyddiaeth: hefyd, ar sain, ymadrodd, goleuni, trai a llanw, meintiolaeth barhaol, ysgogiad anifeilaidd, a gwersylliad (*castrametation*)—llawer o ba rai a ddinystriwyd gan ei berthynasau ar ol ei farwolaeth, fel y tybir, trwy annogaeth eu cyffeswr Pabaidd teuluol.

Hynodwyd y flwyddyn 1609 gan waith Galileo yn ffurfio *telescope* ardderchog, yr hwn y gellir ei ystyried yn sylfaen y darganfyddiadau ysblenydd a wnaed wedi hyny yn y gyfundrefn heulog; yr hyn a wnaeth y wybodaeth hono y berffeithiaf er fod ei gwrthddrychau y rhai pellaf. Y mae yn wir fod Jansen, a rhai ereill o'i flaen, wedi ffurfio math o chwyddwydrau, a rhyw fath, fe ddichon, o delescopau anmherffaith hefyd; ond nis gallant hwy hòni hawl i'r ddyfais odidog o wneyd telescop seryddol, gan y bwriedid eu hofferynau hwy fel teganau er difyrwch, yn fwy nag i unrhyw ddyben ymarferol gwerthfawr. Pa fodd bynag, y mae dyfeisiad yr offeryn celfyddydol ardderchog hwn, a'i gymmhwysiad am y tro cyntaf at seryddiaeth gan Galileo, yn ddiammheuol. Cyflwynodd ei delescop cyntaf i Ddyglyw Venice (*Doge of Venice*), gan yr hwn y rhoddwyd proffeswriaeth iddo yn Padua dros ei oes, gyda chyflog mwy nag a roddwyd yno erioed i broffeswr gwyddoniaeth, sef tua mil o fforingau.

Yr oedd Galileo wedi dyfod erbyn hyn yn dra awyddus am gael prawf golygol o'r hyn a alwai yn "adeilad y greadigaeth" (*structure of the universe*); a darparodd iddo ei hun ail offeryn yn fuan: a phan y cyfeiriodd ef tua'r lleuad, dadwisgwyd y goleuad hwnw yn y fan o'r perffeithrwydd mesuronol a briodolid yn ffol gan yr ysgolorion (*schoolmen*) i'r holl gyrff nefol—yn ol syniad y rhai, y maent oll yn berffaith grynion, yn hunan-oleuol, ac heb eu llygru gan ddim llych windod daiarol. Canfu Galileo yn amlwg fod gwyneb y lleuad yn afreolaidd, yn anwastad, ac yn meddu mynyddoedd a dyffrynoedd llawer eangach, yn ol eu maint, na'r ddaiar; mai adlewyrchiad o belydrau yr haul oddi wrth y ddaiar yw y goleuni gwan sydd ar barth tywyll gwyneb y lleuad; a bod yr ysmotiau goleu sydd yn agos i'w hymyl mewnol, a'r pantiau a'r haciau sydd yn ei hymyl, yn dangos anghyfartaledd mawr ei harwyneb, gan fod penau y mynyddoedd yn cael eu goleuo gan yr haul, tra yr erys yr ochrau a'r godreon yn dywyll o blegid amgrymedd yr arwyneb. Wrth ddilyn y sylwadau hyn, canfu fod y lleuad yn troi yr un wyneb yn wastad tua'r ddaiar, fel y mae agos i hannergylch ei harwyneb allan o'n golwg ni bob amser. Nid ymddengys iddo ef dynu y casgliad oddi wrth hyn, sydd yn awr yn anocheladwy a phrofedig, y rhaid, o ganlyniad, fod troad y lleuad ar ei hechel, ac amser ei chylchdro o amgylch y ddaiar, yn gwbl gyfartal. Lagrange a gafodd hyn allan, yn nghyd â'r achos o hono. Sylwodd Galileo wedi hyny ar gydbwysedd y lleuad—yr hyn a barai i ranau bychain o'i hannergylch pellaf ddyfod i'r golwg ar amserau rheolaidd; ond nid oedd efe yn alluog i roddi eglurhad boddhaol o'r achos o hyn, o blegid sefyllfa anmherffaith y wybodaeth seryddol ar y pryd. Parodd y syniad a awgrymid oddi wrth yr ymddangosiad o foroedd a chyfandiroedd, mynyddoedd a dyffrynoedd ar wyneb y lleuad, y gallai ei bod yn breswylfa trigolion, i'r ysgolorion syfrdanu bron hyd lewygfeydd, a tharawyd y crefyddwyr â dychryn mawr.

Wrth archwilio y ser-niwloedd (*nebulæ*), ac yn enwedig y Llwybr Llaethog, â'i delescop, canfu Galileo eu bod yn frith gan fyrddiynau o ser, neu

Digitized by Google

yn iaith Milton, eu bod "wedi eu powdro â ser." Gellir sylwi, wrth fyned heibio, fod Milton wedi ymweled â Galileo, a'i fod yn coledd y syniad uchaf am ei athroniaeth, at yr hon y gwna amryw gyfeiriadau prydferth yn ei *Goll Gwynfa*.

Rhoddodd archwilio y blaned Iau (*Jupiter*) fwy fyth o achos syndod iddo. Canfu Galileo dair o ser pur fychain o'r tu dwyreiniol i'r blaned, yn ymyl ei gwyneb; ac wrth sylwi yn mhellach, canfu fod dwy o honynt yn newid eu sefyllfa yn amlwg tua'r gorllewin: canfu yn ebrwydd mai ser gosgordd, neu leuadau, oeddynt; ac yn fuan wedi hyny canfu y bedwaredd. Rhoddodd y darganfyddiad yma nerth newydd i'r gyfundrefn Gopernicaidd; ac heb law bod yn foddhad annhraethol i'w feddwl mewn ystyr dyfaliadol, arweiniodd cyfatebiad y darganfyddiad â'n lleuad ni ei feddwl gweithgar ef i ganfod ei bwys ymarferol mawr, gyda golwg ar benderfynu yr hydredoedd (*longitudes*) ar y môr: ond gwaith yr oes ddyfodol oedd dwyn hyn a threfniadau ereill i radd o berffeithrwydd, oedd braidd yn anmhosibl y pryd hwnw. Gwnaeth frys i wneyd ei ddarganfyddiadau newyddion yn hysbys trwy gyfrwng cyhoeddiad a elwid y *Nuncius Siderius* (y Brysiadur Seryddol), yr hwn a gyflwynodd i'r dywysoges Medici, ac a gyhoeddid ganddo yn achlysurol, fel y darganfyddai wrthddrychau newyddion. Rhaid fod y dulliau ynfyd a gymmerwyd i ymosod arno o blegid y darganfyddiadau hyn yn peri digrifwch iddo, yn hytrach na gofid. Gwrthodai rhai edrych trwy ei wydrau, rhag ofn cael eu hargyhoeddi. Haerodd un, Horky, ei fod wedi defnyddio telescop Galileo, ond na welodd ddim o'r fath bethau trwyddo. Dywedodd un arall fod yn rhyfedd fod natur wedi rhoddi ser gosgordd i Iau, er mwyn anfarwoli teulu Medici (canys galwodd Galileo hwy yn ser Mediciaidd, er anrhydedd i'w noddwr). Rhyw bryd ar ol hyn, canfu ei wrthwynebwyr bump o ser gosgordd i Iau, yn lle pedair; ac yr oedd un yn meddu digon o haerllugrwydd i haeru ei fod wedi gweled naw.

Pan yr archwiliodd Sadwrn â'i delescop canfu ei modrwy, neu yn hytrach ei modrwyau (fel y dangosodd Syr W. Herschel ar ol hyny); ond o blegid anmherffeithrwydd ei wydrau, tybiodd ef mai dwy seren fechan yn nglŷn â Sadwrn oedd y rhanau o'r modrwyau a welai. Traddododd Galileo ei syniad am Sadwrn mewn ymadrodd tywyll, trwy drawsosod y llythyrenau yn y geiriau, yr hyn o'i gyfieithu yw—

"Yr wyf wedi sylwi fod y blaned bellaf yn driphlyg."

Y seryddwr Huyghens oedd y cyntaf i gywiro y camsyniad yma; yr hwn a brofodd mai modrwyau Sadwrn oedd yr achos o'r olygfa a gafodd Galileo.

Traddododd ei syniadau am Gwener (*Venus*) yn yr un dull dammegol, gan drawsosod y llythyrenau yn y geiriau a ddefnyddiai, i'r ystyr canlynol:—

"Y mae ymddangosiadau Gwener yn gyffelyb i ymddangosiadau y lleuad—"

gan gyfeirio at ffurf hannergylch y blaned pan yn agos i gydgyfarfyddiad. Yr oedd ei ddarganfyddiad o frychau (*spots*) ar wyneb yr haul yn ddyrnod trwm i berffeithrwydd dychymygol yr ysgolorion.

Yr oedd y Jesuitiaid hunandybus ac anffaeledig yn casau Galileo bob amser â chas cyflawn, am ei fod ef wedi ymuno â'r blaid a'u gyrodd hwy allan o Padua; am hyny, yr oedd ei holl ddarganfyddiadau a'i symmudiadau ef yn cael eu hysbysu i'r chwilys yn Rhufain fel pethau peryglus i grefydd; a chondemniwyd ef yn gyhoeddus o'r pulpud gan y mynach Caccini. Er hunanamddiffyniad, efe a ysgrifenodd lythyrau galluog, un at ei ddysgybl Castelli, a'r llall at yr archdduges Christiana, yn y rhai y mae efe yn hwtio pob ymosodiad ar grefydd, ac yn dyweyd mai amcan yr Ysgrythyrau ydyw dysgu dynion yn ffordd iachawdwriaeth, ac nid eu hyfforddi mewn athronyddiaeth, gan eu bod wedi eu cynnysgaethu â digon o alluoedd naturiol i gyrhaeddyd gwybodaeth o'r olaf. Y mae un ymadrodd nodedig yn ei amddiffyniad sydd yn dangos pa mor wych y gallai efe roddi ei le priodol i lyfr natur, heb sarhau na gormesu ar lyfr dadguddiad:—"Yn y pethau hyn a'r cyffelyb," eb efe, "y rhai nad ydynt erthyglau ffydd, nid oes neb yn ammheu nad oes gan ei sancteiddrwydd (sef y pab) hawl i'w haddef neu i'w condemnio; ond er hyny nid oes un creadur a all eu gwneyd yn wir neu yn anwir, yn groes i'r hyn ydynt o ran eu natur eu hunain mewn gwirionedd." Ond er ei holl alluoedd dysglaer, a'i holl resymau anatebadwy yn ei amddiffyniad, yr oedd y chwilys yn anghymmodlawn; am hyny archwyd i Caccini dynu y cyhuddiadau o heresi yn erbyn Galileo: ond bu ei ymddangosiad personol yn Rhufain yn 1616, a'i amddiffyniad galluog o'i ymddygiad, yn foddion i ddystewi ei erlidwyr dros amser byr, er holl nerth eu cynddaredd yn ei erbyn.

Yn Mawrth, 1616, caniataodd y pab (Paul v.) i Galileo gael gwrandawiad ganddo, a rhoddodd sicrwydd iddo o ddiogelwch personol; ond gofynodd yn bendant iddo beidio dysgu athrawiaeth Copernicus mwyach am droad y ddaiar. Cydsyniodd Galileo â'r cais, ac ymadawodd o Rufain gyda dirmyg. Cafodd achlysur yn fuan drachefn i droi ei sylw at seryddiaeth; canys yn y flwyddyn 1618, nid ymddangosodd llai na thair o gomedau, pan y cynghorodd Galileo ei gyfeillion i beidio tybied yn rhy frysiog fod comedau, fel planedau, yn ymsymmud trwy y gwagle diderfyn, ond y gallai mai awyrgylchaidd (*atmospheric*) ydynt. Ond yn hyn yr oedd ei resymau, er yn gelfydd, yn anghywir; fel yr oeddynt hefyd yn nghylch yr achos o drai a llanw y môr. Pan argyhoeddid ef o'i gamsyniad, yr oedd yn hawdd ganddo ef, fel pob dyn gwir fawr arall, gydnabod ei wall; ac addefai yn fynych ei fod ef yn fwy o athronydd nag o wyddonegwr. Yn mhen ysbaid aeth i Rufain drachefn, a chafodd dderbyniad croesawgar gan Urban viii, y pab a ddilynodd Paul. Dystawyd ei elynion dros amser, ac anfonwyd ef adref i Tuscany, wedi ei lwytho â ffafrau ac anrhegion; ac er fod ei noddwr, Cosmo ii. de Medici, wedi marw, derbyniwyd ef yn dra charedig gan ei olynydd, Ferdinand ii.

Gan i Galileo gael ei wahardd i ddysgu y gwir, ioneddau a ddarganfu yn gyhoeddus trwy ddarlithiau, efe a ymroddodd, fel ei ragflaenor Copernicus, i'w casglu yn nghyd yn un llyfr, dan yr enw "Cydymddyddan ar y Cyfundrefnau Ptoiemaidd a Chopernicaidd;" a chyflwynodd y llyfr, ar yr hwn yr oedd wedi bod yn llafurio yn ddiwyd am un mlynedd ar bymtheg, i Ferdinand ii: ac er gwaethaf pob gwrthwynebiad, cyhoeddodd ef i'r byd yn 1632. Bernir mai ei amcan yn cyfansoddi y gwaith ar ddull ymddyddan oedd, osgoi ei addewid o beidio dysgu y gyfundrefn Gopernicaidd. Tri o bersonau ffugiol sydd yn dwyn yr ymddyddan yn mlaen: Salviati, un o

Digitized by Google

blaid Copernicus; Sagredo, digrifwr o'r un blaid; a Simplicio, un o blaid Ptolemy, yr hwn sydd yn cael ei drin yn llym trwy gellwair ac ymresymiad. Perswadiwyd y pab (yr hwn oedd wedi bod yn gyfaill i Galileo) gan y gelynion i gredu mai efe oedd Simplicio, yr hwn a wawdid yn y gwaith; ac yr oedd peth sail i'r cyhuddiad, gan fod rhai o'r dadleuon a ddefnyddiasai y pab yn ei ymddyddan â Galileo wedi eu rhoddi yn ngenau Simplicio. Parodd hyn i'r pab ddigio yn greulawn wrth Galileo: gwnaed egni dylanwadol i osgoi y canlyniad, ond mynodd y chwilys ei wysio ger bron, i ateb am yr hyn a feiddiodd ddywedyd, a chondemniwyd ei lyfr gan y llys dallbleidiol hwnw. Gan hyny, bu raid i Galileo fyned i Rufain, er ei fod yn 70 mlwydd oed, ac wedi ei lethu gan afiechyd a gwendid. Pa fodd bynag, cafodd bob cysur a allai yr Uchel Dduc ei roddi iddo, trwy gael ei gadw yn nhŷ cenadwr Tuscany; a mynai y dyn bywiog hwnw, Nicolini, ei gadw ar ei draul ei hun, pan y canfu duedd grintachlyd gweinidog Ferdinand.

Yn mhen rhai misoedd ar ol ei fynediad i Rufain, gwysiwyd ef drachefn o flaen y chwilys; ac ar yr 20fed o Fehefin, efe a ymddangosodd ger bron y chwilyswyr ymgynnulledig yn Mynachdy Minerva. Y mae ei holl ddedfryd yn rhy faith i'w rhoddi yma; ond y mae rhan o honi yn rhy bwysig i'w gadael allan:—

"Ar ddymuniad ei Sancteiddrwydd ac Arglwyddi Cardinalaidd ardderchocaf y chwilys goruchel a chyffredinol hwn, y mae y ddau haeriad yn nghylch sefydlogrwydd yr haul ac ysgogiad y ddaiar wedi cael eu cyfaddasu gan y Cyfaddaswyr Duwinyddol fel y canlyn:—

1. Mae yr haeriad mai yr haul ydyw canolbwnc y greadigaeth, ac nad ydyw yn symmud o'i le, yn ynfyd, yn gamsyniad athronyddol, ac yn wir *hereticaidd;* o blegid ei fod yn hollol groes i'r Ysgrythyr Sanctaidd.

Mae yr haeriad nad, y ddaiar yw canolbwnc y greadigaeth, ac nad ydyw yn sefydlog, ond ei bod yn ysgogi, a bod iddi hefyd gylchdro dyddiol, yn ynfyd, yn gamsyniad athronyddol, ac o'i ystyried yn dduwinyddol o leiaf, y mae yn *gyfeiliornus* o ran y ffydd."

Ar ol ymosodiad maith a chondemniol, o blegid brawddeg, o ba ba un y tybir ddarfod rhoddi Galileo ar yr arteithglwyd, terfyna fel hyn:—

"Yr ydym ni yn ordeinio ar i Lyfr Ymddyddanion Galileo Galilei gael ei wahardd trwy ddeddf; ac yr ydym yn eich dedfrydu chwi i garchar y swyddfa hon, i aros yno cyhyd ag y bernir yn addas: ac yr ydym yn gorchymyn ar i chwi, yn ystod y tair wythnos nesaf, adrodd y saith Salm edifeiriol unwaith bob wythnos," &c., &c.

Er mwyn cael dedfryd mor dyner, gorfodwyd Galileo i dyngu ar yr Efengylau ei fod yn gwadu y gyfundrefn Gopernicaidd; a rhoddwyd y llw canlynol iddo, yr hwn y gorfodwyd ef i'w adrodd ger bron y chwilys:—

"Gyda chalon gywir a ffydd ddiffuant, yr wyf fi yn gwadu, yn melldithio, ac yn ffieiddio y cyfeiliornadau a'r heresiau dywededig (sef fod y ddaiar yn troi, &c.); ac yr wyf yn tyngu na bydd i mi byth mwyach ddywedyd na haeru dim o'r fath, nac ar lafar nac mewn ysgrifen, er cynhyrfu ammheuaeth cyffelyb yn fy erbyn.

Myfi, GALILEO GALILEI,
A wnaethum y gwadiad uchod â'm llaw fy hun."

Pan yn cyfodi oddi ar ei liniau, ar ol cael ei orfodi i fyned trwy yr holl dyngediad difrifol yma, dywedir iddo sisial yn nghlust cyfaill oedd ger llaw—"*E pur se muove*"=Troi y mae hi, er hyny.

Edrychir ar yr ymddygiad yma at Galileo fel un o'r llawer o weithredoedd annynol y mae yr Eglwys Babaidd yn euog o honynt, y ceir eu hanes ar lyfrau y byd. Tybiwyd, fel yr awgrymwyd eisoes, ac nid heb sail, fod Galileo wedi cael ei roddi ar yr arteithglwyd cyn cydsynio i wadu yr hyn a wyddai oedd yn wirionedd.

Ar ol y ddedfryd a'r tyngediad dan sylw, canfu dysgyblion Galileo fod yn angenrheidiol iddynt ymddwyn yn wyliadwrus. Ond er yr holl orthrwm yma, parhaodd eu serch at eu hathraw galluog yn llawn mor gynhes ag erioed.

Dilynwyd henaint Galileo yn gyflym gan flinderau gofidus. Yn Ebrill, 1634, collodd ferch anwyl—ei unig gysur yn ei hen ddyddiau. Goddefwyd iddo y pryd hyn ddychwelyd i Arcetri, lle y tynodd ei anwyl ferch ei hanadl olaf; ond eto cedwid ef mewn dalfa gaeth. Ar ol iddo dreulio dwy flynedd yn y sefyllfa anghysurus yma, gwnaed ei gaethiwed yn llymach fyth, o blegid rhyw ddrwg-dybiau a goleddai y pab yn ei erbyn; fel, ar ol caniatau iddo fyned i Florence er mwyn ei iechyd adfeiliedig, y gorchymynwyd ei gludo drachefn i Arcetri. Yn 1636, aeth yn gwbl ddall, o gylch yr amser y gorphenodd ei *Ymddyddanion ar Ysgogiad* (*Dialogues on Motion*), y rhai y tybiai efe eu bod o'r fath natur ag na roddent ddim tramgwydd i'w elynion penaf; ond yr oedd dychryn crefyddol aelodau y chwilys y fath, fel nas gallai gael neb yn Italy yn ddigon gwrol i'w cyhoeddi, rhag eu hofn: ond cyhoeddwyd hwynt yn mhen rhai blyneddoedd ar ol hyny gan ŵr o'r Iseldir, yn Amsterdam.

Prif ddysgyblion Galileo oedd Viviani a Torricelli; ac yr oedd y ddau yn dra hoff o hono—y blaenaf felly mewn modd nodedig. Pan yr oedd Torricelli yn parotoi parhad i'r *Ymddyddanion ar Ysgogiad*, cymmerwyd Galileo yn glaf yn ddisymmwth gan guriad y galon; ac wedi dihoeni am ddau fis, bu farw yn 78 mlwydd oed, Ionawr 8fed, 1642, yn yr un flwyddyn ag y ganwyd Newton.

Cyhoeddwyd ei waith yn 13 cyfrol 8plyg, yn Milan, 1811. Cyhoeddwyd casgliadau o'i waith mewn amryw fanau ereill hefyd, ac argraffwyd llawer o'i waith yn llyfrynau ar wahân. Ysgrifenwyd hanes ei fywyd gan ei ddysgybl, Viviani, yr hwn hefyd a adawodd arian yn ei ewyllys at godi beddadail iddo; ond yr hwn a ysgrifenodd y bywgraffiad goreu iddo hyd yn hyn ydyw Mr. Drinkwater.

**GALIM**, [גלים=*pentyrau*, neu *ffynnonellau; Γαλλειμ*]: lle a grybwyllir ddwywaith yn y Beibl: yn gyntaf, fel lle genedigol y gŵr i'r hwn y rhoddodd Saul Michal, gwraig Dafydd—"Phalti mab Lais, o Alim:" 1 *Sam*. xxv. 44. *Rhomma* sydd gan y Deg a Thrigain, a *Gethla* gan Josephus; ond nid oes un awgrym yn y naill na'r llall at sefyllfa y lle. Yn 2 *Sam*. 15, 16, a'r cyddestynau, lle y dangosir i Michal ddychwelyd at Dafydd at Hebron, dywedir ei ddilyn cyn belled a Mahurim, sef lle ar y ffordd rhwng Mynydd yr Olewydd ac Iericho: cymharer 2 *Sam*. xvi. 1. Ond nid yw hyd yn oed hyn, o angenrheidrwydd, yn dynodi cyfeiriad Galim; o blegid dichon fod Phalti ar y pryd gydag Isboseth yn Mahanaim—y ffordd oedd yn arwain yn naturiol heibio i Mahurim.

Ceir yr enw drachefn yn y rhestr o leoedd a ddrchrynwyd gan ddynesiad Sennacherib (*Esa*. x. 30): "Bloeddia â'th lef, merch (sef trigolion) Galim: pâr ei chlywed hyd Lais, O Anathoth

Digitized by Google

dlawd:" neu, yn ol yr Hebraeg, medd Grove, "Dyrchafa dy lef, O ferch Galim! gwrando, O Lais! Anathoth dlawd!" Y mae y dinasoedd ereill, y crybwyllir am danynt yn yr ymadroddion cyssylltiedig—Aiath, Michmas, Ramah, Gibeah Saul, oll, fel Anath, yn llwyth Beniamin, ychydig i'r gogledd o Ierusalem. Ni ddylid anghofio fod Lais a Galim yn cael eu crybwyll yn y ddau le mewn cyssylltiad â'u gilydd. Fe ddichon fod *Ben-Lais* (mab Lais), yn yr ymadrodd blaenaf, yn arwyddo mai brodor oedd Phalti o Lais, yr hon oedd mewn cyssylltiad â Galim.

Yn mysg enwau y dinasoedd a chwanegwyd gan y Deg a Thrigain at ddinasoedd Iudah, yn *Iosuah* xv. 59, y mae Galem rhwng Carem a Thether. Yn *Esa.* xv. 8, rhydd y Vulgate Galim am Eglaim, yn mysg dinasoedd Moab.

Ni chyfarfyddwyd â'r enw Galim mewn amseroedd diweddar. Y mae Schwarz (131) yn son am *Beit-Djallin* rhwng Ramleh ac Ioppa; ond *Beit-Dejan* yw yr enw a roddir gan olrheinwyr ereill. Y mae Eusebius, oddi ar glywed son, yn ei gosod yn agos i Accaron (Eron).

GALIO, [Γαλλιων=*llaethog*]. Junius Annæus Galio, oedd Rhaglaw Rhufeinig Achaia dan yr ymherawdwr Claudius, pan yr ymwelodd yr apostol Paul gyntaf â Chorinth, B. A. 53 (*Act.* xviii. 1, 12; *Plin. Hist. Nat.*, xxxi. 33); a bu yn foddion anrhydeddus i leddfu yr erledigaeth afresymol a gyfodwyd gan yr Iuddewon yn erbyn yr apostol: *Act.* xviii. 14—16. Yr oedd Galio yn frawd i Lucius Annæus Seneca, yr athronydd enwog; a chyflwynodd Seneca ddau o'i draethodau iddo; sef, y *De Ira*, a'r *Vita Beata;* ac yn y rhagymadrodd i'r pedwerydd llyfr o'i *Naturales Quæstiones*, darlunia ef fel dyn a gerid yn gyffredinol; a'r hwn a gasâai bob anfadrwydd, yn enwedig ffug a rhagrith; ac y mae hyn yn cytuno â'r hanes a roddir am dano yn yr Actau, a chan Statius. Enw Galio ar y cyntaf oedd Marcus Annæus Novatus; ond cafodd yr enw arall pan fabwysiadwyd ef i deulu yr areithiwr Lucius Junius Galio [*Tacit. Ann.*, xv. 73; xvi. 17; *Senec. Nat. Quæst.*, 4 *præf.*; *Dion Cass.*, lx. 35; *Stat. Silv.*, ii. 7, 32]. Ymddengys i Galio roddi rhaglawiaeth Achaia i fyny am nad oedd yr hinsawdd yn cytuno â'i iechyd [*Senec. Ep.*, civ]. Dywedir iddo gael ei roddi i farwolaeth gan Nero, "fel ei frawd Seneca," medd Winer; "ond nid ar yr un amser;" ond ymddengys nad oes awdurdod digonol dros hyn, er fod Dion Cassius yn awgrymu hyny. Dywed Eusebius [*Thes. Temp.*, 161] ei fod wedi cyflawni hunanladdiad, yn B. A. 65; ond y mae Tacitus [*Ann.*, xv. 73] yn llefaru am dano fel pe buasai yn fyw ar ol hyny: o ganlyniad, y mae yn dra anhawdd penderfynu dim gyda golwg ar farwolaeth Galio.

GALW—EDIG—AETH—ION, [Heb., קָל; Groeg, καλεῶ]. Y mae y gair Groeg καλεῶ (*galw*) i'w ddeall yn yr ystyriaethau canlynol:— 1. Galw ar un i fyned neu ddyfod i ryw fan: *Ioan* x. 3; *Luc* xix. 13; *Marc* iv. 21. 2. Galw gyda'r drychfeddwl o awdurdod; megys gwysio un o flaen brawdle (*Act.* iv. 13; xxiv. 2); "Galw y pethau nid ydynt fel pe byddent," sef eu galw i fod: *Rhuf.* iv. 17. 3. Gwahodd; galw i wledd, i swper (*Mat.* xxii. 3; *Ioan* ii. 2); galw i edifeirwch: *Mat.* ix 3. 4. Appwyntio i swydd neu sefyllfa: *Heb.* v. 4; *Gal.* i. 15. 5. Enwi; rhoddi enw ar berson neu beth, megys rhoddi enw neu gyfenw ar un (*Mat.* i. 21; *Luc* i. 13; *Dad.* xix. 13); neu enw o ddysgrifiad; "gelwir ef yn Nazaread" (*Mat.* ii. 23); "Na'ch galwer chwi Rabbi;" *Mat.* xxiii. 7, 8. 6. Ystyried neu gyfrif un y peth ydyw; "Lleiaf y gelwir ef yn nheyrnas nefoedd"—yn gyfystyr â "lleiaf a fydd efe yn nheyrnas nefoedd;" *Mat.* v. 9, 19; *Luc* i. 32, 35; 1 *Cor.* xv. 9; *Heb.* iii. 13. Cyffelyb ydyw ystyr y gair yn ei ffurfiau ereill—κλησις=*galwedigaeth*, a κλητος=*galwedig*. Y maent yn gosod allan yn y Testament Newydd y rhai sydd yn cael eu gwahodd i deyrnas nefoedd ac i fwynhad o fendithion a rhagorfreintiau yr efengyl. *Mat.* xx. 16; xxii. 14; "Llawer sydd wedi eu galw, ond ychydig wedi eu dewis." Ond yn benaf, ac yn enwedigol yn yr epistolau, y mae y geiriau yn golygu y personau sydd wedi ufuddhau i'r alwad hon: felly y mae y gair κλητοι=*galwedigion*, neu rai wedi eu galw, yn gyfystyr â'r geiriau *saint* neu *dduwiolion*: *Rhuf.* i. 6, 7; viii. 28; 1 *Cor.* i. 2, 24; *Iudas* i; *Dad.* xvii. 14.



Y mae yn amlwg fod y ddau ystyr yma i'r gair *galw* yn rhedeg trwy yr Ysgrythyrau: weithiau, golyga y rhai sydd yn ddeiliaid galwadau yr efengyl; ac weithiau, ac felly fynychaf, y rhai sydd yn ufuddhau i'r galwadau hyny. Nid ydyw gwirionedd yr alwad yn ymddibynu ar pa un a dderbynia y dyn hi, ai peidio. Meddylier fod rhai yn derbyn yr alwad, ac ereill yn ei gwrthod: dylem ystyried ei bod mor wirioneddol a didwyll ar y naill ag y mae ar y llall. Er fod y gwahaniaeth hwnw a ddeallir yn y gair *galwad effeithiol* yn bod; eto, nid y gwahaniaeth ydyw bod un yn wir alwad, a'r llall yn alwad heb fod yn ddiffuant. Y mae y rhai sydd yn gwrthod yr alwad wedi eu gwir alw; "Llawer sydd wedi eu galw, ond ychydig wedi eu dewis;" *Mat.* xxii. 3, 8; *Luc* xiv. 16, 24. Y mae hwn yn un o'r geiriau a leferid fynychaf gan Iesu Grist, ac yn cynnwys drychfeddwl o bwys mawr. Dywed Brown (ar y lle) mai yr alwedigaeth ag y mae y Testament Newydd yn llefaru yn fwyaf cyffredin am dani ydyw yr alwedigaeth hono a elwir gan dduwinyddion yn "alwedigaeth effeithiol"—yr hon sydd yn dwyn i'w chanlyn nerth goruwchnaturiol weithredu ar yr ewyllys er sicrhau ei chydsyniad. Ond nis gall hyny fod y meddwl yma; o blegid y mae y rhai a elwir yn cael eu gwahaniaethu yn amlwg oddi wrth y rhai sydd wedi eu dewis. "Rhai gwahoddedig" ydyw yr unig feddwl yma; ac felly gellid arall-eirio y geiriau fel hyn:—Y mae llawer yn cael gwahoddiadau yr efengyl, y rhai na etholwyd gan Dduw i iachawdwriaeth, trwy sancteiddiad yr Ysbryd, a ffydd i'r gwirionedd. Y mae yn amlwg fod y gwirionedd hwn yn gynnwysedig yn yr ymadrodd yn mhob lle y mae yn cael ei ddefnyddio gan Iesu Grist, er y gall fod cymhwysiadau gwahanol o hono yn ei wahanol gyssylltiadau. Y mae yn cael ei lefaru, er anghraifft, mewn cyssylltiad â dammeg y gweithwyr yn y winllan (*Mat.* xx); a'r berthynas sydd rhyngddo, efallai, â'r ddammeg hono ydyw hyn—i'n dysgu y gall dynion a weithiasant yn ngwasanaeth Crist ar hyd eu hoes amlygu yn y diwedd, trwy eu hysbryd cenfigenus, nad oeddynt un amser yn weision dewisedig. "Tra," ebe Alford, "y mae lluoedd yn cael eu galw i'r winllan y mae llawer, trwy rwgnach ac anurddo eu galwedigaeth mewn amryw ffyrdd, yn diddymu eu galwedigaeth; ac felly, er yn gyntaf o ran safle a phroffes, ni byddant yn nifer y rhai dewisedig." Mewn rhai manau y mae y gair yn golygu efallai yn fwyaf neillduol, y rhai a dderbyniasant athrawiaethau yr efengyl, ac a

Digitized by Google

wnaethant broffes o honi—neu, Gristionogion, mewn cyferbyniad i Iuddewon anghrediniol a phaganiaid. Hyn ydyw ystyr tebygol y gair yn 1 *Cor.* i. 26, lle y mae yr apostol yn edrych ar y Corinthiaid a broffesant Gristionogaeth yn gyfranogion o'r alwedigaeth. Yr oedd rhai o'r rhai a elwir yn alwedigion yn cofleidio yr athrawiaeth â'u holl galon. Iddynt hwy, yr oedd yr alwad yn un effeithiol; ac y mae yr alwad yma yn gyssylltiedig â chyfiawnhad a gogoneddiad: *Rhuf.* viii. 28, 30. Ac yn yr ystyr yma y mae y gair yn cael ei arfer fynychaf; "O blegid i Dduw o'r dechreuad eich ethol chwi i iachawdwriaeth, trwy sancteiddiad yr Ysbryd, a ffydd i'r gwirionedd; i'r hyn y galwodd efe chwi trwy ein hefengyl ni, i feddiannu gogoniant ein Harglwydd Iesu Grist;" 2 *Thes.* ii. 13, 14. Dywedir eu bod wedi eu "galw i dragwyddol ogoniant" (1 *Pedr* v. 10); wedi "eu galw i fywyd tragwyddol" (1 *Tim.* vi. 12). "Yr wyf yn cyrchu at y nod, am gamp uchel alwedigaeth Duw yn Nghrist Iesu;" *Phil.* iii. 14. "Megys ag y'ch galwyd yn un gobaith eich galwedigaeth." Y mae yr alwedigaeth yn cael ei dynodi yn nefol; "Cyfranogion o'r galwedigaeth nefol" (*Heb.* iii. 1); ac y mae yn cael ei dynodi felly oddi wrth ei ffynnonell a'i phrif achos, sef Duw Dad, yr hwn sydd yn y nefoedd. Fel y mae ein hetholedigaeth, felly hefyd y mae ein galwedigaeth, mewn modd arbenig, yn cael ei phriodoli iddo ef (1 *Cor.* i. 9; 1 *Thes.* ii. 12; *Rhuf.* viii. 28, 30; 1 *Pedr* i. 15; ii. 9; v. 10; *Phil.* iii. 14; *Gal.* v. 8); o blegid nis gall neb ddyfod at Grist, oddi eithr i'r Tad ei dynu ef. Y mae yn wir y gelwir y credinwyr yn alwedigion Iesu Grist (*Rhuf.* i. 6); ond y mae yn debygol nad yw yr ymadrodd yn gyfystyr â "galwedigion gan Iesu Grist—ond ei fod yn arwydd meddiant Iesu Grist ynddynt: galwedigion ydynt yn eiddo iddo ef. "Trwy alwedigaeth," ebe Calvin, "gwnaethpwyd hwy yn gyfranogion o Iesu Grist. O blegid y mae y rhai a fyddant yn etifeddion bywyd tragwyddol yn cael eu dewis gan y Tad nefol i fod yn blant yn Nghrist; ac wedi eu dewis, y maent yn cael eu cyflwyno i'w ofal a'i amddiffyniad ef fel eu bugail." Dywed Dr. Owen hefyd; "Y mae credinwyr yn cael eu galw (κλήτοι τοῦ Ἰησοῦ Χριστου), nid am eu bod yn cael eu galw ganddo ef, ond ato ef; neu ganddo ef fel yn gweithio bwriad a gweinyddu gras y Tad: 2 *Cor.* v. 20. Y mae yr alwedigaeth felly yn nefol, ar gyfrif y moddion trwy ba un y mae yn cael ei gweinyddu, y rhai ydynt ysbrydol a nefol, sef y gair a'r Ysbryd; ac y mae gair yr efengyl ar amryw gyfrifon yn nefol, o ba herwydd y dynodir ef fel "lleferydd yr hwn sydd yn llefaru o'r nef;" *Heb.* xii. 25. Ac y mae yr Ysbryd yn cael ei dywallt o'r nef, yn cael ei roddi gan Grist ar ol ei esgyniad yno: *Act.* ii. 33. Y mae yn nefol hefyd, ar gyfrif ei dyben: y mae yn galw i'r nefoedd ac at bethau nefol, yn yr hyn y cynnwysir gobaith ein galwedigaeth."—*Dr. Owen* ar y lle.

Ond ni a gyfyngwn ein sylwadau yn yr erthygl hon at y gair *galwedigaeth* yn ei brif ystyr Ysgrythyrol, sef galwedigaeth effeithiol. A chan fod hyn yn un o bynciau nodweddiadol Calviniaeth, ni a roddwn eiriau Calvin ei hun ar yr athrawiaeth [*Instit.*, llyfr iii, pen. 24]:—"Yr etholedigaeth neillduol, yr hon, oni bai am hyn, a orweddai yn guddiedig yn meddwl Duw, o'r diwedd a amlygir ganddo ef trwy yr alwedigaeth. O blegid 'y rhai a ragwybu, y rhai hyny a ragluniodd efe i fod yr un ffurf a delw ei Fab ef.' Yn mhellach, 'y rhai a ragluniodd efe, y rhai hyny hefyd a alwodd efe; a'r rhai a alwodd efe, y rhai hyny hefyd a gyfiawnhaodd efe,' fel y byddai iddo ryw ddydd eu gogoneddu: *Rhuf.* viii. 29, 30. Er fod yr Arglwydd, trwy ethol ei bobl, yn eu cymmeryd hwy fel ei blant, yr ydym, pa fodd bynag, yn gweled nad ydynt yn dyfod i feddiant o'r daioni mawr yma hyd onis gelwir hwynt; ond pan elwir hwynt, y mae y mwynhad o'u hetholedigaeth i ryw fesur yn cael ei weinyddu iddynt. O herwydd y rheswm hwn y mae yr ysbryd ag y maent yn dderbyn yn cael ei alw gan Paul yn 'ysbryd mabwysiad,' ac hefyd yn sel ac ernes o'r etifeddiaeth ddyfodol; am ei fod, trwy ei dystiolaeth, yn cadarnhau ac yn selio y sicrwydd o fabwysiad dyfodol ar eu calonau. O blegid, er fod pregethiad yr efengyl yn tarddu allan o ffynnonell etholedigaeth, eto gan fod hyny yn perthyn i'r annychweledig yn gystal a hwythau, ni byddai ynddo ei hun yn brawf cadarn. Ond y mae Duw yn addysgu yr etholedigion yn effeithiol pan y mae yn eu dwyn i'r ffydd; 'Nis gall neb ddyfod ataf fi, oddi eithr i'r Tad, yr hwn a'm hanfonodd i, ei dynu ef;' *Ioan* vi. 44. Y mae Awstin yn egluro y geiriau hyn yn fedrus yn yr ymadroddion canlynol:—'Os ydyw pob un a ddysgodd yn dyfod, yna y mae pob un nad yw yn dyfod heb ddysgu. Nid ydyw, gan hyny, yn canlyn fod yr hwn a ddichon ddyfod yn dyfod, oddi eithr iddo ewyllysio a gwneuthur; ond y mae pob un a ddysgodd gan y Tad, nid yn unig yn abl i ddyfod, ond yn dyfod yn weithredol hefyd: y mae tuedd yr ewyllys a'r weithred ei hun yn awr yn bresennol.' Mewn adran arall, y mae yn dyweyd eto yn fwy eglur; 'Pa beth y mae yr ymadrodd, 'Pob un a glywodd gan y Tad ac a ddysgodd, sydd yn dyfod ataf fi' yn ei olygu, ond hyn:—nad oes neb yn clywed gan y Tad ac yn dysgu, nad yw yn dyfod ataf fi. O blegid os ydyw pob un a glywodd ac a ddysgodd yn dyfod, yna, yn sicr, y mae pob un nad yw yn dyfod heb na chlywed na dysgu gan y Tad: o blegid pe buasai wedi clywed a dysgu, daethai at Grist.' Yn fuan wedi hyn, dywed, 'Nid yw y gras hwn, yr hwn sydd yn cael ei gyfranu yn ddirgelaidd i galonau dynion, yn cael ei dderbyn gan y galon galed; o blegid y rheswm o herwydd pa un y mae yn cael ei roddi ydyw, fel y symmuder caledrwydd y galon ymaith yn gyntaf. Felly, pan y mae lleferydd y Tad yn cael ei glywed oddi mewn, y mae y galon gareg yn cael ei thynu ymaith, a chalon gig yn cael ei rhoddi yn ei lle. Fel hyn y mae yn eu gwneuthur yn blant yr addewid ac yn llestri trugaredd—y rhai a ragbarotöir ganddo i ogoniant. Pa ham, gan hyny, nad yw efe yn dysgu pawb i ddyfod at Grist, ond o herwydd y rheswm fod pawb a ddysgir ganddo yn cael eu dysgu o drugaredd, tra y mae yn gadael rhai ereill heb eu dysgu? O blegid y mae yn trugarhau wrth y neb a fyno, ac yn caledu y neb y myno.' Gan hyny, y mae Duw yn mabwysiadu yn blant iddo ei hun y rhai a etholwyd ganddo: y mae efe yn dyfod iddynt yn Dad. Drachefn, trwy alwedigaeth y mae yn eu derbyn i'w deulu, ac yn eu huno âg ef ei hun, fel y byddont un âg ef. Pan y mae galwedigaeth yn cael ei chwanegu fel hyn at etholedigaeth, y mae yr Ysgrythyr yn dangos yn eglur na ddylid edrych am ddim ynddi, fel ei hachos, ond trugaredd rasol Duw. O blegid os gofynwn pwy y mae efe yn alw, ac am ba achos, yr ateb yw, y rhai hyny a etholwyd ganddo. Pan ddeuwn at etholedigaeth, trugaredd yn unig sydd yn dyfod i'r golwg

yn mhob man; ac felly, y mae dywediad Paul yn cael ei wirio, 'Nid o'r hwn sydd yn ewyllysio y mae, nac o'r hwn sydd yn rhedeg chwaith; eithr o Dduw, yr hwn sydd yn trugarhau' (*Rhuf.* ix. 16); ac y mae felly, nid fel y deallir yn gyffredin gan y rhai sydd yn rhanu y gwaith rhwng gras Duw ac ewyllys a gweithrediad dyn. Eu hesboniad hwy ydyw, nad yw dymuniad ac ymdrech pechaduriaid ynddynt eu hunain o un budd, oddi eithr iddynt gael eu cynnorthwyo gan ras Duw; ond pan helpir hwy gan ei fendith ef, eu bod hwythau yn gwneyd eu rhan mewn meddiannu iachawdwriaeth. Dewiswyf wrthbrofi y ddadl hon yn ngeiriau Awstin, yn hytrach nag yn fy ngeiriau fy hun:—'Os yr hyn oll a feddylia yr apostol ydyw, mai nid *yn unig* o'r hwn sydd yn ewyllysio, neu o'r hwn sydd yn rhedeg, y mae iachawdwriaeth, oddi eithr i drugaredd Duw fod ger llaw yn cynnorthwyo; gallwn, ar yr un tir, ddyweyd yn y gwrthwyneb, mai nid o drugaredd yn unig y mae, oddi eithr fod yr ewyllysio a'r rhedeg yno hefyd.' Ond os ydyw y golygiad hwn yn amlwg i'r annuwiol, na fydded ynddo un ammheuaeth fod yr apostol yn cyfrif y cwbl i drugaredd Duw, ac nad ydyw yn gadael dim i'n hewyllysiau a'n hymdrechion ni.........Y mae yr alwedigaeth yn cynnwys, nid yn unig bregethiad y gair, ond hefyd goleuni yr Ysbryd. Pwy yw y rhai ag y mae Duw yn cynnyg ei air iddynt, a ddangosir gan y prophwyd Esaiah (lxv. 1). A rhag i'r Iuddewon feddwl nad yw y drugaredd hono yn cael ei chymhwyso at neb ond y Cenedloedd, y mae yn galw i'w cof o ba le y cymmerodd Duw eu tad Abraham pan yr ymostyngodd i fod yn gyfaill iddo (*Esa.* xxiv. 3), sef o ganol eilunaddoliaeth, yn yr hwn yr oedd efe wedi suddo fel ereill. Pan y mae yn llewyrchu yn gyntaf â llewyrch ei air ar rai annheilwng, y mae yn rhoddi prawf digon eglur o'i rad ddaioni. Yma, gan hyny, y mae daioni diderfyn yn cael ei amlygu; ond nid y cyfryw ag i ddwyn pawb i iachawdwriaeth, o blegid y mae barn drymach yn aros y rhai cyndyn am wrthodiad yr amlygiad o'i ras. Y mae Duw hefyd, i arddangos ei ogoniant ei hun, yn attal oddi wrthynt weithrediad effeithiol ei Ysbryd. Felly, y mae yr alwad dufewnol hon yn wystl anffaeledig o iachawdwriaeth; yr hyn a welir yn ngeiriau Ioan, 'Wrth hyn y gwyddom ei fod ef yn aros ynom, sef o'r Ysbryd a roddes efe i ni;' 1 *Ioan* iii. 24. A rhag i'r cnawd ymffrostio ei fod o leiaf wedi ateb, pan y mae efe yn galw ac yn cynnyg ei hun o ras, y mae yn cadarnhau na fyddai clustiau i glywed, na llygaid i weled, oni buasai iddo ef eu rhoddi. Ac y mae yn gweithredu, nid yn ol diolchgarwch pob un, ond yn ol ei etholedigaeth. O hyn y mae genych anghraifft darawiadol yn Luc, pan y gwrandawodd yr Iuddewon a'r Cenedloedd, fel eu gilydd, ar ymadroddion Paul a Barnabas. Er eu bod oll wedi eu haddysgu yn yr un gair, eto dywedir mai "cynnifer ag oedd wedi eu hordeinio i fywyd tragwyddol a gredasant;' *Act.* xiii. 48. Pa fodd y gallwn wadu mai grasol a rhydd ydyw yr alwedigaeth, pan mai etholedigaeth yn unig sydd yn teyrnasu ynddi o'r dechreu i'r diwedd.

"Y mae dau gyfeiliornad yma i'w gochel. Y mae rhai yn gwneyd dyn yn gydweithiwr â Duw yn y fath fodd a bod penderfyniad dyn yn cadarnhau etholedigaeth, fel ag i ddyrchafu ewyllys dyn, yn ol eu syniad hwy, uwch law cynghor Duw. Fel pe dywedasai y Beibl mai y nerth i'n galluogi i gredu sydd yn unig wedi ei roddi i ni, ac nid ffydd ei hun yn hytrach. Y mae ereill, er nad ydynt i'r fath raddau yn anmharu gras yr Ysbryd Glân, eto yn gwneyd etholedigaeth yn ddibynol ar ffydd, fel pe byddai yn ammheus ac aneffeithiol hyd oni chadarnheid hi gan ffydd. Nid oes, yn wir, un ammheuaeth mai felly y mae yn cael ei chadarnhau gyda golwg arnom ni. Ond yr ydym eisoes wedi dangos mai fel hyn y mae cynghor dirgel Duw, yr hwn a orweddai o'r golwg, yn cael ei ddwyn i oleuni; ond nid oes i ni olygu mwy wrth hyny na bod yr hyn oedd o'r blaen yn anhysbys yn cael ei brofi a'i selio. Ond y mae yn anghywir dyweyd mai y pryd hyny yn unig y mae etholedigaeth yn effeithiol, sef wedi i ni dderbyn yr efengyl, ac mai o hyny y mae yn derbyn ei grym. Y mae yn wir yr rhaid i ni edrych yno am ei sicrwydd; o blegid os ceisiwn dreiddio i gynghor dirgel Duw, cawn ein claddu yn y dyfnder mawr hwnw. Ond wedi i'r Arglwydd ei ddadguddio i ni, mae yn rhaid i ni esgyn yn uwch, rhag i'r effaith guddio yr achos o'r golwg. O blegid pa beth a a all fod yn fwy anweddaidd a gwrthun, tra y mae yr Ysgrythyr yn ein dysgu ein bod yn cael ein goleuo yn ol fel yr etholwyd ni gan Dduw, na bod ein llygaid yn cael eu llanw y fath gan ddysgleirdeb y goleuni hwn, fel ag i wrthod troi ein sylw at etholedigaeth........."

Y mae catecism y gymmanfa yn egluro galwedigaeth effeithiol yn y geiriau hyn:—"Galwedigaeth effeithiol sydd waith gallu a gras hollalluog Duw, trwy y rhai, o'i gariad rhydd a neillduol at ei etholedigion, ac nid o ddim ynddynt hwy yn ei annog iddo, y mae, yn ei amser cymmeradwy, yn eu gwahodd ac yn eu tynu at Iesu Grist, trwy ei air a'i Ysbryd—yn goleuo eu meddyliau yn achubol, yn adnewyddu ac yn penderfynu eu hewyllysiau yn rymus, fel ag i'w gwneuthur, er ynddynt eu hunain yn feirw mewn pechod, yn ewyllysgar a galluog i ateb yr alwad yn galonog, ac i dderbyn a chofleidio y gras a gynnygir ac a drosglwyddir ynddi. Gellir edrych ar yr alwedigaeth fel yr oruchwyliaeth gyntaf yn y gwaith o gymhwyso yr iachawdwriaeth at bechadur. Y mae dewisiad y gair *galw* i ddynodi yr oruchwyliaeth hon, yn arwyddo fod dyn wrth naturiaeth mewn cyflwr o ddyeithrwch i Dduw, a phellder oddi wrtho: arwydda hefyd fod Duw yn yr oruchwyliaeth yn ymwneyd â dyn fel creadur rhesymol; er fod y gwaith yn oruwchnaturiol, eto y mae yn berffaith gydweddol â rhyddid dyn. Gall fod yn ddeiliad y dylanwad goruwchnaturiol, ac eto fod ei holl alluoedd yn gweithredu yn ol deddfau naturiol y meddwl."

Y mae y Calviniaid yn cydnabod yr alwad allanol yn gystal a'r alwad dufewnol. "Y mae yr apostol Paul," medd Ridgley, "yn golygu yr alwad gyffredinol hon pan yn llefaru am rai 'wedi eu galw i ras Crist;' nid wedi eu galw gan allu a gras effeithiol Crist, ond wedi eu gwahodd i ddyfod a derbyn gras Crist, neu eu galw yn allanol, a thrwy yr alwad hono eu perswadio i gofleidio athrawiaeth gras Crist; eto, dywedir am danynt ddarfod eu symmud yn fuan at efengyl arall." Y mae y rhai sydd yn rhoddi gradd o sylw i'r alwad hon yn dyfod i feddiant o ras cyffredinol, eto heb feddu y gras achubol sydd gan y rhai ydynt yn ddeiliaid dylanwadau neillduol yr Ysbryd. Y mae y ddwy alwedigaeth—yr allanol a'r dufewnol—yn amlwg yn yr Ysgrythyrau; a dylid dal allan y ddwy yn yr holl neillduolion a berthyn iddynt. Y mae y naill yn gyffredinol ar bawb sydd yn clywed yr efengyl, ac

Digitized by Google

y mae ei gwahoddiadau ar bawb yn berffaith ddidwyll a dihoced. Byddai meddwl y gwrthwyneb yn sarhad o'r mwyaf ar Dduw ac ar ei efengyl. Taerineb wedi ei gynnyrchu gan yr Ysbryd Glân ydyw taerineb gweinidogion y gair, pan y maent yn deisyf dros Grist, ac yn erfyn ar eu gwrandawyr i ddyfod i gymmod â Duw. Os ydynt hwy yn ddidwyll a difrifol, yn awyddu am ddwyn y byd at Grist, pa faint mwy y mae y didwylledd hwnw yn yr hwn a roddes ynddynt air y cymmod, yr hwn sydd yn gwahodd pechaduriaid trwyddynt? Ei leferydd ef yw y weinidogaeth a bregethir ganddynt hwy. Nid oes dim tebyg i gyfyngder yn ngalwad yr efengyl: arferir y geiriau cryfaf, eangaf eu hystyr, megys "pawb," "pob un," "pwy bynag," a'r cyffelyb. "Trowch ataf fi, holl gyrau y ddaiar, fel y'ch achuber." "O deuwch i'r dyfroedd, bob un y mae syched arno." "Yr hwn sydd yn ewyllysio cymmered o ddwfr y bywyd yn rhad." "Pob un sydd yn gofyn sydd yn derbyn." "Os clyw neb fy llais i, ac agoryd y drws, mi a ddeuaf i mewn ato ef." Y mae yn anhawdd meddwl pa fodd y gallasai iaith wneuthur yr alwad yn fwy eang. Y mae cynnygion yr efengyl mor eang a bygythion y ddeddf. Os nad oes gan ddyn sail i ymryddhau oddi wrth fygythion ac arswydau y naill, nid oes ganddo chwaith ddim sail i betruso derbyn ymgeledd y llall. Os ydyw yn crynu yn sŵn y gair mai "Melldigedig yw pob un nad yw yn aros yn yr holl bethau a ysgrifenwyd yn llyfr y ddeddf i'w gwneuthur hwynt," y mae ganddo y warant gadarnaf i lawenhau ar bwys y gair arall, mai "Pwy bynag a gredo a fydd cadwedig."

Mae yn ddiammheu fod rhai o'r athrawiaethau Calvinaidd wedi eu cario weithiau mor bell fel ag i gyfyngu ar derfynau y gwirionedd hwn; oddi ar amcan i ddwyn galwad yr efengyl i gyssondeb â'r athrawiaethau hyny. Gwnaed felly lawer gwaith âg athrawiaeth prynedigaeth neillduol. Dywed Dr. Chalmers ar hyn yn ei *Institutes*—"Fel y mae yr athrawiaeth hon yn cael ei thrin yn fynych, y mae yn gwisgo gwedd ddifudd ac anymarferol; ac nid yw yn hawdd ei hamddiffyn, heb wneuthur cam â llawer rhan o'r Beibl. Y mae y gymhariaeth sydd wedi cael ei gwneuthur, ac mewn dull rhy rifyddol hefyd, rhwng swm y dyoddefiadau oedd yn yr Iawn a nifer y rhai a gedwir, yn bwnc, a dywedyd y lleiaf, nad oedd dim angen am dano, ac yn un tra difudd. Ond yr effaith waethaf sydd yn canlyn yw, ei fod yn cymylu rhyddid ac eangder galwad yr efengyl. Y mae ei gweinidogion yn cael eu dwyn i deimlo dylanwad oerllyd—yn cyfyngu ar eu hawl i alw pawb. Os mai dros yr etholedigion yn unig y bu Crist farw, ac nid dros bawb, y maent mewn petrusder pa fodd i fyned yn mlaen gyda galwadau a gwahoddiadau yr efengyl. Teimlant yn analluog i'w cyfeirio at bawb. Os nad ydyw effeithiolrwydd gwaed Crist yn gymmesurol ond âg iachawdwriaeth rhyw nifer etholedig yn unig, pa fodd y gallant sefyll ar rinwedd a nerth y gwaed hwnw yn nghlywedigaeth y dorf gyffredin—ac yn fwy neillduol, yn y fath fodd ag i arwain pawb neu ryw rai o'r dorf hono i roddi eu goglyd arno? Fel hyn, wrth gyflawnu yr hyn a ellid dybied yn waith hawdd, y mae llawer o weinidogion y gair wedi ymddyrysu mewn anhawsderau pynciol. Y maent wedi benthyca pwnc allan o gynghorion goruchel a dirgel Duw, â pha un y maent yn tywyllu ymddygiad a dyledswydd amlwg dyn." Ond, fel y mae yr awdwr hwn yn chwanegu, y mae yn rhaid fod yn rhywle gamddealltwriaeth o bwys. Y commissiwn i weinidogion y gair ydyw "pregethu yr efengyl i bob creadur," a gwahodd pechaduriaid yn ddiwahaniaeth at Fab Duw. Yr hysbysiad a wnaed ar enedigaeth y Ceidwad oedd, "Ar y ddaiar tangnefedd, i ddynion ewyllys da." Nid oes yn hyn ddim tebyg i gyfyngder, ond yr haelioni a'r helaethrwydd mwyaf. Ac y mae yn rhaid nad oes dim yn nghyfansoddiad yr iachawdwriaeth yn anghysson â'r eangder yma sydd yn ei chyhoeddiad awdurdodedig. Gyda golwg ar berthynas arfaeth a chyhoeddiad cyffredinol yr efengyl, y mae Dr. Chalmers yn gwneyd y sylwadau a ganlyn:—"Er fod nifer ac enwau y cadwedigion yn mwriad Duw er tragwyddoldeb, eto y mae y bwriad hwn yn cael ei ddwyn i weithrediad, nid trwy offerynoliaeth efengyl yn cael ei chyhoeddi yn hollol iddynt hwy, ond trwy offerynoliaeth efengyl sydd yn cael ei chyhoeddi yn gyffredinol i bawb. Ni buasai efengyl neillduol yn llwyddiannus er effeithio dychweliad yr etholedigion. Nid trwy edrych ar yr efengyl fel wedi ei bwriadu yn unig er eu budd hwy eu hunain, ond trwy edrych arni fel wedi ei bwriadu er budd pwy bynag a ewyllysio, y mae yn effeithio arnynt i'w dwyn i anturio eu gobaith arni am byth. Nid trwy gael golwg ar eu henwau fel yn ysgrifenedig yn llyfr y bywyd, ond trwy gael galwadau a gwahoddiadau yr efengyl wedi eu cyflwyno ger eu bron fel yn ysgrifenedig yn llyfr Datguddiad, y cawsant eu symmud o dywyllwch i'w ryfeddol oleuni—goleuni sydd yn llewyrchu yr un fath o amgylch pawb, ond gyda hyn o wahaniaeth, tra yr agorwyd eu llygaid hwy, y mae ereill yn cau eu llygaid rhagddo. Yr oedd eu tröedigaeth yn ymddibynu, nid ar eu cred o un o fwriadau Duw yn y nefoedd, ond ar eu credin iaeth o'r cyhoeddiad a wnaed gan genadau Duw ar y ddaiar. Nid fel pechadur etholedig, ond yn unig fel pechadur, y mae yr hwn fydd yn gadwedig yn y diwedd yn croesawu gwahoddiadau yr efengyl. Ar dir y cynnygiad cyffredinol y mae pob un yn cyrhaedd ei iachawdwriaeth bersonol ei hun.

"Gan fod y cynnygiad o'r iachawdwriaeth yn gyffredinol i bob dyn yn ddiwahaniaeth, y mae yn rhesymol ymofyn am reswm dros y cyffredinolrwydd hwn. Y mae yn wir ei fod yn ddigon o reswm dros waith gweinidogion yr efengyl yn galw ar bawb, fod Crist wedi gorchymyn hyny. Y mae ei awdurdod ef yn sail ddigonol; a phe na ddeallem y *pa ham* na'r *pa fodd*—pe nad allem ddeall cyssondeb y gorchymyn hwn â phethau eraill yn nhrefn yr efengyl, ein dyledswydd ydyw rhoddi ufudd-dod dibetrus i'w orchymyn ef. Yr un pryd dylid cofio nad oes dim mympwyol yn ngosodiadau teyrnas nefoedd, ond eu bod oll yn seiliedig ar y rhesymoldeb uchaf. Felly y mae y ffaith fod Mab Duw wedi gwneyd yr alwad mor gyffredinol a'r byd, "yr holl genedloedd," yn ein harwain i gredu fod yn rhaid fod rhyw gyffredinolrwydd cyfattebol yn narpariaeth yr efengyl. Os ydyw yr efengyl yn galw ar bawb, os ydyw yr alwad hono yn ddidwyll a difrifol, y mae yn rhaid fod digon yn nhrefn Duw ar gyfer pawb pe tueddid hwy i roddi ufudd-dod i'w alwad. Mae y dyb mai galw ar bawb y mae yr efengyl, yn unig er mwyn ennill yr etholedigion, yn ymddangos i ni yn dybiaeth annheilwng, yn anghysson â phob syniad iawn am Dduw. Tra y mae y Beibl yn dangos yn eglur fod perthynas arbenig a neillduol rhwng marwolaeth Crist a'r etholedigion, y mae hefyd yn dangos yr un mor eglur fod rhyw reswm yn y farwolaeth hono dros gynnyg iach-

Digitized by Google

awdwriaeth i bob dyn. Y mae dal nad oes un berthynas rhwng yr Iawn a neb ond yr etholedigion yn gwneyd cyffredinolrwydd yr alwad yn anmhossibl i'w esbonio. Nid y cyhoeddiad, dealler, ydyw hyn—Y bydd i bawb a edifarhao, ac a gredo yn Nghrist, gael bywyd tragwyddol. Gallai y dyn sydd yn dal y syniadau mwyaf cyfyng wneuthur y cyfryw gyhoeddiad a hyny; ond, pwy bynag a gredo a fydd cadwedig: pe bai holl ddynolryw yn syrthio i mewn â thelerau yr efengyl, hwy a fyddent oll yn gadwedig. Yn awr, y mae y cyhoeddiad hwn yn anghysson â'r syniad sydd yn cau allan o'r ddarpariaeth bob cyffredinolrwydd. Os nad ydyw haeddiant yr Iawn yn golygu ond pechodau yr etholedigion yn unig—os nad oes dim perthynas rhyngddo â phechodau y byd—y mae yn amlwg fod yn anmhossibl i'r gweddill gyrhaedd bywyd tragwyddol—yr un anmhossiblrwydd ar eu ffordd a phe y buasai Iawn heb ei roddi dros neb. Y mae y cwestiwn canlynol—Pa fodd, os ydyw yr Iawn heb ddim cyffredinol yn perthyn iddo, y gallasai Duw wneuthur cynnygiad o faddeuant i bawb?—yn gwestiwn sydd yn dyrysu y rhai sydd yn coledd y golygiadau cyfyngaf ar yr Iawn. Un ffordd i geisio dyfod o'r dyryswch ydyw, trwy ei restru yn mysg y dirgeledigaethau sydd yn eiddo yr Arglwydd. Dywedir fod genym ddigon o seiliau Ysgrythyrol dros neillduolrwydd yr Iawn, a bod genym hefyd orchymyn pendant i alw ar bawb at Iesu Grist: nid yw yn perthyn i ni gyssoni y naill â'r llall: y mae ein dyledswydd yn hawdd ei deall, sef, galw ar bawb i edifeirwch ar sail y gorchymyn dwyfol:—nad yw yn beth rhyfedd fod pethau anamgyffredadwy i greaduriaid mor fychain mewn trefn mor oruchel. Ond nid yw y llwybr hwn yn deg: o blegid nid *dirgelwch* ydyw y gair cymhwysaf i ddynodi hyn, ond *anghyssondeb*. Ar y dybiaeth mai yr Iawn ydyw achos iachawdwriaeth, y mae yn amlwg y rhaid fod perthynas yr Iawn â phawb a gedwir: os ydyw galwad yr efengyl yn gyffredinol ar bawb, a'r alwad hono yn ddiffuant, y mae yn rhaid fod yn bossibl cadw pawb: y maent mewn cyflwr achubadwy. Ond nis gallant fod felly os nad oes un berthynas rhwng yr Iawn a neb ond yr etholedigion. Ond y mae yn hyn anghyssondeb amlwg. Ffordd arall i osgoi y dyryswch hwn ydyw trwy wadu cyffredinolrwydd yr alwad; ac y mae yn rhaid addef fod y dull yma yn fwy naturiol. Dywed y rhai sydd yn ceisio cyfyngu yr alwad: fod rhyw ammodau neu delerau yn yr alwad ag sydd yn ei gwneyd yn gysson â neillduolrwydd yn y ddarpariaeth. "Y mae y Duw Mawr," ebe Marshall, "yn cynnyg iachawdwriaeth *i'r rhai a gredant*, ac iddynt hwy yn unig." Er fod yr efengyl yn cael ei chyhoeddi i bawb yn ddiwahaniaeth, eto y mae yn perthyn i'w chyhoeddiad delerau. "Yr hwn *a gredo* a fydd cadwedig." I'r hwn sydd yn ewyllysio y cynnygir dwfr y bywyd yn rhad: yr hwn y mae syched arno a elwir i'r dyfroedd. Ond nid yw hyn, dywedant, yr un peth a chynnygiad o iachawdwriaeth i bawb. Ond y mae y dull hwn eto o esbonio yr anhawsder yn ymddangos yr annigonol. Nid yw yr efengyl yn cynnyg iachawdwriaeth i neb ond ar delerau ffydd ynddi; ond y mae yn ei chynnyg i bawb yn ddiwahaniaeth ar y telerau hyny. Y mae yma delerau, mae yn wir; ond nid yw y telerau yn cyfyngu dim ar yr alwad. Gwneir y sicrhad i bawb yn ddiwahaniaeth, os bydd iddynt oll gredu y byddant oll yn gadwedig. Meddylier fod brenin yn anfon allan gyhoeddiad i dalaeth wrthryfelgar, y byddai i'r holl wrthryfelwyr, ar yr ammod iddynt ymgynnull ar ddiwrnod nodedig mewn rhyw le yn y brif ddinas, ac ymostwng ger ei fron, dderbyn maddeuant ganddo. Y mae yma delerau, mae yn wir; ond nid yw hyny yn cyfyngu dim ar y cyhoeddiad breninol: y mae yn wir na chaiff yr un o'r gwrthryfelwyr y maddeuant a gynnygir oddi eithr iddo gydffurfio â'r telerau, ac y mae yn debygol fod yn eu mysg amryw o duedd mor gyndyn na chydsyniant â'r ammod; eto y mae yr alwad mor gyffredinol ag a ddichon galwad fod:—rhydd sicrhad i'r holl wrthryfelwyr am eu bywyd ar eu hymostyngiad. Dichon y telerau wneyd yr effaith ddilynol yn ansicr gyda llawer, ond nid ydynt yn y mesur lleiaf yn cyfyngu yr alwad. Y mae galwad yr efengyl yr un mor gyffredinol. Y mae yn cyhoeddi maddeuant a bywyd i bawb a gredant; a mwy na hyny, y mae yn galw ar bob dyn i gredu, fel y derbynio y maddeuant a'r bywyd hwn. Er nad yw yr efengyl yn cyhoeddi maddeuant diammodol, hyny yw, maddeuant heb ddim telerau yn gyssylltiedig âg ef i bawb, eto y mae yn cyhoeddi maddeuant mewn cyssylltiad â'r telerau o edifeirwch a ffydd i bawb.

Y mae gorchymyn Crist yn ddigon o reswm dros waith gweinidogion y gair yn galw pawb. Dyledswydd y gwas ydyw gwneyd yn ol cyfarwyddyd y meistr; ond y mae yn rhaid fod rhyw reswm dros waith Crist ei hun yn rhoddi y gorchymyn; ac y mae yn rhaid fod y rheswm hwnw yn y ddarpariaeth ei hun: y mae y boddlonrwydd a gafodd y Duwdod yn angeu Crist yn gyfryw nas gallasai fod yn fwy pe buasai Duw wedi arfaethu achub holl ddynolryw. Er fod ei farwolaeth yn sicrhau cadwedigaeth y rhai a roddwyd iddo gan y Tad, eto yr oedd yr Iawn i Dduw am bechodau yr holl fyd, ac felly yn cynnwys rheswm digonol dros alw y byd at Dduw.

Er nad yw galwad gyffredinol yr efengyl, arni ei hun, yn effeithiol er dychweliad dynion, eto y mae yn gadael ei hargraff arnynt mewn llawer ystyr. Y mae yn effeithio er eu moesoli, ac i'w hattal rhag cyflawni llawer o bechodau. Y mae y daioni cyffredinol a wna yr efengyl i gymdeithas yn fawr iawn: dichon y dylanwadau cyffredin sydd yn dyfod trwyddi goethi y meddwl a'r teimladau, tyneru y gydwybod, a meithrin yn y dyn ryw fath o wrthwynebiad i bechodau neillduol—y rhai efallai nad ydyw cyfansoddiad ei natur yn ei osod yn agored i demtasiynau i'w cyflawnu. Y mae yn ddiammheu fod hyn yn cael ei wneuthur gyda llawer sydd yn amddifad o ras cadwedigol. Y mae yr efengyl hefyd yn galluogi dynion i gyflawnu rhai gweithredoedd sydd o ran eu defnydd yn dda, er heb fod yn wirioneddol felly; sef heb fod yn dda yn yr holl elfenau sydd yn perthyn i'r gweithredoedd a gyflawnir dan ddylanwad gras achubol. Cyfododd ymostyngiad Ahab ac edifeirwch y Ninefeaid oddi ar eu harswyd rhag bygythion Duw. Cyffyrddwyd cydwybod Herod gan eiriau Ioan, hyd nes yr ofnodd, ac y gwnaeth lawer o bethau. Y mae hyd yn oed y Cenedloedd yn "gwneuthur y pethau sydd yn y ddeddf;" a diammheu mai trwy ddylanwad effeithiol Ysbryd yr Arglwydd ar eu cydwybodau, trwy yr ychydig oleuni sydd ganddynt, y galluogir hwynt i'w gwneuthur. Y mae pob teimlad tynerach na'u gilydd, pob awyddfryd purach, a phob gogwydd at rinwedd, yn meddyliau "y rhai diddeddf," i'w priodoli i'w ddylanwad ef. Ond y mae ei ddylanwadau cyffredinol yn fwy helaeth a grymus bob amser yn ol eangder y

Digitized by Google

wybodaeth a maint y manteision fyddo gan ddynion; a gweinidogaeth y gair ydyw prif gyfrwng eu gweinyddiad.

Er ein bod yn gosod pwys mawr ar ddigonolrwydd aberth y Cyfryngwr, mewn gwrthgyferbyniad i syniadau rhifyddol a masnachol o hono, eto nid yw y rhai sydd yn dal syniadau Calvinaidd am natur yr Iawn yn edrych arno yn dwyn yr *un* berthynas â'r rhai a gedwir i fywyd tragwyddol a'r rhai ni chedwir. Nis gallant wneuthur felly heb edrych arno fel yn amddifad o'r hyn sydd yn *sicrhau* iachawdwriaeth pechadur. Os yr un ydyw yr Iawn yn ei berthynas â phawb, pa un bynag a fyddant yn gadwedig, ai ni byddant, y mae yn canlyn nad oes dim yn yr iawn i *ddiogelu* eu cadwedigaeth: ac o ganlyniad, collem y syniad o Feichniaeth allan o'r iawn. Tra yr ydym yn dal holl ddigonolrwydd aberth Crist i gyrhaedd ei holl ddybenion, eto nid ydym yn credu fod iddo yr un dybenion yn ei gyssylltiad â'r rhai cadwedig a'r rhai ni chedwir. Ond nid yw yn angenrheidiol fod iddo yr un dybenion yn ei gyssylltiad â'r ddau ddosbarth hyn, mewn trefn i osod sail i alwadau cyffredinol yr efengyl. Y cyfan sydd yn angenrheidiol i gyfiawnhau Duw yn ei waith yn galw ar bawb yn ddiwahaniaeth ydyw, Yn *gyntaf*, fod ganddo hawl i alw a gorchymyn dynion yn ddiwahaniaeth i ddychwelyd ato ei hun. Yn *ail*, i bawb fel eu gilydd, y mae gwaith Crist yn amlygiad o gymmeriad Duw tuag at y byd ac o'i drefn i ymddwyn tuag at y byd. Yn *drydydd*, y mae yn ddangosiad ac yn wystl i bawb fel eu gilydd o ddymuniad calon Duw i weled pechaduriaid yn troi ato. Yn *bedwerydd*, rhydd yr efengyl i bawb sydd yn ei chlywed y sicrwydd cyflawnaf o ddigonedd anfeidrol waith y Cyfryngwr i bawb a phob un a ddêl ato. Y mae urddas ei berson, teilyngdod ei ufudd-dod, a haeddiant ei angeu, fel iawn, yn sicrhau hyn.

Nid yw ffydd achubol yn gofyn am ddim fel sail neu warant ei gweithrediad ond y ddau wirionedd mawr a diammwys hyn:—Yn gyntaf, fod gan Dduw awdurdod i orchymyn pechadur i ddychwelyd ato ef ei hun: ac Yn ail, y sicrwydd y bydd i bechadur a ddychwelo dderbyn cyflawn iachawdwriaeth. Gan fod y gwahanol faterion y cyffyrddwyd â hwy yn yr erthygl hon yn dwyn cyssylltiad âg amryw o athrawiaethau yr efengyl, yr ydym yn cyfeirio y darllenydd at yr erthyglau canlynol—AILENEDIGAETH; CALVINIAETH; GRAS ANORCHFYGOL; EWYLLYS; IAWN.

**GALLGO**: ydoedd fab i Caw ab Geraint ab Erbin, arglwydd Cwm Cawlwyd, neu Cowllwg, yn y gogledd—gwlad yn terfynu ar freniniaeth Ystrad Clwyd (*Strathclyde*). Un o'r saint Cymreig ydoedd Gallgo, a fucheddai yn y chweched ganrif. Ychydig a wyddys am dano, heb law y dywedir mai efe a sylfaenodd eglwys Llanallgo, yn Môn, yr hon sydd yn dwyn ei enw arni hyd heddyw. Ei gofwyl yw Tachwedd 27ain.

**GALLU AC ANALLU.** Yn yr erthygl hon, ni a wnawn ychydig sylwadau yn mhellach ar fater y ceir rhai sylwadau rhagarweiniol arno dan yr erthygl, "Ewyllys Dyn." Y cwestiwn y cyfyngwn ein hunain ato yn bresennol yw—Pa mor bell y mae y Beibl yn priodoli anallu i ddyn i gyflawni ewyllys Duw: pa beth ydyw natur yr anallu hwnw: a pha fodd y mae anallu i ufuddhau yn gysson â chyfrifoldeb? Gwelsom yn yr erthygl flaenorol fod gan ddyn y gynneddf naturiol o ewyllys, ac nad yw dan y cwymp, mwy na chyn y cwymp, yn gweithredu dan orfodaeth. Y mae dau wirionedd y mae o bwys eu dal ar y mater hwn, er eu bod yn ymddangos yn wrthgyferbyniol:—un ydyw, Fod gan ddyn allu gwreiddiol i ddewis, fel gallu neu gynneddf naturiol: y llall ydyw, Mai Duw, trwy ei ras, ydyw awdwr pob da mewn dyn. Gallwn roddi yr un cyferbyniad mewn gwedd arall :—Y mae dyn yn meddu ewyllys rydd, fel creadur; ac etto y mae yn gaethwas i bechod; ac hefyd, Y mae dyn yn analluog i gyflawni pob dyledswydd ysbrydol, ac etto y mae yn gyfrifol am beidio gwneud. Y mae y gwirioneddau cyferbyniol hyn i'w dal fel eu gilydd. Y duedd yn mhlith duwinyddion a sectau crefyddol ydyw rhoddi arbenigrwydd i'r naill, ac esgeuluso, os nad hollol anghofio, y llall. Y mae cymmeryd gallu a chyfrifoldeb dyn fel unig seiliau cyfundrefn, ac ymresymu oddi wrthynt hwy yn unig, yn arwain i wadiad ac ymwrthodiad o bob peth sydd yn neillduol i'r efengyl; ond ar y llaw arall, y mae codi cyfundrefn ar anallu dyn a gras Duw yn unig yn peryglu arwain i ddifaterwch, os nad i anfoesoldeb.

Bod y Beibl yn priodoli anallu i ddyn, nid oes dim sydd amlycach i ddarllenwr diduedd:—nid anallu, modd bynag, i gyflawni dyledswyddau allanol, ac i weithredu neu amlygu rhinweddau allanol foesol. Y mae dyn, dan y cwymp, yn alluog i fyw yn gyfiawn ac yn sobr tuag at ei gyd-ddynion, ac i amlygu holl rinweddau bywyd cymdeithasol. Yr anallu a briodolir iddo ydyw, anallu i wneuthur yr hyn sydd yn ysbrydol dda, ac yn gymmeradwy gan Dduw. Profion o'r gosodiad hwn ydyw y rhai canlynol:—Mae dyn yn *was i bechod* (*Ioan* viii. 34) :—y mae pechod yn teyrnasu arnom (*Rhuf.* vi. 12, 14 ; 2 *Pedr* ii. 19): —y mae dyn yn *farw* mewn camwedd a phechod (*Eph.* ii. 1) : y mae deall ac ewyllys dyn yn amddifad o allu at yr hyn sydd yn ysbrydol a nefol; y mae y deall wedi *tywyllu*, a'r galon wedi ei *dallu* (*Eph.* iv. 18) ; ac nid hyny yn unig, ond y mae yn *dywyllwch* (*Eph.* v. 8) :—y mae y galon yn *ddrygionus*, yn *anmhur*, yn *gauedig*, yn *ddienwaededig*, calon *gareg* (*Ezec.* xxxvi. 25—27) :—y mae y gwaith o ddychwelyd pechadur yn *greadigaeth*, yn *adgyfodiad*, yn *ailenedigaeth*, cynnyrchu *calon newydd*; ac i hyn oll y mae yn "gweithio ynom ewyllysio a gweithredu." Ac fel nas gall dyn wneud dim tuag at ei greadigaeth a'i adgyfodiad, felly hefyd nis gall tuag at ei ailenedigaeth. Y mae lliaws o gyfeiriadau a disgrifiadau cyffelyb. Ceir hefyd ymadroddion hollol bendant: "Ni *ddichon* neb ddyfod ataf fi oddi eithr i'r Tad, yr hwn a'm hanfonodd i, ei dynu ef ;" *Ioan* vi. 44 : "Y rhai sydd yn y cnawd *ni allant* ryngu bodd Duw :" *Rhuf.* viii. 8 : "Ac *nis gall* eu gwybod, o blegid yn ysbrydol y bernir hwynt ;" 1 *Cor.* ii. 14.

Nis gellir defnyddio ymadroddion cryfach i ddangos anallu dyn i wneuthur yr hyn sydd yn ysbrydol ac yn rhyngu bodd Duw. Y mae y rhai sydd yn gydnabyddus â'r gyfrol sanctaidd yn gwybod mai hyn ydyw rhediad cyffredinol yr Ysgrythyrau am natur dyn dan y cwymp. Ac nid yw y rhai sydd yn gwadu yr anallu hwn i ddyn yn gwneuthur hyny oddi ar unrhyw dystiolaethau pendant o'r Ysgrythyrau, ond oddi ar ystyriaethau cyffredinol, megys cyfrifoldeb dyn, yr hyn a dybiant hwy sydd yn eu cyfiawnhau i wneuthur hyny.

Yr wrthddadl fawr yn erbyn anallu dyn, ac yn erbyn priodoli pob peth tebyg i gaethiwed i

Digitized by Google

ewyllys dyn, ydyw bod hyny yn anghysson â'i gyfrifoldeb, ac yn anghysson â'i fod yn euog o anufudd-dod, ac yn ddarostyngedig i gosp. Bod dyn yn gyfrifol, sydd amlwg yn ngwyneb cydwybod ac Ysgrythyr; ac nis gall un athrawiaeth fod yn wir sydd yn anghysson â'r gwirionedd sylfaenol hwn. Gan fod y Beibl yn dysgu mor amlwg, trwy eiriau pendant, trwy ymadroddion trawsenwol—yn mhob modd, yn wir—fod anallu i'r hyn sydd dda yn perthyn i ddyn; ac hefyd, ei fod yr un mor amlwg fod dyn yn gyfrifol i Dduw; a'i fod, trwy anufudd-dod, yn tynu euogrwydd arno ei hun, rhaid i ni ddeall y naill o'r gwirioneddau hyn yn gysson â'r llall. Fod y Duw Mawr yn dal dyn yn gyfrifol, sydd yn amlwg ac yn addefedig; ac y mae yn gwneuthur hyny yn eithaf cyfiawn. Ond mewn trefn i'r naill ddyn ddal y llall yn gyfrifol, a hyny yn gyfiawn, y mae yn rhaid i'r naill fod yn sefyll mewn perthynas neillduol i'r llall. Nid oes neb dyn yn dal pob dyn yn gyfrifol; a'r rheswm am hyny ydyw, am nad ydyw y berthynas neillduol hono rhyngddynt sydd yn sail cyfrifoldeb. Nis gall fod cwestiwn pwysicach na hwn—Pa beth ydyw sail cyfrifoldeb? Y mae y meddiant o allu yn elfen hanfodol. Y mae y gwas yn gyfrifol i'w feistr am yr iawn ddefnydd o'i amser. Ond y mae hyny yn cynnwys fod gan y gwas allu i ddefnyddio ei amser yn ol ei ewyllys. Pe amddifedid ef o'r gallu hwn, peidiai a bod yn gyfrifol. Yn mhob enghraifft o gyfrifoldeb yn mysg dynion, y mae meddu gallu yn sail y cyfrifoldeb hwnw; ac y mae amddifadiad o'r gallu yn ddifodiad o'r cyfrifoldeb. Y mae hyn yn eithaf eglur:—nid oes dim dirgelwch ynddo. Yr ydym yn dal ein gilydd yn gyfrifol yn barhaus, ac yn gweithredu yn unol â hyny, trwy wobrwyo a chospi, canmawl a beio; ac nis gallwn lai na throsglwyddo yr un syniadau at lywodraeth Duw. Y mae y Beibl yn ein cyfiawnhau i wneuthur hyny. Y mae yr un berthynas rhyngddo ef a ni ag sydd rhyngom â'n gilydd. "Os ydwyf fi dad, pa le y mae fy anrhydedd? ac os ydwyf fi feistr, pa le y mae fy ofn?" *Mal.* i. 6. Y mae yn appelio at ddynion am uniondeb ei gŵyn yn erbyn dynion. "Bernwch, attolwg, rhyngof fi a'm gwinllan;" *Esa.* v. 3, 4.

Y mae hyn, gan hyny, yn ddigon amlwg—fod gallu yn sail cyfrifoldeb. Nid ydyw y rhai sydd yn dal anallu dyn yn gwadu fod ystyr yn mha un y gellir dywedyd fod dyn yn meddu gallu i wneuthur ewyllys Duw. Yr ymofyniad, gan hyny, ydyw, Yn mha ystyr y gellir priodoli gallu i ddyn, yn gysson â'r anallu y mae y Beibl yn priodoli iddo? Teimlai pawb, pe byddai dyn yn amddifad o, neu wedi colli, ei gynneddfau rhesymol, ei alluoedd corphorol, neu fanteision allanol, na byddai yn gyfrifol am yr hyn nas gellid eu cyflawni heb y pethau hyn. Byddai anallu o'r fath yma yn anallu *naturiol*, yn gynnwysedig mewn amddifadrwydd o alluoedd naturiol i weithredu. Y mae y dyn sydd heb lygaid yn analluog naturiol i weled, a'r dyn sydd heb draed yn analluog naturiol i gerdded. Ac ni ddychymygai neb am eu dal yn gyfrifol am ddefnyddio y galluoedd naturiol hyn, a hwythau yn amddifad o honynt. Ond y mae math arall o rwystr i ddyn weithredu, sef absennoldeb, nid o *allu naturiol*, ond o *ewyllys:* ac nid ewyllys fel cynneddf naturiol, ond yn yr ystyr o dueddfryd, a dewisiad. Y mae yn bosibl i ddyn fod heb weled, nid am nad oes ganddo lygaid, ond am nad ydyw yn *dewis* neu yn *ewyllysio* gweled. Y mae pawb yn teimlo, ac yn gwneuthur gwahaniaeth rhwng bod heb y gynneddf naturiol, a'r moddion angenrheidiol, i wneuthur unrhyw beth, a bod heb *ewyllys* i'w defnyddio. Os cyhuddir neb o fod wedi drygu cydgreadur, nid yw byth yn esgeuluso dyweyd mewn hunan-amddiffyniad, mai nid o *fwriad* y gwnaeth felly, os felly y bu. Ac os ydyw yr honiad yn wir, cydnabyddir grym yr amddiffyniad. Y mae dau beth yn angenrheidiol i gyflawni unrhyw weithred; sef, *gallu* ac *ewyllys* i ddefnyddio y gallu hwnw. Ac y mae y diffyg o un o'r ddau yn attal cyflawniad y weithred. A ydyw y Beibl yn dywedyd rhywbeth am yr hyn sydd yn attal pechadur i edifarhau ac i gredu? Os ydyw, i ba un o'r ddau achos a enwyd y mae yn priodoli y diffyg o gyflawniad y dyledswyddau hyn? Fod anallu yn cael ei briodoli i ddyn yn y Beibl, nis gellir gwadu. Ond y mae y gair *anallu* weithiau yn arwyddo, nid absennoldeb gallu naturiol, ond absennoldeb dewisiad. Defnyddir y gair yn fynych felly mewn ymddiddan cyffredin; megys pan ddywedir, Nis gallaf ddyfod, Nis gallaf gytuno â'r peth a'r peth. Nid yw y gair *anallu* gan hyny yn penderfynu pa un ai diffyg gallu naturiol, ai ynte diffyg ewyllys, a feddylir, o herwydd y mae y gair *anallu* yn arwyddo y ddau. Nid ydyw yn anhawdd cael rheol i wahaniaethu rhwng yr amgylchiadau y defnyddir "anallu" i arwyddo absennoldeb gallu naturiol ac i arwyddo diffyg ewyllys. Os bydd y weithred yn ymddibynu ar stâd y meddwl, y mae y gair *anallu* yn arwyddo diffyg ewyllys. Y mae llawer o'n gweithredoedd cyffredin yn dibynu ar stâd y meddwl. Pan y mae dyn mewn iechyd a rhyddid, y mae yn ymddibynu yn hollol ar stâd ei feddwl pa un ai codi, ynte eistedd, aros yn y tŷ, ai ynte myned allan, darllen, ai ysgrifenu a wna. A phe dywedai am y pethau hyn, nas *gallai*—megys nas gallai fyned allan, nas gallai ddarllen—nid diffyg gallu naturiol fyddai y meddwl, ond diffyg tueddfryd, ewyllys, a phenderfyniad. Y mae yn wir fod y gair *anallu* yn arwyddo yn gyntaf diffyg gallu naturiol, ac mewn ail ystyr yn arwyddo diffyg ewyllys. Ond ei fod yn sefyll am y ddau mewn gwahanol amgylchiadau, y mae yn ymddiddan cyffredin yn brawf: ac yn mha un o'r ddau ystyr y defnyddir ef, y mae yr amgylchiadau neillduol i benderfynu. Pan y dywedir *nas gall* pechadur ddyfod at Grist, y mae genym restr o adnodau sydd yn dywedyd wrthym mai diffyg *ewyllys*, ac nid diffyg gallu naturiol a feddylir wrth hyny:—"Ni *fynwch* chwi ddyfod ataf fi:" "Pa sawl gwaith y mynaswn gasglu dy blant yn nghyd megys y casgl iar ei chywion dan ei hadenydd, ac nis *mynech:*" "Yntau a ddywedodd, *Nid af:*" *Ioan* v. 40; *Mat.* xxiii. 37; *Mat.* xxi. 29; *Diar.* i. 21. Yn awr, y mae yn amlwg fod anallu yn arwyddo diffyg ewyllys, yn gystal a diffyg gallu naturiol. Nid ydyw ewyllys neu dueddfryd yn hanfodol i gyfrifoldeb; onid e, ni byddai raid i ddyn ond peidio dymuno cyflawni ei ddyledswydd, ac fe ddarfyddai ei rwymedigaeth i'w chyflawni. Mor bell ydym oddi wrth ystyried fod diffyg ewyllys yn esgus dros beidio a chyflawni y dyledswyddau sydd yn orphwysedig ar ddyn, fel mai hyn sydd yn cyfansoddi euogrwydd y neb sydd yn eu hesgeuluso.

Mewn atebiad i'r gofyniad, Pa fodd y mae yr athrawiaeth o anallu dyn yn gysson â chyfrifoldeb? y gwneir y gwahaniaeth rhwng anallu *naturiol* ac anallu *moesol.* Nid yw cyfrifoldeb yn gofyn ond cynneddfau naturiol a rhesymol, manteision allanol, a moddion angenrheidiol. Pa le bynag

Digitized by Google

y mae y rhai hyn, y mae yno allu naturiol, a'r cwbl a ellir yn gyfiawn ofyn fel sail cyfrifoldeb. Y mae y gallu, gan hyny, sydd yn hanfodol i gyfrifoldeb gan ddyn. Yr anallu sydd yn anghysson â chyfrifoldeb ydyw bod yn amddifad o gynneddfau rhesymol, bod dan lywodraeth rhyw wrthddrych allanol, neu bod yn amddifad o foddion angenrheidiol. Y mae y pethau hyn yn difodi cyfrifoldeb; ond lle nad ydyw yr ymddifadrwydd hwn, y mae yno allu naturiol, a'r cwbl sydd yn angenrheidiol fel sail cyfrifoldeb. Os diffyg ewyllys yn unig sydd i gyflawniad rhyw ddyledswydd, y mae yno anallu: ond anallu o natur gwahanol; ac er mwyn ei wahaniaethu gelwir ef yn *anallu moesol.* Gan mai mewn diffyg ewyllys yn unig y mae yn gynnwysedig, nid yw yr anallu hwn yn anghysson â chyfrifoldeb. Y mae yn bosibl i ddyn fod yn meddu gallu naturiol i gyflawnu yr hyn na fedd allu moesol i'w gyflawnu; ond nid yw y diffyg o allu moesol yn lleihau dim ar ei gyfrifoldeb. Yn yr ystyr hwn, gan hyny, y mae yr athrawiaeth o "anallu dyn" yn gysson â chyfrifoldeb, ac felly yn gysson â'r galwadau sydd ar ddyn i edifarhau a chredu yr efengyl.

Nid oes neb wedi gwneyd y gwahaniaeth rhwng anallu naturiol ac anallu moesol yn fwy eglur, nac wedi dangos gyda mwy o rym mai y cwbl sydd yn angenrheidiol i gyfrifoldeb ydyw gallu naturiol, na Jonathan Edwards, yn ei draethawd ar yr *Ewyllys.* Ond tua thrigain mlynedd o flaen Edwards, ysgrifenodd Joseph Truman, gweinidog Annibynol, draethawd ar yr un mater [*On Moral and Natural Impotency*], yr hwn sydd yn cynnwys ymdriniaeth ar anallu dyn mor gyflawn ac eglur, fel nad oedd gan Edwards nemawr i'w chwanegu. O'r duwinyddion diweddar, nid oes neb wedi galw mwy o sylw at y gwahaniaeth hwn fel un pwysig i gyssoni yr hyn y mae y Beibl yn ei ddysgu am sefyllfa ysbrydol dyn trwy bechod, ac hefyd am ei ddyledswydd i edifarhau a chredu yr efengyl, nag Andrew Fuller. Y mae cywirdeb y gwahaniaeth yn cael ei gydnabod yn lled gyffredinol. Fe addefir gan dduwinyddion, pe byddai anallu dyn i ufuddhau i gyfraith Duw, i edifarhau, ac i gredu yr efengyl, yn anallu naturiol, nas gellid dal dyn yn gyfrifol am dano; ac o ganlyniad, nas gellid ei gospi am anufuddhau ac anghredu. Ond gan mai anallu moesol ydyw ei anallu, sef anallu yn tarddu o stâd neu ansawdd y galon, yr anallu hwn ydyw hanfod ei bechod a'i euogrwydd.

Ond er fod y gwahaniaeth hwn yn cael ei dderbyn yn gyffredinol fel un gwirioneddol, ac nid fel gwahaniaeth mewn geiriau yn unig, a bod iddo berthynas agos â chyfrifoldeb dyn, eto y mae rhai duwinyddion yn edrych arno fel un sydd heb fyned dan holl anhawsder y cwestiwn. Addefa y rhai hyn fod dyn yn ei anallu mwyaf yn gweithredu yn rhydd; nad yw yn ddarostyngedig i unrhyw orthrech allanol, nac i unrhyw ddeddfau naturiol—y cyfryw ag sydd yn llywodraethu y byd allanol; fod dyn wrth wneuthur drwg yn gwneuthur hyny yn wirfoddol, am ei fod yn dewis: nad oes dim yn yr anallu a briodolir i ddyn fel pechadur yn yr Ysgrythyrau yn anghysson â hyn. A phan y dadleuir fod dyn yn gaeth i bechod, a'i fod yn was iddo—ac o ganlyniad, ei fod dan *angenrheidrwydd* i bechu—nid oes dim yn hyn eto, fel y deallir ef gan Galviniaid, yn anghysson â bod dyn yn gweithredu yn hollol rydd yn y cwbl: o herwydd angenrheidrwydd moesol ydyw hwn eto, yr hyn sydd gysson â gwirfoddolrwydd ei ewyllys naturiol. Nid gwasanaethu pechod yn *groes* i'w ewyllys, ond *gyda'i* ewyllys y mae.

Yn y gwahaniaeth a wneir rhwng anallu naturiol ac anallu moesol yr ydys yn dyweyd fod gan ddyn allu (naturiol) i edifarhau a chredu, ac nad oes un rhwystr iddo wneuthur hyny ond iddo ewyllysio. Addefir fod gan ddyn allu i *wneyd,* ond iddo ewyllysio. Ond yma y mae cwestiwn arall yn cyfodi, A oes ganddo allu i *ewyllysio?* Nid ydym wedi cyrhaedd gwaelod yr anhawsder wrth ddyweyd y gallai dyn pe yr ewyllysiai. Y mae y gwahaniaeth rhwng anallu naturiol a moesol yn cyfarfod y cwestiwn yn y wedd yma arno, ac yn cyssoni anallu a chyfrifoldeb. Ond y mae cwestiwn pellach—nid yn unig, A all dyn *pe* yr ewyllysia? ond A *all* efe ewyllysio? Onid yn yr ewyllys y mae yr anallu?—nid diffyg o'r gynneddf naturiol i ewyllysio, ond diffyg o dueddfryd ysbrydol a sanctaidd i ewyllysio yn dda. Hyn ydyw athrawiaeth y rhai sydd yn uniongred eu barn am gyflwr dyn dan y cwymp. Y mae *Hyfforddwr* Mr. Charles yn cynnwys yr athrawiaeth hon yn y geiriau hyn:—"Nid oes ganddynt ewyllys na gallu i ymadael â'u pechod." Wrth fod y gair *gallu* yn dyfod ar ol ewyllys, y tebygolrwydd yw mai meddwl yr ysgrifenydd ydoedd, Nid oes ganddynt ewyllys na gallu i ewyllysio. Gwelir fod yr athrawiaeth o anallu dyn i gyflawnu yr hyn sydd yn ysbrydol dda yn gyssylltiedig â, ac yn tarddu o, hollol lygredigaeth ei natur. Gan fod dyn yn ei stâd wrth natur yn analluog i wneuthur dim da, y mae yn rhaid mai yr achos ydyw am nad yw yn ewyllysio; o herwydd addefir gan bawb fod gan ddyn allu i wneuthur yr hyn y mae yn ei ewyllysio. Ac os nad ydyw neb yn ewyllysio gwneuthur da yn ei sefyllfa naturiol, y mae yn gasgliad amlwg mai y rheswm ydyw, am nad oes neb yn alluog i ewyllysio yr hyn sydd dda; o herwydd pe byddai y fath allu gan ddynion, nis gellir amheu na buasai rhyw rai o ddynolryw wedi ei roddi mewn gweithrediad. Heb law hyny, y mae yn wrthddywediad mewn geiriau i ddyweyd fod yn bosibl i un sydd â thuedd at unrhyw beth ewyllysio neu gredu yr hyn sydd yn groes i hyny. Ni ddichon i elyn i Dduw ewyllysio ei garu mwy nag y dichon i oleuni fod yn achos o dywyllwch. Ac felly y mae anallu moesol mor wirioneddol yn anallu a phe buasai yn gynnwysedig o ddiffyg naturiol: ond o herwydd mai tarddu o'r galon y mae—o dueddfryd lygredig y meddwl—nis gall cydwybod dyn na deddf Duw ei dderbyn yn esgus dros bechod. Nid ydyw bod dyn yn analluog i ewyllysio da yn ei ryddhau oddi wrth gyfrifoldeb; o herwydd—1. Pechod ydyw ei anallu i ewyllysio, sef y diffyg o duedd sanctaidd. 2. Y mae yr un mor gyfrifol am ei anallu, ac mor euog yn ei wyneb, ag ydyw am lygredigaeth ei sefyllfa fel pechadur yn gyffredinol; o herwydd y mae ei anallu yn tarddu o'i lygredigaeth. 3. Trwy bechod yr Adda cyntaf y collodd dyn ei allu i ewyllysio yn sanctaidd; ac felly yr anhawsder sydd yn ein cyfarfod yn y mater hwn ydyw yr un anhawsder ag sydd yn ein cyfarfod mewn erthyglau ereill. Gwel Cyfrifoldeb; Pechod Gwreiddiol.

Wrth ddybenu yr erthygl hon, gallwn nodi y cyssondeb annysgwyliadwy sydd yn ein cyfarfod yn fynych yn y cyfundraethau pellaf mewn ymddangosiad oddi wrth eu gilydd. Dadleua yr Arminiaid llacaf, yn nghyd â'r Pelagiaid, ei bod hi yn ddyledswydd ar bawb i edifarhau a chredu, o herwydd fod pawb yn meddu gallu i hyny heb

Digitized by Google

gynnorthwyon neillduol yr Ysbryd Glân. Hòna y Calviniaid uchel, ar y llaw arall, nad yw dynion diailanedig dan rwymedigaeth i gyflawnu dyledswyddau ysbrydol, o herwydd nad oes ganddynt allu i'w cyflawnu. Felly y mae y ddau yn cytuno i wneuthur gallu moesol yn fesur cyfrifoldeb; ac o ganlyniad, y mae anallu moesol, i'r graddau y bo, yn difodi cyfrifoldeb: yr hyn nid yw amgen na dyweyd nad yw dyn dan rwymedigaeth i gyflawnu dim ond yr hyn y mae yn teimlo tuedd i'w gyflawnu:—yr hyn sydd yn myned dan wraidd ewyllys Duw fel rheol ufudddod. Am gyfeiriad at lyfrau ar fater yr erthygl hon, gwel EWYLLYS.

1. **GAMALIEL**, [גמליאל=*Duw yw fy ngwobrwywr; Γαμαλιήλ*]: mab Pedasur; penaeth neu gadben llwyth Manasseh ar amser y cyfrifiad yn Sinai (*Num.* i. 10; ii. 20; vii. 54, 58), ac ar gychwyniad y daith trwy yr anialwch: *Num.* x. 23.

2. **GAMALIEL**: Pharisead, a doctor parchus o'r gyfraith; yr hwn a roddodd gynghor doeth, mewn ystyr wladol a chrefyddol, i'r Sanhedrim gyda golwg ar eu hymddygiad at ddilynwyr Iesu o Nazareth (*Act.* v. 34, &c.); ac ymddengys mai mewn canlyniad i'w gynghor doeth a phwyllog ef y rhwystrwyd i'r Iuddewon erlidgar lofruddio yr apostolion: *adn.* 33. Dengys *Act.* xx. 3, mai efe oedd athraw yr apostol Paul. Yn y Talmud, y mae yn cael ei alw "yr hen ŵr" (*hazocen*), a adnabyddid wrth y teitl anrhydeddus o "ogoniant y gyfraith;" a dywedir mai efe oedd y cyntaf a gafodd ei alw yn *rabban* ("ein meistr," neu "ein hathraw"). Gosodir ef allan yn y Talmud fel mab y Rabbi Simeon, ac ŵyr yr ardderchog Hillel; iddo fod yn llywydd y Sanhedrim o dan Tiberius, Caligula, a Chlaudius; ac ymddengys iddo farw ddeunaw mlynedd cyn dinystr Ierusalem:—"ar ol" (*nach*) y dinystr, medd Winer, ac felly Michelson; ond y mae yn amlwg fod hyny yn gamsyniad, canys dilynwyd ef yn y llywyddiaeth gan ei fab Simeon, yr hwn a fu farw yn y gwarchae [*Lightf. Cent. Chorogr. Mat. Præm., pen.* xv.]

Y mae traddodiadau eglwysig ofergoelus ei fod wedi ei ennill i fod yn Gristion gan Pedr ac Ioan, a Phaul hefyd [*Phot. Cod.*, clxxi. 199]; a bod ei fab Gamaliel wedi ei ennill yr un ffunud: a myrega y *Clementine Recognitions*, [i. 65] ei fod yn Gristion dirgel ar y pryd y rhoddodd y cynghor yn y Sanhedrim yn nghylch peidio erlid yr apostolion. Ond ymddengys fod y syniadau hyn yn hollol anghytunol â'r parch a delid iddo hyd yn oed gan y Rabbiniaid Iuddewig mewn amseroedd diweddar, y rhai a ystyrient ei farn ef ar bynciau y gyfraith grefyddol yn awdurdod penderfynol. Ac nid ydyw ei ymyriad ar ran yr apostolion yn profi mewn un modd, fel y tybia rhai, ei fod ar y pryd yn dirgel gymmeradwyo eu hathrawiaethau. Fel barnwr pwyllog a diduedd yr ymddengys efe yn hytrach ar yr amgylchiad hwnw, yn ymresymu gyda chraffder a doethineb gwladol profedig, gan awgrymu fod opiniynau crefyddol yn gyffredin yn ennill nerth trwy wrthwynebiad ac erlidigaeth (*Act.* v. 36, 37); tra, os gadewid hwy yn gwbl ddisylw, fod yn sicr nas gadawent argraff barhaus ar feddyliau y bobl, os yn amddifad o wirionedd (*adn.* 38); ond mai ofer oedd iddynt hwy ymryson yn eu herbyn, os oeddynt yn wir: *adn.* 39. Heb law hyny, mae y traddodiadau Iuddewig yn mynegu i Gamaliel farw yn Pharisead. A phan yr ystyriom mai gwrthwynebu y syniadau Saduceaidd gyda golwg ar yr adgyfodiad oedd yn ffynu yn y wlad yr oedd efe yn *Act.* v; ac mai dyn doeth a phwyllog oedd, yn gwrthwynebu penboethiaid ffyrnig ac afresymol; a phan ystyriom hefyd fod ei ddysgybl, Saul, yn un o'r rhai blaenaf yn mysg yr erlidwyr, pan y dechreuodd yr elfen Gristionogol wrth-Pharisaeaidd weithio ei hun allan yn ngweithredoedd a phregethau Stephan, mae yn rhy anhawdd credu fod Gamaliel yn amddiffyn yr apostolion fel dilynwyr Iesu. Pa fodd bynag, mae yn bur amlwg ei fod yn llawer mwy goleuedig a goddefgar na'i gydswyddogion a'i gydoeswyr, oddi wrth y ffaith yn unig ei fod yn goddef i'w ddysgybl selog, Saul, droi ei feddwl at lenoriaeth Roeg; yr hyn, i fesur helaeth, oedd yn ei gymhwyso i fod wedi hyny yn "apostol y Cenedloedd;" canys yr oedd cyfreithiau Iuddewig Palestina yn gwahardd, ar ol rhyfeloedd y Maccabeaid, i ddysgu hyd yn oed yr iaith Roeg i ieuenctyd Hebreaidd [*Mishna Sotah*, ix. 14].

Peth arall a brawf fod Gamaliel yn sefyll yn uchel iawn yn marn yr Iuddewon yn hir ar ol ei farwolaeth ydyw, fod hanesyn yn y Talmud gyda golwg ar ei feddrod, yn dangos fod Onkelos (cyfieithydd Caldeaidd enwog yr Hen Destament) wedi treulio deg pwys a thrigain o berarogl wrth ei fedd er parch i'w goffadwriaeth [*Youchsin*, 59].

**GAMBOLD, JOHN, M. A.**: ysgolhaig a duwinydd enwog. Mab ydoedd i William Gambold, person Puncheston, yn agos i Aber-dau-gleddyf, yn sir Benfro. Ganwyd ef Ebrill 10fed, 1711. Yn 1726, gwnaed ef yn aelod o eglwys Crist yn Rhydychain, lle y bu wedi hyny yn gaplan; ac yn 1734, graddiwyd ef yn M. A. Yr oedd wedi ffurfio cyfeillach, yn 1730, â rhai o efrydwyr y coleg, barnau y rhai a gawsant y dylanwad mwyaf pwysig ar y gweddill o'i oes. Yn 1739, cyflwynwyd ficeriaeth Stanton Harcourt, yn sir Rhydychain iddo, gan y Dr. Secker, oedd y pryd hyny yn esgob Rhydychain; ac yno, mewn pentref anghysbell lle y preswyliai, cafodd hamdden i chwilio a myfyrio yr egwyddorion y dechreuasai eu cofleidio pan yn Rhydychain. Yr oedd yn dra hoff o ymneillduedd, ac anfynych y gwelid ef allan o'i fyfyrgell nac ar ymweliadau. Pan yr ymwelodd Peter Bachler, dysgybl yr iarll Zinzendorf â Rhydychain, yn 1738, yr hwn a ymddyddanai yn aml â John a Charles Wesley, y rhai y pryd hyny oedd yn cynllunio Methodistiaeth Wesleyaidd, yr oedd Gambold yn cyfieithu ei ddarlithiau, y rhai a draddodid yn Lladin, yn nghyfarfodydd y rhai a alwent eu hunain "y bobl ddeffroedig." Yn y flwyddyn ganlynol cyfarfu â'r iarll ei hun, pan yr ymddengys i'w feddwl gael ei droi i fyfyrio a chofleidio egwyddorion y Moraviaid; ac yn 1742, daeth mor argyhoeddedig o gywirdeb yr egwyddorion hyny, fel y rhoddodd ei fywoliaeth i fyny, ac aeth i fyw i blith y brodyr Moraviaidd. Cyn gadael y plwyf, ysgrifenodd at esgob Rhydychain, ac at ei noddwr caredig, yr arglwydd Harcourt, y rhai a wnaethant ymdrech egniol i'w ddarbwyllo i newid ei fwriadau—ond yn gwbl ofer. Wedi hyny rhoddodd y fywoliaeth i fyny yn rheolaidd, a daeth i breswylio i Gymru, yn benaf yn Aber-daugleddyf, lle y cadwai ysgol ac y pregethai yn achlysurol, hyd Tachwedd, 1744; pan y dychwelodd i Lundain, lle y bu yn pregethu yn rheolaidd am lawer o flyneddoedd i'r brodyr Moraviaidd yn eu capel yn Fetter lane. Yn 1754, gwnaed ef yn esgob y brodyr, mewn cymmanfa daleithiol

Digitized by Google

Seisonig, a gynnaliwyd yn Lindsay house, Chelsea; a hoffid ef yn fawr o blegid ei dduwioldeb a'i ddysg gan amryw esgobion Seisonig oedd wedi dyfod yn adnabyddus âg ef yn Rhydychain. Yn 1768, ymneillduodd i wlad ei enedigaeth, lle y bu farw yn Aber-dau-gleddyf, Medi 13eg, 1771.

Gan ei fod yn ysgolhaig ardderchog, rhoddid ef ar waith yn fynych gan yr enwog Mr. Bowyer i ddiwygio gwallau y wasg; a than ei olygiad ef y cyhoeddwyd yr argraffiad prydferth a chywir o waith Bacon, a ymddangosodd yn 1765; ac efe oedd golygydd proffesedig *Hanes Greenland*, gan David Crantz, a gyhoeddwyd yn 1767, yn cynnwys hanes y wlad a'i thrigolion, ac yn enwedig hanes y genadaeth a ddygid yn mlaen yno dros fwy na deng mlynedd ar ugain, gan yr *Unitas Fratrum*, &c., yn ddwy gyfrol wythplyg. Efe hefyd oedd golygydd yr argraffiad hardd o'r Testament Groeg, a gyhoeddwyd yn 1742, yn ddwy gyfrol deuddegplyg. Er mwyn dangos cyssondeb ei gyssylltiad â'r Brodyr Unedig, yn nghyd â'i ymlyniad diysgog wrth Eglwys Loegr, cyhoeddodd lyfryn heb ei enw wrtho, yn 1765, a elwid ***A short Summary of Christian Doctrines*** (Talfyriad o'r Athrawiaethau Cristionogol), yn holiadau ac atebion, a'r atebion oll yn cael eu rhoddi yn ngeiriad y Liturgi. Ei gyfansoddiadau ereill yw ***Maxims and Theological Ideas*** (Testynau a Syniadau Duwinyddol), wedi eu casglu o amryw draethodau a darlithiau yr iarll Zinzendorf, o 1738 hyd 1747: Un ar bymtheg o ddarlithiau ar yr ail erthygl o'r Credo, a draddodwyd yn Berlin, gan Raglaw y Brodyr, 1752, 12plyg: Un ar ugain o Ddarlithiau neu Draethodau (*Discourses or Dissertations*) ar Gyffes Augsburg, wedi eu cyfieithu o'r Almaeneg, 1752: Merthyriad Ignatius; Treisgan (*tragedy*), &c., a rhai pregethau a darnau duwinyddol, y rhai a gyhoeddwyd ar ol ei farwolaeth, yn 1789, yn gyfrol 8plyg, gan y Parch. Benjamin La Trobe, yr hwn hefyd a ysgrifenodd fywgraffiad byr o hono, sydd ar ddechreu y llyfr.

GAMBOLD, WILLIAM: a anwyd yn nhref Aberteifi, o rieni parchus, Awst 10fed, 1672. Gan y bwriedid ef i fod yn weinidog yn yr eglwys, cafodd addysg uwchraddol, yr hon a orphenwyd yn Ngholeg Exeter, Rhydychain. Ar ol iddo gael ei urddo, bu yn gwasanaethu am ryw nifer o flyneddoedd fel curad; ac wedi hyny cafodd barsonoliaeth Puncheston a Llanychaer, yn sir Benfro, lle y gwnaeth ei ymddygiad duwiol a charedig ef yn dra chymmeradwy. O herwydd rhyw ddamwain a gafodd i'w frest, analluogwyd ef i gyflawnu ei ddyledswyddau clerigol yn ystod blyneddoedd olaf ei oes—y rhai a gyssegrodd i gasglu Geiriadur Seisoneg a Chymraeg. Llafuriodd yn ddiwyd ar y gwaith pwysig yma am yr ysbaid o bymtheng mlynedd, gan ddarllen pob llyfr oedd wedi ei gyhoeddi yn y Gymraeg, cystal a phob llawysgrifau y gallai daraw wrthynt. Yn y copi cyntaf o'r gwaith hwn, yr oedd wedi rhoddi y Lladin rhwng y Seisoneg a'r Gymraeg; ond yn y copi olaf a ysgrifenasai i'r wasg, yr oedd wedi gadael y Lladin allan, gan wneuthur llawer o chwanegiadau ereill at y gwaith. Cyfarfu y Geiriadur hwn yr un dynged a Geiriadur y Dr. Williams o Drefriw, gan na chafodd y naill, mwy na'r llall, ddigon o gefnogaeth i gyhoeddi y gwaith; ac felly gorfu i'r awdwr llafurus ei adael ar ei ol mewn llawysgrifen. Gorphenwyd y gwaith yn 1722; a daeth yn ddamweiniol i feddiant y Parch. John Walters, yr hwn a ddywed am dano, pe buasai wedi ei gyhoeddi, y buasai ei Eiriadur ef yn afreidiol. Yn 1727, cyhoeddodd Mr. Gambold Ramadeg defnyddiol o'r iaith Gymraeg yn Seisoneg, o'r hwn y cyhoeddwyd ail argraffiad yn Nghaerfyrddin, 1817; a thrydydd argraffiad, llawer helaethach, yn y Bala, 1833. Bu farw, Medi 13eg, 1728. Efe oedd tad John Gambold, yr esgob Moraviaidd, fel y gwelir oddi wrth lythyr i'r olaf sydd wedi ei argraffu yn rhagymadrodd yr argraffiad cyntaf o Eiriadur Seisoneg a Chymraeg Walters, 1794.

GAMMADIAID, [גמרים]. Yn *Ezec.* xxvii. 11, yn unig y ceir y gair hwn, lle y dywedir am Tyrus—"a'r Gammadiaid yn dy dyrau." Y mae amryw egluriadau wedi cael eu cynnyg ar y gair. Y mae un dosbarth yn ymddibynu ar y cyssylltiad â'r gair *gomed*, "cufydd," megys pe cyfeirid at ddynion cufydd o hyd; am hyny, *pygmæi* ("corod") a ddefnyddir yn y *Vulgate*. Tybia Michaelis mai at yr uchder ymddangosiadol yn unig y cyfeirir, er mwyn trosglwyddo syniad am uchder mawr y tyrau. Tybia Spencer [*De Leg. Heb. Rit.*, ii. 24], mai cyfeirio y mae at ddelwau bychain y duwiau gwarcheidiol, tebyg i *Lares* y Rhufeiniaid.

Y mae dosbarth arall yn ei drin fel gair daiaryddol neu leol. Barna Grotius mai ffurf Hebreaidd ydyw *Gamad* o enw *Ancon*, tref Phœniciaidd: *Cappadociaidd* sydd yn yr aralleiriad Caldeaidd, fel pe mai *Gemadim* a fyddai y darlleniad. Fuller [*Miscell*, vi. 3], a wna y Gammadiaid yr un rhai a thrigolion Gamala [*Plin.*, v. 14]; a thrachefn, y mae rhai yn tori y gair yn ddau—*gam madim*="hefyd y Mediaid."

Y mae dosbarth arall eto yn rhoddi ystyr mwy cyffredinol i'r gair. Cyssyllta Gesenius [*Thes.*, 292] ef â *gomed*, "caingc," yn arwyddo arwyr gwrol. Mae Hitzig yn awgrymu ei fod yn cyfeirio at encilwyr, ac yn tynu sylw at yr arddodiad *yn* megys yn pleidio yr ystyr yma. Tybia efe hefyd fod y prophwyd yn cadw golwg ar *Can.* iv. 4, a bod y gair *giborim* (cedyrn), yn yr ymadrodd hwnw wedi cael ei lygru y naill dro ar ol y llall i *shimrim*, fel y darllenir ef gan y Deg a Thrigain, y rhai a ddefnyddiant *phulaces* a *gammadrim* megys yn y testyn dan sylw. Wedi'r cwbl, bernir mai y cyfieithiad yn y Deg a Thrigain sydd yn rhoddi yr eglurhad symlaf; ac mai hwn a ddilynir yn nghyfieithiad Luther, lle y defnyddir *wächter*, "gwyliwr." Y mae y geiriau canlynol o'r adnod—"crogasant eu tarianau ar dy gaerau oddi amgylch"—yn cael eu hegluro yn nodedig gan un o'r basluniau (*basreliefs*) a ganfyddwyd yn Kouyunjik.

GAMUL, [גמל = *diddyfnedig*; ὁ Γαμουλ]: offeiriad: llywydd yr eilfed dyddgylch ar ugain yn ngwasanaeth y cyssegr: 1 *Cron.* xxiv. 17.

GARAN, [סוס=*sus*, neu סיס=*sis*]: crëyr, crëyr glas, cregyr, crychydd, y gwddf gryg. Dywed yr hen ddiareb Gymreig am yr aderyn a adnabyddir wrth yr enwau hyn yn ein plith ni, "Nid anferth ond garan." Mewn dau le yn y Beibl y ceir y gair; a chyssylltir ef yn y ddau le â gwennol (Heb., *agur*):—"Megys garan neu wennol, felly trydar a wnaethum;" *Esa.* xxxviii. 14. "Y durtur hefyd, a'r aran, a'r wennol, a gadwant amser eu dyfodiad;" *Ier.* viii. 7. Defnyddir y ddau air Hebraeg—*sus* ac *agur*—yn yr ymadroddion hyn fel enwau adar; ac y maent wedi cael eu hystyried yn gyffredin yn dynodi yr *aran* a'r

Digitized by Google

*wennol;* ond y mae cyfieithwyr yn anghytuno yn fawr gyda golwg ar briodoldeb yr enwau hyn i gyfateb i'r Hebraeg. Ystyr y gair *sus* ydyw *neidio, llamu;* a gelwir y wennol yn *sus*, medd Gesenius, oddi wrth ei "hediad cyflym a hoenus." Bernir fod yr enw Italaidd *zisilla* am y wennol, a'r ferf *zisillare*, yn dal perthynas â'r gair Hebraeg *sus*. Ystyr y gair *agur* ydyw *trydar, yswitian;* a chyfieithiad Gesenius o'r ymadrodd yn Esaiah yw, "megys y wennol yswitiog" (*as the twittering swallow*). Ein cyfieithiad ni o *sus* yw *garan*, ac felly y cyfieithiad Seisoneg—*crane;* tra y mae Bochart, yn fwy cywir, yn ol barn Hamilton Smith, yn ei gyfieithu i air cyfystyr a gwennol; ond y mae y gair a ddefnyddia Luther—*airone=heron*—yn arwyddo rhywogaeth fawr o'r crëyr neu yr aran. Tra y mae cymmaint o wahaniaeth barn yn bod, y ffordd ddiogelaf yw chwilio beth yw ystyr mewnol yr ymadroddion Ysgrythyrol sydd yn cynnwys y geiriau hyn. Yn Esaiah, cyfeirir at lais y ddau ryw (os dau hefyd), yr hwn a ddysgrifir â'r ferf *trydar*. Yn Ieremiah, dynodir yr adar fel rhai "yn cadw amser eu dyfodiad;" hyny yw, megys adar ymfudol. Mae yn werth sylw hefyd fod trefn (cystrawen) yr enwau yn wahanol yn y ddau le: "Megys garan (neu) wennol" (Heb., megys garan gwennol), medd Esaiah; ac "yr aran, a'r wennol," medd Ieremiah. Yn ol Esaiah, gellid cymmeryd y ddau air, megys yn dynodi yr un aderyn—"garan-wennol"—megys y cymmer y rhan fwyaf o'r beirniaid hwy; ond yn Ieremiah, mae y ddau air megys yn dynodi adar gwahanol —"yr aran, a'r wennol." Yn awr, pe garan



Dar. 314.—Garan Numidiaidd.

Ewrop a olygasid wrth y geiriau, ni buasai ei lais trystiog, cryg, ef yn cael ei ddynodi â'r gair *trydar;* ac y mae yn dra thebyg y cydweddai ansoddau yr aderyn, a ddarlunir mor brydferth a grymus yn Hesiod ac Aristophanes, â darlun mawreddog y prophwydi yn well fyth. Enw aderyn hirgoesog dychymygol yn y chwedlau Arabaidd ydyw *sus* neu *sis;* ond y mae y gair hefyd yn arwyddo swn neillduol llais y wennol: tra y cymhwysir *agur*, gydag ychydig gyfnewidiad, at ciconia (*stork*), yn yr ieithoedd gogleddol y maent yn debyg, wedi newid y gair Caldeaidd *kurkeya*, i *kurk* a *curki*. Y mae y Teutonig *aiber*, Dutch *oyevaer*, a'r Esthioniaidd *aigr* ac *aigro*, gan hyny yn pleidio y golygiad mai enw llwyth o adar dwfr mawrion ydyw *agur*. Ond nid ydyw y gair Hebraeg na'r enwau Teutonig yn cyfeirio at yr aran Ewropaidd; o blegid fod gan y rhywogaeth lais uchel a chryg, ac am hyny nid ydyw yn "trydar;" ond yn benaf o blegid ei fod, wrth ymfudo, yn croesi Môr y Canoldir i Affrica, ac nad ydyw yn ymddangos yn Palestina, oddi gerth ar ddamwain yn unig—pan yn cael eu gyru yno fe allai gan ystorm o wynt gorllewin. A phan y disgyno haid o aranod yno dan yr amgylchiadau hyn, nid arosant ond ychydig fynydau yn unig; yr hyn a ddengys nad ydynt yn myned yno yn fwriadol fel y wennol. Fel hyn, gallai yr ychydig nodweddau a arwyddir nodi allan y ciconia, yr hwn sydd yn ymgynnull yn Syria yn heidiau, cyn ei ymfudiad oddi yno; ac nid yw yn aderyn trystfawr, gan nad oes ganddo ond ychydig o lais, os dim. Ond gan fod y ciconia yn cael ei nodi yn eglur yn yr Hebraeg â gair gwahanol, rhaid i ni chwilio am rywogaeth arall i gynnrychioli yr *agur:* ac yn ffodus yr ydym yn canfod un sydd yn ateb yn gyflawn i'r hyn a ofynir. Canys, nid ydyw na gwir aran, ciconia, na chrychydd (*heron*); ac y mae yn meddu llais gwan, ac arferion neillduol a gwahaniaethol; y mae yn nodedig o ran ei brydferthwch, ei rif, a'i breswyliad; ac y mae ei ddyfodiad a'i ymadawiad yn rheolaidd ar adegau penodol. "Ardea virgo," Linnæus; "Grus virgo," ysgrifenwyr diweddar; ac "Anthropoides virgo," rhai ysgrifenwyr—ydyw yr aderyn, yn ol pob tebygolrwydd, medd Hamilton Smith, a olygir wrth *agur*, er nad ydyw yn dyfod o'r gogledd, ond o ganolbarth Affrica, i lawr ar hyd y Nile (yr unig beth a ddyrysai Hasselquist), a chyrhaedda Palestina yn y gwanwyn, tra yr â heidiau o honynt yn mlaen i Asia Leiaf, a rhai cyn belled i'r gogledd a'r Caspian. Canfyddir darluniau o honynt yn fynych ar gofadeiliau yr Aipht: gwelodd Hasselquist hwy ar y Nile, a saethodd un wedi hyny yn agos i Smyrna. Y maent yn ymweled â'r corsdir sydd uwch law y ddinas hono, a Llyn Tiberias, ac yn ymadael yn yr Hydref: nid ydynt yn crygleisio, fel yr aran, nac yn ehedeg yr un fath; ond y mae dull eu hediad hwy yn gymhwysach i hollti yr awyr, er ehedeg yn gyflym. Tua thair troedfedd o hyd ydyw yr aderyn hwn: llwydlas prydferth ydyw ei liw; du ydyw ei fochgernau, ei wddf, ei frest, a blaenau y plu hirion ol; ac y mae siobyn o blu gwynion lledwais o'r tu ol i'w ddau lygad. Y mae ganddo ddull arbenig o ddawnsio wrth gerdded, yr hyn a barodd i'r Ffrancod ei alw yn *demoiselle*.

GARDD, GERDDI, [גן=*gan;* גנה=*gannah;* גנה=*ginnah:* κῆπος=*cépos*]. Darnau o dir wedi eu cau allan yn meusydd pentrefol y dinasoedd, wedi eu haddurno â choed a llysiau, yw gerddi yn y dwyrain, fel yr arwydda y geiriau Hebreig. Awgrymir yn y Beibl eu bod yn cael eu hamgylchynu yn gyffredin gan wrychoedd drain (*Esa.* v. 5), neu fagwyrydd ceryg: *Diar.* xxiv. 31. Er mwyn chwaneg o amddiffyniad, adeiledid lluestai (*Esa.* i. 8; *Galar.* ii. 6) neu dyrau (*Marc* xii. 1) ynddynt, lle yr arosai y gwyliwr (*Iob* xxvii. 18), i darfu bwystfilod gwylltion, ac i gadw ysbeilwyr draw, megys y gwneir hyd y dydd hwn. Rhydd Layard y darluniad canlynol o olygfa a welodd ei hun:—"Yr oedd yr afon arianaidd yn dolenu trwy y dyffryn, yr adfeilion mawrion yn taflu eu cysgodau tywyll yn ngoleuni y lloer, goleuadau lluestai, gerddi y cucumerau, yn ymrithio wrth ein traed, a'r dystawrwydd dwfn yn cael ei dori yn unig gan ergyd gras o wn y gwyliwr er dychryn y baedd gwyllt a lechai yn ngwelyau y pompionau"—*Layard's Nineveh and Babilon*, 365.

Yr oedd y darfhutan hefyd, neu y bwbach brain, yn cael ei ddefnyddio er cyn cof i darfu adar o'r gerddi a'r meusydd: *Barn.* vi. 70.

Yr oedd yr Hebreaid yn planu coed, a blodau, a pherlysiau yn eu gerddi (*Can.* vi. 2; iv. 16),

Digitized by Google

heb law olewydd, ffigyswydd, cnau (*Can.* vi. 11), pomgranadau, a phethau defnyddiol ereill at wasanaeth teuluaidd: *Exod.* xxiii. 11; *Ier.* xxix. 5; *Amos* ix. 14. Y mae yr afal cŷn, y merys, y llebrawn, yr almon, a'r gerddinen, yn mysg y rhai a enwir yn y *Mishna*, fel rhai a feithrinid yn Palestina [*Kil.*, i. 4].* Crybwyllir am erddi llysiau yn *Deut.* xi. 10; 1 *Bren.* xxi. 2. Yr oedd cucumerau yn cael eu meithrin ynddynt (*Esa.* i. 8; *Barn.* vi. 70), a merys, cenin, wynwyn, a garlleg hefyd fe allai, am y rhai y lleferir yn *Num.* xi. 5, fel cynnyrch gwledydd cymmydogaethol. Yn chwanegol at y rhai hyn, mae y gwylaeth, y mwstard (*Luc* xiii. 19), y coriander, a'r ysgellog (un o'r dail surion a fwytëid gydag oen y Pasc), a llysiau yr echryshaint, yn cael eu nodi yn ngorchymynion y *Mishna*, er nad ydyw yn sicr eu bod oll, mewn ystyr priodol, yn cael eu meithrin yn ngerddi Palestina [*Kil.*, i. 2, 8]. Y mae yn hysbys fod garddwriaeth wedi ei dwyn i berffeithrwydd mawr yn Syria yn amser y Rhufeiniaid [*Plin.*, xx. 16]; ac y mae Pliny yn darlunio y balsamlys fel un a feithrinid yn Iudea yn unig; ac nid mewn un lle yno ond dwy ardd freninol yn unig [*Plin.*, xii. 54]. Y mae Strabo [xvi. 763], wrth gyfeirio at un o'r gerddi hyn oedd yn agos i Iericho, yn ei galw yn "baradwys y balsam." Mae yr ardd flodau yn Ierusalem, y crybwyllir am dani yn y *Mishna* [*Maaseroth*, ii. 5], a'r hon y dywedir ei bod yn sefyll tua'r gorllewin o fynydd y deml, yn nodedig am ei bod yn un o'r ychydig erddi oedd er amser y prophwydi o fewn muriau y ddinas [*Lightf. Hor. Heb.* ar *Mat.* xxvi. 36]. Yr oeddynt yn gyffredin, fel yr awgrymwyd, yn cael eu planu o'r tu allan i'r pyrth; o blegid yr arogl drwg a gyfodai oddi wrth y chwyn a deflid o honynt, a'r tail a arferid i'w gwrteithio. Tybir i borth Gennath, a grybwyllir gan Josephus [*Hynaf. Iudd.*, v. 4, 2], gael yr enw oddi wrth yr ardd flodau a nodwyd eisoes; neu, am fod y porth hwnw yn arwain i'r gerddi oedd o'r tu allan i'r ddinas. Yr oedd yn agos i'r ardd oedd wrth Borth y Gwragedd, lle y dychrynwyd Titus gan yr Iuddewon tra yr oedd yn edrych ansawdd y ddinas [*Joseph. Hynaf. Iudd.*, v. 2, 2].

Crybwyllir am amryw erddi yn yr Ysgrythyrau, megys Gardd Eden (*Gen.* ii. 8, 9, 10, 15), gardd lysiau Ahab (1 *Bren.* xxi. 2), gardd y brenin oedd wrth amddiffynfa Sïon (2 *Bren.* xxi. 18; xxv. 4), gardd freninol breninoedd Persia yn Susan (*Esth.* i. 5; vii 7, 8), a gardd Ioseph o Arimathea (*Ioan* xix. 41). Ond o holl erddi Palestina, nid oes un â chymmaint o syniadau mawreddog a chyssegredig yn nglŷn â hi a Gardd Gethsemane, ger llaw yr olewgafnau ar lethri Mynydd yr Olewydd. Dywed teithwyr fod wyth o hen olewydd yn dynodi y fan a briodolir gan draddodiad i'r ardd fythgofiadwy hono; a bod eu boncyffion cygnog a'u cangenau, sydd bron yn ddiddail, yn arwyddo hynafiaeth mor barchus ag a hônir iddynt. Gwel GETHSEMANE.

Heb law cynnyrch cyffredin y wlad, gellid casglu, braidd, oddi wrth *Esa.* xvii. 10, fod rhai gerddi yn cael eu neillduo i feithrin planigion dyeithr neu dramor. I hyn hefyd yr ymddengys fod y dysgrifiad o erddi Solomon, sydd yn y *Targum* ar *Preg.* ii. 5, 6, yn arwain: "Mi a wnaethum erddi a pherllanau (*paradises*) wedi eu dyfrhau yn dda, ac a hauais ynddynt bob math o blanigion, rhai i'w bwyta a rhai i'w hyfed [megys sudd y winwydden], a rhai er meddyginiaeth; pob math o blanigion a pherlysiau. Mi a blenais ynddynt brenau gwegi (sef rhai heb ddwyn ffrwyth), a phob prenau perarogl, y rhai a ddygodd y tylwyth teg a'r ellyllon i mi o'r India, a phob rhyw bren yn dwyn ffrwyth; ac y mae ei hymyl wrth yr amddiffynfa sydd yn Ierusalem, wrth ddyfroedd Siloah. Mi a ddewisais gronfäau dyfroedd, y rhai, wele! sydd i ddyfrhau y coed a'r planigion; ac mi a wnaethum bysgod-lynau dwfr; ac y mae rhai o honynt hefyd yn dyfrhau y llwyni sydd yn dwyn coed."

Mewn hinsawdd fel hinsawdd Palestina, yr oedd cael lle i wneyd gardd yn agos i ddwfr o bwys mawr. Mae yr enwau a ddefnyddid yn y wlad wedi bytholi y ffaith yma, megys enw Engannim—"ffynnon y gerddi"—y *jenin* ddiweddar: cymmharer *Can.* iv. 15. Yr oedd "gardd ddyfradwy," neu "bren wedi ei blanu ar lan afonydd dyfroedd," yn arwyddlun o ffrwythlonrwydd toreithiog a llwyddiant sylweddol gan yr hen feirdd Hebreaidd (*Esa.* lviii. 11; *Ier.* xvii. 8; xxxi. 12); tra nad oedd un ffugr a ddynodai ddiffeithdra anghyfanned, neu drueni, yn fwy na "gardd heb ddwfr iddi:" *Esa.* i. 30. Yr oedd ffrydiau dwfr yn brin yn Palestina; o leiaf y rhai y byddai digon o ddwfr ynddynt yn yr haf—yr unig amser yr oedd eisiau dwfr at ddyfrhau: am hyny cronid dwfr gwlaw, neu ddwfr o'r ffrydiau a sychent yn yr haf, i fyny mewn dyfrgronfäau digon eang i gynnwys yr holl ddwfr a fyddai yn debyg o fod yn angenrheidiol yn ystod y tymmor sych. Mewn gwirionedd, fe ddyfrheir



Dar. 315.

llawer o'n planigfeydd ninnau hefyd o gronfäau dwfr gwlaw, yn yr un dull. Dosberthid y dwfr trwy yr ardd trwy lawer o rigolau bychain a dorid trwyddi yn mhob cyfeiriad, y rhai a gyflenwid â dwfr trwy gyfrwng ffrwd barhaus a lifai o'r gronfa, neu drwy i'r garddwyr dywallt dwfr iddynt yn y dull a ddangosir ar gofadeiliau yr Aipht. Yr oedd y rhigolau hyn yn cael eu troi a'u cyfeirio â'r troed; at yr hyn, fel y tybia rhai, y cyfeiria yr ymadrodd, "dyfrhau â'r troed," yn arwyddo dyfrhâd gardd: *Deut.* xi. 10. Y mae ereill yn meddwl mai cyfeirio y mae yr ymadrodd at olwyn a ddysgrifir gan Niebühr [*Descr. de l'Arabie*, 138] a ddefnyddid i ddyfrhau gerddi, yr hon a weithid â'r dwylaw a'r traed, ar ddull melin sang (*treadmill*); yr hon, medd Robinson [ii. 226], y tynai y dynion y rhan uchaf o honi atynt â'u dwylaw, gan wthio y rhan isaf â'u traed. Ond

tybia Wright fod y dull a arferir gan amaethwyr Oman, fel y darlunir ef gan Wellsted [*Trav.*, i. 281], yn ateb yn well i'r dysgrifiad, ac yn eglurhad da ar *Diar.* xxi. 1: "Ar ol aredig, y maent yn gwneyd y tir yn betrualau (*squares*) bychain â rhaw, gyda rhesi ar y naill du, ar hyd y rhai y cyfeirir y dwfr......Pan y llenwir un o'r rhigolau, attalia y gweithiwr y cyflenwad trwy droi y tir i fyny â'i draed; ac felly egyr redle i un arall."

Dengys y darlun blaenorol yn amlwg y dull y cyfodid dwfr gyda gwif (*lever*) mantolaidd, o ffrwd neu ddyfrgronfa, gan ei dywallt i gafn, o'r hwn y rhedai i'r gwahanol rigolau er dyfrhau y tir. Mae y dull yma yn cael ei ddefnyddio hyd heddyw. Y mae gan Pliny [*Hist. Nat.*, xix. 4], hanes nodedig am hen ddull o ddyfrhau gerddi, sydd yn werth ei ddarllen.

Dywedir fod y perllanau orains, lemon, a merwydd, sydd o amgylch ac o'r tu cefn i Jaffa, yn esamplau nodedig o hynodion y gerddi dwyreiniol, y rhai a ddysgrifia Maundrell [*Early Trav. in Pal.*, 416] fel cydgasgliad dyrys o goed wedi eu pentyru yn nghyd, heb na gorsafau, na rhodfeydd, na deildai, na dim o ol cynllun neu gelfyddyd arnynt, fel y maent yn ymddangos yn debycach i ddyryslwyni nag i erddi. Y mae swn yr olwynion Persiaidd a gedwir ar waith ddydd a nos, gan fulod, i ddyfrhau y gerddi, yn gadael yr argraff fwyaf parhaus ar glust y teithiwr.—*Lynch. Exp. to Jordan*, 441.

Ymddengys fod y tai oedd gan freninoedd a thywysogion yn y wlad yn cael eu hamgylchu gan erddi (1 *Bren.* xxi. 1; 2 *Bren.* ix. 27); ac yr oedd y rhai hyn yn cael eu defnyddio ar achlysuron i gynnal gwleddoedd: *Can.* v. 1. Yr oedd cymmaint o gyssylltiad, yn wir, rhwng gerddi a gwleddoedd, fel mai yr un gair sydd yn y Talmud am arddwriaeth a chydwleddoldeb [cymharer *Buxtorf, Lex. Talm.*, d. g. ארייסות]. Fe ddichon, er hyny, nad yw hyn ond damwain yn unig. Yr oedd gardd Ahasferus yn nghyntedd y palas (*Esth.* i. 5), mewn cyssylltiad â neuadd y wledd: *Esth.* vii. 7. Yr oedd gerddi Babilon wedi eu cau o fewn muriau y ddinas [*Layard's Nin.*, ii. 246]. Yr oedd gardd neu berllan yn gyssylltiedig â thŷ Ioachim [*Sus.* 4]—"gardd gauedig (*Can.* iv. 12), yn yr hon yr oedd ymdrochleoedd, a phethau ereill er difyrwch ac iechyd [*Sus.* 15: cymharer 2 *Sam.* xi. 2].

Mewn gerddi mawrion, ymddengys fod y *winllan* [Heb. *pardes*; Gr., *paradeisos*, paradwys), megys yn yr Aipht, yn cael ei chau mewn parth ynddynt o'r neilldu at feithrin palmwydd, sycamorwydd, a choed ffrwythau o amryw fath: *Can.* iv. 13; *Preg.* ii. 5. Y mae Schroeder, yn ei ragymadrodd i'w *Thesaurus Ling. Armen.*, yn haeru mai tarddiad Armeniaidd sydd i'r gair *pardes*—yn dynodi gardd agos i dŷ, yn yr hon y planwyd llysiau, coed, a blodau. Cymhwysir y gair gan Diodorus Siculus [ii. 10], a Berosus [dyfynedig yn *Joseph. Hyn. Iudd.*, x. 2, 1] at erddi crogedig Babilon. Y mae Xenophon [*Anab.*, i. 2, 7], yn darlunio y "baradwys" oedd yn Celaenæ yn Phrygia, lle yr oedd palas gan Cyrus, fel cadwrfa fawr yn llawn o fwystfilod gwylltion; ac y mae Aulus Gellius [ii. 20] yn defnyddio *vivaria* yn gyfystyr â'r gair Groeg, *paradeisoi* [cymharer *Philostr. Vit. Apoll. Tyan.*, i. 28]. Yr oedd swyddog y cyfryw leoedd yn cael ei alw "ceidwad y baradwys:" *Neh.* ii. 8.

Crybwyllir am erddi yn *Iob* xxvii. 18, ac *Ioan* xx. 15. Ond i ba raddau yr oedd y gelfyddyd o arddwriaeth wedi ei dwyn yn mysg yr Hebreaid, sydd anhysbys i raddau mawr. Y mae yn amlwg oddi wrth *Rhuf.* xi. 17, 24, eu bod yn gwybod am y gelfyddyd o impio, cystal ag oddi wrth y gwaharddiadau manwl sydd yn y *Mishna*, fel y sylwir eto; ac yr oeddynt hefyd yn gwybod am y cynllun o feithrin coed trwy blanu brigau neu blaendorion, a elwir mewn rhai parthau o Gymru yn *setus* (*cuttings*, neu *layers*): *Esa.* xvii. 10. Dywed Buxtorf mai garddwyr oedd y rhai a elwid yn Hebraeg *arisin* [*Mish. Bic.*, i. 2], y rhai oedd i ofalu ac edrych ar ol gerddi dan yr ammod iddynt gael rhyw ran o'r ffrwyth [*Buxt. Lex. Talon.*, d.g.]. Ac y mae yn amlwg fod garddwriaeth yn foddion neillduol o fywoliaeth, oddi wrth y ddiareb sydd yn cynnwys rhybudd yn erbyn anturiaethau diofal mewn garddwriaeth: "Yr hwn a loga ardd a fwyty yr adar; ond yr hwn a loga erddi, yr adar a'i bwytânt ef:" [*Dukes Rab. Blum.*, 141].

Y mae gerddi a llynau traddodiadol Solomon, y cyfeirir atynt yn *Preg.* ii. 5, 6, yn cael eu dangos yn *Wady Urtas* (*Hortus*)—taith tuag awr a chwarter i'r de o Bethlehem [cymharer *Joseph.* viii. 7. 3]. Y mae yr Arabiaid wedi bytholi y traddodiad, trwy alw bryn cyfagos yn *Jebel-el-Fureidis*, neu "Fynydd y Baradwys" [*Stanley, Lin. & Pal.*, 166]. Y mae Maundrell yn ammheus gyda golwg ar y gerddi hyn [*Early Trav. in Pal.*, 457]; ond y mae Van de Velde yn selog o'u plaid, a haera nad oeddynt yn cael eu cyfyngu i'r *Wadi Urtas* yn unig, ond fod llethrau y bryn ar y dde a'r aswy hefyd, i fyny ac i lawr, wedi eu gorchyddio â choed a phlanigion, fel y dengys yr enwau a ddygant, megys "Bryn yr eirin gwlanog," "Dyffryn y cnau," "Dyffryn y Ffigys," &c.—*De Velde's Syria and Pal.*, ii. 27.

Y mae pobl yn gyffredin, yn enwedig y dwy-



Dar. 316.

reinwyr, yn dra hoff o fyned i'w gerddi i fwynhau awyr iachus, i rodio, ac i adfywio a difyru eu hunain mewn gwahanol ffyrdd. Ac er mwyn hyny, y mae yn y rhan fwyaf o erddi prydferth fath o hafdy neu luestty, wedi ei drefnu yn brydferth, a'i baentio yn hardd—lle y bydd meinciau i'r ymwelwyr eistedd arnynt i fwynhau eu hunain. Heb law yr arferid gwneyd gwleddoedd mewn gerddi (*Esa.* li. 3), fel y crybwyllwyd eisoes, yr oedd yr hen Hebreaid yn arfer claddu eu meirw

Digitized by Google

ynddynt, fel yr arwyddir yn *Gen.* xxiii. 19, 20; 2 *Bren.* xxi. 18, 26; 1 *Sam.* xxv. 1; *Ioan* xix. 41; *Marc* xv. 46; ac y maent yn gwneyd felly weithiau yn y dwyrain hyd heddyw: ond nid ydyw yn awr yn arferiad bur gyffredin. Canfyddir fod yr un arferiad gynt yn mysg y Groegiaid [*Heliod. Æthiop.*, i. 2], a'r Rhufeiniaid [*Suet. Galba*, 20].

Y mae yn ymddangos hefyd fod yr Iuddewon yn mynych arfer cyflawni defodau crefyddol yn eu gerddi: *Gen.* xxiv. 63; *Mat.* xxvi. 30; *Ioan* xviii. 1, 2. Llygrwyd yr arferiad ragorol yma i eilunaddoliaeth; canys yr oedd eilunod yn cael eu haddoli yn fynych yn y lleoedd neillduedig a chysgodfawr hyn, fel y crybwyllir yn aml yn yr Ysgrythyrau: 1 *Bren.* xiv. 23; 2 *Bren.* xvi. 4; xvii. 10; 2 *Cron.* xxviii. 4; *Esa.* i. 29; lxvi. 17; *Ier.* ii. 20; iii. 6; *Ezec.* xx. 26.

Dyma y prif fynegiadau a geir am erddi yn yr Ysgrythyrau, a'r casgliadau sydd yn gysylltiedig â hwy yn y cyfeiriadau Ysgrythyrol. Yr oedd yr Iuddewon yn cymmeryd achlysur yn fynych yn eu cyfansoddiadau seremonïol i grybwyll am erddi, er mwyn dangos yn benaf pa blanigion neu hadau a ellid eu planu neu eu hau yn nghyd, a pha rai nas gellid gwneuthur hyny heb droseddu y gorchymynion: *Lef.* xix. 19; *Deut.* xxii. 9—11. Gellir casglu rhai ffeithiau hynod yn nghylch trefniad gerddi o'r hen gyfansoddiadau hyn. Ceir y dywediadau canlynol yn yr hen draethawd Mishnig *Kilaim*, sydd wedi ei ysgrifenu ar y pwnc yn gyffredinol:—"Rhaid peidio impio coed o wahanol rywogaeth, nac un math o brysgwydd (*shrubs*) ar fath arall o brysgwydd, na choed ar brysgwydd chwaith, na phrysgwydd ar goed." Ond y mae Rabbi Jehudah yn awdurdodi yr arfer olaf. "Rhaid peidio planu prysgwydd mewn llwyn o sycamorwydd; rhaid peidio impio llysiau yr echryshaint (*rue*) ar y Cassia gwyn; o blegid prysgwydden ar bren a fyddai hyny; rhaid peidio planu brigyn o'r ffigyswydden yn mysg *chatzub* (*eiddew*, fel y tybir) i'w oeri; rhaid peidio suddo cangen o'r winwydden (i'w meithrin) mewn gwely pompion, a hidlo ei sudd yno, canys pren ar blanigyn yw hyny; a rhaid peidio gosod had pompion yn mysg hocys (*mallow*), er mwyn ei gadw yno, am mai llysieuyn ar lysieuyn ydyw hyny." "Gellir hau pum math o wahanol hadau mewn gardd-wely o chwe lled llaw ysgwar, sef pedwar math yn mhedair cornel y gwely, a'r pummed yn y canol. Os bydd ymyl (*border*) i'r gwely, gellir hau tri math ar ddeg gwahanol, tri yn mhob cornel, ac un yn nghanol y gwely." "Rhaid peidio hau pob math o faeshadau mewn garddwely; ond gellir hau pob math o lysiau (hadau gerddi) ynddo." "Y mae ymyl a fu unwaith yn lled llaw o uchder, er iddo leihau yn ei uchder, yn gyfreithlawn o hyd, am iddo fod o'r dechreu yn yr uchder priodol." Y mae hyn i'w gymhwyso yn ddiau at yr ymylau oedd yn gwahanu yr amryw lysiau nad oedd gyfreithlawn eu cymmysgu. "Gellir hau tri math o hadau gwahanol mewn rhych (*trench*) neu ffos sech o led llaw o ddyfnder, un math ar bob ochr ac un math yn y canol."

Gan fod y fath reolau manwl yn bod yn nghylch gwahaniaethu, mae yn amlwg y rhaid fod sylw arbenig yn cael ei roddi i'r moddion i wahaniaethu y naill blanigyn oddi wrth y llall. Yr oedd hyn yn cael ei wneuthur nid yn unig trwy gyfrwng cefnau a rhychau, ond hefyd trwy gyfrwng polgaeau ysgeifn o gorsenau, fel y dengys yr hyn a ganlyn:—"Ystyrir parthraniad o gorsenau yn bolgae (*fence*) os bydd y cyfwng rhwng pob corsen yn llai na lled llaw, fel nas gall myn gafr ieuanc fyned rhyngddynt. Os bydd toriad (cyfwng) o ddeg amoth yn y polgae, ystyrir hwnw fel porth neu fynedfa. Pe byddai y toriad neu yr agoriad yn fwy na hyny, bydd yn anghyfreithlawn hau neu blanu yn agos i'r agoriad. Pe dygwyddai fod amryw agoriadau yn y polgae, os bydd y rhan a fyddo yn sefyll yn fwy na'r toriadau, bydd yn oddefadwy; ond os bydd y rhan a fyddo wedi syrthio yn fwy na'r hyn a fyddo yn sefyll, bydd yn anoddefadwy." Esamplau yn unig yw y rhai hyn o'r dull gorfanwl ac afreidiol y ceisiai yr Iuddewon diweddar gario trefniadau defnyddiol deddf Moses i'w heithafion. Mewn cyferbyniad i hyn, nodir megys prif ddiffygion amaethyddiaeth yr Hindŵaid—"eu dull barbaraidd o hau dau neu dri math o rawn yn yr un maes......Mae y dull o fedi yr un mor ddiffygiol: os hauir dau neu dri math o rawn yn yr un maes, mae yr amaethwr Indiaidd yn sathru rhan fawr o'i gnwd er mwyn casglu pob math ar wahân; yn wir, y mae efe mor hoff o'r dull yma, fel y bydd yn ei arfer hyd yn oed pan na byddo y cnwd ond un math, fel y gallo efe ddethol yr hyn a ystyria addfetaf."—*Tennant's Ind. Recr.* yn yr *Edin. Review*, iv. 320.

Nid oes dim sail i dybied fod gerddi yr hen Iuddewon yn gwahaniaethu yn hanfodol oddi wrth y rhai sydd i'w canfod yn awr yn Palestina. Y mae yn ddiau fod hyny o wahaniaeth oedd, yn cael ei achosi yn benaf gan y rheolau manwl a seiliwyd ar y gyfraith oedd yn gwahardd cymmysgu gwahanol blanigion a hadau. Mae gerddi Gwlad Canaan yn cael eu crybwyll gan deithwyr mewn ymadroddion rhy anmhenodol a chyffredinol i fod yn sail dysgrifiad pendant o honynt. Ymddengys mai y Dr. Olin a fu y mwyaf gofalus i sylwi arnynt. Am y gerddi oedd yn agos i Sichem, efe a ddywed—

Wedi troi am gornel oedd mewn nant ddofn, canfyddem ein hunain, megys wedi ein swyno, yn nghanol gerddi ffrwythlawn, llawn o lysiau, blodau, a choed ffrwythau; a'r cwbl yn y perffeithrwydd mwyaf o ffrwyth a phrydferthwch. Y mae yr olewydd, y gwinwydd, drain yr Aipht (*acacias*), y pomgranadwydd, y ffigyswydd, y merwydd, ac amryw fathau ereill o goed nad oeddwn i yn eu hadnabod, wedi eu pentyru yn nghyd mewn amgae bychan, yn ffurfio cysgod diogel, cystal a dyryslwyn mor dew, nas gellid myned drwyddo; ac er hyny yr oedd yn ymddangos nad oedd nerth y tir yn cael ei orlwytho. Yr oedd pob pren megys yn ymwthio am ddyfod i'r golwg; ac ymddengys eu bod oll yn cael budd, yn hytrach na niwed, oddi wrth dewder y to o gangenau a dail oedd yn cwbl gau allan belydr yr haul oddi wrth y twr tew o fonau a gwraidd oedd oddi tanodd. Yr oedd ffrwd brydferth o ddwfr o'r mynydd yn rhedeg trwy ganol y goedwig yma o erddi, ar hyd gwely celfyddydol, oedd weithiau wedi ei orchuddio; ond yr oedd y dwfr yn cyfodi yn fynych i ffynnonau pistyll (*fountains*) bychain, as yn ffurfio amryw fân raiadrau prydferth."—*Olin's Trav. in the East*, ii. 116.

Fe allai mai y prenau orains a llebron (*citron*), sydd yn lluosog yn y gerddi hyn ger llaw Sichem, oedd y rhai nad adnabyddid gan y Dr. Olin, am nad oeddynt wedi ffrwytho pan yr ymwelodd efe â'r lle.

Dywedir fod darluniau caerol yr hen Aiphtiaid yn rhoddi llawer o eglurhad ar eu gerddi ac ar eu dull o arddu. Ond y mae y gwahaniaeth sydd rhwng awyrgylch, tir, a chynnyrch yr Aipht a Phalestina, yn peri nas ceir eglurhad penodol ynddynt hwy ar erddi yr Hebreaid. Ond gan fod yn sicr rhyw debygolrwydd yn ngarddwriaeth y ddwy wlad, rhoddwn y sylwadau can-

Digitized by Google

lynol i mewn o waith Wathen, *Arts, &c., of Ancient Egypt*, td. 108:—"Y mae hen gynlluniau y gerddi yn dangos fod yr Aiphtiaid mor hoff o ddarluniau gwyddonol, rhodfeydd union, addurniadau adeiladol, a chynteddoedd, ag ydoedd ein hynafiaid ninnau; ac yr oeddynt mor hoff o neillduedd a diogelwch a roddid gan amgauadau mewn amgauadau. Sylwyd fod mewn rhai hen leoedd yn Mhrydain yn agos i gymmaint o barthranau muriedig o amgylch y preswylfeydd a'r hen gestyll, ag sydd o'u mewn; a gellir dyweyd yr un peth am hen dai yr Aiphtiaid yn y wlad. Dangosir yr egwyddor yma o hoffder arbenig at neillduedd a chynlluniau unffurfiol yn nghynllun hen ardd ysgwâr a roddir yn ngwaith y proffeswr Rosellini."

Rhaid fod yr hen ardd freninol hon y lle mwyaf dymunol i ymneillduo iddi rhag poethder annioddefol diwrnod o haf yn yr Aipht. Yr oedd wedi ei chau oll oddi amgylch gan fur, cyfaddas i filwyr sefyll arno. Y mae camlas yn rhedeg ar hyd un ochr o'r tu allan i'r mur. Y mae gwinllan hirgron wedi ei chau allan â mur yn ei chanol, lle y mae y gwinwydd wedi eu planu yn rhesi neu rodfeydd, a'u tynu at i fyny ar ddelltwaith, nes y maent yn ffurfio rhodfeydd bwaog cysgodol o'r fath hyfrytaf. Y mae y pellder o bob ochr i ganolbarth y winllan yma yn gwbl gyfartal. Y mae rhes o balmwydd, dyfrgronfa hirgron i adar dwfr, pedwar gwely blodau, a thŷ haf agored ar ymyl y llyn, yn mhob un o'r ddau bellder sydd rhwng y winllan yma a'r mur allanol; ac y mae ynddynt hefyd barthran furiedig hirgron o goed, a llyn arall i adar dwfr a blodau; ac oddi mewn ar hyd yr holl fur y mae rhes gordeddog o dri math o goed wedi eu trefnu bob yn ail yn rheolaidd. Y mae adeilad o un ystafell eang yn y pen agosaf i'r porth o'r ardd, wedi ei bwriadu fe allai i fod er cysur y brenin; ac ar y pen arall y mae tŷ o dri uchder llofft, o'r hwn y gwelir y cyfan. Y mae yr ardd hon, a'i rhodfeydd cysgodol, ei llwyni a'i chronfäau dyfroedd, a'i dirgel-leoedd, yn ein hadgofio yn naturiol am "ardd deg" Ioacim yn Babilon, gyda'i hymdrochleoedd, ei chysgodau tewfrig, a'i "phorth dirgel," y sonir am dani yn *Ystori Susanna*, yn yr Apocrypha.

Ymddengys eu bod yn addurno gerddi yn achlysurol â phigdyrau a charneddi, â llumbrenau, ac â llumanau. Yr oedd cyflenwad helaeth o ddwfr yn anhebgorol angenrheidiol yn hinsawdd crasboeth yr Aipht er meithrin llysiau; am hyny yr oedd cronfäau a chamlesydd yn un o brif nodwedd y pentrefydd yno. Y mae y rhai hyn, yn nghyd â'u coed palmwydd yn gwyro gan ffrwythau, yn dwyn cymhariaeth farddonol Ieremiah yn fywiog i'r meddwl, lle y cyffelyba "y gŵr a ymddiriedo yn yr Arglwydd" i "bren wedi ei blanu wrth y dyfroedd, ac a estyn ei wraidd wrth yr afon, ac ni ŵyr oddi wrth ddyfod gwres; ei ddeilen fydd îr, ac ar flwyddyn sychder ni ofala, ac ni phaid â ffrwytho;" tra y mae "y gŵr a hydero mewn dyn fel y grug yn y diffaethwch, ac ni wêl pan ddel daioni; eithr efe a gyfannedda boethfanau yr anialwch, mewn tir hallt ac anghyfanneddol;" *Ier*. xvii. 5–8.

**GAREB**, [גרב=*Gareb, y llwg, y clefri poeth*; Γαρεβ]: un o gedyrn Dafydd: 2 *Sam*. xxiii. 38. Darlunir ef yma fel Gareb yr Ithriad. Eglurir hwn yn gyffredin megys tadenw=mab Iether. Ond gellir sylwi fod Ira hefyd, yr hwn a elwir yn yr ymadrodd hwn yn Ithriad, yn cael ei alw yn 2 *Sam*. xx. 26, yn Iairiad; ac y mae darlleniad y Deg a Thrigain o'r ymadrodd blaenaf yn amrywio yn *Iethraios*, *Ethiraios*, ac *Ethenaios*. Y mae yr amrywiadau hyn i raddau yn cadarnhau yr ystyr a roddir yn y cyfieithiad Syriaeg, lle y ceir *Haiathri*, sef preswylydd Iathir, yn mharth mynyddig Iudah.

**GAREB, BRYN**: yn ardal Ierusalem, a enwir yn unig yn *Ier*. xxxi. 39.—Gwel Ierusalem.

**GARLANTAU**, [*στεμμα=coron*]. Yn *Actau* xiv. 13, yn unig y ddefnyddir y gair hwn yn y Beibl. Ymddengys mai talfyriad ydyw "teirw a garlantau," o "deirw wedi eu haddurno (eu gwisgo) â garlantau," neu goronau; o blegid y mae yn hysbys fod yr aberthau paganaidd yn cael eu haddurno felly yn gyffredin. Y mae Wetstein yn dyfynu amryw ymadroddion o awduron Groeg a Rhufain i brofi hyn. Wrth ysgrifenu ar yr aberthau Groegaidd, dywed yr archesgob Potter, "yr oeddynt yn gosod coronau a garlantau ar yddfau yr aberthau." "Yr oedd ychain a theirw," medd Newcome, "yn cael eu haberthu i Jupiter; ac yr oeddynt yn arfer rhoddi garlantau (coronau) o amgylch penau yr aberthau. Yr oeddynt hefyd yn eu rhoddi ar ben delw y duw a addolid, ac ar benau yr offeiriaid a offryment yr aberthau." "Addurnid yr anifeiliaid a ddygid i'w haberthu, fynychaf," medd Barnes, "âg ysnodenau, ac â thyswau."

**GARLLEG**, [שום=*shum*, שומים=*shumim*, *arogli*, *τα σκορδα*]. Yr unig le y crybwyllir am y planigyn Aiphtaidd hwn yw *Num*. xi. 5; o blegid cael eu hamddifadu o'r hwn, yn mysg pethau ereill, y grwgnachai "y lluaws cymmysg" yn Taberah. Dywedir nad oes dim dadl am gywirdeb cyfieithiad yr enw yma, gan fod y gair Arabaeg, *thom*, yn arwyddo math o arlleg hyd y dydd hwn; yr hwn a feithrinir ac a werthfawrogir yn yr holl wledydd dwyreiniol. Y mae rhai o'r hen awdwyr



Dar. 317.—Garlleg.

yn mynegu fod y garlleg yn cael ei faethu yn yr Aipht mewn modd arbenig. Y mae Herodotus yn ei nodi fel un o'r sylweddau y treulid swm mawr (1600 o dalentau) i'w feithrin at wasanaeth y llafurwyr oedd yn adeiladu y pyramidiau: ac y mae Pliny yn crybwyll am dano fel un o'r prif lysiau a feithrinid yn yr Aipht. Yr un yw ag *allium sativium*, Linnæus, yr hwn hefyd a

Digitized by Google

elwid *allium Ascalonicum*, yr hwn sydd yn llysieuyn tra chyffredin yn y gwledydd dwyreiniol, ac a gafodd yr enw olaf o blegid iddo gael ei ddwyn i Ewrop o Ascalon.

Llysieuyn blynyddol caled ydyw, ac y mae ei wraidd yn tyfu yn glapiau hirgrynion at faint cnau, yn dyn yn eu gilydd; ac y mae clapiau cyffelyb yn tyfu ar ben callod rhai o'r rhywogaeth. Y clapiau hyn o'r gwraidd a'r ffrwyth ar ben y callod, a elwir genym ni "ewin garlleg," ydyw y rhanau o'r llysieuyn a ddefnyddir gan mwyaf fel ymborth a meddyginiaeth. Canfyddwyd ei fod yn tyfu yn wyllt yn Sicily, ac mewn amryw barthau ereill o ddeheubarth Ewrop. Y tir goreu i'w feithrin yw tir sych, cynhes. Dylai y tir gael ei deilo yn dda i'r cnwd a roddir ynddo o flaen y garlleg, ond nid pan fyddo y garlleg yn cael eu planu ynddo; canys pan wneir hyny, bydd yr ewinedd yn dra thueddol i bydru ac i gael eu hysu gan bryfed.

Gellir planu y llysieuyn yn welyau neu yn rhesi. Os yn welyau, dylai y pellder rhwng y planigion fod yn saith neu wyth modfedd; ond os yn rhesi, yr hyn a ystyrir y dull goreu, gall y rhesi fod tua throedfedd oddi wrth eu gilydd, a'r planigion fod o fewn rhyw chwe modfedd i'w gilydd yn y rhes. Pan y plenir y planigyn mewn gardd, lle y byddo y tir yn sych ac ysgafn, y tymhor goreu at hyny ydyw tua diwedd y gauaf; ond os bydd y tir yn wlyb, gwell oedi hyd Chwefror neu Mawrth.

Bydd yn hawdd gwybod pa bryd y bydd y ffrwyth wrth weled y dail yn troi yn felynion, yr hyn a ddygwydd tua diwedd Gorphenaf neu ddechreu Awst. Y pryd hyny, dylid codi y gwraidd a'r ffrwyth a fyddo ar dop y callod (os bydd y cyfryw), a'u taenu yn yr haul i sychu; ac wedi iddynt galedu digon, gellir eu rhwymo yn fân fwrneli i'w cadw dros y gauaf, dan do, i'w defnyddio, fel y gwneir gyda winwyn.

GARMON SANT (*St. Germanius*), mab Rhedyw (*Ridigius*), tywysog Llydawaidd, ac ewythyr Emyr Llydaw. Cyfrifir Garmon yn un o'r saint enwocaf y rhoddir hanes am danynt yn hen hanesion y Cymry. Tua'r flwyddyn B. A. 420, teimlai gwŷr llên "uniongred" Cymru, fel y galwent eu hunain, eu bod yn analluog i roi attalfa effeithiol ar gynnydd Morganiaeth (*Pelagianism*) yn y wlad hon; am hyny gyrasant i Gâl (Ffrainc) am gymmorth. Mewn canlyniad i'r cais yma, galwyd cymmanfa yn nghyd yn Gâl, yn yr hon y penderfynwyd yn unfryd anfon Garmon, esgob Auxerre, a Bleiddian (*Lupus*), esgob Troyes, drosodd i Brydain, lle y tybir iddynt aros am ddwy flynedd neu dair. Amser y dygwyddiad yma, yn ol Prosper, ysgrifenydd o'r oes hono, yw B. A. 429. Dywed Constantius o Lyons, yr hwn a ysgrifenodd hanes bywyd Garmon, ei fod wedi ymweled â Phrydain yr ail waith, pan y dilynwyd ef yma gan Lefer (Leverus), esgob Triers. Bernir gan yr esgob Usher i'r ail genadaeth yma ddygwydd yn B. A. 447. Nid ydyw yr hanesion Cymreig yn crybwyll ond am un ymweliad yn unig. Dywed Williams fod yr hanesion Cymreig yn mynegu mai yn amser Cystenyn o Lydaw, neu Cystenyn Gorneu, a etholwyd yn benadur Prydain (B. A. 433), y daeth Garmon yma, lle yr arosodd hyd amser Gwrthefyr (B. A. 468), pan y dychwelodd i Gâl, ac y bu farw yno. Yr hyn a ddywed *Bonedd y Saint* [*Myv. Arch.*, ii. 25, 43] yw,—"Garmon m. ridicus, ac yn oes gurtheyrn gwrtheneu ydoeth ir ynys honn, ac o freinc yr hanoed;" hyny yw, Garmon mab Ridicus, ac yn oes Gwrtheyrn Gwrtheneu (B. A. 454) y daeth i'r ynys hon; ac o Ffrainc yr hanoedd. Etto: "Garmon ap Ridicus ac en oes Gortheyrn gortheneu y doeth er enys"=Garmon ap Rhidicus, ac yn oes Gwrtheyrn Gwrtheneu y daeth i'r ynys. Drachefn: "Garmon ap Redgitus o Ffrainc i'r henyw ac yn amser Gwrtheyrn Gwrthenau i doeth i'r ynys hon." Dywedir iddo sefydlu dwy Fangor (coleg) i saint yn ystod ei arosiad yma, ac iddo urddo esgobion, a gosod duwinyddion ynddynt, fel y gallent ddysgu y ffydd Gristionogol i genedl y Cymry: un yn Llangarfan, lle yr oedd Dyfrig Sant yn llywydd; a'r llall oedd yn agos i Gaerworgorn, a alwyd wedi hyny Llanilltud, lle yr appwyntiwyd Illtud Sant i lywyddu, a Bleiddian yn benesgob yno. Wedi hyny, gosododd esgobion (esgob?) yn Llandaf; a gwnaeth Dyfrig Sant yn archesgob. Dywedir mai yn ystod ei arosiad cyntaf yn yr ynys hon y dygwyddodd buddugoliaeth yr Haleliwia. Y mae amryw o eglwysydd yn Nghymru yn dwyn enw Garmon; sef Llanarmon Dyffryn Ceiriog, Llanarmon Mynydd Mawr, a Chapel Garmon, yn sir Ddinbych; Llanarmon a Bettws Garmon, yn sir Gaernarfon; Llanarmon neu *St. Harmon's* yn sir Faesyfed. Dywedir hefyd mai efe a adeiladodd Llanfechain, yn sir Drefaldwyn; ac y mae Garmon Sant (*St. Germain's*)—hen eglwys gadeiriol Brutaniaid Cernyw—wedi ei chyflwyno iddo ef; ac felly y mae eglwys gadeiriol Garmon Sant (*St. German*) yn Ynys Manaw.

Cynnalid gŵyl Garmon Sant, yn ol rhai, Gorphenaf 1, ac yn ol ereill, Awst 1. Os myn neb weled ychwaneg o sylwadau ar yr hen sant hwn, darllened *Usher de Primordius; Gurm's Nennius; Hughes's Horæ Britanicæ;* ac yn benaf oll, *Rees's Welsh Saints.*

GASARIAID, [*Gazares*]: plaid grefyddol a gyfododd tua'r flwyddyn 1197, yn Gazare—dinas yn Dalmatia. Yr oeddynt bron o'r un daliadau a'r Albigensiaid; ond eu prif gred ydoedd, nad oes 'gan unrhyw awdurdod ddynol hawl i gondemnio dyn i farwolaeth o blegid unrhyw drosedd.

GASMU, [גשמו=*Gushmu, gwlaw, curwlaw*]. Mae yr holl eiriaduron yn ystyried mai yr un ydyw Gasmu, yn *Neh.* vi. 6, a Gesum yn yr *adn.* 1, a'r 2. Y mae y geiriau "Gasmu sydd yn dywedyd," yn cael eu gadael allan mewn dwy lawysgrif o'r Deg a Thrigain.

GATAM, ![געתם=*Gatam, eu huganad*; Γοθώμ =*Gothôm*, Γοωθαμ=*Goôtham*]: pedwerydd mab Eliphaz mab Esau (*Gen.* xxxvi. 11; 1 *Cron.* i. 36), ac un o dduciaid Eliphaz (*Gen.* xxxvi. 16). Gan Knobel cymherir yr enw â *Jodam*, llwyth yn preswylio rhan o fynyddau Serah a elwir Hismah. Ond pe felly, gadawsid yr *ain* allan o'r enw gwreiddiol, yr hyn sydd yn dygwydd yn dra anfynych.

GATH, [*gwinwasg*]; un o bum ninas breninol y Philistiaid (*Ios.* xiii. 3; 1 *Sam.* vi. 17), a lle genedigol neu breswylfod y cawr Goliath; 1 *Sam.* xvii. 4, 23. Ni wyddys yn sicr yn mha le y gorweddai. Tybia amryw o deithwyr ei bod yn sefyll ar fryn a elwir yn awr *Tell-es-Sâfieh.* Y mae y bryn hwn yn gorwedd ar ochr gwastadedd Philistia, wrth droed mynyddoedd Iudah; deng

Digitized by Google

milltir i'r dwyrain i Ashdod, ac o ddeutu yr un pellder i'r de-ddwyrain o Ecron. Ei uchder ydyw 200 troedfedd. Y mae sylfeini hen gastell ar ei ben; ac y mae llawer iawn o geryg nadd wedi eu hadeiladu yn muriau y rhodfeydd uchel sydd yn rhedeg ar hyd y llechweddau. Y mae y pentref presennol yn ymestyn ar hyd holl wyneb gogleddol y bryn. Yr oedd Gath yn meddiannu sefyllfa gref (2 *Cron.* xi. 8), ar derfyn Iudah a Philistia (1 *Sam.* xxi. 10; 1 *Cron.* xviii. 1); ac o herwydd ei nerth a'i hadnoddau, cymmerai brwydrau mynych le ynddi; 2 *Cron.* xi. 8; xxvi. 6; 2 *Bren.* xii. 17; *Amos* vi. 2. Yr oedd yn ymyl Sochoh ac Adulam (2 *Cron.* xi. 7), ac ymddengys ei bod yn sefyll ar y ffordd sydd yn arwain o'r flaenaf i Ecron; canys pan ffodd y Philistiaid ar farwolaeth Goliath, hwy a aethant ar "hyd ffordd Saaraim, sef hyd Gath, a hyd Ecron;" 1 *Sam.* xvii. 1—52. Cesglir oddi wrth yr holl ffeithiau hyn mai ar y bryn a enwyd y safai Gath. Y mae adroddiadau y rhan fwyaf o'r hen ddaiaryddwyr o barth i sefyllfa Gath nid yn unig yn dywyll, ond yn anghyson; o herwydd y ffaith, hwyrach, fod mwy nag un lle o'r enw. Ond rhoddir un dysgrifiad eglur iawn gan Eusebius, yr hwn a gyfieithwyd heb gyfnewidiad nac esboniad gan Jerome. Fel y canlyn y mae: "Gath, o'r hon ni ddinystriwyd yr Anaciaid a'r Philistiaid, sydd bentref a welir gan y sawl a elont o Eleutheropolis i Diospolis, wrth tua y bummed gareg filltir. Y mae yn rhaid fod y ffordd o Eleutheropolis, yn awr Beit Jebrin, i Diospolis neu Lydda, yn pasio Tell-es-Safieh, yr hon a welid yn eglur o'r pellder a enwyd. Crybwylla Eusebius am Gath arall—pentref mawr rhwng Antipatris a Jamnia—i'r hwn, yn ol ei farn ef, y cariwyd yr arch (1 *Sam.* v. 8); ond nid ydyw y sefyllfa hon ar ochr orllewinol gwastadedd Philistia yn cytuno â'r dysgrifiadau y cyfeiriwyd atynt uchod.

Ymddengys fod y rhyfeloedd mynych yr oedd Gath yn agored iddynt wedi ei dinystrio mewn cyfnod lled foreuol, gan na wneir un crybwylliad am dani yn mhlith y dinasoedd breninol ereill gan y prophwydi diweddaf: *Zeph.* ii. 4; *Zech.* ix. 5, 6. Ynddi hi y cymmerodd un o'r dygwyddiadau hynotaf yn mywyd y brenin Dafydd le (1 *Sam.* xxi. 10—15), pan, i achub ei fywyd, y "cymmerth arno ynfydu rhwng eu dwylaw hwynt, ac a gripiodd ddrysau y porth, ac a ollyngodd ei boeryn i lawr ar ei farf." Yn mhen ychydig flyneddau ar ol hyny, dychwelodd i'r ddinas, cafodd dderbyniad croesawgar gan frenin y Philistiaid, a rhoddwyd Siclag iddo fel preswylfod. Arosodd Dafydd yn ngwlad y Philistiaid am flwyddyn a phedwar mis. Y mae cysylltiad Dafydd â Gath yn rhoddi goleuni ar wreiddyn y geiriau hyn:—"Nac adroddwch hyn (marwolaeth Saul a Jonathan ei fab) yn Gath;" 2 *Sam.* i. 20. Dywed Micah (*pen.* i. 10) hefyd, "Na fynegwch hyn (yr archoll a gafodd Iudah, *adn.* 9) yn Gath;" rhag rhoddi testyn ymffrost i'r gelynion. Gorchfygwyd hi gan Dafydd, ac adeiladwyd amddiffynfeydd ynddi ganddo ef a chan Rehoboam: 2 *Sam.* viii. 1; 1 *Cron.* xviii. 1; 2 *Cron.* xi. 8. Ymddengys, oddi wrth 2 *Sam.* xv. 18, fod gan Dafydd fintai o 600 o Gathiaid (trigolion Gath) yn ei wasanaeth yn amser gwrthryfel Absalom. Nid oes genym ond ychydig o anghreifftiau hynotach o ymlyniad ffyddlon wrth gyfaill nag Ittai y Gethiad; 2 *Sam.* xv. 19—22. Cawn hanes ymweliad Simei â Gath, a'r canlyniad angeuol o hono, yn 1 *Bren.* ii. 39—46. Crybwyllir yn hanes teyrnasiad Solomon am frenin Gath, (1 *Bren.* iv. 24); yr hwn, yn ddiammheu, oedd frenin o dan deyrnged ac yn ddigon galluog i beri i Solomon ofni, fel yr ymddengys oddi wrth y gospedigaeth a weinyddwyd ganddo ar Simei. Yn nheyrnasiad Ioas meddiannodd Hazael, brenin Syria, Gath: 2 *Sam.* xii. 17. Cymmerwyd y lle oddi ar ei olynwr, Benhadad: 2 *Bren.* xiii. 24. Modd bynag, rhaid ei bod wedi gwrthryfela yn fuan; canys fe ddywedir fod Uzziah pan yr oedd yn rhyfela yn erbyn y Philistiaid, wedi "tori i lawr fur Gath." Gellir casglu oddi wrth yr ymdrech parhaus hwn i wrthsefyll gallu Ierusalem fod Gath yn lle o adnoddau a gallu mawr; yr hyn a gadarnheir gan yr iaith a ddefnyddir gan y prophwydi: *Amos* vi. 2; *Micah* i. 10.

GATH-HEPHER, neu GITTAH-HEPHER; [*gwinwasg y ffynnon*]: tref ar derfyn tiriogaeth Zabulon, heb fod yn mhell o Iaphia, yn awr *Yâfa*, *Ios.* xix. 12, 13. Yr unig bwysigrwydd hanesiol a berthyn iddi ydyw ei bod yn lle genedigol y prophwyd Ionah: 2 *Bren.* xiv. 25. Oddeutu dwy filltir i'r dwyrain i Sefûrieh (Sepphoris) ar ben bryn creigiog y mae pentref bychan El-Meshhad, yn mha un, meddir, y mae bedd Ionah. Y mae yn perthyn i'r Mahometiaid, ac y maent hwy a Christionogion Nazareth yn cytuno mai hwn oedd pentref genedigol y prophwyd. Nid oes un ammheuaeth nad El-Meshhad ydyw Gath-hepher y Beibl.

1. GATH-RIMMON: dinas a roddwyd allan o lwyth Dan i'r Lefiaid (*Ios.* xxi. 24; 1 *Cron.* vi. 69); yn sefyll ar wastadedd Philistia, heb fod yn mhell oddi wrth Ioppa; *Ios.* xix. 45. Crybwylla Eusebius am Gath yn gorwedd rhwng Antipatris ac Iamnia—yr hyn a atebai i sefyllfa Gath-rimmon. Ond ni wyddys yn fanwl yn mha le y safai.

2. GATH-RIMMON: tref yn gorwedd yn rhandir hanner llwyth Manasseh, i'r gorllewin i'r Iorddonen, yr hon a roddwyd i'r Lefiaid: *Ios.* xxi. 25. Ni chrybwyllir am dani ond unwaith. Darlleniad y Deg a Thrigain ydyw *Baithsan*. Yn 1 *Cron.* vi. 70, gelwir y dref hon yn Bileam.

GAUAF. Gwel TYMHORAU.

GAU GRISTIAU: personau a honent yn dwyllodrus mai hwy oedd y Messiah addunedig. Fe ragfynegodd Crist y cyfodai gau gristiau; *Mat.* xxiv. 24; a dengys hanesiaeth fod ei brophwydoliaeth wedi cael ei chyflawni yn llythyrenol. Nid ymddangosodd dim llai na phedwar ar ugain o gau gristiau o nodwedd lled hynod; a chostiodd amddiffyniad eu Messiaeth i'r Iuddewon afonydd o waed, a symiau aruthrol o arian. Y cyntaf o un enwogrwydd oedd Caziba, yr hwn oedd yn byw'yn gynnar yn yr ail ganrif. Gan ei fod yn anfoddlawn i sefyllfa pethau o dan Adrian, Ymherawdwr Rhufain, gosododd ei hun yn ben ar y genedl Iuddewig, a chyhoeddodd i'r byd mai efe oedd eu Messiah addawedig. Yr oedd efe yn un o'r yspeilwyr oedd yn poeni Iudea, ac yn arfer pob moddion o fewn ei gyrhaedd i niweidio y Rhufeiniaid; ac yr oedd wedi dyfod mor alluog fel y dewiswyd ef yn frenin yr Iuddewon, ac y cydnabyddwyd ef ganddynt fel eu Messiah. I rwyddhau y ffordd i lwyddiant yr anturiaeth ryfygus hon, efe a newidiodd ei enw o Cazeba i Barchocheba, gan gyfeirio at y seren a ragfynegwyd gan Balaam. Canys hònai



Digitized by Google

mai efe oedd y seren a anfonwyd o'r nefoedd i adferu ei genedl i'w rhyddid a'i gogoniant cyntefig Dewisodd ragredegydd, cododd fyddin, eneiniwyd ef yn frenin, bathodd arian gyda'i enw ef ei hun arnynt, a chyhoeddodd ei hun yn Fessiah ac yn Frenin yr Iuddewon. Anfonodd Adrian fyddin yn ei erbyn ef. Yntau a enciliodd i dref o'r enw Bither, lle y gwarchauwyd ef. Lladdwyd Barchocheba yn y gwarchau, cymmerwyd y ddinas, a chyflawnwyd ynddi gyflafan ddychrynllyd. Addefa yr Iuddewon eu hunain eu bod wedi colli rhwng pump a chwe chan mil o wyr yn y rhyfel byr yma yn erbyn y Rhufeiniaid, i amddiffyn y gau grist hwn.

Yn nheyrnasiad Theodosius yr ieuangaf, yn y flwyddyn 434, cododd gau grist arall, o'r enw Moses Cretensis. Cymmerai arno ei fod yn ail Foses, wedi ei anfon i waredu yr Iuddewon oedd yn preswylio yn Creta, ac addawodd barthu y môr, a rhoddi mynedfa ddiogel trwyddo. Llyncodd yr Iuddewon ei dwyll ef i'r fath raddau fel y gadawsant eu tai, eu tiroedd, a'u masnach, i'w ddilyn ef, ac ni chymmerasant ddim o'u heiddo gyda hwynt ond cymmaint ag a allent yn gyfleus ei gario. Ac ar y dydd appwyntiedig, wedi i'r gau grist hwn eu harwain hwynt i ben craig, fe ymdaflodd gwyr, gwragedd, a phlant i lawr bendramwnwgl i'r môr, heb y petrusder lleiaf hyd nes y boddwyd nifer mor fawr o honynt fel yr agorwyd llygaid y gweddill i weled y twyll. Yna dechreuasant chwilio am eu harweinydd twyllodrus, ond llwyddodd i ddianc o'u dwylaw.

Yn nheyrnasiad Justin, ymddangosodd twyllwr arall, yr hwn a alwai ei hun yn fab Moses. Ei enw oedd Dunaan. Efe a aeth i ddinas yn Arabia, ac a orthrymodd y Cristionogion yno yn ddirfawr; ond cymmerwyd ef yn garcharor, a rhoddwyd ef i farwolaeth gan Elesban, cadfridog Æthiopaidd.

Yn y flwyddyn 529, gwrthryfeloedd yr Iuddewon a'r Samariaid yn erbyn yr ymherawdwr Justinian, a dewisasant un Julian yn frenin, a chydnabyddasant ef fel eu Messiah. Anfonodd yr ymherawdwr fyddin yn eu herbyn hwynt, lladdodd nifer mawr o honynt, cymmerodd eu ffug Fessiah yn garcharor, a rhoddodd ef i farwolaeth yn ddioed.

Yn y flwyddyn 571, ganwyd Mahomed yn Arabia. Ar ei ymddangosiad cyntaf, hònai mai efe oedd y Messiah yr hwn a addawyd i'r Iuddewon. Trwy y twyll hwn tynodd lawer o'r genedl anneddwydd hono ar ei ol. Gan hyny, gellir edrych arno, mewn rhyw ystyr, yn mhlith y gau gristiau.

Oddeutu y flwyddyn 721, yn amser Leo Isaurus, cododd gau fessiah arall yn Yspaen. Ei enw oedd Serenus. Tynodd nifer mawr o bobl ar ei ol, er colled a siomedigaeth nid bychan iddynt; ond daeth ei holl honiadau yn fuan i'r dim.

Yn y ddeuddegfed ganrif, nid ymddangosodd dim llai nag wyth neu ddeg o dwyllwyr o dan yr un enw, a chanlynwyd hwynt gan nifer mawr o'r Iuddewon. Torwyd penau y rhan fwyaf o honynt am eu twyll, a dygasant luoedd o'u canlynwyr somedig i ddinystr. Er enghraifft, yn y flwyddyn 1137, fe ymddangosodd un yn Ffrainc, yr hwn, yn nghyd â llawer o'i ganlynwyr, a roddwyd i farwolaeth.

Yn y flwyddyn 1138, aflonyddwyd y Persiaid gan Iuddew, yr hwn a alwai ei hun yn fessiah. Casglodd fyddin fawr yn nghyd; ond rhoddwyd yntau hefyd i farwolaeth, ac arferwyd creulondeb mawr at ei ganlynwyr.

Yn y flwyddyn 1157, cynhyrfwyd yr Iuddewon yn Corduba, yn Yspaen, gan gau fessiah. Edrychai y dosbarth callaf o honynt arno fel gwallgofddyn; ond credodd corff mawr Iuddewon y wlad hono ynddo ef. Ar yr achlysur hwn, cafodd bron holl Iuddewon Yspaen eu lladd.

Yn y flwyddyn 1167, cododd gau fessiah arall yn nheyrnas Fez, yr hwn a ddygodd erledigaeth dost ar yr Iuddewon oedd ar wasgar yn y wlad hono.

Yn yr un flwyddyn gosododd Arabiad ei hun i fyny yno fel messiah, a chymmerai arno wneyd gwyrthiau. Pan chwiliwyd am dano ef, ei ganlynwyr a ffoisant, a dygwyd ef o flaen brenin Arabia. Mewn atebiad i gwestiwn a ofynwyd iddo, efe a atebodd mai prophwyd ydoedd wedi dyfod oddi wrth Dduw. Yna gofynodd y brenin iddo pa arwydd a allai efe ei ddangos i gadarnhau ei genhadaeth. "Torwch fy mhen," meddai, "a mi a ddeuaf yn fyw drachefn." Cymmerodd y brenin ef ar ei air, gan addaw ei gredu os cyflawnid ei ragddywediad. Nid oes eisiau i ni ddyweyd na welodd neb ef yn troedio y ddaiar mwyach. Cospwyd ei ganlynwyr yn llym, a gorfodwyd y genedl Iuddewig i dalu dirwy drom.

Yn fuan ar ol hyn, galwai Iuddew oedd yn preswylio tu hwnt i'r Euphrates ei hun yn fessiah, a thynodd luoedd o bobl ar ei ol. Yr arwydd a roddodd o'i fessiaeth oedd ei fod wedi bod yn glaf o'r gwahanglwyf, ac wedi ei iachau mewn un noson. Dyoddefodd yntau, fel y lleill, farwolaeth am ei anwiredd, a dygodd ei genedl i helbul mawr.

Yn y flwyddyn 1174, cododd swynwr a gau grist yn Persia, yr hwn a elwid Dafydd Almuser. Hònai y gallai wneyd ei hun yn anweledig; ond cymmerwyd ef i fyny yn fuan, a rhoddwyd ef i farwolaeth, tra y gorfodwyd ei frodyr, yr Iuddewon, i dalu dirwy drom.

Yn y flwyddyn 1176, cododd un arall o'r twyllwyr hyn yn Moravia, yr hwn a wnai honiadau cyffelyb; ond darganfyddwyd ei dwyll, a dienyddiwyd ef.

Yn y flwyddyn 1199, hònai gwrthryfelwr enwog yn Persia mai efe oedd y Messiah; a chredodd nifer mawr o'r Iuddewon ef. Cododd fyddin yn erbyn y brenin, ond cymmerwyd a charcharwyd ef; ac wedi llwyddo i ddianc, daliwyd ef drachefn a thorwyd ei ben. Lladdwyd llawer o'r Iuddewon am roddi cefnogaeth i'r twyllwr hwn.

Crybwylla Maimonides fod gau grist arall wedi ymddangos yn y ganrif hon; ond nid ydyw yn dyweyd pa beth oedd ei enw, nac yn mha wlad yr oedd yn byw, nac yn rhoddi dim o'i hanes. Ond yn mhellach, yn y flwyddyn 1497, yr ydym yn cael gau grist arall, enw yr hwn oedd Ismael Sophus, yr hwn a dwyllodd yr Iuddewon yn Yspaen. Lladdwyd yntau hefyd, a chynnifer oll a gredasant ynddo a wasgarwyd.

Yn y flwyddyn 1500, cyhoeddodd Rabbi Lemlem, Iuddew Germanaidd o Awstria, ei fod wedi ei anfon gan Dduw fel rhagredegydd y Messiah. Tynodd ei bobty ei hun i lawr, ac addawodd i'w frodyr y caent grasu eu bara yn Ngwlad Canaan y flwyddyn nesaf.

Yn y flwyddyn 1509, hònai un Pfeffkorn, Iuddew o Cologne, mai efe oedd y Messiah. Modd bynag, cymmerodd arno wedi hyny droi yn Gristion.

Yn y flwyddyn 1534, rhoddodd Rabbi Salomo Malcho allan mai efe oedd y Messiâh, a llosgwyd ef i farwolaeth gan Siarl v. o Yspaen.

Yn y flwyddyn 1615, cododd gau grist yn

India'r Dwyrain, a dilynwyd ef gan nifer mawr o Iuddewon Portugal, y rhai oeddynt yn wasgaredig dros y wlad hono.

Yn y flwyddyn 1624, cymmerai un arall yn Holland arno mai efe oedd y Messiah, a'i fod yn hanu o deulu Dafydd, ac o linach Nathan. Addawodd ddinystrio Rhufain, dymchwelyd teyrnas Anghrist, a'r ymherodraeth Dyrcaidd.

Yn y flwyddyn 1666, ymddangosodd y gau fessiah Sabatai Sevi, yr hwn a wnaeth gymmaint o gyffro, ac a ennillodd y fath nifer o broselytiaid. Ganwyd ef yn Aleppo, a thwyllodd yr Iuddewon am gryn amser; ond wedi hyny, er mwyn achub ei fywyd, trodd yn Fahometaniad, ac o'r diwedd dienyddiwyd ef. Gan fod hanes y twyllwr hwn yn fwy dyddorol na hanes y rhai a grybwyllasom eisoes ni a'i rhoddwn yma yn helaethach.

Dysgwylid gan lawer y cyflawnid rhywbeth mawr, neu yr ymddangosai rhyw berson hynod ar y ddaiar, yn 1666. Yr oedd hwn yn amser cyfaddas i dwyllwr ennill canlynwyr; ac am hyny taenid pob math o adroddiadau celwyddog. Dywedid fod lluoedd mawrion o wahanol barthau anhysbys wedi myned i gyrau pellaf anialwch Arabia, a rhoddid ar ddeall mai deg llwyth Israel oeddynt, y rhai oeddynt wedi bod yn wasgaredig am lawer o oesoedd. Hysbysid fod llong wedi cyrhaedd i ogledd-barth Ysgotland gyda hwyliau a rhaffau o sidan, nad oedd y llongwyr yn siarad dim ond Hebraeg, a bod yr arwyddair hwn ar yr hwyliau, "Deuddeg llwyth Israel." Ni cheid yr amser hwnw un drafferth i gael gan ddynion gredu rhyw adroddiadau twyllodrus o'r natur yma. Y pryd hwnw yr ymddangosodd Sabatai Sevi yn Smyrna, ac yr honodd mai efe oedd y Messiah. Denodd yr Iuddewon drwy ddyweyd wrthynt y byddai iddo eu gwaredu oddi wrth eu holl elynion, a'u ffurfio yn deyrnas gref a llwyddiannus; a chredasant ef i'r fath raddau fel nad oeddynt yn cymmeryd hamdden i ddim ond i ymddyddan am eu dychweliad.

Mab Mordecai Sevi oedd Sabatai Sevi—Iuddew o sefyllfa isel yn Smyrna. Yr oedd Sabatai yn hoff iawn o lyfrau, a chyrhaeddodd gryn wybodaeth mewn llenyddiaeth Hebreig. Yr oedd yn awdwr athrawiaeth newydd; am gyhoeddi yr hon y bwriwyd ef allan o'r ddinas. Efe a aeth oddi yno i Salonichi, yr hon a elwid gynt Thessalonica, lle y priododd ferch hardd iawn, ond ysgarwyd ef oddi wrthi. Yna efe a deithiodd i'r Morea; yna i Tripoli, Gaza, a Ierusalem. Yn Ierusalem efe a ddechreuodd ddiwygio y defodau Iuddewig a diddymu un o'u gwyliau, ac amlygodd ei fwriad i un o'r enw Nathan i gyhoeddi ei hun yn fessiah. Rhoddodd gefnogaeth iddo, gosododd ei hun yn rhagredegydd iddo, a chymmerai arno ddiddymu yr holl wyliau Iuddewig fel pethau anmhriodol wedi i'r priodfab ddyfod. Yn Gaza, pregethodd Sabatai edifeirwch, a ffydd ynddo ef ei hun, mor effeithiol, fel yr aeth lluaws mawr ar ei ol. Dechreuodd y son am y messiah hwn lenwi pob man. Yn awr penderfynodd Sabatai ar fyned i Smyrna, ac oddi yno i Gaercystenyn. Ysgrifenodd Nathan lythyr ato ef o Damascus, gan ei ddechreu fel hyn: "At y brenin, ein brenin, Arglwydd yr Arglwyddi, yr hwn sydd yn casglu gwasgaredigion Israel, yr hwn sydd yn ein gwaredu o gaethiwed. Y dyn a ddyrchafwyd i'r arucheledd mwyaf, Messiah Duw Iacob, y gwir Fessiah, y Llew nefol, Sabatai Sevi." Yn awr dysgwyliai yr Iuddewon trwy holl ymherodraeth Twrci am amser gogoneddus; ac ymdrechent i fod yn dduwiol iawn, rhag i'w pechodau attal y daioni y gobeithient am dano. Ympryd iai rhai mor hir fel y newynent i farwolaeth; claddai rhai eu hunain yn y ddaiar hyd nes yr elai eu haelodau yn anystwyth; a gorweddai rhai mewn eira; a llawer a fflangellent eu hunain. Rhoddasant eu masnach heibio, ymwrthodasant â phob moethau, a rhoddent elusenau ac arian i'r tlodion. Wedi i Sabatai ddyfod i Smyrna, addolid ef gan y bobl. Yn ei lythyrau, galwai ei hun "Uniganedig Fab Duw, y Messiah, Gwaredwr Israel." Er iddo gyfarfod â pheth gwrthwynebiad, efe a lwyddodd yno o'r diwedd i'r fath raddau nes y daeth y rhan fwyaf o'r trigolion yn ddysgyblion iddo; a pharodd ei lwyddiant iddo ymchwyddo yn ddirfawr. Efe a ddewisodd dywysogion i lywodraethu yr Iuddewon ar eu taith tua Gwlad Canaan, ac i weinyddu cyfiawnder wedi iddynt ddyfod i feddiant o honi. Yn awr gwasgai y bobl arno gyflawni rhyw wyrth i gadarnhau eu ffydd. Taflodd hyn y twyllwr i gyfyngder. Ond gwnaeth y bobl hygoelus y diffyg hwn i fyny. Pan oedd Sabatai o flaen y Cadi (yr ustus heddwch) haerai rhai iddynt weled colofn o dân rhyngddo ef a'r Cadi; ac wedi i rai haeru hyny, yr oedd ereill yn barod i'w dyngu; ac yn mhen ychydig, credwyd hyn gan Iuddewon y ddinas hono. Yr oedd yr hwn ni chredai yn awr mai efe oedd y Messiah i'w ystyried fel dyn esgymunedig. Dywedai y twyllwr yn awr ei fod wedi cael gorchymyn gan Dduw i fyned i Gaercystenyn, lle yr oedd ganddo waith mawr i'w wneuthur. Gan hyny, yn Ionawr 1666, llogodd lestr Dyrcaidd, ac ar ol mordaith boenus cyrhaeddodd yno. Wedi clywed am ei ddyfodiad, anfonodd y Visier am dano, a thraddododd ef i garchar ffiaidd, lle y cadwyd ef ddau fis. Gan y bwriadai prif weinidog Twrci fyned i Candia, barnodd nad oedd yn ddiogel ei adael ef yn y ddinas yn ystod absennoldeb yr ymherawdwr ac yntau. Gan hyny, symmudodd ef i'r Dardanelles; lle yn cynnwys gwell awyr, y mae yn wir, ond etto allan o'r ffordd; ac o ganlyniad yn achosi llai o berygl i'r ddinas; yr hyn a barodd i'r Iuddewon ddyfod i'r penderfyniad nas gallai, neu na feiddiai y Tyrciaid gymmeryd ei fywyd ymaith. Cyrchai lluoedd o'r Iuddewon i'r castell lle yr oedd efe yn garcharor; nid yn unig rhai agos, ond o Poland, Germany, Leghorn, Venice, a lleoedd ereill, a derbynient fendith Sabatai, ac addewidion am ddyrchafiad. Yn y carchar hwn gorchymynodd Sabatai gadw dydd gwyl ei enedigaeth ef ei hun. Parodd i'r Iuddewon ei gadw ar y nawfed dydd o fis Ab, gan ei wneuthur yn ddydd o lawenydd mawr, a'i gadw gyda gwleddoedd, dawns, a cherddoriaeth. Cyfarwyddodd hwynt i gydnabod cariad Duw yn rhoddi y diwrnod hwnw o gysur am enedigaeth eu brenin a'u Messiah, Sabatai Sevi, ei was, a'i gyntafanedig.

Talai Iuddewon Caercystenyn barch mawr i Sabatai Sevi. Priodolent yr enwau a'r prophwydoliaethau iddo ef sydd yn perthyn i'n Hiachawdwr. Yn ystod ei garchariad, ymwelid âg ef gan bererinion o bob parth o'r byd: yn mhlith y rhai yr oedd un o'r enw Nehemiah Cohen, o Poland, dyn dysgedig iawn yn yr ieithoedd dwyreiniol, yr hwn a ddymunai gael ymddyddan â Sabatai; ac yn yr ymddyddan honai y dylai fod Messiah deublyg yn ol yr Ysgrythyrau: un yn fab Ephraim, dysgawdwr distadl o'r gyfraith; a'r llall yn fab Dafydd, i fod yn orchfygwr. Ymfoddlonai Nehemiah i fod y blaenaf, ac i adael

Digitized by Google

gogoniant yr olaf i Sebatai. Ymddengys nad oedd Sebatai yn teimlo gwrthwynebiad i hyn. Ond cododd ymrafael oddi wrth hyn. Dysgai Nehemiah y dylai mab Ephraim fod yn rhagredegydd i fab Dafydd: a chyhuddai Nehemiah Sebatai o fod yn rhy hyf, yn gwneyd ei ymddangosiad fel mab Dafydd cyn i fab Ephraim barotoi y ffordd iddo. Nis gallai Sebatai ddyoddef yr athrawiaeth hon; canys yr oedd yn ofni i fab Ephraim, y rhagredegydd, hòni mai efe oedd mab Dafydd, ac felly ei ddwyn ef i helbul; ac am hyny gwrthododd adael iddo gael un rhan yn y mater; yr hyn a fu yn achlysur dinystr i Sebatai a'i holl amcanion. Wedi i Nehemiah gael ei somi, efe a aeth i Adrianople, a chyhuddodd Sebatai o fod yn ddyn atlan a pheryglus i'r llywodraeth, ac y dylid ei symmud o'r ffordd. Pan dderbyniodd yr ymherawdwr hysbysrwydd am hyn, efe a anfonodd am Sebatai, yr hwn a ymddangosodd ger ei fron ef. Gofynodd yr ymherawdwr iddo wneuthur gwyrth; a dewisodd un ei hun, a dyma hi:—fod i ddillad Sebatai gael eu tynu oddi am dano, a'i osod yn nòd i'w saethyddion saethu ato; ac os na threiddiai y saethau i'w gnawd ef, derbyniai ef fel y gwir Fessiah. Nid oedd Sebatai yn meddu digon o ffydd i'w gynnal o dan brofedigaeth mor fawr; a dywedodd yr ymherawdwr y crogid ef, oddi eithr iddo droi yn Fahometiad. Ar hyn cydsyniodd i droi yn Fahometiad, er dyryswch mawr i'r Iuddewon. Ac eto yr oedd rhai o'r Iuddewon mor ynfyd a hòni mai nid Sebatai ei hun, ond ei gysgod, a broffesodd y grefydd hono, ac a welwyd mewn dillad Mahometiad.

Wedi hyn oll, parhaodd amryw o'r Iuddewon i arfer y ffurfiau yn eu haddoliad cyhoeddus a benodwyd gan y Messiah Mahometaidd hwn. Taenent y gair fod y dynion a anfonwyd gan yr ymherawdwr i'w gymmeryd ef wedi syrthio i lawr yn farw y mynyd y daethant i'w wydd ef, a'i fod yn gallu myned i mewn ac allan o'r carchar pan y mynai, er fod drysau haiarn cryfion clöedig arno. Wedi clywed y pethau hyn, anfonodd Iuddewon Italy genhadau i Smyrna i wneuthur ymchwiliad i'w gwirionedd. Pan gyrhaeddasant i Smyrna, clywsant y newydd fod Sebatai wedi troi yn Fahometiad; yr hyn a barodd helbul mawr iddynt.

Y gau grist olaf a ennillodd nifer lled fawr o ddysgyblion oedd un Rabbi Mordechai, Iuddew o Germany. Ymddangosodd ef yn y flwyddyn 1682. Cafwyd allan yn fuan mai twyllwr oedd, a gorfodwyd ef i ffoi o Italy i Poland i achub ei fywyd.

GAZA, [*cadarn*]: Ei henw presennol ydyw *Ghuzzeh*, neu *'Azzah*. Ceir y ffurf *Gazara* yn yr Apocrypha a Josephus; a dywed Brocardus ei fod yn cael ei arfer yn ei ddyddiau ef. Un o bum prif ddinas y Philistiaid oedd *Ios.* xv. 47: y mae yn hynod ar gyfrif parhad ei bodolaeth a'i phwysigrwydd o'r amserau boreuaf. Fel Damascus, crybwyllir am dani yn Llyfr Genesis ac yn Actau yr Apostolion: ac y mae eto yn dref lled fawr—mwy nag Ierusalem.

Hwyrach mai yn sefyllfa Gaza y ceir y prif reswm dros ei pharhad a'i phwysigrwydd. Y dref ddiweddaf ydyw yn ne-orllewin Palestina, ar y terfyn tua'r Aipht. Gorweddai ar y ffordd oedd bob amser yn llinell cymmundeb rhwng dyffryn y Nilus a holl wlad Syria. Y mae ei masnachdai yn awr yn rhagori ar fasnachdai Ierusalem. "Y mae y rhai a deithiant tua'r Aipht yn cadw cyflenwad yma o ymborth a phethau angenrheidiol i'r anialwch; tra y mae y rhai a ddeuant o'r Aipht yn cyrhaedd i Gasa yn lluddedig; ac wrth gwrs rhaid iddynt gael cyflenwad newydd."—*Robinson*, ii. 40.

Y mae y neillduolrwydd hwn yn sefyllfa Gaza wedi ei gwneyd yn bwysig mewn ystyr filwraidd. Ystyr ei henw yw "y cadarn;" a chafwyd prawf neillduol o hyn yn ei gwarchau gan Alexander Fawr; yr hwn, er ei holl adnoddau milwraidd, a barhaodd am bum mis. Fel y dywed Van de Velde (td. 187) hi ydoedd allwedd y wlad. Yr hyn oedd wedi dygwydd yn amserau y Pharaohiaid (*Ier.* xlvii. 1), a Cambyses a ddygwyddodd drachefn yn y brwydrau rhwng y Ptolemiaid a'r Seleucidæ. Yr oedd y ddinas hon yn un o'r gorsafoedd milwraidd pwysicaf yn rhyfeloedd y Maccabeaid (gwel 1 *Macc.* xi. 61, 62; xiii. 43; *Josephus, Hyn.*, xiii. 5, adr. 85, ac adr. 13, 83). Rhoddodd y Rhufeiniaid hi i deyrnas Herod, ac ar ol ei farwolaeth ef i dalaeth Syria. Ond nid ydyw hanes Gaza mewn cyssylltiad â rhyfel yn terfynu yma. Yn y flwyddyn B. A. 634, cymmerwyd hi gan gadfridogion Khalif Abu Bekr y Cyntaf, er na bu efe byw i glywed am y fuddugoliaeth. Fe ymladdwyd rhai o frwydrau pwysicaf Rhyfeloedd y Groes yn y gymmydogaeth. O'r diwedd syrthiodd i ddwylaw Saladin yn 1170 O. C., ar ol brwydr waedlyd Hattin.

Bellach, ni a chwiliwn i hanesiaeth Ysgrythyrol Gaza. Ymddengys, oddi wrth *Gen.* x. 19, ei bod yn cael ei hystyried hyd yn oed cyn galwad Abraham, fel dinas "terfyn" y Canaaneaid. A hyn ni a ddylem gymharu y dysgrifiad a roddir yn *Deut.* ii. 23, lle y mae y gair yn cael ei roddi yn *Azzah* yn y Beibl Cymraeg. Crybwyllir am diriogaeth Gaza yn hanes buddugoliaethau Iosuah fel un nad oedd efe yn alluog i'w darostwng: *Ios.* x. 41; xi. 22; xiii. 3. Trefnwyd iddi fod yn rhandir llwyth Iudah (*Ios.* xv. 47), a chafodd y llwyth hwnw feddiant o honi (*Barn.* i. 18); ond ni chadwodd feddiant o honi yn hir, canys yr ydym yn cael ei bod yn fuan ar ol hyny yn nwylaw y Philistiaid: *Barn.* iii. 3; xiii. 1; xvi. 1, 21. Yn wir, ymddengys mai hi oedd eu prif ddinas; ac er gwaethaf ymdrechion egniol Samson, yr hwn a fu farw yma, parhaodd Gaza yn ddinas Philistaidd trwy amserau Samuel, Saul, a Dafydd: 1 *Sam.* vi. 17; xiv. 52; xxxi. 1; 2 *Sam.* xxi. 15. Bu Azzah o dan lywodraeth Solomon: 1 *Bren.* iv. 24. Ond mewn amserau dilynol dygwyddodd yr un helbul drachefn gyda'r Philistiaid: 2 *Cron.* xxi. 16; xxvi. 6; xxviii. 18. Mae yn wir nad ydyw Gaza yn cael ei henwi yn yr adnodau hyn; ond nid oes un ammheuaeth nad ati hi y maent yn cyfeirio. Yn 2 *Bren.* xviii. 8, dywedir yn bendant fod Hezeciah wedi "taro y Philistiaid hyd Gaza a'i therfynau, o dŵr y gwylwyr hyd y ddinas gaerog." Dylem yma gymharu rhai adnodau yn y prophwydi lle y mae enw y ddinas Philistaidd yn dygwydd; sef, *Amos.* i. 6, 7; *Zeph.* ii. 4; *Zech.* ix. 5.

Y mae y dysgrifiad a roddir yn *Act.* viii. 26, o Gaza fel dinas "anghyfanedd" wedi achlysuro cryn ddadl yn mhlith beirniaid. Ammheuir pa un ai at y ffordd ynte at y ddinas y mae y rhagenw perthynasol "yr hon" yn cyfeirio. Os at y ddinas, cesglir fod yr adnod wedi ei hysgrifenu yn ddioed ar ol dechreuad y rhyfel Iuddewig (65 B. A), pan wnaed Gaza mewn gwirionedd yn anghyfannedd. Tybia rhai fod ei sefyllfa wedi newid; a dichon fod hyn yn wirionedd, canys dywed Strabo nad oedd ond tua chwarter milltir

Digitized by Google

oddi wrth y môr, tra y mae yn awr gryn lawer mwy na hyny: a gall fod lluchiad a phentyriad tywod wedi peri i'r trigolion ei symmud yn mhellach i'r dwyrain. Modd bynag, y peth tebycaf ydyw fod y geiriau, "yr hon sydd anghyfannedd," yn cyfeirio at y ffordd, ac yn cael eu defnyddio gan yr angel i hysbysu i Phylip, yr hwn oedd y pryd hwnw yn Samaria, yn mha le y cai efe hyd i'r eunych. Heb law y ffordd gyffredin o Ierusalem trwy Ramleh i Gaza, yr oedd ffordd arall well i gerbydau (*Act.* viii. 28), yn mhellach i'r deheu, trwy Hebron, ac oddi yno trwy wlad heb drefydd, ac agored i ruthriadau pobl o'r anialwch. Tybia Robinson mai wrth y dwfr yn y Wady-el-Hasy, rhwng Eleutheropolis a Gaza, y cafodd yr eunych ei fedyddio.

Y mae rhan o Ghuzzeh ddiweddar yn sefyll ar fryn lled uchel, a rhan o honi ar y gwastadedd. Y mae hinsawdd y lle yn boeth iawn, ond y mae ynddi ffynnonau dyfnion o ddwfr rhagorol. Addurnir y dref yn ddirfawr gan lawer o erddi a pherllanau ffrwythlon. Gwneir llawer iawn o sebon ynddi, ac anfonir symiau mawrion o hono bob blwyddyn i wledydd tramor. Y mae hefyd yn cario masnach helaeth yn mlaen mewn ŷd. Yr oedd yn enwog am ei hyd, ei gwinllanoedd, a'i holewydd mor foreu a dyddiau Samson.

GAZARA, [Γάζαρα]: lle a grybwyllir yn fynych yn rhyfeloedd y Maccabeaid, fel lle o bwys mawr i weithrediadau y ddwy blaid. Dygir ef i sylw gyntaf fel amddiffynfa gadarn yn yr hon y cymmerodd Timotheus noddfa ar ol cael ei orchfygu gan Iudas, ac a ddaliodd allan dros bedwar diwrnod, er holl ymdrechiadau yr Iuddewon cyffroedig [2 *Macc.* x. 32—35]. Un o orchwylion cyntaf Bacchides, ar ol cymmeryd meddiant o Iudea, oedd cadarnhau Bethsura a Gazara, a'r tŵr yn Ierusalem [1 *Mac.* ix. 52]; a chrybwyllir am yr un enwau pan y gwaredodd Simon yn ei dro y wlad [1 *Mac.* xiv. 7, 33, 34, 36; xx. 28]. Mor bwysig ydoedd Gazara, fel y trefnodd Simon i'w fab Ioan, cadben y llu, breswylio yno [1 *Macc.* xiii. 53; xvi. 1].

Y mae pob lle i gredu mai yr un lle oedd Gazara a'r hen Gezer neu Gazer. Yr un ydyw yr enw a ddefnyddia y Deg a Thrigain am Gezer yn yr Hen Destament; a mwy na hyny, y mae sefyllfa y ddau le yn cyd-daro. Megys y tarawodd Dafydd y Philistiaid o Gibeon hyd Gezer, felly Iudas a orchfygodd Gorgias yn Emmaus, gan ei ymlid ef hyd Gazera [1 *Macc.* iv. 15]. Crybwyllir Gazara hefyd yn wastad mewn cyssylltiad â glan y môr—Ioppa a Iamnia [1 *Macc.* xv. 28, 35; iv. 15], ac â dyffryn y Philistiaid Azotus, Adasa [1 *Macc.* iv. 15; vii. 45; xiv. 34].

GAZATHIAID, Y, [העזתי = *Yr Azzathiad*], Trigolion Gaza: *Ios.* xiii. 3. Yn *Barn.* xvi. 2, y mae yr un gair yn cael ei droi yn Gaziaid yn ein cyfieithiad ni.

GAZER, [גזר, *cysgle; clogwyn;* Γαζερ]. Crybwyllir am y lle yn 2 *Sam.* v. 25; 1 *Cron.* xiv. 16. Yr un lle oedd a Gezer. Yr unig wahaniaeth, medd y beirniaid, ydyw yr acen bwysleisiol Hebreig, yr hon a gedwir yn y gair Gazer yn y manau a nodwyd, er na ddilynir hi mewn amryw fanau ereill.—Gwel GEZER. Y mae Ewald yn casglu oddi wrth arfer gysson y Deg a Thrigain yn yr Hen Destament ac yn y Maccabeaid, mai dull gwreiddiol yr enw oedd Gazer; ond dywed ereill fod y gwahannodiad Masoraidd yn llawn mor bleidiol i'r naill a'r llall.

GAZER: yr un lle a *Gezer.* Y mae y gwahaniaeth yn codi oddi wrth yr acen bwysleisiol Hebreig, yr hon a gadwyd yma yn y cyfieithiad Cymraeg, er na thelir un sylw iddi mewn amryw leoedd ereill lle y mae yr un ffurf yn dygwydd. —Gwel GEZER. Casgla Ewald oddi wrth arferiad cyffredin y Deg a Thrigain yn yr Hen Destament ac yn llyfr y Maccabeaid, mai y ffurf wreiddiol oedd Gazer.

GAZEZ, [*Gezer*]: enw sydd yn dygwydd ddwy waith yn 1 *Cron.* ii. 46; (1.) fel mab Caleb, o'i ordderchwraig Ephah; ac (2.) fel mab Haran, mab yr un wraig. Hwyrach nad ydyw yr ail ond ail adroddiad o'r cyntaf.

GAZIAID: *Ios.* xiii. 3; trigolion Gaza.

GAZZAM: teulu yn mhlith y teuluoedd a ddychwelasant o'r caethiwed gyda Zorobabel: *Ezra* ii. 48; *Neh.* vii. 51.

GEBA, [*y bryn*]: dinas yn perthyn i lwyth Beniamin gyda "meusydd pentrefol," a roddwyd i'r offeiriaid; *Ios.* xxi. 17; 1 *Cron.* vi 60. Enwir hi yn y dosbarth cyntaf o drefydd Beniamin, sef y rhai a orweddent ar hyd y terfyn gogleddol: *Ios.* xviii. 24. Yr enw a roddir arni yma ydyw Gaba: cyfnewidiad yn codi oddi wrth y pwyslais a ofynir yn yr Hebraeg o flaen gorphwysnod; ac y mae yr un cyfnewidiad yn dygwydd yn *Ezra* ii. 26; *Neh.* vii. 30, a xi. 31; 2 *Sam.* v. 25; 2 *Bren.* xxiii. 8. Geba a arferir yn y cyfieithiad Cymraeg yn y tair adnod olaf. Mewn un lle defnyddir Geba fel terfyn gogleddol teyrnas Iudah a Beniamin, yn yr ymadrodd "o Geba hyd Beerseba (2 *Bren.* xxiii. 8); ac hefyd fel terfyn dwyreiniol ar gyfer Gazer (2 *Sam.* v. 25). Yn 1 *Cron.* xiv. 16, gelwir hi yn Gibeon. Yn ystod y rhyfeloedd a gymmerasant le yn y rhan gyntaf o deyrnasiad Saul, defnyddid hi fel amddiffynfa gan y Philistiaid (1 *Sam.* xii. 3), ond gyrwyd hwynt allan gan Ionathan. Yn ddiweddarach yn yr un rhyfel, cyfeirir ati i benderfynu sefyllfa y ddwy graig a safent yn y nant islaw amddiffynfa Michmas, mewn geiriau sydd yn rhoddi Gibeah ar y deheu a Michmas ar y gogledd i'r nant; 1 *Sam.* xiv. 5. Y mae sefyllfa pentref presennol *Ieba* yn cyfateb yn hollol i'r dysgrifiad hwn; o blegid y mae yn gorwedd ar ben bryn uchel ar gyfer pentref, yr hwn sydd hyd heddyw wedi cadw ei hen enw Mukhmas. Credir fod yr enwau, a'i sefyllfa, yn berffaith gysson â'r dysgrifiad a roddir gan Ionathan, yn profi tu hwnt i bob amheuaeth mai yr un lle ydyw; ond cadarnheir hyn hefyd gan y rhestr werthfawr o'r trefydd Beniaminaidd yr ymwelwyd â hwynt gan fyddin Assyria ar eu taith trwy y wlad i'r deheu i Ierusalem, a gawn yn *Esa* x. 28—32; lle y mae y manylion (attaliad y cerbydau y rhai nis gallent groesi nant garegog yn Michmas; ynamynediad y rhan ysgafnaf o'r fyddin trwy y rhyd, a'u gorphwysiad am y noson yn Geba ar yr ochr arall) yn cytuno yn hollol â natur y lle. O herwydd ei bod yn sefyll ar derfyn gogleddol y deyrnas isaf, ac yn wynebu "y bwlch," fe wnaeth Asa hi yn amddiffynfa: 1 *Bren.* xv. 22; 2 *Cron.* xvi. 6. Enwir hi mewn cyssylltiad â Michmas hyd y diwedd, *Neh.* xi. 31.

Y mae yn dra thebygol mai Geba a feddylir wrth "Gibeah yn y maes," yn *Barn.* xx. 31.

Digitized by Google

Crybwyllir am y "meusydd" drachefn mor ddiweddar a *Neh.* xii. 29. O herwydd y tebygolrwydd rhwng yr enwau, neu o herwydd priodiaith daleithiol, arferir "Geba" am Gebeah yn *Barn.* xx. 10, 33; 1 *Sam.* xiii. 16.

GEBAL, [*trum o fynyddoedd*]; enw priodol yn dygwydd yn *Salm* lxxxiii. 7, mewn cyssylltiad âg Ammon, ac Amalec, y Philistiaid, gyda phreswylwyr Tyrus. Cesglir oddi wrth y crybwylliad am Assur, neu Assyriad yn yr adrodd nesaf, fod y Salm wedi ei chyfansoddi yn nyddiau olaf y deyrnas Iuddewig. Y mae hefyd wedi ei chyflwyno i Asaph. Yn 1 *Cron.* xx. 14, dywedir fod un o feibion Asaph, Iahaziel, wedi cael ei gynhyrfu gan "Ysbryd yr Arglwydd" i galonogi Iehosaphat a'i bobl pan fygythiai y Moabiaid, yr Ammoniaid, ac ereill, wneyd ymosodiad arnynt. Gan hyny, y mae yn amlwg fod cyssylltiad rhwng y Salm hon a'r dygwyddiad hwn; ac o herwydd hyn, nis gallwn lai na chasglu oddi wrth yr adnodau amgylchynol a'r cofnodau hanesiol mai yr un ddinas ydyw Gebal y Salmau a Gebal Ezeciel (xxvii. 9), tref arforawl yn Phœnicia; ac nid un arall, fel y tybiodd rhai, yn nghymmydogaeth Petra, yr hon a elwir gan Josephus, Eusebius, a Jerome yn Gebalene. Yr oedd Iehosaphat, yn nechreuad ei deyrnasiad, wedi darostwng y Philistiaid a'r Arabiaid (2 *Cron.* xvii. 9, 10), ac yr oedd wedi cynnorthwyo Ahab yn erbyn y Syriaid yn fwy diweddar fyth: 2 *Cron.* xiii. Yn awr, yn ol iaith farddonol y Salmydd, yr oedd y cenedloedd amgylchynol wedi ffurfio cynghrair yn erbyn Israel:—yr Edomiaid, yr Israeliaid, a'r Hagariaid ar y deheu; y Moabiaid ar y de-ddwyrain; a'r Ammoniaid ar y gogledd-ddwyrain; a'r Amaleciaid, neu drigolion Tyrus, ar hyd holl linell y glenydd gorllewinol hyd Gebal eu dinas derfyn; gydag Assur, hyny yw, y Syriaid neu yr Asuriaid, ar y terfyn mwyaf gogleddol. Gellir sylwi fod yr Assyriaid yn cael eu henwi mewn cyssylltiad â Gebal yn y brophwydoliaeth (*Ezec.* xxvii. 6), yn gystal ag yn y Salmau. Ond mae yn amlwg mai nid dinas ddistadl oedd Gebal Ezeciel. Gellir casglu oddi wrth y ffaith fod ei thrigolion yn cael eu galw "Gibliaid" yn y *Vulgate*, a "Bibliaid" gan y Deg a Thrigain, mai yr un rhai oeddynt a'r Gibliaid y sonir am danynt mewn cyssylltiad â Libanus gan Iosuah (xiii. 5), ac mai yr un oedd eu dinas â "Biblus" (neu Byblus), y crybwyllir am dani gan yr hen awduron; ac yr oedd mor fawr fel y galwyd y wlad o'i hamgylch ar ei henw. Safai ar derfynau Phœnicia, ac i'r gogledd i enau yr afon fechan Adonis, yr hon sydd mor enwog mewn chwedloniaeth, (cymmharer *Ezec.* viii. 13). Ymddengys fod y Gibliaid, neu y Bibliaid, yn enwog yn y celfyddydau o naddu ceryg ac adeiladu llongau: 1 *Bren.* v. 18; *Ezec.* xxvii. 9.

1. GEBER, [*dyn cadarn*]: mab Geber; yr hwn oedd yn preswylio yn amddiffynfa Ramoth Gilead; yr hwn fel swyddog lluniaeth Solomon oedd yn gofalu am "drefydd Iair mab Manasseh, y rhai sydd yn Gilead; ac ardal Argob, yr hon sydd yn Basan;" 1 *Bren.* iv. 13.

2. GEBER: mab Uri, yr hwn hefyd oedd yn un o'r deuddeg swyddog oedd yn "parotoi lluniaeth i'r brenin Solomon a'i dŷ." Yr oedd y dosbarth oedd o dan ei ofal ef yn y deheu i'r gyntaf—"gwlad Gilead," y wlad a feddiannid yn wreiddiol gan "Sehon brenin yr Amoriaid, ac Og brenin Basan;" 1 *Bren.* iv. 19. Y mae diwedd yr adnod hon—"a'r unig swyddog oedd yn y wlad ydoedd efe"—yn ymddangos yn anghysson â'r 13eg a'r 14eg adnod, lle y crybwyllir am ddau ereill. Cyfieithiad cywirach ydyw, "ac un swyddog oedd yn y wlad;" hyny yw, un prif swyddog uwch ben y swyddogion ereill.

GEBIM, [*bryniau*]: pentref i'r gogledd i Ierusalem, yn nghymmydogaeth y brif ffordd, a rhwng Anathoth (yn awr Anata), a'r bryn ar ba un y safai Nob, ac o ben yr hwn y ceid yr olwg gyntaf ar y ddinas. Ni chrybwyllir am dano mewn un lle ond yn y rhestr a roddir gan Esaiah o'r trefydd—trigolion y rhai a ffoisant ar ddynesiad Sennacherib: *pen.* x. 31.

1. GEDALIAH, [*wedi ei ddysgu gan Dduw*]: mab Ahicam (noddwr Ieremiah: *Ier.* xxvi. 24), ac ŵyr Saphan, ysgrifenydd y brenin Iosuah. Ar ol dinystr y deml, 588 C.C., fe ymadawodd Nebuchodonosor o Iudea, gan adael Gedaliah gyda gwarchodlu Caldeaidd (*Ier.* xl. 5) yn Mispah, tref gadarn (1 *Bren.* xv. 22), chwe milldir i'r gogledd i Ierusalem, i lywodraethu [*Josephus Hynaf.*, x. 9, adr. 1] y gwinllanwyr a'r arddwyr, y rhai ni ddygwyd i gaethiwed, fel penadur o dan deyrnged i frenin Babilon: *Ier.* lii. 16. Fe ymunodd Ieremiah â Gedaliah; a daeth Mispah yn gyrchfa Iuddewon o wahanol fanau (*Ier.* xl. 6, 11), llawer o ba rai, fel y gellid dysgwyl ar ddiwedd rhyfel maith, oeddynt yn myned yn llygredig iawn. Nid oedd cymmeriad rhagorol Gedaliah, llwyddiant ei deyrnasiad byr, y parch a goleddid yn ei amser i'r deml adfeiliedig, arswyd rhag y gorchfygwyr Caldeaidd—nid oedd y pethau hyn yn ddigon i achub Gedaliah rhag eiddigedd Baalis, brenin yr Amoniaid, ac uchelgais Ismael, aelod o deulu breninol Iudah.—*Josephus Hynaf.*, x. 9, adr. 3. Daeth y dyn hwn i Mispah gyda'r bwriad dirgelaidd o ladd Gedaliah. Gan i Gedaliah wrthod credu rhybudd caredig a dderbyniodd am y fradwriaeth, lladdwyd ef, yn nghyd â'i ganlynwyr Iuddewig a Chaldeaidd, yn mhen dau fis ar ol ei appwyntiad. Wedi ei farwolaeth, yr hon a gofir hyd heddyw yn y calendar Iuddewig fel trychineb cenedlaethol, ofnai yr Iuddewon yn eu gwlad enedigol y dialai brenin Babylon arnynt; a meddiannwyd llawer o honynt gan y fath anobaith fel y ffoisant i'r Aipht o dan Iohanan, gan orfodi Ieremiah i ddyfod gyda hwynt.

2. GEDALIAH: Lefiad; un o chwe mab Ieduthun, y rhai a chwareuent y delyn yn ngwasanaeth yr Arglwydd: 1 *Cron.* xxv. 3, 9.

3. GEDALIAH: offeiriad yn amser Ezra: *Ezra* x. 18.

4. GEDALIAH: mab Pasur; un o'r rhai a barodd i Ieremiah gael ei garcharu: *Ier.* xxviii. 1.

5. GEDALIAH: taid Zephaniah y prophwyd: *Zeph.* i. 1.

GEDEON, [Γεδεών], ydyw y dull Groeg o'r enw Hebraeg Gideon (*Heb.* xi. 32), yr hyn a gedwir gan ein cyfieithwyr ni, cystal ac Elias, Eliseus, Osea, Iesus, ac enwau Groegaidd-Hebreaidd ereill, er mawr ddyryswch i'r darllenydd cyffredin. Gwel GIDEON.

GEDER, [גדר=*mur*; Γαδέρ=*Gader*]. Brenin Geder oedd un o'r un brenin ar ddeg ar ugain a orchfygwyd gan Iosuah ar wastadedd yr Iorddonen; ac ar yr amgylchiad hwnw yn unig y crybwyllir am dano yn y Beibl: *Jos.* xii. 13. Gan y crybwyllir am dano gydag enwau Debir,

Digitized by Google

Hormah, ac Arad, mae yn amlwg fod Geder yn trigo yn eithafion y de. Mae hyn yn arwyddo nas gellir tybied ar sail gadarn mai yr un oedd efe a Gedor (*Ios.* xv. 58)—lle a saif rhwng Hebron a Bethlehem; na chyda Ha-Gederah, yn yr iseldir: *Ios.* xv. 36. Ond, fe allai mai yr un lle ydyw a'r Gedor a enwir mewn cyssylltiad â'r Simeoniaid: 1 *Cron.* iv. 39.

GEDERAH, [הגדרה = *ha-Gederah, y gorlan; Γαδηρα*]: dinas yn iseldir Iudah (*Ios.* xv. 36), tua'r parth dwyreiniol, fel y gellir casglu oddi wrth y crybwylliad a wneir am Socoh, Azekah, &c., mewn cyssylltiad â hi yn agos i ddyffryn Elah. Dichon fod y sefyllfa yma yn cytuno â'r lle a briodola Eusebius i *Gedour;* yr hon y dywed ei bod yn ei amser ef yn bentref pur helaeth, ddeng milldir o Eleutheropolis, ar y ffordd i Dispolis (*Lyda*); a hefyd, cytuna yn weddol â sefyllfa y lle a eilw *Gidora,* heb fod yn mhell o Ierusalem, yn agos i'r Terebinth. Modd bynag, nid oes dref o'r enw yma wedi ei chanfod hyd yn hyn yn y dosbarth yma, yr hwn sydd eto heb ei chwilio yn drwyadl. Mae yr enw (os ydyw yr eglurhad a roddir yn gywir), a'r un nesaf ato, sef Gederothaim, yn arwyddo fod llawer o ddefaid yn cael eu magu yn y parth hwnw.

GEDERATHIAD, Y: brodor o'r lle a elwir Gederah. Ond nid y Gederah oedd yn ngwastadedd Iudah; canys un ydoedd Iosabad y Gederathiad (1 *Cron.* xii. 4) o lwyth Saul ei hun—o'i frodyr, o Beniamin: *adn.* 2. Dyma yr unig Gederathiad a enwir.

GEDERIAD, Y: brodor o ryw le a elwid Geder neu Gederah. Dan ofal Baalhanan y Gederiad yr oedd y brenin Dafydd wedi gosod yr olewydd a'r sycamorwydd yn y gwastadedd: 1 *Cron.* xxvii. 28. Fe allai mai brodor o'r Gederah oedd yn y parth yma ydoedd—lle nodedig am lawer o sycamorwydd.

GEDEROTH, [גדרות=*corlanau defaid; Γαλήρω =Galêrô,* ond yn y *Cronicl Γεδδωρ=Ged-dôr*]: dinas yn ngwastadedd Iudah: *Ios.* xv. 41; 2 *Cron.* xxviii. 18. Nid ydyw yn cael ei henw yn yr un gyfres a Gederah, a Gederothaim, yn y rhestr yn Iosuah; ond ymddengys y saif ychydig yn mhellach i'r gogledd gyda Maccedah. Ond awgryma y sylw yn y Cronicl fod yr holl ddinasoedd hyn yn sefyll yn lled agos i'w gilydd.

GEDEROTHAIM, [גדרתים=*dwy gorlan defaid*]: dinas yn ngwastadedd Iudah (*Ios.* xv. 36), a enwir yn nesaf i Gederah. Y mae y Deg a Thrigain yn ymdrin â'r gair fel pe byddai yn cyfeirio at yr enw blaenorol.

1. GEDOR, [גדור = *mur, clawdd; Γεδδων= Ged-dôn; Γεδωρ=Gedôr*]: dinas yn mharth mynyddig Iudah, a enwir gyda Halhul a Bethsur (*Ios.* xv. 58), ac am hyny saif ychydig filldiroedd i'r gogledd o Hebron. Y mae Eusebius yn ei rhoddi ddeng milldir i'r de o Diospolis, sef Lud ddiweddar; ond nid yw hyny yn cytuno â'r ymadrodd. Heb law hyny, y mae Robinson [iii. 283] wedi canfod Jedûr hanner y ffordd rhwng Bethlehem a Hebron, tua dwy filldir i'r dwyrain o'r ffordd, yr hon y mae yn dra thebyg sydd yn cynnrychioli yr hen ddinas:—yr un fe allai a Gaedur Eusebius.

2. GEDOR: dinas, fel yr ymddengys, oedd yn rhandir Beniamin, i'r hon y perthynai Ieroham o Gedor; meibion yr hwn, Ioelah a Zebadiah, oedd yn mysg y cedyrn, o frodyr Saul, o Beniamin, y rhai a ymunasant â Dafydd yn ei brofedigaeth yn Siclag: 1 *Cron.* xii. 7. Y mae y fannod benodol o flaen yr enw yn yr ymadrodd hwn. Os enw Beniaminaidd ydyw hwn, mae yn dra thebyg ei fod yn dal cyssylltiad â'r enw nesaf.

3. GEDOR, [*Γεδουρ=Gedour*]: un o hynafiaid Saul; mab Iehiel, tad Gibeon: 1 *Cron.* vii. 31; a ix. 37.

4. GEDOR. Ceir yr enw ddwywaith yn achau Iudah: 1 *Cron.* iv. 4, 18—yn y ddau fan wedi ei dalfyru i גדר *Gedr* (*Γεδωρ—Gedôr*). Yn yr ymadrodd blaenaf, Penuel ydyw "tad Gedor;" tra yn yr olaf y mae Iered, mab un Ezra a'i wraig Iehudiah, yn "dad Gedor." Yn y *Targum,* y mae Iered, Gedor, a'r enwau ereill sydd yn yr ymadrodd hwn, yn cael eu hystyried fel teitlau Moses, a roddwyd iddo gan Iehudiah, yr hon a wneir yr un a merch Pharaoh.

5. GEDOR. Dywedir yn nghofnodau llwyth Simeon, yn 1 *Cron.* iv. 39, fod rhai o benaethiaid y llwyth wedi myned, yn nyddiau Hezeciah, "i flaenau Gedor, hyd at du dwyrain y dyffryn, i geisio porfa i'w praidd;" a'u bod wedi gyru yr Hamiaid oedd yn preswylio mewn pebyll oddi yno. Yr oedd Simeon yn preswylio yn eithafoedd deheubarth Iudah; am hyny rhaid fod y Gedor yma yn lle gwahanol i Gedor 1., a nodwyd uchod. Os dygwyddodd yr hyn a nodir yn *adn.* 42, ar ol yr ymgyrch yma, dylid edrych am Gedor rhwng deheubarth Iudah a Mynydd Seir, sef Petra. Nid oes un lle o'r enw wedi ei ganfod hyd yn hyn yn y parth hwnw. Y darlleniad yn y ddwy lawysgrif, a'r Deg a Thrigain, yw Gerar am Gedor; yr hyn sydd yn cytuno yn dda â'r sefyllfa ac â'r crybwylliad am y borfa: a dyma yr enw a gymmeradwyir gan Ewald [i. 322, nodiad]. Am y *dyffryn* (Gai, sef cwm), ymddengys wrth ddefnyddiad y fannod mai rhyw lanerch eithaf adnabyddus ydoedd; ond o blegid anadnabyddiaeth teithwyr o'r lle, nis gellir penderfynu yn nghylch y sefyllfa. Gellir sylwi mai Nachal-Wady, ac nid Gai, yw y gair a gymhwysir mewn manau ereill at Gerar.

GEFAIL—EILIAU, [*gaf—ail*]: offeryn a ddefnyddir i ymaflyd mewn tân; gweithdy gôf: *Exod.* xxv. 38; xxxvii. 23; *Num.* iv. 9.

GEFAILL, GEFELL, [*gaf—ell*]: cydanedig; dau yn nghyd yn yr un groth: *Gen.* xxv. 24; *Can.* iv. 5.

GEFYN—AU, [*gaf*]: llyffethair, hual, offeryn i gaethiwo traed carcharorion. Yn gyffredinol, gwneid gefynau o bres: *Barn.* xvi. 21; 2 *Sam.* iii. 34; 2 *Bren.* xxv. 7; 2 *Cron.* xxxiii. 11; xxxvi. 6; *Ier.* xxxix. 7; lii. 11. Weithiau gwneid hwynt o haiarn: *Salm* cv. 18; cxlix. 8. Defnyddir y gair, mewn ystyr allegawl, i osod allan orthrymder a chaethiwed: *Iob* xxxvi. 8; *Salm* lxviii. 8.

GEHAZI, [גחזי=*glyn gweledigaeth; Γιεζι = Giezi*]: gwas Eliseus, yr hwn, fel yr ymddengys, oedd yn meddu cwbl ymddiried ei feistr. Y mae ei hanes yn gyssylltiedig bron yn hollol â hanes Eliseus ei hun. Gwel ELISEUS. Y tro cyntaf y cyfarfyddir âg ef yn yr hanes sanctaidd ydyw yn ymgynghori âg Eliseus yn nghylch gwobrwyo y Sunamees am ei charedigrwydd i'r prophwyd: 2 *Bren.* iv. 14. Yr oedd yn bresennol

Digitized by Google

hefyd pan yr ymwelodd y Sunamees â'r prophwyd i'w hysbysu yn nghylch marwolaeth ei mab; ac anfonwyd ef yn mlaen i osod ffon y prophwyd ar wyneb y plentyn; yr hyn a wnaeth efe, ond yn aneffeithiol i ateb y dyben: 2 *Bren.* iv. 31. Yr amgylchiad hynotaf yn ei fywyd oedd yr hwn a ddygodd arno ei ddinystr. Pan y gwrthododd Eliseus, mewn dull mor anrhydeddus a diariangar, gymmeryd yr anrhegion gwerthfawr a gymhellid arno gan y gwahanglwyfus goludog, yr hwn a iachesid, teimlai Gehazi yn ddrwg ganddo golli y fath gyfleusdra i wneyd elw trwy haelioni Naaman, a wrthodid yn wirfoddol a phenderfynol gan ei feistr. Am hyny efe a redodd ar ol y cerbydau oedd yn myned ymaith, ac a ddeisyfodd, yn enw ei feistr, gael rhan o'r anrhegion a wrthodasid, dan yr esgus fod ymwelwyr wedi dyfod at ei feistr, i'r rhai yr oedd efe yn analluog i ddarparu yn briodol. Gofynai un dalent o arian, a dau bâr o ddillad; a chymhellodd y Syriad diolchgar ef i gymmeryd dwy dalent yn lle un. Wedi iddo guddio ei ysbail mewn lle diogel, efe a ymddangosodd drachefn ger bron Eliseus, anrhydedd yr hwn a sarhasai efe mor fradwrus. Pan ofynodd ei feistr iddo pa le yr oedd efe wedi bod, a phan yr atebodd yntau, "Nid aeth dy was nac yma na thraw," newidiodd y prophwyd ei ddull arferol ato, gan ymwisgo mewn llymder barnwr; ac wedi ceryddu ei drosedd, cyhoeddodd uwch ei ben y ddedfryd ofnadwy, y byddai i wahanglwyf Naaman lynu wrtho ef ac wrth ei had yn dragywydd. "Ac efe a aeth ymaith o'i ŵydd yn wahanglwyfus cyn wyned a'r eira;" 2 *Bren.* v. 20—37. Bernir i hyn ddygwydd 894 c. c.

Pan y cyfarfyddir âg ef y tro nesaf yn yr hanes Ysgrythyrol, fe'i ceir ef yn rhoddi hanes gweithredoedd nerthol Eliseus i'r brenin Ioram; a thra yr oedd efe ar y weithred o adrodd gwaith y prophwyd yn cyfodi mab y Sunamees o farw, trefnodd Rhagluniaeth i'r wraig hono a'i mab ymddangos yn y fan ger bron y brenin, i hòni ei hawl i'w thŷ a'i thir, a drawsfeddiannesid tra yr oedd hi yn absennol yn ystod y newyn diweddar. Synwyd y brenin gan y cyd-darawiad hynod, a chaniataodd ei dymuniad yn ddioed: 2 *Bren.* viii. 1—6.

Yr oedd gwahangleifion yn cael eu gorfodi i fyw o'r tu allan i'r dinasoedd, ac ni chaniateid iddynt ddyfod yn rhy agos at bersonau iach. Am hyny yr oedd peth anhawsder i Gehazi gael ymddyddan â'r brenin. Y mae amryw ddyfaliadau wedi cael eu gwneuthur gyda golwg ar hyn. Fe ddichon i'r ymweliad gymmeryd lle o'r tu allan i'r ddinas, mewn gardd neu luestty; a gallai fod y brenin yn ymgadw mewn pellder cyfaddas oddi wrth Gehazi, yn ol y gocheliadau arferedig ar y fath amgylchiad. Y mae rhai yn tybied hyd yn oed fod yr amgylchiad wedi ei gamgyfleu, a'i fod wedi dygwydd cyn i Gehazi gael ei daraw â'r gwahanglwyf. Y mae ereill yn rhuthro i eithafoedd cyferbyniol, gan awgrymu y gallai fod y gwahanglwyfus erbyn hyny wedi edifarhau am ei drosedd, a bod ei feistr wedi ei adferyd; ond nid yw hyn oll ond dyfaliadau yn unig, am y rhai y mae y Beibl yn hollol ddystaw. Gwel GWAHANGLEIFION.

GEHENNA, [Γέεννα], ffurf Groegaidd o'r gair Hebraeg גֵּי־הִנֹּם=*Ge-Hinnom*, a droir yn ein cyfieithiad ni yn "ddyffryn Hinnom," neu "ddyffryn mab" neu "feibion Hinnom;" *Jos* xv. 8; *Neh.* xi. 30. Trõir y gair gan y Deg a Thrigain yn Γαιέννα=*Gaienna*, yn *Jos.* xviii. 16; 2 *Bren.* xxiii. 10; 2 *Cron.* xxviii. 3; xxxiii. 6; *Ier.* xix. 2. Glyn dwfn a chul ydyw Gehenna, neu Ddyffryn Hinnom, i'r deheu o Ierusalem, lle yr oedd yr Iuddewon eilunaddolgar, ar ol dygiad addoliad y tân-dduwiau i mewn gan Ahaz, yn arfer offrymu eu plant i Moloch: 2 *Cron.* xxvii. 3; xxxiii. 6; *Ier.* vii. 31; xix. 2—6. Mewn canlyniad i'r ffieidd-dra yma, fe halogwyd y dyffryn gan Iosiah (2 *Bren.* xxiii. 10); ac wedi hyny gwnaed ef yn domen gyffredin y ddinas, i'r lle y teflid cyrff meirw troseddwyr, burgunod anifeiliaid, a phob math ar fudreddi; ac, yn ol rhai hanesion diweddar a lled ammheus, rhoddid rhanau llosgadwy y pethau a deflid yno ar dân. O blegid dyfnder a chulder y glyn, ac fe allai am fod tân parhaus yn llosgi ynddo, cystal ag o herwydd ei fod yn dderbynfa pob ysgerbwd aflan a phydredig a halogai y ddinas sanctaidd, daeth mewn amseroedd diweddarach yn ffugr o'r lle y gweinyddir cospedigaeth dragwyddol, "lle nad yw y pryf yn marw, na'r tân yn diffodd;" ac yno y rhydd y *Talmud* safn uffern:—"Y mae dwy balmwydden yn Nyffryn Hinnom, rhwng y rhai y dyrchafa mwg parhaus......ac yno y mae drws Gehenna."

Yn yr ystyr yma y defnyddir y gair gan yr Arglwydd Iesu: *Mat.* v. 29, 30; x. 28; xviii. 15, 33; *Marc* ix. 43, 45; *Luc* xii. 5; a chyda'r chwanegiad o *tou puros*, yn *Mat.* v. 22; xviii. 9; *Marc* ix. 47; a chan *Iago* iii. 6. Gwel HINNOM, DYFFRYN; TOPHET.

GELE—OD, [*gel*]; gelen, geloden, trychfilyn hynod o ran ei syched am waed creaduriaid ereill; ac wedi iddo unwaith ymaflyd, nid ydyw byth yn ymollwng hyd nes yr ymleinw yn hollol. Yr unig le y mae y gair yn dygwydd yn yr Ysgrythyrau ydyw *Diar.* xxx. 15; "I'r gele, y mae dwy ferch, yn llefain Moes, moes." Y mae cryn wahaniaeth barn yn mhlith dysgedigion o barth i ystyr y gair a gyfieithir yma *gele*. A ganlyn yw yr eglurhad a ddyry y dysgedig Bochart arno. Y gair Arabaidd am *gele* ydyw *alacah*, yr hwn sydd yn tarddu o ferf yn arwyddo crogi neu lynu wrth unrhyw beth. Ond y mae yn tarddu y gair Hebraeg, *alucah*, o wreiddyn Arabaidd arall, *aluc*, yr hwn sydd yn arwyddo tynged, anffawd fawr neu drychineb arswydus; ac o hyn y mae yn casglu mai ystyr priodol y gair *alucah* ydyw tynged, ac yn enwedig y ddedfryd o farwolaeth naturiol y mae pob dyn yn gorwedd dani. Haera nad oes dim yn rhyfedd yn y ffaith fod hiliogaeth yn cael eu priodoli i'r gosodiad dwyfol hwn; canys yn *Diar.* xxvii. 1, priodolir hiliogaeth i amser: "Ni wyddost beth a ddygwydd mewn diwrnod;" neu, fel y gellir ei gyfieithu, "Ni wyddost beth all diwrnod ei esgor." Ac y mae yr Hebreaid yn galw dygwyddiadau yn blant amser. Byddwn hefyd yn son am groth amser. Fel hyn, ynte, barna Bochart fod tynged neu y gosodiad dwyfol fod i bawb farw, yma yn cael ei bresennoli a'i osod allan fel yn meddu dwy ferch, yn llefaru, "Moes, moes;" sef uffern a'r bedd. Y mae yn dyfynu *Diar.* xxvii. 20, fel adnod o ystyr cyffelyb: "Ni lenwir uffern na dystryw." O herwydd hyn, tybir mai uffern a'r bedd ydyw dwy ferch tynged; pob un yn llefain "moes" ar yr un mynyd—y blaenaf yn llefain am yr enaid, a'r olaf am y corff; ac y mae y naill a'r llall yn anniwalladwy. Meddylia yn mhellach fod y ddau hyn yn cael eu galw yn ferched, am fod pob un o'r geiriau o'r rhyw fenywaidd, neu o leiaf o'r rhyw cyffredin; ac yn *adn.* 16, enwir y bedd

Digitized by Google

(uffern) fel un o'r pethau ni ddywedant byth *digon*. I'r dyben o gadarnhau y golygiad hwn yn mhellach, y mae Bochart yn dyfynu ysgrifenwyr rabbinaidd, y rhai a ddywedant mai wrth y gair *alucah*, yr hwn sydd yn dygwydd yn yr aralleiriad Caldeaidd o'r Salmau, y deallir tynged, ac a sylwasant hefyd fod ganddi ddwy ferch—Eden a Gehenna—paradwys ac uffern: y flaenaf o ba rai nid ydyw byth yn cael digon o eneidiau cyfiawn, a'r olaf byth yn cael digon o eneidiau y drygionus.

Ar ran y cyfieithiad cyffredin, hònir mai o'r braidd y gellir coelio y buasai yr holl hen gyfieithwyr yn cymmysgu *alucah* ac *alacah;* yn enwedig ei bod yn annhebyg iawn y buasai cyfieithydd y Deg a Thrigain o Lyfr y Diarbebion yn gwneyd hyn, "canys ystyrir hwn yn nesaf at y cyfieithiad o'r Pum Llyfr o ran gallu, ffyddlondeb, a chywirdeb; ac y rhaid bod yr awdwr yn gydnabyddus iawn â'r ddwy iaith. Dadleuir yn mhellach nad ydyw yn briodol bob amser cymhwyso ystyr geiriau Arabaidd at eiriau Hebreig; ac yn olaf nad ydyw y dyb a gynnygir gan Bochart yn angenrheidiol er egluro yr adnod. Yn yr adnod flaenorol, y mae yr ysgrifenydd (nid Solomon, gwel *adn.* 1) yn son am genedlaeth â'i danneddl yn gleddyfau, a'i childdannedd yn gyllyll, i ddifa y tlodion oddi ar y ddaiar, a'r angenus o blith dynion;" ac yna, yn ol dull neillduol y gwledydd dwyreiniol, yn enwedig yn eu diarebion, dygir y gele yn mlaen fel eglurhad ar gybydd-dod y cyfryw bersonau, ac ar y ddau brif bechod a gynnyrchir ganddo, trachwant a chreulondeb. Oni all "dwy *ferch* y gele, yn llefain Moes, moes," fod yn ddysgrifiad ffugrol o ddwy wefus y creadur (canys y mae ganddo wefusau wedi eu ffurfio yn berffaith), y rhai ydynt yn rhan o'i enau hynod? Pa fodd bynag, y mae galw hiliogaeth pethau difywyd yn ferched yn berffaith gysson â dull yr Hebreaid, canys felly gaiwant gangenau yn ferched coed: *Gen.* xlix. 22—ymyl y ddalen. Defnyddir y gair mewn dull tebyg yn *Preg.* xii. 4; "a gostwng i lawr holl ferched cerdd," gan feddwl y gwefusau, y dannedd blaen, a rhanau ereill o'r genau. Sylwa y proffeswr Paxton fod y dull ffugrol hwn o ddefnyddio y gair yn ddigon i gyfreithloni yr eglurhad. Y mae y ffaith fod y gele yn cael ei defnyddio yn mhlith llywodraethwyr yn mhob oes fel arwyddlun o drachwant, cybydd-dod, a gwanc, mor hysbys fel nad oes angen am i ni roddi un eglurhad arni. Y mae y Dr. Adam Clarke yn tueddu i ddeall y geiriau yn ol eu hystyr llythyrenol; ser cymmeryd y gair *alucah*, a gyfieithir yma *gele*, yn enw priodol rhyw berson ag yr oedd iddo ddwy ferch, y rhai oeddynt yn hynod am eu cybydddod a'u trythyllwch.

GELILOTH: lle sydd yn cael ei enwi yn mhlith marcia llinell terfyn deheuol llwyth Beniamin: *Ios.* xviii. 17. Yr oedd y terfyn yn myned o En-semes tua Geliloth, yr hon sydd gyferbyn â rhiw Adummim. Yn y dysgrifiad o derfyn gogleddol Iudah, yr hwn oedd yr un yn y lle yma a therfyn deheuol Beniamin, yr ydym yn cael Gilgal yn cael ei rhoddi yn lle Geliloth, gyda'r un nodiad, "yr hon sydd gyferbyn â rhiw Adummim." Nid ydyw yr enw Geliloth byth yn dygwydd drachefn yn y parth hwn, ac am hyny tybir mai Gilgal yw y darlleniad iawn. Ceir llawer o olygfeydd ar ddyffryn yr Iorddonen trwy y bryniau wrth ddisgyn o ben Mynydd yr Olewydd i Iericho, ar hyd yr hwn yr oedd y terfyn o dan sylw yn rhedeg; ac y mae yn dra thebygol fod Gilgal yn ymddangos wrth esgyn rhiw Adummim trwy un o'r adwyau hyn yn y pellder, "ar gyfer" yr edrychydd, ac felly ei bod yn rhoddi pwynt i ddynodi cyfeiriad y llinell yn y rhan hono o'r wlad.

Ond er nad ydyw Geliloth yn ymddangos drachefn yn y cyfieithiad awdurdodedig, ceir yr enw yn y gwreiddiol yn dynodi lle neillduol. Y mae yn tarddu o air sydd yn arwyddo *rholio.* Defnyddir ef bum gwaith yn y Beibl—unwaith i ddynodi terfyn (*Ios.* xiii. 2); "Holl derfynau y Philistiaid:" ac unwaith i ddynodi ardaloedd (*Ioel* iii. 4); "Holl ardaloedd Palestina:" a thair gwaith i ddynodi rhediad yr Iorddonen (*Ios.* xxii. 10, 11); "Cyffiniau yr Iorddonen:" "Bro y dwyrain:" (*Ezec.* xlviii. 8). Cofier fod Geliloth yn gorwedd yn nghymydogaeth yr Iorddonen.

GELYN—ION—IAETH: casddyn, gwrthwynebwr; casineb, dygasedd.

"Tri chosp Cristion ar ei elyn; maddeu iddo, tewi arno, a gwneuthur daioni iddo hyd eithaf ei allu."
*Barddas.*

Y mae y Beibl yn dangos fod dyn wrth naturiaeth mewn cyflwr o elyniaeth tuag at Dduw. "Os pan oeddym yn elynion;" *Rhuf.* v. 10. "A chwithau pan oeddych ddyeithriaid a gelynion mewn meddwl, trwy weithredoedd drwg;" *Col.* i. 21. "Syniad y cnawd sydd elyniaeth yn erbyn Duw;" *Rhuf.* viii. 7. Ymddengys fod y gair *gelynion* yn cael ei gymhwyso at ddynion mewn golygiad dyblyg, sef gyda golwg ar ansawdd foesol eu meddyliau tuag at Dduw, a chyda golwg ar eu perthynas â Duw, fel Barnwr, fel y maent yn wrthddrychau ei anfoddlonrwydd. Golygir y cyntaf yn fwyaf neillduol mewn rhai manau, a'r olaf felly mewn manau ereill. Y mae Hodge yn barnu mai cyflwr o elyniaeth a olygir yn benaf yn *Rhuf.* v. 10; "Os pan oeddym yn elynion, y'n heddychwyd â Duw trwy farwolaeth ei Fab ef." Yn y geiriau blaenorol rhoddir yr arbenigrwydd i ansawdd dufewnol y meddwl tuag at Dduw; edrychir ar ddyn fel pechadur ac annuwiol; ond yn *adn.* 10, edrychir arno fel gelyn, fel gwrthddrych anfoddlonrwydd Duw. Felly, wrth gymmodi dyn â Duw y meddylir yn fwyaf neillduol, ei wneuthur ef yn gymmodlawn tuag atom ni. "Y mae hyn yn amlwg," ebe Hodge, "yn ngwyneb yr ystyriaethau canlynol:—1. Am fod y cymmod yn cael ei briodoli i farwolaeth Crist, neu ei waed. Ond, yn unol â dysgrifiadau gwastadol yr Ysgrythyrau, gwaed Crist ydyw yr aberth i foddloni cyfiawnder dwyfol, ac i ennill ffafr Duw: hyn ydyw amcan uniongyrchol ei farwolaeth. 2. Amcan yr adnod ydyw gosod dynolryw allan fel gwrthddrychau yr anfoddlonrwydd dwyfol. 3. Hyn hefyd ydyw ystyr priodol y gair *cymmodi.*" Gwel 2 *Cor.* v. 18, 19. *Mat.* v. 24; "Dos yn gyntaf, a chymmoder di â'th frawd;" hyny yw, dos, a dyhudda ei ddigofaint, neu symmud ymaith yr achos o'i anfoddlonrwydd. "Archoffeiriad i wneuthur cymmod dros bechodau y bobl;" *Heb.* ii. 17. Gwaith priodol archoffeiriad ydyw gwneuthur cymmod â Duw, ac nid diwygio y bobl. Gwel hefyd 1 *Sam.* xxix. 4. Mae y cyd-destyn hefyd yn gofyn am i'r gair gael ei ddeall yn yr ystyr yma. Y mae "cymmodi â Duw trwy farwolaeth ei Fab" yn cyfateb yn amlwg i "wedi ein cyfiawnhau trwy ei waed ef;" ond nis gall yr olaf olygu cyfnewidiad wedi ei effeithio ar ein teimladau tuag at Dduw; ond ein bod wedi derbyn maddeuant, a'n

Digitized by Google

hadferu i'w ffafr. Hyn, gan hyny, a raid fod meddwl y gair arall. Heb law hyny, amcan yr apostol ydyw dangos mawredd a graslonrwydd cariad Duw, oddi wrth annheilyngdod y gwrthddrychau. Pan yn bechaduriaid, cawsom ein cyfiawnhau; pan yn elynion, cawsom ein cymmodi. Ond os esbonir y geiriau fel ag i osod allan y syniad, ein bod, pan yn elynion, wedi dodi heibio ein gelyniaeth, a dyfod yn gyfeillion i Dduw, byddent felly yn gwrthweithio amcan yr apostol. Yr un ydyw golygiad Calvin ar y geiriau; sef, eu bod yn golygu cyfnewidiad yn nghyflwr a pherthynas dyn, yn hytrach na chyfnewidiad ar ansawdd ei galon. Y mae yn debyg mai yr ystyr arall, yr ystyr weithredol, a berthyn i'r gair *gelynion* yn *Col.* i. 21—"gelynion mewn meddwl trwy weithredoedd drwg;" er fod Luther a Meyer yn barnu yn wahanol. Darllenant hwy y geiriau, "gelynion ar gyfrif eich meddyliau"—rhai yn gas gan Dduw ar gyfrif eich meddyliau annuwiol a llygredig. Ond nid yw yr esboniad yma mor gysson a'r un cyffredin—gelynion mewn meddwl. Y mae y gair *meddwl* yn dynodi eisteddle y tueddiadau; yn y meddwl, yn nyfnder enaid y dyn, y gorwedda yr elyniaeth. Nid rhyw nwyd arwynebol a diflanedig ydyw; ond gelyniaeth ymwreiddiedig yn y meddwl, wedi cydelfenu â'r galon, ffynonnell ei holl feddyliau, ei twriadau, a'i weithredoedd. Ac y mae yr elyniaeth yma yn dyfod i'r golwg mewn gweithredoedd o'r un natur a hi ei hun—gweithredoedd drwg. "Y mae yr apostol yn eu cyhuddo," ebe Eadie, "nid yn unig o elyniaeth ysbrydol cuddiedig at Dduw, ond o'r amlygiad o'r gelyniaeth hwnw mewn actau cyhoeddus o wrthryfel. Nid dyeithrwch annhueddol ydyw, ond gelyniaeth pendant." Nid oes dim yn amlycach na bod y darlun tywyll yma o ddyn yn wir. Y mae holl effeithiau gelyniaeth i'w hadnabod yn agwedd ei feddwl ac yn ei ymddygiadau. Y mae yn anhawdd dwyn pechadur sydd heb ei argyhoeddi o bechod i gydnabod gwirionedd hyn, sef ei fod cynddrwg a bod yn elyn i Dduw. Nid ydyw yn ymwybodol yn bresennol o ymgynhyrfiad nwyd o elyniaeth ato, megys y bu lawer gwaith at ei gyd-ddyn; ac am hyny y mae yn anfoddlawn i gredu fod dysgrifiad y Beibl o ddyn fel gelyn Duw yn gymhwysadwy ato ef: y mae, i'r gwrthwyneb, yn cymhwyso y dysgrifiad hwnw at y dosbarth mwyaf annuwiol o ddynion. Ond gellir sylwi ar hyn, mai nid am fod calon y pechadur yn rhydd oddi wrth elyniaeth, neu am fod yr elyniaeth yn wan, y mae y dyn heb ei theimlo. Pe buasai gan y dyn diargyhoeddedig y cyfryw syniad clir am Dduw ag sydd ganddo am y dyn ag y mae yn elyn iddo, buasai yr elyniaeth at Dduw yn gweithredu yn yr un dulliau ag y mae ei elyniaeth at ddyn yn gweithredu. Po agosaf ato y mae Duw yn dyfod, cryfaf ydyw gweithrediadau yr elyniaeth. Pan y mae Duw yn nesau ato, mewn rhyw oruchwyliaeth, neu mewn ymrysoniadau yn y gydwybod, iaith y dyn ydyw, "Cilia oddi wrthyf, canys nid ydwyf yn chwennych gwybod dy ffyrdd." Y mae yr elyniaeth yn dyfod i'r amlwg yn bresennol mewn anghof o Dduw, mewn gwrthdarawiad i bob peth ag sydd yn dwyn ei fod a'i briodoliaethau ger bron y meddwl: a chan ei bod yn gweithredu yn bresennol yn y ffurf yma, y mae yn amlwg nas gall weithredu ar yr un pryd yn y ffurf o falais ymwybodol ato; o blegid y mae y ffurf yma ar yr elyniaeth yn bosibl yn unig pan fyddo Duw wedi llanw holl feddyliau yr annuwiol. Y mae yr elyniaeth yn dyfod i'r golwg mewn llawer o bethau. "Y mae gelyniaeth dyn, yn ei gyflwr natur, yn ymddangos yn ei farn, ei archwaeth, ei ewyllys, ei serch, a'i ymarferiad. Y mae dynion yn meddwl yn uchel am y rhai y maent yn gyfeillion iddynt: ond y maent yn dueddol i goledd meddyliau isel am y rhai y maent yn elynion iddynt; ac edrychant yn ddiystyr ar y pethau sydd yn ganmoladwy ynddynt. Felly y mae dynolryw wrth naturiaeth gyda Duw. Coleddant feddyliau isel a dirmygus am dano. Iaith eu calon, gan nad beth fyddo yr ymddangosiad allanol, ydyw, "Pwy yw yr Arglwydd fel y gwasanaethom ef." Y mae eu hewyllysiau yn wrthdarawiadol i'w ewyllys ef. Y mae efe yn ewyllysio y pethau a gasânt hwy, a hwythau y pethau a gaseir ganddo yntau. Y mae eu serch a'u tueddiadau yn wrthwyneb i Dduw. "Y mae," ebe Jonathan Edwards, "yn mhob dyn anianol hadau o falais tuag at Dduw; ac y maent weithiau yn tori allan yn arswydus. Er y gall y malais hwn orwedd yn guddiedig i raddau mawr mewn amserau esmwyth, pan y mae yr Arglwydd yn gadael dynion yn llonydd, a phan na chythruddir hwy mewn na chorff na meddwl; eto os bydd i Dduw gyffwrdd â dynion yn eu cydwybodau, trwy ddadguddio iddynt rhyw ychydig o'i ddigofaint am eu pechodau, y mae hyn yn fynych yn deffro yr egwyddor o falais yn ei erbyn. Y mae y malais yn gweithredu yn ngwaith y galon yn ymgodi yn ei erbyn, ymrysonfeydd tu mewnol, a meddyliau cableddus; yn mha rai y mae y galon fel y wiber, yn chwythu ac yn poeri gwenwyn at Dduw." Y mae yr elyniaeth yn dyfod i'r golwg yn eu hymarferiadau. Y maent yn gwrthwynebu Duw yn ei ewyllys amlygedig. Tra y mae efe yn gwneyd un gwaith, y maent hwy yn gwneuthur gwaith arall: ymfyddinant dan faner Satan, i'r hwn y maent yn filwyr utudd i wrthwynebu teyrnas Dduw. Nid oes un math o feddyliau yn cael eu croesawu yn llai na meddyliau am Dduw. Os ydyw y dyn anianol yn teimlo rhyw fath o hoffder at Dduw, gallwn fod yn sicr mai Duw ei ddychymyg ei hun ydyw: y mae darluniad y Beibl o'r gwir a'r bywiol Dduw yn deffro gwrthdarawiad yn ei feddwl. Y mae sancteiddrwydd Duw yn berffeithrwydd yn ei natur nas gall y galon lygredig lai na theimlo gwrthdarawiad iddo.

"Ac a ddirymodd, trwy ei gnawd ei hun, y gelyniaeth, sef deddf y gorchymynion mewn ordeiniadau;" *Eph.* ii. 15. Y mae y gair *gelyniaeth* mewn cydosodiad (*opposition*) â "canolfur y gwahaniaeth" Barna Chrysostom a Theophylact, &c., mai gelyniaeth at Dduw a feddylir. Dichon fod y ffurf hwnw ar yr elyniaeth yn gynnwysedig yn y gair; eto y mae yn amlwg mai prif amcan yr apostol ydyw llefaru am y gwahaniaeth a'r pellder oedd rhwng Iuddewon a Chenedloedd. Y mae Cocceius, ac ereill, yn golygu fod gelyniaeth yr Iuddew a'r Cenedlddyn at eu gilydd, a gelyniaeth y ddau at Dduw, yn cael eu cynnwys yn yr ymadrodd. Y mae Calvin, Olshausen, a lluaws ereill, yn deall wrth "y gelyniaeth," y ddeddf seremoniol; yr hyn, y mae yn amlwg, oedd golygiad y cyfieithwyr Cymreig; y gelyniaeth, sef deddf y gorchymynion, &c. Y ddeddf seremoniol oedd achos y gelyniaeth rhwng Iuddewon a Chenedloedd. Y mae Meyer, Estius, ac Eadie, yn gwrthod y golygiad hwn, ac yn cymmeryd y gair yn ei ystyr eglur, fel yn arwyddo yr elyniaeth wirioneddol oedd yn bod rhwng Iuddewon a Chenedloedd; o'r hwn yr oedd

Digitized by Google

y ddeddf seremoniol yn achlysur. Yr elyniaeth ei hun a olygir, ac nid y ddeddf seremoniol. Os hyn yw y golygiad cywir, yr oedd gwaith y cyfieithwyr Cymraeg yn dodi *sef* i mewn yn ddiâlw am dano. Y gelyniaeth yma oedd fel canolfur o wahaniaeth rhyngddynt. Edrychai yr Iuddew i lawr gyda dirmyg ar y Cenedlddyn; a chasäai y Cenedlddyn yr Iuddew, gan ei gyfrif yn greadur uchelfrydig, ymffrostgar, a dideimlad. Y mae y profion o'r pellder a'r adgasedd yma o bob ochr yn lluosog. Mae y Testament Newydd yn dwyn tystiolaeth i'r dirmyg gyda pha un yr edrychai yr Iuddew ar y rhai dienwaededig (*Act.* xi. 3; xxii. 22; 1 *Thes.* ii. 15); tra y mae llyfrau y Groegiaid a'r Lladiniaid yn dangos fel yr oedd y Cenedloedd yn ad-dalu eu diystyrwch o honynt â'r diystyrwch cyffelyb. Dirymodd Iesu Grist y gelyniaeth hwn rhyngddynt trwy symmud ymaith yr hyn oedd yn achos o hono, sef y ddeddf seremoniol. Bellach, y mae yr Iuddew a'r Cenedlddyn ar yr un tir. Y mae yr elyniaeth rhyngddynt yn cael ei dirymu yn weithredol trwy "greu y ddau ynddo ei hun yn un dyn newydd." Dichon yr Iuddew a'r Cenedlddyn eto fod mewn gelyniaeth at eu gilydd, pan y mae y ddau allan o Grist; ond trwy gael eu huno âg ef, y mae yr elyniaeth yn darfod. Y mae y ddau yn cael eu dyrchafu i uwch sefyllfa nag y gallai y gyfraith eu codi iddi. Y mae y ddau yn awr yn "*un* dyn," am eu bod yn Nghrist, ac yn cydfwynhau yr un breintiau: ac y maent yn "un dyn *newydd*," am fod breintiau yr efengyl yn welliant mawr hyd yn oed ar ddeddf yr Iuddew, heb son am gyflwr didduw y Cenedlddyn.

**GEMALI**: tad Amiel, penaeth Dan, yr hwn a ddewiswyd i gynnrychioli y llwyth hwnw yn mhlith yr ysbiwyr a anfonwyd i chwilio Gwlad Canaan: *Num.* xiii. 12.

**GEMARAH.** Gwel TALMUD.

1. **GEMARIAH**, [*cyflawniad yr Arglwydd*]: mab Sophan yr ysgrifenydd, a thad Michaiah. Yr oedd efe yn un o bendefigion Iudah, ac yr oedd ganddo ystafell yn nhŷ yr Arglwydd, o'r hon (neu o ffenestr yn yr hon—Prideaux, Michaelis), y darllenodd Baruch brophwydoliaeth ddychrynllyd Ieremiah yn nghlyw y bobl, yn y flwyddyn c.c. 606; *Ier.* xxxvi. Gwrandawodd Gemariah a'r tywysogion ereill y genadwri gyda dychryn, ond heb un arwydd o edifeirwch; er fod Gemariah wedi ymuno â dau ereill i erfyn ar y brenin Iehoiacim beidio dinystrio y rhol yr oeddynt wedi ei chymmeryd oddi ar Baruch: *Ier.* xxxvi. 12, 13.

2. **GEMARIAH**: mab Hilciah, yr hwn a anfonwyd yn y flwyddyn 597 cyn Crist, gan y brenin Zedeciah ar neges at Nebuchodonosor, ac a gariodd lythyr oddi wrth Ieremiah y prophwyd at y gaethglud, yn eu rhybuddio i beidio cymmeryd eu twyllo y byddai iddynt ddychwelyd oddi yno hyd nes y cyflawnid y deng mlynedd a thrigain: *Ier.* xxix. 3, 4, &c.

**GEMAU.** Gwel MEINI GWERTHFAWR.

**GEMWAITH**, [*gem—gwaith*]: gwaith wedi ei harddu neu ei foglymu â gemau. "Gemwaith aur yw ei gwisg hi;" *Salm* xlv. 13. Y gair a gyfieithir *gemwaith* yn y lle hwn a gyfieithir *boglynau* yn *Exod.* xxviii. 11, 13; ac fe iernir ei fod yn arwyddo y cylchau yn y rhai y gosodid meini gwerthfawr ar wisgoedd pendefigesau. Fe allai fod cyfeiriad yn y geiriau at osodiad y meini mewn gwaith aur yn nwyfroneg yr archoffeiriad gynt: *Exod.* xxviii. 15—21. Defnyddir y gair yn y Salm i osod allan odidawgrwydd a harddwch yr eglwys wedi ei haddurno â grasau yr efengyl.

**GENAU**, [*ge—en*]. Mae y defnydd cyffredin o'r gair hwn mor hysbys fel nad ydyw yn gofyn unrhyw eglurhad; ond y mae y dull yn yr hwn y defnyddir ef yn yr Ysgrythyrau yn deilwng o sylw. *Safndrwm;* hyny yw, siarad yn arafaidd: felly y cyfieithir ef yn *Exod.* iv. 10. "Ac efe a ymddyddan âg ef enau yn ngenau" (*Ier.* xxxii. 4); hyny yw, heb gyfryngiad cyfieithydd. "Gosod y geiriau hyn yn ei enau ef" (*Exod.* iv. 15); hyny yw, hysbysa iddo beth a lefara. "Bod yn ngenau un," yw bod yn wyneb yn wyneb wrth siarad: *Exod.* xiii. 9. "Gosod y llaw ar y genau," yw bod yn ddystaw: *Barn.* xviii. 19; *Iob* xxi. 5; *Diar.* xxx. 32. "Ysgrifenu o enau un" ydyw ysgrifenu y geiriau a leferir ganddo â'i enau: *Ier.* xxxvi. 4, 27, 32; xlv. 1. Priodolir genau i'r Arglwydd yn yr Ysgrythyr; yr hyn yn gyffredin sydd yn arwyddo ei air neu ei awdurdod: *Esa.* i. 20; *Salm* cv. 5; *Esa.* xl. 5; lv. 11. Wrth "wialen ei enau," ac "ysbryd ei enau," y golygir awdurdod gair Duw yn gweithredu mewn grym er dinystrio ei elynion: *Esa.* xi. 4; 2 *Thes.* ii. 8. Arferir yr ymadrodd "nesau at Dduw â'r genau," i ddynodi gweddi ragrithiol, heb fod y galon ynddi: *Hos.* vi. 5; *Dad* xix. 15. "Agor genau un," yw ei gynnorthwyo i lefaru yn eglur a grymus: *Num.* xxii. 28; *Salm* li. 15. "Ffrwyno y genau" ydyw arfer gwyliadwriaeth ar y geiriau, rhag dywedyd dim allan o'i le: *Iago* i. 26; *Salm* xxxix. 1; cxli. 3.

**GENEDIGAETH CRIST.** Gwel CRIST; IESU.

**GENEDIGAETH-FRAINT**, [בכורה; *genedigaeth-braint;* Deg a Thrigain, πρωτότοκια]. Yr oedd y cyntafanedig yn mhlith yr Iuddewon, yn enwedig os mab a fyddai, yn wrthddrych o serch a hoffder neillduol i'w rieni, ac mewn ffordd o enwogrwydd gelwid ef פטר רחם=*pheter rechem.* Y mae y gair *genedigaeth-fraint* yn cael ei arfer er gosod allan y breintiau penodol y rhai a berthynent i'r mab cyntafanedig mewn teulu yn Israel ar wahân ac uwch law y plant a'r meibion ereill.

Cyn amser Moses, ymddengys fod gan y tad hawl i drosglwyddo rhagorfreintiau y gyntafanedigaeth oddi wrth y mab hynaf, os buasai yn dewis, a'u sefydlu ar rywun arall ieuangach o'i feibion; ond yr oedd hyn yn cael ei wahardd yn ol cyfraith Moses (*Deut.* xxi. 15—17). Yn mhlith rhagorfreintiau neillduol yr enedigaeth-fraint, gellir nodi y pethau canlynol:—

1. *Rhan ddyblyg o etifeddiaeth ei dad.* Y mae peth anhawsder pa beth yn hollol sydd i'w olygu wrth yr ymadrodd "deuparth o'r hyn oll a gaffer yn eiddo gŵr;" *Deut.* xxi. 17. Rhai a ddeallant wrth hyn fod y mab cyntafanedig yn cael hanner etifeddiaeth ei dad, a'r hanner arall yn cael ei rhanu yn gyfartal rhwng y brodyr ereill. Ond meddylia ereill nad yw hyn yn beth tebyg mewn un modd. Y Rabbiniaid a ddywedant mai cymmaint ddwywaith ag un o'r brodyr ereill a olygir. Pan ddygwyddai i'r cyntafanedig farw o flaen ei dad, a chyn i etifeddiaeth ei dad gael ei rhanu, a gadael o hono blant ar ei ol, yr oedd hawl y tad o'r *deuparth* o'r etifeddiaeth yn dyfod i feddiant

Digitized by Google

ei blant ef, ac nid i'w frawd, y nesaf ato o ran oedran.

2. *Bod yn gyssegredig i'r Arglwydd.* Myn amryw o'r doctoriaid Iuddewig, yn gystal ag amryw o ysgrifenwyr Cristionogol, fod y cyssegriad hwn i'r Arglwydd yn cynnwys fod y cyntafanedigion hyn yn fath o offeiriaid i'r Arglwydd. Ond y mae ereill, a hyny gyda llawer o debygolrwydd, yn barnu nad oedd yr hyn a elwir yn "offeiriadaeth y cyntafanedig" yn Israel, yn golygu dim yn rhagor na'u cyssegredigaeth i Dduw, yn ol deddf y sancteiddiad o bob gwryw a agorai y groth arno (*Exod.* xiii. 2; xxii. 29; xxxiv. 19); y rhai wedi hyny a gyfnewidiwyd am y Lefiaid, y rhai a gymmerwyd i fewn i'r swydd gyssegredig yn eu lle: *Num.* viii. 16—18. A thrwy fod yr offeiriadaeth wedi hyny wedi cael ei sefydlu yn llwyth Lefi, yr hwn lwyth yr oedd Duw wedi ei gymmeryd mewn cyfnewidiad am y cyntafanedigion, daeth eu sefyllfa neu eu safle yn nghenedl Israel i gael ei hystyried fel offeiriadaeth. Ond wrth edrych gyda rhyw radd o fanylwch, nid ydyw yn ymddangos fod y swydd offeiriadol wedi ei gosod i fyny yn rheolaidd yn Israel hyd nes y sefydlwyd offeiriadaeth Aaron — sef y cyfryw ag y gellid edrych arni fel yn gysgodol o offeiriadaeth Crist—ond yn unig Melchisedec, yr hwn oedd wedi ei alw i'r swydd hono mewn modd neillduol.—Gwel Dr. Owen ar *Heb.* xii. 16, 17; a *Dr. Owen's Exercitations,* xx.—xxxiv.

3. "Yr oedd y cyntafanedig hefyd yn mwynhau awdurdod ar y plant yn y teulu ag oeddynt yn ieuangach nag ef, yn gystal ag mewn amgylchiadau ereill, cyffelyb i'r hyn a feddiennid gan ei dad: *Gen.* xxv. 23, &c.; 2 *Cron.* xxi. 3, &c. Mewn cyssylltiad â hyn, y mae yn dra thebygol y byddai y mab hynaf yn y teulu yn Israel, yn absennoldeb ei dad, yn cymmeryd ei le, ac yn llanw ei swydd yn y cyfamser. A chan mai y penteulu yn yr oes batriarchaidd oedd yr athraw crefyddol yn y teulu, ac y byddai y mab hynaf yn cymmeryd y gorchwyl arno yn absennoldeb ei dad, y mae llawer o debygolrwydd mai oddi wrth hyny y daeth y syniad lled gyffredinol, fod yr enedigaeth-fraint yn cynnwys ynddi ddyrchafiad i'r offeiriadaeth; yr hyn, gellid meddwl, nad oedd yn cynnwys dim arall, ond y byddai y mab hynaf ar achlysuron, dan yr oruchwyliaeth batriarchaidd, yn ymgymmeryd â'r gwaith o weinyddu addysg a dyledswyddau crefyddol yn y teulu yn absennoldeb ei dad. Dan yr oruchwyliaeth batriarchaidd, ymddengys y gallai y tad drosglwyddo rhagorfraint y mab cyntafanedig i un arall o'i feibion, megys y gwnaeth Iacob gyda golwg ar Reuben; sef, sefydlu Iudah yn ei le i fwynhau rhagorfreintiau yr enedigaeth-fraint; ond, fel y sylwyd yn barod, yr oedd hyny yn cael ei wahardd dan yr oruchwyliaeth Foesenaidd. Pan y daeth breninoedd i gael eu sefydlu yn Israel, y mab cyntafanedig bob amser oedd cyfiawn etifedd y goron, oddigerth fod rhyw gyfryngiad neillduol o eiddo Duw, megys yn ei berthynas â Solomon, yr hwn, er nad efe ydoedd y mab hynaf yn y teulu, eto, trwy osodiad neu gyfryngiad neillduol o eiddo Duw efe a benodwyd yn olynydd i Dafydd ei dad ar yr orsedd: 1 *Cron.* xxii. 10. Oddi wrth y rhagorfreintiau uchod, y rhai a berthynant i enedigaeth-fraint, y mae yn canlyn yr edrychid ar y rhai a'u meddiannai fel personau o awdurdod, bri, a goruchafiaeth, a'r urddas uchaf (*Salm* lxxxix. 27; *Col.* i. 15); ac oddi wrth hyny y mae grym, ystyr, a phriodoldeb neillduol yn yr enwau a roddir ar y Cyfryngwr bendigedig. Yn *Rhuf.* viii. 29, dywedir am dano, "Fel y byddai efe yn gyntafanedig yn mhlith brodyr lawer;" ac yn *Col.* i. 18, gelwir ef mewn modd neillduol, "Yr hwn yw y dechreuad, y cyntafanedig oddi wrth y meirw; fel y byddai efe yn blaenori yn mhob peth." Ac yn *Heb.* i. 6, gosodir allan ragoriaeth y Cyfryngwr mewn modd neillduol; "A thrachefn pan yw yn dwyn y cyntafanedig i'r byd, y mae yn dywedyd, Ac addoled holl angelion Duw ef." Canys megys ag yr oedd yn perthyn i'r cyntafanedig ddeuparth o'r etifeddiaeth, felly y mae yn perthyn i'r Cyfryngwr bendigedig, yr Arglwydd Iesu Grist, etifeddiaeth, yr hon sydd yn anfeidrol ragorach, ac uwch law eiddo ei holl frodyr; canys y mae efe wedi ei ddyrchafu ar ddeheulaw y Mawredd yn y goruwchleoedd, lle y mae ganddo awdurdod ar bob peth, a lle y bydd yn teyrnasu, nes darostwng ei holl elynion dan ei draed. Ac efe hefyd yw yr Offeiriad Mawr ar dŷ Duw, yr hwn sydd wedi myned i mewn i'r nefoedd, y gwir gyssegr, trwy ei waed ei hun, gan gael i ni dragwyddol ryddhad.

Yr oedd y rhagorfreintiau uchod yn perthyn yn anwahanol i'r cyntafanedig. Ond heb law hyny, yr oedd yr hyn a elwid yn *fendith*—yr hon oedd yn rhedeg oddi wrth Abraham yn y llinell batriarchaidd—o dad i fab, ac yn cynnwys ynddi gynnulliad o bob rhagorfreintiau eglwysig, a chadwedigaeth o'r had addawedig. Mae yn wir fod y fendith hon ynddi ei hun yn hollol ar wahân oddi wrth ragorfreintiau yr enedigaeth-fraint: yn wir y mae Esau ei hun yn ei gwahaniaethu; yr hwn, pan yn cwyno yn erbyn ei frawd, sydd yn dywedyd, "Canys efe a'm disodlodd i ddwy waith bellach; dug fy ngenedigaeth-fraint; ac wele yn awr efe a ddygodd fy mendith;" *Gen.* xxvii. 36. Ond eto, er nad oedd y fendith yn gyssylltiedig anwahanol â'r enedigaeth-fraint, eto yr oedd dysgwyliad cyffredinol, ac fe allai cywir hefyd, y buasai yn cael ei throsglwyddo yn ol y cyntafanedigaeth. Mewn canlyniad, nid yn unig y mae Esau ei hun yn ei galw hi *ei fendith*—"yn awr efe a ddygodd *fy* mendith" (*adn.* 36)—ond y mae Isaac hefyd ei hun yn ei galw felly; "ac a ddug *dy* fendith;" *Gen.* xxvii. 35. Y mae yn amlwg nad oedd y fendith hon yn eiddo Iacob trwy ddwyfol ragluniaethiad, canys y mae y canlyniad yn profi yn wahanol; ac nid oedd y fendith hon wedi dyfod yn eiddo iddo ef; trwy ununrhyw hawl neillduol ynddi trwy ffydd yn yr addewid, canys ni ddaeth i'w feddiant mewn gwirionedd; ond yn ol y drefn gyffredin, edrychid ar y fendith hon fel yn perthyn iddo; ac y mae yn amlwg hefyd fod Isaac ei dad yn golygu fod y fendith hon yn perthyn iddo; a dyma hefyd, fel y mae yn eglur, oedd ei ddysgwyliad yntau ei hun; ond yn hyn fe dorodd Duw linyn yr olyniaeth, ac a'i rhoddodd hi i Iacob. Yn awr, yn gymmaint ag nad oedd Iacob yn ei holl amcan yn ymgyrhaedd at awdurdod a chyfoeth personol—yn yr hyn yr oedd yn hollol foddlawn i'w frawd ragori yn mhell arno, yr hyn hefyd a wnaeth—ond at etifeddu y fendith batriarchaidd, yn yr hon yr oedd yr had addawedig a'r breintiau ysbrydol yn gynnwysedig, ac at yr hyn mewn modd neillduol yr oedd yr enedigaeth-fraint yn fynedfa allanol, yn gystal ag yn arwydd a sicrwydd o honynt; felly yr oedd Esau, trwy werthu ei enedigaeth-fraint, yn ymwrthod mewn gwirionedd â'i hawl i'r fendith, yr hon a ystyrid ganddo megys yn gyssylltiedig â hi. "Na bo un halogedig megys Esau, yr hwn am un saig o fwyd a

Digitized by Google

a chan fod y traeth yn llawn o fân geryg crynion, y mae yn edrych yn brydferth a dysglaer. Y mae y ffaith hon yn lled ryfedd pan ystyriwn ei fod yn agored i belydrau nerthol yr haul—fod llawer ffrwd gynhes a hallt yn rhedeg iddo—a'i fod yn cael ei gyflenwi gan yr Iorddonen, yr hon sydd yn rhuthro i'w ben gogleddol yn llifeiriant lleidiog a choch. Ceir digon o bysgod yn y llyn yn awr fel yn yr hen amserau. Mae rhai o'r un rhywogaeth ag a gafwyd yn y Nilus. Esgeulusir y pysgod, fel tir y wlad oddi amgylch, yn ddirfawr. Un cwch bychan ydyw unig gynnrychiolydd y llynges a orchuddient y llyn yn amserau y Testament Newydd.

Nid oes yn awr ddim ond "dystawrwydd pruddaidd ac unigol yn teyrnasu ar hyd glenydd Môr Gennesaret, y rhai yn yr hen amserau a frithid â dinasoedd mawrion a phoblogaidd. Mae saith allan o'r naw dinas y cyfeiriwyd atynt uchod yn awr yn adfeilion anghyfannedd. Meddiennir un, Magdala, gan hanner dwsin o fwthynod wedi eu gwneyd â chlai; ac nid ydyw Tiberias yn meddu ond ychydig weddillion truenus o'i lwyddiant blaenorol.

GENESIS. Y cyntaf o Bum Llyfr Moses.

1. *Teitl a dosraniad y llyfr.* Gelwir y llyfr gan yr Iuddewon בראשית, B'reshith, oddi wrth y gair cyntaf yn y llyfr—"Yn y dechreuad." Gelwir ef yn mysg Cristionogion Γένεσις, Genesis; yr hwn yw y teitl a roddir iddo yn nghyfieithiad y Deg a Thrigain—ystyr pa un ydyw *cenhedliad* neu *cread*, am ei fod yn cynnwys yr hanes am ddygiad pob peth i fod, am genhedlaethau y nefoedd a'r ddaiar y dydd y crewyd hwynt, ac am y ceir ynddo restr o genedlaethau Adda a'r patrieirch. Y mae yr Iuddewon yn dosbarthu y llyfr i ddeuddeg *paraschioth*, neu brif ranau, ac i dri a deugain *siderim*, neu adraniadau. Ond gellir yn fwy priodol ei ddosbarthu i ddwy brif ran—y gyntaf yn cynnwys math o ragarweiniad cyffredinol, nid yn unig i'r Pum Llyfr, ond i'r holl Ysgrythyrau. Y mae y rhagarweiniad hwn yn cynnwys hanes creadigaeth nefoedd a daiar, a hanes boreuol dynolryw. Yr ail brif ran ydyw hanes boreuol cenedl Israel. Y mae y ddwy brif ran yn cynnwys yr adraniadau canlynol.

I. *Y rhagarweiniad cyffredinol: pen.* i. hyd xi.

1. Y greadigaeth (i—ii. 3).
2. Gardd Paradwys a'r cwymp (ii. 4—iii. 24.
3. Y cenedlaethau rhwng Adda a Noah (iv. 1—v. 32).
4. Y dylif (vi—ix.).
5. Cenedlaethau Noah (x.).
6. Twr Babel a chymmysgiad yr ieithoedd (xi. 1—9).
7. Y cenedlaethau rhwng Moab ac Abraham (xi. 10—32).

II. *Hanes boreuol cenedl Israel.*

1. Hanes Abraham a Lot (xii. 1—xxv. 11).
2. Hanes Ismael ac Isaac (xxv. 12.—xxviii. 9).
3. Hanes Iacob ac Esau (xxviii. 10—xxxvi. 43).
4. Hanes Ioseph, a sefydliad teulu Iacob yn yr Aipht (xxxvii—l).

Y dosbarthiad uchod ydyw yr un a gymmeradwyir fwyaf gan Kalisch; ond y mae Davidson ac ereill yn ei ddosbarthu i bump o adraniadau. Cynwysir y brif ran gyntaf mewn dwy adran; sef o'r cread hyd y diluw, ac o'r diluw hyd alwad Abraham. Dosberthir yr ail brif ran i dair o adraniadau: sef hanes Abraham, Isaac, ac Iacob. Yn ol y dosbarthiad hwn, gellir rhoddi golygiad cryno ar gynnwysiad y llyfr yn y drefn ganlynol:—

(1.) Adroddiad o hanes creadigaeth y byd, creadigaeth dyn, ei sefydliad yn Mharadwys, ei gwymp, â'i fwriad allan o'r ardd. Dilynir hyn â hanes hiliogaeth Adda hyd Noah; yn amser yr hwn yr amlygodd yr Arglwydd ei fwriad i ddinystrio y byd â dwfr, ond i arbed Noah gyflawn a'i deulu (i—v).

(2.) Y mae Noah yn derbyn gorchymyn i adeiladu arch, yn yr hon y cedwid ef a'i deulu rhag y dylif. Ar ol y dylif hysbysir y ffaith fod y byd newydd i gael ei boblogi gan dri mab Noah. Y mae Noah yn rhagfynegu y pethau a ddygwyddant mewn amser i ddyfod i'w hiliogaeth. Dilynir hyn gan daflen o achau meibion Noah; yn cynnwys crybwylliad am rai o'r cenedloedd a ddaethant o honynt. Yna rhoddir adroddiad am gymmysgiad yr ieithoedd a gwasgariad dilynol dynolryw, yn nghyd â thaflen o ddisgynyddion Sem yn llinell hynafiaid Abraham (vi—xi.).

(3). Ar ol cwblhau hanes gyffredinol dynolryw, â yr awdwr yn mlaen gyda hanes neillduol y patrieirch. Y mae Abraham, gwreiddyn yr Israeliaid, yn cael ei alw o Ur y Caldeaid i fyned i Ganaan. Crybwyllir am y prif ddygwyddiadau a gymmerasant le yn ei fywyd, megys ei ymneillduad oddi wrth Lot, ei fuddugoliaeth ar y breninoedd, ei ymgyfarfyddiad â Melchisedec, genedigaeth Isaac a'r amgylchiadau anghyffredinol cyssylltiedig â'i enedigaeth, profi Abraham trwy ei orchymyn i offrymu ei unig fab Isaac, marwolaeth a chladdedigaeth Sarah, priodas Isaac â Rebecca, a phriodas Abraham â Cheturah. Gwelir hefyd natur y drafodaeth oedd rhwng y patriarch a'r tywysogion o'i amgylch. Bu farw Abraham yn 175 oed (xii.—xxv. 18).

(4.) Hanes Isaac. Prif ranau yr hanes hwn ydyw genedigaeth y gefeilliaid, Esau ac Iacob; ystryw a chynllun Rebecca i dwyllo Isaac, ac i ddwyn i Iacob y fendith a fwriadesid i Esau. Dilynir hyn âg ymadawiad Iacob i Mesopotamia at Laban ei ewythr, ei briodas, ei ddychweliad i Ganaan, ei gyfarfyddiad âg Esau, darostyngiad Dinah ei ferch, ei symmudiad i Bethel, marwolaeth Rahel, marwolaeth Isaac, a thaflen achyddol o hiliogaeth Esau (xxv. 9—xxxvi. 43).

(5.) Hanes y rhan olaf o fywyd Iacob, yn nghyd â hanes ei deulu hyd farwolaeth Ioseph; Ioseph yn cael ei ddwyn i'r Aipht a'i werthu i Potiphar. Yna ceir adroddiad o ymddygiad Iudah at Tamar. Dilynir hyny gan hanes llwyddiant Ioseph, a'i garchariad. Wedi ei ryddhau, dygir ef ger bron Pharoah; gwneir ef yn arolygwr ar wlad yr Aipht; gan drymder y newyn yn Nghanaan, y mae ei frodyr yn myned i'r Aipht i brynu ŷd; i ba rai, ar eu hail ymweliad, y mae Ioseph yn amlygu ei hun. Yna y mae Iacob yn myned i waered i'r Aipht, ac yn ymsefydlu yno, efe a'i deulu; ac wrth farw, y mae yn rhagfynegu yr hyn a ddeuai i'r deuddeg patriarch—beth fyddai nodwedd a thynged pob un o'u llwythau. Y mae ei gorff yn cael ei berarogli, a'i ddwyn i Ganaan i'w gladdu yn Macpela. Yna ceir crybwylliad am farwolaeth a chladdedigaeth Ioseph. Gyda hyn y terfyna y llyfr. Y mae y golygiad brasaf, fel hyn, ar gynnwysiad Genesis, yn ddigon i ddangos mai nid crynhoad o hen gofnodau ydyw, wedi eu dodi wrth eu gilydd heb un olwg ar gynllun a threfn. Y mae yn amlwg fod y llyfr wedi ei gyfansoddi wrth gynllun, a bod un drychfeddwl yn rhedeg trwyddo.

III. *Pwysigrwydd y llyfr yn ei gyssylltiad â llyfrau*

ewyllys Duw; gwaith ei gariad yw. Nid oedd neb ond efe yn bod cyn amser. Eto nid egwyddor ddifywyd ydyw, heb allu ennyn gobeithion dyn, na chynnal ei feddwl; yn analluog i broti cydymdeimlad ei hun, ac i'w ennyn mewn ereill; yn gysgod, yn hytrach nag yn ysbryd personol."—*Kalisch on Genesis.* Y Duw a wnaeth y byd ydyw ei lywodraethwr hefyd. Y mae y drychfeddwl am dano fel Creawdwr yn gwneyd y drychfeddwl am dano fel llywodraethwr yn angenrheidiol; o blegid ynddo ef ei hunan y trig pob gallu: yr hwn a ddygodd y greadigaeth i fod yn unig a ddichon ei llywodraethu. Y mae hyd yn oed yr awdwyr na chyfrifir yn uniongred, ond a feddant radd o barch i'r Beibl, yn cydnabod fod athrawiaeth Llyfr Genesis ar greadigaeth y byd yn anfesurol uwch na dysgeidiaeth un gyfundraeth arall ar yr un mater; ac nid yn unig yn uwch, ond yn hollol wrthwyneb. "Y mae," ebe un awdwr, "yn gwbl gyfeiliornus meddwl fod Moses wedi derbyn ei syniadau ar hyn oddi wrth ddoethineb yr Aipht. Nid oedd yr Aiphtiaid wedi cael y syniad erioed mai o ddim y crewyd y byd. Y mae Duw Moses nid yn unig yn annherfynol yn ei allu a'i ddoethineb, yr hyn yn wir a briodolid i'w duwiau gan genedloedd barbaraidd, ond y mae hefyd yn annherfynol yn ei gariad; yn annibynol ar bob hanfodiad arall, yn creu pob peth, ond ei hunan yn ddigreedig, a chan hyny yn anghyfnewidiol; yn fod perffaith a rhydd, am nad yw yn ddarostyngedig i un angenrheidrwydd; yn hollbresennol, am ei fod yn gwylio gyda gofal ei holl weithredoedd. *He is at once the most perfect ideal and the completest reality;* y mae ei feddyliau yn greadigaethau:—fel hyn y mae dechreu cyntaf y Canon Ysgrythyrol yn dadguddio perffeithiau goruchaf y Duwdod; y mae yn cynnwys yr egwyddor arweiniol, sylfaenol, ar ba un y mae yr holl gyfundraeth Ysgrythyrol yn gorphwys, y gwreiddyn nerthol o'r hwn y mae holl wirionedd crefydd wedi tarddu."

Y mae pwysigrwydd cyffelyb yn perthyn i ddysgeidiaeth Llyfr Genesis ar gwymp dyn. Gwelir yma fod dyn wedi syrthio trwy demtasiwn y diafol, a thrwy ŵyriad ei ewyllys ei hun; ac nid trwy nerth dim angenrheidrwydd oedd yn gynhenid yn ei natur i bechod. Pechodd trwy anufuddhau i orchymyn esmwyth ei Greawdwr. Yn Genesis, ac yn athrawiaeth y Beibl mewn manau ereill, yn seiliedig ar yr hanes yn Genesis, y ceir yr unig olwg gywir ar bechod dyn, ar faint ei wrthryfel, ac ar ddyfnder ei drueni. Ac ar yr athrawiaeth hon am gwymp dyn y cyfodir yr athrawiaeth am ei adferiad.

Y mae pwysigrwydd Llyfr Genesis yn ymddangos wrth edrych arno mewn cyssylltiad â'r holl lyfrau dilynol yn yr Hen Destament a'r Newydd. Dywed Luther am dano—"*Nihil* pulchrius Genesi, nihil utilius"=Nid oes un llyfr yn fwy prydferth nac yn fwy buddiol na Genesis. Ac yn mysg amrywiol bethau yn mha rai y mae ei brydferthwch a'i fuddioldeb yn gynnwysedig, nid y lleiaf ydyw ei berthynas â'r holl lyfrau dilynol fel sylfaen y cwbl. Yn Genesis y mae sail y dadguddiad dwyfol yn cael ei dodi i lawr, ac arni hi yr adeiledir yr holl ddadguddiadau dilynol. Yn Genesis y mae yr holl gyfraith yn gorphwys, ac y mae yr holl Hen Destament yn crogi arni hithau. Y mae cynllun iachawdwriaeth, yr hwn sydd yn cael ei ddadblygu yn raddol yn y prophwydi a'r Salmau, a'i berffeithio yn y Testament Newydd, yn gynnwysedig yn yr hedyn o hono, yn nechreu Llyfr Genesis. Y mae Delitsch yn sylwi fod llyfrau Moses yn cadw yr un lle yn yr Hen Destament ag y gwna yr Efengylau yn y Newydd—megys mai y naill yw sail yr Hen Destament, felly y lleill yw sail y Newydd. Byddai yr Hen yn anmhosibl i'w ddeall oni bai am Genesis, a byddai y newydd yn gwbl annealladwy oni bai am yr Efengylau. Ac nid yn unig y mae llyfrau cyntaf y ddau Destament yn cyfateb i'w gilydd, ond y mae dechreuad y naill a diwedd y llall yn dal y cyssylltiad agosaf: y naill yw Alpha y dadguddiad, y llall yw ei Omega: yn Genesis y ceir ei sylfaen, ac yn Nadguddiad Ioan y duwinydd y gwelir y gwaith wedi ei gwblhau a'i berffeithio. Fel y mae y cyrff nefol yn cwblhau eu cylchoedd, felly hefyd y mae y dadguddiad dwyfol yn cwblhau ei gylch, wrth edrych arno yn dechreu yn Genesis ac yn diweddu yn ngweledigaethau Ioan. Y mae y cylch yn dychwelyd i'r fan y dechreuodd. Nid oes dim yn fwy tarawiadol na'r cyferbyniadau a ganfyddir rhwng dechreu Genesis a diwedd Llyfr y Dadguddiad. Y mae y Beibl yn agor ac yn cau gyda hanes Duw yn creu. Dechreua trwy ddyweyd, "Yn y dechreuad y creodd Duw y nefoedd a'r ddaiar." Ond gan fod dyfodiad pechod i mewn wedi difwyno gogoniant y greadigaeth gyntaf, ac anmharu ei threfn a'i chydgordiad, yr ydym yn cael yn agos i ddiwedd y Beibl hysbysiad cyffelyb am "nefoedd newydd a daiar newydd"—a'r rhai cyntaf wedi myned heibio. Ac y mae y cyferbyniad yn cyrhaedd hyd at fanylion y ddwy greadigaeth. Yn yr Hen, ni a gawn Adda fel ei diwedd: yn y Newydd, yr Ail Adda fel ei dechreuad. Yn Genesis, mae hanes y greadigaeth yn cael ei ddilyn gan hanes cwymp dyn, a'r felldith a gyhoeddwyd ar y sarff ac ar y ddaiar, a'r ddedfryd o farwolaeth a gyhoeddwyd ar ddyn, yn nghyd â'r gofidiau a'r poenau cynnwysedig yn y ddedfryd hono: ond yn niwedd y dadguddiad y mae y perthynasau eu oedd wedi eu dryllio yn cael eu hailgyfanu, a'r sefyllfa o annhrefn y dygwyd pethau iddynt yn cael ei gwellhau, oddi eithr yn unig y sarff—"yr hen sarff, diafol, a Satan"—yn cael ei gadael yn ngafael y condemniad. "A phob melldith ni bydd mwyach; a marwolaeth ni bydd mwyach, na thristwch, na llefain, na phoen, ni bydd mwyach." Y mae pob peth wedi eu gwneuthur o newydd. Cafodd y dyn, am ei anufudd-dod, ei fwrw ymaith o ardd paradwys—paradwys Genesis—a gofalwyd am ei rwystro i ddychwelyd yno, rhag iddo estyn allan ei law a chymmeryd o ffrwyth pren y bywyd, a bwyta a byw yn dragywyddol: ond yn Llyfr y Dadguddiad, y mae Paradwys wedi cael ei hadennill. "I'r Hwn sydd yn gorchfygu y rhoddaf iddo fwyta o bren y bywyd, yr hwn sydd yn nghanol paradwys Duw" (*Dad.* ii. 7.) Y mae ffordd rydd i ddinasyddion yr Ierusalem Newydd at bren y bywyd; "Gwyn eu byd y rhai sydd yn gwneuthur ei orchymynion ef, fel y byddo iddynt fraint yn mhren y bywyd, ac y gallant fyned i mewn trwy y pyrth i'r ddinas;" *Dad.* xxii. 14. Megys mai trwy anufudd-dod y collodd dyn ardd paradwys, ac y gwaharddwyd pren y bywyd iddo, felly trwy ufudd-dod, trwy "wneuthur ei orchymynion ef," y sicrheir paradwys drachefn iddo, ac yr adferir ef i fwy o ragorfreintiau nag a gollodd. Y mae y cymundeb fuasai rhwng Duw a dyn wedi peidio trwy bechod. Yn Genesis, gwelir y dyn yn ymguddio o ŵydd Duw; ond yn y Dadguddiad, y mae y cymundeb

Digitized by Google

hwn wedi ei adferu. Clywir dyn yn dyheu am Dduw, "Yn wir, tyred Arglwydd Iesu." Y mae heddwch wedi ei sefydlu rhwng daiar a nefoedd, dyn ac angel:—"Cydwas ydwyf â thi, ac â'th frodyr y prophwydi." Fel hyn, y mae yr holl Ysgrythyrau yn cyfansoddi un cyfanwaith gogoneddus; yr hyn sydd yn profi fod y cydgasgliad o ysgrifeniadau a gynnwysir yn y Beibl yn waith Ysbryd Duw.

II. AWDURIAETH LLYFR GENESIS.

1. *Rhesymau dros briodoli ei awduriaeth i Moses.* Cyfeiriwn ein darllenwyr at yr erthygl PUM LLYFR (*Pentateuch*). Ond gan fod gwrthwynebwyr y grediniaeth gyffredin am awduriaeth y Pum Llyfr yn gwneyd eu hymosodiadau yn benaf ar ddilysrwydd Llyfr Genesis, byddai yn briodol i ni edrych ar awduriaeth y llyfr hwn ar wahân. Gellir crynhoi y prif resymau o blaid dilysrwydd y Pum Llyfr mewn ychydig linellau, yn y modd canlynol:—

Yn mysg yr ysgrifeniadau a dderbyniasom oddi wrth yr Iuddewon, y rhai a fernid ganddynt hwy yn "Ysgrythyrau Sanctaidd," y mae Pum Llyfr Moses, y rhai a olygir ganddynt fel yn ffurfio, gyda'u gilydd, un gwaith mawr; ac y mae y gwaith hwn wedi cael ei briodoli, trwy yr oesoedd, a chyda'r unfrydedd mwyaf, i Moses eu deddfwr a'u harweinydd. Y mae yr hyn oll a wyddom am Moses—ei ddygiad i fyny, y manteision a gafodd yn yr Aipht, y cymhwysderau uchel a gydnabyddir fod ganddo, yn ei nodi allan fel y dyn mwyaf cymhwys i wneuthur y cyfryw waith ag ysgrifenu y llyfr sydd ar ei enw. Mae yn ddiammheuol fod y Pum Llyfr wedi ei gyfansoddi mewn oes pur fore: nid oes un llyfr na chasgliad o lyfrau, yn awr mewn bod, ag sydd yn dwyn arnynt y fath argraff o hynafiaeth. Y mae yn gyfryw ag a ddysgwylid oddi wrth ysgrifenwr fyddai yn byw yn yr un oes, dan yr un amgylchiadau, wedi derbyn yr un addysg a manteision, ac yn feddiannol ar yr un cymmeriad a Moses. Y mae hyd yn oed y darllenydd Cymreig yn teimlo ei fod mewn cyfarfyddiad âg arddull o feddwl ac ysgrifenu sydd yn fwy hynafol a dysyml nag a geir, nid yn unig yn yr ysgrifeniadau clasurol hynaf, ond hefyd mewn un rhan arall o'r Beibl. "Y mae y bywyd a ddysgrifir, y drychfeddyliau a'r cymmeriadau, yn meddu o'u deutu naws wirioneddol y cynamseroedd."—[*Rawlinson in "Aids to Faith"*]. Y mae y llyfrau hefyd yn hòni eu bod yn eiddo Moses. Ac y mae un o amddiffynwyr dilysrwydd y Pum Llyfr yn sylwi ei bod yn rheol mewn beirniadaeth lenyddol i lyfr neu lyfrau gael eu cyfrif fel cynnyrchion yr awdwyr ag y mae eu henwau wrthynt, os na welir rhesymau digonol i'r gwrthwyneb. "Mewn llenyddiaeth gyffredin, y mae y rheol hon yn cael ei chydnabod yn ddigonol i benderfynu awduriaeth pedwar ar bymtheg a phedwar ugain allan o bob cant o'r llyfrau yn ein llyfrgelloedd. Y mae y rhan fwyaf sydd yn cyfansoddi llyfrau o ddim pwysigrwydd a gwerth yn eu hawlio yn ystod eu bywyd: y mae eu hawl, os bydd yn sicr a diammheuol, yn cael ei gydnabod gan y cyffredin; ac nid oes dim yn fwy anhawdd na newid y gred hon yn ddilynol. Y mae pob gwaith, gan hyny, sydd yn dyfod i lawr atom fel gwaith rhyw awdwr neillduol, i gael ei dderbyn fel ei waith ef, oddi eithr y dygir yn mlaen seiliau cryfion i'r gwrthwyneb." Drachefn, y mae ei awdwr yn arddangos y gydnabyddiaeth fwyaf helaeth a manwl â'r Aipht a'i holl hanes, ei daiaryddiaeth, ei harferion, a'i hiaith—cydnabyddiaeth fuasai yn naturiol i ddyn yn yr un amgylchiadau a Moses, ond nad oes y tebygolrwydd lleiaf y gallasai neb arall o'r Israeliaid ei meddu hyd amser Ieremiah. Gall y darllenydd, wrth ddarllen gwaith Hengstenberg ar yr Aipht a Moses, weled ymdriniaeth helaeth ar hyn. Y mae y Pum Llyfr hefyd yn rhagarweiniol i'r holl lyfrau Iuddewig ereill: arnynt hwy, fel eu sylfaen, y gorphwysa holl gred a holl ddefodau yr Iuddewon. Lleferir am lyfrau Moses, gwneir dyfyniadau o honynt, a chyfeiriadau lluosog atynt, yn yr holl lyfrau Iuddewig dilynol. Y mae y dull y cysylltir enw Moses â'r Pum Llyfr yn dangos yr hònir iddo awduriaeth yr holl waith, ac nid rhyw ranau bychain o hono. Lleferir yn y llyfrau Iuddewig ereill am y Pum Llyfr dan yr enw "y gyfraith"—"Cyfraith yr Arglwydd;" "llyfr y gyfraith;" "llyfr cyfraith Moses," &c.; ac y mae yn amlwg y cyfeirir yn y geiriau hyn at y casgliad hwn o lyfrau, fel y mae yn awr yn ein meddiant ni; ac nid at ryw draddodiad, neu fânysgrifau cynnwysedig yn y gwaith. Y mae gwirionedd hyn yn ymddangos oddi wrth y ffeithiau canlynol:—Darfu i Moses, ar gwblhad llyfr y gyfraith, ei draddodi yn gyhoeddus i'r Lefiaid, i gael ei roddi ganddynt hwy yn arch y cyfammod, a'i gadw ynddi hi yn ddiogel yn y sanctaidd sancteiddiolaf: *Deut.* xxxi. 24, 25, 26. Ei fod i gael ei ddarllen yn gyhoeddus i'r holl bobl, ar amserau gosodedig: *Deut.* xxxi. 10, 11. Fod y gwaith ei hun yn rhoddi hysbysrwydd o barth rhyfeddodau mawrion a wnaethpwyd trwy law Moses yn yr amser ag yr oedd efe yn arweinydd i Israel, y rhai oeddynt yn eithaf hysbys i'r holl bobl. Fod sefydliadau neillduol yr Israeliaid wedi eu sylfaenu ar y ffeithiau hyn: ac o'r argyhoeddiad cryf oedd gan y genedl o wirionedd y gwyrthiau a'r rhyfeddodau hyn y derbynient y cymhelliad i ufuddhau i'r gosodiadau. Buasai arosod y llyfrau hyn ar y genedl dan y cyfryw amgylchiadau yn anmhosibl: mae y ffaith fod Israel, er oesoedd boreuaf eu hanes, wedi derbyn y Pum Llyfr fel gwaith dilys eu deddfwr, yn brawf cryf o'i ddilysrwydd. Y Pum Llyfr oedd cyfraith y wlad: efe oedd eu safon mewn ystyr wladol a chrefyddol. Buasai hòniad uchel y Pum Llyfr fel awdurdod holl ddeddfau a barnedigaethau y genedl, yn enwedig gan fod rhai o'r deddfau hyny yn drymion ac anhawdd eu dwyn, yn gwneyd ffugio y cyfryw lyfr yn gwbl anmhosibl. Gellid dangos fod yn anmhosibl gwneyd y cyfryw ffugwaith (*forgery*) mewn un adeg rhwng amser Iosuah a diwedd tymmor y caethiwed yn Babilon. Ond gwel PUM LLYFR. Nid oes, gellir dyweyd yn ddibetrus, dystiolaethau mor luosog, mor gyflawn a phenderfynol, o blaid awduriaeth un hen lyfr ag sydd o blaid awduriaeth Foseaidd y Pum Llyfr. Sylwer ar y prawfiadau fel y maent yn cael eu gosod i lawr gan Jahn:—1. Nid oes un hen lyfr arall wedi cael ei gyhoeddi a'i wneuthur yn hysbys, mewn modd mor ddifrifol ac agored. 2. Nid oes un hen lyfr arall ag y mae ei awduriaeth mor sicr, neu yn gyfryw ag y gallesid gyda'r fath brinder o lyfrau, ei drosglwyddo i lawr i oesoedd dilynol gyda chymmaint o hawsder. 3. Ni chafodd un hen lyfr arall ei gadw a'i ddiogelu, fel y cafodd y Pum Llyfr, mewn lle cyhoeddus a chyssegredig, ac edrych arno gyda pharch gan genedl gyfan. 4. Ni chafodd un hen lyfr arall dystiolaeth gyhoeddus a pharhaus fel hwn oddi wrth gadwraeth gyhoeddus o'r cyfreithiau a gynnwysir ynddo, y rhai a gedwid i fesur mwy neu lai gan y genedl trwy yr

oesoedd. A chofler fod y cyfreithiau yn cael eu cadw o herwydd y rhesymau hyn—eu bod yn ysgrifenedig yn llyfrau Moses, ac wedi eu cyhoeddi ganddo ef trwy awdurdod Creawdwr y byd, yr hwn a foddasai ddynolryw â dwfr, a roddasai addewidion mawrion i'r patrieirch, ac a wnaethai ryfeddodau mawrion yn Nhir yr Aipht ac yn yr anialwch, y rhai a gofnodir yn y llyfr hwn er mwyn yr Israeliaid—eu holafiaid. Y mae tystiolaeth Iesu Grist a'i apostolion i awduriaeth dilys y Pum Llyfr yn brawf arall o'r fath gadarnaf.

Y mae yr holl brofion o blaid dilysrwydd y Pum Llyfr yn perthyn hefyd i Genesis. Y mae Genesis, fel y dangoswyd eisoes, yn rhan hanfodol o'r Pum Llyfr. Wrth adael Genesis yn y dechreu, fel y mae yn awr, y gellir canfod unoliaeth y Pum Llyfr; hebddo ef, byddai y llyfrau dilynol yn annealladwy, ac ni chyfansoddent un cyfanwaith. Y mae yr Iuddewon hefyd yn mhob oes wedi cyfrif ei awduriaeth i Moses, fel y gwnaent â'r pedwar llyfr arall. Y mae i'w gael yn mhob copi o'r Hen Destament ac yn mhob copi o'r Pum Llyfr. Dyfynir o hono a chyfeirir ato yn yr Hen Destament a'r Newydd braidd mor fynych ag y gwneir gyda'r pedwar llyfr arall.

Y mae dilysrwydd Llyfr Genesis yn cael ei gadarnhau gan yr ystyriaeth o'i unoliaeth â'r pedwar llyfr dilynol. Os profir eu bod hwy wedi eu hysgrifenu gan Moses, y mae eu cyssylltiad hwy â Genesis yn gwneuthur dilysrwydd yr olaf yn ddiammheuol; o blegid y mae Genesis yn cynnwys adroddiad o'r pethau sydd yn angenrheidiol i ddeall y pethau a adroddid yn y lleill. Ar ol mynegu am ddechreuad pob peth, a'r hanes hwnw yn cynnwys elfenau cyntaf y wybodaeth o'r gwir Dduw, a pherthynas dyn âg ef, ac ar ol traethu yr hanes am wasgariad dynolryw, y mae y llyfr yn cyfyngu ei hun gyda hanes un teulu, Heber, ac yn dethol un o'r teulu hwnw, Abraham, fel prif wrthddrych yr hanes. Gellir edrych ar Genesis bellach fel bywgraffiad o Abraham, Isaac, ac Iacob: nid yw yr hanesydd yn gwyro ar y ddeheu na'r aswy oddi wrth hanes y patriarch; mae yr holl ddygwyddiadau a gofnodir yn dwyn rhyw gyssylltiad â hwy. Cyfeiria at darddiad rhai o arferion yr Israeliaid (*Gen.* xxxii. 32), gwreiddyn eu haberthau, a'u defodau, megys yr enwaediad. Yn hanes Ioseph, gwelir yr amgylchiadau dan ba rai y sefydlodd hynafiaid y genedl yn yr Aipht. Os addefir gan hyny, fod y llyfrau ereill wedi eu hysgrifenu gan Moses, y mae yn rhaid addef hefyd mai efe oedd awdwr Genesis. Y mae yn hawdd canfod eu cyssylltiad hwy â'u gilydd; eto, heb Genesis, ni chyfansoddent un gwaith cyfan; byddai y llyfrau ereill heb un dechreuad priodol. Oddi eithr fod Genesis yn waith dilys Moses, ebe Rosenmüller, nid allasai yr Hebreaid wybod pwy oedd Duw eu tadau; yr hwn, er hyny, a anrhydeddent fel eu brenin a'u deddfroddwr: buasent mewn anwybodaeth o barth yr addewidion a wnaethpwyd gan Dduw i'w hynafiaid, am y rhai y gwneir crybwylliadau mynych yn llyfrau ereill Moses (*Exod.* vi. 4; xiii. 5; *Deut.* i. 8; ix. 5; xxix. 13; xxx. 20; xxxiv. 4 (cymharer â *Gen.* xii. 7); xiii. 15; xv. 18; xvii. 8; xxiv. 7; xxvi. 3, 4; i. 24). Pan orchymynir cadwraeth y seithfed dydd (*Exod.* xx. 11; xxxi. 16, 17); cyfeirir yn amlwg at yr hanes yn *Gen.* ii. 2, 3. Cymharer yr adroddiad am symmudiad esgyrn Ioseph o'r Aipht, yn *Exod.* xiii. 19, â *Gen.* l. 25; hefyd *Lef.* xvii. 14, â *Gen.* ix. 4; *Num.* xxiii. 24, a xxiv. 19, â *Gen.* xlix. 9; *Deut.* ii. 5, â *Gen.* xxxvi. 8; hefyd *Deut.* ii. 12, â *Gen.* xiv. 6; xxxvi. 20; hefyd *Deut.* xxix. 28; â *Gen.* xix. 24. Dadleuir fod y rhan fwyaf o'r geiriau yn Genesis ag y cyfeirir atynt yn llyfrau ereill Moses i'w cael yn y rhan olaf o Genesis; sef y rhan ar ol yr unfed bennod ar ddeg, ar ba un (yr xi. *pen.* cyntaf) y gwneir y prif ymosodiad: ond y mae dau o'r cyfeiriadau uchod yn dwyn perthynas â'r rhanau cyntaf o Genesis; sef *pen.* ii. 2, 3, a ix. 14. Y mae rhai o feirniaid yr Almaen yn ceisio profi fod y pennodau cyntaf yn Genesis yn waith oes llawer mwy diweddar—mor ddiweddar a'r caethgludiad i Babilon. Ond y mae y dybiaeth hon yn hollol ddisail. Un prawf o hyny ydyw y cyfeiriadau lluosog at bethau a gofnodir ynddynt hwy, ac ynddynt hwy yn unig, yn yr Hen Destament a'r Newydd. Y mae yn amlwg fod Iesu Grist a'i apostolion yn derbyn Llyfr Genesis yn y wedd ag y mae genym ni yn awr. Pan y mae Crist yn eglurhau deddf priodas yn *Mat.* xix. 4, 5, y mae yn cyfeirio at *Gen.* i. 27, a ii. 24; ac y mae hyd yn oed yn dyfynu geiriau Genesis. Yn *Mat.* xxiv. 38, 39, y mae yn cyfeirio at y dylif, ac at gadwraeth Noah, yn ol yr hanes yn *Gen.* vi. 10—13. Ar un modd y mae Pedr (2 *Pedr* ii. 5; 2 *Pedr* iii. 6), yn cyfeirio at yr un amgylchiad. Y mae awdwr yr Epistol at yr Hebreaid, yn *pen.* xi. 3, yn cyfeirio at greadigaeth y byd, yn ol *Gen.* i. 1, 2; ac yn *Heb.* xi. 4, at offrymiad Abel, a'i lofruddiaeth gan Cain, yn ol *Gen.* iv. 2—8. Crybwyllir am ymadawiad Enoch, heb weled marwolaeth, yn yr un bennod; a gwneir cyfeiriad at yr un dygwyddiad gan Iudas, *adn.* 14. Sonia Paul hefyd (*Rhuf.* 5), am gamwedd Adda: gwna hyny yn fwy hanesyddol yn 1 *Tim.* ii. 13, 14; lle y cyfeirir at *Gen.* i. 27; ii. 7; xviii. 20—22, a iii 1—7. Os ydyw tystiolaeth y Testament Newydd yn haeddu derbyniad, y mae yn amlwg ei fod yn cadarnhau gwirionedd Llyfr Genesis; ac nid yn unig ei wirionedd hanesyddol, ond ei awduriaeth Foseaidd; o blegid edrychir arno fel rhan o'r gyfraith:—dywedir unwaith ac eilwaith mai Moses a wnaeth y peth hyn, neu a ddywedodd y peth arall.

Y mae yn ffaith o gryn ddyddordeb fod tystiolaethau yr ysgrifenwyr paganaidd yn cydredeg â, ac yn cadarnhau, y profion uchod o ddilysrwydd Genesis, a'r pedwar llyfr dilynol. Cyfeirir ynddynt at Moses: weithiau nodir ef wrth ei enw, fel deddfwr cenedl Israel, ac fel yr enwocaf yn mysg ysgrifenwyr eu llyfrau sanctaidd. Ac y mae y ffaith fod yr ysgrifenwyr paganaidd yn coledd rhagfarn cryf yn erbyn yr Iuddewon, ac yn erbyn eu deddfau a'u crefydd, yn gwneyd eu tystiolaeth yn llawer mwy pwysig. Ni a roddwn nifer o'r tystiolaethau hyn. Y mae Josephus, yn ei lyfr yn erbyn Apion [llyfr i. adr. 26], yn dyfynu rhanau o ysgrifeniadau yr Aiphtiad Manetho, ac o Cheremon, Apollonius, Lysimmachus, ac ereill—gweithiau oedd yn adnabyddus yn ei ddyddiau ef, ond ydynt yn awr ar goll. Y mae y dyfyniadau hyn yn cytuno â'u gilydd o barth i Moses—mai efe oedd arweinydd yr Iuddewon yn adeg eu hymadawiad o'r Aipht, ac mai efe oedd awdwr eu deddfau. Y mae y ffaith fod y rhanau hyn yn cynnwys awgrymiadau sarhaus am yr Iuddewon yn brawf fod Josephus wedi eu dyfynu yn gywir. Y mae Eusebius hefyd [*Præp. Evang.*, cyf. 9, pen. 26, 29], yn dyfynu rhanau o ystyr cyffelyb, o *Eupolemus* ac *Artopanas*. Y mae Strabo hefyd yn rhoddi crybwylliadau am gyfraith Moses, fel yr oedd yn gwarafun delwau, ac yn cyfyngu addoliad i'r Duw anweledig. Gwna Celsus gyfeiriadau mynych at Moses, yn y rhai

Digitized by Google

y dengys gydnabyddiaeth â hanes boreuol y genedl. Dywed Justin (o Trogus Pompeius) fod Moses, ar ol cael ei ymlid o'r Aipht, wedi arwain llu o alltudion, a gwersyllu wrth Fynydd Sinai, a chyssegru y seithfed dydd i'w gadw yn sanctaidd gan ei ganlynwyr. Llefara Pliny yr hynaf am Moses fel swynwr enwog, gan gyfeirio, yn ddiammheu, at y gwyrthiau a wnaeth. Crybwylla Tacitus am Moses fel alltud o'r Aipht, yr hwn a ddarbwyllodd ei gymdeithion i'w ddilyn ef fel arweinydd nefol. Sonia am eu teithiau yn yr anialwch, ei waith yn darparu ar gyfer syched y bobl, a'r cyfreithiau a roddes iddynt. Crybwylla Juvenal am Moses fel *awdwr cyfrol*, a gedwir gydag eiddigedd a gofal mawr gan yr Iuddewon; yn yr hon y gwaherddir addoli delwau a bwyta cig moch, ac y gorchymynir yr enwaediad a chadwraeth y Sabbath. Llefara Longinus [*De Subl.*, adr. 9] am Moses fel deddfwr yr Iuddewon; a gwna ddyfyniad o Genesis fel enghraifft o'r gwir arddunol, "Bydded goleuni, a goleuni a fu." Mae Eusebius ac Origen yn dyfynu o Numenius, athronydd Pythagoraidd, yr hwn a lefara am Moses dan yr enw Musæus, arweinydd yr Iuddewon; yr hwn, trwy ei weddiau, a ddygodd drychineb ofnadwy ar yr Aipht. Y Numenius hwn meddir, a ddywedodd, "Nad oedd Plato neb ond Moses yn siarad Groeg." Y mae Josephus, yn ei restr o lyfrau sanctaidd yr Iuddewon, yn enwi y Pum Llyfr fel gwaith dilys Moses. Y mae Philo, Iuddew Alexandriaidd, wrth lefaru am y llyfrau canonaidd, yn enwi y Pum Llyfr. Cydnabyddid dilysrwydd y Pum Llyfr gan Porphyry, yr hwn oedd yn elyn anghymmodlawn i Gristionogaeth; a dywed fod Moses yn byw o flaen Sanconiathon, yr hanesydd Phœniciaidd, yr hwn oedd yn oesi o flaen rhyfel Caerdroia. Y mae hefyd yn deilwng o sylw, nad oedd, yn nghanol y dadleuon a gyfodasant yn y pedair canrif cyntaf o'r cyfnod Cristionogol, rhwng cyfeillion a chaseion yr efengyl, dilysrwydd y Pum Llyfr yn cael ei ammheu: nid oes ar gael un enghraifft yn dangos fod neb o wrthwynebwyr yr efengyl yn coledd yr ammheuaeth lleiaf am ei awduriaeth Foseaidd. Yr oedd hyd yn oed Julian y Gwrthgiliwr yn cydnabod ei ddilysrwydd. Y mae dilysedd ac awdurdod Llyfr Genesis gan hyny yn gorphwys ar y seiliau canlynol, yn chwanegol at y rhesymau o blaid dilysedd ac awdurdod dwyfol y Pum Llyfr gyda'u gilydd. Y mae yr Iuddewon yn mhob oes wedi ei dderbyn fel y cyfryw. Ceir ef yn mhob copi o'r Beibl Hebraeg, yn y Pum Llyfr Samaritaidd, ac yn mhob hen gopi hefyd o'r Ysgrythyrau Hebreig. Y mae Genesis yn hanfodol fel rhan, ac fel rhagarweiniad, i lyfrau ereill Moses, ac yn wir i holl lyfrau y Beibl. Heb Genesis, byddent yn ymyl bod yn annealladwy. Pe buasai Genesis ar goll, ni chawsid un ysgrif arall o'r cynamseroedd a allasai lanw ei lle. Y mae gwirioneddau yn cael eu derbyn a'u credu fel yn ddiammheuol, y rhai fyddent heb seiliau digonol iddynt oni bai am Lyfr Genesis. Y mae y pethau a grybwyllir fel ffeithiau ynddo yn cael eu cydwau â chynnwysiad y llyfrau dilynol. Y mae tystiolaethau ysgrifenwyr paganaidd, mor bell ag y maent yn myned, yn cryfhau y profion ereill cryfach. Y mae Rawlinson [*Bampton Lectures*, td. 44], yn sylwi fod mwy o nerth yn y tystiolaethau paganaidd hyn nag y gellid tybied ar yr olwg gyntaf; o blegid nid ydym i feddwl mai adsain oddi wrth draddodiad Iuddewig ydynt. Maent, o leiaf mewn rhan, yn gorphwys ar awdurdod annibynol, sef eiddo yr Aiphtiaid, a'r awdurdod hono yn elynol i genedl a chrefydd yr Israeliaid Y mae yn sicr am Manetho, ac yn debygol am Lysimachus, eu bod yn cynnrychioli y golygiadau Aiphtaidd, ac nid y golygiadau Hebreaidd. Felly, y mae y traddodiad Hebreaidd yn cael ei gadarnhau gan draddodiad yr unig genedl oedd yn ddigon agos at yr Israeliaid yn yr oes Foseaidd i beri fod pwys i'w roddi ar ei thystiolaeth. Ond uwch law pob prawf arall y saif y prawf oddi wrth ymadroddion Iesu Grist a'i apostolion. Y mae y prawf hwn yn taraw pob meddwl diragfarn fel yn gwbl benderfynol. Y mae yr Iachawdwr bendigedig, yr hwn oedd yn Dduw Mawr —yr hwn yn nyddiau ei ddarostyngiad a amlygai gydnabyddiaeth berffaith â dirgelion meddyliau dynion—yr hwn nis gallasai gamsynied am ddim a ddywedai—yr hwn a dderbyniodd yr Ysbryd Glân, nid wrth fesur—y mae efe, amryw weithiau, yn cyfrif y pethau a adroddir yn Llyfr Genesis, yn gystal ag yn y rhanau dilynol o'r Pum Llyfr, i awduriaeth Moses. Y mae dull De Wette a Dr. Colenso o gyfarfod y ddadl a gyfyd oddi wrth hyn yn hynod o annheg. Dywedant mai nid i ddysgu beirniadaeth i ddynolryw y daeth Crist i'r byd, neu ei fod, yn groes i'w wybodaeth, yn ymostwng at ragfarnau ei oes. Y mae yn ymddangos i ni fod yr un mor anmhosibl i'r Duw-ddyn gamsyniad, neu ffafrio cyfeiliornad, ag a fyddai i'r Duwdod ei hunan wneuthur hyny Yr un peth, yn ein golwg ni, fuasai i Dduw oddi ar Sinai adrodd cyfeiliornad, ag i Iesu Grist wneuthur hyny yn ei bregethau. Pa gyfyngiad bynag yr ymostyngodd y Mab, yn ei gnawdoliad, i fyned iddo, ni pheidiodd a bod yr hyn ydoedd o angenrheidrwydd ac er tragwyddoldeb, yn Ddoethineb a Gwirionedd Duw. Os oedd efe yn rhoddi ar ddeall i'w wrandawyr mai Moses oedd awdwr Genesis, mae yn amlwg ei fod yn credu hyny ei hun; ac os oedd yn credu hyny, yr oedd yn credu, nid yn unig ar bwys traddodiad, ond am ei fod yn gwybod. Yr oedd awduriaeth y llyfr hefyd yn gwestiwn pwysig iawn; o blegid y mae y grediniaeth yn ei gynnwysiad yn hanfodol gyssylltiedig â'r grediniaeth yn ei ddilysrwydd. Unwaith yr ammheuir yr olaf, y mae hyder yn y cyntaf yn dechreu siglo. Yn mhellach, nid ydym ar un amgylchiad yn gweled yn Iesu Grist yr agoshad lleiaf at fradychu gwirionedd, neu at ymfoddloni i ragfarnau a rhagsyniadau cyfeiliornus. Gan nad beth fyddai yr effaith ar y gwrandawyr, neu y canlyniad iddo ef ei hun, ni a'i cawn yn wastad yn gwgu ar y gau a'r cyfeiliornus, ac yn amddiffyn a chynnal y gwir.

2. *Y gwrthddadleuon i ddilysrwydd Llyfr Genesis.* Gan fod rhai o'r gwrthddadleuon yn gyfryw ag y byddai yn gymhwysach eu trin yn yr erthygl ar y PUM LLYFR, ni a gyfyngwn ein sylwadau at y rhai a gyfeirir yn fwyaf neillduol yn erbyn dilysedd y llyfr hwn:—(1.) Y mae rhai yn tybied, oddi wrth wahaniaeth yn yr arddull, oddi wrth ymddangosiad o anghyssondeb rhwng y naill ran a'r llall, ac yn benaf oddi wrth yr amrywiaeth yn yr enwau a roddir ar y Goruchaf, mai nid gwaith un person ydyw Genesis; ond casgliad o wahanol hen ysgrifau, wedi eu dodi yn nghyd gan ryw olygydd, yn llawer diweddarach nag amser Moses. Gelwir y dybiaeth hon yn *document* neu *fragment*; neu, yn ol y wedd ddiweddaraf a roddwyd iddi gan Tuch, *complementary hypothesis*. Gwreiddiodd y dybiaeth hon mewn cais i roddi cyfrif am y gwahaniaeth a welir mewn rhanau yn yr enwau a roddir ar y Creawdwr; a'r penodau cyntaf yn Genesis ydyw

Digitized by Google

y maes yr ymleddir brwydr y *document hypothesis* arno. Pob rhan ag y dygwydda yr enw *Elohim* ynddi (*Duw*, yn y testyn Cymraeg), nodir hi allan fel yn perthyn i'r *Elohim document;* a phob rhan lle yr arferir yr enw *Iehofah* ynddi (*Arglwydd*, mewn prif lythyrenau yn wastad), y mae yn cael ei gyfrif i awdwr arall mwy diweddar, ysgrif yr hwn a elwir yr *Iehofah document.* Ond pa fodd i berffeithio y dybiaeth hon yn gyfundraeth drefnus, sydd waith tra anhawdd. Nid oes dim yn fwy eglur yn hanes y *document theory* nag amrywiaeth ac anghytundeb y beirniaid sydd yn ei hamddiffyn; y maent yn ymddangos braidd yn fwy awyddus i ddinystrio tybiaethau eu gilydd nag ydynt i wrthbrofi awduriaeth Foseaidd Llyfr Genesis. Erbyn hyn y mae y ffurf hono ar y ddysgeidiaeth hon a elwir y *documeut* neu *fragment theory* wedi syrthio i ddinodedd; y mae y ffurf a elwir *complementary* wedi ei disodli. Y mae yr olaf yn hòni mai o un ysgrif wreiddiol y mae Genesis yn gynnwysedig, ei bod wedi syrthio i law rhyw olygydd, a bod hwnw wedi myned drosti yn fanwl, gan weled y gwallau, dodi i mewn rhyw fanylion oedd yn angenrheidiol, ac felly berffeithio yr hen ysgrif wreiddiol. Gan mai dyma y lle cymhwysaf, ni fyddai yn flin gan ein darllenwyr gael ychydig o hanes y dybiaeth hynod hon: o blegid nid oes dim yn well tuag at ddangos gwagder y *document hypothesis*, na'i hanes hi ei hun. Dywedir fod y tadau Cristionogol, Tertullian, Chrysostom, ac Augustine, wedi sylwi ar, a cheisio esbonio, yr amrywiaeth ag sydd yn Genesis yn enwau y Creawdwr. Ond ni chafodd y ffaith ei gwneuthur yn destyn ymchwiliad neillduol hyd yn lled ddiweddar. Yn y flwyddyn 1752, dysgai Awstin, fod Llyfr Genesis wedi ei wneyd i fyny o ddeuddeg o ysgrifau, o ba rai yr oedd yr Elohaidd a'r Iehofaidd y ddwy benaf. O'r deuddeg hyn y cyfansoddodd Moses y llyfr, mewn deuddeg colofn. Cynnygiwyd y rhai hyn heb un drefn gan gopïwyr wedi hyny: a'r cymmysgedd ydyw Llyfr Genesis, megys y mae genym ni yn bresennol. Dywed Eichhorn fod Genesis, yn ei ffurf presennol, yn sylfaenedig ar ddwy ysgrif oeddynt yn bod cyn amser Moses, y rhai a nodweddir gan y ddau air *Elohim* ac *Iehofah;* ac fod yr awdwr neu y golygydd yn dethol o'r ygrif hono a gynnwysai yr hanes cyflawnaf o unrhyw ddygwyddiad. Weithiau, y mae y ddau adroddiad yn cael eu cymmysgu: brydiau ereill, ymgynghorir âg ysgrifau ereill. I'r gwrthwyneb, yr oedd Ilgen yn tybied fod dwy ar bymtheg o ysgrifau gwreiddiol yn bod, ond dim ond tri awdwr—un Iehofaidd, a dau Elohaidd. Mor graff ydyw y beirniad hwn fel y mae yn gallu rhanu un adnod rhwng y tri! Barna De Wette, mai un ysgrif Elohaidd ydyw defnydd y cyfan hyd *Exod.* vi: ond fod olion ysgrifau ereill ar ol y bennod hono. Cyffelyb oedd syniad Von Böhlen: gwnaed y llyfrau gan olygydd Iehofaidd ar sail ysgrif Elohaidd. Ond y mae Gamberg yn gwahaniaethu: dywed ef fod yn ddigon amlwg fod yma dri o awduron, yr Elohaidd, yr Iehofaidd, a'r casglydd neu y golygydd; yr hwn, eb efe, sydd yn fynych yn cymmeryd yr hyfdra i ddodi un enw dwyfol yn lle enw dwyfol arall. Amrywiai Ewald yn ei olygiadau ar wahanol dymmorau. Ar y cyntaf, amddiffynai unoliaeth Genesis yn erbyn y dybiaeth uchod; a dywed Dr. M'Caul fod ei resymau heb gael eu hateb eto—ganddo ef ei hun, na chan ereill. Yn mhen deng mlynedd daeth allan i ddysgu fod sylwedd Genesis wedi ei gymmeryd o ryw hen ysgrif, yr hon y mae gweddillion o honi i'w canfod trwy y Pum Llyfr, a'r hon y gellir ei hadnabod trwy hynodrwydd yn yr iaith, yn enwedig trwy yr arferiad o'r enw Elohim hyd *Exod.* vi. 2. Priodola Lyfr Genesis i bedwar o ysgrifenwyr. Dadleua Hupfelt fod ol llaw pedwar ar Genesis. Y mae Knobel yn credu fod Genesis wedi ei ffurfio o ddwy ysgrif; yr Elohaidd, yn ffurfio sylwedd y Pum Llyfr ac Iosuah; a'r Iehofaidd, yr hon sydd yn grynhoad o ddwy ysgrif henach.

Y mae yr olwg yma ar farnau y beirniaid yn ddigon i ddangos nad oes yn eu plith ddim tebyg i unfrydedd. Nis gallai fod mwy o anghydwelediad. Dywed rhai nad oedd ond un ysgrif Elohaidd; ereill ddwy; ereill dair. Un ysgrif Iehofaidd oedd, ebe rhai; mwy, ebe ereill. Mae rhai yn gwneyd yr awdwr Iehofaidd yr un a'r casglydd neu y golygydd: y mae yn berson gwahanol gan ereill. Y mae Genesis wedi ei wneyd i fyny o ddwy ysgrif gan rai, o dair gan ereill, o bedair gan ereill, o saith gan saith o wahanol awdwyr, yn ol barn Ewald. "Yn awr," ebe M'Caul, "gall pawb ddeall fod gwahaniaeth mawr pa un a briodolir y rhanau Elohaidd a'r Iehofaidd i un, ynte a ddosberthir hwy rhwng dau, tri, neu ragor o bersonau. Mae yn rhaid i'r hwn a ddywedo nad oes ond un awdwr Elohaidd gredu fod unoliaeth arddull, ysbryd, ac iaith trwy yr holl adran Elohaidd. Os oes dwy adran Elohaidd, yna y mae y cyntaf yn gamsyniol o barth i'r unoliaeth; y mae yn rhaid fod yma ddwy arddull wahanol: ond os oes tri o awdwyr Elohaidd, y mae y cyntaf a'r ail feirniaid yn camsynied: y mae yn rhaid fod yna dair arddull wahanol." Heblaw hyny, y maent yn gwahaniaethu o barth oedran y cynysgrifau tybiedig hyn. Dywed rhai, eu bod yn bod cyn Moses; ereill, mai yn amser Iosuah neu y Barnwyr y cawsant eu hysgrifenu; ereill mai cynnyrchion dyddiau Dafydd oeddynt; ac ereill mai oddeutu y caethgludiad Babilonaidd!—Pe nad ellid rhoddi un atebiad i'r dybiaeth hon, y mae y ffaith fod y fath amrywiaeth diddiwedd yn mysg ei phleidwyr yn ddigon o reswm dros i ni ddal ein gafael yn lew yn nghred eglwys Dduw am filoedd o flyneddoedd, yn hytrach na'i gwrthod am y fath opiniynau ansicr.

Y mae gwahanol geisiadau wedi eu gwneuthur gan dduwinyddion mwyaf uniongred Germany i esbonio yr achos o'r amrywiaeth yma yn nefnyddiad yr enwau dwyfol. Dangoswyd dysgeidiaeth a medrusrwydd mawr gan Hengstenberg, Dreschter, Kurtz, ac ereill; ac er yr addefir fod llawer o'u tybiau hwythau yn mron mor ddisail ag eiddo y beirniaid a wrthwynebir ganddynt, eto y maent wedi profi i foddlonrwydd fod yr enwau dwyfol yn cael eu defnyddio yn unol â chynllun. Pan ddefnyddir *Elohim*, y mae rhyw reswm dros hyny yn y cyssylltiadau lle y mae yn cael ei ddefnyddio; a'r un modd am yr enw Iehofah. (Gwel Duw, Iehofah). O'r holl awdwyr Prydeinig, nid ydym wedi gweled neb yn ymdrin â hyny yn well na M'Caul, yn ei draethawd ar *The Mosaic Record of Creation;* ac yma ni a wnawn ddefnydd o rai o'i sylwadau. Y mae cyfundraeth y *documents* yn gorphwys ar dybiaeth hollol anghywir; sef, fod yr enwau *Elohim* ac *Iehofah* yn gyfystyr, ac y gellir arfer y naill yn ddiwahaniaeth am y llall. Ond nid ydyw yr enwau yn meddu yr un arwyddocâd a'u gilydd. "Y mae yr un gwahaniaeth rhwng *Elohim* ac *Iehofah* ag sydd rhwng *Deus* a *Jupiter*, neu *homo* (dyn) a *Petrus* (Pedr). Y mae y naill yn dynodi y rhywogaeth (*genus*), a'r llall y person, ac yn

Digitized by Google

yn *adn.* 5, a dywedir nad oedd efe eto yn bod; a'r achos o wneyd y crybwylliad hwn ydyw, mai creadigaeth dyn sydd i fod yn brif bwnc y bennod; ac ni wnaethid un crybwylliad am gread y llysiau, oni bai am eu cyssylltiad wedi hyny â'r dyn—fel yr oeddynt yn addurno gardd Eden, preswylfod dyn, ac yn dwyn ymborth iddo, ac yn gwasanaethu i brofi ei ufudd-dod i'w Greawdwr. Yna, y mae yr hanesydd yn myned rhagddo i draethu am greadigaeth dyn, ac am ardd Paradwys. Mae hyn yn cael ei gydnabod gan Kalisch, yr hwn sydd yn cydnabod ei anallu i gyssoni yr anghyssonderau yn y ddwy bennod; er hyny dywed fod holl hanes y greadigaeth wedi ei ysgrifenu yn ol y cynllun perffeithiaf—fod unoliaeth trwyadl yn ganfyddadwy yn y ddwy bennod. Dywed fod cynllun pennodol i'w ganfod ynddynt gyda golwg ar yr hyn a ddygir i mewn i'r hanes, a'r hyn a adewir allan o hono. "Y mae yr ail adran, yr hon sydd yn cynnwys yr ail a'r drydedd bennod, yn desgrifio, nid creadigaeth y byd, ond cwymp dyn trwy anufudd-dod, a hyny yn unig. Y mae yn cymmeryd i fewn gan hyny yr hyn sydd anhebgorol angenrheidiol i hanes yr amgylchiad hwn: y mae gyda'r drefn fanylaf yn cau allan bob mater arall. Cymmerodd cwymp dyn le yn ngardd Eden; o herwydd hyny y mae Paradwys yn cael ei desgrifio. Yr oedd ei gwymp yn ganlyniad bwyta o ffrwyth y pren gwaharddedig; am hyny y mae creadigaeth y deyrnas lysieuol yn cael ei desgrifio. Achoswyd ei gwymp gan demtasiwn y sarff; ac yr oedd hyn yn gwneyd cread y bwystfilod a'r anifeiliaid yn angenrheidiol. Yn olaf, gwnaeth Efa ei rhan yn y drafodaeth; ar hyny dygir i mewn hanes creadigaeth y wraig. Yr oedd cymmaint a hyn yn angenrheidiol mewn trefn i ddeall hanes y cwymp, a dim mwy na hyn; a hyny yn unig a ddywedwyd yn yr ail bennod, ac ni ddywedir dim yn chwaneg. Y mae cynnwysiad y bennod gyntaf yn cael ei grynhoi yn yr ychydig eiriau rhagarweiniol yn *adn.* 4." Y mae hen sylw o eiddo Dr. Lightfoot yn ymddangos i ni yn ddigonol er profi unoliaeth y ddwy bennod gyntaf: "Pe buasai hanes gardd Eden wedi ei adrodd mewn trefn amseryddol, dylasai fod rhwng *adn.* 12 a 13, yn y bennod gyntaf; ond oedodd Moses roddi yr hanes hwnw hyd pan ddeuai i son am sefydliad dyn ynddi; *am y mynai orphen ei draethawd ar bethau cyffredinol cyn dyfod at fanylion.* Fel hyn, y mae yn amlwg fod pennodau i. a ii. ar ryw gyfrif yn wahanol. Nid parhad o'r un peth ag sydd yn y gyntaf ydyw yr ail: un yw drychfeddwl yr awdwr yn y naill, ac arall yw yn y llall. Ei amcan yn y gyntaf ydyw rhoddi crynhoad o hanes creadigaeth nefoedd a daiar: ei amcan yn yr ail ydyw parotoi y ffordd, trwy y rhagarweiniad priodol, i hanes cwymp dyn. "*The second chapter is so far from being a cosmogony, that it is not a geogony.*" Ond er yn wahanol nid ydynt yn gwrthddyweyd eu gilydd. Y mae y gwahaniaeth yma yn cael ei gydnabod gan Ewald ei hun; ac y mae y cyfryw dystiolaeth oddi wrtho ef yn myned yn mhell i ddiddymu y *document theory,* ac i brofi unoliaeth y ddwy bennod. "Amcan yr hanes cyssylltiol cyntaf (*pen.* i. 1, a ii. 3) sydd yn amlygu Duw fel Creawdwr y byd. Yna y mae yr awdwr yn myned yn mlaen oddi wrth y darlun cyflawn o'r bydysawd perffaith at yr hyn oedd iddo ef, fel i holl ysgrifenwyr hanesiaeth, yn fwyaf teilwng o sylw, at hanes dyn; eto y mae yn diweddu y darluniad cyntaf gyda'r geiriau, 'Dyma genedlaethau y nefoedd a'r ddaiar.'" Pa un a oedd Moses yn defnyddio rhyw fân ysgrifeniadau oedd yn bod o'r blaen, nid ydyw o un pwys gyda golwg ar y mater dan sylw: o blegid pa ham nad allasai efe wneuthur hyny, yn gysson â'r syniad uniongred am ysbrydoliaeth, megys y gwnaeth Luc yn ei ysgrifeniadau ef? Ond y mae yn amlwg, gan nad beth oedd ffynnonellau Llyfr Genesis, fod yr unoliaeth uchaf yn rhedeg trwy yr hanes.

(3.) Dadleuir fod yn Llyfr Genesis amryw o gyfeiriadau at bethau diweddarach na dyddiau Moses; ac felly nad ellir priodoli ei awduriaeth iddo ef. Y penaf o'r cyfeiriadau hyn ydyw *Gen.* xxxvi. 31—39, lle y rhoddir rhestr o freninoedd Edom, ac y chwanegir eu bod yn teyrnasu yno, *cyn bod un brenin yn teyrnasu ar wlad Israel.* Y mae hyn yn dangos yn eglur, ebe y gwrthddadleuon, mai yn mhell ar ol dyddiau Moses y cafodd y llyfr ei ysgrifenu, pan oedd yr Israeliaid yn meddu brenin arnynt, fel cenedloedd ereill. Y dull y cyfarfyddwyd yn fynych â'r wrthddadl hon, ydyw trwy dybied fod y rhan hon wedi ei rhoddi i mewn yn ddiweddarach yn y testyn gwreiddiol gan ryw olygydd. Dyma y dybiaeth a amddiffynir gan Rawlinson yn ei *Bampton Lectures.* Dywed fod yn amlwg mai atddodiad ydyw yr holl adran, ac nas gallasai gael ei hysgrifenu gan Moses. Ond nid ydyw y dull yma o osgoi yr anhawsderau yn derbyn ond ychydig o gymmeradwyaeth. Y mae yn ymddangos yn llawer mwy anrhydeddus gadael y cwlwm heb ei ddatod na'i dori yn y dull yma. Ni ddylid dadleu o blaid atddodiadau ond pan geir rhesymau digonol drostynt. Y mae ereill, fodd bynag, yn cymmeryd yr adran hon fel yn perthyn i ysgrif wreiddiol Llyfr Genesis. Ymddengys fod breninoedd Edom, y rhai a enwir gan yr hanesydd, yn bod o flaen ei amser ef. Gallai fod yr olaf o honynt, Hadar, yn gydoeswr â Moses; ac o herwydd hyny y mae enw ei wraig, mam ei wraig, a'i nain, yn cael eu dodi yn y rhestr; yr hyn sydd yn neillduol rwydd nad yw i'w gael mewn cyssylltiad â'r breninoedd ereill. Gyda golwg ar y crybwylliad am frenin yn Israel, y mae yn amlwg oddi wrth *Gen.* xxxv. 11, a *Deut.* xvii. 14—20, fod Moses yn gydnabyddus a'r drychfeddwl fod yr Israeliaid i fod mewn amser dan lywodraeth brenin:—"Pan ddelych i'r tir y mae yr Arglwydd dy Dduw yn ei roddi i ti, a'i feddiannu, a thrigo ynddo, os dywedi, Gosodaf arnaf frenin megys yr holl genedloedd sydd o'm hamgylch." Os oedd gan hyny yn rhagweled y byddai brenin ar Israel, fel ar y cenedloedd ereill, nid yw mewn un modd yn annaturiol, pan yn crybwyll am freninoedd Edom, ei fod yn chwanegu fod cynnifer, hyd ei ddyddiau ef, wedi teyrnasu ar hiliogaeth Edom, cyn bod un pennaeth o'r fath yn Israel. Gwyddai Moses y cynnwysid yn yr addewid i Abraham y deuai breninoedd o hono, ac y sicrhawyd i Sarah y "byddai breninoedd pobloedd o honi;" *Gen.* xvii. 6—16. Mae yn ngeiriau syml yr hanesydd enghraifft o gynllun Rhagluniaeth gyda golwg ar y byd a'r eglwys. Y mae yr had etholedig yn ddiweddarach yn eu dadblygiad na'r rhai sydd heb dderbyn eu breintiau hwy. Y mae Cain yn hynach nag Abel neu Seth; Ismael yn hynach nag Isaac; Esau nag Iacob; Manasseh nag Ephraim; a chan fod y llwythau Cenedlig yn fwy cynnar, yr oeddynt yn tyfu i nerth yn gynt. Dichon hefyd fod gan yr hanesydd amcan i wneuthur cyferbyniad rhwng cynnydd cyflym yr Edomiaid a chynnydd araf yr Israeliaid. Enwir wyth o freninoedd fel wedi teyrnasu yn barod ar Edom: enwir y duciaid hefyd: yr hyn sydd yn

rhoddi ar ddeall fod Edom wedi bod am rai oesoedd yn deyrnas gref a llwyddiannus. Ond am Israel, yr oedd ei chryfder hi i gael ei gyrhaedd trwy wendid a blinderau; yr oedd i fyned trwy gyfnod maith o gaethiwed trwm, cyn y gallasent fwynhau eu rhyddid mewn anialwch, ac i aros am gyfnod wedi hyny yn yr anialwch gwag erchyll, cyn meddiannu Gwlad yr Addewid; ac yr oedd meddiannu hono yn anmhosibl ond trwy ymdrechion celyd. Ond i'r gwrthwyneb, cyrhaeddodd hiliogaeth Esau fawredd yn rhwydd a buan.

FFYNNONELLAU LLYFR GENESIS.

Y mae llawer o wahanol farnau i'w cael ar y cwestiwn hwn etto; ond gellir eu cynnwys oll dan y tri dosbarth sydd yn canlyn:—1. Y mae y rhai sydd yn gwadu dilysrwydd y llyfr, yn barnu ei fod wedi ei wneyd i fyny, fel y crybwyllwyd eisoes, o nifer mwy neu lai o hen ysgrifau, gan ryw olygydd mewn oes llawer mwy diweddar nag eiddo Moses. 2. Mae un dosbarth o'r rhai sydd yn credu ei ddilysrwydd yn barnu fod Moses wedi cael gwybodaeth am y dygwyddiadau a gofnodir, y rhai oeddynt, rai o honynt, gynnifer o oesoedd o flaen ei amser ef, trwy ddadguddiad digyfrwng. 3. Y mae dosbarth arall yn barnu ei fod yn ymddibynu mewn rhan ar y defnyddiau oeddynt wedi eu trosglwyddo i lawr yn y dull cyffredin hyd at ei amser ef; a'i fod, trwy arweiniad dwyfol, yn dethol ac yn trefnu y defnyddiau hyn, gan eu gosod yn y ffurf ag y maent ynddi yn bresennol. Yr olaf ydyw golygiad Rawlinson [*Aids to Faith*]. Y mae yn ymofyn yn mha ystyr y dywedir mai Moses oedd awdwr y Pum Llyfr. "Yn y lle cyntaf ni fwriedir haeru mai efe oedd cyfansoddydd gwreiddiol yr holl ysgrifau a gynnwysir yn y gyfrol. Y mae Llyfr Genesis yn dwyn arno arwyddion o'i fod i ryw raddau yn gasgliad. Y mae yn debygol fod gan Moses nifer o groniclau o fwy neu lai o hynafiaeth; o ba rai, dan arweiniad dwyfol, y gwnaeth ddefnydd wrth ysgrifenu hanes dynolryw hyd yr amser yr oedd efe yn byw. Y mae yn bossibl fod Llyfr Genesis wedi cael ei gyfansoddi gan mwyaf yn y dull yma, o hen hanesion, coffadwriaethau, a buchdraethiadau; y rhai oeddynt mewn rhan yn feddiant i'r genedl Hebreaidd, ac mewn rhan yn feddiant cyffredin rhyngddynt hwy ac eraill. Trwy gael ei arwain gan Ysbryd Duw, gallasai Moses ddethol yn mysg y cyfryw ysgrifau y rhai oeddynt yn hanesyddol wir, ac a ddalient berthynas â hanes crefyddol dynolryw. Nid oedd dan rwymau i'w dilyn yn wasaidd, a llawer llai i'w copïo; ond y tebyg ydyw, ei fod yn eu talfyru, yn chwanegu atynt, yn eu haddurno, ac yn mhob modd eu perffeithio, ac felly eu gwneuthur yn feddiant iddo ei hun yn gwbl, gan gyfranu iddynt naws grefyddol ei feddwl ei hun, ac ar unwaith eu hysgrifenu yn ei iaith ei hun. Fel hyn yr ymddengys y cafodd Genesis ei gyfansoddi." Y mae y dybiaeth arall, sef fod Moses wedi ysgrifenu yr holl hanes heb un cynnorthwy dynol, ond trwy ddadguddiad uniongyrchol yn unig, yn cael ei gwrthod yn mron gan bawb. Nid yw y llyfr ei hun yn rhoddi dim cefnogaeth iddi. Addefir fod un rhan o Genesis—hanes y greadigaeth—wedi ei derbyn trwy ddadguddiad uniongyrchol neu anuniongyrchol. Oddi wrth Dduw ei hunan y cafwyd yr hanes hwn ar y cyntaf. Eto nid ydym dan rwymau i feddwl fod cynnwysiad y bennod gyntaf a'r ail yn gwbl anhysbys i ddynolryw hyd oni ysgrifenwyd y llyfr gan Moses. "Onid ydoedd Adda, a Noah, ac Abraham, yn gwybod rhywfaint am ddechreuad pob peth, a chreadigaeth dyn? Ac ai yn anialwch Midian, ar ol cymmaint o amser, y rhoddwyd yr adroddiad cyntaf am y pethau hyn i Moses, naill ai trwy lais o'r nef, neu y dadguddiwyd trefn creadigaeth pob peth iddo trwy gyfres o weledigaethau mawreddog?" Y mae yn syniad mwy naturiol fod y dyn cyntaf wedi derbyn gwybodaeth ddigyfrwng am y pethau hyn, a bod y wybodaeth hon wedi cael ei throsglwyddo i lawr i'w hiliogaeth. Y mae yn dra annhebyg fod y wybodaeth a feddwn ni am ddechreuad pob peth—gwybodaeth sydd yn dwyn cyssylltiad mor agos â phob syniad cywir am y Creawdwr a'r creadur—wedi ei chadw yn hollol oddi wrth y patriarchiaid cyntefig. Ond y mae cryn wahaniaeth barn yn mysg beirniaid uniongred o barth graddau ymddibyniad yr hanesydd ar ysgrifau a allent fod yn flaenorol i'w amser ef. Y mae ysgrifenydd yn y *British and Foreign Evangelical Review*, rhif 33, yn barnu fod Moses yn ymddibynu bron yn hollol ar groniclau ysgrifenedig—fod y croniclau hyn yn lluosog—eu bod mor awdurdodedig o ran eu cynnwysiad ag y gallasai cyfansoddiadau dynol fod—a bod Moses wrth ddethol a threfnu yn gweithredu o dan arweiniad anffaeledig yr Ysbryd Glân. Yn erbyn y dybiaeth hon, dadleuir ei fod yn cymmeryd yn ganiataol fod y gelfyddyd o ysgrifenu yn foreuach nag yr oedd mewn gwirionedd. Dygir hyn yn wrthddadl yn erbyn awduriaeth y Pum Llyfr gan Moses: os oes grym ynddi yn y naill, y mae llawer mwy o rym ynddi yn y llall. Yr oedd Gesenius a De Wette ar un adeg yn tybied mai yn nghylch oes y Barnwyr y daeth y gelfyddyd o ysgrifenu yn arferedig yn mhlith yr Israeliaid. Haerai Norton yr un peth. Ond y mae y dyb yma erbyn hyn yn cael ei ddiarddelwi yn gyffredinol. Gwelodd Gesenius a De Wette achos i newid eu barn ar y cwestiwn, ac addefent fod y gelfyddyd o ysgrifenu yn adnabyddus yn mysg yr Hebreaid mor fore o leiaf a dyddiau Moses. Ac y mae darganfyddiadau diweddar yn profi fod y gelfyddyd mewn arferiad yn mysg yr Aiphtiaid a'r Babiloniaid am amser maith cyn dyddiau Moses. Dywed Rawlinson fod priddfeini gydag ysgrifen arnynt wedi eu darganfod yn mysg gweddillion Babilon, y rhai y mae eu dyddiad mor fore a 2,200 c.c. Ac os oedd y gelfyddyd hon yn adnabyddus yn yr oesoedd boreuaf, y mae yn debyg, ebe yr ysgrifenydd ag yr ydym yn gwneyd defnydd o'i ymresymiad, fod y ffeithiau a gofnodir yn Genesis—hanes y dylif, a hanes y patriarchiaid—wedi cael eu hysgrifenu gan y personau oeddynt yn dwyn y cyssylltiad agosaf â'r ffeithiau hyny. Felly, er fod Genesis, yn y ffurf y mae genym ni, yn waith Moses, eto nid yw hyn yn anghysson â'r dyb ei fod yn gwneuthur defnydd o ysgrifau blaenorol. Nid ydyw y llyfr yn llai awdurdodedig neu yn llai dwyfol ar y cyfrif hwn, mwy na bod ysgrifeniadau Luc yn llai felly ar gyfrif yr un peth.

Y mae ereill yn priodoli llawer llai i draddodiad a chynysgrifau, ac yn cyfrif cychwyniad Llyfr Genesis, gan mwyaf, i ddadguddiad uniongyrchol oddi wrth Dduw i Moses. Fel hyn, yn ol barn Hugh Miller, y cafodd Moses hanes y greadigaeth. Er fod llawer, fe ddichon, o'r ffeithiau a gofnodir wedi eu casglu trwy brofiad a sylwadaeth, eto y mae amryw wirioneddau cyssylltiedig â'r ffeithiau hyny ag yr oedd gwybodaeth o honynt yn ymddibynu ar ddadguddiad yn unig. Drachefn, a chaniatau fod Duw wedi rhoddi dadguddiad o greadigaeth nefoedd a daiar

Digitized by Google

i'r dyn cyntaf, yr oedd y wybodaeth hono, wrth gael ei thraddodi i'r cenedlaethau dilynol, yn rhwym o ymgymmysgu â llawer o elfenau ammheus. Ond y mae yr ymchwiliad yma i raddau yn afreidiol, ac yn annhebyg i gynnyrchu dim ffrwyth. Tra y mae tebygolrwydd cryf fod rhyw gynysgrifau yn bod yn flaenorol i Genesis, a bod olion y rhai hyny ar gyfansoddiad Llyfr Genesis, nid yw hyny yn un diraddiad ar Moses fel un yn ysgrifenu dan gyfarwyddyd yr Ysbryd Glân. "Pa un," ebe Hamilton, "a gafodd y dygwyddiadau boreuaf a gofnodir yn yr un bennod ar ddeg cyntaf o Genesis—y greadigaeth, teulu Adda, y dylif, cymmysgiad yr ieithoedd, i lawr hyd alwad Abraham —eu casglu gan Moses o blith y traddodiadau a drosglwyddwyd i lawr trwy y patrieirch, neu a gynnwysid mewn hen ysgrifau, y rhai a gasglwyd ganddo, ac a ddodwyd mewn trefn; neu a oedd y dygwyddiadau boreuol hyn o'r blaen yn anhysbys hyd oni ddadguddiwyd hwy i Moses trwy ysbrydoliaeth ddigyfrwng, sydd o ychydig bwys. Nis gall benderfyniad y cwestiwn hwn effeithio ar y ddadl o blaid awduriaeth Genesis, nac ar y ddadl o blaid ei wirionedd. Os oedd Moses yn casglu Genesis, naill ai yn gwbl neu mewn rhan, allan o ysgrifau blaenorol, yr oedd dan arweiniad dwyfol i ddethol, cyfnewid, tynu oddi wrth, neu chwanegu at, yr ysgrifau hyny, fel yr oedd gwirionedd yn gofyn. Os derbyniodd y ffeithiau yn unig fel y trosglwyddid hwy gan draddodiad geneuol, yr oedd, mewn modd cyffelyb, yn cael ei arwain gan Dduw i dderbyn a chroniclo y gwirionedd, yr holl wirionedd ag a ofynid gan yr amgylchiad, a dim ond y gwirionedd. Ac os oedd Moses yn ysgrifenu y cwbl fel yn cael ei roddi iddo yn ddigyfrwng gan ysbrydoliaeth, yna y gwirionedd angenrheidiol i'w wybod, y gwirionedd yn unig yn bur, ac yn rhydd oddi wrth bob cymmysgedd o gyfeiliornad, a raid fod cynnyrch ei awduriaeth."

*Gwirionedd hanesyddol Llyfr Genesis.* Y mae y prif wrthddadleuon yn erbyn golygu y llyfr fel adroddiad hanesiol o ffeithiau yn cael eu cymmeryd oddi wrth yr adroddiad am greadigaeth y byd, creadigaeth dyn, cwymp dyn, y dylif, taflen cenedlaethau Noah, cymmysgiad yr ieithoedd, ac oedran y patrieirch cyn y dylif. Ymofyned y darllenydd am gywirdeb yr hanes Ysgrythyrol yn yr erthyglau yn y gwaith ar y gwahanol byncciau hyn. Y mae y gwrthddadleuon a ddygir yn eu herbyn o amryw fathau—gwyddonol, hanesiol, achyddol, ac ieithyddol. Y mae yr ymosodiadau ar wirionedd hanesiol Llyfr Genesis wedi gwreiddio naill ai mewn ymchwiliadau gwyddonawl neu dueddiadau anffyddol. Mae llawer o rai sydd yn parchu y Beibl, oddi ar fethu canfod cyssondeb adroddiadau Genesis â'r naill gangen neu y llall mewn gwyddiant, wedi cofleidio y dull alegoraidd o esbonio y llyfr. Dywed Macdonald, y gellir dywedyd hyny, yn ffafr y dull alegoraidd, fod yr ymadawiadau cyntaf oddi wrth olygu Genesis yn hanesiaeth bur wedi dygwydd gyda dynion a barchent yr Ysgrythyr ac a gredent ei darddiad dwyfol. Ond y mae cynnyrchion yr esbonwyr alegoraidd ar Genesis, yn enwedig ar y pennodau cyntaf, yn gyfryw fel ag y mae y dull yn cael ei anghymmeradwyo yn gyffredinol. Aeth y Rabbiniaid Iuddewig a rhai o'r tadau eglwysig i eithafion o ffolineb wrth ddilyn y dull hwn. Wrth gymharu y gwahanol esboniadau a roddir ar ryw adroddiad neillduol—megys hanes y cwymp, er enghraifft—gwelir nad oedd gan yr esbonwyr ddim egwyddorion sefydlog i'w harwain· nid oedd ganddynt ddim i'w cyfarwyddo ond dychymyg direol. Y mae y dull hwn, ebe un awdwr, yn gwneyd yr Ysgrythyr yn un gymmysgfa, ac yn myned yn mhell i ddymchwel ei awdurdod yn hollol. Y mae y cyssondeb a ellir ganfod rhwng yr adroddiadau yn Genesis—megys yr adroddiadau am greadigaeth y byd, disgyniad holl ddynolryw o un pen, y dylif, taflen cenedlaethau Noah—a chasgliadau gwyddiant, yn profi fod yn yr adroddiad gymmaint o ddefnydd hanesiol, gymmaint o ffaith, fel ag i wneyd y dybiaeth mai dychymygion barddonol neu ddarluniau alegoraidd ydynt, yn gwbl afresymol. Heb law hyny, y mae yr arddull yn drwyadl hanesiol: Llyfr Genesis ydyw yr enghraifft oreu o arddull hanesiol bur a dysyml. Rheswm arall cryf yn erbyn esbonio y llyfr yn y dull hwn ydyw, ei fod yn cael edrych arno fel hanesiaeth ddiledryw gan ysgrifenwyr dilynol yr Hen Destament a'r Newydd: edrychir hyd yn oed ar yr adroddiadau ag yr ymosodir mwyaf arnynt, megys cwymp dyn, &c., fel adroddiadau o ffeithiau.

Y mae y golygiad arall a gymmerir ar yr adroddiadau yn fwy disail, pe bai bossibl, na'r dull alegoraidd. Edrycha rhai ar rai o'r adroddiadau yn y llyfr fel damcaniadau athronyddol o eiddo rhyw ddoethwr dwyreiniol. Y mae y dybiaeth yma, mae yn amlwg, yn sylfaenedig ar wadiad o ysbrydoliaeth y llyfr: os damcaniaeth ddwyreiniol ar greadigaeth y byd ydyw y pennodau cyntaf o Genesis, yna nid yw eu cynnwysiad o darddiad uwch na rheswm dynol. Ond y mae y dybiaeth hon yn anghysson; o blegid y mae yn cymmeryd yn ganiataol fod llawer mwy o wybodaeth am natur a'i deddfau yn yr amseroedd boreuaf nag oedd mewn gwirionedd. Nid oedd doethion yr amseroedd hyny yn fwy diffygiol mewn dim nag mewn cydnabyddiaeth â gwirioneddau anianyddol ac â chyfundrefn y bydysawd; tra y mae adroddiadau Genesis am y greadigaeth yn arddangos, fel yr addefir yn gyffredinol, gwybodaeth helaeth iawn.

Mae sylwadau Havernick ar wirionedd hanesyddol Genesis, yn werth eu dyfynu:—Y mae Genesis yn llyfr sydd yn cynnwys dwy ran gyferbyniol. Mae y rhan gyntaf yn ein harwain at gwestiynau caletaf y meddwl dynol—y cyfryw a'r greadigaeth a chwymp dyn; a'r ail, at unigrwydd tawel cylch bychan o deuluoedd. Yn y cyntaf, y mae y dygwyddiadau mwyaf rhyfedd ac arddunol yn cael eu dysgrifio gyda'r symledd mwyaf; tra yn yr olaf, y mae y dygwyddiadau mwyaf cyffredin yn cael eu cydwau â'r meddyliau a'r ystyriaethau uchelaf—yn gwneuthur y cylch bychan teuluaidd yn fyd cyfan mewn hanesiaeth, a'r prif weithredwyr yn y cylch hwnw yn gynddelwau i genedl gyfan, ac i'r holl oesoedd. Y mae y cynnwysiad ar y cyfan yn grefyddol. Nid oes yr olion lleiaf o ddirgelwch i'w canfod arno. Felly, nid oes yma ddim adroddiadau chwedlonol (*mythical*); o blegid i chwedloniaeth y perthyna pob peth sydd yn chwedlonol: ac y mae Genesis yn dangos pa mor bell yr oedd y dull Hebraeg o feddwl oddi wrth farddoniaeth chwedlonol, yr hwn a gawsai bob cyfleusdra i ddyfod i'r golwg pan ddechreuai yr ysgrifenydd draethu am fore y greadigaeth. Y mae yn wir fod yr hanesion yn orlawn o ryfeddodau; ond rhyfeddodau creadigaeth, rhyfeddodau Duw ydyw pwnc Llyfr Genesis. Nid oes un o'r rhyfeddodau hyn, fodd bynag, yn dwyn arno ddelw ffoldybus (*fantastical*), ac nid oes gormodedd diles o honynt. Treiddir hwy oll, a chyssylltir hwy oll â'u gilydd, gan un drychfeddwl mawr—iachawdwriaeth dyn. Mae

Digitized by Google

y drychfeddwl hwn yn tywallt ei belydrau dysglaer trwy yr oll o Genesis; am hyny y mae y rhyfeddodau a adroddir yn y llyfr yn gyfryw ag na ddylid eu cyfrif i gynlluniad a dychymyg dyn, mwy na holl gynllun Duw er iachawdwriaeth y byd. Y mae sylfaeniad y Ddwyf-lywiaeth yn taflu goleuni cryf ar yr amseroedd patriarchaidd boreuaf: y mae gwirionedd y naill yn profi gwirionedd y llall hefyd." Gwel PUM LLYFR.

**GENFA,** [*gen*]: ffrwyn, genfa; *Salm* xxxii. 9.

**GENNI** [*gàn*]; gweddu, cynnwys, cael lle. "Am nad yw fy ngair i yn genni ynoch chwi;" *Ioan* viii. 37: hyny yw, am nad ydych yn derbyn fy athrawiaeth, yr hon nid ydyw yn cael lle yn eich meddwl, eich myfyrdodau, a'ch serchiadau; ac o ganlyniad, nid oes ganddi un dylanwad arnoch. Y mae y gair gwreiddiol χωρεω yn cynnwys y drychfeddwl nad oedd dim lle i'w athrawiaeth ef yn eu meddyliau. Yr oedd rhwystrau ar ei ffordd i dreiddio i'w calonau. Yr oeddynt mor lawn o ragfarn, balchder, a gau dybiau fel na dderbynient ei wirionedd ef. A chan nad oedd ei wirionedd, neu ei Ysbryd ef ynddynt, ac nas gallent ei oddef, hwy a geisient ei ladd ef. Y mae yr un gair yn cael ei gyfieithu *ganu* yn *Marc* ii. 2; *dal, Ioan* ii. 6; *cynnwys, Ioan* xxi. 25; a *derbyn*, 2 *Cor*. vii. 2.

**GENUBATH;** mab Hadad: Edomiad o'r teulu breninol, o dywysoges Aiphtaidd, chwaer Tahpenes, brenines y Pharaoh a lywodraethai yr Aipht yn y rhan olaf o deyrnasiad y brenin Dafydd: 1 *Bren*. xi. 20; cymharer 16. Ganwyd Genu'bath yn mhalas Pharaoh, a diddyfnwyd ef gan y frenines ei hun; wedi hyny efe a ddaeth yn aelod o'r sefydliad breninol, ar yr un tir ag un o feibion Pharaoh. Y mae y darn o'r cronicl Edomaidd yn yr hwn y cynnwysir hyn yn bur hynod, a gellir ei gymharu â'r un yn *Gen*. xxxvi. Ni chrybwyllir am enw Genu'bath mewn un lle arall.

**GEOFFREY O FYNWY.** Ganwyd yr hanesydd enwog hwn, yr hwn a elwir *Arthur*, yn y dref oddi wrth ba un y mae y mae yn cael ei enw; ac fe dybir ei fod wedi derbyn ei ddysgeidiaeth yn y mynachdy Benedictaidd oedd yn agos. Y mae un ystafell yn adfeilion yr hen fynachdy sydd hyd y dydd heddyw yn cael ei nodi allan fel ei fyfyrgell. Gwnaed Geoffrey yn archddiacon Mynwy, a dyrchafwyd ef i esgobaeth Llanelwy Chwefror 24ain, 1152. Cyflwynodd Walter Mapes, archddiacon Rhydychain y pryd hwnw, hanes Brydain Fawr, wedi ei ysgrifenu yn yr iaith Brydeinig, yr hwn yr oedd wedi dyfod o hyd iddo yn America, i Geoffrey i'w gyfieithu; ac fe gymmerodd y gwaith mewn llaw, ac a'i gorphenodd gyda chywirdeb a ffyddlondeb mawr. Fe'i rhanodd i wyth llyfr, at ba rai y chwanegodd "Prophwydoliaethau Merlin," y rhai a gyfieithodd o brydyddiaith Brydeinig i ryddiaith Lladin. Y mae cynnifer o chwedlau dychymmygol a gweigion wedi eu dwyn i mewn yn yr hanes, fel y mae awduron, ac yn eu plith y mae Buchanan, yn ystyried yr holl lyfr fel yn ffugiedig; ond y mae ereill eto, sef archesgob Usher, Leland, &c., yn meddwl fod rhan o hono yn wir, ac na ddylid gwrthod yr holl lyfr am fod rhai darnau ynddo yn anweddaidd. Y mae rhai beirniaid Cymreig yn ystyried mai cyfieithiad o hanes y breninoedd Prydeinig a ysgrifenwyd gan Tyssilio, neu St. Talian, esgob Llanelwy, yr hwn oedd yn byw yn y seithfed ganrif, ydyw gwaith Geoffrey. Nid yw y llyfr yn rhydd mewn un modd oddi wrth wallau; ac y mae ei gyfieithiad Lladin o enwau Prydeinig yn anhawdd eu deall. Y mae amryw o argraffiadau o hanes Geoffrey yn y Lladin ar gael: fe argraffwyd y cyntaf yn Paris gan Ascenius, yn 1517, ac fe'i cyfieithiwyd i'r Saesneg gan Aaron Thompson, Queen's College, Rhydychain, yn 1718.

Ni gawn nifer o hanes Geoffrey o Fynwy mewn llaw ysgrifen yn ein prif lyfrgelloedd; ac y mae amryw o honynt wedi eu hysgrifenu yn, neu yn fuan ar ol, amser Geoffrey. Fe dybir mai hwnw oedd yn perthyn i lyfrgell Mynachdy Margan oedd y goreu. Bu Geoffrey farw o ddeutu y flwyddyn 1154.

**GEORGE I.** Ar ol marwolaeth Anne, esgynodd George I. i'r orsedd. Yr oedd yn fab i Ernest Augustus, Etholydd Cyntaf Brunswick, a'r dywysoges Sophia, wyres Iago I.; felly, trwy ei fam y derbyniodd hawl i orsedd Brydain. Ganwyd ef B.A. 1660; felly, pan esgynodd i'r orsedd yn 1714, yr oedd yn bedair ar ddeg a deugain oed. Yr oedd yn meddiannu llawer o fanteision i deyrnasu; er nad oedd ei alluoedd yn ddysglaer, eto yr oeddynt yn sylweddol, ac yr oedd ei dymmor yn wahanol i'r cyffredin o deulu y Stuardiaid, y rhai oeddynt yn ddiarebol am droi eu cefnau ar eu cyfeillion mewn cyfyngder. Ond clywyd George, yn fuan ar ol ei ddyfodiad i Loegr, yn dywedyd, "Fy arwireb i yw, byth i adael fy nghyfeillion—gwneuthur cyfiawnder i'r holl fyd—a bod heb ofni neb." Yr oedd hefyd yn hynod o ofalus gyda'r materion a roddid o'i flaen. Ei fai penaf oedd ei fod yn gofalu am y wlad yr oedd wedi ei gadael, yn fwy na'r hon yr oedd wedi dyfod i deyrnasu arni: ac hefyd yr oedd mor anffodus ag i gael ei amgylchu â dynion oedd yn meddwl mwy am eu manteision personol na dim arall. Felly cododd llawer yn fuan yn eu herbyn, ond arferodd y llywodraeth eu galw yn Babyddion, Jacobiaid, &c.; ac os beiddiai neb ddywedyd dim yn erbyn creulondeb eu mesurau, edrychid arno fel un oedd yn ceisio dyfod â'r Ymhonydd James Stuart, mab Iago II., i mewn. O'r diwedd yr oedd gwrthwynebiad y llywodraeth hono mor gryf yn erbyn pawb o'r rhai oedd wedi llywodraethu o'r blaen, fel y cynhyrfwyd digllonedd y bobl, y rhai a welsant hefyd fod pob ffordd i ffafr y brenin wedi ei gau i fyny i bawb nad oeddynt o'u plaid hwy. Taniwyd y gwrthryfel yn fuan yn Scotland. Casglodd Iarll Mar dri chant o'i ddeiliaid, a chyhoeddodd yr Ymhonydd yn Castledown. I gynnorthwyo yr ymdrech yma, daeth dwy long i Scotland o Ffrainc gydag arfau a chadswyddogion, a daeth sicrwydd i'r iarll y byddai i'r Ymhonydd ei hun ddyfod i'r parthau hyny yn fuan i gymmeryd llywodraeth ei fyddin. Mewn canlyniad i'r addewid yma cafodd yr iarll ei hun mewn ychydig amser yn ben ar ddeng mil o wyr. Pan glywodd y duc o Argyle beth oedd ei amcan, penderfynodd ei wrthwynebu, a chyfarfyddodd yr iarll yn Sheriffmuir ar y trydydd ar ddeg o Dachwedd, 1715; a gorchfygwyd y gwrthryfelwyr: a phan welodd y bobl nad oedd tebygolrwydd am ail frwydr yn fuan, dychwelasant adref yn ddystaw. Ar yr un diwrnod, gorchfygwyd byddin dan iarll Derwentwater a Mr. Foster yn Preston, sir Lancaster, y rhai oedd wedi ceisio cymmeryd Newcastle; ond pan welsant nad oedd hyny yn bossibl, aethant yn o

Digitized by Google

i Hexham, ac oddi yno trwy Kendal a Lancaster i Preston, a chymmerasant feddiant o'r dref heb un ymdrech i'r gwrthwyneb ar ochr y trigolion. Gan fod y cadfridog Wills, â saith mil o wŷr, yn dyfod tua'r dref, taflasant i fyny wrthgloddiau, ac ar y cyntaf llwyddasant i gadw y fyddin hono o'r dref: ond y diwrnod nesaf, cynnorthwywyd Wills gan Carpenter gyda naw cant o ddynion. Yn y cyflwr yma ceisiodd Mr. Foster ammodi â Wills; ond anfonodd y cadfridog yn ol i ddywedyd na ammodai efe â gwrthryfelwyr: felly bu raid iddynt roi eu harfau i lawr. Cymmerwyd y penaethiaid i Lundain ac arweiniwyd hwynt trwy yr ystrydoedd i ddychrynu eu plaid, ac anfonwyd y milwyr cyffredin i Gaerlleon a Liverpool. Er fod ei amgylchiadau mor ddyrus, penderfynodd yr Ymhonydd fyned trosodd i'r Alban, a chyfarfyddodd Iarll Mar yn Feterosse, a chyhoeddwyd ef yno; aeth i Dundee yn gyhoeddus, ac yn mhen dau ddiwrnod cyrhaeddodd Scone, lle y bwriadai gael ei goroni. Ar ol myned trwy hyn, a llawer o seremoniau eraill, galwodd ei gynghor yn nghyd, a thraddododd araeth iddynt, yn yr hon y dywedai fod yn ddrwg ganddo fod yn rhaid iddo eu gadael hwynt o herwydd eisieu arian ac arfau. Felly aeth ar fwrdd llong fechan Ffrengig, ac mewn pum niwrnod glaniodd yn Gravelines. Mewn canlyniad i'r gwrthryfel hwn collfarnwyd yr iarllau Derwentwater, Nithusdale a Carnwath, a'r arglwyddi Widrington, Kenmuir a Nairne; a maddeuwyd i'r iarll Wintown. Y noswaith cyn y dienyddiad, bu iarll Nithusdale mor ffortunus a diangc mewn dillad merch, y rhai a gafodd gan ei fam. Crogwyd dau ar hugain o'r gwrthryfelwyr penaf yn Preston a Manchester, ac anfonwyd tua mil i alltudiaeth yn America. Ceisiodd yr Ymhonydd gynneu gwrthryfel arall o'r blaen yn Lloegr trwy gynnorthwy y Cardinal Alberoni, gweinidog y llywodraeth yn Yspaen, yr hwn a anfonodd o dan y duc o Ormond (yr hwn a ddiangodd o Loegr gydag arglwydd Bolingbroke, pan y ceisiwyd eu dal gydag iarll Oxford am deyrnfradwriaeth) ddeg o longau rhyfel, ac ar eu byrddau chwe mil o filwyr, ac arfau i ddeuddeng mil yn ychwaneg. Yn agos i bentir Finisterre, cyfarfyddodd y llynges yma âg ystorm fawr; a dinystriwyd y llongau, a bu raid i'r cwbl droi yn eu hol. Cafodd Byng hefyd oruchafiaeth fawr ar lynges Yspaen, yn agos i bentir Passaro, yn Sicily, ar yr unfed ar ddeg o Awst, 1718. Chwanegodd y rhyfeloedd hyn 14,025,424*p.* at y ddyled wladol—holl swm yr hon oedd ar y pryd yn 47,350,971*p.* Tua'r amser yma, twyllwyd y Ffrancod gan un John Law, dyn o'r Alban, trwy iddo ffurfio cwmpeini o dan yr enw *Mississippi,* yr hwn a addawai gyfoeth mawr i'r bobl; ond terfynodd gan adael y Ffrancod mewn colled fawr. Yn fuan wedi hyny, cynhyrfwyd pobl Lloegr gan rywbeth tebyg, sef cynllun y *South Sea.* Yn amser y chwyldroad, yn nheyrnasiad William, yr oedd yn rhaid i'r llywodraeth fenthyca arian oddi wrth amryw o gwmnïau gwahanol o farsiandwyr; ac yn mysg ereill, oddi wrth gwmpeini y *South Sea.* Pan gyrhaeddodd dyled y llywodraeth i'r cwmpeini ddeng miliwn o bunnau, boddlonasant ar bum can mil o bunnau o lôg, yn lle y chwe chan mil yr oeddynt yn arfer gael. Y pryd hwn cynnygiodd un o'r enw Blount i'r llywodraeth, ar ran cwmpeini y *South Sea,* i brynu i fyny ei holl ddyledion i'r cwmnïau ereill, ac felly dyfod yn unig echwynydd y llywodraeth. Ni ofynai am ddim ond pum punt y cant o lôg am chwe blynedd, pryd y tynid y llôg i lawr i bedair punt y cant. Gan nad ellid dysgwyl fod gan gyfarwyddwyr y cwmpeini ddigon o arian eu hunain i brynu dyledion y genedl, awdurdodwyd hwynt i'w codi trwy gychwyn tanysgrifiad at gynllun o farsiandiaeth yn Môr y De, oddi wrth yr hon farsiandiaeth yr oedd y cyfarwyddwyr cyfrwys yn addaw manteision aruthrol. Felly, gwahoddwyd pawb oedd yn dal rhan o ddyled y llywodraeth i ddyfod i mewn, a newid eu papyrau am bapyrau y cwmpeini. Llwyddodd y cynllun tu hwnt i obaith penaf y cynllunwyr: ond ar ol ychydig fisoedd, deffrodd y bobl o'u breuddwydion am gyfoeth, a gwelsant nad oedd yr holl fanteision yr oeddynt yn eu dysgwyl ond dychymygol, tra yr oedd miloedd o deuluoedd wedi colli y cwbl oedd ganddynt.

Yn 1722, gwelwyd fod cydfwriad mewn bod i geisio eto roddi yr Ymhonydd ar yr orsedd. Yn mhlith personau ereill, cymmerwyd i fyny yr enwog Dr. Atterbury, esgob Rochester, ac alltudiwyd ef o'r deyrnas; ond yr unig un a gollfarnwyd oedd cyfreithiwr o'r enw Layer, yr hwn a grogwyd yn Tyburn am geisio gŵyrdroi milwyr y brenin.

Yn 1717, bygythiwyd rhyfel rhwng Charles XII. o Sweden, a George, am fod George wedi prynu gan y Daniaid dduciaethau Bremen a Verden, y rhai oedd gynt yn perthyn i Sweden. Modd bynag, bu Charles farw cyn i'r fflam dori allan. Ond yn 1725, torodd rhyfel allan rhwng brenin Yspaen a'r ymherawdwr o un ochr, a Lloegr, Ffrainc, a Phrwssia o'r ochr arall; ac yn y rhyfel yma cymmerodd Sweden yr un ochr a Lloegr. Yn 1726, dechreuwyd gwarchae Gibraltar; ond yn fuan terfynwyd y ddadl trwy gylafareddiad. Ar ol y rhyfel, aeth George i weled ei feddiannau yn Hanover, lle nad oedd wedi bod er's dwy flynedd. Pan laniodd yn Holland arosodd am noswaith mewn tref fechan a elwir Voet; ac yn mhen dau ddiwrnod cyrhaeddodd Delden, yn gwbl iach yn ol pob ymddangosiad—tref fechan oedd ar gyffiniau yr Almaen. Yno y cysgodd y noswaith olaf o'i oes. Cychwynodd oddi yno bore dranoeth rhwng wyth a naw: ar y ffordd gorchymynodd i'w gerbyd sefyll. Gwelodd Fabrice, un o'i weision, fod ei ddwylaw yn llonydd, a dechreuodd ei dafod chwyddo. Penderfynodd ar unwaith fyned yn mlaen i balas ei frawd yn Osnaburgh; ond gydag iddo roi y gorchymyn, syrthiodd i freichiau Fabrice, a bu farw cyn iddynt gyrhaedd yno. Mehefin 11eg, 1727, yr oedd yn 68 mlwydd oed, ac wedi teyrnasu am 13 mlynedd. Priododd ei gyfnither, y dywysoges Sophia Dorothea, merch George William duc Brunswick a Zell; ond o blegid rhyw reswm yr oedd mor ddig wrthi fel y cauodd hi i fyny yn nghastell Ahlden yn Hanover ar gyhuddiad na phrofwyd erioed, ac na chredwyd mo hono gan y rhan fwyaf. Cyssylltwyd ei henw â'r Count Koningsmark. Bu fyw yn y castell am ddeugain mlynedd, a gwrthododd George adael iddi hyd yn oed weled ei phlant. Bu farw Tachwedd 13eg, 1726. Gadawodd George un mab, sef George Augustus, ei olynydd, ac un ferch, sef Sophia (mam i Frederic Fawr), yr hon a briododd frenin Prwssia.

Yn 1716, gwnaed deddf i wneud y senedd yn saith mlwyddol, yn lle y dddeddf oedd yn amser William, yr hon oedd yn ei threfnu i fod ond am dair blynedd. Gwnaed cytundeb y "Quadruple Alliance." Rhöid brech y buchod ar droseddwyr am y waith gyntaf. Pasiwyd y "Riot Act" yn 1715. Yn amser George, cymmerodd yr *East*

*India Company* ofal yr holl fasnach âg India. Gwariodd y wladwriaeth 7,000,000*p.* yn y flwyddyn. Yr oedd Urdd Marchog y Gardas wedi myned o arferiad er amser Charles II.; ond ail adferwyd hi yn nheyrnasiad George, fel gwobr i filwriaid teilwng.

Heb law y dynion enwog a enwyd o'r blaen, yr oedd yn byw yn amser George I., syr Robert Walpole, syr Isaac Newton, Dr. Samuel Clarke, y teithiwr enwog; Archesgob Potter, Dr. Prideau, Dr. Waterland, Dr. Lowth, a'i fab esgob Lowth, Dr. I. Watts, Dr. Berkeley, Dr. N. Lardner, duwinyddion; Gay, Congreve, a Parnell, y beirdd; a syr J. Thornhill, y paentiwr.

GEORGE II. Ar farwolaeth George I., daeth ei fab George II. i'r orsedd. Ganwyd ef yn 1683, a dechreuodd deyrnasu yn 1727: coronwyd ef ar yr 11eg o Fehefin y flwyddyn hono. Daeth gyda'i dad i Loegr yn 1714, a gwnaed ef yn Dywysog Cymru. Priododd Caroline Wilhelmina, merch John Frederic, Margrave Anspach, yn 1705, yr hon a fu farw yn 1737. Yr oedd ganddo wyth o blant. Priododd Frederic, Tywysog Cymru, y dywysoges Augusta o Saxe Gotha yn 1736. Bu farw yn 1751, oddi wrth ddyrnod a gafodd gan belen *cricket*: gadawodd naw o blant. Yr oedd gan George II. dymmer danllyd, eto yr oedd yn ffyddlawn i'w air. Yr oedd fel ei dad yn fwy hoff o Hanover nag o Loegr. Yr oedd yn hynod o gynnil, ac yn diystyru celfyddyd a gwybodaeth.

Pan esgynodd George II. i'r orsedd, yr oedd y wlad mewn heddwch. Felly yr oedd achosion y wlad hon yn tynu sylw y llywodraeth. Aeth George i ymweled â Hanover; a thra bu yno cyfododd terfysg mawr yn Edinburgh, trwy i dorf geisio cymmeryd nifer o garcharorion o law yr heddgeidwaid. Aeth y cyffro mor enbyd fel y gorchymynodd Porteus, cadben amddiffynwyr y ddinas, i'w ddynion saethu, a lladdwyd rhai o'r terfysgwyr; a chyhuddwyd Porteus o achosi yn afreidiol farwolaeth rhai o'i gyd-ddynion. Gan fod teimlad yn y ddinas yn rhedeg yn uchel yn ei erbyn, deirydwyd ef i farwolaeth. Pan ymgynnullodd y bobl ar yr amser appwyntiedig i le y dienyddiad, cawsant fod oediad, os nad maddeuant, wedi ei ganiatau iddo. Cynddeiriogodd y bobl pan glywsant hyn, ac aethant i Tolbooth (y carchar yn yr hwn y carcharwyd ef), a llusgasant Porteus allan, a chrogasant ef eu hunain, Medi 8fed, 1736. Yn 1731, ffurfiwyd cwmpeini, yr hwn a elwid y *Charitable Corporation*, gyda'r amcan o fenthyca arian ar lôg cyfreithlawn i bobl dlodion gyda gwystl bychan, ac i gyfoethogion ar wystl priodol. Ar y cyntaf, deng mil ar ugain o bunnau oedd swm eu hariansawdd, ond chwanegwyd ef i chwe chan mil. Codwyd yr arian trwy danysgrifiadau, ac ymddiriedwyd y gorchwyl i ddynion priodol. Ar ol i'r cwmpeini barhau am ugain mlynedd, diangodd ceidwad yr arian, George Robinson, A. S. dros Marlow, a cheidwad yr ystordy, sef John Thompson, mewn un diwrnod, a chafwyd fod pum can mil o bunnau wedi colli. Yn ystod y teyrnasiad yma, ni ddiarddelwyd llai na chwech o aelodau o'r senedd. Diarddelwyd tri o blegid y twyll yma; sef George Robinson, syr Robert Sutton, a syr Archibald Grant; Dennis Bond a Sergeant Birch, am arwerthiad twyllodrus o eiddo yr iarll anffortunus Derwentwater; a John Ward, o Hackney, am ffugiaeth (*forgery*).

Ceisiodd syr Robert Walpole sefydlu cyllid cyffredinol; ond parodd hyny y fath derfysg fel yr amgylchwyd y senedd â thorfeydd, y rhai a barasant ddychryn i'r weinyddiaeth, a gorfodwyd hwynt i roddi yr amcan i fyny.

Y rhyfel cyntaf a dorodd allan yn ystod teyrnasiad George oedd y rhyfel âg Yspaen. Bu agos i hwn dori allan yn fuan ar ol esgyniad George i'r orsedd; ond llawnodwyd cytundeb yn Vienna, rhwng ymherawdwr Awstria, brenin Lloegr, a brenin Yspaen, drwy yr hyn y gosodwyd heddwch Ewrop yn yr un sefyllfa ag o'r blaen, a gohiriwyd y rhyfel ychydig; ond torodd allan drachefn yn 1739. Byth ar ol cytundeb Utrecht, yr oedd yr Yspaeniaid yn arfer cyfyngu a niweidio masnach Brydain Fawr; ac yr oedd marsiandwyr Prydain yn ymdrechu dwyn yn mlaen farsiandiaeth anghyfreithlawn yn eu tiriogaethau. Yr oedd gan fasnachwyr hawl trwy gytundeb i dori coed yn angorfa Campeachy; a thrwy hyny cawsant gyfleusderau mynych i fasnachu mewn nwyddau gwaharddedig ar y Cyfandir, fel y penderfynodd yr Yspaeniaid, er attal y fasnach hono, ddiddymu yr hawl grybwylledig.

Yn y cytundebau diweddaf a wnaethpwyd, yr oedd y cwestiwn o'r hawl i'r logwd yn rhy fach i sylwi arno, a pharhaodd yr Yspaeniaid yn greulawn at y Seison, ac anfonwyd llawer o ddeiliaid Prydain i weithio i gloddfeydd arian Potosi. Ar ol hir gwyno ar ran y masnachwyr, bu raid i'r llywodraeth gymmeryd sylw o'r mater, ac aeth yn rhyfel rhwng Yspaen a Lloegr. Er fod Ffrainc am ugain mlynedd wedi cymmeryd ochr Lloegr yn erbyn Yspaen, y tro yma mynegodd llywodraeth Ffrainc fod yn rhaid iddynt hwy gynnorthwyo Yspaen. Yn fuan ar ol cyhoeddiad rhyfel, cymmerwyd dwy long gyfoethog yn Môr y Canoldir. Anfonwyd y llyngesydd Vernon, â llynges yn cynnwys ond chwe llong, i wrthwynebu y gelyn yn yr India Orllewinol, a chymmerodd feddiant o Porto Bello, Mawrth 22, 1740. Aeth y llyngesydd Anson â llynges i'r Môr Deheuol; ond cyfarfyddodd âg ystorm, a dinystriwyd ei longau, a bu raid iddo droi i ynys Juan Fernandez. Oddi yno symmudodd i'r gogledd, a chymmerodd ddinas Paita yn ystod y nos, heb lanio ond ychydig o filwyr ac heb ddefnyddio ei longau. Cymmerodd wedi hyny long fawr Yspaenaidd, gwerth 313,000*p.* Anfonwyd llynges allan yn cynnwys naw ar ugain o'r llongau mwyaf, a'r un nifer o rai llai, ac ar eu bwrdd yr oedd pymtheg cant o filwyr. Appwyntiwyd arglwydd Cathcart i reoli ar y tir; ond bu farw ar y fordaith, a llywyddwyd hwynt gan Wentworth. Ymdrechodd y fyddin i gymmeryd Carthagena; ond gorchfygwyd hwynt gyda cholled fawr, a llanwyd holl Loegr â grwgnach a thuchan, a throwyd holl ddigofaint y genedl yn erbyn y prif weinidog, sef syr Robert Walpole. Pan welodd yntau hyn, rhoddodd ei swydd i fyny. Y diwrnod nesaf, gohiriwyd y senedd am ychydig ddyddiau; ac yn y cyfamser, codwyd ef i dy yr arglwyddi dan y teitl o iarll Orford. Ymdrechodd Pulteney, iarll Bath, i gymmeryd lle syr Robert, ond edrychai y brenin arno gyda dirmyg. Yn 1740, bu ymherawdwr Awstria farw, ac ni adawodd ond un ferch, yr hon oedd wedi priodi Francis o Lorraine. Er fod hawl Maria Theresa yn berffaith eglur, meddyliodd Ffrainc y byddai yr adeg hon yn un fanteisiol i syrthio ar Awstria; felly, heb gymmeryd sylw o'r *pragmatic sanction*, cyhoeddodd etholwr Bavaria yn ymherawdwr. Nid oedd Maria Theresa ond newydd gau llygaid ei thad pan gymmerwyd Silesia oddi arni gan frenin Prwssia. Ymosododd Ffrainc, Bavaria, a

Digitized by Google

Saxony ar y gweddill o'r ymherodraeth. Lloegr oedd yr unig wlad oedd yn barod i'w cynnorthwyo. Wedi hyny ymunodd Sardinia, Holland, a Phrwssia o'i thu. Anfonwyd arglwydd Stair i'w cynnorthwyo gyda 16,000 o Saeson, ac aeth George, a'i fab, y duc o Cumberland, ar eu hol. Ennillwyd brwydr Dettingen, Mehefin 16eg, 1743. Dyma y rhyfel ddiweddaf yn mha un y bu brenin Lloegr yn bresennol, ac ymddygodd yn y fath fodd fel yr ennillodd serch yr holl filwyr. Yn 1744, ceisiodd mab yr Ymhonydd, Charles Edward, ennill coron Prydain; ond drylliwyd ei longau cyn cyrhaedd yr Alban. Gwnaeth ymdrech arall yn y flwyddyn ganlynol:—aeth mewn llong i'r Alban, ac yr oedd gydag ef long rhyfel i gludo ei arfau. Cyfarfyddodd â'r Lion, a glaniodd Charles Edward yn Borodale yn Lochaber, ar yr un pryd ag y cyrhaeddodd y llong a'i arfau borthladd Brest, diangodd y llong yr oedd efe ynddi mewn cyfyngder mawr. Nis gallasai ddyfod i'r wlad ar amser mwy ffafriol. Cyhoeddodd ei dad yn frenin yn Edinburgh, a chymmerodd y ddinas, Medi 16eg, 1745. Gorchfygodd syr John Cope a'i fyddin yn agos i Preston-pans. Yna cychwynodd tua Lloegr, a chymmerodd Carlisle. Ac ar y 29ain o Dachwedd, cyrhaeddodd Manchester: adgyfnerthwyd ef gan tua thri chant o Saeson, ac aeth i Derby; ond pe buasai wedi myned ar unwaith i Lundain, y mae yn debyg y buasai wedi cymmeryd y ddinas. Ei amcan oedd myned trwy Gaer i Gymru; ond pan welodd ei swyddogion nad oedd ymherawdwr Ffrainc yn ol ei air yn gwneyd ymosodiad ar ranau deheuol Lloegr, mynasant droi yn ol. Felly dychwelasant dros yr Eden a'r Solway i'r Alban, gan adael ychydig o filwyr yn Carlisle. Y flwyddyn nesaf, gorchfygodd Hawley yn Falkirk. Ar ol hyn trodd y glorian; o herwydd daeth y duc o Cumberland i'r Alban gyda 14,000 o ddynion. Arosodd Charles Edward a'i 8,000 o ddynion ar wastattir Culloden—lle tua naw milldir o Inverness. Dechreuwyd y frwydr am un o'r gloch y prydnawn, a gorchfygwyd yr Ymhonydd yn llwyr. Yn union ar ol y frwydr, ffodd gydag ychydig o gyfeillion, a bu am bum mis yn guddiedig yn y wlad o amgylch; ac er anrhydedd y bobl fe ddywedir, er fod 30,000*p*. wedi eu cynnyg am ei ben, ni fradychwyd ef gan neb; a chyrhaeddodd Roseau yn agos i Morlaix yn Llydaw. Yr oedd y Ffrancod wedi cyhoeddi rhyfel yn erbyn Lloegr, ac ennillasant frwydr yn Fontenoy, Ebrill 30ain, 1745. Ond yn fuan teimlai y pleidiau eu bod yn gwanhau, a gwnaethpwyd cyttundeb heddwch yn Aix-la-Chappelle.

Yn 1755, dechreuwyd rhyfel yr America rhwng Ffrainc a Lloegr ar y dechreu am feddiant o Nova Scotia; ac hefyd dywedai y Ffrancod eu bod wedi cael allan darddiad afon y Mississippi, a honent hawl i'r tiroedd oddi amgylch. Anfonwyd o Loegr bedair o fyddinoedd dan lywyddiaeth Monckton, Johnson, Shirley, a Braddock. Bu Monckton a Johnson yn llwyddiannus; meddylir fod Shirley wedi colli y tymmor trwy oedi; a gorchfygwyd Braddock. Yr oedd ynys Minorca wedi ei chymmeryd gan Loegr oddi ar yr Yspaeniaid yn nheyrnasiad y frenines Anne, ond yr oedd y llywodraeth y pryd hwn mewn cymmaint o drafferth fel yr esgeuluswyd anfon digon o filwyr i'w hamddiffyn; felly cymmerwyd hi gan Ffrainc. Pan glywodd y llywodraeth am hyn, anfonasant Byng, â deg o longau rhyfel, i'w hail gymmeryd; ond er cael cyfleusdra, nid aeth Byng yn agos i'r Ffrancod. O blegid hyn, profwyd ef o flaen y llys milwraidd yn Portsmouth, a chondemniwyd ef i'w saethu: yr hyn a wnaed ar fwrdd llong rhyfel yn y lle hwnw. Yn fuan wedi hyn, yr oedd Lloegr a Ffrainc mewn rhyfel â'u gilydd yn y dwyrain, yn America, ac yn yr Almaen. Y dwyrain oedd y lle cyntaf yn mha un y tywynodd llwyddiant ar ein harfau, a hyny trwy ymddygiad dyn o'r enw Mr. Clive, un o hynafiaid arglwydd Clive presennol, yr hwn a ymgododd i'r sefyllfa uchaf yn myddin Lloegr yn hollol trwy ei wroldeb. Yr oruchafiaeth gyntaf a gafwyd trwy ei wroldeb a'i weithgarwch oedd anfon y gelynion allan o Arcot; ac yn fuan wedi hyny, gwnaethpwyd y cadfridog Ffrengig yn garcharor, ac ail osodwyd y Nabob, yr oedd Lloegr yn ei gefnogi, ar ei orsedd. Cyhoeddodd tywysog penaf y wlad ryfel yn erbyn Lloegr, a gwarchaeodd Calcutta; a chan fod y penaeth a'r milwyr i'r nifer o 146 wedi ffoi, cymmerasant y ddinas; a phan ddaliasant y gwarchodlu, cauasant hwy i gyd mewn carchar cul a elwir y "Twll Du"—deunaw troedfedd ysgwar, heb le i awyr ond o ddwy ffenestr yn unig. Ceisiasant yn mhob modd gael ffordd oddi yno, ond methasant; ac erbyn y bore, tri ar ugain o honynt oedd yn fyw allan o 146, a bu llawer o'r rhai hyny feirw yn fuan wedi hyny. Ymosododd Clive, a Watson y llyngesydd, ar Tallagee Angri, tywysog morladronol, yn ei borthladd ei hun yn Geriah, a llwyddasant i losgi ei lynges. Yn nechreu Rhagfyr, cyrhaeddodd Clive Balasore yn Bengal, ac aeth cyn belled a Chalcutta heb gyfarfod un rhwystr. Pan ymddangosodd Watson gyda dwy long o flaen y dref, taniwyd yn gyflym arnynt; ond mewn llai na dwy awr, bu yn rhaid iddynt adael eu hamddiffynfeydd. Yn fuan wedi hyny, cymmerwyd Hooghly. Ennillwyd hefyd frwydr Plassy. Ar ol darostwng yr Indiaid, trodd Clive ar y Ffrancod, a llwyddodd i'w gyru o'r holl sefydliadau.

Tua'r amser yma codwyd Pitt i'r weinyddiaeth; ond gan ei fod yn wrthwyneb i fesurau y brenin tua Hanover, bu raid iddo roddi ei swydd i fyny. Safodd yr holl deyrnas yn erbyn hyn a chafodd y lle drachefn. Yn America, cymmerodd y pen llywydd Amherst bentir Breton oddi ar Ffrainc; a chymmerwyd Fort du Quesne. Ond yr oedd rhyfelgyrch Abercrombie yn erbyn Crown Point a Ticonderoga yn anffortunus.

Y flwyddyn nesaf, cymmerodd y cadlywyddion Prideaux a syr William Johnson, amddiffynfa y Niagara. Pan gyrhaeddodd y cadlywydd Amherst i Crown Point, cafodd fod yr amddiffynfa yno, ac yn Ticonderoga, wedi eu dinystrio. Un dyrnod arall oedd eisieu er rhoddi Canada yn llaw Lloegr, a hwnw oedd cymmeryd Quebec. Ymddiriedwyd hyn ar y tir i'r cadlywydd Wolfe, ac i'r llyngesydd Saunders ar y môr. Penderfynasant i anfon milwyr ar y tir yn y nos, er fod hyny yn hynod o anhawdd; a llwyddasant i gyrhaedd y tu cefn i'r ddinas. Pan glywodd M. de Montcalm, cadlywydd Ffrainc, hyn, gorchymynodd i'w ddynion ymbarotoi i frwydr. Lladdwyd y cadlywydd Ffrengig, a'r is-lywydd. Treiddiodd pelen i fynwes y cadlywydd Wolfe; a phan oedd bron a marw clywodd rhywun yn bloeddio "Y maent yn rhedeg!" Gofynodd "Pwy sydd yn rhedeg?" atebodd un o'r milwyr mai y Ffrancod oedd. Yna syrthiodd i fynwes y milwr, a bu farw gan ddywedyd, "Yr wyf yn marw yn hapus."

Yn 1759, anfonwyd byddin drosodd i'r Almaen i gynnorthwyo y tywysog Ferdinand; ac ennillwyd brwydr Minden. Llwyddodd y tywysog yn Corbach, ond collodd frwydr yn Exdorf. Cafwyd

Digitized by Google

buddugoliaeth hefyd yn Warburg a Zierenberg; ond llwyddodd y gelynion yn Campen. Ennillodd Hawke oruchafiaeth ar longau Ffrainc yn machwy Quiberon, yn agos i Lydaw.

Bu George II. farw yn ddisymmwth, Hydref 25ain, 1760, o guriad y galon, yn 77 mlwydd oed. Cododd fel arferol, ac aeth allan i'r gerddi yn Kensington. Pan y daeth i mewn, aeth i'w ystafell: yn fuan clywodd ei weision drwst mawr, a chawsant ei fod wedi syrthio ar y llawr, a bu farw cyn i'r dywysoges Amelia ei gyrhaedd.

Chwanegodd rhyfeloedd y teyrnasiad yma 30,000,000*p*. at y ddyled wladol. Sefydlwyd Methodistiaeth Wesleyaidd yn 1730. Poblogaeth Lloegr a Chymru oedd 6,736,000 yn 1760. Yn y flwyddyn 1752, dechreuwyd y "dull newydd," neu y cyfrif newydd, sef dechreu y flwyddyn ar y dydd 1af o Ionawr, yn lle ar Mawrth 24ain. Daeth yr angenrheidrwydd am hyn trwy i Julius Cesar gyfrif 365 dydd a chwe awr yn y flwyddyn; yr hyn oedd un munyd ar ddeg gormod.

Yn mysg dynion enwog y cyfnod yma yr oedd Charles James Stuart, Clive, Horace Walpole, Boscawen, Rodney, Byron. Yn mhlith y beirdd yr oedd Thomson, Young, Gray, Collins, Pope, &c.

**GEORGE III.** Ar ol marwolaeth ei daid, daeth George III. i'r orsedd yn 1760. Mab oedd i Frederick, tywysog Cymru, ac Augusta, tywysoges Saxe Gotha. Ganwyd ef yn Llundain Mai 24ain, 1738, yn ol yr hen gyfrif; neu Mehefin 4, yn ol y cyfrif newydd. Priododd Charlotte Sophia, tywysoges Mecklenburgh Strelitz, Medi 8fed, 1761: a bu hi farw Tach. 17eg, 1818. Bu iddynt lawer o blant. Yr oedd George III. yn ddyn gwrol, ac yr oedd yn selog dros lwyddiant y wlad. Yr oedd yn fywiog, haelionus, rhinweddol, a duwiol, ac yn gartrefol, yn amyneddgar, ac yn urddasol yn ei ymddygiad. Parhawyd y rhyfel a ddechreuwyd yn y teyrnasiad o'r blaen rhwng Awstria a Lloegr yn erbyn Ffrainc. Cymmerwyd Belle Isle gan fyddin Prydain. Dychrynodd y Ffrancod ar hyn, a galwasant ar yr Yspaeniaid i'w cynnorthwyo, a chyhoeddasant ryfel yn erbyn Portugal; o herwydd fod y wlad hono yn ffyddlawn i Brydain. Yr oedd Mr. Pitt wedi rhybuddio y llywodraeth mai felly y byddai; ond ni chymmerwyd sylw o'i gynnygiad i gyhoeddi rhyfel yn erbyn Yspaen cyn i'r ddwy genedl gael amser i ymuno. Felly rhoddodd ei swydd i fyny, a chodwyd ef i dy yr arglwyddi dan y teitl o iarll Chatham; a rhoddwyd iddo flwydd-dal o 3000*p*., i barhau am dair oes. Credir mai trwy ddylanwad iarll Bute, ysgrifenydd y llywodraeth, y gwnaethpwyd hyn. Gwnaed pethau mor anghysurus i'r hen deulu-oedd oedd yn amser George I. a George II., fel y rhoddodd pob un eu swyddau i fyny. Dilynwyd y duc o Newcastle yn ei swydd o brif arglwydd y drysorfa yn 1762 gan arglwydd Bute. Yr oedd arglwydd Bute yn hynod o anmhoblogaidd gyda'r bobl, ac ysgrifenwyd llawer yn ei erbyn. Cymmerwyd John Wilkes, A.S., i fyny am hyny; ond rhyddhawyd ef ar ol cael ei garcharu am ychydig ddyddiau. Etholwyd Wilkes, yn 1768, yn aelod dros Middlesex; ond er ei ethol ef bedair gwaith, ni chadarnhawyd ef gan y senedd. Ysgrifenwyd llythyrau ardderchog Junius, a daeth Charles James Fox allan i bleidio rhyddid y bobl. Ni a ddychwelwn am ennyd at y rhyfel rhwng Ffrainc ac Yspaen yn erbyn Awstria, Lloegr, a Phortugal, dan Ferdinand. Anfonodd Yspaen filwyr i Portugal, ac anfonodd Lloegr rai i'w gwrthwynebu, a gorchfygwyd yr Yspaeniaid ddwy waith. Dyoddefodd Ffrainc a Spaen mewn parthau eraill: cymmerwyd oddi arnynt Pondicherry yn yr India Dwyreiniol, Havanna, prif ddinas ynys Cuba, a 3,000,000*p*. o ysbail, a Manilla yn ynysoedd Phillipine. Tra yr oedd Lloegr mor lwyddiannus ar fôr a thir, nid oedd ei chyfathrachydd, brenin Prwssia, yn ail iddi mewn llwyddiant, er fod tynged wedi troi yn ei erbyn trwy uniad Rwssia ac Awstria. Ond fel yr oedd bron a syrthio, bu Elizabeth ymherodres Rwssia farw, a dilynwyd hi ar yr orsedd gan ei nai, Peter III., yr hwn oedd yn edmygu Frederick; ac nid yn unig sefydlwyd heddwch rhyngddynt, ond cymmerodd ei blaid. Terfynwyd rhyfel y saith mlynedd trwy gytundeb heddwch Paris yn 1763. Yr oedd y rhyfel yma yn un or rhai mwyaf llwyddiannus o ryfeloedd Prydain. Mewn hyny o amser hi a feddiannodd holl America Ogleddol gorchfygodd bump ar ugain o ynysoedd; ennillodd ddeuddeg brwydr; darostyngodd naw o ddinasoedd amddiffynedig, ac yn agos i ddeug ain o gastelli ac amddiffynfeydd; cymmerodd neu ddinystriodd gant o longau rhyfel a thua deuddeg miliwn o bunnau o ysbail. Y ddyled wladol y pryd hwn oedd 133,959,270*p*. Chwanegwyd at ammhoblogrwydd iarll Bute trwy iddo godi treth ar ddiod a wneir o afalau; ac yn fuan wedi hyny rhoddodd ei le i fyny, a dilynwyd ef yn ei swydd gan Mr. George Granville. Y pryd hwn y cymmerodd y terfysg yn mherthynas i Wilkes le. Ceisiodd Mr. Granville drethu America; ond pan glywodd yr Americaniaid hyn, codwyd terfysg yn erbyn Granville, a bu raid iddo roddi ei swydd i fyny; a dilynwyd ef gan ardalydd Rockingham. Yn 1766, pasiwyd penderfyniad i ddiddymu y *stamp act*, yr hon oedd wedi peri y fath wrthwynebiad yn America, a'r dreth a'r ddiod afalau. Gwanhawyd gweinyddiaeth Rockingham mor fawr trwy farwolaeth y duc o Cumberland fel y rhoddwyd pen arni, a daeth ereill dan iarll Chatham i awdurdod. Anfonodd y llywodraeth yma ar glwydd Clive i India; ac adnewyddwyd y bwriad anffortunus o drethu papur, lliwiau, gwydr, a the yn America. Codwyd terfysgoedd ofnadwy yn y wlad hono pan glywsant hyn, a bu raid i'r dirpwywyr yn Boston ymlechu yn amddiffynfa William, ac ystyriwyd hi yn angenrheidiol i anfon dwy gatrawd o filwyr i'r dref, ac attaliwyd deddfwrfa New York rhag gwneyd deddfau hyd onid ufuddhaent. Yr oedd y senedd wedi parhau am saith mlynedd, ac etholwyd senedd newydd yn 1768. Yn yr India Ddwyreiniol, cododd gelyn cryfach nag un a godasai o'r blaen, sef Hyder Ally. Terfysgodd y Gwyddelod hefyd y pryd hwn o herwydd amryw gyfyngiadau ar eu masnach. Rhoddodd iarll Chatham ei le i fyny yn 1768, a chymmerwyd y weinyddiaeth gan Mr. Fox ac arglwydd North. Gadawodd y llywodraeth hon i Ffraingc gymmeryd Corsica oddi arni, ac ni chymmerodd sylw o'r sarhad a roddwyd ar ein baner gan Spaen yn achos Ynysoedd Falkland.

Yn 1772, pasiwyd gweithred briodasol freninol mewn canlyniad i briodasau y duc o Cumberland a'r duc o Gloucester. Parhaodd y drwg deimlad rhwng America a Lloegr; ac yn Ebrill, 1775, nid oedd yn bosibl cadw heddwch yn hwy, ac ymosododd yr Americaniaid ar gatrawd a aeth allan o Boston i gymmeryd meddiant o arfau yn Concord. Ar ol unwaith dywallt gwaed, ymunodd yr holl drefedigaethau anfoddog. Cymmerasant Ticonderoga a Crown Point. Anfonwyd ychwaneg o filwyr o Brydain i America o dan y cadfridogion Howe, Burgoyne, a Clinton. Yr oedd y cadfridog

Digitized by Google

Gage yno; a chyhoeddodd faddeuant i bawb a roddent eu harfau i lawr, heb law Hancock ac Adams. Edrychai yr Americaniaid ar hyn gyda dirmyg, ac etholasant Mr. Hancock yn llywydd. Yn Mehefin, sefydlodd fyddin o'r gwrthryfelwyr yn Charlestown, ar uchelfa a elwir Bunker's Hill. Un noswaith, pan welodd cadfridogion Lloegr hyn, penderfynasant eu symmud, ac aeth yn frwydr waedlyd rhyngddynt, yn mha un y collwyd llawer o ddynion ar bob ochr, a gyrwyd yr Americaniaid o'u sefyllfa. Anfonwyd deiseb at y brenin, a chyflwynwyd ef gan Mr. Penn, un o brif berchenogion tir yn Pennsylvania; ond ni anrhydeddwyd ef âg ateb. Etholwyd George Washington yn brif gadfridog yr holl fyddinoedd; ac anfonasant y cadfridogion Arnold a Montgomery i yru y Seison o Canada. Lladdwyd Montgomery yn yr ymgais i gymmeryd Quebec; gwarchaeodd Washington Boston, a bu raid i Howe adael y ddinas: a throdd y rhyfelgyrch a anfonwyd gan y Seison yn erbyn Charlestown, yn Carolina Deheuol, allan yn fethiant.

Gorphenaf 4, 1776, cyhoeddwyd y wlad gan ei senedd yn annibynol. Pan adawodd y cadfridog Howe Boston, aeth i Halifax; ac oddi yno moriodd i New York, lle y cyfarfyddodd â'i frawd arglwydd Howe, a chymmerasant y ddinas, a'r Ynys Hir; anfonasant y gwrthryfelwyr o Jersey a gorfodasant hwynt i ymguddio yr ochr arall i'r Delaware. Ail groesodd yr Americaniaid yr afon, ac ennillasant Trenton, a chymmerasant naw cant o garcharorion; a thra yr oedd arglwydd Cornwallis yn myned i ail gymmeryd Trenton, ymddangosasant o'r tu cefn iddo, a dinystriasant gatrawd dan Mawhood. Cymmerodd brwydr le yn agos i'r afon Brandywine; yn mha un yr ennillodd Lloegr y fuddugoliaeth, a methodd ail ymosodiad a wnaed gan Washington. Yn nechreu y flwyddyn 1777, derbyniodd Burgoyne orchymyn i fyned o Canada i New York; ond mewn canlyniad i hwyrfrydigrwydd y rhai oedd i'w gynnorthwyo, bu raid iddo ef a'i filwyr roddi eu harfau i lawr, a chymmerwyd hwynt yn garcharorion rhyfel. Yn 1778, cymmerodd Ffrainc blaid America yn y rhyfel yma; a chyfarfyddodd Ffrainc a Lloegr yn gyntaf ar y môr; ond ni lwyddodd y naill mwy na'r llall. Er fod Ffrainc wedi ymgymmeryd âg achos America, Lloegr oedd yn fwyaf llwyddiannus trwy y flwyddyn 1779. Cadwodd Clinton feddiant o New York er gwaethaf Washington; tra yn y Deheu, darostyngwyd Georgia gan Campbell a Parker. Nid oedd Prydain mor lwyddiannus mewn parthau ereill o'r ddaiar. Cymmerwyd rhai o Ynysoedd India Orllewinol gan Ffrainc ac Yspaen—y rhai oeddynt wedi ymuno â'u gelynion. Yr oedd yr Iwerddon mewn cyflwr o derfysg. Yn 1780, trodd Holland yn ein herbyn; felly yr oedd gan Loegr bedwar gelyn, ond heb un cyfaill. Daliodd arglwydd Rodney nawdd-long o Yspaen, a gorchfygodd lynges y gelyn. Cynnorthwyodd Gibraltar i ddal y gwarchae yr oedd yr Yspaeniaid wedi ei godi. Moriodd wedi hyny tua'r India Orllewinol, a gwasgarodd lynges Ffrengig fwy o lawer na'i lynges ei hun. Yn America, darostyngodd syr Henry Clinton Carolina Deheuol; a gorchfygodd arglwydd Cornwallis fyddin y cadfridog Gates. Trodd Arnold oddi wrth achos ei wlad, ac aeth i wasanaeth Prydain. Anfonwyd Major Andre i wneud cytundeb âg ef, ond daliwyd a chrogwyd ef fel ysbïwr. Yn 1781, cyfarfyddodd arglwydd Cornwallis â'r un anffawd a Burgoyne. Yn 1782, rhoddodd arglwydd North ei swydd i fyny, a chymmerwyd awenau y llywodraeth gan Mr. Fox. Gwnaethpwyd cytundeb heddwch, yr hwn a benodwyd yn Paris yr un flwyddyn ag y cydnabyddwyd annibyniaeth yr Unol Daleithiau. Yn 1780, cymmerodd llawer o derfysgoedd le. Llosgwyd capelau y Pabyddion, agorwyd y carchardai, &c. Crogwyd nifer o'r terfysgwyr. Profwyd arglwydd George Gordon yn wyneb y cyhuddiad o fod yn offerynol i beri terfysgoedd; ond rhyddhawyd ef ar yr esgus o wallgofrwydd.

Yn yr India Ddwyreiniol, gorchfygodd syr Eyre Coote Hyder Ally, ac adferodd ddylanwad y Cwmpeini. Yn 1783, gwnaethpwyd Mr. W. Pitt, ail fab iarll Chatham, yn brif weinidog. Yn 1784, dechreuwyd rhedeg cerbydau cyhoeddus gan Mr. Palmer, o Bath. Esgynodd Mr. Lunardi, mewn awyren; yr hwn oedd yr ymgais cyntaf o'r fath a wnaethpwyd yn Lloegr. Yn 1787, ceisiodd dynes, o'r enw Margaret Nicholson, lofruddio y brenin; ond gan ei bod yn wallgof, rhoddwyd hi yn ngwallgofdy Bethlehem. Yn 1788, cymmerwyd George yn glaf o glefyd yr ymenydd, ac appwyntiwyd Tywysog Cymru yn rhaglaw. Cymmerodd y Chwyldroad Ffrengig le yn 1793, pryd y diorseddwyd Louis xvi., ac y torwyd ei ben ef a'r frenines. Pan hysbysodd M. Chauvillier, llysgenadwr Ffrainc yn Llundain, farwolaeth ei feistr, gorchymynwyd iddo ef a'i ganlynwyr adael Lloegr mewn wyth niwrnod. Cyhoeddodd Ffrainc ryfel yn erbyn brenin Prydain, a chymmerwyd y cyfle i fygwth Holland. Ymdaenodd y Ffrancod dan Napoleon Buonaparte dros Gyfandir Ewrop, a rhoddasant freninoedd newydd yn lle y rhai hyny a ddiorseddasant. Cymmerai ormod o le i ni roddi hanes y rhyfel yn llawn yma. A ganlyn yw y prif frwydrau: St. Vincent, Chwefror 14eg, 1797; brwydr y Nile, Awst 1af, 1798; gorchfygwyd Napoleon yn Acre, Mawrth 30ain, 1799; cymmerwyd Seringapatam oddi ar Tippoo Sultan, Mai 4, 1799; brwydr Alexandria, Mawrth 21ain, 1801; Copenhagen, Ebrill 2il, 1801; Trafalgar, Hydref 21ain, ac Austerlitz, Rhagfyr 2il, 1805; Maida, yn Calabria, Italy, Gorphenaf 4ydd, 1806; Copenhagen, Medi, 1807; brwydr Tilsit, Mehefin, 1807; Vimiera yn Portugal, Awst 21ain, 1808; Corunna, yn Gallicia, Yspaen, Ionawr 16eg, a Talavera, Gorphenaf 28ain, 1809; Barossa, ger Cadiz, Mawrth 5ed, ac Albuera, ger Badajos, Yspaen, Mai 16eg, 1811; Salamanca, yn Yspaen, Gorphenaf 22ain, 1812; Vittoria, yn Biscay, Mehefin 21ain, 1813; a Waterloo, Mehefin 18eg, 1815.

Mehefin 22ain, gadawodd Napoleon yr orsedd, a ffodd tua'r môr, gan obeithio cyrhaedd America; ond yr oedd y Seison mor wyliadwrus, fel y bu raid iddo ei roddi ei hun i fyny i cadben Maitland o'r Bellerophon, a chymmerwyd ef i borthladd yn Lloegr. Penderfynwyd ei anfon i Ynys St. Helena, yn yr Atlantic Ddeheuol; lle y bu farw Mai 5ed, 1821. Adferwyd Louis xviii. yn ddiwrthwynebiad.

Yn Tachwedd 1810, ail ddyrysodd synwyr George. Priodolwyd hyn i'r ysgytiad a gafodd y mis o'r blaen trwy farwolaeth ei ferch anwylaf —y dywysoges Amelia. Ymneillduodd i Gastell Windsor, lle y bu fyw am naw mlynedd dan ofal y frenines a'i deulu. Nid gwallgof yr oedd yn unig, ond yr oedd yn ddall hefyd. Etholwyd Tywysog Cymru eilwaith yn rhaglaw. Yr oedd y cyfnewidiad annisgwyliadwy o ryfel i heddwch wedi peri fod masnach yn farwaidd iawn; a phan y daeth y milwyr yn eu hol, yr oedd cymmaint ychwaneg o weithwyr yn y wlad fel y bu cyf-

Digitized by Google

**yngder mawr yn Lloegr.** Cynhyrfwyd meddyliau y bobl yn Llundain, ac yn y wlad, i derfysgu. Profwyd Watson a Thistlewood, blaenoriaid y terfysgoedd yn Spa Fields; ond rhyddhawyd hwynt. Yn Derby, torwyd penau Brandreth, Turner, Ludlam ac ereill, a rhoddwyd llawer yn y carchar. Bu Tywysoges Cymru, sef Charlotte, farw yn 1817. Yn 1818, bu y frenines Charlotte farw. Yn Ionawr, 1820, bu farw y duc o Kent; a'r mis canlynol bu George III. farw, yn y drigeinfed flwyddyn o'i deyrnasiad a'r eilfed a phedwar ugain o'i oes.

Rhagfyr 1af, 1796, codwyd benthyg 18,000,000p. i'r llywodraeth mewn pymtheg awr ac ugain munyd. Yn y flwyddyn ganlynol, attaliwyd taliadau mewn arian yn Manc Lloegr, a rhoddwyd allan nodau 1p. a 2p. Ail gychwynwyd taliadau mewn arian yn 1817. Yn 1770, yr oedd poblogaeth Lloegr a Chymru yn 7,227,586. Yn 1801, yr oedd yn 9,168,000; Alban, 1,652,400; ac Iwerddon yn 5,500,000. Unwyd Prydain â'r Iwerddon yn 1801. Terfynwyd y fasnach mewn caethweision mewn rhan yn 1807. Cyhoeddwyd Hanover yn deyrnas yn 1814. Agorwyd pont Waterloo yn 1817, a phont Southwark yn 1819. Yn ystod y teyrnasiad yma, yr oedd James Watt yn byw, a dyfeisiwyd y peiriant nyddu (*spinning jenny*) gan James Hargraves; y ffrâm nyddu (*spinning frame*) gan Richard Arkwright; y nyddiadur (*mule*) gan Samuel Crompton; gallwŷdd (*power-loom*) gan Dr. Cartwright; yr amseriadur (*time keeper*) morwrol gan John Harrison; a'r ysbiadur di-liw (*achromatic object glass*), gan John Dolland.

Cychwynwyd newyddiadur ar Ionawr 13eg, 1785, dan yr enw *The London Daily Universal Register;* a newidiwyd ei enw i'r *Times*, Ionawr 1af, 1788.

Ereill o ddynion enwog y cyfnod hwn oeddynt, y duc o Wellington, syr John Moore, syr Sidney Smith, Cadben Cook, John a Charles Wesley, George Whitfield, esgob Heber, Alban Butler, syr W. Blackstone, y cyfreithiwr; Cowper, Chatterton, Kirke, White, W. Burns, a Shelley, y beirdd; Hume, Gibbon, a Smollett, yr haneswyr; arglwydd Chesterfield, syr W. Jones, Dr. S. Johnson, O. Goldsmith, Dr. Parr, ac Adam Smith; hefyd, syr W. Herschel, syr H. Davy, a Dugald Stewart, yr athronyddwyr; syr J. Reynolds, y paentiwr; Quin, Garrick, Kemble, Foote, a Mrs. Siddons, y chwareuwyr; a J. Howard y dyngarwr.

GEORGE IV. Pan bu George III. farw, daeth ei fab hynaf i'r orsedd. Ganwyd ef yn Windsor, Awst 12fed, 1762: gwnaethpwyd ef yn Rhaglaw Chwefror 5ed, 1811. Coronwyd ef yn Westminster, Gorphenaf 19eg, 1821, a theyrnasodd o 1820 hyd 1830. Yn 1795, priododd Caroline o Brunswick. Ganwyd ei unig blentyn, y dywysoges Charlotte, Ionawr 7fed, 1796; yr hon a briododd y tywysog Leopold o Saxe Coburg, a'r hon a fu farw Tachwedd 6ed, 1817.

Yr oedd George IV. wedi bod yn hynod o ofer yn ei ieuenctid, a rhedodd i ddyled fawr: a'r unig ammod ar ba un y talwyd y ddyled gan y senedd oedd iddo briodi y dywysoges Caroline; yr hyn a wnaeth. Ond ar ol genedigaeth y dywysoges Charlotte, ymadawsant â'u gilydd, ac aeth hi i fyw ar y Cyfandir. Pan glywodd fod ei gwr yn frenin, gwnaeth ei ffordd i Lundain, lle y derbyniwyd hi gyda'r anrhydedd mwyaf. Hi a gyrhaeddodd i'r ddinas hono ar y dydd cyntaf o Fehefin; a phrydnawn yr un diwrnod, anfonwyd cenadwri gan y brenin i ddau dŷ y senedd, gyda phapyrau yn priodoli camymddygiad iddi tra ar y Cyfandir. Ar y 5ed o Orphenaf, dygwyd ysgrif er ei hysgaru a'i diraddio i mewn i dŷ yr arglwyddi gan y prif weinidog Liverpool. Cymmerwyd rhai misoedd i wrandaw y tystiolaethau o blaid ac yn erbyn y cyhuddiadau, ar ba rai y dywedid fod yr ysgrif hon wedi ei sylfaenu. Ar y 6ed o Hydref, pasiwyd yr ail ddarlleniad o'r ysgrif trwy fwyafrif o 123 yn erbyn 95; ar y 10fed, fe gariwyd yr ail ddarlleniad gyda mwyafrif yn unig o 108 yn erbyn 99:—dim ond deg o wahaniaeth. Gwelwyd oddiwrth hyn nad oedd un gobaith am i'r ysgrif basio tŷ y cyffredin: felly rhoddwyd yr amcan i fyny. Ni bu y frenines fyw yn hir iawn wedi hyn.

Pan goronwyd George, ymddangosodd y frenines wrth ddrws Westminster Abbey; ond nacawyd iddi gael myned i mewn. Y mae yn debyg i'r digwyddiad diweddaf hwn gael effaith farwol arni; o herwydd bu hi farw o doriad calon yn Hammersmith, Awst 7fed, 1821. Cyn coroniad George, daliwyd cydfradwyr Cato Street. Cawsant yr enw yma oddi wrth heol fechan yn nghymmydogaeth Edgeware Road, yn mha le yr oeddynt yn arfer ymgynnull. Eu hamcan oedd llofruddio y gweinidogion pan yn bwyta eu ciniaw gyda'u gilydd. Ond ar y noswaith yr oeddynt wedi meddwl rhoddi eu cynllun mewn gweithrediad, cymmerwyd y cydfradwyr i fyny. Diangodd Thistlewood, y prif fradwr; ond daliwyd ef drachefn yn Moorfields, a dienyddiwyd ef a phedwar ereill, sef Tidd, Brunt, Ings, a Davison, yn yr Old Bailey. Yn fuan ar ol ei goroniad, aeth y brenin i ymweled â'r Iwerddon; ac ar ol hyny aeth i Hanover a'r Alban. Cydnabyddwyd annibyniaeth Columbia, a lleoedd ereill yn America Deheuol.

Blinwyd preswylwyr etifeddiaethau Lloegr yn Affrica ac India yn fawr gan eu gelynion barbaraidd; ond darostyngwyd yr Ashantees a'r Hindostaniaid. Yn 1826, anfonwyd cynnorthwy i'r frenines Donna Maria, o Portugal, yr hon a ddiorseddwyd gan ei hewythr. Buwyd yn llwyddiannus ar y pryd; ond yn y flwyddyn ganlynol ymddangosodd Don Miguel eto yn ei herbyn, a bu raid iddi ffoi yn gyntaf i Loegr, ac wedi hyny i lys ei thad, yn Rio Janeiro.

Ar ol marwolaeth arglwydd Liverpool, gwnaed Canning drachefn yn brif weinidog; ond bu yntau farw yn fuan. Y prif weinidog nesaf oedd yr arglwydd Goderich; ond methodd, a galwodd George y duc o Wellington i gymmeryd y swydd.

Yn 1824, cymmerodd ymdrechfa le rhwng Groeg a Thwrci. Yr oedd y Groegiaid yn rhyfela am annibyniaeth, ac ennillasant gryn lawer o gydymdeimlad. Aeth nifer o wirfoddolion o Loegr i'w cynnorthwyo; ac yn mhlith ereill, arglwydd Byron, yr hwn a fu farw o glefyd yn Missoloughi. Yn 1827, yr oedd y creulonderau a gymmerodd le yn y rhyfel yma mor ddychrynllyd fel y teimlodd breninoedd Ewrop yn ddyledswydd arnynt i wneuthur rhywbeth; a llawnodwyd cytundeb rhwng Lloegr, Ffrainc, a Rwssia, yn Llundain, Gorphenaf 6ed, 1827. Mewn canlyniad i hyn, aeth llynges undebol, o dan syr Edward Codrington, i warchae llynges Twrci yn Navarino, a llwyddasant i'w dinystrio Hydref 20fed, 1827. Trwy hyn gwnaethpwyd Groeg yn deyrnas annibynol, ac appwyntiwyd y tywysog Otho, o Bavaria, yn frenin.

Yn 1829, symmudwyd y deddfau oedd yn attal y Pabyddion i lenwi 'rhai swyddau. Agorwyd King's College, Llundain, yn 1830. Yn yr un flwyddyn sefydlwyd corff cyfluniedig o heddgeid-

Digitized by Google

waid. Wedi aflechyd hir, bu George IV. farw yn Nghastell Windsor, Mehefin 26ain, 1830.

Yn amser y brenin hwn y dechreuwyd gosod carcharorion ar y gang-felin (*treadmill*). Tarddodd trueni mawr oddi wrth sefydliad cwmniau newyddion dan ei deyrnasiad: yr oedd cynnifer a 276 yn cael eu cychwyn mewn ychydig amser.

Yn mysg dynion enwog teyrnasiad George IV., heb law y rhai a enwyd uchod, yr oedd y rhai a ganlyn:—W. Huskisson, arglwydd Castlereagh a syr T. S. Raffles, gwladweinyddion; Dr. Jenner, darganfyddwr brech y buchod; B. West, a syr T. Lawrence, paentwyr; Dr. Callcott, cerddor; Mrs. Radcliffe, D. Ricardo; Dr. Rees, Cymro, awdwr y *New Encyclopædia*; syr W. Scott, Robert Pollock, Parch. R. Hall, a Dr. A. Clarke—y rhai oeddynt oll yn enwogion mewn llenyddiaeth.

**GEORGIA, EGLWYS.** Talaeth Asiaidd yw Georgia ar lethr deheuol y Caucasus. Gelwid hi gynt Iberia, a pherthynai ar y cyntaf i Persia; ond y mae yn awr yn rhan o ymherodraeth Rwssia. Y mae yn debyg nad oedd crefydd gyntefig y Georgiaid yn ddim amgen na ffurf benodol o grefydd y Persiaid. Dychwelwyd hwy at Gristionogaeth yn y bedwaredd ganrif—yn benaf trwy offerynoliaeth caethferch Gristionogol, gweddïau yr hon a ystyrid yn rhinweddol i iachau anhwylderau wedi i bob moddion ereill fethu. Wedi i'r drws fel hyn gael ei agor, fe anfonwyd pregethwyr o ymherodraeth Rhufain i ddysgu y bobl yn egwyddorion y grefydd Gristionogol, wrth y rhai y maent wedi glynu yn ffyddlawn byth wedi hyny. Cafodd Eglwys Georgia, o blegid ei hagosrwydd at Armenia, ei thueddu i ymranu gydag eglwys y wlad hono oddi wrth yr Eglwys Ddwyreiniol. Ond yn mhen hanner can mlynedd ar ol hyny, hi a ddychwelodd i gymundeb yr olaf; ac y mae byth yn rhan o honi. Er ei bod mewn enw dan lywodraeth patriarch Caer Cystenyn, i'r hwn y telid teyrnged, bu ganddi am bymtheg can mlynedd batriarch o'i heiddo ei hun. Yn 1801, fe gymmerwyd Georgia oddi ar Persia gan Rwssia. Wedi hyny fe gorfforwyd Eglwys Georgia yn rhwydd â'r Eglwys Roeg Rwssiaidd, a daeth dan lywodraeth yr archesgob Tiflis. Y nodwedd neillduol sydd yn ei gwahaniaethu hi oddi wrth gangenau ereill o'r Eglwys Ddwyreiniol ydyw ei bod yn oedi bedydd plant hyd yr wythfed flwydd o'u hoed. Y mae yn Georgia nifer mawr o fynachdai a lleiandai. Rhoddir addysg mor dda i'r merched yn y sefydliadau olaf hyn, fel y sylwyd fod y boblogaeth fenywaidd yn fwy dysgedig yn athrawiaethau Cristionogaeth nag ydyw y gwrywiaid, na hyd yn oed yr offeiriaid eu hunain.

**GERA,** [גרא; Γηρα]: un o "feibion," hyny yw disgynyddion, Beniamin, a enwir yn *Gen.* xlvi. 21, fel eisoes yn byw yn amser mynediad Iacob i'r Aipht. Yr oedd yn fab i Bela: 1 *Cron.* viii. 3. Y mae testyn y lle olaf hwn yn hynod aneglur; ac ymddengys nad ydyw y gwahanol Geräau a enwir yno yn ddim ond un, sef mab Bela. Y mae yn debyg hefyd mai yr un person yw yr hwn a enwir yn *Barn.* iii. 15, fel un o hynafiaid Ehud, ac yn 2 *Sam.* xvi. 5, fel un o hynafiaid Simei, yr hwn a felldithiodd Dafydd. Ni enwir Gera yn y rhestr o deuluoedd Beniamin yn *Num.* xxvi. 38—40. Gellir deall hyn pan ystyrir nad oedd efe y pryd hwnw yn ben ar deulu o'r eiddo ei hun, ond yn cael ei gynnwys yn mhlith hiliogaeth Bela; canys yr oedd yn angenrheidiol i rai o feibion Bela gael eu cynnwys yn y modd hwn, o blegid heb hyny ni buasai tylwyth o honynt o gwbl. Y mae Dr. Kalisch yn gwneyd sylwadau meithion a dyrys ar yr anghyssonderau yn y rhestrau sydd yn *Gen.* xlvi. a *Num.* xxvi. ac yn enwedig yn mherthynas i feibion Beniamin; ond y gwir yw, fod y ddwy restr yn ddigon cysson cyn belled ag y mae a fynont â Beniamin. Yr unig anghyssondeb sydd yn aros, wedi rhoddi yr eglurhad uchod fod Becher a Gera wedi eu gadael allan o'r rhestr yn Numeri, ydyw mai un enw אחירם (Ahiram) a roddir yn Numeri am y ddau enw אחי a ראש (Ehi a Ros) yn Genesis. Pe buasai y cyntaf wedi ei ysgrifenu yn ראם, yr hyn a ellid wneyd, buasai y ddau destyn bron yr un. Y mae yn ddigon tebyg mai Ahiram sydd yn iawn, oddi wrth "dylwyth yr Ahiramiaid;" ac ni chrybwyllir yn un man arall am Ros, yr hwn yn wir nid yw yn enw priodol.

**GERAH,** [גרה; Deg a Thrigain, *obolos*]: y dernyn lleiaf o arian yn mhlith yr Hebreaid. Cymmerai ugain o honynt i wneyd sicl. Felly byddai un o honynt yn werth tua cheiniog a dimai, yn ol gwerth presennol arian: *Exod.* xxx. 13.

**GERAR,** [גרר; Γεραρα]: dinas a thalaeth ar derfynau mwyaf deheuol Palestina, yn ngwlad y Philistiaid, ac heb fod yn mhell o Gaza. Ymwelwyd â hi gan Abraham ar ol dinystr Sodom (*Gen.* xx. 1), a chan Isaac pan oedd newyn yn y rhanau ereill o Wlad Canaan (*Gen.* xxvi. 1). Y mae amgylchiadau eu hymdaith yn dangos fod y wlad yn hynod ffrwythlawn. Hi oedd safle y deyrnas Philistaidd gyntaf am ba un yr ydym yn darllen, ac oddi wrth yr hyn y cafodd ei henw. Y mae ymdrafodaeth, ymrafaelion, a chyfathrachau y tadau Hebreig â brenin a phobl Gerar yn cyfansoddi cyfran ryfedd a dyddorol iawn o hanes y patriarchiaid. Parhaodd yn lle pwysig mewn amseroedd diweddarach, fel y gallwn gasglu oddi wrth 2 *Cron.* xiv. 13, 14. Yn ol yr hen hanesion, gorweddai Gerar yn neu yn agos i ddyffryn, yr hwn fel yr ymddengys nid yw amgen na'r Wady Sheriah Mawr (neu un o'i gangenau) sydd yn dyfod i lawr o Beerseba; heb law hyny ni a wyddom ei bod yn ngwlad y Philistiaid, ac nad oedd yn mhell oddi wrth Beerseba pan y trigai Isaac yno: *Gen.* xxvi. 1, 20, 23, 26—33: cymharer *pen.* xx. 1. Parhaodd yr enw mewn bod (hwyrach mai mewn traddodiad) am amryw ganrifoedd wedi y cyfnod Cristionogol. Y mae Eusebius a Jerome yn gosod y lle bump ar ugain o filltiroedd Rhufeinig i'r deheu o Eleutheropolis; ac y mae Sozomen yn hysbysu fod mynachdy mawr ac enwog yn sefyll yno ger llaw llifeiriant gauafol. Bu yr abad Silvanus yn byw yno tua diwedd y bedwaredd ganrif, ac y mae enw Marcion, esgob Gerar, i'w ganfod yn mhlith yr enwau yn nghymmanfa Chalcedon, yn 451 O.C. Ymddengys fod yr enw wedi cael ei golli ar ol hyny, ac yr oedd Dr. Robinson yn analluog i gael unrhyw olion o hono yn yr ardal; ond gobeithir y bydd i ddarganfyddiad rhai o weddillion y mynachdy roddi gwybodaeth am le y ddinas.

**GERASA,** [Groeg, Γερασα]. Ni cheir yr enw hwn yn yr Hen Destament nac yn nhestyn derbyniedig y Testament Newydd. Ond fe dybir yn awr gan lawer fod Gergesiaid neu Gerasiaid, yn *Mat.* viii. 28, yn sefyll yn lle Gadareniaid. Dinas enwog oedd Gerasa ar derfynau

Digitized by Google

dwyreiniol Perea, a gosodir hi gan rai yn nhalaeth Cœlo-Syria a pharthau Decapolis, a chan ereill yn Arabia. Nid yw yr amrywiol fynegiadau hyn yn cyfodi oddi ar unrhyw ammheuon yn mherthynas i le y ddinas, ond oddi wrth gyflwr anmherffaith terfynau y taleithiau a grybwyllwyd. Yn yr oes Rufeinaidd, nid oedd un ddinas yn Palestina yn fwy adnabyddus na Gerasa. Y mae yn sefyll yn mhlith mynyddoedd Gilead, ugain milldir oddi wrth yr Iorddonen, a phum milldir ar ugain i'r gogledd o Philadelphia, yr hen Rabbath-Ammon. Y mae amryw lawysgrifau yn darllen *Gerasiaid* yn lle *Gergesiaid* yn *Mat.* viii. 28; ond yr oedd dinas Gerasa yn gorwedd yn rhy bell oddi wrth Fôr Tiberias i feddwl fod yn bosibl fod y gwyrthiau wedi cael eu cyflawnu ger llaw iddi. Os Gerasiaid yw y darlleniad priodol, rhaid fod y wlad neu y rhandir yn un mawr iawn, yn cynnwys Gadara a'r cymmydogaethau; ac felly y mae Matthew yn arfer enw eang, tra y mae Marc a Luc yn arfer un mwy penodol. Nid yw hyn yn annhebyg; canys fe ddywed Jerome fod Gilead yn ei amser ef yn cael ei galw Gerasa, a dywed Origen mai Gerasiaid oedd yr hen ddarlleniad yn y fan hon.—Gadara.

Ni wyddys pa bryd, na chan bwy, y sylfaenwyd Gerasa. Crybwyllir hi gyntaf gan Josephus fel wedi cael ei chymmeryd gan Alexander Jannæus. Yr oedd yn un o'r dinasoedd a losgodd yr Iuddewon mewn dialedd am y gyflafan fu ar eu cydwladwyr yn Cesarea, ar ddechreuad eu rhyfel diweddaf â'r Rhufeiniaid; a phan yr oedd wedi ymadfer o'r trychineb hwn pan yr anfonodd yr ymherawdwr Vespasian ei gadfridog Annius i'w chymmeryd. Wedi i Annius gymmeryd y ddinas ar yr ymosodiad cyntaf, efe a laddodd â min y cleddyf fil o'r ieuenctyd na ddiangasant, gan gaethiwo eu teuluoedd ac ysbeilio eu cartrefi. Ymddengys mai tua chanrif wedi y cyfnod hwn y cyrhaeddodd Gerasa ei llwyddiant, ac yr addurnwyd hi â'r cotgolofnau hyny sydd yn ennill iddi le yn mhlith dinasoedd ardderchocaf Syria. Nid yw hanesiaeth yn dywedyd dim yn mherthynas i hyn, ond y mae olion o arysgrifau a gafwyd yn mhlith ei phalasau a'i themlau adfeiliedig yn dangos ei bod yn ddyledus am orwychder ei hadeiladau i oes ac athrylith yr Antoniniaid, yn B. A. 138—80. Daeth wedi hyny yn eisteddle esgob. Nid oes un prawf ddarfod meddiannu y ddinas erioed gan y Saraceniaid. Nid oes unrhyw olion o'u hadeiladwaith hwynt—na moscau, nac arysgrifau, nac adffurfiad o hen adeiladau, megys a welir yn y rhan fwyaf o'r dinasoedd mawrion ereill yn Syria. Mae pob peth yma yn Rhufeinig, neu o leiaf yn gyn-Fahometaidd :—pob adeilad fel y gadawyd hi gan law y dinystrydd neu gynhyrfiad daiargryn—yn adfeiliedig a diffaeth.

Adfeilion Gerasa ydyw y rhai prydferthaf ac eangaf o lawer y tu dwyreiniol i'r Iorddonen. Y maent yn sefyll o bob tu i ddyffryn bas sydd yn rhedeg o'r gogledd i'r deheu trwy wastadedd uchel, gan ddisgyn i'r Lurka (yr hen Iabboc), yn y pellder o tua phum milldir. Y mae afonig fechan gyda rhoswydd tew yn gwisgo ei hymylon yn ymddolenu trwy y dyffryn, gan ddwyn bywyd a phrydferthwch i'r ddinas anghyfannedd. Y mae yr olwg gyntaf ar yr adfeilion yn darawiadol iawn; ac nid yn fuan y bydd i'r sawl a'i mwynhaodd anghofio yr argraff a adawodd ar y meddwl. Y mae y rhes hir o golofnau sydd yn rhedeg drwy ganol y ddinas, ac yn terfynu yn un pen mewn cylch prydferth y Forum; yr amrywiol golofnau a welir yma a thraw yn mhlith muriau drylliedig y temlau; yr adeiladwaith nerthol sydd yn gosod allan safleoedd y chwareudai mawrion; a'r maes eang o adfeilion diffurf sydd yn ymgodi yn raddol oddi ar lanau gwyrddion yr afonig hyd yr uchelderau canllawog ar bob tu—mae y rhai hyn oll yn cytuno i ffurfio darlun digyffelyb. Y mae



Dar.318.—Gerasa.

y ddinas ar ffurf pedeirongl afreolaidd—pob ystlys yn mesur yn agos i filltir. Amgylchynid hi gan fur cryf—y rhan fwyaf o ba un, gyda'i dyrau yma ac acw, sydd mewn cyflwr pur dda. Mae tri phorth yn aros bron yn gyfa; ac mae yn y ddinas dros ddau cant a deg ar ugain o golofnau yn awr.

GERGESIAID. Gwel Gadara.

GERIZIM. Gwel Ebal.

GERMANY, neu YR ALMAEN. Yr oedd yr ymherodraeth hon, yn yr hen amseroedd, fel yn bresennol, wedi ei rhanu yn dywysogaethau annibynol. Llwyddodd y Germaniaid, am ysbaid maith, i wrthsefyll holl ymdrechiadau y Rhufeiniaid i'w darostwng; ac er eu bod wedi llwyddo i gymmeryd meddiant o rai rhanau o'r wlad, ymlidiwyd hwynt allan o honi cyn diwedd y drydedd ganrif. Yn y bummed ganrif, yr oedd yr Huniaid, ynghyd â llwythau eraill, wedi ymdaenu dros y rhan fwyaf o'r Almaen. Yn niwedd yr wythfed ganrif, gorchfygodd Charlemagne y Sacsoniaid, a llwythau eraill; a choronwyd ef yn ymherawdwr yn Rhufain, Rhagfyr 25ain, B. A. 800. Ar ol diflaniad ei deulu, daeth yr ymherodraeth yn un etholiadol, yn B. A. 911. Ar ol hyny, daeth aelodau o deulu Hapsburg i feddiant o'r orsedd, o 1437 hyd 1804. Rhanwyd Germany yn gylchoedd rhwng 1501—12. Ffurfiwyd Cynghrair y Rhine (*The Federation of the Rhine*), sef Cynghrair y Talaethau Germanaidd, gan Napoleon Buonaparte, Gorph. 12fed, 1806; ac efe a ddiddymodd Ymherodraeth Sanctaidd Rhufain (*Holy Roman Empire*), a gwnaed ymherawdwr Germany yn ymherawdwr Awstria. Yn Rhagfyr y flwyddyn hono, cynnwysai yr ymherodraeth Ffraingc, Bavaria, Wurtemberg, Saxony, a Westphalia; a saith o dduciaethau mawr; chwech o dduciaethau llai; ac ugain o dywysogaethau. Ymrwymodd y tywysogion gyda'u gilydd i godi 258,000 o filwyr, a'u dwyn i'r maes, pan y byddai eu heisieu, mewn adeg o ryfel; a sefydlwyd Llwyrwys (*Diet*) Germanaidd neu Almaenaidd yn Frankfort. Parhaodd y cynghrair hwn tra y bu Buonaparte yn ymherawdwr; sef, hyd 1814. Ar Mehefin 8fed, 1815, cymmerodd y Cynghrair Almaenaidd (*Germanic*



Digitized by Google

*Confederation*) ei le; a Chynghrair Gogledd Germany ei le yntau Awst 18fed, 1866:—yn benaeth ar yr hwn yr oedd brenin Prwssia. Aeth Prwssia i ryfel âg Awstria yn y flwyddyn hono; ac ar derfyniad y rhyfel, torwyd pob cyssylltiad rhwng Awstria a'r Cynghrair Germanaidd; a chymmerodd Prwssia feddiant o'r holl fân dywysogaethau oedd wedi cynnorthwyo Awstria yn y rhyfel; sef, Hanover, Nassau, Hesse-Cassel, Hesse-Homburg, a Frankfurt. Meddiannodd hefyd Schleswig-Holstein, Lauenburg, ynghyd â rhanau o Hesse-Darmstadt, a Bavaria.

Ail sefydlwyd ymherodraeth Germany Ionawr 1af, 1871, pan alwodd brenin Prwssia dywysogaethau Gogledd Germany i ffurfio cynghrair newydd. Cyhoeddwyd William I., o Prwssia, yn ymherawdwr Germany yn Versailles, ar y 18fed o'r un mis, ar adeg y rhyfel â Ffrainge.

Y mae Germany, fel y saif yn bresennol, yn cynnwys 26ain o dalaethau, y rhai a orweddant rhwng 47° 18′ a 55° 52′ lledred gogleddol, a 5° 50′ a 22° 50′ hydred dwyreiniol. Terfynir hi ar y gogledd gan Fôr y Gogledd, Denmarc, a'r Llychlyn; ar y dwyrain, gan Rwssia ac Awstria; ar y gorllewin, gan Ffrainge, Belgium, a'r Iseldiroedd; ac ar y dde, gan Awstria a Switzerland. Ni a roddwn yma y talaethau, a'u mesur mewn milldiroedd petryal, neu ysgwâr, eu poblogaeth yn 1885, ynghyd â'r nifer o aelodau y mae pob talaeth yn eu hanfon i'r *Bundesrath*, sef y Tŷ Uchaf; a nifer yr aelodau a anfonant i'r *Reichstag*, sef y Tŷ Isaf:—

| Talaethau. | Mesur mill. petr. | Poblogaeth. | Tŷ uchaf. | Tŷ isaf. |
|---|---|---|---|---|
| Prwssia ... | 136,073 ... | 28,318,470 ... | 17 ... | 236 |
| Bavaria ... | 29,632 ... | 5,420,199 ... | 6 ... | 48 |
| Würtemberg ... | 7,619 ... | 1,995,185 ... | 4 ... | 17 |
| Baden ... | 5,891 ... | 1,601,255 ... | 3 ... | 14 |
| Saxony ... | 5,856 ... | 3,182,003 ... | 4 ... | 23 |
| Mecklenburg-Schwerin | 5,197 ... | 575,152 ... | 2 ... | 6 |
| Hesse ... | 3,000 ... | 956,611 ... | 3 ... | 9 |
| Oldenburg ... | 2,508 ... | 341,525 ... | 1 ... | 3 |
| Brunswick ... | 1,441 ... | 372,452 .. | 2 ... | 3 |
| Saxe-Weimar... | 1,404 ... | 313,946 ... | 1 ... | 3 |
| Mecklenburg-Strelitz | 1,144 ... | 98,371 ... | 1 ... | 1 |
| Saxe-Meiningen | 964 ... | 214,884 ... | 1 ... | 2 |
| Anhalt ... | 917 ... | 248,166 ... | 1 ... | 2 |
| Saxe-Coburg, a Gotha | 765 ... | 198,829 ... | 1 ... | 2 |
| Saxe-Altenburg | 517 ... | 161,460 ... | 1 ... | 1 |
| Lippe ... | 475 ... | 123,212 ... | 1 ... | 1 |
| Waldeck ... | 438 ... | 56,575 ... | 1 ... | 1 |
| Schwarzburg-Rudolstadt | 367 ... | 83,836 ... | 1 ... | 1 |
| Schwarz.-Sondershausen | 337 ... | 73,606 ... | 1 ... | 1 |
| Reuss-Schleiz.. | 323 ... | 110,598 ... | 1 ... | 1 |
| Schaumburg-Lippe | 133 ... | 37,204 ... | 1 ... | 1 |
| Reuss-Greiz ... | 123 ... | 55,904 ... | 1 ... | 1 |
| Hamburg ... | 160 ... | 518,620 ... | 1 ... | 3 |
| Lübeck ... | 116 ... | 67,658 ... | 1 ... | 1 |
| Bremen ... | 100 ... | 165,628 ... | 1 ... | 1 |
| Alsace-Lorraine | 5,668 ... | 1,564,355 ... | 1 ... | 15 |
| Y cyfan ... | 211,168 ... | 46,855,704 ... | 59 ... | 397 |

Yn ol eraill mesura y chwe talaeth ar hugain uchod, sydd yn ffurfio ymherodraeth Germany, 213,370 o filldiroedd petryal; yr hyn sydd agos gymmaint arall a'r Ynysoedd Prydeinig. Ymddengys maintioli a phwysigrwydd cymmhariaethol y talaethau oddi wrth y daflen uchod.

*Teulu Brenhinol.* Yr ymherawdwr a bennodwyd yn 1871 oedd William I., brenin Prwssia, fel yr hysbyswyd. Ganwyd ef Mawrth 22ain, 1797; a bu farw Mawrth 9fed, 1888. Esgynodd ei fab, y Tywysog Frederick William, i'r orsedd ar ei farwolaeth; yr hwn oedd yn briod â Victoria, merch hynaf brenhines Prydain. Bu farw Mehefin 15fed, 1888, yn 57ain mlwydd oed. Am dri mis yn unig y parhaodd ei deyrnasiad; a theimlwyd colled mawr ar ei ol. Dywed y rhai oedd yn ei adnabod oreu ei fod yn un o'r dynion mwyaf dymunol. Llanwodd ei le yn anrhydeddus yn mhob cylch. Ganwyd ei fab, William, Ionawr 27ain, 1859 Priododd y dywysoges Augusta Victoria o Schleswig Holstein, Chwefror 27ain, 1881, yr hon a anwyd Hydref 22ain, 1858. Esgynodd yntau i'r orsedd ar farwolaeth ei dad; a gelwir ef William II.

Trwy etholiad bob amser yr arferwyd llenwi gorsedd ymherodrol Germany—ond gyda thueddiad at yr egwyddor dreftadol o olyniaeth. Ar y cyntaf, dewiswyd yr ymherawdwr trwy bleidlais holl dywysogion a phendefigion y senedd; ond gwnaed cyfnewidiad yn y dull yn y bedwaredd ganrif ar ddeg, pan y darfu i nifer pennodol o saith o dywysogion—ac wedi hyny chwanegwyd hwy i naw—gymmeryd arnynt y gorchwyl o drefnu y goron; a chydnabyddwyd eu hawl, a galwyd hwy yn 'etholwyr.' Gyda dymchweliad yr hen ymherodraeth Germanaidd gan Napoleon I. yn 1806, darfu, yn rhinweddol, yr arfer etholiadol. Etholwyd yr ymherawdwr presennol gan bleidlais unfrydol senedd undebol Gogledd Germany, gyda chydsyniad y tywysogion Germanaidd.

Y mae cyfansoddiad yr ymherodraeth bresennol wedi ei ddyddio Ebrill 16eg, 1871. Yn ol y telerau, y mae yr holl dalaethau Germanaidd i "ffurfio undeb tragwyddol, i amddiffyn y llywodraeth, a chymmeryd gofal am fuddiannau a llwyddiant pobl Germany." Y mae y prif awdurdod mewn achosion milwraidd a gwleidyddol perthynol i'r ymherodraeth i fod yn gorphoredig yn mrenin Prwssia, yr hwn sy'n meddu y teitl o ymherawdwr. Efe yw prif gadlywydd yr holl fyddin a'r llynges, mewn heddwch yn gystal ag mewn rhyfel. Ond y mae galluoedd milwrol Bavaria a Würtemberg dan lywodraeth eu brenhinoedd eu hunain; sef, ar adeg o heddwch yn unig. Yr ymherawdwr sydd yn pennodi ac yn diswyddo holl swyddogion yr ymherodraeth. Rhaid i'w orchymynion, a wneir yn enw yr ymherodraeth, gael eu harwyddo gan y canghellydd ymherodrol; yr hwn, fel prif weinidog yr ymherodraeth, sydd, o herwydd hyny, yn gyfrifol am danynt—ac yn cael ei gyfrif yn ail mewn awdurdod. Y trydydd awdurdod ydynt y *Bundesrath*, a'r *Reichstag*. Y Tywysog von Bismarc oedd y canghellydd ymherodrol; ac fe wnaeth wasanaeth mwy i'r ymherodraeth hon na neb arall; ond ymddiswyddodd o herwydd, meddir, ei fod yn anghymmeradwyo syniadau yr ymherawdwr ieuangc ynglŷn â llafur, Mawrth 17eg, 1890. Y canghellydd presennol ydyw y Cadlywydd von Caprivi. Yn ol ail erthygl y cyfansoddiad, y mae y *Kaiser*, neu yr ymherawdwr, "yn cynnrychioli yr ymherodraeth yn gydgenedlaethol;" a chanddo allu i gyhoeddi rhyfel, os bydd yn un amddiffynol, a gwneuthur heddwch, yn gystal a gwneyd cyttundebau â gwledydd eraill. Rhaid i'r ymherawdwr gael cydsyniad y *Bundesrath*, neu y cynghor undebol, yn yr hwn, ynghyd â'r *Reichstag*, neu y senedd, y gorwedd awdurdod deddfwrol yr ymherodraeth, cyn y gall gyhoeddi rhyfel, os bydd yn

Digitized by Google

niwedd y flwyddyn 1876. Meddiant y wladwriaeth ydyw yr holl linellau sydd yn y tiriogaethau a berthynant i Hanover, Hesse, a Nassau; a chyn hir iawn, bydd holl ffyrdd haiarn Prwssia yn feddiant cenedlaethol.

BAVARIA.—Brenin presennol Bavaria ydyw Ludwig II., yr hwn a anwyd Awst 25ain, 1845, ac a esgynodd i'r orsedd ar farwolaeth ei dad, Maximilian II., Mawrth 10fed, 1864. Y mae cyfoeth mawr penaduriaid Bavaria, oddi wrth feddiannau personol, a ffynnonellau eraill, wedi ei leihau gryn lawer yn ddiweddar, o dan y llywodraeth gyfansoddiadol. Y mae traul y goron, a'r hyn a ganiateir i aelodau eraill o'r teulu brenhinol, yn awr wedi ei bennodi i fod yn 217,343*p.*; ond y mae y teulu brenhinol yn derbyn cynnysgaeth fawr heb law hyn oddi wrth feddiannau personol.

Mabwysiadwyd cyfansoddiad presennol y wlad yn Mai 25ain, 1818; ond gwnaed rhai cyfnewidiadau ynddo yn 1848—9. Y mae y goron yn dreftadol yn y llinach wrywaidd. Yn y brenin y mae y gallu gweinyddol, yn gweithredu drwy ei weinidogion, y rhai ydynt gyfrifol am ei weithrediadau cyhoeddus. Y mae y gallu deddfwriaethol yn y brenin a'r senedd—yn gynnwysedig o'r tŷ uchaf a'r isaf.

Y mae mwy na saith rhan o ddeg o boblogaeth Bavaria yn Babyddion. Yn ol cofrifiad 1875, rhifedi y Pabyddion oedd 3,573,142; y Protestaniaid, 1,392,120; enwadau eraill, 5,793; a'r Iuddewon yn 51,335.

Amcangyfrif holl gyllid cyhoeddus Bavaria am y flwyddyn gyllidol a derfynodd yn Medi 30ain, 1877, oedd 12,934,339*p.*, a'r treuliadau yn 13,114,,633*p.*—yn gadael diffyg o 180,294*p.* Y mae dyled wladol Bavaria yn lled drom; yr hyn mewn rhan sydd yn ganlyniad diffygion cyllidol blynyddoedd blaenorol, ac mewn rhan yn codi oddi ar waith y llywodraeth yn ymgymmeryd â gweithiau cyhoeddus—yn enwedig ffyrdd haiarn. Cyrhaeddai holl swm y ddyled wladol yn 1876 i 54,429,461*p.*

Cynnwysa y deyrnas hon 29,292 o filldiroedd ysgwâr o arwynebedd; ac yn ol cofrifiad Rhagfyr 1af, 1875, yr oedd y boblogaeth yn 5,024,832. Cynnyddodd y boblogaeth 159,000 yn y pedair blynedd a derfynasant yn 1875. Eiddo y llywodraeth ydyw y rhan fwyaf o'r ffyrdd haiarn sydd wedi eu gwneyd yn y wlad hono, gyda thraul o 12,500,000*p.*

WURTTEMBURG.—Y brenin presennol yno yw Karl I., a anwyd Mawrth 6ed, 1823. Esgynodd i'r orsedd ar farwolaeth ei dad, y brenin William I., Mehefin 25ain, 1864. Priododd y dywysoges Olga, merch y diweddar ymherawdwr Nicholas I., o Rwssia, Gorphenaf 13eg, 1846. Cyhoeddiad o eiddo Napoleon I. a wnaeth dduciaeth flaenorol Württemberg yn deyrnas, Ionawr 1af, 1806; a chadarnhawyd hyn gan Gydgynghorfa Vienna. Derbynia y brenin 92,595*p.* o'r cyllid yn flynyddol—gyda rhodd chwanegol o 16,595*p.* i aelodau eraill o'r teulu brenhinol.

Y mae y cyfansoddiad presennol wedi ei ddyddio Medi 25ain, 1829, a'r gallu deddfwriaethol yn gynnwysedig mewn senedd o ddau dŷ; sef, yr uchaf a'r isaf—yn cael eu galw ynghyd bob tair blynedd, neu yn fynychach os bydd yn angenrheidiol. Y mae y tŷ uchaf yn cael ei wneyd i fyny o aelodau o'r teulu brenhinol, penaethiaid y prif deuluoedd, a nifer a etholir gan y penadur dros eu bywyd. Cynnwysa y tŷ isaf dri ar ddeg o aelodau y bendefigaeth, chwech o gynnrychiolwyr y clerigwyr Protestanaidd, tri yn cynnrychioli y Pabyddion, ac un ar ddeg a thrigain yn cynnrychioli y trefydd a'r dosbarthiadau gwledig. Etholir yr aelodau am chwe blynedd, a rhaid iddynt fod yn ddeg ar hugain oed. Ni raid perchen eiddo er meddu cymmhwysder i fod yn aelod.

Fel y canlyn, yn ol cofrifiad 1875, yr oedd sefyllfa grefyddol Württemberg:—Protestaniaid efengylaidd, 1,296,650; Pabyddion, 567,578; Ymneilltuwyr, o wahanol enwadau, 4,167; ac Iuddewon yn 12,881. Rhaid i bob plentyn o chwech i bedair ar ddeg oed fyned i'r ysgol yn Württemberg, a rhaid cael ysgol yn mhob man lle y bydd deg ar hugain o deuluoedd. Cafwyd allan yn ddiweddar, drwy hysbysiadau swyddol, nad oes un person yn y deyrnas, uwch law deng mlwydd oed, nas gall ddarllen ac ysgrifenu.

Terfynai y flwyddyn gyllidol gynt yn Mehefin; ond gwnaed cyfnewidiadau arni yn 1878, i derfynu yn Mawrth. Fel y canlyn yr oedd amcangyfrif cyllideg y flwyddyn a derfynai Mehefin, 1878: cyllid, 2,416,239*p.*; treuliadau, 2,416,989*p.* Am y naw mis yn terfynu Mawrth, 1879: cyllid, 1,880,256*p.*; treuliadau, 1,880,256*p.* Y mae dyled wladol Württemberg wedi mwy na dyblu yn ystod yr ugain mlynedd diweddaf; yr hyn sydd i'w briodoli i sefydliad ffyrdd haiarn drwy y deyrnas, yr oll o ba rai sydd yn eiddo y wladwriaeth. Swm ei holl ddyled wladol yn niwedd Mehefin, 1877, oedd 16,605,262*p.*

Y mae arwynebedd Württemberg yn mesur 7,675 o filldiroedd ysgwâr; ac yn ol cofrifiad Rhagfyr 1af, 1875, yr oedd y boblogaeth yn 1,881,505.

SAXONY.—Y brenin sydd yn llywodraethu yn awr yn Saxony ydyw Albert I., mab hynaf Johann I., o Saxony, yr hwn a anwyd Ebrill 23ain, 1828. Addysgwyd ef yn filwr, ac ymunodd â byddin Saxony yn 1846, ac â byddin Prwssia yn 1867. Yr oedd yn llywyddu un o'r corphluoedd Germanaidd yn y rhyfel yn erbyn Ffraingc yn 1870—71. Pennodwyd ef yn faeslywydd yn myddin Germany yn 1871. Esgynodd i'r orsedd ar farwolaeth ei dad, Hydref 29ain, 1873. Priododd â'r dywysoges Amelia, merch Maximilian I., o Bavaria. Gellir chwanegu fod tŷ brenhinol Saxony yn un o'r rhai hynaf o deuluoedd llywodraethol Ewrop. Yr hyn a roddir yn flynyddol i'r brenin Albert o gyllid y wladwriaeth ydyw y swm o 127,000*p.* Yn chwanegol at hyn, rhoddir i'r tywysogion a'r tywysogesau y swm o 25,590*p.* yn y flwyddyn.

Penderfynwyd ar gyfansoddiad gwladol presennol Saxony, Medi 4ydd, 1831; ond y mae rhai cyfnewidiadau wedi eu gwneuthur ynddo yn 1849, 1851, 1860, a 1861. Y mae y goron yn etifeddol yn y llinach wrywaidd; ond yn niffyg etifedd, y mae hi yn disgyn i'r llinell fenywaidd. Ystyrir fod y penadur wedi cyrhaedd ei gyflawn oedran pan yn ddeunaw oed. Yn nwylaw y brenin y mae y gallu gweinyddol; yr hwn a arferir ganddo drwy weinidogion cyfrifol. Yn y senedd—sydd yn gynnwysedig o ddau dŷ—mewn cyssylltiad â'r brenin, y mae y gallu deddfwriaethol. Y mae y cymmhwysderau angenrheidiol i fod yn aelodau o'r ddau dŷ yn debyg i'r eiddo breniniaethau eraill Germany. Caniateir punt y dydd o dâl i aelodau y tŷ uchaf tra yr eistedda, a deg swllt y dydd i aelodau yr isaf.

Er fod y teulu brenhinol yn proffesu Pabyddiaeth, y mae y mwyafrif mawr o'r preswylwyr yn Brotestaniaid Yn ol cofrifiad 1875, yr oedd

poblogaeth Saxony yn cael ei gwneyd i fyny o 2,664,341 o Lutheriaid, 73,349 o Babyddion, 1,876 o Gatholiciaid Germanaidd, 15,660 o aelodau enwadau Cristionogol eraill, a 5,360 o Iuddewon. Telir i glerigwyr yn benaf o drethi lleol, a gwaddoliadau. Y mae addysg gyhoeddus wedi cyrhaedd y safon uchaf yn Saxony, a phob plentyn yn ddiwahaniaeth yn cyfranogi o'i manteision addysgol. Y mae yr addysg wedi bod yn orfodol yno er y flwyddyn 1835.

Ymestyna y cyfnod cyllidol dros ddwy flynedd; ac yn y cyfrifon, y mae y cyllid a'r treuliadau yn cael eu dosbarthu i 'gyffredinol' ac 'anghyffredinol.' Y cyllid cyffredinol am ddwy flynedd (1876 a 1877) oedd 2,692,848*p.*, ac yr oedd y treuliadau yn cyfatteb. Y cyllid anghyffredinol am yr un amser oedd 8,252,390*p.*, ac yr oedd y treuliadau yn cyrhaedd i'r un swm. Cafwyd mwy na hanner holl gyllid y blynyddoedd hyn oddi wrth diriogaethau a ffyrdd haiarn perthynol i'r wladwriaeth. Swm y ddyled gyhoeddus yn niwedd 1876 oedd 17,044,402*p.*

O ddeutu 6,777 o filldiroedd ysgwâr ydyw arwynebedd Saxony; ac yn ol cofrifiad Rhagfyr 1af, 1875, rhifai y boblogaeth 2,760,342. Y mae poblogaeth y trefydd yn Saxony yn gymmharol liosog.

BADEN.—Y penadur llywodraethol yma yw yr uchelddue Frederick I., a anwyd Medi 9fed, 1826—ail fab yr uchelddue Leopold I. Esgynodd i'r orsedd pan y bu farw ei dad, Ebrill 24ain, 1852. Priododd yr ucheldduces Louise, merch i William I. o Prwssia, Medi 20fed, 1856. Y mae y meddiannau tirol eang a berthynent gynt i'r teulu llywodraethol, ac a ystyrid yn werth 4,166,000*p.*, wedi eu trosglwyddo i'r wladwriaeth, a derbynia yr uchelddue y swm blynyddol o 74,931*p.*—yr hyn sydd yn cynnwys hefyd yr hyn a ganiateir i'r tywysogion a'r tywysogesau.

Yn ol cyfansoddiad Baden, y mae y gallu gweinyddol yn yr uchelddue, a'r gallu deddfwriaethol yn y senedd, cynnwysedig o ddau dŷ, sef yr uchaf a'r isaf:—yr uchaf yn cael ei wneyd i fyny o aelodau o'r teulu llywodraethol, pendefigion, ac wyth o aelodau a enwir gan yr uchelddue, yn annibynol ar eu sefyllfa a'u gradd gymdeithasol. Cynnwysa y tŷ isaf 63 o gynnrychiolwyr y bobl—22 o ba rai a etholir gan fwrdeisiaid y trefydd, a 41 gan breswylwyr y dosbarthiadau gwledig. Y mae gan bob preswylydd, nad ydyw wedi troseddu y gyfraith, na derbyn unrhyw gynnorthwy plwyfol, hawl i bleidleisio mewn etholiad. Cyn y gellir bod yn gynnrychiolydd, rhaid bod yn berchenog o eiddo gwerth 800*p.*, neu ddal swydd gyhoeddus, a derbyn tâl blynyddol o 125*p.* o leiaf. Anuniongyrchol yw yr etholiadau. Ethola y dinasyddion y *Wahlmänner*, neu yr etholwyr, o'u plith eu hunain, ac ethola y rhai hyny drachefn y cynnrychiolwyr.

Amcangyfrif y cyllid am 1877 oedd 1,626,019*p.*, tra yr oedd y treuliadau yn 1,689,868*p.*—yn gadael gweddill o 13,898*p.* Ceir y rhan fwyaf o'r cyllid o drethi uniongyrchol—gan gynnwys trethi ar dir ac ar ennillion. Y mae agos holl ffyrdd haiarn Baden yn eiddo y llywodraeth, ac y maent yn talu dros chwech y cant ar yr holl gyfalaf a wariwyd arnynt. Dosberthir y ddyled wladol yn ddwy ran: gelwir un y ddyled gyffredinol, a'r llall y ddyled ar y ffyrdd haiarn. Yr oedd y ddyled flaenaf, yn nechreu y flwyddyn 1878, yn 2,544,033*p.*, a'r olaf yn 13,862,656*p.*

Y mae Baden yn mesur 5,851 o filldiroedd ysgwâr o arwynebedd; ac yn ol y cofrifiad a wnaed Rhagfyr 1af, 1875, yr oedd y boblogaeth yn 1,507,179. Pabyddion ydyw dwy ran o dair o'r preswylwyr, ac un rhan o dair yn Brotestaniaid. Y mae yno hefyd 26,492 o Iuddewon.

MECKLENBURG-SCHWERIN.—Y penadur llywodraethol yn y wlad hon yw yr uchelddue Frederick Franz II., yr hwn a anwyd Chwefror 28ain, 1823, mab yr uchelddue Paul Frederick. Bu yn astudio athroniaeth a duwinyddiaeth yn mhrif athrofa Bonn, 1840—42, a chymmerodd feddiant o'r orsedd pan fu farw ei dad, Mawrth 7fed, 1842. Priododd y dywysoges Augusta, o Reuss-Schleiz, Tachwedd 3ydd, 1849. Teulu Mecklenburg ydyw yr unig deulu llywodraethol yn Ewrop sydd o haniad Slafonaidd; ac y maent yn hawlio bod y teulu hynaf yn myd y gorllewin. Yn eu llawn deitl, y mae yr uchelddueiaid yn galw eu hunain yn 'Dywysogion y Vandaliaid.' Ac y maent yn olrhain eu hachau i Genseric, brenin y Vandaliaid; yr hwn a orchfygodd Yspaen yn y bummed ganrif, ac a gymmerodd Carthage yn y flwyddyn B.A. 439.

Y mae sefydliadau gwleidyddol yr uchelddueiaeth o nodwedd wriogaethol hollol; a'r cyfreithiau sylfaenol wedi eu corphori yn y breinleni a gafwyd yn 1523, 1572, 1622, 1755, a 1817. Yn nwylaw meddiannwyr etifeddiaethau marchogol, y rhai a rifant 622, y mae yr holl allu deddfwriaethol, a chyfran o'r gallu gweinyddol hefyd. Anfynych, fodd bynag, y mae mwy nag un ran o bedair o honynt yn defnyddio eu braint drwy eistedd yn y llwyrwys. At y rhai hyn, sydd yn cynnrychioli eu meddiannau eu hunain, chwanegir deugain, agos oll yn faerod—yn cael eu dewis gan gorphoriaethau dinesig o gynnifer o drefydd. Nid oes gan gorph mawr y bobl nemawr o hawliau gwleidyddol. Y mae y llwyrwys yn arosol: os na bydd yn eistedd i gyd, bydd pwyllgor o ddeuddeg yn gweithredu, dros yr hwn y llywyddir gan dri o'r pendefigion—swyddau y rhai sydd dreftadol yn eu teuluoedd.

Nid oes un gyllideb gyffredinol yn yr archddueiaeth. Yn nechreu 1877, cyfrifid fod y ddyled wladol yn 2,100,000*p.*; ond yr oedd mwy na hanner y swm hwn wedi ei godi mewn benthyciadau tuag at wneuthur ffyrdd haiarn yn y wlad.

Yr oedd y boblogaeth, Rhagfyr 1af, 1875, yn rhifo 553,785, a'r rhai hyny yn byw ar 4,834 o filldiroedd ysgwâr o arwynebedd. Lleihau yn raddol y mae y boblogaeth yn y blynyddoedd diweddaf, er nad ydyw cyfartaledd y bobl ar bob milldir ysgwâr ond 114, a'r tir yn ffrwythlawn. Y mae yn mron yr holl drigolion yn Brotestaniaid.

HESSE.—Y penadur llywodraethol yma ydyw Ludwig IV., mab i'r tywysog Charles. Ganwyd ef Medi 12fed, 1837; ac esgynodd i'r orsedd ar farwolaeth ei ewythr, sef Ludwig III., Mehefin 13eg, 1877. Priododd y dywysoges Alice, ail ferch y frenhines Victoria, o Brydain, Gorph. 1af, 1862; a bu iddynt bedair o ferched, ac un mab. Bu farw y dywysoges Rhagfyr 14eg, 1878. Napoleon I. a roddodd i dir-ieirll Hesse y teitl o 'uchddueiaid,' yn 1806, gyda chryn chwanegiad at eu tiriogaethau; ac ar ol peth ymdrafodaeth, cadarnhawyd hyn gan gynnadledd. Nid ydyw y teulu llywodraethol yn feddiannol ar lawer o feddiannau personol; ond y maent yn benaf yn ddibynol ar yr hyn a delir iddynt o'r wladwriaeth. Y swm a ganiateir iddynt ydyw 65,742*p.*; ac y mae hyny yn cynnwys yr hyn a roddir i'r tywysogion hefyd.

Digitized by Google

Mabwysiadwyd y cyfansoddiad gwladol presennol sydd yn Hesse, Rhagfyr 17eg, 1820; ond gwnaed rhai cyfnewidiadau ynddo yn 1848 a y856. Y mae y gallu deddfwriaethol mewn rhan yn yr uchelddue, ac mewn rhan yn gynnwysedig yn y ddau dŷ o senedd—yr uchaf a'r isaf; y rhai a gyfansoddir yn gyffelyb i seneddau man deyrnasoedd eraill Germany. Etholir aelodau y tŷ isaf yno yn debyg fel y gwneir yn Baden

Parotöir y gyllideb am yr ysbaid o dair blynedd gan y senedd; ac nid ydyw yr amcangyfrifon yn gwahaniaethu ond yn anfynych oddi wrth y cyllid a'r treuliadau gweithredol. Y cyllid am y cyfnod cyllidol 1873—75 oedd 1,052,573*p.* y flwyddyn, a'r treuliadau 869.577*p.* y flwyddyn —yn gadael gweddill bob blwyddyn o 155,996*p.* Cyrhaeddai y ddyled gyhoeddus, yr hon a achoswyd yn benaf yn y blynyddoedd diweddaf trwy godi arian i wneyd ffyrdd haiarn, yn niwedd y flwyddyn 1876 i 1,269,160*p.*

Y mae arwynebedd Hesse yn mesur 2,866 o filldiroedd ysgwâr; ac yn ol y cofrifiad diweddaf yn 1875, yr oedd y preswylwyr yn 882,349. Y mae yr archdduciaeth wedi ei dosbarthu i dair talaeth; sef, Hesse Uchaf, Hesse Rhenaidd, a Starkenburg.

Oldenburg.—Peter I., yr uchelddue o Oldenburg, ydyw penadur llywodraethol Oldenburg. Ganwyd ef Gorphenaf 8fed, 1827. Mab ydyw i'r uchelddue August, a chymmerodd feddiant o orsedd ei dad ar farwolaeth yr olaf, Chwefror 27ain, 1853. Priododd y dywysoges Elizabeth, o Saxe-Altenburg, Chwefror 10fed, 1852. Dywedir fod teulu hynafol Oldenburg, sydd wedi rhoddi penaduriaid i Denmarc, Scandinavia, a Rwssia, yn disgyn o Wittekind, arweinydd enwog y Sacsoniaid yn erbyn Charlemagne. Corphorwyd archdduciaeth â theyrnas Westphalia gan Napoleon I., yn 1810; ond darfu i gynnadledd Vienna, nid yn unig roddi y wlad yn ol i'w phenadur blaenorol, ond, ar daer ddymuniad Alexander I., o Rwssia, chwanegwyd at ei thiriogaethau 400 o filldiroedd ysgwâr, gyda 50,000 o breswylwyr arnynt. Derbynia yr uchelddue 6,250*p.* o arian oddi wrth y wladwriaeth, heb law yr un swm oddi wrth diroedd cyhoeddus; yr hyn sydd yn gwneyd ei gyllid blynyddol yn 12,500*p.* Y mae ganddo yn chwanegol 6,000*p.* yn dyfod i mewn yn flynyddol oddi wrth etifeddiaethau perthynol i'r teulu yn Holstein.

Yn ol y cyfansoddiad gwladol a fabwysiadwyd Chwefror 18fed, 1849, ac a ddiwygiwyd Tachwedd 22ain, 1852, y mae rhyddid y wasg wedi ei ddiogelu, prawf rheithiol, a chydraddoldeb yr holl ddinasyddion mewn achosion gwleidyddol a chymdeithasol. Mewn llwyrwys, a etholir bob tair blynedd gan bleidlais yr holl ddinaswyr sydd yn talu trethi, y mae y gallu deddfwriaethol. Rhifedi yr aelodau ydyw 33; neu, un ar gyfer pob 10,000 o'r preswylwyr. Y mae y gallu gweinyddol yn yr uchelddue, a'i weinidogion. Yr oedd cyllideb 1877 yn cyfrif y byddai yr holl gyllid yn 296,985*p.*, a'r treuliadau yn 328,112*p.* Oddi wrth feddiannau perthynol i'r wladwriaeth y ceir mwyaf o'r cyllid. Swm y ddyled wladol, yn 1878, oedd 1,857,917*p.* Tua 2,417 o filldiroedd ysgwâr ydyw arwynebedd Oldenburg; ac yn ol cofrifiad 1875, yr oedd y boblogaeth yn 319,314.

Brunswick.—Penadur llywodraethol presennol y wlad hon ydyw William I., y duc o Brunswick; yr hwn a anwyd Ebrill 25ain, 1806, ac a esgynodd i'r orsedd, Ebrill 25ain, 1831. Y mae teulu pendefigol Brunswick, o ba un y mae y duc presennol yn unig aelod sydd yn awr yn fyw, yn debyg o ddarfod gyda'r cynnrychiolydd presennol o hono, o herwydd ei fod yn ddibriod; ac y mae yn un o'r rhai hynaf a mwyaf anrhydeddus o deuluoedd Germany. Yr oedd ei sylfaenydd, Henry y Llew, yn y ddeuddegfed ganrif, yn meddiannu duciaethau Bavaria, Saxony, a thiriogaethau eraill yn ngogleddbarth Germany; ond collodd hwynt, ac ni adawyd iddo ond tywysogaethau Brunswick a Luneburg. Rhanwyd y tiriogaethau hyn ar farwolaeth Ernest y Cyffeswr, rhwng ei ddau fab ef: a meddiannodd un o honynt diriogaeth Brunswick-Wolfenbuttel, a'r llall un Brunswick-Luneburg. Cynnrychiolir y blaenaf gan dŷ pendefigol Brunswick, ac y mae yr olaf wedi ymdoddi i deulu brenhinol Prydain Fawr. Y mae y duc o Brunswick presennol yn un o'r penaduriaid cyfoethocaf yn Germany, o herwydd y mae yn berchen etifeddiaethau personol eang. Dywedir ei fod yn ei gymmunrodd am adael yr etifeddiaethau hyn i ymherawdwr Germany. Derbynia y duc ar gyfartaledd tua 50,000*p.* yn flynyddol o gyllid y wlad.

Y dyddiad sydd i gyfansoddiad presennol Brunswick ydyw Hydref 12fed, 1832; ond cafodd ei ddiwygio Tachwedd 28ain, 1851. Yn y senedd y mae y gallu deddfwriaethol, aelodau yr hon sydd yn rhifo chwech a deugain. Etholir tri ar hugain o honynt gan y tir berchenogion mwyaf—tri gan y clerigwyr Protestanaidd—deg gan breswylwyr y trefydd—a deuddeg gan y dosbarthiadau gwledig. Y mae y gallu gweinyddol yn cael ei gario allan gan ddau weinidog —un yn weinidog yr achosion tramor, a'r llall ar yr achosion mewnol.

Am y tair blynedd a derfynai gyda 1878, amcangyfrif y cyllid oedd 385,006*p.* yn flynyddol, a'r treuliadau i gyfatteb. Yr oedd dyled cyhoeddus y dduciaeth, yn nechreu y fl. 1877, yn 4,593,722*p.*; ond yr oedd pedair rhan o bump o'r swm hwn wedi ei ddefnyddio i wneyd ffyrdd haiarn. Nid ydyw arwynebedd y dduciaeth ond 1,526 o filldiroedd ysgwâr, gyda phoblogaeth, yn ol y cofrifiad diweddaf, o 312,170.

Saxe-Weimar.—Karl Alexander ydyw uchelddue Saxe-Weimar. Ganwyd ef Mehefin 24ain, 1818. Esgynodd i'r orsedd ar farwolaeth ei dad, Gorphenaf 8fed, 1853, a phriododd y dywysoges Sophie, merch William II. o Holland, Hydref 8fed, 1842. Saif teulu yr uchel-ddue yn benaeth y linell hynaf yn nhŷ tywysogaidd Saxony. Yn ol trefniadau Cynnadledd Vienna, chwanegwyd gryn lawer at diriogaeth Saxe-Weimar. Y mae gan yr uchel-ddue gyfoeth mawr o'i eiddo ei hun—rhan o'r hwn a gafodd yn waddol gyda'r dywysoges Sophie. Y mae hefyd yn derbyn 42,000*p* yn flynyddol o'r wladwriaeth.

Sefydlwyd cyfansoddiad yr uchel-dduciaeth Mai 5ed, 1816, ond cyfnewidiwyd ef i raddau gan gyfraith Hydref 15fed, 1849. Yn ol y freinlen hon, y mae y gallu deddfwriaethol mewn un tŷ o senedd, yn cael ei wneyd i fyny o 31ain o aelodau—deg yn cael eu hethol gan berchenogion etifeddiaethau, deg gan y trefydd, deg eraill gan breswylwyr y dosbarthiadau gwledig, ac un gan senedd prifysgol Jena. Yr oedd y cyllid blynyddol am y tair blynedd yn diweddu 1877 yn 315,998*p.*, a'r treuliadau yn 314,158*p.*—yn gadael gweddill o 1,840*p.* ar bob blwyddyn. Yr oedd y ddyled gyhoeddus yn cyrhaedd i 531,800*p.* yn nechreu Ionawr, 1877. O ddeutu 1,421 o filldiroedd ysgwâr ydyw arwynebedd yr uchel-ddue-

Digitized by Google

lle hwn yw Ernest, mab y duc George, a anwyd Medi 16eg, 1826. Ar farwolaeth ei dad, Awst 3ydd, 1853, yr esgynodd efe i'r orsedd. Priododd y dywysoges Agnes, o Anhalt-Dessau, Mehefin 24ain, 1854. Y mae teulu y duc yn olrhain eu dechreuad i'r flwyddyn 1482, pan y cymmerodd gwahaniad le rhwng teuluoedd Ernest ac Albert, o Saxony. Yr oedd Saxe-Altenburg yn ffurfio rhan o Saxe-Gotha hyd y flwyddyn 1826, ond cafodd ei throsglwyddo drosodd y pryd hwnw) pan y gwnaed cyfnewidiadau tiriogaethol mawr gan y tywysogion Saxonaidd i deulu Hildburghausen. Y mae y duc yn derbyn 21,450*p.* o'r wladwriaeth.

Ar y 29ain o Ebrill, 1831, y dyddiwyd y cyfansoddiad presennol, ond y mae rhai cyfnewidiadau wedi eu gwneyd ynddo ar ol hyny. Mewn senedd, yn gynnwysedig o bedwar ar hugain o gynnrychiolwyr, y mae y gallu deddfwriaethol —wyth yn cael eu hethol gan y tirfeddiannwyr mawr, wyth gan y trefydd, ac wyth gan y dosbarthiadau gwledig. Rhoddir amcangyfrif o'r cyllid a'r treuliadau am dair blynedd yn y gyllideb; ac yr oedd y cyllid am y tair blynedd yn diweddu 1877 yn 111,178*p.* yn flynyddol, a'r treuliadau am yr un cyfnod yn gyfattebol. Ceir yn agos i ddwy ran o dair o'r cyllid o diriogaeth berthynol i'r wladwriaeth, a'r gweddill oddi wrth drethi anuniongyrchol. Swm y ddyled wladol yn nechreu 1877 oedd 121,587*p.*

Mesura tiriogaethau Saxe-Altenburg 509 o filldiroedd ysgwâr o arwynebedd; ac yr oedd y boblogaeth yn niwedd 1875, yn 145,844. Y mae y bobl yn gyffredin o darddiad Slafonaidd, ac y mae arferion a gwisg y bobl hyny etto yn ffynu yn y dosbarthiadau mwyaf gwledig. Dywedir fod y gwladwyr yn gyffredin yn y dduciaeth hon yn well eu sefyllfa nag ydynt mewn unrhyw ran arall o Germany. Wedi lleihau, pa fodd bynag, y mae y boblogaeth yn y wlad y deng mlynedd ar hugain diweddaf.

WALDECK.—Y tywysog George Victor sydd yn llywodraethu yn Waldeck. Mab ydyw efe i'r tywysog George Frederick. Ganwyd ef ar Ionawr 14eg, 1831; a chafodd yr orsedd, o dan warcheidiaeth ei fam, Mai 14eg, 1845. Priododd y dywysoges Helena, o Nassau, Medi 16eg, 1853. Y mae y tywysog yn derbyn 36,735*p.* —yr hyn sydd yn fwy na hanner holl gyllid y dywysogaeth. Yn niwedd y flwyddyn 1866, cynnygiodd y tywysog George roddi yr orsedd i fyny yn ffafr brenin Prwssia; ond nid oedd yr olaf yn barod i dderbyn y cynnygiad ar y pryd. Ond mewn canlyniad i gyttundeb a wnaed drachefn rhyngddynt, Gorphenaf 10fed, 1867, cyflwynodd y tywysog ei brif hawliau penadurol i'r brenin William I., gan gadw iddo ei hunan ychydig o hawliau, mewn enw yn unig.

Caniatawyd breinlen y dywysogaeth Awst 17eg, 1852. Y mae hi yn darparu cymmanfa ddeddfwriaethol, cynnwysedig o un a deugain o aelodau—deunaw i'w dewis gan y pendefigion, tri ar ddeg gan breswylwyr y trefydd, a deg gan y dosbarthiadau gwledig. Maintioli y dywysogaeth yw 466 o filldiroedd ysgwâr o arwynebedd; a rhifedi y boblogaeth yn Rhagfyr, 1875, oedd 54,743.

LIPPE.—Y tywysog llywodraethol yno ydyw Waldemar, ail fab y tywysog Leopold. Ganwyd ef Ebrill 18fed, 1824; a meddiannodd yr orsedd ar farwolaeth ei frawd, Rhagfyr 10fed, 1875. Priododd y dywysoges Sophie, o Baden, Tachwedd 9fed, 1858. Canghen o hen deulu Lippe, a ffurfiwyd yn y rhan olaf o'r unfed ganrif ar bymtheg, ydyw y teulu presennol. Derbynia y tywysog oddi wrth y wladwriaeth yn flynyddol y swm o 10,000*p.*, a dywedir fod hyn yn rhy fychan i gadw i fyny urddas y llys. Mewn canlyniad i anhawsderau arianol y diweddar dywysog, gwerthwyd cyfran o'i diriogaeth, sef Lippstadt, i Prwssia, am flwydd-dal o 1,350*p.* dros ei fywyd.

Caniatawyd i Lippe freinlen ei hawliau Gorphenaf 4ydd, 1836. Y mae yn cynnwys deddfwriaeth gynnrychioliadol; ond y mae yn mron yr holl allu deddfwriaethol a gweinyddol yn nwylaw y tywysog. Cynnwysa y senedd un ar hugain o aelodau—saith yn cael eu hethol gan y tirfeddiannwyr pendefigol, a'r pedwar ar ddeg eraill gan breswylwyr y trefydd a'r wlad. Ni chyhoeddir y dadleuon seneddol. Nid oedd y cyllid ond 33,208*p.* am y flwyddyn 1876, a'r treuliadau yn 36,676*p.*—yn gadael diffyg o 3,468*p.* Yr oedd y ddyled gyhoeddus yr adeg hono yn 70,000*p.*

Rhifedi y boblogaeth yn niwedd 1875 oedd 112,452, a'r rhai hyny yn byw ar 445 o filldiroedd ysgwâr o arwynebedd.

SCHWARZBURG-RUDOLSTADT. — Y penadur llywodraethol yw y tywysog George; yr hwn a anwyd Tachwedd 23ain, 1838, ac a feddiannodd yr orsedd ar farwolaeth ei dad, y tywysog Albert, Tachwedd 26ain, 1869. Y mae y penadur presennol yn derbyn 12,000*p.* yn flynyddol o'r wladwriaeth, yn annibynol ar yr hyn a ddeillia oddi wrth etifeddiaethau eraill sydd yn feddiant personol gan y teulu.

Cyfraith sylfaenol y dywysogaeth ydyw cyfansoddiad Mawrth 21ain, 1854. Rhaid i'r tywysog gael cydsyniad tŷ y cynnrychiolwyr i bob mesur deddfwriaethol. Y mae y tŷ hwn yn cynnwys un ar bymtheg o aelodau—pedwar o ba rai a etholir gan y trethdalwyr mwyaf, a dychwelir y gweddill gan y bobl yn gyffredinol. Bob tair blynedd y dygir yn mlaen y gyllideb. Y derbyniadau blynyddol am y tair blynedd yn diweddu 1878, oedd 89,703*p.*, a'r treuliadau yn 88,857*p.* Y mae ar y dywysogaeth hon ddyled gyhoeddus o 154,000*p.* Yn ol cofrifiad 1875, yr oedd y boblogaeth yn rhifo 76,676, a'r rhai hyny yn byw ar 340 o filldiroedd ysgwâr o arwynebedd.

SCHWARZBURG-SONDERSHAUSEN. — Heinrich XIV., mab y tywysog Heinrich, ydyw llywodraethwr presennol y dalaeth. Ganwyd ef Mai 28ain, 1832; ac esgynodd i'r orsedd ar farwolaeth ei dad, Gorphenaf 10fed, 1867. Priododd y dywysoges Louise o Württemburg, Chwefror 6ed, 1858.

Y mae i'r dywysogaeth gyfansoddiad gwladol, yr hwn a gyhoeddwyd Tachwedd 30ain, 1849, ac a gyfnewidiwyd ddwywaith drachefn, sef yn 1852 a 1856. Y mae yma lwyrwys, yn cael ei wneyd i fyny o bedwar ar bymtheg o aelodau—o ba rai yr etholir pedwar gan y prif dirfeddiannwyr, a'r gweddill gan y preswylwyr yn gyffredinol. Yn y tywysog y mae yr holl allu gweinyddol, a rhan o'r gallu deddfwriaethol hefyd. Swm y cyllid a'r treuliadau yn y fl. 1876, oedd 36,480*p.*; a swm y ddyled gyhoeddus 100,027*p.* Y mae arwynebedd y dywysogaeth yn mesur 297 o filldiroedd ysgwâr, ac yr oedd y boblogaeth yn 1875, yn rhifo 89,032.

REUSS-SCHLEIZ.—Ganwyd Heinrich XIV., y tywysog presennol, Mai 24ain, 1832. Fel olynydd i'w dad, esgynodd i'r orsedd Gorphenaf 10fed,

Digitized by Google

bob un, ac yn ymneillduo yn eu tro. Cynnwysa tŷ y bwrdeisiaid 120 o aelodau, yn cael eu dewis gan y dinasyddion sydd yn aelodau o'r deuddeg coleg neu gorphoriaethau sydd yn y ddinas. Y mae uchel-lys appêl dros dair dinas rydd Germany, yr hwn a gydnabyddwyd gan gyttundeb Tachwedd 30ain, 1866, ar ol corphori Frankfort-ar-y-Main â Phrwssia, wedi ei sefydlu yn Lübeck. Y mae y llys hwn yn gyfansoddedig o lywydd, sydd i gael ei enwi gan seneddau y Tair Dinas Rydd, a chwech o gynghorwyr—tri yn cael eu dewis gan Hamburg, dau gan Bremen, ac un gan Lübeck.

Amcangyfrif cyllidol y flwyddyn 1877 oedd 132,622*p.*, a'r treuliadau yr un swm. Y mae mwy na hanner y treuliadau yn cael eu defnyddio i leihau y ddyled gyhoeddus; yr hon a gyrhaeddai yn 1877 i 1,284,214*p.* Yn ol cofrifiad 1875, y mae y diriogaeth yn mesur 127 o filldiroedd ysgwâr o arwynebedd, gyda phoblogaeth o 56,912.

Yr oedd gan Lübeck, yn nechreu 1877, ddwy a deugain o lestri, o 8,058 o dynelli. Aeth i borthladd Lübeck yn 1876, 2,537 o lestri, yn cario 436,100 o dynelli. Gyda Rwssia, Sweden, Norway, Denmarc, a Phrydain Fawr, yn benaf, y mae masnach y ddinas rydd hon.

Reuss-Greiz.—Heinrich xxii. ydyw tywysog presennol Reuss-Greiz. Ganwyd ef Mawrth 28ain, 1846. Mab ydyw i'r tywysog Heinrich xxi.; ac ar ei farwolaeth ef dechreuodd deyrnasu, Tachwedd 8fed, 1859. Priododd y dywysoges Ida o Schaumburg-Lippe, Gorphenaf 28ain, 1852. Olrheinia teulu y tywysog hwn eu disgyniad o Heinrich i. o Germany, a gyfenwid 'Yr Heliwr,' yr hwn a fu farw yn 936. Nid yw y tywysog presennol yn derbyn cyflog o'r wladwriaeth; ond er hyny y mae yn gyfoethog iawn, yn gymmaint a bod y gyfran fwyaf o'r diriogaeth dros yr hon y teyrnasa yn eiddo personol iddo.

Dyddiwyd y cyfansoddiad presennol Mawrth 28ain, 1867. Y mae y corph deddfwriaethol yn cynnwys deuddeg o aelodau—tri yn cael eu pennodi gan y penadur, dau gan y pendefigion, tri yn cael eu hethol gan y trefydd, a phedwar gan y dosbarthiadau gwledig. Yr oedd y cyllid yn 1876 yn 24,494*p.*, a'r treuliadau yn cyrhaedd yr un faint. Swm y ddyled gyhoeddus yr un pryd oedd 65,475*p.* Mesura y diriogaeth 148 o filldiroedd ysgwâr o arwynebedd; ac yr oedd rhif y trigolion, yn ol y cofrifiad a wnaed yn 1875, yn 46,985.

Schaumburg-Lippe.—Adolf, yr hwn a anwyd Awst 1af, 1817, mab y tywysog George, ydyw tywysog presennol Schaumburg-Lippe; ac olynodd ei dad i'r orsedd, Tachwedd 21ain, 1860. Priododd y dywysoges Hermina o Waldeck, ar y 25ain o Hydref, 1844. Derbynia y tywysog 25,000*p.* o'r wladwriaeth yn flynyddol, neu o ddeutu tair rhan o bedair o holl gyllid y dywysogaeth.

Cyhoeddwyd y cyfansoddiad presennol Tachwedd 17eg, 1868; o dan yr hwn y mae llwyrwys deddfwriaethol, cynnwysedig o bymtheg o aelodau:—dau yn cael eu pennodi gan y tywysog, un gan y clerigwyr, un gan swyddwyr eraill, a'r gweddill gan y bobl. Perthyna i'r tywysog ran o'r gallu deddfwriaethol, a'r holl allu gweinyddol. Yn ol adroddiad cyllidol y flwyddyn 1874, yr oedd y cyllid yn 30,912*p.*, a'r treuliadau yn 24,496*p.* Swm y ddyled gyhoeddus yn 1874 oedd 70,000*p.* Yn ol cofrifiad 1875, rhif y boblogaeth oedd 33,133—yn byw ar 212 o filldiroedd ysgwâr o arwynebedd.

Trafnidiaeth a Masnach Germany.

Y mae holl drafnidiaeth a masnach yr ymherodraeth dan gyfreithiau a rheolau arbenig, wedi eu pasio gan y Zollverein; ond y mae Bremen a Hamburg yn eithriadau, y rhai a gydnabyddir yn borthladdoedd rhydd. Gwelir oddi wrth y daflen ganlynol beth ydyw holl werth yr allforion o holl daleithiau yr ymherodraeth, yn cynnwys y trefydd Hanseataidd, i Brydain Fawr a'r Iwerddon, a holl werth y dadforion uniongyrchol o gynnyrchion cartrefol Prydain yno hefyd, yn ystod y pum mlynedd yn terfynu gyda 1877:—

| Blynyddoedd. | | Allforion o Germany. | | Dadforion o gynnyrchion Prydain i Germany. |
|---|---|---|---|---|
| 1873 | ... | 19,926,451*p.* | ... | 27,270,342*p.* |
| 1874 | ... | 19,947,195*p.* | ... | 24,799,846*p.* |
| 1875 | ... | 21,836,401*p.* | ... | 23,287,883*p.* |
| 1876 | ... | 21,115,189*p.* | ... | 20,082,262*p.* |
| 1877 | ... | 26,269,993*p.* | ... | 19,642,128*p.* |

Nid ydyw y symiau blynyddol hyn yn cymmeryd i'r cyfrif holl werth y fasnach a ddygir yn mlaen rhwng Germany a Phrydain—ond yn unig y fasnach uniongyrchol. Nid oes fanylion ar gael yn dangos gwerth y fasnach a ddygir yn mlaen trwy wledydd eraill. Trefydd rhydd Hamburg, Bremen, a Lübeck ydyw y pyrth masnachol mwyaf rhwng y ddwy wlad.

Yn niwedd y flwyddyn 1876, yr oedd 17,133 o filldiroedd o ffyrdd haiarn wedi eu hagor yn yr ymherodraeth; ac o'r rhai hyn yr oedd 7,878 yn perthyn i'r wladwriaeth.

Yn y tudalenau diweddaf, ceir y prif ffeithiau a berthynent i'r teyrnasoedd a'r tywysogaethau sydd yn ffurfio Ymherodraeth Germany, fel y cyhoeddwyd hwynt yn yr argraphiad blaenorol o'r gwaith hwn.

Yn awr, ni a roddwn y prif ffeithiau am y teyrnasoedd hyny fel y ceir hwynt yn yr hanesion diweddaf (yn 1891), gan ddechreu gydag enwau y teyrnasoedd a'r prif dywysogaethau yn mha rai y mae eu brenhinoedd, neu eu tywysogion, wedi newid ar ol cyhoeddiad y rhestr flaenorol:—

Prwssia.—Brenin William ii., ymherawdwr presennol Germany.

Etifedd tebygol—William (Tywysog Coron Germany).

Bavaria.—Brenin, Otto. Ganwyd ef Ebrill 27ain, 1848. Esgynodd Mehefin 13eg, 1886.

Y Rhaglaw (*Regent*) yw y Tywysog Luitpold. Ganwyd ef Mawrth 12fed, 1821. Y mae efe yn ewythr i'r brenin diweddar a'r un presennol. Pennodwyd ef yn Rhaglaw Mehefin 14eg, 1886.

Mecklenburg-Schwerin.—Yr Uchel Dduc Frederick Francis iii. Ganwyd ef Mawrth 19eg, 1851. Esgynodd i'r orsedd Ebrill 15fed, 1883.

Etifedd tebygol, y Duc Frederick Francis Michael.

Brunswick.—Rhaglaw, y Tywysog Albrecht o Prwssia. Ganwyd ef Mai 8fed, 1837. Etholwyd ef Hydref 21ain, 1885.

Hamburg.—Y Tref-lywydd ydyw Dr. Versmann.

Lubeck.—Y Tref-lywydd yw Dr. Kulenskamp.

Bremen.—Y Tref-lywydd yw Dr. Lürman.

Alsace-Lorraine.—Y *Statt-halter* ydyw y Tywysog Clovis von Hohenlohe-Schillingsfurst. Ganwyd ef Mawrth 31ain, 1819.

Digitized by Google

Nid oes angen i ni roddi rhagor o fanylion am Germany nag a geir yn y daflen ganlynol, lle y gwelir traul blynyddol a dyled y mwyafrif o'r teyrnasoedd neu dywysogaethau sydd yn cyfansoddi yr ymherodraeth hon. Rhoddir yma hefyd nifer y Protestaniaid, y Pabyddion, a'r Iuddewon, oedd mewn amryw o honynt yn y blynyddoedd a nodir yn y bedwaredd golofn. Nis gellid cael manylion llawnach a diweddarach; ond rhoddant, fel y maent, syniad am y nifer oedd ynddynt ar y pryd. Y mae y boblogaeth wedi cynnyddu yn fawr er hyny; ac y mae yr enwadau crefyddol yn holl ranau yr ymherodraeth, yn ddïau, wedi cynnyddu yr un modd. Gweler hefyd tudal. 65 A. Ni chafwyd cyfrifon lle y mae gwagleoedd yn y tabl hwn:—

| | Taliadau y Llywodraethau. | Dyledion. | Blwyddyn. | Protestaniaid Efengylaidd. | Pabyddion. | Iuddewon. |
|---|---|---|---|---|---|---|
| Prwsia | 79,581,000 | 260,236,213 | 1885 | 18,244,405 | 9,621,763 | 366,575 |
| Bavaria | 14,014,582 | 67,020,739 | 1885 | 1,521,114 | 3,839,168 | 53,697 |
| Wurtemberg | 3,097,009 | 21,536,580 | 1885 | 1,252,717 | 553,542 | 12,245 |
| Baden | 3,350,000 | 16,184,000 | 1885 | 533,750 | 1,067,500 | 27,300 |
| Saxony | 4,515,225 | 32,182,504 | 1885 | 2,497,895 | 53,642 | 3,357 |
| Mecklenburg-Schwerin | 685,982 | 1,122,400 | ... | ... | ... | ... |
| Hesse | 1,205,070 | 1,784,765 | 1871 | 585,399 | 238,080 | 25,373 |
| Oldenburg | 320,180 | 1,850,829 | ... | ... | ... | ... |
| Brunswick | 485,348 | 3,790,380 | 1885 | 361,580 | 9,600 | 1,400 |
| Saxe-Weimar | 314,159 | 531,835 | ... | ... | ... | ... |
| Mecklenburg-Strelitz | ... | ... | ... | ... | ... | ... |
| Saxe-Meiningen | 189,682 | 712,825 | 1875 | 194,494 | ... | ... |
| Anhalt | 530,500 | 940,433 | ... | ... | ... | ... |
| Saxe-Coburg a Gotha | 158,349 | 156,619 | ... | ... | ... | ... |
| Saxe-Altenburg | 111,178 | ... | 1875 | 145,844 | ... | ... |
| Lippe | 34,661 | 55,723 | ... | ... | ... | ... |
| Waldeck | 48,280 | 116,471 | 1871 | 54,024 | 1,800 | 400 |
| Schwarzburg-Rudolstadt | 85,746 | 235,714 | ... | ... | ... | ... |
| Schwarzburg-Sondershausen | 95,150 | ... | 1875 | 67,480 | ... | ... |
| Reuss-Schleiz | ... | ... | ... | ... | ... | ... |
| Schaumburg-Lippe | 27,847 | ... | 1871 | 32,059 | ... | ... |
| Reuss-Greiz | 29,500 | ... | ... | ... | ... | ... |
| Hamburg | 2,418,280 | 11,838,389 | ... | ... | ... | ... |
| Bremen | 642,936 | ... | ... | ... | ... | ... |
| Lubeck | 161,515 | 161,515 | ... | ... | ... | ... |
| Alsace-Lorraine | 2,157,321 | 1,682,754 | 1871 | 270,699 | 1,235,097 | 40,928 |

Wrth derfynu yr erthygl hon, gellir dyweyd fod Germany wedi ymddyrchafu yn ddirfawr yn mysg teyrnasoedd Ewrop yn nghorph y deugain mlynedd diweddaf; a bod ei llwyddiant i'w briodoli, yn benaf, i'r Tywysog Bismarc fel gwleidyddwr a phrif weinidog, ac i'r Cadfridog Von Moltke fel milwr. Y mae yn ngwasanaeth cyhoeddus yr ymherodraeth hon lawer o wŷr galluog; ac nid oes dim yn cael ei arbed sydd yn feithriniad i addysg gyffredinol ac efrydiaeth o'r celfyddydau trwy yr holl ymherodraeth yn mron. Felly cyfrifir fod Germany yn sefyll lawn mor bell yn mlaen yn yr ystyriaethau uchod, os nad yn fwy felly, nag un wlad arall.

Yn y dyddiau hyn, y mae yr ymchwiliadau a wnaed gan Dr. Koch, er esampl, i natur gwahanol fathau o afiechyd—sef, y darfodedigaeth *lupus*, clwy'r brenin, fel y gelwir ef, ynghyd âg eraill o'r un natur—wedi peri cyffro drwy'r holl fyd. Ar y dechreu, gan mor awyddus yr oedd pawb i gael gafael ar feddyginiaeth i afiechydon a ystyrid yn anfeddyginiaethol, priodolid, ar y cyntaf, lawer mwy o effeithiolrwydd i ddarganfyddiadau Dr. Koch nag yr oedd efe ei hun yn ei addef. Gan hyny, siomedigaeth chwerw a deimlwyd mewn llawer cylch. Ond addefa y prif feddygon, er hyny, fod ei ddarganfyddiadau yn hynod o werthfawr, ac yn taflu goleuni newydd ar natur llawer afiechyd, ac ar ddulliau newydd o'u trin; ac y gellir disgwyl effeithiau gwerthfawr iawn oddi wrthynt yn fuan.

Tra yn ysgrifenu hyn, gallwn ddyweyd fod darganfyddiadau y Count Mattei gydag afiechyd y *cancer* yn prysur dynu sylw y byd. Y mae efe yn sefyll dan anfantais fwy na Dr. Koch i enrhau cymmeradwyaeth meddygon i'w driniaeth, yn gymmaint ag nad ydyw yn feddyg ei hun. Fel y gwyddys, y mae gan feddygon ragfarnau yn erbyn pawb a phob meddyginiaeth, os na bydd y darganfyddwr yn un o'r frawdoliaeth feddygol ei hun. Nid ydyw y Count Mattei yn feddyg; er hyny, tystiolaethir fod ei driniaeth wedi bod yn llwyddiannus mewn llawer o achosion. Y mae yn eglur ei fod yntau yn credu yn ddiysgog yn ei heffeithiolrwydd, yn gymmaint a'i fod wedi dadgan ei barodrwydd i roddi prawf teg arni. Cynnygia fod nifer o achosion gwirioneddol o ganer yn cael eu dethol—hanner pa rai fydd dan ei driniaeth ef, a'r hanner arall dan y driniaeth gyffredin yn mysg y meddygon galluocaf; ac y ceir, felly, weled effeithiau y naill a'r llall. Nid ymddengys, tra yr ydym yn ysgrifenu, fod y cynnygiad wedi ei dderbyn; ond y mae braidd yn ammhossibl i'r fath gynnygiad teg ddiange heb gael ei dderbyn. Os felly, ceir gweled beth fydd y ddedfryd. Italiad ydyw y Count Mattei—boneddwr sydd wedi talu sylw neillduol i effeithiolrwydd meddygol llysiau, a'r modd goreu i'w darparu.

GAMES, Y PARCH. STEPHEN: un o weinidogion cyntaf y Trefnyddion Wesleyaidd yn Nghymru. Ganwyd ef Rhagfyr 26ain, 1779, yn Llanfair Muallt, sir Frycheiniog. Enw wedi ei Saesnigo ydyw 'Games,' o'r hen gyfenw Cymreig 'Gam;' a dywedir fod teulu Mr. Games wedi disgyn o Syr Dafydd Gam—un o arwyr brwydr Agincourt. Cyfrwywr ydoedd ei dad. Ymunodd â'r Wesleyaid yn Nghaerfyrddin, yn 1799, a dechreuodd bregethu yn 1802. Daeth i gylchdaith Dinbych yn 1804; ac i Ruthyn yn 1805. Yn 1807, priododd Miss Mary Roberts, merch ieuange o Ddinbych; yr hon a fu farw yn 1812. Priododd Mrs. Ffoulkes drachefn—gwraig weddw o Ddinbych. Bu farw Tachwedd 13eg, 1814. Yr oedd yn ŵr o gryn allu, a pherchid ef yn fawr gan ei gydnabod, ac yn yr enwad y perthynai iddo.

Digitized by Google

GEORGE, Y PARCH. HENRY. Ganwyd ef yn Mai, 1763, yn Pencuwc, Nefern, yn sir Benfro; a bu yn weinidog tra llafurus a chymmeradwy gyda'r Annibynwyr yn Brynberian, a'i chwaer eglwysi yn College Green, Trefdaeth, Maenclochog, Bethesda, a Thregetyn—lle y bu yn gydweinidog â'r Parch. Mr. Lloyd. Yr oedd yr eglwysi hyn yn mhell oddi wrth eu gilydd, a'r ffyrdd rhyngddynt yn arw; ond parhaodd ei ffyddlondeb er pob peth. Un boreu Sabbath, pan yn gwynebu ar fynydd Bwlch-y gwynt, cyfarfu gŵr âg ef, a dywedodd wrtho—"Nid ydych yn bwriadu croesi y mynydd heddyw, 'does bossibl, Mr. George?" "Ydwyf (ebai yntau)—rhaid ymdrechu am y goron." "Coron! (attebai y gŵr), nid awn i ddim drosodd am chweugain. Yr ydych yn ŵr ffôl, yn taflu eich einioes ymaith i geisio achub eneidiau pobl eraill; a phed achubech bob enaid o honynt, ni chaech y diolch lleiaf ganddynt." Ond yr oedd Mr. George yn deall ystyr y gair 'coron' yn well; a pharhaodd i wasanaethu yr eglwysi am bedair blynedd a deugain gyda ffyddlondeb mawr. Wrth ddychwelyd o Bontgynon, tarawyd ef yn glaf, a bu farw Chwefror, 1835, yn 72ain oed; wedi bod yn pregethu am hanner can mlynedd.

GERAINT AB ELIDR. Yn ol y *Brutiau Cymreig*, dilynodd Rhun ab Peredur ar orsedd Prydain yn y bummed ganrif cyn Crist.

GERAINT AB ERBIN, ab Cystenyn Gornen, oedd dywysog ar Frythoniaid Dyfnaint (*Devon*). Cofnodir ei enw yn y *Trioedd* fel un o dri 'llyngesawg,' neu bencadforwrol, Ynys Prydain; ac i bob un o'r tri yr oedd chwechugain o longau, a chwech-ugain o longwyr yn mhob un. Cwympodd yn mrwydr Llongborth, yn y fl. 530, tra yn ymladd dan Arthur yn erbyn y Saesoniaid; a chyfansoddwyd marwnad iddo gan Lywarch Hen, yr hon a welir yn y *Myvyrian Archaiology*. Canmolir ef yn uchel gan Aneurin yn y *Gododin*. Efe ydyw arwr yr ail *Fabinogi* yn nghasgliad y foneddiges Charlotte Guest.

GERAINT FARDD GLAS. Golygir ei fod yn byw tua diwedd y nawfed ganrif; ac yr oedd efe yn fardd, ac yn ieithydd. Cesglir mai yr un oedd efe a'r 'Bardd Glâs o'r Gadair,' awdwr 'Englynion y Gorugau' yn yr *Iolo MSS.*, a llawer o ffraethebau a diarhebion Cymreig. Yr oedd Grammadeg Cymraeg o waith Geraint yn nghadw mewn llawysgrif yn Nghastell Raglan hyd ddinystriad y lle hwnw yn ystod Rhyfeloedd y Weriniaeth; a gwnaed defnydd o hono, i raddau, gan Einion Offeiriad ac Edeyrn Dafod Aur, pan yn cyfansoddi eu grammadegau. Ychydig o fân ddarnau barddonol o'i waith sydd ar gael yn awr. Fel hyn y dywed Iolo Morganwg am dano yn ei 'Ragddarweiniaid' i *Gyfrinach y Beirdd*:—"Tua dechreu y nawfed ganrif, ymddangosodd awenydd athrylithlawn goleufyw—Geraint Fardd Glâs o'r Gadair; yr hwn a gododd Gadair adgywair wrth Gerdd, yn Llandaf, â'i gair cysswyn, 'Duw, a phob daioni;' a thyma ddechreu Cadair Morganwg."

GERAINT FEDDW, brenin Essyllwg, neu Siluria; yr hwn a gofnodir yn y *Trioedd* gyda Gwrtheyrn a Seithenyn, dan y penawd, "Tri Charneddwon Ynys Prydain:"—Geraint a "llosges yn ei feddwdod yr holl ŷd yn mhell ac yn agos hyd glawr gwlad, ac o hyny dyfod newyn bara."

GERAINT HIR, oedd fab i Cymanon Hen; a rhestrir ef yn y *Trioedd* fel un o dri 'Anhuol Farchogion,' neu farchogion o isel-radd, Llys Arthur; "sef, gwŷr gwreng oeddynt, o feibion eillion, ond cystal eu gair a'u cynheddfau, fel nas gweddai amgen na Llys Arthur iddynt." Y ddau eraill oeddynt Eithew a Choleddawg.

GLYNNE, SYR JOHN. Trydydd mab Syr William Glynne, o Lynllifon, yn sir Gaernarfon, oedd efe. Ganwyd ef yn 1603, a chafodd ei addysg yn Ysgol Westminster; o ba le y symmudwyd ef, pan yn ddeunaw oed, i Goleg Hart Hall, yn Rhydychain. Efrydodd y gyfraith yn Lincoln's Inn, a dyrchafwyd ef yn raddol nes y gwnaed ef yn arolygwr Westminster, ac yn gofiadur (*recorder*) Llundain. Etholwyd ef ddwywaith yn aelod seneddol dros Westminster yn nau senedd-dymmor 1640. Cafodd ei bennodi yn un o'r rhai oedd i ddwyn yn mlaen brawf Iarll Strafford; a darfu ei ddygasedd tuag at yr esgobion, ynghyd â'i erlyniad ar bleidwyr y teulu brenhinol, ennill iddo amryw swyddau o gryn elw. Yn 1647, gwrthsafodd, gyda deg eraill, raib a gormes y fyddin; o herwydd yr hyn y cawsant eu bwrw allan o'r tŷ, a'u hanfon i'r Twr, dan y cyhuddiad o deyrnfradwriaeth. Yn yr Ionawr canlynol, tröwyd ef o'r swydd o gofiadur Llundain; ond daeth i heddwch yn fuan â'r blaid oedd mewn awdurdod, a phennodwyd ef yn un o'r deg dirprwywr, i fyned i Ynys Wyth (*Isle of Wight*) i geisio cyttuno â'r brenin. Ac yn Hydref, 1648, gwnaed ef yn fargyfreithiwr uwchraddol. Ni chymmerodd ran yn mhrawf y brenin Siarl; ond er hyny, ni chollodd ffafr Cromwell, yr hwn a'i gwnaeth yn un o'i gynghor. Dangosodd Cromwell ffafr neillduol bob amser ato; a gwnaed ef yn aelod o Dŷ y Bendefigaeth yn 1657. Ceisiodd berswadio Cromwell i gymmeryd y goron. Derbyniodd Siarl II. ef, er hyny, i'w ffafr, a gwnaeth ef yn farchog ac yn brif ringyll (*prime sergeant*); a dyrchafodd ei fab hynaf hefyd yn farwn. Yn y senedd nesaf, etholwyd ef yn aelod dros sir Gaernarfon. Efe, meddir, oedd y cyntaf a sefydlodd hawl i ddynion gael prawf newydd mewn cyfraith os byddai un o'r pleidiau yn meddwl fod y rheithfarn yn caniatau gormod costau. Bu farw yn Llundain, yn 1666; a chladdwyd ef o dan allor Eglwys St. Margaret, Westminster. Disgynyddion o hono ydyw teulu Glynne, o Gastell Pen-ar-lâg, yn sir Fflint; yr hon etifeddiaeth a brynodd efe gan Iarll Derby. Yn ol hyn, y mae Mrs. Gladstone, priod yr Anrhydeddus W. E. Gladstone, yn olrhain ei disgyniad o hono. Yn y castell crybwylledig, y mae dau ddarlun o'r cyfreithiwr enwog—un o ba rai a welir yn yr argraphiad pedwar-plyg o '*Pennant's Tours in Wales*.'

GOLD COAST. Gwel GUINEA, cyf. i., td. 100.

GOLYDDAN, bardd i Gadwallawn ab Cadfan, tywysog Gwynedd. Blodeuodd rhwng 590 a 630. Yn ol un o'r *Trioedd*, efe a laddodd Cadwaladr Fendigaid, trwy ei daraw yn ei ben; a gelwir y weithred hono yn un o'r "tair engir balfawd." Fel cosp am hyny, tarawyd yntau yn ei ben â bwyell; a'r dialedd hwnw a elwir yn un o'r "tair anfad fwyellawd." Yn ol un

Digitized by Google

arall, dywedir i Einion ab Bled, brenin Cernyw, wneyd anrheg i Golyddan o ddeadell mor fawr o wartheg nes y llwydwyd dyfroedd yr Hafren wrth iddynt ei chroesi; a gelwir hyn yn un o'r "tri budr Hafren."

GOODMAN, GODFREY, D. D. Ganwyd ef yn Rhuthyn, Chwefror 28ain, 1582. Brawd ieuangaf y Deon Goodman, o'r enw Godfrey, oedd ei dad; a Catherine, merch ac aeres Simon Croxton, o'r Merllyn, ger Rhuthyn, oedd ei fam. Derbyniodd ei addysg yn Ysgol Westminster; ac yn 1600, etholwyd ef yn ysgolor yn Ngholeg y Drindod yn Nghaergrawnt; ac ar ol hyny, gwnaed ef yn gymmrawd o'r gymdeithas hono. Yn 1605, rhoddodd yr esgob Morgan, o Lanelwy, iddo rectoriaeth wag-swyddol (*si necure*) Llansannan; a rhoddodd ei olynydd, yr Esgob Parry, iddo wag-swyddau Llandyssul, yr ail ran o Lansannan, Ysgeifiog, a Llanarmon-yn-Iâl. Trwy ddylanwad yr Archesgob Williams, cafodd ei bennodi yn gaplan i'r frenhines. Yn 1620, pennodwyd ef yn ddeon Rochester; ac yn 1624, dyrchafwyd ef yn Esgob Caerloyw (*Gloucester*), gyda chaniatâd i ddal ei ganoniaeth trwy gynnrychiolydd. Priodolir y dyrchafiadau cyflym hyn i'w berthynas â'r Deon Goodman, er ei fod yn ddyn talentog ei hun. Yn 1616, cyhoeddodd lyfr ar Gwymp Dyn, dan y teitl "*Fall of Man, or the Corruption of Human Nature, proved by Natural Reason.*" Cafodd ei wrthwynebu gan y Dr. Hakewill. Ond attebwyd ef mewn llyfr arall, sef "*Arguments and Animadversions on Dr. Hakewill's Apology.*" Yn fuan wedi ei ddyrchafu yn esgob, traddododd bregeth ger bron y llys oedd yn cynnwys syniadau Pabaidd. Yn 1640, cafodd ei ddiswyddo, am iddo wrthod llawnodi canonau newyddion a gynnygid gan yr esgob Laud; a bu yn ngharchar am ychydig amser. Cyhoeddodd lyfr yn 1650, yn cynnwys hanes ei ddioddefiadau; yn yr hwn y dywed ei fod, yn 1643, wedi cael ei ysbeilio, ei anrheithio, ei orthrymu, a'i lwyr andwyo." Dywedir fod ei golledion yn drymion iawn. Ymroddodd yn gwbl i efrydiaeth lenyddol; a thalai ymweliad â Chymru ar brydiau—lle y prynodd fferm, o'r enw Tŷ Du, yn mhlwyf Llanberis. Yn ol ei ewyllys, ymddengys ei fod yn aelod o'r Eglwys Babaidd. Bu farw Ionawr 19eg, 1655; a chladdwyd ef yn Eglwys St. Margaret. Yn ol Lloyd a Fuller, yr oedd ei nodweddiad yn cyfatteb i'w enw; sef, *good man*—"Gŵr diniwed ydoedd, diddrwg tuag at bawb ond tuag ato ei hun, tosturiol wrth y tlawd, caredig i'w gymmydogion, yn gallu cydymdeimlo âg Ymneillduwyr, ac yn erbyn drygu neb a farnent yn wahanol iddo." At y dystiolaeth hon gellir chwanegu fod Dr. Goodman yn ddysgedig, yn dduwiolfrydig, ac yn haelionus.

GORONWY OWEN. Gwel OWAIN, GORONWY.

GOWER, SYR ERASMUS, BARWNIG. Mr. Abel Gower, o Glyndower, sir Benfro, oedd ei dad: a Letitia, unig ferch y Parch. Erasmus Gower, D. D., oedd ei fam. Dygwyd ef i fyny i'r llynges, ac anfonwyd ef i wasanaethu yn llynges Portugal; ac er ei fod yn ieuangc iawn, pennodwyd ef yn ail gadben. Ar ol y frwydr a ymladdwyd o flaen Penrhyn St. Vincent, pennodwyd ef yn gadben ar y *Porcupine;* ac yn Chwefror, 1780, ar yr *Edgar*, 74 gŵn. Bu yn llywyddu llongau yn y Môr Melyn, yn agos i China, pryd y gwnaed ef yn farchog. Dywedir ei fod wedi amlygu cryn lawer o allu yn y llynges ar lawer amgylchiad arall.

GOWER, HENRY, LL. D., esgob Tŷ Ddewi, ydoedd frodor o Forganwg. Derbyniodd ei addysg yn Ngholeg Merton, Rhydychain; ac yn 1314, gwnaed ef yn ganon Tŷ Ddewi; ac yn archddiacon yn 1324. Dyrchafwyd ef i esgobaeth Tŷ Ddewi yn 1338. Bu farw yn 1347, a chladdwyd ef yn nghapel St. John o fewn ei brif eglwys.

GOWER, JOHN. Yr oedd efe yn ddisgynydd o Gruffydd De Gower, neu Gruffydd o Gower, tywysog neu benaeth Cymraeg o un o'r hen deuluoedd brenhinol, ac yn foncyff teulu y Goweriaid; y rhai oeddynt hynod mewn cyfoeth ac awdurdod tua diwedd y drydedd ganrif ar ddeg. Efe oedd awdwr un o'r llyfrau a gyhoeddwyd gan Caxton, dan y teitl '*Confessio;*' yr hwn, yn ol rhai, a gyhoeddwyd yn 1483.

GRIFFITH, PARCH. GEORGE. Yr oedd efe yn enedigol o sir Fynwy, a derbyniodd ei addysg yn Neuadd Magdalen, yn Rhydychain; lle y derbyniodd y radd o B. A. yn 1642. Yr oedd efe yn ymlynwr wrth Oliver Cromwell; a phregethodd yn fynych o'i flaen ef, a'r senedd, yn ei ddydd. Pan ddychwelodd Siarl II. i'r orsedd, distawyd ef, gan na chydymffurfiai â'r canonau eglwysig.

GRIFFITH, PARCH. JAMES, Tŷ Ddewi. Ganwyd ef yn y Clungwm, Meidrym, yn sir Gaerfyrddin, Awst 2il, 1782. Derbyniodd ei addysg yn ysgol St. Clears. Pan yn 18eg oed, aeth i ysgol rammadegol yn Nghaerfyrddin, yr hon oedd o dan ofal y Parch. Timothy Davies, mab yr ysgolhaig enwog ac adnabyddus, Davies, o Gastellhywel. Yn mhen dwy flynedd, cafodd dderbyniad i goleg yn y dref hono. Ar derfyn tymmhor ei efrydiaeth, ymgymmerodd â gofal eglwys Machynlleth, yn 1806; ac ordeiniwyd ef Mawrth 7fed, 1807. Gyda'r eglwys hono yr oedd Pennal, Aberhosan, Towyn, Llanegryn, a Llwyngwril, yn gyssylltiedig. Priododd Miss Sarah Phillips, o ardal Trefgarn, yn sir Benfro, yn 1811. Yn niwedd ei oes, llafuriai yn Machynlleth, a Llanferran; a bu farw Ebrill 11eg, 1858, ar y Sabbath, pan yr oedd geiriau o ddiolchgarwch i'r Arglwydd yn disgyn dros ei wefusau.

Cyhoeddodd, yn 1811, lyfryn ar *Drefn Eglwys dan y Testament Newydd*, amcan yr hwn oedd egluro egwyddorion, dull, a threfn yr eglwysi Cynnulleidfaol. Ysgrifenodd erthygl ar 'Ewyllys Duw,' yr hon a gyhoeddwyd mewn llyfr ar *Ddybenion Marwolaeth Crist*, a ysgrifenwyd gan y Parch. J. Roberts, Llanbrynmair; o herwydd yr hyn yr ystyriwyd ei fod yn tueddu at syniadau Fuller a Dr. Williams, o Rotherham.

GRIFFITH, PARCH. RICHARD D. Yr oedd efe yn enedigol o gymmydogaeth Abertawe. Ymunodd â'r cyfundeb Wesleyaidd yn ieuangc, a dechreuodd bregethu yn fuan. Rhestrir ef yn mysg yr efrydwyr cyntaf yn Hoxton, ar sefydliad athrofa dduwinyddol gyntaf y cyfundeb hwnw. Ymroddodd i fyned yn genhadwr i'r India Orllewinol yn 1837. Daeth yn gyfarwydd iawn âg iaith Tamil, a'r Sanscrit. Wedi llafurio

Digitized by Google

gyda ffyddlondeb am flynyddoedd, bu raid iddo adael y wlad o herwydd poethder ei hinsawdd; a dychwelodd i Ewrop, er adgyfnerthiad ei iechyd, gan fwriadu myned yn ol. Ond bu farw yn Pentonville, Mehefin 29ain, 1856.

GRIFFITH, ROBERT. Un o weinidogion y Methodistiaid Calfinaidd. Yr oedd efe yn fab i Griffith a Mary Roberts, o Dafarn y Tŷ Mawr, Dolgellau; a ganwyd ef Hydref 13eg, 1770. Wedi treulio rhyw gymmaint o amser yn Liverpool, dychwelodd i Ddolgellau, ac ymsefydlodd yno fel masnachydd. Yn fuan ar ol hyny, dechreuodd bregethu; ac yn Nghymdeithasfa y Bala, Mehefin, 1814, neillduwyd ef i weinyddu yr ordinhadau. Dyma'r ail ordeiniad yn mysg y Methodistiaid. Yr oedd ei galon ar wneyd daioni; a chefnogai bob symmudiad fyddai yn debyg o ddwyn dynion o gyfeiliorni eu ffyrdd. Yr oedd ei weinidogaeth yn gymmeradwy; a pherchid ef yn fawr hefyd ar gyfrif ei rinweddau personol. Bu farw Gorphenaf 22ain, 1844, yn 74ain oed.

GRIFFITH, WALTER. Swyddog morwrol enwog, a anwyd yn Caerhun, ar lan afon Conwy, yn sir Gaernarfon. Ymddyrchafodd trwy allu a medrusrwydd, a ffyddlondeb, nes i'r Llyngesydd Parker ei bennodi yn olynydd iddo ar fwrdd y *Conqueror*. Cafodd ei ladd mewn ymgyrch yn erbyn y Ffrangcod yn Portroyal Bay, Rhag. 18fed, 1766. Talodd y llyngesydd, yn yr hanes a anfonodd o'r frwydr, warogaeth uchel o barch i ddewrder a gallu Cadben Griffiths.

GRIFFITHS, PARCH. BENJAMIN. Ganwyd ef yn 1688, yn Llanllewni, ar lan y Teifi. Ymfudodd i'r America yn 1710; ac ymunodd â'r Bedyddwyr yn 1711. Ordeiniwyd ef yn weinidog ar eglwys yn Pennsylfania, yn 1727. Cyhoeddodd amryw fân lyfrau yn Saesneg yn yr America. Bu farw yn 1768, yn 80ain oed.

GRIFFITHS, PARCH. DAVID. Yr oedd efe yn fab hynaf i William ac Elizabeth Griffiths, o Glanmeilwch, ger Gwynfe, plwyf Llangadog, sir Gaerfyrddin, lle y ganwyd ef Rhag. 20fed, 1792. Ymunodd âg eglwys Annibynol Gwynfe yn 1810. Derbyniodd ei addysg yn Ffald-y-brenin, yn athrofa Neuaddlwyd; ac yn 1814, aeth i goleg Gwrecsam. Yn 1817, aeth i goleg cenhadol Gosport, dan ofal y Dr. Bogue, a'i fab. Yn Mehefin, 1820, pennodwyd ef gan Gymdeithas Genhadol Llundain i fyned yn genhadwr i Madagascar, yn gydlafurwr â'r Parch. D. Jones —yr hwn oedd wedi myned yno ddwy flynedd cyn hyny; a thua'r adeg hono, priodwyd ef â Miss Griffiths, o Fachynlleth; yr hon oedd, fel yntau, yn llawn o ysbryd cenhadol. Ordeiniwyd ef yn Gwynfe, Gorphenaf 27ain, 1820; a chychwynodd ef, a'i briod, i'w taith yn yr Hydref canlynol. Yn Ebrill, 1821, aeth drosodd ei hun i Tamatave, gan adael Mrs. Griffiths am bum mis yn y Mauritius; a chyrhaeddodd y brifddinas, Antananariva, ar ol pythefnos o daith galed o ddau cant o filldiroedd. Yn mhen pum mis aeth hithau drosodd i Tamatave; a daeth yntau i'w chyfarfod i lan y môr, a chyrhaeddasant y brifddinas yn ddiogel; a'u baban hwy oedd y plentyn gwyn cyntaf a welodd y trigolion. Mawr yr edrych oedd arno, a'r gannoliaeth a roddid iddo. Yn mhen tua dwy flynedd, cafodd Mr. Griffiths ddarn helaeth o dir gan y brenin, i adeiladu tŷ, a chapel, ac ysgoldy—lle y bu yn llafurio tra y bu yn genhadwr yn y lle. Yn 1827, cafwyd argraphwasg i'r ynys; ac yn nechreu y flwyddyn ganlynol, cyhoeddwyd *Egwyddorydd*, *Llyfr Hymnau*, a *Llyfrau Ysgol*, yn iaith y brodorion; a dechreuwyd argraphu *Efengyl Luc.* Cymmerodd Mr. Griffiths ran arbenig yn nghyfieithiad y llyfrau hyn. Erbyn 1831, yr oedd yr holl Destament Newydd, llawer o'r Hen Destament, a llawer o lyfrau buddiol eraill, wedi eu hargraphu.

Yn 1835, dechreuodd erledigaeth ddifrifol, trwy fod swyddogion y llys wedi llwyddo i berswadio y frenhines mai dichell Lloegr oedd danfon cenhadon i ddysgu y bobl, ac ennill eu serch; ac yna, eu bod yn disgwyl meddiannu y deyrnas. Torodd hithau allan i wylo, gan y credai yr oll a ddywedent. Pregethodd Mr. Griffiths am y tro olaf yno ar Sabbath, Chwef. 22ain. Ar y Sabbath cyntaf yn Mawrth, cynnaliwyd math o gymmanfa gyferbyn a'r capel, pryd yr oedd tuag 8,000 yn bresennol; a chyda hyn rhoddwyd terfyn hollol ar ymdrechiadau Cristionogol yn yr ynys ar y pryd. Ymadawodd Mr. Griffiths o'r ynys yn Medi, 1835, a glaniodd yn Lloegr yn Chwefror, 1836. Yn Chwefror, 1838, derbyniodd lythyr oddi wrth y frenhines, yn rhoddi caniatâd iddo ddychwelyd am bum mlynedd. Gan na chaniateid iddo fyned yno fel cenhadwr, aeth yno ar ei draul ei hun fel masnachydd. Ond cenhadwr oedd, er hyny; canys yr oedd ei enaid yn y gwaith, ac nis gallai dim ei luddias. Yn Mai, 1838, cychwynodd ef, a'i fab, yno, a chyrhaeddasant i ben eu taith yr Awst canlynol; a bu am gryn amser yn dilyn masnach mewn enw—ond yn genhadwr mewn gwirionedd. Cododd erledigaeth yno drachefn. Cymmerwyd ei feddiannau oddi arno, a meddiannodd y llywodraeth y tir, a'r capel a adeiladodd efe gyda thraul o tua 700*p.*; a gwrthodwyd rhoddi iddo unrhyw iawn am ei golled. Trwy ei ddylanwad ef y cafodd Mr. Ellis, y cenhadwr presennol, y tir eilwaith i fod at wasanaeth y genhadaeth. Gadawodd y brifddinas yn mhen tri diwrnod ar ddeg ar ol derbyn y gorchymyn brenhinol, a glaniodd yn ddiangol yn y Mauritius, Medi, 1840. Cafodd dderbyniad croesawus gan yr holl Gristionogion. Dychwelodd i Lundain yn Chwefror, 1842; ac yn mhen amser, ysgrifenodd lyfr yn Gymraeg, yn cynnwys hanes Madagascar a'i chenhadaeth; a rhoddodd ran fawr o'r elw at gynnorthwyo saint tlodion yr ynys hono.

Yn 1843, ymgymmerodd â gofal eglwys yn y Gelli, yn sir Frycheiniog, lle y llafuriodd gyda llwyddiant mawr; ac yn 1852, sefydlodd achos i'r Annibynwyr yn Kington. Darparodd rammadeg o iaith trigolion Madagascar, a chyhoeddodd ef ar ei draul ei hun; o blegid na chymmerai y gymdeithas genhadol y gorchwyl mewn llaw, gan nad oedd y wlad yn agored i'r efengyl.

Yn 1852, gan fod arwyddion fod drws yn agor yn Madagascar, ymgymmerodd ef, a Mr. Freeman, â'r gorchwyl o ddwyn allan gyfieithiad diwygiedig o'r Beibl yn yr iaith; a chydlafuriasant am dymmor. Ond bu Mr. Freeman farw, a chynnorthwywyd ef gan y Parch. Mr. Meller, o Woodbridge, golygydd cyffredinol y Beibl Gymdeithas. Rhoddodd yr eglwys yn y Gelli i fyny, a symmudodd i Woodbridge, er bod yn gyfleus i gael gweled Mr. Meller. Arosodd yno o 1853 hyd 1858, i orphen y gorchwyl uchod, a chyfieithu llyfrau eraill i iaith Malagasi.

Digitized by Google

i'r hon yr oedd ei arglwyddiaeth yn llywydd. Cyrhaeddodd Jamaica yn 1825; ac ordeiniwyd ef gan y Dr. Lipscome, esgob y drefedigaeth hono. Bu yn llafurio yno am amryw flynyddoedd; ac yr oedd yn un o'r cenhadon mwyaf llafurus a llwyddiannus oedd ar y maes y pryd hwnw. Bu farw Rhagfyr 8fed, 1845.

GRIFFITHS, Parch. GRIFFITH, Casnewydd. Ganwyd ef yn mhlwyf Llanedi, yn sir Gaerfyrddin, tua'r fl. 1794. Derbyniodd ei addysg yn athrofa Neuaddlwyd, gyda'r Dr. Phillips; ond yr oedd efe wedi dechreu pregethu cyn hyny, ar gais yr eglwys Annibynol yn Llanedi. Ei ofal cyntaf oedd eglwysi Ebenezer, Llanfair-clydogau, a Thy'n-y-gwndwn, yn y sir uchod; ac ordeiniwyd ef yn weinidog arnynt Ebrill 5ed, 1831. Yn 1837, symmudodd i Gasnewydd; ac yn mhen tair blynedd, i Aberhonddu, i eglwys y Plough. Yr oedd efe yn meddu cymmhwysderau arbenig i'r gwaith yn y dref hono, gan fod yr athrofa wedi ei symmud yno o'r Drefnewydd ychydig cyn hyny. Pregethai 'yn fyr, ac at y pwrpas.' Ni theimlai y gradd lleiaf o gydymdeimlad â phregethau meithion. Dywedai am bregethwyr, 'eu bod yn pregethu yn faith—nid o herwydd fod ganddynt lawer i'w ddyweyd; ond o blegid eu bod yn gadael y testyn, gan grwydro i gyrau y byd.' Ar ol wyth mlynedd o lafur yn Aberhonddu, symmudodd yn ol at ei hen eglwys yn Nghasnewydd, lle y parhaodd i weinidogaethu nes y lluddiwyd ef gan nychdod a gwendid. Bu farw Mawrth 15fed, 1861, yn 60ain oed; a chladdwyd ef yn nghladdfa gyhoeddus y dref hono. Yr oedd ei holl feibion yn weinidogion:—yr hynaf gyda'r Saeson yn Aberhonddu, yr ail yn Awstralia, a'r trydydd yn Great Yarmouth.

GRIFFITHS, Parch. JOHN. Gweinidog gyda'r Annibynwyr yn Nglandŵr, yn sir Benfro. Ganwyd ef yn 1731, yn Nghastell Garw, yn y gymmydogaeth hono. Er mai bwriad ei rïeni oedd ei ddwyn i fyny yn glerigwr, tueddwyd ef i ymuno â'r Annibynwyr yn Nglandŵr—lle y dechreuodd bregethu. Pan ddaeth pulpud yr eglwys hono yn wâg, dewiswyd ef i'w lanw; a pharhaodd i lafurio yno dros hanner can mlynedd, ac yn yr eglwysi canlynol hefyd:—Capel Iwan, ger Castellnedd; Nantleddfron a'r Star, yn Nghlydai; Rhyd-y-ceisiaid, a Phen-y-groes. Yn fuan wedi iddo sefydlu yn Nglandŵr, priododd ferch Mr. Dyfnhalt, o'r Graig—yr unig amaethwr yn y plwyf oedd yn proffesu y pryd hwnw gyda'r Ymneillduwyr. Cadwodd ysgol yn y gymmydogaeth hono gyda graddau helaeth o lwyddiant. Byddai yn barddoni ychydig hefyd. Parhaodd i lanw y ddwy swydd o weinidog ac ysgolfeistr hyd ychydig flynyddoedd i'w farwolaeth, pan y cafodd ergyd drom o'r parlys. Bu farw Tachwedd 12fed, 1811, yn 80ain oed.

GRIFFITHS, Parch. MORGAN. Ganwyd ef yn nghymmydogaeth Hwlffordd, yn sir Benfro, yn 1669; ac yr oedd yn bregethwr tra phoblogaidd gyda'r Bedyddwyr yn nechreu y ganrif ddilynol. Ar farwolaeth y Parch. William Jones, dewiswyd ef yn weinidog gan eglwys Rhydwilym, ac ordeiniwyd ef. Y flwyddyn ganlynol, derbyniodd wahoddiad oddi wrth eglwys Hengoed, yn sir Forganwg, i fod yn weinidog iddi; yr hon oedd yn un o'r eglwysi hynaf a berthynent i enwad y Bedyddwyr yn Nghymru, gan ei bod wedi ei sefydlu yn amser y Weriniaeth. Yr oedd yr eglwys hono yn gymmysgedig o Fedyddwyr Neillduol a Chyffredinol. Bu farw Mehefin 11eg, 1738, yn 69ain oed.

GRIFFITHS, Parch. SAMUEL. Ganwyd ef yn mhlwyf Clydai, sir Benfro, yn 1783; a gwasanaethodd fel gweinidog yr eglwys Annibynol yn Horeb, yn sir Aberteifi. Bu am flynyddoedd yn dilyn ei alwedigaeth o saer maen. Y pryd hyny, defnyddiai ei oriau hamddenol i gyfoethogi ei feddwl ei hun; a llwyddodd i'r fath raddau fel y bu am flynyddoedd yn cadw ysgol ddyddiol yn Llwyn-yr-hwrdd; a dechreuodd bregethu ar gais yr eglwys y perthynai iddi. Ordeiniwyd ef yn Horeb, yn 1818; lle y llafuriodd gyda graddau helaeth o lwyddiant hyd o fewn ychydig ddyddiau i'w farwolaeth. Ystyrid ef yn weinidog defnyddiol iawn. Yr oedd yn gymmeradwy yn y pulpud; a chroesawyd ef yn gynnes a chalonog yn y tai y byddai yn arfer ymweled a hwynt. Yr oedd yn hynod gymmeradwy yn ardal Horeb. Yr oedd yn fawr ei ymddiried yn Rhagluniaeth; ac annogai eraill i ymddiried ynddi. Yr oedd ei ffyddlondeb, ei ddiwydrwydd, a'i garedigrwydd, yn ddiarebol trwy yr holl ardal. Priododd Esther, merch Mr. Theophilus James, Pontgych; a bu yr undeb yn un dedwydd. Bu farw Gorphenaf 4ydd, 1860; a chladdwyd ef yn mynwent Bwlch-y-groes—un o gapelau ei ofal gynt.

GRIFFITHS, Parch. THOMAS. Ganwyd ef yn Nhrefdraeth, yn sir Benfro, Mawrth 25ain, 1784. Morwr oedd ei dad, o'r enw Owen Griffiths. Yr oedd ei fam yn chwaer i'r Parch. B. Evans, Drewen. Bu yn gwasanaethu gyda'r Annibynwyr yn Hawen a Glynarthen. Yr oedd ei fam yn wraig dduwiol; a llafuriodd lawer gyda'i phlant; ond bu farw yn 42ain oed. Gofalodd Rhagluniaeth, er hyny, yn fawr am danynt. Ymunodd Thomas âg eglwys Trefdraeth. Trwy gryn ymdrech y llwyddwyd i gael ganddo ddechreu pregethu. Yn fuan, cafodd alwad gan eglwys Horeb, Ceredigion; ond er hyny, bu am ddwy flynedd yn fyfyriwr cysson a rheolaidd yn athrofa y Dr. Phillips, o Neuaddlwyd. Yn 1814, ymadawodd o Horeb, ac ymgymmerodd â gofal eglwysi Hawen a Glynarthen, fel cynnorthwywr i'w ewythr, y Parch. B. Evans. Teithiodd a phregethodd lawer gyda dylanwad anghyffredin; ac ystyrid ef yn un o enwogion cymmanfaoedd yr Annibynwyr. Bu farw Mehefin 25ain, 1838, yn 54ain oed, ar ol bod ddeng mlynedd ar hugain yn y weinidogaeth.

GRIFFITHS, Parch. WILLIAM. Ganwyd ef yn 1777. Ei dad oedd y Parch. John Griffiths, gweinidog yr Annibynwyr yn Glandŵr, yn sir Benfro. Yr oedd Mr. William Griffiths yn ddyn o amgyffredion cryf, yn meddu côf da, ac yn deall yr ieithoedd Saesneg, Groeg, Lladin, a Hebraeg—heb law y Gymraeg. Yn fuan wedi ymuno a'r eglwys yn Glandŵr, annogwyd ef i ddechreu pregethu. Wedi dychwelyd o athrofa Gwrecsam, bu yn cynnorthwyo ei dad fel gweinidog yn maes helaeth ei lafur; ac yn 1801, pan ddarfu i'w rïant roddi ei weinidogaeth i fyny o herwydd llesgedd a henaint, dewiswyd ei fab yn olynydd iddo. Dyma fel y dywed y diweddar Barch. Joseph Harris am dano wrth gofnodi ei farwolaeth:—

"Yn ei symmudiad, fe gollodd gwir grefydd un

Digitized by Google

o'i hamddiffynwyr gwresocaf; a chollodd ei gynnulleidfa dywysydd odiaethol, yr hwn a gyfarwyddai eu traed yn ffordd tangnefedd. Ymddangosodd rhai o'i gyfansoddiadau ef yn *Seren Gomer*, a da genym pe medrasem lwyddo gyda gŵr mor ddysgedig a dealius i ysgrifenu chwaneg. Côf genyf i ni dderbyn rhai llythyrau oddi wrtho pan oeddym mor brysur fel mai prin y medrem gael amser i ddarllen y llythyr; eithr wedi gweled ei enw ef ar ei ddiwedd, dywedem yn ein meddwl, 'Ni raid darllen hwn. Ffwrdd âg ef i'r cyssodydd yn ddioed, canys ni fedr Mr. Griffiths, Glandŵr, ysgrifenu dim ffolineb, dim rhagfarnllyd, dim yn anghysson â thelerau ein cyhoeddiad, na dim a duedda i ddrygu y *Seren* yn ngolwg unrhyw ddyn synwyrol.'"

Cyfansoddodd amryw emynau hefyd. Byddai yn ddarostyngedig i iselder ysbryd, a dioddefodd lawer oddi wrtho. Ac er i'r afiechyd gilio am dymmor, ymosododd arno drachefn. Bu farw Ionawr 9fed, 1825, yn 48ain oed. Ystyrid ef yn bregethwr manwl, beirniadol, a chrafius.

GRUFFYDD AB ARTHUR. Gwel dan yr enw GEOFFREY O FYNWY.

GRUFFYDD AB IEUAN AB LLEWELYN FYCHAN. Efe oedd perchenog treftadaeth Llanerch, a'i chyssylltiadau, yn Nyffryn Clwyd. Yr oedd efe yn un o'r boneddigion a enwyd yn y Cynghor Brenhinol i wneyd trefn a llywodraeth ar 'wŷr wrth gerdd dafod a thant' yn yr eisteddfod gyntaf a gynnaliwyd yn Nghaerwys. Proffesodd Babyddiaeth yn moreu ei oes, fel yr ymddengys oddi wrth ei awdlau gorchestol i "Lun y Groes wrth Dymeirchion," a'r ddelw a elwid "Yr Iesu Gwyn o Ruddlan." Gwelir hyny hefyd yn ei gywyddau i "Gynhafal Sant," a'i "Syr Thomas Goch," ac "Alis Sirk" (*Chirk*); ond daeth i weled cyfeiliornad ei ddaliadau o hyny, fel llawer eraill. Ceir profion o hyn yn ei gyhoeddiad o athrawiaethau iachusol yn erbyn ensyniadau Pabyddol; megys yn ei gywydd "Ar ddioddefaint ein Hiachawdwr." Y mae hefyd o'i eiddo ar gael "Gywydd o Gynghor i'r Ferch Brydweddol," a "Chywydd yn erbyn Delwau a Chyfeiliornadau Pabyddol."

GRUFFYDD AB LLEWELYN AB SEISYLLT. Tywysog enwog ar Gymru rhwng 1037 a 1064. Syrthiodd ei dad yn aberth i gyllell brad-lofrudd; a chymmerodd gŵr o'r enw Iago ab Idwal ab Meirig feddiant o'r orsedd, a chadwodd hi am ddeng mlynedd. Ond cynnullodd Gruffydd wŷr; ac mewn brwydr, gorchfygwyd llu Iago:—ac efe a syrthiodd yn mhoethder y frwydr. Mor gynted ag y cymmerodd Gruffydd feddiant o'r orsedd, daeth y Saeson a'r Daniaid gyda byddin i ymosod ar ei diriogaeth. Cynnullodd yntau fyddin gref, a gorchfygodd hwynt gyda lladdfa fawr yn y cyffiniau ger llaw Croesffordd, ar lan yr Hafren. Ar ol amryw frwydrau rhyngddo a Hywel, tywysog y Deheubarth, gorchfygwyd ef, a gwnaed Gruffydd yn benadur ar Gymru oll. Ond tra yr oedd yn brysur gyda dyledswyddau ei deyrnas, glaniodd Cynan ab Iago, yr hwn a fu yn ffoadur yn yr Iwerddon; a chyda nifer o wŷr, rhuthrodd yn annisgwyliadwy, a chymmerodd Gruffydd yn garcharor:—deiliaid yr hwn, fodd bynag, a'i rhyddhasant. Wedi treulio oes derfysglyd, a theyrnasu am 34ain mlynedd, llofruddiwyd ef yn 1064 gan ei ddeiliaid ei hun; y rhai a gynhyrfwyd i gyflawni y weithred gan Harold y Sais, a Charadawg ab Rhydderch ab Iestyn.

GRUFFYDD GRYG. Bardd gorchestol o Fôn, a chydoeswr â Dafydd ab Gwilym. Yn ol Angharad Llwyd, brodor o Aberffraw ydoedd; ond yn ol yr *Iolo MSS.*, trigai yn Mhennynydd, Môn. Tybir iddo gael ei eni tua'r fl. 1300, ac iddo farw tua 1370. Yn ol chwedl, priodolir y sylw canlynol i Tudur Aled:—"Goreu prydydd Gruffydd Gryg; goreu awenydd Dafydd ab Gwilym." Ystyr 'cryg' yw garw (*rough*). Rhys Cryg y gelwid hen dywysog beiddgar; ac adwaenir Gruffydd Cryg, yn benaf, trwy ei gywyddau ymryson â Dafydd ab Gwilym. Claddwyd ef yn Llanfaes, ger Beaumaris. Bu farw Dafydd ab Gwilym yn 1368, a chanodd Gruffydd Gryg gywydd o alar gwirioneddol am dano. Yr oedd efe yn fardd dysgedig ac athrylithgar. Gwyddeles oedd ei fam.

GWAITHFOED FAWR. Tywysog Ceredigion, ac Arglwydd Cibwyr, oedd efe. Yr oedd yn fab i Eunydd ab Cadifor ab Peredydd Peiswyrdd ab Encyn ab Eunydd, yr hwn a hanai o Wyddno Garanhir. Cofnodir ef yn y *Trioedd* gyda Morgan Mwynfawr ac Elystan Glodrydd, dan y penawd, "Tri hualogion teyrnedd Ynys Prydain," am y gwisgent hualau neu gadwen o gylch eu harleisiau, fel arwydd o'u hurdd a'u swydd, yn ol arfer yr hen dywysogion Prydeinig—ac nid coronau. Blodeuodd yn yr 11eg ganrif.

GWALCHMAI AB GWYAR. Penaeth enwog yn nechreu y chweched ganrif oedd efe. Yr oedd yn nai, fab chwaer, i Arthur, o Gwyar. Gwneir tri chofnodiad o hono yn y *Trioedd*. Yn *Trioedd* 70, rhestrir ef gyda Llechau ab Arthur a Rhiwallon Wallt Benhadlen, dan y penawd "Tri deifnogion Ynys Prydain;" ac yn *Trioedd* 115, cofnodir ef gyda Drudwas a Madawc, fel "tri marchogion aur dafodogion Llys Arthur." Rhoddir cymmeriad cyffelyb iddo hefyd yn *Trioedd* 119. O herwydd y cynneddfau hyn, yr oedd Gwalchmai yn gymmeriad tra enwog gydag athrawon yr hen ramantau Cymreig; ac y mae ei enw wedi ei Ladineiddio yn 'Walganus,' neu 'Walweyn;' ac adwaenir ef gan y Ffrangcod fel 'Gawain.' Dywed William o Malmesbury fod bedd Gwalchmai—neu, fel y gelwir ef ganddo ef, 'Walwen'—wedi ei ddarganfod yn y fl. 1086, ar lan y môr, mewn rhan o Gymru a elwir Rhos, yn sir Benfro, lle y mae man o'r enw Castell Gwalchmai, a *Walwyn's Castle*. Lladdwyd ef yn nechreu y rhyfel trychinebus a fu rhwng ei ewythr Arthur a Medrawd.

GWEIRYDD WLEDIG. Y 70ain frenin ar Brydain. Gelwir ef gan haneswyr Rhufeinig yn 'Arviragus.' Yr oedd efe yn byw yn amser yr ymherawdwr Domitian, a phan oedd Sallustius Lucullus yn llywodraethwr dros Rufain yn Mhrydain. Crybwyllir ei enw yn *Juvinal Sat.* iv. 123. Yn ol *Brut Tysilio*, a *Brut Gruffydd ab Arthur* a gynnwysir yn y *Myfyrian Archaiology*, ymddengys mai yn amser yr ymherawdwr Claudius y blodeuodd efe—er fod cywirdeb yr hyn a ddywedir am dano yno yn cael ei ystyried yn ammheus. Bu Cynfelyn farw wedi teyrnasu am ddeuddeng mlynedd, gan adael dau fab, Gwydyr a Gweirydd. Gelwir y ddau hyn gan Sieffre o Fynwy yn 'Guiderius' ac 'Arviragus.' Gwydyr a ddilynodd ei dad; ac mor fuan ag y cafodd ei hun yn gadarn ar yr orsedd gwrthododd dalu y deyrnged arferol i Rufain

Digitized by Google

—yr hyn a barodd i Claudius ddyfod gyda llu mawr drosodd i Brydain. Mewn brwydr lladdwyd Gwydyr yn fradwrus gan Rufeinddyn o'r enw Hamon; yr hwn, yn ngwisg Prydeiniwr, a gafodd fynediad rhwydd at y brenin. Pan glywodd ei frawd am y brâd, rhoddodd arfwisg ei frawd am dano; a chan weithredu fel penciwdod ar ei gydwladwyr, gyrodd luoedd Rhufain i gilio. Dilynodd Gweirydd hwynt hyd Gaer Peris (*Porchester*), a gwarchaeodd ar y castell yno; eithr mewn brwydr a gymmerodd le yno, gorfodwyd ef i encilio hyd Gaerwynt (*Winchester*)—i'r hwn le y dilynwyd ef ac y gwarchaewyd arno gan Claudius. Pan glywodd Claudius fod yn mwriad Gweirydd ddyfod allan, ac ymladd mewn maes agored, tueddwyd ef i gynnyg iddo delerau heddwch; yr hyn a derfynodd mewn cyttundeb rhyngddynt—yn mha un y rhoddwyd merch Claudius i Gweirydd yn wraig. Yna y Rhufeiniaid a ddychwelasant i Rufain, gan adael Gweirydd ar ei sedd. Ond anfonwyd Vespasian i Brydain; ac mewn brwydr a gymmerodd le ger Penhwylgoed (sef, *Exeter*, dybygir), efe a orchfygodd Gweirydd. Pa fodd bynag, trwy offerynoliaeth y frenhines, adferwyd heddwch eilwaith; ac wedi i Gweirydd dyngu llŵ o ffyddlondeb, y Rhufeiniaid a ddychwelasant i'w gwlad. Bu Gweirydd fyw i oedran teg; teyrnasodd mewn heddwch a doethineb, ac ymledodd ei glod drwy holl Ewrop. Bu farw, a chladdwyd ef yn Nghaerloyw (*Gloucester*), mewn teml a adeiladodd efe, ac a gyflwynodd i Claudius. Y mae traddodiad yn bod fod Joseph o Arimathea wedi dyfod i Brydain, gan gyhoeddi yr efengyl, yn amser Gweirydd Wledig. Gellir ei weled yn ngwaith Gildas, a William o Malmesbury. Cofnodir Gweirydd hefyd yn y *Trioedd*, gyda Chaswallon a Charadawg, fel tri "phrif gatteyrn" Ynys Prydain.

GWRTHEFYR FENDIGAID. Mab ydoedd i Gwrtheyrn Gwrthenau; ac etholwyd ef gan y Brythoniaid yn frenin arnynt, wedi i'w dad gael ei ddiswyddo am wahodd y Saeson i'r ynys hon. Ar ddeisyfiad ei ddeiliaid, rhoddodd Gwrthefyr gâd ac ymgyrch ar y Saeson, ac a'u gorchfygodd mewn pedair brwydr olynol. Ond wedi teyrnasiad blinderus o bedair blynedd cafodd ei wenwyno trwy ddichell Alis Rhonwen, yr hon a briododd ei dad. Cymmerodd hyn le tua'r fl. 408. Yn un o'r *Trioedd*, gelwir ef yn un o'r "tri menwedigion teyrnedd." Mae un arall yn awgrymu fod ofergoeledd yr oes hono yn ystyried mai buddiol celu esgyrn Gwrthefyr Fendigaid, er mwyn diogelwch yr ynys hon rhag ymosodiadau gelynion. Ond Gwrtheyrn, ei dad, a'u dadguddiodd; ac am hyny y gelwir hwynt yn un o'r "tair cudd a dadgudd."

GWYDION AB DON. Mab oedd efe, yn ol y *Brutiau Cymreig*, i frenin Llychlyn (*Iceland*); yr hwn, yn gyntaf, a anrheithiodd yr Iwerddon. Ond dywed Davies, awdwr y *Mythology of the Druids*, nad oedd efe ond person ffugiol; ac nad ydyw yr holl grybwyllion yn ei gylch ond rhamant neu aralleg.

GWYDDNO GARANHIR. Tywysog Cantref y Gwaelod oedd efe; yr hwn a orlifwyd gan y môr, ac a orchuddir yn awr gan donau Machwy Aberteifi (*Cardigan Bay*). Gelwir ef hefyd Dewrarth Wledig. Mab ydoedd i Gorfyniawn ab Dyfnwal Hen, brenin Gwent. Yr oedd yn ei flodeu rhwng B.A. 460 a 520. Mae tri chyfansoddiad o'i eiddo yn y *Myvyrian Archaiology*. Yn ol y *Trioedd*, Hafan Gwyddno, yn Ngheredigion, ydoedd un o "dair prif borthladdoedd Ynys Prydain." Yr oedd ganddo gored pysgota ar enau yr afon Gonwy, ger Deganwy, yr hon a elwir hyd heddyw 'Cored Gwyddno.'

GOB: "pwll" neu "ffos." Lle a enwir yn unig yn 2 *Sam.* xxi. 18, 19, fel maes dwy frwydr rhwng rhyfelwyr Dafydd a'r Philistiaid. Yn yr hanes arall—am y cyntaf o'r rhai hyn yn unig—yn 1 *Cron.* xx. 4, rhoddir yr enw fel *Gezer*. Y mae hyn, yn gystal a'r ffaith na ddywedir yn mha le y digwyddodd yr ail frwydr, yn cael ei gefnogi gan Josephus.—"*Hynaf. Iudd.*," vii. 12, *adr.* 2. Ar y llaw arall, yr enw sydd gan y Deg a Thrigain a'r Syriaeg yn yr achos cyntaf yw *Gath*—enw sydd, yn yr Hebraeg, yn debyg iawn i *Gob*. Ymddengys fod hyn yn cael ei gefnogi gan yr hanes am drydedd brwydr a ymladdwyd ar ol hyny; yr hon, fel y bernir, a ddigwyddodd yn Gath (2 *Sam.* xxi. 20; 1 *Cron.* xx. 6); a'r hon, fel yr ymddengys oddi wrth yr adroddiad, a ymladdwyd yn yr un lle a'r lleill.

GARIBALDI, GUISEPPE. Ganwyd ef yn Nice, Gorph. 22ain, 1807. Yr oedd ei dad yn berchenog ar long fasnachol oedd yn morio rhwng gwahanol borthladdoedd cyfagos; a dygwyd Garibaldi i fyny yn llongwr. Ymwelodd â Rhufain, Cagliari, Vado, Genoa, &c.; ac yn 1830, pennodwyd ef yn gadben ar long o'r enw *Notre Dame de Grâce*. Er ei fod yn teimlo dyddordeb dwfn mewn symmudiadau gwladwriaethol, ennynwyd hyny yn fwy trwy iddo gyfarfod â gwladgarwyr Italaidd fyddai yn arfer morio yn ei long ar adegau. Yn 1833, daeth i adnabod Mazzini, ac arweinwyr y symmudiadau rhyddfrydig yn Italy; ac o'r adeg hono yr oedd ei gasineb greddfol at orthrymder, a'i gariad at ryddid cyffredinol, yn cael dylanwad mawr ar ei weithredoedd. Felly, o'r diwedd, daeth sierhau rhyddid i'w wlad yn amcan penaf ei fywyd. Yn 1834, cymmerodd ran mewn symmudiad chwyldroadol yn Genoa. Bu raid iddo ffoi am ei fywyd; a chyrhaeddodd Ffrainge ar yr adeg pan yr oedd ei gondemniad i farw yn cael ei gyhoeddi yn Italy. Yna, ymroddodd o'r newydd i fywyd morwrol; ac yn mhen amser, aeth i Ddeheudir America. Pan gyhoeddodd Rosas, pen-rheolwr Buenos Ayres, ryfel yn erbyn Gweriniaeth Uruquay, yn 1842, efe a gynnygiodd ei wasanaeth i'r weriniaeth; ac yn fuan dangosodd ei fod yn meddu ar alluoedd hynod i arwain a chyfeirio gweithrediadau rhyfelgar.

Yn 1848, torodd rhyfel allan rhwng Awstria a rhyddfrydwyr Italy; a phrysurodd Garibaldi i Ewrop, i faes y frwydr, gan nas gallai ymattal heb gymmeryd ei ran ynddi. Galwyd ef gan Mazzini i Rufain yn Ebrill, 1849, ac ymddiriedwyd amddiffyniad y ddinas iddo. Enwogodd ei hun yno trwy wrthsefyll galluoedd Ffrainge —pa rai, am bedair wythnos, a gadwyd allan o'r ddinas gan ei fyddin fechan. Ond bu raid iddynt, o'r diwedd, roddi yr ymdrech i fyny, o herwydd fod byddin Ffrainge yn llawer lliosocach, a'i chyflegrau yn gryfach. Ond cerddodd allan o'r ddinas yn ddiogel, Gorphenaf 2il, fel yr oedd y Ffrangcod yn ymdywallt i mewn iddi. Yna cychwynodd i Venice mewn llong fechan,

Digitized by Google

gyda'i wraig wrol; yr hon oedd yn hynod ffyddlawn iddo, ac i'w egwyddorion a'i gynlluniau. Ond trwy fod llongau Awstria yn ei ymlid, bu raid iddynt droi i dir—heb wybod i ba le. Ac yn agos i'r lan, o herwydd y peryglon a'r cyfyngderau yr aethant drwyddynt, bu farw ei wraig yn mreichiau ei gŵr. Yr oedd hon yn ergyd drom i Garibaldi, ac effeithiodd yn fawr arno. Cyrhaeddodd Genoa yn ddiogel, pa fodd bynag; ac aeth oddi yno i Tunis. Wedi hyny, ymwelodd drachefn â Deheudir America; a chafodd ei bennodi yn gadben ar long fasnachol. Cyfyrddodd amryw weithiau â phorthladdoedd yn Lloegr, a derbyniwyd ef gyda pharch a chydymdeimlad mawr. Rhwng 1848 ac 1859, treuliodd ei amser yn benaf ar ei fferm yn Caprera. Yn y fl. 1860 y cyflawnodd efe orchestgampau rhyfedd ei fywyd. Rhwng y rhyfeloedd a gymmerasant le yn y blynyddoedd hyn, cydsyniodd Garibaldi i dderbyn y ffurf frenhinol o lywodraeth, fel yr oedd yn bodoli yn Piedmont, am y ffurf werinol, am yr hon yr oedd efe wedi ymdrechu yn flaenorol. Yr oedd efe, gan hyny, yn rhydd i gydymdrechu, ond mewn modd afreolaidd, â galluoedd Piedmont ar doriad allan y gweithrediadau rhyfelgar. Yn y cyssylltiad hwn efe a gyflawnodd waith oedd yn adlewyrchu gogoniant arno.

Prif effaith heddwch Villafranca, trwy yr hwn y daeth rhyfel Italaidd 1859, yn annisgwyliadwy ac yn anfoddhaol, i derfyniad, ymgymmerodd pobl Italy yn ddioed â symmudiadau gwrthryfelgar gydag amcanion rhyddfrydig —pa rai, yn ystod yr ymgyrch, oeddynt wedi eu cyssylltu gan y genedl â llywodraeth Sardinia. Felly, yn gynnar yn 1860, torodd symmudiadau gwrthryfelgar allan yn Palermo; ond er eu bod wedi eu darostwng yn y ddinas trwy allu cryfach gwarchodlu teyrnas Naples, adnewyddwyd hwynt yn fynych mewn gwahanol fanau yn yr ynys; ac yr oedd y gwrthryfelwyr yn galonog ac yn feiddgar, o herwydd fod Garibaldi wedi sicrhau iddynt y byddai efe yn fuan yn eu mysg. Yn unol â'i addewid, casglodd fyddin o wirfoddolwyr, yn rhifo 1,070 o wladgarwyr, yn Genoa; ac ar y 5ed o Fai, cychwynodd, mewn dwy long, am Ynys Sicily, a chyrhaeddasant Marsala yn ddiogel ar yr 11eg o'r mis. Glaniasant yn ngolwg, a than dân llynges Naples. Ar y 14eg, cyhoeddodd ei hun yn benllywydd. Ar y 15fed, yn mrwydr Calatafimi, gorchfygwyd 3,600 o filwyr Naples gan fyddin fechan Garibaldi. I'r llwyddiant hwn, ar y dechreu, y gellir priodoli y llwyddiant a ddilynodd. Agorodd hyn y ffordd i Palermo, prifddinas Sicily; a thaniwyd ysbryd milwyr Garibaldi âg ymddiried a beiddgarwch anorchfygol. Ar y 19eg, cymmerasant feddiant o'r bryniau, o ba rai y gallasent danio ar Palermo; ac ar ol brwydr galed gyda byddin y brenin, ymladdodd Garibaldi a'i filwyr eu ffordd i'r ddinas.

Ar hyn, cyfryngodd llynges Prydain rhyngddynt, a llwyddwyd i gael gan gadlywydd y gwarchodlu oedd yn y meddiant o'r amddiffynfa i roddi arfau i lawr. Ar ei ymadawiad ef, a'i filwyr, parhaodd Garibaldi mewn meddiant o'r ddinas, a'i hamddiffynfa. Y gorchwyl cyntaf a wnaeth oedd arfogi y trigolion. Ar yr 20fed o Orphenaf, ymosododd, gyda 2,500 o wŷr, ar Melazzo; lle yr oedd 7,000 o filwyr Naples; a gorchfygwyd hwynt, fel y bu raid iddynt fyned allan o'r amddiffynfa. Ar y 25ain, gyrwyd hwynt yn ol i Messina. Cerddodd Garibaldi yn fuddugoliaethus i mewn iddi ar y 27ain; a rhoddodd y gwarchodlu, o herwydd eu bod wedi eu dychrynu ar ei ymddangosiad, orfodaeth ar y cadfridog i ymostwng. Tua chanol Awst, disgynodd Garibaldi i Calabria, lle yr ymunwyd ag ef gan luoedd mawr o wirfoddolwyr; a symmudodd yn mlaen tua dinas Naples. Ar y 5ed o Fedi, yr oedd milwyr Garibaldi yn rhifo o 25,000 i 30,000 o wŷr; a chymmerodd feddiant y dydd hwnw o Salerno, gan i filwyr y brenin gilio oddi yno. Ac ar y 7fed, yn nghanol banllefau o gymmeradwyaeth brwdfrydig y trigolion, aeth Garibaldi i Naples ei hun—gydag ond un cyfaill neu ddau. Cymmerodd feddiant felly o honi:—a phrofodd i Ewrop mai gwaredwr croesawgar oedd efe; ac nid gorchfygwr, yn peri dychryn yn mhob man lle yr ymddangosai. Y diwrnod cyn hyny, ciliodd y Brenin Francis II. i amddiffynfa Gaeta. Cyn diwedd y mis, yr oedd Garibaldi wedi cyhoeddi amryw o symmudiadau diwygiadol, pa rai oedd yn tueddu i wneyd llywodraeth Sardinia yn boblogaidd; ac am ychydig amser. efe a feddiannodd y teitl a'r awdurdod o benllywydd. Ar y 1af o Hydref, galwyd ei alluoedd milwrol drachefn i weithrediad, gan fod milwyr y brenin, yn rhifo 15,000 o wŷr, yn dyfod o Capua, ac yn ymosod ar holl linell ei fyddin—yr hon oedd wedi ei chwalu ar hyd y Volturno. Am amryw oriau, yr oedd y frwydr yn un gyffredinol rhwng y byddinoedd; ac ymddangosai ar brydiau fel pe buasai llwyddiant ar gilio o fysg y Garibaldiaid. Ond llwyddwyd i yru milwyr y brenin yn ol i Capua mewn annhrefn; a dadganodd Garibaldi fod "buddugoliaeth lawn wedi ei hennill ar hyd yr holl linell."

Cymmerodd Victor Emmanuel eilwaith lywyddiaeth y fyddin, croesodd derfynau y Pab, llwyr orchfygodd y milwyr dan Lamoricière, ac aeth yn mlaen i deyrnas Naples, yn mha le y cyfarfyddodd â Garibaldi. Ac yn y fan hono, cyhoeddodd Garibaldi ef yn 'Frenin Italy;' a throsglwyddodd i'w lywyddiaeth y milwyr oedd dano, a'r holl awdurdod a feddai.

Gwrthododd Garibaldi yn benderfynol pob dyrchafiad oedd gan y brenin i'w gynnyg iddo; ac wedi canu ffarwel â'i gydfilwyr, cychwynodd gartref mewn llong, ar y 9fed o Dachwedd.

Ymunodd Garibaldi â chorph o wirfoddolwyr yn Melito, tuag ugain milldir o Palermo; ond anfonodd y llywodraeth yn Turin allu cryf, dan Pallavicino, i'w wrthwynebu. Ymosodasant arnynt yn Aspromonte, a chawsant oruchafiaeth ar Garibaldi a'i wŷr. Cafodd ei archolli yno yn drwm yn ei ffêr gan fwled. Ond o herwydd ei wasanaeth i Italy, cafodd ei ryddid. Yn Ebrill 1864, ymwelodd Garibaldi â Phrydain, a chafodd dderbyniad tywysogaidd. Yn ddirybudd, ymadawodd i Caprera oddi yma; ac yn rhyfelgyrch 1866, daeth allan drachefn yn y Tyrol, a thrachefn yn 1867; ond bu yn aflwyddiannus. Ond er gwaethaf llywodraeth Italy, penderfynodd bertfeithio, os yn bossibl, undeb Italy; ac ymosododd ar dalaethau yr Eglwys. Gwrthwynebodd yr Eglwys hyn, a chafodd ei gymmeryd yn garcharor yn Sinalunga; ond gollyngwyd ef yn rhydd, a dychwelodd drachefn i Caprera. Er fod llong wedi ei gosod i'w ddiogelu yno, llwyddodd i ddiangc, a gwelwyd ef drachefn gyda milwyr gwrthryfelgar. Yn ben ar bedwar bataliwn o wirfoddolwyr, gorchfygodd gatrodau yr Eglwys yn Monte Rotondo, Hydref 26ain. Erbyn hyn, yr oedd catrodau Ffraingc wedi eu

Digitized by Google

hadgyfnerthu; a chafodd ei orchfygu, a'i gymmeryd yn garcharor. Er hyny, cafodd ei ollwng yn rhydd, a chiliodd i Caprera drachefn. Ond ymadawodd pan glywodd am ddymchweliad yr ymherodraeth Ffrengig a sefydliad gwerinlywodraeth yn y wlad hono; gosododd ei gleddyf at alwad y Llywodraeth o Amddiffyniad Cenedlaethol. Cafodd ei bennodi i gymmeryd llywodraeth y galluoedd ansefydlog yn y Vosges, Hydref 7fed, 1879; ond nid llawer o wasanaeth a wnaeth efe yno. Yn Chwef., 1871, dychwelwyd Garibaldi fel dirprwywr i'r cynnulliad cenedlaethol am Paris; ond ymddiswyddodd. Ymddiswyddodd hefyd oddi wrth lywyddiaeth y fyddin; ac ymadawodd yn fuan am ei gartref.

Gwrthododd rodd genedlaethol gan senedd Italy, er iddi gael ei chynnyg gan 127 o bleidleisiau yn erbyn 25. Ond yn Ebrill, 1876, ysgrifenodd lythyr yn hysbysu ei fod yn derbyn y rhodd o gan mil o *lires*—tua 4,000*p.* o'n harian ni—a gyflwynid iddo yn enw y genedl. Aeth i Rufain Ionawr 24ain, 1875; a chymmerodd ei sedd yn senedd Italy yn mysg gorfoledd mawr yr aelodau ar y 25ain; ond ymneillduodd Mai 24ain, 1876, ac aeth gartref, i Caprera.

Bu farw Mehefin 2il, 1882, yn ei gartref tawel yn Caprera, yn 75ain mlwydd o'i oedran. Yr oedd wedi bod yn dioddef am rai dyddiau oddi wrth *bronchitis;* ond bu farw braidd yn annisgwyliadwy. Gorchymynodd i'w wraig ofalu fod ei gorph yn cael ei losgi, a bod ei ludw i aros yn Caprera yn agos i fedd ei blentyn. Derbyniwyd y newydd am ei farwolaeth gyda galar dwys trwy y gwahanol deyrnasoedd; ac y mae yn ddiau fod y byd wedi colli, yn ei farwolaeth, un o garwyr rhyddid mwyaf diragrith, ac un o'r dynion mwyaf hunanymwadol yn achos ei wlad a'i genedl a welodd y ddaear erioed.

GAINSBOROUGH, THOMAS: un o'r arlunwyr Saesneg enwocaf. Ganwyd ef yn Sudbury, yn Suffolk, yn 1727. Dyn mewn amgylchiadau isel oedd ei dad, gan hyny ni chafodd Thomas ond addysg digon cyffredin: ac y mae yn dra thebyg iddo dreulio mwy o'i amser yn nghoedwigoedd Suffolk nag yn yr ysgol, ac mai yno y magwyd yr hoffder hwnw at olygfeydd natur yn eu tawelwch prydferth sydd wedi eu portrëadu mor effeithiol yn ei ddarluniau boreuaf. O'i faboed, yn mron, yr oedd yn arfer difyru ei hun drwy dynu brâs ddarluniau o unrhyw wrthddrychau a hoffid ganddo—hen goeden, swp o ddefaid neu wartheg, y bugail a'i gi, &c., ac anturiai roddi lliwiau arnynt. Yr oedd wedi tynu amryw o barth-arluniau (*landscapes*) cyn ei fod yn ddeuddeg oed, pryd y danfonwyd ef i Lundain. Yno y bu efe am beth amser gyda Mr. Gravelot, y cerfiedydd, a Mr. Hayman, yr arlunydd; ond nid arosodd gyda'r diweddaf yn hir, canys gosododd ei hun i fyny fel paentiwr ardebau (*portrait painter*). Pan yn bedair-arbymtheg oed, efe a briododd foneddiges, gan yr hon yr oedd cynnysgaeth o 200*p.* y flwyddyn. Ar ol ei briodas, efe a aeth i Ipswich, lle y bu yn preswylio hyd 1758, pan y symudodd i Bath. Yr oedd wedi bod yn hynod lwyddiannus fel paentiwr ardebau, ac aeth i fyny i Lundain yn 1774. Yno tynodd luniau rhai o'r teulu brenhinol, y rhai a fawr ganmolid; a chafodd lawer o waith i'w wneyd, a thâl da am dano. Y mae gwahaniaeth mawr, fodd bynag, rhwng ei weithiau boreuaf a'i rai diweddaf. Yn y blaenaf y mae pob peth wedi ei gopio oddi wrth natur ei hun, hyd yn oed yn y manylion mwyaf; ac edrychant fel natur ei hun yn cael ei hadlewyrchu mewn gwydr-ddrych. Ond yn ei weithiau diweddaf, y mae yr effaith yn darawiadol, a'r goleuni a'r cysgod yn cael eu dosbarthu yn y modd mwyaf celfydd, a'r cyfan yn cynnyrchu argraph ddifrifol ac aruchel ar y meddwl. Dichon, er hyny, nad ellir ei restru gyda Vandyck, Rubens, a Claude, mewn parth-luniadaeth; ond y mae pawb yn barod i gydnabod cywirdeb yr hyn a ddywedodd Syr Joshua Reynolds—"Os byth y gwna y genedl hon gynnyrchu athrylith ddigonol i ennill i ni yr enw anrhydeddus o ysgol Seisnig, bydd enw Gainsborough yn cael ei drosglwyddo i lawr i oesoedd dyfodol fel un o'r rhai blaenaf yn yr ysgol hono." Yn mysg y parth-arluniau goreu o'i eiddo, gellir enwi y rhai hyn:—*Cottage Door,* y *Market Cart,* y *Two Boys and Fighting Dogs,* a'r *Woodman.* Yn mhlith y goreuon o'i ardebau, y mae yr eiddo Mrs. Siddons, Mrs. Graham, Nancy Parsons, y dduces o Devonshire, &c. Gwyddys fod darlun yr olaf o'i waith wedi ei werthu ychydig flynyddoedd yn ol am 10,000*p.*, ac iddo gael ei ladrata yn fuan ar ol hyny o ystafell lle y dangosid ef ynddi yn Liverpool; ac ar goll y mae yn bresennol (Awst, 1878). Bu farw Gainsborough Awst 2il, 1788, yn 61ain mlwydd oed.

GALENUS, NEU GALEN: un o'r ysgrifenwyr hynafol goreu ar physygwriaeth. Ganwyd ef yn Pergamus, yn Asia, B.A. 131. Addysgwyd ef yn foreu yn athrawiaethau Aristotle a Plato. Dechreuodd astudio difyniaeth (*anatomy*) a physygwriaeth dan addysg Satyrus, Stratonicus, ac Æschrion. Aeth i Alexandria, lle yr oedd yr ysgol feddygol oreu yn y byd ar y pryd; a daeth mor enwog yno, fel y cafodd wahoddiad cyhoeddus i ddychwelyd i'w wlad enedigol. Pan yn 34ain oed, efe a ymsefydlodd yn Rhufain, ac yr oedd ei lwyddiant yno y fath fel y cynnhyrfwyd eiddigedd holl physygwyr eraill y ddinas. Ar ddymuniad prif ddynion y ddinas, traddododd Galen gyfres o ddarlithiau ar ddifyniaeth; ond o herwydd eiddigedd meddygon eraill, gorfu arno eu rhoddi heibio, ac yn y diwedd i adael Rhufain yn llwyr. Gall yr ysgol a sefydlwyd ganddo gael yn briodol ei galw yn un ddetholedig, o herwydd yr oedd ei hathrawiaethau yn gymmysgiad o athroniaeth Plato, anianaeth a rhesymeg Aristotle, a gwybodaeth ymarferol Hippocrates.

Ond mewn trefn i ffurfio syniad cywir ar deilyngdod y physygwr hwn, y mae yn angenrheidiol i ni grybwyll am rai o'i gynnyrchion mewn gwyddoniaeth feddygol. Hoff efrydiaeth Galen oedd difyniaeth; ond ymddengys nad llawer o gyfleusderau a gafodd efe i chwilio i'r corph dynol, fel y gellir casglu oddi wrth y boddhâd a amlygodd efe pan y darganfyddodd esgyrn dyn yn Alexandria, a phan y gallnogwyd ef i wneyd sylwadau ar gorph troseddwr a roddasid i farwolaeth. Sefydlwyd cymmeriad Galen ar y derbyniad cyffredinol a roddid i'w ddamcaniaethau; ac yr oedd ei hoffder at ffurfio damcaniaethau y fath fel na adawodd efe ar ei ol ond ychydig o ddisgrifiadau da o wahanol fathau o afiechyd. Ei brif amcan, dybygid, yn y rhai hyn oedd amlygu ei dalent ei hun mewn adnabod arwyddion afiechyd (*diagnosis*). Nis gellid disgwyl, oddi wrth un ag yr oedd ei uchelgais yn y cyfeiriad yna, rhyw lawer o wybodaeth ynghylch ymdriniaeth fanwl a gwahanol ffurfiau o afiechyd;

Digitized by Google

Y mae wedi ei ail argraphu lawer gwaith, ac wedi ei gyfieithu yn mron i bob iaith yn Ewrop.

GWALLTER MECHAIN. Gwel y Parch. WALTER DAVIES, M.A., cyf. iii.

GIBSON, JOHN: cerfiedydd clodfawr, yr hwn a anwyd mewn bwthyn ger llaw Conwy, yn y flwyddyn 1790. Enw ei dad oedd William Gibson, ac enw cyntefig ei fam oedd Jane Roberts. Gwasanaethai ei dad fel goruchwyliwr a garddwr i'r Cynghorwr Samuel Price, perchenog palas Penarth. Y chwareu difyraf ganddo pan yn blentyn oedd portreiadu gwahanol bethau ar lech. Yn 1800, aeth William Gibson a'i deulu i Liverpool, ar fedr hwylio oddi yno i'r America; ond cyn cychwyn o honynt, breuddwydiodd y fam y delai rhyw aflwydd iddynt ar y daith, a rhoddodd gymmaint o goel ar ei breuddwyd fel y perswadiodd ei gŵr i beidio a myned ymaith, ond yn hytrach i aros o hono, hwy a'r teulu, yn Liverpool: a hyny a wnaeth. Cymmerasant dŷ yn *Freemason Row* (Garden Lane gynt) er mwyn bod yn agos i Daniel Jones, mab y Parch. Robert Jones, Rhoslan, yr hwn oedd hen gydnabod i William Gibson. Weithiau, elai William Gibson gyda'r gŵr rhagorol hwn i gapel Pall Mall; ac elai ambell nos Sabbath i'r gwasanaeth Cymreig a gynnelid yn Eglwys St. Paul. Ni fedrai y bachgen, John, ddim Saesneg pan aeth gyntaf i Liverpool; ond wrth fyned i'r ysgol, ac wrth gyd-chwareu â bechgyn o Saeson, daeth yn abl i siarad yr iaith Saesnig yn lled fuan. Ond yn mha ffenestr bynag y gwelai John ddarluniau lled wych, efe a safai am amser maith i syllu arnynt, ac wedi myned adref ceisiai eu hadlunio o'i gôf. Byddai llawer o'i gydysgolheigion yn rhoi iddo ddimai neu geiniog am wneuthur darlun iddynt, ac â'r mân arian hyn y byddai yn prynu pwynteli a phapur. Uchelfryd John Gibson y pryd hwn oedd bod yn arliwydd (*painter*), ac yr oedd ei fam yn porthi yr awydd hwn; ond nid oedd gan ei dad fodd nac ewyllys i'w ddwyn i fyny i'r alwedigaeth hono: felly, rhwymwyd ef gydag un Mr. Southwell o Duke Street, yn brentis o saer dodrefn; ond darfu i'w feistr, wrth weled nad oedd y gwaith hwn wrth ei fodd, ei symmud i fysg y rhai a gerfient addurniadau y dodrefn. Yr oedd y gwaith hwnw yn llawer mwy unol â chwaeth Gibson, a rhagorodd gymmaint ynddo fel yr aeth sôn am dano trwy yr holl dref. Yn mysg eraill, daeth un Thomas Francis i weled ei waith; ac wedi deall fod ei fryd ar wneuthur rhywbeth amgen nag addurniadau ar ddodrefn, efe a'i rhyddhaodd o'i brentisiaeth trwy dalu 30*p.* i'w feistr, ac a'i cymmerodd i'w weithiau mynor ei hun. Yr oedd Gibson erbyn hyn yn nofio yn ei elfen; ond er hyny, cynnyddodd gymmaint fel yr aeth y dwfr yn Liverpool yn rhy fâs iddo yn fuan, canys awyddai am weled gweithiau meistriaid y gelfyddyd ar gyfandir Ewrop. Ac ni bu gorfod arno ddeisyfu hyn yn ofer, canys trwy gynnorthwy Mr. Thomas Roscoe, a chyfeillion caredig eraill, anfonwyd ef yn 1817 i Rufain i astudio. Cyflwynwyd ef trwy lythyrau i'r cerfiedydd enwog Canova, yr hwn a'i derbyniodd ef yn groesawus. Bu yn ddysgybl i Canova hyd y flwyddyn 1821, pryd yr annogwyd ef gan ei athraw i gymmeryd gweithdy iddo ei hun. Preswyliodd yn Rhufain o hyny allan, heb ymweled ond ychydig â'i wlad ei hun. Tawddlun o *Mawrth* a *Cupid* oedd y gwaith cyntaf a wnaeth. Cymmerodd Canova y Duc o Devon i weled y gwaith, a chanmolodd ef wrtho, gan ei annog hefyd i roddi gorchymyn i Gibson i wneuthur ei gyffelyb mewn mynor. Y mae hwn i'w weled etto yn mhlith y rhagorweithiau sydd yn addurno palas Chatsworth. *Psyche* a'r *Sephyriaid* oedd y gwaith nesaf a wnaeth, yr hwn a brynwyd gan Syr George Beaumont. O hyny allan cynnyddodd ei enwogrwydd yn gyflym; ond er mwyn ei wneyd yn fwy sicr a pharhaus, aeth am dymmor i gael gwersi gan Thorwaldsen, y cerfiedydd Danaidd. Bu Gibson felly yn ddysgybl i'r ddau gerfiedydd goreu yn eu hoes. Pan y bu farw y ddau hyn, John Gibson a gyfrifid y cerfiedydd goreu yn yr holl fyd. Yn ystod ei ymweliad â Lloegr, yn y flwyddyn 1844, fe'i dygwyd gan Syr Charles Eastlake, llywydd y *Royal Academy*, i gydnabyddiaeth â'r frenhines Victoria; a chyn iddi ei ollwng ymaith, archodd iddo wneyd delw o honi ei hun, yr hon a saif etto mewn lle amlwg yn mhalas Buckingham. Pan oedd Gibson yn ymbarotoi at wneyd y ddelw hon, yr oedd ganddo achos i weled y frenhines yn lled fynych; ac unwaith, ar ol adrodd wrthi y chwedl am "Theseus yn lladd y lleidr," efe a ddywedodd, "Madam, yn lleidr y'm ganwyd innau." "Yn lleidr, Mr. Gibson!" "Ie," meddai yntau. "Pan oeddwn blentyn, lladrateais afal oddi ar ystondin hen wreigan dlawd gloff, â choes bren ganddi: a thra yr oeddwn yn ei fwyta ar y ffordd, daeth fy mam i'm cyfarfod, a mynodd wybod pa le y cawswn ef; minnau a ddywedais mai gan yr hen wraig yn rhodd. Aeth hithau â mi yn ol at yr hen wraig, a chafodd allan y celwydd. Parodd fy mam iddi roddi cystwyaeth iawn i mi; a gwnaeth hithau hyny yn dda, a'i gwala gyda'i baglau. Yna cymmerodd fy mam fi adref, mewn perffaith ddistawrwydd, a chadwodd fi nes dyfod fy nhad oddi wrth ei orchwyl, pryd y mynegodd y peth wrtho; yntau a'm ceryddodd yn dost, ac wedi hyny darllenodd bennod o'r Beibl, ac a'm cynghorodd o hwnw; ac yna aeth ar ei liniau, a gweddïodd drosof. Nid anghofiais y tro; a byth er hyny ni ladrateais ddim." "Wel, Mr. Gibson," meddai y frenhines, "daeth llawer o ddrwg o fwyta y ffrwyth gwaharddedig."

Yn 1847, ymwelodd eilwaith â Lloegr, yn benaf er mwyn dewis lle i osod i fyny ddelw Huskisson. Y pryd hwn archwyd iddo wneyd dwy ddelw arall o'r frenhines—y naill iddi hi ei hun, a'r llall i'r llywodraeth. Saif yr olaf yn Neuadd Westminster, a hi a gyfrifir yr oreu oll o'i mawrhydi. Yn 1863, daeth drosodd i Loegr drachefn, a bu y tro hwn yn cysgu am ddwy noson yn mhalas y frenhines. Un tro, pan yr oedd ei mawrhydi yn dangos ceinion ei phalas iddo, gofynodd un o weinyddesau y llys iddo yn mha flwyddyn yr aeth i Rufain. "O! Miss Bruce," meddai, "gwelaf mai ceisio cael allan fy oed yr ydych. Cyfrinach yw hyny na ddywedaf i ferched yn anad neb. Y mae fy ngwallt, yn wir, yn britho; ond ni ddywedaf i neb pa beth yw fy oed." Gyrodd yr atteb pert hwn y frenhines a'i gweinyddesau i chwerthin yn galonog.

Er mor lleied o amser a dreuliodd Gibson yn Nghymru, ac er cymmaint o anrhydedd a roddwyd arno gan Saeson a thramorwyr, parhaodd yn Gymro diledryw o ran calon a thafod. Dywedai Corfanydd iddo fod yn ymddiddan âg ef yn mhen deugain mlynedd ar ol ymadael o hono

Digitized by Google

a gwlad ei enedigaeth, a'i fod yn siarad Cymraeg mor ddilediaith a phe buasai wedi treulio ei holl fywyd yn nghanol mynyddoedd Arfon.

Cafodd Gibson urddau celfyddyd o bob gwlad yn mron. Rhoddwyd iddo urdd y Lleng o Anrhydedd gan Napoleon III., urdd Llawn Haeddiant gan frenin Prwssia, a chodwyd sallun iddo yn Munich gan y brenin Ludwig. Gwnaed ef yn aelod o'r *Royal Academy*, ac o lawer o gymdeithasau celfyddydol eraill.

Gibson oedd y cyntaf o gerfiedyddion diweddar a ddechreuodd yr arferiad o liwio ei ddelwau. Achosodd y newyddbeth hwn gryn ddadleuon; ond cyfiawnhaodd efe ei waith trwy ddywedyd mai hyn oedd arferiad y cerflunwyr Groegaidd. Yn Arddangosiad 1862, dangosodd ddelw liwiedig o'r dduwies Gwener—yr hon a gondemnid gan rai, ond a gymmeradwyid gan y rhan fwyaf. Gellir gweled rhai o'i weithiau yn y *Crystal Palace*, y *Royal Academy*, a'r *Royal Institution*; yn nghapel *James' Cemetery*, Liverpool; yn Hafodunos, ger llaw Llangernyw; ac yn nghanol petryalau rhai o ddinasoedd Lloegr.

Os oedd Gibson yn efelychu rhywrai, efelychu yr hynafiaid yr oedd efe; ac y mae y farn am ei athrylith a'i gynnyrchion yn amrywio yn ol yr ysgol y perthyna y beirniad iddi. Ond y mae pawb yn cydsynio ei fod yn un o gerflunwyr perffeithiaf yr amseroedd diweddar. Gellir casglu pa fath ydoedd cymmeriad Gibson oddi wrth hanes noeth ei fywyd; ac am hyny ni raid dyweyd pa mor goeth, pa mor addfwyn, pa mor ddirodres, a pha mor hawddgar ydoedd.

Ar y 27ain o Ionawr, 1866, galwodd Mr. Odo Russell gydag ef, ar gais y frenhines, i ymofyn am ei iechyd; ond yn fuan wedi iddo draethu ei neges, bu farw Gibson! Claddwyd ei weddillion yn y gladdfa Brotestanaidd Saesnig yn Rhufain; ac ymgasglodd y gwŷr mwyaf anrhydeddus yn Rhufain i'w gladdedigaeth.

GIFFORD, WILLIAM: golygydd y "*Quarterly Review*," a anwyd yn Ashburton, swydd Devon, yn y fl. 1756. Gadawyd ef yn amddifad pan yn dair ar ddeg oed, ac anfonwyd ef i'r môr; ond dychwelodd oddi yno yn lled fuan, a rhwymwyd ef yn egwyddorwas i ddysgu celfyddyd y crydd yn ei dref enedigol. Arosodd yno nes bod yn ugain oed; ond nid oedd yn ymhyfrydu dim yn ei alwedigaeth. A chan ei fod yn meddu talentau o radd uchel, darfu i Mr. Cookesley, llawfeddyg o'r dref hono, a rhai cyfeillion eraill, bwrcasu ei ryddhâd oddi wrth ei feistr, a'i ddanfon i ysgol yn y dref, ac wedi hyny i'r coleg i Rydychain. Tra yn y brifysgol, bu mor ffodus a chael ei gyflwyno i sylw Arglwydd Grosvenor, yr hwn a gyttunodd âg ef i fyned yn gydymaith ac yn athraw i'w fab, Arglwydd Belgrave, ar daith drwy y Cyfandir. Ar ol dychwelyd i Loegr, efe a ymsefydlodd yn Llundain, gan gyflwyno ei amser yn llwyr at lenyddiaeth; ac o hyny allan, yr oedd ei amgylchiadau tymmorol yn gysurus.

Yn 1791, efe a gyhoeddodd ei duchangerdd, "*The Baviad*," yn yr hon y fflangellai yn llym feirdd a rhigymwyr y dydd; ac yn 1794, daeth allan "*The Maviad*," neu duchangerdd ar sefyllfa isel chwareyddiaeth (*drama*). Yn 1797, penodwyd Mr. Gifford yn olygydd yr "*Anti-Jacobin*;" papur wythnosol, a sefydlwyd gan Mr. Canning. Ni pharhaodd y papur i ddyfod allan ond am flwyddyn; ond yn ystod yr amser hwnw bu mewn cweryl gyda Dr. Wolcott, yr hyn a fu yn achos iddo gyhoeddi ei duchangerdd a elwir, "*An Epistle to Peter Pindar*." Ymddangosodd ei gyfieithiad o *Juvenal* yn 1802, yr hwn a olygir gan rai dynion dysgedig fel un o'r cyfieithiadau goreu o waith clasurol yr hynafiaid. Yn 1805, efe a gyhoeddodd argraphiad newydd o weithiau Massinger, ac wedi hyny o weithiau Ben Johnson a Shirley; ond yn ei swydd fel golygydd y "*Quarterly Review*"—swydd a gyflawnwyd ganddo o'r adeg y cychwynwyd ef, yn 1809, hyd 1824—yr adwaenid ef oreu, ac yn nghyflawniad y gwaith hwnw y cyrhaeddodd ei enwogrwydd mwyaf. Y mae ei duchangerddi yn gyfansoddiadau sydd yn amlygu craffder mawr a meistrolaeth lwyr ar iaith lem a chwerw; ac y mae ei ysgrifeniadau rhyddieithol hefyd yn rymus a chywir, a'i feirniadaethau yn gyffredin yn arwyddo barn addfed a chwaeth dda. Parhaodd i olygu y "*Quarterly*" hyd o fewn dwy flynedd i'w farwolaeth; yr hyn a gymmerodd le ar yr 31ain o Ragfyr, 1826, pan yn 70ain mlwydd oed. Yn 1802, cyhoeddodd hunan-fywgraphiad.

GODWIN, WILLIAM: awdwr Saesneg enwog. Mab ydoedd i weinidog Ymneillduol yn Wisbeach, swydd Caergrawnt, lle y ganwyd ef, Mawrth 3ydd, 1756. Yn mhentref Guestwick, yn swydd Norfolk, yn benaf, y treuliodd efe ei ddyddiau boreuol; canys yr oedd ei dad wedi symmud yno i gymmeryd gofal yr eglwys Annibynol yn y lle. Pan yn ddwy-ar-bymtheg oed, aeth i goleg Hoxton, gyda'r bwriad o dderbyn addysg ar gyfer y weinidogaeth yn yr un enwad. Yn 1778, neillduwyd ef yn weinidog ar eglwys yn nghymmydogaeth y brif ddinas, a pharhaodd i weinyddu yno am bum mlynedd. Yn 1783, efe a symmudodd i Lundain; ac o hyny allan, dibynai am fywoliaeth ar ei lafur llenyddol. Y peth cyntaf a gyhoeddodd oedd cyfres o chwech o bregethau, dan yr enw "*Sketches of History*." Tynodd y gwaith hwn sylw mawr ar y pryd.

Yn fuan ar ol hyny, ceir ef yn brif ysgrifenydd i'r "*Annual Register*." Yn 1793, yn ystod y cyffroad a achoswyd gan y chwyldroad yn Ffrainge, y cyhoeddodd Godwin ei draethawd adnabyddus, "*Political Justice*." Yn y flwyddyn ddilynol, efe a gyhoeddodd ei nofel enwog, "*Caleb Williams*;" amcan yr hon oedd egluro rhai o'r golygiadau y dadleuai efe drostynt yn ei "*Political Justice*." Cynnyrchodd y gwaith hwn effaith fawr ar ei ymddangosiad cyntaf. Y mae Gilfillan yn mawr ganmawl y gwaith; ond y mae De Quincey o farn wahanol iawn. Parodd llwyddiant yr awdwr fel nofelydd, yn chwanegol at ei fri blaenorol fel ysgrifenydd ar wleidyddiaeth, i'w enwogrwydd gyrhaedd ei uchder. Tua diwedd y fl. 1794, daliwyd rhai o brif gyfeillion Godwin, megys Holcroft, Horne Tooke, Thelwall, Hardy, ac eraill, a phrofwyd hwynt am deyrnfradwriaeth. Tybir fod yr hyn a ysgrifenodd Godwin y pryd hwnw ar siars y barnwr Eyre i'r rheithwyr, wedi bod o wasanaeth mawr i ddwyn oddi amgylch eu rhyddhâd. Yn 1797, efe a gyhoeddodd ei "*Enquirer*;" sef, casgliad o draethodau ar faterion moesol a llenyddol. Yn yr un flwyddyn, priododd Mary Wollstonecraft, dynes o gymmeriad hynod mewn drygioni; gyda'r hon y buasai fyw yn flaenorol ar dir anghyfreithlawn a gwaradwyddus, a'r hon a fu farw yn mhen ychydig fisoedd ar ol eu priodas, ar enedigaeth merch fechan. Y ferch hono, wedi hyny, a briododd Shelley, y bardd. Yn 1799, daeth allan ei ramant "*St. Leon*;" ac

Digitized by Google

yn 1801, efe a briododd eilwaith, ac a agorodd fasnachdy fel llyfrwerthwr yn Skinner Street, Llundain. Er ei fod mewn masnach, fe barhaodd Godwin i ysgrifenu. Yn mhlith pethau eraill a gafwyd yn ffrwyth ei ysgrifell, gellir enwi ei nofelau "*Fleetwood*," a "*Mandeville*," "*Life of Chaucer*," "*History of the Commonwealth of England*," &c. Yn fuan ar ol i Arglwydd Grey fyned i awdurdod, pennodwyd Godwin i swydd yn un o swyddfeydd y llywodraeth; ac yn ei hen ddyddiau, yr oedd hyn yn rhoddi modd iddo fyw yn gysurus. Bu farw Ebrill 7fed, 1836, yn 80ain mlwydd oed.

Fel nofelydd, y mae Godwin yn hynod am ei wreiddiolder, ac yn cyfuno dyfnder meddwl, annibyniaeth nodedig, ac arddull grymus; ond y mae efe yn tynu darlun tywyll iawn o'r natur ddynol: ac y mae ei ddarluniadau, yn wahanol i weithiau arlunol Hogarth, yn tueddu, nid i wellhau, ond i waethygu y ddynoliaeth yn ei nwydau llygredig a drygionus. Y mae cymmeriad Frankland yn "*Caleb Williams*," a'r eiddo *Mandeville*, yn amlygu medrusrwydd mawr; ac nid oes unrhyw nofelau—heb eithrio rhai Syr Walter Scott—sydd yn creu mwy o ddyddordeb yn y darllenydd na'r eiddo Godwin. Yr oedd yn ddyn annibynol; ond yr oedd yn dra amddifad o farn a doethineb, a gwir grefyddolder yn ei ymddygiadau cyhoeddus.

GODDEFIAD: y rhyddid a ganiateir, mewn gwlad y byddo ffurf neillduol o grefydd wedi ei sefydlu ynddi trwy gyfraith, i eraill i ddysgu ac i amddiffyn eu daliadau duwinyddol ac eglwysig eu hunain; ac i addoli y neb y mynont, yn y modd y mynont—neu ynte i beidio addoli o gwbl. Ond nid yw hyn yn cynnwys y caniateir iddynt gyhoeddi daliadau a fyddont yn anghysson â heddwch a diogelwch y llywodraeth, ac â lles moesol ei deiliaid. Y mae gan yr awdurdodau gwladol hawl i rwystro rhai i ledaenu athrawiaethau y byddo tuedd ynddynt i fyned dan wraidd moesoldeb, ac i aflonyddu ar heddwch cymdeithas. Noda Paley ddau fath o oddefiad:—1. Gadael i Anghydffurfwyr broffesu eu crefydd yn ddirwystr, ond eu cadw allan o bob swydd bwysig ac ennillfawr yn y llywodraeth. Goddefiad rhanol y gelwir hyn. 2. Caniatau i Anghydffurfwyr, yn ddiwahaniaeth, fwynhau holl freintiau dinasyddion eraill. Gelwir hyn yn oddefiad llwyr. Lle na byddo awdurdod, neu lle na byddo awdurdod yn cael ei arfer i sefydlu credo a threfn eglwysig, nis gall fod goddefiad yno, yn ystyr priodol y gair; am fod gan bob corph crefyddol mewn gwlad felly gymmaint o hawl a'u gilydd i grefydda fel y gwelont yn dda.

Er fod hawl pob dyn i farnu drosto ei hun am bethau a berthynant i ffydd ac addoliad yn cael ei gydnabod yn awr yn fwy cyffredinol nag y bu, etto y mae llawer i'w cael yn y dyddiau hyn sydd yn gwarafun i eraill gael yr un rhyddid ag y maent hwy eu hunain yn ei fwynhau. Ymddygant fel pe baent yn anghofio y dylem wneuthur i eraill fel y mynem i eraill wneuthur i ni—egwyddor ag y mae Paul yn ei chymmhwyso yn rhagorol at wahaniaethau crefyddol (*Rhuf.* xiv.); a'r hon, yn wir, yw yr unig un y cafwyd ei bod yn gweddu i bob plaid yn mhob amgylchiad. Buasai yr anghyssondeb a ddangosai y Diwygwyr Protestanaidd, a'u dilynwyr, yn y mater hwn yn beth i'w ryfeddu yn fawr, oni buasai ein bod yn cael enghreifftiau o'r un anghyssondeb yn y dyddiau hyn. Y Diwygwyr oedd y rhai cyntaf i honi rhyddid barn; ac ar y tir hwn yn unig y gallent gyfiawnhau eu hymadawiad o Eglwys Rhufain. Ond yr ydym yn darllen ddarfod iddynt hwythau, yn eu tro, erlid, nid yn unig y Pabyddion a'u herlidiasant hwy, ond hefyd y cyfryw o'u cyd-Brotestaniaid ag na ddeallent y Beibl yn hollol fel y deallent hwy ef. Y mae Eglwys Rhufain, gan ei bod yn credu nas gall gyfeiliorni, ac nas gall neb oddi allan iddi fod yn gadwedig, yn gweithredu yn hollol gysson wrth arfer trais i attal lledaeniad yr hyn a olyga hi fel heresi marwol. Ond yr oedd hyd yn oed y Puritaniaid, er cael o honynt eu gorthrymu yn hir eu hunain, mor ddall i hawl eraill i wahaniaethu oddi wrthynt, fel yr oeddynt yn nydd eu hawdurdod yn edrych ar yr egwyddor o oddefiad cyffredinol fel cyfeiliornad gwrthun ac annuwiol. Yn Nghymmanfa y Duwinyddion fu yn Westminster (1643—1646), gwrthsafodd y Presbyteriaid yn llwyddiannus gynnygiad yr Annibynwyr, fod i bob plaid fel eu gilydd gael eu goddef. "Yr ydym yn gobeithio," meddai Baillie, mewn llythyr at ei gyfeillion Presbyteraidd yn Ysgotland, "y gwna Duw ein cynnorthwyo i dystiolaethu yn erbyn drygioni y fath oddefiad." Sonir yn y 23ain bennod o Gyffes Westminster am ddyledswydd y rhai sydd mewn awdurdod i gefnogi gwir grefydd, ac i attal ac i gospi gwrthgred (*heterodoxy*). Ymddygwyd at y Presbyteriaid eu hunain yn ol yr egwyddor hon yn fuan ar ol yr adferiad, a blin iawn fu hyny ganddynt. Yr oedd yr Annibynwyr, o'r tu arall, wedi dysgu goddefgarwch yn Holland; i'r hon wlad y ffoisant rhag gorthrwm yn nheyrnasiad Iago I. Ond ni ddylid tybied mai hwynthwy oedd y rhai cyntaf a iawn ddeallasant egwyddorion rhyddid crefyddol. Yr oedd Zuinglius, a'r diwygiwr Hungaraidd Dudith, wedi bod yn condemnio yr ysbryd anoddefgar hwn mor foreu a'r unfed ganrif ar bymtheg. "Yr ydych yn dal," meddai Dudith mewn llythyr at Beza, "mai yr Ysgrythyr yw rheol berffaith ffydd ac ymarferiad; ond yr ydych oll yn rhanedig ynghylch ystyr yr Ysgrythyr, ac nid ydych wedi penderfynu pwy sydd i farnu rhyngoch. Yr ydych chwi yn dywedyd un peth:—y mae eich gwrthwynebydd Stancarus yn dywedyd peth arall. Yr ydych yn dyfynu yr Ysgrythyr:—y mae yntau yn dyfynu yr Ysgrythyr. Yr ydych yn rhesymu:—y mae yntau yn rhesymu. Yr ydych yn gofyn i mi eich credu:—yr wyf yn eich parchu. Ond pa ham y dylwn gredu ynoch chwi yn hytrach nag yn Stancarus? Chwi a ddywedwch mai heretic ydyw:—ond dywed y Pabyddion mai hereticiaid ydych ill dau. A raid i mi eu credu? Yr ydych yn dywedyd mai y swyddogion gwladol, ac nid chwychwi, sydd yn alltudio ac yn llosgi am heresi, ac mai hwynthwy gan hyny sydd i'w beio:—ond dywedwch wrthyf, Oni ddarfu i chwi fwrw yr egwyddorion hyn i'w clustiau? Onid ydych yn dysgu yn feunyddiol y dylai y rhai sydd yn appelio oddi wrth eich cyffes at yr Ysgrythyrau gael eu cospi gan yr awdurdodau gwladol?" Er fod pob plaid grefyddol oedd yn Lloegr, o adeg y Diwygiad hyd adeg y Werinlywodraeth, yn cael eu herlid yn eu tro, etto ymddengys nad oedd un o honynt wedi dyfod i weled y drwg o erlid ynddo ei hun. Byddai y pleidiau a orthrymid yn beio ar eu llywodraethwyr—nid am eu bod yn erlid, ond am eu bod yn erlid y rhai a broffesent y gwirionedd; a byddai

Digitized by Google

pob plaid, pan ddelai i awdurdod, yn tybied mai ei dyledswydd a'i braint oedd arglwyddiaethu ar y pleidiau eraill. Y mae lledaeniad addysg, ac amlhâd yr Anghydffurfwyr, wedi peri i ysbryd rhyddfrydig gynnyddu yn fawr yn ddiweddar yn Lloegr, ac yn y Taleithiau Unedig.

DEDDF GODDEFIAD ydyw yr enw a roddir yn gyffredin ar weithred seneddol William a Mary, drwy yr hon y rhyddhawyd Anghydffurfwyr (oddi eithr Pabyddion, a rhai yn gwadu y Drindod), oddi wrth y deddfau a'u hattalient i ymgynnull i addoli yn eu ffordd eu hunain, ar yr ammod iddynt gymmeryd llŵ o ffyddlondeb i'r brenin, a dodi eu henw wrth ddadganiad yn erbyn trawsylweddiad, ac arwyddo eu cydsyniad â rhai o'r namyn-un-deugain-erthygl, os byddent yn weinidogion Ymneillduol. Ond erbyn hyn, y mae Iuddewon, Pabyddion, ac Anghydffurfwyr Protestanaidd wedi eu rhyddhau oddi wrth bob deddf a wnaethpwyd er mwyn eu gorthrymu, ac y maent yn ymarferol yn mwynhau holl freintiau y cyfansoddiad.

GOETHE, JOHANN WOLFGANG: y penaf o feirdd diweddar yr Almaen. Ganwyd ef yn Frankfort-ar-y-Main, ar yr wythfed dydd ar hugain o Awst, 1749. Yr oedd ei dad mewn amgylchiadau cysurus, ac yr oedd yn un yn meddu chwaeth at lenyddiaeth a'r celfau cain. Cafodd Goethe felly fantais a chefnogaeth i foddio ei chwaeth ac i ddiwyllio ei feddwl. Treuliodd ei febyd i ddysgu arluniaeth, cerddoriaeth, anianyddiaeth, ac elfenau rheithofyddiaeth, a'r ieithoedd estronol; ac er mwyn helaethu ei wybodaeth ieithyddol, ysgrifenodd ramant, yn yr hon y mae saith o chwiorydd yn anfon llythyrau at eu gilydd—bob un yn ei thafodiaith ei hun. Dechreuodd ymhyfrydu yn bur ieuangc mewn barddoniaeth hefyd, a chyfansoddodd ganeuon i ddifyru rhyw enethod y daethai, o ddamwain, yn gydnabyddus â hwy. Un o'r rhai hyn oedd gwrthddrych ei gariad cyntaf, ac ar ei henw hi y galwodd efe arwres ei "*Faust.*" Fodd bynag, torwyd pob cyssylltiad rhyngddo ef a hi, ac ni welodd hi byth wedi hyny. Effeithiodd y gwahaniad hwn gymmaint arno fel yr aeth yn glaf. Yn fuan wedi iddo wellhau, sef pan yr oedd yn bymtheg oed, anfonwyd ef i brif athrofa Leipsic. Yma daeth ei anian farddonol yn fwy amlwg. Yn lle myned yn mlaen gyda'i addysg, yn ol trefn gyffredin yr athrofa, treuliodd y rhan fwyaf o'i amser i chwilio pa beth oedd barddoniaeth. "Yma," meddai, "y dechreuais yr arferiad—na adewais mo hono byth—o droi pob peth a'm boddlonai, neu a'm poenai, yn gân." Rhoddodd hefyd ryw gymmaint o'i amser i ddarllen hanes y celfau cain; a bu hyd yn oed yn dysgu ysgerfio (*etch*) am ennyd; ond yr oedd y defnyddiau a arferai at hyny yn niweidio ei iechyd. Yn 1768, gan hyny, anfonwyd ef, er mwyn cryfhau ei iechyd, i breswylfa boneddiges o'r enw Klettenberg—"y santes deg" y mae ei haddefiadau yn ysgrifenedig yn "*Wilhelm Meister.*" Gan mai cyfrines (*mystic*) ydoedd, bu ei chymdeithas yn foddion i gyfeirio meddwl Goethe at lyfrau yr alfferyllwyr a'r rhinddysgawdwyr; a bu ganddo fwriad i sefydlu crefydd newydd, wedi ei seilio ar athroniaeth Alexandria. Parodd y pethau hyn iddo droi ei sylw at anianyddiaeth; a phan yr aeth i brif athrofa Strasburg i orphen ei efrydiaeth gyfreithiol, efe a esgeulusodd reithofyddiaeth, ac a astudiodd fferylliaeth a difyniaeth (*anatomy*). Yma daeth yn gydnabyddus â Herder, yr hwn a'i cynghorodd ef i ddarllen gweithiau y beirdd Italaidd. Yn y flwyddyn 1771, cafodd y bardd ieuangc, ac efe yn ddwy ar hugain oed, ei raddio yn ddoethawr cyfreithiau; ac yna aeth am ysbaid o amser i Wetzlar, ar lan yr afon Lahn, lle y cafodd, yn ei gariad ei hun at foneddiges wedi ei dyweddïo, ac yn hunan-laddiad dyn ieuangc o'r enw Jerusalem, ddefnyddiau ei ffug-chwedl "*Werther,*" yr hon a ymddangosodd yn 1774. Yn 1775, ennillodd sylw a ffafr Karl August, Uchel-dduc Saxe-Weimar; a gwahoddwyd ef gan y tywysog hwnw i ymsefydlu yn ei brif ddinas fechan. Wedi myned o hono yno, dyrchafwyd ef o radd i radd nes darfod ei wneuthur, yn 1778, yn gyfringynghorwr. Ymgasglodd llu o wŷr enwog o amgylch Goethe yn Vienna, fel yr aeth y lle hwnw yn Athen yr Almaen yn yr oes hono. Dodwyd chwareufa y llys dan arolygiaeth Goethe; ac ynddi hi y dygodd efe allan brif weithiau Schiller. Yno hefyd yr ymddangosodd ei weithiau chwaronol ei hun gyntaf. Yn 1788, teithiodd lawer yn nhir y Swiss, ac yn yr Ital; a cheir ffrwyth y teithiau hyn mewn amryw o'i weithiau. Yn 1792, aeth i ganlyn ei dywysog i'r rhyfel yn erbyn Ffraingc. Yn 1807, derbyniodd urdd Alexander-Newsky gan Alexander o Rwssia, ynghyd â chroes fawr y Lleng Anrhydedd gan Napoleon. Ar ol marwolaeth yr uchel dduc yn 1828, bu fyw yn llawer mwy neillduedig nag o'r blaen, gan dreulio ei amser mewn rhan i farddoni, ond gan mwyaf i astudio natur a'r celfau cain. Bu farw yn Weimar ar yr 22ain o Fawrth, 1832, yn 83ain mlwydd oed. Fel bardd, yn benaf, yr adnabyddir Goethe yn y wlad hon; ond ni bydd genym syniad priodol am ei fawredd heb gofio ei fod hefyd yn rhywbeth amgen na bardd. Rhagorai mewn llawer o feusydd, ac mewn llawer o arddulliau tra gwahanol. Yn wir, y mae ei fedr yn y cyfeiriad hwn yn ei demtio weithiau i droseddu deddfau chwaeth, gan ei fod yn cyfuno yn yr un gân arddulliau anghydrywiol, megys yr arddulliau clasurol a rhamantaidd, gogleddol a deheuol, gorllewinol a dwyreiniol, Cristionogol a phaganaidd, Groegaidd ac Indiaidd, a'r Hen-Almaenig a'r Ffrengig. Gan nad beth am hyny, nid oes neb sydd yn dangos cymmaint o ragoriaethau cyferbyniol a Goethe—neb sydd yn dangos cymmaint o feddylgarwch llym gyda chymmaint o ddychymyg ffrwythlawn, cymmaint o fanylwch gyda chymmaint o afiaeth, cymmaint o symledd gyda chymmaint o gelfyddyd, a chymmaint o newydd-deb a gwreiddioldeb gyda chymmaint o wybodaeth a barn. Barna rhai o feirniaid goreu yr Almaen nad oedd gan Goethe ddim llawer iawn o'r hyn a elwir yn athrylith; ond na bu neb erioed yn meddu ar gymmaint o'r hyn a elwir *talent* ag ef. Ol talent, yn hytrach nag athrylith, sydd ar ei holl gynnyrchion, meddant hwy. Cydnebydd ei hun mewn man nad ydyw prydferthwch ond ffrwyth talent a thriniaeth gelfydd. Ffurf neu arddull oedd pob peth yn ei olwg ef. Ei ymgais ef oedd cyflwyno pob gwrthddrych, pa un bynag ai dymunol ai adgas oedd ynddo ei hun, mewn ffurf dymunol, trwy ei addurno hyd eithaf ei allu. Felly, yn hytrach nag ymgymmeryd â dim na wyddai rhag llaw y medrai ei orphen yn foddhaol, yr oedd yn ddigon call i ymgadw at y pethau y gobeithiai y gallai eu gwneyd yn gyfryw na welai neb wall arnynt. Y mae 'ffurf' Goethe yn gynnwysedig, nid yn unig mewn iaith dlos, a mydr perseiniol,

Digitized by Google

ond hefyd yn ei waith yn addurno ei fater gyda meddyliau a chymhariaethau. Cymmer llawer, yn enwedig o edmygwyr Goethe, y math olaf hwn o ffurf yn lle hanfod barddoniaeth. Gan i Goethe ymboeni cymmaint i roddi ffurf dda ar ei gyfansoddiadau, y mae yn hawdd casglu fod rhan fawr, os nad y rhan fwyaf o'u rhagoriaeth, yn colli pan y cyfieithir hwynt.

Tuedd ddrwg sydd i'r rhan fwyaf o weithiau Goethe; canys ei amcan ydyw dyrchafu yr hyn sydd isel, a harddu yr hyn sydd wrthun. Pâr i ni, er ein gwaethaf rywfodd, ymddori mewn cymmeriadau annyddorol, a charu creaduriaid anhawddgar. Nid darlun cywir o ddyn fel dyn a geir gan Goethe—ond darlun o hono ei hun. Yr oedd efe yn ei fuchedd ac yn ei farddoniaeth yn cynnrychioli yr hyn a elwir *modern society;* sef, bywyd rhydd y byd presennol.

Nid yw Goethe mor wreiddiol ag y tybia llawer ei fod. Nid yw ei "*Werther*" ond efelychiad gwaeddol o "*Nouvelle Héloïse*" Rousseau; na "*Clavigo*" ond efelychiad gwael o "*Emilia Galotti.*" Yn ei gymwawdau (*comedies*) lleiaf, efelychodd Molière a Beaumarchais. Nid ydyw Goethe yn wir wreiddiol ond yn "*Faust*" a "*Wilhelm Meister,*" canys y mae yn ddyn yn ei ddynwared ei hun. Nid ydyw "*Wilhelm Meister*" ond arallciriad barddonol o'i fywyd ei hun. Dywed Novalis, pa fodd bynag, fod y gwaith yn hollol anfarddonol o ran ei ysbryd, pa mor farddonol bynag y dichon i'r arddangosiad fod. Y mae'r gwaith hwn yn enghraifft o'r dylanwad swynol sydd gan iaith dlos, ar wahân oddi wrth bwysigrwydd y digwyddiadau y sonir am danynt.

Cydnabyddir mai gwaith galluocaf Goethe yw ei "*Faust*"—neu a siarad yn fanwl, y rhan gyntaf o'r gwaith. Yn y gân hon, y mae yn mynegu helaethaf ei deimladau dyfnaf, ynghyd â'i syniadau am y byd. Dangos y mae ynddi ing meddwl efrydydd sydd yn llafurio am wybodaeth tu hwnt i'w ddeall, a'r hwn sydd wedi hyny yn ymroddi i chwantau y cnawd. Ergyd y gân ydyw profi fod breintiau y pleserddyn o radd uchel yn ymestyn hyd yn oed tu hwnt i'r bywyd presennol. Er fod y dyn, *Faust*, yn llwyddo i ddistewi llais ei gydwybod, ac i ddibrisio pob dyledswydd—er ei fod, ar draul dinystrio eraill, yn porthi ei wanc masw (*effeminate*) am fwyniant, oferedd, a mympwyon—ac er ei fod hefyd wedi ymwerthu i ddiafol—er hyny, y mae yr awdwr, yn niwedd ei gân, yn rhoddi i'r pechadur anedifeiriol hwn "fynediad helaeth i mewn" i'r nefoedd, yn unig am ei fod yn bendefigaidd (*vornehm*). Y mae "*Faust,*" fel y gwyddys, yn hen chwedl, ac yn ol hono y mae yn diweddu ei yrfa yn uffern; ond y mae Goethe, mewn modd mympwyol ac annaturiol, yn gŵyro oddi wrth y chwedl, trwy beri i'r angylion ddisgyn i ysbeilio y diafol o'i eiddo ei hun, ac i ddwyn *Faust* i'r nef, i foelystota dros byth gyda'r eneth a dwyllodd, ac a adawodd pan ar y ddaear. Diammheu mai yr hyn a gymmhellodd Goethe i wneyd y fath gam â natur a dadguddiad oedd ei fuchedd a'i dueddiadau anfoesol ei hun.

Y gweithiau nesaf eu gwerth i'r rhai a nodwyd yw "*Iphigenia auf Tauris,*" "*Hermann und Dorothea,*" a "*Torquato Tasso.*" Gwedd Roegaidd sydd i'r tri hyn, yn enwedig i'r cyntaf; yn wir, cyfrifir y gwaith hwn y mwyaf Groegaidd ei arddull a ymddangosodd yn yr oesoedd diweddar. Ond o ran eu hysbryd, Almaenaidd hollol yw y tri. Y rhai mwyaf adnabyddus o weithiau eraill Goethe yw "*Goetz von Berlichingen,*" "*Egmont,*" "*Clavigo,*" "*Aus meinem Leben*" (adgofion am dano ei hun), a'i fân ganeuon.

Y mae Goethe, er wedi marw, yn parhau yn fawr ei fri a'i ddylanwad yn yr Almaen etto. Y mae ei weithiau mor naturiol, mor gelfydd, ac mor goeth o ran ffurf, fel na pheidiant byth a bod yn gynlluniau i ysgrifenwyr Almaenaidd; ond rhaid addef fod ei ddysgeidiaeth afiachus a gwenieithus wedi gwneuthur, ac yn gwneuthur, dirfawr niwed i foesau a chrefydd yn mysg yr Almaenwyr. Ond y mae sail i obeithio y bydd ei gydwladwyr, cyn bo hir, mor ammharod i'w ddilyn ef yn ei anghrefyddolder ag ydynt yn awr i'w ddilyn yn ei anwladgarwch.

Y cofiant goreu o Goethe yn yr iaith Saesnig yw yr un a wnaeth G. H. Lewis. Y mae Carlyle hefyd wedi ysgrifenu amryw draethodau ar ei fywyd a'i weithiau. Os mynai y darllenydd Cymreig weled cyfieithiad gwir dda o'r darn mwyaf tarawiadol yn "*Faust,*" edryched i draethodau llenyddol Dr. Edwards.

**GOLDSMITH, OLIVER**: bardd, hanesydd, a thraethodwr. Ganwyd ef yn Pallas, yn sir Longford, yn yr Iwerddon, Tachwedd 10fed, 1728. Mab ydoedd i glerigwr tlawd. Anfonwyd ef gan ei ewythr i brif athrofeydd Dublin, Edinburgh, a Leyden, i ddysgu meddyginiaeth; ond ychydig iawn o ddefnydd a wnaeth o'i fanteision. Treuliai y rhan fwyaf o'i amser i hapchwareu; a mynych y byddai o herwydd hyny heb ddim arian. Yn y fl. 1755, gadawodd Leyden, ar fedr gwneuthur taith ar draed trwy Ewrop. Cychwynodd i'r daith hon heb ganddo ddim arian, nac heb ond un wisg. Tybir ei fod yn yr ymadrodd canlynol o'r "*Vicar of Wakefield*" yn cyfeirio ato ei hun—"Yr oeddwn yn lled gyfarwydd â cherddoriaeth; ac yn awr, troais yr hyn oedd gynt yn hyfrydwch i mi yn foddion cynnaliaeth. Pan nesawn at dŷ gweithiwr tua'r cyfnos, mi a ganwn â'm chwibanogl un o'm tônau mwyaf llon; a byddwn, fel tâl am hyny, yn cael nid yn unig letty, ond hefyd fodd i'm cynnal dros dranoeth." Pan y clywodd yn Italy am farwolaeth ei ewythr a'i noddwr, efe a ddychwelodd i Loegr, ar ol bod yn ymdeithio am flwyddyn. Wedi dychwelyd o hono i Loegr, cafodd swydd fel is-athraw mewn ysgol yn Peckham. Symmudodd oddi yno yn fuan i Lundain, a chynnaliodd ei hunan yno trwy ysgrifenu i'r cyhoeddiadau cyfnodol. Bu ar ol hyn yn ymgeisydd am swydd feddygol yn India, ond gwrthodwyd ef gan Goleg y Meddygon. Yr oedd wedi cael y dillad oedd am dano o flaen ei arholwyr ar feichnïaeth Mr. Griffith, golygydd y "*Monthly Review;*" a chan fod Goldsmith, gan faint ei gyfyngderau, wedi eu gwystlo (*pawn*), bygythiodd y cyhoeddwr ei daflu i garchar. Yr oedd yn awr wedi syrthio i waelodion trueni —ond yr oedd dyddiau gwell ger llaw. Un o'r pethau cyntaf o bwys a gyhoeddodd oedd "*An Enquiry into the Present State of polite Learning in Europe.*" Yn mis Ionawr, 1760, dechreuodd Mr. Newbery ddwyn allan y "*Public Ledger,*" yn yr hwn y cyhoeddodd Goldsmith ei "*Chinese Letters;*" y rhai a ail gyhoeddwyd wedi hyny wrth yr enw "*The Citizen of the World.*" Ysgrifenodd hefyd hanes bywyd Beau Nash, a hanes Lloegr, mewn cyfres o lythyrau. Yn nechreu haf 1761, dygwyd ef gan Dr. Percy i gydnabyddiaeth â Dr. Johnson—gan yr hwn y cyflwynwyd ef i'r *Literary Club.* Yn niwedd

Digitized by Google

1764, ymddangosodd y "*Traveller*"—gwaith a'i gosododd ef yn y dosbarth blaenaf o awdwyr Saesnig. Yn mhen dwy flynedd wedi hyn, cyhoeddodd ei "*Vicar of Wakefield*," yr hwn sydd bellach wedi bod yn swyno pedair cenhedlaeth. Daeth ei weithiau eraill allan, y naill ar ol y llall, yn lled gyflym. Ymddangosodd y "*Good Natured Man*" yn 1767, y "*Roman History*" yn 1768, y "*Deserted Village*" yn 1770, y gymwawd "*She Stoops to Conquer*" yn 1773, ei "*Grecian History*" yn 1774, a "*Retaliation*" yn 1777. Ni bu fyw i orphen ei "*History of Animated Nature*. Er ei fod yn awr yn derbyn symiau mawrion am ei weithiau, yr oedd mewn eisieu yn fynych. Yr oedd efe yn byw yn afradlawn iawn, yn caru ymborth danteithiol, a gwisgoedd gwychion, ac yn eithafol o hael. Yn mis Mawrth, 1774, cymmerwyd ef yn glaf; ac yn ol ei gyndynrwydd arferol, mynai barhau i gymmeryd *James' Powders*, er fod ei feddygon yn dyweyd wrtho fod y pwdrau hyny yn niweidiol iddo. Gwaethygai fwy-fwy, a dywedodd Dr. Turton wrtho, "Y mae curiad eich gwaed yn fwy afreolaidd nag y dylai fod, yn ol gradd eich clefyd. A ydyw eich meddwl chwi yn esmwyth?" "Nac ydyw, ddim," ebai Goldsmith —a dyna'r geiriau diweddaf a draethodd.

Bu farw ar y 4ydd o Ebrill, âg arno 2,000*p.* o ddyled; a bu mwy o alar ar ei ol nag un llenor arall yn ei amser. Yr oedd pobl oedranus a methiantus yn ocheneidio ar risiau ei letty, ac yr oedd Johnson a Burke yn ofidus; a phan glywodd Reynolds y newydd, dododd heibio ei bwyntel, a gadawodd ei weithfa. Claddwyd ef yn y Temple Church, a chododd ei gyfeillion gofgolofn iddo yn Westminster Abbey. Gŵr esgeulus ac ammhenderfynol ei feddwl oedd Goldsmith; ond yr oedd yn meddu ar y rhan fwyaf o'r rhinweddau sydd yn gwneyd dyn yn hawddgar. Yr oedd mewn cymdeithas yn destyn chwerthin i'w holl gyfeillion; ond pan y byddai ar ei ben ei hun yn ysgrifenu yn ei ystafell, yr oedd yn ogyfuwch a neb o honynt. O bob dyn o athrylith yn yr oes hono, Goldsmith oedd y mwyaf naturiol. Y chwedl oreu, a'r gân oreu, a wnaed yn y cyfnod hwnw, ydyw y "*Vicar of Wakefield*" a'r "*Deserted Village.*" Y mae arddull Goldsmith yn dlos odiaeth. Hyd yn oed pan y byddai yn ysgrifenu ffiloreg, gallai wneyd hyny mor ragorol fel y byddai ei ffiloreg yn well na synwyr y rhan fwyaf.

Y cofiant goreu o Goldsmith ydyw yr un a wnaed gan John Foster.

GOLEUDY—DAI *(Light-houses)*: adeiladau wedi eu cyfodi ar hyd glanau y moroedd, neu ar greigiau, o ba rai y dangosir goleuni yn y nos, er cyfarwyddyd i forwyr mewn lleoedd peryglus. Y mae hanes boreuol goleudai yn dra ansier; ac y mae llawer o hynafiaethwyr cywrain, gan nad oes ganddynt gofnodion y gellir dibynu arnynt, wedi ymdrechu, er gwneyd i fyny y diffyg, seilio tybiau dychymmygol ar gyfeiriadau aneglur a wneir gan hen ysgrifenwyr. Ynghylch tri chant o flynyddoedd cyn Crist, gwnaeth Chares, dysgybl Lysippus, y cerflun pres enwog, a elwid Colossus Rhodes, yr hwn oedd dros gan troedfedd o uchder, ac a osodwyd i fyny ger y mynediad i mewn i borthladd Rhodes. Y mae cryn debygolrwydd fod cywirdeb yn y syniad fod y cerflun hwn yn gwasanaethu dyben goleudy; er nad oes, fe allai, yn ngweithiau yr hen ysgrifenwyr, ddim sydd yn crybwyll hyny yn bendant. Dyfethwyd y cerflun gan ddaeargryn tua phedwar ugain mlynedd ar ol ei osod i fyny. Ychydig a wyddys gyda sicrwydd yn mherthynas i'r goleudy enwocaf y sonir am dano yn yr hen amseroedd, yr hwn a adeiladwyd ar ynys Pharos, gyferbyn âg Alexandria, yn nheyrnasiad Ptolemy Philadelphus, c.c. 283. Dywed Strabo fod yr archadeiladydd Sostrates, mab Dexiphanes, ar ol cerfio ei enw ei hun yn ddirgelaidd ar y muriau ceryg, wedi ei orchuddio â phlastr; ac mewn ufudd-dod i orchymyn Ptolemy wedi gwneyd yr arysgrifen a ganlyn ar y plastr—"Y brenin Ptolemy i'r duwiau, a amddiffynant y rhai sydd ar y mor." Y mae yr hanes sydd wedi dyfod i lawr i ni am yr adeilad hynod hwn yn amrywio yn mherthynas i'w faintioli; a diau nad yw yr adroddiadau am y pellder o ba un y gellid ei weled yn ddim amgen na chwedleuon disail. Josephus ydyw y tebycaf o fod yn gywir: dywed ef fod y tân a gedwid i gynneu yn wastadol yn y pen uchaf yn weledig i forwyr mewn pellder o ddeugain milldir. Os ydyw adroddiadau rhai ysgrifenwyr i'w credu, yr oedd y tŵr hwn yn fwy ei faintioli na'r pyramid mawr ei hun; ond y mae yr ystyriaeth fod adeilad cymmharol ddiweddar wedi diflanu o'r golwg yn hollol, tra y mae y pyramid yn aros heb un cyfnewidiad arno yn mron, yn ddigon o reswm dros beidio credu cywirdeb yr adroddiadau a wneir gan y rhan fwyaf o ysgrifenwyr o barth Pharos Alexandria. Dywed rhai y defnyddid drychau mawrion i yru y pelydrau goleuni oddi ar y top i'r cyfeiriadau mwyaf manteisiol; ond nid oes dystiolaeth bendant dros hyn. Tybia eraill, gyda mwy o debygolrwydd, nad oedd y goleuni ond y fath a geid o dân cyffredin.

Y mae Mr. Moore, yn ei "*History of Ireland*," yn sôn am Dŵr Corunna, yr hwn y crybwyllir am dano yn hen hanesiaeth y wlad fel goleudy a gyfodasid er gwasanaethu y Gwyddelod yn eu hymweliadau boreuol mynych âg Yspaen. Hwn, dybygid, ydyw y tŵr y crybwyllodd Humboldt am dano dan yr enw Tŵr Haiarn, ac a adeiladwyd fel goleudy gan Caius Lupus. Y mae goleudy wedi ei adeiladu yn lled ddiweddar ar y pentir hwn. Gwneir cofnodiad gan Strabo hefyd am oleudy ardderchog wedi ei wneyd o geryg, yn Capio, ger llaw porthladd Menestheus, ac wedi ei adeiladu ar graig yn cael ei hamgylchu yn mron i gyd gan y môr. Gwneir cyfeiriad byr yn Camden's "*Britannia*" am adfeilion a elwid *Allor Cæsar*, ger Dover; a thŵr cyffelyb hefyd yn Boulogne, ar y lan gyferbyniol; a thybir, er nad ydyw y seiliau yn gedyrn dros y fath dybiaeth, mai hen oleudai oeddynt. Disgrifia Pennant adfeilion Pharos Rhufeinaidd yn agos i Dreffynnon; ond nid ydyw yn nodi ei awdurdodau o barth y defnydd a wnelid o hono. Yr oedd adfeilion o'r fath hefyd yn Flamborough Head. Sonia Gough am oleudy St. Edmond's Chapel, ar duedddau Norfolk; ac yn ol ei dystiolaeth ef adeiladwyd y goleudy hwnw yn 1272.

Ychydig fel yna ydyw swm ein gwybodaeth ni am hanes hen oleudai; a rhaid i ni addef nad ydyw yn fanwl, nac ychwaith yn gywir, fe allai. Y mae ein hysbysrwydd am oleudai diweddar o angenrheidrwydd yn fanylach. Y goleudy cyntaf mewn oesoedd diweddar sydd yn galw am sylw ydyw un Tour de Cordouan; yr hwn, o ran harddwch adeiladol, yn ddiammheu, ydyw yr adeilad ardderchocaf o'r fath sydd o fewn yr holl fyd. Y mae yn sefyll ar fangraig fawr yn ngenau yr afon Garonne, ac yn gwasanaethu fel

arweinydd i longau ar gamlesydd Bordeaux a Languedoc, ac yn wir ar yr holl ran hono o Fachwy Biscay. Sylfaenwyd ef yn y flwyddyn 1584, a gorphenwyd ef yn y fl. 1610. Y mae y goleudy hwn yn 197 o droedfeddi o uchder.

Y mae goleudy enwog Eddystone yn dra adnabyddus, yn gymmaint ag i Mr. Smeaton, y peiriannydd galluog, ysgrifenu hanes manwl am dano. Saif creigiau Eddystone tua naw milldir o Bentir Ram, ar dueddau Cernyw; ac o blegid nad oedd ond ychydig o'r graig fwyaf yn y golwg, gan fod dwfr yn ei gorchuddio, yr oedd adeiladu goleudy yno yn orchwyl o anhawsder mawr. Mr. Winstanley a gynlluniodd y goleudy cyntaf yno—yr hwn a wnaed o goed, ac a ddechreuwyd yn 1696. Ond yr oedd y dyfroedd yn cyfodi yn uwch nag y disgwylid; a bu raid gwneyd yr adeilad yn uwch nag y bwriedid iddo fod ar y cyntaf. Yn mis Tachwedd, 1703, aeth Mr. Winstanley, a'i weithwyr, yno i wneyd yr adgyweiriadau angenrheidiol arno; ond darfu i'r ystorm fawr ar y 26ain o'r mis hwnw ysgubo ymaith yr holl waith—a threngodd y peiriannydd a'i holl gynnorthwywyr! Adeiladwyd un arall yn mhen tair blynedd, o dan arolygiaeth John Rudyerd, o Lundain: ond dinystriwyd yr adeilad hwnw gan dân yn 1755. Yna ymgymmerodd Mr. Smeaton âg adeiladu goleudy, yn cael ei wneuthur o geryg i gyd. Am fanylion pellach ynghylch yr adeilad enwog hwn yr ydydym yn cyfeirio y darllenydd at yr erthygl SMEATON, JOHN.

Y mae y fasgraig beryglus a elwir Penrhyn Inch, neu y Bell Rock, wedi bod yn ddychryn i forwyr boreuaf Ysgotland. Collwyd llawer o longau, y naill dro ar ol y llall, yn y gymmydogaeth beryglus hono. Ond ni phasiwyd mesur drwy y senedd i gael goleudy yno hyd 1806; ac yn mis Awst, 1807, dechreuodd Mr. R. Stevenson, y peiriannydd, ar y gwaith o adeiladu goleudy yno ar yr un egwyddor ag un Eddystone: ac yn mhen llai na phedair blynedd yr oedd y gwaith wedi ei gwblhau. Y mae yr adeilad hwn yn 100 troedfedd o uchder, yn 42 o droedfeddi o drawsfesur yn ymyl y sylfaen, ac yn 15 troedfedd yn y pen uchaf. Y draul o'i adeiladu oedd 61,331*p*. Anhawsder mawr ynglŷn â'r gwaith hwn oedd cyfodi y fath dŵr ar fasgraig ddeuddeng milldir o bellder o'r tir agosaf ati, a hono yn cael ei gorchuddio gan bob llanw—sefyllfa llawer mwy anhawdd i adeiladu goleudy arni nag oedd un Eddystone.

Y goleudy mwyaf hynod ar ororau yr Iwerddon ydyw un Carlington, ar y fynedfa i Fornant Carlingford. George Halpin oedd enw y cynllunydd; ac y mae ei uchder yn 111 o droedfeddi, a'i drawsfesur yn 48 o droedfeddi wrth y sylfaen. Goleuwyd ef gyntaf Rhagfyr 20fed, 1830.

Lle dinystriol iawn i lestri oedd Creigiau Skerryvore, ar ororau swydd Argyle, yn Ysgotland. Yr oedd mewn bwriad i adeiladu goleudy yno er's llawer o flynyddoedd, ond yn unig y teimlid fod anhawsderau dirfawr i'w gorchfygu. Modd bynag, dechreuwyd ar y gwaith yn haf y flwyddyn 1838, gan Alan Stevenson, y peiriannydd, a gorphenwyd ef yn llwyddiannus. Y mae y tŵr yn 138 troedfedd a 6 modfedd o uchder, a 42 o droedfeddi o drawsfesur wrth y sylfaen, ac 16 o droedfeddi yn y pen uchaf. Cynnwysa 58,580 o droedfeddi ysgwâr o waith maen—mwy na chymmaint arall a'r hyn sydd yn ngoleudy Bell Rock, ac nid llawer llai na phum waith cymmaint ag sydd yn ngoleudy Eddystone. Gellir canfod ei oleuni oddi ar fwrdd llestr fydd yn y pellder o ddeunaw milldir oddi wrtho. Yr holl draul o'i godi oedd 86,978*p*.

Fel y canlyn yr ysgrifena peiriannydd goleudy Skerryvore, ar ol cwblhau y gwaith:—

"Yn y fath sefyllfa ag y mae Skerryvore, gellid disgwyl oediadau a siomedigaethau dirifedi yn mron; ac yr oedd colli ffrwyth llafur y tymmor cyntaf yn nghwrs ychydig oriau yn wers dda i ni yn ysgol amynedd, ac yn gymmhelliad i ymddiried yn rhywun heb law mewn braich o gnawd. Tra y buom yn gweithio, yr oedd ein taclau yn cael eu hysgubo ymaith gan y tonau. Gyrid llestri gan hyrddiau sydyn o wynt i ymofyn noddfa mewn pellder priodol oddi wrth draethau creigiog y Mail a'r Tyree; a gadewid y gweithwyr yn anobeithiol a segur ar y graig, ac yn amddifad o lawer o'r cysuron a fwynheir mewn preswylfeydd eangach a mwy cysgodol. Yr oedd raid i ni wynebu peryglon bob dydd wrth lanio ar y graig mewn traethfor mor gynnhyrfus, oddi wrth holltiad y creigiau, a disgyniad pethau trymion o'r tŵr uwch ben ar y lle bychan islaw, lle y cyfyngid cynnifer o bersonau o angenrheidrwydd i le bychan. Etto, ni chollwyd bywyd, ac ni thorwyd aelod; ac er ein bod ni yn gweithio o doriad y dydd hyd fachludiad yr haul, a'n hymborth yn benaf wedi ei halltu, yr ydoedd iechyd y bobl, gyda'r eithriad o ychydig achosion ysgeifn o'r gwaed-glefyd, yn dda yn gyffredinol am y chwe haf dilynol y buom yn gweithio ar y creigiau. Teimlai pawb yn ddiolchgar pan ddaeth y gwaith i derfyniad; ac edrychid ar ein cadwraeth ddiogel, hyd yn oed gan y rhai mwyaf difeddwl, fel amlygiad neillduol o garedigrwydd o eiddo yr hwn 'ag y mae, ie, holl wallt ein penau wedi eu cyfrif ganddo.'"

Y mae amryw o oleudai ar arfordir Cymru, canys y mae ar draethau Cymru lawer o leoedd tra pheryglus i longau. Nodwn rai o honynt, a'r amser y cyfodwyd hwynt:—un Hoylake, 1763; Point of Air, 1776; Pen y Gogarth—y pwynt gogleddol, 1862; Pwynt y Trwyn du, Menai, 1837; Pwynt Lynas, 1835; Pwynt Amlwch, 1817; Ynys y Skerries, 1714; Stack Rock, Caergybi, 1809; Ynys Enlli, 1821; Pwynt St. Ann, Aberdaugleddyf, 1714. Heb law y goleudai hyn, y mae llawer o oleuadau eraill yn y gwahanol borthladdoedd sydd ar hyd y glenydd. Mewn gwirionedd, y mae yr ynys hon wedi ei hamgylchu â goleudai, gan ei fod o'r pwys mwyaf i roddi arwydd i'r morwr ei fod yn agoshau at dir; o herwydd yn agos i'r glenydd y mae morwriaeth yn cael ei gosod yn y peryglon mwyaf. Ac y mae goleudai wedi eu cyfleu yn y fath fodd ar hyd holl arfordir Prydain fel y mae yn ammhossibl, oddi gerth mewn niwl tew, i ddyfod yn agos i'r tir heb eu gweled.

Y mae yn ddiammheu, i lawr hyd yn ddiweddar iawn, mai yr unig ffordd a arferid i oleuo goleudai, hyd yn oed yn mysg cenhedloedd mwyaf gwareiddiedig Ewrop, oedd trwy gymmysgu coed a glô, a'u dodi mewn poethogell (*chauffer*) ar ben tŵr uchel. Ni raid cyfeirio at anfanteision yr arferiad yma: canfyddir hwy ar unwaith, o herwydd y mae yn anhawdd meddwl pa fodd y gallesid yn effeithiol oleuo arfordir dan y fath anfanteision. Yr oedd yr ansicrwydd a achosid gan effeithiau gwynt a gwlaw, a'r ammhossiblrwydd i wneyd y naill oleuni yn wahanol i'r llall, yn peri i'r goleudai boreuol hyn fod i fesur mawr yn ddiddefnydd i'r morwr. Mor ddiweddar a'r flwyddyn 1816, nid oedd y goleuni oedd yn ngoleudy Ynys Mai, yn Ysgotland, yn gynnwysedig o ddim gwell na thân

Digitized by Google

glô. Ac nid oedd Lloegr wedi gwneyd nemawr o gynnydd yn hyn; o herwydd, fel y dywed Mr. Stevenson, yr oedd goleudy Eddystone wedi dyfod o ddwylaw Smeaton er's hanner can mlynedd cyn bod dim gwell yn ei oleuo nag ychydig o ganwyllau gwêr, wedi eu cau i mewn gan wydr, yn lle bod pen y tŵr yn agored. Tua diwedd y ddeunawfed ganrif, cymmerwyd lle y canwyllau gan lampau—goleuni pa rai a deflid i bellder gan fettel caboledig yn gweithredu fel adlewyrchydd. Ond nid oedd y goleuni hwn ond un gwan ac ansicr, yr hyn a dynodd sylw gwyddonwyr enwog at y mater: ac y mae Fresnel, Stevenson, ac eraill, erbyn hyn wedi llwyddo trwy gelfyddwaith cywrain i gael goleuni disglaer o wahanol liwiau; yr hyn sydd yn rhagori yn ddirfawr ar yr hen drefniadau, ac yn atteb y dyben mewn golwg yn llawer gwell. Y mae gwahanol liwiau yn angenrheidiol er mwyn gwahaniaethu rhwng y naill le a'r llall, onid ê y mae yn beryglus i ddyryswch gymmeryd lle. Ni ddylai goleuni a fyddo yn union o'r un lliw ac ymddangosiad ddigwydd, os bydd yn bossibl, o fewn llai na chan milldir i'w gilydd ar yr un llinell o arfordir; o herwydd y mae perygl i'r morwr gael ei gamarwain, trwy gymmeryd y naill le am y llall.

GOLEUNI GOGLEDDOL (*Aurora Borealis: Northern Lights*). Gelwir ef felly am eu gwelir yn gyffredin yn y gogledd, neu yn agos i'r pwynt gogleddol. Y mae ymddangosiad y goleuni hynod hwn mor amrywiol, yn mhob peth yn mron, fel nas gellir rhoddi unrhyw ddisgrifiad cyffredinol pennodol o hono; ac hyd nes y deallir ei natur yn well, y mae yn rhaid i unrhyw ymddangosiad disglaer ar yr ochr ogleddol i'r terfyngylch, a gymmer le rhwng machludiad a chodiad haul, gael ei adnabod wrth yr enw uchod. Yn fwyaf cyffredin, ymddengys yn y ffurf o gymmylau goleuedig, a bwâau, ynghyd â phelydrau, y rhai, weithiau, a gydgyfarfyddant yn *goron* ogleddol, fel ei gelwir. Nid ydyw y pelydrau un amser yn mron yn sefydlog—ond yn ymsaethu, yn ymddangos, ac yn diflanu yn barhaus; ac ymsymmudant yn nghyfeiriad y gorllewin yn fynychaf, ond weithiau tua'r dwyrain. Ar brydiau gorchuddiant yr holl awyrgylch, ac ymysgydwant o ben i ben. Yn anfynych, ymddengys y pelydrau hyn fel *eddi* neu blygion mantell yn disgyn. Dywedir mai yn anfynych yr ymddangosai yn yr hen amseroedd; ac ar y cyfrif hwnw, fod mwy o sylw yn cael ei gymmeryd o hono. O ddyddiau Plutarch, i lawr hyd amser Syr Richard Baker, yn nechreu yr eilfed ganrif ar bymtheg, tybid fod y goleuni gogleddol yn rhagarwyddo rhyw ddigwyddiadau mawrion i ddyfod. Dywed Dr. Halley, pan yn sylwi ar y goleuni mawr yn 1716, ei fod ef wedi dechreu anobeithio gweled un o gwbl; gan nad oedd un ymddangosiad mawr a hynod o'r goleuni hwn wedi bod, o leiaf, o'r amser y ganwyd ef hyd hyny. Yr oedd y cyfnod yn un maith; ond ymddengys fod y goleuni gogleddol, ar rai cyfnodau, i'w weled yn llawer mynychach na hyny, ac hwyrach fod yr ymddangosiad rhyfedd hwn yn ddarostyngedig i gyfnewidiadau cyfnodol.

Yr unig beth tebyg i hanes pennodol o'r ymddangosiad hwn a ddaeth allan, hyd ganol y ddeunawfed ganrif, ydyw yr un a roddir gan Dr. Halley yn y "*Philosophical Transactions*," rhif 347. Y mae efe yn adrodd hanes ymddangosiad a welwyd yn Llundain, y 30ain o Ionawr, 1560. Y nesaf y sonia am dano ydyw yr un a gymmerodd le ar y 7fed o Hydref, 1564. Yna y mae yn sylwi ar amryw eraill mewn blynyddoedd ar ol hyny; ac yn neillduol ar yr un a ymddangosodd yn 1716—o'r hwn yr oedd efe ei hun yn llygad-dyst, a'r hwn, o herwydd ei ddisgleirdeb, a dynodd sylw cyffredinol, ac a ystyrid gan y werin fel yn rhagarwyddo dyfodiad hiliogaeth dramorol o dywysogion i'r wlad. Er y pryd hwnw, y mae y goleuni gogleddol, meddir, yn cymmeryd lle yn llawer amlach nag o'r blaen. Y mae erbyn hyn mor fynych yn yr ardaloedd gogleddol, fel y mae rhai teithwyr wedi eu harwain i dybied fod y goleuni hwn i'w ganfod yno yn mron yn wastadol. Ond y mae Celsius, yr hwn a gyhoeddodd yn 1733 sylwadau manwl a wnaethpwyd ganddo yn Sweden, rhwng y blynyddoedd 1706 a 1732, yn haeru i'r gwrthwyneb yn bendant; a dywed fod preswylwyr hynaf Upsala y pryd hwnw yn ystyried fod y goleuni gogleddol yn beth na chymmerai le ond yn anfynych hyd 1716. Dywed Anderson, brodor o Hamburg, yr hwn a ysgrifenai ar y testyn tua'r un pryd, fod trigolion Ynys yr Iâ yn rhyfeddu yn fawr wrth weled y goleuni hwn er's ychydig amser yn ymddangos mor fynych. Yr oedd Torfæus, hanesydd Denmarc, yr hwn ei hunan oedd frodor o Ynys yr Iâ, ac a ysgrifenodd yn y fl. 1706, yn ddigon hen i gofio yr amser pan y byddai ymddangosiad y goleuni gogleddol yn dwyn dychryn mawr ar bobl ei wlad enedigol.

Tybid ar un adeg nad oedd goleuni o'r fath byth yn ymddangos yn yr arddrych deheuol. Yr hanes cyntaf o ymddangosiad o'r fath yno ydoedd yr un a roddir gan Don Antonio Ulloa. Yr oedd y teithiwr enwog hwn yn Mhenrhyn Horn yn 1745—"ac un noson," medd efe, "ar ol i'r niwl tew sydd yn digwydd yn yr hinsawdd hwnw glirio ymaith, ymddangosodd goleuni ar y terfyngylch deheuol, ac ymsaethodd i fyny tua deg ar hugain o raddau; ac yr oedd weithiau o liw coch, bryd arall yn gyffelyb i'r goleu sydd ambell dro yn rhagflaenu codiad y lleuad, ond yn achlysurol yn ddisgleiriach na hwnw." Yn 1744, ymddangosodd goleuni o'r fath yn Cuzco; yr hwn a barodd arswyd mawr i bobl Peru; a mwy o orchwyl nag y gallasai y llywodraethwr Yspaenaidd ei gyflawni oedd eu hargyhoeddi mai nid arwydd o anfoddlonrwydd yr Arglwydd ydoedd.

Ond i fyned yn ol i amseroedd boreuach, disgrifir y goleuni gogleddol gan Aristotle (yr hwn a ddyfynir gan Mairan), fel peth yn ymddangos yn y nos pan fyddo y tywydd yn dawel; a dywedai ei fod yn gyffelyb i dân yn gymmysgedig â mwg, neu i goelcerth soll yn llosgi yn y pellder. Efe a sylwai mai y lliwiau mwyaf amlwg oeddynt glâs coch, coch disglaer, a choch o liw gwaed: ac oddi wrth hyn oll, yn gystal ag oddi wrth y disgrifiad cyffredinol a roddir ganddo, nid oes dadl nad oedd efe yn darlunio yn gywir yr hyn y cyfeirir ato yn yr erthygl hon. Y mae Cicero, Pliny, Seneca, ac amryw ysgrifenwyr diweddarach, yn gwneyd cyfeiriadau at hyn, neu yn disgrifio ymddangosiadau cyffelyb; ac nid oes un ddadl nad y goleuni gogleddol ydoedd yr hyn a ddisgrifid gan gynnifer o hen awdwyr fel byddinoedd tanllyd yn ymddangos yn y ffurfafen—y rhai a ystyrid yn rhagargoeli dygwyddiadau pwysig iawn, gan fod yr ysgrifenwyr yn cofnodi yr hanes dan ddylanwad dychymyg bywiog. Diammheu fod yr ystyriaeth nad oedd

Digitized by Google

yr ymddangosiadau hyny mor fynych ag ydynt yn y blynyddoedd hyn cyn dechreu y ddeunawfed ganrif yn cryfhau y dyb hon.

Y mae y goleuni hwn o amryw liwiau. Y mae y pelydrau weithiau yn bysglwyd (*iron grey*), yn felynlwyd, gwyrdd gwan, gwyrdd-felyn, melyn-aur, glâs gwan, glâsgoch, a phryd arall yn goch, gwan a chryf, yn gochwyrdd, yn felyngoch, &c. Y lliw mwyaf cyffredin ydyw gwyrdd-felyn gwan. Bydd rhai o'r pelydrau fel pe wedi eu cyffwrdd â du; ac o ganlyniad, y maent yn debyg i golofnau o fŵg. Dywed y Parch. J. Farquharson fod y "goleuni gogleddol yn dilyn cwrs neillduol yn ei ymdaith a'i ymddangosiad, a'r pelydrau yn gyffredin yn ymddangos yn gyntaf yn y gogledd, ac yn ffurfio bŵa o'r dwyrain i'r gorllewin." Y mae gwahanol farnau yn mherthynas i uchder y goleuni gogleddol uwch law arwynebedd y ddaear; yr hyn o angenrheidrwydd nis gellir ei benderfynu heb gyfres fanwl o sylwadau cywir. Ond gellir rhoddi i lawr rhwng 50 a 100 milldir fel y mesuriad mwyaf tebygol, yn ol yr ymchwiliadau mwyaf diweddar a wnaed. Dywed y Dr. Halley fod y goleuni a ddisgrifiwyd ganddo ef yn ymgodi i uchder aruthrol, gan y gwelid ef o orllewinbarth yr Iwerddon hyd derfynau Rwssia a Pholand ar du y dwyrain; ac nis gwyddai pa faint yn mhellach na hyny yr oedd yn weladwy. Felly, ymestynai o leiaf 30ain o raddau mewn hydred, ac o ledred 50ain gogleddol yr oedd i'w ganfod dros holl ranau gogleddol Ewrop. A'r hyn sydd yn dra hynod ydyw, pa le bynag yr oedd yn weladwy, o ran ymddangosiad, yr oedd yn debyg i'r disgrifiad a roddir o hono gan Dr. Halley, fel yr ymddangosai yn Llundain. Ond gofidiai Halley am nad allai mewn un modd fesur yr uchder, o ddiffyg na buasai sylwadau manwl wedi eu gwneyd mewn gwahanol fanau. Ond Boscovich a ddywed iddo ef benderfynu ar uchder y goleuni gogleddol a welwyd gan yr Ardalydd Poleni, Rhagfyr 16eg, 1737; a'i fod yn 825 o filldiroedd: a Bergmann, ar ol gwneuthur deg ar hugain o gyfrifiadau, a wna uchder cyfartal y goleuni gogleddol yn 460 o filldiroedd. Euler a dybia ei fod yn amryw filoedd o filldiroedd mewn uchder; a Mairan hefyd a ystyria ei fod yn uchel iawn. Yn y 74ain gyfrol o'r "*Philosophical Transactions*," wrth ymdrin â'r cwestiwn o uchder rhyw oruchion tanllyd, y mae Dr. Blagden yn sylwi "fod y goleuni gogleddol mor uchel, os nad yn uwch oddi wrth arwynebedd y ddaear, a'r goruchion hyn, fel y gellir barnu oddi wrth bellder y gwledydd y mae yn weledig ynddynt ar y pryd." Ar yr 22ain o Hydref, 1804, mynegir fod yr un goleuni i'w weled ar yr un pryd yn Saxony ac yn Liefland. Sonia Mr. Dalton am oleuni a ymddangosodd ar yr 17eg o Ebrill, 1826, ar ffurf bŵa rheolaidd, a'i fod wedi parhau yn yr un agwedd am awr gyfan; ac o ganlyniad, yn fanteisiol i fesur ei uchder. Cymmerodd Dalton lawer o drafferth i gasglu cymmaint ag a allai o hanes y sylwadau a wnaed mewn trefn i benderfynu ar ei uchder. Ymddengys fod y goleuni hwn i'w weled mewn lleoedd oedd yn ddwy filldir ar bymtheg oddi wrth eu gilydd mewn cyfeiriadau gogleddol a deheuol, a 45ain o filldiroedd o'r dwyrain i'r gorllewin; ac felly, yn cynnwys arwynebedd o 7,000 i 8,000 o filldiroedd ysgwâr; ond y tebygolrwydd ydyw ei fod yn weledig o bellder llawer mwy. Derbyniwyd hysbysrwydd ei fod i'w ganfod mor bell i'r deheu a Manchester a Doncaster, ac mor bell i'r gogledd ag Edinburgh. Oddi wrth y cyfrifiad a wnaed, yr oedd brig uchaf y bŵa yn union uwch ben trefydd Kendal a Kirby-Stephen, yn agos i gan milldir oddi wrth arwyneb y ddaear. Cadarnheir hyn gan y sylwadau a wnaed yn Jedburgh. Pe y golygid fod yr uchder yn 100 milldir, y mae yn canlyn fod trwch y bŵa yn wyth neu naw milldir, a'i hyd gweledig mewn cyfeiriadau dwyreiniol a gorllewinol, o unrhyw le pennodol, yn rhywle tua 550 o filldiroedd. Ar y llaw arall, pa fodd bynag, y mae y sylwadau a wnaed gan Dr. Richardson, Cadben Franklin, yr Is-gadben Hood, ac eraill, wedi eu harwain hwy i gredu fod goleuni gogleddol i'w weled heb fod yn uwch nag ardal y cymmylau. Y mae brodorion ardaloedd oerion Gogledd America yn cymmeryd arnynt ragfynegu dyfodiad gwyntoedd oddi wrth gyflymder symmudiadau y goleuni; a dywedant, pan yr ymleda yn un darn o oleuni gwastad dros y ffurfafen, y dilynir hyny gan dywydd braf; a bod y cyfnewidiadau hyn yn cymmeryd lle yn fuan neu yn hwyr, yn ol fel yr ymddangosa y goleuni yn gynnar neu yn hwyr. Dywed Cadben Franklin hefyd iddo ef sylwi, ar ddau neu dri o achlysuron, ar oleuni o'r fath yn is na'r cymmylau. Ar ei drydedd fordaith i Fôr y Gogledd, sylwodd y Cadben Parry hefyd fod y goleuni yn agos i wyneb y ddaear.

Lawer o flynyddoedd yn ol, yn y wlad hon ac yn Ynysoedd Shetland, dywedid y clywid sŵn yn dyfod oddi wrth y goleuni gogleddol. Y mae yn wir fod sylwedyddion diweddarach, megys Scoresby, Richardson, Franklin, Parry, Hood, ac eraill, yn tystio na chlywsant hwy erioed y fath sŵn, er nad ydynt yn gwadu na chlywyd ef gan eraill. Fel y canlyn y dywed Richardson:—"Ni chlywais i erioed sŵn y gellid yn ddibetrus ei briodoli i'r goleuni gogleddol; ond y mae tystiolaeth unol y brodorion, y Creeaid, a'r Indiaid, a'r Esquimaux, a'r holl breswylwyr hynaf yn y wlad hon, yn fy arwain i gredu fod ei symmudiadau weithiau yn glywadwy."

Y Cad. Franklin a ddywed:—"Nid wyf fi wedi clywed y sŵn a briodolir i'r goleuni gogleddol; ond y mae tystiolaeth unol y brodorion a phreswylwyr y wlad hon yn peri i mi gredu ei fod i'w glywed yn achlysurol." Bu Parry yn fynych yn gwrandaw yn ddyfal, i edrych a glywai efe y sŵn; ond ni chlywodd ddim erioed. Ond dywed yr Is-gadben Hood:—"Ni a glywsom lawer gwaith sŵn hisiadol, fel yr eiddo pelen dryll yn hedeg drwy yr awyr, megys pe yn dyfod o'r goleuni; ond yr oedd Mr. Wentzel yn ein sicrhau fod y sŵn yn cael ei achlysuro gan oerder llym yn dilyn tywydd lled dyner, yn effeithio ar wyneb yr eira oedd wedi toddi o dan dywyniadau yr haul." Y mae disgrifiad Mr. Hearn o'r sŵn yn cyttuno yn fanwl â'r eiddo Mr. Wentzel, a phersonau eraill a'i clywodd. Ffolineb fyddai ammheu y ffaith yn hwy; o herwydd y mae ymchwiliadau pellach i'r mater wedi cynnyddu, yn hytrach na lleihau, y tebygolrwydd o honi. Muschenbroek a ddywed fod pysgotwyr Greenland, yn ei amser ef, yn sicrhau iddynt hwy yn fynych glywed sŵn yn dyfod o'r goleuni gogleddol. Teimlai Mr. Nairne yn hollol hyderus iddo ef glywed sŵn sïol a chwibanol pan fyddai y goleuni yn gryf; a Mr. Cavallo a sicrhâ iddo yntau, fwy nag unwaith, glywed sŵn o'r fath yn dyfod o'r goleuni. Fel hyn hefyd y dywed Giesecké, yr hwn a fu yn trigiannu am amser maith yn Greenland Orllewinol:—"Ymddengys

Digitized by Google

y goleuni gogleddol weithiau yn isel iawn, ac yna y mae yn dra chynnhyrfus; a chlywir sŵn siol, fel yr eiddo gwreichionen wefrol, neu ddisgyniad cenllysg." "Yr ydym yn dysgu oddi wrth y trigolion," medd Cadben Brooke, yn ei deithiau dyddorol trwy Norway," yn mherthynas i'r goleuni gogleddol, eu bod hwy yn fynych wedi clywed sŵn sydd yn ei ddilyn ar brydiau, yr hwn a ddisgrifir ganddynt megys gwynt rhuthrol. Dywedent fod sŵn mawr i'w glywed yn Hammerfest, a bod y goleuni yn disgyn mor isel fel y gallesid meddwl fod yn bossibl cyffwrdd âg ef." Y proffeswr Hansteen hefyd a ysgrifena fel y canlyn:—"Yr ardaloedd pegynol mewn gwirionedd ydyw cartref brodorol y goleuni gogleddol, a dylem deimlo dyddordeb neillduol mewn unrhyw hysbysrwydd chwanegol o berthynas i hanesiaeth naturiol yr ymddangosiad hynod hwn; ac y mae cymmaint o hanesion credadwy am y sŵn sydd ynglŷn âg ef, fel nas gellir dwyn profiad nacaol gwledydd eraill yn mlaen i wrthwynebu ein gwybodaeth sicr ni. Yn anffodus, yr ydym yn byw, er dechreu y ganrif hon, ar un o'r adegau hyny pan nad yw yr ymddangosiadau hyn mor fynych ag y buont; o ganlyniad, nid yw y genhedlaeth hon yn gwybod ond ychydig am danynt oddi wrth sylwadaeth bersonol. Dymunol, gan hyny, ydyw cael oddi wrth bobl oedranus sylwadau a wnaethpwyd ganddynt hwy pan oeddynt yn ieuaingc, pan y gwelid y goleuni gogleddol yn ei lawn ogoniant. Gellir profi yn ddiymwad fod pelydrau y goleuni yn esgyn oddi ar arwyneb y ddaear, mewn cyfeiriad sydd yn tueddu tua'r deheu. Gan hyny, os ydyw y goleuni hwn yn cymmeryd i mewn yr holl ffurfafen ogleddol, ac yn ymgodi 17° yn uwch yn y ffurfafen na'r rhan hono o honi sydd yn union uwch ben yr edrychydd, rhaid fod y pelydrau yn codi o dan draed yr edrychydd, er nad ydynt yn derbyn eu galluoedd adlewyrchiadol, fe allai, hyd nes y cyrhaeddant i gryn uchder y tu allan i gylch ein hawyrgylch ni. Y mae yn bossibl, gan hyny, amgyffred y modd yr ydym ni yn fynych yn clywed sŵn yn dilyn y goleuni gogleddol, pan nad ydyw preswylwyr gwledydd deheuol, sydd yn gweled y goleuni o'r pellder o gannoedd o filldiroedd, yn clywed dim un math o sŵn. Dywed Wargentin fod Dr. Gisler a Mr. Hellant, y rhai a fuont yn trigiannu am beth amser yn ngogleddbarth Sweden, ar ddymuniad yr athrofa Swedaidd, wedi gwneuthur adroddiad o'u sylwadau ar y goleuni gogleddol." Terfyna y proffeswr trwy ddywedyd ei fod ef ei hun yn adnabod amryw bersonau oedd wedi clywed y seiniau yn eglur; a dadgana ei syndod fod neb yn ammheu y ffaith. Ond adrodda ymddiddan a gymmerodd le unwaith rhyngddo a Sais, yr hwn a sylwai fod y chwedleuon Norwegiaidd am y seiniau oedd ynglŷn â'r goleuni gogleddol yn gyffelyb i'r chwedlau sydd am ysbrydion yn y wlad hon.

Nid ydyw y damcaniaethau amrywiol sydd wedi eu ffurfio er rhoddi cyfrif am y goleuni gogleddol yn foddhaol iawn. Priodolai Halley a Cotes y goleuni i'r niwloedd dyfrog sydd yn yr awyrgylch. Mairan, yr hwn a ysgrifenodd draethawd cyfan er ceisio profi y syniad fod awyrgylch yr haul yn cyrhaedd hyd at awyrgylch y ddaear, a'i fod yn cael ei yru rywfodd tua'r pegynau (ond pa fodd, nid ydyw yn ymddangos yn eglur), a ddywedai mai dyna sydd yn achosi yr ymddangosiad y sylwir arno. Euler a dybiai ei fod yn dyfod o ryw gyfran o'r awyrgylch uchaf, a'i fod yn cael ei yru o'i safle naturiol gan gynnhyrfiad goleuni. Beccaria, Canton, Franklin, ac eraill gyda hwynt, a briodolant y goleuni gogleddol i'r hylif gwefrol. Y mae Dr. Young yn sylwi fel y canlyn:—"Y mae y goleuni gogleddol, yn ddiammheu, i ryw fesur, yn ymddangosiad tynfaenol (*magnetical phenomenon*); a phe haiarn fuasai yr unig sylwedd sydd yn alluog i amlygu effeithiau y tynfaen, buasai yn canlyn y rhaid fod gronynau haiarnaidd yn bodoli yn rhanau uchaf yr awyrgylch. Fe allai fod y goleuni sydd yn gyffredin yn dilyn y goruchion tynfaenol hyn yn deilliaw o drydan; yr hyn a all fod yn achos uniongyrchol o'r cyfnewidiad yn nosbarthiad yr hylif tynfaenol cynnygiedig yn y niwloedd haiarnaidd y tybir eu bod yn nofio yn yr awyr." Ond y mae y dybiaeth hon am niwloedd haiarnaidd, pa fodd bynag, yn ymddangos yn un hollol ddychymygol; ac yn gymmaint ag nad haiarn ydyw yr unig sylwedd neu fater ag y mae dylanwad tynfaenol yn effeithio arno, ymddengys mai ar seiliau lled wan y gorphwysa y dyb hon. Er hyny, y mae o'r bron yn sicr fod yr achos o'r goleuni hwn yn dal cyssylltiad agos â thynfaeniaeth a thrydan. Mr. Canton a ystyriai fod y goleuni gogleddol yn cael ei achlysuro gan drosglwyddiad cyflym sylwedd trydanol, o gwmmwl llawn o drydan i un gwâg, yn ardaloedd uchaf yr awyrgylch; ac y mae yr arbrawfiadau a wnaed gan y gŵr hwn yn dangos yn eglur fod ymddangosiad y goleuni yn gyssylltiedig â, neu yn hytrach yn ddibynol ar, gyfansoddiad neillduol yr awyrgylch, gyda golwg ar ei bwysau, neu y trydan fydd ynddo. Y maeyn dra thebyg fod y mater yn un y ceir o oleuni arno fel y treigla amser yn mlaen ac y bydd sylwadaeth yn cynnyddu. Er mai y dybiaeth wefrol a fabwysiedir yn gyffredin gan wyddonwyr hyd yma, teg ydyw crybwyll yr un a gynnygiwyd yn ddiweddar gan Dr. Zehfuss, yr hwn a briodola yr ymddangosiad i gymmylau o lwch haiarn, yr hwn a ennynir i ystâd oleuedig trwy ymrwbiad â'r awyr.

**GOOD, JOHN MASON**: physygwr, bardd, a llenor. Mab ydoedd efe i weinidog perthynol i'r Annibynwyr yn Epping, Essex. Ganwyd ef Mai 25ain, 1764. Addysgwyd ef adref, ac efe a astudiodd y Lladin, y Groeg, a'r Ffrangcaeg. Rhwymwyd ef yn egwyddorwas gyda meddyg yn Gosport, pan oedd yn bymtheg oed, a bu wedi hyny am ychydig yn astudio yn meddygdy Guy; ac yn 1784, dechreuodd ymarfer fel meddyg yn Sudbury. Ni chafodd nemawr o gefnogaeth yno; yr hyn a barodd iddo symmud i Lundain yn 1793, lle y disgwyliai ennill ei fywoliaeth yn benaf fel llenor. Araf iawn y deuai yn mlaen am gryn amser; ond trwy ddyfal-barhâd efe a lwyddodd: ac yn 1820 yr oedd wedi ei enwogi ei hun i'r fath raddau fel llenor a meddyg fel y cymmerodd y gradd o M. D. o Goleg Marischal, Aberdeen. O'r pryd hwnw, hyd adeg ei farwolaeth, yr hyn a ddigwyddodd yn Ionawr, 1827, yr oedd yn brysur hynod gyda'i alwedigaeth, yn gystal a chyda'i lafur agos yn mhob cangen o wyddor a llenyddiaeth.

Yr oedd Dr. Good yn ysgrifenwr dysgedig ar amrywiol faterion, ac ysgrifenodd lawer iawn. Yn wir y mae ei weithiau mor liosog fel yr elai rhestr o honynt â llawer o ofod; ond gellir enwi ei "*Book of Nature*," mewn tair cyfrol; "*The Study of Medicine*," yn bedair cyfrol; "*Memoirs of Dr. Geddes*," &c. Cyfieithodd hefyd lyfrau



Digitized by Google

Iob, Caniad Solomon, a'r Diarhebion. Y mae helaethrwydd ac amrywiaeth ei weithiau yn ddigon i arwyddo eu nodwedd; ac y maent yn dangos y diwydrwydd mwyaf yn yr awdwr. Yr oedd yn alluog iawn i ddysgu ieithoedd; ac yn medru llawer o ieithoedd diweddar, yn gystal a hen. Ystyrir ei adolygiad ar y ddadl ynghylch awduriaeth "*Junius*" yn un o'r darnau goreu mewn beirniadaeth lenyddol mewn amseroedd diweddar.

**GOODMAN, GABRIEL, D. D.**: deon mynachlog Westminster. Ganwyd y gŵr hwn yn Rhuthyn, yn y fl. 1528. Enw ei dad oedd Edward Goodman, sidanwr wrth ei alwedigaeth; ac enw ei fam oedd Siscly, yr hon oedd ferch i Edward Thelwall, o Blas-y-ward, ger llaw yr un dref. Ymddengys fod ei dad yn enedigol o Landyrnog. Cafodd Gabriel Goodman addysg dda pan yn ieuangc; ac mewn amser priodol, aeth i Goleg St. Ioan, Caergrawnt, a graddiodd yn M. A. Wedi ei ymadawiad o'r coleg, aeth yn gaplan i deulu Syr W. Cecil, ac yn athraw i'w fab ef. Dyrchafwyd Cecil i Dŷ yr Arglwyddi gan y frenhines Elizabeth, dan y teitl o Arglwydd Burleigh; a phennodwyd ef yn ysgrifenydd y wladwriaeth, ac yn ganghellydd Caergrawnt. Medrodd ei noddwr, Burleigh, gael y pennodiad o gôrberiglor yn eglwys gadeiriol St. Paul iddo, a gwnaed ef yn ddeon Westminster yn 1561. Graddiwyd ef hefyd yn D.D. Yr oedd yn Brotestant selog, ac yn un o'r rhai blaenaf i arwyddo y 'namyn un deugain erthygl,' yn 1562. Achwynid arno weithiau ei fod yn lled lym yn nghyflawniad ei ddyledswyddau. Parodd ei sêl dros Uchel Lys y Dirprwyaeth iddo golli y pennodiad o fod yn esgob Llundain yn 1570, ac yn esgob Norwich yn 1575, er fod yr archesgob Parker yn ei gyflwyno i sylw y frenhines fel un cymmhwys. Daeth allan gyfieithiad newydd o'r Beibl Saesneg; a dywedir mai gwaith y deon Goodman oedd y cyfieithiad o'r Epistol cyntaf at y Corinthiaid. Gelwid ef yn "gyfieithiad yr esgobion," am fod wyth o esgobion yn mysg y cyfieithwyr. Er fod Goodman, dybygid, yn agos iawn a chael ei bennodi yn esgob amryw weithiau, yr oedd rhywbeth yn barhaus yn sefyll ar y ffordd iddo gael ei ddyrchafu.

Treuliodd ei fywyd yn mron i gyd yn Lloegr; etto, yr oedd yn wladgarwr twymngalon, ac yn barod i wneyd yr holl ddaioni a allai yn mhob modd i wlad ei enedigaeth. Bu o gryn gynnorthwy i'r Dr. Morgan pan oedd y gŵr dysgedig hwnw yn Llundain yn dwyn allan ei gyfieithiad Cymraeg o'r Ysgrythyrau. A chafodd Dr. Morgan brofi o'i lettygarwch haelionus am flwyddyn gyfan y pryd hwnw, gan ei fod yn gwneyd ei gartref yn ei dŷ. Sefydlodd elusendai yn ei blwyf genedigol yn Rhuthyn i ddeuddeg o bobl dlodion, a gwaddolodd hwynt. Un o'r telerau ar ba rai y derbynid personau i mewn iddynt oedd, nad oeddynt i gardota o ddrws i ddrws. Hefyd, rhaid iddynt fedru y Credo, y Deng Air Deddf, a Gweddi yr Arglwydd, ynghyd â myned i'r eglwys bob Sabbath i'r addoliad cyhoeddus. Llwyddodd y deon hefyd i gael gan y goron ddefnyddio cyllid un o gôrberigloriaethau cydgyfranogol Llanelidan, un o'r plwyfydd cyfagos, er sefydlu ysgol ramadegol yn Rhuthyn; a bod yr ysgol hon i fod yn rhad i ieuengctyd y ddau blwyf, ac i dderbyn eraill i mewn drwy dalu am eu haddysg. Bu yr ysgol hon am oesoedd, ac y mae yn parhau etto, yn ysgol ragorol; ac addysgwyd rhai o enwogion Cymru ynddi, y naill dro ar ol y llall.

Daeth bywyd Dr. Goodman i ben ar y 27ain o Fehefin, 1600, yn 72ain mlwydd oed, a chladdwyd ef yn Mynachlog Westminster, lle y mae cofadail i'w goffadwriaeth.

**GOODWIN, THOMAS, D.D.**: duwinydd Puritanaidd enwog. Mab ydoedd i Richard a Catherine Goodwin, a ganwyd ef y 5ed o Hydref, 1600, yn mhentref Rollesby, ger llaw Yarmouth. Er nad oes genym wybodaeth sicr fod rhieni Goodwin yn perthyn yn addefedig i'r blaid Buritanaidd, etto y mae yn amlwg eu bod wedi rhoi addysg grefyddol dda i'w mab, ac o'i febyd wedi ei wneyd yn gydnabyddus â'r Ysgrythyrau; ac yn ol arfer Puritaniaid yr oes hono, wedi ei fwriadu er pan oedd yn ieuangc i weinidogaeth y Gair. Ymddengys mai plentyn o gyfansoddiad egwan oedd efe, a bod hyny yn achos o bryder mawr i'w rieni. Yr oedd, yn ol ei dystiolaeth ei hun, yn profi argyhoeddiadau ac argraphiadau crefyddol yn foreu iawn; ac y mae yn eithaf amlwg ei fod yn meddwl llawer o'r argraphiadau boreuol hyny, fel y gellir casglu oddi wrth y modd y cyfeiriai atynt ar ol hyny; a diau fod yr Arglwydd, drwy yr hyn a deimlai y pryd hwnw, yn ei barotoi ar gyfer bod yn ddefnyddiol drosto yn nghyfnodau olynol ei oes. Diogelodd ei rieni iddo yr addysg glasurol oreu a ellid gael yn ysgolion y gymmydogaeth; a chyn ei fod wedi gadael ei dair ar ddeg, aeth i Goleg Crist, Caergrawnt:—a chyfeiria Goodwin ato ei hun fel y "lleiaf" oedd yn y brifysgol. Yr oedd llawer o bleidwyr Puritaniaeth y pryd hwnw yn y dref a'r brifysgol, a gelwid Caergrawnt yn "nythle Puritaniaeth." Dywed Goodwin fod yr "holl dref wedi ei llenwi â chlod gweinidogaeth Mr. Perkins." Yr oedd y pregethwr enwog hwnw wedi bod yn nechreu ei oes yn byw bywyd afradlawn, ond wedi hyny trodd yn un o bregethwyr mwyaf tanllyd a llwyddiannus ei ddydd; ac er nad oedd y gŵr da yn fyw pan yr aeth Goodwin i'r brifysgol, yr oedd dylanwad ei bregethau yn aros. Yr oedd ei olynydd, Mr. Paul Baines, yn ddyn o gyffelyb ysbryd iddo. Am athraw Goodwin, sef William Power, ychydig a wyddys; ac nid ydyw yr ychydig hyny yn ffafriol iawn iddo. Ammheuid ef gan lawer o fod yn Jesuit, dan gochl. Cyfranogodd Goodwin o'r sacrament o Swper yr Arglwydd yn bedair ar ddeg oed. Collodd gryn lawer o'i deimladau crefyddol ar ol hyn; ac ymddengys mai lled ddiofal ydoedd am y chwe blynedd dilynol y bu yn y coleg. Ar adegau, yr oedd yr hen deimladau crefyddol a deimlai pan yn blentyn yn cael eu dihuno. Pan yn un ar bymtheg oed, cymmerodd ei radd o B.A., a daeth yn hynod am ei ddysg, o'i gymmharu âg eraill oedd yn hynach nag ef yn y brifysgol. Symmudodd i Ysgoldy Catherine yn 1619; ond pa ham y gwnaeth efe hyny, nid yw yn hysbys, o herwydd yr oedd Coleg Crist yn uwch ei gymmeriad am ddysg, ac yn lliosocach o ran nifer ei ysgolheigion.

Yn y fl. 1620, etholwyd Goodwin yn gymmrawd o Ysgoldy Catherine; a blwyddyn i'w chofio oedd hon yn ei fywyd. Trodd yn ddamweiniol i Eglwys St. Edmund, Hydref 2il, lle y pregethai Dr. Bainbrigge oddi ar *Luc* xix. 41, 42. Tynodd y sylwadau cyntaf a wnaeth y pregethwr ei sylw; a chyn iddo orphen, yr oedd yr effaith arno yn gyfryw na theimlodd o'r blaen ei gyffelyb. Ac wrth adael y lle, dywedai wrth

Digitized by Google

gydymaith, ei fod yn "gobeithio y byddai yn well o gael y bregeth hono cyhyd ag y byddai efe byw." Dygwyd ei holl bechodau i'w gôf; a theimlai fel pe buasai llaw Duw wedi ymaflyd ynddo. Yr oedd ei argyhoeddiad yn ddwfn, a'i benderfyniad i newid ei fuchedd yn gryf. Ond bu am amser heb gael ei ddwyn i oleuni llawn am ei gyflwr, a mwynhau y tangnefedd sydd uwch law pob deall. Wedi hyn, ymunodd â'r blaid Buritanaidd yn y brifysgol, ac ystyrid ef yn un o'r rhai mwyaf selog dros ddaliadau y blaid. Ar farwolaeth Dr. Hills, yn 1626, llwyddodd i gael y pennodiad o athraw Ysgoldy Catherine i Dr. Sibbes. Yn 1625, trwyddedwyd Goodwin yn bregethwr i'r brifysgol; ac ar farwolaeth Dr. Preston, pennodwyd ef yn ddarlithydd yn Eglwys y Drindod; ac ymroddodd yntau yn selog i gyflawni ei ddyledswyddau er lles y dinasyddion a'r ysgolheigion lliosog a ddeuent i wrando arno. Yn 1632, cafodd ficeriaeth yr un eglwys gan y brenin. Yr oedd wedi derbyn ei B.D. yn 1630. Un o'r pethau cyntaf a wnaeth Laud ar ol cael yr archesgobaeth ydoedd gorchymyn i'r esgobion i wylio yn fanwl ar y darlithwyr, ac i ddanfon iddo ef adroddiadau blynyddol yn eu cylch. Yr oedd White, sef esgob Ely, yn un o bleidwyr mwyaf selog yr archesgob. Gan ei fod yn cael ei flino gan ymyriad y gŵr hwn, rhoddodd Goodwin i fyny y swydd o ddarlithydd Eglwys y Drindod yn 1634, yn gystal a chymmrodoriaeth Ysgoldy Catherine, a symmudodd o Gaergrawnt. Ychydig a wyddys am dano ar ol hyn am ysbaid y pum mlynedd nesaf, ond ei fod yn y cyfamser wedi priodi âg Elizabeth, merch yr henadur Prescot, o Lundain, yn 1638. Cyhuddir ef gan Baillie o ledaenu opiniynau yr Annibynwyr cyn myned i Holland; yr hyn sydd yn ei wneyd yn debygol ei fod y pryd hwnw yn astudio llywodraeth eglwysig, ac yn gohebu â gweinidogion Annibynol Holland a Lloegr Newydd, ac yn pregethu fel y byddai amgylchiadau yn caniatau i gynnulleidfaoedd o Ymwahanwyr, ac yn fynych yn rhoddi ei hun yn agored i ddirwy a charchar. Aeth Goodwin drosodd i Holland—lle y derbyniodd cynnifer o Henaduriaethwyr ac Annibynwyr y wlad hon nodded yn amser yr erledigaeth dan Laud. Y lle cyntaf yr ymsefydlodd ynddo oedd Amsterdam; ac yno yr oedd yn cael cyfle mynych i gyfeillachu â Nye, Burroughs, Bridge, a Sympson, y rhai a fuont gydag ef wedi hyny yn cydeistedd yn Nghymmanfa Westminster. Symmudodd Goodwin i Anrheim, yn Guelderland—lle yr oedd yn flaenorol i hyny ddeg neu ddeuddeg o deuluoedd Saesnig yn preswylio, y rhai a gawsent ganiatâd yr ynadon i ymgynnull i gynnal addoliad crefyddol rheolaidd. Tua chant oedd rhif y gynnulleidfa, ac yr oedd Nye wedi bod er's peth amser yn weinidog iddynt. Ymddengys i Goodwin a Nye, y pryd hwn, gario yn mlaen eu hymchwiliadau o berthynas i drefn a dysgyblaeth eglwysig, nes ymsefydlu yn y farn a amddiffynir mor alluog ganddynt yn yr "*Apologetical Narration.*" Dywedant yn y gwaith hwnw—"Genym ni, o bawb, y mae y rheswm mwyaf i fod yn onest i argyhoeddiad ein cydwybodau gyda golwg ar yr hyn a gredir genym; gan mai er mwyn ein cydwybodau yr ydym wedi ein hamddifadu ar unwaith o ba bethau bynag oedd yn anwyl genym... ......Yr oll oedd genym i'w wneuthur oedd yn unig ystyried pa fodd i addoli Duw yn gymmeradwy, a pha beth oedd yn fwyaf cydunol â'i Air ef."

Tra y bu Goodwin yn Arnheim, cododd anghydweledia pwysig yn yr eglwys Annibynol yn Rotterdam rhwng y ddau weinidog—sef, Bridge a Ward—ar hawliau aelodau cyffredin i lefaru yn yr eglwysi. Aeth Goodwin a Nye yno, a llwyddasant i adferu heddwch i'r eglwys. Tra yr oedd Goodwin yn Holland yn astudio egwyddorion ac ymarferiadau yr eglwys apostolaidd, yr oedd cyfnewidiadau pwysig yn cymmeryd lle yn Lloegr. Dygodd 'y senedd hir' gyhuddiadau yn erbyn Laud, a gwahoddwyd pawb a aethant o'u gwlad o blegid eu hanghydffurfiaeth i ddychwelyd yma yn ol. Cymmerodd Goodwin fantais ar y cyfleusdra, ac ymsefydlodd yn Llundain, a chasglodd eglwys o Annibynwyr yn mhlwyf Dunstan-in-the-East. Ni wyddys yn mha le yr oedd ei gapel; ond bernir ei fod yn rhywle yn nghymmydogaeth Thames street. Bu yn gweinidogaethu yn llwyddiannus a chysurus yno am o ddeutu deng mlynedd. Yn 1650, etholwyd ef yn llywydd Coleg Magdalen, Rhydychain. Yn ystod tymmor ei weinidogaeth yn Llundain, yr oedd wedi myned yn enwog fel pregethwr. Bu yn pregethu o flaen Tŷ y Cyffredin yn y fl. 1642. Pennodwyd ef yn aelod o Gymmanfa Westminster yn 1643; a chydag ef yr oedd Nye, Bridge, Burroughs, a Sympson, y rhai a adwaenid yn gyffredin dan yr enw "y Brodyr Ymneillduol," am eu bod yn wrthwynebol i'r unffurfiaeth hwnw o ddysgyblaeth henaduriaethol y dymunai y Gymmanfa ei sefydlu drwy yr holl wlad. Ymddengys mai Goodwin oedd eu harweinydd. Yr oedd Nye yn siaradwr cryf, Burroughs yn ymresymwr craff, a Bridge yn llefarwr deniadol; ond Goodwin oedd eu nerth mawr. Yn ol tystiolaeth ei wrthwynebwyr, yr oedd ei allu a'i ddylanwad yn cael eu teimlo yn fawr yn y gymmanfa. Ar y 7fed o Fehefin, 1649—dydd o ddiolchgarwch am ddarostyngiad y gwrthryfel—fe bregethodd Goodwin a Dr. Owen o flaen Oliver Cromwell a'r senedd. Yn y mis Ionawr canlynol y pennodwyd ef yn llywydd Coleg Magdalen; ac nid oes dadl nad oedd ei ddysg, ei allu, ei dduwioldeb, a'i ddiwydrwydd yn ei lawn gymmhwyso i'r gwaith a ofynid ganddo. Un o'r prif gymmhellion a barodd iddo dderbyn y swydd hon oedd ei hoffder i fod yn bob cynnorthwy a allai i ddynion ieuaingc duwiol yn eu hefrydiau ar gyfer y weinidogaeth. Anhawdd ganddo oedd tori cyssylltiad â'i eglwys. Tair blynedd cyn hyny, yr oedd Mr. Cotton, o Boston, wedi ei wahodd i lafurio yn Lloegr Newydd; ac ystyriai hon fel galwad Rhagluniaeth, a diogelodd long i'w gario yno. Yr oedd wedi myned â llawer o'i lyfrau i'r llestr; ond ar daer ddymuniad ei eglwys a'i gyfeillion arosodd yn y wlad hon. Yr oedd yn foddhâd mawr iddo fod pregethwr mor lwyddiannus a Mr. Thomas Harrison yn dyfod yn olynydd iddo. Yr oedd Goodwin yn weddw er's amser; ac er ei fod yn hanner cant oed, dewisodd eneth ieuangc ddwy ar bymtheg oed, o'r enw Mary Hammond, o deulu hynafol ac anrhydeddus yn swydd Amwythig, i fod yn gydymaith ei fywyd o hyny allan—yr hon a wnaeth wraig gall a rhagorol iddo. Ffurfiodd Eglwys Gynnulleidfaol yn Rhydychain, o'r hon yr oedd lliaws o'r colegwyr enwocaf a'r dinasyddion blaenaf yn aelodau; ac yn eu mysg gellir enwi Thankful Owen, llywydd St. Ioan; Mr. Howell, meistr Coleg yr Iesu; Theophilus Gale, cymmrawd o Goleg Magdalen; Stephen Charnock, cymmrawd o'r Coleg Newydd; Blower,

Digitized by Google

cymmrawd o Goleg Magdalen; Terry, cymmrawd o Goleg y Brifysgol; a Mr. Moses Lowman, yr esboniwr rhagorol ar Lyfr y Datguddiad; a llawer eraill, a ddaethant wedi hyny yn enwog am eu dysg a'u duwioldeb. Yr oedd un aelod yn Ngholeg Magdalen, y gallesid disgwyl, wrth ystyried ei egwyddorion a'i dduwioldeb, y buasai yn aelod o'r eglwys yr oedd athraw y coleg yn weinidog arni; sef, John Howe. Un diwrnod, gofynodd Goodwin i Howe, pa ham yr ymgadwai o'u cymmundeb. Dywedodd yntau mai yr unig reswm dros hyny oedd, am fod yr aelodau yn gosod gormod o bwys, yn ei feddwl ef, ar neillduolion arbenig mewn llywodraeth eglwysig. Cofleidiodd Goodwin ef yn serchog, a chaniataodd iddo ymuno â'r gymdeithas ar seiliau eangach. Y mae hwn yn un prawf allan o lawer nad oedd Goodwin mor sectaraidd ei ysbryd ag y myn rhai ei osod allan. Er mor benderfynol oedd ei olygiadau ar Annibyniaeth, yr oedd, mewn ymarferiad, fe allai, yn llai sectarol na rhai o'r Annibynwyr boreuaf. Graddiwyd ef yn D. D. yn 1553.

Yn ystod tymmor llwyddiant yr Annibynwyr, o dan amddiffyniad Cromwell, teimlai Dr. Goodwin, ac eraill, mai dymunol fuasai iddynt gyhoeddi dadganiad o'u ffydd a'u dysgyblaeth, i'r dyben o ryddhau eu hunain oddi wrth rai cyhuddiadau a ddygid i'w herbyn. Ar y 29ain o Fedi, 1658, ymgyfarfu dau cant o genhadon, yn cynnrychioli cant ac ugain o eglwysi, a phennodasant Goodwin, Owen, Nye, Bridge, Caryl, a Greenhill, i dynu allan fath o gyffes o'u ffydd, a'u trefniadau. Gosodwyd y gyffes hon ger bron y cynnulliad a elwir yn gynnadledd Savoy, a gynaliwyd ar y 12fed o Hydref, a mabwysiadwyd hi yn unfrydol; a chyhoeddwyd hi fel dadganiad o ffydd a threfn yr eglwysi Cynnulleidfaol yn Mhrydain. Ar adferiad y frenhiniaeth, daeth gwaith Goodwin yn Rhydychain i ben. Gadawodd yntau y brifysgol yn 1660; ac yr oedd yn ddwfn yn serch, ac yn uchel yn nghyfrif pawb a'i hadwaenent, ac a fuont mewn cyssylltiad âg ef. Aeth o Rydychain i Lundain; ac aeth llawer o aelodau ei eglwys gydag ef yno, ac addolent mewn rhyw fan nad ydyw yn adnabyddus yn awr. Ond o amser y chwyldroad yn 1688, y mae yr eglwys hono wedi arfer ymgynnull yn Fetter Lane. O hyny allan, yr oedd bywyd Goodwin yn un tawel. Nid ymyrai â gwleidyddiaeth; ond ymroddodd yn hollol i astudio duwinyddiaeth, ac i gyflawni ei ddyledswyddau gweinidogaethol. Yn amser tân mawr Llundain, yn 1666, yr oedd ei dŷ mewn perygl. Gan ei fod yn bryderus iawn ynghylch ei lyfrau, efe a symmudodd gyfran fawr o honynt i dŷ cyfaill, lle y tybiai y buasent yn ddiogel; ond ymledodd y tân i'r cyfeiriad hwnw, a distrywiwyd hwynt, tra yr arbedwyd y rhai oeddynt yn ei dŷ ef ei hun. Teimlodd Goodwin y golled hon yn fawr. Ar ol hyn, mor bell ag y goddefai ei ddyledswyddau bugeiliol iddo, efe a ymroddodd i ddilyn ei efrydiau duwinyddol yn mron yn hollol, a chyfansoddodd amryw o'r llyfrau a gyhoeddwyd ar ol ei farwolaeth ef. Cynnorthwywyd ef yn nghyflawniad ei ddyledswyddau gweinidogaethol gan ei gyfaill ffyddlawn, Thankful Owen. Pan yn y bedwar ugeinfed flwydd o'i oedran, cafodd dwymyn dost. Teimlai fod amser ei ymddattodiad yn neshau; ond yr oedd, nid yn unig yn teimlo yn dawel, eithr hefyd yn mwynhau yn helaeth o gysuron crefydd. Yr oedd ar adegau yn llawn o orfoledd a llawenydd Y geiriau diweddaf a lefarodd oeddynt: "Yn awr byddaf yn dragywyddol gyda'r Arglwydd:" —ac felly yr hunodd yn yr Iesu, Chwefror 23ain, 1679, yn yr 80ain flwydd o'i oedran; a chladdwyd ef yn nghladdfa Bunhill Fields.

Nid oes angen i ni ddywedyd nemawr am gymmeriad ac ysgrifeniadau y gŵr enwog hwn. Mewn oes a dadleuon chwerw, ac yntau i raddau pell yn cymmeryd rhan ynddynt, o'r braidd y gellir enwi un a fu mor lwyddiannus i gadw parch ei holl wrthwynebwyr. Yn briodol y dywedodd ei fab am dano, fod ei "addfwynder, ei ddiffuantrwydd, ei gariad helaeth at bob dynion da o olygiadau gwahanol, yn ennill serchiadau y rhai oeddynt yn fwyaf gwrthwynebus iddo." Y dynion sydd wedi llafurio fwyaf i gael gafael yn y gwirionedd ydynt yn fynych y rhai mwyaf penderfynol yn eu hargyhoeddiadau eu hunain, a'r rhai mwyaf haelfrydig yn eu barn ar olygiadau dynion eraill. Cyhoeddwyd y rhan fwyaf o'i ysgrifeniadau ar ol ei farwolaeth ef; yr hyn, wrth gwrs, oedd yn anfantais fawr i'w cael allan yn y modd mwyaf perffaith. Yr oedd yr argraphiad unplyg, a ddaeth allan mewn pum cyfrol, yn llawn iawn o wallau argraphyddol, ac yn hynod anghywir mewn llawer o bethau. Ond y mae gweithiau y duwinydd mawr a rhagorol hwn yn awr wedi eu cyhoeddi mewn deuddeg o gyfrolau hardd, gan James Nichol, Edinburgh; ac y mae hyn wedi gwneyd llawer i godi ei enw a'i ysgrifeniadau. Ystyrir ef, gydag Owen, Howe, Baxter, a Charnock, y penaf o'r duwinyddion Puritanaidd Ymneillduol.

GREY, YR ARGLWYDDES JANE, yr hon a anwyd yn 1537, yn Bradgate, yn sir Leicester. Yr oedd hi yn tarddu o waed brenhinol Lloegr, gan ei bod yn or-wyres i Harri VII. Merch hynaf Henry Grey, Ardalydd Dorset (wedi hyny y Duc o Suffolk), a Frances Brandon, ydoedd hi. Nid oedd iddynt fab. Yr oedd Jane Grey yn nodedig er yn foreu am ei gallu i ddysgu. Dywedir ei bod yn medru chwareu amryw o offerynau cerdd, yn gallu siarad y Roeg, y Lladin, yr Italaeg, a'r Ffrangcaeg, ac hefyd yn deall yr Hebraeg, y Galdaeg, a'r Arabaeg. Dywed Roger Ascham ddarfod iddo unwaith ei goddiweddyd yn darllen "*Phædo*" Plato, tra yr oedd y teulu yn ymddifyru yn y parc.

Yr oedd ei phrydferthwch, addfwynder ei thymmer, ei duwioldeb, a'i thalentau amrywiol, yn ei gwneuthur yn hoff gan bawb, oddi eithr ei rhieni; ond er llymed oedd eu hymddygiadau hwy tuag ati, yr oedd hi yn eu caru hwynt yn fawr. Yn 1551, gwnaed ei thad yn Duc o Suffolk, ac yr oedd yr Arglwyddes Jane Grey y pryd hwnw yn byw cryn lawer yn y llys. A darfu i'r uchelfrydig Duc o Northumberland gynllunio priodas rhyngddi hi a'i fab, Guilford Dudley, yr hon a gymmerodd le ar y 25ain o fis Mai, 1553. Pan yr oedd Edward VI. yn glaf, annogwyd ef i ddiystyru hawliau ei chwiorydd, Mari ac Elizabeth, a'i gyfnither, Mari o Ysgotland, ac i adael ei goron i'r Arglwyddes Jane Grey. Ac wedi marw Edward, coronwyd hi yn frenhines gyda rhwysg mawr; ond dylid dywedyd ei bod hi ei hun yn anfoddlawn iawn i dderbyn yr anrhydedd. Ni chafodd y frenhines, pa fodd bynag, nemawr, gefnogaeth gan y wlad; canys credid nad oedd ganddi ddim hawl i'r goron. Cafodd y Dywysoges Mari, gan hyny, oruchafiaeth ar ei gwrthwynebwyr yn bur fuan. Yna dienyddiwyd y Duc o Northumberland, a

Digitized by Google

charcharwyd yr Arglwyddes Jane a'i gŵr yn y Twr. Cyn hir, penderfynodd y cynghor eu rhoi i farwolaeth: felly, dienyddiwyd hwynt, y naill ar ol y llall, ar yr un ysgaffald, Chwefror 12fed, 1554. Y mae ei hysgrifeniadau yn cynnwys llythyrau yn Lladin a Saesneg, traethodau defosiynol, &c., &c. Cyhoeddwyd hwynt yn un gyfrol yn 1825, gan Syr N. H. Nicolas.

GRIFFITHS, DAVID, Bethel: pregethwr tra adnabyddus yn mhlith yr Annibynwyr trwy Ogledd a Deheudir Cymru. Ganwyd ef yn Llanegwad, swydd Gaerfyrddin, o ddeutu y fl. 1792. Aelodau yn eglwys Pant-teg oedd ei rieni, ac yno hefyd y derbyniwyd yntau yn aelod pan oedd yn bur ieuangc. Yn ngholeg Caerfyrddin, pan oedd y sefydliad hwnw o dan ofal y Parch. D. Peters, y derbyniodd ei addysg athrofaol. Pan yr oedd efe ar derfyn tymmor ei efrydiaeth, digwyddai fod y Parch. J. Griffiths, Caernarfon, mewn angen cynnorthwywr. Cymmeradwywyd David Griffiths iddo, yr hwn a dalodd ymweliad â sir Gaernarfon, ac a bregethodd y Sabbath cyntaf yn Hydref, 1814, yn Nghaernarfon a Bethel. Yn mhen tua blwyddyn wedi hyny, ordeiniwyd ef yn weinidog yn y lle diweddaf. Nid oedd yn Bethel ar y pryd ond tri-ar-ddeg o aelodau, a chyda hyny yr oedd dyled ar y capel. Yr oedd yno gynnulleidfa dda a chynnyddol, pa fodd bynag, a'r bobl yn ymlyngar iawn wrth y gweinidog ieuangc. Cyn hir ymunodd Mr. Griffiths mewn priodas gyda Miss Ellen Williams, unig ferch i amaethwr parchus o'r gymmydogaeth, yr hwn oedd yn lled gefnog o ran ei amgylchiadau. Ymgodai y gweinidog ieuangc yn feunyddiol mewn ffafr a phoblogrwydd, a theithiai lawer ar ei farch i wasanaethu achos y Gwaredwr mewn lleoedd gweiniaid. Bu yn foddion i sylfaenu amryw eglwysi, ac i adeiladu amryw gapeli. Teithiai yn achlysurol i wahanol siroedd; ac yr oedd ei ddoniau pregethwrol, ei lais soniarus, a gwresogrwydd ei ysbryd, yn tynu lliaws o wrandawyr yn mhob man lle yr elai. Parhaodd ei weinidogaeth yn Bethel am fwy na hanner can mlynedd; ac yn nghwrs yr amser hwn, cymmerodd llawer o gyfnewidiadau le ynghylch ei weinidogaeth, a rhai o honynt o nodwedd tra dymunol. Helaethwyd yr addoldy yn Bethel amryw weithiau. Gwelodd amryw ddiwygiadau grymus; ac yn enwedig yn 1840, a thrachefn yn niwedd y fl. 1859. Neillduwyd David Griffiths, ei fab hynaf, yn gydweinidog âg ef yn 1849.

Yr oedd Mr. Griffiths, pan yn ddyn ieuangc, yn bregethwr doniol, a thra derbyniol; a chadwodd ei boblogrwydd a'i barch hyd y diwedd. Yr oedd ei berson hardd, ei lais peroriaethus, ei arddull syml, ynghyd â'i ddifrifwch, ei sêl, a'i deimlad toddedig, yn dylanwadu yn fawr ar ei wrandawyr; ac yr oedd effeithiau grymus ar brydiau yn cydfyned â'i bregethau. Ei weddïau oeddynt hynod a thra toddedig, nes peri i lawer a'i gwrandawent golli dagrau wrth ei wrandaw yn dadleu â'r Arglwydd. Cymmerodd arno ei hun feichiau trymion fel ymddiriedolwr mewn cyssylltiad âg adeiladu capeli yn Bethel, Siloh, Moriah, Pentir, Llanrug, Waenfawr, Pen-y-groes, ac Ebenezer, &c. Yn mlynyddoedd olaf ei oes, gan ei fod wedi ei ryddhau oddi wrth ei ofal gweinidogaethol yn Bethel, o herwydd fod ei ddau fab, sef David a Robert Griffiths, wedi cymmeryd ei le yn ei gylch gweinidogaethol, yr oedd yn gallu myned yma a thraw i bregethu fel y byddai galw am dano; ac yr oedd yn pregethu gyda gwres, ac yn cael derbyniad mawr. Y lle diweddaf y bu efe yn gwasanaethu ynddo oedd yn nghyfarfod yr Iwbili, a gynnaliwyd yn hen gapel Llanberis, lle y pregethodd gydag effeithiolrwydd neillduol. Bu farw ar y 27ain o Chwefror, 1873, yn llawn 80ain mlwydd oed. Hebryngwyd ei weddillion marwol i'w fedd, yn y fynwent yn ymyl y capel y bu yn gweinidogaethu cyhyd ynddo gyda'r fath lwyddiant a chymmeradwyaeth, gan dyrfa na welwyd yn y parth hwnw o'r wlad braidd un amser ei chyffelyb am ei lliosogrwydd; ac yn mhlith y rhai oedd yn bresennol, yr oedd dros drigain o weinidogion yr efengyl o wahanol enwadau.

GRIFFITHS, DANIEL, Castellnedd: un o'r gweinidogion mwyaf poblogaidd yn mysg yr Annibynwyr yn ei ddydd yn Neheudir Cymru. Ganwyd ef yn mhlwyf Llanilltyd, yn Nghwmnedd, yn y flwyddyn 1798. Ei rieni oeddynt William ac Eleanor Griffiths; ac ymddengys fod ei hynafiaid wedi bod yn preswylio yn yr ardal er's rhai cenedlaethau. Saer wrth ei alwedigaeth oedd ei dad; ac yr oedd ei dad a'i fam yn proffesu crefydd, a'i fam yn nodedig am ei duwioldeb. Daniel oedd yr ieuangaf o chwech o blant. Bu farw ei dad pan yr oedd efe yn dra ieuangc; ond yr oedd ei frawd hynaf yn ofalus iawn o hono: ac o blegid ei fod mor wanaidd ei iechyd, yr oedd ei fam yn pryderu llawer yn ei gylch. Blinid, ef pan yn ieuangc, gan ddiffyg treuliad, ac ni chafodd waredigaeth hollol oddi wrth hyny ar hyd ei oes. Mynychai yr Ysgol Sabbothol yn Melin-y-cwrt pan yn ieuangc, ac yr oedd yn hynod o fedrus mewn dysgu y Beibl allan. Adroddai bennodau lawer hefyd o hono pan yn fachgenyn, sef mewn oedfaon o flaen y pregethau. Bu yn ddeiliad argraphiadau crefyddol pan yn ieuangc iawn, er nad yw yn ymddangos ei fod wedi ymuno yn ffurfiol â'r eglwys yn Melin-y-cwrt nes oedd yn un neu ddwy ar bymtheg oed. Ac yn fuan, daeth yn amlwg fod ei ddawn gweddi yn tynu sylw neillduol; ac yr oedd ei hyawdledd mawr, a'i lais peraidd, yn codi disgwyliadau mawrion yn y rhai a'i hadwaenent. I ddysgu y gelfyddyd o saer badau y rhoddwyd ef gan ei frawd, a bu yn gweithio am amser gyda'r gelfyddyd hono. Ni wyddom yn fanwl pa bryd y dechreuodd bregethu; ond yr ydys yn casglu, gan ei fod yn pregethu mewn cymmanfa yn y Groeswen cyn bod yn ddwy ar hugain oed, ei fod wedi dechreu yn lled foreu. Aeth i'r ysgol at Mr. Howells, o Baran, lle y bu am ryw gymmaint; ond y mae yn ymddangos mai ychydig o amser a gaffai i ymroddi at waith yr ysgol, gan fod llawer o alw arno i bregethu i'r naill fan a'r llall, ac i holi ysgolion, at yr hyn yr oedd ganddo ddawn arbenig.

Aeth i athrofa y Neuaddlwyd yn 1820, yr hon oedd y pryd hwnw dan ofal y diweddar Ddoctor Phillips. Yn fuan ar ol mynediad Mr. Griffiths i'r athrofa, torodd diwygiad allan yn y Neuaddlwyd un boreu Sabbath pan oedd Dr. Phillips yn pregethu; yr hyn fu yn achlysur i danio ysbryd, ac i gynnhyrfu doniau poblogaidd gwrthddrych ein sylwadau i raddau anghyffredin. Gan fod y diwygiad wedi ymdaenu yn y parthau hyny o'r wlad, daeth Daniel Griffiths yn adnabyddus iawn yn sir Aberteifi, yn neillduol mewn cyssylltiad âg ef. Yr oedd galw mawr am ei wasanaeth, a hyny yn mysg enwadau eraill heb law ei enwad ei hun. Tra yn aros yn y

Neuaddlwyd, yr oedd efe yn un o'r myfyrwyr mwyaf poblogaidd a fu yno erioed. Wedi bod o hono am ddwy flynedd yno, neillduwyd ef yn gydweinidog â Mr. Bowen yn Maes-yr-haf a Melin-y-cwrt, ei fam eglwys, yn Chwefror, 1823. Ymaflodd yn ei waith o ddifrif, ac ymdaflodd i bob rhan o hono â'i holl egni; a bu yn foddion i ddwyn bywyd newydd i mewn i'r Ysgol Sabbothol, y cyfeillachau, y cyfarfodydd gweddi, y canu, &c. Pregethai dair gwaith, ac weithiau bedair gwaith, bob Sabbath; ac yn fynych bob nos drwy yr wythnos. Yr oedd galw mawr am dano hefyd i gyfarfodydd a chymmanfaoedd, yn mhell ac agos. Bu yn offeryn i godi yr achos crefyddol yn Nghastellnedd i sefyllfa lewyrchus. Ond yn nghanol ei lwyddiant a'i boblogrwydd, yn mhen dwy flynedd a hanner ar ol ei ymsefydliad yno, digwyddodd amgylchiad gofidus iawn, ag yr ydym yn rhwym o gyfeirio ato. Dygwyd cyhuddiad yn ei erbyn gan ferch ieuangc mai efe oedd tad ei phlentyn anghyfreithlawn, yr hyn a lwyr wadai yntau—a hyny yn y modd mwyaf penderfynol. Achlysurodd hyn derfysg mawr, gan fod rhai yn credu tystiolaeth y ferch ieuangc, ac eraill yr eiddo yntau. O dan yr amgylchiadau, barnwyd yn ddoeth iddo beidio a phregethu am dymmor, hyd nes y deuai rhyw oleuni ar y mater. I Felin-y-cwrt yr elai gan mwyaf yn yr adeg y bu heb bregethu; ac yn ystod yr amser hwn, yr oedd rhai yn parhau i feddwl ei fod yn euog, ond y rhan fwyaf yn credu yn ei ddiniweidrwydd; ac ar gymmhelliad rhai gweinidogion, ac eraill, efe a ddechreuodd bregethu, er nad oedd yr eglwys yn Maes-yr-haf yn foddlawn i hyny. Wedi iddo ail ddechreu pregethu yn Melin-y-cwrt, byddai llawer o Gastellnedd yn cyrchu yno i wrando; ac ar ol ymgynghori â rhai o'i gyfeillion oedd yn y weinidogaeth, elai yntau i'w tai hwythau i bregethu, yr hyn a barai fod y rhwyg rhyngddo a'r eglwys yn Maes-yr-haf yn myned yn fwy. Cymmerwyd hen *coach-house* yn Castellnedd o dan ardreth iddo i bregethu ynddo, yr hwn a wnaed yn lle cyfleus, a galwyd ef yn Soar. Bu agoriad ffurfiol arno, pryd yr oedd yn bresennol saith o weinidogion; a bu hyn yn achlysur o rwyg yn y cyfundeb. Ond yr oedd amser yn gwellhau pethau, a phleidwyr Mr. Griffiths yn lliosogi; ac yn nghymmanfa y tair sir, a gynnaliwyd yn Tai-hirion, yn 1827, gwnaed heddwch rhwng y pleidiau; a bu hyn yn derfyniad i'r helynt gofidus hwn. Gan fod Soar yn rhy fychan i gynnwys y bobl a ddeuent i wrandaw Mr. Griffiths, prynwyd tir i adeiladu capel eang arno at ei wasanaeth. Ymgododd yntau drachefn mewn poblogrwydd trwy y wlad yn mhob man, yn gystal ag yn nghylch ei weinidogaeth gartrefol; canys yr oedd galw mawr am ei wasanaeth yn mhell ac yn agos, a chyrchai tyrfaoedd i wrandaw arno yn mhob man. Nid oedd yn ddyn o gyfansoddiad cryf yn naturiol; a diammheuol fod yr helyntion a'i cyfarfu wedi effeithio yn niweidiol arno; ac yr oedd ei lafur yn fawr, gan ei fod yn ymhyfrydu yn y gwaith o bregethu, ac nid arbedai ei hun trwy wrthod ceisiadau am ei wasanaeth. Ymaflodd y darfodedigaeth ynddo, a bu yn dihoeni am dymmor yn ngafael yr afiechyd nychlyd hwnw; ond pan y daeth yr adeg iddo ymadael o'r byd, bu farw yn hollol dawel yn ymwynhâd o gysuron crefydd. Galwodd ei briod a'i ddeg plentyn at y gwely, a chusanodd hwynt oll, gan eu cyflwyno i ofal "Tad yr amddifaid, a Barnwr y gweddwon;" ac ymadawodd â'r fuchedd hon Ebrill 1af, 1846, yn 48ain mlwydd oed. Cafodd angladd anarferol o liosog. Yr oedd y ffordd yn llawn o bobl am tua dwy filldir, fel yr oedd yn anhawdd symmud drwyddynt.

Yr oedd Mr. Griffiths yn ddiau yn un o bregethwyr mwyaf poblogaidd ei oes. Nid mewn ymdrin yn gywrain âg athrawiaethau mawrion, ac egluro gwirioneddau dyfnion, yr oedd ei ragoriaethau yn gynnwysedig; ond mewn meddu cyflawnder o'r iaith oreu i osod allan ei feddyliau. Ni byddai ei eiriau byth yn pallu, canys yr oedd ganddo gyflawnder dihysbydd o ymadroddion dewisol, a hyny yn wastad yn rhai ysgrythyrol a gwir briodol. Nodweddid ei agwedd, ei eiriau, ei dôn, a phob peth o'i gylch, â'r difrifwch mwyaf; yr hyn a gynnyrchai ddifrifwch mawr yn ei wrandawyr. Ac yr oedd grym a phereidd-dra anarferol yn ei lais, ac yntau yn gallu ei lywodraethu fel y mynai. Anfynych y bu neb yn gallu cyrhaedd effeithiolrwydd mwy, a siarad yn ddynol, trwy ddylanwad ei lais nag efe. Hoff byngciau ei bregethau oedd Crist a'i groes, trueni dyn fel pechadur, rhagorfreintiau y saint, a gogoniant yr efengyl, &c.; ac nid yn anfynych pan y byddai yn sefyll o flaen cynnulleidfa, byddai yn pregethu dan deimladau dwys.

GRIFFITHS, EVAN, Abertawe. Ganwyd ef yn Gellibeblig, plwyf y Bettws, ger llaw Pen-y-bont-ar-Ogwy, Ionawr 18fed, 1795. Efe oedd yr ieuangaf o saith o blant. A bu farw ei dad pan nad oedd Evan, ei blentyn ieuangaf, ond tair blwydd oed. Gan fod y fam wedi ei gadael mewn amgylchiadau digon isel, nid oedd hi yn alluog i roddi ond ychydig o fanteision addysg i'r plant; ond yr oedd yn wraig grefyddol, ac ymdrechodd i wneyd argraph grefyddol ar feddyliau y plant pan yn ieuaingc. Ymddengys i Evan Griffiths gael ei dderbyn yn aelod eglwysig yn Bryn-menyn pan yn dair ar ddeg oed, ac yr oedd yn un tra awyddus am wybodaeth; a phan yn un ar hugain oed, ar gymmhelliad y Parch. William Jones, Pen-y-bont, dechreuodd bregethu. Treuliodd Griffiths tua blwyddyn o dan addysg Mr. Jones. Wedi hyny, bu am ddwy flynedd dan addysg y Parch. Dr. Jenkin Lewis yn Nghasnewydd. Neillduwyd ef yn weinidog Park Mill a Pilton Green, yn Gower, yn y fl. 1824, lle y bu yn llafurio am bedair blynedd. Rhoddodd ei ofal gweinidogaethol i fyny yn y Gower, a gwnaeth ei drigfod yn Abertawe, gyda'r amcan o ddefnyddio ei amser yn benaf yn y gwaith o gyfieithu "*Esboniad Matthew Henry*" ar yr Hen Destament a'r Newydd i'r Gymraeg. Ar ol cyhoeddi rhai rhifynau swllt yr un o'r gwaith, methodd yr argraphydd, a phwrcasodd Mr. Griffiths gynnwysiad ei swyddfa argraphu, a dygodd allan y gwaith ar ei gyfrifoldeb ei hun. Wedi iddo ymsefydlu yn Abertawe, ymaelododd yn Ebenezer, lle y bu yn dra defnyddiol a pharchus yn ngolwg yr holl frawdoliaeth. Ni bu ganddo un eglwys neillduol dan ei ofal ar ol gadael y Gower; ond pregethai yn mron bob Sabbath yn Abertawe a'r cylchoedd, ac weithiau cymmerai daith drwy y Deheudir a'r Gogledd. Nid oedd, o herwydd ei lesgedd, yn alluog o'r bron i adael ei dŷ am y flwyddyn ddiweddaf y bu fyw. Bu farw y Sabbath, Awst 31ain, 1873, yn 78ain mlwydd oed. Claddwyd ei weddillion yn mynwent capel Ysgetty, a chafodd gladdedigaeth barchus.

Yr oedd Mr. Griffiths yn ddyn o dduwioldeb ac ymroddiad crefyddol mawr; ac fel pregethwr,

Digitized by Google

er nad oedd efe yn hyawdl a chyffrous, yr oedd yn addysgiadol a derbyniol. Yr oedd yn hynod am ei ofal am y tlawd a'r methedig. Ymdrechai lawer hefyd i ledaenu gwybodaeth grefyddol a chyffredinol; ac yn enwedig gellir cyfeirio at ei anturiaeth fawr yn cyfieithu ac yn cyhoeddi "*Esboniad Matthew Henry*" ar y Beibl. Cyfieithodd, cyfansoddodd, a chyhoeddodd lawer o lyfrau eraill hefyd; ac yn yr ystyr hwn yr oedd ei gydwladwyr yn dra dyledus iddo.

GRIFFITHS, JOHN, Caernarfon: gweinidog clodfawr a ffyddlawn gyda'r Annibynwyr. Ganwyd ef ger llaw Pen-cadair, yn swydd Gaerfyrddin, y 10fed o Fai, 1752. Yr oedd yn ddeilliad argyhoeddiadau crefyddol pan yn blentyn. Ymunodd â'r eglwys yn y lle yn ieuangc; ac nid hir y bu heb ddechreu pregethu. Pan yn ddeunaw mlwydd oed, derbyniwyd ef yn efrydydd i Goleg Caerfyrddin, pan oedd y sefydliad hwnw o dan ofal y Parchn. R. Gentleman a Dr. Jenkins. Arosodd yn y coleg tua saith mlynedd. Derbyniodd alwad oddi wrth yr eglwys Annibynol yn Llanfyllin, lle y neillduwyd ef i gyflawn waith y weinidogaeth yn mis Gorphenaf 1780. Yn 1781, priododd Agnes Meredith, yr hon a breswyliai ger llaw Trallwm. Byr fu tymmor ei arosiad yn Llanfyllin, ond gweithiodd yn ymroddgar a llwyddiannus yno. Pregethai a chynghorai yn yr ardaloedd cylchynol; ac ymgynnullai pobl i wrandaw arno yn traddodi ei genadwri yn y prif-ffyrdd a'r caeau, ac ar hyd llechweddau y bryniau. Efe a fu y prif offeryn i gyfodi capeli yn y Trallwm a'r Sarnau. Bu yn ystod yr amser yr arosodd yn Llanfyllin yn wrthddrych cryn ymosodiadau, a chafodd lawer o drafferth i gael cofrestru y capeli a gododd yn lleoedd i addoli, er fod y gyfraith yn caniatau hyny, o herwydd fod gweinyddwyr y gyfraith yn mysg y rhai a deimlent duedd erledigaethus. Dywedir iddo fod mewn enbydrwydd am ei einioes amryw weithiau yr adeg hon. Yn mhen dwy flynedd, cafodd alwad oddi wrth eglwys fechan oedd wedi ei chasglu ynghyd yn Nghaernarfon; ac am fod yno faes helaeth i'w lafurio, cydsyniodd â'r cais, a bu yn dra llwyddiannus yno. Yn mhen dwy flynedd drachefn, derbyniodd alwad o Abergafenni, yn swydd Fynwy; a symmudodd yno, lle y llafuriodd am ddeuddeng mlynedd. O herwydd rhyw achos neu gilydd, cymmerodd ymraniad le yn yr eglwys hono, ac ymddengys i'r bobl oreu fyned allan gydag ef. Yn 1796, cafodd Mr. Griffiths alwad daer ac unfrydol i ddychwelyd i gymmeryd gofal ei hen eglwys i Gaernarfon, a phenderfynodd ei derbyn. Yr oedd yr eglwys, wedi iddo ymadael o'r blaen, wedi bod dan ofal Dr. George Lewis, yr hwn a symmudodd i Lanuwchlyn. Rywbryd yn y fl. 1797 y daeth Mr. Griffiths i Gaernarfon yr ail waith, lle yr arosodd o hyny allan hyd ddiwedd ei oes. Bu farw ei wraig yn mhen blwyddyn ar ol ei ymsefydliad yno; ac yn mhen amser priododd eilwaith â gweddw o'r enw Mrs. Griffiths, oedd yn trigiannu ger Rhoslan; a meibion iddo ef o'r briodas hon oedd yr hybarch W. Griffiths, Caergybi, a'r diweddar Barch. J. Griffiths, Buckley. Yr oedd ei weinidogaeth yn Nghaernarfon yn dra llwyddiannus; ac yr oedd ei ymarweddiad Cristionogol, a'i ymddygiad boneddigaidd yn gyfryw ac a sicrhâent iddo barch cyffredinol y dref a'r gymmydogaeth. Nid oedd llafur Mr. Griffiths, modd bynag, yn gyfyngedig i'r dref yn unig, ond yn mhob man y caffai ddrws agored a chyfleusdra i wneuthur daioni y tu allan iddi hefyd; ac ymddengys mai ganddo ef yr oedd y llaw benaf yn sefydliad yr achosion Annibynol yn Rhoslan, Llanaelhaiarn, Saron, a Bethel. Yn nghanol ei nerth yr oedd Mr. Griffiths yn ddyn hardd a lluniaidd o ran ei berson, yn sefyll yn agos i chwe throedfedd o daldra, a'i holl ysgogiadau yn foneddigaidd ac ennillgar, a'i holl ymddangosiad yn hynod ffafriol i sicrhau serch a pharch y rhai y deuai i gyffyrddiad â hwy. Fel Cristion cywir, defosiynol, a phur, a dyn o dduwioldeb uchel a diammheuol, safai yn uchel iawn yn syniadau pawb a'i hadwaenent. Fel pregethwr, nid oedd yn ol i nemawr o'i frodyr yn ei amser: yr oedd ei athrawiaeth a'i ysbryd yn wir efengylaidd, a'i ddoniau traddodi yn dra hyawdl, yn ogystal ag yn ddwys a difrifol.

Yn ngwanwyn y flwyddyn 1802, cafodd Mr. Griffiths ergyd o'r parlys, a bu am beth amser heb allu defnyddio ei aelodau na'i synwyrau naturiol; a bu am naw wythnos heb fedru llefaru gair wrth neb. Ond cododd un diwrnod y pryd hwn, ac ymaflodd mewn esboniad yn ei lyfrgell, a darllenodd gyfran o'r chweched bennod o Efengyl Ioan, er mawr syndod a llawenydd i'w deulu; ond bu am agos i bedwar mis ar ol hyny heb allu tori geiriau yn groyw. Taflwyd ef i gystudd trwm wedi hyny, a bu am o gylch dwy flynedd ar ol ei daraw gyntaf heb allu cyflawni ei weinidogaeth; ond wedi hyny parhaodd i bregethu deirgwaith bob Sabbath tra y bu byw. Yn 1817, clafychodd oddi wrth effeithiau oerfel, a throdd hyny yn ddarfodedigaeth arno; a bu farw mewn tangnefedd, Chwefror 18fed, 1818, yn 66ain mlwydd oed. Efe oedd cyfieithydd llyfr rhagorol Dr. Doddridge i'r Gymraeg, sef "*Dechreuad a chynnydd Crefydd yn yr Enaid;*" a detholodd hefyd gasgliad o hymnau at wasanaeth yr Annibynwyr.

GRIFFITH, JOHN, o Bethesda, yn sir Gaernarfon. Ni raid dywedyd mai fel gweinidog yr efengyl yn mhlith y Methodistiaid Calfinaidd y daeth Mr. Griffith yn adnabyddus, ac yn y cylch hwn o ddefnyddioldeb ennillodd iddo ei hun gyfryw radd dda nes peri fod pawb a'i hadwaenent trwy Gymru yn galaru llawer am dano, gan deimlo fod gwyliwr ffyddlawn, pregethwr galluog, bugail gofalus, a dyn mawr mewn gwirionedd wedi ei gymmeryd oddi wrthynt.

Gellir crynhoi prif ffeithiau ei fywyd i gylch bychan. Ganwyd ef yn y Bont-newydd, ger Caernarfon, yn 1817. Yr oedd crefydd wedi cartrefu yn y teulu er yn foreu, fel y cafodd rieni crefyddol i ymdeimlo â'u rhwymedigaeth i'w fagu yn dlws i Dduw. Pan oedd tua dwy flwydd oed, cafodd wasgfa, yn yr hon y tybid ei fod wedi marw; a dechreuid parotoi at y driniaeth a roddir i un â'r enaid wedi ymadael. Ond un o'r gwragedd, wedi edrych yn graff arno, a ddywedodd, "Na, peidiwch. Y mae gan y Goruchaf waith mawr i'r dyn yma, a rhaid iddo ei gyflawni." Daeth gwirionedd y sylw hwn i gael ei deimlo gan holl fân ddigwyddiadau a thueddiadau blynyddoedd ei fachgen-oed—yn ei awydd i gael myned i'r capel, ac yn ei waith yn ceisio pregethu i'r plant y chwareuai â hwynt. Nodwedd benaf y cyfnod hwn ynddo, pa fodd bynag, ydoedd ymofyngarwch; canys holai yn ddiarbed, yn enwedig ynglŷn â materion ysgrythyrol. Cafodd addysg dda, o'r hyn ydoedd cynnwys addysg yn ei amser ef; a sicrheir y

Digitized by Google

rhagorai ar ei gyfoedion am ddysgu. Gweithiai gyda'i dad ar dyddyn Cefn-werthyd ar ol gadael yr ysgol; ond llafuriai yn galed mewn ystyr feddyliol hefyd; o herwydd ceir ef, o ddeuddeg i bymtheg oed, yn aros ar ei draed drwy y nos i astudio: gweddïai lawer iawn, ac nid anfynych y collid ef oddi wrth yr aradr, i fyned i gornel, na wyddai ond efe a'i fam am dani, i ddal cymmundeb mewn gweddi â Duw. Cafodd fam wir dda, a wnaeth yr hyn oedd yn ei gallu i feithrin ynddo y crefyddolder ysbryd a barai i'w gyfeillion deimlo o'r dechreu fod delw meddwl ei fam i'w gweled yn amlwg arno ar ol tyfu i fyny.

Yr oedd ei ddefnyddioldeb mor amlwg yn mhob cylch crefyddol y troai ynddo fel y gwasgwyd arno gan y brodyr i ymroddi i'r weinidogaeth. Ymgyndynodd yntau am dymmor; ond cawn ef yn traddodi ei bregeth gyntaf yn y Bont-newydd tua diwedd y fl. 1840, oddi ar *Mat.* i. 21. Cafodd gymmeradwyaeth yr eglwys a'r cyfarfod misol yn galonog a pharod; ond etto parhaodd yn isel a digalon ei feddwl am flynyddoedd yn y gwaith. Bu am ychydig amser gydag Eben Fardd yn Nghlynnog yn 1842. Yn Ionawr, 1843, aeth i Athrofa y Bala, lle y bu hyd Mehefin, 1845. Bu hyn yn ddechreuad cyfnod newydd yn ei oes; a diammheu, oni buasai am ei fanteision athrofaol, y cawsai ei restru gyda dosbarth o bregethwyr llai eu defnyddioldeb a'u dylanwad na'r un y perthynai efe iddo. Ar ol gadael yr athrofa, cadwai ysgol ddyddiol yn Brynengan am o ddeutu blwyddyn. Llwyddodd yn fawr gyda'r ysgol a'r pregethu, ac yr oedd cymmaint o wreiddiolder ynddo fel ysgolfeistr ag oedd ynddo fel pregethwr. Ei gynllun oedd cael y plant i ddysgu meddwl, a'u denu i ddysgu meddwl. Aeth oddi yno i brifysgol Edinburgh am ysbaid byr, a sefydlodd eilwaith gydag ysgol yn Rhyd-y-clafdy yn Chwefror, 1848. Y pryd hwn, daeth yn aelod o gyfarfod misol Lleyn ac Eifionydd. Gadawodd Rhyd-y-clafdy ar achlysur ei briodas yn Medi, 1849, â Jane, unig blentyn W. Williams, Pen-bodlas, a daeth i fyw i Tan-y-bwlch, Nant, yn Ionawr, 1850, lle y bu yn aros wyth mlynedd. Yn nechreu 1859, ceir ef yn symmud i gymmeryd gofal gweinidogaethol eglwys Dolgellau; a gwasanaethodd yno gyda mesur helaeth o ffyddlondeb, cymmeradwyaeth, a llwyddiant am bedair blynedd, pryd y symmudodd i Jerusalem, Bethesda. Rhaid dyweyd mai dyma yn ddiddadl y cyfnod disgleiriaf ar ei weinidogaeth, yn gystal a'r adeg y teimlai yntau yn fwyaf cartrefol yn y gwaith a chyda phobl ei ofal. Byr iawn fu ei arosiad yn Jerusalem, gan, er mor agos y cyssylltiadau serchoglawn rhyngddynt, y daeth angeu heibio yn ffurf *congestion of the lungs;* ac mewn naw diwrnod o gystudd, "byrhaodd ei ddyddiau, a gostyngodd ei nerth ar y ffordd," fel y bu farw yr 28ain o Chwefror, 1866, yn 49ain mlwydd oed, mewn llawn fwynhâd o dangnefedd a llawenydd dwyfol yr efengyl. Gadawodd weddw a thri o blant yn amddifaid ar ei ol. "A gwŷr bucheddol lawer a ddygasant" ei gorph ef i fynwent Llanwnda, i'w gladdu, ddydd Llun, y 5ed o Fawrth, "ac a wnaethant alar mawr am dano ef."

Y mae yn amlwg, oddi wrth yr amlinelliad hwn, fod Mr. Griffith yn fab anwyl athrylith, yn gystal ag yn wir grefyddol, a bod crefydd wedi gwneyd ei dalentau, yn gystal a'i holl oes, yn gwbl gyssegredig iddi ei hun. Yr oedd ganddo ddynoliaeth ardderchog, fel y dywedodd un am dano, ei bod yn gyfuniad prydferth o awdurdod a chydymdeimlad. Byddai ei urddas ardderchog yn gofyn ufudd-dod heb ddim trais. Ymddangosai fel yr haul yn ddidrwst a diymhongar, ond yn llawn gwres a goleuni, ac yn cynnyrchu bywyd a sirioldeb o'i amgylch. Calon fawr agored ydoedd eiddo Mr. Griffith, fel y dywedodd un o'i blant am dano:—"Byddaf yn dyheu am galon mor fawr a chalon fy anwyl dad." Un nodwedd o eiddo ei ddynoliaeth ydoedd ei gweriniaeth; a hyn, hwyrach, sydd yn eglurhâd pa ham y teimlai yn fwy cartrefol yn Jerusalem nag un man y bu ynddo yn flaenorol.

Elfen arall ynddo ydoedd ei dduwioldeb personol amlwg. Y mae yn ammhossibl darllen ei ddyddlyfr heb deimlo ein bod yn cymdeithasu âg un oedd yn fynych mewn agosrwydd mawr at Dduw. Pa faint bynag y pryderai ynghylch iachawdwriaeth dynion eraill, ni chafodd hyny o gwbl fyned rhwng ei ddiogelwch ei hunan â Duw; ond yn hytrach, awchlymwyd ei awydd am achubiaeth ei wrandawyr gan y pwysigrwydd a roddai ar fod ei hun yn gadwedig. Argraphai ar feddwl pawb a'i hadwaenai mai dyn ydoedd ar farn, a'i fater wedi eu gwneuthur yn dda ger bron Duw; ac yr oedd hyny yn rhoddi nerth anorchfygol i'w weinidogaeth.

Yr oedd efe hefyd yn feddyliwr mawr, ac yn astudiwr caled. Nid oedd eisieu ond golwg ar ei lyfrgell ardderchog na argyhoeddid ni ar unwaith fod meddylgarwch o radd uchel hyd yn oed yn y detholiad o honynt; etto, nid casglydd llyfrau da oedd efe, ond darllenwr mawr, ac astudiwr trylwyr o honynt. Fel meddyliwr, yr oedd y gwreiddiol a'r beirniadol wedi eu cyfuno ynddo. Ynddo fel beirniad ni a gawn yr arafwch a'r amynedd angenrheidiol i olrhain pob casgliad yn ol, ac i edrych ar wirionedd o wahanol gyfeiriadau, ac yn ei wahanol gyssylltiadau, tra yn y gwreiddioldeb a berthynai iddo, daw i'r golwg dreiddgarwch, annibyniaeth, asbri, a gradd helaeth o'r cyfriniol. Uniad y ddwy elfen hyn sydd yn egluro ei anfoddlonrwydd i draethu ei syniad ar unwaith, a'i waith bob amser, pan yn ceisio dysgu eraill i feddwl, i fod yn annibynol a beiddgar, ac ar yr un pryd yn ochelgar. Profid y nodweddau hyn o eiddo ei feddwl gan y dosbarth o awduron yr ymhoffai fwyaf ynddynt. Yr oedd y meddwl hwn oedd ganddo, mewn undeb â dyfnder a thrylwyredd ei argyhoeddiadau crefyddol personol, yn rhoddi iddo sefydlogrwydd a chadernid fel cymmeriad nad ydym yn ei gyfarfod yn fynych.

Yr oedd cyfuniad y tair elfen yma—serchogrwydd dynoliaeth dda, crefydd bersonol ddiammheuol, a meddwl diwylliedig o natur uchel—yn peri ei fod yn un wedi ei ddysgu i deyrnas nefoedd mewn modd amlwg. Gweinidog cymmhwys y Testament Newydd ydoedd efe. Ni chlywsom am neb a'i gwrandawodd yn y blynyddoedd diweddaf yn ammheu ei awdurdod i bregethu. Yr oedd ei hawl i bregethu yn y nerth oedd gyda'i weinidogaeth. Rhaid ystyried fod dau gyfnod wedi bod ar ei bregethu, a phregethai yn alluog a meddylgar yn y ddau; ond gwahaniaethid hwynt oddi wrth eu gilydd gan rwydd-deb dawn yn y traddodiad, ac yn enwedig gan danbeidrwydd ysbryd y pregethwr yn ei awydd i gael eraill i gydgyfranogi âg ef o'r cyflawnder dihysbydd oedd yn yr efengyl a bregethai. Nodweddid ei weinidogaeth mewn modd amlwg â'r ansoddau ydynt brif ragoriaeth y pulpud Cymreig—meddylgarwch, difrifwch, a gwresogrwydd, a lle y ceir y tri hyn mewn undeb

Digitized by Google



John Griffith
(Gohebydd)

Digitized by Google

Digitized by Google

Digitized by Google

rhifo yn ddigon deheuig; a mwy na hyny, cyrhaeddodd wybodaeth helaeth o'r iaith Saesnig. Yr un pryd, rhaid addef iddo ddioddef i raddau o blegid y diffyg addysg drwyadl trwy ei oes; ac y mae y ffaith iddo allu cyflawni cymmaint o waith er gwaethaf y diffyg hwn, yn brawf eglur o fawredd ei alluoedd cynnhenid. A dichon fod yr ymwybodolrwydd o'i ddiffygion personol wedi bod yn symbylia l iddo yn ei ymdrech i sicrhau cyfryngau addysg uwchraddol i'r oes nesaf. Rhwymwyd ef fel egwyddorwas mewn masnachdy chwegnwyddau yn yr Abermaw, ac hyd yr ydym yn gwybod, dysgodd y fasnach yn drwyadl; ond y mae yn deg i ni hysbysu mai nid yn ei gymmeriad o fasnachwr y cofir am dano gan ei gyfoedion yn y dref hono, ond yn hytrach mewn cyssylltiad â symmudiadau llenyddol a chrefyddol. Yr oedd yn amlwg i'r rhai a'i hadwaenent oreu y pryd hwnw, ei fod wedi ei fwriadu gan Ragluniaeth i wneyd rhywbeth mwy yn y byd na gwerthu tê a sugr; ac yr oedd yntau, yn ddiarwybod, yn gwneyd yr oll a allai i barotoi ei hunan ar gyfer y gwaith mawr oedd o'i flaen.

Symmudodd o'r Abermaw i Liverpool—lle ni arosodd nemawr o amser; o blegid yr ydym yn ei gael yn fuan ar ol hyn yn Llangynog, yn sir Drefaldwyn, lle yr arolygai fasnachdy perthynol i Mr. Charles Jones, o Lanfyllin. Ennillodd sylw yr ardal yn fuan iawn: edrychid arno fel arweinydd y bobl ieuaingc mewn pob peth da, a gwerthfawrogid ei wasanaeth fel areithydd mewn cyfarfodydd dirwestol a diwygiadol. Ar ei ymadawiad oddi yno, cynnaliwyd cyfarfod i amlygu serch yr ardalwyr tuag ato, ac i ddymuno "Duw yn rhwydd iddo" rhag llaw—nid peth dibwys, pan ystyriom nad oedd etto ond cymmharol ieuangc. Ar yr adeg hon, sef o ddeutu y flwyddyn 1846, yr oedd y pwngc o addysg y werin yn tynu sylw cyffredinol drwy y deyrnas, mewn canlyniad i'r ddadl fawr yn y senedd mewn cyssylltiad â mesur Syr James Graham. Ymgymmerodd Mr. Hugh Owen, o'r *Poor Law Board* yn Llundain, â'r gwaith o sefydlu nifer o ysgolion rhydd yn Nghymru, dan nawdd Cymdeithas yr Ysgolion Brytanaidd. Ond gan fod ei drafferthion swyddogol mor liosog ar y pryd, teimlai yn analluog i wneyd cyfiawnder â'r gwaith heb gael rhywun i'w gynnorthwyo. Cyfeiriwyd ef at John Griffith, fel un cymmhwys at y swydd; a'r canlyniad fu i'r ddau ymuno i gario y gwaith yn mlaen. Gosododd hyn John Griffith dan yr angenrheidrwydd o symmud i Lundain—lle y treuliodd y rhan fwyaf o'i oes ar ol hyny. Ni pharhaodd gyda'r gorchwyl hwnw yn hir; ac felly ymgymmerodd â masnach drachefn, a bu yn trigo mewn amrywiol fanau yn y brif ddinas—ar y cyntaf fel gwas cyflog, ac yn ganlynol fel masnachydd ar ei gyfrifoldeb ei hun. Ystyriwn fod y cyfnod hwn o'i yrfa wedi ei wastraffu i raddau helaeth, gan ei fod yn gorfod treulio gyda thrafferthion masnach yr amser gwerthfawr a allasai gyflwyno i ddybenion uwch. Ond hyd yn oed y pryd hwnw yr oedd yn ddarllenwr mawr, yn fyfyriwr diwyd, ac yn sylwedydd craff ar helyntion y byd. Yr oedd byw yn y brif ddinas yn fanteisiol iawn i un o'i chwaeth ef. Teimlai ei hun yno megys yn nghanol ffynnonell bywyd gwleidyddol y deyrnas, ac wrth wraidd y rhan fwyaf o symmudiadau mawrion yr oes. Gwnaeth y brif ddinas, a'i sefydliadau lliosog, yn destyn astudiaeth; a daeth yn fuan yn feistr trwyadl ar yr holl fanylion. Gallasai esbonio dirgeledigaethau, nad oedd y rhan fwyaf o'r rhai a anesid ac a fagesid yn y lle wedi dychymygu erioed am danynt.

Bu gan yr Annibynwyr achos Cymraeg am flynyddau lawer yn Aldersgate Street, yn agos i'r *General Post Office*; ac â'r achos hwnw yr ymgyssylltodd John Griffith ar ei fynediad cyntaf i Lundain; ac er i'r achos fyned drwy lawer o gyfnewidiadau, a newid ei breswylfod fwy nag unwaith, glynodd wrtho yn ffyddlawn hyd y diwedd. Hen gapel trymllyd, anolygus, a dadfeiliedig oedd capel Aldersgate Street ar y goreu, a chynnulleidfa fechan a addolai ynddo yn y dyddiau mwyaf llewyrchus yn ei hanes. Ond yr oedd y ddeadell fechan yn enwog am ei chariad brawdol, ac yn dwyn mawr sêl dros eu man cyfarfod. Bu yn gartref cysurus i aml fachgen a geneth ieuangc o'r wlad, ac yn gymmhorth iddynt yn nghanol profedigaethau llymion y ddinas fawr i lynu wrth grefydd eu tadau. Bywyd y lle yn ddiau ydoedd John Griffith: yn yr Ysgol Sabbothol, ac yn y gyfeillach grefyddol, meddai fwy o ddylanwad na neb. Byddai gwrandaw ar ei sylwadau gwreiddiol a chyrhaeddgar ar ol y bregeth nos Sabbath yn ddigon o dâl am gerdded cryn lawer o ffordd. Meddai ddawn i wneyd defnydd o bob peth a welai ac a glywai yn ystod yr wythnos, ac i dynu addysgiadau oddi wrthynt er adeiladaeth i'w gyd-aelodau yn y lle. Ond er maint y dyddordeb a gymmerai yn ei enwad ei hun, ac yn ei gapel ei hun yn neillduol y pryd hwnw, daeth yn fuan yr un mor adnabyddus yn mysg yr enwadau Cymreig eraill yn y dref, a chroesawid ef yn eu haddoldai fel brawd a chyfaill gwirioneddol.

Dechreuodd ysgrifenu i'r wasg Gymreig dan yr enw "Wmffra Edward;" ac yr oedd yn amlwg o'r dechreuad fod ynddo elfenau ysgrifenydd poblogaidd. Beth bynag a ysgrifenai, a beth bynag fyddai y testyn, nis gallai y sawl a ddechreuai ddarllen ei gynnyrchion eu dodi o'r neilldu nes myned drwyddynt. Yr oedd darluniadau "Wmffra" o'r Arddangosiad mawr yn 1851 mor lawn o fywyd a naturioldeb, fel y darllenid hwynt gyda blâs gan hen wragedd yn nghymmoedd mwyaf anghysbell y Dywysogaeth. Yn mhen ychydig amser wedi ymddangosiad "*Baner Cymru*" yn y fl. 1857, newyddiadur a gyhoeddir yn y swyddfa hon, sicrhaodd Mr. Gee ei wasanaeth. Dechreuodd ysgrifenu llythyrau wythnosol iddi "Oddi wrth ein Gohebydd," ar "Ddigwyddiadau yr Wythnos;" a pharhaodd i'w hysgrifenu yn wythnosol yn mron yn ddifwlch hyd ddiwedd ei oes. Y llythyrau hyn fu yn foddion i'w ddwyn gyntaf i sylw cyffredinol ei gydgenedl. Ychydig iawn o bersonau a wyddent ar y dechreu pwy oedd awdwr y llythyrau doniol hyn; ac nid bychan fu y dyfalu ynghylch y mater. Fel y gallesid disgwyl, tadogwyd hwynt ar amryw lenorion profedig. Canfyddai y bobl gyfarwydd ynddynt ol llaw hwn a'r llall o'u hoff awduron. Ni ddychymygai neb eu bod yn cael eu cynnyrchu mewn masnachdy, yn nghanol prysurdeb gorchwylion bydol, ac yn sŵn tramwy diorphwys yr heolydd; a bod yr awdwr, yn fynych ar ol llafur blin y dydd, yn amddifadu ei hunan o'i gwsg y nos er mwyn goleuo a difyru ei ddarllenwyr. Cyfyngai ei hunan ar y cychwyn i weithrediadau y senedd a helyntion y brif ddinas. Yr oedd yn berffaith gartrefol gyda'r pyngciau hyn, a gallai draethu arnynt gyda'r fath eglurdeb fel ag i swyno y

Digitized by Google

mwyaf anghyfarwydd. Nid llawer o chwaeth oedd ganddo at fasnach; ac yn y flwyddyn 1860 daeth cyhoeddwr y "*Faner*" ac yntau i gyttundeb, fel y sicrhawyd ei holl amser o hyny allan at wasanaeth y newyddiadur rhagorol hwnw. Adnabyddid ef yn awr gan bawb dan yr enw "Gohebydd Llundain," ac yn ddiweddar fel "Y Gohebydd;" ac nid ydym yn gwybod i neb warafun iddo yr enw. Yr oedd y fath arbenigrwydd yn perthyn iddo ef a'i lythyrau, fel yr oedd priodoldeb neillduol o'i alw "*Y Gohebydd*," fel cydnabyddiaeth nad oedd neb yn Nghymru yn teilyngu yr enw yn yr un ystyr ag efe. Pan na byddai y senedd yn eistedd, arferai adael y brif ddinas i deithio yma ac acw ar hyd y wlad, mewn ymchwil am ddefnyddiau ar gyfer ei *lythyr* wythnosol. Pa le bynag y byddai cyfarfod mawr, mwy pwysig nag arferol, gan unrhyw enwad crefyddol, byddai efe yn sicr o fod yn *bresennol*, a gallai daflu ei hunan i ysbryd y gweithrediadau—yr un mor gyflawn pan fyddai y cyfarfod yn perthyn i un o'r enwadau eraill a phan y perthynai i'w enwad ei hun. Ac wrth adrodd yr hanes, beirniadai, canmolai, a beiai, a chynghorai, mor galonog a phe buasai ei les personol ef ei hun yn y fantol. Mewn eisteddfodau mawrion, a chynnhyrfiadau gwleidyddol, yr oedd ei bresennoldeb yn anhebgorol angenrheidiol; ac nid oedd na thraul, na phellder, nac anghyfleusdra a'i hattaliai byth i fod ynddynt. Yr oedd ei symmudiadau o'r naill fan i'r llall mor gyflym, a'i ymddangosiad pa le bynag y byddai "lladd mochyn" yn myned yn mlaen (fel y dywedai Caledfryn am unrhyw gynnhwrf mawr a ddigwyddai fod) mor gysson, fel y galwyd ef gan y Parch. Kilsby Jones yn "*Pobman;*" a glynodd yr enw wrtho.

Dichon iddo wneyd cymmaint a neb yn ei oes i greu chwaeth at ddarllen yn mysg ei gydgenedl uniaith. Ychydig o ddyddordeb a gymmerid gan y dosbarth amaethyddol a gwledig mewn pyngciau gwladwriaethol cyn ei ddyddiau ef. Yr oedd efe, gan hyny, yn gorfod esbonio yr elfenau cyntaf, tra ar yr un pryd yn egluro y symmudiad a ddigwyddai fod dan sylw. Gwnaeth hyn oll mor effeithiol nes dodi ysbryd newydd mewn cymmydogaethau cysglyd, na wyddent o'r blaen fawr iawn pwy a'i llywodraethai, na pha fodd eu llywodraethid. Dyma fel yr ysgrifenwyd am dano gan gyfaill a'i hadwaenai yn dda:—

"Yn mysg yr elfenau oedd yn sicrhau ei lwyddiant fel Gohebydd, gellir nodi dau beth yn arbenig. Nid eisteddai i ysgrifenu ei lythyr heb fod ei destyn yn eglur o flaen ei feddwl; a llawer gwaith y gwelsom ef yn eistedd, ac yn codi, ac yn cerdded ol a blaen, a'i ben yn gogwydd tuag at i lawr, yn rhwbio ei dalcen, ac yna un ochr i'w drwyn—'yn methu cael pen y llinyn,' ys dywedai. Ond wedi iddo gael y pen i'w law, yr oedd ei benderfyniad yn ddiildio i gael gafael ar yr holl ffeithiau, a phob peth arall oedd â thuedd ynddo i daflu goleuni ar yr hyn a fyddai ganddo mewn llaw. Os ydyw y darnodiad a rydd un gŵr enwog yn iawn, sef mai 'gallu i gymmeryd trafferth ydyw athrylith,' yr oedd efe yn ddiau yn un o blant mwyaf ffafredig athrylith. Nid oedd yr un drafferth yn ormod ganddo ef i'w gymmeryd er cael allan yr hyn yr oedd ganddo eisieu ei ddywedyd, a'i ddywedyd hefyd yn y ffordd fwyaf tarawiadol, a thebycaf o atteb y dyben fyddai ganddo mewn golwg. Yr oedd llawer, fe allai, wrth ddarllen ei lythyrau, yn tybied eu bod wedi eu cyfansoddi gydag ond ychydig, os dim trafferth, gan mor esmwyth a naturiol y darllenent; ond costient lafur ac ymröad mawr iddo ef. Ni ollyngai frawddeg a ystyriai yn bwysig o'i law, heb foddloni ei hun ei bod wedi ei chyfansoddi yn y modd goreu y gallesid ei gwneyd: ac ni phetrusai ei hysgrifenu drosodd a throsodd drachefn, nes y byddai wedi ei chael yn hollol i'r ffurf yr ewyllysiai efe ei gosod ger bron y darllenydd fel cyfrwng i egluro ei feddwl. Llawer gwaith y bu am ddyddiau yn chwilio am un frawddeg y gwyddai ei bod i'w chael yn rhywle yn mysg ei bapurau. Yr oedd y rhai hyn yn sypynau mawrion ganddo—gan ei fod yn gosod o'r neilldu bob papyr y tybiai efe fyddai yn fanteisiol iddo ar ryw adeg drachefn wrth ymdrin â rhyw gwestiynau yr oedd efe wedi meddwl y deilliai rhyw ddaioni o honynt. A throai y papurau hyny yn ol a blaen, drachefn a thrachefn, i chwilio, fel y dywedasom, am un frawddeg, yr hon, ond ei chael, a fuasai yn gwasanaethu ei amcan ef: a theimlai yn dra annedwydd nes y byddai wedi cael gafael arni. Ac yna, wedi cael gafael ar y dyfyniad a gostiodd gymmaint o drafferth iddo, byddai wedi ei orlenwi â llawenydd yn ei osod yn ei le. Er fod ei lythyrau mor eglur a hawdd eu deall, yr oedd ynddynt y naturioldeb a'r bywyd hwnw a barai iddynt gael eu darllen gyda'r dyddordeb mwyaf gan bob dosbarth. Clywsom hen boblach wledig, nad oeddynt yn deall nemawr ddim ar wleidyddiaeth, fel y cyfryw, yn dyweyd eu bod yn gallu amgyffred yn lled glir yr hyn a draethid gan y Gohebydd ar byngciau o'r fath. Ei lythyrau mwyaf rhagorol, fe allai, oedd y rhai a ysgrifenwyd ganddo o dro i dro ar weithrediadau y senedd. Yr oedd yn adnabod y senedd yn dda; ac adwaenai bob aelod yn Nhŷ yr Arglwyddi ac yn Nhŷ y Cyffredin—o'r hyn lleiaf, pawb oedd yn meddu ar ryw hynodrwydd mewn rhyw gyfeiriad neu gilydd. Ymhyfrydai mewn bod yn bresennol yn y tŷ—yn enwedig ar nosweithiau pan fyddai materion pwysig yn cael eu dwyn i'r bwrdd; ac odid y byddai noswaith felly yn cael diangc heb ei fod ef wedi sicrhau lle yno. Ac os byddai y tŷ yn llawn i'r ymylon, ryw fodd neu gilydd byddai yno le i'r Gohebydd bob amser mewn rhyw gornel, gan ei fod yn meddu ar ryw agoriad dirgel a agorai galonau naill ai y swyddogion neu yr aelodau. Nid braint fechan yr ystyrid cael eistedd wrth benelin y Gohebydd yn oriel Tŷ y Cyffredin (neu y tŷ arall) ar 'noson fawr,' pan fyddai yr holl aelodau wedi cydymgynnull i drafod rhyw fesur neu gwestiwn o bwys, a gwrandaw arno yntau yn eu nodi allan wrth eu henwau, fel y byddent yn dyfod i mewn, neu yn cyfodi i anerch y tŷ; a gwrandaw hefyd ar ei sylwadau beirniadol arnynt:—a hynod mor fyw y byddai pan y byddai 'Dizzy,' chwedl yntau, yn *slashio* Syr Robert Peel, a 'Gladdy' yn rhoddi y newid iddo yntau ar adegau eraill."

Beiid ei arddull yn dost gan bobl or-feirniadol, a hyny am ei fod yn defnyddio cynnifer o eiriau ac ymadroddion Saesnig; ac aeth un cellweirwr mor bell a chynnyg gwobr am gyfieithiad o'i lythyrau i'r Gymraeg! Nid oes a fynom ni â'i amddiffyn o blegid hyn o gamwedd yn y fan hon; ond gallwn ddywedyd hyn yn ddibetrus, iddo ddewis yr arddull mwyaf gweddus iddo ef ei hun, a'r mwyaf cymmhwys at ei amcan. Pe dewisasai arddull mwy llenorol, credwn y buasai mewn llyffetheiriau, ac yr amddifadesid ei ysgrifeniadau o'r yni, a'r min, a'r bywiogrwydd di-ail a berthynai iddynt. Ei amcan bob amser oedd defnyddio y gair mwyaf cymmhwys, tarawiadol, a dealladwy; ac nid oedd o bwys ganddo i ba iaith y perthynai. Yn yr ystyr yma, yr oedd efe yn un o'r ychydig nifer a feiddiant aberthu pob ystyriaeth ar allor defnyddioldeb. Ac yr oedd un nodwedd ynddo ag yr oedd yn rhaid hyd yn oed i'w wrthwynebwyr ei edmygu, sef absennoldeb o bob chwerwedd. Er iddo ysgrifenu llawer ar y pyngciau mwyaf cynnhyrfus ar yr adegau mwyaf terfysglyd, ac er iddo ym-

Digitized by Google

osod yn ddiarbed lawer tro ar sefydliadau anghyfiawn ac ar ymddygiadau annheilwng, etto gwnaeth lai o elynion wrth hyny na neb yn ei oes.

Yr oedd Y Gohebydd yn deithiwr mawr. O ddeutu diwedd y flwyddyn 1865, ar ol i'r gwrthryfel mawr yn yr America gael ei ddarostwng, talodd ymweliad â'r wlad hono. Arosodd yno am beth amser, a theithiodd lawer yn ol a blaen, er mwyn talu ymweliad â'r gwahanol sefydliadau Cymreig, ac er mwyn cael golwg ar y lleoedd mwyaf enwog a dyddorol. Derbyniwyd ef yn frwdfrydig yn mhob man gan ei gydgenedl, a gwnaeth gannoedd lawer o gyfeillion yn mhob parth. Yr oedd ei lygaid yn agored lle bynag yr elai. Nid oedd dim gwerth ei gofnodi yn diange ei sylw; a darllenid ei gynnyrchion wythnosol gyda blâs ac adeiladaeth gan filoedd yn y wlad hon. Ymddengys ei fod yn edmygu y cyfansoddiad Americanaidd, ac yn cael boddhâd mawr yn y trigolion; ond ni ddarfu i ddim a welodd tu hwnt i'r Werydd leihau dim ar ei serch at ei wlad ei hun. Yn y flwyddyn 1867, ymwelodd â'r arddangosfa fawr yn Paris, yn nghwmni amryw gyfeillion. Yr oedd efe wedi cymmeryd dyddordeb mawr yn yr arddangosfa gyntaf a gynnaliwyd yn Llundain yn 1857, ac yr oedd hyny yn fantais i ffurfio barn am ragorion a diffygion arddangosfa Paris. Yn y flwyddyn 1873, ymwelodd â'r arddangosfa fawr yn Vienna; a chafodd fantais i weled arferion amryw o wledydd y Cyfandir yn ystod y daith. Synai at goelgrefydd ac anystyriaeth y gwledydd Pabyddol, lle y mae anffyddiaeth a thwyll-offeiriadaeth am y goreu yn darostwng y trigolion. Nid oedd ei iechyd erioed yn gryf; ond yn y blynyddoedd diweddaf, yr oedd wedi gwaethygu yn fawr; a chynghorwyd ef i dreulio gauaf y flwyddyn 1875 mewn hinsawdd mwy tymmerus. Y man a ddewisodd oedd Mentône, tref fechan ar lan Môr y Canoldir, lle y cyrcha lliaws o weiniaid y wlad hon i ochelyd gerwindeb y gauaf. Yno, y mae yr hinsawdd yn dyner hyd yn oed yn Rhagfyr ac Ionawr; o blegid y mae y lle yn agored i ddylanwad yr awelon cynnhes a chwythant drosodd o ogleddbarth Affrica, a chysgodir ef rhag yr oerwyntoedd a chwythant oddi ar yr Alpau. Daliodd ar y cyfleusdra i ymweled â Naples a Rhufain, a mynodd weled pawb a phob peth gwerth sôn am danynt yn y lleoedd enwog hyny; ac yn mysg eraill y pab a Garibaldi. Yr oedd y llythyrau a anfonai i'r "*Faner*" ar y pryd yn dangos ei fod yn meddu doniau gohebyddol o'r radd flaenaf, ac yn profi yn eglur, pe buasai wedi dyfod i gyssylltiad â'r wasg Saesnig yn foreu, y buasai yn un o'r gohebwyr newyddiadurol enwocaf yn ei ddydd.

Bu ei ymweliad diweddaf â'r Cyfandir yn foddion i estyn ychydig ar ei oes; ond ymddangosai i'w gyfeillion nad oedd iddo amser maith ar y ddaear. Penderfynwyd, gan hyny, i gario allan yr hyn a fu yn mryd llaweroedd er's blynyddau, sef ei anrhegu â thysteb genedlaethol. Buasai y peth wedi ei wneuthur yn llawer cynt oni bae ei fod ef ei hun yn gwrthwynebu; ond yn awr, ni fynai ei edmygwyr eu rhwystro yn hwy, a chasglwyd, yn hollol ddiymdrech a didwrw, amryw gannoedd o bunnau at yr amcan; a chyflwynwyd y swm anrhydeddus iddo mewn cyfarfod cyhoeddus yn Llundain, lle yr oedd amryw o wŷr blaenaf y genedl yn bresennol.

Cydnabyddid Gohebydd gan ei gyfeillion, yn gystal a'i wrthwynebwyr, fel un o'r galluoedd gwleidyddol mwyaf a feddai Cymru. Gwnaeth waith mawr yn y cyfeiriad hwn—gwaith y pery ei ddylanwad daionus am oesau i ddyfod. Pan y dechreuodd ei yrfa gyhoeddus, prin yr oedd gan Gymru un aelod seneddol teilwng o'r enw. Nid oedd prin neb o honynt a allai agor ei enau ar unrhyw bwngc; ac yr oeddynt bron i gyd yn arfer pleidleisio yn groes i deimlad a barn yr etholwyr oedd yn eu dewis. Agorodd Gohebydd lygaid y lliaws i ganfod gwir sefyllfa pethau, ac argyhoeddodd hwynt fod yn bossibl iddynt sicrhau cyfnewidiad trwyadl. Pan ddaeth etholiad 1868—pan yr oedd tynged yr Eglwys Sefydledig yn yr Iwerddon i gael ei benderfynu—yr oedd pob acddfedrwydd at yr ymdrech a fu yn llwyddiannus i droi y mudion a'r rhwystrwyr o'r senedd, ac i anfon cynnrychiolwyr cymmhwys yn eu lle. A phan ddiaelodd tir-feddiannwyr gormesol sir Aberteifi ar eu deiliaid, drwy eu troi allan o'u tyddynod am bleidleisio yn ol llais eu cydwybodau, bu ganddo law helaeth yn nghynnulliad y cyfarfod mawr a gynnaliwyd yn Aberystwyth i gydymdeimlo â'r dioddefwyr; a gosododd warthnod oesol ar ymddygiad y gormeswyr drwy ei lythyrau penigamp. Ystyrid ef yn awdurdod ar bob mater a ddaliai berthynas â Chymru, ac ymofynid âg ef fel y cyfryw gan aelodau seneddol, ac eraill, mewn angen am gynghor a chyfarwyddyd.

Fel cynlluniwr doeth a gweithiwr difefl, yr oedd y Gohebydd yn ddigymmhar. Yr oedd ei bresennoldeb mewn pwyllgor yn gaffaeliad o'r mwyaf. Fe allai mai y tri sefydliad a fwynhaodd fwyaf o'i lafur oeddynt yr Eisteddfod, Coleg Aberhonddu, a Choleg Aberystwyth. Yr oedd y tri hyn yn ddiau yn agos iawn at ei galon, a'u llwyddiant yn wrthddrych ei fawr ofal. Anfynych y byddai yn absennol o bwyllgorau y colegau, er ei fod yn gorfod teithio cannoedd o filldiroedd ar ei gôst ei hun. "Pan etholir fi yn aelod o bwyllgor (meddai), yr wyf yn cymmeryd yn ganiataol na wneir dim yn iawn os na bydd genyf fi law ynddo." Nid ei goegfalchder a barai iddo lefaru fel hyn; ond ei benderfyniad i gyflawni, hyd yr oedd ynddo, yr hyn a ymddiriedwyd i'w ofal. Pan y digwyddai i byngciau dyrus ddyfod ger bron, yr oedd yn wastad yn bwyllog: edrychai arnynt yn fanwl o bob cyfeiriad, ac odid fawr na chynnygiai rywbeth a fyddai yn foddhaol i bawb cyn y diwedd. Yr oedd yn gyfaill calon i'r myfyrwyr, a chynnygiai yn fynych ryw gynllun newydd er eu budd. Ar yr un pryd, yr oedd yn bleidiwr trwyadl i'r awdurdodau: gellid ymddibynu yn ddibetrus ar ei gymmhorth mewn amgylchiadau cythryblus; credai fod llywodraeth gref yn anhebgorol angenrheidiol mewn sefydliad llwyddiannus. Gwnaeth ei oreu hefyd i ddyrchafu yr eisteddfod i barch a dylanwad yn mysg ei genedl. Gofidiai ei bod am gynnifer o flynyddoedd yn nwylaw dynion is-raddol, a hiraethai am iddi fod yn gyfrwng i feithrin ysbryd ymchwilgar yn yr ieuengctyd. Pan geisiwyd cynnal un cyfarfod blynyddol cenedlaethol dan yr enw "Yr Eisteddfod," gwnaeth ei oreu i'w gario allan. Ysgrifenodd, llafuriodd, a theithiodd fwy na mwy am flynyddoedd fel aelod o'r pwyllgor, a hyny yn unig oddi ar deimlad o genedlgarwch—heb ddisgwyl na thâl, na chydnabyddiaeth, na chlod mewn canlyniad. Byddai yn ysmala, weithiau, ar ddydd yr uchel ŵyl, i weled dynion trystfawr ar y llwyfan, yn bloeddio, "Oes y byd i'r iaith Gymraeg," a'r werinos yn eu cyfarch â banllefau o gymmeradwyaeth—dynion nad oeddynt yn malio dim ond

Digitized by Google

am elw, ac anrhydedd, a phoblogrwydd iddynt eu hunain, ac na welid byth mo honynt hyd yr ŵyl nesaf—tra y byddai efe ac ychydig eraill yn llechu o'r tu cefn, a neb yn ystyried mai eu llafur distaw, ymroddgar, ac anhunanol hwy oedd yn cadw yr achos yn fyw. Ond nid oedd hyn yn poeni dim ar ei feddwl. Yr oedd dyrchafiad meddyliol a moesol ei gydoeswyr mor agos at ei feddwl, fel yr oedd yn ymdrechu drosto yn unig o gariad at y gwaith. Yr oedd yn mawr anghymmeradwyo y plentynrwydd sydd ynglŷn âg eisteddfodau yn bresennol, a theimlai yn anfoddhaol am nad oeddynt yn effeithio mwy o ddaioni sylweddol; ond credai fod modd eu gwella a'u gwneuthur yn fendith ammhrisiadwy i'r wlad.

Yr oedd ein Gohebydd yn fwy o ysgrifenydd nag o areithiwr. Yr oedd ei gorph eiddil, ei lais gwanaidd, a'i besychiad poenus, yn anfanteisiol iddo i anerch cynnulleidfaoedd mawrion gyda dylanwad. Ond etto, yr oedd ei ffraethineb, ei fywiogrwydd, ei wreiddioldeb, ac hyd yn oed ei 'attal dywedyd,' yn ei wneyd yn siaradwr derbyniol gan y lliaws; a gallai ar rai prydiau gynnyrchu effeithiau dwys ar ei wrandawyr.

Treuliodd y misoedd diweddaf o'i oes yn Liverpool, yn nhŷ ei frawd-yn-nghyfraith. Yr oedd yn amlwg i'w gyfeillion fod ei babell frau yn prysur ddadfeilio, a'i fod yn nesau yn gyflym tua therfyn ei daith. Bu farw boreu ddydd Iau, Rhagfyr 13eg, 1877, a chladdwyd ef y dydd Llun canlynol yn mynwent y Fron, ger Llangollen, yn ymyl ei anwyl fam. Ni bu erioed yn briod, ac fe allai fod hyny yn ffodus iddo: diau na buasai rhwymedigaethau teuluaidd yn cyddaro â'r bywyd crwydrol yr oedd efe yn hoff o hono, a than yr angenrheidrwydd o'i arwain mewn cyssylltiad â'i alwedigaeth.

GRIESBACH, JOHANN JACOB: beirniad ysgrythyrol Almaenaidd enwog, yr hwn a anwyd yn Butzbach, yn Hesse-Darmstadt, Ionawr 4ydd, 1745. Addysgwyd ef yn Frankfort-ar-y-Main, a chwblhaodd ei efrydiau yn mhrifysgolion Tubingen, Halle, a Leipzic. Enwogodd ei hun yn arbenig mewn ymchwiliadau duwinyddol a Beiblaidd, ac efe oedd hoff ddysgybl Semler ac Ernesti. Yr oedd wedi penderfynu, cyn ei fod yn bedair ar hugain oed, i ymroddi i astudio athrawiaethau a thestyn y Testament Newydd. Er cario allan ei gynllun, aeth ar daith lenyddol trwy yr Almaen, Holland, a Lloegr; a gwnaeth iddo ei hun gyfeillion yn mysg llenorion blaenaf y gwledydd hyny, a chasglodd ystorfa werthfawr o ddefnyddiau at ei waith mawr. Yn 1770, efe a ddychwelodd i Frankfort i'w trefnu ac i gynllunio y defnyddiau hyn; ond yn y flwyddyn ddilynol pennodwyd ef yn ddarlithiwr duwinyddol, ac yn 1773 yn athraw duwinyddol, yn Halle. Enwogodd ei hun gymmaint yn y swydd hon fel y cynnygiwyd iddo y swydd o athraw yn Jena—yr hon a dderbyniodd efe. Yn 1780, dyrchafwyd ef yn beriglor y brifysgol, ac i amryw swyddi pwysig eraill. Enwyd ef yn gynghorwr eglwysig i'r Duc o Saxe-Weimar; ac yr oedd eisoes wedi ei wneuthur yn brelad dosbarth Weimar. Tua deng mlynedd cyn hyn yr oedd Griesbach wedi priodi chwaer i'r enwog Schultz, gyda'r hon y bu fyw yn ddedwydd hyd ei farwolaeth—yr hyn a gymmerodd le Mawrth 24ain, 1812, yn 67ain mlwydd oed.

Cyhoeddwyd yr argraphiad cyntaf o'i destyn ef o'r Testament Newydd Groeg yn Halle, yn 1754, yn y ffurf o lawlyfr i'r efrydwyr a wrandawent ei ddarlithiau. Cyhoeddwyd y gyfrol gyntaf o'r ail argraphiad yn 1796, a'r ail yn 1807. Toddwyd llythyrenau newyddion yn bwrpasol ar gyfer yr argraphiad hwn gan y gwneuthurwr enwog Göschen; ac am fod y Duc o Grafton, canghellydd prifysgol Caergrawnt, yn myned i'r draul o barotoi y papyr, cyhoeddodd yr awdwr diolchgar ei lyfr yn Llundain a Halle ar yr un pryd. Y mae wedi ei argraphu rai gweithiau ar ol hyny.

Y mae adolygiad Griesbach ar destyn y Testament Newydd wedi ei seilio ar gyferbyniad rhwng y tri dosbarth mawr o'r amrywiol lawysgrifau Groegaidd; sef, y llawysgrifau Alexandriaidd, Gorllewinol, a Byzantiaidd neu Asiaidd—yr olaf o ba rai yw sylfaen y *Vulgate* Groegaidd. O'r rhai hyn, y blaenaf ydyw yr oreu o lawer, yn ol barn Griesbach; o herwydd y cyd-darawiad sydd yn y dyfyniadau ysgrythyrol sydd ar gael yn ngweithiau Origen a thestyn y llawysgrif Alexandriaidd enwog o'r Testament Newydd.

GUSTAVUS, ADOLPHUS: brenin Sweden, yr hwn a anwyd ar y 9fed o Ragfyr, 1594. Efe oedd y chweched penadur o deyrnach Vasa, a deyrnasodd er pan y rhyddhawyd Sweden, yn y fl. 1520, gan ei sylfaenydd, Gustavus Erickson. Mab oedd Gustavus Adolphus i Siarl, mab ieuangaf Gustavus Erickson, yr hwn hefyd a elwid yn Vasa. Cyhoeddwyd ei dad, Siarl, yn frenin Sweden, yn lle Sigismund, etifedd yn y llinell hynaf o dylwyth Vasa. Bu farw yn 1611, gan adael teyrnwialen Sweden i'w fab Gustavus, yr hwn oedd yn 17eg oed. Cafodd y brenin ieuangc hwn gyfleusdra yn ddioed i ddangos ei dalentau i lywodraethu. Yr oedd ei gefnder, Sigismund, wedi ei ethol yn frenin Poland; ac ar ei esgyniad i orsedd y wlad hono wedi ymwrthod â Lutheriaeth, a choffeidio Pabyddiaeth. Parodd hyn dramgwydd mawr yn nhaleithiau Sweden; a galwyd ar ei ewythr, Siarl, y duc o Sudermania, i deyrnasu yn ei le ef. A thra y bu Siarl fyw ni feiddiodd Sigismund adnewyddu ei hòniadau i goron Sweden; ond ar ol ei farwolaeth ef, wrth weled dyn ieuangc dibrofiad ar yr orsedd, tybiodd y gallasai gyrhaedd ei amcan yn lled rwydd. Goresgynodd Sweden, gan hawlio y goron i'w fab Ladislaus; yr hwn oedd ar y pryd dan oed. Gwasanaethodd y rhyfel hwn i ddadblygu galluoedd disglaer Gustavus. Ymladdodd yn llwyddiannus yn erbyn y Czar o Rwssia, cynghreirydd Sigismund, ac yn erbyn Sigismund ei hun, hyd nes y sefydlwyd heddwch yn 1629, drwy gyfryngiad Prydain a Holland, ar y telerau mwyaf ffafriol i Adolphus. Unwyd Livonia, a thref bwysig Riga, â Sweden. Tynodd gorchestion y brenin ieuangc sylw holl Ewrop, ac nid rhyfedd fod Protestaniaid erlidiedig yr Almaen, oedd yn griddfan dan orthrwm Ferdinand II., a chleddyf barbaraidd ei faeslywydd Tilly, yn disgwyl am ei gymmhorth a'i nawdd. Yr oedd sel Adolphus dros y grefydd Brotestanaidd, a'i gydymdeimlad â Phrotestaniaid erlidiedig Bohemia, yn gymmhellion cryfion iddo i gynnorthwyo yr Almaeniaid Protestanaidd yn eu gwrthwynebiad i Awstria. Teimlai Gustavus, pa fodd bynag, yn wrthwynebol i ymyraeth âg achosion mewnol gwlad arall. Am y rheswm hwn efe a gyhoeddodd ddadganiad, yn yr hwn y ceisiai brofi i holl Ewrop mai nid unrhyw awydd ammhriodol i ymyraeth yn achos-

Digitized by Google

ion mewnol yr Almaen a barodd iddo oresgyn y wlad, ond yr elyniaeth a amlygodd Awstria tuag ato; a chyfeiriai at brofion o hyny.

Yn ganlynol i hyn, glaniodd Gustavus Adolphus yn Pomerania, Mehefin 24ain, 1630. Pan aeth i enau yr Oder, nid oedd ei luoedd, rhwng gwŷr meirch a gwŷr traed, yn rhifo mwy nag wyth mil o wŷr. Ond hyd yn oed gyda'r gallu bychan hwn, gwnaeth ei hun yn feistr ar ynysoedd Usedom ac Wollin, a gwasgodd hefyd ar Bagislav mor galed fel y gorfu ar hwnw wneuthur cyttundeb âg ef, drwy yr hwn y cafodd y gorchfygwr feddiant o dref Stettin; ac felly, cafodd arglwyddiaeth ar yr holl wlad. Adgyfnerthwyd byddin Gustavus gan chwech o gatrodau Ysgotaidd, dan lywyddiaeth y Duc o Hamilton. Yna meistrolodd drefydd Anclam a Stolpe, ac agorodd y ffordd drwy hyny i Mecklenberg. Ymosododd yr Awstriaid, dan y cadfridog Gotz, ar dref Pasewalk, ac ymddygasant yn greulawn iawn tuag at y preswylwyr, a hyny pan oedd y fyddin Swedaidd heb fod yn mhell; a chynnhyrfodd hyn y milwyr yn ddirfawr. Penderfynodd Gustavus gario y rhyfelgyrch yn mlaen yn fwy ymroddgar nag o'r blaen. Dosbarthodd ei alluoedd yn bedair rhan—un dan lywyddiaeth y Lauenburg, un arall dan y Cadfridog Baudltz, un arall dan Horn, a'r bedwaredd dan arweiniad Gustavus ei hun yn nuciaeth Mecklenburg. Tra yr oedd efe yn aros yno, derbyniodd lythyr oddi wrth yr ymherawdwr Ferdinand, yn cynnyg telerau heddychol manteisiol:—cynnygiai roddi Pomerania iddo. Ond attebiad Gustavus oedd, iddo ef oresgyn yr Almaen—nid i chwanegu at ei allu ei hun, ond i amddiffyn ei gyd-Brotestaniaid. Erbyn diwedd Chwefror, 1631, mewn wyth mis o amser, yr oedd wedi cymmeryd pedwar ugain o leoedd amddiffynedig; ond yr oedd trefydd Rostock a Wismar etto yn nwylaw ei elynion. Teimlai yr ymherawdwr fod perygl yn ei fygwth o Pomerania, ac anfonodd y maeslywydd Tilly i'w erbyn yn flaenor ar y fyddin ymherodrol. Bu ymdrechiadau celyd rhwng Gustavus a Tilly am y fuddugoliaeth. Gorchfygwyd y Swediaid lawer gwaith; ond yr oedd y llwyddiant a ddilynai arfau Tilly megys wedi ei adael, ar ol iddo ganiatau i drigolion tref Magdeburg gael eu hysbeilio, a'u rhoddi i farwolaeth gan ei filwyr creulawn ac aflywodraethus.

Aeth byddin Gustavus yn mlaen i ganol gogleddbarth yr Almaen. Cynnyddai ei luoedd yn feunyddiol, a phrysurai y Protestaniaid erlidiedig o bob parth i ymrestru dan ei faner. Yr oedd ei gadfridogion a weithredent ar wahân yn dra llwyddiannus hefyd. Syrthiodd Colberg Werben, a Königsberg, i ddwylaw y Swediaid; gorchfygwyd Pappenheim yn agos i Magdeburg; a chasglodd Gustavus ei holl luoedd ynghyd i fyned yn mlaen i Saxony. Ar y 1af o Awst, 1631, gwersyllodd y fyddin Swedaidd ger llaw Wittemberg. Gwnaed cyttundeb drwy yr hwn yr agorwyd i frenin Sweden diriogaethau Saxony, a gosodwyd holl nerth milwrol yr etholaeth dan ei lywyddiaeth. Yn union ar ol cwblhau y cynghrair hwn ymbarotodd Gustavus i wrthwynebu Tilly, yr hwn a ddaethai i'w erbyn ef hyd yn Eilmarschen. Ar y 7fed o Fedi, 1631, cyfarfu ei luoedd ef a'r eiddo Tilly ar wastadeddau Leipzic. Yr oedd galluoedd unedig brenin Sweden yn cyrhaedd i 40,000 o wŷr; ac yr oedd byddin Tilly, dybygid, yn rhifo rhyw gymmaint yn chwaneg. Bu y fuddugoliaeth am amser yn ammheus rhwng y ddwy fyddin hyn, a arweinid gan ddau gadlywydd penaf yr oes; ond darfu i frwdfrydedd y Swediaid, yn cael eu cefnogi gan hyawdledd a chan esampl eu brenin gwrol-galon, o'r diwedd orthrechu y fyddin ymherodrol—yr hon a ymladdai yn unig am enw ac ysbail. Llwyr orchfygwyd Tilly; a gadawodd fwy na'r drydedd ran o'i wŷr yn archolledig ar faes y frwydr; ond i'w ddewrder a'i fedrusrwydd ef y gellir priodoli gwaredigaeth y gweddill pan yn encilio.

Yr oedd yr oll o'r Almaen yn awr yn agored i'r Swediaid, a phrysurodd Gustavus yn mlaen. Gwnaeth drosodd y wlad oedd ar y Weser i diriarll Hesse, ac addawodd gyfran o Bohemia i etholydd Saxony. Cymmerodd feddiant ei hun o'r rhan brydferth hono o'r wlad sydd rhwng y Rhine a'r Main. Ond cynnhyrfodd llwyddiant y Swediaid eiddigedd yr holl Almaeniaid. Hyd yn oed yn mysg Protestaniaid, yr oedd y teimlad cenhedlaethol yn ddigon cryf i beri iddynt ofidio fod llywodraeth dramor wedi ei sefydlu ar dir yr Almaen. Cyhuddwyd Gustavus o fod â'i lygaid ar y goron ymherodrol, ond nid yw yn eglur ar ba sail y gwnelid hyny. Oerodd ei gynghreirwyr tuag ato, ac edrychai y trigolion yn mhob man yn anffafriol ar y Swediaid. Pan orchfygwyd Tilly yn Leipzic, ac y meistrolodd y fyddin Saxonaidd Bohemia, dychrynodd yr ymherawdwr Ferdinand, a galwodd am Wallenstein i fyned i wrthwynebu Gustavus. Un o ddynion hynotaf ei oes ydoedd Wallenstein [Gwel WALLENSTEIN]; a buan y danfonodd efe y Saxoniaid o Bohemia, a bygythiai Gustavus, yr hwn yn y cyfamser a ennillasai frwydr arall oddi ar Tilly ar y Lech, yn yr hon y collodd y cadlywydd hwnw ei fywyd. Cymmerodd Wallenstein i fyny safle gref yn Nürnberg, drwy yr hyn y torodd efe ymaith bob cynnorthwy oddi wrth frenin Sweden, ac yr attaliodd ei gynllun i symmud ar hyd y Danube trwy Bavaria i Awstria. Mewn ymosodiadau aflwyddiannus ar wersyll Wallenstein, a thrwy newyn ac afiechyd, collodd Gustavus 30,000 o wŷr mewn deuddeng niwrnod a thrigain. O'r diwedd, symmudodd Wallenstein tua chyfeiriad Saxony; ac ar y 1af o Dachwedd, 1632, rhoddodd fantais i'w wrthwynebwr ei gyfarfod mewn brwydr yn Lutzen. Y mae dyddiad y frwydr, pa fodd bynag, yn cael ei roddi i lawr ychydig yn wahanol gan wahanol awdwyr. Agorodd Gustavus y frwydr gyda chanu emyn enwog Luther, yr hon sydd yn dechreu—"*Eine feste Burg ist unser Gott*" ("Ein Duw ni sydd amddiffynfa gadarn"). Efe ei hun a ganai y geiriau yn unawd, ac ymunodd yr holl fyddin i'w chanu mewn cydgan. Arweiniai y fyddin i'r gâd ei hunan; ac mewn adeg beryglus, disgynodd oddi ar ei farch, a lladdodd y mwyaf blaenllaw o'r gelynion â'i bicell ei hun. Tra ar ei farch yn blaenori ail ymosodiad yn erbyn meirchfilwyr y gelyn, tarawyd ef gan belen o'r tu cefn, a chwympodd yntau i lawr ar unwaith. Rhedodd y march heb ei farchog drwy y rhengoedd Swedaidd, yr hyn a barodd i'r milwyr gredu fod y brenin wedi ei ladd; ond gwaeddai y Duc Bernhard o Weimar yn nghlyw y Swediaid fod y brenin wedi ei gymmeryd yn garcharor—yr hyn a'u taniodd i'r fath raddau nas gallai dim sefyll ar ffordd eu hymosodiad; ac ar ol lladdfa ofnadwy bu raid i'r gelyn gilio yn ol. Ennillodd y Swediaid fuddugoliaeth—er hyny, collwyd eu brenin dewr; corph yr hwn a gafwyd yn noeth ar y maes. Y mae ammheuaeth cryf yn gorphwys ar ei gefnder,

Digitized by Google

sef, y Duc o Saxe-Lauenburg, yr hwn oedd ger llaw iddo pan y syrthiodd, o'i fod yn euog o'i lofruddio. Yn y frwydr hon dangosodd Gustavus ei fod yn un o'r cadlywyddion mwyaf a fu erioed yn llywyddu byddin.

Dyma fel y terfynodd bywyd Gustavus Adolphus—un o'r dynion rhagoraf a fu erioed yn gwisgo coron. Yr oedd yn syml a chymmedrol yn ei arferion mewn bywyd cyffredin, yn ddoeth yn ngweinyddiad achosion gwladol, ac yn arweinydd milwraidd o'r fath fwyaf galluog. Bu farw yn uchel ei barch gan bawb; ie, hyd yn oed gan ei elynion, er nad oedd y rhai a waredodd efe yn galaru yn fawr ar ei ol. Llawenychai y Pabyddion yn nghwymp eu gelyn galluog; a da oedd gan y Protestaniaid, y rhai erbyn hyn oeddynt yn ystyried eu hunain yn ddigon cryfion heb ei gynnorthwy ef, gael eu rhyddhau oddi wrth feistr y teimlent yn eiddigeddus tuag ato, ac yn ofnus o hono. Parhaodd y rhyfel am un mlynedd ar bymtheg wedi ei farw ef; ond yr oedd yr Almaen yn gruddfan dan orthrymder a chreulondeb y milwyr afreolus, a chawsant achlysur i anrhydeddu ei goffadwriaeth, ac i ddymuno am yr hynawsedd a'r ddysgyblaeth a amlygid gan filwyr Swedaidd Gustavus. Cyhyd ag y bu y brenin rhagorol hwn fyw, Sweden oedd y wlad a lywodraethid oreu yn Ewrop. Tra nad oedd efe ond dyn ieuangc, galluogodd ei dalentau milwraidd ef i orchfygu rhyfelwyr enwocaf yr ymherodraeth; sef, Tilly, Pappenheim, a Wallenstein. Yn ei holl fuddugoliaethau, fodd bynag, nid oedd efe yn colli ei hunanfeddiant; ac ni chariwyd ef gan nwyd i gyflawni gweithredoedd creulawn ac annheg. Yr oedd efe yn hollol Gristionogol yn ei hynawsedd a'i haelfrydigrwydd.

GWARCHODLU (*Garrison*): y milwyr fydd yn trigo mewn tref neu gaerfa i berwyl amddiffynol.

GWENWYN (Lladin, *venenum*). Unrhyw weithredydd a baro effaith afiachus, niweidiol, neu beryglus ar ryw greadur byw. Y mae hyd yn oed pob meddyginiaeth gref ac effeithiol yn wenwyn, os cymmerir dogn rhy fawr o honi; ac o'r tu arall, y mae llawer peth gwenwynig yn feddyginiaethol, os cymmerir ef wrth raid ac wrth fesur. Yn wir, yr un gair a arferai y Groegiaid am feddyginiaeth ag am wenwyn. Yn ol y syniad cyffredin, yr unig ddefnyddiau gwenwynig yw y rhai hyny a allant ddylanwadu yn niweidiol wrth eu cymmeryd yn ddognau mân; ond nid yw y syniad hwn yn un cywir, canys gellir gwenwyno dyn gydag wns o nitr, fel gyda phum gronyn o arsenig. Dosberthir gwenwyn, gyda golwg ar y deyrnas y perthyn iddi, yn anifeilaidd, yn llysieuol, yn fŵnol, ac yn awyrol. Gyda golwg ar ei effeithiau, rhenir ef yn dri dosbarth; sef, Gwenwyn Cynnhyrfiol (*Irritants*), Gwenwyn Marweiddiol (*Narcotics*); a Gwenwyn Dau-effeithiog (*Narcotico-Irritant*).

Y mae Gwenwyn Cynnhyrfiol yn gweithredu yn benaf ar y cylla a'r coluddion, gan eu hennyn a'u hysu. Yn mysg y mathau o wenwyn sydd âg ansoddau difaol iddynt, y mae surion mwnaidd cryfion, alcaliau ysol, coethawd ysol (*corrosive sublimate*), &c. Ac yn mysg y mathau o Wenwyn Cynnhyrfiol nad ydynt yn gweithredu mewn modd fferyllol a dinystriol ar y mânwe (*tissues*) y denant i gyffyrddiad â hwynt, y mae arsenig, cylion Yspaen, ac ulyfaint plwm, sef *carbonate of lead.* Ar yr ymenydd ac ar fadruddyn y cefn y gweithreda'r Gwenwyn Marweiddiol yn fwyaf neillduol. Ei arwyddion yw penddaredd, cur yn y pen, diffyg ar y golwg, hurtrwydd, dirdyniadau, gyda chysgadrwydd hollol. Nid oes dim blâs egr ar y mathau hyn o wenwyn, ac nid ydynt yn gweithio dyn, nac i lawr nac i fyny, na chwaith yn gadael olion neillduol ar y corph ar ol marwolaeth. Ychydig ydynt mewn nifer, ac nid oes un o honynt yn perthyn i'r deyrnas fŵnol.

Y mae gweithrediad y *Narcotico-Irritants* yn ddyblyg. Y maent, fel y gwenwyn cynnhyrfiol, yn llidio y bibell faeth, ac yn cynnhyrfu y cylla a'r coluddion; ac o herwydd eu dylanwad ar fadruddyn y cefn, y maent yn fuan neu yn hwyr yn peri hurtrwydd, cysgadrwydd, a diffrwythder. I'r deyrnas anifeilaidd y perthyn y mathau hyn o wenwyn. Blâs poeth egr sydd ar rai o honynt, a blâs tra chwerw sydd ar y lleill.

Y mae y mathau o Wenwyn Cynnhyrfiol yn cynnwys:—1af, Surion mŵnol; sef, surion ufelig (*sulphuric*), blorig (*nitric*), a halig (*hydrochloric*), suranig (*oxalic*), surgenig (*tartaric*), yr alcaliau, arsenig gwyn a melyn, copras glâs a gwyrdd, &c. 2il, Sylweddau llysieuol, megys chwerafalnur (*colocynth*), molystor (*gamboge*), olew croton, dail a blodau ysgaw, &c. 3ydd, Sylweddau anifeilaidd, megys cylion Yspaen, ac yn achlysurol ceir ef hyd yn oed mewn selsigod (*sausages*), a physgod.

Gwenwyn Marweiddiol ydyw sudd y pabi, sur Prwssig, olew almonau chwerwon, ffa moch (*henbane*), camphor, gwirf (*alcohol*), nyfelwy (*ether*), gwirflaswy (*chloroform*). Y mae gwenwyn ag sydd â dau effaith iddo, sef y *narcotico-irritant poisons*, yn cynnwys saffr y gweunydd, torlaith (*white hellebore*), dail bysedd cochion (*foxglove*), cegid (*hemlock*), cegid y dwfr, gysplys (*hemlock water-dropwort*), geuberllys (*fool's parsley*), meiwyn (*thorn-apple*), llysiau y blaidd, codwarth (*deadly nightshade*), hadau a rhisgl yr euron (*common laburnum*), grawn a dail y pren yw, a bwyd llyffaint.

Y peth goreu i ladd effaith y surion mwnaidd yw marm (*chalk*), neu fagnesia mewn dwfr, gyda swm da o laeth ar eu hol. Y peth goreu i ladd effaith yr alcaliau a'r ulyfeintiau (*carbonates*) yw gwinegr a dwfr, neu sudd lemon gyda dwfr, a chymmeryd llaeth ar ol hyny. Y gwrthwenwyn yn erbyn sur suranig yw marm neu fagnesia mewn dwfr. Y peth goreu i daflu gwenwyn i fyny yw cymmeryd gronyn o gopras gwyn mewn dwfr claiar, ac yna (wedi llwyr lanhau y cylla) gymmeryd blawd a dwfr, neu flawd a llaeth. Halen cyffredin wedi ei doddi mewn dwfr ydyw y peth goreu i ddi-effeithio blorawd arian (*nitrate of silver*). Lleddir effaith surawd plwm trwy hâl Epsom (*Epsom Salts*). Pan dybio rhywun ei fod wedi ei wenwyno, ac heb wybod natur y gwenwyn, cymmered gronyn (*grain*) o gopras gwyn i garthu ei gylla; neu, gan fod yn beryglus cymmeryd gormod, cymmered lwyaid o fwstard ar ddwfr claiar; ac ar ol taflu i fyny holl gynnwys ei gylla, cymmered laeth yn helaeth. Y mae effeithiau gwenwynig i'r rhan fwyaf o'r nwyau, oddi eithr ulnwy, blornwy, ac ufelnwy (*hydrogen, nitrogen, and oxygen*), pan yr anedlir hwynt i mewn i'r ysgyfaint. O blith y rhai hyn gellir enwi nwy ulyfsur (*carbonic acid gas*), egrulyf (*carbonic oxide*), blornwy ufelurog (*sulphuretted hydrogen*), ac ulyfelgris ammonia (*hydro-sulphate of ammonia*).

Digitized by Google

Er mai anfynych yr arferir ulyfsur i lofruddio neb, y mae yn fynych yn achos o farwolaeth ddamweiniol. Y mae yn beth sicr fod awyr y byddo degwm ei gynnwys yn ulyfsur yn ddigon gwenwynig i ddinystrio bywyd pob dyn ac anifail a'i hanadlo. Y mae egrulyf hefyd yn wenwyn mor rymus ag ydyw ulyfsur. Y mae llawer o hwn mewn nwy glô, a'i effaith ydyw marweiddio. O ffosydd ac oddi ar fudreddi y cyfyd y gwenwyn a elwir yn flornwy ufelurog. Ni wyddys yn sicr pa faint yw y cyfartaledd lleiaf sydd yn angenrheidiol o hwn i ladd dyn; ond gwyddys fod awyr y byddo un rhan o wyth gant o hono yn gynnwysedig o'r nwy yma yn ddigon i ladd ci o gryn faint. Gall y gwenwyn a ddygir i'r gwaed oddi allan fod yn llysieuol, neu yn anifeilaidd; ond gweithredai gwenwyn llysieuol a mŵnol mor rymus pe y dodid ef yn y cylla a phe y dodid ef mewn gwythïen. Ond i'r gwrthwyneb, ni wna gwenwyn anifeilaidd ddim niwed pe llyngcid ef. I fod yn effeithiol, rhaid ei ddodi yn y gwaed trwy bigiad, neu frathiad, neu trwy ryw fodd arall cyffelyb.

Y mae'r ddeddfwriaeth wedi gweled yn angenrheidiol gyfyngu ar werthiant y math hwnw o wenwyn a elwir *arsenic*. Y mae gorfod ar bob un a wertho arsenig gofnodi enw y prynwr, ynghyd â'r amseriad, swm yr hyn a werthir, a dyben ei ddefnyddiad. Nid ydyw yn gyfreithlawn i fasnachwr werthu y gwenwyn hwn i neb na bydd yn ei adnabod, oddi eithr yn ngŵydd tyst adnabyddus iddo. Y mae hefyd yn rhwymedig i gymmysgu hanner ŵns o huddygl, neu liw glâs â phob pwys o arsenig a wertho. Y mae'r neb a esgeuluso wneuthur y pethau hyn yn agored i ddirwy o 20*p*. Euog o farwolaeth yn ngwyneb cyfraith y wlad yw y neb a roddo un arall i farwolaeth trwy ei wenwyno. Hyd yn oed pe na bae y gwenwyn yn achos o farwolaeth dyn, y mae'r dyn a'i rhoddo iddo gyda'r bwriad o'i roddi i farwolaeth yn agored i wasanaeth caled am ei oes, neu o'r hyn lleiaf am dair blynedd. Ac y mae'r hwn a roddo wenwyn i un arall gyda'r bwriad o'i niweidio yn unig, a dim yn amgen, yn agored i gosp o dair i ddeng mlynedd o wasanaeth caled. Y mae'r gosp am roddi gwenwyn yn faleisus i dda byw yn amrywio o dair i bedair-ar-ddeg o flynyddoedd. Y gosp am wenwyno ci neu aderyn, neu ryw greadur afresymol arall a gedwir yn gyffredin mewn cyflwr caeth, yw chwe mis o garchar, neu 20*p*. uwch law swm y golled. Y mae y neb a osodo wenwyn ar diroedd i ladd helwriaeth yn agored i ddirwy drom. Heb law hyny, y mae y neb a wertho neu a gynnygio werthu grawn, neu hâd, neu flawd, wedi ei wenwyno, yn agored i'r un ddirwy.

GWYFFOS *(Aqueduct)*: sianel a ddefnyddir i gario dwfr dros lanerch fydd yn anwastad. Pan fyddo gwyffos yn myned dros iseldir, cynnelir hi yn gyffredin gan fwäau; a phan fyddo ucheldir ar y ffordd, torir mynedfa neu geuffordd drwyddo. Gwneid gwyffosydd gan y Groegiaid; ond nid oes dim gweddillion o honynt ar gael yn awr; ac y mae y crybwyllion a wneir am danynt gan Pausanias, Herodotus, ac eraill, yn rhy fyr i roddi i ni syniad eglur am danynt. Y mae Pococke yn darlunio gwyffos gywrain a wnaed gan Solomon, er dwyn dwfr i Ierusalem o lynoedd a ffynnonau ger llaw Bethlehem. Ond y rhai mwyaf medrus o bawb i gynllunio ac i wneuthur gwyffosydd oedd y Rhufeiniaid. Y mae y tair gwyffos sydd yn cyflenwi Rhufain â dwfr ar hyn o bryd yn rhoddi i'r neb a'i gwelo syniad uchel dros ben am yr hyn ydoedd y ddinas pan oedd cynnifer a naw o wyffosydd yn porthi ei baddonau, ei ffynnonau, a'i physgodlynoedd, a'i llynoedd celfyddydol eraill. Ymestynai y rhai hyn 30, 40, ac hyd yn oed 60 o filldiroedd oddi wrth y ddinas, gan rychwantu y dyffrynoedd dyfnaf a lletaf, a thrywanu mynyddoedd a chreigiau llawer milldir o drwch. Mor aruthr oedd yr olwg arnynt, fel y dywedodd Pliny nad oedd dim yn rhyfeddach na hwynt yn yr holl fyd.

Dyma enwau y gwyffosydd Rhufeinaidd, yn ol trefn amser: sef, 1. *Aqua Appia*.—Dechreuwyd gwneuthur hon gan Appius Claudius tua'r fl. 312 c.c. Yr oedd ei tharddiad yn nghymmydogaeth y Via Prænestina—ryw chwech neu saith o filldiroedd oddi wrth y ddinas. Rhedai gan mwyaf dan y ddaear. Nid oes dim olion o honi yn awr. Cyn hyny ymfoddlonai trigolion Rhufain ar ddyfroedd yr afon Tiber, ac ar y dwfr a dynid o'r ffynnonau oedd yn y ddinas a'r gymmydogaeth.

2. *Anio Vetus*—yr hon a wnaethpwyd tua 273 c.c., gan M. Curius Dentatus. O dan y ddaear gan mwyaf, y rhedai hon hefyd. Cychwynai o'r afon Anio, tuag 20 milldir uwch law Tivoli, ac yr oedd ei hyd yn 45 o filldiroedd. Gellir canfod ei hadfeilion yn Tivoli ac yn ymyl Porta Maggiore.

3. *Aqua Martia*.—Galwyd hon ar enw Quintus Martius Rex (145 c c.) Yr oedd ei tharddiad rhwng Tivoli a Sabiaco, ac felly yr oedd yn 60 milldir o hyd. Y mae y bwäau ardderchog sydd yn ymestyn ar draws y Campagna am o ddeutu chwe milldir ar y ffordd i Frascati, yn cynnwys y rhan hono o'r wyffos ag oedd uwch law y ddaear.

4. *Aqua Tepula*—yr hon a wnaethpwyd 126 c.c. Tarddai hon ger llaw Tusculum, ac yr oedd hi yn ymgynnal ar fwäau gwyffos Martia.

5. *Aqua Julia*.—Adeiladwyd hon gan Agrippa, 34 c. c., a galwyd hi ar enw Augustus. Ymgynnal ar fwäau gwyffos Martius yr oedd hon hefyd. Gwêl y darllenydd nad oedd y tair gwyffos olaf hyn, mewn gwirionedd, ond un wyffos, ond fod iddi dair sianel, neu dri uchder. Gelwid y dwfr a redai yn y sianel uchaf yn *Aqua Julia;* yr hyn a redai yn yr isaf yn *Aqua Martia;* a'r hyn a redai yn yr un ganol yn *Aqua Tepula*. Y mae adfeilion yr wyffos deir-ran hon yn bod yn awr.

6. *Aqua Virgo*—yr hon a adeiladwyd gan Agrippa. Tardda dwfr hon o gymmydogaeth Torre Salona, rhyw 14eg milldir o Rufain. I gyflenwi baddonau Agrippa y bwriadwyd hi ar y cyntaf. Adgyweiriwyd yr wyffos hon gan y pab Nicholas v., a'r pab Pius iv. Ei dwfr hi yw y goreu sydd yn Rhufain.

7. *Aqua Alsietina*.—Gwnaed hon gan Augustus, ac adgyweiriwyd hi gan Trajan, ac yn ddiweddarach gan y pabau. Hi sydd yn cyflenwi y ffynnonau o flaen St. Pedr. Amcan gwreiddiol hon oedd porthi *Naumachia* Augustus—llyn yr arddangosid brwydrau morawl arno.

8. *Aqua Claudia*.—Dechreuwyd gwneuthur y wyffos hon gan Caligula, a gorphenwyd hi gan Claudius, B.A. 51. Y mae rhes o'r bwäau ardderchog a berthynent gynt i'r wyffos hon yn ymestyn etto ar draws y Campagna. Y mae ei hadfeilion yn mhlith y pethau mwyaf ardderchog sydd yn Rhufain.

Digitized by Google

9. *Anio Novus.*—Dygai hon fwy o ddwfr i Rufain nag un o'r gwyffosydd eraill; ac yr oedd hefyd yn hwy na hwynt oll, gan nad oedd yn ddim llai ei hyd na 62 milldir.

Adeiladwyd gwyffosydd eraill yn Rhufain yn ddiweddarach na'r rhai a enwyd uchod; ond nid oeddynt i'w cymmharu â'r rhai hynaf mewn maint ac ardderchawgrwydd. Ac nid er mwyn dwyn dwfr i'r brif ddinas yn unig y gwneid y gwyffosydd. Trwy yr un moddion y dygid dwfr hefyd i holl ddinasoedd a threfi mawrion yr ymherodraeth.

Y rhai hynotaf o'r gwyffosydd talaethol ydynt rhai Segovia, Metz, a Nismes. "Yr oedd gwyffosydd Rhufain (medd Montfaucon), yn ddiammheu, yn rhyfeddol ar gyfrif eu dirfawr hyd a'u lliosawgrwydd; ond os bwriwn heibio y ddwy ystyriaeth yna, ac edrych yn unig ar y rhanau sydd yn aros etto o amgylch Rhufain, rhaid yw addef nad ydynt i'w cystadlu â gwyffosydd Segovia, Metz, a Nismes." Tybir ddarfod gwneyd gwyffos Segovia yn amser Trajan. Y mae yn aros etto o honi 159 o fwäau, wedi eu gwneyd oll o geryg, ac heb ddim glygymrwd (*cement*). Y mae iddi ddwy res o fwäau, y naill uwch ben y llall, ac y mae uchder yr holl adeiladwaith yn 102 o droedfeddi. Ymestynai gwyffos Metz ar draws yr afon Moselle, yr hon sydd yn llydan iawn yn y fan hono; a gwasanaethai i ddwyn dyfroedd peraidd y Gorse i ddinas Metz. Dygai yr wyffos hon ddigon o ddwfr i longau notio arno bob tro yr arddangosid môr-gâd. Tybir mai rhyw fil o droedfeddi oedd ei hyd hi, a bod iddi 50 o fwäau, y rhai oedd yn 50 o droedfeddi o uchder yn y man dyfnaf. Yn mhen hir amser bwriwyd y rhan ganol o honi i lawr gan y talpiau o rew a ddygid i waered gan ddyfroedd yr afon; ond y mae y gweddill o honi yn ymddangos mor sefydlog ag y bu erioed.

Adeiladwyd y Pont du Gard, sef gwyffos Nismes, gan y Rhufeiniaid yn amser Agrippa, nai Augustus. Er fod llawer canrif wedi myned heibio er pan y gwnaed hi, etto y mae yn parhau mewn cyflwr da iawn. Y mae iddi dair rhes o fwäau, y naill uwch ben y llall. Y mae bwäau y rhes uchaf yn llai na rhai y ganol, a rhai y ganol yn llai na rhai y rhes isaf. Ei huchder yw 188 o droedfeddi, ac y mae hyd y nenfwd (*arcade*) uchaf yn 873 o droedfeddi. Y mae ei bwäau yn lletach, a'i phileri, yn ol yr herwydd, yn ysgafnach na rhai unrhyw wyffos arall a wnaed yn flaenorol. Amcan ei gwneuthuriad oedd dwyn dwfr i Nismes o ddwy ffynnonell sydd 25 milldir oddi wrth y ddinas. Yn 1740, trowyd y bont hon yn brif ffordd, trwy ei lledu, neu yn hytrach trwy adeiladu pont arall yn gyfochrog â hi, ac ynglŷn wrthi. Ychydig o wyffosydd a wneir yn yr amseroedd hyn, gan mai pibellau a arferir yn gyffredin i drosglwyddo dwfr; ond y mae dwy neu dair o honynt mor hynod am eu maint a'u gwychder, fel nad allwn derfynu heb gyfeirio atynt:—1. Gwyffos Lisbon, yr hon a orphenwyd yn 1738: y mae ei hyd yn naw milldir, a'i huchder yn 250 o droedfeddi yn y man dyfnaf. 2. Gwyffos Ellesmere, yr hon a orphenwyd gan Telford yn 1805: 1,007 o droedfeddi ydyw o ran hyd, a 126 o led. 3. Gwyffos Maintenon, yr hon a wnaed yn amser Louis XIV. er dwyn dyfroedd yr afon Eure i Versailles. Y mae hi yn 4,400 o droedfeddi o hyd, uwch law 200 o led, ac yn cynnwys 726 o fwäau. 4. Gwyffos Roquefavour, sef y fwyaf o'r lliaws gwyffosydd sydd yn dwyn dwfr o'r afon Durance i Marseilles. Y mae hon, o ran maint ac uchder, yn rhagori ar y Pont du Gard ei hun, o blegid y mae ei hyd yn 1287 troedfedd, a'i lled yn 262 troedfedd; y mae 198,000 galwyn o ddwfr yn rhedeg drwyddi bob munyd. 5. Gwyffos Croton, yr hon sydd yn dwyn dwfr o'r afon Croton i New York—pellder o 38 milldir. Y mae ei huchder uwch ben yr afon Haarlem yn 150 o droedfeddi. Dechreuwyd ei gwneuthur yn 1837, a gorphenwyd hi yn 1842. 6. Gwyffos Pontcyssyllte, gan Telford; yr hon sydd yn croesi yr afon Dyfrdwy a dyffryn Llangollen. Y mae yn hynod am ei maintioli, symledd ei chynllun, a threfniad cywrain ei rhanau. Y mae yn cyfuno ysgafnder a nerth i raddau na welwyd y cyffelyb yn flaenorol. Ei hyd ydyw 1000 o droedfeddi, a chynnwysa 19 o fwäau, o 45 troedfedd o gylch. 7. Gwyffos y Waen (Chirk), gan yr un cynllunydd. Yn hon y defnyddiwyd haiarn am y waith gyntaf. Y mae yn 600 troedfedd o hyd, ac yn 65 troedfedd uwch law yr afon.

GWRTHEYRN GWRTHENAU—neu fel y gelwid ef yn Lladin *Vortigirnus*, neu *Vortigern*—oedd benaeth Prydeinig, yr hwn, ar ol i'r Rhufeiniaid lwyr adael yr ynys, a deyrnasodd ar y rhan ddeheuol o honi, yn y bummed ganrif. Tybir nad oedd efe ar y cyntaf ond penaeth ar gyfran o Ddeheudir Cymru, ac un o aelodau y cynghor cenedlaethol, yn mysg yr hwn yr oedd yn meddu cryn ddylanwad. Ond pan fu farw Cystenyn Fendigaid, ac i'w fab, Constans, ei ddilyn i'r orsedd, pennodwyd Gwrtheyrn yn gynghorwr i'r diweddaf; ond troi yn fradwr a wnaeth efe, a'i lofruddio, a chymmeryd meddiant o'i goron ef. Lled anhawdd ydyw penderfynu dyddiadau digwyddiadau ei deyrnasiad, ac yn wir y digwyddiadau eu hunain, o herwydd y mae y croniclwyr, o bossibl, wedi llwytho ei hanes â llawer o draddodiadau, a rhai o honynt, y mae'n debyg, yn ddisail. Ymddengys fod pendefig arall, o'r enw Emrys Wledig, mewn ymrysonfa â Gwrtheyrn am yr oruchafiaeth; ond cafodd Gwrtheyrn y llaw uchaf arno, mor bell ag i beri iddo ffoi i Lydaw. Er hyn yr oedd ei feddiannau mewn perygl oddi wrth y Pictiaid o'r gogledd, yn gystal ag oddi wrth ei ddeiliaid cythruddedig ef ei hun; yr hyn a barodd iddo geisio cynnorthwy y Saeson, o dan Hengist a Horsa. Fel y canlyn, yn ol Nennius, Gildas, a'r "*Brut,*" y digwyddodd i Hengist a Horsa ymddangos gyntaf yn Mhrydain:—"Tra yr oedd Gwrtheyrn Gwrthenau yn teyrnasu yn Mhrydain, y trigolion a oeddynt dan ofn o'r Scotiaid, a'r Pictiaid, ac hefyd o'r Rhufeiniaid, yn gystal âg Emrys Wledig, yr hwn, ynghyd â'i frawd Uthr Pendragon, a oedd wedi ffoi i Lydaw, at y brenin Budec. Yn y cyfamser, tair llong, wedi eu halltudio o Germania, a ddaethant i Brydain, yn mha rai y blaenorent Horsa a Hengist...... Gwrtheyrn a'u derbyniodd yn addfwyn, ac a roddes iddynt yr ynys a elwir yn eu hiaith hwy *Tenet* (Thanet), ac yn y Brytanaeg, Roihin....... Y Saeson a dderbyniwyd gan Gwrtheyrn, B. A. 447." Daeth ar Gwrtheyrn angen am gynnorthwy y Saeson, ac anfonodd Hengist am chwaneg o'r Saeson o'u gwlad eu hunain; ac yn mhlith y rhai a ddaethant drosodd, yr oedd merch i Hengist, yr hon oedd hardd o bryd. Darparodd y penaeth Saesneg wledd i'r brenin a'i filwyr, ac archodd ar i'w ferch weini iddynt win a diod gref, ac yfed a wnaethant nes meddwi. Syrthiodd y brenin mewn cariad â merch Hengist, a

gofynai am dani yn wraig, gan addaw i'w thad y cawsai pa beth bynag a ofynai. Gofynodd yntau am dalaeth Caint; ac wedi cael Caint, anfonodd Hengist am chwaneg o'i gydwladwyr, ac ymsefydlasant yno. Hyd yn hyn, yr oedd y Saeson yn byw mewn heddwch â'r Brytaniaid; ond nid oeddynt, modd bynag, yn edrych gyda boddhâd ar y gyfathrach hon, nac ar briodas Gwrtheyrn â Rhonwen (Rowena), merch Hengist. Daeth y Saeson, fel yr oeddynt yn lliosog, yn fwy eofn ac anhawdd eu trin; ac yn gymmaint ag nad oedd Gwrtheyrn yn barod i anfon yr estroniaid ymaith, diorseddwyd ef, a rhoddwyd yr orsedd i Gwrthefyr ei fab; ac yna dechreuodd y rhyfeloedd ofnadwy a barhasant am oesoedd rhwng y ddwy genedl. Ond ar ol ymladd yn ddewr am amser yn erbyn y goresgynwyr Saesonig, efe a fu farw, a dywed y "*Brut*" i hyny gael ei achlysuro drwy offerynoliaeth ei lysfam, Rhonwen; yr hon, meddir, a lwyddodd drwy wobrwyon i gael gan un o'i wasanaethyddion roddi gwenwyn yn ei ddiod.

Wedi eu gyru allan o'r ynys gan Gwrthefyr, ni feiddiodd y Saeson ddychwelyd yn ol am bum mlynedd; sef, tra yr oedd Gwrthefyr yn fyw. Ond wedi adsefydliad Gwrtheyrn ar yr orsedd, trwy hudoliaeth ei wraig, efe a anfonodd at Hengist i Germania, i geisio ei gymmhorth i ostegu yr ymrysonau oedd rhyngddo a'i wrthwynebwyr yn y wlad hon. Ond Hengist a gynnullodd fintai ddirfawr, sef tri chan mil o wŷr, medd rhai haneswyr, a hwyliodd tua Phrydain. Pan ddeallodd y Brytaniaid hyn, hwy a ymarfogasant, ac a amddiffynasant y glenydd, fel nad allai eu goresgynwyr dirio. Ond llwyddodd Hengist i dwyllo Gwrtheyrn. Ac wedi cael caniatad i lanio, efe a wahoddodd y brenin a'i bendefigion i wledd fawr a barotowyd ganddo ar wastadedd Caer Caradawc. Ymgymmysgodd y brenin â'r pendefigion Brytanaidd—tri chant mewn nifer, a'r un rhifedi o benaethiaid y Saeson; a'r cyttundeb oedd ar iddynt ddyfod yn anarfog. Yr oedd Hengist, pa fodd bynag, wedi gorchymyn i bob un o'i ddilynwyr ef arfogi ei hun â chyllell yn ddirgelaidd. Eisteddodd y pendefigion Brytanaidd yn heddychol ochr yn ochr â'r Saeson, heb ofni dim niwed. Ond wedi gloddesta ac yfed, ar amnaid neillduol oddi wrth Hengist, tynodd pob Sais ei gyllell allan yn ddisymmwth, a lladdodd yr agosaf ato; ac ni ddiangodd un o'r tri chant, ond Eidiol, a'r brenin—yr hwn a gymmerwyd yn garcharor. Dyma yr amgylchiad a elwir mewn hanesyddiaeth yn "Frâd y Cyllyll Hirion." O barthed i ddiwedd Gwrtheyrn, dywed rhai iddo gael ei losgi yn ei gastell, Caer Gwrtheyrn, ar lan yr afon Gwy. Eraill a ddywedant iddo farw yn grwydryn, yn wrthddrych adgasedd ei genedl, yn Nant Gwrtheyrn, yn swydd Gaernarfon. Yn y "*Trioedd*," gelwir y gyflafan o Frâd y Cyllyll Hirion yn un o'r "Tair Brad-gyfarfod Ynys Prydain." A gelwir Gwrtheyrn yn un o'r "Tri Charnfradwyr Ynys Prydain."

**GWILYM, DAFYDD AP.** Bardd mawr y bedwaredd ganrif ar ddeg. Yn ddiddadl, nid oes gan Gymru, o'i flaen nac ar ei ol, neb yn nosbarth cerdd ac awen y gall hi ymffrostio mwy ynddo. Digon gwir ei fod yn byw mewn oes dywell a hanner baganaidd, pan oedd arferion cymdeithasol yn wahanol iawn i'r hyn y maent heddyw. Dichon fod ganddo linellau yma ac acw heb fod yn hollol lednais, ac fod tair rhan o bedair o'i destynau yn rhy fasweddol, nwyfus, a gwantan i chwaeth bresennol ein darllenwyr; ac fe allai fod ganddo eiriau Cymraeg yn fynych nad oes ond ysgolorion yn yr iaith yn eu deall. Saif yr ystyriaethau hyn yn gryfion ar ffordd poblogrwydd cyffredinol y bardd yn ei wlad ei hun. Y mae y darllenydd yn gwybod nad oedd yn Ewrop yn amser Dafydd ap Gwilym fawr neb yn ysgrifenu rhyddiaith. Ar ffurf barddoniaeth bron i gyd yr ysgrifenai yr ychydig awdwyr a ysgrifenent o gwbl. Os awn ni, fel Cymry, i gymmharu beirdd ein gwlad gyda beirdd gwledydd eraill, tu yma a thu draw i gulfor Gâl, yr amser hwn ar foreu llenyddiaeth, rhaid i ni ddiolch am Ddafydd ap Gwilym. Oni bae ef, golwg dlawd iawn fuasai arnom. Gydag ef, ni raid i ni ostwng ein penau i neb; a gall yr hen iaith edrych yn ol gyda balchder. Truanes garpiog oedd Saesoneg yr oes hono; a phrin y gellir dyweyd dim yn barchus am y Ffrangcaeg fel iaith lenyddol yn mhell ar ol hyny. Dywed Emerson, yr Americanwr dysgedig, nad oedd yn Ewrop un iaith mor ddiwylliedig â'r Gymraeg y pryd hwnw. Dyweder a fyner gan ein cymmydogion am eu Chaucer hwy ag oedd yn byw y pryd hyny, ac am Petrarch a Boccaccio yr Eidal, fel goleuadau pell pell ar doriad gwawr llenyddiaeth Ewropaidd, cawn Dafydd ap Gwilym yn cydoesi â hwynt—ac ar yr ochr hon i Glawdd Offa, yn mysg cenedl fynyddig fechan, a bechan ei breintiau, yn cyfansoddi yn fwy celfyddydol ac yn fwy gwreiddiol nag un o'r ddau. Yr oedd yn fwy celfyddydol am fod cynghanedd gywrain gordeddog yr hen Gymry yn rhywbeth mwy celfyddydol na mydrau rhyddion a mesurau penagored cenhedloedd eraill; ac yn fwy gwreiddiol, o blegid nad oedd ein bardd gwledig ni yn deall ieithoedd estronol. Pe dymunasai efelychu Boccaccio a Petrarch, fel y darfu Chaucer, Shakespeare, ac eraill, rhy licsog i'w henwi, nis gallasai.

Serch ei fod yn anadnabyddus, o ran ei waith a'i enw, i filoedd heddyw yn ei wlad ei hun—ie, hyd yn oed yn Ngheredigion, a'i ·macodd—y mae crebwyll dychymygol, dyfeisgarwch beiddgar arucheledd, prydferthwch, a thlysni, yn cyfodi Dafydd ap Gwilym i binacl uchel ar ei ben ei hun. Heb law hyn, yn lle ymddiflanu yn araf, ac ymleihau i'r golwg o ran maintioli, fel gwrthddrychau cyffredin a basiwyd heibio iddynt, ymgyfodi yn uwch o ddydd i ddydd a wna pen Dafydd ap Gwilym; a chydag ef, ymddyrchafu hefyd yn ei hurddas a'i godidawgrwydd a wna iaith ei gydwladwyr ar ei ol, yn ngolwg ieithyddwyr y Cyfandir, ac yn edmygedd gonest prif athrofeydd y byd. Na chyhudder ni o anghofio Lewis Glyn Cothi, Huw Morus, Goronwy Owen, Dewi Wyn, nac Eben Fardd. Saif Dafydd ap Gwilym yn uwch na hwynt oll—nid o ran teilyngdod, fel ei deallir yn gyffredin yn mantol cyfiawnder; ond ar gyfrif y safle a gymmerodd Dafydd o angenrheidrwydd yn hanes llenyddiaeth gymmhariaethol. Er ei amser ef y mae crefydd wedi codi ei phen, a rhyddid gwladol, dysgeidiaeth, a chelfyddyd wedi cael pum cant o flynyddoedd i ddylanwadu arnom. Yr ydym fel gwlad werdd, flodeuog, a choediog, wedi ei dyrchafu ar lechwedd gwareiddiad, o ryw Gors Fochno siglenog, a adawodd y bardd ar ei ol yn ei sir enedigol. Fel beirdd Cymreig bychain yr oes hon, meddyliwn ein hunain yn llawer uwch na Dafydd ap Gwilym, o ran moes, talent, a dysgeidiaeth; a braidd na ddirmygem y clerwr

Digitized by Google

hwnw a chwareuai ei delyn o dŷ i dŷ, a ganai gywyddau serch fel ynfyt-ddyn o'i las-febyd difarf, pan oedd yn 'wirion-ieuangc,' hyd fin ei fedd, tra yn benwyn 'gwirion-hen!' Chwareu teg i'r marw a ddysgodd Gymraeg, yn fwy na neb, i Doctor Owen Pughe, ac i'r gwirionedd sydd yn sisial yn wylaidd wrth bob cenhedlaeth. Y gwir yw, sefyll yr ydym ar fynydd a godwyd i ni gan Ragluniaeth, a dynion goleuedig, a meddwl yr ydym rhyngom a ni ein hunain fod simneiau ein cabanod, o herwydd eu bod ar Ferwyn, yn llawer uwch ac ardderchocach na chlochdy Gwrecsam.

Yn ngwaelod y gwastadedd pell, a niwl oesau yn ymledu drosto, y mae Dafydd yn ei waith wedi cyfodi colofn iddo ei hun. Nid o barlyrau carpededig oes wareiddiedig—nid o bulpudau a burwyd gan fendithion yr efengyl—ac nid o ysgolion boneddigesau ieuaingc, lle nas siaredir ond y Ffrangcaeg, yr ydym i edrych ar wrthddrych ein testyn. Rhaid edrych arno yn ddiragfarn yn ngoleuni ei oes ei hun. Wrth ei ganfod ef trwy ei waith, canfyddwn hefyd wir ansawdd cymdeithas, chwaeth, moes, dysgeidiaeth, ac arferion y Cymry ddau can mlynedd cyn dechreuad y Diwygiad Protestanaidd. Ysgrifenodd Doctor Owen Pughe ei fywgraphiad yn y flwyddyn 1789. Heb law y Doctor ei hun, nid oedd yn 1770 ond ychydig iawn—fe allai tua dwsin neu ugain—o Gymry a glywsant erioed am enw Dafydd ap Gwilym. Llai fyth a wybuasent am ei ysgrifeniadau, oeddynt yn llwydo mewn llwch a gwlybaniaeth mewn llofftydd, selerydd, a thaflodau. Yn chwanegol at fywgraphiad y Doctor o hono, er fod lliaws wedi ysgrifenu ei fuchedd, ychydig iawn a helaethwyd at hanes personol y bardd. Ond yn ystod y pum mlynedd diweddaf (1873—8), y mae cymmeriad llenyddol, gwerth ieithyddol, a phrydferthwch barddonol ei waith wedi cael sylw ac anrhydedd neillduol yn mysg y Saeson. Fel y tywalltwyd ffrwd o oleuni ar Taliesin gan Nash, ac ar Lywarch Hen gan y Proffeswr Guest, torodd gwawr ar Ap Gwilym o'r un cyfeiriad. O'r bron na tharawyd ni â syndod gan y "*Westminster Review*," am Hydref, 1873, gan erthygl yno ar ein bardd, gan Sais dysgedig o'r enw Lester, mab-yn-nghyfraith i Nicander, a chan y clod uchel ac annisgwyliadwy a roddid yn y tudalenau uchelfeirniadol ac an-Nghymreig hyny i'r Petrarch Cymreig. Agorodd yr erthygl hono lygaid lluoedd o Gymry, heb law y byd cyffredinol, i weled prydferthwch anghymmharol—nid yr aristocrataidd Byron, na'r ffasiynawl Dennyson, ond yr hen "fardd cartref" yn ei "frethyn cartref:"—nid yn amgen nag Ap Gwilym yn "nghlec y cydseiniaid," ac yn "macsiau yr hualau barbaraidd" a gondemnir mor ddidrugaredd yn awr ac yn y man gan ysgrifenwyr Cymreig. Bondigrybwyll wrth fyned heibio, annhraethol harddach a godidocach yn Saesneg yw beirdd y gynghanedd na beirdd y rhyddfesurau hyd yn hyn; o herwydd y mae cyfieithwyr o angenrheidrwydd yn gorfod manylu chwaneg, a chymmeryd mwy o drafferth gyda chywydd, &c., o blegid fod y meddwl ynddynt yn dywyll, ac wedi ei nol o bell yn fynych. Trwy hyny appelir at, a threthir dychymyg athrylith farddonol a chywreinrwydd y cyfieithydd. Wedi yr erthygl hono gan Lester, a'r cyfieithiadau nodedig o heirdd a gyhoeddwyd yn y "*Westminster*," daw neb llai na'r Proffeswr E. B. Cowell. M. A., o Athrofa Caergrawnt yn mlaen. Y mae ei araeth a draddododd ger bron Cymmrodorion Llundain, yn mis Mai, 1878, yn awr yn y wasg. Dywed ei fod ef, i feistroli yr iaith Sanscrit, yn yr hon y mae yn broffeswr, wedi cael ei dynu at y Gymraeg o herwydd ei chyssylltiad hi â'r Sanscrit. Wedi ei dysgu i'w defnyddio yn ei efrydiau, dechreuodd ei darllen er mwyn pleser; ac wrth wneyd hyny, medd ef, "Daethum ar draws Dafydd ap Gwilym, a darganfyddais ynddo ef un bardd mawr mewn gwirionedd—un y dylai holl Ewrop wybod am dano." Nid oedd efe yn credu dim o'r chwedlau plentynaidd yr oedd traddodiad wedi eu cyssylltu â hanes y bardd. Yr oedd gwrachïaidd chwedlau a thrüth o'r fath ynglŷn âg enwau Virgil, a Shakespeare, a degau eraill. Y gwir yw, ychydig iawn a wyddai neb am fywydau y beirdd hyny; a beth a ddarfu ysgrifenwyr? Gan na allent, mewn gwirionedd, gael hanesion gonest a chredadwy, llanwasant eu tudalenau â'r hyn a alwent yn "draddodiadau." Yr oedd bywyd y bardd, os credid y traddodiadau hyn, yn un poenus i'w ddarllen. Nis gallent ei barchu o herwydd ei rysedd, ac anweddusrwydd ei garwriaethau.

Mŷn rhai fod Dafydd yn deall ieithoedd lawer, a bod hyd yn oed Homer yn yr iaith wreiddiol yn adnabyddus iddo. Yr oedd yr iaith Roeg y pryd hwnw allan o gyrhaedd Dante a dysgedigion penaf y Cyfandir yn nghryd dysgeidiaeth—pellach fyth ydoedd Dafydd oddi wrthi yn Ynys Prydain. Dichon fod rhywbeth yn go-debygu caneuon Provence yn ei gywyddau. Cenid y rhai hyny yn Neheudir Ffraingc gan glerwyr tramor a adwaenid wrth yr enw *troubadours*, tua'r blynyddoedd 1150 a 1290. Yr oedd dylanwad y cerddi hyny i'w weled yn amlwg yn llenyddiaeth foreuol Yspaen, Itali, Ffraingc, a Germany. Yr oedd yn mhlith y *troubadours* foneddwyr a marchogion a ddysgent ganu a phrydyddu, o herwydd fod hyny yn ffasiynawl ac yn foneddigaidd, fel chwareu perdoneg heddyw; ac nis gellid gwadu nad oedd rhai o gynnyrchion Ap Gwilym yn debyg i'r "*Provencal Chanzons*" yn y ddeuddegfed ganrif—gyda hyn o wahaniaeth; sef, fod Ap Gwilym yn burach, yn well, ac yn fwy gwreiddiol. Meddai beirdd Provence ddarnau tra thebyg i gywyddau "I Forwyn," "Cysgod y Bardd," a'r "Gôg;" ond yr oedd y bardd Cymreig, trwy ei athrylith fawr ei hun, wedi rhoddi gwisg a gwedd hollol newydd arnynt—os oeddynt o gwbl yn hen bethau —fel y gwnaeth Shakespeare i hen chwareuon, a fodolent o'i flaen.

Yn ol pob tebyg, yr oedd efe yn ddyn hynod o fucheddol; ac i gadarnhau y golygiad yna, yr oedd Watkin Powell, yn 1580, yn dyweyd fel hyn:—"Yn ol pob hanes credadwy a allai ef gael am Dafydd, yr oedd ei fuchedd yn nodedig o barth ei sobrwydd, ei ddistawrwydd, a'i sadrwydd fel dyn. Anhawdd iawn oedd cael ganddo siarad ar unrhyw destyn, o blegid ei fod mor ostyngedig, a hoff o lonyddwch meudwyaidd allan o'r golwg."

Yr ydym wedi gorfod talfyru y sylwadau blaenorol o araeth y proffeswr crybwylledig; a gwnawn ddyfyniad etto o'r hyn a ysgrifenodd Sais arall ar ol bod flynyddoedd yn dysgu Cymraeg, fel ei flaenorydd dysgedig. Cyfeirio yr ydym at George Borrow yn ei "*Wild Wales:*" —"Bardd ardderchog natur oedd Dafydd Ap Gwilym. Cydoesai â Chaucer; ond y mae yn werth hanner dwsin o'r gair-wneuthurwr diwyll-

iedig hwnw—mydryddwr celfydd y chwedlau Normanaidd ac Eidalaidd. Ystyriasom Dafydd Ap Gwilym bob amser, er pan ddaethom yn gydnabyddus â'i waith, y bardd mwyaf athrylithgar a ymddangosodd yn Ewrop, ar ol adfywiad llenyddiaeth. Yn wir, efe oedd awenydd mwyaf y genedl Gymreig, ac yr oedd yn un o brif feirdd y byd."

O blegid fod llawer o chwedlau am dano a dueddant i iselhau cymmeriad Ap Gwilym, ac am ein bod yn credu yn ddiysgog yn niniweidrwydd a phurdeb y bardd, yr ydym yn y dalenau hyn yn gadael allan y chwedlau gwrachïaidd hyny yn fwriadol, gan ofidio eu bod wedi eu hargraphu drosodd a throsodd drachefn mor fynych, er poen i'r darllenydd, a thramgwydd i bob perchen chwaeth. Nid ceisio osgoi y gwir, ond yn hytrach ceisio ei gadw, yr ydym. Y mae bron pob chwedl ddigrif hyd yn oed y dyddiau hyn, yn enwedig ystraeon anweddus, yn cael eu priodoli i hwn a hwn—ac enwir y person fel y byddo dywedwr y chwedl yn dewis. Gwyddom fod yr un castiau a'r un dywediadau yn cael eu priodoli i Twm o'r Nant, Rhys Grythor, Wil Ysgeifiog, Twm Siôn Catti, a Thwm Siamber Wen,* Dick Turpin, Rob Roy, a Robin Hood, &c. O'r flwyddyn 1368, pan fu farw Dafydd, hyd 1789, pan gasglwyd gyntaf y traddodiadau a lanwant i fyny ddalenau gwynion ei "*Fywyd*" hynod, y mae pedwar can mlynedd o ddyweyd chwedlau am hwn a'r llall wedi bod ar lafar gwlad, yn mysg pobl nad oedd deg o bob cant o honynt yn deall gair ar lyfr, nac yn hidio pin pwy fyddai arwr eu hystraeon, ond iddo fod yn rhywun mawr ac adnabyddus. Dyn mwyaf ei oes a'i genedl yn Nghymru ydoedd Dafydd; ac y mae chwedleuwyr wedi cael y pedwar can mlynedd crybwylledig i'w ddrwgliwio, ac i gysylltu ei enw anrhydeddus gyda phob hen ystori iselwael a phlentynaidd. Pwy yn ei synwyr cyffredin a goelia fod gwawdiaith lem y bardd wedi myned fel saeth farwol i galon Rhys Meigen, ac i'r olaf deimlo mor ddwys nes y syrthiodd yn farw yn y fan wrth draed Dafydd Ap Gwilym! Ond dyna ddywed bywgraphwyr ein bardd:—ac heb law hyny, ei fod mor hardd o gorph, a hawddgar o dymmer, na wrthodai un ferch ei llaw iddo; ac iddo, ar un tro, wahodd pedair ar hugain o'i gariadon i'w gyfarfod ar unwaith a'u gilydd, o dan goeden gauadfrig, yn ngoleuni haul ar hirddydd haf. Bod yr holl bedair merch ar hugain wedi cyfarfod yn ol y gwahawdd, yn gylch angylaidd, fel nifer o dylwyth tecach nac hyd yn oed y tylwyth teg!

Y mae anghyssondeb, anwiredd noeth, a haerllugrwydd di-chwaeth ar wyneb yr ystori, mor oleu a haul hanner dydd. Yn gweled hanner dwsin o ferched eraill o'u blaenau wrth fôn y pren, 'doedd fawr o berygl i'r deunaw eraill o un i un ddynesu atynt. Yn wir, y mae yn anhawdd credu fod cymmaint ag un ferch ieuangc o'i gariadon yno. Am yr englyn a roddir yn ngenau Dafydd yn mrigyn y goeden, y mae yn annaturiol, yn anfoesol, yn greulawn, ac yn aflan. Dengwaith tebycach i wirionedd na sothach o'r fath ydyw chwedleuon y "*Cock and the Bull*," a hanes yr "Iâr a'r Mynawyd."

Golwg bur ramantus hefyd sydd ar yr adroddiad a gawn am briodas Dafydd Ap Gwilym gyda Morfudd. Nid yn yr eglwys, na'r abbatty, ond yn y coed y cymmer y seremoni le. Gwneir i Madog Benfras, druan, weithredu fel offeiriad; a mwyalchen ar frigyn ger llaw sydd yn gwasanaethu fel clochydd! Er fod y fath le a Gretna Green, lle y priodid heb drwydded, heb ostegion, ac heb weinidog, yn amgen na gof neu grefftwr cyfagos, mor ddiweddar ag 1856, nid oedd y fath le yn Nghymru o gwbl, a myned mor bell yn ol ag amser Dafydd. Nid oes ammheuaeth nad priodas ddychymmygol farddonol ydoedd hono o ben-bwy-gilydd; ac fel hyn y mae ffeithiau ac anwireddau wedi eu plethu a'u gwau trwy eu gilydd, bob yn ail tudalen, yn hanes ei fywyd. Tueddir ni i gredu nad oedd Morfudd a Dyddgu, er i'r fath ferched fyw a goglais serchiadau y bardd, ond *enwau anwyl* wedi y cwbl—cyssegredig yn ngwres ei galon. Y mae gan feirdd diweddar iawn ei Morfyddod. Un a'i Wen, Dewi Wyn ei Elen, Golyddan ei Wenafwy, ac un neu ddau arall ei Fyfanwy. Enwau arwresau ydynt oll. Pe buasai y pedwar bardd diweddar hyn wedi cyfyngu eu hunain i ysgrifenu rhiangerddi ar hyd eu hoes, a dim o'r bron arall heb law serch a charwriaeth, fel yr eiddo Dafydd Ap Gwilym, yn digwydd bod yn destynau i'w gwaith, oni chredasai y wlad yn ystod yr oes hon, ac yn enwedig yn ystod yr oes nesaf, fod Elen un, a Myfanwy y llall, yn llangcesau neu yn wragedd gwirioneddol?

Y mae llinellau o waith Tudur Aled a ysgrifenodd o ddeutu can mlynedd ar ol Ap Gwilym yn awgrymu i Dafydd, fel lliaws eraill, farw yn hen langc. Yn eu hymddiddanion difyrus, ac yn eu caneuon yn unig, y mae llawer, fel Dafydd, yn gwneyd eu holl garwriaeth—ac yn marw yn ddibriod yn y diwedd.

Y llinellau y cyfeiriwn atynt ydynt:—

"Ni bu fyw neb fwy 'i awen,
Ond da fardd Glan Teifi wen,
Mab Gwilym *heb wraig*,
Heb iddo frawd ni bydd fry."

Gan y mwyaf o'i fywgraphwyr, ystyrid ei fod yn byw o'r flwyddyn 1340 i 1400. Y mae yn haws credu ei fod ychydig yn hŷn; o herwydd dywed ei gydoeswr maleisddrwg, Rhys Meigen, pan oedd y ddau yn neuadd Ieuan ap Lleision, yn Maglan, wrth y gorchwyl o glera:—

"Mil trichant meddant i mi—y ganed
Yn geuau tan lwyni,
Gŵr o'th hân, garw yw i'th enwi,
Mab Gwilym Gam, cytgam ci."

Heb law hyn, y mae genym brofion diymwad fod Dafydd yn fardd cadeiriog mor foreu a 1328, pan gynnaliwyd Eisteddfod Gwern y Glepa, yn amser Edward y Trydydd, o dan nawdd Ifor Hael. Yn ol yr hanes a roddir gan Iolo am y "tair eisteddfod dadeni," yr oedd y beirdd canlynol yno:—y tri brodyr Marchwiail, Ednyfed, a Madog; a Llewelyn, Dafydd ap Gwilym, a Llywelyn ap Gwilym o'r Ddol goch—athraw a beirniad y pedwar eraill. Yr oedd "cywyddau" ein bardd eisoes wedi creu dyddordeb neillduol yn y wlad, o herwydd "yn yr eisteddfod hono y doded braint cadair ar fesur cywydd, lle nad oedd felly o'r blaen; a phan ganwyd am y gadair, Dafydd ap Gwilym a ynillws o nerth awen, a chanu â Chymraeg cynhwynol." Y mae y sylw "Cymraeg cynhwynol" yn profi fod iaith Dafydd yn yr eisteddfod hono yn cael ei hystyried yn burach na'r eiddo y lleill, er mai Cymraeg y Gogledd, ac nid iaith feinach Morganwg, a ddefnyddiai. "Ac o hyny maes, braint cadair i fesur cywydd deuair, a gwisgo Dafydd ap Gwilym a braint Cadair Morganwg, a rhoed enw Dafydd Morganwg (iddo), ac yn Ngwynedd ei alw Bardd

* Gelwid ef hefyd yn "*Eos Dyfed*."

Y mae mwy nag un o'i fywgraphwyr yn barnu nad oedd merch o gwbl gan Ifor Hael, ac yn dwyn yn mlaen resymau dros hyny. Myn eraill fod ganddo, ac mai Morfudd oedd: ond dadleua eraill mai Dyddgu oedd ei henw. Dywed Dafydd ei hun mai Madog Lawgam, o Fôn, oedd tad ei Forfudd, ac iddo ei gweled yn y Rhosyr. Yn un o'i gywyddau hefyd fe'i gwel hi yn canu yn nghôr eglwys Bangor. Gwneir allan gan eraill mai merch Ieuan ap Gruffydd, o Nant y Seiri, ydoedd Dyddgu.

Yr oedd Gwern-y-glepa a Gwenallt yn mhlwyf Maesaleg, yn sir Fynwy; ond y mae pob adfeilion a berthynent i lys Ifor Hael wedi diflanu er's dau can mlynedd; ac ofer edrych heddyw am furddyn Gwern-y-glepa, chwedl Ieuan Brydydd Hir am y fan:—

"Y llwybrau gynt lle bu'r gân
Yw lleoedd y ddallhuan."

Yr ydym yn ysgipio dros y neithior a gymmerodd le yn y coed, ymdrafodaeth fwngleraidd y bardd â'r Bwa Bach a ddygodd Forfydd oddi arno, ac a ddygwyd yn ol ac yn ol drachefn, o herwydd y rhesymau a roisom o'r blaen. Am dano yn gyru rhodd o win i Forfydd, ac iddi hithau ei daflu yn ddiystyrllyd hyd wyneb y llatai, nid oes neb y dyddiau hyn yn malio rhyw lawer ai gwir ai anwir y chwedl.

O herwydd fod lle yn sir Fôn o'r enw Bro Gynyn, nid rhyfedd fod rhai o'r Monwyson, er cyfoethoced eu hynys o enwogion ein cenedl, yn hawlio yr anrhydedd o roddi anadl gyntaf yn ffroenau Dafydd. Er mor werthfawr a dyddorol yw enw pob cwm, pant, afon, tref, pentref, maes, a dôl yn y Dywysogaeth, fel cofiaduron gwledig am frwydrau, personau, a phethau a fu, etto y maent yn camarwain yr hanesydd yn fynych iawn. Os na bydd chwedl neu draddodiad yn ffitio, neu yn eglurhau ystyr yr enw, yn barod wrth law, bydd dychymmyg ar waith yn y fan, a gwneir traddodiad addas i'r lle, a llusgir hanesyddiaeth gerfydd ei chlustiau i dystio fod y chwedl newydd yn hen draddodiad wedi ei gyssegru gan wefusau mamau a thadau er's oesau lawer. *Dolfeinir* y gelwir cae glas yn ymyl cyfaill i'r ysgrifenydd. Y dydd o'r blaen mynai bardd medrus mai *dôl* rhyw *feinir*, neu ferch ieuangc, a ystyrid. Daeth hynafiaethydd pur fawr heibio ychydig wedi hyny, gan holi yn mha le yr oedd y *meini hirion* yn sefyll, a pha beth a ddaeth o honynt. Wedi melldithio mab ieuangc i amaethwr am ddinystrio hen bethau a daflasant gymmaint o oleuni ar yr oesau tywyll, aeth i holi "yr hen grydd"—yr hen ŵr mwyaf oedranus yn y pentref. "Dyn a'ch helpo," ebe yr hen ŵr, "yr wyf yn cofio yr holl ddolydd yma yn un weirglodd fawr, heb nemawr i wrych yn agos iddi. Fel yr eloch ar hyd y ffordd, yr oedd ystalwm, ac y mae etto, gae o'r enw 'Y ddôl fain fer;' a phan yr estynwyd y gwrychoedd ar draws y 'Wern fawr,' gwnaed tair dôl newydd; sef, y 'Ddôl ganol,' y 'Ddôl bellaf,' a'r 'Ddôl fain hir,' i'w gwahaniaethu oddi wrth y 'Ddôl fain fer!'" Cors beryglus iawn i'w cherdded gan hanesydd yw enwau lleoedd. Gan fod Bro Gynyn yn Môn, ac eisieu gan rywun wneyd 'Môn, mam Cymru,' yn fam Dafydd ap Gwilym hefyd, yr oedd yn rhaid cael ystori—ac ystori a gaed, a hono yn un mor wrthun ac annhebyg i wirionedd a'r lleill a adawsom allan; ac nid ydym chwaith yn eithrio yr englyn a ddywed mewn cynghanedd dra diweddar i Daliesin brophwydo—

"Y genid yn Mro Gynin
Brydydd â'i gywydd fel gwin."

Gwyddom fod ammheuaeth a thir dadl mewn perthynas i'r bardd fel ieithyddwr; sef, a oedd efe yn deall ieithoedd y Cyfandir. Mantolasom y rhesymau yn deg yn ol gwybodaeth ffaeledig dyn, a chawsom ef yn "ddieuog" o ddysgu y Lladin a'r Groeg. Cofiasom fod "Cywydd y Morgrugyn" a wnaeth efe bron air yn air fel "Dammeg" o waith Fontaine, ac i farn condemniad ddisgyn ar Dafydd. Ac yn ngharchar oer y llen-ladron y buasai hyd heddyw, oni bae fod lleng o dystion yn profi fod Fontaine, trwy ryw anhap, heb ei eni ddau can mlynedd ar ol y bardd Cymreig! Peth câs oedd hyn, a thaflwyd ammheuaeth ar onestrwydd Fontaine.

O herwydd fod Dafydd yn cyfeirio at Homer yn awr ac yn y man, haerir ei fod yn deall Groeg! Oni wyddom am ugeiniau o feirdd a gyfeiriant at Homer a Dante, &c., yn eu gweithiau, na wyddant prin air o Roeg a Lladin? Y mae yn wir fod gan Ap Gwilym grybwyllion am Virgil o dan yr enw Fferyllt, ac at Ovid, os nad at Horace hefyd; ond nid yw hyny yn profi ei fod wedi meistroli Lladin. Fel dynion eraill ei oes, arferai fyned i'r eglwys, ac ymgyfeillachu gydag offeiriaid Pabaidd a mynachod. Deallai ychydig o eiriau yn ddiau. Nis gallai beidio. Peth arall yw deall iaith fel ag i gyfieithu air yn air. Gan fod ei gywydd "I'r Drych" mor debyg i ddegfed awd pedwerydd llyfr Horace, ag yw ei gywydd i'r "Morgrugyn" i "Ddammeg" Fontaine, y mae yn rhaid fod gan Dafydd ap Gwilym ryw hen ysgrifau neu ddiarhebion traddodiadol ag oedd yn eiddo cyffredin trwy Ewrop. Am hyny, gadewch i Betrarch, Fontaine, Ovid, Ap Gwilym, a Virgil, os mynwch, gael eu rhyddhau. Y mae y prawf eu bod oll yn deall ieithoedd eu gilydd yn aros hyd yn hyn heb ei wneyd; ac fel awgrym i esbonio sut bod y Lladiniaid, a'r Ffrangcod, a'r Cymry, yn efelychu caneuon, neu ddammegion eu gilydd, dylem gofio fod *Provence* wrth y gwraidd, bod Languedoc a'r afon Rhone (gwraidd y Rhon ac Aberhonddu) yn yr ardal, a mynyddoedd y Pyrenees (y Berwyniau), a'r Cevennes (y Cefnau) yn aros fel y gadawyd hwynt gan ein cyndadau; a bod Dionysius, y daearyddwr, yn dyweyd mai ar y Pyrenees, a thua phen uchaf yr afon Po, yr oedd y Celtiaid yn byw. Dyma ffynnonell gyffredin testynau i feirdd y Cyfandir; ac fel y bu iddynt efelychu eu gilydd mewn gwahanol ieithoedd yn onest ac yn ddiarwybod y naill i'r llall.

Sylwa un ysgrifenydd yn y "*Cambrian Register*," cyf. iii., fod ei holl ganiadau duwiolfrydig o'r bron wedi myned ar goll, am nad oeddynt yn boblogaidd, nac yn werth eu hail a'u trydydd ysgrifenu, yn ngolwg gwerinos digrefydd yr oesau a'i dilynodd; ond fod pob peth a ddygymmodai â chwaeth ieuengctyd nwyfus ac annysgedig yn cael ei gopio a'i gadw. Gan fod can lleied o'i hanes gwirioneddol ar gael, aeth pobl i feddwl, oddi wrth ei gynnyrchion, ei fod yntau ei hun o'r un bucheddiad. Ond, medd y "*Register*" (1818), gellir profi yn awr oddi wrth dystiolaethau a adawyd gan gydoeswyr iddo, ac oddi wrth ddywediadau teuluoedd y clerai iddynt, fod ei gymmeriad fel dyn yn ddiargyhoedd, a dihalogedig ei ymarweddiad. Ebyrth ydoedd rhai o'i gywyddau ar allor poblogrwydd a chwaeth anniwygiedig ei gydoeswyr. Yr oedd ganddo lawer o linellau na theimlodd erioed y

Digitized by Google

ganrif ar ddeg a'r bymthegfed. Cynnyddodd nerth y Babaeth, ac ymddangosai yr eglwys fel pe buasai am lyncu pob awdurdod iddi ei hun. Fe ddadleuid yn bendant a phenderfynol mai yr offeiriaid oedd yr unig gyfryngau gwirioneddol i gymdeithasu â'r nefoedd, ac nad oedd un iachawdwriaeth i'w chael oddi allan i derfynau yr eglwys. Dechreuodd dynion meddylgar ganfod gwrthuni a thuedd niweidiol yr egwyddorion hyn; ond gadawyd y gwaith o gychwyn y diwygiad mawr i fynach selog a gostyngedig ar ol hyn. Rhoddodd Germany atebiad parod i alwad Luther, ac y mae byth wedi bod i raddau mwy yn genedl Brotestanaidd. Byth er heddwch Westphalia, yn 1648, y mae Germany wedi bod yn gyfartal ranedig rhwng Protestaniaeth a Phabyddiaeth—y gogledd yn neillduol Brotestanaidd a'r deheu yn neillduol Babyddol. Y mae mwyafrif mawr o Babyddion yn Awstria a Bavaria; ond y mae mwy o Brotestaniaid yn Prwssia. Yn Hanover, Würtemberg, Baden, Hesse Cassel, a Hesse Darmstadt, Nassau, Oldenburg, a'r pedair dinas rydd, sef Hamburg, Bremen, Lubeck, a Frankfort-on-the-Maine, y Protestaniaid sydd luosocaf. Y mae eglwys Brotestanaidd Germany wedi ei rhanu i nifer mawr o adranau gwahanol—pob talaeth fechan yn meddu ei threfniant eglwysig neillduol ei hun. Felly, a chymmeryd golwg daleithiol ar hyn, nid oes dim llai na deunaw ar ugain o eglwysi Protestanaidd gwahanol yn Germany. Ond mewn ystyr dduwinyddol, nid oes ond tair; sef, yr Eglwys Lutheraidd, yr Eglwys Ddiwygiedig, a'r Eglwys Efengylaidd Unedig: ac at y tair hyny y cawn gyfyngu ein sylwadau yn yr erthygl bresennol.

I. *Yr Eglwys Lutheraidd.* Dechreuwyd hon yn y flwyddyn 1520, pan y diarddelwyd Luther o Eglwys Rufain gan Leo x.; a dygwyd hi i ffurf benodol pan gyhoeddwyd Cyffes Augsburg, yn 1530. Y mae y gyffes hon, a gyfansoddwyd gan Melancthon, yn cael ei gynnorthwyo gan Luther, yn gynnwysedig o wyth erthygl ar ugain – un ar ugain o ba rai sydd yn cynnwys eglurhad ar y prif athrawiaethau Protestanaidd, a'r saith arall yn enwi yr amrywiol achosion a barodd i Luther a'i ganlynwyr i ymadael o Eglwys Rhufain. Gwel CYFFES AUGSBURG. Gorphenwyd sefydlu yr Eglwys Lutheraidd yn 1552, pan y ffurfiwyd hedd-ammod crefyddol yn Passau, rhwng Charles v. a Maurice, etholwr Saxony. Ffurf-reolau yr Eglwys Lutheraidd ydyw Cyffes Augsburg; yr amddiffyniad iddi a gyhoeddwyd yn 1531; Catecism Mwyaf a Lleiaf Luther; Erthyglau Smalcald; a'r Ffurf o Gytundeb (*Formula of Concord*). Y mae yr Eglwys Lutheraidd a'r Eglwys Ddiwygiedig yn cydnabod gair Duw fel rheol rwymedigaethol ffydd ac ymarferiad; ond y mae yr Eglwys Ddiwygiedig yn dal na ddylid gadael i ddim gymmeryd lle mewn achosion eglwysig heb fod awdurdod bendant drosto yn yr Ysgrythyrau; tra ar y llaw arall y mae yr Eglwys Lutheraidd yn dal y gellir yn gyfreithlawn ddwyn i mewn ffurfiau neillduol o addoliad, heb fod yr Ysgrythyr yn son un gair am danynt, os byddant ynddynt eu hunain yn gyfaddas. O ganlyniad y mae yr Eglwys Lutheraidd, tra yn bwrw ymaith elfenau mwyaf cnawdol y gyfundrefn Babaidd, megys yr offeren, addoliad saint, a'r arferiad o iaith y bobl yn y gwasanaeth crefyddol, eto y mae yn glynu yn agosach wrth ffurfwasanaeth sefydledig a chyfundrefn sacramentaidd y Pabyddion na'r Eglwys Ddiwygiedig, yr hon sydd wedi mabwysiadu y trefniant mwyaf syml o addoliad. Yr egwyddor fawr sylfaenol a gyhoeddai Luther yn neillduol oedd yr athrawiaeth o gyfiawnhad trwy ffydd; ac wrth wneyd hyny, daliai yr hyn a ystyriwyd byth wedi hyny yn egwyddor sylfaenol Protestaniaeth. Ond y mae pynciau drwy ba rai yr oedd efe, a'r Eglwys Lutheraidd yr un modd, yn sefyll yn y canol rhwng Pabyddiaeth a Phrotestaniaeth bur. Y penaf o'r rhai hyn yw natur Swper yr Arglwydd. Yr oedd Luther, er yn gwadu fod unrhyw aberth yn yr offeren, neu fod unrhyw iawn yn cael ei wneyd drwyddi, eto yn dal gwir bresennoldeb dynoliaeth Crist yn, a chyda, a than yr elfenau yn Swper yr Arglwydd; ac mae y Lutheriaid wedi glynu yn ddiysgog wrth y syniad hwn o'r dechreu. Yr oedd cymmaint o amser Luther yn myned i ddiwygio opiniynau duwinyddol, fel nad oedd ganddo ond ychydig amser i'w dreulio yn nglŷn âg amgylchiadau allanol yr eglwys. Ychydig o sylw a roddai i ffurflywodraeth eglwysig. Fel hyn, yr oedd yr Eglwys Lutheraidd, ar ol ymryddhau o gaethiwed y pab, yn ymostwng yn ddiwrthwynebiad dan reolaeth tywysogion gwladol; ac y mae annibyniaeth ysbrydol yn beth anadnabyddus yn Germany. Ond er hyny, y mae cryn lawer o fywyd crefyddol pur wedi bod yn yr Eglwys Lutheraidd o'r dechreu i lawr hyd yr ymuniad â'r Eglwys Ddiwygiedig yn 1817. Gwrthododd plaid o Lutheriaid manwl ymuno; a hwy sydd yn cyfansoddi y Lutheriaid Priodol yn y dyddiau hyn. Nodweddir hwy gan ysbryd dallbleidiol, a hoffder anghymmedrol o ffurfiau allanol crefydd. Y maent yn cyfateb yn lled gywir i'r Puseyaid yn Mhrydain. Fel yr ymddengys fod y Puseyaid yn credu nas gall fod iachawdwriaeth i neb nas derbyniodd ordinhadau yr eglwys o law olynydd yr apostolion, felly y mae y Lutheriaid yn gweithredu fel pe na byddai neb yn deilwng o'i alw yn frawd Cristionogol heb iddo ymrwymo i Gyffes Augsburg a'r Ffurf o Gytundeb. Ni fynant unrhyw gymdeithas â'r sawl a wadant bresennoldeb gwirioneddol dynoliaeth Crist yn elfenau y Swper Sanctaidd. Gan hyny, y maent yn wrthwynebwyr egniol i egwyddorion y Cynghrair Efengylaidd. Fe geir yn gyffredinol, lle y mae Lutheriaeth fanwl yn flynu, nad yw goleu lamp Cristionogaeth bur yn cynneu ond yn bur arafaidd, a bod safon moesoldeb yn isel iawn. Y gwledydd yn mha rai y mae Lutheriaeth yn awr yn fwyaf grymus ydynt—Brunswick, Hanover, Oldenburg, Thuringia, Saxony, Brandenburg, y trefydd Hanseataidd, Pomerania, Silesia, a Prwssia. Ffurflywodraeth yr Eglwys Bresbyteraidd yn Germany yw yr un Presbyteraidd; ond y ffurf esgobyddol sydd arni yn Denmark a Sweden, lle y mae Lutheriaeth yn fwy nerthol nag yn Germany.

Y mae cangen eang o'r Eglwys Lutheraidd Germanaidd yn Unol Daleithiau yr America. Cyfodwyd hi drwy ymfudiaeth o Ewrop yno ar wahanol gyfnodau, ar ol y flwyddyn 1680. Bu am dymmor hir yn hynod wan, ac annhebyg i lwyddo. Ond yn raddol aeth yn fwy blodeuog, nes y mae yn awr yn ymestyn dros yr holl daleithiau canol a gorllewinol, a rhai o'r Taleithiau deheuol. Cynnwysa, yn ol cyfrifon diweddar, yn agos i naw cant o weinidogion, a chymmaint deirgwaith fe ddichon o gynnulleidfaoedd, gydag wyth o ysgolion duwinyddol, a phump o golegau. Er nad yw yn ffurfio ond un eglwys, y mae yn cynnwys tair o wahanol bleidiau—yr Hen Lutheriaid, y Lutheriaid Newydd, a'r Lutheriaid Cymmedrol neu Felancthonaidd. Er fod cryn

Digitized by Google

wahaniaeth rhwng aelodau yr eglwys hon a'u gilydd mewn athrawiaeth a ffurfiau crefyddol, y mae yr eglwys yn cynnyddu yn gyflym, a rhaid fod ei dylanwad er da neu ddrwg yn fawr iawn, gan fod cynnifer o Germaniaid yn ymfudo yn flynyddol i'r Unol Daleithiau.

II. *Yr Eglwys Ddiwygiedig.* Sylfaenwyd hon gan Ulrich Zwingle, diwygiwr Switzerland Germanaidd. Yr oedd Zwingle, trwy ddarllen gweithiau Huss, Wickliffe, ac ereill, wedi casglu gwybodaeth am egwyddorion y Diwygiad. Er ei fod yn cydoesi â Luther, gweithiodd allan ei gyfundrefn yn gwbl annibynol ar y diwygiwr Germanaidd, gan ddadgan nad oedd efe yn gofalu dim am fod pobl yn ei alw yn heretic fel Luther; ond gwrthodai gymmeryd ei alw yn Lutheriad. Yr egwyddor sylfaenol ar ba un y gweithiai Zwingle, a'r hon a gadwyd byth wedi hyny yn yr Eglwysi Diwygiedig oedd, mai y Beibl yw yr unig safon wrth ba un y mae athrawiaethau a seremoniau yr eglwys i'w rheoleiddio. Felly, tra yr ydoedd Luther a'r Eglwys Lutheraidd yn cadw y rhai hyny o'r seremoniau Pabyddol a ystyrient hwy yn ddibwys, yr oedd Zwingle a'r Eglwys Ddiwygiedig yn eu gwrthod yn hollol fel rhai oeddynt heb awdurdod Ysgrythyrol. Ond yr hyn a gadwodd Luther a Zwingle bellaf oddi wrth eu gilydd oedd y cwestiwn yn mherthynas i natur Swper yr Arglwydd. Yr ydoedd athrawiaeth Luther am gydsylweddiad, sef uniad corff a gwaed Crist â'r elfenau, ar ol eu cyssegru yn y cymun, yn cynnwys y syniad am wir bresennoldeb sylweddol Crist yn y swper. Ond dadleuai Zwingle nad oedd yr elfenau ond arwyddluniau yn unig. Hyn yn unig a rwystrai Zwingle i lynu wrth Gyffes Augsburg. Bu dadl ar y pwnc hwn rhwng Luther a Zwingle o 1527 hyd 1529; a bu ymdriniaeth gyhoeddus arno rhwng Luther a Melancthon ar un llaw a Zwingle ac Œcolampadius ar y llaw arall. Ond hi a derfynodd heb unrhyw ganlyniad boddhaol.

Er i'r Eglwys Ddiwygiedig gael ei sylfaenu gan Zwingle, fe ddullweddwyd cryn lawer ar ei nodwedd a'i chyfansoddiad gan Calvin. Ar ol marwolaeth Zwingle, aeth dylanwad Calvin yn uchaf yn yr eglwys hon. Y pynciau ar ba rai y gwahaniaethai Calvin a Zwingle oedd am natur Swper yr Arglwydd, a ffurflywodraeth eglwysig. Yn groes i syniad a fynegwyd uchod o eiddo Zwingle ar y cyntaf o'r ddau hyn, daliai Calvin fod gwir bresennoldeb yn y sacrament—nid materol ond ysbrydol. Mewn perthynas i lywodraeth eglwysig, barnai Zwingle fod cryn ddylanwad eglwysig yn perthyn i'r ynad gwladol, tra y daliai Calvin y dylai fod gan yr eglwys lywodraeth yn gwbl ar wahan oddi wrth yr awdurdod gwladol; ac nid oedd am i'r olaf ymyryd o gwbl âg amgylchiadau y gyntaf. Felly, ar farwolaeth Zwingle, fe roddodd yr eglwys heibio ei olygiad ef ar Swper yr Arglwydd gan dderbyn yr eiddo Calvin, ac adluniasant gyfansoddiad yr eglwys yn ol ei olygiadau manwl ef am gydraddoldeb Presbyteraidd. Cafodd athrawiaeth a dysgyblaeth yr Eglwys Ddiwygiedig, yn ol trefniant Calvin, eu sefydlu yn fuan wedi hyny dros ran fawr o Ewrop. Yn 1560, fe ddiswyddodd Frederick III. yr athrawon Lutheraidd yn Germany, ac a lanwodd eu lleoedd âg athrawon Calvinaidd, ac a orfododd ei ddeiliaid yn unfryd i dderbyn trefniadau a dysgyblaeth Eglwys Geneva. Dilewyd y drefn hon gan ei fab Louis yn 1576, ond ail roddwyd hi mewn grym yn 1583; ac ennillodd Calviniaeth ddylanwad yn Prwssia na chollodd mo hono hyd y dyddiau presennol. Buan iawn y cafodd yr ysbryd a ddaeth o Geneva le yn Germany, a dangosodd ei hun yn ffurfiad lluaws o eglwysi a gymmerasant yr enw o Eglwysi Diwygiedig mewn gwrthgyferbyniad i'r Lutheraidd. Yr oedd mwy o ysbryd Calvin na Zwingle i'w ganfod yn yr eglwysi hyn, o leiaf yn eu hathrawiaeth. Ond er mai y ddau hyn oedd prif sylfaenwyr yr Eglwys Ddiwygiedig, yr oedd i raddau mawr yn ddyledus am ei sefydliad a'i chadarnhad i'r fath ddynion ag Œcolampadius, Bullinger, Farel, Beza, Ursinus, ac Olevianus. Cyfododd yn Switzerland Germanaidd, a chafodd le wedi hyny yn y Freiniarllaeth ar y Rhine Isaf, yn Friesland, Hesse, Brandenburg, a Phrwssia. Yr oedd yr Eglwys Ddiwygiedig yn Germany, fel mewn manau ereill, yn cael ei nodweddu gan symlrwydd yn ei threfniadau addoli, yn nghyd â chrefydd ymarferol wresog a difrifol, nad oeddynt i'w gweled yn yr Eglwys Lutheraidd. Y mae y gyntaf hefyd yn tynu llinell eglur o wahaniaeth rhwng arwyddion sacramentaidd a gras sacramentaidd; tra y mae yr olaf yn rhy barod i edrych arnynt fel yn cydhanfodi bob amser. Nid yw yr Eglwys Ddiwygiedig yn gosod unrhyw bwys ar draddodiad; ond yn ymwrthod â phob peth nad ellir dwyn awdurdod Ysgrythyrol o'i blaid. Nid yw duwinyddion diwygiedig Germany yn yr amseroedd diweddar hyn yn Galviniaid manwl, yn enwedig yn yr athrawiaeth am ragarfaethiad; ond y maent yn tueddu yn hytrach at olygiadau y Lutheriaid mwyaf cymmedrol neu Felancthonaidd. Gan hyny hwy a gydsyniasant gyda pharodrwydd yn y cynllun o undeb, a derfynodd yn ffurfiad yr Eglwys Efengylaidd Unedig, a pha un y maent yn awr gan mwyaf wedi ymgorffori. Y mae ymosodiadau diweddar y Lutheriaid Uchel ar egwyddorion yr Eglwys Ddiwygiedig wedi galw allan gyfeillion yr egwyddorion hyn i'w hamddiffyn. Y mae cynnadledd ddiwygiedig flyneddol wedi cael ei chynnal er ys rhai blynyddoedd mewn cyssylltiad âg eisteddiadau Cymmanfa yr Eglwys Efengylaidd Unedig. Pe gallai y Lutheriaid eithafol lwyddo i ddinystrio yr undeb, diammheuol mai yn yr Eglwys Ddiwygiedig y bydd gwersyllfa amddiffynwyr Protestaniaeth efengylaidd.

Y mae gan yr Eglwys Ddiwygiedig Germanaidd gynnrychiolydd hefyd yn yr Unol Daleithiau. Ffurfiwyd yr Eglwys Ddiwygiedig yn yr America gan ymfudwyr, yn benaf o'r Freiniarllaeth ar y Rhine; y rhai, yn nyddiau Penn, a ymsefydlent yn Pennsylvania. Maent ar ol hyny wedi cael chwanegiadau mawrion o'r taleithiau ar y Rhine a rhanau ereill o Germany, lle y mae yr Eglwys Ddiwygiedig yn gref. Y mae eu cynnulleidfaoedd luosocaf yn Pennsylvania, ac yn nesaf at hyny yn Ohio. Y mae ganddynt hefyd gryn nifer o eglwysi yn Maryland a Virginia. Presbyteraidd ydyw cyfansoddiad yr eglwys; ac y mae ganddynt ddwy gymmanfa, sef y ddwyreiniol a'r orllewinol. Yn ol hanesion diweddar, y mae ganddynt tua 300 o weinidogion a 100,000 o gymunwyr, gyda thair o ysgolion duwinyddol. Unig ffurflyfr yr eglwys ydyw—Catecism Heidelberg. Y mae yr eglwys wedi cael ei chynhyrfu yn ystod y blyneddoedd diweddaf gan ddadleuon duwinyddol manwl, ac y mae rhai o'r enwadau ereill wedi eu cyhuddo hwynt o fod yn llac mewn athrawiaeth. Pa fodd bynag, y mae yr eglwys hon yn ymdrechu cyflawnu dybenion mawrion Eglwys Gristionogol,



Digitized by Google

yn mhlith poblogaeth Germanaidd yr Unol Daleithiau, a'r un modd ar faes y genadaeth.

III. *Yr Eglwys Efengylaidd Unedig.* Gwnaed yr ymgais gyntaf i uno yr Eglwys Lutheraidd a Diwygiedig yn fuan wedi iddynt ddechreu hanfodi ar eu penau eu hunain, gan Diriarll Hesse. Yn 1529, efe a wysiodd y prif ddiwygwyr Germanaidd a Swissaidd i Marburg. Cytunasant yno ar bedair ar ddeg o erthyglau sylfaenol, fel yn gosod allan gred y naill a'r llall. Yr unig bwnc ar ba un yr oeddynt yn anghydweled oedd am natur y Swper Sanctaidd. Fe wnaed llawer o ymdrechion ereill wedi hyny gan amryw bersonau i uno y ddwy eglwys; ond ni bu un o honynt yn llwyddiannus hyd y flwyddyn 1817. Yn ystod y flwyddyn hon cynnygiwyd cadw coffadwriaeth dri-chan-mlwyddol y Diwygiad Germanaidd, a dewisodd Frederick William III., brenin Prwssia, yr achlysur hwn fel un cyfaddas i roddi eglurhad ymarferol ar unolrwydd yr egwyddorion Protestanaidd trwy gael undeb rhwng yr eglwysi Diwygiedig a Lutheraidd. Ar yr 17eg o Fedi, 1817, efe a gyhoeddodd ddeddf yn dadgan mai dymuniad y brenin oedd i'r ddwy eglwys yma o hyny allan ffurfio Eglwys Efengylaidd Unedig. Nid oes un rheswm dros ammheu fod y brenin yn gwneyd yr awgrymiad hwn oddi ar gymhelliadau gwir Gristionogol. Cydsyniwyd yn ebrwydd a chalonog â'r dymuniad breninol gan glerigwyr Berlin, a chan glerigwyr a phobl Prwssia yn gyffredinol; ac allan o tua 8,950 o gynnulleidfaoedd Protestanaidd, fe ddywedir fod 7,750 wedi ymuno ar y pryd. Dilynwyd esampl Prwssia yn fuan drwy ran fawr o Germany. Efelychwyd hi gan Nassau, a ffurfiwyd yr undeb yn mreiniarllaeth Bavaria Rhenaidd yn 1818; yn Baden yn 1821; yn Hessia Rhenaidd yn 1822; ac yn Würtemburg yn 1827. Parhaodd Saxony, Hanover, Bavaria Briodol, a Mecklenburg, yn hollol Lutheraidd. Yn Awstria, y mae y cangenau Lutheraidd a Diwygiedig o'r Eglwys Brotestanaidd yn parhau i hanfodi ar wahan: ymlynant wrth Gyffes Augsburg a'r Gyffes Helvetiaidd. Nid sicrhau unffurfiaeth mewn athrawiaeth oedd amcan y brenin wrth ddwyn oddi amgylch yr undeb hwn, ond cael unffurfiaeth mewn trefn o addoli ac mewn ffurflywodraeth eglwysig. Aflwyddodd y cynllun drwy osod rhy fychan o bwys ar gredoau a chyffesiadau. Cynnygiai y brenin fenthyca ffurflywodraeth eglwysig yr eglwys newydd oddi wrth y gyfundrefn Bresbyteraidd oedd mewn arferiad eisoes yn yr Eglwys Ddiwygiedig, a'i defodau oddi wrth ffurflywodraeth yr Eglwys Lutheraidd. Appwyntiwyd nifer o glerigwyr i drefnu ffurfwasanaeth newydd; ond gan iddynt fethu yn yr ymgais, cymmerodd y brenin y gorchwyl i'w ddwylaw ei hun, a chyda help capleniaid y llys a lleygwr duwiol, llwyddodd i ffurfio un, yr hwn a gyhoeddodd yn 1821. Gorchymynwyd gwneyd derbyniad o hono; ond gwrthodai rhai o'r clerigwyr gydsynio. Gwnaed rhai cyfnewidiadau a chwanegiadau, y rhai fe ymddengys a roddent foddlonrwydd lled gyffredinol; a gorchymynodd y brenin fod i'r ffurfwasanaeth newydd gael ei ddarllen yn yr holl eglwysi ar y pummed ar ugain o Fehefin, 1830—tri-chan-mlwyddiant Cyffes Augsburg. Gwrthododd rhai o'r clerigwyr Lutheraidd ei ddarllen, a chafodd llawer o honynt yn ystod y flwyddyn hono a'r un ganlynol eu bwrw o'u swyddau. Wedi iddynt gael eu gyru o'u heglwysydd, nis goddefid iddynt wasanaethu mewn un man arall; canys fe gyhoeddwyd yn y flwyddyn 1834 fod pob gwasanaeth Lutheraidd yn anghyfreithlawn; ac ymosodwyd ar ryddid crefyddol yn dra ffyrnig yn Silesia a Phosen, lle yr oedd y Lutheriaid luosocaf. Chwalwyd cyfarfodydd gweddïo gan yr heddgeidwaid, attafaelwyd meddiannau y sawl na chydymffurfient â'r ddeddf, a dirmygwyd pob deisebau a gwrthdystiadau a anfonid at y llywodraeth. Cariwyd y mesurau llymion hyn allan mor helaeth fel y bu yn dda gan lawer o'r trigolion Lutheraidd ymfudo i Awstralia. Yn y flwyddyn 1837, pan y ffurfiwyd cyfringynghor newydd, dysgwyliai y Lutheriaid am ryddhad oddi wrth yr erlidigaeth anghristionogol oedd arnynt; ond ni chyflawnwyd eu dysgwyliadau hyd y flwyddyn 1840, pan yr esgynodd y brenin presennol i'r orsedd. Efe a roddodd derfyn ebrwydd ar y mesurau gwarthus a ddefnyddiasai ei ragflaenor er sicrhau undeb Cristionogol; ac yn 1845, fe oddefwyd i'r Hen Lutheriaid, yn y cymmeriad o Ymneillduwyr, ymffurfio yn enwad crefyddol ar eu penau eu hunain. Mewn blyneddoedd diweddar y mae plaid Lutheraidd gref, yn cael ei blaenori gan Hengstenberg, wedi cyfodi o fewn yr Eglwys Efengylaidd Unedig. Y mae y blaid hon yn amddiffyn yr angenrheidrwydd am drefniadau gwahanol i'r Eglwysi Lutheraidd a Diwygiedig o fewn cylch yr Eglwys Genedlaethol. Er nad yw y brenin yn cydsynio â golygiadau y blaid hon, eto y mae wedi gorfod gwneyd rhai goddefiadau, trwy ba rai y mae y gwahanol bleidiau o ba rai y mae yr Eglwys Unedig yn gyfansoddedig yn cael eu gwneyd yn amlwg. Desgrifir y pleidiau hyn gan Dr. Schaff fel — 1. "Yr Undebwyr Gwrthgyffesol a Rhyddfeddyliol: y rhai a sylfaenant eu barn a'u harferion ar y Beibl yn unig heb yr arwyddluniau eglwysig, ac yn cynnwys nifer o dduwinyddion rhyddfrydig o opiniynau gwahanol. 2. Yr Undebwyr Efengylaidd, neu y blaid gydsyniadol: y rhai a gymmerant y Beibl a gosodiadau cyffredin y Cyffesiadau Lutheraidd a Diwygiedig fel sail eu hathrawiaeth. 3. Y Cyffeswyr Manwl: y rhai a edrychant ar yr undeb yn unig fel cyfuniad o ddwy gyffes dan un ffurflywodraeth eglwysig." Y mae i'r Eglwys Efengylaidd Unedig, fel y ddwy o ba rai y cyfansoddir hi, gynnrychiolydd yn America, yr hon a eilw ei hun yn Gymdeithas Efengylaidd Germanaidd y Gorllewin. Sylfaenwyd yr eglwys hon yn St. Louis, Mobile, yn y flwyddyn 1841, gan saith o weinidogion yr Eglwys Germanaidd Unedig. Yr oedd ganddi yn 1857 tua deg ar ugain o weinidogion. Bwriadwyd hi ar y cyntaf i'r taleithiau gorllewinol yn unig, ond ffurfiwyd cangen wedi hyny yn Ohio. Y mae yr eglwys hon yn mabwysiadu ffurfreolau yr Eglwysi Lutheraidd a Diwygiedig fel yr eiddo ei hun; a lle y mae y ddwy hyny yn gwahaniaethu, y mae yn glynu wrth yr ymadroddion Ysgrythyrol, ac yn hawlio y rhyddid cydwybod hwnw sydd yn ffynu ar y materion hyn yn yr Eglwys Efengylaidd.

1. GERSOM, [*Gr. Gêrsam*; yn Barn., *Gerson*; Josephus, *Gêrsos*]. Mab cyntafanedig Moses a Sephorah: *Exod.* ii. 22; xviii. 3. Yn y lleoedd hyn eglurir yr enw fel pe byddai גרשם (*Ger sham*) = "dyeithr yno," gan gyfeirio at y ffaith ei fod yn estron yn Midian—"O blegid efe a ddywedasai, Dyeithr (*Ger*) fum mewn gwlad estronol." Y mae yr ystyr hwn yn cael ei fabwysiadu gan Josephus, ac hefyd gan y Deg a Thrigain yn ffurf yr enw a roddant hwy, sef *Gersam*; ond yn ol Gesenius, ei wir ystyr, a'i gymmeryd fel gair Hebraeg, ydyw "bwriad allan;" heb fod ond ffurf

Digitized by Google

yr *Iliad*, heb unrhyw ffydd yn eu dwyfol awdurdod. Yn anffodus, yr oedd efe yn more ei oes wedi ei lusgo i rengau y rhai hyny a elwid Rhesymolwyr; ac ymddengys na theimlodd efe erioed ddigon o ddyddordeb personol yn y cwestiwn pwysig mewn dadl, i ail chwilio yr opiniynau a fabwysiadodd efe pan yn ieuanc. Pa fodd bynag, yr ydym yn credu nad oes unrhyw reswm digonol i dybied fod ei ddifaterwch duwinyddol wedi ei arwain hyd y gwyddai i wyro oddi wrth wir ystyr cymmaint ag un gair i ateb unrhyw ddyben annheilwng: yn wir, cymmaint oedd ei serch at wirionedd ieithyddol, a'r cyfryw oedd gonestrwydd beirniadol ei feddwl, fel yn ei flyneddoedd diweddaf y galwodd yn ol gyfieithiadau newyddion yr oedd efe wedi eu cymmeradwyo yn mrwdfrydedd byrbwyll efrydiau bore ei oes.

Ystyrir fod yr adran ganiynol gan Dr. Edward Robinson yn esboniad teg a gonest o'i allu beirniadol a'i fedrusrwydd ysgolheigaidd:—"Olrheiniad personol diflino, ac ymchwiliad diduedd i lafur ereill; derbyniad diolchgar, yn nghyd â mabwysiad o bob gwelliant gwirioneddol ac eglurhadau perthynol i gelfyddyd; ond hefyd y cyfryw ragwelediad craffus a gocheliad, y rhai nid ydynt byth yn mabwysiadu gyda difaterwch bob newydd-deb a deflir allan yn frysiog, ac oddi ar gariad at yr hyn a fyddo yn newydd. Rhaid i'r holl bethau hyn fyned law yn llaw pa le bynag y bwriedir dwyn yn mlaen unrhyw wirionedd gwyddorol gyda llwyddiant."

Ond i fyned yn mlaen gyda'r hanes. Yr oedd y cymmeriad yr oedd wedi ei ennill yn gyfryw, fel yr appwyntiwyd ef yn 1819, ar ddymuniad yr hanesydd enwog Von Müller, yn broffeswr llenyddiaeth henafol yn athrofa Heiligenstadt, yn agos i Göttingen, pan nad oedd efe ond tair ar ugain mlwydd oed. Yn y flwyddyn ganlynol, appwyntiwyd ef yn brif broffeswr yn mhrifysgol Halle, ac wedi hyny yn broffeswr cyffredin duwinyddiaeth. Yr oedd efe yn dal y swydd hon yn 1814, pan y darfu i senedd Prwssia ail gyfluniog y sefydliad.

Yn awr, gan ei fod wedi ymsefydlu yn ei ymchwiliadau i ieithoedd ddwyreiniol a llenyddiaeth, ein dyledswydd ydyw rhoddi ei hanes fel myfyriwr, athraw, ac ysgrifenydd. Arweiniwyd ef gan ei serch at yr ieithoedd Semitaidd i gymmeryd taith lenyddol i Ffrainc, ac i'r wlad hon yn 1820; a thrachefn, yn 1836, i archwilio ysgriflyrau yn y llyfrgelloedd cyffredin, i chwilio hathodion, ac i adysgrifenu cerfysgrifau, gyda golwg ar lafur dyfodol, yn yr Hebraeg, y Phœniciaeg, ac ieithoedd dwyreiniol ereill.

Yn ei ymweliad cyntaf â llyfrgell y Bodleian yn Rhydychain, efe a ddarganfyddodd ddau draethawd perthynol i dduwinyddiaeth a llenyddiaeth y Samariaid. Yr oedd y ddwy ysgrif hyn wedi bod yn guddiedig yn mhlith trysorau llenyddol yr ystorfa ardderchog hon am ddau cant o flyneddoedd; ond pan chwiliwyd hwynt gan Gesenius, arweiniwyd ef gan ei graffder beirniadol i ganfod eu bod yn cynnwys hymnau, yn ol trefn yr egwyddor; a galluogwyd ef drwy hyny i drefnu eu dalenau, a gwneyd eu cynnwysiad yn adnabyddus i'r byd llenyddol.

Dyben ei ail ymweliad â Lloegr ydoedd i gael defnyddiau i egluro yr hen iaith Phœniciaidd, ar yr hon yr oedd efe yn bwriadu parotoi traethawd cywrain a helaeth; ac yr oedd cymdeithasau llenyddol Llundain yn ymgystadlu â noddwyr a chyfeillion llenyddiaeth ddwyreiniol mewn ymdrechion haelionus i hyrwyddo ei ymchwiliadau. Yr oedd cynghor y Gymdeithas Ddwyreiniol Freninol mor selog yn ei wasanaeth, fel y darfu iddynt anfon cylchlythyrau at eu cyfeillion a'u gohebwyr yn y dwyrain, yn erfyn arnynt gasglu copiau cywir, a chyflunebau, os oedd yn bosibl, o'r holl gerfysgrifau oeddynt ar gael, a'r holl fathodion y gwyddid fod llythyrenau Phœniciaidd arnynt. Yn awr ni a sylwn ar y canlyniad.

Pan yr oedd Gesenius yn ieuanc, arferai ddefnyddio yr oriau y mae natur wedi eu bwriadu i orphwys i fyfyrio—arferiad sydd wedi dinystrio iechyd a byrhau dyddiau lluaws; ond mewn blyneddoedd dyfodol, efe a ddaeth yn ddoethach. Yr ydoedd yn arferiad ganddo gyfodi bump o'r gloch y bore; ac yn y cyffredin llafuriai yn ei fyfyrgell hyd ddeg, pan y dechreuai ei ddarlithiau, ac y parhaent hyd ddeuddeg. Yr oedd adeg arferol ciniaw yn Halle am hanner awr wedi deuddeg: efe a ddefnyddiai yr amser ar ol ciniaw i gymmeryd seibiant, i dderbyn cyfeillion a myfyrwyr, ac yn aml i farchogaeth. Yna efe a ddychwelai i'w fyfyrgell hyd wyth o'r gloch, adeg pryd hwyrol y teulu; ac yna efe a ai i orphwys yn gynnar. Trwy yr arferion personol hyn—trefn, cynllun, a diwydrwydd—galluogid ef i barotoi i gyfarfod â'i lafur helaeth yn y coleg, ac ar gyfer y wasg, at y rhai y mae yn rhaid i ni gyfeirio yn bresennol. Arweiniodd y sefyllfa yr oedd efe ynddi yn y brifysgol ef, am fwy na deng mlynedd ar ugain, i draddodi yn rheolaidd ddwy ddarlith yn y dydd yn gyhoeddus, heb law cyfres o ddarlithiau achlysurol i ddosbarthiadau neillduol.

Treuliodd ddwy flynedd, neu bedwar eisteddiad, i draddodi ei gyfres o ddarlithiau. Yr oedd un rhan yn ddeongliadol ar Lyfr Genesis, Iob, Salmau detholedig, ac Esaiah; ac yr oedd y rhan arall yn cynnwys rhagarweiniad i hynafiaethau Hebreaidd yr Hen Destament.

Mewn adeg pan nad oedd un darlithydd yn Halle ar Hanesiaeth Eglwysig, efe a ymgymmerodd â'r testyn hwnw, ac a barhaodd wedi hyny i ddarlithio arno pan y byddai cyfleusdra.

Yr oedd Gesenius yn ddarlithydd poblogaidd. Yr oedd ei ddull yn syml, dirodres, bywiog, a chyfeillgar; yr oedd efe yn canfod ei ddrychfeddyliau ei hun mor eglur, fel nas gallai fethu trosglwyddo ei syniadau goleuedig i'r ysgolor dylaf. Y mae Dr. Robinson yn crybwyll ei fod yn bresennol yn Halle, yn niwedd yr Haf, 1829, pan y dechreuodd Gesenius ei gyfres o ddarlithoedd, y ddegfed waith, ar Lyfr Genesis.

Ar yr amgylchiad hwn, dywedodd y proffeswr enwog nad oedd ei wrandawyr ond pedwar ar ddeg. Pedair blynedd ar bymtheg cyn hyny, pan ddechreuodd draddodi yr un gyfres yn Halle, yr oedd y cynnulliad wedi ei foddhau yn fawr, o herwydd ei fod gymmaint ddwywaith a'r nifer oedd yn gwrando ar ei gydswyddog, yr hyglod Vater; yr hwn, y flwyddyn flaenorol, oedd wedi traddodi darlithiau ar yr un llyfr.

Adroddwyd yr hysbysiad hwn yn ystafell y dosbarth; yn yr hon, ar y pryd, yr oedd pum cant o wrandawyr. Yr oedd enwogrwydd Gesenius wedi tynu y fath sylw, fel y byddai yn y cyffredin o ddeutu mil a phedwar cant o fyfyrwyr yn Halle: cyrchent yno nid yn unig o'r taleithiau Germanaidd, ond o Loegr, a'r Unol Daleithiau, o Ffrainc, Holland, Denmark, a Pholand, Hungary, a Groeg; tra, ugain mlynedd cyn hyny, y bu agos i'r brifysgol gael ei thori i fyny o ddiffyg ysgolheigion.

Wedi i Gesenius ennill y fath gymmeriad uchel

Digitized by Google

a chyffredinol, nid ydyw yn rhyfedd fod llywodraeth Hanover, ar farwolaeth Eichorn yn Göttingen, yn 1827, wedi cynnyg y gadair iddo, a bod y ffordd yn rhydd i'w symmud i Berlin i dderbyn proffeswriaeth yn mhrifysgol y brif ddinas. Ond wedi iddo ystyried fod ganddo deulu, ac wedi ymsefydlu yn Halle, a bod ganddo bob mantais i fyfyrio a bod yn ddefnyddiol, efe a wrthododd y cynnygion, gan benderfynu na chymmerai ei ddenu o'r lle yr oedd wedi bod mor lwyddiannus.

Pan godwyd ef i'r swydd o *prorector* yn y brif ysgol, gwelwyd ei fod yn amddifad o'r penderfyniad meddwl hwnw sydd yn angenrheidiol i lywodraethu ieuenctyd bob amser; ond yn enwedig pan y byddant yn ymdrechu am ryddid politicaidd, ac yn cael eu hattal a'u llethu gan lywodraeth dräarglwyddiaethol. Yn 1824, fe gollodd Gesenius ymddiried y cyhoedd, fel *prorector*: a chan nad oedd efe yn boddhau llywodraeth Prwssia, diswyddwyd ef, a dewiswyd un arall yn ei le.

Ond er mor fawr oedd ei ddylanwad yn y gadair broffeswrol, eto, prif safle ei enwogrwydd ydyw ei weithiau llenyddol.

Y mae hynodrwydd ei alluoedd i ddysgu pan yn ieuanc i'w weled oddi wrth y ffaith fod yr argraffiad cyntaf o'i Eiriadur Hebraeg, yn ddwy gyfrol, wedi ei gyhoeddi cyn ei fod yn bedair ar ugain oed; ei Ramadeg pan yn saith ar ugain; a'i Esboniad ar Esaiah, yr hwn a'i cododd i restr uchaf beirniaid Ysgrythyrol, cyn ei fod yn ddeuddeg ar ugain.

Y mae y llwyddiant a goronodd ei lafur i'w ganfod yn y ffaith ei fod wedi cyhoeddi un argraffiad ar ddeg o'i Ramadeg Hebraeg, tair mil o gopiau bob un, a hyny mewn tuag un mlynedd ar ugain; ac mewn ychydig fwy o amser nag a enwyd, bum argraffiad helaeth o'i Eiriadur Hebraeg.

Cyn i Gesenius ddechreu ar ei lafur, nid oedd unrhyw gynllun rheolaidd i ddysgu gramadeg Hebraeg; ond efe a ffurfiodd gynllun syml a dealladwy, trwy yr hwn y gwnaed teithi a chyfansoddiad yr iaith yn hawdd eu hamgyffred.

Pa fodd bynag, ei lafur penaf a phrif amcan ei fywyd ydoedd cyflwyno i'r oesoedd dyfodol eiriadur cyflawn o'r iaith Hebraeg, yn Hebraeg a Lladin: efe a ddechreuodd gyhoeddi y gwaith yn Ngwanwyn, 1827; ond nid oedd yn gwbl orphenedig pan y bu efe farw. Hwn ydyw y mwyaf helaeth, cyflawn, a chynnwysfawr o'r holl eiriaduron Hebraeg; ac y mae yn cynnwys hefyd gasgliad gwerthfawr o hanesyddiaeth, a llenyddiaeth henafol. Efe a adawodd ar ei ol lawer o ysgrifau, nid yn unig i orphen y gwaith, ond i gyflawni diwygiadau, nodiadau, a sylwadau; a rhoddwyd hwynt dan ofal y proffeswr Rödiger i'w hadolygu; ac y mae y gwaith wedi ei gyhoeddi.

Y mae ei esboniad ar lyfr y prophwyd Esaiah yn dangos ei allu fel deonglydd yr Ysgrythyrau; a thra nas gellir peidio gofidio o herwydd fod ei opiniynau newyddonol i'w gweled yn y gwaith, eto, fel y sylwa Dr. Robinson, "nis gall neb sylwi ar yr ymchwiliad ieithyddol a hynafol treiddgar, a'r ddysgeidiaeth a arferir i egluro y rhan ddyrys ac aruchel hon o'r Ysgrythyr, heb gael ei lenwi âg edmygedd a pharch at yr awdwr."

Y mae eto ddau o weithiau yr ysgolhaig nodedig hwn yn deilwng o sylw. Y cyntaf ydyw traethawd a gyhoeddwyd yn 1815 ar y *Pentateuch* (Pum Llyfr Moses) Samaritanaidd; ac er nad yw yn cynnwys ond trigain o dudalenau pedwarplyg, eto y mae wedi gwneyd llawer i leihau awdurdod y cyfieithiad hwnw, a thrwy hyny i gadarnhau awdurdod a phurdeb y Pentateuch Iuddewaidd ar goflyfrau ereill gwrthymgeisiol. Eto, y mae yn achos o ofid ei fod ef yn dal opiniynau gwrthwynebol i awdurdod y llyfr fel coflyfr ysbrydoledig.

Yr ail ydyw adgofion o'r iaith Phœniciaidd, yr hwn a gyhoeddwyd ganddo yn 1837; ac y mae yn cynnwys holl weddillion adnabyddus iaith ac ysgrifau y Phœniciaid a'r Carthaginiaid fel yr oeddynt wedi eu cerfio ar gofadeiliau, bathodion, ac yn ysgrifeniadau Plautus, ac ereill. Oddi wrth y rhai hyn, yn nghyd â phethau ereill, efe a lwyddodd i wneyd allan egwyddor (*alphabet*) a chyfansoddiad gramadegol yr iaith hono, oedd wedi myned ar goll, a'r hon sydd yn dal perthynas agos â phriodieithoedd Semitaidd ereill. Y mae y craffder beirniadol, yr ymchwiliad dyfal, a'r dadblygiad rhesymegol a geir yn y gwaith hwn y fath, fel y gellir dyweyd eu bod bron yn anghymharol.

Heb law y gweithiau teilwng hyn, ac ereill, ysgrifenodd Gesenius lawer i gyhoeddiadau cyfnodol y dydd; ac ymddangosodd erthyglau o'i waith ar lenyddiaeth Hebreaidd a dwyreiniol yn ngwyddoniadur helaeth Ersch a Gruber.

Y mae ei gyfaill a'i ohebydd, Dr. Robinson, yr hwn a ymwelodd âg ef yn Halle, ac a gafodd lawer o gymhorth ganddo yn ei "Ymchwiliadau Beiblaidd yn Palestina," yn rhoddi y dysgrifiad canlynol o hono:—"O ran ei berson, prin yr oedd efe o'r maintioli cyffredin; yr oedd ganddo wynebpryd cyfluniaidd, talcen uchel, llygaid a phryd goleu. Yr oedd graddau o gyflymder a bywiogrwydd yn ei holl symmudiadau, y rhai o herwydd eu bod yn cytuno â'i wynebpryd oeddynt yn peri iddo ymddangos yn ieuanc hyd flyneddoedd diweddaf ei fywyd, pan y darfu i'w wallt gwyn newid ei ymddangosiad yn gwbl. Yr oedd ei wisg bob amser yn drwsiadus, ac yr oedd efe bob amser hefyd yn garedig a chymdeithasgar yn ei arferion, ac yr oedd ei foesau yn dangos mwy o'r boneddwr a'r dyn cyflawn nag a geir yn gyffredin yn mhlith proffeswyr Germanaidd. Ni buasai dyeithrddyn byth yn tybied, wrth ei gyfarfod mewn cymdeithas, ei fod yn ieithydd llafurus, enwog, a thra nodedig; llawer llai ei fod yr ysgolhaig mwyaf yn ei oes yn yr iaith Hebraeg."—*Bib. Sacra*, 1843].

Nid ydoedd efe yn gryf o ran ei iechyd, yr oedd ei ystumog, fel eiddo y rhan fwyaf o fyfyrwyr caled, yn agored i anhwyldeb; a hi a ddaeth o'r diwedd yn brif eisteddle ei glefyd, sef cramp y gewynau; yr hwn, Hydref 23ain, 1842, a roddodd derfyn ar ei lafur. Bu farw cyn bod yn ddwy ar bymtheg a deugain mlwydd oed; ond buasid yn tybied, oddi wrth ei wallt a'i farf wlanog, a'i wyneb rhychog, ei fod yn llawer iawn hynach.

Yn ol ei ddymuniad, cludwyd ei gorff i'r gladdfa, yn Halle, gan y myfyrwyr. Daeth pedwar cant o honynt i'w gynhebrwng, er ei bod yn dymmor gwyl, yn nghyd âg offeiriaid y ddinas a'r pentrefydd cylchynol, proffeswyr a swyddogion y brifysgol, a lluaws mawr o'r trigolion. Canwyd emyn wrth y bedd, ac anerchwyd y gynnulleidfa gan y proffeswr Marks—pregethwr y brifysgol. Canwyd emyn drachefn, yr hon a ddilynwyd â gweddi. Yna dodwyd yr arch yn y bedd, tra yr oedd y perthynasau yn taenu blodau arno. Wedi gwneuthur y gymmwynas olaf iddo, cyhoeddwyd y fendith a gwasgarodd y dorf.

Digitized by Google

Peth tra rhyfedd ydyw meddwl fod y dyn enwog hwn wedi treulio ei fywyd i gael allan wir feddwl yr Ysgrythyrau Iuddewig, tra nad oedd efe yn credu yn eu hysbrydoliaeth a'u dwyfol awdurdod:—ei weled wedi ei rwymo, megys gan swyngyfaredd, i egluro cynnwysiad llyfrau a ystyrir gan ereill fel y rhai mwyaf cyssegredig, tra yr edrychai efe arnynt gyda difaterwch. "Yr oedd ei gredo, fe allai," medd y Dr. Robinson, "cyn belled ag yr oedd yn meddu credo, yn dyfod yn agos iawn at Ddeistiaeth; ond, fel yn achos pob Deistiad ereill, yr oedd wedi ei lunio a'i foddhau dan lywodraeth ddylanwadol Cristionogaeth ymarferol. Gyda golwg ar athrawiaethau mawrion yr efengyl, yr oedd efe bob amser yn barod i addef, os bydd i ni ddilyn iaith a golygiadau ysgrifenwyr y Testament Newydd, fod y gwirionedd yn meddiant y rhai sydd yn proffesu y ffydd efengylaidd.

GESUR, [Heb., נשור; Deg a Thrig., Γεδσούρ]: rhandir Syria (2 *Sam.* xv. 8; 1 *Cron.* ii. 23), yr hwn oedd yn gyssylltiedig ar du dwyreiniol yr Iorddonen â therfyn gogleddol y diriogaeth Iuddewig. Gorweddai rhwng mynydd Hermon, Maachah, a Basan: *Deut.* iii. 13, 14; *Ios.* xii. 5. Yn ol fel y deffinir terfynau Gwlad Canaan gan Moses, buasai Gesur yn ffurfio rhan o honi; ond dywedir yn *Ios.* xiii. 2, 13, na yrodd yr Israeliaid y Gesuriaid na'r Maachathiaid allan o'r wlad, ond eu bod wedi cydbreswylio gyda hwynt. Ymddengys na ddarfu i'r Hebreaid wedi hyny ddarostwng Gesur, oddi eithr dros ychydig amser, oddi wrth y ffaith fod gan y rhandir hwn frenin ei hun yn amser Dafydd, o'r enw Talmai; merch yr hwn, sef Maacah, ydoedd un o wragedd Dafydd: 2 *Sam.* iii. 3. Maacah oedd mam Absalom, yr hwn a gymmerodd noddfa gyda'i daid ar ol llofruddiaeth Amnon, ac a drigodd yn Gesur dair blynedd: 2 *Sam.* xiii. 37; xv. 8. Ystyr y gair *Gesur* ydyw pont, ac y mae yn cyfateb i'r gair Arabaidd *Jisr;* ac yn y rhandir yn yr hwn, yn ol yr eglurhad uchod o'r gair, y mae yn rhaid i ni ddodi Gesur rhwng Mynydd Hermon a Llyn Tiberias, mae hen bont geryg i'w gweled yn bresennol dros yr Iorddonen uchaf, a elwir Jisr-Beni-Jakub; neu bont meibion Iacob, sef yr Israeliaid. Ymddengys fod yr hen ffordd fasnachol i ac o Damascus a'r dwyrain yn y cyfeiriad hwnw yn yr amseroedd mwyaf hynafol (*Gen.* xxxvii. 25); ac oddi wrth hyn gellir casglu fod pont hyd yn oed y pryd hwnw dros yr afon, oddi wrth yr hon (pan oedd pontydd yn dra anaml) y rhoddwyd yr enw i'r rhandir cyfagos.

1. GESURIAID: preswylwyr rhandir Gesur.
2. GESURIAID: pobl yn nghwr deheuol Palestina, yn agos i'r Philistiaid: *Ios.* xiii. 2; 1 *Sam.* xxvii. 8.

GETHER, [נחר; Γατέρ; *Gether*]: y trydydd yn y rhestr o feibion Aram: *Gen.* x. 23. Nid oes unrhyw hanes boddhaol am y bobl a hanasant o'r cyff hwn wedi ei gael hyd yn hyn. Mae damcaniaeth Bochart ac ereill, y rhai ydynt yn sylfaenedig ar eiryddiaeth anhygoel, yn gwbl ddiawdurdod; tra nad yw yr awgrymiadau am y Cariaid (*Hieron*), a'r Bachtiaid [*Hynaf. Iudd.*], yn ddim mwy credadwy. [Gwel *Bochart, Phaleg*, ii. 10, a *Winer*, s. v.] Y mae Kalisch yn cynnyg Gesur; ond nid yw yn dwyn unrhyw resymau dros hyny, oddi eithr tebygolrwydd y sain, a chyfnewidiad llythyrenau yr Aramaeg a'r Hebraeg.

*Ghâthir* yr ysgrifenir yr enw gan yr Arabiaid; ac yn hanes chwedlonig eu gwlad dywedir fod hen lwythau cynfrodorol Thamood, Tasur, Jadces "Ad (y diweddaf yn yr ail genedlaeth trwy Ood), yn ddisgynyddion o Ghâthir [*Caussin, Essai*, i. 8, 9, 23; *Abul-Fidà, Hist. Anteisl.* 16]. Ond y mae y traddodiadau yn hollol annheilwng i'w credu; ac fel y sylwyd o dan y gair Arabia, mae yn ddiammheuol nad yw y llwythau y cyfeiriwyd atynt o darddiad Semitaidd. Gwel Arabia; Aram; a Nabbatheaid.

GETHSEMANE, [Γεθσημανῆ, yn tarddu, mae yn debyg, o'r gair Hebraeg נת=*gwasg*, a שמנא=*olew;* hyny yw, *gwasg olew*]: enw ar faes bychan, neu ardd, ychydig o Ierusalem, dros afon Cedron, wrth droed Mynydd yr Olewydd. Mae y lle a ddangosir yn awr fel yr ardd yn yr hon y dyoddefodd ein Harglwydd ei ing chwerw, yn cymmeryd i fyny ran o lanerch wastad rhwng yr afon a throed y mynydd, ac y mae yn cytuno yn foddhaol o ran sefyllfa a phellder â holl amgylchiadau yr hanes. Y mae y lle, o ran ei faint, o ddeutu deg a deugain o gamrau petryal, wedi ei amgau â gwal led isel o geryg rhyddion geirwon. Y mae wyth o goed olewydd hynafol iawn yn y cauadle hwn, a rhai o honynt o faintioli mawr, ac y mae arwyddion darfodedigaeth arnynt oll; yr hyn sydd yn profi yn amlwg eu bod yn dra hen. Y mae yr ardd yn perthyn i un o'r sefydliadau mynachol, a chymmerir gofal neillduol i gadw yr hen goed rhag iddynt gael eu dinystrio. Y mae amryw goed ieuainc wedi eu planu, i lenwi lle y rhai sydd wedi pydru [*Olin's Travels*, ii. 115]. Y mae Dr. Robinson yn sylwi nad oes dim yn y llanerch hon i'w dynodi fel gardd Gethsemane, o herwydd y mae amryw lanerchau cauedig cyffelyb yn agos iddi, ac y mae ganddynt lawer o goed olewydd o oedran cyfartal.—*Researches*, i. 346. Pa fodd bynag, nis gall fod hyn yn sail i'r ammheuaeth y mae yr ysgrifenydd dysgedig hwn yn ei awgrymu o barth i sefyllfa yr ardd; o herwydd y mae efe yn cwyno mewn lle arall am nad yw sefyllfaoedd digwyddiadau Ysgrythyrol wedi eu gadael yn eu dull naturiol a syml, yn hytrach na'u bod wedi eu gorlenwi â chwanegiadau anmherthynasol. Y mae Dr. Robinson yn caniatau y tebygolrwydd mai dyma y llanerch a olygai Eusebius a Jerome fel sefyllfa yr ardd; a chan nad oes unrhyw lanerch arall mor ddewisol yn cael ei chynnyg, gallwn fod yn foddlawn i dderbyn y mynegiad traddodiadol o barth i'w sefyllfa.

GEUDEB, [Seis., *lie*]: yr unig fan lle y ceir y gair yn y Beibl ydyw *Salm* lxii. 9, ac y mae yn gosod allan gymmeriad dyn ysgafn, twyllodrus, celwyddog; yr hwn sydd yn gwbl amddifad o egwyddorion y gwirionedd, ac am hyny yn annheilwng o ymddiried. Gwel Celwydd.

GEUDY, [*rheitty;* Seis., *draught, privy house*]: enw ar le neillduedig i esmwythau y corff. Y mae y gair i'w weled yn *Mat.* xv. 17, a *Marc* vii. 19; lle y mae Crist yn dysgu mai nid yr hyn sydd yn myned i'r genau sydd yn halogi dyn, ond yr hyn sydd yn dyfod allan o'r galon.

GEUGRED. Gwel Heresi.

GEWYN [*gaw*]: llinyn caled a dideimlad, trwy yr hwn y cydir y cyhyrau wrth yr esgyrn

Digitized by Google

neu y rhanau ereill y mae yn gwasanaethu i'w symmud. Meinweoedd gwyn a dysglaer yw y gewynau, yn gyfansoddedig o fân edafedd tyner, yn cael eu huno gan we plethedig.—Gwel DYN, cyf. iii, td. 98.

GEZER, [גזר; Gr. Γαζερ; *Gazer*]: dinas hynafol yn Nghanaan, brenin yr hon, sef Horam, neu Elam, a laddwyd yn nghyd a'i holl bobl gan Iosuah, tra yr oedd yn myned i gynnorthwyo Lachis: *Ios.* x. 33; xii. 12. Ond ni ddywedir ddarfod i'r dref gael ei dinystrio. Yr oedd yn ffurfio un o'r cyffin-nodau ar dueddau Ephraim, rhwng Bethhoron a Môr y Canoldir (xvi. 3), terfyn gorllewinol y llwyth: 1 *Cron.* vii. 28. Rhoddwyd hi yn nghyd â'i meusydd pentrefol i'r Lefiaid Cohathaidd (*Ios.* xxi. 21; 1 *Cron.* vi. 67); ond ni ddifeddiannwyd y cyndrigolion (*Barn.* i. 29); ac yr oedd y Canaaneaid, neu (yn ol y chwanegiad a rydd y Deg a Thrigain at *Ios.* xvi. 10), y Canaaneaid a'r Peresiaid, yn parhau i fyw yno, ac yn talu teyrnged i Israel: 1 *Bren.* ix. 16. Rhaid ei bod y pryd hwn yn annibynol ar lywodraeth yr Israeliaid, canys fe'i llosgodd Pharaoh hi hyd y llawr ac a laddodd y trigolion, ac yna a roddodd ei safle yn anrheg i'w ferch, gwraig Solomon. Ond fe'i hailadeiladwyd hi yn ebrwydd gan y brenin; ac er na sonir am dani wedi hyny hyd ar ol y caethgludiad, yr oedd iddi ran arbenig yn helyntion dilynol y genedl. Gwel GAZERA.

Y mae Ewald yn cymmeryd Gezer a Gezur fel yr un lle, ac yn gweled yn ninystr y gyntaf gan Pharaoh, ac ymgyrch gyffelyb Solomon i Hamathzoba, yn nghymmydogaeth yr olaf, arwyddion o wrthryfel y Canaaneaid; o ba rai y Gesuriaid oeddynt y gweddillion grymusaf, ac ymgais y rhai yn erbyn y brenin newydd a ddyryswyd fel hyn. Ond prin y gellir cadarnhau y dyb hon.

Mewn un man fe enwir Gob fel yn gyfystyr a Gezer: 1 *Cron.* xx. 4; cymharer 2 *Sam.* xxi. 18. Ni ddarganfyddwyd safle fanwl Gezer; ond nid yw yn anhawdd casglu pa le yr oedd ei sefyllfa gyffredinol. Rhaid ei bod rhwng Beth-horon isaf a'r môr (*Ios.* xvi. 3; 1 *Bren.* ix. 17): felly y mae ar y gwastadedd arforawl mawr sydd yn gorwedd rhwng y bryniau, yr olaf o ba rai yw Beitur et-tahta, ac yn ffurfio ffordd glan y môr i'r Aipht: 1 *Bren.* ix. 16. Felly priodol y nodir hi fel y pwynt olaf i'r hwn y cyrhaeddodd Dafydd wrth ymlid ar ol y Philistiaid (2 *Sam.* v. 25; 1 *Cron.* xiv. 16); ac fel y man lle y dygwyddodd un frwydr ffyrnig o leiaf (1 *Cron.* xx. 4), gan fod y gwastadedd hwn yn diriogaeth arbenig iddynt hwy, ac fel yn ffurfio cyssylltiad yr ymdrafodaeth rhwng yr Aipht a'r brifddinas newydd, sef Ierusalem, yr oedd yn lle pwysig i Solomon godi amddiffynfeydd ynddo. Crybwylla Eusebius am dano fel lle pedair milltir i'r gogledd o Nicopolis—safle tref bwysig Jimzee, yr hen Gimzo, a lle yn cyfateb yn rhagorol i angenrheidiau Iosuah. Ond prin y mae hyn yn cytuno â mynegiadau Llyfr Cyntaf y Maccabeaid, lle y sonir am dani fel rhwng Emmaus ac Azotus ac Iamnia; ac wedi hyny megys ar gyffiniau Azotus. Y mae yn nghymmydogaeth y lle olaf ragor nag un safle yn dwyn yr enw *Yasur;* ond ymchwiliadau dyfodol yn unig a ddichon brofi pa un a ydyw yr enw Arabaidd hwn yn deilliaw o'r Hebraeg *Gezer*, a pha un a allai fod tref mor bwysig ag oedd Gazara yn amser y Maccabeaid yn cael ei chynnrychioli gan y cyfryw bentrefydd dinôd a'r rhai hyn. Os gellir gwneyd hyn, yna fe allai mai y pentref sydd yn meddu fwyaf o hawl i gael ei ystyried yr un a'r hen Gezer ydyw un a elwir *Yasur*, bedair neu bum milldir i'r dwyrain o Ioppa, ar y ffordd i Ramleh a Lydd. Y mae Ewald yn casglu oddi wrth arferiad achlysurol y ffurf Gazer, ac oddi wrth y ffaith fod y Deg a Thrigain bron bob amser yn arfer Gazera neu Gazer, mai hwn ydyw yr enw gwreiddiol.

GEZRIAID: yr enw a roddodd y beirniaid Iuddewig ar ymyl ddalen y Beibl yn lle yr hen enw *Gerziaid* (1 *Sam.* xxvii. 8), a'r hwn wedi hyny a gorphorwyd yn nhestyn y Deg a Thrigain. Os yw yn golygu dim, rhaid ei fod yn golygu preswylwyr Gezer. Ond yr oedd Gezer tua 50 milltir o bellder o "du deheu Iudah, a thu deheu y Ierahmeeliaid, a thu deheu y Cenaid." Y man lle y buymgyrch Dafydd—ffaith sydd yn sefyll ar ffordd derbyn y cyfnewidiad.

GIAH, [גיח; Γαί; *vallis*]: lle a enwir yn unig yn 2 *Sam.* ii. 24, i ddynodi safle bryn Ammah —"yr hwn sydd gyferbyn a Giah, tuag anialwch Gibeon." Ni chafwyd dim eto i osod allan sefyllfa y naill le na'r llall. Yn y Deg a Thrigain darllenir yr enw fel pe buasai גיא; hyny yw, ceu nant neu glyn; syniad a gymmerir yn y Vulgate

GIAU, [*gi*]: ermigau teimlad ac ysgogiad mewn anifeiliaid. Estyniad ydynt o sylwedd madruddol yr ymenydd, madruddyn y cefn, a'r ciglwm hannergrwn, y rhai sydd yn ymgangenu ac yn ymestyn drwy bob rhan o'r corff. Maent yn gyfansoddedig o fwndeli o edafedd gwyn cyfochrog a madruddol. Y mae y giau wedi eu dosbarthu drwy bob rhan o'r cyfansoddiad, gan ei lanw â theimlad; a llywodraethant yr ysgogiadau. Rhenir hwynt yn ymenyddol a madruddol. Yn gyffredin, fe renir y giau ymenyddol yn naw o bârau; a'r giau madruddol yn ddeg pâr ar ugain, y rhai a ddosberthir yn wyth pâr o giau gyddfol, deuddeg pâr o rai cefnol, pum pâr o rai lwynol, a phum pâr o rai perthynol i asgwrn y cwman. Gwel DYN, cyf. iv. td. 98.

GIBBAR, [גבר; Γαβὲρ; *Gebbar*]. Fe ddychwelodd pymtheg a phedwar ugain o feibion Gibbar i Ierusalem gyda Zorobabel "i fyny o gaethiwed y gaethglud, yr hon a gaethgludasai Nebuchodonosor brenin Babilon i Babilon;" *Ezra* ii. 20. Yn yr un rhestr fel y rhoddir hi yn *Neh.* vii, Gibeon yw yr enw.

GIBBETHON, [גבתון; Βεγεθων, Γεθεδαν; Deg a Thrigain, *Gabathôn; Gabethôn; Gabathon*]: tref a neillduwyd i lwyth Dan (*Ios.* xix. 44), ac a roddwyd wedi hyny gyda'i meusydd pentrefol i'r Lefiaid Cohathaidd: *pen.* xxi. 23. Gan ei bod, fel y rhan fwyaf o drefydd Dan, naill ai o fewn neu yn agos i wlad y Philistiaid, diammheu iddi yn fuan gael ei chymmeryd yn fuan ganddynt; o leiaf hwy oedd yn ei meddiannu yn nyddiau cyntaf breniniaeth Israel, pan y gwarchaewyd hi gan y brenin Nadab a holl Israel; ac wedi hyny gan Omri: 1 *Bren.* xv. 27; xvi. 17. Nid yw yn hawdd gwybod beth ydoedd y manteision neillduol oedd yn ei gwneyd yn feddiant mor ddymunol i Israel. Yn yr *Onomasticon*, crybwyllir am dani fel pentref bychan a elwid Gabe, tua dwy filldir ar bymtheg o Cesarea. Yn ol y dysgrifiad hwn, byddai yn y gorllewin o Samaria, a thua'r un pellder oddi yno ag o Cesarea. Ond nid oes un enw tebyg i enw y dref wedi ei ddarganfod eto yn y cyfeiriad hwnw,

Digitized by Google

**GIBEA**, [Γαιβάλ; Alex., Γαιβαά; *Gabaa*]. Crybwyllir am Sefa tad Machbena, a thad Gibea, gydag enwau ereill yn mhlith hiliogaeth Iudah: 1 *Cron.* ii. 49: cymharer *adn.* 42. Y mae yn amlwg mai lleoedd, ac nid personau, oedd Machbena a Gibea; a gelwid Sefa yn dad iddynt, am mai efe oedd eu llywodraethwr. Ond y mae yn dra thebygol fod Sefa yn dad i ddau o feibion o'r enwau hyn, fel yr oedd pob un y gelwir tad arno yn y rhanau blaenorol o'r bennod hon. Bernir mai yr un oedd y Gibea yma (yr hon a elwir yn *Gibeah* mewn rhai copiau Hebreig), a Gibeah yn Iudah. Y mae y crybwylliad a wneir am Madmannah (*adn.* 49: cymharer *Ios*, xv. 31), yn gystal am Ziph (42), a Maon (45), yn rhoddi lle i ni gasglu ei bod yn gorwedd i'r deheu i Hebron. Gwel Gibeah 1. Ar y llaw arall, os yr un oedd Madmannah a Madmenah, tref a enwir mewn cyssylltiad â Gibeah Beniamin (*Esa.* x. 31), rhaid ei bod yn gorwedd yn rhywle i'r gogledd i Ierusalem.

**GIBEAH**, [*bryn*]. Cymhwysir y gair *gibeah* yn gyffredin gan deithwyr a haneswyr at y bryniau pengrynion a moelion sydd yn nghanolbarth Palestina, yn enwedig yn nghymmydogaeth Ierusalem. Fel geiriau o'r natur yma yn gyffredin, rhoddodd ei enw i amrywiol drefydd a lleoedd yn Palestina, y rhai yn gyffredinol oeddynt yn sefyll ar neu yn agos i fryn. A ganlyn sydd restr o honynt:—

1. GIBEAH, [Γαβαά=*Gabaa*]: dinas yn y dosbarth mynyddig o Iudah, a enwir gyda Maon a Charmel ddeheuol: *Ios.* xv. 57; a chymharer 1 *Cron.* ii. 49, &c. Crybwyllir yn yr *Onomasticon* am bentref o'r enw Gabatha fel yn cynnwys cofadail Habacuc y prophwyd, ac yn gorwedd ddeuddeng milldir o Eleutheropolis; ond ni ddywedir yn mha gyfeiriad. Hwyrach mai yr un oedd a Keila, yr hon a orweddai i'r dwyrain o Eleutheropolis (dwy filltir ar bymtheg, medd Eusebius; ac wyth, medd Jerome) ar y ffordd i Hebron, a'r hon hefyd, meddir, sydd yn cynnwys cofadail Habacuc. Ond nid y naill na'r llall o'r rhai hyn yw y lle y cyfeiria Iosuah ato; gan yr ymddengys fod hwnw yn gorwedd i'r de-ddwyrain i Hebron. lle y mae Carmel a Maon yn awr yn sefyll. O herwydd yr un rheswm, nis gall mai y Gibeah hon oedd yr un a ddarganfyddwyd gan Robinson fel Ieba'h yn Nyffryn Musurr, heb fod yn mhell o Bethlehem, a deng milltir i'r gogledd i Hebron [*Robin.*, ii. 6, 16]. Gan hyny, y mae ei safle hyd yma yn anhysbys.

2. GIBEAH, [Γαβαωθ; Alex., Γαβαάθ; *Gabaath*]. Enwir hon yn mhlith y dosbarth olaf o drefydd Beniamin, nesaf at Ierusalem: *Ios.* xviii. 28. Tybir mai yr un ydyw a'r lle a ddaeth wedi hyny mor hynod fel "Gibeah Beniamin" neu "Saul." Ond yr oedd hon, fel y cawn weled yn union, bump neu chwe milltir i'r gogledd o Ierusalem, yn agos at Gibeon a Ramah; gyda'r rhai, yn yr amgylchiad hwnw, y buasai yn cael ei henwi yn *adn.* 25. Gan mai ffurf yr enw ydyw Gibeath, ac nid Gibeah, ai ni all fod yn perthyn i'r enw canlynol *Ciriath* (hyny ydyw, Ciriathiearim, fel y mae mewn gwirionedd mewn rhai copiau), ac yn dynodi y bryn oedd mewn cyssylltiad â'r dref hono (gwel isod, rhif 3)? Y brif wrthddadl i'r dybiaeth hon ydyw yr adroddiad mai pedair ar ddeg o ddinasoedd oedd yn y dosbarth hwn: ond nid ydyw hon yn wrthddadl bwysig, gan fod llawer o anghyssonderau yn dygwydd yn fynych yn y rhestrau hyn rhwng rhifedi y trefydd a'r rhifedi a roddir yn y cyfrif fel cyfanrif: cymharer *Ios.* xv. 32, 36; xix. 6, &c. Y mae lle i gredu mai nid enwau gwahanol, ond yr un, ydyw Zelah a Ha-Eleph yn y rhestr hon. Rhaid fod rhestrau Iosuah, er eu bod ar y cyfan yn gyfoed â rhaniad y wlad, wedi eu chwanegu at a'u newid cyn iddynt gael eu sefydlu fel y maent genym ni yn awr; a buasai y cyssegredigrwydd a roddwyd i fryn Ciriath gan arosiad yr arch yno am ychydig amser yn nyddiau Saul yn ddigon i sicrhau lle iddo yn mhlith rhestr trefydd y llwyth.

3. GIBEAH, [ἐν τῷ βουνῷ; yn *Gabaa*]: y lle yn yr hwn yr arosodd yr arch o amser ei dychweliad gan y Philistiaid hyd ei symmudiad gan Dafydd: 2 *Sam.* vi. 3, 4; cymharer 1 *Sam.* vii. 1, 2. Y mae yr enw yn meddu y fannod benodol; ac yn 1 *Sam.* vii. 1, cyfieithir ef *y bryn*. Gwel rhif 2 uchod.

4. GIBEAH BENIAMIN. Nid ydyw y dref hon yn ymddangos yn rhestr dinasoedd Beniamin yn *Ios.* xviii. Y lle cyntaf y cyfarfyddwn â hi ydyw yn hanes y Lefiad a'i ordderchwraig, pryd y bu agos iddi ddwyn llwyr ddinystr ar y llwyth: *Barn.* xix, xx. Yr oedd y pryd hwnw yn ddinas gyda'r heol neu yr ysgwar agored arferol (*Barn.* xix. 15, 17, 20), ac yn cynnwys saith gant o wŷr etholedig (xx. 15); yr un rhai, hwyrach, ag y dywedir yn yr adnod nesaf am danynt eu bod yn medru "ergydio â chareg at y blewyn, heb fethu." Trwy fanylrwydd yr adroddiad hwn gallwn ffurfio rhyw ddrychfeddwl cyffredinol am sefyllfa Gibeah. Gadawodd y Lefiad a'i gymdeithion Bethlehem yn y prydnawn—ar fin yr amser yr arferid gosod y pebyll i gysgu dros y nos. Y mae yn debygol ei bod rhwng dau a thri o'r gloch. Yn ol cyflymdra cyffredin teithwyr dwyreiniol, deuent ar gyfer Iebus mewn dwy awr—erbyn pump o'r gloch, dyweder—a chymmerai yr un faint o amser hwynt yr un pellder, neu o ddeutu pedair milltir, i'r gogledd i'r ddinas ar ffordd Nablus, yn nghyfeiriad Mynydd Ephraim: *Barn.* xx. 13; cym. *adn.* 1. Safai Ramah a Gibeah yn ngolwg y ffordd. Gibeah mewn ymddangosiad ydoedd yr agosaf ati; a chan nas gallasent fyned yn mlaen, o herwydd i'r nos eu dal, hwy a droisant o'r ffordd i'r dref lle yr oedd un o honynt i gyfarfod â marwolaeth arswydus: *Barn.* xix. 9—15. Fe ddengys rhan ddiweddarach o'r hanes fod y brif ffordd yn ymranu yn ddwy ychydig i'r gogledd o'r dref; sef, ffordd bresennol Nablus, yn arwain i fyny i Bethel, "tŷ Dduw," a'r llall yn arwain i "Gibeah yn y maes" (xx. 31), *Ieba* bresennol, hwyrach. Ychydig is law y ddinas—o ddeutu gwaelod y bryn a roddodd ei enw i'r ddinas—yr oedd ogof Gibeah, neu yn ol y cyfieithiad Cymraeg, "gweirgloddiau Gibeah," lle yr oedd y cynllwynwyr yn ymguddio hyd nes y rhoddid yr arwydd iddynt: xx. 33.

Yn ystod yr hanes hwn arferir yr enw Gibeah gydag ychydig eithriadau; yn ei ddechreu gelwir hi "Gibeah eiddo Beniamin;" *Barn.* xx. 14, ac yn xx. 4. Yn xx. 10, cawn yr ymadrodd "Gibeah Beniamin;" ond yr Hebraeg yw Geba, ac nid Gibeah. Ceir y gair yn yr un ffurf yn xx. 33, lle y dylai "gweirgloddiau" neu ogof "Gibeah" fod yn ogof "Geba."

Mewn llawer o'r manylion uchod, y mae Gibeah yn cytuno yn fanwl iawn â Tuleil-el-Fûl, —bryn amlwg pedair milltir union i'r gogledd i Ierusalem ar yr ochr ddeheu i'r ffordd. Dwy filltir tu hwnt iddo, ac yn y golwg yn llawn, y mae Er-Ram, yr hen Ramah, yn ol pob tebygolrwydd;

Digitized by Google

a rhwng y ddau y mae y brif ffordd yn ymranu —un gangen yn myned i'r deheu i bentref Ieba, a'r llall yn myned i fyny i Beitin, cynnrychiolydd presennol Bethel. Gwel rhif 5 isod.

Y lle nesaf yr ydym yn cyfarfod â Gibeah Beniamin ydyw yn ystod rhyfeloedd Saul ac Ionathan yn erbyn y Philistiaid: 1 *Sam.* xiii, xiv. Y mae yn cadw ei henw yn llawn hyd heddyw. Ymddengys mai fel hyn yr oedd pethau yn sefyll: —Yr oedd y Philistiaid yn meddiannu pentref Geba—Ieba bresennol—ar yr ochr ddeheuol i nant Suweinit. O flaen eu gwyneb, ar draws y nant, yr hon sydd yma o ddeutu milltir o led, yr oedd Saul, yn nhref Michmas (Mukhmas ddiweddar) ac yn cadw meddiant hefyd o Fynydd Bethel; hyny yw, y bryniau ar yr ochr ogleddol i'r nant fawr—Deir Diwân, Burka, Tell el-Haiar, cyn belled a Beitin ei hun. I'r deheu i wersyll y Philistiaid, ac o ddeutu tair milltir o'r tu ol iddo, yr oedd Ionathan, yn Gibeah Beniamin, gyda mil o ryfelwyr etholedig: xiii. 2. Cymmerwyd y cam cyntaf gan Ionathan, yr hwn a yrodd y Philistiaid allan o Geba trwy nerth arfau, yr hyn a'i gwnaeth ar unwaith yn enwog iawn. Ond yn y cyfamser cynnyddodd anhawsderau Israel yn fawr; canys y Philistiaid, wedi clywed am eu gorchfygiad, a gasglasant nerth aruthrol, a chan fyned yn mlaen gyda byddin gref, gyrasant fyddin fechan Saul allan o Bethel a Michmas, ac i lawr i Gilgal, ger Iericho yn nyffryn yr Iorddonen: xiii. 4, 7. Yna ymsefydlasant yn Michmas, lle y bu pencadlys Saul gynt, ac oddi yno anfonasant allan finteioedd o ysbeilwyr i'r gogledd, y gorllewin, a'r dwyrain: *adn.* 17, 18. Ond nis gallai dim yru Ionathan allan o'r amddiffynfa yn y deheu. Cyn belled ag y gallwn ni ddeall yr hanes, efe a ymadawodd yn fuan o Geba, a chasglodd ei fyddin fechan yn Gibeah, lle yr ymunodd ei dad âg ef, yn nghyd â Samuel y prophwyd, ac Ahiah yr offeiriad, yr hwn, hwyrach, wrth gofio tynged flaenorol yr arch, oedd wedi dwyn yr ephod cyssegredig i lawr o Siloh. Yr oedd y tri hyn wedi gwneyd eu ffordd i fyny o Gilgal gyda byddin wedi ei lleihau yn ddirfawr trwy enciliad i wersyll y Philistiaid (1 *Sam.* xiv. 21), a ffoedigaeth (1 *Sam.* xiii. 7)—dim ond gweddill o'r bobl oedd yn dilyn o'r tu ol i'r fyddin fechan. Yna fe ddygwyddodd gwrolwaith Ionathan a chludydd ei arfau. Yn nhawelwch a thywyllwch y nos, aethant i lawr bryn Gibeah, croesasant y nant, dringasant i fyny y bryn ar yr ochr arall, ac ymddangosasant i warchodlu y Philistiaid yn union ar doriad y dydd.—[*Hynaf. Josephus*, vi. 6; adr. 2].

Ni wyddai neb am eu hymadawiad, ond ni bu yn hir yn anhysbys. Yn y bore craffai gwylwyr Saul yn Gibeah Beniamin (Tuleil el-Fûl) i gael cipolwg ar sefyllfa y gelyn; ac fel yr oedd pelydrau cyntaf yr haul, pan yn codi, yn tori dros fynyddoedd Gilead, ac yn ymddysgleirio ar gopa creigiog Michmas, canfyddasant yn fuan fod rhyw gyffro anarferol yn y gwersyll: yr oeddynt yn gallu gweled "y lluaws yn ymwasgaru, ac yn curo y naill y llall i lawr." Yr oeddynt hefyd o'r pellder hwnw hyd yn oed yn clywed sŵn y terfysg. Galwyd rhestr y fyddin gyda brys i wybod pwy oedd yn absennol. Ymgynghorwyd âg oracl Duw; ond cynnyddodd y terfysg mor gyflym fel na oddefodd prysurdeb Saul i'r defodau gael eu cwblhau, a rhuthrodd Saul a'r bobl newynog oedd gydag ef i lawr o Gibeah; ac fel yr elent yn mlaen, yr Hebreaid oedd yn llechu yn ogofeydd a thyllau bryniau Beniamin, yn awyddus i ddial, ac i adferu y "defaid a'r gwartheg, a'r lloi," a ymunent â hwynt: *pen.* xiv. 32. Rhedodd y newydd mor gyflym trwy y dosbarth fel, erbyn i Saul gyrhaedd gwersyll y Philistiaid, yr oedd ei ganlynwyr yn cyrhaedd i 10,000 o wŷr. Fe ymgododd y bobl ar bob un o fryniau y wlad hefyd yn erbyn yr ymosodwr câs; a chyn y nos nid oedd un ddinas hyd yn oed yn Mynydd Ephraim nad oedd yr ymdrechfa wedi ymledu iddi. Gwel IONATHAN.

Cyfeirir at y lle hwn fel "Gibeah Beniamin" yn 2 *Sam.* xxiii. 29 (cymharer 1 *Cron.* xi. 31), a chrybwyllir am dano fel Gibeah gan Hosea (v. 8; ix. 9; x. 9); ond nid ymddengys yr enw drachefn yn yr hanes. Pa fodd bynag, y mae bron yn sicr mai yr un ydyw a

5. GIBEAH SAUL. Ni chrybwyllir am hon fel dinas Saul hyd ar ol ei enneiniad (1 *Sam.* x. 26), pan y dywedir ei fod wedi myned i'w dŷ ei hun i Gibeah, "i'r hon," meddai Josephus, "y perthynai." Yn yr adroddiad dilynol rhoddir ei henw yn llawn i'r dref (xi. 4); a disgrifir y brenin yn byw yno, yn dilyn galwedigaeth amaethwr, pan y mae ei berthynasau o Iabes-Gilead yn erfyn am ei gynnorthwy. Canlynir ei ryfelgyrch yn erbyn yr Ammoniaid gan y rhyfel cyntaf â'r Philistiaid, a chan amryw ryfeloedd ereill: yn mhlith ereill, rhyfel yn erbyn yr Amaleciaid yn y rhan ddeheuol o Palestina. Ond y mae yn dychwelyd, fel o'r blaen, i'w dŷ yn Gibeah Saul: 1 *Sam.* xv. 34. Drachefn, yr ydym yn cyfarfod â hi yn yr hanes lle y dywedir fod saith mab y brenin wedi eu crogi yno i droi ymaith ddigofaint yr Arglwydd: 2 *Sam.* xxi. 6. Ni chafwyd yr enw Saul mewn cyssylltiad âg un lle yn Palestina ddiweddar; ond yr oedd mewn bod mor ddiweddar ag amser Josephus; a chrybwylliad o'i eiddo ef a roddodd fantais i ni i adnabod y dref a elwir yn awr Tuleil el-Fûl. Wrth ddesgrifio taith Titus o Cesarea i Ierusalem, dywed Josephus [*Ll. Iudd.*, v. 2; adr. 1], ei fod yn myned trwy Samaria i Gophna, ac oddi yno i ddyffryn a elwir gan yr Iuddewon "dyffryn y drain," ger pentref o'r enw Gabathsaoule, deg ystad ar ugain o Ierusalem; hyny yw, union bellder Tuleil el-Fûl oddi yno. Yma fe ymunodd rhan o'i fyddin oedd yn Emmaus (Nicopolis) âg ef, y rhai yn naturiol a ddeuent i fyny y ffordd trwy Beth-horon a Gibeon, yr hon sydd hyd heddyw yn arwain i'r ffordd ogleddol yn agos i Tuleil el-Fûl. Y mae y cyfatebiad yn gyflawn yn y ddwy ystyr; gan hyny, rhaid mai yr un ydyw Gibeah Beniamin a Gibeah Saul. Priodolir y darganfyddiad i Dr. Robinson.

Cadarnheir y dybiaeth mai yr un ydyw Gibeah Beniamin a Gibeah Saul, yn gystal ag mai yr un yw Geba ac Ieba, gan *Esa.* x. 28—32, lle y cawn ddesgrifiad o daith Sennacherib o'r gogledd trwy bentrefydd dosbarth Beniamin i Ierusalem. Gan ddechreu gydag Ai, i'r dwyrain i Beitun bresennol, y mae y daith yn myned yn mlaen trwy Mukhmas, trwy fylchau nant Suweinit i Ieba ar yr ochr arall; ac yna trwy Er-Ram, a Tuleil el-Fûl - pentrefydd sydd yn awr ar y ffordd bresennol i'r bryniau i'r gogledd i Ierusalem, o'r lle y gellir gweled y ddinas. Rhaid fod Gallim, Madmenah, a Gebim, fel Anathoth (Anata), saf leoedd y rhai ydynt hyd yma yn anhysbys, yn bentrefydd ar y naill ochr neu y llall i linell union y daith. Yr unig adwy yn y gadwen yw Migron, yr hon a osodir yma rhwng Ai a Michmas; tra yr ymddengys, oddi wrth 1 *Sam.* xv. 2, ei bod

Digitized by Google

bump neu chwe milltir i'r deheu, yn Gibeah. Un eglurhad sydd yn cynnyg ei hun ydyw; ei bod yn dra thebygol fod chwaneg nag un lle o'r enw Migron (dibyn) yn y dosbarth creigiog hwnw.

Y mae yn ddiammheu fod Gibeah yn sefyll am Gibeah Saul yn 1 *Sam.* xxii. 6; a xxiii. 19; a xxvi. 1.

6. GIBEAH YN Y MAES: a enwir yn *Barn.* xxi. 31, fel un o'r prif ffyrdd oedd yn arwain o Gibeah Beniamin; o'r rhai y mae y naill yn myned i fyny i dŷ Dduw (Bethel), a'r llall i Gibeah yn y maes. Fe arferir Sadeh, y gair a gyfieithir yma *maes*, mewn modd arbenig am dir diwylliedig, i'w wahaniaethu oddi wrth dref, anialwch, neu ardd. Yr oedd diwylliad mor gyffredinol trwy y dosbarth hwn fel nad yw y gair yn rhoddi un fantais i ni i benderfynu sefyllfa y lle. Modd bynag, y mae yn hynod fod y ffordd ogleddol o Ierusalem, yn fuan ar ol pasio Tuleil el-Fûl, yn ymwahanu yn ddwy gangen; un yn rhedeg yn mlaen i Beitin (Bethel), a'r llall yn rhedeg i'r deheu i Ieba (Geba). Fe wnaed yr ymosodiad ar Gibeah o'r gogledd (cymharer *pen.* xx. 18, 19, a 26, yn mha rai y gelwir "tŷ Dduw" yn Bethel); ac am hyny i'r gogledd i'r dref yr oedd y ffyrdd yn ymwahanu. Gwelsom yn amgylchiad Gibeah Beniamin fod y ddwy ffurf *Geba* a *Gibeah* yn cael eu defnyddio y naill am y llall. Credir mai yr un ydyw "Gibeah yn y maes" a "Geba," trwy fod y naill air yn cael ei arfer am y llall.

Nid oes un cyssylltiad rhwng "gweirgloddiau Gaba," neu yn ol y Gymraeg, Gibeah, a'r maes, gan fod y gair Hebraeg yn hollol wahanol: *Barn.* xx. 23. Fel y dywedasom o'r blaen, y cyfieithiad priodol o'r gair *gweirgloddiau* ydyw *ogof.* Gwel GABA.

7. Y mae amryw eiriau ereill yn gyfansoddedig o Gibeah, y rhai a roddir mewn ffurf gyfieithiedig yn y Beibl Cymraeg. Y rhai hyn ydynt—

(1.) BRYN Y BLAENGRWYN (*Ios.* v. 3): rhwng yr Iorddonen ac Iericho. Derbyniodd yr enw oddi wrth yr enwaediad a gymmerodd le yno; ac ymddengys ei fod ar ol hyny wedi cael yr enw o Gilgal.

(2.) BRYN PHINEES, yn mynydd Ephraim: *Ios.* xxiv. 33. Dichon mai Iibia ar y llaw aswy i ffordd Nablus oedd hwn, hanner y ffordd rhwng Bethel a Siloh; neu yr Ieba sydd yn gorwedd i'r gogledd i Nablus. Y mae y ddau yn mynydd Ephraim; ond nid oes dim yn yr adnod yn rhoddi un fantais i ni i benderfynu sefyllfa y lle, tra y mae yr enw wedi ei roddi ar lawer o bentrefydd yn nghanolbarth Palestina.

(3.) BRYN MOREH: *Barn.* vii. 1.

(4.) BRYN DUW—Gibeath-ha-Elohim (1 *Sam.* x. 5); un o'r lleoedd yn nhaith Saul ag y mae yn anhawdd penderfynu ei sefyllfa. Yn *adn.* 10, 13, gelwir ef "y bryn" a'r "uchelfa."

(5.) BRYN HACHILAH: 1 *Sam.* xxiii. 19; a xxiv. 1.

(6.) BRYN AMMAH: 2 *Sam.* ii. 24.

(7.) BRYN GAREB: *Ier.* xviii. 39.

GIBEATH: *Ios.* xviii. 28. Gwel GIBEAH 2.

GIBEATHIAD, Y: brodor o Gibeah (1 *Cron.* xii. 3); yn yr amgylchiad hwn Semaah, neu "y Semaah," tad y ddau Beniaminiad, brodyr Saul, y rhai a ymunasant â Dafydd.

GIBEON: oedd enw dinas fawr fel un o'r dinasoedd breninol, yr hon oedd yn enwog am ei chadernid. Yr oedd Chephirah, Beeroth, a Chiriath-iearim yn perthyn i'w rhaglawiaeth pan y crybwyllir hi gyntaf yn yr Ysgrythyr: *Ios.* ix. 17. Pan glywodd trigolion Gibeon am yr hyn a wnaeth Iosuah i Iericho ac i Ai, penderfynasant achub eu bywydau trwy gyfrwysdra, a llwyddodd y cenadon a anfonwyd ganddynt i gael cyfammod âg Iosuah i'w cadw hwynt yn fyw. Costiodd y cyfammod hwn i'r Israeliaid fyned i ryfel â'r pum brenin oedd yn gwersyllu yn eu herbyn. Yn y frwydr fawr a ganlynodd, fe safodd yr haul yn Gibeon, a'r lleuad yn nyffryn Ajalon; ac wrth gynnorthwy y goleuni sefydlog a gafwyd, gyrwyd y pum brenin i ffoi, ac erlynwyd hwynt gan yr Israeliaid i'r ogof yn Macedah.

Yr oedd Gibeon yn gorwedd yn nhiriogaeth Beniamin (*Ios.* xviii. 25), ac fe'i rhoddwyd, yn nghyd â'i meusydd pentrefol i'r Lefiaid. Yr oedd y ddinas yn sefyll ar godiad tir, fel y mae yr enw yn arwyddocau; ac wrth sylwi ar sefyllfa El-jib, ni a'i cawn yn ateb yn gyfangwbl i'r desgrifiad o hono sydd yn y Beibl.—*Josephus, Eusebius,* a *Jerome.* Nid yw El-jib ond tref fechan ar gopa bryn, yn agos i bum milldir i'r gogledd o Ierusalem. Y mae y tai yn sefyll yn anunion ac anwastad, ac y maent yn edrych fel pe baent yn ystafelloedd mewn hen adfeilion trymfawr, y rhai sydd wedi syrthio ar bob ochr. Y mae yma ffynnonell helaeth o ddwfr sydd yn tarddu o ogof wedi ei chafnu mewn craig galch ar yr ochr ddwyreiniol o'r bryn, fel ag i ffurfio dyfrgist neu lyn. Yn is i lawr yn nghanol y prenau, ni gawn weddillion pwll neu bydew agored chwe ugain troedfedd o hyd, a chant o led. Hwn yn ddiau ydyw "llyn Gibeon," wrth yr hwn y cyfarfyddodd Abner ac Ioab gyda milwyr Isboseth â Dafydd, ac y cymmerodd y frwydr fawr a ganlynodd le, yr hon a ddybenodd yn ngorchfygiad Abner, a marwolaeth ei frawd Asahel, ac a arweiniodd i lofruddiaeth bradwrus Abner ei hun. Yma, neu wrth y ffynnonell, yr oedd y dyfroedd mawrion wrth ba rai y gwelodd Iohanan mab Kareab y bradwr Isarad: *Ier.* xli. 12. Ac yn agos i'r llyn hwn y gwersyllodd pum brenin yr Amoriaid pan ruthrodd Iosuah arnynt o Gilgal, yn ol yr addewid a roddodd i'r Gibeoniaid i'w hamddiffyn yn erbyn eu gelynion.

Ond er yr holl bethau hyn, fe gyfrifir Gibeon fel lle hynod gan yr Iuddewon ar achos gwahanol iawn—am fod pabell y cyfarfod ac allor bres y poeth offrwm wedi bod yn aros ar yr uchelfa yn agos i'r dref. Fe'i symmudwyd yma o Nob; ond nid yw yr amser penodol wedi ei sicrhau.

Un o'r pethau cyntaf a wnaeth Solomon ar ol dyfod i'r orsedd oedd myned i Gibeon i offrymu. Yr oedd y seremoni yn wir ardderchog. Yn mhen ychydig o flynyddoedd, fe orphenwyd y deml, a symmudwyd y babell.

GIBEONIAID, Y. Trigolion Gibeon; ac y mae'n debygol, y tair ddinas oedd yn gyfunol â hi. Nid ydym yn cael fawr o'u hanes ar ol iddynt wneuthur defnydd o ystryw dwyllodrus er mwyn cael amddiffyniad cenedl Israel dan Iosuah. Gwel GIBEON.

GIBLIAID: trigolion y ddinas a'r dosbarth a elwir Gebal, yr hwn sydd yn Phœnicia, ar fin y Môr Mawr, rhwng Sidon ac Othosia, o dan fynydd Libanus. Fe sonir am wlad y Gibliaid, yn nghyd â Libanus, fel rhan o Ganaan oedd heb ei meddiannu gan yr Israeliaid (*Ios.* xiii. 5), ac nid oes

Digitized by Google

genym hanes eu bod wedi cymmeryd meddiant o hono o gwbl.

Fe gyfeirir at y Gibliaid fel seiri oedd yn naddu a darparu coed a cheryg i adeiladu y deml; oddi wrth hyn, gellir casglu eu bod mewn undeb neu yn dwyn cyssylltiad â thrigolion Tyrus: 1 *Bren.* v. 18. Y mae rhai yn meddwl mai at Gebal arall oedd yn Edom y cyfeirir yn *Salm* lxxxiii. 7; ond y mae yn ammheus. Yr oedd y Gibliaid yn seiri celfydd, ac y maent yn cael eu cydnabod fel rhai doethion yn *Ezec.* xxvii. 9; ac yr oeddynt yn cael eu cyflogi o flaen pawb ereill, i weithio ar y llongau ardderchog a ddygasant y fath anrhydedd a mawredd i Tyrus.

Y mae Gebal yn myned o dan yr enw Jebail, neu Jebilee yn bresennol. Yr oedd yn lle lled bwysig, ac yn nodedig am enedigaeth ac addoliad Adonis; yr hwn yr oedd y Gibliaid yn meddwl oedd wedi ei glwyfo gan faedd gwyllt yn Mynydd Libanus. Y mae Jebail yn sefyll ar fryn yn agos i'r môr wrth droed Libanus, ac y mae yno wastadedd mawr a ffrwythlawn o'i gwmpas. Golwg pur wael sydd arno yn bresennol; er ei fod eto yn meddu urddas dinas; a gellir yn hawdd ganfod ol cyflwr gwell mewn amseroedd cynt. Y mae wedi ei murio ar dair ochr, ac yn agored yn y gorllewin tua'r môr: y mae y mur fel pe bai wedi ei adeiladu yn amser Rhyfel y Groes. O fewn y mur, y mae yno hen gastell, yr hwn a ddefnyddir yn bresennol fel preswylfod cadlywydd; a theml Fahometaidd, ac elusendy, wedi eu hadeiladu gan Sultan Ibrahain: ond y mae y tai o wneuthuriad gwael, ac fe ddefnyddir y rhan fwyaf o'r tir oddi fewn i'r mur fel gerddi i'r trigolion. Y mae ei phoblogaeth o ddeutu 2,000.

**GIDALTI**, [גִּדַּלְתִּי; Γοδολλαθι]: un o feibion Heman, gweledydd y brenin; ac felly yn Lefiad o dylwyth Cohath: 1 *Cron.* xxv. 4; cymharer *pen.* vi. 33. Ei swydd, yn nghyd â thri ar ddeg o'i frodyr, ydoedd seinio y corn yn ngwasanaeth y tabernacl: *adn.* 5, 7. Yr oedd caniadau yr Arglwydd yn cael eu cyflawnu gan ddau cant a phedwar ugain ac wyth o gantorion, y rhai a ranwyd i gylchoedd neu adraniadau. Gosodwyd Gidalti i ofalu am yr eilfed gylch ar ugain: *adn.* 29.

**GIDEL**, [גִּדֵּל; Γεδδήλ; *Gaddel*]. Ymddengys fod meibion Gidel yn mhlith y Nethiniaid, gweision y deml, y rhai a ddaeth o gaethiwed Babilon gyda Zorobabel: *Ezra* ii. 47; *Neh.* vii. 49. Yr oedd rhai o'i feibion hefyd yn mhlith gweision Solomon, y rhai a ddychwelasant ar yr un adeg i Iudea: *Ezra* ii. 56; *Neh.* vii. 58.

**GIDEON**: dinystrydd, milwr dewr, a gyfenwyd yn Ierubbaal neu Ierubbesheth. Mab oedd i Ioas, o lwyth Manasseh, yn trigo yn Ophrah, tref yn Gilead. Efe ydoedd y pummed barnwr yn Israel, a'r mwyaf o honynt i gyd mewn llawer o ystyriaethau.

Yr ydym yn darllen gyntaf am dano yn ŵr mewn cyflawn oed a chanddo feibion (*Barn.* vi. 11; viii. 20), ac oddi wrth anerchiad yr angel a ymddangosodd iddo (vi. 12) gellir casglu ei fod yn barod wedi hynodi ei hun mewn rhyfeloedd yn erbyn minteioedd crwydredig o ladron, yn benaf o blith y Midianiaid a'r Amaleciaid, y rhai oeddynt bob blwyddyn, trwy ystod y tymmorau ffrwythlawn, yn ymweled â'r wlad i'w hysbeilio o'i holl gynnyrch, oddi gerth yr hyn a lwyddid i'w guddio yn nghilfachau y mynyddoedd (vi. 2). Wedi dyoddef gorthrech y dynion hyn am saith mlynedd, dygwyd meibion Israel i ymostwng ger bron yr Arglwydd; a thrwy gyfrwng dylanwad neillduol yr Ysbryd Glân, a gwasanaeth angel o'r nef, codwyd gwaredwr addas iddynt yn mherson Gideon. Tra yn dyrnu gwenith mewn modd dirgelaidd, rhag ofn y gorthrymwyr maleisus, daeth Angel yr Arglwydd ato a dywedodd—"Yr Arglwydd sydd gyda thi, ŵr cadarn nerthol." Amlygodd Gideon ammheuaeth fod yr Arglwydd gyda phobl oedd wedi eu cystuddio mor drwm, ac atebwyd ef trwy roddi dirprwyaeth pur annysgwyliadwy iddo—"Dos yn dy rymusdra yma; a thi a waredi Israel o law y Midianiaid: oni anfonais i dydi?" Petrusodd Gideon, a gofynodd mewn syndod—"O Arglwydd, pa fodd y gwaredaf fi Israel? Wele fy nheulu yn dlawd yn Manasseh, a minnau yn lleiaf yn nhŷ fy nhad." Dywedodd yr Arglwydd mewn atebiad, "Diau y byddaf fi gyda thi." Wedi teimlo graddau o sicrwydd yn ei feddwl mai cenad Duw oedd yn llefaru wrtho, bu foddlawn i ymaflyd yn y gwaith, a chymhellodd yr ymwelydd nefol yn garedig i gymmeryd ychydig ymborth; ond ni fwytaodd o'r hyn a osodwyd o'i flaen, eithr efe a orchymynodd i Gideon i'w ddodi ar graig oedd ger llaw, megys ar allor, a llosgwyd ef gan dân goruwchnaturiol, a'r angel a aeth ymaith. Bu yr amgylchiad rhyfedd hwn yn foddion i ddwyn Gideon i gredu yn gadarn yn ei ddwyfol appwyntiad i ddarostwng y gelynion; ac yn y fan efe a adeiladodd allor i'r Arglwydd, ac a'i galwodd *Iehofah-shalom* (yr Arglwydd a roddo heddwch). Mewn breuddwyd y noson hono, gorchymynwyd iddo ddinystrio allor Baal, a thori i lawr y llwyn oedd gyfagos iddi, â choed yr hon yr oedd i boethoffrymu yr ail fustach seithmlwydd oed, eiddo ei dad. Prin y mae Bertheau yn iawn wrth dybio fod dau fustach i'w haberthu. Ufuddhaodd Gideon i orchymyn Duw, yn cael ei gynnorthwyo gan ddeng ŵr o'i weision ei hun; a phan ddeallodd addolwyr Baal fod y fath sarhad wedi ei daflu ar eu duw, llanwyd hwy o ddigofaint, ac yn ddiattreg hwy a benderfynasant ddial y trychineb ar Gideon. Fe gyfryngodd Ioas i amddiffyn ei fab, a llwyddodd i liniaru cynddaredd y bobl trwy ddefnyddio y ddadl gyffredin yn mhlith yr Hebreaid yn erbyn eilunddnwiau; sef, "Os Duw yw efe, dadleued drosto ei hun:" a chan nad oedd ar ei galon ei amddiffyn ei hun, awgrymai Ioas mai ynfydrwydd oedd i'w ganlynwyr ddysgwyl diogelwch oddi wrtho: 1 *Bren.* xviii. 27. Dyma un o'r anghreifftiau mwyaf tarawiadol o wawdiaith, fel moddion i argyhoeddi y meddwl o'i gamsyniadau.

Buan y cafodd Gideon achos i ddechreu gweithredu ar ei ddirprwyaeth bwysig. Yr oedd y goresgynwyr cyfathrachol wedi gwersyllu yn nyffryn Iezreel neu Esdraelon, a Gideon a udganodd mewn udgorn fel arwydd o'i fwriad i gasglu byddin wrthwynebol yn nghyd. Anfonwyd cenadau trwy Manasseh, Aser, Zabulon, a Naphtali; ac yn mhen ychydig o ddyddiau fe gafwyd 32,000 o wŷr parod i ryfel, a hwy a wersyllasant wrth aber Harod, ar lechweddau Mynydd Gilboa. Mae'r anesmwythder a'r pryder yn gysylltiedig âg anturiaethau mawrion yn gyffredin yn cael eu teimlo i raddau helaethach rai dyddiau o flaen nag yn y fynyd y byddis yn gweithredu; ac am y rheswm yna, mae'n debyg, yr oedd Gideon yn gofyn yr arwyddion gwyrthiol a ganiatawyd iddo i sicrhau buddugoliaeth: *Barn.* vi. 36—40. Wedi ei gymhell gan dystiolaethau

Digitized by Google

dwyfol, dechreuodd barotoi ei gynlluniau; ond rhag i'r lleng anferth o filwyr oedd ganddo ryfygu cymmeryd gogoniant y waredigaeth ddysgwyliedig iddynt eu hunain, yn hytrach na'i gyflwyno i'r Brenin Mawr, lleihawyd eu nifer i ddyrnaid bychan o ddynion, mewn modd tra syml a rhyfedd. Yn ol cyfarwyddyd dwyfol, cyhoeddwyd fod rhyddid i'r holl rai ofnus ac arswydus i ymadael o'r fyddin; a chymmerwyd mantais o hynawsedd y cyhoeddiad gan ddim llai na 22,000. Ond mynegwyd eto fod y deng mil gweddill yn rhy luosog; gan hyny fe'u dygwyd hwy at lan afonig heb fod yn mhell oddi wrthynt, pryd y neillduwyd i'r perwyl nodedig yn unig y rhai a yfasant ddwfr yn eu dwylaw gan leipio â'u tafodau fel cŵn, tebyg i ddynion gweithgar mewn brys, ac fe wrthodwyd y rhai a ymgrymasant yn hamddenol i yfed o'r afon. Nifer y rhai blaenaf oedd tri chant, a hwynthwy a benodwyd i orchfygu y lluoedd y dywedir eu bod fel locustiaid o amldra, oeddynt yn gorchuddio y dyffryn oddi tanynt: *Barn.* vii. 12.

Wedi clywed yn ddamweiniol adroddiad breuddwyd pwysig yn dwyn perthynas â'r frwydr oedd ar gymmeryd lle, fe ymnerthodd Gideon, ac a ymwrolodd i wynebu y gelynion: vii. 9—15. Rhanodd ei fyddin i dair adran, a mabwysiadwyd cynlluniau ganddo y rhai oeddynt gyfaddas nodedig i daraw "meibion y dwyrain" direol â ffwndwr a dychryn gwyllt: vii. 16—23. Y mae yn adnabyddus oddi wrth hanesiaeth fod byddinoedd mawrion dwyreiniol yn enwedig yn ddarostyngedig i ymwasgaru yn ddisymmwth mewn braw a dyryswch anfeistroladwy; a phan oedd dystawrwydd a thywyllwch y nos yn cael eu terfysgu yn ddisyfyd mewn tri o wahanol gyfeiriadau gan ffaglau llosgedig, drylliad piserau, a chan y sŵn dadseiniol a gynnyrchid rhwng y bryniau a'r creigiau gan yr udgyrn a'r bloeddiadau, o'r braidd y gellir rhyfeddu llawer fod gelynion meibion Israel wedi eu gyru ar ffo. Rhaid cadw mewn cof hefyd fod sŵn nerthol tri chant o udgyrn yn peri iddynt feddwl fod nifer cyfatebol o gwmnïau yn ymosod arnynt. Ymddengys fod dosbarthu byddin i dair rhan yn beth cyffredin (1 *Sam.* xi. 11; *Gen.* xiv. 15); ac nid ydyw cadfloedd Gideon yn annhebyg i eiddo Cyrus [*Xen. Cyr.*, iii. 28]. Chwanegodd Gideon ei enw ei hun yn ei gadfloedd, er mwyn ennyn ymddiried yn ei ganlynwyr, yn gystal ag er mwyn rhoddi gwae i'r gelyn. Dilynwyd ei gyfrwysdra â llwyddiant mawr iawn, a thorwyd rhengoedd y Midianiaid; y rhai a ffoisant yn bendramwnwgl i lawr y goriwaered at lanau yr Iorddonen, lle yr attaliwyd lluaws o honynt rhag dianc yn mhellach gan wŷr Ephraim. Erlidiwyd y ffoaduriaid dros yr afon, yr hon a groeswyd gan Gideon o fewn ychydig bellder i Lyn Gennesareth. Nid oedd y trigolion ar yr ochr arall i'r afon, pa fodd bynag, yn credu nac yn deall y fuddugoliaeth; ac o blegid hyny yr oeddynt yn echrydu wrth glywed hyd yn oed enw y Midianiaid; a methodd Gideon a chael cynnorthwy gan neb o honynt: gwrthodasant roddi tamaid o fwyd i'w filwyr blinedig. Cyhoeddodd fygythiad arnynt, ond gohiriodd y cyflawniad o hono nes y dychwelodd o'r cyfeiriad yr erlidiai y gorthrymwyr. Wedi iddo ddychwelyd, ni arbedodd breswylwyr y dinasoedd hyny, y rhai, fel preswylwyr Succoth a Phenuel, oeddynt wedi dirmygu ei awdurdod: *Barn.* viii. 5, 16, 17.

Yn y dyddiau hyny yr oedd yn arferiad, agos yn ddieithriad, i osod i farwolaeth bob carcharor o enwogrwydd a ddaliwyd mewn rhyfel. Cymmerwyd Zeba a Salmunna—dau o dywysogion Midian, yn garcharorion gan Gideon; a diau eu bod hwy wedi tybio yn sicr mai eu lladd a gawsant: ond yr oedd yn mryd Gideon eu harbed hyd nes y deallodd eu bod wedi tywallt gwaed ei frodyr ef ei hun o dan amgylchiadau cyffelyb; ac yna, fel dialydd eu gwaed, efe a gymmerodd y cleddyf yn ei law ac a'u lladdodd: *Barn.* viii. 18, 21.

Yn mysg yr encilwyr a ddaliwyd gan yr Ephraimiaid, yr oedd dau ereill o dywysogion Midian; sef Oreb a Zeeb, y rhai a osodwyd i farwolaeth. Dygwyd eu penau i Gideon; yr hyn oedd gydnabyddiaeth o'i flaenoriaeth fel pen tywysog: er hyny, yr oedd yr Ephraimiaid, yn wastadol yn ffroen uchel ac yn genfigenllyd, wedi eu digio yn ddirfawr am na chawsant eu gwysio ar y cyntaf i ymddangos ar faes y frwydr; a gallasai canlyniadau difrifol ddilyn oni buasai i Gideon ddangos callineb mawr trwy siarad â hwynt mewn ysbryd gostyngedig am ei weithredoedd ei hun mewn cymhariaeth i'w gweithredoedd hwy (viii. 1—3); "Ateb arafaidd a ddettry lid;" *Diar.* xv. 1.

Llwyr orchfygwyd y gorthrymwyr, a lladdwyd cant ac ugain mil (120,000) o wŷr yn tynu y cleddyf. Ar ol i Gideon waredu y genedl mor lwyddiannus oddi wrth y gormes trahaus y buont yn gruddfan o'i herwydd byth er pan ymadawsant o'r Aipht, llanwyd y bobl yn ddigon naturiol â llawenydd anfesurol, a chynnygiasant y goron freninol iddo ef ac i'w feibion. Ond yr oedd y gwron cydwybodol yn rhy ystyriol o'i sefyllfa, ac yn rhy gydnabyddus âg egwyddorion y ddwyfiywiaeth, i dderbyn y fath gynnygiad byrbwyll: "Ni arglwyddiaethaf fi arnoch," meddai, "ac ni arglwyddiaetha fy mab arnoch; eithr yr Arglwydd a arglwyddiaetha arnoch." Ni fynai dderbyn dim, oddi eithr y clustdlysau a dynwyd o glustiau y gelynion a laddwyd; a chan ledaenu gwisg i'w dal, "taflasant yno bob un glustdlws ei ysglyfaeth;" ac nid yn unig hyny, ond hwy a roisant dlysau aur ereill, yn mysg y rhai yr oedd tyrch y camelod breninol, a chwanegasant wisgoedd porphor y breninoedd cwympedig—yr hwn oedd yr amlygiad cyntaf o borphor fel lliw breninol. Pwysai y clustdlysau eu hunain 1,700 o siclau aur, cyfartal i 74 o bwysi a 4 wns, ac yn werth o ddeutu 3,300*p.* o'n harian ni. Gyda'r anrheg hon, fe wnaeth Gideon ephod, "ac a'i gosododd yn ei ddinas ei hun, Ophrah: a holl Israel a buteiniasant ar ei hol hi yno: a bu hyny yn dramgwydd i Gideon, ac i'w dŷ." *Addolasant* ydyw y syniad a gyfleir yn y gair "puteiniasant" yn y fan hon, megys yn *Lef.* xvii. 7; *Num.* xv. 39; *Salm* cvi. 39. Math o hugan neu wisg lac, dilewys, ydoedd ephod, o leiaf yr ephod a wisgid gan yr archoffeiriad, yn nglŷn â'r hon yr oedd y ddwyfroneg, yr hon oedd wedi ei gwneuthur gyda deuddeg o feini gwerthfawr wedi eu gweithio yn gywrain mewn aur coeth; ac yr oedd enwau y deuddeg llwyth wedi eu cerfio ynddi. Gwisgid ephod arall, ond llai addurnol, gan yr offeiriad cyffredin. Nid yw yn eglur iawn beth oedd amcan Gideon yn gwneyd ephod gyda'r trysorau a dderbyniodd. Meddylia rhai ei bod wedi ei bwriadu fel cofnod o waredigaeth Israel: os gwir hyny, cofnod ryfedd iawn ydoedd. Gan fod Gideon ar ei alwad cyntaf i'w swydd wedi cael ei orchymyn i adeiladu allor yn Ophrah, mwy tebygol yw ei fod yn dychymygu ei fod wedi ei awdurdodi i gynnal sefydliad offeiriadol yn y lle, i aberthu yn rheolaidd, er mantais yn benaf i'r llwythau oedd yn preswylio yr ochr ddwyreiniol i'r Iorddonen. A chaniatau mai hyn ydoedd amcan

Digitized by Google

Gideon yn gwneyd yr ephod, diau fod yr addoliad yn Ophrah yn cael ei gyflwyno er gogoniant i enw yr Jehofah; ond pa mor dda bynag y gallai y dyben fod, yr ydoedd yn hollol afreolaidd ac anghyfreithlawn yn ol deddfau gosodedig y gyfundraeth Iuddewig, ac o ganlyniad yn groes i ewyllys Duw. Rhaid fod Gideon wedi canfod yn raddol fod sylw y bobl yn cael ei dynu oddi wrth y tabernacl yn Siloh, a thrwy hyny yn rhwyddhau y ffordd i ymlithro i arferion eilunaddolgar, yr hyn fu y canlyniad wedi ei farwolaeth. Y mae yr eglurhad hwn yn cael ei gadarnhau pan gofier am y sefydliadau offeiriadol a ffurfiwyd gan Micah ar fynydd Ephraim, a chan feibion Dan yn Läis: *Barn.* xvii. 5—13; xviii. 29—31.

Fe gafodd Gideon dreulio diwedd ei einioes mewn tawelwch ac anrhydedd. Gellid meddwl fod rhan fawr o'i boblogrwydd ef, fel Saul, i'w briodoli i ymddangosiad tywysogaidd ei gorff: *Barn.* viii. 18. Bendithiwyd ef â theulu lluosog —yr oedd "ei blant fel planhigion olewydd o amgylch ei ford;" *Salm* cxxviii. 3. Bu farw mewn oedran teg, wedi llywodraethu ar Israel am ddeugain mlynedd. Gwreiddiodd coffadwriaeth y fuddugoliaeth a ennillodd ar y Midianiaid yn ddwfn yn y traddodiadau cenedlaethol (1 *Sam.* xii. 11; *Salm* cxxxiii. 11; *Esa.* ix. 4; x. 26); a sonir am enw Gideon gan yr apostol Paul fel un o gedyrn Duw yn y ffydd: *Heb.* xi. 32.

GIDEONI: mab i Gideoni ydoedd Abidan—y gŵr penaf o lwyth Beniamin yn amser y cofrifiad yn anialwch Sinai: *Num.* i. 11; ii. 22; vii. 60, 65; x. 24.

GIDOM: lle a enwir ond unwaith yn y Beibl, yn *Barn.* xx. 45. Hyd yno yr erlidiwyd y Beniaminiaid ar ol y frwydr fawr yn Gibeah. Dichon ei fod yn gorwedd rhwng Gibeah a chraig Rimmon, o fewn yn nghylch tair milldir i barthau dwyreiniol Bethel.

1. GIHON: enw yr ail afon yn ngardd Eden: *Gen.* ii. 13. Nid yw yr enw yn ymddangos eto yn y cyfleithiad Hebraeg o'r Hen Destament; ond yn y Deg a Thrigain y mae yn cael ei ddefnyddio yn *Ier.* ii. 18, yn lle y gair *Shichor* neu *Sihor*; hyny yw, y Nilus: ac yn *Eccles.* xxiv. y mae y gair *Geon* am yr un afon. Gwel Eden.

2. GIHON: lle yn agos i Ierusalem, a hynodwyd o herwydd mai yno y dygwyd Solomon i gael ei enneinio yn frenin: 1 *Bren.* i. 33, 38, 45. Ymddengys fod yno ffynnon fawr; o blegid fe ddywedir "A'r Hezeciah yma a argaeodd yr aber uchaf i ddyfroedd Gihon, ac a'u dug hwynt yn uniawn oddi tanodd, tua thu y gorllewin i ddinas Dafydd;" 2 *Cron.* xxxii. 30; xxxiii. 14. Fe wnaed hyn, o bosibl, ar achlysur dyfodiad byddin Assyria, o dan Sennacherib, i ymosod ar y ddinas, er mwyn amddifadu y gwarchaewyr o ddwfr at eu gwasanaeth. Argaewyd yr holl ffynnonau y tu allan i'r ddinas: 2 *Cron.* xxxii. 4. Y mae awdwr *Llyfr Sirach* (xlviii. 17) yn tystio fod Hezeciah wedi cadarnhau y ddinas, a dwyn dwfr i'w chanol hi. "Efe a gloddiodd y graig â haiarn, ac a wnaeth ffynnonau i'r dwfr." Sonir hefyd am ffynnon Gihon gan Josephus. Ar ol cymharu yr ymadroddion uchod, y mae golygydd y *Beibl Darluniadol* (ar 2 *Cron.* xxxii.) yn penderfynu fod ffynnon yn bodoli yn Gihon yn yr hen amseroedd, ar yr ochr orllewinol i'r ddinas, yr hon a argaewyd gan Hezeciah; ac fod ei dyfroedd yn cael eu cludo i'r ddinas trwy gyfryngau tanddaiarol. Y mae Dr. Robinson yn coleddu barn gyffelyb [*Researches*, i. 313]. Yn flaenorol i hyny rhedai y dyfroedd yn naturiol i lawr trwy ddyffryn Gihon; a digon tebyg iddynt ffurfio yr aber a rwystrwyd ar yr un adeg. Y mae yn debyg fod y ffynnon hon yn agos i'r llyn uchaf yn y dyffryn y tu gorllewinol i Ierusalem. Dyfrgist neu gronfa ydyw y llyn uchaf, yn sych yn yr haf, ond yn llawn yn ystod y tymmorau gwlawog, pryd y bydd y dyfroedd yn cael eu trosglwyddo trwy ffos fechan i gymmydogaeth Porth Iaffa, ac oddi yno i lyn Hezeciah oddi mewn i'r ddinas. Gwel *Robinson's Researches*, i. 352, 512—514.

GILALAI: un o'r "meibion yr offeiriaid" a benodwyd i chwareu yr offerynau ar adeg cyssegriad muriau Ierusalem, yn y dosbarth ar ba un yr oedd Ezra yn blaenori: *Neh.* xii. 36.

GILDAS: yr hwn a gyfenwid y doeth—sant a hanesydd enwog oedd yn byw yn Mhrydain, o'r flwyddyn 500 hyd 570. Mab ydoedd i Caw, ab Ceraint, ab Erin, arglwydd Cwm Cawlyd. Ffodd Caw o Northumberland i Ogledd Cymru yn hytrach nag ymostwng i'r Saxoniaid, a chafodd dir gan Faelgwyn Gwynedd, yn Ngwynedd, a chan y brenin Arthur yn Ngwent; a dywedir mai yn Nhwrcelyn, yn Ynys Môn, y treuliodd weddill ei ddyddiau. Yr oedd ganddo lawer o blant; y rhai, gan mwyaf, oeddynt seintiau enwog, a'r lleill yn rhyfelwyr. Yr oedd iddo bedwar o feibion, o'r enwau Peiro, Caffo, Allgof, a Maelog, a merch o'r enw Cwyllog, i'r rhai y cyssegrwyd eglwysydd Rhosbeiro, Llangaffo, Llanallgof, a Llanfaelog, a Llangwyllog—oll yn Ynys Môn. Tybir fod Gildas yn fynach, ac iddo fod mewn cymundeb â chynnulleidfa Catwg, yn Morganwg. Yn y flwyddyn 555, appwyntiwyd ef i fod yn athraw; ac wedi hyny agorodd athrofa yn Nghaerbaddon (*Bath*); ond dywed rhai iddo ymneillduo i fynachdy yn Glastonbury, ac mai yno y bu farw, yn y flwyddyn 570. Tybia rhai, mai yr un oedd Gildas ag Aneurin y bardd; ond fod y naill yn enw barddonol, a'r llall yn enw eglwysig. Cyfododd rhai ysgrifenwyr ddau ŵr i fyny o dan yr enw Gildas—un o'r rhai a gyfenwant *Badonicus*, a'r llall *Albanicus*. Tybir fod hyn wedi ei achlysuro gan gamgymmeriad yn yr hen Frutiau, gyda golwg ar amseriadau. Dywedant i Gildas Badonicus agoryd athrofa yn y flwyddyn 455, yn lle 555; ac o herwydd hyn casglwyd y rhaid fod dau o'r un enw. Ond y mae hyn yn dra annhebygol; canys pe buasai un Gildas yn byw o ddeutu y flwyddyn 465, rhaid y buasai rhyw grybwylliad am dano mewn cyssylltiad â Garmon, Dyfrig, ac Illtyd, a hefyd â sylfaenwyr eglwysydd digon adnabyddus ereill, y rhai oeddynt yn byw yn yr oes hono, a'r rhai a grybwyllir mewn gwahanol gyssylltiadau yn yr hen ysgrifeniadau Brytanaidd.

Cyhoeddwyd llyfr ar enw *Gildas*, yr hwn a enwir *Epistola de Excidio Britannicæ, et Castigatio ordinis Ecclesiastici*, yn yr hwn y mae yn ceryddu beiau ei gydwladwyr yn yr iaith lem ganlynol: —"Pechodau y Brutaniaid a'u difethent, a chwe prif bechod a barant i'r Cymry golli eu pendefigaeth, a'u hanrhydedd yn Ynys Prydain. Yn laf, esgeulusdra y gwŷr eglwysig, llenorion, ac athrawon, a'u diogi, a'u diofalwch yn gwasanaethu Duw, a dysgu deddfau uniondeb a chyfiawnder. Yn 2il, trais y cedyrn ar y gweiniaid cyffredin,

Digitized by Google

hyd nas gellir mwyach ei oddef yn ddiwrthwynebiad. Yn 3ydd, Trachwant a chybydd-dod y cyfoethogion a llogwyr arian, y rhai ydynt yn ceisio ymgyfoethogi yn mhob dull a modd, boed cam boed cymhwys. Yn 4ydd, Digywilydd-dra, celwydd, anudoniaeth, ac anmharch ar bob gwirionedd, a'i sarnu mal pe sernid ar seirph a gwiberod, a hyny gan y bobl gyffredin yn gystal a chan y pendefigion. Yn 5ed, Gorwagedd a balchder, a dillad, a thai, a dodrefn, a phawb yn ceisio bod uwch law eu gilydd. Yn 6ed, Tor priodas a godineb cyhoeddus, a hyny rhwng carennydd a chyfathrach, a phob anlladrwydd ac anniweirdeb, heb nac ofn Duw na chywilydd dynion. A phan weler y pechodau hyn, edrycher yn fuan am ddial ar y genhedlaeth a'u goddefo yn eu plith, ac a'u gwnelo yn ddigywilydd ac yn ddiofn, ac yn galon galed. Gwae ni, genedl y Brutaniaid, nyni'r genhedlaeth lle y gwneir ac y cerir yr holl bethau hyn, nyni a yrwn ein bysedd yn mhob clust rhag clywed rhybuddion Duw." Yna y mae yn bygwth newyn, haint, a marwolaeth, fel barn y pechodau hyn. Y mae y darluniad hwn o lygredd moesau y Prydeiniaid yn arwyddo mai gwaith rhyw elyn i'r Prydeiniaid, ac nid un o'r genedl, ydyw y llyfr a enwyd.

GILEAD, [Gr., *Galaad, carnedd y dystiolaeth*]: ardal fynyddig i'r dwyrain i'r Iorddonen; yn cael ei therfynu ar y gogledd gan Basan, ar y dwyrain gan wastadedd Arabia, ac ar y de gan Moab ac Ammon: *Gen.* xxxi. 21; *Deut.* iii. 12—17. Weithiau, gelwir hi "Mynydd Gilead;" *Gen.* xxxi. 25: weithiau "tir Gilead;" *Num.* xxxii. 1: ac weithiau "Gilead;" *Salm* lx 7; *Gen.* xxxvii. 25. Ond wrth gymharu y gwahanol adnodau â'u gilydd, fe welir yn eglur eu bod oll yn meddwl yr un peth. Nid oes genym un sicrwydd fod Mynydd Gilead, mwy na mynydd Libanus (*Barn.* iii. 3), yn dynodi un mynydd neillduol: mae y ddau yn cynnwys yr holl res, ac yr oedd rhes mynyddoedd Gilead yn cynnwys yr holl dalaeth. Y mae yr enw Gilead, fel arferol yn Palestina, yn rhoddi desgrifiad o nodwedd naturiol y wlad. Y mae yn arwyddo "ardal greigiog galed;" a gellir edrych arni fel yn sefyll mewn gwrthgyferbyniad i Basan, y dalaeth fawr arall oedd tu hwnt i'r Iorddonen, yr hon sydd, fel y mae ei henw yn rhoddi ar ddeall, yn "rhandir gwastad a ffrwythlawn."

Nid oes dim yn yr adroddiad yn *Gen.* xxxi. 48, yn wrthwyneb i'r ystyr hwn. Hen enw yr ardal oedd Gilead; ond trwy gyfnewidiad dibwys yn y cynaniad, cymhwyswyd y gair at y "garnedd geryg" oedd wedi ei chodi gan Iacob a Laban—"a Laban a ddywedodd, Y *garnedd* hon sydd *dyst* rhyngof fi a thithau heddyw: am hyny y galwodd Iacob ei henw hi *Galeed"—carnedd y dystiolaeth.* Ymddengys na chymmerodd yr ymweliad rhwng Iacob a'i dad yn nghyfraith le ar ben un mynydd neillduol. Wedi i Iacob fyned dros yr Euphrates, "efe a gyfeiriodd at fynydd Gilead;" efe a aeth yn union ar draws yr anialwch heibio i ffynnon fawr yn Palmyra; yna, teithiodd dros y rhan ddwyreiniol o wastadedd Damascus, ac ucheldir Basan, ac aeth i Gilead o'r gogledd-ddwyrain. "Laban a'i goddiweddodd ef yn Mynydd Gilead," —yn fuan ar ol iddo fyned i'r dosbarth; canys pan ymadawsant â'u gilydd drachefn, "Iacob a gerddodd i'w daith, a chyrhaeddodd i Mahanaim, yr hon a orweddai i'r gogledd i ryd Iabboc;" *Gen.* xxxii. 1, 2, 22.

Gellir sicrhau maintioli Gilead yn lled gywir oddi wrth y crybwylliadau damweiniol a gawn am dani yn yr Ysgrythyrau Sanctaidd. Ei therfyn gorllewinol oedd yr Iorddonen: 1 *Sam.* xiii. 7; 2 *Bren.* x. 33. Wrth gymharu amryw adnodau â'u gilydd, cawn mai yr afon Hieromax, yr hon yn awr a elwir *Sheriat el-Mandhâr*, oedd yn ei gwahanu oddi wrth Basan ar y gogledd. Dywedir fod "hanner Gilead" yn cael ei feddiannu gan Sihon brenin yr Amoriaid, a'r hanner arall gan Og brenin Basan, a'r terfyn rhwng y ddwy deyrnas oedd yr afon Iabboc; *Deut.* iii. 12; *Ios.* xii. 1—5. Gan hyny, rhaid fod yr hanner o Gilead a feddiennid gan Og yn gorwedd i'r gogledd i ryd Iabboc. Dywedir hefyd fod tiriogaeth llwyth Gad yn ymestyn ar hyd dyffryn yr Iorddonen i Fôr Galilea (*Ios.* xiii. 27); ac eto rhoddwyd "holl Basan" i Manasseh (*adn.* 30). Yr ydym yn casglu gan hyny, mai nant ddofn yr Hieromax, yr hon sydd yn rhedeg tua'r dwyrain, yn gyfochrog â phen deheuol Môr Galilea, oedd y llinell derfyn rhwng Basan a Gilead. I'r gogledd i'r nant hono y mae ucheldir gwastad, ffrwythlawn, yn cyfateb i ystyr yr enw Basan, sef "tir meddal a gwastad;" tra ar y deheu y ceir gwlad fyniog ac ysgythrog, i'r hon y mae Gilead yn enw cymhwys. [Gwel *Porter*, yn y *Journal of Sac. Lit.*, cyf vi. td. 284.] Ar y dwyrain y mae y mynydd yn gostwng yn raddol i ucheldir gwastad Arabia. Nid ydyw terfyn Gilead yn cael ei nodi mor eglur yma; ond bernir ei fod yn rhedeg ar hyd gwaelod y rhes o fynyddoedd. Nid ydys yn meddu gwybodaeth mor sicr o barth i'r terfyn deheuol. Meddiennid y wlad cyn belled a'r afon Arnon, yr hon oedd terfyn Moab, gan lwyth Reuben: *Deut.* ii. 36; iii. 12. Ymddengys, modd bynag, na chymhwysid y rhan ddeheuol o'u tiriogaeth yn Gilead. Rhoddir ar ddeall, yn *Ios.* xiii. 9—11, mai nid yn Gilead y mae "gwastadedd Medeba," a elwir y *Mishor*, yr hwn sydd yn gorwedd i'r gogledd i Arnon; ac wrth siarad am y dinasoedd noddfa, y mae Moses yn dysgrifio Beser, yr hon a roddwyd allan o lwyth Reuben, fel "yn yr anialwch yn y gwastattir (hyny yw, yn ngwlad y *Mishor*);" tra y dywedir fod Ramoth yn Gilead: *Deut.* iv. 43. Gelwid y gwastadedd hwn hefyd yn "dir Iazer;" *Num.* xxxii. 1; 2 *Sam.* xxiv. 5: hefyd cymharer *Ios.* xiii. 16—25. Gan hyny, y mae yn dra thebygol mai dyffryn Hesbon oedd terfyn deheuol Gilead. Yr oedd Gilead fel hyn yn ymestyn oddi wrth y llinell gyfochrog â phen deheuol Môr Galilea i'r llinell gyfochrog â'r Môr Du—oddeutu 60 milldir; a phrin yr oedd ei led drwyddo yn fwy nag 20 milltir.

Er mai y rhai hyn oedd terfynau priodol Gilead, arferir yr enw mewn ystyr eangach mewn dau le neu dri yn y Beibl. Er enghraifft, dywedir fod Moses o ben Pisgah wedi gweled "holl wlad Gilead, hyd Ddan:" (*Deut.* xxxiv. 1); ac ymddengys, oddi wrth *Barn.* xx. 1, a *Ios.* xxii. 9, fod yr enw yn cynnwys holl diriogaeth yr Israeliaid tu hwnt i'r Iorddonen. Ond y mae yn ddiammheu fod hyn yn codi oddi ar ddull cyffredin pobl gwlad o siarad. Er enghraifft, byddwn ni yn fynych yn dyweyd, "Lloegr," pan y byddwn yn meddwl "Lloegr a Chymru." Gelwir y rhan o Gilead sydd yn gorwedd rhwng rhŷd Iabboc a'r Hieromax yn awr *Iebel Ajlûn;* tra y mae y rhan sydd yn gorwedd i'r deheu i rŷd Iabboc yn ffurfio talaeth ddiweddar *Belka.* Y mae un o'r copaod amlycaf yn y trum o fynyddoedd yn parhau i gadw yr hen enw, "Mynydd Gilead," *Iebel Jil'ad.* Y mae o ddeutu saith milltir i'r deheu i Iabboc, a cheir o'i ben olygfa fawreddog ar holl ddyffryn yr Iorddonen, ac ar fynyddoedd Iudah ac Ephraim.

Digitized by Google

Tybir mai arno y gorweddai Ramath-Mizpeh (*Ios.* xiii. 26) a Mizpah-Gilead, o'r hon yr aeth Iephtha drosodd at feibion Ammon: *Barn.* xi. 29. Y mae pentref cymmydogaethol *es-Salt* wedi ei adeiladu ar y tu y gorweddai yr hen ddinas noddfa arno yn Gad, Ramoth Gilead. Gwel Ramoth Gilead.

Yr ydym eisoes wedi cyfeirio at ymadrodd dysgrifiadol arbenig, yr hwn y gellir o'r bron edrych arno fel enw priodol, yn cael ei arfer i ddynodi y gwastadedd uchel mawr sydd yn terfynu ar Gilead ar y deheu a'r dwyrain. Dywedir fod y ddinas noddfa, Beser, yn ngwlad y Mishor (*Deut.* iv. 43); ac Ieremiah (xlviii. 21) a ddywed, "a barn a ddaw ar dir y Mishor:" gwel hefyd *Ios.* xiii. 9, 16, 17, 21; xx. 8. Ystyr y gair *Mishor* ydyw tir gwastad, neu fwrdd-dir; ac nis gellid defnyddio un gair mwy priodol.

Gwir uchder mynyddoedd Gilead ydyw o ddwy i dair mil o droedfeddi; ond y mae eu huchder ymddangosiadol ar yr ochr orllewinol yn llawer mwy, o herwydd iselder dyffryn yr Iorddonen, dyfnder yr hwn sydd o ddeutu 1,000 o droedfeddi. Y maent yn hollol unffurf, yn debyg i fur mawr llydan yn rhedeg ar hyd y terfyngylch. O'r dwyrain pell, ymddangosant yn isel; canys ar yr ochr hono y maent yn cyfarfod ucheldir gwastad Arabia, yr hwn sydd yn 2000 o droedfeddi, neu chwaneg, o uchder. Er fod y mynyddoedd yn ymddangos yn llwm o'r pellder, eto wrth eu hesgyn canfyddir golygfa gyfoethog, ddarluniadol, ac mewn manau hyd yn oed yn fawreddog. Y mae eu penau yn llydain, bron fel byrdd-dir; a gorchuddir pob rhan o honynt â llysiau tyfadwy a blodau hardd. Nid oes dim coed yn tyfu yn y cyrau mwyaf gogleddol a deheuol; ond fel y nesawn at y canolbarth, maent yn dechreu ymddangos yn fuan—ar y cyntaf un yma ac acw, yna nifer gyda'u gilydd, ac o'r diwedd o bob ochr i'r Iabboc yn goedwigoedd mawrion o dderw yn benaf. Y mae porfeydd cyfoethog Gilead yn wrthgyferbyniad hynod i noethni y rhanau gorllewinol o Palestina. Oddi eithr yn mhlith bryniau Galilea, ac ar hyd llechweddau Carmel, nid oes dim i'w gymharu â hwynt fel "lle i anifeiliaid;" *Num.* xxxii. 1. Cynnwysai Gilead yn yr hen amserau gyflawnder o berlysiau—balm y rhai a allforid i'r Aipht: *Gen.* xxxvii. 25; *Ier.* viii. 22; xlvi. 11.

Y crybwylliad cyntaf a gawn am Gilead ydyw mewn cyssylltiad â hanes Iacob (*Gen.* xxxi. 21): ond y mae yn bosibl mai yr un dosbarth ydyw ag y cyfeirir ato o dan yr enw *Ham*, yr hwn a breswylid gan y Zuziaid cawraidd. Fe ddarfu breninoedd y dwyrain, y rhai a ddaethant i gospi "dinasoedd gwrthryfelgar y gwastadedd," ymosod yn gyntaf ar y Rephaimiaid yn Asteroth Carnaim; hyny yw, yn y wlad a elwir yn awr *Haurân;* yna hwy a aethant yn mlaen tua'r deheu yn erbyn y "Zuziaid yn Ham;" ac yn nesaf yn erbyn yr "Emiaid yn Safeh-Ciriathaim," yr hwn wedi hyny a feddiannwyd gan y Moabiaid: *Gen.* xiv. 5; *Deut.* ii. 9—19. [Gwel Emiaid; Rephaimiaid.] Nid ydym yn clywed dim yn rhagor am Gilead hyd yr ymosodiad ar y wlad gan yr Israeliaid. Yr oedd ei hanner y pryd hwnw yn meddiant Sihon, brenin yr Amoriaid, yr hwn oedd ychydig cyn hyny wedi gyru y Moabiaid allan o honi. Meddiennid y rhan a orweddai i'r gogledd i ryd Iabboc gan Og, brenin Basan. Gorchfygodd yr Israeliaid y blaenaf yn Iahas, a'r olaf yn Edrei, a chymmerasant feddiant o Gilead a Basan: *Num.* xxi. 23, &c. Tynodd porfeydd breision Gilead, gyda'i choedwigoedd cysgodfawr a'i ffrydiau rhedegog, sylw Reuben a Gad, "gan y rhai yr oedd llawer iawn o anifeiliaid," a rhoddwyd hi iddynt. Effeithiodd nodwedd y wlad yn ddirfawr ar hanes ac arferion dyfodol y llwythau oedd yn meddiannu Gilead. Gan eu bod yn gyfoethog mewn gwartheg a defaid, ac yn awr yn meddu gwlad fras, cadwasant bron yn ddigyfnewid arferion bugeilaidd a chrwydrol eu hynafiaid patriarchaidd. Fel yr holl Bedouiniaid, yr oeddynt yn byw mewn sefyllfa o ryfel parhaus, yn union fel y rhagddywedodd Iacob am Gad—"llu a'i gorfydd" ("a'i ysbeilia," yn ol y Seisoneg); "yntau a orfydd (neu a ysbeilia) o'r diwedd:" *Gen.* xlix. 19. Darostyngwyd ac ysbeiliwyd meibion Ismael yn amser Saul (1 *Cron.* v. 9, &c.): a meibion Ammon yn nyddiau Iephthah a Dafydd: *Barn.* xi. 32, &c.; 2 *Sam.* x. 12, &c. Yr oedd eu bywyd crwydrol mewn pebyll, a'u gwlad anhygyrch, yn eu gwneyd hwynt yn yr hen amserau yr hyn yw y llwythau Arabaidd crwydredig yn awr, yn amddiffynwyr yr ymnoddwr a'r troseddwr. Yn Gilead y cafodd meibion Saul gartref tra y ceisient yn ofer adsefydlu awdurdod eu teulu: 2 *Sam.* ii. 8, &c. Yma hefyd y cafodd Dafydd noddfa yn ystod gwrthryfel annaturiol ei anwyl fab; a chariai y llwythau amgylchynol anrhegion o'r pethau goreu a feddent i'r penadur syrthiedig: 2 *Sam* xvii. 22, &c. Un o breswylwyr Gilead oedd Elias y Thesbiad (1 *Bren.* xvii. 1); ac yn ei wisg syml, ei ymddangosiad gwyllt, ei arferion gweithgar, a'i symmudiadau cyflym, yr ydym yn canfod holl nodweddau gwir Bedouiniad, yn cael eu hurddasu gan genadaeth brophwydol o radd uchel. Gwel Gad.

Yr oedd Gilead yn wlad ar y terfyn, yn agored i ymosodiadau cyntaf y Syriaid a'r Assyriaid, ac i ruthriadau dibaid llwythau yr anialwch:—"O herwydd fod Machir, cyntafanedig Manasseh, yn rhyfelwr, yr oedd Gilead a Basan yn eiddo ef: *Ios.* xvii. 1. O dan Iephthah gyndyn, fe ddaeth Mispah Gilead yn gyrchfa y llwythau oedd yn preswylio tu hwnt i'r Iorddonen (*Barn.* xi. 29); ac ymddengys fod amddiffynfa Ramoth Gilead yn cael ei hystyried mewn amseroedd dilynol fel allwedd Palestina: 1 *Bren.* xxii. 3, 4, 6; 2 *Bren.* viii. 28; ix. 1.

Y mae yr enw Galaad (Γαλαάδ) yn dygwydd amryw weithiau yn hanes y Maccabeaid (1 *Macc.* v. 9, &c.); ac yn Josephus, yn gyffredinol gyda'r terfyniad Groeg — Γαλααδῖτις neu Γαλαδηνή [*Hyn.*, xiii. 14, *adr.* 2; llyfr *J.* i. 4, *adr.* 3.] O dan lywodraeth y Rhufeiniaid, daeth y wlad yn fwy sefydlog a gwareiddiedig; ac fe ymgododd dinasoedd mawrion Gadara, Pella, a Gerasa, gyda Philadelphia ar ei therfyn de-ddwyreiniol, yn fuan i gyfoeth a gwychder. Mewn un o'r rhai hyn (Pella) y cafodd Cristionogion Ierusalem noddfa pan ymgasglodd byddinoedd Titus o amgylch y ddinas sanctaidd [*Euseb.*, *H. E.*, iii. 5]. O dan lywodraeth y Mahometiaid, y mae y wlad wedi syrthio eto i sefyllfa hanner barbaraidd. Ychydig bentrefi gwasgaredig yn nghanol creigiau Jebel Ajlion, ac ychydig lwythau ffyrnig crwydredig, sydd yn awr yn cyfansoddi holl boblogaeth Gilead. Y maent mewn enw yn ddarostyngedig i'r Porte, ond nid ydynt yn talu ond ychydig o warogaeth iddo.

2. GILEAD: enw mynydd, fel y tybir, yn gorwedd i'r gorllewin i'r Iorddonen, ger Iezreel: *Barn.* vii. 3. Pa fodd bynag, barna rhai y dylid cyfieithu y gair gwreiddiol yn y lle hwn yn

Gilboa, yn lle Gilead. Yr oedd Gedeon yn gwersyllu wrth "ffynnon Harod," yr hon sydd wrth waelod mynydd Gilboa. Yr oedd yn hawdd i'r adysgrifydd wneyd y camgymmeriad, ac nid hawdd oedd i neb ei ddarganfod heb fod yn gyfarwydd iawn â daiaryddiaeth.

3. GILEAD: enw mab Machir, ŵyr Mannasseh: *Num.* xxvi. 29, 30.

4. GILEAD: tad Iephthah: *Barn.* xi. 1, 2. Y mae yn anhawdd penderfynu pa un ai o herwydd mai Gilead oedd enw ei dad ef, ynte ai oddi wrth y ddinas ai y wlad lle yr oedd yn byw, y gelwid ef yn "Gileadiad."

GILBERTIAID: urdd Brydeinig o Babyddion, yr hon a sefydlwyd gan St Gilbert, o Sempringham, yn sir Lincoln, yn y flwyddyn 1148. Sefydlodd y sant hwn ddwy fynachlog—un i'r mynachod a'r llall i'r mynachesau, gyda mur uchel rhyngddynt, fel nas gallent ddal y cymundeb lleiaf â'u gilydd. Dilyna y mynachod reol St. Augustus, a'r mynachesau reol St. Benedict. Dywedir nad oedd dim llai na 25 perthynol i'r urdd hon yn Lloegr a Chymru yr amser y diddymwyd mynachlogydd.

1. GILGAL, [*treigl*]: gwersyllfa gyntaf yr Israeliaid ar yr ochr orllewinol i'r Iorddonen, lle y treuliasant y nos gyntaf ar ol croesi yr afon, a lle y gosodwyd i fyny ddeuddeg careg a gymmerasid o wely yr afon (*Ios.* iv. 19, 20; cymharer *adn.* 3); lle hefyd y cadwasant eu Pasc cyntaf yn Ngwlad Canaan; *adn.* 10. Yr oedd yn gorwedd "yn eithaf tu dwyrain Iericho," neu yn ol y cyfieithiad Seisoneg, "ar derfyn dwyreiniol Iericho," ar fryn bychan (*adn.* 3; cymh. 9) yn rhosydd Iericho; hyny yw, y dosbarth isel poeth o'r wlad a orweddai rhwng y dref a'r Iorddonen: *Ios.* v. 10. Yma yr enwaedwyd yr Israeliaid a anesid yn yr anialwch, ar y ffordd; ac oddi wrth hyn y cafodd ei henw: "Heddyw y treiglais ymaith waradwydd yr Aipht oddi arnoch: am hyny efe a alwodd y lle hwnw Gilgal, hyd y dydd heddyw." Ond nis gellir cymhwyso y tarddiad hwn o'r enw at y lleoedd ereill sydd yn cael eu galw Gilgal. Tybia rhai mai cyfaddasiad at yr Hebraeg ydyw o enw oedd yn flaenorol yn iaith y wlad. Dywed Josephus fod y gair yn arwyddo "rhyddid."—*Hyn.*, v. 1, adr. 11. Fe barhaodd y gwersyll a sefydlwyd yn Gilgal yn brif drigfan ganddynt tra yr oeddynt yn darostwng hen drigolion y wlad (ix. 6; x. 6, 7, 9, 15, 43); a gellir casglu oddi wrth un adroddiad fod Iosuah wedi ymneillduo yno wedi gorphen ei lafur: *Ios.* xiv. 6; cymharer *adn.* 15.

Dygir Gilgal i sylw drachefn yn amser Saul; pryd yr ymddengys ei bod wedi ymwrthod â'i nodwedd filwraidd, ac wedi gwisgo nodwedd gyssegredig. Y mae yn wir fod Saul, pan yrwyd ef o'r ucheldiroedd gan y Philistiaid, wedi casglu ei allu bychan i'r hen wersyllfa (1 *Sam.* xiii. 4, 7); ond dyma yr unig ddygwyddiad sydd yn ei chyssylltu â rhyfel. Yr oedd yn awr yn un o'r "dinasoedd sanctaidd," i'r hon yr arferai Saul fyned o "flwyddyn i flwyddyn" i "farnu Israel," (1 *Sam.* vii. 16), a lle yr offrymid offrymau poeth ac ebyrth hedd "ger bron yr Arglwydd" (x. 8; xi. 15; xiii. 8, 9—12; xv. 21); ac ar un achlysur aberth mwy dychrynllyd na'r naill na'r llall (xv. 33). Nis gallwn lai na dyfod i'r penderfyniad, oddi wrth holl rediad yr hanes, mai hi oedd prif gyssegr y rhan o'r genedl oedd yn preswylio canolbarth y wlad (*Ios.* x. 8; xi. 14; xv. 12, 21). Ond nid oes genym un prawf ei bod yn dref—dim un crybwylliad am adeilad, neu ei bod wedi ei rhoddi i'r Lefiaid, fel y rhoddwyd y trefydd cyssegredig ereill, megys Bethel, Sichem, &c.

Crybwyllir am dani o ddeutu trigain mlynedd yn ddiweddarach, yn hanes dychweliad Dafydd i Ierusalem: 2 *Sam.* xix. Daeth gwŷr Iudah i lawr i Gilgal i gyfarfod y brenin, i'w arwain ef dros yr Iorddonen, am nad oedd yn mhell oddi wrth yr afon (xix. 15), a chyrhaeddodd Dafydd yno yn ddioed wedi myned dros yr afon ar ol ymadael a Barzilai y Gileadiad.

Er mor gyssegredig oedd Gilgal, gellir casglu oddi wrth grybwylliadau Amos a Hosea fod eilunaddoliaeth wedi ei dwyn i mewn iddi: *Amos* iv. 4; v. 5; *Hos.* iv. 15; ix. 15; xii. 11. Tybir fod eilunod yn Gilgal mor foreu a dyddiau Ehwd, yr hwn oedd yn un o'r barnwyr; canys dywedir i Ehwd, ar ol cyflwyno ei anrhegion i'r brenin, fyned ymaith, ond iddo droi drachefn oddi wrth y *chwarelau* (neu ar ymyl y ddalen, *delwau cerfiedig*) oedd yn Gilgal: *Barn.* iii. 19. Bernir mai golwg ar y delwau hyn, y rhai a osodwyd i fyny gan y Moabiaid mewn ffordd o anmharch a her i Israel a Duw Israel, a gyffrôdd Ehwd i ddial ar Eglon. Yma yr ymgyfarfyddodd y bobl i gadarnhau y deyrnas i Saul: 1 *Sam.* xi. 14, 15. Yma y tynodd Saul yr anfoddlonrwydd dwyfol arno ei hun, trwy offrymu aberth cyn dyfod o Samuel yno (1 *Sam.* xiii.); ac yma y derbyniodd efe ddedfryd o'i wrthodiad am anufuddhau i'r gorchymyn dwyfol, trwy arbed Amalec, yn nghyd â'r anrhaith a gadwasai efe yn ol: 1 *Sam.* xv.

Heb law yr adroddiadau cyffredinol a ddyfynwyd uchod, nid ydyw y Beibl yn cynnwys un crybwylliad ag sydd yn rhoddi y fantais leiaf i ni i adnabod sefyllfa Gilgal. Ni wneir un crybwylliad am dani yn yr Apocrypha, nac yn y Testament Newydd. Y mae awdurdodau diweddarach yn fwy manwl, ond yn anghytuno yn eu plith eu hunain. Dywed Josephus fod y gwersyll o ddeutu chwe milltir oddi wrth yr Iorddonen, a deg o Iericho [*Hyn.* v. 1, adr. 4]. Yr oedd safle y gwersyll a'r deuddeg careg coffadwriaethol i'w canfod yn amser Jerome. Y pellder o Ierusalem y pryd hwnw oedd dwy filltir. Nid oedd y lle wedi ei amaethu, ond edrychid arno gyda pharch mawr gan y trigolion. Pan oedd Arculf yno yn niwedd y seithfed ganrif dywedir mai pum milltir oedd y lle oddi wrth Iericho. Gorchuddid y safle gan eglwys fawr, yn yr hon yr oedd y deuddeg careg wedi eu gosod. Gwelwyd yr eglwys a'r ceryg gan Willibald, ddeng mlynedd ar ugain yn ddiweddarach; ond rhydd ef y pellder yn bum milltir oddi wrth yr Iorddonen, ac yn saith milltir oddi wrth Iericho. Crybwyllir hefyd am y ceryg gan Thietmar yn B A. 1217. Tybia y teithiwr hwn mai at hyn yr oedd Ioan Fedyddiwr yn cyfeirio pan y dywedai fod Duw "yn alluog i godi plant i Abraham." Nid oes un teithiwr diweddar wedi llwyddo i gael allan yr enw, nac i ddarganfod ei safle tebygol.

2. GILGAL: yr oedd hwn yn lle gwahanol i'r Gilgal a grybwyllir mewn cyssylltiad â'r olygfa olaf yn hanes Elias, ac â gwyrthiau Eliseus. Ein rheswm dros gredu hyn ydyw yr amhosiblrwydd o'i chymhwyso at y crybwylliad am symmudiad Elias. Dywedir ei fod ef ac Eliseus yn "myned i lawr" o Gilgal i Bethel (2 *Bren.* ii. 2); yr hyn sydd yn anghysson â'r ymadroddion a ddefnyddir yn fynych yn yr hanes a geir am Iosuah yn 1 *Samuel*, yn yr hwn y siaredir bob amser am y

ffordd o Gilgal i gymmydogaeth Bethel fel esgynfa, gan ei bod yn ffaith fod y flaenaf yn agos i 1,200 troedfedd islaw yr olaf. Fel hyn rhaid fod Gilgal arall yn gorwedd ar dir uwch na Bethel, ac y mae yn dra thebygol mai yn hono y cyflawnodd Eliseus y weithred o ddifa gwenwyn y bresych gwylltion: 2 *Bren.* iv. 38. Hwyrach fod yr ymadrodd yn 2 *Bren.* ii. 1, mewn cyssylltiad â'r gair "dychwelodd" yn *pen.* iv. 38, yn dynodi fod Eliseus yn preswylio yno. Gellir casglu oddi wrth y crybwylliad am Baal-salisa (iv. 4), mewn cyssylltiad â'r sylw a wneir gan Eusebius, fod y lle o ddeutu pymtheng milldir oddi wrth Diospolis (Lydda) tua'r gogledd. Ceir yn y sefyllfa hono yn bresennol adfeilion yn dwyn yr enw *Iljilieh;* hyny yw, Gilgal. Gwel map *Van de Velde*, a *Robinson*, iii. 139.

3. GILGAL. Crybwyllir am "frenin y cenedloedd o Gilgal," neu yn hytrach "Brenin Goim yn Gilgal," yn rhestr y prif drefydd a orchfygwyd gan Iosuah (*Ios.* xii. 23). Mae yr enw yn digwydd yn nesaf at Dor mewn rhestr sydd yn myned yn mlaen tua'r deheu; ac am hyny nid yw sefyllfa y *Iljilieh* yn hollol anmhriodol, er y rhaid addef fod ei phellder oddi wrth Dor, dros bum milltir ar ugain, yn lled fawr: er hyny mae yn nes nag un lle arall y gwyddys hyd yma am dano. Y mae Eusebius a Jerome yn siarad am Galgulis fel lle yn gorwedd chwe milltir i'r gogledd o Antipatris. Mae hyn ychydig tebycach o fod yn gywir; ond nid oes neb hyd yma wedi llwyddo i gael hyd iddo. Hwyrach mai llwyth o drigolion cyntaf y wlad oedd y cenedloedd hyn; y rhai, fel y Geriziaid, yr Afiaid, a'r Zemariaid, ac ereill, ni adawsant ond yn unig yr olion damweiniol yma o'u bodolaeth yno.

Darganfyddwyd lle o'r un enw hefyd yn nes i ganolbarth y wlad, yr ochr aswy i'r brif ffordd—pedair milldir o Siloh (*Seilûn*), a braidd fwy na hyny o Bethel (*Beitin*). Y mae hyn yn cyfateb i amgylchiadau yr hanes am Elias ac Eliseus yn well na'r cyntaf, am ei fod yn fwy yn nghymmydogaeth lleoedd cyssegredig sefydlog y wlad: a chan ei fod yn fwy canolbarthol, ac am hyny yn llai agored i ymosodiad oddi wrth y crwydrwyr yn y gwastadedd arforawl, yr oedd yn fwy cyfaddas i fod yn breswylfod i feibion y prophwydi. Ymddengys fod ei safle yn uwch o 500 neu 600 troedfedd na Bethel. Dichon mai y Beth-Gilgal y crybwyllir am dani gan Nehemiah ydyw (xii. 29); tra y dichon mai *Iljilieh* i'r gogledd i Lydd yw y Gilgal a enwir gan Iosuah: xii. 23. Y mae Gilgal arall, a elwir *Kilkilich*, yn gorwedd o ddeutu dwy filldir i'r dwyrain i *Kefr Saba.*

4. GILGAL: crybwyllir am Gilgal yn *Ios.* xv. 7, wrth ddysgrifio terfyn gogleddol Iudah. Yn y rhestr gyfochrog (*Ios.* xviii. 17) rhoddir hi fel Geliloth, a chredir mai yr un ydyw a Gilgal ger Iericho.

GILL, JOHN, D.D. Ganwyd y gŵr enwog a dysgedig hwn ar y 23ain o Dachwedd, 1697, yn Kettering, swydd Northampton, lle yr oedd ei dad yn ddiacon yn eglwys y Bedyddwyr. Dangosodd pan yn blentyn ei fod yn feddiannol ar gynneddfau cryfion, ac awydd anghyffredin am wybodaeth. Pan y sonid am unrhyw beth hynod yn ei glyw, holai ei rieni yn fanwl yn ei gylch, ac nid ymattaliai hyd nes y cai wybod ei holl hanes. Craffai ar bethau na bydd plant yn gyffredin yn talu un sylw iddynt, a synai pawb o herwydd y wybodaeth a amlygid ganddo. Y syniad cyffredin a goleddid am dano oedd, y gwnai ddyn hynod, os cai fyw. Gwnaeth gynnydd nodedig mewn dysgeidiaeth glasurol pan oedd yn ieuangc iawn, mewn ysgol ramadegol a gedwid y pryd hwnw yn y gymmydogaeth; ac yr oedd mor hoff o lyfrau a darllen fel yr arferai fyned i fasnachdy y llyfrwerthydd mor fynych, fel y daeth hyny yn ddiareb, fel y dywedid, "Y mae y peth mor sicr a bod John Gill yn masnachdy y llyfrwerthydd." Ond o herwydd rhagfarn y parson oedd yn arolygu yr ysgol, trowyd ef allan o honi, pryd y gwnaed ymgais am dderbyniad iddo i athrofa dduwinyddol berthynol i'r Ymneillduwyr, lle yr addysgid gwŷr ieuaingc gyda golwg ar waith y weinidogaeth; ond ni lwyddodd y cais, o herwydd fod y pwyllgor yn ystyried yr ymgeisydd yn rhy ieuanc. A ganlyn oedd eu hattebiad:—"Y mae yn rhy ieuanc; ac os pery efe, fel y gellid y gwnai, i wneud y fath gynnydd cyflym, elai trwy y cylch cyffredin o addysg cyn iddo ddyfod yn alluog i ofalu am dano ei hun, neu i gyflawni un swydd gyhoeddus." Ond ni wnaeth hyn iddo ef ymollwng gyda'i astudiaeth yn y radd leiaf; ond ymroddodd gyda'r brwdfrydedd mwyaf i gynnyddu mewn dysgeidiaeth, fel y dywedir am dano ei fod, cyn cyrhaedd 19 mlwydd oed, wedi darllen y prif awduron Groeg a Lladin; wedi myned trwy gwrs o resymegyddiaeth, areithyddiaeth, athroniaeth naturiol a moesol; ac wedi cyrhaedd cryn wybodaeth o'r Hebraeg. Nid oedd bron un terfyn ar ei lafur. Astudiai yn galed yn hwyr ac yn foreu; ac ni ildiai i unrhyw bwnc hyd nes ei lwyr orchfygu. Yr oedd yn meddu meddwl sefydlog a phenderfynol. Ond nid cyrhaedd dysgeidiaeth er mwyn enwogi ei hun oedd amcan uchaf Gill, ond er mwyn cynnyddu ei ddefnyddioldeb gyda chrefydd. Teimlai awydd, pan yn dra ieuanc, i ymgyssegru i weinidogaeth y gair, a chadwai yr amcan hwnw mewn golwg yn ei holl astudiaeth. Eglwys y Bedyddwyr yn ei dref enedigol a gafodd y fraint o dderbyn y gŵr ieuanc nodedig hwn fel aelod eglwysig, ac a gafodd yr anrhydedd hefyd o'i godi a'i alw i bregethu yr efengyl. Er ei gymhwyso yn mhellach at waith y weinidogaeth, rhoddwyd ef o dan addysg un o'r enw Mr. Davies, Higham Ferrers; ac yn fuan wedi hyny galwyd ef i bregethu i eglwys y Bedyddwyr yn Horsleydown, Llundain; ar yr hon yr ordeiniwyd ef yn weinidog, pan oedd yn 22 mlwydd oed, a lle y bu yn gweinidogaethu gyda llwyddiant hyd ddiwedd ei oes. Wedi ymsefydlu yn Horsleydown, efe a ymroddodd gyda'r dyfalwch mwyaf i astudio yr ieithoedd dwyreiniol: daeth yn gydnabyddus â Rabbi Iuddewig dysgedig, trwy yr hwn y daeth yn gyfarwydd iawn yn y *Targymau*, y *Talmud*, a llyfrau Rabbinaidd ereill; a dywedir nad oedd neb yn yr oes hono yn rhagori arno mewn llenyddiaeth ddwyreiniol. Yn 1748, cyhoeddodd Esboniad ar y Testament Newydd, mewn tair cyfrol fawr; yr hyn a barodd i Brif Ysgol Aberdeen anfon y teitl o Ddysgawdwr mewn Duwinyddiaeth iddo gyda'r moesgyfarchiad canlynol:—"Ar gyfrif ei wybodaeth o'r Ysgrythyrau, o'r ieithoedd dwyreiniol, ac o hynafiaethau Iuddewig; ei amddiffyniad dysgedig i'r Ysgrythyrau yn erbyn deistiaid ac anffyddwyr; a'r cymmeriad uchel a ennillodd ei weithydd ereill; yr oedd y Brif Ysgol wedi cytuno yn unfrydol, heb wybod iddo ef, i roddi iddo ef y gradd o 'Ddysgawdwr mewn Duwinyddiaeth.'" Cyhoeddodd hefyd Esboniad ar yr Hen Destament, yr hwn, yn nghyd â'i Esboniad ar y Testament Newydd, sydd wedi ei gyfieithu i'r Gymraeg. Ond ei brif, os nad

Digitized by Google

ei unig ragoriaeth ydyw, ei fod yn gyfoethog o ddysgeidiaeth ddwyreiniol. Yr oedd ar ddiwedd y llafur aruthrol hwn mor bell oddi wrth foddloni i fod yn segur, fel y dywedodd, "Meddyliais ynof fy hun pa beth fyddai y gwaith nesaf yr ymgymmerwn âg ef i addysgu y bobl oedd o dan fy ngofal, ac arweiniwyd fi gan fy meddyliau at gyfundrefn o dduwinyddiaeth athrawiaethol ac ymarferol; a'r canlyniad fu iddo ysgrifenu Corph o Dduwinyddiaeth. Ysgrifenodd hefyd draethawd ar yr iaith Hebraeg, darlithiau ar Ganiad Solomon, &c. O ran ei olygiadau duwinyddol, yr oedd yn uchel Galfinaidd; ac o ran ei ddull o gyfansoddi, y mae yn fynych yn gwmpasog ac aneglur; ac er fod trysorau gwerthfawr yn ei ysgrifeniadau, nis gellir dyweyd eu bod y rhai mwyaf defnyddiol a diogel i'r anghyfarwydd a'r annysgedig. Dywedir am Dr. Gill, ei fod mor sanctaidd a difrycheulyd o ran ei ymarweddiad personol fel nas gallai un gelyn ei gyhuddo o unrhyw fai. Bu farw yn y flwyddyn 1771, yn 74 mlwydd oed.

GILOH, [*gorfoleddu*]: tref yn y rhan fynyddig o Iudah, a enwir yn y rhestr gyntaf gyda Debir ac Astemoh: *Ios.* xv. 51. Yr unig ddyddordeb a berthyn iddi ydyw ei bod yn lle genedigol yr enwog Ahitophel (2 *Sam.* xv. 12), lle yr oedd yn preswylio pan anfonodd Absalom am dano i Hebron, a lle y dychwelodd i ymgrogi wedi i'w gynghor ef gael ei droi o'r neilldu am gynghor Husai (xvii. 23). Ni ddarganfyddwyd hyd yma yn mha le y gorweddai.

GILONIAD, Y: brodor o Giloh; fel Siloniad, oddi wrth Siloh. Ni chymhwysir ef ond yn unig at Ahitophel, y cynghorwr enwog: 2 *Sam.* xv. 12; xxiii. 34.

GIMZO, [*hyny hefyd*]: tref, yr hon yn nghyd â'i meusydd pentrefol (Heb., *merched*) a feddiannwyd gan y Philistiaid yn nheyrnasiad Ahaz: 2 *Cron.* xxviii. 18. Crybwyllir am yr enw—yr hwn nid yw yn dygwydd mewn un lle ond yma —gyda Timnah, Socho, a threfydd ereill yn y rhan ogledd-orllewinol i Iudah, neu yn Dan. Y mae cyssylltiad rhyngddi eto â phentref mawr yn gorwedd rhwng dwy a thair milltir i'r deorllewin i Lydda, i'r deheu i'r ffordd rhwng Ierusalem ac Iaffa, yn union yn y man lle mae yr ucheldir yn tori i lawr i'r gwastadedd arforawl. Y mae Jimzu yn bentref lled fawr, ar fryn, wedi ei amgylchynu â choed, ac yn sefyll yn union tu hwnt i'r man lle y mae y ddwy brif ffordd o Ierusalem (yr un oedd yn myned trwy Beth-horon, a'r un oedd yn myned trwy ddyffryn Suleiman), y rhai oeddynt yn ymwahanu yn Gibeon, yn ymuno drachefn ac yn rhedeg yn mlaen fel un i Iaffa. Dr. Robinson yw y teithiwr cyntaf a wnaeth grybwylliad am dano. Nid oes unrhyw hynodrwydd yn perthyn iddo.

GINATH, [*gardd*]: tad Tibni, yr hwn, ar ol marwolaeth Zimri, a ymladdodd âg Omri am orsedd Israel: 1 *Bren.* xvi. 21, 22.

GINNETHO: un o benaethiaid yr offeiriaid a'r Lefiaid a ddychwelasant i Iudea gyda Zorobabel: *Neh.* xii. 4. Y mae yn ddiammheuol mai yr un ydyw a Ginnethon.

GINNETHON: offeiriad, yr hwn a seliodd y cyfammod gyda Nehemiah: *Neh.* x. 6. Yr oedd yn ben teulu, a chrybwyllir am un o'i hiliogaeth yn rhestr yr offeiriaid mewn tymmor diweddarach: *Neh.* xii. 16. Y mae yn dra thebygol mai yr un person ydyw a'r un blaenorol.

GIRAFF, [*camelewpard*]. Creadur o rywogaeth y cilgnofilod, a'r talaf o'r anifeiliaid pedwarcarnol y gwyddys am danynt. Trigianna yn anialdiroedd Affrica. Barna rhai awduron mai y giraff ydyw yr "afr wyllt" (*chamois*), a enwir yn *Deut.* xiv. 5; ond yn ol yr ymchwiliadau diweddaraf, ac fel y dengys ystyr gwreiddiol y gair, mwy tebygol yw mai creadur ydoedd o dylwyth y camelod, a ystyrid o dan gyfraith Moses yn aflan a ffiaidd: *Deut.* xiv. 7.

Nid gorchwyl hawdd ydyw ffurfio meddylddrych cywir am faintioli a hynodrwydd gwneuthuriad y cilgnofil hwn. Ychydig o wybodaeth oedd genym am dano o ddeutu hanner can mlynedd yn ol; ac y mae llawer o gamsyniadau wedi eu taenu o berthynas i'w wneuthuriad a'i arferion.

Y disgrifiad cywreiniaf a gafwyd o hono ydyw eiddo un Le Vaillant, yr hwn a welodd yr anifail yn ei sefyllfa naturiol. Dywed fel y canlyn:—

"Y mae y giraff yn cilgnoi, fel pob anifail arall sydd yn meddu ar gyrn ac yn fforchdroediog. Y mae efe yn pori hefyd yn yr un modd, ond nid yn aml, o blegid nad oes ond ychydig iawn o dir porfa yn y wlad lle y mae ef yn byw. Ei ymborth cyffredin ydyw dail coed, a elwir gan y brodorion *canaap*, a chan y trefedigion *cameeldoorn*. Gan nad ydyw y coed hyn i'w cael yn ngwlad y Namaquas, hwyrach fod hyny yn rheswm pa ham nad yw y giraff i'w weled yn y gororau hyny o ddeheubarth Affrica lle nad oes dim o'r coed yn tyfu. Yn ddiammheuol, y rhan harddaf o'i gorff ydyw ei ben. Y mae ei safn yn fechan; a'i lygaid yn dryloewon a llawn. Rhwng y llygaid, ac uwch ben y trwyn, y mae math o chwyddiad lled fawr, eithr wedi ei ffurfio yn fanwl a gwych. Nid swp o gnawd anmhur ydyw y chwyddiad hwn, ond ymhelaethiad y sylwedd esgyrnol; ac ymddengys yn debyg i'r ddau gnwc bychan sydd megys yn arfogi y pen, y rhai (yn mesur rhywbeth yn debyg i faintioli ŵy iâr) ydynt yn codi o bob tu, tua dechreuad y mwng. Y mae ei dafod yn aflyfn a garw, a'r blaen yn pigfeinio. Y mae chwech o gilddannedd ar bob ochr i'w orchfant a'i isfant; ac y mae gan yr isfant wyth o ddannedd mân, tra nad oes gan y gorchfant gymmifer ag un. Y mae ei garnau yn fforchog, ond heb ewinedd; ac nid ydynt yn annhebyg i garnau yr ych o ran eu ffurf. Gellir sylwi fod y ddau garn blaen, ar yr olwg gyntaf, yn fwy na'r rhai olaf. Coesau pur feinion sydd ganddo; ond y mae y cluniau yn argrwm, ac o blegid hyny penlinio y bydd yr anifail pan yn gorwedd. Y mae croen ei barwyden hefyd yn galed; oddi wrth yr hyn y gellir casglu ei fod yn gyffredin yn gorphwys ar y fan hono o'i gorff.

"Oddi eithr fy mod fy hun wedi lladd giraff, buaswn yn credu, fel y mae llawer o naturiaethwyr wedi credu, fod y coesau blaen yn hirach o lawer na'r rhai ol. Ond camgymmeriad ydyw hyny; o herwydd y mae y coesau yn y cyffredin yn dwyn yr un cyfartalwch o ran hyd a choesau y pedwarcarnoliaid ereill. Yr wyf yn dywedyd yn y cyffredin, gan fod y rhywogaeth hon fel rhywogaethau ereill yn amrywio. Y mae cesyg, er anghraifft, yn is yn mlaen na cheffylau o'r un uchder. Yr hyn sydd wedi arwain i'r camgymmeriad hwn, gyda golwg ar y gwahaniaeth ym-

ddangosiadol sydd rhwng coesau y giraff, ydyw uchder ei ysgwyddau; y rhai, yn ol oedran yr anifail, a allent fyned yn uwch na'r gloren (gwar y gynffon) o 16 neu 20 o fodfeddi......Y dull a ddefnyddia i amddiffyn ei hun ydyw cicio â'i draed ol fel march; ac y mae ei aelodau ol mor ysgeifn, fel y gall estyn ei ergydion mor gyflym fel nas gall neb eu dilyn â'i lygaid. Y maent yn ddigonol i'w ddiogelu hyd yn oed rhag ymosodiad ffyrnigwyllt y llew. Nid ydyw ond anfynych iawn yn arfer ei gyrn fel offerynau amddiffynol. .....Y mae y giraffiaid—gwryw a benyw—yn debyg i'w gilydd yn eu hymddangosiad allanol pan yn ieuanc. Y mae eu cyrn anawelius y pryd hwnw yn blaendarddu gyda sobyn o wallt hirllaes: bydd y fenyw yn cadw y neillduolrwydd hwn am amser lled faith, ond collir ef gan y gwryw pan o ddeutu teirblwydd oed. Y mae y croen ar y cyntaf yn goch gwan, yn dyfod yn gryfach ei liw fel y mae yr anifail yn cynnyddu mewn oedran, ac o'r diwedd bydd yn felynlwyd ar y fenyw, ac yn tueddu at fod yn llwyd-ddu ar y gwryw. Gyda'r gwahaniaeth yma mewn lliw, gellir adnabod y naill oddi wrth y llall o hirbell. Y mae y croen yn amrywio yn y ddau ryw yn y pethau hyn; sef dosbarthiad a ffurf yr ysmotiau. Nid ydyw y fenyw mor uchel ei safiad a'r gwryw, ac nid ydyw ei rhagwedd mor amlwg a hynod. Y mae ganddi bedair teth. Yn ol yr hanes a geir gan y brodorion, bydd tua deuddeng mis yn eppilio, ac ni ddygwydd ond un genedigaeth.

Yn y flwyddyn 1835, dygwyd pedwar giraff i'r Gerddi Milofyddol (*Zoological Gardens*) yn Llundain, gan M. Thibaut, yr hwn a rydd hanes dyddorol o honynt mewn llythyr at ysgrifenydd y gymdeithas.—"Y mae rhediad cyntaf y giraff," meddai, "yn hynod gyflym. Nis gallai y march mwyaf ysgafndroed, os yn anghynnefin â'r anialdir, ei orddiwes heb drafferth ac anhawsder dirfawr. Y mae yr Arabiaid yn arfer eu rhedegfeirch i ddyoddef newyn a lludded: llaeth yn y cyffredin a wna y tro iddynt yn lle bwyd, a rhydd nerth iddynt i barhau eu hymdrechion trwy ystod taith bell iawn. Os cyrhaedda y giraff fynydd, aiff dros yr ucheldérau gyda buander anarferol. Y mae ei draed, y rhai ydynt gyffelyb i draed gafr, yn ei gynnysgaethu â deheurwydd y creadur hwnw; efe a neidia dros gornentydd gyda nerth a medrusrwydd anhygoel. Byddai yn anmhosibl i feirch ymryson âg ef mewn lleoedd felly. Y mae y giraff yn hoff o wledydd coediog. Dail coed, yn benaf, ydyw ei ymborth. Mae gwneuthuriad cydweddol ei gorff yn ei alluogi i gyrhaedd y brigau yn rhwydd. Bwyty gyda moethusder mawr, gan gymmeryd ei fwyd ddeilen ar ol deilen, y rhai a dýn efe oddi ar y coed gyda'i dafod. Teifl ymaith y drain yn ofalus, ac yn hyn y mae yn gwahaniaethu oddi wrth y camel. Y mae gofal diflino, ac yn enwedig glanweithdra mawr, yn anhebgorol er ei gadwraeth.

"Y mae efe yn hoff nodedig o gymdeithas, ac yn bur deimladol. Gwelais un o honynt yn tywallt dagrau pan nad oedd mwyach yn canfod ei gymdeithion, na'r personau oeddynt yn arfer gofalu am ei angenrheidiau."

Creadur diniwed ac ofnus ydyw y giraff wrth natur. Dewisa ffoi am ddiogelwch o flaen cynnyg gwrthwynebu ei elynion; ond os gorfodir ef i ymladd, gall wneyd defnydd o'i gyrn a'i draed gyda grym arswydus, fel yr awgryma yr hanesyn a ddyfynwyd. Ei ymborth mewn sefyllfa o gaethiwed ydyw gwair neu feillion yn gymmysgedig â moron, maes-fetys, wynwyn, ffa, &c.; ac fe fwyty o'r pethau hyn bob dydd tua deg ar ugain neu ddeugain pwys.

Y mae ei uchder yn amrywio o 14 i 20 o droedfeddi. Bernir nad yw ei oes yn parhau uwch law pymtheng mlynedd.

GIRALDUS CAMBRENSIS: hen awdwr Seisoneg, enw priodol yr hwn oedd Girald Barry. Penodwyd ef i fywoliaethau breision o dan deyrnasiad Harri II, a Risiart I, a bu yn gweinyddu yn esgobaeth Tŷ Ddewi. Gwnaeth ymdrechion egniol i gael meddiant o'r esgobaeth hono iddo ei hun, ond yn gwbl ofer. Ei brif weithiau ydyw *Topographiæ Hiberniæ*, *Itinerarium Cambriæ*, a *De Rebus a se gestis*, yn cynnwys hanes ei fywyd; ac *Ecclesiæ Speculum*, yn yr hwn y mae yn dirmygu arferion mynachod. Ganwyd ef yn agos i Pembroke yn y flwyddyn 1146; a bu farw yn y flwyddyn 1220.

GIRGASIAID: un o'r cenedloedd hyny oeddynt yn trigo yn Ngwlad Canaan cyn iddi gael ei meddiannu gan feibion Israel. Ymddengys yr enw yn y rhanau canlynol:—*Gen.* x. 16; xv. 21; *Deut.* vii. 1; *Ios.* iii. 10; xxiv. 11; 1 *Cron.* i. 14; *Neh.* ix. 8. Yn y rhan flaenaf a nodir, y mae yr enw "Girgasiaid" yn cael ei osod ar y pummed o feibion Canaan: yn y rhanau ereill, defnyddir yr enw yn y rhif luosog, "Girgasiaid," i arwyddo ei hiliogaeth. Nid oes genym ond yn unig eu henw ar lawr, ac ni ddygir hwnw i mewn i'r hanes ond yn achlysurol, i ddangos y farn ofnadwy a ddisgynodd ar y wlad. Ni roddir cymmaint a sylw o'u sefyllfa na golwg ar eu cymmeriad, yn bersonol nac yn gyffredinol, megys ag y rhoddir mewn perthynas i'r Amoriaid, Iebusiaid, Anaciaid, a rhai ereill o'r cenhedloedd hynafol hyn. Y mae yr ymadrodd yn *Iosuah* fel yn awgrymu fod talaeth y Girgasiaid yn sefyll ar yr ochr orllewinol i'r Iorddonen: ac nid yw y dyb hon i'w diystyru, gan fod *Mat.* viii. 28 yn son am y Gergesiaid fel yn preswylio ar yr ochr ddwyreiniol i Fôr Galilea, ac fe gytunir yn gyffredin yn awr mai Gadarenia (*Marc* v. 2) ydoedd eu gwlad hwy —ac felly nis gall fod yn dwyn unrhyw gyssylltiad â'r Girgasiaid.

GIRGASIAD, Y: *Gen.* x. 16. Gwel Girgasiaid.

GIRZIAID. Gwel Gerziaid.

GISPA: un o benaethiaid y Nethiniaid "oeddynt yn aros yn y tŵr," wedi y dychweliad o'r caethiwed: *Neh.* xi. 21. Yn nghyfieithiad y Deg a Thrigain, ymddengys fod yr enw yn dynodi lle.

GITTAH-HEPHER: *Ios.* xix. 13. Gwel Gath-Hepher.

GITTAIM: dau winwasg. Lle a enwir yn 2 *Sam.* iv. 3. Gorfu i drigolion Beeroth, yr hon a gyfrifid i Beniamin, ffoi o'u cartrefle; ac i Gittaim yr aethant, i gael diogelwch. Un o drefi y Gibeoniaid ydoedd Beeroth (*Ios.* ix. 17); ac fe ddichon mai achos ffoedigaeth y trigolion ydoedd gwaith Saul yn erlid y Gibeoniaid: 2 *Sam.* xxi. 2. Fe enwir Gittaim eto yn y rhestr o leoedd a drigiennid gan y Beniaminiaid wedi eu dychweliad o'r caethiwed, gyda Rama, Rebalat, Lod, a threfi adnabyddus ereill yn perthyn i lwyth Beniamin yr ochr ogledd-orllewinol i Ierusalem. Y mae

Digitized by Google

yn bosibl fod y ddau enw yn golygu yr un lle; ond nid yw yn debygol y buasai y Beerothiaid yn dewis noddfa mewn tref o fewn i derfyngylch y Beniaminiaid, os ydym i gymmeryd yn ganiataol fod eu herlidigaeth yn dyfod oddi wrthynt hwy. Ffurf deuol y gair *Gath* ydyw *Gittaim*; ac y mae y ffaith hon yn awgrymu mai yn nyffryn y Philistiaid yr oedd y lle yn gorwedd. Ond nid oes dystiolaeth o blaid nac yn erbyn hyn.

GITHIAID, neu GETHIAID: trigolion Gath: *Jos.* xiii. 3. Gelwir Obed-Edom, er yn Lefiad, yn Gethiad (2 *Sam.* vi. 10), o herwydd, fe ddichon, ei fod wedi bod gyda Dafydd pan yn Gath; ond llawer mwy tebygol mai o herwydd ei fod yn frodor o Gath-rimmon—dinas yn rhandir y Lefiaid. Nid oes reswm dros gyssylltu yr esboniad hwn âg Ittai (2 *Sam.* xv. 19), tra yn canfod fod Dafydd yn bendant yn ei alw yn ddyn dyeithr (*foreigner*); ac hefyd, yr hyn sydd fwy, yn *alltud.* Yr oedd efe yn blaenori ar chwe chan ŵr—ei wŷr ei hun—y rhai hefyd a elwir yn Gethiaid. Ymddengys eu bod yn ffurfio math o gatrawd dramor, yn filwyr profiadol, wedi eu casglu yn benaf o Gath, ac yn ngwasanaeth Dafydd, wedi ymgyflogi gyda'r bwriad, ar y cyntaf mae yn debyg, o gael rhan o'r ysbail a gymmerid yn ei ryfeloedd. Y mae yn eithaf posibl iddynt gael eu penodi i fod yn llysfilwyr neu yn gorffosgorddlu i'r brenin: 2 *Sam.* xv. 18.

GITTITH: offeryn cerdd, a ddefnyddid, fe dybir gan rai, gan bobl Gath, ac a ddygwyd i sylw oddi yno yn Palestina gan Dafydd. Tybia ereill mai gwinwasg ydoedd, a ddefnyddid ar ŵyl y cynauaf grawnwin. Ond nid ydyw un o'r Salmau y mae Gittith yn beniad iddynt (sef viii, lxxxi, a'r lxxxiv.) yn cynnwys dim sydd yn dwyn perthynas â'r fath feddylddrych. Y mae Fürst, yn ei Fynegair, yn dysgrifio Gittith fel offeryn ceuol (*hollow*); a'i fod wedi tarddu o נגה, dynhau, yr hwn sydd yn gyfystyr â הליל.

GIZONIAID, Y. Y mae "meibion Hazem y Gizoniaid" yn cael eu henwi yn mhlith milwyr gwarchodlu Dafydd: 1 *Cron.* xi. 34.

GLAIF: cleddyf bwaog.

"Da oedd ei gôf mewn gofid
A'i *laif* yn gyllawn o lid."—IOLO GOCH.

GLASIAID. Gwel SANDIMANIAID.

GLASWELLT. [*glas—gwellt*]. Dyma y gair a gyfieithir yn gyffredin yn yr Ysgrythyrau am y gair Hebraeg חציר; yr hwn sydd yn golygu lle amgauedig, o'r gwreiddair חצר, amgau. Ond y mae i'r gwreiddair hwn ystyr arall; sef *blodeuo*, neu *blaguro;* ac yn unol â'r ystyr hwn y mae yr enw *glaswellt* yn fynych yn dynodi porthiant, neu fwyd anifeiliaid: *Deut.* xi. 15; 1 *Bren.* xviii. 5; *Iob* xl. 15; *Esa.* xv. 6, &c. Glaswellt cyffredin y dyffrynoedd a'r mynyddoedd: *Esa.* xlii. 15; *Diar.* xxvii. 25.

Yn y cyfieithiad Seisoneg o'r Beibl, y mae y gair *glaswellt* (*grass*) yn cael ei ddefnyddio i osod allan bob math o lysiau; ond yn y Beibl Cymraeg fe ddefnyddir y gair *llysiau* am fwyd dynol, i'w wahaniaethu oddi wrth fwyd anifeiliaid: *Salm* clv. 14.

Dywedir gan rai awduron, mai y gair gwreiddiol am laswellt yn 1 *Bren.* xviii. 5, a 2 *Bren.* xix. 26, &c., ydyw חציר (*chatsir*), neu *cenin* yn y Gymraeg; ac y mae ysgolheigion galluog yn yr iaith Hebraeg, tra yn cydnabod mai cenin yw ei ystyr priodol, yn barnu ei fod yn golygu gwyrddlysiau bwytadwy a glaswellt yn gyffredinol. Tybir fod yr enw *chatsir* wedi ei ddefnyddio am yr enw *glaswellt* a *gwyrddlysiau* ar gyfrif y tebygolrwydd sydd rhwng y naill a'r llall o ran lliw, a bod dail y cenin yn neillduol yn dwyn cyffelybrwydd agos i'r glaswellt. Y mae digon o wahaniaeth, pa fodd bynag, rhwng y glaswellt a'r cenin o ran ffurf a natur. Gwel CAMPHOR.

Mwy rhesymol yn ein tyb ni ydyw cymmeryd y gair *glaswellt* yn y cyfieithiad Cymraeg am fwyd anifeiliaid, neu y llysiau cyffredin a welir yn tyfu ar y bryniau, y dolydd, a'r meusydd, yn enwedig pan gyssylltir ef â'r geiriau *ych* ac *anifeiliaid.*

Y mae y glaswelltyn wedi bod yn fuddiol i roddi llawer o gymhariaethau tarawiadol i'r ysgrifenwyr ysbrydoledig. 1. "Canys cyfododd yr haul gyda gwres," ebe yr apostol Iago, "a gwywodd y glaswelltyn, a'i flodeuyn a gwympodd, a thegwch ei bryd ef a gollodd: felly hefyd y diflana y cyfoethog yn ei ffordd." Yr oedd gwres Palestina ar adegau mor danbaid ac angerddol, fel yr oedd gwellt a holl lysiau y maes yn gwywo ac yn llosgi yn llwyr o dan ei ddylanwad mewn ychydig iawn o amser. Yr un modd, dangosir fod cyfoeth, llwyddiant, nerth, a gogoniant yr annuwiol yn darfod yn fuan a disymmwth. Gall yr annuwiol fyw yn y byd hwn am ddeg a thrigain neu bedwar ugain mlynedd yn nghanol llawnder a mawredd; eithr nid yw hyny o amser ond megys mynyd awr yn ymyl tragwyddoldeb. Priodol, gan hyny, ydyw y gymhariaeth uchod i ddangos byrder ei oes, ac ansicrwydd ei gyfoeth mewn byd o amser; y mae tragwyddoldeb o dlodi, gofid, a gwae, yn ei aros pan ddisgyna ei gorff i'r llwch, ac yr eheda ei anadl at Dad yr Ysbrydoedd, yr hwn a farna y byd mewn cyfiawnder, ac a ddyry i bob dyn yn ol ei weithredoedd yn y cnawd. Y mae un math o laswellt yn tyfu yn Ngwlad Canaan, ac y mae anghreifftiau o hono i'w gweled yn ngerddi boneddigion y wlad hon, a gynnyrcha flodau prydferth iawn, y rhai ni pharhant ond ychydig oriau—ymddangosant tua chanol dydd, a diflanant yn gynnar yn y prydnawn. Hyn a barodd i'r apostol sylwi o berthynas i'r annuwiol—"megys blodeuyn y glaswelltyn y diflana efe;" *Iago* i. 10, 11; *Iob* viii. 12; *Salm* xxxvii. 2; cxxix. 6; *Esa.* xl. 6—8; li. 12; 1 *Pedr* i. 24.

2. "A chei wybod hefyd mai lluosog fydd dy had, a'th hiliogaeth megys gwellt y ddaiar;" *Iob.* v. 25. Y mae yr Hollalluog ei hun yn y geiriau hyn yn cyffelybu hiliogaeth y duwiolion i *wellt* y ddaiar, o blegid eu lluosgrwydd a'u harddwch. Y mae y glaswellt fel ser y nef, y tywod ar lan y môr, a'r gwlith ar y dolydd—yn aneirif; y maent yn eu blodau a'u gwyrddlesni yn hardd ac ysblenydd yr olwg arnynt; felly hefyd y bydd bendith Ysbryd Duw ar y duwiolion, yn eu lluosogi, ac yn eu gwisgo "mewn harddwch santeiddrwydd."

3. "A'r angel cyntaf a udganodd; a bu cenllusg a thân wedi eu cymmysgu â gwaed, a hwy a fwriwyd i'r ddaiar: a thraian y prenau a losgwyd, a'r holl laswellt a losgwyd;" *Dad.* viii. 7. Y mae glaswellt yma yn golygu y Rhufeiniaid bostfawr a ddyfethwyd gan y Cenedloedd barbaraidd, y rhai a oresgynasant eu tiriogaethau yn llawn o lid a chynddaredd—yn enwedig y Goth-

Digitized by Google

iaid o dan Alaric, yr hwn a ysbeiliodd Groeg, Italy, a Rhufain.

4. Ar udganiad y pummed udgorn (*Dad.* ix. 1—4) gorchymynwyd i'r locustiaid a ddaethant allan o'r pydew heb waelod "na wnaent niwed i laswellt y ddaiar, nac i ddim gwyrddlas, nac i un pren; ond yn unig i'r dynion oedd heb sel Duw yn eu talcenau." Wrth y glaswellt, pethau gwyrddlas, a'r prenau, yn y geiriau hyn y mae i ni feddwl Cristionogion, y cyfiawnion, a gweision Duw, y rhai ydynt yn coroni y byd a gogoniant a harddwch; ac nid yw yr Arglwydd am iddynt gael eu blino a'u hanrheithio gan "locustiaid," sef gau grefyddwyr, anffyddwyr, a meibion y fall.

Y mae lluosogrwydd rhywiau y glaswellt yn destyn syndod dirfawr. Mewn tir bras, y mae eu hamrywiaeth braidd yn anhygoel i'r sawl nad ydynt wedi astudio llysieuaeth yn drwyadl. Ni cheir dau laswelltyn yn hollol yr un fath; ac mewn un dywarchen fechan a dorwyd oddi ar faes cyffredin yn Selborne, fe gafwyd pedwar ar ddeg o wahanol rywiogaethau.—*Curtis on Grasses.* Gwel PORFA.

GLODDEST—WR: afradlonedd, afreolaeth, difleithder, cyfeddach; dyn o arferion penrydd, nwydwyllt, glythol, ac aflywodraethus. "Y neb a gadwo y gyfraith sydd fab deallus; ond y neb a fyddo cydymaith i loddestwyr, a gywilyddia ei dad;" *Diar.* xxviii. 7. Y mae Crist wedi rhoddi darlun cywir o'r gloddestwr yn nammeg y mab afradlawn, yn yr hon y ceir cipdrem ar natur a chanlyniadau truenus ei fywyd: *Luc* xv. 11—17.

Y mae gloddesta yn arferiad hollol gydnaws â thueddiadau natur ddirywiedig y teulu dynol; ac fe ymddengys fod y pechod hwn wedi tori allan yn oesoedd boreuaf y byd. Diammheu ei fod wedi cyrhaedd nerth dychrynllyd pan y dywedodd yr Arglwydd fod yn edifar ganddo greu dyn, a phan benderfynodd yn ei lid i agor ffenestri y nefoedd a rhwygo ffynnonau y dyfnder mawr fel y dileid ei fodolaeth oddi ar wyneb y ddaiar. Er mor lem ydoedd y farnedigaeth hon, ni bu yn foddion i rwystro cynnydd arferion gloddestol plant dynion, mewn gwledydd a gwyliau llygredig. Ni a gawn fod Duw trwy y prophwydi yn cwyno o'u plegid, ac yn tyngu y mynai roddi terfyn arnynt: *Ier.* xvi. 8, 9; li. 39; *Hos.* iv. 6—12. Gloddestwyr ydoedd gwahoddedigion Belsassar yn ei wledd annuwiol, pryd y rhagfynegwyd ei ddinystr ar ddeongliad yr ysgrifenlaw gan Daniel; a'r noson hono fe laddwyd y brenin. Yr oedd Babilon, fel canolbwynt teyrnas fawr, yn anneddle trythyllwch difesur, ac yr oedd ei thrigolion yn warthus yn ngolwg y byd am eu hymroddiad gorphwyllog i arferion anllad a hunanfoddgar. O achos eu hanwiredd fe gyhoeddodd Duw fygythion arswydlawn arnynt; ac nid oedd y dull gormesol a fabwysiedid gan lywodraethwyr y ddinas i roddi eu hawdurdod mewn grym heb effeithio yn nerthol er dwyn oddi amgylch ganlyniadau dinystriol.

Y mae hanes Babilon yn gwmwl du ar gymmeriad ein byd ni; ac eto nid ydyw ond dysgrifiad teg o ddinasoedd mawrion ereill sydd wedi dyfod i enwogrwydd ar ol iddi hi gael ei gwneyd yn bentwr o adfeilion. Mae yr annuwioldeb, mewn ffordd o loddesta, sydd yn cael ei gyflawnu gyda digywilydd-dra ffroenuchel ar hyd a lled cyfandir Ewrop, yn llawer tu hwnt i wybodaeth neb o'r trigolion—lle y mae dynion wrth y canoedd yn ymffrostio yn gyhoeddus yn eu pechodau. Ac wrth edrych ar drefi Ffrainc, Rwssia, Twrci, Awstria, Yspaen, Italy, &c., braidd nas gellir dyweyd am eu trigolion, fel y dywedwyd am drigolion Gwlad Canaan cyn ei goresgyniad gan yr Israeliaid, eu bod "wedi cyflawnu mesur eu hanwiredd"—agos wedi cyrhaedd yr eithafnod pellaf mewn drygioni sydd yn gyrhaeddadwy yn y byd hwn.

Bu amser pan oedd llys breninol Prydain Fawr yn rhoddi nawdd a chefnogaeth i loddestwyr trachwantus. O dan deyrnasiad Harri VIII, hyd ddiwedd teyrnasiad Charles II., yr oedd gan y teulu breninol a'r boneddigion ddynion cyflogedig yn eu gwasanaeth yn llenwi swyddau perthynol i gyfarfodydd lle y dygid yn mlaen ddifyrion cnawdol, a gelwid hwy yn "feistri y pebyll a'r gyfeddach." Yn wir gloddest ydoedd pleser y llys y dyddiau hyny. Cynnelid gwleddoedd gosodedig, i'r tywysogion a'r gwŷr mawr gydgyfarfod, i roddi ffrwyn i'w nwydau trachwantus a drwg: yr oeddynt yn cysgu y dydd, ac yn treulio eu nosweithiau mewn meddwdod, maswedd, cyfeddach, ac anlladrwydd. Ac yr oedd parsoniaid yr Eglwys Wladol yn cymhell y bobl i arferion llygredig a pechadurus hyd yn oed ar y Sabbathau er mwyn gwrthweithio dylanwad Calfiniaeth ac ymdrechion clodwiw y Puritaniaid. Cyhoeddwyd llyfr a adnabyddir wrth yr enw *Book of Sports*, wedi ei awdurdodi gan y brenin, yn caniatau rhyddid i bawb i halogi y Sabbath: a phan wnaed appeliad gan luaws o'r deiliaid yn erbyn y llyfr, codwyd cynhwrf drwy y deyrnas, ac fe roddodd yr archesgob Laud, a nifer mawr o'r esgobion a'r parsoniaid, eu holl ddylanwad er sicrhau parhad y llyfr i fod yn ddeddf annileadwy. Bu y llyfr melldigedig hwn mewn grym am beth amser; ond o'r diwedd fe'i llosgwyd trwy orchymyn y llywodraeth, mewn lle cyhoeddus yn un o heolydd y brifddinas.

Yn raddol fe welwyd cyfnewidiadau tra dymunol ar agwedd foesol a chrefyddol ein gwlad, trwy ddaioni yr Arglwydd, yr hwn a ddichon oruwchlywodraethu amcanion pechadurus dyn i gydweithio er gogoniant i'w enw ei hun, ac er daioni cyffredinol ei greaduriaid. Rhinwedd a duwioldeb, yr ydym yn hyderu, sydd yn awr yn addurno palas ein pen coronog; a chasbeth ydyw gloddest yn ngolwg ein seneddwyr, ac yn ngolwg y rhan fwyaf o lawer o'n boneddigion. Fel y cynnyddа dylanwad pureiddiol Cristionogaeth fe welir llai o loddesta yn mysg ein llanciau a'n gwyryfon, o ddosbarth canol a dosbarth gweithiol y wladwriaeth, y rhai a ymgasglant yn anystyriol i'r tafarndai i wastraffu eu hamser, eu harian, a'u synwyr, gan ymddifyru yn y delyn, y crwth, a'r ddawns.

GLOYN BYW, [*butterfly*]: creadur a berthyna i ddosbarth y trychfilod. Cyn cyrhaedd perffeithrwydd ei fodolaeth, y mae efe yn myned trwy amryw o wahanol gyfnewidiadau. Ymddengys i ddechreu ar ffurf y trychfilyn a elwir y *lindys*, pryf y dail; ac yna mewn ffurfiau ereill.

Dywed Goldsmith fel y canlyn:—Pan bydd y gauaf oer wedi diosg y coed o'u dail, y mae natur fel pe byddai wedi colli ei thrychfilod i gyd. Y mae miloedd o amrywiol fathau, yn asgellog ac yn ddiasgellog, y rhai a fyddant yn heidio yn lluosog iawn ar dymmorau ereill, y pryd hwnw yn colli o'r golwg. Ond mae ein meusydd yn cael eu hadboblogi pan y bydd y dail yn dechreu blaendarddu, o dan ddylanwad siriol y gwanwyn, ac fe welir y pryfaid dail o bob rhyw yn ymborthi

Digitized by Google

ar gynnyrch addawol y flwyddyn, hyd yn oed cyn i'r dail orphen ymddadblygu yn llawn. Fe all y pryfaid dail hyn a welir genym fod yn wasanaethgar i roddi trem i ni ar y moddion sydd gan natur i gynnal nifer mor fawr o drychfilod yn ystod y tymmor hwnw pan nas gallant mwyach ddyfod o hyd i'w bwyd dewisol. Y mae yn wybyddus bellach fod yr holl greaduriaid hyn yn deori allan o wyau gloynau byw; ac fe wel y sawl a sylwa arnynt yn fanwl eu bod yn dodi eu hwyau yn ofalus yn y cilfachau hyny lle y byddant debycaf o ddeori yn llwyddiannus ac yn ddiogel. Trwy y gauaf, gan hyny, y mae y nifer lluosocaf o'r pryfaid dail mewn cyflwr wyol; ac yn y sefyllfa ddifywyd hon y maent fel yn herio lleithder a gerwinder y tywydd; ac er yn fynych yn agored i'w gyfnewidiadau, fe gedwir yn barhaus egwyddorion y bywyd celedig, yr hwn a dŷr allan ar ddynesiad y gwanwyn gan arddangos agwedd mwy gweithgar.

Wrth gyfeirio yn fwy uniongyrchol at ddechreuad y glöynau byw, fe ddywed Goldsmith yn mhellach:—"Pan fwrir allan y trychfilod hyn gyntaf o'r wyau, y maent yn cymmeryd ffurf lindys bychain, yr hwn a fwyty ac a dŷf fwyfwy bob dydd—gan newid ei groen yn aml, ond er hyny yn cadw yn yr un ffurf. Pan wedi cyrhaedd maintioli neillduol yn y cyflwr yma, y mae efe yn gwneyd iddo ei hun fath o amwisg neu blisgyn, yn yr hwn yr erys, wedi ymwasgu yn nghyd, heb symmud dim, fel pe byddai yn hollol ddifywyd; ac wedi parhau yn y sefyllfa hon am ennyd o amser, y mae efe unwaith etto yn ymdori o'i gaethiwed, a daw allan yn löyn byw prydferth a pherffaith. Felly yr ydym yn canfod fod y creadur hwn yn ymddangos mewn tri o wahanol ffurfiau, o'r amser y daw allan o'r ŵy. Yn gyntaf, y mae yn lindys, yn ymlusgo; drachefn, yn chwileren (*aurelia*), yn ddideimlad ac megys yn ddifywyd; ac yn ddiweddaf oll, yn löyn byw, wedi ei arliwio yn ol dull ei ddosbarth arbenigol ei hun."

Y mae yn hawdd adnabod y glöyn byw oddi wrth wibed ereill wrth ei esgyll. Y mae esgyll gwibed o rywogaeth arall yn dryloewon ac yn fânweog, fel y gwelir gan y cigwibedyn cyffredin; neu ynte, y maent yn galed fel y gwelir gan y chwilen. Ond y mae esgyll y glöyn byw yn feddal, sidanaidd, ac afloew—hyny yw, nis gellir gweled drwyddynt—wedi eu gorchuddio â llwch hardd ac addurnol, ond hawdd ei symmud ymaith trwy osodiad bys arno. Y mae gan y creadur bach tlws hwn chwech o esgyll; ac er iddo golli dwy, gall ehedeg gyda'r gweddill. Wrth edrych ar yr esgyll trwy chwyddwydr, gellir canfod eu bod wedi eu britho â mân ronynau, yn amrywio yn eu maint a'u ffurf, yn cael eu cynnal ar fath o frigau neu goesau bychain, ac wedi eu gosod yn rheolaidd ar y gwyneb. Y mae yr esgyll eu hunain yn gynnwysedig o lawer o ewynau trwchus, y rhai a barant i'w gwneuthuriad fod yn bur gryf, er yn ysgafn; ac er iddynt fod wedi eu britho â miloedd o'r mân ronynau crybwylledig, nid oes ond y nesaf peth i ddim o chwanegiad yn cael ei roddi at eu pwysau.

Y mae corff y glöyn byw yn gyfansoddedig o gylchau, y rhai ydynt guddiedig gan flew hirion. Y mae y fronfoll (rhwng y corff a'r pen) yn gryfach nag un rhan arall o'r corff; o blegid yn y fan hon y mae yr esgyll blaen a'r coesau wedi eu sicrhau. Nifer y coesau yw chwech, ond pedair o honynt a ddefnyddir ganddo; ac y mae y ddwy goes flaen wedi eu cuddio gymmaint gan y blew fel mai anhawdd iawn ydyw dyfod o hyd iddynt. Y mae rhyw hynodrwydd nodedig yn perthyn i'w lygaid. Wrth wneyd ymchwiliadau craffus, yr ydys yn cael allan eu bod yn tebygu i ddarn o wydr a welir yn fynych, sydd yn meddu nifer mawr o ochrau, cyffelyb i ddarn claerwych o ddiemwnt (*diamond*); ond nis gellir penderfynu pa un a ydyw y trychfilyn yn gweled gwrthddrychau yn unigol, megys âg un llygad, ynte fod gwahanol ranau y llygaid wedi eu bwriadu i syllu ar lawer o wrthddrychau ar unwaith, yn berffaith eglur ac ar wahan oddi wrth eu gilydd. Fe all weled am bellder mawr o ffordd, a dywedir ei fod yn gallu darganfod ei gymhariaid mor bell a milltir oddi wrtho.

Y mae ganddo ef, yn gystal a rhan fawr o drychfilod hedegog ereill, ddau offeryn, fel cyrn, ar ei ben, y rhai a elwir yn gyffredin yn deimledyddion. Y maent yn gwahaniaethu oddi wrth gyrn creaduriaid uwchraddol, yn gymmaint a'u bod yn symmudol yn y bôn, ac yn gyfansoddedig o lawer o gymmalau, trwy ba foddion y galluogir y trychfilyn i'w troi i bob cyfeiriad. Pa beth yw dyben yr offerynau hyn, pa rai sydd wedi eu ffurfio gyda'r fath gywreinrwydd, a chan Weithiwr nad yw yn gwneyd dim heb reswm, sydd gwestiwn nas gellir hyd yn hyn ei ateb i foddlonrwydd. Dichon eu bod yn foddion i amddiffyn ac i lanhau y llygaid; neu hwyrach mai peiriannau rhyw synwyr sydd yn anadnabyddus i ni ydynt. Nid ydym mor anwybodus am y rhynswch (*trunk*) sydd gan y glöyn byw rhwng ei ddau lygad. Pan na bydd y trychfilyn yn chwilio am luniaeth, fe fydd yr offeryn hwn wedi ei dorchi fel cudyn o wallt modrwyog. Pan yn myned i ymborthi, gwelir ef yn ehedeg o gwmpas blodeuyn; ac yn fuan efe a ddisgyn arno. Y mae y rhynswch y pryd hwnw yn cael ei ddadgrychu, a defnyddir ef i fanwl chwilio y blodeuyn i'w waelod beth bynag fyddo ei ddyfnder. Cynnwysa y rhynswch hwn ddwy bibell wedi eu huno yn nghyd fel pibellau organ.

Y mae rhywogaethau y glöynau byw yn lluosog iawn. Y mae rhwng dwy a thair mil o honynt wedi eu dysgrifio yn barod gan naturiaethwyr, a digon tebyg fod nifer mawr eto yn aros heb eu darganfod. Bernir fod pymtheg a thrigain o wahanol rywogaethau yn Mhrydain.

Dywed un awdwr wrth roddi darluniad o honynt:—"Anfynych y mae prydferthwch eu gwneuthuriad yn methu tynu sylw hyd yn oed y dynion lleiaf eu syniadau am ardderchogrwydd natur a'i gwrthddrychau. Y mae harddwch dolenog eu cylchluniad, hoewder eu ehediad, gwychder ac amrywiaeth eu lliw a'u haddurniadau, yn gosod rhyw ragoriaeth arnynt uwch law yr holl drychfilod ereill. O blegid hyny y mae rhai naturiaethwyr wedi eu hystyried yn deilwng o'u rhestru yn mlaenaf yn nosbarth y trychfilod.........Y mae eangder eu hesgyll yn ymddangos yn anghyfartal â maintioli y corff; fel pe byddai natur wedi dewis helaethu ei therfynau i roddi mwy o le i linellau ei phwyntel, fel y gallesid dangos mwy o amrywiaeth lliw, a lluosogi yr addurniadau. Yn groes i'r hyn a welir mewn creaduriaid hedegog ereill, y mae gwyneb isaf esgyll y glöyn byw yn gyffredin mor addurnol a'r wyneb uchaf, ac yn aml mewn modd hollol wahanol. Y mae pob asgell, o ganlyniad, yn arddangos dau o wahanol arluniau o'r arlunwaith ardderchocaf. Nid oes unrhyw fath o addurniant i'w weled yn mysg y trychfilod ereill nad ydyw i'w gael yn nosbarth y glöynau byw; ac y mae cynnifer mor fawr o

Digitized by Google

addurniadau newyddion yn cael eu defnyddio, fel yr ymddengys fod natur wedi eu gwneyd yn wrthddrychau ei gofal neillduol, ac wedi eu bwriadu, fel y sylwa y dysgedig a'r duwiol Ray, i brydferthu y greadigaeth, yn gystal ag i fod yn wrthddrychau dymunol i fyfyrdod dyn, i'w adgofio o fedrusrwydd a mawredd anfeidrol yr Arlunydd Dwyfol."

GLWTH, [o *llwth*]: gloddestwr, wtreswr, cyfeddachwr, un yn bwyta yn anghymmedrol, neu fwy nag sydd yn angenrheidiol i ddiwallu angenion natur. Y mae glythineb yn cael ei arddangos yn y Beibl fel pechod gwarthus, ac yn cael ei gyssylltu yn fynych â'r pechod o feddwdod: *Diar.* xxiii. 21; *Luc* vii. 34; xxi. 34. Bwyta gormod yw glythineb, ac yfed gormod yw meddwdod; ac y mae y ddau yn berthynasau agos i'w gilydd, ac yn cynnyrchu effeithiau cyffelyb. Yn y cyffredin, y rhai sydd yn euog o'r naill sydd yn euog o'r llall. Y mae glythineb yn wastraff ar drugareddau, yn niwed i'r cyfansoddiad corfforol, yn gwanhau galluoedd yr enaid, yn meithrin diogi, yn gwneyd dyn yn gaethwas i chwant, ac yn anghymhwyso y meddwl i gyflawnu dyledswyddau crefydd. "Duw y glwth yw ei fol;" hyny yw, y mae yn byw i borthi ei flysiau a'i nwydau anianol ei hun. Mae porthi y corff yn ormodol, nid yn unig yn rhwystr i farweiddiad pechod, ond yn fagwraeth iddo. Ystyriai amryw o'r hen ddoethion paganaidd fod glythineb yn anghymhwyso dyn i addoli y duwiau. Yn mhlith yr Iuddewon, cospid mab glwth trwy ei labyddio ef â meini i farwolaeth: *Deut.* xxi. 18—21. Ymaflai ei dad a'i fam ynddo, a dygent ef at henuriaid ei ddinas, gan ddywedyd wrthynt, "Ein mab hwn sydd gyndyn ac anufudd, heb wrandaw ar ein llais; glwth a meddwyn yw efe." Yna, ar ol i'r barnwyr ei ddedfrydu, ac yntau heb ymostwng am ei fai, ac addaw diwygio, llabyddid ef â meini fel y byddai farw; ond os ymostyngai, ac i'w rieni grefu am arbed ei fywyd, ni labyddid mo hono, medd yr Iuddewon: a dywedant mai anaml y byddid yn rhoddi neb i farwolaeth am y bai hwn, ac yn ol y gyfraith hon. Tybia rhai mai cwyn o'r natur uchod oedd yr Iuddewon yn ceisio ei ddwyn yn erbyn yr Arglwydd Iesu, yn *Mat.* xi. 19. Ymddengys mai amcan y gyfraith lem hon oedd attal anufudd-dod, glythineb, a drygioni bechgyn anwaraidd ac anhywaith; o blegid pan labyddid y mab cyndyn, cyhoeddid y peth trwy yr holl wlad, meddant, ar orchymyn y Sanhedrim, "a holl Israel a glywant ac a ofnant."

GLYN—OEDD, [*llyn*]: cwm, nant, pantle, dyffryn cul a dwfn, yn cael ei amgylchu o'r braidd gan fryniau neu fynyddoedd. Y mae Gwlad Canaan yn nodedig am ei glynoedd, amryw o ba rai ydynt ddwfn iawn ac anhygyrch, yn cynnwys llochesau llawer o wahanol fathau o fwystfilod gwylltion; yr hyn sydd yn eu gwneyd yn beryglus i un dyn deithio trwyddynt. At un o'r glynoedd peryglus hyn y cyfeiriai y Salmydd pan y dywedai, "Ië, pe rhodiwn ar hyd glyn cysgod angeu nid ofnaf niwed: canys yr wyt ti gyda mi." Tybia rhai fod yr ymadrodd "cysgod angeu" yma yn dynodi amgylchiadau profedigaethus a galarus ag y mae plant dynion yn gorfod myned trwyddynt yn fynych yn y byd hwn, a'r rhai sydd yn aml bron mor chwerw ag angeu ei hun, ac yn terfynu yn angeu; ac nas gall dim ond bendith yr Arglwydd arnynt rwystro i'r enaid gael niwed ysbrydol oddi wrthynt: *Iob* x. 21, 22; xxiv. 17; *Ier.* ii. 6. Ereill a dybiant, mai angeu ei hun a feddylir wrth yr ymadrodd; a bod Dafydd yn credu y byddai y bugail, yr hwn oedd gydag ef y pryd hwnw, gydag ef hefyd yn angeu, yn ei dywys ac yn ei amddiffyn yn y fath fodd fel na dderbyniai un niwed wrth fyned trwyddo. Wrth yr ymadrodd "glyn gweledigaeth," yn *Esa.* xxii. 1, y golygir Ierusalem; yr hon a elwir *glyn*, am fod mynyddoedd uchel o'i hamgylch, a glynau o fewn y ddinas hefyd rhwng y bryniau ar ba rai yr adeiladwyd hi. Gelwir hi *glyn gweledigaeth*, am fod yr Arglwydd yn rhoddi gweledigaethau yno i'w brophwydi, ac yn amlygu ei ewyllys i'w bobl mewn amryw ffyrdd ereill. "Edrych ar dy ffordd yn y glyn" (*Ier.* ii. 23), sef ar dy eilunaddoliaeth yn nglyn mab Hinnom, lle y llosgai yr Iuddewon eu meibion a'u merched yn y tân i Moloch, a lle y gallasent o hyd weled megys ol eu traed, ac olion eu heilunaddoliaeth, yn dystiolaeth i'w herbyn o'r hyn a wnaethant yn y glyn hwnw: *Ier.* vii. 31; *Esa.* lvii. 5, 6. "Glyn terfyniad" (*Ioel* iii. 14), sef glyn penderfyniad brwydr: yr un glyn ydyw hwn a dyffryn Iehosaphat: *Ioel* iii. 2, 12. Tybia rhai mai y dyffryn bychan a orweddai rhwng Ierusalem a Mynydd yr Olewydd, trwy yr hwn yr oedd afon Cedron yn rhedeg, oedd y lle hwn; ereill a farnant mai yr un ydyw a "dyffryn y fendith;" 2 *Cron.* xx. 26. Ond yr oedd y ddau le hwnw yn annheilwng o'r hyn y dywedir a wneid ynddynt; sef, penderfynu rhwng Duw a'r cenedloedd o amgylch Iudea, y rhai oeddynt wedi bod yn gorthrymu a chaethiwo ei bobl. Gan hyny, y peth tebycaf yw, nad ydym i ddeall wrth "ddyffryn Iehosaphat" a "glyn terfyniad," unrhyw le neu ddyffryn penodol; ond y fan, lle bynag y byddai hwnw, lle y byddai Duw yn casglu ei elynion yn nghyd, yn terfynu eu hachos, yn cyhoeddi eu dedfryd, ac yn cyflawnu y farn arnynt.

GLYNDWR, OWEN: oedd yr olaf o hiliogaeth y tywysogion Cymreig a ymdrechasant i adennill eu harglwyddiaeth golledig ar y wlad. Ganwyd ef ar yr 28ain o Fai, 1349. Ei dad oedd Gruffydd Fychan ab Gruffydd o'r Rhuddallt, ab Madog Fychan, ab Gruffydd arglwydd Dinas Bran, ab Madog ab Gruffydd Maelawr, ab Meredydd, ab Bleddyn ab Cynfyn, tywysog Powys. Ei fam oedd Elin, merch Tomas ab Llewelyn ab Hywel, o'i wraig Elinor Goch; yr hon oedd ferch ac etifeddes Catrin, un o ferched Llewelyn, tywysog olaf y Cymry. Gan hyny, yr oedd yn cynnrychioli llinach tywysogion Powys ar un llaw, a thywysogion Gwynedd ar y llall. Yr oedd ei hynafiaid o bob ochr yn llawn gelyniaeth at y Seison, o herwydd y camwri a dderbyniasant oddi ar eu dwylaw, a mynych y torai allan mewn gwrthryfel: a dichon mai y ffaith hon ydoedd gwreiddyn tuedd wrthryfelgar Owen. Ei enw teuluaidd oedd *Fychan*; neu, yn ol yr hen ddull Cymreig, Owen ab Gruffydd Fychan. Talfyriad ydyw *Glyndwr* o'r gair *Glyndyfrdwy*; ac yn ol y dull Seisoneg, gelwid ef arglwydd Glyndyfrdwy.

Dygwyd Owen i fyny yn gyfreithiwr, a chyrhaeddodd y radd o fargyfreithiwr. Ond ni pharhaodd ond ychydig yn y swydd hono. Ymunodd â byddin Rhisiart II, a gwasanaethodd fel cadben yn y fyddin hono yn yr Iwerddon yn y flwyddyn 1394, lle yr enwogodd ei hun yn fawr trwy ei fedrusrwydd a'i wroldeb. Tynodd sylw y brenin, a dewisodd ef yn un o'i warchodlu; wedi hyny

Digitized by Google

dyrchafwyd ef i fod yn ystafellydd i'w fawrhydi. Ymddengys hefyd ei fod yn farchog; canys yn y cynghaws cyfreithiol rhwng Richard le Scrope a Syr Robert de Grosvener, yr ydym yn cael ei hanes yn dyfod yn mlaen fel tyst dan yr enw Syr Owen de Glendore. Yr oedd yn un o brif ddewisolion y brenin Rhisiart, ac yn gydymaith i'w fawrhydi yn ei deithiau rhyfelgar. Tra yr oedd Risiart yn ceisio darostwng y gwrthryfel oedd wedi tori allan yn yr Iwerddon, cymmerodd Harri Bolingbroke, ei gefnder, yr hwn oedd wedi ei alltudio i Ffrainc, fantais ar ei absennoldeb; ac ar y 4ydd dydd o Orphenaf, 1399, glaniodd yn Ravenspur, yn swydd Gaerefrog, gyda thrigain o ddilynwyr; ac yn ddioed fe ymdyrodd trigain mil o'r Seison dan ei faner. Modd bynag, fe laniodd iarll Salisbury yn Nghymru gyda'r amcan o godi byddin Gymreig i wrthsefyll Harri Bolingbroke; ac fe ymgynnullodd deugain mil o'r Cymry yn Nghonwy mewn pedwar diwrnod: ond wedi deall nad oedd y brenin yn y castell, fel y rhoddasid ar ddeall iddynt, dywedasant wrth Salisbury, "Pe bai y brenin Risiart yma, gan ei fod wedi taflu ei hun ar ein gwlad, ni a ymladdem drosto hyd yr eithaf, bid cam bid cymhwys. Yr ydym yn credu ei fod wedi marw, ac nid ymsymmudwn un cam yn mhellach." Dysgwyliasant am bythefnos: a chan na chlywsant un newydd oddi wrth Risiart, ymwasgarasant i'w cartrefleoedd. Costiodd yr oediad hwn yn Iwerddon i'r brenin anffodus hwn ei goron a'i fywyd. Glaniodd yn Aberdaugleddyf. Gadawodd ei fyddin yno, a chrwydrodd o'r naill fan i'r llall yn Nghymru, yn cael ei ganlyn gan Owen Glyndwr ac ereill, hyd oni ddaliwyd ef yn y diwedd gan ei wrthwynebydd yn Nghastell Fflint, ac y darbwyllwyd ef i roddi ei goron i fyny. Symmudwyd ei fawrhydi i Gaer, ac oddi yno i Dŵr Llundain, a dychwelodd Owen i Lyndyfrdwy; neu yn hytrach, meddir, i Sycharth yn nyffryn Llansilin, canys yr oedd ganddo etifeddiaeth gyfoethog yno yn gystal ag ar lanau y Dyfrdwy, a'r palas oedd ganddo yno oedd ei breswylfod parhaus. Dywedir nad oedd ei etifeddiaethau oll yn ddim llai na deugain milltir ysgwâr o'r tir brasaf a ffrwythlonaf yn y Dywysogaeth. Treuliodd dair blynedd, medd rhai—pedair, medd ereill—yn Sycharth, yn mwynhau ei hun yn ddifyr a llawen yn nghanol ei gydwladwyr a'i denantiaid. Arferai boneddigion Cymru yn yr oes hono gynnal beirdd yn eu palasau, gwaith y rhai oedd "cadw achau eu noddwyr, cyfansoddi mawl-gerddi iddynt, a'u difyru yn eu gwleddoedd; a phan fyddai heddwch, adloni oriau hamddenol—pan fyddai rhyfel, cyffroi teimladau rhyfelgar a digofus. Yr oedd "bardd y teulu" yn cael bywoliaeth gysurus ac anrhydeddus; ac ystyrid palas y boneddwr Cymreig yn fyr o'i addurn arbenig os yn amddifad o fardd. Ymddengys fod gan Owen Glyndwr chwaneg nag un bardd: eithr yr enwocaf o honynt oedd Iolo Goch, yr hwn oedd yn cyfanneddu yn Llechryd, ger Henllan, yn sir Ddinbych. Gan fod Iolo yn meddu etifeddiaeth o'i eiddo ei hun, rhaid ei fod yn canu yn gwbl oddi ar serch at Owen yn bersonol, ac ymlyniad wrth ei achos. Gellir casglu oddi wrth un o'i gywyddau, yr hon a welir yn *Ngorchestion Beirdd Cymru*, fod Sycharth yn lle ardderchog iawn. Dywed fod y palas yn cael ei amgylchu gan ddyfrffos, dros ba un yr oedd pont lusg; yr hyn oedd yn ei wneyd yn amddiffynfa. Ond nid oes yn bresennol yn aros o hono ond y bryn ar ba un yr adeiladwyd ef, ac ol y ddyfrffos ar ei ben.

Yn y flwyddyn 1383, fe ymunodd Owen Glyndwr mewn priodas â Margaret, merch i Syr Dafydd Hanmer, o sir Fflint—un o farnwyr y brenin Risiart II. Ganwyd iddo o honi chwech o feibion, a phump o ferched. Bu ei feibion yn gwasanaethu fel swyddogion yn y fyddin; ond ychydig iawn a wyddys o'u hanes. Dywedir eu bod, ar farwolaeth eu tad, wedi ffoi i'r Iwerddon—i un o honynt ymsefydlu yn Dublin dan yr enw Baulf, a'i fod yn hynafiad i deulu anrhydeddus yn y ddinas hono. Priododd y merched wŷr o urddas a chyfoeth. Isabella, yr hynaf, a briododd Adda ab Iorwerth Ddu; Alis, yr ail, Syr John Scudamore, o Ewyas, yn sir Henffordd; Janet, y drydedd, John Croft, o Gastell Croft, yn yr un sir; Margaret, yr ieuengaf, Roger Monnington, o sir Henffordd, ar derfynau Brycheiniog; Jane, arglwydd Grey, o Ruthyn, ar ol ei ryddhau o garchar gan ei thad. Yr oedd y priodasau hyn yn chwanegiad pwysig at ddylanwad gwladol Owen, gan fod ei holl feibion yn nghyfraith yn dirfeddianwyr mawrion ac yn preswylio ar y terfyn.

Ond nid arosodd Glyndwr yn hir mewn cyflwr o ddinodedd yn Sycharth. Yr oedd achos ei wlad orthrymedig yn agos iawn at ei galon. Penderfynodd wneuthur ymgais i'w rhyddhau o'i chaethiwed; ac yr oedd lluoedd o'r werin a'r pendefigion yn barod i ymrestru o dan ei faner fel eu cyfiawn benadur. Er fod chwech ugain mlynedd wedi myned heibio er pan gollasai y genedl ei hannibyniaeth, nid oedd awydd am ryddid wedi diffodd yn eu plith. Gwnaethant lawer ymgais yn ystod y cyfnod hwn i fwrw ymaith iau y gorthrymwyr; ond yn aflwyddiannus. Nid oedd pob gwrthryfel a godid ganddynt ond yn unig yn chwanegu at eu gorthrwm; ac erbyn dyddiau Owen yr oedd eu sefyllfa yn annyoddefol, fel y dengys y cyfreithiau a wnaed yn senedd Lloegr yn achos Cymru. Ni oddefid i un Cymro ddal swydd dan y llywodraeth. Yr oedd pob ysgrif a chytundeb a ysgrifenid yn yr iaith Gymraeg yn anghyfreithlawn. Cospid â marwolaeth y neb a ddygai bapyr ac offerynau ysgrifenu i Gymru. Os priodai Sais Gymraes, cymmerid ei holl eiddo oddi arno. Ystyrid pob plwyf yn gyfrifol am bob lladrad, ysbeiliad, a thrais a gyflawnid o fewn ei derfynau. Nid oedd i un Sais gael ei gollfarnu ar gyhuddiad Cymro yn Nghymru, ond yn unig gan ustusiaid Seisonig neu fwrdeisiaid Seisonig. Nid oedd i un Cymro brynu tir yn Lloegr, na chwaith mewn trefydd Seisonig yn Nghymru. Nid oedd ymborth nac arfau i gael eu cario i Gymru. Yr oedd y cestyll a'r trefydd amgauedig i gael eu cadw gan Seison. Nid oedd y Cymry i ddwyn unrhyw arfau i drefydd marchnad, ffeiriau, nac eglwysydd, dan y perygl o golli y cyfryw arfau, a chael eu carcharu am flwyddyn. Nid oedd hawl gan y Cymro i ddwyn ond un mab i fyny mewn urddau eglwysig. Nid oedd unrhyw Gymro i lettya dyeithrddyn yn hwy nag un noson, oddi eithr y byddai yn atebol am weithredoedd y cyfryw ddyn. Nid oedd yn gyfreithlawn i'r Cymry wneyd cytundeb am dai a thiroedd, ond am yr ystaid o bedair blynedd, dan y perygl o golli y tiroedd hyny. Yr ydoedd pob barn a wnaethpwyd yn erbyn Owen Glyndwr, yr hwn a brofwyd yn euog o deyrnfradwriaeth, i sefyll mewn grym, pa gamsyniad bynag a pha ddiffyg bynag a fyddo ynddynt. Cynnygiwyd cyflawn faddeuant i'r holl genedl—oddi eithr Glyndwr ei hun a'i gefndryd Rhys a Gwilym ab Tudur—a daflent eu harfau i lawr erbyn diwrnod penodol.

Digitized by Google

Ac yr oedd pob bardd, prydydd, a chantor o dan gyfraith filwraidd.

Fel y gallesid dysgwyl, cynnyrchodd y mesurau gormesol hyn ysbryd digofus a gwrthryfelgar yn yr holl wlad; ac nid oedd dim yn eisieu ond arweinydd medrus a gwrol, ac achos uniongyrchol, i beri i'r bobl ymgasglu yn nghyd, ac ymfyddino yn erbyn y gorthrymwyr. Cafwyd y cyntaf yn Owen, a'r ail yn y cam a wnaed gan y brenin âg Owen.

Cymmydog Normanaidd Owen oedd Reginald de Grey, arglwydd Rhuthyn; yr hwn oedd yn etifedd agosaf o waed i De Hastings, iarll Penfro, a'i etifeddiaethau; ond Risiart II, yn lle ei wisgo ef â'r teitl a'i etifeddiaethau, a'u cyssylltodd hwynt â'r goron—o ganlyniad daeth arglwydd Rhuthyn yn gefnogwr selog i Harri, ac yn elyn creulawn i Glyndwr, prif gefnogwr Risiart yn y pethau hyny. Rhwng Rhuthyn a Glyndyfrdwy, safai darn o dir mynyddig a elwid Croesau, yr hwn a hawlid gan Grey a Glyndwr. Yn nheyrnasiad y brenin Risiart buont yn cyfreithio yn ei gylch, a thrwy fod Owen mewn ffafr gyda'r brenin efe a ennillodd. Pan esgynodd Harri i'r orsedd, adnewyddodd Grey y cynghaws: ennillodd, a chymmerodd feddiant cyfreithlawn o'r darn tir, a throdd denantiaid Owen i ffordd. Aeth Owen i Lundain i ofyn am gyfiawnder. Yn y flwyddyn 1400, cynnaliwyd parliament yn Llundain: aeth Glyndwr yno gydag achwyniad fod arglwydd de Grey wedi trawsfeddiannu rhai o'i ffermydd yn Nghymru. Ond ni wrandawyd ar ei gais; a chynhyrfodd hyn ei ddigofaint yn aruthrol. Rhybuddiodd John Trevor, esgob Llanelwy, y parliament dywededig i gymmeryd pwyll, ac i beidio ar un cyfrif ag edrych yn ddiystyr ar Owen, gan sicrhau iddynt y byddai i'r holl genedl ei gefnogi mewn gwrthryfel. Ond diystyrwyd y rhybudd a gwrthodwyd y cynghor, gan haeru nad oeddynt yn ofni dim ar Owen, nac yn teimlo un arswyd rhag ei derfysgwyr traed-noethion. Dychwelodd Owen i'w balas yn mharc Sycharth. Yn fuan chwanegwyd at y sarhad hwn gamwri arall. Yn y flwyddyn 1400, Harri, wedi penderfynu gwneyd ymgyrch yn erbyn y Scotiaid, a wysiodd Owen, yn mhlith barwniaid ereill, i ddarpar gwŷr ac i ymuno â'i fyddin ef. Ymddiriedwyd trosglwyddiad y wŷs hono i De Grey; yr hwn, yn fradwrus a'i cadwodd hi nes oedd y brenin ar ei ffordd, ac felly yn rhy hwyr i Owen ufuddhau i'w gofyniadau. Pan welodd Owen y gorchymyn llym, blinwyd ef yn fawr o herwydd ei bod yn analluadwy iddo ef ymbarotoi mewn modd cyfaddas i fod yn gydymaith i'r brenin ar daith mor faith a chostfawr. Wedi i arglwydd Grey osod allan ei absennoldeb mewn goleuni anghasredig, gan adrodd fod ei eiriau yn erwin am ei fawrhydi, a bod ei anufudd-dod yn codi oddi ar deyrnfradwriaeth, y brenin (yr hwn, medd rhai, oedd wedi cydffurfio y cynllun hwn gyda Grey i ddial ar Owen) wedi ei ddychweliad, a gymmerodd diroedd Glyndwr yn attafael, ac a'u rhoddodd i'r arglwydd Grey, gan gyhoeddi Owen yn fradwr. Erbyn hyn yr oedd cymylau rhyfel yn prysur ymgasglu—teimladau y bobl yn ymddadebru—calonau pawb ar dân am ddial cam eu cydwladwr. Yr oedd y wlad o ben bwy gilydd yn oddaith am ryfel:—pob astudiwr Cymreig yn y prifysgolion, pob llafurwr, crefftwr, a'r prentisiaid yn y trefydd mawrion, a daflasant eu llyfrau a'u harfau gwaith, a chan deithio y wlad yn finteioedd yn y nos, hwy a brysurasant i ymladd yn erbyn gelynion eu gwlad.

Erbyn canol haf y flwyddyn 1400, yr oedd Owen wedi casglu pedair mil o wŷr dewr, ac wedi eu harfogi yn dda. Cyhoeddodd ryfel trwy gymmeryd meddiant o eiddo ei elyn Grey. Nid oes un ammheuaeth nad oedd y Seison yn cael gwybodaeth fanwl a phrydlawn am ei holl weithrediadau; canys yr ydym yn cael fod y brenin wedi anfon arglwyddi Talbot a Grey, gyda byddin luosog, y rhai a ddisgynasant mor ddisymmwth yn y nos ar Owen fel y bu agos iawn iddynt ei ddal yn ei wely cyn iddo gael unrhyw hysbysiad am eu dynesiant; a damwain a roddodd gyfle cul iddo i ddianc i'r coedwigoedd. Deallodd erbyn hyn fod y Seison am ei waed. Casglodd fyddin yn ddioed, cododd faner Gymreig y Ddraig Goch, cyhoeddodd ei hun yn dywysog Cymru, ymdeithiodd gyda byddin gref tua Rhuthyn, ac ar yr 20fed o Fedi, 1400, ymosodasant ar y dref, gan gymmeryd yr eiddo, llosgi yr holl adeiladau yn domen o ludw, a chymmeryd yr holl fasnachwyr oedd yn y ffair a gynnelid ar y diwrnod hwnw i'r mynyddoedd. Yna efe a ymgiliodd i gastell cadarn oedd ganddo ger Corwen, o'r enw Caer Drewyn.

Erbyn hyn gwelai Harri nad gelyn i'w ddibrisio oedd Owen, ac mai goreu po cyntaf oedd arfer moddion grymus i'w ddarostwng, cyn i'r genedl yn gyffredinol ymuno âg ef; a daeth ei fawrhydi ei hun i Gymru gyda byddin o 25,000 o wŷr. Cyrhaeddodd cyn belled a Llanfaes yn Môn, lle yr oedd mynachdy enwog y pryd hwnw, yn cynnwys lluaws o fynachod, a'r rhai hyny oll yn gefnogwyr gwresog i achos Owen. Yr oedd y brenin wedi cael gwybodaeth am eu tueddfryd, a dialodd arnynt trwy roddi y penaethiaid i farwolaeth, a chymmerwyd y lleill yn garcharorion. Yr oedd Owen yn rhy gall i anturio ei fyddin fechan yn erbyn 25,000 o wŷr cynnefin â dwyn arfau; ac enciliodd i greigiau anhygyrch Eryri, lle yr oedd yn gallu herio pob gelyn; a gorfu i'r brenin ddychwelyd i'w wlad yn somedig heb gael cymmaint ag un cyfleusdra i ymladd brwydr â Glyndwr, ac wedi colli nifer mawr o'i filwyr trwy afiechyd. Ennynodd y somedigaeth hon lid y brenin mor fawr fel y cymmerodd holl etifeddiaethau Owen oddi arno, ac a'u rhoddodd yn anrheg i'w frawd John, iarll Somerset. Gan fod y brenin yn argyhoeddedig nas gallai sefydlu heddwch trwy drais, cynnygiodd delerau heddwch, sef maddeuant rhad a chyflawn i bawb a daflent eu harfau i lawr, ac a dalent warogaeth i'w fab yn Nghaerlleon Gawr. Y Cymry a'i hattebasant "nas gallent fod mewn heddwch â thrais; a'u bod wedi tynu eu cleddyfau, ac wedi colli eu gweiniau," ac felly mai ofer oedd iddo ddysgwyl iddynt ymostwng.

Wedi hyn cafodd Owen lonyddwch am ychydig amser, a gwnaeth ddefnydd da o hono i gasglu nerth ac i gryfhau ei achos. Yn mis Ebrill, 1401, efe a ymdeithiodd tua'r Deheudir, ac a wersyllodd ar fynydd Pumlumon; yr hwn, gan ei fod yn gorwedd rhwng y Gogledd a'r Deheudir, oedd yn lle cyfleus iddo i dderbyn adgyfnerthion o'r naill dalaeth a'r llall. O'r mynydd hwn disgynai ei wŷr i'r wlad o'i amgylch, gan ladd ac anrheithio y sawl nad arddelent hawliau eu penaeth. Dywedir fod sir Drefaldwyn wedi dyoddef yn dost, gan fod llawer o'i boneddigion naill ai yn Seison neu â'u gogwydd tuag atynt. Dinystriodd brif dref y sir, llosgodd y Trallwm a threfydd ereill ar y cyffiniau; distrywiodd fynachlog y Cwmhir, yn sir Faesyfed. Cymmerodd gastell Maesyfed, a pharodd i'w wŷr ddienyddio

Digitized by Google

trigain o'r ceidwaid yn muarth y castell. Yr oedd nifer o Ffleminiaid, y rhai a ddaethant drosodd i'r ynys hon o herwydd i'r môr orlifo eu gwlad, wedi cael cenad gan frenin Lloegr i wladychu yn Rhos Penfro ac Aberteifi. Yn ad-daliad am y gymmwynas hon, yn gystal ag i ddial ar Owen am yr ymosodiadau mynych a wneid gan ei wŷr arnynt o Pumlumon, casglasant fyddin o fil o wŷr traed, a chwe chant o wŷr meirch, a daethant ar warthaf Glyndwr a'i wŷr mor ddystaw a disymmwth, nes eu hamgylchu cyn iddynt gael rhybudd o fath yn y byd. Nid oedd yn bosibl iddo encilio heb golli pob un o'i wŷr; ac os arosai yn llonydd, nid oedd modd iddynt gael ymborth; a marw o newyn fyddai eu rhan. Penderfynodd dori trwy rengau y gelyn, neu drengu yn yr ymgais. Yna anerchodd ei filwyr:—"Fy ngwŷr:—Y mae ein gelynion o'n cylch, eu trugaredd dyneraf tuag atom fydd ein lladd; ond os marw raid, bydded i ni farw fel milwyr, â'n harfau yn ein dwylaw. Gan hyny, atynt, fy mechgyn i, ac nac arbedwch un enaid o honynt."

Cynhyrfodd hyn ddigofaint y dynion i'r graddau uchaf; rhuthrasant ar eu gelynion gyda ffyrnigrwydd arswydus; ymladdasant yn galed am dros ddwy awr, pryd y dechreuodd y Ffleminiaid lwfrhau, ymollwng, a ffoi; erlidiwyd hwynt, a chawsant gurfa ddychrynllyd. Collodd y Ffleminiaid y drydedd ran o'u gwŷr. Fe ymladdwyd y frwydr hon ar fynydd Hyddgant. Oddi yno aeth Owen i sir Forganwg. Rhoddodd Caerdydd ei hun i fyny yn wirfoddol iddo, ac yntau a'i harbedodd; dinystriwyd cestyll Penllyn, Llandog, Talyfan, ac amryw ereill. Pan glybu y brenin am hyn, yn nechreu Mehefin efe a ddaeth i Gymru gyda byddin o 50,000 o wŷr. Dinystriasant fynachlog Ystradfflur; ysbeiliasant y wlad o'i golud ffordd y cerddent; ac yn eu cynddaredd, llosgasant y cnydau ar y meusydd, er mwyn tlodi y genedl i'r graddau eithaf. Ni arbedent feddiannau neb, oddi eithr y rhai y gwyddent eu bod yn flafriol i'r brenin. Ond ni bu y rhyfelawd hwn un mymryn mwy llwyddiannus i Harri na'r un blaenorol. Fe ymladdodd Owen frwydr waedlyd âg ef ar fynydd Bryn Owen, yn y man lle y mae Stallingdown yn sefyll; parhaodd yr ymladd am ddeunaw awr; ac o'r diwedd ennillodd Glyndwr lwyr fuddugoliaeth arnynt. Gorfu i'r brenin ddychwelyd i'w wlad mewn gwarth, wedi colli nifer mawr o'i fyddin trwy ysgarmesoedd, brwydrau, ac afiechyd. Yn ystod y rhyfelgyrch hwn ymdeithiodd Owen Glyndwr, mewn dichell, ar ddull boneddwr dyeithr, a chydag ef un cyfaill cywir wedi ymwisgo ar agwedd gwas iddo; a chan fod yn beryglus y pryd hwnw dwyn arfau o un math, yr oeddynt ill dau yn anarfog, ac yn myned oddi amgylch er gwybod tueddiadau gwleidyddol y bobl. Daethant hyd at gastell syr L. Berkrolles: a deisyfodd Owen, yn Ffrancaeg, am letty noson i'w was ac yntau. Caniatawyd hyn yn rhwydd, a rhoddwyd goreuon y castell at ei wasanaeth; ac mor fawr ydoedd caredigrwydd syr Lawrence, fel y deisyfodd ar y rhyfelwr enwog dario gydag ef am ychydig ddyddiau; a chwanegai ei fod yn dysgwyl y byddai Owen Glyndwr yno gyda hwynt yn fuan; "canys yr wyf wedi anfon tenantiaid, a gweision, a llawer o ddynion ymddiriedus ereill, dan lŵ, i'w ddal, a'i ddwyn yn ddiogel i'r castell hwn, yn fyw neu yn farw." "Gorchwyl da iawn fyddai dal y gŵr hwnw," ebai Owen, "pe bai rhyw un yn abl i wneuthur hyny; canys oni ddelir ef, yr wyf yn clywed ei fod yn debyg o gael ei goroni yn fuan yn Ngogledd Cymru." Pa fodd bynag, wedi aros o Owen yn y castell am dridiau neu bedwar, tybiodd mai doethineb ydoedd ymadael; ac wrth ffarwelio â syr Lawrence, efe a'i hanerchodd fel hyn:—"Y mae Owen Glyndwr, fel dyn cywir galon, heb falais na brad yn ei fynwes, yn rhoddi ei law i syr Lawrence Berkrolles, ac yn diolch iddo am y caredigrwydd a'r croesawiad boneddigaidd a dderbyniodd ef a'i gyfaill oddi ar ei law yn y castell; ac y mae efe hefyd yn myned ar ei lŵ, law yn llaw, a chalon ar galon, na bydd iddo byth feddwl dial bwriadau syr Lawrence Berkrolles, ond yr amcana eu dileu oddi ar ei gof ei hun, a'u celu oddi wrth ei berthynasau a'i ddilynwyr." Yna Owen a'i gyfaill a ymadawsant; eithr syr Lawrence, medd yr *Iolo Manuscripts*, a darawyd yn fud gan syndod, ac ni ddaeth mwyach air dros ei wefusau.

Er fod y brenin yn y rhyfelgyrch diweddaf wedi llwyddo i lwgrwobrwyo tua deg ar ugain o foneddigion pleidiol i'r gwrthryfel, ac yn eu plith Gwilym ab Tudur, yr oedd achos Owen yn parhau i ennill tir mor gyflym nes y penderfynodd y brenin ddyfod y drydedd waith yn ei erbyn. Cychwynodd y rhyfelgyrch hwn o Gaerwrangon y dydd cyntaf o Hydref; ond ni bu yn ddim mwy llwyddiannus na'r rhai blaenorol. Dychwelodd y brenin erbyn gŵyliau y Nadolig heb lethu dim ar y gwrthryfel.

Gan fod ymdrechion Harri yn erbyn Owen mor aflwyddiannus, efe a anfonodd lythyr at arglwydd Grey yn erchi iddo gasglu byddin i'w wrthsefyll. Fe ufuddhaodd Grey gyda'r parodrwydd mwyaf, gan ymffrostio ei fod yn falch o gael cyfleusdra i ddial ar ei hen elyn, ac na chiliai o'r maes hyd nes ei lwyr orchfygu. Yn 1402, casglodd fyddin o 15,000 o wŷr; cyfarfyddodd Owen âg ef trwy gytundeb, yn agos i bont Meifod, yn sir Drefaldwyn, gyda 6,000 o wŷr traed, a 3,000 o wŷr meirch. Bu yno frwydr galed; ond gorfu i Grey a'i fyddin ffoi, a gadael 2,000 o laddedigion ar y maes. Ffodd i'w gastell ei hun yn Rhuthyn; ac fe ddywedir i Owen ei ymlid ef gyda chant o wŷr hyd i'r gymmydogaeth hono, lle y daliodd ef. Dygwyd ef yn garcharor i Sycharth, lle y bu am amser maith; a gorfu i'r brenin yn y diwedd dalu y swm mawr (y pryd hwnw) o 6,666*p*. 13*s*. 4*c*. am ei ryddhad. Yn fuan ar ol hyn priododd Grey, Jane, ail ferch Glyndwr. Pa beth a arweiniodd i'r briodas hon, ni wyddys yn sicr. Haera rhai ei bod yn un o ammodau ei ryddhad; ac ereill, ei bod yn ffrwyth serch a gynnyrchwyd rhyngddynt yn ystod yr amser y bu Grey yn garcharor yn Sycharth. Wedi diogelu y gelyn hwn, ymroddodd Owen i ddial ar amryw o'i elynion ereill, a thywalltodd ei lid ar y gwŷr eglwysig a ogwyddent at y Seison.

Parodd llwyddiant anghyffredin ein harwr i Harri ddyfod i'r penderfyniad o wneyd un ymgais arall i'w wrthsefyll. Danfonodd wŷs at siryddion 34 o siroedd Lloegr yn erchi iddynt gasglu gwŷr i'w gyfarfod ef yn Lichfield, ar y 7fed o Orphenaf. Ond pan oedd ar gychwyn, derbyniodd fryslythyr yn hysbysu fod Glyndwr wedi llwyr orchfygu syr Edmund Mortimer; yr hyn a barodd iddo lwfrhau, a gohirio y rhyfelgyrch hwn.

Pendefig cyfoethog a dylanwadol yn sir Henffordd oedd syr Edmund Mortimer. Y mae haneswyr wedi methu cael sicrwydd pa beth a achosodd yr elyniaeth rhwng Mortimer ac Owen. Nid oedd un ammheuaeth nad oedd Harri yn

Digitized by Google

elyn i'r ddau. Dywed rhai fod y brenin wedi ei lwgrwobrwyo, rhag ofn iddo wneyd ei nai, yr iarll ieuanc March, i'r hwn yr oedd efe yn warcheidwad, yn frenin. Gan fod March yn hanu o'r duc o Clarence, mab Iorwerth III., yr oedd ganddo hawl gryfach i'r orsedd nag oedd gan Harri ei hun. Modd bynag, anfonodd y brenin Mortimer, gyda 12,000 o wŷr yn erbyn Owen. Cymmerodd brwydr ffyrnig le rhyngddynt ar fynydd y Brynglas, yn sir Faesyfed, ar yr 22ain o Fehefin; a dywedir fod Mortimer wedi arddangos gwroldeb anghyffredin yn mhoethder y frwydr; rhuthrodd trwy rengau y Cymry, gan ymosod ar Glyndwr ei hun. Bu ymdrechfa galed, law-law, gledd-ynnghledd rhwng y ddau, hyd oni tharawodd Owen ef yn ei helm nes yr oedd yn hanner marw; yna llusgodd ef oddi ar ei farch, a chymmerodd ef yn garcharor. Lladdwyd 1,300 o'i wŷr, rhoddodd 2,000 eu hunain i fyny yn garcharorion ar y maes, a ffodd y gweddill. Llosgwyd Caerdydd, Abergafenni, a chyffiniau Caerfyrddin.

Ar y 27ain o Awst, gwysiodd Harri ei luoedd i'w gyfarfod drachefn yn Lichfield, i ymosod unwaith eto ar Gymru. Rhanodd ei fyddin yn dair rhan:—un dan lywyddiaeth y brenin ei hun, i gychwyn o'r Amwythig; yr ail, dan yr iarllau Stanhope a Warwick, o Henffordd; y drydedd, dan Harri, mab y brenin o Gaerlleon ar Ddyfrdwy. Nid oedd nifer y tair adran gyda'u gilydd yn ddim llai na 70,000 o wŷr, ac oll yn gynnefin â dwyn arfau rhyfel. Ymffrostiai y brenin yn y fyddin hon, gan dyngu na ddychwelai hyd nes y sathrai ei holl elynion Cymreig dan draed. Ond druan ydoedd! ni bu ddim mwy llwyddiannus y tro hwn na'r troion o'r blaen. Gwyddai Owen yn dda na buasai anturio ei fyddin fechan yn erbyn lluoedd y brenin ddim amgen na rhuthro i ddannedd dinystr. Gan hyny, enciliodd gyda'i wŷr i'r mynyddoedd, gan yru o'i flaen yr holl ychain a'r defaid a phob defnydd porthiant. Heb law hyn, yr oedd yr hin yn ystormus ddychrynllyd, a'r elfenau fel pe buasent mewn cynghrair gyda Glyndwr. Wrth wylio a cheisio dal gelyn cyfrwys, a chwim ei ysgogiadau, yn y curwlaw a'r cenllysg didrugaredd, darfu i ludded, newyn, ac afiechyd, deneuo yn fuan rengau byddin fostfawr y Seison. Er mwyn celu gwaradwydd yr aflwyddiant hwn, priodolai y Seison eu hanffawd i fedrusrwydd Owen mewn swyngyfaredd; "yr hwn," ebai Holinshead, "trwy ddewiniaeth a barodd i'r fath wyntoedd, tymmestloedd, gwlaw, eira, a chenllysg, boeni byddin y brenin, na chlybuwyd erioed am eu bath." Ciliodd y fyddin Seisonig yn ol y tro hwn etto, yn somedig i Gaerwrangon.

Yn ddioed ar ol dychweliad y brenin o Gymru, derbyniodd y newydd dymunol fod Harri Hotspur (yr enw a roddid ar Harri Percy, mab rhyfelgar ac enwog iarll Northumberland) wedi ennill buddugoliaeth fawr ar yr Ysgotiaid yn mryn Homildon—wedi lladd llawer o'r swyddogion Ysgotaidd, ac wedi cymmeryd ereill yn garcharorion; ac yn mysg yr olaf eu harweinydd medrus, Archibald Tyneman, iarll Douglas. Yn yr amserau hyny, gan yr hwn a gymmerai garcharor y byddai hawl i'w ryddhau, a'i eiddo fyddai yr arian a delid am ei ryddhâd. Ar draws yr hen ddefod hon, gofynodd Harri ar fod i Douglas a'r carcharorion eraill gael eu rhoddi i fyny iddo ef. Gwrthododd Hotspur, a'i dad, Northumberland, gydsynio; a phan amlygodd Harri ei benderfyniad i fynu eu cael trwy orthrech, aethant i gynghrair dirgelaidd âg Owen Glyndwr. Rhyddhawyd Mortimer; ac fe ymwelodd Hotspur â Glyndwr a Mortimer yn nhŷ Dafydd Daron, deon Bangor, lle y gwnaethpwyd cyttundeb, trwy yr hwn yr oedd y deyrnas i gael ei rhanu rhyngddynt—Percy i deyrnasu ar yr holl wlad i'r gogledd i'r Trent—Mortimer ar yr holl wlad i'r de i'r Trent—a Glyndwr ar yr holl wlad i'r gorllewin i'r Hafren, yr hyn a gynnwysai Gymru oll. Yr oedd Owen erbyn hyn wedi cyrhaedd y pinacl uchaf mewn llwyddiant. Gorchymynodd i holl bendefigion Cymru ddyfod i Machynlleth i'w gyfarfod; yno cydnabyddwyd ef yn Dywysog Cymru, a rhoddwyd coron ar ei ben; a dywedir fod cynnrychiolwyr i freninoedd Ffrainge ac Yspaen yn bresennol, ac yn cymmeryd rhan yn y ddefod. Dywedir fod bywyd Owen wedi bod mewn perygl yn y gynnadledd ar ol y coroniad. Yn mhlith y rhai a ddaethant i dalu gwarogaeth iddo, yr oedd boneddwr o sir Frycheiniog, o'r enw Dafydd Gam; yr hwn, er ei fod yn briod gyda chwaer Owen, oedd yn elyn calon iddo. Daeth i Fachynlleth gyda bwriad bradwrus o'i lofruddio; ond darganfyddwyd ei frad cyn iddo gyflawnu ei fwriad. Cymmerwyd ef i fyny, a chadwyd ef yn garcharor am ddeng mlynedd. Yna Glyndwr a anrheithiodd etifeddiaethau Gam, a dinystriodd ei feddiannau, ac a losgodd ei balas yn lludw.

Yn fuan cymmerodd yr anghytundeb â Harri ffurf fwy amlwg. Gofynodd Northumberland i'r brenin am yr arian oedd yn ddyledus iddo am gadw gororau Ysgotland. Y brenin a atebodd, "Arian nid oes genyf:—arian ni chewch." Yn nechreu 1403, cafodd Hotspur a'i ewythr, iarll Caerwrangon, fyddin fawr dan yr esgus o amddiffyn cyffiniau Ysgotland, ac a ymdeithiodd tua Chymru. Wedi cyrhaedd i sir Gaerlleon, anfonodd at Owen i erfyn arno ddyfod i'w gyfarfod; ond o herwydd sefyllfa ammharod ei fyddin, gwrthododd ar y pryd. Yna aeth i Lichfield, lle y cyhoeddodd ei resymau dros gymmeryd arfau yn erbyn y brenin. Oddi yno aeth tua'r Amwythig, gan fod ei fyddin ef yn rhy wan i gymmeryd y maes ei hun yn erbyn byddin liosog ei fawrhydi, a chan ddisgwyl dyfodiad Glyndwr. Canfyddai y brenin fod peryglon yn ei amgylchynu ar bob llaw, a chychwynodd yn ddioed i Burton on Trent, gan ddisgwyl cyfarfod â Hotspur a'i fyddin. Clywodd yno eu bod wedi myned tua'r Amwythig; a deallodd mai ei amcan yn y symmudiad hwn oedd uno ei fyddin â byddinoedd Owen a Mortimer. Penderfynodd wneyd ymgais egnïol i attal yr uniad hwn; teithiodd ar ffrwst tua'r Amwythig, a chyrhaeddodd yno ychydig oriau o flaen Hotspur, a thrwy hyny arbedodd ei goron. Yn y cyfamser, yr oedd Glyndwr wedi arwain ei wŷr hyd Groesoswallt, ac wedi danfon 4,000 o honynt, dan lywyddiaeth ei frawd yn nghyfraith syr Jenkin Hanmer, at wasanaeth Hotspur. Ar yr 20fed o Fehefin, fe ymladdodd y gwŷr hyn yn ddewr; ond lladdwyd eu llywydd. Gwnaeth Hotspur ymgais i gymmeryd y caerau, ond methodd: ac enciliodd i le o ddeutu tair milldir o'r dref, a gwersyllodd yno; o herwydd hyny galwyd y lle hwnw Battlefield. Bore dranoeth ymladdwyd brwydr galed a gwaedlyd, yn yr hon y lladdwyd Harri Percy. Pan glywodd y brenin am ei farwolaeth, efe a waeddodd allan, "Ymae Harri Percy wedi marw." Pan ddeallodd y gwrthryfelwyr llwfrhaodd eu hysbryd a therfynodd y frwydr yn ddioed mewn buddugoliaeth lwyr i'r brenin. Ni chymmerodd Owen un rhan yn y frwydr hon. Dywedir ei fod wedi cyrhaedd o fewn milldir i Battlefield, a dim ond yr afon Hafren, yn yr hon yr oedd llifeiriant

Digitized by Google

mawr ar y pryd yn ei luddias i gymmeryd rhan ynddi, a'i fod yn edrych ar yr ymladd o frigau coeden dderwen. Wedi y fuddugoliaeth hon, aeth y brenin tua'r gogledd, lle y gwnaeth efe heddwch gydag iarll Northumberland, tad yr anffodus Hotspur. Yna dychwelodd at gyffiniau Cymru gyda'r bwriad o ddarostwng Glyndwr; ond rhwystrwyd ef gan brinder arian a lluniaeth.

Yn 1404, gwnaed cynghrair ymosodol a diffynol rhwng Owen a Siarl o Ffrainc. Anfonodd Owen ei ganghellydd, Gruffydd Younge, archddeon Meirionydd, a syr John Hanmer, yn llysgenadwyr drosto i Paris. Arwyddodd eu papyrau yn Nolgellau, ar y 10fed o Fai, yn mha rai yr ymgyfenwai yn "Dywysog Cymru." Cawsant dderbyniad croesawus; arwyddasant y cytundeb ar ran eu penaeth ar y 14eg o Fehefin, yn mhalas canghellydd Ffrainc, tra yr oedd lluaws o brif ddynion eglwysig a gwladol y wlad hono yn bresennol fel tystion; a chadarnhawyd y cytundeb gan Glyndwr yn nghastell Llanbadarn, ar y 12fed o Ionawr, 1405.

Wedi gwneuthur cynghrair â Ffrainc, teimlai Owen ei hun yn lled ddiogel, ac ymroddodd i ddial ar ei elynion. Cymmerodd gestyll Harlech ac Aberystwyth; ond cyfarfu âg anffawd ar fynydd Cwm du, yn sir Drefaldwyn, trwy i fintai o Seison ddyfod yn annysgwyliadwy i'w gyfarfod. Cymmerodd brwydr le rhyngddynt, a gorfodwyd ef i encilio. Nid oes hanes iddo gael ei orchfygu cyn y tro hwn. Modd bynag, ni ddarfu i hyn ei ddigaloni. Casglodd fyddin gryfach; erlidiodd, a goddiweddodd y gelyn mewn lle a e'wir Craig y Dorth, ger llaw Mynwy, ac ennillodd fuddugoliaeth gyflawn arnynt. Ei orchwyl nesaf ydoedd gwarchau Caerdydd. Anfonodd y gwarchodlu at Harri am gymhorth; ond ni ddaeth ei hun, ac ni anfonodd un help iddynt. Cymmerodd Owen y dref a'r castell, gan losgi y ddau, oddi eithr yr heol a berthynai i'r mynachod. Bu Dante, y bardd Italaidd enwog, yn cael ei groesawu gan Owen yn haf y flwyddyn hon yn Sycharth a Beddgelert. Cyfieithodd Glyndwr un o brydd·estau Dante i'r Gymraeg; yr hyn a ddengys ei fod yn gwerthfawrogi llenyddiaeth Italy.

Yr oedd yr iarll ieuanc March a'i frawd, neioedd Mortimer, yn cael eu cadw yn garcharorion yn mhalas breninol Windsor. Penderfynodd Glyndwr wneyd yngais i'w rhyddhau; ac yr oedd gohebiaeth mor berffaith yn myned yn mlaen rhyngddo a'r anfoddogion yn y llys Seisonig fel y bu agos iawn i'w gynllun lwyddo. Yr oeddynt i gael eu dwyn i Gymru, a'u rhoddi dan ofal Owen yn Sycharth. Bwriedid gwneyd March ieuanc yn frenin, ac appwyntio Owen yn rhaglaw ac amddiffynwr y deyrnas tra y byddai yr iarll o dan oed. Nid gorchwyl hawdd oedd eu cael o'u carchar, gan fod milwyr yn eu gwylio beunydd. Dewiswyd Constance, gweddw arglwydd Spencer, a chwaer y duc o York, fel yr un debycaf o allu dwyn eu rhyddhad oddi amgylch. Hi a geisiodd ffugallweddau, a llwyddodd i ddwyn y ddau o'u carchar; ond pan yn prysuro gyda hwynt tua Chymru, goddiweddwyd hi, a dygwyd hi a'i hyspail yn ol. Carcharwyd y foneddiges, a thorwyd dwylaw a phen y gôf a wnaeth yr allweddau.

Yr oedd haul llwyddiant Glyndwr yn awr wedi cyrhaedd i'w bwynt uchaf, a dechreuodd ffawd wgu arno. Appwyntiodd Harri ei fab, Harri o Fynwy, i lywyddu ei alluoedd yn sir Henffordd, a chynnorthwyid ef gan syr Risiart Talbot, a llywyddion medrus ereill. Ymladdasant ddwy frwydr âg Owen—un ar Fynydd y Groes, yn sir Fynwy, a'r llall ar Fynydd y Pwll Melyn, yn sir Frycheiniog; a gorchfygwyd y Cymry yn y ddwy; lladdwyd Tudur, brawd Owen, a chymmerwyd Gruffydd, mab Owen, yn garcharor. Gruffydd, yr hwn a garcharwyd am amser gydag Iago, brenin Ysgotland, yn nghastell Nottingham, a gyfnewidiwyd wedi hyny am rhyw garcharorion Normanaidd enwog. Parodd yr anffodion hyn i achos Owen ddirywio yn fawr. Gadawyd ef gan holl wŷr Morganwg, oddi eithr ychydig gyfeillion selog; ac nid oedd ganddo yntau nac arian nac ysbryd i gadw ei wŷr yn nghyd: o ganlyniad, gadawsant ef a dychwelasant i'w cartrefleoedd. Taflwyd ef i gyfyngder mawr; a bu yn crwydro o fynydd i fynydd, gan ymguddio fel Alfred mewn ogofeydd a chorsydd. Y mae ogof yn min y môr yn mhlwyf Llangelynin, Meirion, a adwaenir y dydd hwn wrth yr enw "Ogof Owen," lle y bu ef yn ymguddio am un ysbaid o amser, ac y danfonid ymborth iddo gan foneddwr o'r enw Ednyfed ab Aaron. Yn y cyfwng hwn, fel y bernir, y cyfansoddodd Iolo Goch ei "Gywydd i Owen Glyndwr wedi ei fyned ar ddifancoll;" oddi wrth pa un y gellir casglu na wyddai hyd yn oed ei gyfeillion mwyaf mynwesol pa le yr oedd ei ymguddfan.

Gan fod cytundeb, fel y nodwyd, wedi ei wneyd rhwng Owen a Ffrainc, anfonodd lythyr i Paris i hysbysu ei aflwyddiant, ac i ofyn am gymhorth. Danfonwyd deuddeng mil o wŷr mewn 140 o longau, o Brest, tua diwedd Mehefin; a glaniasant yn Aberdaugleddyf. Wedi clywed am hyn, ail ymgododd gobaith yn mynwesau y Cymry, ac ymdyrasant eilwaith dan faner eu hen benaeth dewr, Glyndwr. Casglodd yn fuan ddeng mil o wŷr, ac ymdeithiodd tua'r Deheudir; ac wedi uno â'r Ffrancod, cymmerasant Gaerfyrddin, a theithiasant tua Chaerwrangon, gan anrheithio y wlad y ffordd yr elent. Yn Woodbury Hill, yn mhlwyf Whitley, o ddeutu naw milltir o Gaerwrangon, bu Glyndwr a'i hen wrthwynebydd, Harri o Loegr, yn ngwyneb eu gilydd am wyth niwrnod, gan fod y naill a'r llall yn ofni ildio o'u sefyllfaoedd. Llwyddodd Harri i attal adgyfnerthion oddi wrth ei elynion, ac o herwydd hyny gorfodwyd hwynt i encilio yn y nos tua Chymru. Dywedir i'r brenin eu "hymlid hwynt o fryn i bant, o bant i goedwig, o goedwig i gors, a methu yn lân deg a dyfod o hyd iddynt. Ac yr oedd yn bleser gweled ei wŷr yn teithio, ei wibiadau prysur a phoenus, ei arosiadau helbulus ac ansier, ei grwydriadau parhaus, ar hyd glanau disathr a chreigiau geirwon y mynyddau erchyll, diffrwyth, ac anial hyny." O'r diwedd gorfu i'r brenin droi yn ol, gan nas gallai gynnal ei fyddin yn hwy mewn gwlad ag oedd wedi ei difrodi o bwrpas er mwyn newynu y Seison; ac wrth iddo ymgilio, cymmerodd y Ffrancod ddeunaw o'i wageni ymborth. Wedi colli ei gludgelfi, enciliodd Harri i Gaerwrangon, a symmudodd Owen i sir Fynwy, ac oddi yno i Aberdaugleddyf, lle y bu yn arolygu mynediad y Ffrancod ar fyrddau eu llongau i ddychwelyd i'w gwlad. Syrthiodd cestyll Aberystwyth a Coity i'w ddwylaw.

Bwriadai iarll Northumberland, mewn undeb âg esgobion Bangor a Llanelwy, godi gwrthryfel yn y Gogledd, ond darganfyddwyd y bradwriaeth a chymmerodd Northumberland noddfa am ddwy flynedd gyda Glyndwr. Yn 1406, anfonodd Siarl o Ffrainc ail fyddin i Gymru ar fyrddau 38 o longau, wyth o ba rai a gymmerwyd ar eu mordaith, a chyrhaeddodd y gweddill i Gymru. Treuliwyd y blynyddoedd 1407—8 yn lled dawel

Digitized by Google

o bob ochr. Fe ymwrthododd iarll Northumberland âg amddiffyniad Owen; cymmerodd arfau i fyny yn sir York, ond gan iddo gael ei fradychu gan syr Thomas Rokeby, gorchfygwyd a lladdwyd ef gydag arglwydd Bardolph yn Bramham Moor, yn sir Gaerefrog. Yn y Gwanwyn, 1409, anfonodd Owen fyddin i sir Gaerloyw; ond yn sir Amwythig gorchfygwyd Rhys Ddu a Philip Scudamore; ac ar ol eu caethgludo i Lundain, dienyddiwyd hwynt. Er hyny, aeth arglwyddi y gororau i gytundeb âg Owen i dalu teyrnged flyneddol iddo am eu tiroedd. Yr oedd y Ffleminiaid yn gwneyd yr un peth er ys llawer o amser. Gellir ffurfio meddylddrych am sefyllfa anrheithiedig y terfynau rhwng Lloegr a Chymru oddi wrth iaith y senedd, yr hon a ddywed "fod Glyndwr yn yr holl barthau hyny bron wedi llwyr ddinystrio y Seison a'r Seisoneg." O'r flwyddyn 1409 hyd ei farwolaeth yn 1406, gadawyd Glyndwr mewn meddiant tawel o'r Dywysogaeth. Yn 1412, anfonodd Harri IV. dad yn nghyfraith Dafydd Gam, Llywelyn ap Hywel, gyda syr John Tiptoft a syr William Butler, i gytuno â'r tywysog Cymreig am ryddhad syr Dafydd. Rhyddhawyd ef am 10,000 o farciau, ar yr ammod na byddai iddo byth godi arfau yn erbyn Owen drachefn. Arferai Owen gadw ei garcharorion rhyfel mewn adeilad yn mhlwyf Llansantffraid Glyndyfrdwy. Y mae gweddillion y lle yn aros hyd y dydd hwn; ac adwaenir ef wrth yr enw "Carchar Owen Glyndwr."

Yn 1413, dilynodd Harri o Fynwy ei dad ar orsedd Lloegr. Gwnaed cynnygion cymmodawl ddwywaith gan Harri trwy yr enwog syr Gilbert Talbot (1415—6) i Owen, yn cynnyg iddo ef a'i ddilynwyr faddeuant rhad os dychwelent i'r hyn a elwid ganddynt yn ffyddlondeb. Ond nid oedd dim a barai i Owen aberthu anrhydedd a lles ei wlad; ac yr oedd Lloegr wedi colli y Dywysogaeth mor lwyr fel na chafodd mab Harri VI, er ei fod wedi ei goroni yn frenin Lloegr a Ffrainc, erioed ei greu na'i goroni yn Dywysog Cymru. Harri V, Cymro enwog arall yn y cyfnod hwn, a chydymgeisydd tywysogaidd â Glyndwr, a anwyd yn un o'r llanerchydd hyfrydaf yn y deyrnas—Castell Mynwy, rhan o etifeddiaeth ei fam. Derbyniodd y rhan gyntaf o'i addysg dan syr Dafydd Gam, a'r rhan olaf yn nheulu ei gâr breninol Risiart II, yr hwn a ganlynodd efe yn y rhyfelgedd yn yr Iwerddon, a chan yr hwn y gwnaed ef yn farchog. Ar yr achlysur o goroniad ei dad, gwnaed ef yn Dywysog Cymru; "ond," meddai Creaton, "rhaid iddo ennill y Dywysogaeth yn gyntaf, canys y mae yr holl dir yn eiddo Glyndwr."

Ar yr 20fed o Fawrth, bu farw y brenin Harri IV, gan adael y gwaith o orphen darostwng y Cymry i'w fab Harri V; yr hwn, ar ol cael ei boeni ganddynt am ddwy flynedd, a ymostyngodd, yn 1415, i gynnyg telerau heddwch i Glyndwr, ac a ddanfonodd syr Gilbert Talbot gyda phob awdurdod angenrheidiol i ffurfio cytundeb ac i ganiatau maddeuant rhad iddo ef a'i holl ganlynwyr. O herwydd marwolaeth Owen, ni orphenwyd ef y pryd hwnw; ond cwblhawyd ef drachefn gyda Meredydd, mab i Glyndwr, ar y 24ain o Chwefror, a rhoddwyd terfyn ar wrthryfel y Cymry.

Bu Owen Glyndwr farw yn nhŷ ei ferch ieuengaf, ac yn nghanol ei wyrion, yn Mornington, yn sir Henffordd, ar yr 20fed o Fedi, 1415, yn 61 mlwydd oed. Ar ei farwolaeth disgynodd y teitl i'r Dywysogaeth i Owen Tudur.

GLYWIS CERNIW: mab Gwynlliw, ab Glywis ab Tegid, brawd Catwg Ddoeth, a sant; gan yr hwn yr oedd eglwys yn Coed Cerniw, yn Gwynllwg, yn Morganwg, o ddeutu canol y chweched canrif.

GNOSMACHIAID, [*casawyr gwybodaeth*]: math o foesolwyr yn y seithfed ganrif, y rhai a ddysgent fod Cristionogaeth yn gynnwysedig yn gwbl mewn ymarferiadau â dyledswyddau ac ordinhadau, ac nad oedd dim eisieu llafurio am wybodaeth o egwyddorion crefydd. Hônent ei bod yn bosibl i ddyn fyw yn dda er gwybod ychydig, ac nad oedd gwybodaeth helaeth yn un fantais i fyw yn dduwiol, am nad oeddynt yn ystyried fod un cyssylltiad hanfodol rhwng y deall a'r galon—y gall y galon fod yn dda er i'r deall fod yn dywyll. Nid oes un ammheuaeth na chyhoeddwyd y syniadau hyn ar y cyntaf gan ryw bersonau fel esgus dros eu diogi a'u hanwybodaeth.

GNOSTICIAETH. Enw ar yr ymosodiad cyntaf o eiddo athroniaeth y byd hwn ar Gristionogaeth. Y mae yr enw yn ddeilliedig oddi wrth y gair Groeg γινωσκειν (*ginoscein*="i wybod"); γνοσις (*gnosis*="gwybodaeth"). Y mae cyfnodau neillduol yn hanes Cristionogaeth wedi bod pan yr ymgodai dynion yn erbyn awdurdod y Beibl, ar dir rheswm, a dysgeidiaeth, ac athroniaeth ddynol. Y mae yn naturiol dysgwyl i reswm, ag sydd heb ddysgu ymostwng i awdurdod dwyfol, i ymarfogi yn erbyn hawliau crefydd sydd yn hôni awdurdod ar grediniaeth grefyddol dyn. Gallesid dysgwyl brwydrau mynych rhwng cynneddfau ymresymiadol dyn a'r grefydd sydd yn hôni awdurdod ar dir goruwchnaturiol i reoli a therfynu eu gweithrediadau. Nid anhawdd fyddai nodi amryw o'r cyfnodau yn mha rai y mae y brwydrau hyn wedi cael eu dwyn yn mlaen, gyda mwy neu lai o benderfyniad, ac wedi eu hynodi gan neillduolrwydd llenyddol neu athronyddol yr oesau yn mha rai yr ymddangosasant. Yn y *Bampton Lectures*, gan Farrar, am 1862, dosberthir cyfnodau hynotaf gwrthryfel athroniaeth yn erbyn Cristionogaeth i bedwar. Yn gyntaf, gwrthryfel athroniaeth baganaidd—yn ymestyn i gyd o ddechreuad Cristionogaeth i tua B.A. 360. Yn ail, gwrthryfel rhai o dueddiadau ac ysgrifenwyr ysgoloriaeth yn y canoloesau (1100—1400). Yn drydydd, adfywiad llenyddiaeth henafol yn Italy, yr hyn a ddilynid yn fuan gan y Diwygiad Protestanaidd (1400—1625), yr hwn er nad ydoedd o duedd anffyddol, eto a fu yn foddion i ryddhau meddyliau dynion o lyffetheiriau duwinyddol y canoloesau. Ac yn bedwerydd, ymosodiad athroniaeth ddiweddar, a hyny mewn tair ffurf:—(1.) Ymosodiad Deistiaeth yn Lloegr, yn yr ail ganrif ar bymtheg a'r ddeunawfed. (2.) Anffyddiaeth yn Ffrainc yn y ddeunawfed ganrif. (3.) Rhesymoliaeth yn Germany, yn y ddeunawfed a'r bedwaredd ganrif ar bymtheg.

Ymchwiliad dyddorol ac addysgiadol ydyw yr ymchwiliad i'r gwahanol ffurfiau yn mha rai y mae rheswm wedi amlygu ei hun yn ei pherthynas â Christionogaeth—y gwahanol wrthddadleuon sydd wedi eu cychwyn ganddi—i ba raddau y mae ei hymosodiadau yn wahanol, ac yn gyffelyb, yn y naill oes i'r llall—a pha mor bell y mae ei gwrthddadleuon yn newid. Gnosticiaeth ydyw yr ymosodiad cyntaf ar dir rheswm a wnaed yn erbyn Cristionogaeth. Yr hyn ydyw Rhesymoliaeth yn Germany a Lloegr yn ein

Digitized by Google

dyddiau ni, hyny ydoedd Gnosticiaeth yn nyddiau yr apostolion a'r oesoedd canlynol. Fel y mae anffyddwyr proffesedig yn ein dyddiau ni, y rhai a honant nad ydyw Cristionogaeth ond twyll, neu a geisiant ei holrhain i achosion naturiol, felly yr oedd gwrthwynebwyr cyffelyb yn yr oesoedd boreuaf, megys Celsus a Julian: ond nid y cyntaf o'r rhai hyn ydyw Rhesymolwyr ein dyddiau ni, ac nid yr olaf chwaith ydoedd Gnosticiaid yr oesoedd boreuaf. Anffyddwyr ydyw y rhai hyn, sydd yn ymwrthod yn hollol â Christionogaeth. Ond nid yw Rhesymolwyr y dyddiau presennol, na chwaith Gnosticiaid yr oesoedd boreuaf, mor lwyr a diarbed yn eu hymwrthodiad: yn hytrach, gwysio Cristionogaeth o flaen mainc athroniaeth y mae y rhai hyn, gan ddewis yr hyn a allant wneuthur yn wasanaethgar i gyflawnu diffygion rheswm, a gwrthod y gweddill.

Fel y gwelir oddi wrth y gair *Gwybedyddiaeth*, neu Gnosticiaeth, rhoddant arbenigrwydd neillduol ar *wybodaeth* yn wrthgyferbyniol i *ffydd.* Gallasai hyn fod wedi ei achlysuro yn mhlith y Cristionogion mwyaf diwylliedig, trwy fod eu brodyr anniwylliedig yn rhoddi arbenigrwydd ar ffydd yn wrthgyferbyniol i wybodaeth. Y mae y naill eithafoedd bob amser yn cenedlu y llall. Amcan uchaf yr efengyl ydyw dwyn dyn yn ol i ffafr a chymmeradwyaeth Duw. Dadguddiad o ffaith fawr y prynedigaeth, ac nid cyfundrefn athronyddol o wybodaeth, sydd yn y Beibl. Trwy dderbyniad o ffaith y prynedigaeth mewn ffydd y mae yr efengyl yn cyrhaedd ei hamcan ar bechadur, ac y mae bywyd ysbrydol yn dechreu yn ei enaid; a pherffeithiad y bywyd hwn ydyw perffeithiad ei adferiad at Dduw. Ond yn raddol, fel y mae ei holl natur, yn enwedig ei ddeall a'i reswm, yn dyfod dan ddylanwad y bywyd newydd hwn, fe gyfyd dymuniad ac ymestyniad yn ei feddwl at ddeall mwy llwyr a chysson o wahanol gangenau y drefn fawr; ac hefyd cyssylltiad gwirioneddau dadguddiedig â'r hyn y mae meddwl dyn wedi ei gasglu trwy ei weithrediad naturiol mewn oesoedd blaenorol. Ond derbyniad trwy ffydd o Grist ei hun ydyw yr hyn sydd yn dyfod â phechadur i feddiant o drysorau achubol yr efengyl; ac nid rhyfedd fod y lluaws o'r rhai a dderbyniasant yr efengyl trwy bregethiad yr apostolion yn ymfoddloni ar ffeithiau rhyfeddol bywyd a marwolaeth Crist, a'r profiad a deimlasant o'u nerth, heb ymofyn nemawr o barth i'r egwyddorion a amlygwyd trwyddynt, a chyssondeb yr egwyddorion hyny âg egwyddorion llywodraeth gyffredinol Duw, a chyfansoddiad meddwl dyn. Ond i'r rhai oedd wedi cael manteision llenyddol yr oes, ac wedi dyfod i gyffyrddiad â dadleuon ysgolion Groeg, yr oedd dyddordeb yr ymchwiliadau hyn yn sicr o gyffroi eu chwilfrydedd, ac i'w symbylu yn mlaen gydag aiddgarwch digyffelyb. Pa ryfedd fod y rhai hyn, tra heb wadu pwysigrwydd *ffydd*, eto yn tueddu yn gryf i roddi arbenigrwydd gormodol ar *wybodaeth*, ac yn enwedig yn ngwyneb edliwiadau yr athronwyr paganaidd nad oedd gan y Cristionogion ddim philosophi. Felly, hyd yn oed yn yr eglwys apostolaidd ei hun, yr oedd y ddwy duedd i'w canfod; sef, i osod pwys gormodol ar y cyfryw ffydd ag y mae Iago yn ei galw yn ffydd farw ar un llaw; ac ar y llaw arall i osod pwys anghymmedrol ar wybodaeth—y cyfryw wybodaeth ag y dywed Paul am dani, "Er gwybod o honof y dirgelion oll a phob gwybodaeth, ac heb fod genyf gariad, nid wyf fi ddim;" 1 *Cor.* xiii. 2. Yr oedd y ddwy duedd hyn yn myned bellach-bellach oddi wrth eu gilydd, ac yn eu gwrthwynebiad i'w gilydd yn cryfhau y naill y llall. Yr oedd un yn dybenu mewn cyfundrefn o seremonïau, a'r llall mewn cyfundrefn o athroniaeth:—yr olaf ydyw Gnosticiaeth.

Y mae mewn Cristionogaeth ateb syml, ymarferol, hawdd ei ddeall, i bob cwestiwn a dirgelwch sydd wedi bod yn destyn ymchwiliad i ddynion—i'r hyn yr ydoedd athroniaeth wedi chwilio yn ofer am ateb iddynt. Y mae hi hefyd wedi cynnyrchu tymmer meddwl i'n galluogi i orchfygu yr ammheuon hyny nas gellir eu symmud ar dir rheswm. Amcanai Gnosticiaeth i gyfarfod yr anhawsderau hyn ar dir gwybodaeth ymresymiadol, ac felly sylfaenu Cristionogaeth, nid ar ffaith, ond ar ganfyddiadau y meddwl ac ymresymiad y deall. Yn berffaith gyffelyb yr oedd yn Germany yr oes a basiodd: amcan eu llafur hwy ydoedd sylfaenu athroniaeth yn annibynol ar ffeithiau. Sylfaenu athroniaeth y meddwl yn annibynol ar ffeithiau y meddwl; athroniaeth hanesiaeth yn annibynol ar ffeithiau hanesiaeth; ac yn gyffelyb athroniaeth o grefydd heb ffeithiau crefydd. Nid oedd y Gnosticiaid boreuol, ac nid ydyw y Rhesymolwyr presennol chwaith, yn gweled fod hyn yn anmhosibl. Ond y mae yn anmhosibl, am mai nid rheswm yn unig ydyw Duw na dyn. Y mae gan Dduw *ewyllys*, ac y mae gan ddyn *ewyllys ;* ac y mae Duw a dyn wedi corpholi eu hewyllysiau mewn ffeithiau: ond y mae meddwl dyn, yr hwn sydd wedi ei gyfansoddi i argeisio yr hyn sydd yn sylweddol, yn fuan yn blino ar athroniaeth nacaol fel hon. Felly y bu yn amseroedd goreu Groeg a Rhufain. Er mai prif amcan Plato oedd dysgu dynion i ymgodi at ddrychfeddyliau tragwyddol; eto nid yn annibynol ar hanesiaeth, ond *trwy* hanesiaeth. Ymgeisiai Platoniaeth at ddarostwng pob peth i un gyfundrefn—i olrhain trwy holl hanesiaeth berthynas y gweledig a'r anweledig--y dynol a'r dwyfol; ac i ddarganfod yn yr amrywiaeth mawr o draddodiadau crefyddol, a ffurfiau addoliad, un dadguddiad dwyfol. Nid chwilio am yr hyn sydd yn wir, a'i ddethol allan o'r pentwr o'r hyn sydd heb fod felly, yr ydoedd; ond toddi yr holl bentwr, a'i draddodi i un fold. Felly, yn holl ffurfiau Gnosticiaeth ni a gawn gymmysgedd o athroniaeth Roegaidd, duwinyddiaeth Iuddewig, a chrefyddau dwyreiniol. Y mae y gymmysgedd hon i'w chael yn flaenorol i'r ymdrech a wnaed tua diwedd y ganrif gyntaf, a thrwy yr oll o'r ail ganrif, i ddwyn Cristionogaeth i mewn yn elfen chwanegol ynddi. Yr oedd doethineb y byd hwn yn ei gwahanol ffurfiau yn gwrthod derbyn Cristionogaeth yn symledd ei chymmeriad fel ffaith hanesyddol ac fel gwirionedd dwyfol, gan ei chyfrif yn ffolineb yn yr ystyr yna: eto nis gallent wadu fod ynddi nerth goruchel; ac o ganlyniad, teimlent eu hunain dan rwymau i'w hesbonio mewn rhyw ffordd. Ceisient ei deall yn ngoleuni eu hathroniaethau eu hunain, ac i ffurfio cymmysgedd o honynt oll.

Y cwestiynau yr ymofynent yn benaf am atebion iddynt oeddynt y rhai canlynol, y rhai sydd wedi deffro a somi chwilfrydedd pob oes:—Pa fodd y deilliodd y meidrol o'r anfeidrol? Pa fodd y mae esbonio dechreuad creadigaeth? Pa fodd y daeth Duw yn awdwr byd mor wahanol iddo ei hun?—efe yn ysbrydol, a'r byd yn faterol. Os ydyw Duw yn berffaith, pa fodd y mae esbonio anmherffeithiau y byd hwn? Pa fodd y daeth pechod i fod? O ba le y tarddodd y gwahaniaeth mawr sydd rhwng dynion a'u gilydd.

Digitized by Google

dynol a'r dwyfol—ac ni allent gydnabod undeb y dwyfol â'r dynol yn mherson Crist. Fel y gwnaethant un Duw yn ddau Dduw, sef Duw y nefoedd a Duw natur, ac fel yr ystyrient yr olaf yn offeryn y blaenaf, felly y gwnaethant un Crist yn ddau—Crist nefol a Christ daiarol—yr olaf yn offeryn y blaenaf. A barnent mai yn ei fedydd yr oedd y Crist nefol yn ymuno â'r daiarol. Yr oedd y dosbarth hwn yn edrych ar ddynoliaeth y Gwaredwr fel yn wirioneddol, ac yn meddu rhyw urddas o'i heiddo ei hun. Yr oedd dosbarth arall yn gwadu ei ddynoliaeth, gan ddywedyd nad ydoedd ond ymddangosiad yn unig.—Gwel DOCETIAID.

Gellir olrhain Gnosticiaeth i fyny i'r oes apostolaidd. Ymddengys fod Simon y swynwr yn un o honynt, a'i fod nid yn unig yn dysgu math o Gnosticiaeth, ond ei fod yn proffesu ei hun yn fath o bersonoliad o'r dwyfol: *Act.* viii. 10. Yn ol traddodiad, bu Cerinthus [gwel CERINTHUS] yn dadleu â'r apostol Ioan; a thybir yn gyffredin fod Ioan, yn nechreu ei Efengyl, yn cyfeirio at ei syniadau cyfeiliornus ef am y Gair neu y Logos.—Gwel GAIR DUW. Yn yr ail ganrif. fodd bynag, y gweithiwyd allan Gnosticiaeth i'r ffurfiau mwyaf cywrain dan nifer o ddysgawdwyr galluog. Yr ydoedd yn elfen gythryblus i'r eglwys trwy y ganrif hon, ac yn mlaen i'r drydedd; ond yr oedd hefyd yn gymhelliad i ysgrifenwyr uniongred i geisio deall yn fwy trwyadl y gwirioneddau am y Drindod ac am Berson Crist. Yr oedd y cyfeiliornadau a ddarlunir yn yr erthygl hon yn meddu dylanwad cryf ar lawer o'r meddyliau galluocaf oedd wedi eu dwyn i dderbyn Cristionogaeth. Prif ddysgawdwyr yr heresiau hyn oedd BASILIDES a VALENTINUS—cynnrychiolwyr Gnosticiaeth Roegaidd neu Alexandriaidd; a MARCION, prif gynnrychiolydd Gnosticiaeth y Dwyrain. Gwel yr enwau hyn. Yn *Neander's Church History* y mae y defnyddiau cyflawnaf yn Seisoneg am Gnosticiaeth. Hefyd *Herzog's Encyclopædia.*

GOBAITH, GOBEITHIO. Y mae dyn yn gobeithio pan y mae yn edrych yn mlaen gyda hyfrydwch a dymuniad am ryw ddaioni yn y dyfodol. Nid oes gobaith heb grediniaeth fod yr hyn y gobeithir am dano yn dda i'w feddu, ac hefyd ei fod yn gyrhaeddadwy. Y mae gobaith yn gorphwys ar ffydd: "Ffydd yn wir yw sail y pethau yr ydys yn eu gobeithio;" *Heb.* xi. 1. Ffydd yn edrych i'r dyfodol gan ddysgwyl ydyw gobaith. Y mae ein holl ddymuniadau naturiol yn cymmeryd gwahanol ffurfiau yn ol graddau y tebygolrwydd y cyflawnir hwynt. Os na bydd nemawr debygolrwydd o'u plaid, dymuniad gwan yn unig ydyw: ond pan y mae y tebygolrwydd yn gryfach, gelwir ef yn gyffredin yn obaith: gyda thebygolrwydd cryfach eto, y mae yn ddysgwyliad: a chyda thebygolrwydd sydd yn agosau at sicrwydd, y mae yn myned yn hyder. Y mae ein dymuniadau naturiol yn cymmeryd y ffurfiau hyn yn ol y graddau o debygolrwydd a rydd ffydd i ni o gyrhaeddiad y gwrthddrychau. Nid oes dim yn caniatau y graddau uchaf o obaith, sef sicrwydd gobaith, neu ddysgwyliad hyderus, ond y grediniaeth fwyaf ddiysgog neu sicrwydd ffydd. A chan fod ffydd ddiysgog yn beth nas gallwn ei chael gyda golwg ar bethau y byd hwn, y mae ein gobeithion daiarol yn ddarostyngedig i somedigaethau beunyddiol. Y mae y gynneddf a'r duedd naturiol i obeithio yn ffynnonell llawer o gysur a hapusrwydd i ddyn yn holl amgylchiadau bywyd, o faboed hyd henaint. Nid ydyw dyfodol y bachgen yn ymestyn yn mhell oddi wrtho—ddim pellach, fe ddichon, na thoriad nesaf yr ysgol; ond y mae yn wastadol o flaen ei feddwl ac yn gweinyddu sirioldeb i'w ysbryd. Ond fel y cerdd amser, mae yr olygfa yn chwanegu, ac felly yn ymeangu, ac felly yn eangu terfynau ei obeithion. Nid oes dim hapusrwydd nad yw gobaith yn ei addaw, nac un anhawsder nad yw gobaith yn ei orchfygu, nac un tristwch nad yw gobaith yn ei leddfu. Mewn gobaith y mae y tlawd yn cael cyfoeth, yr afiach iechyd, y caeth ryddid, y lluddedig orphwysder. Y mae gobaith yn gyffredinol yn ei ddylanwad, ac yn tywallt llewyrch hyfryd dros bob peth. "I'r neb a fo yn nghymdeithas y rhai byw oll y mae gobaith;" *Preg.* ix. 4. Mae gobaith nid yn unig yn gweinyddu i sirioldeb bywyd, ond hefyd yn presennoli y cymhelliadau cryfaf i holl weithgarwch bywyd. Yn nghanol gofidiau bywyd y mae gobaith am waredigaeth yn gynnorthwy i'w dwyn. Y mae diareb Seisonig sydd yn dywedyd, "Oni bai am obaith fe dorai y galon:"—"If it were not for hope the heart would break." Ac hyd yn oed pan fyddo hapusaf y mae rhan fawr o'i fwynhad yn codi, nid o'r hyn sydd ganddo, ond o'r hyn y mae yn ei obeithio.

> "Hope springs eternal in the human breast,
> Man never is, but always to be, blest."—POPE.

Y mae y duedd naturiol sydd mewn dyn i obeithio yn amlygiad cryf o ddaioni ei Greawdwr tuag ato.

Y mae gwahaniaeth pwysig rhwng y gobaith naturiol hwn, sydd yn perthyn i ddynion yn gyffredinol, a'r gras o obaith sydd yn cael ei roddi gan Ysbryd Duw yn enaid y Cristion. Rhodd naturiol ydyw y cyntaf, yn codi oddi ar yr hyn y mae dyn yn dymuno, yn breuddwydio, ac yn meddwl am dano, iddo ei hun; ond mae gobaith y Cristion yn seiliedig ar yr hyn y mae Duw yn ei air yn ei ddadguddio ac yn ei addaw i bechaduriaid yn Nghrist. Felly, er y gobeithion naturiol sydd yn sirioli cymmaint ar fywyd dyn—heb ffydd yn ngair Duw, y mae "heb obaith ac heb Dduw yn y byd;" *Eph.* ii. 12. Nis dichon efe obeithio ond am bethau tymmorol, ac nis dichon obeithio am danynt hwy gydag unrhyw hyder na sicrwydd. Ac er fod edrych yn mlaen i'r byd tragwyddol yn perthyn yn annileadwy i natur dyn, eto y mae pechod wedi troi y teimlad hwnw yn *ofn;* ac nid oes ond yr efengyl a all ei godi i feddu y cymmeriad o "obaith bywiol;" 1 *Pedr* i. 3. Y mae gobaith y Cristion yn cael ei ddesgrifio trwy wahanol ymadroddion:—"Gobaith iachawdwriaeth" (1 *Thes.* v. 8); hyny yw, gwaredigaeth oddi wrth bob drwg naturiol a moesol, yn ei holl ffurfiau a'i raddau, a hyny am byth. "Gobaith bywyd tragwyddol" (*Titus* iii. 7): nid parhad tragwyddol yn unig, ond yr hyn sydd yn cyfansoddi bywyd yn ei ystyr uchaf, sef gwir hapusrwydd—hapusrwydd cyfaddas i'n holl alluoedd dros byth. "Gobaith gogoniant Duw" (*Rhuf.* v. 2): y mae *gogoniant,* yn yr ymadrodd hwn, fe ddichon, yn arwyddo cymmeradwyaeth Duw. Y mae dynion wrth natur yn wrthddrychau anghymmeradwyaeth moesol Duw, ac yn wrthddrychau ei anfoddlonrwydd barnol; ac y mae symmud ymaith hyn yn anhebgorol ac yn ddigonol i wneuthur dyn yn ddedwydd. Y mae gobaith y Cristion yn obaith y bydd yr hyn y mynai Duw iddo fod—yn berffaith sanctaidd ac yn berffaith ddedwydd. "Gobaith cyfiawnder" (*Gal.* v. 5): y mae *gobaith* yn yr ymadrodd hwn yn arwyddo,

Digitized by Google

nid y teimlad o obaith, ond gwrthddrych gobaith, fel mewn manau ereill. "Y gobaith a roddwyd i gadw i chwi yn y nefoedd" (*Col.* i. 5). "Y gobaith gwynfydedig" (*Titus* ii. 13). "Y gobaith a osodwyd o'n blaen" (*Heb.* vi. 18): a "gobaith gwell" (*Heb.* vii. 19). Wrth "obaith cyfiawnder," y meddylir stâd o ffafr gyda Duw, yr hyn yw gwrthddrych ein gobaith; neu y stâd o berffaith ddedwyddwch, yr hyn yw gwrthddrych gobaith y rhai sydd wedi eu cyfiawnhau trwy ffydd.

Y mae gobaith y Cristion yn elfen mor hanfodol o'i fywyd ysbrydol fel y defnyddir ef i osod allan hanfod ei grefydd, megys y defnyddir ffydd a chariad. "Byddwch barod bob amser i ateb i bob un a ofyno i chwi reswm am y gobaith sydd ynoch;" 1 *Pedr* iii. 45. "Daliwn gyffes ein gobaith yn ddisigl;" *Heb.* x. 23. Mae holl ogoniant a bendithion yr efengyl yn ymgrynhoi iddo: *Eph.* i. 18; iv. 4. Amcan neillduol cyhoeddiad yr efengyl ydyw dwyn "gobaith bywyd tragwyddol;" *Tit.* i. 2; *Col.* i. 5, 23. Y mae perffeithiad y bendithion gwerthfawrocaf a gyfrenir trwy yr efengyl yn wrthddrychau gobaith, megys y gwelir yn y dysgrifiadau a roddir o'r gobaith hwn uchod. Y dysgrifiad a roddir o anghredinwyr ydyw, eu bod heb obaith (*Eph.* ii. 12; 1 *Thes.* v. 8), a hyny am eu bod heb Dduw yn y byd; o herwydd y mae Duw yn Dduw y gobaith: *Rhuf.* xv. 13; 1 *Pedr* i. 21. Gwrthddrych neillduol gobaith ydyw Crist: gelwir ef "y Gobaith;" a hyny yn gyntaf, am mai arno ef y mae ein holl hyder yn gorphwys; ac yn ail, am mai yn ei ail ddyfodiad ef y bydd gobaith y Cristion wedi ei gyflawnu: 1 *Tim.* i. 1; *Col.* i. 27; *Tit.* ii. 13. Gobaith, gyda ffydd a chariad, ydynt dair elfen hanfodol bywyd y Cristion: 1 *Cor.* xiii. 13; 1 *Thes.* i. 5; v. 8; *Col.* i. 4; *Gal.* v. 5; *Eph.* iv. 2—5; *Heb.* x. 22, 24. Trwy ffydd y mae y pechadur yn derbyn gras oddi wrth Dduw; trwy gariad y mae yn cyssegru ei hun i Dduw mewn canlyniad i'r hyn a dderbyniodd ganddo; trwy obaith y mae yn edrych yn mlaen am gyflawniad o addewidion Duw iddo, a gorpheniad y gwaith da sydd wedi ei ddechreu ynddo. Ffydd ydyw y gwreiddyn; cariad a'i weithredoedd yw y ffrwyth; gobaith ydyw y brigau uchaf, ag sydd yn ymgyrhaedd hyd y nefoedd. Ffydd sydd yn cofleidio y gras sydd wedi ei ddadguddio eisoes yn nhrefn y prynedigaeth; y mae gweithrediad cariad yn y presennol; ond gwrthddrych gobaith ydyw y dyfodol. Felly y mae y tair elfen hanfodol hyn o'r bywyd ysbrydol yn adlewyrchu cynnydd hanesyddol teyrnas Dduw. Y mae ei sylfaen wedi ei gosod yn mywyd a marwolaeth yr Arglwydd Iesu, ac ar hon y mae ffydd yn adeiladu; y mae cariad yn cymhell i lafur presennol gyda hi; tra y mae gobaith yn edrych yn mlaen at yr amser pan y bydd y gelyn diweddaf wedi ei ddinystrio, a phan roddir y deyrnas i fyny i Dduw a'r Tad, a phob pendefigaeth a phob awdurdod a nerth wedi eu dileu, a Duw oll yn oll.

Y mae gobaith yn galluogi ei pherchenog i ddyoddef profedigaethau y fuchedd bresennol, ac i barhau yn ddigwymp hyd y diwedd (2 *Tim.* ii. 9—12; *Mat.* v. 11, 12; *Heb.* xii. 4); ac yn ngwyneb gwrthwynebiadau a bygythion, ac weithiau gweniaith y byd, i barhau yn ei ymlyniad wrth Grist a'i deyrnas (*Heb.* x. 32, 25; xi.), ac i gyssegru ei hun er llesad i ddynion, ac er gogoniant i Dduw: *Phil.* i. 20—24. Y mae gobaith yn cynnyrchu *ffyddlondeb* mewn dyoddef, ac hefyd mewn gwneuthur ewyllys Duw. Ac y mae y ffyddlondeb hwn yn rhagdybied *amynedd.* Y mae amynedd bob amser yn cydfyned â gobaith. "Ymaros eich gobaith" (1 *Thes.* i. 3); "os ydym yn gobeithio....yr ydym trwy amynedd yn dysgwyl am dano;" *Rhuf.* viii. 25. Cyssylltir ef weithiau â ffydd a chariad, yn lle gobaith, am fod y ddau yn cynnwys eu gilydd: *Tit.* ii. 2; 2 *Tim.* iii. 10; 1 *Tim.* vi. 11. Y mae gobaith yn galluogi dynion nid yn unig i ddyoddef, ond i wneuthur hyny yn llawen—i orfoleddu mewn gorthrymderau: *Rhuf.* v. 2—5. "Duw y gobaith a'ch cyflawno o bob llawenydd;" *Rhuf.* xv. 13. Y mae y Cristion, gan hyny, yn cael ei alw i lawenhau yn yr Arglwydd yn wastadol (*Phil.* iv. 4); i gyfrif profedigaethau yn bob llawenydd (*Iago* i. 2); ac yn nerth Crist i ymffrostio mewn gwendid (2 *Cor.* xii. 9, 10). Cymherir gobaith i helm: fel y mae gan filwyr helm yn amddiffyniad i'r pen yn nydd y frwydr, felly y dylai fod gan y milwr Cristionogol obaith, i'w amddiffyn yntau, ac i'w alluogi i gyfarfod peryglon y dyfodol heb dderbyn niwed: 1 *Thes.* v. 8. Gosodir allan wasanaethgarwch gobaith trwy y gymhariaeth o angor hefyd; "Y rhai a ffoisom i gymmeryd gafael yn y gobaith a osodwyd o'n blaen, yr hwn sydd genym ni megys angor yr enaid, yn ddiogel ac yn sicr, ac yn myned i mewn hyd at yr hyn sydd o'r tu fewn i'r llen;" *Heb.* vi. 18, 19. Y mae amcan cyffredinol y geiriau hyn yn amlwg; sef, y cedwir Cristionogion yn eu lle trwy obaith heb gael eu gyru oddi wrth eu proffes gan brofedigaethau nac ymosodiadau o un math, fel y mae y llong yn cael ei chadw yn sefydlog wrth angor heb gael ei churo yn ddrylliau gan ystormydd yn erbyn creigiau a thywod. Y mae yr angor yn nghwlwm wrth y llong ac yn ngafael yn y ddaiar, ac yn dal peth ansefydlog, trwy gymundeb gafaelgar â pheth sefydlog. Ond er fod yr ystyr cyffredinol yn amlwg, y mae peth anhawsder yn tarddu o fod dwy gymhariaeth yn cael eu huno â'u gilydd. Nid ydym ar unwaith yn gweled y priodoldeb o fod angor yn myned i mewn i'r sanctaidd sancteiddiolaf—i mewn i ystafell ddirgelaf y deml. "Y mae dwy gyffelybiaeth yn cael, nid eu cymmysgu gymmaint, ond eu huno mewn modd rhyfeddol yn y geiriau hyn. Gallasai yr ysgrifenydd gymharu y byd i'r môr, yr enaid i long, a'r gogoniant cuddiedig sydd yn aros y saint i waelod y dyfnder mawr—y ddaiar sefydlog sydd yn ymestyn draw dan y dwfr, ac yn cael ei gorchuddio ganddo. Neu, gallasai gymharu y byd a'r bywyd presennol i'r cyntedd allan, a dedwyddwch dyfodol i'r cyssegr nefol, yr hwn sydd yn cael ei guddio oddi wrthym gan len. Ond y mae wedi uno y ddwy gymhariaeth. Mewn un, y mae yr enaid yn glynu wrth angor fel un mewn ofn llongddrylliad, ac nid yw yn gweled i ba le y mae rhaff yr angor yn rhedeg—yn mha le y mae wedi cydio: ond fe ŵyr ei fod wedi ei guddio y tu ol i'r llen ag sydd rhyngom a'r gogoniant ar ol hyn."—*Ebrard.*

Y mae y cyfeiriadau blaenorol yn dangos yn eglur i ni, yn gyntaf, pa beth ydyw sail gobaith pechadur. Nid dim ynddo ei hun. Gosodir ef allan weithiau fel trugaredd benarglwyddiaethol Duw; weithiau, ufudd-dod Crist hyd angeu, neu yr iawn difai a roddes i Dduw; weithiau, y dadguddiad o drugaredd a gras yn ngair gwirionedd yr efengyl. Ond y mae y rhai hyn yn wahanol olygiadau o'r un peth: *Ioan* iii. 16; *Rhuf.* iii. 21—25; 1 *Tim.* i. 15; 2 *Cor.* v. 19, 21; *Heb.* vii. 25. Maent yn dangos, yn ail, pa fodd y mae i bechadur ddyfod i feddu y gobaith hwn; sef, trwy

Digitized by Google

Yr oedd yr amrywiol ddefodau o lanhâd a phuredigaeth dan y gyfraith yn gysgodau o rinwedd gwaed Crist yn puro a glanhau pechaduriaid mewn ystyr foesol; ac oddi wrth y defodau hyny y daeth y geiriau *sancteiddio, puro*, a *glanhau*, i gael eu defnyddio i osod allan yr olaf. Y mae y Salmydd, yn *Salm* lxi. 7, yn cyfeirio yn amlwg at arwyddocad cysgodol y puredigaethau dan y gyfraith: "Glanha fi âg isop, a mi a lanheir; golch fi, a byddaf wynach na'r eira." Dywed Hengstenberg am yr adnod hon:—"Y mae yma gyfeiriad at natur arwyddol y gyfraith Foseaidd. Yr oedd yr hwn a wnaeth ei hun yn aflan trwy gyffwrdd â chorff marw, yn ol *Num*. xix. 18, i gael ei buro â changen o isop wedi ei throchi yn y dwfr oedd wedi ei gymmysgu â lludw yr anner goch." Barna yr awdwr hwn fod yr isop yn arwydd o'r ymostyngiad dwyfol sydd yn dyfod i'r golwg yn nhrefn maddeuant pechodau. Fel y mae y gedrwydden yn arwyddlun o fawredd dyrchafedig, felly hefyd y mae yr isop o iselder ac ymostyngiad: 1 *Bren*. iv. 33. Y mae cyfeiriad y Salmydd yn yr adnod at y puredigaethau Lefiaidd yn ymddangos yn dra phriodol, pan yr ystyriom fod y gyfraith yn golygu aflendid seremoniol yn arwyddlun o halogrwydd pechod, a bod holl wasanaeth glanhâd yn weithred arwyddol, yn gosod allan y drefn i lanhau oddi wrth bechod. Nid yw y Salmydd yma, wrth ddefnyddio iaith gysgodol y gyfraith am sylweddau ysbrydol, ond yn gwneuthur yr un peth ag a wneir gan ereill o'r ysgrifenwyr sanctaidd. Gwel *Esa*. l. 18.

Yr ydym yn cael cyfeiriad cyffelyb at ddefodau y gyfraith yn *Heb*. x. 22:—"Nesawn â chalon gywir, mewn llawn hyder ffydd, wedi glanhau ein calonau oddi wrth gydwybod ddrwg, a golchi ein corff â dwfr glân." Y mae iaith yr awdwr yn yr holl adran hon wedi ei lliwio yn ddwfn â geiriau a drychfeddyliau y gyfraith. Gwelir ynddynt ar unwaith y cyffelybrwydd a'r gwahaniaeth sydd rhwng cymmundeb y saint â Duw dan yr efengyl a chymmundeb yr Israel âg ef dan y gyfraith—"Wedi glanhau ein calonau oddi wrth gydwybod ddrwg." Nid un o'u geiriau cyffredin am 'lanhad' ydyw y gair yn y lle hwn, ond *γαντιζω*—taenellu; eto gellir ei gymmeryd yn ei ystyr trawsenwol, *glanhau*, am mai glanhâd ydyw effaith taenelliad. "Y mae yr ymadrodd wedi ei fenthyca oddi wrth ddefodau y gyfraith, yn ol pa rai yr oedd llawer o buredigaethau seremoniol yn cael eu gwneuthur trwy daenellu gwaed ar bersonau neu bethau. Allanol oedd y taenelliad hwn. Ond pan y mae yr awdwr yn dywedyd 'glanhau ein calonau,' y mae yn amlwg mai glanhâd tufewnol ac ysbrydol a olygir. Mae y glanhâd tufewnol yn cael ei effeithio trwy waed Crist, â'r hwn y dywedir mewn dull ffugrol fod Cristionogion yn cael eu taenellu."—*Stuart*. Y maent yn cael eu "glanhau oddi wrth gydwybod ddrwg;" yr hyn a all olygu, naill ai ymwybyddiaeth o ddrwg, neu gydwybod wedi ei llwytho gan bechod. Dichon fod y ddau yn cael eu cynnwys yn yr ymadrodd; o blegid y mae y naill fel y llall yn hanfodol i galon gywir yn yr addolydd, ac i lawn sicrwydd ffydd. Y mae ffydd yn Nghrist yn anghydweddol â'r ymwybyddiaeth o amcanion drygionus, yn gystal ac yn rhyddhau dyn oddi wrth deimladau gwasgedig o euogrwydd ar gyfrif ei hen bechodau. Y mae y ddau beth yn cael cyfeirio atynt gan Dr. Owen:—"Mae y gydwybod yn ddrwg mewn dau ystyr: fel y mae yn cythryblu, ac yn condemnio am bechod. Yn yr ystyr yna y mae yr apostol yn llefaru yn yr ail adnod am y gydwybod—cydwybod yn ein condemnio am bechod; yr hyn nid oedd yr aberthau, dan y gyfraith, yn abl i'w glanhau. Calon gyda chydwydod ddrwg felly ydyw calon yn cael ei brawychu gan, ac yn condemnio pechod. Y mae y gydwybod yn ddrwg hefyd am fod ynddi egwyddor lygredig; yr hon sydd yn ei hanalluogi i gyflawni ei phriodol waith, ac yn ei gwneud yn ddiogel pan y mae yn llawn o bob drygioni ac aflendid. Y mae yr ymadrodd yn cyfeirio at yr holl feiau dirgel a chuddiedig yn y galon, y rhai sydd heb fod yn hysbys ond i gydwybod y dyn ei hun: mewn cyferbyniad i aflendid y corff, neu bechodau allanol a gwybyddus." Mae y galon yn cael ei gwaredu oddi wrth gydwybod ddrwg trwy lanhâd neu daenelliad. Mae y gair yn cael ei gymmeryd oddi wrth daenelliad y gwaed ar ol offrymiad yr aberthau (*Exod*. xxix. 16, 21; *Lef*. 4. 17); o'r hyn y rhoddir yr arwyddocad ysbrydol yn *Ezec*. xxxvi. 25. Ond dywedir yn y lle hwn mai â dwfr glân y gwneir y glanhâd. Gwneid rhai puredigaethau trwy ddwfr, a rhai trwy waed. "Gan mwyaf," yn wir, "trwy waed y purir pob peth dan y gyfraith." Eto yr oedd eithriadau: gwel *Lef*. xvi. 26, 28; *Num*. xxxi. 24; *Num*. xxxi. 22, 23. Yr oedd glanhau trwy daenellu gwaed, a glanhau trwy ddwfr, yn gysgodol o'n glanhâd ysbrydol. Yr oedd gwaed yr aberthau yn gysgod o waed ac aberth Crist; ac yr oedd y dwfr rhedegog, neu ddwfr bywiol, yn gysgod o ddylanwadau sancteiddiol yr Ysbryd Glân. Glanhau neu daenellu ein calonau, felly, ydyw gwaith yr Ysbryd Glân, yn rhinwedd gwaed ac aberth Iesu Grist, yn cymhwyso y gwaed hwnw at yr enaid i'w lanhau oddi wrth bob pechod. Y mae amryw o esbonwyr yn barnu fod yr ymadrodd arall, "golchi ein corff â dwfr glân," yn cyfeirio at y bedydd Cristionogol. Dyna olygiad Bleek a Moses Stuart. Dywed yr olaf, fod yma "gyfeiriad amlwg at y defnyddiad o ddwfr yn y bedydd." Y mae hyn yn gwbl gydweddol â dull ein hawdwr; yr hwn sydd yn wastad yn cyferbynu nodiadau Cristionogol a'r rhai Iuddewig. Felly y gwna yma. Yr oedd yr Iuddewon yn cael eu taenellu â gwaed, i'r dyben o gael eu puro yn y fath fodd ag i gael rhyw dderbyniad at Dduw: y mae Cristionogion yn cael eu puro yn dumewnol trwy waed Crist. Yr oedd yr Iuddewon yn cael eu golchi â dwfr, mewn trefn i fod yn bur mewn golygiad seremoniol, ac felly fod yn gymhwys i ymddangos ger bron Duw. Felly hefyd y mae Cristionogion wedi cael eu golchi yn nwfr puredigaethol bedydd. Felly y gorchymynai Ananias i Paul gael ei fedyddio, a golchi ymaith ei bechodau (*Act*. xxii. 16). Yn y gair hwn (*Act*. xxii. 16), yn gystal ag yn yr ymadrodd dan sylw, y mae y gair wedi ei fenthyca oddi wrth y ddefod seremoniol o olchi er puredigaeth. Nid oes bwys neillduol i'w roddi yma ar y ddefod allanol o olchi y corff yn unig; o blegid y mae y cyssylltiad yn dangos fod y cwbl yn cael ei fwriadu i osod allan gymhwysderau ysbrydol Cristionogion yn eu nesâd at Dduw. Ond y mae dull yr ymadrodd yn troi yn gwbl ar gyferbyniad â'r defodau Iuddewig.—*Stuart on the Hebrews*. Ond y mae Calvin, Ernesti, a Dr. Owen, &c., yn gwrthod y golygiad, er yr addef Dr. Owen ei fod ar yr olwg cyntaf yn naturiol. Ffugrol ydyw y frawddeg flaenorol; a mwy cysson ydyw cymmeryd hon hefyd yn ffugrol. "Dywed Pedr," ebe Owen, "nad yw

Digitized by Google

y bedydd sydd yn achub yn gynnwysedig mewn bwrw ymaith fudreddi y cnawd: felly, mae yn rhaid mai ffugrol ydyw yr ymadrodd yma, ac nid priodol. (2.) Er fod y taenelliad a'r golchiad ag y lleferir yma am danynt yn golygu yn benaf ein cymhwysder tufewnol, cysson, trwy y gras sydd yn aileni ac yn sancteiddio, eto y maent yn cymmeryd i fewn y cymhwysiad at ein calonau a'n meddyliau, sydd yn cael ei adnewyddu yn mhob dynesiad o'n heiddo at Dduw; ond nis gall bedydd gael ei adnewyddu a'i fynychu. (3.) Fel y mae glanhau ein calonau oddi wrth gydwybod ddrwg yn cyfeirio at bechodau anhysbys yn y meddwl, felly y mae "golchi ein corff" yn cyfeirio at bechodau allanol. A dywedir fod y corff yn cael ei olchi oddi wrthynt, am mai y corff ydyw offeryn eu cyflawniad; am eu bod yn allanol, mewn cyferbyniad i'r pechodau sydd o'r golwg yn y meddwl; ac am fod y corff yn cael ei halogi ganddynt—gan rai o honynt yn enwedigol: 1 *Cor.* vi.

Dywed Macknight fod y gair a gyfleithir yma *golchi*, yn golygu golchi yr holl gorff; a chyfeirir, yma yn benaf at ymolchiadau yr archoffeiriad a'r offeiriaid. Rhoddwyd gorchymyn i Aaron olchi ei holl gorff (*Lef.* xvi. 4). Geiriau offeiriadol gan hyny yw y rhai hyn. Cyfeiria yr ymadrodd o'r blaen at daenelliad yr offeiriaid â gwaed yn adeg eu cyssegriad (*Lef.* viii. 30). Dywed cyfieithydd Esboniad Calvin ar yr Hebreaid, na thaenellwyd neb â gwaed, oddi eithr y gwahangleifion, a'r bobl ar adeg gwneuthuriad y cyfammod. Yr oedd golchi a dwfr hefyd yn ddefod arferol gan yr offeiriaid. Golchasant eu cnawd ar adeg eu cyssegriad, a gwnaent hyny pa bryd bynag yr elent i wasanaethu. Os hwn ydyw y golygiad cywir—os at y defodau perthynol i'r offeiriaid yn unig y cyfeirir yma—yna y mae y Cristionogion yn cael eu cyffelybu, nid i'r Israeliaid, ond i'r offeiriaid. Ac y mae y geiriau yn cefnogi y golygiad hwn. Darlunir yr holl saint fel offeiriaid i Dduw, o dan yr Offeiriad Mawr. Trwyddo ef gwnaed hwythau yn offeiriaid; ac y mae ganddynt ryddid i fyned i'r cyssegr trwy waed Iesu; gallant nesau yno yn hyderus trwy ei waed ef, ac nid mewn cryndod ac arswyd fel yr archoffeiriaid dan y gyfraith. Ond fel yr oedd yn rhaid i'r offeiriaid gynt gael eu taenellu â gwaed, a'u golchi dro ar ol tro, felly hefyd y rhaid i'r offeiriaid yn awr, sef y Cristionogion, brofi maddeuant trwy waed Crist, a chael eu sancteiddio yn wastadol i wasanaethu yr Arglwydd.

GODINEB, [*god*=gwyriad oddi wrth beth]. Wrth odineb yr ydys yn golygu, yn ol ystyr cyffredin y gair, cyssylltiad ystlenol rhwng gwraig briod â rhyw ddyn heb law ei gŵr ei hun, neu rhwng gŵr priod ac unrhyw ferch heb law ei wraig ei hun. Ond ni edrychid ar y pechod mor eang a hyn yn mysg y cenedloedd dwyreiniol, ac nid felly y deallid ef gan yr Iuddewon. Yn ol eu syniad hwy, godineb oedd y weithred trwy yr hon y gellid dwyn plant rhywun heb law ei blant ei hun i deulu gŵr priod. Godinebwr, gan hyny, oedd unrhyw ddyn a ymgyssylltai yn anghyfreithlawn âg unrhyw wraig briod, neu âg unrhyw ferch a fyddai wedi ei dyweddio i ŵr; a godinebwraig oedd merch ddyweddïedig neu briod a ymgyssylltai yn anghyfreithlawn âg unrhyw ddyn heb law ei gŵr ei hun. Ond ni ystyrid cyssylltiad anghyfreithlawn rhwng gŵr priod a gwraig ddibriod, ac heb ei dyweddio i ŵr, yn *odineb*, fel y gwneir yn ein plith ni, ond *puteindra*—yr hyn a ystyrid yn bechod mawr; ond, nid fel godineb. Hwn oedd yn perygiu dwyn hâd anghyfreithlawn i deulu, neu dori etifeddiaeth a berthynai yn gyfiawn i un teulu, i un yn perthyn i deulu arall, neu ddwyn pwys a gofal plentyn ar un heb fod yn dad iddo mewn ystyr priodol. Gellir dywedyd fod pob godineb yn buteindra, ond nid ydyw pob puteindra yn odineb. Godineb ydyw y ffurf waethaf o'r pechod, ac y mae yn cynnwys y drwg dwbl o anniweirdeb, a throsedd yn erbyn un o iawnderau mwyaf cyssegredig ein cymmydog.

Y mae yn ddiammheu fod y syniad uchod o eiddo y dwyreinwyr am odineb yn dal perthynas agos âg amlwreiciaeth. Os edrychir ar odineb fel trosedd o'r cyfammod priodasol, rhwng un dyn ac un ddynes, fel y gwneir mewn gwledydd Cristionogol, y mae y dyn yn gystal a'r ddynes yn tori y cyfammod, trwy bob gweithred o ymgyssylltiad âg unrhyw ferch arall: ond lle y bydd amlwreiciaeth yn cael ei ganiatau—lle y gall y gŵr briodi gwragedd ereill, a chymmeryd iddo ei hun ordderchwragedd a chaethferched, nid ydyw ac nis gall y cyfammod priodasol roddi hawl gyfreithlawn i'r ferch i gael y gŵr yn eiddo hollol iddi ei hun. Gan hyny, pe buasai Iuddew yn ymgyssylltu â merch heb fod yn wraig iddo—ei ordderchwraig, neu ei gaethferch—ystyrid ef yn euog o anniweirdeb neu buteindra; ond nid oedd yn cyflawnu un trosedd ag oedd yn rhoddi i'r wraig hawl i achwyn fod ei hiawnderau cyfreithlawn wedi eu troseddu. Pa fodd bynag, pe buasai y ferch â'r hon yr ymgyssylltodd yn briod â rhyw ddyn, buasai yn euog o odineb—nid trwy droseddu ei gyfammod priodasol ei hun, ond trwy achosi toriad y cyfammod oedd rhwng y ferch hono a'i gŵr.

Ond y mae yn amlwg fod ystyr y gair *godineb* fel trosedd o'r seithfed gorchymyn yn llawer eangach na'r syniad a goleddid am dano gan y dwyreinwyr. Y mae yn cynnwys nid yn unig godineb, puteindra, a phob llosgach anghyfreithlawn, ond meddyliau drwg ac anllad, a phob peth a fyddo o duedd i gynnyrchu y cyfryw feddyliau. Y mae ein Hiachawdwr yn sicrhau fod y gorchymyn "Na wna odineb," yn edrych nid yn unig ar y weithred allanol, ond ar feddyliau y galon a throadau y llygaid; fod y rhai a goleddant ddymuniadau anllad—fod y rhai a edrychent ar wraig er mwynhau eu chwant—eisoes, yn ngolwg Duw, wedi troseddu y gorchymyn, a gwneuthur godineb yn y galon. Edrychiad anllad y llygad a arweiniodd Dafydd i gyflawnu godineb, ac arweiniodd godineb ef i gyflawnu llofruddiaeth: 2 *Sam.* xi; *Salm* li. Gyda golwg ar duedd beryglus yr edrychiad hwn y dywedodd Iob, "Mi a wnaethum ammod â'm llygaid; pa ham, gan hyny, y meddyliwn am forwyn?" *Iob* xxxi. 1. Yr oedd yr ammod hwn yn cynnwys penderfyniad na byddai iddo edrych ar wagedd, ac yn enwedig yn anniwair a thrythyll ar wragedd, i'w chwennychu hwynt. Y mae yn amlwg fod Iob yn deall ysbrydolrwydd manwl y gyfraith, fod edrychiad y llygaid a meddwl y galon yn doriad o honi, fel y weithred o anniweirdeb. At hyn y mae yr apostol Pedr yn cyfeirio pan y dywed am y gau athrawon, "A llygaid ganddynt yn llawn godineb;" 2 *Pedr* ii. 14. Y mae y llygaid yn gyffredin yn ddangosiad lled gywir o ansawdd y galon. Y mae y llygaid anniwair yn arwydd o galon anniwair. Y mae y gorchymyn hefyd yn gwahardd geiriau anllad. Meddyliau anllad sydd yn cenedlu geiriau anllad;

Digitized by Google

ac y mae geiriau anllad, o'r tu arall, yn cenedlu ac yn lluosogi meddyliau anllad. I'r graddau y maent yn cyfranogi o ansawdd y galon, y maent yn ddrwg moesol. Tra y mae meddyliau anllad yn gwneuthur mawr niwed i'r neb a'u coleddo, y mae geiriau anllad yn trosglwyddo y drwg i ereill. Pan y mae y ffrydiau yn rhedeg allan o'r ffynnon y maent yn gwasgaru eu dylanwad dinystriol. A thra y mae geiriau yn trosglwyddo y drwg i ereill, y maent ar yr un pryd yn ei gryfhau yn meddwl y siaradwr ei hun. Y mae yn anmhosibl dyweyd pa faint o ddrwg a all ddeilliaw oddi wrth un gair. Gall greu mewn meddwl ag oedd o'r blaen, mewn cymhariaeth, yn bur, ddymuniad a esgor ar ganlyniadau gofidus; îe, gall ennyn tân a ddifa bob egwyddor dda yn yr enaid.

Yn ol cyfraith Moses yr oedd y pechod o odineb i'w gospi â marwolaeth: *Lef.* xx. 10; *Deut.* xxii. 22. Ni phenodwyd y dull priodol o roddi y troseddwr i farwolaeth gan y gyfraith. Yr oedd yr Iuddewon eu hunain yn amser Crist wedi penderfynu mai llabyddio â meini fyddai y dull. Yr oedd y dull o ddienyddio am odineb yn amrywio mewn gwahanol achosion. Weithiau, dienyddid y troseddwr trwy ei dagu. Yn amser Ezeciel (*Ezec.* xvi. 38—40), llabyddid ef â meini, a thrywenid ef â chleddyf. Os delid merch offeiriad mewn godineb, y gosp fyddai ei llosgi i farwolaeth; os delid caethferch, rhoddid deugain gwialenod ond un i'r pleidiau euog. Yn yr amgylchiad hwn, yn chwanegol at y fflangelliad, yr oedd yn rhaid i'r godinebwr ddwyn hwrdd yn aberth dros ei gamwedd i ddrws pabell y cyfarfod i'r offeiriad i'w aberthu drosto. Er fod cyfraith Moses yn gorchymyn cospi y godinebwyr â marwolaeth, nid oes genym gymmaint ag un esampl yn holl hanesiaeth y Beibl ddarfod iddi, mewn unrhyw amgylchiad, gael ei rhoddi mewn grym. Ar hyn sylwa Lightfoot:—"Nid wyf yn cofio i mi mewn un lle yn y Pandect Iuddewig gyfarfod âg esampl o wraig yn cael ei chospi â marwolaeth am odineb. Crybwyllir am ferch i ryw offeiriad wedi ei llosgi am gyflawnu puteindra yn nhŷ ei thad; ond nid oedd yn briod." Yn mhlith yr Assyriaid a'r Caldeaid, cospid godinebwyr trwy dori eu trwynau ymaith. Tybir mai at y gospedigaeth hon y cyfeiria Ezeciel pan y dywed, "A mi a osodaf fy eiddigedd yn dy erbyn, a hwy a wnant â thi yn llidiog; dy drwyn a'th glustiau a dynant ymaith;" *Ezec.* xxiii. 25. Nid oes un ammheuaeth nad oes yma gyfeiriad at y dialedd llidiog a wneid ar brydiau gan wŷr eiddigeddus a chyffrous, ar eu gwragedd godinebus; ac yr arwyddai y byddai i'r Arglwydd ddefnyddio y Caldeaid i ddinystrio brenin, tywysogion, offeiriaid, a phrophwydi Iudah. Yr oedd tori ymaith eu trwynau yn gwneyd eu gwedd yn wrthun, ac yn warthrudd parhaus iddynt. Yr ystyr ydyw, y byddai i Dduw ddarostwng Ierusalem i gywilydd dirfawr ac erchylldra gresynus. O'r diwedd cymmerodd ysgariaeth le pob cospedigaeth arall. Yr oedd yr Iuddewon yn amrywio yn fawr yn eu barn am ba achosion y caniateid i ŵr roddi llythyr ysgar i'w wraig. Haerai un dosbarth enwog o'u dysgawdwyr y gellid ei roddi am unrhyw achos, gan nad pa mor ddibwys bynag y byddai. Credai dosbarth arall nad oedd dim ond godineb a allai ei gyfiawnhau. Y gwir oedd, pa fodd bynag, fod y gŵr yn arfer yr hawl hon wrth ei ewyllys—ei fod yn farnwr yn yr achos, ac y byddai yn gollwng ymaith ei wraig ar y pryd, ac am yr achos, yr ewyllysiai. Ymddengys fod hyn yn gydunol â'r ddeddf yn *Deuteronomium.* Dywed ein Iachawdwr, yn *Marc* x. 1—12, mai o herwydd caledwch eu calonau y caniatawyd hyn iddynt, ond nad oedd felly yn y dechreuad. Dygodd Crist briodas yn ol i'w dull dechreuol, a dywedodd y byddai pwy bynag a ollyngai ymaith ei wraig rhagllaw yn euog o odineb. Sicrhaodd wrthynt nad oes dim ond godineb yn cyfiawnhau ysgariaeth. Hyn yw cyfraith Duw yn bresennol, a hyn oedd y gosodiad dechreuol. Ond dylid sylwi nad ydyw ein Iachawdwr yn rhoddi ar ddeall fod yn rhaid i ŵr roddi llythyr ysgar i'w wraig hyd yn oed am odineb; nid ydyw ond yn unig yn ei oddef yn yr amgylchiad hwnw, ac yn ei wahardd yn mhob amgylchiad arall.

Y mae y gair *godineb*, yn ol iaith ffugrol yr Ysgrythyrau yn arwyddo eilunaddoliaeth, a gwrthgiliad oddi wrth addoliad y gwir Dduw: *Ier.* iii. 8, 9; *Ezec.* xvi. 32; xxiii. 37; *Dad.* ii 22. Defnyddir y gair *putain* i ddynodi eglwys neu ddinas a fyddo wedi gwrthgilio oddi wrth Dduw, yn enwedig y genedl a'r eglwys Iuddewig: *Esa.* i. 21; *Ier.* iii. 6, 8, 9: *Ezec.* xvi. 22; xxiii. 7. Mae yr ymadroddion a ddefnyddir yn yr adnodau hyn wedi codi oddi wrth y ffaith fod y cyfammod rhwng Duw a'r bobl yn myned tan y ffugr o briodas; a thrwy gymhwysiad o'r un ffugr, y mae yr ymadrodd "cenedlaeth odinebus" (*Mat.* xii. 39; xvi. 4; *Marc* iii. 38) yn arwyddo cenedlaeth anffyddlon a drwg.

PRAWF AM ODINEB.

Y mae yn ddiammheu fod y ddefod o brofi gwraig a ddrwgdybid gan ei gŵr, o fod yn euog o'r trosedd o odineb, fel y dysgrifir yn *Num.* v. 11—2, yn un o'r rhai hynotaf yn nghyfraith Moses; ac nis gellir ei hiawn ddeall heb edrych arni yn ei pherthynas â'r cyfammod a wnaed rhwng Duw ac Israel. Yr oedd cyfattebiaeth neillduol rhwng y cyfammod priodasol a'r cyfammod cenedlaethol. Dewiswyd y berthynas yma, yr hon sydd mor bwysig i lwyddiant personol a gwladol, fel dangosiad o berthynas y genedl â Duw; ac o herwydd y tebygolrwydd rhwng y ddwy, y mae Moses (*Num.* xv. 39), a'r prophwydi mewn oesoedd diweddarach, yn dysgrifio anffyddlondeb y genedl i'r cyfammod fel puteindra tuag at Dduw. Gan hyny yr oedd manylrwydd gyda golwg ar y berthynas deuluaidd yn berffaith gysson âg ysbryd cyfraith Moses, fel y byddai ymddygiad gŵr a gwraig at eu gilydd yn mhob teulu yn ddangosiad o'r modd yr oedd y genedl i ymddwyn at Dduw. Edrychid ar hyn yn fwy pwysig o dan yr hen oruchwyliaeth, am mai mewn cyssylltiad â lluosogiad had sanctaidd yr oedd y cyfammod i ateb ei ddyben mawr o fod yn fendith i'r byd. Ystyrid fod yr hwn a halogai y gwely priodasol yn llygru sianel bendithion y cyfammod, ac yn troseddu yn erbyn amcan mawr y ffurflywodraeth Iuddewig. Gan hyny, cospid â marwolaeth pwy bynag y ceid sicrwydd ei fod yn euog o odineb; a rhoddid cyfleusdra i'r gŵr a dybiai fod ei wraig yn euog o hono i appelio at Dduw i'w chospi, os byddai yn euog. Gan mai gan y wraig yr oedd mwyaf i'w wneyd tuag at gadw anrhydedd a phurdeb teuluaidd, yr oedd o bwys rhoddi y cymhelliad cryfaf iddi i ymgadw yn ffyddlon at ei chyfammod priodasol.

I'r dyben hwn y sefydlwyd "defod ac offrwm eiddigedd." Nid oedd y ddefod i'w rhoddi mewn grym ond pan y byddai seiliau cryfion i ammheu ffyddlondeb y wraig. Dywed yr Iuddewon y

Digitized by Google

byddai y gŵr yn dwyn y wraig at y Sanhedrim, neu lys cyfreithiol ei ardal, yn gyntaf, lle y profai trwy dystion iddo ei rhybuddio hi o'i harferion drwgdybus; ac etto ei bod hi yn parhau i'w dilyn, ac ar yr un pryd yn hòni ei bod yn ddiwair, ac am hyny y dymunai ei phrofi hi trwy y dwfr chwerw, i gael allan y gwirionedd. Yna danfonid ef a hithau at y Sanhedrim fawr yn Ierusalem, lle y gwnaid prawf; ond cyn ei phrofi â'r dwfr chwerw, defnyddient eiriau teg a dychrynllyd i gael ganddi hi gyfaddef ei bai; ac os daliai o hyd i wadu, gorfodid hi i fyned drwy y prawf. Yn ol yr adroddiad a geir yn y bummed bennod o *Numeri*, yr oedd y gŵr, pan y deuai "ysbryd eiddigedd" arno, i fyned gyda'i wraig i'r tabernacl, i ymddangos ger bron yr offeiriad. Yr oeddynt i gymmeryd gyda hwynt, fel bwyd-offrwm drosti, y ddegfed ran o ephah o flawd haidd, ond heb olew a thus, y rhai yr arferid eu dwyn gydag ef. Arwydd llawenydd oedd y bwyd-offrymau, gydag olew a thus; ond arwydd galar oedd yr offrwm hwn, heb olew a thus; a gwarth a galar oedd yr achos o hono i'r gŵr a'r wraig, ac i'r teulu a'r perthynasau oll, yn enwedig os ceid y wraig yn euog. Yna yr oedd yr offeiriad i gymmeryd dwfr sanctaidd: o ba le y ceid ef, ni ddywedir; ond y mae yn dra thebygol mai dwfr o'r noe bres, yr hon oedd yn nghynteddd y tabernacl, a feddylir. Yr oedd yr offeiriad i roddi y dwfr hwn mewn llestr pridd, ac i'w gymmysgu â pheth o'r llwch fyddo ar lawr y tabernacl. Yna yr oedd i ddiosg am ben y wraig, ac i weinyddu llw difrifol iddi:—hi yn y cyfamser yn dal yr offrwm yn ei llaw, ac yntau yn dal y llestr yn cynnwys y dwfr a elwid "y dwfr chwerw sydd yn peri y felldith." A ganlyn oedd y llw:—"Oni orweddodd gŵr gyda thi, ac oni wyraist i aflendid *gydag arall*, yn lle dy ŵr, bydd di ddiniwed oddi wrth y dwfr chwerw hwn, sydd yn peri y felldith. Ond os gwyraist ti oddi wrth dy ŵr, ac os halogwyd di, a chydio o neb â thi heb law dy ŵr dy hun, rhodded yr Arglwydd dydi yn felldith ac yn llw yn mysg dy bobl pan wnelo yr Arglwydd dy forddwyd yn bwdr, a'th groth yn chwyddedig; ac aed y dwfr melldigedig hwn i'th goluddion, i chwyddo dy groth, ac i bydru dy forddwyd." Gyda hyn yr oedd y wraig i ddywedyd "Amen, Amen;" hyny yw, Felly bydded, Boed i mi fel y cyhoeddwyd, os ydwyf yn euog: a dywedai Amen ddwywaith er cadarnhau y peth. Dywed yr awdwyr Iuddewig, os gwrthodai hi y llw hwn, a'r dwfr chwerw, a chyfaddef ei heuogrwydd, na roddid hi i farwolaeth; eithr ei hysgar yn unig, heb waddol. Yna yr oedd yr offeiriad i ysgrifenu pob gair o'r melldithion uchod, y rhai drwy ddyweyd Amen, Amen, a alwasai y wraig i ddyfod arni ei hun, ar femrwn, yn nghyd âg enw y wraig hefyd, medd rhai, ond nid ei dau Amen hi. Wedi eu hysgrifenu, golchai hwy ymaith oddi ar y memrwn *â'r* dwfr chwerw, ac *i'r* dwfr chwerw, cyn ei roddi i'r wraig i'w yfed. Yr oedd yfed y dwfr, wedi dileu y melldithion âg ef ac ynddo, yn arwyddo y dilëid y melldithion oddi ar y wraig fel oddi ar y memrwn, os oedd hi yn ddieuog; ac os yn euog, y deuent arni trwy yfed y dwfr, wedi golchi y melldithion âg ef ac iddo. Wedi hyny, cymmerai yr offeiriad "offrwm yr eiddigedd" o law y wraig, a chyhwfanai ef ger bron yr Arglwydd, gan losgi rhan o hono ar yr allor, a diweddu y ddefod trwy roddi y gweddill o'r dwfr i'r wraig i'w yfed.

Y mae yn ddiammheu mai y rhan bwysicaf o'r ddefod oedd llw y puredigaeth. Gellir dywedyd ei fod yn cynnwys ysbryd y cwbl. Yn unol â nodwedd gyffredinol goruchwyliaeth Moses, cymmerai y llw ffurf cyfraith o ad-daliad ar un llaw, cyhoeddai fod yr hon oedd yn ddieuog yn rhydd oddi wrth gospedigaeth; ac ar y llaw arall, cyhoeddai y disgynai y felldith ar yr euog, sef pydredd ac anffrwythlondeb yn y rhanau hyny o'r corff oeddynt wedi eu defnyddio i gyflawnu drygioni. Fe chwanegwyd y traflwnc dwfr i'r dyben o roddi mwy o rym a difrifwch i'r felldith, ac i fod fel math o weithredydd cynnrychiadol er sicrhau ei gweinyddiad. Gelwid ef yn chwerw, nid am ei fod yn chwerw ynddo ei hun, ond o herwydd ei effaith goruchnaturiol a barnol ar yr euog, yr hyn oedd chwerw ac ofnadwy iawn; ac o herwydd hyn hefyd, yr oedd y dwfr ei hun i fod yn sanctaidd, i ddynodi ei gyssylltiad â Duw; ac i gael ei gymmysgu â llwch, llwch tabernacl Duw, i arwyddo ei fod yn cael ei ddefnyddio gan Dduw i drosglwyddo melldith, ac i ddangos fod y person oedd yn ei haeddu wedi ei gyfiawn dynghedu i gyfranogi o felldith wreiddiol y sarff: *Gen.* iii. 14: cymh. *Salm* lxxii. 9; *Micah* vii. 17. Wrth gwrs, yr oedd y gweinyddiad gweithredol o'r felldith yn dibynu ar ewyllys a gallu Duw, cyfryngiad yr hwn a erfynid ar y pryd gyda difrifwch; a chyflawnid y ddefod gan gredu y byddai i Ragluniaeth ddangos gwahaniaeth rhwng y cyfiawn a'r drygionus. Dywed yr Iuddewon y byddai y dwfr yn effeithio yn y fan ar yr euog, cyn braidd gorphen ei yfed; troai ei gwyneb yn welw, safai ei llygaid allan, codai ei gwythenau drosti oll, chwyddai ei bol, a gwaeddai pawb o amgylch, "Bwriwch hi allan, bwriwch hi allan, fel nad halogo hi y cyntedd." Dywedent hefyd y byddai yr un effeithiau ar y godinebwr a'i halogasai hi, ar yr un pryd; a phan y byddai hi farw, byddai yntau farw, pa le bynag y byddai. Dywed yr Iuddewon hefyd, os byddai gŵr y wraig odinebus yn euog o odineb ei hun, na effeithiai y dwfr chwerw ar y wraig yn y modd uchod; a phan amlhaodd puteinwyr yn Israel, dywedant nad oedd y dwfr yn effeithio fel hyn ar y gwragedd er eu bod yn euog, am fod y gwŷr yn euog hefyd; a thybia rhai mai at hyn y cyfeirir yn *Hos.* iv. 14.

Nid ydyw yn anhawdd esbonio y pethau israddol ereill yn y ddefod; megys, rhoddi y dwfr mewn llestri *pridd*, appwyntiad blawd *haidd* yn offrwm, heb olew a thus, a diosgiad pen y wraig. Yr oedd y ddau flaenaf, o herwydd eu rhadlonrwydd, yn arwyddion o waelder a darostyngiad, ac wedi eu bwriadu i drosglwyddo yr argraff y dylai pob gwraig, yn achos yr hon y defnyddid hwynt, edrych arni ei hun fel wedi ei darostwng. Dyfnhëid yr argraph trwy absennoldeb yr olew —yr arwydd o'r Ysbryd, a'r thus—yr arwydd o weddi gymmeradwy. Dangosid hyn yn fwy eglur fyth trwy ddiosgiad y pen, am ei fod yn amddifadu y wraig o'r prif arwydd o'i diweirdeb; gan ei darostwng hi i sefyllfa un oedd dan yr angenrheidrwydd o gyfaddef ei heuogrwydd, neu un ar brawf i sefydlu ei diniweidrwydd. Yr unig ranau o'r ddefod sydd yn anhawdd i'w deall ydyw y rhai sydd yn perthyn i gyflwyniad yr offrwm o flawd haidd. Gelwir yr offrwm yma, yr hwn yn *adn.* 25, a elwir yn "offrwm yr eiddigedd," yn bendant yn offrwm y wraig yn *adn.* 11. A'i fod i gael ei gyssylltu â hi yn hytrach nag â'r dyn, sydd eglur hefyd oddi wrth y ffaith mai hi oedd wedi ei happwyntio i ddal yr offrwm yn ei dwylaw yn ystod gweinyddiad

Digitized by Google

y llw. Ac nid ydym i ddeall mwy wrth y cyfarwyddyd yn *adn.* 15, i'r gŵr ei ddwyn, na'i fod ef, fel perchenog holl eiddo y teulu, i ofalu am bob peth angenrheidiol ar yr achlysur. A chan y byddai yn rhaid i'r wraig fyned i'r tabernacl i gyflawnu y gwasanaeth hwn, pa bryd bynag y deuai "ysbryd eiddigedd" arno, gellid gyda phriodoldeb perffaith alw yr offrwm, er ei fod yn perthyn yn fwy priodol iddi hi, hefyd yn "offrwm yr eiddigedd," am ei fod yn ffrwyth "ysbryd eiddigedd" yn y gŵr. Y wraig, fel y crybwyllwyd, a ddaliai yr offrwm yn ei dwylaw yn ystod y rhan bwysicaf o'r ddefod, tra y daliai yr offeiriad ddwfr y felldith yn ei ddwylaw. Yna ymddangosai yr offeiriad fel cynnrychiolydd a dadleuydd y gŵr fyddai yn drwgdybio ei wraig, ac fel y cyfryw deuai o'i blaen gydag arwydd o'r felldith. Y wraig, ar y llaw arall, gan hòni ei diniweidrwydd, a safai o'i flaen ef gyda'r arwydd o'i diniweidrwydd—y bwyd offrwm—yr hwn oedd yn dynodi gweithredoedd da. Cyn gynted ag y cyhoeddid y felldith, ac y dywedai y wraig "Amen" ddwywaith, yna newidiai y nwyddau ddwy law. Derbyniai yr offeiriad y bwyd offrwm gan y wraig—cyhwfanai a chyflwynai ef i Dduw, yr hwn yn unig a allai brofi yr arenau; fel, os caffai efe ei fod yn arwydd cywir o'i diniweidrwydd, y gallai adael iddi wybod trwy brofiad "na ddaw y felldith ddiachos." Y wraig, o'i thu hithau, a dderbyniai ddwfr y felldith o ddwylaw yr offeiriad, ac a'i hyfai; fel, os oedd yn arwydd cywir o'i heuogrwydd, y gallai fod yn debyg i dywalltiad digofaint yr Arglwydd ar ei rhanau dirgelaidd. Fel hyn, gadewid y mater yn nwylaw Chwiliwr y calonau. Os byddai yn euog ger ei fron ef, yna yr oedd yr offrwm yn coffau anwiredd; ond os na byddai, yr oedd yn coffau diniweidrwydd, ac yn amddiffyniad i'r cyfiawn rhag cyhuddiadau anwireddus. Yr oedd yr holl wasanaeth yn trosglwyddo argraff ddifrifol o ofal neillduol Duw am y cyfammod priodasol, a'i ddigofaint yn erbyn y neb a'i troseddai. Ac fel arwydd o'r cyfammod rhwng Duw a'r genedl, yr oedd yn dangos yr angenrheidrwydd o ffyddlondeb, a'r canlyniad o anffyddlondeb.

A ganlyn yw sylwedd y rhesymau a roddir gan y beirniaid dros y ffaith nad oedd un gyfraith o blaid y gwragedd, i brofi eu gwŷr—1. Pe rhoisid awdurdod felly iddi hi, buasai yn lleihau awdurdod y gŵr, ac yn peri iddo golli ei ddylanwad fel penteulu; a thrwy hyny dygasid annhrefn i mewn i deuluoedd ac i'r wlad. 2. O blegid nad oedd cymmaint o ddrygau yn dyfod i mewn i deuluoeddd trwy odineb y gŵr a thrwy odineb y wraig. 3. O herwydd fod y gwragedd yn fwy tueddol i ddrwgdybied na'r gwŷr, ac na buasai diwedd ar y profion uchod pe cawsai pob gwraig ddrwgdybus eu gwneyd ar y gŵr. 4. O herwydd fod y gwragedd yn mhlith yr Iuddewon yn yr oesau hyny yn fwy tueddol i odineb, gan mor fawr oedd eu hawydd i gael plant, fel na byddent o dan y gwarth o anmhlantadrwydd.

GOFAL—U, [*go*—*mal*=briwiad]: teimlad briwedig, neu feddwl pryderus ynghylch unrhyw beth. "Am neillduaeth Reuben yr oedd mawr ofal calon" (*Barn.* v. 15, 16); hyny yw, yr oedd gwaith Reuben yn aros o'r neilldu, heb gymgymmeryd un rhan yn y frwydr yn erbyn brenin Canaan, yn ofid mawr i galon Deborah a Barac, a phawb oedd yn cynnorthwyo yn y rhyfel. Arferir y gair hefyd am yr hyn fyddo yn wrthddrych gofal. "Pan gymmero gŵr wraig newydd, nac eled i ryfel, ac na rodder gofal dim arno" (*Deut.* xxiv. 5); hyny yw, dim perthynol â'r fyddin, a'r rhyfel, na dim perthynol i'r wladwriaeth yn gyffredin, trwy yr hyn y byddai raid iddo fod yn absennol oddi wrth ei wraig newydd. Mae yn yr iaith Roeg ddau air a gyfieithir *gofal;* sef σπυδη, a μεριμνα: y cyntaf yn arwyddo gofal cyfreithlon, rhesymol, ac angenrheidiol, sef llafur a diwydrwydd gyda gwahanol ddyledswyddau bywyd: (2 *Cor.* vii. 12); a'r ail yn arwyddo gofal poenus, diangenrhaid, yn tarddu o ddiffyg ymddiried yn Nuw: *Mat.* xiii. 22; *Luc* viii. 24; xxi. 34; 1 *Pedr* v. 7. Mae y cyntaf yn ddyledswydd, a'r ail yn bechod—un yn ffynnonell o gysur, a'r llall yn ffynnonell o ofid. Yr olaf a waherddir gan Iesu Grist yn y geiriau "Na ofelwch am eich bywyd, pa beth a fwytaoch, neu pa beth a yfoch, neu am eich corff, pa beth a wisgoch;" *Mat.* vi. 25. Y gwreiddiol am "Na ofelwch" yw Μὴ μεριμνᾶτε—"Na fyddwch *bryderus.*" Nid gofal priodol a rhesymol am y dyfodol sydd yn cael ei wahardd yma, ond y rhagofal *trallodus* a *phryderus* hwnw yn ei gylch, ag sydd yn tarddu o anghrediniaeth. Y mae yr Arglwydd Iesu yn enwi pump o resymau i ddangos afresymoldeb y rhagofal hwn, ac i osod allan resymoldeb y ddyledswydd o ymddibynu ar ragluniaeth Duw am fwyd a dillad. Yn gyntaf, Daioni Duw yn ffurfiad ein cyrff; "Onid yw y bywyd yn fwy na'r bwyd, a'r corff yn fwy na'r dillad?" A fydd i'r hwn a roddodd y *bywyd*—bendith lawer mwy na'r *bwyd,* ac a greodd y *corff,* yr hwn sydd yn llawer gwerthfawrocach na'r dillad, esgeuluso rhoddi yr hyn sydd lai, sef gwisg i'r corff a chynnaliaeth i'r bywyd? A fydd i'r hwn a roddodd y fendith fwyaf, wrthod roddi y leiaf. Mae ei ddaioni yn ein creadigaeth yn galw arnom i ymddiried yn ei ragluniaeth. Gallwn fod yn sicr nad ydyw efe wedi creu un creadur heb ddarparu ar ei gyfer. Yn ail, Gofal Duw am greaduriaid direswm: "Edrychwch ar adar y nefoedd, o blegid nid ydynt yn hau nac yn medi, nac yn cywain i ysguboriau; ac y mae eich Tad nefol yn eu porthi hwy. Onid ydych chwi yn rhagori llawer arnynt hwy?" Nid ydyw adar y nefoedd, creaduriaid a wnaed gan yr un Duw a ninnau, yn teimlo un pryder am gyflawniad eu hangenion; y maent yn dadseinio y coedwigoedd â pheroriaeth, yn croesawu goleuni y bore â'u caniadau, ac yn tywallt allan eu peraidd seiniau gydag awelon yr hwyr, yn hollol foddlawn a dibryder; ac er nad ydynt yn hau nac yn medi, mor lleied o honynt sydd yn marw o newyn. Mor reolaidd y mae Duw yn eu porthi hwy! Er nad ydynt ond creaduriaid bychain a distadl, mor fanwl yw ei ofal ef am danynt! A'r casgliad rhesymol a dynir oddi wrth hyn yw, na bydd i'r Duw da, sydd yn gofalu am borthi adar y nefoedd, adael i'w bobl sydd yn ymddiried ynddo fod mewn eisieu. Yn drydydd, Aflesoldeb gofal gormodol: "A phwy o honoch gan ofalu, a ddichon chwanegu un cufydd at ei faintioli?" Er i ni ofalu, Duw sydd yn trefnu ac yn llwyddo; ac nis gallwn gael dim ond a wêl efe yn dda ei roddi i ni. Gan hyny, nis gall un dyn ennill dim trwy ragofalon pryderus. Yn bedwerydd, Yr ystyriaeth o ofal Duw am hyd yn oed lysiau y maes: "Ystyriwch lili y maes, pa fodd y maent yn tyfu: nid ydynt yn llafurio nac yn nyddu; eithr yr wyf yn dywedyd i chwi na wisgwyd Solomon yn ei holl ogoniant fel un o'r rhai hyn." A wisga Duw

Digitized by Google

Y mae yr hen esbonwyr Groegaidd oll, a'r rhan fwyaf o'r esbonwyr diweddar, yn cymhwyso yr ymadrodd hwn at natur ddwyfol y Cyfryngwr. Mae y geiriad "Oσων ("yr hwn ag efe") yn gosod allan hanfodiad parhaus y Mab fel Mab tragwyddol, ac nid gweithrediad o'i eiddo mewn amser.—*Ebrard.* Ond nid yw hyn yn arwyddo fod un cyfnewidiad wedi cymmeryd lle ar berthynas dragwyddol y Mab a'r Tad trwy yr ymgnawdoliad mewn amser. "Mab y dyn, yr hwn sydd yn y nef" ydoedd efe pan ar y ddaiar; a gallodd yn y sefyllfa hono ddyweyd, "Myfi a'r Tad un ydym." Y mae απαυγασμα=*dysgleirdeb*, yn arwyddo goleuni yn arllwys allan o gorff goleu. Ac y mae y gair δοξα yn arwyddo yn gyffelyb i'r gair Hebraeg am ogoniant, ysblander, llewyrch, a dysgleirdeb. Y mae yr un ystyr iddo yn *Luc* ii. 9; ix. 31; *Act.* xxii. 11. Nid adlewyrchiad oddi wrth gorff goleu ar arwyneb llyfn ydyw meddwl y gair απαυγασμα, fel y dywed rhai esbonwyr; ac nid llifeiriad allan y goleuni o'r corff goleuni; ond y goleuni ei hun wedi dyfod allan oddi wrth y goleuad gwreiddiol. "It denotes, not the brightness received from another body, and thrown back as a reflection on a mirrored image, nor the light continually proceeding from a shining body, as a light streaming on, and losing itself in space; but it denotes a light or a bright ray which is radiated from another light *in so* far as it is viewed as now become an independent light."—*Ebrard.* Y mae rhai yn barnu mai y "gogoniant" yma oedd y Shecinah—y cwmwl hwnw o oleuni dan yr Hen Destament, yn yr hwn yr amlygai Iehofah ei bresennoldeb mewn dull gweledig i Moses, wedi hyny i'r archoffeiriad yn y sancteiddiolaf, ac wedi hyny i'r bugeiliaid ar feusydd Bethlehem. Ond y mae y golygiad hwn yn amlwg anghywir. Yr oedd y goleuni hwnw yn weledig, a llawer mwy; yr oedd y dysgleirdeb oedd yn dyfod o hono felly. Heb law hyny, gwnai yr eglurhad hwn y Mab, yr hwn oedd yn ddadguddiad personol a pherffaith o'r Tad, yn is na'r dadguddiad annherffaith a chysgodol dan yr Hen Destament. Nid oedd y Shecinah ei hun yn ddim mwy na chysgod o ogoniant Duw; nid oedd yn ddysgleirdeb ei ogoniant. Gogoniant (δοξα) Duw, gan hyny, yn y lle hwn ydyw gogoniant hanfodol, tragwyddol, y Tad; "y goleuni nas gellir dyfod atto" (1 *Tim.* vi. 16), yr hyn ydyw Duw ei hun (1 *Ioan* i. 5). Neu, "dysgleirdeb ei ogoniant ef" a "gwir lun ei berson ef," yn golygu yn mron yr un peth. Dywed Ebrard fod *person* a *gogoniant* yn dynodi yr un peth; ond yr edrychir arnynt o safleoedd gwahanol. "Y mae *gogoniant*," ebe Ebrard, "yn golygu hanfod y Tad gyda golwg ar y gogoniant yn mha un y mae yn ymddangos o flaen ei greadur; y mae *person* yn dynodi ei hanfod *fel* hanfod, ac heb gyfeiriad at yr amlygiad allanol. Yn y naill ymadrodd, y mae Duw yn cael ei osod allan o dan y ffugr o oleuni neu oleuad; felly, Crist ydyw y llewyrch sydd yn deilliaw o'r goleuad hwnw. Y mae y corff goleu yn dyfod yn ganfyddadwy trwy y goleuni sydd yn dyfod allan o hono; ac felly y mae Duw wedi amlygu ei hun i ni yn mherson ei Fab (gwel *Ioan* i. 18; xiv. 9; xii. 45; *Col.* i. 15). Ynddo ef y gwelir perffeithiau Duw neu ei ogoniant, yr hwn air a arferir am swm ei holl berffeithiau. Yn yr ymadrodd arall, y mae y Duwdod yn cael ei osod allan o dan y ffugr o sylwedd, hanfod (*hypostasis*); ac, yn ol y ffugr hwn, Crist sydd yn dwyn y sylwedd hwn i'r golwg; efe ydyw yr amlygiad neu yr arddangosiad o hono. Dywed Calvin am y geiriau—"Pan y mae Crist yn cael ei alw yn 'ddysgleirdeb ei ogoniant, a gwir lun ei berson ef,' at ei Dduwdod y cyfeirir. O herwydd yr un rheswm y dywedir y naill beth a'r llall am dano. Geiriau ydynt a fenthycir oddi wrth natur. O blegid nis gellir dyweyd dim am bethau mor ddyfnion ond trwy gyffelybiaethau wedi eu cymmeryd oddi wrth bethau crëedig. Nid oes angen, felly, i ymholi yn gywrain pa fodd y mae y Mab, yr hwn sydd ganddo yr un hanfod a'r Tad, yn ddysgleirdeb yn dyfod allan o'i oleuni ef. Y mae yn rhaid i ni addef fod gradd o anmhriodoldeb yn yr iaith pan y mae yr hyn a fenthycir oddi wrth bethau crëedig yn cael eu cymhwyso at fawrhydi cuddiedig y Duwdod. Nid tybiaethau gwag a ddysgir i ni yma, ond athrawiaeth bwysig berthynol i'n ffydd. Ni a ddylem gan hyny gymhwyso y teitlau uchel hyn a roddir i Grist, er ein llesad ein hunain; o blegid y maent yn dwyn perthynas agos â ni. Pan yr ydym, gan hyny, yn clywed fod y Mab yn ddysgleirdeb gogoniant y Tad, dylem feddwl ynom ein hunain, fod gogoniant y Tad yn anweledig hyd oni lewyrcho allan yn Nghrist; a bod ei fawrhydi yn guddiedig hyd oni ddangoso ei hun yn argraffedig, megys, ar ei ddelw. Nid amcan yr apostol ydyw egluro pa fath gyffelybrwydd sydd rhwng y Mab a'r Tad, ond ein hadeiladu yn y ffydd, trwy ddangos i ni nad yw Duw yn cael ei amlygu i ni trwy un ffordd ond yn ei Fab."

Y mae gogoniant Crist yn ogoniant dyblyg: sef gogoniant ei berson, a'r gogoniant a dderbyniodd fel Cyfryngwr, fel gwobr am ei waith a'i ddarostyngiad. Y mae yr ymadrodd yn *Ioan* i. 14, "Ac ni a welsom ei ogoniant ef," &c., yn golygu gogoniant gwreiddiol ei berson; yr hwn a esbonir yn helaethach gan yr efengylwyr yn y geiriau "yn llawn gras a gwirionedd." Nid yw yn golygu unrhyw ddysgleiriad allanol, gweledig, er y gallai fod yr apostol yn cyfeirio at yr olygfa ar fynydd y gweddnewidiad: gogoniant ysbrydol a olygir yn benaf; dysgleiriad y perffeithiau dwyfol yn mywyd y Mab, yr hwn a ganfyddid â llygad y meddwl, wedi ei oleuo gan yr Ysbryd Glân, ac a ganfyddir eto gan y sawl sydd wedi derbyn ysbryd doethineb a dadguddiad i'w adnabod ef. Gwna Alford y sylwadau canlynol ar yr ymadrodd:—"Y mae y crybwylliad am δοξα (*gogoniant*), wedi cael ei awgrymu gan y gair *trigodd*=pabellodd, yr hwn a arferir mor fynych am y presennoldeb dwyfol, neu y Shecinah. Gwelwyd y gogoniant hwn gan y dysgyblion (*pen.* ii. 11; xi. 4), ac yn neillduol gan Pedr, Iago, ac Ioan, ar fynydd y gweddnewidiad; at yr hwn amgylchiad yr ymddengys fod y geiriau "megys yr Uniganedig oddi wrth y Tad" yn cyfeirio; ond yn benaf yn holl ymddygiad, athrawiaeth, a dyoddefiadau yr Iachawdwr, yn y rhai yr oedd yn llawn gras a gwirionedd. Gallasai Ioan gyfeirio at amlygiadau ereill o'i ogoniant, megys ei wyrthiau, yn y rhai yr arddangosid gogoniant ei allu; ond er mwyn calonogi ffydd, y mae yn nodi "gras a gwirionedd:" dyma y prif amlygiadau. Nid amcan ei ddyfodiad i'r byd oedd dangos ei allu, ond ei ras a'i wirionedd, y rhai yr oedd dynolryw mewn mwyaf o angen am amlygiad o honynt. Dywed Ioan (*pen.* ii. 11, 12), fod Iesu Grist wedi egluro ei ogoniant i'w ddysgyblion yn y briodas yn Cana Galilea. Y mae un awdwr yn sylwi fod yn naturiol i Ioan fod yn hoff o'r gair *gogoniant* yn gystal a'r gair *goleuni*, am fod drychfeddyliau y ddau air yn dwyn perthynas â'u gilydd. "Y mae y *Logos*—y goleuni gwreiddiol—yn arllwys allan

hun oddi wrth y cyfryw farwolaeth. Efe a wnai hyny, am y gogoneddai ei Dad trwy ei farwolaeth; o blegid yn nghroes Crist y mae daioni Duw yn cael ei arddangos ger bron y byd." Canlyniad gogoneddiad y Tad yn y Mab fyddai gogoneddiad y Mab yn y Tad: "Os gogoneddwyd Duw ynddo ef, Duw hefyd a'i gogonedda ef ynddo ei hun." Sylwer ar y gair *yn*—gogoneddu *yn*, nid gogoneddu *gan* neu *trwy*. Yr oedd y Tad yn cael ei ogoneddu yn y Mab, am mai y Mab ydoedd gwir ogoniant y Tad: efe, fel y sylwyd ar *Heb.* i. 2, ydyw dysgleirdeb ei ogoniant ef: y mae yr ail Berson yr un mewn mawredd a'r Tad, ac fel y cyfryw yn alluog i amlygu holl ogoniant y Tad. Y mae y Mab hefyd yn cael ei ogoneddu yn y Tad. Yr un gwirionedd a osodir allan yma ag yn *Col.* iii. 3; "bywyd wedi ei guddio gyda Christ *yn* Nuw:" ymadrodd yn dynodi yr undeb agosaf â'r Tad. Yr un undeb ag oedd rhwng y Mab a'r Tad erioed; y mae y natur ddynol yn awr yn mherson y Mab yn yr undeb hwnw—yn mynwes y Tad, yn mwynhau y cymundeb agosaf âg ef. Dywed Tholuck fod y Tad wedi ei ogoneddu yn y Mab trwy fod y Mab wedi amlygu y Tad, ond fod y Mab wedi ei ogoneddu yn y Tad trwy fod y Mab wedi ei guddio (*Col.* iii. 3) yn Nuw. "Gogonedda di fyfi gyda thi dy hun â'r gogoniant oedd i mi gyda thi cyn bod y byd;" *Ioan* xvii. 5. "Nid yw yn dyweyd, 'y gogoniant a dderbyniais.' Yr oedd y gogoniant hwn yn wastadol ganddo—yn ei feddiant; ni ddarfu iddo erioed ddechreu ei feddiannu. Yr oedd ganddo cyn bod y byd, yr hyn sydd yn gosod allan dragwyddoldeb Mab Duw."—*Bengel.* "Y mae yn awr yn dadgan," ebe Calvin, "nad yw yn dymuno dim na pherthynai iddo; ond yn unig fod iddo ymddangos yn y cnawd y cyfryw ag ydoedd cyn cread y byd; neu fod i'r Mawrhydi Dwyfol, yr hwn a feddiannai bob amser, gael ei egluro yn ogoneddus yn mherson y Cyfryngwr, ac yn y cnawd dynol â'r hwn y gwisgid ef." Dywed Calvin yn mhellach, fod yr ymadrodd yn brawf o wir Dduwdod Crist; o blegid nid Duw mewn ystyr israddol oedd, ond un ag yr oedd ei ogoniant yn dragwyddol, ac felly ei berson yn dragwyddol hefyd. Eto cydnabyddir yn yr ymadrodd fod gwahaniaeth hanfodol rhyngddo ef a'r Tad, o blegid y mae yn son am gael ei ogoneddu gyda'r Tad; yr hyn a ddengys ei fod, nid yn unig yn Dduw tragwyddol, ond hefyd mai efe ydyw tragwyddol Air Duw, wedi ei genedlu ganddo cyn bod y byd. Y mae y gair "gyda thi dy hun," yn arwyddo y berthynas a'r cymundeb agosaf â'r Tad; y cyfryw berthynas a chymundeb ag sydd yn perthyn yn unig i'r uniganedig Fab, yr hwn oedd ganddo erioed fel yr hwn oedd yn mynwes y Tad. Y mae yn cynnwys cymmaint ag a osodir allan yn y gair yn *Ioan* i. 1; "A'r Gair oedd gyda Duw:" ac yn *Zech.* xiii. 7; "Y gŵr oedd gyfaill i mi;" fy nghyfathrachwr, fy nghydradd. Y mae y gair, "y gogoniant oedd i mi gyda thi," yn rhoddi ar ddeall fod y Mab, yn ei gnawdoliad, wedi dodi y gogoniant hwn heibio: llefara am dano fel peth fuasai ganddo cyn bod y byd, ond nad oedd ganddo yn bresennol; eto y mae yn ei hawlio yn awr fel ei eiddo ei hun, am ei fod ganddo cyn bod y byd. Y mae yn amlwg mai nid y priodoliaethau dwyfol a feddylir wrth y gogoniant hwn, o blegid yr oedd yn anmhosibl i'r person ymddiosg oddi wrth y rhai hyny. Peidio a bod yn Dduw fuasai peidio bod hebddynt hwy. Gwelwyd ei ogoniant yn nyddiau ei gnawd yn yr ystyr yma, "yn llawn gras a gwirionedd." Nid ei ogoniant fel Cyfryngwr chwaith a feddylir, o blegid dywed am dano mai y gogoniant *oedd* iddo gyda'r Tad ydoedd, tra y dywed am ei ogoniant Cyfryngol, "y gogoniant a roddaist i mi," yr hwn y mae yntau yn ei roddi eilwaith i'w bobl. Y gogoniant hwn, mae yn debygol, oedd yn "ffurf Duw," o'r hwn y gwaghaodd y Mab ei hun wrth ddyfod i'r cnawd (*Phil.* ii. 6); yr agwedd ogoneddus hono a berthyn i'r Duwdod—"y goleuni nas gellir dyfod ato," yn yr hwn y mae yn trigo; yr amlygiad o'i hawliau a'i fawredd dwyfol, â'r hwn yr ymwrthododd y Mab yn nyddiau ei gnawd; ac yn hyn yr oedd ei ddarostyngiad yn gynnwysedig; "Yr hwn ac efe yn gyfoethog, a ddaeth er ein mwyn ni yn dlawd." Ei sefyllfa wreiddiol oedd bod yn gyfoethog o'r holl hawliau mawreddog na pherthyn i neb ond i'r Duwdod; ac yr oedd yn briodol iddo ymddangos fel y cyfryw: ond yn y cnawd ni chymmerodd fantais ar ei gyfoeth i ymddangos yn gyfoethog; ond "dibrisiodd ei hun, gan gymmeryd arno agwedd gwas;" yn lle ymddangos yn agwedd Duw, yn agwedd deddfroddwr, cymmerodd arno agwedd gwas i'w Dad; dyfod i ufuddhau a wnaeth; er bod yn un a chydradd â'r Tad, eto daeth i sefyllfa ag y gallasai ynddi ddywedyd, "Y mae fy Nhad yn fwy na myfi:" er ei fod yn wir Fab Duw, ac er tystio ei fod, mewn rhai amgylchiadau, eto yr enw a hoffai roddi arno ei hun oedd enw o ddarostyngiad—"Mab y dyn." Yn ei gyfathrach gyffredin â dynion, nid oedd yn ymddangos yr hyn ydoedd; ac yr oedd yn ymddangos yr hyn nid ydoedd. "Yn lle ei bod yn anmhosibl i neb i ammheu ai efe oedd tragwyddol Fab Duw yn y cnawd, ymddangosai braidd yn anmhosibl credu felly, gan mor debyg ydoedd yn ei ymddangosiad a'i ysgogiadau cyffredin i ddynion ereill, ac weithiau hyd yn oed yn fwy digymhorth na llawer o ddynion ereill." Bywyd o ymddieithriad a hunan-attaliad oedd ei fywyd ar y ddaiar. Yr hyn oedd yn naturiol i'w fawredd fuasai ymddangos yn barhaus fel yr ymddangosodd am ennyd fer ar Fynydd y Gweddnewidiad. Gan nad oedd ei waith yn cuddio ei ogoniant yn sefyllfa naturiol i'r person, nid yw yn rhyfedd ei fod yn dyheu am yr adeg pan y cai adwisgo y gogoniant oedd iddo gyda'r Tad cyn bod y byd; neu yn hytrach, pan y byddai yn briodol i'r gogoniant oedd yn hanfodol iddo gymmeryd y ffurf briodol iddo ei hun. Y mae yr adnod hon yn un o'r testynau cryfaf yn erbyn y Sociniaid; nid yw, gan hyny, yn rhyfedd eu bod yn ei gŵyrdroi i "gogoniant oedd wedi ei arfaethu, ei fwriadu i ni cyn bod y byd." Yn y geiriau, "Y gogoniant a roddaist i mi, a roddais iddynt hwy" (*adn.* 22), ac "Fel y gweloch fy ngogoniant" (*adn.* 24), y meddylir, ei ogoniant fel Cyfryngwr. Dywed Brown ar *adn.* 22: "Y gogoniant a feddylir yma ydyw yr hyn oll a dderbyniodd Crist gan ei Dad fel y Cyfryngwr ymgnawdoledig a Phen ei bobl—y gogoniant o gymmeradwyaeth perffaith fel yr Oen difeius—y gogoniant o gael mynedfa rydd at y Tad, a'i wrandaw bob amser—y gogoniant o breswyliad a sancteiddiad yr Ysbryd—y gogoniant o gynnaliad a goruchafiaeth dwyfol ar bechod, diafol, ac angeu—y gogoniant o etifeddu pob peth." Barna Grotius, ac ereill, mai y gogoniant yn *adn.* 22, oedd y gallu i wneuthur gwyrthiau; ac fel prawf, cyfeiriant at *pen.* ii. 11, a xi. 10, am y sonir yn y geiriau hyn am ogoniant Crist fel yr amlygid ef yn ei allu yn y gwyrthiau Ond y mae yn amlwg fod yr eglurhad hwn yn anghywir; o blegid y mae yr lach-

Digitized by Google

awdwr yma yn gweddïo nid yn unig dros yr apostolion, ond dros yr holl gredinwyr yn mhob oes.

Fel ffynnonell bywyd a goleuni y mae yr Arglwydd Iesu yn ffynnonell gogoniant (*Ioan* xvii. 24; *Esa.* xl. 5; *Col.* i. 27): dyben mawr y gredigaeth ydyw fel y cyflawner y byd â gogoniant yr Arglwydd, sef yr Iesu (*Esa.* xl. 5; lx. 1; 2 *Cor.* iv. 17; 2 *Tim.* ii. 10). Pan y bydd hyny wedi ei gyflawnu y bydd nefoedd newydd a daiar newydd (*Esa.* lxv. 17; *Deut.* xxi.) Gelwir ef yn Arglwydd y gogoniant, yn ganolbwynt, ac yn gyfranwr gogoniant: 1 *Cor.* ii. 8; *Iago* ii. 1; *Mat.* xxv. 31; *Luc* xxiv. 26; *Ioan* xvii. 24; 1 *Pedr* i. 21; iv. 13; *Ioan* xii. 41. Gelwir ef yn obaith y gogoniant (*Col.* i. 27); efe yw gwrthddrych a sail y gobaith hwn (2 *Cor.* i. 20; *Rhuf.* xv. 12); efe sydd yn eu harwain i ogoniant. Y mae y gogoniant hwn yn awr dan len, ond yn y dydd mawr yr amlygir ef: *Col.* iii. 3; *Mat.* xxiv. 30; xxv. 31; *Tit.* ii. 13.

Gelwir yr Ysbryd Glân yn Ysbryd y Gogoniant (1 *Pedr* iv. 14), fel y gelwir yr Iesu yn Arglwydd y Gogoniant, am ei fod yn meddu yn ei hanfod tragwyddol bob gogoniant dwyfol (1 *Cor.* ii. 10), ac am mai ei waith ydyw parotoi pechaduriaid i ogoniant.

GOLAN: dinas yn Basan, yr hon a roddwyd o hanner llwyth Manasseh yn feddiant i'r Lefiaid (*Ios.* xxi. 27); ac un o'r tair dinas noddfa ar yr ochr ddwyreiniol i'r Iorddonen: *Ios.* xx. 8. Nid oes grybwylliad arall am dani yn y Beibl. Ac er fod Eusebius a Jerome yn dywedyd ei bod yn ddinas bwysig yn eu hamser hwy, nid yw hyd yn oed ei safle yn adnabyddus yn bresennol.

Y mae Josephus yn fynych yn son am ddinas Golan, ond y mae efe yn son yn amlach am dalaeth a gafodd ei henw oddi wrthi, sef Gaulanitis. Pan ddychwelwyd teyrnas Israel gan yr Assyriaid, a phan yr oedd gallu ac awdurdod yr Iuddewon wedi pallu yn Basan, fe ymddengys fod y llwythau cyntefig (y rhai a ddarostyngwyd lawer gwaith, ond heb eu llwyr ddyfetha) wedi codi i gryn nerth a dylanwad, ac wedi rhanu y wlad i wahanol daleithiau. Yr oedd dwy o leiaf o'r taleithiau hyn, sef Trachonitis a Hauran, o ddechreuad hynafol, ac yr oeddynt wedi bod yn dywysogaethau arbenigol, cyn iddynt gael eu huno i fod o dan un lywodraeth, yn amser Og neu rai o'i olynwyr. Yn flaenorol i'r caethiwed Babilonaidd y mae Basan yn ymddangos mewn hanesiaeth Iuddewig yn un deyrnas; ond yn ganlynol i'r cyfnod hwnw, sonir am dani wedi ei rhanu i bedair o daleithiau; sef, Gaulanitis, Trachonitis, Auranitis, a Batanea.—Gwel *Hynaf. Josephus.* Pan ddaeth Golan i sefyllfa o allu, daeth yn ben ar dalaeth fawr, eangder yr hon a nodir yn lled gywir gan Josephus, yn enwedig pan y cymherir ei fynegiadau â'r rhaniadau diweddar a wnaed ar Basan. Yr oedd yn gorwedd i'r dwyrain o Galilea, ac i'r gogledd o Gadaritis. Yr oedd Gamala, tref bwysig ar lan ddwyreiniol Môr Galilea, yr hon a elwir yn awr El-Husn, yn nghyd â'r dalaeth gyssylltiedig â hi. Abi, yn cael eu cynnwys yn Gaulanitis. Ond rhaid mai yr afon Hieromax oedd terfyn taleithiau Gadara a Gamala, ac felly gellir ei hystyried fel terfyn deheuol Gaulanitis. Yr Iorddonen, o Fôr Galilea hyd ei chyfodiad yn Dan a Cesarea Philippi, a ffurfiai y terfyn gorllewinol. Y mae yn deilwng o sylw fod terfynau y dalaeth ddiweddar, Jaulân (y ffurf Arabaidd ar y gair Hebraeg o ba un y deillia y gair Groeg *Gaulanitis*) yn cyfateb cyn belled a hyn i derfynau Gaulanitis; gan hyny, ni a allwn gymmeryd yn ganiataol fod eu terfynau gogleddol a dwyreiniol yr un hefyd. Terfynir Jaulân ar y gogledd gan Jedûr (yr hen Ituræa), ac ar y dwyrain gan Haurân.—Gwel HAURAN. Prif ddinasoedd Gaulanitis oeddynt, Golan, Hippos, Gamala, Julias, neu Bethsaida (*Marc* viii. 22), Seleucia, a Sogane. Y mae safle Bethsaida ar lan aswy yr Iorddonen; mae adfeilion Kul'at el-Husn yn dynodi lle Gamala; ond ni wyddys dim yn benodol am y lleill.

GOLCH—I—IAD—IADAU—FA: glanhau, puro; glanhâd; bedyddiadau; lle i olchi, baddon. Y mae golchi y corff â, neu mewn, dwfr wedi bod yn ddefod gyffredin yn mhob gwlad, ac yn enwedig yn ngwledydd y dwyrain, er yr oesoedd boreuaf; â'r hon y cydffurfir oddi ar yr ystyriaeth ei bod yn fanteisiol i iechyd a chysur. Ond yr oedd yn fwy na defod gyffredin: y mae canlynwyr pob ffurf o grefydd wedi ymarfer hefyd â hi fel seremoni grefyddol. Ac o'r holl arwyddluniau, nis gellir meddwl am un mwy cyfaddas a llawnach o ystyr, fel arddangosiad o burdeb moesol. Eto, y mae yn ddiammheu mai yr achos iddi ffynu i raddau mor gyffredinol mewn cyssylltiad â defodau y gwahanol grefyddau ydyw ei bod yn arferiad mor ddymunol i'r cyfansoddiad ac mor wasanaethgar i iechyd. Y mae haneswyr yn cadarnhau fod golchi y corff â dwfr mewn arferiad yn mysg y cenedlaethau boreuaf. Yr oedd yn adnabyddus, ebe Herodotus, yn bur foreu yn mysg yr Aiphtiaid, ac yn cael ei harfer gyda manylrwydd mawr, yn enwedig gan yr offeiriaid. Ffurfiai ran hefyd o grefydd y Syriaid. Ac yr oedd iddi le mawr yn y drefn o addoliad a sefydlwyd yn mysg cenedl Israel trwy Moses.—Gwel GLANHAD; PUREDIGAETH. Dywed awdwr y llythyr at yr Hebreaid fod y grefydd Foesenaidd mewn rhan fawr yn gynnwysedig o "fwydydd a diodydd, ac amryw olchiadau, a defodau cnawdol, wedi eu gosod arnynt hyd amser y diwygiad;" *Heb.* ix. 10. Y mae y gair a gyfleithir "golchiadau" (*baptismos=bedyddiadau*), yn arwyddo unrhyw fath o olchi â dwfr, pa un bynag ai trwy drochi mewn, neu daenellu â dwfr; dodi yr hyn sydd i'w olchi yn y dwfr, neu gymhwyso y dwfr ato ef. Yr oedd amryw fathau o'r golchiadau hyn dan y gyfraith. Yr oedd yr offeiriaid i gael eu golchi: gorchymynodd yr Arglwydd Moses i ddwyn Aaron a'i feibion i ddrws pabell y cyfarfod, i'w golchi yno â dwfr (*Exod.* xix. 4); felly hefyd y Lefiaid (*Num.* viii. 7); a'r un modd y bobl, wedi iddynt ymhalogi mewn rhyw fodd (*Lef.* xv. 8, 16). Gallai fod yr awdwr yn yr adnod dan sylw yn cyfeirio yn fwyaf neillduol at olchiadau yn gyffredinol; o blegid oddi eithr iddynt hwy gael eu golchi ni fuasai eu gwasanaeth yn y cyssegr yn dderbyniol. Y mae yn amlwg mai prif amcan yr holl olchiadau, a'r manylrwydd a orchymynid yn yr ymarferiad â hwynt, oedd argraffu ar feddyliau y bobl a'r offeiriaid y syniad mai Bod sanctaidd oedd eu Duw. Ymddengys hyn wrth ystyried fod sancteiddrwydd eu Duw yn cael ei ddwyn yn mlaen fel rheswm dros eu cymhell i gydffurfio â'r holl osodiadau: *Zech.* xi. 43, 44. Fel hyn yr edrychid arnynt gan yr Israeliaid eu hunain. Y mae y Salmydd yn esbonio y ddefod a ofynai i'r offeiriaid olchi eu dwylaw a'u traed cyn myned i'r cyssegr a nesau at yr allor (*Exod.* xxx. 19—21) yn y geiriau hyny, "Golchaf fy nwylaw mewn



Digitized by Google

diniweidrwydd: a'th allor, O Arglwydd! a amgylchynaf." Yr oedd y dwfr â pha un yr ymolchai yr offeiriaid cyn myned at wasanaeth yr allor yn ymddangos iddo ef fel arwyddlun o'r diniweidrwydd a'r purdeb calon sydd yn angenrheidiol yn yr addolydd tuag at ymddangos yn ngwyddfod y Duw sanctaidd. Yr oedd holl ddefodau y puredigaethau a'r golchiadau yn gosod allan y tri gwirionedd mawr yma o flaen y genedl:—Bod y Duw sanctaidd yn gofyn sancteiddrwydd yn ei greadur, a bod y diffyg o hono yn gwneyd ei berson a'i wasanaeth yn wrthodedig yn ei olwg:—Bod dyn, wrth naturiaeth, yn amddifad o'r purdeb a'r glendid hwnw; yr hyn a ddangosid yn y gosodiad a waharddai i'r offeiriaid, cynnrychiolwyr cenedl Israel, ymddangos o flaen allor Duw, heb gael eu golchi:—Bod yr Arglwydd o'i ras wedi llunio trefn i symmud ymaith yr halogrwydd hwn, ac felly i gymhwyso dynion i ymddangos ger ei fron.

Nid yw yn ymddangos fod yn rhaid i'r bobl yn Israel fyned dan un math o olchiad, oddi eithr pan fyddent wedi ymhalogi, trwy gyffyrddiad â chorff marw, neu y cyffelyb. Y rheswm am hyn ydoedd, fod yr offeiriaid, eu cynnrychiolwyr, y rhai a wasanaethent yn eu lle ac er eu mwyn, yn ymsancteiddio trwy olchiad cyn nesau at yr allor; ac yr oedd eu hymlanhâd hwy, fel yr oedd holl ranau eu gwasanaeth, yn estyn ei rinwedd i'r holl genedl.

Yr oedd yr Iuddewon, yn amser ein Hiachawdwr, yn ryfeddol o fanwl yn eu hymarferiad â'u holl olchiadau. Golchent y llestri o'r rhai y bwytaent: yr hyn a wnaent nid yn unig er mwyn glanweithdra, ond yn benaf oddi ar resymau crefyddol. Golchent hefyd eu dwylaw yn fynych: "Canys y Phariseaid, a'r holl Iuddewon, oni bydd iddynt olchi eu dwylaw yn fynych, ni fwytânt; gan ddal traddodiad yr hynafiaid. A phan ddelont o'r farchnad, oni bydd iddynt ymolchi, ni fwytânt. A llawer o bethau ereill y sydd, y rhai a gymmerasant i'w cadw; megys golchi cwpanau, ac ystenau, ac efyddynau, a byrddau;" *Marc* vii. 3, 4. Nid yw yn hawdd penderfynu ystyr y gair a gyfieithir yma "yn fynych" (πυγμῇ). Y mae rhai yn sefyll at y cyfieithiad awdurdodedig, "yn fynych;" ereill, "yn ddiwyd." Dywed Lange y gall y gair ddynodi *golchi yn drwyadl*= "a vigorous and thorough washing." Gan fod y gair Groeg yn cael ei ddefnyddio am fesur o hyd, o'r arddwrn hyd y penelin, y mae rhai yn deall yr ymadrodd, "golchi hyd y penelin;" ac ereill, "golchi hyd yr arddwrn." Ond y golygiad mwyaf cyffredin yn bresennol ydyw "golchi â'r dwrn." Dywed Dr. Campbell nad ydyw y gair byth yn arwyddo *yn fynych*, ond y dwrn yn gauad. Cyn bwyta, golchent y llaw âg ychydig ddwfr, gan ei rhwbio â'r dwrn. Y mae y gair "golchi â'r dwrn," felly, yn gosod allan mai nid cymhwyso ychydig ddwfr at eu dwylaw yn ffurfiol yr oeddynt, ond eu bod yn dra gofalus i ymolchi yn lân. Dichon y golchent y naill law agored â'r llaw arall yn gauad, am y meddylient y buasai y naill law, trwy fod yn agored, yn halogi y llaw arall, neu gael ei gwneyd yn aflan ar ol ei golchi. Ond nid yn unig yr oeddynt yn golchi eu dwylaw cyn bwyta, ond ymolchent wedi dyfod o'r farchnad: cymhwysent ddwfr at yr holl gorff, gan y byddent trwy ymgymmysgu â lluaws o bobl mewn lle cyhoeddus, yn debyg o fod wedi ymhalogi. Y mae rhai, pa fodd bynag, yn dadleu mai am y *pethau* a ddygent o'r farchnad y sonir yma; ac y mae yn amlwg fod y geiriau "a phan ddelont" wedi eu dodi i mewn gan y cyfieithydd. Y mae Paulus, Kuinoel, Olshausen, &c., yn amddiffyn y golygiad hwn. Gwrthddadl De Wette iddo yw, fod yn arferiad yn mysg pob cenedl i olchi y bwyd a brynir yn y farchnad cyn ei goginio. Ond nid oes dim grym yn yr wrthddadl hon; o blegid nid am arferion cymdeithasol, fel y cyfryw, y sonir yma, ond am ddefodau crefyddol. Ond nid oedd hyn yn ddefod grefyddol yn mysg un genedl arall. Os ydyw y golygiad hwn yn gywir, fel y mae yn fwyaf tebygol ei fod, yna y mae y geiriau yn cyfeirio at olchiad triphlyg mewn cyssylltiad â bwyta; golchiad y personau, golchiad y bwyd, a golchiad y llestri. Ac yr oedd y rhai hyn mewn arferiad gan yr "holl Iuddewon:" nid yn unig gan y blaid fwyaf defodol a ffurfiol o'r genedl, ond gan yr holl genedl: yr hyn sydd yn dangos fod ffurfioldeb gorfanwl wedi ymdaenu dros yr Iuddewon yn gyffredinol yn nyddiau Crist.

Y mae dull yr Iuddewon presennol o olchi eu dwylaw ar ol ymhalogi yn dra hynod. Cymmerant y gwpan yn gyntaf yn y llaw ddeheu, ac yna rhoddant hi i'r aswy. Pan y mae y gyntaf yn lân, y mae yn golchi yr olaf. Cyfrifant yn arwydd o ryw anffawd farwol os collir y dwfr y byddant wedi ymolchi ynddo, neu os dygwydd iddynt gerdded drosto, neu os bydd rhywfaint o'r croen wedi ei rwbio i ffwrdd cyn iddynt ymolchi. O herwydd hyn y maent yn cymmeryd gofal mawr, nid yn unig wrth olchi eu dwylaw, ond hefyd wrth olchi eu gwynebau. Cyn bwyta rhai mathau o fwyd, gofynir mwy o olchiadau oddi wrth y Rabbiniaid nag oddi wrth ereill. Cyn bwyta bara, mae yn rhaid golchi y dwylaw yn hynod ofalus, ond gellir bwyta ffrwythau sychion gyda dwylaw heb eu golchi. Yr oedd cyfarwyddiadau y doctoriaid Iuddewig ar gwestiwn y *golchiadau* yn lluosog iawn. Pe bai dyn, sydd yn ddihalog (mewn ystyr seremoniol) yn cyffwrdd â rhyw ran o'r Ysgrythyrau, ni chaniateid iddo fwyta heb olchi ei ddwylaw. Y rheswm a roddid dros hyn oedd, y gallai y llyfrau gael eu cnoi gan lygod neu bryfed ereill, ac felly gael eu halogi. Dywedir yr hanesyn canlynol i ddangos gorfanylrwydd ffol y Phariseaid gyda'u puredigaethau:—"Yr oedd rhyw Rabbi mewn carchar, i'r hwn ni roddid ond dogn fechan o fwyd a diod. Ond un diwrnod dygwyddodd i ychydig ddyferynau o'i ddogn o ddwfr golli, a dewisodd yntau farw o syched yn hytrach nag yfed y gweddill."

Y mae crefydd y Mahometiaid mor hynod ag un grefydd yn amledd a manylrwydd ei golchiadau. Nis gellir gwneuthur dim, hyd yn oed y pethau lleiaf, yn iawn, oddi eithr iddynt gael eu blaenori neu eu dilyn gan olchiadau. Y mae rheolau yr ymarferiad hwn braidd yn anghredadwy o fanwl a lluosog. Mae y Mahometiaid yn ystyried fel yn brif ddyledswydd arnynt, yn gyntaf i olchi eu geneuau a'u gwynebau, ac yna yr holl gorff. I'r dyben o buro y corff, mae yn rhaid tallu dwfr drosto dair gwaith yn olynol, gan ddechreu gyda'r ysgwydd ddeheu, a myned oddi wrthi hi at yr ysgwydd aswy; yna at y pen, ac yn ddiweddaf at yr holl gorff. Meddyliant ei bod yn ordinhad ddwyfol i olchi y gwyneb, a golchi y dwylaw a'r breichiau hyd y penelin, unwaith, ac i wlychu y bedwaredd ran o'r pen, a'r traed unwaith. Y mae y *Coran* yn gorchymyn golchi y dwylaw deirgwaith, glanhau y dannedd â dernyn o bren penodedig, ac yna golchi y genau a'r trwyn deirgwaith. Ar ol myned trwy y manylwaith

Digitized by Google

yma, mae yn rhaid gwlychu y clustiau â'r gweddill o'r dwfr a ddefnyddiwyd i olchi y pen. Y mae yn rhaid golchi yr ochr ddeheu o'r corff yn gyntaf; ac wrth olchi y dwylaw a'r traed, mae yn rhaid cymmeryd y gofal mwyaf i ddechreu gyda'r bysedd a'r bodiau. Os camwneir un o'r pethau hyn—os collir hyd yn oed yn y manylbeth lleiaf—gwna hyny yr holl ddefod yn ofer, fel y bydd yn rhaid ail fyned trwyddi.

Y mae golchiad yn rhan o ddefodau pob crefydd yn y dwyrain. Yn India, y mae ymolchi yn y Ganges yn cael ei ystyried yn lanhâd ysbrydol pwysig yn ystod bywyd, ond yn fwy neillduol ar ddynesâd marwolaeth. Cyfrifir, ebe Dr. Duff, fod dwfr cyssegredig yr afon yn meddu rhinwedd i godi ymaith staen pechodau yr oes. Os bydd yr Indiad yn adeg marwolaeth yn mhell oddi wrth y Ganges, gwna meddwl yn sefydlog am dani ateb dybenion da: y mae marw yn ei golwg yn farwolaeth dra dedwydd; a'r dyn trwy hyny yn cael ei wneyd yn dra sanctaidd: ond marw ar ei min ydyw y cyssegriad uchaf: eto mwy dedwydd a sanctaidd na hyny ydyw marw yn yr afon ei hun, a'r corff wedi ei liwio gan ei llaid cyssegredig, a'r genau yn llawn o'i dyfroedd glanhaol. Y cyfryw, ebe Dr. Duff, yr ystyrir ei rhinwedd fel pe byddai un o ddamwain yn syrthio iddi ac yn boddi, y byddai byth yn ddedwydd. Felly hefyd am y pryfed a'r ymlusgiaid sydd yn byw ar ei glanau. Ar y llaw arall, byddai marw mewn tŷ, yn gyfagos i'r afon, ond heb ei gweled, yn drueni mawr. Mae y Brahminiaid yn ystyried fod daioni mawr yn nglŷn âg ymarfer â golchiadau, y rhai a arferant â dwfr croew neu hallt. Y mae yn llawer mwy rhinweddol yn eu golwg hwy ymolchi mewn ffrwd redegog nag mewn dwfr llonydd.

Y mae yr Hindwaid yn dra ofergoelus gyda golwg ar ddiffygiadau ar yr haul neu y lleuad. Y mae Bernier yn rhoddi y dysgrifiad canlynol o'u defodau ar y cyfryw achlysur:—"Y fynyd y gwel yr eilunaddolwyr hyn fod yr haul yn dechreu myned o dan ddiffyg, y maent yn rhoddi bloedd uchel, ac yn ebrwydd yn ymdaflu dros eu penau i'r dwfr: safant yno yn syth, gyda'u dwylaw a'u llygaid yn ddyrchafedig tua'r haul, a mwngliant eu gweddïau: yn awr ac eilwaith taflant beth o'r dwfr tua'r haul. Yna ail adroddant eu gweddïau, a thaflant eu hunain eilwaith i'r dwfr; a pharhant i wneuthur felly cyhyd ag y pery y diffyg. Yna, wedi taflu darnau o arian yn mhell i'r dwfr, a rhoddi elusenau i'r Brahminiaid, y rhai sydd yn bur ddiwyd i roddi pob cynnorthwy iddynt yn y cyflawniad o'r ddefod ddifrifol hon, ymadawant oll ymaith.

Gan fod golchiadau yn arwyddlun naturiol a phriodol o burdeb moesol, yr hyn a ellir gasglu oddi wrth gyffredinolrwydd y ddefod, yr oedd yn rhesymol ei chymmeryd fel ordinhad berthynol i Gristionogaeth. Ac y mae y bedydd Cristionogol yn anghraifft mwy dysyml o olchiad crefyddol na'r golchiadau sydd yn gyssylltiedig â chrefyddau y paganiaid. Er mai dyma yr unig olchiad a orchymynir dan yr efengyl, fe ymddengys y byddai y Cristionogion cyntefig yn myned dan fath o olchiad cyn cyfranogi o sacrament Swper yr Arglwydd. Yn yr *atrium*, neu y fynedfa i'r eglwys, yr oedd baddon neu ddwfrlestr, yn yr hwn y golchai y bobl eu dwylaw a'u hwynebau cyn myned i mewn i'r eglwys. Y mae Eusebius a Chrysostom yn gwneyd cyfeiriadau mynych at y ddefod yma. Y mae Baronius ac ysgrifenwyr ereill yn yr Eglwys Babaidd yn ceisio amddiffyn yr arferiad o'r dwfr sanctaidd trwy ei olrhain at y ddefod hon yn yr eglwys foreuol. Yr oedd yn arferiad hefyd yn mysg y Cristionogion cyntefig i'r gweinidog i olchi ei ddwylaw cyn cyssegru yr elfenau yn Swper yr Arglwydd. Yr oedd hefyd yn arferiad mewn rhai eglwysi i olchi traed y rhai a fedyddid. Dywed Ambrose o Milan fod esgob yr eglwys hono yn gwneuthur hyny yn gysson; ac y mae yn amddiffyn yr arferiad â geiriau Iesu Grist wrth Pedr, "Oni olchaf di, nid oes i ti gyfran gyda mi." Dywed yn mhellach nad oedd hyn yn cael ei wneuthur er mwyn cyrhaedd maddeuant pechodau, am fod hyny wedi ei gael eisoes yn y bedydd. Ond am fod Adda wedi ei ddisodli gan y diafol, a bod gwenwyn y sarff wedi ei daflu i'w draed, yr ydoedd yn briodol golchi y traed, er mwyn chwaneg o sancteiddrwydd, fel nad allai y diafol feddu y gallu i'w ddisodli mwyach. Ond yr oedd y ddefod hon yn mhell o fod yn gyffredinol yn yr eglwys foreuol.

Y mae yn rhaid addef fod gwaith Crist yn golchi traed ei ddysgyblion yn ymddangos, ar y golwg cyntaf, fel defod yn cael ei sefydlu ganddo i'w chyflawnu gan ei ganlynwyr: "Chwithau a ddylech olchi traed eich gilydd." Ond y dyb gyffredin ydyw na ddylid deall y geiriau hyn yn yr ystyr lythyrenol. Dywed Olshausen na cheir dim olion yn nhraddodiadau boreuaf yr eglwys fod golchi traed yn cael ei olygu fel yn meddu ar urddas sacrament, ac na feddyliwyd yn y canoloesoedd am gydffurfio â'r ddefod. Buasai yn dueddol i'r awdurdodau eglwysig y pryd hyny ddwyn hyn i mewn fel defod, pe gwelsent resymau digonol o blaid hyny, pan ystyriom y duedd gref oedd ynddynt i chwanegu at nifer y sacramentau. Gan fod golchi traed y dysgyblion gan eu Hathraw yn arwyddlun o edifeirwch, a bod y Diwygwyr Protestanaidd ar y cyntaf yn ystyried *pœnitentia* fel y drydedd sacrament, ni fuasai yn rhyfedd iddynt hwythau geisio adgyfodi y ddefod: ond nid ydym yn cael iddynt amcanu ei wneuthur. Y mae geiriau yr Arglwydd Iesu wedi cael eu deall braidd yn gyffredinol gan yr eglwys trwy yr oesoedd yn eu hysbryd, ac nid yn y llythyren: pe amgen, buasai golchi traed er ys oesoedd yn ddefod barchedig yn yr Eglwys Babaidd, os nad yn mysg ei sacramentau. Nid oes un awgrym fod golchi traed yn ddefod grefyddol yn yr eglwysi apostolaidd, er fod "golchi traed y saint" (1 *Tim.* v. 10) yn cael ei nodi fel gweithred o gymmwynasgarwch Cristionogol. Mewn rhai eglwysi yn unig yr oedd hyn yn ddefod; ond gwelwyd yn fuan fod perthynas y ddau ryw a gwahaniaeth hinsoddau yn gwneyd ei pharhad yn annhriodol. Yn mysg sectau diweddar ceisiwyd ei hadferu i arferiad gan y Moraviaid: ond nid yw yn ddefod gyffredinol a gorfodol hyd yn oed yn eu mysg hwythau.

Yr oedd Iesu Grist, wrth olchi traed ei ddysgyblion, yn amcanu argraffu ar eu meddyliau yn awr trwy weithred, fel o'r blaen trwy eiriau, y gwirionedd mawr o'i ymddarostyngiad anfeidrol ei hun, ac o'u dyledswydd hwythau i'w efelychu yn hyn. Y mae ystyr y weithred i'w deall mewn cyssylltiad â'r amgylchiad oedd yn achlysur iddi, sef cydymryson y dysgyblion: *Luc* xxii. 24. Ond heb law fod y weithred hon yn arddangosiad o ymostyngiad Crist, a'i gariad at ei ddysgyblion, yn gystal ag yn wers iddynt hwythau ar ostyngeiddrwydd, yr oedd hefyd yn meddu ar ystyr arwyddol, yr hyn a welir yn y geiriau a lefarodd yr Iesu ar yr achlysur: "Oni olchaf di,

Digitized by Google

uid oes i ti gyfran gyda myfi." Y mae rhai yn ymwrthod â phob ystyr arwyddol yn y geiriau hyn, er fod y tadau yn unfrydol o'i blaid. Y mae De Wette a Lucke yn barnu eu bod yn cyfeirio yn unig at olchiadau corfforol: ar ol dyfod o'r olchfa yr oedd yn arferiad golchi y traed yn unig, gan fod yn hawdd eu llychwino. Barna Lucke mai yn y geiriau yn *adn.* 10, y mae yr ystyr arwyddol yn dechreu—"Ac yr ydych chwi yn lân, ond nid pawb oll." Y mae Neander yn cymmeryd y ddau arwyddocâd i mewn yn y geiriau, "'Oni olchaf di, nid oes i ti gyfran gyda myfi.' Yr oedd hyn i'w gymmeryd yn llythyrenol, o blegid yr oedd yr amgylchiad unigol yma yn brawf o'r ansawdd meddwl angenrheidiol i undeb â Christ: yr oedd yn angenrheidiol i Pedr arddangos ymwrthodiad cyflawn o'i ewyllys ei hun, ac ymostyngiad hollol i ewyllys yr Iesu. Ond y mae yn debygol fod y geiriau yn cynnwys yr arwyddocâd ysbrydol a eglurwyd yn ganlynol gan Grist, sef nas gallai neb fyned i mewn i'w gymdeithas ef oddi eithr iddo gael ei buro yn ysbrydol trwyddo ef."—*Life of Christ.* Y mae Olshausen yn ymwrthod â'r ystyr llythyrenol, ac yn dadleu yn unig dros yr arwyddocâd ysbrydol: "Byddai y geiriau, 'Nid oes i ti gyfran gyda myfi,' yn rhy gryfion, wrth eu cymhwyso yn unig at ei ymwrthodiad â chymmeryd ei olchi yn allanol." Nid ydym ni yn gweled pa fodd y byddent, ar y tir hwnw, yn rhy gryfion; o blegid cyhyd ag y parhäai ewyllys Pedr yn wrthwyneb i orchymyn ei Arglwydd, byddai yn annheilwng o gymundeb âg ef. Unig deleran undeb a chymdeithas â Christ ydyw ymroddiad diammodol i'w ewyllys ef. Y mae *adn.* 10 yn golygu dau olchiad yn y bywyd crefyddol. Mae y naill—"Yr hwn a olchwyd"—yn cyfeirio at y glanhâd mawr cyntaf; "golchiad yr adenedigaeth." Mae y golchiad hwn yn cynnwys rhyddhâd cyflawn oddi wrth euogrwydd pechod yn y cyfiawnhad, a rhyddhad oddi wrth lywodraeth pechod yn yr ailenedigaeth. Y mae yr hyn a wneir tuag at ac yn y pechadur, trwy ei gyfiawnhau a'i aileni, yn myned wrth yr enw "golchi:" "Ac a'n golchodd ni oddi wrth ein pechodau yn ei waed ei hun;" *Dad.* i. 5. Un golchiad yw hwn: wedi ei wneuthur unwaith ni bydd angen am ei wneuthur drachefn. Ond am y golchiad arall, yr hwn a osodir allan yn y geiriau "golchi y traed," y mae y Cristion mewn angen parhaus am dano; yn debyg i ddyn yn y dwyrain, ar ol bod yn y baddon yn y bore yn glanhau ei holl gorff, mewn angen er hyny am olchi ei draed amryw weithiau yn nghorff y dydd, trwy eu bod wedi eu diwyno wrth gerdded ffyrdd llychlyd mewn sandalau. Er fod y saint yn "lân oll," mewn canlyniad i'w rhyddhâd oddi wrth lywodraeth pechod, eto trwy ddiwyno yn feunyddiol wrth gyffwrdd â phethau halogedig, y mae arnynt angen am olchi eu traed. Dylent weddïo bob dydd, "A maddeu i ni ein dyledion." Dylem grybwyll yn mhellach fod dau o'r tri gair am *olchi* yn cael eu defnyddio gan Grist yn *adn.* 10. Un ydyw *niptô*, yn arwyddo golchi rhanau o'r corff, megys y dwylaw a'r traed: *Marc* vii. 3. Hwn ydyw y gair yn y frawddeg, "Nid rhaid iddo ond golchi ei draed." Y llall ydyw *louô*—yn golygu golchi yr holl gorff; ymdrochi. Hwn yw y gair yn yr adran, "Yr hwn a olchwyd." "Yr hwn a fu yn y baddon yn ymdrochi"—hyny yw, yn golchi ei holl gorff (*leloumenos*); "nid rhaid iddo ond golchi (*nipsôntai*) ei draed." Y gair am olchi dillad ydyw *plunô*: *Dad.* vii. 14; xxii. 14.

GOLEUNI, [*gawl;* Sax., *liht, leoht;* Al., *licht;* Llad., *lux;* Port. a Span., *luz*]. Y mae y geiriau hyn o'r un tarddiad a'r Gymraeg *llug*, ac yn arwyddo tori allan, saethu, saethu gwawl, llucheddu, rheiddio, llewyrchu dysgleirder; yr elfen sydd yn gwneuthur pob peth yn weledig i'r golwg corfforol, ond gronynau eithaf yr hon sydd yn anweledig. Nid oes dim yn fwy adnabyddus na chwaith yn fwy dirgeledig. Y mae ynddo gyfaddasrwydd i gyffroi adfyfyrfod yn ysbryd dyn i'r graddau eithaf. Y mae ymofyniad Llyfr Iob (xxxviii. 19) yn aros eto heb ei gyflawn ateb, "Pa ffordd y trig goleuni; a pha le y mae lle y tywyllwch?" Y peth cyntaf o bob peth gweledig a greodd Duw ydoedd y goleuni: *Gen.* i. 3, 4. Nid fel y caffai efe oleuni i weithio wrtho ei hun—"un ffunud yw tywyllwch a goleuni iddo ef"—ond fel y caffem ni oleuni i weled ei weithredoedd ef a'i ogoniant trwyddynt, ac fel y gallem ni weithio ein gweithredoedd tra y mae hi yn ddydd. Goleuni yw prydferthwch a bendith fawr y greadigaeth: yn gyffelyb i'r cyntafanedig, o bob peth gweledig y peth tebycaf ydyw i'w Dad—mewn purdeb a nerth, mewn dysgleirdeb a chymmwynasgarwch. Y mae ynddo berthynas agos âg ysbryd, a'r peth nesaf i ysbryd yw; er ein bod trwyddo yn gweled pethau ereill, ac yn sicr ei fod, eto nis gwyddom ei natur, ac nis gallwn ddyweyd *pa beth ydyw, na pha ffordd yr ymrana y goleuni: Iob* xxxviii. 24. Ond arweinir ni trwy yr olwg arno at yr hwn sydd yn oleuni, yn oleuni anfeidrol a thragwyddol, ac at Dad y Goleuni (*Iago* i. 17); "yr hwn sydd yn trigo yn y goleuni ni ellir dyfod ato:" 1 *Tim.* vi. 17. —*Henry.* Un o'r anghreifftiau hynotaf o'r mawreddog ydyw gorchymyn y Creawdwr, "Bydded goleuni, a goleuni a fu." Trwy y weithred hon o greu y mae y Salmydd (civ. 2) yn ei ddysgrifio ei hun fel "yn gwisgo goleuni fel dilledyn." Crewyd y goleuni ar y dydd cyntaf; ond yr haul, y lleuad, a'r ser, ar y pedwerydd dydd. Gwneir gwahaniaeth yn yr Hebraeg rhwng y goleuni ei hun, a'r cyrff i ba rai y mae y goleuni wedi ei gasglu—y goleuni a'r goleuadau. Y mae gwyddoreg ddiweddar wedi cadarnhau y gwahaniaeth hwn. Mewn anwybodaeth o hono byddai anffyddwyr yn arfer dyfod â gwrthddadl yn erbyn hanes Ysgrythyrol y greadigaeth oddi wrth y ffaith fod goleuni yn flaenorol i'r haul, fel pe buasai hyny yn anmhosibl. Ond y mae gwyddoreg yn dangos fod goleuni, pa fodd bynag y cynnyrchir ef, pa un ai trwy weithrediad fferyllaidd, trydanol, trwy weithrediad gwres, neu trwy gyffroad bywydol—ac y mae goleuni yn cael ei gynnyrchu yn y gwahanol ddulliau hyn yn annibynol ar belydr yr haul—eto y mae yr un o ran ei natur; gwahaniaethu yn unig y mae yn ei danbeidrwydd. Fel y gallesid dysgwyl am elfen mor gyffredinol adnabyddus; mor ogoneddus yn ei natur a'i ymddangosiad; ac mor fendithiol yn ei heffeithiau; gwneir defnydd helaeth yn yr Ysgrythyrau o honi i osod allan bethau ysbrydol a dwyfol.

I. Defnyddir goleuni i osod allan natur Duw ei hun—"Goleuni yw Duw, ac nid oes ynddo ddim tywyllwch;" 1 *Ioan* i. 5. Gelwir ef felly nid yn unig am ei fod yn anamgyffredadwy ac yn hollwybodol, ond yn benaf o herwydd ei burdeb a'i sancteiddrwydd; neu o herwydd ei fod yn berffaith mewn daioni: *Marc* x. 18; *Mat.* v. 48. Yn ei gyfraith y mae yn oleuni sydd yn dychrynu, ond yn ei efengyl yn oleuni sydd yn dyddanu. Y mae yn Dad y Goleuni, "gyda'r hwn nid oes

Digitized by Google

gyfnewidiad na chysgod troedigaeth:" *Iago* i. 17. Efe ydyw ffynnonell anghyfnewidiol ac anhysbyddadwy pob goleuni creadigol yn y bydoedd naturiol, mewn angylion a dynion, a phob goleuni ysbrydol gwybodaeth a llawenydd. Fel y perthyn i oleuni creadigol y gallu i ymlid ymaith y tywyllwch, ac i wneuthur pob peth lle y treiddia ei belydrau yn weladwy, felly y perthyn i Dduw y gallu i wasgaru niwl pechod a chyfeiliornadau, ac i ddwyn y pethau dirgelaf i oleuni. Fel y mae goleuni yn angenrheidiol i fywyd y greadigaeth weledig, felly Duw ydyw bywyd y byd ysbrydol. Pan y dywedir mai "goleuni yw Duw" a'i fod "yn y goleuni" (1 *Ioan* i. 5, 6), y prif feddwl yw ei fod yn berffaith sanctaidd. Mae y gymhariaeth yn yr Hen Destament yn gystal a'r Newydd. "Y mae yn gwisgo goleuni fel dilledyn" (*Salm* civ. 2): ymddangosodd i Ezeciel (*Ezec.* i.) fel tân a dysgleirdeb: ac yn gyffelyb i Habacuc (iii. 4), "A'i lewyrch oedd fel y goleuni." Priodolir goleuni iddo gan Daniel (ii. 2) i osod allan ei hollbresennoldeb: ond yn benaf i osod allan ei sancteiddrwydd y defnyddir y gymhariaeth. Yn y Testament Newydd y lleferir yn fynych am oleuni a thywyllwch i osod allan y gwahaniaeth rhwng natur sanctaidd Duw a phlant Duw a'r byd, yr hwn nid yw yn adnabod nac yn caru Duw. Fel y mae y goleuni yn felus, a gweled yr haul yn hyfryd (*Preg.* xi. 7), felly y mae y saint yn ymhyfrydu yn ngogoniant a phrydferthwch yr Arglwydd, ac yn hiraethu am ei weled: *Salm* xlii. 3. *Exod.* xxxiii. 18; "Dangos i mi attolwg dy *ogoniant.*" Y goleuni *creadigol* y mae yn ei wisgo fel dilledyn; ond y goleuni *digreedig*, y goleuni "nis gellir dyfod ato" ydyw ei ogoniant; ond y mae amlygiadau profiadol o hwn, yr hyn a elwir yn "llewyrch ei wyneb."

2. Fel y mae y Mab yn un mewn hanfod â'r Tad, felly y mae efe yn Oleuni y byd. Trwy ei hanfodiad tragwyddol y mae yn Fywyd, a'r bywyd sydd oleuni dynion. Y mae efe yn goleuo dynion â goleuni naturiol: *Ioan* i. 4, 5; *Rhuf.* i. 20; ii. 14. O hono ef y deilliodd y pelydr gwanaidd fu o bryd i bryd yn deffro dymuniad a syched mewn ambell un o ysbryd paganaidd am chwaneg o oleuni. Efe oedd goleuni yr hen oruchwyliaeth: dadguddiodd ei hun yn oleuach i Israel—fel seren fore; ïe, fel Haul y cyfiawnder. Ynddo ef yr oedd holl brophwydoliaethau yr Hen Destament yn ymgyfarfod; ac yn fynych prophwydir am dano fel goleuni — "goleuni mawr" (*Esa.* ix. 2); "goleuni tragwyddol" (*Esa.* lx. 20); "dysgleirdeb dy gyfodiad" (*Esa.* lx. 3); "goleuni y cenedloedd" (*Esa.* xlii. 6; xlix. 6); "Haul y cyfiawnder" (*Mal.* iv. 2). Ar ol iddo ymddangos yn y cnawd y mae yn galw ei hun yn "oleuni y byd," "goleuni y bywyd," a "goleuni;" *Ioan* iii. 19; viii. 12; xii. 35, 36, 46. Gelwir ef yn "ddysgleirdeb gogoniant Duw;" *Heb.* i. 3. Yr hyn a fyddai y ddaiar heb yr haul, hyny fyddai y byd o ddynolryw heb Waredwr. Yr hyn ydyw yr haul i'r ddaiar dywyll, hyny, a mwy, ydyw yr Arglwydd i'r byd pechadurus: *Luc* i. 78, 79. Y mae trwy oleuni ei air yn ymlid ymaith anwybodaeth y byd, trwy ei haeddiant yn symmud ymaith ei euogrwydd a'i bechod, a thrwy oleuni ei ras a'i ogoniant yn gorchfygu ei drueni, ïe ac angeu ei hun.

3. Fel rhai wedi eu meddiannu âg Ysbryd Crist, wedi profi ei gariad, ac wedi eu galw i gario allan amcanion ei deyrnas, gelwir y saint yn "oleuni y byd," a "goleuadau yn dysgleirio yn y byd;" *Phil.* ii. 15; *Mat.* v. 14; *Ioan* v. 35; *Ioan.* i. 7—9. Gelwir Ioan Fedyddiwr "yn ganwyll yn llosgi ac yn goleuo." Dywedir am saint Ephesus (v. 8) "eu bod yn oleuni yn yr Arglwydd." Gelwir ar Gristionogion, gan eu bod wedi derbyn goleuni oddi uchod, i oleuo ereill: "Llewyrched felly eich goleuni ger bron dynion;" *Mat.* v. 16; 1 *Thes.* v. 5; *Rhuf.* xiii. 12.

4. Fel moddion i oleuo dynion gelwir gair Duw yn *oleuni: Salm* cxix. 105; *Diar.* vi. 23; 1 *Pedr* i. 19; *Act.* xxvi. 23.

5. Y mae goleuni mewn dyn a gymherir i'r llygad. Hyn yw llygad y meddwl, sef y gydwybod, yr hon y gellir ei goleuo neu ei thywyllu; "Canwyll y corff yw y llygad: am hyny o bydd dy lygad yn syml dy holl gorff fydd yn oleu;" *Mat.* vi. 22, 23; *Luc* xi. 34, 35. Nid y llygad yw ffynnonell y goleuni, ond yr haul; ond y mae y llygad yn angenrheidiol mewn trefn i ddyn dderbyn mantais oddi wrth yr haul. Os bydd y llygad yn syml (yn iach), y mae yr holl gorff yn oleu; y mae y traed a'r dwylaw yn gwybod mewn ystyr, yn gwybod pa beth y maent yn wneuthur; y mae y dyn yn gwybod pa beth y mae yn wneuthur, ac i ba le y mae yn myned. Gwirionedd ydyw goleuni y meddwl; a'r gynneddf sydd yn derbyn y gwirionedd—pa enw bynag a roddir arni—ydyw llygad y meddwl. Os bydd llygad y meddwl yn syml fe fydd holl ddirgel-ddyn y galon yn llawn o oleuni: os bydd ein syniadau am y gwirionedd yn gywir, a'n crediniaeth ynddo yn gadarn, yna fe fydd holl gynneddfau y meddwl dan ei ddylanwad.

6. Fel y mae y goleuni naturiol yn cynnyrchu hyfrydwch a sirioldeb, felly defnyddir y gair *goleuni* am ddedwyddwch, llawenydd, a chysur: *Iob* xii. 22; xxii. 28; *Esa.* v. 30; lviii. 8. "Bydd goleuni yn yr hwyr;" *Zech.* xiv. 7. Weithiau, ar ol diwrnod ystormus, daw prydnawn goleu a siriol; felly ar ol bygythion dychrynllyd, cyfyd goleuni addewidion a gras.

ANSODDAU NATURIOL GOLEUNI.

Y mae y cwestiwn o barth i natur y goleuni wedi bod erioed yn ddirgelwch. O'r braidd y gellir dyweyd fod yr hynafiaid yn meddu syniad oll ar y mater yn mhellach na'u bod yn credu na allasai dau wrthddrych pell fod mewn cyffyrddiad â'u gilydd heb fod rhyw gyfrwng rhyngddynt; ac o ganlyniad, fod yn rhaid fod *rhywbeth* rhwng y llygad a'r hyn a welir ganddo. Ond pa beth ydyw y rhywbeth hwnw nid oedd ganddynt ond dychymygion amrwd. Tybiai rhai fod y llygaid eu hunain yn saethu allan belydrau o natur adnabyddus, trwy ba rai y deuent i gyffyrddiad â gwrthddrychau pell. Yr oedd hyn yn syniad hollol ddiamcan; o herwydd nid yw yn rhoddi un rheswm pa ham nas gellir gweled gwrthddrychau yn y tywyllwch. Tybiai ereill fod gwrthddrychau gweledig yn taflu allan oddi wrthynt eu hunain, yn mhob cyfeiriad, rhyw ddrychiolaethau tebyg iddynt eu hunain, a bod y llygad yn derbyn y lledrithiau hyn, a thrwy hyny yn derbyn argraff neu ddelw y gwrthddrych. Er mor anmhenderfynol ydyw y dyb hon, eto y mae yn priodoli gallu i'r gwrthddrych, a lledaeniad cyffredinol i'r goleuni, a'r naill a'r llall hefyd yn annibynol ar ein llygaid ni. Mae hyn yn rhoddi gwahaniaeth pwysig i ni, sef gwahaniaeth rhwng *goleuni* a *gweledigad*—yr hyn nad yw y dyb flaenorol yn ei roddi i ni.

Y mae tyb Newton yn wellhad ar y syniad hwn. Yn lle bod gwrthddrychau yn saethu allan oddi wrthynt eu hunain ledrithiau tebyg i'r gwrthddrychau, tybia efe fod y gwrthddrychau

Digitized by Google

sydd yn cyfranu goleuni yn gwneuthur hyny trwy daflu allan ronynau o fychandra annirnadwy, fel yn wir y mae yn rhaid iddynt fod i beidio dryllio yn ganddryll bob peth y tarawant yn ei erbyn, gan fod eu cyflymdra mor anamgyffredadwy, fel y cawn sylwi eto. Yr oedd y dybiaeth hon yn cael derbyniad cyffredinol bron gan athronwyr am oesoedd ar sail cymmeradwyaeth Newton iddi. Ond tua'r un amser awgrymwyd tybiaeth arall gan Huyghens, yr hwn a feddyliodd am esbonio natur a gweithrediad y goleuni yn yr un modd ag y mae sŵn yn cael ei ledaenu, sef trwy donau mewn hylif teneu, yr hyn sydd yn ymledaenu trwy yr holl greadigaeth. Y mae yr hylif yma, yn ol y dybiaeth, yn annirnadwy i synwyrau ein cyrff nes iddi gael ei chyffroi gan wrthddrychau goleu, yn donau i ddilyn eu gilydd, fel y gwna tonau ar wyneb dwfr; neu fel y gwna yr awyr pan y rhoir ef mewn gweithrediad gan sŵn cloch, neu unrhyw beth arall. Y mae gwrthddrychau goleu yn gweithredu ar yr hylif hwn fel y gwna unrhyw wrthddrych cyfaddas i gynyrchu sŵn ar yr awyr. Yn lle tybied fod gwrthddrychau goleu yn taflu mân ronynau oddi wrthynt, fel y mae gwrthddrychau sydd yn arogli yn taflu math o chwysdarth (*effluvium*) oddi wrthynt hwy, a thrwy y chwysdarth hwn yn trosglwyddo eu harogl—cymherir y goleuni yn hytrach i sŵn, yr hwn a ledaenir trwy ysgogiad tonog yn yr awyr. Rhwng y ddau esboniad yma y mae athronwyr diweddar wedi bod yn gogwyddo. Yr oedd lluaws o honynt am amser yn dilyn Newton yn ei esboniad gronynog (*corpuscular theory*); ond yn ddiweddar, y mae y duedd yn cryfhau yn fawr o blaid yr esboniad tonog (*undulatory theory*). Rhoddir y flaenoriaeth i'r naill neu y llall yn ol eu llwyddiant i esbonio holl ffeithiau y goleuni. Y mae yn wir fod y ddau esboniad erbyn hyn wedi llwyddo i roddi cyfrif am yr holl ffeithiau sydd wedi eu dwyn ger bron. Ond credir yn gyffredin yn awr fod yr esboniad tonog yn rhoddi eglurhad haws ar rai o'r ffeithiau nag ydyw y llall, tra nad oes dim mwy yn cael ei gymmeryd yn ganiataol yn y ddamcaniaeth donog (*undulatory theory*) nag sydd yn y llall. Mae y ddwy yn cymmeryd yn ganiataol hanfodiad hylif teneu; ond y mae y naill yn dysgu fod yr hylif yma yn cael ei daflu oddi wrth y gwrthddrych goleu trwy fân ronynau; ac y mae y llall yn dysgu mai trwy gynhyrfiad tonau ynddi y mae y goleuni yn cael ei achosi.

I'r cwestiwn, gan hyny, Pa fodd y mae gwrthddrych fel yr haul, sydd filiynau o filldiroedd oddi wrthym, yn effeithio ar ein llygaid?—dau ateb yn unig sydd iddo. Yn gyntaf, y mae yn bossibl i'r gwrthddrych pell, sydd yn weladwy i ni, anfon mân ronynau oddi wrtho ei hun; ac i'r gronynau hyn, wedi teithio yr holl bellder rhyngom, fyned i'r llygad, ac felly gynnyrchu golwg. Neu, yn ail, y mae yn bossibl fod y pellder rhwng y gwrthddrych a'r llygad yn llawn o hylif gwrthneidiol, a bod yr hylif hwn yn alluog i dderbyn ac i drosglwyddo curiadau neu donau drwyddo. Yn ol yr esboniad hwn, nid yw yn angenrheidiol i'r gwrthddrych pell anfon gronynau oddi wrtho ei hun i'r llygad er mwyn effeithio ar y llygad. Nid ydyw yn angenrheidiol ond i'r gwrthddrych goleu effeithio ar yr hylif sydd yn ei amgylchu, ac yna fe gerdd dylanwad yr effaith hwnw fel y cerdd yr awyr wedi ei roddi mewn cynhyrfiad gan ganiad cloch. Ond pa esboniad bynag a dderbynir, y mae lledaeniad y goleuni yn cymmeryd lle gyda chyflymder aruthrol.

Tybiwyd yn hir nad oedd y goleuni yn gofyn dim amser i drafaelio dros y pellderoedd mwyaf. Yr oedd yn anmhosibl cael dim mesur ar ei gyflymdra ar y ddaiar. Ond yn fuan ar ol darganfyddiad y telescop, gosododd Roemer, seryddwr enwog o Denmarc, y gorchwyl iddo ei hun i gael allan pa faint o amser y byddai lleuadau Iau yn cymmeryd i gyflawnu eu cylchdro o gwmpas y blaned. Y llwybr a gymmerodd oedd i sylwi pa faint o amser sydd rhwng diflaniad y lleuad y tu ol i'r blaned y naill dro ar ol y llall. Yr amser o'r naill ddiflaniad i'r llall; neu yr amser y byddai y lleuad yn ymgolli yn nghysgod y blaned yr ochr bellaf oddi wrth y ddaiar hyd yr amser yr ymgollai eilwaith, ydyw amser cylchdro y lleuad o gwmpas y blaned. Tybier ein bod wedi mesur ei chylchdro, a'i bod yn dair a deugain o oriau; a'i bod felly pan y mae y ddaiar rhwng Iau a'r haul; hyny ydyw, pan y mae y ddaiar yn y fan hono o'i chylchdro pan y mae agosaf at Iau. Ond pan y mae y ddaiar yn y pwynt cyferbyniol o'i chylch y mae hi yn mhellach oddi wrth Iau o holl dryfesur (*diameter*) ei chylchdro. Y mae tryfesur cylchdro y ddaiar yn adnabyddus; sef, 190 o filiynau o filldiroedd. Yn awr, y mae lleuad Iau yn dair awr a deugain yn myned o gwmpas Iau, pan y mae y ddaiar yn y pwynt agosaf o'i chylch at Iau; ond sylwer, pan y mae y ddaiar yn y pwynt pellaf, cyferbyniol, o'i chylch oddi wrth Iau, y mae lleuad Iau yn cymmeryd 16 o fynydau yn hwy i fyned o gwmpas ei phlaned. Pa fodd y gellir rhoddi cyfrif am yr un mynyd ar bymtheg hyn? Afresymol ydyw meddwl fod lleuad Iau yn hwy yn myned o'i gwmpas pan y mae y ddaiar bellaf oddi wrthynt na phan y mae agosaf atynt; o herwydd nid oes un cyssylltiad rhwng pellder Iau a'r planedau oddi wrth y ddaiar ag amser cylchdro y lleuadau o'i chwmpas. Rhaid i ni gael rhyw esboniad arall o'r un ar bymtheg o fynydau hyn. Yma y saethodd i feddwl Roemer fod y goleuni oddi wrth un o leuadau Iau, ar ol iddo gyrhaedd y pwynt agosaf yn nghylchdro y ddaiar, yn cymmeryd un ar bymtheg o fynydau wedi hyny i drafaelio i'r pwynt cyferbyniol; sef, pan y byddai y ddaiar yr ochr bellaf i'r haul. Hyn, ynte, rhaid fod yr esboniad pa ham y mae lleuad Iau yn un ar bymtheg o fynydau yn hwy yn cyflawnu ei chylchdro pan y mae y ddaiar yr ochr bellaf oddi wrth yr haul; sef, nid fod y lleuad yn hwy mewn gwirionedd, ond fod y goleuni sydd yn dyfod oddi wrthi yn gofyn hyny o amser i groesi cylchdaith y ddaiar. Y mae tryfesur y cylch yn cyfateb i un ar bymtheg o fynydau, ac felly y mae tua 198,000 o filldiroedd, yn cyfateb i un foment neu eiliad. Er mwyn ei gofio yn well gallwn ddyweyd fod y goleuni yn trafaelio tua 200,000 o filldiroedd mewn eiliad.

Rhydd y dysgrifiad cwmpasog hwn ryw ddirnadaeth am y modd y mae athronwyr wedi cyflawnu y gorchwyl anhawdd o fesur cyflymdra y goleuni. Y mae yn anhawdd flurfio dychymyg am y cyflymdra aruthrol hwn; ond dichon i gymhariaeth ein cynnorthwyo. Y mae gŵn mawr yn saethu allan belen gyda'r cyflymdra o 1,600 o droedfeddi mewn eiliad; ac eto, pe parhäai y cyfryw belen i fyned rhagddi heb leihau yn ei chyflymdra, byddai am ddeng mlynedd yn trafaelio yr un pellder ag y gwna y goleuni mewn wyth mynyd.

Yn awr, pa esboniad bynag a dderbynir o natur y goleuni—pa un bynag ai yr esboniad gronynog, ai yr un tonog—y mae cyflymdra y

Digitized by Google

goleuni yr un. Ond yn ol y cyntaf, credir fod gronynau goleuni yn cael eu taflu allan gan y corff goleu, a'u bod yn ysgogi gyda'r cyflymdra hwn. Yn ol y dybiaeth o donau, y tonau sydd yn cael eu hyrddio yn mlaen gyda'r un cyflymdra. Wrth feddwl am donau mewn unrhyw elfen pa bynag—yr awyr, y dwfr, neu y goleuni—dylem gofio mai ffurf y don sydd yn symmud, ac nid y sylwedd sydd yn ei gwneyd i fyny. Wrth sylwi ar y tonau a gyffroir ar wyneb y dwfr trwy ddisgyniad careg iddo, gellir meddwl mai y dwfr ei hun sydd yn gwneuthur i fyny y don sydd yn symmud; ond nid felly y mae. Nid yw y dwfr yn symmud yn ei flaen—dim ond ffurf y dòn. Os teflir sylwedd nofiadwy ar wyneb y dwfr, ni ysgogir ef yn mlaen gan y tonau. Wrth edrych ar gae o ŷd dan ddylanwad y gwynt, y mae ei wyneb yn ymddangos mewn ysgogiad yn ei flaen; ond ffurf ei wyneb yn unig sydd felly. Gellid rhoddi gwrthban mewn ysgogiad cyffelyb pan y byddai ei wyneb yn ymddangos fel yn myned yn ei flaen, ond ar yr un pryd yn aros yn yr un man heb un ysgogiad ond i fyny ac i lawr. Nid yw y llong sydd yn nofio ar y tonau yn cael ei chario yn mlaen ganddynt; y maent hwy yn myned dani, gan ei chodi ar frig y tonau, ac yna ei gollwng i'r dyfnder rhyngddynt; ond pe byddai y dwfr yn symmud yn mlaen yn gystal a'i donau dygid y llong yn mlaen. Yr ydym i gofio, gan hyny, pan ddywedir fod y goleuni yn cael ei ledaenu yn donau trwy y greadigaeth gyda'r cyflymdra o 200,000 o filldiroedd yr eiliad, nad oes dim sylwedd materol yn cael ei roddi mewn ysgogiad gyda'r cyflymdra hwn, ond mai ffurf y tonau sydd yn ysgogi felly yn unig. Y mae y ffaith hon, gydag ystyriaethau ereill, yn peri fod yr esboniad tonog wedi cael derbyniad mwy cyffredinol bellach na'r un gwrthwynebol.

Yn nesaf ni a sylwn ar rai o deithi neu briodoliaethau y goleuni.

1. Y mae goleuni yn cael ei wasgar gan gorff goleu yn mhob cyfeiriad ac oddi wrth bob pwynt o'r arwyneb.

2. Gellir ei ddosbarthu i gyfran fwy neu lai, fel awyr neu ddwfr: gelwir y gyfran leiaf yn baladr, pelydryn (*ray, beam*); ac yn lluosog, pelydr.

3. Y mae rhai sylweddau yn derbyn goleuni ac yn eu rhoddi allan drachefn. Y mae hyn i'w ganfod yn yr adamant. Wedi iddo fod am ychydig yn mhelydr yr haul y mae yn parhau i ddysgleirio am amser yn y tywyllwch.

4. Y mae pob sylwedd caled, pan y poether ef i 700 neu 800 o raddau, yn ol gwresfesurydd Fahrenheit, yn myned yn oleu; a dywedir ei fod yn wynias. Y mae hylifau y gellir eu poethi i'r un graddau yn myned yn wynias hefyd, fel meteloedd toddedig. Nid ydyw yn ymddangos, fodd bynag, y gellir codi awyrau neu nwyon (*gases*) i'r un sefyllfa; ac eto y mae y rhai hyn pan ymunant yn sydyn mewn modd fferyllaidd yn dangos eu bod yn cynnwys goleuni. Pan y mae *oxygen* a *hydrogen* yn cael eu gwasgu yn nerthol, ymunant â'u gilydd i wneuthur dwfr; ac ar y pryd rhoddant allan oleuni a gwres.

5. Y mae rhai cyrff yn attal mynediad y goleuni trwyddynt, a gelwir hwynt yn dywyll (*opaque*); ac y mae ereill yn ei drosglwyddo, a gelwir hwynt yn dryloew (*transparent*). Eto, y tebygolrwydd ydyw, nad oes yr un sylwedd yn berffaith dywyll na thryloew. Mae corff mawr o ddwfr yn peri i'r goleuni dywyllu a chymmeryd liw gwyrddlas. Ar y llaw arall, y mae sylwedd mor dywyll ag aur, pan gurir ef allan yn ddalenau teneuon yn caniatau i ryw gymmaint o oleuni fyned trwyddo, o herwydd y mae yn cymmeryd gwawr gwyrdd.

6. Pan syrth goleuni yn ŵyrgam (*obliquely*), ar ba arwyneb bynag—tryloew neu dywyll, caled neu hylif—y mae yn cael ei adlewyrchu (*reflect*); hyny yw, ei daflu yn ol. Os disgyn ar arwynebau dysglaer a llyfn, y mae mwy yn cael ei adlewyrchu na phan y syrth ar arwyneb garw a thywyll. Y mae y pelydryn a syrth yn ol, neu sydd yn cael ei adlewyrchu, yn gwneuthur ongl gyffelyb ar arwyneb ag a wnaeth y pelydryn a ddisgynodd yn gyntaf ar yr arwyneb; ond yr ochr arall i'r llinell sydd yn syrthio yn union-syth (*perpendicular*) ar yr arwyneb. Yn y darlun hwn tybier fod A B yn sefyll am arwyneb




llyfn, caboledig, neu ddrych; a thybier fod pelydryn o oleuni yn y cyfeiriad L P yn disgyn ar y drych yn P, ac yn neidio yn ol yn y cyfeiriad P R; oddi wrth P tyner y llinell P Q yn union-syth ar A B, yna gelwir ongl L P Q yn ongl disgyniad (*angle of incidence*), a Q P R yn ongl adlewyrchiad (*angle of reflection*). Weithiau gelwir L P A yn ongl disgyniad, ac R P B yn ongl adlewyrchiad. Y ddeddf sydd i sylwi arni yma ydyw *fod ongl disgyniad yn gyfartal âg ongl adlewyrchiad, ac ar yr ochr arall i'r llinell union-syth*. Y mae y ddeddf hon yn dal yn wir beth bynag fyddo sylwedd y drych neu yr arwyneb; ac y mae holl ffeithiau ac ymddangosiadau adlewyrchiad oddi wrth ddrychau neu wynebau caboledig yn ganlyniadau y ddeddf hon.

7. Y mae pelydryn o oleuni, pan yn myned o un cyfrwng i gyfrwng arall, tewach neu deneuach, yn gŵyro oddi wrth ei gyfeiriad blaenorol, ac fel yn tori ar ei fynediad i'r cyfrwng newydd. Gelwir y toriad neu y gŵyrad hwn yn wrthdoriad (*refraction*). Dyma ddeddf sydd yn esbonio llawer o ffeithiau mwyaf dyddorol goleuni.




Tybier fod pelydryn yn dyfod oddi wrth ryw wrthddrych goleu, S, ac yn cael mynedfa trwy dwll yn A sydd yn ochr y llestr A B: os bydd y llestr yn wag, fe ä y pelydryn yn syth yn mlaen at L. Yn awr tywallter dwfr i'r llestr, fe ä goleuni yn ei flaen yn syth at P; ond wrth fyned yn mlaen, nid yn y llinell syth at L yr ä, ond fe dŷr ar arwyneb y dwfr, ac fe ä yn ei flaen yn y llinell P R, yr hon sydd yn nes at y llinell union-syth Q q nag ydyw P L. Y mae y cyfryw ŵyrad neu wrthdoriad yn cymmeryd lle yn wastad pan y mae y goleuni yn myned o'r naill

Digitized by Google

gyfrwng tryloew i'r llall. Ond mae maint yr ongl R T L, neu mewn geiriau ereill maint y gwrthdoriad, yn ymddibynu ar natur y ddau gyfrwng ac osgo y llinell S P. Os tyner y llinell Q P q yn unionsyth (*perpendicular*) ar yr arwyneb; yna S P A ydyw ongl disgyniad, ac R P q yn ongl adlewyrchiad (*angle of refraction*); ac y mae y ddwy ongl hyn un o bob tu i'r llinell unionsyth. Ond nid ydynt yn gyfartal fel ongl disgyniad ac ongl adlewyrchiad, ac eto y maent yn gwahaniaethu yn ol deddf benodedig. Eir yn fanylach i'r pethau hyn dan y gair TREMYDDIAETH.

Y mae yr awyr, fel pob cyfrwng tryloew arall, yn *gwrthdori* pelydr y goleuni, neu yn eu troi o'u cwrs syth. Os edrychir ar wrthddrych yn y ffurfafen ychydig uwch law y terfyngylch (*horizon*), y mae yn ymddangos yn uwch nag ydyw mewn gwirionedd, o herwydd fod y goleuni sydd yn dyfod oddi wrtho yn troi tuag i lawr, wrth fyned trwy yr awyr, megys y mae P R yn troi tuag i lawr wrth ei chymharu â P L. Y mae y gwrthddrych S i'w weled, nid ar hyd y llinell A L; ond gan fod y pelydryn P L wedi troi i P R y mae hyny wedi effeithio ar S i'w godi i s. Y mae pob gwrthddrych a edrychir arno trwy yr awyr yn ymddangos yn uwch nag ydyw mewn gwirionedd, am fod yr awyr yn tori y pelydryn ac yn ei throi tuag i lawr: y mae hyny yr un peth i'r golwg a phe codid y gwrthddrych i fyny. Nid yw maint y gwrthdoriad yr un, beth bynag a fyddo uchder y gwrthddrych. Y mae yn dilyn rheol sefydlog fel y canlyn:—1. Os bydd y gwrthddrych—dyweder seren—yn union uwch ben, nid oes dim gwrthdoriad; gwelir y seren yn ei chyfeiriad priodol fel pe na buasai awyr o gwbl rhyngom a hi. 2. Wrth ddisgyn o'r nenbwnc (*zenith*), sef o'r pwynt yn union uwch ben, tua'r terfyngylch, sef y gwastadlawr wedi ei hestyn yn mlaen at y ffurfafen, y mae y gwrthdoriad yn cynnyddu yn ol rheol benodedig. 3. Maint y gwrthdoriad am wrthddrych tua'r canol, rhwng y nenbwnc a'r terfyngylch, ydyw 1′, y 60fed ran o radd cylch; ond yn y terfyngylch y mae wedi cynnyddu 33′, yr hyn sydd ychydig yn fwy na thryfesur yr haul neu y lleuad: o ganlyniad, pan welwn yr haul neu y lleuad yn gorphwys megys ar y terfyngylch, y mae lled eu gwyneb y pryd hyny dan y terfyngylch, sef allan o'r golwg.

Un effaith angenrheidiol gwrthdoriad ydyw byrhad hyd y nos a thywyllwch, trwy gadw yr haul a'r lleuad yn fwy uwch law y terfyngylch. Ond wedi iddynt fachludo y mae dylanwad yr awyrgylch yn parhau i anfon i ni ryw gymmaint o'u goleuni; nid, mae yn wir, yn uniongyrchol oddi wrthynt hwy, ond trwy adlewyrchiad y goleuni oddi wrth y tarth a sylweddau mân sydd yn nofio yn yr awyr, ac fe allai oddi wrth fân ronynau yr awyr ei hun. Er mwyn deall hyn, y mae yn angenrheidiol cofio ein bod yn gweled nid yn unig trwy y goleuni uniongyrchol a ddeillia oddi wrth unrhyw wrthddrych, ond hefyd trwy y gyfran hono o'i oleuni sydd yn cael ei attal a'i daflu yn ol, ac i'r ochrau. Y mae rhyw sylweddau ysgeifn yn nofio yn yr awyr yn wastadol sydd yn cael yr effaith hwn ar y goleuni. Y mae y goleuni yn cael ei daflu yn mhob cyfeiriad trwy adlewyrchiad, ac felly yn cael ei wasgar yn drwyadl trwy yr awyr. Yr ydym, gan hyny, yn gweled yn ngoleuni y pelydrau adlewyrchiadol pan nas gallem yn ngoleuni y pelydrau uniongyrchol. Felly y mae esbonio goleuni y cyfddydd a'r cyfnos (*morning and evening twilight*). Y goleuni gwan rhwng goleu a thywyll, rhwng gwawl a gwyll, ydyw, sydd yn cael ei adlewyrchu oddi wrth haenau uchaf yr awyrgylch ar ol machlud a chyn codiad haul. Y mae yr haul yn hir ar ol machlud yn taflu ei oleuni i'r awyr uwch ben y ddaiar, ac yn yr awyr yn taraw yn erbyn sylweddau sydd yn ei adlewyrchu o'r awyr i lawr i'r ddaiar. Yr un modd y mae esbonio y lledaeniad cyffredinol sydd ar y goleuni. Pan y mae yr haul uwch law y terfyngylch, y mae yn goleuo yr awyrgylch a'r cymylau: y mae y rhai hyn drachefn yn gwasgar y goleuni yn mhob cyfeiriad, ac i bob pwynt cyrhaeddadwy. Y mae lledaeniad cyffredinol y goleuni, gan hyny yn cael ei achosi yn yr un modd a goleuni y wawr. Pe heb allu adlewyrchiadol a gwasgarol yr awyrgylch ni byddai dim yn weladwy i ni allan o'r goleuni uniongyrchol; byddai cysgod pob cwmwl yn berffaith dywyllwch; byddai y ser yn y goleu trwy y dydd; a byddai pob ystafell heb fod yn ngoleuni uniongyrchol yr haul fel y fagddu.

8. Os gollyngir pelydr o oleuni i mewn i ystafell dywyll trwy dwll bychan yn nghaead y ffenestr, a chaniatau i'r goleuni syrthio ar wydryn triongl (*prism*), canfyddir fod y goleuni gwyn wedi myned trwy gyfnewidiad mawr. Os caniateir i'r goleu, wedi iddo fyned trwy y gwydryn triongl, ddisgyn yr ochr arall i'r gwydryn ar gefn *screen* wen, bydd y pelydr wedi eu gwahanu yn wahanol liwiau. Dilyna y lliwiau eu gilydd yn ol trefn sefydlog, yn 7 o nifer, yn ol Newton; sef coch, orange, melyn, gwyrdd, glas, *indigo*, *violet*. Gellir cael y saith lliw yma oddi wrth y coch, melyn, a glas. Gelwir yr ymddangosiad hwn ar gefn y *screen* y *prismatic spectrum*. Y mae y lliwiau hyn yn toddi i'w gilydd fel nas gellir gwneuthur didoliad perffaith rhyngddynt. Y mae y goleuni gwyn, gan hyny, trwy y ffaith hon yn cael ei ddangos i fod yn gynnwysedig o saith lliw yr enfys; ac nid oes dim mwy yn angenrheidiol i brofi hyn na gollwng y goleu gwyn i mewn yn y modd uchod, a chasglu delw y goleuni ar gysgodfa wen ar ol iddo fyned trwy y gwydr triongl (*prism;* yn Gymraeg, *rheiddell*). Effaith y gwydr ar y goleuni ydyw ei *wrthdori*, neu ei droi oddi wrth linell y pelydr disgyniadol. A chan nad yw y gwahanol liwiau yn cael eu troi o'u cwrs i'r un graddau y maent yn cael eu didoli oddi wrth eu gilydd. Y *coch* sydd yn cael ei wrthdori neu ei droi leiaf, y *violet* fwyaf, a'r *gwyrdd* y canolradd. Eiddo Newton ydyw y darganfyddiad hwn, a bu yn foddion i droi sylw yr athronydd mawr hwn at achos y gwahaniaeth lliwiau mewn gwahanol wrthddrychau. Gwel LLIW.

9. Y mae effaith y goleuni ar lysiau yn fawr. Os tyfir llysieuyn mewn tywyllwch, nid yw yn ennill y lliw gwyrddlas sydd yn naturiol iddo pan y mae yn tyfu yn y goleuni. Ei liw fydd gwyn, er iddo yn mhob ystyr arall fod yn iach. Y mae hyn yn amlwg yn y dull sydd gan y garddwyr i wynu neu gànu gwahanol lysiau mewn gardd, megys *celery*, *seakale*, &c. Dywedir fod llysiau, os tyfir hwynt yn y tywyllwch, nid yn unig yn colli eu lliw, ond ffurf naturiol eu dail, ac hefyd eu harogl i fesur. Y mae y goleuni yn effeithio yn fawr ar wyrddlesni llysiau, ac hefyd ar ffurf eu dail. Yr achos fod goleuni yn tywyllu lliw y llysieuyn ydyw, am ei fod yn dadgyfansoddi *carbonic acid* pan y mae y goleuni yn effeithio arno, ac yn derbyn y *carbon* (o'r un natur a glo) iddo ei hun. *Carbon* ydyw yr elfen drymaf a chyflawnaf yn y byd llysieuol. Y mae y goleuni, gan hyny, yn gwneuthur gwasanaeth

Digitized by Google

mawr trwy sicrhau yr elfen hon, Y mae dylanwad goleuni er addfedu ffrwythau yn adnabyddus. Y mae y ffrwythau sydd yn suguraidd pan yn addfed, yn flaenorol i hyny yn sur (*acid*); hyny yw, y mae gormodedd o *oxygen* gyda'r *hydrogen* a'r *carbon* sydd ynddynt. Ond y mae y goleuni trwy beri i'r *oxygen* gilio, a thrwy sefydlu y *carbon*, yn troi y surni yn sugr.

10. Y mae effeithiau y goleuni ar anifeiliaid, er yn llai amlwg nag ar lysiau, eto yn bwysig. Y goleuni, yn hytrach na'r gwres, sydd yn troi lliw y croen yn llwyd-ddu; o herwydd y mae rhanau y corff sydd yn cael eu gorchuddio â dillad, er yn gynhesach, eto yn oleuach. Y mae yn adnabyddus hefyd mor lwyd yr olwg ydyw y rhai sydd yn byw llawer mewn ystafelloedd tywyll, mewn carchardai, ac mewn mwngloddiau dan y ddaiar. Cytuna teithwyr fod y bobl sydd yn byw yn yr hinsoddau poeth—y rhai sydd yn ei gwneuthur bron yn anmhosibl i wisgo ond ychydig ddillad, yn cyrhaedd eu nerth cyflawn, a chyda llai o eithriadau oddi wrth gymmesuredd rheolaidd y corff, nag yn mhlith cenedloedd ereill. Priodolir hyn i fesur i ddylanwad mwy uniongyrchol y goleuni arnynt. Am ddylanwad y goleuni er cynnyrchu gwelediad, gwel LLYGAD.

GOLEUFYNAG. Gwel COELBREN.

GOLGOTHA, [Γολγοθα; *Golgotha*]: yr enw Hebraeg ar y man y croeshoeliwyd ein Harglwydd: *Mat.* xxvii. 33; *Marc* xv. 22; *Ioan* xix. 17. Ystyr y gair yn ol deongliad y tri efengylwr hyn ydyw "lle y benglog." Mae Luc, yn ol ei arfer mewn amgylchiadau ereill (cymharer Gabbatha, Gethsemane, &c.), yn gadael allan y term Hebraeg, ac yn defnyddio y gair Groeg *cranion*, yr hwn sydd yn gyfystyr âg ef. Mae y gair Calfaria, yr hwn yn *Luc* xxiii. 33 a gedwir gan y Deg a Thrigain fel cyfieithiad *cranion*, yn tywyllu adroddiad Luc, geiriau yr hwn sydd fel y canlyn: —"y lle yr hwn a elwir 'y benglog'"—nid fel yn yr Efengylau ereill, "lle y benglog;" ac fel hyn arferant y gair Groeg yn gwbl fel y gair Hebraeg. Mae yn ddiammheu fod y gair Hebraeg, neu yn hytrach Caldaeg, *Gulgalta*, yn cael ei gymhwyso at y penglog o herwydd ei ffurf crwn globynaidd, gan mai dyna yw ystyr gwreiddiol y gair.

Rhoddir dau eglurhad ar yr enw:—1. Mai lle ydoedd yn yr hwn y byddai dienyddiadau yn cymmeryd lle, ac am hyny ei fod yn llawn o benglogau. Ond yn ol y gyfraith Iuddewig yr oedd yn rhaid claddu y rhai hyn; gan hyny nid yw yn debygol fod yr enw wedi ei roddi ar y lle oddi wrth y penglogau, mwy na rhyw ran arall o'r corff. 2. Gall fod yr enw yn deilliaw oddi wrth yr olwg ar neu ffurf y lle ei hun; sef moel, crwn, tebyg i benglog, ac yna bryn neu fynydd bychan mewn cydweddiad â'r frawddeg gyffredin "Mynydd Calfaria," o blaid yr hon nid oes unrhyw awdurdod uniongyrchol. Pa un bynag o'r ddau eglurhad uchod sydd yn gywir—ac y mae yn debygol nas gellir penderfynu hyn gyda sicrwydd—ymddengys fod Golgotha yn lle adnabyddus. Gellir casglu hyn oddi wrth y dull y crybwyllir am dano yn yr Efengylau; yn y rhai, oddi eithr Matthew, y defnyddir y bannod penodol—"y lle Golgotha"—"y lle a elwir penglog" —"y lle (mae y Deg a Thrigain yn gadael allan y bannod) a enwir oddi wrth benglog." Yr oedd y lle "tu allan i'r porth" (*Heb.* 13. 2), ond yn agos i'r ddinas (*Ioan* xix. 20); ac yn agos, mae yn debyg, i dramwyfa lle y byddai teithwyr yn myned heibio. Yr oedd y ffordd neu y llwybr hwn yn arwain allan o'r wlad. Mae yn debyg mai hwn oedd y lle cyffredin i ddienyddio. Pa ham y dylasai fod yn amgen? Yr oedd Crist, yn ngolwg y rhai a roddent y ddedfryd hon mewn gweithrediad, yn cael ei gyfrif fel drwgweithredwr cyffredin; ac nid oes un gair i ddangos fod y milwyr wrth ei arwain ef ymaith wedi myned i un man ond y lle arferol o gyflawni yr hyn oedd yn ddigwyddiad cyffredin. Pa fodd bynag, yn y lle ei hun—yn y fan hon—yr oedd gardd neu berllan (*cêpos*).

Dyma yr hyn oll a geir yn y Testament Newydd yn dynodi beth oedd natur a sefyllfa Golgotha. Am ei sefyllfa gyda golwg ar Ierusalem, gwel yr erthygl dan y gair.

Yr oedd traddodiad yn ffynu, ar un adeg, fod Adda wedi ei gladdu yn Golgotha, ac mai oddi wrth ei benglog ef y cafodd y lle ei enw, a bod dyfernau o waed Crist, ar adeg y croeshoeliad, wedi syrthio ar y penglog, a chyfodi Adda i fywyd, trwy yr hyn y cyflawnwyd yr hen brophwydoliaeth a ddyfynir gan Paul:—*Eph.* v. 14; "Deffro di Adda (fel yr ymddengys fod yr hen gyfieithadau yn darllen), yr hwn wyt yn cysgu, a chyfod oddi wrth y meirw, canys Crist a gyffwrdd â thi." Gwel esboniad Jerome ar *Mat.* xxvii. 33, a'r dyfyniad yn Reland, *Pal.* 860. At hyn yr oedd y penglog a welid yn gyffredin mewn hen arluniau o'r croeshoeliad yn cyfeirio.

Tybiwyd gynt fod cyssylltiad rhwng Goath a Golgotha; ond nid yw hyn ond dychymyg ar y goreu, ac nid yw yr un tebygolrwydd rhwng y ddau enw yn y gwreiddiol ag a welir rhyngddynt wedi eu troi i'r Lladin a'r Gymraeg; yr hyn, mae yn debyg, a achlysurodd y dybiaeth.

Mae gwahanol farnau o barth i wir safle y lle a elwir Calfaria neu Golgotha; gan hyny ni a roddwn grynodeb o'r hanes Ysgrythyrol am y lle nodedig hwn, ynghyd âg amgylchiadau croeshoeliad ein Iachawdwr. Hefyd ni a chwanegwn yr hyn sydd wedi ei gadw trwy draddodiad, a chan rai o'r haneswyr boreuaf a dalasant sylw i'r pwnc pwysig hwn. Mae yr hanes a rydd yr efengylwyr am y lle a'r amgylchiadau fel y canlyn:—

Wedi i Pilat draddodi'r Iesu i'w groeshoelio, arweiniwyd ef ymaith, a dilynid ef gan liaws mawr o wŷr a gwragedd, y rhai a wylent o herwydd ei dynged chwerw. Ar y ffordd, cyfarfu y milwyr âg un Simon o Cyrene, yr hwn oedd yn dyfod o'r wlad, a chymhellasant ef i ddwyn croes yr Iesu. Pan ddaethant i'r lle a elwir Calfaria, hwy a'i croeshoeliasant ef yno. A'r rhai oedd yn myned heibio a'i cablasant ef, gan ysgwyd eu penau a gwatwar. Yr un modd hefyd yr Archoffeiriaid a'i gwatwarasant ef gyda'r ysgrifenyddion a'r henuriaid; a'r bobl a safasant gan edrych. Hefyd, gwatwarwyd ef gan y milwyr. Yr oedd ei fam yn sefyll wrth ei groes, ynghyd â chwaer ei fam, a Mair Magdalen. A'i holl gydnabod, a'r gwragedd a ddaethant gydag ef o Galilea, a safasant o hirbell, gan edrych ar y pethau hyn. Yr oedd gardd yn y fan lle y croeshoeliwyd yr Iesu; ac yn yr ardd yr oedd bedd newydd a dorasid yn y graig:—yno y dodasant ef, a threiglasant faen mawr ar ddrws y bedd. Dywed ysgrifenydd yr Epistol at yr Hebreaid fod yr Iesu wedi dyoddef y "tu allan i'r porth;" ac ymhellach—"Am hyny awn ato y tu allan i'r porth gan ddwyn ei waradwydd ef:" *Heb.* xiii. 12, 13: gwel hefyd *Mat.* xxvii; *Marc* xv; *Luc* xxiii; *Ioan* xix.

Digitized by Google

Oddi wrth yr hanes fe welir fod y croeshoeliad a'r claddedigaeth wedi cymmeryd lle y tu allan i'r ddinas, ac eto yn agos i'r ddinas; ac y mae yr hyn a ddywed yr ysgrifenydd at yr Hebreaid yn cael ei gadarnhau gan y sylw dygwyddiadol yn *Marc* xv. 21; sef, fod y milwyr wedi cymhell Simon, "fel yr oedd efe yn dyfod o'r wlad," i ddwyn croes yr Iesu. Gan hyny ymddengys fod Calfaria yn gorwedd y tu allan i'r ddinas, ar y tu gogledd orllewinol iddi. Yn awr fe gaiff y darllenydd, trwy ddarllen y crynodeb o'r hanes a rydd yr Efengylwyr, yn gyssylltedig â'r sylwadau blaenorol, reswm cryf i dybied fod Calfaria y tu allan i'r ddinas, yn agos i'r ail fur. Mae yn amlwg hefyd fod y lle y fath fel y gallai lluaws o bersonau ymgasglu o'i gwmpas, ac yn lle y byddai teithwyr yn myned heibio iddo. Hefyd, gellid gweled y dyoddefwyr a'u cyfarch gan y personau fyddent wedi ymgasglu ynghyd. Mae y pethau hyn yn cytuno i brofi fod y fan i raddau yn uchel, ac hefyd na wnaed "y peth hwn mewn congl;" ond yn hytrach mewn lle, a than y fath amgylchiadau ag sydd yn sicr o wneud Calfaria yn fan a adnabyddir ac a gofir yn dda gan elynion yn gystal a chan gyfeillion ein Harglwydd. Gallasai amgylchiadau ereill a gymmerasant le yn uniongyrchol wedi hyny, mewn cyssylltiad â'r adgyfodiad, fod yn gymhorth (pe buasai eisieu cymhorth) i argraffu yr adgof am y man yn ddwfn ac annileadwy yn meddyliau y Cristionogion cyntefig.

A ydyw yn debyg y buasai yr adgof hwn yn diflanu? Na: yr oedd yn naturiol dysgwyl y buasai Calfaria yn dyfod o bob man y mwyaf cyssegredig ac anwyl yn yr eglwys gyntefig. Rhaid fod y lle y croeshoeliwyd yr Iesu—y bu efe farw—y claddwyd ef, ac yr adgyfododd, wedi eu cyssylltu â rhwymau cryfaf cariad wrth galon pob gwir ddysgybl iddo. Nid oes angen am hanes i wneud hyn yn hysbys i ni: mae yr hyn yw y natur ddynol, yr hyn a deimla, a'r hyn a gâr, yn sicrhau y ffaith i bob meddwl goleuedig. Ac nid oedd yr Iuddew gyda'i deimladau cynhes yn teimlo yn llai bywiog na'i gyd-ddynion ar y pen hwn. Yr oedd beddau y prophwydi, a bedd Dafydd, fel y gwelir yn *Mat.* xxiii. 29, ac *Act.* ii. 29, yn cael eu cadw mewn parch a choffadwriaeth crefyddol o oes i oes. Felly nid yw yn debyg y buasai i fedd Arglwydd Dafydd gael ei esgeuluso. Yr oedd Ierusalem, y pryd y bu farw yr Iesu, yn llawn o ymwelwyr o wledydd tramor. Felly yr oedd yr amser y tywalltwyd yr Ysbryd Glan. Pa fodd bynag, dychwelodd y pererinion hyn yn fuan i'w cartrefleoedd; a pha le bynag yr elent, cludai lluaws o honynt y newyddion am groeshoeliad yr Iesu gyda hwynt, gan adrodd yr hanes am y lle y rhoddwyd ef i farwolaeth. Wedi i'r rhai hyn gyrhaedd eu cartrefleoedd, hwy a ddaethant, trwy ddylanwadau Rhagluniaeth ac offerynoliaeth yr apostolion yn y gwahanol fanau, yn gnewyllyn eglwys fechan, yr hon yn naturiol a gadwai y wybodaeth am Galfaria yn ddwfn yn ei mynwes. Fe allai na bu un man ar y ddaear â chynnifer yn ei gofio ac yn gwybod yn gywir am ei safle, a'r man ar ba un y bu yr Iesu farw, ac yr adgyfododd drachefn. Yr oedd rhai yn Ierusalem, ac mewn amryw barthau o'r ddaiar, yn cadw y goffadwriaeth fel un o'u trysorau gwerthfawrocaf.

Nid ydym yn tybied fod y sylwadau hyn yn gofyn unrhyw gadarnhad; o herwydd y mae yr adnodau a nodwyd yn yr Epistol at yr Hebreaid yn dangos eu bod o ran eu sylwedd yn berffaith gywir. Yr ydym yn dysgu yno fod Calfaria, tua diwedd y ganrif gyntaf, yn dra adnabyddus yn yr eglwys, a bod y traddodiad yn cael ei gadw mewn ffurf bywiog a newydd. Mae coffadwriaeth am leoedd nodedig yn mhlith y pethau mwyaf annifianadwy a fedd y byd. Mae Thermopylæ a Runnymede yn adnabyddus y dydd heddyw, a byddant felly hyd ddiwedd amser. Pa faint mwy Calfaria? Ar y cyntaf yr oedd, nid yn unig yn Ierusalem a Phalestina, ond mewn rhan fawr o'r byd, fynwesau yn y rhai yr oedd Calfaria yn cartrefu. Byddai y tadau yn trosglwyddo y wybodaeth a'r argraffiadau a dderbyniasant i'w plant; un genhedlaeth ac un eglwys i genedlaeth ac eglwys arall. Byddai yr ymadrodd yn *Heb.* xiii. 12, yn gymhorth i gadw hyn mewn cof. Fel hyn, o oes i oes, byddai trosglwyddiad rheolaidd o'r prif ffeithiau, nes o'r diwedd i'r traddodiad ymsefydlu mewn hanesyddiaeth; a chyfodwyd adeilad ardderchog er coffadwriaeth barhaus am y dygwyddiadau mawr a rhyfeddol y rhai a wnaethant Golgotha y man hynotaf ar yr holl ddaear. Fodd bynag, cyn yngan gair yn mhellach am yr adeilad a'r goffadwriaeth hon, rhaid i ni chwanegu fod paganiaeth wedi bod yn gynnorthwy i'r traddodiad Cristionogol. Wedi i Ierusalem gael ei chymmeryd gan y Rhufeiniaid, yn anffodus hi a ddaeth yn ddinas baganaidd; a chyfnewidiwyd ei henw i Colonia Ælia Capitolina. Yn eithaf eu llawenydd gorfoleddus gwnaeth y buddugoliaethwyr Iau yn nawdd-dduw i'r ddinas, a chodasant gerfluniau o hono ef a Gwener ar y lle y croeshoeliasid yr Iesu [*Sozomen*, xi. 1]. Gwnaed hyn yn fwy mewn ffordd o gymmod nag mewn ffordd o sarhad. Mae ymsefydlwyr newyddion, yn eu cyssylltiad â chrefydd, wedi cymmeryd mantais bob amser ar hen deimladau sefydledig; am hyny codant eu hadeiladau cyssegredig ar leoedd fyddont eisoes wedi eu cyssegru yn meddyliau y bobl. Fel hyn y bu pan blanwyd Cristionogaeth yn Mhrydain Fawr. Mae llawer o'r hen eglwysydd wedi eu cyfodi ar safle temlau paganaidd yr amser gynt. Yr oedd hyn yn gyfrwysdra yn y Rhufeiniaid. Mae y ffaith syml fod teml wedi ei chodi i Gwener ar Galfaria yn ddigon i brofi mai ar Galfaria y dyoddefodd yr Iesu Y mae y deml fel yn cymmeryd y traddodiad, ac yn ei drawsffurfio yn goffadwriaeth o gareg a mynor i'r oesau dyfodol. Mae y parhad hwn o'r traddodiad yn fwy pwysig o herwydd iddo ddechreu ar y pryd y gyrwyd y Cristionogion o Ierusalem. Ond ni bu absennoldeb y Cristionogion o'r ddinas sanctaidd yn hir; ac yr ydym yn cael fod pererindodau i'r Tir Sanctaidd (*Palestina*) wedi dechreu yn fore yn y drydedd ganrif, gyda'r unig ddyben o gael golwg ar y man yr oedd presennoldeb a dyoddefaint y Gwaredwr wedi ei wneud yn gyssegredig a chofiadwy. Tua chanrif yn ddiweddarach, yn ol Eusebius, (B. A. 315) byddai y Cristionogion yn ymweled âg Ierusalem gyda'r un amcan. Mae y fath ymgyrchiad, mewn adeg mor fore, tua'r ddinas sanctaidd yn arwyddo fod teimlad cryf a chanmoladwy yn mhlith y Cristionogion y pryd hwnw, a bod traddodiad sefydlog yn yr eglwys o barth i'r manau hynotaf—y cyfryw draddodiad ag oedd yn cyfateb i'r hanes a geir yn yr Epistol at yr Hebreaid.

Mae Eusebius a Jerome, yn nechreu y bedwaredd ganrif, wedi ysgrifenu y traddodiad, ac yn nodi safle Calfaria yn eu hysgrifeniadau. Ganwyd Eusebius yn Cesarea, yn Palestina, tua'r flwyddyn B. A. 270. Yn y fl. 315, yr oedd efe yn

Digitized by Google

esgob yn ngwlad ei enedigaeth. Bu farw yn y flwyddyn 340. Yr oedd yn ddyn tra dysgedig, ac ysgrifenodd hanes yr Eglwys Gristionogol. O ddeutu y flwyddyn 330, efe a gyfansoddodd un llyfr yn hollol i benderfynu a chofnodi safleoedd manau cyssegredig a lleoedd ereill yn Palestina. Ysgrifenwyd hwn yn yr iaith Roeg, a chyfieithwyd ef wedi hyny i'r Lladin gan Jerome, a thrwy hyn efe a chwanegodd ei dystiolaeth ei hun at yr eiddo Eusebius. Gwnaeth Jerome ei gartref yn Palestina tua diwedd y bedwaredd ganrif; ac arosodd yno hyd ei farwolaeth. Yn awr yr oedd y pererinion yn dylifo i Ierusalem o bron bob parth o'r byd, a phenderfynwyd ar y safle hono i Golgotha, yr hon sydd yn parhau yn ddigyfnewid hyd yn bresennol.

Gwnaed hyn, nid yn unig oddi ar dystiolaeth y ddau ŵr dysgedig a grybwyllwyd, ond trwy weithredoedd yr ymherawdwr Cystenyn a'i fam Elen. Ymwelodd yr ymherodres hon âg Ierusalem, pan yr oedd yn dra oedranus, gyda'r unig ddyben o adeiladu eglwys ar y fan lle y croeshoeliwyd yr Arglwydd Iesu. Yr oedd yn naturiol i Elen fod yn ofalus am gael allan wir sefyllfa y fan, ac ymddengys na ddarfu iddi gamsynied. Yr oedd hi wedi clywed yn flaenorol fod y lleoedd sanctaidd wedi eu gwneud yn garnedd, a'u cuddio gan y Cenhedloedd; gan hyny, hi a benderfynodd ar wneud pob ymdrech i'w dwyn i oleuni. Pan gyrhaeddodd hi Ierusalem, hi a ymofynodd yn ofalus â'r preswylwyr. Ond yr oedd yr ymchwiliad yn ansicr ac anhawdd, mewn canlyniad i'r hyn a bentyrasai y Cenedloedd ar y lle er gwneyd y fan yn anhysbys. Wedi symmud hyn, canfyddwyd y bedd cyssegredig, ac wrth ei ochr dair croes, yn nghyd â'r *tablet*, yn cynnwys yr arysgrif a roddwyd gan Pilat [*Robinson, Bibl. Researches*, ii. 14; *Theodoret*, i. 17). Mae yr hanes hwn am ei gweithrediadau, a gymmerwyd o waith un sydd yn ymdrechu i daflu dirmyg ar holl lafur Elen, a'r hwn sydd yn llawer rhy fyrbwyll yn ei waith yn gwrthwynebu traddodiadau boreuol yr eglwys, yn dangos yn amlwg fod Elen yn ochelgar yn ei gweithrediadau, fod traddodiad yn bod ar y pwnc, a bod yr ymherodres yn cael ei harwain gan y traddodiad hwnw, ac wedi cael rheswm dros benderfynu fod safle Calfaria ar y man lle yr oedd y Cenedloedd wedi adeiladu eu teml a sefydlu eu gwasanaeth halogedig. Nis gellir gwadu nad oes gryn lawer o'r rhyfeddol, os nad y ffugiol a'r anhygoel, wedi ei gymmysgu â'r hyn a ddywedir gan haneswyr eglwysig; ond nid ydym yn gweled un rheswm dros daflu amheuaeth i wyneb y cyfan, fel y gwna rhai. Fodd bynag, fe adeiladwyd eglwys Gristionogol fawr ar y lle—pa un ai gan Cystenyn, ai Elen, nis gallwn benderfynu; ond y mae yn sicr ei bod wedi ei hadeiladu trwy ddylanwad a chyda chyfoeth Rhufain. Dywed Socrates [*Eccles. Hist.*, i. 17] fel y canlyn:—"Cyfododd mam yr ymherawdwr eglwys ardderchog ar y fan lle yr oedd y bedd, a galwodd hi yn Ierusalem Newydd, gan ei hadeiladu gyferbyn â'r hen Ierusalem anghyfannedd." Gorphenwyd a chyssegrwyd yr eglwys hon yn B. A. 335. Yr oedd hwn yn amgylchiad pwysig iawn i'r byd Cristionogol. Mewn trefn i roddi pwysigrwydd iddo, galwyd cynghor o esgobion, trwy orchymyn yr ymherawdwr, o holl daleithiau yr ymherodraeth. Ymgynnullasant yn gyntaf yn Tyrus, a thrachefn yn Ierusalem. Yr oedd Eusebius yn eu plith, ac yn cymmeryd rhan yn ngwasanaeth y dydd; ac efe a gynnaliodd amryw gyfarfodydd cyhoeddus yn y ddinas [*Euseb. Vit. Const.; Robinson*, ii. 13]. Bydded i'r darllenydd dalu sylw i'r geiriau a ddyfynwyd o Socrates, oddi wrth y rhai yr ymddengys fod yr eglwys wedi ei hadeiladu, nid yn yr hen ddinas, ond gyferbyn â hi. Cefnogir y dysgrifiad hwn o eiddo Socrates gan Eusebius [*Vit. Const.*, iii. 33]. Yn 614, llosgwyd Eglwys y Bedd sanctaidd gan y Persiaid. Yn fuan wedi hyny adeiladwyd hi gan Modestus, a rhoddwyd pob peth at ei hadeiladu gan John Eleemor, patriarch Alexandria. Yn nesaf fe ddaeth y Mahommediaid yn arglwyddi yn Ierusalem. O'r diwedd trosglwyddodd Harun er Rashid lywodraethiad y Bedd sanctaidd i Charlemagne. Fe ddaeth Palestina drachefn yn faes brwydrau a thywallt gwaed. Fe symmudodd Muez eisteddle ei ymherodraeth i Cairo pan syrthiodd Ierusalem i ddwylaw meistriaid newyddion, a dywedir fod y Bedd sanctaidd wedi ei losgi drachefn. Llwyr ddinystriwyd ef trwy orchymyn y trydydd califf Ffatimitaidd yn yr Aipht, a gwasgarwyd yr adeilad hyd ei sylfeini. Yn nheyrnasiad ei olynydd, ail adeiladwyd ef, a gorphenwyd ef yn 1048; ond yn lle yr adeilad ardderchog oedd ar Golgotha yn flaenorol, ni wnaed ond capel bychan i addurno y lle. Yn fuan wedi hyn gwnaeth rhyfelwyr y groes eu hymddangosiad. Ystyriai y rhai hyn yr adeilad cyssylltedig â'r bedd yn rhy gyfyng a distadl, a chyfodasant deml fawreddog ar y lle, a chaniateir fod ei muriau a'i ffurf yn aros hyd heddyw [*Robinson*, ii. 61]. Modd bynag, mor ddiweddar ag 1808, dinystriwyd Eglwys y Bedd sanctaidd gan dân; ond ail adeiladwyd hi gan y Groegiaid; ac nid oes yn awr unrhyw olion o'i difrodiad diweddar.

Yr ydym fel hyn wedi olrhain i lawr i'r dyddiau presennol hanes traddodiadol ac ysgrifenedig yr adeiladau a godwyd ar Golgotha, gan gyssylltu yr adeiladau hyn â'r digwyddiadau cyntefig, trwy y rhai y maent wedi eu gwneud yn enwog. Nid ydym am ddyweyd fod y profion yn anwrthwynebol; ond eto credwn nad oes ond ychydig o gwestiynau hynafol yn gorwedd ar sylfaen mor gadarn.

Yr unig wrthbrawf o unrhyw bwys yn erbyn yr hyn a ddywedwyd ydyw yr un a ddygir yn mlaen gan Robinson; sef, fod lle y croeshoeliad a'r bedd i'w cael yn awr yn nghanol y ddinas bresennol. Ond cyn y gellir ystyried yr wrthddadl hon yn benderfynol, dylid profi fod y ddinas yn sefyll yn yr un man ag yr oedd hi yn nyddiau Crist. O leiaf, y mae yn debygol fod y ddinas wedi myned dan gyfnewidiadau, a bod camgymmeriad wedi ei wneyd o barth i le y croeshoeliad. Mae yn debycach fod unolrwydd y cyfryw le wedi ei gadw, yn hytrach na maint a chyfartaledd perthynasol dinas sydd wedi goddef cyfnewidiadau mwy chwyldroadol, mae yn debyg, nag unrhyw le arall o fewn y byd. Adeiladwyd muriau presennol Ierusalem mor ddiweddar a 1542; ac y mae Robinson yn sylwi, wrth fyned heibio, fod rhan o Seion wedi ei adael allan yn awr [td. 67]. Gan hyny, os ydyw y ddinas wedi ei chwtogi ar y dde, ac os helaethwyd hi i'r gogledd, ar ol marwolaeth Crist, pa beth a allem ddisgwyl ond cael Golgotha tua chanol y ddinas bresennol?

Yr oedd i Ierusalem, yn nyddiau Crist, ddau fur, y rhai a elwir yn y darluniau o'r ddinas y *cyntaf* a'r *ail*. Ond â'r ail y mae a fynom yn fwyaf neillduol. Dechreuai hwn yn ymyl tŵr a elwid Gennath, yr hwn oedd yn perthyn i'r mur

Digitized by Google

cyntaf; a gwyrai allan i'r gogledd, gan derfynu yn nghastell Antonia. Rhedai y trydydd mur yn ol yr un cynllun, gan gynnwys y faesdref.

Wrth ddiweddu, ni a chwanegwn ddwy neu dair o ffeithiau er profi mai yr un yw y lle presennol a'r Golgotha gynt. Dywed Buckingham [*Palest.*, t. d. 283], "Mae y graig bresennol, a elwir Calfaria, a'r hon sydd wedi ei chau o fewn i Eglwys y Bedd sanctaidd, yn dwyn arwyddion yn mhob ran o honi sydd yn y golwg, ei bod unwaith wedi bod yn delpyn o graig gron yn sefyll uwch law arwynebedd y tir." Mae Scholz yn dyweyd [*De Golgotha situ.*, t. d. 9] ei fod ef wedi dilyn gweddillion mur, yr hwn a redai yn y fath fodd ag i gau Golgotha y tu allan iddo, a chymmeryd i mewn Lyn Hezeciah. Y mae yn anmhossibl fod yr hen Golgotha yn mhellach nag ychydig gannoedd o latheni, yn y fan bellaf, oddi wrth y safle a nodir yn bresennol; ac y mae y tystiolaethau sydd o blaid y syniad mai yr un yw y ddau le, os nad ydynt yn benderfynol, yn llawer cryfach na dim a ddygwyd yn y gwrthwyneb.

GOLIATH, [גלית; Γολιάθ—Goliah]: cawr enwog o Gath, yr hwn "fore a hwyr am ddeugain niwrnod" a heriodd fyddinoedd Israel: 1 *Sam.* xvii. Fe allai ei fod yn ddisgynydd o'r hen Rephaimiaid, o'r rhai y cymmerodd gweddill gwasgaredig noddfa gyda'r Philistiaid ar ol eu gwasgaru gan yr Ammoniaid: *Deut.* ii. 20, 21; 2 *Sam.* xxi. 22. Gellir cael rhai olion o'r sefyllfa hon yn nghadw yn enw y cawr, os cyssylltir ef â גלות=alltud. Fodd bynag, y mae Simonis yn tarddu yr enw o air Arabaeg yn dynodi "cryf" [*Gesen. Thes.*, *s. v.*]. Yr oedd Goliath yn chwe chufydd a rhychwant o daldra; yr hwn, os cyfrifir y cufydd yn ol un modfedd ar ugain, a'i gwnai yn ddeg troedfedd a hanner. Ond y mae y Deg a Thrigain a Josephus yn darllen "pedwar cufydd a rhychwant" (1 *Sam.* xvii. 4: *Jos. Hyn. Iudd.*, vi. 9, adr. 1). Mae hyn yn ei wneud yn agos o'r un maintioliaeth a'r campwr breninol a laddwyd gan Antimenidas, brawd Alcaeus. Byddai Goliath, hyd yn oed yn ol y cyfrif hwn, fel y mae Josephus yn ei alw, yn ddyn anferthol fawr mewn gwirionedd. Gellir casglu oddi wrth bwysau ei wisg a'i arfogaeth, ei fod yn feddiannol ar nerth anghymharol. Yr oedd yr helm bres oedd ar ei ben yn pwyso o ddeutu pymtheg pwys; ei darget i amddiffyn ei wddf, tua thrigain pwys; yr oedd ei waywffon o ddeutu chwe troedfedd ar ugain o hyd, a'i phen yn pwyso tua deunaw pwys ar ugain; ei gleddyf bedwar; ei fotasau ddeg pwys ar ugain; a'i lurig emmog gan' pwys ac un ar bymtheg a deugain; ac felly yr oedd ei holl arfogaeth yn pwyso dau gant a thri ar ddeg o bwysi.

Y mae amgylchiadau yr ymladdfa, yn mhob ystyr, yn Homeraidd (*Homeric*); yn hollol rydd oddi wrth y chwedlau plentynaidd a ddygwyd i mewn iddynt gan ddychymygion dwyreiniol—er enghraifft, fod y ceryg a ddewiswyd gan Dafydd wedi galw arno o'r afon, gan ddywedyd, "Trwyddom ni y bydd i ti ladd y cawr," &c. [*Hottinger, Hist. Orient.*, i. 3, td. 111; *D'Herbelot*, *s. v. Gialut.*]. Ond eto y mae dychymygion y Rabbiniaid yn fwy hynod fyth. Ar ol y fuddugoliaeth torodd Dafydd ben Goliath (1 *Sam.* xvii. 51; cymharer *Herod.*, iv. 6; *Xenoph. Anab.*, v. 4, adr. 17; mae Neibühr yn crybwyll am arferiad cyffelyb yn mhlith yr Arabiaid [*Descr. Winer*, *s. v.*], yr hwn a ddygodd efe i Ierusalem (ar ol iddo esgyn i'r orsedd, mae yn debyg, *Ewald*, *Gesch.* iii. 94), tra y rhoddodd efe ei arfogaeth yn ei babell.

Cymmerodd yr ymladdfa ganmoladwy hon le yn Nyffryn y Terebinth, rhwng Shochoh ac Azecah, yn mhlith bylchau gorllewinol Benjamin, mae yn debyg, er fod traddodiad diweddar wedi rhoddi yr enw *Ain Iahlood* (ffynnon Goliath) i ffynnon Harod, neu "dychryn" [*Stanley*, 342; *Barn.* vii. 1]. Gwel Dyffryn Elah.

Yn 2 *Sam.* xxi. 19, crybwyllir am gawr arall o Gath, am yr hwn y dywedir, "a phen ei waywffon ef oedd fel carfan gwehydd." Lladdwyd ef gan Elhanan, yr hwn hefyd oedd yn Bethlehemiad. Mae Jerome [*Quæst. Hebr. ad loc.*] yn mabwysiadu y dybiaeth anhygoel mai enw arall ar Dafydd oedd Elhanan. Mae y Deg a Thrigain yn y fan hon yn chwanegu y geiriau "brawd y," o 1 *Cron.* xx. 5, lle y gelwir y cawr "Lahmi." Gellir cael eglurhad cyflawn ar hyn dan y gair Elhanan.

Yn y teitl i'r Salm a chwanegwyd gan y Deg a Thrigain at Lyfr y Salmau, yr ydym yn cael *τῷ Δαυὶδ πρὸς τὸν* Γολιάδ: ac er fod y cyfeiriadau yn aneglur ac ansicr, eto mae yn bossibl fod y Salm hon wedi ei hysgrifenu ar ol y fuddugoliaeth.

Mae yn beth rhyfedd nad ydym yn cael unrhyw gyfeiriadau pendant at yr ymladdfa hon mewn barddoniaeth Hebreig; ond tybir gan rai fod y gân a briodolir yn awr i Hannah (1 *Sam.* ii. 1—10) wedi ei hysgrifenu yn wreiddiol er coffadwriaeth am fuddugoliaeth Dafydd ar yr amgylchiad hwn.

Y mae Saul a Goliath yn cael eu galw gan y Mohammediaid yn Taluth a Galuth, a hyny, fe allai, er mwyn i derfyniad y ddau enw fod yn gyffelyb, yr hyn y maent mor hoff o hono [*Hottinger Hist. Orient.* i. 3, t. d. 28]. Mae Abelfuda yn crybwyll am frenin Canaaneaidd o'r enw Jalut [*Hist. Anteislam*, 176, yn Winer *s. v.*]; ac yn ol Amhed al Fassi, yr oedd Gialot yn enw teyrnachol ar hen benaethiaid y cewri.

GOLOSGIAD CYFFREDINOL. Mae yr opiniwn y bydd i ddiwedd y byd gymmeryd lle trwy offerynoliaeth tân yn hen iawn; ac yr oedd y dybiaeth yn hollol gyffredin yn mhlith yr athronwyr cenedlig [*Ovid's Metamorph.*, i. 256]. Dyfynir tystiolaethu ereill gan Grotius [*De Veritate Heb. Chr.*, llyfr i. adr. 22]. Nid yw yn hawdd cael allan o ba le y tarddodd yr opiniwn, a phrin y gellir ei briodoli i draddodiad wedi deilliaw oddi wrth ddadguddiad, gan nad oes unrhyw gyfeiriad uniongyrchol at y cyfryw drychineb yn yr Hen Destament. Heb law hyny, y mae yn beth tra hynod, wrth ystyried mor gyffredinol a phendant ydyw y grediniaeth ar y pwnc hwn, nad oes ond un adran yn y Testament Newydd, sef 2 *Pedr* iii. 7—10, yr hon y gellir ei hystyried fel yn llefaru yn bendant am y digwyddiad hwn. Mae yr adran hon, mae yn wir, yn dra eglur a phendant; ond dylid cofio fod rhai deonglwyr Iuddewig dysgedig a galluog yn cymhwyso y geiriau yn gwbl oll at ddinystr Ierusalem a'r llywodraeth Iuddewig. Yn mhlith y rhai sydd wedi bod yn dal yr opiniwn hwn y mae Dr. Lightfoot [*Horæ Hebr. in Joh.* 21, 22] a Dr. John Owen (*Θεολογούμενα*: argr. *Bremen*, 1684, t. d. 147, dyfynedig gan Dr. Pye Smith yn ei *Scripture and Geology*, sect. 6, t.d. 233, arg. 1af). Modd bynag, os bydd i ni, gyda'r nifer mwyaf o ddeonglwyr, gymhwyso y rhagfynegiad at ddiwedd y byd, at yr hwn yr ymddengys ei fod yn cyfeirio yn

Digitized by Google

hollol naturiol, nis gallwn gael adroddiad mwy eglur o'r ffaith fod trefn bresennol pethau i derfynu trwy i'r byd, yn yr hwn yr ydym yn byw, a holl weithredoedd dyn sydd ynddo gael eu "llosgi." Dywed rhai nad oes reswm dros dybied y bydd i'r holl fyd naturiol gael ei gymmeryd i mewn yn y trychineb hwn; nid yw y crybwylliad am y nefoedd yn arwain ein meddyliau ddim pellach nag awyrgylch y blaned yr ydym yn byw arni. Ni ddylem chwaith ystyried y golosgiad hwn fel yn cymmeryd i mewn lwyr *ddinystriad* neu ddifodiad y byd: y mae yn fwy cysson â'r hanes ei hun, a chyda gwyddoriaeth anianyddol, i'w ystyried fel rhagarweiniad i sefyllfa newydd a rhagoracb ar bethau—"nefoedd newydd a daear newydd, yn y rhai y mae cyfiawnder yn cartrefu" (*adn.* 13). Nid ydym wedi ein hysbysu trwy ba foddion y bydd i'r golosgiad gymmeryd lle, ac nid yw pob ymgais i egluro pa fodd y mae hyn i gael ei gyflawni ond damcaniaeth yn unig, i'r hon nid ydym yn ystyried ei bod yn angenrheidiol nac yn fuddiol i ni dalu unrhyw sylw. Fodd bynag, wrth fyfyrio ar y pwnc hwn, mae cynghor Calvin yn deilwng o sylw:—"Gan fod y nefoedd a'r ddaiar i gael eu puro trwy dân fel y gallant fod yn fwy cyfaddas i deyrnas Crist, pa faint mwy angenrheidiol ydyw fod dynion yn cael eu hadgenedlu. Y mae'r esbonwyr hyny (medd efe hefyd) yn gwneuthur niwed, y rhai a ymdrechant i fanylu ar bethau o'r fath yn ormodol, gan fod yr apostol yn cyfeirio at y ffaith fel cymhelliad i dduwioldeb uwch." —*Calvin* ar 2 *Pedr* iii. 10).

Ond gallwn sylwi nad yw y cyfryw ddigwyddiad yn anghysson â ffeithiau anianyddol. Yr ydym yn gwybod fod tymmeredd neu wres y ddaear yn cynnyddu yn raddol gyda llawer o reoleidd-dra fel y disgynir islaw yr arwynebedd [*Phillips' Geology*, cyf. ii. t. d. 232], ac y mae genym bob rheswm i gredu fod y clamp canol yn boeth angerddol. Yn mhellach, yr ydym yn gwybod fod tânau tanddaearawl o faintiolaeth eang, os nad ydynt yn ffurfio rhan o'r clamp canol poeth a grybwyllwyd. Gan hyny y mae moddion ennyniad wrth law. Ond hyd yn oed pe na byddai y cyfryw wres canolbarthol yn bodoli, mae fferylliaeth yn dangos moddion tra hawdd trwy ba rai y gallai golosgiad gymmeryd lle trwy offerynoliaeth gwahanol elfenau [*Phillips' Geology*, cyf. ii. t. d. 211]. Yr ydym hefyd yn cael prawf yn y creigiau tanllyd, y rhai ydynt yn ffurfio rhan mor helaeth o grofen (*crust*) y ddaear, fod y byd wedi bod yn ddarostyngedig—os nad i olosgiad—i weithrediad cyffredinol ac angerddol gwres mewn ystyr helaethach na dim a ellir ei weled yn awr ar wyneb y ddaear; ac y mae yn amlwg nad yw yn annhebyg y bydd ei weithrediad eto yn fwy angerddol a chyffredinol.

1. GOMER: mab hynaf Iapheth, fab Noah: *Gen.* x. 3; 1 *Cron.* i. 5. Y mae Bochart yn tybio fod ei hiliogaeth wedi ymsefydlu yn Phrygia. Y farn gyffredin yw, mai efe ydoedd hynafiad y Cimmeriaid, y Celtiaid neu y Galiaid, a'r Cymry; ac y mae Josephus yn casglu mai hiliogaeth Gomer, yn disgyn oddi wrth y Celtiaid, oedd y Galatiaid. Bu y Cimmeriaid yn preswylio ar dueddau gogleddol y Môr Du; ac oddi wrth y gair *Cimmerii* y mae y Crimea (rhan o ymherodraeth Rwssia) yn derbyn ei henw. Erlidiwyd y rhan luosocaf o honynt o'u tiriogaethau gan y Scythiaid, pryd y ffoisant am noddfa i Asia Leiaf yn y flwyddyn c.c. 7.

Y mae un awdwr galluog (Pezron) yn dyweyd fod y Gomeriaid, tuag amser Abraham, yn freniniaeth gref a blodeuog; a'u breninoedd oeddynt Man neu Maneus, Acmon, Uranus, Saturn, Jupiter, a Theutal neu Mercury, yr hwn a ddygodd farchnadaeth i arferiad yn eu plith. Wedi ei amser ef, ymranodd y freniniaeth yn llwythau, ac fe fu un o honynt, y Galiaid, yn ddychryn hir i'r Rhufeiniaid; ond gorchfygwyd hwy o'r diwedd gan y Rhufeiniaid a hiliogaeth Magog. Y mae gweddill y Gomeriaid yn preswylio yn wasgaredig yn Llydaw (Brittanny yn Ffrainc), yr Iwerddon, a'r Alban. Gwel GALATIAID.

2. GOMER: merch Diblaim, a gordderchwraig Hosea: *Hos.* i. 3.

GOMORRAH, [*tansuddiad*; yn yr Arabaeg, *gorchuddiedig gan ddyfroedd*]. Un o bump o ddinasoedd y gwastadedd, yn nyffryn Sidim, y rhai a aethant i ryfel, pob un o dan arweiniad ei brenin ei hun, yn erbyn Cedorlaomer a thri o freninoedd ereill oedd gydag ef, pa rai a'u gorchfygasant hyd nes y daeth Abraham i'w cynnorthwyo: *Gen.* xiv. 2—8. Wedi hyny, fe ddinystriwyd pedair allan o'r pump gan yr Arglwydd trwy dân o'r nefoedd: *Gen.* xix. 23—29. Un o honynt yn unig, Soar (neu Bela, yr hwn oedd ei henw cyntefig) a arbedwyd ar ddymuniad Lot, er mwyn iddo gael myned yno am noddfa a diogelwch. O'r rhai hyn, yr oedd Gomorrah yn nesaf i Sodom mewn pwysigrwydd yn gystal ag mewn annuwioldeb, yr hyn a arweiniodd i'w dymchweliad. Gellir casglu beth oedd natur annuwioldeb y trigolion oddi wrth *Gen.* xix. 4—8. Y mae eu tynged arswydus yn cael ei dal i fyny fel rhybudd i feibion Israel (*Deut.* xxix. 23); fel darluniad o ddinystr Babilon (*Esa.* xiii. 19; *Ier.* i. 40); Edom (*Ier.* xlix. 18); Moab (*Zeph.* ii. 9); ac hyd yn oed o Israel (*Amos* iv. 11). Gan yr apostol Pedr a'r apostol Iudas (2 *Pedr* ii. 6; *Iudas* 4—7) gosodir dinystr trigolion Gomorrah yn esampl i'r rhai a fyddent yn annuwiol, a'r rhai a wadent yr Arglwydd Iesu Grist. Y mae eu hannuwioldeb hefyd yn rhedeg fel diareb trwy y prophwydoliaethau: *Deut.* xxxii. 32; *Esa.* i. 9, 10; *Ier.* xxiii. 14. Yn Llyfr Ieremiah y mae Ierusalem ei hun yn eglur yn cael ei galw yn Sodom, "a'i thrigolion fel Gomorrah," o blegid ei hanwiredd; yr un modd ag y mae llygredigaethau Eglwys Rhufain wedi achosi iddi hi gael ei galw yn Babilon. Ar y llaw arall, y mae pechod ffieiddiach yn ngolwg yr Arglwydd nag hyd yn oed eiddo Sodom a Gomorrah—sef y pechod hwnw yr oedd Tyrus a Sidon, Capernaum, Chorazin, a Bethsaida, yn euog o hono, pan y gwrthodasant edifarhau "yn ngwyneb y gweithredoedd nerthol" a wnaethpwyd yn eu plith (*Mat.* x. 15); ac y mae Marc wedi rhestru yn mysg yr un dosbarth yr holl rai ni dderbyniant y gwirioneddau a bregethid gan yr apostolion: *Marc* vi. 11.

O barth i sefyllfa ddaiaryddol y dinasoedd hyn, y mae un rhan o'r Ysgrythyr yn hysbysu fod dyffryn Sidim wedi ei wneyd yn orweddle i'r Môr Heli, neu y Môr Marw (*Gen.* xiv. 3), yr hwn a elwir mewn lle arall Môr y Gwastadedd (*Ios.* xii. 3). Y mae yr ymadrodd, pa fodd bynag, yn dygwydd yn flaenorol i'w dymchweliad. Fe ddywed Josephus [*Hynaf.*, i. 9] fod y Môr Marw yn gorwedd ar y dyffryn lle yr oedd Sodom yn sefyll; ond mewn rhan arall o'i lyfr dywed, na chafodd tiriogaeth Sodom ei thansuddo yn y môr, a'i bod yn aros i'w gweled eto yn graslyd a

Digitized by Google

llosgedig; ac yn wir nid oes dim yn yr Ysgrythyr yn cadarnhau y syniad fod y dinasoedd wedi eu dinystrio trwy dansuddiad, er y gallent fod wedi eu tansuddo ar ol iddynt gael eu dinystrio; o herwydd y mae eu dinystr yn cael ei briodoli yn uniongyrchol i'r tân a'r brwmstan a wlawiwyd arnynt o'r nefoedd (*Gen.* xix. 24; *Deut.* xxix. 22; *Zeph.* ii. 9); hefyd Pedr ac Iudas, fel y dyfynwyd eisoes. Yn mhlith y teithwyr diweddar sydd wedi traethu eu golygiadau ar y pwnc, y mae Dr. Robinson yn dangos nas gallai yr Iorddonen erioed redeg i lyncllyn 'Akabah; ond yn y gwrthwyneb, fod afonydd yr anialwch i gyd yn rhedeg mewn cyfeiriad gogleddol tua'r Môr Marw. Gwel Arabah. Y mae hyn, yn chwanegol at agwedd ddwfnbruddaidd y dyffryn, yn profi, yn ei farn ef, fod yn rhaid fod llyn yn bodoli yno erioed, i'r hwn y rhedai yr Iorddonen; er y cyfaddefa iddo fod yn llawer llai nag ydyw yn bresennol, ac hyd yn oed fod yr holl ran ddeheuol o hono wedi ei chwanegu ato yn ganlynol i ddymchweliad y pedair dinas, y rhai a safasant, yn ol ei olygiad ef, ar y pen deheuol iddo, fel yr oedd ar y cyntaf Zoar, mae yn debygol, yn gorwedd ar y parth lle y mae ceg afon Wady Kerah, fel y mae yn agor ar gyfyndir (*isthmus*) y gorynys (*peninsula*). Yn yr un gwastattir yr oedd pyllau clai, neu ffynnonau o losfyg (*Gen.* xiv. 10); pyllau halen hefyd (*Seph.* ii. 9); ac y mae helaethiad y llyn, yn marn Dr. Robinson, i'w briodoli i ryw gynhwrf anianyddol yn y ddaiar—rhwygiad llosgfalaidd neu ddaiargryn—a gymmerodd le yn gyssylltiedig â dinystriad gwyrthiol y dinasoedd. Gallasai y teithiwr dysgedig ddyfynu hanes y daiargryn mawr a ddygwyddodd yn Lisbon i gadarnau cywirdeb ei gasgliadau. Hefyd, y mae y gwahaniaeth dirfawr sydd yn ngwaelod y llyn, rhwng y pen gogleddol a'r pen deheuol—y blaenaf yn 1,300, a'r olaf ond 13 o droedfeddi dan y gwyneb—mewn modd neillduol yn gadarnhad nerthol i'w olygiadau. Byddai hen bererinion Palestina gynt yn gweled, o leiaf yn dychymygu eu bod yn gweled, adfeilion dinasoedd yn ngwaelod y llyn, nid yn mhell oddi wrth y lan. [Gwel *Maundrell's Early Travels*, td. 454.] M. de Saulcy oedd y cyntaf i nodi allan yr adfeilion ar hyd y glanau, yn enwedig adfeilion Gomorrah. Dichon fod y gŵr hwn yn gystal a'r hen bererinion yn berffaith iawn. Nid yw yn annhossibl fod Gomorrah (fel y mae yr enw ei hun yn arwyddocau) wedi ei thansuddo, i raddau mwy neu lai, ar yr un amser a'r tair dinas arall, yn ganlynol i'w dinystriad trwy dân; tra y gellir gweled adfeilion Soar, os ydynt i'w gweled o gwbl, ar lan y llyn, gan na fu yn ddarostyngedig i'r un dynged a'r dinasoedd ereill.

GOPHER. Unwaith y mae y gair hwn yn ymddangos yn y Beibl, sef yn *Gen.* vi. 14, lle y gorchymynir i Noah wneuthur "arch o goed Gopher." Yn llyfr Caniad Solomon cyfieithir ef "camphir"—"cangen o rawn camphir yw fy anwylyd i mi;" *Can.* i. 14; iv. 13. Tybir gan rai mai swp o rawnwin a feddylir yn y geiriau a ddyfynir; a barna ereill mai *camphor* a olygir wrth *camphir.* Yr hen ddull o sillebu *camphor* ydyw *camphir;* ond nid yw yn ymddangos fod *camphor* yn adnabyddus i'r hen drafnidwyr dwyreiniol—o leiaf nid oes brawf i'w gael ei fod yn un o ddefnyddiau eu masnach. Y mae'r gair *copher,* mae'n wir, yn debyg iawn i'r gair *cafoor,* yr enw dwyreiniol am *camphor,* ond y mae hefyd yn bur debyg i'r gair Groeg κυπρος (*cupros*), a ysgrifenir yn fynych *cypros.* Yn wir, fel y sylwa un awdwr, yr un gair ydyw, gyda'r llafariad a'r terfyniad Groegaidd. *Cupros* y Groegiaid yn ddiammheuol ydyw *lawsonia inermis* y llysieuwyr, a dysgrifir ef fel y cyfryw gan Dioscorides a Pliny. Y mae Syr T. Browne, ac ereill, yn casglu mai *cupros* y Groegiaid ydoedd *copher* yr Hebreaid. Dywed Mariti fod "y goeden a adnabyddir yn yr Hebraeg wrth yr enw *copher* yn gyffredin iawn yn Ynys Cyprus, ac oddi yno y derbyniodd yr enw Lladinaidd;" hefyd, fod "y *botrus cypri,* yr hon a ystyrid yn fath o winwydden o natur tra ragorol, yn tyfu yn anaml iawn, wedi ei thrawsblanu o Cyprus i Engaddi: ond y mae y *botrus* yn adnabyddus i frodorion Cyprus fel planwydden a elwir *lenna* neu *alcanna.* Os cyfeirir at weithiau yr Arabiaid, ceir gweled fod eu *hinna* hwy yn cyfateb i ddysgrifiad Dioscorides a Galen o'r *cupros* neu'r *cypros.* Y mae'r unrhywdeb hwn yn awr yn cael ei gydnabod yn gyffredinol: rhaid gan hyny mai y *lawsonia inermis* oedd y *cupros,* yn gystal a *hinna* yr Arabiaid. Wrth wneuthur ymchwiliadau yn ngweithiau teithwyr a naturiaethwyr dwyreiniol, canfyddir fod y blanwydden hon yn cael ei gwerthfawrogi gan bawb yn y gwledydd hyny er yr amseroedd boreuaf, ar gyfrif perarogledd ei blodau a phriodoleddau lliwiol ei dail. Fe ddywed Rauwolf, wedi bod yn Tripoli—"Cefais hyd i goeden arall—nid yn annhebyg i'n rhyswydden (*privet*) ni—a elwir *alcanna* neu *henna,* gan yr Arabiaid; ac fe'i gelwir gan y Groegiaid yn eu hiaith gyffredin hwy yn *scheuna,* yr hon a gânt o'r Aipht; ond yn Cayre y mae hi yn tyfu yn fwyaf lliosog. Y mae'r Tyrciaid a'r Mooriaid yn eu mithrin gyda gofal a diwydrwydd mawr, o blegid fod eu blodau mor bersawrus. Deallwyf, hefyd, y cadwant eu dail ar hyd y gauaf, gan eu pylori a'u cymmysgu gyda sudd llebron (*citron*), er mwyn lliwio gwallt ac ewinedd eu plant yn goch: yr hwn liw a ellir ei weled genym ni ar fwngau a chynffonau meirch y Tyrciaid." Ymddengys fod y ddefod o liwio yr ewinedd, a chledrau y dwylaw, a gwadnau y traed, ar liw llwch haiarn, mewn grym drwy holl wledydd y dwyrain, o Fôr y Canoldir hyd yr afon Ganges, yn gystal ag yn ngogleddbarth Affrica. Mewn rhai parthau nid yw yr arferiad yn cael ei chyfyngu i wragedd a phlant; ond dilynir hi hefyd gan ddynion, yn enwedig yn Persia. Tra yn cyfeirio at yr arferiad gyffredinol hon yn y dwyrain, y mae Dr. Harris yn sylwi fod yr ymadrodd yn *Deut.* xxi. 12, "a thored ei hewinedd," yn golygu "addurned ei hewinedd," a chan hyny yn profi fod yr arferiad yn hen iawn. Y mae hon yn ddefod gyffredinol yn yr Aipht, ac y mae gwrthod cydymffurfio â hi yn cael ei ystyried yn ymddygiad anweddus. Wrth ganfod, ynte, fod yr *henna* yn cael ei gwerthfawrogi mor gyffredinol yn y dwyrain o blegid perarogledd ei blodau a chynnyrch lliwiol ei dail, a chan nad oes ammheuaeth mai κυπρος y Groegiaid ydyw, ac fod y gair hwn yn debyg i *copher* yr Hebreaid, y mae pob tebygolrwydd mai *copher* ydyw *henna* yr Arabiaid, a *lawsonia alba* y llysieuwyr.

GORCHEST: rhagoroldeb, gwrolgamp, gweithred glodfawr. "A Rahel a ddywedodd, Ymdrechais ymdrechiadau gorchestol â'm chwaer, a gorchfygais;" *Gen.* xxx. 8:—*ymdrechiadau Duw,* yn yr Hebraeg. Achlysur llefariad y geiriau hyn ydoedd genedigaeth Naphtali, mab Bilhah, llawforwyn Rahel. Yr oedd Rahel wedi bod yn

Digitized by Google

anmhlantadwy am amser hirfaith; a thra yn gweled ei chwaer Leah yn dwyn plant hi a genfigenodd ac a aeth yn athrist ei chalon. Ymdrechodd â Duw mewn gweddi, mae'n debygol, am blant, a llwyddodd. Y mae llawer o weithredoedd gorchestol wedi eu cyflawni gan ddynion mewn celfyddyd, a gwyddoniaeth, a gwahanol ganghenau gwybodaeth—y mae'r byd yn cynnyddu yn barhaus mewn gorchestion; ond yr orchest fwyaf yn ngolwg y nefoedd ydyw ymdrechu â Duw mewn gweddi hyd nes llwyddo, fel Rahel, ac fel Iacob yn Peniel. Yr hyn a ystyrir yn rhagorol a chanmoladwy gan yr annuwiolion ydyw cabledd, twyll, trais, ac afradlonedd; ac o blegid hyny, y maent yn ymorchestu yn ben uchel yn eu gwarth a'u hanwiredd. Pan argyhoeddir y byd "o bechod, o gyfiawnder, ac o farn," fe ddaw dynion i newid eu syniadau gyda golwg ar yr hyn sydd i'w ganmol a'r hyn sydd i'w gondemnio. Gellir bod yn orchestol mewn llawer o bethau pur anrhydeddus ar wahan oddi wrth grefydd, ond gorchest y ffydd, y "gamp uchel," wedi'r cwbl, a rydd anrhydedd gwirioneddol, gwerth ei dderbyn, i enaid anfarwol yn wynebu ar y byd tragwyddol a dydd y farn ddiweddaf, pan na bydd dim yn cael ei ystyried yn orchest ond yr hyn sydd debyg i Dduw—yn bur, sanctaidd, a da. "Am hyny yr annuwiolion ni safant yn y farn, na phechaduriaid yn nghynnulleidfa y rhai cyfiawn;" *Salm* i. 5.

GORCHUDD: cudd, llen-gudd. Y mae amryw o eiriau yn y Beibl Hebraeg yn dynodi gorchudd; yr hyn a ddengys fod gwahanol fathau o orchuddion yn perthyn i wisgiad benywod y dwyrain yr amser gynt fel yn bresennol. Y mae un math, a'r unig fath sydd yn dwyn unrhyw debygolrwydd i'r gorchuddion a wisgir yn ein plith ni, yn cael ei gwisgo ganddynt yn eu hanneddau, wedi eu gwneud o fwslin, neu rhyw ddefnydd ysgafn a gweuedig arall. Cyssylltir hwn âg addurnwisg y pen, a gosodir ef i ddisgyn



Dar. 319.

dros yr ysgwyddau ar y cefn. Y mae y gorchuddion yma yn amrywio yn eu gwneuthuriad; rhai o honynt yn cyrhaedd at y meingorff, a'r lleill yn cyrhaedd agos hyd y llawr. Nid yw y rhai hyn yn cael eu defnyddio i guddio y wyneb.

Mae'n ddiammheu fod y rhan fwyaf o'r gorchuddion y crybwyllir am danynt yn yr ysgrythyr yn gyffelyb i'r gwisgoedd gorchuddol, neu fath o fantelli, gyda'r rhai y bydd gwragedd dwyreiniol yn ymwregysu pan yn myned allan o'u tai. Mae y rhai hyn yn cael eu gwneud yn helaeth iawn o ran maint, ac yn mysg y bobl gyffredin o ddefnydd garw a chryf, fel yr un oedd gan Ruth yn cludo ei haidd gartref o lawr dyrnu Boaz: *Ruth* iii. 15. Yn yr adnod hon, defnyddir y gair "mantell;" ond ar ymyl y ddalen gwelir "cynfas" neu "arffedog." Ystyr briodol y gair yn yr iaith wreiddiol yw *gorchudd.* Fe ddengys y darlun (320) mor bwrpasol ydyw y gorchudd a wisgir allan, yn yr awyr agored, i ateb y dyben y defnyddiwyd ef gan Ruth. Yn *Esa.* iii. 22, ceir y gair *mantell* eto yn cael ei arfer am orchudd. Yn yr un adnod ymddengys y gair רדיד, *radid* (misyrnau), yr hwn a olyga fath arall o orchudd, wedi ei wneuthur o ddefnydd meinach a mwy drudfawr, fel y gellir casglu oddi wrth y modd y crybwyllir am dano yn *Can.* v. 7; "Y gwylwyr y rhai a aent o amgylch y ddinas a'm cawsant, a'm tarawsant, a'm harchollasant: gwylwyr y caerau a ddygasant fy ngorchudd oddi arnaf." Y mae'n amlwg mai gorchudd ydoedd hwn i'w wisgo yn yr awyr agored; o blegid ni a gawn enghraifft yn y geiriau yma i'r foneddiges ei daflu dros ei chefn i fyned allan i chwilio am ei hanwylyd; ond trwy anffawd annisgwyliadwy hi a'i collodd.

Mewn gwleddoedd, ac ar adegau neillduol, fe fydd y boneddigesau yn gwisgo gorchuddion gwych ac addurniadol iawn.

Y mae math arall o orchudd, yr hwn a elwir yn צמה (*tzamah*), yn cael ei enwi yn *Can.* iv. 1, a vi. 7; ac *Esa.* xlvii. 2; ac yn y rhanau hyny o'r Ysgrythyr, cyfieithir y gair yn "llawethau;" ond yn ol y beirniaid mwyaf craffus a galluog, dylid darllen y geiriau fel hyn—"Dy lygaid ydynt golomenaidd tu fewn i'th orchudd;"—"dy arleisiau tu fewn i'th orchudd:" ac nid "rhwng dy



Dar. 320.

lawethau." "Cyfod dy orchudd;" ac nid "dadguddia dy lawethau." Y mae y rhanau yma o'r Ysgrythyr yn cyfeirio yn fwyaf neillduol at y gorchudd a gyssylltid â'r penwisg; ond rhaid addef hefyd fod yr ymadroddion a ddefnyddir yn gymhwysiadol i'r gorchudd a wisgid yn yr awyr agored. Gall y darllenydd farnu hyn wrth sylwi ar y darluniau.

Y mae gorchudd gwahanol eto yn cael ei enwi yn *Gen.* xxiv. 65; xxxviii. 14, 19. Y gair gwreiddiol am dano yw צָעִיף (*tzaiph*); tarddiad yr hwn, wrth ei gymharu â'r gair yn yr Hebraeg, a ddengys fod y gorchudd hwn yn cael ei ddyblu dros yr ysgwyddau, a'i blethu o gwmpas y corph mewn modd ag oedd yn ei hynodi oddi wrth y gorchuddion ereill. Eglur yw ei fod yn cuddio y wyneb; o blegid nid oedd Iacob yn gallu adnabod

Digitized by Google

Tamar pan wedi ymwisgo mewn *tzaiph: Gen.* xxxviii. 14, 15.

GORCHUDD Y TABERNACL A'R DEML. Gwel TABERNACL; TEML.

GORCHYMYN PENDANT, NEWYDD. Gwel MOESOL.

GORDD: morthwyl. Y mae i'r erfyn defnyddiol hwn lawer o enwau yn yr iaith Hebraeg. 1. *Pattîsh:* yr hwn a ddefnyddid gan yr eurddalenydd ("saer" yn y cyfieithiad Cymraeg: *Esa.* xli. 7) i lyfnhau ac i wisgo delwau eilunaddolwyr âg arian; ac hefyd gan y chwarelwr i ateb gwahanol ddybenion ei alwedigaeth: *Ier.* xxiii. 29. 2. *Macâbâh:* erfyn i gafnu neu i dyllu; morthwyl at wasanaeth y naddiedydd ceryg (1 *Bren.* vi. 7) neu unrhyw weithiwr arall: *Esa.* xliv. 12; *Ier.* x. 4. 3. *Halmûth:* unwaith yr enwir hwn, yn *Barn.* v. 26, a chwanegir y gair "gweithiwr" mewn ffordd o eglurhad. 4. Yr oedd math o forthwyl a elwid *mappêtz* ("arf rhyfel" yn y Beibl Cymraeg: *Ier.* li. 20) neu *mêmphitz* ("gordd" yn *Diar.* xxv. 18) yn cael ei arfer fel arf rhyfel.

Mae "gordd" yn cael ei ddefnyddio yn ffugrol i ddangos gallu mawr mewn ystyr gallofyddol (*Ier.* l. 23) neu ysbrydol (*Ier.* xxiii. 29).

GORDDERCH—WRAIG: cyfoden, cywelŷes, cariadwraig. Yn ol y gyfraith Iuddewig yr oedd gordderchwraig yn golygu un yn cydfyw ac yn cydwelya gyda gŵr i wraig gyfreithlon; neu פִּלֶגֶשׁ (*pilgash*), gwraig o'r ail radd, yr hon ni chai fwynhad o unrhyw hawl briodasol, oddi eithr yr hawl o gydorwedd; ac yr oedd gan y gwr awdurdod i'w gwrthod a'i gyru ymaith gyda rhodd fechan: *Gen.* xxi. 14. Trwy roddion fe allai hefyd gau allan ei blant o honi hi rhag cyfranogi o'r etifeddiaeth: *Gen.* xxv. 6. Gordderchwragedd o'r nodwedd yma oedd gan Nahor (*Gen.* xxii. 24) Abraham (xxv. 6), Iacob (xxxv. 22), Eliphas (xxxvi. 12), Gideon (*Barn.* viii. 31), Saul (2 *Sam.* iii. 7), Dafydd (2 *Sam.* v. 13; xv. 16; xvi. 21), Solomon (1 *Bren.* xi. 3), Caleb (1 *Cron.* ii. 46), Manasseh (1 *Cron.* vii. 14), Rehoboam (2 *Cron.* xi. 21), Abiah (2 *Cron.* xiii. 21), a Belsassar (*Dan.* v. 2). Oddi wrth hanes Abraham ac Iacob, gellir casglu mai achos uniongyrchol gordderchiaeth ydoedd dieppiledd y wraig gyfreithlon; yr hon o'i gwirfodd, pan mewn cyflwr felly, a gyflwynai ei llawforwyn i'w gŵr er mwyn cael plant. Nid ydym yn darllen fod gan Isaac ordderchwraig; o blegid, mae'n dra thebyg, nad oedd Rebecca, ei wraig, yn anmhlantadwy. Yn mhen amser, pa fodd bynag, fe ddirywiodd gordderchiaeth i fod yn arferiad cyffredin ac yn bechod ffiaidd yn mysg yr Iuddewon, fel y bu yn angenrheidiol ffurfio deddfau a rheolau newyddion yn y gyfundraeth Fosenaidd i roddi attalfa ar ei ddylanwad drygionus: *Gen.* xxi. 7—9; *Deut.* xxi. 10—14. Ymddengys nad oedd anffyddlondeb gordderchwraig yn cael ei ystyried yn hollol yn ymddygiad godinebus: *Lef.* xix. 20. Er mwyn cadw y meibion rhag ymroddi i anlladrwydd cyn priodi, byddai y rhieni yn arfer rhoddi un o'u caethforwynion iddynt fel gordderchwraig; yr hon a ystyrid wedi hyny yn un o blant y tŷ; a chaniateid iddi ei hiawnderau fel gordderchwraig, hyd yn oed wedi i'r mab gael gwraig: *Exod.* xxi. 9, 10. Os byddai i fab gydorwedd â gordderchwraig ei dad, ymwelid âg ef â math o gospedigaeth deuluol: *Gen.* xxxv. 22; 1 *Cron.* v. 1.

Yn y *Talmud*, y mae'r Rabbiniaid yn gwahaniaethu yn eu golygiadau o berthynas i'r hyn sydd yn cyfansoddi gordderchiaeth. Dywed rhai mai ei neillduolrwydd penaf ydyw absennoldeb y moesddefodau dyweddïol (*sponsalia*) a'r כתובה (*libellus dotis*) neu y ddefod o roddi cyfran o'r eiddo i'r fenyw trwy ymrwymiad arbenig, i fod yn feddiant iddi ar ddiwrnod y briodas, ac ar ol marwolaeth y gŵr; neu ar adeg eu hysgariad, pe dygwyddai hyny. Mae ereill o'r Rabbiniaid yn haeru fod gordderchiaeth yn cynnwys cydymffurfiad â'r moesddefodau dyweddïol, ond yn rhydd oddi wrth unrhyw ymrwymiad o dŷ y gŵr i wneuthur darpariaeth ar gyfer yr ordderchwraig.

Yn y cyffredin, yr oedd gordderchwraig un ai —1. Yn llances Hebreaidd wedi ei phrynu trwy ganiatad ei thad; hyny yw, caethferch, yr hon yn unig a gydnabyddid gan y Rabbiniaid fel gordderchwraig gyfreithlawn, o leiaf i berson anghyhoedd. 2. Carcharores Genedlig wedi ei chymmeryd ar faes rhyfel. 3. Caethferch estronol wedi ei phrynu. 4. Neu wraig Ganaaneaidd, rhydd neu gaeth. Yr oedd iawnderau y laf a'r 2il yn cael eu hamddiffyn gan y gyfraith (*Exod.* xxi. 7; *Deut.* xxi. 10); ond nid oedd y 3edd yn cael ei chydnabod; ac yr oedd y 4edd yn cael ei gwahardd. Gallasai merched rhydd Hebreaidd hefyd ddyfod yn ordderchadon; ac y mae yn ymddangos fod gordderchwraig Gideon yn disgyn o deulu anrhydeddus a dylanwadol yn Sichem; a diau fod gordderchwraig y Lefiad hefyd yn perthyn i deulu o radd cyffelyb: *Barn.* xx. 4. Nid oes dim yn frwnt iawn yn achos y laf. Y mae y geiriau yn *Exod.* xxi. yn lled dywyll; ond hwyrach mai y meddwl ydyw hyn:—Nas gallai dyn a brynai forwyn Hebreaidd i fod yn ordderchwraig iddo ei hun ymddwyn tuag ati yn unig fel caethferch, i'w gyru allan o'i wasanaeth (yn y seithfed flwyddyn: *adn.* 2); ond fe allai, os dygwyddai iddi hi ei anfoddloni, y gallai ei danfon at ei thad, trwy iddo ef dalu yn ol, mae yn debyg, ran o'r arian a dderbyniodd am dani:—"gadawed ei hadbrynu hi" (*adn.* 8); ac nid oedd gan y meistr hawl i'w gwerthu i neb arall. Os oedd wedi ei chymmeryd yn ordderchwraig i'w fab, ac i'r mab drachefn briodi dynes arall, yr oedd sefyllfa ac iawnderau yr ordderchwraig i gael eu sicrhau a'u diogelu; a phe gwadid hyn iddi, daethai yn rhydd "yn rhad, heb arian." Yn mhellach, yr ydym yn gweled, oddi wrth y ddarbodaeth a wnaed gan y tad i ordderchwraig ei fab, iddi gael yr unrhyw driniaeth a'i ferched ef ei hun (*adn.* 9)—fod yr egwyddor gaethwasaidd yn ymgolli yn y berthynas deuluol, ac fod plant yr ordderchwraig yn rhwym o fod yn rhydd. Er hyny, ymddengys fod graddau o genfigen a dirmyg yn tori allan weithiau yn erbyn "mab y lawforwyn;" *Barn.* ix. 18; *Salm* cxvi. 16.

Yr oedd y gordderchwragedd y crybwyllir am danynt yn llyfrau Samuel a'r Breninoedd yn perthyn i'r brenin, ac nid oedd eu nifer a'u sefyllfa yn ateb i'r rheol gyffredinol. Yr oedd brenin newydd yn cymmeryd meddiant llawn o hawliau ei ragflaenor (2 *Sam.* xii. 8, a xvi. 21; 1 *Bren.* ii. 22); ac erbyn amser Solomon yr oedd gordderchiaeth yn gwbl gyfystyr â phuteiniaeth, a chedwid y gordderchadon yn debyg i'r modd y cedwir puteiniaid yn y dyddiau presennol mewn puteindai cyhoeddus yn ninasoedd Cyfandir Ewrop, a pharthau ereill o'r byd.

Y mae Dr. Eadie wrth ymdrin â phwnc yr erthygl hon yn sylwi fel y canlyn:—"Yn ol y

Digitized by Google

gyfraith Iuddewig yr oedd gordderchwraig yn wraig gyfreithlawn, ond ei bod yn wraig israddol i un arall; ac o ganlyniad, nid ydoedd yn cael ei hystyried yn feistres yn y teulu. Nid oedd chwaith yn cael ei dyweddïo neu ei phriodi gyda'r defodau arferol oeddynt yn nglŷn â phriodasau cytunol â gosodiad pendant Duw. Lle yr oedd amlwreicaeth yn beth goddefol—fel yn mysg yr Iuddewon—nid oedd gordderchiaeth yn ymddangos yn milwrio gymmaint yn erbyn urddas a llwyddiant y gymdeithas ddynol ag y gwyddom ni ei fod yn y blynyddoedd hyn.

"Y mae yr efengyl yn adferu y sefydliad priodasol i'w gyssegredigrwydd cyntefig (*Gen.* ii. 24; *Mat.* xix. 5; 1 *Cor.* vii. 5), ac y mae gordderchiaeth yn cael ei restru yn awr yn mhlith y pechodau gwaethaf—megys godineb a phuteindra."

GOREURO: aur-doi; gwisgo âg aur. Yr oedd cyflawnder o aur yn y gwledydd dwyreiniol [gwel AUR], ac fe ddechreuwyd yn fore iawn yr arferiad, neu yn hytrach y gelfyddyd, o wisgo gwahanol wrthddrychau â'r defnydd gwerthfawr hwn. Gorchymynwyd i Moses, pan yn derbyn cyfarwyddiadau i wneuthur y tabernacl, i wisgo yr arch a'i throsolion, a'r bwrdd a'i drosolion, âg aur coeth: *Gen.* xxv. 10—13, 23, 28. Yr ydym yn darllen hefyd fod parwydydd y deml wedi eu goreuro: 1 *Cron.* xxix. 4. Fel yr oedd yr arch, ac yn mron bob peth arall cyssylltiedig â'r tabernacl a'r deml, yn cysgodi Crist a'r gyfundraeth efengylaidd, dichon fod y "gwisgo âg aur" yn cyfeirio at werthfawredd "goludoedd anchwiliadwy" gras Duw yn nhrefn iachawdwriaeth.

Y mae yn ddigon tebyg mai gweled dodrefn cyssegredig tŷ y gwir a'r bywiol Dduw yn cael eu goreuro, a gymhellodd yr eilunaddolwyr i fynu gwasanaeth yr eurych (*goldsmith*) i wisgo eu duwiau hwy âg aur: *Esa.* xl. 19; xlvi. 6.

GOLUD—OG, [*gol*]: cyfoeth, da, llawnder, alaf, berthedd; cyfoethog, llawn. Y gair Groeg am *golud*, yn gystal a *chyfoeth*, ydyw πλουτος, allan o πoθυ έτος=blwyddyn doreithiog. Mewn ystyr trawsenwol y mae yn arwyddo hapusrwydd neu lwyddiant: 2 *Cor.* v. 9; *Dad.* ii. 9; iii. 17. Wrth ei gymhwyso at ddaioni, cariad, gras, trugaredd, neu ogoniant Duw, arwydda y radd uchaf o helaethrwydd a digonolddeb. "Cyfoeth ei ras" ydyw y gras hwnw nas gall fod yn helaethach; "golud ei ddaioni" ydyw y daioni uchaf, eangaf, yn mhob ystyr. Er fod mwy o fri ar olud yn yr Hen Destament nag yn y Newydd, o herwydd mai llwyddiant tymmorol oedd y daioni a gyssylltid âg ufudd dod yn nghyfraith Moses, eto ni a gawn yn yr Hen Destament lawer o ymadroddion sydd yn dangos nad oedd gwerth mewn golud ynddo ei hun. Rhaid oedd ei gasglu mewn ffordd ddoeth a chyflawn; cydnabod yr Arglwydd yn y mwynhad o hono; a'i ddefnyddio fel cyfleusdra i ogoneddu yr Arglwydd, ac i wneuthur daioni i ddyn. Ar wahân oddi wrth dduwioldeb, nid yw golud y cyfoethog ond melldith iddo gyda golwg ar y byd arall, a ffynnonell o ychydig hapusrwydd iddo yn y byd hwn. Dywed Sophar y Naamathiad am gyfoeth yr annuwiol (*Iob* xx. 10, 18, 19), y bydd i'w olud ei adael, ac y bydd ei blant yn cael eu gorthrymu gan y tlodion. "Y mae efe yn rhoddi adref yr hyn a lafuriodd am dano, ac nis llwnc: yn ol ei olud y rhydd adref, ac heb gael llawenydd o hono. Am iddo ddryllio, a gadaw y tlodion; ysglyfaethu tŷ nid adeiladodd." Pan y mae yr Arglwydd yn ddig wrth ddyn, ni thycia amlder ei olud ddim i'w ddyhuddo; "A brisia efe ar dy olud di? na phrisia, ar aur, nac ar holl gadernid nerth;" *Iob* xxxvi. 19. Y mae yr ychydig sydd gan y cyfiawn yn well na mawr olud annuwiolion lawer: *Salm* xxvii. 16. Y mae y Salmydd yma yn cyferbynu yr ychydig a fedd un dyn duwiol â'r helaethrwydd sydd gan luaws o annuwiolion, ac yn cadarnhau mai gwell yw y cyntaf; a'r rheswm dros hyny ydyw, "Canys breichiau yr annuwiolion a dorir." Y mae helaethrwydd yr annuwiol yn darfod yn fuan, trwy ei fod ef yn gadael ei olud; a'r pryd hyny ni bydd ei adgofion am ei olud blaenorol ond yn chwanegu ei drueni, trwy ei orfodi i gyferbynu ei helaethrwydd o'r blaen â'i dlodi yn y presennol. Ymadrodd cyffelyb i hwn yn y Salm ydyw *Diar.* xv. 16; "Gwell yw ychydig gydag ofn yr Arglwydd, na thrysor mawr â thrallod gydag ef." A *Diar.* xvi. 8; "Gwell yw ychydig trwy gyfiawnder, na chnwd mawr trwy gam." Y mae hanesiaeth yn rhoddi anghreifftiau lluosog o'r naill a'r llall; "Pa faint dedwyddach," ebe Nicholls [*The Book of Proverbs Explained*], "oedd y bugeiliaid tlodion (*Luc* ii. 20) na Herod Fawr, calon bechadurus yr hwn a gythruddid hyd yn oed o herwydd genedigaeth Ceidwad! Cymharer Paul yn y carchar (*Phil.* iv. 11, 13, 18; 1 *Tim.* vi. 6) âg Ahab yn ei balas (1 *Bren.* xxi. 4)." Y mae Duw yn gallu cyflawnu y diffyg o bob peth, ond nis gall pob peth gyflawnu y diffyg o hono ef. "Y mae cyfoeth a thlodi," ebe yr esgob Hall, "yn perthyn yn fwy i'r galon nag i'r dwylaw: y mae y boddlawn yn gyfoethog; ond y mae yr hwn ag sydd arno eisieu chwaneg yn dlawd." Yr oedd cyflwr y weddw o Sareptah yn llawer gwell na sefyllfa Iezebel, er fod yr olaf yn frenines; neu yr eiddo Ahab, yr hwn a orthrymai Naboth. "Yr ydym," ebe un, "yn gweled pa faint sydd gan un, ac am hyny yn cenfigenu wrtho. Pe y gwelem pa mor ychydig y mae yn fwynhau, gresynem yn hytrach drosto." Y mae gwagedd bywyd dyn ar y ddaiar yn ymddangos yn nodedig yn y ffaith na ŵyr ddim pwy fydd yn perchenogi ei olud yn mhen ychydig flyneddoedd. Tra yn pentyru golud, nis gŵyr pwy a'i casgl: *Salm* xxxix. 6. Y mae y cyntaf o'r ddau air—*tyru* a *casglu*—yn arwyddo, ebe Hammond, holl lafur y cynauaf-medi, rhwymo, gosod i fyny, tynu yr ysgubau at eu gilydd, nes gwneyd cynnyrch y maes yn barod i'w gadw. Y mae y casglu yn arwyddo dwyn y ffrwyth dan do, i ddiddosrwydd. Y mae hwn yn ddysgrifiad bywiog o wagedd trafferthion bywyd. Wedi i ddyn fyned trwy ei holl drafferth wrth ymgyrhaedd am olud, ac yn tybied ei fod ar fin llawenfwynhau ffrwyth ei lafur, y mae angeu yn dyfod i roddi terfyn ar ei fywyd: ni ŵyr yn nghanol ei ofalon diorphwys a'i drafferthion diball, a gaiff efe fwynhau dim o'i lafur; nis gŵyr a fwynheir ei dda gan ei etifedd. Dichon mai yn llaw ei elyn y bydd y cyfoeth a gasglodd. Ar ol bod mewn llafur blin yn cynnull y ffrwyth, nis gŵyr pwy a'i casgl i'r ysgubor. Y mae gwerth golud yn ymddibynu ar gymmeriad ei berchenog: "Y gŵr daionus," ebe Solomon, "a äd etifeddiaeth i feibion ei feibion; a golud y pechadur a roddwyd i gadw i'r cyfiawn;" *Diar.* xiii. 22. Ceir anghreifftiau yn y Beibl o wirionedd y ddwy adran o'r adnod. Nid oedd Abraham yn bryderus yn nghylch cyfoeth (*Gen.* xiv. 23): ei brif ofal ef oedd boddloni Duw, a dwyn ei deulu i fyny yn ei ofn (*Gen.* xviii. 19); ond wrth wneuthur felly



Digitized by Google

y gwnaeth y ddarbodaeth oreu gogyfer ag angen ei deulu: *Gen.* xxii. 17, 18; xxvi. 3—5. Cafodd Ephraim a Manasseh eu bendithio yn mherson eu tad Ioseph: yr oedd hyn yn esampl o egwyddor a ddilynir yn llywodraethiad y byd, sef bendithio un er mwyn arall, ac yn enwedig y plant er mwyn eu rhieni duwiol. Rhoddwyd Hebron i Caleb o herwydd ei gyflawnder: *Num.* xiv. 24; *Ios.* xiv. 14. Ond y mae golud yr annuwiol yn cael ei roddi i'r cyfiawn. Cafodd Israel drysorau yr Aiphtiaid (*Exod.* xii. 36), a rhoddwyd eiddo Haman i Esther: *Esth.* viii. 1.

Y mae dammeg y goludog ynfyd (*Luc* xii. 16—21) yn eglurhad ar yr ymadrodd, nad yw bywyd dyn yn sefyll ar amlder y pethau sydd ganddo. Y mae hefyd yn gwirio ymadrodd Solomon—"Esmwythdra y rhai anghall a'u lladd, a llwyddiant y rhai ffol a'u dyfetha;" *Diar.* i. 32. Yr oedd ei lwyddiant yn ei soddi i ddaearoldeb dyfnach, ac yn dwyn allan dueddiadau hunangeisiol ei galon i weithrediad cryfach. Y mae ymddygiad y goludog yn ngwyneb cynnydd ei dda yn dangos y priodoldeb mawr sydd yn rhybudd y Salmydd—"Os cynnydda golud, na ddyro dy galon arno." Ar y golwg cyntaf, ebe Trench, gallai un feddwl mai yr adeg fwyaf peryglus i osod y galon ar olud fyddai yr adeg ag y gwelid ef yn dianc oddi wrthym. Ond y mae profiad a sylwadaeth yn tystiolaethu i'r gwrthwyneb—fod colledion daiarol yn feddyginiaeth rhag cybydddra, tra y mae cynnydd golud yn tueddu yn gryf ato, ac yn gwasanaethu, nid fel dwfr i ddiffodd, ond fel tanwydd i ennyn y fflam: "Y neb a garo arian, ni ddigonir âg arian, na'r neb a hoffo amldra, â chynnyrch;" *Preg.* v. 10.

GORFOLEDD, [*gor—mawl*]: llawenydd mawr, hyfrydwch, gorfwyniant, digrifwch, bôst. Mae yn deimlad cyffelyb, ar ryw gyfrif, i dangnefedd a llawenydd. Y mae tangnefedd yn arwyddo boddhad dwfn, tawel, yn y meddwl. Y mae llawenydd yn deimlad mwy bywiog a gweithgar. Ond y mae gorfoledd yn uwch na llawenydd, ac yn arwyddo, weithiau, y mynegiad allanol o hono. Y mae gorfoledd yn cyfateb i gyflwr y neb sydd yn gorfoleddu, ac i'r gwrthddrych y gorfoleddir ynddo. Gorfoledd ynfyd yw gorfoledd yr annuwiol: nid yw ei gyflwr yn fforddio gorfoledd iddo, ac nid oes ganddo mewn meddiant wrthddrychau ag y tâl gorfoleddu ynddynt. Gan fod ei sefyllfa yn ddrwg rhyngddo a'i Farnwr, nis gall ei lawenydd a'i orfoledd barhau. Heb heddwch â Duw, ni chaiff fwynhau heddwch âg un gwrthddrych yn hir. Derfydd ei heddwch â'r greadigaeth, am nad ydyw mewn cymmod â'r Creawdwr. "Byr yw gorfoledd yr annuwiol, a llawenydd y rhagrithiwr sydd dros fynyd awr" (*Iob* xx. 5). Nid yw y gwrthddrychau chwaith ag y mae yn gorfoleddu ynddynt yn deilwng o hyny; o blegid y mae pethau goreu y byd yma yn annigonol i gynnyrchu y teimlad o wir lawenydd a gorfoledd. Y mae gorfoledd yr annuwiol yn anghyfreithlawn a ffol, am fod ei gyflwr yn ddrwg: y mae yn orfoledd gwag a disylwedd, am nad oes mewn pechod a phleserau cnawdol a daiarol allu i weinyddu gwir orfoledd: ac y mae hefyd o fyr barhad, am y dyhysbyddir yn fuan yr holl bydewau ag y mae yn sugno llawenydd allan o honynt. Ond y mae gorfoledd y duwiol yn meddu ar bob rhagoriaeth: y mae yn gorphwys ar gyflwr o heddwch â Duw; ac am hyny y mae yn orfoledd dan obaith gogoniant Duw, ac yn orfoledd mewn gorthrymderau—ïe, yn Nuw ei hun (*Rhuf.* v. 1—10). Y rhai sydd yn gorfoleddu yn Nghrist, ac yn Nuw, sydd yn meddu ar orfoledd gwirioneddol, rhesymol, sylweddol, sanctaidd, a diddarfod (*Rhuf.* xv. 7; *Salm* v. 11). "Nid da eich gorfoledd chwi" (1 *Cor.* v. 6). *Alford:*—"Pa mor anghysson â'ch gwaith yn noddi y cyfryw ddyn godinebus yr ymddengys eich tybiau ymchwyddol am danoch eich hunain." Nid oedd ganddynt ddim sail i ymffrostio: yn lle ymfalchïo, fel y gwnaent, o'u sefyllfa grefyddol fel eglwys, cywilyddio a ddylasent: yr oedd eu gwaith yn cadw y cyfryw un mewn undeb a'u heglwys yn brawf o iselder eu cydwybodolrwydd a'u purdeb crefyddol—"Canys os pregethaf yr efengyl, nid oes orfoledd i mi" (1 *Cor.* ix. 16). Nid oedd ganddo un sail i ymorfoleddu neu ymffrostio, am ei fod yn pregethu yr efengyl. Nis gallasai dim fod yn sail gorfoledd iddo, ond rhywbeth a allasai neu a allasai beidio ei wneuthur; rhywbeth ag yr oedd yn rhydd gyda golwg arno. Yr oedd yn rhydd i gymmeryd ei gynnaliaeth fel pregethwr, neu i beidio; a pheidiai, er mwyn cael sail i orfoleddu. Ond nid oedd at ei ryddid i bregethu neu i beidio, am fod angenrhaid wedi ei osod arno. Gan fod yr angenrhaid hwn arno, nid oedd ganddo sail i orfoleddu am ei fod yn pregethu yr efengyl. "Myn eich gorfoledd, yr hwn sydd genyf yn Nghrist Iesu:" 1 *Cor.* xv. 31. Nid ydyw y darlleniad hwn yn cyflwyno y meddwl yn gywir. Nid *eich* gorfoledd a feddylir, ond *fy* ngorfoledd i, ynoch, neu o'ch plegid chwi. Cyn sicred a fy mod i yn gorfoleddu ynoch, yr wyf yn marw beunydd. Yr oedd y gorfoledd hwn ynddynt hwy ganddo ef yn Nghrist Iesu. Gorfoleddai ynddynt fel gweinidog Cristionogol, megys ag yr oeddynt yn seiliau o'i weinidogaeth. "Mai nyni yw eich gorfoledd chwi, fel chwithau yr eiddom ninnau hefyd yn nydd yr Arglwydd Iesu." Wrth y gorfoledd y meddylir sail llawenydd ac ymhyfrydiad. Credai Paul y byddai i'r Corinthiaid lawenychu ynddo ef, yn nydd Crist, fel yntau ynddynt hwythau. Y dydd hwnw gwelent pa mor fawr oedd y fraint o'i gael ef fel eu dysgawdwr, fel y gwelai yntau pa mor fawr oedd y fraint a gafodd yntau trwy fod yn dad iddynt yn yr efengyl. Y mae yr adnod hefyd yn dangos eu bod felly i'w gilydd mewn rhan eisoes; etto gorfoleddent yn fwy yn eu gilydd yn nydd y datguddiad.

GORGIAS, LEOTINUS. Gwleidyddwr, athronydd, ac areithiwr enwog. Ganwyd ef yn y bummed ganrif, yn Leontium, tref yn Sicily. Edrychid arno fel un o'r dysgedigion galluocaf yn perthyn i'r oes yr oedd llenyddiaeth Groeg yn ei gogoniant penaf. Cyhoeddodd lyfr, yn dwyn y teitl *Of the Nonbeing, or of Nature*, yn yr hwn yr amcanai ddangos yn—1. Nad oes dim yn bodoli. 2. Os oes rhywbeth yn bodoli, nis gellir ei wybod. 3. Os oes rhywbeth yn bodoli ac y gellir ei wybod, nid ydyw yn bosibl ei draethu a'i fynegu i ereill. Y mae ei resymau dros y gosodiad cyntaf yn eithafol a thywyll. O berthynas i'r ail osodiad, fe ddywed—os ydyw bodolaeth yn amgyffredadwy, rhaid fod pob amgyffrediad yn endid (*entity*), a'r hyn sydd heb fodaeth yn anamgyffredadwy. Yn y trydydd gosodiad dengys, gan fod iaith yn wahanredol oddi wrth ei gwrthddrychau, fod yn anhawdd i ni draethu ein syniadau yn gywir, neu eu cyfleu yn llawn i ddealltwriaeth ereill. Beth bynag ydyw natur diffygion a chyfeiliornusrwydd y gosodiadau hyn, nid clod bychan

Digitized by Google

ydoedd i Gorgias fod y cyntaf o'r holl athronyddion i ddangos y gwahaniaeth rhwng amgyffrediad a'i wrthddrych, a rhwng gair fel arwydd o feddwl a'r meddwl ei hun.

Yn ganlynol i gyhoeddiad y llyfr uchod, troes Gorgias ei feddwl yn gwbl oll i astudio areitheg; ac yn hyn efe a ennillodd anrhydedd mawr. Y mae Cicero yn dyweyd mai efe oedd y cyntaf i draddodi anerchiadau cyhoeddus yn ddifyfyr, ar unrhyw destyn. Yr oedd ei arddangosiadau o'r ddawn areithyddol, pa fodd bynag, yn fwy nodedig am goethder ac addurniant barddonol yr iaith, a ffurfiad destlus y brawddegau, nag am ddyfnder a bywiogrwydd meddwl; ac fe ddaeth oeredd ei hyawdledd yn fuan i fod yn ddiareb yn mhlith trigolion yr hen oesoedd. Y mae ei enw wedi ei anfarwoli i raddau pell trwy iddo gael ei gyssylltu âg un o ymddyddanion (*dialogues*) Plato. Dyrchafwyd cerflun o aur mewn lle amlwg yn Delphi i fod megys yn gofadail am ei goffadwriaeth. Bu fyw am 105 o flyneddoedd.

GORIS, [*is*]: isod, obry, is law, dan, danodd, iselach, gwaelach. "Ac wedi i ni redeg goris, ynys fechan a elwir Claudia;" *Act.* xxvi. 1, 6. Rhedeg is law.

GORLLEWIN, [*gor—llewin*]: un o bedwar cyfeiriad y nefoedd; sef cyfeiriad machlud haul. "Duw y duwiau, sef yr Arglwydd, a lefarodd, ac a alwodd y ddaiar, o godiad haul hyd ei fachludiad"—o'r dwyrain i'r gorllewin: *Salm* l. 1; cxiii. 3; *Mal.* i. 11. Wrth ganmawl ffydd gref y canwriad, fe chwanegodd yr Iesu, i ddangos cyffredinolrwydd lledaeniad ei deyrnas—"Ac yr ydwyf yn dywedyd i chwi, y daw llawer o'r dwyrain a'r gorllewin, ac a eisteddant gydag Abraham, ac Isaac, ac Iacob, yn nheyrnas nefoedd;" *Mat.* viii. 11. Y mae Luc (xiii. 29) yn enwi y pedwar cyfeiriad: "A daw rhai o'r dwyrain a'r gorllewin, ac o'r gogledd, ac o'r deheu, ac a eisteddant yn nheyrnas Dduw:"—yr hyn sydd yn arwyddocau fod dychweledigion yr Arglwydd o dan deyrnasiad y Messïah i gael eu casglu o bob parth o'r byd. Y mae Grotius yn barnu fod Luc yn y geiriau hyn yn cyfeirio at yr addewid a roddwyd i Iacob: *Gen.* xxviii. 14. Pan oedd yr Arglwydd Iesu yn rhagfynegu dinystr Ierusalem gan y Rhufeiniaid, efe a ddywedodd, "O blegid fel y daw y fellten o'r dwyrain, ac y tywyna hyd y gorllewin; felly hefyd y bydd dyfodiad Mab y dyn;" *Mat.* xxiv. 27. Bernir ei fod yn awgrymu yn mha bwynt yr oedd y fyddin Rufeinig yn bwriadu goresgyn y wlad. Y mae ei gyfeiriad at y cwmwl yn cyfodi o'r dwyrain, fel blaenbrawf o gawod o wlaw (cymharer 1 *Bren.* xviii. 43—46), yn cyfateb eto i arwyddion y tywydd yn Ngwlad Canaan.

Mewn rhai manau o'r Ysgrythyr y mae "y gorllewin" yn golygu glanau Môr y Canoldir, ac "ynysoedd y môr" yn golygu y parthau gorllewinol o'r byd. Pan sonir, er anghraifft, am adferiad yr Iuddewon i'w gwlad eu hun, dywedir (*Hos.* xi. 10), "Ar ol yr Arglwydd yr änt; efe a rua fel llew: pan ruo efe, yna meibion o'r gorllewin a ddychrynant;" hyny yw, brysio—cyfeiriad at ysgogiadau adenydd yr aderyn pan yn ehedeg:—*adn.* 11; cymharer *Esa.* xxiv. 14, 15, âg *Esa.* xi. 11. Yn yr hanes a roddir am symmudiad pla y locustiaid o'r Aipht, yr ydym yn darllen (*Exod.* x. 19), "A'r Arglwydd a drodd wynt gorllewin cryf iawn"—רוּחַ־יָם, *ανεμον ἀπὸ θαλασσης*—*oddi wrth y môr.* Os cymmerir y geiriau hyn yn gyfleithiad llythyrenol o eiriau Moses, y mae yn canlyn fod yr Aiphtiaid wedi gwneyd crybwylliad cyffelyb am y gwynt yn chwythu oddi wrth Fôr y Canoldir; gan y buasai Moses, yr hwn oedd yn Aiphtwr, yn ddiammheu yn defnyddio iaith ei wlad i ddysgrifio dygwyddiad a gymmerodd le ynddi. Os nad yw Moses yn cyfeirio at Fôr y Canoldir, rhaid ei fod yn cyfeirio at Gefnfor yr Atlantic; ond, yn ol Herodotus, nid oedd y môr hwnw yn adnabyddus i'r Aiphtiaid am oesoedd lawer wedi y cyfnod y sonir am dano yn y geiriau uchod.

Y mae geiriau Moses, yn *Deut.* xxxiii. 23, "Naphtali, meddianna di y gorllewin a'r deheu," yn ymddangos yn groes i fynegiad Josephus, yr hwn a ddywed fod Naphtali yn meddiannu dwyreinbarth a gogleddbarth Galilea Uchaf [*Hynaf.*, v. 1. 22]. Ond y mae Bochart yn esbonio yr ymadrodd "y deheu," nid gyda golwg ar holl Wlad Canaan, ond yn hytrach yn ei berthynas â rhandir llwyth Dan, yr hwn a enwir yn *adn.* 22; ac wrth "y gorllewin" y mae efe yn deall Môr Galilea, neu Fôr Tiberias; o blegid yr oedd rhandir Naphtali yn cyrhaedd o'r ochr ddeheuol i'r ddinas, a elwid Dan neu Laish, hyd Fôr Tiberias, yr hwn hefyd a berthynai i'r llwyth hwnw.

GORLLEWIN, EGLWYS Y. Gwel EGLWYS ORLLEWINOL.

GORMES, [*gorm*]: trais, gorthrech, gorthrwm, trawsfeddiant, difrod. "Lleuad ormes," neu y 13eg lleuad yn yr un flwyddyn. "Gwenynen ormes," begegyr.

"Myfi hefyd a argyhoeddaf er eich mwyn chwi yr ormes;" *Mal.* iii. 11. Wrth yr *ormes* (אכל), difrodwr (*devourer*), y meddylir y locust, lindys, neu ryw greaduriaid ereill oeddynt yn arfer difa ffrwythau y ddaiar. Cymharer *Amos* iv. 9. Yr oedd yr Arglwydd yn addaw tywallt bendithion fel na byddai digon o le i'w derbyn, ac yn sicrhau hefyd y buasai yn "argyhoeddi" (כערה), yn ceryddu, neu yn attal "yr ormes" fel y diogelid y ffrwythau ar y meusydd rhag eu niweidio a'u difwyno.

"A'u tai hwynt a lenwir o ormesiaid;" *Esa.* xiii. 21. Bernir mai rhyw fath o greaduriaid gwyllt, peryglus, ac oernadus, a olygir wrth *ormesiaid* yn yr adnod hon: cymh. *Esa.* xxxv. 9.

"Ni ormesais ar neb;" 2 *Cor.* xi. 9. Yr oedd ysbryd crintachlyd tuag at weinidogion yr efengyl yn meddiannu dynion yn yr oes apostolaidd, fel yn yr oes bresennol. Pobl heb ddeall egwyddorion crefydd Mab Duw ydyw y rhai hyny a ddadleuant yn erbyn croesawu a chyfranu at angenrheidiau ei genadon, gan wneuthur cyfrif mawr o honynt: ac nis gall dim fod yn fwy cyfeiliornus oddi wrth wirionedd y Beibl na haeru fod gweinidogion dan rwymau i ennill eu bywoliaethau trwy ryw foddion amgen na phregethu yr efengyl. Gwir fod Paul wedi dilyn ei alwedigaeth fel gwneuthurwr pebyll tra yn llenwi ei swydd fel apostol; ond gwneuthur hyny yr oedd, naill ai o achos fod ei gynnulleidfaoedd yn dyoddef angen a thlodi mawr, neu ynte er mwyn gweithio ei ffordd i'w plith yn ddidramgwydd, heb roddi un rheswm iddynt i beidio ei dderbyn a'i barchu. Dichon ei fod wedi clywed am y Corinthiaid yn grwgnach yn eu plith eu hunain rhag estyn unrhyw gynnorthwy arianol at achos crefydd; ac fel na byddai hyny yn rhwystr yn eu meddyliau i beidio gwrandaw ar ei athrawiaethau, y mae

Digitized by Google

yn ymdrechu eu darbwyllo nad ydoedd yn bwr-iadu bod yn faich arnynt. Dywedai gyda chyd-wybodolrwydd pur—"ni ormesais ar neb......ac yn mhob dim y'm cedwais fy hun heb bwyso ar-noch, ac mi a ymgadwaf." Er nad oedd efe yn gormesu arnynt, yr oeddynt hwy, os yn alluog i gyfranu mewn ystyr arianol at ei gysuron, yn gormesu ar ei iawnderau ef. Yr oedd ganddo gynnulleidfaoedd ac eglwysi mewn manau ereill, y rhai oeddynt wedi yfed yn helaeth o ysbryd haelionus yr efengyl, yn berffaith ewyllysgar i roddi o'u prinder yn gystal ag o'u digonedd tuag at gyflawnu ei angenion tymmorol, a thuag at gario achos Duw yn mlaen yn anrhydeddus. "Ni ormesais ar neb: canys fy eisieu i a gyflawn-odd y brodyr a ddaethant o Macedonia." Gwel GORTHRWM.

GORMESDEYRN: brenin, tywysog, neu lyw-odraethwr anghyfiawn, brwnt, creulawn, a di-drugaredd. Y mae yr *Imperial Dictionary* yn egluro y gair *tyrant* fel y canlyn:—1. Penadur, llywodraethwr, neu feistr, yr hwn a ddefnyddia ei awdurdod i orthrymu ei ddeiliaid; dyn yn ar-fer awdurdod anghyfreithlawn, neu yn arfer awd-urdod cyfreithlawn mewn modd anghyfreithlawn; un, yr hwn trwy ardrethiad, anghyfiawnder, cosp-edigaeth greulawn, neu hawlio gwasanaeth af-resymol, a esyd feichiau a blinderau ar y sawl a fyddont o dan ei feistrolaeth, y rhai nid yw deddf na dynoliaeth yn eu cyfreithloni, na dybenion llywodraeth chwaith yn eu gofyn. 2 Llywodr-raethwr trawsarglwyddaidd; meistr brwnt; treis-iwr. Gwel GORTHRYMWR.

GORPHENWYD. Gwel IAWN.

GORPHWYS—O—FA, [*gor—pwys*]: tawelu, llonyddu, dadhuddedu, peidio. "Ac a orphwys-odd ar y seithfed dydd, oddi wrth ei holl waith, yr hwn a wnaethai efe;" *Gen.* ii. 2. Y mae yn amlwg nad yw y gair *gorphwys* yn cynnwys yr un pethau, pan yn cael ei gymhwyso at Dduw, ag y mae am ddyn; o blegid "ni flina ac ni ddi-ffygia Duw tragwyddoldeb" Ac fel nas gall fod yn agored i flinder a lludded, felly hefyd y mae uwch law bod yn anweithgar. Y mae y "Tad yn gweithio hyd yn hyn:" mae mor weithgar yn awr yn nghynnaliad a llywodraethiad y gread-igaeth ag ydoedd yn ystod y chwe diwrnod yn nygiad pethau i fod, neu yn eu ffurfiad i'w gwedd bresennol. Y mae gorphwysiad Duw, gan hyny, i'w ddeall mewn ystyr fyddo yn unol â pherffeith-rwydd ei natur ac â'i weithrediad parhaus. Nid gorphwyso a wnaeth ar y seithfed dydd oddi wrth bob gwaith; nid suddo a wnaeth ei weith-garwch i raddau llawer is; ond gorphwys oddi wrth y gwaith a wnai yn ystod y chwe diwrnod. Y mae y gair *peidio*, a ddefnyddir yn gyssyllt-iedig â'r gair *gorphwys*, yn ei egluro. Peidio â'r gwaith neillduol o greu, a gorphwys o ran ym-hyfrydiad yn y gwaith. Dywed Leigh [*Critica Sacra*] fod *shabath*=gorphwys, yn arwyddo, nid ymattal oddi wrth lafur, yr hyn yw ystyr y gair *noach*, ond peidio oddi wrth y gwaith oedd gan-ddo o'r blaen.

Bendigodd a sancteiddiodd yr Arglwydd y seithfed dydd, am mai ynddo y gorphwysasai. Gorphwysiad Duw ar y seithfed dydd a olygir gan yr hanesydd fel y rheswm pa ham y sanct-eiddiodd y dydd i ddyn. Eto, yr angen oedd ar ddyn am orphwysfa a barodd i Dduw orphwys ar y seithfed dydd. Dywed Hengstenberg fod yn amlwg oddi wrth *Exod.* xxxi. 17, "Ar y seithfed dydd y peidiodd, ac y gorphwysodd efe (*and refreshed himself*)," mai amcan gorphwysiad Duw oedd rhoddi esampl i ddyn. Ebe Calvin hefyd; "Rhoddodd Duw chwe diwrnod at y gwaith o greu y byd; ond nid am fod arno angen am ysbaid neillduol o amser, o blegid y mae mynydau yr un peth iddo ef a mil o flyneddoedd; ond er mwyn ein cadw ni mewn myfyrdod uwch ben ei weithredoedd."

Y mae y geiriau yn Genesis yn cynnwys hanes sefydliad y Sabbath. Eu hystyr amlwg a natur-iol ydyw fod y seithfed dydd wedi cael ei neillduo gan Dduw yn nechreu y byd yn ddydd o or-phwysfa i ddyn. Gosodir yma arbenigrwydd ac urddas mawr ar y seithfed dydd: neillduir ef oddi wrth yr holl ddyddiau ereill. Bendigwyd ef, trwy gyssylltu bendithion anhywerth â'r iawn gadwraeth o hono, a thrwy ei wneuthur mewn modd arbenig yn adeg i gyfranu bendithion ys-brydol i ddynion. Dydd o orphwysdra sanctaidd ac ysbrydol ydyw i fod yn benaf. Gan mai gorphwysiad Duw ydyw sail, efe hefyd ydyw cynllun gorphwysiad dyn. Ond nid mewn taw-elwch diwaith y gorphwysodd efe; ond trwy beidio â'r gwaith oedd ganddo o'r blaen, er ym-hyfrydu yn y gwaith hwnw. Felly hefyd y mae gorphwysfa dyn i fod ar y dydd: nid gorphwys-iad corfforol ydyw i fod yn unig, ond yn benaf i'r meddwl; ac mewn gwaith y mae y meddwl yn gorphwys. Trwy orphwys oddi wrth waith y chwe diwrnod, er mwyn cael seibiant i'r meddwl i ymddigrifo yn y dadguddiad o Dduw, y mae gorphwysiad y creadur yn deilwng o urddas ei fod, ac yn ymdebygu i orphwysiad Duw.

Ordeiniwyd gorphwysfa y Sabbath i ddyn ar y cyntaf; hyny yw, i ddynoliaeth yn gyffredinol, ac nid i genedl neu genedlaeth neillduol. Y mae cyfaddasder y Sabbath i ddyn mor eang a dyn-oliaeth ei hun. Nid ordeiniad cyfaddas i'r Is-raeliaid yn unig oedd, er ei fod wedi ei gorffori yn mysg eu cyfreithiau; ac nid cyfaddas yn unig i Gristionogion, er ei fod wedi ei adnewyddu, a derbyn ffurf ac ystyr newydd dan yr efengyl; ond ordeiniad i ddyn fel y cyfryw, bydded Iuddew, bydded Gristion; i ddyn, pa un ai di-bechod ai syrthiedig. "Y Sabbath a wnaeth-pwyd er mwyn dyn." Dadleuir gan rai nad oes yn Genesis un gorchymyn i gadw y seithfed dydd yn sanctaidd. Gwir: ond y mae holl nerth gorchymyn yn yr hanes. Cynnwysa egwyddor fawr gosodiad y Sabbath. Nid gyda goiwg arno ef ei hun y gweithiodd Duw am chwe diwrnod, ac y gorphwysodd ar y seithfed; ond i fod yn esampl i ni. Hyn, felly, ydyw sylfaen ordein-iad y Sabbath. Nid yw yr ordeiniad yn cyfodi oddi ar ddim a berthyn i un oruchwyliaeth ddi-lynol. Y mae y Sabbath yn ymasio â phob gor-uchwyliaeth, am ei fod yn angenrheidiol i ddyn dan bob goruchwyliaeth.

Ond nid yw absennoldeb gorchymyn yn Gene-sis yn dirymu dim ar y prawf o sefydliad bore y dydd. Cawn anghraifft debyg yn hanes ordein-iad priodas. Y cwbl a ddywedir yn yr adroddiad hwnw ydyw, y "gâd dyn ei dad a'i fam ac y glŷn wrth ei wraig, a hwy a fyddant ill dau yn un cnawd," am fod y Creawdwr wedi ffurfio y wraig o'r dyn. Dyma sail yr ordeiniad priodasol. Bod Duw wedi darparu i'r dyn un wraig ydyw y rheswm yn erbyn amlwreicaeth—at yr hyn y cyfeiria Iesu Grist, wrth ymdrin am briodas. Nid yw absennoldeb gorchymyn o'r hanes yn un

Digitized by Google

prawf nad oedd yn ordeiniad dwyfol. A'r un modd am y Sabbath; amcan Moses yw dangos beth oedd sail a rheswm y sefydliad, ac nid cyhoeddi y gyfraith ddwyfol gyda golwg ar ei gadwraeth. Y mae yn ei gyssylltu, nid âg awdurdod Duw fel deddfroddwr, ond â'i esampl fel Creawdwr nefoedd a daiar. Ond perthyna ymdriniaeth helaeth â'r mater i'r erthygl SABBATH.

"Ofnwn, gan hyny, gan fod addewid wedi ei adael i ni i fyned i mewn i'w orphwysfa ef;" *Heb.* iv. 1. Wedi rhoddi y gocheliad hwn i'r Hebreaid, â yr awdwr rhagddo i brofi fod gorphwysfa yn bod dan yr efengyl, fel gwrthddrych i'r Cristionogion i ymestyn am ei meddiannu. Y mae yn cymmeryd golwg ar yr amrywiol orphwysfäau y sonir o'r blaen am danynt, gan ddangos fod gorphwysfa eto yn aros, ac mai hon ydyw y brif orphwysfa. Nid gorphwysfa y seithfed dydd ydyw; o blegid annogir Israel i fyned i mewn i orphwysfa gannoedd lawer o flyneddoedd ar ol sefydliad yr orphwysfa hono. Ond nid yr orphwysfa yn Nghanaan chwaith ydyw: o blegid pan oedd y genedl, yn amser Dafydd, mewn llawn fwynhad o'r orphwysfa hono, penodir diwrnod trwy y Salmydd, "gan ddywedyd, Heddyw, os gwrandewch ar ei leferydd ef, na chaledwch eich calonau." Y mae y genedl yn Nghanaan, yn ei hadeg oreu, yn cael ei galw i fyned i mewn i'r orphwysfa. Nid gorphwysfa Canaan, gan hyny, ydyw yr orphwysfa hon. "Canys pe dygasai Iesus hwynt i orphwysfa, ni soniasai efe ar ol hyny am ddiwrnod arall." Y mae yn wir i Iosuah ddwyn Israel i orphwysfa: ond nid hono oedd y brif orphwysfa; nid oedd yn amgen na chysgod daiarol o'r orphwysfa ysbrydol. Gan hyny, "y mae gorphwysfa (*sabbatismos*) eto yn ol i bobl Dduw."

Y mae Dr. Owen yn gwneuthur y sylwadau canlynol ar y gorphwysfäau yn *Heb.* iv. 1. Gorphwysfa Duw ydyw sylfaen a phrif achos ein gorphwysfa ni. Gelwir hi "ei orphwysfa ef." Y mae yn orphwysfa iddo ef, yn y naill ystyr neu y llall, cyn iddi fod yn orphwysfa i ni. Nid yn unig am ei fod ef wedi ei hordeinio, a'i haddaw i ni, ond am ei fod ef ei hun yn ei mwynhau. 2. Y mae gorphwysfa Duw yn cael llefaru am dani, nid yn hollol gyda golwg arno ef ei hun yn unig, ond gyda golwg ar orphwysfa appwyntiedig a ganlynodd ei orphwysiad ef, i'r eglwys i'w mwynhau. Gan hyny, edrychir ar bob gorphwysfa fel yn ddyblyg; ei orphwysfa ef ei hun, a'r orphwysfa i ninnau i fyned i mewn iddi. Gorphwysodd ar ol creu y nefoedd a'r ddaiar, ond ei orphwysfa ef oedd hono; ond ar sail yr orphwysfa yma, bendithiodd y seithfed dydd i fod yn orphwysfa i ddyn. 3. Y mae yr apostol yn ymdrin am yr orphwysfa dan sefyllfa driphlyg yr eglwys—ei sefyllfa dan ddeddf natur, neu y greadigaeth; dan ddeddf ordeiniadau; a than yr efengyl. Cyssyllta orphwysfa â phob un o'r goruchwyliaethau hyn. Gorphwysodd Duw ar bob un; ar sail ei orphwysfa ef gelwir ar ddyn i fwynhau yr orphwysfa, a phenodir dydd neillduol fel gwystl o hono—Sabbath y greadigaeth, y Sabbath Iuddewig, a'r Sabbath Cristionogol. Edrychir, yn gyntaf, ar y greadigaeth yn flaenorol i ddyfodiad pechod i mewn. Yr oedd yn perthyn i'r orphwysfa hon amryw bethau:—gweithredoedd wedi eu gwneuthur (*adn.* 3), Duw yn gorphwys oddi wrth ac yn y gweithredoedd hyny, gorphwysfa i'r creadur ar sail gorphwysiad y Creawdwr, a dydd neillduedig o orphwysfa. Ceir yr un pethau, drachefn, dan yr oruchwyliaeth Foesenaidd. Gwnaeth Iehofah, Creawdwr nefoedd a daiar, weithredoedd mawrion, y rhai a gyffelybir gan yr ysgrifenwyr sanctaidd i gread y nefoedd a'r ddaiar: gwel *Esa.* li. 15, 16. Wedi cwblhau y gweithredoedd hyn, aeth yr Arglwydd i'w orphwysfa. Lleferir am Ganaan, ac yn enwedig y sefydliadau dwyfol oedd yno, fel gorphwysfa i Dduw; "Cyfod, Arglwydd, i'th orphwysfa, ti ac arch dy gadernid." "Dyma fy ngorphwysfa; yma y trigaf, canys chwenychais hi." Oddi ar fod Gwlad Canaan yn orphwysfa i Dduw, y mae y genedl yn cael ei galw i'r orphwysfa; "A'u mynediad hwy i'r orphwysfa, oedd eu mynediad trwy ffydd ac ufudd-dod i gyfranogiad yn addoliad Duw, yn yr hwn yr oedd efe yn gorphwys, fel moddion ac ernes o'u gorphwysfa dragwyddol ynddo ef." Yn gyssylltiedig â'i orphwysiad ef a'u gorphwysiad hwythau, appwyntiodd yr Arglwydd ddydd o orphwysfa iddynt. "Y mae yn wir," ebe Owen, "mai yr un, yn nhrefn dyddiau yr wythnos, oedd y Sabbath hwn a'r Sabbath cyntefig; ond cafodd yn awr ei adsefydlu ar ystyriaethau newyddion, ac i ddybenion newyddion.

Y mae yr un pethau yn bod yn yr orphwysfa dan yr efengyl. Y mae yma weithredoedd wedi eu gwneuthur (*adn.* 10), y rhai a gyferbynir yn fynych yn yr Ysgrythyrau â gwaith y greadigaeth, sef gwaith y greadigaeth newydd. Wedi gwneuthur y gweithredoedd, aeth y gweithiwr i mewn i'w orphwysfa ef, megys y gorphwysodd Duw Dad oddi wrth ei weithredoedd yntau. Gelwir yn ganlynol ar ddynion i fyned i mewn, trwy ffydd, i'r orphwysfa hon; ac y mae dydd newydd o orphwysfa yn codi oddi ar orphwysiad Mab Duw. Ac y mae y dydd hwn yn gyffelyb i'r dyddiau o'r blaen, o herwydd mai *sabbatismos* (cadwraeth Sabbath) ydyw.

Fe wel y darllenydd mai wrth "yr hwn," yn *adn.* 10, y golyga Dr. Owen yr Arglwydd Iesu. Y mae Stuart ac ereill yn barnu mai y credadyn a feddylir yma. "Megys y gorphwysodd Duw oddi wrth ei waith ar y seithfed dydd, ac y mwynhaodd hyfrydwch sanctaidd yn y myfyrdod o'r gwaith a wnaethai, felly hefyd y gorphwysa y credadyn mewn byd arall oddi wrth ei holl lafur a'i flinderau yma, ac yr edrycha yn ol gyda hyfrydwch sanctaidd ar yr ymdrechfeydd ag yr aeth efe drwyddynt, a'r llafur a gyflawnodd, er mwyn achos yr efengyl."—*Stuart ar y lle.* Ond y mae yn amlwg fod y golygiad hwn, ar lawer o gyfrifon, yn anghywir. Amcan yr apostol ydyw cyssylltu yr orphwysfa i bechadur dan yr efengyl â gwaith a gorphwysiad Mab Duw, fel yr achos o honi; fel y mae yn cyssylltu y gorphwysfäau blaenorol â gwaith a gorphwysfa Duw, fel eu sylfaen a'u hachos. Dywedir yn *adn.* 9, fod yr orphwysfa yn bod, dan yr efengyl, i bobl Dduw: yna mae *adn.* 10 yn dwyn ymlaen y rheswm am hyny—fod gweithredoedd wedi eu gorphen, a'r gweithiwr wedi myned i mewn i orphwyso oddi wrthynt. Gelwir yr orphwysfa hon "ei orphwysfa ef," fel y gelwir pob un o'r rhai blaenorol yn "orphwysfa Duw." Gwneir cymhariaeth hefyd rhwng gweithredoedd y naill ac eiddo y llall. Y mae gwneud y cyfryw gymhariaeth rhwng gweithredoedd yr Arglwydd Iesu, yn y greadigaeth newydd, ac eiddo y Tad yn yr hen greadigaeth, yn dra phriodol, ar gyfrif mawredd gogyfuwch y gweithwyr, a phwysigrwydd ac ardderchogrwydd y gweithredoedd. Ond ni byddai dim priodoldeb mewn cymharu pechodau a dyoddefiadau dynion, a'u llafur blin ar

Digitized by Google

y ddaiar, i'r weithredoedd goruchel y Creawdwr. Y mae cyffelybrwydd hefyd rhwng gorphwysiad y Creawdwr a gorphwysiad yr Arglwydd Iesu. Gorphwysodd Duw ar y seithfed dydd—1. Trwy beidio â'r gwaith o greu, etto yn parhau i gynnal a llywodraethu yr hyn a greodd. 2. Trwy ymhyfrydu yn ei weithredoedd, fel gweithredoedd yn amlygu gogoniant ei berffeithiau. A'r un modd am orphwysiad yr Arglwydd Iesu—1. Gorphwysodd oddi wrth y llafur enaid y buasai ynddo ar y ddaiar; eto y mae yn parhau i ddwyn y gwaith yn mlaen. Mae gwaith Iesu Grist yn y nefoedd yn gyffelyb i waith y Tad yn nghynnaliad a llywodraethiad y greadigaeth. 2. Y mae yn ymhyfrydu yn y gwaith a gwblhaodd; yn gweled o lafur ei enaid, ac yn cael ei ddiwallu.

GORSEDD—FAINC, [*gor—sedd*]: teyrngadair, breninfainc, eisteddle, esgynfa, gorsedd, neu brawdle. Y mae y gair, yn ol ei arwyddocâd gwreiddiol, yn cynnwys y meddylddrych o *orchudd;* ac y mae yn dra thebyg ei fod yn dynodi eisteddle wedi ei gwisgo â rhyw ddefnydd gwerthfawr ac addurniadol, ac wedi ei gwneuthur yn gymhwys i'r teulu breninol eistedd arni. Cadair ddwyfraich geinwych ydoedd ar y cyntaf, wedi ei gwneuthur yn uwch na chadair gyffredin, fel yr oedd yn angenrheidiol cael mainc i gynnal y traed. Tybir fod y gogoniant dwyfol a breswyliai yn y cyssegr sancteiddiolaf, rhwng y cerubiaid ar gauad yr arch, yn defnyddio yr arch megys troedfainc (1 *Cron.* xxviii. 2; *Salm* xcix. 5): ac y mae y ddaiar yn cael ei galw yn droedfainc i'r Arglwydd trwy yr un gyffelybiaeth darawiadol, i arddangos mai y nefoedd ydyw ei orseddfainc. Weithiau byddai yr orseddfainc yn cael ei dodi ar fath o esgynlawr, yn nglŷn â'r hwn y gosodid nifer o risiau: *Esa.* vi. 1. Fe wnaeth Solomon orsedd o ifori, "ac a'i gwisgodd hi âg aur o'r goreu." Yr oedd chwech o risiau yn perthyn iddi, a chwech o lewod o bob tu: 1 *Bren.* x. 18. Ar yr orseddfainc yr eisteddai breninoedd y dwyrain i dderbyn cyfarchiadau gostyngedig eu deiliaid, i wrandaw cenadon ar faterion gwladwriaethol, ac i weini barn a chyflawnder: 1 *Bren.* ii. 19; xxii. 10; cymharer *Esth.* v. 1. Fe ddaeth gorseddfainc yn arwyddlun o allu breninol yn fore iawn: "Yn y deyrngadair yn unig y byddaf fwy na thydi;" *Gen.* xli. 40. "Dy orsedd di, O Dduw! sydd byth ac yn dragywydd;" xlv. 6. Gorsedd anfeidrol gyflawn a sanctaidd ydyw gorsedd Duw; ond trwy rinwedd yr hyn a wnaeth ac a ddyoddefodd yr Arglwydd Iesu, y mae iddi gymmeriad arall hefyd, sef gorseddfainc y gras; "Awn yn hyderus at orseddfainc y gras:" *Heb.* iv. 16. Y mae gorseddfainc y gras yn arwydd fod Duw yn gallu tosturio wrth dlodion byd colledig, a maddeu i'r gwaelaf a'r truenusaf o bechaduriaid, gydag awdurdod benarglwyddiaethol, ac mewn perffaith gydweddiad âg egwyddorion uniondeb, ac âg urddas, diogelwch, a threfn ei lywodraeth fawr.

Gelwir gorsedd Duw hefyd yn "orsedd barn," "brawdle Crist," a "gorsedd wen fawr:" ymadroddion yn cyfeirio at ddydd y farn ddiweddaf, pan ddaw Crist ar gymylau y nef gyda bloedd a llef yr archangel, ac âg udgorn Duw,"

"A'r glorian yn ei law,"

i bwyso trigolion holl oesoedd y byd hwn mewn cyflawnder: ac efe a gospa y sawl a geir yn brin, ac a rydd goron anllygredig y bywyd i'r rhai a fuont yn ffyddlawn yn ei wasanaeth ar y ddaiar. Ië, fe gaiff y rhai cyflawn gydeistedd gyda'r Iesu ar orsedd ei ogoniant yn y Gaersalem ysbrydol:—"Yr hwn sydd yn gorchfygu rhoddaf iddo ef eistedd gyda mi ar fy ngorseddfainc, megys y gorchfygais innau, ac yr eisteddais gyda'm Tad ar ei orseddfainc ef;" *Dat.* iii. 21. Fe addawodd y Gwaredwr y byddai i'r apostolion gael eistedd ar "ddeuddeg gorsedd yn barnu deuddeg llwyth Israel," neu bobl Dduw, y gwaredigion yn gyffredinol. Nid ydyw yr ymadrodd i'w ddeall yn llythyrenol. Ni bydd gan neb allu i roddi barn ar ddydd y cyfrif mawr ond Mab Duw yn unig: "Efe a roddes bob barn i'r Mab." Y mae Barnes yn esbonio y geiriau fel hyn:—"Y mae *barnu* yn dynodi sefyllfa uchel, awdurdod, a gallu. Yr oedd barnwyr Israel gynt yn ddynion enwog am eu dewrder, eu gwladgarwch, eu hanrhydedd, a'u gwrolder. O herwydd hyn, y mae y gair wedi dyfod i arwyddo yr anrhydedd a gyssylltir â'r swydd, yn hytrach na'r gallu i gyhoeddi barn. Ac fel y mae breninoedd daiarol yn cael eu cylchynu gan ddadleuwyr a barnwyr wedi eu hurddasu âg anrhydedd a swyddau, felly dywed Crist y caiff ei apostolion ef sefyll yn y dydd mawr yn yr un fath berthynas âg yntau. Cânt eu hanrhydeddu ganddo ef, a chan bawb, fel apostolion—fel rhai, yn ngwyneb erlidigaeth, a adawsant yr oll a feddent; fel rhai a osodasant i lawr sylfaen yr eglwys; ac fel rhai wedi dyoddef holl erlidigaethau ffyrnicaf y byd."

Dywedir, yn *Dad.* ii. 13, fod gan Satan orseddfainc, i ddangos ei allu a'i ddylanwad ar galonau dynion. Brenin dichellgar, twyllodrus, a chreulawn, ydyw Satan; ac y mae holl weinyddiadau ei orsedd yn gwasgaru poenau a gofidiau trwy bob goror o'i deyrnas. Y mae ei ddeiliaid anffodus yn wastad yn gruddfan, mewn caledi a chyfyngder; ac yn y diwedd fe'u "teflir i'r tywyllwch eithaf: yno y bydd wylofain a rhincian dannedd;" *Mat.* viii. 12.

Y mae defodau rhwysgfawr a mawreddog yn gyssylltiedig â gorseddau yn y dyddiau presennol fel yn y dyddiau gynt. Nid oes gôst yn cael ei arbed i'w gwneuthur yn ol y cynlluniau godidocaf y gall y meddwl celfyddydol eu dyfeisio; a phan yn eistedd ar ei orsedd, gyda'r goron ar ei ben a'r deyrnwialen yn ei law, y mae y brenin yn teimlo fwyaf o urddasolrwydd ei sefyllfa. Y mae yn debyg nad oes un amgylchiad chwaith yn creu mwy o gynhwrf a dyddordeb trwy y gwahanol deyrnasoedd na'r amgylchiad hwnw pryd y bydd brenin neu frenines newydd yn esgyn i'r orsedd. Nid yw gorsedd, wedi y cwbl, ond cadair; a'r gogoniant penaf yn nglŷn â hi ydyw y gallu, yr awdurdod, a'r llywodraeth a briodolir i'r sawl a fyddo yn ei meddiannu. "Gorsedd Prydain Fawr!" meddir, gydag ymffrost teilwng; ac nid oes, ac ni fu, gorsedd gyffelyb iddi er dechreuad amser yn y byd hwn. Y mae mwy o fawreddigrwydd yn ei henw, mwy o ddylanwad yn ei gallu, mwy o degwch yn ei deddfau a'i sefydliadau, a mwy o grefydd yn ei hegwyddorion, nag a berthyn i unrhyw orsedd ddaiarol arall—fel y prawf heddwch, trefn, llwyddiant, addysg, a moesau y deiliaid.

Am eglurhad ar *Orsedd y Beirdd,* gwel BARDD, cyf. i. 530—536.

GORSIN, [*sin*]: ystlysbost. Gwel *Exod.* xxi. 6; *Ezec.* xliii. 8.

"Adwaen bob gorsin y'ngogof gorllewin."
TALIESIN.

"Taraw gapan y drws, fel y siglo y gorsingau;" *Amos* ix. 1.

Digitized by Google

GORTHRECH—U, [*gor—trech*]: gorfod, gorthrymiad, gorchfygiad; goruchafiaeth; gorchfygu; gorfwyo, gormeilio. "A llaw Midian a orthrechodd [a orthrymodd] Israel;" *Barn.* vi. 2; i. 35; *Act.* xxiv. 7.

GORTHRWM—DER—EDIG—U—WR, [*gor—trwm*]: pur drwm, gormes, trais, dirwasgiad, gorthrech; cystuddiedig; gormeswr, cystuddiwr. Rhan y saint yn y byd ydyw gorthrymder: "Ac mai trwy lawer o orthrymderau y mae yn rhaid i ni fyned i mewn i deyrnas Dduw" (*Act.* xiv. 22). "Yn y byd gorthrymder a gewch" (*Ioan* xvi. 33). "Efe a orthrymwyd, ac efe a gystuddiwyd" (*Esa.* liii. 7). Y mae y geiriau hyn, ebe Hengstenberg, yn ddysgrifiad o'r dull y daliai gwas yr Arglwydd ei ddyoddefiadau. Y mae yn canlyn oddi wrth yr amgylchiad, mai dyoddefiadau machnïol oeddynt. Y mae ei fachnïaeth yn arwyddo ei fod wedi eu cymmeryd yn ewyllysgar arno ei hun: a chydymaith yr ewyllysgarwch hwn ydyw amynedd. Y mae cynnwysiad *adn.* 6 yn cael ei symio i fyny yn y gair, "Efe a orthrymwyd."

"Gan faint y gorthrymder, hwy a wnant i'r gorthrymedig lefain;" *Iob* xxxv. 9. Y mae esbonwyr yn barnu fod Elihu, yn y gair hwn, yn rhoddi atebiad i air a ddywedasai Iob; yr hwn, fel y tybiai Elihu, oedd yn cynnwys sarhad ar uniondeb a daioni yr Arglwydd fel llywodraethwr y byd. Cwynai Iob nad oedd yr Arglwydd yn ystyr llefau y gorthrymedig. Gan mor luosog ydyw y gorthrymderau y dygir trueiniaid danynt gan ormeswyr beilchion, y mae y rhai gorthrymedig yn llefain allan; ond nid ymddengys fod Duw yn prysuro i unioni y camwri: y mae yn eu gadael i ochain dan eu beichiau, fel pe bai yn ddiystyr o'u gorthrymder; a pharhau am faith amser i lefain y maent, o herwydd braich y cedyrn, "yr hon sydd yn eu llethu i'r llawr." Tybir mai hyn oedd cwynfan Iob gyda golwg ar waith Duw yn oedi amddiffyn y diniwed, a chospi y creulawn; a bod Elihu yn cyfeirio at ei eiriau yn *pen.* xxiv. 12; "Y mae gwŷr yn gruddfan o'r ddinas, ac y mae eneidiau y rhai archolledig yn gwaeddi; ac nid yw Duw yn rhoi ffolineb yn eu herbyn." Yr oedd Iob yn methu cyssoni hyn â'r syniadau a feddai am gyfiawnder goruchwyliaethau Duw. Ond y mae Elihu yn cymmeryd arno ddadrys yr anhawsder. Os nad yw llefau y gorthrymedig yn esgyn i glustiau Duw, nid yw y bai yn gorwedd wrth ei ddrws ef: y mae efe yn barod i wrandaw ar eu cri, ac i weini help iddynt. "Gofyn yr ydych, ac nid ydych yn derbyn, am eich bod yn gofyn ar gam;" *Iago* iv. 3. "Y maent," ebe Henry, "yn llefain gan faint y gorthrymder, ac yn bloeddio rhag braich y cedyrn; ond llef gwynfanus, rwgnachlyd, ydyw eu llef: nid llef edifeiriol, weddigar; llef natur a nwyd, ac nid llef gras. Dywed Hosea (vii. 14)—"Ac ni lefasant arnaf â'u calon, pan udasant ar eu gwelyau: am ŷd a melus win yr ymgasglasant, ciliasant oddi wrthyf." Nid ydynt yn ymofyn ar ol Duw: "ni ddywed neb, Pa le y mae Duw, yr hwn a'm gwnaeth i." Y mae gorthrymderau yn cael eu hanfon er ein cyfeirio a'n bywhau i ymofyn am Dduw: *Salm* lxxviii. 34.

Un o'r geiriau mynychaf yn Llyfr y Pregethwr ydyw, "Gwagedd a gorthrymder ysbryd;" *pen.* i. 14, 17; ii. 11, 21, 22, 26; iv. 4, 6; vi. 9. Ar ol gwneuthur prawf o bob peth dan haul, ac yfed yn helaeth o holl ffynnonau a phydewau y byd, y penderfyniad y daeth y Pregethwr iddo oedd, mai "gwagedd a gorthrymder ysbryd yw y cwbl." Gwelodd fod ei holl ymofyniad am wybodaeth yn flinderus, nid yn unig i'r cnawd, ond hefyd i'r meddwl. Y llafur blin "yn yr ymofyniad am ddoethineb" a roddes Duw ar feibion dynion i ymguro ynddo:—ymddengys fod hyn yn gosp ar feibion dynion am waith ein rhieni cyntaf yn chwennych gwybodaeth waharddedig. "Fel bara i'r corff, felly hefyd ymborth i'r meddwl a raid ei ennill trwy chwys y wyneb; tra y buasai y naill a'r llall yn nghyrhaedd dyn heb lafur gormodol pe buasai Adda heb bechu."—*Henry.* Po fwyaf yr adnabyddai y gwaith a wnaed dan yr haul, mwyaf y gwelai ei wagedd; a mynych y parai yr olwg arnynt orthrymder ysbryd iddo. "Mi a welais yr holl weithredoedd a wnaed dan haul; ac wele gwagedd a gorthrymder ysbryd yw y cwbl." Nid yn unig y maent yn wagedd—yn afreidiol ac anfuddiol, ac heb adael effeithiau sylweddol ar eu hol—ond y maent yn flinder a gorthrymder ysbryd. Y mae y fath ofal, llafur dibaid, ofnau, pryder, a somedigaethau, yn nglŷn â thrafferthion bywyd, fel y gellir yn briodol dyweyd eu bod yn orthrymder ysbryd. Maent felly i'r dyn sydd yn ymwneyd â hwynt; ac felly yr edrychir arnynt gan y sylwedydd ystyriol. "Po fwyaf y gwelwn o'r byd, mwyaf a ganfyddwn i'n gwneyd yn anesmwyth." Fel y mae dyn yn ennill gwybodaeth gyffredin, y mae yn gwneyd ei feddwl yn fwy blinderus; nid yw yn agosau dim at un orphwysfa; o blegid nid yw chwanegiad gwybodaeth yn gwneuthur y pethau sydd yn gorwedd tu hwnt i ddirnadaeth y meddwl yn llai eu nifer. Mae y dirgelion yn amlhau fel y mae y wybodaeth yn eangu; yr un fath ag y mae yr awydd am arian yn cynnyddu fel y mae cyfoeth yn chwanegu. Gwagedd a gorthrymder ysbryd ydyw pob peth daiarol a ddichon dyn ei gyrhaedd. Yr unig beth a leinw ddymuniadau y galon, ac a ddwg y meddwl i orphwys, ydyw "ofni Duw, a chadw ei orchymynion; canys hyn yw holl ddyled dyn."

GORUCH—EL—AF—ELDER—LEOEDD: uwch na'r uchaf; y rhagoraf; y mwyaf dyrchafedig. Ταὔψιστα, yn y Testament Newydd, a arwydda *y lleoedd uchaf*—yn gyfystyr â'r nefoedd uchaf. Ὁ Ὕψιστος=*Y Goruchaf*, ydyw un o deitlau yr Anfeidrol, fel yr hwn sydd yn preswylio yn y nefoedd (y ταὔψιστα), ac yn ddyrchafedig goruwch pob bod arall (*Marc* v. 1; *Luc* i. 32, 35, 76; vi. 35; *Act.* vii. 48; *Heb.* vii. 1). Y mae y gair Hebraeg a gyfieithir gan y Deg a Thrigain i'r gair hwn, yn hollol o'r un ystyr: *Gen.* xiv. 18, 19, 20; *Deut.* xxviii. 1; *Iob* xxxi. 28; *Dan.* vii. 18. Nid yn unig yr oedd yr Hebreaid yn rhoddi hwn yn deitl i'r Iehofah, ond yr oedd y paganiaid hefyd yn ei roddi i'w duwiau gau. Yr oedd y Phœniciaid yn galw un o'u duwiau *Elioun*, yr hyn yw y goruchaf: ac oddi wrthynt hwy y galwai y Carthaginiaid eu duwiau a'u duwiesau yn *Alonim* ac *Alonuth;* y rhai hefyd a feddent yr un ystyr. Y mae yr Arglwydd, yn yr oll a berthyn iddo, yn oruchaf ar bawb a phob peth. Y mae uchelder yn hanfodol iddo: "Gan ei uchelder ef," ebe Iob, "ni allwn oddef;" *Iob* xxxi. 23. Y mae ei hanfod yn dragwyddol, yn ddigrëedig, heb ddibynu ar neb; ond yn cynnwys o'i mewn ei hun bob holldddigonedd a pherffeithrwydd yn y graddau uchaf. Y mae yn gwahaniaethu oddi wrth, ac yn anghymharol uwch law, pob hanfod arall, yn yr oll a berthyn iddi. Y

Digitized by Google

mae yn holldigonol, yn anfeidrol, yn dragwyddol a digyfnewid, ac yn annibynol. Dechreuad pob hanfod arall ydyw Duw: efe hefyd ydyw ei chynnalydd mewn bod; ac efe ydyw ei diwedd a'i dyben: ond y mae efe yn bob peth iddo ei hun; yn Fod digreedig, heb achos yn bod iddo. Mae yn rhaid fod achos pob peth arall ei hunan yn anachosedig. Y mae pob digonedd yn trigo ynddo ef ei hun; mae yn ddigon iddo ei hun, heb ddibynu ar ddim am ei wynfydedigrwydd; a'i ogoniant ei hun ydyw ei ddyben eithaf, o angenrheidrwydd, yn ei holl weithredoedd. Yn ei holl briodoliaethau hefyd y mae yn oruchaf. Mae ei briodoliaethau ef yn berffeithiau anfeidrol. Nid oes derfyn ar ei allu, ei ddoethineb, ei wybodaeth, ei sancteiddrwydd, a'i gariad. Y mae y perffeithiau hyn yn bod erioed ynddo ef, ac yn anysgaradwy oddi wrth ei hanfod. Nis gellir meddwl am Dduw ond fel bod anfeidrol a thragywyddol sanctaidd a doeth, ac felly am ei holl briodoliaethau. Ond am y cyfryw ansoddau mewn creadur, deilliaw y maent o hono ef; ac y mae y creadur yn ymddibynu am eu parhad ar Dduw, eu ffynnonell ddihysbydd. "Yn mhob creadur y maent yn ddeilliedig—yn ddechreuol, yn derfynedig, ac yn ddarfodedig." Y mae hefyd yn oruchaf yn ei berthynas â'r creadur; mae ei hawl ynddo, a'i awdurdod arno, yn berffaith a hollol: *Dan.* iv. 36. Y mae ei feddyliau a'i ffyrdd uwch law yr eiddo dyn, fel y mae y nefoedd yn uwch na'r ddaiar: *Esa.* lv. 8. Gelwir Melchisedec yn "offeiriad y Duw Goruchaf;" *Gen.* xiv. 18; *Heb.* vii. 1. "Trwy ei alw wrth yr enw hwn, dengys Moses fod offeiriad wedi cael ei appwyntio i wasanaethu dros addolwyr y gwir Dduw yn Nghanaan, yn mhell o flaen dyddiau Aaron, a chyn i'r Arglwydd ffurfio iddo ei hun eglwys weledig allan o deulu neu genedl neillduol o ddynolryw. Y mae y gair Hebraeg a gyfieithir *offeiriad*, weithiau yn arwyddo tywysog; ond y mae yr amwysedd wedi cael ei symmud trwy chwanegu y geiriau 'i'r Duw Goruchaf.'"—*Macknight.* Y mae yn debygol fod y teitl hwn a roddir ar Melchisedec yn awgrymu y berthynas yn yr hon y safai â Duw fel ei offeiriad. Er ei fod yn addef yr un Duw ag Abraham, ac yn ei alw "yn Greawdwr nefoedd a daiar," eto nid oedd ganddo yr un graddau ag oedd gan y patriarch o wybodaeth am ei brif berffeithiau. Er nas gellir meddwl ei fod yn anwybodus o berffeithiau moesol y Goruchaf, ac o'i fwriadau grasol at ddynolryw, eto yr oedd ei adnabyddiaeth o hono fel "Y Goruchaf"—y Creawdwr Hollalluog—yn helaethach nag oedd o hono fel Duw wedi dyfod i gyfammod grasol â dyn. Y mae Kalisch, fe allai, yn myned yn rhy bell pan ddywed, "Nid oedd yn ei adnabod ond yn unig fel yr Hollalluog, fel Creawdwr a Llywodraethwr nefoedd a daiar, tra yr oedd Abraham yn ei addoli fel Iehofah. Nid oedd goleuni crefyddol brenin Salem ond pelydryn mewn cymhariaeth i ddysgleirdeb ffydd Abraham, ac felly nid oedd yn ddigonol i ymlid y tywyllwch o'r wlad o amgylch." Y mae hyn yn dangos gyda pha ofal y defnyddir yr enwau dwyfol yn yr Ysgrythyrau.

Esgynodd yr Arglwydd Iesu "goruwch yr holl nefoedd;" *Eph.* iv. 10. "Yr oedd yn naturiol i un fel Paul, yr hwn oedd wedi ei ddwyn i fyny yn y dulliau Iuddewig o feddwl, arfer eu dull o lefaru, yn ol pa un y lleferir am y nef dan yr enw lluosog 'y nefoedd.'"—*Alford.* "Pa nef bynag sydd yn uwch na'r holl nefoedd, i'r lle hwnw yr esgynodd yr Iachawdwr."—*Pearson.* "Y nefoedd (οι ουρανοι) ydyw y parthau uwch ben, trwy y rhai yr aeth yr Iesu i nef y nefoedd —i ddeheulaw Duw. Llefara yr apostol ei hunan am y drydedd nef: 2 *Cor.* xiii. 2. Y mae yn afreidiol dadleu pa un a yw yr apostol yn cyfeirio at y drydedd nef, fel y tybia Harless, neu at y seithfed nef, fel y mae Wetstein a Meyer yn ceisio profi. Ymddengys mai defnyddio iaith gyffredin yr Hen Destament y mae yr apostol (*Deut.* x. 14; 1 *Bren.* viii. 27)—'y nefoedd, ïe nefoedd y nefoedd.' Dywed yr apostol yn *Heb.* iv. 14, fod yr Iesu 'wedi myned *trwy* y nefoedd,' nid '*i'r* nefoedd,' fel y mae yn ein darlleniad ni. Pa barthau bynag a elwir y nefoedd, y mae yr Iesu wedi ei ddyrchafu goruwch oll, ïe, i nef y nefoedd. Y mae ei ddyrchafiad yr uchaf mewn bod. Megys yr oedd ei ddarostyngiad mor isel, felly y mae ei ddyrchafiad yn cyfatteb mewn uchelder."—*Eadie.* Disgynodd i barthau is na'r ddaiar, ac esgynodd goruwch yr holl nefoedd.

Ymadrodd cyffelyb i osod allan uchafiaeth y Cyfryngwr ydyw *Heb.* i. 3; "Wedi puro ein pechodau trwyddo ef ei hun, a eisteddodd ar ddeheulaw y Mawredd yn y goruwchleoedd." Barna rhai fod yr awdwr yma yn bwriadu arddangos uchafiaeth Crist fel yn tra rhagori ar yr eiddo Dafydd, am yr hwn y dywedir fod Iehofah wedi ei wneuthur "yn gynfab, goruwch breninoedd y ddaiar;" *Salm* lxxxix. 27. Yr oedd ei orseddfa yn uchel ar y ddaiar, a'i ogoniant uwch law eiddo y breninoedd o'i amgylch. Ond am yr Arglwydd Iesu, y mae yn anghymharol fwy dyrchafedig nag efe, o herwydd y mae wedi eistedd ar ddeheulaw y Mawredd yn y goruwchleoedd. Ond y mae Dr. Owen yn ymwrthod â'r cyfeiriad hwn. Dywed fod y geiriau yn dynodi, nid awdurdod a llywodraeth Crist, yr hon a gysgodid gan lywodraeth Dafydd, ond ei ogoniant a'i fawredd, yn cael eu rhagddangos gan orsedd ysblenydd Solomon. Heb law hyny, nid am awdurdod freninol yr Iesu y mae yr awdwr yn ymdrin, ond am ei swydd offeiriadol, a'r gogoniant a ddilynodd y cyflawniad o honi. Cyfeiria yr apostol, gan hyny, at fynediad yr archoffeiriad i'r sancteiddiolaf, ar ol offrymu yr aberth ar ddydd mawr y cymmod. "Y pryd hyny yn unig y caniateid iddo fyned i'r sanctaidd santeiddiolaf, neu y nefoedd ar y llawr—y lle yr oedd yr arddangosiad mawreddus o bresenoldeb Duw, ei orsedd a'i ogoniant. Ond pa beth a wnai efe yno? *Safai* gyda phob gostyngeiddrwydd ger bron yr Arglwydd—presenoldeb yr hwn a arddangosid yno. Nid ai efe, gan eistedd i lawr rhwng y cerubiaid; ond wedi addoli wrth stôl-droed yr Arglwydd, efe a ymadawai. Ond nid felly Crist; ond gan fod ei aberth yn anfeidrol fwy rhagorol ac effeithiol na'r eiddo Aaron, ar ol ei offrymu, aeth i mewn i'r sancteiddiolaf, neu y nef ei hun, ac i wir bresenoldeb gogoneddus Duw, nid i wasanaethu mewn gostyngeiddrwydd, ond i gyfranogi o'r orseddfainc, y mawredd, a'r gogoniant."

GORUCHWYL—IAETH—WR, [*goruch—gwyl*]: sillebir y geiriau hyn fel hyn hefyd, GORCHWYL, &c.: dysteiniaeth, golygiaeth; arolygwr, dystain. Y gair Groeg am *oruchwyliaeth* ydyw οικονομια, yr hwn, yn ei wedd Seisoneg ydyw *economy.* Y mae y gair *oiconomia* yn cael ei ffurfio o'r ddau air οικος=*ty*, a νομος=*deddf, trefn;* ac felly, yn ei ystyr cyntaf, yn golygu trefnidedd teuluaidd. Goruchwyliwr ydyw yr hwn sydd yn rheoli achosion teulu. Golyga goruchwyliaeth

swydd arolygwr neu ddystain: "Dyro gyfrif o'th oruchwyliaeth;" *Luc* xvi. 2. Nid prif arolygwr y tir a'i gynnyrch a feddylir, ond llywodraethwr ar holl feddiannau ei arglwydd. Mae ei arwyddocâd yn eangach nag eiddo y geiriau Lladin *villicus*=tir-hwsmon, a *dispensator*=trefnwr a thalwr yr arian. *Villicus* ydyw y gair a ddefnyddia y *Vulgate* am *oiconomos* yn y ddammeg. Y mae Jerome yn sylwi ar anmhriodoldeb cyfieithiad y *Vulgate*—"*Villicus* yn briodol ydyw arolygwr y fferm (*villa*), oddi wrth ba un y mae y gair yn deilliaw. Ond *oiconomos* ydyw gweinyddwr a rheolydd yr arian yn gystal a'r ffrwythau, ac y mae ganddo lywodraeth ar holl eiddo ei arglwydd." Yn y sefyllfa uchel hon o ymddiried yr oedd Eliezer yn nheulu Abraham (*Gen.* xxiv. 2—12), ac Ioseph yn nhŷ Potiphar: *Gen.* xxxix. 4. Dywedir am Eliezer o Damascus mai efe oedd y gwas hynaf yn nhŷ Abraham, a'i fod yn llywodraethu ar yr hyn oll ar a oedd ganddo. Yr oedd ganddo lywodraeth hollol ar holl drafodion teuluaidd y patriarch. Yr oedd yn hysbys o'r holl eiddo, yn fwy felly na'i feistr, ac yn gyfrifol am ei gadwraeth ddiogel. Yr oedd y cyfryw oruchwylwyr yn perthyn i bob teulu mawr, ac yn enwedig i'r palasau breninol; byddent yn fynych yn cynnrychioli eu meistriaid, ac weithiau yn dyfod i'w meddiannu ar eu hol. Mwynhaent radd mor uchel o awdurdod a rhyddid ag a'u cyfodai yn mron yn gydradd â'u harglwyddi; ac yn gyffredin ad-dalent yr ymddiried mawr a osodid ynddynt â ffyddlondeb cyfatebol.—*Kalisch on Genesis.* Cyffelyb oedd sefyllfa Ioseph yn nhŷ Potiphar. Dywedir fod Ioseph yn ŵr llwyddiannus yn nhŷ ei feistr, yr hwn a'i prynasai o law yr Ismaeliaid, a bod yr Arglwydd gydag ef yn mha beth bynag a wnelai (*Gen.* xxxix. 1, 2), ac o herwydd hyny gosododd ef yn olygwr ar ei dŷ. Gwnaeth Potiphar hyn, yn ddiammheu, oddi ar y gred oedd ganddo mewn tynghedfen; yr hon oedd athrawiaeth, fel yr oedd yn cael ei dal yn yr oesoedd boreuol yn yr Aipht, a ddysgai fod yn mysg dynion rai personau wedi eu ffafrio yn fawr gan y duwiau, y rhai a wasgarent yn ddifeth ddaioni, cysur, a llwyddiant, i ba le bynag yr elent; fel yr oedd ereill yn dwyn adfyd a drwg gyda hwynt. Meddyliai Potiphar fod Ioseph yn sefyll yn uchel yn mysg y dosbarth ffortunus, ac nas gallasai wneuthur yn ddoethach nag ymddiried ei holl dŷ a'i feddiannau i'w law. "Efe a adawodd yr hyn oll oedd ganddo dan law Ioseph; ac ni wyddai oddi wrth ddim ar a oedd gydag ef, oddi eithr y bwyd yr oedd efe yn ei fwyta." Ni adawodd Ioseph ddim i Potiphar i'w wneuthur ond yn unig mwynhau pleserau y bwrdd. Ac nid yn unig yr oedd gofalon y tŷ wedi eu hymddiried i law Ioseph, ond holl eiddo ei feistr; "Yr oedd bendith yr Arglwydd ar yr hyn oll oedd eiddo ef, yn y tŷ, ac yn y maes." Un rhan o waith y goruchwyliwr oedd rhanu i bawb yn y teulu eu bwyd yn ei bryd (*Luc* xii. 42), yr hyn a wneid weithiau gan y feistres ddiwyd: *Diar.* xxxi. 15. Yr oedd y goruchwyliwr yn yr oesoedd boreuaf yn gaethwas, fel gwas Abraham; ond weithiau byddai yn ddyn rhydd: *Luc* xvi. 3, 4. Rhan o waith y goruchwyliwr oedd gofalu am y plant, yn enwedig eu pethau arianol. Gwaith swyddwyr ereill yn y teulu oedd eu haddysgu. Y mae gwaith y ddwy swydd yn cael ei nodi yn *Gal.* iv. 2, yn y geiriau "ymgeleddwyr," a "llywodraethwyr." Yn drawsenwol y mae goruchwyliaeth yn golygu y swydd apostolaidd (1 *Cor.* ix. 17; *oiconomia*=gorchwyl, yn y cyfieithiad Cymraeg; *Col.* i. 25). Y mae dadl yn bod ai hyn yw ystyr y gair yn *Eph.* iii. 2; "Os clywsoch am oruchwyliaeth gras Duw, yr hon a roddwyd i mi tuag atoch chwi." Golygiad Luther, Musculus, &c., ydyw, fod y gair *goruchwyliaeth* yn arwyddo y swydd apostolaidd. Golygiad Anselm ydyw—*officium dispensandæ gratiæ Dei*=y swydd o weinyddu gras Duw. Y mae Eadie ac ereill yn dadleu mai ystyr y gair yn y lle hwn ydyw trefn neu gynllun; yr un ag yn *Eph.* i. 10. Y mae yr apostol yn defnyddio y gair i osod allan y dull ag y cafodd ef ei ddewis a'i gymhwyso i bregethu y ffydd i'r Cenedloedd. Y mae Chrysostom yn gwneyd "goruchwyliaeth" yr un peth a "datguddiad" yn yr adnod ganlynol:—"Yn gymmaint a dyweyd, nid oddi wrth ddyn y dysgais yr efengyl." "Pa fodd," ebe Eadie, "y dygwyddodd i'r cyfryw ddyn a Phaul, Pharisead diysgog, ysgolor Gamaliel, yn ymlyngar wrth yr efrydiau Rabbinaidd, ac yn benboethyn o blaid y gyfraith, ddyfod yn bregethwr yr efengyl, cenadwriaeth neillduol yr hwn oedd cyhoeddi rhyddid i'r Cenedloedd i fwynhau breintiau Cristionogaeth? O Dduw y daeth hyn iddo; goruchwyliaeth, cynllun Duw ydoedd; ac y mae yr oruchwyliaeth yma yn cael ei gosod allan fel yn dyfod "o ras Duw a roddwyd i ni tuag atoch chwi."

Y meddwl hwn sydd i'r gair *goruchwyliaeth* yn *pen.* i. 10; "Fel yn ngoruchwyliaeth cyflawnder yr amseroedd." Y mae yn cynnwys y drychfeddwl fod Cristionogaeth yn gyfundrefn reolaidd, cydgyssylltiedig yn ei holl ranau. Y mae yn cael ei chyfansoddi, nid o amryw o wirioneddau a ffeithiau heb fod un cyssylltiad rhyngddynt a'u gilydd; ond y mae yn gyfundrefn gyflawn a chyfluniol—y naill ran yn perthyn i'r llall, ac oll yn cydwasanaethu i un amcan mawr. Y mae y cyd-drefniad yn berffaith a manwl. Y mae pob gwirionedd yn taflu goleuni ar wirioneddau ereill, ac yn derbyn goleuni oddi wrthynt; pob ffaith ar unwaith yn effaith ac yn achos; pob pwnc, fel dolen mewn cadwen, yn cynnal dolenau ereill, ac yn cael ei chynnal ganddynt. Cynllun anfeidrol ddoethineb ydyw, yn yr hwn nid oes dim allan o'i le nac allan o'i amser. Dynodir yr oruchwyliaeth, neu y drefniedd hon, fel yn perthyn i "gyflawnder yr amseroedd." Hwn ydyw cyfnod yr oruchwyliaeth. *Stier*:—"Mae yr amseroedd hyn yn gyfochrog a'r oruchwyliaeth, ac o barhad cyfartal a hi." *Eadie*:—"Y mae yr amser blaenorol i'r oruchwyliaeth o'r diwedd wedi cael ei lanw i fyny; o blegid yr ydym yn cymmeryd y gair *pleroma* (cyflawnder) yn ei ystyr goddefol. Edrychir ar y *pleroma* fel llestr mawr, i'r hwn y mae canrifoedd a miloedd o flyneddoedd wedi bod yn arllwys; ond yr oedd yn awr wedi cael ei lenwi." *Calovius*:—"Yr oruchwyliaeth briodol i gyflawnder yr amseroedd." Dechreuodd yr oruchwyliaeth mewn adeg a arwyddai fod yr amseroedd a ragderfynwyd i'w blaenori wedi eu cyflawnu. Y mae dau ddrychfeddwl yn yr ymadrodd, yn ol barn Eadie. 1. Y mae yn rhoddi allan amser Duw; yr amser rhagderfynedig ganddo ef; yr amser nas gellir ei brysuro na'i gadw yn ol. 2. Yr amser goreu yn hanes y byd i'r cyfryw ddygwyddiad gymmeryd lle.

GORUWCHNATURIAETHWYR. Yr enw a roddir yn gyffredin yn yr Almaen ar y rhai sydd yn credu mewn cyfryngau neu ddylanwadau goruwchnaturiol yn eu perthynas âg ysbrydol-

Digitized by Google

iaeth y Beibl ac â chyflawniad y gwyrthiau a gofnodir ynddo. Gwrthnaturiaethwyr ydyw yr enw a roddir ar eu gwrthwynebwyr.

GORUWCHYSTAFELL. Gwel YSTAFELL.

GORWAGEDD. Gwel GWAGEDD.

GORWEDDFA, [*gor—gwedd—fa*]. Lle i orwedd; dodrefnyn i orwedd arno; gwely: *Iob* vii. 13; *Salm* vi. 6; cxxxix. 3; xxx. 7; lxv. 10. Gwel GWELY.

GOSEN: talaeth yn Ngwlad yr Aipht, lle y bu yr Israeliaid yn preswylio am ysbaid o ddeutu 430 o flyneddoedd: *Gen.* xlv. 10; xlvi. 28; xlvii. 27; l. 8; *Exod.* viii. 22; ix. 26. Gelwir hi yn gyffredin "Tir Gosen," a "Gwlad Gosen;" ac fe ymd engys fod iddi enw arall hefyd, sef "Tir Rameses" (*Gen.* xlvii. 11), os nad oedd hwn yn enw ar rhyw ardal yn Gosen. Yn neges Ioseph at ei dad y ceir y crybwylliad cyntaf am Gosen: "A chai drigo yn Ngwlad Gosen, a bod yn agos ataf fi;" *Gen.* xlv. 10. Y mae hyn yn dangos nad oedd y wlad yn mhell oddi wrth y cartrefle breninol, neu gartrefle y Pharaoh hwnw oedd yn teyrnasu yn amser Ioseph. Byddai breninoedd yr Aipht yn trigo un ran o'r flwyddyn yn Memphis, a'r rhan arall, yn amser y cynauaf, yn Avaris, ar lan y gangen Bubastaidd neu Pelusiaidd o'r afon Nilus. Hyn, meddai Manetho, ydoedd arferiad y brenin cyntaf [*Josephus, c. ap.* i. 14.] Yn yr hanes am ddyfodiad Iacob i Gosen fe ddywedir am y patriarch—"Ac efe a anfonodd Iudah o'i flaen at Ioseph, i gyfarwyddo ei wyneb ef i Gosen: yna y daethant i dir Gosen. Ac Ioseph a barotodd ei gerbyd, ac a aeth i fyny i gyfarfod Israel ei dad i Gosen;" *Gen.* xlvi. 28, 29. O ganlyniad, rhaid fod y wlad rhwng cartrefle Ioseph ar y pryd a chyffiniau Palestina; ac y mae yn ymddangos mai hi ydoedd y parth agosaf at y cyffiniau hyny. Y mae cynghor Ioseph i'w frodyr i raddau yn awgrymu lle yr oedd ei saffle—"A phan alwo Pharaoh am danoch, a dywedyd, Beth yw eich gwaith? Dywedwch, Dy weision fuant drinwyr anifeiliaid o'u hieuenctid hyd yr awr hon, nyni a'n tadau hefyd; er mwyn cael o honoch drigo yn nhir Gosen: canys ffieidd-dra yr Aiphtiaid yw pob bugail defaid;" *Gen.* xlvi. 33, 34. Dengys y geiriau hyn nad oedd Gosen braidd yn cael ei hystyried yn rhan o'r Aipht Briodol, ac nad ydoedd yn cael ei phoblogi gan yr Aiphtiaid: os felly, amlwg yw mai talaeth gyffiniol ydoedd hi. Ond nid ydys i gasglu chwaith nad ydoedd yn Gosen yn y cyfnod hwnw drigolion Aiphtaidd o gwbl; o blegid yn amser y deg pla y mae y cyfryw yn cael eu henwi yn benodol. Fod yno, hefyd, dramoriaid neu ddyeithriaid yn preswylio heb law yr Israeliaid sydd eglur oddi wrth yr hanes a roddir am drychineb tŷ Ephraim, a'r crybwylliad a wneir am "y bobl gymmysg lawer" a aethant allan o'r Aipht yn adeg ymadawiad yr Israeliaid: *Exod.* xii. 38. Y mae y cyfeiriad nesaf a gawn at Gosen yn cadarnhau y syniad ei bod yn gorwedd rhwng Canaan a'r Delta: *Gen.* xlvii. 1. Y mae ansawdd y wlad yn cael ei osod allan yn fwy eglur yn ateb Pharaoh i ddymuniad brodyr Ioseph, nag yn y geiriau sydd eisoes wedi eu dyfynu—"A llefarodd Pharaoh wrth Ioseph, gan ddywedyd, Dy dad a'th frodyr a ddaethant atat: Tir yr Aipht sydd o'th flaen; cyflea dy dad a'th frodyr yn y man goreu yn y wlad; trigant yn nhir Gosen: ac os gwyddost fod yn eu mysg wŷr grymus, gosod hwynt yn ben bugeiliaid ar yr eiddof fi.........Ac Ioseph a gyfleodd ei dad a'i frodyr, ac a roddes iddynt feddiant yn Ngwlad yr Aipht, yn nghwr goreu y wlad, yn nhir Rameses, fel y gorchymynasai Pharaoh;" *Gen.* xlvii. 5, 6, 11. Gellir tybied oddi wrth yr ymadroddion yma mai gwlad borfaog ydoedd Gosen, lle yr oedd Pharaoh yn cynnal rhai o'i anifeiliaid. Braidd y gellir meddwl fod yr ymadrodd yn golygu y lle brasaf oll, yn mhob ystyriaeth, oedd yn yr Aipht; a mwy naturiol ydyw i ni ei ddeall fel yn gosod allan y man goreu, neu y man mwyaf manteisiol i bobl fugeiliol fel yr Israeliaid. Y lleoedd mwyaf ffrwythlawn yn yr Aipht ydoedd y lleoedd hyny sydd yn gorwedd agosaf i'r Nilus. Rhaid cadw mewn cof hefyd ddigonolrwydd terfynau Gwlad Gosen i gynnwys yr Israeliaid, eu llwyddiant ynddi, a'u hysgariad oddi wrth gorff y genedl Aiphtaidd. Yn hanes y mynediad allan o'r Aipht y ceir y mynegiadau mwyaf boddhaol ac eglur am sefyllfa ddaiaryddol Gosen. Fe gychwynodd yr Israeliaid o dref Rameses yn Ngwlad Gosen; gwnaethant daith dau ddiwrnod i "gwr yr anialwch," ac yn mhen un diwrnod arall hwy a gyrhaeddasant lan y Môr Coch. Yr oedd dwy ffordd o'u blaen o'r lle yr oeddynt yn cychwyn—"ffordd gwlad y Philistiaid [yr hon oedd] yn agos," a ffordd "anialwch y Môr Coch;" *Exod.* xiii. 17, 18. Yn ol y geiriau hyn, gellir casglu fod Gosen yn gorwedd mewn rhan yn agos i'r ochr ddwyreiniol i'r hen afon Delta, a Rameses yn gorwedd yn y dyffryn a elwir yn awr Wadi-t-Tumeylât, yn nghylch deng milltir ar ugain mewn cyfeiriad uniawn oddi wrth lan gorllewinol Llynclyn Arabia. Gwel EXODUS, YR.

Wedi gwneyd ymchwiliadau manwl i dystiolaeth y Beibl, yr ydys yn dyfod i'r penderfyniad fod Gwlad Gosen yn sefyll rhwng yr ochr ddwyreiniol i'r Delta a therfyn gorllewinol Palestina: nad ydoedd yn hollol yn rhan o'r Aipht Briodol; ei bod yn cael ei phoblogi gan dramoriaid ereill heb law yr Israeliaid, a bod geiriau gwreiddiol eu henwau yn fwy priodol i'r iaith Semitaidd nag i'r Aiphtaeg; mai tir porfaog ydoedd y wlad, yn gymhwys neillduol i fugeiliaid, yn ddigon i'r Israeliaid, y rhai a lwyddasant, ac a gawsant eu gwahanu oddi wrth gyfangorff yr Aiphtiaid; ac yn olaf, fod un o'i threfi yn gorwedd yn agos i derfyn gorllewinol Wadi-t-Tumeylât. Os, gyda Lepsius, y gosodir Gosen y tu isaf i Heliopolis, yn agos i Bubastis a Bilbeys, y mae ystyriaethau pwysig am y pellder oddi wrth y Môr Coch, sef taith tri diwrnod i'r Israeliaid, ac am nodwedd wahanredol y wlad, yn cael eu taflu o'r neilldu. Os caniateir mai yr un ydoedd a'r Bucolia, yr ydym yn cael yr un anhawsder o berthynas i'r pellder; neu ynte rhaid i ni ddychymygu am ffordd a gyrhaeddai bron yn hollol drwy yr anialwch, ac nid am y drydedd ran neu lai na hyny o hono.

Wedi barnu fod Gosen yn cyfateb i Wadi-t-Tumeylat, yr ydym i ystyried a fuasai maintioli y dyffryn hwn yn ddigon mawr i gynnal yr Israeliaid. Y mae arwynebedd Wadi-t-Tumeylat, os cymmerir i mewn yr holl ranau diwylliadwy o'r dyffryn, yn mesur llai na thrigain milltir ysgwâr. Os credir fod yr Israeliaid yn amser eu hymadawiad o Wlad yr Aipht yn rhifo 1,800,000, a'r holl boblogaeth, yn cynnwys yr Aiphtiaid a'r tramoriaid, yn rhifo 2,000,000, ni buasai hyn yn rhoddi dim llai na rhwng 30,000 a 40,000 o drigolion i bob milltir ysgwâr; yr hyn a fyddai o ddeutu hanner poblogaeth gyffredin dinas ddwy-

reiniol. Rhaid cofio, pa fodd bynag, nad yw yn rhesymol i ni feddwl fod yr Israeliaid wedi eu cyfyngu i'r dyffryn am wellt a phorfa; ond yn hytrach eu bod, fel yr Arabiaid, wedi arwain eu hanifeiliaid i'r darnau ffrwythlonaf o'r anialdiroedd oedd yn eu cwmpasu, a'u bod hefyd wedi defnyddio nifer eithafol, sef nifer y bobl yn adeg yr ymadawiad. Am y rhan fwyaf o'r daith, rhaid fod eu nifer yn llawer iawn is; ac yn flaenorol i'r ymadawiad, ymddengys eu bod wedi eu gwasgaru gan y gormesdeyrn ar hyd a lled y tiriogaethau amgylchynol, er eu bod wedi eu casglu yn nghyd i Rameses erbyn diwrnod eu cychwyniad. Pe cawsid un lle mawr, tebyg i amddiffynfa fugeiliol Avaris, yr hon, fel y dywed Manetho, oedd ganddi unwaith warchodlu o 240,000 o wŷr, buasai hyny yn lleihau anghyfartaledd y boblogaeth i faintioli yr arwynebedd. Y mae bychander arwynebedd yr Aipht, mewn cyferbyniad i'r boblogaeth oedd yn angenrheidiol i adeiladu y cofgolofnau mawrion sydd yn britho y wlad, yn nghyd â chynnaliaeth byddinoedd anferth y Pharaohaid, yn gofyn cyfartaledd gwahanol i wledydd ereill; ac y mae hyn yn cael ei egluro yn berffaith gan ffrwythlondeb nodedig y tir. Hyd yn oed yn bresennol, pan y mae y boblogaeth bron yn llai nag y bu erioed ar dudalenau hanesyddiaeth, a phan y mae pentrefi bychain yn sefyll yn lle dinasoedd eang, y mae y wlad yn llawer llawnach o drigolion nag ydyw sir boblog Gaerefrog yn Lloegr. Nid ydym, gan hyny, yn meddwl fod unrhyw anhawsder pwysig yn nglŷn âg arwynebedd y Wadi-t-Tumeylát i gynnal yr Israeliaid.

Hyd yma yr ydym wedi trin y pwnc yn hollol ar sail tystiolaeth y Beibl Hebraeg. Y mae cyfieithiad y Deg a Thrigain, pa fodd bynag, yn cynnwys ymadroddion na ddylid myned heibio iddynt yn ddisylw; ac y mae tystiolaeth y cyfieithiad hwn ar bob mater cyssylltiedig â'r Aipht yn enwedig yn gyfryw na ddylid ei ddiystyru na'i ddibrisio, er bod yn ofynol i ni fod yn ochelgar rhag gosod gormod o bwys arni ar y pwnc neillduol hwn; o blegid rhaid fod traddodiadau Gosen a'i phreswylwyr wedi myned agos i ebargofiant yn yr amser y cyfieithwyd Pum Llyfr Moses; ac nid oes genym awdurdod i briodoli i unrhyw gyfieithydd neu gyfleithwyr fwy na gwybodaeth gyffredinol a thraddodiadol am faterion Aiphtaidd. Yn *Gen*. xlv. 10, am גשן fe rydd y Deg a Thrigain Γεσὲμ 'Αραβιας. Dichon fod y gair eglurhaol yn profi naill ai fod Gosen yn gorwedd yn yr Aipht Isaf ar yr ochr ddwyreiniol o'r Delta, neu ynte mai yr un ydoedd mewn rhan neu yn gwbl a'r *Nome* Arabaidd. Os yr ystyr olaf a roddir i'r gair, rhaid cofio fod y Nomeaid yn eu hoesoedd boreuaf yn llawer lluosocach nag o dan deyrnasiad y Ptolemiaid. Ond cymmerer y naill ystyr neu y llall, y mae yr ymadrodd yn ffafriol i'n golygiadau am safle ac ansawdd Gwlad Gosen. Yn *Gen*. xlvi. 28, yn lle ארצה גשן, y mae gan y Deg a Thrigain καθ' 'Ηρώων πόλιν, ἐν γῆ 'Ι αμεσση (neu εις γην 'Ραμεσση)—sef, mai yr un ydyw Rameses a Heroöpolis. Y mae yn anmhosibl, braidd, nodi sefyllfa Heroöpolis; ond nid oes ammheuaeth ei bod yn gorwedd yn y dyffryn, nid yn mhell oddi wrth ben cyntefig y Llynclyn Arabaidd. Y mae ei sefyllfa yn rhy agos i'r llynclyn i gael ei dynodi fel yr un dref a Rameses yr Ysgrythyr, ac fe ddichon ei bod wedi cael ei dewis yn unig o herwydd mai yno yr oedd prif le y dalaeth lle yr oedd yr Israeliaid wedi bod yn aros yn yr amser pryd y gwnaed y cyfieithiad. Pa fodd bynag, rhai sylwi fod *Exod*. i. 11, yn ol y Deg a Thrigain, yn darllen (yn lle Pithom a Raamses) fel hyn *Peitho* a *Ramesê*, yr hon hefyd a elwir *Ilioupolis*=dinas yr haul. Y mae Eusebius yn barnu mai yr un ydyw Rameses ag Avaris, yr amddiffynfa fugeiliol. Y mae tystiolaeth y Deg a Thrigain, gan hyny, yn rhoddi grym cyffredinol i'r amcan-dyb sydd yn yr erthygl hon.

2. GOSEN: y mae y gair hwn yn ymddangos ddwywaith fel enw ar ardal sydd yn Palestina Ddeheuol: *Ios*. x. 41; xi. 16. Oddi wrth *pen*. x. 41, gellir casglu ei bod yn sefyll rhwng Gasa a Gibeon; ac o ganlyniad yn rhan o wastadedd arferol Iudah: ond yn *pen*. xi. 16, y mae y gwastadedd hwn yn cael ei enwi yn benodol fel chwanegiad at Gosen. Yn ol yr adnod hon hefyd —os ydym i gymmeryd ein harwain gan eiriad yr hanes—y mae safle Gosen yn sefyll rhwng y deheu a'r gwastadedd. Os oedd Gosen yn rhan o'r gwastadedd bras hwn, onid yw yn bosibl fod ei ffrwythlondeb wedi awgrymu yr enw i'r Israeliaid? Ar y llaw arall, fe ddichon fod yr enw yn llawer hynach, a'i fod yn dwyn rhyw olion o drafnidiaeth a gymmerasai le rhwng yr Aipht a'r parthau deheuol o Wlad yr Addewid. Cym. 1 *Cron*. vii 21.

3. GOSEN: y mae tref o'r enw Gosen yn cael ei chrybwyll, yn mhlith trefi ereill, yn *Ios*. xv. 51, fel yn perthyn i fynydd-dir Iudah. Nid oes dim i'w gael i gyssylltu y dref hon â'r ardal o'r un enw yn ngwastadedd Iudah; ac hyd yn hyn nid ydys wedi gallu deall pa le yr ydoedd yn sefyll.

GOSODIADAU, &c. Gwel SEREMONIAU.

GOSPER; [*Llad*., *vesper*]; pryd gosper, prydnawn, hwyr, a nos. "O'r bore hyd osper:" *Act*. xxvii.—W. S. Defnyddir y gair yn fwyaf cyffredin mewn cyssylltiad â gwasanaeth prydnawnol yr Eglwys Sefydledig; a'i ystyr yn ol y gwreiddiau yw, *gweddi hwyrol*, neu *gweddi brydnawnol*.

GOSTYNGEIDDRWYDD: y gras neu y rhinwedd cyferbyniol i falchder. Gostyngeiddrwydd mewn dyn ydyw teimlad tumewnol o'i waeledd, ac agweddiad allanol cysson â'r cyfryw deimlad; neu fynwesiad barn isel am dano ei hun yn ei berson, ei sefyllfa, a'i holl amgylchiadau. Y mae meddwl y gostyngedig wedi ei ddarostwng mor isel a'i sefyllfa. Y dysgrifiad a rydd Paul o ostyngeiddrwydd ydyw peidio "uchel synied yn amgen nag y dylid synied"—peidio meddwl yn uwch nac yn îs am danom ein hunain nag y dylem. Tybia rhai, fod gostyngeiddrwydd yn gynnwysedig mewn mynwesu y meddyliau gwaelaf ag y mae modd am danynt eu hunain; ond nid arwydd o falchder fyddai i ddyn gyfrif ei hun yn rhinweddol a moesol, os ydyw felly mewn gwirionedd; neu gyfrif ei hun yn rhagori ar ereill ag sydd yn eu holl ymddygiadau yn ddrygionus. Fel nad ydyw gostyngeiddrwydd yn peri i ddyn feddwl yn well am dano ei hun nag ydyw, felly nid ydyw yn peri iddo feddwl yn waeth am dano ei hun nag ydyw. Y mae y balch yn meddwl ac yn teimlo ei fod yr hyn nad ydyw; ond y gostyngedig yn meddwl ac yn teimlo ei fod yr hyn ydyw. Gwirionedd yw sylfaen gostyngeiddrwydd, a thwyll yw sylfaen balchder. Y gair a ddefnyddir yn y Testament Groeg am ostyngeiddrwydd yw ταπεινοφροσύνη,

Digitized by Google

yr hwn sydd yn arwyddo un o feddwl ac ymddygiad isel a gostyngedig. Fel rheol, yn ol fel y bydd y meddwl y bydd yr ymddygiad. Os bydd dyn wedi "ymdrwsio oddi mewn â gostyngeiddrwydd," fe fydd ymddygiad y dyn oddi allan yn ostyngedig. Yn *Phil.* ii. 5, y mae Paul yn dechreu ei sylwadau ar Grist fel esampl o ostyngeiddrwydd, trwy gyfeirio at feddwl gostyngedig y Gwaredwr:—"Canys bydded ynoch y meddwl yma, yr hwn oedd hefyd yn Nghrist Iesu:" yr hyn sydd yn rhoddi ar ddeall, os bydd yr un meddwl ynom ag oedd yn Nghrist y bydd ein hymddygiad yn debyg i Grist. Y gwaith y daeth efengyl Crist i'r byd i'w gyflawnu oedd "tynu i lawr y cedyrn o'u heisteddfäau, a dyrchafu y rhai iselradd." Ei chenadaeth arbenig oedd diorseddu yr uchelfrydedd a ystyrid gan y byd paganaidd fel rhinwedd, a chodi gostyngeiddrwydd i fyny yn ei le, gan amddifadu un o'r anrhydedd a roddid arno, a gwaredu y llall o'r dirmyg a gyssylltid âg ef. Iganlyn yr efengyl y daeth y gair ταπεινοφροσύνη i'r byd: ni ddefnyddiwyd ef gan un ysgrifenydd Groegaidd cyn y cyfnod Cristionogol. Y mae yn wir fod Plutarch yn arfer y gair ταπεινόφρων; yr hyn o'i gyfleithu yw *meddwl gostyngedig:* ond ystyr ddrwg a roddid iddo ganddo ef, sef *meddwl iselwael.* Ceir un frawddeg yn ngwaith Aristotle sydd bron yn gyfystyr â'r gair ταπεινοφροσύνη yn y Testament Newydd. Wedi cyfaddef mor anhawdd ydyw i ddyn feddu meddwl gwir fawr —canys nid yw efe yn addef un mawredd nad ydyw yn codi oddi ar ddaioni a mawredd moesol —sylwa yn ddamweiniol, ac heb feddwl pa mor bell yr oedd ei eiriau yn cyrhaedd, na ddylid priodoli gwaith un yn meddwl yn ostyngedig am dano ei hun, pan y bydd y meddwl gostyngedig hwnw yn un gwirioneddol, i ysbryd iselwael a llwfr. Fel hyn, ni a welwn nad oedd syniad Aristotle am ostyngeiddrwydd yn mhell iawn oddi wrth y syniad Ysgrythyrol am dano. Y dysgrifiad a rydd Chry ostom o ostyngeiddrwydd ydyw ystyried ein hunain yn fychain pan y byddom yn fawrion, yr hyn nid ydyw amgen na dwyn balchder i mewn o dan rith gostyngeiddrwydd; ac y mae yn ail adrodd y syniad hwn amryw weithiau. Yn hytrach gostyngeiddrwydd ydyw i ni ystyried ein hunain yn fychain, am ein bod felly; synied am danom ein hunain yn gywir yn ol yr hyn ydym mewn gwirionedd fel creaduriaid, yn gystal a phechaduriaid. Ond diehon y gwrthddadleuir, pa fodd y mae y golygiad hwn am ostyngeiddrwydd Cristionogol, fel y mae yn tarddu o ac yn gorphwys ar deimlad a chyfaddefiad o bechod, yn cyttuno â'r ffaith fod yr "hwn ni wnaeth bechod" yn hòni hawl yn y gras hwn, gan ddywedyd, "Canys addfwyn ydwyf a gostyngedig o galon?" *Mat.* xi. 29. Ein hatteb iad yw, fod gostyngeiddrwydd mewn *pechadur* yn cynnwys cyfaddefiad o bechod, am ei fod yn cynnwys cyfaddefiad o'i wir sefyllfa; tra y mae y gras hwn yn bodoli mor wirioneddol yn y creadur ansyrthiedig, ac yn cynnwys cyfaddefiad mai creadur ydyw, yn dibynu yn gwbl am ei fodolaeth a'i gynnaliaeth ar ewyllys y Creawdwr. Yn yr ystyr yma y mae y gras o ostyngeiddrwydd yn perthyn i'r angel uchaf o flaen yr orseddfainc, am mai creadur ydyw, îe hyd yn oed i Arglwydd y Gogoniant ei hun. Yn ei natur ddynol y mae efe yn esampl o ostyngeiddrwydd: fel dyn y mae yn galw ei hun yn ostyngedig, canys nid ydyw yn dyweyd ei fod yn *ostyngedig yn yr ysbryd* (pechaduriaid edifeiriol sydd felly *Salm* xxxiii. 19), mwy nag y gallai ddyweyd am dano ei hun ei fod yn dlawd yn yr ysbryd, gan fod ei ysbryd ef yn ddwyfol; ond y mae efe yn ostyngedig o galon Yr oedd o ran ei fywyd dynol yn byw yn barhaus ar gyflawnder cariad ei Dad; fel dyn cymmerai bob amser iddo ei hun y lle a weddai i greadur yn mhresenoldeb ei Greawdwr.

Gwelir fod gostyngeiddrwydd yn addas a phriodol i ni wrth ystyried ein gwaeledd fel creaduriaid. Doe y ganwyd ni o'r llwch, ac y fory y dychwelwn iddo drachefn. Nid oes dim yn ein dechreuad na'n diwedd i gynhyrfu ein balchder. Yr ydym yn y ddau yn gyffelyb i'r anifeiliaid a ddyfethir; a gallwn gyda'r priodoldeb mwyaf ddywedyd wrth lygredigaeth, "Ti yw ein tad," ac wrth yr abwydyn, "Ti yw ein mam a'n chwaer." Onid ydyw yn rhyfedd fod creadur yn falch, sydd yn myned i'r bedd; yr hwn yn mhen ychydig ddyddiau a orwedda i lawr yn y llwch i fod yn wledd i bryfed y ddaiar? Y cyfryw, beth bynag, fydd ein rhan ni oll, cyn hir, y balchaf a'r uchaf ei ffroen. Addas y dywed y Salmydd, "Diau mai cwbl wagedd yw pob dyn pan fyddo ar y goreu." Yr ydym yn cofio clywed y diweddar Barch. John Elias yn dywedyd wrth bregethu yn erbyn balchder, "Ti, ddyn, falchio! llofrudd oedd dy dad (Adda), pridd oedd dy daid, a dim oedd dy hendaid." Ond pan yr ystyriom ein truenusrwydd fel pechaduriaid—ein bod wedi colli delw Duw—wedi myned yn elynion i'n Creawdwr—wedi ymwerthu dan bechod—nad oes yn ein cnawd ddim da yn trigo—ein bod wedi gwrthryfela yn erbyn llywodraeth Arglwydd y lluoedd, gwelir mai gweddus yw i ni ymostwng "mewn llwch a lludw." Nid oes dim yn ein sefyllfa na'n cymmeriad y gallwn fod yn falch o'i herwydd. Diffyg hunan-adnabyddiaeth ydyw gwreiddyn balchder. Y mae yn rhyfedd fod creaduriaid pechadurus yn falch, ac yn nodedig nad yw balchder yn cael ei fynwesu gan unrhyw fodau ereill. Nis gallwn lai na theimlo hefyd fod gostyngeiddrwydd yn weddus i ni pan y cofiwn mai creaduriaid dibynol ar ein Creawdwr ydym am yr oll a feddwn ac a fwynhawn. Ganddo ef yr ydym yn cael "bywyd, ac anadl, a phob peth oll." Rhoddion ei ddaioni ef ydyw y cwbl, ac i'r lleiaf o honynt nid oes genym hawl. I'w ewyllys benarglwyddiaethol ef, hefyd, yr ydym yn ddyledus bob mynyd am eu parhad. Yr hyn y mae efe yn ei roddi, yr ydym yn ei gasglu. Y mae Paul yn rhoddi ergyd effeithiol i falchder trwy alw sylw dyn at y cwestiwn, "Pwy sydd yn gwneuthur rhagor rhyngot ti ac arall?" Os oes rhyw ragoriaeth yn bod, pwy a'i gwnaeth? "A pha beth sydd genyt a'r nas derbyniaist?" Os yw dyn wedi derbyn mwy o drugareddau na'i gymmydog, y mae hyny yn galw arno, nid i fod yn falchach, ond i fod yn fwy gostyngedig.

Y mae gostyngeiddrwydd yn angenrheidiol i dderbyn yr efengyl; "Yn wir y dywedaf i chwi, Oddi eithr eich troi chwi, a'ch gwneuthur fel plant bychain, nid ewch chwi ddim i mewn i deyrnas nefoedd;" *Mat.* xviii. 4. Y mae plant bychain i raddau mawr yn amddifaid o falchder ac uchelgais. Eu nodweddiad ydyw bod yn ostyngedig a hawdd i'w dysgu. Wrth ofyn i'w ddysgyblion fod yn gyffelyb iddynt hwy, nid oedd yn amcanu amlygu unrhyw dyb am gymmeriad plant wrth natur, ond yn unig y dylasent hwy fod yn gyffelyb iddynt yn yr ystyriaethau hyn—y dylasent ymwrthod â'u golygiadau uchelgeisiol a'u

balchder, a boddloni bob un i sefyll yn ei gylch priodol; yr hwn a fyddai yn un isel iawn. Dywed Marc (ix. 35) i'r Iesu, cyn iddo osod y bachgenyn yn eu canol hwynt, ddyweyd wrthynt, "Os myn neb fod yn gyntaf, efe a fydd olaf o'r cwbl, a gweinidog i bawb." Hyny yw, yr un mwyaf gostyngedig, a'r hwn a fyddo yn foddlawn i gael ei gyfrif y lleiaf, a'r olaf o bawb, fydd y Cristion mwyaf enwog. Y mae gostyngeiddrwydd yn angenrheidiol hefyd i wasanaethu Duw, ac yn enwedig i gael unrhyw beth anhaeddiannol gan Dduw a dynion: *Salm* ix. 12; x. 17; *Diar.* iii. 34; *Micah* vi. 8. Mae Duw yn rhoddi gras i'r rhai gostyngedig (*Iago* iv. 6); hyny yw, y mae yn dangos ei gymmeradwyaeth o honynt trwy gyfranu iddynt y cyfryw fendithion ag y byddant mewn angen am danynt; o blegid hwy yn unig sydd yn teimlo eu heisieu, ac a wnant dderbyniad diolchgar o'i roddion. Ceir esamplau o lwyddiant gweddi y gostyngedig yn y canwriad (*Mat.* viii. 8); a'r wraig o Ganaan: *Mat.* xv. 27. Y mae gostyngeiddrwydd yn angenrheidiol hefyd i gael myned i mewn i'r nefoedd: *Diar.* xxii. 4. Gostyngeiddrwydd yw yr addurn penaf a wisgir gan breswylwyr nef y nefoedd. Bydd balchder yno wedi ei ddifodi, mawredd a bri dynol wedi eu rhoddi heibio, fel pethau rhy wael i'w harddel mewn sefyllfa berffaith: ac ni bydd yno ddim yn fwy cyfrifol na gostyngeiddrwydd, lle y bydd yr holl dduwiolion, mewn cydnabyddiaeth o'u gwaeledd a'u hanhheilyngdod, yn taflu eu coronau wrth draed yr Oen. A pho mwyaf yr ymwisgwn â'r addurn yma, tebycaf a fyddwn i'r saint yn y nef.

Nid gras yn y galon yn unig ydyw gostyngeiddrwydd; ond y mae yn dyfod i'r golwg yn y fuchedd. Y mae ganddo ddau ddull i ddangos ei hun, sef trwy y geiriau a thrwy yr ymddygiadau.

Dengys ei hun yn ein geiriau. Pan gafodd Agur ddadguddiad neillduol o fawredd Duw, ac ystyriaeth o fawrhydi ei ogoniant ef, amlygodd deimlad gostyngedig ei galon trwy ddyweyd, "Yn wir, yr ydwyf yn ffolach na neb, ac nid oes deall dyn genyf. Ni ddysgais ddoethineb, ac nid oes genyf wybodaeth y sanctaidd;" *Diar.* xxx. 2, 3. Iaith y balch ydyw, "Sancteiddiach ydwyf fi na thydi," ond iaith y gostyngedig ydyw, "I mi, y llai na'r lleiaf o'r holl saint." Dyweda y gostyngedig am fai ynddo ei hun yn nghynt nag mewn arall: mae yn dueddol i feddwl y goreu am eiriau ac ymddygiadau pawb ereill. Nid yw yn awyddus i gyhoeddi ei ragoriaethau nac i ddangos ei gymhwysderau. Y mae bob amser, hyd y mae ynddo, yn gochelyd siarad am dano ei hun. Pan y cynnygir iddo ryw anrhydedd, dyweda efe, "Nid wyf deilwng." Mae arno ofn cael ei ddyrchafu yn ormodol; cydnabydda ei ddiffygion a'i wendidau, parcha a dyweda yn dda am ereill ag y mae efe yn credu eu bod yn rhagori arno ef mewn rhinweddau a ffrwythau da. Pan yr ä y gostyngedig i gyfeillach ei uwchradd, ni sieryd ddim i'r dyben o ddangos ei hun, eithr dyweda ei eiriau yn wylaidd ac addas i'w sefyllfa. Nid yw y rhai sydd yn meddu gostyngeiddrwydd byth yn dueddol i'w osod allan trwy lawer o ffraethineb, neu ddefnyddio ymadroddion grymus i'w ddangos. Pan yr ä y gostyngedig i roddi gair o gynghor, bydd ei eiriau a'i agwedd wedi eu gwisgo â gostyngeiddrwydd: cymmaint fydd eu mwynder a'u melusder fel na bydd modd eu gwrthod, pan, ar yr un pryd, y bydd eu grym yn anwrthwynebadwy, a'u heffeithiau yn arosol. Os dygwydd ymryson rhyngddo â rhyw un, ei amcan fydd heddwch, yn hytrach na buddugoliaeth; y mae yn gwerthfawrogi buddugoliaeth yn unig fel moddion heddwch.

Amlyga gostyngeiddrwydd ei hun yn ein holl ymarweddiad, rhodiad, a gwisgoedd, &c. Nid ydyw y gostyngedig yn chwyddedig, hunanol, a sarug; eithr yn addfwyn, llariaidd, ac isel: cofia mai o'r llwch y cymmerwyd ef, ac mai iddo y dychwel drachefn. Pan y gofynir iddo wneyd rhyw weithred isel, ni ddengys un gwrthwynebiad i'w chyflawnu, os bydd hyny yn ei allu, ac yn unol â'i gymmeriad. Nid ydyw yn tramgwyddo am na ddangosid mwy o barch iddo. Derbynia addysg gan y gwaelaf, ac ni winga yn erbyn cerydd pan y bydd yn ei haeddu. Nid ydyw yn cyndyn lynu wrth ei ffordd a'i fympwy ei hun. Os dygwydd iddo roddi tramgwydd, y mae yn barod i'w gydnabod, ac i ymostwng o'i herwydd.

Y mae gostyngeiddrwydd yn ras gwasanaethgar iawn i'w berchenog. Rhydd gymhorth nid bychan iddo i fyw yn heddychol â phob dyn. Ceidw ef rhag yr ymrysonau a'r ymbleidiau sydd yn codi oddi ar galon falch. Un o brif nodweddau gostyngeiddrwydd yw dyoddefgarwch. Y mae y pethau sydd yn terfysgu ac yn rhwygo meddwl hunanol yn myned heibio i'r gostyngedig heb wneyd un niwed iddo. Gellir dyweyd am ostyngeiddrwydd fel y dywedodd yr apostol Paul am gariad—ei fod "yn dyoddef pob dim, yn gobeithio pob dim, yn ymaros â phob dim." Nodwedd neillduol arall a berthyn i ostyngeiddrwydd ydyw ffrwythlonrwydd. Nid y mynyddoedd a'r creigiau uchel yw y lleoedd mwyaf ffrwythlon, ond y dyffrynoedd isel: dyma y lleoedd y ceir y ffrwyth goreu. Y mae gostyngeiddrwydd yn dir mor ffrwythlon fel y mae pob rhinwedd yn tyfu ynddo. Dyma lle mae ofn Duw a pharch i ddynion yn fwyaf blodeuog. Tir isel hefyd yw y mwyaf diogel. Y mae y gostyngedig yn glynu o hyd yn y llwch; a thrwy fyned yn fwy isel, mae yn myned yn fwy diogel. Y mae saethau ei elynion yn suo uwch ei ben, ond heb allu ei ddrygu na'i ysgogi. Y mae y coed isel mewn manau isel yn fwy diogel a diysgog na'r derw cryfion ar y bryniau a'r creigiau uchel. Y mae yr ystormydd a'r gwyntoedd mawrion yn aml yn diganghenu a diwreiddio y derw, pan y mae y coed isel mewn lleoedd isel heb gael un niwed. Felly y mae y gostyngedig, yn nghanol y byd a'i dwrf, a'i dramgwyddiadau, a'i groes ddadleuon; mae ef yn llonydd a diysgog. Y mae yn rhy isel i'r croeswyntoedd cadarnaf afael ynddo i'w droi yn ol. Y mae gostyngeiddrwydd hefyd yn arwain ei berchenog i anrhydedd. Dywed Solomon mai "o flaen anrhydedd yr ä gostyngeiddrwydd:" a dywed Iesu Grist y "dyrchefir pob un sydd yn ei ostwng ei hun." Y mae Duw a dynion am ddyrchafu y gostyngedig, a darostwng y balch. I'r dyben o egluro a chadarnhau hyn, bwriwn fod y dyn balch a'r dyn gostyngedig yn cael eu gwahodd i wledd frenhinol. Ac ar ol eu gwahodd, dacw y ddau yn cydgychwyn; ac wrth agosau at y palas, gwelwn y balch yn cyflymu ei gerddediad ymlaen, ac yn dywedyd wrth ei gyfaill, "Aros, gwell i mi fyned yn mlaenaf," ac yna yn myned ymlaen gyda'i rwysg a'i falchder, ac heb gofio cynghor ein Hiachawdwr, "Pan y'th wahodder i neithior, nac eistedd yn y lle uchaf," y mae yn myned ymlaen yn hyf, ac yn dewis y brif eisteddle. Ac wele y gostyngedig yn ei ganlyn yn araf, gan gymmeryd y lle isaf. Yn mhen ychydig, wele y

Digitized by Google

brenin yn dyfod i mewn. Ac wele y gŵr balch yn cael ei gyfarch yn mlaenaf (yn ol ei ddysgwyliad); ond och! mor wahanol i'w feddwl, dyma y cyfarchiad—"Yr wyf wedi gwahodd gwŷr anrhydeddusach na thi heddyw: dyro le i hwn." A chan droi at y gostyngedig, dywed, "Y cyfaill, eistedd yn uwch." Y mae yn naturiol i ni gasglu y buasai yn well gan y balch, druan, gael ei lyncu o'r golwg i eigionau y ddaiar na chymmeryd eisteddle is; ac y mae yn treulio gweddill ei amser yn llawn tristyd ac isder ysbryd, heb gael blas na hyfrydwch mewn dim. Gellir dyweyd yn mhellach, mai gostyngeiddrwydd sydd yn prydferthu ac yn goreuro pob rhinwedd arall; ac heb yr addurn yma, er ein holl rinweddau ereill, nis gallwn fod yn gyflawn, nis gallwn fod yn ddedwydd a hardd, ac ni byddwn yn gymmeradwy gan Dduw na chan ddynion.

GOTHAIDD, Y CYFIEITHIAD. Y cyfieithiad Mæso-Gothaidd o'r Beibl a wnaed yn y bedwaredd ganrif, gan Ulphilas, esgob y Visigothiaid.

GOTHIAID, CRISTIONOGAETH Y. Pobl farbaraidd ydoedd y Gothiaid; enwau y rhai a ymddengys ar faes hanesyddiaeth drwy y canrifoedd boreuaf o'r cyfnod Cristionogol. Yr oeddynt yn preswylio ar y cyntaf ar lanau Môr y Baltic, ond wedi hyny hwy a ymfudasant i lanau y Môr Du. Paganiaeth oedd eu crefydd. Yr oeddynt wedi eu rhanu i ddau ddosbarth; sef, y dosbarth dwyreiniol, neu Ostogothiaid, a'r dosbarth gorllewinol, neu Visigothiaid. Yn ystod y drydedd ganrif, yr oeddynt hwy, yn nghyd â llwythau barbaraidd ereill, yn arfer gwneyd ymosodiadau dinystriol ar diriogaethau y llywodraeth Rufeinig. Yn mhlith y carcharorion a gymmerwyd ganddynt yn yr ymosodiadau hyn, yr oedd lluaws o gofleidwyr y grefydd Gristionogol, yn gystal hefyd a rhai offeiriaid Cristionogol. Yn raddol fe lwyddodd yr offeiriaid, trwy ragoroldeb eu hymddygiadau a harddwch eu cymmeriadau, i ennill parch a hoffder eu caethgludwyr paganaidd, ac i'w hargyhoeddi o wirionedd a gwerthfawrogrwydd athrawiaethau crefydd y Testament Newydd. Yn mhen amser gofynwyd am chwaneg o ddysgawdwyr, a chafwyd amryw yn union deg yn barod i gyflwyno eu hunain i lenwi y maes a agorwyd mor annysgwyliadwy gan ragluniaeth fawr y nef; a thrwy ymdrechiadau egniol y dynion da hyny fe sefydlwyd llawer o eglwysi Cristionogol yn mysg y Gothiaid. Dilynwyd llafur y cenadon â llwyddiant mawr, fel yr ymddengys oddi wrth y ffaith fod Theophilus, esgob y Gothiaid, yn mhlith y rhai a arwyddnodasant benderfyniadau y cynghor a gyfarfu yn Nice, yn y flwyddyn 325. Un o ddisgynyddion y carcharorion a fuont yn foddion i ddwyn Cristionogaeth i sylw y Gothiaid ydoedd Ulphilas, yr hwn a gyfenwyd apostol y Gothiaid. Dywedir ei fod ef wedi dyfeisio egwyddor (*alphabet*) i'r Gothiaid; ac o ddeutu canol y bedwaredd ganrif, efe a gyfieithodd y Beibl o'r iaith Roeg i iaith y Gothiaid. Yr unig weddillion o'r cyfieithiad hwn sydd yn awr ar gael ydynt y *Codex Argenteus*, y *Codex Carolinus*, a'r *Ambrosian Manuscripts*. Y mae y rhai hyn, yn enwedig y blaenaf, o werth mawr i efrydydd beirniadaeth Ysgrythyrol. Appwyntiwyd Ulphilas i fod yn esgob, a pharhaodd i lenwi y swydd am amser hirfaith. Bu o wasanaeth anmhrisiadawy, yn ystod ei esgobaeth, fel cyfryngwr rhwng y Gothiaid a'r Rhufeiniaid. Tua diwedd y bedwaredd ganrif, fe wnaeth yr enwog Chrysostom, pan yn dal y swydd o batriarch Caer Cystenyn, ymdrechiadau llafurus o blaid troedigaeth y Gothiaid. Yn y bummed ganrif, yr oedd Cristionogaeth wedi cynnyddu yn rhyfeddol yn eu plith, ac yn y cyfnod hwnw fe ddechreuodd eu clerigwyr astudio duwinyddiaeth fel gwyddor.

GOZAN: enw afon yn Media (2 *Bren.* xvii. 6); ac enw gwlad (2 *Bren.* xix. 12; *Esa.* xxxvii. 12), drwy yr hon, fe ddichon, yr oedd yr afon yn rhedeg. Wedi i Salmaneser, brenin Assyria, orchfygu y deg llwyth, efe a'u caethgludodd dros yr Euphrates i wlad ar gyffiniau afon Gozan; ac y mae Sennacherib yn ymffrostio ei fod wedi darostwng pobl Gozan, Haran, Reseph, &c. Y mae Ptolemy yn barnu mai yn Mesopotamia yr oedd y Gauzaniaid yn preswylio; ac y mae talaeth yn Media o'r enw Gauzan, rhwng afon Cyrus ac afon Cambyses.

GRADELL: padell, neu badell ffrio, yn yr Hebraeg. Yr oedd y bwyd offrwm weithiau yn cael ei grasu ar radell: *Lef.* ii. 5; vii. 7, 9.

GRADD—AU: [rhadd] cam, gris, urdd, dyrchafiad.

> "Dysgu gradd [cam] i henfarch."—*Diar.*
>
> "Gradd [urdd] oedd, a gorddiweddir,
> Yn uwch i hwn na Chai Hir."
>
> D. Epynt.

Y mae'r gair yn cael ei ddefnyddio yn y Beibl i osod allan anrhydedd a dyrchafiad mewn swydd: "Canys y rhai a wasanaethant swydd diaconiaid yn dda, ydynt yn ennill iddynt eu hunain *radd* dda, a hyfder mawr yn y ffydd sydd yn Nghrist Iesu:" 1 *Tim.* iii. 13. Y mae hyn yn arwyddo y buasai diacon, wrth wasanaethu ei swydd yn dda, gyda ffyddlondeb a diwydrwydd, yn sicrhau parchusrwydd a dylanwad chwanegol yn yr eglwys.

Mae'r ymadrodd "Caniad y Graddau," sef teitl pymtheg o'r Salmau, cxx.—cxxxiv., wedi ei esbonio mewn llawer o wahanol ffyrdd. 1. Byddai yr hynafiaid yn ei ddeall yn dynodi *grisiau*; ac yn unol â'r syniad hwn y mae ysgrifenwyr Iuddewig yn dyweyd fod y Salmau hyn yn cael eu canu ar "bymtheg o risiau," yn arwain o gyntedd Israel i gyntedd y gwragedd. Y mae'r esboniad yma yn awr yn cael ei wrthod, er fod Fürst yn ei *Fynegair* yn ei gydnabod. 2. Y mae Luther yn geirio y teitl fel hyn—"Caniad yn y côr-ystafell uchaf," gan dybio fod y Salmau yn cael eu canu mewn lle uchel, a chyda llais uchel. 3. Y mae Gesenius a De Wette yn meddwl fod y teitl yn cyfeirio at rhyw fesur neu fydr neillduol yn y Salmau, trwy yr hwn y mae y synwyr yn dyfod i'r golwg yn raddol, ac felly yn dyrchafu o ymadrodd i ymadrodd; megys yn *Salm* cxxi.:—

> "1. Dyrchafaf fy llygaid i'r mynyddoedd
> O'r lle y *daw fy nghymhorth.*
>
> 2. *Fy nghymhorth a ddaw* oddi wrth yr Arglwydd,
> Yr hwn a wnaeth nefoedd a daiar.
>
> 3. Ni ád efe i'th droed lithro;
> Ac ni *huna* dy *geidwad.*
>
> 4. Wele, ni *huna* ac ni chwsg
> *Ceidwad* Israel.
>
> 5. Yr Arglwydd yw dy *geidwad*:
> Yr *Arglwydd* yw dy gysgod ar dy ddeheulaw.
>
> * * * * *

7. Yr Arglwydd a'th *geidw* rhag pob drwg;
Efe a *geidw* dy enaid.
8. Yr Arglwydd a *geidw* dy fynediad a'th ddyfodiad,
O'r pryd hwn hyd yn dragywydd."

Y mae'r eglurhad yma, er yn graff a synwyrol iawn, yn cael ei wrthwynebu gan rai, o blegid nad yw y *mydr graddol* hwn yn amlwg yn nghyfansoddiad yr holl ganiadau. 4. Yn ol y farn fwyaf tebygol o fod yn gywir, y mae'r teitl yn golygu *Caniad yr esgyniad*, neu *Caniad y pererindod;* yr hyn a arwydda eu bod wedi eu cyfansoddi ar gyfer, neu yn cael eu canu yn ystod teithiau y bobl i fyny i Ierusalem, naill ai pan oeddynt yn dychwelyd o Babilon, neu ynte pan yn myned i'r uchelwyliau cenedlaethol. Yr oedd Ierusalem a'r deml yn sefyll ar dir uchel; a mynych y sonir am deithiau i'r ddinas fel esgyniadau—"Yno yr esgyn y llwythau," &c.; *Salm* cxxii. 4. Y mae'r eglurhad hwn yn cael ei gadarnhau gan fyrder a chynnwysiad y Salmau.

GRAS—LAWN—OL: rhodd, dawn, ffafr, rhad, ewyllys da; caredig, cymmwynasgar, daionus; un yn mwynhau bendithion gras. Y mae y gair *gras* yn tarddu oddi wrth y gair Lladin *gratia*, a hwnw oddi wrth y gair Groeg *χαρις;* a hwnw oddi wrth *χαιρω*=llawenhau, neu *χαρα*=llawenydd. Cyfleithir y gair hwn yn wahanol mewn gwahanol gyssylltiadau; megys ffafr, *Luc* i. 30: diolch, *Luc* vi. 32—34; xvii. 9; 1 *Cor.* xv. 57: hawddgarwch, *Act.* vii. 10: cymmwynas, *Act.* xxiv. 17: rhodd, 1 *Cor.* xvi. 3. Er fod perthynas agos rhwng y gair *gras* a'r gair *trugaredd*, y mae gwahaniaeth rhyngddynt. Prif nodwedd gras ydyw rhadlonrwydd. Y dysgrifiad a rydd Aristotle o hono, er mai am ras dynion y mae efe yn siarad, ydyw, mai rhodd neu ddaioni a gyfrenir ydyw, heb obaith na dysgwyliad am ad-daliad—yn tarddu yn gwbl o ewyllys da a haelfrydedd y rhoddwr. Y mae y dysgrifiad hwn yn cyttuno yn hollol âg ystyr y gair yn yr Ysgrythyrau. Yn *Rhuf.* xi. 6, y mae Paul yn gwrthgyferbynu gras a gweithredoedd, gan ddangos fod y naill yn yr iaith gryfaf yn cau allan y llall, am fod gras yn golygu nid yn unig nad yw y derbynydd yn haeddu y daioni a gyfrenir iddo, ond ei fod yn haeddu cospedigaeth. Ond tra y mae *gras* fel hyn yn cyfeirio at bechod dyn, ac yn cael ei amlygu trwy faddeuant rhad o hono, y mae y gair *trugaredd* yn cyfeirio mewn modd arbenig at y trueni sydd wedi dyfod i ran y natur ddynol trwy bechod. Cyfrenir gras Duw i ddynion fel creaduriaid euog —ei drugaredd fel i greaduriaid truenus. Y mae yr anifail yn wrthddrych trugaredd Duw (*Iob* xxxviii. 41; *Salm* cxlvii. 9; *Iona* iv. 11), ond nid oes ond dyn yn unig yn wrthddrych ei ras; efe yn unig sydd yn sefyll mewn angen am dano, efe yn unig sydd yn gymhwys i'w dderbyn. Yn y meddwl dwyfol, ac yn nhrefn ein iachawdwriaeth, y mae trugaredd yn blaenori gras. Fe garodd Duw y byd yn y fath fodd gyda chariad tosturiol (yma y gwelir ei drugaredd) "fel y rhoddodd ei Uniganedig Fab (yma y gwelir ei ras) fel yr achubid y byd trwyddo ef;" *Eph.* ii. 4; *Luc* i. 78, 79. Ond fe ddywed rhai fod yn rhaid i ras fyned o flaen trugaredd—rhaid, meddant, i ras wneud ffordd i drugaredd. Yr un personau ydyw gwrthddrychau y ddau, am eu bod yn euog ac yn druenus ar unwaith; a thybiant fod cyfiawnder Duw yn gofyn dileu yr euogrwydd cyn y gellir symmud y trueni. Rhaid maddeu, meddant, cyn y gellir iachau—cyfiawnhau, cyn y gellir sancteiddio. Y mae y gair *gras* o flaen y gair *trugaredd* yn mhob un o'r cyfarchiadau apostolaidd, lle y mae y geiriau hyn yn dygwydd (1 *Tim.* i. 2; 2 *Tim.* i. 2; *Tit.* i. 4; 2 *Ioan* 3); ac nis gallesid, meddant, newid trefn y geiriau heb newid y meddwl.

Y mae y gair *gras* yn cael ei arfer yn yr Ysgrythyrau mewn llawer iawn o wahanol ystyron; a'r unig ffordd i ddeall ei wir feddwl yn mhob adnod ydyw ystyried ei gyssylltiadau. Arwydda —1. Rhad a thragwyddol gariad Duw fel ffynnonell fawr iachawdwriaeth dynion (*Rhuf.* xi. 16; 2 *Tim.* 1. 9; *Ioan* 3. 16). 2. Cyfrifiad rhad o gyfiawnder Crist, trwy yr hwn y cyfiawnheir credinwyr ger bron Duw (*Rhuf.* v. 20). 3. Gwaith yr Ysbryd Glan yn adnewyddu yr enaid ar ddelw Duw (*Rhuf.* vi. 14; 2 *Cor.* xii. 9). 4. Haelioni a chariad rhad Crist (2 *Cor.* viii. 9). 5. Sefyllfa ddedwydd o gymmod, a heddwch, a chyfeillach â Duw (*Rhuf.* v. 2). 6. Athrawiaeth yr efengyl, am ei bod yn cynnwys amlygiad o ras neu ffafr Duw i fyd colledig (1 *Pedr* v. 12). Yn *Ioan* i. 17, gwrthgyferbynir y gair *gras* a'r gair *cyfraith*—y diweddaf yn golygu yr oruchwyliaeth Fosenaidd, a'r blaenaf yr un Gristionogol. Yr oedd Barnabas yn cynghori y dysgyblion i aros yn ngras Duw (*Act.* xiii. 43); hyny yw, i barhau i lynu wrth athrawiaethau yr efengyl. 7. Tuedd elusengar yn y galon, o weithrediad gras Duw (2 *Cor.* viii. 7). 8. Addysg ac adeiladaeth ysbrydol (*Eph.* iv. 29). 9. Y swydd apostolaidd, ynghyd â'r cymhwysderau angenrheidiol at gyflawnu y swydd hono (*Rhuf.* xv. 15). 10. Cariad ac ofn Duw yn y galon, neu gynnorthwyon dwyfol ras (2 *Cor.* i. 12). 11. Ffydd, amynedd, a grasau ereill sydd yn cynnal y saint i fyny mewn gorthrymderau (2 *Pedr* iii. 18). 12. Bywyd tragwyddol (1 *Pedr* i. 13). 13. Unrhyw beth cymmeradwy, prydferth, a dymunol (*Diar.* iv. 9). 14. Ffafr neu gyfeillgarwch gyda dynion (*Gen.* xxix. 4). 15. Llawenydd, digrifwch, a hyfrydwch; yr hyn yw ystyr *χαρα;* a chyda hwn y mae yn aml yn cael ei gyssylltu yn y Testament Newydd: *Philem.* 7. Yn yr ystyr hwn yr arferir y gair gan yr ysgrifenwyr Groegaidd goreu; ac ymddengys mai felly y defnyddir ef yn 2 *Cor.* i. 15. 16. Diolch, neu ddiolchgarwch (*Luc* xvii. 9; *Rhuf.* vi. 17; 1 *Cor.* x. 30). 17. Gwobr (*Luc* vi. 32—34). Ymddengys oddi wrth eiriau cyffelyb a ddefnyddir yn *Mat.* v. 46, mai hyn yw ei ystyr; ac arferir ef felly gan amryw ysgrifenwyr Groegaidd.

Dengys yr Ysgrythyrau yn eglur fod cadwedigaeth pechadur yn tarddu yn gwbl o ras penarglwyddiaethol Duw (*Eph.* i. 11; *Rhuf.* ix. 15, 16). Nid iawn Crist ydyw yr achos i Dduw drugarhau wrth ddyn; o blegid y weithred benaf o eiddo gras Duw oedd anfoniad ei Fab i'r byd i gadw pechaduriaid (*Ioan* iii. 16; 1 *Ioan* iii. 16; iv. 9, 10; *Rhuf.* v. 8). Gras a ddarparodd yr iawn, a'r iawn a agorodd y ffordd i weinyddu trugaredd yn gysson â chyfiawnder (*Rhuf.* iii. 26; 1 *Pedr* iii. 18). Gwel CALVINIAETH; CARIAD; GWEITHREDOEDD; a THRUGAREDD.

GRAWN, [*gra;* Llad., *granum*]. Cymhwysir y gair *grawn* at amryw o wahanol ffrwythau; megys grawn gwin, sef ffrwyth y winwydden (*Gen.* xl. 10; xlix. 11; a manau ereill); grawn gwenith (*Deut.* xxxii. 14; 1 *Cor.* xv. 37); hefyd, grawn eiddew, neu crawel yr eiddew; grawn ysgaw, neu crawel yr ysgaw, &c.

Digitized by Google

GRAWNSYPIAU. Gwel GWINWYDDEN.

GRAWNWIN. Gwel GWINWYDDEN.

GREGORY, FAWR. Ganwyd Gregory Fawr, o ddeutu y flwyddyn O.C. 550, o deulu Rhufeinig urddasol: efe a hynododd ei hun mewn dysgeidiaeth, a gwnaed ef yn rhaglaw y ddinas yn 573. Bu tueddfeudwyol ei feddwl yn achos iddo roddi y swydd hono i fyny ac ymneillduo i fynachdy, o'r hwn y galwyd ef drachefn gan y pab Pelagius II, yr hwn a'i hanfonodd ar lysgenadaeth i Gaer Cystenyn i erfyn am gynnorthwy yn erbyn y Longobards. Ar ei ddychweliad i Rufain, ar ol marwolaeth Pelagius, yn 590, etholwyd ef gan yr offeiriaid a'r bobl fel olynydd i Pelagius. Yr oedd Gregory, yn y modd mwyaf difrifol, yn ewyllysio ymwrthod â'r swydd urddasol; ac efe a ysgrifenodd at yr ymherawdwr Maurice, gan erfyn arno beidio cadarnhau ei etholiad; ac yn chwanegol at hyn, efe a ymguddiodd; ond bu y cwbl yn ofer, ac yn y diwedd gorfu arno lenwi y gadair esgobaidd. Efe a ddangosodd sel mawr dros ddiwygio y camarferion a'r llygredigaethau oeddynt wedi ymlusgo i'r eglwys, yn gystal ag i ledaenu Cristionogaeth. Efe a gynnorthwyodd Theodolinda, brenines y Longobards, i droi y bobl i'r ffydd Gristionogol. Hefyd, efe a anfonodd genadon i Sardinia, ac a gynnorthwyodd y genadaeth i Brydain, lle yr oedd brenin Kent ac amryw o'r Saxoniaid wedi cofleidio Cristionogaeth. Cyn iddo gael ei ddyrchafu i'r gadair esgobol, dygwyddodd iddo un diwrnod weled nifer o blant Saxonaidd ar werth yn marchnad y caethion yn Rhufain; a dywedir iddo waeddi allan, "Yn wir pe byddent yn Gristionogion ni byddent yn Angliaid, ond yn hytrach yn angelion;" ac o'r adeg hono efe a wnaeth bob ymdrech i gael gan ei ragflaenor Pelagius anfon cenadon i Brydain. Wedi i John y Dirwestwr (*Abstinent*) archesgob Caer Cystenyn, gymmeryd y teitl *Œcumenic*, neu batriarch cyffredinol, ysgrifenodd Gregory ato, yn 595, i'w annog i ymwrthod â'r teitl, am ei fod yn rhoddi y fath dramgwydd i'w frodyr. Yn ei lythyr dywed, "Chwi a wyddoch fod cynghor Chalcedon wedi cynnyg y teitl o batriarch cyffredinol i esgob Rhufain, ond bod fy holl ragflaenwyr wedi gwrthod y fath ddyrchafiad o herwydd ei fod mor lawn o falchder ac mor anghydweddol â hen ddysgyblaeth. Mabwysiadodd Gregory iddo ei hun yr enw "gwas gweision yr Arglwydd," gan olygu yr esgobion—cyfenw yr hwn y mae y pabau wedi ei gadw hyd yn oed er pan y maent wedi hòni iddynt eu hunain uchafiaeth gyffredinol. Yr oedd Gregory yn arfer awdurdod archesgob yn Italy, a rhoddai gynghorion i esgobion ereill; ond nid gorchymynion. Yr oedd efe yn arfer byw yn y dull mwyaf cymmedrol a syml, er ei fod yn feddiannol ar holl gyfoeth esgobaeth Rhufain, yr hwn a ranai i'r tlodion. Yr oedd efe yn erbyn erlid hereticiaid ac Iuddewon; ac ystyriai larieidd-dra a darbwylliad fel yr unig foddion i'w dwyn i gofleidio Cristionogaeth.

Gwarthruddwyd ef am ysgrifenu llythyr gwenieithus at y trawsdeyrn Phocas, yr hwn a lofruddodd yr ymherawdwr Mauritius gan gymmeryd ei goron, i'r dyben, fel yr ymddengys, i sicrhau cefnogaeth yr ymherodraeth ddwyreiniol yn ffafr Rhufain, yr hon a fygythid y pryd hyny gan y Longobards. Cyhuddiad arall a roddid yn erbyn Gregory ydyw, ei fod wedi dinystrio rhai ysgrifeniadau uchawdurol, sef gweddillion y llyfrgell freninol yn Rhufain; ond gwnaed y cyhuddiad hwn yn mhen amryw ganrifoedd wedi hyny, ac ymddengys nad ydyw yn gorphwys ar brofion eglur. Pa fodd bynag, dangosai Gregory wrthwynebiad cryf i weithiau yr ysgrifenwyr paganaidd, yn enwedig eu chwedloniaeth, a gorchymynai beidio eu darllen. Y mae y gweithiau a ysgrifenodd yn dra lluosog, ac y maent wedi eu casglu a'u cyhoeddi gan Benedictines St. Maur, yn bedair cyfrol:—Paris, 1707. Y rhai mwyaf pwysig o'i weithiau ydynt y rhai canlynol:—1. *Moralium, libri* xxxiv. 2. *De Cura Sacerdotali*; sef hyfforddiant i glerigwyr plwyfol i gyflawnu eu dyledswyddau yn deilwng. 3. Ei lythyrau, yn 12 llyfr: y rhai sydd yn cynnwys rhai hynodion dyddorol mewn cyssylltiad â hanesiaeth yr oes yr oedd efe yn byw ynddi. 4. Ei ymddyddanion: y rhai ydynt yn cynnwys amryw hanesion am wyrthiau—pwnc ar yr hwn yr ymddengys ei fod yn lled ofergoelus. Bu Gregory farw yn Rhufain yn y flwyddyn 604, a dilynwyd ef gan Sabinianus o Volaterra.

GREGORY VII: neu Hildebrand o Soano, yn Tuscany. Ganwyd ef o deulu isel, ac efe a ddaeth yn fynach yn mynachdy Cluny. Wedi iddo ennill anrhydedd trwy ei ddysgeidiaeth dduwinyddol a chanonaidd, ac am gyssondeb manwl ei ymddygiad, efe a aeth wedi hyny i Rufain gyda Bruno, esgob Toul, perthynas i'r ymherawdwr Harri III, yr hwn a etholwyd yn bab yn 1049, dan yr enw Leo IX, a hyny yn benaf trwy ddylanwad Hildebrand. O'r adeg hono daeth y mynach Hildebrand yn brif atteg llywodraeth eglwysig Rhufain, ac yn gynghorwr mynwesol i Leo a'i olynwyr—Victor II, Stephen IX, Nicholas II, ac Alexander II. Anfonwyd ef gan Stephen IX. i Germany ar neges i'r llys breninol; ac ar ei ddychweliad efe a orchfygodd y blaid oedd wedi codi yn erbyn gorsedd y pab Benedict X, ac a sicrhaodd etholiad Nicholas II. Ar ol marwolaeth Alexander II, yn 1073, etholwyd Hildebrand mewn modd unfrydol gan offeiriaid a phobl Rhufain i fod yn olynydd iddo; ond ni chymmerodd efe y teitl hyd oni dderbyniodd gymmeradwyaeth yr ymherawdr Harri IV, at yr hwn yr anfonodd efe genadau i'r perwyl hwnw. Boddhawyd yr ymherawdwr yn fawr trwy y weithred hon o ymostyngiad; ac efe a gadarnhaodd ei etholiad gyda pharodrwydd, a chymmerodd Hildebrand y teitl o Gregory VII. Amcan mawr uchelgais Gregory, fel y dywedodd efe mewn llythyr at Hughes abad Cluny, oedd cael diwygiad trwyadl yn yr eglwys, yr hon oedd mewn gwirionedd yn galw yn uchel am hyny. Yr oedd Simoniaeth (prynu neu werthu bywiolaethau eglwysig) yn ffynu trwy y byd Cristionogol; a gwerthid ar gyhoedd, neu rhoddid esgobaethau gan benaduriaid i'w cyfeillion. Wedi i'r esgobion gael eu dyrchafu yn y dull hwn, a chan nad oeddynt yn gofalu nemawr am eu dyledswyddau na'u cynnulleidfaoedd, ond yn unig er mwyn elw a phleser, yr oedd yn beth cyffredin iddynt werthu y bywoliaethau oedd yn eu meddiant. Penderfynodd Gregory symmud y drwg trwy ddiddymu yr hawl a gymmerid gan dywysogion gwladol i werthu neu roddi bywoliaethau o fewn i'w llywodraethau. Yr oedd yr ymherawdwr, Harri IV, yr hwn oedd yn ddyn penrydd ac uchelfrydig, ac mewn rhyfel â'i gaethddeiliaid gwrthryfelgar, a thrwy hyny mewn angen am arian yn barhaus, yn un o'r rhai gwaethaf gyda golwg ar Simoniaeth. Efe a arferai werthu esgobaethau a byw-

Digitized by Google

oliaethau yn ffafr y dynion mwyaf drygionus ac analluog, a chytunodd esgobion Germany âg ef gyda pharodrwydd i wneyd yr eglwys yn fath o sefydliad gwarogaethol yn dibynu ar yr ewyllys ymherodrol. Dechreuodd Gregory trwy gynghori Henry; efe a anfonodd genadau i Germany, ond ni atebodd hyny ond ychydig ddyben. Ei gynnyg nesaf oedd galw cynghor yn Rhufain, 1074, yn yr hwn yr esgymunwyd y personau ag oeddynt yn euog o Simoniaeth, ac y gorchymynwyd diswyddo yr offeiriaid hyny oeddynt yn byw mewn gordderchiaeth, yn nghyd â'r rhai oeddynt yn byw yn yr ystad briodasol; a phenderfynwyd hefyd nad oedd neb i dderbyn urddau sanctaidd heb iddynt addunedu byw yn ddibriod. Achosodd y rheol ddiweddaf derfysg mawr, yn enwedig yn Milan, lle yr oedd yr arferiad i offeiriaid briodi yn beth cyffredin, megys yn yr eglwys ddwyreiniol. Galwodd Gregory gynghor arall yn Rhufain, yn 1074, yn yr hwn, am y waith gyntaf, y gwaharddwyd i freninoedd a thywysogion lleygol ereill, dan boen esgymundod, roddi meddiant o esgobaethau a mynachlogydd i neb trwy roddi iddynt y fodrwy a'r fugeilffon (*crosier*). Dyma oedd dechreu yr ymrafael yn nghylch y rhoddiant o feddiant (*investiture*), yr hon a gythryblodd Ewrop am lawer o flyneddoedd wedi hyny, a'r hon sydd yn gofyn am eglurhad yn y fan hon. Yn oesoedd boreuol yr Eglwys Gristionogol, fe ymddengys y byddai y corff o glerigwyr, neu yr henuriaid, mewn tref neu dalaeth, yn nghyd â'r cynghor bwrdeisiol, yn ethol eu hesgob neu eu prif weinidog, ac na byddai ymherawdwyr Cristionogol yn ymyraeth â'r dewisiad, oddi eithr yn achos esgobaethau patriarchaidd mawrion, megys Rhufain a Chaer Cystenyn; a gofynid i'r ymgeisydd am y cyfryw, wedi iddo gael ei ethol gan yr offeiriaid a'r bobl, i aros am y cadarnhad ymherodrol. Dilynai breninoedd Gothaidd Italy yr un cynllun, yn gystal a rhaglawiaid Ravenna yn ddilynol iddynt, yn enw yr ymherawdwyr Byzantiaidd. Yn Rhufain, ac yn y gweddill o Italy, y mae yn debyg y byddai y lleygwyr yn cymmeryd rhan yn etholiad eu hesgobion hyd y ddegfed ganrif; ond ymddengys fod y bobl wedi eu hamddifadu o'r etholfraint ychydig yn gynt yn y dwyrain. Dywed rhai mai Charlemagne a ddechreuodd yr arferiad o roddi y fodrwy a'r fugeilffon yn nwylaw yr esgobion ar ol eu hurddo, ac y gofynai am iddynt wneyd llw o ffyddlondeb iddo. O leiaf, nid ymddengys fod un ammheuaeth nad oedd yr arferiad yn hollol gyffredin yn mhlith ei olynwyr o deyrnach y Carloringau. Y rheswm am hyn ydoedd, fod yr eglwysi wedi eu gwaddoli â chyfoeth mawr, mewn tir a phethau ereill, gan amryw benaduriaid, ac am hyny ystyrid y periglorwyr fel math o denantiaid gwarogaethol. Fel hyny trwy gadw meddiannau tymmorol yr esgobaethau yn eu meddiant, i'w rhoddi neu i'w gwerthu i'r neb y mynent, daeth y penaduriaid yn raddol i appwyntio esgobion, naill ai yn uniongyrchol trwy eu henwi, neu trwy gyflwyno ymgeisydd i'r etholwyr. Gan nad oedd Gregory yn gwahaniaethu rhwng pethau ysbrydol a phethau tymmorol, efe a ystyriai y rhoddiad yn weithred ysbrydol, gan honi fod y fugeilffon yn arwyddluniol o awdurdod ysbrydol yr esgobion ar eu praidd, a'r fodrwy yn arwyddo eu priodas gyfriniol â'r eglwys; er fod Sarpi yn sylwi, yn ei draethawd ar fywoliaethau, fod seremoni arall mewn arferiad, sef cyssegriad yr esgob trwy arddodiad dwylaw yr archesgob, yr hyn oedd y rhoddiad ysbrydol a gwirioneddol. Ond amcan Gregory oedd amddifadu y lleygwyr o bob awdurdod gyda golwg ar noddaeth eglwysig, a gwneyd yr eglwys a'i holl eiddo tymmorol yn annibynol ar y wladwriaeth. Ni chaniatäai efe un arwydd o warogaeth i'r wladwriaeth, ac efe a ddadlai fod yr etifeddiaethau esgobol wedi dyfod yn gyssylltiedig anwahanadwy â'r swydd ysbrydol, ac nas gellid mwyach eu gwahaniaethu; ac eto yr oedd efe ei hun wedi dysgwyl am gydsyniad yr ymherawdwr cyn iddo gael ei gyssegru.

Ni thalodd yr ymherawdwr Harri IV. unrhyw sylw i gynghorau Gregory na'u gorchymynion, ond efe a barhaodd i benodi esgobion, nid yn unig i Germany, ond hefyd i Italy. Yn mhlith ereill efe a appwyntiodd un Tedaldo, archesgob Milan, mewn gwrthwynebiad i Azzo, yr hwn nid ydoedd ond glaslanc, yr hwn oedd wedi ei gyssegru gan genadwr Gregory. Ond collwyd golwg ar yr ymrafael o barth i'r rhoddiant, yr hon oedd wedi achosi y rhwyg rhwng y pab a'r ymherawdwr, yn yr ymdrafodaeth hynod a gymmerodd le rhyngddynt wedi hyny. Yr oedd Gregory, er ys peth amser, wedi bod yn ymyraeth â chaethddeiliaid anfoddlawn Harri yn Saxony, Thuringia, a gwledydd ereill; ac yn awr efe a wysiodd yr ymherawdwr yn gyhoeddus i ddyfod i Rufain i amddiffyn ei hun yn ngwyneb y cwynion a roddid yn ei erbyn gan ei ddeiliaid. Yr oedd hyn yn helaethiad pellach ar yr uchafiaeth dymmorol dros freninoedd a thywysogaethau, yr hon yr oedd Eglwys Rhufain wedi dechreu ei harfer yn barod. Yr oedd Harri yn dra digllawn wrth Gregory am arfer y fath awdurdod, ac efe a alwodd yn nghyd gynghor o dywysogion yr ymherodraeth yn Worms, yn yr hwn yr oedd amryw esgobion ac abadau yn bresennol; y rhai, o herwydd yr amryw gwynion oedd yn erbyn Gregory, a'i diswyddasant ac a anfonasant genad i Rufain i hysbysu y penderfyniad hwn i'r offeiriaid, ac i ofyn iddynt anfon cenadwri at yr ymherawdwr am bab newydd. Ar hyn Gregory, mewn cynghor cynnulledig yn mhalas y Lateran, 1076, a esgymunodd Harri mewn modd difrifol; ac yn enw "St. Pedr, tywysog yr apostolion," a'i cyhoeddodd fel wedi ei lwyr ddifreinio o orseddau Germany ac Italy, a'i ddeiliaid wedi eu rhyddhau oddi wrth eu llw o ffyddlondeb iddo. Gregory oedd y cyntaf, fel y sylwa Platina yn ei waith, *Bywgraffiadau y Pabau*, a arferodd yr hawl i ddiorseddu yr ymherawdwyr, deiliaid i ba rai yr ystyrid ef a'i ragflaenoriaid hyd hyny, a'r rhai oeddynt wedi arfer eu hawdurdod hyd yn oed i ddiswyddo amryw babau o herwydd eu hetholiad anghyfreithlawn, neu iddynt gamddefnyddio eu hawdurdod. Cynnyrchodd y weithred hyf hon o eiddo Gregory yr effaith a ddysgwyliai am beth amser. Darfu i'r rhan fwyaf o ddeiliaid Harri, y rhai oeddynt yn addfed i wrthryfel yn barod, gymmeryd mantais gyda pharodrwydd o gefnogaeth y pab, a galwyd cynghor i ethol ymherawdwr newydd. Pa fodd bynag, caniatawyd oediad i Harri; a chan i'r mater gael ei gyfeirio at y pab, cychwynodd Harri am Italy yn y gauaf, yn 1077, a chan groesi Alpau Susa, efe a gyfarfu Gregory yn nghastell Canossa, yn agos i Reggio yn Lombardy, yr hwn oedd yn perthyn i'r iarlles Mathilda, cyfeilles wresog ac amddiffynydd i'r pab. Ar y cyntaf ni fynai Gregory weled Harri; ond wedi hyny efe a orchymynodd iddo ddiosg ei wisg freninol ac ymddangos ger ei fron yn edifeiriol mewn gwisg fras o wlân, ac yn droednoeth. Bu Harri yn y cyflwr hwn dri diwrnod



Digitized by Google

o'r bore hyd yr hwyr mewn cwrt allanol o'r castell, a hyny ar hin dra oer. Ar y pedwerydd dydd cafodd ddyfod i bresennoldeb Gregory; ac wedi iddo gyffesu ei feiau, efe a dderbyniodd faddeuant, eithr ni adferwyd ef i'w deyrnas; ond cyfeiriodd y pab ef at y cynghor cyffredinol. Yn fuan wedi hyny ymgymmerodd Harri â'i awdurdod freninol, cafodd gynnorthwy gan ei ddeiliaid yn Lombardy, a chan ei fod yn ddigllawn o herwydd ei ddarostyngiad yn Canossa, efe a groesodd yr Alpau, ac a ymladdodd amryw frwydrau yn Germany, ac o'r diwedd efe a orchfygodd Rudolf o Suabia, yr hwn oedd wedi ei ethol yn ymherawdwr yn ei le, ac a gefnogid gan Gregory, gan ei glwyfo yn farwol. Wedi iddo drefnu pethau yn Germany, efe a aeth gyda byddin i Italy, yn 1081, i ddial ar y pab yr hwn yr oedd efe wedi ei ddiorseddu eilwaith mewn cynghor, ac wedi appwyntio Guibert, archesgob Ravenna, fel ei olynydd, o dan yr enw Clement III. Yn y cyfamser yr oedd Gregory, trwy amryw ffafrau, wedi dwyn Robert Guiscard, y Normaniad oedd wedi gorchfygu Apulia a Sicily, i'w blaid; yr hwn, pa fodd bynag, nis gallai rwystro Harri i ddyfod at furiau Rhufain. Ond yr oedd y ddinas wedi ei hamddiffyn yn dda; a gorfodwyd Harri gan boethder yr haf i droi yn ol tua gogledd Italy, lle yr anrheithiodd ei filwyr diriogaethau yr iarlles Mathilda. Efe a wnaeth ail ymgyrch yn erbyn Rhufain, yn 1082; a thrachefn yn 1083, ond heb ddim llwyddiant. Yn y diwedd cytunwyd ar fod i gynghor cyffredinol benderfynu yr ymrafael rhwng yr ymherawdwr a'r pab. Ymgynnullodd y cynghor yn Rhufain, yn 1083, ac ni ddarfu i Gregory esgymuno yr ymherawdwr drachefn; bu cylafareddiad rhyngddynt, ond heb unrhyw benderfyniad terfynol. Y flwyddyn ganlynol, 1084, gwahoddwyd Harri gan genadon oddi wrth bobl Rhufain, y rhai oeddynt wedi syrthio allan â'r pab, i ddyfod i'r ddinas: yr hyn a wnaeth ar Mawrth 21ain, ac yn ddioed efe a gymmerodd feddiant o'r Lateran, y pontydd, a lleoedd pwysig ereill. Diangodd Gregory i gastell St. Angelo, a chyssegrwyd y gwrthbab Guibert yn gyhoeddus, ar Sul y Palmwydd, gan amryw esgobion. Ar Sul y Pasg canlynol, efe a goronodd Harri IV. yn ymherawdwr yn eglwys St. Pedr. Ar ol y ddefod, esgynodd Harri y *Capitol*, a chyhoeddwyd ef ar gyhoedd, a chydnabyddwyd ef gan y Rhufeiniaid gyda bloeddiadau o lawenydd. Pa fodd bynag, pan glywodd efe fod Robert Guiscard yn nesau at y ddinas gyda milwyr, efe a'i gadawodd ac a giliodd tua Tuscany. Yn fuan ar ol hyny daeth Robert gyda'i filwyr Normanaidd a Saracenaidd; ond o dan rith gwaredu Gregory, yr hwn oedd eto yn nghastell St. Angelo, efe a ysbeiliodd Rhufain ac a gyflawnodd bob math o ysgelerderau. Wedi i Gregory ddyfod o'i amddiffynfa, efe a alwodd gynghor drachefn, yn yr hwn, y bedwaredd waith, efe a esgymunodd Harri a'r gwrthbab Guibert. Pan adawodd Robert y ddinas, i ddychwelyd i'w daleithiau ei hun, aeth y pab gydag ef i Salerno, o herwydd nas gallai ystyried ei hun yn ddiogel yn Rhufain; ac wedi iddo gyssegru eglwys ardderchog a adeiladwyd gan Robert, efe a fu farw y flwyddyn ganlynol, 1085.

Nid yw haneswyr yn y cyffredin wedi gosod allan nodweddiad Gregory VII. mewn dull cywir. Yr oedd efe yn ddiffuant o ran ei ewyllys o barth i gael diwygiad eglwysig, ac yr oedd yn bur a diduedd; ond wrth ddilyn ei hoff bwnc, yr hwn oedd mewn rhan yn gyfreithlawn, arweiniwyd ef ar gyfeiliorn gan ei uchelgais i ddyrchafu ei esgobaeth uwch law pob pendefigaethau ac awdurdodau daiarol, yn gystal yn ysbrydol ag yn dymmorol. Gan nad oedd Gregory yn foddlawn ar wneyd yr eglwys, hyd yr oedd ynddo, yn annibynol ar yr ymherodraeth, ac hefyd ar yr un pryd sefydlu meistrolaeth yr awdurdod Babaidd ar dywysogion y ddaiar – pethau a adawodd efe i'w olynwyr eu cyflawnu—efe a ddinystriodd annibyniaeth amryw o eglwysi cenedlaethol. Trwy ffurflywodraeth a wnaed gan ei ragflaenydd, Alexander II, a'r hon a gadarnhaodd efe wedi hyny, deddfwyd am y waith gyntaf nad oedd unrhyw esgob etholedig i weinyddu ei swydd hyd nes y byddai iddo dderbyn ei gonffirmiad oddi wrth y pab. Yr oedd yr esgobaeth Rufeinig yn barod, yn y nawfed ganrif, wedi diddymu awdurdod yr archesgobion, dan y ffugesgus o roddi nodded i'r esgobion; ond yn awr hi a gymmerodd yr hawl i wysio yr esgobion yn ddiwahaniaeth o flaen ei brawdle yn Rhufain, i dderbyn ei gorchymynion; a gorfododd Gregory yr archesgobion i ymddangos yn bersonol i dderbyn y fantell archesgobawl (*pallium*). Yr achos o'r ymrafael rhwng Anselm, archesgob Canterbury, a William Rufus, oedd gwaith Rufus yn gommedd caniatau iddo fyned i Rufain wedi iddo gael ei wysio i fyned yno. Hefyd, Gregory a ddechreuodd yr arferiad o anfon cenadon apostolaidd i wahanol deyrnasoedd fel prif ddirprwywyr y pab, gydag awdurdod annherfynol ar swyddogion yr eglwys genedlaethol. Yr oedd yr athrawiaeth hon o barth i unbenaeth y Babaeth, mewn materion o ddysgyblaeth, trwy ragosodiad ac arferiad mor gydgymmysgedig âg athrawiaethau mwyaf hanfodol ffydd, fel y daeth i gael ei hystyried fel egwyddor ei hun; ac y mae wedi herio holl fedrusrwydd duwinyddion a gwladweinyddion i'w dadrys oddi wrth y gweddill, tra ar yr un pryd y mae yn debyg ei bod wedi bod yn foddion i gadw unoliaeth yr Eglwys Orllewinol neu Eglwys Rhufain.

GREDDF [*gredd*]. Yn ol Paley, "tuedd yw greddf sydd yn bodoli yn flaenorol i brofiad, ac yn annibynol ar addysg." Yn ol Dr. Ogilvie, "Gallu neu dueddfryd neillduol ydyw, trwy ba un—yn annibynol ar bob addysg neu brofiad, heb ragfyfyrdod, ac heb un dyben mewn golwg—y mae anifeiliaid yn cael eu cyfarwyddo yn ddiwyro i wneud o honynt eu hunain yr hyn oll sydd yn angenrheidiol er cynnaliaeth y creadur ei hun, a pharhad y rhywogaeth." Yn ol Arglwydd Brougham, rhywbeth ydyw sydd "yn gweithredu heb addysg, nac oddi wrth ereill, hyny yw, hyfforddiant, nac oddi wrth yr anifail ei hun, hyny yw, profiad; hefyd y mae yn gweithredu mewn anwybodaeth o ganlyniadau – yn gweithredu mewn dallineb, ac yn cwblhau amcanion nas gŵyr yr anifail am danynt."

Y mae yn dra anhawdd gwahaniaethu effeithiau arferiad oddi wrth weithrediadau natur yn mhlith dynion tra yn eu cyflwr anniwylliedig; ond wrth sylwi ar sefyllfaoedd o fabandod a barbariaeth, fe geir mai lled brin mewn cymhariaeth ydyw gweithrediadau greddf mewn dyn. Fe ystyrir fod yr awydd am y fron a'r duedd neillduol i sugno mewn plant, a chydgyfarfyddiad y ddeuryw yn mhlith anwariaid, yn weithrediadau greddf. Heb law y rhai hyn, y mae amlygiadau neillduol o reddf yn cael eu dwyn i'r golwg mewn mathau o glefydon. Fel hyn y mae chwaeth greddfol i ddiodydd sur mewn un fyddo dan

Digitized by Google

dwymyn, a'r awydd sydd mewn plant, ar adegau neillduol o'u hoes, i fwyta marm (*chalk*), a sylweddau ereill, a'r rhai hyny yn dygwydd bod y cyfleriau priodol i'r afiechyd y byddont ynddo, er na bydd ganddynt hwy unrhyw wybodaeth am eu rhinweddau—y mae y rhai hyn yn cael eu hystyried yn weithrediadau greddf.

Ond yn mhlith y creaduriaid direswm yr ydym yn cael yr esamplau lluosocaf o'r duedd gynhenid hon. Trwy reddf, y mae y ddeuryw yn mhlith anifeiliaid y maes yn ceisio eu gilydd—y maent yn amgeleddu eu rhai bach—y mae y pedwar carnolion bychain yn cael eu harwain at dethi eu mamau—y mae adar yn gwneyd eu nythod, ac yn eistedd mor amyneddgar ar eu hwyau—y mae trychfilod nad ydynt yn eistedd ar eu wyau, yn eu gosod hwynt yn y sefyllfaoedd neillduol hyny, yn mha rai y caiff y rhai ieuainc afael ar ymborth priodol ar ol eu deor—ac y mae y ddyfrelen yn cuddio ei hun gyda glud a darnau o goed, gwellt, graian, neu gregin mân; a chan fod yn angenrheidiol iddi yn wastad fod bron yn gydbwys â'r dwfr yn mha un y mae yn byw, os bydd y gorchudd yn rhy drwm y mae yn chwanegu atoddarn o bren, ond os yn rhy ysgafn y mae yn gosod arno ychydig o raian.

Y mae rhai naturiaethwyr yn son am ddwy fath o reddf: sef, yr hon sydd, yn annibynol ar bob addysg neu brofiad, yn cyflawnu yn ebrwydd weithrediadau neillduol pan y bydd gwrthddrychau penodol yn cael eu dwyn i sylw, neu dan ddylanwad teimladau penodol; a'r hon a fedr gyfartod âg amgylchiadau a sefyllfaoedd arbenig. O'r math cyntaf yr ystyriant yr anghreifftiau a nodwyd; a nodir y ffaith ganlynol fel esampl o'r math olaf. Y mae yr estrys, yn nghanol poethder Senegal, yn esgeuluso ei hwyau yn ystod y dydd, ac yn eistedd arnynt y nos; tra y mae yr estrys, fel adar ereill, yn Mhenrhyn Gobaith Da, lle y mae y gwres yn llai, yn eistedd ar ei hwyau y dydd fel y nos. Ond y mae yn ymddangos fod y gwahaniaethiad hwn yn ddiangenrhaid; canys pan ddywedir fod unffurfiaeth gweithrediad yn un o nodweddau greddf, ni feddylir dim mwy na bod ymddygiadau creaduriaid unigol o'r un rhywogaeth yn gyffelyb pan y bydd yr amgylchiadau yn gyffelyb. Y mae ysgrifenwyr ereill yn son am "reddf anianyddol" a "greddf feddyliol." Y mae y naill yn gwbl annibynol ar ewyllys neu feddwl, er nad ydyw un amser yn bod oddi eithr lle y bydd bywyd anifeilaidd ac felly feddwl yn bodoli; ond fe all meddwl ddylanwadu arni. Y mae y llall yn gwbl annibynol ar reswm, er ei bod i'w chael mewn cyssylltiad âg ef, ac y gall rheswm ddylanwadu arni. Wrth "reddf anianyddol" y meddylir y gweithrediadau, yr ysgogiadau, neu yr agweddau hyny o eiddo y corff sydd yn bod yn anwirfoddol; megys curiad y galon, ac ysgogiad nydd-droawl y coluddion, y rhai nid oes gan ddyn unrhyw lywodraeth arnynt trwy weithrediad ei ewyllys. Y mae yn wir fod Darwin yn crybwyll am un dyn a fedrai attal curiadau ei galon pan y mynai, ac am un arall a fedrai symmud ei goluddion trwy gyflymu yr ysgogiad nydd-droawl; ond dygwyddiadau annaturiol a thra anghyffredin yw y rhai hyn. Pa fodd bynag, pe gallai pob dyn ennill y fath reolaeth ar yr ysgogiadau hyn, anwirfoddol fyddent wedi hyny; canys fe äent hwy yn mlaen yn gwbl heb ymyriad yr ewyllys, ac heb fod genym o angenrheidrwydd unrhyw wybodaeth am danynt. Ond y mae yn ammheus, wedi y cwbl, a ellir galw y rhai hyn yn weithrediadau greddfol o gwbl. O leiaf pan y byddwn yn siarad am reddf, nid am y rhai hyn y byddwn yn meddwl, ond am rywbeth tra gwahanol; hyny yw, yr ysgogiadau gwirfoddol, neu y gweithrediad gwirfoddol hwnw o eiddo y meddwl a wahaniaethir oddi wrth reswm. Y mae hwn yn cymmeryd lle yn annibynol ar brofiad ac addysg, ac mewn anwybodaeth o ganlyniadau, fel y ceisiwn ddangos oddi wrth yr anghreifftiau a ganlyn.

Cymmerwn ddeoriad wyau. Pe byddai i bâr o adar y tô wedi eu deor mewn ffwrn, a'u cadw ar wahân oddi wrth y gweddill o'u rhywogaeth, y mae ffeithiau yn dangos y cyflawnent bob peth fel adar ereill er cynnyrchu a chynnaliaeth eu rhyw. Nis gellir priodoli hyn i ddim amgen na greddf wedi ei phlanu yn nghyfansoddiad y creadur. Yn y lle cyntaf, pa beth a gymhellai yr aderyn banyw i barotoi nyth cyn dodwy? Nid rheswm; canys nis gallesid ymresymu y mater. Nis gallasai y llawnder neu yr ymeangiad a deimlai mewn rhan neillduol o'i chorff, o herwydd tyfiant a chaledrwydd yr ŵy o'i mewn—nis gallai hyn roddi iddi unrhyw hyfforddiant ei bod ar fin cynnyrchu rhywbeth oedd i'w gadw yn ofalus ar ol ei gynnyrchu. Gan nad oedd yn brofiadol o ddim fel hyn yn flaenorol, nid oedd dim i'w harwain i'r casgliad hwn. Eto, ar ol cynnyrchu yr ŵy, pa fodd y mae yr aderyn i wybod fod un bach ynddo? A oes rhywbeth yn ymddangosiad allanol, neu yn nghyfansoddiad yr ŵy, a arweiniai ddychymyg craffaf dyn i dybied fod aderyn byw i ymddeori allan oddi tan y plisgyn? Dim oll. Nid oes dim yn ffurf allanol yr ŵy yn debyg i ffurf aderyn; a phan y chwilir ei gynnwys y mae yn edrych yn annhebycach fyth i droi allan yr hyn y gwna. "Pe byddai i ni," medd Paley, "fyned mor bell ag i dybied oddi wrth yr ymddangosiad o drefn a gwahaniaeth yn ansawdd y sylweddau hylifol yn yr ŵy, y gallai fod wedi ei fwriadu yn drigfa a maeth i greadur (yr hyn a fyddai yn dybiaeth dra eofn), ni a ddysgwyliem benbwl yn ymdroi yn y llaid, yn hytrach na chreadur sych, adeiniog, a phluog, cyfansawdd o ranau a chynneddfau nas gellid eu harfer pan yn gaeth yn yr ŵy, ac heb feddu unrhyw berthynas ddirnadwy â dim a welir ynddo. A edrychai rhywun am bluen peneuryn (*goldfinch*) allan o wŷn ŵy? neu a ddysgwyliai neb am y mwyaf cymhlethedig o bob peiriant, neu y mwyaf amrywiol o bob casgliad o sylweddau, allan o'r sudd mwyaf syml ac unffurf?" Wedi dangos fod yr un anhawsder yn parhau am gryn amser yn ystod y deoriad, dywed yr un awdwr yn mhellach; "Pe gallem anghofio yr hyn oll a wyddom, a'r hyn na bu adar y tô ericed yn ei wybod, yn nghylch cenedliad ŵyol—pe gallem ymddiosg o bob hysbysrwydd, ond yr hyn a gaffem trwy ymresymu ar ymddangosiadau neu ansoddau y gwrthddrychau o'n blaen, yr wyf yn teimlo yn sicr na byddai dyfodiad ffwl y ffair allan o ŵy yn ddim mwy o syndod i blentyn nag y byddai, ac y dylai fod, deoriad cyw, i'r athronydd." Ond caniataer fod yr aderyn yn gwybod fod ansoddau cyw yn yr ŵy, pa fodd yr oedd i gael allan fod cynhesrwydd yn angenrheidiol er ei gynnyrchu, neu mai y graddau hyny a drosglwyddid gan dymmeredd ei gorff ef ydoedd y graddau angenrheidiol? Pa fferyllydd oedd i gyfranu y ddysgeidiaeth hon iddo? Na: y mae tybied fod yr aderyn yn gweithredu dan yr amgylchiadau hyn drwy gallineb a rheswm o'i eiddo ei hun yn dybiaeth afresymol a disail. Os ydyw aderyn y tô, tra y mae yn eistedd ar ei wyau, yn

Digitized by Google

dysgwyl i adar bach ddyfod allan o honynt, y mae yn ffurfio dysgwyliad gwyllt, a hyny yn groes i debygolrwydd ac ymddangosiadau. Rhaid ei fod wedi treiddio yn bellach i natur nag y byddai yn bosibl i ddyn fyned. Ond os craffder a threiddgarwch ydyw hyn oll, pa fodd y mae y fath ddylni a hurtrwydd yn bod ag a ddangosir gan yr aderyn, a hyny yn nglŷn â rhanau ereill o'r un peth? "Mor ofalus," medd Addison, "y mae yr iar yn parotoi iddi ei hun nyth mewn lle anhygyrch, a phell oddi wrth swn a chyffro! Wedi iddi osod ei hwyau yn y fath fodd fel y gallo eu cysgodi, y fath ofal a gymmer hi i'w troi hwynt yn fynych, er mwyn i'w holl ranau gael cyfranogi o'r cynhesrwydd bywiol! Pan y gedy hwynt, er chwilio am ymborth at ei chynnaliaeth, mor gysson y dychwel hi cyn iddynt gael amser i oeri, a myned yn anghymhwys i gynnyrchu creadur byw! Yn yr haf, chwi gewch ei gweled yn cymmeryd ei rhyddid yn fwy, ac yn gadael y wyau am dros ddwy awr; ond yn y gauaf, pan yr effeithiai yr oerni ar ansoddau bywyd oddi fewn, y mae yn fwy manwl ei sylw, ac nid erys oddi wrthynt ond hanner yr amser. Pan y daw adeg y deoriad, gyda'r fath dynerwch a gofal y cynnorthwya hi y cyw i ymryddhau o'i garchar! heb son am ei gwaith yn ei guddio rhag yr hin, yn darparu at ei faeth priodol, ac yn ei ddysgu i ofalu am dano ei hun; ac heb son am ei gwaith yn gadael y nyth, os nad ymddengys cywion wedi i'r amser penodol ddyfod i ben. Nis gallai fferyllydd weithredu gyda mwy o gelfyddyd a diwydrwydd nag a welir yn neoriad cyw iar, er fod llawer o adar yn dangos mwy o graffder; eto i gyd, y mae yr iar, sydd yn meddu yr holl gywreinrwydd ymddangosiadol yma (yr hwn yn wir sydd yn anhebgorol angenrheidiol er cynnyrchu y rhywogaeth)—y mae yr iar, mewn ystyriaethau ereill, yn amddifad o'r pelydrau lleiaf o feddwl neu o synwyr cyffredin. Y mae yn camgymmeryd dernyn o farm (*chalk*) am ŵy, ac yn eistedd arno yn gymhwys yr un fath; nis gŵyr pan y byddo chwanegiad neu leihad yn rhif y rhai a ddodwyir ganddi; nid yw yn gallu gwahaniaethu rhwng yr eiddo ei hun a rhywogaeth arall; a phan y daw aderyn tra gwahanol iddi ei hun allan o'r ŵy, hi a gymmer ofal o hono yr un modd a phe byddai yn gynnyrch ei hwyau hi. Pan y bydd ganddi haid o hwyaid yn ei chanlyn, hi a saif yn ddychrynedig ar fin y llyn, gan grynu yn achos y rhai bach fyddont wedi mentro i ganol y fath elfen beryglus." Y mae yn amlwg oddi wrth hyn oll mai rhywbeth tra gwahanol i'r rheswm sydd yn gweithredu mewn dyn yw yr hyn sydd yn cynhyrfu yr anifail i barotoi ar gyfer a gofalu am ei rai bach.

Er dangos hyn yn mhellach, ni a gymmerwn anghraifft arall. Y mae y wenynen yn ffurfio chweongl, heb wybod beth ydyw, na pha ham y mae yn ei ffurfio. Y mae yn hawdd gweled trwy gymharu ffeithiau â'u gilydd mai nid rheswm, ond rhywbeth tra gwahanol, a rhywbeth yn gwahaniaethu oddi wrth reswm, nid yn unig mewn graddau, ond yn ei natur, ydyw yr hyn sydd yn ysgogi y creadur. Yr ydym yn gweled peth neillduol yn cael ei wneuthur gan y wenynen, heb addysg, nas gallasai dyn ei wneyd heb lawer o addysg. Yr ydym yn ei gweled yn gywir heb brofiad, yr hyn nas gallem ni ei gyflawnu heb brofiad mawr. Ni a'i gwelwn yn gwneuthur pethau neillduol, y rhai ydynt i gynnyrchu effaith y mae yn amlwg nas gŵyr hi ddim am dano. Er esampl, y mae yn gwneyd cell, ac yn gosod ynddi garpedau a hylif, cymhwys i ddal a maethu yn ofalus bryfyn tyner, er nas gwelodd hi erioed unrhyw bryfyn, ac nas gŵyr hi wrth gwrs ddim am bryfed, na bod unrhyw bryfyn byth i ddyfod, na bod unrhyw ddefnydd i gael ei wneuthur byth o'r gwaith a gyflawnir ganddi. Dyna'r gacynen hefyd yn dwyn nifer penodol o fân gynron, ac yn eu dodi hwynt mewn twll a wnaeth, uwch ben yr ŵy—digon o gynron i gynnal y pryf a gynnyrcha yr ŵy yna ar ol deor—ac eto ni welodd y gacynen hon erioed ŵy yn cynnyrchu pryf, ac y mae i farw yn mhell cyn y daw y pryf i fod; ac yn mhellach, nid ydyw erioed mewn unrhyw fodd wedi profi na defnyddio y cynron hyn, nac wedi gwneuthur defnydd o'r twll a wnaeth, oddi gerth er budd dyfodol y pryf na wêl byth. Felly, y mae y creadur yn yr holl amgylchiadau hyn yn gweithio heb wybodaeth, ac yn y tywyllwch. Y mae hefyd yn gweithio heb ragfwriadu unrhyw beth, ac etto y mae yn gweithio i amcan neillduol a phwysig. Yn y lle olaf, y mae yn gweithio i berffeithrwydd yn ei ffordd, ac etto y mae yn gweithio heb nac addysg na phrofiad. Yn awr, y mae yn hyn oll yn dra gwahanol i ddyn, yr hwn nid yw bron un amser yn gweithio yn dda heb gael ei ddysgu—yr hwn sydd yn gweithio gyda gwybodaeth am yr hyn y mae yn ei gylch—a'r hwn sydd yn gweithio gan fwriadu, ac mewn gair, rhagdrefnu, yr hyn y mae yn ei gwblhau. A gellir chwanegu, yr hyn sydd yn ganlyniad o hyn oll, fod y creadur yn gweithio bob amser yn unffurf a chyffelyb, a bod ei holl waith yn gyffelyb dan y cyffelyb amgylchiadau; tra nad oes unrhyw ddau ddyn yn gweithio yr un fath, nac un dyn yn gweithio ddwywaith yn gyffelyb. Nis gellir rhoddi cyfrif am y gwahaniaeth heb olygu fod y creadur yn gweithredu oddi ar egwyddor neillduol yn ei natur, yr hon a alwn ni yn *reddf*.

Y mae rhai yn dal nad yw yr holl ysgogiadau hyn yn y creadur ond effaith teimlad—nad yw yr hyn sydd yn ymddangos i ni yn ofal am y dyfodol ddim amgen na chanlyniad pleser neu boen a deimla y creadur ar y pryd. Fel hyn, fe roddir cyfrif am ddeoriad ŵyau oddi wrth yr hyfrydwch y tybir fod yr aderyn yn ei gael drwy wasgiad wynebau crynion a llyfnion yr ŵyau yn erbyn ei gorff, neu oddi wrth yr esmwythder a rydd tymmeredd tyner yr ŵy i ran isaf y corff, yr hwn sydd yn boethach y pryd hwn nag arfer. Y boddhad presennol hwn, meddir, yw unig gymhelliad yr iar i eistedd ar ei nyth; ac nid yw deoriad y cywion, o'i rhan hi, ond canlyniad cwbl ddamweiniol.

Ceisir cyfrif hefyd am waith y gacynen trwy ddyweyd y gall fod ei Chreawdwr wedi ei chynnysgaethu âg archwaeth at gario cynron, a bod yr archwaeth hwnw wedi ei drefnu yn y fath fodd fel ag i gael ei ddigoni pan y bydd digon o gynron wedi eu cludo i fod yn ymborth i bryf y tymmor nesaf: a bod hwnw wedi ei gynnysgaethu âg archwaeth i fwyta y cynron hyn, a wrthodwyd gan y fam. Felly gall synwyrau y gacynen beri fod yr arogl oddi ar lindysun byw yn fwy hyfryd ganddi nag arogl un marw; ac o blegid hyny y mae yn cymmeryd y rhai hyny a barhant yn beraidd nes y bydd ei phryf hi ei hun wedi ei ddeor. Arweinir hi drwy yr awyr yn syth i'r man lle y bydd llindys a blodau, gan arogl all fod yn codi oddi arnynt i'r awyr. Y mae y wenynen, meddir hefyd, yn cael ei harwain i ddetholyddio lle a chŵyr yn y modd cynnilaf sydd yn bosibl, ac i weithio y gell yn gymhwys i faintioli

Digitized by Google

a ffurf y pryf na welodd erioed:—y mae yn cael ei harwain i hyn drwy yr hyfrydwch a deimla hi mewn ysgogi, yr hwn hyfrydwch sydd yn parhau nes y byddo yr ysgogiad hwnw wedi cyrhaedd graddau penodol, ac yna y mae yn peidio.

Ond ai fel hyn y mae? Ni a gymmerwn yr anghraifft olaf a nodwyd, ac a edrychwn ar y modd y ffurfir y crwybr. Y mae y gwenyn sydd yn gwneuthur y cŵyr yn cludo pentwr bychan o hono ac yn ei osod mewn sefyllfa unionsyth at y gwastadlawr y mae y crwybr i grogi oddi wrtho. Yna mae y gwenyn ereill yn dechreu cafnu; un ar y naill du, a'r llall ar y tu arall, ac y maent yn gweithio gyda manylrwydd mor berffaith, fel nad ydynt byth yn treiddio drwy yr haen deneu o gŵyr; hefyd mor gyfartal, fel y mae yr haen o'r un tewder yn mhob man, a'i hwynebau yn gyfochrog. Felly, os dywedir fod y wenynen yn gweithio wrth deimlad, rhaid tybied fod ynddi ryw wrthwynebrwydd ar unwaith i haen fyddo y gronyn lleiaf yn deneuach neu yn dewach na'r tewder penodol. Yn wir, y mae y dybiaeth hon o eiddo rhai naturiaethwyr yn gwbl anfoddhaol, ac yn dangos diffyg sylw cywir o ffeithiau; felly hefyd y mae y syniad sydd yn ein plith fod celloedd chweonglog y gwenyn yn cael eu ffurfio trwy wasgiad nifer o gelloedd crynion ar eu gilydd. Y mae y dybiaeth fod y wenynen yn cael ei harwain gan deimlad i beidio tyllu drwy y cŵyr, ond i aros wedi cyrhaedd tewder penodol, yn anghysson â'r ffaith; canys y mae yr haen ar ba un y gweithiant hwy ar y cyntaf yn anwastad ac o wahanol dewder ar bob tu, ac nid oes un wenynen yn y byd yn gwneud celloedd crynion. Y mae Huber wedi dangos, ar ol ei gweled yn gweithio, ei bod yn eu gwneyd mewn ffordd hollol wahanol; ac yn wir, pe yn gelloedd crynion, y gweithient y cŵyr i ddechreu, nid oes unrhyw wasgiad a allai beri celloedd chweonglog, llawer llai haenau gobedryleddf (*rhomboidal*); sef, math o ysgwâr ar led ogwydd. Hefyd mae y syniad fod y gwenyn a weithiant y cŵyr yn cludo yr haenau o dewder penodol yn hollol annigonol i roddi cyfrif am onglau a ffurf ogwyddol yr haen.

Gan hyny, y mae y wenynen yn gwneuthur onglau yn hollol annibynol ar y tewder: a phe byddai i ni addef mai tewder y gacen sydd yn rheoleiddio y cyfan, ni byddem yn nes i egluro y mater wed'yn; canys pa fodd y mae y tewder penodol a chywir hwnw i'w gael? Ond y mae llawer iawn mwy na hyn yn cael ei wneyd gan y wenynen; a rhaid tybied llawer iawn mwy cyn y gellir amgyffred fod ganddi hi unrhyw fwriad gwreiddiol ac uniongyrchol. Y mae yn gweithio fel y byddo i'r haen gobedryleddf un tryfesur neillduol, a dim ond hwnw, ac y byddo ei hyd bob amser yr un fath, a'i bedair ongl yn wastad yn gyffelyb; hyny yw, yr onglau cyferbyniol fel eu gilydd, ond pob dwy o honynt yn wahanol i'r ddwy arall; ac yna y mae yn gogwyddo yr haenau mewn onglau penodol y naill â'r llall.

Yn awr, os wrth deimlad y mae y wenynen yn gweithio, pa ham y mae y fath foddhad iddi mewn llinell union - mewn llinell union wedi ei gosod yn gyfongl â gwastadlawr—mewn haenau gobedryleddf—a'r rhai hyny wedi eu gosod gyda'u onglau penodol—pa ham y mae yn teimlo boddhad yn y rhai hyn, mwy nag mewn llinellau a gwastadloriau yn gogwyddo ar onglau ereill y naill at y llall? Pa ham y mae y wenynen ar ol gweithio am ryw ran o linell, i fyned yn ei blaen, yn hytrach na theimlo hyfrydwch mewn newid ei chyfeiriad? Os ydyw i fyned ymlaen, pa ham y mae i gael pleser mewn aros wedi cyrhaedd rhyw un pwynt neillduol? Pa ham y mae pob gwenynen i ymhyfrydu yn ei rhan fechan arbenig hi ei hun o'r gwaith cyffredinol? Pa ham y mae pob un i dynu boddhad oddi wrth wneyd yn hollol yr hyn sydd eisieu, ac yn y cyfeiriad sydd eisieu, mewn trefn—ar ol ei roddi at yr hyn a wnaeth ereill o'r blaen, a'i helaethu drwy yr hyn y mae ereill i'w wneyd etto—i gynnyrchu effaith benodol, nas gŵyr hi na'i chydweithwyr ddim am dano? Gwel GWENYN.

Tra y mae rhai ysgrifenwyr wedi myned mor bell ag i ddarostwng holl gynneddfau y meddwl i ryw egwyddorion greddfol, mae ereill wedi codi y reddf anifeilaidd yn ogyfuwch â rheswm. Ond gwelir yn eglur, ond sylwi yn fanwl a phriodol ar ffeithiau, fod greddf yn gwahaniaethu oddi wrth reswm, drwy sierwydd diŵyro y moddion a ddefnyddia, unffurfiaeth ei chyflawniadau, perffeithrwydd ei gwaith yn annibynol ar bob addysg a phrofiad, ac hefyd, drwy y ffaith nad ydyw yn cyflawnu dim ond a fyddo yn uniongyrchol angenrheidiol er cynnal y creadur ei hun a chynnyrchu ei ryw. Ond y mae celfyddydau creaduriaid rhesymol yn myned yn eu blaen yn araf drwy brawfiadau aml ac amrywiol, tra y mae y moddion a arferir yn gwahaniaethu, ac nid ydynt ond anaml y rhai goreu a mwyaf priodol; ac yn eu gwaith hwy, er ei fod ar lawer o ystyron yn mhell o fod yn berffaith, fe chwanegir yr anhawsder trwy gyfuniad gwirfoddol o'r prydferth gyda'r defnyddiol. Am sylwadau pellach ar y rhan hwn o'r mater gwel dan y gair COLERIDGE.

GRIFFITHS, ANN. Y mae enw y foneddiges hon yn adnabyddus trwy gylchoedd eang yn mhlith Ymneillduwyr Cymru fel awdures yr hymnau a gyhoeddwyd yn gyntaf gan y Parch. T. Charles, o'r Bala, ac a genir hyd y dydd hwn yn addoldai y gwahanol enwadau crefyddol yn ein gwlad. Y mae swyn a nefoleidd-dra ei hymnau bron yn anghymharol, ac wedi gwneyd ei choffadwriaeth yn fendigedig yn nghalon pob Cristion sydd wedi eu darllen ac wedi profi eu melusder. Ychydig o ffeithiau sydd i'w cael yn nglŷn â hanes ei bywyd. Yr oedd yn ferch i John a Jane Thomas, Dolwar Fechan, plwyf Llanfihangel-yn-Ngwynfa, swydd Drefaldwyn. Amaethwr oedd ei thad; dyn o synwyr cryf, ac yn meddu ar radd o'r ddawn farddonol. Yr oedd ef a'i deulu yn Eglwyswyr selog ac aiddgar o ran eu crefydd, ac unwaith yn elynion penboeth i Ymneillduwyr—yn enwedig y Methodistiaid. Rhaid addef mai lle tlawd i ddysgwyl bendith ysbrydol i enaid colledig oedd yr Eglwys Sefydledig yn y cyfnod hwnw (o ddeutu y fl. 1800) o blegid yr oedd ei pharsoniaid gan mwyaf yn ddynion o gymmeriadau annuwiol, ac yn caniatau rhyddid i'w cynnulleidfaoedd i ddilyn eu tueddiadau llygredig mewn llawer o bethau y mae yr oes hon yn cywilyddio wrth feddwl am danynt. Felly, er fod John Thomas a'i deulu yn ffyddlawn yn eu hymlyniad wrth yr Eglwys Sefydledig, y mae yn amlwg nad oedd ysbryd "y gwirionedd fel y mae yn yr Iesu" wedi meddiannu eu calonau. Modd bynag, yr oedd gan y Brenin Mawr fwriadau grasol i'w cyflawnu yn y teulu hwn; yr oedd ynddo un perl o leiaf i fod yn addurn yn nghoron y Gwaredwr mewn gogoniant. Yr oedd Ann wedi ei darpar gan yr Ysbryd Glân i fod yn "beraidd ganiedydd yn Israel," i fod yn gysur ac yn adloniant sanctaidd i'r pererinion yn ystod eu taith trwy yr anial garw i'r

Digitized by Google

ddinas fawr gyfanneddol, "saer ac adeiladydd yr hon yw Duw." Rhoddodd cymmydog oedd yn aelod gyda'r Methodistiaid Calfinaidd fenthyg y llyfr anwyl hwnw o waith Baxter, *Tragwyddol Orphwysfa y Saint*, i John, mab hynaf John Thomas; ac wrth ei ddarllen, ymaflodd yn ei feddwl ddwys ystyriaeth o'r angenrheidrwydd am feddu gwir grefydd. Penderfynodd tynychu yr eglwys gyda mwy o sel nag erioed; ac yn griddfan o dan faich argyhoeddiad, aeth yn aml i adrodd tywydd ei feddwl wrth y parson, yr hwn a ymddygai yn serchog iawn tuag ato, ac a ddangosai lawer o barch iddo; ond er hyny nid oedd ei gynghorion yn feddyginiaeth gymhwys i ddolur ei enaid. Cynghorid ef i ymarfer â difyrwch cnawdol er mwyn ymlid ymaith ei holl feddyliau pruddaidd a thrymion. Wedi ffaelu a chael boddlonrwydd i'w feddwl yn nghyfeillach y parson, ymroddodd i fyned i Benllys i wrandaw gweinidogaeth pregethwyr y Methodistiaid, ac yno teimlai ei fod yn derbyn yr ymgeledd y bu yn hiraethu am dano. Yn fuan, cynnygiodd ei hun i fod yn aelod eglwysig gyda'r cyfryw blaid grefyddol, a derbyniwyd ef gyda serch a llawenydd. Yr oedd y teulu, yn ysbaid cyntaf ei broffes, yn edrych ar ei grefydd ymneillduol ef gyda chryn ddirmyg: nid anaml y byddai yn cael ei wawdio ganddynt, ac yn hyn yr oedd Ann y pryd hwnw lawn can waethed a neb o honynt. Un tro, yr oedd John yn drallodus iawn o achos ei gyflwr ei hun a chyflwr truenus ei deulu, ac efe a ymneillduodd i'r daflod wair i weddio; ond pan mewn ymdrech difrifol gyda Duw, daeth geiriau Bildad y Suhiad (pan yn cyfarch Iob) i'w feddwl gyda nerth a goleuni mawr; sef, "Er fod dy ddechreuad yn fychan, eto dy ddiwedd a gynnydda yn ddirfawr." Cafodd weled eu cyflawniad; canys daeth ei dad, ei frawd, a'i ddwy chwaer, i gofleidio crefydd.

Cafodd Ann beth ysgol yn ei hieuenctyd; a dysgodd ddarllen Seisoneg ac ysgrifenu; ond ni ddaeth i ddeall ond ychydig o'r iaith Seisonig. O ran ei dynsawd, yr oedd o gyfansoddiad tyner, gwynebpryd gwyn a gwridog, talcen lled uchel, gwallt tywyll, yn dalach na'r cyffredin o ferched, llygaid siriol ar dòn y croen, ac o olwg led fawreddog; ond er hyny yn dra hawdd nesau ati, mewn cyfeillach a hoffai. Yr ydoedd wedi ei chynnysgaethu â chynneddfau cryfion; ond lled wyllt ac ysgafn ydoedd yn more ei hoes. Arferai ei doniau i siarad yn drahaus am grefydd a chrefyddwyr Ymneillduol. Wrth ganfod torf o bobl yn myned i gymdeithasfa y Bala, dywedai yn wawdus, "Dacw y pererinion yn myned i Mecca," gan gyfeirio at bererindod y Mahometiaid. Ar un amgylchiad, aeth i Lanfyllin, ar ddiwrnod gwylmabsant fe dybir, gyda'r bwriad i ddawnsio, ac i fwynhau difyrion cnawdol ereill; ond rhagflaenwyd y drwg gan ras Duw. Wedi iddi gyrhaedd Llanfyllin, clywodd fod gŵr dyeithr enwog (y diweddar Barch. Benjamin Jones, Pwllheli), i bregethu yn nghapel yr Annibynwyr, a thueddwyd ei meddwl i fyned i wrandaw arno. Effeithiodd y bregeth ar ei chalon i'r fath raddau fel y penderfynodd yn y fan i ymofyn am grefydd yn lle dilyn gwagedd; a phenderfynodd myned yn fwy dyfal i eglwys y plwyf. Y dydd Nadolig canlynol, cyfododd yn fore i fyned i eglwys Llanfihangel, i gyfarfod a elwir "y plygain." Wrth fyned i mewn i'r eglwys, nesaodd y parson ati mewn modd serchog a siriol, ac ymaflodd yn ei llaw gan ddywedyd wrthi, "Ann, a ydyw gwythenau gwagedd wedi ymadael yn llwyr o'ch dwylaw?" ac yna gwahoddodd hi i'w dŷ i gael boreufwyd, canys yr oedd hi a'i theulu yn dra pharchus yn ngolwg y parson. Yr oedd ei ymddyddanion yn y tŷ yn anghrefyddol ac anweddaidd, fel y digiodd Ann wrtho yn ddirfawr, a gwnaeth benderfyniad i fyned i rywle arall i ymofyn am grefydd yn ei phurdeb a'i sancteiddrwydd.

Mewn canlyniad i hyn yna, dymunodd ar ei thad am gael myned i Lanfyllin i ddysgu gwnïo. Ei hamcan oedd cael myned o dan weinidogaeth yr Annibynwyr: ond cyn i'r bwriad uchod gael ei gyflawnu, aeth i Bont Robert i wrandaw ar ryw bregethwr (tybir mai Mr. Ishmael Jones oedd yn pregethu), a'r pryd hwnw gorchfygwyd ei rhagfarn at y Methodistiaid. Profodd hefyd argyhoeddiadau grymus o druenusrwydd ei chyflwr. Yr oedd awdurdod ac ysbrydolrwydd y ddeddf yn ymaflyd mor rymus yn ei meddwl, hyd oni bu yn ymdreiglo amryw weithiau ar y ffordd wrth ddychwelyd gartref. Nid hir y bu o dan rym yr argyhoeddiad nerthol hwn cyn y daeth i ganfod gogoniant person Crist, gwerth ei aberth, effeithiolrwydd ei eiriolaeth, anchwiliadwy olud ei ras, a chyflawnder ei iachawdwriaeth fawr ar gyfer y penaf o bechaduriaid. Cyflwynodd ei hunan i'r Arglwydd Iesu, a derbyniwyd hi fel aelod o'r gynnulleidfa eglwysig yn Mhont Robert. Llanwyd ei chalon â sel dros achos Duw, a byddai ei theimladau ar brydiau yn tori allan yn gyhoeddus yn ffrwd gref o orfoledd yn y mwynhad o gysuron ysbrydol efengyl y tangnefedd.

Yn y gwanwyn, yn y flwyddyn 1803, bu farw Mr. John Thomas, ei thad, yn ddisymmwth; ac effeithiodd yr amgylchiad yn ddwys ar feddwl Ann, hyd oni wanychodd gryn raddau ar ei hiechyd tra y bu byw. Yn mis Hydref, 1804, priododd Miss Ann Thomas â Mr. Thomas Griffiths, brawd i'r diweddar Barch. Evan Griffiths, Ceunant, Meifod. Yn nghylch pen deng mis wedi priodi, esgorodd Mrs. Griffiths ar ferch, yr hon a fu farw yn bythefnos oed; ac fe hunodd y fam yn yr angeu yn mhen pythefnos ar ol ei baban—yn mis Awst, 1805—yn chwech ar ugain mlwydd oed; a diau ei bod wedi cael mynediad helaeth i mewn i deyrnas ei Harglwydd. Ar ddydd ei chladdedigaeth, casglodd torf luosog yn nghyd i'w hebrwng i dŷ ei hir gartref yn mynwent Llanfihangel; a thraddodwyd pregeth ar yr achlysur gan Mr. Thomas Owens, o'r Bala y pryd hwnw, ond wedi hyny o'r Wyddgrug, oddi ar *Col.* iii. 4. Y bore Sabbath canlynol, traddodwyd pregeth angladdol iddi yn nghapel Pont Robert, gan y Parch. John Hughes, ar y geiriau "Canys byw i mi yw Crist, a marw sydd elw;" *Phil.* i. 21.

Gwraig hynod ydoedd Mrs. Ann Griffiths yn ystod y tymmor byr y bu ar y ddaiar—ac yn enwedig yn ystod ei gyrfa grefyddol. Yr oedd yn hynod o ran ei gwybodaeth ysgrythyrol a'i phrofiadau ysbrydol; ac yn hynod o ran serchogrwydd, a sirioldeb, a sancteiddrwydd ei buchedd. Un hynod ydoedd mewn ymdrechiadau gyda Duw. Byddai ar brydiau, pan wrth ei throell yn nyddu, yn dal cymdeithas â'r Anweledig, gyda'r fath ymroad a theimlad fel y byddai dagrau yn rhedeg dros ei gruddiau ac yn ei lluddias i ddilyn ei gorchwyl. Ymneillduai i'w hystafell ddirgel, a hoffai yn fawr gael pob dystawrwydd i adrodd ei chŵyn ger bron Duw; a byddai weithiau yn cael y fath ymweliadau grymus hyd oni byddai yn tori allan mewn gorfoledd uchel fel y gellid ei chlywed o bellder o ffordd oddi wrth y tŷ.

Digitized by Google

Yr oedd yn serchog iawn tuag at weinidogion yr efengyl. Ei hyfrydwch penaf oedd parotoi ymborth iddynt; a gweuai lawer pâr o hosanau i'w rhoddi i bregethwyr y gwyddai fod eu hamgylchiadau yn isel.

Yr oedd o dymmer naturiol fywiog, siriol, a chyfeillgar. Ar ryw adeg, sylwodd morwyn grefyddol oedd yn gwasanaethu yn y teulu ei bod i ryw radd yn tueddu i fod yn fwy ysgafn a chellweirus yn ei hymddygiad nag a fyddai yn gyffredin. Dywedodd y forwyn wrthi nad oedd ei hagwedd mor ddifrifol ag y byddai yn arferol o fod; a bu hyny yn ofid dwys a thrallod trwm i'w hysbryd, yr hyn oedd brawf amlwg o dynerwch ei chydwybod. Diolchodd i'r forwyn am ddyweyd wrthi; hefyd diolchodd i'r Arglwydd am ei defnyddio i'w cheryddu.

Byddai Ann ar brydiau yn myned i'r Bala i gyfranogi o Swper yr Arglwydd, yr hwn a weinyddid gan y diweddar Barch. T. Charles; oblegid tra anfynych y byddai yr ordinhad hono yn cael ei gweinyddu yn Mhont Robert y pryd hwnw. Un tro, wrth ddychwelyd adref o'r Bala, llanwyd ei meddwl â golygiadau ar ddirgelwch y Duwdod, gogoniant y Gwaredwr, a dedwyddwch y saint pan wedi eu golchi a'u cànu oddi wrth eu pechodau, hyd oni lyncwyd ei myfyrdodau mor lwyr fel na wybu ddim am dani ei hun nes dyfod dros Ferwyn, i flaen plwyf Llanwddyn, yr hyn oedd yn nghylch pum milldir o ffordd, a hyny ar anifail a fyddai yn arfer bod yn lled afreolus. Yr amser hwnw y cyfansoddodd y pennill canlynol: –

> "Dedwydd fydd tragwyddol orphwys
> O bob llafur yn y man,
> Yn nghanol môr o ryfeddodau,
> Heb un gwaelod byth na glan:
> Caffael mwy fynediad helaeth
> I drigfanau TRI YN UN;
> Dwfr i nofio heb fyn'd drwyddo,
> Dyn yn Dduw, a Duw yn ddyn."

Yr oedd yn meddu ar gof hynod o gryf: adroddai bregeth yn lled gyflawn a chysson; ac ysgrifenodd ddarnau helaeth o bregethau y diweddar Barch. John Elias, ac ereill.

Y merched mwyaf syml a duwiolfryd a berthynai i eglwys Pont Robert oedd ei phrif gyfeillesau. Byddai rhai o honynt yn myned i'w hebrwng pan yn myned adref o'r moddion yn y Bont; ac ni byddent yn ymadael heb i un neu ddwy, neu ragor, fyned i weddi; a mynych iawn y torai yn orfoledd cryf iawn arnynt, nes y byddai y cymoedd yn dadseinio gan rymusder sain eu per ganiadau. Ar un amgylchiad, pan yr oedd Ann a'i chyfeillesau yn cadw cyfarfod gweddi ar y ffordd, ac mewn hwyl nefolaidd yn canu ac yn moliannu Duw, daeth nifer o lanciau gwag ac anystyriol atynt, gyda'r bwriad o'u gwawdio a'u dyrysu. Ymaflodd Ann yn llaw un o honynt, gan adrodd y geiriau hyn, "Gwna yn llawen, ŵr ieuanc, yn dy ieuenctid ........ond gwybydd, y geilw Duw di i'r farn am hyn oll," drosodd a throsodd lawer gwaith gyda nerth a goleuni mawr, nes yr oedd y llanc yn delwi ac yn wylo. Ymaflodd un arall o'r merched yn llaw llanc arall, gan adrodd y geiriau hyny, "Pa fodd y diangwn ni os esgeuluswn iachawdwriaeth gymmaint." Y canlyniad fu, i'r llanciau fyned ymaith dan wylo, yn lle gwawdio.

Bwriadodd Ann Griffiths unwaith ysgrifenu dyddlyfr i gadw coffadwriaeth o'r ymweliadau a'r profiadau y byddai yn eu cael: ond yn lle cyflawnu y bwriad hwnw, dechreuodd gyfansoddi pennillion o hymnau; a phryd bynag y byddai rhywbeth neillduol ar ei meddwl, deuai allan yn bennill o hymn. Ni ysgrifenodd hi ond ychydig o honynt, ond adroddai hwynt i'r forwyn grybwylledig, a dymunai arni eu canu, i edrych a ddeuent ar y tônau; ac oddi ar ei chof hi y daeth y nifer mwyaf o honynt i lawr i'n dyddiau ni. Ysgrifenwyd hwy gan y Parch. John Hughes, Pont Robert. Erbyn hyn, y maent yn cael eu hadrodd ar dafod leferydd gan gannoedd o dduwiolion, ac nid oes eu pereiddiach ar dudalenau ein llyfrau hymnau i gyd.

Cyn gorphen yr hanes byr hwn o fywyd Ann Griffiths, hwyrach mai buddiol fyddai i'n darllenwyr gael gweled rhai dyfyniadau o'i llythyrau, y rhai a ysgrifenodd ar wahanol adegau at ei brodyr a'i chwiorydd crefyddol, cyn priodi.

"Bu y geiriau canlynol ar fy meddwl oddi ar y mater a grybwyllasoch:—'Simon, mab Ionah, a wyt ti yn fy ngharu i yn fwy na'r rhai hyn?' Meddyliais fod angen am fyned heibio i frodyr a rhoddion, a charu y rhoddwr uwch law y rhoddion. Bu gair arall hefyd ar fy meddwl:—'Pryn y gwir, ac na werth.' Teimlais fy meddwl yn foddlon i roddi yr oll a feddwn am gael bod mewn undeb priodasol â Mab Duw. Yr wyf yn meddwl fod ysgafnder yspryd, a phob ymddygiad fyddo yn groes i sancteiddrwydd efengylaidd, yn tueddu i wadu nad adwaenom Iesu Grist."

"Diolch am gyfreithlondeb ffordd iachawdwriaeth; ac am ei bod yn gogoneddu ei hawdwr, yn fwy nag am ei bod yn gwobrwyo ei theithwyr. Yr wyf yn gweddïo am gael treulio y gweddill sydd yn ol o'm dyddiau yn fywyd o gymdeithasu â Duw yn ei Fab Iesu Grist, y Cyfryngwr mawr rhwng Duw a dynion. Byddai yn werthfawr iawn genyf gael fy ngwaredu rhag anturio cynnyg mwy i ddeddf sanctaidd Duw, ond yr hyn a'i boddlonodd; nid am na dderbyn ddim arall, ond o barch iddi. Nid aduabum i o'r blaen gymmaint o barch i, a chariad at y ddeddf; nid er ei bod yn melldithio, ond am ei bod yn melldithio yn mhob man allan o Gyfryngwr; canys felly y mae yn dangos ei harddwch a'i pherffeithrwydd."

"Bu y geiriau canlynol o werth a chysur mawr i fy enaid yn ddiweddar; sef, 'Dy wddf sydd fel tŵr Dafydd, yr hwn a adeiladwyd yn dŷ arfau; tarianau fil sydd yn crogi ynddo, i gyd yn estylch y cedyrn.' Nid wyf fi ynof fy hun ond dinerth a diarfogaeth i wynebu gelynion; ond os caf y fraint o droi i'r tŵr, caf yno arfogaeth a nerth i redeg drwy y fyddin."

"Y mae yr olwg isel sydd ar achos Duw mewn amryw fanau y dyddiau hyn yn gwasgu yn ddwys ar fy meddwl. Y mae rhwymau mawr ar bob enaid deffrous i ymdrechu llawer â Duw mewn taer weddi, am iddo anfon y gwyntoedd i chwythu ar ei ardd wywedig, fel y gwasgarer ei phereroglau, fel y byddo Satan a holl ddeiliaid ei deyrnas yn colli eu hanadl gan rym y perarogl au!"

"Yr wyf yn teimlo adnewyddol serchogrwydd at athrawiaeth yr efengyl, am ei bod yn dangos modd i lanhau yr aflan. Yr wyf yn meddwl nad oes arnaf eisieu newid fy ngwisg, ond bod yn lanach ynddi. Yr wyf yn teimlo hiraeth cryfach nag a deimlais o'r blaen am fod yn bur; ac y mae y geiriau hyny ar fy meddwl—'Y tŷ pan adeiladwyd, a adeiladwyd o dygeryg wedi eu cwbl naddu.' Yr wyf yn teimlo dymuniad taer am gael bod dan yr arfau, nes cael fy ngwneuthur yn gymhwys i'r adeilad nefol.'

"Y mae fy meddwl yn bresennol yn edrych ar Iesu, yn arwedd y goron ddrain a'r wisg borphor, ac hefyd yn ei ddyoddefiadau mawrion ar y groes. Nid rhyfedd fod yr haul yn cuddio ei belydr, pan yr oedd ei Greawdwr dan hoelion!"

"Gair arall a fu yn fendith neillduol i mi yn ddiweddar, wrth geisio dywedyd fy nghŵyn wrth yr Arglwydd yn nghylch amrywiol bethau ag oedd yn

Digitized by Google

fy ngalw ar eu hol, oedd hwn—Trowch eich wynebau ataf fi holl gyrau y ddaear; canys myfi sydd Dduw, ac nid neb arall' Fel pe buasai yn dywedyd, Mi a wn am bob galw sydd arnat, a'u bod yn amrywiol: ond yr ydwyf finnau yn galw; ac nid yw y byd ond byd, na chnawd ond cnawd, na diafol ond diafol; ond myfi sydd Dduw, ac nid neb arall."

"Y mae meddwl am farw yn felus neillduol weithiau. Gallaf ddywedyd mai hyny sydd yn lloni fy meddwl yn fwyaf o bob peth y dyddiau hyn: nid marw yndd o ei hun, ond yr elw mawr sydd i'w gael ar ol myned drwyddo, sef gadael ar ol bob tueddiad i ddianrhydeddu deddf Duw—pob gwendid yn cael ei lyncu gan nerth—cael cydymffurfiad cyflawn â'r gyfraith—bod ar ddelw Duw i'w fwynhau byth! Byddaf yn cael fy llyncu gymaint weithiau i'r pethau hyn, fel y byddaf yn methu yn deg a sefyll yn ffordd fy nyledswydd gyda phethau amser; ond disgwyl am yr amser i gael fy nattod, a bod gyda Christ, canys llawer iawn gwell ydyw, er ei bod arnaf yma weithiau yn dda iawn. Pan fydd fy Anwylyd yn ymddangos trwy y dellt, y mae yn dadguddio i mi weithiau gymmaint o'i ogoniant drwy ddrych, mewn dammeg, ag a all fy nghynneddfau gweiniaid ei ddal. Y mae yn dda genyf ddywedyd wrth ddybenu—myfi a ddymunwn ei ddywedyd gyda diolchgarwch. Er fy holl lygredd, a dyfais uffern, a'r byd a'i wrthddrychau, yr wyf, o rad ddaioni Duw, heb newid gwrthddrych fy serch hyd heno; ond yn hytrach, yr wyf o galon am ymlonyddu yn ei gariad, ac ymhyfrydu ynddo byth dan ganu, er nas caf hyny tu yma i angeu i'r graddau lleiaf ond trwy ymdrech a thrais."

Y mae y dyfyniadau hyn yn ddysgrifiad nerthol o gryfder meddwl, a duwioldeb calon Mrs. Ann Griffiths; ac mor bell ag y gall dyn farnu, nis gellir ammheu ei bod yn awr ar uchel fanau gogoniant, yn mharadwys Duw, yn nghymdeithas ac ar ddelw yr Iesu, am yr hwn y bu yn hiraethu gyda phryder angerddol yn ystod y tymmor y bu yn anadlu ar y ddaear hon.

Mewn canlyniad i ysgrifau a ymddangosodd yn *Maner ac Amserau Cymru* tua dechreu 1863, yn galw sylw at athrylith yr emynyddes enwog o Ddolwar fechan, ac at y ffaith fod ei beddrod yn Llanfihangel-yn-Ngwynfa wedi ei esgeuluso drwy y blynyddoedd heb gymmaint a chareg i ddynodi y fan, cymmerodd nifer o wladgarwyr twymngalon y mater mewn llaw. Ffurfiwyd pwyllgor yn Llanfyllin; gwnaed appeliad at y wlad, ac atebwyd y cais gyda sel, a pharodrwydd, a haelfrydedd, pell tu hwnt i ddysgwyliadau yr ychydig gyfeillion a roddasant gychwyniad i'r peth. Mewn ychydig fisoedd codwyd trysorfa yn cynnwys swm ryw gymmaint uwch law pedwar ugain punt tuag at godi cofadail ar ei beddrod. Y mae y gofadail i fod ar lun pigadail (*obelisk*), o wenith-faen coch, yn bymtheg troedfedd a thair modfedd o uchder, ac yn bedair troedfedd bob ffordd ar ei gwaelod. Y mae y pedwar wyneb sydd yn cynnwys yr arysgrifau i fod yn gaboledig (*polished*), a'r holl ranau ereill wedi eu llyfnhau yn ddestlus. Ar un wyneb bwriedir rhoddi yr argraff ganlynol:—

"ANN GRIFFITHS, o DDOLWAR FECHAN:
A anwyd yn 1789, a fu farw Awst, 1805"

Ar yr ail wyneb bwriedir rhoddi—

"Dedwydd fydd tragwyddol orphwys
O bob llafur yn y man;
Yn nghanol môr o ryfeddodau,
Heb un gwaelod byth, na glan."

Ar y trydydd wyneb:—

"Codwyd y gofadail hon gan edmygwyr yr Emynyddes, o barch i'w choffadwriaeth, yn y flwyddyn 1864."

Parotoir y gofadail yn Aberdeen, yn un o'r gweithfaoedd gwenithfaen blaenaf yn y deyrnas.

Bydd hon yn gofarwydd ddestlus a thra phriodol o'r hoffder a'r parch a fynwesa cenedl y Cymry at un a roes arwyddion mor amlwg o grefyddolder ysbryd a phurdeb ymarweddiad yn ystod ei hoes fer, ac a adawodd ar ei hol gynnyrchion ei hathrylith, nefolaidd a fyddant, ni a obeithiwn, yn adeiladaeth ac yn hyfrydwch i saint Duw am ganrifoedd eto i ddyfod.

Bwriada pwyllgor y gofadail hefyd gyhoeddi casgliad o'i holl emynau, gyda chrynodeb o brif helyntion ei bywyd, yn nghyd â thraethawd byr ar ei hathrylith gan y prif-fardd Caledfryn:—yr oll gyda'u gilydd yn gyfrol gryno, ac am bris isel.

GRIFFITH, EDMUND, D.D.: ydoedd fab ieuangaf Griffith ap Sion Griffith, o Gefnamwlch, yn sir Gaernarfon, lle y ganwyd ef yn 1570. Addysgwyd ef yn Ngholeg Brazenose Rhydychain, ac yn Ngholeg Iesu yn yr un lle. Graddiwyd ef yn athraw y celfyddydau yn 1592. Yn 1599, cafodd ei wneyd yn barson Llandwrog, yn esgobaeth Bangor; ac yn y flwyddyn ganlynol gwnaed ef yn ganon yn eglwys gadeiriol Bangor. Yn 1604, cafodd fywoliaeth Llanbedrog. Yn 1613, dyrchafwyd ef i fod yn ddeon yn Mangor; ac yn 1633, cyssegrwyd ef yn esgob Bangor. Bu farw yn 1637, a chladdwyd ef yn ei eglwys gadeiriol.

GRIFFITH, GEORGE, D.D.: esgob Llanelwy, a anwyd yn Penrhyn, yn sir Gaernarfon, yn 1601. Derbyniodd ei addysg yn ngholegau Westminster ac Eglwys Crist, Rhydychain, lle y bu wedi hyny yn athraw ac yn bregethwr poblogaidd. Wedi ei benodi yn gaplan i'r Dr. John Owen, esgob Llanelwy, anrhegodd yr esgob ef â bywoliaethau Llanfechan a Llandrinio; ond newidiodd Lanfechan am Lanymynech. Yn 1631, gwnaed ef yn ganon Llanelwy; ac yn 1635, cafodd ei raddio yn D.D. Yr oedd efe yn bleidiwr gwresog i'r brenin yn amser y rhyfel rhyngddo a'r senedd. Gan ei fod yn ŵr dysgedig a doniol, ac yn bur ei foesau, goddefwyd ef, er ei fod yn elyn i'r llywodraeth, i gadw bywoliaeth Llanymynech trwy ystod y werin-lywodraeth. Ar adferiad Charles II., cafodd ei wneyd yn esgob Llanelwy; cyssegrwyd ef yn nghapel Harri VII. yn Westminster, Hydref 28ain, 1660. Daliodd amryw fywoliaethau yn ei feddiant wedi ei wneuthur yn esgob. Bu farw yn mis Tachwedd, 1666, a chladdwyd ef yn nghangell eglwys gadeiriol Llanelwy. Yr oedd Dr. Griffith yn ŵr gweithgar a galluog, ond yn Eglwyswr selog ac erlidgar: cyhuddir ef o gyffroi y werin anwybodus i derfysgu cyfarfodydd crefyddol yn amser y werin-lywodraeth, yr hyn a amlygai ysbryd erlidgar a thra anniolchgar, gan mai cael ei oddef yr oedd efe ei hun trwy hynawsedd yr awdurdodau i gadw bywoliaeth Llanymynech. Dylasai dan y fath amgylchiadau o leiaf beidio dangos un atgasrwydd at bleidiau crefyddol a wahaniaethent yn eu golygiadau oddi wrtho ef. Yn nghymmanfa y parsoniaid, yn 1640, dygodd gynnygiad yn mlaen am gael argraffiad newydd o'r Beibl Cymraeg; ond nid ymddengys i'r cynnygiad gael nemawr o sylw. Yn y flwyddyn 1652, cyhoeddodd lyfryn dan yr enw, *A modest answer to a bold challenge of an Itinerant Preacher, Vavasor Powell.* Ac yn yr un flwyddyn cyhoeddodd *Animadversions on an imperfect relation in the Perfect Diurnall, containing a naration of a disputation between Dr. Griffith and*

Digitized by Google

*Vavasor Powell near New Chapel in Montgomeryshire.*

Cyhoeddodd Vavasor Powell atebion galluog i ddau lyfryn y doctor, ac ar hyny terfynodd y ddadl ar y pryd. Dywedir i'r Dr. Griffith ymgymmeryd â'r gwaith o gyhoeddi cyfieithiad o'r Llyfr Gweddi Cyffredin; ond ni wyddys pa un a ddarfu iddo ef gwblhau y gwaith ai peidio. Yr ydoedd yn un o'r rhai mwyaf brwdfrydig yn nghymmanfa y parsoniaid, yn 1662, yn nghynlluniad y Ddeddf o Unffurfiaeth, a chyfnewid y Llyfr Gweddi Cyffredin, i'r dyben o gau yr Anghydffurfwyr allan o'r llanau. Dywedir mai efe yw awdwr y ffurf o fedyddio rhai mewn oed yn y Llyfr Gweddïau. Yn 1684, cyhoeddwyd o lawysgrifau yr esgob gyfrol fechan o'i bregethau ar Swper yr Arglwydd; ond nid ydym yn gwybod fod dim arall o'i ysgrifeniadau ef wedi eu cyhoeddi.

GRIFFRI, GIOFFREY, neu WILFRID. Ysgrifenir yr enw yn y tri dull yma gan hen awdwyr Seisonig a thramor, y rhai nid oeddynt yn deall y Gymraeg. Tebygol mai *Gruffudd* oedd enw priodol y gŵr. Cymro ydoedd o genedl. Cyssegrwyd ef yn esgob Tŷ Ddewi yn y flwyddyn 1096, ar farwolaeth yr esgob Rhyddmarch. Bywyd lled ofidus gafodd Griffri tra y bu ar y gadair esgobol, o herwydd fod y goresgynwyr Normanaidd wedi meddiannu rhanau helaeth o'r wlad o bob tu iddo. Ar y tu gogleddol, yr oedd Martin de Tours wedi gosod i fyny arglwyddiaeth Cemmaes rhwng yr afon Teifi a mynyddoedd Priseli; ac ar y tu deheuol, yr oedd Arnulf de Montgomery a Gerald de Windsor wedi gosod i lawr sylfeini arglwyddiaeth fawr Benfro. Yr oedd arglwyddiaeth Dewisland yn perthyn i'r esgobaeth; ac er fod Gerald de Windsor wedi ei goresgyn yn amser ei ragflaenydd Rhyddmarch, nid oedd wedi cael meddiant cyfreithlawn o honi nes i Griffri gael ei ddarbwyllo neu ei frawychu i roddi rhanau o honi, yn nghyd â thiroedd ereill perthynol i'r esgobaeth mewn ardaloedd pellach, i fyny i'r goresgynwyr. Enwir Llanrian yn arglwyddiaeth Dewisland, Cenarth Mawr yn arglwyddiaeth Emlyn, Lawrenny, a lleoedd ereill a roddwyd i fyny ganddo. Darfu i'w feddalwch yn rhoddi ymaith gymmaint o feddiannau yr Eglwys dynu ar ei ben ŵg yr archesgob Anselm, yr hwn a'i diswyddodd am dymmor, ond adferodd ef drachefn. Terfynodd Griffri ei fywyd helbulus yn y flwyddyn 1115, a dilynwyd ef yn yr esgobaeth gan Normaniad o'r enw Barnard.

GROEG HENAFOL. Yr oedd hen wlad Groeg yn gorwedd rhwng y 35ain a'r 40fed lledred gogleddol, a therfynid hi i'r gogledd gan Illyria a Macedonia: gwahenid hi oddi wrth y gwledydd hyny gan res o fynyddoedd hirion, y rhai ydynt yn cyrhaedd o fynydd Olympus, yn nghwr gogledd ddwyreiniol Thessaly, i'r mynyddoedd Acroceraunaidd, yn nghwr gogledd orllewinol Epirus. Yr oedd y wlad hon yn cael ei rhanu i nifer o daleithiau annibynol; megys Attica, Arcadia, Achæa, Bœotia, a Chorinth, &c. Groeg y galwai y Rhufeiniaid y wlad hon; ac oddi wrthynt hwy y daeth yr enw i lawr i ni. Fodd bynag, nid oedd y Groegiaid (*Græci*) ond un o amryw o hen lwythau Epirus [*Aristot. Meteor.*, i. 14], ac ni ddaethant erioed o un pwysigrwydd hanesyddol, er fod yn rhaid fod eu henw wedi bod yn dra adnabyddus mewn rhyw gyfnod yn y goror gorllewinol; o herwydd ymddengys mai dan yr enw hwn yr adnabyddai trigolion Italy y wlad ar y cyntaf. Yn yr awdwyr Groegaidd, gelwir y wlad a gynnwysid o fewn y terfynau a nodwyd yn Hellas, er y dylid sylwi fod i Hellas arwyddocâd eangach nag a roddir genym ni i'r gair, ac y defnyddid ef yn gyffredin i ddynodi gwlad yr Helleniaid, lle bynag y digwyddent ymsefydlu. Fel hyn yr oedd trefedigaethau Groegaidd Cyrene yn Affrica, Miletus yn Asia, a Syracuse yn Sicily, yn ffurfio rhanau hanfodol o Hellas, yr un modd ag Attica, Arcadia, neu Bœotia. Dywed Herodotus [ii. 182] y byddai Amasis, brenin yr Aipht, yn anfon llawer o anrhegion i Hellas; a'r lleoedd a grybwyllir ydynt Cyrene, Lindus yn Rodes, ac ynys Samus.

Rhenir Groeg gan ddaiaryddwyr yn gyffredin i ddwy ran, y rhai a unir gan wddfdir Corinth. Cynnwysai y rhan ogleddol Thessaly, Epirus, Acarnania, Ætolia, Locris; yr hon a renid i Opuntian, Epicnemidian, ac Ozolian Locris, Doris, Phoris, Bœotia, Megaris, ac Attica. Cynnwysai y rhan ddeheuol, a elwir y Peloponnesus, Laconia, Messenia, Arcadia, Elis, Argolis, Achæa, Sicyonia, a Chorinth. Yn chwanegol at y taleithiau hyn, rhaid i ni gyfrif amryw ynysoedd ar y cyffiniau dwyreiniol a gorllewinol, y rhai a breswylid gan y llinach Roegaidd. Y mae yn dra thebygol fod poblogaeth Groeg, yn nghyfnodau llwyddiannus ei hanes, yn hynod luosog. Yn ol cyfrif Mr. Clinton [*Fasti Hellenici*, cyf. ii. td. 386], yn yr hwn y cymmerir i mewn boblogaeth ynysoedd Eubœa, Corcyra, Leucadia, Ithaca, Cephallenia, Zacynthus, Cythera, Ægina, a Salamis, cynnwysai boblogaeth o fwy na 3,500,000 o drigolion, o amser y rhyfeloedd Persiaidd hyd farwolaeth Alexander Fawr. Y mae Groeg, a chymmeryd i mewn yr ynysoedd a enwyd, yn cynnwys tua 22,121 o filldiroedd petrual; gan hyny yr oedd ychydig uwchlaw 158 o bersonau i bob milltir betrual—poblogaeth nad oedd ond ychydig islaw yr eiddo Prydain Fawr yn 1821, yr hon oedd yn cynnwys 165 i bob milltir betrual. Ond dylid sylwi fod y cyfrifon uchod o eiddo Mr. Clinton yn gorwedd ar sylfaen nas gellir ymddibynu arni i foddlonrwydd, o barth i boblogaeth unrhyw wlad nac oes.

HANES Y CYFNOD CYNTAF.

*O'r amseroedd boreuaf hyd ryfel Caerdroia.*—Nid y bobl a elwir genym ni yn Roegiaid (yr Helleniaid) oedd preswylwyr boreuaf y wlad. Yn mhlith enwau yr amryw lwythau y dywedir eu bod yn meddiannu y wlad o flaen yr Helleniaid, y mwyaf enwog oedd y Pelasgi; yr hwn, fel yr ymddengys, a ymsefydlodd yn y rhan fwyaf o Groeg; ac oddi wrth hwn, mae yn debyg, y deilliodd y rhan fwyaf o boblogaeth y wlad. Mae y Cauconiaid, y Lelegiaid, a llwythau barbaraidd ereill, yn cael eu hystyried gan rai ysgrifenwyr diweddar fel rhanau o'r genedl Belasgiaidd. Fodd bynag, bu raid i'r holl lwythau hyn ymostwng i allu ac awdurdod yr Helleniaid, y rhai o'r diwedd a ymwasgarasant dros y rhan fwyaf o Groeg. Yr oedd eu gorsaf gyntefig, yn ol Aristotle [*Meteor.*, i. 14], yn agos i Dodona, yn Epirus; ond gwnaethant eu hymddangosiad cyntaf yn neheubarth Thessaly, o ddeutu 1384 cyn Crist, yn ol yr amseryddiaeth cyffredin. Mewn cydweddiad â threfn gyffredinol y Groegiaid o ffurfio enwau i gofnodi dechreuad cenedloedd, arddangosir yr Helleniaid fel yn hanu o Hellen, i'r hon yr oedd tri mab, Dorus, Xuthus, ac Æolus. Arddangosir Achæus ac Ion fel meibion Xuthus; ac o'r pedwar hyn—Dorus, Æolus, Achæus, ac Ion—yr hanodd y

Digitized by Google

Doriaid, Æoliaid, Achæaid, a'r Ioniaid, y rhai a ffurfiasant y pedwar llwyth i'r rhai y rhanwyd yr Helleniaid am lawer o ganrifoedd, a'r rhai a wahanieithid y naill oddi wrth y llall gan amryw neillduolion mewn iaith a sefydliadau. Yn y cyfamser, tra yr oedd y llinach Hellenaidd yn ymwasgaru dros yr holl wlad, dywedir fod amryw drefedigion o'r dwyrain wedi ymsefydlu yn Groeg; ac i'w dylanwad hwy y mae amryw ysgrifenwyr yn priodoli gwareiddiad y trigolion. Yr ydym yn darllen am drefedigaethau Aiphtaidd yn Argos ac Attica, am drefedigaeth Phœniciaidd yn Thebes yn Bœotia, am drefedigaeth o Mysia dan arweiniad Pelops; oddi wrth yr hwn y derbyniodd y rhan ddeheuol o Groeg yr enw Peloponnesus. Ammheuir hyd yn oed bodolaeth y trefedigaethau hyn gan rai ysgrifenwyr; ac er fe allai nad ydyw y prawf am bob un o honynt yn unigol yn ddigonol i foddloni yr ymofynydd manylgraff; eto y mae traddodiadau unffurf y Groegiaid yn ein hawdurdodi i gredu fod trefedigion wedi dyfod o'r dwyrain i Groeg mewn amseroedd boreuol; ac nid yw y dybiaeth ynddi ei hun mewn un modd yn annhebyg, wrth ystyried agosrwydd y gororau Asiaidd.

Adnabyddir yr amser a basiodd, o ymddangosiad yr Helleniaid yn Thessaly hyd warchaead Caerdroia, yn gyffredin wrth yr enw yr *oes euraidd*. Pa opiniwn bynag a ffurfiwn ni am y caniadau Homeraidd, prin y gellir ammheu nad ydynt yn gosod ger ein bron ddarlun cywir o arferion a defodau yr oes yr oedd efe yn byw ynddi; a'r hon, yn ol pob tebygolrwydd, nid oedd yn gwahaniaethu ond ychydig oddi wrth yr oes euraidd. Mae sefyllfa cymdeithas, fel y dysgrifir hi gan Homer, yn dra thebyg i'r hon oedd yn bodoli yn Ewrop yn yr oesoedd gwarogaethol (*feudal*). Nid oedd unrhyw allu mawr wedi cyfodi yn Groeg hyd yn hyn; yr oedd yn rhanedig i amryw daleithiau bychain, yn cael eu llywodraethu gan benaethiaid treitadol, awdurdod y rhai a gedwid o fewn terfynau gan bendefigion milwraidd. Yr oedd lladrata ar y môr yn alwedigaeth anrhydeddus, a rhyfel yn hyfrydwch i eneidiau pendefigaidd. Dywed Thucydides [i. 4] fod dechreuad gwareiddiad Groegaidd i'w ddyddio o deyrnasiad Minos yn Crete, yr hwn a gyfododd lynges, gyda'r hon y cliriodd efe y Môr Ægeaidd oddi wrth fôrladron. Yn mhlith y gwroniaid mwyaf enwog yn y cyfnod hwn, yr oedd Bellerophon a Perseus, y rhai y dywedir iddynt gyflawni eu hanturiaethau yn y dwyrain; a Theseus, brenin Athen, a Hercules. Hefyd, y mae traddodiad yn rhoddi hanes am gadgyrchoedd a wnaed gan amryw benaethiaid mewn undeb â'u gilydd, megys eiddo yr Argonautiaid, y Saith yn erbyn Thebes, a gwarchaead Caerdroia, c.c. 1184.

YR AIL GYFNOD.

*O warchaead Caerdroia hyd ddechreu y rhyfeloedd Persiaidd*, c.c. 500. Dywed Thucydides [i. 12], fod trigolion Groeg mewn sefyllfa dra ansefydlog am gryn amser ar ol rhyfel Caerdroia. Crybwylla hefyd am amryw ymfudiadau a gymmerasant le; y mwyaf pwysig o ba rai, o ran eu canlyniadau, oeddynt eiddo y Bœotiaid o Thessaly i'r wlad a alwyd wedi hyny Bœotia, a'r Doriaid i'r Peloponnesus: y cyntaf yn y drigeinfed, a'r olaf yn y bedwar ugeinfed flwyddyn ar ol rhyfel Caerdroia. O ddeutu yr un cyfnod poblogwyd rhan orllewinol Asia Leiaf gan y Groegiaid. Ymfudodd hen drigolion Bœotia, y rhai a yrwyd o'u cartrefi gan y Bœotiaid, yn nghyd â nifer o'r Æoliaid; o herwydd hyny y gelwir hwn yr ymfudiad Æolaidd, c.c. 1124, ac a ymsefydlasant yn Lesbos a chwr gogledd orllewinol Asia Leiaf. Hefyd, tua'r un amser, poblogwyd y rhan ddeorllewinol o Asia Leiaf gan y Doriaid. Yr oedd nifer y trefedigaethau Groegaidd, ac ystyried maint y fam wlad, yn dra lluosog; ac y mae y parodrwydd â pha un yr ymadawai y Groegiaid â'u cartrefi yn ffurfio un o nodweddion eu cymmeriad cenedlaethol. Yn y seithfed ganrif cyn Crist, cymmerodd y trefedigion Groegaidd gyfeiriad arall; sefydlwyd trefedigaeth Cyrene, yn Affrica, gan drigolion Thera; a brithwyd gyffiniau Sicily a'r rhan ddeheuol o Italy gan gynnifer o ddinasoedd Groegaidd, fel y cafodd y cyfenw o Groeg Fwyaf.

Y ddwy dalaeth a gyrhaeddasant yr enwogrwydd mwyaf mewn hanesiaeth oeddynt Sparta ac Athen. Yr oedd gallu cynnyddol Athen yn ddiweddarach; ond yr oedd Sparta er adeg y fuddugoliaeth Doriaidd wedi cymmeryd y flaenoriaeth yn mhlith y taleithiau Peloponnesaidd, a chadwodd ei sefyllfa trwy orchfygu y wlad ffrwythlawn Messenia, c.c. 688. Y mae yn debygol ei bod hi yn ddyledus am ei huchafiaeth i ragoroldeb ei sefydliadau politicaidd; y rhai, fel y dywedir, oeddynt wedi eu sefydlu ar sylfaen gadarn gan ei deddfroddwr enwog Lycurgus, c.c. 884. Ni chyfododd Athen i sefyllfa o bwysigrwydd hyd y ganrif o flaen y rhyfel Persiaidd; ond, hyd yn oed yn y cyfnod hwn, nid oedd ei gallu yn ddim mwy na chyfartal i eiddo y taleithiau bychain Megaris ac Ægina.

Yr ydym wedi gweled yn barod fod y ffurf freninol o lywodraeth yn ffynu yn yr oes arwraidd. Ond yn ystod y cyfnod rhwng rhyfel Caerdroia a'r rhyfelgyrch Persiaidd diddymwyd yr awdurdod boliticaidd dreftadol yn agos i holl daleithiau Groeg, oddi eithr Sparta, a sefydlwyd gwerinlywodraeth yn ei lle. Wrth ddarllen hanes Groeg, dylid cofio fod pob dinas o'r bron yn ffurfio talaeth annibynol, ac nad ydoedd un o honynt, gyda'r eithriad o Athen a Sparta, y rhai oeddynt yn hawlio ufudd-dod gan holl daleithiau Attica a Laconia, yn meddu tiriogaeth o ddim mwy nag ychydig o filldiroedd. Y canlyniad, braidd anocheladwy, o fodolaeth cynnifer o daleithiau bychain, lled gyfartal o ran gallu, ydoedd rhyfeloedd aml rhwng y naill a'r llall. Yr oedd y drygau oeddynt yn deilliaw oddi wrth y sefyllfa hon ar bethau yn cael eu lluttal mewn rhan trwy ddylanwad y gynghorfa Amphictyonaidd, a chan y chwarëyddiaethau crefyddol, y gŵyliau a'r gwleddoedd, a gynnelid ar adegau penodol yn ngwahanol barthau Groeg; o herwydd ni cherid rhyfel yn mlaen yn ystod yr amser y byddent yn cynnal y chwarëyddiaethau, &c.

Yn y chweched ganrif o flaen y cyfnod Cristionogol, cynnyddodd Groeg yn gyflym mewn gwybodaeth a gwareiddiad. Yr oedd llenyddiaeth a'r celfyddydau breiniol yn cael eu diwyllio eisoes yn Athen dan nawdd Pisistratus a'i feibion; a dygwyd cynnyrchion gwledydd pellenig i Groeg gan fasnachwyr Corinth ac Ægina.

Y TRYDYDD CYFNOD.

*O ddechreuad y rhyfeloedd Persiaidd hyd farwolaeth Phylip o Macedon*, c.c. 336. Dyma y cyfnod ardderchocaf yn hanes Groeg. Bu y cymhorth a roddodd yr Atheniaid i'r Groegiaid yn Asia yn eu gwrthwynebiad i'r Persiaid, a'r rhan a gymmerasant yn llosgiad Sardis, cyn Crist, 499, yn achos i gynhyrfu Darius i ddial arnynt. Ar ol darostwng y Groegiaid yn Asia, anfonwyd byddin o Persia i Attica, ond llwyr ddinystriwyd

Digitized by Google

hi yn Marathon gan yr Atheniaid dan Miltiades, cyn Crist 490. Deng mlynedd wedi hyny, cyfeiriwyd holl allu yr ymherodraeth Bersiaidd yn erbyn Groeg: aeth byddin orfawr, yn cael ei harwain gan Xerxes yn bersonol, cyn belled ag Attica, ac ymostyngodd bron holl daleithiau Groeg iddi, oddi eithr Athen a Sparta. Ond methodd y rhyfelgyrch hwn hefyd. Dinystriwyd llynges Persia yn mrwydrau Artemisium a Salamis, a llwyr orchfygwyd y tir-filwyr yn y flwyddyn ganlynol yn Platæa yn Bœotia, cyn Crist, 479. Cyn y rhyfelgyrch Persiaidd, ystyrid Sparta gan y Groegiaid ereill fel y gallu cyntaf yn Groeg; gan hyny iddi hi y rhoddwyd prif lywyddiaeth y fyddin a'r llynges yn y rhyfeloedd Persiaidd. Ond yn ystod y rhyfel hon, gwnaeth yr Atheniaid aberthau mwy, a dangosasant fwy o wladgarwch a dewrder. Ar ol brwydr Platæa, ffurfiwyd cynghrair gan y taleithiau Groegaidd i'r dyben o gario yn mlaen y rhyfel yn erbyn y Persiaid. Ar y cyntaf rhoddwyd Sparta yn ben arno; ond darfu i'r cynghreiriaid, o herwydd eu bod yn ffieiddio gorthrwm Pausanius, y llywydd Spartaidd, roddi y flaenoriaeth i Athen. Yr oedd y cynghreiriaid, y rhai oedd yn gynnwysedig o drigolion ynysoedd a gororau y Môr Ægiaidd, i roddi eu cyfraniadau mewn arian a llongau; a rhoddwyd y gwaith o gasglu y swm oedd pob talaeth i'w thalu i Aristides. Penderfynwyd i'r swm blyneddol fod yn bedwar cant o dalentau (o ddeutu 115,000*p*.) a'r drysorfa gyffredin i fod yn Delos. Cariodd yr Atheniaid, o dan lywyddiaeth Cimon, y rhyfel yn mlaen gydag egni; a gorchfygasant lyngesoedd Persia, ac ysbeiliasant daleithiau glanforawl yr ymherodraeth hono. Yn ystod y cyfnod hwn cynnyddodd gallu Athen yn gyflym: yr oedd hi yn feddiannol ar olyniaeth o wladweinyddion enwog, megys Themistocles, Aristides, Cimon, a Pericles, a gwnaeth pob un o honynt ei ran i gynnyddu ei gallu, er eu bod yn wahanol yn eu golygiadau politicaidd. Codwyd hi i'w mawredd morwrawl gan Themistocles, cynnyddwyd ei chyllid gan Pericles, a thueddai ei llwyddiant cyffredinol, mewn cyssylltiad âg achosion ereill, i gynnyrchu mwy o goethder ynddi nag oedd yn bodoli mewn un rhan arall o Groeg. Diwylliwyd llenyddiaeth a'r celfyddydau, adeilyddiaeth, a cherfluniaeth, y rhai a ddefnyddiwyd i addurno y ddinas, a chariwyd hwynt allan i'r fath raddau o ardderchogrwydd na ragorwyd arno byth wedi hyny. Tra yr oedd gallu Athen yn cynnyddu, yr oedd Sparta mewn rhyfel â'r Messiniaid, y rhai oeddynt eto wedi gwrthryfela, ac yr oedd rhifedi mawr o gaethion Sparta wedi ymuno â hwynt, cyn Crist 464—404. Yn mhen amser dechreuodd Athen ymddwyn yn dra gorthrymus at y taleithiau cynghreiriol, ac i'w hystyried megys deiliaid, ac nid fel taleithiau annibynol mewn cynghrair. Yn eu hawydd i fwrw ymaith lywodraeth yr Atheniaid, erfyniodd y taleithiau annibynol ar Sparta eu cynnorthwyo; ac fel hyn, mewn cyssylltiad âg achosion ereill, dechreuodd y rhyfel rhwng Sparta ac Athen, yr hon a barhaodd am 27 mlynedd (c. c. 431—404), ac a adnabyddir yn gyffredin wrth yr enw y Rhyfel Peloponnesaidd. Terfynodd y rhyfel hwn trwy osod Sparta drachefn yn ben ar y taleithiau Groegaidd. Yn fuan ar ol terfyniad y rhyfel hwn, aeth Sparta i ryfel yn erbyn yr ymherodraeth Bersiaidd, yr hon a barhaodd o 400 i 394 c. c. Ac ymddengys fod y buddugoliaethau ysblenydd a gafodd Agesilaus, brenin Sparta, ar filwyr Persia yn Asia Leiaf, yn nghyd â gwendid amlwg yr ymherodraeth Bersiaidd, yr hwn oedd wedi ymddangos yn barod trwy waith 10,000 o Groegiaid yn encilio o ganol yr ymherodraeth Bersiaidd, wedi tueddu Agesilaus i goleddu y bwriad o ddadymchwelyd unbenaeth Persia; ond gorfodwyd ef i ddychwelyd i'w wlad ei hun i'w hamddiffyn yn erbyn cynghrair galluog oedd wedi ei ffurfio gan y Corinthiaid, y Thebaniaid, yr Argiviaid, yr Atheniaid, a'r Thessaliaid, i'r dyben o fwrw ymaith awdurdod Sparta. Fodd bynag, ni bu y cynghreiriaid yn llwyddiannus; a sicrhawyd uchafiaeth Sparta drachefn am amser byr, trwy wneyd heddwch cyffredinol (c.c 387), yr hwn a adnabyddir yn gyffredin wrth yr enw Heddwch Antalcidas. Deng mlynedd wedi hyny y dechreuodd y rhwyg rhwng Sparta a Thebes, yr hwn a arweiniodd i ryfel cyffredinol yn Groeg, a'r hwn a osododd Thebes am ychydig amser yn ben ar y taleithiau Groegaidd; ond ar ol marwolaeth Epaminondas, yn mrwydr Mantinea (c. c. 362), fe suddodd Thebes drachefn i'w dinodedd blaenorol. Fodd bynag, dinystriwyd uchafiaeth Sparta trwy y rhyfel hwn, a darostyngwyd ei gallu yn mhellach trwy adferiad Messenia i annibyniaeth (c.c. 369). O derfyniad y rhyfel hwn hyd deyrnasiad Phylip o Macedon, nid oedd yn Groeg yr un gallu yn llywodraethu. Nid oes dim yn angenrheidiol ei grybwyll yma ond yn unig y rhan a gymmerodd Philip yn y Rhyfel Sanctaidd (*Sacred War*), yr hon a barhaodd am ddeng mlynedd (c. c. 356—346), yn yr hwn yr ymddangosodd efe fel amddiffynydd y gynghorfa Amphictyonaidd, a'r hwn a derfynodd yn ngorchfygiad y Phociaid. Trwy gymhelliad Demosthenes, gwnaeth yr Atheniaid gynghrair â'r Thebiaid, i'r dyben o wrthsefyll Phylip; ond darfu i'w gorchfygiad yn Chæronea (c. c. 338), sicrhau yr uchafiaeth ar Groeg i frenin Macedon. Yn yr un flwyddyn, cynnaliwyd cynghorfa o'r taleithiau Groegaidd yn Corinth, yn yr hon y dewiswyd Phylip yn bencadlywydd y Groegiaid i fyned i ryfel oedd i gymmeryd lle yn erbyn Persia; ond trwy iddo gael ei lofruddio (c. c. 336), disgynodd cyflawniad yr anturiaeth ar ei fab Alexander.

Y PEDWERYDD CYFNOD.

*O esgyniad Alexander Fawr hyd oruchafiaeth Rhufain*, c. c. 146. Trwy ddylanwad buddugoliaethau Alexander, estynwyd dylanwad Groeg dros y rhan fwyaf o Asia i'r gorllewin i'r Indus. Ar ol ei farwolaeth bu ymryson rhwng ei lywyddion am lywodraeth y dwyrain, a sefydlwyd dwy ymherodraeth alluog, sef eiddo y Ptolemiaid yn yr Aipht, a'r Seleucidæ yn Syria. Yr oedd llywodraethau y breninoedd Syriaidd boreuol yn cymmeryd i mewn y rhan fwyaf o Asia Orllewinol, ond rhanwyd eu hymerodraeth yn fuan i amryw deyrnasoedd annibynol, megys Bactria, a Pergamos, &c., a siaredid yr iaith Roeg yn yr oll o honynt, nid yn unig yn y llys, ond i raddau helaeth yn y trefydd. Parhaodd Macedon i fod yn brif allu llywodraethol Groeg o farwolaeth Alexander hyd oruchafiaeth Rhufain. Ffurfiwyd cynghreiriau rhwng yr Ætoliaid a'r Achæaid—y cyntaf cyn Crist 324, a'r olaf cyn Crist 281—i'r dyben o wrthwynebu breninoedd Macedon. Gorchfygwyd Macedon gan y Rhufeiniaid (c. c. 197), a chyhoeddwyd y taleithiau Groegaidd yn annibynol. Fodd bynag, nid oedd eu hannibyniaeth ond enw yn unig, sef symmud o dan reolaeth breninoedd Macedon i fod o dan reolaeth pobl Rhufain; ac yn y flwyddyn (c. c. 146), darostyngwyd Groeg, a ffurfiwyd hi yn dalaeth

Digitized by Google

Rufeinig, dan yr enw Achaia, er fod rhai o'r dinasoedd, megys Athen, Delphi, &c., wedi cael y fraint o fod yn ddinasoedd rhyddion. Mae hanes Groeg wedi y cyfnod hwn yn ffurfio rhan o hanes yr ymherodraeth Rufeinig. Goresgynwyd hi gan y Gothiaid (B. A. 267), a thrachefn yn 398 dan Alaric; ac ar ol iddi fod yn meddiant y Croesgadwyr a'r Venetiaid, o'r diwedd hi a syrthiodd i ddwylaw y Tyrciaid, pan orchfygwyd Caer Cystenyn. Rhoddir crynodeb o'i hanes mewn amseroedd diweddarach yn yr erthygl nesaf.

*Iaith a Llenyddiaeth.*—Mae yr iaith Roeg yn ffurfio cangen o'r dosbarth helaeth o ieithoedd a adnabyddir wrth yr enw *Indo-Germanic.* Y mae wedi parhau i fod yn iaith lafaradwy am o leiaf dair mil o flynyddoedd, ac y mae wedi cael ei lledaenu i raddau helaethach nag unrhyw dafodiaith arall, os bydd i ni eithrio yr Arabic a'r Saesneg. Yr oedd wedi cyrhaedd graddau mawr o berffeithrwydd yn y nawfed ganrif, cyn y cyfnod Cristionogol; ac y mae yn debyg ei bod yn cael ei siarad y pryd hwnw, nid yn unig yn Groeg a'i thaleithiau lluosog, ond ei bod hefyd wedi ei lledaenu dros ran helaeth o Asia Orllewinol, trwy fuddugoliaethau Alexander. Y mae yn amlwg oddi wrth lyfrau y Testament Newydd fod y dosbarth isaf yn Palestina yn alluog i ymddyddan yn yr iaith Roeg, yn gystal ag yn y Syriaeg; ac ysgrifenwyd amryw o lyfrau y Testament Newydd yn yr iaith Roeg gan ddynion nad oeddynt wedi cael ond ychydig o addysg. Hefyd, yn yr Aipht, o dan y Ptolemiaid, daeth yn iaith rhan fawr o bobl y trefydd, a defnyddid hi mewn cyssylltiad â'r iaith frodorol i ymdrafod âg achosion y weinyddiaeth. Bu gorchfygiad y Groegiaid gan y Rhufeiniaid yn foddion chwanegol i ledaenu yr iaith Roeg; ac er fod ei myfyrio wedi cael ei gondemnio gan Cato, a lluaws ereill o'r hen ysgol, "hi a ddaeth yn fuan yn ddefod i'r dysgedigion Rhufeinaidd i ddarllen, siarad, cyfieithu, ac hyd yn oed i ysgrifenu yn yr iaith estronol hon." O dan lywodraethiad y Cesariaid addysgid iaith a llenyddiaeth Groeg, nid yn unig yn Athen a Rhufain, ond cynnelid athronwyr a rheithegwyr yn mhob rhan o'r ymherodraeth Rufeinig gan eu hysgolheigion lluosog. Ar ol cwymp yr ymherodraeth orllewinol, a diflaniad addysg yn y gorllewin, yr oedd llenyddiaeth ac athroniaeth Roegaidd yn cael eu diwyllio yn barhaus yn Asia a Chaer Cystenyn, lle y parhaodd yr iaith Roeg yn iaith lafaredig hyd nes y cymmerwyd y ddinas gan y Tyrciaid, yn y bymthegfed ganrif. Dyma yr amser, fel y bernir yn gyffredin, y daeth yn iaith farw; ond gellir deall yr anghreifftiau goreu o'r Roeg ddiweddar, fel y gelwir hi, gyda gradd o anhawsder, gan unrhyw un fyddo yn gydnabyddus â Groeg Xenophon a Demosthenes; ac y mae y tebygolrwydd rhwng yr hen iaith a'r ddiweddar yn ddigon i'n cyfiawnhau i ystyried yr iaith Roeg fel un sydd yn cael ei siarad o ddyddiau Homer hyd y dyddiau presennol. Gwel EGWYDDOR.

Rhenir yr iaith Roeg yn gyffredin i bedair tafodiaith: yr Æolic, Ionic, Doric, a'r Attic. Nid yw y Bœotian, Thessalian, Laconian, a'r Sicilian, ond yn unig adraniadau o'r pedair cyntaf. Fodd bynag, gellir lleihau y pedair tafodiaith i ddwy; sef yr Æolic neu'r Doric, a'r Ionic neu yr Attic. Siaredid y ddiweddaf, ar y cyntaf, yn ngogleddbarth y Peloponnesus ac Attica; y gyntaf yn mharthau ereill Groeg. Ysgrifenai y Groegiaid, yn gyffredin, hyd amser Alexander, yn y dafodiaith yr oeddynt wedi eu dwyn i fyny; ac felly y mae genym eu llyfrau yn y pedair tafodiaith. Ond effeithiodd rhif a rhagoriaeth y rhai oeddynt yn ysgrifenu yn yr Attic, yn raddol, i ddwyn Groegiaid ereill nad oeddynt enedigol o Attica i'w mabwysiadu; ac yn ddilynol galwyd y dafodiaith Atticaidd, wedi ei moddhau i raddau gan neillduolion tafodiaethau ereill, yn dafodiaith gyffredin neu Hellenaidd, yn yr hon y cyfansoddodd yr holl ysgrifenwyr Groegaidd rhyddiaethol, o ddyddiau Aristotle, eu gweithiau. Yr ysgrifenwyr yn y dafodiaith gyffredin hon oeddynt Aristotle, Theophrastus, Polybius, Diodorus, Strabo, Plutarch, Dionysius o Halicarnassus, Lucian, Ælian, Dion Cassius, Appian, ac amryw ereill; er fod rhai o'r ysgrifenwyr hyn, megys Lucian, Arrian, yn ei *Anabasis*, ac Ælian, &c., yn ymdrechu i ysgrifenu yn y dafodiaith Atticaidd bur, ac i ochel pob brawddeg nad oedd yn awdurdodedig gan ryw ysgrifenydd Atticaidd, megys Xenophon, neu Thucydides. Fodd bynag, ni ysgrifenid barddoniaeth yn y dafodiaith gyffredin hon: efelychwyd y dafodiaith Homeraidd gan yr holl feirdd dilynol; a pharhaodd beirdd yr ysgol Alexandriaidd, megys Apollonius a Callimachus, ac yn ddiweddarach hefyd Nicander, Oppian, ac ereill, i ysgrifenu yn y dafodiaith Homeraidd. Newidiwyd cryn lawer ar ddullwedd yr iaith Atticaidd yn y gwledydd lle yr ymsefydlodd y Macedoniaid; a chan mai Alexandria, yn yr Aipht, dan lywodraeth y Ptolemiaid, oedd y prif le yn yr hwn y myfyrid y dafodiaith hon, galwyd hi y dafodiaith Alexandriaidd neu Macedonaidd. Yn y dafodiaith hon yr ysgrifenwyd cyfieithiad y Deg a Thrigain o'r Hen Destament; ond prin y gellir ei ystyried yn anghraifft deg o'r iaith a siaredid yn Alexandria, o herwydd fod y cyfieithwyr Iuddewig wedi dwyn i mewn i'r cyfieithiad amryw frawddegau a chystrawiaeth Hebreaidd. Ysgrifenwyd y Testament Newydd yn yr un dafodiaith, o'r hon y mae wedi pasio gydag ychydig amrywiad i arddull y tadau, yr hon a elwir yn Roeg Eglwysig. Daeth y Groeg a siaredid yn Nghaer Cystenyn yn fwy llygredig, a dygwyd y fath nifer o eiriau estronol i mewn i'r iaith, fel y mae yn angenrheidiol cael geirlyfr cyn y gellir deall ysgrifenwyr yr ymherodraeth ddwyreiniol.

Gellir rhanu hanes llenyddiaeth Groeg i dri chyfnod: y cyntaf yn cyrhaedd o'r amseroedd boreuaf hyd ddechreuad llenyddiaeth Athen; yr ail yn cynnwys cyfnod blodeuog llenyddiaeth Athen; y drydedd yn cynnwys yr ysgrifenwyr o amser Alexander hyd gymmeriad Caer Cystenyn gan y Tyrciaid. Ni a derfynwn yr erthygl hon gydag ychydig sylwadau ar gynnydd llenyddiaeth Groeg.

Ymddengys fod y trefedigaethau Groegaidd yn Asia Leiaf wedi cyrhaedd graddau helaeth o wareiddiad yn fuan ar ol eu sefydlu, ac y mae yn debyg fod hyn i'w briodoli i'w hymdrafodaeth â'r Lydiaid a chenedloedd dwyreiniol ereill, ac hefyd am eu bod yn rhydd oddi wrth y chwyldroadau politicaidd yr oedd y fam wlad yn ddarostyngedig iddynt. Yn y dinasoedd Ioniaidd ac Æolaidd, ar gyffiniau Asia Leiaf, y dechreuodd llenyddiaeth Groeg; ac i'r Groegiaid a drawsblanwyd i Asia Leiaf yr ydym yn ddyledus am yr anghreifftiau sydd yn ein meddiant o farddoniaeth Roegaidd a chyfansoddiad hanesol. Pa un bynag a fydd i ni edrych ar yr *Iliad* a'r *Odyssey* fel gwaith un person unigol, neu waith amryw feirdd, rhaid i ni eu hystyried fel cyfansoddiadau Groeg-

Digitized by Google

aidd dwyreiniol, ac y maent yn brawf o'r perffeithrwydd yr oedd yr iaith wedi ei gyrhaedd yn y nawfed a'r ddegfed ganrif cyn y cyfnod Cristionogol. Nid ydys yn gwybod dim i foddlonrwydd am y beirdd oeddynt o flaen Homer. Crybwyllir am Olen gan Pausanias [ix. 27, 2] fel y mwyaf hynafol; dilynwyd ef gan Linus, Orpheus, a Musæus, ac amryw ereill. Yr oedd amryw ddarnau barddonol wedi eu lledaenu yn oesoedd diweddaraf llenyddiaeth Groeg mewn cyssylltiad âg enwau Linus, Orpheus, a Musæus, ac y mae rhai o honynt yn ein meddiant ni; ond nis gellir eu hystyried fel gweithiau cynnwynol yr hen feirdd crybwylledig. Ymddengys fod eu barddoniaeth hwy ar destynau crefyddol, a gelwid hwynt yn *emynau*. Yr oedd yr *Iliad* a'r *Odyssey* yn ffurfio rhan o restr o ganiadau a adnabyddir yn gyffredin wrth yr enw *Epic Cycle*. Dosberthid y caniadau a adnabyddir wrth yr enw hwn yn ol trefn dygwyddiadau gan ddysgawdwyr Alexandria, ac yr oeddynt yn cynnwys gweithiau amryw feirdd; o'r rhai, y mwyaf canmoladwy, ac eithrio Homer, oeddynt Hesiod, Arctinus (c. c. 775), Cinæthon (c. c. 765), Stasinus, Prodicus, Augias, a Lesches (c. c. 657). Cyfododd barddoniaeth delynol ar gwymp yr hanesgerdd, a chafodd feithriniad helaeth o gylch y flwyddyn c. c. 776, hyd ddechreu y rhyfeloedd Persiaidd. Ystyrid caniadau telynol y cyfnod hwn hyd yn oed yn yr adeg fwyaf blodeuog ar y farddoniaeth Athenaidd, megys y rhan fwyaf gwerthfawr o lenyddiaeth Groeg. Ond yn anffortunus, nid oes ond ychydig ddarnau o honynt ar gael, ac nid ydynt y fath ag i'n galluogi i ffurfio barn ar y pwnc. Yr oedd llawer o'r caniadau telynol yn ymylu ar yr hanesyddol, ac yn cynnwys testynau cân arwrol. Cenid hwynt gyda chymdeithiant cerddorol gan finteioedd o langciau a gwyryfon; ac yn mhen amser arferai rhyw berson wneyd ei ymddangosiad yn ystod gorphwysfäau y gân i adrodd hanes neu i bersonoli nodweddiad rhyw arwr enwog; ac i hyn y gellir cyfrif dechreuad y chwareugan (*tragedy*) Roegaidd. Ond ysgrifenid barddoniaeth delynol y Groegiaid at bob achlysur: defnyddiwyd hi gan Archilochus, Alcæus, a Hipponax, i oganu a sarhau personau; gan Tyrtæus, Terpander, ac Alcman, i gynhyrfu ysbryd milwraidd y Spartiaid; a chan Anacreon, Ibycus, a Mimnermus, i ddyrchafu pleserau y synwyrau a'r teimladau. Ysgrifenwyd amryw ganiadau addysgiadol, chwedlonol, a dammegol, &c., yn y chweched ganrif cyn Crist—yr adeg y dywedir fod Æsop yn byw—y rhai a fuont yn foddion i agor y ffordd i gyfansoddiadau rhyddieithol. Yr oedd y cyfansoddiadau hanesol boreuaf yn traethu yn benaf ar bynciau chwedlonol, ac nid oedd amryw o honynt braidd ddim mwy na'r caniadau cyfnodol wedi eu troi yn rhyddiaith. Ymddengys mai Cadmus o Miletus, yr hwn oedd yn byw yn y chweched ganrif c. c., oedd yr ysgrifenydd hanesol cyntaf. Ganwyd Herodotus, yr hwn sydd yn gwir deilyngu yr enw "tad hanesiaeth," yn y flwyddyn c. c. 484. Dechreuwyd myfyrio athroniaeth anianyddol yn Asia Leiaf ar ddechreu y chweched ganrif c.c., o dan ofal Thales o Miletus. Dilynwyd ef gan Anaximander, Anaximenes, Heraclitus, ac ereill; ond cymylwyd cymmeriad yr ysgol Ioniaidd yn fuan gan yr ysgolion Pythagoraidd a'r Eleataidd yn Italy. Dygodd Anaxagoras athroniaeth yr ysgol Ioniaidd i Athen; ond yr oedd yr athronwyr Athenaidd yn ddyledus i'r ysgol Eleataidd am egwyddorion cyntaf rhesymeg, yn yr hon y daethant mor ganmoladwy. Yr ydym yn ddyledus am y wybodaeth sydd genym am yr ysgol a sefydlwyd gan Socrates yn benaf i ysgrifeniadau Plato a Xenophon. Cafodd athroniaeth ei diwyllio i raddau helaeth ar ol dechreuad y cyfnod hwn. Cymmesurwyd ychydig ar athroniaeth yr athrofa, ar yr hon y bu Plato yn llywydd am yn agos i hanner can mlynedd gan Arcesilaus (c. c. 296); yr hwn a ystyrir fel sefydlydd yr athrofa ganolog, fel y gelwid hi er ei gwahaniaethu oddi wrth yr hen athrofa. Sefydlwyd yr athrofa newydd gan Carneades, yr hwn oedd yn byw tua chanrif ar ol Arcesilaus. Sefydlwyd yr ysgolion Peripatetaidd, Stoicaidd, ac Epicuriaidd, yn wahanredol, gan Aristotle, Zeno, ac Epicurus. Myfyrid yr athroniaeth Roegaidd, fel y sylwyd yn flaenorol, gan y Rhufeiniaid; a chynnelid lluaws o athrawon perthynol i'r gwahanol sectau, sef y Platoniaid, Peripatetiaid, Stoiciaid, a'r Epicuriaid, yn Rhufain, Athen, Alexandria, ac amryw ddinasoedd ereill yn yr ymherodraeth Rufeinig, trwy roddion gan y llywodraeth, neu trwy dâl personol gan eu hysgoleigion. Yr oedd amryw o'r tadau, megys Clement ac Origen, yn talu sylw mawr i'r athroniaeth Blatonaidd fel y dysgid hi y pryd hwnw yn Alexandria; ond lleihaodd myfyriaeth yr athroniaeth Roegaidd mewn canlyniad i gynnydd Cristionogaeth, a rhoddwyd terfyn hollol ar yr ysgolion yn y rhai y dysgid hi yn amser Justinian.

GROEG, TEYRNAS. Y mae teyrnas Groeg yn cynnwys tair o ranau helaeth; sef Groeg Ogleddol, y Peloponnesus, a'r Ynysoedd, y rhai ydynt yn gynnwysedig o'r Cyclades, rhai o'r Sporades, ac Eubœa. Y mae terfynau Groeg Ogleddol, fel y penderfynwyd hwynt gan ddirprwywyr y galluoedd cynghreiriol, sef Prydain Fawr, Ffrainc, a Rwssia, yn cael eu ffurfio gan linell ŵyrgam, yr hon sydd yn rhedeg dros y cyfandir yn agos i drum rhes o fynyddoedd perthynol i restr Mynydd Othrys, oddi wrth enau yr afon Surbiotico, yn y Culfor Pegasæaidd, neu Gulfor Volo, o ddeutu 39° 11′ lled. gog., 22° 42′ hyd. dwyr., ar y dwyrain, hyd bentref Mendihi (39° 3′ lled. gog., 21° 5′ hyd. dwyr.), ar y Culfor Ambraciaidd, neu Gulfor Arta, i'r gorllewin, yr hon sydd o ddeutu 137 o filltiroedd o hyd, ac a ddeffinir gan 95 o derfyn-nodau wedi eu gosod ar y pwyntiau mwyaf pwysig. Y mae Groeg yn gorwedd rhwng 36° 16′ a 39° 20′ lled. gog., a 20° 42′ a 26° 10′ hyd. dwyr. Y mae rhan gyfandirol y wlad yn cael ei therfynu i'r gogledd gan Albania (Epiris) a Trikhala (Thessaly); ac mewn lleoedd ereill gan Fôr y Canoldir. Y mae arwynebedd Groeg yn bymtheng mil a dau gant a phymtheg ar ugain o filltiroedd petrual, a'r boblogaeth o ddeutu miliwn a chwarter.

*Arwynebedd, Môrddarluniaeth, a Chymundebau Masnachol.*—Y mae prydwedd anianyddol Groeg yn gwahaniaethu yn fawr yn y tri pharth eang y sylwyd arnynt yn flaenorol. Ar y cyfan, mae y wlad yn cael ei hynodi gan afreoleiddrwydd ei ffurf, ei llinell derfyn a'i gwyneb anwastad, a meithder anghyffredin ei llinell arforawl; mae hi yn yr ystyr ddiweddaf, fel y sylwyd yn briodol, "yn cael ei hynodi yn mhlith gwledydd Ewropaidd gan yr un nodweddiad ag sydd yn hynodi Ewrop yn ei chyssylltiad a chyfandiroedd ereill [gwel EWROP, td. 588]. Y mae hyd mawr ei therfyn, o'i gymharu â maint ei harwynebedd, yn gyfryw, fel, gyda golwg ar y diweddaf, y mae yn llai na Phortugal; ac yn y golygiad cyntaf yr

Digitized by Google

fwy na'r holl orynys Byreneaidd." Y mae canolbarth y cyfandir yn fynyddig; ac y mae y gwastadeddau, y rhai ydynt yn gyffredin yn fychain a chulion, y rhan amlaf, yn agos i lan y môr, neu i enau yr afonydd, oddi eithr y rhai nad ydynt ond machwyon yn amgylchedig â bryniau uchel. Ar y gwastadeddau hyn y mae safleoedd dinasoedd mawrion yr amser gynt, a threfydd mwyaf llwyddiannus amseroedd diweddar.

Y mae Groeg Ogleddol, yr hon a derfynir i'r deheu gan Corinth, yn cynnwys hen diriogaethau Acarnania ac Ætolia, y rhai a ddynodir wrth yr enw Groeg Orllewinol, yn nghyd â'r eiddo Doris, Phocis, Bœotia, Attica, Megaris, gwlad y Locri Opuntii, a dyffryn y Sperchius, yr hwn sydd yn cynnwys y parthau a elwir Groeg Ddwyreiniol. Y mae y wlad gan mwyaf hefyd yn fynyddig. Y brif gadwen o fynyddoedd ydyw yr Œta, yr hon sydd yn dechreu wrth sianel Eubœa yn y dwyrain, ac yn ymrestyn ar draws y wlad tua'r gorllewin, gan ymuno â rhanau o fynydd Tymphrestus, yn Ætolia; a dyffryn Aspropotamos yn unig sydd yn ei gwahanu oddi fynyddoedd Acarnania ac Epirus. Mae cangenau o'r gadwen hon yn ei chyssylltu ar y deheu â mynydd Parnassus, yn Phocis, a'r mynyddoedd sydd yn gorwedd ar lanau gogleddol llyngelyn Corinth; ac ar y de-ddwyrain y mae mynyddau Helicon, Cithæron, a Parnes—y diweddaf o ba rai sydd yn gwahanu Bœotia oddi wrth Attica.

Yr ail randir mawr o deyrnas Groeg ydyw gorynys y Peloponnesus, neu y Morea. Mae canolbarth y Peloponnesus yn wastadedd lled uchel, ac ar ei draws amryw resi o fryniau. Y brif restr o fynyddoedd ydyw y rhai a adnabyddid gan yr hynafiaid wrth yr enwau Erymanthus, Lampe, a Cyllene. Mae trumau uchaf y Morea, sef Taygetus yn y deheu, a Cyllene yn y gogledd, o ddeutu 5,000 o droedfeddi uwch law gwyneb y môr. Y prif wastattiroedd ydynt Elis, Inachus, ac Argos. Yr afonydd penaf ydynt Alpheus, Eurotas, Pamisus, a'r Peneus.

Mae y trydydd rhandir mawr o wlad Groeg yn cynnwys yr ynysoedd yn y Môr Ægeaidd, sef y Cyclades a'r Sporades, yn nghyd âg ynys fawr Eubœa.

Nid yw Groeg yn cynnwys afonydd mordwyol; ac y mae yr ychydig sydd yn rhedeg drwy'r flwyddyn yn lled fychain yn yr haf, a rhai o'r afonydd mwyaf yn sychu yn llwyr. Mae yr Achelous yn parhau, megys yn amser Homer, i fod yn frenhines afonydd Groeg. Y ffrydiau pwysicaf ereill ydyw y Cephissus, Ilissus, Acheron, Sperchius, Alpheius, Pamisus, Inachus, ac Eurotas, &c. Y mae y diffyg o afonydd mordwyol yn cael ei wneud i fyny gan forgeinciau a morgamlesydd, y rhai a gyrhaeddant yn mhell i'r tir o bob ochr. Meddant gyfleusderau pwysig i fasnach, ac y maent hefyd yn chwanegu llawer at harddwch yr olygfa. Y benaf o'r rhai hyn yw morgilfach eang Corinth; yr hwn, gan fod mynyddoedd uchel o'i amgylch, oddi eithr y mynediad iddo, sydd yn ymddangos fel llyn canoldirol, a thrwy hyny y mae yr olygfa yn un o'r rhai prydferthaf. Y morgilfachoedd mawrion ereill ydynt Ambracia, neu Arta, Volo, Egina, Argos, neu Nauplia, Kolokythi, a Koron, &c. Y llyn mwyaf ydyw y Copais, neu Topolias; a'r llynoedd mawrion ereill hefyd ydynt Apokuro, neu Trichonis, Valto, a Lykuria, &c.; ond nid yw y mwyafrif o'r llynoedd nemawr amgen na morfeydd, a bydd llawer o honynt yn hollol sychion yn yr haf. Nid oes yno gamlesydd (*canals*). Ychydig o ffyrdd cymhwys i gerbydau sydd yn Groeg; o herwydd y mae y Groegiaid wedi bod yn dra esgeulus gyda golwg ar wneud ffyrdd newyddion, a chadw yr hen mewn trefn. Gwnaed y sarnau palmantedig a geir mewn amryw barthau o'r wlad gan y Venetiaid neu y Tyrciaid

*Daiareg a Mwnyddiaeth*, &c.—Mae rhesfynyddau Œta, Parnassus, a Helicon, yn gyfansoddedig o gareg galch lwyd; a gellir ystyried hon fel craig benaf y wlad. Yn mynydd Pindus, y prif greigiau ydynt yr ithfaen, y sarthfaen, a'r gloddlech, &c. Y mae y creigiau calch yn cynnwys cryn lawer o'r gallestr. Ceir llawer o haenau trianol (*tertiary*) ar hyd glanau y Peloponnesus yn orlawn o gregin ffosilaidd. Y mae olion chwyldroad llosgfalaidd yn mhob rhan o Groeg. Ceir ogofäau ac agenau mewn amryw fanau, o'r rhai y bydd mygdarth brwmstanaidd a thra drygsawrus yn cyfodi o honynt; gwneid defnydd o'r ogofäau hyn i ddybenion crefyddol yn yr amser gynt. Y mae ffynnonau mwnawl poethion ac oerion hefyd yn aml yn y wlad. Ceir ychydig, a dim ond ychydig, o fwnau yn Groeg. Cafwyd aur, arian, a phlwm, yn Attica, yn ynysoedd Seriphos a Siphnos, a lleoedd ereill; ac er na chloddir nemawr am danynt, y maent yn mhell o fod yn ddysbyddedig. Ceir yno hefyd sinc, cobalt, copr, a brwmstan, &c. Mae haiarn i'w gael yn Eubœa, Scyros, a Laconica. Ceir gwythienau lled gryfion o lo hefyd yn y lleoedd a enwyd, ac hefyd yn Elis. Y mae amryw fathau o fynor prydferth mewn rhai manau.

*Hinsawdd, Tir, a Chynnyrchion.*—Mae yr hinsawdd yn Groeg yn fwy cyfnewidiol, mae yn debyg, nag mewn un wlad arall o'i maint yn Ewrop. Dywed Syr W. Gell ei fod ef, yn mis Mawrth, wedi myned o Kalamàta, ar lan y Messenia, tra yr oedd hi yn haf yno, ac iddo ei chael yn wanwyn yn Sparta, ond yn auaf yn Tripolitza, ar ucheldiroedd gwastadedd Arcadia. Drachefn, tra y mae y gwres yn angerddol yn Argos, yn mis Medi, bydd y gauaf yn dyfod i mewn yn nghymmydogaeth mynyddoedd y Peloponnesus. Mae y gauaf yn fyr yn y parthau ar lan y môr, ond y mae yr oerni yn angerddol. Y mae y gauaf yn cael ei gyfyngu yn Athen i Ionawr a Chwefror. Y mae y gauaf yn hwy yn y canoldiroedd; gorchuddir y mynyddoedd âg eira yn Rhagfyr, ac ni thawdd hyd fis Mehefin. Mae y gwanwyn a mihangel yn wlybyrog; ond bydd yr awyrgylch yn hyfryd. Mae yr haf yn gyffredin yn hir a phoeth: ond ymddengys fod hirfaith haf Groeg, yr hwn a fawrygir gan feirdd a theithwyr, wedi ennill ei enw oddi wrth hinsawdd neillduol Attica, lle y mae yr awyrgylch yn sychach, a'r tymmeredd yn dynerach, nag un man arall, a lle y mae yr awyr yn ystod y gwanwyn a mihangel, yn gystal ag yn yr haf, yn berffaith dawel, a braidd yn anghymharol o ran ei burdeb, a'r ffurfafen yn gwisgo glesni arianaidd yn barhaus. Y mae y cynauaf yn gyffredin yn Attica yn Mai; ac mewn rhanau ereill o Groeg yn Mehefin. Bydd ystormydd ffrochwyllt yn aml yn y gwanwyn a'r mihangel. Nid yw mân ysgytiadau y ddaiargryn yn bethau anghyffredin. Weithiau, bydd yr awyr afiach sydd yn agos i lanau y môr ac ar fin y llynau corsog, yn cynyrchu clefydau heintus; ond yn mhob man arall y mae y wlad, ar y cyfan, yn iachus.

O ran ei ffrwythydd, y mae Groeg yn ymde-

bygu i daleithiau deheuol Italy. Y mae y winwydden, yr olewydd, y ffigysbren, yr orain, y pomgranad, cotwm, tybaco, myrtwydd, cypreswydd, a bytholwyrdd cyffelyb, yn tyfu yn rhagorol yn y gwastadeddau, ac ar barthau isaf y mynyddoedd. Uwch law 1,500 troedfedd, mae y ffawydd, castanwydd, ffawydd gwyn, pinwydd, a choed ereill y fforest, yn tyfu. O ddeutu 3000 i 5000 o droedfeddi o uchder, y pinwydd yn unig sydd yn blaguro. Weithiau ceir y pinwydd 500 troedfedd yn uwch; ond uwch law hyny nid oes ond ychydig o blanigion gwylltion yn tyfu.

Y mae y fforestydd ardderchog, â pha rai unwaith y gwisgid y mynyddoedd, wedi eu dinystrio gan mwyaf; a hyny, i fesur mawr, trwy ddiofalwch neu wancusrwydd y trigolion eu hunain; ac y mae y mynyddoedd yn bresennol yn noethion, a'r ffynnonau wedi sychu mewn canlyniad i hyny. Fodd bynag, y mae coedwigoedd eto ar y Taygetus, Mynydd Cronion, a mynyddoedd ereill Arcadia, a Megaris, ar fynyddoedd Parnassus a Helicon, ac ar ran o restr Œta.

Y mae adnoddau y wlad yn deilliaw yn benaf oddi wrth amaethyddiaeth; ond y mae amaethyddiaeth, ac offerynau amaethyddol, mewn sefyllfa dra phell yn ol. Nid oes mwy na'r ddegfed ran o arwynebedd y wlad yn cael ei drin; ac o hyny y mae pum rhan o chwech yn perthyn i'r eglwys, neu y llywodraeth; y rhai, gan mwyaf, a ddaethant i feddiant o'r eiddo a berthynai yn flaenorol i'r llywodraeth a'r temlau Tyrcaidd. Y mae y gwinllanoedd oll o'r bron yn eiddo personol. Tyfir ŷd yn gyffredin ar y gwastadeddau. Tyfir gweinth, haidd, a grawn India; ni wneir ond ychydig ddefnydd o geirch a rhug. Tyfir reis yn ngwastadeddau Argos a Marathon, ac yn y rhandiroedd morfaog ar hyd yr arfordir. Y mae tybaco a chotwm yn tyfu yn agos i Argos a Kalamata. Gwin yn benaf yw cynnyrch yr ynysoedd: a gwneir digon at wasanaeth y wlad. Meithrinir rhufon (*currants*) mewn amryw randiroedd, yn enwedig ar hyd glanau y Peloponnesus; ac y mae y gofyn sydd am danynt yn Lloegr wedi bod yn gymhelliad i chwanegu eu meithriniad. Y mae yr olewydd a dyfir yn helaeth yn Attica, Megaris, a Salona, o ansawdd dda; ond y mae y wybodaeth o'r gelfyddyd i wasgu a phuro yr olew yn dra anmherffaith. Gwneir sidan yn Messenia, Laconica, a Tinos, ac ynysoedd ereill; ond nid yw cystal a sidan Italy. Y mae mêl yn gynnyrch pwysig iawn, ac allforir swm mawr o hono. Allforir cryn lawer o gŵyr o Nauplia. Gyda golwg ar goed ffrwythau — y pren almon, y ffigysbren, y castanwydd, yr oraın, a'r lemon, sydd yn ffynu oreu; ond tyfir amryw fathau ereill. O herwydd ei hanwastadrwydd, gellir ystyried Groeg hyd yn hyn yn wlad fugeiliol yn hytrach nag amaethyddol. Fodd bynag, nid yw anifeiliaid corniog yn lliosog, o herwydd defnyddir hwynt bron yn gwbl at waith amaethyddol. Y mae y deadellau defaid a geifr yn lliosog, y rhai a yrir i'r mynyddoedd yn y gwanwyn, ac a ddygir yn ol i'r gwastadeddau ar ol y cynauaf. Mae moch yn brinion, oddi eithr yn Arcadia, ac ystyrir eu cig yn afiach. Yr unig laeth a ddefnyddir ydyw llaeth defaid a geifr; ac y mae yr ymenyn a'r caws a wneir o hono yn dra gwael. Defnyddir asynod a mulod yn arbenig i gario pynau. Y mae y meirch o rywogaeth gref, ond esgeulusir hwynt.

Mae llaw-weithfeydd Groeg bron yn deuluol, gan fod yr ychydig nwyddau angenrheidiol yn cael eu gwneyd gan y teuluoedd gwerinol. Gwneir y nwyddau hyny sydd yn angenrheidiol at wasanaeth cyffredinol yn y trefydd; megys sebon, lledr, brandi, a gwirodydd ereill, gwinegr, hetiau, sidan, styffiau gwlân a chotwm, llestri pridd, cyllyll, &c. Y mae adeiladu llongau a gwneyd hwyliau yn myned yn mlaen mewn rhai manau ar radd eang. Gwneir llawer o halen yn y morlynoedd o gylch Mesolonghi, a lleoedd ereill.

Y mae trafnidiaeth a morwriaeth Groeg yn benaf yn mhorthladdoedd Nauplia, Mesolonghi, Patras, Galaxidi, ac ynysoedd Hydra, Spezia, ac uwch law y cwbl, Syra, yr hon yw canolbwynt morwriaeth agerawl y Levant. Y mae yno dref hardd wedi ei hadeiladu er pan ddaeth y deyrnas yn annibynol. Y mae llongau masnachol Groeg o fil i ddwy fil o nifer, heb law mân lestri neu gychod arfordirol. Y mae amryw o'r marsiandwyr yn gyfoethog iawn, a byddant yn cynnorthwyo eu gilydd, a chynnorthwyir hwythau gan eu cydwladwyr goludog, y rhai ydynt wedi ymsefydlu yn mhob cwr o'r Levant ac yn mhorthladdoedd Môr y Canoldir. Prif waith y llestri Groegaidd ydyw cario masnach yn mlaen, yn enwedig mewn ŷd, rhwng porthladdoedd Môr y Canoldir a'r Môr Du, a'r fasnach rhwng Lloegr, Ffrainc, a Germany. Y mae yn agos yr holl fasnach mewn ŷd rhwng Môr y Canoldir a Lloegr, yr hon sydd yn werth dros 4,000,000*p*. yn y flwyddyn, yn nwylaw y masnachwyr Groegaidd. Y prif allforion ydyw rhufon, ffigys, gwlân, sidan, mês, olew, yspwng, gwin, tybaco, cŵyr, &c. Y dadforion ydynt nwyddau cotwm Manchester a nwyddau gwlân Lloegr a Germany, yn nghyd â nwyddau celyd ac amryw fân nwyddau a phethau dewisol o'r gwledydd a grybwyllwyd uchod, yn nghyd â Ffrainc. Y mae rhan bwysig o drafnidiaeth y masnachwyr Groegaidd yn gynnwysedig mewn ariandai a gweithrediadau y gyfnewidfa, y rhai ydynt ar raddfa dra helaeth.

*Trigolion.* - Y mae y tri dosbarth i ba rai y rhenir y deyrnas yn cael eu preswylio gan boblogaeth hollol wahanol o ran eu nodwedd anianyddol a moesol. Dynodir trigolion Groeg Ogleddol wrth yr enw Roumeliotiaid, a thrigolion y Peloponnesus wrth yr enw Moreotiaid, ac nid oes ond ychydig gymdeithas rhyngddynt. Y mae y Roumeliotiaid yn bobl filwraidd, ryfelgar, ac wedi cadw math o annibyniaeth anwar yn mynyddoedd y canolbarth, ac nis gallodd y Tyrciaid erioed eu darostwng. Ar y llaw arall, ymostyngodd y Moreotiaid dan iau y Tyrciaid; ac yr oedd eu hesgobion, mewn cyssylltiad â'r pashiaid, a goruchwylwyr ereill yr ymherawdwyr Tyrcaidd, yn cyfranogi o anrhaith eu cydwladwyr. Tybir fod trigolion mynyddoedd Parnassus, Agrapha, Baltos, Xeromenos, yn Roumelia, a rhanau canolbarthol ereill o Ætolia, yn deilliaw o'r Helleniaid; ond y mae gwerinwyr y gwastadeddau, gan mwyaf, yn Valachiaid, Bulgariaid, neu Albaniaid, ac y maent yn bobl foesol ac o duedd heddychol Y mae poblogaeth y trefydd yn agos i lanau y môr yn gymmysgedd o amryw genedloedd.

Yn y Peloponnesus, meddiennir Argolis o Triphylia gan y llinach Albanaidd; mae y gweddill o'r boblogaeth yn siarad Groeg. Yn y trefydd, mae y boblogaeth i raddau helaeth yn gymmysgedig o deuluoedd a ymfudasant o'r Levant, ar ol buddugoliaeth y Tyrciaid, i ddilyn amryw grefftau, neu yn oruchwylwyr dan y Beyaid a Thyrcaid cyfoethog ereill.

Y mae trigolion yr ynysoedd yn gymmysgedd o Albaniaid a Groegiaid, disgynyddion goresgynwyr Lladinaidd y canoloesoedd. Yr Albaniaid,

Digitized by Google

bron yn ddieithriad, sydd yn preswylio yn Hydra a Spezia: mae yn debyg fod yr ymfudwyr Chiotaidd a Psariotaidd, sydd yn awr yn poblogi Syra, o darddiad Hellenaidd. Yn Naxos, Santorin, a rhai ynysoedd ereill, y mae math o foneddwyr tiriogaethol, y rhai a ddywedant eu bod yno er amser y Croesgadwyr, ac y maent yn perthyn i'r Eglwys Ladinaidd neu yr Eglwys Orllewinol. Yn Tinos, mae y gwerinwyr yn feddiannwyr, ac y maent yn trin eu tir gyda gofal mawr. Preswylir Mikoni a Milo gan forwyr a masnachwyr gweithgar a llwyddiannus.

Heb law y tylwythau hyn, ymfudodd lluaws mawr o ymnoddwyr milwraidd o amryw ranau o ymherodraeth Twrci, ar wahanol adegau, ar ol y chwyldroad, megys y Candiotiaid, y Souliotiaid, o Epirus, yr Olympiotiaid o'r mynyddoedd rhwng Thessaly a Macedonia, &c., a chorff cymmysg o Fanariotiaid o Gaer Cystenyn, ymfudwyr o'r ynysoedd Ioniaidd, Groegiaid o Asia, Epirotiaid, ac anturiaethwyr o Italy, Ffrainc, a rhanau ereill o Ewrop orllewinol, i Groeg.

Y mae trefn cymdeithas yn Groeg, er yr amseroedd boreuaf, yn sylfaenedig ar awdurdod rhieni. Penderfyna y tad dynged ei blant mewn dull diammodol—eu galwedigaeth, a'u priodas, &c., a hyny heb gymmaint a gofyn eu cydsyniad.

Y mae y mwyafrif o drigolion y wlad yn byw mewn pentrefydd, er mwyn diogelwch a chydamddiffyniad. Bydd penau teuluoedd yn ymgasglu i'r eglwys unwaith yn y flwyddyn i ethol swyddogion bwrdeisiol, sef un dros bob pentref neu gwmmwd, a thri dros bob tref. Bydd y swyddogion hyn yn gweithredu fel ynadon heddwch a thrysoryddion y cwmmwd: ni byddant yn cael cyflog, a dewisir hwynt yn gyffredin o blith y tirfeddiannwyr, neu bendefigion y lle, y rhai ydynt yn ffurfio pendefigaeth Groeg. Bydd cynghor cymmydol, yn gynnwysedig o'r rhai fyddont wedi llenwi swydd ynadon, yn eu cynnorthwyo yn eu gwaith o osod trethi lleol, &c. Bydd dirprwywyr pob cwmmwd yn ymgynnull yn mhrif dref y dalaeth i ethol tri neu chwaneg o ynadon taleithiol; y rhai, wedi eu cyssylltu â'r ynadon lleol, ydynt yn ffurfio cynghor er llunio mesurau gyda'r rhaglaw neu yr awdurdod boliticaidd o barth i'r heddweision, gosod trethi, a materion ereill perthynol i'r cwmmwd.

*Rhaniadau, Llywodraeth,* &c.—Y mae Groeg yn rhanedig i ddeg o randiroedd, a llywodraethir pob un o honynt gan raglaw: dosberthir y rhandiroedd hyn drachefn i naw a deugain o is-randiroedd, a rhenir y rhai hyn drachefn i amryw gannoedd o ddosbarthiadau llai.

Unbenaeth dreftadol gyfansoddiadol ydyw y llywodraeth. Y mae y brenin yn meddu yr holl freintiau cyffredinol a berthynant i benadur mewn llywodraeth gyfansoddiadol, a chynnorthwyir ef gan gynghor o weinidogion. Mae y llywodraeth yn gyfansoddedig o senedd—aelodau yr hon a enwir gan y brenin, ac y maent yn dal eu swydd am eu hoes—a thŷ o gynnrychiolwyr, yn cynnwys dirprwywyr wedi eu hethol gan amryw drefydd a dosbarthiadau y deyrnas.

Y mae y cyllid yn cael ei wneyd i fyny oddi wrth ddegwm y cynnyrch, yr hwn a delir gan y tirfeddiannwyr, ac oddi wrth y bedwaredd ran o gynnyrch y maenorau cenedlaethol, yn nghyd â threthi neillduol ar ddadforion ac allforion, halen, a stampiau, &c. Nid yw swm cyllid Groeg ond ychydig dros 700,000*p.*; ac y mae hyny i'w gyfrif, fel y dywedir yn gyffredin, i ymddygiad gwarthus y gwahanol is-swyddogion sydd yn y wlad. Y mae o ddeutu un rhan o bedair yn angenrheidiol i dalu llogau a gofynion ar y ddyled wladol, yr hon sydd o ddeutu dwy filiwn a hanner o bunnau; ac y mae y galluoedd cynghreiriol—Prydain Fawr, Ffrainc, a Rwssia—wedi ymrwymo y bydd i'r ddyled gael ei thalu.

Yr oedd nerth rhifyddol byddin Groeg yn 1855 yn 8,600, rhwng swyddogion a milwyr, trwy gyfrif yr hen filwyr dewrion oeddynt yn gwasanaethu yn y rhyfel dros annibyniaeth eu gwlad, a'r heddweision, y rhai ydynt o ddeutu 1450 o nifer, ac yn wasgaredig yn fân gyrff trwy y deyrnas. Heb law y fyddin reolaidd, mae cartreflu wedi ei gyfodi, yn cynnwys cwmniau o filwyr afreolaidd, i wylio y glenydd ac i ddarostwng ysbeilwyr. Pedair blynedd ydyw tymmor y gwasanaeth milwraidd. Y mae yr holl wrywiaid o ddeunaw i ddeg ar ugain, oddi eithr gwŷr priod, unig feibion, gwŷr eglwysig, myfyrwyr, a swyddogion yn ngwasanaeth y llywodraeth, &c., yn rhwym i wasanaethu yn y fyddin.

Y mae y llynges yn cynnwys dwy gadlong o 26 o ynau, 2 agerlong, a 35 o longau bychain a chychod arfog, y rhai a ddefnyddir yn benaf i wylio yr arfordiroedd a darostwng môrladrad. Y mae gorsaf freninol y llynges, yr arfdy, &c., yn Poros. Yn Athen y mae y coleg milwraidd.

Nid yw deddflyfr Groeg hyd yn hyn, ar y cyfan, ond talfyriad o'r Basilica a gyfansoddwyd yn y bedwaredd ganrif ar ddeg gan y Byzantine Armenopoulos, a adnabyddir wrth yr enw "Llyfr y Cyfreithiau;" ond y mae y cyfreithiau perthynol i fasnach, troseddau, a diwygiadau, yn sylfaenedig ar y Deddflyfr Napoleonaidd. Y prif lŷs cyfreithiol ydyw yr Areopagus, yn Athen. Heb law hyny, y mae brawdlysoedd a llysoedd ynadon yn mhrif drefydd y deg rhandir, yn nghyd âg amryw lysoedd israddol. Y mae prawf trwy reithwyr wedi ei sefydlu; ond nid ydyw yn gweithio i foddlonrwydd.

Yn nechreuad teyrnasiad y brenin Otho pasiwyd deddf yn argymhell sefydlu ysgolion yn mhob talaeth yn y deyrnas Ond fel amryw fesurau da ereill, nid ydyw wedi ei gario i weithrediad; er hyny y mae addysg genedlaethol yn cael cefnogaeth helaeth, a gwerthfawrogir ei manteision yn gyffredinol. Y prif sefydliad addysgiadol ydyw athrofa Athen, yr hon sydd yn un o'r adeiladau diweddar harddaf yn y ddinas; ac y mae ynddi o ddeutu pedwar ar bymtheg ar ugain o broffeswyr, a thua chwe chant o fyfyrwyr, mewn duwinyddiaeth, y gyfraith, athroniaeth, meddygiaeth a chyfferiaeth; ac y mae ynddi lyfrgell yn cynnwys dros 80,000 o gyfrolau. Heb law hyn, y mae saith o golegau yn y prif drefydd, gydag o ddeutu tri a deugain o broffeswyr, ac yn cynnwys dros fil o efrydwyr; hefyd, y mae athrofa eglwysig, ysgol gelfyddydol, a choleg boneddigesau, yn Athen, ac ysgol amaethyddol yn Nauplia. Y mae yno luaws mawr o ysgolion eilraddol ac ysgolion cyffredin, yn y rhai yr addysgir miloedd lawer o fechgyn a genethod, yn nghyd â sefydliadau addysgol ereill. Y mae yno hefyd amryw sefydliadau gwyddorol, celfyddydol, a hynafiaethol, gydag amgueddfäau, a llyfrgelloedd, y rhan fwyaf o ba rai sydd yn y brifddinas. Y mae nifer y cyhoeddiadau cyfnodol a argreffir yn Groeg, dros gant.

*Hanes.*—Bu y Groegiaid am amser maith yn coleddu y gobaith am gyfleusdra i ymryddhau oddi tan iau y Tyrciaid: ac er hyrwyddo eu hamcan, yr oeddynt wedi ffurfio cymdeithas ddirgelaidd alluog, gyda dirprwyaeth drefnus, yr hon a

ledaenwyd drwy bob parth o ymherodraeth Twrci, ac ar doriad allan y rhyfel rhwng yr ymherawdwr ac un o'i ddeiliaid galluocaf — Ali Pasha—yn 1821, hwy a gawsant y cyfleusdra hir-ddysgwyliedig. Felly, ar y 6ed o Ebrill, 1821, cyhoeddwyd proclamasiwn gan archesgob Patras, mewn modd difrifol, yn galw ar y genedl i godi fel un gŵr; yr hyn a wnaed yn ddieithriad. Ar y cyntaf, bu y Groegiaid yn llwyddiannus; ond dilynodd aflwyddiant yn fuan. Parhaodd yr ymdrechfa am saith mlynedd, ac arferwyd y creulondeb mwyaf echryslawn gan y pleidiau; ac amlygodd y Groegiaid, yn yr ymrysonfa, wroldeb teilwng o'u hynafiaid. Llwyddodd y Groegiaid i yru eu gelynion o'r Peloponnesus, a'u gorchfygu ar y môr. Ond pan welodd yr ymherawdwr na allai eu darostwng, efe a alwodd am gymhorth cadluoedd dysgybledig pasha yr Aipht, y rhai a oresgynasant y Peloponnesus; a daeth achos annibyniaeth Groeg eilwaith yn bwnc ammheus. Pa fodd bynag, fe gyfododd teimlad cenedloedd Cristionogol i'w bwynt uchaf, a phenderfynodd y tri gallu, sef Prydain Fawr, Ffrainc, a Rwssia, i roddi attalfa ar y rhyfel hwn oedd yn cael ei gario yn mlaen i ddifodi y Groegiaid. Trwy fuddugoliaeth Navarino, a ennillwyd gan y llyngesoedd cynghreiriol, Hydref, 1827, gorfodwyd cadluoedd yr Aipht i adael y Morea. Sefydlodd cynnadledd Llundain, Mawrth, 1829, y pwnc o annibyniaeth Groeg fel teyrnas, a bu rhyfelgyrch llwyddiannus y Rwssiaid yn erbyn y Tyrciaid yn ystod yr un flwyddyn yn foddion i dueddu y Sultan i'w gydnabod mewn erthygl yn nghynnadledd Adrianople, Medi, 1829. Ac yn Ionawr, 1830, llwyr sefydlwyd annibyniaeth Groeg gan gynnadledd Llundain. Yn y cyfamser yr oedd llywodraeth Groeg wedi myned dan lawer o gyfnewidiadau olynol, ac yr oedd y wlad mewn sefyllfa hynod annhrefnus. Pan sicrhawyd annibyniaeth Groeg trwy gyfryngiad y tri gallu cynghreiriol, darfu i'r senedd, sef dirprwywyr dros diriogaethau Groeg, appwyntio iarll John Capodistria, genedigol o Corfu, i fod am saith mlynedd yn ben ar y weinyddiaeth newydd, dan yr enw "llywydd." Fodd bynag, yr oedd ei fesurau yn dra anmhoblogaidd gyda'r blaid genedlaethol. Torodd gwrthryfel allan, ac ymddangosai y wlad fel yn syrthio eilwaith i aflywodraeth. Llofruddiwyd Capodistria yn Nauplia, Hydref 8fed, 1831, gefn dydd goleu, yn nrws eglwys St. Spiridion. Dilynwyd ef yn y rhaglywiaeth gan ei frawd, Augustin Capodistria; ond gan fod y rhyfel cartrefol yn parhau, bu raid iddo roddi ei swydd i fyny. O'r diwedd cynnygiodd y galluoedd cynghreiriol goron Groeg, yr hon a wrthodwyd gan y tywysog Leopold o Saxe Coburg, i Otho, mab ieuangaf brenin Bavaria, a derbyniwyd y cynnygiad. Yn Mehefin, 1835, gan fod y brenin wedi dyfod i'w oed, efe a ymgymmerodd â gorchwylion y llywodraeth. Gwrthododd Otho sefydlu cyfundrefn gynnrychioladol i drefnu achosion y llywodraeth, a pharhaodd i lywodraethu mewn dull annibynol hyd Medi, 1845, pan gynnyrchwyd cyfnewidiad trwyadl yn y gyfundrefn trwy chwyldroad; yr hwn, o ran y medr a'r llwyddiant gyda pha rai y cynllunïwyd a y cariwyd ef allan, sydd bron yn ddigyffelyb. Wedi i arweinyddion y blaid gyfansoddiadol orphen eu cynlluniau, ac ennill rhan fawr o'r fyddin a lluaws o'r bobl i ymuno â hwynt, hwy a amgylchasant balas y brenin gyda milwyr, ac a gyflwynasant iddo freintlen, yn yr hon y gofynent am lywodraeth gyfansoddiadol, &c., yn nghyd â diswyddiad y Bavariaid atgas, a gweinidogion tramor ereill. Rhoddwyd ei ddewis i'r brenin i arwyddo y freintlen neu i adael Groeg ar unwaith ac am byth, mewn llong oedd wedi ei pharotoi i'w dderbyn. Wedi ychydig betrusdod, arwyddodd y brenin y freintlen, canys yr oedd yn gweled ei hun yn gwbl yn nwylaw y blaid gyfansoddiadol.

Yr unig ddygwyddiadau o ddyddordeb cyffredinol ar ol hyn oedd cyfryngiadau galluoedd tramor, o herwydd rhagrith a thwyll llywodraeth Groeg. Cymmerodd y cyntaf le yn 1850. Mewn canlyniad i waith gweinidogion Otho yn gwrthod rhoddi iawn i rai o ddeiliaid Prydain am y niweidiau yr oeddynt wedi eu derbyn, gwarchaewyd porthladdoedd Groeg gan lynges Prydain am dri mis, cyn i'r llywodraeth hono gydsynio i dalu y symiau gofynol. Cymmerodd y cyfryngiad diweddaf le tua naw mlynedd yn ol. Ymddangosai y rhyfel rhwng Twrci a Rwssia, ar ddechreu y flwyddyn 1854, fel yn rhoddi cyfleusdra i ryw wladgarwyr Groegaidd, a alwent eu hunain felly, er nad oeddynt mewn gwirionedd ond offerynau Rwssia, i ennyn ysbryd cynhyrfus y rhan fwyaf anwar o'r wladwriaeth, gyda'r dyben o wneyd ymosodiad ar daleithiau cymmydogaethol Twrci. Casglwyd yn nghyd luaws mawr o'r segurwyr a'r dyhirod yn fuan trwy ddylanwad y gobaith am ysbail—hudoliaeth nas gall y Groegiaid diweddar ei gwrthsefyll; a chwyddwyd eu rhif yn ddirfawr gan gyrff o filwyr a ymunasant â hwynt, a hyny yn aml gyda'u swyddogion, heb un rhith o wrthwynebiad oddi wrth yr awdurdodau. Yr oedd meddwl gwan Otho yn analluog i wrthsefyll y golygfeydd oeddynt wedi eu harddangos yn gelfyddgar o'i flaen, sef ymherodraeth Roegaidd fawr, ac yntau yn ben arni. Gan hyny, efe a roddodd bob cefnogaeth i'r ysbeilwyr, tra ar yr un pryd y cymmerai arno eu gwrthwynebu. Ar y cyntaf, bu y gormeswyr yn alluog i orchfygu gwarchodlu gwan anmharotöedig Twrci, a syrthiodd rhan fawr o diriogaethau Twrci yn ysglyfaeth i'r fyddin wrthgaethiwol. Yn y cyfamser, wedi symmud pob attalfa, dechreuodd ysbeilwyr heidio gwlad Groeg, a môrladron ei moroedd. Ond rhoddwyd attalfa brydlawn ar y drygau hyn. Gan na thalwyd un sylw i wrthdystiad y galluoedd cynghreiriol, anfonwyd ychydig o longau Prydain i'r Môr Ægeaidd, a glaniodd nifer o filwyr Ffrainc yn y Piræus. Wedi i'r brenin ddeffro fel hyn yn sydyn o'i freuddwydion, efe a dderbyniodd ar unwaith y cynnyg diweddaf a roddasid iddo; efe a ddiswyddodd ei weinyddiaeth, a galwodd y swyddogion rhyfel yn ol, gan orchymyn i'r anturiaethwyr oeddynt wedi cael eu camarwain i ddychwelyd adref at eu dyledswyddau, a chytunodd ar ei ran ei hun i lywodraethu am ennyd dan arolygiaeth Prydain Fawr a Ffrainc.

Priododd Otho yn 1836. Ni bu iddo blant; a phenderfynwyd i dywysog arall o Bavaria fod yn olynydd iddo, yr hwn a ymrwymodd i fyned i gymundeb Eglwys Groeg ar ei ddyrchafiad i'r orsedd.

Yr oedd Groeg, o dan lywodraeth lygredig y penadur Bavariaidd Otho, yn suddo yn gyflym i lynclyn trueni. Yr oedd ei henw yn ddiddylanwad, ei masnach yn isel, ei chyllid yn fychan, ei moesau yn llygredig, a'i llywodraeth yn ddirym. Nid oedd cynnydd braidd ar ddim o'i mewn er ys amryw flyneddoedd, ac nid oedd y gobaith lleiaf am un diwygiad tra y byddai Otho yn teyrnasu. Gan hyny, penderfynodd y Groegiaid ymwrthod



Digitized by Google

âg ef a'i deulu. Felly, ar y 24ain o Hydref, 1862, cymmerodd chwyldroad heddychol le yn Groeg. Gadawodd Otho y deyrnas, a ffurfiwyd llywodraeth ddarbodol, ac etholwyd M. Mavrocordato yn llywydd arni.

Dewisodd arweinyddion y chwyldroad amser hynod gyfaddas i gario allan eu cynlluniau; o blegid yr oedd Otho a'r frenines wedi gadael Athen i gymmeryd pleserdaith, heb unwaith ddychymygu am y dygwyddiad oedd i gymmeryd lle yn ei absennoldeb. Pan ddechreuodd y chwyldroad, ni ddangosodd neb un duedd i gefnogi y brenin. Amlygai y gweinidogion, y cadfridogion, y fyddin, a'r bobl yn gyffredinol, lawenydd mawr o herwydd y cyfnewidiad; ac ni theimlai y Groegiaid fod un rhwymau arnynt i gymmeryd eu llywodraethu gan y penadur gormesol a diwerth oedd wedi ei osod arnynt gan y tri gallu. Hônent fod ganddynt gystal hawl i ddewis eu llywodraethwr eu hunain ag oedd gan drigolion Tuscany a Parma, y rhai yn ddiweddar a ddiorseddasant benaduriaid oeddynt yn meddu hawl mwy cyfiawn i'w gorseddau nag Otho. Y mae diorseddiad Otho yn brawf fod y Groegiaid wedi penderfynu ymgodi o'r dinodedd a'r iselder moesol yr oeddynt ynddo er ys amser maith.

Ofnid unwaith y buasai rhyfel cartrefol yn tori allan, o herwydd fod nifer o'r Groegiaid yn ffafriol i weriniaeth undebol, tra yr oedd dosbarth arall yn bleidiol i gael brenin; ond terfynwyd y mater yn heddychol. Penderfynodd y Groegiaid unwaith gyda brwdfrydedd mawr y mynent gael y tywysog ieuanc Alfred o Loegr i lywodraethu arnynt: ac ar y 23ain o Dachwedd, 1862, cyhoeddasant ef yn frenin ar Groeg; ond yr oedd Rwssia wedi dadgan er Hydref 19eg nad oedd gan un person oedd yn perthyn i deuluoedd y galluoedd amddiffynol hawl i orsedd Groeg. Ar y 1af o Ragfyr, gorchymynodd y llywodraeth ddarbodol ar fod i bleidlais y bobl gael ei chymmeryd er mwyn ethol brenin; a'r rheswm a roddid dros hyny oedd, fod llywodraeth Lloegr wedi hysbysu na byddai i'r tywysog Alfred dderbyn y cynnygiad.

Ar y pedwerydd o Chwefror, 1863, cyhoeddodd llywodraeth ddarbodol Groeg fod Otho a'i deulu wedi fforffedu gorsedd Groeg, a bod y tywysog Alfred o Loegr wedi ei ethol yn frenin gan 230,000 o bleidleisiau. Hefyd, ar yr un dydd, hysbyswyd yn y *Coburger Zeitung* fod y duc o Saxe-Coburg, yr hwn oedd wedi cael ei gynnyg yn flaenorol, wedi gwrthod y goron. Mewn canlyniad i waith y tywysog Alfred, a'r duc o Saxe-Coburg yn gwrthod y goron, etholwyd y Tywysog William George o Denmarc yn frenin Groeg gan y pwyllgor cenedlaethol, Mawrth 18fed, 1863, a chymmeradwywyd yr etholiad gan Ffrainc a Lloegr. Ennillodd ffafr a chymmeradwyaeth y bobl; a gobaith a hyder y genedl oedd y llwyddai y wlad dan ei lywodraeth.

### Groeg yn 1891.

*Teulu Brenhinol.*—Brenin presennol y deyrnas hon ydyw George, ail fab brenin presennol Denmarc. Ganwyd ef Rhagfyr 24ain, y fl. 1845. Etholwyd ef yn frenin y Groegiaid Mawrth 30ain, 1863. Priododd Olga, merch hynaf yr Uchel Dduc Constantine o Rwssia, ar Hydref 27ain, 1867—yr hon a anwyd Medi 3ydd, 1851. Yr etifedd tebygol ydyw y Tywysog Constantinos, y Duc o Sparta, yr hwn a anwyd Awst 2il, 1868. Hydref 27ain, 1889, priododd y Dywysoges Sophia, chwaer ymherawdwr Germany.

*Arwynebedd y wlad.*—Y mae ei therfynau presennol rhwng 35° 40′ a 40° 10′ lled. gog. ac 18° 20′ a 25° 50′ hyd. dwyr. O dan gyttundeb Berlin (1878), derbyniodd Groeg ranau o Thessaly ac Epirus oddi wrth Twrci; ac y mae ei harwynebedd yn 25,041 mill. pet., neu dyweder pum ran o chwech o faintioli Ysgotland. Nid oedd ei phoblogaeth yn 1889 ond 2,187,208.

*Rhaniadau.*—Cyn y flwyddyn 1830, a thra yr oedd Groeg dan iau Twrci, rhenid hi i dair o dalaethau; sef, Livadia yn y gogledd, Tripolitza yn y deheu, a'r Ynysfor yn y Môr Ægeaidd. Ond rhenir hi i 18 o ranau, a elwir *nomes*, yn bresennol, fel y canlyn:—

*Gogledd Groeg:*—Acarnania ac Ætolia, Phthiotis a Phocis, Attica a Bœotia, ac Eubœa, neu Negropont.

*Y Morea:*—Argolis a Chorinth, Achaia ac Elis, Messenia, Laconia, ac Arcadia.

*Yr Ynysoedd* Cyclades, a'r Ynysoedd Ioniaidd.

At y rhai hyn chwanegwyd, fel yr eglurwyd uchod, Thessaly ac Epirus.

*Llywodraeth.* — Talaeth o'r Ymherodraeth Dyrcaidd oedd Groeg o ddechreu yr unfed ganrif ar bymtheg hyd y gwrthryfel a gymmerodd le yno, rhwng y blynyddoedd 1820 ac 1829. Penderfynwyd ar gyfansoddiad presennol y deyrnas gan Gymmanfa Gyfansoddiadol Hydref 29ain, 1864, ar ol y gwrthryfel a gymmerodd le yn Hydref, 1862. Y mae yr holl allu deddfwriaethol yn cael ei gynnwys mewn un tŷ cynnrychioliadol, aelodau yr hwn a etholir gan bleidlais gyffredinol. Pleidleisir drwy y tugel. Nid oes un eisteddiad yn safadwy os na bydd hanner yr aelodau yn bresennol; ac nis gellir pasio un mesur yn gyfraith os na cheir mwy na hanner yr holl aelodau yn bleidiol i hyny. Dibyna rhif yr aelodau ar rif y boblogaeth. Y nifer yn eisteddiad 1878 oedd 188. Y mae y gallu gweinyddol yn y brenin, a gweinidogion cyfrifol.

*Arwynebedd.*—Y mae yn mron yn gwbl yn fryniog a mynyddig; ond y mae llawer o ddyffrynoedd ffrwythlawn a gwastadeddau bychain yn y wlad. Y mae canol y Morea yn ffurfio gwastadedd uchel, wedi ei amgau gan dri o gadwyni o fynyddoedd. Y mynydd uchaf ydyw Guiona, yr hwn sydd 8,239 o droedfeddi uwch law y môr; a mynydd Parnassus, yn 8,068 tr. Y mae y wlad, yn mron, yn cael ei rhanu yn ddwy gan gulforau Patras a Lepanto yn y gorllewin; a chulfor Ægina yn y dwyrain; a'r ynysfor yn y Môr Ægeaidd, a'r Ynysoedd Ioniaidd.

*Cynnyrch.*—Y mae amaethyddiaeth yn cael llawer rhy fychan o sylw trigolion y wlad; ac yn mhell ar ol, mewn cymmhariaeth i wledydd eraill. Y prif goed ffrwythydd ydynt olewydd, gwinwydd, eurafalau, egrafalau, ffigys, almonwydd, pomgranadau, &c. Ei hallforion ydynt rhyfon (*currants*), olew yr olewydden, ffigys, a ffrwythydd eraill, a phlwm, crwyn, tybaco, valoria, gwîn, mêl, cŵyr, sidan, ac ysbyngau. Ei dadforion, yn benaf, ydyw cotwm, a defnyddiau gwneuthuredig eraill; ac ŷd, coed, gwartheg, crwyn, a sugr.

*Byddin a Llynges.*—Yn 1889, meddai 26,118 o filwyr. Rhifai ei llynges 23 o longau:—dwy o honynt yn fychain, ond wedi eu hamwisgo â haiarn; 27 o gychod *torpedo;* a 2,945 o filwyr a swyddogion. Y mae llongau eraill yn cael eu parotoi, gyda'r amcan o gryfhau y gallu hwn. Y mae llongau masnachol y deyrnas yn 5,074, yn

Digitized by Google

cario 227,305 o dynelli; ac y mae yno 83 o agerlongau, o 31,451 o dynelli.

*Ffyrdd Haiarn*, &c.—Cyfrifir fod 370 mill. o ffyrdd haiarn yn agored; a bod 3,234 o filldiroedd o bellebrau.

| | | |
|---|---|---|
| Derbyniadau tebygol yn 1890 | .. | P.3,118,112 |
| Treuliau tebygol etto | ... | 3,041,961 |
| Dyled y wlad yn 1888 ... | ... | 22,665,802 |
| Y dadforion yn 1889 ... | ... | 4,421,774 |
| Yr allforion yn 1889 ... | ... | 3,592,360 |
| Y dadforion o Brydain yn 1889 | ... | 937,253 |
| Yr allforion i Brydain yn 1889 | ... | 1,864,297 |

Prif ddinas Groeg ydyw Athen, poblogaeth yr hon yn 1889 oedd 114,355.

GUATEMALA. Gweriniaeth ydyw y wlad hon—y fwyaf gogleddol o dalaethau gwerinol Canol America. Y llywydd presennol ydyw y Cadfridog Don. M. L. Barillas.

*Arwynebedd*, &c.—Gorwedda rhwng 13° 40′ a 17° 40′ lled. gog., a rhwng 88° 15′ a 92° 30′ hyd. gor.; a mesura 46,774 mill. pet. Ei phoblogaeth yn 1889 oedd 1,427,116. Y mae cadwen o fynyddoedd lled uchel yn rhedeg trwy y wlad o'r gorllewin i'r dwyrain, yn cynnwys amryw o fynyddoedd tanllyd, y rhai sydd yn esgyn tua 13,000 tr. uwch law y môr. Y mae daeargrynfäau yn fynych yno. Dyfrhëir y wlad yn dda gan amryw afonydd. Y prif lynau ydynt Atitlan ac Izabal.

*Hinsawdd.*—Y mae yr hinsawdd yn boeth, ac yn afiach, yn agos i'r môr; ond yn fwy tymmherus ac iachus yn y rhanau uwch o'r wlad. Dechreua y tymmor gwlawog yn Mehefin, ac y mae y tymmor sych yn parhau o Hydref i Mai. O'r gogledd y mae y gwyntoedd yn benaf yn Rhagfyr ac Ionawr.

*Mynyddoedd.*—Y maent o darddiad folcanaidd, ac yn cynnwys y mynyddoedd tanllyd canlynol Fuego yn 13,000 uwch law y môr, ac Agua yn 13,200 tr.

*Llywodraeth.*—Sefydlwyd y weriniaeth hon Ebrill 17eg, 1839; wedi iddi fod yn ffurfio, am tua deunaw mlynedd, rhan o Gynghrair Canolbarth America. Cyhoeddwyd y cyfansoddiad sydd mewn grym yn bresennol Hydref 2il, 1859. Yn ol y cyfansoddiad hwn, y mae y gallu deddfwrol mewn cydgynghorfa o ddau dŷ, y rhai a elwir Cynghor y Wladwriaeth a Thŷ y Cynnrychiolwyr. Etholir hwy am bedair blynedd. Etholir Tŷ y Cynnrychiolwyr gan y bobl, a Chynghor y Wladwriaeth gan y tŷ hwnw. Yn y llywydd y mae y gallu gweinyddol, yr hwn a etholir bob pedair blynedd. Dygir yn mlaen y llywodraeth ganddo ef, a thri o weinidogion.

*Ffyrdd Haiarn*, &c.—Y mae 132 mill. o ffyrdd haiarn yn agored; ac y maent yn darparu ar gyfer un arall, yn mesur 225 mill., i gyssylltu Guatemala â St. Thomas yn Nghulfor Honduras.

*Porthladdoedd.*—Y prif borthladdoedd ydynt San José de Guatemala, Champerico ar y Môr Tawel, a Livingston ar ochr môr yr Atlantig. Allforiwyd oddi yno werth 1,014,643*p.* o goffi; yr hwn ydyw y cynnyrch penaf. Yr allforion eraill ydynt crwyn, *indigo*, sugr, *india rubber*, *mahogany*, *sarsaparilla*, a ffrwythydd.

| | | |
|---|---|---|
| Derbyniadau y llywodraeth yn 1889. | P. | 769,919 |
| Y treuliau yn 1889 ... | ... | 704,216 |
| Dyled gyhoeddus y wlad yn 1889 ... | | 2,227,538 |
| Gwerth yr allforion, yn 1888, oedd.. | | 1,113,842 |
| —— y dadforion etto ... | ... | 839,934 |

Y brif ddinas ydyw New Guatemala, poblogaeth yr hon sydd tua 60,000.

GUIANA, NEU GUAYANA: eangder maith o wlad yn America Ddeheuol, yn cynnwys yr holl gyfandir rhwng yr afonydd Amazon ac Orinoco, ac yn ymestyn o 3° 30′ lled. de. i 8° 40′ gog.; ac o 50° i 68° hyd. gor. Dosrenir y wlad hon i'r pum GUIANA canlynol:—

GUIANA (Brazilaidd). Gorwedda rhwng 3° 30′ lled. de. a 4° 20′ lled. gog.: a rhwng 50° a 68° hyd. gor. Cyfrifir fod y Guiana hon yn mesur 433,000 mill. pet. Y mae yr afon Rio Branco, ac afonydd eraill, yn rhedeg drwyddi. Poblogir hi yn mron yn gwbl gan Indiaid.

GUIANA (Brydeinig). Cyfrifir fod y wlad hon yn ymestyn o enau yr Orinoco yn 8° 45′ lled. gog., mor bell i'r deheu ag 0° 40′ lled. gog.; a rhwng 57° a 61′ hyd. gor. Mesura tua 85,422 mill. pet.; ond y mae awdurdodau Brazil a Venezuela yn amnheu a ydyw yr holl wlad hon yn perthyn i Brydain. Nid oes ynddi ond dwy dref—y gellir eu galw felly; sef, Georgetown, â'i phoblogaeth yn 50,500; ac Amsterdam Newydd, â'i phoblogaeth yn 9,000. Y mae y Negroaid Affricanaidd yn fwy lliosog yno nag Ewropeaid. Cyfrifid, yn 1861, nad oedd yno ond tua 7,000 o Indiaid brodorol, er fod llawer o Indiaid eraill wedi ymfudo i'r wlad. Yr oedd holl boblogaeth y wlad yn 1889 yn 282,066. Y prif afonydd ydynt yr Essequibo, Demerara, Berbice, a Corentyn. Ar y tiroedd isel y mae yr hinsawdd yn afiach. Rhai blynyddoedd, y mae'r dwymyn felen yn lladd y trigolion. Y mae dau dymmor gwlawog ar yr arfordir—y tymmor mwyaf o Ragfyr hyd Chwefror, er fod gwlawogydd achlysurol yno hyd Ebrill. Bydd y gwlawogydd mawr yn dechreu eilwaith, ac yn parhau o Fai i ddiwedd Gorphenaf. Tyfir reis, sugr, ŷd india, gwenith, cocoa, vanilla, tybaco, a cinnamon. Tua 83,000 o aceri, a hyny ar yr arfordir, ac o fewn ychydig filldiroedd i'r afonydd, sydd dan driniaeth yn y wlad. Sugr ydyw ei phrif gynnyrch; a golygir fod sugr Demerara, yn ei ffurf pur, y goreu yn yr holl fyd.

Y mae ei derbyniadau a'i threuliau blynyddol ychydig dros 500,000*p.* bob un yn y flwyddyn. Anfonwyd o Guiana yn 1889 werth 2,310,141*p.*; a derbyniodd werth 1,803,776*p.* yr un flwyddyn. Anfonwyd o'r swm hwn i'r Deyrnas Gyfunol, yn 1889, werth 1,287,634*p.*, a derbyniwyd oddi yma werth 1,051,017*p.*

GUIANA (yr Iseldiroedd), NEU SURINAM. Trefedigaeth ydyw hon ar arfordir gogleddol America Ddeheuol, yn ymestyn rhwng 1° 30′ a 6° lled. gog., a 53° 30′ a 57° 30′ hyd. dwyr. Mesura 46,070 mill. pet., a pherthyna i'r Iseldiroedd. Yn 1873, 52,105 oedd y boblogaeth; heb law 1,000 o Indiaid, a thua 7,500 o bobl dduon. Y mae y gaethfasnach wedi ei diddymu yno gan lywodraeth yr Iseldiroedd; ond yn lle talu iawn i berchenogion y caethion am eu rhyddhâd, rhwymwyd y caethion i wasanaethu am ddeuddeng mlynedd heb gyflog. Daethant yn rhydd Mehefin 1af, 1873. Y mae arwynebedd y wlad yn debyg i Guiana Brydeinig. Y prif afonydd ydynt y Surinam yn nghanol y wlad, Marony ar y terfyn dwyreiniol, a Corentyn ar y terfyn gorllewinol. Anfonir oddi yno i Brydain werth tua 200,000*p.* o eiddo yn flynyddol, a derbynir o'r wlad hon werth tua 100,000*p.* y flwyddyn. Y prif dref ydyw Paramaribo, a'r prif borthladd ydyw Amsterdam.

Digitized by Google

GUIANA (Ffrengig), NEU CAYENNE. Trefedigaeth ar y de-ddwyrain i gyfandir Guiana ydyw hon, rhwng 2° a 6° lled. gog., a 51° 30′ a 54° 30′ hyd. dwyr. Mesura 46,877 mill. pet. Y mae y boblogaeth tua 55,000—un ran o bedair o ba rai sydd yn bobl wynion. Y mae y tir yn cyfodi yn raddol o'r arfordir i ganol y wlad; ac yno y mae o 1,600 i 2,000 tr. uwch law y môr. Ceir amryw o afonydd yno; ac y mae y tir ar yr arfordir yn llai afiach nag yn Guiana Brydeinig. Tuag 20,000 o aceri o dir sydd wedi eu trin yno; o ba rai y codir gwerth tua 200,000*p*. yn y flwyddyn. Tyfir yno sugr, cotwm, cocoa, coffi, *cloves*, arnotto, vanilla, pupyr, cinnamon, *nutmeg*, reis, ŷd India, a *bananas*, &c. Y prif allforion ydynt sugr ac aur. Llywodraethir y wlad gan lywydd, cyfringynghor, a chynghor talaethol. Rhenir hi i ddau ddosbarth; sef, Cayenne a Sinnamary. Enw y brif dref ydyw Cayenne. Nid ydyw y trefydd eraill ond rhai dibwys. Yn ol rhaith llywodraeth Ffraingc, a wnaed yn Mawrth, 1852, daeth Guiana i fod yn lle i alltudio troseddwyr politicaidd iddo. Nid ydyw hyny o dir sydd dan driniaeth yno, ar gyfartaledd, yn fwy na thua deng milldir ar hugain o lan y môr, a geneuau y prif afonydd.

GUIANA (Venezuelaidd, neu Colombiaidd). Y dosbarth gog. orll. o Guiana, yn cynnwys y rhan fwyaf o'r wlad rhwng 2° ac 8° 40′ lled. gog., a 60° a 68′ hyd. gor., neu y rhan fwyaf wrth fesur o diriogaethau Venezuela. Ar y deheu y mae y Sierras, Pacaraima, a'r Juraguaca; ar y dwyr. a'r gor. yr Orinoco; ar y gog. ddwyr. yr Atlantic; ar y dwyr. Guiana Brydeinig. Ammheuir, er hyny, y terfynau. Y mae ar fâr yr Orinoco 14 troedfedd o ddwfr, gyda gwaelod o glai meddal; ac y mae yr afon yn codi ac yn gostwng yn flynyddol o 50 i 60 tr. Mesura 221,952 mill. pet., a chyfrifir fod ei phoblogaeth tua 16,600. Ei hallforion ydyw crwyn, coffi, cocoa, indigo, gwartheg, a cheffylau. Y mae y diriogaeth yn hynod gymmhwys i dyfu cotwm a thybaco, ac yn enwedig i fagu gwartheg. Nid yw ei mŵnau etto wedi eu dwyn i'r golwg; ond y mae aur, efydd, plwm, ac arian, wedi eu cael mewn symiau bychain yno. Y prif drefi ydynt Angostura, Piedra, a San Fernando de Apure.

GUIANECO (Ynysoedd). Y mae yr ynysoedd hyn ar du gorllewinol Patagonia. Yn union i'r gogledd y mae Ynys Wellington. Y ddwy brif ynys ydynt Wager a Byron.

GUIPUZCOA. Rhan o Yspaen ar Gulfor Biscay: un o'r talaethau Boscaidd. Mesura 728 mill. pet., a thybir fod ei phoblogaeth tua 200,000. Mae ynddi amryw fwngloddiau haiarn gwerthfawr; ac y mae ei hinsawdd yn dyner ac yn iachus.

GROEG, EGLWYS. Y mae yr enw hwn yn cymmeryd i mewn, nid yn unig Eglwys Genedlaethol gwlad Groeg, ond yr eglwys hono a darddodd allan o hen Eglwys Groeg, gan ymuno âg Eglwys y Dwyrain; yr hon a barhaodd ar wahân oddi wrth Eglwys Rhufain a'r Eglwys Brotestanaidd, heb chwyldroadau na diwygiadau hyd yn bresennol. Y mae yn ymledu dros wlad Groeg, Asia Leiaf, yr Aipht, ac Ewrop ddwyreiniol. Y mae ei hanes yn llawn o ddigwyddiadau hynod. Y mae rhyw neillduolrwydd yn perthyn i'w chenhadaeth; ac y mae ëangder ei therfynau yn fwy nag ydyw ei grym a'i heffeithiolrwydd presennol. Gall Eglwys Groeg ymffrostio mwy yn ei henaint nag un eglwys arall sydd yn bod yn awr, gan mai yn Palestina ac Asia Leiaf—gwledydd a gynnwysir o fewn ei therfynau—y bu sylfaenydd mawr yr Eglwys Gristionogol, a'i apostolion, yn pregethu yr efengyl gyntaf. Ymledaenodd Cristionogaeth yn fuan iawn dros yr holl ymherodraeth Rufeinig, a gwreiddiodd yn ddyfnach yn y gorllewin fe allai nag y gwnaeth erioed yn y dwyrain. Yr oedd y Groegiaid wedi peidio a bod yn genedl pan y cyrhaeddodd Cristionogaeth hwynt, ond rhoisant fenthyg eu hiaith a'u gwareiddiad eang er ei lledaenu. Yr ydym yn cael Groegiaid yn mhlith olynwyr uniongyrchol yr apostolion. Daeth dinasoedd Groegaidd yn ganolfanau y cenadaethau Cristionogol, a threiddiodd bywyd newydd drwy wlad yr hen athronwyr, a chafodd dderbyniad helaeth. Onid buddugoliaeth ogoneddus i'r efengyl oedd gallu dwyn y meddwl Groegaidd dan ei llywodraeth, ac yntau o'r blaen mor ddieithr iddi?

Cododd anghydfod yn fore iawn rhwng Eglwys Groeg, neu yr Eglwys Ddwyreiniol fel y gelwir hi, a'r Eglwys Orllewinol, neu y Ladinaidd. Yr achos cyntaf o hwn oedd dadl a gyfododd yn yr ail ganrif mewn perthynas i gadwraeth y Pasc. Dadleuai yr Eglwysi Dwyreiniol y dylesid ei gadw ar y dydd y byddai yr Iuddewon yn arfer ei gadw; sef, ar y pedwerydd dydd ar ddeg o'r mis cyntaf. Daliai Victor, esgob Rhufain, a'r Eglwysi Gorllewinol, y dylid "cyssegru dydd Gwener yn wastad i goffadwriaeth angeu Crist, a'r Sabbath er coffadwriaeth am ei adgyfodiad." Er mor ddibwys y dichon y ddadl hon ymddangos i ni, gwasgarwyd drwyddi had anghytundebau yr hyn a derfynodd yn llwyr ymwahaniad y ddwy eglwys. Ar ol hyn fe gododd dadl arall, mewn perthynas i safleoedd ac awdurdod esgobion Rhufain a Chaer Cystenyn. Yn nghymmanfaoedd Caer Cystenyn yn B. A. 381, a Chalcedon yn B. A. 451, fe ddyrchafwyd esgob Caer Cystenyn i fod yn ail batriarch y byd Cristionogol, heb fod yn israddol i neb ond esgob Rhufain. Dechreuodd yr olaf eiddigeddu wrth allu cynnyddol y cyntaf: yr hyn, yn nghyd âg amwysedd y gorchymyn (*edict*) enwog a adnabyddir wrth yr enw *Henoticon*, yr hwn a roddwyd gan yr ymherawdwr Groegaidd Zeno, yn B. A. 482, trwy yr hwn y gosodai ei hun yn ben yr eglwys, a gynnyrchodd rwygiad yn yr hyn a ffurfiasai hyd hyny yr Eglwys Gatholig. Cyhoeddodd Felix II., patriarch Rhufain, ddedfryd o esgymundod yn erbyn patriarch Caer Cystenyn a phatriarch Alexandria, y rhai oeddynt y prif offerynau yn nygiad yn mlaen yr Henoticon; ac felly efe a dorodd bob cyssylltiad a chymundeb eglwysig â'r cynnulleidfaoedd dwyreiniol hyny a lynent wrth y ddau batriarch hyn. Wedi cael cyfnewidiad yn nheimlad y llys ymherodrol, fe lwyddodd y patriarch Rhufeinig, Hormisdas, i fŷnu ail ymuniad Eglwys Groeg â'r Eglwys Ladinaidd, yn B. A. 519; ond gan na fwriadwyd yr undeb hwn erioed yn ddifrifol, a chan ei fod wedi ei ddwyn oddi amgylch mewn dull diofal, fe'i torwyd drachefn drwy ystyfnigrwydd y ddwy blaid, a'r ddedfryd Rufeinig o esgymundod yn erbyn yr Iconoclastiaid, neu y torwyr delwau, yn mhlith y Groegiaid yn 733, ac yn erbyn Photius, patriarch Caer Cystenyn yn 862. Cynhyrfodd helaethiad Eglwys Groeg, trwy chwanegiad cenedloedd newydd ati, eiddigedd pellach y pab Rhufeinig. Tua'r un amser fe ddechreuodd dadl ar bwngc sydd wedi bod byth

Digitized by Google

wedi hyny yn un o'r prif bynciau ar ba rai y gwahaniaetha y ddwy eglwys, sef yr athrawiaeth am yr hyn a elwir yn "ddeilliad yr Ysbryd Glân." Yr oedd yr Eglwys Yspaenaidd wedi chwanegu at gredo Caer Cystenyn, yr hwn a ddywedai fod yr Ysbryd Glân yn deilliaw oddi wrth y Tad, y geiriau "ac oddi wrth y Mab." Mabwysiadwyd y chwanegiad hwn gan yr Eglwys Ladinaidd, a daliasant yr athrawiaeth a gredir yn awr gan Babyddion a Phrotestaniaid, fod yr Ysbryd Glân yn deilliaw oddi wrth y Tad ac oddi wrth y Mab. Cyhuddodd Photius, patriarch Caer Cystenyn, y Lladiniaid o fabwysiadu chwanegiad an-ysgrythyrol drwy hyn: ac esgymunwyd ef. Gwrthododd Eglwys Groeg dderbyn y chwanegiad; ac y mae yr athrawiaeth fod yr Ysbryd Glân yn deilliaw oddi wrth y Tad yn unig yn un o athrawiaethau neillduol yr eglwys hon hyd heddyw. Yn y flwyddyn 1054, fe ddygodd Michael Cellularius gyhuddiadau ereill yn erbyn y Lladiniaid, sef eu bod yn defnyddio bara croyw yn eu cymundeb, a gwaed anifeiliaid a fuasent feirw trwy lindagiad, yn nghyd âg anfoesoldeb cyffredinol eu clerigwyr. Esgymunodd y pab Leo IX. ef yn y modd mwyaf sarhaus, a dilynwyd hyn drwy ymwahaniad llwyr Eglwys Groeg oddi wrth yr Eglwys Ladinaidd. Fe wnaed llawer o ymdrechion ar wahanol amserau wedi hyn i uno y ddwy eglwys yma, gan y pabau ar un llaw, i'r dyben o gael y Dwyrain dan eu hawdurdod, a chan yr ymherawdwyr Groegaidd ar y llaw arall, i'r dyben o sicrhau gwasanaeth tywysogion y Gorllewin yn erbyn y Mahometiaid: ond yr oedd balchder, cyndynrwydd, a hunanoldeb yn rhwystrau ansyfladwy ar eu ffordd, ac aeth yr holl ymdrechion yn ofer. Nid oedd y naill blaid am ildio dim i'r llall gyda golwg ar y pynciau mewn dadl. Tra yr ymffurfiodd y grefydd Gatholig ar wedd fwy cyflawn ac arbenigol dan Gregory VII. fe barhaodd Eglwys Groeg i ddal ei chredo, fel y trefnwyd ef gan John o Damascus yn y flwyddyn 730, yn nghyd â'r hen gyfansoddiad. Ni wnaeth gorchfygiad Caer Cystenyn gan y Croesgadwyr Ffrengig a'r Venetiaid, yn y flwyddyn 1204, yn nghyd â'r gorthrymderau creulawn a ddyoddefodd y Groegiaid oddi ar law y Lladiniaid a'r awdurdodau Pabaidd—ni wnaeth hyn oll ond lledu y rhwyg, a bwrw olew newydd ar fflam yr anghydfod. Ac er fod yr ymherawdwr Groegaidd, Michael II. (yr hwn a adennillodd Caer Cystenyn yn 1261), wedi cydsynio i gydnabod uchafiaeth y pab, a thrwy ei genadon a rhai o'r clerigwyr ffyddlonaf iddo wedi bwrw ymaith rai o'r pynciau dadleuol yn y gymmanfa a gynnaliwyd yn Lyons yn 1274; ac er i gymmanfa arall gael ei chynnal yn Nghaer Cystenyn yn 1277, i'r dyben o gryfhau yr undeb â'r Eglwys Ladinaidd, er hyny fe barhaodd corff mawr Eglwys Groeg yn wrthwynebwyr pendant i'r symmudiad hwn. Felly wedi i'r pab Martin IV. esgymuno yr ymherawdwr Michael yn 1281, i ddybenion gwleidyddol, fe adferwyd yr hen athrawiaethau, a chadarnhawyd yr ymwahaniad oddi wrth y Lladiniaid gan y cymmanfaoedd a gynnaliwyd gan yr esgobion Groegaidd yn Nghaer Cystenyn yn 1283 a 1285. Fe wnaed ymgais arall i uno y ddwy eglwys gan yr ymherawdwr Groegaidd John VII., pan y taer gymhellwyd et gan y Tyrciaid, yn nghyd â'r patriarch Joseph, yn y cymmanfaoedd a gynnaliwyd yn Ferrara yn 1438, a'r flwyddyn ganlynol yn Florence, pryd yr oedd y pab Eugene IV. yn llywyddu; ond gan fod yr undeb a ffurfiwyd yno yn ymddangos yn ffafriol i ymddarostyngiad i'r pab Rhufeinig, fe'i gwrthodwyd yn hollol gan y clerigwyr Groegaidd a'r genedl yn gyffrediuol, ac felly ni chyfanwyd y rhwyg. Yr ymherawdwyr Groegaidd oeddynt wedi cymmeryd mwyaf o ddyddordeb yn yr ymdrechion hyn am undeb; a phan y dymchwelwyd eu hymherodraeth hwy yn ngoresgyniad Caer Cystenyn gan y Tyrciaid yn 1453, fe ddarfyddodd yr ymdrechion. Fe geisiodd yr Eglwys Babaidd ddwyn Eglwys Groeg dan ei hawdurdod wedi hyny; ond methwyd a chael dim ond cydsyniad ychydig o gynnulleidfaoedd Groegaidd yn Italy, Hungary, Gallicia, Poland, a Lithuania, y rhai a adnabyddir yn awr wrth yr enw "Groegiaid Unedig." Y cais olaf am undeb rhwng y ddwy eglwys a wnaed yn y flwyddyn 1848, gan y pab Pius IX., pan yr anfonodd efe gylchlythyr at holl glerigwyr Eglwys Groeg i'w cymhell i ail ymbriodi â Rhufain; ond fe roddwyd gwrthodiad pendant iddo fel o'r blaen; ac y mae y ddwy eglwys yn parhau hyd heddyw ar wahân.

Yr oedd Eglwys Groeg yn y seithfed ganrif yn cynnwys o fewn ei therfynau Asia Leiaf, Syria, Palestina, yr Aipht, Arabia, a llawer o gynnulleidfaoedd yn Mesopotamia a Persia, heb law Illyria Ddwyreiniol, Groeg Briodol, gyda'r Morea a'r Ynysfor. Ond y mae goresgyniadau Mahomet a'i ganlynwyr wedi ei hamddifadu, er y flwyddyn 630, o yn agos i holl daleithiau Asia ac Affrica; ac fe leihaodd y Tyrciaid yn y bymthegfed ganrif gryn lawer ar rif ei haelodau hyd yn oed yn Ewrop. Ar y llaw arall, fe'i helaethwyd gryn lawer drwy ymuniad amryw o genedloedd Sclavonaidd, ac yn enwedig y Rwssiaid, y rhai, dan y tywysog mawr Vladimir, yn y flwyddyn 988, a dderbyniasant gredo y Cristionogion Groegaidd. I'r genedl hon y mae Eglwys Groeg yn ddyledus am y llyfr credo; yr hwn, yn nghyd â chanonau cymmanfaoedd cyntaf ac ail Nice, cyntaf, ail, a thrydydd Caer Cystenyn, cymmanfa Ephesus, a Chalcedon, a'r cynghor Trullaidd a gynnaliwyd yn Nghaer Cystenyn yn y flwyddyn 692, ydyw unig awdurdod ei haelodau mewn materion athrawiaethol. Wedi i'r dysgedig Cyrillus Lucaris, patriarch Caer Cystenyn, ddyoddef merthyrdod am ei gymmeradwyaeth broffesedig o egwyddorion Protestaniaeth yn 1629, fe wnaeth Peter Mogislaus, esgob Kiev, 1642, esboniad yn yr iaith Roeg, ar yr athrawiaethau a ddelid gan y Rwssiaid, a galwyd ef "Cyffes Uniongred Eglwys Gatholig ac Apostolaidd Crist." Arwyddwyd a chadarnhawyd ef yn 1643, gan holl batriarchiaid Eglwys Groeg, at ba rai y chwanegid patriarch Moscow yn 1859. Argraffwyd ef yn Holland, mewn Groeg a Lladin, yn 1662, gyda rhagdraethawd gan y patriarch Nectarius o Ierusalem. Fe'i cyhoeddwyd ef yn 1696 gan y patriarch Rwssiaidd diweddaf; ac yn 1722, ar orchymyn Pedr Fawr, gan y Gymmanfa Sanctaidd; canys yr oedd y gymmanfa a gynnaliwyd yn Ierusalem yn 1672, a Rheol Eglwysig Pedr Fawr a ffurfiwyd yn 1721, gan Theophanes Procoviez, wedi dadgan y llyfr hwn fel safon Eglwys Groeg yn mhob peth.

Y mae Eglwys Groeg, fel Eglwys Rhufain, yn credu mewn dwy sail athrawiaeth, sef y Beibl a thraddodiad. Y mae yn cynnwys dan yr olaf, nid yn unig yr athrawiaethau hyny a lefarodd yr apostolion, ond hefyd y rhai a dderbyniasant gymmeradwyaeth y tadau Groegaidd, yn enwedig John o Damascus, yn nghyd â'r saith gymmanfa a enwyd uchod. Nid yw yr eglwys hon yn cydnabod awdurdod y cymmanfaoedd ereill a gyd-

Digitized by Google

nabyddir gan yr Eglwys Ladinaidd; ac y mae yn gommedd i'w phatriarchiaid na'i chymmanfaoedd ddwyn athrawiaethau newyddion i mewn. Y mae yn dal fod ei barnau mor rhwymedig ac angenrheidiol fel nas gellir eu gwadu heb golli iachawdwriaeth. Hi ydyw yr unig eglwys sydd yn dal mai oddi wrth y Tad yn unig y mae yr Ysbryd Glân yn deilliaw; ac y mae yn gwahaniaethu drwy hyny oddi wrth y Pabyddion a'r Protestaniaid, y rhai a gytunant yn eu barn fod y trydydd person yn deilliaw oddi wrth y Tad a'r Mab Nid yw yn hòni anffaeledigrwydd iddi ei hun, na'i phen, er ei bod yn gommedd i'r bobl yr hawl i farnu drostynt eu hunain. Mae yn dal yr athrawiaeth o ragarfaethiad, ond o fewn terfynau penodol. Fe oddefir gweddïo ar saint ac angylion, a'r Forwyn Fair, yr hon a elwir "mam ddihalog y Gair Dwyfol." Y mae gan Eglwys Groeg, fel Eglwys Rhufain, saith o sacramentau neu "gyfrinion;" y rhai ydynt, bedydd, enneiniad, y Swper Sanctaidd, penyd, ordeiniad, priodas, a'r eneiniad diweddaf. Gellir cyflawnu yr ordinhad o fedydd naill ai trwy drochiad neu trwy daenelliad. Y mae yr "eneiniad" yn cyfateb i gonffirmasiwn yr Eglwysi Gorllewinol, gan ei fod yn cael ei ystyried fel attodiad i fedydd; ond y mae yn wahanol iddo yn gymmaint a bod enneiniad yn cymmeryd lle yn ebrwydd wedi gweinyddiad bedydd, ac nid, fel conffirmasiwn, yn cael ei ohirio am flynyddoedd. Y mae y bara a'r gwin yn cael ei estyn i'r bòbl yn y Swper Sanctaidd, ac y mae y cymunwyr yn derbyn y bara ar lwy wedi ei llanw â'r gwin cyssegredig. Y mae Eglwys Groeg yn credu yr athrawiaeth am draws-sylweddiad; ond y mae yn lefeinio y bara ac yn cymmysgu y gwin â dwfr. Y mae y clerigwyr gan mwyaf o deuluoedd isel ac anwybodus, ac edrychir arnynt fel gweision cyflogedig y llywodraeth yn fwy nag fel gwir fugeiliaid y praidd Cristionogol. Dewisir y dosbarth uchaf o honynt o blith y mynachod, ac ni oddefir iddynt briodi. Caniateir i'r dosbarth isaf briodi gwyryf, ond nid gwraig weddw; ond ni oddefir iddynt briodi fwy nag unwaith. Os digwydd iddynt fyned yn weddw, y maent yn colli eu bywoliaethau ac yn ymneillduo i fynachdy. Anfynych iawn y goddefir i esgob gweddw gadw ei esgobaeth; a glynir yn dỳn wrth y syniad fod yn anweddus i'r clerigwyr uchaf briodi o gwbl, ac yn anmhriodol i'r dosbarth isaf briodi eilwaith. Nid yw Eglwys Groeg yn ystyried priodas y lleygwyr yn annhoradwy, ac y mae yn fynych yn caniatau ysgariaeth; ond y mae yn gommedd iddynt briodi bedair gwaith. Y mae hi yn wahanol i Eglwys Rufain, gan ei bod yn eneinio â'r olew sanctaidd, nid yn unig yr hwn fyddo yn marw, ond y claf, er mwyn ei adferu i iechyd, maddeu ei bechodau a sancteiddio ei enaid. Y mae yn ymwrthod â'r athrawiaeth am burdan, rhagarfaethiad, yn ei ystyr eangaf, gweithredoedd anorchymynedig, ac yn gommedd maddeuant-lythyrau; ond rhoddir rhaglen brintiedig i'r marw weithiau, ar ddymuniad ac er cysur ei gyfeillion byw. Nid ydyw yn caniatau unrhyw ddelwau cerfiedig na thoddedig o bersonau a phethau dwyfol; ond y mae yn rhaid i arluniau o Grist, y forwyn Fair, a'r saint, y rhai ydynt wrthddrychau addoliad yn yr eglwysydd ac ar yr aelwydydd gartref, fod wedi eu paentio, ac heb ganiatad i osod un addurn pellach arnynt na nifer o feini gwerthfawr. Y mae y Groegiaid yn llawn mor selog a'r Pabyddion mewn gweddïo ar y saint, ac yn enwedig ar y forwyn Fair. Y maent hefyd yn ystyried fod gweddillion, croesau, a beddau, yn gyssegredig; a chredant fod rhyw ddylanwad rhyfeddol a bendithfawr yn dilyn eu gwaith yn croesi eu hunain yn enw Iesu. Y maent yn ymprydio bob dydd Mercher a dydd Gwener, a chadwant bedwar dydd ympryd cyffredinol yn ystod y flwyddyn.

Ffurfiau allanol ydyw gwasanaeth Eglwys Groeg gan mwyaf. Pregethu a holwyddori yw y rhan leiaf o hono. Byddai pregethu yn cael ei wahardd yn hollol yn Rwssia yn yr eilfed ganrif ar bymtheg, a hyny, meddid, er attal lledaeniad athrawiaethau newyddion. Ni oddefir i neb ond y clerigwyr uwchraddol bregethu yn Twrci; o blegid hwy yn unig sydd yn meddu graddau o wybodaeth. Y mae gan bob cynnulleidfa ei chôr o gantorion, ond ymwrthodir yn gwbl â cherddoriaeth offerynol. Heb law yr offeren, yr hon a ystyrir fel y rhan benaf o'r addoliad, mae y ffurfwasanaeth yn cynnwys rhanau o'r Ysgrythyr, gweddïau, a buchedd-lyfrau y saint; adroddir y credo hefyd, neu o leiaf frawddegau a ddechreuir gan yr offeiriaid ac a orphenir gan gorph y bobl. Mae y mynachod yn cydymffurfio gan mwyaf â rheol gaeth Basil sant. Y mae clerigwyr israddol yr eglwys yn gynnwysedig o ddarllenwyr, cantorion, diaconiaid, &c., yn nghyd âg offeiriaid, megys y pabau a'r cynbabau, neu yr archoffeiriaid, y rhai ydynt y clerigwyr uchaf yn yr eglwysydd cadeiriol ac eglwysydd y prifddinasoedd. Nis gall aelodau yr urdd isaf o glerigwyr byth esgyn yn uwch na chynbabau; o blegid fe ddewisir yr esgobion o blith y mynachod, ac fe ddetholir yr archesgobion, esgobion y prifddinasoedd, a'r patriarchiaid o blith yr esgobion.

Gellir edrych ar Eglwys Groeg yn bresennol fel wedi ei rhanu i dair cangen; sef, yr eglwys yn Rwssia, yn Twrci, ac yn Groeg ei hun. Y mae yn Rwssia un ar ddeg ar ugain o esgobaethau; ac y mae yn perthyn yn gwbl i'r ymherawdwr ei benderfynu ar ba un o honynt y gosodir yr urddas o archesgobaeth. Y mae pedwar o esgobion y prifddinasoedd yn Rwssia; sef, yn Petersburgh, gyda rhaglawiaeth Novogorod; yn Kiev, gyda rhaglawiaeth Galicia; yn Kasan, gyda rhaglawiaeth Svijaschk; a Thobolsk, gyda holl Siberia. Dywedir fod Nikon wedi gwneuthur camddefnydd o urddas batriarchaidd Moscow, ac fe'i diddymwyd hi gan Pedr Fawr trwy fyned yn anysgwyliadwy i gymmanfa o esgobion oeddynt wedi ymgynnull yn 1702 er dewis patriarch newydd, a gwaeddi "Myfi yw eich patriarch;" ac yn 1721 fe roddwyd holl lywodraeth eglwysig yr ymherodraeth yn nwylaw coleg o esgobion a chlerigwyr lleygol, dan yr enw "Cymmanfa Sanctaidd," y rhai a ymgyfarfyddent ar y cyntaf yn Moscow, ond yn awr yn St. Petersburg. Gwel Eglwys Rwssia.

Wedi i'r Tyrciaid gymmeryd Caer Cystenyn, fe ymestynodd eu llywodraeth dros Groeg, Trapezus, Epirus, y gwledydd ar y Danube, yr ynysoedd Groegaidd, Syria, Palestina, a'r Aipht; ac felly cynnwysai ranau o'r cenedloedd Groegaidd, Sclavonaidd, Armenaidd, Iuddewig, a chymmysgedig. Y mae llywodraeth Twrci wedi bod yn hynod drwy yr holl ganrifoedd am ei thraha a'i gormes. Ond eto i gyd, nis gellir ei chyhuddo o ormesu ar ryddid cydwybod, o leiaf yn y manau hyny lle y teimlai fod ei hawdurdod yn sicr. Byddai y Cristionogion, gan mwyaf, yn cael mwynhau rhyddid crefyddol trwy dalu yn ddrud am dano. Yr oedd y swyddau eglwysig uchaf yn ymddibynu er y cyntaf ar ewyllys yr ymherawdwr, ac i'w cael trwy lwgrwobryon. Cym-

Digitized by Google

merwyd yr eglwysydd goreu gan y concwerwyr; dadfeiliodd y lleill, ac ni oddefid iddynt gael eu helaethu na'u hadferu. Gorlethwyd y cenedl-oedd gorchfygedig â theyrngedau mawrion. Ymlygrodd eu cymmeriad, a diflanodd gwyddor a dysg, neu o leiaf cyfyngwyd hwynt i ychydig o fynachdai. Nid aflonyddwyd ar yr ymarferiad o grefydd, a rhoddai y Tyrciaid barch i'r dosbarth uchaf o glerigwyr. Fe ymgynnefinodd y Groegiaid â'u hargiwyddi beilchion, ac aethant hyd yn oed i ddeisyf eu cynnorthwy yn erbyn y dirgel genadon Rhufeinig. Anfynych y ceisient gymhorth y gorllewin yn erbyn gormes y Tyrciaid. Y mae y Groegiaid yn parhau yn eu hen gasineb at y Pabyddion a'u hysgrifau. Fe wnaeth y ddeddf a basiwyd yn 1839, trwy ba un y gosodid Cristionogion a Mahometiaid ar yr un tir yn ngwyneb y gyfraith, les mawr i gyflwr y Groegiaid, ac y mae y Sultan presennol wedi gwellhau llawer ar eu sefyllfa. Y mae esgobaeth Caer Cystenyn yn cynnwys Twrci Ewropaidd, Asia Leiaf, a'r Ynysoedd; ac yn cynnwys dros 80 o eisteddleoedd prifddinasol; tra nad yw Cymmanfa Antioch yn cynnwys ond 18, a Chymmanfa Ierusalem ond 8. Nid oes gan batriarch Alexandria ond esgob Lybia oddi tano. Yn Macedonia, y mae archesgobaeth Salonica a gweriniaeth fynachaidd Athos mewn cyflwr blodeuog; yn Thessaly, y mae Larissa; yn Bulgaria, y mae Varna, Widdin, Silistria; yn Bosnia, y mae Belgrade. Y mae Mahometiaeth wedi cael y llaw uchaf yn Bulgaria; Eglwys Rhufain yn Croatia Tyrcaidd; ond Eglwys Groeg sydd benaf yn Herzegovina, Montenegro, ac Ynysoedd Candia, a Cyprus. Y mae Cristionogion Groegaidd Moldavia dan lywodraeth esgob prifddinasol Jassy; a Christionogion Groegaidd Wallachia dan iau esgob prifddinasol Bucharest. Nid oes un diffyg o eglwysydd, offeiriaid, mynachod, na pharch iddynt, yn y gwledydd hyn; ond y mae diwylliant moesau, ac addysg, yn mhell ar ol: ychydig o sylw a delir i ymdrechion Protestaniaid y ffordd hon; a chaseir y Pabyddion. Y mae cynnaliaeth y clerigwyr yn hynod anghyfartal, ac ar amserau yn gwbl wrth ddamwain. Y mynachod sydd yn cael y parch mwyaf. Mae crefyddolrwydd y bobl wedi ei gymmysgu â'r ofergoeledd mwyaf rhamantus: gwneir defnydd o gyfaredd a swynion; a thybir nad ydyw corph person esgymunedig byth yn adfeilio. Yn Asia Leiaf, y mae esgobaethau prifddinasol Smyrna, Ephesus, a Nicodemia, o gryn bwys; ond y mae y clerigwyr a chrefydd wedi disgyn yma yn is nag yn y lleoedd uchod, ac y mae yr eglwysi Armeniaidd wedi ymgodi yn uwch nag eglwys Groeg. Yn y gwledydd Asiaidd ereill, y mae yr eglwys uniongred wedi gorfod rhoddi lle i'r Nestoriaid, y Maroniaid, a'r Jacobiaid; yn Syria, y mae mewn undeb â'r Eglwys Unedig; ac yn Ierusalem, y mae yn nghanol cymmysgedd o wahanol grefyddau. Nid oes yn yr Aipht ond tuag 8000 o Roegiaid uniongred; ac yn Arabia nid oes un. Y mae Eglwysi Groeg uniongred yma a thraw yn Hungaria, Galicia, Awstria, Transylvania, a Dalmatia, gyda ffurfwasanaeth manwl, ond heb nemawr gyssylltiad â'r Eglwys yn gyffredinol. Y mae gan y Groegiaid Unedig, neu y rhai a ymostyngasant dan lywodraeth y pab Rhufeinig, ychydig o gynnulleidfaoedd yn y tiriogoethau Tyrcaidd, a rhai lliosocach yn Hungaria, Transylvania, Italy, ac Awstria. Y mae ganddynt eu hesgobion, eu ffurfwasanaeth, a'u dysgyblaeth eu hunain; ond y maent wedi derbyn yr athrawiaethau Pabaidd am y Drindod a'r purdan.

Ni bu gormes Twrci yn fwy mewn unrhyw wlad nag yn Groeg ei hun; lle y cyfododd, yn raddol, bobl newydd, gydag iaith newydd, mewn sefyllfa o ddibyniaeth gwasaidd. Parhaodd yr agwedd hon ar bethau drwy y ganrif ddiweddaf, er na bu cariad at ryddid erioed farw yn llwyr. Bu y Groegiaid, am ddeng mlynedd ar ugain, dan orthrwm Ali Pasha o Janini, 1786—1821; a therfynodd gwrthryfel y Suliotiaid mewn colli miloedd o fywydau. Yr oedd yr esgobion, er's cryn amser, wedi arfer meithrin yr ysbryd cenedlaethol; sancteiddiai crefydd y rhyfel dros ryddid; ac fe wasanaethodd gormes waedlyd y Tyrciaid yn erbyn y clerigwyr, dienyddiad y patriarchiaid, a lluaws o esgobion, i ennyn tanbeidrwydd ysbryd y gorthrymedigion yn fawr. Wedi i Groeg ddyfod yn annibynol, yn 1827, ac i'r deyrnas newydd gael ei sefydlu yn 1833, fe gyfododd y cwestiwn, pa un a gymmerai yr eglwys ran yn y chwyldroad, neu beidio. Ar gais 36 o esgobion prifddinasol, a ymgynnullasant yn Nauplia, fe gyhoeddodd y rhaglawiaeth, Mehefin 23, 1833, Eglwys Ddwyreiniol Uniongred Groeg *yn annibynol ar bob awdurdod dramor;* mai Crist oedd ei hunig ben; a'i bod yn alluog i'w llywodraethu ei hun. Sefydlwyd Cymmanfa Barhaol fel awdurdod oruchel yr eglwys, yr hon oedd i weithredu yn annibynol yn holl faterion mewnol yr eglwys; ond dan arolygiad a chyda chydweithrediad y llywodraeth mewn materion allanol a chymmysgedig. Cynnwysai y gymmanfa bump o aelodau clerigol, y rhai a appwyntid yn flynyddol gan y brenin, yn nghyd â dau swyddog breninol. Lleihawyd rhif y mynachdai o 400 i 82, a diddymwyd y lleiandai oll ond tri; a chymhwyswyd yr eiddo a gafwyd drwy hyn at wasanaeth yr eglwys a'r ysgol. Llywydd cyntaf y gymmanfa oedd Cyril, esgob prifddinasol Corinth. Rhanwyd y wlad i ddeg o esgobaethau, a gwnaed prif ddinas pob esgobaeth yn eisteddfa yr esgob. Y mae yr eglwys wedi myned yn fwy annibynol ar y wladwriaeth ar ol y flwyddyn 1844. Yn 1837, sefydlwyd prifysgol Athen a chyfundrefn ddiwygiedig o addysg. Ymwthiodd Protestaniaeth i'r wlad, hyd yn oed o America, drwy gyfrwng cyfieithiadau o'r Beibl a chenadaethau. Parhaodd Eglwys Rhufain hefyd yn ei hymdrechion, ond heb nemawr o lwyddiant. Esgymunodd archesgob Attica, yn 1386, yr holl rieni hyny a anfonent eu plant i ysgolion y cenadon Prydeinig ac Americanaidd. Rhybuddir yn erbyn priodasau cymmysg. Ond y mae pleidiau cryfion sydd yn awyddus am ddiwygiad a chynnydd cyffredinol y wlad mewn addysg a rhyddid crefyddol. Y mae llawer iawn o les wedi cael ei gynnyrchu drwy gyhoeddiad esboniadau, ac ysgrifeniadau y tadau, a thrwy astudio yr hen ganonau. Yn mhlith y llyfrau defosiynol yr ydym yn cael cyfieithiad o *Orphwysfa y Saint*, gan Baxter.

Y mae ymlyniad Eglwys Groeg wrth hen sefydliadau wedi bod yn rhwystr mawr i ymdrechion am wellhad, oddi eithr yn unig yn Rwssia, lle y mae nifer mawr o sectau wedi cyfodi, y rhai y mae y llywodraeth, nid yn unig yn eu goddef, ond yn caniatau i'r esgobion rheolaidd gyssegru rhai o'u clerigwyr. Fel y gellid dysgwyl, y mae gwir grefydd yn y sefyllfa isaf yn mhlith pob dosbarth o'r wladwriaeth; ond gellir gobeithio am ddiwygiad yn raddol, gan nad ydyw rhyddledaeniad yr Ysgrythyrau Sanctaidd yn iaith y bobl yn cael ei attal, megys y gwna Eglwys

Digitized by Google

Rhufain. Fe ddywedir fod nifer yr ymlynwyr wrth y gwahanol gangenau o Eglwys Groeg fel y canlyn:—Yn Rwssia, 50,000,000; yn Twrci, 12,000,000; yn Groeg, 800,000; yn y tiriogaethau Awstriaidd, 2,800,000; yn mhatriarchaeth Alexandria, 5,000; patriarchaeth Antiochia, 150,000; ac yn mhatriarchaeth Ierusalem, 15,000:—yn wneyd i fyny gyfanrif o 65,500,000.

GROTIUS, HUGO: ysgolhaig a gwleidyddwr enwog, a anwyd yn Delft, Holland, yn y flwyddyn 1583. Yr oedd yn disgyn o deulu urddasol a chyfoethog; derbyniodd addysg dda; a dangosodd yn fore iawn arwyddion o dalent a medrusrwydd anghyffredin. Yn 1599, ymddangosodd i'r byd fel dadleuwr cyfreithiol, ac fel awdwr dysgedig. Penodwyd ef yn hanesydd y llywodraeth, yn ddadleuwr cyffredinol i Holland a Zealand, yn aelod o'r teyrn-gynghor dros y taleithiau cyffredinol, ac yn llys-negesydd i Loegr. Hyd yma yr oedd ei fywyd wedi bod yn ddysglaer a llwyddiannus iawn; ond yn awr daeth yn dywyll a phrofedigaethus, o herwydd y rhan amlwg a gymmerodd yn y ddadl Arminaidd a gymmerodd le yn fuan wedi marwolaeth James Arminius. Yn 1613, appwyntiwyd ef yn brif swyddog Rotterdam; a thra yn y swydd anrhydeddus hon, cyhoeddodd ei hun yn bleidiol i'r gwleidyddwr Barneveldt (yr hwn a gyhuddwyd o deyrnfradwriaeth), ac efe a roddodd ei gefnogaeth iddo ef ac i achos yr Arminiaid trwy ei ddylanwad a nerth ei ysgrifbin. Mewn canlyniad i hyn, danfonwyd ef a'i wraig i amddiffynfa Louvestein, i fod yn garcharorion am eu hoes; a bu agos iddo ef gael ei ddedfrydu i ddioddef tynged Barneveldt, yr hwn a roddwyd i farwolaeth ar y crogbren. Modd bynag, ar ol ysbaid deunaw mis o amser, yr hwn a ddefnyddiodd i ysgrifenu ei draethawd gwerthfawr ar "Wirionedd y Grefydd Gristionogol," llwyddodd i ddianc o'r amddiffynfa trwy gyfrwysder ei wraig, yr hon oedd wedi cael rhyddid i fyned allan o'r carchar ddwywaith yr wythnos. Yr oedd Grotius yn barhaus yn derbyn llyfrau, yn nghyd â llieiniau at wasanaeth ei gorff, y rhai a gludid iddo mewn cist i mewn ac allan o'r amddiffynfa. Am beth amser, chwilid y gist hon yn fanwl gan y gwyliedyddion; ond gan nad oeddynt yn cael dim ynddi heb law llyfrau a llieiniau, hwy a roisant heibio y gorchwyl o'i chwilio. Fe sylwodd gwraig Grotius ar ddifaterwch y gwyliedyddion; ac ar un diwrnod, hi a benderfynodd berswadio ei gŵr i fyned i'r gist, fel, pan y symmudid hi allan o'r carchar, y cawsai yntau gyfleusdra i ffoi am ei ryddid. Gosododd Grotius ei hun yn y gist, ac felly y llwyddodd i ymryddhau o'i gaethiwed. Gweithiodd ei ffordd trwy Antwerp i Ffrainc, lle y cyfarfyddwyd ef gan ei anwyl wraig yn mhen ychydig fisoedd wedi hyny; a chafodd dderbyniad croesawus gan Louis XIII., yr hwn a roddodd iddo flwydd-dal bychan. Yn ystod ei arosiad yn Ffrainc, ennillodd sylw cyffredinol, a pherchid ef gan lawer fel dyn o feddwl mawr, fel athronydd galluog, duwinydd dwfn a chraffus, hanesydd dysgedig, a chyfreithiwr gwybodus. Cyfansoddodd lyfrau ar "Iawnderau Heddwch a Rhyfel," "Sefydliadau a Deddfau Holland," "Hanes y Gothiaid," "Y ffordd i sicrhau Heddwch yn yr Eglwys," "Traethawd ar yr Iawn," &c. Efe oedd y cyntaf i ddadleu egwyddorion Cyfreithiau Gwledydd (*International Laws*), y rhai erbyn hyn sydd yn cael eu derbyn a'u cydnabod gan holl deyrnasoedd Ewrop fel safon a rheol i ymddwyn tuag at eu gilydd mewn rhyfel ac mewn heddwch. Wedi bod yn Ffrainc am ddeuddeng mlynedd, dychwelodd Grotius i wlad ei enedigaeth, gan ymddiried ei hun i ffafr ac ewyllys da Frederic Henry, Tywysog Orange, yr hwn oedd wedi ysgrifenu ato lythyr o gydymdeimlad; ond trwy ddylanwad ei elynion, alltudiwyd ef o'i wlad, a rhybuddiwyd ef i beidio byth a sangu ei thir mwy. Treuliodd weddill ei oes fel llysgenadwr o dan lywodraeth Sweden, a bu farw yn Rostock yn y flwyddyn 1645.

GRUFFYDD AB CYNAN: tywysog enwog yn Ngogledd Cymru, o'r flwyddyn 1075 hyd ei farwolaeth yn y flwyddyn 1137. Diangodd ei dad, Cynan, i'r Iwerddon am nawddle rhag y rhyfeloedd creulawn a derfysgent ei wlad ei hun, a phriododd yno âg un o'r Gwyddelod, lle hefyd y ganwyd eu mab Gruffydd. Wedi iddo ef ddyfod i oed gŵr, daeth drosodd i Gymru, a goresgynodd a meddiannodd Ynys Môn trwy gymhorth nifer o filwyr a roddesid iddo gan ei geraint—y tywysogion Gwyddelig. Ar ol darostwng Môn, croesodd Gulfor Menai, a daeth i Arfon. Cynnorthwywyd ef yno gan amryw bendefigion galluog, ond gorchfygwyd ef gan y tywysog Trahaearn, yn Mron yr Erw, ger llaw Harlech, a gorfodwyd ef i ddychwelyd i Fôn. Yn 1079, llwyddodd i orchfygu ei wrthwynebwr, yr hwn a laddwyd yn mrwydr Carno, ac i ddyfod i feddiant o orsedd ei dadau. Yn mhen ychydig wedi hyny y cafodd ei draddodi trwy fradwriaeth i ddwylaw iarll Caerlleon, yr hwn a'i cadwodd yn garcharor am ddeuddeng mlynedd; ac yn y cyfamser a gyflawnodd ddifrodau erchyll yn Ngogledd Cymru. Dygwyd ei ryddhad o garchar oddi amgylch trwy gyfrwysdra Cynwrig Hir, gŵr genedigol o Edeyrnion, yr hwn a dwyllodd y rhai a'i gwylient yn y carchar, ac a gludodd ei dywysog, er dan lwyth o gadwyni, yn ddiogel i'w wlad ei hun. Wedi dioddef llawer o galedi, llwyddodd Gruffydd i gymmeryd y cestyll a adeiladasai y Normaniaid yn ei dywysogaeth, ac i ladd niferi mawrion o'r Seison oeddynt wedi ymsefydlu yn y wlad. Yn y flwyddyn 1096, gorfu iddo ffoi i'r Iwerddon rhag byddinoedd lluosog a gyfodesid yn ei erbyn gan ieirll yr Amwythig a Chaerlleon; ond dychwelodd drachefn yn 1098, a gwnaeth heddwch â'r Seison; eto ni pharhaodd yr heddwch hwn ond dros ychydig o amser, ac am y gweddill o'i deyrnasiad gwrthsafodd yn llwyddiannus bob cynnygiad i'w orchfygu. Bu farw yn yr oedran teg o bedwar ugain a dwy flwydd, a chladdwyd ef dan y tu deheuol i'r allor yn eglwys gadeiriol Bangor. Cafodd y tywysog hwn dri o feibion a phump o ferched o'i wraig Angharad, merch Owen ab Edwyn. Enwau ei feibion oedd Owen, yr hwn a adnabyddir dan yr enw Owen Gwynedd, Cadwaladr, a Chadwallawn. Cafodd Cadwallawn ei ladd mewn brwydr cyn marwolaeth ei dad. Enwogodd Gruffydd ab Cynan ei hun yn fawr trwy noddi beirdd a cherddorion ei wlad. Cafodd lawer o annhrefn yn mysg y beirdd Cymreig; ac er mwyn cael pethau i well trefn, gwahoddodd rai o brif gerddorion yr Iwerddon i Gymru, a galwodd yn nghyd amryw eisteddfodau, yn y rhai y sefydlwyd cyfreithiau er rheoleiddio barddoniaeth a cherddoriaeth yn well. O amser y diwygiad mawr hwn, pryd y cyrhaeddodd barddoniaeth a llenyddiaeth Cymru radd o berffeithrwydd uchel, yr ydym yn cael olyniad enwog o feirdd yn gysson hyd yr amser hwnw pan y collodd y genedl ei hannibyniaeth yn marwolaeth y tywysog

Digitized by Google

Llewelyn. Yr oedd galar cyffredinol yn y wlad ar farwolaeth Gruffydd, a chyfansoddwyd marwnad effeithiol iddo gan y bardd Meilir, yr hon sydd i'w gweled yn y *Myvyrian Archaiology of Wales*,[1] ac yn mhellach yn mlaen yn y gwaith gwerthfawr hwnw ceir bywgraffiad y tywysog, yr hwn a ysgrifenwyd yn fuan ar ol ei farwolaeth. Mae Gruffydd ab Cynan yn gyff un o bum llwyth breninol Cymru, a rhai o brif deuluoedd y Dywysogaeth wedi disgyn oddi wrtho.

GRUFFYDD AB NICHOLAS: gŵr hynod yn ei oes ar gyfrif ei awdurdod, ei gyfoeth, a'r teulu urddasol y perthynai iddo. Yr oedd yn noddwr mawr i'r beirdd, ac yn anghyffredin o boblogaidd trwy yr holl Dywysogaeth. Yn ei ddyddiau diweddaf, ymunodd â theulu Caerefrog (*York*), ac wrth ymladd drostynt fel llywydd 800 o wŷr dewisedig a arweiniasai i'r frwydr, lladdwyd ef yn mrwydr Croes Mortimer, yn y flwyddyn 1461. Bu yn briod dair gwaith, a chafodd lawer o blant, enwau pa rai a roddir yn *Dunn's Heraldic Visitation of Wales*. Dilynwyd ef yn y llywodraeth gan ei fab, Thomas ab Gruffydd, tad Syr Rhys ab Thomas. Gweler hanes cyflawn am y teulu hwn yn y gyfrol gyntaf o'r *Cambrian Register*.

GRUFFYDD AB RHYS AB TEWDWR: un o dywysogion Deheubarth Cymru. Baban ydoedd ef pan y bu farw ei dad; ac er ei ddiogelwch cymmerwyd ef i'r Iwerddon, lle y dygwyd ef i fyny. Yn y flwyddyn 1113, dychwelodd i Gymru, lle y cafodd dderbyniad gorfoleddus; ond yn gymmaint nad oedd ei gynlluniau er adferu ei Dywysogaeth o ddwylaw y Normaniaid wedi dyfod i addfedrwydd, gorfodwyd ef i ffoi am nodded at Gruffydd ab Cynan i Ogledd Cymru. Pan gafodd ar ddeall fod y tywysog hwnw wedi cael ei hudo, i'w draddodi yn fradwrus i frenin y Seison, efe a ddiangodd dros y môr i Ddeheudir Cymru, lle y rhuthrodd ar unwaith ar y Seison, y Normaniaid, a'r Fflemiaid, y rhai a orchfygwyd ganddo mewn amryw frwydrau. Parhaodd dan arfau hyd yr heddwch a wnaed â'r brenin Harri, yn y flwyddyn 1121. Yn y flwyddyn 1135, derbyniodd wŷs i ymddangos ger bron y brenin Stephen, yr hon a attebwyd ganddo trwy arfogi ei wŷr, a gyru y preswylwyr estronaidd allan o'r wlad, y rhai oeddynt wedi meddiannu siroedd Aberteifi a Phenfro. Lladdodd dros dair mil o honynt. Wedi gorchfygiad ei elynion, cynnaliodd ŵyl orwych yn ei balas, yn Ystrad Towy, er gorfoleddu am adferiad ei diriogaethau, i ba un y gwahoddodd efe bawb a ddeuent yno mewn heddwch o bob parth o Gymru. Darparwyd yno bob rhyw amrywiaeth o fwydydd a diodydd yn y cyflawnder mwyaf; ac ymgasglodd yno luaws o feirdd a cherddorion i addysgu a difyru y gwahoddedigion, y rhai a gawsant eu gwobrwyo yn haelionus am eu gwasanaeth. Parhaodd yr ŵyl am ddeugain o ddyddiau, ac anrhydeddwyd hi â phresennoldeb Gruffydd ab Cynan, a'i feibion. Treuliodd Gruffydd ab Rhys y gweddill byr o'i deyrnasiad i ddiwygio y cyfreithiau, a'u gosod mewn gweithrediad. Bu farw, er galar mawr i'w ddeiliaid, yn y flwyddyn 1136. Dywed yr hanesydd, Caradog o Lancarfan, mai y dewraf, y doethaf, y trugarocaf, yr haelionusaf, a'r cyflawnaf o holl Dywysogion Cymru ydoedd. Dilynwyd ef yn y llywodraeth gan ei fab Rhys.

[1]Argraffiad newydd, cyhoeddedig gan T. Gee.

GUATEMALA: talaeth yn nghanolbarth America. Gwel y gair DAIARYDDIAETH, cyf. iii. td. 276.

GUATEMALA NEWYDD: prif ddinas y dalaeth uchod, yn gorwedd 105 o filltiroedd oddi wrth San Salvador. Dinystriwyd hi ddwywaith gan ddaeargryn. Y mae y ddinas yn awr wedi ei hail adeiladu, ac yn sefyll tua phum milltir ar ugain oddi wrth safle yr hen ddinas. Lle ardderchog ydyw, wedi ei addurno âg adeiladau gwych, eglwysydd, mynachdai, a phrif ysgol. Cynnwysa 40,000 o drigolion.

GUDGODAH: lle yn yr hwn y bu yr Israeliaid yn gorsafu yn ystod eu taith drwy yr anialwch: *Deut.* x. 7. Yr un lle ydyw a Horhagidgad: *Num.* xxxiii. 32.

GUIANA: talaeth eang yn Neheudir America. Gwel DAIARYDDIAETH, cyf. iii. td. 277.

GUINEA: gwlad yn Affrica Orllewinol. Gwel DAIARYDDIAETH, cyf. iii. td. 269.

1. GUNI, [*fy ngardd*]: un o feibion Naphtali (*Gen.* xlvi. 24; 1 *Cron.* vii. 13), a chyndad tylwyth y Guniaid: *Num.* xxvi. 48.
2. GUNI: un o hiliogaeth Gad; tad Abdiel, penaeth yn ei dylwyth: 1 *Cron.* v. 15.

GUR: bryn, ar yr hwn y lladdwyd Ahaziah pan yn ffoi oddi wrth Iehu, brenin Israel: 2 *Bren.* ix. 27. Nid oes grybwylliad arall am y lle.

GUR-BAAL: tref, neu dalaeth, yn yr hon yr oedd Arabiaid yn preswylio: 2 *Cron.* xxvi. 7. Tybir fod y lle yn gorwedd ar y cyffiniau rhwng Gwlad Canaan ac Arabia.

GWAEDLIF. Gwel DYFERLIF.

GWAEWFFON. Gwel ARFAU, cyf. i. td. 315.

GWAGEDD, [*gwag*]: arferir y gair hwn yn yr Ysgrythyrau mewn gwrthgyferbyniad i'r hyn sydd sylweddol a da, a'r hyn sydd gydweddol â gwirionedd ac â natur y Duw Goruchaf. Nid oes dim gwagedd yn y nefoedd, yn mhlith creaduriaid sanctaidd - y mae pob peth yno yn cydweithio yn ddiball mewn undeb a chydgordiad âg ewyllys yr Iehofah; ond y mae y byd hwn, yr hwn a breswylir gan wrthryfelwyr yn erbyn llywodraeth y nef, yn llawn o wagedd—yn drigle anwiredd, twyll, ac anghyfiawnder. Dywedodd Solomon yn briodol iawn, pan wedi taflu golwg ar ei natur ac ar ei arferion, "gwagedd o wagedd; gwagedd yw y cwbl." Ac am hyny y mae yr apostol Ioan, yn cael ei gyfarwyddo gan yr un Ysbryd a Solomon, yn dywedyd wrth gyfarch y saint, "Na cherwch y byd, na'r pethau sydd yn y byd. O châr neb y byd nid yw cariad y Tad ynddo ef;" 1 *Ioan* ii. 15. Nid oes dim gwirioneddol dda yn y byd, nac yn y greadigaeth i gyd ar wahân oddi wrth Dduw: gwagedd yw dynion, gwagedd yw eu cadernid, eu doethineb, a'u cyfoeth, os heb fod yn dal perthynas heddychlawn â Duw; yr hwn, mewn gwirionedd, yw yr unig fod sylweddol, yn annibynol, anfeidrol, anghyfnewidiol, a thragwyddol dda yn ei hanfod, ac nis gall dim hawlio y graddau lleiaf o sylweddolrwydd heb fod mewn cyssylltiad âg ef, "yn yr hwn y

Digitized by Google

mae pob peth yn cydsefyll," a'r hwn yw ffynnonell fawr pob daioni, cysur, a dedwyddwch. Gellir dywedyd llawer o bethau gogoneddus am ddynion fel y maent yn greaduriaid rhesymol ac anfarwol; ond fel y maent yn droseddwyr yn erbyn cyfreithiau y nef, priodol y dywedir am danynt "Gwagedd yn ddiau yw meibion dynion, geudab yw meibion gwŷr: i'w gosod yn y clorian, ysgafnach ydynt hwy i gyd na gwegi;" *Salm* lxii. 9. Pechod sydd wedi iselu cymmeriad dyn; ac nis gall dim fod yn fwy gwag, ofer, a diles na phechod yn ei wahanol ffurfiau ac agweddion—megys balchder, anwiredd, godineb, meddwdod, lladrad, cybydd-dod, segurdod, cenfigen, llofruddiaeth, cynnen, twyll, drwg-anwydau, anghariad, creulondeb (*Rhuf.* i. 29, 30), ymddyddanion segur a ffol, gwatwargerdd, trythyllwch, glythineb, gloddest, &c.: *Salm* iv. 2; xii. 2; xxiv. 4; cxix. 37; cxiv. 4; *Diar.* xxiii. 5; *Preg.* i; *Eph.* iv. 17—19; 2 *Pedr* ii. 18; *Iudas* 16. Gwagedd yw difyrwch a llwyddiant bydol: nid ydynt yn digoni yr enaid, ac nis gallant weinyddu cysur iddo yn ei gartrefle tragwyddol: *Diar.* x. 2, 3; xi. 4; xiii. 6; *Salm* xxxix 6; 1 *Cor.* vii. 31; 1 *Ioan* ii. 17. Y mae difyrwch a llawenydd yn gyfreithlawn, os yn sanctaidd a diddrwg, ac yn cael eu llywodraethu gan ofn yr Arglwydd; ac y mae cyfoeth, os defnyddir ef i amcanion teilwng a gonest—i ogoneddu Duw—yn fendith annhraethol i'w berchenog. Un llawen a chyfoethog ydyw Duw ei hunan, ac ewyllys ei galon ydyw i bawb o'i greaduriaid gael cyfranogi o'i lawenydd a'i gyfoeth tra y parhant i roddi ufudd-dod i'w air: "Y cyfiawn a lawenycha yn yr Arglwydd, ac a obeithia ynddo; a'r rhai uniawn o galon oll a orfoleddant;" *Salm* lxiv. 10. Lle nid oes bechod nid oes wagedd. Nis gellir casglu oddi wrth unrhyw ymadrodd ysgrythyrol fod difyrwch adlonawl (*recreative amusement*) yn wagedd ac yn drosedd yn erbyn ysbryd y grefydd Gristionogol. Dyledswydd orphwysedig ar bob dyn ydyw gofalu am ei gorff a'i enaid; ac y mae adloniant yn anhebgorol angenrheidiol i gynnal hoenusrwydd a bywioldeb y naill a'r llall. Y mae difyrion diniweid yn sicr o fod yn bethau goddefol, os mwynheir hwynt yn gymmedrol, heb wastraffu amser, na dangos un math o ffolineb, ynfydrwydd, na phenchwibandod. Y tafod, yn gyffredin iawn, sydd yn rhoddi gwedd bechadurus ar ymddygiadau dynion. "Aelod bychan" ydyw ef, ond y mae yn alluog i wneuthur drwg mawr—"drwg anllywodraethus ydyw, yn llawn gwenwyn marwol." Mewn dawnsiau, chwareudai, difyr gymdeithasau, &c., fe ddywed y tafod lawer o bethau sydd yn llygru moesau da, yn niweidio chwaeth, ac yn demtasiwn i ymroddi i arferion llygredig a masweddol. Hyd nes y dofir yr "aelod bychan" hwn ynte, a'i ddysgu i siarad geiriau syml, dywedwn yn groew mai gwagedd, yn ystyr eangaf y gair, yw mynychu y chwareufanau crybwylledig, a'u cyffelyb. "Bwrw oddi wrthyt enau taeogaidd, a gwefusau trofäus yn mhell oddi wrthyt;" *Diar.* iv. 24. Y mae rhai chwareyddiaethau yn dwyn nodweddau sydd yn wagedd i'r llygaid edrych arnynt, ac yn y diwedd yn taflu dylanwad dinystriol ar y meddwl: "Edryched dy lygaid yn uniawn:" *Diar.* iv. 25. Wrth dynu llinell wahaniaethol rhwng difyrion cyfreithlawn, a difyrion gwag a phechadurus, dylid cadw lles y corff a'r meddwl mewn golwg; ac os bydd unrhyw ddifyrion yn debyg o fod yn niweidiol i'r naill neu y llall, gocheler hwynt gyda phenderfynolrwydd anwrthwynebol. Dichon i lawer o ddifyrion fod o duedd dda mewn llawer iawn o ystyriaethau; ond os byddant mewn un ystyriaeth yn tueddu i lygru yr enaid, doethineb ydyw ymgadw oddi wrthynt, ac edrych arnynt fel pethau peryglus, o blegid fe ddichon i ychydig o ddrwg fod yn foddion i "ddistrywio enaid a chorff yn uffern."

Y mae eilunod yn cael eu galw yn oferedd ac yn wagedd: *Deut.* xxxii. 21; 1 *Sam.* xii. 21; 1 *Bren.* xvi. 13; *Ionah* ii. 8; *Esa.* xli. 29. "Gan ddywedyd chwyddedig eiriau gorwagedd;" 2 *Pedr* ii. 18:—geiriau coeglyd, ofer, chwyddedig, a hollol wag o synwyr ac adeiladaeth. Eithafnod anwiredd ac anghyfiawnder yw gorwagedd; ac yr oedd rhai dynion yn amser yr apostol Pedr mor lygredig a thwyllodrus yn eu hegwyddorion fel nad oedd modd iddynt fod yn ysgafnach yn nghlorian fawr y gwirionedd.

GWAHANGLWYF—US, [*gwahan—clwyf*]. Afiechyd dychrynllyd a ystyrid gan yr Iuddewon fel barn Duw am bechodau ysgeler a rhyfygus. Galwyd ef y *gwahanglwyf* o blegid ei fod yn gwahanu y sawl a'i cawsai oddi wrth bob cymdeithas â'i gyd-ddynion.

Y mae Moses, yn *Lef.* xiii. a xiv, yn crybwyll am dri math o'r clwyf hwn; sef, 1. ar ddynion; 2. ar dai; 3. ar wisgoedd.

*Y gwahanglwyf ar ddynion.* Ymddangosai y math yma o wahanglwyf i ddechreu yn y croen mewn cên, neu grâch gwynion, naill ai dros yr holl gorff, neu ranau o hono; ac yn gyffredin byddai yn cynnyrchu ysfa erwin, a gwyniau dolurus ereill, gan lygru yr holl waed drwy y cyfansoddiad. Nid yw Moses yn son am foddion naturiol, neu gyfferïaeth ddynol i'w feddyginiaethu. Gorchymynai yn unig i'r clwyfus ddangos ei hun o flaen yr offeiriad, yr hwn oedd i farnu pa un a oedd yn wahanglwyfus, ai peidio. Os cawsid boddlonrwydd mai y gwahanglwyf oedd arno, yna yr oedd i gael ei farnu yn aflan, a'i wahanu oddi wrth y gymdeithas ddynol. Y mae Moses hefyd yn penodi aberthau a seremonïau neillduol i lanhau y gwahanglwyfus, ac i'w adferu i fwynhau cysuron cymdeithas fel o'r blaen: *Lef.* xiv. Yr arwyddion a nodir gan Moses i adnabod y gwahanglwyf oedd—chwydd yn y croen, ploryn, neu gramen, ac ysmotyn gwyn a dysglaer. Pan welid ysmotyn dysglaer, yn tueddu at fod yn goch neu wyn, a'r blewyn yn y fan hono wedi troi yn wyn, a'r dolur wedi myned yn ddyfnach na'r croen, yr oedd hyny yn arwydd sicr o'r gwahanglwyf. Y mae y meddygon sydd wedi astudio natur y clwyf hwn yn cydolygu â Moses o berthynas i'w arwyddion cyntaf; ac y maent hwy yn dal fod yn bosibl gwella y clwyf yn ei ddechreuad, ond ei fod yn myned yn anfeddyginiaethol wedi iddo unwaith wreiddio yn y cyfansoddiad. Y mae teithwyr, y rhai a welsant bobl wahanglwyfus yn y dwyrain, yn dywedyd mai y traed sydd yn dyoddef fwyaf oddi wrth yr afiechyd. Dywed Maundrell, yr hwn a welodd rai gwahanglwyfus yn Ngwlad Canaan, fod eu traed yn chwyddo i faintioli traed elephantiaid, neu draed meirch wedi chwyddo oddi wrth effeithiau y clafr. Yr arwyddion cyffredin, medd y meddygon, wrth ba rai y gellir adnabod y gwahanglwyf sydd wedi sefydlu a gwreiddio yn y corph yw y rhai hyn:—Mae y llais yn myned yn gryglyd, fel llais ci wedi hir gyfarth, ac yn dyfod o'r ffroenau braidd yn fwy nag o'r genau; y mae curiad y gwaed yn araf ac afreolaidd. Y mae'r gwaed ei hun yn llawn o fân ronynau,

Digitized by Google

tebyg i hadau miledwellt (*millet-grass*). Ni wna halen doddi ynddo, ac y mae mor sych fel y mae gwinegr wedi ei gymmysgu âg ef yn bwrlymu i fyny; y mae'r troeth yn annhreuliedig, yn dew, ac yn llwydaidd ei liw; a'r ysgarthiad fel blawd wedi ei gymmysgu â bran. Y mae'r wyneb fel marwor poeth wedi hanner llosgi, ac yn dysgleirio, yn seimlyd, yn chwyddedig, ac yn llawn o blorynod celyd; y llygaid yn goch, ac yn ymdaflu allan o'r pen, ac heb fodd i'w troi o un ochr i'r llall; y clustiau yn goch ac yn chwyddedig, â gweliau crawnllyd o gwmpas eu bôn; a'r trwyn yn ymsuddo, o blegid fod y madruddyn, neu'r mwythau (*cartilage*) yn pydru. Y mae'r ffroenau yn ymledu, ac wedi eu cau i fyny yn y pen draw gan fater cornwydlyd; y mae'r tafod yn sych, yn ddu, yn chwyddedig, yn gorllyd, wedi ei fyrhau, ei hollti, a'i orchuddio â mân blorynod gwynion. Ac y mae y croen yn anwastad, caled, a dideimlad; a phe torid ef, deuai gôr allan yn lle gwaed.

Y mae awdwr arall yn dysgrifio effeithiau y gwahanglwyf yn y modd canlynol:—Y mae teimladrwydd yr holl gorff yn cael ei niweidio yn fawr; ac yn y dwylaw a'r traed y mae ef yn fynych yn cael ei lwyr ddinystrio. Y mae cymmalau y bodiau yn llynori, ac y mae'r bodiau mewn canlyniad yn syrthio ymaith, un ar ol y llall. Nid yw iechyd cyffredin y clwyfus yn cael ei wanychu am gryn amser, ac nid yw ei ddyoddefiadau bob amser mor angerddol ag y gellid tybied oddi wrth hagrwch ac anffurfiad allanol y corph. Yn aml, modd bynag, y mae ef yn treulio ei nosweithiau yn ddigwsg; ac os dygwydd iddo gael huno, aflonyddir ef gan freuddwydion dychrynllyd. Yn raddol y mae efe yn myned yn sarug, yn anniddig, a phruddaidd; nis gall oddef edrych ar ddyn iach, o blegid ei fod yn teimlo ei hun yn wrthddrych mor anghynhes; ac y mae bywyd yn dyfod yn faich mawr iddo; neu ynte efe a syrth i gyflwr o ddifaterwch; ac wedi bod felly, yn adyn digysur, am lawer o flyneddoedd, y mae efe yn marw megys o ludded a darfodedigaeth.

Y mae y gwahanglwyf yn afiechyd heintus; a dyna y rheswm, mae yn dra thebyg, i Moses fod mor ofalus i wahardd y rhai gwahanglwyfus rhag cael cymdeithasu â'r rhai iach. Gorchymynai Moses hyd yn oed i gyrph y rhai gwahanglwyfus i beidio cael eu claddu yn agos i gyrph y rhai oedd heb eu llygru gan y clwyf ofnadwy hwn.

2. *Gwahanglwyf ar dai.* Ymddengys fod y gwahanglwyf yn afiechyd cyffredin yn Ngwlad Canaan, a'i fod yn effeithio ar breswylfeydd y trigolion, cyn i'r Israeliaid fyned iddi i'w meddiannu: *Lef.* xiv. 34, &c. Arwyddion y clwyf ar y tai ydoedd "agenau gwyrddleision, neu gochion," a thyllau ac ysmotiau bychain ar y parwydydd. Bernir fod y tyllau a'r ysmotiau yn cael eu creu gan gynron a phryfaid, y rhai a gynnyrchid oddi wrth waddodion cnawd y gwahanglwyfus. Y mae Moses yn rhoddi cyfarwyddiadau pa fodd i lanhau tai oddi wrth effeithiau y clwyf yn *Lef.* xiv. 36—53.

3. *Gwahanglwyf ar wisgoedd.* Yr oedd y clwyf yn diwyno dillad, yr un modd ag yr oedd yn diwyno tai. "Ac os dilledyn fydd â phla gwahanglwyf ynddo, o ddilledyn gwlân, neu o ddilledyn llin, pa un bynag ai yn yr ystof, ai yn yr anwe, o lin, neu o wlân, neu mewn croen, neu mewn dim a wnaed o groen; os gwyrddlas neu goch fydd yr anafod yn y dilledyn, neu yn y croen, neu yn yr ystof, neu yr anwe, neu mewn dim o groen: pla y gwahanglwyf yw efe; a dangoser ef i'r offeiriad;" *Lef.* xiii. 47, &c.

Y mae rhai meddygon yn haeru nad ydyw y gwahanglwyf yn glefyd heintus; ond os ydym i roddi ymddiried yn Moses fel ysgrifenydd ysbrydoledig, y mae yn eithaf amlwg fod y gwahanglwyf oedd yn ffynu yn Ngwlad Canaan y pryd hwnw, ac am oesoedd lawer wedi hyny, yn un heintus yn ystyr eangaf y gair. Yr oedd pob peth a ddeuai i gyffyrddiad â chnawd y gwahanglwyfus yn cael ei ddyfetha a'i lygru yn hollol; ac nid oes un rheswm dros fod y clwyfus yn cael ei neillduo oddi wrth gymdeithas yr iach ond fod yr afiechyd yn heintus.

Yn y ddegfed a'r unfed ganrif ar ddeg, yr oedd math o wahanglwyf, nid yn gwbl o'r un natur a'r gwahanglwyf y sonir am dano yn yr Ysgrythyr, yn aml iawn yn Ewrop. Yr oedd ysbyttai pwrpasol i wahangleifion yn britho pob gwlad yn y Cyfandir. Dywedir fod, ar un adeg, cynnifer a dwy fil o honynt yn Ffrainc yn unig. Yr oedd y gwahanglwyf hwnw yn cael ei ystyried yn heintus, a gwnaed cyfreithiau manwl i wahardd y clwyfus rhag myned yn agos at bersonau iach. O ddeutu yr eilfed ganrif ar bymtheg, ymadawodd y clwyf o Ewrop; ac nid yw yn awr yn bodoli ond yn y gwledydd o fewn y trofanau—rhanau o ddeheudir America, Affrica, Arabia, India, a China, &c. Y mae y negroaid, medd Mungo Park, yn ddarostyngedig i wahanglwyf o'r math gwaethaf. Y mae yn Morocco, prif ddinas ymherodraeth o'r un enw yn Affrica, le neillduedig tu allan i'r muriau, yn cael ei breswylio yn unig gan wahangleifion; y rhai pan yn dyfod allan o'u tai, a orfodir i wisgo het wellt fawr â chantel llydan, i fod yn arwydd i ereill i beidio myned i'w hymyl. Yn Barbary, gwelir gwahangleifion yn eistedd ar ochrau y ffyrdd yn gofyn elusen, gyda chwpan bren o'u blaen. Bydd y gwahangleifion yn y gwledydd hyny yn priodi yn mhlith eu gilydd, a bydd yr afiechyd yn aros yn eu teuluoedd trwy eu cenedlaethau.

Yr oedd y gwahanglwyf, yn enwedig yn ei gyssylltiad â'r Iuddewon, fel barn Duw, yn arwyddocaol o bechod, gwreiddiol, a gweithredol, yn ei effeithiau ffiaidd ac atgas, ei heintusrwydd, a'i anfeddyginiaetholrwydd. Ac yr oedd glanhad y gwahanglwyfus, yn ol "cyfraith y gwahanglwyf" gan Moses, yn ddiammheu yn cysgodi glanhad pechadur trwy dywalltiad a thaenelliad gwaed Crist: *Heb.* ix. 10; 1 *Ioan* i. 7; 1 *Pedr* i. 19; 1 *Cor.* vi. 11. At hyn y mae Dafydd yn cyfeirio yn *Salm* li. 7.

GWAHANLEN. Gwel LLEN.

GWAHARDDIAD, DEDDF. Deddf ydyw hon a basiwyd gan Gymmanfa Gyffredinol Eglwys Ysgotland yn y flwyddyn 1834, drwy yr hon y penderfynwyd na dderbynid neb yn weinidog ar eglwys os byddai y mwyafrif o'r penau teuluoedd gwryw, a fyddent mewn llawn gymundeb yn yr eglwys, yn wrthwynebol i'r alwad. Gellir gweled natur y ddeddf hon oddi wrth y penderfyniad canlynol a gynnygiwyd gan arglwydd Moncrieff ac a basiwyd yn y Gymmanfa Gyffredinol:— "Fod y Gymmanfa Gyffredinol, ar ol ystyried yn bwyllog y cynnygion a ddygwyd yn mlaen, yn dadgan ei bod yn ddeddf sylfaenol yr eglwys hon, na bo i un gweinidog wthio ei wasanaeth ar unrhyw gynnulleidfa yn groes i ddymuniad y bobl; ac mewn trefn i gario yr egwyddorion hyn allan yn effeithiol, fod henuriaid yr eglwys hon

Digitized by Google

yn cael eu hysbysu, os bydd y mwyafrif o benau teuluoedd fyddont yn gyflawn aelodau mewn eglwys, i'r hon y gelwir un i'w gwasanaethu, yn anghymmeradwyo y person a elwir, fod y cyfryw anghymmeradwyaeth i gael ei ystyried yn ddigon o sail i'r henaduriaeth wrthod y cyfryw berson, a'i fod i gael ei wrthod mewn canlyniad i hyny, a hysbysrwydd priodol yn cael ei roddi i'r sawl y perthyn iddynt wybod; ond os na bydd y mwyafrif o'r penau teuluoedd hyn yn anghymmeradwyo y cyfryw berson i fod yn weinidog iddynt, fod yr henaduriaeth i fyned yn mlaen i'w sefydlu yn ol rheolau yr eglwys: bod y gymmanfa yn dadgan yn mhellach na ellir ystyried fod gan un dyn hawl i anghymmeradwyo, megys y dywedir uchod, os gwrthyd efe pan ofynid iddo ddadgan yn ddifrifol ger bron yr henaduriaeth nad yw yn cael ei gymhell gan unrhyw falais na chenfigen, ond yn hollol gan ofal cydwybodol am ei lesâd ei hun neu y gynnulleidfa: a'i bod yn penderfynu fod pwyllgor yn cael ei benodi er gwneyd adroddiad i gyfarfod o'r gymmanfa hon, yn mha ddull, a thrwy ba fesurau neillduol, y byddai oreu gosod y dadganiad a'r hysbysrwydd hwn mewn llawn weithrediad." Cynnygiwyd penderfyniad cyffelyb i hwn y flwyddyn o'r blaen gan Dr. Chalmers, a chefnogwyd ef gan arglwydd Moncrieff; ond collwyd ef gan fod mwyafrif o ddeuddeg yn ei erbyn. Ond er iddo gael ei basio yn Nghymmanfa 1834, fe benderfynodd y llys gwladol, sef Llys yr Eisteddfa (*Court of Session*) yn 1838, ei fod yn anghyfreithlawn, ac o'r tu allan i awdurdod y Gymmanfa Gyffredinol. Cadarnhawyd y penderfyniad hwn gan Dŷ yr Arglwyddi yn 1839; ond gan fod Eglwys Ysgotland yn ystyried fod derbyniad gweinidogion yn bwnc o awdurdod ysbrydol, yr hwn a berthynai yn gyssefin i'r eglwys, yn ol gair Duw, a chyfansoddiad cyntefig yr eglwys, a'i fod yn cael ei gadarnhau gan gyfraith a chyfansoddiad y wlad, hi a benderfynodd lynu wrth egwyddorion anymyriad ac annibyniaeth ysbrydol; ond amlygodd ei pharodrwydd bob amser i'w gosod mewn gweithrediad drwy unrhyw ffurf a fyddai yn sicr o'u diogelu. Penderfynodd y llysoedd gwladol, ac wedi hyny y llywodraeth, na wneid unrhyw ddiwygiad yn yr hyn a ystyriai yr eglwys yn drosedd ar yr egwyddorion hyn. Y canlyniad fu, i ymraniad gymmeryd lle yn 1843; a chafodd Eglwys Rydd Ysgotland ei ffurfio. Wedi y dygwyddiad hwn fe ddiddymwyd deddf gwaharddiad gan y gweinidogion hyny a arosasant yn aelodau o Gymmanfa yr Eglwys Sefydledig. Gwel Eglwys Rydd.

GWAHODD—EDIGION, [*gwa—hawdd*]: galw, cymhell, denu, annog. Y mae y gair hwn i'w weled yn aml yn y Beibl. Yr oedd yr arferiad yn mhlith y dwyreinwyr, fel yn ein plith ninnau y dyddiau hyn, i barotoi gwleddoedd ar adegau neillduol, pryd y byddid yn croesawu cyfeillion, y rhai a elwid yn wahoddedigion (*guests*): 1 *Sam.* ix. 22; 1 *Bren.* i. 41, 49. Fe wnaeth yr Arglwydd Iesu gyfeiriad at yr arferiad hwn pan yn nhŷ un o benaethiaid y Phariseaid, yr hwn oedd wedi ei wahodd "i fwytta bara;" ac mewn dammeg efe a ddysgodd ostyngeiddrwydd i'r gwahoddedigion fel moddion i gyrhaedd parch ac anrhydedd: *Luc* xiv. Wrth wrandaw ar ei leferydd, dywedodd un o'r rhai oedd yn eistedd wrth y bwrdd gydag ef, "Gwyn ei fyd y neb a fwytao fara yn nheyrnas Dduw." Fe welodd yr Iesu yn fuan fod grym ei ddysgeidiaeth yn cael ei deimlo, ac efe a arweiniodd feddyliau y cyfeillion yn union at drefn Duw yn gwahodd pechaduriaid i gyfranogi o fendithion ei iachawdwriaeth. "Rhyw ŵr," meddai, "a wnaeth swper mawr, ac a wahoddodd lawer," &c.: *Luc* xiv. 16—24. Dangosir yn yr adnodau hyn fod Duw yn yr efengyl yn galw, yn annog, yn denu, ac yn gwahodd pechaduriaid i ddychwelyd ato, i dderbyn maddeuant o'u pechodau, i gael eu sancteiddio, a'u gwneuthur yn gymhwys i breswylio yn ngororau gwlad y gogoniant—dinas Duw—lle y cânt ymborthi ar wleddoedd ysbrydol byth ac yn dragywydd. Fe roddir pob annogaeth, mewn dull serchog a chariadus, i bob dosbarth o ddynion yn ddiwahaniaeth i ddyfod i'r "swper mawr," ac nis gall neb ymesgusodi heb osod ei hunan yn agored i ddioddef tlodi a gwarth tragwyddol: *Diar.* i. 24—29; *Mat.* xxii 3—13. Dangosai yr Iesu yn y ddammeg fod llawer yn ymesgusodi: yr oedd un wedi prynu tyddyn, ac yr oedd yn rhaid iddo fyned i'w weled; yr oedd y llall wedi prynu anifeiliaid, ac yr oedd arno eisieu myned i'w profi hwynt; ac yr oedd y llall wedi priodi gwraig, ac am hyny nis gallai fyned i'r swper. Esgusodion gwael, disail, ac annheilwng ydyw holl esgusodion y pechadur i beidio rhoddi ufudddod i alwadau Duw. Fe ddylasai y sawl oedd wedi prynu tyddyn ei weled cyn ei brynu; ac fe ddylasai y llall oedd wedi prynu anifeiliaid eu profi cyn iddo eu prynu; ac nid ydoedd priodi gwraig yn un rhwystr gwirioneddol i ufuddhau i'r gwahoddiad. Esgusodion ffol oedd y rhai hyn, ac esgusodion ffol raid fod holl esgusodion pechadur yn ngwyneb gwahoddiad Duw yn yr efengyl; o blegid y mae y gwahoddiad wedi ei roddi i gyrhaedd amcanion goruchel—sef, i ogoneddu Duw ac i waredu eneidiau o ddystryw—ac y mae dibrisio yr amcanion hyn yn ynfydrwydd ac yn galw am gospedigaeth y llywodraeth ddwyfol. Darpariaeth ar gyfer angen dyn ydyw gwledd yr efengyl—nis gall fyw yn ddedwydd hebddi; y mae ef yn adyn digysur a thruenus yn amddifad o honi—o ganlyniad y mae efe yn rhwym yn ol deddf ei natur, yn gystal ag yn ol deddf Duw, i'w derbyn gyda pharodrwydd a hyfrydwch calon. Y mae llawer—pawb—yn cael eu galw a'u gwahodd i fwynhau danteithion yr efengyl; y mae llais Duw yn ngweinidogaeth y cymmod ar holl drigolion y byd; ond ni bydd "pawb" yn mhlith nifer y gwir wahoddedigion, y rhai a eisteddant o ddeutu y bwrdd yn nef y nefoedd: nid am nad oes digon o gyflawnder o fendithion ar gyfer pawb, ond yn hytrach am mai nid pawb a welant yn dda wrandaw ar lais y Gwahoddwr mawr: "Canys llawer sydd wedi eu galw, ac ychydig wedi eu dewis;" *Mat.* xxii. 14. Y mae bendithion trefn iachawdwriaeth yn cael eu cynnyg yn rhad i bawb; ond nid oes neb i gael eu derbyn ond yn unig y rhai a gydymffurfiant âg ammod fawr y Testament Newydd, sef credu yn Iesu Grist—ei gofleidio, ei garu, a'i wasanaethu: "Cred yn yr Arglwydd Iesu Grist, a chadwedig fyddi, ti a'th deulu:" "a'r hwn nid yw yn credu yn y Mab ni wêl fywyd, eithr y mae digofaint Duw yn aros arno ef;" *Act.* xvi. 31; *Ioan* iii. 36. Gwel Galw; Etholedigaeth.

GWAIR, [*gwa—ir*]: gwair rhos, neu gwair gwaen; gwair gwyndwn, sef gwair oddi ar dir sych; gwair bras, sef gwair pabwyrol, gwael, a diwerth; brag-wair, sef gwair oddi ar dir gwlyb mynyddig; a gwair hallt, sef gwair oddi ar forfeydd a ddylifir gan y môr.

Digitized by Google

Cyfieithiad o'r gair Hebraeg *chatzir* ydyw *gwair*, fel yr ymddengys yn y Beibl; ac yn wir cyfieithiad o'r gair *chatzir* ydyw y geiriau *gwellt*, *glaswellt*, *llysiau*, &c. Yn *Num.* xi. 5, rhoddir *cenin* am *chatzir*, yr hyn, meddir, yw ystyr gwreiddiol y gair; ond byddai yn afresymol i ni gymmeryd yr ystyr hwn i'r gwreiddair yn y cyssylltiadau y defnyddir ef yn yr Ysgrythyr. Y mae dysgedigion yn cyttuno fod y gair yn dynodi gwyrddlysiau bwytadwy, a glaswellt yn gyffredinol. Gwel GLASWELLT. Fe ddengys y darlun canlynol fod gwahaniaeth dirfawr rhwng cenin (*leek*) a glaswellt, bwydlysiau (*vegetables*), gwair.



Dar. 321.—CENIN.

"Y gwair a flaen-dardda;" *Diar.* xxvii. 25—gwellt, llysiau. Y mae yn ddigon amlwg fod cyfieithu *chatzir* yn "gwair" yn hollol anghywir, o blegid nid oedd ac nid ydyw pobl y gwledydd dwyreiniol yn trin gwair. "Y gwair a flaendardda, a'r glaswellt a ymddengys, a llysiau y mynyddoedd a gesglir." Y mae un awdwr, yn ei nodiadau ar y geiriau hyn, yn sylwi "Yn awr, os ydyw y gwellt ond yn dechreu ymddangos, ni ddylai gwair (yr hwn nid ydyw ddim amgen na glaswellt wedi ei dori a'i sychu ar ol iddo dyfu i addfedrwydd) gael ei gyssylltu â'r gair *gwellt*, llawer llai nag iddo gael ei ddodi o'i flaen." "Ac wele, adladd wedi lladd gwair y brenin;" *Amos* vii. 1. Gan nad oeddynt yn lladd nac yn cyweirio gwair yn y gwledydd hyny, barna Harmer mai "pori i lawr" a ddylai y cyfieithiad fod; "gwedi pori i lawr wair y brenin." "Coed, gwair [glaswellt], sofl;" 1 *Cor.* iii. 12.

GWAITH EDEU A NODWYDD. Ymddengys fod y gelfyddyd o wnïo mewn arferiad yn oesoedd cyntaf y byd; ond nid, mae yn wir, yn ei pherffeithrwydd presennol. Y mae llawer o grybwylliadau yn y Beibl am "wnïadwaith," "gwnïo," gwaith edeu a nodwydd," "edeu," "nodwydd," &c.: *Gen.* xiv. 23; *Exod.* xxviii. 4; xxvi. 36; xxxvi. 37; xxxix. 29; *Preg.* iii. 7; *Ezec.* xvi. 10, 18; xxvii. 16, 24; *Marc* ii. 21. Y mae yn ddiammheu fod gwaith edeu a nodwydd yn cael ei gyflawnu gyda graddau mawr o gywreinrwydd yn amser Moses. Yr oedd llawer o'r gwaith hwn yn nglŷn â gwisgoedd yr offeiriaid a'r archoffeiriaid, ac â lleni y tabernacl, ac y mae yn dra thebyg ei fod o orpheniad gwych a destlus. Yr oedd gwasanaeth amryw o wahanol gelfyddydau yn angenrheidiol i adeiladu y tabernacl yn ol y portread dwyfol, ac nid oedd y Duw Hollalluog yn fyr o offerynau priodol i gwblhau yr holl waith. Oddi wrth yr Arglwydd y mae yr holl gelfau a'r gwyddorau wedi deilliaw —efe sydd yn agor ac yn goleuo meddyliau dynion yn mhob doethineb. "Efe a'u llanwodd hwynt," ebe Moses am y rhai a weithiasant y tabernacl, "â doethineb calon, i wneuthur pob gwaith saer a chywreinwaith, a gwaith edeu a nodwydd, mewn sidan glas, ac mewn porphor, ac mewn ysgarlad, ac mewn llian main, ac i wau, gan wneuthur pob gwaith, a dychymygu cywreinrwydd;" *Exod.* xxxv. 35. Yr oedd addurniadau ysblenydd o waith edau a nodwydd (*embroidery work*) ar wisgoedd boneddigesau yn ngwledydd y dwyrain: "Merched Israel, wylwch am Saul, yr hwn oedd yn eich dilladu chwi âg ysgarlad, gydag hyfrydwch, yr hwn oedd yn gwisgo addurnwisg aur ar eich dillad chwi;" 2 *Sam.* i. 24; *Barn.* v. 30; *Salm* xlv. 13, 14. Yr ydym yn darllen fod yr edafedd aur a ddefnyddid i wneuthur yr addurniadau hyn yn cael ei wneyd gan yr eurych: *Exod.* xxxix. 3. Yn *Ezec.* xiii. 18, sonir am wnïadyddesau; yr hyn a rydd ar ddeall i ni fod merched y pryd hwnw, fel yn awr, yn ymarfer â'r gelfyddyd o wnïo i ennill eu bywiolaethau. Y mae Solomon hefyd, wrth draethu ar linellau cymmeriad y wraig rinweddol, yn awgrymu ei bod yn fedrus gyda'r edeu a'r nodwydd: *Diar.* xxxi. 13, 22.

Y mae Josephus, Pliny, Syr John G. Wilkinson, ac ereill, yn cadarnhau y tystiolaethau ysgrythyrol o berthynas i hynafiaeth y gelfyddyd o wnïo.

Yn ddiweddar, y mae peiriannau wedi eu dyfeisio i wneyd agos bob math o waith edeu a nodwydd, gyda buander a chywreinrwydd tu hwnt i ddysgrifiad. Mae y peiriannau hyn yn awr yn dyfod yn bethau cyffredin, fel mai ychydig o wnïadwaith, mewn cymhariaeth i'r hyn a fu, sydd wedi ei adael i ddwylaw ein boneddigesau.

GWALCH, [o *gwal*]: yr hyn a hed i fyny; hebog, cudyll, aderyn aflan: *Lef.* xi. 16; *Deut.* xiv. 15. Yn Hebraeg gelwir y gwalch *netz*, oddi wrth y gwreiddyn *netzch*="ehedeg;" yr hwn, yn gystal a'r gair Arabaidd *natz*, a ddefnyddir i ddynodi gwahanol rywogaethau o'r adar hebogaidd, megys y wyddwalch a'r cudyll coch. Y mae y rhan fwyaf o'r rhywogaethau hyn yn adar symmudol; hyny yw, yn symmud ar amser penodol bob blwyddyn o'r naill wlad i'r llall, er cael ymborth neu hinsawdd cynhesach, neu y naill a'r llall; at yr hyn y mae yr Arglwydd yn cyfeirio pan y mae yn gofyn i Iob, "Ai trwy dy ddoethineb di yr eheda y gwalch, ac y lleda efe ei adenydd tua'r deheu?" *Iob* xxxix. 26. Dywedir nad ydyw y cyfieithiad cyffredin yn gosod y meddwl allan yn llawn. Yr ystyr yw, "A ydyw efe yn adnabod, trwy dy fedrusrwydd neu dy ddoethineb di, yr amser neillduol i gymmeryd ei ehediad, neu i symmud o hinsawdd oer i hinsawdd gynhesach y deheu? Nid dy ddoethineb di a blanodd reddf yn y creadur i wybod pa *bryd* a pha *ffordd* i fyned o'r naill wlad i'r llall. Y mae nifer mawr o'r gweilch yn cymmeryd eu preswylfod am ran fawr o'r flwyddyn yn yr Aipht, Syria, a Phalestina. A ganlyn sydd ddarlun o walch y parthau gorllewinol o Asia.

Digitized by Google

Y mae y gwalch yn graff ei lygaid, yn gyflym ei ehediad, yn ddewr ei ysbryd, ac yn byw yn gyffredin i oedran mawr; ac o herwydd ei fod yn ysglyfaethus ac o duedd greulawn, yr oedd, yn ol cyfraith Moses, yn waharddedig yn



Dar. 322.

ymborth; ond yr oedd mor gyssegredig yn mhlith yr Aiphtiaid a'r Groegiaid, fel y cospent y neb a'i lladdai, hyd yn oed yn ddifwriad, â marwolaeth. Cyssegrai y Groegiaid ef i Apollo, a chadwent ef mewn bri mawr. Cludir ef yn y dyddiau hyn o wledydd pellenig, a rhoddir pris da am dano.

GWALLGOFRWYDD, [o *gwall* a *cof*]: gwallbwyll, gwallsynwyr, anmhwylledd, gorphwylledd, un â'i synwyr wedi dyrysu. Y mae yr un gair a gyfleithir *gwallgof* yn cael ei gyfleithu *ynfyd:* "Canys y mae efe yn gyru yn ynfyd" (2 *Bren.* ix. 20); hyny yw, yn wyllt ac ar ffrwst mawr, fel dyn wedi colli ei synwyr. Yn *Zech.* xii. 4, cyfleithir ef *ynfydrwydd:* "Tarawaf bob march â syndra, a'i farchog âg ynfydrwydd;" hyny yw, Yr Arglwydd a ddiryma gynghorion ac a wna holl wroldeb gelynion ei bobl yn ofer; er iddynt barotoi meirchluoedd, bydd y cyfryw yn cael eu gwneyd yn hollol aneffeithiol. Tybia Lowth mai prophwydoliaeth yw y geiriau am y rhuthrgyrch neu y rhyfelgyrch a wneid ar breswylwyr Iudea a Ierusalem yn yr amseroedd diweddaf, fe allai wedi eu dychweliad i'w gwlad eu hunain, a'u sefydliad yno. Yn *Ier.* xxix. 26, cyfleithir ef *gorphwyllog:* "Yr Arglwydd a'th osododd di yn offeiriad yn lle Iehoiada yr offeiriad, i fod yn olygwr yn nhŷ yr Arglwydd ar bob gŵr gorphwyllog, ac yn cymmeryd arno brophwydo, i'w roddi ef mewn carchar a chyffion." Y mae yn ddiammheu fod y gair *gorphwyllog*, yma, yn dynodi un a gymmerai arno fod dan ddylanwadau goruwchnaturiol; ac felly a gymmerai arno brophwydo da neu ddrwg dan y ffug-ddylanwadau gorphwyllog hyny: ac yn ol barn Semaiah, dylasai Zephaniah roddi pob dyn felly mewn carchar a chyffion, ac Ieremiah yn enwedig; canys er mwyn cospi Ieremiah y dywedai efe fel hyn. "A byddi wallgofus gan weledigaeth dy lygaid yr hon a welych;" *Deut.* xxviii. 34. Prophwydoliaeth yw y geiriau am yr adfyd a welai y genedl yn ninystr Ierusalem. Fel prawf o'r gwallgofrwydd y cyfeirir ato, adroddir yr hanes a ganlyn:—"Wedi dinystr Ierusalem gan y Rhufeiniaid, cymmerodd rhai o'r dosbarth gwaethaf o'r Iuddewon noddfa yn nhŵr neu gastell Masada; wedi gwarchau arnynt yno gan y gelynion, wrth gynghor Eleazar eu blaenor, yn gyntaf hwy a laddasant eu gwragedd a'u plant eu hunain; yna dewiswyd deg o ddynion trwy goelbren i ladd y gweddill; wedi hyny, dewiswyd un o'r deg yr un modd i ladd y naw ereill; yr hyn wedi iddo ei wneyd, efe a roes y lle ar dân, ac a'i gwanodd ei hun â chleddyf. Dyfethwyd 960 yn y modd truenus uchod; ac ni ddiangodd ond dwy wraig a phump o fechgyn bychain trwy ymguddio mewn ffosydd dwfr dan y ddaiar. Pa beth ond y gwallgofrwydd mwyaf a yrai ddynion i wneyd hyn, pryd y gallasent gael eu bywyd ond rhoddi eu hunain i fyny i'w gelynion? a gallesid adrodd llawer o bethau cyffelyb am yr Iuddewon wedi dinystr Ierusalem, llawn mor wallgofus, bron yn mhob gwlad lle y gwasgarwyd hwynt." "Fel dyn gwallgofus a daflo bentewynion tân, saethau, ac arfau marwolaeth; felly y mae y gŵr a dwyllo ei gymmydog, ac a ddywed, Onid cellwair yr ydwyf?" *Diar.* xxvi. 18, 19. Gall dyn gwallgofus wneuthur niwed mawr i eiddo a meddiannau trwy daflu pentewynion tân iddynt; ac i fywydau dynion hefyd, trwy daflu saethau ac arfau marwol ereill atynt; felly y mae y gŵr a roddo ei fryd i dwyllo ei gymmydog i'r dyben o'i niweidio yn ei berson neu ei feddiannau, ac wedi hyny, pan ymresymer âg ef am ei dwyll drygionus, a ddywed, "Onid cellwair yr ydwyf?" yr hyn sydd esgus gwarthus, isel, a gwael, wedi gwneyd niwed i ddyn trwy dwyll. Y mae y gair gwreiddiol am *gwallgofus*, yn *adn.* 18, yn arwyddo un yn cymmeryd arno fod yn wallgofus, fel esgus dros ei ddrwg; "Yna y dywedodd Achis wrth ei weision, Wele, gwelwch y gŵr yn gwallgofi; pa ham y dygasoch ef ataf fi?" "Yna;" sef wedi gweled Dafydd yn cymmeryd arno ynfydu rhwng eu dwylaw hwynt—yn cripio drysau y porth, ac yn gollwng ei boeryn i lawr ar ei farf, tybiai Achis ei fod yn gwallgofi. Barna rhai nad oedd yn credu fod Dafydd yn gwallgofi mewn gwirionedd, eithr mai ffug a dyfais oedd y cwbl; ond mynai i'w weision gredu hyny, fel yr edrychent ar Dafydd yn wrthddrych tosturi, yn fwy nag o'u digofaint, ac i'r dyben o'i esgusodi ei hun rhag gwneyd un niwed iddo, fel y mynai ei weision iddo wneyd, o blegid nid oedd reswm yn y byd ei roddi ef i farwolaeth fel gelyn, ac yntau yn ddyn gwallgofus. Ond yn wir, gallai ef a hwythau dybied ei fod yn ynfydu mewn gwirionedd, wedi ei yru yn wallgof gan erlidiau a drwgdriniaeth Saul; pe amgen, ni ddaethai efe byth i'w plith hwy, ei elynion penaf, ac ni buasai yn ymddwyn yn y dull ynfyd hwnw. O'r holl ddrygau y mae y natur ddynol yn ddarostyngedig iddynt, nid oes un yn fwy arswydus na gwallgofrwydd; o blegid y mae yn taflu y meddwl o'i le, ac yn dyrysu ei weithrediadau i'r fath raddau nes darostwng dyn yn fynych bron yn gydradd â chreaduriaid afresymol, ac mewn llawer o amgylchiadau yn ei wneyd mor gythreulig nes y bydd yn beryglus iddo ei hun ac i bawb o'i gwmpas.

Wrth gyfraith Lloegr, golygir dau fath o wallgofrwydd; sef, gwallgofrwydd *naturiol*, a gwallgofrwydd *dygwyddiadol*. Y cyntaf a ddynoda rai wedi eu geni yn wallgof, ac a elwir yn gyffredin yn "ddynion gwirion;" a'r olaf, rhai wedi myned yn wallgof a fuont unwaith yn hollol synwyrol. Defnyddir y gair *lloerigrwydd* hefyd i ddynodi yr olaf, am y meddylid gynt fod cyfnewidiadau y lleuad yn effeithio ar ryw fath o glefydau neu afiechyd, ac yn dal cyssylltiad â meddyliau dynion; ac o herwydd y dyb hon, y mae y rhai sydd ar brydiau dan ddylanwad anmhwylledd, ac ar brydiau ereill yn eu pwyll, yn cael eu galw eto

Digitized by Google

yn *lloerigion*, er y credir yn gyffredinol yn y dyddiau hyn fod y dyb eu bod dan ddylanwad y lloer yn hollol gyfeiliornus ac afresymol. Ymddengys fod y cyfieithiad Syriaidd o'r Testament Newydd fel pe byddai yn gosod allan y lloerigion yn cyfodi, o dan ddylanwad afiechyd, i gerdded yn eu cwsg, ac yn myned i nenau eu tai (y rhai yn y dwyrain oeddynt yn wastad) pan y byddai y lleuad yn llewyrchu arnynt. Arferir y gair *lloerigrwydd* yn gyffredinol gan gyfieithwyr i ddynodi yr anmhwylledd a adnabyddir gan feddygon o dan yr enwau *gwallgofrwydd, gwallgofrwydd rhanol*, a *gwallgofrwydd hollol;* a'r rhai yn gyffredinol, er nad o angenrheidrwydd, a ganlynir gan adegau pwyllog. Prif nodwedd gwallgofrwydd, mewn ystyr cyfreithiol, ydyw twyll; hyny ydyw, dyn yn credu fod rhywbeth yn bod nad ydyw yn bod, gan weithredu ar y grediniaeth hono. Dichon fod llawer yn llafurio o dan dwyll diniwed, ac eto yn alluog i gyflawnu eu dyledswyddau cymdeithasol; ond os bydd y twyll yn gyfryw ag i beri iddynt wneyd niwed i'w personau a'u meddiannau eu hunain, neu bersonau a meddiannau pobl ereill, ystyrir fod yr achos yn galw am gyfryngiad cyfreithiol; hyny ydyw, y dylid cadw y cyfryw, yn ol gofynion y gyfraith, o dan warchodaeth ddiogel.

Heb law y geiriau *gwallgofrwydd* a *lloerigrwydd*, yr ydym yn cael fod yr ymadroddion "heb fod yn ei bwyll," ac "heb fod yn iawn yn ei ben," yn cael eu harfer yn fynych mewn gweithrediadau cyfreithiol; ond y mae yn anmhosibl dywedyd yn sicr pa beth yw eu meddwl. Cesglir oddi wrth amrywiol ddedfrydiau cyfreithiol mai yr hyn a olygir ydyw, y sefyllfa hono ar y meddwl sydd yn gwneyd dyn yn anghymhwys i ofalu am ei amgylchiadau ei hun.

Cyfrifa meddygon fod pedwar math neu ffurf o wallsynwyr; sef, *gwallgofrwydd, gwallgofrwydd rhanol, gwallgofrwydd hollol*, a *gwallgofrwydd naturiol.* Cynnygiwyd y rhaniad hwn gan Esquirol; ac er ei fod yn hollol gelfyddydol, y mae yn dra manteisiol i drefnu a dosbarthu ffeithiau cyssylltiedig â'r pwnc. Mewn rhai amgylchiadau teimlir anhawsder mawr i benderfynu i ba un o'r ffurfiau hyn y bydd achos yn perthyn. Weithiau, gwelir cymmysgedd o arwyddion, dwy neu dair o honynt, a phrydiau ereill gymmysgedd o'r cwbl, mewn un achos. Yn awr ni a roddwn adroddiad mor fyr a chryno ag y gallwn o brif nodweddau pob un o'r ffurfiau hyn.

1. *Gwallgofrwydd.*—Yn y ffurf hon y mae holl feddwl dyn yn ddyryslyd, gwibiog, cynhyrfus, ac weithiau yn dra digofus. Dychymyga ei fod yn clywed lleisiau, pan y bydd y dystawrwydd mwyaf yn teyrnasu—fod ei ymborth yn chwerw, pan y bydd yn flasus—fod rhywun yn ei ganlyn yn mhob man gyda'r amcan o wneyd niwed iddo—ei fod yn frenin, pan nad yw ond cardotyn—fod ei ben wedi syrthio oddi ar ei gorph, ac mai aelodau rhywun arall sydd wrth ei gorph. Yn fynych, canfyddir cyssylltiad rhwng y twyll â galwedigaeth flaenorol y gwallgofddyn, neu â'r prif syniadau a goleddid ganddo pan yn ei bwyll. Darllenasom am gigydd, yr hwn a ddychymygai fod aelod dafad yn crogi wrth ei drwyn—am fab i gyfreithiwr, yr hwn a gredai ei fod yn cael ei ddrwgdybio o drosedd erchyll, a bod swyddogion y gyfraith yn chwilio am dano—ac am forwr, yr hwn a feddyliai ei fod ar fwrdd llong. Y mae yn anmhosibl argyhoeddi gwallgofiaid gwirioneddol o'u twyll. Er ymresymu â hwynt, ni byddant ond yn yr man yn y diwedd ag yn y dechreu. Y maent yn ddarostyngedig iawn i gyfnewidiadau disymmwth yn eu tymmerau a'u hymddygiadau. Gwelir rhai weithiau yn dawedog, ac weithiau yn siaradus; weithiau yn wylo, ac weithiau yn chwerthin; weithiau yn berffaith dawel a phwyllog, ac weithiau yn gynddeiriogwyllt; ac yn fynych yn symmud o'r naill eithafoedd i'r llall mewn mynyd, heb gael eu cynhyrfu gan un achos allanol. Yn fynych cyflawnant galedwaith heb ddangos un arwydd o ludded, a dyoddefant oerfel heb deimlo bron ddim oddi wrtho; ond ni ddylid casglu oddi wrth hyn eu bod yn llai agored na dynion yn eu synwyr i effeithiau niweidiol llafur gormodol neu oerfel. Fe deimla eu cyrph lawn cymmaint oddi wrthynt ag a deimla cyrph pobl ereill; ond yr hyn sydd ddiffygiol ynddynt hwy ydyw y gallu rhybuddiol ag y mae y teimlad yn ei roddi i'r synwyrol. Y mae rhagredegwyr gwallgofrwydd weithiau yn bodoli yn mhell cyn i gyfeillion y claf sylwi arnynt; ond y mae yn fynych yn teimlo anesmwythder yn ei gylla, cyn cwyno o herwydd un anesmwyther neu ddyryswch yn ei ben. Canlynir yr arwyddion hyn gan gyffro meddwl, methiant cwsg, diffyg chwant bwyd, neu chwant gorwancus, a llygaid aflonydd a llym, annhueddrwydd i dalu sylw i bethau, a thuedd i chwerthin yn barhaus ac heb un achos.

2. *Gwallgofrwydd rhanol* ydyw meddwl wedi dyrysu mewn rhan, yr hwn a elwir gan feddygon yn *monomania.* Yn y math hwn o wallgofrwydd cyfyngir y twyll i un pwnc, neu i un dosbarth o bynciau. Dywedir fod mwy o amrywiaeth yn perthyn iddo nag i'r mathau ereill; canys y mae llawer sydd yn ei afael yn alluog i gyflawnu dyledswyddau bywyd yn briodol, ac i ymresymu yn gywir ar wahanol faterion, tra na byddant yn cyffwrdd âg un o'r pynciau ag y byddont hwy yn coledd syniadau twyllodrus yn eu cylch. Hefyd, y mae ganddynt, yn achlysurol, allu anghyffredin i lywodraethu eu meddyliau a'u teimladau, yn gystal ag i gelu y twyll o dan yr hwn y maent yn llafurio. Dengys hyn eu bod nid yn unig yn ymwybodol o'u sefyllfa, ond yn meddu digon o lywodraeth arnynt eu hunain i'w hystyried mor gyfrifol a'r synwyrol am lawer o'u gweithredoedd. Mewn achos gwirioneddol o wallgofrwydd rhanol, ni ddylid ystyried fod dyn yn gall ar un peth, ac ynfyd ar bob peth arall. Yr unig olygiad cywir arno ydyw yr un a gymmerwyd gan arglwydd Lyndhurst; sef, fod dyn yn wallgof; nid yn wallgof mewn un pwnc yn unig, ac yn synwyrol yn mhob peth arall, ond bod y gwallgofrwydd hwn yn amlygu ei hun yn benaf gyda golwg ar rhyw un gwrthddrych neu berson neillduol. Nid oes un ammheuaeth nad yw holl alluoedd y meddwl wedi dyrysu i raddau mwy neu lai; ond amlygir y dyryswch yn fwy nodedig mewn rhai nag mewn ereill. Dichon i'r meddylddrych *gwallgof* fod yn llawen neu yn bruddaidd, yn uchelfrydig neu yn ofnus. Y mae y rhai sydd yn coledd meddyliau pruddaidd, ac yn enwedig y rhai sydd yn cael eu llethu gan ofn damnedigaeth dragwyddol, yn dra thueddol i gyflawnu hunan-laddiad, ac nid ydyw yn ddiberygl eu gadael ar eu penau eu hunain. Nid oes dim yn well i'r cyfryw na rhoddi rhywbeth iddynt i'w wneyd, i'w tynu oddi wrth eu meddyliau pruddaidd. Dosbarth peryglus ydyw y rhai a amlygasant awydd i dywallt gwaed, a dylid eu cadw o dan warchodaeth fanwl a pharhaus Canlynir y gwallgofrwydd hwn yn fynych gan duedd i ladrata. Dywed Dr. Prichard ei

Digitized by Google

fod wedi gweled gwallgofddyn na fwytäai ond yn unig yr ymborth a ladratai; ac am hyny rhoddai ei geidwad yr ymborth a fwriedid at ei gynnaliaeth mewn rhyw gongl o fewn ei gyrhaedd, i'r dyben iddo ei gymmeryd yn lladradaidd. Gwyddys fod y duedd hon at ladrata wedi dwyn gwarth ar aelodau teuluoedd cyfoethog ac anrhydeddus. Y mae yn dra thebygol fod llawer yn teimlo cynhyrfiad aflywodraethus i gyflawnu y weithred, yn annibynol ar y pleser a ddeillia oddi wrth y meddiant o'r hyn a ladrateir. Mewn rhai, dengys y gwallgofrwydd hwn ei hun trwy nwydau dialgar ac aflywodraethus. Crybwylla M. Pinel am anghraifft nodedig o hyn. "Yr oedd rhyw ddyn ieuanc, unig fab mam foethus, yn gaethwas i'w nwydau. Cynhyrfid ef yn ddychrynllyd gan y gwrthwynebiad lleiaf; rhoddai gi, ceffyl, neu unrhyw anifail a'i tramgwyddai, i farwolaeth, a chodai derfysg yn mhob cyfarfod cyhoeddus y byddai ynddo. Ond pan na byddai o dan lywodraeth ei nwydau drwg, ymddygai yn ddoeth a hynaws. O'r diwedd, fe daflodd ferch oedd wedi ei dramgwyddo i ffynnon; ac erlyniwyd a dedfrydwyd ef i gael ei gadw am ei oes mewn gwallgofdy."

Weithiau, mae gwallgofiaid yn alluog i ganfod gwall-synwyr mewn ereill, tra na byddant yn ymwybodol o'u gwall-synwyr eu hunain; a hwy a chwarddant yn foddus am ben eu camgymmeriadau.

Nid ydyw gwallgofrwydd o angenrheidrwydd yn gyfyngedig i'r galluoedd deallawl, ond gall ddangos ei hun heb un gwall amlwg yn y teimladau a'r nwydau. Gall ddangos ei hun yn y ffurf o ddrwgdybiaeth, eiddigedd, neu elyniaeth at ereill, yn enwedig at y rhai y dylai fod hoffaf o honynt; a gall ddangos ei hun hefyd trwy dymmer wyllt, ryfygus, a chreulawn. Dyma yr hyn a elwir gan Dr. Prichard yn *wallgofrwydd moesol*, i'w wahaniaethu oddi wrth y ffurf arall, yr hon sydd yn effeithio yn uniongyrchol ar y galluoedd meddyliol, sef *gwallgofrwydd deallawl*. Modd bynag, mae'yn ammheus a all dyn fod yn wallgof mewn ystyr foesol heb fod graddau mwy neu lai o ddiffyg yn ei alluoedd meddyliol. Nid yn fynych, os byth, y mae y galluoedd meddyliol yn dyrysu, heb fod y teimladau moesol yn cyfranogi o'r dyryswch; ac yn y gwrthwyneb, anaml, os byth, y mae y teimladau moesol yn dyrysu heb effeithio ar y deall; o herwydd, yn gyffredinol, canlyniad dyryswch yn y deall ydyw dyryswch yn y teimlad moesol. Dichon ei fod weithiau yn anhawdd canfod y dyryswch deallawl; ond y mae yn bresennol i raddau mwy neu lai yn mhob gwallgofrwydd gwirioneddol; a rheol beryglus fyddai cyhoeddi dyn yn wallgof yn absennoldeb un prawf hanfodol o'i fodolaeth. Nid yw y gyfraith yn bresennol yn cydnabod gwallgofrwydd moesol, o leiaf mewn achosion gwladol; gan hyny, pa faint bynag o ddyryswch fyddo yn y teimladau, rhaid chwilio am brofion o ddyryswch yn y rheswm cyn y gellir cyhoeddi dyn yn wallgof yn ol y gyfraith.

3. *Gwallgofrwydd hollol.* Yn y ffurf hwn o wallgofrwydd y mae y dyoddefydd yn hollol amddifad o bob gallu i ymresymu. Y mae y galluoedd meddyliol, nid wedi eu dyrysu, ond wedi eu dinystrio. Nid ydyw yn meddu cof na gwybodaeth am ddim. Yn fynych fe sieryd yn ddiddiwedd am wahanol bethau, yn ddigyssylltiad a diamcan, gyda chyflymdra rhyfeddol. Clywir ambell un yn ail adrodd yr un gair drosodd am awr; weithiau symmudiadau y gwefusau ydyw yr unig arwydd o'r llifeiriant sydd yn rhedeg trwy y meddwl.

4. Defnyddir *gwallgofrwydd naturiol* i ddynodi un wedi ei eni yn wirion. Anfynych y mae gwirioniaid yn siaradus. Yn gyffredin, eu hunig attebiad i gwestiwn a ofynir iddynt fydd *Ië* neu *Nage*; ac anaml iawn y dechreuant ymddyddan â neb. Dengys ffurf eu penau, bychandra ac osgo eu talcenau, a'u hymddangosiad anolygus ac anneallus, eu bod yn hollol amddifaid o alluoedd meddyliol. Tra y gellir, mewn llawer o amgylchiadau, iachau y tair ffurf gyntaf o wallgofrwydd, y mae gwallgofrwydd naturiol bron yn hollol anfeddyginiaethol.

*Yr achosion o wallgofrwydd.*—Er fod llawer o feddygon goreu ac enwocaf y byd wedi gwneyd ymchwiliad manwl i'r achosion o wallgofrwydd, y mae cryn lawer o dywyllwch eto yn ei amgylchynu. Nid oes unrhyw gyfundraeth sefydlog wedi ei mabwysiadu trwy yr hon y gellir penderfynu yr achos o hono yn mhob amgylchiad. Rhenir yr achosion gan feddygon i ddau ddosbarth; sef, *achosion rhagdueddol*, ac *achosion cyffroadol*. Wrth *achosion rhagdueddol* y golygir, y rhai y mae rhywbeth o'r blaen yn arwain iddynt; megys gwallgofrwydd yn y teulu, camdriniaeth ar y baban, a hyny yn effeithio ar ei feddwl; diffygion yn nghyfansoddiad corff a meddwl, &c. Ac wrth *achosion cyffroadol* y golygir, rhywbeth annysgwyliadwy yn digwydd, yn effeithio ar y dyn, ac yn ei yru yn wallgof—yn ei gyffroi, neu ei ennynu, i wallgofrwydd, heb fod dim argoelion blaenorol o hyny. Rhenir yr achosion yn mhellach i rai *moesol* a *naturiol;* a dywedir fod yr achosion naturiol yn amlach yn y rhai rhagdueddol i wallgofrwydd; a'r achosion moesol yn amlach yn y rhai cyffroadol. Yn yr achosion rhagdueddol, y mae llawer iawn yn *etifeddol*—yn dyfod o riant i blentyn. Ceir hefyd fod gwendid meddyliol, yr hwn sydd yn naturiol i rai, yn fynych yn gweithredu fel achos *rhagdueddol* o wallgofrwydd. Y mae y dosbarth yma yn gynnwysedig, yn benaf, o bersonau islaw dealltwriaeth cyffredin, ac o gyfansoddiad meddyliol rhy egwan i allu ymladd â rhwystrau a drygau bywyd. Gwelsom mewn un adroddiad hanes tri o bersonau, yn cynnwys brawd a dwy chwaer, wedi myned yn wallgofiaid trwy gymmeryd sugn gan fam oedd yn rhagdueddol i'r anhwyldeb, a dywedid mai yr unig aelod o'r teulu hwnw nad aeth yn wallgof oedd yr unig blentyn na chafodd sugno llaeth y fam. Sylwa M. Esquirol mai y prif achos o'r drwg, yn enwedig yn mysg y dosbarthiadau uchaf, ydyw y trosglwyddiad o hono o riant i blant. Yn mhlith y tlodion, priodolir o ddeutu y chweched ran o'r achosion i drosglwyddiad etifeddol. Fel y gallem dybied, y mae y plant a enir cyn i wallgofrwydd amlygu ei hun yn y rhieni, yn llai darostyngedig i'r anhwyldeb na'r rhai a enir wedi hyny. Pan na bydd dim ond un o'r rhieni yn wallgof, y mae y duedd drosglwyddiadol yn llai na phan y bydd y ddau yn wallgof; ond yn ol Esquirol, trosglwyddir y rhagduedd hon yn llawer mwy rhwydd trwy y fam na thrwy y tad. Y mae y trosglwyddiad yn fwy amlwg hefyd pan y bydd yn bodoli mewn amryw genedlaethau o linach eu hynafiaid; ac fel anhwylderau etifeddol ereill, ymddengys ei fod yn diflanu mewn un genedlaeth, ac yn ail ymddangos mewn un arall. Yn mhellach, dywedir fod plant rhieni meddwon, a phlant rhieni a briodasant wedi myned yn lled hen, yn fwy agored i wallgofrwydd na'r rhai a anwyd o dan

Digitized by Google

amgylchiadau ereill. Yr ydym yn cofio gweled adroddiad meddygol am dri pherson, y rhai oeddynt yn cynnwys brawd a dwy chwaer, wedi eu rhagdueddu i wallgofrwydd trwy fod yn blant i rai oeddynt yn gefnder a chyfnither. Yr oedd y rhieni yn bobl barchus, ac wedi derbyn addysg ragorol, ac yn cael eu hystyried yn fwy deallus na chyffredin, ac heb feddu un math o duedd etifeddol at wallgofrwydd. Cawsant deulu o un mab a saith merch; ac ymddengys fod yr holl blant hyn, oddi gerth un neu ddau, o feddyliau gweiniaid, a bod tri wedi myned yn wallgof. Gall yr amgylchiad yma fod yn deilwng o sylw arbenig mewn cyssylltiad â'r syniad nad ydyw yn briodol i berthynasau briodi eu gilydd. Y mae yn ffaith mai anfynych y mae gwallgofrwydd rhagdueddol yn adnabyddus yn mhlith y Crynwyr; ac y mae yn ffaith hefyd fod eu rheolau dysgyblaethol hwynt, fel sect grefyddol yn gwahardd priodasau rhwng cefndryd a chyfnitherod. Ai nid yw'r naill yn egluro y llall, a'r ddwy yn deilwng o ystyriaeth ddifrifol trigolion Cymru? Yn niwedd y flwyddyn 1863, dychrynwyd llywodraeth Ffrainc i'r fath raddau gan adroddiadau y meddygon gyda golwg ar gynnydd gwallgofrwydd, wedi ei achosi gan briodasau perthynasau agos, fel y mae wedi gorchymyn rhoddi colofn chwanegol yn llyfrau cofrestrwyr bedyddiadau i ddangos pa un a oedd rhieni y plentyn cyn priodi yn berthynasau i'w gilydd, ac i ba raddau. Pan y bydd gwallgofrwydd yn drosglwyddedig, y mae yn fynych yn ymddangos o ddeutu yr un oedran, yn yr un ffurf, ac yn cael ei ennyn gan yr un achos cyffroadol yn y plant ag yn y rhieni.

Yn fynych, y mae anhwylder y corff yn rhagdueddu i wallgofrwydd. Adroddir am amryw wedi myned felly yn ganlynol i rwymedd corff, anmhariad y cylla, a'r galluoedd treuliadol. Priodolir gwallgofrwydd amryw hefyd i glefydau twymnol, ereill i niweidiau ar y pen, a llawer i ennynfa yn yr ymenydd. Mae y rhai hyn oll yn perthyn i'r dosbarth naturiol o achosion. Achos cyffroadol mawr arall, a'r prif achos o wallgofrwydd yn mhlith dosbarthiadau gweithiol y Deyrnas Gyfunol, ydyw meddwdod, neu ymarferiad helaeth â diodydd meddwol. Prif bechod Prydain ydyw meddwdod; ac o ganlyniad, yr ydym yn cael fod nifer mwy o wallgofiaid o herwydd y drwg hwn yn ngwallgofdai y wlad hon nag sydd yn Ffrainc, lle y mae ymarferiad â diodydd meddwol yn llai cyffredinol.

Y mae yr achosion *moesol* yn lluosog—rhy luosog i ni grybwyll mwy na'r rhai mwyaf cyffredin. Mewn rhai amgylchiadau, y mae addysg ddrwg yn arwain i'r anhwyldeb—weithiau, rhy ychydig o ofal am addysg, a gormod o benrhyddid i'r plentyn yn ei ddyddiau ysgol—a phryd arall, gormod o bwys ar y meddwl, dirgymhelliad rhy gryf i ddysgu, nes gorlwytho a beichio y meddwl tu hwnt i'w nerth naturiol. Mae careg sylfaen gwallgofrwydd yn cael ei gosod mewn gormod o anwes yn nyddiau mabandod, a'r diffyg addysg canlynol yn anaddasu y person i ddyfod i gyfarfyddiad â chaledi, rhwystrau, anhawsderau, a gwrthwynebiadau y byd, ac yntau heb ei ddysgu yn fore i ymarfer hunan-lywodraeth a dyfalbarhad. Yn yr achosion moesol, hefyd, gellir cynnwys gofid, pryder, somedigaeth; a'r rhai mwyaf cyffredin o'r achosion hyn ydynt, pryder yn nghylch bywoliaeth, a cholledion arianol; gofid o herwydd marwolaeth perthynasau anwyl, a thrallodion o herwydd profedigaethau teuluaidd ereill; somedigaethau carwriaethol, &c. Y mae mwy o ddynion yn myned yn wallgof o herwydd pryder yn nghylch bywoliaeth, colledion, &c.; a mwy o ferched o herwydd gofid teuluaidd, a somedigaeth yn eu serchiadau. Ymddengys fod llawer yn cael eu gyru yn wallgof gan anobaith yn nghylch mater eu heneidiau, a llawer hefyd gan benboethni gwleidyddol a chrefyddol.

O un fil o wallgofiaid gwrywaidd, tybiwyd gan awdurdod uchel fod gwallgofrwydd i'w briodoli i'r achosion canlynol:—

| | |
|---|---|
| Meddwdod ... ... ... | 110 |
| Canlyniadau afiechyd ... ... | 100 |
| Masglwyf ... ... ... ... ... | 78 |
| Uchelgais ... ... ... | 73 |
| Llafur gormodol ... ... ... | 73 |
| Wedi eu geni yn wallgofiaid ... | 71 |
| Anffodion ... ... ... ... ... | 69 |
| Henaint... ... ... ... ... | 69 |
| Tymmer ddrwg ... ... ... | 54 |
| Cariad ... ... ... ... ... | 47 |
| Damweiniau ... ... ... | 39 |
| Penboethni crefyddol... .. | 29 |
| Arferion annaturiol ... ... | 27 |
| Dygwyddiadau gwleidyddol ... | 26 |
| Sawr gwenwynig ... ... ... | 17 |
| Camdriniaeth ... ... ... | 12 |
| Troseddau, gofid, ac anobaith ... | 9 |
| Gwallgofrwydd ffugiol ... | 5 |
| Aflunieidd-dra asgwrn y pen ... | 4 |
| Achosion ereill, anhysbys ... | 88 |

Gellir casglu oddi wrth y ffeithiau uchod, mai y prif foddion i attal gwallgofrwydd yw—1. Attal priodasau personau rhagdueddol i'r anhwyldeb. 2. Gwellhau sefyllfa fydol y tlodion. 3. Rhoddi cefnogaeth i ddiwylliad y meddwl, a difyrion diniwed, yn mhlith y dosbarthiadau isaf fel moddion i attal anghymmedroldeb a phleserau cnawdol yn gyffredinol. 4. Rhoddi addysg well i'r teimladau moesol yn mhlith pob dosbarth, i'r dyben o ddysgyblu nwydau ac i gynnorthwyo y meddwl i wrthsefyll dylanwadau cyffroadol.

Mae y cyfartalrwydd rhwng meibion a merched gwallgof yn amrywio cryn lawer mewn gwahanol wledydd. Yn y deyrnas hon y mae 13 o feibion gwallgof ar gyfer 12 o ferched. Mae mwy o feibion nag o ferched gwallgof yn Italy hefyd; ond yn Ffrainc, y mae mwy o ferched nag o feibion. A chymmeryd yr holl fyd, y mae 37 o feibion yn wallgof ar gyfer 38 o ferched. Anfynych y mae gwallgofrwydd yn dechreu cyn aeddfedrwydd oedran. Yr adeg fwyaf agored iddo ydyw rhwng 14 a 17 mlwydd oed, pan y bydd cyfnewidiad mawr yn cymmeryd lle yn y corff. Nid ydyw gwallgofrwydd yn afiechyd angeuol iawn. Gwelsom un adroddiad yn hysbysu fod un dyn wedi bod mewn gwallgofdy am 56 mlynedd; tri am dros 40 mlynedd; 21 am dros 30 mlynedd; 50 am dros 20 mlynedd; a 107 am dros 10 mlynedd. Y mae yn anhawdd penderfynu pa gyfartalrwydd sydd yn cael eu hiachau, gan fod yr adroddiadau mor wahanol. Dywed rhai ei fod yn 5 o bob 10; ac ereill ei fod mor isel a 5 o bob 15. Y mae y gobaith am adferiad yn dibynu i raddau helaeth ar y cwestiwn, pa un a fydd y gwallgofrwydd yn gymmysgedig âg afiechyd arall, ai peidio; ac hefyd ar ffurf yr afiechyd, oedran, rhyw, a chyfansoddiad y claf.

GWALLGOFRWYDD FFUGIOL.

Ffugir gwallgofrwydd yn fynych gan bersonau a gyhuddir o droseddau pwysig, i'r dyben o gael eu rhyddhau. Pan y drwgdybir hyn, y pwnc a ddylai gael ei ystyried ydyw, pa un a oes gan y

Digitized by Google

person gymhelliad i gymmeryd arno ei fod yn wallgof. Ni honir gwallgofrwydd byth hyd ar ol cyflawniad y trosedd a darganfyddiad y troseddwr. Ni welwyd neb erioed yn ffugio gwallgofrwydd yn unig i ochelyd drwgdybiaeth. Yn gyffredinol, fel yn mhob twyll arall, y mae y dyn yn bradychu ei hun trwy anghyssonderau mewn iaith ac ymddygiad, na chanfyddir mo honynt byth mewn gwallgofrwydd gwirioneddol. Gellir bron bob amser olrhain gwallgofrwydd gwirioneddol i ryw achos tebygol: ond pan ffugir yr afiechyd, nid oes un achos ymddangosiadol. Y mae ymddangosiad gwallgofrwydd ffugiol bob amser yn ddisymmwth; ond ymddangosiad y gwirioneddol yn raddol, a phan y dygwydd yn sydyn gellir ei olrhain i ryw achos arbenig ac amlwg. Nid ydyw y ffug wallgofddyn byth yn gwneyd un ymgais i brofi ei fod yn ei synwyr, ond y mae y gwallgofddyn gwirioneddol yn fynych yn teimlo digofaint angerddol yn erbyn y rhai a ddywedant eu bod o'u pwyll.

CYFRAITH LLOEGR GYDA GOLWG AR WALLGOFIAID.

Y mae y cwestiwn yn awr wedi ei benderfynu y gellir galw ar loerig sydd yn llafurio o dan dwyll, ond yr hwn yn marn meddyg rheolaidd sydd yn deall natur llw ac yn alluog i adrodd yr hyn a ddygwyddodd o flaen ei lygaid, yn mlaen fel tyst. Ni chaniateir i wallgofiaid briodi, am yr ystyrir eu bod yn analluog i ddeall natur y cytundeb priodasol; gan hyny, y mae eu priodas yn ddirym. Nid oes dim grym chwaith mewn ewyllys a wneler gan wallgofiaid.

YSTADEGAU.

Y mae yn bwnc dadl y dyddiau hyn pa un a ydyw gwallgofrwydd yn cynnyddu neu beidio. Haera rhai ei fod ar gynnydd; a'r rheswm a ddefnyddiant dros hyny ydyw y nifer mawr sydd yn ngwallgofdai y deyrnas hon. Ereill a haerant nad oes dim mwy o wallgofiaid yn y wlad yn awr nag oedd pan yr oedd llai yn cael eu danfon i'r gwallgofdai; ond mai y gwirionedd yw hyn—fod y syniad yn ffynu yn y wlad flynyddoedd yn ol nad oedd danfon dyn i'r gwallgofdy yn ddim amgen na'i ddanfon i gael ei guro, ei faeddu, a'i ladd! Yr oedd y gwallgofdai, o herwydd y camdriniaeth a arferid ynddynt y pryd hwnw, wedi llwyr golli eu cymmeriad; a'r rhwygiad mwyaf ar deimladau perthynasau fyddai meddwl am ddanfon eu hanwyliaid anffodus i'r cyfryw leoedd. Ond y mae rhagoroldeb, tynerwch, a llwyddiant hynod y driniaeth a arferir yn awr yn y sefydliadau hyny wedi peri i'r wlad newid ei syniad am danynt; ac o ganlyniad, y mae mwy nag erioed o'r blaen yn cael eu hanfon iddynt. Nid cynnydd yn rhifedi y gwallgofiaid ydyw, ond cynnydd yn ffydd y cyhoedd yn addasrwydd y gwallgofdai cyhoeddus i ofalu am, ac i wellhau y trueiniaid.

Dengys adroddiad blyneddol sydd newydd ei gyhoeddi gan Fwrdd Cyfraith y Tlodion fod yn Lloegr a Chymru (yn annibynol ar saith o blwyfydd nad oeddynt wedi gwneyd un adroddiad) 36,158 o dlodion gwallgof ar y dydd cyntaf o Ionawr, 1863—3.17 y cant o holl nifer y tlodion; sef, 23,032 o loerigion, a 13,126 o wallgofiaid genedigol. Yr oedd 15,790 yn feibion, a 20,368 yn ferched; yr oedd 19,127 yn ngwallgofdai y siroedd neu y bwrdeisdrefi, 1,418 mewn yspyttai cofrestredig neu dai trwyddedig, 9,208 mewn tlottai, 973 mewn llettyau neu yn byrddio allan, a 5,432 yn preswylio gyda'u perthynasau. Allan o 106,407 o dlodion yn Llundain, nid oedd dim llai na 5,701 yn wallgof. Yn Nghymru, nid oedd nifer y gwallgofiaid ond 2,349 mewn 80,547; ac yn y siroedd dwyreiniol dim ond 2,368 mewn 81,279. Y cyfartalrwydd rhwng nifer y gwallgofiaid a'r boblogaeth yn Lloegr yw un i bob mil.

Yr ydym yn deall mai y nifer o wallgofiaid oedd yn ngwallgofdy Gogledd Cymru yn Ninbych, yn niwedd Rhagfyr, 1863, oedd 10 o ddynion, a 7 o ferched, ar eu cost eu hunain; a 125 o ddynion, a 123 o ferched, ar gost y siroedd.

GWALLGOFDAI.

Nid oes un ammheuaeth nad ydyw gwallgofdai yn mhlith y sefydliadau gwerthfawrocaf sydd yn y Deyrnas Gyfunol. Nid ydynt oll yn sefydliadau elusenol; gan fod llawer o honynt yn eiddo personol i feddygon, ac ereill, a thelir bob costau gan berthynasau y cleifion fydd ynddynt. Telir hefyd draul llawer o wallgofiaid yn y sefydliadau cyhoeddus gan eu perthynasau. Nifer y gwallgofdai cyhoeddus yn Lloegr a Chymru ydyw 14; o'r rhai hyn y mae dau yn Nghymru—un yn Ninbych, ac un yn Abergafenni; ond y mae un arall yn cael ei ddarbod yn y Deheudir gan siroedd Morganwg, Aberteifi, Caerfyrddin, a Phenfro; o blegid nid ydyw sefydliad Abergafenni yn perthyn ond yn unig i siroedd Mynwy, Henffordd, Brycheiniog, a Maesyfed. Nifer y tai trwyddedig ydyw 62.

Ni bu y sefydliadau hyn erioed mewn sefyllfa mor berffaith ag ydynt yn awr, ac y mae pob lle i gredu y dygir diwygiadau pellach iddynt eto. Bu amser pan yr oeddynt yn ddychryn i bob dyn ystyriol, a'u camreolaeth yn warth i gymdeithas; ond y mae cyfnewidiad dymunol wedi cymmeryd lle ynddynt erbyn hyn. Y mae yr oerni, y budreddi, y chwip a'r safnglo, y tynwasgodau a'r hualau, a gwahanol fathau ereill o greulondeb cywrain—y rhai oeddynt yn gwneyd gwallgofdai yr oes o'r blaen yn debycach i ddaeargelloedd y Chwilys, na nawdd-dai adferiad iechyd meddyliol—wedi eu llwyr alltudio ymaith o honynt; a thriniaeth garedig a dylanwadau moesol yn cael eu harfer, y rhai ydynt, o dan fendith yr Arglwydd, yn foddion i adferu nifer mawr bob blwyddyn.

GWALLT, [*blew*]. Y mae amwisg flewog y bronfaetholion yn gyfansoddedig o flew meinion o natur lled galed, y rhai a dyfant o lorau (*bulbs*), y rhai ydynt yn neu is law y croen. Y mae bonsang pob blewyn mewn gwain dyner, yr hon sydd yn myned ar osgo oddi wrth arwynebedd y croen i ddyfnder mwy neu lai, ac yn ei gwaelod yn ymledu i goden, yr hon sydd yn cynnwys bywyn y blewyn. Y mae y llor (*bulb*) yn gynnwysedig o gorph bychan, ar lun côn, ac y mae y bywyn (*pulp*) yn feddal a thyner, ac yn ymddangos fel pe wedi ei wneyd i fyny o lestri gwaed a gïenau, ac yn orchuddiedig âg adblyg o wrthlain esmwyth gwain y blewyn, yr hon sydd yn ymestyn oddi wrth y bilen gan orchuddio y croen amgylchynol. Y mae sylwedd y blewyn wedi ei ddiogelu ar yr oll o'r arwynebedd hwn; a chan fod pob cyff a ffurfir yn gweithio yr hwn a ffurfiwyd yn flaenorol yn mlaen, daw y cwbl yn raddol ar hyd y wain i wyneb y croen, ac yna hwy a barhant i dyfu yn rhydd. Nis gellir gweled dim yn y prionyn dechreuol ond y goden, yn yr hon wedi hyny y ffurfir y blewyn; yna gellir dilyn llestren dyner hyd ei gwaelod, yn yr hon y ffurfir ysmotyn du bychan; a hwn, trwy ddadblygiad graddol, fel y byddo y rhanau ereill yn cynnyddu, a dyf yn flewyn.

Digitized by Google

Nid yw gwallt dyn, fel y tybiwyd yn gyffredin, yn berffaith grynion. Y mae Weber wedi dangos eu bod oll, i raddau mwy neu lai, yn fflat, ac o ran eu ffurf yn debyg i ffäen. Yn y cyffredin, y cernflew a'r farf, yn nghyd â phob gwallt byr cyrliog, ydynt y mwyaf gwastad. Mae gwastadrwydd a chrynder mewn gwallt yn gydgyfartal, ac yn cyrhaedd eu gradd eithaf yn ngwallt crych, gwlanog, y negro—gwallt yr hwn sydd weithiau yn ddwy ran o dair yn lletach y naill ffordd na'r llall. Fodd bynag, er fod gwallt y negro yn cael ei gyfrif yn wlanog, eto y mae yn gwahaniaethu yn fawr oddi wrth wlan, a elwir yn briodol felly, sef eiddo defaid, &c. Nid yw y diweddaf yn cyrlio mewn dull nydd-droawl, ond yn wanegog, a'i holl gyrfluniau (*curves*) bron yn gydogwyddedig. Y mae yn llawer mwy maswaidd, ac yn berffaith grwn, a thrwy ei fod wedi ei gyfaddasu i gyrlio mewn unrhyw gyfeiriad, y mae yn hynod gyfaddas i'w nyddu, tra y mae gwallt fflat dyn yn dueddol bob amser i droi ei ochr letaf tua chanol y crychgudyn.

Y mae blew, oddi eithr yn ymyl y bonsang, i'r hwn y mae y bywyn cônaidd yn myned i bellder amrywiol, yn berffaith sylweddol; ac yn y rhan fwyaf o anifeiliaid, y mae eu sylwedd yn gyffelyb drwyddynt yn mhob man. Y mae Weber, drwy y mwyadur, wedi dangos fod y dybiaeth fod pibellau yn nghanol y blew, a bod y rhan fewnol yn feddalach na'r rhan allanol, yn gyfeiliornad, ac mai yr achos o hono yw gwrthdoriad anghyfartal goleuni pan yn pasio drwy eu harwynebedd cyrfaidd neu rychog. Ni chanfu Weber fod rhan fewnol blew unrhyw greadur yn llwytach nag ydyw y rhan allanol, oddi eithr eiddo y llew, y zebra, a'r llama. Yn mlew yr iwrch yn unig y canfu efe y ffurf geuol, yr hon y tybir yn gyfeiliornus ei bod mewn blew yn gyffredinol. Y mae y codenau oll yn chwe-ongliog, ac yn dra thebyg i gymhlethweoedd cellog planhigion. Y mae trawsfesur cyffredin blewyn o wallt pen dyn o'r tri chanfed hyd y pum canfed ran o fodfedd; ac y mae gwallt merched yn aml yn tyfu i chwech neu saith droedfedd o hyd. Y mae enghreifftiau hefyd o flew y farf wedi tyfu i naw troedfedd o hyd. Y mae gwallt dyn yn gyffredin o'r un braffder ar ei hyd; ond yn y mathau goreu o wlan, y mae trwch y blewyn yn anghyfartal mewn gwahanol fanau. Ymddengys fod hyn yn dynodi cyfnewidiad achlysurol yn maint a bywiogrwydd y bywyn—tybiaeth a gefnogir yn mhellach gan yr amrywiaeth lliw y mae yr un blewyn yn ei arddangos, megys yn yr anifeiliaid sydd yn ymddangos fel yn meddu ffwrw llwyd, er fod pob blewyn yn gyfansoddedig o blygion argylchol o wyn a du. Fodd bynag, nid yw hyn yn dygwydd mewn gwallt dyn; canys y mae lliw pob blewyn yn unffurf, a chynnyrchir yr arddangosiad o lwydni gan gymmysgedd o flew hollol wynion gyda rhai tywyll. Y mae lliw y gwallt yn gyffredin yn amrywio yn ol lliw cylch canwyll y llygaid, a lliw goleu neu dywyll y croen. Yn y cyffredin, tywyllaf fyddo y gwallt grymusaf fydd y corff, a bydd cymhlethweoedd y croen yn frasach; y mae hyn yn amlycach mewn anifeiliaid nag mewn dyn, o herwydd nid yn unig y mae meirch gwynion neu lwydion yn wanach a mwy afiach, ond y mae meirch o liw tywyll gydag un neu ddwy goes wen yn fwy agored i ddoluriau a chlefydau.

Y mae gwallt yn dra hydwyth; a goddefant eu hestyn yn agos un ran o dair o'u hyd, ac adchwelant bron yn hollol i'w hyd gwreiddiol: mewn cyfartaledd i'w maintioli y maent yn dra gwydn a chryf. Pan fyddont yn sypiau tewion y maent yn annhreiddiadwy, oddi eithr gyda nerth mawr, ac y mae hyn yn un o'u rhagoriaethau fel gwisg dew yr anifeiliaid. Defnyddir hwynt hefyd mewn arfogaeth, sef i orchuddio helmau. Maent yn dra diffygiol fel cludyddion gwres; o herwydd hyn y maent yn dewach a helaethach ar yr anifeiliaid sydd yn agored i oerni am amser maith, ac y maent hefyd yn cael gwisg dew erbyn pob gauaf ar ol iddynt fwrw eu blew yn yr haf. Nid ydynt yn arweinyddion trydan; a phan rwbir hwynt gydag unrhyw sylwedd arall, cynnyrchir swm mor fawr o drydan negyddol, fel y gellir gweled y gwreichion mewn lle tywyll, a chlywed sŵn clindarddawl ergydion bychain cyflym y trydan. Y mae hyn yn dygwydd yn fwyaf neillduol gyda blew sychaf cŵn, cathod, &c.; ond gellir canfod arddangosiad trydanol gwanach trwy rwbio gwallt y pen.

Y mae gwallt yn hynod am ei natur ulfesurol (*hygrometric*), ac o herwydd hyny y mae yn attynu ac yn cadw swm mawr o leithder yn ei gymhlethwe, ac mewn canlyniad yn dyfod yn fasw ac yn ymestyn. O herwydd hyn, defnyddir ef yn ngweuthuriad yr offerynau mwyaf cyflredin i fesur lleithder awyr. Y mae hefyd i raddau yn cadw y croen rhag lleithder, trwy fod ei arwynebedd yn olewaidd; a phan y byddo yn dew, y mae yn gysgod annhreiddiadwy rhag dwfr. Fel hyn y mae yn gwasanaethu i gadw yr anifail rhag effeithiau yr elfenau allanol grymusaf; sef gwres, trydan, a gwlybwr; a byddai yn anmhosibl meddwl am unrhyw gyflunwaith cyfaddasach i orchuddio holl ranau y corff. Y mae yn rhy ysgafn i rwystro ei symmudiadau, ac y mae yn chwanegu yn ddirfawr at ei brydferthwch.

Y mae gwallt, o ran ei briodoleddau fferyllol, yn debyg i gorn, ewinedd, &c. Y mae yn doddadwy mewn dwfr o dymmeredd tra uchel, ac yn rhoddi swm mawr o olew yn gymmysgedig âg ufelured (*sulphuret*) haiarn, ac ychydig o ulai ufelurog (*sulphuretted hydrogen*). Yr olew hwn, gyda'r ufelured haiarn, sydd yn rhoddi lliw i'r gwallt; a thrwy y diffyg o hono y cynnyrchir penllwydni. Yn y gwallt tywyllaf y mae haiarn helaethaf; a'r ufeliar (*sulphur*) yw y defnydd ar yr hwn y mae gweithrediad yr amryw liwiau duon gogyfer â gwallt coch neu lwyd yn dibynu. Y mae y lliwiau hyn yn gyfansoddedig o ychydig o hal arian (*salt of silver*) neu blwm, y rhai, wedi eu cymmysgu âg unrhyw sylwedd olewaidd yn y ffurf o enaint, a weithia ei ffordd i'r gwallt, yn yr hwn y dadgyfansoddir ef, ac mewn canlyniad ffurfir ufelured arian, neu blwm, du.

Y mae gwallt yn doddadwy hefyd mewn alcalïau, neu bridd alcalïaidd; a hyn yw y rheswm fod yr hifgyffyrïau a ddefnyddir yn gyffredin, yn gyfansoddedig, yn benat, o galch brwd, yr hwn, fodd bynag, sydd yn niweidio y croen i gryn raddau, tra y mae yn symmud ymaith y blew. Y mae gwallt yn cynnwys ychydig o ddwfr; a phan losgir ef, rhydd gryn lawer o ludw, yn cynnwys haiarn, *manganau*, ac amryw halïau calch (*salts of lime*). A'r priodoleddau hyn o eiddo y gwallt ydyw yr achos ei fod mor anhawdd ei ddinystrio. Dywedir ei fod wedi parhau ar amryw o'r hen gyrph a gafwyd o'r Aipht am dros ddau can mlynedd, heb gyfnewid yn y radd leiaf. Tybiwyd gan rai ei fod yn tyfu ar ol marwolaeth; ond y mae yn debyg fod y dybiaeth wedi deilliaw oddi wrth fod y gwallt yn ymestyn drwy attynu lleithder o'r corff ac o'r



Digitized by Google

awyrgylch cylchynol, ynghyd â gwaith y cymmhlethweoedd cyfnesol yn sychu ac yn crebachu yn gyflymach.

Nid oes angenrheidrwydd am ddyweyd ond ychydig am anhwylderau y gwallt. Gan nad ydynt yn feddiannol ar lestri a gewynau—oddi eithr wrth eu bonsang—anfynych y maent yn cyfnewid, oddi eithr yn eu cyssylltiad âg afiechyd y croen. Y mae y nifer fwyaf o anifeiliaid yn newid eu blew yn flynyddol; ond nid yw hyn yn dygwydd i ddyn oddi eithr drwy ddamwain, neu ar ol rhyw glefyd neillduol. Y mae yr achos o hyn, neu y dull y mae yn cymmeryd lle, yn anhysbys. Y mae yn debyg ei fod yn gyffelyb i ymsaethiad plyfellau y ballasg, sef trwy ddynesiad y bonsang i wyneb y croen. Y mae colliant y lliw, yr hyn a gymmer le weithiau yn dra chyflym, i'w briodoli i ddiffyg dosbarthiad yr olew sydd yn ei liwio; ac anaml y gellir symmud yr achos o hyn. Pan na byddo digon o leithder yn cael ei gyfranu, y mae blaenau y gwallt weithiau yn hollti fel gwrych; bryd arall, hwy a dorant yn nghanol y blewyn ar unwaith, gan syrthio ymaith, a gadael darn bychan siderog (*fringed*) wrth y bonsang. Ond y cyfnewidiad rhyfeddaf y mae y gwallt yn ddarostyngedig iddo ydyw yr hwn a elwir y *plica polonica;* a hyny am ei fod yn dygwydd mewn rhai trefydd yn Poland, yn yr hwn y mae gwallt y pen yn glynu ynghyd fel mat, ac yn achosi poen ddirfawr pan gyffyrddir âg ef; a dywedir ei fod yn gwaedu weithiau pan dorir ef. Y mae yr afiechyd hwn yn fynych yn achosi marwolaeth y person a flinir ganddo. Fodd bynag, nis gellir ystyried y ffaith hon fel prawf fod y gwallt naturiol yn meddu llestri—er ei bod yn dangos fod y bywyn yn ymestyn ychydig bellder islaw y croen, yn gymhwys fel y mae mewn cŵn—blew y rhai a waedant ar brydiau os torir hwynt yn rhy agos i'r croen.

Yn awr ni a roddwn grynodeb o'r hyn a ddywed y Beibl am y gwallt, ynghyd âg eglurhad ar amryw o'r ymadroddion yn y rhai y crybwyllir am dano. Yr oedd yr Hebreaid yn gwbl ymsyniol o bwysfawredd y gwallt, megys un o elfenau prydferthwch personol, pa un bynag ai fel y gwelir ef ar ben yr ieuanc yn ei ddull "crychlyd, du fel y fran" (*Can.* v. 11), neu ynte fel y "goron anrhydeddus" a amgylchai y pen mewn henaint: *Diar.* xvi. 31. Yr oedd arferion hen genedloedd gyda golwg ar y gwallt yn dra amrywiol: caniatäai yr Aiphtiaid i'r benywod wisgo gwallt llaes, ond cadwent wallt y meibion yn isel, hyd yn oed o'u mebyd, drwy ei eillio. Mawrygai y Groegiaid wallt llaes gan feibion yn gystal a merched, fel yr ymddengys oddi wrth yr ymadrodd "Groegiaid hirwalltog," ac hefyd oddi wrth y darluniau o'u duwiau, yn enwedig Bacchus ac Appolo, y rhai yr oedd eu gwallt llaes yn arwydd o ieuenctyd parhaus. Hefyd, gwisgai yr Assyriaid wallt llaes, a chasglent y cudynau modrwyog yn swp mawr ar y cefn, fel yr arddangosir hwynt yn ngherfluniau Ninefeh. Yr oedd yr Hebreaid ar y llaw arall, tra yn cefnogi tyfiant y gwallt, yn talu sylw i'r gwahaniaeth naturiol rhwng y ddau ryw, gan ganiatau i'r merched wisgo gwallt llaes (*Luc* vii. 37; *Ioan* xi. 2; 1 *Cor.* xi. 6, &c.), tra y cadwai y dynion eu gwallt mewn hyd cymmedrol trwy ei dori yn fynych. Y mae y gwahaniaeth hwn rhwng yr Hebreaid a'r cenedloedd a'u cylchynent, yn enwedig yr Aiphtiaid, wedi cyfodi mewn rhan oddi wrth chwaeth naturiol a deddfau gosodedig; yr oedd tori y gwallt mewn modd neillduol, ac offrymu y cudynau, yn dal cyssylltiad âg addoliad crefyddol yn yr amseroedd boreuol. Arferai amryw o'r Arabiaid eillio eu penau mewn dull neillduol, er anrhydedd i'w duw Orotal, ac o herwydd hyny gwaherddid i'r Hebreaid dalgrynu godrau eu gwallt (*Lef.* xix. 27), sef y cudynau ar y talcen a'r arleisiau, a thu ol i'r clustiau. Ymddengys fod arferiad yr Arabiaid yn berffaith hysbys i'r Hebreaid oddi wrth yr ymadrodd "wedi talgrynu eu llofynau" (*locks*), trwy yr hwn y dysgrifir hwynt: *Ier.* ix. 26; xxv. 23; xlix. 32. Y mae yn debyg fod y gwaharddiad i dori y gwallt ar farwolaeth perthynas (*Deut.* xiv. 1) yn sylfaenedig ar yr un rheswm. Yn chwanegol at y rheolau hyn, yr oedd yr Hebreaid yn arswydo rhag moelni, o herwydd ei fod yn aml yn deilliaw oddi wrth y gwahanglwyf (*Lef.* xiii. 40, &c ), a thrwy hyny yn ffurfio un o'r anghymhwysderau i'r offeiriadaeth: *Lef.* xxi. 20: a'r Deg a Thrigain. Y rheol i'r offeiriaid, a'r hon a ddilynid gan y wladwriaeth, oedd tocio eu gwallt (*Ezra* xliv. 20); nid ei eillio na'i adael i dyfu yn rhy laes: *Lef.* xxi. 5. Mawrygid gwallt llaes dynion ieuainc, a gwneir sylw neillduol o hono yn y dysgrifiad o berson Absalom (2 *Sam.* xiv. 26), ac y mae pwysau anhygoel ei wallt, fel y ceir ef yn ytestyn (200 sicl), wedi achosi amryw egluriadau (cymharer *Sylwadau Harmer*, iv. 321), a'r mwyaf tebygol i fod yn gywir ydyw fod y rhifnod כ (20) wedi ei droi i ר (200): dywed Josephus (*Hyn.* vii. 8, *adr.* 5), y byddai yn cael ei dori bob wythfed dydd. Hefyd, yn ol Josephus (*Hyn.* viii. 7, *adr.* 3), arferai nawddosgordd Solomon wisgo gwallt llaes. Yr oedd y drafferth ofynol i gadw y gwallt mewn trefn, dan y cyfryw amgylchiadau, yn fawr iawn; gan hyny, yr oedd gwisgo gwallt llaes yn beth lled anghyffredin, ac a arferid yn unig fel cyflawniad crefyddol, yn yr hon yr oedd yn "arwydd o ymostyngiad a hunanymwadiad, ac hefyd o ryw fath o aflerwch crefyddol" (*Lightfoot Exercit.* ar 1 *Cor.* xi. 14), yr hwn a arferid gan y Nazareaid (*Num.* vi. 5; *Barn.* xiii. 5; xvi. 17; 1 *Sam.* 1. 11), a chan ereill yn amgylchiadol fel cofarwydd neu gydnabyddiaeth am drugareddau neillduol (*Act.* xviii. 18); yr oedd hyn yn arferiad cyffredin yn mhlith yr Aiphtiaid pan ar eu teithiau. Mewn amser o adfyd, torid y gwallt ymaith yn llwyr (*Esa.* iii. 17, 24; xv. 2; xxii. 12; *Ier.* vii. 29; xlviii. 37; *Amos* viii. 10; *Joseph. Rhyf. Iudd.*, ii. 15, *adr.* 1), yr oedd yr Hebreaid yn hyn yn groes i arfer yr Aiphtiaid, y rhai a adawent i'w gwallt dyfu yn hir mewn amser o alar, gan eillio eu penau pan fyddai yr ysbaid drosodd; ond yr oeddynt yn hyn yn efelychu y Groegiaid, fel y crybwyllir yn aml gan awduron clasurol. Yr oedd tynu gwallt (*Ezra* ix. 3) a'i adael yn rhydd a dyryslyd, yn arwyddion o ofid. Y mae arferiad Arabiaid diweddar o barth i hyd eu gwallt yn amrywio; y mae y meibion yn gyffredin yn ei adael i dyfu i'w hyd naturiol, a'r cudynau yn crogi i lawr hyd y fynwes, ac weithiau hyd y lwynau; a thrwy hyn y mae y gwallt yn cadw y pen a'r gwddf rhag tanbeidrwydd pelydrau yr haul. Y mae yr Aiphtiaid diweddar yn dilyn arferiad eu hynafiaid, gan eillio penau y meibion, ac yn goddef i'r benywod adael i'w gwallt dyfu yn llaes. Defnyddid wigiau yn gyffredin gan yr Aiphtiaid, ond ni ddefnyddid hwynt gan yr Hebreaid. Y mae Josephus (*Vit. adr.* 11) yn nodi enghraifft o ffugwallt yn cael ei ddefnyddio i'r diben o ymddieithrio neu dwyllo. Pa un a oedd cudynau modrwyog mawr brenin-

Digitized by Google

oedd Assyria, fel yr arddangosir hwynt yn ngherfluniau Ninefeh, yn rhai naturiol neu ynte celfyddydol, nis gellir penderfynu (*Layard's Nineveh*, ii. 328). Gwisgid wig gan y dosbarth uchaf yn mhlith y Mediaid.

Lliw mwyaf cyffredin a dewisol y gwallt oedd du (*Can.* v. 11), megys y dangosir trwy ei gymharu â "diadell o eifr" a "phebyll Cedar" (*Can.* iv. 1; i. 5). Y mae yn debyg mai lliw cyffelyb a olygir wrth y *porphor* (*Can.* vii. 5), gan fod y term yn cael ei ddefnyddio mewn ystyr eang. Arferid ffugliwio y gwallt weithiau trwy ysgeinio llwch aur arno (*Jos. Hyn.* viii. 7, *adr.* 3). Dywed Josephus fod Herod wedi lliwio ei wallt i'r dyben o gelu ei oed; ond fe allai fod yr arferiad wedi ei benthyca oddi wrth y Groegiaid neu y Rhufeiniaid, yn mhlith y rhai yr oedd lliwio y gwallt yn beth cyffredin: gallwn gasglu oddi wrth *Mat.* v. 36, nad oedd yr arferiad yn gyffredin yn mhlith yr Hebreaid. Dynodid dynesâd henaint trwy ymdaeniad penwyni (*Hos* vii. 9) neu wallt gwyn, yr hwn, yn fuan, a orchuddiai yr oll o'r pen: *Gen.* xlii. 38; xliv. 29; 1 *Bren.* ii. 6, 9; *Diar.* xvi. 31; xx. 29. Y mae y cyfeiriad at y pren *almon* (*Preg.* xii. 5) wedi cael ei ystyried fel yn gosod allan flodeu gwynion y pren hwnw yn arwyddluniol o henaint; fodd bynag, gellir sylwi mai *pinc* ydyw lliw y blodeu yn hytrach na gwyn, ac nad yw y ferf yn yr ymadrodd, yn ol awdurdodau uchel (*Gesen.* a *Hitzig*), yn cynnwys y syniad o flodeuo mewn un modd. Ystyrid gwallt perffaith wyn yn nodweddiadol o'r Mawrhydi Dwyfol: *Dan.* vii. 9; *Dad.* i. 14.

Yr oedd prif brydferthwch y gwallt yn gynnwysedig yn y crychgudynau, pa un bynag ai naturiol ai celfyddydol fyddent. Ceir amryw eiriau tra darluniadol yn y Beibl er gosod allan brydferthwch y gwallt, megys "llawethau" (*Can.* iv. 1, 3; v. 7; *Esa.* xlvii. 2) y rhai, yn fwy tebygol, ydynt yn dynodi *gorchudd* — hefyd "gwallt crych" (*Can.* v. 11), ond yn fwy priodol, cangenau dringlynawl hydwyth. "Cadwyn wrth dy wddf" (*Can.* iv. 9), neu gudynau yn syrthio dros yr ysgwyddau fel cadwenau o glustdlysau. "Iawn drefn gwallt" (*Esa.* iii. 24), neu yn fwy priodol *plethwaith*; h.y., cudynau crychlyd a hardd. O barth i'r drefn o drwsio gwallt, nid oes genym unrhyw hysbysrwydd manwl; mae y geiriau a ddefnyddir i egluro hyny o nodwedd gyffredinol, megys am Iezebel, "hi a golurodd (addurnodd) ei phen," ac am Iudith (x. 3), "hi a drefnodd ei phen." Y mae y geiriau "plethiad gwallt" (1 *Tim.* ii. 9; 1 *Pedr* iii. 3), o nodwedd gyffredin; dywed Schleusner eu bod yn dynodi cyrlio yn hytrach na phlethu. Y mae trefniad gwallt Samson yn saith gudyn (*Barn.* xvi. 13, 19), neu yn hytrach plethau, yn dynodi yr arferiad o blethu, yr hyn hefyd oedd yn beth cyffredin yn mhlith yr Aiphtiaid. Y mae yn debyg y cedwid y cudynau yn drefnus yn eu lle gyda thalaith (*fillet*) megys yn yr Aipht.

Gweithid addurniadau yn y gwallt, fel y gwneir gan yr Aiphtiaid diweddar, y rhai a chwanegant at bob pleth, dri chord sidan du, gydag addurniadau bychain o aur. Dywed y Deg a Thrigain fod y gair "rhwydwaith" (*Esa.* iii. 18) yn cyfeirio at y cyfryw addurniadau, ac y mae Schroeder yn yn cymmeradwyo y golygiad, ac yn tybied eu bod ar lun yr haul; hyny yw, yn grynion, ac yn wahanredol oddi wrth y "penwisgoedd crynion fel y lleuad," sef yr addurniadau hannergrwn a ddefnyddid mewn clustdlysau. Y mae y merched Arabaidd yn arfer cydio clychau bychain wrth odrau eu gwallt. Crybwyllir am gribau a phinau gwallt yn y Talmud; gwneid y cribau Aiphtaidd o goed, ac yn ddwbl, un ochr yn cynnwys dannedd mân, a'r llall rai breision. Gellir tybied oddi wrth yr addurniadau a weithid arnynt, yr arferid eu gwisgo yn y gwallt. Arferai yr Hebreaid, fel cenedloedd hynafol ereill, eneinio eu gwallt mewn dull gorhael âg enaint, yr hwn oedd yn gyffredin yn gyfansoddedig o amryw gyfferïau peraroglaidd (*Ruth* iii. 3; 2 *Sam.* xiv. 2; *Salm* xxiii. 5; xlv. 7; xcii. 10; *Preg.* ix. 8; *Esa.* iii. 24); ac yn enwedig ar adeg gwleddoedd a chyfeillgarwch (*Mat.* vi. 17; xxvi. 7; *Luc* vii. 46). Y mae yn debyg mai mewn cyfeiriad at ei ymddangosiad dysglaer wedi ei eneinio y dysgrifir y gwallt (*Can.* vii. 5) fel porphor.

Ymddengys y byddai yr Iuddewon yn arfer tyngu i'w gwallt yn amser ein Iachawdwr (*Mat.* v. 36), fel y mae merched yr Aipht yn arfer tyngu i'w cerngudynau, a'r meibion i'w barfau.

Defnyddiai yr Hebreaid y gwallt fel delwedd o'r hyn sydd leiaf ei werth yn y corph dynol (1 *Sam.* xiv. 45; 2 *Sam.* xiv. 11; 1 *Bren.* i. 52; *Mat.* x. 30; *Luc* xii. 7; xxi. 18; *Act.* xxvii. 34); yn gystal ag am yr hyn nas gellid ei rifo (*Salm.* xl. 12; lxix. 4); neu yn hynod fain (*Barn.* xx. 16). Yn *Esa.* vii. 20, mae gwallt yn arddangos amryw gynnyrchion y maes, megys coed, cnydau, &c. Y mae gwallt "fel gwallt gwragedd" (*Dad.* ix. 8) yn dynodi gwallt hir heb ei drwsio neu ei drefnu, yr hwn mewn amseroedd diweddarach a ystyrid fel arwydd o anfoesgarwch barbaraidd.

GWAED A DWFR. Amgylchiad rhyfedd yn hanes croeshoeliad ein Gwaredwr ydyw y ffaith a gofnodir gan Ioan, ac at yr hon y mae yn tynu sylw arbenig:—"Ond un o'r milwyr a wanodd ei ystlys ef â gwaywffon; ac yn y fan y daeth allan waed a dwfr. A'r hwn a'i gwelodd a dystiolaethodd, a gwir yw ei dystiolaeth, ac efe a ŵyr ei fod yn dywedyd gwir, fel y credoch chwi;" *Ioan* xix. 34, 35. Yr oedd yr Iuddewon yn teimlo pryder na byddai cyrff y rhai croeshoeliedig ar y groes ar y Sabbath; ac mewn trefn i brysuro eu hangeu, y maent yn deisyfu cael caniatad gan Pilat i dori eu hesgeiriau, a'u tynu i lawr cyn dechreuad y Sabbath. Wedi tori esgeiriau y rhai a groeshoeliasid gyda'r Iesu, a phan yr oeddynt ar wneuthur yr un fath iddo yntau, yr oedd efe, yn groes i'w dysgwyliad, wedi marw eisoes; ac felly, yn unol â'r brophwydoliaeth, ni thorwyd asgwrn o hono: ond er mwyn boddio ei dueddfryd creulawn ac annynol, ac er mwyn cael y sicrwydd mwyaf ei fod wedi marw mewn gwirionedd, gwanodd un o'r milwyr ei ystlys ef. Gwnaeth ynddo archoll ddofn a llydan, ac o'r archoll hon y daeth allan waed a dwfr, a hyny yn y fath gyflawnder ag i dynu sylw neillduol Ioan, yr hwn oedd yn sefyll rhyw bellder oddi wrth y groes. Yr oedd y gwaed a'r dwfr mor amlwg wahanol a gwahaniaethol fel na allasai gael ei dwyllo; a chredodd mai iawn oedd iddo adael y dystiolaeth fwyaf pendant am yr hyn oedd yn ymddangos iddo mor ryfedd. Tybir gan rai fod Ioan wedi gadael y dystiolaeth bendant hon ar ei ol mewn trefn i wrthbrofi syniadau oedd yn ffynu ar y pryd—nad oedd corff yr Iesu ddim yn gorff gwirioneddol, o gnawd a gwaed; ond mai ymddangosiad yn unig ydoedd. Ond pa beth bynag ydoedd amcan uniongyrchol yr apostol yn cofnodi y ffaith, y mae tu hwnt i

Digitized by Google

ammheuaeth fod—yn mhen awr neu ddwy ar ol ei farwolaeth; nis gallasai fod yn hwy—gwaed a dwfr wedi llifo allan o ystlys yr Iesu trwy y toriad a wnaed ynddo gan y milwr. Mae defnydd wedi cael ei wneuthur yn ddiweddar o'r ffaith hon mewn trefn i egluro achos anianyddol y farwolaeth ryfedd hon. Y mae yn amlwg fod yr Iesu wedi marw yn gynt nag y dysgwylid. Fe ymddengys nad oedd neb a groeshoelid pan mewn iechyd arferol yn marw cyn pen y deuddeng awr. Yn fynych, ni byddai yn trengu cyn pen yr ail, y trydydd, ac hyd yn oed y pedwerydd a'r pummed dydd. Mae tystiolaethau henafol yn bendant ar y pen hwn: ac nid yw rhai diweddar yn eisieu, er yn anfynych y gweinyddir marwolaeth yn y dull hwn yn awr mewn unrhyw ran o'r byd. Yn Soudan, talaeth yn Affrica, rhoddir rhai i farwolaeth trwy groeshoeliad yn awr; a dywedir fod y trueiniaid yn dihoeni am dridiau ar y groes cyn i angeu eu rhyddhau o'u poenau. Yn awr, nis gallwn lai na gofyn, a oes goleuni yn bosibl i ni gael ar y ffaith fod y Gwaredwr wedi marw yn mhen y chwe awr ar ol iddo gael ei hoelio ar y groes. Y mae esbonwyr yn mhob oes wedi codi y cwestiwn i sylw. Yr ateb y mae lluaws mawr o'r rhai henafol a diweddar yn ei roi iddo ydyw, fod gan yr Iesu awdurdod ar ei einioes ei hun, ac yn yr ymarferiad o'r awdurdod hwn fe roes ei fywyd i lawr, yn unol âg *Ioan* x. 18. Yr oedd marw yn weithred o ewyllys bur ynddo ef; ond nid oedd yn llai felly, wrth iddo ymostwng i'r achosion anianyddol ag oedd yn sicrhau ei farwolaeth. Esboniad arall a roddir ydyw, fod yr Iesu, pan groeshoeliwyd ef, yn dyoddef oddi wrth ing yr ardd, y fflangellu yn llys Pilat, a'r frwydr anweledig ar y groes. I hyn y dywedir, ei fod wedi dechreu ar ei ddyoddefiadau olaf yn nghyflawnder ei nerth, ac yn rhydd oddi wrth bob diffygion ac anhwylderau naturiol. Pa mor boenus bynag oedd ei ddyoddefiadau yn yr ardd, cynnorthwyid ef i'w dyoddef mewn modd goruwchnaturiol. Pan gafodd seibiant oddi wrth yr ing a'r ymdrech meddwl yn yr ardd, lliniarodd ei boenau corfforol, fel nad ydym yn eu canfod pan ddaeth y milwyr i'w ddal, na phan yn sefyll o flaen Caiaphas a Philat. Yr oedd fflangellu yn gosp gydfynedol â chroeshoelio yn fynych. Ac mái nid mewn canlyniad i wanhad corfforol, neu mewn llewyg yn tarddu oddi ar fod ei nerth wedi ei ddyhysbyddu, y bu farw, sydd amlwg oddi wrth y llef uchel â pha un y dolefodd: *Luc* xxiii. 46. Wrth chwilio am achos anianyddol marwolaeth y Gwaredwr, y mae yr ystyriaethau hyn yn myned yn mhell i ddangos nas gallwn ei phriodoli i wanhad a dyhysbyddiad corfforol.

Yn y flwyddyn 1847, cyhoeddodd Dr. Stroud, meddyg duwiolfrydig a dysgedig, draethawd *On the Physical causes of the Death of Christ*=Achosion Anianyddol Marwolaeth Crist. Dywed fod ei draethawd yn ffrwyth darllen a meddwl chwarter canrif ar y mater; ac yn yr ymdriniaeth âg ef, y mae yn amlygu y parchedigaeth a'r ysbryd mwyaf cydnaws i destyn ei ymchwiliad. Oddi wrth y ffaith y mae Ioan yn ei dystiolaethu gyda'r fath arbenigrwydd, y mae Dr. Stroud yn tynu y casgliad—mai achos uniongyrchol ac anianyddol marwolaeth Crist ydoedd rhwygiad y galon, wedi ei achosi gan ing mewnol yr ysbryd. Y mae yn ffaith eithaf adnabyddus fod teimlad cryf o lawenydd, neu dristwch, neu ddigofaint, wedi eu cyffroi yn sydyn yn fynych wedi terfynu yn farwol. Ond mewn blyneddoedd diweddar, y mae y darganfyddiad wedi ei wneuthur trwy drengholiadau (*post mortem examinations*) mai yr achos uniongyrchol o farwolaeth yn yr amgylchiadau hyn ydyw rhwygiad y galon (*rupture of the heart*). Y galon, yn ol iaith gyffredinol dynolryw, ydyw eisteddle y teimladau; ac nid yn anfynych y mae y galon wedi cael ei rhwygo gan danbeidrwydd ei theimladau ei hun. Y mae y gwaed sydd yn llifo trwy y rhwygiad hwn yn llenwi y bilen sydd fel math o we o amgylch y galon, ac felly yn gwasgu ar, ac yn attal gweithrediad y galon. Wrth lefaru am rai sydd wedi marw trwy dori eu calon, y mae yr ymadrodd yn gywir i'r llythyren. Os ydyw teimlad angerddol wedi tori y galon, pa ham nad allwn feddwl mai felly yr oedd yn marwolaeth yr hwn na bu gofid neb yn debyg i'w ofid ef. Pa ham nad allwn feddwl fod ing meddwl y Gwaredwr ar y groes, yr hyn oedd yn gyffelyb i'w ing yn yr ardd, wedi terfynu yn farwol, fel y gwyddom fod teimladau angerddol wedi terfynu. Mae pob tebygolrwydd o blaid y dybiaeth hon. Ond ystyrir yr ymadrodd yn Ioan, "Ac yn y fan daeth allan waed a dwfr," yn brawf penderfynol o'i phlaid. Y mae difynwyr a meddygon wedi gwneyd ymchwiliadau i natur a helaethrwydd y gwaed sydd yn dyfod allan o galon wedi ei rhwygo neu ei thori gan danbeidrwydd teimlad. Yn y fath amgylchiad, y mae elfenau coch ac elfenau dyfrol y gwaed yn ymwahanu yn y cwd pilenog (*pericardium*) sydd yn amgylchu y galon; ac ond i'r bilen hon gael ei phigo neu ei gwanu, llifa y gwaed a'r dwfr allan y naill ar ol y llall gyda nerth. Y mae Dr. Stroud wedi casglu llawer o enghreifftiau a phrofion o hyn. Pan y mae y gwaed yn cael aros yn y llestri (*the vascular system*) ar ol marwolaeth, anfynych y mae yn ymgeulo neu yn ymwahanu i waed a dwfr; a phan y bydd yn gwneuthur hyny nid ydyw yn cymmeryd lle am oriau lawer ar ol i'r corff farw. Mewn amgylchiadau o hir nychdod y mae anghreifftiau wedi eu cael pan byddai y gwaed wedi ei droi i sefyllfa hanner dyfrol; ond nid hyn ydoedd amgylchiad y Gwaredwr. Ac heb law hyny, yn yr amgylchiadau nychlyd hyn, pe gwenid y corff ychydig ddyferion yn unig o waed dyfrol a redai allan. Y mae y dybiaeth fod y Gwaredwr wedi marw o ymrwygiad y galon, a hyny wedi ei achosi gan ing angerddol ei ysbryd, yn egluro pa fodd y daeth allan o'i ystlys waed a dwfr, ac nid oes dim arall a all wneyd hyny. Mae gan Dr. Hanna ddarlith ar hyn—*The Last Day of our Lord's Passion*—yn yr hon y mae efe yn cymmeryd i fyny esboniad Dr. Stroud, ac yn dadleu drosto. Crynodeb o'i sylwadau ef ydyw yr erthygl hon. Mewn attodiad i'w gyfrol, y mae Dr. Hanna yn rhoddi tystiolaeth amryw o feddygon enwog yn cymmeradwyo golygiad Dr. Stroud. Dywed Dr. Begbie, meddyg i'r frenines yn Scotland, "Nis gallaf lai na chymmeradwyo eglurhad Dr. Stroud am achos anianyddol marwolaeth Crist, sef mai ymrwygiad y galon ydoedd; ac mewn canlyniad, fod y gwaed wedi rhedeg i'r bilen sydd yn amgylchu y galon (*y pericardium*). Y mae hyn yn esbonio yn gyntaf pa fodd y bu efe farw yn gynt nag arferol trwy groeshoelio; a pha fodd y daeth allan waed a dwfr o'i ystlys." Y mae llythyr Dr. Simpson, Edinburgh, yn faith: rhoddwn ychydig frawddegau—"Er pan ddarllenais draethawd Dr. Stroud, ddeuddeng mlynedd yn ol, y mae fy nghredininiaeth yn gryf fod ei olygiadau yn gywir. Y profion o'i eglurhad ef ydynt—1. Nid ydoedd marwolaeth y Gwaredwr yn effaith ei groeshoeliad, o herwydd yr oedd yr adeg—chwe awr—yn

Digitized by Google

rhy fyr; ac yn ail, yr oedd y rhai a groeshoeliwyd yn marw o wanhad graddol, yr hyn oedd yn terfynu mewn llewyg ac angeu: ond nid felly yr Iesu; ychydig fynydau o flaen ei farwolaeth dolefodd â llef uchel. 2. Nid oes dim niwed adnabyddus a allasai roddi terfyn mor fuan ar ei ddyoddefiadau yn angeu; ond (1.) naill ai attaliad ar weithrediad y galon trwy lewyg marwol, (2.) neu ymrwygiad y galon neu y llestri mwyaf sydd yn rhedeg o'r galon. 3. Ond y mae y llef uchel yn nghyd â fleithiau ereill, yn dangos mai nid trwy lewyg y bu efe farw. 4. Y mae yr arwyddion yn hollol gyffelyb i arwyddion un yn marw trwy ymrwygiad y galon. 5. Nid wyf yn credu y dichon i ddim esbonio y gwaed a'r dwfr a lifodd o'i ystlys, ond ffrwd o waed a redodd o'r galon i'r bilionen sydd yn ei hamgylchu; ac ymwahaniad y gwaed i'r ddwy elfen—y coch a'r dyfrol yn y bilionen hono. Ni buasai dim yn fwy naturiol, ar ol i'r cwd pilionog hwn gael ei wanu, nag i waed a dwfr lifo allan. 6. Y mae yn adnabyddus fod teimladau cryfion yn effeithio ar guriadau y galon; a bod y teimladau hyn, pan i raddau angerddol, wedi rhwygo ystafelloedd y galon sydd hefyd yn adnabyddus i feddygon, er mai yn dra anfynych y ceir anghreifftiau o hyn. Os rhwygwyd calon ddynol erioed gan ing meddwl oni ellid dysgwyl y buasai calon o gnawd yn ymrwygo dan effeithiau ofnadwy melldith Duw a dynion? "Gwnaethpwyd ef yn felldith drosom;" "Bu yn drist iawn ei enaid hyd angeu." 7. Y mae rhesymau duwinyddol a meddygol dros hyn. Y fath oleuni y mae yr esboniad hwn yn ei roddi ar amryw o ymadroddion Ysgrythyrol; "Fel dwfr y'm tywalltwyd......fy nghalon sydd fel cŵyr; hi a doddodd yn nghanol fy mherfedd;" *Salm* xxii. 14. "Gwarthrudd a dorodd fy nghalon; yr ydwyf mewn gofid: a dysgwyliais am rai i dosturio wrthyf, ac nid oedd neb; ac am gysurwyr, ac ni chefais neb. Rhoddasant hefyd fustl yn fy mwyd, ac a'm diodasant yn fy syched â finegr;" *Salm* lxix. 20, 21. 8. Nid oedd llawer o waed, os dim yn wir, yn cael ei golli trwy groeshoeliad; ond y mae holl iaith yr Ysgrythyrau yn rhoddi arbenigrwydd ar y *gwaed* a dywalltwyd ar y groes; "Heb ollwng gwaed nid oes maddeuant." Cymmerodd hyn le i'r graddau eithaf yn ol y golygiad dan sylw.

Y mae Dr. Simpson yn terfynu trwy ddyweyd, "Y mae yr olwg yma ar angeu Crist yn mwyhau yn annhraethadwy fy syniadau i am fawredd yr aberth a wnaed dros bechaduriaid ar y groes.. ... Rhoddwyd ef i farwolaeth, nid trwy ing ei gorff, er iddo ddyoddef yn y dull mwyaf poenus sydd yn adnabyddus; ond trwy ing dyfnach ei ysbryd. Drylliwyd a rhwygwyd muriau cnawdol y galon fel llen y deml, yr hon a rwygwyd oddi fyny hyd i wared; 'Tywalltwyd ei enaid i farwolaeth.'"

Y mae Dr. Hanna yn ymresymu o blaid y dull hwn o edrych ar farwolaeth Crist, ei fod yn dyrchafu ein meddwl uwch law y poenau corfforol at yr "ymdrech meddwl" a'r ing dirgeledig oedd fel tân dwyfol wedi disgyn ar ei ysbryd. Gan fod chwys gwaedlyd yr ardd, a'r galon doredig ar y groes, yn effeithiau naturiol ac uniongyrchol y "gofidiau" a'r "doluriau" yr agorodd ei fynwes sanctaidd i'w derbyn a'u dwyn, ni a welwn "y mynai yr Arglwydd ei ddryllio: efe a'i clwyfodd." Dyoddef fel aberth yr ydoedd y dyoddefydd sanctaidd, baich euogrwydd dyn. Tân digofaint dwyfol ydoedd y tân a ddisgynodd arno. Nid oedd dim a ddyoddefodd y Gwaredwr oddi wrth ddynion yn esbonio maint ei ing, y chwys fel defnynau gwaed yn disgyn ar y ddaiar, a'r galon ddrylliedig ar y groes; nid oes dim yn esbonio hyn ond y sefyllfa yr ydoedd ynddi fel meichniydd yn lle yr euog. Y mae y golygiad a gymmerir yn yr erthygl hon yn egluro yn amlycach nag un arall pa fodd yr ydoedd marwolaeth Crist yn ganlyniad uniongyrchol ei waith yn offrymu ei hun i Dduw, ac yn tywallt allan ei enaid i farwolaeth.

"*Dwfr a gwaed.*" "Dyma yr hwn a ddaeth trwy ddwfr a gwaed;" 1 *Ioan* v. 6. Y mae llawer o amrywiaeth barn o berthynas i'r geiriau hyn. Y mae yr esboniwr diweddaraf, a goreu, ar epistolau Ioan, sef Düsterdieck, yn gosod i lawr ddwy reol y rhaid i'r esboniad cywir o'r geiriau hyn gydymffurfio â hwynt. 1. Rhaid i "ddwfr" a "gwaed" gyfeirio at ffeithiau hanesyddol yn mywyd yr Arglwydd Iesu Grist tra ar y ddaear; ac hefyd y cyfryw ag sydd yn dystion presennol o Fessïaeth y Gwaredwr. 2. Rhaid eu deall mewn ystyr gwirioneddol, ac nid mewn ystyr arwyddocaol; sef, am rywbeth mor wirioneddol ag y mae Duw trwyddynt yn dwyn tystiolaeth i gredinwyr fod bywyd tragwyddol iddynt yn ei Fab. Y mae yr angenrheidrwydd am y ddwy reol hyn yn codi oddi ar eiriad yr adnod ei hun, ac oddi ar amcan yr apostol yn eu defnyddio. Dygir hwynt i mewn fel tystiolaeth Duw, yr hon a dystiolaethodd efe am ei Fab. Rhaid eu bod gan hyny yn gyfaddas i fod yn dystiolaeth am dano.

Y mae Alford yn cydnabod cywirdeb y rheolau hyn. Yn eu gwyneb gwelir nas gellir derbyn yr esboniad a roddir gan amryw; sef, mai eu hamcan ydyw profi mai gwir ddyn oedd Iesu Grist, yn gynnwysedig o ysbryd neu waed a dwfr. Y mae amryw esboniadau arwyddocaol. Felly y mae y Sociniaid yn eu hesbonio; gan ddeall fod "dwfr" yn arwyddo purdeb bywyd ac athrawiaeth Crist; a'r "gwaed" yn arwyddo ei angeu fel ei dystiolaeth am dano ei hun. Esboniad Grotius ydyw, fod dwfr yn arwyddo adenedigaeth a ffydd; a gwaed, gwybodaeth. Glanhâd oddi wrth aflendid pechod, o'r hyn y mae bedydd yn sel ac yn arwydd, ydyw y dwfr; ac iawn am bechod ydyw y gwaed. Hwn ydyw esboniad Beza. Yn gyffelyb y deallir hwynt gan Calvin. "Y mae y geiriau yn dangos yn fyr amcan yr hen seremonïau; sef, cysgodau o drefn i buro dynion oddi wrth aflendid ac euogrwydd, fel y byddent yn gymmeradwy gan Dduw, ac yn gyssegredig iddo." Fel y gwelir y mae Beza, felly y mae amryw yn eu cyfeirio at y sacramentau. Ond y mae yr ail reol a enwyd yn cau allan yr holl esboniadau hyn. Pa fodd gan hyny y mae deall y geiriau hyn? Nis gall fod anhawsder mawr i ddeall ystyr y gair "gwaed" yn y lle hwn. Y mae holl rediad yr Ysgrythyrau yn dangos mai y gwaed a dywalltwyd ar y groes a feddylir. Wrth y "dwfr," mae yn rhaid i ni ddeall rhyw ffaith yn hanes bywyd Crist. Y mae y geiriad yn dangos hyn, "daeth trwy ddwfr." Mae rhai yn deall y dwfr i arwyddo fel y bedydd a sefydlodd Crist yn ei eglwys, fel pe wrth yr ymadrodd "daeth trwy ddwfr" y deallir, *Efe a sefydlodd fedydd;* yr hyn sydd yn ymddangos yn annheilwng. Nis gallwn ddeall fod y "dwfr" yn arwyddo dim mor naturiol a'i fedydd ef ei hun. Pan yr ymgyssegrodd yn gyhoeddus i'w waith fel Cyfryngwr y daeth yr Ysbryd Glân arno megys colomen, ac y tystiodd ei Dad, "Hwn yw fy anwyl Fab, yn yr hwn y'm boddlonwyd." Yr oedd bedydd Crist yn ganlyniad ac yn brawf

o'i Fessïaeth. Trwy dystiolaeth ei Dad iddo yn ei fedydd y gwyddai Ioan mai Mab Duw ydoedd. "A mi a welais ac a dystiolaethais mai Mab Duw yw hwn;" *Ioan* i. 34. Y mae Ioan yn defnyddio yr un dull o ymadroddi pan welodd y gwaed a'r dwfr yn dyfod allan o'i ystlys, "A'r hwn a'i gwelodd a dystiolaethodd." Y mae Ioan yn dwyn tystiolaeth i ddwy ffaith fawr ei hanes ar y ddaear—ei ymgyflwyniad cyhoeddus i'w waith fel Cyfryngwr yn ei fedydd; a pherffeithiad ei waith trwy ei farwolaeth. Y mae y ffeithiau hyn o rinwedd barhaol fel tystiolaeth i dderbyniad a digonolrwydd gwaith ac aberth Crist fel Cyfryngwr. Ac y mae y cymhwysiad o'u rhinwedd at galon pechadur yn dystiolaeth barhaol a gwirioneddol hefyd i'r bywyd tragwyddol sydd yn, a thrwy Grist.

Y mae rhai yn gwadu fod cyfeiriad yn ngeiriau yr Efengyl, "gwaed a dwfr," at y geiriau "dwfr a gwaed" yn yr Epistol, am mai gwaed sydd gyntaf yn y naill, a dwfr yn y llall. Y mae yn anhawdd meddwl nad gwrthddadl blentynaidd ydyw hon. Y mae cyfyngu geiriau yr epistol fel cyfeiriad yn unig at yr efengyl (*pen.* xix. 34) yn groes i'r ail reol a roddwyd i lawr. Ond y mae yn dra thebygol fod cyfeiriad y ddau ymadrodd at yr un gwirioneddau hanfodol. Y cyfryw ydyw crynodeb o esboniad Düsterdieck ar Epistolau Ioan; yr hyn a roddir hefyd gan Alford. Y gwahaniaeth sydd rhwng Alford a Düsterdieck ydyw fod Alford yn cyfeirio y gair "dwfr" yn yr Epistol at fedydd Crist, ond Düsterdieck at y bedydd a sefydlodd i'w ddysgyblion.

GWAN—U, [*gwa—an*]: trywanu, brathu, treiddio, tyllu. Ceir y gair *gwanu* mewn amryw fanau yn yr Ysgrythyrau, megys *Barn.* v. 26, lle y crybwyllir am Iael, gwraig Heber y Ceniaid, yn lladd Sisera, gelyn Israel, drwy ei bwyo, ei wanu, a'i drywanu. Yn *Iob* xxx. 17, y mae tyllu (gwanu) yn gosod allan ofid dwys a dibaid y patriarch Iob. Y mae yr apostol Paul (1 *Tim.* vi. 9, 10) yn dangos y perygl i ddynion fod yn orawyddus i ymgyfoethogi, a bod dan lywodraeth yr egwyddor o ariangarwch, drwy ddangos fod y cyfryw yn gwanu eu hunain â llawer o ofidiau. Y mae Dafydd (*Salm* xxii. 16) yn cwyno yn dost o herwydd fod ei elynion yn trywanu ei ddwylaw a'i draed, gan gyfeirio mewn dull prophwydoliaethol at ddyoddefaint ein Iachawdwr. Hefyd, yr oedd gwanu yn rhan bwysig o ddyoddefaint Crist: "Un o'r milwyr a wanodd ei ystlys â gwaewffon:" *Ioan* xix. 34, 37. "Edrychant arnaf fi yr hwn a wanasant:" *Zech.* xii. 10; *Dad.* i. 7. Y mae gair *gwanu* yn y tri lle diweddaf a nodwyd yn arwyddo holl ddyoddefiadau y Messïah, ac yn gosod allan ei arteithiau llymion a'i ofidiau angerddol.

GWANWYN. Gwel Daiaryddiaeth, cyf. ii, t. d., 239.

GWARADWYDD. Gwel Gwarth.

GWARCHAE—EDIG—AETH, [*gwar—cae*]: argau, cau i mewn; cylchynu, amgylchynu: *Deut.* xxviii. 52, 53; xxxii. 36; *Zech.* xiv. 2. Y mae y gair *gwarchae* yn dynodi gwaith byddin yn amgylchynu dinas neu gastell, ac weithiau ran fawr o wlad, ynghyd â'i phorthladdoedd, i'r dyben o newynu neu orfodi y trigolion i ymostwng. Ystyrir gwarchaead Samaria, Ninefeh, Babilon, Ierusalem, a Tyrus, fel y rhai mwyaf hynod y crybwyllir am danynt yn yr Ysgrythyrau. Y rhai ereill mwyaf nodedig yn yr amser gynt oeddynt yr eiddo Caerdroia, Ashdod, Tyrus, Alexandria, a Namantium. Ystyrir y rhai canlynol y rhai mwyaf hynod mewn amseroedd diweddar, sef gwarchaead Caer Cystenyn, Ostend, a Graves; ond yn enwedigol gwarchaead Candia, a Creta. Y mae barnedigaethau Duw yn myned dan yr enw *gwarchae* pan fyddont yn amgylchynu dynion, ac yn eu darostwng i gyni a chaledi: *Esa.* xxix. 3.

GWARCHDWR, [*gwarch—twr*]: tŵr i warchae ar ddinas; lle i filwyr wylio eu gelynion; amddiffynfa. "Ac a warchaeaf i'th erbyn mewn gwarchdwr;" *Esa.* xxix. 3. Yr ydys yn darllen fod holl ddinasoedd y cenedloedd dwyreiniol wedi eu hamgylchynu â muriau, ac yn y muriau hyny yr oedd tyrau wedi eu hadeiladu, nid yn annhebyg i'r rhai a welir yn nglŷn â muriau dinasoedd yn yr oes hon. Yn y tyrau hyn y byddai y milwyr yn amser rhyfel yn gwylio symmudiadau eu gelynion, ac yn amddiffyn eu dinasoedd rhag syrthio yn ysbail i'w gwarchaewyr: 2 *Cron.* xxxii. 5; *Ier.* xxxi. 38; 2 *Cron.* xxvi. 9, 15; *Barn.* ix. 45; 2 *Bren.* ix. 17. Yn yr hynaf o dri mur Ierusalem yr oedd 90 o dyrau; yn yr ail fur yr oedd 14; ac yn y trydydd mur yr oedd 60 [*Hynaf. Ios.*, llyfr J, v. 4, adr. 2]. Fe geir crybwylliadau mynych yn yr Ysgrythyr am rai o'r tyrau hyn, yn enwedig tŵr Hananeel: *Ier.* xxxi. 38; *Zech.* xiv. 10; *Neh.* iii. 1, 11, 27. Yr oeddid yn arfer adeiladu tyrau hefyd yn nghanol dinasoedd (*Barn.* ix. 51), ac oddi allan i'r dinasoedd mewn rhyw fan manteisiol, uchel, a diogel, lle y byddai yr amddiffynwyr yn dianc yn yr awr ddiweddaf pan wedi eu gorfodi i gilio o'r dinasoedd Tyrau felly oedd yn Sichem a Thebez: *Barn.* ix. 46, 51; viii. 17; 2 *Bren.* ix. 17. Byddid yn gosod offerynau nerthol ar ddull bwäau ar y tyrau "i ergydio saethau a cheryg mawrion;" 2 *Cron.* xxvi. 15. Gwel Amddiffynfeydd.

GWARCHEIDWAD, [*gwarch—cadw*]: un sydd yn gwylio, yn cadw, neu yn sicrhau; un yr ymddiriedir peth iddo er mwyn ei gadw yn ddiogel rhag niwed. Felly yr oedd Solomon wedi gosod ei "winllan i warcheidwaid;" *Can.* viii. 11. Mewn ystyr gyfreithiol, mae y gair yn arwyddo un y byddo ganddo ofal person a'i eiddo, yr hwn, o herwydd ei wendid neu ddiffyg dealltwriaeth, a ystyrir gan y gyfraith yn anghyfaddas i weithredu drosto ei hun. Yn ol cyfraith Prydain, ni phenodir gwarcheidwad ond i rai dan oed; ond dan y gyfraith Rufeinig, byddent yn cael eu penodi i bersonau gwirion, lloerigion, benywod, ac weithiau afradloniaid. Gyda golwg ar y rheolau perthynol i warcheidwaid personau gwirion a lloerigion, gwel dan y gair Gwallgofrwydd. Y rhaniad cyffredin ar warcheidwaid, yn ol cyfraith Prydain, ydyw:—1. Gwarcheidwaid yn ol y gyfraith gyffredin (*common law*). 2. Gwarcheidwaid yn ol arfer. 3. Gwarcheidwaid yn ol y gyfraith seneddol (*statute law*).

1. *Gwarcheidwaid yn ol y gyfraith gyffredin.* Yr oedd pedwar math o'r rhai hyn, sef gwarcheidwaid mewn marchwriaeth (*chivalry*); mewn amaethwriaeth; drwy natur; ac er maeth.

(1). Gwarcheidwaid mewn marchwriaeth. Y mae y math hwn yn awr wedi ei ddileu gan y senedd yn amser Charles II. Cyfodai y warcheidwadaeth hon yn gwbl oddi ar egwyddorion tirafaeliad, ac nis gallai fod ond yn unig pan y

Digitized by Google

byddai etifeddiaeth yn eiddo i un dan oed trwy ddisgyniad. Yr oedd pob marchog, neu yr un a ddaliai dir ar gyfrif gwasanaeth fel marchog i'r brenin, neu ryw arglwydd fyddai yn rhoddi y tir —yr oedd pob un o'r rhai hyn, sef y gwrywod dan 21, a'r benywod dan 14, ar farwolaeth y tad, yn agored i'r warcheidwadaeth uchod; a pharhäai ar y gwrywod nes y byddent yn 21 oed, ac ar y benywod hyd 16, neu briodas. Ymestynai dros etifeddiaeth, yn gystal a pherson, yr un fyddai dan oed, a chaniateid i'r arglwydd (sef rhoddwr y farchwriaeth) werthu ei briodas ef ar yr ammod na wnelai hi yn briodas o iselhad; a chodi fforffedau ar yr etifedd os gwrthodai y briodas, neu os priodai heb gydsyniad yr arglwydd, wedi iddo ef gynnyg cyfathrach. Yr oedd yr arglwydd yn rhwym o gynnal yr un oedd dan oed; ond yr oedd ganddo drwy hyny hawl i arfer holl elw yr etifeddiaeth at ei wasanaeth ei hun. Yr oedd rhyddid i werthu y warcheidwadaeth hon; ac os methid gwneyd hyn, yr oedd yn disgyn ar farwolaeth yr arglwydd i'w gynnrychiolydd.

(2). Gwarcheidwad mewn amaethwriaeth. Y oedd hyn yn bod pan y byddai tir yn cael ei ddal gan denant "wrth swch a chwlltwr," neu ar gyfrif rhyw wasanaeth heb fod yn filwrol, yr hyn oedd yn ei wahaniaethu oddi wrth y marchog. Ni ddygwyddai y warcheidwadaeth hon ond yn unig pan y byddai etifeddiaeth, drwy amaethwriaeth, yn disgyn i ran un dan 14 mlwydd oed. Wedi cyrhaedd yr oed hwnw, nid oedd yr etifedd mwyach dan reolaeth y gwarcheidwad amaethwrol, ond yr oedd at ei ryddid i ddewis ei warcheidwad ei hun. Mae yr hawl i'r warcheidwadaeth gan y rhai hyny o berthynasau agosaf yr etifedd nas gallent gael yr etifeddiaeth trwy ddisgyniad; rhag, meddir, i'r oen gael ei drosglwyddo i'r blaidd i gael ei larpio. Mae cyfraith Ysgotland, a hen gyfreithiau Ffrainc, yn trefnu llwybr canol: ymddiriedir yr etifeddiaeth i'r olynydd nesaf, o herwydd y teimla efe fwy o awydd am ei chadw mewn trefn; ond nid oes ganddo hawl ar berson yr etifedd. Dyma yr egwyddor oddi ar ba un y mae'r canghell-lys yn gweithredu gyda golwg ar wallgofiaid a'u hetifeddiaethau. Mae gan y gwarcheidwad mewn amaethwriaeth hawl, nid yn unig i ofalu am berson ac etifeddiaeth amaethwrol yr un fyddo dan oed, ond hefyd ei holl dda etifeddol fyddo heb ddyfod i'w gyflawn feddiant, a hyd yn oed yr etifeddiaethau fyddo ganddo trwy adysgrif o rôl llys (*copy-hold*), os na bydd arfer groes i hyny yn y faenor lle y delir hwynt, ac hefyd ei eiddo personol. Mae y warcheidwadaeth amaethwrol yn cael ei hystyried fel ymddiriedaeth hollol er mantais yr un fyddo dan oed; ac nis gellir ei gwerthu na'i throsglwyddo; ond pan fyddo marw y gwarcheidwad, y mae y warcheidwadaeth yn disgyn i berthynas agosaf yr etifedd fyddo heb hawl i'w ddilyn yn yr etifeddiaeth, ac y mae yn gyfrifol i'r etifedd am yr elw oddi wrth yr etifeddiaeth. Mae yn bossibl dileu yr angenrheidrwydd am warcheidwad amaethwrol yn nglŷn â pherson neu ystâd yr un fyddo dan oed, os pennoda y tad warcheidwad yn ol y gyfraith seneddol, am ba un crybwyllwn yn mhellach yn mlaen.

(3). Gwarcheidwad wrth natur. Nid oes dim a fyno y math hwn o warcheidwadaeth â rheolau daliad tir. Ni chyrhaedda yn mhellach na pherson yr un fyddo dan oed, a pharha nes y byddo wedi dyfod yn 21. Gall rhyw un o hynafiaid yr etifedd fod yn gyfryw warcheidwad; y mae yr hawl gyntaf yn perthyn i'r tad, y nesaf i'r fam; ac os byddant hwy feirw, y mae yr hawl yn disgyn i'r hwn y byddo y person dan oed yn etifedd iddo. Hyd oni bydd yn 14 mlwydd oed, fe ymddengys mai y gwarcheidwad mewn amaethwriaeth sydd â hawl i ofalu am y person; wedi hyny, y mae yn disgyn i ran y gwarcheidwad wrth natur.

(4.) Gwarcheidwaid er maeth. Y tad neu y fam yw y rhai hyn; ond os na bydd tad neu fam, dywedir y gall yr esgob appwyntio rhyw berson i gymmeryd gofal eiddo personol yr un fyddo dan oed, a darparu at ei gynnaliaeth a'i addysg, er fod hyn yn ammheus. Nid yw y math hwn o warcheidwadaeth yn cyrhaedd yn mhellach na 14 oed, ar wrywod a benywod. Gellir hefyd dileu yr angenrheidrwydd am bob un o'r ddau fath olaf hyn, os appwyntir gwarcheidwad yn ol y gyfraith seneddol.

Pan y bydd un dan oed heb warcheidwad, y mae gan y canghell-lys awdurdod i bennodi un; ac ymddengys fod yr awdurdod hon wedi disgyn i'r brenin yn ei ganghell-lys, ar ddiddymiad Llys y Gwarcheidwaid. Pan y bydd achos priodol yn galw am ymdriniaeth y llys hwn, y mae yn ymyryd, nid yn unig âg eiddo y person fyddo dan oed, ond hefyd â chadwraeth ei berson; ac os bydd rhyw gamymddygiad wedi bod, gall symmud gwarcheidwad, pa fodd bynag y bydd efe wedi cael ei appwyntio neu ei gyfansoddi, a phennodi gwarcheidwad priodol yn ei le. Bu enghraifft o hyn yn achos y Duc o Beaufort yn erbyn Wellesley—pryd, er fod y tad yn fyw, yr amddifadodd Arglwydd Eldon ef o gadwraeth ei blant, fel person anghyfaddas i gymmeryd eu gofal. Ac er i'r person dan oed ddewis ac appwyntio gwarcheidwad ei hun, ni bydd hyny yn un rhwystr i ymyriad y canghell-lys; ond pan y dygir y mater ger bron, gwneir ymchwiliad i gymmhwysder y gwarcheidwad appwyntiedig. Hefyd, y mae gan bob llys hawl i amddiffyn erlyniad neu gynghaws o blaid neu yn erbyn person dan oed.

2. *Gwarcheidwaid trwy arfer.* Yn ol arfer dinas Llundain, y mae gwarcheidwadaeth plant amddifaid a dibriod yn perthyn i'r ddinas; ac y mae llawer o arferion neillduol yn perthyn i wahanol faenorau; ond lle na byddant, y mae rheolau perthynol i warcheidwaid mewn amaethwriaeth yn dal eu grym.

3. *Gwarcheidwaid yn ol y gyfraith seneddol.* Yn ol y gyfraith gyffredin, nis gall neb appwyntio gwarcheidwad am fod y gyfraith yn gwneyd hyny yn ei le. Ymddengys fod cyfraith seneddol 4 & 5 Phil. a Mary, pen. 8, yn rhoddi awdurdod i dadau appwyntio gwarcheidwaid dros eu plant; ond y mae gwarcheidwaid yn ol y gyfraith seneddol yn cael eu pennodi yn awr yn ol 12 Charles II., pen. 24. Yn ol y gyfraith hon, gall tadau—pa un bynag ai mewn oed neu dan oed, drwy weithred neu ewyllys wedi ei llawnodi gan ddau dyst—appwyntio unrhyw berson neu bersonau (oddigerth ymwrthodwyr Pabyddol) yn warcheidwaid ar eu plant dibriod nes y byddont yn 21 mlwydd oed, neu am unrhyw gyfnod llai. Ond yn ol·1 *Vict.*, pen. 26, dos. 7, 8, nid oes grym mewn ewyllys wedi ei gwneyd gan berson fyddo dan un ar hugain oed.

Mae gwarcheidwad a bennodir dan y gyfraith seneddol hon yn peri fod pob gwarcheidwaid ereill yn ddiangenrhaid, oddigerth y sawl a nodwyd yn ol arfer dinas Llundain, neu unrhyw ddinas neu dref gorfforedig, yn ffafr pa un y gwneir eithriad i'r rheol; ac y mae ganddo hawl

Digitized by Google

i gymmeryd gofal yr hwn fyddo dan oed, a'i eiddo gwirioneddol *(real)* a phersonol. Os bydd dau neu ragor o bersonau yn cael eu pennodi yn warcheidwaid, yn unol â'r gyfraith hon, y mae y warcheidwadaeth yn aros yn nwylaw rhyw un o honynt fyddo byw ar ol y llall. Nid yw geiriau y gyfraith yn galluogi neb ond tad i appwyntio gwarcheidwad; ac felly, er mai heb fwriad yn ddiau y gadawyd y geiriau allan, penderfynwyd nas gall mam, na thaid, nac un perthynas arall, wneuthur y cyfryw appwyntiad. Nis gall tad chwaith bennodi gwarcheidwad i'w blentyn naturiol; ond yn yr holl amgylchiadau hyn, pennoda y canghell-lys y personau a enwir i fod yn warcheidwaid, os ymddengys eu bod yn gymhwys i dderbyn yr ymddiriedaeth a osodir ynddynt.

Anfynych y bydd gwarcheidwaid yn cael eu dewis yn awr gan yr etifeddion eu hunain; y mae y canghell-lys yn darparu moddion diogelach a mwy effeithiol er rheoleiddio eu meddiannau; a chan fod y llys yn ymyryd weithiau trwy ddeiseb, heb sefydlu cynghaws, gellir cael ei ymyriad yn rhad a brysiog. Mae y gwarcheidwad yn cael ei ystyried fel ymddiriedolwr i'r hwn fyddo dan ei ofal; ac y mae yn gyfrifol am drefniad teg ei eiddo, ac yn attebol, nid yn unig am dwyll, ond hefyd a n esgeulusdra.

*Gwarcheidwad y pethau ysbrydol* yw y person i ba un yr ymddiriedir rheolaeth ysbrydol unrhyw esgobaeth yn ystod absennoldeb yr esgob.

*Gwarcheidwad y pethau tymmorol* yw y gŵr i ba un yr ymddiriedir llywodraeth dymmorol ac elw yr esgobaeth yn ystod yr un amser.

GWARCHGLAWDD, [*gwarch — clawdd*]: gwrthglawdd, amglawdd, amgaer, gwarchdŵr. Yr oedd gwarchgloddiau yn mron bob amser yn cael eu codi o amgylch dinasoedd gwarchaedig yn holl wledydd y dwyrain. Yr oeddid yn ei hadeiladu, mae yn debyg, gyda phridd, ceryg, a choed: *Deut.* xx. 19, 20; *Ezec.* iv. 2. Defnyddir gwarchgloddiau i warchae ar ddinasoedd hyd y dydd hwn. Y maent yn ateb dau ddyben, sef—i ddal magnelau, ac i gysgodi y milwyr ymosodol.

GWARCHOD, [*gwarch*]: cadw, gwylied, dysgwyl, bwrw golwg, gwarchadw. "Gan warchod wrth byst fy mhyrth i;" *Diar.* viii. 34. Dysgwyl wrth y pyrth yn ddyfal a chyda diwydrwydd. "Gwarchod y tŷ;" 1 *Tim.* v. 14. Llywodraethu y tŷ, a threfnu holl achosion y teulu. "Yn gwarchod gartref;" *Titus* ii. 5. Y mae yr apostol yn awgrymu mai dyledswydd gwragedd yw aros yn y tŷ, i ofalu yn briodol am achosion y teulu. "Wrth reswm, nid ydyw hyn yn arwyddo nad ydynt *byth* i fyned oddi cartref, ond nad ydynt i esgeuluso eu dyledswyddau teuluaidd; nid ydynt i fod yn fwy adnabyddus oddi cartref nag ydynt gartref: nid ydynt i adael heibio eu dyledswyddau eu hunain, nac i ymyraeth âg achosion pobl ereill."—*Barnes.* Gwel Gwyliedydd; Gwyliadwriaeth.

GWAREDU—WR [*gwar*]: achub neu gadw rhag perygl; ceidwad, achubwr, amddiffynwr; un yn dwyn o gyflwr trueni neu enbydrwydd i sefyllfa o hapusrwydd neu ddiogelwch. Mae Duw Dad yn cael ei alw yn bur fynych wrth yr enw hwn yn yr Ysgrythyrau. Pan yr achubwyd Dafydd o "law ei holl elynion, ac o law Saul," y mae yn cyflwyno diolchgarwch i'r Arglwydd ei "graig," ei "amddiffynfa," a'i "*waredydd;*" 2 *Sam.* xxii. 2. Pan y cyflawnai cenedl Israel anwiredd yn erbyn yr Arglwydd, ac y tueddent i adael Duw a diystyru ei ddeddfau, yr oedd disgyniad y gosp naill ai trwy haint neu ymosodiad eu gelynion yn peri iddynt gofio yn fuan iawn "mai y Goruchaf Dduw oedd eu *gwaredydd*" (*Salm* lxxviii. 35), ac mai ofer ymddiried mewn braich o gnawd. Ar y llaw arall, pa faint bynag yr anhawsderau i fyned trwyddynt—pa beth bynag oedd rhif a nerth y gelynion ar y ffordd, nid oedd achos hyd yn oed i "bryf Iacob" ofni; o blegid wedi cael "Sanct Israel" yn "*waredydd,*" yr oedd yn alluog i "ddyrnu mynyddoedd," a gosod y "bryniau fel mwlwg;" *Esa.* xli. 14, 15. "Fel hyn y dywed yr Arglwydd dy Greawdwr di, Iacob, a'th luniwr di, Israel, Nac ofna; canys gwaredais di....Myfi yw yr Arglwydd dy Dduw, Sanct Israel dy *waredydd;*" *Esa.* xliii. 1, 3. Mae y gair *gwaredu* yn cael ei arfer yn yr ymadrodd uchod yn gyfystyr â *phrynu*, trwy roddi pridwerth i lawer; megys adferyd caethion rhyfel trwy ryw gydnabyddiaeth werthfawr, neu brynu eilwaith fferm a werthwyd, trwy dalu ei phris yn ol. Ac yn fynych iawn, pan y sonir yn y Beibl am waredu oddi wrth berygl, gorthrwm, neu gaethiwed, y mae y syniad o bridwerth yn dyfod i'r golwg mewn rhyw wedd neu gilydd—rhyw bris wedi ei dalu, neu rywbeth wedi ei roddi yn lle yr hyn a waredwyd. Felly am y waredigaeth o gaethiwed yr Aipht y cyfeirir ati uchod, fe ddywed yr Arglwydd, "Myfi a roddais yr Aipht yn iawn drosot, Ethiopia a Seba am danat." Ond heb law fod Duw yn galw ei hun yn waredwr i'w bobl, cyfododd iddynt o bryd i bryd waredwyr lawer o'u plith eu hunain; megys Moses, Iosuah, Othniel (*Barn.* iii. 9), Ehud (*Barn.* iii. 15), Dafydd, Solomon, Iosïah, &c. Y mae Obadïah (*adn.* 12) yn prophwydo y daw "gwaredwyr i fyny ar fynydd Sïon i farnu mynydd Esau;" gan olygu, fe allai, y Maccabeaid, y rhai wedi hyn a ddarostyngasant yr Idumeaid, hiliogaeth Edom neu Esau.

Ond y mae y gair *Gwaredwr* yn un o enwau arbenigol Crist: "A thi a elwi ei enw ef Iesu, o blegid efe a *wared* ei bobl oddi wrth eu pechodau;" *Mat.* i. 21. Efe mewn gwirionedd yw Y Gwaredwr—cysgod o hono ef oedd yr holl waredwyr a gyfododd Duw i'w bobl Israel; ac adlun o'r waredigaeth fawr a gaiff y pechadur yn Nghrist yw yr holl waredigaethau a gafodd y genedl Iuddewig o gaethiwed blin a gorthrwm caled ei gelynion. Sonia y prophwydi yn aml am Grist fel Gwaredwr: "Efe a enfyn iddynt iachawdwr (gwaredwr), a phenaeth, ac efe a'u gwared hwynt;" *Esa.* xix. 20. Cyfeirir ato hefyd yn fynych fel gwaredwr gan ysgrifenwyr y Testament Newydd. Am sylwadau helaethach ar yr Iesu yn y cymmeriad hwn, gwel Achubwr, Ceidwad, Crist, Iachawdwr, Iesu.

GWAREDYDD. Gwel Gwaredwr.

GWARTH—RUDD—US: [*gwar*], dirmyg, cywilydd, gwaradwydd, anfri. Y mae gwarth yn golygu yr hyn sydd wrthgyferbyniol i fawredd ac anrhydedd, a'r hyn sydd yn iselu dyn yn ngolwg ei gyd-ddynion, ac yn enwedig yn ngolwg Duw. Y mae yn ddichonadwy bod yn warthus yn marn dynion, heb fod yn warthus mewn gwirionedd, ac felly heb fod yn warthus yn marn yr Hollwybodol. Y mae ymlyniad wrth wirionedd, a chyfiawnder, a chrefydd bur, wedi gosod

Digitized by Google

llawer o ddynion da yn warthrudd ger bron dynion, tra yr oeddynt, yr un pryd, yn wrthddrychau gogoneddus yn nghyfrif yr Iehofah. Fe warthruddwyd y tri gwron cydwybodol hyny, Shadrach, Meshach, ac Abednego, ar wastadedd Dura, am eu ffyddlondeb tuag at Arglwydd Dduw Israel; ac fe warthruddwyd y patriarchiaid, y prophwydi, yr apostolion, a holl ddisgyblion yr Arglwydd Iesu yn amser ei ymgnawdoliad ar y ddaear, a'r rhan fwyaf o'i ganlynwyr wedi ei esgyniad ar ddeheulaw y Tad—a'r cwbl am eu hymroad i gofleidio egwyddorion duwioldeb. Ond gwae y rhai sydd yn taflu gwarth ar wirionedd; o blegid fe saif y gwirionedd "o genedlaeth i genedlaeth"—fe saif byth i'w condemnio a'u gwaradwyddo—dymchwelir hwy yn uchder eu rhyfyg, o herwydd "Yr Arglwydd sydd yn teyrnasu......y mae yn dyfod i farnu y ddaear: efe a farna y byd trwy gyfiawnder, a'r bobloedd a'i wirionedd:" "Diau cynddaredd dyn a'th folianna di; gweddill cynddaredd a waherddi:" *h. y.*, fe roddir rhwystr (*check*) ar ffrwd ei gabledd a'i annuwioldeb rhyw ddydd a ddaw; y mae yn cael cryn ryddid i borthi ei chwantau yn y byd hwn, ond fe'i caethiwir ef yn y man, ac fe fyn Duw ogoniant i'w enw oddi wrtho, hyd yn oed yn ei ddinystr: *Salm* xcvi. 10, 13; lxxvi. 10. Disgynodd gwarth ar ddyn mor fuan ag y darfu iddo bechu yn erbyn Duw; ac y mae pob dyn, fel y mae yn bechadur, yn warth iddo ei hun, ac yn warth y greadigaeth; o blegid fod gwrthdarawiad anfeidrol rhwng ei natur ef a natur y Duw Goruchaf, safon mawr pob gwirionedd, anrhydedd, a gogoniant. Yr unig ffordd i farnu yr hyn sydd warthruddus a'r hyn sydd heb fod yn warthruddus ydyw, trwy ei gymharu â'r hyn hyn ydyw Duw yn ei hanfod, fel y mae wedi ei ddadguddio i ni yn ei air—yn Dduw sanctaidd a bendigedig yn oes oesoedd. Deallodd Adda ac Efa yn fuan iawn ar ol troseddu eu bod wedi colli eu tebygolrwydd i Dduw—wedi colli ei ddelw—pan y rhedasant i guddio eu noethni yn nghysgod prenau yr ardd. Y mae y fath wrthdarawiad rhwng pechod a sancteiddrwydd, fel nas gall dyn edrych ar Dduw heb welwi a llewygu ger ei fron. Y gwrthdarawiad sydd yn bodoli rhwng pechod a sancteiddrwydd a barodd i'r Israeliaid, pan wrth droed mynydd Sinai yn amser rhoddiad y ddeddf, waeddi mewn dychryn ar Moses—"Llefara di wrthym, a nyni a wrandawn: ond na lefared Duw wrthym rhag i ni farw." Yr oedd Moses hefyd, er cael ffafr yn ngolwg Duw, yn "ofni ac yn crynu;" yr oedd yn rhaid ei osod "o fewn agen yn y graig" cyn y gallasai ddal yr olwg ar ogoniant Duw yn myned heibio; ac yr oedd y Brenin Mawr wedi dyweyd wrtho yn flaenorol—"Ni elli weled fy wyneb: canys ni'm gwel dyn a byw:" *Exod.* xx. 19; xxxiii. 20—23; *Heb.* xii. 21. Syrthiodd Saul yr erlidiwr megys yn farw yn ymyl disgleirdeb ofnadwy sancteiddrwydd yr Emmanuel pan ymddangosodd iddo ar y ffordd i Damascus: *Act.* ix. 3—9; xxii. 6—21; xxvi. 12—14. Unwaith y daw dyn i gyffyrddiad â Duw, pa mor haiarnaidd bynag y gall fod ei galon, y mae ei noethder a'i warth yn sicr o ddyfod i'r golwg i'w feddwl ei hun, fel na ddichon sefyll am hanner mynyd: "Am hyny, yr annuwiolion ni safant yn y farn:" *Salm* i. 5. Dolefau pechaduriaid annychweledig wedi dyfod i bresennoldeb Duw, ac yn teimlo eu gwarth yn yr olwg arno, a ddysgrifir gan Ioan yn *Dad.* vi, 16: "Ac a ddywedasant wrth y mynyddoedd a'r creigiau, syrthiwch arnom ni, a chuddiwch ni o ŵydd yr hwn sydd yn eistedd ar yr orseddfainc, ac oddi wrth lid yr Oen: canys daeth dydd mawr ei ddigder ef, *a phwy a ddichon sefyll?*" Nis gall pechadur edrych "wyneb yn wyneb â Duw," ond "yn Nghrist Iesu."

Y mae gwrthryfel dyn yn erbyn Duw, a phechod yn ei holl ffurfiau, yn cael ei alw yn "warth" mewn lluaws o fanau yn y Beibl: "Gorwedd yr ydym yn ein cywilydd, a'n gwarth a'n tôdd ni: canys yn erbyn yr Arglwydd ein Duw y pechasom, nyni a'n tadau, o'n hieuenctyd hyd y dydd heddyw, ac ni wrandawsom ar lais yr Arglwydd ein Duw;" *Ier.* iii. 25; 2 *Sam.* xiii. 13; *Salm.* iv. 2; *Esa.* iv. 1: *Dad.* iii. 18; *Gen.* xxxiv. 14.

Yr oedd bod yn anmhlantadwy yn cael ei ystyried yn "warthrudd" neu yn "waradwydd" yn mhlith gwragedd yr Hebreaid, am eu bod trwy hyny yn ddigynnorthwy i amlhau had Abraham, yn ol yr addewid, a'u hamddifadu o'r anrhydedd o fod yn un o hynafiaid y Messiah: *Gen.* xxx. 23; *Esa.* iv. 1; *Luc* i. 25.

"Gwaradwydd yr Aipht" oedd dienwaediad, fel yr oedd yn y dyddiau gynt yn nodi dynion yn estroniaid i ammodau yr addewid, fel yr Aiphtiaid; a hwyrach hefyd i Israel esgeuluso enwaedu ar eu plant yn yr Aipht, a chydffurfio â'u defodau eilunaddolgar: *Ios.* v. 9; *Eph.* ii. 12. Gwel Cywilydd; Dirmyg.

GWARTHAF, [*gwarth*] copa, uchder. Bod ar warthaf, yw bod yn ymyl, yn agos. "Yna y mae dinystr disymmwth yn dyfod ar ein gwarthaf;" 1 *Thes.* v. 3. Ar eu gwarthaf, neu arnynt. Fe fydd ail ymweliad Crist â'n byd ni yn amgylchiad a rydd fraw, dychryn, a gwae i'r rhai annuwiol; efe a ddaw yn yr adeg pan na byddont hwy yn ei ddysgwyl:—"Canys pan ddywedant, Tangnefedd a dyogelwch; yna y mae dinystr disymmwth yn dyfod ar eu gwarthaf, megys gwewyr esgor ar un a fo beichiog; ac ni ddiangant hwy ddim."

> Samson——
> 'E dynai yn oed unawr
> Ei lys ar ei warthaf i lawr.
> Bedo Aerdrem.

GWARTHEG, [*gwarth*]: buchod. Y mae y geiriau *buwch* a *gwartheg* i'w canfod yn aml yn yr Hen Destament, a defnyddir hwy yn y cyffredin, un ai mewn ffordd o gymhariaeth, neu i ddangos cyfoeth a llawnder. "Gwrandewch y gair hwn, gwartheg Basan, y rhai ydych yn mynydd Samaria, y rhai ydych yn gorthrymu y tlawd, yn ysigo yr angenog, yn dywedyd wrth eu meistriaid, Dygwch ac yfwn;" *Amos* iv. 1. Yr oedd gwlad Basan yn hynod am wartheg a defaid, am ei bod yn wlad fras, borfaog: *Deut.* xxxii. 14; *Ezec.* xxxix. 18. Gelwid blaenoriaid yr Iuddewon yn "deirw Basan" (*Salm* xxii. 12); a bernir fod y geiriau uchod yn ddysgrifiad o foethusder a thrahausdra y rhai oedd mewn awdurdod yn gormesu ac yn tra-arglwyddiaethu ar y tlawd. "Yn dywedyd wrth eu meistriaid," &c.—Y mae dau ystyr yn cael eu rhoddi i'r ymadrodd hwn—1. Mai gwragedd a olygir yma, y rhai a gyffelybir i wartheg, am eu bod yn ymborthi yn fras, ac yn eu hawddfyd yn cyfarch eu gwŷr (y rhai a elwir "meistriaid" neu "arglwyddi" *Gen.* xviii. 12), gan ddywedyd, "Dygwch ac yfwn." 2. Gorthrymwyr eu brodyr, y rhai, trwy gymmeryd mantais ar eu tlodi, a'u gwerthasant fel caethion, ac yn dywedyd wrth y meistriaid a'u prynasant, "Dygwch ac yfwn"—seliwn y cytundeb â gwin.

Digitized by Google

"A bydd yn y dydd hwnw i ŵr fagu aneirfuwch, a dwy ddafad;" *Esa.* vii. 21. Yn y brophwydoliaeth ryfedd hon, dangosir y byddai y fath gyfnewidiad trwyadl ar ffrwythlondeb tir Iudah, ac y darostyngid nifer trigolion y wlad i'r fath raddau, fel y gallasai teulu gydag ond un fuwch a dwy ddafad, gael llawnder o laeth ac ymenyn; ac y gorchuddid gwinllanoedd oeddynt gynt yn cyrhaedd ardreth uchel, â mieri a drain.

Yn ol deddfau y gyfundraeth Foesenaidd nid oedd buwch a'i llo i gael eu lladd ar yr un diwrnod: *Lef.* xxii. 28. Ceir gorchymyn cyffelyb yn *Deut.* xxii. 6, 7. Dichon fod hyn wedi ei fwriadu i rwystro creulondeb annynol neu ei fod yn cyfeirio at rhyw ofergoelion paganaidd.

Y mae y fuwch yn cael ei hystyried yn sanctaidd ac yn wrthddrych addoliad yn mhlith yr Hindwaid.

"Y fuwch hefyd a'r arth a borant yn nghyd;" *Esa.* xi. 7. Deallir y brophwydoliaeth hon gan rai yn ei hystyr lythyrenol; ond y mae ereill yn barnu mai cyfeiriad sydd ynddi at deyrnasiad y Messïah, a dyddiau dedwydd y milflwyddiant, pryd y bydd heddwch a thangnefedd, yn lle anghydfod a rhyfeloedd, yn bodoli rhwng dynion â'u gilydd —pawb yn byw mewn undeb a chariad o dan lywodraeth Tywysog Tangnefedd. Yn ngoleuni y golygiad olaf, yr ydym yn cael arwyddlun hynod o darawiadol a naturiol; a gwell o lawer genym roddi y flaenoriaeth iddo nag i'r golygiad cyntaf. Gwel *Esboniad Barnes* ar *Esa.* xi.

Yr oedd amaethwyr yr hen oesoedd yn hynod am luosogrwydd eu hanifeiliaid, ac ni ystyrid neb o'r bron yn gyfoethog heb fod yn feddiannol ar lawer o anifeiliaid. Yr oedd gwartheg yn mhlith y dosbarth gwerthfawrocaf o anifeiliaid (*Deut.* vii. 13; xxviii. 4, 51); ac fe ymddengys fod eu cynnyrch y pryd hwnw, fel yn awr, yn cael ei ddefnyddio at wasanaeth dyn. Sonir mewn gwahanol fanau yn yr Ysgrythyr am laeth, ymenyn, a chaws: *Gen.* xviii. 8; *Deut.* xxxii. 14; 1 *Sam.* xvii. 18; 2 *Sam.* xvii. 29.

Y mae yn ddiammheu fod y fuwch yn un o'r creaduriaid mwyaf gwasanaethgar i ddiwallu angen y corff dynol.

"Gan y Fuwch ceir cig yn faeth—a 'menyn
I'n mynych gynnaliaeth;
Caws, gwer, a llawnder o'i llaeth,
I gynnal bri coginiaeth."

Y mae un naturiaethwr enwog yn sylwi fel y canlyn:—O'r holl anifeiliaid cilgnofilaidd, y mae y fuwch yn teilyngu ei gosod yn y dosbarth uchaf, ar gyfrif ei maintioli, ei harddwch, a'i gwasanaeth. Y mae y ceffyl yn anifail yn perthyn yn fwyaf neillduol i'r cyfoethog; nid yw y ddafad yn llwyddo ond mewn deadell, ac y mae yn gofyn sylw, gofal, ac ymgeledd mawr; ond ymffrost, cyfoeth, a chynnaliaeth y dyn tlawd ydyw y fuwch. Y mae llawer o'n pobl wledig nad oes ganddynt un meddiant arall ond buwch; ac yn aml o'i chynnyrch hi yn unig y maent yn ennill bywoliaeth. Y maent yn pesgi ei lloi i'w gwerthu; ac yn defnyddio ei llaeth i wneyd ymenyn a chaws, y rhai a ddygant i'r farchnad.

Y mae hinsawdd a thiroedd porfa Ynys Prydain yn gyfaddasol iawn i natur yr anifail hwn. Ni ddengys ond ychydig o ofal o berthynas i rinwedd neu natur yr ymborth a fwyty, tra y gall gael cyflawnder o hono; nid ydyw yn gwneyd dewisiad neillduol o'r llysiau ar y maes, ond difroda y swm digonol yn frysiog ac yn ddiwahaniaeth. Am y rheswm yma, y mae y fuwch yn llwyddo yn rhagorol ar ein porfeydd ni, lle y mae y glaswellt braidd yn fwy uchel nag yw o noddlyd, yn fwy blagurog nag ydyw o faethus; ac nid oes un wlad yn Ewrop lle y mae y fuwch yn cyrhaedd maintioli mwy, yn cynnyrchu mwy o laeth, ac yn pesgi yn nghynt nag yn ein gwlad ni.

Y mae ein porfeydd ni yn cyflenwi y dosbarth hwn o greaduriaid â chyflawnder o ysborthiant, ac y maent hwythau yn brashau ac yn cyfoethogi y tir y byddont yn pori arno. Y mae y fuwch, o bob anifail arall, yn rhoddi mwy i'r tir nag a gymmer o hono. Gwyddys fod y ceffyl a'r ddafad, yn ystod cwrs o flyneddoedd, yn diffrwytho y tir. Y mae y tir ar ba un y buont yn ymborthi yn dyfod yn llawn o chwyn, a'r llysiau yn ddiflas a garw; ond yn y gwrthwyneb, y mae y tir lle y megir y fuwch yn myned yn rhywiog, ac yn fwy gwastad a phrydferth ar ei wyneb bob blwyddyn. Y rheswm yw fod y ceffyl, gan ei fod yn meddu dannedd blaen yn yr asgwrn gên uchaf, yn tori y glaswellt yn agos i'r gwraidd, ac ni fwyty ond yr hyn sydd fwyaf tyner a blasus. Nid ydyw y ddafad chwaith, er wedi ei ffurfio—o ran ei dannedd—yr un modd a'r fuwch, yn bwyta ond y rhanau mwyaf iraidd a suglawn o'r llysiau. Y mae yr anifeiliaid hyn (sef y ceffyl a'r ddafad); gan hyny, yn gadael y chwyn i dyfu hyd nes o'r diwedd y bydd yn rhedeg dros yr holl dir. Nid felly y gwna y fuwch; gan nas gall ei dannedd fyned mor agos i'r ddaiar a'r eiddo y ceffyl a'r ddafad, y mae o dan yr angenrheidrwydd i ymborthi ar y llysiau talaf ar y maes, ac felly hi a fwyty y cwbl i lawr, ac mewn amser gwnaiff wyneb y borfa yn hollol gydwastad.

Gellir adnabod oedran y fuwch wrth ei dannedd a'i chyrn. Y mae ganddi wyth o ddannedd tori yn yr asgwrn gên isaf; pan yn ddeng mis oed, bydd y ddau ganol yn disgyn ymaith, ac fe ddaw dau ereill yn eu lle, nid llawn mor wyn, ond ychydig yn lletach; pan yn un mis ar bymtheg oed y mae yn colli dau ddant gwyn arall a chaiff ereill yn eu lle; ac fel hyn, yn niwedd pob chwe mis, y mae yn colli ac yn ennill hyd nes y bydd yn dair mlwydd oed, pryd y bydd yr holl ddannedd tori wedi eu hadnewyddu, yn lled wyn, yn hir, ac o'r un hyd; ond fel y cynnydda mewn blyneddoedd, y maent yn myned yn ddu, yn anwastad, ac yn ddiawch, fel nas gall yr anifail gnoi yr ymborth heb lawer o amser a thrafferth. Y mae y fuwch yn aml, o herwydd yr achos yma yn unig, yn llesgau ac yn darfod; o blegid gan fod yn ofynol iddi fwyta llawer i gynnal bywyd, a chan fod ei dannedd wedi llyfnhau i beri fod cnoi yn waith anhawdd, nis gall swm digonol o fwyd gyrhaedd yr ystumog. Fel hyn, y mae yr anifail yn gwaelu yn nghanol llawnder, a phob blwyddyn ä yn deneuach, deneuach, hyd nes marw.

Ffordd arall i wybod oedran y fuwch yw trwy sylwi ar agwedd a ffurf ei chyrn. Wedi cyrhaedd teirmlwydd, y mae plisgyn teneu yn syrthio oddi wrth ei chyrn, ac ymddangosant yn hollol newydd, ac fe barha y cyfnewidiad hwn i gymmeryd lle tra fydd byw; pan yn bedair mlwydd oed, bydd ganddi gyrn bychain, pigfain, tlws, a llyfn; pan yn bum mlwydd oed, maent yn dyfod yn fwy, ac fe welir arnod o gyrn y flwyddyn flaenorol yn gylch o'u cwmpas. Tra parhao yr anifail i fyw, y mae y cyrn yn parhau i ymestyn; a phob blwyddyn y mae cylch newydd yn cael ei chwanegu wrth y bôn; ac felly, os caniateir tair blynedd cyn iddynt ymddangos o gwbl, a chyfrif nifer y cylchau gyda'r tair blynedd, ceir allan oedran yr anifail yn berffaith gywir.

Digitized by Google

Genym ni yn ddiammheuol y mae y rhywogaeth oreu o anifeiliaid corniog o bob gwlad yn Ewrop. Y mae rhywogaeth y gwartheg wedi ei gwellhau yn ddirfawr trwy gymmysgiad tramorol. Y mae y gwartheg sydd yn hollol Brydeinig yn llai eu maintioli o lawer na'r gwartheg a welir mewn amryw fanau ar y Cyfandir; ond y mae y rhai sydd genym wedi eu gwellhau trwy gymmysgiad y rhywogaethau yn rhagori yn fawr ar bob rhai ereill. Y mae rhywogaeth swydd Caerlwyd (*Lincolnshire breed*) yn derbyn eu maintioli oddi wrth rywogaeth Holstein, yn Germany; ac y mae y gwartheg mawr digyrn a fegir mewn rhai parthau yn Lloegr wedi dyfod ar y cyntaf o Poland. Bu ein gwlad ni unwaith yn nodedig am wartheg gwylltion; ond y maent wedi darfod er ys amser maith bellach; ac fe ddichon nad oes un deyrnas yn Ewrop â chyn lleied o anifeiliaid gwylltion ynddi ag yw yr eiddom ni. Y mae tirddiwylliad ac amaethyddiaeth yn sicr o anfon y rhai hyn ymaith pa le bynag y ceir hyd iddynt; ac y mae pob mantais a dderbyn y ddaiar oddi wrth gelfyddyd yn gyru ymaith yr holl anifeiliaid hyny nad ydynt gymhwys i ddim ond i grwydro yn ol tueddiadau eu natur mewn diffaethwch ac anialdiroedd.

Nid oes yn mhlith yr holl bedwarcarnolion un creadur y mae yr ymborth a fwyteir yn effeithio cymmaint o gyfnewidiad arno ag a wna ar y fuwch. Yn ngwahanol barthau y wlad hon, gellir canfod llawer math o wartheg, yn ol fel y bydd ffrwythlondeb neu anffrwythlondeb y tir. Mewn rhai parthau, y maent yn tyfu i faintioli mawr, ac mewn parthau ereill nid ydynt ond bychan iawn. Y mae rhywogaeth Ynys Manaw (*Isle of Man*), a rhywogaeth y rhanau lluosocaf o Ysgotland, yn llai o lawer na'r rhywogaethau a welir yn Lloegr a'r Iwerddon. Y maent hefyd yn gwahaniaethu yn eu ffurf yn gystal ag yn eu maintioli—y dagell yn llai, a'r barwyden yn tebygu yn agos i eiddo y ddafad. Nid oedd hyn, hyd nes o fewn nifer o flyneddoedd yn ol, yn cael ei ystyried yn ddiffyg mewn anifeiliaid; a dewisid y fuwch yn ol cyfarwyddyd Virgil, sef gyda thagell fawr. Yn bresennol, y farn gyffredin yw fod mawredd parwyden y fuwch yn arwydd o fychander y pwrs; a pho fwyaf y dagell, lleiaf oll fydd swm y llaeth. Y mae ein porthwyr, gan hyny, yn awr yn ymdrechu cymmysgu y ddwy rywogaeth—sef rhywogaeth fawr Holstein gyda rhywogaeth fechan gogledd Ysgotland; ac oddi wrth y ddwy rywogaeth yma yr ydys wedi cael rhywogaeth hardd y buchod blithion a welir mor aml gan ein hamaethwyr, pa rai ydynt yn rhagori ar anifeiliaid unrhyw barth arall o'r byd.

Y mae y gwahaniaeth hwn, yn cyfodi oddi ar ansawdd y borfa a'r ymborth, i'w ganfod yn fwy amlwg mewn gwledydd ereill nag yn y wlad hon. Y mae rhywogaeth y fuwch i'w chael yn mron yn mhob parth o'r byd, o faintioli mawr yn ol cyfartaledd brasder y tir, ac o faintioli bychan yn ol prinder a gwaeledd yr ymborth. Y mae Affrica yn hynod am anifeiliaid mawrion a bychain o'r rhywogaeth hon; felly hefyd India, Poland, Switzerland, &c. Yn mhlith Tartariaid Eluth, lle y mae y porfeydd yn nodedig o fras a noddlyd, y mae y fuwch yn tyfu i faintioli mor fawr fel y rhaid cael dyn o daldra anghyffredin i allu cyrhaedd pen eithaf ei hysgwydd. Yn y gwrthwyneb—yn Ffrainc, lle y mae yr anifail yn cael ond ychydig o ymborth, y mae yn edrych yn wael a salw iawn.

Y mae rhywogaethau Tartariaid Kisguise a Calmuck, Podolia, Ukraine, Twrci Ewropaidd, Hungary, a'r Taleithiau Pabaidd, yn mhlith y rhywogaethau mwyaf y gwyddys am danynt. Hynodir hwy oll, yn mron, â chyrn hirion yn gogwyddo ar eu gyddfau, ac yn troi i fyny yn eu blaenau. Eu lliw yw glaslwyd wyn, ac mewn amser yn tueddu at liw du.

Y mae lluaws o rywogaethau hardd yn Italy, yr Aipht, Yspaen, America, Abyssinia, Madagascar, Denmarc, &c., oll yn wahanol eu maint a'u ffurf; ond fel yr awgrymwyd eisoes, mae yn ffaith ddiymwad mai yn y deyrnas hon y ceir y gwartheg goreu a mwyaf gwasanaethgar. Mae genym amryw o wahanol rywogaethau, ond y rhai a ystyrir yn uwchraddol ydyw y rhai canlynol:—

1. *Rhywogaeth y cyrn hirion*, neu y *Lancashire breed*. Y mae gwartheg y rhywogaeth hon i'w hadnabod, heb law wrth eu cyrn hirion, wrth dewdwr, cryfder, a llyfndra eu crwyn; hirder ac agosrwydd eu blew; mawredd eu carnau; gerwinder a thewdra eu gyddfau. Y maent hefyd yn drymach yn eu gwarthor blaen, ac yn ysgafnach yn eu gwarthol ol, na'r rhan fwyaf o wartheg y rhywogaethau ereill; y maent yn gulach hefyd yn ffurfiad eu cyrph, ac yn llai eu pwysau na'r gwartheg cyrn byrion, er yn fwy eu pwysau yn ol cyfartaledd a maintioli; ac er eu bod yn cynnyrchu llai o laeth, dywedir fod mwy o hufen ynddo yn ol cyfartaledd ei fesur. Y mae mwy o amrywiaeth yn eu lliw nag yn y rhywogaethau ereill; ond beth bynag fyddo natur eu lliw, y mae ganddynt yn y cyffredin linell wen yn rhedeg ar hyd eu cefnau; ac yn aml ysmotyn gwyn ar yr ochrau tu fewnol i gymmalau y coesau ol.

2. *Rhywogaethau y cyrn byrion* (*short horns*). Gelwir y rhai hyn weithiau wrth yr enw *Dutch breed*; ond adnabyddir hwy hefyd wrth lawer o wahanol enwau ereill, y rhai a gymmerwyd oddi wrth y cymmydogaethau hyny lle y maent yn cael eu magu yn fwyaf lluosog; megys *Holderness*, *Teeswater*, *Yorkshire*, *Durham*, a *Northumberland breeds*. Y mae rhywogaeth *Teeswater*, yn nghwr eithaf Dyffryn Caerefrog, mewn bri mawr y dyddiau presennol. Y mae teirw a gwartheg o'r rhywogaeth yma yn cael eu gwerthu am brisiau uchel iawn, ac y maent wedi eu gwasgaru yn bur lluosog dros ogledd Lloegr, ac yn siroedd cyffiniol Ysgotland. Mae asgwrn, pen, a gwddf y gwartheg hyn yn hardd a lluniaidd; y croen yn bur deneu: asgwrn y cefn yn gymmesur o ran ei faintioli; a'r corph drwyddo yn fawr, ac o ymddangosiad ardderchog; ac y mae eu cig, cystal, os nad yn well, na chig y rhywogaethau mawrion ereill. Y maent yn cynnyrchu mwy o laeth nag un math arall o wartheg. Fe rydd un fuwch o rywogaeth y cyrn byrion bedwar chwart ar ugain o laeth mewn un diwrnod. Amrywiant yn eu lliwiau, ond yn gyffredin coch a gwyn ydynt; neu, fel y dywed y porthwyr, "gwartheg brithion." Pwysa y bustych yn gyffredin o 840 pwys, i 1400 pwys; ac fe wyddis fod rhai wedi eu pesgi wedi pwyso 1,200 pwys.

Dywed Culley, naturiaethwr enwog, wrth gymharu rhywogaeth y cyrn hirion â rhywogaeth y cyrn byrion, fod y rhai blaenaf yn rhagori o ran eu crwyn, eu blew, a naws eu cig; ac fod y rhai olaf yn rhagori o ran swm eu cig, eu gwêr, a'u llaeth. Y mae gan y ddwy rywogaeth eu hedmygwyr; ond yn ei farn ef (Culley), gallasai rhagoriaethau y ddwy fod yn werthfawr iawn pe gosodid yr anifeiliaid mewn gwahanol sefyll-

Digitized by Google

faoedd. Pa ham, meddai, nas gall crwyn cryfion a blew hirion a thewaidd rhywogaeth y cyrn hirion fod yn amddiffyn iddynt rhag y gwyntoedd geirwon a'r gwlawogydd trymion, i ba rai y mae rhanau dwyreiniol yr ynys hon yn ddarostyngedig; tra mae tymmorau mwy rheolaidd a hinsawdd gymmedrol y rhanau gorllewinol yn fwy cyfaddas i gyfansoddiadau rhywogaeth y cyrn byrion.

3. *Rhywogaeth swydd Devon* (*Devonshire breed*). Y mae gwartheg y rhywogaeth hon o liw coch tywyll, gyda chylch llwyd-ddu o gwmpas eu llygaid, a'r ffroenau o'r un lliw; eu hesgyrn yn fawr, gyddfau dillyn, cyrn o faintioli canolig ac yn troi i fyny, wynebau meinion, bochgernau helaeth, yn llydain yn eu cluniau, bol lled fawr ond braidd yn wastad yn eu hochrau, y cynffonau yn fychain, wedi eu gosod yn bur uchel, crwyn teneuon, a'r blew yn sidanaidd; porant pan yn ieuainc iawn, ac y maent yn cyrhaedd addfedrwydd yn nghynt na'r rhan fwyaf o'r rhywogaethau ereill. Pwysa y gwartheg o 420 i 560 pwys, a'r bustych o 560 i 840 pwys. Y mae anifeiliaid gogledd swydd Devon yn neillduol yn cael eu hystyried yn fawr eu gwerth yn marchnadfa y brif ddinas. Nid ydynt, pa fodd bynag, yn agos mor werthfawr a defnyddiol a'r ddwy rywogaeth arall a nodwyd, sef y cyrn hirion, a'r cyrn byrion.

4. *Rhywogaethau swyddi Sussex a Hereford.*—Lliw y rhai hyn ydyw coch tywyll; crwyn tewion, a blew llyfnaidd; y gwddf a'r pen yn hardd, a'r wyneb yn gyffredin yn wyn; y cyrn o faintioli canolig, yn troi i fyny braidd yn eu blaenau; o wneuthuriad da yn eu gwarthorion ol; yn llydain ar draws eu cluniau, eu clorenau, a'u lwynau, ond yn gulion ac yn lled wastad yn eu cefnau; yr asenau yn rhy wastad; a'r esgyrn yn fychain. Fe bwysa eidion, chwe mlwydd oed, wedi ei besgi, o 840 pwys i 1400 pwys, ac y mae'r gwarthorion blaen, yn gyffredin, yn drymach na'r gwarthorion ol. Y mae anifeiliaid Hereford yn nesaf mewn maintioli i anifeiliaid y cyrn byrion yn swydd Gaerefrog (*Yorkshire*). Y mae y rhai hyn, ynghyd âg anifeiliaid Gloucester, yn cael eu gwerthfawrogi yn fawr fel da llaethog; ac y mae profion digonol wedi eu cael fod gwartheg swydd Hereford yn pesgi yn well pan yn deirmlwydd oed nag unrhyw wartheg ereill oddigerth anneirod dysbaidd swydd Norfolk.

6. *Y Gwartheg moelion.*—Y mae llawer o amrywiaeth yn y rhywogaeth hon; ond y lliosocaf a'r mwyaf eu gwerth ydyw rhywogaeth Galloway, y rhai a elwir felly oddi wrth wlad o'r enw yma sydd yn gorwedd ar dueddau de-orllewinol Ysgotland. Y mae bustach Galloway gwirioneddol yn wastad ac yn llydan yn ei gefn, ac agos yn gydwastad o'i ben i fôn ei gynffon; y lwynau yn llydain, heb ddim esgyrn yn taflu allan, ac y mae yr holl gorff yn ymddangos yn berffaith grwn; y mae ef yn hir yn ei warthorion; ei barwyden yn ddyfn; ei goesau yn fyrion; ei safn yn lân, a'i wddf yn hardd o ran ei ffurf; pen o faintioli canolig; clustiau mawrion a geirwon; llygaid llawnion, ond nid yn taflu allan, a'r aeliau yn ysgeifn, fel y mae ei olwg yn llariaidd, ac eto yn benderfynol. Y mae ganddo groen llac ac esmwyth, wedi ei addurno â blew hir, meddal, a gloywlyfn. Du, neu frych tywyll, ydyw y lliw yn gyffredin; ac er eu bod i'w cael o wahanol liwiau, yr anifeiliaid tywyll ydyw y rhai a ystyrir yn fwyaf gwerthfawr. Dywedir fod bustych teirmlwydd o'r rhywogaeth yma yn pwyso o 560 i 1,400 pwys.

Y mae teithi anifeiliaid Galloway yn adnabyddus iawn agos trwy bob parth yn Lloegr, yn gystal ag yn Ysgotland. Gyda digon o ymborth da, y mae yn debyg nad oes un math o anifeiliaid yn tyfu i'w cyflawn faintioli yn nghynt na'r rhai hyn, ac y mae eu cig o natur hynod o frau. Y mae eu llaeth, er yn lled brin, yn bur dda.

6. *Rhywogaeth swydd Ayr* (*Ayrshire breed*).—Y rhywogaeth hon, yn ol barn Aiton, ydyw yr oreu o holl rywogaethau Ynys Prydain. Y mae y gwartheg hyn nid yn unig yn rhagori ar bob rhai ereill fel da llaethog, ond hefyd fel anifeiliaid i'w pesgi a'u lladd. Eu lliwiau ydyw cymmysg o lwyd a gwyn; ac y maent yn amrywio o ran eu pwysau, o 280 pwys i 660 pwys, yn ol natur a helaethrwydd eu hymborth. Y mae gwneuthuriad y rhai goreu o honynt yn atteb i'r dysgrifiad canlynol:—Pen bychan, ond yn lled hir a chul tua'r safn; y llygaid yn fychain, ond yn brydferth a bywiog; y cyrn hefyd yn fychain, yn troi i fyny, â'u bonau yn lled bell oddi wrth eu gilydd; y gwddf yn hir a main, ac yn blaenfeinio tua'r pen, heb ddim croen llac odditanodd; yr ysgwyddau yn deneuon; y gwarthorion blaen yn ysgeifn, a'r gwarthorion ol yn fawrion; y cefn yn wastad, ac yn llydan yn y pen ol, a'r cymmalau yn lled rydd ac agored; y corff yn ddyfn, ac isgeudod y bol yn helaeth a llydan, ac yn taflu dros y cluniau, gyda morddwyd crwn a chnawdol; cynffon hir a theneu; coesau meinion a byrion, gyda chymmalau cryfion; pwrs mawr, llydan—yn tueddu at fod yn ysgwâr—yn taflu allan, heb fod yn gnawdol, yn isel, nac yn llac iawn. Y mae gwythienau y llaeth yn fawrion ac yn amlwg; y tethi yn fyrion, i gyd yn cyfeirio allan, a chryn bellder rhyngddynt; y mae y croen yn deneu ac yn rhydd; y blew yn feddal ac yn wlanog; y pen, yr esgyrn, a'r cyrn, a'r holl ranau mwyaf diwerth, yn fychain; a'r holl luniaethiad yn gymmesur a hardd.

Y mae cynnyrch y gwartheg hyn, os porthir hwy yn dda, yn gyfartal i 242 pwys o ymenyn, a 484 pwys o gaws, yn flynyddol. Y mae teithi buwch swydd Ayr o bwysigrwydd mawr. Y mae tymmer dôf a hynaws yn chwanegu gwerth pob buwch laethog. Y mae buwch lonydd a boddlawn yn ymborthi yn esmwyth a digyffro; nid ydyw yn tori y cloddiau, nac yn niweidio ei hunan nag anifeiliaid ereill chwaith; y mae yn rhoddi mwy o laeth, ac y mae yn haws i'w thrin na'r gwartheg hyny sydd yn wyllt eu tymmer. I'r dyben o'u dysgu i fod yn addfwyn a digyffro, dylid ymddwyn tuag atynt yn dirion, a pheidio byth a'u taraw a'u dychrynu. Y mae y gwartheg hyn, hyd yn oed wedi iddynt roddi llaeth am lawer o flynyddoedd, gystal i'w pesgi a'u lladd a gwartheg unrhyw rywogaeth adnabyddus yn y deyrnas hon.

7. Y mae *anifeiliaid ucheldiroedd Ysgotland* wedi eu dosranu i nifer o amrywiaethau lleol; o achos, fe ddichon, y gwahaniaeth yn yr hinsawdd a natur y porfeydd, ac nid am eu bod yn hànu o wahanol rywogaethau neillduol. Nid hyd yn ddiweddar iawn y talwyd un math o sylw i'w gwelliant, yn unrhyw barth o'r wlad eang hon; ac yn y parthau gogleddol, a'r ucheldiroedd canol, mae yr anifeiliaid, eto, gan mwyaf, mewn cyflwr mor wael, ac o dan driniaeth mor ddiffygiol, ag yr oeddynt rai canrifoedd yn ol.

Yr anifeiliaid goreu yn yr ucheldiroedd ydyw

Digitized by Google

rhywogaeth swydd Argyle (*Argyleshire breed*). Y mae anifeiliaid swydd Fife (*Fifeshire cattle*) hefyd yn cael eu hystyried yn rhai gwerthfawr iawn. Lliw cyffredin y rhai hyn ydyw du. Weithiau, mae ysmotiau neu resi gwynion arnynt. Cyrn gwynion, yn tyfu braidd yn syth, ac yn troi i fyny yn y blaenau. Y maent yn pesgi yn fuan. Fe rydd buwch dda o'r rhywogaeth yma o ddeunaw i bedwar chwart ar hugain o laeth bob dydd; o saith i naw pwys o ymenyn, ac o ddeg i ddeuddeg pwys o gaws bob wythnos, am lawer o fisoedd wedi cael lloi.

8. *Anifeiliaid swydd Aberdeen* (*Aberdeenshire cattle*).—Y mae y rhai hyn yn cael eu prisio yn uchel yn y marchnadoedd deheuol. Y mae y rhai mwyaf o honynt wedi eu cael trwy groesiad gyda theirw swydd Fife. Dywedir fod pob hiliogaeth o honynt wedi cynnyddu mewn maintioli am y deng mlynedd ar hugain diweddaf, a bod yr anifeiliaid brodorol, er pan borthwyd hwy â maip, wedi dyblu yn eu pwysau i'r peth oeddynt flynyddoedd yn ol. Eu lliw mwyaf cyffredin yw du; ond fe geir lliaws o honynt o liw coch a brych. Dygir llawer o honynt i Ddeheudir Ysgotland yn ystod y gauaf, ac fe'u cedwir mewn bueirth wedi eu gorchuddio â gwellt; ac y mae lleoedd felly yn fwy cymhwys iddynt nag i anifeiliaid llai eu maintioli, o blegid nad ydynt mor anoddefgar mewn caethiwed. Y maent yn cynnyrchu mwy o laeth o lawer nag anifeiliaid yr ucheldiroedd gorllewinol. Pwysau cyffredin bustych canolig, pan yn dair neu yn bum mlwydd oed, ydyw o 560 pwys i 600 pwys; ond pan wedi eu pesgi, maent yn cyrhaedd dwbl y pwysau hyn.

9. *Anifeiliaid Cymru.*—Y mae yn Nghymru ddau fath o anifeiliaid. Lliw y rhai mwyaf ydyw llwyd, gydag ychydig o wyn ar wâr y gynffon, ac ar yr ysgwyddau; yr hyn sydd yn arwyddo cymmysgiad gyda rhywogaeth y cyrn hirion, er nad ydynt o ran eu lluniaethiad yn dwyn unrhyw debygolrwydd iddynt. Y mae eu coesau yn hirion, ac yn sefyll yn uchel yn ol cyfartaledd eu pwysau; yn deneu yn y cluniau, a braidd yn gul yn eu cefn. Y mae eu cyrn yn wynion, ac yn troi i fyny; eu cig yn ysgafn, ac yn nesaf o ran eu pwysau i anifeiliaid swydd Devon. Y mae y math arall o anifeiliaid yn llawer mwy gwerthfawr. Du, gydag ychydig iawn o wyn, ydyw eu lliw; ac y maent o ran eu ffurf a'u llun yn hardd a chymmesur; coesau byrion, a chyrph dyfnion a chrynion. Y mae eu crwyn braidd yn deneuon, gyda blewyn byr. Mae ganddynt lygaid da, ac y mae eu golwg yn hynaws a thirion. Nid yw eu hesgyrn yn fychain, ac nid ydynt chwaith yn fawrion ac yn gloyw gyrnaidd. Ystyrir y gwartheg hyn yn rhai rhagorol am gynnyrchu llaeth.

10. *Anifeiliaid Alderney.*—Nid yw y rhai hyn i'w canfod yn aml oddi eithr ar diroedd ein gwŷr mawrion. Cedwir hwy yn benaf ar gyfrif eu llaeth, yr hwn, er yn brin, sydd dda odiaeth. Bernir eu bod yn rhy dyner a moethus i gael eu magu yn Mhrydain, yn enwedig yn y parthau gogleddol o honi. Eu lliw yn gyffredin ydyw melyn neu goch gwan, gyda gwynebau gwynion neu ysmotiog. Cyrn byrion a hynod o afluniaidd sydd ganddynt; ond y mae eu hesgyrn ar y cyfan o wneuthuriad pur dda; ac y mae eu cig, er yn ddyfnliwiog, yn flasus iawn. Y mae anifeiliaid ardderchog wedi eu cael trwy gymmysgu rhywogaeth Alderney gyda rhywogaeth y cyrn byrion.

GWARTHLE—OEDD: gwarth—lle, gwarthfa, dirgeledd, dirgelfanau. "A ddinoetha eu gwarthle hwynt;" *Esa.* iii. 17; xlvii. 2, 3; *Nah.* iii. 5. Cyfeiriad sydd yn y geiriau a ddyfynir at arferiad anfoesgar a chreulawn buddugoliaethwyr yn yr oesau gynt; sef, dinoethi a dihatru eu caethion yn noethlymun, a gwneud iddynt deithio yn y cyflwr gresynus a gwaradwyddus hwnw, yn ngerwindeb y tywydd, ac yn enwedig yn mhoethder anoddefol yr haul yn y gwledydd hyny. I'r merched yr oedd hyn y radd uchaf o greulondeb, anfri, ac anmharch; yn enwedig i'r cyfryw a ddarlunir gan y prophwyd, y rhai oeddynt wedi ymroddi i bob moethau a phob addurniadau afreidiol i'w cyrph. Cyfrifid hyn bob amser fel y peth caletaf a chreulonaf perthynol i gaethion.—*Esgob Lowth.* Gellir tybio gyda phriodoldeb fod yr Ysbryd Glân yn y brophwydoliaeth hon yn cyfeirio hefyd at ddinoethiad y dyn pechod yn ei gaethgludiad diweddaf i dir dinystr a cholledigaeth. Mae'r annuwiol yn llwyddo yn rhyfedd iawn i daflu gorchudd a gwisgoedd addurniadol dros ei gymmeriad tra yn y byd hwn; ond fe ddaw cyfnod ar ei ben pryd y llwyr ddiosgir ef, ac y dangosir ei holl warth i fod yn amlwg iddo ei hun ac i bawb a'i gwel: *Diar.* xxvi. 6; *Rhuf.* ii. 16; 1 *Cor.* iv. 5.

GWASANAETH—FERCH—U—WR [*gwa—as*]. Mae y geiriau *gwasanaethwr* a *gwas* yn cael eu harfer yn y Beibl yn gyffredin i ddynodi un fyddo yn gaeth yn ngwasanaeth un arall; o herwydd, mewn rhyw ystyr, caethion yn perthyn i'w meistriaid oedd y rhan fwyaf o'r gwasanaethwyr yn mhlith yr Hebreaid. Yr oedd gwahaniaeth dirfawr rhwng gwasanaeth yn mhlith yr Hebreaid â chaethwasanaeth rhai o'r cenedloedd a gydoesent â hwynt. Yr oedd yr anrhydedd—yr ofn Duw a'r parch i ddyn oedd yn trwytho meddwl dyn fel Abraham, yn rhwym o wneyd ei berthynas ef â'i weision yn wahanol iawn i'r berthynas hono oedd yn mysg cenedloedd eilunaddolgar. Tra nad oedd ond diystyrwch, sarhâd, a chreulondeb gwastadol yn nodweddu y naill berthynas, yr oedd serch ac ymddiried o bob tu yn y berthynas arall. Yn lle cael eu gosod yn nôd i bob gwaradwydd a chamdriniaeth, yr oedd y gweision a enid yn y tŷ mewn ymddiried mawr yn mhlith yr Hebreaid. Eleazar o Damascus, caethwas Abraham, oedd i fod yn etifedd iddo, pe na buasai wedi cael mab. Math o gaethwas yn ei dŷ ef "oedd yn llywodraethu ar yr hyn oll a'r a oedd ganddo." Yr oedd ei weision ef yn cael mwynhau yr un manteision a rhagorfreintiau crefyddol ag yntau, ac yn derbyn ar eu cnawd arwydd y cyfammod yr un modd a'i had ef ei hun: *Gen.* xvii. 9, 14, 24, 27. Nid oes un prawf fod y patriarchiaid yn gwerthu nac yn prynu gweision. Y mae beirniaid galluog yn cyd-sierhau mai ystyr yr ymadrodd "gweision a brynir âg arian," ydyw—nid gweision wedi eu prynu gan drydydd person, ond rhai wedi ymgyflogi am arian a delid iddynt yn adeg eu cyflogiad. Am sylwadau helaethach ar ystyr a chynnwys y gair *caethwas*, fel yr arferir ef yn y Beibl, ni a gyfeiriwn y darllenydd at yr erthygl CAETHIWED.

Hefyd, arferir y geiriau *gwas* a *gwasanaethwr* i osod allan un fyddo yn ymgyflwyno yn wirfoddol i wasanaeth un arall. Yn yr ystyr hwn yr oedd Iosuah yn was i Moses, Eliseus yn was i Elias, Gehazi yn was i Eliseus, a Phedr, Andreas, Phylip, &c., yn weision i'r Arglwydd Iesu. Gweision Pharaoh, Saul, a Dafydd oedd eu deil-

Digitized by Google

iaid mewn ystyr gyffredinol; a gweinyddion y teulu mewn ystyr neillduol. Dywedir am y Philistiaid, y Syriaid, a chenedloedd ereill, eu bod yn weision i Dafydd; hyny yw, yr oeddynt yn ufuddhau ac yn talu teyrnged iddo. Gweision Duw ydyw y rhai sydd wedi ymgyssegru i'w wasanaeth, ac yn ufuddhau i'w air. Y mae Dr. Stennett yn sylwi y gellir cyfiawnhau gwas neu forwyn am wrthod ufudd-dod i'w meistr; sef pan y bydd yn gorchymyn yr hyn sydd groes i ewyllys Duw; pan y gofynir iddynt wneyd yr hyn nas gallant; a phan y gelwir am wasanaeth nad yw o fewn y cyttundeb a wnaed wrth gyflogi. Cyn y bydd gwasanaeth yn unol âg ewyllys Duw, ac yn anrhydedd i grefydd, rhaid iddo gael ei gyflawnu(1.) gyda gostyngeiddrwydd: *Diar.* xxx. 21, 22; *Preg.* x. 7; (2.) gyda ffyddlondeb: *Titus* ii. 10; *Mat.* xxiv. 45; (3.) gyda diwydrwydd: *Diar.* x. 4; xxi. 5; 1 *Thes.* iv. 11.

Mae lliaws o hawliau a dyledswyddau yn nglŷn â'r berthynas sydd rhwng meistr a gwas wedi eu sylfaenu ar gyfraith y tir; a chan y cyfyd anhawsderau ac anghysuron yn fynych mewn canlyniad i anwybodaeth o'r rhai hyn, ni a eglurwn yn fyr ychydig o'r rhai pwysicaf.

Nid oes angenrheidrwydd am i gytundeb cyflogi fod mewn ysgrifen oni bydd am gyfnod hwy na blwyddyn, neu am flwyddyn i ddechreu ar ryw adeg ddyfodol. Os bydd mewn ysgrifen, nid yw yn agored i unrhyw dreth stampiau, oni bydd yn dal perthynas â'r dosbarthiadau uchaf o glarcod, &c. Mae y ddeddf yn cymmeryd yn ganiataol yn y cyfryw gytundebau fod y gwas neu y forwyn yn ymrwymo i wasanaethu ei meistr yn ffyddlawn, ac i gyflawnu ei orchymynion cyfreithlawn a rhesymol o fewn cylch y gwasanaeth am ba un y cytunwyd; y mae yn disgwyl hefyd i'r meistr amddiffyn ei wasanaethwr a thalu iddo ei gyflog. Yn mhob cyflogiad lle na enwir amser, oddigerth cyflogiad gweinidogion teuluaidd, y mae yn rheol cyfraith fod y cytundeb i barhau am flwyddyn. Ond gall gwas neu forwyn teulu ymadael wedi rhoddi mis o rybudd, neu dalu mis o gyflog. Nis gall gweision hwsmonaeth ymadael o'u lle heb roddi tri mis o rybudd; ac nis gellir eu troi ymaith ar un rhybudd llai. Wrth gwrs, gellir newid y rheol hon gyda golwg ar amser, ond gofalu am wneuthur hyny yn y cytundeb. Os bydd gwas neu forwyn yn euog o anfoesoldeb, neu gam-ymddygiad yn ystod tymmor y gwasanaeth, neu esgeulusdra parhaus, neu anufudd-dod penderfynol, gellir eu troi ymaith yn uniongyrchol. Os gwasanaethyddion teuluaidd a fyddant, y mae ganddynt er hyny hawl i'w cyflog am yr amser y buont yn gwasanaethu. Ond mewn amgylchiadau ereill, pan y bydd y cyttundeb am flwyddyn gyfan, nis gellir rhanu y cyflog; ac os rhoddir terfyn ar y gwasanaeth cyn i'r amser ddyfod i ben, a hyny o herwydd bai y gwasanaethwr, nid oes ganddo hawl i godi cyflog am unrhyw gyfran o'r amser y bu yn gwasanaethu. Mae y cyttundeb yn parhau mewn bod, er i'r gwasanaethwr fethu cyflawni ei waith o herwydd afiechyd; ac felly y mae ganddo hawl i'w gyflog am yr amser. Pa fodd bynag, nid ydyw y meistr yn rhwym o dalu y costau yr eir iddynt er cael cyfferiau, a rhai i weinyddu ar y claf. Os collir, neu os torir eiddo y meistr trwy ddiofalwch y gwasanaethwr, nid oes gan y meistr hawl i dynu y gwerth allan o gyflog ei wasanaethwr, oni bydd cyttundeb i'r dyben hwnw wedi cael ei wneyd. Ei unig lwybr i gael iawn yw trwy gynghaws mewn llys cyfreithiol. Os try y meistr yn fethdalwr, y mae gan y dirprwywyr hawl i dalu chwe mis o gyflog i'w glarcod a'i weinidogion, os profir eu bod yn ddyledus. Os bydd cyflogau am dymmor hwy na hyny yn ddyledus, rhaid eu profi fel dyledion ereill. Os bydd gwasanaethwr wedi gadael ei wasanaeth am gryn amser heb hawlio ei gyflog, cymmerir yn ganiataol eu bod wedi eu talu. Gall meistr geryddu ei brentis am esgeulusdra neu gam-ymddygiad; ond nid yw yn gyfreithlawn iddo daraw un math arall o wasanaethwr. Mae gwasanaethwyr a ladratânt neu a ddarnguddiant eiddo eu meistr yn agored i gospedigaeth drymach nag ereill a gyflawnant yr un troseddau. Nid yw meistriaid dan orfod i roddi cymmeriad i bersonau a adawant eu gwasanaeth. Os dewisant wneuthur hyny, ac os rhoddant un anghywir a gau, y maent yn agored i erlyniad cyfreithiol oddi wrth y gwasanaethwr; ond mewn trefn i lwyddo gyda'r cyfryw erlyniad, bydd yn rhaid i'r gwasanaethwr brofi fod y cyfryw gymmeriad wedi cael ei roddi iddo yn faleisus gyda'r bwriad o'i niweidio. Os bydd y meistr, yn unig er mwyn cyfranu gwybodaeth yn gyfrinachol, yn dyweyd yn onest yr hyn y mae yn ei gredu sydd wirionedd mewn perthynas i'r gwasanaethwr, yna nid yw yn gyfrifol am ganlyniadau y wybodaeth a gyfranodd.

Mae amryw ddeddfau seneddol a basiwyd yn rhoddi awdurdod neillduol i ynadon ar weision mewn hwsmonaeth, ac hefyd mewn llawer math o law-weithfeydd a gorchwylion ereill. Nid oes un o'r deddfau hyn yn dal perthynas â gwasanaethyddion teuluaidd. Eu dyben, fel y mae a fynont â gweision ffermwyr, ydyw gorfodi rhai fyddo heb ddim at eu cynnaliaeth i fyned i wasanaeth, rheoleiddio amser a dull eu gwasanaeth, cospi esgeulusdra a gwrthodiad i wasanaethu, penderfynu dadleuon rhwng meistriaid a gweision, galluogi gweision i fŷnu eu cyflogau, ac awdurdodi yr ynadon mewn amgylchiadau neillduol i roddi pen ar y gwasanaeth. Mae y deddfau hyny sydd yn dal perthynas â gwasanaethwyr mewn llaw-weithfeydd, a rhai yn cyflawni gorchwylion ereill yn gwahardd talu cyflogau mewn nwyddau, ac yn trefnu iddynt gael eu talu mewn arian, ynghyd â phenderfynu unrhyw ddadleuon a all fod ynglŷn â hwynt. Y maent hefyd yn cyfarfod â lliaws o droseddau cyssylltiedig â gweithwyr, megys gadael, esgeuluso, neu gamgyflawni eu gwaith, niweidio neu ddarnguddio y defnyddiau, yr offerynau, &c., a roddwyd dan eu gofal, ynghyd â derbyn yn dwyllodrus y rhai a ymddiriedwyd i ereill. Mae gan ynadon hawl hefyd ynglŷn â'r math yma o wasanaethwyr i roddi pen ar gyttundeb y cyflogiad.

O herwydd y berthynas rhwng meistr a'r gwas, a'r amddiffyniad sydd felly yn ddyledus oddiwrth y blaenaf i'r olaf, nid yw y meistr yn cael ei gyfrif yn euog o'r trosedd o ymyraeth yn achos un arall, er iddo gynnal a chefnogi ei wasanaethwr mewn cynghaws fyddo wedi ei ddwyn yn mlaen ganddo yn erbyn person arall. Pan yr ymosodir ar was, mae yn gyfreithlawn i'r meistr ei gynnorthwyo i gadw yr ymosodiad draw trwy rym, er nad ymosodir arno ef ei hun; a'r un modd gellir cyfiawnhau gwas am ymosod mewn amddiffyniad i'w feistr. Y mae y meistr yn gyfrifol, dan y gyfraith wladol a chyfraith troseddau, am y gweithredoedd hyny a gyflawnir gan ei wasanaethwr o fewn cylch ei wasanaeth. Fel hyn, y meistr sydd yn attebol am ymddygiad y gwas yn taflu pridd ar y ffordd fawr; ac y mae

Digitized by Google

llyfrwerthwr neu fasnachwr mewn newyddiaduron am gabledd (*libels*) a werthir gan ei was yn ei siop. Nid yw y cyfrifoldeb hwn o eiddo y meistr yn rhyddhau y gwas oddi wrth ei gyfrifoldeb yn ngwyneb yr un trosedd. Y mae y gwas hefyd yn agored i gosp pan yn cyflawni trosedd wrth orchymyn ei feistr. Er fod y meistr yn gyfrifol am unrhyw niwed a gyfyd oddi wrth esgeulusdra neu anfedrusrwydd ei was, nid yw yn attebol am ganlyniadau gweithred wirfoddol a gyflawnir gan ei wasanaethwr heb ei gyfarwyddyd neu ei gydsyniad ef; ond y gwas ei hun sydd yn gyfrifol am danynt. Y mae anhawsderau yn cyfodi wrth benderfynu pwy sydd attebol am niwed a wneir gan y gwas yn nghymmeriad ei feistr i ryw drydydd person. Er esampl: pan y byddo cerbydwr yn cael ei anfon gan berchenog ceffylau wedi eu hurio i dynu cerbyd preifat, ac os dygwydd iddo, tra yn gyru huriwr yn ei gerbyd preifat ei hun, wneuthur niwed i ryw un arall, fe olygir mai perchenog y ceffylau sydd yn gyfrifol; o blegid gwas yr hwn bia'r ceffylau yw y gyrwr, ac nid gwas yr hwn fydd wedi eu hurio. Pan y bydd i was wneuthur cyttundeb o fewn cylch ei wasanaeth, fe ddelir y meistr yn rhwymedig yr un modd a phe buasai wedi rhoddi awdurdod iddo. Ond yn mhob achos lle nid oes proflon eglur fod y meistr wedi awdurdodi ei was, rhaid fod ffeithiau oddi wrth ba rai y gellir casglu hyny. Pan y bydd gwas yn prynu nwyddau i'w feistr, y rhai a ddefnyddir gan y meistr, ac i dalu am ba rai y rhoddir arian ganddo i'r gwas, y meistr fydd raid dalu am danynt, er i'r arian gael eu lladrata gan y gwas. Os â cerbydwr yn lifrau ei feistr i hurio ceffylau, y rhai a ddefnyddir gan y meistr, y meistr fydd yn rhwym o dalu am danynt, er fod y gwas yn derbyn cyflog mawr fel y gallo ofalu am ddigon o geffylau. Ond os bydd y ffaith hon o'r blaen yn hysbys i berchenog y ceffylau, gall ddal y gwas yn gyfrifol. Os bydd meistr yn arfer talu arian parod am nwyddau at wasanaeth ei deulu, ac os rhydd efe, ar achlysur neillduol, arian i'r gwas i dalu am nwyddau y bydd yn ei anfon ef i'w cyrchu, nid yw y meistr yn gyfrifol i'r masnachwr os ceidw'r gwas yr arian. Os bydd y meistr bob amser wedi arfer talu arian parod am ryw swm pennodol o nwyddau, ac os bydd y masnachwr yn caniatau i nwyddau ereill o'r un nodwedd gael eu hanfon heb dâl, ni bydd y meistr yn gyfrifol, oni bydd y masnachwr wedi cael sicrwydd mai at wasanaeth y meistr ei hun y bydd y nwyddau. Os bydd i fasnachwr—na bu yn gwneuthur dim o'r blaen i ryw feistr—gael ei gyfarwyddo gan was i gyflawni rhyw waith, ac yntau wedi hyny yn ei gyflawni heb unrhyw gyttundeb â'r meistr, fe olygir nad yw y meistr yn gyfrifol, er mai ar ei eiddo ef y gwnaed y gwaith yn ol cyfarwyddyd y gwas.

Pwy bynag a ymyro â hawl y meistr i wasanaeth ei was, y mae yn peri niwed iddo, ac yn gosod ei hun yn agored i gynghaws a all gael ei ddwyn yn ei erbyn ef am iawn. Fe all meistr gael ei amddifadu o wasanaeth gwas, naill ai trwy ryw niwed personol a wneir i'r gwas, neu ynte trwy iddo gael ei hudo o'i wasanaeth; felly, pan y byddo gwas wedi derbyn rhyw niwed personol er ei anghymmhwyso i gyflawni ei waith, megys pan yr analluogir ef trwy ddymchweliad cerbyd, neu frathiad ci cynddeiriog rhywun, y mae gan y meistr hawl i ddwyn ymlaen gynghaws cyfreithiol. Perthyn i'r dosbarth hwn y mae cynghaws a ddygir yn mlaen gan riant yn erbyn twyllwr ei ferch. Ond cyn y gellir llwyddo gyda chynghaws a ddygir yn mlaen yn erbyn rhywun am hudo gwas o'i wasanaeth, rhaid i'r meistr brofi fod yr hudwr yn gwybod am y cyttundeb blaenorol ar y pryd y darfu iddo ef ei hudo ymaith, neu ynte ei fod wedi gwrthod rhoddi y gwas i fyny pan y ceisiwyd ganddo wedi hyny. Os gosodwyd yn y cyttundeb rhwng y gwas a'r meistr fod y gwas i dalu swm pennodol o arian os ymadawai cyn pen ei dymmor, ac os talodd y gwas yr arian hyny, yna ni lwydda cwyn yn erbyn neb am ei hudo o'i le. Pan yr hudir ef ymaith dan amgylchiadau ereill, fe all y meistr ei erlyn am dori y cyttundeb, yn gystal ag yn erbyn y neb a'i hudodd. Yn ol y gyfraith seneddol, 32 Geo. III, *pen.* 56, "er attal ffugio trwyddedau o gymmeriadau gwasanaethyddion," y mae gan ynadon hawl, ar ol derbyn hysbysrwydd, i gospi y personau hyny a roddant gymmeriadau gau i wasanaethyddion yn enw eu meistriaid; ac hefyd y personau hyny, er iddynt fod yn feistriaid, a wnant gamhysbysiadau gwirfoddol mewn ysgrifen yn mherthynas i amser a manylion gwasanaeth neu gymmeriad y gwasanaethwr; a'r un modd y rhai a dystiant yn dwyllodrus ddarfod iddynt fod mewn lleoedd neillduol, neu ynte a wadant ddarfod iddynt fod mewn manau lle y buont. Ond yn annibynol ar y gyfraith hon, y mae y person a rydd yn wirfoddol gau gymmeriad i was neu forwyn yn agored i erlyniad cyfreithiol oddi wrth y personau a gymmhellwyd trwy y cymmeriad ffugiol i gyflogi y gwas neu y forwyn, os byddant wedi goddef unrhyw golledion trwy gymmeryd y naill neu y llall.

GWASG, ARGRAPH: gellir galw argraphu, yn ystyr helaethaf y gair, y gelfyddyd o wneuthur copïau o unrhyw ysgrifen neu farciau ereill trwy wasgiad, naill ai ar sylwedd meddal, megys cŵyr, neu glai, fel ag i gymmeryd a dal ffurf yr hyn a wesgir arno, neu ynte ar sylwedd manteisiol i gymmeryd y lliw fyddo wedi ei gluro ar yr hyn fyddo i wneud yr argraph. Am y weithred olaf yr arferir y gair yn gyffredin yn awr.

Fe addefir gan y rhan fwyaf o ysgrifenwyr fod y gelfyddyd o argraphu, yn lled gyffelyb i'r dull y mae hi genym ni yn bresennol, wedi ei darganfod cyn canol y bymthegfed ganrif. Ond pa bryd, pa le, a chan bwy y darganfyddwyd y naill welliant ar ol y llall ar yr hen ddull o argraphu gyda blociau cerfiedig, y mae yn anhawdd dywedyd. Y mae darganfyddiad y gelfyddyd o argraphu yn cael ei phriodoli gan wahanol awduron i bedwar o bersonau: sef John Gutenberg, o Strasburg; John Fust (neu Faust), o Mayence; Peter Schoeffer, o Gernsheim; a Lawrence Coster, o Haarlem

Gyda golwg ar y traddodiad a gofnodir gan Hadrian Junius, yn mha un y priodolir darganfyddiad y gelfyddyd o argraphu i Coster, gellir sylwi fod hanes y dyfeisiad yn annhebygol i'r graddau eithaf. Dechreuodd, medd yr hanesydd, ymddifyru, yn ystod ei rodfeydd prydnawnol yn amgylchoedd y ddinas lle yr oedd yn byw, mewn tori llythyrenau allan o risgl pren ffawydd; a chyda'r rhai hyn, y naill ar ol y llall, fe argraphai frawddegau bychain er addysg ei ŵyrion. Ond, a chymmeryd yr amseriad boreuaf a nodir gan Junius fel y pryd y dygwyddodd hyn, ni ellir myned yn mhellach yn ol na'r flwyddyn 1440; ac fe wyddys yn dda ei fod yn arfer gyffredin yn mhell cyn hyn i argraphu darluniau a geiriau gyda blociau cerfiedig. Ond fe ellir

Digitized by Google

profi ddarfod i'r gelfyddyd hon gael ei darganfod yn Holland, naill ai gan Coster, neu ryw un arall o'i gydwladwyr. Byddai gan yr Is-Ellmyn hawl felly i gymmeryd yr holl anrhydedd o fod yn ddargantyddwyr argraphyddiaeth, ac ni byddai ganddynt nemawr reswm dros warafun i'w cymmydogion Germanaidd yr hyn oll a hawlient fel diwygwyr a pherffeithwyr y gelfyddyd, trwy fod wedi dwyn llythyrenau symmudol, llythyr foldiau, a thrydyllyddion (*punches*) i arferiad gyntaf. Y gwelliantau hyn yw y cwbl a ellir briodoli i Gutenberg, Fust, a Schoeffer. Meddylir yn awr, yn gyffredinol, fod Gutenberg wedi dechreu argraphu yn Strasburg rywbryd rhwng 1436 a 1442. Os argraphu â blociau yr oedd efe ar y cyntaf, fel y mynegir, nid efe oedd dyfeisydd y dull hwnw; canys fe wyddys ei fod mewn arferiad rai blynyddoedd cyn y gyntaf o'r ddwy a enwyd. Ond y mae lle cryf i gredu ei fod, cyn gadael Strasburg, wedi dechreu argraphu gyda llythyrenau symmudol o goed. Wedi iddo ymsefydlu yn Mayence, ei dref enedigol, fe aeth yn gyfranog â Fust, yn y flwyddyn 1445, yr hwn a ofalai am yr arian i gychwyn busnes, ac hefyd a gynnorthwyodd Gutenberg i ddyfeisio neu ddwyn allan ei welliant mawr dyfodol yn y gelfyddyd, sef bwrw y llythyrenau o fetal. Ond i Schoeffer, yr hwn oedd yn ngwasanaeth Gutenberg a Fust, a'r hwn a briodasai ferch Fust, y priodolir yr anrhydedd o berffeithio y gorchwyl o ffurfio llythyrenau mewn mold gyda thrydyllydd. Dyma'r hanes mwyaf cysson yn ngeiriau cydoesydd agosaf y gwŷr uchod, sef y penfynach John Trithemius; a chadarnheir y syniad hwn gan y rhan fwyaf o'r ffeithiau sydd wedi dyfod i'r amlwg ar ol hyny. Mae Trithemius yn priodoli dargantyddiad y gelfyddyd i Fust yn gystal ag i Gutenberg.

Mae adeg darganfyddiad yr argraphwasg yn anhysbys, ond y mae yn rhaid fod rhyw offeryn i'r dyben yma yn cael ei arfer mor fuan ag y gafwyd allan y dull o argraphu trwy flociau neu lythyrenau. Byddai yr angenrheidrwydd am nerth neillduol er cynnyrchu argraph yn debyg o awgrymu yr angen am beiriant syml i atteb y dyben. Y math cyntaf o argraphwasg oedd un a weithid gyda scriw—hynod debyg i wasg caws—gyda dyfais i weithio y ffrâm yn cynnwys y llythyrenau dan y scriw ar ol rhoddi yr inc arnynt, ac yn ol drachefn, wedi cynnyrchu yr argraph angenrheidiol. Mae yn amlwg fod y dull hwn yn hynod araf a llafurfawr. Dyfeisiwyd ei well o lawer gan Is-Ellmyniad cywrain o'r enw Willem Jansen Blaew, yr hwn oedd yn dwyn masnach yn mlaen fel gwneuthurwr offerynau mesuronol yn Amsterdam. Rhagorai ei beiriannau ef yn fawr ar yr hen, y rhai a yrwyd yn llwyr allan o arferiad. Fe wnaed amryw o ddiwygiadau wedi hyny o dro i dro; ond gyrwyd hwynt i gyd allan o arferiad trwy ddyfais Arglwydd Stanhope tua dechreu y ganrif bresennol. Hon, a gwasg Blaew, oeddynt yr unig welliantau ymarferol pwysig a ddyfeisiwyd ynglŷn âg argraphu yn ystod 350 o flynyddoedd. Mae gwasg Stanhope yn rhagori cymmaint ar wasg Blaew ag a ragorai hono ar yr hen wasg scriw. Ond yr oedd gwelliant Stanhope yn gynnwysedig yn benaf mewn cynnyrchu gwell argraph; ni chwanegodd nemawr at gyflymder y wasg bren. Fe wneid yn debyg yr un swm o waith gyda'r naill a'r llall; hyny yw, tua 250 o argraphiadau mewn awr ar un tu i len o bapur, gyda gwasanaeth dau ddyn. Gwnaed diwygiadau chwanegol wedi hyny, a'r cyfan yn tueddu i arbed amser a llafur, ynghyd â pherffeithio y gwaith.

Ond er y gwelliantau hyn, yr oedd yr argraphwasg yn y ffurf hon yn gwbl annigonol i gyfarfod âg angen cynnyddol yr oesau. Gan hyny, yr ydym yn cael fod sylw dynion ymarferol wedi ei dynu mor foreu a'r flwyddyn 1790 at ryw foddion cyflymach i argraphu; ac hyd yn oed cyn i wasg Stanhope ddyfod yn gyffredinol adnabyddus, yr oedd Mr. W. Nicholson wedi cael breinteb am beiriant tebyg ar lawer o gyfrifon i'r rhai sydd mewn arferiad yn awr. Ar ol hyny darganfyddodd Germaniad o'r enw Mr. König, gynllun cyffelyb; ac wedi iddo gael yn y wlad hon y gefnogaeth y methodd ei chael ar y cyfandir, efe a wnaeth beiriant argraphu. Ar yr 28ain o Dachwedd, 1814, fe hysbyswyd darllenwyr y *Times* eu bod y pryd hwnw am y tro cyntaf yn darllen newyddiadur wedi ei argraphu â pheiriant yn cael ei weithio gan ager. Ond gan fod y peiriant hwn yn hynod ddyrys yn ei amrywiol ranau, fe gymmerwyd ei le gan un symlach a ddyfeisiwyd gan Meistri Applegath a Cowper. Y mae amryw welliantau wedi cael eu gwneuthur wedi hyny, yn enwedig yn y cyflymder gyda pha un y gweithir. Y mae y peiriänau a arferir yn gyffredin i weithio llyfrau yn gwneuthur o 700 i 1000 o argraphiadau mewn awr, wedi eu hargraphu yn dda Ond gyda newyddiaduron, y mae cywirdeb a destlusrwydd yn cael eu haberthu er mwyn cyflymder; ac y mae y *Times* yn Llundain, a phapyrau ereill, yn cael eu hargraphu yn ol 200 y munyd—12,000 yr awr, gyda pheiriannau rhagorol y Meistri Hoe o America; y rhai a ystyrir fel y rhai cyflymaf o lawer a ddyfeisiwyd hyd yn hyn.

GWASGAR [*gwasg—ar*, Dr. Pughe; *gwa—ysgar*, Charles]: chwalu, lledaenu, neu symmud pethau oddi wrth eu gilydd. Pan y dechreuodd dynion ymgodi mewn balchder ac ymffrost yn erbyn Duw, gan benderfynu adeiladu "dinas a thŵr, â'i nen hyd y nefoedd," fel y cedwid hwynt "yn un, ac un iaith iddynt oll," ac na byddo "rhwystr arnynt am ddim oll a'r a amcanent ei wneuthur," fe ddisgynodd yr Arglwydd, a chymmysgodd eu hiaith, a "*gwasgarodd* hwynt oddi yno ar hyd wyneb yr holl ddaear;" *Gen.* xi. 8. Un rhan o'r gosp a fygythiai Duw ar genedl Israel, os gwrthodent wrandaw arno, ac os rhodient yn wrthwyneb iddo, ydyw hon; "Chwithau a *wasgaraf* yn mhlith y cenedloedd." Mae y gair yn cael ei arfer hefyd i osod allan y weithred o fwrw rhywbeth yn rhydd oddi amgylch, megys *gwasgar* yr hâd wrth hau. Y mae Solomon yn arfer y gair i ddynodi haelioni ac elusengarwch, pan y dywed, "Rhyw un a *wasgar* ei dda, ac efe a chwanegir iddo; a rhyw un arall a arbed fwy nag a weddai, ac a syrth i dlodi;" *Diar.* xi. 24.

GWASGFA [*gwasg*, Dr. Pughe; *gwa—asg*, Charles]: y weithred o bwyso i lawr, yr agwedd o fod yn wasgedig; rhwymo neu dynhau. "Gosodaist *wasfa* am ein lwynau," medd y Salmydd; hyny yw, "Caethiwaist neu rhwymaist ni." Arferir y gair weithiau i ddynodi cyflwr o gyfyngder. Dyna ei ystyr pan y cyfeiria yr Arglwydd at sefyllfa ddyfodol yr annuwiol; "a dyfod arnoch *wasgfa* a chaledi;" *Diar.* i. 27. Dynoda weithiau iselder neu brudd-der meddwl; bryd arall, y mae yn cael ei arfer am y pangfeydd a'r poenau a deimlir pan yn marw—gwasgfeuon angeu; ac arferir ef hefyd yn gyfystyr â'r gair

Digitized by Google

*llewyg*, i osod allan yr agwedd hono ar ddyn pan y mae yn colli ei nerth a'i liw, ac yn myned yn ddideimlad ac yn ddigyffro. Gwel LLEWYG.

GWASTADEDD. Arferir y gair i osod allan bob rhan o dir sych nas gellir yn briodol ei alw yn fynydd-dir. Ystyr ammhennodol sydd i'r gair ynddo ei hun; ac ni ddeallir ef yn iawn heb ei gymmeryd yn wrthgyferbyniol i'r gair *mynydd-oedd*, neu ynte pan y cyssylltir ef âg enw rhyw le; a'r pryd hwnw y mae yn golygu y wlad ei hun am yr hon y byddys yn llefaru, neu amgylchoedd rhyw fan pennodol. Felly yr ydym yn sôn am ddinasoedd y gwastadedd, dyffrynoedd y gwastadedd, gwastadedd Lombardy, gwastadedd Mamre, gwastadeddau Quito, &c. Cyfeiliornad yw tybied fod y gair yn golygu yn wastad arwyneb hollol lyfn a di-fryn. Mae yn arwyddo yn hytrach gwlad fawr neu fach fyddo yn ddilethr a gwastad o ran ei sefyllfa gyffredinol, o'i chymmharu â gwlad fynyddig. Po mwyaf gwynebllyfn a gorweddog y byddo, teilyngaf oll a fydd hi o'r enw gwastadedd; megys gwastadeddau Venezuela, Orinoco isaf, Mesopotamia, &c. Ond gall y tir fod i raddau yn grwmaog, megys gwastadedd Salisbury a'r Ukraine; neu yn codi ac yn gostwng ar wedd tonau, fel y gwastadedd o amgylch Paris; neu gall fod â'i wyneb wedi ei fritho â bryniau, megys gwastadeddau Cassiquiare, yn America Ddeheuol; neu wedi ei rychu â dyffrynoedd llydain a dyfnion, fel y parth hwnw o Ffraingc sydd rhwng y Garonne a'r afon Loire; neu ynte, gall fod wedi ei rwygo â chornentydd dyfnion, fel gwastadeddau canolbarth Rwssia—ac etto barhau yr un modd i deilyngu yr enw.

Dosberthir gwastadeddau weithiau i ddau fath —uchel ac isel. Ond y mae yn anhawdd gweled wrth sylwi nas gellir cymmhwyso y dosbarthiad hwn yn fanwl ond at ddau eithaf y raddfa; megys ar un llaw gwastadedd yr Aipht yn ngenau y Nilus, neu wastat-tiroedd (*llanos*) America Ddeheuol, y rhai nad ydynt ond tua 150 troedfedd uwch law gwyneb y môr; ac ar y llaw arall, y parth uchaf o wastadedd Antisana, yr hwn sydd 13.435 troedfedd uwch law y môr; tra y mae uchder y mwyafrif o wastadeddau yn y canol rhwng y ddau bwynt eithaf uchod, fel y dengys y daflen ganlynol:—

| | Troed. uwch law y môr. | | |
|---|---|---|---|
| Gwastadeddau Hungary ... | 200 | i | 250 |
| Y gwastadeddau eang yn ngogledd yr hen gyfandir, o Schelde hyd yr Yenisei . | 250 | i | 300 |
| Gwastadeddau Moscow ... | 460 | | |
| Gwastadeddau Lombardy . | 500 | | |
| Gwastadeddau Lithuania . | 600 | | |
| Suabia, yn Germany... ... | 900 | | |
| Gwastadedd Valdai ... ... | 1,000 | | |
| Auvergne, yn Ffraingc ... | 1,100 | | |
| Switzerland, rhwng yr Alpau a Jura .. ... ... ... | 1,400 | | |
| Gwastattiroedd Kirghis ... | 1,300 | i | 1,600 |
| Bavaria ... .. ... ... | 1,650 | | |
| Gwastadeddau y ddwy Castile | 1,800 | i | 2,100 |
| Mysore, yn Hindostan ... | 2,300 | i | 2,600 |
| Byrdd-dir Persia ... ... | 3,800 | i | 4,200 |

Er ein bod yn edrych ar y gwastadeddau hyny sydd wedi eu cyfodi leiaf uwch law gwyneb y môr fel y rhai isaf, eto fe ddylid cofio fod o amgylch y Môr Caspiaidd a Môr Aral wastadeddau mawrion, o filoedd o filltiroedd ysgwâr, yn gorwedd yn is na gwyneb y môr.

Y mae amryw wastadeddau y sonir am danynt yn yr Ysgrythyrau, megys y "gwastadedd yn nhir Sinar," "gwastadedd yr Iorddonen," "gwastadedd Mamre," a "gwastadedd Tabor." Ond nid yw y mwyaf o'r rhai hyn ond megys gardd fechan o'i gymharu â'r gwastadeddau anferth ar wahanol gyfandiroedd y byd. Gan y cymmerir sylw o honynt oll dan eu henwau priodol, ni a basiwn heibio yn awr i sylwi ar y parthau eang hyny yn Ewrop, Asia, Affrica, ac America, a elwir yn briodol gan ddaearyddwyr yn "wastadeddau."

Y mae gwastadeddau yn gwahaniaethu, nid yn unig yn eu huchder, ond yn ngwastadrwydd eu harwyneb ac yn natur eu pridd; yr hyn, ynghyd â'u sefyllfa ddaearyddol, sydd yn dylanwadu ar eu hinsawdd a'u cynnyrchion, ac yn gosod ar y rhai mwyaf o honynt nodwedd neillduol. Gellir sylwi fod y gwastadeddau creigiog a thywodlyd yn perthyn bron yn gwbl i barthau poeth a thymmerus yr hen fyd. Y mae gwastadeddau America yn cael eu hynodi yn benaf gan eu porfeydd a'u coedwigoedd mawrion. Y mae gwastadeddau Asia o ddau fath. Mewn rhai manau y maent wedi eu britho â phlanigion isel hallt; ac mewn manau ereill, megys Rwssia Ddeheuol, Siberia, a Turkistan, y maent yn orchuddiedig â phlanigion o ddosbarth y cyssoddogion (*compositæ*) a'r peisgwydd (*leguminosæ*); tra y mae y nifer mwyaf o wastadeddau Ewrop wedi eu diwyllio yn rhagorol.

I. *Gwastadeddau Ewrop.*—Mae mwy na dwy ran o dair o arwynebedd cyfandir Ewrop yn un gwastadedd mawr. Cyrhaedda o lanau y Môr Germanaidd hyd odrau mynyddoedd Ural, gan gynnwys Gogledd Ffraingc, yr Iseldiroedd, gogledd Germany, y rhan fwyaf o Prwssia, a'r rhan fwyaf o Poland a Rwssia, hyd ymylon yr Ural. Nid oes ar yr holl wastadedd hwn un codiad tir yn haeddu yr enw bryn. Pe tynid llinell union o Lundain i ddinas Kazan, ar lanau y Volga, byddai bron yn gwbl wastad. Ond heb law hwn, y mae yn Ewrop amryw fân wastadeddau, megys yn Wallachia, Bulgaria, Hungary, a Lombardy, &c. Mae y parth mwyaf o'r gwastadeddau hyn wedi eu diwyllio, a rhai o'r tiroedd y mwyaf cynnyrchiol yn yr holl fyd; megys gwastadeddau Lombardy: ond eto y mae rhai manau sydd fel pe byddent yn herio pob ymdrechiadau dynol i'w diwyllio, megys y tiroedd rhwng y Volga Isaf a'r Ural. Y mae grugdiroedd helaeth yn ymestyn o Silesia Isaf hyd deyrnas Hanover, a therfyn eithaf Jutland. Yn Silesia Isaf, Lusatia, Brandenburg, Pomerania, a Mecklenburg, nid oes odid ddim ond tywod, gydag ychydig fryniau, a llawer o lynoedd. Mae ar lanau Môr y Baltic rai coedwigoedd derw yn tyfu. Y mae y wlad rhwng yr Elbe a'r Weser yn hynod ddiffrwyth, ac yn orchuddiedig â grug, morfeydd, ac ychydig binwydd. Ar orllewin yr Ems, y mae rhanau eang yn orchuddiedig â chorsydd a llynau llonydd: ac yn nhalaeth y Rhine Isaf, yn amgylchoedd Monjoie, rhwng Eupen a Malmedy, y mae tiroedd eang wedi eu gorchuddio â grug. Y mae yn neheudir Ewrop wastadedd tywodlyd eang yn ymestyn rhwng y Gironde a'r Pyrenees.

II. *Gwastadeddau Asia.*—Y mae ar hyd ymylon cyfandir Asia wastadeddau eang ac isel, yn cael eu dyfrhau gan rai o'r afonydd mwyaf yn y byd. Ar y gogledd y mae gwastadedd mawr, rhewllyd, a diffrwyth Siberia, gyda'r afonydd Obi, Yenesei, a Lena. Ar y dwyrain y mae iseldir China, lle y cyferfydd ac yr ymuna dwy gawr-afon yr hen fyd—yr Afon Felen a'r Afon Las—y gefeilliaid a anwyd yn yr un cryd, ac sydd yn dylifo yn mlaen



Digitized by Google

i farw yn yr un cefnfor. Ar y deheu, y mae gwastadedd Hindostan—yn cael ei wlychu gan ddyfroedd yr Himalaya, a ffrydiau cyssegredig yr Indus a'r Ganges. Ar y gorllewin, y mae gwastadedd Turan, gyda'r ddwy afon Gihon a Sihon, a'i foroedd heilltion, y rhai a hawlir gan Asia Orllewinol. Yn y gwastadeddau ffrwythlawn hyn, ac ar lanau yr hen afonydd hyn, y magwyd cenhedloedd diwylliedig boreuaf y cyfandir hwn.

Mae gwastadedd tra phoblog China Ogleddol yn gorwedd rhwng y rhês o fynyddoedd ar y tu dwyreiniol i'r ucheldir mawr a'r Môr Tawel. Y mae iseldir Hindostan yn cynnwys y parth gogleddol o India, rhwng gwastattir y Deccan a Mynyddoedd yr Himalaya. Mae cangenau yr Indus yn dylifo trwy wastadedd eang a elwir y Punjaub. Y mae rhan isaf yr Indus yn rhedeg trwy wastadedd Sinde. Ond y gwastadedd helaethaf yn Asia ydyw gwastadedd mawr Siberia. Terfynir hwn ar y deheu gan ucheldir canolbarth Asia, ac ymestyna oddi yno hyd lanau y Cefnfor Gogleddol; yno y mae yn disgyn yn raddol i'r Tundra, neu y morfeydd sydd ar gyfandir Asia uwch law y 70ain llinell o ledred. Y rhanau hynotaf o'r gwastadedd hwn ydyw yr iseldiroedd a orweddant yn neheu-ddwyrain Ewrop, a'r parth gogledd-orllewin hwnw o Asia a adwaenir wrth yr enw Turkestan, neu Tartary Annibynol, a'r hwn a breswylir gan finteioedd crwydrol y Cossackiaid Kirghizaidd. Cyn darostyngiad y minteioedd crwydrol ar y parthau hyn dan iau Rwssia, yr oedd gan y llywodraeth hono linell o amddiffynfeydd, er cadw y crwydriaid ysbeilgar hyn draw; ond yn awr, y mae gwahanol finteioedd Kirghiz yn cydnabod awdurdod Rwssia, a'u gwahanol benaethiaid yn cael eu talu gan lywodraeth Rwssia. Y mae llawer o'r amddiffynfeydd hyn wedi eu gadael, ac y mae pentrefydd yn awr yn amlhau ar hyd y ffyrdd ar ba rai y teithia Rwssiaid tua Kiachta, ac yn nghyfeiriad rhandiroedd mwngloddiawl Altaï. Trigolion y pentrefydd hyn ydyw unig boblogaeth y gwastadedd. Mae y llwythau crwydrol yn dra lliosog, ac yn symmud eu lle yn barhaus, i'r dyben o ymofyn ymborth i'w lliaws anifeiliaid. Y rhai hyn, ynghyd â'r ysbail a gymmerant trwy ymosodiadau ar y Calmuckiaid ac ereill, yw unig olud y Kirghiziaid.

III. *Gwastadeddau Affrica.* Gellir ystyried canolbarth Affrica, neu y parth hwnw o hono a gyrhaedda tua'r gogledd oddi wrth Fynyddoedd y Lleuad hyd y Sahara, fel iseldir. Yn y gwastadedd hwn y mae gwely y Llyn Chad, a rhan fawr o'r afon Niger. Y mae yn cyfansoddi y parth mwyaf o Negroland: wrth yr hyn y golygir yr holl wlad o gefnfor yr Atlantic hyd ucheldiroedd Abyssinia, ac o derfynau deheuol yr anialwch hyd Lyngclyn Guinea a Mynyddoedd y Lleuad.

IV. *Gwastadeddau America.* Y mae canolbarth America Ogleddol, o Lyngclyn Mexico hyd y Cefnfor Gogleddol, yn un gwastadedd parhaus. Mae y wlad enfawr hon, a gyfrifir gan Humboldt yn 2,430,000 o filldiroedd ysgwâr, yn hynod o amrywiol o ran ei hinsawdd a'i chynnyrch. Y mae dyfr-arllwysfa isel yn ei gwahanu yn rhan ogleddol a rhan ddeheuol. Y mae dyfroedd y gyntaf yn rhedeg i lynoedd Canada, Machwy Hudson, a'r Cefnfor Gogleddol. Rhed dyfroedd yr olaf i wely y Missouri a'r Mississippi, y rhai a ymarllwysant i Lyngclyn Mexico. Mae y rhan ddeheuol yma o'r gwastadedd, yr hon a ddyfrheir gan yr afonydd anferth hyn, yn cynnwys parthau eang di-goed yn orchuddiedig â phorfa. Mae ar hyd yr afon Illinois, ac yn nwyreinbarth y Mississippi, rai gwastat-tiroedd porfaog, yn mesur 1,200,000 o aceri. Ond ar du gorllewinol afon y Mississippi y mae y gweunydd anferth hyn i'w cael yn benaf. Nid ydyw y wlad rhwng yr afon yma a'r mynyddoedd yn un gweundir parhaol; ceir coedwigoedd mewn rhai manau, a chorsydd a llynau mewn manau ereill; tra y mae ar hyd odrau y Mynyddoedd Creigiog anialwch tywodlyd, yn cyrhaedd dros 400 milldir. Am gryn bellder ar bob tu i'r Mississippi, ac yn lled agos i'r mynyddoedd Alleghany a Chreigiog, y mae diffaethdiroedd sychion, porfaog, a digoed. Y mae ar ddeutu y rhan isaf o'r Mississippi goedwigoedd eang o bîn. Y mae o amgylch genau yr afon, ac ar hyd yr arfordir deheu-ddwyreiniol, am amryw filldiroedd, siglenydd eang, a thiroedd tywodlyd a digoed; ac y mae y dyfroedd a ddylifant drwy y parthau deheuol hyn yn orlawn o afangcau *(alligators)*, a chrwbanau. Mae wyneb y dyfroedd yn orchuddiedig â miloedd o ddyfr-adar mudiadol, y rhai a dramwyant yn flynyddol rhwng llynoedd Canada a Llyngclyn Mexico.

Y mae holl ganolbarth America Ddeheuol, o fynyddoedd y Venezuela yn y gogledd hyd Gulfor Magalhaens yn y deheu—pellder o 4,500 o filldiroedd—yn gynnwysedig o un iseldir mawr a pharhaus, heb fod ond ychydig uwch law gwastadedd y môr. Mae y wlad eang hon yn cael ei rhanu gan resi o fryniau isel i dair adran fawr, a phob un yn wely i afon fawr—yr Afon Orinoco yn yr adran ogleddol, yr Amazon yn y ganol, a'r La Plata yn yr adran ddeheuol. Mae y gwastattiroedd ar bob tu i'r afonydd anferth hyn yn cael eu galw Llanos, Selvas, a Pampas.

Llanos, neu feusydd gwastad, yw yr enw ar y gwastadeddau helaeth hyny yn Venezuela a Grenada Newydd, yn mesur 260,000 o filldiroedd ysgwâr, rhwng yr afon Orinoco ar y dwyrain, a Mynyddoedd yr Andes ar y gorllewin. Prif nodwedd y gwastadeddau hyn yw arwynebedd llyfn, heb fod ei uchder mwyaf dros 200 troedfedd. Mor fychân yw y gogwyddiad tua'r môr, fel y mae ychydig gyfodiad yn yr Orinoco, neu hyd yn oed y gwynt, yn ddigon i yru yr aberoedd a redant iddi yn eu hol. Porfa yn benaf sydd yn tyfu ar y Llanos; ac amrywia hwnw o ychydig fodfeddi hyd bedair troedfedd o uchder. Yr unig goedydd a geir yw ychydig o wahanol fathau o balmwydd; ac o amgylch y rhai hyn y mae y tir ffrwythlonaf. Mae gwedd y Llanos yn newid gyda'r tymmorau. Yn y tymmor gwlawog y mae yr holl wlad am gannoedd o filldiroedd wedi ei orchuddio gan ddwfr; ond pan gilia y dwfr, y mae y gwyrddlesni ffrwythlonaf yn ymddangos, a'r borfa ar finion yr afonydd yn tyfu amryw droedfeddi o uchder. Yma yr ymgudd y teigr, er mwyn llamu ar ambell un o'r mulod a'r meirch a borant ar y gwastadedd. Yn y tymmor sych, y mae y Llanos yn debyg i anialwch; y mae y gwres tanbeidiol yn deifio y glaswellt, ac yn rhychu wyneb y ddaear; ac fe orwedd afangcau a seirph mawrion yn guddiedig yn y llaid sych, hyd oni ddeffroir hwynt o'u hir gwsg trwy ddisgyniad cawodydd cyntaf y gwanwyn. Y mae yr afonydd a'r llynau yn llawn o lysywod trydanol, a gwibia gyroedd lliosog o geirw dros y gwastadeddau. Y mae golud mawr y Llanos yn gynnwysedig yn y minteioedd mawrion o wartheg sydd yn pori arnynt.

Mae y Selvas, neu wastadeddau coedwigol yr Amazon, yn gorwedd rhwng yr Andes a'r Atlantic,

Digitized by Google

ac yn cynnwys y gwastadedd eangaf yn y byd. Y mae y wlad helaeth hon wedi ei gorchuddio â choedwigoedd anhygyrch; ac yma a thraw y mae parthau agored o diroedd porfa a morfeydd. Y mae y coedwigoedd yn gynnwysedig o brenau mawrion o amrywiol fathau a maintioli; a gellir cael weithiau ddeg ar hugain neu ddeugain o goed, o wahanol rywogaethau, ar ugain llath ysgwâr o dir. Rhwng y prenau y mae glaswellt, manwydd, a pherthi o wahanol fathau a maintioli yn tyfu, a'r cyfan wedi eu cymmhlethu a'u gwau ynghyd gan liaws o blanhigion ymglymol, a thrwy hyny yn ffurfio rhwydwaith sydd o'r bron yn annhreiddiadwy i ddyn. Y mae yn y manwydd plethedig hyn ychydig o fân agoriadau trwy ba rai y mae y teigrod a bwystfilod gwylltion ereill yn myned at lanau yr afonydd. Y mae yn y coedydd hyn luoedd aneirif o fwncïod; a helir hwynt gan y brodorion, y rhai a sychant ac a fwytânt eu cnawd. Y mae miliynau o adar gyda phob math o blu yn ehedeg ar finion afonydd y gwastadedd hwn hefyd; a dyma diriogaeth fawr y seirph, ac y mae rhai o honynt yn wenwynig.

Y Pampas [gair Indiaidd, yn arwyddo tiroedd gwastad] yw y drydedd adran o wastadedd eangfaith canolbarth a deheubarth America Ddeheuol. Y mae yn gynnwysedig yn benaf o wastat-tiroedd digoed, y rhai a ymestynant o dywottir Campos Parexis am bellder o 2,000 o filldiroedd hyd derfynau mwyaf deheuol y cyfandir; ac o'r Andes hyd yr afon Parana a'r Atlantic. Y mae y rhan ogleddol o'r gwastadedd hwn yn amrywio mewn lled o 280 hyd 460 milldir. Yn y canol, y mae ei led yn 900 milldir: tua'r deheu, y mae yn culhau hyd 240 milldir. Cyfrifir ei arwyneb tuag 840,000 o filldiroedd ysgwâr, neu yn agos i bedwar cymmaint âg arwynebedd Ffraingc. Mae y parthau gogleddol o hono wedi eu britho â choed, corsydd, llynau halen, perthi, a meusydd porfaog; ond fel y dynesir i'r deheu, y mae y coed yn lleihau yn raddol, a thir sych i'w gael yn lle corsydd.

GWATWARGERDD [*gwatwar—cerdd*]. Fe ddefnyddir y gair yn yr Ysgrythyrau bron yn ddieithriad i osod allan wrthddrych y byddo pob edrychydd yn teimlo yn awyddus i estyn bys arno, a chwerthin am ei ben, a'i ddirmygu. Y mae y natur ddynol yn dra gwrthwynebol i bob math o iselhad a dirmyg. Felly pan droseddai Israel, gan wneuthur "yr hyn oedd ddrwg yn ngolwg yr Arglwydd," byddai eu gosod hwynt "yn gyffro, yn syndod, ac yn *watwargerdd*," yn un o'r ceryddon llymaf a allesid weinyddu. Cwyna Dafydd yn fawr o herwydd ei sefyllfa druenus pan wedi ei osod "yn warthrudd i'w gymmydogion, yn watwargerdd ac yn wawd i'r rhai oeddynt o'i amgylch." "Gwatwargerdd," medd Iob, "yw y cyfiawn perffaith." Felly y mae wedi bod yn mhob oes; ac felly y mae etto. Ammhossibl yw i sancteiddrwydd a phechod gydfyw a chydlywodraethu; ac unwaith y caffo pechod y llaw drechaf, ei hoff orchwyl o hyny allan fydd gosod ei wrthwynebydd yn nod i saethau gwenwynig ei wawd a'i ddirmyg: *Ier.* xx. 7; xxiv. 9; *Ezec.* xxii. 4.

GWATWARIAITH, GWAWDIAITH. Gwel RHETOREG.

GWAU. Gwel GWEYDDIAETH.

GWAUDD [*gwa—udd*]: merch ynghyfraith, neu wraig i fab. Yr oedd i ŵr orwedd gyda'i waudd, a thrwy hyny ei halogi, yn cael ei ystyried yn bechod ysgeler dan y gyfraith, a disgynai y gospedigaeth ar y ddwyblaid—"lladder yn feirw hwynt eill dau:" *Lef.* xviii. 15; xx. 12; *Ezec.* xxii. 11.

GWAWD [*gw—awd*]: cân o glod, arwyrain, molawd; hefyd gwatwariaeth a dirmyg. Y mae y gair yn ei ystyr cyntefig yn gosod allan foliant, clod, a dyrchafiad. Dywed Edmund Prys:—

> "O Dduw!
> Canaf it', a dadganaf 'wawd'
> O fawl fy nhafawd ffyddlawn."

Ond arferir ef hefyd, a hyny fynychaf yn awr, pan y bydd geiriau o fawl yn cael eu trawsarfer gyda'r bwriad o iselhau a dirmygu; ac hefyd pan y bydd y geiriau a'r ymddygiad yn tueddu yn uniongyrchol i ddiystyru a darostwng y person y cyfeirir ato. "Wedi eich gwneuthur weithian yn wawd, trwy waradwyddiadau a chystuddiau;" *Heb.* x. 33. Y mae yn debyg fod yr ymadrodd yn y lle hwn yn cyfeirio at arferiad oedd yn "mhlith y Groegiaid a'r Rhufeiniaid, cyn rhoddi troseddwyr i farwolaeth, o'u harwain trwy y chwareufa, ac felly eu gosod yn agored i watwar diystyrllyd a gwaradwyddiadau y dorf." Gwel GWATWARGERDD.

GWAWDRYDD, ANEURIN. Bardd enwog o'r chweched ganrif. Mab Caw, Arglwydd Cwmcawlwyd, ydoedd. Yn ngogledd Lloegr y ganwyd ef—mewn rhyw ran, y mae yn debygol, o'r siroedd a adwaenir yn bresennol dan yr enwau Cumberland a Northumberland. Cymry oedd preswylwyr y parth hwnw o Loegr yn yr oes hono. Tua y flwyddyn 540, ymladdwyd brwydr waedlyd Cattraeth; pryd y trechodd y Saxoniaid y Cymry, fel na ddarfu i fwy na thri, allan o dri chant a thrigain a thri, o'u blaenoriaid ddiangc yn fyw; ac Aneurin oedd un o'r tri hyny. Darfu i weddillion y genedl Gymreig, mewn canlyniad i'r frwydr fawr hono, ymadael yn hollol o ogledd Lloegr, ac ymsefydlu yn mysg eu brodyr yn Nghymru. Cartrefodd Aneurin yn Ngholeg Cattwg, yn Llancarfan, Morganwg; ac yno, o ddeutu y flwyddyn 570, lladdwyd ef âg ergyd bwyell gan elyn iddo o'r enw Eiddin.

Tybia y Dr. Pugh, Iolo Morganwg, ac ereill, mai yr un person ydyw Aneurin a Gildas, mab Caw; ond barna ereill yn wahanol. Gall y neb a chwennycho weled y rhesymau dros ac yn erbyn y dyb hon eu cael yn *Parry's Cambrian Plutarch, Pughe's Cambrian Biography, Iolo MSS*, &c. Y mae amryw o gyfansoddiadau Aneurin ar gael etto; megis, *Y Gwarchau Adebon, Gwarchau Cynfelyn, Gwarchau Tutfwlch, Englynion y Misoedd*, a'r *Gododin*. Y *Gododin* ydyw ei brif waith, a'r cyfansoddiad barddonol hwyaf o waith beirdd y cynoesoedd sydd ar gael. Cynnwysa tua naw cant o linellau.* Bernir i'r llaw-ysgrif hynaf o'r gwaith hwn sydd yn awr ar glawr gael ei hysgrifenu o gylch y flwyddyn 1200. Y mae y *Gododin* yn cael ei wneud i fyny o amryw fesurau. Y mae llawer o ddychymmygion wedi eu cynnyg o berthynas i'w amcan; ac amryw gyfieithiadau, naill ai o'r cyfan o hono, neu o ranau pennodol. Am y cyfieithiadau, y maent, mewn amrywiol fanau, mor wahaniaethol i'w gilydd a phe y perthynent i gynnifer o wahanol gyfansoddiadau ar amryw destynau. Ac am ystyr neu amcan y gwaith, y mae yr un fath anghyttundeb. Rhai a farnant ei fod yn cyfeirio

Digitized by Google

at frwydr neillduol, sef brwydr Cattraeth; ereill a feddyliant mai nid at un frwydr neillduol y cyfeiria, ond at amryw frwydrau; ac ereill mai at y galanastra, a elwir Brâd y Cyllyll hirion, y cyfeiria. Tybir mai geiriau cyfystyr yw *Gododin* ac *Ottadini*:—enw llwyth o bobl yn amser y Rhufeiniaid a breswylient ar gyffiniau yr Alban.

GWAWR—DDYDD [*gwa—awr*]: toriad y dydd; gwron.

"Mawr yw côst gwawr myn delw Garon,
Ac nid mawr yw bôst gwawr gwirion."

"Great is the *hero's* expence by Caron's image! But not great the boast of the innocent *hero*."

L. G. COTHI.

"Ar godiad y wawr," sef y goleuni boreuol: *Gen.* xix. 15. "O gyfodiad y wawr hyd gyfodiad y ser," sef yr holl ddiwrnod: *Neh.* iv. 21. "Pa fodd y syrthiaist o'r nefoedd, Lucifer, mab y wawrddydd?" neu y seren ddydd. Brenin Babilon a feddylir wrth y geiriau "mab y wawrddydd" yn y fan hon. Fel y mae y seren foreu yn rhagori ar y ser ereill yn ei dysgleirdeb a'i heglurder, felly yr oedd brenin Babilon yn mhlith brenhinoedd ereill y byd: ond er ei holl fawredd a'i wychder, efe a syrthiodd; ïe, syrthiodd mor isel fel i beidio a chodi mwy. Dyna hefyd raid fod diwedd holl elynion Duw a'i eglwys. Y mae y gofyniad yn cael ei ofyn gan y prophwyd gyda gwawd, syndod, a gorfoledd. Bernir fod yr ymadrodd hefyd yn cyfeirio at gwymp Satan: *Luc* x. 18. Gwel DYDD.

GWDEN—YN, [*gwd*]: rhefawg, bodrwy, rhaff dorchedig.

"Anhawdd gwahawdd gwynt y'ngwden."

"It is difficult to invite the wind into a ring."

LL. P. MOCH.

Gwden câr; sef, gwiail torchedig, y rhai a ddefnyddiwyd amser yn ol yn lle cadwynau heiyrn. "Pe rhwyment fi â saith o wdyn irion" (*Barn.* xvi. 7); sef, rheffynau wedi eu gwneuthur gyda gïau neu grwyn anifeiliaid.—*Adam Clarke.* Dywed Robinson (y teithiwr) fod rheffynau yn cael eu gwneuthur yn ngwledydd y dwyrain gyda gwiail a manwydd, pa rai ydynt ddigon cryfion i ddal cawrfil yn gaeth a diogel; a barna rhai mai at y rheffynau hyn yr oedd Samson yn cyfeirio.

GWE—YDDIAETH [*gw*]: yr hyn a dynir, neu a anfonir allan. Y mae y ddwy chwaer gelfyddyd o nyddu a gwau mor angenrheidiol i gymdeithas wareiddiedig, fel yr ydym yn cael eu bod wedi dechreu er adeg foreu iawn. Y mae chwedl yn mhlith y Groegiaid am y dywysoges enwog Penelope, merch Icarius o Sparta, a gwraig Ulysses, brenin Ithaca:—trwy anfodd mawr, fe'i gwahanwyd hi oddi wrth ei gŵr; o blegid i'r Groegiaid ei orfodi i fyned i ryfel Troia. Aeth yn brudd ei hysbryd o herwydd hir barhâd y rhyfel. Ond gan na ddychwelodd Ulysses, fel y tywysogion ereill, daeth llu yn fuan i geisio ei pherswadio fod ei long wedi myned yn ddrylliau, ac yntau wedi boddi; ac, wrth gwrs, i gynnyg eu hunain iddi. Yr oedd ei chalon yn dirmygu eu cyfarchiadau; ond hi a wenieithiai iddynt, trwy ddyweyd y dewisai hi un o honynt mor fuan ag y byddai wedi gorphen y teisban oedd ganddi yn ei llaw ar y pryd. Pa fodd bynag, hi a'u cadwai mewn dysgwyliad anghyflawnedig yn barhaus trwy ddattod yn ystod y nos yr hyn a wëasai y dydd. Parhaodd i wneyd hyn hyd oni ddychwelodd ei gŵr, wedi ugain mlynedd o absennoldeb. Y cyfrwysdra hwn a roddodd fod i'r ddiareb am wê Penelope; yr hon a gymmhwysir at unrhyw lafur nas gellir ei orphen. Mae y chwedl hon, ynghyd â'r crybwylliadau mynych a wneir yn y Beibl, yn tueddu i ddangos fod gwneuthuriad lleni o edafedd, blew, &c., yn ddarganfyddiad pur hynafol. Ymddengys, yn wir, iddo ddechreu yn mhob cenedl ar wawriad cyntaf gwareiddiad. Dywed Syr J. G. Wilkinson yn ei lyfr ar "Arferion a defodau yr hen Aiphtiaid," eu bod "yn enwog, er y cyfnod boreuaf, am wneuthur llian a brethynau; ac yr oedd cynnyrch eu gwŷddau yn cael ei brynu gan genhedloedd estronol, a'i gludo i wledydd ereill. Sonir yn fynych am lian main a gwaith brodiedig, edafedd a styffiau gwlân, y wlad uchaf ac isaf, a gwerthfawrogir hwynt yn fawr." Yr oedd llin a chotwm yn cael eu gwau ganddynt. Felly yr ydym yn darllen am y "gwisgoedd sidan" (llian main) a roes Pharaoh am Moses: *Gen.* xli. 42. Mae y geiriau hyn yn dangos fod y gelfyddyd o wau llieiniau wedi cyrhaedd cryn raddau o ddiwylliant. Yn wir, yr oedd yr Aipht yn uchel ei chlod yn mhlith yr Israeliaid o blegid medr llaw-weithfaol ei thrigolion. Y mae Esaiah (*pen.* xix. 9), yn sôn am "y rhai a weithiant feinllin a'r rhai a wëant rwydwaith." Gellir casglu oddi wrth *Ezec.* xxvii. 7, fod y pethau hyn yn arddangos chwaeth a medrusrwydd, pan y dywed, "Llian main o'r Aipht o symmudliw oedd yr hyn a ledit i fod yn hwyl i ti." Dywedir hefyd yn *Diar.* vii. 16, "Mi a drwsiais fy ngwely â lleni, ac â cherfiadau a llieiniau yr Aipht." Os yn yr Aipht y dysgodd yr Hebreaid wau, ymddengys ddarfod iddynt gynnyddu yn y gelfyddyd o honynt eu hunain, a hyny cyn cyrhaedd Gwlad Canaan. Canys yn gymmaint a'u bod yn bwriadu ymsefydlu fel cenedl yn y wlad hono, yr oedd yn naturiol iddynt droi eu sylw at y celfyddydau angenrheidiol; ac yr oedd ganddynt hamdden, yn gystal âg achlysur, yn ystod eu taith trwy yr anialwch, i ymarfer y celfyddydau hyn; a diammheu y rhaid cymmeryd geiriau Moses yn *Exod.* xxxv. 30, &c., fel yn dangos fod y "cyfarwyddyd" a'r "cywreinrwydd" y sonia efe am dano yn rhywbeth a gyfododd yn mhlith y genedl ei hun, ac nid a gafwyd oddi wrth genhedloedd ereill. Y benywod, gan mwyaf, fyddai yn gwau ac yn nyddu yn mhlith yr Israeliaid, fel y gellir casglu oddi wrth *Diar.* xxxi. 13, 19, lle y dywedir am y wraig rinweddol, "Hi a gais wlân a llin, ac a'i gweithia â'i dwylaw yn ewyllysgar. Hi a rydd ei llaw ar y werthyd, a'i llaw a ddeil y cogail." Ni byddai personau o urddas yn edrych ar y swydd yn isel. Dywedir yn *Exod.* xxxv. 25; "A *phob* gwraig ddoeth o galon a nyddodd â'i dwylaw:" gwel hefyd 2 *Bren.* xxiii. 7. Ond nid oedd y gwaith wedi cael ei gyfyngu yn hollol i fenywod yn Palestina fel yr oedd yn cael ei gyfyngu i'r gwrywod yn yr Aipht; ond byddai y dynion hefyd yn cydwau: *Exod.* xxxv. 35. Dywed Hezeciah, "Torais ymaith fy hoedl fel gwehydd;" *Esa.* xxxviii. 12. Mae un esboniwr yn cynnyg yr eglurhad canlynol ar y frawddeg:—fod y gymmhariaeth yn cyfeirio at wëad carped yn llawn o flodau a lluniau cywrain ereill. Felly, fe ddichon mai yr ystyr yw, fod y gwehydd, ar ol gweithio llawer o addurniadau i ryw ddernyn, yn ei dori ymaith yn ddisymmwth, tra yr oedd y lluniau yn ymgodi i'r golwg yn newydd a phrydferth, a'r edrychydd yn disgwyl iddo fyned yn mlaen gyda'i waith. Yr un modd, ar ol llawer o symmudiadau a goruchwyliaethau hyfryd yn ystod bywyd, y mae yn dyfod i ben yn ddisym-

Digitized by Google

mwth ac annisgwyliadwy. Ymddengys, oddi wrth 1 *Cron.* iv. 21, fod yn Israel ddosbarth o feistriaid llaw-weithfaol. Yr oedd y gwŷdd yn eu plith hwy, fel yn mysg cenhedloedd ereill yn yr hen fyd, yn uchel, ac yn peri fod yn angenrheidiol i'r gwëhydd sefyll wrth ei waith.

Mewn cyssylltiad â'r gwŷdd, yr oedd laf, y wennol, *Iob* vii. 6: 2il, y carfan gwehydd, 1 *Sam.* xvii. 7; 2 *Sam.* xxi. 19: ac yn 3ydd, hoel y garfan, *Barn.* xvi. 14. Mae yn anhawdd mesur graddau y medr a gyrhaeddodd yr Hebreaid mewn gweyddiaeth; ond y mae llawer o ymadroddion Ysgrythyrol yn tueddu i ddangos eu bod yn gelfydd, a'u bod yn arfer gwau yn fynych: *Lef.* xiii. 48; *Barn.* xvi. 13; *Esa.* xxxviii. 12. Llin a gwlân a wëid ganddynt. Yn mhlith y diweddaf, rhaid cyfrif blew camelod a geifr, y rhai a ddefnyddid i wneuthur dillad i'r tlodion, a galarwisgoedd: *Exod.* xxvi. 7; xxxv. 6; *Mat.* iii. 4. Rhoddid pris mawr ar wisgoedd wedi eu gwau yn un darn fel na byddai angen am eu pwytho ynghyd. Oddi wrth hyn, y mae gan yr Iuddewon draddodiad na arferid un nodwydd gyda gwisgoedd yr archoffeiriad—yr oedd pob dernyn o honynt wedi ei wau yn gyfan. Teifl hyn oleuni ar yr ymadrodd yn *Ioan* xix. 23, "A'i bais ef oedd ddiwniad"—geiriau a eglurir trwy y rhai sydd yn eu canlyn, "wedi ei gwau o'r cwr uchaf trwyddi oll."

Gyda golwg ar wëyddiaeth yn yr Aipht, y mae Syr J. G. Wilkinson yn dyweyd fod y gwŷddau a gafwyd wedi eu darlunio ar y beddau yn Thebes o wneuthuriad hynod anghelfydd; ond nid yw efe yn meddwl fod hyn yn rhwystr i gynnyrchu llieiniau meinion; canys gwyddys fod yr Hindw hyd y dydd heddyw yn gwneuthur mwslin ardderchog ar ei wŷdd anghelfydd ef. Mewn enghraifft o lian a chwiliwyd gan Mr. Thompson, yr oedd y gwe yn agos a chadarn, ac etto yn bydwyth; yr oedd edafedd yr ystôf (*warp*) a'r anwe (*weft*) yn hynod reolaidd, ac wedi ei wau yn dda; yr oedd yr anwe yn sengl, tra yr oedd yr ystof yn gynnwysedig o ddwy edeu fain wedi eu dyblu ynghyd; a sylwyd, yn yr enghraifft hono, fel ereill, fod nifer yr edafedd i bob modfedd yn yr ystof bob amser yn fwy na'r nifer yn yr anwe—gwahaniaeth nas canfyddir yn gyffredin mewn gwëadau Ewropaidd. Gwnaeth yr un gŵr ymchwiliad i lieiniau Aiphtaidd a ddygwyd i'r wlad hon; a chafodd fod yr ymyl-wëoedd wedi eu gwneyd yn dda—fod nwyddau rhesedig, fel y cotwm-wëoedd rhengog diweddar, yn cael eu gwneyd yn fynych gan yr Aiphtiaid, a bod *indigo* neu "liw glas" yn cael ei ddefnyddio fel un o'r lliwiau. Rhydd Wilkinson ddarluniau wedi eu cymmeryd oddi wrth rai a ganfyddwyd yn Thebes, Beni Hassan, ac Eileithyas, yn gosod allan wehyddion wrth eu gwŷddau. Mewn un enghraifft, ymddengys fod y wŷdd ar ei gorwedd; ac mewn enghraifft arall, y mae yn sefyll yn unionsyth, a'r anwe yn cael ei yru tuag i fyny; ac ymddengys oddi wrth y darluniau a roddir o bump o wahanol fathau o wennolau eu bod yn gyffredin tua hanner llath o hyd.

Y mae yn ymddangos fod gwëyddiaeth yn cael ei dwyn yn mlaen fel masnach ar ei phen ei hun yn y trefydd mawrion yn mhlith y Groegiaid a'r Rhufeiniaid, er yn lled foreu; ond yr oedd yn mhob tŷ lled fawr wŷdd, wrth ba un y gweithiai benywod y teulu; canys fe gyflawnid y gwaith hwn yn gyffredin gan y caethion benywaidd, gyda'r feistres a'i merched yn arolygu. Byddai ystafell yn cael ei neillduo at hyn mewn tai mawr. Yr oedd y Groegiaid a'r Rhufeiniaid yn wahanol i'r Aiphtiaid yn hyn, yn gymmaint ag mai benywod a gyflawnent y gwaith yn eu plith. Yr oedd y gwarleni (*shawls*) a ddygid weithiau i'r temlau wedi eu gwau gan wragedd. Weithiau, gwëid hwynt gan y gwragedd oeddynt yn dal perthynas â'r temlau mwyaf cyfoethog; ond brydiau ereill, gan rai heb fod mewn un cyssylltiad â hwynt. Fel hyn, byddai yr un ar bymtheg benyw oedd yn cydfyw mewn adeilad a berthynai iddynt yn Olympia, yn gwau gwarlen newydd bob pum mlynedd, i gael ei harddangos yn y campau a chwareuid er anrhydedd i Hera, y rhai oeddynt i gael eu cadw yn ei theml hi. Y mae Plato yn crybwyll am un gwahaniaeth pwysig oedd rhwng yr ystof a'r anwe; sef, bod edafedd y blaenaf yn gryf a chadarn, o herwydd eu bod wedi eu cordeddu yn fwy pan yn cael eu nyddu; tra yr oedd edafedd yr anwe i raddau yn agored a meddal—ffaith sydd yn parhau hyd heddyw. Y mae Mr. Yates (mewn erthygl a ysgrifenodd i'r *Dictionary of Greek and Roman Antiquities*, gan Dr. Smith), yn rhoddi darluniau er dangos y cyfattebiaeth sydd rhwng yr hen wŷdd Groegaidd â'r gwŷdd Icelandaidd diweddar—yn mhob un o ba rai y mae edafedd yr anwe yn unionsyth tuag i fyny; tra y maent yn ngwŷddau diwygiedig amseroedd diweddar bob amser ar eu gorwedd. Diau fod y Groegiaid yn deall cryn lawer o'r hyn a elwir yn "gerio y gwŷdd;" hyny yw, trefnu llinynau yn y fath fodd ag i wahanu edafedd yr ystof i ddau neu ragor o gnudiau (*groups*), rhwng y rhai y rhoddir yr anwe. Wedi i'r anwe gael ei daflu, yr oedd yn cael ei guro i fyny at ei gilydd, naill ai â math o gwlbren, neu grib; pob un o ba rai sydd wedi eu cyfuno yn y peithyn sydd ynglŷn â'r wŷdd ddiweddar. Yr oedd y llieiniau croesfarog a gynnyrchir trwy fod edafedd yr anwe o wahanol liwiau, a'r rhesi a wneir trwy fod yr anwëoedd yn amryliw, yn adnabyddus i'r Groegiaid a'r Rhufeiniaid; megys hefyd yr oedd lliaws o fathau o wëadau ffansïol a wneid trwy y ddau fodd hyn wedi eu cyfuno. Dywed Mr. Yates:—"Cyn belled ag y gallwn farnu oddi wrth iaith a disgrifiadau yr hen awduron, nid ymddengys fod cynnyrchion y gwŷdd yn yr hen amseroedd nemawr, os dim, yn is mewn prydferthwch ac amrywiaeth na Damask-weoedd, gwarleni, a theisbanau yr oes hon."

Os cadwn ein golwg ar y manylion uchod, gan sylwi yr un pryd ar ddull y gwehydd Hindŵaidd, bydd genym fantais i ffurfio barn am wëyddiaeth pob oes a gwlad, cyn belled ag y mae yn gwahaniaethu oddi wrth y dull Ewropaidd diweddar o wau. Mae y gwehydd Hindŵaidd yn cymmeryd ei safle dan y coed, lle y mae yn estyn edafedd yr anwe rhwng dau rolyn bambw, y rhai sydd wedi eu sicrhau wrth y llawr â dau bin pren. Y mae yn cloddio twll yn y ddaear digon mawr i gynnwys ei goesau pan yn eistedd; ac yna, gan grogi ar gangen o bren y llinynau fyddant wedi eu bwriadu i godi a gostwng edafedd y manwe, y mae yn gosod yn y gwaelod ddwy ddolen i flaenau ei draed; yr hyn sydd yn atteb dyben y troedlathau genym ni. Y mae ei wennol ef hefyd yn atteb yn lle peithyn. Dyna'r holl drefniadau. A'r offerynau anghelfydd hyn y gwëir yn mron yn holl bentrefydd India. Yn awr, ni a roddwn ddisgrifiad byr o un o'r dulliau diweddar o wau yn Ewrop; a chaiff hyny wasanaethu er dangos y cynnydd a'r gwelliant sydd wedi bod ar ddull yr hen amseroedd, a gwledydd paganaidd y dyddiau hyn.

Digitized by Google

Cymmerwn yr hyn a elwir "gwau plaen;" hyny ydyw, gwead pob math o ddarnau, pa un bynag ai sidan, cotwm, gwlân, neu lian, yn y rhai y bydd edafedd yr anwe yn plethu yn rheolaidd âg edafedd yr ystof, heb gynnyrchu rhesi na ffugrau. Y mae calico a sidan plaen yn enghraifft deg o'r math yma o wau. Ond i ni chwilio un o'r rhai hyn, ni a gawn fod yr edafedd sydd yn rhedeg ar draws yn myned dan a thros yr edafedd hir bob yn ail, heb fod un o'r edafedd croes yn myned dros na than ddwy o'r edafedd hir gynnifer ag unwaith. Yn iaith y gwehydd, gelwir yr edafedd sydd ar hyd y gwŷdd yn *ystof*, a'r edafedd sydd ar draws yn *anwe*. Y mae yr ystof bob amser ynglŷn wrth y gwŷdd, neu yr offer gwau; tra y mae yr anwe yn y wennol—offeryn bychan ar lun cwch, gyda gwerthyd yn troi oddi mewn iddo. Gorchwyl hawdd yw gosod yr anwe ar y werthyd; ond y mae trefniad yr ystof yn y gwŷdd yn waith pwysig. Y peth cyntaf a wneir yw gosod y nifer angenrheidiol o edafedd ynghyd er ffurfio lled y llian: gelwir hyn yn *ystofi*. Tybier fod 1,000 o edafedd yn lled dernyn o lian; yna, rhaid i'r edafedd, fel y daw ar y dyrwynod (*bobbins*) o law y nyddwr, gael ei ddad-ddirwyn, a'i estyn allan fel ag i ffurfio mil o hydau; a'r rhai hyn wedi eu gosod yn gyfochrog sydd yn cyfansoddi ystof y llian sydd i gael ei wneud. Yr hen ddull oedd tynu yr edafedd ar ei hyd oddi ar y dyrwynod mewn maes agored; ac fel hyn y gwneir etto yn India a China; ond y mae hinsawdd Ewrop yn rhy ansicr i ddull fel hwn; ac felly, fe ddyfeisiwyd y "ffrâm ystofi." Ffrâm bren fawr ydyw hon wedi ei gosod i fyny yn unionsyth gyda'r mur, gyda'i dwy ystlys yn llawn o dyllau, yn y rhai y rhoddir pinau coed, er dal y cnudau edafedd. Y mae yr ystofwr, ar ol gosod y dyrwynod a'r edafedd mewn ffrâm gerllaw, yn rhwymo holl benau yr edafedd ynghyd, ac yn eu sicrhau wrth un o'r pinau; yna, gan gasglu yr holl edafedd yn ei law, y mae yn cerdded i'r pen arall i'r ffrâm, lle y mae yn rhoddi yr edafedd dros y pin pennodol. Y mae yn cerdded o'r naill ben i'r ffrâm i'r llall, gan roddi y cydgasgliad o edafedd sydd yn ei law ar y pin bob tro, hyd oni bydd wedi tynu oddi ar y dyrwynod ddigon o edafedd i ffurfio yr ystof. Ond y mae y dull hwn, er ei fod yn cael ei arfer mewn rhai manau, wedi gorfod rhoddi ffordd i'r "felin ystofi," yr hon sydd yn offeryn llawer mwy cyfleus.

Pan y bydd yr ystof yn barod ar y felin ystofi, y mae yr ystofwr yn ei gymmeryd ymaith, ac yn ei ddirwyn o amgylch darn o bren, neu yn belen, fel rhagbarotoad i'r gorchwŷl o garfanu, neu ddirwyn yr edafedd am garfan y gwŷdd. Wrth wneyd hyn, gofelir am i'r edafedd fod mor reolaidd ag sydd bossibl ar y garfan; a defnyddir dadrysydd neu grib er eu gosod yn gyfochrog, ac i'w lledu allan i led pennodol y llian. Yna, fe wneir parotoadau at "dynu trwy yr offer," neu gyssylltu edafedd yr ystof wrth ranau neillduol o'r wŷdd. Meddylier am wŷdd yn ei ffurf symlaf, fel ffrâm bedwar-troed uchel. Ar draws, rhwng dau o'r traed, y mae y carfan yn troi ar ei echel. O amgylch hwn y gosodir edafedd yr ystof, ac estynir hwynt allan yn ddalen wastad tua'r pen arall i'r ffrâm. Yn y pen hwnw y mae dwy res o linynau, o'r un rhifedi bob un ag edafedd yr ystof, yn crogi i lawr, ac yn cael eu cyssylltu â chortyn wrth y troedlathau. Gelwir y ddwy res neu ddalen hyn o linynau yn "beisiau." Tua chanol pob un o linynau y peisiau y mae llygad bychan; a thrwy bob llygad, tynir un o edafedd yr ystof. Dyna elwir yn "dynu trwy yr offer." Y mae y naill hanner o edafedd yr ystof yn myned trwy y llygaid yn un bais, a'r hanner arall trwy lygaid y bais arall—hyny yw, bob yn ail edaf. Gan fod y peisiau wedi eu cyssylltu trwy gortyn yn rhedeg dros ddau chwerfan (*pulley*) yn y top yn y fath fodd, fel pan wesgid un i lawr âg un o'r ddwy droedlath yn y gwaelod, y codid y llall i fyny, y mae yr ystof yn cael ei wahanu felly oddi wrth eu gilydd yn ddwy gyfran—y naill uwch ben y llall, gan ffurfio math o agorfa ar draws yr ystof. Gelwir hyn "parthiad y droedlath;" o blegid mai trwy wasgiad un o'r ddwy droedlath i lawr y ffurfir ef. Drwy yr agoriad neu y parthiad hwn y mae y gwehydd yn taflu y wennol.

Y mae tri o symmudiadau yn dilyn pob un o edafedd yr anwe a deifl y gwehydd gyda'r wennol ar draws yr ystof drwy yr agoriad hwn. Yn y lle cyntaf y mae yn gwasgu un o'r ddwy droedlath i lawr, a thrwy hyny fe ostyngir y naill hanner o edafedd yr ystof i lawr, ac fe gyfodir y llall, er ffurfio y parthiad fel y mynegwyd. Yn yr ail symmudiad y mae yn taflu y wennol gydag edaf yr anwe drwy y parthiad gyda digon o rym i'w yru ar draws yr ystof. Wedi hyny, yn y trydydd symmudiad, y mae yn cymmeryd gafael yn y peithyn, yr hwn sydd fath o ffrâm fechan oddi fewn i'r llall, gyda dannedd ar ei hymyl isaf, o'r un nifer ag edafedd yr ystof; a chyda'r offeryn hwn y mae yn gwasgu edaf yr anwe yn dŷn at y rhai a daflwyd o'r blaen. Yn awr, dyna fe wedi gorphen gydag un o edafedd yr anwe; yna y mae yn myned yn mlaen i daflu un arall mewn modd cyffelyb, ond o'r ochr gyferbyniol; hyny yw, trwy wasgu y droedlath aswy, yn lle y ddeheu, a thaflu y wennol o'r tu aswy i'r deheu, yn lle o'r deheu i'r aswy. Yn y dull mwyaf cyffredin o wau fe deflir y wennol yn ol ac yn mlaen â'r ddwy law bob yn ail; ond ychydig dros ganrif yn ol fe ddyfeisiodd John Kay yr "hêd-wennol," wrth yr hon y mae llinyn a charn wedi eu gosod yn y fath fodd fel y gall y gwehydd weithio y wennol y ddwy ffordd gydag un llaw.

Wrth wau sidan plaen, calico, a gweadau ereill o led canolig, y mae dwy bais a dwy droedlath. Wrth wau darnau lletach, megys llawrlieiniau, y mae y peisiau a'r troedlathau yr un mor syml, ond fod mwy o egni a nerth yn angenrheidiol er taflu y wennol, gan fod y lled weithiau yn gymmaint ag wyth llath. Ond wrth wau pethau culion, megys ribanau, &c., byddai cryn lawer o wastraff ar nerth ac amser, pe na byddai ond un wennol yn cael ei thaflu bob tro ar draws rhyw ddwy neu dair o fodfeddi. Er cyfarfod â hyn fe ddyfeisiwyd math o wŷdd a elwir y "peirian-wŷdd," yn mha un y mae amryw wennolau yn gweithio amryw wëadau ar yr un pryd.

Heb law y "gwau plaen" yr ydym wedi rhoddi disgrifiad byr o hono uchod, y mae amryw fathau ag y buasai yn ddyddorol ar ryw gyfrifon i ymdrin â hwynt; megys gwëadau patrynol, dwbl, croes, cadwynog, &c.: ond fe ddigona yr hyn a ddywedwyd i ddangos y gwahaniaeth rhwng y dull Ewropaidd o wau a dulliau yr hen amseroedd, a'r rhai a arferir hyd heddyw yn mhlith cenhedloedd paganaidd y byd.

Yr ydym wedi cyfyngu ein hunain yn y disgrifiad uchod yn hollol at y gwŷdd a weithir â'r llaw a'r troed. Erbyn hyn y mae yr hen drefn wedi gorfod rhoddi lle i welliantau mawrion, yn

Digitized by Google

enwedig trwy gymmhwysiad ager at y gelfyddyd. O hyn i'r diwedd ni a adroddwn yn fyr hanes y cynnydd sydd wedi cymmeryd lle ynglŷn â gwëyddiaeth yn yr ystyr hwn.

Yn y *Philosophical Transactions* am 1678, fe ddisgrifir gwŷdd, o ddyfais M. de Gennes, fel "peiriant newydd i wneuthur llian heb gymhorth celfyddydwr," trwy arfer dwfr fel gallu ysgogol. Manteision y peiriant oeddynt: "1. Y bydd i un felin weithio deg neu ddeuddeg o'r gwŷddau hyn. 2. Y gellir gwneuthur y llian o ba led bynag a ddewisir, neu o leiaf yn llawer lletach na dim a wnaed hyd yma. 3. Y bydd llai o gylymau yn y llian, gan na thyr yr edafedd mor gyflym ag mewn gwŷddau ereill, am nas gall y wennol sydd yn tori y rhan fwyaf o honynt byth gyffwrdd â hwynt. Mewn gair, fe ddygir y gwaith yn mlaen yn fwy cyflym ac ar lai o gôst; o blegid, yn lle yr amryw weithwyr sydd yn angenrheidiol er gweithio llieiniau mawrion, fe wna un bachgen y tro i rwymo edafedd amryw o wŷddau mor aml ag y torant, ac i alw am yr anwe i'r gwennolau." Y mae y disgrifiad hwn yn gosod allan yn hynod dda ragoriaethau gall-wŷdd (*power-loom*) y dyddiau presennol; ond nid oes genym un sicrwydd fod peiriant De Gennes erioed wedi dyfod i arferiad. Yn ystod y ganrif ddiweddaf, dyfeisiodd M. Dolignon, M. Vaucanson, Mr. Austin, a Mr. Miller, wŷddau, i'w gweithio gan ddyrwynlath, neu ddwfr, neu ryw ddull mwy hyrwydd na'r hen drefn gyda llaw. Fe roddwyd y gall-wŷdd gyntaf at wau defnyddiau cotwm i fyny gan Mr. Austin yn ngweithdy Mr. Monteith, gerllaw Glasgow, yn 1798; ond yr oedd peiriant arall wedi cael ei ddyfeisio cyn y pryd hwnw—hanes pa un sydd yn rhyfedd a dyddorol.

Digwyddodd fod y Parch. Dr. Cartwright, yn 1784, yn ymddiddan â rhyw foneddwr ynghylch peiriant nyddu Arkwright. Sylwyd, mor fuan ag y byddai breinteb Arkwright wedi dyfod i ben, y byddai cynnifer o felinau yn cael eu cyfodi, a chymmaint o gotwm yn cael ei nyddu, fel na byddai modd cael digon o ddwylaw i'w wau. Attebodd Cartwright y byddai raid i Arkwright felly ddyfeisio peiriant gwau; ac fe ymddengys i'r syniad a awgrymwyd fel hyn ganddo afaelyd yn dyn yn ei feddwl; canys yn fuan wedi hyny efe a geisiodd ffurfio peiriant i efelychu y tri symmudiad wrth wau. Llwyddodd i gynnyrchu peiriant, yr hwn a freintebodd yn 1785; ac un arall, am yr hwn y derbyniodd freinteb yn 1787. Ceisiodd sefydlu gweithfa i wau gyda'r gall-wŷdd yn Doncaster, ond methodd. Ymdrechodd Meist. Grimshaw hefyd osod peiriannau Cartwright ar waith yn Manchester; ond methasant hwythau drachefn o herwydd amryw achosion. Wedi llawer blwyddyn o lafur, derbyn llawer o freintebau, a gwario 40,000p., fe orfodwyd Dr. Cartwright, yn y flwyddyn 1802, i ofyn am ryw gymmaint gan y senedd yn ad-daliad am ei golled a'i ymdrechion. Caniatawyd iddo 10,000p. Un achos oedd yn peri fod y gall-wŷdd cyhyd heb ei fabwysiadu ydoedd yr angenrheidrwydd am attal y peiriant yn fynych, i'r dyben o rwbio edafedd yr ystof â rhyw fath o sudd llysieuol er eu gwneud yn wydn a llyfn. A chan fod yn angenrheidiol cadw dyn er gofalu am hyn, nid oeddid yn gallu arbed cost. Yn y flwyddyn 1801, fe lwyddodd Mr. Radcliffe, perchenog gweithfa gotwm yn Stockport, ynghyd â gweithiwr iddo o'r enw Thomas Johnson, i ddyfeisio offeryn i gyfarfod â'r diffyg hwn; sef y peiriant rhwbio rhagorol a arferir mewn gweithfeydd diweddar, gyda'r hwn y rhwbir yr ystof cyn ei roddi yn y gwŷdd. Fe wnaeth Mr. Horrocks, a Mr. Marsland, y ddau o Stockport, welliantau ereill yn fwy diweddar, y rhai a ddygasant yr agerbeiriant i arferiad cyflawn ynglŷn â gwëyddiaeth. Y mae y diweddar Mr. Roberts, o gwmpeini Sharp a Roberts, Manchester, peiriannydd enwog o sir Drefaldwyn o enedigaeth, wedi dwyn y gall-wŷdd yn ddiweddarach i gyflwr uchel o berffeithrwydd. Tua 29 mlynedd yn ol, fe gafodd Mr. Baines allan, oddi wrth gyfrifon Meistri Cleland, Kennedy, Greg, Bannatyne, ac ereill, fod y pryd hwnw 85,000 o all-wŷddau yn Lloegr, a 15,000 yn Ysgotland; a sylwai nad oedd un prawf fod gwŷddau llaw yn lleihau dim, er fod gall-wŷddau yn cynnyddu yn gyflym mewn rhifedi bob blwyddyn. Yr oedd niferi y rhai blaenaf, ar amrywiol adegau rhwng 1824 a 1833, yn cael eu cyfrif o ddau i dri chan mil. Hyd y flwyddyn 1833, yr oedd gwau gyda'r gall-wŷdd yn cael ei gyfyngu at *calico* a *fustian*; ond wedi hyny fe'i defnyddiwyd at wau pob math o nwyddau ereill.

Y mae un ddyfais ddiweddar mewn gwëyddiaeth sydd yn deilwng o sylw. Y mae yr egwyddor yn gadarn, er na chafwyd etto fe allai feistrolaeth ddigonol ar y manylion peiriannol er ei gweithio allan. Y mae M. Bonelli wedi dyfeisio gwŷdd trydanol, yr hon a ddisgrifiwyd gan Dr. Faraday yn y *Royal Institution*, a chan Mr. Le Neve Foster yn y *Society of Arts*. Yn y flwyddyn 1844, fe roddwyd gwobr y *Society of Arts* i Mr. Riding am welliantau pennodol yn mheiriant Jacquard. Tynodd y mater sylw M. Bonelli, peiriannydd Italaidd a chyfarwyddwr cyffredinol y pellebrau Sardiniaidd. Treuliodd amser maith mewn astudio egwyddor a manylion peiriant trydanol, yr hon a allai wneud heb y cardiau angenrheidiol yn ngwŷdd Jacquard pan yn gwneud nwyddau addurnedig. Wedi gorphen ei ddyfais, efe a'i dygodd i Loegr yn 1859. Dywed y dyfeisydd y bydd dwy gell o gluder trydanol Bunsen, gyda gwerth ceiniog yn y dydd o sylweddau fferyllol, yn ddigonol i'w gweithio. Ni chostia yr holl beiriant ond 20p. Yn ol cyfundrefn Jacquard, bydd yn angenrheidiol weithiau, gyda rhyw ddernyn o *ddamask* cywrain, gael 4000 o gardiau a 400 o wifrau, yn costio 24p., a phum wythnos o lafur dyn er ei osod i fyny. Yn ol cyfundrefn Bonelli, fe ddywedir na bydd y gost ond 6p., a llafur un wythnos. Fe welwyd cynllun Jacquard yn cymmeryd 20,000 o gardiau, gwerth 150p., a llafur cyfartal i flwyddyn gyfan i un dyn; ond yn ol trefn Bonelli, gellid gwneud y ffugrau angenrheidiol am 26p., ac mewn un mis o amser. Y mae amryw fanteision pwysig yn cael eu cyssylltu â'r ddyfais hon rhagor yr hen gynlluniau, ond amser yn unig a ddengys pa fanteision sydd yn perthyn iddynt.

GWEDDI [*gwedd*]: erfyniad neu ddeisyfiad ar Dduw; naill ai yn y meddwl, neu trwy arfer geiriau am bethau cyfreithlawn ac angenrheidiol i ni ein hunain, neu i ereill. Gallwn wneuthur pob peth da—pa un bynag ai ysbrydol ai tymmorol—ag sydd yn unol âg ewyllys Duw yn ei Air, yn destyn gweddi. Yn Ngweddi yr Arglwydd, yr ydym yn cael ein cyfarwyddo i ofyn am ein "bara beunyddiol," yn gystal ag am "faddeuant o'n pechodau." Y mae gweddi yn gynnwysedig mewn cyfarchiad; *Salm* v. 2: cyflwyniad o barch ac addoliad; 2 *Cron.* xx. 6: cyfaddefiad; *Ezra* ix. 6: deisyfiad; *Salm* vii. 1: dadl; *Jer.* xii. 1: hunan-gyflwyniad i'r Arglwydd; *Salm* lxxiii. 25:

Digitized by Google

diolchgarwch; *Salm* cxlvii; 1 *Tim.* ii. 1: a bendithiad; *Salm* ciii. 20—22. Mae yr holl ranau hyn yn gyssylltiedig â'u gilydd mewn gweddi; canys os galwn yn gywir ar enw yr Arglwydd, nis gallwn lai na meddwl am ei fawredd a'i ogoniant, ac ymostwng ger ei fron, a'i addoli. Os addolwn ef, dygir ni i deimlo ein annheilyngdod, ac i gyfaddef ein pechodau. Os cyfaddefwn ein pechodau yn edifeiriol, byddwn hefyd yn gwneyd defnydd ffyddiogo addewidion y Beibl fel dall am faddeuant o honynt. Ac os teimlwn fod ein pechodau yn cael eu maddeu, byddwn yn sicr o gyflwyno ein hunain, gyda chalonau diolchgar, i wasanaeth yr Arglwydd.

Y disgrifiad a roddir yn y Beibl o weddi fel amlygiad o deimlad tu mewnol yr enaid ydynt—"nesau at Dduw;" *Salm* lxxviii. 28; *Heb.* x. 22: "tywallt yr enaid ger bron yr Arglwydd;" 1 *Sam.* i. 15; *Salm* lxii. 8: "dyrchafu yr enaid at Dduw; *Salm* xxv. 1; *Galar.* iii. 41: "ymbil â'r Arglwydd;" *Exod.* xxxii. 11: "ymgynghori â Duw;" *Iob* v. 8: "gwaeddi i'r nefoedd;" 2 *Cron.* xxvii. 20: "ceisio wyneb Duw;" *Salm* xxvii. 8. Yr agweddau allanol wrth weddïo yn mhlith yr Iuddewon oeddynt—"sefyll;" 1 *Bren.* viii. 54; *Ezra.* ix. 5; *Dan.* vi. 10; 2 *Cron.* vi. 6: "plygu gliniau;" 1 *Bren.* viii. 54; *Ezra* ix. 5; *Dan.* vi. 10; 1 *Cron.* vi. 13; *Luc.* xxii. 41: "lledu dwylaw at yr Arglwydd;" *Exod.* ix. 29; 1 *Bren.* viii. 22; 2 *Cron.* vi. 12, 29: "eistedd ger bron yr Arglwydd;" 2 *Sam.* vii. 18: "syrthio ar y ddaear;" 1 *Sam.* xxv. 24; 2 *Bren.* iv. 37.

Y mae gweithrediadau calon dduwiolfrydig tuag at Dduw weithiau yn cymmeryd y ffurf o fawrhau a bendigo enw Duw; bryd arall, o foliannu a chyflwyno diolchgarwch iddo; bryd arall, o ymddigrifo ac ymorfoleddu yn ei gariad; a phryd arall, o erfyn am ei drugaredd. I'r hwn sydd yn gydnabyddus âg ochenaid y galon, y mae pob dymuniad sanctaidd yn meddu ar hanfod a nerth gweddi. Gweddi, gan hyny, ydyw cyflwyniad o ddymuniadau y galon at Dduw heb, neu trwy, eiriau. Y mae gweddi yn cynnwys "ymadroddion y genau" a "myfyrdod y galon;" *Salm* xix. 14. O'r galon y mae pob dymuniadau sanctaidd yn tarddu. Gweddi ydyw dyrchafiad y galon a'r meddwl oddi ar y ddaear i'r nefoedd at Dduw. Yn y ffurf erfyniol, y mae gweddi yn golygu, yn gyntaf, angen yn y gweddïwr; yn ail, teimlad o'r angen; yn drydydd, awyddfryd cryf i gael gwaredigaeth oddi wrtho; ac yn bedwerydd, hysbysiad o'n dymuniad ger bron Duw; nid am y byddai efe heb hyny yn anwybodus o'n anghenion, ond am ein bod yn credu nas dichon dim daioni ddyfod i ni ond trwy ei nerth hollalluog ef; ac hefyd, am ein bod felly yn dangos ein bod yn ei anrhydeddu ef megys Duw.

Y mae *possiblrwydd gweddi* yn gorphwys ar fod Duw yn Fod personol, ysbrydol, hollalluog, a hollwybodol; ac ar ein bod ninnau wedi ein creu ar ei ddelw, ac o ganlyniad yn meddu cymmhwysder naturiol i gymdeithasu âg ef.—Y mae possiblrwydd *gwrandawiad* gweddi yn gorphwys ar gyfryngdod Crist, ac ar ei ymddangosiad ar sail ei aberth ger bron Duw trosom ni: *Ioan* xiv. 6; *Rhuf.* v. 2; *Heb.* iv. 16; ix. 24; x. 19. Ni a welwn *briodoldeb* gweddi yn ei pherthynas â Duw; o herwydd y mae dyn wrth beidio gweddïo yn ysbeilio Duw o'r anrhydedd a berthyn iddo, ac yn ei wneuthur ei hun yn dduw: yn ei pherthynas â dyn ei hun; o herwydd ei ddibyniad, ei bechadurusrwydd, a'i anghenion. Iaith pechadur wrth weddïo ydyw, nad oes creadur yn yr holl fyd a all roddi cynnorthwy iddo; "Yr Arglwydd yw fy nghraig, a'm hymddiffynfa, a'm gwaredydd; fy Nuw, fy nghadernid, yn yr hwn yr ymddiriedaf; fy nharian, a chorn fy iachawdwriaeth, a'm huchel-dŵr. Galwaf ar yr Arglwydd canmoladwy: felly y'm cedwir rhag fy ngelynion;" *Salm* xviii. 2, 3. Y mae dyn wrth ysbeilio Duw o'i anrhydedd trwy beidio galw arno yn ysbeilio ei hun o'r fendith, sef bywyd yn dragywydd. Y mae yr Hen Destament a'r Newydd, o ganlyniad, yn llawn o annogaethau i weddi; a hyny i ddynion yn mhob sefyllfa: *Salm.* l. 15; *Esa.* lv. 6; *Mat.* vii. 7; vi. 9; *Luc.* xviii. 1.; *Ioan* xvi. 24; *Rhuf.* xii. 12; 1 *Thes.* v. 17; *Eph.* vi. 18. Y mae hanes *gwrandawiad gweddi* yn y Beibl, ynghyd â hanes yr eglwys yn mhob oes, yn annogaeth pellach i'r un ddyledswydd. Y mae gweddi, i fod yn llwyddiannus, i gael ei chyflwyno mewn *ffydd.* Y mae pob pechod, yn enwedig y pechod o anghrediniaeth, yn cau y ffordd at orsedd gras: *Diar.* i. 28, 29; *Salm.* lxvi. 18; *Iob* xxvii. 8—10; *Esa.* i. 15; lix. 2. Nid yw gweddi neb yn gymmeradwy os bydd ei berson yn wrthodedig; ac nid ydyw person neb yn cael ei dderbyn i ffafr Duw ond trwy ffydd; o ganlyniad, rhaid i'r neb y byddo ei weddi yn dderbyniol weithredu ffydd yn Nghrist. Gan fod Duw yn gwrthwynebu y beilchion, ac yn rhoddi gras i'r rhai gostyngedig (1 *Pedr* v. 5), y mae *gostyngeiddrwydd* yn angenrheidiol mewn gweddi gymmeradwy. Y mae hyn i'w weled yn esampl Abraham: *Gen.* xviii. 27; *Dan.* vi. 10: y canwriad; *Mat.* viii. 8: ac yn enwedig yn ngweddi y Gwaredwr yn Gethsemane; *Mat.* xxvi. 39. Gweddi yn *enw Crist* yn unig sydd yn gymmeradwy; "A pha beth bynag a ofynoch yn fy enw i, hyny a wnaf;" *Ioan* xiv. 13; xvi. 23, 26. Gweddïo yn enw Crist yw gweddïo, nid yn ein henwau ein hunain—nid gan ddisgwyl gwrandawiad ar gyfrif unrhyw ragoriaeth ynom ein hunain—ond mewn ymddiried y bydd i'r Tad ein derbyn, a'n gwrandaw ar gyfrif haeddiant ei Fab. Ond y mae gweddïo yn enw Crist yn cynnwys yn *ail,* gweddïo yn unol â meddwl Crist—yn unol â'i ewyllys ef; "A hyn yw yr hyfder sydd genym tuag ato ef; ei fod ef yn ein gwrando ni, os gofynwn ddim yn ol ei ewyllys ef;" 1 *Ioan* v. 14. Y mae rhai wedi gosod mwy o arbenigrwydd ar *haeddiant* Iesu Grist nag ar *ewyllys* Crist yn yr ystyr o weddïo yn ei enw ef; tra y mae ereill yn deall, wrth weddïo yn enw Crist, gweddïo yn unol â meddwl ac ewyllys Crist. Ond y mae y ddau—sef *ffydd* yn haeddiant Crist, a dylanwad *sancteiddiol* y ffydd hono yn anysgaradwy. Y mae ffydd yn disgwyl am dderbyniad i weddi ar sail haeddiant Crist; ond y mae yr un ffydd yn sancteiddio pechadur, ac yn ei ddwyn i weddïo yn unol âg ewyllys Crist. Y mae y naill yn brawf o ddidwylledd y llall; ac y mae y ddau yn gynnwysedig mewn gweddïo yn enw Crist. Y mae rhai wedi deall yr ymadrodd hwn mewn ystyr mwy cyfyng etto; sef, am weddi mewn *cyssylltiad â llwyddiant teyrnas Crist.* Dywedant nad yw y Gwaredwr yn yr addewid—"Os gofynwch ddim yn fy enw i, mi a'i gwnaf"—yn addaw dim pellach nag attebiad i'w gweddïau am lwyddiant ei deyrnas. Os cyfyngir hyn at amgylchiadau neillduol teyrnas Crist mewn ystyr gaeth, y mae yn gwneuthur cam âg eangder geiriau yr addewid—"Beth bynag a ewyllysioch;" *Ioan* xv. 7; "Beth bynag a'r a ofynant;" *Mat.* xviii. 19. Ond os deallir teyrnas Crist yn ei hystyr eangaf, fel yn cynnwys pob peth sydd dan awdurdod Crist, y mae hyn yn gadael yr ystyr mor eang ag o'r

Digitized by Google

blaen. Y mae De Wette yn cyfyngu yr addewid at yr apostolion yn eu llafur apostolaidd a'u hymdrechiadau dros ledaeniad teyrnas yr efengyl. Y mae yn wir fod y geiriau yn *Ioan* xiv. 13, yn cyfeirio yn uniongyrchol at y "pethau mwy na'r rhai hyn," *adn.* 12; sef y gweithredoedd gwyrthiol a gyflawnai yr apostolion yn "enw Crist." Ond etto, y mae yn amlwg fod yr addewid am wrandawiad gweddi yn *Ioan* xv. 7; xvi. 23; 1 *Ioan* iii. 22; v. 14; yn perthyn i Gristionogion fel y cyfryw, ac nid i'r apostolion. Y mae yr addewid mewn grym yn barhaus i bob Cristion, ac i bob gweddi a gyflwynir trwy ffydd yn haeddiant, ac yn ysbryd, ac yn unol âg ewyllys Crist. Esboniad Alford ydyw, "Yn fy enw i;" hyny yw, "mewn undeb â mi, fel yn eiddo i mi, gan arddangos Iesu fel Mab Duw." Y mae Dr. J. Brown yn fwy eglur a chyflawn:—"Enw Duw ydyw Duw wedi ei ddadguddio; enw Crist ydyw Crist wedi ei ddadguddio. Gwneuthur peth yn enw Duw ydyw ei wneuthur gyda golwg ar ei gymmeriad dadguddiedig. Gwneuthur peth yn enw Crist ydyw ei wneuthur gyda golwg ar ei gymmeriad dadguddiedig, a than ddylanwad gwybodaeth am, a ffydd yn y gwirionedd am y cymmeriad hwnw. Gweddïo yn enw Crist ydyw gweddïo am yr hyn y mae ef wedi ein dysgu i weddïo am danynt, ac yn y ffordd y mae efe wedi ein dysgu i weddïo am danynt; gweddïo gan ddisgwyl am dderbyniad i'n gweddïau trwy ei gyfryngdod, ar sail ei iawn, a thrwy ei eiriolaeth, fel Archoffeiriad mawr ein cyffes; gweddïo fel ei ddeiliaid, ac fel yr offerynau i ddadgan ei ogoniant, ac i sefydlu ei deyrnas. Gweddïo yn enw Crist ydyw gweddïo â'r gwirionedd am Grist o flaen y meddwl, yn ein harwain am ba beth, a pha fodd i weddïo. Gweddi yn enw Crist ydyw gweddi gan un sydd yn gwybod ac yn teimlo ei fod yn Nghrist—yn un âg ef; Crist megys yn ei galon ef wrth weddïo, a'r weddi yn cael ei chyflwyno trwy gyfryngdod Crist, fel y 'ffordd, y gwirionedd, a'r bywyd'—gweddi yn cael ei hanfon dan ddylanwad Ysbryd Crist—gweddi yn yr ymarferiad o'r tymmerau mabaidd hyny sydd yn codi o'r berthynas fabaidd yn mha un y mae y gweddiwr wedi ei osod trwy undeb â Christ—gweddi gyda golwg ar deyrnas Crist."

Y mae tuedd mewn gweddi i ddwyn holl serchiadau sanctaidd yr enaid i ymarferiad; a thrwy hyny, i gynnyddu sancteiddrwydd, ac i gryfhau gras yn yr enaid. Mewn gweddi ddidwyll, a thaer, y mae ffydd, edifeirwch, cariad, ymostyngiad, a grasusau ereill, yn cael eu gweithredu yn eu nerth uchaf. Dyma'r pryd y mae eu hedifeirwch ddyfnaf, a'u penderfyniad i adael pechod gryfaf; dyma'r pryd y mae eu cariad at Dduw a'u hyder ynddo gryfaf; ac nid ydynt un amser arall yn teimlo y fath argyhoeddiad o werth cadwedigaeth yr enaid. Yn y golwg ar Dduw, a Christ, a thragwyddoldeb, a geir mewn gweddi, y mae y Cristion yn cael ei ennill yn fwyaf effeithiol i ymostyngiad ac ufudd-dod. Pan yn mhresennoldeb Duw, yn gweled ei ogoniant, yn mwynhau cymmundeb âg ef, y mae yr ofnau sydd yn fynych yn ei flino yn cilio. Y mae gweddi, gan hyny, trwy ddwyn grasusau y Cristion i weithrediad, yn foddion effeithiol ei gynnydd mewn sancteiddrwydd.

Y mae rhai wedi tynu camgasgliad oddi wrth hyn. Gan fod i weddi ddylanwad naturiol er ein cryfhau mewn sancteiddrwydd, y mae rhai wedi myned i feddwl nad oes i weddi unrhyw ddylanwad na nerth uniongyrchol i sicrhau bendithion, ond yr hyn sydd yn gynnwysedig yn y dylanwad naturiol sydd iddi ar ein meddyliau ein hunain. Mewn attebiad i hyn, gellir dyweyd fod holl rediad y Beibl, ac yn enwedig yr esamplau o attebiad gweddi yn y Beibl, yn dysgu fod i weddi "nerth gyda Duw." Cymmerwn un enghraifft:—"Cyffeswch eich camweddau bawb i'ch gilydd, a gweddïwch dros eich gilydd, fel y'ch iachaer. Llawer a ddichon taer weddi y cyfiawn;" *Iago* v. 16—18. Dywed yr apostol y bydd i weddi y ffydd iachau y claf: ac er mwyn dangos dylanwad gweddi, y mae yn cyfeirio at weddi Elias; yr hwn a weddïodd na byddai gwlaw, ac ni bu gwlaw: ac efe a weddïodd drachefn, a'r nef a roddes wlaw. Yma, y mae y dylanwad, nid ar feddwl Elias, ond *ar y gwlaw*. Yn yr amgylchiad blaenorol, nid ar feddyliau yr henuriaid yr oedd gweddi i ddylanwadu, ond i iachau y claf. Y mae yn wir mai amgylchiadau gwyrthiol oedd y rhai hyn; ond defnyddir hwynt gan yr apostol i egluro dylanwad cyffredinol gweddi, ac mewn ffurf o annogaeth i Gristionogion yn gyffredinol i weddïo. Heb law hyn, os ydym yn gweddïo ar Dduw am yr hyn yr ydym yn teimlo ein hunain mewn angen am dano, nid am ein bod yn disgwyl derbyn, ond er mwyn dylanwadu ar ein meddyliau ein hunain; yna, nid ydyw gweddi yn ddim amgen na dyfais i dwyllo ein hunain. Nis gallwn dderbyn bendith uniongyrchol, nac anuniongyrchol trwy dwyll. Ar y dybiaeth hon, nis gall gweddi fod yn nerth gyda Duw, na chwaith yn y gweddïwr ei hun. Yr oedd Iesu Grist yn gweddïo—ac yr oedd ei Dad yn ei atteb, nid trwy fod gweddi yn foddion ei sancteiddiad, o herwydd yr ydoedd yn berffaith sanctaidd; ond o herwydd ei fod yn derbyn yr hyn y gofynai am dano.

Y mae y gweddïau a gyflwynir mewn ffydd yn gymmeradwy bob amser; ond nid yw yr hyn a ofynir am dano mewn gweddi bob amser yn cael ei roddi. Y mae hyn yn ein harwain i ofyn pa beth ydyw gweddïo mewn ffydd? Y mae rhai wedi atteb y gofyniad hwn trwy ddyweyd, mai gweddïo mewn ffydd ydyw credu yn sier y'derbyniwn y ffafrau neillduol y gofynir am danynt, i ni ein hunain, neu i ereill; ac mai wrth ffydd y meddylir, crediniaeth ddiysgog y derbyniwn y bendithion neillduol hyny a geisir mewn gweddi. "Dylem," medd un, "nid yn unig gredu y derbyniwn *rywbeth*, ond y *peth neillduol* y byddwn yn ei ofyn." Y mae y golygiad hwn yn agored i wrthddadleuon pwysig. Pe yr un peth fyddai ffydd a sicrwydd y derbyniem yr hyn a geisir mewn gweddi, yna byddai raid i ni ddyweyd, mai nid mewn ffydd y cyflwynwyd yr holl weddïau hyny na attebwyd yn y ffurf neillduol hwnw a geisiwyd mewn gweddi: yr hyn nis gellir ei ganiatau am holl weddïau y duwiolion hyny na dderbyniasant yr hyn a ofynasant am dano. Y mae y cysur hwn i bawb sydd yn gweddïo mewn ffydd, y bydd iddynt dderbyn pa beth bynag a ofynant, mor bell ag y mae yn gysson â gogoniant Duw, ac â'u lleshad tragwyddol eu hunain. Y mae Gwrandawr gweddi yn atteb gweddïau ei bobl yn unol âg egwyddorion y Beibl, ac yn unol âg egwyddorion ei lywodraeth, ac yn unol â'i ddoethineb; ond nis gall dynion ddyweyd pa beth yn mhob amgylchiadau sydd felly. Y mae, gan hyny, yn fwy gweddus i ni ddefnyddio geiriau ein Harglwydd a'n Gwaredwr yn ei ing yn yr ardd, pan nas gwyddom pa beth sydd fwyaf er gogoniant Duw a'n lleshâd ein hunain:—"O Dad! os yw bossibl"—os yw yn unol â'th ewyllys Os nad yw, bendith i ni ydyw iddo gael ei nacau

Digitized by Google

i ni: ac er iddo gael ei nacau, y mae y weddi ei hun yn aberth cymmeradwy gan Dduw; ac y mae efe yn ei derbyn, ac yn ei gwobrwyo mewn rhyw ffordd arall. Y mae yma wahaniaeth o bwys. Pan y mae pechadur yn gweddïo mewn ffydd am fendithion achubol iddo ei hun, y mae bob amser yn cael ei wneuthur yn gyfranog o honynt. Yn yr ystyr yma, y mae y bendithion neillduol a ofynir am danynt yn cael eu cyfranu. Y mae pob gweddi mewn ffydd am fendithion ysbrydol—am yr Ysbryd Glân, am fendithion teyrnas nefoedd, a'i gyfiawnder ef—yn cael eu gwrando a'u hatteb yn ddiammodol. Fe allai na chyfrenir y bendithion hyn y pryd, ac yn y modd y dymunir; ond cyfrenir y bendithion eu hunain. Os gofynir gyda thaerineb ffyddiog am faddeuant, sancteiddhâd, arweiniad mewn dyryswch, cysur mewn profedigaethau, a dedwyddwch tragwyddol yn y nefoedd, ni somir neb pwy bynag. Y bendithion hyn oedd yn ngolwg y Gwaredwr pan y llefarodd y geiriau—"Os arhoswch ynof fi, ac aros o'm geiriau ynoch, beth bynag a ewyllysioch, gofynwch, ac efe a fydd i chwi;" *Ioan* xv. 7. Ond y mae pethau ereill, nad ydynt ynglŷn âg iachawdwriaeth, y rhai y dichon i ddoethineb ddwyfol eu gweled yn anghysson â'n daioni penaf. Y mae llawer o fendithion tymmorol a daearol; megys, iechyd, cyfeillion, ein digonedd o fara, y rhai y dichon i ni eu dymuno, a gofyn i Dduw eu rhoddi i ni. Y mae llawer o ddioddefiadau a phrofedigaethau, a llawer swmbwl yn y cnawd, y gallem weddïo am gael ein gwared oddi wrthynt. Ond gyda golwg ar y rhai hyn, a'u cyffelyb, dylai ein gweddïau fod yn ammodol. Dichon Duw yn ei ddoethineb a'i gariad ganiatau ein dymuniadau, neu eu gwrthod—ein gwaredu oddi wrth ein profedigaethau, neu ynte ein gadael ynddynt. Dylem weddïo am y cyfryw, os ydynt yn unol â doethineb Duw. "Nid ein hewyllys ni, ond dy ewyllys di a wneler." Ond gyda golwg ar weddïau am fendithion tymmorol, y mae yr Arglwydd yn eu hatteb yn anuniongyrchol, hyd yn oed pan na byddo yn cyfranu y pethau neillduol a ofynir. Y mae dynion annuwiol yn cael eu dymuniadau yn fynych mewn ffordd o farn: *Num.* xi. 33; 1 *Sam.* viii. 7; *Iob* i. 12; ii. 6; *Luc* viii. 32: ac y mae dynion duwiol yn cael eu nacau yn fynych mewn ffordd o drugaredd. Ni chaniatawyd i Paul yr hyn a weddïodd deirgwaith am dano; ond cafodd yr hyn oedd well: 2 *Cor.* xii. 7—9. Dichon i'r un peth fod yn wir am y *modd* o gyfranu bendithion *ysbrydol.* Yr ydym yn gweddïo am gynnydd ar ein gostyngeiddrwydd, ffydd, cariad, a grasau ereill, ac yn dymuno derbyn y fendith yn uniongyrchol i'n teimlad; ond yn fynych, trwy gystuddiau a chroesau y mae y fendith yn dyfod i ni.

Os nid disgwyl gyda sicrwydd y derbyniwn y pethau neillduol yr ydym yn gofyn, ac yn y modd yr ydym yn gofyn, yw gweddïo mewn ffydd, pa beth ydyw? Y mae awdwr yr Epistol at yr Hebreaid yn atteb—"Heb ffydd, ammhossibl yw rhyngu bodd Duw. O blegid rhaid yw i'r neb sydd yn dyfod at Dduw, gredu ei fod ef, a'i fod yn obrwywr i'r rhai sydd yn ei geisio ef;" *Heb.* xi. 6. Rhaid i ni gredu yn Nuw fel bod o anfeidrol berffeithrwydd—yn holl dystiolaethau ei Air, yn enwedig yn ei holl addewidion. Rhaid i ni gredu ei fod yn "obrwywr i'r rhai sydd yn ei geisio ef." Ni ddywedir fod yn rhaid credu y bydd i Dduw gyfranu pob peth neillduol y gofynir am dano ar unrhyw amgylchiad, ond y bydd iddo ein *gwobrwyo.* Dichon iddo ein gwobrwyo yn fynych trwy roddi pethau gwell na'r hyn a ofynwyd. Cyflawna yr Arglwydd ei holl addewidion yn eu hystyr priodol a gwirioneddol. Y mae gweithredu ffydd mewn gweddi, gan hyny, yn cynnwys credu bod, perffeithiau, llywodraeth, a gair Duw—ymddiried ynddo yn mhob dim, yn enwedig gyda golwg ar destyn y weddi, pa un bynag a ydyw wedi addaw cyfranu y peth neillduol yr ydym yn ei ddymuno, ai nad ydyw. Os ydyw wedi addaw y peth neillduol hwnw yr ydym yn ei ofyn, dylem gredu y bydd iddo ei gyflawni, a hyny yn y modd doethaf a goreu. Os nad ydyw wedi ei addaw, dylem ymddiried yn ei ddoethineb a'i ddaioni anfeidrol, gan gredu ei fod yn abl i gyfranu pa beth bynag a ofynom, ac y bydd iddo eu cyfranu, os hyny ydyw y goreu; ac os na bydd iddo roddi i ni yr hyn a ofynom, parhau i ymddiried ynddo, a hyny yn y cystuddiau mwyaf—"Pe lladdai efe fi, etto mi a ymddiriedaf ynddo."

Nid yw yn ymddangos yn ammhriodol i ddywedyd y gallwn weddïo am fendithion tymmorol nad ydynt wedi eu haddaw i ni yn yr Ysgrythyrau. Y mae i weddi ddau ddiben; yn gyntaf, i geisio gan Dduw y bendithion hyny y mae efe wedi addaw eu rhoddi pan y gofynom am danynt; ac yn ail, y mae gweddi yn foddion i ddangos ein dymuniad naturiol a chyfreithlawn am y pethau hyny nas gwyddom y cawn hwynt, nes i ni weled yn y canlyniad. Ni ddylem weddïo am yr hyn sydd yn groes i ewyllys Duw; ond caniateir i ni ofyn am ba beth bynag sydd yn ymddangos o duedd i lesâu dynion, er na byddo addewid wedi ei rhoddi am y pethau pendant hyny. Etto, gyda golwg ar yr hyn nas gwyddom pa beth ydyw meddwl Duw mewn perthynas iddo, nis gall y Cristion weddïo am dano, ond mewn ymostyngiad i'r ewyllys ddwyfol. Nid yw gweddi a gyflwynir yn groes i ewyllys ddadguddiedig Duw yn gymmeradwy; ac nis dichon fod. Ond y mae yn bossibl i weddi a fyddo yn anghysson âg ewyllys ddirgeledig Duw—hyny yw, gweddi am yr hyn nad ydyw Duw wedi arfaethu ei chyflawni—fod yn gymmeradwy ynddi ei hun, er i'r hyn a ofynir am dano gael ei attal oddi wrthym. Y mae hyn i'w ganfod yn ngweddi ein Gwaredwr yn Gethsemane:—"Fy Nhad, os yw bossibl, aed y cwpan hwn heibio oddi wrthyf; etto nid fel yr ydwyf fi yn ewyllysio, ond fel yr ydwyt ti;" *Mat.* xxvi. 39. Gan fod yn yr Arglwydd Iesu ddwy natur mewn un person, yr oedd ynddo ddwy ewyllys—un yn ewyllys ddwyfol, a'r llall yn ewyllys ddynol. Yn ei ewyllys ddynol, yr oedd dau fath o weithrediadau fel yn ewyllys pob dyn: un ydyw, dymuniad naturiol i sicrhau pob peth sydd yn dda ynddo ei hun, ac i osgoi pob peth sydd yn ddrwg neu yn boenus; y llall ydyw, dymuniad oddi ar wybodaeth a barn am yr hyn sydd oreu gyda golwg ar ddiben neillduol. Y mae y ddau ddymuniad hyn yn fynych yn groes i'w gilydd mewn ymddangosiad pan na byddant mewn gwirionedd. Dymunem osgoi rhyw amgylchiad poenus; ond etto yn ewyllysio peidio gwneyd, er mwyn daioni yn y canlyniad. Felly, nid oedd un anghyssondeb rhwng dau ddymuniad ewyllys ddynol Crist, na chwaith rhwng y naill na'r llall â'i ewyllys ddwyfol:—"Yr awrhon y cynnhyrfwyd fy enaid: a pha beth a ddywedaf? O Dad! gwared fi allan o'r awr hon: eithr o herwydd hyn y daethum i'r awr hon;" *Ioan* xii. 27. Yn yr awr ofnadwy hon, yr oedd dau wrthddrych o flaen ei feddwl: ar un llaw, yr oedd digofaint dwyfol yn erbyn pechod, angeu heb ei orchfygu, a deddf heb dderbyn iawn, ac efe ei hun mewn cnawd i

Digitized by Google

wynebu y cyfan; ar y llaw arall, yr oedd digofaint dwyfol i'w ddyhuddo trwy aberth, buddugoliaeth ar angeu, a byd i'w achub. Yn y fath gyfyngder, nid rhyfedd i'r Gwaredwr ddyweyd:—"Os yw bossibl, O Dad! etto, nid fel yr ydwyf fi yn ewyllysio, ond fel yr ydwyt ti." Yr oedd teimlad naturiol y ddynoliaeth yn cilio oddi wrth gyfarfyddiad â digofaint, âg angeu, ac âg uffern. A dyma y teimlad cyntaf sydd yn dyfod allan yn ei weddi—"gwared fi allan o'r awr hon." Ond nid yw y dymuniad hwn yn anghysson â'r penderfyniad sydd yn terfynu y weddi—"o herwydd hyn y daethum i'r awr hon." Ac nid yw y naill na'r llall yn anghysson âg ewyllys y Tad. Y mae yn bossibl i'r un ewyllys ddymuno yn wahanol gyda golwg ar yr un gwrthddrych, ond mewn gwahanol ystyriaethau. Wrth ystyried angeu ynddo ei hun, y mae natur yn arwain Crist i ffoi rhagddo; ond ei ystyried fel moddion iachawdwriaeth pechaduriaid, y mae gyda'r ewyllysgarwch mwyaf yn dodi ei einioes i lawr. Nid yw y naill na'r llall yn anghysson âg ewyllys y Tad, er nad ydoedd yn gweled yn dda ei waredu o'r "awr hon." Nid oedd Crist yn ewyllysio angeu er ei fwyn ei hun; ac nid oedd y Tad chwaith yn ewyllysio marwolaeth Crist ynddo ei hun. Fel moddion achubiaeth dynion, yr ydoedd Crist yn gosod ei einioes i lawr o hono ei hun; ac i'r un diben, nid "arbedodd Duw ei briod Fab, ond a'i traddododd ef drosom ni oll."

Oddi wrth hyn, yr ydym yn dysgu fod arfaethau Duw yn fynych yn erbyn caniatau ein dymuniadau naturiol a chyfreithlawn, a dymuniadau ag y gallom eu cyflwyno at Dduw mewn gweddi; ac etto heb fod yn groes i'r teimlad naturiol, am ei fod yn naturiol. Hefyd, mewn amgylchiad o'r fath, nis gall ein gweddïau fod yn foddion i sicrhau i ni yr hyn yr ydym yn gweddïo am dano. Ond er hyny, y maent yn aberthau cymmeradwy gan Dduw; o herwydd eu bod yn tystio nad ydym yn dymuno dim ond oddi wrtho ef, a'n bod yn dewis i'n dymuniadau gael eu goruwchlywodraethu gan ei ewyllys ef. Hefyd, er nad yw ein gweddïau yn sicrhau i ni yr hyn yr ydym yn gofyn am dano; etto y maent yn sicrhau ffafr Duw i ni, fel y daeth angelion ac a weiniasant i Grist yn ei ing mewn canlyniad i'w weddi ef.

*Cyssondeb gweddi âg anghyfnewidioldeb Duw.* Pan ofynir, a ellir disgwyl fod gan weddi unrhyw ddylanwad i benderfynu ewyllys a bwriadau yr hwn sydd yn anghyfnewidiol, a gweithredoedd yr hwn sydd yn adnabyddus iddo o'r dechreuad, yr atteb y mae holl rediad y Beibl yn ei roddi i'r gofyniad ydyw, fod i weddi y fath ddylanwad. A phe nas gallem symmud ymaith ddim o'r anhawsder sydd yn ymddangos i rai yn yr atteb hwn, y mae yn ddigon i'r Cristion fod yr Anfeidrol Ddoeth a Da wedi gorchymyn iddo weddïo; ac er mwyn ei galonogi i hyny, y mae wedi addaw y bydd i bob gweddi a gyflwynir mewn ffydd yn enw Crist gael ei chymmeradwyo a'i hatteb. Y mae efe yn dawel, gan hyny, i adael cyflawniad yr addewid i Dduw ei hun, gan fod yn hollol hyderus y dichon iddo ef wneuthur hyny yn gysson âg anghyfnewidioldeb ei fwriadau. Ond er fod hyn yn atteb boddhaol i deimlad pob gwir weddïwr, mewn ffordd o gyfarfod yr anhawsder sydd yn ymddangos mewn cyssoni llwyddiant gweddi âg anghyfnewidioldeb Duw; etto y mae yr Ysgrythyrau yn ein galluogi i fyned yn mhellach, a hyny yn y fath fodd ag i ddyrchafu ein syniadau yn annhraethol uwch am natur gweddi. Yn y lle cyntaf, nis gall y Cristion ddymuno dim y gŵyr sydd yn wrthwynebol i ewyllys Duw, ac yn anghysson â'i ogoniant; ac o ganlyniad, pan yn dymuno, neu yn gweddïo am ddim sydd yn yr ystyriaethau hyn yn ammheus, y mae yn bryderus i wneuthur hyny mewn modd ammodol. Ni ddymunai gael dim ond sydd yn gysson âg ewyllys a gogoniant Duw. Y mae ei gymmeriad fel dyn duwiol yn sicrhau hyn. Ond yn ail, os ydyw yn Gristion, nis dichon iddo beidio a dymuno mewn modd angerddol yr hyn y gŵyr sydd yn unol âg ewyllys Duw, ac yn wasanaethgar i'w ogoniant. A chyda golwg ar bob peth o'r fath, pe byddai ganddo allu i gyflawni ei ddymuniadau, fe roddai y gallu hwnw mewn gweithrediad. Ond yn y teimlad o'i anallu, a'r gredianiaeth fod ewyllys a all gyflawni ei holl fwriadau, y mae ei ddymuniad yn cymmeryd ffurf erfyniad, ac yn rhedeg allan yn yr un cyfeiriad a'r ewyllys ddwyfol; ac y mae y dymuniad hwnw yn casglu nerth o'r teimlad ei fod mewn undeb â'r ewyllys oruchaf. Yn ngwyneb y sylwadau hyn, ni a welwn fod darpariaeth yn nghyfansoddiad dyn i'r ymarferiad o weddi. Yn annibynol o bob caniatad neu orchymyn pendant mewn geiriau i weddïo, nis gallai enaid sanctaidd, ysbryd wedi ei adferyd ar ddelw Duw, lai na meithrin y teimladau a'r syniadau sydd yn cyfansoddi nerth a hanfod gweddi. Gweddi ydyw dadganiad o'n teimladau am gyflawni yr hyn yr ydym yn ei fawr ddymuno. Enaid wedi ei feddiannu gan awydd angerddol am ogoniant Duw, a llesad dynion—y mae yn naturiol iddo ddefnyddio pob moddion i'w sicrhau. Ac yn y profiad o'i anallu ei hun i wneud bron ddim tuag at gwblhau dymuniad ei galon, pa beth sydd yn fwy naturiol nag iddo arllwys y dymuniadau hyn mewn ymdrech meddwl ger bron yr hwn sydd alluog i gyflawni y cwbl. A chan ei fod yn credu fod llesâd dynion yn unol âg ewyllys Duw, y mae hyn yn ei arfogi ac yn ei nerthu yn y cyflawniad o'r hyn sydd heb gael ei theimlo yn ddyledswydd gymmaint ag ydyw yn cael ei mwynhau fel rhagorfraint. Y mae gweddi yn angenrheidrwydd ac yn hyfrydwch iddo, fel y mae anadlu yn angenrheidrwydd ac yn hyfrydwch i'r bywyd naturiol. Felly y mae yr enaid mewn gweddi yn ymarllwys—yn ymgolli yn ewyllys Duw. Mor bell ydyw hyn oddi wrth fod yn anghysson â chrediniaeth yn anghyfnewidioldeb bwriadau ac ewyllys Duw, fel mai hanfod gweddi ydyw dymuno cyflawniad yr ewyllys ddwyfol. Iaith gweddi ydyw—"Sancteiddier dy enw, deued dy deyrnas; gwneler dy ewyllys ar y ddaear, megys y mae yn y nefoedd." Os bydd unrhyw ammheuaeth a ydyw yr hyn a ddymunir yn gysson â meddwl Duw, y mae yn y fan yn gwneuthur cyflawniad ei ewyllys ei hun yn ammodol. Ni fynai newid ewyllys Duw; ond dymuniad angerddol ei fywyd ydyw cael ei godi i ewyllysio fel y mae Duw yn ewyllysio—mynai i ewyllys Duw gael ei chyflawni yn hollol, ac yn ddiammodol, ac i'w ewyllys ei hun gael ei chyflawni i'r graddau y mae yn unol â'i ewyllys ef. Y mae crediniaeth yn anghyfnewidioldeb ewyllys Duw, ac yn nianwadalwch ei gynghor, mor bell oddi wrth ladd grym gweddi, fel mai ei nerth ydyw y grediniaeth hon. Lle y mae ammheuaeth yn hanfodi o barth i gyflawniad unrhyw beth, nis gall y gwir weddïwr fod mor daer. Y mae ei daerineb yn cael ei gymmedroli gan yr ansicrwydd hwn. Ond pan yn gweddïo am yr hyn nad oes dim ammheuaeth pa beth ydyw meddwl Duw o berthynas iddo, nid oes dim ammod na therfyn i angerddoldeb

Digitized by Google

ei daerineb am dano. Y mae esamplau Ysgrythyrol yn cadarnhau hyn. Nid oes un yn fwy amlwg nag esampl Daniel pan yn gweddïo dros ryddhad ei genedl o gaethiwed Babilon: *Dan.* ix. 20—23. Yr oedd rhyddhad Israel o'u caethiwed wedi cael prophwydo am dano mewn gwahanol ffyrdd, ac wedi cael ei addaw drachefn a thrachefn yn y geiriau mwyaf pendant. Yr oedd ef ei hun wedi cael ei ddefnyddio yn offeryn gan Ragluniaeth i barotoi y ffordd i'r waredigaeth hon. Yr ydoedd yn dyst o gydgyfarfyddiad amryw amgylchiadau oedd wedi cael eu rhagfynegi, fel arwyddion sicr o honi; ac o ganlyniad, yn brofion fod yr Arglwydd heb anghofio ei addewidion, ac hefyd nad ydoedd yn anffyddlawn iddynt. Yr oedd pob peth yn cydgyfarfod i roddi iddo y sicrwydd mwyaf o gyflawniad yr addewid. Ymddangosai ei obaith fel wedi ei osod tu hwnt i bossiblrwydd somedigaeth. Ac yn ol ysbryd yr wrthddadl dan sylw, gallesid meddwl nad oedd dim i Daniel wneuthur mewn ffordd o ymdrech na gweddi i ddwyn oddi amgylch waredigaeth ei frodyr ond aros am i'r awr ddyfod i ben, pan, yn ol arfaeth a rhagwybodaeth Duw, y cyflawnid gobeithion Daniel, a hir ddisgwyliadau y genedl. Ond nid felly yr oedd sicrwydd bwriadau ac addewidion Duw yn effeithio ar feddwl Daniel. Y mae efe ei hun yn hysbysu i ni ddarfod iddo ddeall trwy lyfrau rhifedi y blynyddoedd am y rhai y daethai Gair yr Arglwydd at Ieremïah y prophwyd, y cyflawnai efe ddeng mlynedd a thrigain yn anghyfannedd-dra Ierusalem: *Dan.* ix. 5. Gwyddai pa bryd y dechreuodd y caethgludiad, o herwydd yr oedd ef ei hun yn un o'r rhai cyntaf a gymmerwyd yn gaeth; ac ar ol derbyn prophwydoliaeth Ieremïah, yn yr hon y canfu pa beth oedd hyd y gaethgludiad i fod, sef deng mlynedd a thrigain: *Ier.* xxix. 10. Gwyddai yn awr, yn ol rhifedi y blynyddoedd, fod y waredigaeth, nid yn unig yn sicr, ond hefyd yn agos. Ond yr effaith a gafodd hyn arno oedd ei gyffroi i weddi mwy taer a gafaelgar nag erioed o'r blaen. Yr oedd Daniel yn hynod yn ei oes, ac yn hanes eglwys Dduw fel gweddïwr; ond yr hynotaf o'i weddïau ef oedd y weddi a weddïodd ar ol derbyn y sicrwydd am agoshâd gwaredigaeth ei frodyr:—"Yna y troais fy wyneb at yr Arglwydd Dduw i geisio trwy weddi ac ymbil, ynghyd âg ympryd, a sachlïan, a lludw." Darllener yr holl weddi:—*Dan.* ix. Gwelir, gan hyny, nid yn unig oddi wrth natur gweddi, fod sicrwydd cyflawniad bwriadau ac addewidion Duw yn nerth i weddi; ond y mae esamplau duwiolion y Beibl yn brawf o'r un peth.

Yn mhellach etto, y mae yr Ysgrythyrau yn ein dysgu fod i weddi ran arbenig yn nghyflawniad y bwriadau dwyfol. Addefir fod lle pwysig i ymdrechiadau allanol dynion yn nghyflawniad ei addewidion; onid yw yn bur annhebygol, gan hyny, na byddai y cynllun dwyfol yn cynnwys ymdrechiadau mwy sanctaidd ac ysbrydol yr enaid mewn gweddi? Nis gellir meddwl fod dymuniadau angerddol enaid wedi ei gyflawn feddiannu gan gariad at ogoniant Duw yn llai effeithiol nag offerynoliaeth gweithredoedd dynion. Y mae dylanwad gweddi yn llai amlwg nag ydyw dylanwad cydweithrediad allanol dynion yn nygiad yn mlaen yr amcanion dwyfol; ond y mae o natur uwch. Y mae yn gydweithrediad ysbryd anfarwol, wedi ei ddwyn i garu Duw; ac wrth weddïo, mewn undeb âg ewyllys Duw, onid yw yn weddus ynddo ei hun i ddoethineb ddwyfol amlygu ei chymmeradwyaeth arbenig o weddi trwy roddi lle uwch iddi yn mhlith yr ail achosion y mae hi yn gweled yn dda i'w defnyddio? Yn mhob gweithred allanol o ufudd-dod, ac yn mhob anturiaethau Cristionogol i ddwyn oddi amgylch yr hyn sydd yn unol âg ewyllys Duw, y mae y Cristion yn ymwneud â'i gyd-ddynion; ac wrth gydweithredu yn y modd yma âg ewyllys ei Greawdwr, y mae yn gwneuthur hyny trwy gyfrwng ei greaduriaid. Ond wrth ymdrech mewn gweddi, y mae yr enaid yn cael ei ddwyn yn uniongyrchol i gydweithredu â'i Greawdwr. Nis gall gydweithredu mor uniongyrchol â Duw mewn un ffordd arall. Y mae y Cristion, wrth weddïo, yn gollwng ei ddymuniad i ffrwd bwriadau Duw, ac felly yn y modd uchaf y sydd yn ddichonadwy i greadur yn cydweithredu â Duw. Y mae y Beibl yn ein dysgu hefyd fod i weddi le yn mwriadau Duw; a bod iddi ddylanwad ar gyflawniad y bwriadau hyny. Y mae yn wir fod arfaethau Duw yn sicr, ac mewn rhyw ystyr yn annibynol ar ei greaduriaid; ond ar y llaw arall, y mae doethineb ddwyfol wedi trefnu fod i bob amgylchiad, a chyfnewidiad, a digwyddiad yn y byd moesol, ymddibyniad ar, a chyssylltiad â digwyddiadau ereill. Y mae darpariaeth, gan hyny, yn nhrefn Duw i ddylanwad ac effeithioldeb gweddi; ac y mae ei effeithioldeb wedi ei rhagweled, fel y mae pob gweithred a phob digwyddiad arall yn y byd moesol. Y mae nerth gweddi, gan hyny, yn rhan hanfodol o'r drefn trwy ba un y mae Llywodraethwr pob peth yn dwyn ei fwriadau i ben; ac nid yn unig y mae yn rhan o'r cynllun dwyfol, ond hefyd y mae yn rhan arbenig, o gymmaint a bod a wnelo hi yn uniongyrchol â phenderfynu meddwl Duw. Nid ydyw hyn yn cynnwys fod un ansicrwydd i'r meddwl dwyfol mewn perthynas i gyflawniad ei fwriadau; o herwydd y mae gweddi mor sicr yn rhagwybodaeth Duw ag ydyw gweithrediad y gallu sydd yn dilyn gweddi, ac yn cyflawni ei dymuniad. Y mae y Beibl yn dangos i ni fod y digwyddiadau pwysicaf yn hanes pobl Dduw wedi cymmeryd lle mewn canlyniad i weddi; megys y waredigaeth o'r Aipht, buddugoliaethau ar eu gelynion, y dychweliad o Babilon, &c., &c. Yr oedd cyflawniad bwriadau pwysicaf Duw yn ymddibynu ar weddi; ond nid yw yn canlyn fod y bwriadau hyny yn ansicr, o herwydd fod y gweddïau eu hunain yn cael eu rhagweled. Y mae yr wrthddadl, gan hyny, o fod gweddi yn anghysson âg anghyfnewidioldeb bwriadau Duw yn edrych heibio i'r gwirionedd amlwg a phwysig fod gweddïau ei bobl yn rhan mor arbenig o'r cynllun dwyfol ag ydyw y digwyddiadau sydd yn cymmeryd lle mewn canlyniad iddynt. Hefyd, nid oes dim mwy o anhawsder i gyssoni effeithioldeb gweddi âg anghyfnewidioldeb ewyllys Duw nag sydd i gyssoni unrhyw fath arall o offerynoliaeth a chadernid ei gynghor. Nid gweddi ydyw yr unig foddion y mae i eglwys Crist ddefnyddio yn lledaeniad ei deyrnas yn y byd. Y mae cyhoeddiad yr efengyl wedi ei ymddiried iddi. Ac y mae cyflawniad bwriadau grasol Duw tuag at y byd yn ymddibynu ar ei bod hi yn dal gair y bywyd o'i flaen, a'i gyhoeddi yn ei glyw, yn gystal ag ar ei bod hi yn gweddïo am lwyddiant y gwirionedd i ddychwelyd y byd. Y mae y naill fel y llall yn rhan o gynllun anfeidrol ddoethineb; y mae effeithioldeb y naill fel y llall wedi ei ragweled; y mae cyflawniad y bwriadau dwyfol yn ymddibynu ar y ddau fel eu gilydd; ac nid oes dim anghyssondeb rhwng y naill na'r llall â chadernid cynghor Duw.

Digitized by Google

Y mae y golygiadau hyn am natur gweddi, nid yn unig yn cyfarfod y gwrthddadleuon a ddygir yn ei herbyn, ond hefyd yn dangos yr anrhydedd a'r rhagorfraint annhraethol a roddir ar bechadur i ganiatau iddo ddyfod i wyddfod Duw, a chael ei wrandaw yn ei ddeisyfiadau gan yr ewyllys Benarglwyddiaethol sydd yn penderfynu pob peth. Y mae i weddi le yn mwriadau cynghor Duw, ac yn llywodraethiad pob peth. Ac nid oes gan neb hawl i ofyn pa beth a ddeuai o fwriadau Duw, pe na byddai i ddyn weddïo; o herwydd y mae gweddi yn rhan mor hanfodol o gynghor Duw, ac yn wrthddrych ei ragwybodaeth mor sicr ag ydyw dim arall.

Ar ba amserau neillduol y dylid gweddïo? Er fod cyflawn ryddid a chroesaw i bob dyn nesau at orsedd gras bob amser, yn mhob man, ac ar bob achlysur, etto y mae rhyw amserau pennodol y dylid eu defnyddio i weddïo. Cyfleusdra arbenig i weddïo ydyw y Sabbath. Y rhan bwysicaf o addoliad yr eglwys Iuddewig ar eu Sabbath *hwy* oedd gweddïo, a'r eglwys Gristionogol ar ddydd yr Arglwydd. Dilynwyd yr esamplau hyn gan wledydd Cristionogol yn mhob oes. Dylid defnyddio y Sabbath, nid yn unig i weddïo yn gyhoeddus, ond yn ddirgelaidd. Y mae boreu a hwyr pob diwrnod yn adegau priodol i'w defnyddio i weddïo. Dysgid y gwirionedd hwn yn uniongyrchol gan yr aberth boreuol a hwyrol o dan oruchwyliaeth Moses. Gorchymynwyd i Aaron, a'r archoffeiriaid olynol, "arogldarthu arogldarth llysieuog bob boreu;" *Exod.* xxx. 7: gwel hefyd *Exod.* xxxvi. 3; *Lef.* vi. 12. Yn yr un modd, crybwyllir yn fynych am yr "hwyroffrwm;" 1 *Bren.* xviii. 29; 2 *Bren.* xvi. 15; *Ezra* ix. 4; *Dan.* ix. 21. Yn unol âg iaith y sefydliad hwn, dywed Dafydd ei fod yn cyflawni y ddyledswydd grefyddol hon bob boreu a phob hwyr, ac hefyd ganol dydd. Gweddïai Daniel ar ei Dduw dair gwaith yn y dydd. Offrymai Iob aberth yn y boreu. Amserau priodol i weddïo hefyd ydyw pan y byddwn yn derbyn ein prydiau bwyd. Dywed yr Ysgrythyr fod ymborth yn cael ei "sancteiddio gan Air Duw a gweddi," a bod Duw wedi creu bwydydd i'w derbyn, "trwy roddi diolch, gan y ffyddloniaid a'r rhai a adwaenant y gwirionedd;" 1 *Tim.* iv. 3.

Dros bwy y dylid gweddïo? Y mae y Beibl yn atteb y cwestiwn hwn mewn dull eglur a phendant. Dylem weddïo yn gyntaf a phenaf drosom ein hunain; *Luc* xviii. 13; *Act.* vii. 59: dros frenhinoedd a llywodraethwyr; 1 *Tim.* ii. 2: dros weinidogion y gair; 2 *Cor.* i. 11; *Phil.* i. 19: dros yr eglwys; *Salm* cxxii. 6; *Esa.* lxii. 6, 7: dros yr holl saint; *Eph.* vi. 18: dros bob dyn; 1 *Tim.* ii. 1: dros feistriaid; *Gen.* xxiv. 12—14: dros weision; *Luc* vii. 2, 3: dros blant; *Gen.* xvii. 18; *Mat.* xv. 22: dros y cystuddiol; *Iago* v. 14: dros erlidwyr; *Mat.* v. 44.

Y mae gwahanol fathau o weddïau, neu yn hytrach, gweddïau mewn gwahanol amgylchiadau; sef, saeth-weddi, gweddi ddirgel, gweddi deuluaidd, a gweddi gyhoeddus.

Wrth saeth-weddi y golygir dyrchafiad disymmwth yr enaid at Dduw mewn dymuniadau byrion a bywiog yn nghanol trafferthion a gorchwylion bywyd: *Neh.* ii. 4; *Gen.* xliii. 14; 2 *Sam.* xv. 31. Hwyrach mai un ffordd, os nad y brif ffordd, i gyflawni y gorchymyn sydd yn peri i ni "weddïo yn ddibaid" ydyw arfer saeth-weddi. Nis gallwn fod ar ein gliniau yn ddibaid; ond gallwn anfon erfyniadau byrion i'r nefoedd mor aml ag y mynom, yn nghanol y prysurdeb bydol mwyaf, ac heb i un bod dynol wybod. Saethweddi yw y prif foddion i gadw ysbryd gweddi yn fyw yn yr enaid.

Gweddi ddirgel ydyw gweddi bersonol a gyflwynir gan y Cristion wrtho ei hun, heb fod neb yn bresennol ond Duw ac yntau. Y mae Iesu Grist ei hun wedi gorchymyn hyn: "Ond tydi, pan weddïech, dos i'th ystafell; ac wedi cau dy ddrws, gweddïa ar dy Dad, yr hwn sydd yn y dirgel; a'th Dad yr hwn a wêl yn y dirgel, a dâl i ti yn yr amlwg;" *Mat.* vi. 6. Yr oedd pob tŷ yn mhlith yr Iuddewon yn cynnwys ystafell bwrpasol i weddïo a myfyrio yn ddirgel. Yn gyffredin, fe wneid yr ystafell hon ar nen y tŷ, gan fod penau y tai yn ngwledydd y dwyrain yn wastad. Yr ydym yn cael fod Pedr yn gweddïo ar nen y tŷ, a Cornelius mewn ystafell o'i dŷ; ac y mae yr Arglwydd Iesu yn rhoddi zêl ei gymmeradwyaeth i'r ystafell hon, ac yn annog ei ddisgyblion i wneud defnydd mynych o honi. Ni waeth yn y byd pa le a ddewisir i weddïo yn y dirgel, ond iddo fod yn lle cyfleus—yn lle tawel, distaw, neillduedig, heb neb yn bresennol ond y dyn ei hunan a Duw—dim allanol i dynu y meddwl ymaith oddi wrth wrthddrych gweddi, a'r ymdrafodaeth ysbrydol fydd yn myned yn mlaen rhwng yr enaid â Duw. Rhaid fod rhyw fantais mewn lle dirgel i weddïo, hyd yn oed i feddwl pur a sefydlog Mab Duw, o blegid yr oedd efe yn fynych yn ymneillduo i leoedd dirgel i gyflawni y ddyledswydd hon. Gall dyn yn y dirgel dywallt ei holl enaid ger bron Duw, ac arfer mwy o ryddid na cher bron dynion. Y mae ganddo bechodau na ŵyr neb ond Duw am danynt, ac nad oes eisieu i neb arall wybod; ac y mae y dirgel yn lle manteisiol i gyfaddef y cwbl wrtho ef, ac i adrodd yr holl deimlad. Yn y dirgel y mae cyfeillion yn adrodd eu cyfrinach i'w gilydd. Nid yn unig y mae y dyn duwiol yn adrodd mwy o'i feddwl wrth Dduw yn y dirgel nag mewn lleoedd cyhoeddus, ond y mae Duw hefyd yn fynych yn rhoddi amlygiadau helaethach o hono ei hun yn y dirgel nag mewn un lle cyhoeddus. Ar ei ben ei hun yr oedd Iacob yn gweddïo, pan gafodd efe y weledigaeth ryfedd hono—yr "ysgol yn cyrhaedd o'r ddaear i'r nefoedd, ac angylion Duw yn disgyn ac yn esgyn ar hyd-ddi." Ar ei ben ei hun yr oedd Daniel yn gweddïo pan ymddangosodd yr angel Gabriel iddo i ragfynegi marwolaeth y Messiah. Ar ei ben ei hun yr oedd Pedr yn gweddïo pan gafodd efe weledigaeth hynod y llen-llian. Y mae y gydwybod hefyd yn fwy bywiog, ac yn clywed llais Duw yn well yn y dirgel. Y mae trwst y byd yn fynych yn ein rhwystro i glywed ei lais ef, ac yn ein hattal rhag teimlo dylanwad pethau tragwyddol. "Cyfod," ebe'r Arglwydd wrth Ezeciel, "dos i'r gwastadedd, ac yno y llefaraf wrthyt;" hyny yw, dos i le unigol allan o drwst y byd; ac yno yn nistawrwydd y gwastadedd, "y llefaraf wrthyt." Fe ufuddhaodd Ezeciel i'r gorchymyn; ac y mae yr hanes yn dywedyd ei fod, nid yn unig wedi clywed llais Duw, ond hefyd wedi cael gweled gogoniant Duw. Hen arferiad pobl dduwiol yn mhob oes o'r byd oedd gweddïo yn y dirgel. Fel esamplau, gellid enwi Lot; *Gen.* xix. 20: Eliezer; *Gen.* xxiv. 12: Iacob; *Gen.* xxxii. 9—12: Gedeon; *Barn.* vi. 22, 36, 39: Hannah; 1 *Sam.* i. 10: Dafydd; 2 *Sam.* vii. 18, 29: Hezeciah; 2 *Bren.* xx. 2: Nehemiah; *Neh.* ii. 4: Daniel; *Dan.* ix. 3, 17: Anna; *Luc* ii. 37: Paul; *Act.* ix. 11: Pedr; *Pedr* ix. 40; *Act.* x. 9: Cornelius; x. 30: ac yn enwedig Iesu

Grist; *Mat.* xxvi. 36, 39; *Luc* ix. 18, 29. Yr ydym yn cael y byddai yn codi yn foreu i wneud y gwaith hwn; "A'r bore yn blygeiniol iawn, wedi iddo godi, efe a aeth allan, ac a aeth i le anghyfannedd; ac yno y gweddiodd;" *Marc* i. 35. Byddai hefyd yn gweddïo yn hwyr yn y nos; "Ac wedi iddo ollwng y torfeydd ymaith, efe a esgynodd i'r mynydd wrtho ei hun i weddïo; ac wedi ei hwyrhau hi, yr oedd efe yno yn unig;" *Mat.* xiv. 23. Wedi bod yn pregethu i'r torfeydd, dyma ef yn myned i'r dirgel i weddïo drostynt. O'r dirgel yr aeth i gyfarfod ei ddioddefiadau diweddaf. Pan ddaeth Iudas a'r milwyr i'w ddal ef, yr oedd ef ar ei ben ei hun yn dal cymmundeb â Duw: pan oedd perygl yn agos, yr oedd ef yn agos at Dduw. Y mae gweddi ddirgel yn cario dylanwad grymus ar holl fywyd crefyddol y dyn. Yr hwn sydd ar ol gyda'r ddyledswydd hon, y mae yn rhwym o fod ar ol gyda phob dyledswydd arall, ac yn tlodi ei hun yn y moddion cyhoeddus. Y dyn sydd yn ymweled amlaf â Duw yn y dirgel sydd yn cael yr ymweliad amlaf oddi wrth Dduw yn yr amlwg. Ac nid oes dim yn brawf gwell o gywirdeb yn yr amlwg na gweddïo yn fynych yn y dirgel.

Gweddi deuluaidd sydd fath bwysig arall o weddi. Sefydliad dwyfol ydyw teulu, a phrif ffynnonell cysuron tymmorol y fuchedd bresennol. Pe diddymid ef, fe lenwid y byd â phob llygredigaeth a thrueni. Rhaglaw, ac nid brenin, ydyw y pen teulu; ac y mae i weinyddu yn ei deulu, nid ei gyfraith ei hun, ond cyfraith Duw. Ei ddyledswydd yw gofalu am grefydd a moesoldeb pawb sydd o dan ei awdurdod. Ni ddylai oddef na chefnogi un math o bechod yn ei deulu; ond dylai edrych ar eu bod oll yn rhodio yn ol rheolau gair yr Arglwydd. Rhan arbenig o ddyledswydd pen teulu ydyw cynnal addoliad yn ei deulu. Yr oedd y patriarchiaid yn adeiladu allor i Dduw yn mhob man: *Gen.* xii. 8; xxvi. 25; xxxiii. 20; xxxv. 11: a than y gyfraith, yr oedd aberth tanllyd i gael ei offrymu i'r Arglwydd bob dydd yn offrwm gwastadol: *Num.* xxviii. 3. Yr oedd Iosuah a'i deulu yn gwasanaethu yr Arglwydd: *Jos.* xxiv. 15. Yr oedd Cornelius yn ofni Duw, gyda'i holl dŷ, ac yn gweddio Duw yn wastadol: *Act.* x. 2. Cynghorai Paul y gwŷr i weddïo yn mhob man; 1 *Tim.* ii. 8: ac y mae yn ddiammheu ei fod yn cynnwys y teulu mewn modd arbenig. Nid oes dim yn fwy rhesymol na gweddi deuluaidd; o blegid y mae genym bechodau teuluaidd i'w cyfaddef, bendithion teuluaidd i'w gofyn, a thrugareddau teuluaidd i ddiolch am danynt. Y mae yn gadael argraph ddaionus ar feddyliau y teulu, ac yn cynnorthwyo y pen teulu i'w llywodraethu. Nis gall un teulu diweddi ddisgwyl bendith yr Arglwydd arno: *Ier.* x. 25.

Dylid gweddïo hefyd yn gyhoeddus neu yn gynnulleidfaol: *Esa.* lvi. 7. Y mae Duw yn ei gwrandaw: 2 *Cron.* vii. 14, 16; ac yn addaw bendithio ynddi: *Exod.* xx. 24. Cyssegrwyd hi gan Grist â'i bresennoldeb; *Mat.* xii. 9; xviii. 20; *Luc* iv. 16: a rhoddodd addewid am atteb iddi: *Mat.* xviii. 19. Ffurf o weddi gyhoeddus ydyw Gweddi yr Arglwydd: *Mat.* vi. 9—13; *Luc* xi. 2. Arferai y Cristionogion yn nyddiau yr apostolion gyduno mewn gweddi: *Act.* ii. 46; iv. 24; xii. 5, 12. Dylai fod mewn iaith ddealladwy: 1 *Cor.* xiv. 14—16.

GWEDDILL—IO, [*gwedd*]: gwarged, rhelyw, athorion, yr hyn sydd yn ol. Y mae y gair *gweddill* yn cael ei arfer yn aml iawn yn yr Ysgrythyrau mewn cyssylltiad â'r duwiolion. "Oni buasai i Arglwydd y lluoedd adael i ni ychydig iawn o weddill, fel Sodom y buasem, a chyffelyb fuasem i Gomorrah;" *Esa.* i. 9. Yn y cyfnod y crybwyllir am dano gan y prophwyd Esaiah, yr oedd cyfangorph yr Iuddewon yn "genhedlaeth bechadurus, pobl lwythog o anwiredd, had y rhai drygionus, meibion yn llygru:" ond yr oedd ambell ddyn duwiol yn eu mysg—"ychydig iawn o weddill"—a hwynthwy, fe ddywedir, oedd yr achos i gadw barn yr Hollalluog rhag disgyn ar yr holl genedl. Yr oedd Duw yn barod i arbed Sodom a Gomorrah er mwyn deg o ddynion cyfiawn (*Gen.* xviii. 32). Ac nid yw yn ammhriodol i ni dybio fod duwiolion y dyddiau presennol yn cyfansoddi un rheswm mawr dros fod yr Iehofah yn attal ei fraich rhag dinystrio yr holl fyd. Ni bu amser erioed pryd nad oedd gan yr Arglwydd ar y ddaear "weddill yn ol etholedigaeth gras;" *Rhuf.* xi. 5. Y mae pobl Dduw wedi bod yn brin iawn ar rai amseroedd; ond ni lwyr ddifethwyd hwy erioed, ac ni wneir hyny byth—"gweddill a achubir;" *Rhuf.* ix. 27.

Yn fwyaf priodol, gair yn gosod allan y mesur neu y rhif lleiaf ydyw "gweddill;" ac yn yr ystyr yma yr arferir ef yn y Beibl, pan y cyfeirir at bobl yr Arglwydd. O du Satan 'mae y mwyafrif o feibion dynion wedi sefyll drwy yr holl oesoedd sydd wedi myned heibio; ond y mae cyfnod mewn addewid pryd y bydd cyfnewidiad trwyadl wedi cymmeryd lle ar agwedd foesol a chrefyddol y byd. Y mae Duw, trwy ei anfeidrol ras, yn bwriadu lliosogi ei had megys tywod y môr, ac fel sêr y nefoedd; hwynthwy a etifeddant y ddaear; ac yna bydd angen newid y geiriau, "gweddill a *achubir*" i'r ffurf yma, sef "gweddill *a ddinystrir*." Ychydig a ddinystrir yn y diwedd mewn cymmhariaeth i'r dyrfa fawr a achubir trwy haeddiant hollddigonol yr Emmanuel: *Ioan* xii. 32.

Y mae y gair "gweddill" hefyd yn fynych yn arwyddocau cyflawnder a digonedd: 2 *Bren.* iv. 43; *Mat.* xiv. 20; *Luc* ix. 17; *Ioan* vi. 13. Y mae yn ddiammheuol fod yr Ysbryd Glân wedi cyfarwyddo yr efengylwyr i gofnodi porthiant gwyrthiol y pum mil â phum torth a dau bysgodyn, fel y gadawyd yn ngweddill ddeuddeg basgedaid o friwfwyd, i ddangos mawredd, gallu, awdurdod, a chyfoeth y Gwaredwr, ac yn enwedig i arwain meddyliau ei ganlynwyr yn mhob oes at gyflawnder diderfyn bendithion ei iachawdwriaeth: *Ioan* vi. 27.

"A thoraf ymaith o'r lle hwn weddill Baal;" sef, yr hyn a adawyd o'i addoliad a'i addolwyr: *Seph.* i. 4.

GWEDDNEWIDIAD CRIST. Os dosberthir ufudd-dod yr Arglwydd Iesu, fel y gwnai yr hen dduwinyddion, i ufudd-dod gweithredol a goddefol, a dosbarthu hefyd ei fywyd cyhoeddus i ddau gyfnod cyfattebol, rhaid i ni edrych ar ei weddnewidiad fel arweiniad i mewn i'r olaf. Yn y rhan gyntaf o'i fywyd, yr oedd yn ufuddhau trwy "gyflawni y gweithredoedd a ddangoswyd iddo gan ei Dad," a hysbysu y gwirioneddau "a glywodd gan y Tad;" ac yn y rhan olaf, yr oedd "yn yfed y cwpan a roddwyd iddo i'w yfed." Yn ei fedydd, yr oedd yn cael ei gyssegru i'w holl waith fel Cyfryngwr; ond yn ei weddnewidiad, yn neillduol, i'w ddyoddefaint, "a'r angeu a gyflawnai ete." Yn nhueddau Cesarea Philippi, wedi iddo dderbyn cyffesiad y disgyblion trwy Pedr o urddasolrwydd ei berson, "dechreuodd ddangos iddynt

Digitized by Google

fod yn rhaid iddo fyned i Ierusalem, a dioddef llawer gan yr henuriaid, a'r archoffeiriaid, a'r ysgrifenyddion, a'i ladd, a chyfodi y trydydd dydd." Gweinyddodd gerydd llym ar Pedr—yr hwn, o herwydd daearoldeb ei syniadau, oedd yn ceisio ei rwystro yn ei genhadaeth. Wythnos adfydus oedd yr un ganlynol i'r disgyblion oll, ac i Pedr yn neillduol, tra y myfyrient ar yr hysbysiad dieithrol oeddynt newydd ei dderbyn. Ond canlynwyd hi gan Sabbath gogoneddus; yn yr hwn y gweddnewidiwyd ef ger eu bron, ac yr ymddangosodd mewn gogoniant.

"Ar ol chwe diwrnod" y cymmerodd yr amgylchiad le, medd Matthew a Marc. "Ynghylch wyth niwrnod," medd Luc. Nid yw hyn ond dau ddull gwahanol o gyfrif yr un amser. Yn ol traddodiad eglwysig—yr hwn sydd yn cyrhaedd mor bell yn ol a'r chweched, os nad y bedwaredd ganrif—Tabor, yn Galilea, oedd y mynydd. Y mae yr esbonwyr diweddaraf bron yn ddieithriad yn gwrthod y dybiaeth hon. Yr oedd Tabor yn hanner can milldir o bellder o dueddau Cesarea Philippi, lle y cawn yr Iesu yn yr amgylchiad blaenorol; ond dyma wythnos heb gyfrif am dani i'w theithio. Coffheir, *Marc* ix. 30, i brofi mai wedi hyn yr aeth yr Iesu i Galilea; ond "ymdeithio *trwy*," ac nid *i* Galilea a ddywedir yno. Y gwrthwynebiad cryfaf i Tabor a ddygir gan Robinson [*Palestine*, cyf. II. tudalen 359], trwy ddangos fod Tabor yr amser hwnw yn cael ei gyfanneddu i'w gopa, ar ba un yr oedd tref gaerog. Pa fodd bynag, y mae dysgawdwyr a theithwyr yr oes hon yn lled unfrydol yn tybied mai un o fynyddoedd ucheldir Gaulonitis, sef Hermon neu Panius, yr hwn oedd yn nhueddau Cesarea Philippi, oedd "mynydd sanctaidd" y gweddnewidiad. Y mae yn ddirgelwch pa ham y darfu i'r Iesu ddethol Pedr ac Iago ac Ioan allan o blith y dysgyblion ereill i fod yn dystion o'r amgylchiad hwn; o blegid yr oedd yr un cadarnhad i'w ffydd yn angenrheidiol arnynt hwythau hefyd. Nid dyma yr unig enghraifft, chwaith, o'r fath; o blegid oddi wrth amrywiol ranau o'r hanes efengylaidd, yr ydym yn gweled mai y tri hyn oedd yn ffurfio y cylch agosaf at yr Iesu. Ond gallwn fod yn sicr mai nid trefniad mympwyol oedd hyn, heb achos na rheswm am dano. Mae yn bur debyg fod y rheswm i'w gael yn nghymmeriadau a galwadau gwahanol y tri hyn. Fe dybia rhai eu bod wedi eu dewis o herwydd eu bod mewn ystyr eang yn gymmeriadau cynnrychiol (*representative men*)—Ioan yn cynnrychioli y rhai a bwysant ar fynwes yr Iesu, a fyfyriant ar ogoniant ei berson, ac a ymwleddant ar ei gariad —Pedr yn cynnrychioli y Cristion cywir, llafurus, a gweithgar, i eangu terfynau ei deyrnas—ac Iago yn cynnrychioli y rhai a seliant eu tystiolaeth â'u gwaed: ac felly yn y tri hyn, canfyddant y myfyrgar tawel, y pregethwr llafurus, a'r merthyr selog.

Gyda golwg ar amser y weledigaeth, y mae Schleiermacher a Lange yn tybied mai yn y nos y cymmerodd le. Y mae amryw bethau yn ffafrio y golygiad hwn. 1. Digwyddodd pan yr oedd yr Iesu wedi "ymneillduo i weddïo;" ac y mae yn hysbys mai y nos ydoedd adeg bennodol ac arferol yr Iesu i hyny. 2. Y mae yn haws deall pa fodd yr oedd y disgyblion oll wedi "trymhau gan gysgu." 3. Y mae Luc yn dyweyd ddarfod iddynt "dranoeth ddyfod i waered o'r mynydd." 4. Chwanega hyn yn fawr at effeithiolrwydd yr amgylchiad. Y mae yn bur debyg ddarfod i'r disgyblion esgyn y mynydd heb ddisgwyl dim mwy nag y byddai i'r Iesu, yn ol ei arfer, "barhau ar hyd y nos yn gweddïo Duw;" *Luc* vi. 12. Wedi i fantell y nos ymgasglu o'u cwmpas, yn lluddedig a blinderog gan waith y dydd, dechreuasant drymhau gan gysgu, nes y deffrowyd ac y dychrynwyd hwy gan ogoniant eu Harglwydd yn disgleirio o'u hamgylch; o blegid "fel yr oedd efe yn gweddïo, gwedd ei wynebpryd ef a newidiwyd, a'i wisg oedd yn wen ddisglaer. Ac wele dau ŵr a gydymddiddanodd âg ef, y rhai oedd Moses ac Elias. Y rhai a ymddangosasant ac a ddywedasant am ei ymadawiad ef, yr hwn a gyflawnai efe yn Ierusalem." Yr oedd ymddangosiad y ddau hyn gyda'r Iesu gogoneddus yn awgrymu i'r disgyblion mai iddo ef yr oedd yr holl brophwydi a'r gyfraith yn dwyn tystiolaeth; ac felly, undeb hanfodol yr Hen Destament â'r Newydd. Hwyrach hefyd fod yma awgrym am y berthynas oedd rhwng marwolaeth Crist a pherffeithiad dedwyddwch seintiau yr Hen Destament. Y mae amryw o esbonwyr uniongred a galluog yn credu nad oedd un o'r saint hyd yn hyn wedi esgyn i'r "drydedd nef." Dywed yr Iesu yn ei ymddiddan â Nicodemus:—"Ni esgynodd neb i'r nef, ond yr hwn a ddisgynodd o'r nef." I "fynwes Abraham" yr aeth Lazarus yn y ddammeg. Pan ar y groes, addawodd yr Iesu i'r lleidr edifeiriol, "Heddyw y byddi gyda mi yn mharadwys:" ac etto, wedi ei adgyfodiad y trydydd dydd, dywedai wrth Mair, "Ni ddyrchefais i etto at fy Nhad." Dywed yr ysgrifenydd at yr Hebreaid am wroniaid ffydd yr Hen Destament, er eu bod wedi "cael tystiolaeth trwy ffydd, ni dderbyniasant yr addewid ('y wlad well,' yr 'un nefol'). Gan fod Duw yn rhagweled rhywbeth gwell am danom ni (deiliaid yr oruchwyliaeth hon), *fel na pherffeithid hwynt hebom ni*." Am hyny, pan lefara yr Iesu wrth ei ddisgyblion am ei fynediad "i dŷ ei Dad," dywed ei fod yn myned yno "i *barotoi lle*" i'w anwyliaid; yr hyn sydd yn awgrymu nad oedd neb o'r saint eisoes yn cyfanneddu yno. Yn ol y golygiad hwn hefyd, yr ydym yn gweled yn eglur ystyr yr ymadroddion sydd yn dywedyd ddarfod i'r Iesu esgyn i'r nefoedd fel "blaenffrwyth y rhai a hunasant." Yn wir, pan adgyfododd o'r bedd, "llawer o'r saint a hunasent a gyfodasant." Ond yn ei esgyniad i'r ddeheulaw, eu rhwymau oll a ddattodwyd; fe "gaethiwodd eu caethiwed," ac a ddyrchafodd i'r uchelder yn "Dywysog iachawdwriaeth;" yn cael ei ganlyn gan osgordd fawr o rai ag oedd o'r blaen mewn sefyllfa o ddedwyddwch cymmhariaethol, ond heb eu perffeithio. Os ydyw y golygiad hwn yn gywir—ac y mae hyny yn bur bossibl, os nad yn debygol —y mae yn chwanegu at y dyddordeb a deimlai Moses ac Elias, fel cynnrychiolwyr llawer o brophwydi a rhai cyfiawn a fuant feirw, yn yr "ymadawiad a gyflawnai efe yn Ierusalem."

"A bu a hwy yn ymadaw oddi wrtho ef, ddywedyd o Pedr wrth yr Iesu, O Feistr! da yw i ni fod yma, gwnawn dair pabell." Nid "da yw i ni"—y disgyblion—fod yma; o blegid y mae yn debycach, fel yr esbonia Chrysostom, fod y geiriau yn cynnwys yr Iesu hefyd. Ac nid "da yw i ni fod yma," i osgoi blinderau yn Ierusalem; o blegid rhaid i ni dybied fod cerydd y dydd blaenorol wedi gwaredu Pedr o'r cyfeiliornad hwn. Ond hwyrach fod y geiriau yn arwyddo fod Pedr yn ymwrthod â'r darlun prydferth oedd wedi ei dynu yn ei ddychymmyg am ogoniant teyrnasiad y Messiah, ac yn ymfoddloni ar ogoniant a hapusrwydd y gymdeithas oruchel hon; ac am hyny,

Digitized by Google

yn dymuno ei pharhâd. Neu ynte, hwyrach nad oes i'r geiriau unrhyw ystyr neillduol yn mhellach na mynegiad byrbwyll o frwdfrydedd ei ysbryd yn nghanol y fath olygfa ogoneddus, fel yr awgryma yr efengylydd Luc—"heb wybod beth yr oedd yn ei ddywedyd." "Ac fel yr oedd efe yn dywedyd hyn, daeth cwmmwl, ac a'u cysgododd hwynt;" sef y disgyblion, gan eu hysgaru oddi wrth y cwmpeini anrhydeddus ereill, "a hwynthwy a ofnasant wrth fyned o honynt o'r cwmmwl." Dywed Matthew mai "cwmmwl goleu" ydoedd—hen arwyddlun y presennoldeb dwyfol—â hanes yr hwn, y mae yn ddiammheuol, fod y disgyblion yn dra chydnabyddus. Am hyny, nid oedd ryfedd eu bod yn ofni wrth fyned o honynt i'r cwmmwl; o blegid teimlent oddi wrth ddynesiad y Duwdod. Cywir y tybiasant hefyd; canys daeth "llef allan o'r cwmmwl, gan ddywedyd, Hwn yw fy Mab anwyl, gwrandewch ef. Ac wedi bod y llef, cafwyd yr Iesu yn unig." Y mae y llef, ynghyd â diflaniad uniongyrchol Moses ac Elias wedi bod y llef, yn orchymyn effeithiol i'r disgyblion beidio ymlynu yn hwy wrth Moses nac Elias fel y cyfryw; y rhai nid oeddynt ond cenadon gwasanaethgar a rhagbaratoawl i'r hwn oedd yn cyflawni y gyfraith a'r prophwydi; ac heb ymgynghori dim â'u syniadau na'u teimladau eu hunain, eu bod i roddi y sylw mwyaf astud, a'r ufudd-dod mwyaf llwyr i eiriau yr hwn yr oedd y "Mawr ragorol ogoniant" yn amlygu llwyr foddlonrwydd ynddo. Fe roddodd Duw dystiolaeth gyhoeddus yn flaenorol i hyn o'i gymmeradwyaeth o'i Fab yn ei gyssegriad i'w waith yn medydd Ioan, a thrwy Ioan i'r holl genedl Iuddewig: ond cafodd y dystiolaeth hono ei dibrisio; ac am hyny, y mae Duw yn ei rhoddi eilwaith i'r tri hyn fel cynnrychiolwyr ei eglwys. "Ac fel yr oeddynt yn disgyn o'r mynydd, gorchymynodd yr Iesu iddynt, Na ddywedwch y weledigaeth i neb hyd oni adgyfodo Mab y dyn o feirw." Ar y geiriau hyn, sylwa Lange, mai digon i'r amcan a fwriadwyd ydoedd i'r tri hyn, fel ei ddisgyblion cyfrinachol, fod yn dystion gwyddfodol o'i weddnewidiad, a derbyn cadarnhâd i'w ffydd trwy gymdeithas â sylweddau ysbrydol; tra yr oedd yr argeledd ag oedd o gwmpas yr amgylchiad yn tueddu i ddwyseiddio yr argraff a dderbyniasant. Buasai mynegi yr amgylchiad y pryd hwn i'r disgyblion ereill, hwyrach, yn cynnyrchu cenfigen, neu ynte obeithion cnawdol a gau yn eu calonau. Wrth gwrs, nid oedd y werin yn gymmhwys i dderbyn y fath ddadguddiad.

Y mae gweddnewidiad Crist yn sefyll ar ei ben ei hun, heb ddim yn gyffelyb iddo yn holl brofiadau y ddynoliaeth. Etto, hwyrach fod rhyw gyfattebiaeth gwan yn y dylanwad dwys ac amrywiol y mae gwahanol deimladau y meddwl yn gael ar y corph—yn enwedig "newid y wynebpryd." Weithiau, y mae yn cael ei gynneu gan lawenydd; bryd arall, yn cael ei harddu gan serch; tra y mae y tangnefedd nefol a fwynheir gan dduwiolion yn marw, yn fynych, yn gosod rhyw wedd goruwch-ddaearol arnynt. Amrywia yr edrychiad yn ddirfawr mewn gwahanol amgylchiadau—pan yn lluddedig a blinderog gan daith bellenig, a phan yn ymhyfrydu uwch ben golygfa fawreddog a phrydferth—pan yn crymu o dan bwys gofidiau, a phan yn ymhyfhau i amddiffyn egwyddorion pwysig a gwerthfawr. Mynych y byddai y gweledigaethau a roddid i'r hen brophwydi gynt yn eu gwelwi fel angeu—"eu gwedd yn troi ynddynt yn llygredigaeth." Wedi bod yn y mynydd gyda Duw, disgleiriai wynebpryd Moses, "fel na allai plant Israel edrych yn graff yn wyneb Moses gan ogoniant ei wynebpryd." Ond er bod rhyw gyfattebiaeth, y mae anfesurol bellder rhwng yr holl bethau hyn a'r disgleirdeb tanbaid a amdôdd yr Iesu pan gydgyfarfyddodd pelydrau y gogoniant dwyfol yn llewyrchu oddi mewn ac oddi allan iddo, nes y "disgleiriodd ei wynebpryd fel yr haul, ac yr aeth ei ddillad yn ganaid iawn fel eira, y fath ni fedr un panwr ar y ddaear eu panu." Gyda golwg ar amcan y gweddnewidiad tuag at y disgyblion, yr ydym eisoes wedi rhoddi awgrymiadau. Hwyrach fod i'r amgylchiad hwn hefyd ei amcan tuag at yr Arglwydd ei hun—i'w gyfnerthu i wynebu y profedigaethau chwerwon oedd yn ei aros. Y mae genym brofion ereill nad oedd yr Iesu yn sefyllfa ei ddarostyngiad uwchlaw derbyn cyfnerthion iddo ei hun. Os ydyw yr hen ddeongliad o eiriau y Salmydd yn gywir—"Efe a ŷf o'r afon ar y ffordd," sef cysuron ei Dad, "am hyny y dyrcha efe ei ben"—diammheuol iddo fod yn yfed o'r afon hon yn ei weddnewidiad, ac iddo gael ei adgyfnerthu mewn canlyniad. Y mae gwahanol gyfrifon yn cael eu rhoddi gan esbonwyr o'r amgylchiad. 1. Edrycha rhai ar yr amgylchiad fel gweledigaeth yn unig:—felly Tertullian, Herder, a Gratz. 2. Creda Meyer ei fod mewn rhan yn weledigaeth mewnol, ac mewn rhan yn ffaith allanol. 3. Y mae yr holl hen awdwyr duwinyddol yn edrych ar yr amgylchiad fel ffaith hanesyddol ac allanol. 4. Y mae y Rhesymwyr (*Rationalists*) yn ceisio rhoddi cyfrif naturiol am yr amgylchiad. (1.) Gweledigaeth mewn breuddwyd. Felly y synia Gabler, Rau, Kuinoel, a Neander. (2.) Gweledigaeth breuddwyd ar amser taranau.—*Gabler*. (3.) Cyfarfyddiad yr Iesu â dau o'i ddisgyblion cuddiedig, megys Nicodemus ac Ioseph o Arimathea.—*Kuinoel*, *Venturini*, *Paulus*, a *Hase*. (4.) Rhyw ddisgleirdeb ac ymddangosiad yn y ffurfafen.—*Paulus*, *Ammon*. (5.) Rhyw gymmaint o ffaith, gyda chryn lawer o addurniadau chwedlonol.—*Ewald*. (6.) Chwedloni pur, heb ddim sail hanesyddol.—*Schulz*, *Strauss*. (7.) Alegori yn unig, yn arddangos y goleuni ysbrydol a gyfranwyd i'r disgyblion ar yr amgylchiad.—*Weisse*. Nid ydym yn petruso dyweyd fod yr holl olygiadau diweddaf hyn yn gwreiddio mewn anghrediniaeth.

Yr arlun o'r gweddnewidiad gan Raphael, yr hwn sydd yn grogedig yn y Vatican yn Rhufain, a gydnabyddir yn gyffredinol fel y cyflawniad perffeithiaf yn y gelfyddyd o arlunio. Y mae yn aros yn ffres, heb edwio dim yn ystod tri chan mlynedd.

GWEDDOL [*gwedd*]: trefnus, wedi ei osod mewn trefn, wedi ei gyssylltu yn addas; arferol â'r iau, cynnefin âg ymostwng.—"Ebol llwdn asen weddol;" *Mat.* xxi. 5.—W. S.

GWEDDUS—AIDD—EIDD-DRA [*gwe—edd*]: cymmhwys, addas, hardd, prydferth. "I'r rhai uniawn gweddus yw mawl;" *Salm* xxxiii. 1. Y mae mawl yn elfen bwysig ac anhebgorol yn addoliad y Goruchaf; a dysgir ni yn amlwg drwy yr Ysgrythyrau fod mawl yn un o brif nodweddion yr addoliad perffaith yn y nefoedd: *Dad.* v. 9. Gan hyny, dylai y saint ar y ddaear ymarfer eu hunain i roddi mawl i'r Arglwydd, ac ymberffeithio gyda'r gwaith. "Cenwch yn gerddgar, yn soniarus;" *Salm* xxxiii. 2. Y mae

Digitized by Google

yn ddiammheuol fod cantorion y nefoedd yn deall y gelfyddyd o gerddoriaeth yn ei pherffeithrwydd uchaf; a gall ei bobl ar y ddaear fod yn sicr fod canu da, yn gystal a chanu o'r galon, yn gymmeradwy ganddo ef. Ond mawl y rhai uniawn yn unig sydd weddus iddo ef. Y mae mawl y rhagrithwyr yn ffiaidd am nad ydyw yn deilliaw o'r galon: 1 *Cor*. xiii. 1—4.

"Canys fel hyn y mae yn weddus i ni gyflawni pob cyfiawnder;" *Mat*. iii. 15. Yr oedd yn naturiol i Ioan ryfeddu at ostyngeiddrwydd yr Arglwydd Iesu yn dyfod ato ef i gael ei fedyddio; a chan hyny y mae efe ar y cyntaf yn cilio yn ol, gan ystyried ei hun yn annheilwng o gael y fath anrhydedd. "Y mae arnaf fi eisieu fy medyddio genyt ti," meddai, "ac a ddeui di ataf fi?" Yr oedd yn ymddangos yn fwy rhesymol i Ioan iddo ef gael ei fedyddio gan yr Iesu, yn hytrach nag i'r Iesu gael ei fedyddio ganddo ef. Ond yr oedd yr Iesu yn deall ei waith yn well nag Ioan; a dywedodd wrtho, "Gâd yr awr hon,"—gwna fel yr wyf yn ceisio genyt; ac os nad wyt yn bresennol yn canfod y priodoldeb o hyny, goleuir dy feddwl ar y pwngc yn y man; paid ymddadleu yn awr yn ngwydd y dyrfa fawr yma—"canys fel hyn y mae yn weddus i ni gyflawni pob cyfiawnder."

"Rhodiwn yn weddus, megys wrth liw dydd;" *Rhuf*. xiii. 13; 1 *Thes*. iv. 12. Rhodio yn addas i efengyl Crist, gan "fwrw oddi wrthym weithredoedd y tywyllwch, a gwisgo arfau y goleuni," "nid mewn cyfeddach a meddwdod, nid mewn cydorwedd ac anlladrwydd, nid mewn cynhen a chenfigen." Rhodio mewn tywyllwch ydyw rhodio mewn annuwioldeb; a rhodio yn weddus yn y goleuni ydyw rhodio mewn sancteiddrwydd, wrth fodd calon Duw.

"Sancteiddrwydd a weddai i'th dŷ, O Arglwydd, byth;" *Salm* xciii. 5. "Byth"—bob amser, o dan bob goruchwyliaeth, ac yn mhob oes. Y mae sancteiddrwydd yn gweddu i Arglwydd y tŷ; i athrawiaethau a disgyblaeth y tŷ; i holl drefniadau ac addoliad y tŷ; i'r holl blant a enir yn y tŷ; ac i ddiben Duw yn gosod tŷ, sef eglwys, i fyny yn y byd. Nis gall dim fod yn fwy atgas yn ngolwg Duw nag ymddygiad gwammal ac anystyriol yn ei dŷ; y mae yn bwysig iawn i bawb a fynant ei addoli ef ymbarotoi o ran ysbryd eu meddyliau i sangu ei gynteddoedd; ac wedi myned i mewn i'r lle sanctaidd ac ofnadwy, nid ydynt i anghofio eu bod yn mhresennoldeb neillduol y Duw Tragwyddol, ffynnonell fawr pob sancteiddrwydd: *Preg*. v. 1. Y mae ansancteiddrwydd yn gwbl anaddas i bob peth sydd yn perthyn i dŷ yr Arglwydd; am hyny, ni oddefir mo hono; ac "os llygra neb deml Dduw, Duw a lygra hwnw;" 1 *Cor*. iii. 17.

GWEDDW—DOD—ON, [*gwedd*]: Llad., *viduus*: amddifad, unig, wrtho ei hun. Dyn gweddw, dynes weddw; sef, heb fod yn briod. Gwraig weddw, neu ŵr gweddw, yw rhai wedi bod yn briod. Dan oruchwyliaeth Moses, nid oedd un ddarpariaeth gyfreithiol yn cael ei gwneuthur ar gyfer cynnaliaeth y gwragedd gweddwon. Gadawyd hwy mewn rhan i ddibynu ar ewyllys da perthynasau, yn enwedig y mab hynaf—genedigaeth-fraint yr hwn, neu ei gyfran chwanegol o'r eiddo, oedd yn ei rwymo i raddau i gyflawni y gyfryw ddyledswydd; ac mewn rhan ar y breintiau a estynid i ddosbeirth helbulus ereill, megys cael cyfranogi yn y degwm tairblwyddol (*Deut*. xiv. 28, 29; xxvi. 12), yn y lloffion (*Deut*. xxiv. 19—21), ac yn y gwyliau crefyddol (*Deut*. xvi. 11, 14). Yn unol âg ysbryd y rheolau hyn, yr oedd rhan o'r ysbail a gymmerid mewn rhyfeloedd yn cael ei roddi iddynt (2 *Mac*. viii. 28, 30). Gwaherddid cymmeryd gwisgoedd y weddw ar wystloriaeth (*Deut*. xxiv. 17); ac yr oedd y ddeddf hon yn cael ei gosod mewn gweithrediad gyda golwg ar bethau angenrheidiol ereill yn ei meddiant (*Iob* xxiv. 3). Yn chwanegol at y rheolau neu y deddfau pennodol hyn, yr oedd y weddw yn cael ei chyflwyno i ofal y wladwriaeth (*Exod*. xxii. 22: *Deut*. xxvii. 19; *Esa*. i. 17; *Ier*. vii. 6; xxii. 3; *Zech*. vii. 10), ac fe gondemnid pob esgeulusdra o honi, a gormes tuag ati, yn y modd mwyaf llym a phenderfynol (*Iob* xxii. 9, 10; xxiv. 21; *Salm* xciv. 6; *Esa*. x. 2; *Ezec*. xxii. 7; *Mal*. iii. 5; *Eccles*. xxxv. 14, 15; *Barn*. vi. 38; *Mat*. xxiii. 14). Ar adegau peryglus, goddefid i'r gwragedd gweddwon ddodi eu harian neu eu heiddo yn nhrysorfa y deml: 2 *Mac*. iii. 10. Os digwyddai iddynt fod yn ddiblant, yr oedd gan frodyr y gŵyr trangcedig ryddid i'w priodi: *Deut*. xxv. 5, 6; *Mat*. xxii. 23—30. Gallai cyfathrachwr agosaf hefyd wneuthur hyny: *Ruth* iv. Yr oedd yr arferiad yma mewn grym 200 o flynyddoedd cyn rhoddi y gyfraith: *Gen*. xxxviii. 6, 11. Ni chaniateid i'r archoffeiriad briodi gwraig weddw; ac yn ol egwyddorion y llywodraeth a ddymunai y prophwyd Ezeciel i fod mewn grym yn mhlith y genedl, yr oedd y gwaharddiad hwn i gael ei estyn at yr offeiriaid hefyd: *Ezec*. xliv. 22.

Yn yr Eglwys Apostolaidd, yr oedd y gwragedd gweddwon i gael eu cynnal ar draul y cyhoedd, ac fe roddid cynnorthwy iddynt yn feunyddiol, o dan arolygiaeth swyddogion wedi eu pennodi i'r dyben neillduol yma: *Act*. vi. 1—6. Rhoddir cyfarwyddiadau arbenig gan Paul gyda golwg ar y dosbarth o bersonau oedd yn teilyngu y cynnorthwy hwn: 1 *Tim*. v. 3—16. Yr oedd am ei gyfyngu i'r "wir weddw;" yr hon, yn ol darnodiad yr apostol, ydoedd wedi ei gadael yn unig yn y byd—heb berthynasau na chyfeillion Cristionogol i fod yn gyfrifol am ei chynnaliaeth: 1 *Tim*. v. 3–5, 16. Gan hyny, tlodi, ynghyd â bod yn amddifad o berthynasau a chyfeillion, ydoedd prif safon teilyngdod i dderbyn cynnorthwy y cyhoedd; ond ar yr un pryd yr oedd cymmeriad y wraig weddw, ei duwioldeb, a'i gobaith yn Nuw, i gael ei ystyried: 1 *Tim*. v. 5. Yr oedd nifer arbenig i gael eu dewis o fysg gwragedd gweddwon, ac yr oedd cymmhwysderau y cyfryw ddewisiad yn cynnwys (1.) nad oeddynt o dan drigain mlwydd oed; (2.) eu bod wedi bod yn "wraig i un gŵr," wrth yr hyn y meddylir, fe ddichon, "heb briodi fwy nag un waith;" ac yn (3.), eu bod wedi arwain bywyd defnyddiol, cymmwynasol, a thosturiol: 1 *Tim*. v. 9, 10. Nid ydyw amcan y dewisiad hwn mewn un modd yn amlwg. Pe buasem yn ffurfio ein barn yn unig ar y cymmhwysderau uchod, ni a gasglem fod y gwragedd gweddwon dewisedig yn gwneud i fyny fath o bwyllgor eglwysig, y rhai oedd i gyflawni dyledswyddau cyffelyb i ddiaconesau yr eglwys foreuol. O blegid os oedd yr amcan o natur elusengar, pa ham yr oeddid yn cau allan y gwragedd gweddwon ieuaingc, neu y rhai oedd wedi priodi ddwywaith? Y mae gogwyddiad penaf beirniadaeth ddiweddar yn ddiammheuol yn ffafriol i'r golygiad fod y gwragedd gweddwon dewisedig yn dal y fath sefyllfa swyddogol yn yr eglwys. [Gwel Alford, De Wette, a Lange, &c., ar 1 *Tim*. v. 9, 10]. Ond nis gallwn ganfod unrhyw reswm dros unigoli y frawddeg sydd yn cyfeirio at y gwrag-

edd gweddwon dewisedig oddi wrth y cyssylltiadau, neu dros wahaniaethu y rhai hyn oddi wrth y "gwir weddwon" y crybwyllir am danynt yn yr adnodau blaenorol a dilynol. Os darllenir y frawddeg ar ei phen ei hun, y casgliad a dynir oddi wrthi yw, fod y dewisiad yn cael ei wneuthur er mwyn dybenion elusengar, ac mai prif ammod y dewisiad fel o'r blaen ydoedd tlodi. Y mae y ddadl a ddygir yn mlaen dros y golygiad gwrthwynebol i hwn mewn gwirionedd yn bleidiol iddo, o blegid pa ham y dylid cau allan y merched ieuaingc, neu ferched dibriod, o swyddi eglwysig? Y mae arferiad yr eglwys foreuol yn profi nad oeddynt yn cael eu cau allan. Y mae awdwr yr *Apostolical Constitutions* yn gosod y rheol i lawr fod gwyryfon yn gyffredinol, a gwragedd gweddwon yn unig yn eithriadol, i gael eu happwyntio yn ddiaconesau (vi. 17,); ac etto yr oeddid yn gwyro yn aml oddi wrth y rheol yma [*Hyn. Bingham*, ii. 22, adranau 2—5]. Ar y llaw arall, nid yw y rhwymedigaethau sydd yn gynnwysedig yn y cyfarwyddiadau apostolaidd yn annghysson â'r golygiad elusenol, os cymmerwn yn ganiataol, fel y mae yn eithaf possibl, fod y gwragedd gweddwon dewisedig yn barhaus yn derbyn cynnorthwy o drysorfa yr eglwys, ac yn mwynhau breintiau neillduol ar gyfrif meithder eu gwasanaeth blaenorol, tra yr oedd y rhelyw —y rhai oeddynt ieuengach, a'r rhai fuasent, yn bur debygol, yn ail briodi—yn cael eu hystyried fel gwrthddrychau, ond yn teilyngu cynnorthwy achlysurol. Ond tra yn credu mai amcan gwreiddiol y dewisiad ydoedd cyfranu arian trysorfa yr eglwys yn drefnus a rheolaidd, y mae yn hawdd i ni ddeall pa fodd yr oedd y gwragedd gweddwon dewisedig yn derbyn sefyllfa swyddogol yn yr eglwys. Gan eu bod yn barod, o'u gwirfodd, wedi arfer cyflawni ysbryd y swydd ddiaconaidd; a chan eu bod wedi dangos cymmaint o hunan-lywodraethiad trwy beidio ail briodi, yr oeddid yn naturiol yn edrych arnynt fel esamplau o dduwioldeb i'r rhyw fenywaidd, ac fel rhai cymmhwys yn mhob ystyr i fod yn ddiaconesau yn yr eglwys.

Gwelir oddi wrth ysbryd a rhediad cyffredinol y Beibl fod yr Arglwydd yn dangos tiriondeb neillduol tuag at y gweddwon a'r amddifaid, ac yn gorchymyn i bawb ereill wneuthur yr un modd. Y mae ymddwyn yn garedig tuag atynt yn cael ei nodi fel cangen arbenig o wir grefydd: *Iob* xxix. 13; *Iago* i. 27; ac y mae yn ddiammheuol fod yr eglwys Gristionogol yn mhob oes yn rhwymedig i wneuthur cyfrif mawr o honynt, ac i'w cynnorthwyo yn haelionus, yn ol ei gallu, mewn ystyr arianol, megys y mae yr Ysbryd Glân yn cyfarwyddo trwy yr apostol Paul yn 1 *Tim.* v.

GWEGI, [*gwag*]: gair yn gosod allan wagder ac ysgafnder meddwl neu beth. Y mae yn ddiammheuol nas gall fod dim yn fwy priodol nag i Gristion fod yn llawen, a gwylio rhag tuedd sarug a phrudd. Ond er fod ganddo le i lawenhau, etto efe a ddylai ofalu rhag yr ysgafnder ysbryd sydd yn nodweddu y diféddwl, a'r proffeswr gwag. Y mae bod yn llon, heb wegi ac ysgafnder, yn sobr heb sarugrwydd, yn ffurfio cymmeriad hapus ac urddasol. Gwel GWAGEDD.

GWEHILION, [*gwe—hil*]: wrth wehilion yr ydym yn deall y rhan fwyaf diwerth o unrhyw beth; megys gwaelodion, llorion, sothach, gwaddod, &c. Gwehilion ŷd ydyw y manyd a'r us. Gwehilion metel, wedi y purer ef, ydyw y sorod. Hefyd, gelwir ysgubion ac ysgarthion, &c., yn wehilion. Gwehilion y bobl ydyw y dosbarth annysgedig, anfoesol, a diog; coegddynion heb unrhyw fri nac anrhydedd iddynt, y rhai ydynt yn cynnyrchu blinder a llygredigaeth yn mhob gwlad a phob cymdeithas. Yn 1 *Bren.* xiii. 33, dywedir fod Ieroboam mab Nebat wedi gwneyd rhai "o wehilion y bobl yn offeiriaid yr uchelfeydd," er fod yr Arglwydd yehydig amser cyn hyny wedi llefaru trwy y prophwyd yn erbyn yr allor oedd yn Bethel, gan daraw llaw Ieroboam â diffrwythder pan oedd efe yn ei hestyn allan i ddal y prophwyd, a'i hadferu drachefn mewn attebiad i weddi gŵr Duw. Y mae hyn yn profi fod Ieroboam yn un o wehilion y ddynoliaeth, ac wedi ymwerthu i wneyd yr hyn oedd ddrwg yn ngolwg yr Arglwydd, a thrwy hyny lygru y bobl. Hefyd, gwnaeth y cenedloedd dieithr a ymsefydlasant yn Samaria (2 *Bren.* xviii. 32) yr un weithred ysgeler, gan ddilyn esampl Ieroboam. Gan fod yn angenrheidiol i'r offeiriaid fod o deulu Aaron, nid oedd goreuon y bobl, heb son am y gwehilion, yn gymmeradwy yn ngolwg yr Arglwydd i lenwi y swydd offeiriadol. Yn *Amos* viii. 6, rhestrir gwerthu "gwehilion gwenith" yn mhlith y pechodau mwyaf ysgeler, megys tori y Sabbath, &c.; ac y mae y prophwyd yn bygwth y barnau mwyaf ofnadwy ar genedl Israel am eu hanonestrwydd a'u trachwant, ynghyd â phechodau ereill yr oeddynt yn euog o'u cyflawni: *Amos* viii. 11—14.

GWEHYN—YDD—WYR, [*gwe—hyn*]: tynwr, tywalltwr, gwaghawr. Gwaith y gwehynydd yn mhlith yr Iuddewon, a chenhedloedd ereill yr amser gynt, oedd tynu neu godi dwfr o bydewau neu ffynnonau, a'i dywallt i gafnau i ddyfrhau y praidd, ac at orchwylion ereill. Ymddengys, oddi wrth amryw ranau o'r Ysgrythyrau, nad oedd ganddynt un ffordd i dynu neu i godi dwfr o'r ffynnonau neu y pydewau ond trwy fyned i lawr ar hyd grisiau, a'i gario i fyny mewn ystenau neu lestri ereill: *Gen.* xxiv. 11—15; xxix. 3—10; *Exod.* ii. 16; *Barn.* v. 11. Ond gan na ellid codi dwfr yn y dull a nodwyd oddi eithr pan na byddai y ffynnon yn ddofn, gellir tybied eu bod yn defnyddio yr un offerynau i'w godi y pryd hyny ag a arferir yn bresennol yn y dwyrain; ac y mae y cofadeiliau Aiphtaidd yn dangos fod rhai o honynt yn dra hynafol. Y mae yn ddiammheu fod tynu neu godi dwfr yn waith trwm iawn, a bod yr Hebreaid yn ystyried y swydd yn un o'r rhai iselaf yn eu plith; ac ymddengys mai dieithriaid neu gaethion a gyflawnent y gwaith hwn yn fwyaf cyffredin. Nid peth anghyffredin ydyw gweled cludwyr dwfr yn nhrefydd a dinasoedd gwledydd y dwyrain yn myned drwy yr heolydd gyda llonaid croen gafr o ddwfr ar eu cefnau, i'r diben o roddi cyflenwad o ddwfr i'r tai yr arferant eu gwasanaethu. Gosododd Iosuah y Gibeoniaid yn gymmynwyr coed ac yn wehynwyr dwfr i'r holl gynnulleidfa, neu yn lle yr holl gynnulleidfa, yr hon oedd i ofalu am goed a dwfr at wasanaeth yr Arglwydd yn y babell, fel cerydd arnynt am iddynt ei dwyllo. Gellir casglu fod y Canaaneaid a ymostyngasant i'r Israeliaid yn ddilynol i hyny wedi eu gosod yn y swyddau hyn yr un modd a'r Gibeoniaid, o dan yr enw cyffredin *Nethim*—"offrymedig," neu Nethiniaid: 1 *Bren.* ix. 20, 21; cymmharer *Ezra* ii. 58; a viii. 20. Y mae yn amlwg fod hyn wedi bod o fendith fawr i'r Gibeoniaid ac ereill,

Digitized by Google

er iddynt gael eu darostwng i lafur caled; o herwydd pan y mae yn galw ar gynnulleidfa Israel i ufuddhau i'r Arglwydd, ac i fyned i gyfammod âg ef, nid yw yn eithrio y "dieithriaid, y cymynwyr coed, na'r gwehynwyr dwfr." Nid oedd Moses yn ystyried neb yn rhy ddistadl i fyned i gyfammod â'r Arglwydd, ac i gael rhan yn mendithion y cyfammod; a dangosai yn amlwg fod rhwymau cyfartal ar bawb i'w wasanaethu: *Deut.* xxix.

GWEITHRED BRAWF, [*Test Act*]: deddf ydoedd hon a basiwyd yn nyddiau Charles II., "er attal y peryglon a ofnid oddi wrth y Pabyddion." Ei hamcan oedd sicrhau fod i bob person a dderbynid i swydd o ymddiried dan ei fawrhydi, yn un peth, dderbyn cymmun Swper yr Arglwydd, yn ol arfer Eglwys Loegr, o fewn tri mis wedi ei dderbyniad i'r gyfryw swydd; ac os gwrthodai, yr oedd i dderbyn cospedigaeth lem. Drwy y weithred hon, yr oedd pob anghydffurfiwr gonest a chydwybodol yn cael ei gau allan yn hollol o bob swydd dan y llywodraeth. Yn y flwyddyn 1681, fe ddygwyd y Prawf i Ysgotland. Gwrthododd pedwar ugain o glerigwyr ei sefyll, a rhoddasant eu swyddau i fyny. Llawnododd Iarll Argyle, gydag eglurhad, yr hwn a dderbyniwyd ar y cyntaf, ond y dydd canlynol cyhuddwyd a charcharwyd ef; ac wedi ei brofi, fe'i condemniwyd ef. Dywedai Arglwydd Hallifax wrth y brenin Charles, na byddai i ni yn Lloegr grogi ci ar y seiliau y dedfrydwyd fy Arglwydd Argyle arnynt." Efe a lwyddodd i ddiangc; ond pan ddaliwyd ef yn mhen pedair blynedd, fe'i dienyddiwyd. Ni roddodd Charles hi mewn grym ar ei frawd, y Duc o York, yr hwn oedd yn Babydd; a thra yr oedd yntau yn frenin, byddai yn ei gochelyd yn fynych o ffafr i bersonau neillduol.

GWEITHRED BUM-MILLTIR, [*Five-mile Act*, neu yr *Oxford Act*]: gweithred seneddol a basiwyd yn y flwyddyn 1665, er gorfodi pob Anghydffurfiwr i gymmeryd ei lw na cheisiai wneuthur unrhyw gyfnewidiad yn yr eglwys na'r wladwriaeth. Pob gweinidog a wrthodai gymmeryd y llw, ni oddefid iddo fyw na dyfod o fewn *pum milltir* (oddi eithr pan yn croesi y ffordd) i unrhyw fwrdeisdref, dinas, neu dref gorfforedig; nac o fewn pum milltir i unrhyw blwyf, tref, neu le y buasai yn gweinidogaethu ynddo fel parson, ficer, neu ddarlithydd, dan boen dirwy o ddeugain punt, a chael ei wahardd i fod yn athraw mewn unrhyw ysgol, neu gymmeryd personau i gael eu haddysgu.

GWEITHRED Y FFYDD, [*Auto da Fe; Act of Faith*]: brawddeg yn cael ei harfer i osod allan yr hyn a gymmerai le pan y byddai nifer o garcharorion y Chwilys, ar ol cael eu condemnio, yn cael eu dwyn allan o'u daeargelloedd, i ddioddef dienyddiad cyhoeddus; a phan y byddai y sawl a gafwyd yn ddieuog yn cael eu rhyddhau. Trefnid yn gyffredin i'r weithred ddisgyn ar ryw wyl fawr, er mwyn i'r dienyddiad fyned heibio gyda mwy o ofnadwyaeth; a digwyddai hyn bob amser ar y Sabbath. Byddai y carcharorion yn cael eu cadw am amser maith hyd oni thröent yn hunan-gyhuddwyr. Mor gynted ag y carcherid hwynt, byddai eu cyfeillion yn myned i'w galarwisgoedd, gan na feiddient ofyn am faddeuant i'r cyhuddedig, rhag y cymmerid hwythau fel rhai cydgyfranog â hwynt. Pan na byddai un cysgod o brawf yn erbyn yr hwn a gymmerid i fyny, fe'i gollyngid, ar ol dioddef yr arteithiau creulonaf, carchariad hirfaith ac arswydus, a chollìant y rhan fwyaf o'i eiddo. Cyhoeddid y ddedfryd yn erbyn y carcharorion yn gyhoeddus a chyda difrifwch mawr. Yn Portugal, hwy a gyfodent adeilad mawr i ddal tair mil o bobl, yn mha un y gosodent allor gostus, ac y gosodent eisteddleoedd dyrchafedig ar bob tu. Yno fe osodid y carcharorion, ac ar eu cyfer yr oedd cadair, at yr hon y gelwid hwynt o un i un i dderbyn eu tynged gan un o'r Chwilyswyr. Cwyddai y creaduriaid truenus pa beth i'w ddisgwyl oddi wrth y dillad a wisgent y diwrnod hwnw. Byddai y rhai a wisgent eu dillad eu hunain yn cael eu rhyddhau ar ol talu dirwy; byddai y rhai a wisgent gôt felen, heb lewys, gyda llun croes St. Andrew arni, yn cael eu bywyd, ond yn colli eu holl eiddo; byddai y sawl oedd â llun fflamau wedi ei wneud o gŵyr coch wedi ei bwytho ar eu cotiau, ac heb un groes, yn cael maddeuant, ond yn cael eu bygwth â than os tröent eilwaith; ond byddai y sawl oeddynt â'r fflamau hyn, gyda'u darlun eu hunain yn amgylchynedig gan gythreuliaid ar eu cotiau, yn cael eu condemnio i'w llosgi i farwolaeth. Ni byddai y Chwillyswyr, y rhai oeddynt wŷr eglwysig, yn cyhoeddi dedfryd marwolaeth, ond ffurfient a darllenent act, yn mha un y dywedent fod y troseddwr, ar ol ei gael yn euog trwy ei gyfaddefiad ei hun, yn cael ei drosglwyddo gyda chryn anewyllysgarwch i'r awdurdodau gwladol, i gael ei gospi yn ol ei haeddiant; a rhoddent yr ysgrifen hon i'r saith barnwr oeddynt ar du deheu yr allor, a chyhoeddid y ddedfryd yn ddioed. Yn awr fe ddechreuai yr act olaf yn y chwareu chwilysol anfad hwn, a gelwid hi "Gweithred y Ffydd!"

Ffurfid gorymdaith, yn cael ei blaenori gan fynachod Dominicaidd; wedi hyny, y rhai edifeiriol—oll mewn cotiau duon, heb lewys, yn droednoeth, gyda chanwyll gŵyr yn eu llaw. Dilynid y rhai hyn gan y rhai edifeiriol na chawsant ond prin ddianc rhag y fflamau. Yn nesaf, deuai y rhai a lithrasent yr ail waith, a'r rhai ydynt i gael eu llosgi. Ar eu hol hwy, fe ddeuai gwrthwynebwyr proffesedig Eglwys Rhufain. Dilynid pob carcharor gan un o gyfrinweision y Chwilys; ac ar un llaw i'r rhai oeddynt i'w llosgi byddai Jesuitiaid yn pregethu yn barhaus er eu cael i edifarhau. Ar ol y carcharorion, fe ddilynai tyrfa o gyfrinweision y Chwilys ar feirch; ar eu hol hwy y Chwilyswyr, a swyddogion ereill y llys, ar fulod; ac yn ddiweddaf oll, y Chwilyswr cyffredinol, ar farch gwyn, yn cael ei arwain gan ddau ddyn gyda hetiau duon a bandiau gwyrddion o'u hamgylch. Cyfodid esgynlawr o faintioli digonol i ddal o ddwy i dair mil o bobl; ar un pen iddi y mae y carcharorion, ac ar y pen arall y chwillyswyr. Traddodid pregeth yn orlawn o glodforedd a mawl i'r Chwilys, ac o sarhad a gogan ar hereticiaid. Ar ol hyny, byddai yr offeiriad yn esgyn bwrdd gerllaw yr esgynlawr, ac wedi gwrandaw ar dystiolaethau yr edifeiriol, byddai yn ail adrodd dedfryd y rhai oeddynt i gael eu rhoddi i farwolaeth, ac yn eu trosglwyddo hwynt i fraich y wladwriaeth, gan daer erfyn ar yr un pryd na byddai i'r awdurdodau gwladol *gyffwrdd â'u gwaed, na gosod eu bywydau mewn perygl!* Yn awr, wedi i'r carcharorion gael eu traddodi i ddwylaw yr ynad gwladol, rhoddid hwy mewn cadwynau, a chymmerid hwy yn gyntaf i garchar y wlad, ac oddi yno, yn mhen

Digitized by Google

awr neu ddwy, ger bron y barnwr gwladol. Wedi i hwnw ofyn iddynt yn mha grefydd yr ewyllysient farw, byddai yn cyhoeddi dedfryd ar y sawl a dystient eu bod am farw yn nghymmundeb Eglwys Rhufain, trwy ddyweyd y caffent yn gyntaf eu llindagu, ac yna eu llosgi yn lludw; a'r sawl a fynent farw dan broffes o grefydd arall, trwy gyhoeddi y llosgid hwy yn fyw. Yna fe'u cymmerid hwynt ar unwaith at y dienyddle, lle y byddai cynnifer o ystanciau wedi eu cyfodi ag oedd o garcharorion i'w llosgi, a phentyrau o eithin sych o'u hamgylch. Yr oedd ystanciau y rhai a lynent yn eu heresi tua phedair llath o uchder, gyda bwrdd bychan tua'r pen uchaf, i'r carcharor eistedd arno. Ar ol llindagu a llosgi y rhai oeddynt i farw mewn undeb âg Eglwys Rhufain, byddai yr hereticiaid proffesedig yn myned i fyny i'r ystanc ar hyd ysgol. Cynghorai y Jesuitiaid hwynt drosodd a throsodd drachefn i ddyfod i gyttundeb â'r eglwys; ac wedi methu llwyddo, gadawent hwynt, gan ddyweyd wrthynt eu bod yn eu gadael hwynt i'r diafol, yr hwn a safai wrth eu penelin, yn barod i dderbyn eu heneidiau, a'u cludo i fflamau uffern. Ar hyn, fe waeddid â llef uchel, "Gwneler barfau y cwn!" ac yn y fan fe wthid eithin fflamiol ar benau polion hirion i'w gwynebau, nes eu llosgi yn golsyn, a dilynid hyn âg amlygiadau o lawenydd a gorfoledd mawr. O'r diwedd fe roddid tân yn yr eithin ar waelod yr ystanciau; a chan fod y trueiniaid wedi eu cadwyno mor uchel, prin y cyrhaeddai y fflam hwyaf yn uwch na'r man yr eisteddent arno; ac felly byddent yn cael eu rhostio yn hytrach na'u llosgi. Ammhossibl fod golygfa fwy torcalonus:—y carcharorion yn gwaeddi o hyd tra gallent "Tosturiwch er mwyn cariad Duw!" Etto i gyd yr oedd eu pangfeydd arteithiol yn cael eu gwylio gyda'r boddhad a'r llawenydd mwyaf gan rai o bob oed a rhyw! Ddarllenydd anwyl, ai peth fel hyn yw Cristionogaeth? Ai dyma y grefydd a ddysgodd yr Iesu addfwyn a thosturiol i ddynolryw? Na ato Duw i un Cymro byth gredu y fath gabledd. Etto i gyd, rhai yn perthyn i'r eglwys a fedrai gyflawni hyn oll yn enw Duw—eglwys sydd yn dal i ymffrostio ei bod yr un heddyw ag a fu o'r dechreuad—eglwys a gyflawnai etto holl erchyllderau yr oesoedd tywyll, pe meiddiai—pleidwyr hon sydd yn gwneud eu hegni i ennill ein cydwladwyr i'w "mynwes!" Ond na thywyned yr haul yn dragywydd ar y dydd y gall hi gyhoeddi uwch ben Cymru, "Eiddo i mi ydwyt!" Gwel CHWILYS.

GWEITHRED GODDEFIAD. Gwel ANGHYDFFURFIAETH.

GWEITHRED Y GORPHORAETH [*Corporation Act*]: gweithred a basiwyd yn amser Charles II, yn yr hon y gorchymynid, "Nad oedd un person i gael ei ddewis i'r swydd o heddynad, nac unrhyw swydd arall ynglŷn â chorphoraethau, oni byddai o fewn un flwyddyn cyn yr etholiad, wedi derbyn sacrament Swper yr Arglwydd yn ol defodau Eglwys Loegr." Y mae y weithred hon, a ddarostyngai un o ordinhadau mwyaf difrifol Cristionogaeth, i fod yn gareg lam i swydd wladol, yn awr wedi ei diddymu.

GWEITHRED RHYDYCHAIN. Gwel GWEITHRED BUM MILLTIR.

GWEITHRED Y TY CWRDD. Pasiwyd y weithred hon yn y flwyddyn 1664. Gorchymynai na byddai i ddim ond pump o bersonau dros 16eg oed, heb law y teulu, gydgyfarfod i addoli yn deuluol na chymdeithasol. Y gosp am y trosedd cyntaf oedd tri mis o garchar, neu bum punt o ddirwy ar y sawl fyddai yn gweinidogaethu; yr ail gosp oedd chwe mis o garchar, neu ddeg punt o ddirwy; y drydedd gosp oedd alltudiaeth am oes, neu ddirwy o gan punt. Yr oedd y sawl a oddefent i gyfarfodydd crefyddol gael eu cynnal yn eu hysguboriau, eu hanneddau, neu eu tai allan, yn agored i'r un cospedigaethau; ac yr oedd y gwragedd priod a gymmerid yn y cyfryw gyfarfodydd i gael eu carcharu am ddeuddeng mis, oni thalai eu gwŷr ddeugain swllt am eu cael allan. Yr oedd yr awdurdod i osod y weithred mewn grym yn nwylaw un ynad heddwch, yr hwn a allai gyhoeddi dedfryd ar dystiolaeth un person, heb farn rheithwyr. Mewn canlyniad i'r weithred hon, torid i mewn i dai, cymmerid ymaith anifeiliaid ac eiddo, delid personau, a llenwid carcharau y gwahanol siroedd â'r cyfryw a geid yn euog o'r weithred erchyll o ymgynnull ynghyd i addoli Duw, neu wrandaw ar ei air yn cael ei egluro! Nid oedd y ddeddf hon i fod mewn grym ond am dair blynedd. Ond yn wahanol i hyny y bu. Yn y flwyddyn 1669, fe wnaed prawf arall arni mewn diwyg newydd. Y tro hwn, gosodai ddirwy o bum swllt ar bob gwrandawr am y trosedd cyntaf, a deg swllt am yr ail drosedd. Dirwyid y pregethwr a pherchenog y tŷ lle y cedwid y cyfarfod i ugain punt yr un; ac os gwrthodai unrhyw ynad weinyddu y gospedigaeth briodol ar dystiolaeth rhyw un, yr oedd yntau i gael ei ddirwyo i gan punt. Yr oedd un ran o dair o'r dirwyon hyn yn myned i logellau y sawl a achwynent, y rhan arall i'r brenin, a'r rhan arall i'r tlodion. Ond nid yn wastad yr oedd y brenin na'r tlodion yn cael eu rhan; byddai yr ynad a'r achwynwr yn gofalu yn fynych am gadw y cwbl eu hunain. Fel hyn yr oedd personau a meddiannau anghydffurfwyr, trwy y ddeddf anghyfiawn a gormesol hon, yn cael eu gosod yn ysglyfaeth i'r creaduriaid isel a diegwyddor hyny a geid yn mhob ardal bron yn barod i achwyn ar eu cymmydogion.

GWEITHRED UNFFURFIAETH. Y mae dwy ddeddf yn myned dan yr enw hwn. Pasiwyd un yn ystod teyrnasiad y frenhines Elizabeth, er sefydlu Protestaniaeth i fod yn grefydd Prydain. Gorfodai yr holl ddeiliaid i fod yn Brotestaniaid, i arfer ffurfwasanaeth eglwysig, &c., yn y fath drefn a ffurf ag a hysbysid yn y *Llyfr Gweddi Cyffredin*; ac yr oedd yn rhaid i bob ffurf a threfn arall gael ei gosod o'r neilldu dan boen cospedigaethau trymion. Fel hyn, er fod yr Anghrist Pabaidd o Rufain yn cael ei fwrw dros y drws, yr oedd Anghrist Protestanaidd yn cael ei sefydlu trwy rym cyfraith. Nis gallai dim fod yn fwy gormesol nac yn fwy gelynol i ysbryd Cristionogaeth a rhyddid cydwybod.

Ond y ddeddf a olygir yn fwyaf mynych wrth Weithred Unffurfiaeth yw yr hon a basiwyd yn nheyrnasiad Charles II., ar y 19eg o Fai, 1662. Yn ol y ddeddf hon, yr oedd yn rhaid i holl weinidogion yr efengyl yn Mhrydain ddadgan eu cydsyniad diffuant fod pob peth a gynnwysir yn y *Llyfr Gweddi Cyffredin* yn gysson â Gair Duw; os na byddent wedi eu hordeinio yn esgobawl o'r blaen, i gymmeryd eu hail ordeinio; i gymmeryd llw o ufudd-dod canonaidd; i ymrwymo i beidio

cymmhell unrhyw gyfnewidiad yn yr Eglwys na'r wladwriaeth; ac i ddal ei fod yn anghyfreithlawn, ar unrhyw sail, i godi arfau yn erbyn y brenin. Pwy bynag na chydymffurfiai â'r ddeddf hon, yr oedd yn cael ei ystyried yn anghymmhwys i ddal ei swydd fel gweinidog, a chymmerid ei fywoliaeth oddi arno. Etto i gyd, ni oddefwyd i ryddid cydwybod gael ei fathru yn ddiwrthwynebiad i'r llawr. Ar Ddydd Gŵyl Bartholomeus, ar y 24ain o fis Awst, 1662, fe ddangosodd dros *ddwy fil* o weinidogion eu bod yn dewis diswyddiad, carchar, tlodi, a phob dioddefaint, yn hytrach na chydsynio â gofynion y ddeddf orthrymus hon, ac anufuddhau i Dduw. Yr oedd gan Gymru hefyd ei gwŷr yn mhlith y llu ardderchog hwn. Pan y gorchymynodd Charles I., yn 1633, ddarllen "Llyfr Chwareuyddiaethau" ar y Sabbath, ni chafwyd ond "prin hanner dwsin o glerigwyr yn y Dywysogaeth yn meddu ar ddigon o dduwioldeb a gwroldeb" i wrthod cydsynio â'r fath orchymyn annuwiol; ond yn y flwyddyn 1662, pan y galwodd ei fab Charles II. am ufudd-dod i Weithred Unffurfiaeth, cafwyd "o leiaf gant a chwech yn ddigon cryf a hunanymwadol i wrthwynebu ymyriad ynfyd y brenin â materion crefyddol."

**GWEITHREDOEDD YR APOSTOLION.** Gwel ACTAU YR APOSTOLION.

**GWEITHREDOEDD PAUL A SENECA.** Un o'r ffug ysgrifeniadau a briodolid i Paul, yn cynnwys epistolau a ysgrifenwyd, meddir, ganddo ef at Seneca, yr athronydd Rhufeinig; a chan Seneca ato yntau.

**GWEITHREDOEDD PAUL A THECLA.** Gwel ACTAU FFUGIOL YR APOSTOL.

**GWEITHREDOEDD PEDR.** Gwel ACTAU FFUGIOL YR APOSTOL.

**GWEITHREDOEDD PILAT.** Gwel ACTAU PILAT.

**GWEITHREDOEDD Y SAINT.** Gwel ACTAU Y SAINT.

**GWEINIDOGAETH CRIST.** Nid ydym yn amcanu rhoddi hanes rheolaidd o weinidogaeth gyhoeddus Crist yn yr erthygl hon, am yr elai y cyfryw gynllun ar draws materion erthyglau ereill. Caiff y darllenydd olwg gyflawn ar fywyd a gweinidogaeth Crist wrth ymgynghori â'r holl erthyglau sydd yn dwyn cyssylltiad â hwynt; megys, CRIST; TEMTIAD CRIST; GWYRTHIAU CRIST; DAMMEGION, &c. Ni a gymmerwn olwg yn unig ar y pethau sydd yn dwyn y berthynas agosaf â'i weinidogaeth neu ei ddysgeidiaeth, fel y cyfryw. Edrychwn yn gyntaf ar faes a thymmor ei weinidogaeth. Gyda golwg ar y naill, y mae y tri efengylwr blaenaf yn ymddangos ar yr olwg gyntaf fel yn amrywio oddi wrth y pedwerydd. Gweinidogaeth Crist yn Galilea a gofnodir yn unig gan y tri cyntaf: oddi eithr y dyddiau blaenorol i'w farwolaeth, nid ydynt yn sôn am ei ymweliadau â Ierusalem; ond y mae Ioan, ar y llaw arall, tra yn cofnodi rhai o'i weithredoedd yn Galilea, yn aros yn fwyaf neillduol gyda'i weithredoedd yn Iudea. Ond nid oes yn yn un anhawsder, pan gofiom mai Ioan a ysgrif nodd olaf o'r efengylwyr, a'i fod ef yn peidio ymdrin â'r pethau a gynnwysid yn yr efengylau blaenorol, ac yn bwriadu i'w ysgrif ei hun gyflawni diffyg y lleill. "Nid ydyw y tri efengylwr yn proffesu rhoddi amseryddiaeth y weinidogaeth, ond darluniad yn hytrach o honi: anfynych y ceir nodiadau amseryddol yn eu hadroddiad. A chan eu bod yn cyfyngu eu hunain yn benaf i Galilea, y lle y cyflawnodd yr Iachawdwr ei brif weithredoedd, yr oedd yn naturiol iddynt beidio crybwyll am y gwyliau a dreuliodd ein Harglwydd yn Ierusalem, am nad oeddynt yn chwanegu at ddefnyddiau ei weinidogaeth yn Galilea. Yr oedd Ioan, ar y llaw arall, yr hwn oedd yn ysgrifenu yn fwy diweddar, ac yn rhoddi adroddiad o fywyd yr Iachawdwr sydd yn llai cyflawn fel hanes (o blegid y mae mwy na hanner ei efengyl yn cael ei gymmeryd i fyny âg adroddiad o'r tri mis olaf o'i weinidogaeth), yn amddiffyn ei gywirdeb hanesyddol trwy ddodi i mewn amryw nodiadau amseryddol: yn y digwyddiadau ar ol bedyddiad Crist, crybwyllir am ddyddiau, a hyd yn oed am oriau (*pen.* i. 29, 35, 39, 43; ii. 1): crybwyllir am y wyrth gyntaf, ynghyd â'r amser y cyflawnwyd hi (*pen.* ii. 1—11). Crybwyllir, nid yn unig am wyliau y pasc (*pen.* ii. 13, 23; vi. 4; xiii. 1; ac fe allai v. 1), ond hefyd am ŵyl y pebyll (vii. 2), a'r gyssegr wyl (x. 22); ac fel hyn, fe drefnwyd mai yr efengylwr sydd yn myned dros leiaf o faes ei weinidogaeth ydyw yr un sydd yn sefydlu ei pharhâd i ni, ac yn ein galluogi i drefnu ffeithiau y lleill yn fwy manwl yn eu lleoedd priodol. Y mae yn wir mai y digwyddiadau yn Galilea a gofnodir yn fwyaf neillduol gan y tri efengylwr cyntaf; etto, ceir profion ynddynt ei fod wedi gwneuthur gweithredoedd yn Iudea. Y mae galarnad Iesu Grist yn achos Ierusalem (*Mat.* xxiii. 37) yn arwyddo fod y ddinas hono wedi mwynhau llawer o'i ddysgeidiaeth. Y dull goreu i esbonio y ffaith a ddywedir yn *Mat.* iv. 28; a xv. 1, am ysgrifenyddion a Phariseaid wedi dyfod i Galilea o Ierusalem ydyw y dybiaeth fod eu hadgasedd wedi ei gynnhyrfu ato yn ystod ei ymweliadau â Ierusalem. Y mae ei gyfeillgarwch â theulu Lazarus (*Luc* x. 38), ac ymlyniad Ioseph o Arimathea wrtho (*Mat.* xxiii. 57), yn rhoddi ar ddeall fod yr Iesu yn arfer talu ymweliadau â Ierusalem." —*Thomson*, erthygl "*Jesus Christ,*" in "*The Dictionary of the Bible.*"

Y mae yr esbonwyr goreu yn sylwi am y tair efengyl cyntaf, ac yn enwedig am Matthew, fod y cyfeiriadau at leoedd, yn gystal ag at amserau, yn dra ammhennodol ynddynt; a thrwy gymmhariaeth â'r bedwaredd efengyl—y fwyaf manwl yn ei chyfeiriadau at yr amgylchiadol, yn gystal a'r fwyaf ardduniol ac ysbrydol yn ei dysgeidiaeth—y gellir trefnu y digwyddiadau a gofnodir ynddynt hwy. Y mae Matthew, yn *pen.* iv. 12, yn sefydlu maes gweinidogaeth yr Iesu yn Galilea. Y maes hwn oedd Galilea Briodol, neu Galilea Uchaf. Dywedir yn Ioan (*pen.* iv. 44, 45) ddarfod i'r Iesu, wedi cael ei wrthod yn Nazareth, a "thystiolaethu nad yw prophwyd yn cael anrhydedd yn ei wlad ei hun," fyned i Galilea; yr hyn sydd yn peri dyrysweh i rai, am fod Nazareth hefyd yn ddinas o Galilea. Ond y mae yr ymddangosiad yma o anghyssondeb, wrth ei ystyried, yn brawf anuniongyrchol o wirionedd yr hanes. Yr hyn a eilw Ioan yn Galilea oedd, nid y rhan hono o Palestina a elwid felly mewn cyferbyniad a Iudea a Samaria, ond dosbarth Galilea Uchaf, mewn cyferbyniad â Galilea Isaf. Yn yr olaf yr oedd Nazareth. Wedi ei wrthod yn Nazareth, yn Galilea Isaf, cafodd dderbyniad croesawgar

Digitized by Google

yn Capernaum, mewn canlyniad i'r pethau a wnaethai yn yr ŵyl yn Ierusalem, y lle yr oedd rhai o bobl Capernaum yn bresennol. Yr oedd y llinell derfyn rhwng y ddau ddosbarth o Galilea yn rhedeg o'r dwyrain i'r gorllewin rhwng Nareth a Cana. Nid yw y ffaith fod Matthew yn sefydlu maes gweinidogaeth Crist yn Galilea yn rhoddi un sail i'r dyb ei fod yn anhysbys o'i lafur tu hwnt i derfynau Galilea, hyd ei daith olaf i Ierusalem. Y mae yn rheswm digonol yn erbyn y cyfryw dybiaeth, ebe Olshausen, nas gellir dangos yn mha le y cymmerodd y gwahanol ddigwyddiadau a gofnodir le, am mai cynllun yr efengylwr hwn oedd, nid trefnu y digwyddiadau yn ol eu hamseriad a'u lle, ond yn ol y cyffelybrwydd a'r berthynas fewnol oedd rhyngddynt. Felly, er fod Matthew, fel Galilead, yn adrodd yn benaf y pethau a ddigwyddasant yn Galilea; etto, y mae ei hanes yn cymmeryd ffurf mor gyffredinol, fel y gall gyfeirio at ddigwyddiadau yn Iudea, yn gystal ag yn Galilea. Gwel *pen.* x. 1; xi. 1, 2, 7; xii. 1—9; xv. 22.

Pa ham y gwnaeth yr Iesu Galilea yn brif faes ei weinidogaeth? Yr atteb cyffredin ydyw, mai er mwyn osgoi malais ac ystryw Iuddewon Ierusalem ac ymddengys fod hyn mewn rhan yn gywir Y cyfryw oedd y gwrthwynebiad yn mysg yr awdurdodau eglwysig i bob peth dwyfol ac ysbrydol, fel, pe yr arosasai yr Iesu yn Ierusalem, nas gallasai barhau ei fywyd cyhoeddus cyhyd. Adnabyddodd eu gwrthwynebiad—o leiaf eu hanghydnawsedd—ag ef mor fuan a'r Pasc cyntaf o'i arosiad yn y brifddinas: *Ioan* ii. 18, 24. Ar ryw adegau yn unig y deuai i Ierusalem, i'r diben o ddwyn ei dystiolaeth yn ninas a thŷ ei Dad; ac, yn ei ymweliad olaf, i farw; "Canys ni all fod y derfydd am brophwyd allan o Ierusalem;" *Luc* xiii. 33. Yn ngwyneb erlidigaeth ar ei ragflaenor yn Iudea yr ymadawodd yr Iesu oddi yno; "A phan glybu yr Iesu draddodi Ioan efe a aeth i Galilea; a chan adaw Nazareth, efe a aeth ac a arosodd yn Capernaum;" *Mat.* iv. 12, 13. Gwelai yr Iesu oddi wrth yr erlidigaeth yma ar y Bedyddiwr, ac yn enwedig oddi wrth ymfoddhâd y bobl yn y driniaeth a gafodd, nad oedd ei weinidogaeth wedi cael yr effaith briodol ar drigolion Iudea. Nid oedd ymddangosiad a gweinidogaeth Ioan wedi eu gwneuthur yn "bobl barod" i'r deyrnas ag yr oedd y Messiah ar fin ei sefydlu; ac yn ngwyneb yr ammharodrwydd hwn yn Iudea, aeth ein Hiachawdwr i gwr arall o'r wlad i ymofyn am wrandawyr mwy parod, i gyhoeddi ymadroddion mawrion ei deyrnas yn eu mysg; ac y mae yn amlwg oddi wrth *Ioan* iv. 1—3, fod ein Hiachawdwr yn edrych ar yr ymosodiad hwn ar ei ragredegydd fel dechreuad yr ymosodiadau arno ef ei hun.

Dechreuodd Crist bregethu yn y rhan fwyaf tywyll, isel-foes, a diystyr o'r wlad. Y mae y disgrifiad lleol o'r parth hwn gan Matthew, heb law y darluniad o gyflwr moesol y trigolion, yn arwyddo hyny; "Tir Zabulon, a thir Naphtali, wrth ffordd y môr tu hwnt i'r Iorddonen, Galilea y Cenhedloedd." Dechreuodd bregethu edifeirwch "*wrth ffordd y môr.*" "Yn ein tyb ni, nid oedd Môr Galilea yn llwybr mor bwysig mewn cyssylltiad â thrafnidiaeth y byd yn yr oesoedd hyny, fel ag i roddi i'r wlad o'i amgylch yr enw 'ffordd y môr.'"—*Lange.* Dichon fod yr enw yn arwyddo mai gwlad gyffredin ac anghyssegredig oedd; wedi colli y neillduad a berthynai ar y cyntaf i Wlad yr Addewid, ac yn bresennol fel tramwyfa gyffredin i bawb. Yr oedd y driogaeth hefyd "tu hwnt i'r Iorddonen," yn gorwedd i'r gogledd i darddle yr afon sanctaidd; a "Galilea y Cenhedloedd" ydoedd, wedi myned erbyn hyn yn wlad baganaidd, a'r trigolion yn fwy tebyg i'r cenhedloedd nag i'r Iuddewon. Yr oedd dwy fantais yn nglŷn â'r dewisiad o Capernaum i fod yn faes ei weinidogaeth: trwy hyny, yr oedd yn ymarferol yn anghefnogi disgwyliadau cnawdol pobl Iudea am Fessiah. Yr oedd hefyd wedi dewis y maes mwyaf cyfaddas i gyflawni ei weinidogaeth. "Gellir dyweyd am drigolion y taleithiau gogleddol," ebe Olshausen, "eu bod yn byw, mewn modd arbenig, mewn tywyllwch ysbrydol; yr oeddynt felly, mewn rhan, am eu bod yn bell oddi wrth ganolbwynt crefydd—Ierusalem a'r deml—yn y rhai yr oedd y wir wybodaeth, mor bell ag yr oedd yn bod yn mysg y bobl, yn cael ei chadw; mewn rhan hefyd, am nad oeddynt wedi ymgadw yn bur, ond wedi ymhalogi trwy gyfathrach barhaus â'u cymmydogion paganaidd." Etto, y bobl hyn, y rhai a ddirmygid gan Iuddewon ffurfiol Iudea fel pobl hanner paganaidd, oedd y rhai mwyaf addas i dderbyn yr athrawiaeth newydd am deyrnas Dduw. Yr oedd trigolion Galilea o feddwl mwy dysyml, ac yn llai darostyngedig i ddylanwad dinystriol Phariseaeth na phobl Ierusalem; ac felly, yr oeddynt yn naturiol yn fwy agored i dderbyn addysg yr Iesu. Nid oeddynt yn llawn o ymchwydd o herwydd eu huchafiaeth cenhedlaethol, fel yr oedd y lleill. Yr oedd eu cyfathrach â'r rhai dienwaededig, a'u cyfranogiad o'u moesau isel, tra wedi peri iddynt anghofio y neillduad ag y dylasent ei gadw, etto wedi rhyddhau eu meddyliau oddi wrth yr ucheldyb oedd mor ddwfnreddfol yn Iuddewon Iudea; ac yr oedd eu sefyllfa grefyddol isel hefyd yn gwneud yn llawer haws deffro ynddynt y teimlad o angen am iachawdwriaeth. Felly, fel y mae pechaduriaid yn mhob oes yn agosach i deyrnas Dduw na'r cyfiawnion (*Mat.* ix. 13); felly hefyd yr oedd y Galileaid tlodion, isel, a dirmygedig, yn ddeiliaid cymmhwysach i weinidogaeth Crist nag oedd Iuddewon beilchion a hunangyfiawn Iudea.

Gyda golwg ar dymmor parhâd ei weinidogaeth gyhoeddus, y mae yn amlwg fod Iesu Grist wedi bod yn Ierusalem deirgwaith ar ŵyl y Pasc; ond y mae ei fynediad yno y bedwaredd waith yn gwestiwn o ddadl. Y ddadl felly ydyw, pa un a barhaodd ei weinidogaeth fwy na dwy, ynte fwy na thair o flynyddoedd. Nid oes neb yn bresennol yn barnu fod y gair yn *Esa.* lxi. 2 ("Blwyddyn gymmeradwy yr Arglwydd") yn ddigon o sail i dybiaeth amryw o'r tadau, mai un flwyddyn oedd tymmor ei weinidogaeth. Y mae Ioan yn sôn am chwech o wyliau—ar bump o ba rai yr oedd Crist yn bresennol yn Ierusalem: y Pasc a ddilynodd ei fedydd (*pen.* ii. 13); gŵyl yr Iuddewon (v. 1); y Pasc ar ba un nid aeth i fyny i Ierusalem, ond yr arosodd yn Galilea (vi. 1, 4); a gŵyl y pebyll, i'r hon yr aeth i fyny—nid yn amlwg, ond megys yn ddirgel (vii. 10); y gyssegrwyl (x. 22); ac yn olaf, y Pasc ar ba un y dioddefodd (xii. xiii). Yn mysg y gwyliau uchod, lleferir yn ddiammheuol am dair o wyliau y Pasc; ond y mae gŵyl yr Iuddewon yn *pen.* v. 1, yn destyn llawer o ddadl. Y dyb fwyaf tebygol, fodd bynag, ydyw, mai y Pasc oedd yr ŵyl hon. Dywed Dr. Thompson yn yr erthygl yr ydym eisoes wedi cyfeirio ati, os nad y Pasc ydoedd, yna nad yw Ioan yn crybwyll am un Pasc ar ol y cyntaf yn *pen.* ii. hyd yr un y gwneir crybwylliad am dano yn *pen.* vi; felly, ni byddai yr amser rhwng

Digitized by Google

y ddau hyn ond un flwyddyn. Yn awr, er nad yw yr hanes yn Ioan am y cyfnod yma yn cynnwys ond ychydig o ffeithiau, etto, wrth gymmharu yr holl efengylwyr â'u gilydd, gwelir fod y llafur a wesgir i'r flwyddyn hon yn rhy fawr i fyned trwyddo yn yr ysbaid hwnw o amser. Yr oedd yr amser ag yr oedd yr Iesu, trwy ei ddisgyblion, yn bedyddio, ger llaw yr Iorddonen, yn lled faith, yn ol pob tebyg; a pharhaodd hyd garchariad Ioan: *Ioan* iii. 22—36. Yr oedd y daith trwy Galilea, y sonir am dani yn *Mat.* iv., yn cael ei gwneuthur mewn gwlad oedd yn cynnwys 200 o bentrefi, ac yn fawr iawn ei phoblogaeth. Sonia Luc hefyd (*pen.* viii. 1), am daith arall—yr hon, yn ol y disgrifiad o honi, oedd yn rhwym o gymmeryd llawer o amser; o blegid, dywedir iddo "fyned trwy bob dinas a thref, gan bregethu ac efengylu teyrnas Dduw." Crybwyllir hefyd am daith arall gyffelyb yn *Mat.* ix. 35—38, pan yr aeth "trwy yr holl ddinasoedd a'r trefydd, gan ddysgu yn eu synagogau hwy." Oddi wrth yr adroddiadau hyn, gofyna Dr. Thompson, "A ydyw mewn un modd yn debygol y gallasai yr Iesu, ar ol treulio rhan fawr o amser yn Iudea, wneuthur tair o deithiau o'r fath yn Galilea yn ngweddill y flwyddyn, gan bregethu a gwneuthur gwyrthiau yn mhob man yr elai iddo? Buasai hyn yn fwy tebygol pe buasai y teithiau yn frysiog, ac yn gyfyngedig i ychydig o leoedd; ond llefarir am y tair taith yn y fath fodd ag i ddangos eu bod yn hollol wrthwyneb i hyny." Y mae, gan hyny, yn ymddangos yn fwy naturiol mai y Pasc oedd yr ŵyl yn *Ioan* v. 1; ac os felly, teflid dwy o'r teithiau mawrion hyn i'r ail flwyddyn o weinidogaeth yr Iesu. Nid oes dim chwaith yn yr adroddiad yn *Ioan* v. 1, yn ein hattal rhag meddwl fel hyn. Dyma eiriau yr efengylwr, "Wedi hyny, yr oedd gŵyl yr Iuddewon; a'r Iesu a aeth i fyny i Ierusalem." Mae y ddwy ffaith yma yn cael eu bwriadu fel achos ac effaith. Yr ŵyl oedd yr achos o'r mynediad i Ierusalem. Os felly, y mae yn naturiol casglu mai un o'r tair gŵyl ydoedd ar ba rai y disgwylid i'r Iuddewon ymddangos yn Ierusalem. Ond dylem ddyweyd fod hwn yn gwestiwn ag y mae ansicrwydd mawr yn aros am dano; ac y mae y naill feirniad neu y llall yn dadleu o blaid yr holl wyliau Iuddewig. Dywed rhai, pe y Pasc a feddylid, y buasai y fannod o flaen εορτη (gŵyl); yr hyn a fuasai ynddo ei hun yn ddigon i benderfynu mai y brif ŵyl oedd yn ngolwg yr efengylwr. Etto, nid yw fod y fannod heb fod i mewn, fel y mae Tholuck yn sylwi, yn brawf mai nid y Pasc ydoedd. Gan fod y chwanegiad—"yr Iuddewon"—yn dilyn y gair "gŵyl," gellid hebgor y fannod o'i flaen (Winer). Y mae y fannod yn eisieu, heb y cyfryw chwanegiad, yn *Mat.* xxvii. 15; *Marc* xv. 6; y lle, er hyny, y mae y Pasc yn cael ei olygu. Y mae y nifer mwyaf o'r esbonwyr yn meddwl mai y Pasc oedd yr ŵyl hon. Yn erbyn y dyb yma, dadleuir y byddai rhy ychydig o ddigwyddiadau yn cael eu cofnodi rhwng y ddau Basg, *pen.* v. 1, a *pen.* vi. 4. Ond y mae yn amlwg mai yr unig beth a roddai nerth yn yr wrthddadl yma fyddai, bod yr efengylwr yn rhoddi buch-draeth gyflawn o'r Iesu. Ar ol dyddiau Kepler, gŵyl y Pwrim ydyw yr un y dadleuir fwyaf drosti. Hyn ydyw golygiad Hug, Olshausen, Meyer, &c. Y mae Tholuck yn dwyn y rhesymau canlynol yn erbyn y dyb hon:—1af. Fod gŵyl y Pwrim yn syrthio fis o flaen y Pasc, ac nad yw yn debygol fod yr Iesu, os aeth efe i Ierusalem ar y Pasc a nodir yn *pen.* vi. 4, wedi dychwel ar ol hyny i Galilea; ac os na chadwodd hi yn Ierusalem, ei fod yn esgeuluso y brif ŵyl, ac yn myned i ŵyl oedd heb ei sefydlu yn yr Hen Destament, ond wedi ei gosod gan yr Iuddewon eu hunain mewn cyfnod diweddarach. Mae yn wir, ebe Tholuck, y gellir dyweyd ei fod wedi cadw y gyssegrwyl (*pen.* xvi. 22), yr hyn ni ofynai y gyfraith i'r Iuddew; ond dylid cofio ei fod ef eisoes yn bresennol yn Ierusalem ar yr ŵyl hono, ac mai nid myned yno i'r diben o'i chadw a wnaeth. 2il. Gan nad oedd angenrheidrwydd am gadw gŵyl y Pwrim yn y brif ddinas, ond y gellid ei chadw yn rhywle, nid ymddengys fod un rheswm am fyned i Ierusalem arni. Ond y mae yr efengylwr yn rhoddi fel rheswm pa ham yr aeth yr Iesu i Ierusalem fod gŵyl yr Iuddewon yno. Y mae Neander yn ymddangos yn ammheus pa un ai y Pasc ynte y Pwrim a feddylir. Y mae, fodd bynag, yn sylwi fod y gair cyffredin am fynediad yr Iuddewon ar y Pasc i Ierusalem yn cael ei arfer gan yr efengylwr—ανεϑη. Dywed hefyd, "Mae yn annhebyg y buasai yr Iesu, ar ol cynnhyrfu rhagfarnau y Phariseaid yn ei erbyn, yn myned i ŵyl y Pwrim, yn lle myned yn mlaen gyda'i lafur yn Galilea hyd ŵyl y Pasc." A chwanega, nad yw fod Ioan yn adrodd cyn lleied am ei weinidogaeth hyd y Pasc dilynol (*pen.* vi. 4), yn meddu un grym fel gwrthddadl, am nad oedd yn ei fwriad i ddilyn ei lafur yn Galilea. Felly, y mae y cwestiwn pa un ai mwy na dwy, ynte mwy na thair blynedd oedd hyd gweinidogaeth gyhoeddus yr Iesu, yn ymddibynu ar ystyr yr ymadrodd "gŵyl yr Iuddewon;" a chan nad oes genym ddim mwy na thebygolrwydd o blaid y farn mai y Pasc ydoedd yr ŵyl hon, nis gellir llefaru yn benderfynol am hyd ei weinidogaeth.

Ni a edrychwn yn y lle nesaf ar *fater* a *nodwedd* ei weinidogaeth. Yn ei weinidogaeth gyhoeddus, yr oedd Iesu Grist yn cyflawni ei swydd fel prophwyd mawr yr eglwys; ac megys yr oedd efe fel brenin ac offeiriad yn anfeidrol ragori ar yr holl frenhinoedd a'r offeiriaid ereill, felly hefyd yr oedd fel prophwyd yn annhraethol uwch law yr holl brophwydi blaenorol. Efe oedd y "Prophwyd mawr"—y dadguddiad, a'r dadguddiwr perffaith o Dduw. Yr oedd ei ymddangosiad fel dysgawdwr yn arwain cyfnod newydd mwy pwysig nag un o'r blaen i mewn. Ynddo ef, ymwelodd Duw âg Israel "godiad haul o'r uchelder." Yr oedd perthynas rhwng ei weinidogaeth â gweinidogaeth y prophwydi o'r blaen, ac â gweinidogaeth yr apostolion ar ei ol. Gan fod yr eglwys dan yr Hen Destament yn meddu hanfod yr un dadguddiad, nis gallasai yr oll o ddysgeidiaeth Crist fod yn newydd; etto, nid yw hyn yn cynnwys un diraddiad arno ef fel prophwyd, pan ystyriom mai ei ddysgeidiaeth ef oedd eiddo y prophwydi. Efe, fel Gair Duw, oedd yn goleuo pob dyn oedd yn dyfod i'r byd cyn cyflawnder yr amser. Trwyddo ef yr amlygwyd i Israel y gwirioneddau a'u hynodent oddi wrth holl genhedloedd y byd, a phob gwirionedd oedd yn aros yn y byd paganaidd—pelydrau oeddynt o'i oleuni ef. Yr Ysbryd Glân fel Ysbryd Crist—yr hwn a anfonid gan Grist, ac a arweiniai yr ysgrifenwyr at bethau oedd yn dwyn cyssylltiad â'r Messiah—oedd yn y prophwydi. Felly, nis gallasai ei ddysgeidiaeth ef fod yn gwbl newydd, a llawer llai y gallasai fod yn wrthwyneb i ddysgeidiaeth Moses a'r prophwydi. Gorweddai hedyn ei athrawiaeth ef yn sefydliadau dwyfol ac ymadroddion prophwydoliaethol yr Hen Destament; ac o herwydd hyny,

Digitized by Google

y mae efe yn gyffredin yn cyssylltu ei ddysgeidiaeth â gwirionedd yr Hen Destament. Y mae yn defnyddio ffugrau yr Hen Destament; yn cyfeirio at ei osodiadau, gan esbonio eu perthynas âg ef; yn cymmhwyso defodau y gyfraith, hanes Israel, a geiriau y prophwydi ato ef ei hun, fel yr Hwn ag yr oeddynt i gael eu cyflawniad ynddo. Llefara am Moses gyda pharch neillduol; dywed mai efe ei hun oedd canolbwynt ei holl ysgrifeniadau. Mewn gair, cyflawniad a dadblygiad o athrawiaeth yr Hen Destament ydyw ei ddysgeidiaeth ef:—"Na thybiwch fy nyfod i dori y gyfraith neu y prophwydi; ni ddaethum i dori, ond i gyflawni;" *Mat.* v. 17. Gan fod cymmaint o newydd-deb yn ei ddysgeidiaeth, yr oedd, fe allai, yn dueddol i'r disgyblion feddwl fod ei athrawiaeth oll yn newydd, ac nad oedd ynddi ddim i'w chyssylltu â'r hyn oedd yn bod o'r blaen. Ond i'w gosod ar eu gocheliad rhag meddwl hyny, dywed ef na ddaethai i dori, ond i gyflawni. "Y mae hyn yn perthyn i holl waith Crist, yn gystal ag i'w ddysgeidiaeth. Efe ei hunan oedd y cyflawniad o bob gwirionedd oedd yn bod o'r blaen yn y byd, hyd yn oed mewn paganiaeth. Ond yr oedd yn neillduol felly o'r gyfraith a'r prophwydi. Edrycha Matthew ar y Messïah fel cyflawniad o'r Hen Destament; ond Ioan sydd yn dwyn yn mlaen y drychfeddwl am dano fel cyflawniad llwyr o *bob* cysgod."—*Lange.* Yn y naill, gwelir yr Ysgrythyr yn cael ei gyflawni; yn y llall, y mae cysgodau natur yn cael eu sylwedd ynddo Ef—y "gwir fara," "bara y bywyd," "y winwydden." Ni ddylid golygu mai llyfrau Moses a'r prophwydi, fel y cyfryw, a feddylir yn unig wrth "y gyfraith a'r prophwydi;" ond yn benaf y dadguddiad oedd yn cael ei raddol ddadblygu ynddynt. Yr oedd yr Iuddewon yn euog o dori y gyfraith mewn amryw ffyrdd. Yr oedd y Phariseaid yn tori y gyfraith, y Saduceaid y prophwydi, a'r Esseniaid y gyfraith a'r prophwydi mewn rhan. Ond cadwodd Iesu Grist yr Hen Destament yn ei gyfanrwydd, a chyflawnodd ef yn ei ystyr ddyfnaf. Y mae y gair *cyflawni* yn cael ei esbonio yn wahanol:—1. Eu cyflawni yn weithredol. 2il. Eu cyflawni yn athrawiaethol; hyny yw, eu hesbonio yn fwy llawn—dwyn allan eu harwyddocâd ysbrydol. Ond dylid uno y ddau olygiad—cyflawni y gyfraith a'r prophwydi oedd eu perffeithio mewn athrawiaeth, a'u harddangos mewn gweithred. "Mi a ddaethum, nid i ddistrywio dim sydd dda a gwir: amcan fy ymddangosiad ydyw diogelu, cario yn mlaen, a pherffeithio pob cychwyniad ar, a pharatoad i, a disgwyliad am, deyrnas Dduw."—*Stier.* Y mae y geiriau a arferir yma yn peri i ni edrych ar y gyfraith fel adeilad ag y mae ei sylfaen wedi ei ryddhau, ond etto ag y gellir ei gyfodi arni. Felly, yr Hen Destament ydyw y sylfaen ar yr hwn y mae adeilad y Newydd i orwedd. Cynnwysa yr Hen yr amlinell, a'r Newydd y darlun llawn. Y mae perthynas fewnol rhyngddynt, fel yr eginyn a'r addfed ffrwyth.

Er nad yw dysgeidiaeth Crist, felly, yn gwbl newydd, etto y mae ynddi liaws o elfenau sydd yn gosod rhagoriaeth arbenig arni, ac yn ei gwneuthur yn deilwng o fawredd ei berson. Yr oedd yn weddus i'r ddysgeidiaeth gyfatteb i berson y Dysgawdwr. Llefarodd Duw dan yr Hen Destament "lawer gwaith a llawer modd" trwy y prophwydi. Amlygai ei feddwl yn raddol a phrin, ychydig yma ac ychydig acw; a hyny, yn un peth, o herwydd bychander y cyfryngau trwy ba rai y rhoddai y dadguddiad. Wrth fesur yn unig yr oedd y mwyaf o'r prophwydi wedi derbyn yr Ysbryd, am fod yn ammhossibl i lestri bychain gynnal cyflawnder ei ddoniau. Ond gan fod y Mab yn ddelw a Gair Duw, yn adnabod y Tad i'r un perffeithrwydd ag yr adnabyddid yntau gan y Tad, derbyniodd ef yr Ysbryd, nid wrth fesur. Felly, er fod y ddysgeidiaeth flaenorol o ran ei tharddiad yn ddwyfol, o ran ei chynnwysiad yn meddu ar hanfod yr holl ddadguddiad, ac o ran cymmhwysder yn cyfatteb i sefyllfa yr eglwys ar y pryd; etto, nid ydyw yn ddiraddiad arni i ddyweyd fod rhyw ragoriaethau yn nysgeidiaeth Crist na ddichon fod yn perthyn hyd yn oed i addysg ddwyfol pan yn cael ei gweinyddu gan greadur. Bychander cyfryngau y dadguddiad oedd un achos pa ham y cafodd ei roddi lawer gwaith a llawer modd; ond yn y Mab, cafodd ei roddi yn ei berffeithrwydd a'i gyflawnder, a hyny am mai y Mab ydoedd. Rhoddwyd iddo ef yr Ysbryd, nid wrth fesur, am mai efe yn unig a allasai gynnwys y fath gyflawnder. "Yr uniganedig Fab, yr hwn sydd yn mynwes y Tad, hwnw (hwnw yn unig) a'i hysbysodd ef." Felly, yn ngwaith Crist yn dadblygu yr hedyn bywiol a orweddai yn yr Hen Destament, yr oedd y fath ddwfndreiddiad, y fath eangder canfyddiad, y fath ysbrydolrwydd amcan, y fath amrywiaeth, a'r cyfan yn cael ei osod allan yn y fath ffurf fel ag i wneuthur yr argraff fwyaf dwfn a pharhaol, fel ag i adael pawb o'r dysgawdwyr blaenorol mewn pellder anfesurol o'i ol. Yn ei ddysgeidiaeth ef y codwyd y llen oddi ar gymmeriad Duw, ac yr eglurwyd y byd anweledig i ddynion. Buasai yn gabledd yn neb o'r prophwydi i ddyweyd am dano ei hun, "Y neb a'm gwelodd i a welodd y Tad." Ceir yr un perffeithrwydd yn ei addysg foesol ag sydd yn ei ddadguddiadau o'r dwyfol. Y mae yn diwygio yr hen gyfundraeth o foesau, yn adgadarnhau yr hyn oedd wir ynddi, yn ei phuro oddi wrth bob cymmysgedd oedd wedi ymgyssylltu â hi, ac yn gollwng i ebargofiant bob peth oedd heb fod o rwymedigaeth barhaus. Yn y ffurf y gadawyd moesoldeb gan Grist, nid oes arni mwyach eisieu ei diwygio; nid oes dim ynddi ag y gellid ei dynu oddi wrtho, na dim ag y gellid ei chwanegu ati. Yr oedd ei ddysgeidiaeth, yr un fath a'i gymmeriad, yn uno y gwir a'r da a geid mewn cyfundraethau ereill, ac yn gwrthod yr elfenau gwrthwyneb oedd ynddynt. Ac y mae hyn yn dyfod yn brawf anwrthwynebol o'i Dduwdod a'i Fessïaeth; o blegid, pa fodd y gallasai yr hwn oedd mewn ymddangosiad yn Iuddew tlawd, wedi ei ddwyn i fyny yn un o bentrefydd mwyaf distadl Galilea, heb ei addysgu yn mhrif eisteddle dysgeidiaeth ei genedl, osod i lawr, mewn ychydig o flynyddoedd, sylfeini y grefydd hono a'r moesoldeb hwnw sydd yn cael eu cydnabod gan bob crediniwr yn gyflawn a pherffaith, a hyd yn oed gan anghredinwyr, yn rhagori yn annhraethol ar bob cyfundraeth arall o foesau a chrefydd.

Mater gweinidogaeth Crist, ebe yr efengylwyr, oedd *teyrnas Dduw.* "Yr Iesu a ddaeth i Galilea, gan bregethu efengyl teyrnas Dduw;" *Marc* i. 14: "A bu wedi hyny, iddo fyned trwy bob dinas a thref, gan bregethu, ac efengylu teyrnas Dduw;" *Luc* viii. 1. Amcan ei weinidogaeth oedd hysbysu dynion am deyrnas Dduw—eu rhybuddio o'i dyfodiad, esbonio ei natur, cyhoeddi ei deddfau, a pherswadio dynion i ymwthio iddi, trwy ddal ei rhagorfreintiau o'u blaen. Wrth yr ymadrodd hwn, *teyrnas Dduw* [gwel d. g.], y meddylir

Digitized by Google

llywodraeth ysbrydol Duw ar ddynion; nid yr awdurdod alluog trwy ba un y mae yn cynnal ei holl greaduriaid, ac yn gwneuthur i bob peth wasanaethu i'w amcanion, a chyflawni ei gynlluniau—ond yr ymostyngiad ewyllysgar hwnw i'w ewyllys sydd yn perthyn i'r creaduriaid sydd yn ei garu. Y llywodraeth hon a ddymchwelwyd gan bechod; ond amcan dyfodiad Crist i'r byd oedd ei hadsefydlu. Nis gellir dychymmygu am un drychfeddwl arall mor fawreddog a'r un a gynnwysir yn yr ymadrodd—*teyrnas Dduw*. Y mae yn cynnwys fod dynolryw, mewn byd o bechod a thrueni, i gael eu crynhoi dan un Pen, a thrwyddo ac ynddo ef eu hadferu i sancteiddrwydd a dedwyddwch. Yr oedd y personau mwyaf pur o feddwl a grymus mewn athrylith, mewn gwahanol oesoedd, wedi bod yn dyheu am yr "adenedigaeth" hwn; ac yn ngrym eu hawydd am y peth, yn gwneuthur cynnygion at dynu cynllun o hono. Ond wrth eu cymmharu â dysgeidiaeth yr Iesu, pa mor eiddil a diwerth oedd eu cynlluniau; a mwy na hyny, nid oeddynt, heb eu cymmharu â "theyrnas Dduw," ond tlodaidd mewn drychfeddwl, a hollol ddiwerth mewn ymarferiad. Nis gallesid byth sylweddoli eu cynlluniau; a hyd yn oed, pe gallesid, ni chyrhaeddasent yr amcan mewn golwg. Ond y mae y deyrnas a sefydlodd Iesu Grist yn berffaith mewn drychfeddwl ac mewn ymarferiad. Y mae yn unol â phob deddf. Nid yw yn gwrthweithio un o ddeddfau meddwl dyn, nac yn croesi un o egwyddorion moesoldeb. "Cyfiawnder, llawenydd, a thangnefedd," ydyw ei hegwyddorion; y mae yn diogelu hawliau cyfiawnder, ac yn rhoddi i ddyn dangnefedd, er ei fod yn bechadur. Y mae y cynllun mor berffaith, fel y mae yn dwyn y meddwl i ryfeddu at ei ardderchogrwydd: ac y mae mor fanwl ag ydyw o eang; y mae yn deilwng o Dduw, yr hwn y mae ei lywodraeth mor eang, fel y mae yn cynnwys nefoedd a daear o'i mewn, ac mor fanwl fel nad yw aderyn y tô yn disgyn i'r ddaear heb ei hymyriad. Felly hefyd y deyrnas hon: y mae mawrhydi ac eangder aruthr yn ei chynllun, etto y mae yn cyfarfod â holl anghenion a holl deimladau dyn, ac yn gyfaddas i bob ffurf ar gymdeithas.

Y mae yn anhawdd i ni, y rhai y mae ein holl syniadau am Dduw ac am ddyn wedi eu ffurfio gan Gristionogaeth, sylweddu y mawredd a'r gwreiddiolder sydd yn nysgeidiaeth Iesu Grist. Ond ni a allwn weled rhywfaint o'r nodweddau hyn, wrth edrych ar ansawdd crefydd yn mysg y genedl ar y pryd. Yr oedd ymlygriad Israel wedi cyrhaedd erbyn hyn i'w bwynt isaf. Nid oedd eu crefydd namyn cyfuniad o anwybodaeth, ofergoeledd, a ffurfioldeb; marweiddiai eu cydwybodau, gadawai eu meddyliau yn ddiwaith, eu calonau yn ammhur, a'u bucheddau yn llygredig. Ni ddeffroai un teimlad dwfn o'u mewn; goddefai iddynt borthi y ceisiadau mwyaf hunanol dan rith gofal am y ffurfiau mwyaf dibwys. Dieuogai hwynt yn y troseddiad o brif ddyledswyddau moesoldeb—o ofynion penaf cyfraith Duw, os dangosent barch i draddodiadau, er nad oedd un gwerth moesol yn y parch hwnw. Yr oedd manylder dienaid eu crefydd wedi eu gwneud yn analluog i gydymdeimlo âg egwyddorion mawrion. Cynnwysid eu gwybodaeth grefyddol mewn deall manylion, a'u hymarferion crefyddol mewn gweithredu y manylion hyny. Tra yn dosbarthu y gyfraith i gannoedd o fân orchymynion a gwahardddiadau, yr oeddynt wedi colli yr egwyddor fawr sydd yn rhwymo yr holl orchymynion neillduol mewn un ddeddf fawr gyffredinol—y bywyd sydd yn gwneuthur y gorchymynion yn un cyfangorph o ddyledswydd. Cuddid y gwirioneddau dwyfol oedd wedi eu dadguddio iddynt dan lwythi o draddodiadau, ofergoelion, a chamesboniadau. Ar un llaw, yr oedd y Phariseaid, y rhai a amddiffynent iawn grededd traddodiadol, yn glynu yn fwy wrth esboniadau yr hynafiaid ar y gyfraith, a'u chwanegiadau ati, nag wrth y gyfraith ei hun. Ar y llaw arall, yr oedd y Saduceaid yn gwrthod y chwanegiadau hyny, ac yn proffesu ymgadw yn unig at athrawiaeth Moses: etto yr oeddynt hwy mor amddifad o ysbrydolrwydd a'r Phariseaid, os nad yn fwy felly; o blegid dygent eu tueddiadau ammheus at yr Ysgrythyr, gan esbonio ymaith o hono bob peth uchel ac ysbrydol. Ar y llaw arall, yr oedd yr Esseniaid, y rhai ni roddent bwys ar ddim ond ar ymattaliadau ac unigedd. Y wir grefydd, yn eu golwg hwy, oedd peidio arbed y corff, byw mewn neillduaeth a myfyrdod. Meddai pob un o'r pleidiau hyn rywfaint o wirionedd; ond yr oedd y gwirionedd hwnw yn naill ochrog, ac yn cael ei gymmysgu â mwy o gyfeiliornad, a'r cyfeiliornad hwnw yn wenwynig i wir grefydd. Yr oedd eu heffaith ar y genedl yn ddinystriol. Yr oedd eu dadleuon chwerwon yn erbyn eu gilydd yn dinystrio hyder y bobl yn y gwirionedd; neu yn hytrach, yn gwneud iddynt feddwl fod yn ammhossibl dyfod o hyd iddo, neu gael un sicrwydd am dano. Canlyniad hyny oedd peri iddynt ymfoddloni ar grefydd allanol yn unig. Ni ofalent am ddim ond am ffurfiau ac ymddangosiadau. Gan mai y Phariseaid oedd yn cynnal y grefydd fwyaf defodol a ffurfiol, yr hon ni ofynai ond gwasanaeth y corph yn unig, ennillasant hwy y dylanwad helaethaf yn mysg y genedl. "Yn y cyfamser," ebe Dr. Alexander, "yr oedd ffydd, ysbrydolrwydd, a duwioldeb, wedi diflanu yn mhob man; ac nid oedd dim yn aros ond ffurfioldeb ofergoelus, gorfanylder difudd mewn pethau o ychydig bwys, tyb ymffrostgar am eu safle grefyddol eu hunain, a chulni meddwl tuag at bawb ereill." A chan fod crefydd wedi diflanu, yr oedd moesoldeb hefyd wedi gwywo. "Nid oedd un ffurf o drosedd," ebe Josephus [*De Bell.*, v. 18], "nad oedd yn cael ei gyflawni y pryd hyny yn mysg yr Iuddewon; a phe ceisiai un ddyfeisio trosedd newydd, canfyddai ei fod eisoes wedi ymddangos yno. Yn y cyhoedd ac yn y dirgel, yr oedd pawb dan effaith dwys yr annhrefn moesol hwn; a'u huchelgais mawr, fel yr ymddengys, oedd rhagori ar eu gilydd mewn gweithredoedd o annuwioldeb yn erbyn Duw, ac o drosedd yn erbyn eu cymmydogion."

Gan mai dyma oedd agwedd crefydd a moesau yn amser ymddangosiad yr Iesu, nis gallasai ei weinidogaeth lai na chymmeryd gwedd *geryddol*. Ac felly yr ydym yn cael y llymder eithaf ar brydiau yn ei ymadroddion; etto y mae ei eiddigedd tanllyd yn berffaith bur: nid yw yn cael ei ammharu am funyd gan yr arwyddion lleiaf o frys a nwyd. Yr oedd ei sêl, yr hwn oedd yn ei ysu, mor bur ag oedd o angerddol. Pan y mae yn condemnio cyfeiliornad, y mae yn gwneuthur hyny, nid er mwyn y boddhâd o ddinystrio, ond er mwyn dyrchafu gwirionedd yn ei le. Wrth ymdrin â phersonau, y mae yn wastad yn gwneuthur gwahaniaeth rhwng dosbeirth ag yr oedd gwahaniaeth rhyngddynt; yn enwedig, y mae yn gwneuthur gwahaniaeth rhwng twyllwyr a rhagrithwyr ymwybodol a'r rhai a gamarweinid yn eu hanwybodaeth. Y mae yn cyfarch y bobl

Digitized by Google

y gwron, y beiddgar, yr uchelfrydig, a gymmeradwyir ganddo; nid y cymmhwysderau sydd yn sicrhau llwyddiant ac enwogrwydd yn nheyrnasoedd y ddaear sydd yn rhoddi hawl a chymhwysder i'w deyrnas ef; ond tlodi yn yr ysbryd, galar duwiol, ysbryd tangnefeddus, addfwynder, purdeb calon, trugaredd, a dioddefgarwch; a thra y mae, wrth gyssylltu gwynfyd â'r ansoddau hyn, yn condemnio ysbryd a syniadau y byd yn mhob oes, yr oedd mewn modd arbenig yn gwrthweithio syniadau ac ysbryd ei gydoeswyr. Er fod yr ymadroddion hyn yn arwain ei wrandawyr megys i fyd newydd, gan faint y gwahaniaeth oedd rhyngddynt a dysgeidiaeth y Phariseaid; etto, y mae yr Iesu yn eu gosod ar eu gwyliadwriaeth rhag meddwl fod newydd-deb ei ddysgeidiaeth yn anghysson âg awdurdod y ddeddf. "Na thybiwch fy nyfod i dori y gyfraith, neu y prophwydi;" *Mat.* v 17. [Gwel yr erthygl ar PREGETH AR Y MYNYDD.] Yr oedd yn weddus i weinidogaeth Crist ddechreu yn y dull yma; sef, trwy ddangos y berthynas oedd rhyngddo ef ei hun fel prophwyd a phob dadguddiad dwyfol oedd wedi ei roddi o'r blaen. Nid ydym i ddysgwyl cael eglurhâd llawn ar drefn yr efengyl yn y bregeth hon: yr oedd ei hamcan yn wahanol i hyny; a'r amcan hwnw oedd, rhoddi eglurhâd ar foesoldeb yr efengyl yn ei chyssylltiad â'r gyfraith. Ar ol hyn y dangosodd Crist y drefn i ddyrchafu dynion at y moesoldeb ysbrydol hwn.

Yn yr ail gyfnod, o ddeutu amser y gweddnewidiad, aeth yr Iesu rhagddo i fynegi i'w ddysgyblion ddosbarth arall o wirioneddau. Yr oedd eisoes wedi eu dysgu yn y gwirionedd am ei Berson, ac am natur a deddfau ei deyrnas. Ond po fwyaf y deuent i amgyffred natur ysbrydol ei deyrnas, ac i deimlo eu byrder yn ngwyneb y safon uchel a godai yn eu gŵydd, mwyaf y teimlent fod eisieu dadguddiad o drefn i'w cymmhwyso i'r deyrnas, ac i'w dyrchafu at y safon. Yr oedd manylrwydd ysbrydol ei addysg yn dwyshau yr ymofyniad hwnw yn mynwesau y dysgyblion yn barhaus, "A phwy a all fod yn gadwedig?" Ond yn *Ioan* vi., &c., y mae yr Arglwydd Iesu yn dadguddio y gwirioneddau hyny sydd yn cyfansoddi yr efengyl: ar ol eu difrifoli trwy gyhoeddi y ddeddf, y mae yn eu calonogi trwy hysbysu trefn Duw i adferu pechaduriaid. Dengys fod y bywyd sydd ar ddyn eisieu yn dyfod oddi wrtho ef yn unig; mai efe yw bara y bywyd; y manna a ddaeth o'r nef; fod bywyd tragwyddol i'w gael trwy gredu ynddo; bwyta ei gnawd ac yfed ei waed: *Ioan* vi. 53—57. Y trydydd cyfnod oedd yr hwn a gynnwysa ei ymadroddion wrth y dysgyblion yn ei ddyddiau olaf, y rhai sydd yn dechreu yn *Ioan* xiii. 31, 32. Cynnwysa yr athrawiaeth am ei berthynas â'r Tad a'r Ysbryd yn nhrefn yr iachawdwriaeth; gwaith yr Ysbryd Glân ar yr apostolion, yr eglwys, a'r byd; ei ogoneddiad ef ei hun; a dibena yn y weddi offeiriadol yn *pen.* xvii., yn yr hon y mae yn sancteiddio ei hun i'w aberthiad, ac yn rhoddi cynllun o'i eiriolaeth gyda'r Tad yn y nefoedd.

Y mae y tair enghraifft yma o ddysgeidiaeth Crist yn ddangosiad o gynnydd mater ei weinidogaeth. Y mae y cyntaf yn gosod allan ei orchymynion ymarferol fel deddf ar ei bobl: yr ail, yn eglurhâd ar yr angen am ei aberth ef, ond yn cael ei gyhoeddi i'r rhai oedd oddi allan; ac felly, yn ei fwriadu i'w profi yn hytrach nag i'w henuill: a'r trydydd, yn ei ddwyn ger ein bron fel offeiriad mawr ar dŷ Dduw, fel y Dadguddiwr perffaith o feddwl ei Dad, yn llefaru wrth ei ddysgyblion, ac wrth ei Dad yn mhresennoldeb ei ddysgyblion, am y "pethau nefol"—dirgelwch y Drindod, a dyfnion bethau ei gyfryngdod ei hun.

Ni a edrychwn, yn olaf, ar nodweddau ei weinidogaeth. Bod ynddi gyfuniad perffaith o ragoriaethau goruwchnaturiol sydd amlwg oddi wrth yr effaith a gai ar bob math o wrandawyr, yn enwedig pan ystyriom nad oedd yr Iesu wedi ei ddwyn i fyny yn eisteddle dysgeidiaeth y genedl. Yr oedd yn tynu y bobl gyffredin ato—nid yn unig trwy fawredd ei wyrthiau, ond hefyd trwy nerth ac awdurdod digyffelyb ei eiriau. Teimlent y dylanwad, er fod eu diffyg o ysbrydolrwydd yn eu hattal rhag deall ei athrawiaeth: gwel *Mat.* xiii. 54; *Ioan* vii. 15; *Mat.* vii. 28; *Marc* xii. 37. I gynnyrchu y fath effaith, y mae yn rhaid fod rhywbeth o natur wahanol i'r eiddo pawb ereill yn ei ddysgeidiaeth ef. Nid oedd prinder o ddysgawdwyr yn mysg yr Iuddewon, ac nid oedd yr Iuddewon yn edrych yn isel ar eu dysgawdwyr; meddylient yn rhy uchel am danynt; ac ni obeithient am ddysgawdwyr a dysgeidiaeth ragorach. Ond cynted ag yr ymddangosodd Iesu o Nazareth, daeth y werin i deimlo fod ynddo rywbeth a'i dyrchafai yn anghymmharol uwch na holl ddysgawdwyr y genedl. Esboniad yr efengylwr (*Mat.* vii. 29) ar achos y rhagoriaeth hwn ydyw, ei fod "yn eu dysgu fel un âg awdurdod ganddo, ac nid fel yr ysgrifenyddion." Yr oedd ynddo y fath allu nes darostwng meddyliau dynion dano, a'u gwneuthur yn gaeth iddo. Awdurdod gwirionedd oedd ei awdurdod ef; awdurdod un a deimlai fod ei leferydd yn anffaeledig. Ni phetrusai hòni iddo ei hun yr awdurdod uchaf fel dysgawdwr,—"Yr wyf yn dywedyd i chwi:" llefarai, nid fel un wedi dysgu y gwirionedd, ond fel y Gwirionedd ei hun. Nid oedd ei awdurdod ef fel yr eiddo yr ysgrifenyddion; yr oedd eu hawdurdod hwy ar feddyliau y bobl yn seiliedig ar gelwydd. Heb fod yn meddu ar wir ragoriaethau i deilyngu parch y bobl, arferent ymhoniadau gau er mwyn cuddio eu gwagder. Mor wahanol i'r eiddynt hwy oedd dysgeidiaeth yr Iesu! Nodweddid hi gan dynerwch, ymostyngiad, ac addfwynder: *Luc* xix. 42; *Mat.* xxiii. 37. Ond gwahanol iawn oedd ysbryd dysgeidiaeth yr ysgrifenyddion: gwel *Ioan* vii. 49. Yr oeddynt hwy yn llawn o ddiystyrwch o'r bobl; yr oedd eu calonau yn gwbl ddiffygiol o gydymdeimlad â hwynt, a gofal am danynt. Tafiai efe holl dynerwch ei galon eang i'w eiriau; wylai ddagrau tosturi drostynt; ymbiliai yn ddwys a difrifol â hwynt. Eu prif ofal hwy oedd cadw y bobl mewn anwybodaeth; ond amcanai ef at eu dyrchafu yn mhob modd. Nodweddid ef hefyd fel dysgawdwr gan ei ddoethineb i gyfaddasu y gwirionedd at wahanol ddosbeirth; gan duedd ymarferol ei ymadroddion; a chan ei waith yn rhoddi arbenigrwydd i egwyddorion mawrion a thragwyddol. Gwelir hyn ynddo yn arbenig yn yr attebion a roddai i wahanol ymofynwyr. Tra yr oedd y cwestiynau yn gyffredin yn amlygu bychander meddwl—meddwl yn ymwneyd â manylion, wedi colli golwg ar hanfod y peth yn ei ffurf, ac yn arddangos chwilfrydedd diamcan —y mae ei attebion ef i'r cyfryw gwestiynau yn arddangos ysbrydolrwydd mewn cyferbyniad i ffurfioldeb, eangder mewn cyferbyniad i gulni meddwl y gofynwr, a'r difrifwch hwnw sydd yn cymdeithasu âg egwyddorion mawrion a thragwyddol mewn cyferbyniad i'r ysgafnder chwilfrydig sydd yn ymborthi ar fanylion, ac yn ymbleseru mewn gwneuthur gwahaniaethau bychain.

Digitized by Google

GWEINIDOGES: diacones (διακονος). Ceir y gair yn *Rhuf.* xvi. 1, mewn cyssylltiad âg enw Phebe, gweinidoges, neu ddiacones Eglwys Cenchrea—porthladd o ddeutu naw milldir o Corinth. Mae hyn wedi rhoddi bod i'r dybiaeth fod urdd o fenywod yn bod yn yr eglwys apostolaidd, fel y mae yn ddiddadl fod ychydig yn ddiweddarach yn dwyn yr enw *diaconesau* (Tertullian, *diaconissa*), ac yn arfer yr un swydd yn mysg y benywod Cristionogol a'r diaconiaid yn mysg y gwrywiaid. Tybir, gyda llawer o debygolrwydd, mai at y swyddogesau hyn y cyfeirir yn *Rhuf.* xvi. 6—12, a bod Phebe wedi ennill iddi ei hun radd dda yn eu mysg. Barna Chrysostom, Theophylact, Hammond, ac amryw ereill, fod y rheolau a ddodir i lawr gyda golwg ar ymarweddiad gwragedd yn 1 *Tim.* iii. 11, a *Tit.* ii. 3, yn cyfeirio yn neillduol atynt hwy, a'u bod yr un rhai a'r "gwragedd gweddwon" yn 1 *Tim.* v. 3—10. Dywed Stuart ar *Rhuf.* xvi. 1:—"Dylid cofio nad oedd y benywod yn y dwyrain yn cael eu goddef i ymgymmysgu â'r gwrywiaid, fel y maent yn bresennol yn y byd gorllewinol. Yr oeddynt yn cael eu cadw yn neillduedig, gan mwyaf mewn ystafell ar eu penau eu hunain, i'r hon ni chai dieithriaid dderbyniad. O ganlyniad fe ddaeth yn angenrheidiol i'r eglwys gael diaconesau yn gystal a diaconiaid, i'r diben i'r cyntaf ofalu am fenywod a fyddent yn dlodion neu yn gleifion. Felly yr ydym yn cael cyfeiriadau aml at y diaconesau yn epistolau Paul; ac y mae Pliny yn cyfeirio hefyd atynt yn yr ymadroddion canlynol:—"*Necessarium credidi, ex duabus ancillis quæ ministræ dicebantur.*" Y mae ereill, fodd bynag, yn barnu nad ydyw y geiriau y cyfeirir atynt yn golygu swyddogaeth neillduol, ond yn unig fod rhai benywod fyddent mewn amgylchiadau cysurus, ac yn feddiannol ar gariad cryf at achos y Gwaredwr, yn cyssegru eu hunain i wneuthur daioni, yn ol esampl y gwragedd a weiniasant ar yr Iesu yn nyddiau ei gnawd.

Y mae yn amlwg fod y gwragedd yn cael eu gwahardd i gymmeryd rhan gyhoeddus yn nghynnulliadau yr eglwys apostolaidd; etto, gan fod Cristionogaeth yn gwneuthur defnydd o bob peth perthynol i ddynoliaeth yn y ddau ryw, buasai yn naturiol i ni gasglu na adewsid y cymhwysderau hyn at ddefnyddioldeb sydd yn perthyn yn arbenig i fenywod, heb eu troi yn wasanaethgar i grefydd; ac yr oedd arferion cymdeithasol y gwledydd lle y cafodd Cristionogaeth ei sefydlu ynddynt yn gyfryw, fel y crybwyllwyd o'r blaen, ag a wnai yn weddaidd i ryw ranau o'r gwaith gael eu hymddiried i'r benywod crefyddol. "Yn ol yr arferion cymdeithasol oedd yn bod y pryd hyny," ebe Neander [*History of the Planting*, cyf. i. td. 153.—argr. *Bohn*], "gallasai y diacon, mewn llawer o'i weithrediadau swyddol, achlysuro drwgdybiaeth mewn cysylltiad â'i ymddygiad tuag at fenywod yr eglwys; ond yr oedd ar bob cyfrif yn ddymunol rhagflaenu y cyfryw gyhuddiad ar y sect grefyddol ieuangc, am yr hon yr oedd dynion yn dra thueddol i gredu pob drygair, am ei bod yn newydd, ac yn groes i'r gred boblogaidd. Am hyny, cafodd swydd o weinidoges neu ddiacones ei sefydlu yn chwanegol at eiddo y diacon, yn gyntaf, yn ol bob tebyg, yn eglwysi y Cristionogion Cenhedlig." A dywed Neander yn mhellach, nad oes genym wybodaeth fanwl am ei sefydliad a'i natur. Ei farn ef ydyw, fod *Rhuf.* xvi. 1, yn cyfeirio at swydd y ddiacones; ond nad oes yn 1 *Tim.* v. 3—16, un cyfeiriad ati. Mae Paul yn gwahaniaethu yr hon "sydd wir weddw ac unig" oddi wrth fenywod cretyddol ereill, fel un i gael ei chynnal gan yr eglwys, heb grybwyll am un gwasanaeth neillduol fel yn rhwymedig arni—fel dosbarth oedd, ar gyfrif sefyllfa ac oedran, yn rhydd oddi wrth ofalon bydol, ac yn cyflwyno y gweddill o'u dyddiau "i ymbiliau a gweddïau." Ond yr oedd i swydd y ddiacones lawer o waith yn perthyn, am yr hwn ni wna Paul un crybwylliad yn y cyfarwyddiadau gyda golwg ar y gwragedd gweddwon. Nid yw yr hyn a ddywed Paul am Phebe, gweinidoges eglwys Cenchrea, yn cyttuno â'r hyn a ddywedir am y "wir weddw." Yr oedd yr olaf mewn sefyllfa o amddifadrwydd a henaint, yn fwy addas i gael gofalu am dani, nag i ddangos gofal am ereill. Dewisid hi o blith ereill i fod yn wrthddrych gofal yr eglwys, ar gyfrif ei hymarweddiad anrhydeddus blaenorol, a'i dyfalwch yn y cyflawniad o'i dyledswyddau fel gwraig a mam. Wedi myned yn weddw, cai lechu dan nawdd yr eglwys, fel trwy ei bywyd ysbrydol a defosiynol y rhoddai esampl dda i fenywod ieuangach. Mae y gair a gyfieithir yn *adn.* 9, *dewis*, yn arwyddo rhestr o enwau mewn rhôl; ac oddi ar hyn cyfododd dadl ynghylch pa restr neu rôl a olygir. Un golygiad yw, mai yn rhestr y rhai a dderbynient gynnorthwy gan yr eglwys; ond gan fod yn rhaid i weddw fod uwch law trigain oed, ymddengys y buasai y rheol hon yn rhy lem, gan fod y pryd hyny, yn ddiammheu, weddwon ieuaingc mor deilwng o gynnorthwy a rhai henach. Prin y buasai yn gydweddol â haelfrydedd Cristionogol i osod rheol i lawr a fuasai yn cau pawb allan oddi wrth gynnorthwy yr eglwys ond y rhai uwch law trigain oed. Mae mwy o anhawsder drachefn, fel y gwelsom eisoes, i feddwl mai rhestr y diaconesau a olygir. Mae yr oed yn anghymhwysder i waith gweinidoges. Yn nghynghor Chalcedon, sefydlwyd ar 40, fel yr oedran cymhwysaf i weinidoges; ac etholid morwynion hefyd yn gystal a gweddwon i'r swydd hono. Yr oedd y gweddwon hyny hefyd dan adduned i beidio ail briodi; yr hyn nid oedd yn bod gyda diaconesau. "Mae felly," ebe Alford, "yn fwy tebyg mai dosbarth neillduol o weddwon a olygir yma; y rhai, fe allai, a gynnelid ar draul yr eglwys, er mai nid hwy oedd yr unig rai a gynnelid; y rhai a neillduid i ddyledswyddau eglwysig, ac oeddynt yn rhwym i wasanaeth yr Arglwydd." Yn gyffelyb i hyn y meddyliai Chrysostom. Dywedai efe fod eu gwaith hwy yn cyfatteb i waith yr henuriaid, fel yr oedd gwaith y ddiacones i'r eiddo y diacon. Dywed Mosheim, "fod gweddwon yr eglwys foreuol yn ddosbarth gwahanol i'r gweinidogesau. Yn y bedwaredd ganrif y dechreuwyd camgymmeryd y naill am y llall." Dywed drachefn: "Gall un brofi, trwy dystiolaethau sicr, fod y morwynion yn cael eu pennodi yn amserau boreuaf yr eglwys yn ddiaconesau. Cymmerodd cynghor Laodicea arno ddiddymu swydd y ddiacones, neu yn hytrach ddiddymu enw diacones, gan alw y benywod a wasanaethent yr eglwys yn *viduæ seniores*—y gweddwon hynaf. Daeth y gweinidogesau i gael eu galw yn fuan yn weddwon, am mai gweddwon oedd y rhai a dybid yn fwyaf addas i'r gwaith. Etto, nid gweddwon yn unig a ddewisid. Yn amser Tertullian, dewiswyd benyw ieuangc, ugain oed, i fod yn weddw—*in viduatum*. Oddi ar gamsyniad y geiriau yn *Timotheus*, darfu i'r ymherawdwr Theodosius benodi 60 fel yr oedran priodol; ond cafodd hyny ei ddiddymu, fel y crybwyllwyd, yn nghynghor

Digitized by Google

Chalcedon. Gosodid y diaconesau yn eu swydd trwy arddodad dwylaw: ond cafodd hyny ei wahardd gan gynghor Nicea, rhag iddynt feddwl eu bod yn cael trwy hyny eu cynnysgaeddu â dawn i iachau. Gwaith y diaconesau oedd gofalu am y tlawd, a'r afiach, a'r carcharor; ac weithiau cynnorthwyent yn y gwaith o barotoi benywod ieuaingc i'w bedyddio. Etto, nid yr olaf oedd eu priodol waith, mwy na bod adeiladaeth ysbrydol y gwrywod yn waith swyddol y diaconiaid. Nid hir y parhaodd y swydd. Diddymwyd hi yn Ffraingc, gan synod gyntaf Orange, yn 441 B.A. Ni fu yn bod erioed yn Germany. Dywedir fod rhyw olion o honi yn aros hyd yr unfed ganrif ar ddeg, pryd y cafodd ei llwyr ddiddymu. Yr hyn a arweiniodd i ddiddymiad y swydd oedd, fod y wladwriaeth, yn amser Cystenyn, wedi ymgymmeryd â gofal y tlawd a'r afiach. Mae amryw yn ceisio adgyfodi y swydd yn Eglwys Loegr yn bresennol:—yn benaf Dr. Howson, yr hwn sydd wedi ysgrifenu amryw erthyglau arni. Nid yw efe yn amcanu at ddwyn lleianod i mewn i'r Eglwys Sefydledig, fel y gwna llawer; ond at gael dosbarth o fenywod crefyddol i dalu ymweliadau, i ofalu am y tlodion, i ymddiddan â merched am grefydd, ac adferu benywod syrthiedig; mewn gair, i gyflawni y gweithredoedd hyn sydd yn gynnorthwyol i lwyddiant crefydd, y rhai y mae ganddynt hwy fwy o gymmhwysder a gwell cyfleusderau i'w gwneuthur nag sydd gan y dynion crefyddol. Nid ydyw efe am eu rhwymo dan un adduned; ond amcana yn unig at adferu i'r eglwys y swydd yn y symledd a berthynai iddi yn yr oes apostolaidd.

GWELED—IGAETH—YDD. Cyflwyniad goruwchnaturiol o amgylchiadau, neu genhadwri oddi wrth yr Arglwydd i feddwl dyn; weithiau mewn cwsg, ond yn fwyaf mynych, fe allai, pan yn effro. Yr ydym yn cael y byddai yr Arglwydd yn oesoedd boreuol y byd yn arfer dadguddio ei hun a hysbysu ei ewyllys i ddynion trwy "weledigaethau." Pan aeth Aaron a Miriam i rwgnach yn erbyn Moses, dywedodd yr Arglwydd:—"Gwrandewch yr awr hon fy ngeiriau. Os bydd prophwyd yr Arglwydd yn eich mysg, mewn *gweledigaeth* yr ymhysbysaf iddo, neu mewn breuddwyd y llefaraf wrtho. Nid felly y mae fy ngwas Moses, yr hwn sydd ffyddlawn yn fy holl dŷ. Wyneb yn wyneb y llefaraf wrtho mewn gwelediad, nid mewn dammegion; ond caiff edrych ar wedd yr Arglwydd: pa ham gan hyny nid oeddych yn ofni dywedyd yn erbyn fy ngwas, sef yn erbyn Moses?" *Num.* xii. 6—8. Dywedai Balaam, y dewin a'r gau brophwyd, yr hwn yr oedd ei galon wedi ei llygru gan gybydd-dod, ei fod wedi "gweled gweledigaeth yr Hollalluog;" *Num.* xxiv. 4, 16. Yn amser Eli, yr archoffeiriad, dywedir, "A gair yr Arglwydd oedd werthfawr yn y dyddiau hyny; nid oedd weledigaeth eglur" (yn llythyrenol, "nid oedd y weledigaeth yn *tori allan*"): 1 *Sam.* iii. 1. Ni roddid y cyfryw ddadguddiedigaethau i unrhyw brophwyd yn yr amser hwnw; defnyddid gŵr i Dduw yn achlysurol fel cenad mewn amgylchiadau neillduol (*pen.* ii. 27); ond yr oedd yr Arglwydd wedi dangos ei anfoddlonrwydd i lygredigaeth cyffredinol y wladwriaeth trwy attal ysbryd prophwydoliaeth o'r eglwys am dymmor maith.

Derbyniai dynion weledigaethau weithiau yn y nos, mewn cwsg cyffredin: *Dan.* vii. 1: neu yn y dydd, mewn llewyg: *Act.* xxvi. 13. Ac yn unol â hyn, y mae y geiriau *breuddwyd* a *gweledigaeth* yn cael eu defnyddio rai prydiau yn ddiwahaniaeth: *Gen.* xlvi. 2; *Num.* xii. 6; *Iob* xx. 8: xxxiii. 14, 15; *Dan.* ii. 28; vii. 1. Ond mewn manau ereill, ymddengys eu bod yn cael eu gwahaniaethu: *Ioel* ii. 28. Pan y defnyddir y geiriau mewn cyssylltiad â'r hysbysiad o'r ewyllys ddwyfol, gall mai yr hyn a nodwyd ydyw yr unig wahaniaeth; sef, fod y wybodaeth yn cael ei chyfranu i'r person yn y naill amgylchiad pan yn cysgu, ac yn y llall pan yn effro. Mewn perthynas i weledigaeth Paul (2 *Cor.* xii. 1, 2, 4), gogwydda rhai i dybied y gallai ei enaid fod wedi ei ysgaru oddi wrth y corph, ac y caniatawyd iddo ymgymmysgu am ennyd fechan â bodau nefol. Nis gellir gwrthbrofi hyn, yn gymmaint a bod ein holl syniadau am le (*space*), ac am y pellder rhwng y byd hwn a'r byd ysbrydol, yn dra gweiniaid a chyfyngedig.

Tra yr oedd yr holl ysgrifenwyr sanctaidd yn ddynion ysbrydoledig, y mae yn angenrheidiol cofio fod ysbrydoliaeth yn cael ei gyfranu i'r prophwydi gynt mewn *ffurf neillduol.* Prif hynodrwydd y prophwyd ydoedd, nid yn unig ei fod yn derbyn dadguddiad o feddwl Duw, ond hefyd ei fod yn derbyn y dadguddiad hwnw trwy *weledigaethau;* neu, mewn ystâd hollol neillduol o ran ysbryd, meddwl, a chorph. Ymddengys hyn yn amiwg oddi wrth yr adnodau a ddyfynwyd uchod o Lyfr Numeri; lle y gosodir allan fel nodwedd gwahaniaethol y prophwyd, ei fod yn derbyn ysbrydoliaeth a dadguddiad dwyfol mewn *gweledigaethau* a *breuddwydion;* ac felly, mewn ystâd anghyffredin a hollol eithriadol. Yr oedd y dull hwn yn wahanol i'r ffurf yn mha un yr oedd Moses a'r apostolion yn cael eu hysbrydoli. Y mae yr un peth i'w weled hefyd yn yr enwau a roddid yn gyffredin ar y prophwydi—ראים a חזים=*gweledyddion.* Y mae yr un peth hefyd yn ymddangos oddi wrth y ffaith fod yr holl brophwydoliaethau wedi dyfod i lawr i ni, i fesur mwy neu lai, mewn *ffurf barddonol;* yr hyn sydd yn dangos fod rhyw gyssylltiad dirgel rhwng prophwydoliaeth a barddoniaeth. Profir yr un peth gan lawer o amgylchiadau ereill; megys cyssylltiad cerddoriaeth â phrophwydo; ymddygiad Saul pan yn mysg y prophwydi (1 *Sam.* x. 5); disgrifiad Balaam o hono ei hun (*Num.* xxiv. 3) fel y "gŵr a agorwyd ei lygaid"—"*gweledydd gweledigaeth* yr Hollalluog." Y mae cynnyrfiad ysbrydoliaeth hefyd yn cael ei osod allan trwy ymadroddion felly:—"A llaw yr Arglwydd oedd gref arnaf;" *Ezec.* iii. 14 (cymh. â *Esa.* viii. 11; ac â 2 *Bren.* iii. 15), &c. Y mae yr holl bethau hyn yn profi fod ystâd neillduol o'r fath a grybwyllwyd yn perthyn yn hanfodol i brophwydoliaeth—math o bêr-lewyg (*ecstacy*), yn yr hon, fel y mae y gair yna yn arwyddo, y mae y dyn yn sefyll allan megys o hono ei hunan, ac yn cael ei gyfodi uwchlaw iddo ei hunan, tuag at ei gymmhwyso i ddal cymmundeb nes â'r byd ysbrydol, ac i dderbyn drychfeddyliau mewn ffordd o ddadguddiad digyfrwng oddi wrth Dduw—ystâd yn yr hon y mae y bywyd naturiol megys yn cael ei attal mewn rhan ac am dymmor, er mwyn i fywyd uwch—yn ystod a thrwy yr attaliad hwnw—gael ei alw i weithrediad anghyffredinol. Y mae y gair *gweledigaeth* (oddi eithr pan ddefnyddir ef yn gytystyr â *breuddwyd*=“gweledigaeth nos") yn ei ystyr priodol yn arwyddo yr olygfa a bortreadid o flaen meddwl y prophwyd, neu y dadguddiad a dderbyniai o feddwl Duw, pan yn yr ystâd a ddisgrifiwyd uchod; neu, mewn ystyr

Digitized by Google

is-raddol, arwydda yr ystâd hono ei hunan—o fod "mewn gweledigaeth."

Gellir dywedyd, mewn ffordd gyffredinol, fod pob un gynt yn brophwyd, ag y byddai yr Arglwydd yn hysbysu ei feddwl iddo yn y wedd neillduol a nodwyd. Felly, er esampl, gelwir Abraham yn brophwyd (*Gen.* xx. 7); nid fel y tybir yn gyffredin, o blegid y datguddiedigaethau cyffredinol a wneid iddo gan Dduw, ond o blegid fod y rhai a dderbyniai yn cael eu rhoddi iddo yn y ffurf neillduol a ddisgrifiwyd; fel y dywedir yn neillduol yn *pen.* xv. fod datguddiedigaethau dwyfol yn cael eu gwneuthur iddo mewn *gweledigaethau* a *breuddwydion.* Y mae y patriarchiaid, yn y corph o honynt, yr un modd yn cael eu galw yn brophwydi: *Salm.* cv. 15. Wedi sefydlu goruchwyliaeth Moses, chwanegwyd elfen newydd. O hyny allan, yr oedd y ddawn brophwydol yn cael ei chyssylltu yn rheolaidd â'r swydd brophwydol, fel y daeth yr olaf i ffurfio rhan o'r drychfeddwl am brophwyd. Gwel Breuddwyd; Prophwyd—oliaeth; Ysbrydoliaeth, &c.

GWELI—AU, [*gwâl*]: clwyf, briw, archoll; hefyd enllib, neu iaith sarhaus. Dywed hen ddiareb Gymreig,

"Ni thelir gweli tafawd namyn i arglwydd;"

hyny yw, nid rhaid talu dirwy am enllib i neb ond arglwydd. Y mae Solomon yn addaw i'r "neb sydd yn aros wrth y gwin, wae, cynnen, dadwrdd, llygaid cochion, a gwelïau heb achos." Y mae Esaiah yn rhoddi disgrifiad grymus o'r cyflwr gwir druenus i ba un yr oedd cenedl Israel wedi syrthio o herwydd eu pechod, trwy eu cymmharu i gorph yn ngafael rhyw afiechyd dolurus a dinystriol. "O wadn y troed hyd y pen nid oes dim cyfan ynddo; ond archollion, a gwelïau crawnllyd." Yr oedd yr ynadon, yr offeiriaid, a'r bobl, yn cydymdroi mewn llygredigaeth. Pan y mae y gau brophwyd yn gadael ei dwyll (*Zech.* xiii. 5, 6), ac yn cydnabod ei wir alwedigaeth fel "llafurwr y ddaear," y mae un yn gofyn iddo, "Beth a wna y *gwelïau* hyn yn dy ddwylaw?" A'r atteb yw, "Dyma y rhai y'm clwyfwyd â hwynt yn nhŷ fy ngharedigion." Dywed Blayney fod yn yr ymadrodd hwn gyfeiriad at ddwy hen ddefod:—arfer y prophwydi eilunaddolgar, y rhai a geisient ennill sylw eu Duw trwy dori eu cnawd (1 *Bren.* xviii. 28), ac arfer y sawl a dorent eu hunain, fel arwydd o dristwch a galar am eu cyfeillion a'u perthynasau (*Ier.* xvi 6). Gwneid y toriadau hyn ar y dwylaw yn fwyaf neillduol. Felly yr oedd y dyn, pan ofynid iddo beth oedd y gwelïau neu y clwyfau ar ei ddwylaw, yn gwadu eu bod yn tarddu oddi ar unrhyw achos eilunaddolgar, ac yn cymmeryd arno mai archollion oeddynt a wnaethai ef ei hun mewn galar o herwydd colli ei gyfeillion. Cymmer lliaws o esbonwyr y golygiad yna ar y mater; ond ni buasai hyny wedi y cwbl ond arfer un twyll er arbed canlyniadau un arall. Y mae Hutcheson yn cynnyg eglurhâd sydd yn ymddangos yn fwy cywir a naturiol:—"Nid yn unig hwy a ymddiosgant o'u twyll, ac a ddechreuant ar eu hen orchwyl; ond pan y gofynid beth oedd ystyr olion y cerydd on a dderbyniasai y rhai a ddiangasant rhag angeu (y rhai a allasent fod yn guddiedig ar ranau ereill eu cyrph, ond oeddynt yn amlwg ar eu dwylaw noethion), hwy a gyfiawnhant y cerydd, ac a addefant mai cyfeillion, ac nid gelynion, oedd y sawl a'u gweinyddodd, pa un bynag ai rhieni (*adn.* 3) ai barnwyr oeddynt."

GWELY—AU [*gwâl*]: gorweddfa, lle i orphwys neu gysgu arno. Hefyd, darn o dir wedi ei neillduo i dyfu llysiau a blodau arno: *Can.* vi. 2. Hefyd, rhandir teulu, neu etifeddiaeth: "Gwely (neu etifeddiaeth) wyrion Cynan" sydd enw a roddir ar Eifionydd, yn sir Gaernarfon: "Gwely cenedl" ydyw etifeddiaeth deuluaidd: "tir gwelyawg" yw tir etifeddol; a "chenedl welyawg" yw teulu yn perchen ystâd.

Y mae y dull o orphwys a chysgu yn ngwledydd cynnhes y dwyrain o angenrheidrwydd yn dra gwahanol i ddull ardaloedd oerion; ac oddi ar hyn y cyfyd yr anhawsder a deimlir yn fynych i ddeall amryw ymadroddion ysgrythyrol sydd yn cyfeirio at yr arferiad hwn. Y mae yn ymddangos fod arferion presennol yn gyffelyb i arferion yr Iuddewon gynt; a bydd disgrifiad o'r naill yn eglurhâd ar y lleill. Y mae gwelyau plu yn gwbl ddieithr yn y dwyrain. Bydd pobl dlodion, pan heb gartref neillduol, neu ar daith, neu yn gweithio yn mhell o'u cartrefi, yn cysgu ar fatiau, neu wedi ymlapio yn eu gwisg allanol. O blegid hyn, gorchymynwyd yn y gyfraith na byddo i'r wisg hon gael ei chadw yn wystl wedi "machludo yr haul;" *Deut.* xxiv. 13. Mewn amgylchiadau neillduol, bydd careg, wedi ei chuddio â llian neu ddernyn o wisg, yn cael ei harfer yn lle gobenydd. Felly y gwnaeth Iacob gynt: *Gen.* xxviii. 11. Bydd y cyfoethogion yn cysgu ar fatrasau wedi eu llanw â gwlân neu gotwm, y rhai nid oeddynt yn aml ond math o gwilt tew; ac weithiau, gosodid amryw o honynt y naill ar y llall. Cwilt cyffelyb, wedi ei wneuthur o well defnyddiau, a arferid fel gorchuddlen yn y gauaf, a gwrthban teneu yn yr haf. Ond weithiau, gwneid i'r wisg allanol atteb y diben olaf. Gellir casglu mai felly y bu (1 *Sam.* xix. 13) pan y cymmerodd Michal ddelw, "ac a'i gosododd yn y gwely ......, ac a'i gorchuddiodd â *dillad*," er mwyn gosod allan ei gŵr yn cysgu. Fel hyn, arferir y wisg allanol gyfleus hon gan y cyfoethog fel y tlawd, gyda hyn o wahaniaeth yn y dull:—fod y tlawd yn ymlapio ynddi, ac yn ei chymmeryd fel ei holl wely, tra nad ydyw y cyfoethog yn ei harfer ond yn unig fel gorchuddlen. Gosodir gobenydd ar y matras; ac mewn tai da, fe osodir llen dros y ddau. Y mae y gobenydd yn fwy drudfawr na'r matras, o ran ei defnydd a'i orchudd, ac ystwffir ef yn gyffredin â chotwm, neu ryw sylwedd esmwyth arall: *Ezec.* xiii. 18, 20. Ond ymddengys mai crwyn defaid a geifr a arferid yn obenydd gan dlodion y dyddiau gynt. Digon tebyg fod y crwyn hyn yn cael eu gwnio i fyny yn eu ffurf naturiol, ac yn cael eu llanw âg ûs neu wlân: 1 *Sam.* xix. 13. Fe ddichon fod yr Israeliaid yn gwybod am y gobenyddiau coed ar ffurf cilgant a arferai yr Aiphtiaid yn yr hen amseroedd [gwel y darlun cyntaf, o hen orweddfainge Aiphtaidd]. Nid ydyw yn hawdd gweled beth yw y cysur a fwynheir trwy arfer y cyfryw orweddfainge, hyd oni wneir y prawf, ac y teimlir yr esmwythyd llawn a geir trwy orphwys cymmal y wâr a gwaelod y pen ar ddodrefnyn cyffelyb.

Y mae yn ammheus pa un ai gwahanol fathau o erchwyn gwely oedd y gorweddfeingciau a elwir *mittah* (*Gen.* xlviii. 31; 1 *Sam.* xix. 13; 2 *Sam.* iv. 7; 2 *Bren.* i. 4), a *mishcab* (*Exod.* xxi. 18; 2 *Sam.* xiii. 5; *Can.* iii. 1), ac *eres* (*Iob* vii. 13; *Can.* i. 6), neu ynte esgynloriau cyffelyb i'r rhai y gwnelai yr Asiaid Gorllewinol eu gwelyau arnynt y nos. Math o lawr wedi ei godi ychydig yn uwch na llawr cyffredin y tŷ oedd yr esgyn-

Digitized by Google

lawr; a byddai fynychaf yn mhen draw yr ystafell, ond weithiau ar hyd ei hystlys. Ar hwn y gosodir y matras, ar ba un yr eistedd yr Asiaid Gorllewinol yn goesdraws yn ystod y dydd, gyda chlustogau mawrion yn erbyn y mur i gynnal y cefn. Yn y nos te daenir dillad ysgeifn ar yr esgynlawr hwn, a thrwy hyny fe wneir gwelyau i liaws o bersonau yn hynod ddidrafferth. Cymmerir y dillad ymaith yn y boreu, a gosodir hwy mewn manau priodol yn yr ystafell, wedi eu parotoi i atteb y diben hwnw. Math o ystafell gysgu gyffredinol ydyw hon i wrywod y teulu, ac i ddieithriaid; canys nid oes gan neb ond y meistr hawl i fyned i ranau mewnol y tŷ, lle y mae ystafelloedd neillduol i welyau. Yn y rhai hyn, fe osodir y dillad ar lawr wedi ei hulio â charped, neu ynte mewn ffram isel neu erchwyn gwely. Y mae y gwahaniaeth hwn rhwng yr ystafell wely gyhoeddus a'r un gyfrinachol wedi camarwain darllenwyr, pan yn cyfarfod â chrybwyllion am y lle cyhoeddus yn unig, i dybied yn gyfeiliornus nad oedd ond y lle hwnw i gysgu ynddo.

Rhai o'r ffurf a ganlyn yw yr erchwynau mwyaf cyffredin yn yr Aipht. Y maent wedi eu gwneud



Dar. 323.—Erchwyn Gwely Aiphtaidd

o ganghenau y palmwydd. Yr oeddynt mewn arferiad gan yr Aiphtiaid gynt; ac y mae darluniau o honynt i'w cael yma a thraw ar y muriau. Yn Palestina, Syria, a Phersia, lle nid oes gyflawnder o balmwydd, a lle y mae digonedd o goed mawrion i'w cael, fe wneir erchwynau o'r ffurf uchod âg ystyllod. Arferir y math hwn hefyd ar benau y tai yn ystod y tymmor ar ba un y bydd y bobl yn cysgu yno. Digon tebyg mai un o'r math hwn oedd erchwyn gwely Og brenin Basan (*Deut.* iii. 11). Yr oedd mwy o balmwydd yn Palestina yn ei amser ef nag sydd yn awr; ac y mae yn debyg fod yr erchwynau gwelyau mewn arferiad cyffredin y pryd hwnw wedi eu gwneud o ganghenau y palmwydd. Yr oeddynt felly yn analluog i ddal unrhyw bwysau mawr heb blygu a dadgysylltu; ac fe awgrymai hyn yr angenrheidrwydd am wneud yr un oedd wedi ei fwriadu i gynnal Og o wiail haiarn, yn hytrach nag o fân gangau y balmwydden. Hefyd nid yw yr erchwynau hyn odid un amser dros ychydig fodfeddi yn hwy na'r corff dynol. Gwelir oddi wrth hyn y priodoldeb o roddi mesuriad gwely Og, er mwyn cyfleu syniad am ei daldra, i ffaith sydd wedi dyrysu y sawl a dybient nad oedd unrhyw erchwynau ond yr esgynloriau, gan y gwelent nad oedd un tebygolrwydd uniongyrchol rhwng maint yr esgynlawr a hyd y personau a orphwysent arno. Nid oes angen tybied fod pob erchwyn gwely o'r math yma. Yr ydym yn cael rhyw led awgrymiadau am fath o orweddfeingciau cludadwy (1 *Sam.* xix. 15); y rhai, mae yn ymddangos, a arferid i eistedd arnynt yn ystod y dydd (1 *Sam.* xviii. 23; *Ezec.* xxiii 41; *Amos* vi. 4); ac nid oes achos ammheu yn awr fod yr Hebreaid gynt yn arfer y cyfryw ddodrefnyn, canys fe geir fod y cyfryw esmwythfeingciau yn mhlith y cenhedloedd amgylchynol, ac wedi eu darlunio ar eu cofgolofnau. Darlun o un o orweddfeingciau yr Aipht gynt yw y canlynol. Y mae ceinder ffurf yr engraifft hon, ac ereill, yn dangos y perffeithrwydd i ba un yr oedd gwneuthuriad y cyfryw weithiau wedi cyrhaedd yn mhlith y bobl hyny. Darlunir per-



Dar. 324.—Gorweddfaingc Aiphtaidd.

sonau yn eistedd ar y cyfryw esmwythfeingciau yn ystod y dydd; a dangosir, drwy y gobenydd pren a osodid arnynt, yn gystal a'r grisiau a welir wrth ystlysau rhai o honynt, y byddent yn cael eu harfer i gysgu arnynt y nos. Yr oedd yn ddigon hawdd gosod ar yr esmwythfeingciau hyn yr addurniadau ifori y crybwyllir am danynt yn *Amos* vi. 4; yr hyn sydd ynddo ei hun yn ddigon i ddangos fod gan yr Hebreaid rywbeth o'r fath yn ddodrefnyn addurniadol.

Dengys y darlun canlynol fath arall o orweddfeingciau. Y maent i'w canfod ar y cerfluniau



Dar. 325.—Math arall o orweddfaingc.

a ddarganfyddodd Mr. Fellows yn Asia Leiaf. Crybwyllir am wely â chysgodleni iddo yn *Iudith* xvi. 23; ac y mae yr hyn a ddywedir yno,



Dar. 326.—Gorweddfaingc a'i Leni.

ynghyd â'r crybwyllion mynych a wneir am leni drudfawr [gwel y darlun uchod] oedd yn crogi o

Digitized by Google

amgylch gwely er mwyn addurn, yn profi nad oedd y cyfryw welyau ag a arferir yn awr gan deuluoedd brenhinol a phersonau urddasol ddim yn anhysbys i'r Hebreaid:—cymmharer *Esther* i. 6; *Diar.* vii. 16, &c.; *Ezec.* xxiii. 41. Y mae yn amlwg nad oedd yr Iuddewon gynt, mwy na phreswylwyr presennol eu gwlad, ond anfynych, os byth, yn newid eu gwisg wrth fyned i'r gwely. Ni bydd y rhan fwyaf yn cymmeryd ymaith ond y wisg allanol, ac yn dattod gwregys y lwynau, oddi gerth yn adeg boethaf yr haf, pan y cysgant bron yn noethion.

Y mae dodrefn cyffredin ystafell wely gŵr y tŷ yn cael eu henwi yn 2 *Bren.* iv. 10. Ond gan yr ymddengys nad yr un dodrefn oedd yn cael eu harfer y nos a'r dydd, y mae yn naturiol casglu fod mewn tai mawr ystorfeydd helaeth o ddodrefn ac ystafelloedd cang i'w cadw. Rhydd hyn oleu ar 2 *Bren.* xi. 2, lle y dywedir fod Ioaz a'i fammaeth wedi cael eu cuddio chwe blynedd "yn ystafell y gwelyau." Y mae yn ddigon tebyg nad ystafell wely, yn ystyr priodol y gair, oedd hon; ond yn hytrach math o ystordy i gadw y gwelyau, y matrasau, a'r hyn oll a berthynai iddynt: a chan fod y rhai hyn yn fawr, yr oedd modd gwneud digon o le rhyngddynt i fod yn guddfan gyfleus i'r plentyn a'i fammaeth. Yr oedd hyn "yn nhŷ yr Arglwydd"—lle sanctaidd, lle nas gallai neb ond offeiriaid fyned iddo; a lle, mae yn debyg, nad oedd neb ond yr archoffeiriad Iehoiada, a'i wraig Ioseba, yn arfer myned iddo. Y mae yr eglurhad hwn yn gwrthweithio yn llwyr y syniad fod ystafell wely gyffelyb i'r eiddom ni yn "nhŷ yr Arglwydd;" gadael pa un heb fyned iddi am chwe blynedd fuasai yn ymddangos yn lled ddrwgdybus.

GWELLT—YN [*gw—ellt*]: paladr, neu gorsen grawn neillduol, megys gwenith, haidd, ceirch, rhyg, &c.; hefyd, pentwr o'r corsenau grawn hyn wedi eu tori a'u dyrnu, megys llwyth neu dâs o wellt. Arferir ef yn borthiant i wartheg, i doi teisi a thai, yn wrtaith, &c. Y mae "ych gwellt" ac "ych tywarch," neu "gwelltawr" a "rhychawr" yn enwau a roddid ar y ddau ych fyddai yn aredig—un yn cerdded y rhych, a'r llall y dywarchen las. Arferir y gair yn fynych yn y Beibl yn gyfystyr â glaswellt. Gwel GLASWELLT.

GWEN [*gwe—en*]: gosodiad gwedd y wyneb yn y fath fodd ag i amlygu hyfrydwch, llawenydd cymmedrol, neu serch a charedigrwydd; amlygiad o ddiystyrwch trwy edrychiad llon-wawdus neu ffug-dosturiol; edrych yn hoenus a llawen, neu ymddangos yn y fath fodd ag i gynnyrchu teimlad o lawenydd, megys "gwên y gwanwyn."

"Y diffaethwch a *wenodd*." *Pope.*

Hefyd, bod yn rhadlawn neu dirion wrth un, neu estyn ffafr a chymmeradwyaeth iddo; megys *gwenau* Rhagluniaeth.

GWENAFWY: un o ferched Caw—sant oedd yn byw yn y rhan gyntaf o'r chweched ganrif. Nis gwyddys fod un eglwys wedi ei chyssegru iddi.

GWENDID [o *gwan*]: llesgedd, eiddilwch, gwaeledd, diffyg nerth. Y mae y gair hwn yn arwyddo amryw bethau yn yr Ysgrythyrau. 1. Diffyg nerth naturiol: 1 *Cor.* xv. 43; "Efe a hauir mewn gwendid;" h.y., yn wan, yn frau, yn agored i ddadfeilio. Y mae dyn yn marw am ei fod yn rhy wan i fyw. Ffynnonell pob nerth yw bywyd; a phan y mae dyn yn colli ei fywyd y mae yn colli ei nerth. 2. Clefyd neu afiechyd: *Deut.* vii. 15; "Hefyd yr Arglwydd a dŷn oddi wrthyt ti bob gwendid;" neu, yn ol y Saesneg, pob afiechyd. Naill ai fe gadwai yr Arglwydd hwy rhag eu dyfod arnynt, neu symmudai hwynt yn fuan os deuent; cadwai iddynt gyrph iachus, heinyf, a chryfion bob amser. "Efe a gymmerth ein gwendid ni;" *Esa.* liii. 4; *Mat.* viii. 17. Y mae y gair a gyfleithir *gwendid* yn y ddau le hyn yn arwyddo yn briodol yn yr Hebraeg a'r Groeg, afiechyd y corph. Nid yw un o honynt yn arwyddo afiechyd y meddwl neu bechod. Y mae yn amlwg mai wrth gymmeryd y gwendidau hyn y golygir eu cymmeryd neu eu symmud *ymaith*. Gwnaed hyn ganddo trwy ei allu gwyrthiol yn iachâd y cleifion. "Ac wele yr oedd gwraig ac ynddi ysbryd gwendid ddeunaw mlynedd;" *Luc* xiii. 11, 12: hyny yw, yr oedd yn afiach, ac mor wan fel yr oedd wedi "cydgrymu, ac ni allai hi mewn modd yn y byd ymuniawni." Ymddengys, oddi wrth *adn.* 16, mai Satan a osododd yr afiechyd hwn arni. Nid oedd hi mewn ystyr priodol wedi ei meddiannu gan ddiafol, canys yr oedd y cyfryw yn gyffredin yn orphwyllog: ond yr oedd Duw wedi caniatau iddo ei chystuddio yn y modd hwn; yn gyffelyb i'r modd y cystuddiwyd Iob ganddo: *Iob* i. 12; ii. 6, 7. Er bod y wraig hon yn afiach, etto ymddengys ei bod yn arfer myned i addoliad Duw yn y synagog: yno y cyfarfyddodd ein Hiachawdwr â hi, ac yr iachaodd hi. Nid ymddengys iddi ofyn iddo ei hiachau; ond pan welodd yr Iesu, cynhyrfwyd ei dosturi yn y fan, galwodd hi ato, cyhoeddodd ei bod yn iach, ac ymadawodd ei chlefyd â hi. Mor anfeidrol oedd gallu yr hwn a allasai adferu un yn y fath gyflwr i'w hiechyd â gair. 3. Ammherffeithrwydd deallawl a moesol: "Yn ol dull dynol yr ydwyf yn dywedyd, o blegid gwendid eich cnawd chwi;" *Rhuf.* vi. 19: hyny yw, o blegid ammherffeithrwydd eich gwybodaeth ysbrydol; neu eich anallu i amgyffred eglurhad a rhesymau o nodwedd uwch a mwy ysbrydol. Arferir y gair *cnawd* yn fynych i ddynodi nwydau llygredig dynion; ond yma y mae yn arwyddo eu galluoedd meddyliol, neu eu deall. Yr oedd gwendid eu deall wedi ei achosi gan eu hir ymroddiad i nwydau pechadurus, a chan ddylanwad pylaidd y cyfryw nwydau ar y meddwl. Yr ystyr yma yw, "Yr wyf yn arfer cymmhariaeth wedi ei thynu oddi wrth drafodaeth gyffredin—oddi wrth y berthynas adnabyddus hono sydd rhwng meistr a chaethwas, am y canfyddwch rym cymmhariaeth o'r fath yn well nag un o nodwedd uwch a mwy ysbrydol." Math o esgusawd yw yr ymadrodd hwn dros dynu cymmhariaeth oddi wrth berthynas meistr a chaethwas. 4. Gwan mewn ffydd, ammheuaeth, petrusder: "A dywedais, Dyma fy ngwendid;" *Salm* lxxvii. 10; hyny yw, dywedodd y Salmydd yn ei feddwl ei hun mai gwendid ffydd ynddo ef oedd meddwl yn ammheus ac yn galed am Dduw, ac arfer y geiriau sydd yn y tair adnod flaenorol (7—9). "Yr hwn sydd wan yn y ffydd, derbyniwch atoch; nid i ymrafaelion rhesymau;" *Rhuf.* xiv. 1. Amcan arbenig y bedwaredd bennod ar ddeg o'r Rhufeiniaid ydyw penderfynu cwestiynau dyrus oeddynt yn debyg o gyfodi rhwng yr Iuddewon a'r Cenhedloedd gyda golwg ar fwydydd, yn enwedig bwyta cig fyddai wedi ei aberthu i eilunod, cadwraeth dyddiau neillduol, a defodau seremoniol. Yr achlysur o'r cwestiynau oedd

Digitized by Google

hyn:—Yr oedd y dychweledigion at Gristionogaeth yn Rhufain yn cael eu gwneud i fyny o Iuddewon a Chenhedloedd; ond bernir fod y rhan fwyaf o'r eglwys yn Iuddewon. Yr oedd yr Iuddewon yn mhob man yn dra thueddol i rwymo y dychweledigion Cenhedlig i gadw eu defodau hwy, ac i'w cymmhell i ufuddhau i ddeddfau neillduol Moses. Gwel *Act.* xv. 1, 2, &c.; *Gal.* ii. 3, 4. Er cadw heddwch yn yr eglwys, a gochelyd ymrafaelion, y mae yr apostol yn eu hannog i dderbyn y rhai gweiniaid mewn crediniaeth o barth i gyfreithlondeb y pethau a enwyd i mewn i'r eglwys, gan gyd-ddwyn â hwynt, a pheidio eu condemnio. Nid ydyw yr ymadrodd "gwan yn y ffydd" yn cynnwys un cyfeiriad at ffydd gadwedigol yn Nghrist, canys fe allasai hyny fod gan y brawd gwan; ond at grediniaeth mewn bwydydd, a defodau, &c.—pethau o natur hollol ddibwys ynddynt eu hunain. Yr egwyddor fawr a ddysgir gan yr apostol yn yr holl bennod ydyw yr angenrheidrwydd o beidio codi ymrafaelion mewn eglwysi ynghylch pethau bychain, ac o barchu syniadau cydwybodol pob dyn. 5. Ofn ac arswyd:—"Nyni yn weiniaid, a chwithau yn gryfion;" 1 *Cor.* iv. 10: hyny yw, yr ydym ni yn ofnus, ond yr ydych chwi yn ddewr a diarswyd. Gwatwariaeth yw hyn; y gwrthwyneb yn hollol oedd y gwirionedd. Ni welwyd neb erioed yn traddodi y gwirionedd gyda mwy o wroldeb a hyfdra na Paul. Nid oedd y gwrthwynebiad cryfaf a ddangosid iddo yn ei ddigaloni. Cyflawnai ei weinidogaeth yn ffyddlawn a diarswyd. 6. Cydymdeimlad âg un yn meddu ychydig o ffydd a gwybodaeth, neu un mewn trallodio na phrofedigaethau:—"A nyni, y rhai ydym gryfion, a ddylem gynnal gwendid y rhai gweiniaid;" *Rhuf.* xv. 1: hyny yw, dylem ni, y rhai ydym gryfion mewn ffydd, gyda golwg ar y pethau a fuont o dan sylw yn y bennod o'r blaen, gyfodi, dal i fyny, cyd-ddwyn â, a bod yn dyner tuag at y rhai sydd yn teimlo petrusder neu ammheuaeth yn eu cylch. "Pwy sydd wan," meddai Paul yn 2 *Cor.* xi. 29, "nad wyf finnau wan?" hyny yw, Yr wyf yn cydymdeimlo â'r gweiniaid a'r llesg yn eu holl amgylchiadau. 7. Y mae yn arwyddo, trwy drawsenwad, y trallodion sydd yn dyfod i'n cyfarfod yn y fuchedd hon: "A'r un ffunud y mae yr ysbryd hefyd yn cynnorthwyo ein gwendid ni;" *Rhuf.* viii. 26: hyny yw, yn ein cynnorthwyo i ymgynnal o dan y llesgedd a'r trallodion yr ydym yn agored iddynt yn y byd hwn.

GWENDIDAU DIBECHOD: rhenir gwendidau y natur ddynol i ddau fath; sef, gwendidau pechadurus; megys cenfigen, llid, meddwdod, ac anlladrwydd, &c.; a gwendidau dibechod; megys syched, lludded, tristwch, tlodi, a'r cyffelyb. Y mae y rhai cyntaf yn codi oddi wrth sefyllfa dyn fel pechadur, ac o herwydd hyny yn bechadurus; a'r ail yn codi oddi wrth sefyllfa dyn fel creadur yn y byd hwn, ac heb un berthynas uniongyrchol rhyngddo â phechod; ac o herwydd hyny y gelwir hwynt yn ddibechod. Yr oedd Crist yn berffaith rydd oddi wrth y cyntaf, ond yn agored i'r olaf.

Yr oedd yn angenrheidiol i Grist fod yn gyfranog o wendidau dibechod y natur ddynol, fel y gallai, oddi ar brofiad, gydymdeimlo â'i bobl yn eu trallodion, ac hefyd i'w gymmhwyso i fod yn esampl iddynt. Y mae yn angenrheidiol i un, cyn y byddo yn addas i fod yn esampl i ni, nid yn unig i fod yn feddiannol ar yr un natur a ni, ond hefyd ei fod yn brofiadol o fod yn yr un amgylchiadau, ac yn dioddef yr un pethau a ni. Y mae y saint yn y nefoedd yn rhy uchel i fod yn esamplau i ddynion llygredig ar y ddaear; ond pan ar y ddaear yr oeddynt yn esamplau cyn belled ag yr oeddynt yn rhodio yn ol rheolau Gair Duw. Y mae Crist hefyd yn y nefoedd mewn sefyllfa rhy uchel a gogoneddus i fod yn esampl i ni; ond pan oedd ar y ddaear yr oedd mewn cyflwr ac amgylchiad addas i fod felly. Rhyw gyfnewidiol a chymmysglyd iawn ydyw arnom yma:—nid hawddfyd gwastadol, ac nid adfyd gwastadol chwaith. Ond hawddfyd gwastadol a dibaid ydyw yn y nef. Ond yr oedd Iesu Grist, pan ar y ddaear, yn gwybod trwy brofiad am yr un pethau a ninnau. "Yr oedd efe weithiau yn drist, ac weithiau yn llawen; weithiau yn llwm ac weithiau yn llawn, fel yr ydym ninnau. Weithiau, llefid "Hosanna" o'i flaen; ac weithiau, gwaeddid "Ymaith âg ef, croeshoelier ef." Gwyddai pa beth oedd dioddef newyn, syched, lludded, a thristwch. Yr unig wahaniaeth rhyngddo ef a ni, oedd, ei fod "heb bechod;" ac o herwydd hyn y mae yn addas i fod yn esampl i ni, ac yn medru "cyd-ddioddef gyda'n gwendid ni."

GWENFAEN: santes a flagurodd yn nechreu y chweched ganrif. Merch Pawl Hen o'r Tŷ Gwyn ar Dâf, a chwaer St. Penlan ydoedd. Hi a sylfaenodd eglwys Rhoscolyn, yn Môn, yr hon a elwid gynt Llanwenfaen. Y pummed dydd o Dachwedd yw ei gŵyl.

GWENFREWI, neu St. Winifred: santes enwog, yr hon a flagurodd tua dechreu y seithfed ganrif. Dyma'r hen chwedlau perthynol iddi:—Disgynodd o deulu pendefigaidd; ei thad oedd Thewith, arglwydd galluog yn y parthau o amgylch Treffynnon. Ei mam oedd Wenlo, chwaer St. Beuno; yr hwn a gafodd dir gan ei frawd yn nghyfraith, Thewith, i adeiladu eglwys arno; ac a gafodd ei benodi yn athraw crefyddol i'w nith. Dywedir i Caradog, mab Alan, tywysog cymmydogaethol, gael ei swyno i'r fath raddau gan ei phrydferthwch, fel y cynnygiodd ei threisio, ac iddi hithau yn wyneb yr ymosodiad hwnw ffoi tuag eglwys Beuno. O herwydd cael ei somi yn ei amcan anllad, efe a'i dilynodd mewn tymmer ffyrnig; ac wedi ei gorddiwes, a dorodd ymaith ei phen, yr hwn, pan syrthiodd oddi ar y corff, a dreiglodd i lawr dros y llechwedd, ac a safodd ger llaw yr eglwys; ac yn y fan y safodd, tarddodd allan ffrwd o'r dwfr mwyaf pur, yr hwn sydd yn parhau i redeg hyd heddyw. Cymmerodd St. Beuno y pen i fyny; ac wedi ei osod yn ei le ar y corff, cydiodd yn ddioed, mewn attebiad i weddïau y sant; ac o hyny allan, yr oedd llinell wen fechan yn weledig oddi amgylch y gwddf, yn dangos y man y cymmerodd y cydiad gwyrthiol le. Dywedir i St. Winifred fyw bymtheng mlynedd ar ol y tro hwn; ac iddi fyned yn abades mynachdy Gwytherin, yn sir Ddinbych, lle y claddwyd hi yn agos i feddau St. Cybi a St. Sanan, ac i'w hesgyrn gael gorphwys yno hyd deyrnasiad y brenin Stephen, pryd y symmudwyd hwy gyda rhwysg mawr i eglwys gadeiriol yr Amwythig. Parhaodd am lawer o oesoedd i fod yn wrthddrych parch coelgrefyddol. Cedwir gŵyl goffadwriaethol am ei marwolaeth ar yr 22ain o Fehefin, a gŵyl arall er côf am symmudiad ei hesgyrn ar y 3ydd o Dachwedd. Ystyrir Treffynnon, yn sir Fflint, dan nodded y santes

hon. Y mae Tudur Aled wedi gosod ei hanes allan mewn cyfansoddiad barddonol rhagorol.

GWENFYL: un o seintiau y bummed ganrif, ac un o orŵyrion Brychan Brycheiniog. Yr oedd gynt yn mhlwyf Llanddewibrefi gapel wedi ei gyssegru iddi a elwid Capel Gwenfyl. Y cyntaf o Dachwedd yw dydd ei gŵyl.

GWENIAITH—U [*gwen—iaith*]: truth, moliaeth, geiriau teg, canmoliaeth yn cael ei roddi er mwyn ennill ffafr a dylanwad; neu, er cyrhaedd rhyw amcan trwy ganmawl y person ei hun, neu ynte yr hyn a wnaeth neu a berthyn iddo. "Nid yw clod cyflawn ond dyled; ond y mae *gweniaeth* yn anrheg." Y mae y gair yn golygu hefyd gamarweiniad, trwy godi gau obeithion âg ymadroddion disail; megys pan y ceisir ennyn disgwyliad am wellhâd buan yn meddwl y claf sydd yn anwelladwy. Hefyd, ceisio ennill a hudo un trwy glod a geiriau teg: "Y gŵr a ddywedo weniaith wrth ei gymmydog, sydd yn taenu rhwyd i'w draed ef;" *Diar.* xxix. 5. Cynnifer o bobl ieuaingc a hygoelus a dwyllir i ymadael â'u diniweidrwydd a'u meddiannau gan eiriau gweniaith! Y gwenieithwr sydd yn ymddangos barotaf i lyfu y llwch wrth draed un yw y tebycaf o'i fathru â throed haiarn gormes a thrais mor fuan ag y cyrhaedda efe ei amcanion, neu y codir ef yn ddigon uchel i hyny. Gwel *Diar.* vi. 24; vii. 21; *Dan.* xi. 21, 32, 34; *Rhuf.* xvi. 18; 1 *Thes.* ii. 5.

GWENITH [חטה, *chittah*]. Nid oes un ammheuaeth nad yw y gair Hebraeg *chittah* yn cael ei gyfieithu yn gywir, "gwenith;" o herwydd y tebygolrwydd sydd rhyngddo âg enwau gwenith mewn ieithoedd ereill. Ceir y gair yn y lleoedd canlynol: *Gen.* xxx. 14; *Exod.* ix. 32; xxix. 2; xxxiv. 22; *Deut.* viii. 8; xxxii. 14; *Barn.* vi. 11; xv. 1; *Ruth* ii. 23; 1 *Sam.* vi. 13; xii. 17; 2 *Sam.* iv. 6; xvii. 28; 1 *Bren.* v. 11; 1 *Cron.* xxi. 20, 23; 2 *Cron.* ii. 15; xxvii. 5; *Iob* xxxi. 40; *Salm* lxxxi. 16; cxlvii. 14; *Can.* vii. 2; *Esa.* xxviii. 25; *Ier.* xii. 13; xli. 8; *Ezec.* iv. 9; xxvii. 17; xlv. 13; ac *Ioel* i. 11.

O'r holl blanhigion a ddiwyllir, nid oes un yn fwy pwysig na gwenith. Y mae yn tyfu yn rhwydd bron yn mhob hinsawdd, o'r cylch poeth hyd y rhewgylch. Ymddengys mai ei gartref naturiol ydyw yr hinsawdd tymmerus—y rhan sydd yn fwyaf cyfaddas i natur dyn. Y mae yn cael ei dyfu a'i ddiwyllio er's cymmaint o amser, fel y mae yn ymddangos yn lled debyg ei fod, lle y gwelir ef yn tyfu o hono ei hun, megys mewn rhai parthau anniwylliedig o'r dwyrain, yn weddillion gwenith a ddiwyllid yno gynt. Gan ei fod yn un o'r gronynau a dyfid foreuaf, y mae yn bur debyg mai yn Asia y dechreuodd; o blegid Asia yn ddiammheuol yw y wlad a wareiddiwyd gyntaf, ac a boblogwyd foreuaf. Y mae gwenith yn blanhigyn hynod bybyr; ac nid yn hawdd y dinystrir y bywyd sydd ynddo. Fe'i gwelwyd yn cael ei orchuddio â llifogydd mor hir fel y dinystriwyd pob math o lysiau ereill; ond etto, wedi cilio o'r dyfroedd, yn ymgodi o'r gwraidd, ac yn tyfu yn berffaith. Fe'i cafwyd hefyd mewn beddau Aiphtaidd; ac os gwir a ddywed rhai awduron, fe'i gwelwyd yn tyfu er mor hen y rhaid ei fod.

Y mae rhai llysieuwyr wedi rhanu gwenith i wahanol rywogaethau, o herwydd rhyw neillduolrwydd yn ei ffurfiad. Ond y mae ereill, wrth weled eu bod yn ffurfio cymmysgryw pan y cydheuir hwynt, a bod eu neillduolion yn amrywio gyda'r tir a'r hinsawdd, yn edrych ar yr holl wenith diwylliedig yn unig fel amrywiaethau. Ond y mae tair amrywiaeth sydd yn dra gwahanol yn eu nodweddion; sef, y gwenith caled, y gwenith



Dar. 227.—GWENITH AIPHTAIDD

meddal, a'r gwenith Pwylaidd. Mae y gwenith caled yn tyfu yn benaf mewn hinsoddau cynhes; megys yn Italy, Sicily, a Barbary. Y mae y gwenith meddal yn gynnyrch gwledydd gogleddol Ewrop; megys Belgium, Prydain, Denmarc, a Sweden. Tyf y gwenith Pwylaidd, yr hwn hefyd sydd wenith caled, yn y wlad oddi wrth ba un y mae yn derbyn ei enw. Y mae yn gwahaniaethu oddi wrth wenith ereill yn ei ffurf allanol. Mae y wenithen galed yn hedyn cryno, a bron yn dryloyw; yr hwn sydd, pan frethir ef drwyddo, yn tori yn fyr, ac yn dangos blawd hynod wyn oddi mewn. Y gwenith meddal a dyfir yn gyffredin yn y wlad hon: y mae gwisg neu groen tywyll am y gronynau; a phan y medir hwynt gyntaf, y maent yn dryllio yn rhwydd trwy wasgiad y bys a'r fawd. Y mae yn angenrheidiol i'r gwenith yma gael ei sychu a'i galedu yn dda cyn y gellir ei falu yn flawd. Y mae i'r gwenith Pwylaidd ûs llawer hwy na'r hedyn; y mae yr had yn fawr a hirgrwn, a'r dywysen yn rholynog o ran ei ffurf. Gwenith gwanwyn tyner ydyw, ac nid yw yn bur gynnyrchiol yn hinsawdd Prydain; o blegid hyny, anfynych y tyfir ef.

Yr oedd yr Aipht yn enwog yn y dyddiau gynt am dyfiant gwenith. Tyfid y peth goreu, yn ol Pliny, yn y Thebaid. Yr oedd oll yn goliog; ac yr oedd yr un rhywogaethau yn bod, medd Syr G. Wilkinson, "yn yr hen amseroedd ag mewn amseroedd diweddar; yn mhlith y rhai y gellid nodi y math saith-dywysenog a ddisgrifir yn mreuddwyd Pharaoh;" *Gen.* xli. 22. Dyma y *mummy-wheat*, fel y gelwir ef; yr hwn y dywedwyd iddo ffrwytho ar ol ysbaid o fil o flynyddoedd; ond fe wyddys yn awr nad gwir hyn. Yr oedd Babilonia hefyd yn enwog am ragoroldeb ei gwenith ac ŷd ereill. Dywed Herodotus ei fod yn ffrwytho "ar ei ddau ganfed yn gyffredin; a chyrhaeddai, pan yn cynnyrchu fwyaf, mor uchel a'i dri chanfed. Y mae egin y gwenith a'r haidd weithiau cyn lleted a phedwar bys." Ond y mae

Digitized by Google

hyn yn gryn ormodiaeth. Y mae ysgrifenwyr diweddar, megys Chesney a Rich, yn dwyn tystiolaeth i ffrwythlonrwydd Mesopotamia. Cynnyrchai Syria a Palestina wenith rhagorol mewn helaethrwydd: *Salm* cxlvii. 14; lxxxi. 16, &c. Ymddengys fod dau neu dri math yn cael eu tyfu yn Palestina yn bresennol; sef, y *triticum vulgare*, y *t. spelta*, a math arall o wenith coliog a elwir *t. compositum;* yr hwn, y mae yn ymddangos, sydd yr un a'r math Aiphtaidd. Cyfeiria yr Arglwydd Iesu yn nammeg yr hauwr at rawn gwenith a ffrwytha mewn tir da ar ei ganfed: *Mat.* xiii. 8. Dywed Trench nad ydyw "gwenith yn cynnyrchu cant am un yn anhysbys yn y dwyrain, er y crybwyllir am dano yn wastad fel rhywbeth rhyfeddol." Dywed Laborde, "y ceir yn Kerek fath o wenith yn ffrwytho ar ei ganfed; yr hyn a gliria y Beibl oddi wrth y cyhuddiadau o ormodiaeth a ddygwyd yn ei erbyn." Fe gynnyrcha y *triticum vulgare* cyffredin weithiau gan gronyn mewn tywysen. Medid gwenith tua diwedd Ebrill; ac yn ystod Mai a Mehefin, yn ol gwahaniaeth daear a sefyllfa, heuid ef ar y wyneb; ac yna, tröid neu methrid ef i'r ddaear gan ychain (*Esa.* xxxii. 20), neu ynte yn rhesi, fel y gellir barnu oddi wrth *Esa.* xxviii. 25; yr hwn, fe ymddengys, a olyga fod yr hadau yn cael eu *planu* ar wahân, er mwyn sicrhau tywysenau mwy a llawnach. Rhoddid y gwenith yn y ddaear yn y gauaf, ac yn mhen ysbaid ar ol yr haidd; gan hyny, fe niweidiwyd yr haidd yn adeg pla y cenllysg yn yr Aipht; ond nid oedd y gwenith wedi egino; ac felly, diangodd. Melid gwenith yn flawd: yr oedd y peth goreu o hono yn cael ei alw yn "frasder grawn gwenith;" *Deut.* xxxii. 14. Weithiau, torir tywysenau anaddfed oddi ar y gwellt, rhostir hwy mewn ffwrn, melir a berwir hwy, a bwyteir hwynt gan yr Aiphtiaid diweddar. Gelwid "tywysen o ŷd" yn mhlith yr Hebreaid *shibboleth;* y gair a fradychodd yr Ephraimiaid, gan nad allent yngan *sh: Barn.* xii. 1, 6. Y mae yn ymddangos fod yr ymadrodd rhyfedd yn *Diar.* xxvii. 22 ("Er i ti bwyo ffol mewn morter â phestl yn mhlith gwenith; etto, nid ymedy ei ffolineb âg ef") yn cyfeirio at yr arfer o gymmysgu â gwenith rawn ereill llai eu gwerth. Yr ystyr, gan hyny, ydyw, "Pa faint bynag a gaffo y ffol o gwmni y doeth, ffol y pery efe."

GWENLLWYFO: santes, yr hon nas gwyddys yn gywir yn mha ganrif yr oedd yn byw. Y mae Llanwenllwyfo yn Môn yn gyssegredig iddi.

GWENOL [סיס, *sis;* דרור, *deror;* gwendol]. Weithiau, fe gyfieithir y gair Hebraeg *deror*, "durtur;" ond golyga yn fwy priodol "wenol y dwfr," neu y "marthin du." Ni cheir yr enw cyntaf oddigerth yn *Esa.* xxxviii. 14, a *Ier.* viii. 7, a'r ail yn *Salm* lxxxiv. 3, a *Diar.* xxvi. 2. Y mae rhai yn tybied fod *sis*, pan wedi ei gyssylltu â'r gair *ogur*, yn dynodi y *garan;* tra y mae yr enw Hebraeg olaf yn arwyddo *gwenol.* Y mae y Deg a Thrigain, ynghyd â thri o hen lawysgrifau, yn nodi allan y gwir ystyr; ac y mae Bochart, ynghyd âg ereill, wedi ei sefydlu trwy ymchwiliadau dysgedig, er fod ysgrifenwyr Rabbinaidd yn dwyn awdurdod Arabaidd yn mlaen er profi fod *sis* yn enw ar aderyn hirgoes. Ond y mae *sis* yn enw dynwaredol i osod allan lais neu yswitiad y wenol.

Y mae yn ymddangos fod gwahanol rywogaethau Syria a Phalestina, cyn belled ag y maent yn adnabyddus, yr un a rhywogaethau Ewrop. 1. Gwenol y simnai, gyda chynffon fforchog, wedi ei marcio â rhes o ysmotiau gwynion. 2. Y marthin, neu wenol y ffenestr. Y ddau fath hyn, y mae yn bur debyg, yw y rhywogaethau a gynnwysir dan y gair *sis.* 3. Gwenol y glenydd. Y mae hwn yn aderyn digon cyffredin yn ngogledd yr Aipht, yn agos i eneuau y Nilus, ac yn Palestina ddeheuol, tua Gaza; lle y mae yn nythu mewn tyllau, hyd yn oed ar lan y môr. 4. Gwenol y dwfr, neu y marthin du. Y mae yr aderyn hwn yn fwy na'r lleill, ei goesau yn fyrion, ei adenydd yn hirion, ei gynffon yn fforchog, a holl fysedd ei draed yn troi yn mlaen: y mae y rhai hyn, gyda'r ewinedd bychain, ceimion, a miniog sydd arnynt, yn galluogi yr aderyn i ymgrogi ar ochrau muriau; ond nis gall gyfodi oddi ar y llawr, o herwydd hyd ei adenydd. Y ddau fath olaf—ond yn fwyaf neillduol yr olaf oll—a gynnwysid, y mae yn debyg, dan yr enw *deror.* Y rhai hyn, fe allai, oeddynt y *dururi* o Alexandria, y crybwyllir am danynt gan Forskal. Rhoddwyd yr enw uchod ar y wenol gyflym, o herwydd ei bod yn hoffi tyrau, pinaclau, ac adfeilion i wneud ei nyth ynddynt; a chyda hyny, y mae yn aderyn ag y mae yr enw "rhydd" (yr hyn a olyga y gair Heb. *deror*) yn dra chymmhwysiadol ato. Gelwir hi yn *barbota* ar lanau Ewropaidd Môr y Canoldir; ac fe'i hadnabyddir mewn amrywiol fanau yn Ffraingc wrth yr enw "yr Iuddew." Gan mai efe ydyw y mwyaf a'r amlycaf yn mhlith rhywogaethau Palestina, efe yw arwyddlun y wenol herodrol a ystyrid gynt, yn y wyddor o arf-ddeongliad, fel nôd arbenig y pererinion croesgadol; a benthyciwyd y syniad gan y cenhedloedd dwyreiniol, yn mhlith pa rai y gelwir yr aderyn yn "pererin," i ddynodi ei arferion mudiadol. Mae y crybwylliad am y *deror* yn



Dar. 228.

nythu ar yr allor (*Salm* lxxxiv. 3) yn ymddangos ar yr olwg gyntaf fel yn cyfleu ystyr helaethach i'r enw na'r un a nodir uchod; o blegid nid oes ond gwenoliaid y tŷ a'r ffenestr yn arfer nythu yn agos at ddyn: ond ymddengys nad ydyw yr ymadrodd, yn yr amgylchiad hwn, i'w gymmeryd yn ei ystyr llythyrenol i olygu yr allor yn unig, ond fel yn cyfeirio at holl adeilad y deml; ac yn yr ystyr hwn, y mae y wenol gyflym yn cyfatteb i'r disgrifiad yn well nag un arall.

GWENT, RICHARD, D.C.L.: oedd yn enedigol o ryw barth o Fynwy neu Forganwg. Yr oedd yn aelod o Goleg All Souls, Rhydychain; a chafodd ei raddio yn wyryf y gyfraith ganonaidd yn y flwyddyn 1518. Wedi hyny, penodwyd ef yn brif athraw ysgol y gyfraith ganonaidd: ac

Digitized by Google

yn y flwyddyn 1524, graddiwyd ef yn athraw y gyfraith wladol (D.C.L.); a thua'r un amser, gwnaed ef yn archddiacon Brycheiniog. Yn 1534, dyrchafwyd ef i archddiaconiaeth Llundain; cafodd hefyd brebendariaeth yn eglwys gadeiriol St. Paul, Llundain; a bu farw yn y flwyddyn 1543. Sonia Leland, yr hynafiaethydd, am Dr. Gwent fel gŵr nodedig ar gyfrif ei rinweddau a'i ddysg.

GWENYN—EN [בדריה, *deborah*]: trychfilyn o'r dosbarth hufadeiniog (*hymenopterous*). Fe wneir crybwylliad yn *Deut.* i. 44; *Salm* cxviii. 12; ac *Esa.* vii. 18; am y dull yn yr hwn y bydd y gwenyn yn ymosod yn finteioedd ar y neb fydd wedi eu digio. Y mae yr hyn a ddywedir am danynt yn *Barn.* xiv. 8, wedi tynu sylw llawer. Dywedir, yn y 5ed a'r 6ed adnod, fod Samson, gyda chynnorth goruwchnaturiol, wedi hollti y llew ieuangc a ddaethai yn ei erbyn ef, fel yr holltid myn; ac ar ol ychydig ddyddiau (neu "yn mhen amser," fel y mae yn y cyfieithiad Saesneg), ei fod wedi dychwelyd i gymmeryd ei wraig; ac wedi troi i edrych ysgerbwd y llew, "ac wele, haid o wenyn a mêl yn nghorff y llew." Myn rhai fod yr adnodau uchod yn ffafriol i dyb gyfeiliornus yr hynafiaid (yr hon a darddai, fe allai, oddi wrth gam ddeall yr hanesyn hwn), y gall gwenyn gael eu cenhedlu yn nghelaneddau anifeiliaid; ac enwir hen awduron i'r diben o brofi fod gwenyn yn ffieiddio cnawd, arogl drewllyd, a lleoedd budron. Ond y mae yn hawdd i bawb weled na ddywed yr adnodau uchod fod y gwenyn wedi eu *magu* yn nghorff y llew. Hefyd, y mae y frawddeg, "yn mhen amser," neu yn llythyrenol, "yn mhen dyddiau," a arferir yma, yn dangos fod digon o amser wedi myned heibio i gnawd y bwystfil gael ei fwyta gan adar a chreaduriaid ysglyfaethus, morgrug, &c. "Ysgerbwd esgyrniog" sydd yn y cyfieithiad Syriaidd. Sylwa Bochart fod y frawddeg Hebraeg yn arwyddo, weithiau, *flwyddyn gyfan;* ac ymddengys mai dyna ei hystyr yn yr amgylchiad presennol; canys dyna'r amser a basiai yn gyffredin rhwng y dyweddïad a'r briodas: gwel *adn.* 7. Cyfeiria efe, er cadarnhau hyn, at *Gen.* iv. 3; xxiv. 55; *Lef.* xxv. 29, 30; *Barn.* xi. 4—cymmharer âg *adn.* 40, 1 *Sam.* i. 3: a chymmharer *adn.* 7, 20, a 1 *Sam.* ii. 19, â 1 *Sam.* xxvii. 7. Y mae y ffaith fod mêl yn yr ysgerbwd, cystal a gwenyn, yn dangos fod digon o amser wedi pasio, er pan yr aethant hwy iddo, i'r holl gnawd gael ei symmud. Ac yn wir, nid yw y cyfryw le—o leiaf y pen neu y ddwyfron—yn fwy anghyfaddas i wenyn na hollt mewn craig, neu bren, neu yn y ddaear, lle y gwelir hwynt yn aml; neu ynte y nythod clai hyny a wnânt iddynt eu hunain yn Brazil. Nid yr hanesyn uchod chwaith yw yr unig enghraifft. Sonia Herodotus fod haid o wenyn wedi gwneud eu trigfan yn mhenglog un o'r enw Silius—hen oresgynwr Cyprus, yr hwn a lanwasant â chrwybrau, wedi i'r trigolion ei osod uwch ben porth eu dinas. Crybwylla Aldrovandus am enghraifft lled gyffelyb o wenyn wedi meddiannu, a ffurfio eu crwybrau mewn ysgerbwd dynol oedd yn mynwent eglwys yn Verona.

Rhaid fod gwenyn yn hynod liosog yn Palestina cyn y buasai yn briodol ei galw yn "wlad yn llifeirio o laeth a mêl." Y mae yn deilwng o sylw fod y Deg a Thrigain wedi chwanegu at y disgrifiad a roddir yn *Diar.* vi. 8, o rag-ystyriaeth y morgrug, folawd cyffelyb i'r wenynen, o herwydd ei diwydrwydd a'i chywreinrwydd yn ei gwaith. Y mae y morgrug a'r gwenyn yn cael eu crybwyll ynghyd yn bur fynych gan ysgrifenwyr o herwydd eu harferion cyffelyb.

O'r holl greaduriaid rhyfedd sydd i'w cael yn myd y trychfilod, nid oes un yn fwy hynod, nac un sydd wedi tynu mwy o sylw ac ymchwiliad naturiaethwyr a phobl oleuedig pob oes, na'r wenynen. Y mae y cyfeiriadau Ysgrythyrol a nodasom uchod yn dangos fod y wenynen yn yr hen amseroedd wedi dyfod yn destyn astudiaeth doethion y byd. Dywed Pliny fod Aristomachus, o Soli, yn Cilicia, wedi treulio deunaw mlynedd a deugain o'i oes i astudio y wenynen; a bod Philiscus, y Thraciad, wedi pasio cymmaint o'i amser yn y coed, yn sylwi ar ei harferion, fel y derbyniodd y teitl o "llwsmonwr." Treuliodd Aristotle gyfran helaeth o'i amser i sylwi ar arferion y wenynen; ac y mae Virgil wedi neillduo y pedwerydd llyfr o'i *Georgics* i draethu am dani. Y mae wedi bod hefyd yn destyn ymchwiliadau dyfal rhai o brif naturiaethwyr amseroedd diweddar, yn mhlith pa rai y gellid enwi Swammerdam (1670), Maraldi (1712), Ray, Reaumur (1740), Linnæus, Bennet, Schirach, John Hunter, Huber —y tad a'r mab, a Kirby.

Gan y bydd yn angenrheidiol i ni yn y sylwadau a wnawn yn yr erthygl hon ar gynnildeb ac arferion y wenynen, gyfeirio yn fynych at wahanol ranau ei chyfansoddiad, bydd yn fanteisiol i ni egluro yr enwau a rydd naturiaethwyr ar y rhanau hyny cyn myned yn mhellach. Y mae cyrff trychfilod yn gyffredinol yn gynnwysedig o gyfres o gylchranau neu wregysau (*annular segments*), wedi eu cymmalu ynghyd yn y fath fodd ag i wneud y corff i raddau mwy neu lai yn ystwyth. Dosberthir ef yn dair rhan; sef, y pen, y fynwes, a'r bol. Mae y pen yn gynnwysedig o un cylchran, y fynwes o dair, a'r bol o ragor na hyny—weithiau gynnifer a naw. Cynnwysa pob cylchran ddau ddarn; sef, yr isaf a'r uchaf, neu y bol a'r cefn. Mae gan drychfilod dri phâr o goesau, y rhai sydd wedi eu cyssylltu wrth ddarnau isaf tair cylchran y fynwes; ac yn gyffredin ddeubar o adenydd, wedi eu cyssylltu wrth ddarnau uchaf yr ail a'r drydedd o gylchranau y fynwes, a chyfrif o ben blaen y corph. Y mae pâr o aelodau a elwir *antennæ* ynglŷn wrth ystlysau y pen. Y mae y rhai hyn o ffurfiad gwahanol mewn gwahanol ddosbarthiadau o drychfilod; ac y maent yn y wenynen, a llawer o ddosbarthiadau ereill, yn gyffelyb eu ffurf i gyrn egwan ac ystwyth, yn gynnwysedig o lawer o fân ddarnau wedi eu cymmalu ynghyd. Tybir yn gyffredin mai offerynau teimlo ydynt; ac o blegid hyny, gelwir hwy weithiau yn "deimlyddion."

Y mae naturiaethwyr yn dosbarthu trychfilod yn ol fel y byddo cyfansoddiad eu hadenydd; a rhoddir y wenynen yn y dosbarth hufadeiniog (*hymenoptera*), neu y trychfilod hyny sydd yn perchen adenydd pilenaidd. Y mae yr adran hono o'r dosbarth hufadeiniog sydd yn gwahaniaethu oddi wrth bob math arall o drychfilod o ran trefn a chyfansoddiad neillduol, yn cael eu galw *mellifera*—gair Lladin yn arwyddo "casglwyr mêl;" neu *anthophila*—gair Groeg yn arwyddo "hoffwyr blodau." Y mae y rhywogaethau o wenyn yn dra lliosog. Cyfrifa Kirby fod 220 o honynt yn Mhrydain yn unig; ac y mae ereill, diweddarach nag ef, wedi cyfrif 250. Ond y rhywogaeth fwyaf dyddorol o'r cwbl, o herwydd ei phwysigrwydd mewn masnach, ynghyd â'i harferion hynod, a'i threfniadau cymdeithasol, ydyw gwenyn y cwch; ac at y math hwn yn

Digitized by Google

benaf y cyfyngwn ein sylwadau yn y tudalenau canlynol.

Y mae y wenynen hon yn perthyn i'r hyn a eilw naturiaethwyr yn "gymdeithasau perffaith o drychfilod." Y mae pob cymdeithas o'r creaduriaid hyn yn gynnwysedig o dri dosbarth, gwahanol i'w gilydd o ran rhif, cyfansoddiad, a'r gyfran bennodol a gymmerant yn llafur cyffredinol y gymdeithas. Enwau y tri math hyn yw brenhines, y gwrywod (*drones*), a'r gweithwyr; a chynnwysa yr olaf ddau ddosbarth, y rhai a elwir cŵyr-wneuthurwyr a mammaethod (*nurses*). Ni bydd mewn cwch yn cynnwys 50,000 o wenyn ddim ond un frenhines, na dim dros 2,000 o wrywod.

Y mae y *frenhines*, yr hon, fel y canfyddir wrth ei henw, ydyw teyrn addefedig y cwch, yn wahanol i'w deiliaid mewn amryw bethau. Y mae ei chorff gryn lawer yn hwy na chyrff ei deiliaid, ei cherddediad yn fwy araf a mawreddog, ei hadenydd yn fyrion, a'i cholyn yn gam neu grwmaog. Nid yw ei hadenydd ond tua hanner hyd ei chorff; tra y mae adenydd y gwrywod a'r gweithwyr yn cyrhaedd dros ran ol eu cyrff. Nid oes ganddi ar ei choesau yr ysgubellau (*brushes*) a'r basgedi sydd ar goesau y gweithwyr. O ran hyny, nid oes angen arni hi am yr offerynau hyn, gan fod ei sefyllfa uchel yn peri na raid iddi lafurio, a'i holl angenion yn cael eu cyflenwi yn helaeth gan ei deiliaid. Gan mai hi ydyw unig foneddiges y cwch, y mae yn mwynhau y fraint o gael ei dilyn gan gannoedd lawer o gariadon. Pan y mae yn ddau neu dri diwrnod oed, y mae yn gymmhwys i briodi; ac anfynych iawn y bydd ei mawrhydi yn aros dros yr amser cyn dewis ei chymmhar: ac yn wir, pe na byddai yn teimlo tuedd i hyny ei hun, byddai awyddfryd gwresog ei deiliaid yn ddigon i'w chymmhell; canys nid oes mewn un deyrnas yn mhlith dynion awyddfryd cryfach am etifeddion nag sydd yn ymherodraeth y cwch. Nid yw y ffaith fod unig foneddiges y cwch yn cael ei dilyn fel hyn gan gynnifer o gannoedd o gariadon yn peryglu dim ar foesau y gymdeithas. Ond yn y gwrthwyneb—er fod pob llywodraeth yn ei llaw hi, ac er fod cannoedd lawer yn ymgeiswyr am ei serch, nid yw byth yn dewis ond *un*. Dewisir diwrnod cynhes a heulog i gyflawni seremoni y briodas; yr hyn a gymmer le yn yr awyr. Pan y daw yr adeg, ehed ei mawrhydi allan o'r cwch gyda'r llu o gariadon ar ei hol; cyfyd fry i'r awyr, ac ymffurfiant hwythau yn gylch o'i chwmpas. Yn y man, y mae yn gwneuthur ei dewisiad: ond Ah! nid yw y dedwyddwch ond byr ei barhâd; rhaid i'w phriod farw ar ddydd y briodas. Nid yw un amser yn cael byw yn hwy. Ond y mae hi yn parhau yn ffyddlawn iddo, ac nid yw byth yn ail briodi. Ond er fod ei mawrhydi wedi ei gadael yn weddw fel hyn, y mae yn mhen deuddydd ar ol priodi, a cholli ei harglwydd, yn dechreu dodwy.

O'r cannoedd cariadon gwrthodedig, y mae rhyw nifer yn ymfudo gyda heidiau a adawant y cwch gorlawn, y naill ar ol y llall. Gan nad yw y rhai a arosant ar ol o unrhyw wasanaeth bellach i'r gymdeithas, y maent yn dyfod yn wrthddrychau adgasedd; a'r diwedd fydd eu llwyr ddifetha trwy gyflafan gyffredinol, fel y cawn egluro etto. Y mae y frenhines yn dodwy yn barhaus am chwech neu wyth o wythnosau; ac o'r wyau a ddodwyir yn ystod yr amser hwn, y mae "gweithwyr ieuaingc" i ddyfod. Y mae celloedd cyfaddas i faint, ffurf, a sefyllfa y rhai bach eisoes wedi eu parotoi. Yn mhob un o'r celloedd hyn, y mae y frenhines yn dodwy ŵy. Wedi darfod hyny, y mae yn dechreu dodwy math arall o wyau, o ba rai y daw gwrywod ieuaingc; ond nid yw yn dodwy yn agos gymmaint o'r wyau hyn ag a wna o wyau gweithwyr. Ar ol hyn, y mae yn dodwy ychydig o wyau brenhinol, o ba rai y daw tywysogesau, y rhai ydynt i fod yn ymgeiswyr am orseddau y trefedigaethau sydd i ymfudo, neu ynte i esgyn gorsedd y cwch lle y ganwyd hwynt, pe dygwyddai i'r fam frenhinol benderfynu myned ymaith, a derbyn gwarogaeth un o'r trefedigaethau ymfudol. Y mae y gweithwyr wedi rhagbarotoi ystafelloedd o ffurf a maintioli arbenig i ddal yr wyau brenhinol hyn. Ynddynt hwy, fe fegir y tywysogesau gyda gofal mawr, a rhoddir iddynt ymborth neillduol.

Y mae yn angenrheidiol, er lles y cymmundeb, fod y frenhines yn priodi pan yn ddeuddydd oed; canys pe yr oedai yn hwy, fe barai hyny fod ei hiliogaeth yn cynnwys rhif anghyfartal o wrywod. Fel hyn, pe gohirid ei phriodas hyd oni byddai yn bythefnos oed, y canlyniad fyddai iddi ddodwy cynnifer o wyau gwrywod ag o wyau gweithwyr; a phe gohirid ef hyd oni byddai yn dair wythnos oed, ni ddodwyai ddim ond wyau gwrywod. Y fath drychineb a barai hyny yn myd y gwenyn, pan y mae yn angenrheidiol, er trefniant priodol y gymdeithas, fod deg o weithwyr am bob un gwryw! Parhâd cyffredin bywyd brenhines y gwenyn yw o bump i chwe blynedd.

Er fod y brenin yn marw, fel y crybwyllwyd, ar ddydd ei briodas, a bod y frenhines yn parhau byth yn ffyddlawn iddo, etto nid yw hyny yn cyfyngu dim ar rif yr eppil a ddilyna. Er lleied yw ei hermigau wyol, fe ddywed Huber fod ei mawrhydi yn cynnyrchu o honynt yn gyffredin 12,000 o wyau yn ystod y tymmor byr o ddau fis; yr hyn sydd tua 200 yn y dydd. Ond er nad yw hi yn parhau mor ffrwythlawn am y gweddill o'i bywyd, etto y mae rhif ei hiliogaeth yn anferth. Nifer yr wyau a rydd hi yn y celloedd yn ystod Ebrill a Mai yw tua 12,000. Dywed Schirach y dodwy brenhines eppilgar mewn tymmor—hyny yw, o ddechreu Ebrill hyd ddiwedd Hydref—o 70,000 i 100,000 o wyau. Nid yw y gallu rhyfeddol hwn i adgynnyrchu yn dal yr un fath drwy y tymmor. Cymmer le yn benaf ar ddau adeg —un yn ystod Ebrill a Mai, a'r llall yn Awst a Medi; tra y treulir Mehefin mewn seibiant. Y mae y cynnydd anferth hwn yn y boblogaeth yn peri fod ymfudiaeth yn anhebgorol angenrheidiol; ac felly, bydd haid ar ol haid yn gadael y cwch mor gyflym ag y cyrhaedda y gwenyn ieuaingc addfedrwydd oedran. Ond er mor rhyfeddol fawr yw gallu eppilgar brenhines y gwenyn, nid yw heb ei gyffelyb yn myd y trychfilod. Y mae benyw y morgrug gwynion yn dodwy un bob eiliad, neu 3,600 yr awr, neu 86,400 y dydd.

Y mae y *gwrywod*, neu y gwenyn gormes, fel y gelwir hwynt weithiau, yn llai na'r frenhines, ac yn fwy na'r gweithwyr. Y mae pen ol y corff yn fwy melfedaidd; ac y mae y cylchran olaf yn orchuddiedig â blew, yr hwn a gyrhaedda dros y gynffon yn weledig i'r llygad noeth. Ni chymmerant unrhyw ran yn ngwaith y gymdeithas: y maent yn ddiog, yn fusgrell, ac yn llwfr: ac fel pe byddai natur am wneud eu dinystr yn orchwyl hawddach i'r gyfran ddiwyd o'r boblogaeth, nid oes ganddynt un colyn. Y maent yn trystio mwy gyda'u hadenydd wrth ehedeg; ac y maent yn gwbl amddifad o'r basgedi a'r offerynau ereill gyda pha rai y mae y gweithwyr prysur yn casglu defnyddiau mêl a chŵyr. Nid ydyw

Digitized by Google

bywyd gwryw yn hwy nag ychydig fisoedd, ac anfynych y bydd farw o farwolaeth naturiol. Os anrhydeddir ef â dewisiad y frenhines, ac os dyrchefir ef i urddas uchel brenin, y mae yn marw ar ddiwrnod ei briodas. Os bydd efe yn mhlith y cannoedd a wrthodir gan ei mawrhydi, ac os erys efe heb ymfudo gydag un o'r heidiau, gan ei fod yn aelod diog a diwerth o'r gymdeithas, fe'i lleddir oddi ar y ffordd gan y gweithwyr.

Y mae y *gweithwyr* yn cael eu hystyried yn gyffredin fel benywod diffrwyth. Y mae eu rhif yn mhob cymmundeb yn amrywio yn fawr. Anfynych y mae yn llai na 12,000: yn aml iawn rhifant 20,000; ac yn y cychod hyny lle y cedwir y gwenyn rhag myned ymaith yn heidiau trwy roddi iddynt ddigon o le, gall eu nifer gyrhaedd hyd yn 60,000.

Yn mhlith rhyfeddodau y byd trychfilaidd, y mae *pen* y wenynen, ynghyd â'i gyssylltiadau, yn deilwng o sylw neillduol. Y prif ranau yw y tafod, y genau, y gwefiau, a'r gwddf. Y mae y ddwy ên yn ddwbl; ac y mae pob pâr yn agor, nid i fyny ac i lawr fel genau dyn, ond i'r dde a'r aswy. Gelwir y pâr uchaf "gorfantau" (*mandibles*), a'r pâr isaf yn "isfantau" (*maxillæ*). Y mae yn y safn ddeubar o aelodau neillduol a elwir teimlyddion:—un pâr yn gyssylltiedig â'r wefl isaf, y rhai a elwir "gwefl-deimlyddion" (*labi-palpi*); a'r pâr arall ynglŷn wrth yr ên isaf, yn cael eu galw gên-deimlyddion (*maxi-palpi*). Y mae gorfantau y gweithwyr yn gryfion, cornaidd, a llym. Y rhai hyn ydyw yr offerynau â pha rai y maent yn cyflawni eu gwaith. Y mae yr isfantau drachefn yn ystwyth a lledraidd, ac yn dal y gwrthddrych ar ba un y gweithia y wenynen gyda'i gorfantau. Y mae y tafod, yr hwn sydd yn hir, ac yn dra ystwyth, yn cael ei ysgogi gan gydgasgliad cywrain o gyhyrau. Pan ddisgyna y wenynen ar y blodeuyn o ba un y mae am dynu y neithdar, y mae yn gwthio ei thafod allan o'r wain sydd yn ei amddiffyn; ac ar ol trywanu dalen a brig y blodeuyn, y mae yn gosod ei thafod i mewn, ac yn ei symmud yn ol ac yn mlaen yn mhob cyfeiriad, gan dreiddio i waelodion y celloedd lle y mae y trysor yn gorwedd, a'u dyhysbyddu o'r dyferyn olaf o'r sudd gwerthfawr. Wedi casglu y neithdar fel hyn ar y tafod, y mae yn tynu yr aelod hwnw yn ol i'r safn, a bwrir y melusion i'r gwddf. Y mae y cylla, neu y mêl-god cyntaf, i ba un y mae y neithdar yn disgyn drwy gorn y gwddf, yn gyfansoddedig o sylwedd mor dryloyw a gwydr. Pan yn llawn, y mae o faintioli pysen fechan. Mae rhan o'r mêl a dderbynir ganddo yn cael ei fwrw yn ol, a'i drysori yn nghelloedd y crwybr i fod at wasanaeth cyffredinol y gymdeithas, fel y cawn ddangos etto. Mae y gweddill, yr hwn yw ymborth y wenynen, yn myned i'r gwir gylla, ac oddi yno i'r coluddion, lle y mae yn cael ei dreulio a'i ledaenu trwy bibellau priodol, er maeth holl ranau y corff. Y mae y teimlyddion (*antennæ*) yn offerynau pwysig iawn. Heb law eu bod yn aelodau i deimlo â hwynt, fe dybir yn gadarn mai trwy arwyddion ac ysgogiadau o'r eiddynt hwy y mae y gwenyn yn dadgan eu hangenion i'w gilydd, ac yn cyfleu hysbysrwydd gyda golwg ar gyflwr y cwch. Y mae adenydd y wenynen, fel llawer o drychfilod ereill, yn rhagori yn ddirfawr mewn nerth ar adenydd yr adar cyflymaf.

Mae ei thri phâr o goesau yn cynnwys amryw gymmalau, wedi eu cyssylltu, megys yn mraich dyn, yn y fath fodd ag i roddi gallu mawr i'r aelod i ysgogi. Y mae cymmal isaf y ddeubar isaf o'r coesau yn gwasanaethu fel ysgubellau—blew y rhai ydynt galed a gwrychog. Y mae y blawd (*farina*), a gesglir ar frig y blodau, yn cael ei ysgubo ymaith â'r ysgubellau hyn, yn gystal ag â'r blew sydd yn gorchuddio y bol a'r fynwes. Y mae y blawd hwn, wedi hyny, drwy gyfrwng yr isfantau a'r traed blaen, yn cael ei rolio yn belenau, a'i osod mewn basgedi neu gafnau ar lun llwyau, y rhai sydd ynglŷn wrth y coesau ol. Wrth wneuthur hyn, y mae yr ysgubellau, ar ol bwrw ymaith yr hyn a gasglasant hwy o'r blawd, yn ysgubo yr hyn sydd wedi glynu wrth y bol a'r fynwes, ac yn ei roddi yr un modd a'r llall yn y basgedi. Mae y tu allan i'r basgedi hyn yn llyfn a gloyw, a'r tu mewn wedi ei wisgo â blew cryfion, er mwyn cadw y braich yn ei le, a'i attal rhag disgyn pan y bydd y wenynen yn ehedeg. Nid yw y fasged hon gan y frenhines na'r gwrywod; ac nid oes arnynt hwy angen am dani, gan nad ydynt yn gweithio. Mae ar ben pob troed ddau fach, gyda'u blaenau yn cyfeirio at eu gilydd. Gyda'r rhai hyn y mae y gwenyn yn ymgynnal fel y mynant wrth ystlysau a nen eu preswylfod; a thrwy ymgrogi y naill oddi wrth y llall, y maent yn ffurfio llen neu ysgol fyw er cyflawni rhyw orchwyl pennodol fyddo ganddynt; megys y cawn sylwi ychydig pellach yn mlaen. Yn nghanol pob un o'r bachau hyn, y mae y sugnedydd, gyda pha un y galluogir y wenynen i gerdded yn rhwydd gyda'i chefn i lawr, fel y byddwn yn arfer gweled trychfilod yn cerdded ar nenau tai. Cwpanau bychain hyblyg yw y sugnedyddion hyn; ac ar eu hymylon y mae dannedd bychain fel dannedd llif, er mwyn eu galluogi i ymwasgu yn dŷn wrth unrhyw fath o arwyneb. Wrth eu gwasgu, y mae yr awyr sydd rhwng y sugnedydd a'r hyn y sethrir arno yn diange ymaith, ac felly cedwir y corff wrth y peth y sefir arno gan bwysiad yr awyr oddi allan. Pan y mae y troed i gael ei ryddhau er mwyn cerdded, fe ail ollyngir yr awyr i mewn. Byddai yn ddigon hawdd i'r neb a fyno weled hyn, pe cymmerai chwydd-wydr i edrych ar wybedyn yn cerdded ar un tu i ddarn o wydr, tra y gwyliai yntau ef o'r tu arall.

Y mae colyn y wenynen yn offeryn arbenig. Nid oes ond y frenhines a'r gweithwyr yn ei feddu. Mae yr arf dialeddol hwn yn y gynffon. Y mae yn gynnwysedig o ddwy bicell feinach na blewyn, y rhai a gydredant â'u gilydd; ac y mae nifer o fachau ar y tu allan i bob un; ond mor fân fel nad ellir eu gweled heb chwydd-wydr. Mae y picellau hyn yn ysgogi yn ol ac yn mlaen oddi mewn i wain gref, yr hon a gamgymmerir weithiau am y colyn ei hun. Pan y trywana y bicell y cnawd, y mae diferyn bach o wenwyn, yr hwn a gedwid mewn chwaren neillduol, yn cael ei ollwng drwy y wain i mewn i'r archoll. Mae y gwenwyn hwn yn peri chwydd a chryn boen. O blegid ffurf bachog y colyn, a'r gafael tŷn a gymmer yn y cnawd, anfynych y gall y wenynen ei dynu allan; ac wrth ymryddhau oddi wrth y man yr aeth ei cholyn iddo, y mae yn gyffredin yn gadael ar ei hol, nid yn unig y colyn ei hun, ond côd y gwenwyn, a rhan o'i choluddion. Crybwylla Swammerdam enghraifft, yn mha un y rhwygwyd cylla y wenynen allan wrth iddi ymryddhau; ac felly, y mae bywyd y creadur yn myned gan amlaf yn aberth i'w ddialedd.

### Y WENYNEN FEL ADEILADYDD.

Nid oes dim ynglŷn â'r wenynen yn fwy rhyfeddol, na dim ar sydd yn tueddu i gynhyrfu ynom edmygedd dyfnach at y llaw alluog a

Digitized by Google

haelionus a'i ffurfiodd, na'r dull a'r mold a gymmer i adeiladu ei thŷ ei hun a'i rhai bach. Mae y dulliau hyn yn dra amrywiol, yn ol y rhywogaethau neillduol o wenyn fydd yn eu gwneuthur. Mae y rhan fwyaf o'r rhywogaethau hyn yn gwahaniaethu gyda golwg ar yr egwyddorion celfyddydol ac adeiladyddol ar ba rai y sylfaenant wneuthuriad eu tai; ond y maent oll yn cyttuno yn hyn, eu bod yn dethol yr egwyddorion hyny gyda medrusrwydd mawr, gan eu cymmhwyso bob amser at y sefyllfa a'r amgylchiadau yn mha rai y cyfodir eu preswylfeydd. Os bydd anghrediniaeth y darllenydd yn "fawr ei rym," a bron a'i orchfygu weithiau wrth ystyried yr hyn a eglurir yn y tudalenau canlynol, bydd yn esmwythâd i'w feddwl i gofio yn aml, pwy a ddysgodd y wenynen!

Mae gwenyn, yr un modd a dynolryw, yn gweithio weithiau ar eu penau eu hunain, a phryd arall yn gwmnïau. Mae y tai a wnant hefyd yn cael eu cyfyngu weithiau yn gwbl i'r rhai bach, a gellir eu galw yn nythod, yn hytrach na phreswylfeydd. Dyma arfer mynychaf y rhai a weithiant ar eu penau eu hunain. Yn gyffredin, bydd y gwenyn hyny a ymffurfiant yn gwmnïau yn cymmhwyso y preswylfeydd at angenion aelodau y drefedigaeth yn gystal ag i'r rhai bach. Er fod gweithrediadau y gwenyn unigol yn arddangos medrusrwydd rhyfeddol, etto y maent yn annhraethol is law gweithrediadau y gwenyn cymdeithasol. Ni a sylwn i ddechreu ar arferion y rhai cyntaf.

Yn mhlith y rhai mwyaf anghelfydd o adeiladau y rhywogaeth unigol, gellir enwi preswylfeydd y *gludwenyn*, a'r *cloddwyr*, &c. Y lle a ddewisir yn gyffredin gan y rhai hyn, yw twmpath o ddaear sych, neu agoriadau mewn cloddiau. Gwneir i ddechreu dwll crwn, tua dwy fodfedd o hyd, i mewn i'r pridd. Yn hwn fe wna'r wenynen dair neu bedair o gelloedd ar ffurf gwnïadur, pob un o honynt tua'r chweched ran o fodfedd o drawsfesur, a thua hanner modfedd o hyd. Defnydd y celloedd hyn yw pilionen deneu — teneuach nag unrhyw bapur, ac mor dryloyw fel y gellir gweled lliw a ffurf unrhyw wrthddrych drwyddo. Wedi gorphen un o'r rhai hyn, y mae y wenynen yn gosod ŵy ynddi, ac yn ei llanw â sylwedd gludiog, yr hwn sydd gymmysgedd o fêl a mân flawd. Ar ol gwneud hyn, y mae yn dechreu ail gell, gan osod un pen iddi yn ngenau y gell ddiweddaf a wnaeth; a rhydd yn hon etto, fel y llall, ŵy a swm o ymborth i'r un bach. Mae yn myned yn mlaen fel hyn i wneud tair neu bedair o'r celloedd hyn, gan osod y naill yn y llall fel gwnïaduron. Yna y mae yn cau genau y twll yn ofalus â phridd.

Y mae rhai mathau o wenyn, megys y rhai a elwir *dilladwyr*, na chymmerant y drafferth i dori tyllau crynion fel y rhai a ddisgrifiwyd, ond a arferant dyllau fyddont eisoes wedi eu gwneud mewn coed, neu rywbeth arall a ettyb y diben. Sonia Kirby am nyth a gafwyd ganddo ef ac ereill wedi ei wneud oddi fewn i glo llidiart gardd. Y mae un peth hynod iawn yn nglŷn âg arferion y rhywogaeth hon. Pa le bynag y byddo y nyth, y mae yn angenrheidiol, er cadwraeth priodol y rhai bach, fod eu tymmeredd yn cael ei gadw mewn pwynt pennodol hyd nes delont i sefyllfa berffaith. Pan y bydd y sylwedd o amgylch y nyth yn drosglwyddydd ammherffaith i wres, megys daear, y mae y gwres oddi wrth y trychfilyn yn ddigon, trwy ei gyfyngu oddi mewn i gadw i fyny y tymmeredd angenrheidiol. Ond pe y digwyddai i'r fam-wenynen ddewis lle tebyg i glo llidiart i wneud ei nyth, buan iawn y byddai i'r mettel, yr hwn sydd drosglwyddydd rhagorol i wres, chwalu hyny o wres a ddeuai oddi wrth y creadur, a thrwy hyny ostwng y tymmeredd i bwynt mor isel fel na byddai modd iddi fyw. Pa fodd y mae y fam dyner yn cyfarfod â hyn? Pa fodd, tybed, y gwnaethai yr adeiladydd gwyddorol yn mhlith dynion? Efe a chwiliai am ryw sylwedd nad yw yn drosglwyddydd o wres, ac a'i rhoddai o amgylch y nyth. Fel yna yn gymmhwys y gwna y wenynen. Mae yn chwilio am ryw blanhigion gwlanog, ac yn crafu y gwlân oddi arnynt gyda'i gorfantau. Y mae yn gwneuthur hwnw yn belenau bychain; ac ar ol eu cymmeryd i'r nyth, y mae yn eu gosod ar y tu allan gyda glud, wedi ei wneud o fêl a mân flawd. Trwy hyn, gwneir y celloedd yn annhreiddiadwy i wres, ac felly y mae yr holl wres a ddaw oddi wrth y creadur bach yn cael ei gadw oddi mewn. Yr arfer hynod hon o wisgo yr un bach â math o wrthban cynhes a barodd galw y rhywogaeth hon o wenyn yn "ddilladwyr."

Mae dosbarth arall o wenyn a elwir yn *seiri coed*, oddi wrth y dull yn mha un y cerfiant eu nythod mewn prenau; a gelwir rhywogaeth arall yn *seiri meini*, o herwydd eu bod yn gwneud eu nyth mewn math o gareg gelfyddydol. Y lle a ddewisir yn gyffredin gan y rhai olaf hyn ydyw mur ceryg, yn wynebu tua'r deheu, gyda chysgod o bob tu. Wedi penderfynu ar y lle, y mae y fam-wenynen yn dechreu casglu defnyddiau at wneud y tŷ, sef tywod wedi ei gymmysgu â phridd. Mae yn asio y rhai hyn yn nghyd, ronyn wrth ronyn, â'r cymmrwd (*cement*) sydd ganddi wedi ei wneuthur o boer gludiog (*viscid saliva*). Wedi ffurfio y defnyddiau yn bentyrau bychain, y mae yn eu cludo hwynt gyda'i gorfantau i'r man lle y gosododd hi sylfaen ei phalas. Wedi gosod y sylfaen, y mae yn cyfodi muriau cell tua modfedd o hyd, a hanner modfedd o led, ar ffurf gwnïadur. Yn hwn y mae yn gosod ŵy, ac yn ei lenwi â chymmysgedd o fêl a mânflawd, yn debyg fel y dangoswyd mewn enghraifft flaenorol; ac ar ol ei guddio i mewn yn ofalus, y mae yn dechreu adeilad arall cyffelyb, ac â rhagddi felly nes y byddo wedi gorphen o bedair i wyth. Ni osodir y celloedd hyn mewn unrhyw drefn reolaidd—mae rhai yn gyfochrog, ereill yn unionsyth, ac ereill yn gogwyddo mewn gwahanol ddulliau at y mur. Mae yr holl bentwr yn cael ei gydgorphori trwy lanw i fyny y gwagleoedd rhwyllog sydd rhwng y celloedd gyda'r un sylwedd ag a gymmerwyd i wneud y muriau. Wedi gwneuthur hyn, fe orchuddir y cyfan â gronynau brasach o dywod. Mae y nyth, ar ol ei orphen, yn bur debyg i gareg, ac mor galed fel mai anhawdd yw ei dori â chyllell. Hirgrwn afreolaidd yw ei ffurf; ac ar yr olwg gyntaf, y mae yn debycach i swp o laid nag i adeilad reolaidd. Mae y dosbarth yma o wenyn mor brin gyda'u llafur, fel y gwnant ddefnydd o hen nythod, os gallant eu cael; a mawr fydd y brwydro weithiau er mwyn eu hennill a chadw meddiant o honynt.

Gelwir rhywogaeth arall o wenyn yn *ddodrefnwyr*. Wedi i'r rhai hyn dirio eu nyth yn y ddaear, y maent yn addurno ei furiau â gwisg ysblenydd o ddail a blodau. Mae un math o honynt yn dewis bob amser yr ysgarlad mwyaf claerwych er addurno eu hystafelloedd; ac i hyn hwy a gymmerant ddalenau y pabi (*poppy*)

Digitized by Google

gwyllt, gan eu tori yn bur gywrain i'r ffurf briodol. Y gorchwyl cyntaf yw tori twll ar ryw lwybr traed. Un bychan crwn ydyw ar ei gychwyniad, ond yn ymhelaethu oddi mewn, a thua thair modfedd o ddyfnder. Wedi caboli y muriau, y mae y wenynen yn ehedeg i gae cyfagos, ac yn tori allan y rhanau hirgrwn o flodeuyn y pabi; a chan afaelyd ynddynt â'i thraed ol, y mae yn eu cludo hwynt i'w chell. Y mae yn dygwydd weithiau na bydd y blodeuyn, o ba un y tyr hi y rhai hyn, ond wedi hanner ymagor, ac y bydd rhai o'r dalenau wedi crychu. Os felly, y mae yn eu lledu allan, ac yn llyfnhau y crychni ymaith. Wrth osod y lleni ysblenydd hyn ar y muriau, y mae yn dechreu yn y gwaelod, ac yn esgyn yn raddol i'r pen uchaf. Mae yn carpedu yn gyffelyb hefyd y tir wrth enau y twll; a gwneir y llawr yn gynhes weithiau trwy osod arno dri neu bedwar o garpedau, ond ni roddir un amser lai na dau. Wedi i'r dodrefnydd bychan orphen gosod lleni ei hystafell, y mae yn ei llanw am tua hanner modfedd o uchder, â chynnwysedd o fêl a mân-flawd. Yna y mae yn gosod ŵy ynddo, ac yn tynu y lleni drosodd; ac wedi gorphen hyny y mae yn cau genau y nyth.

Nid yw pob un o'r dosbarth hwn yn dangos y fath chwaeth uchel yn newisiad lliwiau eu dodrefn. Y mae y math a elwir *dail-dorwyr*, yn gwisgo eu muriau yn yr un modd; ond dail a gymmerant hwy yn lle blodau, a dail y pren rhosyn yn fwyaf neillduol. Gwahaniaethant oddi wrth y dodrefnydd hefyd yn ngwneuthuriad allanol eu nythod, y rhai a ffurfir mewn tyllau crynion llawer hwy. Cyfres o gelloedd ar lun gwniadur ydynt, wedi eu gwneud o ddail yn hynod gywrain. Mae y wenynen yn tori twll crwn wyth neu ddeng modfedd o hyd yn gydwastad â'r llawr, naill ai yn y ddaear neu yn moncyff pren wedi braenu. Mae yn llanw y twll hwn â chwech neu saith o gelloedd fel gwniaduron, wedi eu gwneud o ddail, y rhai a dorwyd yn y fath fodd fel y mae pen crwn y naill ddeilen yn atteb i ben bylchog y ddeilen arall. Ei gorchwyl cyntaf yw ffurfio y wisg allanol, yr hon a wneir o dri neu bedwar o ddarnau mwy na'r gweddill, ac ar ffurf hirgrwn. Mae yr ail wisg yn gynnwysedig o ddarnau cyfartal o ran maintioli—cul yn un pen, ond yn lledu yn raddol nes bod y lled mwyaf yn gyfartal i hanner yr hyd. Ymyl danneddog y ddeilen o ba un y torwyd y darn ydyw un ochr iddo; ac wrth osod y naill ddarn ar y llall fe gedwir yr ymyl danneddog hwn y tu allan, a rhoddir yr ymyl a dorwyd oddi fewn. Yna mae y wenynen yn ffurfio y drydedd wisg o ddarnau cyffelyb, canol y rhai a rydd hi, fel crefftwr medrus, dros ymylon y rhai a ffurfiant yr ochr gyntaf, a thrwy hyny y mae yn cuddio ac yn cryfhau y cyssylltiadau. Mewn dull cyffelyb hi a rydd bedwaredd, ac weithiau bummed gwisg i'w nyth, gan ofalu plygu y dail ar ben cul neu gauedig y gell yn y fath fodd ag i ffurfio terfyn crwnaol. Ar ol gorphen pob cell fel hyn, y mae yn ei llanw hyd o fewn yr ugeinfed ran o fodfedd i'r genau â melusfwyd rhosyn-liw, wedi ei wneud o fêl, yn gymmysgedig â mân-flawd a gasglodd hi oddi ar flodau ysgall. Ar y melusfwyd hwn y mae yn dodwy yr ŵy, ac yna yn cau y genau â thri darn o ddeilen, gyda'u blaenau yn cydgyfarfod mewn canolbwynt, ac hefyd mor gylchaidd yn eu ffurf fel nad allai un cwmpawd ddisgrifio cylch cywirach. Y maent, o ran eu maint, hefyd yn cyfatteb mor fanwl i furiau y gell, fel y cedwir hwynt rhag ysgogi yn unig drwy y manylder â pha un y maent yn atteb i'w lle. Gan fod y gorchudd a roddir fel hyn ar y gell yn geuol neu gafnog, y mae yn cyfatteb yn gywir i ben crwnaog y gell ddilynol; ac fel hyn y mae y wenynen bach yn parhau i lafurio nes gorphen chwech neu saith o gelloedd, neu hyny fyddo yn angenrheidiol i lanw y twll.

Mae y dull a gymmer y wenynen hon i dori y darnau dail a gyfansoddiant ei nyth yn deilwng o sylw. Mae yn hynod gyflym gyda'r gwaith; nid yw yn hwy yn tori y darn nag a fyddai rhywun yn tori darnau cyffelyb â siswrn. Ar ol hofran am rai eiliadau o gwmpas y pren rhosyn, y mae yn disgyn ar y ddeilen a ddewisa, gan sefyll yn gyffredin ar ei hochr, fel y byddo iddi gael yr ymyl rhwng ei choesau. Yna y mae yn tori yn ddiaros gyda'i gorfantau, yn y fath gyfeiriad ag i gymmeryd darn trionglog o'r ddeilen. Pan y croga hwn wrth yr edefyn olaf, rhag y byddo i'w bwysau ei thynu hi i'r llawr, y mae yn lledu ei hadenydd bychain i ehedeg; a'r foment y torir y cyssylltiad rhwng y darn a'r ddeilen, y mae yn ei gymmeryd ymaith yn fuddugoliaethus i'w nyth. Fel hyn, heb na mesurlath na chwmpawd, y mae y creaduriaid bychain hyn yn tori y defnyddiau at eu gwaith, yn hirgrwn neu gylchaidd, neu ryw ffurf briodol arall, gan wneud i'r gwahanol ddarnau gyfatteb y naill i'r llall. Pa adeiladydd arall a fedrai ddal yn ei gof holl fanylion yr adeilad fyddo ganddo i'w gyfodi, a thori allan, heb nag ysgwâr na phlymlin, yr holl ddefnyddiau angenrheidiol yn eu maintioli priodol, a hyny heb wneud un camgymmeriad na gorfod ail wneuthur cymmaint ag un peth? Etto, hyn oll a wna y wenynen fach yn ddieithriad, dan arweiniad yr addysg anffaeledig hono a dderbynia hi gan ei Chreawdwr.

Ond er mor gywrain yw gweithrediadau y gwahanol rywogaethau o wenyn, y mae *gwenynen y cwch* yn annhraethol ragori arnynt oll mewn medrusrwydd adeiladyddol a chelfyddydol. Mae yr athronydd mwyaf dwfn-feddylgar, yn gystal a'r dyn lleiaf ystyriol, yn cael ei lanw â syndod yn yr olwg ar ryfeddodau y cwch gwenyn. Mae yn canfod yno ddinas fechan. Y mae yn gweled heolydd rheolaidd yn rhedeg yn gyfochrog, ac yn cynnwys tai wedi eu hadeiladu ar yr egwyddorion mesuronol manylaf, a'r ffurfiau mwyaf cyfluniol. Y mae yr adeiladau hyn yn cael eu cymmhwyso i wahanol ddibenion:—rhai yn ystordai lle y cedwir symiau anferth o ymborth; mae ereill yn breswylfeydd i'r dinasyddion; ac ychydig o'r rhai mwyaf ac ardderchocaf yn balasau brenhinol. Mae yn cael fod y defnyddiau o ba rai yr adeiladwyd y ddinas hon yn gyfryw nas gallai dyn gyda'i holl fedrusrwydd mo'u gwneuthur, a bod yr adeiladau a wneir â hwynt y fath na fedrai y peiriannydd mwyaf cywrain mo'u hefelychu, heb son am eu dyfeisio a'u gwneuthur y tro cyntaf; ac etto i gyd, y mae y celfyddwaith rhyfeddol hwn yn gynnyrch llafur cymdeithas o drychfilod mor fychain, fel nad yw cannoedd o filoedd o honynt yn cynnwys digon o sylwedd i gyfansoddi corff un dyn. Ac nid yw dyn etto yn gallu esbonio yn foddhaol orchestgamp y wenynen—nid yw etto wedi gallu treiddio i mewn i'w ddirgeledigaethau. Mae naturiaethwyr a gwyddonwyr pob oes wedi gosod eu meddyliau ar waith i astudio y pwngc, ond y mae y crwybr mêl yn wyrth annealladwy hyd heddyw.

Wrth ei chwilio, fe geir fod crwybr yn deisen fflat gyda'i hwynebau yn hollol gyfochrog, a phob wyneb wedi ei rwydweithio â ffurfiau

arbedent le a chŵyr. Gallesid disgwyl hefyd y buasai gwaelodion y celloedd hyn yn wastad, ac y buasai gosodiad y naill wyneb llyfn ar y llall er ffurfio y crwybr yn atteb yr un dyben; ond y mae amryw resymau yn erbyn nyn. Yn y lle cyntaf, buasai eangder y crwybr yn llai; hefyd, buasai gwaelodion y celloedd, ar ol eu gosod ar eu gilydd, yn agored i lithro ymaith; ac wrth i'r gwaelodion hyn ffurfio un arwyneb llyfn, buasai llawer iawn o nerth y crwybr yn colli. Ond yn annibynol ar hyn, y mae y pen olaf o gorff y wenynen ei hun yn bigfain, ac ni buasai cell gyda gwaelod gwastad yn cyfatteb i'w ffurf hi, a thrwy hyny buasai lle yn cael ei wastraffu. Mae y wenynen yn gochelyd yr anfantais hon trwy ffurfio gwaelod y gell yn gafn pyramidaidd, i mewn i'r hwn y mae pen pigfain ei chorff yn myned. Heb law hyny, y mae fod gwaelodion pyramidaidd y naill gyfres neu blyg o bibellau yn myned i fewn i'r pantleoedd rhwng gwaelodion y pibellau ar y tu arall yn gynnorthwy mawr i gadw y crwybr rhag cael ei anffurfio. Gallesid rhoddi gwaelodion pyramidaidd i'r celloedd hyn mewn llawer ffordd i atteb y dybenion a grybwyllwyd; ond yr oedd yn hanfodol angenrheidiol, er mwyn cynnildeb, fod y ffurf hwnw yn cael ei ddewis a roddai fwyaf o le gyda lleiaf o ddefnydd. Wrth chwilio yn fanwl y teisenau gŵyrongl a ffurfiant waelodion pyramidaidd y celloedd, fe gafodd Maraldi fod eu meinongl (*acute angle*) yn mesur 70° 32′, ac felly bod eu pŵlongl (*obtuse angle*) yn mesur 109° 28′. Tybiodd Reaumer y rhaid fod rhyw bwrpas i ddewisiad y rhai hyn yn yr holl gelloedd, ac mai y pwrpas hwnw oedd arbediad cŵyr. A chan nad oedd yn ddigon o fesuronydd ei hun i wneuthur cyfrif o fath hwn, efe a geisiodd gan Mr. Koenig—mesuronydd enwog yn ei ddyddiau ef—i benderfynu pa ffurf a ddylid roddi i waelod pyramidaidd pibell chwe-ongl er mwyn ei gwneud o faintioli pennodol gyda'r swm lleiaf ag a fyddai yn bossibl o ddefnydd. Yr oedd hwn yn orchwyl ag oedd yn gofyn yr adnoddau uchaf oedd yn nghyrhaedd gwyddoniaeth ddosranol (*analytical science*) y pryd hwnw, cyn y gallesid ei gyflawni. Pa fodd bynag, fe wnaed hyny, a chafwyd mai mesuriad priodol y meinongl fyddai 70° 34′, a'r pŵlongl 109° 26′. Fe welir, gan hyny, fod 2′ o wahaniaeth rhwng y mesuronydd a'r wenynen. Ond y mae yn ymddangos wedi y cyfan, mai y wenynen sydd yn iawn, a bod y mesuronydd yn methu. Fe aeth Arglwydd Brougham, a rhifyddwyr ereill, at y gorchwyl o wneud y mesuriad mewn dull gwahanol i Koenig; a chawsant allan, nid yn unig mai y wenynen sydd yn ei lle, a bod y mesuronydd yn cyfeiliorni, ond hefyd y modd yn mha un yr ymgripiodd y cyfeiliornad i mewn.

Ond heb law y dull hwn o arbed cŵyr trwy ffurf y celloedd, y mae gan y wenynen ddull arall hefyd i wneud hyny. Y mae yn gwneuthur gwaelodion ac ystlysau y celloedd o gŵyr tra theneu—dim tewach na dalen o bapur ysgrifenu. Ond gan y byddai i furiau o'r tewdra hwn gael eu niweidio yn barhaus trwy fynediad y gweithwyr i mewn ac allan, y maent yn bur gall yn gwneuthur ymylon genau y gell dair neu bedair gwaith yn dewach na'r muriau.

Gan fod poblogaeth y cwch yn gynnwysedig, fel y crybwyllwyd, o amryw ddosbarthiadau gwahanol eu maint, a chan mai un o ddybenion y celloedd yw bod yn breswylfeydd iddynt o'r pryd y deuant allan o'r ŵy hyd nes y cyrhaeddant addfedrwydd oedran, yna fod maintioli y celloedd yn gwahaniaethu yn gyfartal, neu o leiaf, y rhai hyny o honynt a arferir i'r dyben yma. Felly, yr oedd celloedd y gweithwyr yn fyrach na rhai y gwrywod, a'r rhai hyn drachefn yn llai na'r celloedd brenhinol. Mae y celloedd brenhinol yn gwahaniaethu yn gwbl oddi wrth y lleill o ran maint, sefyllfa, a ffurf. Megys yr eglurwyd eisoes, ffurfiau cyffredinol y celloedd yw pibellau chwe-onglog, gyda gwaelodion pyramidaidd yn gwasgu yn erbyn eu gilydd â safnau agored ar bob tu. Mae y crwybr ei hun yn cael ei osod yn unionsyth yn y cwch, a'r celloedd brenhinol, y rhai ydynt yn fawr, ar lun gerllyg, yn cael eu gludio wrth ei ymylon isaf, ac yn crogi oddi wrtho yn debyg i'r meini calchaidd a grogant megys dyferion o ben ac o ochrau ogofâau. Er nad oes ond un frenhines yn mhob cwch, y mae er hyny yn cynnyrchu tri neu bedwar, neu fwy, ac weithiau gynnifer a deg ar hugain, neu ddeugain, o ŵyau brenhinol. Y tywysogesau a ddeuant allan o'r wyau hyn a fydd brenhinesau yr heidiau a adawant y cwch y naill ar ol y llall. Mae y celloedd a neilldüir i gadw mêl a mân-flawd, yn gyffelyb, o ran ffurf a sefyllfa, i'r rhai a neilldüir i'r gwrywod a'r gweithwyr ieuaingc—ond yn hwy. Gwneir yr hyd hefyd i atteb i'r angen. Os bydd mwy o gyflenwadau nag a fedr y celloedd a wnaed eu cynnwys, ac os na bydd amser na lle i wneuthur celloedd ereill, hwy a wnant y mêlgelloedd yn hwy trwy gludio darn newydd o gylch yr ymyl. Weithiau hefyd hwy a roddant ystorfeydd yn y celloedd a waghawyd o'r gwrywod neu y gweithwyr hyny a gyrhaeddasant addfedrwydd oedran.

Wedi rhoddi yr eglurhâd blaenorol ar ffurfiau y celloedd, ni a ddangoswn yn fyr y dull yn mha un y gwneir hwynt, ac y ffurfir y crwybrau trwy eu cyfuno. Defnydd y crwybrau ydyw cŵyr—sylwedd a gedwir dan gylchranau (*segments*) isaf cyrph y gweithwyr hyny a dderbyniasant, oddi wrth y ffaith hon, yr enw o "gŵyr-wneuthurwyr." Mae y rhan hono o gorph y creadur, lle y cedwir y sylwedd sydd yn troi yn gŵyr, yn gynnwysedig o bedwar pâr o godau pilenaidd, a elwir yn "gŵyr-logellau," y rhai sydd yn ngwaelod y cylchranau dan y corph, un ar bob tu. Mae y rhai hyn yn guddiedig pan y bydd y corph yn ei ystum naturiol, trwy fod y cylchranau yn ymlapio y naill ar y llall. Ond gellir eu gwneud yn weledig trwy estyn allan y corph yn y fath fodd ag i ddwyn i'r amlwg y rhan hono o bob cylchran a orchuddir gan yr un sydd o'r tu allan iddi. Pan ar fedr ffurfio crwybr, fe ddechreuir y gwaith gan y cŵyr-wneuthurwyr; y rhai, wedi cymmeryd swm pennodol o fêl a sugr, o ba rai y gellir gwneyd y cŵyr, a ymgrogant y naill wrth y llall—gwinedd traed blaen y rhai isaf yn gafael yn nhraed ol y rhai nesaf uwch law iddynt. Wedi parhau yn y sefyllfa hon heb ysgogi am tua phedair awr ar hugain, yn ystod pa amser y neilldüir defnydd y cŵyr oddi wrth yr ymborth a gymmerir i'r cylla, gellir gweled yn gyffredin dan y bol yr haen deneu o ba un y ffurfir ef. Ar hyn, fe welir un o'r gwenyn yn ymryddhau oddi wrth y lleill, ac yn esgyn i nen y cwch, ac yno y try ei chorff o gwmpas, gan glirio gwagle crwn i weithio arno, tua modfedd o drawsfesur. Ar ol gwneuthur hyn, hi a ddechreua osod sylfaen crwybr fel y canlyn. Mae y seilyddes, fel y gelwir y wenynen hon, yn cymmeryd gafael âg un o'i thraed ol yn yr haen o gŵyr, neu yn hytrach y defnydd cŵyr, ac yn ei dynu oddi

Digitized by Google

rhwng cylchranau y bol. Wedi cymmeryd gafael sicr yn y ddalen neu yr haen hon, y mae yn ei chludo gyda'i thraed oddi wrth ei bol i'w genau, pryd y cymmerir hi gan un o'r coesau blaen, ac y delir hi yn unionsyth, tra y mae y tafod rholiedig yn cynnorthwyo i droi yr holl haen o gwmpas tra bydd y gorfantau yn gweithredu arni. Buan iawn y melir yr ymyl yn ddarnau mân â'r gorfantau hyn, y rhai a weithredant fel math o siswrn. Syrth y darnau hyn i bob tu i'r genau, ac ar ol eu gwasgu ynghyd yn un pentwr cryno, fe'u bwrir allan yn y ffurf o ruban gul, gul. Rhoddir y ruban hon ar y tafod, a gweithia hwnw i mewn iddi fath o wlybwr ewynog, yr hwn a effeithia arni yn gymmhwys fel y gwna dwfr ar y clai a ddefnyddia y crochenydd i wneud y llestri goreu. Mae yn ddigon hawdd gweled fod y gorchwyl o bobi a gweithio y sylwedd hwn yn un llafurfawr a chelfyddydol, ond sylwi ar ysgogiadau tafod y wenynen. Weithiau, y mae ar ffurf cyllell apothecari, bryd arall fel llwy (*trowel*) saer maen, a phryd arall yn bigfain, fel math o bwyntel; a deil i weithio yn barhaus ar y ruban, yr hon a fwrir o'r safn yn yr amryw ffurfiau hyn. Wedi gweithio y gwlybwr yn dda i mewn i'r ruban, a'i phobi yn ofalus, y mae y tafod yn ei gwthio eilwaith rhwng y gorfantau, ond mewn cyfeiriad gwahanol i ba un yr aeth ar hyd-ddo o'r blaen, a gweithir y cyfan i fyny o'r newydd. Mae y sylwedd hwn wedi ei droi yn awr yn wir gŵyr. Mae yr hyn a gymmerir yn haenau oddi tan y bol yn frau a briwsionllyd, ac mor anghymmhwys i ffurfio'r crwybr ag a fyddai pridd sych y crochenydd i wneuthur cawg; ond y mae y gwlybwr a weithiwyd iddo allan o'r genau, a'r gorchwyl llafurfawr o'i bobi, wedi llwyr newid ei ansoddau peiriannol, a rhoddi iddo yr ystwythder a'r hyblygrwydd hwnw sydd mor nodweddiadol o gŵyr.

Mae y darnau cŵyr a weithir fel hyn yn cael eu gosod wrth nen y cwch, a threfna y wenynen hwynt gyda'i gorfantau yn y cyfeiriad y bwriedir i'r crwybr fod. Hi a barhâ i weithio fel hyn nes gorphen yr holl sylwedd yn yr haen, pryd y cymmer un arall, gan ei gweithio yn gyffelyb. Ar ol pentyru fel hyn yr holl gŵyr sydd ganddi, a'i sicrhau wrth nen y cwch, y mae yn myned ymaith, a daw tair neu bedair ereill i'w lle o un i un, ac a wnânt yn gyffelyb iddi. Fel hyn, fe wneir mur afluniaidd o gŵyr, tua hanner modfedd o hyd, y chweched ran o fodfedd o uchder, a'r bedwaredd ran ar hugain o fodfedd o drwch. Nid oes y pryd hwn un arwydd o onglau na ffurf y celloedd—dim ond pentwr syml ac anweithiedig o gŵyr.

Gan fod gwaith y cŵyr-wneuthurwyr yn darfod yma, fe gymmerir eu lle gan y mammaethod, y rhai ydynt y gwir gelfyddydwyr. Fe saif y rhai hyn yn eu perthynas â'r cŵyr-wneuthurwyr yr un fath ag y saif y seiri meini yn eu perthynas â'r llafurwyr cyffredin, wrth godi adeilad. Mae un o'r mammaethod yn dechreu ar ei gwaith trwy ymsefydlu ar nen y cwch gyda'i phen at y mur cŵyr a wnaed gan y cŵyr-wneuthurwyr. Mae y mur hwn i gael ei droi yn waelodion pyramidaidd y celloedd a ddisgrifiwyd. Felly, gorchwyl cyntaf y wenynen yw moldio, ar y tu hwnw i'r mur lle y saif hi, gafn pyramidaidd ar ffurf gwaelod un o'r celloedd. Wedi bod yn llafurio am ychydig funydau, y mae yn myned ymaith, a chymmerir ei lle gan un arall, yr hon a barhâ y gwaith, gan ddyfnhau y cafn, a chodi ei ymylon trwy bentyru y cŵyr ar bob tu gyda'i dannedd a'i thraed blaen. Fe ddaw dros ugain o fammaethod at y gorchwyl hwn y naill ar ol y llall. Yn y cyfamser, nid oes dim yn cael ei wneud ar y tu arall i'r mur; ond mor fuan ag y bydd y gell gyntaf wedi cyrhaedd hyd pennodol, fe ä mammaethod ereill i'r tu cyferbyniol, ac a ddechreuant ffurfio gwaelodion dwy gell, yn cyfatteb o ran sefyllfa i'r hon a ddisgrifiwyd. Tra y mae'r mammaethod wrth y gwaith o droi y pentwr cŵyr ar waelodion celloedd, a ffurfio pibellau chweonglog i gyfatteb iddynt, fe ddaw y cŵyr-wneuthurwyr yn ol, ac a helaethant y mur yn mhob cyfeiriad. Ar ol gorphen gwaelodion un rhes o gelloedd yn eu ffurf briodol, y maent yn eu caboli hwynt, tra y dechreua ereill ar res newydd. Fe ddangosir yn y darlun canlynol un



Dar. 230.

o wynebau y cyfryw fur wedi iddo gael ei weithio i gyfres o waelodion pyramidaidd celloedd i'r gweithwyr. Y celloedd chwe-onglog eu hunain a ffurfir nesaf. Gludir y rhai hyn ar ymylon y gwaelodion pyramidaidd, megys y gwelir yn rhif 3 o darlun 229. Gosodir y crwybrau a ffurfir fel hyn yn unionsyth yn y cwch. Y maent yn lled gyfochrog â'u gilydd; ond nid yn gwbl felly, gan eu bod yn gogwyddo y naill at y llall, a thrwy hyny mae y tewdra yn lleihau yn raddol fel yr eir i lawr. Dangosir yn y darlun canlynol sefyllfa y crwybrau wedi eu gosod yn y cwch.



Dar. 231.

Y mae rhyw ddosbarth o naturiaethwyr yn ymhyfrydu mewn ffurfio tybiau sydd yn gwneud y wenynen yn fath o beiriant. Dywedant hwy fod amrywiol ranau y crwybr yn deilliaw o angenrheidrwydd peiriannol; fod aelodau y wenynen wedi eu gwneud yn y fath fodd ag i roddi i'r celloedd eu gwahanol ffurfiau trwy ysgogiad peiriannol, yn debyg fel y gwneir y ffurfiau mesuronol mwyaf cywir ar ddarn o haiarn neu blwm trwy drydyllwyr wedi eu ffurfio i'r pwrpas. Ond nid oes mewn gwirionedd y tebygrwydd lleiaf rhwng yr offerynau hyn ag ermigau y wenynen. Ei hoffer hi yw y traed, y gorfantau, a'r tafod—gweithrediadau y rhai a reolir gan y teimlyddion. Nid ydynt wrth weithio yn

Digitized by Google

symmud un gronyn o gŵyr hyd oni byddo yr holl arwyneb sydd i gael ei gerfio wedi ei chwifio yn graff gan y teimlyddion. Mae yr ermigau hyn mor ystwyth, ac mor hawdd eu cymmhwyso at bob rhan o'u gwaith, pa mor dyner bynag, fel y gellir eu harfer yn lle ysgwâr a chwmpawd i fesur y rhanau lleiaf gyda'r manylrwydd mwyaf, yn y fath fodd ag i wneud y gwaith yn y tywyllwch, a chynnyrchu gyda chywirdeb anffaeledig y campwaith rhyfeddol a elwir y crwybr. Mae yn anmhossibl edrych ar grwybr wedi ei ddadgymmalu heb ganfod yr angenrheidrwydd mesuronol sydd yn cyssylltu y naill ran gyda'r llall. Nis gall fod gan ddamwain un gyfran yn y gwaith. Mae y pentwr cyntaf o gŵyr yn cael ei helaethu gan y cŵyr-wneuthurwyr yn ol y swm cywir sydd yn angenrheidiol; ac y mae y cŵyr-wneuthurwyr hyn, sydd ar eu gwyliadwriaeth beunyddiol i sylwi ar gynnydd y crwybr, fel ag i ddwyn i'r celfyddydwyr y cyflenwad angenrheidiol o sylwedd, yn gwbl amddifaid eu hunain o'r gelfyddyd a'r wyddoriaeth angenrheidiol i ffurfio y celloedd. Nid ydyw y gwenyn chwaith byth yn dechreu dau grwybr nesaf i'w gilydd yr un amser; o herwydd mewn trefn i wneud un yn gyfochrog âg un arall, ac o fewn pellder pennodol iddo, y mae yn rhaid i'r un arall hwnw fod wedi ei ffurfio hyd ryw bwynt neillduol. Gan hyny, hwy a ddechreuant grwybr yn nghanol y cwch; ac wedi gorphen hwnw hyd ddyfnder pennodol, y maent yn mesur ar nen y cwch bellder dau grwybr arall, un ar bob tu iddo, ac yna yn dechreu eu ffurfio; ac wedi gorphen y rhai hyn drachefn i ddyfnder neillduol, dechreuant ddau ereill ar y ddau du nesaf allan, ac felly o hyd nes llenwi y cwch. Mae mantais arall ynglŷn â'r dull hwn —nid yw y gweithwyr ar y naill grwybr yn ymdyru yn anghyfleus yn erbyn y rhai a weithiant grwybr arall, a thrwy hyny rwystro eu gilydd. Nid yw y gwenyn oll yn gweithio ar yr un pryd, er eu bod oll yn gweithio gyda'r un amcan. Mae rhan o bob gwaith yn cael ei ddechreu gan un wenynen, yr hon a ddilynir yn ei llafur gan ereill; ac ymddengys fod y cyfeiriad a gymmer pob un o'r rhai hyn yn ymddibynu ar y sefyllfa yn mha un y bydd y gwaith pan y dechreua hi arno. Mae y celloedd i'r gwrywod yn gyffredin tua chanol y crwybrau, neu yn yr ochrau; ond ni wneir hwynt un amser yn y rhan uchaf o'r cwch. Ymddengys mai tueddfryd y frenhines sydd yn penderfynu pa fath gelloedd a wneir; tra y dodwy hi wyau y gweithwyr, ni wneir unrhyw gelloedd i'r gwrywod; ond pan y mae hi ar fedr dodwy wyau y gwrywod, mae y gweithwyr yn ymddangos fel pe byddent yn gwybod, a dechreuant barotoi ar eu cyfer. Mae nifer mawr o gelloedd yn nghrwybrau cwch lled lawn. Cyrhaeddant yn fynych mewn cwch ugain modfedd o uchder, a phedair modfedd ar ddeg o drawsfesur i ddeugain neu hanner can mil. Pedair awr ar hugain a gymmerir yn fynych i wneud darn o grwybr pedair modfedd ar ddeg o hyd a saith modfedd o led, ac yn cynnwys 4,000 o gelloedd.

EU GOFAL AM EU RHAI BACH.

Y mae rhagolwg a gofal tyner y wenynen am ei rhai bach yn wir ryfeddol. Er eu bod yn parotoi nifer mawr o gelloedd, fel ystordai i gadw y mêl at wasanaeth y gymdeithas, etto i gyd eu gofal penaf yw darpar at gynnal a magu eu rhai bach. Y gorchwyl cyntaf oll mewn cwch newydd yw gwneud crydau i'r gwenyn ieuainc, ac yna pentyru ystorfa helaeth o ryw fath neillduol o ymborth iddynt, a elwir "bara gwenyn." Mae hwn wedi ei wneud o'r mânflawd a geir oddi ar flodau, yr hwn a gasgl y gweithwyr tua'r pryd hwn gyda phrysurdeb mawr, gan ehedeg o flodeuyn i flodeuyn, nes cael llonaid y basgedi rhagorol sydd ganddynt ar eu coesau ol; yna hwy a gludant eu llwyth i'r cwch, ac a ddychwelant i ymofyn rhagor. Y mae llu arall o lafurwyr yn y cwch yn disgwyl am y bara gwenyn, a gesglir fel hyn, ac yn ei gymmeryd i'w ystorio yn ofalus hyd oni byddo'r frenhines wedi dodwy ei hwyau. Gesyd yr wyau hyn mewn agwedd unionsyth yn ngwaelodion y celloedd, lle y deorir hwynt. Troir y bara gwenyn hwn yn fath o geulfwyd (*jelly*) gwyn, trwy gael ei gymmeryd gan y wenynen i mewn i'w chylla, lle y cymmysgir ef, mae yn debyg, â mêl, ac yna bwrir ef yn ol. Y foment y daw'r eppil ieuanc o'r wyau yn fagïod, fe'u bwydir yn ddiwyd â'r ceulfwyd hwn gan y mammaethod, y rhai a roddant beth newydd lawer gwaith yn y dydd, fel y bydd yr hen yn cael ei fwyta. Geilir gweled o bryd i bryd wahanol fammaethod yn rhoddi eu penau yn y celloedd a gynnwysant y gwenyn ieuaingc. Os gwelant nad yw yr ystôr o geulfwyd wedi darfod, ânt yn mlaen yn ebrwydd at gelloedd ereill; ond ar y llaw arall, os gwelant ei fod oll wedi ei fwyta, gofalant yn wastad am roddi yno gyflenwad newydd. Mae y mammaethod hyn yn myned oddi amgylch y cwch yn y dull hwn drwy gydol y dydd, heb aros o gwbl ond lle y gwelant fod yr ymborth bron a darfod. Hawdd gweled hefyd fod y ddyledswydd hon yn gofyn cryn fedr i'w chyflawni, pan y cofir fod ansawdd yr ymborth cyfaddas i'r gwenyn ieuaingc yn amrywio i ganlyn eu hoedran. Pan y deuant gyntaf allan o'r ŵy, rhaid i'r ceulfwyd fod yn deneu a diflas; ac fel y dynesant hwy at addfedrwydd oedran, mae yn angenrheidiol i'w hymborth gynnwys mwy o ansoddau sur a sugraidd. Heb law hyny hefyd, y mae ymborth a roddir i wahanol fagïod yn gwbl wahanol. Mae yn hawdd adnabod y ceulfwyd a roddir i'r magïod hyny sydd i ddyfod yn frenhinesau oddi wrth ei archwaeth egr a phoeth. Dangosant hefyd gymmaint o gynnildeb ag o fedr; canys y mae'r swm a roddir yn cyfatteb mor fanwl i angenion yr ieuangc ag mae ei ansawdd i'w hamrywiol gyfansoddiadau.

Pan y mae'r magi yn trawsnewid yn llindysyn, ac eisieu llonyddwch i nyddu ei lindyswê (*cocoon*), ac heb fod arno mwyach angen am ymborth, mae y mammaethod hyn, gyda rhyw ragolwg rhyfeddol, yn terfynu eu gofalon trwy selio i fyny bob cell, a gosod ar ei genau gauad gwëedig. Nid yw y gwrywod na'r frenhines yn cymmeryd un ran yn yr holl ofalon uchod. Mae y dyledswyddau oll yn cael eu rhanu yn mhlith y gweithwyr fel y disgrifiwyd uchod:—casglu bara i rai, a magu y rhai bach i'r lleill. Mae'r gwaith yn ddiorphwys hefyd: gan fod y frenhines yn dodwy yn barhaus, y mae y rhai ieuaingc yn cyrhaedd adeg eu trawsnewidiad, y naill ar ol y llall, ac nid oll ar unwaith; ac felly, mor gynted ag y bydd rhai wedi eu selio i fyny, mae ereill yn dyfod allan o'r ŵy, ac yn hawlio eu gofal; a threuliant eu holl oes fel hyn yn nghyflawniad eu dyledswyddau.

Yn mhob cwch wedi ei lenwi yn dda, mae y crwybrau wedi eu gosod yn llinellau cyfochrog: a rhag gwastraffu lle, tra ar yr un pryd y gadewir digon i symmudiadau y gweithwyr, nid ydyw yr agorfeydd rhwng y crwybrau ond digon llydain i ddwy wenynen basio heibio eu gilydd yn rhwydd. Yr agorfeydd hyn yw heolydd dinas y gwenyn— y ffyrdd ar hyd pa rai y cludir y defnyddiau yn

Digitized by Google

adeg gwneuthuriad y crwybrau, a thrwy ba rai y cludir yr ymborth i'r rhai ieuaingc a fegir yn y celloedd. Ond gan y rhaid i'r gweithwyr ofalu am holl gelloedd y crwybr, ac felly fyned o heol i heol yn fynych, byddai yn rhaid i bob un ddisgyn i waelod y cwch cyn y gallent fyned i'r heol nesaf, oni byddai fod heolydd croesion wedi eu gwneuthur er mwyn cwtogi y ffordd. Mae yr adeiladwyr cywrain yn rhagweled hyn wrth wneud y crwybr, ac yn gwneud y cyfryw fân heolydd, a mynedfeydd, trwy ba rai y gall y gwenyn fyned o'r naill brif heol i'r agosaf ati, heb y drafferth o fyned o gwmpas.

Ar ddychweliad y gwanwyn, pan y mae tymmeredd rhywiog yr hin yn dechreu cynnyrchu ei effeithiau arferol ar lysiau y maes, a phan y mae y planhigion hyny a gâr y gwenyn yn dechreu bwrw allan eu dail a'u blodau, y mae poblogaeth brysur y cwch yn ail ddechreu ar eu llafur; ac y mae'r frenhines, yr hon a dreuliodd y gauaf i orphwys, gan gael ei gwasanaethu gan ei deiliaid ffyddlawn, a chan ymborthi ar y cyflenwad a ystoriasant hwy yn ystod y tymmor blaenorol, yn dechreu yn awr ddodwy ei nythaid mawr o wyau. Mae hi yn llawer mwy yn awr na'r pryd y peidiodd hi a dodwy yn yr Hydref. Cyn dodwy pob ŵy, y mae hi yn chwilio y gell yn ofalus, fel pe byddai am fynu sicrwydd fod cryd yr un bach wedi ei osod mewn trefn briodol. Wedi cael boddlonrwydd yn hyn, y mae yn dodwy un ŵy ynddo, ac yna yn symmud yn mlaen at un arall; ac felly o hyd, gan ddodwy weithiau ddau cant neu ragor o wyau mewn diwrnod. Dilynir hi yn y gorchwyl pwysig hwn gan lu parchus o'i deiliaid, y rhai a bennodwyd yn wasanaethyddion ar yr achlysur. Gosodant eu hunain yn gylch o'i chwmpas. O bryd i bryd, y mae un o'i gweinyddion yn dynesu ati, ac yn estyn mêl iddi. Ant i'r celloedd lle y rhoddwyd yr wyau, a glanhânt hwy yn ofalus, er mwyn eu gwneud yn barod i dderbyn y ceulfwyd sydd i gynnal y magi pan y daw allan o'r ŵy. Mae yn dygwydd weithiau, pan y bydd ei mawrhydi yn oreppiliog, o herwydd rhyw achos damweiniol, fod yr wyau yn disgyn oddi wrthi yn gyflymach nag y gall hi fyned o'r naill gell i'r llall, a thrwy hyny hwyrach yr ä mwy nag un ŵy i'r un gell. Gan nad yw y celloedd wedi eu gwneud ond o faintioli digonol i gynnal yn esmwyth un wenynen, mae y gweinyddion brenhinol bob amser mewn amgylchiadau fel hyn yn cymmeryd ymaith yr wyau fydd dros ben, ac yn eu difa, heb adael mwy nag un yn mhob cell. Gwel rhif 1 o'r darlun isod.

*Y trawsnewidiadau.*—Prylyn gwyn digoes yw y magi a ddaw allan o'r wy. Pan y bydd wedi



Rhif. 1.

Rhif. 2.

Rhif. 3.

Rhif. 4.

Dar. 232.

tyfu fel ag i gyffwrdd â'i ongl cyferbyniol o'r gell, y mae yn ymdorchi, yn debyg i gi neu gath, pan y mae yn myned i gysgu. Mae yn nofio yno mewn hylif gwyn tryloew, yr hwn a barotoir iddo gan y mammaethod. Mae yn tyfu hyd nes y bydd wedi ymffurfio yn fodrwy yn ngwaelod y gell, rhif 2. Yn y cyflwr hwn, bwydir ef yn ofalus gan y mammaethod, fel y crybwyllwyd. Bydd y magi wedi gorphen tyfu mewn pedwar neu chwe diwrnod, yn ol yr hin. Mae ddeuddydd hwy ar hin oer nag ar hin gynhes. Pan y bydd yn ei lawn dŵf, y mae yn llanw lled, a rhan fawr o hyd y gell, fel y dangosir yn y darlun nesaf.



Dar. 233.

Y pryd hwn, y mae gofalon y mammaethod am dano yn darfod. Rhoddant ganad yn cafnu oddi mewn, ar enau y gell. Mor fuan ag y cauir y magi fel hyn, y mae fel y sidanbryf, yn dechreu nyddu llindyswe. Y mae ar y gwaith hwn yn ddibaid, yn leinio ystlysau ei gell, ac yn dilladu ei gorff ei hun â gwisg wen sidanaidd. Mae yr edafedd a ffurfiant y fantell hon yn dyfod o ganol gwefus isaf y llindysyn, fel y gelwir y creadur pan yn y cyflwr canolog hwn rhwng y magi a'r wenynen berffaith. Mae llindysyn y gweithiwr yn gweithio ei wisg mewn un awr ar bymtheg ar hugain; ac wedi bod dridiau yn y sefyllfa ragbarotoawl hon, y mae yn cyfnewid cymmaint fel ag i golli pob arwydd o'i ffurf blaenorol. Gwisgir ef â mantell galetach, o gènau dulwyd, gyda blew goleu ar eu hymylon. Mae y parth isaf o'i gorff yn rhanedig i chwech o gylchranau, y rhai a weithiant y naill i'r llall fel darnau pellweledyr, a galluogant y trychfilyn i hwyhau a byrhau ei gorff. Tua'r unfed dydd ar hugain, o'r pryd y cafodd yr ŵy ei ddodwy, y mae yr ail drawsnewidiad wedi ei gwblhau, ac y mae y trychfilyn perffaith yn gweithio ei hun allan drwy ganad ei gell, gan adael ar ei ol y fantell sidanaidd a wisgai yn ei sefyllfa ganolog. Y mae hon yn aros ynglŷn wrth y gell yn mha un y gwnaed hi, ac yn ffurfio gwisg barhaus iddi. Drwy hyn, y mae'r celloedd magu yn myned lai, lai, fel y bydd y naill ŵy ar ol y llall yn cael ei ddeor ynddynt, nes iddynt fyned o'r diwedd yn rhy fychain i ddwyn y llindys i'w llawn faint. Y pryd hwnw fe'u troir yn ystorfeydd mêl. Yn y darlun isod, fe ddangosir darn o grwybr, yn cynnwys yn unig gelloedd gweithwyr mewn gwahanol sefyllfaoedd. Mae




Dar. 234

amryw, *c*, *c*, *c*, &c., yn gauedig, am nad yw y llindysyn etto wedi myned trwy ei drawsnewid-

Digitized by Google

iad olaf. Dangosir yn *m* wenynen wedi cyrhaedd ei sefyllfa berffaith, ac wedi cnoi ffordd drwy gauad ei chell. Mae y celloedd *h*, *h*, yn agoryd ar y tu arall i'r crwybr, a *g*, *g*, *g*, ydynt gelloedd ag y mae'r trychfilyn perffaith eisoes wedi eu gadael. Wedi i'r wenynen, ar ol ei thrawsnewidiad diweddaf, ddyfod allan o'i chell, mae y mammaethod yn ymgasglu o'i chwmpas, gan ei glanhau yn ofalus, a rhoddi ymborth iddi, a dangos y ffordd iddi drwy y cwch. Mae ereill yn y cyfamser yn myned at y gwaith o lanhau y gell, er ei pharotoi i dderbyn ŵy arall os bydd o faintioli digonol; onid ê, fe'i gwneir yn ystordy mêl.

Y mae y gwryw yn parhau dridiau yn yr ŵy, ac yn mwynhau gofal y mammaethod hyd y degfed dydd, pan y mae yn cyfnewid i'r sefyllfa o lindysyn, ac yn cael ei selio i fyny yn ei chell. Gan fod y gwryw yn fwy na'r gweithiwr, mae yn angenrheidiol i'w gell fod yn helaethach. Y mae y llindysyn gwrywol yn myned trwy ei drawsnewidiad olaf o'r pummed dydd ar hugain hyd y seithfed ar hugain o'r pryd y cafodd yr ŵy ei ddodwy, yn ol fel y byddo tymmeredd y cwch. Felly y mae chwech neu saith niwrnod yn hwy na'r gweithiwr yn ymaddfedu.

Y mae y cyfnewidiadau yr ä rhai bach y teulu brenhinol drwyddynt yn wahanol i'r rhai a nodwyd. Fel yr eglurwyd, y mae y celloedd brenhinol yn unionsyth, yn lle bod ar eu gorwedd, ac ar lun ŵy, yn lle bod yn chwe-onglog fel y




Dar. 235.

lleill, ac hefyd yn llawer mwy na hwynt. Dangosir un o'r celloedd hyn yn y darlun uchod, *r*, *s*, gyda rhan o honi, *u*, *u*, wedi ei symmud er mwyn dangos y llindysyn brenhinol o'i mewn. Gosodir y llindysyn brenhinol bob amser gyda'i ben i lawr megys y gwelir yn y darlun. Daw y pryf o'r ŵy ar y trydydd dydd: try yn llindysyn o'r wythfed hyd yr unfed dydd ar ddeg; ac ä drwy ei drawsnewidiad diweddaf yn wenynen berffaith ar yr ail ddydd ar bymtheg. Pa fodd bynag, fe'i cedwir weithiau yn garcharor yn y gell am saith neu wyth niwrnod pellach.

Gellir ffurfio rhyw syniad am fychander y berthynas sydd rhwng maintioli corfforol a'r cynneddfau a lywodraethant weithredoedd mor ryfeddol a rhai y creadur sydd yn awr dan sylw, pan y dywedir fod yn rhaid cael 336 o honynt i bwyso wns, a 5,376 i wneud pwys; a chafodd John Hinton allan nad yw 2,160 o honynt yn fwy na llon'd peint.

ARFERION Y GWENYN.

Wedi rhoddi yr eglurhâd cyffredinol uchod ar gyfansoddiad y wenynen, ei medr i adeiladu, a'i gofal am ei rhai bach, ni a sylwn yn mhellach ar rai o'i nodweddion a'i harferion penaf. Yr ydym eisoes wedi dyweyd fod gwladwriaeth gwenyn y cwch dan lywodraeth benyw. Ni fyn yr archdeyrn eiddigus un cydymgeisydd yn agos i'w gorseddfaingc. I ba beth, gan hyny, y megir yn ofalus y pymtheg neu yr ugain tywysoges, y rhai a drinir yn mhob modd fel ymgeiswyr am yr orsedd? Hawdd gweled hyn pan gofier fod y cwch, yn fuan wedi dechreu y tymmor, yn cael ei orlenwi gymmaint, fel y mae ymfudiaeth yn anhebgorol; a chyda phob haid ymfudol, rhaid cael brenhines. Gan hyny, y mae yn angenrheidiol, naill ai i'r frenhines fyddo yn teyrnasu adael ei gorsedd a myned allan, pryd y dilynir hi gan y dywysoges hynaf; neu ynte, codir yr olaf i orsedd y drefedigaeth ymfudol. Yn awr, gan fod llawer o heidiau yn ymadael o'r cwch y naill ar ol y llall, yn enwedig yn nechreu y tymmor, pan yr ä weithiau gynnifer a phedair allan mewn deunaw niwrnod; a chan fod angen am frenhines gyda phob un, y mae yn rhaid cael teulu brenhinol lled liosog i lanw cynnifer o wahanol orseddfeingciau. Pan y cyrhaedda amryw dywysogesau i lawn faint, a hyny cyn bod poblogaeth y crwybr yn peri fod ymfudiaeth yn angenrheidiol, y mae eiddigedd ffyrnig yn cael ei ennyn yn mynwes y frenhines, yr hon sydd fam neu chwaer i'r holl dywysogesau hyn, a llenwir hi o ddigofaint; ac ni orphwys nes myned i frwydr farwol â'i chydymgeiswyr; a rhydd hi ben ar eu bywyd hwy, neu ynte cyll ei bywyd ei hun yn yr ymrysonfa. Pan y bydd cwch wedi colli ei frenhines drwy ymfudiaeth, neu rywfodd arall, y mae y dywysoges gyntaf a ddaw o un o'r celloedd brenhinol yn ei chyflwr perffaith ar unwaith yn esgyn yr orsedd drwy ei hawl fel cyntafanedig. Er nad yw ei chydymgeiswyr etto mewn sefyllfa gyfaddas i ymryson am yr urddas, etto y maent yn cynnhyrfu ei heiddigedd i'r graddau uchaf. Nid oes ond prin ddeng munyd yn myned heibio o'r foment y mae yn cyrhaedd ei sefyllfa berffaith, ac yn dyfod allan o'r gell frenhinol, nad yw yn myned i chwilio am y celloedd brenhinol ereill, yn ymosod yn ffyrnig ar y gyntaf a wêl, ac wedi cnoi twll ynddi, yn gyru ei cholyn drwyddo, ac yn lladd y preswylydd oddi mewn. Y mae haid o weithwyr, ar ol sefyll yn llonydd i edrych ar hyn oll, yn myned at y gell; a chan rwygo y twll yn fwy, llusgant allan gelain y dywysoges lofruddiedig. Os daw y frenhines ar draws cell tywysoges fyddo etto yn y sefyllfa o lindysyn, nid yw yn gwastraffu ei nerth i'w lladd, gan y bydd dinystrio ei chell yn ddigon o angeu iddi. Gwna y gweithwyr y rhwyg yn fwy, a chymmerant y llindysyn allan i drengu.

*Ymladdfa rhwng brenhinesau.*—Gan fod Huber, yr hwn a welodd yr holl weithrediadau uchod, yn awyddus am wybod beth a ddigwyddai pe y cydgyfarfyddai dwy frenhines mewn sefyllfa berffaith yn yr un cwch, efe a wnaeth brawf celfyddydol yn y flwyddyn 1790. Llwyddodd i gael yn yr un cwch ddwy gell frenhinol yn hollol o'r un oed, fel y byddai i'r tywysogesau ddyfod allan o honynt bron ar yr un foment. Pan y gwelsant eu gilydd, rhuthrodd y naill ar y llall fel mewn cynddaredd ofnadwy, a chydient â'u gorfantau yn nheimlyddion eu gilydd. Ymgyfarfyddasant fynwes at fynwes, a bol at fol yn y fath fodd fel, pe buasent wedi gwthio allan eu colynod, y buasent feirw ill dwy. Ond y mae yrymladdwyr yn ymryddhau, ac yn ffoi oddi wrth eu

Digitized by Google

gilydd â'u holl egni. Gwnaeth Huber brawf cyffelyb lawer gwaith drosodd; a chafodd mai yr un fyddai y canlyniad, megys pe buasai natur yn gwahardd i fwy nag un o'r ymladdwyr farw yn yr ymrysonfa. Y mae natur wedi ordeinio fod yn mhob cwch un, a dim ond un, frenhines; ac os digwydd i un arall ddyfod i'r golwg drwy ryw achos neu gilydd, y mae y naill neu y llall wedi ei thyngedu i farw. Ond ni oddefir i'r werin bobl ddienyddio un o'r ach frenhinol, gan y gallai hyny beri anghydwelediad mewn perthynas i'r frenhines fyddo i'w chadw yn fyw; a gallai gwahanol gynnulliadau o'r bobl ymosod yr un pryd ar wahanol frenhinesau; ac felly, adael y cwch heb deyrn. Felly dadleua Huber fod yn angenrheidiol gadael y gwaith o ddinystrio y brenhinesau diangenrhaid i'r brenhinesau eu hunain.

Yn mhen ychydig funydau wedi i'r ddwy frenhines a grybwyllwyd adael eu gilydd, ac wedi i'w hofnau gilio i raddau, daethant eilwaith i gyfarfod eu gilydd. Cymmerodd ymladdfa gyffelyb i'r un flaenorol le eilwaith, ac ymwahanasant fel o'r blaen, pan yr oedd bywyd pob un mewn perygl o gael ei golli. Yr oedd cyffro mawr yn ystod yr holl amser hwn yn mhlith y boblogaeth, y rhai a gynnorthwyent yn yr amgylchiad; a chynnyddai y cyffro yn fawr pan yr ymwahanent. Ymyrodd y gweithwyr unwaith neu ddwy er mwyn eu hattal i ffoi oddi wrth eu gilydd. Cadwasant hwynt yn garcharorion am dros funyd. O'r diwedd, cymmerodd yr ymladdfa olaf le: cafodd un o'r ddwy frenhines, oedd yn fwy bywiog a ffyrnig na'r llall, afael â'i gorfantau yn môn adenydd ei gelyn; ac yna, gan lamu ar ei chefn, hi a yrodd ei cholyn rhwng un o gylchranau ei chorff, gan ei lladd yn y fan. Wedi hyny, y mae yn ymryddhau.

*Gwylwyr y pyrth.*—Y mae pyrth y cwch yn cael eu gwylio ddydd a nos, mor reolaidd ag unrhyw amddiffynfa. Mae y gweithwyr sydd i gyflawni y gorchwyl hwn yn cael eu newid yn rheolaidd. Chwiliant yn fanwl bob un a ddymuna ddyfod i mewn; ac fel pe na byddai ganddynt ymddiried yn eu llygaid, hwy a gyffyrddant â phob ymwelydd â'u teimlyddion. Os dygwydd i frenhines fod yn mhlith yr ymwelwyr, gafaelir ynddi yn uniongyrchol, a rhwystrir hi rhag dyfod i mewn. Cymmer y gwylwyr afael yn ei choesau neu ei hadenydd â'u gorfantau, ac felly amgylchant hi fel nad all syflyd. Fel y taena hysbysrwydd am y dygwyddiad drwy y cwch, daw adgyfnerthion mawrion o filwyr, ac a dewychant y cylch o gwmpas y frenhines ddieithr. Yn gyffredin fe'i cedwir yno nes y bydd farw o newyn. Nid yw y gwylwyr a'i hamgylchant fel hyn byth yn arfer eu colynod ati. Ceisiodd Huber unwaith ryddhau brenhines a amgylchid fel hyn, drwy ei chymeryd yn uniongyrchol o'r cylch. Ennynodd hyn ddigofaint y gwylwyr i'r fath raddau, fel y gwthiasant eu colynod allan, ac y rhuthrasant mewn dallineb, nid yn unig ar y frenhines, ond ar eu gilydd. Lladdwyd y frenhines, ynghyd âg amryw o'r gwylwyr yn yr ymrysonfa. Pan y symmudir neu y lleddir yn ddamweiniol deyrn y cwch, ymddengys y boblogaeth ar y cyntaf fel pe na byddent yn ymwybodol o'u colled, ac ânt yn mlaen fel pe na ddygwyddasai dim. Ond yn mhen ychydig oriau, dechreuant ymddangos yn anesmwyth. Cynnydda'r anesmwythder yn raddol, hyd oni bydd yr holl gwch yn gyffro trwyddo. Mae y cŵyr-wneuthurwyr yn rhoddi eu gwaith heibio—y mae y mamaethod yn gadael y gwenyn ieuaingc oedd dan eu gofal—a rhedant yma a thraw trwy heolydd a mynedfeydd y cwch yn y dyryswch mwyaf. Gwelodd Huber yr effeithiau yn dilyn ei waith ef yn cymmeryd brenhines allan o gwch. Yn y man, efe a roddodd y frenhines yn ei hol, ac adnabuwyd hi yn ebrwydd gan y rhai a'i gwelsant hi gyntaf. Ond hyn sydd yn rhyfedd, fe gludwyd yr hysbysrwydd am ei dychweliad yn uniongyrchol drwy bob rhan o'r cwch, fel y gwybuwyd y ffaith gan y rhai oeddynt yn yr heolydd a'r cilfachau pellaf—adferwyd trefn a thawelwch, ac ail ddechreuodd pawb ar eu gorchwyl. Ond os daw brenhines newydd i'r cwch yn lle yr hen, ni roddir derbyniad iddi ar y cyntaf. Carcharir, a gwylir hi gan nifer o wenyn. Ond os pery hi yn fyw un ar bymtheg neu ddeunaw awr yn y sefyllfa hon, y mae y gwylwyr yn cilio yn raddol, ac ä'r foneddiges rhag ei blaen i'r cwch, gan gymmeryd iddi ei hun awdurdod ac urddas brenhines, a daw pawb i gyflwyno eu gwarogaeth iddi yn y modd mwyaf anrhydeddus.

Mae yn ymddangos y gellir esbonio gweithrediadau y creaduriaid cywrain hyn drwy rywbeth tebyg i ddeddf gymdeithasol sydd yn eu plith, na oddefir i neb fyw, ond a fyddo yn angenrheidiol ryw fodd neu gilydd i les y gymdeithas, neu barhâd y rhywogaeth. Wedi addef yr egwyddor hon, ceir eglurhâd boddhaol ar yr holl amgylchiadau cyssylltiedig âg ymddygiad y frenhines at y tywysogesau, y boblogaeth yn gyffredinol at aelodau y teulu brenhinol, a'r gweithwyr at y gwrywod pan y delir hwynt mewn cyflafan gyffredinol.

Dywed Huber, a naturiaethwyr ereill, ei bod yn ddeddf yn mhlith y gwenyn, fod haid gyntaf y tymmor yn cael ei blaenori gan y frenhines, yr hon a rydd ei gorsedd i fyny er mwyn myned gyda'r drefedigaeth newydd. Mae yr haid gyntaf yn cychwyn, pan y bydd y pryfyn a ddaw o'r ŵy cyntaf a roddwyd gan y frenhines yn y celloedd brenhinol wedi trawsnewid yn llindysyn. Heb hyn, fe barai yr ymladdfeydd a gymmerai le yn barhaus rhwng y frenhines a'r tywysogesau fod ymfudiaeth yn ammhossibl. O herwydd mor gynted ag y deuai tywysoges yn ei sefyllfa berffaith allan o'r gell, fe wneid ymosodiad arni, a byddai raid iddi ymladd â'r frenhines, yr hon o blegid ei hoed a'i nerth a fyddai bob amser yn fuddugoliaethus. Felly, fe ddinystrid tywysoges ar ol tywysoges, ac ni cheid neb i lanw gorseddau y trefedigaethau ymfudol. Ond er attal hyn, y mae natur wedi trefnu fod yr haid gyntaf i gael ei blaenori gan y frenhines; a thrwy hyny, symmudir pob achos o berygl i'r tywysogesau ieuaingc. Wedi i'r haid ymfudol ymsefydlu, gorchwyl cyntaf y gweithwyr ydyw ffurfio crwybrau yn cynnwys celloedd gweithwyr. Yn unol â hyn, y mae'r frenhines, yr hon sydd eisoes wedi dodwy nythaid o ŵyau gwrywod yn yr hen gwch, yn dechreu yn fuan ddodwy ŵyau gweithwyr yn ei dinas newydd; canys gweithwyr sydd y pryd hwnw yn fwyaf angenrheidiol i'r drefedigaeth. Mae y frenhines yn dechreu dodwy y rhai hyn mor fuan ag y bydd y celloedd yn barod, a pharhâ i wneuthur hyny am ddeg neu ddeuddeng niwrnod. Tua diwedd yr adeg hon, mae y gwenyn yn dechreu ffurfio celloedd mwy ar gyfer y gwrywod. Ymddangosant fel pe yn gwybod y byddai i'w mawrhydi y pryd hwn ddodwy nifer penodol o'r cyfryw ŵyau. Tra y bydd hi yn gwneud hyn, y mae ei deiliaid yn prysur barotoi nifer o gelloedd brenhinol.

Ar ol ymadawiad ei mawrhydi o'r hen gwch, y

Digitized by Google

o'r glusten neu y crib sydd yn galluogi y gweithwyr i arfer y coesau neu y traed hyn fel gefeiliau, ac o'r ysgubell sydd ar y tu mewn i'r traed hyn? A allant estyn hyd ei chorff; newid ei lliw a'i gwisg; rhoddi camedd i'w cholyn; ei hamddifadu o'i chwyrlogellau, ac o'i llestri er cadw y sylwedd hwnw; a gwneuthur ei hwyfâu (*ovaries*) yn fwy cyfaddas i gynnyrchu wyau gweithwyr a gwrywod?" Yn mheliach etto, a all yr amgylchiadau ymddangosiadol dibwys hyn gyfnewid yn hollol reddf y creaduriaid hyn. A allant hwy roddi i un math o greaduriaid fedr a diwydrwydd, ac i fath arall ffrwythlonrwydd rhyfeddol? A allwn ni ddirnad am danynt yn newid eu nwydau, eu tymmerau, a'u harferion? Bod yn bossibl i'r un pryf, wrth ei fwydo âg ymborth egrach, mewn tymmeredd uwch, ac mewn agwedd unionsyth, ddyfod yn fenyw, wedi ei lluniaethu i fwynhau cariad, i ymlosgi gan eiddigedd a digofaint, i gael ei chynnhyrfu gan ddialedd, ac i dreulio ei hamser heb lafurio—fod yn bossibl i'r pryf hwn, trwy dderbyn ymborth mwy syml, mewn tymmeredd is, mewn cell fwy cyfyng, ac mewn agwedd orweddog, ddyfod allan yn weithiwr, yn fawr ei sêl dros les y gymdeithas, yn amddiffynwr iawnderau y cyhoedd, yn mwynhau rhyddid oddi wrth chwantau rhywiol a phoen esgoriad—yn llafurus, diwyd, amyneddgar, craff, a chelfydd—yn gweithio yn barhaus er maethu y rhai bach, casglu mêl a mân-flawd, a ffurfio celloedd—yn talu y sylw mwyaf parchus a dyfal i'r gwrthddrychau hyny ag y buasai, pe dadblygasid ei hwyfâu, yn eu casau ac yn eu hymlid gyda'r gynddaredd fwyaf dialeddol nes eu llwyr ddinystrio! Yn mhellach, fod y brenhinesau gwneuthuredig hyn yn gwahaniaethu mewn modd arbenig oddi wrth y brenhinesau naturiol a ddeilliant o'r wyau brenhinol, yn gymmaint a'u bod yn hollol fud! Mae hyn oll yn ymddangos mor anhebgorol, ac mor agos i ammhossiblrwydd, fel y mae y profion mwyaf grymus ac anwadadwy yn angenrheidiol er ei gadarnhau.

*Cyflafan y gwrywod.*—Nid oes dim yn fwy anhawdd i'r naturiaethwr ei egluro yn holl hanes y wenynen nag ydyw swyddogaeth y gwrywod. Y mae rhif y gwrywod mewn un gymdeithas yn cyrhaedd o 1,500 i 2,000: ni chaiff ond un allan o'r holl rifedi yma ei ddyrchafu i urddas brenin, ac y mae hwnw yn marw ar ddydd ei briodas. Gan hyny, y mae yn ddigon priodol gofyn, Pa wasanaeth i'r gymdeithas a wna y cannoedd ereill sydd yn byw ar gynnyrch diwydrwydd y gymdeithas? Ni chymmerant byth ran yn ngwaith y llafurwyr; ni chasglant ymborth na defnyddiau; ac ni chynnorthwyant mewn un modd i adeiladu y preswylfeydd, a maethu, a gofalu am y rhai bach. A chan nas gellir cael gwell eglurhâd ar wasanaeth y fath rifedi mawr o honynt, fe ddywedir mai y diben yw sicrhau cymmhar i'r frenhines. Ond ai tybed nad ellid gwneuthur hyn heb feichio y gymdeithas â chynnifer a 2,000 o ymgeiswyr am y ffafr frenhinol?

Ond pa beth bynag all fod diben y dosbarth hwn o'r gymdeithas, y mae y driniaeth a dderbyniant gan y bobl, a'r modd y rhoddir pen arnynt yn bur hynod. Tra y byddo heidiau yn gadael y cwch, y mae gwrywod yn angenrheidiol er eu dilyn. Ond wedi darfod o'r tymmor heidio; yr hyn a fydd yn y tymmorau hyn tua diwedd Gorphenaf, yna y mae cyflafan y gwrywod yn dechreu. Y pryd hwn, gellir gweled y gwenyn yn eu hela hwynt o holl ranau y cwch, ac yn eu gyru i'r gwaelod. Yn fuan wedi hyn, bydd y llawr o amgylch y cwch yn orchuddiedig â chyrff cannoedd o wrywod llofruddiedig. Tybiai Bonnet nad oedd unrhyw gyflafan uniongyrchol yn cymmeryd lle, ond fod y gwrywod, ar ol cael eu gyru oddi wrth yr ystorfäau ymborth, yn marw o newyn. Ond fe lwyddodd Huber i gael golwg ar y gyflafan fel y canlyn:—Yn yr adeg pan y byddai y dinystr yn arfer cymmeryd lle, efe a osododd chwech o gychod poblog ar blatiau o wydr; a thrwy i'w gydymaith Burnens orwedd ar ei gefn o dan y cychod, efe a welai drwy y gwydr, yr hyn oll a gymmerai le. Ar y 4ydd o Fehefin, 1787, gwelodd y gyflafan, yr hon a ddigwyddodd ar yr un awr yn yr holl gychod. Yr oedd y gwaelodion yn orlawn o wenyn, y rhai a ymddangosent mewn cyffro mawr. Mor gyflym ag yr oedd y gwrywod a yrid gan y gwenyn ereill o bob cwr i'r cwch yn cyrhaedd y gwaelod, yr oedd y gweithwyr a ymgynnullasent yno yn rhuthro arnynt, gan afaelyd yn eu teimlyddion, eu coesau, neu eu hadenydd; ac wedi eu llusgo hwynt o gwmpas mewn cynddaredd, hwy a'u trywanent â'u colynod gan eu lladd. Y foment yr archollid hwynt felly, hwy a ledent eu hadenydd, ac a drengent. Y diwrnod canlynol, sylwodd Burnens eilwaith, a gwelodd olygfa ryfedd, pryd y parhaodd y gorchwyl o lofruddio y gwrywod am dair awr. Yr oedd y gweithwyr wedi dinystrio holl wrywod eu cwch eu hunain er y dydd o'r blaen; ond y tro hwn, hwy a ymosodent ar wrywod o'r cychod ereill, y rhai, ar ol llwyddo i ffoi o'u cwch eu hunain, a ddeuent i mewn i'r rhai hyn i chwilio am noddfa, wedi i gyflafan y dydd o'r blaen fyned drosodd. Ond wedi yr holl ddinystr hwn ar y gwrywod eu hunain, nid ymddangosai y gweithwyr yn foddlawn heb fyned i chwilio am y llindys gwrywaidd oeddynt yn eu celloedd heb orphen eu trawsnewidiad. Llusgent y rhai hyn yn annhosturiol, gan eu lladd; ac yna, wedi sugno y nodd allan o'u cyrff, hwy a fwrient y celaneddau allan o'r cwch. Fe gafwyd allan yn mhellach gan Huber, na byddai un gyflafan byth yn cymmeryd lle mewn cwch fyddai wedi cael ei amddifadu o'r frenhines; neu ynte lle nad oedd y frenhines, o herwydd rhyw rwystr, wedi dodwy ond wyau gwrywaidd. Byddai y gwrywod yn cael yn y cychod hyn noddfa ddiogel, ynghyd â'u maethu a'u bwydo yn ofalus.

*Llafur oddi allan i'r cwch.*—Y prif bethau y mae y gweithwyr, sef y dosbarth ardderchocaf a lliosocaf o'r gwenyn, yn chwilio am danynt oddi allan i'r cwch, ydyw neithdar, mân-flawd, a glud gwenyn. Nodd neillduol yw y cyntaf a geir mewn math arbenig o flodau, o ba un y gwna y wenynen fêl a chŵyr. Math o bowdr, neu lwch, yw y mân-flawd, yr hwn sydd yn wasgaredig dros friger blodau, a'r hwn a gyfansodda egwyddor ffrwythloniad y blodau eu hunain: hwn yw y defnydd o ba un y gwna y wenynen fara, yn fwyd iddi ei hun a'i rhai bach. Y mae y glud gwenyn, megys yr arwydda ei enw, yn fath o sylwedd cydiol, tebyg i ystor, yr hwn a geir mewn llysiau neillduol, a'r hwn a ddefnyddia y wenynen fel glud neu forter wrth adeiladu. Er mai blodau yw y prif wrthddrychau o ba rai y mae y wenynen yn casglu defnyddiau mêl a chŵyr, etto nid hwy yw yr unig rai. Hi a fwyta sugr yn ei holl ffurfiau, a thriagl, a'r nodd sydd mewn llysiau; ac hefyd y sudd allan o lindys ac wyau gwenyn eu hunain. Tybia naturiaethwyr yn gyffredin fod y wenynen yn cyfyngu ei hun, yn mhob gwibdaith a gymmer o'r cwch i chwilio y



Digitized by Google

sylweddau a enwyd, i ryw un rhyw arbenig o flodau. Eglura hyn y ffaith fod lliw ei llwyth yn ymddibynu bob tro ar liw y blodau y bu yn eu hysbeilio o'u melusion.

Ond y mae diben arall pwysig yn cael ei gyflawni drwy hyn, na ddylid ei basio heibio yn ddisylw. Yn y byd anifeilaidd, y mae pob creadur yn ddyledus am ei fodoiaeth i ddau greadur o wahanol rywiau, neu mewn geiriau ereill, i dad a mam. Felly yn gymmhwys y mae yn bod yn y byd llysieuol; ac un o'r gorchwylion arbenig a roddodd y Creawdwr i'r wenynen bach ydyw y swydd o offeiriad, er dwyn oddi amgylch briodas blodau. Y wenynen mewn gwirionedd sydd yn uno llaw a chalon y lili dêg a'r rhosyn amryliw, â'r eiddo eu cariadon. Y gronynau o fân-flawd a enwyd yw y priodfeib a'r priodferched; a chludir hwy ar gorff y wenynen o'r blodeuyn gwryw at y blodeuyn benywaidd. Disgyniad y gronynau hyn oddi ar gorff y wenynen ar flodeuyn y rhyw cyferbyniol sydd yn uno y ddau flodeuyn mewn glân briodas. Ac yma, ni a welwn achos i ryfeddu at ddeddfau doeth y Creawdwr, yr hwn a ofala am y blodeuyn bach fel am arglwydd y greadigaeth. Pe crwydrai y wenynen yn ddireol o flodeuyn i flodeuyn heb wneuthur unrhyw ddetholiad, fe wneid gwrywod y naill rywogaeth yn gymmheiriaid i fenywod rhywogaeth arall; a'r canlyniad o hyny fyddai llwyr gymmysgiad y rhywogaethau. Ond y mae y wenynen, fel pe yn gwybod hyn, yn ehedeg yn wastad o rosyn i rosyn, neu o lili at lili; ond byth oddi wrth y lili at y rhosyn, nac oddi wrth y rhosyn at y lili. Y mae gwahanol farnau mewn perthynas i eangder cylch llafur y wenynen oddi allan i'r cwch. Dywed rhai ei fod yn filldir o gwmpas, ac ereill ei fod yn filldir a hanner. Pa fodd bynag am hyny, y mae profion yn dangos mai drwy ei harogliad y tywysir y wenynen i'r parthau hyny lle y mae y blodau sydd hoff ganddi.

Un peth hynod iawn yw yr uniondeb diwyrni gyda pha un yr ehed y gwenyn. Tra y casglant y melusion, hwy a ehedant yma a thraw, yn ol ac yn mlaen, i dde ac aswy, yn ol fel y byddo y blodeuyn hwn ac arall yn denu eu sylw; ond wedi cael llwyth cyflawn o ysbail, er iddynt fod filldir oddi wrth eu dinas, hwy a ddechreuant deithio tuag ati mewn cwrs unionach a sicrach na llong dan arweiniad llyw neu gwmpawd, dan lywyddiaeth y morwr mwyaf celfydd. Y mae yr adroddiad canlynol i'w gael yn y *Philosophical Transactions*:—"Yr oedd rhywogaethau o gwchwenyn gwyllt yn heidio yn nghoedwigoedd Lloegr Newydd tua'r flwyddyn 1720. Arferid y dull canlynol er darganfod eu nythod, a chael gafael ar eu mêl. Gosodai y mêl-gasglwyr blatiad o fêl neu sugr ar y llawr ar ddiwrnod clir. Buan iawn y deuai y gwenyn o hyd iddo, ac y dechreuent ymosod arno. Wedi dal dwy neu dair o honynt, fe ollyngai yr heliwr un o honynt ymaith, gan sylwi ar y cyfeiriad yn mha un yr ehedai. Yna, efe a newidiai ei safle, gan symmud rai canoedd o droedfeddi yn nes i'r dde neu yr aswy o'r man lle y gollyngasai y wenynen. Yna efe a ollyngai un arall, ac a sylwai fel o'r blaen ar y cyfeiriad yn mha un yr ehedai. A'r pwynt lle y cydgyfarfyddai y ddau gyfeiriad hyn oedd safle y cwch bob amser."

Gellir ffurfio rhyw ddrychfeddwl am ddiwydrwydd y wenynen oddi wrth ganolrif ei theithiau dyddiol i gasglu lluniaeth. Yn ol Reaumur, os rhenir cyfanrif y teithiau wrth gyfanrif y gwenyn mewn cwch, byddai canolrif teithiau dyddiol pob gwenynen o bump i chwech. Ond gan fod un hanner o'r gwenyn yn brysur gyda gwaith cartrefol y gymdeithas, yn maethu y rhai bach, yn ystorio yr ymborth, neu yn ffurfio y crwybrau, rhaid rhanu holl rif y teithiau, nid rhwng cyfanrif y gwenyn, ond rhwng hanner hyny; yr hyn a wnai ddeg taith i bob gwenynen o ddosbarth y casglyddion: a phe cyfrifid fod canolrif hyd pob taith yn dri chwarter milldir, fe ddangosai hyny ganolrif y pellder a deithid gan bob casglydd mewn diwrnod yn bymtheng milldir! Cyfrifa Huber y byddai y sylwedd a gesglid fel hyn mewn un cwch yn ystod un tymmor tua 100 pwys. Y fath syniad a rydd y ffeithiau yma am ddiwydrwydd a bywiogrwydd y creaduriaid bychain hyn!

*Glendid gwenyn.*—Y mae gwenyn yn hynod am eu glendid a'u taclusrwydd, gyda golwg ar eu cyrff a'u tai. Hwy a symmudant bob budreddi allan o'u cychod mor reolaidd a manwl ag y gwna y gwragedd taclusaf o'u hanneddau. Pan y byddant yn rhy weiniaid i wneud hyn, hwy a arferant amryw foddion cywrain i attal drewdod. Pan y digwydd i falwod ymlusgo i'r cwch, hwy a'u lladdant gyda'u colynod; ac mewn trefn i attal arogl ffiaidd ac afiach oddi wrth eu celaneddau, hwy a'u perarogiant â glud. Os methant ladd malwen o blegid caledrwydd ei chragen, hwy a'i claddant hi yn fyw dan bentwr o glud. Pan y daw gwenynen ieuangc allan o'r cwch, y mae un o'r gweithwyr yn nesau ati yn y fan, ac yn cymmeryd ei hamwisg i'r tu allan i'r cwch; y mae un arall yn symmud ymaith blisg diosgedig y magi; a daw y drydedd, ac a gliria allan unrhwy dom neu fudreddi a ddichon aros, neu unrhyw ddarnau o gŵyr a ddigwyddant fod wedi disgyn pan y torodd y wenynen ieuangc drwy ei llindyswe. Ond ni cheisiant symmud y gaenen sidan o amgylch y gell, yr hon a nyddwyd gan y magi yn ei drawsffurfiad cyntaf; canys y mae hwnw, yn lle bod yn ffieiddbeth, yn addurn a chryfhâd chwanegol i'r cwch.

*Gelynion y gwenyn.*—Er gwaethaf cymmeriad hawddgar a threfniant cymdeithasol rhagorol y gwenyn, y mae i'r bobl fychain hyn lawer o elynion, gyda pha rai y gorfydd arnynt ryfela yn fynych, ac amddiffyn eu hunain gyda medrusrwydd a ddeil i'w gymmharu â gweithrediadau y peiriannwyr milwrol mwyaf celfydd. Cymmerwn esampl o hyn oddi wrth eu dull yn amddiffyn eu hunain rhag ymosodiadau y gwyfyn penangeu. Pan y canfu Huber fod y creaduriaid hyn yn ymosod ar ei gychod gwenyn, ac yn ysbeilio y mêl, efe a wnaeth y mynedfeydd mor fychain fel nad oedd modd i ddim ond un wenynen fyned i mewn ac allan ar unwaith; ac fe lwyddodd y cynllun i gadw yr ysbeilwyr draw. Ond ni wnaed hyn mewn lliaws o gychod ereill y gymmydogaeth, ac yno fe arferwyd moddion rhyfeddol er atteb yr un dyben gan y gwenyn eu hunain. Fe gyfododd preswylwyr y cychod diamddiffyn fur cadarn, wedi ei wneud o gymmysgedd o gŵyr a glud gwenyn, ar draws y porth. Byddai y mur hwn ar y cyntaf yn liwyr gau i fyny y fynedfa; ond yn ebrwydd hwy dyllent agorfeydd digon mawr i ddwy wenynen basio eu gilydd i mewn ac allan. Nid yr un cynllun oedd gan y peirianwyr bychain hyn bob amser; ond trefnent eu gweithrediadau i atteb amgylchiadau. Weithiau fe wneid un mur gyda rhagddorau bychain wedi eu gwneuthur ynddo. Bryd arall fe wneid amryw furiau, y naill o fewn y llall, yn gyfochrog, gyda ffosydd digon mawr rhyngddynt

Digitized by Google

i ddwy wenynen fyned heibio eu gilydd. Yn mhob un o'r gwelydd cyfochrog hyn yr oedd amryw agorfeydd neu ragddorau wedi eu gwneuthur, ond wedi eu gosod yn y fath fodd fel nad oedd y naill ar gyfer y llall; felly byddai raid i bob gwenynen newid ei chyfeiriad yn ol ac yn mlaen wrth fyned o'r naill ragddor i'r llall. Ambell waith byddai y muriau hyn wedi eu gweithio i nifer o gromrodfeydd (*arcades*), ond yn y fath fodd fel yr oedd colofnau y naill ar gyfer cromrodfa y llall. Ni byddai y gwenyn byth yn cyfodi yr amddiffynfeydd hyn oni byddai gwir angenrheidrwydd am danynt. Felly, mewn tymmorau neu leoedd na byddai y gwyfyn pen-angeu i'w gael, ni arferid y moddion a nodwyd. Ni arferid hwynt chwaith rhag unrhyw elynion y gallant hwy eu gorchfygu â'u colynod. Gan hyny, y mae y wenynen yn deall, nid yn unig y gelfyddyd o ryfel ymosodol, a'r modd i gyflawni rhan milwr cyffredin, ond y mae hefyd yn beiriannydd celfyddgar; ac nid yn erbyn y gwyfyn pen-angeu yn unig y maent yn alluog i amddiffyn eu hunain. Mae cychod heb lawer o breswylwyr o'u mewn yn agored i ymosodiad weithiau oddi wrth boblogaeth cychod ereill. Mewn achosion felly, a phan y byddant o blegid bychander eu rhifedi yn analluog i amddiffyn eu hunain drwy ymladd, hwy a godant gaerau cyffelyb i'r rhai a nodwyd; ond y pryd hwn, ni bydd y rhagddorau ond digon i un gweithiwr fyned ar unwaith i mewn ac allan. Felly, bydd nifer bychan oddi mewn i'r mynedfeydd hyn yn ddigon i amddiffyn y cwch rhag ymosodiad llu mawr.

*Synwyrau y Gwenyn.*—Un o'r cwestiynau mwyaf dyddorol, ac ar yr un pryd mwyaf anhawdd ynglŷn â chyfansoddiad trychfilod, yw y cwestiwn mewn perthynas i rif a natur eu synwyrau. Yn mhlith trychfilod cymdeithasol, y mae gwenynen y cwch yn un o'r rhai hynotaf am y galluoedd hyn. Priodolir yn gyffredinol iddi olwg, teimlad, arogl, ac archwaeth. Ystyrid clyw yn ammheus; ond y mae y ffaith y gwna unrhyw swn mewn un cwr i'r cwch dynu y frenhines a'i llys yno yn ebrwydd i weled beth fydd yn bod, yn milwrio yn gryf yn erbyn yr ammheuaeth hon. Ond os ammheuir y synwyr o glywed, y fath allu a ganfyddir ynglŷn â'r llygad! Gellir gweled y wenynen bach yn cychwyn ei thaith gasglyddol, ac yn ehedeg rhag ei blaen tua'r maes llawnaf o'r blodau hoff ganddi. Mae ei hymdaith yno mor unionsyth a chwyrnelliad bwled o wn at ei wrthddrych. Pan wedi casglu ei llwyth, y mae yn cyfodi i'r awyr—yn ehedeg yn ol i'w chwch gyda'r un uniondeb diŵyrni—yn ei adnabod yn mhlith lliaws ereill, ac yn dyfod o hyd i'r celloedd pennodol fyddant yn ei gofal. Fe allai bod y synwyr o deimlad yn fwy rhyfedd nag hyd yn oed y golwg, canys y mae yn gwneud yn lle y synwyr hwnw yn nyfnder tywyllwch a dyrysni y cwch. Mewn tywyllwch y ffurfir y crwybrau, yr ystorir y mel yn y celloedd priodol, y maethir y rhai bach, y newidir eu hymborth yn ol eu hoedran, yr adnabyddir y frenhines; ac ymddengys fod hyn oll yn cael ei gyflawni drwy ryw gynneddf arbenig a berthyn i'r teimlyddion. Ond o holl synwyrau y wenynen, mae yn ymddangos mai yr arogliad yw y mwyaf craff. Y mae ambell sawyr sydd yn ei denu gyda grym anorchfygol, tra y mae ereill gyda llawn cymmaint o rym yn ei chadw hi draw. Ac o bob peth, arogl mêl yw yr hoffusaf ganddi. Tybiodd Huber fod y wenynen yn cael ei hudo at y naill flodeuyn a'r llall, nid gan ei liw, na'i ffurf, na dim gweledig a berthynai iddo, ond gan sawyr y neithdar a gynnwysai. Er mwyn gwneuthur prawf o hyn, fe roddodd y naturiaethwr enwog fêl mewn cist yn y fath fodd, fel nad oedd yn weledig oddi allan; ac wedi ei osod yn nghymmydogaeth ei gychod, fe ddechreuodd y gwenyn ymdyru o'i gwmpas yn mhen ychydig funydau, a buan iawn y cawsant ffordd at y mêl trwy dwll bychan oedd wedi ei adael i'r diben hwnw. Wedi hyny, efe a osododd fêl mewn cist arall, ac a wnaeth amryw dyllau ynddi, gan roddi cerdyn bychan ar bob twll. Gosodwyd y gist ddau cant o latheni oddi wrth y cychod. Yn mhen hanner awr fe ddaeth y gwenyn o hyd iddi. Ymdyrodd lliaws mawr o honynt ar bob tu i'r gist, gan chwilio yn ddyfal am le i fyned i mewn. O'r diwedd cawsant afael ar y cardiau, dechreuasant weithio yn ddioed, ac ni pheidiasant nes eu codi oddi ar y tyllau, pryd yr aethant i mewn i gymmeryd meddiant o'r ysbail. Mor llym a threiddgar y rhaid fod eu peiriannau arogli pan y tynent hwy yn heidiau fel hyn at gist yn cadw i mewn bron holl sawyr y mêl.

Mae yr un awdwr yn nodi yr enghraifft ganlynol fel prawf o wydnedd cof y wenynen. Gosodwyd swm o fêl yn yr Hydref ar ffenestr agored. Ymgasglai y gwenyn yn lluoedd i wledda arno. Wedi symmud y mêl, fe gauwyd y ffenestr, ac felly y parhaodd yn ystod y gauaf. Yn y gwanwyn canlynol fe ddechreuodd y gwenyn ymgasglu eilwaith at yr un ffenestr gan ddisgwyl rhagor o fêl, er nad oedd yno ddim wedi ei roddi. Rhaid fod y gwenyn yn yr amgylchiad hwn yn cael eu harwain gan eu cof yn unig, a'u bod yn alluog i gofio lleoedd a digwyddiadau dros amryw fisoedd.

Gwna poethder gormodol, neu ddiffyg awyriad beri i'r gwenyn weithiau adael eu crwybrau; ond os cymmhellir hwynt i aros i'r diben o gyfranu ymborth, gwyddant o'r goreu pa fodd i wella sefyllfa pethau. Hwy a oerant ac a gyfnewidiant yr awyr heb esgeuluso eu rhai bach. Fe ddechreua rhyw nifer o honynt ysgwyd eu hadenydd, y rhai a wasanaethant fel gwyntylloedd i beri ffrydiau o awyr adfywiol. Ond gan nas gall yr un rhai ddal o hyd gyda'r gorchwyl hwn, hwy a'u cyflawnant bob yn ail yn eu tro, a hyny hefyd yn ol rheol a threfn. Er mwyn cael allan pa fodd yr ymddygid pe rhwystrid awyriad y cwch yn y fath fodd fel na byddai y nifer arferol o wyntellwyr yn ddigonol, fe roddodd Huber gychod mewn sefyllfaoedd lle y gallai attal yr awyriad, a chafodd fod nifer y gwenyn a gurent eu hadenydd yn cael eu helaethu yn yr un cyfartaledd ag yr oedd yr awyriad yn cael ei rwystro, nes o'r diwedd yr aeth holl boblogaeth y cwch i gyflawni y gorchwyl hwn.

Mae y gwrthwynebiad a ddengys gwenyn i dai pobl yn cael ei briodoli yn gyffredin i ryw sawyr sydd yn deilliaw oddi wrth eu personau, a'r hwn sydd ffiaidd gan y creaduriaid bach. Bu M. de Hafor, o Baden, am lawer o flynyddoedd yn feithrinydd gwenyn, ac yr oedd ar delerau mor dda â hwynt fel y gallai bob amser nesau atynt yn ddiberygl. Er esampl, efe a roddai ei fysedd yn eu plith, ac a gymmerai afael yn y frenhines gan ei gosod ar gledr ei law. Cymmerwyd y boneddwr hwn yn glaf iawn dan dwymyn ffyrnig, yr hon a'i cadwodd yn ei wely a'i dŷ am dymmor maith. Wedi adfer ei iechyd, efe a aeth yn bur naturiol i edrych am ei hen gyfeillion, y gwenyn, a dechreuodd eu hanwesu a'u trin fel cynt. Ond

Digitized by Google

er ei syndod a'i somedigaeth, efe a gafodd nad oedd mwyach yn meddu eu llafr; ac yn lle cael ei dderbyn fel o'r blaen, yr oedd pob cyfflyrddiad o'i eiddo yn cael ei wrthwynebu fel ymyriad anhyfryd a digroesaw. Ni bu yn alluog byth wedi hyny i wneud ei ymchwiliadau arferol yn eu plith, nac i nesau atynt heb ennyn eu llid. Dywed y naturiaethwyr sydd wedi sylwi fanylaf ar hyn fod personau gyda gwallt coch neu ddu yn hynod ffiaidd yn ngolwg y creaduriaid bychain hyn.

CADWRAETH GWENYN.

Y lleoedd goreu i gadw gwenyn yw y rhai hyny, wrth gwrs, sydd gyfaddasaf i'w nodwedd a'u harferion, a'r rhai llawnaf o'r cynnyrchion llysieuol hyny y maent yn eu caru. Yn mhlith y rhai penaf o'r rhai hyn y mae gogr-feillion (*sainfoin*), clofer Isellmynaidd, gwenith y bwch, gwydfid (*honeysuckle*), a meillion melyn. Mewn gwirionedd, gellir ystyried coed ffrwythau a planhigion llysieudai yn gyffredinol fel cynnyrchion y mae y wenynen yn casglu mêl a glud o honynt. Mae gwlad fryniog yn hynod ffafriol iddi. Fe ddylai y cychod gwenyn fod yn agos i'r tŷ annedd, yn yr ardd, ac mewn lle a gysgodir rhag gwyntoedd oerion. Ni ddylid eu rhoddi yn muarth y ffarm, neu yn mhlith yr adar dofion, nac yn rhy agos at ffyrdd haiarn, gweithfeydd, pobtai, a'r cyffelyb. Y mae y wenynen yn caru lleoedd tawel, llawn o goed ffrwythau a blodau melusion. Fe ddylai y wenynfa, neu y cychod, fod yn wynebu tua'r dwyrain, y gorllewin, neu y deheu, yn ol fel y ceir y cysgod goreu; ond ni ddylai byth wynebu at y gogledd. Dylid gosod y cychod ar safleoedd (*stands*) gwahanol, ychydig droedfeddi oddi wrth eu gilydd; a dylent fod yn glir oddi wrth bob clawdd neu fur, ac wedi eu codi ddeunaw modfedd neu ddwy droedfedd oddi wrth y llawr. Rhoddir y cychod yn bur gyffredin yn yr awyr agored, a rhoddir tô gwellt neu ystyllod uwch eu pen ar dywydd oer. Mae y dull hwn yn fanteisiol, am ei fod yn syml ac yn rhad. Ond pryd na byddo cynnildeb yn amcan, y mae "tai gwenyn" yn well o ran cysur, hwylusdod, a diogelwch. Mae tŷ gwenyn yn gynnwysedig o ddwy neu ragor o silffoedd wedi eu gosod y naill uwch ben y llall, ar ba rai y rhoddir y cychod mewn pellder o ddeuddeg neu ddeunaw modfedd oddi wrth eu gilydd; fel y byddo drysau y cychod o ddwy i dair troedfedd ar wahân. Fe ddylid rhoddi i'r tŷ dô ac ochrau. Dylid gwneud ffordd hefyd i fyned i'r tu ol i'r cychod, a ffenestri yn yr ystlysau er mwyn awyriad. Gwneir cychod o wahanol ddefnyddiau, megys gwellt, helyg, brwyn, hesg, coed, a llestri pridd. Mae eu ffurfiau yn dra gwahanol hefyd. Gwneir rhai ar lun cloch, ereill yn rholynod hirgrwn, ereill yn ysgwâr, ereill gyda thopiau cywironglog, ac ereill gyda'u penau ar ysgog. Mae eu ffurf a'u gwneuthuriad yn ymddibynu i fesur ar ddiben y perchenog yn eu cadw. Pan y cedwir llawer o wenyn er mwyn masnachu mewn mêl a chŵyr, bydd meithrinwyr tramor yn enwedig yn dewis y cychod symlaf eu ffurf a hawddaf eu gwneud, a rhai y gellir tynu y cynnyrchion rwyddaf allan o honynt.

Mae y rhai sydd yn arfer trin gwenyn yn cael fod amryw o offerynau yn wasanaethgar yn fynych. Un ydyw y wenynwisg—math o fantell wedi ei gwneud o feinwê Ysgotaidd, neu fonochlin (*catgut*), fel ag i orchuddio y pen a'r ysgwyddau, ac yn cyrhaedd hyd ganol y corff. Mae y llewys yn hirion, ac yn cael eu rhwymo ar yr arddynau ynglŷn wrth fenyg tewion, a amddiffynant y dwylaw. Cymmhellir arffedogau a hosanau gwlân, am fod yn hawdd i'r gwenyn dynu eu colynod allan o honynt. Dylid gofalu am gyllyll o wahanol ffurfiau pan y bydd angen symmud rhan o'r crwybrau. Megin hefyd gyda mygiedydd ar ei blaen sydd yn bur angenrheidiol er mwyn chwythu mwg tybaco i'r rhanau o'r crwybrau y dymunir eu gwaghau o'r gwenyn.

Dylid prynu cwch yn gyffredin yn yr Hydref, a gellir gwybod ei werth wrth ei bwysau. Bydd cwch da, fydd yn sicr o barhau drwy y gauaf, a bod yn gynnyrchiol yn y tymmor canlynol, yn pwyso o bump i ddeg pwys ar hugain, a dylai gynnwys tua phecaid o wenyn. Os bydd yn llawer dros ddeg pwys ar hugain, gellir yn fanteisiol gymmeryd rhan o'r mêl allan. Y cychod blwydd oed, a'r rhai nad aeth ond un haid allan o honynt, yw y rhai goreu, a gellir adnabod y rhai hyn oddi wrth wynder a phurdeb y crwybrau. Dylid symmud y cwch ar hin lugoer, a hyny heb ei ysgytio. Fe ddylid cymmeryd y mêl bob amser o'r cychod mwyaf poblog. Os bydd crwybrau â fframiau symmudol yn perthyn iddynt, yr arfer yw casglu rhan o'r cynhauaf yn Mai; gan fod ystorfa benaf y gwenyn yn cael ei gynnull rhwng canol Mai a diwedd Mehefin. Mae Dr. Bevan yn cynghori fel rheol gyffredin na byddo i fêl gael ei gymmeryd o drefedigaeth yn ystod blwyddyn gyntaf ei sefydliad. Pan y bydd eisieu casglu rhan o'r mêl, fe agorir y cwch yn ei ystlysau, neu ynte yn y top trwy gymmeryd ymaith ei ei gapan, a gyrir y gwenyn o'r crwybrau trwy chwythu mwg tybaco i mewn. Yna fe dorir y crwybrau gyda chyllyll priodol, ac fe ddylid gwneud hyn gyda medr a gofal rhag cyffroi y gwenyn yn ormodol. Pan y bydd angen symmud y frenhines o'r parth hwnw o'r crwybrau y bwriedir eu symmud, curer y bysedd ar du cyferbyniol y cwch, ac fe red y frenhines yno i ymofyn yr achos o'r trwst. Os bydd gwenyn wedi aros ar y crwybrau a symmudwyd, gellir eu gyru ymaith gyda phluen; a hwy a ehedant yn gyffredin yn ol i'r cwch. Y mae lle y crwybrau a symmudwyd yn cael ei lanw â chrwybrau gweigion, neu ynte â rhai llawnion wedi eu cymmeryd o ran isaf y cwch. Pan y bydd cychod wedi eu gwneuthur o ranau gwahanadwy, gellir casglu y mêl drwy beri i'r gwenyn adael y rhanau y bwriedir eu symmud, a myned i'r rhanau ereill.

Yr adeg i gyflawni hyn yw y dydd, rhwng deg a thri o'r gloch. Os bydd y wlad yn gyfoethog o goed a blodau priodol i wenyn, gellir cymmeryd ymaith y rhan uchaf o gwch, a gosod un gwag yn ei le, ond gwneud hyny yn gynnar yn y tymmor; ac weithiau, gellir cynhaeafu y rhan hwn cyn diwedd y tymmor, a chael o hono fêl o'r fath oreu a phuraf. Ond pan na bydd y gymmydogaeth mor ffafriol, neu pan y cynhauafir yn ddiweddar ar y tymmor, bydd yn angenrheidiol un ai peidio rhoddi yn ol y rhan a waghawyd, neu ynte ei roddi yn ngwaelod y cwch. Pan y cesglir y mêl drwy yru y gwenyn i lesmair am ryw hyd, gwneir hyny fel y canlyn:—curer y powdr du allan o goden euryeh, a gosoder ef gyda checysen goch mewn blwch bychan â phig iddo, a thwll i flaen megin yn y pen arall. Gosoder hwnw ar flaen y fegin, a rhodder ei big yn nrws y cwch: chwyther am bump neu chwe munyd, a disgyna y gwenyn yn ddideimlad ar lawr. Yna gelli myned yn mlaen i symmud y crwybrau fel yr ewyllysir. Yn mhen ugain munyd neu hanner awr fe adfywia y gwenyn, a dychwelant i'r cwch; neu ynte gellir eu derbyn i gwch newydd, os

Digitized by Google

dymunir. Os na bydd yn ddymunol cadw y gwenyn, gellir gosod y cwch uwch ben pwll, i'r hwn y syrthiant, ac yn yr hwn y gellir eu claddu.

I'r diben o gael mêl o'r fath oreu, fe ddylid dewis y crwybrau puraf, y rhai ni chynnwysant wenyn ieuaingc na bara gwenyn; yna gollynger eu cynnwys drwy ogr rhawn neu fasged helyg. Mae yr hyn a ddisgyn drwodd yn dryloew. Mae yn ymgaledu ac yn cadw, ond ei roddi mewn llestri pridd mewn lle oer a sych. Fe geir mêl o fath waelach drwy wasgu y gweddill o'r crwybrau, a'u dal o flaen gwres. Pa bryd bynag y cesglir mêl gellir cael cŵyr hefyd; ond fe ellir casglu yr olaf ar ei ben ei hun ddiwedd y gauaf, drwy dori ymylon isaf y crwybrau, a chymmeryd ymaith y rhai fyddont wedi myned yn hen a llwydaidd, neu rai a niweidiwyd gan y gwyfyn pen-angeu. Todder y cŵyr mewn dwfr poeth: wedi hyny fe'i purir a gellir ei gasglu i foldiau o lestri pridd.

GWER [*gwe—er*]: peth a fwrir i'r wyneb; cysgod; hefyd brasder gwartheg, defaid, ceirw, a geifr, wedi ei doddi, a'i wahanu oddi wrth y sylwedd sydd ynglŷn âg ef yn llawn o bilenau a mân edafedd. Pan y mae gwêr yn bur, y mae yn wyn a bron heb flas; ond y mae y gwêr a werthir ac a brynir yn gyffredin o liw lled felyn. Y mae yr holl wahanol fathau o wêr yn gynnwysedig yn benaf o swyfnur (*stearine*), gydag ychydig o frasnur (*oleine*); ond y mae gwêr yr afr yn cynnwys rhyw gymmaint o fychnur (*hircine*). Rhenir gwêr, mewn masnach, i amrywiol fathau yn ol ei ansoddau. Cymmerir y peth goreu o hono i wneuthur canwyllau; a'r gweddill at wneuthur sebon, iro peiriannau, ac amryw ddibenion cyffelyb. Defnyddir cryn lawer o wêr hefyd yn ngwneuthuriad lledr. Cludir ef yn symiau helaeth i'r wlad hon o Rwssia. Gwel CANWYLL.

GWERIN-LYWODRAETH. Gwel LLYWODRAETH.

GWERSYLL—FA [מחנה, *machaneh*, yw y gair a arferir yn mhob man ond 2 *Bren.* vi. 8, lle y ceir תחנות, *tachanoth*]. Mae ystyr cyntefig y gair yn dynodi gorphwysle byddin neu fintai o deithwyr dros nos: *Exod.* xvi. 13; *Gen.* xxxii. 21. Oddi wrth hyn fe'i cymmhwyswyd at fyddin neu finteioedd o deithwyr pan yn symmud; *Gen.* xxxii. 7, 8; *Exod.* xiv. 19; *Ios.* x. 5; xi. 4. Nid astudiwyd rhyfel erioed fel celfyddyd yn mhlith llwythau crwydrol; ac yr oedd eu gwersyllfaoedd




gan hyny yn amddifaid o'r holl angenrheidiau a'r offerynau a berthyn i ryfelgyrch mwy rheolaidd. Yn y disgrifiad a roddir yn *Num.* ii. 3, o wersyll yr Israeliaid, ar eu taith o'r Aipht, y ceir mwyaf o hysbysrwydd ar y mater hwn. Awgrymiadau gwasgaredig yw y cyfan a ellir gael heb law hyn. Yr oedd y tabernacl, fel pabell pennaeth gwersyll cyffredin, wedi ei osod yn y canol; ac o amgylch, gyferbyn â phob wyneb, yr oedd lluoedd Israel, wedi eu trefnu yn bedair adran fawr, yn ol pedwar pwynt y cwmpawd: *Num.* i. 52; ii. 1, 2. Ar du y dwyrain, fe

Digitized by Google

byddai prif farnwr y llys yn darllen, â llais dyrchafedig, y rhanau canlynol o'r Ysgrythyr:—"Oni chedwi ar wneuthur holl eiriau y gyfraith hon, y rhai sydd ysgrifenedig yn y llyfr hwn, gan ofni yr enw gogoneddus ac ofnadwy hwn, YR ARGLWYDD DY DDUW; yna y gwna yr Arglwydd dy bläau di yn rhyfedd, a phläau dy had; sef pläau mawrion a pharhaus, a chlefydau drwg a pharhaus;" *Deut.* xxviii. 58, 59. Hefyd, "Cedwch gan hyny eiriau y cyfammod hwn, a gwnewch hwynt; fel y llwyddoch yn mhob peth a wneloch;" *Deut.* xxix. 9. Ac yn diweddu gyda'r geiriau hyn:—"Er hyny efe yn drugarog a faddeuodd eu hanwiredd, ac ni ddifethodd hwynt: ïe, trôdd ymaith ei ddigofaint yn fynych, ac ni chyffrôdd ei holl lid;" *Salm* lxxviii. 38. Yr oedd y gosp yn cael ei hystyried yn weithred grefyddol; ac yr oedd gan hyny yn debycach o ddylanwadu er diwygio y troseddwr, ac i fod yn rhybudd effeithiol i ereill. Beth bynag fyddai natur y trosedd, nid oedd nifer y gwialenodiau i fod uwch law deugain. Deugain ond un ydoedd y nifer uchaf a roddid yn gyffredin: 2 *Cor.* xi. 24. Gwel FFLANGELLU.

GWIALEN AARON. "A gwialen Aaron, yr hon a flagurasai" (*Heb.* ix. 4); yr hon, ebe awdwr yr epistol, ynghyd â'r crochan aur a'r manna ynddo, oedd yn yr arch, gyda llechau y cyfammod. Am hanes blaguriad gwialen Aaron, gwel *Num.* xvii. Nid ydym yn gweled fod digon o sail dros yr hyn a ddywed Dr. Owen (ar *Heb.* ix. 4), mai gwialen Moses ydoedd, â'r hon y bugeiliai ddefaid Iethro, yr hon oedd yn ei law pan alwodd Duw arno o'r berth, a'r hon oedd yn arwydd o allu Duw Israel. Cafodd gwialen Aaron ei chadw fel peth cyssegredig yn yr arch ar ol y blaguriad arni; ond yr ydym yn cael fod Moses wedi hyny yn defnyddio ei wialen.

Blagurodd gwialen Aaron, gan "flodeuo blodau, a dwyn almonau," i fod yn brawf amlwg o'i alwad ef a'i hiliogaeth gan yr Arglwydd i'r offeiriadaeth. Yr oedd Corah, Dathan, ac Abiram, o'r blaen wedi gwrthryfela yn erbyn ordeiniad Aaron i'w swydd; ond dangosodd yr Arglwydd ei anfoddlonrwydd eithaf i'w gwrthryfel, yr hyn a lanwodd y bobl â dychryn. Ond dychrynent yn fwy o herwydd y gosb nag o herwydd y pechod; yr hyn a welir yn eu tuchan yn erbyn Moses: dywedent mai efe a'i frawd Aaron oedd yr achos o'u trychineb: "Chwi a laddasoch bobl yr Arglwydd:" *Num.* xvi. 41. Yr oedd yr holl genedl ar fin cyfodi eilwaith mewn gwrthryfel: ond i'w attal, anfonodd yr Arglwydd bla i'w mysg. Pan oedd y pla yn gwneud dinystr ofnadwy yn y gwersyll, annogodd Moses ei frawd i arogldarthu; yr hyn a wnaeth, fel yr attaliwyd y pla. Trwy hyn dygwyd prawf newydd o osodiad dwyfol Aaron yn yr offeiriadaeth. Tra yr oedd yr offeiriadaeth a dwyll-hònid gan blaid Corah yn achosi dinystr ar y bobl, yr oedd offeiriadaeth Aaron yn rhoddi gwaredigaeth iddynt. Y dystiolaeth arall i'w hordeiniad dwyfol oedd blaguriad gwialen Aaron. Nid oes sail ddigonol i dybiaeth Buddæus, fod tair ar ddeg o wiail wedi eu dodi yn y sancteiddiolaf. Ni fuasai neb yn meddwl fod yno dair ar ddeg, oni buasai fod llwyth Ioseph yn cael ei gyfrif yn ddau lwyth. Ond dylid cofio, pan y mae llwyth Lefi yn cael ei ddwyn i'r cyfrif, fod llwyth Ioseph yn cael ei gyfrif fel un llwyth. Yr oedd blaguriad y wialen yn arwyddlun llawn o feddwl. Gwialen oedd wedi ei hysgaru oddi wrth y gwreiddyn, o'r hwn o'r blaen y derbyniai y sudd at flodeuo a ffrwytho; felly nis gallasai flaguro mwyach mewn ffordd naturiol. Ond nerthwyd hi i ddwyn blagur, ac i ffrwytho gan allu goruwchnaturiol. Felly yr oedd cenedl Israel, er ei bod ar dir natur yn yr un cyflwr o anffrwythlonder a'r cenhedloedd ereill, etto, trwy ei neillduad cyfammodol, gwnaed hi yn genedl o offeiriaid i Dduw; cafwyd ffrwyth arni yn nghanol byd o ddiffrwythdra. Ond nid oedd y genedl yn gyffredinol yn addas i'r offeiriadaeth hon; ac felly neillduwyd un llwyth, ac un person o'r llwyth hwnw i'r offeiriadaeth. Gras goruwchnaturiol Duw a'i cyfaddasodd yntau; ac ni buasai ei wialen ef yn blaguro, mwy na'r gwiail ereill, pe na buasai am wyrth ddwyfol. Yr oedd y pren, sef almon, yn addas i osod hyn allan. "Y pren almon oedd," ebe Neumann; "yr hwn a elwir felly, am mai efe yw y pren mwyaf effro neu gynnar. Y mae yn blodeuo yn Ionawr, ac y mae ei ffrwyth yn addfed yn Mawrth. Mae yn effro pan y mae holl natur, heb law efe, yn gorwedd yn nghwsg marwolaeth, ac yn ymddangos fel yn gwaeddi ar y lleill i gyfodi."

GWIBED, GWYBED—YN [*gwib*]: gwyddhedyn, ednogyn, cilionyn. Gellir dosbarthu holl greaduriaid y byd i dri dosbarth; sef, rhesymol, direswm, a difywyd. Mae y gwybed yn perthyn i'r ail ddosbarth; ac o herwydd hyny, fel y dywedodd Awstin, y mae y gwybedyn yn greadur ardderchocach na'r haul, am ei fod yn meddu bywyd. Gellir darlunio gwybed fel y canlyn:—y maent yn hynod fychain, heb waed coch ynddynt, nac esgyrn, na chnawd, na chroen, na safnau, gyda llygad heb orchudd iddo, ac ysgyfaint yn agor yn eu hystlysau. Y mae ganddynt fath o orchudd caled drostynt, yr hwn sydd yn gwasanaethu yn lle esgyrn, cig, a chroen. Y mae llygaid gwybed yn dra nodedig o ran eu gwneuthuriad. Math o rwydwaith ydyw pob llygad; ac y maent yn cynnwys casgliad o filoedd lawer o lygaid bychain, y rhai ydynt, er hyny, yn hollol berffaith. Y mae naturiaethwyr wedi cyfrif o saith i wyth mil o'r llygaid bychain hyn yn rhwydwaith llygad un gwybedyn. Y mae pob rhan yn loew-ddisglaer, ac yn grwn, neu grythedig, er mwyn iddo allu casglu a gwrthdori y goleuni; ac y maent oll yn meddu eu gïen briodol. Amgylchir y llygad â'i ddarnau neu lygaid bychain, y rhai a safant allan fel twyn crwn, fel y gallo ganfod y naill du gystal a'r llall; ac y mae yn galed a dideimlad, am nad oes ganddo gloriau i'w orchuddio a'i ddiogelu. Gan fod llawer o'r gwybed mor hynod fychain, rhaid fod rhanau a phibellau eu cyrph yn rhyfeddol o fân. Y mae ganddynt fath o gyrn ar eu penau, y rhai a elwir *antennæ:* eu nifer ydyw dau. Hefyd, heb law yr *antennæ*, y mae ganddynt eu hofferynau teimlo (*palpi*). Y mae y rhai hyn yn fyrach na'r cyrn, ac y maent yn wastad wrth y safn: pedwar ydyw nifer y rhai hyn yn gyffredin; ond y mae chwech o honynt weithiau. Y mae yr *antennæ* yn wasanaethgar iddynt i lanhau y llygaid; a chan na allant nesau a phellhau eu llygaid yn gyffelyb i greaduriaid ereill, y maent yn atteb y dyben iddynt i deimlo o'u blaen mewn lle nas gallant weled. Dywed naturiaethwyr fod o ddeutu ugain mil o wahanol fathau o honynt.

Ni chrybwyllir am y creaduriaid hyn yn y Beibl ond mewn tri man. Gwybed meirw: *Preg.* x. 1. Byddai y dwyreinwyr yn dra gofalus i

Digitized by Google

gadw gwybed rhag myned i beraroglau; o herwydd wedi iddynt fyned i'r perarogl a meirw ynddo, byddent trwy ymweithio ac ymlygru yn sicr o'i ddifwyno. Y mae Solomon yn dangos y gall ychydig ffolineb neu ymddygiad anweddaidd, er iddo ymddangos yn beth lled ddistadl, fel y pryfyn, niweidio rhagoriaethau y dynion doethaf ac enwocaf; ac yn enwedig proffeswyr crefydd a gweinidogion yr efengyl. Nid oes un egwyddor y dylid ei deall a'i dilyn yn fwy trwyadl na bod yn anhebgorol angenrheidiol i ddynion, ond yn enwedig dynion cyhoeddus, fod yn ddiargyhoedd mewn trefn i fod yn ddefnyddiol. Y mae llwch i raddau yn anweledig ar amryw o bethau cyffredin; ond y mae yn hollol amlwg ac annymunol ar y gem disglaer a gwerthfawr. Yn *Esa*. vii. 18, y mae y prophwyd yn defnyddio y gwybedyn mewn dull cymmhariaethol i ddynodi yr Aipht; o herwydd fod y wlad hono yn llawn o wybed blinderus a ffiaidd. Mewn cyfeiriad at y gwybed, yr oedd yr Arglwydd trwy y prophwyd yn hysbysu y byddai iddo chwibanu (cyfeiriad at y dull o alw gwenyn at eu hymborth, trwy chwibanu, yn ngwledydd y dwyrain) ar wybed yr Aipht a gwenyn Assyria, sef y trigolion, i ddyfod yn lluoedd mawrion i oresgyn Gwlad Canaan, a'i meddiannu. Y mae y darlun a rydd y prophwyd o'r goresgyniad yn dangos nad oedd un rhan o'r wlad nad oedd y gwybed a'r gwenyn, sef y goresgynwyr, yn disgyn arno—"yn y dyffrynoedd anghyfanneddol, ac yn nghromlechydd y creigiau, ac yn yr ysbyddaid (drain) oll, ac yn y perthi oll." Yr oedd hyn yn gospedigaeth amlwg ar yr Iuddewon am iddynt wrthod yr Arglwydd, ac yn rhybudd i ereill rhag iddynt bechu, a thrwy hyny syrthio dan farn Duw o herwydd eu pechodau.

"Hidlo gwybedyn, a llyngcu camel;" *Mat*. xxiii. 24. Yn y gwledydd poethion yn y dwyrain, byddai gwybed a chylion yn syrthio yn aml i'r gwin, fel y crybwyllwyd; a daeth hidlo y gwlybwr drwy hidl, fel na byddai i wybedyn, na rhan o hono, aros yn y gwin, yn beth diarebol gyda golwg ar ofal am faterion bychain a dibwys. Y mae yr hyn a grybwyllwyd yn eglurhâd ar yr adran yn *Mat*. xxiii. 24, lle y mae yr ymadrodd diarebol o barth i "hidlo gwybedyn" allan o'r ddiod yn ofalus, ac etto llyngcu camel, yn awgrymu fod yr ysgrifenyddion a'r Phariseaid yn cymmeryd arnynt arswydo rhag cyflawni troseddau bychain drwy gymmeryd dim oedd yn waharddedig dan y gyfraith; ac etto yn esgeuluso y pethau mwyaf eu pwys, megys "cariad a thrugaredd."

GWIBER—OD [*gwib*: Llad. *vipera*; Ffr. *vipre*; Saes., *viper*]: sarph; sarph ehedegog, draig. Math o seirph yw gwiberod, ac nid ydynt braidd un amser dros lathen o hyd, a thua modfedd o braffder, a chanddynt drwyn tebyg i drwyn mochyn. Tra y mae gan seirph ereill ddwy res o ddannedd, nid oes gan wiberod ond un; yr hon sydd yn gynnwysedig o un ar bymtheg o rai bychain yn mhob gên: ac y mae gan wiberod gwryw ddau ddant mawr o leiaf, gyda pha rai, pan gythruddir hwynt, y brathant, gan ollwng gwenwyn i'r brathiad. Y mae lliw eu cyrff yn llwydwyn neu felyn, wedi ei fritho âg ysmotiau brychion lled hirion; ac y mae y cèn dan eu torau o liw disglaer tebyg i ddur wedi ei wneud yn berffaith loyw. Gyda golwg ar y gwahanol rywogaethau o wiberod neu seirph, a'u natur, &c., ynghyd â sylwadau ar y crybwylliadau a geir yn y Beibl am danynt, gwel SARPH.

GWILLIAD—IAID [*gwyll*]: crwydryn, gwibddyn, seguryn, goddechydd, dydechwr. Y mae crwydriaid a segurwyr yn y cyffredin yn gyfranogion â lladron; y maent bob amser yn gwylio am gyfleusdra i syrthio ar eu hysglyfaeth. Y mae y dosbarth hwn yn hiraethu am y cyfnos, fel y dywed yr hen ddiareb:—

"Rhywogaeth wyll a dwyll dyn,"

fel y gallont gario allan eu hamcanion ysgeler dan gysgod mantellau y nos. Dywed Bildad, y Suhiad (*Iob* xviii. 9) am y drygionus, gan gyfeirio mewn dull angharedig at Iob: "Magl a ymaifl yn ei sawdl ef, a'r gwilliad fydd trech nag ef;" hyny yw, bydd i farnau a phrofedigaethau ymaflyd ynddo fel gwilliad, gan ei lethu a'i ddinystrio. Cyfieithir yr un gair צמים, *y sychedig*, yn *pen*. v. 5; sef gwilliad neu grwydryn cyffelyb o ran ei gymmeriad i'r Sabeaid a'r Caldeaid ysbeilgar a ladratasant anifeiliaid Iob. Y mae yn ei ystyr eangaf yn dynodi adyn truan newynllyd a diegwyddor, yr hwn sydd bob amser yn awyddus i ysbeilio ereill o'u meddiannau. Y mae Solomon (*Diar*. xxiii. 27, 28), yn ei ddisgrifiad o butain, drwy ei chymmharu i "ffos ddofn," yn dywedyd, "Hi a gynllwyn fel gwilliad;" hyny yw, hi a gymmer fantais o oriau y tywyllwch i rwydo y gwammal, yr oferddyn, a'r meddwyn, i'r diben o'u hudo i ystafelloedd angeu: *Diar*. vii. 27. Am eglurhâd chwanegol ar y gair *gwilliad*, gwel YSBRYDION.

GWIN [*gw—in*]. Rhoddir crybwylliad yn y Beibl am wneuthuriad gwin mor bell yn ol a dyddiau Noah (*Gen*. ix. 20, 21), a thybir mai efe ydoedd y cyntaf a wasgodd ddiod allan o ffrwyth y winwydden. Gwelir hanes, natur, a thriniaeth y winwydden mewn erthygl arall [GWINWYDD]. Yr unig bren arall a nodir, ffrwyth pa un a ddefnyddid i wneuthur gwin, yw y pomgranad: *Can*. viii. 2. Y mae y cynauaf grawnwin yn Mhalestina yn cymmeryd lle yn mis Medi, a bydd y tymmor yn cael ei goffau yn nghanol arwyddion o lawenydd mawr [*Robinson's Res*., i. 431; ii. 81]. Cesglid y ffrwyth addfed mewn basgedau (*Ier*. vi. 9), a chludid ef i'r gwinwryf. Dodid ef wedi hyny yn yr uchaf o'r ddau gafn, o ba rai y ffurfid y gwinwryf, ac yna sethrid ef, yn ol y dull sydd wedi bod mewn arferiad yn mhob oes yn ngwledydd y dwyrain ac Ewrop-Ddeheuol: *Neh*. xiii. 15; *Iob* xxiv. 11; *Esa*. xvi. 10; *Ier*. xxv. 30; xlviii. 33; *Amos* ix. 13; *Dad*. xix. 15. Byddai rhyw gymmaint o'r sug yn rhedeg o'r ffrwyth o dan ei bwys ei hun, cyn i'r gwaith o sathru ddechreu; ac ymddengys fod hwn yn cael ei gadw ar wahân oddi wrth y rhelyw o'r sug, ac iddo ffurfio y *gleucos*, neu y "gwin melus" y sonir am dano yn *Act*. ii. 13. Yr oedd y diferynau cyntaf o'r sug a ddisgynai i'r cafn isaf yn cael ei alw yn *dema*, neu "ddeigryn," ac ystyrid ef yn flaenffrwyth y cynhauaf, yr hwn oedd i gael ei gyflwyno i'r Arglwydd: *Exod*. xxii. 29. Byddai y "sathru" yn cael ei gyflawni gan un neu chwaneg o ddynion, yn ol maintioli y gwinwryf; ac os oedd yr Iuddewon yn mabwysiadu yr unrhyw foddion a'r Aiphtiaid, yr oedd y sathrwyr yn cael eu cynnorthwyo gyda'r gwaith trwy ymaflyd mewn rheffynau a sicrheid wrth drawst uwch ben y gwinwryf [Gwel GWINWRYF]. Yr oeddynt yn arfer calonogi a difyru eu gilydd ar y pryd trwy floeddio a chanu: *Esa*. xvi. 9, 10; *Ier*. xxv. 30; xlviii. 33. Yr oedd eu coesau a'u gwisgoedd wedi eu lliwio yn goch gyda'r sug: *Gen*. xlix. 11; *Esa*. lxiii. 2, 3. Byddai y sug

Digitized by Google

gwasgedig yn rhedeg trwy dwll i'r cafn isaf, neu ynte cesglid ef yn fynsiog mewn llestri pwrpasol. Weithiau, defnyddid llaw-winwryf yn yr Aipht [*Wilkinson*, i. 45]; ond nid oes genym unrhyw grybwylliad yn y Beibl am y fath offeryn. Ychydig o wybodaeth a geir o berthynas i'r driniaeth a roddid i'r gwin wedi iddo gael ei symmud o'r gwinwryf. Cedwid ef weithiau yn ei gyflwr dieples, ac yfid ef fel gwin newydd; ond yn fwyaf cyffredin, byddid yn ei gostrelu er mwyn iddo eplesu; ac os bwriedid ei gadw am lawer o amser, yr oeddid yn rhoddi ychydig o waddodion ynddo i'w gryfhau: *Esa.* xxv. 6. Gan hyny, yr oedd yn angenrheidiol i'r gwin gael ei hidlo, neu ei loewi cyn ei ddwyn ar y bwrdd: *Esa.* xxv. 6.

Yr oedd cynnyrch y gwinwryf yn cael ei ddisgrifio yn yr iaith Hebraeg trwy wahanol dermau, pa rai oeddynt yn arddangos natur neu ddefnydd y ddiod. Mae ystyron y termau hyn, yn y blynyddoedd diweddaf, wedi cael eu chwilio a'u trafod gyda bwriad i brofi fod yr Ysgrythyr yn anghymmeradwyo diodydd eplesol, neu o leiaf nad ydyw yn defnyddio iaith yn gymmeradwyol iddynt. Er mwyn cadarnhau y pwngc yma, gwelwyd fod yn ofynol, yn mhob enghraifft lle mae y ddiod yn cael ei chyplysu gyda thermau cymmeradwyol, i esponio y termau yn y fath fodd ag i ddangos eu bod yn golygu un ai gwin dieples, neu ffrwythau, ac hefyd i gyfyngu y crybwylliadau am y gwin eplesol i'r rhanau ysgrythyrol hyny sydd o duedd gondemniol. Yr ydym yn ofni fod y beirniaid craffus sydd wedi coleddu y syniadau yma wedi cyrchu eu rhesymau tu hwnt i'w casgliadau teg. Gellir addef yn ddibetrus fod y termau Hebreig a gyfieithir "gwin," yn cyfeirio weithiau at ddiod ddieples; ond yn gymmaint a bod crybwylliadau mynych yn cael eu gwneuthur yn y Beibl am feddwdod, y mae yn amlwg fod diodydd eplesol hefyd yn cael eu defnyddio yn ddigon cyffredin. Gellir yn mhellach addef fod y Beibl yn aml yn condemnio effeithiau gwin; ond y mae yn gwestiwn agored, pa un a ydyw y Beibl yn yr enghreifftiau hyn yn cyfeirio yn fwyaf neillduol at feddwdod ac anghymmedroldeb, ynte at y ddiod sydd yn achos o'r meddwdod a'r anghymmedroldeb. Pa fodd bynag, y mae gan lwyr-ymattalwyr ein dyddiau ni resymau cedyrn o blaid eu golygiadau, ac y mae yn hawddach eu hamddiffyn na'u dinystrio ar dir yr Ysgrythyrau. Mae gwinoedd a gwirodydd meddwol o bob math yn cynnyrchu effeithiau arswydus, megys "llygaid cochion" (*Gen.* xlix. 12; *Diar.* xxiii. 29): ysbryd cyffrous a therfysglyd (*Diar.* xx. 1; *Exod.* v. 11; *Zech* ix. 15; x. 7): llygriad y serchiadau (*Hos.* iv. 11): barn gyfeiliornus (*Diar.* xxxi. 5; *Exod.* xxviii. 7): anweddeidd-dra ac anfoesgarwch (*Hab.* ii. 15, 16): afiechyd (*Hos.* vii. 5). Gan fod effeithiau y diodydd hyn mor niweidiol, ac yn gosod enaid a chorff dyn mewn perygl dirfawr, ni a gynghorem bawb i ymwrthod â hwy. Gwel DIOD GADARN.

Mae yn ddiammheuol fod gwinoedd Palestina yn amrywio yn eu natur a'u gwerth, a'u bod yn cael eu henwi ar ol y lleoedd yn mha rai yr oeddynt yn cael eu gwneuthur. Nid oes genym, modd bynag, unrhyw dystiolaeth bendant ar y pwngc yma. Yr oedd yr unig winoedd y gwneir sylw neillduol o honynt yn perthyn i Syria—megys gwin Helbon (dyffryn yn agos i Damascus), yr hwn a werthid yn marchnadfa Tyrus (*Ezec.* xxvii. 18): a gwin Lebanon, yr hwn oedd yn hynod am ei berarogledd (*Hos.* xiv. 7).

Ychydig a ellir ei ddywedyd mewn perthynas i ddefnyddiad gwin mewn cylchoedd anghyhoedd. Dygid ef yn mlaen mewn teuluoedd ar achlysuron cyffredin fel arwydd o groesaw i gyfeillion (*Gen.* xiv. 18); ac yfid ef ar amgylchiadau o lawenydd mawr, megys priodasau: *Ioan* ii. 3.

O dan gyfraith Moses, gwin ydoedd yn ffurfio y ddiod-offrwm a gyflwynid yn feunyddiol gyda'r llosg-offrwm gwastadol (*Exod.* xxix. 40), a'r blaenffrwythau (*Lef.* xxiii. 13), ac offrymau ereill (*Num.* xv. 5). Yr oedd degwm i gael ei dalu o'r gwin fel o bob cynnyrch arall; ac yr oedd i gael ei ddifa "o flaen yr Arglwydd;" sef o fewn cynteddau y deml: neu hwyrach, fel y gellir casglu oddi wrth *Lef.* vii. 16, yn y lle yr oedd y deml yn sefyll: *Deut.* xii. 17, 18. Yr oedd yr offeiriad hefyd i dderbyn blaenffrwyth y gwin, yn gystal a phethau ereill: *Deut.* xviii. 4; cymmharer *Exod.* xxii. 29. Ymddengys fod addewid o ddigonedd a chyflawnder yn cael ei rhoddi ynglŷn â thaliad llyddlawn o'r dyledion hyn: *Diar.* iii. 9, 10. Gwaherddid i'r offeiriaid yfed diod gadarn cyn iddynt fyned trwy wasanaeth y deml (*Lef.* x. 9); ac y mae y lle pwysig a roddir i'r gwaharddiad yma yn yr hanes yn ffafriol i'r dybiaeth fod trosedd Nadab ac Abihu wedi ei gyflawni o dan ddylanwad diod feddwol. Y mae Ezeciel yn ail adrodd y gwaharddiad yn ei berthynas â gwin: *Ezec.* xliv. 21. Ni oddefid i Nazaread yfed gwin na diod gadarn, nac hyd yn oed sug grawnwypiau, yn ystod amser ei adduned (*Num.* vi. 3); ond yr oedd gwneuthur yr adduned yn weithred wirfoddol. Nid oedd yfed gwin ar ŵyl y Pasc yn cael ei orchymyn yn ol y gyfraith; ond rywfodd, daeth yn arferiad sefydlog, o leiaf yn y cyfnod oedd yn dilyn y caethiwed yn Babilon. Yr oedd y gwpan, yn ol y ddeddf a osodwyd i lawr yn y Mishna [gwel TALMUD] yn cael ei hestyn o law i law bedair gwaith drosodd; a gelwid y drydded gwpan yn "phiol y fendith" (1 *Cor.* x. 16), am eu bod yn gofyn bendith, ac yn diolch i'r Arglwydd wrth yfed o honi. Y mae cynnwysiad y gwpan yn cael ei ddisgrifio yn bendant gan y Gwaredwr fel "ffrwyth y winwydden;" *Mat.* xxvi. 29; *Marc* xiv. 25; *Luc* xxii. 18: ond yn y *Mishna*, "gwin" yn syml ydyw y gair a ddefnyddir. Cymmysgid y gwin â dwfr cynnes ar yr achlysuron hyn. "Yr oedd dwfr poeth," ebe Syr Edward Barry, "yn fynych yn angenrheidiol i feirioli (*dissolve*) y gwinoedd mwyaf hen a rhewaidd. Gwresogid y dwfr mewn gwrn (*urn*), neu fel y gelwid ef gan yr Iuddewon, *thermapolium*. Fe rydd y darlun ar tudalen 251 ddrychfeddwl i'r darllenydd o ddull a ffurfiad yr offeryn yma.

Yr oedd hefyd yn arferiad yn yr Eglwys Gristionogol gyntefig i gymmysgu gwin y cymmun â dwfr. Y mae yr Epistolau Bugeiliol yn cynnwys cyfarwyddiadau i bawb oedd yn dal swyddau yn yr eglwys i fod yn gymmedrol gyda gwin, fel na byddai iddynt fod yn "win-gar;" hyny yw, yn ffroen-uchel, ac yn nwydwyllt o dan ddylanwad gwin (1 *Tim.* iii. 3): "nid yn ymroi i win lawer;" 1 *Tim.* iii. 8; *Titus* ii. 3. Mae Paul yn cynghori Timotheus i beidio parhau i yfed dim ond dwfr, ac yn dymuno arno i "arfer ychydig win" er mwyn ei iechyd: 1 *Tim.* v. 23. Fel meddyginiaeth yr oedd Paul yn ddiammheuol yn golygu i Timotheus yfed gwin. Dengys y dyfyniadau uchod, yn gystal â llawer ereill (*Rhuf.* xiii. 13; *Gal.* v. 21; 1 *Pedr* iv. 3), i ba raddau yr oedd anghymmedroldeb a meddwdod yn bodoli yn yr hen amseroedd, a'r perygl mawr yr oedd yr eglwys yn agored iddo oddi wrth y pechodau hyn.

Digitized by Google

Y mae gwinoedd y wlad hon yn dra gwahanol i'r gwinoedd y sonir am danynt yn y Beibl. Cymmysgir ein gwinoedd ni â *brandy*, a gwirodydd llosgawl ereill: rhoddir mesur mawr o *alcohol* hefyd ynddynt: ac y maent o herwydd hyny yn cynnyrchu effeithiau niweidiol ar yr ystumog, ac




Dar. 236.

mewn ychydig o amser yn dinystrio iechyd y corff am byth. Mae y gwinoedd puraf a mwyaf diniweid yn dyfod o Portugal, Yspaen, Ffraingc, a Germany; a dywedir mai anaml iawn y mae pobl yn meddwi drwy yfed y gwinoedd o'r gwledydd hyn yn eu cyflwr naturiol a digymmysg.

GWINEGR [*gwin—egr*]. Gwneir gwinegr o win, *cider*, cwrw, neu ryw ddiod arall. Ymddengys fod gan yr Hebreaid ddau fath o winegr. Gwin coch gwan, mae yn debyg oedd un, yr hwn a arferent ei yfed fel diod: *Num.* vi. 3; *Ruth* ii. 14. Suryn (*acid*) cryf ydoedd y llall; a hwnw yn ddiammheu a roddwyd i'r Gwaredwr ar y groes; a'r gwinegr arall, sef y gwin gwan, a roddwyd i'r milwyr Rhufeinaidd ar adeg y croeshoeliad. Y mae y teimlad anhyfryd a gynnyrchir ar y dannedd gan winegr yn cael ei ddefnyddio gan Solomon i ddangos mor annymunol ydyw gwas diog i'w feistr: *Diar* x. 26. Ac y mae y bwrlymiad a achosir wrth dywallt gwinegr ar nitr neu lysnur (*soda*) yn arddangos, yn ol barn y gwr doeth, y gwrthdarawiad sydd rhwng llawenydd a thristwch, ynghyd â'r canlyniad o geisio cymmysgu y ddau â'u gilydd: *Diar.* xxv. 20.

GWINLLAN (*gwin—llan*). Y mae gwinllan oedd yn cael eu gwerthfawrogi yn fawr yn mhob gwlad. Yn hanes Noah yr ydym yn darllen gyntaf am winllan: *Gen.* ix. 20. Y mae hyn yn profi nad oedd diwylliad a thriniaeth y winwydden yn anadnabyddus cyn y diluw.

Crybwyllir yn fynych yn y Beibl am winllan mewn gwrthgyferbyniad i faes neu gae, ac weithiau defnyddir y gair gwinllan am erddi cyffredin. Y mae yr holl orchwyl o barotoi gwinllan yn cael ei ddisgrifio gan *Esa.* v. i. Y mae y gwinllanwr yn dewis llanerch ffrwythlawn, yn wynebu ar y deheu—yn adeiladu mur o amgylch y lle—yn digaregu ac yn rhyddhau y pridd—yn codi tŵr, ac yn cloddio y gwinwryf ynddi mewn man cyfaddas. Yna gallai ofyn mewn gwirionedd :—"Beth oedd i'w wneuthur ychwaneg i'm gwinllan nag a wnaethum ynddi :" *Esa.* v. 4. Beth allai fod ei somedigaeth pan y gwelai ei lafur wedi myned yn ofer—"Pa ham, a mi yn disgwyl iddi ddwyn grawnwin, y dug hi rawn gwylltion ?" *Esa.* v. 4. Mae maint ei somedigaeth i'w fesur yn ol cyfartaledd ei ofal, a nifer ei barotoadau. Yna, fe ddengys y prophwyd ddull gwrthwynebol o drin y winllan. Gan fod y gofal a'r parotoadau wedi pallu dwyn ffrwyth priodol, dywed y gwinllanwr: —"Mi a hysbysaf i chwi yr hyn a wnaf i'm gwinllan : tynaf ymaith ei chae, fel y porer hi; toraf ei magwyr, fel y byddo hi yn sathrfa; a mi a'i gosodaf hi yn ddiffrod. Nid ysgythrir hi, ac ni chloddir hi; ond mieri a drain a gyfyd; ac i'r cymmylau y gorchymynaf na wlawiant wlaw arni:" *Esa.* v. 5, 6. Y mae y bygythiad wedi ei gyflawni yn gywir a sobr ar dir ac ar genedl Israel.

Yr oeddid yn amgau gwinllanoedd gyda gwrych neu fur er mwyn diogelu y gwinwydd rhag derbyn niwed oddi wrth anifeiliaid a bwystfilod. Adeiledid tŵr hefyd ynddynt at wasanaeth gwylwyr: *Num.* xxii. 24; *Salm* lxxx. 8—13; *Diar.* xxiv. 31; *Can.* ii. 15; *Mat.* xxi. 33.

Yr oedd yr Hebreaid yn neillduo cymmaint o amser i ofalu am eu gwinllanoedd ag oeddynt yn ei wneud i ofalu am eu hamaethyddiaeth. Pan y mae Esaiah yn rhagfynegi goresgyniad y wlad gan yr Assyriaid, y mae efe yn dyweyd y byddai y winllan oedd yn cynnwys mil o winwydd, ac am yr hon y telid ardreth o fil o arian, neu siclau, yn fangre mieri a drain: *Esa.* vii. 23. Pan yn darlunio galar, efe a ddywed :—"Galarodd y gwin, llesgaodd y winwydden, y rhai llawen galon oll a riddfanasant :" *Esa.* xxiv. 7. Y mae Zechariah hefyd yn prophwydo am lwyddiant dyfodol yn y modd yma :—"Canys bydd yr had yn ffynadwy; y winwydden a rydd ei ffrwyth:" *Zech.* viii. 12; hefyd *Hab.* iii. 17; *Mal.* iii. 11.

Y mae yr eglwys yn cael ei chyffelybu i winllan: *Mat.* xx. 1—16; xxi. 28—45; *Luc.* xiii. 6, 7.

Nid oedd yn gyfreithlawn o dan gyfraith Moses i neb a blanai winllan fwyta ei ffrwyth hi cyn y bummed flwyddyn: *Lef.* xix. 24, 25. Nid oedd iddynt chwaith dori y winllan na chasglu ei chnwd y seithfed flwyddyn:—Sabbath gorphwysdra y tir oedd y flwyddyn hono. Yr oedd y ffrwyth i gael ei roddi i'r tlawd, yr amddifad, a'r dieithr. Caniatëid i deithiwr fwyta grawnwin ei wala, ond gwaherddid iddo ddodi dim yn ei lestr i'w ddwyn ymaith gydag ef. Nid oeddynt i hau y winllan âg amryw had: *Lef.* xxv. 3, 4; *Deut.* xxii. 9; xxiii. 24. Gwel GWINWYDD.

GWINLLANOEDD, GWASTADEDD Y. Crybwyllir am y lle hwn yn *Barn.* xi. 33. Lle ydoedd ar du y dwyrain i'r Iorddonen, tu hwnt i Aroer; a nodir ef fel y pwynt i ba un yr ymlidiodd Iephtha feibion Ammon. Gwelwyd tŷ gan De Saulcy yn ngogledd Kerak, yn dwyn yr enw *Beit el Kerm*=tŷ y winwydden. Y mae yn bossibl mai hwn yw yr *Abel ceramim*="gwastadedd y gwinllanoedd," os yr Aroer a nodir yn yr un adnod yw y lle o'r un enw ar yr Arnon. Ond nid yw hyn mewn un modd yn sicr; ac yn wir, y tebygolrwydd yw y buasai yr Ammoniaid, yn unol â'u tuedd fel llwythau crwydrol neu hanner-grwydrol, yn cilio pan ymosodid arnynt, nid i wlad wareiddiedig a diwylliedig Moab (lle

Digitized by Google

y gorwedd *Beit el Kerm*), ond i'r anialwch eang tua'r dwyrain, fel y gallent ymwasgaru yn ol arfer y cyfryw lwythau.

GWINN, MATTHEW, ydoedd feddyg enwog, o darddiad Cymreig, ond a anwyd yn Llundain. Wedi ennill graddau yn Rhydychain, efe a ddechreuodd ar ei orchwyl yno fel meddyg; ond pan sefydlwyd athrofa Gresham, dewiswyd ef yn broffeswr meddyginiaeth; ac yn y flwyddyn 1605, pennodwyd ef yn feddyg i'r Tŵr. Ymddengys fod Dr. Gwinn yn deall celfyddyd y gŵr llys yn bur dda; o blegid pan ymwelodd James I. âg Oxford, efe a gymmerodd achlysur oddi wrth hyny i draddodi araeth yn erbyn tybaco, gan ei fod yn gwybod y fath elyn marwol oedd y brenin hwnw i'r "chwyn ffiaidd." Efe a ysgrifenodd hefyd gomedi a elwid *Vertumnus;* yr hon a chwareuwyd o flaen y brenin yn Athrofa St. Ioan. Mae ei weithiau ereill yn gynnwysedig mewn areithiau, llythyrau ar Ddirgelion Fferyllol a Chyfriniol, &c. Bu farw yn y flwyddyn 1627.

GWINRAWN. Gwel Grawnwin.

GWINWRYF [*rhyf*]. Nid ydyw y tri gair Hebraeg a gyfieithir "gwinwryf" yn cael eu gwahaniaethu yn briodol yn y cyfieithiad cyffredin o'r Beibl; ac yn wir nid yw yn hawdd iawn canfod eu hystyron gwreiddiol.

Ymddengys fod יקב, *yeceb* neu *yecef* yn dynodi y ffrwythdy a'r gwinwryf ynghyd, gan gynnwys y gwryfgafn a derbynydd y grawnwin a fwriedid i'w cadw; yn debyg fel y mae ysgubor yn cynnwys y crugyn ŷd a'r llawr dyrnu. Mae y gair yn digwydd un ar bymtheg o weithiau; yn y rhan fwyaf o ba rai y mae yn amlwg ei fod yn dynodi yr holl adeilad fydd wedi ei neillduo i gnwd y winllan a ffrwyth y perllanau: *Deut.* xvi. 13; *Barn.* vii. 25; *Esa.* v. 2; *Hos.* ix. 2; *Hag.* ii. 16; *Zech.* xiv. 10. Gellir casglu oddi wrth hyny o grybwylliadau a geir yn y Beibl fod gwinwryfoedd yr Iuddewon yn gynnwysedig o ddau gafn wedi eu gosod un uwch ben y llall. Yn yr uchaf, sethrid y grawnwin, tra yr oedd yr isaf yn derbyn y sudd. Crybwyllir am y ddau gafn ynghyd yn *Ioel* iii. 13; "y gwryf (*gath*) a lanwodd, a'r gwasg-gafnau (*yeceb*) a aethant drosodd"—y cafn uchaf yn llawn o ffrwyth, a'r isaf yn llifo drosodd gan win newydd. Defnyddir *yeceb* yn gyffelyb yn *Ioel* ii. 24, ac yn *Diar.* iii. 10, mae yn debyg, lle y gellir cyfieithu y ferf a ysgrifenir "tori," i'r ymadrodd mwy cyffredinol "bod yn orlawn o." Dywed Olearius yn ei *Persian Travels*, 1837:—"Y mae ganddynt ffordd i gadw grawnwin trwy eu goblygu mewn corsenau gwyrddion, a'u crogi hwynt i fyny yn nen eu hystafelloedd." Camgymmeriad ydyw tybied nad oedd raid wrth yr *yeceb* ond yn ystod y cynhauaf grawnwin; canys yr oedd yn bossibl cadw y grawn drwy y flwyddyn, a byddai felly yn wasanaethgar fel ystordy. Rhydd E. W. Delesser, Ysw., o Florence, y disgrifiad a ganlyn o'r dull a arferir yn Italy i gadw grawnwin: "Cedwir y grawnwin yn y cyflwr yn mha un y torir hwynt oddi ar y winwydden, o'r cynauaf grawnwin hyd fis Mawrth, trwy eu lledaenu ar glwydi, gan ofalu gadael digon o le rhwng y sypiau, mewn tai allan uchel a sych."

Ni cheir y gair פורה, *poorah*, ond dwy waith; a hyny yn *Esa.* lxiii. 3; a *Hag.* ii. 16. Mae yn tarddu o'r gair פור, "tori;" ac o blegid hyny cymmhwysir ef at y cafn yn mha un y methrir neu y torir y grawnwin. Yr oedd y gwryfgafnau yn gyffredin yn fawrion a dyfnion, ac yn gofyn amryw bersonau i gydfathru y grawnwin ynddynt. Felly mae yr ymadrodd "sethrais y gwinwryf fy hunan" yn arwyddo cyfyngder ac amddifadrwydd neillduol. Mae yn debyg nad oedd y gair hwn yn cael ei gyfyngu ond yn unig at y *gwin*-gafn, fel ei gwahaniaethir oddi wrth *gathshemen*, yr olew-gafn.

Ceir גת, *gath*, bum waith. Y mae yn golygu y *cafnau* yn mha rai y methrid grawnwin ac olifaid gyda'r traed. Un ai fe wneid y rhai hyn o geryg, a gorchuddid hwynt â chymmrwd annhoddadwy; neu ynte, naddid hwynt allan o'r graig yn gafnau uchel, i ba rai y bwrid y grawnwin ar ol eu pigo, ac y sethrid hwynt gan ddynion er mwyn gwasgu allan y gwin newydd, yr hwn a lifai allan trwy agorfeydd i lestri cyfaddas.



Dar. 287.—Gwinwryf.

Er fod y gwaith hwn yn llafurfawr, cyflawnid ef gyda hoender neillduol. Yr oedd ganddynt ryw floedd arbenig ar y pryd; cenid hefyd, ac weithiau chwareuid offer cerdd: *Esa.* xvi. 9, 10; *Ier.* xxv. 30; xlviii. 32, 33.

Math o lestr wedi ei osod islaw y *gath* i dderbyn gwin newydd ydoedd yr *hupolênion*, "gwingafn" a nodir yn *Marc* xii. 1. Cloddid lle i'w ddal, ac weithiau hefyd i ddal y cerwyn yn mha un y sethrid y grawnwin: *Mat.* xxi. 33.

GWINWYDD—EN: planhigyn adnabyddus a gwerthfawr, a grybwyllir yn fynych yn yr Hen Destament a'r Newydd, ac a ddiwyllir er yr amseroedd boreuaf. Yn *Gen.* ix. 20, 21, y ceir y crybwylliad cyntaf am y winwydden, lle y sonir am Noah fel "planwr gwinllan." Dywed yr Aiphtiaid mai Osiris a ddysgodd i ddynion gyntaf y modd i arfer gwin. Y mae yn eglur oddi wrth yr arluniau lliosog ar gofgolofnau, yn gystal ag oddi wrth grybwylliadau ysgrythyrol, fod y winwydden yn cael ei thyfu yn helaeth yn yr Aipht. Gwel *Gen.* xl. 9—11, lle y ceir breuddwyd Pharaoh; a *Num.* xx. 5; pan y cwyna yr Israeliaid fod yr anialwch yn "lle heb hâd, na ffigysbren, na gwinwydden," &c. Cymmharer hefyd *Salm* lxxviii. 47; "Distrywiodd eu gwinwydd â chenllysg, a'u sycamorwydd â rhew."

Digitized by Google

Yr oedd gwinwydd Palestina yn enwog am eu helaethrwydd, a'r sypiau anferth o rawnwin a gynnyrchent. Pan yr anfonwyd yr ysbïwyr allan i edrych y wlad addawedig, fe ddywedir ddarfod iddynt, pan y cyrhaeddasant ddyffryn Escol, dori cangen gydag un swp o rawnwin, a'u bod wedi ei chludo "ar drosol rhwng dau;" *Num.* xiii. 23. Gwnaethant hyn yn ddiau er mwyn hwylusdod, a rhag dryllio y grawn ar y swp ardderchog. Mae teithwyr yn son yn fynych iawn am sypiau anferth o rawnwin yn tyfu ar winwydd Palestina. Dywed Schulz iddo fod yn swpera yn Beitshin, pentref gerllaw Ptolemais, dan winwydden ag yr oedd ei boncyff tua throedfedd a hanner o dryfesur, a'i huchder tua deg llath ar hugain, a'i changhenau yn ffurfio bwthyn dros ddeg troedfedd ar hugain o hyd a lled. Dywed yn mhellach:—"Mae sypiau y gwinwydd anarferol hyn mor fawr fel y pwysant ddeg neu ddeuddeg pwys yr un, a gellir cymmharu y grawn â'n heirin bychain ni." Dywed Strabo fod cofnodiad ar gael am winwydd yn Margiana gyda boncyffion mor drwchus fel y byddai yn ofynol cael dau ddyn i'w rhychwantu, a sypiau y rhai ydynt ddau gufudd o hyd. Yn awr Magiana ydyw y wlad a elwir yn ddiweddar Ghilan yn Persia, ar dde-orllewin y Môr Caspiaidd, bryniau yr hon a ystyrir fel cartref cynhenid y winwydden. Ni byddai dim yn haws na dwyn llu o dystiolaethau er dangos maintioli mawr grawn Palestina, allan o adroddiadau cyhoeddedig teithwyr, megys Elliot, Laborde, Mariti, Dandini (yr hwn sydd yn amlygu syndod at fawredd grawnwin Libanus) Russell, &c. Mae y frawddeg a ganlyn o Kitto's *Physical History of Palestine* yn eglurhad tarawiadol ar ddull yr ysbïwyr yn cludo grawnwin Escol:—"Hyd yn oed yn ein gwlad ni, fe gynnyrchwyd swp o rawnwin yn Welbeck, yn pwyso pedwar pwys ar bymtheg; a danfonwyd ef yn anrheg oddi wrth y Duc o Rutland i Ardalydd Rockingham. Cludwyd hi iddo, am bellder o dros 20 milldir, ar bolyn, gan bedwar o lafurwyr —dau yn ei gario ar unwaith." Tryfesur mwyaf y swp hwn oedd pedair modfedd ar bymtheg a hanner, ei gylchfesur oedd pedair troedfedd a hanner; ac yr oedd ei hyd yn dair modfedd ar hugain.

Crybwyllir yn bennodol yn y Beibl am rawnwin Escol, Sibmah, Hesbon, Elealeh, ac Engedi: *Num* xiii. 24: xxxii. 9; *Can.* i. 14; *Esa.* xvi. 8, 9, 10; *Ier.* xlviii. 32. Dywed y proffeswr Stanley am winllanoedd Iudea, y rhai a welodd efe ar lechweddau Bethlehem:—"Yma, rhagor unman yn Mhalestina, y gwelir, ar lechweddau y bryniau, winllanoedd gyda'u muriau a'u tyrau gwylio, yn gorwedd ar eu huchelfäau hynafol—arwyddlun boreuaf a diweddaf Iudah. Bryniau a gwastattiroedd uchel Iudah ydyw hinsawdd briodol y winwydden. Efe a rwymodd ei ebol wrth y winwydden, a llwdn ei asyn wrth y bêr winwydden; golchodd ei wisg mewn gwin, a'i ddillad yn ngwaed y grawnwin." O ddyffryn Escol, "ffrydlif y swp," yn Iudah, y torodd yr ysbïwyr y swp anferth o rawnwin. "Gwinllan ar fryn tra ffrwythlawn" (neu fryn olifaid), wedi ei "chloddio," ei "digaregu," a "thŵr yn ei chanol," ydyw y gymmhariaeth naturiol sydd yn gosod allan Iudah yn y prophwydi a'r Efengylau." Dengys helaethrwydd a rhagoriaeth y gwinwydd pa ham y gwneir y planhigyn hwn yn destyn cyffelybiaethau mor fynych yn yr Ysgrythyrau. Felly gwinwydden wedi ei "mudo" o'r Aipht, a'i phlanu â llaw yr Arglwydd yn Ngwlad yr Addewid oedd Israel; parotowyd lle iddi; a lle y gwreiddiodd, hi a "lanwodd y tir," a "guddiodd y mynyddoedd gan ei chysgod," ac yr oedd ei "changhenau fel cedrwydd rhagorol;" *Salm* lxxx. 8, 9, 10. Dywed Gmelin, yn hanes ei deithiau trwy Rwssia a Gogledd Persia fel y canlyn am winwydden Ghilan:—"Mae yn hoff o goedwigoedd, . . . . a cheir hi yn fynych o amgylch penrhynoedd, ac y mae eu parthau isaf bron yn orchuddiedig â hi. Yno, yn uwch nag y gall y llygaid ddyrchafu, y mae yn ymblethu am y coedydd uchelfrig; ac y mae ei changhenau, y rhai ydynt yma cyn dewed a braich, yn ymledu ac yn ymblethu drwy eu gilydd yn y fath fodd fel mai anhawdd iawn cael mynedfa drwyddynt yn y manau hyny lle y maent yn tyfu helaethaf." Y mae trigo dan y winwydden ar ffigysbren yn arwyddlun o ddedwyddwch a heddwch teuluaidd: 1 *Bren.* iv. 25; *Salm* cxxviii. 3; *Mica.* iv. 4. Cyffelybir cenedl wrthryfelgar Israel i "rawn gwylltion," "gwinwydden wâg," "planhigyn afrywiog, a gwinwydden ddieithr," &c., gwel *Esa.* v. 2, 4; *Hos.* x. 1; *Ier.* ii. 21. Gwinwydden a ddewisa ein Harglwydd i osod allan yr undeb ysbrydol sydd yn bod rhyngddo ei hun a'i aelodau: *Ioan* xv. 1—6.



Dar. 238.

Arferir y geiriau Hebraeg a ganlyn i ddynodi y winwydden:—

1. *Gephen*, neu yn fwy penodol *gephen hayyayin*, yr hwn a geir yn fynych yn y Beibl, ac a arferir mewn ystyr cyffredinol. Yn wir, fe arferir y gair *gephen* weithiau i ddynodi planhigyn tebyg i'r winwydden mewn rhai pethau, megys, "gwinwydden wyllt" yn 1 *Bren.* iv. 39, yr hon mae yn debyg ydoedd *gicaion gwyllt* (gwel dan y gair), a "gwinwydden Sodom," yr hon yn ddiau nid oedd winwydden. [Gwel yr erthygl nesaf.]

2. *Sôrêc* neu *sorecah*, sydd air yn gosod allan fath arbenig o winwydd (*Gen.* xlix. 11; *Esa.* v. 2; *Ier.* ii. 21), yr hwn a olygir yn awr fel yr un a'r gwinwydd a elwir yn Morocco *serci*, ac yn Persia *cishmish*, gyda grawn crynion bychain duon, a cheryg meddal ynddynt. Y mae yn eglur oddi wrth yr ymadrodd yn Ieremiah, fod y

Digitized by Google

GWIRIONEDD: digelwyddog, gwir, diammheu, diffuant, didwyll, uniawn; cywiredd, uniondeb; yr hyn sydd yn cyfatteb i'r peth fel y mae. Y mae y gair Hebraeg yn arwyddo diymwad, diysgog, dianwadal. Defnyddir y gair am yr hyn sydd sylweddol, mewn cyferbyniad i'r hyn sydd ffugiedig neu ymddangosiadol; yr hyn y mae iddo wir hanfodol mewn cyferbyniad i'r hyn sydd ddychymygol. Yn yr ystyr yma y mae yr Iehofah yn cael ei alw yn wir Dduw. Defnyddir ef hefyd i osod allan y rhagoroldeb mwyaf mewn peth. Pan elwir yr Arglwydd Iesu yn "wir fara," neu "wir winwydden," nid yw hyny yn arwyddo mai hanfodiad gau sydd i'r bara neu y winwydden naturiol; ond fod y rhagoriaethau sydd ynddynt hwy yn naturiol, ynddo ef yn ysbrydol i'r graddau uchaf. Arferir y gair hefyd am athrawiaeth bur, mewn cyferbyniad i gelwydd a chyfeiliornad: yn yr ystyr hwn y mae geiriau a chyfraith Duw yn wirionedd: *Salm* cxix. 151; *Gal.* iii. 1. Mae yn sefyll hefyd mewn cyferbyniad i gysgod:—"Y gras a'r gwirionedd a ddaeth trwy Iesu Grist;" *Ioan* i. 17. Y mae yn y Testament Newydd ddau air yn cael eu cyfieithu "gwir," ar y gwahaniaeth rhwng pa rai y mae Trench [*Syn. of the N. T.*] yn gwneyd rhai sylwadau rhagorol. Y ddau air ydynt *alêthês* ac *alêthinos*. Mae y ddau air Lladin, *verax* a *verus*, yn atteb iddynt; a'r un modd y geiriau Cymraeg, *gwir* a *gwirioneddol*. Gwelir y gwahaniaeth rhyngddynt wrth edrych arnynt yn eu cyssylltiad â Duw. Dywedir ei fod ef yn *alêthês* ac *alêthinos*; ond mae y ddau air yn trosglwyddo drychfeddyliau gwahanol. Cyssylltir y cyntaf âg ef yn *Ioan* iii. 33, a *Rhuf.* iii. 4:—lle y mae yn cael ei gyfieithu *geirwir*. Y mae felly yn arwyddo ei fod yn ddigelwyddog, yn caru, yn llefaru, ac yn gwneuthur gwirionedd; ei fod yn ffyddlawn i'w addewidion; ac yn cyfatteb i berffeithrwydd i bob dadguddiad a roddes o hono ei hun. Y mae hefyd yn *alêthinos*. Dyma y gair yn *Ioan* xvii. 3; "iddynt dy adnabod di yr unig wir Dduw:" a 1 *Thes.* i. 9; "i wasanaethu y bywiol a'r gwir Dduw." Y mae yn amlwg mai nid geirwir ydyw yr ystyr yma, ond gwirioneddol. Y gwir Dduw ydyw mewn cyferbyniad i eilunod, a duwiau gau—duwiau wedi eu creu gan ddychymyg afiachus a llygredig eu haddolwyr, ac heb hanfodiad sylweddol. Ond nid ydyw y gair *alêthinos* yn cynnwys y syniad fod yr hyn y saif mewn cyferbyniad âg ef yn amddifad o hanfodiad gwirioneddol. Y gwirioneddol ydyw y gwrthddrych hwnw ag y mae yr holl elfenau a ddichon y gwrthddrychau gynnwys yn hanfodi ynddo; a'r gwrthwyneb i'r gwirioneddol ydyw yr hyn nad yw yn cynnwys yr elfenau hyny ond i raddau ammherffaith. Dywed Xenophon am Cyrus, ei fod yn llywyddu "byddin wirioneddol;" hyny yw, byddin deilwng o'r enw; ond nid yw hyn yn arwyddo y buasai yn gommedd rhoddi yr enw *byddin* ar un waelach. Felly y mae *alêthinos* yn cael ei ddefnyddio am y perffaith mewn cyferbyniad i'r ammherffaith, y sylweddol mewn cyferbyniad i'r cysgodol. Yn *Heb.* viii. 2, sonir am "y gwir dabernacl," i'r hwn yr aeth yr Iesu i mewn: ond nid yw hyn yn rhoddi ar ddeall nad oedd i'r tabernacl yn yr anialwch hanfodiad gwirioneddol; o blegid cafodd ei adeiladu ar orchymyn Duw, ac yn ol y portread a ddangoswyd i Moses yn y mynydd. Arwydda yn hytrach nad oedd y tabernacl hwnw, yn gystal a phob peth o'i fewn, namyn cysgodau o'r pethau sydd yn y nefoedd yn meddu ar yr hanfodiad mwyaf gwirioneddol a gogoneddus:—"portread y gwir gyssegr" ydoedd. Pan y dywedir hefyd "fod y gyfraith wedi dyfod trwy Moses, ond y gras a'r gwirionedd trwy Iesu Grist," mae yn amlwg mai nid rhwng y gau a'r gwir y gorwedda y cyferbyniad; ond rhwng yr ammherffaith a'r perffaith, y cysgodol a'r sylweddol. Iesu Grist ydyw "y gwir oleuni;" *Ioan* i. 9: etto, yr oedd Ioan Fedyddiwr yn "ganwyll yn llosgi ac yn goleuo;" *Ioan* v. 35: ac y mae y saint yn disgleirio megys goleuadau yn y byd. Efe yw y goleuni mawr—cartref tragwyddol holl oleuni y greadigaeth. Efe sydd yn goleuo pob dyn sydd yn dyfod i'r byd, ac o hono ef y derbynia pob goleuadau ereill eu goleuni. Yr un peth y gellir dywedyd am y geiriau y "gwir fara," a'r "wir winwydden." Dywed Tholuck am y geiriau uchod (*Ioan* i. 9); "*Alêthinos* yw y gair sydd yn atteb i'w ddrychfeddwl. Priodolir rhan o'r goleuni yn wir i'r Bedyddiwr, ond y mae y gwir oleuni yn goleuo pob dyn: *Ioan* i. 17. Yr oedd y gyfraith, yn ei haberthau a'i seremoniau, yn cynnwys gras, ond yn ei gynnwys yn arwyddol yn unig (*Col* ii. 27; *Heb.* x. 1); ond yn gyferbyniol i hyn, y mae y gwirionedd yn ymddangos yn awr yn ddilen—gwirionedd llwyr a pherffaith." Ac ar *Ioan* xv. 1, dywed, "Mae y berthynas naturiol rhwng y winwydden a'i changhenau yn cael ei sylweddu yn ei hystyr fwyaf perffaith yn y berthynas ysbrydol rhwng Crist a'i eiddo."

Y mae Duw yn wir Dduw, ac yn Dduw y gwirionedd: *Deut.* xxxii. 4; *Salm* xxxi. 5. Mae yn wir Dduw, am mai efe ydyw yr unig Dduw; nid oes arall ond efe: a rhoddir yr enw hwn arno yn y Beibl i'w wahaniaethu oddi wrth bob peth a elwir yn Dduw neu a addolir. Gelwir ef hefyd yn Dduw y gwirionedd, i arwyddo ei fod yn anfeidrol bell oddi wrth y possiblrwydd o dwyll, celwydd, neu un math o anghyssondeb neu anffyddlondeb. Y mae y Beibl yn llefaru mor fynych am wirionedd ei gymmeriad, ac am undod ei fod: *Num.* xxiii. 19; *Deut.* vii. 9; 1 *Sam.* xv. 29; *Heb.* vi. 18; *Tit.* i. 2; *Dad.* vi. 10; xv. 6; "Duw y gwirionedd" ydyw. Nid yn unig y mae yn feddiannol ar wirionedd fel un o elfenau ei gymmeriad, ond y mae gwirionedd yn hanfodol ynddo: nis gallai fod ond fel Duw y gwirionedd; byddai yr un mor hawdd iddo beidio bod ag a fyddai iddo beidio bod yn Dduw y gwirionedd. "Y mae yn anmhossibl iddo fod yn gelwyddog." Duw y gwirionedd ydyw hefyd, am mai ynddo ef yn dragwyddol y mae pob gwirionedd yn cartrefu. Gwirionedd cymmeriad Duw sydd yn rhoddi gwerth yn y dadguddiadau a wnaeth o hono ei hun. Y mae yn amlwg nas gellid rhoddi dibyniad ar y dadguddiadau heb yr hyder cryfaf yn ngwirionedd y dadguddiwr. Hyd yn oed ar ol profi mai Gair Duw yw y Beibl, ni byddai hyny o ddim budd i ni, heb gael hefyd y sicrhâd mwyaf diammheuol fod yr hwn sydd wedi ei lefaru yn Dduw y gwirionedd, ac fod "yn anmhossibl iddo fod yn gelwyddog." Gallem, o bossibl, resymu gwirionedd Duw allan oddi wrth ei berffeithiau ereill, ar wahân oddi wrth dystiolaethau y Beibl. "Yr unig resymau possibl o gilio oddi wrth wirionedd ydynt, naill ai byrbwylldra neu anghof, anghysurdeb neu anallu, ofni y drwg neu obeithio am y da; ond y mae yn rhaid fod bôd anfeidrol ddoeth, hunanddigonol a daionus, yn anfeidrol bell oddi wrth yr holl bethau hyn. A chan fod yn ammhossibl iddo ef ei hunan gamsynied, y mae yr un mor anmhossibl iddo gamarwain ereill."—*Clarke's Rem.* Y mae y cymmeradwyaeth a rydd cydwybod dyn hefyd i wirionedd yn brawf o'r un peth. Mae y cymmeradwyaeth hwn yn deimlad



Digitized by Google

cyffredinol. Gallai yn wir fod esamplau i'w cael yn y rhai y mae cydwybod wedi ei gwyrdroi a'i thywyllu gan resymau gau a thwyllodrus; ond fel rheol, y mae y gydwybod yn cymmeradwyo gwirionedd—y mae yn cilio oddi wrth, ac yn dangos adgasedd tuag at gelwydd a thwyll. Ac os ydyw hyn yn deimlad yn ysbryd dyn, onid y casgliad mwyaf naturiol ydyw fod gwirionedd yn hanfodol yn natur Creawdwr ei ysbryd. Y mae Dr. Wardlaw yn sylwi, pe gellid cyfeirio at un enghraifft yn Nuw o ymadawiad oddi wrth wirionedd, y gwnai hyny lwyr ddinystrio ymddiried ei holl greaduriaid sanctaidd ynddo: o blegid byddai un gwyriad, pe na bai ond y lleiaf ag y gellid meddwl am dano, yn brawf fod yn bossibl iddo fod heb fod yn eirwir—nad yw gwirionedd yn hanfodol ynddo—ac y gallai wyro yn fwy etto. Felly y mae y dystiolaeth fod yn "ammhossibl i Dduw fod yn gelwyddog" o werth annhraethadwy. "Y mae hwn yn fath o angenrheidrwydd—angenrheidrwydd moesol—yn cyfodi oddi ar wrthdarawiad anfeidrol a digyfnewid ei natur foesol i bob anwiredd; yr hwn, yn lle lleihau ein cymmeradwyaeth addolgar, sydd yn ei ddyrchafu i'r pwynt uchaf yn ein parch a'n haddoliad. Nid ydyw yn ddim amgen na dull o osod allan nerth anfeidrol egwyddor."—*Wardlaw's Lecture on Theology.*

"Y gwirionedd" sydd un o'r teitlau a roddir gan Iesu Grist arno ei hun. "Myfi yw y ffordd, y gwirionedd, a'r bywyd;" *Ioan* xiv. 6. Mae Iesu Grist yma yn newid trefn cwestiwn Thomas, ac yn llefaru yn gyntaf am "y ffordd." Efe yw "y ffordd:" nid yn unig y rhagflaenor, yr hyn nid awgrymai ddim pellach na chyssylltiad allanol âg ef fel ei ganlynwyr. Ond y mae y cyssylltiad yn agos, fel y mae yn cael ei osod allan yn y gair, "y ffordd:" ar hyd hon y mae yn rhaid i ni fyned. Mae yn rhaid i ni feddu undeb mewnol âg ef. Ffurf neu ochr arall o'r un drychfeddwl a osodir allan yn y gair, "y gwirionedd." Gan mai Duw y gwirionedd yw Duw, ac nas gellir nesau ato ond yn y gwirionedd—Iesu Grist ydyw y gwirionedd, yn yr hwn yn unig y ceir yr adnabyddiaeth hwnw o hono sydd yn fywyd tragwyddol.—*Alford.* Calvin a ddywed ar y geiriau:—"Gesyd i lawr dair o raddau; fel pe dywedasai, mai efe yw y dechreu, a'r canol, a'r diwedd; am hyny, gydag ef y dylem ddechreu, parhau, a diweddu. Ni ddylem yn sicr ymofyn am ddoethineb uwch na'r un sydd yn ein harwain i fywyd tragwyddol; ac y mae efe yn tystiolaethu fod y bywyd hwn i'w gael ynddo ef. Yn awr, y drefn i gael bywyd ydyw dyfod yn greaduriaid newydd. Mae efe yn tystiolaethu na ddylem chwilio am dano yn un lle arall, ac ar unwaith yn ein hadgofio mai efe yw y ffordd ar ba un y gall un ei gyrhaedd. Gan mai Crist yw y ffordd, nid oes gan y gwan a'r anwybodus achos i gwyno eu bod yn cael eu gadael ganddo ef; a chan mai efe ydyw y gwirionedd, a'r bywyd, y mae ganddo ynddo ei hun yr hyn sydd addas i foddloni y mwyaf perffaith. Fy ngolygiad i ar ystyr y gair *gwirionedd* ydyw, ei fod yn dynodi perffeithrwydd ffydd, fel y mae y y ffordd yn arwyddo ei helfenau cyntaf. Gellir symio yr holl ymadrodd fel hyn:—Os try rhywun oddi wrth Grist, ni wna ddim ond myned ar gyfeiliorn: os bydd i un beidio gorphwys arno ef, ni allai mewn un man arall ymborthi ond ar wynt a gwagedd: os bydd i rywun, heb foddloni arno ef yn unig, ddewis myned yn mhellach, marwolaeth a gaiff yn lle bywyd." Barna Olshausen fod Iesu Grist yn galw ei hunan yn *ffordd,* i'r dyben o arwain meddyliau y dysgyblion yn llwyr oddi wrth ffordd allanol, ac i edrych arno ef fel yr unig Gyfryngwr i'w harwain at y Tad. Nid ydyw yn galw ei hun yn arweinydd neu dywysog, am mai trwy ei fywyd ei hun, yr hwn a gyfrenir i'w bobl, y mae yn parotoi y ffordd at Dduw. Geilw ei hun hefyd y "gwirionedd a'r bywyd," sef y diwedd. Mae hyn yn ymddangos yn hynod am fod yr ymadrodd dilynol yn arwyddo mai y Tad ydyw y diwedd, neu y nôd at ba un y mae y Mab yn arwain. Ond y mae y dyryswch yma yn cilio wrth ystyried fod yr Iesu, wrth fyned rhagddo yn yr ymddiddan, yn edrych arno ei hunan yn y Tad, a'r Tad ynddo yntau. Felly, amcan yr ymadrodd hwn oedd dysgu y dysgyblion i ymddibynu ar Iesu Grist fel yr un holldigonol—yn yr hwn y mae pob peth sydd ar bechadur eisieu, i'w gael. Dylid edrych, ebe Tholuck, ar yr ail a'r trydydd teitl fel eglurhâd ar y cyntaf: y maent yn dangos pa fodd y mae efe yn ffordd. Gallem gymmharu *Heb.* x. 20 â'r ymadrodd hwn, lle y mae Crist yn cael ei alw yn "ffordd fywiol." Gallem sylwi yn mhellach fod y teitl hwn, "y gwirionedd," yn briodol i berson dwyfol, ac nid i neb arall. Fel y mae y Duwdod yn wirionedd, felly hefyd y Cyfryngwr. Y mae yr un ystyr cynnwysfawr ynddo wrth ei gymmhwyso at Grist ag sydd yn y gair *bywyd:* efe "yw yr adgyfodiad a'r bywyd:" efe yw y Tragwyddol, yr hwn y mae ganddo fywyd ynddo ei hun; a ffynnonell ddihysbydd pob bywyd o fewn y greadigaeth. Felly hefyd, efe yw "y gwirionedd." Nis gallasai neb o'r prophwydi a'r apostolion alw ei hun wrth yr enw hwn; er eu bod yn traethu ac yn ysgrifenu gwirionedd digymmysg, a hwnw y pwysicaf a allasai fod, etto yr oeddynt felly, nid o honynt eu hunain, ond am fod Ysbryd y Gwirionedd yn trigo ynddynt. Wrth eu gadael iddynt eu hunain, profent eu hunain yn dynion ffaeledig, fel ereill: nid oeddynt ynddynt eu hunain yn feddiannol ar y fath gyfoeth o wirionedd, neu adnabyddiaeth o hono, fel ag i'w dyrchafu uwchlaw y possiblrwydd o gamsyniad. A hyd yn oed gyda'u hysbrydoliaeth, nid oedd eu meddyliau yn cynnwys yr oll o'r gwirionedd. Ond am Iesu Grist, efe oedd "y gwirionedd:" yr oedd ganddo adnabyddiaeth ddwyfol o'r gwirionedd. Yr oedd yn anmhossibl iddo fod yn gelwyddog. Y mae pob peth a berthyn iddo yn wirionedd, mewn gwrthgyferbyniad i gelwydd, geudeb, a chysgod. Mae y gwirionedd uchaf yn ei holl eangder wedi ei ddadguddio ynddo a thrwyddo. Mae yn wirionedd yn ei holl swyddau, y rhai a gyflawnir ganddo hyd berffeithrwydd; yn wirionedd yn ei holl raniadau, y rhai oll a wiriwyd ganddo; ac ynddo ef y mae holl addewidion Duw yn ïe ac yn amen: cânt eu cyflawni trwyddo ef, a hyny hyd berffeithrwydd.

**GWISG—OEDD** [*gw—isg*]. Y mae llawer iawn o dywyllwch ac ammheuaeth yn aros mewn perthynas i wisgoedd yr hen Hebreaid. Y mae cofgolofnau ac arian bathol yn cyfleu pob hysbysrwydd angenrheidiol mewn perthynas i wisgoedd yr hen Aiphtiaid, Babiloniaid, Persiaid, Groegiaid, a Rhufeiniaid; ac y mae hyd yn oed rhai o wisgoedd cenhedloedd barbaraidd i'w canfod ar gofgolofnau eu gwrthwynebwyr a'u goresgynwyr. Ond nid yw yr Hebreaid wedi gadael un rhyw gofgolofnau nac arluniau o honynt eu hunain; ac y mae yr ychydig arluniau y tybir eu bod yn arddangos Iuddewon, y rhai a geir ar gofgolofnau yr Aipht a Phersia, mor ansicr, fel y

Digitized by Google

mae yn angenrheidiol cael profion cadarnach o'u hawdurdod cyn y gellir dibynu ar yr hysbysrwydd a drosglwyddant. Pa fodd bynag, y mae llawer o gyfeiriadau at wisgoedd yn yr Ysgrythyrau: a'r rhai hyn yw unig adnoddau gwybodaeth sicr ar y pwngc. Y mae yn wir fod cryn lawer o aneglurder o gylch yr enwau a'r ymadroddion a arferir; ond y maent yn ammhrisiadwy fel cynnorthwyon i gymmharu a chadarnhau yr hysbysrwydd a geir o leoedd eraill. Y cyfryngau mwyaf uniongyrchol, ar wahân oddi wrth ymadroddion y Beibl, yw y rhai canlynol:—Gwisgoedd cenhedloedd cymmydogaethol i'r Hebreaid, fel y dangosir hwynt ar eu cofgolofnau. Y gwisgiadau a briodolir i'r Iuddewon, ac a ddangosir ar yr un cofgolofnau. Gwisgoedd presennol Syria ac Arabia; a thraddodiad.

Yn y lle cyntaf, cyfyng iawn yw cylch y wybodaeth a geir oddi wrth gofgolofnau. Camsyniad yw sôn am "wisgoedd dwyreiniol," fel pe buasent oll yn gyffelyb o ran ffurf; pan mewn gwirionedd y mae gwisgoedd cenhedloedd Asia mor wahanol i'w gilydd ag ydyw gwisgoedd gwahanol genhedloedd Ewrop. Felly yr oedd gynt, fel y gwelir yn eglur oddi wrth gofgolofnau; lle y dangosir fod gwisgoedd yr Aiphtiaid, y Babiloniaid, y Persiaid, y Mediaid, y Syriaid, a'r Groegiaid, mor wahanol i'w gilydd ag ydyw gwisgoedd y Syriaid, yr Aiphtiaid, yr Arabiaid, y Tyrciaid, a'r Persiaid, y dyddiau hyn. Felly, ofer fyddai disgwyl unrhyw hysbysrwydd cywir ynghylch gwisgoedd yr Hebreaid oddi wrth gofgolofnau unrhyw genedl bell o Palestina. Syria, Arabia, a'r Aipht, ydynt yr unig wledydd ag y buasai yn werth gwneuthur ymchwiliad i'w cofgolofnau gyda'r amcan hwn. Ond nid yw Arabia wedi gadael unrhyw arluniau o'r fath, ac nid oes gan Syria rai digon hen. Felly, yr Aipht yw yr unig le y mae rhyw gymmaint o wybodaeth ar hyn i'w gael o honi. Ond byddai yn fuddiol cofio yma etto fod yr Aiphtiaid a'r Hebreaid yn bobl dra gwahanol yn mhob ystyr; a bod yr hinsoddau yn mha rai y preswylient mor wahanol fel ag i beri gwahaniaeth mwy yn eu hymborth a'u *dillad* nag a fuasid yn tybied wrth ystyried eu hagosrwydd at eu gilydd. Y mae yr ystyriaeth hon yn dangos fod llawer llai o werth yn yr eglurhâd ar wisgoedd Hebreig a geir trwy gofgolofnau yr Aipht nag y mŷn llawer osod arno. Mae'n wir mai yn yr Aipht y magwyd y genedl Iuddewig; a gallasai hyn fod wedi dylanwadu rhyw gymmaint ar wisgoedd seremonïol ac addurniadau gwragedd: ond ni cheir fod cenhedloedd mewn amgylchiadau cyffelyb i'r rhai y bu y genedl Iuddewig ynddynt yn barod iawn i fabwysiadu gwisgoedd cenhedloedd eraill—yn enwedig gan eu bod yn wastad yn arfer edrych ar eu preswyliad yn yr Aipht fel un dros dymmor; a phan yr oedd eu gwisgoedd o wneuthuriad cartref—wedi eu nyddu a'u gwau gan y gwragedd o gynnyrch eu deadelloedd: *Exod.* xxxv. 25. Yn union wedi iddynt adael yr Aipht hefyd, yr ydym yn cael mai y brif ran o'u gwisg oedd dilledyn wedi ei wneyd o wlân, cymmhwys i gysgu ynddo (*Exod.* xxii. 27), yr hwn ni cheir dim tebyg iddo yn mhlith gwisgoedd yr Aipht.

Drachefn, mewn perthynas i'r arluniau ar y cofgolofnau, y rhai y tybir eu bod yn gosod allan wisgoedd Iuddewig, pe ceid cymmaint ag un enghraifft cywir, byddai yn dra gwerthfawr er taflu goleuni ar rai o ymadroddion aneglur y Beibl. Y cerfiadau a'r paent-luniau tybiedig yw y rhai canlynol:—

1af, Paentlun yn Beni Hassan, yn gosod allan ddyfodiad rhyw ddieithriaid i'r Aipht; yr hwn y tybir ei fod yn ddarlun o frodyr Joseph yn cyrhaedd y wlad hono. Y mae y darlun canlynol yn dangos y gwahanol wisgoedd a welir ar y



Dar. 239.

paentlun. Y mae y ddau ŵr pwysicaf, sef rhif 2, 3, yn gwisgo hugan ddyblyg; y rhan uchaf o'r hon sydd wedi ei gwneuthur yn y fath fodd ag i fyned dros yr ysgwydd chwith, a than y fraich dde, gan adael yr ysgwydd dde yn noeth. Nid oes gan y gweision (rhif 1) ond gwisg fer, yn cyrhaedd o'r lwynau hyd ben y glin. Y maent oll yn gwisgo sandalau; ac y mae pob un o honynt yn farfog a phen-noeth. Y mae y rhidens, neu yr eddi, ar gŵr gwisg rhif 1, yn ffaith hynod wrth edrych arni yn ngoleuni gorchymyn Moses i bobl Israel "wneuthur iddynt eddi ar odre eu dillad;" *Num.* xv. 38. Y mae Syr J. G. Wilkinson yn nodi amryw resymau dros ammheu fod y rhai hyn yn cyfeirio at Iuddewon; a chwanega eraill nad yw yr anrhegion a ddwg y personau hyn i'w canlyn yn gyfryw ag y buasid yn eu disgwyl oddi wrth *Gen.* xliii. 11.

2il, Y mae yr eddi hyn yn llawer mwy yn ol fel y dangosir hwy mewn cerfiadau Aiphtaidd. Gwelir y cerfiadau mewn bedd a ddarganfyddwyd gan Belzoni, yn nyffryn Bab-el Melook, yn agos i Thebes. Y mae yno rai o wahanol genhedloedd a gymmerwyd yn gaethion; ac yn eu plith, bedwar darlun y tybir eu bod yn gosod allan Iuddewon. Tybir fod yr olygfa yn gofnod o fuddugoliaethau Pharaoh-Necho yn y rhyfel hwnw, pryd y gorchfygwyd yr Iuddewon yn


Dar. 240.

Megido, ac y lladdwyd Josïah eu brenin: 2 *Cron.* xxxv., xxxvi. Fe welir nad yw gwisgoedd y rhai hyn yn gwahaniaethu nemawr oddi wrth rhif 1 yn y darlun o'r blaen, oddi eithr yn hyd yr eddi; a chyn belled ag y mae hyn yn myned, y mae yn rheswm o blaid cywirdeb pob un. Y gwahaniaeth arall rhyngddynt yw y rhwymau o amgylch pen pob un yn y darlun olaf.

3ydd, Y mae ar wyneb craig yn Besitoon, ar derfyn Mediaidd yr hen Assyria, gerflun hynod, yn gosod allan nifer o gaethion rhyfel wedi eu cylymu ynghyd gerfydd eu gyddfau, yn cael eu dwyn o flaen y brenin buddugoliaethus, yr hwn sydd yn cyhoeddi eu dedfryd. Tybiai Syr R. K.

Digitized by Google

Porter fod y cerflun yn goffadwriaeth am orchfygiad y deg llwyth gan Salmanezer, brenin Asyria: 2 *Bren.* xvii. 6. Ond nid oes nemawr o bwys yn y rhesymau a ddwg efe yn mlaen o blaid y dybiaeth hon. Fe addefir yn awr fod y cerflun yn ddiweddarach nag y meddylid unwaith ei fod; a diau fod yr arluniau yn gosod allan bersonau o wahanol genhedloedd; canys y mae y gwisgoedd yn hirion a byrion bob yn ail. Ond y mae y



Dar. 241.

ffaith fod tebygolrwydd yn y dillad i wisgoedd hen a diweddar pobl Syria a Libanus, yn rhoddi lle cryf i gasglu fod y cerflun yn arddangos gwisgoedd cenhedloedd o'r tu gorllewinol i'r afon Euphrates; ac yn eu plith eiddo yr Iuddewon a'u cymmydogion agosaf. Nid oes un rheswm dros feddwl fod un gwahaniaeth pwysig rhwng gwisg yr Iuddewon a'r eiddo preswylwyr yr un wlad, a'r gwledydd nesaf atynt. Byddai yn ddymunol, gan hyny, ac yn gymmhorth i farnu yn well am yr arluniau y cyfeiriwyd atynt, pe buasai arluniau o Ganaaneaid, Phœniciaid, Syriaid, a Moabiaid, &c., wedi eu gwneuthur gan gelfyddwyr Aiphtaidd, y rhai oeddynt mor fanwl mewn gosod allan neillduolion cenhedloedd. Mae yn tudal. 217 o'r gyfrol gyntaf o'r gwaith hwn ddarlun o un a dybir yn filwr Canaaneaidd. Gan fod y wisg yn filwrol, nid yw yn hawdd ei chymmharu yn yr amgylchiad presennol; ond fe geir yndd' y nifer mwyaf o nodweddion gwisg filwrol yr Hebreaid. Pa fodd bynag, fe rydd y darlun canlynol ragor o



Dar. 242.

hysbysrwydd; canys y mae'n ymddangos ei fod yn gosod allan drigolion Syria a Libanus. Mae y prawf mewn perthynas i'r olaf o'r ddau berson (rhif 2) mor benderfynol ag y gellir disgwyl ei gael; o blegid nid yn unig y mae'r enw *Limanus* (mae yr *m* yn cael ei harfer yn aml yn lle y *b*) wrth y darlun, ond fe ddisgrifir y personau a wisgir yn y modd hwn fel trigolion gwlad fynyddig, ac yn cymmynu ffynidwydd er attal olwynion cerbydau y goresgynwyr Aiphtaidd. Mae y gwisgoedd yn debyg i'w gilydd, ac y mae'r tebygolrwydd hwn yn cryfhau y dyb nad oedd gwisg yr Iuddewon yn wahanol iawn; y mae yn debyg hefyd i wisg laes rhai o'r personau ar y darlun a gafwyd yn Besitoon. Mae y personau yn farfog, a sicrheir y capiau â phenrwym. Maent wedi eu dilladu â gwisg laes hyd y fferau, yr hon a rwymir o gylch y canol â gwregys; a chuddir yr ysgwyddau â manteil; yr hon, fe ymddengys, oedd mewn arferiad yn mhlith amryw o genhedloedd Asia. Dyna swm y wybodaeth a ellir gael ar y mater hwn oddi wrth gofluniau.

Mae y cyfan a ddysg traddodiad ar hyn i'w gael, 1af, Yn ngwisgoedd mynachod a phererinion, y rhai y gellir eu holrhain i adeg bell yn ol, a'r rhai a fwriadwyd fel efelychiad o'r dillad y tybid fod dysgyblion cyntaf ac apostolion yr Arglwydd Iesu yn eu gwisgo. 2il, Y wisg a briodolir yn gyffredinol gan arlunwyr i bersonau ysgrythyrol, ac a fwriadwyd i gynnwys gwisg oedd yr oes apostolaidd, a'r hon a ddisgrifir i fesur mawr yn unol â'r syniadau a gasglwyd am wisgoedd dwyreiniol yn ystod y croesgadau. Cyn y gellir barnu gwerth y gwisgoedd hyn, y mae yn angenrheidiol eu cymmharu, yn gyntaf, â'r ychydig a ddarluniwyd eisoes, ac wedi hyny â gwisgoedd diweddar Syria ac Arabia. Os gwneir hyn, mae yn ddigon tebyg y gwelir nad ydyw y gwisgoedd traddodiadol hyn mewn un modd yn adgofion gwael o wisgoedd yr Hebreaid; a bod y gwisgoedd a gyssyllta paentwyr â chymmeriadau ysgrythyrol yn llawer nes i'r nôd nag y buwyd yn ddiweddar yn arfer tybied.

Mae gwerth gwisgoedd dwyreiniol diweddar fel eglurhâd ar ymadroddion y Beibl yn cyfodi oddi ar y ffaith fod gwisgoedd y bobl, fel eu harferion, yn cael eu hystyried yr un, neu yn agos yr un, ag ydoedd yn yr hen amseroedd. Mae gwisgoedd y Tyrciaid yn neillduol, a chyfaddas iddynt hwy eu hunain, ac nid oes gyssylltiad rhyngddi a gwisgoedd cyndrigolion Asia Orllewinol. Mae gwisgoedd y Persiaid wedi eu cyfnewid hefyd bron o fewn cof rhai sydd yn fyw, a gwisg y Tartariaid llywodraethol wedi ei chymmeryd yn ei lle; ac felly y mae y wisg bresennol yn dra gwahanol i'r un a ddarlunid gan Syr Thomas Herbert, Chardin, Le Bruyn, Niebühr, a theithwyr ereill oeddynt yn byw yn yr eilfed ar bymtheg ar ddeunawfed ganrif. Ond etto, gyda'r eithriad o wisgoedd y Tyrciaid diweddar, a dillad rhai o breswylwyr gwledydd mynyddig, gellir dyweyd fod yr un wisg yn cael ei harfer yn holl wledydd Asia rhwng y Tigris a Môr y Canoldir; a thrwy Affrica Ogleddol, o'r afon Nile hyd Morocco a glanau y Senegal. Gwisg Arabaidd ydyw hon yn benaf, a gellir cyfrif am y ffaith ei bod wedi cael ei lledaenu gymmaint oddi wrth fuddugoliaethau mawrion yr Arabiaid dan deyrnasiad y Caliphiaid cyntaf; a thrwy yr Arabiaid—y genedl sydd wedi cyfnewid leiaf o'r holl genhedloedd hynafol, a bron yr unig un sydd wedi parhau fel cenedl er yr hen amseroedd—drwyddynt hwy y gellir profi hynafiaeth y wisg hon. Diau mai hon yw y wisg hynaf yn Asia Orllewinol; a thra y gellir trwy un gyfres brofion ei holrhain yn ol hyd amseroedd ysgrythyrol, fe ellir drwy gyfres arall o debygolion a chyfattebiaethau cryfion a boddhaol ei holrhain yn ol i gyfnodau boreuaf yr hanes ysgrythyrol; ac fe awgryma hyn fod gwisgoedd yr Iuddewon yn bur debyg, er nad yn gwbl yr un peth. Buasai yn orchwyl hyfryd i ddilyn y profion a'r cyfattebiaethau hyn, ond y cyfan a allwn wneyd yma fydd sylwi (1.) Fod arferion yr Arabiaid yn Syria a Phalestina yn debycach i wisgoedd yr Ysgrythyrau nag eiddo unrhyw rai o drigolion ereill y gwledydd hyny. (2.) Fod eu gwisg yn taflu mwy o oleuni ar ymadroddion yr Ysgrythyr nag un arall sydd mewn bod yn awr, ac yn fwy cysson nag un arall â'r hysbysrwydd a geir trwy hen gofgolofnau a thraddodiad. (3.) Nad oedd y gwisgoedd a arferid o flaen y wisg Arabaidd yn Syria a Phalestina ddim yr un a'r rhai a arferid

yn yr amseroedd ysgrythyrol; oddi eithr, fe allai, yn mhlith y bobl gyffredin, gwisg y rhai nid oedd y pryd hwnw, mae yn ymddangos, nemawr yn wahanol i wisg y buddugoliaethwyr Arabaidd. Yr oedd yr Iuddewon er's dros bum canrif wedi peidio a bod yn breswylwyr Palestina; ac y mae yn sicr fod gwisg y mawrion—y milwyr, a thrigolion y trefydd—wedi myned yn dra thebyg i wisgoedd Groegiaid yr ymherodraeth ddwyreiniol. Ond nid oedd Arabia, yn ystod yr un amser, wedi bod dan unrhyw ddylanwad o'r fath; a gellir edrych ar y wisg a ddygwyd o honi i Syria fel adferiad y wisg hynafol, yn hytrach nag fel dygiad i mewn wisg oedd o'r blaen yn gwbl anadnabyddus, megys y bu mewn llawer o wledydd ereill. Ond fe ddylid sylwi fod dwy wisg wahanol iawn mewn arfer yn mhlith yr Arabiaid. Un ydyw gwisg llwythau Bedouinaidd yr anialwch, a'r llall yw gwisg preswylwyr y trefydd; ac y mae cadw golwg ar y gwahaniaeth sydd rhyngddynt o'r pwys mwyaf er cael yr eglurhad a roddant ar ymadroddion y Beibl mewn perthynas i wisgoedd. Gan hyny, pe byddai ein syniadau am wisgoedd yr Hebreaid yn sylfaenedig ar wisgoedd presennol yr Arabiaid, fe'n tueddid i benderfynu fod gwisg yr anialwch yn arddangosiad o'r hon a wisgid yn oes y patriarchiaid, ac am beth amser wedi i'r Israeliaid ymsefydlu yn Ngwlad Canaan; a bod gwisg y trefwyr yn gosod allan yr un a fabwysiadwyd ganddynt oddi wrth eu cymmydogion, wedi iddynt ddyfod yn genedl sefydlog.

Fe eglurir hyn yn mhellach yn y darluniau a roddir ar y tudalenau canlynol. Mewn trefn i ffurfio dirnadaeth eglur am wisgoedd, fel y sonir am danynt yn y Beibl, bydd yn angenrheidiol i ni sylwi ar y neillduolion a ganlyn: sef, defnyddiau; lliw, ac addurn; enw, ffurf, a dull o wisgo; ac arferion pennodol yn dal perthynas â hwynt.

1. Yr oedd *defnyddiau* gwisgoedd gynt yn bur amrywiol, a lliosogent fel yr oedd diwylliant yn cynnyddu. Gwneid y wisg symlaf a boreuaf o ddail pren, cyfran o ba rai oedd wedi eu pwytho ynghyd yn y fath fodd ag i ffurfio arffedog: *Gen.* iii. 7. Byddai Iuddewon meudwyol yn arfer yr un defnyddiau mewn amseroedd diweddarach. Ar ol y cwymp, cafwyd fod crwyn anifeiliaid yn ddefnydd mwy parhaol (*Gen.* iii. 21); yr hyn oedd gyfaddas i sefyllfa anniwylliedig cymdeithas, ac yn cael ei arfer gan amryw genedloedd hynafol. Nid aeth crwyn allan o arferiad yn llwyr mewn amseroedd diweddarach: ymddengys mai croen dafad, neu ryw greadur arall, gyda'r gwlân wedi ei adael arno, ydoedd yr *addereth* a wisgai Elias. Yn y Beibl Cymraeg, fe gyfieithir y gair yn "fantell" yn 1 *Bren.* xix. 13, 19, a 2 *Bren.* ii. 13; "cochl" yn *Gen.* xxv. 25; a "chrys" yn *Zech.* xiii. 4. Yr un defnydd a olygir yn 2 *Bren.* i. 8, yn yr ymadrodd "gŵr blewog," er y gellir deall y geiriau hyn am flew y prophwyd. Ystyrid y wisg hon yn nodweddiadol o swydd prophwyd, o blegid gwaelder ei gwedd: *Zech.* xiii. 4; *Mat.* vii. 15. Mae croen dafad yn parhau hyd heddyw yn rhan o wisgoedd arferol y dwyrain. Yr oedd y "frenhin-wisg" (*addereth*) a wisgai brenin Ninefeh (*Ionah* iii. 6), a'r "fantell Babilonig deg" a gafwyd yn Ai (*Ios.* vii. 21), o nodwedd wahanol:—naill ai gwisgoedd wedi eu hymylu â mânflew gwerthfawr, neu ynte y crwyn eu hunain wedi eu haddurno â gwaith edeu a nodwydd. Yr oedd y gelfyddyd o wau blew yn adnabyddus i'r Hebreaid yn foreu iawn: *Exod.* xxvi. 7; xxxv. 6. Dyma ddefnydd y sachlian a wisgai galarwyr, a thybia llawer mai dyma hefyd ydoedd *addereth* y prophwydi. Yr oedd dillad Ioan Fedyddiwr o flew camel (*Mat.* iii. 4), ac yr oedd defnydd cyffelyb mewn arfer cyffredin yn mhlith tlodion yr oes hono. Ni wyddys yn sicr pa bryd y daeth gwlân, a gweadau celfyddydol ereill, megys cotwm a llin, i adnabyddiaeth gyntaf. Tybir fod y blaenaf o'r rhai hyn yn hysbys yn bur foreu, gan fod deadelloedd teuluoedd bugeiliol yn cael eu cadw mewn rhan er mwyn eu gwlân: *Gen.* xxxviii. 12. Gwneid defnydd helaeth o hono bob amser, yn enwedig mewn gwisgoedd allanol: *Lef.* xiii. 47; *Deut.* xxii. 11; *Esa.* xxxiv. 3; *Iob* xxxi. 20; *Diar.* xxvii. 26; xxxi. 13. Mae yn ymddangos fod y gair Heb., *cetoneth*, a gyfieithir "pais" yn *Gen.* iii. 21, a "siaced" yn *pen.* xxxvii. 3, 23, yn dangos eu bod yn yr oes foreu hono yn gydnabyddus â defnyddiau meinwych; canys fe ymddengys fod y gair hwn, er yn arwyddo math neillduol o wisg, yn cyfeirio gynt at y defnydd a arferid; a chymmhwysid ef gan yr Iuddewon ar ol hyny at lin. Pa fodd bynag, nis gellir penderfynu dim oddi wrth yr arfer a wneid o'r gair. Diau fod cymmhwysiad cyffredinol yn cael ei roddi iddo, ond heb un cyfeiriad at y defnydd: *Gen.* iii. 21. Mae yn debyg mai tuag adeg y caethiwed yn yr Aipht y daeth yr Iuddewon yn gydnabyddus â gweithio llin, a gwlân hefyd, fe allai: 1 *Cron.* iv. 21. Wedi iddynt ddychwelyd i Palestina, yr ydym yn cael crybwyllion mynych am lian: gelwid y peth meinaf o hono, *shesh*—gair o darddiad Aiphtaidd, yn arwyddo y lle o ba un y cafwyd y defnydd: cymmhwysid y gair *chûr* hefyd ato ar gyfrif ei ymddangosiad disglaer: *Esa.* xix. 9; *Esther* i. 6; viii. 15. Hwn ydoedd y "llian main" a grybwyllir yn *Luc* xvi. 19; a *Dad.* xviii. 12, 16. Defnyddid ef yn ngwisgoedd yr archoffeiriad (*Exod.* xxviii. 5, &c.), yn gystal a chan y cyfoethog: *Gen.* xli. 42; *Diar.* xxxi. 22; *Luc* xvi. 19. Gelwid math arall, rhatach, yn *bad;* a defnyddid ef mewn rhai rhanau o wisg yr archoffeiriad: *Exod.* xxviii. 42; *Lef.* xvi. 4, 23, 32: ac yn ephod Samuel, ac ephod Dafydd: 1 *Sam.* ii. 18; 2 *Sam.* vi. 14. Mae yn deilwng o sylw, pan gofir ei ansawdd a'i ymddangosiad, mai mewn gwisgoedd o'r defnydd hwn y darlunir angylion yn y Beibl: *Ezec.* ix. 3, 11; x. 2, 6, 7; *Dan.* x. 5; xii. 6; *Dad.* xv. 6. Yr oedd math o lian brasach yn cael ei arfer gan y bobl dlotaf: *Eccles.* xl. 4. [Gwel LLIAN.] Mae y gair Hebraeg, *sadin*, yn gosod allan fath o lian hynod fain, yr hwn oedd yn neillduol addas i'w wisgo yn yr haf. Mae yn annichonadwy gwybod pa beth oedd y gwahaniaeth rhwng y *shesh* a'r *sadin:* *Diar.* xxxi. 22, 24. Y tebygolrwydd yw, fod yr enw diweddaf wedi cael ei drosglwyddo oddi wrth y defnydd at fath neillduol o wisg. Ni ddygwyd sidan i'r golwg hyd yn llawer diweddarach: *Dad.* xviii. 12. Mae y gair *meshi*, a gyfieithir "sidan," yn *Ezec.* xvi. 10, o ystyr ammheus. Gwaherddid arfer defnydd cymmysg, megys gwlân a llin (*Lef.* xix. 19; *Deut.* xxii. 11); a hyny, medd Josephus, am fod y cyfryw yn cael ei gadw yn neillduedig i offeiriaid; neu yn ol Spencer [*Leg. Heb. Rit.*, ii. 32], am fod hyn yn arfer gyffredin yn mhlith eilunaddolwyr. Ond y mae yn fwy tebyg mai yr amcan mewn golwg oedd gwasgu ar feddyliau yr Hebreaid y syniad cyffredinol o burdeb a symlrwydd.

2. *Lliw ac addurn.* Prif liw y gwisgoedd Hebreig oedd gwyn naturiol y defnyddiau, yr hwn y gellir ei wneud yn hynod ddisglaer trwy

gelfyddyd y panwr: *Marc* ix. 3. Y mae rhai o'r geiriau a gymmhwysir at y defnyddiau hyn yn gyssylltiedig â geiriau yn arwyddo gwyndra, tra y mae llawer o'r ymadroddion a arferir am wisgoedd yn cyfeirio yn arbenig at y lliw hwn: *Iob* xxxviii. 14; *Salm* civ. 1, 2; *Esa.* lxiii. 3. Ystyrid gwyn yn hynod briodol ar wleddoedd (*Preg.* ix. 8), yn gystal ag fel arwydd o burdeb: *Dad.* iii. 4, 5; iv. 4; vii. 9, 13. Mae yn ansicr pa bryd y daeth y gelfyddyd o liwio yn adnabyddus i'r Hebreaid. Mae y *cetoneth passim* a wisgai Ioseph, yr hon a elwir yn "siaced fraith" yn y cyfieithiad Cymraeg (*Gen.* xxxvii. 3, 23), yn cael ei hystyried gan rai fel dilledyn amryliw; ond y mae ereill yn edrych arni fel hugan â llewys iddi, ac yn cyrhaedd hyd y fferau, megys yn nghyfieithiadau Acquila, a Symmachus, ac yn y *Vulgate* (2 *Sam.* xiii. 18); ac fel hyn disgrifir hi gan Iosephus. Mae yn ddigon tebyg mai yr olaf yw yr ystyr cywir; ac os felly, nid oes genym un prawf fod gwisgoedd amryliw yn cael eu harfer cyn preswyliad yr Israeliaid yn yr Aipht, er fod y crybwylliad am "edau goch" (*Gen.* xxxviii. 28) yn dangos rhyw gydnabyddiaeth â lliwio; ac y mae yn debyg fod y "gorchudd" neu yr hafwisg ysgafn oedd am Rebeccah a Tamar (*Gen.* xxiv. 65; xxxviii. 14, 19) o nodwedd addurniadol. Yr oedd yr Aiphtiaid wedi cyrhaedd i radd uchel o berffeithrwydd yn y gelfyddyd o wau ac addurno, ac fe ddysgodd yr Hebreaid oddi wrthynt hwy amryw ddulliau o ddefnyddiau addurnedig. Eu dulliau o addurno oeddynt—(1.) Gwau âg edafedd wedi ei liwio eisoes: *Exod.* xxxv. 25. (2.) Cydblethiad gwifr neu edafedd aur â'r edafedd ereill: *Exod.* xxviii. 6, &c. (3.) Gosodiad arluniau, o anifeiliaid mae yn debyg, a golygfeydd helwriaethol a rhyfelgar, mewn gwisgoedd, yr un modd ag yr oedd y cerubiaid yn cael eu gosod allan yn lleni y tabernacl: *Exod.* xxvi. 1, 31; xxxvi. 8, 35. Gallasai y lluniau hyn fod wedi eu gwau i mewn i'r defnyddiau, neu ynte wedi eu tori allan o ddefnyddiau ereill, a'u pwytho drachefn ar y wisg angenrheidiol: yn ol y dull cyntaf, nid ymddangosai y darlun ond ar un tu; ond yn ol y dull olaf, gellid ei amrywio fel y mynid. Hyn, yn ol yr ysgrifenwyr Talmudaidd, yw y gwahaniaeth rhwng cywreinwaith a gwnïadwaith. Yr oedd gwisgoedd wedi eu haddurno âg aur (*Salm* xlv. 13), ac mewn amseroedd diweddarach âg edafedd arian, yn cael eu gwisgo gan bersonau o deuluoedd brenhinol. Yr oedd mathau ereill o ddillad addurnedig yn cael eu gwisgo gan bobl gyfoethog Tyrus (*Ezec.* xvi. 13), a Phalestina: *Barn.* v. 30; *Salm* xlv. 14. Nid ymddengys fod yr Hebreaid wedi cynnal i fyny y gelfyddyd; ond yr oedd y Babiloniaid a chenhedloedd dwyreiniol ereill, yn gystal a'r Aiphtiaid, yn rhagori ynddi: *Ios.* vii. 21; *Ezec.* xxvii. 7, 24. Nid yw yn ymddangos chwaith fod y gelfyddyd o liwio yn cael ei dilyn yn Palestina: yr oedd gwisgoedd lliwiedig yn cael eu cludo o wledydd tramor (*Zeph.* i. 8), yn enwedig o Phœnicia, ac nid arferid llawer arnynt o blegid eu bod yn rhy gostus. Byddai porphor ac ysgarlad yn cael eu gwisgo yn achlysurol gan y cyfoethogion: 2 *Sam.* i. 24; *Diar.* xxxi. 22; *Luc* xvi. 19. Yr oedd y cenhedloedd amgylchynol yn fwy gwastraffus yn yr arfer o honynt: mae y Tyriaid cyfoethog (*Ezec.* xxvii. 7), brenhinoedd Midian (*Barn.* viii. 26), y pendefigion Assyriaidd (*Ezec.* xxiii. 6), a'r swyddogion Persiaidd (*Esther* viii. 15), yn cael eu gosod allan fel yn gwisgo porphor. Yr oedd lliw cyffredin gwisg y Persiaid yn fwy disglaer na lliw gwisg yr Iuddewon. O blegid hyn y mae Ezeciel (*pen.* xxiii. 12) yn dysgrifio yr Assyriaid fel "wedi eu gwisgo yn wych iawn;" neu yn ol cyfieithiad llythyrenol, "wedi eu gwisgo mewn perffeithrwydd:" neu yn ol y Deg a Thrigain, "mewn gwisgoedd gydag ymylon hardd."

3. Yr enwau, y ffurfiau, a'r dull o wisgo y dillad. Mae yn orchwyl anhawdd rhoddi hanes boddhaol am y gwahanol ranau o wisgoedd a grybwyllir yn y Beibl. Y mae y sylwadau gan mwyaf yn ddamweiniol, ac yn dal perthynas â chyfnod hirfaith o amser, yn ystod pa un y rhaid fod y dulliau o wisgo wedi cyfnewid yn aml, tra nad ydyw adnoddau ereill gwybodaeth, megys cerfluniau, paentluniau, neu gofnodau cyfoesol, ond prin iawn, fel y dangoswyd eisoes. Mae nodweddion cyffredinol y gwisgoedd dwyreiniol wedi parhau yn hynod unffurf drwy yr holl oesoedd. Y mae yr Arab diweddar yn gwisgo yn dra thebyg i'r Hebrëwr gynt; y mae yr un gwisgoedd chwyfiol, yr un gwahaniaeth rhwng y dillad mewnol ac allanol—y rhai cyntaf yn drymion a chynhes, a'r olaf yn ysgeifn a chyfaddas i gyfnewidiadau cyflym ac angerddol y gwledydd hyny—yn parhau o hyd; a gellir gweled yr un rhagoriaeth hefyd rhwng gwisgoedd y tlawd a'r cyfoethog yn awr a chynt. Yr oedd gwisgoedd meibion a merched yn bur debyg; ond yr oedd digon o wahaniaeth rhyngddynt i ddangos y rhyw, a gwaherddid yn bendant i wragedd gludo y ffon, y sel-fodrwy, ac addurniadau cyffelyb, na chwaith arfau dynion, yn ol fel y dywed Josephus [*Ant.*, iv. 8, adr. 43]; a gommeddid i ddyn hefyd wisgo dillad nesaf allan gwraig: *Deut.* xxii. 5. Y rheswm am y gwaharddiad hwn, medd Maimonides [*Mor. Neboch.*, iii. 37], ydoedd, am fod hyn yn arferiad yn mhlith eilunaddolwyr; ond tebycach ydyw fod y gwaharddiad wedi ei roddi er mwyn dysgu ac argraphu ar eu meddyliau yr egwyddor o weddeidd-dra a phriodoldeb. Gan y traethwn ar wisgoedd neillduol gwragedd dan y gair GWRAIG, ni a basiwn heibio iddynt yn awr, ac a sylwn ar y dillad hyny a wisgai y ddeuryw fel eu gilydd.

(1.) Y *cetoneth* oedd y rhan fwyaf hanfodol o'r wisg. Dilledyn yn gwasgu yn agos at y corff ydoedd, yn lled debyg ei ffurf i grys yn ein plith ni. Ei ddefnydd ydoedd naill ai gwlân, cotwm, neu lian. Gellir casglu fod y *cetoneth*, neu y crys cyffredin, wedi ei wneud o ddau ddarn wedi eu pwytho ynghyd erbyn eu hymylon. Felly yr oedd y *chitôn arrathos* (a gyfieithir "pais" yn *Ioan* xix. 23), yr hon a wisgai yr Arglwydd Iesu, naill ai yn un anghyffredin; neu ynte yr hugan uchaf, neu y *meil* ydoedd. Yr oedd y *cetoneth* ar y cyntaf heb lewys, ac ni chyrhaeddai yn is na phen y glin; ac fe ddichon hefyd ei bod, fel y *chitôn* Doraidd, yn agored yn y parthau isaf o'r ystlysau, fel ag i ddynoethi cluniau person a gerddai yn gyflym: 2 *Sam.* vi. 20. Yr oedd math arall, yr hon y gellir ei chymmharu â'r *chitôn* Ioniaidd, yn cyrhaedd hyd yr arddyrnau a'r fferau: mae yn debyg mai un fel hyn oedd y dilledyn a wisgai Ioseph (*Gen.* xxxvii. 3, 23), a Tamar (2 *Sam.* xiii. 18), ac a wisgid gan yr offeiriaid. Yr oedd yn mhob un o'r amgylchiadau hyn yn cael ei gwasgu at y corff gan wregys [GWREGYS]; a thrwy blygiad y wisg, byddid yn ffurfio math o logell yn yr hon y gellid cludo llythyr neu rywbeth bychan arall [*Joseph. Ant.*, xvii. 5. adr. 7]. Yr oedd person a wisgai y *cetoneth* yn unig yn cael ei ddarlunio fel yn "noeth;" yr hyn sydd yn gyfystyr â'r

Digitized by Google

ymadrodd "wedi tynu oddi am dano," a arferir yn ein plith ni am un yn ymddiosg i fyned i'w wely, er na bydd wedi tynu ei holl ddillad ymaith. Felly y dywedir am Saul, wedi iddo gymmeryd ymaith ei wisg (1 *Sam.* xix. 24); ac am Esaiah, wedi iddo ddiosg ei sachlian, yr hyn a wisgid yn gyffredin dros yr hugan, a dim ond ar achlysuron arbenig yn nesaf at y croen (*Esa.* xx. 2, cymmharer *Jon.* iii. 6; 2 *Bren.* vi. 30); am filwr wedi iddo ymddiosg o'i fantell filwrol; ac am Pedr pan heb ei wisg bysgota: *Ioan* xxi. 7. Arferir yr un ymadrodd mewn lleoedd eraill am rai wedi eu gwisgo yn dlodaidd: *Job* xxii. 6; *Esa.* lviii. 7; *Iago* ii. 15.

Fe rydd y darlun canlynol ryw syniad am ddilledyn symlaf y dwyrain; sef, crys hirlaes a rhydd, neu *cetoneth*, heb wregys, yn cyrhaedd i lawr hyd y fferau, ac yn cuddio y breichiau hyd y garddyrnau.



Dar. 243.

(2.) Y *sadin*. Ymddengys mai math o oblygwisg o lian main oedd hon, ac y gellid ei harfer mewn amryw ffyrdd, ond yn enwedig fel crys nos: *Marc* xiv. 51. Cyfieithir y gair Hebraeg yn "napcyn" yn *Luc* xix. 20; ac yn "dywel" yn *Ioan* xiii. 4. Crybwyllir am y defnydd neu y wisg yn *Barn.* xiv. 12, 13 ("llen-llieiniau," neu grysau); *Diar.* xxxi. 24: ac *Esa.* iii. 23. Ond nid oes dim yn un o'r lleoedd hyn a rydd fodd i benderfynu beth yw gwir ystyr y gair.

(3.) Y *meil;* yr hon oedd ail hugan. Yr unig wahaniaeth rhyngddi a'r gyntaf, neu y *cetoneth*, oedd ei bod yn llaesach. Fel dilledyn cyffredin, gwisgid hi gan frenhinoedd, prophwydi, pendefigion, a phlant: 1 *Sam.* ii. 19; xxiv. 4; xxviii. 14; *Job* i. 20. Er hyny, y mae yn ammheus a ydyw y gair yn cael ei arfer yn ei ystyr pennodol yn yr ymadroddion hyn; ac nid yn hytrach yn ei ystyr ëang, am unrhyw ddilledyn a ddigwyddai gael ei wisgo dros y *cetoneth*. Mae y Deg a Thrigain yn cyfieithu y gair weithiau *ependeutês*= "mantell" (1 *Sam.* xviii. 4; 2 *Sam.* xiii. 18)—gair yn golygu gwisg uchaf, ac yn cael ei arfer yn bennodol yn *Ioan* xxi. 7, am y gôb lian a wisgai pysgotwyr Phœniciaidd a Syriaidd. Bryd arall, cyfieithir ef *diplois* (1 *Sam.* ii. 19; xv. 27; xxiv. 4, 11; xxviii. 14; *Job* xxix. 14)—gair yn arwyddo clôg, neu fantell ddyblyg: *himatia* (*Job* i. 20): *stólê* (1 *Cron.* xv. 27; *Job* ii. 12): a *hupodutês* (*Exod.* xxxix. 21; *Lef.* viii. 7): yr hyn a ddengys ei bod yn cael ei hystyried yn gyffredinol fel gwisg uchaf. Ymddengys hyn yn mhellach oddi wrth yr ymadroddion hyny lle y gwneir sylw o honi. Y "fantell" a gymmerai Jonathan gyntaf oddi am dano ydyw, yn 1 *Sam.* xviii. 4: y "fantell" oedd am Samuel ydyw, yn 1 *Sam.* xxviii. 14: y "fantell" y rhwygwyd ei chŵr ydyw, yn 1 *Sam.* xv. 27 (cymmh. 1 *Bren.* xi. 30, lle y gwneir yn gyffelyb â'r *simlah*—gwisg y cawn ei disgrifio etto): y "fantell" y cysgai Saul dani ydyw, yn 1 *Sam.* xxiv. 4 (yn gyffredin, y wisg a elwid *beged*, fyddai yn cael ei harfer i'r dyben hwnw): a'r "fantell" a rwygir ydyw, yn *Job* i. 20; ii. 12: cymmharer *Ezra* ix. 3, 5. Mae yn amlwg ei bod yn cael ei gosod allan yn y lleoedd uchod fel gwisg allanol, pa un bynag ai y *simlah*, neu y *meil* yn cael ei harfer fel *simlah* ydoedd. Pan grybwyllir am ddwy hugan (*Luc* iii. 11) fel yn cael eu gwisgo yr un amser, *meil* fyddai yr ail. Byddai teithwyr yn gyffredin yn gwisgo dwy; ond gwaharddwyd i'r dysgyblion wneuthur hyny: *Mat.* x. 10; *Luc* ix. 3.

Yn y darlun canlynol, dangosir nifer o bersonau wedi ymwisgo ar gyfer taith. Y mae y dull yn mha un y mae'r wisg wedi ei rhwymo o gylch y canol yn galw i gof yr ymadroddion ysgrythyrol hyny, yn y rhai y crybwyllir am y weithred o "wregysu y lwynau" pan ar fyned i daith. Fe ganfyddir hefyd fod teithwyr yn gyffredin yn dwyn cleddyfau i'w canlyn; a dangosir y dull yn mha un y gwisgid hwy. Ymddengys y byddai yr Iuddewon yn gwisgo cleddyfau yn achlysurol: *Mat.* xxvi. 51; *Luc* xxii. 36.



Dar. 244.

Mae y darlun a ganlyn yn gosod allan, yn rhif 2, un o Arabiaid yr anialwch, mewn dillad a wisgir yn gyffredin yn Asia; ac yn rhif 1, fe ddangosir trefwr mewn gwisg gyffelyb, wedi ei mabwysiadu oddi wrth yr Arabiaid, yr hon a arferir fel gwisg nesaf allan yn yr holl wledydd, o'r afon Oxus yn nghanolbarth Asia, hyd Fôr y Canoldir. Ond y mae'r benwisg yn perthyn yn neillduol i Arabiaid yr anialwch; ac ni fabwysiadwyd hi gan un genedl arall, nac hyd yn oed gan breswylwyr y trefydd Arabaidd. Y mae gan y llwythau Arabaidd, neu y Mooriaid, yn ngogledd Affrica, benwisg wahanol; yr hon a ddangosir yn rhif 3.

(4.) Yr oedd y wisg allanol gyffredin yn gynnwysedig o ddernyn ysgwâr o frethyn. Byddai y maint a'r defnydd yn amrywio yn ol sefyllfa y gwisgwr. Y geiriau Hebreig a arferir am y wisg hon yw y rhai canlynol:—*simlah*, yr hwn

fe ymddengys, oedd yn meddu yr ystyr eangaf, ac a arferid weithiau am ddillad yn gyffredinol (*Gen.* xxxv. 2; xxxviii. 34; *Exod.* iii. 22; xxii. 9; *Deut.* x. 18; *Esa.* iii. 7; iv. 1), er y ceir ef unwaith yn golygu yn bennodol fantell y milwr: *Esa.* ix. 5. *Beged:* yr hwn a arferid fynychaf i ddynodi gwisgoedd prydferth a defnyddiol: *Gen.* xxvii. 15; xli. 42; *Exod.* xxviii. 2; 1 *Bren.* xxii. 10; 2 *Cron.* xviii. 9; *Esa.* lxiii. 1. *Cesush:* yr hwn sydd briodol i'r ymadroddion lle y mae gorchudd neu amddiffyniad yn ymddangos fel y syniad penaf *Exod.* xxii. 26; *Iob* xxvi. 6; xxxi. 19.




Dar. 245.

Ac yn olaf, y gair *lebush*, yr hwn a arferid yn gyffredin mewn barddoniaeth, ond yn enwedig am fantell milwr (2 *Sam.* xx. 8), gwisgoedd offeiriadol (2 *Bren.* x. 22), a dillad brenhinol: *Esther* vi. 11; viii. 15. Y mae y gair arall cyfystyr, *malbush*, yn disgrifio yn bennodol deyrnwisg; pa un bynag ai yn y teulu brenhinol (1 *Bren.* x. 5; 2 *Cron.* ix. 4), neu ynte ar achlysuron crefyddol (2 *Bren.* x. 22) yr arferid hi. Arferir y gair mewn lleoedd ereill mewn ystyr cyffredinol am wisgoedd prydferth: *Iob* xxvii. 16; *Esa.* lxiii. 3; *Ezec.* xvi. 13; *Zeph.* i. 8. Y mae gair Hebraeg arall, *mad*—ynghyd â'r rhai a ddeilliant o hono, un o ba rai a gyfieithir *gwisgoedd* yn *Salm* cxxxiii. 2, ac un arall a gyfieithir *dillad* yn 2 *Sam.* x. 4, a 1 *Cron.* xix. 4—yn arwyddocaol o hyd y gwisgoedd Iuddewig (1 *Sam.* iv. 12; xviii. 4); a chymhwysir ef yn bennodol at fantell laes (*Barn.* iii. 16; 2 *Sam.* xx. 8), ac at wisg yr offeiriad: *Lef.* vi. 10. Mae y geiriau Groeg, *himation* a *stôlê* yn cyfleu y meddylddrych cyfattebol, a chymhwysir yr olaf at wisgoedd tra mawreddog: *Marc* xii. 38; xvi. 5; *Luc* xv. 22; xx. 46; *Dad.* vi. 11; vii. 9, 13. Gellid gwisgo y *beged* mewn amryw ddulliau; naill ai wedi ei phlygu o gwmpas y corff, neu ynte dros yr ysgwyddau fel gwarlen (*shawl*), gyda'r penau neu y godrau yn crogi i lawr o'r tu blaen; neu ynte, gellid ei daflu dros y pen yn y fath fodd ag i guddio y wyneb: 2 *Sam.* xv. 30; *Esther* vi. 12. Yr oedd y penau wedi eu haddurno âg eddi, a'u rhwymo â ruban las-goch: *Num.* xv. 38. Rhwymid hi wrth ganol y corff weithiau gan wregys; a thrwy blygiad y wisg, fe ffurfid math o logell, yn yr hon y gellid cludo amryw bethau: neu ynte, gellid ei harfer fel pwrs: 2 *Bren.* iv. 39; *Salm* lxxix. 12; *Hag.* ii. 12; *Diar.* xvii. 23; xxi. 14; *Esa.* lxv. 6, 7; *Ier.* xxxii. 18; *Luc* vi. 38.

Yn rhif 1 o'r darlun canlynol, fe ddangosir y dull o wisgo y dilledyn o amgylch y pen fel amddiffyniad rhag yr haul neu y gwynt; ac yn rhifyn 2, 3, fe welir dulliau ereill yn mha rai y gwisgid y dilledyn hwn.

Fe gyfeirir yn achlysurol yn y Beibl at wisgoedd cenedloedd estronol. Disgrifir gwisg y Persiaid yn *Dan.* iii. 21, mewn geiriau a ddeallir mewn gwahanol ffyrdd. Ychydig yw y cyfeiriadau at wisgoedd y Groegiaid a'r Rhufeiniaid. Enwir y *chlamus*—a gyfieithir *mantell* yn *Mat.* xxvii. 28—yr hon oedd yr un ag ysgwyddwisg (*scarf*) filwrol y milwyr Rhufeinig, neu ynte v




Dar. 246.

*chlamus* Roegaidd ei hun; yr hon oedd yr uchafwisg filwrol y dechreuwyd ei harfer dan yr ymher awdwr: gwisgid hiyn arbenig gan swyddogion. Mae y gochl deithio, a enwir gan Paul yn 2 *Tim.* iv. 13, yn cael ei hystyried yn gyffredin fel yr un a mantell farchogaeth y Rhufeiniaid. Ond y mae rhai yn egluro y gair i olygu cist at gludo dillad neu lyfrau pan yn teithio.

4. Y mae yr arferion pennodol sydd ynglŷn â gwisgoedd yn bwysig a lluosog, ac yn cyfodi yn benaf oddi wrth ffurf y dillad nesaf allan, a'r dull neillduol o'u gwisgo. Er esampl, gellid arfer y *beged* i lawer amcan heb law fel gwisg. Arferid hi weithiau i gludo baich, fel yr arferodd Ruth ei gwarlen (*Exod.* xii. 34; *Barn.* viii. 25; *Ruth* iii. 15; *Diar.* xxx. 4); neu i'w rhwymo o amgylch rhywbeth (1 *Sam.* xxi. 9); neu ynte fel cyfrwy am dro: *Mat.* xxi. 7. Ond ei gwasanaeth pwysicaf oedd fel cysgod yn y nos (*Exod.* xxii. 27; *Ruth* iii. 9; *Ezec.* xvi. 8); ac o blegid hyny, fe arferir y gair weithiau am ddillad gwely: 1 *Sam.* xix. 13; 1 *Bren.* i. 1. O blegid hyn, nid oedd wiw i ofynwr ei chadw yn wystl wedi machlud haul: *Exod.* xxii. 26; *Deut.* xxiv. 12, 13: cymharer *Iob* xxii. 6; xxiv. 7; *Amos* ii. 8. Mae yn ymddangos fod rhoddi dillad yn ngwystl yn arfer gyffredin iawn; yn gymmaint felly, fel y mae עבוט, *gwystl*, yn gyfystyr â gwisg: *Deut.* xxiv. 12, 13. Cyfeirir at bentwr o'r cyfryw wystlon yn *Hab.* ii. 6; "Y neb a lwytho arno ei hun wystlon:"—yr hyn, dybygid, ydyw ystyr y gair a gyfieithir yn y Deg a Thrigain a'r Vulgate "clai tew." Yr oedd yr arfer hon yn parhau yn nyddiau yr Arglwydd Iesu; yr hwn a orchymyn i'w ddysgyblion beidio gwisgo yr *himation*, yn mha un y cysgent, na'r *chitôn* chwaith: *Mat.* v. 40.

Yr oedd agwedd rydd a chwyfiol y gwisgoedd Hebrëig yn peri eu bod yn gyfleus i wneuthur amryw o arwyddion drwyddynt. Yr oedd eu rhwygo hwynt yn dangos gwahanol deimladau; megys galar (*Gen.* xxxvii. 29, 34; *Iob* i. 20; 2 *Sam.* i. 2); ofn (1 *Bren.* xxi. 27; 2 *Bren.* xxii. 11, 19); digofaint (2 *Bren.* v. 7; xi. 14; *Mat.* xxvi. 65); neu anobaith (*Barn.* xi. 34; *Esther*

Digitized by Google

iv. 1). Yn gyffredin, y wisg allanol yn unig a rwygid fel hyn (*Gen.* xxxvii. 34; *Iob* i. 20; ii. 12): yn achlysurol, fe wneid hyn â'r wisg fewnol (2 *Sam.* xv. 32), ac ambell waith â'r ddwy: *Ezra* ix. 3; *Mat.* xxvi. 65: cymh. *Marc* xiv. 63. Yr oedd ysgwyd y dillad, neu ysgwyd y llwch oddi arnynt, yn arwydd o ymwrthodiad (*Act.* xviii. 6): eu lledu o flaen un, yn golygu teyrngarwch a derbyniad llawen (2 *Bren.* ix. 13; *Mat.* xxi. 8): eu rhwymo o amgylch y pen, yn dangos dychryn (1 *Bren.* xix. 13): neu dristwch (2 *Sam.* xv. 30; *Esther* vi. 12; *Ier.* xiv. 3, 4): eu bwrw ymaith, yn gosod allan gyffro (*Act.* xxii. 23): ac ymaflyd ynddynt yn golygu ymbil neu weddi: 1 *Sam.* xv. 27; *Esa.* iii. 6; iv. 1; *Zech.* viii. 23.

Yr oedd llaesder y wisg yn peri ei bod yn anghyfleus i ysgogi yn fywiog ynddi. Gan hyny, yr oedd y gwisgoedd nesaf allan yn cael eu gadael yn y tŷ gan un fyddai yn gweithio ger llaw (*Mat.* xxiv. 18); neu yn cael eu tynu ymaith pan y byddai achlysur i hyny (*Marc* x. 50; *Ioan* xiii. 4; *Act.* vii. 58); neu ynte, oni ellid gwneuthur hyn, megys pan y byddai dyn yn teithio, gwregysid hwynt o gylch y lwynau: 1 *Bren.* xviii. 46; 2 *Bren.* iv. 29; ix. 1; 1 *Pedr* i. 13. Ar fynediad i dŷ, mae'n debyg fod y wisg uchaf yn cael ei diosg, a'i hadwisgo wrth fyned ymaith: *Act.* xii. 8. Pan y byddai un yn eistedd, yr oedd ei wisgoedd yn cuddio ei draed: golygid hyn yn weithred o barch [gwel sylw Lowth ar *Esa.* vi. 2]. Mae yn debyg mai llaesder y gwisgoedd a fu yn achlysur i'r ymadrodd diarebol yn 1 *Sam.* xxv. 22; 1 *Bren.* xiv. 10; xxi. 21; 2 *Bren.* ix. 8: yr hyn a barai fod arferiad arall yn fwy naturiol. Weithiau, deallir yr ymadrodd am y dosbarth isaf o'r bobl; a phryd arall, am y rhai ieuengaf. Yr oedd tori y gwisgoedd yn fyrion y sarhâd mwyaf a ellid ei fwrw ar Iuddew: 2 *Sam.* x. 4. Yr oedd codi godreu dillad gwraig yn sarhâd cyffelyb, gan ei fod yn arwydd o anniweirdeb: *Esa.* xlvii. 2; *Ier.* xiii. 22, 26; *Nah.* iii. 5.

Cyfeirir yn fynych at wisgiad ac ymddiosgiad dillad, a'r rhwyddineb gyda pha un y gwneid hyny. Y rhwyddineb hwn ydyw grym y gymmhariaeth yn *Salm* cii. 26, ac *Ier.* xliii. 2. Y mae y geiriau Hebreig am y weithred gyntaf, sef gwisgo, yn golygu *rhoddi ar* neu *guddio;* ac am ymddiosg, yn arwyddo, yn llythyrenol, *lledu:* yr hyn oedd yn effaith naturiol wrth gymmeryd ymaith wisg rydd a llydan. Y gair a arferir ynglŷn â gwisgoedd tynion ydyw *gwregysu;* yr hwn a gymmhwysir at yr ephod (1 *Sam.* ii. 18; 2 *Sam.*)vi. 14); ac at sachlian, yn 2 *Sam.* iii. 31; *Esa.* xxxii. 11; *Ier.* iv. 8. Gall yr arfer hwn o'r gair egluro yr ymadrodd yn *Gen.* iii. 7, lle y gelwir y dillad a wisgai ein rhieni cyntaf yn *arffedogau;* gan olygu, mae'n debyg, y cyfryw wisgoedd ag a ellid eu rhwymo o gylch y corff. Arferir y gair cyferbyniol yn *Salm.* xxx. 11; ac *Esa.* xx. 2; lle y mae yn golygu dattod, neu ddadrwymo.

Byddai gan yr Iuddewon gryn nifer o barau (*suits*) o ddillad. Yroedd un yn gynnwysedig o wisg isaf a gwisg uchaf. Yn yr hen amseroedd, fe ffurflai y parau dillad yma rai o'r anrhegion mwyaf defnyddiol yn mhlith y dwyreinwyr. Byddai pump (*Gen.* xlv. 22), ac hyd yn oed ddeg pâr (2 *Bren.* v. 5), yn cael eu cyflwyno fel hyn yn anrhegion; tra y cynnygid cynnifer a deg ar hugain fel cyngwystl: *Barn.* xiv. 12, 19. Yr arwydd uchaf o serch oedd cyflwyno y dilledyn a wisgai y rhoddwr: 1 *Sam.* xviii. 4. Yr oedd anrheg o wisg yn gyfystyr weithiau a gosodiad mewn swydd: *Gen* xli. 42; *Esther* viii. 15; *Esa.* xxii. 21. Ar y llaw arall, yr oedd ei chymmeryd ymaith yn gyfystyr â diswyddiad: 2 *Mac.* iv. 38. Yr oedd dygiad allan y wisg oreu yn arwydd o anrhydedd neillduol mewn teulu: *Luc* xv. 22. Yr oedd nifer y gwisgoedd a dderbynid neu a gedwid fel anrhegion yn bur fawr, ac yn ffurfio un o brif elfenau cyfoeth yn y dwyrain, nes yr oedd perchen dillad yn golygu yr un peth a bod yn oludog a galluog: *Iob* xxvii. 16; *Esa.* iii. 6, 7; *Mat.* vi. 19; *Iago* v. 2. Ar achlysuron mawreddog, byddai y croesawydd yn cynnyg gwisgoedd hardd i'w westeion. Felly yr oedd dilladfa yn angenrheidiol mewn tai mawrion, ac yr oedd hon dan ofal swyddog a elwid "ceidwad y gwisgoedd;" 2 *Cron.* xxxiv. 22; 2 *Bren.* x. 22. Yr oedd y gwisgoedd a gedwid erbyn achlysuron pennodol yn cael eu galw "newid dillad," am eu bod yn cael eu gosod o'r neilldu wedi i'r achlysur fyned heibio: *Zech.* iii. 4.

Gwyn oedd lliw cyffredin y gwisgoedd, fel y sylwasom eisoes. Gan hyny, yr oedd ysmotyn neu ystaen yn dangos ei hun yn bur fuan: *Esa.* lxiii. 3: *Iudas* 23; *Dad.* iii. 4. Cyfeirir yn *Lef.* xiii. 47, &c., at ysmotyn o liw gwyrdd neu goch fel arwydd o'r gwahanglwyf. Mae Jahn yn edrych ar hyn, nid fel effaith y gwahanglwyf, ond fel difrod math o drychfilyn; ond fe ddywed Schiling yn bennodol fod y gwahanglwyf yn ystaenio dillad. Yr oedd golchiadau mynych, a gwasanaeth celfyddyd y panwr yn angenrheidiol er cadw purdeb y gwisgoedd Hebreig. Gwel Panwr.

Yr oedd y gorchwyl o wneuthur dillad yn disgyn i ran y benywod mewn teulu: *Diar.* xxxi. 22; *Act.* ix. 39. Nid oedd ond ychydig o gelfyddyd y teiliwr yn angenrheidiol y pryd hwn. Yr oedd y dillad gan mwyaf yn barod i'w gwisgo allan o law y gwehydd. Felly, ychydig yw y cyfeiriadau ysgrythyrol at wnïo: byddai y gair Hebraeg a gyfieithir *gwnïo* (yn *Gen.* iii. 7; *Iob* xvi. 15; *Preg.* iii. 7; *Ezec.* xiii. 18) yn cael ei gymmhwyso gan yr Iuddewon mewn amseroedd diweddarach at drwsio yn hytrach nag at wneuthur dillad. Yr oedd yr Hebreaid yn agored i gyhuddiad o wastraff gyda'u dillad. Mae Esaiah yn cyfeirio mewn modd neillduol at ritedi gwisgoedd ac addurniadau gwragedd ei amser ef. Cyfeirir at yr un peth hefyd yn *Ier.* iv. 30; *Ezec.* xvi. 10; *Zeph.* i. 8; ac yn ddiweddarach, yn 1 *Tim.* ii. 9; 1 *Pedr* iii. 3.

GWLAD YR HOTTENTOTIAID. Gwel Penrhyn Gobaith Da.

GWLAD [*gw—llad*]. Mae y gair, yn ei ystyr 1af, yn golygu y tir o amgylch neu gerllaw dinas neu dref; yr ardal yn nghymmydogaeth dinas. 2il, Holl diriogaeth teyrnas, mewn cyferbyniad i ddinas. Ni a ddywedwn, "Y mae gan hwn a hwn balas yn y *wlad;*" heb olygu unrhyw bellder pennodol oddi wrth y dref. 3ydd, Unrhyw ddarn o dir, neu le a breswylir; unrhyw ardal mewn cyferbyniad i ardaloedd ereill; teyrnas, gwladwriaeth, neu randir llai. Yn yr ystyr hwn y byddwn yn dywedyd, "holl *wledydd* Ewrop ac America." Dyna yr ystyr yn y frawddeg, "A hwy a ddaethant i *wlad* Moab;" *Ruth* i. 2. 4ydd. Y deyrnas, neu y diriogaeth yn yr hon y ganwyd un: "A dywedodd Laban, Ni wneir felly yn ein *gwlad* ni:" *Gen.* xxix. 26. 5ed, Y lle y preswylia un ynddo. "Mae y rhai sydd yn dywedyd y cyfryw bethau yn dangos yn eglur eu bod yn ceisio *gwlad;*" *Heb.* xi. 14. "*Gwlad*

Digitized by Google

well y maent hwy yn ei chwennych; hyny ydyw, un nefol;" *Heb.* xi. 16. 6ed, Y tir, mewn cyferbyniad i ddwfr, neu le preswyliedig: "Fe ddigwyddodd, a ni yn morio yn Adria, yn nghylch hanner nos, dybied o'r morwyr eu bod yn nesau i ryw *wlad;*" *Act.* xxvii. 27. 7fed, Trigolion unrhyw le neu ardal. "Llais y wlad," yw llais pobl y wlad hono. "Codi y wlad," yw cynnhyrfu y trigolion. "A'r holl *wlad* (hyny yw, y bobl), oedd yn wylofain â llef uchel;" 2 *Sam.* xv. 23.

GWLADWRIAETH, yw cyfangorff o bobl wedi ymuno dan un lywodraeth, pa ffurf bynag fyddo arni. Ond yn fwyaf cyffredin, fe arferir y gair i osod allan gorff politicaidd yn cael ei lywodraethu gan gynnrychiolwyr. Yn yr ystyr hwn, y mae y gair "gwladwriaeth" yn cyfeirio weithiau mewn modd arbenig at y llywodraeth, a phryd arall at y bobl neu y trigolion. Felly, pan y dywedir "fod y wladwriaeth wedi darparu ar gyfer y tlodion," fe gymmhwysir y gair at y llywodraeth; ond pan y dywedwn "y trethir y wladwriaeth er mwyn cynnal tlodion," y mae y gair yn golygu holl drigolion y wlad. Arferir y gair yn ei berthynas â llywodraeth Brydain, yr hon sydd o nodwedd gymmysg, ac â llywodraethau ereill a ystyrir yn rhydd a gwerinol; ond anfynych y gelwir llywodraeth unbenaethol yn wladwriaeth. Fe arferir y gair yn *Eph.* ii. 12, "Wedi eich dieithrio oddi wrth wladwriaeth Israel." i olygu y llywodraeth neu y trefniant yn mhlith yr Iuddewon, trwy ba un y cynnaliwyd addoliad y gwir Dduw yn y byd. Gwel CYFRAITH; ISRAEL. Am eglurhâd cyflawnach ar y gair yn ei wahanol gyssylltiadau, gwel LLYWODRAETH.

GWLAN (*gw—llan*). Yn bresennol, cnu y ddafad a feddylir, agos yn ddieithriad, wrth y gair *gwlân.* Mae y gwahaniaeth rhwng gwlân a blew yn haws i'w ddirnad na'i ddysgrifio. Pan gymharir blew â gwlân y ddafad, y mae y gwahaniaeth yn bur amlwg; ond ynglŷn â chreaduriaid ereill, ymddengys yn fynych yn anhawdd iawn i benderfynu pa un ai blew ynte gwlân ydyw yr enw mwyaf priodol ar y wisg allanol; a hwyrach mai hyn ydyw y rheswm fod y gair gwlân yn cael ei gymhwyso yn fwyaf neillduol at wisg y ddafad. Y mae gwlân, wrth ei gymmharu â blew, yn gyffredin yn feddalach ac yn fwy ystwyth, ac yn fwy addas i'w banu; yr hyn sydd yn rhoddi gwerth mawr arno yn ngolwg nwyddweithyddion. Y mae llawer o'r creaduriaid gwylltion, megys y *beaver*, y *racoon*, y gath wyllt, a'r dyfrgi, yn cynnyrchu blew a gwlân: y blew yn cyfansoddi y llinion hirion allanol, a'r llinion byraf o wlân yn gorwedd yn guddiedig oddi tanynt. Y mae geifr Angora neu Ancyra, Tibet, a Cashmere, yn dwyn llinion gwlanog o brydferthwch mawr, y rhai ydynt nid yn unig yn gydwerth âg eiddo y ddafad, ond hefyd yn llawer iawn rhagorach. Y mae y gwlân yma, modd bynag, yn rhy werthfawr i'w ddwyn yn mlaen i gystadleuaeth amlwg â gwlân y dafad.

Yr oedd gwlân yn cael ei ystyried yn nwydd o werth neillduol yn mhlith yr Iuddewon, fel defnydd marchnadol i wneuthur gwisgoedd: *Lef.* xiii. 47; *Deut.* xxii. 11; *Iob* xxxi. 20; *Diar.* xxxi. 13; *Ezec.* xxxiv. 3; *Hos.* ii. 5. Y mae y ddau air Hebraeg, *tsemer* a *gêz*, yn dynodi y weithred o gneifio; a'r gwahaniaeth rhwng y ddau ydyw fod yr olaf yn cyfeirio at y "cnaif" (*Deut.* xviii. 4); fel y profir oddi wrth y gwreiddair cydrywiol *gizzah*, yn *Barn.* vi. 37—40, mewn cydgyssylltiad â *tzemer*, yr hwn a arwydda "cnu o wlân." Y mae gwerthfawredd gwlân yn cael ei ddangos yn ddygwyddiadol yn y crybwylliad fod teyrnged Mesa wedi ei thalu gyda "chan mil o hyrddod gwlanog" (2 *Bren.* iii. 4); yn gystal ag yn y ffaith ei fod yn cael ei enwi yn mhlith y blaenffrwythau a roddid i'r offeiriaid: *Deut.* xviii. 4. Gosodid prisuchel ar wlân Damascus yn marchnadfa Tyrus (*Ezec.* xxvii. 18); a chymmharir ef yn y Deg Thrigain i wlân Miletus. clod yr hwn a ledaenid yn fawr yn yr hen amseroedd. Cyfeirir weithiau at wlân fel arwydd o burdeb a sancteiddrwydd (*Esa.* i. 18); *Dan.* vii. 9; *Dad.* i. 14); ac y mae eira wedi ei daenu ar y ddaear yn bur briodol yn cael ei debygoli iddo: *Salm* cxlvii. 16. Yr oedd y gelfyddyd o liwio gwlân yn adnabyddus i'r Iuddewon.—*Mishna*, *Shab.*, 1, adr. 6.

Yr oedd amwisg y defaid cyntefig yn gymmysgedig o flew a gwlân: y gwlân yn fyr a main, ac yn cyfansoddi y wisg nesaf at y croen, a'r blew yn hirach, yn ymwthio drwy y gwlân, ac yn cyfansoddi y wisg allanol. Pan esgeulusir y defaid, neu os gosodir hwy yn agored i oerni mawr, y mae y dirywiad yma i'w ganfod yn eglur. Y mae gwlân defaid morfeydd swydd Devon, mynyddoedd Cymru, ac ucheldiroedd Ysgotland, yn cael ei waethygu yn ddirfawr drwy gymmysgiad o flew. Hyd yn oed yn mhlith y *South Downs*, y *Leicesters*, a'r *Ryelands*, y mae gormod o flew, neu yr hyn a elwir *Kemps*, weithiau yn lleihau gwerth y cnu. Nid heb lawer o ddiwydrwydd a meithriniaeth ofalus y llwyddwyd i leihau mesur y blew, ac i gynnyddu swm y gwlân ar ein rhywogaethau goreu.

Y mae llinion y gwlân a gymmerir oddi ar ddefaid iach yn loew a dysglaer yn ei ymddangosiad, ond y mae gwlân yr anifail a esgeulusir ac a hanner newynir yn llwydaidd o ran ei liw. Y mae hyn yn un arwydd pwysig trwy yr hwn y galluogir y masnachwr gwlân i ffurfio barn gywir o berthynas i werth y cnu. Gellir yn fynych ganfod cymmysgiad o flew yn y gwlân, drwy wneuthur ymchwiliad manwl â llygad noeth; ond yn bur fuan a hawdd gyda gwasanaeth chwyddwydryn.

Yn mhlith y rhinweddau sydd yn dylanwadu ar werth y gwlân, y mae *meinder*, ac unweddiad y meinder hwnw yn y llinionau unigol, ac yn yr holl gnu ynghyd. Y mae y meinder yma, modd bynag, yn gwahaniaethu yn ddirfawr mewn gwahanol ranau o'r cnu. Gwelir ef yn fwyaf neillduol ar y gwddf, y barwyden, y bol, a rhanau isaf y coesau. Y mae meinder y gwlân yn dibynu i raddau pell ar natur yr hinsawdd. Gwlân 'lled arw yn y cyffredin a gynnyrchir gan ddefaid mewn hinsawdd boeth; ac mewn hinsawdd oer, y mae ganddynt gnu tewach, ond er hyny y mae mwy o wres a chynhesrwydd yn perthyn iddo.

Y mae meinder y cnu hefyd yn dibynu ar natur yr ymborth a roddir i'r defaid. Fe wna cyflawnder o fwyd moethus gynnyddu hyd a swm y gwlân. Y mae hyn yn bwngc pwysig iawn yn marn meithrinwyr defaid. Er i oerni y gauaf ddyfod, ac er iddo barhau am amser maith, os porthir defaid yn dda, er y dichon i'r cnu golli ychydig yn ei bwysau, fe wna cynnydd ei feinder a'i werth fwy nag ad-dalu y golled. Os mai ychydig o fwyd, modd bynag, a roddir iddynt, ac os gadewir hwy gyda hyny yn agored i oerni anghyffredin, y mae llinion y gwlân, er fe

ddichon yn feinach, yn colli mewn pwysau, nerth, a defnyddioldeb.

Y mae cyfartalwch yn hyd y llinion yn bwysig ynglŷn â gweithio y gwlân; o blegid pan fyddo y gwlân yn anwastad, y mae gwendid yn y llinion, ac anhawdd fydd ei weithio yn wastad a llyfn, yn enwedig os defnyddir y crib at y cnu. Mewn cyssylltiad â hyn, y mae nodwedd arall bwysig iawn, sef *ystwythder* y llinion gwlanog—tuedd i ymestyn, i gyfnewid ei ffurf pan sengir neu y pwysir arno, a'r nerth trwy yr hwn y mae yn dychwelyd i'w ffurf gyntefig mor fuan ag y tynir y pwys oddi arno. Ynglyn â natur ystwythol ac ymestynol y gwlân, gellir nodi ei *hyblygrwydd* a'i *feddalrwydd*, heb yr hyn nis gellir ei weithio i unrhyw radd o berffeithrwydd. Y nodwedd olaf y mae yn angenrheidiol i ni grybwyll yw ei gyfaddasrwydd i gael ei *groeslinio* â llaw: gellir ei guro neu ei wasgu ynghyd â'i weithio yn sylwedd meddal a hyblygol agos o unrhyw ffurf neu faintioli. Mae yn ymddangos fod y gelfyddyd o groeslinio â llaw yn llawer hynach na'r gelfyddyd o wau, ac y mae yn awr mewn arferiad nid yn unig yn mhlith gwiblwythau parthau de-ddwyreiniol Ewrop ac Asia, ond defnyddir hi yn achlysurol i gystadlu â chynnyrchion gwychaf y wŷdd.

Y mae yr ymchwiliadau a wnaed yn ddiweddar gyda'r chwyddwydr wedi dadguddio yr holl ddirgelwch oedd ynglŷn â chroeslinio â llaw, yn gystal ag â gweithiad gwlân yn mron yn mhob ffurf. Y mae y llinionen, wrth gael ei chwilio â chwyddwydr cryf, yn ymddangos fel peth tyfol, o natur lysieuol, ac egin yn tarddu o honi, a'r cwbl yn gogwyddo yr un ffordd, o'r gwreiddyn i'r pen; hefyd, amryw ddail yn dwyn tebygolrwydd i'r gwregl, neu flodyn ar lun cwpan, a phob un yn terfynu yn bigfeiniol. Y mae yn hawdd dirnad mor fuan y gwna un o'r llinion hyn symmud mewn cyfeiriad o'r gwreiddyn i'r pen, tra y mae ei dyniad yn ol yn bur anhawdd, os nad yn ammhosibl. Llinionen o wlân Merino ydoedd y gyntaf a chwiliwyd â chwyddwydryn, a chyfrifwyd pa nifer oedd arno o'r pethau bychain ar lun egin, am ba rai y sonir uchod. Yr oedd 2,400 o honynt o fewn modfedd o gylch. Mewn llinionen o wlân Sacsonaidd, yr hwn sydd yn fwy gwerthfawr na'r gwlân Merino, cafwyd 2,720. Y mae nifer llai o lawer o'r pethau bychain hyn i'w canfod ar wlân y *South Downs* a'r *Leicesters*; a chydnabyddir yn gyffredin fod y gwlân yma yn llai ei werth na gwlân Merino a'r gwlân Sacsonaidd.

Mewn amseroedd sydd wedi myned heibio, o deyrnasiad Edward I. hyd deyrnasiad Sior II. cyfyngid masnach y gwlân rhwng y wlad hon a gwledydd tramor; ond fel y daeth egwyddorion masnach rydd i gael eu deall yn briodol gan ein seneddwyr, tynwyd y llyffetheiriau, ac fe gynnyddodd masnach y gwlân, fel pob masnach arall, i raddau hynod iawn. Pris gwlân Lloegr yn y flwyddyn 1741 hyd 1790, oedd o 6c. i 13c. y pwys: rhoddwyd y pris isaf am dano yn 1779, a'r pris uchaf yn 1772; a'r pris mwyaf cyffredin ydoedd o 8c. i 9c. O'r flwyddyn 1791 hyd 1840, yr oedd pris gwlân y *South Downs* yn amrywio o 7c. yn 1829, i dri swllt yn 1809; tra yr oedd gwlân hir Kent yn yr un amser yn amrywio o 9c. yn 1829 i ddau swllt yn 1818. Yn y flwyddyn 1824, diddymwyd y ddeddf er cyfyngu allforiad gwlân Prydain. Swm yr allforiad yn y flwyddyn hono ydoedd 18,000 o bwysau; 280,000 pwys yn 1827; ac yn agos i 5,000,000 pwys yn 1840. Dengys hyn fod yr allforiad wedi cynnyddu yn aruthrol; a gellir sylwi fod y dadforiad o wledydd ereill i'r wlad hon wedi cynnyddu i raddau cyffelyb, pan oddefwyd i'r fasnach yn y nwydd yma redeg yn ei llwybr yn naturiol a dirwystr.

**GWLAW** [*gwl-aw*]. Y dwfr hwnw a gymmerwyd i fyny i'r awyrgylch yn y cyflwr o darth, ac a ddychwelir i'r ddaear yn ffurf dyferynau o hylif. Pan y mae tymmeredd yr awyrgylch yn lleihau, a'r chwysigleni tarth yn myned yn fawr, y mae llawer o honynt yn ymuno; ac o blegid eu pwysau cynnyddol, y maent yn disgyn. Pe dygwyddai iddynt wrth ddisgyn fyned trwy haen sych iawn o awyr, y maent yn ymdarthu yn barhaus, ac yn cyrhaedd y ddaear yn ddyferynau neu wlaw mân. I'r cefnfor yr ydym yn ddyledus am y gwlawogydd maethlawn hyny a adfywiant holl natur; y ffynnonau hyny a dorant ein syched; y llynoedd hyny a wasgarant y fath swyn drwy y gwledydd a'u cynnwysant; y ffrydiau a'r afonydd hyny a ffrwythlonant ein dyffrynoedd a'n gwastattiroedd, ac a wasanaethant fel prif-ffyrdd i farsiandiaeth cenedloedd y byd. Pe na ddanfonai yr eigion i'r cyfandir y dwfr angenrheidiol at gynnal bywyd, buan y gwelai y ddaear grin a chraslyd ei holl breswylwyr yn trengu gan ing a phoen. Mae'r haul, brenin y dydd, yn gwasgar ei belydr tanbaid dros wyneb y dyfroedd; ac yn peri i'r tarth anweledig esgyn; yr hwn sydd, gan ei fod yn ysgafnach na'r awyr ei hun, yn tueddu yn ddibaid at esgyn i'r awyrgylch, gan ei lanw a ffurfio oddi fewn iddo awyrgylch ddyfrol arall. Wrth esgyn, daw i gyffyrddiad â haenau oer parthau uchaf yr awyrgylch; ac yno fe'i oerir ef. Crynhöir ef yn chwysigleni, y rhai a ymddangosant yn y ffurf o gymmylau a niwl; yna, trwy gael ei gludo gan y gwyntoedd, pa un bynag ai yn anweledig, neu ynte yn y ffurf o gymmylau, y mae yn ymwasgaru dros y cyfangyfandiroedd, ac yn disgyn yn wlawogydd i ffrwythloni y tiroedd. Y mae holl ddyfroedd yr awyrgylch, nad ydynt wedi eu treulio gan y planhigion a'r anifeiliaid, na'u cludo eilwaith yn darth i'r awyrgylch, yn dychwelyd yn afonydd i'r eigion—o'r hwn y daethant.

Felly y mae dyfroedd y môr, drwy yr ysgogiadau hyn, yn ymwasgaru dros y tiroedd. Mae y ddwy elfen yn ymuno, ac yn ffurfio ffynnonell bywyd llawer rhagorach nag a allasai dim un o honynt o honi ei hun. Y mae gwlaw yn cael ei ddosbarthu yn bur anghyfartal dros wahanol ranau y byd. Mae yn dra helaeth tuag ardaloedd y cyhydedd, lle y mae tarthiad yn myned yn mlaen yn fwy cyflym; ac y mae'n lleihau yn raddol mewn swm fel y pellhëir oddi wrth y cyhydedd at y pegynau. Nid yw byth yn gwlawio mewn rhai ardaloedd tu hwnt i'r trofanau, megys yn mharthau anial yr Hen Fyd; sef, diffaethwch Sahara, anialdiroedd Arabia a Phersia, ynghyd âg anialwch mawr Gobi neu Shamo. Yn y byd newydd, y mae glanau Peru, a thiriogaethau craslyd Mexico, yn amddifad o wlaw yr un modd. Ond heb law y rhai hyn, y mae llawer o wledydd eraill nad ydynt yn derbyn ond ychydig iawn o wlaw. Ar y llaw arall, y mae rhai parthau lle y mae hi yn gwlawio yn barhaus.

Rhydd Mr. Darwin y desgrifiad a ganlyn o sychder anarferol a ddigwyddodd yn nhalaeth Buenos Ayres, yn America Ddeheuol:—"Yr oedd cyn lleied o wlaw yn disgyn ar y pryd, fel yr oedd y tyfolion, ac hyd yn oed yr ysgall, yn gwywo. Sychwyd yr aberoedd, ac edrychai yr

holl wlad yn gymmaint tel prif-ffordd lychlyd. Fel hyn yr oedd, yn enwedig yn mharth gogledd-ol Buenos Ayres, a'r rhan ddeheuol o Santa Fè. Trengodd lliaws mawr o adar, bwystfilod gwylltion, gwartheg, a cheffylau, o eisieu ymborth a dwfr. Dywedodd dyn wrthyf yr arferai ceirw ddyfod i'w fuarth ef at y ffynnon y bu raid iddo ei chloddio er mwyn cael dwfr i'w deulu; ac nad oedd gan y petris prin ddigon o nerth i ehedeg ymaith pan yr helid hwynt. Yn ol y cyfrif isaf, fe gollwyd miliwn o wartheg yn nhalaeth Buenos Ayres un unig. Cyn y blynyddoedd hyn, yr oedd gan ŵr yn San Pedro 20,000 o wartheg: ar eu diwedd, nid oedd ganddo gymmaint ag un. Mae San Pedro yn gorwedd yn nghanol y wlad fwyaf ardderchog; ac erbyn hyn, y mae yn orlawn etto o anifeiliaid: etto i gyd, yn ystod y rhan olaf o'r tymmor sych, yr oedd anifeiliaid byw yn cael eu cludo mewn llongau yn ymborth i'r trigolion. Yr oedd yr anifeiliaid yn gadael eu lleoedd priodol ac yn crwydro i lawr i'r deheu, gan ymgymmysgu yn y fath luoedd, nes y bu raid i'r llywodraeth anfon dirprwyaeth o Buenos Ayres i benderfynu y dadleuon yn mhlith y perchenogion. Crybwyllodd Syr Woodbine Parish wrthyf am achos hynod arall o anghydfod: gan i'r ddaear fod cyhyd yn sych, chwythwyd y fath symiau o lwch oddi amgylch, fel y cuddiwyd y tirnodau, ac nis gallai pobl adnabod terfynau eu hetifeddiaethau. Dywedodd llygad-dyst wrthyf, fod y gwartheg, yn finteioedd o filoedd o rifedi, yn rhuthro i'r Parana; a chan eu bod yn lluddedig gan newyn, yr oeddynt yn analluog i gripio i fyny y ceulanau lleidiog; ac felly, cawsant eu boddi. Yr oedd y gangen hono o'r afon sydd yn myned heibio San Pedro mor lawn o gelaneddau braenllyd, fel y dywedodd cadben llong wrthyf fod yr arogl yn ei gwneyd yn gwbl annhramwyadwy. Diammheu i amryw gannoedd o filoedd o'r creaduriaid hyn drengu yn yr afon; gwelid eu cyrff braenllyd yn nofio i lawr y llif; a diau fod llawer o honynt wedi eu claddu yn morgainge y Plata. Fe aeth yr holl fân afonydd yn hallt iawn, a pharodd hyn angeu i liaws mawr mewn parthau neillduol; canys pan yr ŷf anifail o'r cyfryw ddwfr, nid yw yn ymadfer. Mae Azara yn dysgrifio ffyrnigrwydd y meirch gwylltion ar achlysur cyffelyb yn carlamu i'r morfeydd, a'r rhai blaenaf yn cael eu llethu a'u lladd gan y rhai a ruthrent o'r tu ol. Dywed yn mhellach ddarfod iddo fwy nag unwaith weled celaneddau dros fil o feirch gwylltion wedi eu dyfetha fel hyn. Sylwais fod y ffrydiau lleiaf yn y Pampas wedi eu palmantu â briwion esgyrn; ond y mae'n debyg fod hyn yn fwy o effaith cynnydd graddol, nag ydyw o ganlyniad unrhyw ddinystr a gymmerodd le mewn un cyfnod.

Ar ol y sychder o'r flwyddyn 1827 i 1832, bu tymmor gwlawog iawn, yr hyn a barodd lifogydd mawrion. Felly, y mae bron yn sicr fod rhai miloedd o'r celaneddau wedi eu claddu gan y rhai hyn y flwyddyn ganlynol. Beth fuasai barn daearegwyr tra yn edrych ar y cyfryw gasgliad anferth o esgyrn pob math o anifeiliaid ac o bob oes, wedi eu claddu fel hyn mewn un pentwr tew o bridd? Oni byddai iddynt ei briodoli i lif wedi ysgubo dros wyneb y tir, yn hytrach nag i drefn gyffredin pethau?

Y mae'r Cadben Owen, yn hanes ei fordaith, yn adrodd am effaith gyffredin sychder ar elephantiaid Benquela, ar dueddau gorllewinol Affrica. Ymgynnullent i'r dref yn lluoedd er mwyn cael gafael ar y ffynnonau, gan eu bod yn methu cael dwfr yn y wlad. Ymladdwyd brwydr ffyrnig wyllt rhwng tua 3,000 o'r trigolion a'r anifeiliaid. Yr elephantiaid a gollasant y dydd; ond nid cyn iddynt ladd un dyn, ac anafu lliaws mawr.

Pan y mae gwynt cynnhes a llaith, megys yn neheu-orllewin yr Atlantic, oddi wrth y trofanau, yn dyfod i gyffyrddiad âg awyr oerach y parthau tymmerus, mae ei dymmeredd yn disgyn, ac nis gall mwyach gynnwys cymmaint swm o darth. Y mae cyfran o'i leithder yn cael ei grynhoi yn ebrwydd yn gymmylau, ac yna y mae yn disgyn yn wlaw. Neu ynte, yn y gwrthwyneb, y mae gwynt llwythog o gymmylau yn cyfodi mewn awyr gynnhes a sych, ac yn dyfod, er esampl, o Fôr y Canoldir i Anialwch Sahara, fel y mae yn digwydd bod am dair rhan o bedair o'r flwyddyn. Y mae awyr poeth yr anialwch, gan ei fod yn llawn cyfaddasach i dderbyn tarth, yn chwalu yn ebrwydd yr holl gymmylau hyn; ac y maent yn ymdori, yn diflanu, ac yn somi disgwyliadau y teithiwr a obeithiai am wlawogydd adloniadol. Pan y cyferfydd y gwyntoedd llaith â rhwystr mewn lle uchel, megys mynydd mawr, fe'u gorfodir hwynt i esgyn eu llechweddau yn uchel i'r awyrgylch; maent yn cael yno awyr oerach, yr hwn a gyd-grynhöa eu tarth, ac fe ddisgyn y gwlaw i lawr ar hyd eu hystlysau; mae y gwynt yn cyrhaedd y tu arall i'r mynydd yn sych ac yn oer, wedi ei waghau o'i holl leithder, ac heb gymmylau. Felly y mae yr un gwynt yn dwyn gwlaw ar un tu, a hin braf ar y tu arall. Cymmer hyn le bob dydd ar ddau du y mynyddoedd Scandinaviaidd.

Y mae yn bossibl i ffrwd o wynt, wrth esgyn, os bydd yn ffrwd rymus, yru tarth mawr haenau isaf yr awyrgylch i fyny i'r haenau uchaf. Mae y tarth yn cael ei grynhoi yno, ac yn disgyn yn ol yn gawodydd o wlaw. Dyna yr eglurhâd a rydd Humboldt ar wlawogydd y trofanau. Gan fod perthynas neillduol rhwng y tymmeredd, y gwyntoedd, a'r gwlaw, a chan eu bod yn cyflawnu rhan achos ac effaith bob yn ail â'u gilydd, y mae y ddaear, wrth edrych arni o'r pwynt sydd yn awr dan ystyriaeth, yn rhanedig, o ran tymmeredd a gwyntoedd, i ddau gylch (*zone*) mawr—un o ba rai yw cylch y gwlawogydd cyfnodol, neu y parthau trofanol; a'r llall yw cylch y gwlawogydd parhaus, neu y parthau tymmerus.

Yn ardaloedd y cyhydedd, lle y mae'r tymmeredd a'r gwynt yn rheolaidd, mae y gwlawogydd felly hefyd: ac yn lle tymmorau o dymmeredd gwahanol, y rhai ydynt yno yn anhysbys, y mae y preswylwyr yn tynu eu llinell o wahaniaeth rhwng y tymmor sych a'r tymmor gwlawog. Pa bryd bynag y byddo y gwynt mordwyol yn chwythu gyda'i reoleidd-dra arferol, y mae y ffurfafen yn glaer, ac o liw dyfnlas, yn enwedig pan fyddo yr haul yn yr arddrych cyferbyniol; y mae yr awyr yn sych, a'r awyrgylch yn ddigwmmwl. Ond fel y dynesa yr haul at y nenbwnc (*zenith*), mae y gwynt mordwyol yn myned yn afreolaidd, mae y ffurfafen yn troi yn wyn, y mae cymmylau yn ymddangos, a chawodydd disymmwth, gyda thymmestloedd ffyrnig, yn dilyn. Digwyddant yn fwy mynych yn barhaus, a throant o'r diwedd yn llifeiriant o wlaw, nes llifo y ddaear âg afonydd o ddwfr. Mae yr awyr y pryd hwn mor laith, fel y mae y trigolion yn barhaus mewn tarth dwys. Y mae y gwres yn drwm a chaethiwus, ac y mae y corff yn myned yn swrth a llesg. Hwn yw cyfnod y clefydau lleol hyny a ddistrywiant gynnifer o'r trefedigaethwyr a ddaethant o'r cylchoedd tymmerus: ond

Digitized by Google

y mae tyfolion yn adloni ac yn ymfywiogi; mae yr anialwch ei hun yn gwisgo newydd wedd, a gorchuddir ef dros amryw fisoedd â gwyrddlesni swynol, yr hwn a wna borfa fras i filoedd o anifeiliaid. Er hyny, y mae yr haul cyn hir, yn ei gylchdaith flynyddol, yn nesau i dywallt ei belydrau unionsyth ar y lleoedd hyny; y mae y gwlawogydd yn lleihau, daw yr awyrgylch yn fwy claer, dechreua y gwynt mordwyol chwythu yn fwy rheolaidd, ac y mae y nefoedd yn cau ei ffenestri unwaith yn rhagor hyd y tymmor nesaf. Dyma drefn reolaidd gwlawogydd y trofanau. Disgynant yn mhob man yn ystod mynediad yr haul drwy y nenbwnc. Y mae y gwres y pryd hwnw mor fawr, fel y mae y ffrwd o wynt fyddo yn esgyn yn gwrthweithio y gwynt mordwyol wrth iddo deithio yn ei flaen. Y mae yn hyrddio y tarth i uchder yr awyrgylch, a therfyn eithaf y gwynt mordwyol, lle y crynhoir ef, ac y gollyngir ef yn ol yn ddylif o wlaw. Yn awr, fel y mae'r haul yn myned ac yn ail fyned o'r naill drofan i'r llall, y mae yn canlyn fod yn y rhan fwyaf o'r lleoedd canol ddau dymmor gwlawog. Yn mhob lle o fewn y trofanau, y mae ffrwd esgynol o awyr, yr hon sydd dra nerthol yn y manau hyny lle y mae yr haul yn union uwch eu penau: mae y ffrwd esgynol hon yn cludo i'w chanlyn bentyrau o darth, y rhai a ymgrynhoant mor fuan ag y cyrhaeddant haen neillduol o'r awyrgylch, a dychwelir hwynt yn wlawogydd trymion i'r cymmydogaethau hyny o ba rai yr ymgodant. Y mae yr haul yn codi yn y cylch hwn agos yn wastad mewn ffurfafen glir: tua chanol dydd, fe ymddengys cymmylau yma a thraw, y rhai a dywalltant symiau helaeth o wlaw: dilynir y cawodydd hyn yn gyffredin gan wyntoedd cryfion. Tua'r hwyr, fe gilia y cymmylau, a machluda yr haul mewn ffurfafen berffaith glir. Gan fod y gwlawogydd hyn yn cael eu hachosi gan weithrediad uniongyrchol pelydrau yr haul, y mae y lleoedd ar ba rai y disgynant yn newid gydag ysgogiad yr haul. Gan fod yr haul yn myned ddwywaith yn y flwyddyn yn union uwch ben lleoedd o fewn y cylch poeth, ni a gawn fod cryn lawer o wlaw yn disgyn ddwywaith yn y flwyddyn, a hyny ar amseroedd pur agos i'w gilydd, yn ardaloedd y trofanau. Mewn gwledydd agos i'r cyhydedd, lle y mae yr amser yn feithach rhwng mynediadau yr haul drwy y nenbwnc, y mae dau dymmor gwlawog, a dau dymmor sych. Yn y lleoedd hyny lle y mae yn chwythu yn wastad tua'r môr, nid ydyw yn gwlawio; ond mae y ffurfafen yn glir, yn enwedig pan y mae yr haul yn yr arddrych cyferbyniol.

Ar y lan, rhwng y trofanau, mae y flwyddyn yn rhanedig i ddau dymmor; sef, y tymmor gwlyb, a'r tymmor sych. Bydd misoedd cyfain yn myned heibio yn ystod yr olaf heb i gymmaint a chwmmwl ymddangos yn y ffurfafen. Mewn llawer o wledydd, mae y nos bron yn wastad yn ddigwmmwl: mewn ereill, y mae yn gwlawio y nos hefyd, ac hyd yn oed fwy na'r dydd: ond y mae yn debyg fod y gwahaniaeth hwn i'w briodoli i fynyddoedd uchel.

Ni wyddys yn gywir pa le y mae terfyn gogleddol y gwlawogydd cyfnodol. Nid yw cwrs y gwlaw mor reolaidd yn India: y mae yn ymddibynu yn hollol ar y trafnidwyntoedd (*monsoons*). Y mae tymmor y gwlawogydd yn dygwydd ar lanau gorllewinol y Deccan (gwlad y deheu) yn India, yn ystod trafnidwynt y deheu-orllewin, yr hwn sydd yn dwyn yno darth y cefnfor; hyny yw, yn ystod haf y parthau gogleddol. Y mae y tymmor sych yn cymmeryd lle yn ystod trafnidwynt y gogledd-ddwyrain. Yn y gauaf, y mae trafnidwynt y deheu-orllewin yn esgyn llethrau y Ghautiaid Gorllewinol, ac yn achosi ystormydd enbyd, a gwlawogydd mawrion yn yr uchel tanau. Ond ar arfordir Coromandel, ar y llaw arall, y trafnidwynt gogledd-ddwyreiniol sydd yn rheoleiddio y gwlaw, ynghyd â tharth Môr Bengal; a'r trafnidwynt deheu-orllewin sydd yn dwyn sychder. Felly y mae tymmorau cyferbyniol yn dygwydd ar y ddau arfordir hyn. Y mae yn hin sych ar un, tra yn gwlawio ar y llall, ac felly bob yn ail. Mae gwastattir y Deccan yn wahanol, ac yn cyfranogi o nodwedd y ddau; y mae disgyniad y gwlaw yn fwy amrywiol, ac y mae yn aml ddau gyfnod o wlawogydd helaeth. Felly, ni a welwn mai sefyllfaoedd perthynasol y tiroedd a'r moroedd sydd yn rheoleiddio y tymmorau. Pan y mae y gwynt sydd yn chwythu o'r deheu-orllewin yn cael ei orfodi i esgyn llethrau y Ghautiaid, y mae y tarth yn ymgrynhoi ar eu copäau, ac y mae yno dymmestloedd ffyrnig bron bob dydd. Prin yw y gwlawogydd yn nghanolbarth y wlad, ac y mae'r ffurfafen yn ddigwmmwl ar y glanau dwyreiniol. Y mae ambell i le tua chanol yr orynys yn cael rhyw gymmaint o wlaw drwy y flwyddyn. Y mae y swm o ddwfr sydd yn disgyn yn y gwledydd hyn yn ystod un mis yn fwy na'r hyn a geir mewn blwyddyn gyfan gyda ni. Ac fe ymddengys y cyferbyniad yn fwy byth pan gofir nad yw yn gwlawio ond mewn misoedd neillduol, a dim ond am awr neu ddwy yn y dydd y pryd hwnw. Y mae y dyferion dwfr yn anferth, yn bur agos i'w gilydd, ac yn disgyn i'r ddaear gyda nerth mawr. Ond os eir i ganolbarth y gwledydd, neu os esgynir yn lled uchel, fe geir fod y gwlawogydd yn lleihau. Prin y mae y gwlaw yn Seringapatam, yn India, ac yn Bogota, yn America, yn fwy na'r hwn a welir yn Germany. Rhwng 10° lled. gogleddol a'r trofanau, yn y gwledydd hyny yn benaf a ddyfrheir gan yr afon Senegal, y mae y gwlaw yn parhau o ddechreu Mehefin hyd ddechreu Tachwedd. Y mae tarthiad y dwfr a ddisgyn y nos yn gwlychu yr awyr â tharth yn gymmaint, fel y mae dillad, neu yn wir unrhyw beth na osodir wrth y tân yn myned yn llaith, ac y mae y trigolion yn byw mewn awyrgylch o darth. Dyma gyfnod y clefydon lleol hyny sydd mor farwol i Ewropiaid.

Ar dueddau gorllewinol America, mae y gwlaw yn dechreu yn y rhan gyntaf o fis Mawrth; ond yn San Blas, yn California, anfynych iawn y gwlawia cyn dechreu Mehefin. Dywed Humboldt fod y ffurfafen yn hollol ddigymmwl o Ragfyr hyd Chwefror, yn y parth hwnw o America Ddeheuol sydd ar du gogledd y cyhydedd. Y mae y gwynt yn chwythu o'r dwyrain, yr awyr yn sych, a'r tyfolion yn ddiddail.

Mae y swm blynyddol o ddwfr sydd yn disgyn mewn rhai manau, a than ddylanwad amgylchiadau neillduol, yn fawr iawn weithiau. Yn Paramaribo, yn Dutch Guiana, mae 229 o fodfeddi, neu 19 troedfedd bob blwyddyn yn disgyn. Yn St. Louis de Maranhao, yn Brazil, syrthiodd 276 modfedd, neu 23 o droedfeddi. Ond y swm mwyaf a welwyd erioed oedd gwlaw a ddisgynodd yn Mahabaleshwar, yn y Ghautiaid Gorllewinol, yn neheudir Bombay, pan y cododd i'r uchder o 302 modfedd. Buasai felly haen o 25 troedfedd o ddwfr ar y ddaear, pe buasai wedi aros, yn lle cilio ymaith yn raddol; a'r hyn sydd yn ei wneud yn rhyfeddach fyth ydyw, fod yr holl ddwfr hwn yn disgyn o fewn corff ychydig fisoedd.

Digitized by Google

Y mae disgrifiad y gwlawogydd yn y parthau tymmerus yn hollol wahanol i'r hyn ydyw o fewn y trofanau. Yn y parthau hyn, fe ddyfrheir y ddaear gan wlaw drwy yr holl flwyddyn, ond fod hyny yn dygwydd yn afreolaidd weithiau. Po bellaf yr eir oddi wrth y trofanau, lleiaf oll a welir o nodwedd gyfnodol gwlawogydd. Y mae y swm o ddwfr hefyd a ddelir gan awyrgylch y parthau tymmerus yn llawer llai na'r hwn fydd yn awyr y trofanau. Gan hyny, nis gall y trigolion oddef eisieu gwlaw am amser maith, ac y mae'r swm o wlaw sydd yn disgyn yn llawer llai. Y canolswm sydd yn disgyn yn yr hen fyd yw 34 modfedd, ac yn America dymmerus 39, neu 35 modfedd i'r holl gylch. Ond y mae achosion yn dygwydd weithiau sydd yn peri fod dwy a thair gwaith y swm hwn yn disgyn mewn rhai lleoedd. Mae gwledydd agos i'r môr yn derbyn mwy o wlaw na'r gwledydd yn y canolbarth. Fe geir fod llawer iawn mwy o wlaw yn disgyn yn ngorllewin Ewrop nag yn y parthau canol a dwyreiniol. Cafwyd y ffaith hon allan drwy gyfrif dyddiau gwlawog y flwyddyn yn mhob gwlad; ac fe ddangosir hyn yn eglurach yn y tabl canlynol:—

SWM Y GWLAW YN NGWAHANOL BARTHAU EWROP.

| Lleoedd. | Canolrif y dyddiau gwlawog mewn blwyddyn. | Swm y gwlaw yn fodfeddi. |
|---|---|---|
| Prydain, Glanau Gorllewinol | 152 | 37.5 |
| Prydain, Glanau Dwyreiniol | | 25.5 |
| Glanau Ffraingc a Holland... | 152 | 26.75 |
| Canolbarth yr un ............... | 147 | 25.5 |
| Canolbarth Germany............ | 141 | 21.25 |
| Buda ................................ | 112 | 18 |
| Petersburg ......................... | 90 | 17 |

Er fod dwfr gwlaw yn cael ei ddystillio gan natur, etto nid ydyw yn hollol bur; canys pa un bynag ai disgyn y bydd, neu ynte cyfodi fel tarth, y mae yn cael ei anmhuro gan y sylweddau sydd yn barhaus yn yr awyrgylch, a llenwir ef mewn rhan â'r gwahanol nwyau a gyferfydd ar ei daith.

Cyfrifir fod swm y gwlaw a ddisgyna ar yr ynys hon yn 630,000 o alwyni ar bob erw bob blwyddyn. Y mae y swm hwn yn pwyso tair mil (3,000) o dunelli, yn mron. O'r swm anferth hwn, cyfrifir fod tua dwy fil o dunelli yn myned i borthi yr afonydd, ac i dyfu y llysiau; a'r mil gweddill yn rhedeg ymaith yn ddifudd —mewn llifogydd, a'r cyffelyb.

Yn rhai o ardaloedd sychaf America, y mae amryw geisiadau wedi eu gwneyd i gymmhell gwlaw trwy gyssylltu ergydion mawrion âg awyrenau (*balloons*), a'u gollwng wedi iddynt esgyn i gryn uchder o'r ddaear; ac ymddengys eu bod wedi llwyddo i raddau pell. Cymmhellwyd y syniad y gallai hyn fod yn effeithiol drwy y ffaith fod gwlaw wedi disgyn mewn gwledydd lawer tro ar ol y brwydrau a gymmerasant le rhwng teyrnasoedd â'u gilydd.

**GWLEDD—OEDD.** **Yr oedd y rhai hyn yn mhlith yr Hebreaid, nid yn unig yn foddion o fwynhâd cymdeithasol, ond yn rhan o'r gŵyliau crefyddol. Ar adeg y tair gŵyl fawr, pan yr ymddangosai yr holl wrywod ger bron yr Arglwydd, yr oedd gan y teulu hefyd ei wledd gartref, fel yr ymddengys oddi wrth y lle a'r rhan ynddi yr oedd gan y "dieithr, yr amddifad, a'r weddw," hawl gyfreithlawn iddynt: *Deut.* xvi. 11. Pan nad oedd y pellder yn fawr, na'r rhwystrau** yn anorfod, mae yn debyg fod y gwrywod a'r benywod yn myned i fyny ynghyd i'r ŵyl: 1 *Sam.* i. 9. Diammheu fod y gwleddoedd neu y mân wyliau cartrefol hyn yn parhau i gael eu cynnal wedi i'r gwrywodd dechreu llacio gyda'r ymgynnulliad mawr: *Neh.* viii. 17. Yr oedd aberthau cyffredin ac anghyffredin, fel yn mhlith cenhedloedd paganaidd (*Exod.* xxxiv. 15; *Barn.* xvi. 23), yn cynnwys gwledd; a gwnaeth meibion Eli yr olaf yn brif ran. Yr oedd y ddwy—yr aberth a'r wledd ynghyd—yn rhanau arbenig o'r bywyd teuluaidd a gwladol. Gellir dywedyd fod rhyw gydnabyddiaeth aberthol yn wastad yn nglŷn â lladd anifeiliaid yn ymborth, pe ond yn nhywalltiad y gwaed yn ddifrifol, megys ger bron Duw. Yr oedd cyntafanedigion yr anifeiliaid i gael eu haberthu a'u bwyta yn y cyssegr, oni byddai yn rhy bell o'r preswylfod: *Exod.* xxii. 29, 30; *Lef.* xix. 5, 6; *Deut.* xii. 17, 20, 21; xv. 19—22; 1 *Sam.* ix. 13; 2 *Sam.* vi. 19. Oddi wrth y wledd aberthol, mae yn debyg, y tarddodd yr *agapæ*, "cariadwleddoedd;" megys y deilliodd Swper yr Arglwydd oddi wrth y Pasc. Heblaw achlysuron crefyddol, yr oedd y cyfryw ddigwyddiadau a diddyfnu mab ac etifedd, priodas, ymwahaniad neu gymmod cyfeillion, a chneifio y defaid, yn cael eu dilyn gan wledd: *Gen.* xxi. 8; xxix. 22; xxxi. 27, 54; 1 *Sam.* xxv. 2, 36; 2 *Sam.* xiii. 23. Cymmerid lluniaeth hefyd yn gyffredin gan y galarwyr mewn angladd, a gallai hyn dueddu weithiau at ormodedd; ond fe ymddengys mai sobrwydd a chymmedroldeb oedd y rheol ar y cyfryw achlysuron. Ni chrybwyllir am wleddoedd ar ddyddiau genedigaeth, oddi eithr ynglŷn â Pharaoh a Herod: *Gen.* xl. 20; *Mat.* xiv. 6. Un o brif destynau ceryddon y prophwydi oedd y camddefnydd a wneid o wleddoedd er meddwi a gloddesta, ynghyd â chynnydd yr awydd am gyfarfodydd yfed. Y cyfryw ydoedd y gwahoddiad a roddai Ieremiah yn gysgodol i'r Rechabiaid: *Ier.* xxxv. 5. Yr amser cyffredin i wledd oedd yr hwyr, ac yr oedd dechreu yn gynnar yn arwydd o rysedd gloddestgar: *Preg.* x. 16; *Esa.* v. 11. Lleddid yr anifeiliaid yn y rhan gyntaf o'r un dydd a'r wledd: *Diar.* ix. 2; *Esa.* xxii. 13; *Mat.* xxii. 4. Angenrheidiau penaf ystafell y wledd, yn nesaf at y bwydydd a'r gwin, yr olaf o ba rai a gymmysgid yn fynych â pherlysiau (*Diar.* ix. 2; *Can.* viii. 2), oedd enaint peraroglus, garlantau neu flodau rhydd, gwisgoedd gwynion neu glaerwych; ac wedi y rhai hyn, cerddoriaeth, cantorion, a dawnswyr, dammegion, ysmaldod, a llawenydd: *Barn.* xiv. 12; 2 *Sam.* xix. 35; *Neh.* viii. 10; *Preg.* x. 19; *Esa.* v. 12; xxv. 6; xxviii. 1; *Amos* vi. 5, 6; *Doeth. Sol.* ii. 6; *Mat.* xxii. 11; *Luc* xv. 25. Parhäai gwledd yn bur gyffredin saith niwrnod, yn enwedig ar adeg priodas; ac weithiau treulid gyda hi bedwar diwrnod ar ddeg: *Gen.* xxix. 27; *Barn.* xiv. 12; *Tobit* viii. 19. Ond os gweddw fyddai y briodasferch, tri diwrnod fyddai ysbaid y wledd. Ni ellir penderfynu pa un a oedd gan y caethion a alwent y *gwahoddedigion* hawl i nodi allan leoedd wrth y bwrdd, ac enwi y dysglau dieithr, ai peidio. Ymddengys yn sicr fod Iuddewon dyddiau yr Hen Destament yn arfer un bwrdd i'r holl wahoddedigion.

Cafodd yr holl wleddoedd y sonir am danynt yn yr Ysgrythyr, pa mor fawr bynag, eu parotoi ar gost un person. Ymddengys fod *eranos* y Groegiaid, at gynnal pa un y cyfranai yr holl wahoddedigion rodd, yn anadnabyddus i'r Iuddewon, neu o leiaf mewn arferiad yn mhlith y

dosbarthiadau isaf yn unig; fe dybia rhai mai enghraifft fel yma oedd y wledd a roddwyd i'r Gwaredwr gan ei gyfeillion yn Bethania, ychydig cyn ei farwolaeth: *Mat.* xxvi. 2; *Marc* xiv. 1: cymmharer *Ioan* xii. 2. Weithiau, fe wahoddid y cwmni gryn amser cyn dechreu y wledd; ac ar y dydd a'r awr appwyntiedig, byddai un neu ddau o weision, yn ol nifer neu bellder y gwahoddedigion, yn cael eu hanfon yn bennodol i hysbysu fod pob peth yn barod, a bod disgwyliad am danynt yn ddioed: *Mat.* xxii. 8; *Luc* xiv. 17. Mae yr arfer hon yn parhau yn y dwyrain hyd heddyw; ac y mae yr ail wahoddiad, yr hwn sydd bob amser ar lafar, yn cael ei roddi yn enw y meistr, a hyny bron yn ngeiriau yr Ysgrythyr: "Wele, parotoais fy nghiniaw; fy ychain a'm pasgedigion a laddwyd, a phob peth sydd barod;" *Mat.* xxii. 4. Ond ni ddanfonir yr ail hysbysrwydd hwn, oddi eithr i'r sawl a wahoddwyd o'r blaen, ac a arwyddasant eu derbyniad o hono; a chan fod pobl, yn yr amgylchiadau hyn, yn rhwym gan bob teimlad o anrhydedd a moesgarwch i ohirio pob ymrwymiad arall er mwyn cyfarfod â chais eu gwahoddwr, y mae yn eglur fod digder ffrom yr uchelwr yn nammeg y swper mawr, lle y sonir am bob un o'r gwahoddedigion yn cynnyg rhyw esgusion gwagsaw dros wrthod dyfod i'r wledd, mor bell o fod yn erwin ac afresymol, megys y dywed anffyddwyr, fel yr oedd yn gwbl naturiol a chysson âg arferion yr oes a'r wlad. Yr oeddynt drwy dderbyn ei wahoddiad wedi ymrwymo i ddyfod i'r swper, ac ni ellid ystyried eu nacâd wedi hyny ar seiliau mor salw, ac yn enwedig wedi y fath barotoadau helaeth ar eu cyfer, yn ddim amgen na sarhâd hybwyll ac iselwael.

Yr oedd gwas wrth y porth bychan i dderbyn tabledau neu gardiau y rhai a ddisgwylid; a chan fod chwilfrydedd yn cymmhell ynghyd haid o edrychwyr aflonydd, ac awyddus i ymwthio i ganol y gorwychder, ni agorid y porth yn lletach nag a fyddai yn angenrheidiol i ollwng un person i mewn ar y tro; yr hwn, wedi cyflwyno ei docyn gwahoddiad, a gymmerid trwy fynedfa hirgul i mewn i'r ystafell dderbyn; ac yna, wedi ymgynnull o'r holl wahoddedigion, fe gauai gŵr y tŷ y drws â'i law ei hun:—arwydd i'r gwas nad oedd i gymmeryd ei gymmhell gan na swn na thaerineb i ollwng edrychwyr i mewn. Y mae yn amlwg fod cyfeiriad at yr arferiad hon yn *Luc* xiii. 24, a *Mat.* xxv. 10.

Un o'r amlygiadau cyntaf o foesgarwch a ddangosid at y gwahoddedigion wedi cyfarch y gwahoddwr ydoedd eu hadloni â dwfr, olew, a pheraroglau; ac o blegid hyny yr ydym yn cael y Gwaredwr yn cwyno o herwydd i Simon esgeuluso y moes-arferion cyffredin hyn: *Marc* vii. 4; *Luc* vii. 44. Ond moesgarwch llawer uwch rhyng y mawrion a'u cyfeillion, er ei fod yn digwydd yn fwy anaml, oedd yr arfer o roddi i bob un o'r gwahoddedigion ddillad goleu a gwych, wedi eu haddurno yn gostus, i'w gwisgo yn ystod y wledd: *Preg.* ix. 8; *Dad.* iii. 4, 5. Yr oedd ffurf rydd a chwyfiol y wisg hon yn ei gwneuthur yn gyfaddas i bawb; ac y mae bron yn anghreddadwy y fath amrywiaeth o'r gwisgoedd drudfawr hyn oedd yn nilladfa rhai gwŷr mawr. Fe allai rhai, mewn cwmni lliosog, ymddangos mewn gwisg fwy syml a diaddurn nag oedd gysson â chwaeth boneddwyr glythig dyddiau ein Gwaredwr: a phan y tarddai hyn oddi ar angenrheidrwydd neu ddiffyg moddion, buasai yn greulawn ac afresymol i feio yr un a wisgid felly, neu i'w fwrw allan yn ddioed ac yn ammharchus o ystafell y wledd. Ond pan y byddai dilladfa eang a llawn o wisgoedd drudfawr at wasanaeth yr holl wahoddedigion, yr oedd i un wrthod y wisg orwych ac ysblenydd a roddid gan y gwahoddwr, a mynu ymddangos yn ei ddillad ei hun, yn amlygiad o ddirmyg ar ŵr y tŷ a'i wledd; yr hyn nis gallai amgen na pheri anfoddlonrwydd. Gan hyny, fe lefarai yr Arglwydd Iesu yn gysson âg arferion adnabyddus ei wlad, pan yr oedd efe, yn nammeg priodas mab y brenin, yn desgrifio llid dwyslym y brenin pan welodd un o'r gwahoddedigion heb wisg briodas, ac y rhoddes orchymyn dioed i'w fwrw allan: *Mat.* xxii. 11. Mewn gwleddoedd teuluaidd, gŵr y tŷ wrth gwrs a lywyddai; ond mewn cwmnïau mawrion a chymmysg, yr hen arfer oedd ethol llywodraethwr y wlad (*Ioan* ii. 8; gwel hefyd *Eccles.* xxxii. 1), yr hwn nid yn unig oedd yn cyflawni swydd cadeirydd, trwy gadw trefn a gweddusrwydd, ond yn ymgymmeryd â rheoleiddiad cyffredinol y wledd. Gan fod y swydd hon yn cael ei hystyried yn un gyfrifol a manwl iawn, yr oedd yr etholiad iddi, yr hwn a benderfynid yn mhlith y Groegiaid a'r Rhufeiniaid trwy disiau, yn cael ei wneuthur mewn modd doethach yn mhlith yr Iuddewon trwy nodi allan yr hwn a ystyrid fel yn meddu y cymmhwysderau angenrheidiol—arabedd parod, a thymmer hoenus, ac ar yr un pryd gymmeriad dianwadal ac arferion cymmedrol. Gosodid y gwahoddedigion yn ofalus yn ol eu gwahanol sefyllfaoedd mewn cymdeithas. Gwneid hyn gan ŵr y tŷ, neu y llywodraethwr, yr hwn a drefnai aelodau y teulu yn ol oedran pob un (*Gen.* xliii. 33), ac a osodai y gwahoddedigion trwy roddi y lle agosaf ato ef ei hun i'r mwyaf anrhydeddus; neu ynte trefnid hyn gan y personau eu hunain, pob un o ba rai, wedi dyfod i'r ystafell a bwrw golwg dros y cwmni, a ddewisai y lle fyddai yn ymddangos gymmhwysaf i un o'i sefyllfa ef. Y mae yn naturiol disgwyl fod yn mhlith y dwyreinwyr, y rhai a osodent gymmaint o bwys ar reolau moesgarwch yn y pethau hyn—fod yn eu plith hwy ymrysonau gwrthun a digrifol yn digwydd yn fynych; o blegid traha rhai a phenderfyniad diysgog ereill i feddiannu yr eisteddle y barnent hwy fod ganddynt hawl iddi. Gan hyny, fe ddywed Morier, yr hwn sydd dra hysbys o arferion y Persiaid, "fod yn hawdd canfod ar wynebau y rhai fydd yn bresennol, pan y bydd rhywun wedi cymmeryd lle uwch nag a ddylasai." "Ar un achlysur," medd efe, "pan yr oedd y cynnulliad bron yn gyflawn, fe ddaeth llywodraethwr Kasham, gŵr difalch a dirodres, i mewn, ac a eisteddodd yn y lle isaf; pan y darfu i ŵr y tŷ, ar ol talu sylw neillduol iddo trwy liaws o arwyddion croesawgar, gyfeirio â'i law at eisteddle uwch, yr hon y dymunai iddo ei chymmeryd." Crybwylla Dr. Clarke am ddigwyddiad gwrthgyferbyniol:—"Mewn gwledd briodasol y bu efe ynddi yn nhŷ masnachwr cyfoethog yn St. Jean d'Acre, fe sylwodd rheolwr y wledd ar ddau a eisteddasent yn y lle uchaf, a pharodd iddynt symmud yn is." Y mae gwybodaeth am y neillduolion hyn yn foddion i egluro amryw o ymadroddion y Beibl; megys *Diar.* xxv. 6, 7; *Mat.* xxiii. 6; ac yn enwedig *Luc* xiv. 7, lle y mae yr Arglwydd Iesu yn ceryddu yn llym uchelfrydedd gwrthun y Phariseaid. Yr oedd y dosbarth hwnw yn orawyddus am gael yr eisteddleoedd anrhydeddusaf pan yn nghymdeithas eu cyddinasyddion. Arwyddion diamwys o'r cyfryw

Digitized by Google

ymryson am uchafiaeth, mae yn ddiammheuol, a welsai yr Iesu yn nhŷ y Pharisead cyfoethog y bu yn ciniawa gydag ef; ac os oedd efe ei hun yn eistedd yn mhen isaf y bwrdd, yr oedd y fflangell a roddai efe i'w balchder a'u huchelfryd ffol yn y ddammeg a lefarodd efe ar yr achlysur o gymmaint a hyny yn fwy llym.

Byddai yn anhawdd, mewn lle byr, ddysgrifio dull a threfniadau y bwrdd, gan nad oedd yr holl wleddoedd y sonir am danynt yn y Beibl yn cael eu dwyn yn mlaen yr un fath. Yr yr Aipht gynt, megys yn Persia, gosodid y byrddau o amgylch ystlysau yr ystafell, a'r gwahoddedigion gyda'u hwynebau at y pared. Anrhydeddid personau o radd uchel â bwrdd iddynt eu hunain yn mhen uchaf yr ystafell; a chyn belled a hyn, dyna oedd y trefniadau yn y wledd a roddodd Ioseph i'w frodyr. Yn ol Lightfoot, yr oedd byrddau yr Iuddewon, un ai yn llwyr anorchuddiedig, neu ynte gyda llian ar ddwy ran o dair o honynt, a'r rhan arall wedi ei gadael yn noeth i ddal y dysglau a'r bwydlysiau. Yn nyddiau ein Harglwydd, y dull cyffredin oedd lledorwedd wrth y bwrdd. Ni ddechreuwyd yr arferiad mursenaidd hwn hyd yn agos i ddiwedd cyfnod yr Hen Destament, o herwydd gair yn arwyddo *eistedd* yw yr hwn a arferir yn ddieithriad gan yr holl ysgrifenwyr cyn dyddiau Amos, megys yn 1 *Sam.* xvi. 11; xx. 5, 18; a *Salm* cxxviii. 3; yr hyn sydd yn arwyddo fod yr Israeliaid gynt yn arfer eistedd yn groesgoes, fel dwyreinwyr y dyddiau presennol. Ond y mae y gair *anaclino*, a arferir yn yr Efengylau, yn golygu ystum ledorweddog. A pha bryd bynag y digwydd y gair "eistedd" yn y Testament Newydd, fe ddylid ei gyfieithu *gorwedd*, yn ol arferiad cyffredinol yr oes.

Gan fod llwyau, cyllyll, a ffyrc, yn anadnabyddus yn y dwyrain, neu ynte yn rhyw bethau newydd lle y maent yn hysbys, y llaw ydyw yr unig offeryn a arferir i drosglwyddo ymborth i'r genau; a'r arfer gyffredin, gan mai gwlyb yn benaf yw eu hymborth, yw gwlychu eu teisenau teneuon o fara yn y ddysgl, a'u plygu rhwng y bys a'r fawd fel ag i gynnwys peth o'r glwybwr. Nid peth anarferol yw gweled amryw ddwylaw yn yr un ddysgl yr un amser. Ond pan y bydd y cwmni yn lliosog, fe ymuna'r ddau agosaf, neu gyferbyniol i'w gilydd, yn yr un ddysgl.

GWLITH [טל; *δροσος; gwl—ith*], ydyw y tarth dyfrol neu y lleithder a ddaw o'r awyr, yn fan ronynau, ar wynebau gwahanol sylweddau yn ystod y nos. Cymmer hyn le pan y byddo wyneb y ddaear yn oerach na haen isaf yr awyrgylch [Gwel Gwlaw]. Tarth wedi ei grynhoi ydyw ar wynebau pethau: nid yw yn disgyn fel gwlaw ac yn aros yno, ond y mae ei barhâd yn ymddibynu yn hollol ar y gallu sydd yn wyneb y ddaear i ddyfod yn ddigon isel mewn tymmeredd i beri y crynhoad angenrheidiol. Fe ymddengys gwlith yn benaf ar nosweithiau tawel a chlir. Ni cheir ef byth ar nosweithiau cymmylog a gwyntog; ac y mae yn ymgasglu yn helaethach ar rai pethau nag ereill. Y mae gwlith yn y gauaf yn troi yn llwydrew.

Y mae helaethrwydd mawr o wlith yn Palestina yn yr hâf—cymmaint fel y mae i raddau yn cyflawni y diffyg o wlaw ar rai amserau (*Eccles.* xviii. 16; xliii. 22), ac ystyrir ef yn bwysig gan yr amaethwyr. Fel prawf o'r helaethrwydd hwn, gellir cyfeirio at arwydd adnabyddus Gedeon, yn *Barn.* vi. 37, 39, 40. Hefyd, fe'i cyplysir â gwlaw yn y fendith ddwyfol, neu fe'i crybwyllir fel prif ffynnonell ffrwythlondeb, a phriodolir y golled o hono i felldith: *Gen.* xxvii. 28; *Deut.* xxxiii. 13; *Zech.* viii. 12; 2 *Sam.* i. 21; 1 *Bren.* xvii. 1; *Haggai* i. 10. O herwydd ei leithder treiddiol, a hyny heb yr ymdrech ymddangosiadol sydd ynglŷn â gwlaw, y mae wedi cael ei arfer fel un o brif gymmhariaethau y prophwydi: *Deut.* xxxii. 2; *Iob* xxix. 19; *Salm* cxxxiii. 3; *Diar.* xix. 12; *Esa.* xxvi. 19; *Hosea* xiv. 5; *Micah* x. 7. Crybwyllir am ei ddiflaniad buan fel cysgod o ddaioni ymddangosiadol a darfodedig y rhagrithiwr: *Hosea* vi. 4; xiii. 3. Crybwyllir am fod allan dan wlith y nos fel arwydd o ddynoethiad neu amddifadiad: *Can.* v. 2; *Dan.* iv. 15, 23, 25—33; v. 21.

GWN, GYNAU. Gwel Gwisgoedd.

GWNEUTHURWR. Gwel Creadigaeth.

GWNIO. Gwel Gwaith Edeu a Nodwydd.

GWOBR—WY, GWOBR, GOBR: tâl, cyflog, gwerth, cydnabyddiaeth am gyflawni rhyw orchwyl; tâl pwyth, pwyth. Y mae y gair hefyd yn cael ei ddefnyddio am y daioni y mae y deddfroddwr yn ei gyssylltu â'r cyflawniad o weithred rinweddol, fel cymmhelliad er ei chyflawniad; yn gyffelyb ag y cyssylltir cosp â drwgweithred, fel rhybudd a gocheliad rhag y cyflawniad o'r cyfryw. Gwel Cospedigaethau. Ond er darnodi ystyr syml a naturiol y gair *gwobr* fel yma, etto tra y mae yn cael ei ddefnyddio yn yr Ysgrythyrau mewn cynnifer o wahanol ystyriaethau, nid oes un reol fwy sicr i benderfynu ei wir ystyr na chymmeryd golwg ofalus ar y cyssylltiad lle y mae yn cael ei ddefnyddio.

"Gwell yw dau nag un, o achos bod iddynt *wobr* da am eu llafur;" *Preg.* iv. 9. Yn y cyssylltiad hwn, y mae yn amlwg fod y gair i'w ddeall yn ei ystyr syml a naturiol ei hun; sef, am gynnyrch neu ffrwyth llafur dynion: ac yn yr un ystyr y mae y gair i'w ddeall yn *Preg.* ix. 5; *Ruth* ii. 12; 2 *Ioan* i. 8; 2 *Sam.* iv. 10; 2 *Cron.* xv. 7; *Iob* vii. 2; &c.

Y mae y gair *gwobr* yn cael ei arfer yn fynych iawn yn yr Ysgrythyrau am *rodd*, neu *llwgr-wobr:* sef, yr hyn a roddir gan ddynion twyllodrus i ddynion ereill, diegwyddor a drwg, am ŵyro barn; yr hyn sydd yn bechod ysgeler yn ngolwg Duw a dynion, ac a gondemnir yn bennodol yn yr Ysgrythyrau: *Deut.* xxvii. 25; x. 17; xvi. 19; *Salm* xv. 5; xxvi. 10; *Esa.* i. 23; *Diar.* xvii. 23; *Esa.* xxxii. 15; *Ezec.* xxii. 12; *Hos.* ix. 2; *Micah* iii. 11; vii. 3. Y mae y gair *gwobr* yn cael ei ddefnyddio yn fynych yn yr Ysgrythyrau yn yr ystyr o daledigaeth neu gosp am ryw bechod: *Salm* xl. 15; lxxiii. 3; xciv. 2; *Obad.* i. 15; *Rhuf.* vi. 23. Y mae gwobr yr annuwiolion, yr hon a dderbyniant oddi wrth yr Arglwydd, y barnwr cyfiawn, yn cymmeryd i mewn beth bynag sydd yn gynnwysedig yn y farwolaeth dragwyddol—y llid a fydd, a dinystr yr anwir ddynion. Y mae y gair *gwobr* yn cael ei ddefnyddio am barch a chymmeradwyaeth dynion (*Mat.* vi. 2—5, 18). Hefyd, mae y gair yn cael ei ddefnyddio am y cysur a'r llawenydd sydd yn cyfodi yn y fynwes oddi ar ymwybodaeth o uniondeb a gonestrwydd calon ger bron Duw: *Salm* xix. 11; *Diar.* iii. 16—18; xi. 18; xxix. 18; *Esa.* iii. 10, 11; *Mat.* vi. 4—6, 18; *Heb.* xi. 6, 26; *Iago* i. 25; 2 *Ioan* i. 8; *Dad.* xiv. 13. "*Gwobr*

Digitized by Google

yr Arglwydd yŵ ffrwyth y groth;" *Salm* cxxvii. 3. Y mae y Salmydd yn y salm hon yn dangos mor hollol y mae dyn a'i amgylchiadau yn llaw yr Arglwydd, ac mai mewn dibyniaeth hollol ar ei ewyllys a'i fendith ef y mae ein llwyddiant: "Os yr Arglwydd nid adeilada y tŷ, yn ofer y llafuria ei adeiladwyr wrtho, &c.;" er "iddynt foreu godi, a myned yn hwyr i gysgu," &c.—ac mai felly y mae yr Arglwydd yn bendithio rhieni a phlant—mai etifeddiaeth oddi wrtho ef ydynt; ac yn ddiammheu y dylent gael eu magu a'u meithrin yn ei ofn ef, a'u cyflwyno i'w wasanaeth a'i ogoniant. "*Gwobrau* a hoffaist ar bob llawr-dyrnu ŷd;" *Hos.* ix. 1. Tebygol fod Israel yn gorfoleddu o herwydd rhyw achos cyhoeddus; fe allai o herwydd eu cynghrair â Pul, trwy yr hwn yr oeddynt yn disgwyl y buasai heddwch a diogelwch iddynt oddi wrth yr Assyriaid a chenhedloedd ereill, y rhai oeddynt yn barod i'w goresgyn. Ond trwy eu bod wedi troi yn anffyddlawn oddi wrth Dduw, yr oeddynt etto yn eu perygl—ac o hyny y mae y prophwyd yn eu rhybuddio, am beidio llawenhau fel cenhedloedd ereill. Y mae yn debygol hefyd fod Israel yn awr mor wrthgiliedig oddi wrth yr Arglwydd, fel yr oeddynt yn priodoli hyd yn oed llwyddiant eu cynhauaf i'w heilunod (*pen.* ii. 5); a chan eu bod yn barnu mai trwy ddylanwad eu gau dduwiau yr oedd y ddaear yn rhoddi ei chnwd, yr oeddynt yn cadw eu gŵyliau gosodedig i'r eilunod ar eu lloriau-dyrnu ŷd. Ond y mae yr Arglwydd yn ei anfoddlonrwydd yn bygwth newyn arnynt—na chai y "llawrdyrnu na'r gwinwryf eu porthi;" felly, caent weled mai yn ofer yr oeddynt yn ymddiried yn eu gau dduwiau. "Y neb sydd yn derbyn prophwyd yn enw prophwyd, a dderbyn *wobr* prophwyd; a'r neb sydd yn derbyn un cyfiawn yn enw un cyfiawn, a dderbyn *wobr* un cyfiawn;" *Mat.* x. 41: hyny yw, pwy bynag a dderbynia yn groesawus i'w dŷ brophwyd o wir barch i'w swydd fel y cyfryw, ac er mwyn yr hwn a'i hanfonodd, a dderbyn mewn attebiad i weddïau a bendithion y prophwyd, fendithion mor uchel a gwerthfawr, fel ag i fod yn wobr y prophwyd ei hun: a'r un modd gyda golwg ar un a dderbynia yn groesawus i'w dŷ un cyfiawn—gwir ddysgybl i'r Iesu—fel y cyfryw, ac er mwyn ei feistr, a dderbyn wobr un cyfiawn; hyny yw, bendithion mor werthfawr ag i fod yn addas *wobr* i un cyfiawn.

"A hwn a bwrcasodd faes â *gwobr* anwiredd;" (*Act.* i. 18) sef Iudas: yr hwn â "*gwobr* anwiredd"—sef â'r deg ar hugain arian, y rhai a dderbyniasai am yr ysgelerder anwireddus o fradychu yr Iesu i ddwylaw yr Iuddewon—"a bwrcasodd faes;" hyny yw, Maes y Crochenydd; yr hwn a bwrcaswyd yn lle i gladdu dieithriaid gan yr awdurdodau Iuddewig, ac y talwyd am dano â'r "deg ar hugain arian," y rhai a dderbyniasai Iudas am fradychu ei Arglwydd—y rhai dan ddylanwad cydwybod euog a fwriasai ef yn ol i'r deml. Dywedir yn fynych fod un yn *gwneyd* peth, pan y byddo yn foddion i bwrcasu y moddion i hyny; ac felly yma, er nad Iudas a brynodd Faes y Crochenydd yn weithredol; etto, trwy mai efe a bwrcasodd y moddion i hyny, fe gyfrifir y weithred iddo ef. Gwel *Mat.* xxvii. 5, 10.

"Eithr i'r neb sydd yn gweithio, ni chyfrifir y gwobr o ras, ond o ddyled;" *Rhuf.* iv. 4. Wrth sôn am y patriarch Abraham y dywed yr apostol yma, "i'r neb sydd yn gweithio," sef yn cyflawni holl ofynion cyfraith Duw, ni chyfrifir y gwobr o ras ond o ddyled; hyny yw, y mae yn gyfiawn iddo dderbyn gwobr ei waith. Felly y byddai y pwngc yn sefyll, pe gallai un gyrhaedd cyflawnder, a chael ei gyfiawnhau trwy weithredoedd y ddeddf; canys yna ni chyfrifid y gwobr o ras i'r cyfryw, ond o ddyled—fel peth â chanddo hawl ynddo. Ond "trwy weithredoedd y ddeddf"—y ffordd yma, "ni chyfiawnheir un cnawd." "Credodd Abraham i Dduw, a chyfrifwyd iddo yn gyfiawnder."

Yn 2 *Pedr* ii. 15, dywedir am "Balaam, mab Bosor, yr hwn a garodd *wobr* anghyfiawnder;" sef trwy ei waith yn amcanu, mewn anufudd-dod i orchymyn Duw, i fyned at Balac, i regi y bobl, y rhai a fendithiasai Duw; a hyny er mwyn y wobr yr oedd Balac yn ei gynnyg am ei orchwyl—yr hwn, yn eithaf priodol, a elwir yn *wobr anghyfiawnder*. Gwel *Iudas* 11.

Y mae Duw ei hun yn *wobrwywr* i'r rhai sydd yn ei geisio: *Heb.* xi. 6. Y mae efe yn rhoddi iddynt fendithion mawr iawn a gwerthfawr—bendithion addas, helaeth, a thragwyddol, pan nad ydynt mewn un modd yn eu haeddu. Mewn gwirionedd, y mae efe ei hun "yn wobr mawr iawn iddynt:"—"Efe yw eu rhan a'u hetifeddiaeth;" *Gen.* xv. 1. Y mae pobl yr Arglwydd yn ei ofni, ei barchu, a'i wasanaethu o egwyddor. Y maent wedi eu "hail eni, nid o had llygredig, eithr anllygredig." Y maent wedi enwaedu arnynt, fel y maent yn caru yr Arglŵydd. Felly y mae yn amlwg fod y saint yn gwasanaethu yr Arglwydd eu Duw yn naturiol yn unol â'r anian newydd sydd ynddynt, yn annibynol, mewn ystyr, ar y *wobr* sydd iddynt am eu llafur. Ond er fod y saint yn gwasanaethu yr Arglwydd o egwyddor a thueddfryd calon, etto y mae Duw yn gosod y gwobrau mwyaf gogoneddus o'u blaen yn ei air, fel cymmhellion iddynt i fod yn sicr a diymmod, a helaethion yn ei waith ef yn wastadol: gwel 2 *Cor.* vii. 1; 2 *Pedr* i. 10, 11; 1 *Tim.* vi. 17—19; *Gal.* vi. 9. Yn yr holl adnodau uchod, y mae y bendithion a addewir yn cael eu gosod allan fel calonogiad grymus i ufudd-dod a sancteiddrwydd. Y mae yr addewidion hefyd yn cael eu gosod o'n blaen yn yr Ysgrythyrau mewn trefn i'n cynnal yn ein profedigaethau: *Mat.* v. 10—12; *Heb.* x. 36; *Dad.* ii. 10. Felly y mae yn eithaf amlwg fod Duw wedi gosod "taledigaeth y gobrwy" o flaen ei bobl mewn trefn i'w hannog i ddiwydrwydd, ac i'w cynnal yn eu profedigaethau. Y mae yn amlwg hefyd mai arferiad gymmeradwy y saint yn mhob oes ydyw ymnerthu oddi wrth obaith am "daledigaeth y gobrwy" yn y pen draw. Y mae Duw yn dywedyd yn bennodol nad yw yn gywilydd ganddo alw ei hun yn Dduw i'r hen batrieirch, am eu bod yn ceisio gwlad well, sef "un nefol;" *Heb.* xi. 16. "Moses hefyd wedi myned yn fawr a wrthododd ei alw yn fab merch Pharaoh, gan ddewis yn hytrach oddef adfyd gyda phobl Dduw, na chael mwyniant pechod dros amser, gan farnu yn fwy golud ddirmyg Crist na thrysorau yr Aipht; canys edrych yr oedd efe ar daledigaeth y gobrwy;" *Heb.* xi. 24—26. Ni bu dyn erioed yn mhellach o gael ei lywodraethu gan ysbryd bydol a hunanol na'r apostol Paul; etto, yn ei holl lafur a'i ymdrechion, yr oedd yn edrych yn barhaus i fyny am y nefoedd, fel y nôd i gyrchu ato yn ei holl ymdrechion, ac fel "taledigaeth y gobrwy" am ei lafur yma yn y byd:—"Yr ydwyf yn cyrchu at y nôd am gamp uchel alwedigaeth Duw yn Nghrist Iesu;" *Phil.* iii. 14: ac yr oedd y rhagolwg ar hyn yn cyffroi ei benderfyniad, ac yn



Digitized by Google

cynnal ei feddwl yn mhob tywydd: 2 *Cor.* iv. 16, 18. Ac nid hyny yn unig, fe ddioddefodd Iesu Grist ei hun y groes—ei lafur cyfryngol yma yn y byd —trwy "edrych ar y llawenydd a osodwyd iddo," sef gwobr ei lafur cyfryngol: *Heb.* xii. 2. Y mae yr un gwirionedd yn amlwg oddi wrth y grasau o ffydd a gobaith o ran eu natur. Mae y grasusau hyn â chanddynt lawer o waith ynddynt i'r Cristion yn y byd hwn: *Heb.* xi. 1; *Rhuf.* viii. 24, 25. Y mae "taledigaeth y gobrwy" yn mhlith gwrthddrychau nodedig y grasusau hyn; mewn canlyniad, os nad ellir yn gyfreithlawn edrych ar y cyfryw daledigaeth, gobeithio am dano, a chredu y ceir ei fwynhau, nis gall fod gan y grasusau hyn, mewn ystyr, wrthddrychau cymmhwys i edrych atynt. Etto, disgwylir i'r holl saint fyw trwy ffydd:—"Y cyfiawn a fydd byw trwy ffydd;" *Heb.* x. 38: dyma eu braint a'u dyledswydd. A gorchymynir iddynt hefyd "obeithio yn berffaith am y gras a ddygir iddynt yn natguddiad Iesu Grist;" 1 *Pedr* i. 13. Ond pa fodd y gall ffydd dynu cysur a nerth oddi wrth "daledigaeth y gobrwy," na gobaith ei ddwyn megys peth presennol i'r meddwl, os nad ydyw yn gyfreithlawn i edrych arno?

GWR LLEN, neu GWR EGLWYSIG. Y gair cyfystyr â'r ddau hyn mewn arferiad yn bresennol yw *clerigwr;* ac y mae yn cynnwys, o ran ei ystyr cyffredinol, holl gorff o athrawon yr Eglwys Sefydledig. Yr oedd yr apostolion, a'u holynwyr cyntaf, yn fynych mewn peryglon mawrion wrth gyflawnu eu dyledswyddau. Nid oedd anrhydedd daearol yn eiddynt hwy; ond o herwydd eu bod yn mlaenaf mewn ffydd, yr oeddynt yn aml yn gyntaf mewn merthyrdod. Rhoddai y bobl a wasanaethent barch mawr iddynt ar gyfrif eu llafur, a chynnalient hwynt yn llawen ac anrhydeddus. Yn wir, nid oedd un llinell derfyn amlwg i'w chanfod rhwng y clerigwyr a'r bobl hyd yr ail ganrif. Rhoddwn yma rai o dystiolaethau y tadau ar y pwnc:—Dywed Justin Ferthyr:—"Tra na dderbyniasai y prophwydi yr hen gyfammod, ond doniau a galluoedd arbenig oddi wrth yr Ysbryd Dwyfol, yr oedd Crist ar y llaw arall yn meddu holl gyflawnder yr Ysbryd Dwyfol hwn, ac y mae efe yn cyfranu o'i gyflawnder ddoniau ysbrydol i gredinwyr, megys i brophwydi yr hen gyfammod. Y mae Cristionogion, wedi iddynt gael eu goleuo, yn derbyn—un, ysbryd gwybodaeth, arall ysbryd cynghor (doethineb Cristionogol ymarferol), arall ysbryd gallu, arall ysbryd meddyginiaethu, arall ysbryd prophwydoliaeth, arall ysbryd addysgu, ac arall ysbryd ofn Duw. Yr ydym, drwy Iesu Grist, wedi ymgyssegru fel un gŵr i Dduw, creawdwr y bydyssawd; yr ydym, drwy enw ei Fab cyntafanedig, yn diosg ein gwisgoedd halogedig, sef ein pechodau; a thrwy ddylanwad gair ei alwedigaeth ef, yr ydym yn wir hiliogaeth archoffeiriadol Duw, fel y tystia Duw ei hun, gan ddywedyd, yr offrymir aberthau pur a chymmeradwy iddo ef yn mhob lle yn mysg y Cenedloedd: *Mal.* i. 11. Ni dderbyn Duw aberthau gan neb ond trwy ei offeiriaid...Gweddïau a diolchiadau gan y teilwng yw yr unig aberthau perffaith a chymmeradwy gan Dduw." "Y mae pawb cyfiawn yn meddu urddas offeiriaid," ebe Irenæus: a dywed mewn lle arall, "Neillduai yr Iuddewon eu degymau i Dduw; ond y mae Cristionogion, y rhai ydynt wedi cyrhaedd rhyddid, yn cyssegru yr oll a feddant yn llawen a rhydd i wasanaeth yr Arglwydd." "Gweddi," medd Tertullian, "yw yr aberth ysbrydol sydd yn cymmeryd lle yr aberthau dan yr hen gyfammod. Y mae yr efengyl yn ein dysgu pa beth y mae Duw yn ei ofyn: 'Dyfod y mae'r awr pan addolo y gwir addolwyr y Tad mewn ysbryd a gwirionedd; canys y cyfryw y mae y Tad yn eu ceisio i'w addoli ef.' Ysbryd yw Duw; ac o blegid hyny y mae efe yn dysgwyl y cyfryw addolwyr. Nyni ydym y gwir addolwyr a'r gwir offeiriaid, y rhai ydym yn gweddio yn yr Ysbryd, ac yn offrymu i Dduw yn yr Ysbryd y gweddïau hyny sydd ddyledus iddo, a chymmeradwy yn ei olwg ef. Y rhai hyn, wedi eu cyssegru â'r holl galon, eu porthi â ffydd, eu cyfeirio gan wirionedd, yn gyflawn mewn diniweidrwydd, yn bur mewn diweirdeb, wedi eu coroni â chariad, y dylem eu dwyn at allor Duw, gyda'r llu o weithredoedd da, yn mhlith salmau a hymnau, er cael o honom bob peth gan Dduw." Yn yr un cyfeiriad hefyd y rhed sylwadau prydferth Origen, yn mha rai y mae yn amddiffyn Cristionogion yn ngwyneb y gwarthrudd a fwriwyd arnynt gan y paganiaid—eu bod, yn wahanol i broffeswyr crefyddau ereill, heb na themlau, na delwau, nac allorau. "Nid yw efe (Celsus) yn gweled," ebe Origen, "mai eneidiau y cyfiawn yn ein plith ni yw yr allorau ar ba rai yr offrymir, mewn modd gwirioneddol ac ysbrydol, aberthau cymmeradwy gan Dduw, sef gweddïau o gydwybod bur. Y delwau a'r offrymau, gan nad gwaith dwylaw dyn ydynt, ond eu bod wedi eu ffurfio gan air Duw, ydynt y rhinweddau â pha rai yr ydym yn ymffurfio yn ol delw Cyntafanedig yr holl greadigaeth, yn yr hwn y mae y cynllun gwreiddiol o bob cyfiawnder a doethineb. Y ddelw ogoneddusaf, yr hon sydd dra dyrchafedig goruwch yr holl greadigaeth, ydyw ein Gwaredwr, yr hwn a allai ddywedyd am dano ei hun (*Ioan* xiv. 10), "Y Tad, yr hwn sydd yn aros ynof;" ond hefyd yn mhob un sydd hyd eithaf ei allu yn ei efelychu ef, y mae delw yr hwn a'i creodd ef (*Col.* iii.)—delw wedi ei ffurfio drwy edrych i fyny at Dduw â chalon bur. Ac y mae Cristionogion yn gyffredinol yn ymdrechu codi y cyfryw allorau a delwau yn eu calonau: nid rhai heb fywyd na theimlad, i ba rai y dygant dduwiau gau; ond y cyfryw ag a dderbyniant Ysbryd Duw iddynt eu hunain, yr hwn sydd yn ymgyssylltu â'r hyn a berthyn iddo. Dangosir hyn yn yr Ysgrythyrau Sanctaidd, pan y mae Duw yn addaw i'r cyfiawn (*Lef.* xxvi. 12); 'A mi a rodiaf yn eich plith; a byddaf yn Dduw i chwi, a chwithau a fyddwch yn bobl i mi:' a dywed y Gwaredwr (*Ioan* xiv. 23), 'Os câr neb fi, efe a geidw fy ngair i, a'm Tad a'i câr yntau, a nyni a ddeuwn ato, ac a wnawn ein trigfa gydag ef." Dywed Tertullian:—"Y mae pob Cristion yn awr yn sefyllfa y rhai oeddynt offeiriaid dan oruchwyliaeth yr Hen Destament; yr oedd yr offeiriadaeth Iuddewig neillduol yn gysgod prophwydol o'r offeiriadaeth Gristionogol gyffredinol. Yr ydym ni yn offeiriaid, wedi ein galw i'r swydd gan Grist. Y mae Crist, yr archoffeiriad, offeiriad mawr y Tad Nefol, gan ei fod wedi ein gwisgo ni âg ef ei hun ('canys nifer o honoch ag a fedyddiwyd yn Nghrist, â wisgasoch Grist;' *Gal.* iii. 27), 'wedi ein gwneuthur ni yn frenhinoedd ac yn offeiriaid i Dduw a'i Dad ef;' *Dad.* i. 6. Ac mewn lle arall, y mae yn dadleu yn erbyn y meddylddrych o radd neu ddosbarth offeiriadol mewn Cristionogaeth. "Yr ydym yn cael ein twyllo, os ydym yn credu fod yr hyn na chaniateir i'r offeiriaid yn cael ei ganiatau i'r lleygwyr. Onid ydym ni, lëygwyr,

Digitized by Google

yn offeiriaid hefyd (*Dad.* i. 6)?" Y mae efe yn edrych ar y gwahaniaeth rhwng clerigwyr a lleygwyr fel rhywbeth a ddygwyd i mewn gan yr eglwys er mwyn trefn, ac nid fel peth oedd yn bod o'r dechreu. Y mae yn tybied y dylai y bobl gydnabod y gwahaniaeth o blegid y rheswm hwn. "Ond lle na byddo clerigwyr," medd efe, "ti elli fedyddio, a gweinyddu Swper yr Arglwydd; ac yr wyt ti dy hun yn offeiriad. Pa le bynag y byddo tri (*Mat.* xviii. 20), y mae yno eglwys, er iddynt oll fod yn lleygwyr. Y mae pob un yn byw trwy ffydd, ac nid oes derbyn wyneb gyda Duw; canys nid y rhai a glywant y ddeddf a gyfiawnheir ger bron Duw, ond y rhai a'i gwnant. Dylem oll drefnu ein bywydau yn ol ewyllys Duw, fel y gallom fod bob amser yn gymmhwys i weinyddu ei sacramentau. Un Duw, un ffydd, un ddeddf bywyd." Gotyna, "Pa fodd y gall yr offeiriaid gael eu dewis o blith y lleygwyr, oni bydd y lleygwyr byw yn flaenorol yn y fath fodd ag i fod yn gymmhwys i'r offeiriadaeth?" Ond yn mhen amser wedi hyn, fe ddaeth yr offeiriaid yn ddosbarth mwy amlwg; ac wedi amser Cystenyn, yr hwn yn rhyfedd a ymgyfenwai yn esgob, fe'u cydnabyddwyd gan y llywodraeth fel rhai yn perchen rhyddid a rhagorfreintiau neillduol. Byddai talent, sel, duwioldeb, grym cymmeriad, hyawdledd, dysgeidiaeth, neu ymlyniad mawr, bob amser yn dyrchafu yr athraw Cristionogol yn uchel, er na byddai ganddo unrhyw radd neu urddas allanol o bwys. Nid oedd Origen ond diacon, a henuriad oedd Jerome. Disgwylid i gymmeriad y clerigwyr fod yn gysson â'u swydd. Yr oedd yn angenrheidiol i lettygarwch, caredigrwydd i'r tlawd, ymddiddanion sanctaidd a gweddus, a diystyrwch o bethau y byd, fod yn nodweddion arbenig yn ei gymmeriad; a disgwylid iddo astudio yr Ysgrythyrau yn ddyfal, a bod yn wresog mewn awyddfryd am fod yn offerynol i achub eneidiau. "Y mae rhai, ebe Gregory o Nazianzen, "yn ymwthio gyda dwylaw aflan a meddyliau halogedig i drin y cyfrinion sanctaidd, ac yn ymawyddu am fod wrth yr allor cyn eu bod yn gymmhwys i gymmeryd rhan mewn unrhyw wasanaeth cyssegredig. Edrychant ar y swydd a'r urdd sanctaidd, nid fel un wedi ei bwriadu i fod yn esampl mewn rhinwedd, ond yn unig fel moddion cynnaliaeth; nid fel ymddiriedaeth, o'r hon y maent i roddi cyfrif, ond fel sefyllfa o awdurdod a rhyddid cyflawn a hollol. Ac y mae esamplau y dynion hyn yn llygru moesau y bobl yn gyflymach nag y gall unrhyw frethyn sugno lliw, neu bla heintio yr awyr, gan fod dynion yn fwy tueddol i dderbyn naws drygioni na rhinwedd oddi wrth esamplau eu llywodraethwyr." Yn ngwrthwyneb i hyn, dadleua ei bod yn ddyledswydd ar bob meddyg ysbrydol i dynu "darlun o bob rhyw rinwedd yn ei fywyd, gan ei osod ei hun yn esampl i'r bobl, fel na ddywedir am danynt eu bod yn ymwthio i iachau ereill pan y maent eu hunain yn llawn o gornwydydd a doluriau." "Mae swydd gweinidog yn ei osod ef yn yr un radd ac urdd a'r angylion eu hunain: y mae efe yn moli Duw gydag archangylion, yn trosglwyddo aberth yr eglwys i'r allor yn y nef, ac yn cyflawni swydd offeiriad gyda Christ ei hun: y mae efe yn diwygio gwaith dwylaw Duw, ac yn cyflwyno y ddelw i'w Wneuthurwr: y mae ei waith ef ar gyfer y byd sydd uchod; ac felly fe ddylai gael ei ddyrchafu i natur ddwyfol a nefol—gorchwyl yr hon yw bod fel Duw ei hun, a gwneuthur ereill yn dduwiau hefyd."

Trwy ddeddfau a wnaed gan Cystenyn, ac a gadarnhawyd gan Valentinian IV., a Gratian, a Theodosius Fawr, fe ryddheid y clerigwyr, 1af, Oddi wrth bob swyddau gwladol a dinasol, modd y gallent ymroddi i'w dyledswyddau crefyddol. 2il, Oddi wrth gyfraniadau at weithydd cyhoeddus, megys prif-ffyrdd a phontydd, neu ofalu am feirch teithio i swyddogion gwladol. 3ydd, Oddi wrth amrywiol drethi a thollau; megys, "treth y penau" ar gyfer y cartreflu; yr arian a delid am ryddhâd o wasanaeth milwrol; arian a delid yn lle meirch i'r fyddin; y dreth a delid mewn arian ac aur ar nwyddau masnachol, ac a godid bob pum mlynedd; y baich o groesawu yr ymherawdwr a'i lys, neu farnwyr, neu filwyr, pan yn teithio; a threthi ereill a godid yn achlysurol ar yr ymherodraeth i ddibenion neillduol, neu ar amseroedd enbyd. 4. Oddi wrth wasanaeth milwrol; er na ddywedir hyny mewn cynnifer o eiriau. 5ed, Oddi wrth orfod ymddangos mewn llysoedd gwladol. Ni ellid gorfodi esgob i roddi tystiolaeth gyhoeddus; ond gellid ei chymmeryd yn gyfrinachol, er nad oedd yr esgob dan orfod i gymmeryd llw ffurfiol, ond yn unig fod yr Efengylau o'i flaen. Nis gellid fflangellu ac arteithio clerigwyr, er y gellid gwneuthur hyny â thystion ereill. Ni allai y llysoedd gwladol chwaith brofi achosion gwir eglwysig, er y gallent ymyryd pan y byddai troseddau wedi eu cyflawnu, ac mewn achosion rhwng clerigwr a llëygwr; canys nid oedd llëygwr yn rhwym o ymostwg i frawdle eglwysig. Byddai esgobion yn fynych yn penderfynu materion: ond ni ddygwyddai hyny oddi eithr yn unig pan y byddai y ddwyblaid yn cyttuno i osod y materion o'u blaenau; ac yna fe ellid gosod y ddedfryd esgobol mewn grym drwy awdurdod wladol. Mewn achosion o fywyd neu angeu, fe waherddid yn fanwl i'r clerigwyr ymyraeth.

Ni wyddys fod unrhyw wisg glerigol arbenig yn cael ei harfer cyn y chweched ganrif. Ymddengys fod y clerigwyr hyd y pryd hwnw yn arfer gwisgo dillad cyffredin gwŷr y gyfraith. Ond fe allasai math o ddillad eglwysig fod yn cael eu harfer cyn hyn. Mae Gregory o Nazianzen yn son am wisgoedd gwynion gweinidogion; a dywed Jerome fod un wisg yn cael ei harfer mewn cymdeithas, ac un arall wrth weinidogaethu yn yr eglwys. Rywbryd tua'r chweched ganrif, byddai rhanau o wisgoedd offeiriadol yr Iuddewon yn cael eu harfer gan y clerigwyr, gyda rhanau hefyd o'r hen wisg Roegaidd a Rhufeinig. Y lliw cyffredinol oedd gwyn; ond yr oedd du mewn arferiad mynych mewn cylchoedd cyfrinachol. Ymddengys na phennodwyd un lliw yn neillduol hyd y ddeuddegfed ganrif. Dechreuwyd eillio y coryn yn y chweched ganrif, a gwisgid perwigau am dymmor maith yn yr Eglwys Orllewinol—yn wir, yr oeddynt mewn arferiad cyffredin yn Ysgotland hyd ddiwedd y ganrif ddiweddaf.

Gosodid y clerigwyr dan ddysgyblaeth fanwl. Y troseddau yn galw am gospedigaeth oeddynt Simoniaeth neu gyssegr-fasnach, heresi, gwrthgiliad, esgeulusiad o ddyledswydd, anfoesoldeb, a gwrthod cydymffurfio â moesgarwch clerigol. Yr oedd amryw gospedigaethau yn cael eu gweinyddu:—1af, Cosp gorfforol; yr hon, medd Awstin, a ddigwyddai yn ddigon mynych: cymmerid ymaith yn gyntaf ei urdd glerigol, ac yna fflangellid ef fel llëygwr. Yr oedd math o garcharau ynglŷn â llawer o eglwysi. 2il, Diraddiad; hyny yw, fe ddarostyngid y troseddwr i swydd is, ac yn ol pob

Digitized by Google

tebyg, byddai raid iddo barhau felly. Gellid symmud esgob i esgobaeth lai, a darostwng henuriaid i fod yn ddiaconiaid, a diaconiaid yn is-ddiaconiaid, &c. 3ydd, Difuddiad dros amser—o gyflog, neu o swydd: parhäai yr olaf dros dymmor pennodol, ac ystyrid y troseddwr yn y cyfamser fel aelod o'r corff clerigol. 4ydd, Llwyr ddifuddiad; un ai attelid ef yn hollol oddi wrth Swper yr Arglwydd, ac ymddygid ato fel dieithr-ddyn, neu ynte caniateid iddo gymuno yn unig gyda'r gwŷr lleyg. 5ed, Esgymuniad; pan y llwyr ddiswyddid y troseddwr, ac y cymmerid oddi arno bob gobaith am adferiad, hyd yn oed er iddo gael ei dderbyn i gymmundeb yr eglwys.

Yr oedd dyledswyddau gwŷr eglwysig yn yr hen amseroedd yn cael eu nodi yn fanwl, a deddfau sefydlog yn cael eu gosod i lawr fel rheolau iddynt. Ni oddefid iddynt adael eu safle heb ganiatâd, ond yr oedd yn rhaid iddynt breswylio o fewn y cylch yr oeddynt i wasanaethu ynddo, gan fod encilwyr yn cael eu condemnio yn ol deddf o eiddo Justinian i fforffedu eu hetifeddiaethau; ond gallent roddi eu swydd i fyny mewn rhai amgylchiadau, ac weithiau, caniateid blwydd-dâl iddynt pan yn ymneillduo o swydd. Ni allent symmud o'r naill esgobaeth i'r llall heb lythyrau yn eu rhyddhau, ac nis gallent chwaith ddal fwy nag un fywoliaeth, na chymmeryd swydd mewn dwy esgobaeth. Gwaherddid iddynt gyflawni gorchwylion gwladol, na myned i ffeiriau a marchnadoedd, na bod yn ddadleuwyr mewn llysoedd cyfreithiol. Disgwylid iddynt dreulio bywyd myfyrgar: eu prif lyfr oedd y Beibl. Ni roddid traethodau paganaidd a hereticaidd iddynt, ond fel y byddai achlysur yn galw. Gallai y dosbarth isaf o glerigwyr gynnal eu hunain, fel Paul, neu dreulio eu horiau hamddenol gyda rhyw orchwyl bydol. Ffurfiwyd deddfau llymion yn erbyn y rhai a elwid yn "glerigwyr crwydrol," y rhai oeddynt yn fynych yn ffoedigion wedi ymryddhau oddi wrth ddysgyblaeth—heb gymmeriad na thrwydded. Pe byddai ŵr eglwysig farw heb etifeddion, yr oedd ei feddiannau yn disgyn i'r eglwys; yn ol rheol Cynghor Agde yn y flwyddyn 500. Yn unol â deddf o eiddo Theodosius a Valentinian III., yr oedd eiddo unrhyw glerigwr a fyddai farw yn ddiewyllys i fyned yr un modd.

Y mae yr ymadrodd "gŵr eglwysig" yn cynnwys yn Mhrydain bawb mewn urddau sanctaidd, a swyddau eglwysig—archesgobion, esgobion, deoniaid, a glwysgorau, archddiaconiaid, deoniaid gwladol, parsoniaid (y rhai ydynt un ai periglor-iaid neu ficeriaid), a churadiaid; at y rhai y gellir chwanegu clochyddion, y rhai a arferent yn fynych fod mewn urddau sanctaidd—ac y mae ychydig o honynt felly yn awr. Dosberthid gwŷr eglwysig gynt yn "rheolaidd" a "lleyg." Clerigwyr rheolaidd oedd y rhai oedd yn byw dan reolau pennodol a berthynent i ryw urdd grefyddol—megys abadau, prioriaid, a mynachod. Clerigwyr lleyg, ar y llaw arall, oedd y rhai nad oeddynt yn byw dan y cyfryw reolau, megys esgobion, deoniaid, a pharsoniaid. Yr oedd y breintiau a fwynhäai clerigwyr yn ol ein cyfreithiau breiniol yn lliosog; ond gan iddynt gael eu camarfer yn fawr gan yr offeiriaid Pabaidd, fe leihawyd eu rhif yn ystod y Diwygiad Protestanaidd. Y mae y rhai a barhânt yn awr o natur bersonol; megys, na orfodir clerigwyr i wasanaethu fel rheithwyr, neu ymddangos ger bron y sirydd, neu yn y pentreflys. Nis gellir dewis clerigwyr chwaith i unrhyw swyddau tymmorol. Nis gellir eu cymmeryd i fyny ar gwynion cyfreithiol pan y byddant yn cyflawni y gwasanaeth crefyddol. Haerir fod hyn yn rhagorfraint yn cynnwys y myned i'r gwasanaeth, y parhau ynddo, a'r dychwelyd o hono. Ni all y sirydd attafaelu eiddo clerigwr. Mewn achosion o ladrad, fe estynir "braint eglwyswyr" iddo heb eu serio yn y llaw, ac y mae ganddynt hawl i hyn fwy nag unwaith. Y mae rhai pethau hefyd nad yw gwŷr eglwysig fel ereill yn rhydd i'w cael, megys eistedd fel aelodau yn Nhŷ y Cyffredin. Ond er bod hyn yn opiniwn cyffredin, etto ni roddwyd grym deddf iddo hyd ddyddiau George III., pryd y pasiwyd y gyfraith, o herwydd i John Horne Tooke, yr hwn oedd y pryd hwnw mewn urddau diacon, gael ei ethol i gynnrychioli Old Sarum. Fe benderfynwyd yr adeg hono nas gallai un offeiriad na diacon, na gweinidog o eglwys Ysgotland, wasanaethu yn y senedd; y byddai eu hetholiad yn ddirym, a hwythau yn agored i ddirwy o 500p. y dydd, pe dygwyddai iddynt eistedd neu bleidleisio. Fe ymddengys, gan hyny, megys yn achos esgob Exeter yn erbyn Shore, nas gall neb ymddiosg o'i urddau sanctaidd. Mae amryw ddeddfau seneddol hefyd wedi eu pasio, er amser Harri VIII., i attal gwŷr eglwysig i ymgymmeryd â masnach, dal ffermydd, a chadw barcerdai a darllawdai.

**GWR LLEYG.** Un heb fod yn glerigwr, neu mewn urddau sanctaidd: un o'r bobl, mewn cyferbyniad i'r gŵr eglwysig. Yr oedd y gwahaniaeth rhwng clerigwyr a lleygwyr yn bod yn yr eglwys yn foreu. Yr oedd yn angenrheidiol i lëygwr fod yn llawn gymmundeb yr eglwys. Yn ol pedwerydd cynghor Carthage, ni oddefid iddo bregethu yn mhresennoldeb clerigwyr, ond ar eu cais hwy. Byddai rhai esgobion yn eu cyflogi yn achlysurol i gyfarch y bobl, yn ol y trefniadau perthynol i'w heglwysi neillduol.

GWRACHIAIDD [*gwrach—gwr*]: yr hyn a berthyn i hen wrach, neu hen ddynes, hudoles ddisynwyr ac annuwiol, yr hon a greda ac a ddyfeisia bob math o chwedlau ynfyd a thwyllodrus. "Eithr gâd heibio halogedig a gwrachïaidd chwedlau, ac ymarfer dy hun i dduwioldeb;" 1 *Tim.* iv. 7. "Gwrachïaidd chwedlau" oedd yr enw a roddai Paul ar ddysgeidiaeth y bobl oedd wedi ymadael oddi wrth y ffydd, y rhai oeddynt yn rhoddi coel i ysbrydion cyfeiliornus, i athrawiaethau cythreuliaid, gan ddywedyd celwydd mewn rhagrith, yn gwahardd priodi, ac yn erchi ymattal oddi wrth fwydydd, &c.: 1 *Tim.* iv. 1—7.

GWRAIDD, GWREIDDYN [*rhaidd*]. Y rhan hono o'r llysieuyn sydd yn myned i lawr i'r ddaear, tra y mae y paladr yn dyfod i fyny i'r awyr. Nid ydyw pob rhan o'r llysieuyn sydd yn gorwedd o dan y ddaear yn wraidd; o blegid fe ddichon i ran fawr o'r paladr aros yn guddiedig oddi ar wyneb y ddaear; ac y mae egin mawr, y rhai a elwir crynwreiddiau, hefyd yn bodoli o dan y ddaear. Y mae y rhanau hyn wedi cael eu camgymmeryd yn fynych am y gwraidd rhedegog, a rhai ffurfiau o'r gwraidd cnycynog a chrynwreiddiog, am ba rai y sonir gan hen lysieuwyr, ond gwahanol ffurfiau o'r paladr.

Y mae hynodrwydd neillduol yn perthyn i'r gwraidd, trwy yr hwn y gellir yn hawdd ei adnabod yn hawdd oddi wrth y paladr. Yn gyntaf,

Digitized by Google

Y mae ei geingciau yn annhrefnus, heb feddu ar ffurf gymmesurol canghenau; ac nid ydynt chwaith wedi ymddadblygu fel canghenau o'r egin. Yn ail, Nid ydyw gwraidd yn gyffredin yn cynnyrchu dail blagurol. Pan yr ymddangosant, ac fe wnânt weithiau, gelwir hwy yn flaguron chwaenol (*adventitious buds*). Yn drydydd, nid oes dail, na philion, na dim arall, yn ymddangos ar wyneb gwraidd. Ac yn bedwerydd, nid yw croen gwraidd byth yn cynnwys mândyllau, y rhai ydynt yn aml iawn yn bur lliosog ar wahanol ranau o'r paladr.

Y mae y cyssylltiad sydd rhwng maintioli a lled y gwraidd, ac eiddo y canghenau, yn gwahaniaethu yn ddirfawr. Ynglŷn â rhai rhywogaethau, y mae y gwreiddiau yn fychain iawn mewn cymmhariaeth i faintioli y paladr. Mewn rhywogaethau ereill, mae y gwreiddiau yn hirach o lawer na'r paladr. Gyda golwg ar goed yn gyffredinol, y mae y gwreiddiau yn ymledu yn lletach na'r canghenau, ond nid ydynt yn treiddio mor ddyfn ag ydyw y paladr o ran uchder.

Y mae cyfansoddiad mewnol gwraidd yn debyg i gyfansoddiad mewnol y paladr; ond ynglŷn âg elltyfiaid (*exogens*), nid yw y gwraidd yn cynnwys madrudd yn ei ganol. Y mae cyflawnder mawr o fân dyllau mewn llawer o wreiddiau; ac ar gyfrif hyny, ystyrir hwy yn addas i'w bwyta. Gellir mwyhau y gwreiddiau hyn gydag ychydig o lafur a gofal; ac y mae tyfiant gwreiddiau bwytadwy yn bwngc pwysig mewn perthynas â gardd y gegin. Y prif wreiddiau bwytadwy ydynt, y *Jerusalem artichoke*, maip, (*brassica rapa*), moron cochion (*daucus carota*), moron gwynion (*pastinaca sativa*), betys cochion *red-beet*, (*beta vulgaris*), *scirret*, *scorzonera*, neu *vipers grass*, *salsafy*, neu *purple goat's beard*, a *radish*. Heb law y rhai hyn, y rhai a feithrinir yn gyffredin, y mae llawer o lysiau y wlad hon yn meddu gwraidd yn cynnyrchu mater maethlawn, ac ambell dro cymmerir hwy i'w bwyta. Mae y llysiau canlynol yn dwyn gwreiddiau bwytadwy: —saethlys (*arrow-head*), pys y coed (*bitter vetch*), cnau y ddaear, medlys, neu barf y bwch (*meadow sweet*), llygad Ebrill, neu gwenith y gôg (*pillwort*), tinllwye (*silver weed*).

Yn ystod tymmorau sychion, ac mewn sefyllfaoedd sychion, y mae gwreiddiau llawer o lysiau yn ymchwyddo ac yn myned yn gnycynog, neu gnapiog; yr hyn a ymddengys ei fod yn ddarpariaeth i gynnysgaethu y paladr â mater magwriaethol.

Y mae gwreiddiau blynyddol, dwyflwyddol, a thairblwyddol; a gelwir hwy felly yn ol amser eu parhâd. Pan y mae gwreiddyn yn marw ar ol iddo flaguro a blodeuo y flwyddyn gyntaf, un blynyddol ydyw hwnw; os bydd marw ar ol blaguro yr ail flwyddyn, a blodeuo y flwyddyn gyntaf, gelwir ef yn wreiddyn dwyflwyddol; ac os pery gwreiddyn am lawer o flynyddoedd, er i'w flagur farw bob blwyddyn, gwreiddyn teirblwyddol ydyw yr enw a rydd llysieuwyr arno. Er fod y mwyafrif o'r llysiau uchaf yn meddu gwreiddiau yn mhlith llawer o'r rhai isaf, nid ydynt yn ganfyddadwy. Nid oes dim y gellir ei alw yn wraidd yn perthyn i'r llysiau isaf a welir yn nofio ar wyneb y dwfr, neu yn tyfu yn ngwaelod y môr; ond y maent yn derbyn magwraeth trwy y mândyllau sydd ynddynt. Gorchudir gwreiddiau yn gyffredin â math o fân edafedd—neu fel y gelwir hwy gan un llysieuwr enwog, sef Meyen, gwraidd-flew—y rhai ydynt o wasanaeth mawr i sugno magwraeth i'r gwraidd. Nid ydynt i'w gweled ond ar wraidd ieuaingc; o blegid y maent yn disgyn ymaith fel y mae y gwraidd yn heneiddio. Nid ydynt mor liosog ar wreiddiau y llysiau uchaf ag ydynt ar y rhai isaf, ond y mae eu nifer yn amrywio yn ddirfawr yn ol yr amgylchiadau o dan ba rai y gosodir y llysieuyn. Y mae nifer y gwraidd-flew hyn yn fwy lliosog yn y llysiau hyny sydd yn derbyn eu magwraeth o'r daear; ac o ganlyniad, gellir edrych arnynt fel darpariaeth er eangu y rhanau sugnol perthynol i'r paladr. Y maent weithiau yn mesur chwarter neu dri chwarter modfedd o hyd. Y mae gwraidd llysiau a choed yn atteb yr un dyben iddynt hwy a'r cylla a'r coluddion i gyrff dynion ac anifeiliaid: y mae y naill yn derbyn eu magwraeth o'u gwraidd yr un fath a'r lleill o'r cylla. Dywedir yn mhellach fod gwraidd yn cyflawni gwasanaeth arall; sef, bwrw allan ysgarthion o'r llysieuyn. Du Hamel oedd y cyntaf i dynu sylw llysieuwyr at y pwnc yma. Cafodd ef allan fod gwraidd llysiau sydd yn tyfu mewn dwfr yn bwrw allan ysgarthion halltaidd, a barnai mai ysgarthion oeddynt oddi wrth wlybyron y llysieuyn. Fe wnaeth llysieuwr arall o'r enw Brugmans ddefnydd o'r ffaith hon, ynglŷn â llawer o wahanol lysiau; ac wedi gwneuthur amryw brawfiadau, daeth i'r penderfyniad fod ysgarthion yn cael eu taflu allan o wraidd llysiau, yn gyffelyb i'r dull y teflir allan ysgarthion o gyrff creaduriaid byw, a bod yr ysgarthion hyn yn dylanwadu yn llesol ar rai llysiau, ac yn niweidiol ar lysiau ereill.

Y mae yr ymchwiliadau hyn i natur gwreiddiau wedi bod yn fanteisiol i roddi eglurhâd boddhaol ar yr arferiad o gylch-drefnu cnydau mewn amaethyddiaeth. Y mae hyn yn angenrheidiol, o herwydd fod ysgarthion y llysieuyn yn niweidiol iddo ei hun; ac yn llesol, yn gymmaint a bod ysgarthion un llysieuyn yn fagwraeth i un arall.

Y mae yn deilwng o sylw y cywrain hefyd, fod y gwraidd yn gyfrwng i gadw tymmeredd y llysieuyn is law tymmeredd yr awyrgylch yn yr haf, ac uwch law iddo yn y gauaf. Y mae hyn yn cyfodi oddi ar y ffaith fod y gwraidd yn sugno gwlybyron o ddyfnder is law arwynebedd y ddaear lle nad yw ei thymmeredd yn cael ei ddylanwadu yn fawr gan gyfnewidiadau yr awyrgylch. Dyma y rheswm fod trigolion yr hinsoddau trofanol yn cael eu cyflenwi â ffrwythau; sudd melusber pa rai, wedi ei sugno o'r ddaear, sydd yn llawer iawn oerach na'r awyrgylch, ac felly yn cyfansoddi defnyddiau adfywiol a gwerthfawr i ymborthi arnynt.

Yr ydym yn cael crybwylliadau mynych am wraidd a gwreiddyn yn y Beibl, a defnyddir y geiriau yn mron yn ddieithriad mewn ystyr allegol: "Canys gwreiddyn pob drwg yw ariangarwch;" 1 *Tim*. vi. 10: hyny ydyw, y dechreuad, yr achos. Gwel *Heb*. xii. 15. Yn *Diar*. xii. 3, a *Ier*. xii. 2, arferir yr ymadrodd *gwraidd* yn ffugrol am genedl neu hiliogaeth. Yn Llyfr Daniel, a Llyfr y Maccabeaid yn yr Apocrypha, y mae Antiochus Epiphanes, erlidiwr yr Iuddewon, yn cael ei alw yn flaguryn ieuangc, neu wreiddyn llygredigaeth yn tarddu oddi wrth y brenhinoedd; sef olynwyr Alexander Fawr. Y mae Iesu Grist yn ei ddarostyngiad yn cael ei gyffelybu i wreiddyn dinawdd, yn tyfu mewn tir sych ac anffrwythlawn: *Esa*. liii. 2. Yn *Esa*. xi. 1, 10, gelwir ef "gwreiddyn Iesse."

Mewn ystyr wrthgyferbyniol, dywed Paul yn *Rhuf*. xi. 16, mai yr Iuddewon oedd y gwreiddyn

Digitized by Google

oedd yn dwyn y goeden, neu y pren, i'r hwn yr impid y Cenhedloedd; ac mai y patriarchiaid oedd y gwreiddyn pur a sanctaidd, o'r hwn yr oedd yr Iuddewon, megys canghenau, yn tarddu. Iesu Grist yw y gwreiddyn ar ba un y mae Cristionogion yn dibynu, ac o'r hwn y maent yn derbyn bywyd a chynnaliaeth: *Col.* ii. 7.

GWRAIG [*gwr—aig*]. Yr oedd amgylchiadau gwragedd yn mhlith yr Israeliaid gynt yn dra gwahanol i'r hon y maent ynddi y dyddiau hyn yn ngwledydd y dwyrain. Y mae cydraddoldeb cymdeithasol y ddeuryw yn cael ei arwyddocau yn eglur yn yr hanes am greadigaeth y wraig, yn gystal ag yn yr enw a roddir arni gan y dyn, yr hwn oedd fel ei enw ef ei hun, oddi eithr yn unig yn ei derfyniad benywaidd: *Gen.* ii. 18—23. Felly fe ddefnyddir hyn gan Paul fel rheswm dros gymmhell dyledswyddau y gŵr at y wraig: *Eph.* v. 28—31. Prif amcan yr hanes yn *Genesis* yw dangos trwy ffeithiau anianyddol undeb hanfodol gŵr a gwraig—etto, ymddibyniad yr olaf ar y blaenaf; ac felly ennyn y serch tyneraf rhwng y ddau, yr hwn sydd wedi ei seilio ar briodoliaethau neillduol pob un: sef, awdurdod, nerth, gallu meddyliol, a doethineb, ar un llaw; a hyder, hynawsedd, dillynder ymarweddiad, a phrydferthwch, ar y llaw arall. Yr oedd llawer o arferion y dyddiau gynt yn rhwystr i gadw y cydraddoldeb hwn heb ei dori, megys amlwreicaeth, yr awdurdod unbenaethol a roddid i'r penteulu dan yr oruchwyliaeth batriarchaidd, a'r modd y trinid caethion. Er hyny, fe gadwai cyfraith Moses syniadau uchel ar y mater hwn yn mhlith y genedl.

Bydd yn fantais i'r darllenydd ffurfio syniad cywir am y gwragedd Hebreaidd fel y crybwyllir am danynt yn y Beibl, oddi wrth y sylwadau canlynol ar sefyllfa bresennol gwragedd Syria. Fe ymwelodd Mr. Bartlett [*Walks about Jerusalem*, td. 191, &c.] â thŷ Iuddew cyfoethog yn mhrif ddinas Palestina; ac y mae yn gwneuthur y sylwadau a ganlyn:—"Pan yr aethom i'w dŷ, ni a'i cawsom ef yn eistedd ar esmwythfaingc isel, yn chwareu gyda'i blentyn ieuangaf; a phan yr amlygasom ein dymuniad i gael tynu darlun o wisgoedd benywod ei deulu, efe a orchymynodd iddynt ddyfod ynghyd; ond buont gryn amser cyn gwneuthur hyny: pa fodd bynag, wedi iddynt wneud eu hymddangosiad, nid oedd un gradd o gaethiwed yn eu dull. Yr oedd eu gwisg yn wych a chwaethus. Yr amlycaf o honynt oll oedd y ferch briod, gyda'i gŵr bychan (bachgen pymtheg neu un ar bymtheg oed, fe allesid meddwl), prin yn cyrhaedd ei hysgwydd, ac etto holl ddyledswyddau tad wedi disgyn arno. Yr oedd penwisg hirgron o fath neillduol, oddi wrth ba un y crogai gorchudd llaes o fwslin addurnedig, yn prydferthu y llygaid a'r aeliau; yr oedd y gwddf wedi ei addurno â chadwen, a'r fynwes â nifer o fatholion aur, wedi eu cuddio mewn rhan gan y mwslin oedd yn ddyblygion drostynt. Yr oedd gwisg geinwych o sidan rhesog dros yr holl gorff, ac ar hon fe wisgid math o siaced o sidan gwyrdd gyda llewys byrion, gan adael y fraich wen, gyda'r llaw a'r breichledau, yn rhydd yn y golwg. Eisteddai y fam ar yr esmwythfaingc; yr oedd ei gwisg hi yn fwy syber, ei phenwisg heb fod mor hirgrwn, a'r fynwes wedi ei llwyr guddio hyd y gwddf gyda math o eurwê addurnedig; ac am ben y cyfan yr oedd siaced o ffwrw (*fur*). Yr oedd hi yn prysur wau, tra yr oedd ei merch ieuengaf yn plygu i ymddiddan â hi. Yr oedd ei gwisg hi yn gyffelyb i wisg ei chwaer, ond heb y batholion aur, na'r dyblygion o fwslin teneu; ac yn lle clust-fodrwyau mawrion, yr oedd blodeuyn gloew-goch y pomgranad yn crogi yn brydferth, ac yn adlewyrchu ei wrid ar glaerwynder ei chroen. Yr oeddym yn rhyfeddu at degwch a thlysni eu gwedd, a bywiogrwydd eu dull. Yn wahanol i wragedd Cristionogion y dwyrain, y rhai a safant yn y pellder nes y gwahoddir hwynt i nesau, yr oedd yr Iuddewesau prydferth hyn yn ymddangos mewn sefyllfa o gydraddoldeb hollol, yn siarad ac yn chwerthin yn ddibaid. Y mae llawer o ferched Iudah, yma ac yn Hebron, yn neillduol am eu prydferthwch a'u hynawsedd. Cafodd Mr. Bartlett dderbyniad i breswylfod teulu Cristionogol yn Ierusalem, a dyma fel y dywed am danynt:—"Mae eu tai oddi mewn yn debyg i dai yr Iuddewon. Tra yr oeddym ni yno, fe'n derbynid gyda mwy o seremoni na chan Iuddewon. Yr oedd meistres y teulu yn bresennol gyda'i phlant a'i morwynion; ac heblaw pibellau, a choffi, fe roddir o flaen gŵr dieithr swserau yn cynnwys melusion, a gwydrau o hâd anis; y rhai, wedi iddo ddarfod â hwynt, a gymmerir oddi arno gan ei feistres neu ei morwyn, gan gusanu ei law wrth eu cymmeryd. Maent yn fwy caethiwus eu dull na benywod Iuddewig, a byddant yn aml yn sefyll yn ystod ymweliad dieithrddyn. Mae eu gwisg hefyd yn fwy gorwych na gwisgoedd gwragedd yr Iuddewon, ond nid mor ddillyn a chwaethus: mae yn gweddu yn eithaf i drymder eu gwedd, a'u llygaid mawr tywyll."

Y mae prydferthwch arbenig y gwragedd Hebrëig, a gwres neillduol eu serchiadau, yn emau o hawddgarwch teuluaidd drwy yr holl hanes Ysgrythyrol. Ni cheir mewn unrhyw hanes y fath nifer o arluniau swynol. Y mae yn y Beibl arluniau o harddwch benywaidd di-ail i'w cael o Hagar i lawr hyd Mair a Martha. Ond pa ragoriaeth bynag sydd i'w ganfod yn nghymmeriadau benywod Hebrëig, rhagor cenhedloedd



DAr. 347.—MERCH IEUANGC MEWN LLAWN WISG.

ereill a grybwyllir yn y Beibl, diammheu y dylem briodoli y cyfan i'r syniadau uchel ar hyn a gynnyrchwyd gan grefydd Moses a chrefydd Crist. Nis gallai y gyntaf, yr hon oedd oruchwyliaeth ragbarotoawl, gwblhau rhyddfreiniad y wraig. Yr oedd dylanwad arferion y dwyrain yn effeithio gymmaint ar grefyddwyr, fel yr oedd y gwragedd yn gyffredinol yn cael eu cadw mewn cryn raddau o gaethiwed. Etto i gyd, yr oedd gobaith yr holl genedl am ryw "fachgen"

Digitized by Google

oedd i gael ei eni, am ryw "fab oedd i gael ei roddi," yn peri i galon pob mam ddychlammu gan ddisgwyliad, yn cynnyrchu hunan-barch yn mhlith gwragedd Israel, ac yn peri iddynt gael eu hystyried gan y rhyw arall gyda dyddordeb a chryn lawer o barch. Ond yr oedd etto angen y perffeithiad a roes yr Athraw Mawr i olygiad goruchwyliaeth Moses ar y berthynas rhwng y ddeuryw. Gan gydnabod y gwirioneddau oedd-ynt mor foreu a chreadigaeth dyn, fe ddechreu-odd yr Iesu ffrwyno y drefn o ysgariaeth y gwnaed cymmaint o gam â hi, gan adael ond un achos i doriad y rhwymyn priodasol; ac ar yr un pryd yn dysgu, gan fod priodas yn ordinhâd ddwyfol, felly hefyd na ddylai dyn fod at ei ryddid i'w dileu. "Y peth gan hyny a gyssylltodd Duw, nac ysgared dyn." Hawdd dirnad y dylanwad yr oedd golygiadau mor uchel am y cyttundeb priodasol yn ei gael ar y benywod Iuddewig. Y maent wedi dylanwadu yn fendithiol hefyd ar gymdeithas yn gyffredinol. Mae y wraig erbyn hyn yn "greadur newydd," yn y dosbarthiadau goreu mewn cymdeithas. Etto, nid yw ei gyrfa ddyrchafedig ond prin wedi ei ddechreu; mae yn gweled beth a all fod, a pheth dan yr efengyl a ddylai fod.

Yr oedd gwragedd yn mwynhau llawer mwy o ryddid yn mhlith yr Iuddewon yn y dyddiau gynt nag a roddir iddynt yn y dwyrain yn awr. Yn lle cael eu caethiwo mewn *harem*, neu orfod ymddangos yn gyhoeddus gyda gorchudd ar eu hwynebau, yr oedd gwragedd a benywod ieu-aingc yr hen amseroedd yn cymmysgu yn rhydd â'r dynion yn nyledswyddau ac arferion bywyd cyffredin. Teithiodd Rebeccah ar gamel, heb orchudd ar ei hwyneb, hyd oni ddaeth i olwg ei dyweddi: *Gen.* xxiv. 64, 65. Cusanodd Iacob Rahel yn mhresennoldeb y bugeiliaid: *Gen.* xxix. 11. Yr oedd gan bob un o'r benywod hyn or-chwyl i'w gyflawni: cyrchai y naill ddwfr o'r ffynnon, a gwyliai'r llall ei phraidd. Ni wisgai Sarah orchudd yn yr Aipht; etto, nid oedd hyn yn un sail i dybied ei bod wedi priodi: *Gen.* xii. 14—19. Yr oedd treisio benyw yn y maes agored yn galw am y gospedigaeth lemaf (*Deut.* xxii. 25—27); yr hyn a ddengys na fernid yn am-mhriodol iddi fyned oddi amgylch yn ddiam-ddiffyn. Yn mhellach hefyd, cymmerai gwrag-edd ran arbenig mewn materion cyhoeddus: blaen-orai Miriam fintai o wragedd a gofient am ddym-chweliad yr Aiphtiaid gyda chân a dawns (*Exod.* xv. 20, 21); rhoddodd merch Iephthah i'w thad dderbyniad gorfoleddus (*Barn.* xi. 34); dawnsiai merched Siloh yn gyhoeddus yn y gwinllanoedd ar adeg y wledd flynyddol (*Barn.* xxi. 21); a derbyniai y gwragedd Saul a Dafydd gyda chanu a dawnsio, ar eu dychweliad o orchfygu y Philist-iaid: 1 *Sam.* xviii. 6, 7. Y mae cân Deborah (*Barn.* v.), a chân Hannah (1 *Sam.* ii. 1, &c.), yn dangos cryn raddau o ddiwylliant meddyliol; yr hyn sydd ynddo ei hun yn brawf o sefyllfa y rhyw fenywaidd y pryd hwnw. Ambell waith hefyd, byddai gan wragedd swyddi cyhoeddus, yn enwedig swydd prophwydes, neu athrawes ysbrydoledig; un felly oedd Miriam (*Exod.* xv. 20), Huldah (2 *Bren.* xxii. 14), Noadïah (*Neh.* vi. 14), Anna (*Luc* ii. 36), ac yn benaf oll, Deborah, yr hon a arferai ei dawn brophwydol yn ngwein-yddiad materion gwladwriaethol, ac a dderbyn-iodd felly hawl i gael ei rhestru yn mhlith y "barnwyr;" *Barn.* iv. 4. Y mae y rhan a gym-merai Iezebel yn llywodraeth Israel (1 *Bren.* xviii. 13; xxi. 25), a thrawsfeddianniad gorsedd Iudah gan Athalïah (2 *Bren.* xi. 3), yn profi yn mhell-ach y rhyddid a ganiateid i wragedd mewn bywyd cyhoeddus.

Ar y gwragedd yn benaf y disgynai y gwaith o drefnu materion teuluaidd. Y gwragedd a gyrchent y dwfr o ffynnon (*Gen.* xxiv. 15; 1 *Sam.* ix. 11); a wylient y praidd (*Gen.* xxix. 6, &c.; *Exod.* ii. 16); a barotöent y prydau bwyd (*Gen.* xviii. 6; 2 *Sam.* xiii. 8); a threulient eu horiau hamddenol mewn nyddu (*Exod.* xxxv. 26; *Diar.* xxxi. 19), a gwneuthur dillad, naill ai at wasanaeth y teulu (1 *Sam.* ii. 19; *Diar.* xxxi. 21), i'w gwerthu (*Diar.* xxxi. 14, 24), neu ynte i'w rhoddi i'r anghenus: *Act.* ix. 39. Y mae gwerth gwraig rinweddol a diwyd yn bwngc sylw mynych yn Llyfr y Diarhebion: gwel *pen.* xi. 16; xii. 4; xiv. 1; xxxi. 10, &c. Wrth gwrs, yr oedd ei dylanwad mewn cyfartaledd yn fawr; a lle na byddai ond un wraig, hi fyddai yn llywodraethu holl faterion y tŷ, hyd yn oed cyn belled a gwahodd neu dderbyn ymwelwyr, o honi ei hun: *Barn.* iv. 18; 1 *Sam.* xxv. 18, &c.; 2 *Bren.* iv. 8, &c. Effaith amlwreicaeth ydoedd trosglwyddo y dylanwad oddi wrth y gwragedd i'r fam, megys y dangosir yn nghymmhwysiad y gair *gebîrah* (ystyr llythyrenol yr hwn yw *galluog*) at y fam frenhines yn 1 *Bren.* ii. 19; xv. 13: 2 *Bren.* x. 13; xxiv. 12; *Ier.* xiii. 18; xxix. 2. Parodd amlwreicaeth hefyd yn angenrheid-iol cael sefydliad pennodol i'r gwragedd ar eu penau eu hunain. Felly, yn mhalas y brenin Pesiaidd, yr oedd "tŷ y gwragedd" (*Esther* ii. 9), a gwylid ef gan eunuchiaid (ii. 3): ac yn mhalas Solomon yr oedd preswylfod y gwragedd yn ymyl, ond etto ar wahân i'r gweddill o'r adeilad (1 *Bren.* vii. 8); ac ar deithiau yr oedd gan bob gwraig ei phabell ei hun. Yn y cyfryw amgylchiadau, fe ymddengys fod y benywod yn arfer cymmeryd eu hymborth ar wahân oddi wrth y dynion (*Esther* i. 9); ond nid oes un rheswm dros dybied fod y dull yma yn bod yn mhlith yr Iuddewon. Yr oedd y gwragedd yn bresennol mewn gwleddoedd, naill ai fel rhai yn gweini ar wahoddedigion (*Ioan* xii. 2), neu ynte fel rhai gwahoddedig eu hunain (*Iob* i. 4; *Ioan* ii. 3); ac felly y mae sail gref dros gasglu eu bod ar achlysuron cyffredin yn cyd-fwyta â'r gwrywod, er nad oes unrhyw dystiolaeth bendant am hyn.

Nid oes genym unrhyw hysbysrwydd sicr yn



Dar. 343.—Hynafwraig mewn llawn wisg.

mherthynas i wisg y benywod yn mhlith y werin bobl; ond y mae yn debygol ei bod yn syml a

garw, ac heb fod yn wahanol iawn i'r hon a welir yn awr yn mysg gwragedd Arabiaid yr anialwch, a benywod gwledig Syria. Y mae hon yn gynnwysedig o islodrau (*drawers*), a gŵn llaes a rhydd o lian glas garw, gydag ymyl addurnedig wedi ei weithio â nodwydd, mewn lliw arall, oddi amgylch y gwddf a'r fynwes. Y mae y pen wedi ei guddio â math o benwisg, ynglŷn â'r hon, o'r tu ol, y mae gorchudd yn disgyn dros y gwddf, y cefn, a'r fynwes. Gallwn gymmeryd yn ganiataol, gyda mwy o sicrwydd fyth, fod gwragedd o sefyllfa uchel yn gwisgo dros eu dillad nesaf i mewn, amwisg fel yr hon oedd gan y gwŷr, ond yn ymwasgu yn agosach at y corff, gyda gwregys wedi ei wneud o gadach. Gwisgid y gwallt yn llaes; ac fel yn y dyddiau hyn, plethid ef yn llawer o gudynau, gyda thlysau a rubanau ynglŷn wrtho: 1 *Cor.* xi. 15; 1 *Tim.* ii. 9; 1 *Pedr* iii. 3. Ymddengys mai wrth y penwisg yr oedd y prif addurniadau; megys gemau i'r gruddiau neu y talcen, a rhesi o berlau: *Can.* i. 10; *Ezec.* xvi. 12. Gwisgid clust-dlysau (*Esa.* iii. 20; *Ezec.* xvi. 12), ynglŷn âg addurn y trwyn, yr hwn yn ddiau oedd yn gynnwysedig, fel yn



Dar. 349.—Addurn y trwyn.

awr, un ai mewn modrwy wedi ei chyssylltu wrth fadruddyn y trwyn, neu ynte addurn tebyg i fotwm ynglŷn wrtho. Yr oedd y trwyn-addurn wedi ei wneuthur o aur neu arian, ac ambell waith yr oedd gemau wedi eu gosod ynddo: *Gen.* xxiv. 47; *Esa.* iii. 21. Gwisgid breichledau yn gyffredinol (*Esa.* iii. 19; *Ezec.* xvi. 11), a ffêrledau hefyd, y rhai oeddynt, fel yn y dyddiau hyn, yn fwy tebyg i lyffetheiriau nag addurniadau: *Esa.* iii. 16, 20. Yr oedd y benywod Iuddewig yn medru y gelfyddyd o liwio eu hamratau yn dduon (2 *Bren.* ix. 30; *Ier.* iv. 30; *Ezec.* xxiii. 40); ac y mae yn fwy na thebyg fod ganddynt yr arfer bresennol o ystaenio yr ewinedd, a chledrau y dwylaw, a gwadnau y traed, o liw rhwd haiarn, gyda math o glud wedi ei wneuthur o'r planigyn a elwir *henna*. Ymddengys mai y planigyn hwn a grybwyllir yn *Can.* i. 4; ac y mae yn debyg y cyfeirir at yr arfer yma o hono yn *Deut.* xxi. 12, a 2 *Sam.* xix. 24.

Am yr arferion cyssylltiedig â phriodi ac â dyledswyddau y wraig a'r fam, gweler yr erthyglau hyn—Dyweddio; Priodi.

Yr oedd yr Israeliaid yn llawn o awydd am blant, ac yn enwedig am feibion. Gan hyny, yr oedd y cenad a ddygai y newydd gyntaf i'r tad fod mab wedi ei eni iddo yn cael ei wobrwyo yn dda: *Iob* iii. 3; *Ier.* xx. 15. Llawenychid yn fawr ar yr achlysur; a byddai y tad pan gyflwynid y plentyn iddo, yn ei wasgu i'w fynwes, a thrwy hyny fe ddeallid ei fod yn ei gydnabod fel ei blentyn ei hun: *Gen.* l. 23; *Iob* iii. 12; *Salm* xxii. 10. Yr wythfed dydd o'i oed yr oedd y plentyn yn cael ei enwaedu (*Gen.* xvii. 10); a'r pryd hwnw hefyd fe roddid enw arno: *Luc* i. 59. Rhoddid pris mawr ar y mab cyntafanedig, a derbyniai lawer o ragorfreintiau neillduol. Yr oedd yn cael deuparth o'r etifeddiaeth (*Deut.* xxi. 17); arferai fath o awdurdod tadol ar ei frodyr ieuangach (*Gen.* xxv. 23, &c.; xxvii. 29; *Exod.* xii. 29; 2 *Cron.* xxi. 3); a chyn sefydliad yr offeiriadaeth Lefiaidd, efe a weithredai fel offeiriad y teulu: *Num.* iii. 12, 13; viii. 18. Arferai y patriarchiaid yr awdurdod o gymmeryd y rhagorfreintiau hyn oddi ar y cyntafanedig, a'u rhoddi i unrhyw fab arall, neu ynte eu rhanu hwynt yn mhlith amryw feibion; ond fe roddodd cyfraith Moses derfyn ar yr arferiad yma: *Deut.* xxi. 15—17.

Parhäai y plentyn am tua thair blynedd wrth fron ei fam, a gwneid gwledd fawr ar adeg ei ddiddyfniad: *Gen.* xxi. 8; 1 *Sam.* i. 22—24; 2 *Cron.* xxxi. 6; *Mat.* xxi. 16. Efe a arosai am ddwy flynedd wedi hyny dan ofal y gwragedd; ac o hyny allan, cymmerid ef dan ofal neillduol y tad, er mwyn rhoddi addysg briodol iddo: *Deut.* vi. 20—25; ix. 19. Ymddengys fod y sawl a ewyllysient i'w plant gael addysg well nag yr oeddynt hwy yn alluog neu yn foddlawn i'w chyfranu, yn arfer cyflogi athraw, neu ynte yn eu hanfon at offeiriad neu Lefiad, gan yr hwn yr oedd, fe allai, amryw ereill dan ei ofal. Y prif beth mewn golwg oedd eu gwneud yn hyddysg yn nghyfraith Moses; a chymmerid darllen ac ysgrifenu fel pethau iswasanaethgar i'r amcan penaf hwn.

Yr oedd awdurdod tad yn fawr iawn yn mhlith yr Israeliaid; a chyrhaeddai, nid yn unig at ei feibion, ond at ei ŵyrion hefyd, neu yn wir at bawb a ddisgynai o hono. Nid oedd derfyn pennodol ar ei awdurdod; a hyd yn oed pe rhoddai efe ben ar fywyd ei fab, neu ei ŵyr, nid oedd ar y cyntaf un ddeddf drwy yr hon y gellid ei alw i gyfrif: *Gen.* xxi. 14; xxxviii. 24. Ond fe osododd cyfraith Moses derfynau i'r awdurdod hwn, trwy drefnu fod y tad, os barnai efe ei fab yn haeddu marwolaeth, yn ei ddwyn ef ger bron y brawdle cyhoeddus. Pa fodd bynag, pe buasai wedi taraw neu regi ei dad neu ei fam, neu ynte yn ystyfnig ac yn anufudd, yr oedd yn agored i gael ei roddi i farwolaeth: *Exod.* xxi. 15, 17; *Lef.* xx. 9; *Deut.* xxi. 18—21.

GWRANDAWYR, [*gwrandaw—gwŷr*]: rhai yn gwrandaw, yn dyglywed, ac yn clustfeinio; neu yn ystyried, yn deall, yn credu, ac yn ufuddhau.

"Gwrandawyr yn unig;" *Iago* i. 22. Rhai yn gwrandaw athrawiaethau a gwirioneddau yr efengyl heb eu credu, eu derbyn, nac ufuddhau iddynt. Yr oedd y dosbarth yma yn lliosog yn nyddiau yr apostolion, fel yn y dyddiau hyn. Y mae yn dra dymunol gweled dynion yn cyrchu yn rheolaidd, neu hyd yn oed yn achlysurol, i

demlau yr Hollalluog, i wrandaw ei air, ac ar wirioneddau cysurlawn a rhyfedd y gwirionedd; o blegid y maent drwy hyny yn rhoddi cam tuag at gydymffurfio âg ewyllys Duw. Ond y mae eu sefyllfa, er hyny, yn un beryglus. Gelwir arnynt i symmud yn mlaen i fod yn "wneuthurwyr y gair," cyn y byddant ar dir priodol i gael eu cymmeradwyo yn ngolwg yr Arglwydd. Y mae pwys mawr yn cael ei roddi ar "wneuthur" ewyllys Duw; ac fe'n dysgir yn eglur fod yn ammhossibl i ni feddu ar ffydd i fywyd heb wneud yr hyn a allom, a hyny o lwyrfryd calon, i roddi ufudd-dod i holl orchymynion y Gair: *Ioan* xiv. 15; *Iago* i. 22—25. Y mae *gwrandaw* yn fynych yn arwyddo credu yr hyn a glywir; cydsynied â'r peth; ac ufuddhau iddo: *Ioan* ix. 27; *Gen*. iii. 17; *Esa*. lxv. 3.

Y mae Crist, yn nammeg yr hauwr, yn darlunio pedwar math o wrandawyr. 1af, Rhai yn gwrandaw gair Duw, heb iddo gael unrhyw argraph na dylanwad ar eu meddyliau. 2il, Rhai yn gwrandaw y gair, ac yn hanner ei gofleidio; yn ufuddhau iddo yn ngwyneb rhai amgylchiadau, ac yn ei wrthod yn ngwyneb amgylchiadau ereill. Dynion ansefydlog yw y rhai hyn, yn orlawn o sêl gyda chrefydd am dymmor, ac yn oer fel yr iâ am dymmor arall; o herwydd nad yw y gwirionedd wedi gwreiddio yn eu calonau. 3ydd, Rhai yn gwrandaw y gair, ac yn gwneuthur proffes o'u bod yn ei barchu; ond nid ydynt yn ei ddeall, nac yn ei werthfawrogi yn briodol, o blegid fod "gofal y byd hwn, a thwyll cyfoeth" yn cael mwy o le a sylw yn eu myfyrdodau, yr hyn sydd yn rhwystr i gynnydd a ffrwythlondeb y gair. 4ydd, Rhai yn gwrandaw y gair, ac yn ei ddeall; yn ei garu, ac yn ei ddyrchafu goruwch pob peth oll: y gwirionedd wedi gwreiddio yn eu calonau, yn tyfu, ac yn dwyn ffrwyth er mawl a gogoniant i Dduw. Y rhai hyn ydyw etholedigion y nef, goleuadau yr eglwys, ac offerynau yr Arglwydd i ddarostwng arferion drygionus dynion, ac i ddyrchafu a lledaenu y wybodaeth am Grist dros y byd: *Mat*. xiii. 1—23; *Marc* iv. 1—20; *Luc* viii. 5—15.

Y mae gwrandaw gair Duw yn ddyledswydd ar bawb; a dylid gwrandaw yn ddyfal: *Diar*. viii. 34; *Iago* i. 24, 25:—yn astud: *Luc* xxi. 38:—yn barchus: *Salm* lxxxix. 7:—mewn ffydd: *Heb*. iv. 2:—gyda gofal am ei ddal, rhag un amser "ei ollwng i golli:" *Heb*. ii. 1.

Dywedodd yr Arglwydd Iesu unwaith wrth ei ddysgyblion, "Edrychwch beth a wrandawoch;" *Marc* iv. 24. Yr oedd gau brophwydi yn eu hamgylchynu, yn dysgu philosophi a gwag-dwyll, heresiau dinystriol, gan wadu yr Arglwydd; am hyny, mynai iddynt fod yn wyliadwrus rhag cael eu llithio a'u gwenwyno ganddynt. Nid yw y byd etto yn lân oddi wrth brophwydi gau a chyfeiliornadau damniol; y mae yr Ysgrythyrau yn cael eu gŵyrdroi a'u trawsffurfio gan ddynion bydol o dan rith crefyddwyr; gwadir eu dilysrwydd a'u dwyfoldeb gan ereill, a mynant i bawb eu gwrthod a'u dibrisio. Y mae o bwys mawr, gan hyny, i ddysgyblion Crist edrych beth a wrandawont, ac ymgadarnhau yn y gwirionedd fel y mae wedi ei ddadguddio i ni trwy ysbrydoliaeth Duw; a bod yn bur a didwyll, fel na syfler hwynt gan "bob awel dysgeidiaeth, trwy hoced dynion;" *Eph*. iv. 14; *Heb*. xiii. 9.

GWREGYS (*gwrag*) gwasg-rwym. Byddai y cenedloedd dwyreiniol, a'r Iuddewon, yn gwisgo dillad llaesion rhydd am danynt, a byddid yn eu cyfyngu o gwmpas eu lwynau gyda gwregysau, y rhaid oeddynt yn wasanaethgar, nid yn unig i'w gwasgu am eu cyrff, ond hefyd i'w dal i fyny pan yr oedd yn angenrheidiol eu cwtogi. Yr oedd hyn yn harddu eu hymddangosiad, ac yn rhwystro iddynt gyffwrdd â'r llawr, a bod yn anhwylusdod i'r sawl oedd yn eu gwisgo pan yn rhodio, yn llafurio, neu yn cyflawni rhyw orchwyl. Oddi wrth y ffaith yma, daeth y geiriau "gwregysu y lwynau" yn ymadrodd ffugrol i ddynodi diwydrwydd i weithio; ac yr oedd "dattod gwregys y lwynau" yn arwyddocâd o ddiogi ac anweithgarwch: 2 *Bren*. iv. 29; *Iob* xxxviii. 3; *Esa*. v. 27; *Ier*. i. 17; *Luc* xii. 35; *Ioan* xxi. 7; *Act*. xii. 8; 1 *Pedr* i. 13.

Gellir ffurfio drychfeddwl o ddull gwneuthuriad y gwregysau oddi wrth y darlun canlynol, yr hwn a wnaethpwyd yn ol yr hyn a ganfyddir yn bresennol ar hen arluniau Aiphtaidd.



Dar. 350.—Gwregys.

Gwnelid y gwregysau weithiau o gordyn, brethyn, neu ledr â bwcl arno, i'w lacau neu ei dynhau. Dywed teithwyr fod y gwregysau dwyreiniol y dyddiau hyn yn ddigon llydain i atteb dybenion matras neu orchudd; a'u bod, pan o'r lled yma, yn cael eu plethu yn blygion. Yr oeddid hefyd yn eu gwneud o lian, ac addurnid hwy âg addurniadau o waith edeu a nodwydd, ac aur, ac â meini gwerthfawr. Gwisgid y math gwychaf gan bersonau mewn awdurdod, ac yn enwedig gan yr offeiriaid Iuddewig: *Exod*. xxix. 9; xxviii. 39; xxxix. 29; *Lef*. viii. 13; *Esa*. xxii. 21; *Ezec*. xvi. 10.

Defnyddid y gwregys i ddwyn neu i gludo arfau (2 *Sam*. xx. 8), arian, a phethau ereill a gludir yn gyffredin mewn llogell. Y mae yr Arabiaid yn cludo eu dagrau (byr-gleddyfau) ynddo, yn pwyntio at yr ochr ddeheu; a thrwy yr holl wledydd dwyreiniol, y gwregys ydyw y lle i gadw y cadach poced, myglys, pibellau, &c., ynghŷd âg offerynau gwahanol alwedigaethau. Y mae y gair a gyfieithir *pyrsau* yn *Mat*. x. 9, yn cael ei gyfieithu mewn manau ereill yn *wregys*.

Digitized by Google

Yr oedd y gwregys, nid yn unig yn amddiffyn i'r corff, ond yr oedd hefyd yn nerth ac yn gadernid iddo. Tybir gan rai mai y gwregys oedd prif offeryn y rhyfelwisg; gan hyny, yr oedd ei rwymiad parhaus am y lwynau yn arwyddlun o wyliadwrusrwydd a ffyddlondeb mawr; ac o blegid ei fod yn amgylchu y corff mor dỳn a diogel, y mae ymlyniad perffaith a chwbl wrth yr Arglwydd a'i wasanaeth yn cael ei arddangos yn ffugrol drwy wasgiad y gwregys am lwynau dyn: *Ier.* xiii. 11. Yr un modd y mae cyfiawnder a ffyddlondeb yn cael eu galw gan y prophwyd yn wregys y Messïah addawedig: *Esa.* xi. 5.

GWRES. Y mae effeithiau gwres i'w canfod yn mhob rhan o natur; ac y mae pob sylwedd yn natur yn meddu ar deithi i gynnyrchu gwres, neu oerni, yn ein cyrph ni. Gellir cynnyrchu gwres neu oerni ynom ni drwy i wahanol sylweddau ddyfod i gyffyrddiad uniongyrchol â ni, neu ynte drwy i ni fod o fewn pellder neillduol iddynt; ac y mae arbenigrwydd eu natur yn gwahardd i ni gredu mai gronynau mater yn unig ydyw yr achos. Cyfaddefir yn rhwydd genym nad gronynau materawl y glò sydd yn cyfansoddi y tân sydd yn ein cyrhaedd ac yn ein cynnhesu ni; ac mai nid yr haul ei hun sydd yn dyfod atom, pan y mae efe, trwy ei ddylanwad arnom, yn creu gwres yn ein gwaed. Y mae gan hyny rhyw gyfrwng yn bodoli, ar wahân oddi wrth y sylweddau eu hunain, trwy yr hwn y trosglwyddir y gwres a'r oerni atom ni. Mae y cyfrwng anadnabyddus hwn wedi derbyn llawer o wahanol enwau: weithiau, gelwir ef yn wres, ac felly, cymmysgir yr achos â'r effaith. Nid ydyw hyn, modd bynag, yn y cyffredin, yn arwain i ddyryswch, ond arferir y gair *caloric* gan athronwyr am y cyfrwng, a defnyddir y gair *gwres* am y wyddor sydd yn trafod teithi, effeithiau, a deddfau *caloric.* Nid ydyw o bwys mawr i ni sefyll uwch ben y gwahaniaeth sydd rhwng y ddau air yma; a chan mai y gair *gwres* a ddefnyddir yn fwyaf cyffredin i osod allan yr achos a'r effaith, ninnau a'i harferwn yn yr un ystyr yn yr erthygl hon.

Yr ydym yn berffaith ymwybodol o ddylanwad gwres ar ein cyrff ein hunain; ond y mae hefyd yn gweithredu ar sylweddau afluniaidd. Y mae rhew yn toddi, dwfr yn berwi, a haiarn yn myned i gyflwr hylifol; y mae achos i'r pethau hyn, ynghŷd â llawer o ymddangosiadau anianyddol ereill, ac fe ddywed ein synwyrau wrthym mai gwres ydyw yr achos hwnw.

1. *Ffynnonellau Gwres.*—Wrth son am ffynnonellau gwres, y mae ein meddyliau yn rhedeg yn union at yr haul, fel prif ffynnonell gwres y greadigaeth. Y mae pob pelydr o oleuni yn cael ei ddilyn gan belydr o wres; ac y mae pelydrau cyntaf yr haul ar doriad y wawr, i ryw raddau, yn codi tymmeredd y sylweddau sydd yn ei dderbyn. Mae yn bossibl dangos angerddoldeb gwres y pelydrau heulog yn mhob tymmor drwy gasglu a chanol-bwyntio nifer o honynt â gwydryn (*lens*). Gellir goleuo tân agos mewn amrantiad trwy y cyfryw ganol-bwyntiad; ond nid ydyw yn angenrheidiol i ni arfer offerynau mewn trefn i wybod am ddwysder y gwres sydd yn tarddu oddi wrth effeithiau yr haul. Y mae hyd yn oed haul canol dydd ein hafau clauar ni yn deifio yn mron bob peth, ac yn gorfodi pob creadur byw i ffoi am gysgod o gyrhaedd ei belydrau. Ceir yr enghraifft fwyaf tarawiadol o'i effeithiau wrth sylwi ar wahanol gyflyrau trigolion gwahanol barthau o'r ddaear ar yr un awr o'r dydd, yn ol fel y bydd gwres yr haul yn cael ei dderbyn yn uniongyrchol neu yn anuniongyrchol. Yn India Orllewinol, &c., ganol dydd, mae y gwres mor angerddol fel nas gall yr Ewropiad fyw o dan ei ddylanwad uniongyrchol: ond yn Greenland, a manau ereill, pell oddi wrth linyn y cyhydedd, lle mae ei ddylanwad yn anuniongyrchol, nis gall gynnal ei fywyd ond trwy wres a dderbynir trwy ffynnonellau ereill. Heb law hyny, y mae cyfnewidiad tymmeredd yr awyrgylch y dydd a'r nos, cyfnewidiad y tymmorau, ac mewn gwirionedd, cyfnewidiad ymddangosiadol holl natur, yn profi mai yr haul ydyw ffynnonell fawr gwres yn gystal a goleuni.

2. *Gwres Canolbarthol y ddaear.*—Gellir yn burbriodol ystyried y ddaear yn ffynnonell gwres. Oddi wrth brawfiadau a wnaed mewn mwngloddiau, ac mewn gwahanol ddyfnderoedd is law arwynebedd y ddaear, y mae yn sicr fod y tymmeredd yn cynnyddu fel yr eir yn is i'r ddaear. Gan hyny, y mae yn rhaid i ni addef fod rhyw ran o'r ddaear—ei chanolbarth, fel y tybir—yn llawer poethach nag y mae yn agos i'r arwyneb; ac fel y mae y gwres yma yn dyfod i fyny yn raddol i'r awyr agored, rhaid iddo effeithio ar ein tymmeredd ni. Y mae y ffynnonellau poethion, pa rai a ddeuant o'r ddaear, a'r rhuthriadau o hylif tanllyd o'r mynyddoedd llosgfalaidd yn ngwahanol barthau y byd, yn arddangos yn eglur fod rhyw raddau mawr o wres yn bodoli, un ai yn naturiol, neu wedi ei gynnyrchu gan ryw achos, yn nghrombil y ddaear. Y mae llawer o wrthwynebiadau wedi eu dwyn yn mlaen i'r dystiolaeth a roddir o berthynas i gynnydd graddol y tymmeredd fel y disgynir i lawr mwngloddiau, a'r rhai hyny yn codi yn benaf oddi ar fod y prawfiadau yn cael eu gwneuthur yn amhriodol ac anghywir. Ond nis gall y dystiolaeth a geir oddi wrth dymmeredd y dwfr o ffynnonau o amrywiol ddyfnderoedd oddef unrhyw eglurhâd arall heb law fod y dwfr yn cael ei boethi trwy dderbyn tymmeredd yr haenau trwy ba rai y mae yn rhedeg. Y mae tymmeredd y dwfr bob amser yn dibynu ar ddyfnder y ffynnon. Yn ol yr ymchwiliadau a wnaed ynglŷn â'r pwnc yma, yr ydys yn cyttuno y cyrhaeddir gradd poethder dwfr berwedig mewn dyfnder o ddwy filldir is law yr arwynebedd, a gradd poethder haiarn toddedig mewn dyfnder o bum milldir ar ugain. Yr ydym yn canfod, gan hyny, oddi wrth y dybiaeth yma, fod crystyn teneu o fater yn gorphwys ar eangder mawr o hylif tanllyd. Mae ymchwiliadau Fourier yn ein dysgu fod y dylanwad a gynnyrcha yr hylif hwn ar dymmeredd yr arwynebedd yn fychan iawn; yr hyn a briodolir i'r ffaith fod crystyn y ddaear yn trosglwyddo gwres yn araf iawn. Ond rhaid i ni adael y pwnc dyddorol hwn i'r daiaregwr.

3. *Gwres anifeilaidd.*—Y mae cyrff lluniaidd (*organized*) yn ymddangos fel pe baent yn rhydd oddi wrth ddeddfau cyffredin gwres; o blegid nid ydynt braidd byth o'r un dymmeredd a'r elfen y maent yn byw ynddi. Nid yw y corff dynol byth o'r un dymmeredd a'r awyr sydd yn ei amgylchynu: y mae bwystfilod y parthau pegynol yn llawer cynnhesach na'r rhew ar yr hwn y maent yn byw, tra y mae bwystfilod canolgylch y byd yn oerach na'r awyr a anadlir ganddynt: nid yw yr adar yn meddu tymmeredd yr awyrgylch, na'r pysgod eiddo y dwfr lle y maent yn trigo ynddo. Y mae, gan hyny, wres neillduol yn bodoli yn

mhob creadur byw; neu, yn hytrach, ryw foddion i gynnyrchu, fel y byddo yn angenrheidiol, y graddau priodol o wres ac oerni; o blegid rhaid i'r mater sydd yn cyfansoddi eu cyrff fod yn ddarostyngedig i ddeddfau cyffredinol cydbwysedd tymmeredd. Y mae mesur y tymmeredd yma yn y gwahanol greaduriaid yn un o'r pynciau mwyaf dyddorol ynglŷn âg anianyddiaeth.

Ymddengys fod tymmeredd mewnol y corff dynol yn debyg i'r hyn ydyw drwy yr holl beiriannau sydd yn perthyn iddo; ac nid oes un amrywiaeth teimladwy yn y tymmeredd yn cael ei effeithio gan oedran, afiechyd, rhyw, na hinsawdd. Y mae y morwyr, pa rai sydd yn y pegwn gogleddol, yn anadlu awyr yn yr hwn y mae arian byw yn rhewi, a thrigolion yr India a'r gwresfesurydd yn sefyll yn 110° F. yn y cysgod, agos yn meddu yr un dymmeredd naturiol, yr hwn sydd tua 98° F. Y mae yn ymddangos fod Ewropiad yn cynnyddu ychydig yn ei dymmeredd pan yn myned i hinsoddau poethion; ond nid ydyw un amser yn cyrhaedd 2° F. Fe wna oerni mawr a disymmwth ddinystrio galluoedd y corff, a pheri i gwsg trwm ddilyn, yr hwn a dry yn angeuol i ddyn ac anifail. Nid oedd adroddiad yr enwog Napoleon, yn yr hwn y dywedid fod 30,000 o geffylau wedi trengu mewn un noswaith, tra yr oedd y gwresfesurydd yn 43° F., is law gradd rhew, yn cynnwys y myrddiynau o fodau dynol a drengasant y pryd hwnw. Y mae cynnaliaeth tymmeredd y corff yn un o hanfodion bywyd; a phan y lleiheir y tymmeredd, rhaid i farwolaeth ddigwydd mor anocheladwy ag o unrhyw achos arall. Y mae tymmeredd dyn yn is na thymmeredd y rhan fwyaf o'r creaduriaid sydd yn byw ar y tir. Adar sydd yn meddu y tymmeredd uchaf; ac yn nesaf atynt, y mae y creaduriaid tethog; a'r creaduriaid dwy elfenol, megys pysgod a thrychfilod. Y mae y meddalogion, a'r crestfilod, megys wystrys a chrancod, yn meddu ar dymmeredd yr elfen y maent yn byw ynddi.

4. *Dadhuddiad gwres trwy foddion celfyddydol.*—Y mae cydwasgiad sydyn unrhyw nwy, neu gymmysgiad o nwyon, megys awyr cyffredin, yn cynnyrchu gwres mawr; ac os dodir darn o lian golosg, neu rywbeth arall hawdd i'w losgi, wrth yr offeryn â pha un y gwesgir yr awyr, bydd y gwres a ddadhuddir yn ddigon i roddi fflam arno. Modd bynag, y mae y dadhuddiad yma o wres yn codi oddi ar gyfyngiad lle: gan fod y gronynau yn cael eu dwyn yn nes i'w gilydd, y mae rhy fychan o le yn cael ei roddi i'r gwres; ac felly, gwesgir ef allan, mewn dull o siarad, fel y codir y tymmeredd i raddau uwch, ac y teimlir gwres ag oedd o'r blaen yn annheimladwy. Nid ydyw cynnydd y tymmeredd yma, modd bynag, ond byr yn ei barhâd. Y mae y cydbwysedd blaenorol yn cael ei sefydlu yn union deg trwy wasgariad y gwres, a thrwy allu trosglwyddol y sylweddau o'i amgylch. Os gwesgir awyr i lestr gwydr, yn yr hwn y byddo gwres-fesurydd, fe godid y tymmeredd yn uwch bob ergyd a roddid â'r wasg-ffon (*piston*). Y mae lledaeniad sydyn yr awyr yn cael ei ddilyn, fel y gellid dysgwyl, âg effaith hollol wahanol. Fe wnai gwres-fesurydd wedi ei osod yn ngwagle awyr-sugnedydd (*air-pump*), ddisgyn gyda phob ergyd a roddid i'r sugnedydd; ond fe ddychwelid cydbwysedd y tymmeredd yn bur fuan gan y sylweddau cylchynol. Y mae cynnydd a lleihâd gwres yr un fath yn gymmhwys ynglŷn â graddau cyffelyb o gydwasgiad a theneuad yr awyr, a gellir cyfeirio y ffaith hon at yr egwyddor gyffredinol, fod bodolaeth y ffurf nwyol yn dibynu ar bresennoldeb gwres; ac y mae yr effeithiau hyn yn cymmeryd lle yn gydweddol â deddfau gwres priodol (*specific heat*) pob sylwedd.

Gellir cynnyrchu gwres dwys hefyd trwy guro darn o haiarn, neu unrhyw fettel arall, â morthwyl. Y mae yn bur hynod, mai cyfnewidiad ffurf yn barhaus yw ammod hanfodol cynnyrchiad gwres trwy y moddion yma: y mae yn ymddangos hefyd, fod metteloedd yn dadhuddo llai o wres bob ergyd ddilynol a roddir â'r morthwyl; a phan y maent wedi eu curo gymmaint fel nas gellir dwyn eu mân-ronynau yn agosach i'w gilydd, nis gall y curiadau mwyaf nerthol mwyach godi eu tymmeredd yn uwch.

Y mae metteloedd, coed, a phob math o sylweddau cyfanol (*solid*), yn dadhuddo gwres trwy gael eu rhwbio ar wahanol wrthddrychau. Mae y gweithrediad a gymmer le rhwng olwyn a'i echel yn ddigon i ennyn tân; a gellir tanio dau ddarn o bren, neu doddi dau ddarn o rew, drwy eu rhwbio yn gyflym yn eu gilydd. Y mae yn anhawdd penderfynu oddi wrth y ffeithiau hyn pa un a ydyw y gwres a gynnyrchir trwy rwbiad (*friction*) yn codi oddi ar gyfnewidiad parhaus y sylweddau, ynte fod chwareuad gronynau y sylweddau yn ol ac yn mlaen ynddynt eu hunain yn achosi gwres. Sicr yw, pa fodd bynag, fod pob cyfnewidiad sefyllfa yn cael ei ddilyn gan rhyw gyfnewidiad yn y tymmeredd: oddi wrth hyn y mae yn canlyn fod derbyniad a dadhuddiad gwres yn anwahanol gyssylltiedig â chyfnewidiad sefyllfa sylweddau.

Pwnc arall yn dwyn perthynas agos â'r uchod ydyw dadhuddiad gwres oddi wrth weithrediad mân ronynol. Pa bryd bynag y gwlychir sylwedd cyfunol â gwlybwr, y mae ef yn dadhuddo gwres. Rhaid addef mai y gweithrediad mânronynol a gymmer le rhwng y gwlybwr a'r sylwedd ydyw achos cynnydd y tymmeredd a ddigwydd yn ddieithriad o dan yr amgylchiadau hyn.

5. *Cyfuniad fferyllol.*—Y mae mesur helaeth iawn o wres yn cael ei gynnyrchu trwy gyfuniadau fferyllol. Y mae cyfnewidiad tymmeredd yn cymmeryd lle ynglŷn â phob cyfnewidiad sefyllfa. Y mae y gwres angerddol a gynnyrchir wrth doddi calch yn enghraifft adnabyddus iawn o'r ddeddf hon. Y mae y dwfr, trwy ryw weithrediad fferyllol, yn myned yn sylwedd cyfunol, ac y mae y gwres a deflir allan yn bur fawr. Etto, y mae holl weithrediad cymmysgion rhewllyd yn dibynu ar y cyfuniadau fferyllol sydd yn myned yn mlaen: y mae un neu chwaneg o sylweddau yn troi o fod yn gyfunol i gyflwr gwlybyrol, ac y mae lleihâd y tymmeredd yn gyfartal i fawredd y cyfnewidiad. Pan gymmysgir peint o *sulphuric acid* â pheint o ddwfr, mewn tymmeredd gyffredin o 60° F., fe gyfyd tymmeredd y cymmysgiad yn sydyn i 212° F., neu i radd dwfr berwedig. Pa fodd bynag, wedi cyrhaedd y radd yma, bydd mesur y cymmysgiad yn llawer llai na chwart: mae mesur y cyfan o'r cymmysgiad yn lleihau yn ddirfawr; o ganlyniad, y mae gwres priodol y naill a'r llall yn lleihau, a'r tymmeredd yn codi i raddau uwch.

Nid ydyw y gwres a gynnyrchir trwy gydlosgiad ond enghraifft arall o gyfuniad fferyllol. Os dygir dau sylwedd i gyssylltiad â'u gilydd â nerth anghyffredin, poethir hwynt i'r fath raddau fel y byddant yn wynias. Pe y

Digitized by Google

gwresogid gwyfren (*wire*) haiarn yn un pen, a'i dodi mewn llestr yn cynnwys *oxygen*, llosgid hi: ymddangosai fflam ddysglaer arni, ac fe ddisgynai yr haiarn ymaith yn ddiferynau bychain. Yn ystod y gweithrediad yma, llwyr losgid yr *oxygen*; a phe cesglid ynghyd yr holl ddyferynau a ddisgynasant oddi wrth y wyfren, a'u pwyso gyda'r hyn a adawyd o'r wyfren, fe geid fod y pwysau wedi cynnyddu yn gywir yn ol pwysau yr *oxygen* a losgwyd. Gellir gwahanu yr haiarn a'r *oxygen* drachefn, heb i'r naill na'r llall fod wedi colli dim mewn mesur na maintioli. Felly, gan fod pob enghraifft o oddeithiad yn enghraifft o gyfuniad fferyllawl, nid oes golled yn cymmeryd lle o fewn natur. Y sylwedd mawr cyfunol ydyw *oxygen*. Y mae hwn yn bresennol pa le bynag y gall dyn fyw ynddo; ac y mae ef yn wastad yn barod i ymuno â phob mater a ddaw i gyffyrddiad âg ef, os yn meddu ar y tymmeredd angenrheidiol. Hylosgion (*combustibles*) y gelwir y sylweddau hyny a ymunant âg *oxygen* mewn tymmerau isel, ac o fodolaeth weladwy pa rai yr ydym yn ymwybodol. Oddi wrth y ffaith yma, mae glo pwll, olew, &c., wedi derbyn yr enw *hylosgion*, o blegid fod y sylweddau hyn yn fuan yn dangos teithi gwres a goleuni. Y mae *oxygen*, yn y gwrthwyneb, yn cael ei alw yn gyffredin yn gynnaliedydd i'r cydlosgiad. Barn gyffredin fferyllwyr ar bwngc y cydlosgiad yw, ei fod yn codi oddi ar undeb buan a sydyn gwahanol wrthddrychau â'u gilydd, ac y mae yr athronydd Davy wedi nodi trydaniaeth fel yr achos.

6. *Toddiant.*—Cyfaddefir yn rhwydd mai effaith yn cael ei gynnyrchu gan wres ydyw *toddiant*, neu gyfnewidiad peth sylweddol i gyflwr gwlybyrol. Gellir tori rhew a'i wneuthur yn bwdr, ond peth sylweddol a fydd er hyny hyd nes y toddir ef yn ddwfr gan ddylanwad gwres. Yr un modd gyda golwg ar gŵyr; a phan yn toddi o dan belydrau yr haul, yr ydym yn dra sicr mai y gwres, ac nid y goleuni, sydd yn achosi y cyfnewidiad yma; ac os ydyw plwm yn toddi wrth gael ei forthwylio ar yr eingion, y mae hyny i'w briodoli i'r gwres a ddadhuddir trwy ergydion y morthwyl. Gan hyny, y mae cyflwr gwlybyrol neu gyfanol pob sylwedd yn gyflwr perthynasol, ac yn dibynu yn gwbl ar y dymmeredd y mae y sylwedd yn ddarostyngedig iddi. Pe bai y ddaear hon yn sefyll mewn pellder gwahanol oddi wrth yr haul i'r hyn ydyw, buasai yn wahanol iawn o ran ei hymddangosiad a natur ei chyfansoddiad. Pe buasai yn agosach i'r haul, buasai y rhan fwyaf o fetteloedd mewn cyflwr hylifol yn barhaus, ac fe fuasai gwaelod y môr, yn lle bod yn orchuddiedig â dyfroedd, yn cael ei lenwi gan fetteloedd toddedig. Pe buasai yn y gwrthwyneb, yn mhellach oddi wrth yr haul, buasai y môr yn bentwr cyfanol; ni buasai dwfr rhedegog yn bod, na digon o wlybwr i atteb dibenion bywyd a llysieuaeth.

7. *Trosglwyddiad gwres.*—Nid oes un sylwedd yn bod heb fod rhyw gymmaint o wres ynddo: pa mor oer bynag y byddo, y mae rhyw raddau o wres yn bodoli ynddo, a gellir ei drosglwyddo o hono i sylwedd arall. Y mae dwy ffordd arbenigol trwy ba rai y gellir trosglwyddo gwres; sef, trwy gydgyffyrddiad a thrwy belydriad. Pan y mae un sylwedd yn cael ei gynnhesu trwy ddyfod i gyffyrddiad âg un arall, dywedir fod gwres yn cael ei drosglwyddo trwy gydgyffyrddiad; megys pan ddoder y llaw ar gareg gynnhes, neu pan wresogir y procyr (*poker*) yn y tân; ond pan nad oes gyffyrddiad rhwng dau sylwedd, megys pan ddodir cŵyr o flaen y tân, dywedir fod y gwres yn cael ei drosglwyddo trwy belydriad. Yn ol y dull olaf y mae yr haul yn cynnhesu y ddaear: y mae y gwres yn cael ei belydru i bob cyfeiriad; a phan nad yw llwybr y pelydrau yn cael ei luddias gan gymmylau tewion, neu rhyw foddion celfyddydol, y mae y gwres a dderbynir yn angerddol iawn.

Y mae buander trosglwyddiad gwres trwy gydgyffyrddiad yn dibynu yn hollol ar natur y sylweddau. Y mae yr holl fetteloedd yn trosglwyddo gwres yn fuan iawn; a'r rhai goreu am wneud hyn ydynt yr aur, arian, *platinum*, haiarn, a'r copr, a'r gwaelaf yw y plwm. Y mae mynor, meinbridd (*porcelain*), clai, gwydr, a phren yn bethau gwael iawn am drosglwyddo gwres, a'r gwaelaf o gwbl yw *charcoal*. Gorchwyl anhawdd ydyw dal llestr yn llawn o ddwfr poeth, gyda chlust (*handle*) haiarn; ond ni theimlid unrhyw anhawsder i'w dal gyda chlust o bren. Y mae y gallu trosglwyddol yn dibynu i raddau mawr ar gyssylltiad cyfanol y mân ronynau â'u gilydd: gan hyny, nid yw unrhyw sylwedd a wneir yn bwdr, na gwlân, sidan, plu, na blawd-llif, yn bethau i drosglwyddo gwres.

8. *Ymlediad sylweddau.*—Y mae deddfau lleihâd ac ymlediad cyfanion (*solids*) wedi eu deall yn drwyadl erbyn hyn, ac wedi eu defnyddio i atteb llawer o ddibenion pwysig. Gwelir y ffaith hon wrth wneyd ychydig o brawfiadau syml. Meddylier am ddarn o fettel wedi ei wneud yn addas i fyned i dwll o unrhyw faintioli: pe poethid ef, byddai yn annichonadwy ei ddodi yn y twll drachefn. Hefyd, y mae modrwy a fyddo yn ffitio y bys pan yn boeth, yn rhy fechan o lawer pan yn oer. Y mae defnydd mawr yn cael ei wneud o hyn wrth gylchu barilau, ac wrth gantu olwynion. Dodir y cant neu y cylch am yr olwyn pan yn boeth; y mae yntau yn lleihau wrth oeri, ac felly yn gwasgu y gwaith coed yn agosach ac yn dynach. Y mae pres yn ymledu mwy o dan ddylanwad gwres na haiarn.

9. *Athroniaeth gwres.*—Y mae dau olygiad wedi eu coleddu gyda golwg ar yr hyn ydyw gwres o ran ei natur. Dywed rhai ei fod yn beth materol; ond y mae ereill yn gwadu ei fod yn sylwedd, ac yn haeru mai rhywbeth ydyw a gynnyrchir gan weithrediad (*action*) y mân ronynau sydd yn cyfansoddi pob sylwedd. Hyd yn hyn, y mae y pwnc hwn yn aros mewn tywyllwch lled fawr; ond y mae lliaws o athronwyr galluog, ac yn eu plith Davy a Webster, wedi rhoddi barn benderfynol yn erbyn y syniad fod gwres yn sylwedd. Yr ydys wedi methu a phwyso gwres, ac y mae hyn yn un rheswm cryf dros i ni gredu nad ydyw yn beth sylweddol. Y mae y gwres diderfyn a ennynir hefyd trwy rwbiad yn rheswm cryf arall dros i ni gredu yr un peth. Y mae y mân ronynau mewn sylweddau cyfanol bob amser yn ymweithio, neu mewn cyflwr symmudol; a mân ronynau y sylweddau poethaf sydd yn gweithio gyflymaf. Gwel Haul, &c.

GWRTAETH. Cyfyngid yr ymadrodd hwn gynt i ysgarthion anifeilaidd; ynghŷd â gwellt, neu lysiau braenedig.

Yr oedd meusydd Canaan yn naturiol yn ffrwythlawn, yn enwedig felly, pan y disgynai y cynnar-wlaw a'r diweddar-wlaw yn rheolaidd; er hyny, chwanegai yr Iuddewon at rinwedd tyfiannol eu tiroedd trwy gymmhwysiad gwrtaeth. Yr oedd gwrtaeth yn eu plith hwy yn gynnwysedig o ysgubion y ffyrdd a'r heolydd (*Esa.* v. 25): "celanedd ... yn nghanol yr heolydd." Gellir dar-

Digitized by Google

darllen "*tom* yn nghanol yr heolydd;" yr hwn a gesglid yn ofalus, ac a wneid yn domenydd oddi allan i furiau y ddinas. At hyn y cyfeiria yr ymadrodd "porth y dom;" *Neh.* ii. 13. Hefyd, gwellt wedi ei wlychu mewn dyfroedd gwrteithiol (*Esa.* xxv. 10); "sathru gwellt mewn tomen;" neu yn llythyrenol, mewn dwfr oddi ar dail. Y dull o gymmhwyso gwrtaeth at goed oedd cloddio tyllau o amgylch eu gwreiddiau, a'i fwrw iddynt, yr hyn sydd mewn arferiad etto yn Italy Ddeheuol.

Erbyn hyn, y mae i'r gair ystyr eangach; a chynnwysa bob sylwedd, pa un bynag ai o darddiad anifeilaidd, llysieuol, neu fwnawl, ag sydd wedi ei gymmhwyso at y tir i chwanegu at ei allu cynnyrchiol.

Mewn amaethyddiaeth ymarferol, rhenir gwrteithiau i ddau ddosbarth; sef, gwrteithiau naturiol, a gwrteithiau celfyddydol. Y mae y gwrteithiau naturiol yn tarddu yn wreiddiol o'r tir ei hunan yn y gwahanol ffurfiau o ŷd, gwair, gwellt, cnydau gleision, a phlanhigion ereill; y rhai. wedi bod yn foddion cynnaliaeth a phesgiad i anifeiliaid, ydynt yn ganlynol yn ildio y sylwedd gwerthfawr a elwir yn wrtaeth y buarth. Y mae y gwrteithiau celfyddydol, o'r ochr arall, yn tarddu o ffynnonell ddieithr i gynnyrchion cyffredin y fferm; hyny ydyw, nid ydynt yn deilliaw yn uniongyrchol o dyfiant llysieuol, na chwaith yn anuniongyrchol yn gynnyrch ymborthiant ar sylweddau llysieuol gan anifeiliaid.

Y ddau brif foddion er adferu ffrwythlonder tir fyddo wedi ei ddyhysbyddu gan gnydau dilynol, ydynt—1af, Gwelliant y tir trwy driniogaeth. 2il, Y cymmhwysiad o wrtaeth at y tir.

Y mae pob llysiau, yn ddieithriad, yn tynu o'r tir ar ba un y tyfant ryw gymmaint o wrteithiau mwnawl, y rhai sydd yn anhebgorol i'w bodolaeth. Y mae rhai llysiau yn gofyn mwy o sur llosnurig nag eraill, y rhai a alwant am fwy o wygnur i'w tyfiant iraidd. Rhaid i ereill, wedi hyny, gael llawer o galch; ereill gallestrai, er eu perffeithiad. Ond y mae y cyfan yn sefyll mewn angen am lawer o sylweddau fferyllol ammheiriannol, y rhai nad allai y planhigion eu derbyn, ond oddi wrth y tir ar ba un y tyfasant. Os ydyw yn wir fod yr elfenau mwnawl hyn yn angenrheidiol i fodolaeth planhigion, y mae yn canlyn fod yn rhaid i bob tir cyn pen nemawr o amser gael ei ddyhysbyddu i'r gyfryw radd ag i'w analluogi i dyfu cnydau a dâl gost eu triniaethiad. Y mae profiad wedi amlygu hyn; ac ar yr un pryd wedi dangos dwy ffordd ar hyd pa rai y gellir adferu y tir i'w ffrwythlonder naturiol. Y mae y llwybr cyntaf yn cynnwys yr oll o'r gweithrediadau ymarferol hyny; megys palu, aredig, rholio, llyfnu, &c., trwy ba rai y gwellhëir cywair y tir, neu y dygir allan ei alluoedd ffrwythlonawl cynhenid. Y mae yr ail yn cynnwys y cymmhwysiad o wrteithiau. Yn mhob gwlad lle yr edrychir ar amaethyddiaeth fel celfyddyd i fyned rhagddi, y mae y cymmhwysiad o wrteithiau, ynghŷd â'u parotoad, a'r cynnildeb a ddylid ymarfer mewn perthynas â hwy, yn cael edrych arnynt fel moddion gwerthfawr ac anhebgorol.

Sylwir ar y sylweddau gwahanol a arferir fel gwrteithiau ar wahân; ac o dan eu gwahanol enwau, ceir yr hyn y maent yn gyfansoddedig o honynt, a phob hysbysrwydd yn eu cylch a all fod o werth i'r amaethwr ymarferol.

Y mae y gair *gwrtaeth* yn ei ystyr eangaf, fel y crybwyllwyd eisoes, yn cynnwys yr holl sylweddau neu gymmysgedd o sylweddau a chwanegir at y tir er adferu y ffrwythlonder y byddo wedi ei golli trwy gnydau dilynol, neu ynte er chwanegu ei ffrwythlonder cynhenid. Yn yr ystyr hwn, gellir galw pob dim a chwanegir at y tir, ag sydd ar yr un pryd yn ei ffrwythloni, yn wrtaeth. Y mae yn eglur oddi wrth y darluniad uchod, fod yn rhaid rhestru llawer o sylweddau yn wrteithiau nad ydynt yn y cyffredin yn cael eu hystyried felly; ac yn mhlith y rhai hyny, gallwn nodi clai, calch, marl, dwfr, awyr, ac hyd yn oed tywod. Y mae yn eithaf eglur fod y buddioldeb a ddeillia oddi wrth y cymmhwysiad o glai, marl, calch, tywod, a llawer o sylweddau ereill, yn ddyledus yn benaf i'r cyfnewidiad yn nghyflwr anianyddol y tiroedd i ba rai y cymmhwysir hwynt. Mewn llawer o amgylchiadau, nid ydynt yn gweithredu gymmaint yn y cyfeiriad o weinyddu ymborth uniongyrchol i'r planigion ag ydynt mewn modd anuniongyrchol yn hyrwyddo y sugniad o'r trysorau cuddiedig hyny sydd yn gorwedd yn farw yn y tir, a thrwy hyny yn eu gwneuthur yn hwylusach ymborth i blanigion. Er fod llawer o ysgrifenwyr yn gadael y sylweddau a nodwyd allan o restr y gwrteithiau, yr ydym yn meddwl, gan eu bod yn fynych yn gwellhau ac yn cyffaethio y tir, a thrwy hyny gyflenwi y planigion âg ymborth uniongyrchol nad allent eu cael hebddynt, yr ydym am gynnwys yr holl sylweddau sydd yn dylanwadu ar y tir, un ai i chwanegu at ei ffrwythlonder, neu ynte yn effeithio arno er ei alluogi i fwrw ei ffrwyth, i blanhigion yn wrteithiau.

Y mae y term "gwrteithiau celfyddydol" yn cael ei arfer gan wahanol bersonau mewn gwahanol ystyron. Dywed rhai nad oes dim i'w arfer yn wrtaeth celfyddydol ond yr hyn a wneir i'r diben o gyflenwi angenrheidiau neillduol tiroedd a chnydau; ereill a gynnwysant dan yr enwad bob gwrtaeth adnabyddus, oddigerth yr hyn a wneir ar fuarth y fferm. Ond i arbed dyryswch, fe allai mai gwell fyddai cynnwys yn y term yr holl wrteithiau, yn y gwneuthuriad o ba rai y mae dyfais a gwyddoniaeth wedi bod yn offerynol yn eu dygiad i fodolaeth. Tra yn ymdrin â'r mater, nis gallwn ymattal rhag rhoddi amaethwyr ar eu gocheliad rhag rhoddi ymddiried yn yr holl hysbysleni a daenir ar hyd y wlad; gan fod llawer o'r gwrteithiau hyn wedi eu cyfansoddi o'r sylweddau mwyaf diwerth ac aneffeithiol. Y mae y ffaith o aneffeithioldeb llawer gwrtaeth wedi achosi i lawer un ag oedd yn awyddus i wneuthur defnydd o'r cynnorthwy a weinyddir i amaethyddiaeth drwy offerynoliaeth celfyddyd, wedi myned i edrych ar holl gynnyrchion y gelfyddyd hono fel twyll a hoced.

Y mae y gwrteithiau celfyddydol hyd yn hyn wedi methu a chyflawnu proffes eu gwneuthurwyr a bod yn alluog i gynnyrchu gwrtaeth cystal a gwrtaeth yr ystabl. Y mae y rhesymau am hyn yn eithaf eglur. Yn y lle cyntaf, y sylweddau gwrteithiol goreu ydynt y rhai drutaf; ac o ganlyniad, anaml y ceir hwynt yn gynnwysedig mewn digon o swm yn y gwrteithiau a werthir. Yn ail, y mae rhy ychydig o drafferth yn cael ei gymmeryd i gymmysgu y sylweddau hyn yn y cyfartaledd yn mha un y ceir hwynt mewn gwrtaeth y buarth. Y mae sefyllfa gwyddoniaeth, yn wir, yn mron yn ei fabandod o barth i'r cyfartaledd mewn gwrtaeth buarth; ac hyd nes y cyrhaeddir yn nes at berffeithrwydd mewn gwybodaeth o'r cyfartaledd hwn, bydd yn gwbl

Digitized by Google

ammhossibl cyrhaedd yr un perffeithrwydd yn eu cynnwysiad o'r sylweddau fferyllol. Ond y mae y rhwystr hwn yn myned lai lai o flwyddyn i flwyddyn, a diammheu y deuir o hyd i'r dirgelwch cyn pen nemawr o amser etto. Yn drydydd, rhaid cofio fod gwrtaith buarth, yn gystal a'i fod yn cyflenwi planhigion âg ymborth uniongyrchol, yn effeithio dylanwad cyfnewidiol ar gyflwr anianyddol y tir; a chan fod y cyfnewidiadau hyn o'r pwys ymarferol mwyaf, a bod yn ammhossibl i unrhyw wrtaith celfyddydol gyflawnu yr un gwasanaeth, y mae yn hawdd canfod yn mha le y gorwedd rhagoriaeth y cyntaf ar yr olaf fel gwrtaith cyffredinol.

Mewn gwrtaith buarth, y mae y rhan fwyaf o'r sylweddau ammheiriannol mewn ystâd sydd yn anhawdd eu toddi mewn dwfr: y mae y rhai hyn yn dra unedig â rhanau peiriannol y gwrtaith, ac nid ydynt yn cael eu rhyddhau o'r undeb hwn, a'u gwneuthur yn doddadwy, ond pan y byddo y sylweddau peiriannol mewn gwrtaith buarth yn ddadansoddedig trwy fraeniad. Y mae y dadansoddiad hwn yn araf yn ei weithrediad; o ganlyniad, nid oes ond gradd fechan o sylwedd ffrwythlonawl yn cael ei doddi ar unwaith. Y mae bod gwrtaith buarth fel hyn yn araf yn ei doddiad, mewn cymhariaeth i wrteithiau ereill, yn dangos yn eglur ei fod, nid yn unig yn fwy ffafriol i dyfiant ein cnydau cyffredin, sydd yn gofyn peth amser, ond hefyd yn rhoddi y rheswm goreu pa ham y mae yn atteb yn well yn yr ail gnwd nag un gwrtaith a ddarganfyddwyd etto. Fe ddylai gwrtaith celfyddydol, gan hyny, i'r diben i fod yn gyffelyb i wrtaith buarth, gynnwys yr holl elfenau sydd yn cyfansoddi yr olaf, a'u cynnwys mewn ystâd na byddant yn rhy doddadwy nac annhoddadwy; canys eglur yw, nas gall planhigyn dyfu yn ffrwythlawn, a chyrhaedd perffeithrwydd, ond pan fyddo yr oll o'r elfenau angenrheidiol i'w fodolaeth yn ei wahanol gyflyrau yn cael eu cyflwyno iddo yn briodol i'w sefyllfaoedd gwahanol. Os bydd y tir yn ddiffygiol o un neu chwaneg o'r elfenau angenrheidiol hyn, rhaid ei gyflenwi mewn ffurf o wrtaith; a chan nad yw yn hawdd penderfynu, hyd yn oed trwy ddadansoddiad (*analysis*) fferyllol, yn mha un o elfenau angenrheidiol ffrwythlonaeth y mae tir yn ddiffygiol, y mae yn canlyn mai y gwrtaith hwnw sydd yn gynnwysedig o'r mwyafrif o'r sylweddau ffrwythlonol fydd ar y cyfan y gwrtaith goreu a mwyaf effeithiol.

Y mae y cymmhwysiad rhesymol o wrteithiau at diroedd yn dibynu ar lawer o amgylchiadau; ac nis gellir gobeithio fod hyny yn cael ei gyflawni yn ddyladwy, yn effeithiol, ac yn rhadlawn, hyd nes y bydd y pedwar pwnc a ganlyn wedi eu penderfynu:—1. Angenrheidiau y planhigion y bwriedir eu tyfu yn eu perthynas âg elfenau maethiad. 2. Angenrheidiau y planigion yn eu perthynas â stâd anianyddol y tir. 3. Cyfansoddiad y tir. 4. Cyfansoddiad y gwrtaith. Ond gan nad oes a wnelom â'r tri chyntaf dan y gair hwn, gadawer hwynt o'r neilldu.

Y sylweddau pwysicaf yn nghyfansoddiad gwrteithiau, ydynt, yn 1af, Blorai (*nitrogen*), yn y ffurf o *ammonia*, neu sur blorig (*nitric acid*). Y mae blorai, yn ddiammheu, yn un o'r sylweddau ffrwythlonol gwerthfawrocaf: yn wir, os rhestrir ef yn ol ei bris yn y farchnad, efe yw y gwerthfawrocaf. Er hyny, nid ydyw yn ddefnyddiol yn nghynnyrchiad gwraidd planhigion, ond yn un o'r ffurfiau a enwyd. Nid yw blorai yn cael ei sugno gan blanhigion, ond i radd fechan, yn ei ystâd rydd; ac nid yw blorai sylweddau peiriannol chwaith yn dyfod yn ddefnyddiol i blanhigion cyn i'r sylweddau bloreiol fyned dan gyfnewidiad, un ai trwy dwymniad neu fraeniad: a'r canlyniad o'r cyfnewidiad hwnw, yn mysg pethau ereill ydyw, ffurfiad *ammonia*, neu sur blorig. Y mae y sylwedd hwn, yn un o'r ffurfiau uchod, yn gweithredu yn nerthol iawn mewn gwrtaith, yn enwedig pan yn gymmhwysedig at blanhigion yn nghychwyniad eu tyfiant: wedi hyny, y mae ei effaith yn lleihau. Ei bresennoldeb mewn *guano*, huddugl, &c., yn benaf sydd yn eu gwneyd mor effeithiol. Y mae ei nerth mor fawr fel na ddylid ei arfer fel gwrtaith ar ei ben ei hun, ond yn gymmysgedig â rhyw sylweddau ereill. Er yr ystyrir blorai yn ei wahanol ffurfiau fel un o'r sylweddau pwysicaf a gymmhwysir gan wrteithiau, etto nis gallwn gyttuno â'r rhai a brisiant sylweddau gwrteithiol yn ol y graddau a gynnwysant o florai.

2il, Sylweddau peiriannol (*organic substances*). Y mae sylweddau peiriannol, yn cynnwys ulyf (*carbon*), ulai (*hydrogen*), ac ufelai (*oxygen*), i'w cael i fesur helaeth mewn gwrtaith buarth, yn gystal ag mewn gwrteithiau ereill; ond nid ydyw mawredd eu gwerth fel materau ffrwythlonol i'w cymmharu â sylweddau peiriannol bloraiol, halion *ammonia*, a blorhalion. Blynyddoedd yn ol, prisid gwrtaith yn ol cymmesuredd y sylweddau peiriannol a gynnwysai; ac felly cyfeirid prif effeithiau maethol gwrteithiau at bresennoldeb sylweddau peiriannol ynddynt, pa rai, ar ddadansoddiad, a gynnyrchent priddig (*humus*), y sylwedd a ystyrid am amser maith fel yr unig un y derbyniai planhigion eu hymborth uniongyrchol oddi wrtho. Yr oedd gwerth y sylweddau peiriannol fel hyn yn cael eu gohirio gan anianyddwyr ac amaethwyr yr oes o'r blaen, nes y dangosodd ymchwiliadau a darganfyddiadau Liebig fod yr effeithiau a gynnyrchid gan sylweddau peiriannol ar blanhigion yn ddibwys o'r bron o'u cymmharu â'r effeithiau a gynnyrchid gan sylweddau ammheiriannol. Ac er nad ellir myned mor bell a'r fferyllydd enwog a nodwyd, a dywedyd na ddylid sylwi ar bresennoldeb sylweddau peiriannol mewn gwrteithiau o gwbl, rhaid addef mai yr hyn y dylid rhoddi y pwysigrwydd mwyaf arnynt mewn cyfansoddiad gwrteithiau ydyw y sylweddau ammheiriannol.

3ydd, Y sylwedd ammheiriannol gwerthfawrocaf o lawer yn nghyfansoddiad gwrteithiau yw sur llosnurig (*phosphoric acid*), gan ei fod yn sylwedd heb yr hwn y mae yn ammhossibl i rawn y cnydau gwynion ymberffeithio. Y mae absennoldeb y sylwedd hwn o'r tir i'w ganfod yn gyffredin yn ymddangosiad teneu a thlodaidd tywysenau gwenith, haidd, neu geirch. Nid yw tiroedd ond anfynych iawn yn cynnwys digon o sur llosnurig i atteb i angenrheidiau cnydau; o ganlyniad, rhaid cyflenwi y diffyg yn y ffurf o wrtaith. Y mae yr effeithiau daionus a ganlyn y cymmhwysiad o lwch esgyrn, gorlosnur-hâl (*superphosphate*), tomfeini (*coprolites*), &c., i'w priodoli yn benaf i'r sur llosnurig a gynnwysant. Y mae sur llosnurig i'w gael yn yr un cyfuniad yn ysgarthion ein hanifeiliaid dofion, ag ydyw mewn esgyrn; hyny ydyw, yn y ffurf o lwch esgyrn a llosnurhâl calch (*phosphate of lime*); y mae felly yn cyfansoddi rhan bwysig mewn gwrtaith buarth, yn gystal a phob gwrtaith gwneuthuredig a gymmhwysir gyda llesoldeb at dyfiant y cnydau gleision a gwynion. Y mae yn deilwng o ystyriaeth fod llosnurhâl calch, er yn annhoddadwy mewn

Digitized by Google

dwfr ar ei ben ei hun, yn cael ei doddi yn rhwydd drwy chwanegu ychydig o *ammonia* at y dwfr. Y mae y neillduolrwydd hwn mewn llosnurhâl calch yn cyttuno â phrofiad ymarferol; yr hyn a ddengys i ni fod llosnurhâl calch, neu yn hytrach llosnurhalion yn gyffredinol, yn amlygu yr effeithiau mwyaf dylanwadol ar dyfiant llysiau, &c., pan yn gymmysgedig â halion *ammonia*, neu sylweddau peiriannol bloraiedig; y rhai, ar ddadansoddiad, a'ddygant *ammonia* i fodolaeth. Am yr unrhyw reswm, y gwrteithiau mwyaf nerthol yw y rhai a gynnwysant lawer o halion llosnurig ac *ammonia*, neu sylweddau peiriannol bloraiedig.

4ydd, Alcalïau, gwygnur (*potash*), a halod (*soda*). Y mae gwygnur a halod, yn enwedig y cyntaf, yn rhanau ansoddol gwerthfawr mewn gwrtaith buarth, yn gystal ag yn y gwrteithiau gwneuthuredig goreu. Nid ydyw ysgarthion celyd ceffylau, buchod, defaid, a moch, yn cynnwys ond ychydig o halion gwygnur, y rhai, o herwydd eu bod yn dra thoddadwy mewn dwfr, ydynt yn cael eu harllwys gyda'r ysgarthion gwlybyrol. Y mae cadwedigaeth trwnc anifeiliaid o ganlyniad yn fater o bwys i amaethwyr; gan y bydd esgeulusdra gyda hyny yn eu difuddio o'r sylweddau tra maethlawn hyn. Yn ei berthynas fferyllol, mae gwygnur yn ymdebygoli i *ammonia*, a'r un modd mae cyffelybrwydd mawr rhwng halion gwygnur ac *ammonia*. Mae y tebygolrwydd i'w ganfod yn eu heffeithiau ar dyfiant; canys gweithreda gwygnur â'i halion yr un mor nerthol o ran cyflymder tyfiant ag y sylwyd eisoes mewn perthynas i *ammonia*. Mae pob planhigion, yn enwedig gwreiddgnydau a llysiau, yn gofyn gwygnur fel rhan o'u hymborth angenrheidiol; canys cyfansodda ran helaeth o'u lludw. Y prif reswm dros effeithiau daionus y cymmhwysiad o ludw coed, trwnc anifeiliaid, a llawer o'r callestrai naturiol ydyw eu bod yn cynnwys mwy neu lai o'r hâl hwn. Gellir dyweyd yr un peth gyda golwg ar glai llosgedig yn hytrach nag am glai yn ei ystâd naturiol; canys cynnwysa y cyntaf fwy o lawer o wygnur toddadwy, mewn cymmhariaeth, na'r olaf. Y mae yr effeithiau llesol a gynnyrchir trwy y cymmhwysiad o galch poeth at rai tiroedd yn ddyledus i raddau helaeth i ryddhâd y gwygnur fyddo yn y tiroedd, trwy ei ddwyn i ansawdd toddadwy. Y mae halion halod etto yn sylwedd pwysig; etto, yn llawer llai pwysig na halion gwygnur. Yn y cyffredin, y mae mwy o halion halod mewn gwrteithiau nag o halion gwygnur; ac nid oes ond ychydig o diroedd heb gynnwys yn naturiol ddigonedd o halion halod i atteb i angenrheidiau y cnydau a dyfir arnynt. Dyma y rheswm pa ham y mae halion gwygnur yn fwy gwerthfawr mewn gwrtaith na halion halod. Y ffaith ydyw, nad oes angenrheidrwydd am i ni yn y wlad hon ymdrafferthu rhyw lawer i gymmhwyso halion halod at y tir, o herwydd y mae agosrwydd y môr yn cyflenwi y tiroedd â halen cyffredin, trwy offerynoliaeth gwyntoedd ac ystormydd. Mewn gwledydd eang, y mae yr arferiad o gymmhwyso halen wedi profi yn dra llesol, yn enwedig yn y parthau hyny sydd yn mhell oddi wrth y môr; ond er fod amgylchiadau ag y gellir ei arfer yn y wlad hon yn fanteisiol, etto eithriadau ydynt i'r rheol gyffredin. Y mae un rheswm arall ag sydd yn dangos yn amlwg fod halion gwygnur yn rhagori ar halion halod; a hwnw ydyw, fod lludw planigion, bron yn ddieithriad, yn cynnwys chwaneg o'r sylwedd cyntaf na'r olaf. Y mae blorhâl halod hefyd, yr hwn sydd yn wrtaith nerthol ar diroedd porfa, yn ddyledus yn benaf am ei effeithiolrwydd yn ol pob arwyddion sydd genym, i'r sur blorig a gynnwysant, ac nid i'r halod.

5ed, Calch a *magnesia*.—Y mae bron bob gwrtaith yn cynnwys y ddau sylwedd hyn, y rhai sydd yn anhebgorol i dyfiant iraidd planhigion. Y mae gwrtaith buarth yn cynnwys calch mewn rhan yn y ffurf o ulyf-hâl, ac mewn rhan yn y ffurf o losfaen-hâl calch. Y mae yr olaf, yr hwn hefyd a elwir plastfaen neu *gypsum*, yn ffrwythlonydd a gyfansodda brif sylwedd llawer o wrteithiau gwneuthuredig; ond gan y gellir prynu plastfaen yn isel, a bod ei effeithiau ar dyfiant yn llai o lawer na'r eiddo sylweddau ammheiriannol gwrteithiau, ni ddylai y gwrteithiau gwneuthuredig goreu gynnwys ond ychydig o hono. Y mae calch a *magnesia*, ar y cyfan, ymhlith y sylweddau mwnawl mwyaf cyffredin; a gellir eu cymmhwyso yn rhadlawn at diroedd fyddont yn ddiffygiol o honynt yn y ffurf o blastfaen, marl, calch, mwyngalch, calchfaen, marm, &c. Fel ansoddau gwrteithiau, nid ydyw calch a *magnesia* yn rhestru yn uchel iawn.

6ed, Callestrai (*silica*).—Mae lludw pob planhigion yn cynnwys callestrai; a rhai, megys lludw gwellt gwenith, haidd, &c., fesur helaeth iawn o hono. Y mae y sylwedd hwn, o ganlyniad, yn hanfodol ymborth i blanhigion, heb yr hwn nid allent gyrhaedd perffeithiad. Ond gan fod agos i bob tir yn meddu ar ddogn helaeth o hono yn naturiol, nid oes angenrheidrwydd gofalu am ei gymmhwyso mewn ffurf o wrtaith.

7fed, Mae sur llosfeinig (*sulphuric acid*), glasnwy (*chlorine*), llifornur (*fluorine*), egrid haiarn a *manganese*, ac weithiau allogai (*alumina*), yn sylweddau yn nghyfansoddiad llawer o wrteithiau; ond gan eu bod yn wasgaredig mewn natur i raddau helaeth, anfynych y gwelir tir nad ydyw yn cynnwys digonedd o honynt i gyflenwi angenrheidiau planhigion: o ganlyniad, gellir eu gadael heibio heb sylwadau pellach arnynt.

Y mae y sylweddau a enwyd yn flaenorol yn ansoddau sydd i'w cael mewn gwrtaith buarth, ac a ddylent fod yn bresennol mewn pob gwrtaith gwneuthuredig o ddefnydd cyffredinol. I arbed camddealltwriaeth, dylid cofio, pan yn cyfeirio at werth y sylweddau ffrwythlonol, mai eu gwerth masnachol a feddylir. Mewn un ystyr, y mae yr holl faterion a geir mewn lludw planhigion yn werthfawr, gan eu bod yn hanfodol i berffeithiad y cyfryw; ac yn yr ystyr hwn y mae callestrai a chalch mor werthfawr a gwygnur a sur llosnurig, am na wnai cyflenwad helaeth o'r ddau olaf luddias i'r planhigion lesghau a marw o eisieu y blaenaf. Wrth gyfeirio, gan hyny, at werth masnachol ansoddau ffrwythlonol gwrtaith, ymddengys oddi wrth y sylwadau a wnaethom eisoes eu bod i'w rhestru yn y drefn ganlynol:—

1. Blorai (yn hytrach *ammonia* a sur blorig).
2. Sur llosnurig.
3. Gwygnur.
4. Calch a *magnesia*.
5. Callestrai toddadwy
6. Sylweddau peiriannol yn ffurfio priddig (*humus*).
7. Sur llosfeinig, glasnwy, egrid haiarn, &c.

Nid oes dim ammheuaeth nad biorai, yn y ffurfiau o *ammonia*, halion *ammonia*, sur blorig, blorhalion, neu sylweddau peiriannol bloraiedig, ydyw y rhan werthfawrocaf o wrteithiau; o blegid, yn un peth, y mae tiroedd yn gyffredin yn ddiffygiol o hono; ac hefyd, o blegid nas gall y sylweddau mwnaidd sydd mewn gwrtaith am-

Digitized by Google

lygu eu heffeithiau goreu, ac eithaf, ond yn unig pan y bydd sylweddau bloraiedig pydredig, neu ynte halion *ammonia*, yn gydgymmysgedig â hwynt. Yn nesaf at blorai, y mae sur llosnurig a gwygnur; gan fod y ddau yn rhestru yn mhlith y materau mwnawl mwyaf anghyffredin a wasanaethant fel ymborth i blanhigion, a chan fod y ddau yn angenrheidiol mewn mesur helaethach na'r ansoddau ereill a geir mewn lludw llysiau er eu tyfiant perffeithiaf.

Mae y sylweddau gwahanol a arferir at ffrwythloni tir yn cael eu had-dynu, un ai oddi wrth ffynnonell beiriannol neu o un fwnawl, neu ynte mewn rhan o un ac mewn rhan o'r llall; ond i'r diben i wneuthur rhai sylwadau ymarferol ynghylch gwrteithiau, dosberthir hwynt fel y canlyn:—

1. Y gwrteithiau a wneir ar y fferm.
2. Y rhai a gludir yno o fanau ereill.

Ond cyn sylwi ar natur a chyfansoddiad y gwrteithiau a gyfansoddant gwrtaeth buarth, fe allai mai rheidiol ydyw cyfeirio at y gwrteithiau a geir o ffynnonellau naturiol. Fel yn perthyn i'r rhestr hon, gellir nodi yn arbenigol yr awyr, dwfr gwlaw, a dwfr y ffynnonau. Yr awyr ydyw yr ystorfa fawr o ba un y mae planhigion yn derbyn eu hymborth peiriannol. Y mae yn meddu ar gyflawnder mawr o sur ulyfig, yr hwn a sugnir gan blanhigion trwy gyfrwng eu dail. Yn wir, y mae y rhan helaethaf o blanhigion yn ddyledus i'r gwrtaeth naturiol hwn am eu sail. Y mae yr awyr, heb law cyflenwi planhigion âg ulyf, yn darparu *ammonia* a lleithder hefyd ar eu cyfer. I'r swm o *ammonia* a dderbynir gan y tir, yr ydym i briodoli i fesur mawr y gwyrddlesni harddwych fydd yn gordoi y meusydd ar ol cawod o wlaw taranau. Ac y mae y lleithder a dderbynir gan blanhigion trwy yr awyr yn helaethach na'r hyn a dderbyniant trwy wlaw.

Dwfr gwlaw—y dwfr naturiol puraf—ydyw, fe allai, y mwyaf pwysig o'r holl wrteithiau naturiol; o herwydd, pe hebddo, byddai bywyd llysieuol yn gystal a bywyd anifeilaidd yn ammhossibl. Y mae dwfr y ffynnonau hefyd yn wrtaeth, ond gwahaniaethant yn ddirfawr yn eu helfenau; ac y mae hyn i'w briodoli i'r sylweddau mwnawl ac ammheiriannol a gynnwysant.

Y gwrteithiau a wneir ar y fferm—sef gwrtaeth buarth, dwfr tail, neu drwnc anifeiliaid, pasteiod, a gwrteithiau gwyrddion.

Cymmysgedd ydyw gwrtaeth buarth o dail ceffylau, buchod, anifeiliaid pesg, defaid, a moch, gyda'r gwellt fyddo yn orweddle iddynt, wedi eu dadansoddi mwy neu lai. Y mae y drefn yn yr hon y cynnyrchir ef ar y fferm, yn rheoleiddio ei gyfansoddiad, ynghŷd â'i werth. O ganlyniad, nis gall dosraniad o wrtaeth buarth roddi ond drychfeddwl cyffredinol o'i gyfansoddiad. Yr hyn sydd yn achosi mwyaf o amrywiaeth ynddo ydyw y gwahaniaeth cyfartaledd o ddwfr a geir mewn gwahanol fanau yn gymmysgedig âg ef; canys ceir fod gwrtaeth eplesedig, neu wedi ei berffaith ddadansoddi, yn cynnwys mwy o florai na gwrtaeth ffres; ac o herwydd hyny, y mae ei effaith ar dyfiant yn gyflymach a mwy nerthol.

Ar y cyfan, y mae gwrtaeth buarth yn fwy effeithiol yn ol y graddau y byddo wedi ei wlychu â thrwnc anifeiliaid; a pho mwyaf y byddo wedi ei wlychu â thrwnc anifeiliaid, a pho mwyaf y byddo y gwellt wedi ei ddadansoddi. Y mae gwellt wrtho ei hun yn dadansoddi yn araf iawn; ond pan wedi ei wlychu â thrwnc, y mae ansoddau yr olaf, y rhai sydd yn ebrwydd yn myned i ystâd o bydriad, yn gweithredu fel eplesiad ar elfenau y gwellt, ac yn achosi dadansoddiad. Fel hyn, gall yr amaethwr addfedu ei wrtaeth ffres trwy ei wlychu yn fynych â thrwnc.

Y mae cyfansoddiad gwrtaeth buarth hefyd yn dibynu i raddau helaeth ar natur ysgarthion yr anifeiliaid a'i cynnyrcha. Y mae amgylchiadau ereill, megys oed yr anifeiliaid, maint ac ansawdd yr ymborth, &c., yn dylanwadu i fesur mawr ar gynnyrch ac ansawdd y gwrtaeth. Ond cyn sylwi ar yr amgylchiadau ar ba rai y dibyna gwerth y gwrtaeth, cymmerwn olwg ar natur a chyfansoddiad ysgarthion gwlyb a sych ceffylau, buchod, defaid, a moch. Ar yr un pryd, rhaid ystyried mai dosraniad ydyw yr un canlynol y gellir gwahaniaethu llawer oddi wrtho y naill ffordd neu y llall, yn ol fel y byddo yr anifeiliaid yn cael eu porthi. Dibyna hefyd ar eu hoedran, &c., fel y sylwyd eisoes:—

YSGARTHION CEFFYLAU.

| | YSGARTHION GWLYB. | | YSGARTHION SYCH. | |
|---|---|---|---|---|
| | Ffres. | Gweddillion sych. | Ffres. | Sych. |
| Ulyf (*carbon*) | 4.46 | 36.0 | 9.56 | 88.7 |
| Ulai (*hydrogen*) | 0.47 | 3.8 | 1.26 | 5.1 |
| Ufelai (*oxygen*) | 1.40 | 11.3 | 9.31 | 37.7 |
| Blorai (*nitrogen*) | 1.55 | 12.5 | 0.54 | 2.2 |
| Sylweddau ammheiriannol | 4.51 | 36.4 | 4.02 | 16.3 |
| Dwfr | 87.61 | 00.0 | 75.31 | 00.0 |
| | 100.00 | 100.0 | 100.00 | 100.0 |
| Sylweddau peiriannol | 7.88 | 63.6 | 20.67 | 83.7 |
| Sylweddau ammheiriannol | 4.51 | 36.4 | 4.02 | 16.3 |
| Dwfr | 87.61 | 00.0 | 75.31 | 00.0 |
| | 100.00 | 100.0 | 100.00 | 100.0 |

Y mai tail ceffylau yn cynnwys llai o wlybwr a mwy o florai na thail buchod; y mae hefyd o natur mwy agored i'r awyr weithredu arno; ac o herwydd y rhesymau hyn, y mae yn eplesu yn gynt, ac yn dadblygu mwy o *ammonia* na thail buchod. Pan y bydd angen am wrtaeth i gynnyrchu effaith cyflym ar gnydau, y mae tail ceffylau, o herwydd ei duedd i eplesu yn ebrwydd, ynghŷd â'r poethder a dardd oddi wrtho yn y cyfamser, yn fwy dewisol nag un gwrtaeth naturiol arall. O'r ochr arall, os gadewir ef yn agored i weithrediad yr awyr mewn tymmor sych, y mae yn colli cryn lawer o *ammonia*, ac yn lleihau mwy mewn pwysau nag un tail arall. Nid yw y dogn naturiol o wlybwr a gynnwysa tail ceffylau yn ddigonol i gynnyrchu gwrtaeth da; os na bydd yn cael ei gymmysgu âg ysgarthion anifeiliaid ereill, dylai gael ei wlychu â dwfr weithiau

Digitized by Google

neu, yr hyn sydd ragorach, â dwfr ac ychydig sur llosfeinig wedi ei gymmysgu âg ef. Y mae y cymmysg hwn yn achosi i'r *ammonia* sydd yn dianc o'r tail, pan yn eplesu, gael ei sefydlu yn well na dim moddion a ddarganfyddwyd hyd yn hyn.

Yn ol dosraniad Boussingault, y mae ysgarthion buchod yn cynnwys yr ansoddau canlynol:—

YSGARTHION BUCHOD.

| | YSGARTHION GWLYB. | | YSGARTHION SYCH. | |
|---|---|---|---|---|
| | Ffres. | Gweddillion sych. | Ffres. | Sych. |
| Ulyf (*carbon*) | 3.18 | 27.2 | 4.02 | 42.8 |
| Ulai (*hydrojen*) | 0.30 | 2.6 | 0.49 | 5.2 |
| Ufelai (*oxygen*) | 3.09 | 26.4 | 3.54 | 37.7 |
| Blorai (*nitrogen*) | 0.44 | 3.8 | 0.22 | 2.3 |
| Sylweddau ammheiriannol | 4.66 | 40.0 | 1.13 | 12.0 |
| Dwfr | 88.33 | ... | 90.60 | ... |
| | 100.00 | 100.0 | 100.00 | 100.0 |
| Sylweddau peiriannol | 7.01 | 60.0 | 8.27 | 88.0 |
| Sylweddau ammheiriannol | 4.68 | 40.0 | 1.13 | 12.0 |
| Dwfr | 88.31 | ... | 90.60 | ... |
| | 100.00 | 100.0 | 100.00 | 100.0 |

Y mae tail buchod yn cynnwys mwy o wlybwr nag eiddo yr anifeiliaid ereill, a llai o florai na thail ceffylau. Y mae ei weithrediad eplesol yn araf, ac o ganlyniad yn oerach o ran ei natur na thail ceffylau. Y mae arafwch eplesiad tail buchod i'w briodoli, yn y lle cyntaf, i'r dogn helaeth o ddwfr a gynnwysa; yn ail, i'r prinder o florai a geir yn y rhan beiriannol o hono; ac yn drydydd, i ystâd anianyddol yr ysgarthion hyn; canys, wrth sychu, nid yw tail buchod yn malurio fel tail ceffylau; ond ymlyna ynghyd, gan ffurfio talp cawsaidd, i'r hwn y mae yn anhawdd i'r awyr dreiddio. Y mae ei weithrediad ar dyfiant planhigion, o herwydd y rhesymau hyn, yn arafach, ond er hyny yn fwy parhaus, nag y mae tail ceffylau.

Y mae ysgarthion gwlyb a sych defaid, yn ol dosraniad Mr. Jœrgensen fel y canlyn:—

YSGARTHION DEFAID.

| | YSGARTHION GWLYB. | | YSGARTHION SYCH. | |
|---|---|---|---|---|
| | Ffres. | Gweddillion sych. | Ffres. | Sych. |
| Ulyf (*carbon*) | 4.28 | 31.7 | 18.66 | 44.0 |
| Ulai (*hydrogen*) | 0.53 | 3.9 | 2.25 | 5.3 |
| Ufelai (*oxygen*) | 2.77 | 20.5 | 15.09 | 35.6 |
| Blorai (*nitrogen*) | 1.31 | 9.7 | 0.72 | 1.7 |
| Sylweddau ammheiriannol | 4.61 | 34.2 | 5.68 | 13.4 |
| Dwfr | 86.50 | ... | 57.60 | ... |
| | 100.00 | 100.0 | 100.00 | 100.0 |
| Sylweddau peiriannol | 8.89 | 65.8 | 36.72 | 86.6 |
| Sylweddau ammheiriannol | 4.61 | 34.2 | 5.68 | 13.4 |
| Dwfr | 86.50 | ... | 57.60 | ... |
| | 100.00 | 100.0 | 100.00 | 100.0 |

Pan yn ffres, y mae tail defaid yn cynnwys mwy o florai, ond llai o ddwfr, na thail ceffylau; etto, o herwydd ei natur sad neu ddurfing, nid yw yn eplesu cyn gynted. Y mae trwnc defaid yn ffrwythlonydd rhagorol, am ei fod yn cynnwys dogn helaeth o florai, ac yn dadblygu *ammonia* ar ddadansoddiad.

Yr hyn a ganlyn ydyw dosraniad Mr. Boussingault ar ysgarthion gwlyb a sych moch:—

YSGARTHION MOCH.

| | YSGARTHION GWLYB. | | YSGARTHION SYCH. | |
|---|---|---|---|---|
| | Ffres. | Gweddillion sych. | Ffres. | Sych. |
| Ulyf | 0.25 | 12.1 | 4.42 | 27.6 |
| Ulai | 0.03 | 1.5 | 0.72 | 4.5 |
| Ufelai | 0.54 | 25.4 | 3.66 | 22.9 |
| Blorai | 0.23 | 11.0 | 0.70 | 4.4 |
| Sylweddau ammheiriannol | 1.03 | 45.9 | 6.50 | 40.6 |
| Dwfr | 97.92 | ... | 84.00 | ... |
| | 100.00 | 100.0 | 100.00 | 100.00 |
| Sylweddau peiriannol | 1.05 | 54.1 | 9.50 | 59.4 |
| Sylweddau ammheiriannol | 1.03 | 45.9 | 6.50 | 40.6 |
| Dwfr | 97.92 | ... | 84.00 | ... |
| | 100.00 | 100.0 | 100.00 | 100.0 |



Digitized by Google

Nid oes dim gwrtaeth yn amrywio cymmaint yn ei ansoddau ag ydyw tail moch: a'r hyn sydd yn achosi hyny ydyw y gwahaniaeth yn ngwerth eu porthiant. Y mae moch sydd yn cael eu pesgi, yn enwedig os chwanegir pys, ffa, &c., at eu hymborth, yn cynnyrchu gwrtaeth llawer gwell na hychod fyddo yn magu. Yn y cyffredin, ystyrir tail moch yn oerach na thail ceffylau a defaid; ac nid ydyw yn eplesu cyn gynted ag y maent hwy. Y mae llawer o amaethwyr yn golygu fod tail moch yn fwy effeithiol na thail buchod, ac y mae Schwartz wedi gwirio hyny trwy brawfiadau uniongyrchol.

Dengys cymmhariaeth rhwng cyfansoddiad ysgarthion gwlyb a sych anifeiliaid fod y blaenaf yn gynnwysedig o fwy o alcalïau, halod alcali, a sylweddau bloraiedig, y rhai sydd o natur eplesol iawn, ac o herwydd hyny yn cynnyrchu *ammonia;* tra y mae yr olaf yn cynnwys yr oll o'r bron o'r sur llosnurig a gerthir allan o'r anifail, ynghŷd â llawer o sylweddau peiriannol, y rhai, ar ddadansoddiad, a gynnyrchant briddig. Y mae trwnc anifeiliaid felly yn gyfoethog o'r ansoddau sydd yn dra angenrheidiol er perffeithiad paladr a dail planhigion, ond yn ddiffygiol yn y sylweddau mwnawl sydd yn eisieu er perffeithiad yr hâd. Y mae trwnc yn myned yn gyflym i ystâd o eplesiant ar gyfrif y sylweddau bloraiedig a gynnwysa, ac yn ystod amser yr eplesiad hwn y cynnyrchir *ammonia.* Dyma y rheswm dros ei effaith ebrwydd ar dyfiant. Y mae ysgarthion sych anifeiliaid, yn y gwrthwyneb, yn gyfoethog mewn sylweddau sydd yn ffurfio priddig (peiriannol), a hâd (sur llosnurig, calch, a magnesia), ond yn ddiffygiol o'r elfenau sydd yn angenrheidiol er tyfiant y dail. Y mae eu gweithrediad yn llawer arafach na'r eiddo y trwnc, canys nid ydynt yn cynnwys y dogn priodol o sylweddau mwnawl toddadwy a weithir allan yn benaf gyda'r trwnc.

Gwelir oddi wrth hyn nad ellir ystyried ysgarthion gwlyb na sych anifeiliaid ar wahân yn wrtaeth perffaith a chyffredinol; gan y rhaid i'r cyfryw gynnwys yr elfenau sydd yn angenrheidiol er perffeithiad yr oll o'r planhigyn. Y mae yn amlwg felly mai y drefn fwyaf rhadlawn ac effeithiol ydyw cymmhwyso y ddau ynghyd â'u gilydd. Wrth gymmeryd gofal i drwytho yr ysgarthion sych â'r gwlyb, yr ydys yn gwneud i fyny eu diffygion gwahanol, ac yn cyfansoddi cymmysgedd a gynnrychiola wrtaeth cyffredinol, neu wrtaeth a gynnwysa yr holl elfenau toddadwy yn gystal ag annhoddadwy, peiriannol ac ammheiriannol, y rhai sydd yn hanfodol er tyfiant a pherffeithiad llysiau a phlanhigion yn eu gwahanol ffurfiau ac adegau.

Y mae y taflenau blaenorol i'w hystyried, nid fel safon cyfansoddiad y gwahanol wrteithiau hyny, ond fel enghreifftiau yn amlygu y gwahaniaethau sydd yn bodoli rhwng cyfansoddiad ysgarthion gwlyb a sych ceffylau, buchod, defaid, a moch.

Y mae yn eglur fod yn rhaid i werth a chyfansoddiad gwrtaeth buarth ddibynu i fesur mawr ar y cyfartaledd perthynasol yn mha un y ceir ysgarthion anifeiliaid gwahanol ynddo; ond yn chwanegol at hyn, y mae llawer o amgylchiadau ereill sydd yn dylanwadu ar gyfansoddiad, ac o ganlyniad, ar elfenau, gwerth, ac effeithiolrwydd gwrtaeth buarth. Ymhlith yr amgylchiadau hyn, ceir fod gwrtaeth yn cael effeithio arno, yn gyntaf, gan y swm neu ddogn yr ymborth a gyfrenir i'r anifail. Po mwyaf o ymborth a roddir i anifail, goreu oll a mwyaf fydd y gwrtaeth a gynnyrcha. Dengys ychydig ystyriaeth mai fel hyn y mae. Y mae pob anifail yn gofyn dogn neillduol o ymborth er ei gynnaliaeth. Ond os bydd yr anifail hwnw yn gorfod gweithio ar y tir, neu os bydd yn cael ei besgi, neu yn llaetha, y mae yn rhaid iddo gael cyflenwad helaethach i gyfarfod â thraul y corff mewn gwaith caled, neu ar gyfer cynnyrchiad cig, brasder, neu laeth. Yn ail, Effeithir ar wrtaeth gan ansawdd yr ymborth. Y mae anifeiliaid yn byw ar ymborth da, maethlawn, yn cynnyrchu gwrtaeth llawer gwell, na phan yn byw ar ymborth gwael. Yn drydydd, Oed yr anifail. Y mae anifeiliaid ieuaingc yn gofyn dogn helaethach o ymborth peiriannol ac ammheiriannol nag anifeiliaid yn eu llawn maint. Y mae llawer o ymborth y cyntaf yn cael ei ddefnyddio at helaethu yr esgyrn a'r cyhyrau; tra nad oes gan yr olaf ddim i'w wneud â'u hymborth, ond cadw i fyny eu pwysau a'u cyflwr. Yn bedwerydd, Gan y defnydd a wneir o'r anifail. Y mae ceffylau sydd yn gweithio yn galed yn dioddef lleihâd cyhyrol i fesur mwy nag anifeiliaid pesg. Y mae yn rhaid i'r anrhaith yma ar y corff gael ei wneud i fyny âg ymborth; o ganlyniad, bydd gan y cyfryw anifeiliaid lai o wrtaeth, a hwnw yn llai ei werth, nag anifeiliaid fydd yn cael eu cadw yn segur. Y mae gwartheg pesg hefyd yn rhoddi gwrtaeth gwell na buchod llaeth, a hyny gyda'r unrhyw ymborth. Y mae y cyntaf yn tynu o'r ymborth y sylweddau sydd yn ffurfio brasder. Nid ydyw blorai yn ffurfio un rhan o sylweddau brashaol, ac y mae yn cael ei garthu allan i raddau helaeth gan anifeiliaid pesg. Llonyddwch, ac ymborth da—yn cynnwys mwy o'r elfenau bloraiol nag sydd ar yr anifail angen am danynt er cynnyrchu cig a brasder—sydd yn peri y rhagoriaeth a osodir ar wrtaeth yr anifeiliaid hyn. Y mae tail buchod llaeth, ar y llaw arall, yn llai ei werth, yn gymmaint a bod llawer o ansoddau eu hymborth yn cael eu defnyddio at gynnyrchu llaeth. Yn bummed, Gan driniaeth yr anifail. Y mae anifeiliaid a gedwir mewn lleoedd oer a llaith yn gofyn swm mwy o ymborth er cyflenwi y colliant o wres anifeilaidd y maent yn ddarostyngedig iddo dan y cyfryw amgylchiadau. O'r ochr arall, y mae llai o ymborth yn angenrheidiol i gyflenwi hyny mewn lleoedd clyd a chynnhes. Bydd effeithiau gwahanol, gan hyny, yn dilyn yr unrhyw swm a'r unrhyw ansawdd ymborth a gyfrenir yn y ddau amgylchiad. Mewn un, fe allai y defnyddir y cyfan er cynnaliaeth bywyd: ac yn y llall, fe fydd rhan o'r ymborth yn weddill er cynnyrchu cig a brasder; a bydd y gweddill hwn, fel y sylwyd eisoes, yn gwasanaethu er cynnyrchiad gwrtaeth gwell. Yn chweched, Gan swm ac ansawdd y llaesawd, neu y gwellt a roddir danynt. Gan nad yw cyfansoddiad gwellt gwenith, haidd, ceirch, a ffa, yn gyffelyb i'w gilydd, rhaid fod gwahaniaeth yn y gwrtaeth yn ol graddau y gwahaniaeth yn nghyfansoddiad y llaesawd. Os bydd amgylchiadau ereill yn gyfartal, gwna gwellt ceirch neu ffa gynnyrchu gwrtaeth rhagorach na phe defnyddid gwellt gwenith neu haidd yn llaesawd; o herwydd fod y rhai cyntaf yn meddu mwy o sylweddau ffrwythlonol na'r rhai olaf. Dylai fod digonedd o wellt yn cael ei arfer yn llaesawd i anifeiliaid er sugno yr ysgarthion gwlyb; ond dim chwaneg. Seithfed, gan feithder yr amser y cedwir y gwrtaeth, a'r modd y byddo wedi cael ei gadw. Nid ydyw gwrtaeth ffres yn gweithredu yr un modd ar blanhigion a gwrtaeth fyddo wedi ei gadw am beth amser. Y mae y

Digitized by Google

cyntaf—yr hwn nid yw yn cynnwys cyfartaledd mor helaeth o sylweddau ffrwythlonol, yn y fath ystâd ag i alluogi planhigion i'w defnyddio yn ebrwydd, a gwrtaeth braenedig—yn arafach, ac yn fwy parhaus yn ei weithrediad, na hen wrtaith, yr hwn a ddylid ei gymmhwyso at y planhigion hyny y dymunir eu tyfiant cyflym. Y mae gwrtaeth anifeiliaid yn dadansoddi yn arafach neu yn gyflymach, yn ol amgylchiadau, ac y mae yn lleihau mewn pwysau yn ystod y dadansoddiad hwnw; etto, y mae ei sylweddau tyfol yn cael eu dadblygu ar yr un amser. Os bydd eplesiad tail yn cael ei ddwyn ymlaen yn rhy hir, y mae gradd helaeth o'i ansoddau hedegol yn dianc; ac yn ol fel y cymmer hyny le y bydd lleihâd yn ngwerth y gwrtaeth. Y mae yn rhaid i eplesiad weithredu i ryw fesur os bydd eisieu gwrtaeth nerthol a chyflym yn ei weithrediad. Dengys ychydig ystyriaeth yn mhellach y pwys o gadw tail mewn dull priodol. Os bydd yn cael ei adael yn agored i wres yr haul, i olchiadau gwlawogydd, neu i ddyferiad trwnc yr anifeiliaid, y mae y sylweddau mwyaf nerthol a gwerthfawr yn cael eu gwastraffu; ac y mae y gweddill yn cael ei adael heb fod braidd yn hanner gwerth y gwrtaeth sydd yn meddiant y neb a gymmer ofal naill ai i sicrhau ei elfenau hedegol trwy foddion fferyllol neu gelfyddydol, neu trwy ddychwelyd ar y tomenydd y trwnc fyddo wedi ei gadw mewn pyllau pwrpasol at y gorchwyl.

Y sylweddau a ddefnyddir yn gyffredin i rwystro hedegiad yr *ammonia* o domenydd, ydynt y rhai canlynol:—

Surion.—Sur llosfeinig (*sulphuric acid*); sur halnwyol (*hydrochloric acid*); sur priddig (*humic*); a sur llwyfig (*ulmic*).

Rhai halion.—Ufelid gwyrdd (*sulphate of protoxide of iron*); plastfaen (*sulphate of lime*, neu *gypsum*); a halen cyffredin (*chloride of sodium*).

Sylweddau amryw-dyllog.—Llwch golosg glo, golosg-fawn, pridd mawn, lludw glo a mawn, pridd-sylwedd o bob math, clai, a phridd llosgedig.

*Gwrteithiau gwneuthuredig, neu y rhai a gludir ar y ffarm.*—Nid oes nemawr o ffermydd yn y wlad hon sydd yn cynnyrchu digonedd o wrtaeth yn flynyddol i adgyflenwi y sylweddau a gludir o'r tir gan y cnydau a dyfant arno. Ar y ffermydd hyny ag y mae holl ffrwyth y tir yn cael eu porthi arnynt, neu lle y mae ymborth gwneuthuredig yn cael ei brynu, y mae llai o angen am i'r amaethwyr brynu gwrtaeth gwneuthuredig. Ond ar ereill, oddi ar ba rai y gwerthir y cynnyrch, a dim o hono yn cael ei ddychwelyd mewn ffurf o wrtaeth, nis gellir cadw y tir yn ffrwythlawn heb bwrcasu gwrtaeth gwneuthuredig o ryw fath neu gilydd.

Y mae cynnyrch y wlad hon wedi cynnyddu yn aruthrol trwy offerynoliaeth gwrtaeth gwneuthuredig. Dygwyd cnydau newyddion dan driniaeth; ac y mae llawer o diroedd na thalent am eu trin yn y ffordd gyffredin, wedi eu dwyn i gynnyrchu cnydau toreithiog ac ennillfawr. Ni raid ond cyfeirio at y symmudiadau mewn amaethyddiaeth ymarferol sydd wedi cymmeryd lle ar ol dygiad guano, esgyrn, &c., i arferiad. Cyn y cyfnod hwnw, nid oedd ond ychydig o faip yn cael eu tyfu; ac nid ydym yn tybied hyd yn oed yn yr amser presennol, y gellir eu tyfu yn rhadlawn ac yn effeithiol, oddigerth mewn ychydig amgylchiadau, heb chwanegiad o ryw fath neu gilydd at wrtaeth cyffredin y ffarm. Y mae yn rhaid, o ganlyniad, edrych ar yr holl gyfleusderau ag sydd yn galluogi yr amaethwr i gyflenwi ei feusydd â chwanegiad at gynnyrch ei ffarm mewn ffurf o wrtaeth yn dra gwerthfawr.

Y mae nifer y gwrteithiau gwneuthuredig a arferir yn lliosog iawn. Perthyna sylweddau o'r tarddiad a'r rhywogaeth mwyaf amrywiol i'r dosbarth hwn; ac nis gall dim fod yn fwy gwahanol na'r gwerth ffrwythlonawl perthynasol a feddant. Tra y mae rhai, megys guano, gwaed, esgyrn, tomfeini, &c., yn perthyn i'r gradd uchaf o ran teilyngdod, pan wedi eu cymmhwyso yn briodol, y mae ereill, megys llwch-llif, mawn, gwellt, ac ysbwrial gweithfeydd, yn rhestru yn y dosbarth isaf.

Fel y crybwyllwyd o'r blaen, y mae effeithiau ffrwythlonawl yr holl sylweddau gwrteithiol yn dibynu ar eu cyfansoddiad fferyllol. Yr ydym wedi canfod hefyd pa rai o'r ansoddau ydynt y rhai gwerthfawrocaf, ynghyd â'r hyn a all fod yn effeithio ar y planhigion. Fel chwanegiad at y sylwadau hyn, dywedwn fod effeithiau ffrwythlonawl sylweddau gwrteithiol ymhellach yn cael eu rheoleiddio gan y cyfuniad yn yr hwn y mae yr ansoddau yn bodoli. Y mae yr ansoddau hyny sydd yn doddadwy mewn dwfr, neu y gellir eu hyrwyddo i'r ystâd hwnw trwy ddadansoddiad cyflym, yn llesoli planhigion y flwyddyn gyntaf. Y rhai hyny sydd yn doddadwy mewn surion, neu a ddadansoddant yn arafach yn y tir, a weithredant eu prif effeithiau ar blanhigion yn yr ail neu y drydedd flwyddyn; ac yn olaf, ni bydd y rhai hyny sydd yn annhoddadwy mewn surion, neu a ddadansoddant yn arafach fyth, ond yn fuddiol i blanhigion mewn amser diweddarach drachefn.

Gellir felly restru ansoddau gwrteithiau yn y cyffredin fel y canlyn:—

1. Sylweddau toddadwy mewn dwfr.
2. Sylweddau toddadwy mewn surion.
3. Sylweddau annhoddadwy mewn na dwfr na surion.

Gwna y trefniad uchod o ganlyniadau dosraniadol alluogi yr amaethwr i ffurfio drychfeddwl o barth i weithrediad a pharhâd tebygol y gwrteithiau a gynnygir iddo mewn ffordd o fasnach. Gall benderfynu ar unwaith, er enghraifft, trwy gyfeirio at ddosraniad o guano a llwch esgyrn, y bydd y cyntaf yn ebrwyddach, ond etto nid mor barhaol yn ei weithrediad a'r olaf. Y mae rhai eithriadau i'r rheol hon i'w cael yn yr holl sylweddau hyny sydd yn gynnwysedig yn gyfangwbl o ddefnyddiau llysieuol, neu sylweddau anifeilaidd annadansoddedig; megys gwymon y môr, dail y coed, ysbwrial gwlân, ysbwrial cigyddion, &c. Er fod y rhai hyn bron yn annhoddadwy mewn dwfr, y maent yn perthyn i'r gwrteithiau cyflym eu gweithrediad, o herwydd eu bod yn dadansoddi yn ebrwydd, ac yn cael eu dwyn i ystâd doddadwy yn ystod eu pydriad, ac felly yn hawdd eu defnyddio gan blanhigion.

O'r holl wrteithiau o'r natur yma, guano a ystyrir yn oreu. Y mae effeithioldeb guano yn dibynu yn gyntaf ar y cyfartaledd o halion ammonia a sylweddau peiriannol bloraiedig, y rhai, ar ddadansoddiad, a gynnyrchant ammonia; yna, ar y swm o losnurhalion a halion gwygnur, pa rai sydd yn bresennol mewn guano da. Y mae gwerth masnachol guano, o ganlyniad, i'w benderfynu yn ol y cyfartaledd o ammonia, llosnurhalion, halion alcali, a dwfr a gynnwysa; ac y mae yr esamplau goreu yn cynnwys o ddeutu dau ar bymtheg y cant o ammonia.

Digitized by Google

Pallai gofod i ni allu sylwi ar gyfansoddiad y gwahanol wrteithiau a restrir dan y penawd hwn. Amlygwyd eisoes fod effeithioldeb pob sylwedd gwrteithiol yn dibynu i fesur mawr ar eu cynnwysiad. Gellir o ganlyniad eu trefnu yn ddosbarthiadau yn ol eu prif ansoddau; a chan y gwna y cyfryw drefniad alluogi yr amaethwr ymarferol i benderfynu beth fydd gweithrediad tebygol unrhyw wrtaeth, diweddwn yr erthygl trwy roddi rhestr o'r gwrteithiau mwyaf arferedig, wedi eu gosod y naill ar ol y llall, yn ol eu cyfansoddiad a'u gweithrediad. Y mae rhai gwrteithau i'w canfod fwy nag unwaith yn y rhestr; yr hyn a ddengys eu bod yn cynnwys llawer o gyfansoddau fferyllol, ar ba rai y mae eu heffeithioldeb fel gwrteithiau yn dibynu. Y maent, o ganlyniad, yn gweithredu mewn mwy nag un cyfeiriad. Yn y dosbarthiad a ganlyn, y mae y gwahanol wrteithiau dan wahanol benau—pob un o'r rhai a ddechreuant gyda'r mwyaf nerthol, ac a ddiweddant gyda'r gwaelaf:—

1. *Gwrteithiau Bloraiedig* (*nitrogenized manures*).

*a. Sylweddau yn cynnwys ammonia.* Yn gyflym yn eu gweithrediad.

Halion ammonia.

Guano Periw; huddugl.

Sylweddau anifeilaidd pydredig; megys gwaed, cig, gwlân.

Dwfr ammoniol gweithydd nwy.

Trwnc pydredig; ysgarthion gwlyb pydredig; dwfr-garthion trefydd.

Tail byr; yn enwedig tail ceffylau a defaid.

*b. Sylweddau bloraiedig o bydriad cyflym.* Yn lled ebrwydd eu gweithrediad.

Corn a charn naddiadau; gwlân; gwallt; croen; ysglawring.

Esgyrn wedi eu toddi, eu hageru, neu eu malu yn llwch.

Llwch-erfin; olew-deisenau; llwch brâg; trwnc ffres; ysgarthion gwlyb ffres; nosweryd.

*c. Sylweddau bloraiedig.* Yn hir yn dadansoddi.

Esgyrn hanner modfedd, a chwarter modfedd.

Carpiau gwlân; ysbwrial gwlân.

Tail gwelltog.

*d. Sylweddau yn cynnwys sur blorig.*

Creighâl (*saltpetre*).

Blorhâl halod.

Pridd blorhâl; pasteiod.

2. *Gwrteithiau yn cynnwys llosnurhal.* At ffurfio grawn neu hâd.

Lludw esgyrn; du anifeilaidd; ysbwrial gweithydd sugr.

Llosnurhâl; tomfeini; geu-tomfeini.

Guano Machwy Saldanha, a Patagonia ac ereill.

Esgyrn ffres; llwch esgyrn.

Sylweddau anifeilaidd o bob math.

Teisenau-erfin; olew-deisenau; llwch brâg; ysbwrial brâg; bran.

Ysgarthion dynol; gwrtaeth buarth.

Trwnc anifeiliaid cigysol.

Lludw coed; dail; gwellt; lludw mawn a glo.

Rhai rhywogaethau o farl a cheryg calch.

3. *Gwrteithiau yn cynnwys helaethrwydd o wygnur.*

Gwygnur; nitr; llwch brâg; bran.

Trwnc; lludw coed.

Dail, a gwrteithiau gwyrddion.

Pasteiod, a rhuglon ffyrdd.

Clai llosgedig; rhai rywogaethau o farl.

4. *Gwrteithiau yn cynnwys halod yn benaf.*

Halen cyffredin; hâl Glauber; lludw llysnur.

Blorhâl halod; trwnc.

Llawer o fwnau.

Ysbwrial gweithydd sebon; gwymon-ludw.

5. *Gwrteithiau ulyfaidd.* Yn ffurfio priddig.

Gwrtaeth buarth cyffredin; gwellt; dail coed, &c.

Gwrteithiau gwyrddion; gwymon y môr.

Mawn, ac olion llysieuol o bob math.

Llwch llif; ysbwrial barcer.

6. *Gwrteithiau calchaidd.*

Calch llosgedig; marm; ceryg calch; cregyndywod; marl.

Plastfaen; lludw glo a mawn.

Rhuglon ffordd; nwy-galch.

7. *Sylweddau gwrteithiol yn cynnwys sur llosfeinig.* Mewn rhan yn wrteithiau, ac mewn rhan yn ddiogelwyr amnonia.

Sur llosfeinig; plastfaen.

Copras; hâl Epsom.

Lludw glo; lludw mawn.

8. *Gwrteithiau callestraidd.*

Lludw glo, lludw mawn.

Gwellt; ysbwrial haiarn; tywod.

GWRTHBAN [*gwrth-pan*]: gorchudd i wely, wedi ei wneuthur o wlân bras wedi ei wau yn fân. Ceir y gair ddwywaith yn y Beibl; sef, yn *Barn.* iv. 18, lle y dywedir fod Iäel wedi gorchuddio Sisera âg ef, wedi iddo droi i'w thŷ pan yn ffoi oddi ar flordd Barac; ac yn 2 *Bren.* viii. 15, pan y mae Hazael yn cymmeryd gwrthban wedi ei wlychu mewn dwfr, ac yn ei ledu ar wyneb Benhadad, brenin Syria, fel y bu farw.

GWRTHDRINDODIAID: a wadant athrawiaeth y Drindod, ac a ddysgant nad oes dri pherson-yn y Duwdod. Gwel TRINDODIAID; UNDODIAID.

GWRTHDYSTWYR; Gwel PROTESTANIAID.

GWRTHFEDYDDWYR BABANOD: (*Anabaptists*). Gwel BEDYDD; AILFEDYDDWYR.

GWRTHFWRDEISIAID (*Antiburghers*). Yn fuan wedi yr ymwahaniad oddi wrth Eglwys Sefydledig Ysgotland, cyfododd dadl ymhlith yr Ymneillduwyr yn mherthynas i Lw BWRDAIS; sef yr hwn y gofynid i bob bwrdeisiwr ei gymmeryd o flaen yr ynadon. Y llw ydoedd fel y canlyn:—"Yr wyf yn protestio ger bron Duw, a cher bron eich arglwyddiaethau, fy mod yn proffesu, ac yn cyttuno â'm holl galon â'r grefydd a broffesir yn bresennol o fewn y deyrnas hon, ac a awdurdodir gan ei chyfreithiau. Ymlynaf wrthi, ac amddiffynaf hi hyd ddiwedd fy einioes, gan ymwrthod â'r grefydd Rufeinaidd a elwir Pabyddiaeth."

Daliai rhai fod tyngu y llw hwn yn gymmeradwyaeth mewn effaith o'r Eglwys Sefydledig, gyda'i holl lygredigaethau; o blegid, yn ol y llw, y grefydd a broffesid yn bresennol ydoedd "y grefydd a awdurdodid gan ei chyfreithiau." Golygai ereill mai cyfeirio yr oedd y llw at y grefydd wirioneddol, fel ei proffesid; ac nad oedd yn cynnwys cydsyniad â'r dull o'i gweinyddu. Yr oedd y llw yn mhob ystyr yn ddrwg; o blegid yr oedd yn cyssylltu hawliau dinasyddol y person a'i cymmerai â'i egwyddorion crefyddol: mewn gwirionedd, dibynai y naill ar y llall. Wedi llawer a hir ymgecru personol, ac nid ychydig o daranu eglwysyddol, terfynodd yr ymrafael mewn ymraniad, yn y flwyddyn 1747. Gelwid y blaid a ymlynent wrth y llw, yn gyffredin yn *Fwrdeiswyr*, a'r blaid arall yn *Wrthfwrdeiswyr*.

Digitized by Google

Yn mhen o ddeutu hanner canrif wedi yr ymraniad cyntaf, cododd ymrafael yn mhlith deiliaid y naill blaid a'r llall yn mherthynas i awdurdod yr ynadon mewn materion eglwysig, yr hyn a achosodd ail ymraniadau:—un dosbarth yn cael ei blaenori gan yr enwog Dr. M'Crie, a ymdorodd oddi wrth y Gwrthfwrdeiswyr, a elwid yr *Old Light Antiburghers.* Gelwid y dosbarth a ymranodd oddi wrth y Bwrdeiswyr yn *Old Light Burghers.* Cyfododd y sect olaf yn 1799, a'r flaenaf yn 1806. Yr oedd y Bwrdeiswyr a'r Gwrthfwrdeiswyr yn ymlynu wrth yr un athrawiaethau a ffurflywodraethau eglwysig; ac yr oedd y naill mor selog a'r llall mewn sefydlu cymdeithasau Beiblaidd a chenhadol. Anfonodd y naill fel y llall luaws o genhadau allan i Nova Scotia, a'r taleithiau Americanaidd; ac yr oeddynt mor ymdrechgar a selog dros efegyleiddiad y byd yn gyffredinol. Yn fynych deuent i gysylltiad â'u gilydd mewn trefn i gyrhaedd unrhyw amcan; ac yn raddol, dechreuodd yr hen elyniaeth gilio, a chynnyrchwyd cydymdeimlad gwresog rhyngddynt. Yn fuan, cynnaliwyd cyfarfodydd gweddi undebol, a chyfododd awydd cyffredinol am ail ymuniad: anfonwyd deisebau am hyn i'r gwahanol gymmanfaoedd, ac yn y flwyddyn 1820, cymmerodd yr undeb le; ac er fod llawer o ymraniadau wedi cymmeryd lle drachefn, y mae y Bwrdeiswyr a'r Gwrthfwrdeiswyr yn gwreiddiol mewn undeb hyd heddyw.

GWRTHGALVINIAID: Gwel Arminiaeth.

GWRTHGILIAD: enciliad, ymadawiad; *apostacy.* Mewn hanesiaeth eglwysig, y mae y gair yn cael ei ddefnyddio am ymwrthodiad â Christionogaeth, a gwadiad o enw Crist. Y mae braidd yn gyfystyr â heresi neu sism, ond yn arwyddo y radd bellaf o honynt. Y dosbarth a ddynodid gan yr eglwys foreuol fel gwrthgilwyr (*apostates*), oedd y rhai a ymwrthodent o wirfodd â Christionogaeth, mewn cyferbyniad i ddynion anwyliadwrus a hud-ddenid oddi wrthi; neu rai gweiniaid a syrthient, trwy amryfusedd, neu nerth temtasiwn, i bechodau anghysson â'r broffes Gristionogol. Yr oedd addysg yr eglwys ar wrthgiliad, a'r gwahaniaeth a wnai rhwng y naill ddosbarth a'r llall, yn cael ei seilio ganddi ar y prif ranau yn y Testament Newydd sydd yn ymdrin ar y mater: *Heb.* iii. 12; vi. 4. 9; x. 16—29; 2 *Pedr* ii. 15—21; 2 *Ioan* ix. 11; *Luc* xii. 9. Yr oedd ysgrifenwyr yn galw gwrthgiliad wrth yr enw *cwymp;* yr hwn a gynnwysai dair o raddau: gwrthgiliad oddi ar falais (*apostasia perfidiæ*), gwrthgiliad trwy anufudd-dod (*apostasia inobedientæ*), a gwrthgiliad trwy afreoleidd-dra (*apostasia irregularitatis*). Y mae y ddau olaf yn rhedeg yn fynych i'w gilydd; ac mewn oesoedd diweddarach y gwnaed hwy yn ddau ddosbarth gwahanol o wrthgiliad, er eu bod yn agos gysylltiedig â'u gilydd. Yn bresennol, y mae yr ail yn gyfystyr âg enciliad oddi wrth addunedau mynachaidd, a'r trydydd âg enciliad o'r offeiriadaeth. Y mae y geiriau yn cael eu cadw mewn arferiad yn unig, fel y mae yn hawdd gweled, yn yr Eglwys Babaidd.

Y mae gwrthgiliad oddi wrth addunedau mynachaidd yn cymmeryd lle pan y mae aelod rheolaidd o'r urdd yn gadael ei fynachlog, ac yn gwrthod dilyn ei rheolau, heb ganiatâd y llys a fedd yr hawl i roddi rhyddhâd iddo. Y mae yn euog o wrthgiliad, pa un bynag ai fel offeiriad ynte fel lleygwr y treulia weddill ei oes. Y mae gwrthgiliad o'r offeiriadaeth yn cymmeryd lle pan y mae offeiriad o urdd uchel yn troi at y byd hwn a'i negeseuau. Cospwyd y ddau fath yma o wrthgiliad gan gynghor Chalcedon âg anathema; a darfu i ddeddfwriaeth eglwysig ddiweddarach fygwth y troseddwyr â'r amddifadiad o hawlfreintiau yr urdd, ac o'r radd glerigawl, ynghŷd âg ysgymmundod a gwarth. Gofynid i'r esgob garcharu y cyfryw droseddwyr, a'u cadw yn ngharchar hyd oni chospid hwy, neu hyd oni ddychwelent at eu haddunedau. Yr oedd yr esgob yn rhwym hefyd i draddodi y rhai a dorent addunedau eglwysig ereill i brif swyddogion eu hurdd, a hyny yn ebrwydd, fel y cospid hwynt yn unol âg arferion a chyfreithiau neillduol yr urdd. Mewn gwledydd lle nad yw Eglwys Rhufain mewn undeb â'r gallu gwladol, y mae yr eglwys yn dra haelfrydig yn cynnyg maddeuant ebrwydd i'r ddau ddosbarth o droseddwyr, ar yr ammod iddynt ddychwelyd at eu haddunedau.

Yr oedd yr eglwys ar y cyntaf yn ymddwyn gyda llymder mawr at wrthgilwyr: ni roddai ail dderbyniad iddynt yn y rhan fwyaf o esamplau, er y gwnai hyny weithiau pan fyddai y troseddwyr ar dranc. Yn amser Cyprian, daeth yn gwestiwn o gryn bwys yn yr eglwys, pa fodd y dylesid ymddwyn at wrthgilwyr edifeiriol. A oedd yn briodol eu derbyn yn rhwydd? Neu, a oedd eu cais am dderbyniad i gael ei wrthod yn hollol? Ynte, gwell oedd cymmeryd cwrs canolog, trwy ddal gobaith o'u blaen am dderbyniad i fynwes yr eglwys; ond cyn hyny, fod yn rhaid eu gosod dan brawf manwl a maith, a bod yn rhaid i'r eglwys gael perffaith foddlonrwydd o ddwysder eu hedifeirwch. Ymofynent hefyd a ddylesid ymddwyn yr un fath at bob math o wrthgilwyr, ynte a ddylesid amrywio y driniaeth yn ol amgylchiadau ac anfadrwydd y trosedd?

Cyn i'r cwestiynau hyn gael eu codi, nid oedd gan yr eglwys egwyddorion sefydlog ar ddysgyblaeth a cheryddon eglwysig. Ac yr oedd yn anhawdd, ar ol iddynt gael eu cyfodi, gael unfrydedd barn ar y dull goreu i weithredu. Yr oedd un blaid yn teimlo yn gryf yn erbyn gweini maddeuant a rhyddhâd ar ddim telerau, i'r rhai a droseddasant addunedeu bedydd, trwy yr hyn a alwent yn bechod marwol. Gwneid gwahaniaeth, yn seiliedig ar 1 *Sam.* ii. 25, rhwng pechodau yn erbyn Duw, a throseddau yn erbyn dyn. Yn y dosbarth cyntaf, yr oedd gwadiad o'r ffydd. Yr oedd Cyprian, yn y gweithiau a ysgrifenodd cyn toriad allan yr erlidigaeth dan Decius, yn barnu na ddylesid rhoddi deheulaw cymdeithas i neb a fu yn euog o gyflawnu pechod marwol. Yn yr erlidigaeth dan Decius, fodd bynag, cafodd calon Cyprian ei thyneru; daeth i deimlo fod yn anghysson â gras maddeuol yr efengyl i ymddwyn gyda'r fath lymdostedd at y rhai a syrthiasant trwy wendid: etto, ni feiddiai, ar ei gyfrifoldeb ei hun, weithredu yn wahanol tuag atynt. Yn y sefyllfa annherfynol yma, cyhoeddodd ei farn, na ddylid osgoi gwrthgilwyr; ond y dylid eu hannog i edifeirwch. Yn ddiweddarach, cafodd y gyfraith lymdost a ganai y gwrthgilwyr allan o'r eglwys, ei thyneru; a rhoddid derbyniad iddynt trwy eu dwyn dan benydiau neillduol. Gwel Ymchwiliad; Enciliad; Ymadawiad.

GWRTHGLAWDD. Gwel Gwarchglawdd.

GWRTHGRIST. Gwel Anghrist.

GWRTHODEDIGAETH: gair cyferbyniol i

ETHOLEDIGAETH. Ystyriai yr uchel Galfiniaid, a'r Arminiaid, a haerant etto, fod yr athrawiaeth o *etholedigaeth* personau neillduol o angenrheidrwydd yn golygu *gwrthodedigaeth* pawb ereill; tra y mae y Calfiniaid diweddar yn dadleu nad oes gyssylltiad o gwbl rhwng y ddwy athrawiaeth. Gwel ETHOLEDIGAETH.

GWRTHRYFEL, (*rhyfel*): wrth yr hyn y deallir yn gyffredin ymwrthodiad deiliaid unrhyw lywodraeth â'i hawdurdod; neu yr hyn sydd yn ganlyniad cyffredin, eu hymgodiad mewn arfau yn ei herbyn mewn rhyfel cartrefol. Yr hyn sydd yn cynnyrchu gwrthryfeloedd fynychaf ydyw ymdeimlad y deiliaid o ormes y llywodraeth, neu ynte ystryw dynion o duedd derfysglyd.

GWRTHRYFELOEDD MWYAF ARBENIG MEWN HANESYDDIAETH DIWEDDAR.

Portugal, 1640. Poland, 1704, 1795, 1830, a 1862—4. America, 1861—4. Ffraingc, 1789, 1830, 1848. China, 1850—64.

YN HANES PRYDAIN.

Yn erbyn William y Gorchfygwr, o blaid Edgar Atheling, gan yr Ysgotiaid a'r Daniaid, 1069.

Yn erbyn William II. yn ffafr ei frawd Robert, 1088—90.

Gwrthryfel y Cymry, y rhai a orchfygasant y Normaniaid a'r Saeson. Dechreuodd yn 1095.

Yn Lloegr, yn ffafr yr ymherodres Maude, 1139—53.

Gwrthryfel y tywysog Richard yn erbyn ei dad Harri II., 1189.

Gwrthryfel y Barwniaid, Ebrill, 1215; yr hwn a derfynwyd trwy ganiatâd y *Magna Charta*, Mehefin, 1215.

Y Barwniaid etto, 1262—7.

Yr arglwyddi tymmorol ac ysbrydol yn erbyn Edward II., ynghylch ffafrio y *Gavestons*, 1312. Drachefn yn achos y *Spencers*, 1321.

Gwrthryfel Wat Tyler, o Deptford, yr hwn a achlysurwyd drwy ymddygiad brwnt a ffiaidd casglwr trethi at ei ferch. Wedi lladd y trethgasglwr yn ei wylltineb, casglodd blaid o bobl i wrthwynebu y dreth ei hunan yn 1381.

Y Duc o Gloucester, ac arglwyddi ereill, yn Mhrydain, 1388.

Gwrthryfel Henry, y Duc o Lancaster, yr hwn a achosodd ddiorseddiad Richard II. yn 1399.

Yn Iwerddon, pryd y lladdwyd Roger, Iarll March, a'r etifedd tebygol i'r goron, 1399.

Gwrthryfel y Cymry a'r Saeson, 1400.

Yn erbyn Harri IV. gan nifer o arglwyddi cyngheiriol, 1403.

Gan Jack Cade, yn ffafr y Dug o York, yn erbyn Harri VI., 1451.

Yn ffafr teulu York, 1452, yr hwn a derfynodd yn ngharchariad Harri VI., a gosodiad Iorwerth IV. ar yr orsedd, 1461.

O dan Warwick a Clarence, 1470, diwedd yr hwn fu diorseddiad Iorwerth IV., ac ail goroniad Harri VI. yn yr un flwyddyn.

O dan Iorwerth IV., 1471, canlyniad yr hwn fu marwolaeth Harri VI.

Gwrthryfel Iarll Richmond, yn erbyn Richard III., yn 1485. Terfynodd yn marwolaeth Richard.

O dan Lambert Simnel, yr hwn a broffesai ei fod yn nai i Richard III., 1486: yr hwn a derfynodd yr un flwyddyn mewn darganfod mai mab i bobydd oedd Simnel. Maddeuwyd iddo.

O dan Perkin Warbeck, 1492, canlyniad yr hwn fu dienyddiad Warbeck.

O dan Flannock, yn achos trethi. Diweddodd yn mrwydr Blackheath, 1497.

Gwrthryfel y Saeson yn y Gorllewin, o achos argloddiau, a gorthrwm y boneddigion, 1549; yr hwn a derfynwyd yr un flwyddyn.

Yn Norfolk, yn cael ei flaenori gan *Ket*, y barcer, ond a derfynwyd yn fuan:—Awst, 1549.

Yn mhlaid yr arglwyddes Jane Grey, yn erbyn y frenhines Mari. Cyhoeddwyd yr arglwyddes Jane yn frenhines Prydain ar farwolaeth Iorwerth VI., Gor. 9, 1553; ond rhoddodd i fyny ei choron i Mari ddeng niwrnod wedi hyny. Dienyddiwyd hi am uchel fradwriaeth yn y Tŵr, Chwefror 12fed, 1554, yn 17 oed.

Gwrthryfel Syr Thomas Wyat, ac ereill, o herwydd priodas y frenhines Mari â Philip o Yspaen, &c., 1554.

Y Pabyddion, yn amser y frenhines Elizabeth, yr hwn a ddarostyngwyd yr un flwyddyn.

Y Gwyddelod, o dan Iarll Tyrone, 1599, yr hwn a ddarostyngwyd yn 1601.

O dan Iarll Essex, yn erbyn y frenhines Elizabeth, 1600; yr hwn a derfynodd yn ei farwolaeth yn 1601.

Yn erbyn Charles I., 1639; diwedd yr hwn fu ei ddienyddio, 1649.

Gwrthryfel y Gwyddelod, o dan Roger More, Syr Phelim O'Neil, &c., yn erbyn y Saeson yn yr Iwerddon. Diweddodd yn 1716.

Gwrthryfel yr Ysgotiaid yn ffafr yr Hen Ymhonwr, 1715. Terfynodd yn 1716.

Yr Ysgotiaid, o dan yr Ymhonwr Ieuangc, 1745. Darostyngwyd ef yn 1746, pryd y dienyddiwyd yr arglwyddi Lovat, Balmerino, a Kilmarnock.

Gwrthryfel yr Americaniaid, o herwydd trethiad 1774. Arweiniodd hwn i ryfel dychrynllyd; y canlyniad o'r hwn fu i Brydain golli ei phrif drefedigaethau yn Ngogledd America, ac i ffurfiad llywodraeth yr Unol Daleithiau yn 1782.

Gwrthryfel mawr yr Iwerddon. Cododd yr holl wlad yn mron o dan arfau. Dechreuodd Mai 24, 1798, a darostyngwyd ef y flwyddyn ganlynol.

Etto, yn yr Iwerddon, o dan Robert Emmett, penboethiad talentog—Gorphenaf 23, 1803. Yn y gwrthryfel hwn rhoddwyd arglwydd Kilwarden i farwolaeth, ynghyd â lliaws ereill, gan y gwrthryfelwyr.

Gwrthryfel yn Canada, o Ragfyr, 1837, hyd Tachwedd, 1838.

Gwrthryfel ynfyd Smith O'Brien yn yr Iwerddon; yr hwn a derfynwyd yn ngorchfygiad a gwasgariad llu mawr o'i ganlynwyr twylledig, gan yr is-arolygydd Trant, ac o ddeutu trigain o heddgeidwaid, Gorphenaf 29ain, 1848.

Gwrthryfel dychrynllyd yn India; yr hwn a dorodd allan yn mhlith y milwyr brodorol, ac a achlysurwyd drwy orchymyn a roddwyd iddynt i ddefnyddio *cartridges* wedi eu hiro. Ymddengys fod defnyddiad iraid yn y modd hwn yn drosedd o rai o egwyddorion eu crefydd. Torodd allan yn 1857, a therfynwyd ef yn nechreu 1859, yn ystod pa amser cyflawnwyd yr erchyllderau mwyaf ofnadwy y gall dyn eu dychymygu.

GWRTHSABBATHWYR. Sect grefyddol ddiweddar; pa rai sydd yn gwadu yr angenrheidrwydd o gadw y dydd Sabbath. Eu prif resymau ydynt:—1. Mai rhwymau seremoniol, ac nid rhwymau moesol, oedd ynglŷn â'r Sabbath Iuddewig: o ganlyniad, diddymwyd ef yn nyfodiad Crist yn y cnawd. 2. Na ddarfu i'r Arglwydd Iesu na'i apostolion appwyntio Sabbath arall i gael ei gadw. 3. Nad oes un gair am *dori'r Sabbath* yn y Testament Newydd. 4. Na roddwyd un gorchymyn i Adda nac i Noah i gadw

Digitized by Google

Sabbath. 5. Gan hyny, er fod Cristionogion yn cael eu gorchymyn i beidio "esgeuluso eu cydgynnulliad eu hunain," ni ddylent ystyried fod unrhyw ddiwrnod yn fwy sanctaidd na'r llall. Gwel SABBATH.

**GWYBED.** Gwel GWIBED.

**GWYBEDIGION;** Gwel GNOSTICIAETH.

**GWYBODAETH.** Yr hyn a geisiwn roddi i'n darllenwyr syniad yn ei gylch dan y pen hwn ydyw *tarddiad, elfenau cyntefig, natur, terfyn,* a *sicrwydd gwybodaeth.* Y mae y cwestiynau hyn yn cynnwys prif ddadleuon athronyddol yr oesoedd; ac y mae y syniadau a goleddir am danynt yn effeithio ar syniadau dynion ar bron bob cwestiwn pwysig arall. Gan nad ydym yn cyfyngu ein golwg at un math neillduol o wybodaeth, ond at wybodaeth yn ei ystyr eangaf a dyfnaf, y mae ein golygiadau ar y materion uchod yn ein cyfarfod eilwaith a thrachefn yn mhob cangen neillduol o wybodaeth.

Ni a roddwn ychydig frawddegau rhagarweiniol o natur hanesyddol, mewn trefn i ddangos y gwahaniaeth sydd wedi ffynu o oes i oes o barth i'r cwestiynau uchod. Bydd hyn yn fanteisiol i'r cyfryw sydd heb ddarllen na meddwl nemawr arnynt, i'w galluogi i sylwi pa wahaniaethau sydd wedi bod yn eu cylch. Y mae pob cenedl sydd wedi ei deffro i sylwi i fesur ar y dirgeledigaethau sydd yn amgylchynu dyn wedi troi ei meddwl i ofyn, a ydyw *gwybodaeth* yn gyrhaeddadwy i ddyn, neu ynte a ydyw wedi ei ddedfrydu am byth i ymdroi yn y niwl o dybiaeth ac ammheuaeth:—Pa beth ydyw elfenau gwybodaeth? Argraphiadau y synwyrau, ai drychfeddyliau? neu ynte y ddau. Pa rai ydyw gwrthddrychau gwybodaeth? Hanfod pethau, ai ynte ymddangosiadau? ynte pob un o'r ddau? Pa ddeddfau sydd yn ein cyfiawnhau i ddweyd, Yr ydwyf yn *gwybod*; ac nid, Yr wyf yn *meddwl.* A ydyw y byd naturiol yn fyd o sylwedd? ai ynte byd o ymddangosiadau yn unig ydyw? A ydyw ein drychfeddyliau ac argyhoeddiadau ein meddyliau yn chwaneg na drychfeddyliau ac argyhoeddiadau yn ein meddyliau ni ein hunain? A ydynt yn *wybodaeth;* ac a ydynt yn sicrhau hanfodiad yr hyn y dywedwn ein bod yn ei wybod? Os ydynt, pa ham, neu pa fodd? Dechreuodd meddyliau ymchwilgar a threiddgar y Groegiaid i ofyn cwestiynau fel hyn yn foreu. Un o'r athrawiaethau a ymdrechai Plato gyda phenderfyniad diflino a hyawdledd swynol ei ddysgu i'w gydwladwyr oedd, nad ydym yn adnabod gwrthddrychau y synwyrau, ond mai drychfeddyliau ydyw gwrthddrychau gwybodaeth. Yr oedd ysgol yn Groeg yn flaenorol i hyn, yr hon a ddysgai nad oedd dim sylweddau yn bod, ond gwrthddrychau y synwyrau. Ac mewn gwrthgyferbyniad i hon, dysgai ereill nad oedd yn briodol i alw gwrthddrychau y synwyrau yn sylweddau parhaus o gwbl, am eu bod yn myned trwy gylch o gyfnewidiadau diorphwys. Felly, os oedd gwybodaeth a gwyddoreg yn bossibl, rhaid mai sylweddau parhaus ydyw eu gwrthddrychau, ac nid ymddangosiadau cyfnewidiol. Nis dichon fod gwybodaeth sicr am bethau ansicr. Hanfodau anweledig ac anghyfnewidiol, gan hyny, y rhai a alwai Plato yn *ddrychfeddyliau* (*ideas*) ydynt unig wrthddrychau gwybodaeth. Yn ol Plato, y mae yn rhaid i'r rhai sydd yn dymuno adnabod egwyddorion pethau, dreiddio trwy yr ymddangosiadau, a gwahaniaethu rhwng pethau a drychfeddyliau. Y drychfeddyliau y dylid chwilio am danynt mewn natur ydynt undeb, tebygolrwydd, lliosogrwydd, cyflead, ysgogiad:—yn mhyd yr ysbryd, y prydferth, y da, y cyfiawn. Rhoddid enwau ar bethau i'r graddau y cyfranogent o'r naill ddrychfeddwl neu y llall. Dywedir fod pethau yn gyfiawn i'r graddau y cyfranogent o'r drychfeddwl o gyfiawnder; a bod y pethau hyny yn brydferth a gynnwysent y drychfeddwl o brydferthwch. Credai Plato fod i bob cangen o wybodaeth ei drychfeddyliau priodol ei hun, ac mai y ffordd briodol i gasglu gwybodaeth ydyw llafurio am adnabyddiaeth o'r drychfeddyliau hyn. Fel hyn y dywed ef ei hun: "Nid yw yn anhawdd rhoddi cyfarwyddyd am y ffordd oreu i gyrhaedd gwirionedd; ond y mae yn dra anhawdd ei dilyn. Yn y modd hyn y dadguddiwyd yr holl gelfyddydau a ddarganfyddwyd erioed. Rhodd y duwiau i ddyn ydyw y ffordd hon; ac er mwyn ei dysgu iddo, anfonwyd ryw Prometheus i'w gosod mewn fflam o oleuni. Ac y mae yr hynafiaid, yn fwy craff na ni, ac yn nes at y duwiau, wedi ei throsglwyddo i lawr i ni yn y modd canlynol. Pa beth bynag sydd, y mae yn deilliaw o'r *un* a'r *lliaws,* ac yn cynnwys ynddo ei hun y meidrol a'r anfeidrol mewn undeb â'u gilydd, gan eu bod o un rhywogaeth, ond yn aneirif mewn rhifedi. A chan mai fel hyn y mae pethau, dylem ymdrechu i wahaniaethu a sicrhau yr *un* drychfeddwl (sef un drychfeddwl y rhywogaeth), o herwydd ni gawn eu bod yn bresennol. Ac wedi i ni sicrhau yr un peth hwn, dylem ystyried pa fodd y mae yn cynnwys ynddo ei hun, ddau, tri, neu unrhyw nifer. Fel hyn, ni welwn, pa fodd y mae un yn un, ac yn llawer. Ac wrth sylwi fod yr un (drychfeddwl) yn mhob un (enghraifft), yr ydym yn llenwi y cyfwng rhwng yr anfeidrol (y lliosog) a'r un. Fel hyn y mae y duwiau yn ein dysgu. Ond y mae athronwyr ein dyddiau ni yn cipio yr un yn ddamweiniol, naill ai yn rhy fuan neu yn rhy hwyr.—*Philebus.*

Y mae syniadau Aristotle am sylfeini gwybodaeth yn dra gwahanol i'r eiddo Plato, ei athraw; ac y mae ef ei hun yn eu cyferbynu â'r eiddo Plato. Ymwrthoda yn hollol â'r athrawiaeth Blatonaidd am ddrychfeddyliau fel unig ddefnyddiau awybodaeth. Addefa Aristotle fod yn rhaid i bob ymresymiad fod yn seiliedig ar egwyddooion cyntefig; ond o ba le y ceir yr egwyddorion hyn? Ei atteb yw, mai ffrwyth profiad ydynt; ac y mae yn defnyddio yr un gair ag a ddefnyddir yn bresennol i ddisgrifio y modd y casglir yr egwyddorion hyn oddi wrth brofiad, neu ffeithiau; sef dygiad i mewn *induction* (*epagôgê*). "Y mae y dull o ymresymu," ebe fe, "yr un mewn athroniaeth ag ydyw yn y gwyddorau a'r celfyddydau. Y mae yn rhaid, yn gyntaf gasglu y ffeithiau yn y cyflawnder mwyaf sydd yn ddichonadwy; ac yna, y mae yn rhaid iddynt fyned trwy ymchwiliad llwyr yn ol termau neu ammodau ein hymresymiad." "Y mae egwyddorion neillduol yn perthyn i bob gwyddor (*science*); ac yn mhob amgylchiad y mae yn rhaid i ni gael allan yr egwyddorion hyn trwy brofiad, neu weithrediad y synwyrau. Oddi wrth ffeithiau seryddol y mae yn rhaid i ni gasglu egwyddorion seryddol, ac felly am bob gwyddor a chelfyddyd arall." "Y mae yn amlwg os na byddwn wedi gwneyd y defnydd goreu o'n synwyrau, y byddwn yn fyr o ryw wybodaeth. "Nis gall fod dim gwybodaeth, os na bydd yr hyn a geir trwy y

Digitized by Google

ynt yn y golwg wrth ffurfio y rhai mwy cyffredinol. Y ffordd arall ydyw esgyn yn gysson ac yn raddol oddi wrth y synwyrau at y casgliadau mwyaf cyffredinol. Y ffordd olaf hon ydyw yr un gywir, ond un sydd etto heb ei cherdded." Gwelir oddi wrth hyn fod Bacon, fel Aristotle, yn dysgu fod yn rhaid dechreu gyda phrofiad wrth chwilio am wybodaeth; ond y gwahaniaeth rhyngddynt ydyw, fod yr athronydd Groegaidd yn dilyn y llwybr cyntaf a enwir gan Bacon; aco ganlyniad, er na bu erioed y fath gasglydd diwyd o ffeithiau, yr oeddynt yn parhau yn ffeithiau yn ei feddiant, ac nid yn troi yn egwyddorion diogel, seiliedig ar ffeithiau. Rhagoriaeth Bacon ydyw, ei fod yn dysgu dynion i esgyn oddi wrth ffeithiau at egwyddorion; ac oddi wrth egwyddorion is at egwyddorion uwch, nes cyrhaedd yr uchaf. Nid ydyw Bacon yn dyweyd nemawr am *Ddrychfeddyliau* yn ei gyfundrefn; a hyny, nid o herwydd nad oedd yn rhoddi lle iddynt. Yr egwyddorion cyffredinol a amcanai atynt trwy esgyniad graddol, ond parhaus, oddi wrth ffeithiau ydynt ddrychfeddyliau. Canmolir Bacon yn gyffredinol fel amddiffynwr profiad a sylwadaeth, a chyferbynir ef â Plato, ac ereill, sydd yn gosod y prif bwys ar yr elfen hono mewn gwybodaeth sydd yn gynnwynol neu yn wreiddiol i ddeall dyn. Rhaid addef ei fod wedi rhoddi arbenigrwydd ar brofiad, a dibyniad angenrheidiol pob gwybodaeth ar brofiad. Ond etto, fod ymchwiliad i natur drychfeddyliau yn rhan o'r gwaith oedd yn angenrheidiol i'w gyflawnu er mwyn dwyn oddi amgylch y diwygiad a obeithiai am dano, sydd amlwg oddi wrth rai o'i osodiadau. Wrth sylwi ar fychandra y cynnydd oedd wedi bod ar wirionedd, fe ddywed:—"Y mae pob peth yn anfoddhaol yn y syniadau sydd yn ffynu yn bresennol yn mhob cangen o wybodaeth. Nid oes dim syniadau cywir am y cyfryw ddrychfeddyliau a sylwedd, ansawdd, gweithrediad bod, attyniad, gwrthnewidiad, elfen, a llawer o rai ereill. Felly, y mae Bacon yn priodoli diffygion gwybodaeth hyd at ei ddyddiau ef i anghywirdeb golygiadau am ddrychfeddyliau, ac hefyd i ymresymiad rhy frysiog oddi wrth ffeithiau. Yn ol pob tebygolrwydd, pe cawsai Bacon orphen ei gynllun rhoddasai yr un pwysigrwydd i ddrychfeddyliau ag i ffeithiau, fel elfenau gwybodaeth.

Yn amser Bacon ei hun ymddangosodd Descartes:—enw athronydd ag oedd ar y pryd yn uwch ei glod na Bacon, ac yn cael ei ddilyn gan liaws o ddysgyblion trwy holl wledydd Ewrop. Ei amcan ef oedd gwrthweithio a dadsylfaenu athroniaeth profiad a sylwadaeth, a gosod i fyny yn ei lle gyfundrefn seiliedig ar ddrychfeddyliau yn unig. Ymgais Bacon oedd olrhain effeithiau at eu hachosion: ond dechreu gydag achosion, ac ymresymu at effeithiau, oedd proffes Descartes. Gwelir fod y ddau yn wrthwynebol i'w gilydd yn egwyddor eu hymchwiliadau: y naill yn dechreu lle y mae y llall yn dibenu. Ond er fod Descartes wedi llwyddo i eangu ein gwybodaeth am ymddangosiadau yn y byd naturiol, megys yr enfys, yr hon a esboniwyd ganddo ef yn gyntaf, etto, nid fel athronydd naturiol yr ennillodd efe y safle uchel o gydraddoldeb â Bacon a Newton sydd yn perthyn iddo. Gwnaeth Descartes i athroniaeth y meddwl, ac i athroniaeth gwybodaeth, yr hyn a wnaeth Bacon i athroniaeth naturiol. Fel y mae y *Novum Organon* yn ddeddflyfr ymchwilgar i natur, y mae traethawd Descartes ar *Method* yn llenwi lle cyfattebol i ymchwiliadau uwch i sylfeini a safon sicrwydd. Wrth weithio ei ffordd at elfenau cyntaf gwybodaeth a sicrwydd, y peth cyntaf a deimlodd oedd, mor ddarostyngedig oedd i gael ei dwyllo trwy opiniynau gwahanol, a gwrthwynebu dynion bron ar bob peth, ac hefyd mor dueddol ydoedd i gael ei gamarwain gan synwyrau y corff, a rhagfarnau a thybiau y meddwl. Penderfynodd ddechreu trwy ymwrthod â phob crediniaeth yn yr hyn a dybiai y byd oedd y pethau mwyaf diammheuol. Neidiodd i lyngclyn o ammheuaeth; ond yn ei ganol, fe deimlodd ei draed ar graig, ac oddi arni fe chedodd i oleuni gwybodaeth a sicrwydd. Wrth ammheu pobpeth, ac ymwrthod â phob peth, fe ddaeth o'r diwedd at y cwestiwn, Pa beth sydd yn ammheu ac yn gwadu? Rhaid ei fod yn rhywbeth; ac hyd yn oed pe buasai yn cael ei dwyllo gan ryw fod uwchlaw iddo, rhaid mai ef ei hun oedd yn cael ei dwyllo. Dyma un peth o'r diwedd ansigladwy ei fod ef ei hun; a'r prawf ydyw ei fod yn ei deimlo. Wrth ddweyd ei fod yn ammheu, nis gallai wadu nad efe ei hun sydd yn ammheu. Y mae ei ymwybyddiaeth bersonol ef ei hun gan hyny yn sylfaen cyntefig a digonol sicrwydd. Y mae yn gwisgo y gosodiad hwn mewn geiriau byr—*Yr wyf yn meddwl, ac am hyny yr wyf yn bod* (*Cogito, ergo sum*). Er fod y geiriau hyn ar ffurf ymresymiad rheolaidd, etto, nid felly y mae; ond dangosiad ydyw o'r modd y mae y ffaith o hanfodiad (*existence*) yn cael ei ddadguddio i ni, sef trwy ymwybyddiaeth mewnol o hono ei hun. Hyn oedd iddo ef, a hyn raid fod i ni, yn sail dragwyddol argyhoeddiad o'r sicrwydd—nas gall dim ymresymiad ei gryfhau, na dim twyll-reswm ei wanhau—bod ffeithiau y meddwl yn FFEITHIAU CYNTEFIG: a'r prawf o honynt ydyw, nas gellir eu profi na'u hammheu. Gwaith athroniaeth yn ei hystyr uchaf ydyw chwilio i mewn iddynt, penderfynu eu hystyr, eu puro oddi wrth elfenau dieithrol, penderfynu terfyn eu hawdurdod, a dangos pa beth ydyw eu gwerth fel prawf o wirionedd y tu allan iddynt eu hunain. Yn ngwyneb hyn, ni welwn, er fod Descartes wedi dechreu mewn ammheuaeth, etto ei fod yn dibenu mewn dangos fod ammheuaeth fel egwyddor yn ammhossibl. Ni feddylir oddi wrth hyn nad yw yn iawn ac yn angenrheidiol i ammheu llawer o osodiadau sydd yn dyfod o'n blaen; ond y mae ammheu pob peth yn ammhossibl, o herwydd ni a ammheuwn felly ammheuaeth ei hunan. Y mae ammheuaeth yn yr ystyr hwn yn weithred o *grediniaeth*. Yr ydym felly yn credu ein bod yn ammheu. Ond pa ham y credwn hyny yn hytrach nag unrhyw ystad arall y dichon i'r meddwl fod ynddi? Gallwn weled yn mhellach i ddull Descartes wrth sylwi ar ei brawf o fod Duw. Nid prawf *a priori* ydyw hwn; ond un yn seiliedig ar ffeithiau: ond nid ar ffeithiau allanol, ond ar ffeithiau a ddadguddir yn y meddwl. Y prawf ydyw hwn:—Y mae ymwybyddiaeth yn dadguddio drychfeddyliau sydd yn meddu ar yr ansoddau o gyffredinolrwydd ac angenrheidrwydd. Nis gall meddwl meidrol ac ammherffaith dyn roddi y cyfryw ddrychfeddyliau i ni. Y mae yn rhaid gan hyny fod UN sydd yn alluog i roddi i ni y drychfeddwl o anfeidroldeb, angenrheidrwydd, tragywyddoldeb, hunan-hanfodiad, &c. Nis gallasem eu rhoddi i ni ein hunain, am ein bod yn ammherffaith: ac am yr un rheswm nis gallasai y byd allanol eu rhoddi i ni: nis gallasem eu derbyn oddi wrth neb ond oddi wrth Fod anfeidrol a pherffaith. Gwelwn y lle pwysig y mae ymwybyddiaeth â drychfeddyliau yn llenwi yn

Digitized by Google

nghyfundrefn Descartes. Prif wasanaethgarwch ei ysgrifeniadau yw yr awdurdod anwadadwy a briodolir ganddo i dystiolaeth ymwybyddiaeth.

O ran ei boblogrwydd a nerth ei ddylanwad, y traethawd pwysicaf a ymddangosodd yr oesoedd diweddaraf ar natur a sylfeini gwybodaeth ydyw traethawd Locke ar y "Deall" [*The Human Understanding*]. Y mae mwy o ysgrifenu o'i blaid ac yn ei erbyn nag sydd wedi bod o blaid ac yn erbyn un awdwr arall er pan ymddangosodd. Pa ochr bynag a gymmerir yn y dadleuon a achoswyd ganddo, rhaid i bawb gyfaddef mai un o'r traethodau pwysicaf ydyw, a chyfoethocaf o ffeithiau am weithrediadau y meddwl a adawyd gan un dyn erioed i'w gyd-ddynion. Ac y mae llawer o ysgrifenwyr ar ei ol wedi cymmeryd rhai o'u meddyliau goreu a'u hesboniadau cywreiniaf oddi wrtho, heb un gydnabyddiaeth o'u rhwymedigaeth. Athrawiaeth sylfaenol Locke ydyw, ein bod yn derbyn ein holl ddrychfeddyliau, neu, mewn geiriau ereill, ein holl wybodaeth, trwy gyfrwng y synwyrau, ac ymwybyddiaeth (*sensation and reflection*). Y mae llawer wedi esbonio *reflection* (adfyfyrdod), yn y fath fodd ag i wadu fod gan Locke fwy nag un ffynnonell o wybodaeth; sef y synwyrau. Ond nis gall fod ammheuaeth i ddarllenwr diduedd mai hanfod ei ddysgeidiaeth, fel y dywed Mansel, ydyw, yn gyntaf, fod dyn yn alluog i ddyfod i adnabyddiaeth o'r byd gweledig, ac o fater ei wahanol ansoddau, trwy y synwyrau; ac yn ail, fod dyn, trwy ganfyddiad mewnol, neu ymwybyddiaeth, yn dyfod yn adnabyddus o'i feddwl ei hun, ei wahanol sefyllfaoedd a'i weithrediadau, ynghyd â'i bersonoliaeth ei hun, yr hyn sydd yn parhau yr un trwy holl gyfnewidiadau y meddwl. Ond er bod Locke yn dysgu fod gan ddyn y ddau allu hyn, sef canfyddiad allanol i adnabod y byd allanol, a chanfyddiad mewnol i adnabod byd y meddwl; etto, *profiad* ydyw yr unig fodd trwy ba un y mae dyn yn casglu gwybodaeth trwy y ddau allu hyn. Y mae yn dangos mewn amryw bennodau o'r traethawd, nad yw dyn yn dyfod i'r byd â gwybodaeth neu ddrychfeddyliau ganddo eisoes; hyny yw, nad oes gan ddyn ddrychfeddyliau cynnwynol neu wreiddiol (*innate ideas*), yn ei feddwl pan yn cael ei eni. Tybiai ef fod Descartes yn dysgu hyn—ac yn wir yr ydoedd mewn un ystyr; sef, yn yr ystyr o *alluoedd* cynnwynol; ond nid yn yr ystyr o wybodaeth wedi ei threfnu eisoes mewn gosodiadau a rheolau parod i'w defnyddio. Wedi gwrthbrofi yr hyn a dybiodd ef, ond yn anghywir, oedd athrawiaeth Descartes, y mae yn dangos yn helaeth pa fodd y mae dyn yn dyfod i gael ei ddrychfeddyliau trwy brofiad o'r byd gweledig ac o fyd y meddwl. Athrawiaeth Locke, o'i deall yn iawn ydyw—nad oes gan ddyn un grediniaeth awdurdodol yn ei feddwl, nad oes iddi wraidd mewn profiad; a bod yr egwyddorion ehangaf yn cael eu ffurfio a'u lliwio gan brofiad y dynion a'r cenhedloedd sydd yn byw dan eu dylanwad. Y mae hyn yn wirionedd, ac yn wirionedd angenrheidiol ei ddysgu yn amser Locke; ond nid hyn ydyw yr holl wirionedd. Y mae drychfeddyliau neu egwyddorion yn meddwl dyn—nid mewn ffurf o osodiadau. wedi eu gwisgo mewn geiriau; ond yn y ffurf o alluoedd neu ddeddfau. Profiad ydyw yr achlysur i'w dwyn i amlygrwydd, a phrofiad hefyd sydd yn rhoddi iddynt eu ffurfiau neillduol; ond etto, y maent yn llywodraethu profiad, ac yn eangach eu cylch na gosodiadau eangaf profiad. Mae yn rhaid gan hyny eu bod yn perthyn yn hanfodol i gyfansoddiad meddwl dyn; ond ar achlysuron neillduol, y maent yn codi o flaen ymwybyddiaeth dyn. Nid oes un esboniad i'w roddi arnynt os na phriodolir hwynt i allu annibynol a chynnwynol y meddwl. Prif ddiffyg Locke ydyw peidio rhoddi y cyffelyb arbenigrwydd ar yr elfen hon mewn gwybodaeth ag y mae ar brofiad. Dylem ddweyd yma, nad oes un gair yn cael ei ddefnyddio yn amlach yn nhraethawd Locke na'r gair *drychfeddwl*. Drychfeddyliau, yn ol Locke, ydyw, gwrthddrychau uniongyrchol y meddwl mewn canfyddiad allanol o'r byd gweledig, ac hefyd mewn canfyddiad mewnol o weithrediadau y meddwl. Nid *pethau* a ganfyddir yn uniongyrchol, ond *syniadau* am y pethau. Y gosodiad hwn sydd wedi rhoddi testyn ymchwiliadau i athroniaeth gwybodaeth o amser Locke hyd yn bresennol. Derbyniodd Berkley a Hulme y gosodiad fel gwirionedd, a gwthiasant ef i'w ganlyniadau naturiol: yr hyn na wnaeth Locke ei hun, ac ni feddyliodd chwaith am i neb arall ei wneuthur. Ond i ddynion o gywreinrwydd a nerth ymresymiadol Berkley a Hulme, yr oedd yn anocheladwy iddynt dynu y casgliadau oedd yn tarddu yn angenrheidiol o osodiad Locke. Ac felly, ni a gawn yr esgob duwiolfrydig yn dysgu, gan mai drychfeddyliau ydynt wrthddrychau uniongyrchol gwybodaeth, nas gallwn adnabod ond drychfeddyliau; o blegid y maent hwy yn y meddwl yn bresennol iddo, tra y mae y byd allanol ei hunan allan o'r meddwl. Wrth geisio profi ac argymhell y casgliad hwn trwy swyn ei hyawdledd, tybiai yr esgob ei fod yn gwneuthur gwasanaeth mawr i'r gwirionedd a chrefydd trwy ddangos mai y meddwl, a drychfeddyliau—*h y.*, yr ysbrydol—ydynt yr unig sylweddau gwirioneddol mewn bod. Ond gwelodd Hulme fod athrawiaeth Locke yn ei gyfiawnhau i fyned yn mhellach nag y meddyliodd Berkley am fyned. Os drychfeddyliau ydynt wrthddrychau uniongyrchol ein gwybodaeth, ac nad oes genym *wybodaeth* o ddim ond drychfeddyliau, yna nid oes genym well sail i gredu fod meddwl yn bod nag sydd genym i gredu fod corff yn bod. Yr oedd gwroldeb Hulme yn ogymmaint a'i gywreinrwydd; ac felly ni phetrusai gyhoeddi fel gwirionedd, nad oes dim mewn bod ond argraphiadau y synwyrau, ac mai twyll ydoedd yr hyn a dybiasai dynion hyd hyny oedd yn wybodaeth a sicrwydd. Cyffrodd athronwyr a duwinyddion drwyddynt wrth weled fod athroniaeth ei hun wedi diffodd lamp gwybodaeth, ac wedi taflu y byd i dywyllwch Aiphtaidd. Nis gallasent ychwaith gyhuddo yr ammheuwyr eofn hyn o dwyll-ymresymiad. Os oedd eu gosodiad hwy yn wirionedd, yr oedd eu casgliad yn anocheladwy. Ond pa beth am wirionedd eu gosodiad sylfaenol, er bod enw mor fawr a Locke o'i blaid? Cododd dau o brif arweinwyr ymchwiliadau o'r natur hyn—un, sef Dr. Reid, yn yr Alban; a'r llall, sef Kant, yn yr Almaen—tua'r un amser, ac ymgymmerasant â'r gorchwyl o ddarostwng gosodiad Locke, a chasgliadau Hulme a Berkley, i brawf eu treiddgarwch miniog a'u hymresymiad diarbed. Y mae ysgrifeniadau y ddau athronydd hyn wedi dylanwadu yn Mhrydain ac ar y Cyfandir hyd yn bresennol yn fwy nerthol na dim arall sydd wedi ymddangos mewn trefn i osod i lawr sylfeini sicrwydd mewn gwybodaeth. Trwy eu nerth cawraidd, y maent wedi effeithio chwyldroad hollol yn y golygiadadau a wasanaethasai yn seiliau ammheuaeth Hulme. Yr oedd amcan Reid a Kant yr un ag eiddo Descartes;

Digitized by Google

ac y mae sylfeini *sicrwydd diammheuol* yr un yn nghyfundrefn y tri. Descartes a welodd gyntaf o athronwyr yr oesoedd diweddaraf mai egwyddorion synwyr cyffredin ydynt sylfeini gwybodaeth ddiogel. Yn flaenorol iddo ef, nid oedd ganddynt un egwyddor sefydlog i gychwyn oddi wrthi. Gosododd ef i lawr fel y gwirionedd cyntaf—i'r hwn y perthyn sicrwydd hollol, a'r hwn sydd yn cyfranu sicrwydd i bob gwirioneddau ereill—fy mod *i, yr hwn sydd yn meddwl, yn bod.* Cylch cyntaf sylwadaeth ac ymchwiliad dyn ydyw y *myfi* a ddefnyddia wrth lefaru am dano ei hun. *Pa beth a gynnwysa hyn?* Arweiniodd hyn ef i agor y cwestiwn o gyfansoddiad y meddwl. Ond nid aeth yn mhell iddo. Yn gyffelyb dysgodd Reid fod *ymwybyddiaeth* yn rhoddi i ni sicrwydd am ein bod a'n personoliaeth; ac hefyd yn rhoddi i ni yr un sicrwydd dibetrus am ffeithiau ac ansoddau y meddwl. Yn mhlith y rhai hyn, y mae yn gyntaf, gynneddfau; yn ail, egwyddorion —y cyfryw nas gall dyn ymddiosg oddi wrthynt. Y maent yn gyssylltiol anysgaradwy â'r teimlad o fodolaeth personol:—y *myfi.* Treiddiodd Kant yn mhellach i'r cwestiwn o gyfansoddiad y meddwl. Ymfoddlonodd Reid ar gasglu ffeithiau sylfaenol am y meddwl. Ond nid yw ffeithiau ond defnyddiau athroniaeth. Mae athroniaeth yn codi uwchlaw ffeithiau i ddangos pa fodd y mae y ffeithiau yn bossibl. Felly yr ymofyniad a osododd Kant iddo ei hun oedd, Pa rai ydyw y deddfau sydd yn llywodraethu y meddwl yn y fath fodd ag i roddi bod i'r ffeithiau a gasglodd Reid? Mewn geiriau ereill, Yn mha fodd y mae egwyddorion yn bossibl, sydd heb fod yn gynnyrch y cynneddfau, ond yn gorwedd wrth eu gwraidd, ac yn eu llywodraethu? Ni a gyfeiriwn at yr erthygl KANT, am fras olwg ar brif linellau cyfundrefn yr athronydd hwn. Ond er mai ei brif amcan oedd penderfynu *seiliau* a *therfynau* gwybodaeth dyn, gyda'r bwriad o ddinystrio ammheuaeth ar un llaw, ac ysbryd ymhoniadol (*dogmatic*) ar y llaw arall; etto, ffrwyth ei gyfundrefn ydyw, nas gallwn adnabod *pethau* fel y maent. Drychfeddyliau dan wahanol enwau ydyw y cwbl sydd yn uniongyrchol adnabyddus i ddyn; ac yn y gyfundrefn hon, nid oes un ffordd i ddyn fyned allan o'i feddwl ei hun i'r byd allanol. Y mae Kant, fodd bynag, wedi gwneuthur ammheuaeth Hulme yn ammhossibl rhagllaw. Nid oedd dim mewn bod ganddo ef ond argraphiadau y synwyrau—na meddwl, na phersonoliaeth, na gwirionedd, na sylwedd. Nid rhyfedd fod Kant, wrth adferu y pethau hyn yn ol, yn myned gam yn rhy bell, fel ag i'w gwneuthur yn anhawdd, yn ol ei gyfundrefn ef, i ddangos fod y byd allanol yn bod. Mae cynnydd gwirionedd fel cynnydd llanw y môr. Am un don sydd yn lluchio yn mhellach, y mae amryw yn cilio yn ol. Y mae eithafion y naill gyfundrefn yn cenhedlu cyfundrefn wrthwynebol. Yn amser Locke, yr oedd rhai o ddysgyblion mwyaf annoeth Descartes wedi gwthio egwyddorion eu dysgawdwr i eithafion nad oedd efe ei hun yn dychymygu dim am danynt. Yn ngolwg y rhai hyn, yr oedd drychfeddyliau yn annibynol ar brofiad. Teimlodd Locke, er mwyn sicrhau cydgordiad holl elfenau gwybodaeth, fod yn angenrheidiol dangos pa beth ydyw lle a dylanwad profiad yn ffurfiad ein gwybodaeth. Ond y mae ei safle fel amddiffynwr yr elfen hon i'w ganfod trwy yr holl draethawd, gan ei bod yn cael ei chodi i arbenigrwydd sydd yn taflu cysgod cymmhariaethol ar yr elfen arall. Ond yn fuan, yr oedd dysgyblion Locke wedi hanneru, a gwthio ei egwyddorion i eithafion na ddychymygodd ef ei hun y buasai yn bossibl i ddim a ysgrifenodd erioed gael ei ddefnyddio o'u plaid; ac eithafion na buasai neb yn gosod ei hun yn fwy penderfynol yn eu herbyn, pe dychymygasai am danynt fel canlyniadau possibl ei gyfundrefn. I gyfarfod yr eithafion hyn etto, y mae Kant, gyda'r un amcan a Locke, sef i benderfynu seiliau a therfynau gwybodaeth, yn ail agor yr holl gwestiwn; ac fel yntau, yn codi ei ochr ei hun i'r fath arbenigrwydd, fel ag i daflu yr ochr wrthgyferbyniol dan len. Yr un cwestiwn oedd gan y ddau athronydd mawr hyn; ond yr oeddynt yn ei gyfarfod o gyfeiriad gwahanol. Yr oedd y naill fel y llall yn rhoddi yr atteb priodol i'w hoes; ac y mae cyhoeddiad gwaith y ddau yn gyfnodau i gyfeirio atynt mewn ymchwiliadau athronyddol. Dylem hysbysu fod Leibnitz wedi codi ei lais awdurdodol yn fuan yn erbyn tuedd unochrog Locke yn y feirniadaeth fwyaf trwyadl sydd wedi ymddangos o gwbl ar *Essay* y meddyliwr Saesoneg. Gwel LEIBNITZ.

Y mae athroniaeth yn yr Almaen wedi gweithio allan i'w chanlyniadau eithaf y rhan hono o gyfundrefn Kant, yn mha un y mae wedi dadsylfaenu possiblrwydd gwybodaeth o'r byd allanol, trwy haeru nad oes hanfodiad i amser a gofod (*time and space*), yn mha rhai yr ydym ni yn gweled y byd hwnw ond yn ein meddyliau ein hunain. Y canlyniad ydyw, nad oes dim mewn bod ond meddwl; ac nid meddwl ychwaith fel hanfod:—dim ond meddwl fel gweithrediad (*thought*). Dyma ni etto wedi amgylchu y cylch; ac ar ol rhedeg drwyddo, wedi dyfod yn ol at Berkley, ac yna cymmeryd ein naid mewn llinell unionsyth oddi wrtho i'r gwagle diderfyn, heb obaith byth ddychwelyd. Dyma eithafion Kant etto.

Yn yr Alban, y mae athroniaeth, yr hon a ddechreuodd yn benaf gyda Reid, yn proffesu ac yn ymdrechu cadw meddwl a natur, y mewnol a'r allanol, ffaith a drychfeddwl, casgliadau profiad a chanfyddiadau uniongyrchol, mewn cydfantoliad. Un egwyddor sylfaenol yn yr athroniaeth hon ydyw, fod ymwybyddiaeth yn dwyn tystiolaeth uniongyrchol a chyfartal i hanfodiad meddwl a natur. Yr wyf yn gwybod yn ngoleuni ymwybyddiaeth fy mod i fy hun yn bod; ac hefyd, yr wyf yn gwybod mor sicr fod y byd allanol yn bod; am fod tystiolaeth ymwybyddiaeth mor bendant ac uniongyrchol am y naill a'r llall. Egwyddor bwysig arall yn yr athroniaeth hon ydyw, fod gwirioneddau angenrheidiol a thragwyddol mewn bod, y rhai sydd yn annibynol ar brofiad am eu *tarddiad,* ond yn ddibynol am eu *hamlygiad.*

Y mae Syr W. Hamilton wedi amlygu eangder dysgeidiaeth a chraffder athronyddol, nes synu athronwyr eu hunain, wrth egluro a chadarnhau y gosodiadau hyn.

Gall y bras ddisgrifiad blaenorol fod yn foddion i ddeffroi meddyliau rhai darllenwyr at y cwestiynau sydd wedi eu codi i sylw wrth ymofyn i natur a seiliau gwybodaeth, ac hefyd awgrymu rhywbeth am y modd y mae gwahanol ymchwilwyr wedi cynnyg eu hatteb. Cyfeiriwn ein darllenwyr at yr erthyglau bywgraffyddol am hysbysiadau helaethach o barth i'r personau sydd wedi cael eu henwi yn yr erthygl hon.

Y prif gwestiwn mewn ymofyniadau i natur a sicrwydd gwybodaeth ydyw, pa mor bell y mae ein gwybodaeth yn *wybodaeth;* hyny yw, yn wybodaeth wirioneddol a sylweddol, ac yn cyfatteb i wrthddrychau ein gwybodaeth? A ydyw ein

Digitized by Google

gwybodaeth yn wybodaeth o bethau, o sylweddau ynddynt eu hunain? ai ynte a ydyw wedi ei chyfyngu at ymddangosiadau pethau? Pa un ai ein drychfeddyliau ein hunain ydyw gwrthddrychau ein gwybodaeth, ai ynte a oes genym wybodaeth uniongyrchol o'r hyn y sydd y tu allan i'r meddwl? Y mae yr attebion i'r cwestiynau hyn wedi bod yn amrywiol iawn. Ond yn fwy cyffredin y mae dynion wedi atteb gyda Locke, sef mai ein drychfeddyliau ydyw gwrthddrychau ein gwybodaeth; neu ynte gyda Hulme, nad oes dim yn adnabyddus i ni ond argraphiadau; neu ynte gyda Kant a'i ganlynwyr, nas gallwn dreiddio at bethau; ond mai y cwbl a allwn wybod ydyw "ymddangosiadau." Os drychfeddyliau, ac argraphiadau, ac ymddangosiadau, ydyw y cwbl a allwn ei wybod, ai priodol ydyw galw y cyfryw yn *wybodaeth*, ac nid lledrith a thwyll? Pa fodd y gallwn wybod a ydyw ein drychfeddyliau yn rhywbeth heblaw drychfeddyliau—a ydynt yn cyfatteb i bethau, os drychfeddyliau ydyw y cwbl a allwn ei wybod. Os attebir, ein bod yn credu ein bod yn argyhoeddedig, fod sylweddau yn cyfatteb i'n drychfeddyliau, gellir gofyn drachefn, A ydyw ein crediniaeth a'n hargyhoeddiad yn *wybodaeth?* Beth ydyw gwybodaeth? Pa rai ydyw gwrthddrychau ein gwybodaeth? Pa beth ydyw y gwahaniaeth rhwng dyweyd ein bod yn gwybod fod peth, a'n bod yn credu ei fod?

Y mae yn angenrheidiol sylwi ar y gwahaniaeth rhwng gwybodaeth o wrthddrychau neillduol, bob yn un ac un, a'r wybodaeth hon wedi ei dosbarthu a'i threfnu i ffurf wyddorol neu athronyddol. Gwybodaeth o'r unigol a gesglir yn gyntaf gan ddyn; ac o'r wybodaeth hon y mae y deall, trwy gymmhariaeth â gweithrediadau ereill, yn adeiladu cyfundrefnau o wybodaeth. Pan ddywedir gan hyny ein bod yn casglu gwybodaeth trwy ganfyddiad (*perception*), mewnol neu allanol, gwybodaeth o'r unigol a feddylir, ac felly gwybodaeth yn ei ffurf symlaf. Y mae y wybodaeth hon yn wybodaeth uniongyrchol. Gelwir hi yn Saesneg yn *intuitive knowledge*, am ei bod yn ein gosod ni wyneb yn wyneb megys â'r gwrthddrych (*intueor*). Nis gwyddom am un ffordd well i gyfieithu yr ymadrodd na thrwy ei galw yn *wybodaeth ganfyddiadol*, am ein bod trwyddi yn *canfod* y gwrthddrych, ac nid yn casglu ei fod. Ond y mae gwybodaeth o wrthddrych, nid yn unig yn bossibl ynddo a thrwyddo ei hun, yr hyn ydyw gwybodaeth ganfyddiadol; ond y mae yn bossibl i ni adnabod neu feddwl am wrthddrych trwy wrthddrych arall sydd yn ei gynnrychioli; ac o herwydd hyny, gelwir y wybodaeth hon yn wybodaeth *gynnrychiol* neu *gyfryngol* (*representative* a *mediate*). Pan edrychir ar y goeden, y mae genym wybodaeth ganfyddiadol neu uniongyrchol o honi—ei bod, ei llun, a'i lliw; ond os yn ei habsennoldeb y gelwir hi i fod yn y dychymmyg, y mae ein gwybodaeth yn wybodaeth gynnrychiol, neu gyfryngol, neu anuniongyrchol. Ond nid gwybodaeth o wrthddrych trwy ddarlun o hono yn y dychymmyg ydyw yr unig wybodaeth anuniongyrchol. Y mae math arall o wybodaeth yn dyfod o dan yr enw hwn. Pan y bydd nifer o wrthddrychau yn cyttuno mewn meddu yr un ansawdd neu ansoddau, y mae y meddwl yn esgeuluso pob peth arall sydd yn perthyn i'r gwrthddrychau, ac yn ymsefydlu ar y rhai tebyg, ac yn eu gwneuthur yn neillduolion dosbarth. Y mae pob gwrthddrych sydd yn eu meddu, yn cael eu rhoddi yn y dosbarth, a phob un sydd heb eu meddu yn cael eu cau allan. Rhoddir enw ar y dosbarth hwn i'w nodi allan fel y cyfryw. Y mae yr enw nodweddiadol yn perthyn i bob un o'r gwrthddrychau sydd yn y dosbarth; ac o'r herwydd, gelwir ef yn enw cyffredinol—am ei fod yn perthyn i bob gwrthddrych yn y dosbarth. Y mae y gair *dyn* yn gyfryw enw: y mae yn nodi rhyw ansoddau neillduol, sef y cyfryw ag sydd yn hanfodol i'r ddynoliaeth; ac ni elwir un creadur yn ddyn ond sydd yn ei feddu. Y mae y meddwl sydd yn cyfatteb i'r gair *dyn* yn cael ei alw yn *concept* yn Saesneg, yr hyn a gyfieithwn yn *syniad*. Yn awr, pan y byddom yn meddwl am ddyn fel y cyfryw, megys pan y dywedom fod dyn yn gyfrifol, nid oes genym un ffordd i wneuthur hyny ond trwy y gair cyffredinol *dyn*. Nis gallwn feddwl am ddyn, na gwneud gosodiadau cyffredinol am dano, ond trwy gyfrwng y gair cyffredinol. Yr amcan wrth wneuthur yr eglurhâd hwn yn y fan hon ydyw, er mwyn dangos fod y wybodaeth hon etto yn wybodaeth gyfryngol neu anuniongyrchol. Yr ydym yn adnabod yr unigol trwy y dosbarth y perthyna iddo: ac yr ydym yn dywedyd ein bod heb adnabod gwrthddrych os na wyddom am ryw ddosbarth y perthyna iddo. Yn ystyr mwyaf cyffredin y gair, adnabod peth ydyw gwybod yn mha ddosbarth i'w roddi. Adnabod blodeuyn ydyw gwybod yn mha ddosbarth o flodau i'w roddi. Yn gyffelyb am bethau ereill. Y mae y gair sydd yn enw ar y dosbarth yn dynodi rhyw ansoddau neillduol; ac wrth osod gwrthddrych mewn unrhyw ddosbarth, yr ydym cystal a dywedyd ei fod yn meddu ansoddau y dosbarth hwnw; hyny yw, yr ydym yn ei adnabod. Y mae y gallu sydd gan ddyn i gymmharu gwrthddrychau â'u gilydd, sylwi ar yr hyn sydd yn debygol rhyngddynt, a'u cylymu yn un dosbarth trwy air cyffredinol, i ddynodi yr ansawdd neu ansoddau y maent i gyd yn eu meddu fel eu gilydd—y mae hyn yn gwneuthur gwybodaeth yn bossibl i ddyn. Heb y gallu hwn, ni buasai ein gwybodaeth ond anmhertfaith, hyd yn oed am wrthddrychau unigol, gan nas gallem ffurfio barn glir am unrhyw beth heb ei gymmharu â gwrthddrychau ereill. Ond am y wybodaeth gyfryngol hon, a'r hon yr ydym yn ei hennill trwy olrhain y neillduol i'r cyffredinol, a'r hyn a alwn yn fwyaf gyffredin yn *wybodaeth*, y mae yn angenrheidiol sylwi yn gyntaf, ei bod yn anuniongyrchol: yn ail, ei bod yn wybodaeth mewn rhan; o herwydd nid yw yn cynnwys holl ansoddau neu farciau gwrthddrych—dim ond y rhai sydd yn gyffelyb mewn casgliad o wrthddrychau: yn d ydydd, y mae y wybodaeth hon yn berthynasol, ac nid yn annibynol; hyny yw, nis gallwn wybod a ydyw ein syniad yn gywir heb ei gymmhwyso at ryw un o'r gwrthddrychau y mae yn ei cynnwys. Nid oes i *syniad* (*concept*) fod gwrthddrychol y tu allan i'r meddwl. Y mae o wneuthuriad y meddwl ei hun. Nid ydyw yn meddu bod annibynol ar y meddwl, ac nid yw chwaith yn wybodaeth annibynol.

Oddi wrth hyn, y mae yn amlwg y gwahaniaeth sydd rhwng gwybodaeth uniongyrchol ac anuniongyrchol. Ac y mae gwybodaeth anuniongyrchol yn gyfryw, o herwydd yr ydym trwyddi yn adnabod gwrthddrych (1af) trwy ddarlun o hono yn y dychymmyg, neu (2il) trwy osod yr unigol mewn dosbarth ffurfiedig gan y meddwl. Wrth ddywedyd, "ffurfiedig gan y meddwl," nid ydym yn meddwl ei fod yn ffurfiedig felly ar y pryd. Y mae holl eiriau cyffredinol iaith yn

Digitized by Google

enwau ar y cyfryw ddosbarthiadau. Y mae plentyn wrth ddysgu iaith ei fam yn dysgu fod llawer o bethau y buasai ef yn eu hystyried yn wahanol mewn ystyriaethau pwysig yn gyffelyb. Heb unrhyw addysg y mae yr iaith yn mha un yr ydym yn tyfu i fyny yn dysgu i ni holl athroniaeth gyffredin yr oes. Y mae hi yn ein cynnysgaeddu â dosbarthiadau o bethau wedi eu trefnu yn ol eu tebygolrwydd i'w gilydd. Y mae nifer o'r geiriau cyffredinol mewn iaith, ynghyd â graddau eu cyffredinolrwydd, yn safon o wybodaeth yr oes, ac o gyfoeth meddyliol genedigaeth-fraint y neb a enir ynddi.

Wedi ceisio gwneuthur y gwahaniaeth hwn rhwng gwybodaeth uniongyrchol ac annuniongyrchol yn ddealladwy, ni a allwn geisio ei gymmhwyso. Y mae dyn yn ennill gwybodaeth yn gyntaf oll o bethau unigol. Nid gyda drychfeddyliau a dosbarthiadau y mae dyn yn dechreu casglu gwybodaeth, ond gyda phethau, a phethau unigol; ac oddi wrth yr unigol y mae yn myned at y cyffredinol a'r dansoddawl trwy sylwi ar y tebygolrwydd sydd rhwng y pethau a'u gilydd. Y mae dechreuad gwybodaeth o angenrheidrwydd yn aneglur; ond y mae yn wybodaeth, ac yn wybodaeth uniongyrchol o'r gwrthddrych ei hun, ac nid o'n tybiau ni am y gwrthddrych. Y mae hyn yn osodiad o'r pwys mwyaf, mai nid dechreu gyda'i ddrychfeddyliau y mae dyn; ond dechreu mewn gwybodaeth uniongyrchol o wrthddrychau ei wybodaeth.

Mae dyn wedi ei gynnysgaeddu â dwy gynneddf i'w alluogi i gasglu gwybodaeth uniongyrchol o wrthddrychau: un ydyw canfyddiad allanol trwy synwyrau y corff, yr hwn sydd yn dadguddio gwrthddrychau y byd materawl; a'r llall ydyw canfyddiad mewnol, yr hwn sydd yn dadguddio i ni ffeithiau neu weithrediadau ein meddyliau ein hunain. Gallwn alw yr olaf yn hunan-ymwybyddiaeth. Rhoddi i ni wybodaeth o'r byd allanol y mae y naill; ac o'r byd mewnol, neu ysbryd dyn, y mae y llall. Dylem gofio yn barhaus fod y galluoedd hyn yn ein cynnysgaeddu ni â gwybodaeth, er nad yn ei ffurf athronyddol a dansoddol.

I. Y mae ein gwybodaeth o Gorff yn cael ei ennill genym trwy y peiriant corfforol, a hyny pan mewn mabandod yr ydym yn ennill y llewyrch gwanaf o wybodaeth, ac hefyd trwy yr oll o'n hoes. Ac nid yn unig trwy y corff yr ydym yn ennill gwybodaeth o bob peth yn y byd naturiol y tu allan i ni; ond y corff hefyd ydyw gwrthddrych cyntaf ac uniongyrchol ein gwybodaeth allanol. Gallwn dan air arall (Synwyrau), ymofyn i raddau y wybodaeth a geir trwy y gwahanol synwyrau. Yma, ni a nodwn yr hyn yr ydym yn ei wybod yn uniongyrchol am gorff trwy y synwyrau heb wahaniaeth rhyngddynt. Yr ydym yn adnabod corff yn ei fod. Gwyddom fod byd naturiol yn bod, ac yn bod hefyd yn annibynol ar ein canfyddiad ni. Nid ydym yn ei ddwyn i fod trwy ei ganfod, ac nid yw yn syrthio o fod pan nad ydym yn syllu arno. Y mae ein gwybodaeth o hono yn gyfryw ag sydd yn ein hysbysu ei fod y tu allan i ni: y mae ei fod, a'i fod y tu allan i ni, yn anysgaradwy. Y mae ein hadnabyddiaeth o hono yn adnabyddiaeth o hono y tu allan i ni. Ein bod yn canfod, yn gweled byd allanol, nis gall neb wadu; ac ar yr un dystiolaeth ag yr ydym yn gwybod ei fod, yr ydym yn gwybod ei fod yn allanol i ni; sef tystiolaeth ein hymwybyddiaeth ein hunain. Yr ydym hefyd yn meddu yr un wybodaeth uniongyrchol o fod corff yn llenwi lle, ei fod yn meddu hyd, a lled, a thrwch. Yr ydym hefyd yr un mor brofiadol o gymmhwysder a gallu corff i effeithio trwy ein synwyrau corfforol ar y meddwl. O'r holl honiadau hyn, y mae genym y sicrwydd mwyaf a ddichon fod genym o ddim, sef ein profiad a'n gwybodaeth uniongyrchol. Y mae anhawsder wedi cael ei deimlo erioed am y *modd* y dichon i fod ysbrydol adnabod sylwedd corfforol:—pa fodd y dichon i'r hyn sydd heb lenwi lle adnabod yr hyn sydd mewn lle. Y mae hyn yn ddirgelwch, ac a bery yn ddirgelwch i ddyn yn y fuchedd hon. Neillduolrwydd natur ysbrydol dyn ydyw meddu y gallu i edrych i ddau fyd—y materol a'r ysbrydol—ar unwaith. Mewn un act o wybodaeth, y mae dyn yn adnabod ei hun fel bod ysbrydol, a'r byd allanol hefyd. Nid oes i ni ond cydnabod hyn fel ffaith yr ydym yn ei wybod. Y mae Syr W. Hamilton yn ceisio egluro pa fodd y mae ffeithiau corff a meddwl yn cydgyfarfod mewn un ymwybyddiaeth ysbrydol trwy ddweyd fod y corff i'w ystyried o fewn cylch y meddwl; ac mewn ystyr arall y tu allan i'r meddwl—ei fod yn rhan o honom ein hunain, ac heb fod yn rhan o honom ein hunain ar unwaith. Nid ydyw teimlad corfforol (*sensation*) yn perthyn i'r meddwl yn unig, nac i'r corff yn unig; ond i'r ddau, wedi eu huno mewn un peirianwaith byw. Pa un a ydyw hyn yn esboniad boddhaol, ai nad ydyw, y ffaith fawr ydyw fod teimlad corfforol yn perthyn i'r corff ac i'r meddwl ar unwaith, yn cynnwys ac yn amlygu y ddau. Fel hyn yr ydym yn cyrhaedd ein gwybodaeth o gorff; ac hefyd y mae y wybodaeth hono yn uniongyrchol ac yn brofiadol. Y mae y meddwl mewn undeb â'r corff: y mae yn ein hysbysu am fyd corfforol; ac nis dichon i'r hysbysiad hwn fod yn dwyllodrus. Y mae yn rhy gyffredinol, yn rhy bendant, yn rhy ansigladwy, yn rhy glir i fod yn dwyll. Y mae hyn yn un o ddeddfau ein cyfansoddiad. Yr ydym yn gweled y byd materol y tu allan i ni. Y mae y lliaws yn credu ei fod y tu allan iddynt, am eu bod yn ei weled felly. Y mae ychydig athronwyr wedi ammheu a ydyw y tu allan iddynt, er eu bod yn ei weled felly, am nas gallant esbonio pa fodd y mae y meddwl yn gweled dim ond meddwl.

II. Gwybodaeth uniongyrchol o Ysbryd yn ein hymwybyddiaeth o honom ein hunain. Y mae yn cydfyned â phob act o feddwl, ymwybyddiaeth o honom ein hunain. Yr ydym ni ein hunain, yn ein meddyliau a'n teimladau, yn wrthddrychau ein gwybodaeth ein hunain. Yr ydym yn adnabod ein hunain fel yn meddu bod gwahaniaethol. Nid, yr ydym yn adnabod ansoddau, neu briodoliaethau, neu ymddangosiadau yn unig, ond yr ydym yn adnabod ein *hunain*. Yr ydwyf yn ymdeimlo neu yn ymwybyddus fy mod. Y mae pob gweithrediad o'r meddwl yn cynnwys mai gweithrediad fy meddwl i fy hun ydyw. Hyn ydyw ystyr brawddeg Descartes, *Cogito ergo sum*. Yr ydwyf yn meddwl, ac am hyny yr ydwyf. Ni fwriadai ddefnyddio y ffaith ei fod yn meddwl i *brofi* ei fod, fel ymresymiad; ond yn unig i amlygu ei fod. Pe gofynid i mi pa fodd y gwn fy mod yn bod—yr atteb yw, am fy mod yn ymwybyddus o hyny. Yn ngoleuni fy ymwybyddiaeth yr wyf yn canfod fy mod. Ac ni ddichon fod gwybodaeth fwy uniongyrchol ac anffaeledig na hon. Nid wyf, ac nis gallaf fod yn brofiadol o un teimlad na meddwl, o un pleser na phoen, o ofn na gobaith, heb wybod mai profiadau i *mi fy hun* ydynt. Mor sicr ag y profir y teimladau hyn, neu unrhyw deimladau ereill, yr wyf nid yn unig yn gwybod eu bod, ond hefyd ar

Digitized by Google

yr un tir yr ydwyf yn gwybod eu bod yn perthyn i *mi*, ac nid i arall: hyny yw, yr wyf yn ymwybodol, neu yn meddu gwybodaeth uniongyrchol o honof fy hun. Nid ydyw hyn yn cynnwys ein bod yn gwybod y cwbl am danom ein hunain; nad oes dim dirgeledigaethau yn perthyn i'n natur nad ydym yn eu deall: ond yr hyn a hònir ydyw, ein bod yn adnabod ein hunain yn mhob profiad, o herwydd nis gallwn feddu unrhyw brofiad heb wybod dau beth; ei fod, ac hefyd ei fod yn perthyn i ni. Nis dichon i unrhyw ymresymiad ein hamddifadu o'r wybodaeth hon; o herwydd nis dichon i unrhyw ymresymiad fod yn fwy sicr. Ond nid ydyw bodolaeth yr ysbryd yn cynnwys y cwbl a wyddom am dano yn ngoleuni ymwybyddiaeth. Yr ydym yn ymwybodol ei fod yn parhau yr un, a'n bod ni ein hunain yr un personau yn ngwyneb holl gyfnewidiadau bywyd. Y mae yn angenrheidiol gwahaniaethu rhwng yr hyn sydd yn hanfodol i ymwybyddiaeth a'r hyn sydd yn achlysurol. Y mae y dyn sydd wedi colli un o'i synwyrau corfforol, megys ei olwg, mewn un ystyr wedi colli ymwybyddiaeth ag oedd ganddo o'r blaen; sef y rhan hono—golwg. Ond y mae ei bersonoliaeth yn parhau yr un. Yn gyffelyb, pe collai ei holl synwyrau corfforol, ni chollai er hyny y teimlad o'i bersonoliaeth. Ac yn hyn y mae tystiolaeth ymwybyddiaeth i natur ysbrydol dyn. Y mae y corff yn angenrheidiol i'r ffurfiau hyny o ymwybyddiaeth ag sydd yn ymddibynu ar synwyrau y corff, y golwg, y clyw, &c. Ac y mae y corff yn achlysur deffroad cyntaf ymwybyddiaeth mewn babandod; etto, nid y corff mewn unrhyw ystyr ydyw y bod, y person, y mae dyn yn teimlo ei fod, pan yn dyweyd *myfi*. Y mae y teimlad greddfol hwn yn cael ei gadarnhau trwy y cwbl a wyddom am gyfansoddiad y corff a'i beiriannau. Y mae athronwyr yn ein dysgu am y corff, mai cael ei gynnyrchu y mae, yn barhaus, ac nid ei fod yn hanfodi. Dim cynt y daw i fod nag y mae yn peidio a bod. Y mae treigliad gronynau y corff yn ddiorphwys; fel, mewn oes faith, y mae y corff wedi cael ei newid amryw weithiau drosodd. Nid yw ein bod corfforol ond cyfres o gyfnewidiadau fferyllaidd. Etto, yn mhlith yr holl gyfnewidiadau hyn, y mae y meddwl, yr ysbryd, y bod personol, yn parhau yr un. Ond nid yn unig y mae yr ysbryd yn parhau yr un er holl gyfnewidiadau y corff; ond y mae hefyd yn parhau yr un er holl gyfnewidiadau y meddwl. Y mae ein meddyliau, ein teimladau, a'n hewyllysiau yn dilyn eu gilydd bob moment; ond y mae y bod sydd yn meddwl ac yn ewyllysio yn parhau yr un.

Nid yw yr ymwybyddiaeth hwn o barhâd yn cynnwys na bu dechreu i'w pherchenog; o ran dim y mae y grediniaeth hon yn ddyweyd, gall fod dechreu iddo; ond y mae crediniaeth reddfol arall yn dyweyd, os bu dechreu iddo, fod y dechreuad hwnw i'w briodoli i achos digonol. Ar y llaw arall, nid yw yr ymwybyddiaeth o barhâd yn cynnwys nas gall fod diwedd ar ei pherchenog; ond y mae yn cynnwys na bydd diwedd iddo heb achos digonol i'w ddifodi. Ond y mae ystyriaethau ereill sydd yn cryfhau y teimlad naturiol o barhâd, os nad ellir dangos rhesymau digonol dros ddifodiad, sef y cyfryw ag sydd i'w cael yn yr argyhoeddiad y'n gelwir ni i Farn, ynghŷd â thystiolaethau Gair Duw i'r perwyl hyny.

Elfen arall yn yr ymwybyddiaeth o ysbryd ydyw ewyllys. Y mae ymwybyddiaeth yn cynnwys elfen oddefol a gweithredol; gallu i sylwi ar gyfnewidiadau y meddwl yn gystal a'r cyfnewidiadau hyny eu hunain. Ond nis gallwn sylwi heb ryw gymmaint o weithrediad yr ewyllys. Y mae graddau o sylwadaeth yn angenrheidiol i gasglu gwybodaeth o gwbl; ac o ganlyniad, nis gallwn ddidoli ewyllys oddi wrth wybodaeth. Yr ydym yn teimlo yn mhob gweithrediad o ewyllys ei bod yn arbenig yn perthyn i *mi*. Mor gysson ydyw yr ymwybyddiaeth o wirfoddolrwydd a phersonoliaeth, a'r ddau â'r ymwybyddiaeth bellach o gyfrifoldeb.

III. Sylwedd. Y mae yn angenrheidiol i ni ddangos pa beth a feddylir wrth *sylwedd*, cyn y gallwn ddangos fod yn bossibl i ni gael gwybodaeth uniongyrchol o hono. Y syniad cyffredin sydd genym am sylwedd ydyw, ei fod yn hollol wrthgyferbyniol i ymddangosiad, lledrith, ac felly yn arwyddo *bod;* peth yn hanfodi arno ei hunan; yr hyn sydd yn meddu bodolaeth wirioneddol. Yn yr ystyr hwn, cymhwysir ef at gorff ac ysbryd. Gelwir enaid dyn yn sylwedd anfarwol. Y mae careg yn sylwedd caled, a gwêr yn sylwedd meddal. Wrth egluro y gair mewn ystyr athronyddol, dywed Syr W. Hamilton, y gellir defnyddio y gair *sylwedd* (*substance; substantia*), mewn dau ystyr perthynasol. Gellir ei ddefnyddio am yr hyn sydd yn hanfodi o hono ei hun (*ens per se subsistens*); neu gellir edrych arno fel yn arwyddo sylfaen ansoddau neu briodoliaethau (*id quod substat accidentibus*). Yn gyffelyb, defnyddir y geiriau Groeg, *hypostasis*, *hypoceimenon;* rhywbeth yn sefyll, neu yn gorwedd dan. Yn yr ystyr cyntaf, edrychir arno yn wrthgyferbyniol i, ac yn annibynol ar ei ansoddau: yn yr ystyr olaf, edrychir arno mewn undeb â'i ansoddau, ac yn rhoddi modd iddynt hwy hanfodi. Mewn gwahanol berthynasau, y mae yr un peth yn sylwedd ac yn ansawdd. Y mae y papur hwn yn sylwedd yn ei berthynas â'r ansawdd gwyn; ond modd ydyw yn ei berthynas â'r sylwedd—*matter*. Wrth sylwedd gan hyny y meddylir yr hyn yr ydym dan orfodaeth i'w feddwl fel sylfaen yn cynnal yr hyn a alwn dan amrywiol enwau yn *stâd*, *modd*, *ansawdd*, *priodoledd*, *damwain*, *ymddangosiad*, *&c*. Nis dichon i'r un o'r rhai hyn hanfodi ond mewn rhywbeth. Y mae y cyfan yn perthyn i rywbeth, a'r rhywbeth hwnw a alwn yn sylwedd. Y mae athronwyr wedi syrthio i'r naill neu y llall o dri chyfeiliornad o barth i sylwedd ac ansawdd. Y mae rhai wedi gwadu fod dim yn hanfodi dan ansoddau i'w cynnal; a haerant nad oes hanfodiad sylweddol i feddwl nac i gorff; mai y cwbl sydd mewn bod ydyw ansoddau. Ond y mae yr athrawiaeth hon yn gwbl gyfeiliornus. Y mae yn wadiad o grediniaeth wreiddiol y meddwl; y mae yn wadiad fod dim mewn bod sydd yn cyfatteb i'r hyn a deimlir fel angen cryfaf ein deall: mae yn caniatau fod yr ansoddau mewn undeb â'u gilydd; ac etto, yn gwadu pob achos fel esboniad ar yr undeb hwnw. Y mae ereill wedi syrthio i'r camsyniad gwrthwynebol. Y mae rhai wedi ceisio treiddio i natur sylwedd ar wahân oddi wrth yr amlygiad o hono, yn ei ansoddau, ac felly wedi ceisio esgyn uwchlaw cylch priodol athroniaeth. Y mae plaid arall wedi cymmeryd un neu ragor o ansoddau neu ymddangosiadau y sylwedd, a'u gwneuthur yn sylfaen y cwbl. Felly y deallodd Descartes feddwl, fel gweithred (*thought*), yn gytystyr â meddwl, fel sylwedd (*mind*). Y mae meddwl fel gweithred yn amlygiad o feddwl fel sylwedd: ond amlygiad yn unig ydyw. Yn gyffelyb, deallodd Dr. Watts, ac ereill, mai ymeangiad (*extension*), ydyw sylwedd corff; yr hyn sydd mor gyfeiliornus

Digitized by Google

a'r llall. Fel y canlyn y mae golygiadau M'Cosh ar natur a chynnwys ein gwybodaeth am sylwedd:—"Y mae gwybodaeth o sylwedd yn cynnwys *bod* neu *hanfodiad;* hyny yw, y mae sylwedd yn bod, ac yr ydym yn ei adnabod fel y cyfryw. Y mae y meddwl yn cychwyn gyda gwybodaeth am bethau mewn bod. Yr ydym yn adnabod meddwl a chorff yn gyntaf oll fel yn meddu bod. Y mae hyn yn sail pob gwybodaeth arall. Nid adnabod bod, yn annibynol ar ei ansoddau, ond trwy ei ansoddau; ond etto, yr ydym yn ei adnabod fel yn meddu bod. Yn fynych defnyddir y gair *bod* mewn ystyr gyffredinol, neu ddansoddol; ond nid yn yr ystyr hwn y defnyddir ef yma, ond am fod neillduol holl wrthddrychau unigol ein gwybodaeth. Elfen arall yn ein gwybodaeth am sylwedd ydyw *gallu gweithredol.* Nis gallwn adnabod corff na meddwl ond fel yn effeithio ar arall, neu ar eu gilydd. Hyn a feddylir pan ddywedir ein bod yn adnabod corff trwy ei briodoliaethau, sef trwy y gallu sydd ganddo i effeithio ar arall. Nis gallwn wybod dim am gorff—nis gallwn ei weled, ei deimlo, ei arogli, ei glywed, na'i archwaethu, ond trwy weithrediad y gallu sydd ganddo arnom ni. Trwy allu y corff i effeithio ar y meddwl yr ydym yn adnabod corff. Y mae holl synwyrau y corff yn cyffroi y meddwl i weithrediad. Y mae sylwedd yn cynnwys *parhâd*, trwy yr holl gyfnewidiadau y mae gwrthddrychau yn ddarostyngedig iddo. Nis gallwn feddwl fod tanwydd yn peidio a bod pan yn diflanu o olwg gan wres y tân. Y mae ein hargyhoeddiad o barhâd y meddwl yn fwy diysgog. Y mae o bwys i gofio nad ydyw hyn yn cynnwys fod pob gwrthddrych yn hunan-hanfodol, ac nas dichon iddo gael ei ddinystrio. Nid yw ein hargyhoeddiad o barhâd sylwedd yn cynnwys dim o barth i'w ddechreuad na'i ddiwedd. Nid ydyw yn dywedyd na chrewyd ef, ac nid ydyw yn dywedyd na ddinystrir ef. Y cwbl a wyddom ydyw, mai trwy arall y dygwyd ef i fod, ac mai trwy arall y dinystrir ef os dinystrir ef hefyd. Y mae y tair elfen hyn, sef *bod, gallu gweithredol, a pharhâd*, yn perthyn i bob sylwedd. Pa faint chwaneg, nis gwyddom. Y mae canfyddiad (*intuition*) o sylwedd yn dywedyd wrthym ei fod yn beth sydd yn meddu hanfodiad; yn meddu gallu i weithredu ar arall; ac hefyd fod iddo barhâd. Nid yw y wybodaeth hon yn dywedyd wrthym o ba le y derbyniodd ei fod, ei allu, na'i barhâd. Ond mae ystyriaethau a chanfyddiadau ereill yn dywedyd hyny. Yn ol y sylwadau hyn, y mae meddwl neu ysbryd dyn yn sylwedd; ac yr ydym yn ei adnabod fel yn meddu bod, gallu, a pharhâd. Y mae rhai yn teimlo mwy o betrusder am gorff fel sylwedd; ond yn ol yr eglurhâd sydd wedi ei roddi yma o sylwedd, rhaid caniatau hyny, neu ynte wneuthur cam â chrediniaeth reddfol y meddwl. Yr ydym yn teimlo fod genym argyhoeddiad y meddwl o fod, gallu, a pharhâd y corff, fel o eiddo y meddwl.

Yma y mae y cwestiwn yn ymgynnyg, A ydyw meddwl a chorff yn sylweddau gwahanol? Gellir atteb yn gyntaf, fod ein hymwybyddiaeth o feddwl, yr hwn sydd genym yn cydhanfodi â'n hymwybyddiaeth o gorff, yn dywedyd wrthym eu bod yn wahanol. Pan yn teimlo careg, gwyddom fod y meddwl sydd yn teimlo yn wahanol i'r gareg a deimlir. Yn ail, Yr ydym yn teimlo fod y pethau sydd yn nodweddu sylwedd—sef bod, gallu, a pharhâd—yn wahanol yn y meddwl a'r corff. Yn drydydd, Mae pob ymdrech i ddangos fod corff a meddwl yr un—i droi corff yn feddwl, a meddwl yn gorff—wedi bod yn hollol ofer. Ar bob tir fe'n cyfiawnheir i ddywedyd fod corff a meddwl yn sylweddau gwahanol.

Y mae sylwedd gan hyny yn beth ag y mae genym wybodaeth uniongyrchol ac annileadwy o hono yn yr ystyriaethau a enwyd.

Gan fod y gair *hanfod* yn air ag a ddefnyddir yn fynych mewn cwestiynau; megys, Pa beth ydyw hanfod yr enaid?—Pa beth ydyw hanfod corff?—Pa beth ydyw hanfod unrhyw beth?—ni byddai yn anfuddiol i ni wneyd sylw neu ddau arno, a hyny yn fwy o gymmaint ag y mae llawer o dywyllwch a dirgelwch ynglŷn âg ef. Pan ddefnyddir y gair am ddosbarthiadau o wrthddrychau megys y soniwyd yn nechreu yr erthygl hon, y mae iddo ystyr hollol benderfynol; ac arwydda yr ansoddau cyffelyb sydd yn perthyn i wrthddrychau y dosbarth. Yn y dosbarth pedwar troediog o greaduriaid, hanfod y dosbarth ydyw fod y creaduriaid sydd ynddo yn meddu pedwar troed; ond pan sonir am hanfod dosbarth neu wrthddrychau unigol sydd yn meddu ar lawer o ansoddau, y mae yn fwy anhawdd dywedyd pa beth ydyw. Po lliosocaf yr ansoddau, anhawddaf ydyw dywedyd pa beth ydyw yr hanfod. Y mae i bob gwrthddrych a phob dosbarth o wrthddrychau lawer o ansoddau yn eu cyfansoddi; ac er y gallwn son am eu hanfod, etto nis gallwn ddywedyd ein bod yn ei ddeall yn gyflawn, os nad ydym yn sicr ein bod yn deall y cwbl yn eu cylch. Gallwn fod yn sicr fod rhai pethau yn perthyn i hanfod gwrthddrychau, megys i hanfod ysbryd; etto, nis gallwn fod yn sicr nad oes briodoliaethau ereill yn perthyn iddo. Yn wir, y mae yn ammhossibl i ddyn ddywedyd pa beth ydyw hanfod dim yn gyflawn. Casgliad ydyw o'i holl ansoddau. A chan mai rhyfyg mewn dyn fyddai dywedyd ei fod yn deall pa beth ydyw holl ansoddau unrhyw beth, ond y pethau y mae efe ei hun wedi eu gwneyd, nis gall hòni gwybodaeth gyflawn o hanfod dim.

Gallwn ddywedyd ein bod yn adnabod sylwedd peth pan nad ydym yn adnabod ei hanfod. Y mae bod, gallu, a pharhâd, yn perthyn i sylwedd corff ac ysbryd; ond y mae yn rhaid fod priodoliaethau ereill nad ydym yn eu gwybod, ac ar ba rai y mae y gwahaniaeth rhwng corff ac ysbryd yn ymddibynu.

IV. Gwybodaeth o Amser, a Lle (*space*). Yr ydym yn adnabod gwrthddrychau allanol mewn lle. Y mae ein gwybodaeth o'u bod mewn lle mor uniongyrchol ag ydyw ein gwybodaeth o'u bod o gwbl. Gallwn ddychymygu am wrthddrychau yn cael eu cyfnewid yn mhob modd bron; ond nis gallwn ddychymygu am danynt yn bodoli allan o le. Mae ein hymwybyddiaeth o le i'w chael trwy bob un o'n synwyrau corfforol; etto, nid ydyw yn wrthddrych, mewn ystyr briodol, yr un o'n synwyrau. Y mae i'w chael trwy y ffurfiau a'r lliwiau sydd yn ymestyn o flaen y golwg. Ond y mae y dyn dall yn meddu syniad mor gywir am le ag y mae y dyn sydd yn gweled. Yn gyffelyb am y synwyrau ereill: y mae y gallu sydd yn y corff i ysgogi o fan i fan yn rhagdybied y syniad o le sydd yn ei gynnwys. Nis gallwn ganfod dim yn y byd allanol ond mewn lle. Yr un modd y mae pob peth yn hanfodi mewn amser: nid yn unig wrthddrychau allanol, ond gweithrediadau y meddwl hefyd. Cyfyngir lle at y byd allanol; ond y mae amser yn perthyn i'n hymwybyddiaeth mewnol ac allanol. Nis gallwn fod yn ymwybyddus o amser na lle ynddynt eu hunain,

Digitized by Google

heb fod rhyw wrthddrychau yn hanfodi ynddynt, neu ddigwyddiadau yn cymmeryd lle ynddynt. Nis gallwn ddifodi amser na lle hyd yn oed mewn dychymmyg: nis gallwn ychwaith osod terfyn iddynt. Trwy brofiad yr ydym yn ennill ein syniad am y ddau; ond etto, ynddynt eu hunain y maent yn rhagdybied profiad, ac yn ei wneuthur yn bossibl. Cwestiwn sydd wedi cael ei ddadleu lawer ydyw—A oes hanfodiad gwirioneddol iddynt, yn annibynol ar, a'r tu allan i'r meddwl? Pa un ai yn y meddwl yn unig y maent, ai ynte y tu allan hefyd? Ai dull neu ffurf y meddwl sydd yn edrych ar bethau? neu ynte, A ydynt yn ffurfiau pethau hefyd? Yn ol athroniaeth Kant, nid ydynt ond yn y meddwl—rhan o gyfansoddiad y meddwl; a than ddylanwad rhyw fath o dwyll yr ydym yn meddwl fod iddynt hanfodiad allanol. Y mae ein hymwybyddiaeth yn tystiolaethu mai cyfeiliornad hollol ydyw hyn. Os ydym yn credu mewn pethau allanol ar sail argyhoeddiadau greddfol y meddwl, ar yr un sail yn gymmhwys yr ydym yn credu mewn amser a lle, sydd yn ymddangos i ni yn eu cynnwys. Nid cyfeiliornad diniwed ydyw hwn ychwaith. Os ydyw yn bossibl i'r meddwl greu amser a lle peth, pa ham nad y peth ei hun? Os ydyw yn ddichonadwy ein bod yn cael ein twyllo am yr hyn y mae ein hymwybyddiaeth yn dwyn y sicrwydd mwyaf diymwad o'i blaid, pa sail sydd genym i gredu dim?—y mae ein holl natur yn dwyll. Ond nid felly y mae. Y rheswm, medd Syr J. Herschel, pa ham yr ydym yn gweled pethau y tu allan i ni ydyw, am eu *bod* y tu allan i ni. Yr ydym yn cymmeryd yn ganiataol fod pethau yn hanfodi mewn lle, am eu *bod* felly, ac am ein bod yn eu canfod felly yn uniongyrchol, yr hyn nis gallwn ei esbonio mewn geiriau, na'i wrthbrofi trwy ddychymmyg, o herwydd y mae lle yn beth *gwirioneddol*. Yr ydym yn adnabod amser a lle mor wirioneddol a'r pethau sydd ynddynt, ac mor uniongyrchol. A'r un peth fyddai gwadu y naill a'r llall. Gofynir yn fynych, Pa beth ydyw amser a lle? Ai sylweddau, ai moddau, ai ynte perthynasau? Nis gellir eu galw yn sylweddau; o herwydd nid oes iddynt allu i weithredu ar y gwrthddrychau sydd ynddynt. Nid ydynt ychwaith yn foddau, neu ansoddau; o herwydd nis gwyddom am yr un sylwedd y maent yn hanfodi ynddo. Y maent yn chwaneg na pherthynasau; o herwydd nis gwyddom am ddim dau beth ag sydd trwy eu perthynas â'u gilydd yn cyfansoddi amser a lle. Nid ydynt y naill neu y llall. Nid ydynt yn perthyn i ddosbarth sylweddau, ansoddau, na pherthynasau. Maent yn hanfodiadau gwreiddiol eu hunain. Yr ydym yn eu hadnabod fel y cyfryw. Nid yn unig y mae genym syniad am danynt, ond y mae genym wybodaeth uniongyrchol o honynt, a hono yn wybodaeth mor wirioneddol ag sydd genym am ddim ag sydd yn wrthddrych ein gwybodaeth.

Llefarir weithiau fel pe na byddai amser a lle yn meddu hanfodiad gwirioneddol i'r meddwl dwyfol. Y mae sylwadau i'w cael ar hyn. Yn cyf. i. td. 325; cyf. iii. td. 716, 717; fel y canlyn y llefara M'Cosh ar y mater:—"Nis gall amser a lle feddu gwirionedd mewn unrhyw ystyr, os nad ydynt yn meddu gwirionedd (*reality*) i Dduw. Os ydyw ein hargyhoeddiadau greddfol yn tystiolaethu eu bod yn wirionedd pethau, fel yr wyf wedi ymdrechu dangos, yna y mae yn rhaid eu bod yn wirionedd i Dduw. Drachefn, y mae rhai yn llefaru am bresennol tragwyddol (*eternal now*).

> "Nothing is there to come, and nothing past,
> But an eternal *now* does ever last."

Y mae y llinellau hyn o eiddo Cowley yn cynnwys y golygiad sydd yn nofio yn meddyliau duwinyddion yn gyffredin wrth lefaru am Dduw, a thragwyddoldeb, ac amser. Nid oes unrhyw ystyr i'r geiriau: neu os oes ystyr iddynt, y mae yn terfynu mewn gwrthddywediad anobeithiol. Peth gwahanol fuasai i dduwinyddion ymfoddloni ar ddywedyd nas gwyddant yn mha berthynas y mae amser a lle yn sefyll i'r meddwl dwyfol. Gyda'r mater hwn yr ydym yn nghanol dirgelwch nas gallwn daflu goleuni arno. Gwyddom fod amser a lle yn hanfodi. Gwyddom ar dystiolaeth ddigonol fod Duw yn hanfodi; ond nid oes genym ffordd i wybod yn mha berthynas y mae amser a lle yn sefyll i Dduw. Y mae golygiad Syr Isaac Newton; sef, "Y mae Duw yn hanfodi yn barhaus ac yn mhob man; ac wrth hanfodi bob amser ac yn mhob man, y mae yn cyfansoddi parhâd a lle,"* yn un mawreddog; ond yr ydym yn petruso meddwl y gall deall dyn hòni ei fod mor wir ag ydyw yn oruchel.

Un o wrthddadleuon Kant yn erbyn y dybiaeth fod hanfodiad gwirioneddol i amser a lle ydyw, os ydyw y ddau yn anfeidrol ac yn wirioneddol, yna y mae dau anfeidrol yn bod; ac os ydyw Duw yn anfeidrol hefyd, yna y mae ein anhawsderau yn fwy byth. O herwydd y mae yn afresymol tybied y gall fod dau beth anfeidrol, sef amser a lle; ac y gall Duw hefyd fod yn anfeidrol. Hyn ydyw gwrthddadl Kant. Atteb M'Cosh i hyn ydyw, nad oes dim, mor bell ag y gwyddom ni, yn afresymol mewn tybied fod lle yn annherfynol, ac amser heb ddechreu a diwedd, a Duw ar yr un pryd yn meddu priodoliaethau anfeidrol. Nid ydym dan angenrheidrwydd i ddywedyd pa fodd y dichon iddynt gydhanfodi; o herwydd yr ydym dan angenrheidrwydd i gredu llawer o wirioneddau gwahanol, heb allu dywedyd pa beth ydyw y cyssylltiad sydd rhyngddynt. Ond yn *ail* hefyd; tra yr ydym yn credu fod amser a lle yn annherfynol, a bod Duw yn anfeidrol, nid ydym dan rwymau i gredu fod anfeidroldeb amser a lle yn annibynol ar anfeidroldeb Duw. Nis gallwn ddyweyd nad yw syniad Newton yn gywir—fod parhâd anfeidrol ac ymeangiad anfeidrol yn briodoliaethau Duw anfeidrol. Nis gallwn wybod nad all amser a lle, er bod yn ddibynol ar Dduw, fod felly yn anamgyffredadwy i ni. Er eu bod yn annibynol arnom ni, ni raid iddynt fod yn annibynol ar bob peth arall—llawer llai ar Dduw. Ar y fath fater nid oes genym oleuni trwy ganfyddiad gwreiddiol y meddwl, na thrwy brofiad. Ond pa mor analluog bynag yr ydym i olrhain ac i ddadrys dirgeledigaethau fel hyn, y mae ein gwybodaeth am amser a lle, o ran eu bod, a'u bod hefyd y tu allan i ni, yn uniongyrchol, yn sicr, ac yn hollol benderfynol.

Pa mor bell y mae genym wybodaeth o'r ANFEIDROL? Y mae y sylwadau blaenorol ar amser a lle fel ammodau hanfodol ein hymwybyddiaeth yn ein harwain at hyn. Er fod ein hanwybodaeth yn anfesuradwy yn mhresennoldeb y dirgelwch hwn; etto y mae yn bwysig i ni ymofyn a ydyw gwybodaeth am yr Anfeidrol yn mhob gradd ac ystyr yn ammhossibl i ddyn; ac os nad

* Deus durat semper et adest ubique, et, existendo semper et ubique, durationem et spatium constituit.

Digitized by Google

ydyw, pa beth ydyw cynnwysiad ein gwybodaeth am dano.

Yn gyntaf oll, y mae yn amlwg nas gallwn ffurfio meddylddrych cyflawn a theilwng o wrthddrych anfeidrol. Nis gallwn ffurfio darlun o hono yn y dychymmyg. Ond nid yw hyn yn rhyfedd; gan fod llawer o bethau ereill nas gallwn alw delwedd (*image*) o honynt o flaen y meddwl, megys ansawdd, rhif, achos, gallu, tebygolrwydd. Ond yn mhellach, nid yn unig nis gallwn ffurfio delwedd o'r Anfeidrol, ond nis gallwn ffurfio un syniad (*conception*) teilwng a digonol o hono â'r deall. Dichon fod genym ddirnadaeth trwy y deall am lawer o bethau; a dichon i ni feddwl a myfyrio llawer arnynt, megys crefydd, dyledswydd, ffydd, llywodraeth, cydwybod, &c.; a dichon i'r syniadau fod yn gyfattebol i fesur i wrthddrych y syniad. Ond pan feddyliwn am wrthddrych anfeidrol, megys am Dduw Anfeidrol, rhaid i ni gydnabod fod ein syniadau uchaf yn syrthio yn anfeidrol fyr o gyfatteb i'w fawredd. Nis gallwn gyrhaedd y syniad o anfeidroldeb trwy chwanegiadau didor; ac nis dichon i ysgol o ymresymiad, yn seiliedig ar y meidrol, gyrhaedd yr Anfeidrol. Pa beth gan hyny yw ein gwybodaeth o barth i'r Anfeidrol? Nid ydym yn cyfeirio yn uniongyrchol yn y sylwadau hyn at y Bod Anfeidrol; ond at y syniad o anfeidrol yn ei gyssylltiad â lle, amser, rhif, graddau, neu unrhyw beth y gellir ei gymmhwyso ato. Dywedir yn gyffredin fod ein syniad am anfeidroldeb yn nacaol, yn hytrach na chadarnhaol; sef, yr hyn *nad* yw, yn hytrach na'r hyn *ydyw*. Gwel erthygl Anfeidrol. Mae ein gwybodaeth yn nacaol, yn gymmaint ag nas gallwn amgyffred na chynnwys yr Anfeidrol. Y mae Locke yn traethu yn helaeth ar hyn. Golygiadau Syr W. Hamilton am yr Anfeidrol, wedi eu gweithio allan gan Mansel, sydd wedi bod yn destyn dadleuon brwd a meithion y blynyddoedd diweddaf; a chrynodeb byr o olygiadau Hamilton sydd fel y canlyn:—Am yr Anfeidrol, nid oes genym un syniad. Rhaid i ni gredu yn anfeidroldeb Duw; ond nis gallwn ei amgyffred, na ffurfio syniad am dano. Ni byddai Duw yn Dduw o gwbl pe y gallai creadur ei amgyffred. Rhyfyg ydyw dywedyd nad ydyw Duw ond fel yr ydym ni yn alluog i feddwl am dano. Mae yr Anfeidrol, y Duw Anfeidrol, i ddefnyddio iaith Pascal, yn anfeidrol anamgyffredadwy. Ffydd ydyw y gallu i ddirnad yr hyn sydd tu hwnt i'n gwybodaeth. Y mae Hamilton yn cyfeirio at eiriau Aristotle, bod yr Anfeidrol, fel Anfeidrol, y tu hwnt i ddeall dyn. Y mae efe hefyd yn appelio at yr Ysgrythyrau dros ei honiad, mai y meidrol, a'r meidrol yn unig, sydd o fewn cyrhaedd deall dyn:—"Yn awr y gwyddom o ran:" sef y meidrol.

Y mae Mansel yn mabwysiadu ac yn eangu y sylwadau hyn, mewn trefn i ddangos fod cynneddfau dyn o angenrheidrwydd yn anghymmhwys ac yn naturiol analluog i adnabod yr Anfeidrol. Nid o barth i anghymmhwysder moesol y mae y ddadl; ond a ydyw dyn wedi ei gynnysgaeddu â galluoedd i adnabod Duw fel y mae. Nid all dyn amgyffred Duw yn holl gyflawnder ei hanfod. Addefa pawb nas gall efe; ond a ydyw gwybodaeth dyn o Dduw, er addef ei fod mewn rhan, etto yn wirioneddol; hyny yw, a ydyw yn cyfatteb yn ol ei graddau i'r hyn yw Duw ei hun. Hòna Hamilton a Mansel fod ein gwybodaeth o angenrheidrwydd yn feidrol; ac o ganlyniad, nas gall fod yn wybodaeth o'r Anfeidrol, os na redwn i'r anghyssondeb o ddywedyd y gallwn adnabod yr Anfeidrol, nid fel anfeidrol, ond fel meidrol. Wrth addef nas gall ein gwybodaeth o'r Anfeidrol fod ond mewn rhan, ni a ofynwn, A all fod genym wybodaeth wirioneddol o'r Anfeidrol? ac os ydyw hyny yn ddichonadwy, Pa beth ydyw cynnwysiad y wybodaeth hono? I hyn gellir atteb, yn gyntaf, fod yn ein natur grediniaeth reddfol, neu wybodaeth uniongyrchol o berthynas i'r Anfeidrol. Nis gallwn ffurfio dychymmyg am eangder a pharhâd anfeidrol; ond etto, y mae ein crediniaeth yn ddiysgog eu bod felly. Os nad allwn ffurfio delwedd yn y dychymmyg am y cyfryw barhâd ac eangder, nis gallwn chwaith osod terfyn iddynt yn y dychymmyg. Nis gallwn amgyffred yr Anfeidrol, ond nis gallwn ymwrthod â chredu ynddo. Yr ydym hefyd, yn ail, yn credu mewn anfeidroldeb—nid fel hanfodiad annibynol, ond fel ansawdd yn hanfodi mewn sylwedd neu Fod anfeidrol. Ac nis gall y meddwl orphwys nes edrych ar anfeidroldeb fel priodoledd Duw, a'i berffeithiau gogoneddus. Mae yn wir mai llewyrch gwan yn nghanol byd o dywyllwch ydyw ein gwybodaeth o'r Anfeidrol. Gwendid dyn ydyw fod ei wybodaeth mor fach; ond ei nerth ydyw; ei fod yn wybodaeth, er mewn rhan, o'r Anfeidrol. Y mae ei wybodaeth yn fach, ond y mae ei gwrthddrych yn fawr. Fel canlyniad o'r anghyfartaledd sydd rhwng ein gwybodaeth eangaf â'i gwrthddrych Anfeidrol, y mae y meddwl yn ceisio ymwthio yn mhellach—yn mhellach i'r dwfn. Nis gallwn ymfoddloni ar ein cyrhaeddiadau presennol, pa faint bynag fyddont, ac nid yw yn debyg y gwel dyn adeg y bydd yn gallu ymorphwys ar yr hyn sydd ganddo. Mae hyn yn brawf, pa mor fach bynag ydyw dyn fel creadur, ei fod wedi ei greu gan Dduw anfeidrol, ac ar ei ddelw ei hun. Y tebygolrwydd cryfaf i'r Anfeidrol a ddichon fod mewn creadur ydyw ei ymestyniad diorphwys tuag ato, a'i fwynhâd o hono.

Addefir, gan hyny, nas gallwn amgyffred Duw: ond yr ymofyniad yw, A ydyw yn bossibl i'r gyfran fach hono o wybodaeth o'r Anfeidrol ag sydd o fewn ein cyrhaedd fod yn wybodaeth wirioneddol? A ydyw y syniad ammherffaith sydd genym o Dduw trwy natur, a rhagluniaeth, a'r Ysgrythyrau, er yn ammherffaith, etto, mor bell ag y mae yn cyrhaedd, yn gywir? Nid cwestiwn ydyw o berthynas i berffeithrwydd neu ammherffeithrwydd y dadguddiad o Dduw, mewn natur nac yn y Beibl; ond o berthynas i allu cynneddfau creadur i gyrhaedd gwybodaeth am Dduw, am yr Anfeidrol, ag sydd yn ol ei graddau yn cyfatteb i'w gwrthddrych. Y mae y cwestiwn mewn ffurf arall yn dyfod i hyn:—A ydyw cynneddfau dyn wedi cael eu cyfansoddi i adnabod pethau fel y maent? Nid ydynt yn gymmhwys i'w cynnwys yn gyflawn: ond i'r graddau y mae ein gwybodaeth yn myned, a ellir ymddiried ynddi fel gwybodaeth ddiledryw a didwyll? Gwelir fod yr ymofyniad yn y ffurf yma yn ymofyniad o barth i ddidwylledd ein cynneddfau deallol yn gyffredinol. A ydyw ein gwybodaeth o ysbryd yn wybodaeth wirioneddol, mor bell ag y mae hi yn myned? Yn gyffelyb, a ydyw ein gwybodaeth o gorff, o amser, a lle, felly? Un o osodiadau sylfaenol Hamilton yw, "fod ein gwybodaeth yn berthynasol i'n cynneddfau ein hunain." Dyma ychydig o'i eiriau ei hun ar hyn:—"Dyn," medd Protagoras, "ydyw mesur y bydyssawd; ac mor bell ag y mae y bydyssawd yn wrthddrych gwyb-



Digitized by Google

odaeth dyn, y mae yr haeriad, er mor wrthwynebol yr ymddengys, etto yn wirionedd. Pa beth bynag a wyddom, neu a allem ymdrechu adnabod, —Duw neu y byd, meddwl neu gorff, y pell neu agos—yr ydym yn eu gwybod; ac nis gallwn eu gwybod ond trwy gynneddf gyfaddas i hyny. Ac nis gallwn weithredu y gynneddf hono ond mewn darostyngiad i ddeddfau sydd yn ei llywodraethu. Pa mor fawr, ac anfeidrol, ac amrywiol, gan hyny, y dichon i'r bydyssawd, a phob peth sydd ynddo fod—y maent yn adnabyddus i ni, nid fel y maent yn bod ynddynt eu hunain, ond fel yr ydym ni yn alluog i'w hadnabod." Defnyddir yr athrawiaeth hon i geisio ein darbwyllo nas gallwn adnabod dim fel y mae ynddo ei hun, o herwydd nas gallwn adnabod dim ond trwy ein cynneddfau ein hunain. Cydnabyddir yn rhwydd nas gallwn adnabod dim ond trwy ein cynneddfau, megys na allwn weled dim ond drwy y golwg, na chlywed dim ond drwy y clyw. Ond nid yw yn canlyn oddi wrth hyn nas gallwn adnabod pethau mewn modd gwirioneddol, neu fel y maent. Onis gall fod ein cynneddfau wedi eu cyfansoddi i'w hadnabod felly? Y mae ein gwybodaeth yn cyfatteb i'r gwrthddrychau, ac yn cyfatteb i'n cynneddfau hefyd. Nid ydym wedi ein cyfansoddi i weled pethau yn amgen nag y maent. Nid yw gwybodaeth mewn rhan o angenrheidrwydd yn wybodaeth gyfeiliornus na thwyllodrus. Y mae yn wir, os cymmerir y wybodaeth mewn rhan am wybodaeth gyflawn, ei bod yn dwyllodrus; ond os cymmerir hi fel y mae, nid ydyw felly. Mae yn bossibl i ddyn adnabod lliw yr aur, a'i bwysau, heb feddu un syniad am yr ansoddau eraill sydd yn perthyn iddo. Ond nid yw ei wybodaeth yn llai cywir am ei liw a'i bwysau am nad yw yn gwybod chwaneg. Yn mhellach hefyd, yr ydym yn canfod pethau fel yr ydym, am eu bod fel y maent. Os gofynir pa fodd y gwyddom hyny, yr atteb ydyw, am fod ein hymwybyddiaeth yn dwyn tystiolaeth uniongyrchol i hyny. Ac nid oes gan ddim hawl i daflu ammheuaeth ar (na'i gosod o'r naill du) dystiolaeth ein hymwybyddiaeth. Y mae gwirionedd ein hymwybyddiaeth yn un o osodiadau sylfaenol athroniaeth Hamilton. Y mae ymwybyddiaeth yn meddu yr un anffaeledigrwydd mewn athroniaeth, ag ydyw y Beibl mewn duwinyddiaeth. Ond fel y mae yn bossibl camddeall y naill, felly y mae yn ddichonadwy camddeall y llall hefyd. Ond wedi deall y naill a'r llall yn iawn, nid oes dim a fedd awdurdod i wrthod eu tystiolaeth. Nid yw llais y meddwl yn fwy clir a phendant ar ddim, na'n bod wedi ein gwneyd i weled pethau, mor bell ag yr ydym yn eu gweled; a'u hadnabod, mor bell ag y gallwn eu hadnabod, fel y maent, ac nid yn wahanol; hyny yw, mewn modd gwirioneddol, ac nid twyllodrus. Yn ei gymmhwysiad at ein testyn presennol, yr ymofyniad ydyw, nid a allwn adnabod Duw yn gyflawn: addefir nas gallwn. Nis gall galluoedd meidrol gynnwys yr Anfeidrol. Ond a allwn ni adnabod Duw yn gywir i raddau ein hadnabyddiaeth o hono? Ai y *gwirionedd* ydyw yr hyn a ddadguddir i ni o Dduw, a'r hyn a ddichon cynneddfau meidrol ei dderbyn? Os nad ydyw yn cyfatteb o ran ei natur i'w wrthddrych, nid y gwirionedd ydyw; ond yr agosâd nesaf at y gwirionedd y dichon i ddyn ei dderbyn. Os felly, y mae yn ansicr o fewn pa raddau i'r gwirionedd y mae gwybodaeth. Ac os oes ansicrwydd ar hyn, y sydd yn bwnc sylfaenol, y mae cyrhaedd sicrwydd hollol ar grefydd, moesoldeb, a duwinyddiaeth, yn ammhossibl. Ni a roddwn ddyfyniad neu ddau i ddangos pa fodd yr edrychir ar hyn gan ddynion sydd heb fod yn cyttuno â Hamilton a Mansel:—"Oddi wrth wybodaeth ynom ni, yr ydym yn ymgodi at wybodaeth uwch law i ni: oddi wrth briodoliaethau moesol ynom, yr ydym yn ymgodi at ragoriaeth moesol uwch law i ni. Ar y ddau fater hyn, y mae egwyddorion Mansel yn hollol groes i argyhoeddiadau cyffredin dynion. Gwyddom yn sicr pa beth ydyw natur ddeallol a natur foesol. Y mae gwybodaeth a pherffeithrwydd moesol y Goruchaf yn anfesuradwy uwchlaw i'n syniadau uchaf ni. Ond y mae gwybodaeth, a phurdeb, ac uniondeb, a chariad, yn ansoddau gwirioneddol, yn annibynol ar raddau. Mae doethineb yn ddoethineb, uniondeb yn uniondeb, cariad yn gariad, pa faint bynag fyddo cylch eu gweithrediad. Nis gallaf amgyffred doethineb, nas gallaf osod terfyn iddi yn fy meddwl; ond pa beth ydyw doethineb, gallaf ddeall yn eglur, a gallaf hefyd ymgodi yn fy meddwl am gylch ei gweithrediad; ac os bydd iddi ymestyn etto yn annhraethadwy uwch law i fy syniad uchaf, doethineb sydd o hyd yn fy meddwl, er nas gallaf osod terfyn iddi. Y mae anfeidroldeb y tu hwnt i fy amgyffred:—ond nid yw doethineb ddim; nid yw priodoliaethau moesol ddim; nid yw natur ysbrydol ddim, yn yr hon y mae doethineb a phriodoliaethau moesol yn trigo. Ac wrth eangu cylch y priodoliaethau hyn, fel ag i'w gwneyd yn anamgyffredadwy, nid ydwyf yn difodi fy syniad am danynt; ond yn unig yn gwneyd chwanegiad mawreddog atynt."—*Dr. Young.*

Nid anfynych y clywyd yn mhulpudau Cymru y dywediad, fod ein gwybodaeth o Dduw yn nacaol, ac nid yn gadarnhaol; ein bod yn gwybod pa beth nad yw, yn hytrach na pha beth yw. Y cyfryw ydyw athrawiaeth Hamilton a Mansel ar hyn:—"Nid yw ein syniad am Fod Anfeidrol ond nacaol. Nis gallwn feddwl yn gadarnhaol ond am y meidrol. Y mae ffydd yn rhoddi sicrwydd i ni am Fod Anfeidrol, ond nid yw yn wrthddrych ein gwybodaeth. Y cam uchaf y dichon crefydd ei gymmeryd ydyw, codi allor i'r Duw nid adwaenir, ac nas gellir ei adnabod." Er fod hyn oll yn cael ei argymhell arnom gydag ymresymiad ac hyawdledd mawr, gydag awdurdod uchel, ac i'r diben o wrthsefyll rhesymoliaeth ac anffyddiaeth, etto nis gallwn lai na'i wrthod fel yn anghysson â gwir athroniaeth, ac â'r argyhoeddiad dyfnaf o eiddo y meddwl, a thystiolaeth Gair Duw. "Hyn yw y bywyd tragwyddol, dy *adnabod* di yr unig wir Dduw, a'r hwn a anfonaist ti, Iesu Grist."

VI. Ni a gyfeiriwn at yr Erthygl Achos, yn y gwaith hwn, am y modd yr ydym yn cyrhaedd syniad am achos, ac achos cyntaf. Dan y pen hwn etto, ni a ddywedwn fod ein gwybodaeth yn uniongyrchol ac yn gadarnhaol. Nis gall gyfnewidiad gymmeryd lle heb achos, ac nis dichon i ddyn ganfod cyfnewidiad heb deimlo fod achos iddo. Nid yw *gallu* neu *achos* yn beth i'w weled, nac yn wrthddrych y synwyrau corfforol; ond nid ydynt yn llai gwirioneddol er hyny. Nid trwy y synwyrau y mae ein holl wybodaeth yn dyfod. Un o'n teimladau cyntaf, sicraf, a mwyaf uniongyrchol yw y teimlad o ymwybyddiaeth neu grediniaeth mewn gallu neu achos. Ac felly y mae dyn yn ymgodi at yr achos cyntaf. Nis gallwn gredu fod yr achosion sydd yn disgyn dan ein sylwadaeth yn annibynol. Nis gallwn gredu am danom ein hunain ein bod yn hunanddibynol. Nid oedd y paganiaid yn gwneuthur

Digitized by Google

galluoedd natur yn dduwiau annibynol: er eu bod yn eu haddoli fel duwiau, credent mewn Tad i'r holl fân dduwiau. Y mae yr achosion sydd mewn natur yn meddu ar allu gwirioneddol, ond nid annibynol; felly yr ydym yn ymgodi at yr Achos Cyntaf sydd yn ffynnonell pob gallu, yn achos pob achos. Nis gallwn ymwrthod â'r grediniaeth. Y mae y greadigaeth yn llawn o amlygiadau o fwriad, ac yn yr amlygiadau hyn y mae y meddwl yn gweled Bwriadwr—y mae gweithrediad y meddwl yn hyn yn sicr ac yn uniongyrchol. Pe dywedid mai casgliad ydyw, y mae yn gasgliad anocheladwy. Y mae yn gweithredu gyda nerth a goleuni greddf. Y ddau brawf o fod Duw y mae Mansel yn gosod pwys arnynt, ydyw teimlad o ymddibyniad, a theimlad o rwymedigaeth foesol. Y ddau deimlad hyn ydyw ffynnonell ein hargyhoeddiad o fod Duw. Y maent yn brofion diammheuol o'i fod; ond y mae yr amlygiadau o fwriad mewn creadigaeth a rhagluniaeth yn ffynnonell hefyd i'r un sicrwydd. Ac onid yw yr amlygiadau o Dduw yn ei weithredoedd, ynghyd â'r teimlad o'n gwendid ein hunain yn foddion i ddeffro ynom y teimlad o ymddibyniad.

VII. Y mae genym adnabyddiaeth uniongyrchol o'r gwahaniaeth rhwng Da a Drwg, ac y mae y gwahaniaeth hwn mor annileadwy i feddwl dyn ag ydyw y gwahaniaeth rhwng gwirionedd a chelwydd. Y mae ansoddau moesol yn perthyn i weithredoedd, yn annibynol ar ganfyddiad a chymmeradwyaeth dyn o'r cyfryw. Fel y mae amser a lle yn perthyn i bethau, yn gystal ag i gyfansoddiad meddwl dyn, felly y mae drwg a da yn perthyn i weithredoedd. Y mae da a drwg hefyd yn anghyfnewidiol yn eu natur. Nis gallwn feddwl fod cyfiawnder yn bechod mewn unrhyw fyd, nac chwaith fod malais yn rhinwedd. Y mae yn briodol dyweyd ein bod yn credu hyn, ac hefyd ein bod yn gwybod hyn. Y mae y gwahaniaeth rhwng da a drwg yn wrthddrych mor uniongyrchol canfyddiad y meddwl, ag ydyw fod sylwedd yn angenrheidiol i ansawdd, ac achos yn angenrheidiol i effaith. Ond yn mhellach, y mae y meddwl, nid yn unig yn teimlo fod gwahaniaeth hanfodol rhwng da a drwg, ond hefyd ei bod yn *rhwymedigaeth* arnom i wneyd y naill ac osgoi y llall. Yn hyn y mae gwahaniaeth rhwng canfyddiad y deall a chanfyddiad y gydwybod. Nid oes rwymedigaeth yn perthyn i'r cyntaf; ond y mae i'r olaf. Gyda golwg ar yr olaf, dywedwn, *Y mae yn ddyledswydd arnom:—y mae yn iawn.* Y mae y cymmhelliadau a gyfeirir at y teimlad o ddyledswydd yn wahanol i'r cymmhelliadau a gyfeirir at ddymuniadau a blysiau yr enaid. Nid ydym yn teimlo un rhinwedd mewn cydymffurfio â chymmhelliadau yn codi oddi ar flys a chwant, nac un euogrwydd am eu gwrthsefyll. Y mae yn hollol wahanol pan y dywed y gydwybod fod unrhyw beth yn iawn. Yr ydym yn teimlo y dylem ei wneuthur, a'i fod yn bechod i ni beidio. Ar y tir yma y mae Butler yn dangos fod y gydwybod yn oruchaf yn mhlith cynneddfau cymmhelliadol yr enaid. Y mae hi yn llefaru âg awdurdod; yn gwobrwyo ufudd-dod, ac yn cospi anufudd-dod. Y mae rhwymedigaeth yn arwain at ddeddf, a deddf at lywodraethwr. Y mae cydwybod yn dwyn tystiolaeth i wirfoddolrwydd gweithred dda, ac hefyd i'w theilyngdod mewnol. Y mae ymwybyddiaeth dyn o wirfoddolrwydd gweithred yn hanfodol i'w daioni ac i'w theilyngdod. Y mae teilyngdod gweithred yn ansawdd sydd yn cael ei deimlo yn uniongyrchol, ac nis gellir ei holrhain yn ol at ddim mwy elfenol. Yr un mor uniongyrchol ydyw ein gwybodaeth o ansawdd foesol. Pe gofynid, pa beth ydyw rhinwedd, nid oes un atteb i'w roddi ond mai rhinwedd yw. Mae rhai wedi ceisio ei olrhain i wahanol bethau, a dweyd fod rhinwedd yn rhinwedd am ei fod yn cynnyrchu hapusrwydd; ereill, am ei fod yn cynnyrchu mantais, ac am wahanol resymau. Ond y mae pob ymgais o'r fath yn waeth nag ofer; y mae yn camarwain dynion. Nid oes reswm pellach i'w roddi na dywedyd fod sancteiddrwydd yn sancteiddrwydd, a daioni yn ddaioni. Y mae dyn yn meddu gwybodaeth am rinwedd a daioni ar unwaith; neu ni ddaw i'w meddu byth. Gwel Cydwybod; Moeseg.

Mae gwybodaeth dyn o briodoliaethau moesol yn wybodaeth *sicr a gwirioneddol*: ac mor bell ag y mae ein gwybodaeth yn myned, y mae yn cyfatteb i wybodaeth Duw am briodoliaethau moesol. Y mae Mansel yn gwadu hyn, a hyny ar y tir nas dichon i greadur feddu gwybodaeth hollol gywir am yr Anfeidrol. Fe ddywed, "fod moesoldeb perffaith yn cyfatteb i natur dragwyddol Duw; ond *pa beth* ydyw, nis gallwn ffurfio syniad, mwy nag y gallwn am un o briodoliaethau ereill Duw." Y mae atteb wedi cael ei roddi i hyn o'r blaen; ond gallwn ddywedyd etto, fod yr hyn sydd yn uniawn yn y nefoedd yn uniawn ar y ddaear; neu nad ydyw. Os ydyw, yna y mae rhinwedd dyn a sancteiddrwydd Duw yn cyfatteb mor bell ag y maent yn cydfyned. Ond os nad ydyw yr hyn a gyfrifir yn gyfiawn yn mysg dynion yn gyfiawn hefyd yn holl lywodraeth Duw, ac yn Nuw ei hun, yna y mae rhwyg yn llywodraeth Duw. Nis gall fod un casgliad mwy ofnadwy na hyn. Ni ddadleuir fod dyn yn amgyffred un briodoledd yn Nuw; ond fod ei wybodaeth, mor bell ag y mae hi yn myned, yn wybodaeth wirioneddol:—yr hyn nis gellir ei ddywedyd pe na byddai cyfattebolrwydd rhwng ei wybodaeth a'i gwrthddrych. Gwybodaeth felly ydyw gwirionedd. Yn y sylwadau blaenorol yr ydym wedi rhoddi enghreifftiau o'r hyn a elwir yn *wirioneddau cyntefig*. Y mae o bwys i wahaniaethu y cyfryw oddi wrth wirioneddau nas gellir eu hadnabod yn eu goleuni eu hunain, ond y fath ag y mae yn angenrheidiol dyfod â phrofion drostynt oddi allan iddynt eu hunain. Y mae rhai yn ceisio profi gwirioneddau nad oes brawf i gael drostynt, o herwydd nad oes dim yn fwy eglur na hwy eu hunain i'w profi trwyddynt. Ar y llaw arall, y mae gosodiadau na ddylid eu derbyn fel gwirionedd, heb eu profi felly. Y mae tynu y llinell rhwng y ddau ddosbarth yma o wirioneddau o'r pwys mwyaf er mwyn dangos sicrwydd a diamwadalwch ein gwybodaeth am lawer o wirioneddau sylfaenol mewn athroniaeth, moeseg, a duwinyddiaeth.

Y mae Syr W. Hamilton wedi gwneyd gwasanaeth neillduol i'r ganghen hon o athroniaeth trwy eangder ei ddysgeidiaeth, a threiddgarwch ei feddwl [*Hamilton's Edition of Reid, Note A*]. Rhoddir pedwar nôd ganddo ef i wahaniaethu gwirioneddau cyntefig.—1af, Y maent yn anamgyffredadwy; hyny yw, nis gellir dywedyd ond eu bod, ond nis gallwn ddyweyd pa ham na pha fodd y maent yn bod. Nis gellir rhoddi rheswm drostynt: y mae yn rhaid fod y rheswm yn eglurach na'r hyn a brofir. 2il, Y maent yn hunanbrofedig; hyny yw, mae y meddwl yn eu gweled

Digitized by Google

yn anuniongyrchol heb gyfrwng prawf oddi allan iddynt eu hunain 3ydd, Maent yn angenrheidiol; rhaid i ni gredu eu bod; y mae cyfansoddiad fy natur y fath, nas gallaf eu gwrthod. Yr ydwyf yn adnabod fy hunan, fel bod personol, ac nis gallaf ymwrthod â'r wybodaeth hono. Nis gallaf wrthod y grediniaeth fod i bob effaith achos. Nis gallaf roddi terfyn i eangder, na dechreu na diwedd i amser. 4ydd, Y mae cyffredinolrwydd yn nôd o'r cyfryw. Os bydd rhyw grediniaeth yn angenrheidiol, rhaid hefyd ei bod yr un modd yn gyffredinol; ac os bydd yn gyffredinol, rhaid ei bod yn angenrheidiol. Wrth ddyweyd fod crediniaeth o wirionedd yn gyffredinol, y meddwl yw, fod pawb sydd yn meddu ar ddeall, ac wedi cael galw eu sylw ato, yn ei dderbyn. Os bydd y ddau nôd o angenrheidrwydd a chyffredinolrwydd yn perthyn i unrhyw wirionedd, y mae yn rhaid fod y cyfryw yn wirionedd cyntaf, ac yn wrthddrych ymwybyddiaeth, neu farn, neu grediniaeth reddfol.

Y mae y darllenydd wedi sylwi ein bod yn defnyddio gwahanol eiriau, megys yn gyfystyr, i nodi allan weithrediadau y meddwl yn eu perthynas â'r gwirionedd cyntefig hyn. Oddi wrth y casgliad mawr o enwau o wahanol ieithoedd a wneir gan Hamilton, gwelir fod amrywiaeth mawr yn y modd y lleferir am y gweithrediadau hyn.

(1.) Yr enw mwyaf cyffredin yn mhlith athronwyr yr Alban am y gallu trwy ba un yr ydym yn canfod gwirioneddau cyntefig, ydyw *synwyr*, a *synwyr cyffredin*. Defnyddir y gair ganddynt hwy, nid yn yr un ystyr a synwyr y corff, na chwaith yn yr un ystyr a challineb naturiol, neu synwyr pen, ond yn gyfystyr âg ymwybyddiaeth; ac felly yn ffynnonell a dadguddiad gwirioneddau uniongyrchol. Fel y mae synwyrau y corff yn ddadguddiad uniongyrchol o'r byd allanol, felly y mae synwyr cyffredin yn yr ystyr dan sylw yn rhoddi i ni wybodaeth uniongyrchol o wirioneddau angenrheidiol. Mewn ystyr rhywbeth yn gyffelyb, defnyddir *synwyr moesol* am y gydwybod. Enw arall ar ein gwybodaeth uniongyrchol ydyw *intuitions, intuitive cognitions, notions, judgments.* Nis gwyddom y dichon i'r geiriau hyn gael eu troi i Gymraeg yn well na thrwy *ganfyddiad, gwybodaeth ganfyddiadol.* Ystyr cyntaf *intuition* ydyw canfyddiad allanol y golwg; ac oddi wrth y ffaith fod y canfyddiad hwnw yn uniongyrchol, nad rhaid defnyddio yr un rheswm i brofi fod ei wrthddrych yn bod, o herwydd y mae yn cael ei weled, y trosglwyddwyd y gair i ddynodi canfyddiad y meddwl o'r gwirioneddau hyny nad rhaid wrth un prawf eu bod, yn mhellach na'u bod yn cael eu gweled. Y mae priodoldeb y ddau air yma yn codi oddi ar eu bod yn dangos fod gweithrediad y gallu sydd yn dirnad gwirioneddau cyntaf yn uniongyrchol.

(2.) Y mae geiriau ereill yn nodi yr un gallu; ond mewn cyssylltiadau gwahanol. Er mwyn dangos fod y gwirioneddau hyn yn *anamgyffredadwy*, yn yr ystyr nas gallwn roddi rheswm drostynt, am eu bod i'w canfod yn eu goleuni eu hunain, gelwir y gallu i'w canfod yn *deimlad.* Pe gofynid pa fodd y gwn fod meddwl yn feddwl, ac nid yn ffurf o gorff, yr unig atteb y gallaf ei roddi ydyw fy mod yn *teimlo* fod meddwl yn feddwl, a chorff yn gorff, ac nas dichon i'r naill fod y llall, nac yn unrhyw ffurf o'r llall. Yn gyffelyb, defnyddir y gair *ffydd* neu *grediniaeth* yn fynych, gyda'r chwanegiad *naturiol, greddfol, cyntefig;* megys, *crediniaeth reddfol.* Yr ydym yn derbyn gwirioneddau cyntefig trwy ffydd naturiol. Yr wyf yn credu fod achos i bob effaith; a phe gofynid pa ham, ni byddai genyf i ddyweyd ond nas gallwn gredu yn wahanol. Neu, yr wyf yn *teimlo* bod, ac nis gallaf *deimlo* yn wahanol. Yn yr eithaf, gan hyny, rhaid i ni gymmeryd cysgod mewn teimlad, neu ffydd. Yn yr ystyr yma y dywedir "nad yw rheswm ond teimlad wedi ei ddadblygu." Dywed Awstin, "Yr ydym yn *gwybod* yr hyn sydd yn gorphwys ar *reswm;* ond yr ydym yn credu yr hyn sydd yn gorphwys ar *awdurdod.*" Ond rhaid i reswm ei hun orphwys yn y pen draw ar awdurdod; o herwydd nid yw rheswm yn gorphwys ar reswm yn yr eithaf; ond ar awdurdod, yr hwn sydd yn mhellach na rheswm. Felly yn yr eithaf, rhaid i athroniaeth addef fod ffydd wrth wraidd rheswm, yn hytrach na bod rheswm yn cynnal ffydd. Am nas gellir myned tu hwnt iddynt, gelwir hwynt hefyd yn *reddfau* y rheswm neu y deall; crediniaeth reddfol, gwybodaeth reddfol, &c. Am yr un rheswm, gelwir hwynt yn ffeithiau ein hymwybyddiaeth. Nid oes genym ond eu derbyn, o herwydd *ffeithiau* ydynt.

(3). Mewn trefn i osod allan *wreiddiolder* y gwirioneddau dan sylw, gelwir hwynt yn fynych yn wirioneddau, egwyddorion, elfenau, ffeithiau *cyntefig, gwreiddiol, eithaf,* &c. I'r un diben gelwir hwynt yn wirioneddau, neu egwyddorion *à priori*, mewn cyferbyniad i wirioneddau *à posteriori.* Yn yr ystyr hwn, y mae gwirioneddau *à priori*, yn arwyddo gwirioneddau sydd yn meddwl dyn yn flaenorol i brofiad, er mai trwy brofiad y maent yn cael eu dadblygu. Wrth wirioneddau *à posteriori*, y meddylir y cyfryw ag yr ydym yn ddyledus i brofiad yn hollol am danynt. Y mae ystyr arall hefyd i'r ymadroddion Lladinaidd hyn, ac ystyr hynach na'r un blaenorol. Defnyddir y cyntaf i arwyddo ymresymu oddi wrth achos at effaith; a'r olaf, ymresymu oddi wrth effaith at achos.

(4.) Er mwyn dangos fod y gwirioneddau hyn yn natur dyn yn wreiddiol, gelwir hwynt yn egwyddorion *natur*, goleuni *natur*, egwyddorion *cynnhenid, cynnwynol.*

(5.) I ddangos mor hanfodol ydynt i wybodaeth o bob natur, a phob gweithrediad o eiddo y meddwl, gelwir hwynt yn egwyddorion *sylfaenol* gwybodaeth, *deddfau crediniaeth* (*the laws of belief*), *elfenau hanfodol* meddwl neu reswm.

(6.) I osod allan eu cyffredinolrwydd, gelwir hwynt yn wirioneddau, &c., *cyffredinol.*

(7.) I ddynodi y gellir ymddiried ynddynt, gelwir hwynt yn *wirioneddau.*

(8.) Er mwyn dangos fod yn rhaid i egwyddorion ein gwybodaeth fod yn *wybodaeth;* gelwir hwynt yn *wybodaethau*, gyda llawer o chwanegiadau ansoddawl, megys gwybodaeth *reddfol, à priori,* &c., &c., *ymwybyddiaeth, ffeithiau ymwybyddiaeth; barnau, arwireddau,* (*axioms*); *syniadau rheswm,* gwirioneddau, egwyddorion rheswm. Defnyddir y gair *rheswm* mewn gwahanol ystyron am natur ddeallawl dyn yn gyffredinol, achos, cymmhelliad, prawf, a gallu ymresymiadol dyn; ond yn y lle hwn am y gallu i ganfod gwirioneddau cyntefig.

Dyma rai o'r prif eiriau ac ymadroddion a ddefnyddir yn enwau ar y gallu sydd gan ddyn i ganfod sylfeini cyntaf gwybodaeth, ac ar ba rai y mae pob gwybodaeth brofiadol a cheltyddydol, a phob ymresymiad, yn gorphwys.—*Aristotle, by G. H. Lewes,* 1864; *Dialogues of Plato* (wedi eu cyfieithu gan W. Whewell, D.D.); *Descartes's Discourse on Method, Edinburgh; Locke's Essay on the Human Understanding; Bacon's Advance-*

Digitized by Google

*ment of Learning; Bishop Berkeley's Principles of Human Knowledge; Hamilton's Edition of Reid; Kant's Critique of Pure Reason; Philosophy of the Inductive Sciences, by Whewell; Sir W. Hamilton's Lectures on Metaphysics; Metaphysics, in Encyc. Brit., by Mansel; Mansel's Bampton Lecture; Intuitions of the Mind, by M'Cosh; Dr. Young's Criticism of the Bampton Lect.; Calderwood on the Infinite.*

GWYBODAETH.—Gwel HOLLWYBODAETH. Defnyddir y gair am hollwybodaeth Duw (*Salm* xxxix. 2, 4): am y gallu i wybod "cariad uwchlaw gwybodaeth" (*Eph.* iii. 19): am yr hyn a wybyddir, *gwybodaeth*—gwybodaeth ammherffaith dyn (1 *Cor.* xiii. 9): adnabyddiaeth naturiol o Dduw trwy y greadigaeth (*Rhuf.* i. 21, 28): gwybodaeth gelfyddydol i wneuthur cywreinwaith (*Exod.* xxxv. 31); i ddeongli breuddwydion (*Dan.* v. 12): a gwybodaeth ysbrydol, seiliedig ar ffydd; "Mi a wn fod fy Mhrynwr yn fyw;" *Iob* xix. 35. Am y wybodaeth ysbrydol hon y dywedir, "Y mae genych chwi eneiniad oddi wrth y Sanctaidd hwnw, a chwi a wyddoch *bob peth*;" 1 *Ioan* ii. 20: hyny yw, pob peth angenrheidiol i'ch sefydlu yn y gwirionedd, ac i'ch diogelu rhag cyfeiliornadau dinystriol. Y mae gan y saint wybodaeth nad oes gan y byd: 1 *Cor.* ii. 14: "pob un a'r sydd yn pechu, nis gwelodd ef ac nis adnabu ef;" 1 *Ioan* iii. 6: "A'r rhai a adwaenant dy enw a ymddiriedant ynot;" *Salm* ix. 10: "Yr wyf yn cyfrif pob peth yn dom ac yn golled, er mwyn ardderchawgrwydd gwybodaeth Crist Iesu fy Arglwydd;" *Phil.* iii. 8. Gwneir gwahaniaeth rhwng gwybodaeth hanesiol a gwybodaeth ysbrydol. Gelwir y cyntaf yn "ffurf y gwybodaeth a'r gwirionedd;" *Rhuf.* ii. 20: a gosodir allan yr olaf trwy arogli, archwaethu, yn *Can. Sol.* i. 3; 2 *Cor.* ii. 14: profi; 1 *Pedr* ii. 3: a gweled; 1 *Ioan* iii. 6: i ddangos fod y wybodaeth a geir drwy ffydd yn uniongyrchol, profiadol, a sicr, fel y wybodaeth a dderbynir trwy synwyrau y corff. "A hyn yw y bywyd tragwyddol, iddynt dy *adnabod* di yr unig wir Dduw, a'r hwn a anfonaist ti, Iesu Grist;" *Ioan* xvii. 3. Cymdeithas â Duw ac â Christ trwy yr Ysbryd ydyw bywyd tragwyddol; ac y mae y gymdeithas hon yn gynnwysedig mewn adnabyddiaeth o hono. Nid oes neb yn adnabod Duw nac yn ei garu, ond sydd o Dduw (1 *Ioan* iv. 6, &c.), wedi ei eni o Dduw, ac yn aros ynddo. Y mae meddu ysbryd cydnaws â gwrthddrych yn anhebgorol mewn trefn i'w adnabod ac i'w garu. Y mae y byd fel y cyfryw wedi syrthio oddi wrth Dduw; ac o ganlyniad, dan lywodraeth casineb ato, a thywyllwch, anwybodaeth am dano ef ei hun, am yr hwn a anfonodd, ac am bawb sydd wedi ei eni o hono. Y mae meddu anian dduwiol yn hanfodol i'w adnabod, ac i'w garu: ond ar y llaw arall, y mae adnabyddiaeth gynnyddol o hono yn foddion i gryfhau tebygolrwydd iddo. Y mae adnabyddiaeth o Dduw, cariad ato, a chymdeithas âg ef, yn cyfatteb o ran eu graddau i'w gilydd. Y mae yr adnabyddiaeth o Dduw ag sydd yn fywyd tragwyddol yn codi o brofiad bywiol o gymdeithas âg ef. Y mae hanfod bywyd tragwyddol, fel y mwynheir ef gan gredinwyr, yn awr yn gynnwysedig yn yr adnabyddiaeth hon, ac y mae y mwynhâd perffaith o'r bywyd hwn yn ei gyflawnder, sef bod yn gyffelyb iddo, yn seiliedig ar ei *weled*, megys ag y mae 1 *Ioan* iii. 2; 2 *Cor.* iii. 18; 1 *Cor.* xiii. 12.

GWYDR. Nid ydys yn sicr pa bryd y darganfyddwyd y gelfyddyd o wneuthur gwydr. Dywed Pliny ei bod wedi cael ei darganfod trwy yr hyn a elwir yn ddamwain. Rhyw fasnachwyr, meddai, a gynneuasant dân ar y parth hwnw o lanau Phœnicia sydd yn gorwedd yn agos i Ptolemais, rhwng troed mynydd Carmel a Tyrus, yn y fan lle y mae afon Belus yn bwrw y tywod mân a ddwg i lawr gyda hi yn ei llwybr o'r mynydd; ond gan nad oeddynt yn meddu y taclau angenrheidiol i grogi eu llestri coginiol uwch ben y tân, hwy a ddefnyddiasant goed *nitre* i wneyd y diffyg i fyny. Yr oedd gwres y tân yn toddi y *nitre*, yr hwn a ddisgynai yn ddyferynau ar y tywod; ac yn y man, cynnyrchwyd ffrwd dryloew brydferth iawn. Hyn, meddir, a roddodd y drychfeddwl cyntaf i ddyn am wneuthuriad gwydr. Darfu i'r Sidoniaid, y rhai oeddynt yn trigo yn y gymmydogaeth, wneyd defnydd o'r darganfyddiad; ac wedi iddynt mewn amser berffeithio y gelfyddyd, ennillasant iddynt eu hunain gyfoeth ac enwogrwydd mawr. Efelychwyd hwy gan genhedloedd ereill; ac fe ddaeth y Rhufeiniaid, yn enwedig, i ddeall yn dda y gelfyddyd o chwythu, toddi, a lliwio gwydr. Fe ddyfeisiwyd hyd yn oed ddrychau gwydr gan y Sidoniaid. Y mae yr hanes yma, a roddir i ni gan Pliny, yn cael ei gadarnhau gan Strabo a Josephus; ond er gwaethaf y dystiolaeth eglur a geir gan yr awdwyr hyn, buwyd yn gwadu yn hir fod yr hynafiaid yn gwybod dim am wydr. Modd bynag, y mae ein gwybodaeth ynghylch yr Aipht wedi penderfynu y pwnc yn ddigon boddhaol. Y mae Wilkinson, yn ei lyfr ar yr "Hen Aiphtiaid," yn dwyn tystiolaeth gyflawn ac eglur fod gwydr yn cael ei wneuthur gan y bobl gelfyddgar hyny yn un o gyfnodau boreuaf eu bodolaeth fel cenedl. Y mae yn ymddangos eu bod yn gwybod am y gelfyddyd o chwythu gwydr er's dros 3,500 o flynyddoedd yn ol—yn amser teyrnasiad yr Osirtasen cyntaf. Mae y modd yr oeddynt yn chwythu y gwydr yn cael ei arddangos ar arluniau o waith Beni Hassan (megys y gwelir yn y darlun isod), wedi eu paentio yn nheyrnasiad y brenin hwnw.



Dar. 351.

Yr oedd lluniau priddlestri wedi eu gwydrolchi yn yr un cyfnod yn bethau pur gyffredin. Gwnaed addurniadau o wydr ganddynt tua 1,500 o flynyddoedd c. c.; o blegid daethpwyd o hyd i lain (*bead*) o'r dyddiad hwnw, ac yn ei natur o'r un gwneuthuriad a'n gwydr ffenestri goreu ni —sef y *crown glass*. Cafwyd amryw o gostreli gwydr, &c., mewn hen gladdfeydd Aiphtaidd, a rhai o honynt yn dwyn arwyddion o henaint mawr. Defnyddiwyd llestri gwydr i ddal gwin

mor bell yn ol a mynediad yr Israeliaid allan o'r Aipht. Mor gywrain ydoedd yr Aiphtiaid yn y gelfyddyd o wneuthur gwydr, fel y llwyddasant i'w werthu yn fynych yn lle yr améthyst, a meini gwerthfawr ereill. Y mae Winckelman yn barnu fod gwydr yn cael ei ddefnyddio yn amlach yn yr hen, nag yn yr amseroedd diweddar. Defnyddid ef weithiau gan yr Aiphtiaid hyd yn oed i wneuthur eirch. Yr oeddynt yn ei ddefnyddio, nid yn unig i wneyd diodlestri ac addurniadau i'r corff, ond hefyd i wneyd brithwaith (*Mosaic work*), ffugr-dduwiau, ac arwyddluniau cyssegredig, o'r creffwaith mwyaf cywrain a destlus, a'u lliwiau yn hynod o ddysglaer. Yr oedd y gelfyddyd o dori gwydr yn adnabyddus iddynt er yn fore iawn; ac i'r dyben yma, fel y dysgir ni gan Pliny, yr oeddid yn arfer y diamond. Fod gan yr hynafiaid ddrychau o wydr sydd amlwg oddi wrth yr hyn a ddywed Pliny wrthym [*Hist. Nat.* xxxvii. 4]; ond y mae y drychau a ddarganfyddwyd yn yr Aipht wedi eu gwneyd o fetel cymmysg—copr yn benaf. Yr oedd yr Aiphtiaid wedi llwyddo i drin meteloedd mor gywrain, fel yr oeddynt yn medru eu caboli i'r fath berffeithrwydd nad ydys yn awr yn gallu ei gyrhaedd ond mewn rhan. Yr oedd y drych braidd yn grwn, â chanddo glust o bren, careg, neu fetel. Yr oedd y ffurf yn amrywio yn ol chwaeth y meddiannydd. Defnyddid yr un math o ddrychau metel gan yr Israeliaid, y rhai yn ddiammheuol a'u dygasant gyda hwy o'r Aipht. Yn *Exod.* xxxviii. 8, dywedir yn bendant fod Moses wedi gwneuthur "noe bres, a'i thraed o bres, o ddrychau (drychau pres gwragedd)."

Buasai yn rhesymol i ni dybied fod yr Israeliaid wedi derbyn eu gwybodaeth am y modd i wneuthur gwydr yn yr Aipht, oni bai fod tystiolaeth hanesiaeth yn dyweyd wrthym mor bendant ei fod wedi cael ei ddarganfod a'i wneuthur ganddynt o fewn eu tiriogaeth eu hunain. Pa un a ddefnyddiwyd ef ganddynt i wneyd drychau, sydd bwngc arall. Y mae yn ymddangos, modd bynag, tu hwnt i ddadl, fod gwydr yn beth adnabyddus i'r Israeliaid. Credir fod y gair Hebraeg am *grisial* yn *Iob* xxviii. 17, yn golygu gwydr.

Yn y Testament Newydd, cyfeirir at wydr fel arwyddlun o burdeb a gloewder: *Dad.* iv. 6; xv. 2; xxi. 18. Y mae y gair yn cael ei grybwyll hefyd mewn tri lle arall: 1 *Cor.* xiii. 12; 2 *Cor.* iii. 18; *Iago* i. 23. Gwel DRYCHAU. Y mae yn ymddangos yn hynod, er fod gallu adlewyrchol gwydr yn hysbys i'r hynafiaid, ac er fod y Sidoniaid wedi ei ddefnyddio i wneyd drychau, nad oedd drychau gwydr yn bethau mwy cyffredin yn eu plith, gan fod rhai mettel yn llai perffaith, yn fwy costus, ac yn fwy anhawdd i'w cadw mewn cyflwr addas i'w defnyddio.

Y mae y gelfyddyd o wneuthur gwydr wedi cyrhaedd graddau uchel iawn o berffeithrwydd erbyn hyn. Y mae pum math o wydrau yn cael eu gwneyd yn y Deyrnas Gyfunol, ac adnabyddir hwy wrth yr enwau canlynol:—*crown-glass, plate-glass, flint-glass, broad-glass, a bottle-glass.* Y mae eu defnyddiau yn gwahaniaethu; ond y maent i gyd yn cynnwys tywod, ac amrywiol fathau o gyfferiau. Toddir y defnyddiau ynghŷd mewn ffwrneisi, am ddeugain o oriau; ac yna tywelltir ef i'r ffurf a ddewisir: ond bydd wedi hyny yn myned o dan lawer o driniaethau yn ol fel y bydd i atteb gwahanol ddibenion. Y mae prif weithfeydd gwydr y wlad hon yn Newcastle-upon-Tyne, Shields, Stourbridge, Liverpool, Ravenhead, Bristol, Warrington, Birmingham, Leeds, Llundain, Glasgow, Leith, Dublin, Cork, a Belfast.

Y mae cryn amser er pan y defnyddir gwydr i'w osod mewn ffenestri, o leiaf yn ngogleddbarth a gorllewinbarth Ewrop. Yn y flwyddyn 674, daeth celfyddydwyr o wledydd tramor i wydro ffenestri Eglwys Weremouth, yn Durham; a hyd yn oed yn 1567, cyfyngwyd y dull yma o gau allan oerni o dai annedd i balasdai mwyaf urddasol y deyrnas. Yn mhen canrif ar ol hyny, yr oedd gwydro ffenestri yn beth mor anfynych yn Ysgotland, fel nad oedd gwydr i'w weled ond yn ffenestri ystafelloedd uchaf y palasau brenhinol. Cauedyddion (*shutters*) coed oedd ar ffenestri yr ystafelloedd isaf, i ollwng neu i gau yr awyr allan. Ond yn awr, nid ydyw ffenestri y bythynod tlotaf yn y tir heb eu gwydro; ac y mae yn debyg nad oes dim yn cael ei ddefnyddio yn fwy cyffredinol yn yr oes hon na gwydr; a gellir ei ystyried fel un o'r nwyddau gwerthfawrocaf yn ein meddiant.

**GWYDD—OR—IAETH—ION,** (*gwydd*—deall, addysg, gwybodaeth).

"Dywed weithian, dad ieithydd,
Dy feddwl ym, da foddawl *wydd*, &c."

Declare then now, father of languages, thy mind if of well cultured *knowledge*, &c.

W. CYNWAL.

Y gair Saesneg am gwyddor neu gwyddoriaeth yw *science;* o'r Lladin *scientia*, yr hwn ni olygai ar y cyntaf ond *gwybodaeth*, o ba natur bynag. Nid oedd y Saesneg (*science*) yn cynnwys unrhyw ystyr arall, o leiaf mor ddiweddar a dechreu y canoloesoedd, o blegid yr ydym yn cael ar sefydliad cyntaf prifysgolion, fod elfenau addysg yn cael eu cynnwys o dan yr enw *celfyddydau breiniol;* pa rai a renid i ddau ddosbarth, sef y *trivium*, yr hwn a gynnwysai ramadeg, rhesymeg, ac areithyddiaeth; a'r *quadrivium*, rhifyddiaeth, mesuroniaeth, seryddiaeth, a cherddoriaeth. Yn bresennol y mae celfyddyd a gwyddoriaeth yn briodol yn enwau ar ddosbarthiadau gwahanol o wybodaeth. Pa beth a achosodd gymmhwysiad y geiriau hyn at fathau neillduol o wybodaeth, y mae yn anhawdd penderfynu.

Wrth wyddoriaeth, mewn cyferbyniad i gelfyddyd, y deallir, cyfundraeth o wirioneddau a benderfynir gyda sicrwydd, neu o leiaf gyda llawer o debygolrwydd, oddiar egwyddorion a osodir i lawr, ac a ddeallir yn flaenorol, yn annibynol ar dystiolaeth y gwirioneddau eu hunain. Er enghraifft, gallesid gosod ynghyd holl ranau y pellwelyr (*telescope*) yn ddamweiniol (yr hyn orchwyl fuasai yn perthyn i *gelfyddyd*); ond buasai modd dyweyd yn mlaen llaw, y buasai offeryn o natur y pellwelyr yn cynnyrchu yr effeithiau y gwyddys ei fod yn eu cynnyrchu, heb ei weled mewn gweithrediad, a hyny oddi wrth natur elfenau syml a hanfodol goleuni. Cael gafael ar yr elfenau neu yr egwyddorion sylfaenol hyn ydyw gorchwyl gwyddoriaeth. Fel yna, yn gyffredin, y mae yr hyn sydd yn *egwyddor* mewn gwyddoriaeth yn dyfod yn *weithred* mewn celfyddyd. Fe ddylid sylwi, pa fodd bynag, nad ydyw pob cangen o wybodaeth, a elwir *gwyddor*, yn cyfatteb yn hollol i'r deffiniad uchod o wyddor. Nid yw meddygiaeth, milofyddiaeth (*zoology*), a daeareg felly. Y mae yn mhob un o'r rhai yna lawer o drefnu a dosbarthu wedi ei wneud, a llawer o egwyddorion wedi éu gosod i lawr, y rhai sydd yn ymddangos yn hollol gymmhwysiadol; ond nid oes un o honynt er hyny yn wyddor yn yr ystyr y mae seryddiaeth felly.

Wrth wyddoriaeth, mewn cyferbyniad i len-

Digitized by Google

yddiaeth, y golygir unrhyw gangen o wybodaeth yn mha un y gwneir arddangosiadau meddyliol neu faterol yn destyn ymchwiliad, i'r diben o ddarganfod a chymmhwyso egwyddorion cyntaf neu sylfaenol. Gwel LLENYDDIAETH.

Y mae gwyddoriaeth yn rhanedig i dri dosbarth: gwyddoriaeth feddyliol neu uchanianol, (*mental or metaphysical*), gwyddoriaeth rhif a mesur (*mathematical*); a gwyddoriaeth naturiol, (*natural science*).

1. Y mae y gyntaf yn ymdrin âg egwyddorion y meddwl, cymdeithasiad meddylddrychau, y côf, &c.; ac yn rhanedig eilwaith i ddwy ran:—*moesol* (*ethical*); trwy yr hon yr eglurir egwyddorion y meddwl, nid yn yr hyn ydynt yn naturiol, ond fel y maent yn tueddu at ddrwg a da—yn ein dysgu pa beth i'w wneud, a pha beth i'w ochelyd: a *meddyliol*; yr hon sydd yn ein dysgu am yr hyn ydyw y meddwl ei hun o ran ei gyfansoddiad neu ei natur.

2. *Gwyddoriaeth rhif a mesur* (*mathematical science*), yr hon sydd yn ymdrin â swm, maintioli, a rhif, neu unrhyw beth y gellir ei fesur neu ei rifo. Y mae y wyddor hon yn rhanedig i ddwy ran:—1. *Pur;* yr hon sydd a wnelo hi â swm ynddo ei hun, ar wahân oddi wrth sylwedd, neu yr hyn sydd yn gwneud i fyny y swm; ac yn cynnwys rhifyddiaeth, mesuroniaeth, a dosraniad (*analysis.*) 2. *Cymmysgedig;* yr hon sydd yn ymdrin â swm, neu faintioli, fel y mae yn gynnwysedig mewn sylweddau; a'r hon sydd, o ganlyniad, yn gymmhlethedig âg ystyriaethau anianyddol. Y mae llawer o egwyddorion seryddol, a thremyddol, (*optical*), wedi eu cadarnhau a'u hegluro drwy ymresymiad yn y wyddor hon. Gwel RHIF A MESUR.

3. *Gwyddoriaeth naturiol.* Yn ei ystyr eangaf, mae yr ymadrodd hwn yn cynnwys pob gwybodaeth a ellir ei gael am sylweddau allanol neu naturiol. Ond rhenir gwyddoriaeth naturiol i dri phrif ddosbarth; *anianaeth* (a elwir weithiau *athroniaeth naturiol*), *fferylliaeth*, a *hanesyddiaeth naturiol.* Diben anianaeth ydyw chwilio i mewn i deithi cyffredin sylweddau, eu gweithrediadau y naill ar y llall, eu hachosion, eu heffeithiau, eu hymddangosiadau, a'u deddfau. Amcan fferylliaeth ydyw gwneuthur ymchwiliad i ansoddau neillduol sylweddau, eu hegwyddorion cyfansoddiadol, a'u cyssylltiadau. A gorchwyl hanesiaeth naturiol ydyw egluro eu hymddangosiadau allanol, eu dosbarthu a'u trefnu.

GWYDDWALCH [פרס=*ysigo* neu *dori;* Ll., *ossefraga; os*, asgwrn; *fraga*, tōri=*torwr esgyrn*], enw un o'r adar aflan o dan y gyfraith. *Lef.* xi. 13; *Deut.* xiv. 12.

Y gair sydd yn dygwydd yn y cyfieithiad Arabaeg ydyw *ocab*, yr hwn a gyfieithir gan Bochart, "yr eryr du," wrth yr hwn y gellir mor briodol ddeall y *môr-wennol* y sonir am dani yn yr un adnod. Y mae y gair *ocab*, mewn ysgrifau ereill Arabaeg, yn myned am ddosbarth yr eryr yn gyffredinol.

Ymddengys nad ydyw yr Hebraeg *peres* yn cyfeirio at unrhyw aderyn yn arbenig: ond yn unig golyga fod ganddo "gylfin neillduol o blygedig," a bod y nodwedd o "dori" neu "ysigo" yn perthyn iddo.

Syniad cyffredin ydyw, mai eryr mawr y môr a olygir; ond dadleuir nas gall y nodwedd arbenig o "dori" neu "ysigo," ac yn ol y Lladin o *dori esgyrn*, yn perthyn i un o eryrod y môr; o blegid yn 1. Ymborthant gan mwyaf ar bysgod, ac nid ydyw yr esgyrn a lyngcir ganddynt o honynt hwy ond bychain, a difaeth. 2. Er eu bod yn ymborthi yn achlysurol ar adar, nid yw yn debygol yr ymborthant ar esgyrn y rhai hyny, gan nad oes ynddynt ddim mêr. Hefyd, dywedir nad yw yn debygol fod unrhyw aderyn yn ymborthi ar esgyrn creaduriaid gwaed-gynnhes, y rhai y mae maeth ynddynt. Byddai yn rhaid iddo, o leiaf, wneyd hyny â'r gylfin; ac nid yw hon yn y cryfaf o honynt wedi ei ffurfio ond i daraw, rhwygo, neu ddal gafael yn yr hyn a ddelo o'i mewn. Yr aderyn sydd yn atteb oreu i'r nodwedd a enwyd, torwr esgyrn, ydyw y *gypaetos barbatus*, neu y *lammergeyer.* Yr enw a roddid arno gan



Dar. 352.—YR WYDDWALCH.

y Groegiaid Hellenaidd ydoedd *phene*, ac y mae Savigny yn profi mai yr un aderyn ydyw a'r *ossifraga*, neu wyddwalch y Rhufeiniaid. Gelwir ef yn fynych y fwltur barfog. Y mae y dosbarth y perthyna iddo yn ffurfio cadwen rhwng yr eryr a'r fwltur. Ei hyd, o flaen ei gynffon i'w gylfin, ydyw o ddeutu pedair troedfedd; ac o flaen y naill aden i flaen y llall, mesura naw neu ddeg troedfedd. Nid yw ei ben a'i wddf fel y fwltur, yn noeth, ond wedi ei orchuddio â phlu gwynion, culion; ac o dan ei ên y mae barf o flew garw. Ar ei ysgwyddau y mae ystripiau o wŷn. Mae ei war, ei gluniau, a'i goesau, o liw rhwd gwelw, ei fysedd o liw glas, a'i ewinedd yn gryfion; ond y mae y gweddill o'i blu yn mron yn dduon. Y mae yn preswylio yn mynyddoedd uchaf Asia, Ewrop, ac America. Yn wahanol i eryrod yn gyffredin, yn hytrach na chymmeryd ei ysglyfaeth i fyny yn ei ewinedd, ymddengys mai ei arferiad ydyw ymlid yr afr wyllt, geifr a cheirw y mynyddoedd a'r creigiau, &c., hyd nes y syrthiant, neu yr hyrddir hwy gan adenydd cryfion yr aderyn dros ddibynau y creigiau, i'w malurio yn chwilfriw yn y gwaelod, ac mai felly y derbyniodd yr enw o "dorwr esgyrn." Ond gallem feddwl ei fod yn teilyngu yr enw mewn modd mwy arbenig; o blegid sicrheir ni gan Simpson, yn ei hanes dyddorol am y *lammergeyer*, ei bod yn arferiad ganddo, nid yn unig hyrddio ceirw, ŵyn, ac hyd yn oed dynion, dros y creigiau, ond cymmeryd i fyny yn uchel i'r awyr eu hesgyrn, ac esgyrn wedi tynu y cig oddi arnynt gan adar ysglyfaethus ereill, ac yna eu disgyn ar gareg neu graig yn y gwaelod, er mwyn eu tori, a'u gwneyd yn fwy cymmhwys i'w treulio.

GWYFYN, (*gwyn*). Y mae Cuvier yn rhannu

Digitized by Google

y trychfilod i ddeuddeg dosbarth (*order*). Perthyna y gwyfyn i'r trydydd teulu yn y degfed dosbarth; sef dosbarth y glöyn byw. Cyfrifir gan Linnæus bedwar cant o rywogaethau o honynt. Y maent yn ehedeg bob amser yn min neu dywyll y nos.

Y ffurf gyntaf ar y gwyfyn ydyw yr ŵy. Pan y deorir ef o'r ŵy, y mae yn cymmeryd ffurf y *caterpillar* neu y pryf. Y pryd hyn y mae yn feddiannol ar amryw barau o draed; sef, o bump i wyth yn gyffredin; a gwisgir ef â'r *cocoon*—rhyw ddefnydd sidanaidd gweuedig. Yn y cyflwr hwn y mae yn nodedig o ddinystriol i blanhigion, a dilladau, &c. Y mae wedi hyny yn cael ei orchuddio â rhyw ddefnydd gloew, madruddawg; yr hwn a orchuddir, mewn rhai amgylchiadau, â blew. Y pryd hyn y mae mewn cyflwr o ddideimladrwydd hollol: nid oes ganddo draed nac adenydd, nac offerynau i gymmeryd ymborth. Yn y cyfamser, y mae yn cael ei gynnysgaeddu â chynneddfau y gwyfyn perffaith. Wedi cyrhaedd yr ystâd hon, y mae ganddo yn gyffredin chwech o goesau, dau *antennæ*, neu gyrn bychain yn dyfod oddi wrth y ddau lygad; ynghylch diben y rhai y mae naturiaethwyr yn methu cyttuno. Dywed rhai mai offerynau i deimlo neu i arogli ydynt; ereill, mai i glywed y maent. Y mae ei ddau lygad yn cael eu gwneuthur i fyny o lugellau (*lenses*) chwechonglog. Y mae ganddynt bedair o adenydd, y rhai a orchuddir â chen, cyffelyb i bowdr. Y mae rhai o honynt yn ymborthi ar ddail, ereill ar goed pydredig, ereill ar sylweddau anifeilaidd; ac y maent yn bur ddinystriol i blu, brethynau, a ffwrw (*furs*).

Y gwerthfawrocaf o'r cyfan ydyw gwyfyn y *sidan*. Y mae y sidan yn cael ei weu ganddo pan yn bryf. Byddai dangos gwerth y creadur bach hwn yn ormod gorchwyl; ond os mynwn ffurfio rhyw fath o syniad am ei werth, rhaid edrych nid yn unig ar brydferthwch a drudfawredd y defnydd a gynnyrchir ganddo, ond hefyd ar y miloedd o'n cyd-ddynion a gyflogir i weithio y defnydd hwn i wisgoedd. Ymddengys mai y Chineaid oedd y rhai cyntaf a ddechreuasant ei fagu. Tynwyd sylw dau fynach Groegaidd o genhadon ato; a dygasant hwythau rai o'r ŵyau drosodd i'r ymherodraeth Rufeinig, yn y flwyddyn 552. Y mae yn adnabyddus yn awr mewn llawer o fanau yn yr India, a deheudir Ewrop yn mron yn gyffredinol. Yn ein gwlad ni, deorir yr ŵyau yn gynnar yn mis Mai, ac yn ystod o ddeutu wyth o wythnosau, y mae yn dyfod yn wyfyn perffaith. Ei fwyd priodol ydyw dail y merwydd (*mulberry*); ond bwyty y letys, a dail ereill hefyd. Nid yw yn byw ond ychydig; y mae y fenyw yn fynych yn marw yn ebrwydd ar ol dodwy ei hwyau, a'r gwryw yn fuan ar ei hol. Gwel Sidan.

Un nodedig am ei synwyr anifeilaidd ydyw gwyfyn y dwfr, (*water-moth*). Preswylfa hwn ydyw y gwelltyn, yr hwn a drefnir ganddo yn y fath fodd ag i nofio ar y dwfr yn wastadol. Os bydd yn rhy drwm i'r gwelltyn, y mae yn ei gyssylltu â gwelltyn arall, neu â darn o bren; ac os bydd ei hun yn rhy ysgafn i'r "cwch," y mae yn gosod ychydig o rafael arno, i drymhau y llwyth.

Ond efallai mai y rhyfeddaf o'r holl deulu ydyw gwyfyn y dillad. Cynnyrchir ef mewn edafedd, a dilladau; i ba rai y mai yn nodedig o ddinystriol. Mor fuan ag y deorir ef o'r ŵy, gesyd ei hun i weithio. Pa ddilledyn bynag y digwydd iddo fod ynddo, y mae yn tori darn o hono; a chan gyssylltu yr ystlysau â math o sidan o'i waith ei hun, ffurfia bibell gron, i'r hon yr ä i breswylio, gan ei chludo i'w ganlyn; ac yna bwytty cymmaint ag a all o'r gweddill o'r dilledyn. Fel y mae yn tyfu, y mae ei wisg yn myned yn rhy fach iddo. Ond nid ydyw yn ei rhoddi o'r neilldu; y mae yn ei thori ar hyd y cefn, ac yna yn rhoddi darn ynddi. Os digwydd i'r gôb fod o frethyn du, ac iddi fod yn angenrheidiol i'w darnio pan y bydd ef wedi symmud ar frethyn coch, rhydd ddarn o'r defnydd hwnw ynddi, a chwanega at ei hyd yn yr un modd. Nid ydyw yr ymddangosiad allanol o nemawr bwys ganddo ef.

Yn mhob amgylchiad, oddi gerth dau (*Iob* iv. 19; xxvii. 8), lle y cyfeirir at y creadur hwn yn yr Ysgrythyr, ymddengys mai gwyfyn y dillad a olygir. Yr oedd cyfoeth yr Iuddewon yn cael ei wneyd i fyny mewn rhan fawr o ddilladau gwerthfawr; yr hyn yw y rheswm fod dinystriadau y gwyfyn mor fynych yn cael son am danynt: *Iob* xiii. 28; *Salm* xxxix. 11; *Esa.* i. 9, a li. 8; *Hos.* v. 12; *Mat.* vi. 19, 20; *Luc* xii. 13. Nis gellir sicrhau at ba un yn neillduol y mae Iob (xxvii. 18) yn cyfeirio; ond gellir ei gymmhwyso yn briodol at weithrediadau gwyfyn y dillad. Y mae *Iob* iv. 19, wedi derbyn gwahanol esboniadau. Cyfieitha rhai yr ymadrodd hwn—"Y rhai a falurir yn gynt na gwyfyn," "Y rhai a ddifethir fel y difetha y gwyfyn (y dilledyn)." Ereill, "Y rhai a falurir fel y malurir y gwyfyn egwan:" yr hyn yw yr esboniad mwyaf naturiol. Tybia rhai fod y gair a gyfieithir "rhwd" (*Mat.* vi. 19), yn golygu rhyw fath o wyfyn. Sonia Küinoel am y "*curculio*, neu bryf yr ŷd" (math o wyfyn yn ei sefyllfa fagïol), oedd yn difetha llawer o ŷd yn y dwyrain: cymh. *Ioel* i. 4. Yr oedd cyfoeth yr Iuddewon yn gynnwysedig i raddau mewn ŷd: *Luc* xii. 18—24. Wrth *Hos.* v. 12, "Am hyny y byddaf fel gwyfyn i Ephraim," yn ddiammheuol y golygir y dinystrid ef fel y dinystria y gwyfyn y dilledyn."

Y mae y gwyfyn, fel y gwybedyn, &c., mewn modd anuniongyrchol yn dysgu gwersi buddiol; megys glanweithdra a diwydrwydd. Nid ydyw y gwyfyn un amser yn dodi ei ŵyau ond mewn dilladau a esgeulusir ac a gedwir yn fudron.

Ystyr ffugrol y gair *gwyfyn* ydyw, yr hyn sydd yn ddystaw yn bwyta, neu yn dyfetha unrhyw beth. Yn yr ystyr hwn y mae y diogyn yn wyfyn i'r ddynoliaeth.

GWYL—IAU [*gwel*—arddangosfa]: dydd o orphwysiad neu o lawenydd crefyddol neu wladol. Ein hamcan yn yr erthygl hon fydd rhoddi rhestr o'r gŵyliau Iuddewig yn y drefn y dygwyddent, ynghyd â gwneuthur rhai sylwadau cyffredinol arnynt. Am wybodaeth bellach, gweler yr erthyglau ar y gŵyliau ar wahân.

Gellir rhanu y gŵyliau a osodasid dan y gyfraith i dri dosbarth:—1. Y gŵyliau oedd yn dal cyssylltiad arbenig âg ordeiniad y Sabbath. 2. Y gŵyliau arbenig neu hanesiol. 3. Dydd y Cymmod.

I. Y gwyliau oedd yn dwyn perthynas uniongyrchol âg ordeiniad y Sabbath.

1. Y Sabbath ei hun; neu, y seithfed dydd.
2. Y seithfed newydd-loer,[1] neu Gŵyl yr Udgyrn, yr hon a ddygwyddai ar y dydd cyntaf o'r seithfed mis, Tisleri (*Hydref*).
3. Y flwyddyn Sabbathol. Fel yr oedd cyfnod

[1] Cynnelid gŵyl y newydd-loer ar y dydd cyntaf o bob mis; ond ar y seithfed mis, chwanegid amryw ddefodau at ddefodau arferol yr ŵyl.

o saith niwrnod yn cael ei derfynu gan y Sabbath, felly yr oedd cyfnod o saith mlynedd yn cael ei derfynu gan y *Flwyddyn Sabbathol*, yr hon a ddechreuai ar y dydd cyntaf o'r seithfed mis.

4. Blwyddyn yr Iwbili. Yr oedd yr Iwbili yn canlyn saith o flynyddoedd Sabbathol; *h.y.*, dygwyddai bob hanner can mlynedd.

II. Y gŵyliau arbenig neu hanesiol; a elwir felly am eu bod wedi eu sefydlu i'r diben o adgofio tri dygwyddiad pwysig yn hanes y genedl:—

1. Y Pasc, neu ŵyl y Bara Croyw, yr hon a gynnelid dros saith niwrnod; sef, o'r 15fed hyd yr 21ain o Abib, neu Nisan (*Ebrill*).

2. Gŵyl y Pentecost, yr Wythnosau, y Cynhauaf gwenith, neu y Blaenffrwyth. Cyfrifid naw niwrnod a deugain, neu saith wythnos, o'r 16eg o Abib (sef yr ail ddiwrnod o ŵyl y Pasc), yr hyn a'u dygai at y Pentecost, neu yr *hanner canfed*.

3. Gŵyl y Pebyll, a gedwid dros saith niwrnod; sef, o'r 15fed hyd y 23ain o Tisleri.

III. Dydd y Cymmod; sef, y degfed dydd o'r seithfed mis, neu Tisleri.

Ar bob un o'r gŵyliau hyn, oddigerth yr olaf, yr oedd gorchymyn i holl wrywiaid Israel "ymddangos ger bron yr Arglwydd;" hyny ydyw, rhoddi eu presennoldeb yn nghyntedd y tabernacl, neu y deml, i aberthu i'r Arglwydd mewn llawenydd: *Deut.* xxxii. 7; *Neh.* viii. 9—12. Yr oedd y gwragedd at eu rhyddid; ond byddai y rhai selog o honynt yn fynych yn myned i fyny. Elai Mair yno (*Luc* ii. 41), a Hannah (1 *Sam.* i. 7; a ii. 19). Yr oedd yr Iuddewon yn fwy rhwymedig i gadw y Pasc nag unrhyw ŵyl arall; ac felly yr oedd darpariaeth ar gyfer y rhai oeddynt, o herwydd amgylchiadau anocheladwy, neu ammhuredd yn ol y gyfraith, yn analluog i roddi eu presennoldeb mewn amser priodol i gadw y Pasc ar yr un dydd o'r *mis canlynol*: *Num.* ix. 10, 11. Yr oedd yr hwn oedd yn lân ac yn alluog i fyned i fyny, ond a esgeulusai, i gael ei dori ymaith o fysg ei bobl. Sicrhëid iddynt na ddygwyddai niwed i'w meddiannau yn ystod eu habsennoldeb; ac y mae yn ffaith nodedig mai yr enghraifft gyntaf o fod niwed yn dygwydd oedd oddeutu tair blynedd ar ddeg ar hugain wedi i'r genedl wrthod Crist; pryd y lladdwyd gan Cestius a'i filwyr, yn Lydda, hanner cant o wŷr, yn ystod absennoldeb y lleill yn ngŵyl y Pebyll [*Rhyfeloedd yr Iuddewon, Josephus*, ii. 19. *adr.* 1].

Yr oedd gŵyl y Pentecost, y dydd *cyntaf* a'r *seithfed* o ŵyl y Pasc, a'r *cyntaf* a'r *wythfed* o ŵyl y Pebyll, i fod yn ddyddiau o ymorphwysiad oddi wrth bob llafur cyffredin, ond yn unig cymmaint ag oedd yn wir angenrheidiol i barotoi ymborth.

Cymmerodd tri digwyddiad neillduol le o dan oruchwyliaeth y Testament Newydd, yn ystod tair gŵyl fawr yr Iuddewon. Yn ystod gŵyl y Pebyll, ganwyd yr Arglwydd Iesu Grist: croeshoeliwyd ef ar ŵyl y Pasc: ac ar ŵyl y Pentecost tywalltwyd mewn modd arbenigol yr Ysbryd Glân.

Yr oedd amseroedd y gŵyliau hyn wedi eu pennodi yn y fath fodd ag i alluogi y bobl i roddi eu presennoldeb ynddynt heb nemawr o anghyfleusdra. Disgynai y diweddar-wlaw o flaen gŵyl y Pasc, a'r cynnar-wlaw ar ol gŵyl y Pebyll; ac felly byddai y ffyrdd yn sychion ac yn haws eu cerdded. Cynnelid gŵyl y Pasc cyn i waith y cynhauaf ddechreu; y Pentecost ar derfyniad y cynhauaf ŷd, ac o flaen cynhauaf y gwin; a gŵyl y Pebyll wedi i holl ffrwythau y tir gael eu casglu.

Heblaw amcanion crefyddol y gŵyliau, y mae yn ddiammheu eu bod yn dra effeithiol i sicrhau undeb cenhedlaethol. Gellir casglu hyn oddi wrth bryder Rehoboam (1 *Bren.* xii. 26, 27), ac ymgais Hezeciah am ddiwygiad (2 *Cron.* xxx. 1); ac hefyd mewn amseroedd diweddarach, pryd y teimlai y llywodraeth Rufeinig yr angenrheidrwydd o osod byddin gref yn Ierusalem yn ystod y gŵyliau [*Hyn. Josephus*, xvii. 9. *adr.* 3. Gwel hefyd *Mat.* xxvi. 5; a *Luc* xiii. 1.] Y mae dygwyddiadau mynych y rhif Sabbathol (saith) yn nhrefniad y gŵyliau yn rhy bwysig i fyned heibio iddo yn ddisylw; ac, fel y sylwa Ewald, wrth edrych arno mewn cyssylltiad â'r gŵyliau Sabbathol, ymddengys ei fod yn cynnwys prawf cryf o fod holl gyfundrefn y gŵyliau wedi ei chynnyrchu gan yr un person.

Yr oedd cyssylltiad arbenig hefyd rhwng y gŵyliau âg amaethyddiaeth y wlad: *Lef.* xxiii. Gwelir hyn oddi wrth yr enwau, wrth y rhai y gelwid gŵyl y Pentecost a'r Pebyll yn fynych; ac oddi wrth y ffaith fod "blaenffrwyth y cynhauaf gwenith" yn cael ei offrymu ar y Pentecost (*Exod.* xxxiv. 22), a'r "cyntaf o flaenffrwyth y tir" ar ŵyl y Pasc: *Exod.* xxiii. 19; a xxxiv. 26. Y mae Ewald yn sylwi fod y neillduolrwydd hwn yn arwyddo cychwyniad patriarchaidd y gŵyliau, ac fod yr adgofion hanesiol oedd yn gyssylltiedig â hwy yn rhywbeth wedi eu chwanegu at eu hystyr cyntefig. Ond anhawsder yn ffordd y golygiad hwn ydyw, y byddem yn fwy tueddol i edrych am ŵyliau amaethyddol yn mhlith pobl amaethyddol, nag yn mhlith pobl heb feddu cymmaint a "lled troed" o dir, yn cael eu harwain gan fugail drwy anialwch diffaith, fel yr oedd Israel cyn ymsefydlu yn Nghanaan.

II. Yr oedd amryw ŵyliau ereill wedi eu chwanegu ar ol y caethiwed. Y prif rai oedd gŵyl y Purim, neu y Coelbrenau; a gŵyl y Cyssegriad. Amcan y flaenaf oedd adgofio gwaredigaeth y genedl rhag brâd Haman. Tarddodd yr enw oddi wrth y coelbrenau a fwriwd o flaen Haman (*Esther* iii. 7; a ix. 17—32), a chynnelid hi y 13eg, y 14eg, a'r 15fed o fis Adar (*Mawrth*). Yr oedd y 13eg, ar yr hwn yr oedd yr Iuddewon i gael eu difetha, yn ddydd o ympryd; a'r ddau ereill yn ddyddiau o wledda, mewn côf am eu gwaredigaeth. Cedwir yr ŵyl hon yn mhlith yr Iuddewon hyd heddyw. Sefydlwyd gŵyl y Cyssegriad gan Judas Maccabæus ar yr achlysur o ail gyssegriad y deml, wedi ei halogi gan Antiochus Epiphanes, a chedwid hi ar y 25ain dydd o'r nawfed mis, neu Chisleu (*Rhagfyr*).

**GWYL Y PEBYLL.** Gwel Pebyll.

**GWYL Y PASC.** Gwel Pasc.

**GWYL Y CYMMOD.** Gwel Dydd y Cymmod.

**GWYL—DER—AIDD—EIDD-DRA**: gorchwyledd, sobrwydd, lledneisrwydd, gweddeidddra Gorchymyna yr apostol Paul i'r "gwragedd drefnu eu hunain mewn dillad gweddus, gyda gwylder a sobrwydd; nid â gwallt plethedig, neu aur, neu emmau, neu ddillad gwerthfawr;" 1 *Tim.* ii. 9. Y gair a gyfieithir yma *gwylder* yw *aidôs;* am yr hwn y dywed Trench, yn ei *Greek Synonyms*, y bu amser pan nad oedd gan yr iaith Roeg ond y gair hwn am *gywilydd*. Yr oedd yn meddu yr ystyr dyblyg sydd i'r gair *cywilydd;* sef

Digitized by Google

y cywilydd sydd yn attal un rhag cyflawni gweithred isel a gwarthus, a'r cywilydd neu y gwarth sydd yn dilyn y cyflawniad o'r gyfryw weithred. Yn fwy diweddar, yn hanes yr iaith Roeg, arferir *aidôs* i ddynodi y cyntaf, ac *aischunê* i ddynodi yr olaf. Etto, nid yw hyn yn gosod allan yr holl wahaniaeth sydd rhwng y ddau air;" *aidôs* ydyw y gair mwyaf ardderchog, yr hwn sydd yn gosod allan y cymhelliad uchaf. Y mae yn arwyddo fod gan yr hwn sydd yn ei feddu wrthdarawiad cynnhenid a dwfn i'r hyn sydd isel a dianrhydeddus; ond nid yw y gwrthdarawiad moesol yma yn cael ei ddynodi gan y gair *aischunê*.

Sicrhaer i'r dyn sydd heb fod dan lywodraeth ddim uwch na'r cywilydd a osodir allan gan y gair olaf, na ddaw y gwaith allanol sydd yn perthyn i ryw weithred ddrwg i'w wyneb, bydd wedi hyny yn barod i'w chyflawni. Ofn gwaradwydd oddi wrth ddynion ydyw *aischunê*: gwrthdarawiod moesol i'r drwg ydyw *aidôs*. Ac am hyny, y mae yr olaf yn cael ei gyssylltu â "sobrwydd a pharchedig ofn;" *Heb.* xii. 28. "Y mae *aidôs* bob amser yn attal dyn da rhag cyflawni gweithred annheilwng: y mae *aischunê* weithiau yn attal dyn drwg rhag ei chyflawni." Dywed Macknight ar y cynghor hwn:—"Nid yw yr apostol yma yn gwarafun i'r holl fenywod wisgo yn ddrudfawr: byddai hyny yn groes i'r ganmoliaeth a roddir i'r wraig rinweddol yn *Diar.* xxxi. 21, 22; yr hon, trwy ei diwydrwydd, a wisgai ei holl dylwyth âg ysgarlad, a'i hunan mewn sidan a phorphor; heb i ni grybwyll fod daioni cymdeithas yn gofyn am i bawb ymwisgo yn ol eu gradd a'u sefyllfa. Yr hyn a wahardda yr apostol ydyw y dull anweddaidd o wisgo sydd yn dueddol i gynnhyrfu nwydau ammhur yn yr edrychwyr; a'r coegwychder sydd yn codi oddi ar wagedd, ac yn meithrin gwagedd: mewn gair, y sylw hwnw i wisgiad sydd yn dyfetha amser, yn arwain benywod i esgeuluso addurniad mwy pwysig eu meddyliau, yn eu gwneuthur yn ddiofal am eu teuluoedd, ac yn eu gyru i gostau mwy nag a all eu gwŷr ei fforddio." Yr oedd y benywod Iuddewig yn dueddol iawn i'r cyfryw goegwychder, ac felly y benywod dwyreiniol yn gyffredinol, fel y gwelir oddi wrth y disgrifiad yn *Esa.* iii. 16—24. Yr ydym i wasanaethu Duw "gyda gwylder a pharchedig ofn;" *Heb.* xii. 28.

GWYL—IO—IADWRIAETH—FA—IED—YDD: dysgwyl, bod yn effro, gwaith gwyliedydd, amser gwylio, man gwylio. Arferir y gair am wyliadwriaethau y nos (*phulacê*). Yr oedd yr Iuddewon, y Groegiaid, a'r Rhufeiniaid, yn rhanu y nos i wyliadwriaethau milwrol. Ymddengys mai tair oedd gan yr Iuddewon; y rhai a elwid y wyliadwriaeth gyntaf, neu ddechreu y wyliadwriaeth (*Galar. Ier.* ii. 19); y wyliadwriaeth ganol (*Barn.* vii. 19); a'r wyliadwriaeth fore (*Exod.* xiv. 24; 1 *Sam.* xi. 11). Yr oedd pob un o'r rhai hyn yn parhau o fachlud haul hyd ddeg o'r gloch yn yr hwyr; o ddeg hyd ddau o'r gloch y bore, ac o ddau hyd godiad haul. Dadleua Lightfoot fod yr Iuddewon yn cyfrif pedair gwyliadwriaeth; tair o ba rai oedd yn nyfnder y nos, a'r bedwaredd yn y boreu. Ond ymddengys fod hyn yn annhebygol; o herwydd, pe felly, ni buasai ystyr i'r gair *gwyliadwriaeth ganol*. Y mae awdurdod y Rabbiniaid hefyd yn erbyn y dybiaeth [*Smith's Dict. of the Bible*]. Ar ol dwyn yr Iuddewon dan awdurdod y Rhufeiniaid, cafodd y gwyliadwriaethau eu chwanegu i bedair, y rhai a ddisgrifid naillai yn eu trefn rifyddol; megys, "y bedwaredd wyliadwriaeth;" neu wrth yr enwau "hwyr," a "hanner nos," "caniad y ceiliog," a'r "boreu ddydd." Diweddai y rhai hyny naw yn yr hwyr, hanner y nos, tri y boreu, a chwech y boreu. Ymddengys y byddai gwylwyr yn cerdded yr ystrydoedd yn y trefi a'r dinasoedd Iuddewig: *Can. Sol.* iii. 3; v. 7.

Priodolir gwylio weithiau i'r Arglwydd: "Os pechaf, ti a'm gwyli, ac ni'm glanheir oddi wrth fy anwiredd;" *Iob* x. 14. "Canys yr awr hon y rhifir fy nghamrau; onid wyf yn gwylied ar fy mhechod;" *Iob* xiv. 16. "Y mae yn gosod fy nhraed yn y cyffion; y mae yn gwylied fy holl lwybrau;" *Iob* xxxiii. 11. Y mae yr holl gwynfanau hyn o eiddo Iob yn cynnwys gwirionedd; a'r gwirionedd hwnw ydyw, fod yr Arglwydd yn cymmeryd y sylw mwyaf manwl o holl ymddygiadau dynion. Etto, maent yn cynnwys camsyniad;—cwynfanau anniddig ydynt yn codi oddi ar gamfarn am Dduw, a meddyliau cyfyng am ei drugaredd. Gosodir yr Arglwydd allan ynddynt fel bod fyddai yn fwy parod i sylwi ar gamymddygiadau ei greaduriaid nag ar ddim arall; fel un awyddus i ymofyn am gyfleusderau i'w trallodi a'u ceryddu. Mae y ddau fath o wylied—gwylied i geryddu, a gwylied i drugarhau—yn cael eu gosod allan yn *Ier.* xxxi. 28; "Ac megys y gwyliais arnynt i ddiwreiddio, ac i dynu i lawr, ac i ddinystrio, ac i ddyfetha, ac i ddrygu; felly y gwyliaf arnynt i adeiladu ac i blanu, medd yr Arglwydd." Y mae gwaith swyddwr eglwysig yn cael ei gyffelybu i waith gwyliedydd: felly *Ezec.* xxxiii. 2, 6; *Esa.* xxi. 11. Y mae gweinidogion y Gair yn wylwyr dros eneidiau dynion, ac yn rhwym o roddi cyfrif am eu hymddiried: *Heb.* xiii. 17. Y mae yr ystyriaeth o'r ymddiried mawr yr oedd eu henuriaid ynddi fel rhai yn gwylio dros eu heneidiau, yn cael ei dwyn yn mlaen fel cymmhelliad iddynt ufuddhau iddynt: "Ufuddhewch—o blegid y maent hwy." Y mae y ffugr yma, *gwylio*, wedi ei gymmeryd, fe ellid meddwl, oddi wrth arferiad bugeiliaid, y rhai a wylient eu praidd gyda phryder, i'r diben o'u cadw rhag cael eu hysglyfio gan fwystfilod. Arferir yr un ffugr gyda golwg ar y prophwyd Ezeciel (iii. 17), "Y mae y gair a gyfieithir yma *gwylio*," ebe Dr. Owen, "yn dynodi gwylio gyda'r gofal a'r dyfalwch mwyaf; a hyny, nid heb anghysuron a pherygl, fel y gwnai Iacob wylio deadellau Laban yn y nos." Y mae holl waith y swydd weinidogaethol yn cael ei gynnwys yn y gair; yn gystal a'r dull y dylai y gwaith gael ei gyflawni.

Y mae gwyliadwriaeth yn un o'r dyledswyddau a gymmhellir arnom fynychaf yn y Beibl: *Mat.* xxiv. 42; xxv. 13; *Marc* xiii. 35; xiv. 38; *Luc* xii. 37; 1 *Cor.* xvi. 13; a *Dad.* xvi. 15. Weithiau, y mae y ddyledswydd yn gyssylltiedig â gweithio, megys yn *Luc* xii. 35—41; Y mae parodrwydd Cristionogion i waith yn cael ei osod allan yn y gymmhariaeth o "lwynau wedi eu hymwregysu," a'u gwyliadwriaeth yn y gymmhariaeth o "ganwyllau wedi eu goleuo." Y mae yr annogaeth i wylio hefyd yn dilyn yr annogaeth i'r ddyledswydd gyferbyniol, sef hyderu yn Nuw, a rhyddhau y meddwl oddi wrth ragofal di-ffydd. Ar ol annog ei ddysgyblion i beidio ofni, oddi ar fod eu Tad o'r nef yn gofalu am danynt, ac i beidio blino eu meddyliau â gofalon pryderus am yr amser i ddyfod, y mae yr Iachawdwr yn ganlynol yn eu cadw rhag yr eithafnod gwrthwyneb i ragofal, trwy eu hannog i wyliadwriaeth. Yr oedd ganddynt ddigon o reswm dros

Digitized by Google

ymryddhau oddi wrth ofalon pryderus, am fod eu Tad wedi rhyngu bodd roddi iddynt y deyrnas (*adn.* 32); ond nis gallasent etifeddu y deyrnas hono ond trwy ddysgwyliad amyneddus, trwy wyliadwriaeth a gweithgarwch, hyd ddyfodiad yr Arglwydd. Y mae gwyliadwriaeth yn cael ei gyssylltu hefyd â gweddi: "Gwyliwch a gweddïwch, fel nad eloch i brofedigaeth:" *Mat.* xxvi. 41. Y mae *gwylio* a *gweddi* yn cael eu gosod o'n blaen yma fel dwy ddyledswydd ar wahân; ond y maent yn un anwahanol. Nid yw gwylio yr un peth a bod yn effro (*Eph.* v. 14): ond y mae yn cael ei ofyn oddi wrth yr hwn y tybir ei fod yn effro. Pan y mae ein llygaid wedi cael eu hagoryd (*Act.* xxvi. 28), yna ein dyledswydd fawr ydyw eu cadw yn agored. Ond y mae anallu dyn o hono ei hun i ymgadw yn y cyfryw wyliadwriaeth wastadol yn cael ei arddangos yn y dysgyblion fel esamplau; ac oddi ar yr anallu hwn y cyfyd yr angenrheidrwydd am weddïo. —*Stier.* Yr ydym i wylio fel y byddem yn gymmhwys i weddïo (1 *Pedr* iv. 7); ac yr ydym i weddïo er cael ein galluogi i barhau mewn gwyliadwriaeth: ac felly y mae y ddau yn cael eu cymmhlethu yn *Eph.* vi. 18.

**GWYLIEDYDD.** Gwel GWYLIADWRIAETH.

**GWYNFYDEDIG—RWYDD**, [*gwyn—byd*]: byd y dedwyddwch, y sefyllfa ddedwydd; dedwydd, digonol; llwyddiant, dedwyddwch.

Tair colofn gwynfyd: goddef o foddlonrwydd, gobaith y daw, a chred y bydd.—*Barddas.*

Mae Moses yn galw Israel yn bobl wynfydedig, am fod yr Iehofah yn darian eu cynnorthwy, ac yn gleddyf eu hardderchogrwydd: *Deut.* xxxiii. 29. "Gwynfydedig fydd ar y ddaear;" *Salm* xli. 2: dywedir hyn am y dyn a ystyria wrth y tlawd. "Gan ddysgwyl am y gobaith gwynfydedig:" *Tit.* ii; sef gobaith bywyd tragwyddol (*pen.* i. 2), yr hwn a berffeithiwyd yn ymddangosiad gogoniant y Duw mawr, a'r Arglwydd Iesu Grist.

**GWYNIAU**: gwynfydau, gwynfydu [*gwy—yn*], chwant, blys, cynnwrf meddwl, nwyd, gofid, artaith. "Gwyniau pechodau y rhai oedd trwy y ddeddf:" *Rhuf.* vii. 5:—gwyniau (*pathémata*) cynnhyrfiadau ("*The incitements to sins*") "y rhai oedd trwy y ddeddf."—*Alford.* Nid "dan y ddeddf," fel y sylwa Locke, ond trwy y ddeddf: y ddeddf a achlysurai y cynnhyrfiadau i bechodau. "Cynnhenau, gwynfydau, llid, ymrysonau," ydynt rai o weithredoedd y cnawd: *Gal.* v. 20. Y gair am wynfydau ydyw *zêloi*, yr hwn sydd yn cael ei arfer mewn ystyr dda, ac mewn ystyr ddrwg. Yn yr ystyr cyntaf yn y lleoedd canlynol: *Ioan* ii. 17; "Zel dy dŷ di a'm hysodd i:" *Rhuf.* x. 2; "Zel Duw:" 2 *Cor.* vii. 7; "Eich zel tuag ataf fi:" *Phil.* iii. 6; "Yn ol zel yn erlid yr eglwys:" *Gal.* iv. 13; "fod ganddo zel mawr drosoch;" 2 *Cor.* vii. 11; "ïe, pa zel." Ceir ef yn yr ystyr olaf yn y manau canlynol: *Act.* xiii. 45; "a lanwyd o genfigen:" *Rhuf.* xiii. 13; "Nid mewn cynnen a chenfigen:" 1 *Cor.* iii. 3; cenfigen: *Iago* iii. 14; cenfigen: 2 *Cor.* xii. 20; cenfigenau: *Act.* v. 17; "a lanwyd o genfigen:" *Heb.* x. 27; "angerdd tân." Cyssylltir y gair yn *Gal.* v. 20, 21, â llid, *phthonos;* yr hyn a wneir gan ysgrifenwyr ereill, heb law yr apostol Paul. Un gwahaniaeth rhyngddynt yw, fod y naill, fel y gwelsom, yn cael ei arfer mewn ystyr dda yn gystal ag ystyr ddrwg, tra nad yw y llall un amser ond yn yr olaf. Nid yw Aristotle yn arfer *zêlos* ond mewn ystyr dda yn unig, i arwyddo y cydymgais (*æmulatio*=Saes., *emulation*) sydd yn gofidio, nid am fod arall yn meddu rhyw ddaioni, ond am nad ydyw efe ei hunan yn ei feddu; a'r hwn, heb orphwys ar hyn, sydd yn ceisio gwneyd y peth hwnw yn eiddo iddo ei hun. Yn y peth hwn y mae yn wahanol i genfigen. Ond er fod gwahaniaeth rhwng zêl—os yn y naill ystyr a'r llall —cymmaint o wahaniaeth nes ein cyfreithloni i ystyried y naill yn deimlad anrhydeddus, a'r llall yn deimlad drwg; etto, y mae yn hawdd iawn i'r naill fyned dros y terfyn i diriogaeth y llall. Gall cydymgais anrhydeddus ymlygru nes bod yn genfigen neu yn eiddigedd isel.

**GWYNLLIW**; neu fel y gelwir ef weithiau, Gwynlliw Filwr, ydoedd fab Glywys ap Tegid ap Cadell, a thywysog Gwynllwg, neu Wentlwg yn sir Fynwy. Priododd Gwladys, wyres i Brychan, Tywysog Brycheiniog, ac yr oedd yn dad i luaws o blant; amryw o ba rai a ymadawsant â'u cyfoeth daearol, ac a dreuliasant y gweddill o'u hoes i fyw yn grefyddol. Mewn amser, rhoddodd Gwynlliw ei feddiannau i fyny i'w fab Cattwg, ac adeiladodd eglwys, lle y treuliodd y rhan olaf o'i oes mewn defosiwn a chrefydd. Tybir mai yr eglwys yw un Newport, Mynwy; yr hon sydd o fewn cantref Gwentlwg, yr hon a gyssegrwyd iddo ef o dan yr enw Sant Woolos. Yr oedd yn byw tua diwedd y chweched ganrif.

**GWYNT—OEDD**, (Saes. *wind*): chwyth, anadl, chwa, awel. Yr ydym ynbyw megys yn ngwaelod môr dwfn ac eang o awyr, yr hwn sydd yn amgylchu ein daear, ac yn ei chanlyn yn ei holl ysgogiadau. Mae y cyfnewidiad yn nhymmeredd yr awyrgylch, y cynnydd neu leihâd yn swm y tarth y mae yn ei gynnwys, neu unrhyw beth sydd yn achosi cynnwrf ynddo, ac felly yn dinystrio ei gyfartaledd, yn cynnyrchu ymruthriad ynddo i wneyd i fyny y cyfartaledd yn ol. Yn yr ystyr yma y mae fel y dwfr, yr hwn sydd bob amser, mor fuan ag y cynnhyrfir ef, yn prysuro i adennill ei wastadrwydd.

Prif achosydd gwynt ydyw gwres yr haul. Fel y gwyddys, y mae tuedd mewn gwres i fwyhau gwahanol ddefnyddiau. Y mae darn o haiarn pan yn goch-boeth yn dewach ac yn hwy na phan yn oer. Effaith gwres ar yr awyr ydyw lleihau ei ddwysder (*density*), a pheri iddo ymdaenu, fel y mae dwfr wedi ei droi yn ager yn dyfod i lenwi mwy o le. Y mae yr awyr agosaf at wyneb y ddaear yn teneuo yn fuan; ac yna, yn esgyn drwy yr haenau o awyr dwysach uwch ei ben, ac yn ymdaenu ar ei wyneb fel olew ar wyneb dwfr. Y mae yr awyr hwn, o blegid ei fod yn drymach, yn disgyn i lenwi lle y llall, ac yn fuan yn myned drwy yr un oruchwyliaeth ag yntau. Fel hyn, os bydd dwy ardal gyssylltiedig yn cael eu gwresogi yn anghyfartal, fe gynnyrchir yn haenau uchaf yr awyrgylch ffrwd o wynt yn dylifo o'r parth poeth i'r parth oer; a chydag arwyneb y ddaear, bydd ffrwd arall yn rhedeg mewn cyfeiriad gwrthgyferbyniol, sef o'r llanerch oer i'r poeth. Yn ardaloedd y cyhydedd, y mae yr awyr yn gwresogi ac yn esgyn yn ffrwd ddiddiwedd tua'r pegynau; tra y mae yr awyr oerach a thewach sydd yn y parthau hyny yn dylifo yr un mor reolaidd tua'r cyhydedd.

Pan y mae y ffrydiau hyn yn dyfod o ledredau uchel iawn, lle nad yw cyflymder yr ysgogiad dyddiol mor fawr, ac yn myned yn mlaen tua'r

Digitized by Google

lle y mae yn ysgogi gyflymaf,* y mae yn amlwg nad yw cyflymder eu hysgogiad hwy yn cynnyddu mewn cyfattebiaeth. Y maent o ganlyniad yn cael eu gadael ar ol megys; ac yn lle bod yn wyntoedd gogleddol, fel y byddent pe byddai y ddaear yn aros yn llonydd, y maent yn dyfod yn wyntoedd gogledd-orllewinol, a gogledd-ddwyreiniol. Fel y maent yn dynesu at y cyhydedd, y maent yn cymmeryd cyfeiriad mwy dwyreiniol; gelwir y gwyntoedd hyn yn wyntoedd mordwyol (*trade winds*).

Y mae gwyntoedd yn fynych yn cael eu hachosi gan y tarth sydd yn codi yn barhaus oddi ar yr afonydd a'r môr. Gan fod y tarth hwn yn ysgafnach na'r awyr, y mae yn esgyn i fyny gan gludo gydag ef swm o galoric [Gwel Gwres], yr hwn sydd yn diangc mor fuan ag y cyrhaedda fan lle y mae llai o hono nag sydd yn ymyl arwyneb y ddaear. Y mae y tarth, o ganlyniad, yn troi yn ddwfr, ac y mae gwagle yn cael ei achosi, i'r hwn y mae yr awyr cylchynol yn dylifo. Y mae y caloric yr un pryd yn cael ei gludo gan y gwynt, gyda'r dyferynau dwfr; ac felly y mae y parthau hyny lle y disgyna y gwlaw yn fynych yn gynnhesach na'r manau o'i amgylch. Y mae gwlaw-wyntoedd yn cael eu hachosi gan yr awyr sydd yn disgyn i'r llawr gyda'r dyferynau dwfr. Mor fuan ag y tery y dwfr y llawr, y mae yr awyr yn ymryddhau, ac yn cael ei ysgubo gyda nerth i bob cyfeiriad o'r lle y mae y gwlaw yn disgyn.

Dengys y tabl canlynol gyflymder y gwynt:—

| Nifer y milldiroedd mewn awr. | Nifer y troedfeddi mewn eiliad. | Ei nerth mewn llinell unionsyth ar bob troedfedd ysgwâr, mewn pwysau a rhanau. | Ei natur. |
|---|---|---|---|
| 1 | 1.47 | .005 | Prin yn deimladwy. |
| 2 | 2.93 | .020 | Yn deimladwy. |
| 3 | 4.4 | .044 | |
| 4 | 5.87 | .079 | Awel dyner, ddymunol. |
| 5 | 7.33 | .123 | |
| 10 | 14.67 | .492 | Gwynt bywiog. |
| 15 | 22. | 1.107 | |
| 20 | 29.34 | 1.968 | Gwynt bywiog iawn. |
| 25 | 36.37 | 3.075 | |
| 30 | 44.01 | 4.429 | Gwynt uchel. |
| 35 | 51.34 | 6.027 | |
| 40 | 58.68 | 7.873 | Gwynt pur uchel. |
| 45 | 66,01 | 9.963 | |
| 50 | 73.35 | 12.300 | Ystorm. |
| 60 | 88.02 | 17.715 | Ystorm fawr. |
| 80 | 117.36 | 31.490 | Corwynt. |
| 100 | 147.7 | 49.200 | Corwynt yn cludo coed ac adeiladau i'w ganlyn. |

Cyfrifir cyflymder y gwynt gan mwyaf yn ol nerth ei ymruthriad ar ein personau ein hunain. Y mae offeryn a elwir *anemometer* wedi ei ffurfio, â'r hwn y dangosir nerth a chyfeiriad y gwynt. Gellir rhanu gwyntoedd i dri o ddosbarthiadau—*cyfnewidiol*, *sefydlog*, a *chyfnodol*.

1. *Gwyntoedd Cyfnewidiol*, neu y rhai sydd yn newid eu cyfeiriad, ac ar brydiau yn ymattal o gwbl. Y maent bob amser yn chwythu mewn lledredau uchel. Y mae yr achos o'r cyfnewidioldeb hwn yn ansicr; ond wrth ystyried fod y tir sych yn boethach yn yr haf, ac yn oerach yn y gauaf, arweinir ni i'r penderfyniad y dylai gwyntoedd y môr fod yn fwy pwysig yn yr haf, a gwyntoedd y tir yn y gauaf. Y mae hyn yn gywir. Sylwodd Franklin yn America, fod y gwyntoedd yn y gauaf yn dyfod o'r deheu, ac yn yr haf o'r gogledd; ac oddi wrth amryw brawfiadau a wnaed mewn gwahanol fanau ar gyfandir Ewrop, y mae y rheolau canlynol wedi eu gosod i lawr gyda golwg ar y cyfandir hwn.

Yn y *gauaf* y mae cyfeiriad y gwynt yn fwyaf neillduol o'r deheu; yn y *gwanwyn* o'r dwyrain; yn yr *haf* o'r gorllewin; ac yn y *cynhauaf* o'r deheu.

Y mae presennoldeb yr haul yn y naill ran neu y llall o'r ddaear yn meddu llawer o ddylanwad ar y gwyntoedd gorllewinol mewn lledredau uchel. Yn y rhan ogleddol o Fôr y Werydd, y mae y gwynt yn yr haf yn tueddu yn gyffredin i'r gorllewin-dde-orllewin: ond yn y gauaf, rhwng glenydd yr Iwerddon a Newfoundland, y mae yn mron bob amser i'r gorllewin-ogledd-orllewin. Yn y Sianel Brydeinig, y mae y gwyntoedd yn fwyaf arbenig o'r dwyrain o Chwefror hyd Mai; ac o'r gorllewin yn ystod y misoedd ereill. Ar lan ogledd-orllewinol America, yn yr haf y mae y gwyntoedd de-orllewinol yn fwyaf neillduol; ond yn y gauaf, y gwyntoedd gogleddol sydd yn fwyaf mynych.

Yn yr arddrych (*hemisphere*) deheuol o'r ddaear, yn ystod misoedd yr haf, pan y mae yr haul yn agos i drofa capricorn, y mae y gwyntoedd weithiau yn gyfnewidiol, ond yn chwythu yn fwyaf arbenig o'r gorllewin a'r gorllewin-ogledd-orllewin. Y gauaf, chwythant fynychaf o'r gorllewin a'r gorllewin-dde-orllewin, ac weithiau o'r de, neu y de-ddwyrain. Gyferbyn a Phenrhyn Gobaith Da, Penrhyn Horn, a Phenrhyn Van Dieman, yn neillduol pan y bydd yr haul yn agos i drofa y cranc, y mae y gwyntoedd yn fwyaf cyffredinol o'r gorllewin; ar yr un pryd, ar eu glenydd gorllewinol y mae y gwynt yn fynych o'r deheu.

Dywed y Milwriad Reid, wrth son am ystormydd mewn lledredau uchel, y dangoswyd fod y corwyntoedd a gynnyrchir yn y trofegau yn cynnyddu mewn tryfesur, ond yn lleihau mewn nerth, yn eu dynesiad at y pegynau; ac fel y mae y ddau ganolgylch (cylch canol-ddydd yr haul), yn agosau at eu gilydd, y mae y gwyntoedd yn ymgymmysgu. Gallant felly ddyrysu eu gilydd, a myned yn afreolaidd. Gall eu hegni leihau hefyd yn fynych, hyd nes y bydd nerth y gwynt ar y tu hwnw i'r cylch, lle y mae yn chwythu o'r gorllewin, yn analluog i wrthdroi y gwynt gorllewin rheolaidd, a'i yru am amser i gyfeiriad

* Y mae yr awyr yn ymyl y pegynau yn troi arno ei hun, tra y mae awyr y cyhydedd yn teithio gyda chyflymder o fil o filldiroedd mewn awr.

Digitized by Google

dwyreiniol; a hwyrach mai hyn ydyw y rheswm fod gwyntoedd dwyreiniol yn llai cyffredin yn y lledredau hyny i'r ddau arddrych lle y saif Prydain.

Y mae un dosbarth o wyntoedd cyfnewidiol yn meddu ar neillduolion arbenig, megys y gwyntoedd poethion a deimlir ar lenydd gogleddol Affrica, yn Persia, India, a China; gwyntoedd oerion Siberia; gwyntoedd heintlyd (*simooms*), Affrica, Arabia, a Mesopotamia, &c. Pan y bydd gwyntoedd yn dyfod o wledydd pellenig, y maent yn meddu ar nodweddion y gwledydd hyny. Mae gwynt y gogledd gyda ni, yr hwn sydd yn dyfod o gyfeiriad Môr y Werydd, yn fwy llaith na gwynt y gorllewin, yr hwn sydd yn ysgubo ar draws y cyfandir. Y mae gwynt y gogledd-ddwyrain hefyd yn bur oer, yn enwedig yn y gwanwyn. Gellir rhanu gwyntoedd cyfnewidiol o'r natur yma i ddau ddosbarth—oer a phoeth.

*Gwyntoedd oerion.* Yn neheudir Ewrop y mae gwyntoedd y gogledd yn arw a llym; yr hyn a gynnyrchir gan oerni dirfawr yr Alpau bythwyn, ar y naill du, a gwres mawr Môr y Canoldir ar y llaw arall. Pan y cyssylltir effeithiau y rhuthriadau awyrol a gynnyrchir yn y modd yma â gwynt gogleddol cyffredin, y mae gwynt gogledd-ddwyreiniol o lymder a nerth anarferol yn cael ei achosi. Yn Istria a Dalmatia, lle y gelwir ef *bara*, y mae yn hysbys iddo cyn hyn ddymchwelyd ceffylau ac erydr. Y mae gwynt cyffelyb o'r enw *mistral*, yr hwn sydd ar adegau yn ysgubo i fyny dyffryn y Rhone. Ac yn Yspaen, y mae gwynt gogleddol, a elwir *gallego* yn neillduol o erwin.

*Gwyntoedd poethion.* Y mae anialdiroedd a gwastadeddau eang, y rhai a orchuddir â phlanhigion bychain, yn cynnyrchu gwyntoedd poethion iawn. Mae y gwyntoedd hyn, y rhai ydynt o natur hynod o afiachus, yn fwyaf arbenig yn niffeithleoedd mawrion Asia ac Affrica, lle y teimlir hwy yn eu holl rym. Ymwelir âg anialdiroedd crasboeth Nubia, Arabia, a Phersia, a rhanau ereill o Asia, gan wynt poeth a gwenwynig. Yn Arabia, gelwir ef *samoun*, (o'r gair Arabaeg, *samma*—poeth a gwenwynig). Yn yr Aipht, gelwir ef *camiel* (deg a deugain), am ei fod yn chwythu am gynnifer a hyny o ddyddiau sef, o ddiwedd Ebrill hyd Mehefin, ar ddechreu gorlifiad y Nilus. Gwel CORWYNT.

Gwynt arall o'r un dosbarth ydyw yr *harmattan*, yr hwn sydd yn chwythu o ganol diffaethwch mawr Sahara, o'r gogledd-ddwyrain, dros Senegambia a Guinea, tua Môr y Werydd, gan ymestyn ar hyd llinell glan y môr am 2,000 o filldiroedd. Y mae yn dra sych, ac yn chwythu yn fynych am dridiau neu bedwar, ac weithiau am bythefnos. Y mae y coed a'r llysiau yn gwywo ac yn marw o dan ei ddylanwad; ac os bydd yn chwythu am lawer o ddyddiau, y mae dail y coed lemwn (*lemon*), yr eurafalau, a'r llebronwydd (*lime-trees*), yn myned mor grinllyd: fel y gellir yn hawdd eu rhwbio yn llwch: y mae dodrefn y tai yn hollti; ac mewn rhai amgylchiadau yn ymdaflu yn ddarnau oddi wrth eu gilydd. Ond er fod y gwynt hwn mor niweidiol yn ei effeithiau i fywyd llysieuol, y mae yn bur wasanaethgar i iechyd yr hil ddynol; gan ei fod yn foddion effeithiol i symmud y lleithder o'r awyr, a gwrthweithio ei ddylanwad sydd yn fynych iawn yn cael ei brofi yn niweidiol ar ol tymmor maith o wlaw.

Perthyn i'r un dosbarth hefyd y mae y *sirocco*. Gwynt poeth ydyw hwn, sydd yn dyfod o ogledd Affrica, dros Fôr y Canoldir, tuag Italy, Sicily, &c. Disgrifir ef gan foneddwr Prydeinig, tra yn aros yn Palermo, fel y canlyn:—"Y Sabbath, cawsom y *sirocco*, y buom yn ei ddisgwyl cyhyd; ac er fod ein disgwyliadau wedi eu codi yn lled uchel, rhaid i mi addef ei fod yn mhell iawn tu hwnt iddynt. Yr oedd dyddiau Gwener a Sadwrn yn anghyffredinol o oer; ac er y dywedir i'r *sirocco* ddechreu yn foreu dydd Sabbath, nid oeddym yn teimlo dim oddi wrtho yn ein hystafelloedd. O ddeutu wyth o'r gloch y boreu, agorais y drws, heb un disgwyliad am gyfnewidiad; ac yn wir, ni chefais fy synu yn fwy erioed. Yr oedd y chwâ gyntaf o hono ar fy ngwyneb fel ffrwd losgedig o enau ffwrn. Tynais fy mhen yn ol, a chauais y drws, gan lefain ar Fullarton fod yr awyr yn fflam. Modd bynag, anturiasom agor drws arall, yr hwn sydd yn arwain at esgynlawr oeraidd, lle y byddwn yn arferol o rodio. Nid oedd hwn yn agored i'r gwynt; ond yma cefais fod y gwres yn llawer mwy annioddefol nag y tybiaswn ei fod oddi wrth yr enghraifft a gawswn wrth agor y drws arall. Teimlai yn debyg i ystofau (*stoves*), chwysedig tanddaearol Naples—ond yn llawer poethach. Yn mhen ychydig o funydau, yr oedd pob un o'r giau wedi ymryddhau yn fawr, ac agorodd ein chwysdyllau i'r fath raddau, fel y disgwyliem gael ein hunain yn fuan mewn chwys dyferol. Nid ymddangosodd yr haul o gwbl y diwrnod hwnw, neu ynte buasai y gwres yn annioddefol. Rhoddais ychydig o enaint gwallt (*pomade*) ar y tu hwnw i'r esgynlawr oedd agosaf i'r gwynt, a thoddodd fel pe buaswn wedi ei roddi o flaen y tân. Aethum i'r heol i geisio cerdded ychydig; ond cefais ei fod yn ormod gorchwyl, ac yr oedd yn dda genyf fyned i fyny y grisiau drachefn. . . . . Y mae holl natur yn marweiddio o dan ddylanwad y gwynt hwn: y mae y planhigion yn crymu ac yn gwywo. Mae yr Italiaid yn ei deimlo yn llawn cymmaint a dieithriaid. Pan y bydd rhywbeth lled wael yn dyfod drwy y wasg, dangosant eu hanghymmeradwyaeth o hono drwy ddyweyd, 'Ysgrifenwyd ef yn amser y *sirocco*.'"

Yn Yspaen, y mae gwynt o'r enw *solano*; yr hwn sydd yn codi, fel y tybir, o wastadeddau Andalusia, yn taflu y trigolion i sefyllfa o farweidd-dra nodedig. Yn India hefyd, yr hon a orchuddir â chyflawnder o dyfolion; yn Chili, yn Louisiana, ac yn ngwastadeddau eang yn Orinoco, y mae gwyntoedd o dymmeredd pur uchel.

Yn Peru, rhwng mynyddoedd y Cordillera a'r Andes, yn yr uchder o 12,000 o droedfeddi, y mae darnau eang o ddiffeithdir gwastad, a elwir *Puna*. Ar draws y parthau yma, yn ystod pedwar mis o'r flwyddyn, ysguba gwynt ofnadwy o lym ac oer, yr hwn sydd yn sychu gyda'r fath gyflymder y lleithder o'r corff, fel y mae yn attal pydrni. Os bydd asyn yn digwydd marw ar y gwastadeddau hyn, y mae yn cael ei droi mewn ychydig ddyddiau yn gorfloethyn (*mummy*). Y mae hyd yn oed y coluddion yn rhydd oddi wrth bob arwydd o bydrni. Yn ol Prescott, byddai yr hen Berufiaid yn cadw corff eu meirw am oesoedd, drwy eu gosod i orwedd yn y llanerchau hyn. Gelwir y gwyntoedd hyn, *gwyntoedd y Puna*.

2. *Gwyntoedd sefydlog.* Ar bob tu i'r cyhydedd, ac o fewn o ddeutu 30 o raddau iddo, yn gyffredin, y mae y gwyntoedd trafnidiol (*trade*

Digitized by Google

*winds*, a elwir felly o herwydd eu gwasanaethgarwch i fordwyaeth a thrafnidiaeth. Ond y mae eu terfynau yn amrywio yn fawr, yn ol fel y bydd yr haul i'r gogledd neu i'r deheu i'r cyhydedd. Y mae eu terfynau mewnol ac allanol yn wahanol hefyd yn Môr y Werydd, a Môr India. Y mae yn gyffredin gyfwng mawr rhyngddynt, yn yr hwn y mae gwyntoedd ysgeifn cyfnewidiol yn chwythu fynychaf o'r gorllewin, gan ffurfio mewn rhai parthau o'r ddaear, yn agos i'r cyhydedd, fath o gylchwynt (*monsoon*). Dylid sylwi, yn mhellach, nas gall y gwyntoedd trafnidiol chwythu yn ddirwystr, ond ar y cefnfôr llydan. Nid oedd dim a achosodd fwy o syndod i'r morwyr boreuol a anturiasant i Fôr y Werydd na gwynt y dwyrain, yr hwn sydd yn chwythu bob amser o fewn y trofanau. Dychrynwyd canlynwyr Columbus yn fawr pan y cawsant eu hunain yn cael eu cludo yn mlaen yn barhaus gan wyntoedd dwyreiniol; a thybient y byddai yn ammhossibl iddynt byth ddychwelyd yn ol. Am lawer o ganrifoedd, buwyd yn ceisio cael allan yr achos o hyn, ond yn ofer. O'r diwedd, cynnygiodd Halley a Hadley yr esboniad canlynol:—Y parthau sydd yn ymyl y cyhydedd ydyw y rhai poethaf ar wyneb y ddaear, a hyny am nad ydyw yr haul yn mhell oddi wrth entrych y ffurfafen ynddynt; ond gan ddechreu yn y parthau hyn y mae y tymmeredd yn parhau i fyned yn is fel yr ydys yn dynesu at y pegynau. O ganlyniad, y mae ffrwd o awyr yn dylifo gydag arwyneb y ddaear oddi wrth y pegynau at y cyhydedd, a ffrwd arall, yn uchel i fyny, yn rhedeg oddi wrth y cyhydedd at y pegynau. Y mae yr awyr, yn fuan, yn gwresogi yn ymyl y cyhydedd; y mae yn esgyn ac yn dychwelyd drachefn tua'r pegynau. Ar yr egwyddor hon yr ydys yn disgwyl gwynt gogleddol yn yr arddrych gogleddol o'r ddaear, a gwynt deheuol yn yr arddrych deheuol; ond y mae y ddau gyfeiriad hyn yn ymuno â chylchdroad dyddiol y ddaear o'r gorllewin i'r dwyrain; a'r canlyniad ydyw, ein bod yn cael gwynt gogledd-ddwyreiniol yn un arddrych a gwynt de-ddwyreiniol yn yr arddrych arall. Yn wir, gan fod tryfesur y lledredau yn lleihau yn ol fel yr ydys yn dynesu at y pegynau, a chan fod pob rhan o'r ddaear yn troi o amgylch ei hechel unwaith mewn pedair awr ar ugain, y mae yn canlyn fod cyflymder yr ysgogiad yn lleihau yn ol yr un cyfattebiaeth. Y mae ysgogiad y ffrydiau o awyr sydd yn dyfod o'r gogledd tua'r cyhydedd yn llai cyflym nag ysgogiad y parthau hyny y maent yn cyfeirio atynt. O ganlyniad, y maent yn dyfod i wrthdarawiad â phob peth sydd yn cyfodi ar wyneb y ddaear, ac yn cynnyrchu yr hyn a elwir yn wynt y gogledd-ddwyrain. Am yr un rheswm, y mae trafnidwynt yr arddrych deheuol yn chwythu o'r de-ddwyrain. Neu, gellir egluro yr achos o'r trafnidwynt yn y dull canlynol:—

Y mae yr awyrgylch yn canlyn y ddaear yn ei chylchdroad dyddiol ar ei hechel a phe na buasai dim yn dygwydd i achosi unrhyw gynnhwrf ynddo, gellid ei ranu yn welyau cyfredol â llinell y cyhydedd; hyny yw, gorweddai pob gwely neu haen o awyr ar draws echel y ddaear—a byddai pob gwely, fel olwyn, yn troi yn annibynol ar ei gydwely, a'r ysgogiad, wrth gwrs, yn cyflymu fel yr ydym yn dynesu at y cyhydedd. Yn awr, effaith y gwahaniaeth yn y tymmeredd fyddai trosglwyddo gwely mwy gogleddol, ac felly, arafach yn ei ysgogiad, tua'r deheu: a chan fod y ddaear yn y parth hwn yn ysgogi yn gyflymach, nid ydyw ysgogiad yr awyr a drosglwyddir yn gallu ei dilyn. Mae pob peth ar wyneb y ddaear sydd yn ei dilyn yn dyfod i wrthdarawiad yn erbyn yr awyr a adewir fel hyn ar ol; yr hyn sydd yn cynnyrchu gwynt mewn cyfeiriad gwrthgyferbyniol. Gadewch i ni olygu fod agerlestr yn teithio tua'r dwyrain gyda chyflymder o ddeng milltir mewn awr, a gwynt o'r dwyrain yn teithio gyda'r un cyflymder, fe deimlai y teithwyr ar y bwrdd dawelwch perffaith: ond gadawer i gyflymder y gwynt leihau bedair milldir yn yr awr, fe deimlir gwynt o'r gorllewin, yr hwn fydd yn teithio yn ol chwe milltir mewn awr. Mae yr effaith yn hollol yr un fath a phe byddai i ddyn o un o ardaloedd y cyhydedd gael ei drosglwyddo gyda chyflymder tua'r gogledd, nes cyrhaedd terfyn y cynnhwrf a achosir gan wres y cyhydedd. Mae y ddau wynt —gwynt y gogledd-ddwyrain, a gwynt y de-ddwyrain — yn cydgyfarfod, ac yna yn chwythu i gyfeiriad hollol ddwyreiniol; fel y mae y naill bêl wrth gyfarfod â phel arall yn cymmeryd cyfeiriad canolog i gyfeiriad y ddwy bêl.

Y mae y ddau wynt hyn yn chwythu yn y môr agored—yn Môr y Werydd, a'r Môr Tawel; a chan fod yr olaf yn fwy o gryn lawer na'r llall, y maent yn chwythu yn fwy rheolaidd a chysson ynddo nag yn y blaenaf. Y mae gwynt y deddwyrain yn chwythu hefyd yn Môr India, o fewn ychydig raddau hefyd i du dwyreiniol Madagascar, hyd gyffiniau Holland Newydd.

3. *Gwyntoedd cyfnodol.*—Ni a ddechreuwn gyda'r *monsoons*—o'r gair Persiaeg *momsu*, neu y Malayaidd *moosm*, sef y tymmorol, neu gyfnodol. Y mae y gwyntoedd hyn yn chwythu dros Fôr India a Hindostan, ac yn newid eu cyfeiriad bob rhyw chwe mis. Ymddengys mai yr un a'r trafnidwynt ydyw y *monsoon*, wedi ei droi o'r cyfeiriad y cychwynodd i gyfeiriad gwrthgyferbyniol; yr hyn a achosir gan sefyllfa wahanol yr haul ar wahanol dymmorau, ynghyd â rhyw neillduolrwydd perthynol i'r tir yn nghymmydogaeth yr hwn y chwythant, megys y bylchau yn y gadwen o ynysoedd sydd yn gwahanu y Môr Tawel oddi wrth Fôr India; sefyllfa gyfryngol cyfandir Asia, ynghŷd âg awyr deneuedig Affrica ac Awstralia. Mewn lleoedd cyfyng, fel Culfor Malacca, troir hwynt yn wyntoedd cyfnewidiol. Y mae y *monsoon* de-orllewinol yn chwythu o Ebrill hyd Hydref rhwng y cyhydedd a throfa y cranc, ac yn cyrhaedd o gyffiniau dwyreiniol Affrica hyd derfynau yr India, China, ac Ynysoedd Philippi. Mae ei ddylanwad yn cyrhaedd weithiau mor bell ag Ynysoedd Marian yn y Môr Tawel; a thua'r gogledd mor bell ag ynysoedd Japan. Yn yr un tymmor y mae gwynt de-dde-orllewinol yn chwythu tua'r deheu i'r cyhydedd yn sianel y Mozambique, rhwng Ynys Madagascar a chyffiniau Affrica, a'r hwn a achosir gan gydffurfiad y tir o ddeutu y sianel hono. Y mae y *monsoon* gogledd-ddwyreiniol yn chwythu o Hydref hyd Mai yn yr un parthau, yn mron, a'r un a nodwyd uchod. Y mae y *monsoon* gogledd-orllewinol rhwng y rhan ogledd-ddwyreiniol o Madagascar a chyffiniau gogledd-orllewinol Holland Newydd. Ei amser ydyw o Hydref hyd Ebrill; ac y mae y tymmor hwn yn y parthau hyny yn wlyb. Tymmor y *monsoon* de-orllewinol ydyw o Ebrill hyd Hydref, ac y mae yn chwythu yn y parthau a nodwyd ddiweddaf.

Digitized by Google

Y mae y tymmor hwn yn sych. Y parthau lle y chwytha y *monsoon* gogledd-ddwyreiniol, a deddwyreiniol, gryfaf yw Môr Java, ac oddi yno i'r dwyrain tua Timor, rhwng ynysoedd Molucca a Barda, yn mlaen tua New Guinea.

Pan y mae cyfnewidiad yn cymmeryd lle yn nghyfeiriad y *monsoon*, y mae yr elfenau yn ymgynnhyrfu, ac y mae yr ystormydd sydd yn dilyn yn fynych yn peri dinystr ofnadwy.

Y mae y *monsoon* o wasanaeth mawr i fasnach yn fynych. Chwythir y llong o'i flaen tua rhyw borthladd pellenig; a chyn y bydd y llong yn dychwelyd, bydd y gwynt wedi troi, a chynnorthwyir hi i fyned yn ol gan un arall yn chwythu o gyfeiriad gwrthgyferbyniol.

Perthyn i'r un dosbarth y mae awelon y tir a'r môr, neu fel y gelwir hwy yn gyffredin, "Gwynt y Môr." Cynnyrchir yr awelon hyn gan anghyfartaliad yn ngwresogiad y tir a'r môr. Pe gosodid gwydryn yn cynnwys dwfr neu ryw ddefnydd tryloew arall, lle y gallai pelydr yr haul fyned trwyddo, ni byddai y gwres a gynnyrchid yn y defnydd yn y gwydryn ond bychan. Ond pe rhoddid rhyw ddefnydd tywyll yn y gwydryn, dyrchefid y tymmeredd i raddau pur helaeth, a hyny o herwydd fod mwy o gymmhwysder yn y defnydd tywyll i dderbyn yr elfen wresog. Y mae y tir yn ystod y dydd yn cyrhaedd tymmeredd uwch o lawer na thymmeredd y môr; y mae yr awyr uwch ei ben, o ganlyniad, yn dyfod yn deneuach, ac yn esgyn; ac o ddeutu naw o'r gloch yn y boreu hyd ddau neu dri yn y prydnawn y mae yr awyr o'r môr yn ymddylifo tua'r tir i lenwi y gwagder a achoswyd. Y mae y gwynt hwn yn cryfhau fel y mae y tir yn oeri; y mae y gwynt o'r môr yn lleihau; a phan elo yr haul o'r golwg, y mae gwres y tir yn cynnyddu; ond tua hwyr, fel y mae y tir yn oeri, y mae y gwynt o'r môr yn lleihau. Pan elo yr haul o'r golwg, y mae gwres y tir a'r môr yn dyfod yn gyfartal, ac am ychydig, yr ydym yn cael tawelwch perffaith. Yn ystod y nos y mae y mor yn dyfod yn gynnhesach na'r tir; ac hyd o ddeutu naw yn y bore, y mae y gwynt yn chwythu o'r tir. Y pryd hyny y mae yn newid drachefn i'w sefyllfa flaenorol. Y mae yr awelon hyn i'w teimlo mewn modd neillduol ar hyd cyffiniau Malabar, lle y mae eu dylanwad yn cyrhaedd am drigain milldir oddi wrth y tir. Y maent yn chwythu yn effeithiol hefyd yn Mor y Canoldir, ac Ynysoedd yr India Ddwyreiniol, ac India y Gorllewin. Y mae yr awelon rheolaidd a deimlir mewn rhai manau, y boreu a'r hwyr ar y tir, yn cael eu hachosi gan gyfnewidiadau yn lleithder yr awyr; yr hyn a gynnyrchir gan lewyrchiad yr eira ar ben y mynyddoedd cyfagos.

Yn Mor y Werydd, yn ymestyn ar hyd llinell y cyhydedd, ac ychydig o raddau i'r gogledd iddo y mae llanerchau a elwir y Broydd Tawel (*region of calms*). Aflonyddir y lleoedd hyn yn fynych gan ystormydd dychrynllyd. Pan y mae y llong ar ei mordaith i'r deheu yn dynesu at y cyhydlin, yn nghanol Môr y Werydd, y mae ofn a phryder yn meddiannu y dwylaw. Yn fuan neu yn hwyrach y mae y gwynt ffafriol a'i dygasai hyd yma yn myned yn wanach, wanach; ac o'r diwedd yn gostegu yn hollol. O'u hamgylch ymestyna y môr, yn loew, didrai, diderfyn. Y mae y llong, oedd o'r blaen yn rhwygo yr eigion gyda chyflymdra yr aderyn, yn gorwedd yn farw ar yr hylif grisialaidd. Treiddia pelydr yr haul, yr hwn sydd yn union uwch eu pen, i'r llanerch cul yn mha un y saif y dynion. Y mae y dec yn llosgi drwy wadnau eu hesgidiau. Y mae tarth nychlyd yn llenwi y cabanau. Am bythefnos gyfan, gorfodir hwy i aros yn llonydd. Y mae eu hystorfa o ddwfr wedi pallu, a syched arteithiol yn glynu eu tafod wrth daflod eu genau; ac edrycha pob dyn ar ei gyd-ddioddefydd gydag edrychiad gwyllt a dychrynllyd anobaith.

Y mae yr haul yn myned i lawr y tu ol i'r gorwel; y mae awyrgylch yr hwyr yn cael ei goleuo â rhyw gochni rhyfedd, o liw copr; a chyda hwyhâd y nos y mae mur mawr, du, yn ymgodi yn y dwyrain; pibell yn adseinio yn isel, ond yn llym, yn y pellder, oddi wrth yr hwn y dynesa ystrip hir o ewyn ar yr eigion du. Y mae y llestr yn gogwyddo, ac yn siglo ar donau aflonydd; ond y mae yr hwyliau, etto, yn crogi wrth y mast, ac yn yslapio yn ruddfanus yn erbyn y ceibrenau. Yn ddisymmwth, y mae yr ystorm yn ymdori gyda thwrf dychrynllyd. Gydag ysgrechiad, y mae yr hwyliau yn ymrwygo yn llinynau; a chan ymhollti y mae y prif hwylbren yn syrthio dros y bwrdd. Gydag ymdrech dirfawr, y mae y dwylaw yn llwyddo i dori y rhaffau sydd yn ngweddill, ac y mae y llong yn awr yn cael ei hysgubo dros yr eigion, ac yn dawnsio fel meddwyn—yn awr ar frig uchel y tonau—wed'yn yn suddo yn isel i'r dyfnder; a phob rhan o honi yn crecian ac yn gruddfau fel pe ar ymadael oddi wrth eu gilydd. Y mae y taranau yn rhuo yn ddibaid; y mellt yn ymsaethu yn ddiddiwedd drwy yr awyrgylch; a'r gwlaw yn disgyn yn afonydd, yn lle yn ddiferynau; a llawer gwaith y mae y morwyr yn rhoddi pob gobaith i fyny. Ond o'r diwedd, y mae yr ystorm yn tawelu; y mae y tonau yn gwastadhau; ond pan y mae pelydr cysurlawn yr haul yn ymddangos drachefn yn y dwyrain, y maent yn amlygu yr un arwyddion alaethus a'r diwrnod blaenorol. Mae yr eigion etto yn ymdaenu fel llen o wydr gloew; a thrachefn, y mae y morwyr yn edrych yn ddychrynllyd ar eu gilydd. Ystorm eilwaith, a thawelwch drachefn: ond o'r diwedd, mae y llong yn cael ei chludo i fröydd heddychlawn y trafnidwynt, ar y tu arall i'r cyhydedd. Y mae cannoedd o longau wedi myned yn ddrylliau yn y lle hwn; cannoedd wedi colli eu morwyr drwy y farwolaeth fwyaf ofnadwy—marw o syched; ond y mae llawer sydd yn llwyddo i ddianc o hono yn tywallt eu calonau mewn diolchgarwch i'r hwn a'u gwaredodd.

"O anadl! tyred oddi wrth y pedwar gwynt;" *Ezec.* xxxvii. 9. Oddi wrth yr ymadrodd yna, ac ereill yn y Beibl, y mae yn amlwg fod yr Iuddewon yn golygu hanfodiad o leiaf bedwar gwynt (*Dan.* viii. 8; *Zech.* ii. 6; *Mat.* xxiv. 31), y rhai a chwythent o'r dwyrain, y gorllewin, y gogledd, a'r deheu. Y gogledd-wynt, yn naturiol, oedd yr oeraf o'r pedwar; ac o ganlyniad, yr oedd ei bresennoldeb yn ffafriol i blanhigion: *Can.* iv. 16. Yn *Diar.* xxv. 23, dywedir ei fod yn "gyru y gwlaw ymaith;" neu yn ol y cyfieithiad ar ymyl y ddalen, yn "esgor ar y gwlaw." Y mae rhai yn deall oddi wrth yr adnod hon ei fod bob amser yn wlawog; ond nid yw y ffaith ei fod yn "esgor ar y gwlaw" yn profi ei fod yn wlawog. Yr oedd y dwyreinwynt yn croesi anialwch Arabia cyn cyrhaedd Canaan: am hyny, gelwir ef yn wynt y diffaethwch;" *Iob* i. 19; *Ier.* xiii. 2, 4. Yr oedd y gwynt hwn yn nodedig o sych a threiddgar; ac yn meddu ar holl effeithiau y *sirocco* ar blanhigion: *Ezec.* xvii. 10; xix. 12; *Hos.* xiii. 15; *Ionah* iv. 8; *Exod.* xiv. 21; *Iob* xxvii. 21; xxxviii.

Digitized by Google

24; *Salm* xlviii. 7; *Esa.* xxvii. 8; *Ezra* xxvii. 26. Yr oedd yn bur llym a nerthol. Ond gan nad yw y gogledd-wynt yn cyfatteb yn hollol i'r nodwedd yma, tybir mai gwynt y gogledd-ddwyrain a olygir; a dywed Dr. Shaw mai dwyreinwynt y galwai yr Iuddewon bob gwynt a chwythai rhwng y dwyrain a'r gogledd. Y mae gwynt y dwyrain yn chwythu, yn Ngwlad Canaan, o Chwefror hyd Mehefin. Dywedir fod y deheuwynt yn gynnes; ac wrth ystyried fod yn rhaid iddo groesi gorynys Arabia, ar ei ffordd i Palestina, y mae yn naturiol i fod yn neillduol o boeth: *Iob* xxxvii. 17; *Luc* xii. 55. Y mae Olshausen yn golygu mai yr un ydyw hwn a'r *simoom* y soniwyd am dano, gan gyfeirio at y gair Arabaeg, a gyfieithir "ystormus" (Saes. *horrible*); a dywed Robinson iddo ef deimlo effeithiau y gwynt ofnadwy hwn yn agos i Beerseba. Yr oedd y gwynt hwn yn chwythu yn y gwanwyn; a gwynt y gorllewin o Ragfyr hyd Chwefror.

Cyfeirir hefyd at wyntoedd lleol y wlad (*Marc* iv. 37; *Luc* viii. 23); i'r rhai yr oedd Môr Galilea yn agored, a'r rhai oeddynt yn ddigon geirwon i beryglu y cychod; *Mat.* viii. 24; *Ioan* vi. 18. Yn hanes mordaith Paul, yr ydym yn cael hanes rhyw wynt o dan yr enw *euroclydon: Act.* xxxviii. 14. Y mae ystyr y gair yn anhysbys. Dywed rhai mai yr un ydyw a'r gwynt a adwaenir gan forwyr yn bresennol wrth yr enw *levanter*, a'r hwn sydd yn gyffredin yn Môr y Canoldir, ac yn chwythu o wahanol gyfeiriadau, o'r gogledd-ddwyrain heibio i'r gogledd i'r de-ddwyrain.

Y mae y cyfeiriadau ffugrol at y gwynt yn lliosog iawn. "Adenydd y gwynt;" 2 *Sam.* xii. 11: yr hwn sydd yn golygu yr ysgogiad cyflymaf. Defnyddir ef i osod allan ddiddymdra; *Iob* xv. 2; *Hos.* xii. 1: ysgafnder neu wagedd; *Iob* vii. 7; *Esa.* xli. 29: dinystr rhyfel; *Ier.* xviii. 17: ac effeithiau dialedd dwyfol; *Esa.* xxxvii. 8. Gosodir ef allan hefyd fel tyst o allu y Creawdwr: *Iob* xxviii. 25; *Salm* cxxxv. 7; *Ier.* x. 13; *Diar.* xxx. 4; *Amos* iv. 13; ac i arddangos gweithrediadau yr Ysbryd Glân (*Ioan* iii. 8; *Act.* ii. 2); enw yr hwn sydd yn arwyddo gwynt tawel.

Er fod y gwynt mor ddinystriol ei effeithiau yn fynych ar dir a môr, y mae ei ddylanwad ar hapusrwydd bywyd cyffredin yn fawr hefyd. Y mae, yn effeithiol i ddileu sawyr annymunol a gwenwynig o'r awyr. Y gwynt sydd yn gyru y cymmylau o fan i fan, fel y gallant ddyhidlo eu gwlaw dymunol i ffrwythloni y ddaear. Y mae ei ddylanwad mewn ysgogiad peiriannau hefyd yn fawr; a chyn i ager gael ei gymmhwyso, efe yn unig a alluogai y llongau i deithio, ac i ddwyn allan drysorau o wahanol borthladdoedd y ddaear.

GWYNTYLL [*gwynt*]. Offeryn a ddefnyddid yn gyffredin iawn yn ngwledydd y dwyrain i buro neu i lanhau ŷd ar ol ei ddyrnu. "Yr hwn y mae ei wyntyll yn ei law;" *Mat.* iii. 12. Nid offeryn i gynnyrchu gwynt a feddylir wrth y gair; ond llaw-raw, i daflu yr ŷd i'r gwynt, yn atteb yr un dyben a gogr gyda ni. Fe rydd y darlun canlynol, yr hwn a gymmerwyd oddi ar arluniau Aiphtaidd, ddrychfeddwl i'r darllenydd o ffurf yr offeryn syml yma.

Cyfeiriwyd yn ffugrol gan Ioan Fedyddiwr at weinidogaeth yr Arglwydd Iesu Grist fel gwyntyll: ac yn wir y mae y gymmhariaeth yn un darawiadol iawn, ac yn cydweddu yn gywir â'r hyn a ddywedodd y Gwaredwr ei hun yn nammeg yr efrau: *Mat.* xiii. 30. Y mae yn eithaf amlwg mai y meddwl yw, y llwyr lanheir yr eglwys yn y diwedd oddi wrth bob aflendid, ac y gwaredir hi oddi wrth gymmeriadau rhagrith-



Dar. 353. GWYNTYLL.

iol a thwyllodrus, fel y gwneler hi yn "eglwys heb arni na brycheuyn na chrychni, na dim o'r cyfryw," "yn sanctaidd ac yn ddifeius;" *Eph.* v. 27.

GWYRYF. Gwel MORWYNIG.

GWYRDROI [*gŵyr—troi*]: troi ar ŵyr, croesdroi. Cyhuddid Iesu Grist ger bron Pilat o ŵyrdroi y bobl. *Luc* xxiii. 2; "Ni a gawsom hwn yn gŵyrdroi y bobl, ac yn gwahardd rhoddi teyrnged i Cæsar, gan ddywedyd mai efe ei hun yw Crist Frenin." Mae holl eiriau y cyhuddiad yn awgrymiadol: *hwn*, heb enwi y cyhuddedig—yn arddangos eu diystyrwch o hono: *y bobl*, neu y genedl, gan gymmeryd arnynt deimlo yn ddwfn dros feddiannau eu gwlad. Cymmharer *Ioan* vii. 49. Mae y cyhuddiad yn driphlyg: Yn gyntaf, Gŵyrdroi y bobl—rhoddi cyfeiriad anghywir iddynt, eu camarwain, eu dwyn ar gyfeiliorn oddi ar yr iawn ffordd, yn yr hon y carasent hwy (y cyhuddwyr) a'r Rhufeiniaid iddynt rodio. Yn ail, Ei fod yn gwarafun rhoddi teyrnged i Cæsar. Yn drydydd, Ei fod yn hòni mai efe oedd y Brenin Eneiniog. Am yr heretic, dywed Paul (*Tit.* iii. 11) ei fod "wedi ei ŵyrdroi;" ymyl y ddalen, "ei ddymchwelyd." Dywed Estius fod y gair gwreiddiol yma am ŵyrdroi yn cael ei ddefnyddio am adeilad wedi ei dymchwelyd o'r sylfaen. Cyfieitha Macknight y gair yn *perverted;* ac yn ei esboniad, *utterly depraved.* Y meddwl felly ydyw, fod y math yma o hereticiaid mor bwysig, mor drwyadl ddrygionus, fel ag i wneuthur eu hadferiad yn gwbl ddiobaith; ac felly, mai dyledswydd a doethineb y cyfryw un a Titus oedd eu gochel. Pe buasai tebygrwydd am eu hadferiad, buasai hyny yn rheswm i nesau atynt. "Y rhai y mae yr annysgedig a'r anwastad yn eu gŵyrdroi i'w dinystr eu hunain;" 2 *Pedr* iii. 16. Dywedir hyn gan Pedr gyda golwg ar rai o eiriau ei "anwyl frawd Paul." Yr annysgedig oedd y rhai *indociles* [*Estius*]=annysgadwy; y rhai y mae nwydau a rhagfarnau yn tywyllu eu deall, ac yn eu gwneuthur yn wrthwynebus i'r gwirionedd. Yr anwastad ydyw y rhai a ddisgrifir gan Iago fel rhai dau-ddyblyg eu meddwl: rhai oedd heb feddu cariad cywir at bethau dwyfol, na gwir ymlyniad wrth ddaioni; weithiau yn eu dilyn, ac weithiau yn eu gadael, yn ol fel y byddo eu tueddiadau ar y pryd. Dynion wedi eu "cadarnhau" ydyw y rhai gwrthwyneb iddynt. Y mae y gair gwreiddiol am ŵyrdroi yn arwyddo dwyn dyn dan arteithiau, er gwneyd iddo gyffesu rhyw drosedd y cyhuddir ef o hono. Wrth gymmhwyso y gair at ysgrifeniadau, y mae yn gosod

Digitized by Google

allan waith un yn gwneyd i eiriau roddi allan feddwl hollol groes i'r hyn a fwriadodd yr awdwr, trwy feirniadaeth anniheg.

GWYSTL—OR—IAETH: [*gwyst;* Saes., *pledge*], ernes, addewid, sicrwydd:—unrhyw beth y byddys yn seilio un gobaith arno am gyflawniad o addewid neu ymrwymiad. 1. Pan y mae dyn o ymddiried yn rhoddi ei addewid, edrychir ar ei gymmeriad fel gwystl o gyflawniad yr addewid. Y mae y serch sydd yn bodoli rhwng y gŵr a'r wraig yn wystl o gyflawniad y cyfammod priodasol. Lle y bydd cyttundeb rhwng pleidiau, budd neu hapusrwydd y pleidiau ydyw y gwystl goreu o gyflawniad y cyttundeb. 2. Mewn *cyfraith*, gweithred yn trosglwyddo eiddo neu ystâd i feddiant person y byddys yn benthyca arian ganddo; neu fel y dywedir yn gyffredin, *mortgage.* Mewn achos o feichniaeth y mae y meichnïydd yn wystl o ail ymddangosiad y troseddwr yn y llys, neu dros ddychweliad eiddo wedi ei gymmeryd mewn achos o *distress.* 3. Unrhyw beth a roddir yn y *pawn*, er mwyn codi arian arno. O dan gyfraith Moses yr oedd caniatâd i'r gofynwr dderbyn gwystl gan y dyledwr ar ammodau pennodol. Os y wisg allanol fyddai y gwystl, yr oedd yn rhaid i'r gofynwr ei dychwelyd cyn machlud haul, am mai ynddi y gorweddai y gŵr tlawd i orphwys: *Exod.* xxii. 26, 27; *Deut.* xxiv. 12, 13. Ond tybir fod caniatâd i gymmeryd y gwely: *Diar.* xxii. 27. Gwaherddid mewn modd arbenig cymmeryd gwisg y weddw (*Deut.* xxiv. 17); yn gystal a maen melin (*Deut.* xxiv. 6); o blegid byddai hyny yr un peth a chymmeryd bywoliaeth y person ymaith. Tybia Michaelis y gommeddid cymmeryd unrhyw anifail neu offeryn amaethyddol nas gellid yn hawdd ei hebgor. Ni chaniateid i'r gofynwr fyned i mewn i dŷ i ymofyn gwystl, ond yr oedd yn rhaid iddo sefyll oddi allan hyd nes y deuai y dyledwr i'w gyflwyno iddo (*Deut.* xxiv. 10, 11).

Y mae Moses fel yn gwyro oddi wrth yr haelfrydedd hwn sydd yn hynodi ei gyfreithiau; o blegid, fel yn mhlith y Rhufeiniaid, yr oedd hawl gan y gofynwr i gymmeryd meddiant o berson y dyledwr a'i orfodi i'w wasanaethu. Ond yr oedd ei sefyllfa yn wahanol i'r Rhufeiniaid yn hyn:—oedd sefyllfa y dyledwr yn ddim gwell nag eiddo y caethwas, a gellid ei gadw mewn meddiant hyd nes y telid y ddyled, ac hyd yn oed cymmeryd ei fywyd oddi arno. Nis gallai y gofynwr Iuddewig werthu ac ymddwyn at y dyledwr fel caethwas, ac yr oedd yn rhwym o'i ryddhau pan ddelai yr Iwbili: *Exod.* xxi. 2; *Lef.* xxx. 39—42; *Deut.* xv. 9. Modd bynag, nid oedd y dyledwr estronol yn meddu ar y rhagorfraint o gael ei ryddhau y pryd hyny: *Lef.* xxx. 44—46, 47—54; 2 *Bren.* iv. 2; *Esa.* l. 1; a liii. 3.

GWYRTHIAU. Y mae yr Ysgrythyrau yn rhoddi gwahanol enwau arnynt, i ddynodi rhyw neillduolrwydd gwahaniaethol ynddynt. Defnyddir "rhyfeddodau ac arwyddion" yn fynych, yn yr Hen Destament [*mouphaith, outh,* a *niphlo: Num.* xiv. 22; *Deut.* xi. 3; xxix. 3; *Barn.* vi. 13], mewn ystyr eang am weithredoedd nerthol ac anghyffredin yr Arglwydd, y rhai a gyflawnodd mewn modd gwyrthiol tuag at genedl Israel; ac weithiau, mewn modd mwy cyffredinol, fel ag i gynnwys rhyfeddodau Duw mewn natur (*Iob* ix. 10), ei arweiniad i'w bobl, a'i farnau ar ei elynion: *Exod.* xxxiv. 10; *Ios.* iii. 5; *Dan.* vi. 27; *Salm* cxxxix. 14. Yn y Testament Newydd, defnyddir "arwyddion a rhyfeddodau, ac amryw nerthoedd yr Ysbryd Glân;" *Heb.* ii. 4. Mae yr ymadroddion hyn i'w cael yn fynych. Yn gyntaf, *arwydd* (*sêmeiôn*), "A'r Arglwydd yn cadarnhau y gair trwy arwyddion;" *Marc* xvi. 20; *Act.* xiv. 3. Yn yr ystyr hwn yr oeddynt yn cadarnhau awdurdod y neb a'u cyflawnai, fel rhai anfonedig oddi wrth Dduw. "Pa arwydd yr wyt yn ei ddangos i ni?" (*Ioan* ii. 18) oedd y cwestiwn a ofynai yr Iuddewon yn fynych, pan y ceisient gan yr Iesu ei gyflawnhau ei hun yn yr hyn a gyflawnai, trwy ddangos fod ganddo awdurdod oddi wrth Dduw: *Mat.* xii. 38; xvi. 1. Rhoddodd yr Arglwydd awdurdod i Moses i gyflawni gwyrthiau fel arwyddion o'i awdurdod dwyfol: *Exod.* vii. 9, 10. Yn ail, *rhyfeddod* (*teras*). Cyssylltir y gair hwn yn fynych yn yr Hen Destament a'r Newydd âg *arwydd.* Gelwir gwyrth yn rhyfeddod o herwydd y cymmhwysder sydd ynddi i gyffroi syndod yr edrychwyr. Y mae yr efengylwyr yn sylwi yn fynych ar hyn: *Marc* ii. 12; iv. 41; vi. 51; viii. 37; *Act.* iii. 10, 11. Sylwa Origen nad ydyw y gair hwn byth yn cael ei ddefnyddio ond mewn cyssylltiad â geiriau ereill; yr hyn a ddengys fod ystyr pellach iddynt nag i gyffroi syndod diymchwiliad yn y meddwl. Yn drydydd, *nerthoedd* (*dunameis*), i ddangos eu bod yn amlygiadau o allu goruwchnaturiol: *Act.* vi. 8; "Eithr Stephan, yn llawn ffydd a nerth, a wnaeth ryfeddodau ac arwyddion." Cyfieithir y gair hwn hefyd "gweithredoedd nerthol;" *Mat.* xi. 20; *Marc* vi. 14; *Luc* x. 13. Defnyddir y tri gair hyn, weithiau, mewn cyssylltiad â'u gilydd, ond mewn trefn gwahanol: *Act.* ii. 22; 2 *Cor.* xii. 12; 2 *Thes.* ii. 9. Nid gwahanol ddosbarthiadau o weithredoedd a ddynodir trwy y geiriau hyn: ond gwahanol ansoddau yr un weithred. Yr oedd pob gwyrth yn cyffroi syndod, ac felly yn *rhyfeddod;* yn amlygiad o wirionedd uwch na hi ei hun, ac felly yn *arwydd;* ac yn ddadguddiad o *nerth* uwch law gallu naturiol. Y mae iachâd y claf o'r parlys yn enghraifft o hyn: *Marc* ii. 1—12. Yr oedd yn *rhyfeddod*, o herwydd "synodd pawb:" yr oedd yn *nerth*, o herwydd ar orchymyn Crist, cyfododd y dyn, a chymmerodd i fyny ei wely, ac aeth allan yn eu gŵydd hwynt oll:" yr oedd yn *arwydd*, o herwydd yr oedd yn brawf o wirionedd uwch, sef, "fod gan Fab y dyn awdurdod ar y ddaear i faddeu pechodau." Yn bedwerydd, gair arall a ddefnyddir gan Ioan am wyrthiau Iesu Grist yw *erga*, "gweithredoedd"—*Ioan* v. 26; vii. 21; x. 25, 32, 38; xiv. 11, 12; xv. 24; a *Mat.* xi. 2. Mae priodoldeb yr enw hwn ar wyrthiau yn gynnwysedig yn y ffaith mai goruwchnaturiol ydynt wrth eu mesur â galluoedd natur, ond yn eu perthynas â Christ, Arglwydd natur, ei ddull naturiol o weithredu ydynt. Mae yn amlwg oddi wrth ddull yr Iesu o weithredu, fod y naturiol a'r goruwchnaturiol yr un mor hawdd iddo ef. Nid oes un ymdrech na gorchest yn ganfyddadwy pan yn troi oddi wrth yr hyn sydd yn naturiol at yr hyn sydd yn oruwchnaturiol.

Nid yw gwyrthiau wedi cael eu cyflawni ond ar adegau neillduol, pan y byddai amlygiadau neillduol yn cael eu gwneyd o DREFN Y PRYNEDIGAETH. Ac hyd yn oed yn yr oesoedd y cymmerasant le, ni chyflawnwyd hwynt ar bob amgylchiad, ac yn mhob man. Y mae gwaith cyffredin Duw yn y byd yn unol âg ordeiniadau pennodol, ac yn ol deddfau sefydlog. Ordeiniadau dwyfol ydyw y rhai hyn; a thrwy ymostyngiad iddynt y mae dynion yn cael cyflawniad o'u hanghenion

naturiol. Y mae y Duw mawr yn sierhau parch i'w osodiadau naturiol trwy bendio gwyro oddi wrthynt, ond am y rhesymau pwysicaf. Yr oedd yr Arglwydd Iesu yn gwrthod, yn y modd mwyaf penderfynol, ganiatau i'r Iuddewon eu dymuniad, pan yn gofyn iddo am arwydd er mwyn porthi eu hawydd am rywbeth i synu ato. Y mae yn fynych yn eu ceryddu am eu bod yn gofyn am arwydd o'r nefoedd yn barhaus, gan esgeuluso yr arwyddion oedd ganddynt: *Luc* iv. 25—27. Rhoddir hanes dau gylch neillduol o wyrthiau — un yn yr Hen Destament, a'r llall yn y Testament Newydd. Cyflawnwyd y cyntaf ar adeg, ac mewn cyssylltiad â gosodiad i fyny goruchwyliaeth Moses, neu deyrnas Dduw yn mhlith cenedl Israel, trwy Moses. Cyflawnwyd y llall, a'r gogoneddusaf, ar ymddangosiad Mab Duw mewn cnawd, a sefydliad teyrnas Dduw yn mysg dynion trwyddo. Cyflawnwyd gwyrthiau ar ol amser Moses dan yr hen oruchwyliaeth; ond mewn cyssylltiad âg adeg bwysig yn hanes yr oruchwyliaeth hono. Mae cyfaddasrwydd yn ngwyrthiau y ddwy oruchwyliaeth i osod allan eu hysbryd a'u nodwedd neillduol; ac y mae eu cymmharu yn dra addysgiadol ar y pen hwn.

Gydag anhawsder y glanhawyd Miriam oddi wrth y gwahanglwyf (*Num.* xii. 13—15); ond glanhaodd Crist y gwahanglwyf â chyffyrddiad ei law (*Mat.* viii. 3); a deg o wahangleifion trwy rym ei ewyllys (*Luc* xvii. 14). Gweddïodd Elias yn faith, ac aeth ei was i fyny saith waith, cyn i'r gwlaw ymddangos (1 *Bren.* xviii. 42—44); ymestynodd ar y bachgen dair gwaith, a llefodd mewn poen, cyn ennill ei enaid yn ol (1 *Bren.* xvii. 21, 22). Ymdrechodd Eliseus yn fwy etto i gael yn ol blentyn y Sunamees: 2 *Bren.* iv. 31—35. Yr oedd Iesu Grist yn cyfodi y meirw mor hawdd ag y cyflawnai weithrediadau cyffredin bywyd. Pan y mae y gwyrthiau yn gyffelyb o ran natur, y mae gwyrthiau Crist yn fwy, ac yn helaethach. Porthodd Eliseus gan ŵr âg ugain torth (2 *Bren.* iv. 42 44); ond EFE, pum mil â phum torth. Cyflawnwyd gwyrthiau yr Hen Destament trwy offeryn, â pha un y cyssylltwyd y rhinwedd. Yr oedd Moses yn cyflawni gwyrthiau â gwialen, ac hebddi nid oedd efe yn ddim (*Exod.* vii. 19; viii. 5, 16; ix. 23; x. 13; xiv. 16, &c.); â phren y pereiddiodd y dyfroedd (*Exod.* xv. 25); â'i fantell y tarawodd Elias y dyfroedd, fel yr ymwahanasant; â halen yr iachaodd Eliseus y dyfroedd (2 *Bren.* ii. 20). Ond y mae Crist yn cyflawni ei wyrthiau â'i air, neu â chyffyrddiad (*Mat.* xx. 34); neu â'i boeryn (*Marc* vii. 33; viii. 23); ac er iddo ddefnyddio clai unwaith, nid oedd dan angenrheidrwydd i wneuthur hyny, gan ei fod yn cyflawni yr un wyrth drwy ffyrdd ereill: *Ioan* ix. 6. Cyflawnodd Moses, ac apostolion Iesu Grist, eu gwyrthiau yn enw ac er gogoniant un arall: "iachawdwriaeth yr Arglwydd, yr hwn a wna efe i chwi heddyw:" *Exod.* xiv. 13. *Act.* iii. 6; "Yn enw Iesu Grist o Nazareth, cyfod a rhodia:" *Act.* ix. 34; *Marc* xvi. 17; *Luc* x. 17. Y mae Crist yn cyflawni gwyrthiau yn ei enw ei hun:—"Mynaf, bydd lân;" *Mat.* viii. 3; *Marc* ix. 25; *Luc* vii. 14. A phan yn gweddïo cyn cyflawni gwyrth, y mae yn dwyn tystiolaeth i'w undeb â'i Dad: *Ioan* xi. 41, 42. Nid o'i achos ef yr oedd llef o'r nef, ond o achos y dysgyblion: *Ioan* xii. 30. Y mae gwyrthiau y ddwy oruchwyliaeth yn gwahaniaethu yn eu tynerwch. Y mae gwyrthiau y gyfraith yn cyfatteb yn hytrach i natur y gyfraith: y maent yn amlygiadau, yn fynych, o ddigofaint Duw yn erbyn pechod; megys gwyrthiau yr Aipht—troi y dwfr yn waed, lladd y cyntafanedig, &c.; a'r rhyfeddodau a gyflawnwyd yn yr anialwch (*Num.* xvi. 31; *Lef.* x. 2); a gwyrthiau diweddarach: 2 *Bren.* i. 10—12; ii. 23—25. Ond y mae holl wyrthiau y Gwaredwr yn weithredoedd o drugaredd. Un eithriad ymddangosiadol sydd; ac yn hono y mae ei anfoddlonrwydd yn disgyn ar bren, ac nid ar ddyn. Y mae gwyrthiau yr Hen Destament, yn benaf, yn ddangosiad o allu ar elfenau natur; megys hollti y môr (*Exod.* xiv. 21); yr afon (*Jos.* iii. 14); y ddaear (*Num.* xvi. 31); disgyniad tân o'r nefoedd (2 *Bren.* i. 10); y ffwrn dân wedi colli ei gallu i losgi (*Dan.* iii); y llewod wedi eu dofi (*Dan.* vi). Yr oedd priodoldeb neillduol yn y gwyrthiau hyn, a'r cyfryw, yn mhresennoldeb awdurdodau paganaidd. Yr oedd Duw Israel yn dangos ei allu ar dduwiau a galluoedd y paganiaid: gwyrthiau gallu, yn benaf, oeddynt; ac yn eu mawredd a'u gallu yr ymffrostient hwythau yn benaf. Yr oedd yr Arglwydd yn dysgu ei bobl, ac yn dysgu y cenedloedd cylchynol, mai nid un o dduwiau y mynyddoedd a'r gwastadedd oedd efe (1 *Bren.* xx. 23); ond mai Arglwydd yr holl ddaear ydoedd.

Yr oedd holl adegau bywyd y Gwaredwr wedi eu hynodi â gwyrthiau, ac yr oedd y gwyrthiau hyn yn ymestyn dros holl natur. Rhagfynegwyd ei enedigaeth gan angel; ar amgylchiad ei enedigaeth, ymddangosodd liaws o lu nefol i fugeiliaid ar wastadedd Bethlehem; agorwyd y nefoedd ar ei fedydd; ar ei orchymyn tawelodd y gwynt a'r môr, crinodd y ffigysbren, rhuthrodd cenfaint o foch i'r môr, a llanwyd rhwydau yr apostolion â physgod; ymddangosodd Moses ac Elias iddo, ac ymddiddanasant âg ef ar ei weddnewidiad; ymddangosodd angel, gan ei nerthu yn Gethsamene; bu farw yn nghanol griddfanau y greadigaeth; adgyfododd y trydydd dydd, ac agorwyd beddau gan ddaeargryn; ac yn ngolwg ei ddysgyblion, esgynodd i ogoniant. Ond etto, yr oedd y nifer mwyaf o lawer o'i wyrthiau yn wyrthiau o iachâd. At y rhai hyn y mae y Gwaredwr yn cyfeirio, pan yr anfonodd Ioan i ofyn ai efe oedd y Messïah: "Ewch, a mynegwch i Ioan y pethau a glywch ac a welwch: y mae y deillion yn gweled eilwaith, a'r cloffion yn rhodio, a'r cleifion gwahanol wedi eu glanhau, a'r byddariaid yn clywed; y mae y meirw yn cyfodi, a'r tlodion yn cael pregethu yr efengyl iddynt;" *Mat.* xi. 4—5. Felly, fe ddangosodd ei drugaredd yn gystal a'i allu. Ni chyflawnodd weithredoedd i beri i ddynion synu, heb fod ynddynt un cymmhwysder i weinyddu lles, megys i droi afonydd yn ol i'w tarddiad, peri i'r ser grwydro yn y ffurfafen, neu wasgaru dinystr. Y mae ei holl weithredoedd yn brawf nad dyfod i ddinystrio, ond i gadw yr oedd. Defnyddiodd ei allu i iachau; ond yr oedd ei wyrthiau yn cyfeirio at wirioneddau a bendithion uwch; hyny yw, yr oeddynt yn arwyddion—yr oeddynt yn gynlluniau, neu gysgodau, o'i waith fel Gwaredwr oddi wrth bechod a thrueni yn mhob oes; ac felly, yn amlygiadau o'i ddoethineb a'i ragwybodaeth, yn gystal ag o'i allu a'i gariad. Y mae y gweithredoedd a gyflawnodd yr Iesu wedi eu cyflawni ganddo mewn cyssylltiad â chyhoeddiad teyrnas nefoedd ar y ddaear, ac fel amlygiadau o fendithion ysbrydol y deyrnas hono. Y mae yr efengylwyr, wrth roddi hanes y gweithredoedd hyn, yn galw sylw atynt fel yn meddu yr ystyr arwyddluniol hwn. Ac y mae hyn o bwys i'w ystyried, wrth edrych i mewn i ddybenion gwyrthiau yn ngoleuni yr Ysgrythyrau. Cawn

Digitized by Google

enghraifft o hyn yn y dyn a anesid yn ddall, i'r hwn y rhoddodd yr Iesu ei olwg: *Ioan* ix. Esboniodd yr Iesu ddallineb y dyn fel achlysur amlygiad gweithredoedd Duw ynddo ef:—"Rhaid i mi weithio gwaith yr hwn a'm hanfonodd.....Tra yr ydwyf yn y byd, goleuni y byd ydwyf." Y cyhoeddiad hwn oedd yn penderfynu natur y gwaith oedd i'w gyflawni ar y dyn dall. Y mae caffaeliad ei olwg yn cael ei ddefnyddio fel moddion i ddwyn y dyn i adnabod ac i gyffesu Crist fel goleuni y byd; ac hefyd, yn foddion o argyhoeddiad a chondemniad i'r rhai oedd yn gwrthsefyll y goleuni, ac felly yn profi eu dallineb eu hunain. "Clybu yr Iesu ddarfod iddynt ei fwrw ef allan: a phan ei cafodd, efe a ddywedodd wrtho, A wyt ti yn credu yn Mab Duw? Yntau a attebodd ac a ddywedodd, Pwy yw efe, O Arglwydd! fel y credwyf ynddo?...Yntau a ddywedodd, Yr wyf fi yn credu, O Arglwydd! Ac efe a'i haddolodd ef." Y mae yn amlwg fod y wyrth a gyflawnwyd ar y dyn hwn yn cael ei defnyddio yn fwriadol i'w arwain, yn y modd symlaf, oddi wrth bethau gweledig at yr anweledig.

Edrychwn ar adgyfodiad Lazarus fel enghraifft etto:—*Ioan* xi. Anfonodd ei chwiorydd at yr Iesu, i'w hysbysu fod eu brawd yn glaf. Y mae yr Iesu yn esbonio y clefyd, fel y gwnaeth y dallineb o'r blaen; "Nid yw y clefyd hwn i farwolaeth, ond er gogoniant Duw, fel y gogonedder Mab Duw trwy hyny." Ar ol peth ymddiddan, rhwng Martha a'r Iesu, dywedodd Martha, "Myfi a wn yr adgyfodir ef yn yr adgyfodiad, y dydd diweddaf. Yr Iesu a ddywedodd wrthi, Myfi yw yr adgyfodiad, a'r bywyd; yr hwn sydd yn credu ynof fi, er iddo farw, a fydd byw: a phwy bynag sydd yn fyw, ac yn credu ynof fi, ni bydd marw yn dragywydd. A wyt ti yn credu hyn? Dywedodd hithau wrtho, Ydwyf, Arglwydd: yr wyf fi yn credu mai ti yw y Crist, Mab Duw, yr hwn sydd yn dyfod i'r byd." Y mae y geiriau hyn o eiddo yr Iesu yn esboniad ar y wyrth yr oedd yn myned i'w chyflawni. Yr oedd adgyfodiad Lazarus yn arwydd ac yn amlygiad o'r nerth ysbrydol sydd yn deilliaw oddi wrtho, trwy yr hwn y cyfranoga pawb sydd yn credu ynddo o fywyd tragwyddol. Cymmerwn y drydedd enghraifft o *Act.* iii. a iv. Pan yr oedd Pedr ac Ioan yn myned i'r deml, yr oedd gŵr cloff yn gorwedd wrth y porth, yn gofyn am elusen. "Arian ac aur," meddai Pedr, "nid oes genyf; eithr yr hyn sydd genyf, hyny yr wyf yn ei roddi i ti: Yn enw Iesu Grist o Nazareth, cyfod a rhodia. A chan ei gymmeryd ef erbyn ei ddeheulaw, efe a'i cyfododd ef i fyny....a chan neidio i fyny, efe a safodd, ac a rodiodd, ac a aeth gyda hwynt i'r deml, dan rodio, a neidio, a moli Duw." Y mae Pedr yn egluro y ffaith hon ar ddau amgylchiad: ac ar y ddau, y mae yn ei defnyddio i ddwyn tystiolaeth i Iesu Grist fel tywysog ac awdwr bywyd ac iachawdwriaeth:—"A Thywysog y bywyd a laddasoch, yr hwn a gyfododd Duw o feirw; o'r hyn yr ydym ni yn dystion. A'i enw ef, trwy ffydd yn ei enw ef, a nerthodd y dyn yma, a welwch ac a adwaenoch chwi," &c. Llefarwyd y geiriau hyn wrth y dyrfa oedd yn sefyll o gwmpas y dyn a iachawyd a'r apostolion. Y diwrnod canlynol, dygwyd Pedr ac Ioan o flaen y cynghor: "Yna, Pedr yn gyflawn o'r Ysbryd Glân, a ddywedodd wrthynt, Chwychwi benaethiaid y bobl, a henuriaid Israel, od ydys yn ein holi ni heddyw am y weithred dda i'r dyn claf, sef pa wedd yr iachawyd ef; bydded hysbys i chwi oll, ac i bawb o bobl Israel, mai trwy enw Iesu Grist o Nazareth, yr hwn a groeshoeliasoch chwi, yr hwn a gyfododd Duw o feirw, trwy hwnw y mae hwn yn sefyll yn iach ger eich bron chwi. Hwn yw y maen a lyswyd genych chwi yr adeiladwyr, yr hwn a wnaed yn ben i'r gongl. Ac nid oes iachawdwriaeth yn neb arall: canys nid oes enw arall dan y nef, wedi ei roddi yn mhlith dynion, trwy yr hwn y mae yn rhaid i ni fod yn gadwedig (yn iach)." Byddai yn hawdd chwanegu at yr enghreifftiau hyn. Gwelir oddi wrthynt fod holl wyrthiau y Gwaredwr yn ymgodi oddi wrth y tymmorol a'r corphorol at yr ysbrydol a'r tragwyddol. Yr oedd y clefydau corphorol yr oedd Crist yn iachau oddi wrthynt yn ddangosiad o'r clefydau ysbrydol y mae yn gwaredu oddi wrthynt. Yr oedd amrywiaeth mawr yn y clefydau yr oedd yn achub oddi wrthynt, ond yr oedd ei allu yn effeithiol i symmud ymaith pob "clefyd a phob afiechyd." Yr oedd tebygolrwydd ac amrywiaeth yn y modd y deuai dynion ato, am y waredigaeth: yr oeddynt wedi clywed, mewn rhyw ffordd, am dano, ac am ei allu rhyfedd; yr oeddynt yn teimlo angen am waredigaeth; a credent fod yr Iesu yn alluog i'w gwaredu. Yr oeddynt yn gyffelyb yn hyn; ond gwahaniaethant mewn pethau ereill. Gwaeddai rhai am drugaredd pan y byddai yn myned heibio: yr oedd ereill yn chwilio am dano: ac yr oedd rhai yn analluog i ddyfod eu hunain, ond dygid hwynt gan eu cyfeillion, &c.: *Mat.* xx. 30—34; viii. 1—4, 5—13, &c., &c.

Wrth gymmeryd golwg gyffredinol ar wyrthiau yr Arglwydd Iesu Grist, ni a welwn—

I. *Eu gwasanaethgarwch i osod allan gogoniant ei berson, a'i Fessïaeth.* 1. Y maent yn brawf o lywodraeth goruwch natur, a thrwy natur. Nid natur ydyw yr uchaf; ond Cariad a Gwirionedd mewn undeb â hollalluogrwydd. 2. Y maent yn amlygiadau o ogoniant yr Arglwydd Iesu Grist, hyd yn oed yn nyfnder ei ddarostyngiad, a phan mewn agwedd gwas. 3. Y mae rhai o'i brif wyrthiau, megys ei adgyfodiad a'i esgyniad, yn elfenau hanfodol o'i yrfa ar y ddaear. 4. Y maent yn arwyddion o'i Fessïaeth; o herwydd fe brophwydwyd y byddai i'r Messïah gyflawni gwyrthiau: *Deut.* xviii. 18; *Esa.* xxxv. 5, 6. 5. Seliau ei ddwyfol anfoniad: *Ioan* ix. 16, 32; a xiv. 10. 6. Profion o'i fod yn Fab Duw, o gymmaint ag y cyflawnwyd hwynt mewn cyssylltiad â'i dystiolaethau ei hun am ei ddwyfoldeb a'i urddas hanfodol: *Ioan* x. 22—42. "Y pethau hyn a ysgrifenwyd fel y credoch chwi mai yr Iesu yw Crist, Mab Duw; a chan gredu, y caffoch fywyd yn ei enw ef:" *Ioan* xx. 31.

II. *Amcan ei ddyfodiad i'r byd.* 1. O ran ei ddylanwad ar amgylchiadau tymmorol dynion. Yr ydym wedi galw sylw at natur gysgodol ac arwyddocaol gwyrthiau, a'u cyfaddasrwydd i osod allan bendithion ysbrydol; ond etto, ni ddylem anghofio eu bod yn gosod allan hefyd ddylanwad Cristionogaeth ar sefyllfa dymmorol dynion. Er mai nid hyn ydyw eu prif amcan, etto hyn oedd eu heffaith cyntaf ac uniongyrchol ar y dynion y cyflawnwyd y gweithredoedd hyn arnynt. Y mae holl weithredoedd yr Iesu yn brawf o hyn, o gymmaint a'u bod oll yn gynnwysedig mewn symmud ymaith afiechyd, adferu bywyd, porthi yr anghenog a gwasgaru bendithion tymmorol ar bob llaw; ond y mae rhai yn arbenig felly, megys y dyn o'r hwn y bwriwyd allan leng o gythreuliaid, a'r hwn, yn y canlyniad, a gafwyd yn eistedd wrth draed yr Iesu, yn ei ddillad, ac yn ei iawn bwyll: *Luc* viii. 35. 2. Fel y mae ef ei hun a'i ddysgyblion yn egluro

Digitized by Google

ei weithredoedd nerthol, yr ydym yn gweled mai amcan mawr ei ddyfodiad i'r byd ydyw adferu iechyd, a goleuni, a bywyd ysbrydol i'r byd. 3. Y mae yn ymddangos yn ei wyrthiau yn Arglwydd y byw a'r meirw—yn un sydd yn meddu gallu ac awdurdod ar gythreuliaid, a hawl i waredu dynion oddi tan arglwyddiaeth y diafol, i adferu trefn i'r byd, i ddymchwelyd pob gormes, i rwymo y gormeswr, a "chaethiwo caethiwed."

III. *Gwasanaethgarwch gwyrthiau Crist fel profion o ddwyfoldeb y grefydd a ddysgai.* Y mae genym ei eiriau ef ei hun ar hyn. Anfonodd Ioan Fedyddiwr o'r carchar ato, i ofyn iddo yn uniongyrchol ac yn bennodol, ai efe oedd y Messïah. Attebodd yr Iesu, "Ewch, a mynegwch i Ioan y pethau a glywch ac a welwch. Y mae y deillion yn gweled eilwaith, a'r cloffion yn rhodio, a'r cleifion gwahanol wedi eu glanhau, a'r byddariaid yn clywed; y mae y meirw yn cyfodi, a'r tlodion yn cael pregethu yr efengyl iddynt:" *Mat.* xi. 4, 5. Y mae yr atteb hwn yn hollol bendant a diamwys. Y mae dau beth yn cael eu nodi a'u gwahaniaethu yn yr atteb hwn fel profion ei fod y gwir Fessïah:—yn gyntaf, ei fod yn meddu ar allu gwyrthiol; yn ail, ei fod yn pregethu yr efengyl i'r tlodion. Mewn geiriau ereill, y mae yn hòni awdurdod ddwyfol, am fod ganddo allu dwyfol, ac am ei fod yn pregethu efengyl o drugaredd a gwirionedd, o gyfiawnder mewn undeb â heddwch. Y mae o bwys i ddal gafael yn y ddwy elfen hyn—ei allu gwyrthiol, mewn undeb â'r cyhoeddiad o fywyd a maddeuant trwyddo. Nid ydyw gwyrthiau Crist i'w hystyried fel gweithredoedd unigol ac annibynol; ond mewn cyssylltiad â dadguddiad o Dduw yn Nghrist. Y mae cyfeillion a gelynion y Beibl wedi edrych ar wyrthiau yn ormodol fel amlygiadau o allu; ac felly, y mae yr olaf wedi cael mantais yn fynych i'w gwrthddadleuon yn eu herbyn. Y mae gwyrthiau yn amlygiadau o allu Crist; ond nid gallu yn unig: ond gallu yn ngwasanaeth cariad, sancteiddrwydd, a gwirionedd. Yn yr olwg yma arnynt yn unig y gallwn ysgoi syniadau unochrog ac arwynebol am danynt. Y mae y dadguddiad o Dduw yn Nghrist yn cynnwys dau beth:—yn gyntaf, ffaith, neu ffeithiau; ac yn ail, cyhoeddiad o'r ffaith mewn gair. Prif ffeithiau yr efengyl ydyw ymgnawdoliad, bywyd, marwolaeth, adgyfodiad, ac esgyniad yr Arglwydd Iesu Grist. Wrth eu casglu yn un, o herwydd eu dibyniad ar eu gilydd, gallwn alw y cwbl yn Wyrth Fawr y Prynedigaeth. Mewn trefn i ddeall gwyrthiau yn y lliosog, sef y gweithredoedd goruwchnaturiol, a elwir yn gyffredin yn wyrthiau, rhaid i ni fyned yn ol at yr unigol—y wyrth fawr sydd yn cyfansoddi hanfod yr efengyl; sef, gwyrth y prynedigaeth. Y mae yr Arglwydd Iesu yn llefaru am ei wyrthiau mewn undeb â phregethu yr efengyl. Gallu, mewn undeb â doethineb a thrugaredd, ydyw gwyrthiau Crist. Y mae efe yn allu Duw, ac yn ddoethineb Duw. Nid amlygiad o allu er ei fwyn ei hun ydyw gwyrthiau yr Efengylau, ond er mwyn peth uwch; sef, sancteiddrwydd a daioni.

Yr oedd yr Arglwydd Iesu yn cyflawni gwyrthiau fel prawf o wirionedd ei grefydd. Yr oedd yn hòni iddo ei hun, yn y modd mwyaf penderfynol, y gallu i gyflawni gwyrthiau. Dangosir hyn ar bob tu dalen o'i hanes. Hanes gwyrthiol ydyw ei hanes. Y mae gwyrthiau ar ei enedigaeth—gwyrthiau ar ei fedydd—y mae yn dechreu ei weinidogaeth gyda gwyrthiau—ac yn marw yn nghanol gwyrthiau. Y mae efe yn appelio at ei weithredoedd nerthol, fel prawf o wirionedd ei ddysgeidiaeth; "Y gweithredoedd yr wyf fi yn eu cyflawni yn enw fy Nhad, y mae y rhai hyny yn tystiolaethu am danaf fi." Y mae yn cyfeirio at ei weithredoedd hefyd fel yn mwyhau euogrwydd y rhai oedd yn ei wrthod. Y mae Crist yn eu defnyddio fel profion ei Dad i'w Fessïaeth: "Hwn a seliodd Duw Dad." Ar y llaw arall, nid yw yn eu defnyddio fel profion i orfodi cydsyniad, ac i dreisio deall dyn. Ni chyflawnai wyrth ar gais y diafol, nac ar gais yr Iuddewon anghrediniol. Ceryddai hwynt, yn hytrach, gan ddywedyd, "Cenedlaeth ddrwg a godinebus sydd yn ceisio arwydd, ac arwydd nis rhoddir iddi." "Oni welwch arwyddion a rhyfeddodau, ni chredwch." Y mae dwy eithafoedd ar hyn:—Un yw ymofyn am amlygiad o allu er ei fwyn ei hun; am arwydd, er mwyn yr arwydd, ac nid er mwyn y gwirionedd a ddysgir trwyddo, ac a brofir ganddo. Y llall ydyw diystyru yr amlygiad o allu fel prawf, gan briodoli i wyrth gyfaddasrwydd i ddysgu yn unig, ac nid hefyd i brofi gwirionedd yr hyn a ddysgir. Dosberthir y profion o ddwyfoldeb y Beibl yn fynych i ddau fath—y mewnol a'r allanol. Y mae y mewnol yn tarddu o natur y gwirionedd ei hun, a'i gyfaddasrwydd i feddwl a chydwybod dyn. Amlygiad allanol o allu—hyny ydyw, gwyrth—ydyw y llall. Y mae yr Arglwydd Iesu yn defnyddio y ddau; y gweledig neu wyrthiol, a'r ysbrydol. Y mae hyn yn arwain at gwestiwn a ofynir yn fynych: sef, Pa fodd y mae amlygiad allanol o allu yn profi gwirionedd unrhyw athrawiaeth neu ddysgeidiaeth? Mewn attebiad i hyny, y mae yn angenrheidiol cofio nad ydym yn hòni fod gwyrth yn ddigonol i brofi gwirionedd yr hyn sydd yn groes i wyddorion rhif a mesur, pe cyflawnid un gyda'r bwriad hwnw. Ni byddai gwyrth chwaith yn ddigonol i brofi fod celwydd yn wirionedd, na bai yn rhinwedd, pe yr appelid ati gyda'r amcan hwnw. Ac fel y dywed Butler [*Cyfieith.*, *rhan* ii. *pen.* iii.], ni byddai gwyrthiau yn ddigonol i brofi gwirionedd unrhyw grefydd a gynnwysai anghyssonderau ac anfoesoldeb amlwg. Ond yn hytrach, gwasanaethai y cyfryw anghyssonderau, neu anfoesoldeb, i brofi nad allai y grefydd a'u harddelent fod yn wir. Felly, nid yw gwyrth yn ddigonol i brofi fod celwydd, a thwyll, ac anfoesoldeb, yn wirionedd.

Yn ol iaith yr Ysgrythyr, yr ydym i edrych ar y gwyrthiau a'r athrawiaethau mewn undeb â'u gilydd; ac hefyd, ar yr amgylchiadau yn mha rai y cyhoeddwyd y naill, ac y cyflawnwyd y llall. Y mae y gwyrthiau sydd yn cael eu cyflawni yn ngwasanaeth dadguddiad yn cyfarfod angenion dyfnaf dyn, ac heb fod yn anghysson â chanfyddiadau a chasgliadau uchaf ei reswm. Mae gwyrthiau yr Arglwydd Iesu Grist yn amlygiadau o'r fath burdeb a thrugaredd, fel y mae yn eglur fod y gallu sydd yn eu cyflawni yn ngwasanaeth y sancteiddrwydd a'r haelioni mwyaf. Y mae cymmeriad y Gwaredwr, ei ysbryd, a'i ddysgeidiaeth, yn gyfryw ag sydd yn galw sylw at ei wyrthiau; a'i wyrthiau eilwaith yn ein sicrhau ei "fod yn ddysgawdwr wedi dyfod oddi wrth Dduw." Y mae y wyrth a'r athrawiaeth yn galw sylw y naill at y llall—yn egluro ac yn cadarnhau eu gilydd. Y mae y mewnol a'r allanol yn cydgyfarfod. Y mae Crist yn galw sylw y byd, fel y galwodd efe sylw Ioan, at y gweithredoedd a gyflawnodd, a'r efengyl a bregethodd. Nid ydym drwy hyn yn cymmeryd yn ganiataol fod yr athrawiaeth yn wir, ac yn profi y wyrth; na

Digitized by Google

chwaith, yn cymmeryd yn ganiataol fod y wyrth yn wir, ac yn profi yr athrawiaeth. Y mae purdeb a haelioni y Gwaredwr yn galw sylw ato fel y cymmeriad uchaf a ymddangosodd yn y byd erioed. Y mae yr iachawdwriaeth a gyhoeddodd yn cyfarfod ein holl anghenion; ac y mae genym yn chwanegol y profion cryfaf iddo gyflawni gweithredoedd sydd yn amlwg y tu hwnt i allu dyn eu cyflawni. Y mae y naill a'r llall yn sefyll ar eu prawf priodol eu hunain—y naill ar brofiad, a'r llall ar dystiolaeth. Mae y ddwy yn cydgyfarfod, ac yn chwanegu nerth y naill a'r llall at eu nerth eu hunain.

Yr hyn y mae gwyrth yn ei brofi yn uniongyrchol, ac ar ei phen ei hun, ydyw gweithrediad gallu goruwchnaturiol. Rhaid casglu yr amcan er mwyn pa un y cyflawnir hwynt oddi wrth yr amgylchiadau yn mha rai eu cyflawnir. A chan fod y rhai a'u cyflawnodd yn appelio atynt fel gweithredoedd Duw, y maent yn sicrhau geirwiredd dwyfol o blaid y genadwri a draddodant.

Yr ydym wedi dyweyd na allasai gwyrth brofi gwirionedd celwydd, na moesoldeb unrhyw weithred anfoesol, pe cyflawnasid un i'r diben hyny. Nis gallwn dybied am wyrth, nac unrhyw beth arall, yn profi gwirionedd celwydd, heb dybied hefyd fod cyfansoddiad ein meddwl yn cael ei gyfnewid a'i ddinystrio. Ni allasai y cyfryw beth fod ond oddi wrth ysbryd drwg, pe tybiem y fath beth. Cabledd fyddai ei dybied am Dduw y gwirionedd. Yma, gofynir y cwestiwn, A allem dybied y buasai Duw yn rhoddi caniatâd i ysbryd aflan i ymyraeth â deddfau natur? Gallwn fod yn sicr, pa fodd bynag yr attebir y cwestiwn, na buasai, heb drefnu digon o oleuni i arwain pawb sydd yn ymofyn am y gwirionedd rhag cael eu twyllo. Y mae lle i gasglu fod gallu goruwchnaturiol wedi ei ganiatau i'r diafol ar brydiau. Ac os felly, ni adawyd y rhai oeddynt yn dystion o hyny yn amddifaid o foddion i olrhain yr amlygiadau at dad y celwydd. Yr oedd pob amlygiad hefyd o nerth y diafol yn ngwasanaeth twyll ac aflendid yn achlysur amlygiad nerth mwy o blaid gwirionedd a sancteiddrwydd. Y mae hyn yn amlwg yn swynwyr yr Aipht [Gwel SWYNWYR.] Ar adeg ymddangosiad Gwaredwr y byd, eangwyd terfyn awdurdod ei brif elyn, fel y byddai nerth y "cryfach na'r cryfarfog" yn disgleirio yn amlycach, ac fel y rhoddid prawf amlycach o'i allu i ddymchwelyd teyrnas yr un drwg, ac iachub dynion o'i feddiant. Mae yr Ysgrythyrau yn priodoli arwyddion a rhyfeddodau i'r diafol, "hyd oni thwyllent, pe byddai yn bossibl, yr etholedigion:" *Deut.* xiii. 1—3; *Mat.* xxiv. 24. Caniateir hyn fel prawf ar ffyddlondeb y rhai yr ymddiriedir y goleuni iddynt; "Canys yr Arglwydd Dduw sydd yn eich profi chwi." Ond mae y gwyrthiau a gyflawnir gan ysbrydion aflan yn derfynol a goddefol: *Exod.* vii.—yn enwedig *Exod.* viii. 18; ix. 11; *Act.* viii. 9; xvi. 16. Mae hyn yn dangos i ni fod awdurdod dwyfol gwyrthiau i'w brofi trwy natur y ddysgeidiaeth a gyssylltir â hwynt, yn gystal a bod gwirionedd yr athrawiaeth yn cael ei phrofi trwy y gwyrthiau. Ac, fel y dangoswyd, nid yw hyn yn ymresymiad mewn cylch, ac felly yn ddisail. Fel y mae y dadguddiad dwyfol yn ymagor, mae cyfundrefn o athrawiaethau yn dyfod i'r amlwg, y rhai y gellir eu defnyddio yn fynych i wrthbrofi ymhoniadau disail i allu gwyrthiol. Ar y tir yma, y mae Protestaniaid yn ymwrthod â gwyrthiau yr Eglwys Babaidd. Gan y cyflawnir hwynt yn ngwasanaeth cyfeiliornad, nis gallant fod oddi wrth Dduw. Heb wirionedd yn gyssylltiedig â hwynt, nis gall gwyrthiau brofi dim; ac os defnyddir hwynt yn ngwasanaeth pechod a thwyll, fel y gwneir gan y Mormoniaid a'r Pabyddion, y maent naill ai yn hollol ddisail, yr hyn sydd yn dra thebygol; neu ynte, y mae eu tarddiad o'r diafol. Am y lliaws mawr o'r cyfryw, telir gormod o barch i'w gwirionedd fel ffeithiau i'w holrhain i'r diafol.

Hyd yma, y mae ein sylwadau wedi cael eu cyfyngu at yr hyn a ddywedir yn yr Ysgrythyrau eu hunain o barth i wyrthiau. Ni a edrychwn yn awr at rai o'r gwrthddadleuon a godir yn erbyn gwyrthiau ar dir athroniaeth. Ac yn gyntaf oll, ni a ymofynwn pa ddarnodiad (*definition*) a roddir yn gyffredin o wyrth. Er nad yw yr Ysgrythyrau yn rhoddi deffiniad athronyddol i ni o wyrth, etto y mae yn ddigon eglur oddi wrthynt pa beth a feddylir wrth y gair. Y mae y gwyrthiau a gofnodir yn yr Efengylau yn gadael hyny yn ddiammheuol; sef, troi dwfr yn win, cerdded ar y môr, cyfodi y marw yn fyw. Mae natur y gweithredoedd hyn yn eu gwahaniaethu ar unwaith oddi wrth bob peth a gyflawnir trwy weithrediad y deddfau sydd yn dyfod dan ein sylw yn y greadigaeth. Y mae geiriau Nicodemus wrth Grist (*Ioan* iii. 2) yn dadgan gydag eglurder digonol, heb fyned i dir athroniaeth, pa beth ydyw gwyrth: "Rabbi, nyni a wyddom mai dysgawdwr ydwyt ti wedi dyfod oddi wrth Dduw: canys ni allai neb wneuthur y gwyrthiau hyn yr wyt ti yn eu gwneuthur, oni bai fod Duw gydag ef." Gwyrth yw yr hyn na all neb ei wneuthur, "oni bai fod Duw gydag ef;" gwaith nas gellir ei gyflawni ond trwy allu dwyfol. Yn mhlith y gwahanol ddarnodiadau o wyrth, dyma ychydig:—

"Gwyrth ydyw effaith sydd yn tarddu, nid oddi wrth hanfod neu allu creaduriaid, nac chwaith oddi wrth ystâd flaenorol y greadigaeth. Y mae yn tarddu oddi wrth achos sydd tu allan i gyssylltiad pethau, ac yn wahaniaethol oddi wrth y byd.=*Miraculum est effectus, qui neque ex essentia neque ex vi creaturarum, aut mundi secundum statum au antecedentem consequitur. Procedit a causa, quæ est extra nexum rerum, a mundo plane diversa.*" "Gwyrthiau ydynt yr hyn y mae Duw yn ewyllysio dyfod i fod uwch law trefn arferol pethau.=*Miracula sunt, quæ Deus præter usitatum rerum ordinem eventura vult.*" "Gwyrth yw gwaith anghyffredin sydd uwch law gallu natur grëedig.=*Miraculum est opus insolitum totius naturæ creatæ vires superans.*" Gelwir hwynt yn fynych yn weithredoedd *gwrthwyneb* i natur—*contra naturam sunt.* Yn y darnodiadau hyn, y cwestiwn yw, Pa un ydyw yr ymadrodd cymmhwysaf, ai dywedyd fod gwyrth *tu draw*, neu *uwch law*, neu *yn groes* i natur:—*præter*, *super*, neu *contra?* Y mae ysgrifenwyr y canoloesoedd, ac awduron Protestanaidd, yn amrywio yn hyn. Darnodiad Dr. Samuel Clark yw, fod "gwyrth yn weithred a gyflawnir mewn modd anghyffredin, neu yn wahanol i ddull cyffredin a rheolaidd rhagluniaeth, trwy gyfryngiad Duw ei hun, neu trwy gyfryngiad rhyw fod deallawl uwch law dyn, er mwyn profi gwirionedd rhyw athrawiaeth neillduol, neu ynte er mwyn cadarnhau awdurdod rhyw berson neillduol."

"Gwyrth," medd Horne, "ydyw effaith, neu ddygwyddiad, yn groes i gyfansoddiad sefydlog, neu gwrs pethau; neu ynte, attodiad neu wyrad oddi wrth ddeddfau adnabyddus natur, yn cael ei ddwyn oddi amgylch trwy weithrediad uniongyrchol, neu gynnorthwy, neu trwy ganiatâd

ddeddfau natur wrth ddwyn oddi amgylch amcanion uwch na natur. Ond 2il, Y mae gwrthwynebwyr gwyrthiau, gan deimlo gwendid y rheswm blaenorol, yn chwanegu un arall; sef, ei bod yn ddeddf yn nghyfansoddiad meddwl dyn i gredu anghyfnewidioldeb natur, neu ammhossiblrwydd gwyrth. Mae gwirioneddau rhif a mesur, ac y mae gwirioneddau moesoldeb, wedi cael eu teimlo bob amser yn egwyddorion cynnwynol y meddwl; ond nid fel priodoliaethau sylweddau naturiol. Am bwysigrwydd crediniaeth reddfol y meddwl, ac egwyddorion cyntefig, ceir sylwadau yn yr erthygl GWYBODAETH, ynghŷd âg enghreifftiau o amryw a gredir eu bod yn gyfryw. Ond athrawiaeth newydd i wasanaethu diben pennodol ydyw y gosodiad fod ffeithiau natur yn angenrheidiol. Dibynu y mae natur yn ei ffeithiau a'i deddfau, yn ei sylweddau a'i hansoddau, ar *ewyllys* y Creadwr, ac nid ar ei *natur*. Ac o ganlyniad, os gwel yr ewyllys hono yn dda, gellir cynnyrchu cyfnewidiad ynddynt. Ond y mae dyweyd fod crediniaeth reddfol yn meddwl dyn o fod natur yn anghyfnewidiol yr un peth a dywedyd fod y greadigaeth yn ymddibynu ar natur Duw, ac nid ar ei ewyllys. Yr un peth ydyw hyny, drachefn, a dyweyd fod y greadigaeth yn angenrheidiol; ac o ganlyniad, yn dragwyddol. Gwelir fod y gosodiad hwn yn rhedeg i eithafion holldduwiaeth. Yr un peth ydyw hyny a dyweyd fod y greadigaeth mor angenrheidiol a Duw; ac nid yw hyny yn amgen na dyweyd nad oes yr un Duw personol, Creawdwr nefoedd a daear. Ond hefyd, y mae y ddau reswm hyn yn anghysson â'u gilydd. Os ydyw profiad yn dysgu fod natur yn anghyfnewidiol, yna nid crediniaeth reddfol sydd yn gwneuthur hyny. Ac yn gyffelyb, os gwirionedd yn gorphwys ar grediniaeth reddfol ydyw, nis gall fod yn gorphwys ar brofiad. Gwirioneddau angenrheidiol a sylfaenedig ar natur Duw ydyw gwrthddrychau y naill, ond gwirioneddau yn seiliedig ar ei ewyllys ydyw y lleill. Nid y naill ydyw y llall. Twyll ymresymiad ydyw ceisio olrhain unrhyw osodiad i'r naill, ac yna, rhag nad ydyw hwnw yn ddigon, ei olrhain eilwaith i'r llall. 3ydd, Nid yw gwyrth yn groes i ddeddf achos ac effaith. Y mae y gwirionedd fod achos i bob effaith yn un gwreiddiol yn meddwl dyn. Nid yw yn seiliedig ar brofiad; ond y mae yn flaenorol i brofiad. Y mae yn un o sylfeini profiad. Y mae yn angenrheidiol ac yn gyffredinol. A phe byddai gwyrth yn groes i'r ddeddf, neu y gwirionedd hwn, nis gallem ei chadarnhau fel ffaith. Ond nid ydyw gwyrth yn groes i ddeddf achosyddiaeth. Y mae y ddeddf hon yn gofyn fod achos i bob effaith. Ac i effeithiau naturiol y mae achosion mewn natur. Ond nid ydyw yn angenrheidiol fod yr achos o fewn terfynau natur i foddloni y ddeddf hon. Y cwbl y mae hi yn gofyn ydyw achos digonol i bob effaith; ac os na bydd yr achos hwnw o fewn cylch natur, y mae hi yn edrych uwch law natur. Nid yw gwyrth yn effaith heb achos—ond heb achos yn mhlith deddfau neu elfenau natur. Nid yw unffurfiaeth natur yn egwyddor reddfol; ond y mae deddf achosyddiaeth felly. Nid oes eithriad iddi; ac nid yw gwyrth yn eithriad iddi. Nid yw yr wrthddadl a ddygir weithiau yn erbyn gwyrthiau, sef eu bod yn anghysson â'r ddeddf dan sylw, yn meddu dim grym, o herwydd nad ydynt yn anghysson â hi. "Nid yw gwyrth," medd J. S. Mill, "yn anghysson â deddf achos ac effaith: effaith newydd ydyw, yr hwn fel y credir a ddygir i fod gan achos newydd." 4ydd, Nid yw achosion anianyddol yn angenrheidiol i bob effaith anianyddol. Fe fyddai dal hyn, yn gystal a gwadu fod gallu ysbrydol, yn effeithio ar y byd materol. Y mae y llywodraeth sydd gan ein eneidiau ar ein cyrph yn ddigon o brawf fod gallu ysbrydol yn achos digonol i ysgogiadau corphorol. Y mae y gallu hwn yn gwrthweithio deddfau naturiol. Y mae nerth yr ewyllys yn codi y fraich yn groes i ddeddf attyniad, yr hwn a barai iddi ddisgyn. Mae llywodraeth dyn ar y byd naturiol yn cynnwys enghreifftiau diddiwedd o'r un peth.

III. Y mae nerth tystiolaeth yn ddigonol i gadarnhau gwyrthiau. Mae hyn wedi cael ei wadu, yn enwedig gan yr anffyddiwr Hume. Ei haeriad ydyw, nas gall tystiolaeth, pa mor gadarn bynag, brofi fod gwyrthiau wedi cymmeryd lle. Y mae yn amlwg na ddichon yr un oes, ond yr oes yn mha un y cyflawnwyd gwyrthiau, a'r llygaid-dystion o'u cyflawniad, feddu sicrwydd am danynt ond trwy dystiolaeth: ond ymddengys yn hollol ddibetrus i feddwl rhydd oddi wrth ragfarn, gan fod gwyrthiau yn ffeithiau y gellir dwyn tystiolaeth iddynt fel i ffeithiau ereill. Ni cheisiwn ddangos yn y lle hwn fod y dystiolaeth dros wyrthiau yr Ysgrythyrau yn hollol ddiymwad a boddhaol; ond ni a ymofynwn a oes grym yn yr wrthddadl yn erbyn digonolrwydd y fath uchaf o dystiolaeth pan y dygir hi yn mlaen o blaid gwyrthiau? Nid am y tybiwn fod hyn yn angenrheidiol er symmud ymaith betrusder o feddyliau ein darllenwyr ar y mater. Y mae ymresymiad Hume wedi ei roddi i fyny, hyd yn oed gan anffyddwyr: ac etto, y mae yr *Essays and Reviews* yn parhau i haeru na ddichon i dystiolaeth gadarnhau crefydd wedi ei sylfaenu ar wyrthiau. Etto, nid oes rithyn o ddim i'w ddywedyd dros yr haeriad hwn, ond sydd wedi ei ddyweyd gan Hume. Ei osodiad ef ydyw, "na ddichon i dystiolaeth ymgodi i debygolrwydd —llawer llai i brawf o blaid unrhyw wyrth." Ei ymresymiad dros yr haeriad hwn ydyw, fod gwyrth yn beth croes i ddeddfau natur, ac fod profiad wedi cadarnhau y deddfau hyn; ac o ganlyniad, fod prawf yn erbyn gwyrth yr un mor gadarn ag ydyw y prawf o blaid y deddfau hyn. Y mae genym sicrwydd profiad (*experience*) o blaid unffurfiaeth deddfau natur; ond y mae profiad yn dangos i ni fod tystiolaeth ddynol yn fynych yn dwyllodrus. Yn awr, gan fod profiad yn dangos i ni fod deddfau natur yn ddiiad yn dangos i ni fod deddfau natur yn ddieithriad yn eu gweithrediad, a'r un profiad yn dangos i ni fod tystiolaeth ddynol yn fynych yn gŵyro oddi wrth wirionedd, dylem ymwrthod â thystiolaeth ddynol pan yn tystio fod dim wedi cymmeryd lle ar unrhyw adeg, nac i unrhyw ddiben, yn groes i ddeddfau natur. Y mae profiad o unffurfiaeth natur yn gryfach na'r profiad o wirionedd tystiolaeth. Y mae Dr. Paley yn rhoddi hanfod ymresymiad Hume fel y canlyn:— "It is contrary to experience that a miracle should be true; but not contrary to experience that testimony should be false." = Y mae yn groes i brofiad i wyrth fod yn wir; ond nid ydyw yn groes i brofiad i dystiolaeth fod yn dwyllodrus. Y mae amryw wedi dangos twyll yr ymresymiad hwn; yn wir, y mae i'w weled ar ei wyneb. Ni a roddwn grynodeb o sylwadau Dr. Wardlaw arno.

"Y mae yr holl ymresymiad yn llechu yn yr amwysedd sydd yn y gair *profiad*. (1.) Y mae profiad pob dyn unigol o fewn cylch cul iawn, o ran amser a lle, ac y mae yr holl wybodaeth a fedd y tu allan i'r cylch bychan hwn yn

effaith yn gyffelyb i hyn :—"Dywedir fod Iesu Grist wedi rhoddi ei olwg i'r dall. Ond safed ef o'r naill du. Dyma wyrth wedi ei chyflawni gan y duw Serapis, yr hwn nid yw ond tarw, gyda rhyw neillduolrwydd o gwmpas ei gynffon —trwy offerynoldeb yr ymherawdwr Vespasian, ni a gymmerwn hon yn ei lle." Y cyfryw ydyw dull Hume.

Ond yr ydym yn derbyn y ddeddf a osodir i lawr gan Hume i farnu gwyrthiau wrthi, ac yn barod i ddangos fod genym dystiolaeth dros wyrthiau Crist, yr hon sydd yn annhraethol fwy annhebygol i fod yn anwireddus nag ydyw y gwyrthiau i fod yn wir. Hyny yw, byddai yn syndod llawer mwy i'r dystiolaeth fod yn gelwyddog nag a fyddai i'r wyrth fod yn wir.

Ni a gymmerwn dystiolaeth Crist ei hun i'r ffaith ei fod wedi codi y marw. Byddai twyll neu gamgymmeriad yn y dystiolaeth hon yn wyrth llawer mwy nag a fyddai ei chywirdeb llythyrenol.

Y mae Crist yn hòni iddo ei hun, yn y modd mwyaf diamwys, eglur, a phendant, ei fod yn meddu ar allu goruwchnaturiol. Yr oedd y gallu hwn yn cynnwys cerdded ar y môr, dystewi yr ystorm, porthi y miloedd âg ychydig dorthau a physgod, a chyfodi y marw. Yn awr, ni awn yn mlaen i ymofyn ai ni byddai, yn ngwyneb cymmeriad moesol Crist, yn fwy gwyrth iddo ef *ddywedyd celwydd* nag a fyddai iddo gyflawni y gweithredoedd yna. Y mae tystiolaeth dynion meddylgar, difrifol, er ys dwy fil o flynyddoedd yn unffurf o blaid ei gymmeriad moesol. I'r cwestiwn a ofynodd efe ei hun, "Pwy o honoch a'm hargyhoedda i o bechod ?" y mae anffyddiwr ar ol anffyddiwr wedi yspïo i'w gymmeriad gyda'r awyddfryd cryfaf i allu rhoddi eu bys ar ryw ysmotyn du; ond y mae y naill ar ol y llall yn cyfaddef, pa beth bynag ydyw Cristionogaeth, fod Iesu o Nazareth yn onest ac yn bur. "Os oedd bywyd a marwolaeth Socrates," ebe Rousseau, "yn deilwng o ddoethawr, yr oedd bywyd a marwolaeth Crist yn deilwng o Dduw." "Yr oedd moesoldeb yr efengyl," ebe yr un awdwr, "uwchlaw dirnadaeth awduron Iuddewaidd; ac y mae y fath brofion o wirionedd hanes Iesu Grist mor amlwg, mor darawiadol, mor anefelychadwy, fel, pe buasai yr hanes yn ffughanes, y buasai yr awdwr yn cyffroi ein syndod yn fwy na'r gwrthddrych ei hun." Edrychir ar Goethe gan lawer fel un o'r dynion uchaf ei athrylith a ymddangosodd yn Ewrop am amryw ganrifoedd. Ei dystiolaeth ef am Grist ydyw, ei fod yn "ddyn dwyfol"—yr "un sanctaidd;" ac y mae yn ei ddisgrifio fel esampl a chynllun y ddynoliaeth. Nid oes neb o'r meddylwyr uchaf, hyd yn oed o'r rhai sydd heb dderbyn Crist fel Gwaredwr, wedi amrywio oddi wrth farn Goethe am dano. Y mae Carlyle, bob amser, yn llefaru am Grist gyda'r parch mwyaf. Y mae bywyd y Gwaredwr yn ei olwg ef yn "*perfect ideal poem.*" "Y mwyaf o ddynion," meddai, ydyw. Dywedir gan Renan—yr anffyddiwr diweddaf sydd wedi tynu sylw—yn ei *Fywyd o Grist*, fod Iesu Grist "yn golofn o burdeb sydd yn codi o'r ddaear i'r nefoedd." Yn ngolwg y dynion yma, er nad ydynt yn proffesu ymostwng i Gristionogaeth, oni byddai yn ammhossibl i'r cyfryw berson a hwn ei ddarostwng ei hun i'r cyhuddiad o fod yn "gelwyddog?"—yr enw y mae efe ei hun yn ei roddi ar y diafol. Mae yn anwadadwy ei fod ef yn hòni ei fod yn cyflawni gwyrthiau—y mae yn ammhossibl i ddychymyg dyn goleddu y syniad ei fod yn dyweyd celwydd. Pa beth ydyw y casgliad, gan hyny? Ei fod wedi cyflawni gwyrthiau mewn gwirionedd. Dyma dystiolaeth ag y byddai yn annhraethadwy fwy gwyrth iddi fod yn gelwyddog nag ydyw i holl wyrthiau y Beibl fod yn wir. Nid hon ydyw yr unig brawf o blaid gwyrthiau y Beibl: ond y mae hon ei hun, i'n deall, i'n teimlad, ac i'n cydwybod ni, yn hollol ac yn berffaith anattebadwy. Y mae gwyrthiau Crist yn wir, neu ynte y mae ef ei hun—ni ddymunem ddyweyd y gair, hyd yn oed mewn tybiaeth—yn gelwyddog. Mae un wyrth dybiedig mor fawr fel y mae yn ammhossibl i ni ei chredu; sef, fod tystiolaeth Crist yn gelwyddog —ac am hyny, nis gallwn lai na derbyn y gwyrthiau yr ydym yn cael hanes am danynt yn llyfrau yr efengylwyr.

IV. Y mae seiliau y gwrthddadleuon a wneir yn erbyn gwyrthiau yn codi oddi ar gau syniadau am natur Duw, natur y greadigaeth, natur dyn, a natur moesoldeb. 1. Haera Spinoza—ac yn hyn, dilynir ef gan ereill—mai ewyllys Duw ydyw deddfau y greadigaeth, ac nad oes ganddo un ewyllys ond deddfau natur. A'i ymresymiad ydyw—gan fod ewyllys a hanfod Duw yn anghyfnewidiol, y mae deddfau natur felly; ac o ganlyniad, y mae gwyrthiau yn ammhossibl. Yn ngwyneb syniadau cywir am Dduw, fel UN yn meddu ewyllys, a hono yn un benarglwyddiaethol—fel YSBRYD, ac felly yn meddu ffynnonell llywodraeth a gweithgarwch ynddo ei hun—fel UN a all ddywedyd am dano ei hun, "Ydwyf yr Hwn Ydwyf," "Duw, cariad yw"—y mae y tybiau disail uchod yn diflanu ar unwaith. Y mae *possiblrwydd* gwyrth yn seiliedig ar *ysbrydolrwydd* natur Duw. 2. Y mae angenrheidrwydd gwyrth yn seiliedig ar sefyllfa golledig dyn. Nid ydyw y rhai sydd yn gwadu sefyllfa dyn fel pechadur yn gweled yr angenrheidrwydd am wyrth, na threfn yn seiliedig ar wyrthiau, i'w adferu at Dduw. Felly, ni wâd llawer o'r cyfryw bossiblrwydd gwyrth, am y credant yn ysbrydolrwydd natur Duw; ond gwadant yr angenrheidrwydd, am nad ydynt yn credu yn euogrwydd ac analluedd moesol dyn. 3. Y mae ereill yn gwadu gwyrthiau, o herwydd eu bod yn credu mai deddfau anianyddol sydd oruchaf yn y greadigaeth. Dyma y tir ar ba un y mae Baden Powell, yn yr *Essays and Reviews*, yn gwadu gwyrthiau : "*The foundation conception of the universe is physical law.*" Nid yw dyn, yn ol y syniad hwn, ond olwyn mewn peiriant. Ond y mae y Cristion yn dyweyd fod yr ysbrydol yn uwch na'r anianyddol—fod yr enaid yn uwch na'r corph—a bod yn deilwng i ddeddfau anianyddol gael eu hattal yn eu gweithrediad er mwyn prynedigaeth ysbryd dyn. 4. Y mae y gwrthddadleuon hyn yn anghofio ein bod yn brofiadol o'n mebyd o weithrediad y meddwl ar ddefnydd.—(*Butler's Analogy; Doddridge's Lectures*, rhan v.; *Horne's Introduction; Campbell's Dissertation on Miracles; Paley's Evidences; Dwight's Theology; Van Mildert's Boyle's Lectures; Richard Watson's Institutes; Hume's Essays*, cyf. ii. 10; *Wardlaw's Theology*, cyf. i.; *Chalmers' Complete Works*, cyf. iii.; *Essays and Reviews; Replies to Essays and Reviews; Mc'Cosh on the Supernatural; Bushnell on Nature and the Supernatural; Bayne's Testimony of Christ; J. S. Mill's Logic*, cyf. ii.

Digitized by Google

# H.



**HA.** Ystyr cyntaf y gair hwn ydyw dirmyg, uchelfrydedd, casineb. Ond fel y defnyddir ef bob amser yn mron yn awr, cyfryngair ydyw i arwyddo llawenydd (*Iob* xxxix. 25), neu ddirmyg (*Salm* xxxv. 21; a xl. 15).

**HAASTARI** (אחשתרי=*rhedegwr*): mab Assur, "tad Tecoa," o'i ail wraig Naarah: 1 *Cron.* iv. 6.

**HABAIAH** (חביה=*cuddiedig yr Arglwydd*): offeiriad a ddychwelodd gyda'r gaethglud o Babilon; ond am na chafwyd ei enw yn mhlith achau yr offeiriaid, gommeddwyd iddo wasanaethu: *Ezra* ii. 61: *Neh.* vii. 63.

**HABACUC**: un o'r deuddeg prophwydi lle'af, yr hwn a flodeuai tua 610 c. c. Arwydda yr enw *cofleidiwr;* yr hyn drachefn a ddynoda naill ai "cyfaill serchog," neu "ymdrechwr." Yn yr ystyr olaf, tybir fod y gair yn cyfeirio at sel wladgarol y prophwyd, yn ei ymdrechion egniol dros lesâd ei genedl; ac yn yr ystyr cyntaf ac agosaf, buasai yr enw yn gyffelyb i'r gair *Theophilus*="cyfaill Duw," ac wedi ei roddi iddo o bossibl gan ei rieni fel argoel o ddaioni. Darfu i'r Groegiaid, awdwyr cyfieithiad y Deg a Thrigain, a thadau yr eglwys hefyd, er mwyn gwneyd yr enw yn fwy soniarus, ei gyfnewid i *Arabacouc, Arabacourô*; neu, yn ol Jerome, *Abacourô*: mewn un copi Groegaidd yn unig, yr hwn a ganfyddwyd yn llyfrgell Alcala, yn yr Yspaen, y ceir Ἀββακούκ, yr hwn a ymddengys fel gwelliant diweddar wedi ei wneuthur i gyfatteb i'r testyn Hebraeg. Nid oes genym ond traddodiadau Iuddewig diwerth o berthynas i'w rieni, lle ei enedigaeth, ac amgylchiadau ei fywyd a'i farwolaeth. Dywed un ysgrifenydd Lladinaidd yn ei waith ar "Fywydau y Prophwydi," ei fod o lwyth Simeon, ac wedi ei eni mewn lle a elwid Bethzocher; ei fod wedi ffoi i Ostrarine pan ymosododd Nebuchodonosor ar Ierusalem, ond ei fod ar ol hyny wedi dychwelyd adref, ac wedi marw ddwy flynedd cyn dychweliad ei gydwladwyr. Ond haera ysgrifenwyr rabbinaidd ei fod o lwyth Lefi, ac enwant amryw fanau fel lleoedd tybiedig ei enedigaeth. Yn "Histori Bel a'r Ddraig," yn yr Apocrypha, dywedir fod angel wedi ymaflyd yn Habacuc gerfydd ei wallt, pan oedd yn Iudea yn cludo ymborth i'r medelwyr yn y maes, ac wedi ei gipio trwy yr awyr i ffau y llewod yn Babilon, lle yr oedd Daniel ar y pryd wedi ei fwrw; ac ar ol iddo gyflenwi Daniel â lluniaeth, ei fod yr un dydd wedi ei gludo yn ol i'w wlad ei hun yn y cyffelyb fodd. Y mae Eusebius yn crybwyll fod bedd Habacuc yn cael ei ddangos yn ei amser ef yn nhref Ceila, yn Palestina: dywedir yr un peth gan Nicephorus a Sozomen; ond y mae ysgrifenwyr ereill yn enwi amryw leoedd gwahanol, lle y bernir iddo gael ei gladdu. Y mae rhai esbonwyr wedi tybied ei fod yn prophwydo yn Iudea yn nheyrnasiad Manasseh; ond mae yr archesgob Usher, gyda mwy o debygolrwydd, yn barnu ei fod yn byw yn nheyrnasiad Iehoiacim (cym. *Hab.* i. 5, 6), ac felly yn gydoeswr âg Ieremiah. Ac felly hefyd y barna De Wette, Ewald, a Henderson: a thybir yn gyffredin iddo dreulio ei oes yn ngwlad Iudea, a marw yno.

Y mae yn ddiau y buasai hanes cyflawn a chredadwy am fywyd Habacuc yn foddion i egluro llawer ar ei brophwydoliaeth, ac i daflu goleuni ar y ffugrau a ddefnyddia, ac ar yr amgylchiadau y cyfeiria atynt. Mae ei brophwydoliaeth yn ffurfio y pymthegfed llyfr ar ugain yn nhrefn llyfrau yr Hen Destament. Ymddengys iddi gael ei llefaru tua chwe chant o flynyddoedd cyn Crist; ac y mae yn cyfeirio yn benaf, fel yr eiddo Ieremiah, at oresgyniad Iudea a Ierusalem gan y Caldeaid, dadymchweliad yr ymherodraeth Fabilonig, a gwaredigaeth pobl Dduw yn y pen draw. Priodolir amryw raghysbysiadau apocryphaidd, ac ysgrifeniadau ereill, i Habacuc; ond heb un sail. Y mae ei ysgrifeniadau gwirioneddol yn cael eu cynnwys yn y tair pennod sydd wedi eu trosglwyddo i ni, y rhai ydynt yn ffurfio y llyfr a elwir ar ei enw. Y mae cynnwysiad y llyfr yn penderfynu ei amseriad a'i sail hanesyddol. Yn ol *pen.* i. 5, 6, bygythir ymosodiad o eiddo y Caldeaid. Deuai yr ymosodiad o gyfeiriad nad oedd berygl yn cael ei ddysgwyl o hono y pryd hwnw, ac etto yr oedd i gymmeryd lle yn nyddiau y genhedlaeth hono. Buasai hyn yn gosod amser y prophwyd yn nheyrnasiad Iosiah. Etto, wrth gymmharu *pen.* ii. 20 â *Zeph.* i. 7, tybir fod Habacuc wedi blaenori Zephaniah; ac yn mhellach, o gymmharu *pen.* i. 8 a *Ier.* iv. 13, a v. 6, ei fod wedi traddodi ei ragfynegiadau yn flaenorol i ymddangosiad Ieremiah fel prophwyd; hyny yw, cyn y drydedd flwyddyn ar ddeg o deyrnasiad Iosiah. Ond prin y gellir tybied (cym. *pen.* iii. 19) ei fod wedi prophwydo cyn dechreu diwygiad Iosiah, nac hyd nes yr adferwyd gwasanaeth y deml. Gwel hefyd *pen.* ii. 20.

Y mae prophwydoliaeth Habacuc yn gynnwysedig o ddwy ran. Mae y rhan gyntaf yn y ffurf o ymddiddan rhwng Duw a'r prophwyd: ac y mae yr ail yn salm, neu yn gân arddercheg, yr hon, y mae yn debyg, a fwriedid i'w defnyddio yn y gwasanaeth cyhoeddus.

Rhan. I. Y mae y prophwyd yn cwyno o blegid cynnydd anwiredd yn mysg yr Iuddewon: *pen.* i. 1—4. Dygir yr Arglwydd yn mlaen, yn rhagfynegu y caethgludiad Babilonaidd fel cospedigaeth am eu pechodau: *adn.* 5—11. Yna mae y prophwyd yn ostyngedig yn ymliw â Duw am ei waith yn cospi yr Iuddewon trwy offerynoliaeth y Caldeaid: *adn.* 12—17; *pen.* ii. 1. Y mae yr Arglwydd yn atteb y bydd iddo ef, yn yr amser

Digitized by Google

priodol, gyflawni ei addewidion i'w bobl. o waredigaeth trwy y Messiah (gan gynnwys hefyd y waredigaeth agosach trwy Cyrus): *pen.* ii. 2—4. Yna, y mae dinystr ymherodraeth Babilon yn cael ei ragfynegi: *adn.* 5—20.

RHAN II. Cynnwysa y rhan hon weddi neu salm Habacuc. Yn y weddi hon, y mae yn attolygu ar i'r Arglwydd brysuro gwaredigaeth ei bobl (*pen.* iii. 1, 2); ac yn adrodd ei weithredoedd rhyfeddol yn arwain ei bobl trwy yr anialwch, ac yn rhoddi meddiant iddynt o dir yr addewid (*adn.* 3—16); oddi wrth yr hyn y mae yn calonogi ei hunan a duwiolion ereill i ymddiried yn Nuw, y byddai iddo wneuthur ei addewidion yn dda i'w hiliogaeth hwynt.

Nid ydym i feddwl fod y brophwydoliaeth hon wedi ei llefaru ar wahanol amserau. Y mae yn ffurfio un cyfanwaith; yn dysgrifio, yn *pen.* i, y farn oedd ar ddisgyn:—*pen.* ii., cwymp gelyn eglwys Dduw: a *pen.* iii., attebiad yr eglwys grediniol hono i'r dadguddiad deublyg. Gellir nodi fod *pen.* ii. 6—20 wedi ei gyfansoddi yn fànau neu bennillion. Y mae y pedwar pennill cyntaf yn dechreu gyda "gwae," ac yn diweddu gydag adnod yn dechreu gyda'r gair כִּי—"canys," neu "o herwydd." Yn y pummed, y mae adnod yn dyfod i mewn o flaen y "gwae."

Y mae Habacuc yn dal lle uchel yn mhlith y beirdd cyssegredig. Nis gall neb ddarllen ei brophwydoliaeth heb gael ei daraw gan arddderchogrwydd ei ffugrau, ac arucheledd ei harddull, yn neillduol yr eiddo y gân yn y drydedd bennod, yr hon a ystyrir gan yr esgob Lowth fel un o'r enghreifftiau perffeithiaf o'r ganiad Hebreaidd. "Nid oes dim mwy mawreddog yn Esaiah, mwy beiddgar yn Ezeciel, na mwy gorwych yn y rhanau olaf o Lyfr Job." Barna Michaelis, ar ol ymchwiliad manwl, ei fod yn efelychwr mawr o feirdd blaenorol, ond gyda rhai chwanegiadau newyddion o'i eiddo ei hunan, y rhai a hynodir gan fyrdra, a chan radd anghyffredinol o arddunedd: cym. *Hab.* ii. 12, â *Mica* iii. 10; a *Hab.* ii. 14, âg *Esa.* xi. 9. Y mae Eichhorn, De Wette, a Rosenmüller, yn uchel yn eu canmoliaeth o arddull Habacuc." "Y mae yn ymdrechu," medd Eichhorn, "â geiriau, yn ymgystadlu â delweddau; a phwy, wrth ddarllen, nad yw yn cael ei ddal âg arswyd sanctaidd, fel yr eiddo y prophwyd ei hunan pan yr edrychai ar ymddangosiad ofnadwy ac arddunol yr annysgrifiadwy." Dywed De Wette hefyd ei fod yn ei ehediadau uchaf yn uno y nerth a'r cyflawnder mwyaf âg eglurder, cymmedrolder a phrydferthwch; a bod ei gynghanedd yn bur a rheolaidd, a'i iaith yn glasurol ac yn fywiog.

Y mae y cyflwyniad â pha un y mae y brophwydoliaeth yn diweddu, "I'r pencerdd ar fy offer tanau," yn cyfeirio yn unig at yr awdl neu y weddi sydd yn ffurfio y drydedd bennod. Y mae y gair *neginoth* (offer tanau) yn arwyddo offeryn oedd i gael ei chwareu trwy rugliad neu darawiad, megys crythau, telynau, &c., yn wrthgyferbyniol i offerynau chwyth; ac yr oedd y cyfansoddiad yn cael ei gyfeirio, fel y mae llawer o'r Salmau (*Salm* iv. vi. liv. lxi. lxvii. lxxvi—teitlau), i arweinydd rhyw gyfran bennodol o gerddoriaeth y deml. Y mae Delitzch yn casglu oddi wrth y tanysgrifiad hwn fod y prophwyd o lwyth Lefi; ac â hyn y mae Keil yn cyttuno. Cyfeirir yn y Testament Newydd amryw weithiau at rai o ymadroddion y prophwyd hwn, ond nid yw yn cael ei enwi: *Rhuf.* i. 17; *Gal.* iii. 11; *Heb.* x. 38; cym. *Hab.* ii. 4; *Act.* xiii. 40, 41; cym. *Hab.* i. 5. Y mae Eichhorn yn rhoddi nifer lled fawr o eiriau a ystyriai efe yn neillduol i'r prophwyd hwn. Nid yw y rhestrau hynafol o lyfrau canonaidd yr Hen Destament yn crybwyll Habacuc wrth ei enw; ond rhaid eu bod yn ei gyfrif yn y deuddeg prophwyd lleiaf, canys, heb hyny ni buasai y nifer hwnw yn gyflawn.

**HABOR**, neu yn fwy priodol CHABOR: dinas neu wlad yn Media, ar lan yr afon Gozan, i'r hon yr alltudiwyd rhanau o'r deg llwyth; yn gyntaf, gan Tiglath-pileser (2 *Bren.* xvii. 6); ac wedi hyny gan Salmaneser (2 *Bren.* xviii. 11). Tybia rhai mai yr un ydyw a'r mynydd-dir rhwng Media ac Assyria, yr hwn a elwir gan Ptolemy Chaboras. Ond nid oes ond tebygrwydd yr enw yn ffafriol i'r golygiad hwn. Yn ol Rennell, yr un ydyw Gozan a'r lle a elwir Kizzil-Ozan yn awr; a chwanega fod tref ar gangen o'r afon hono, o'r enw Abhar, yr hon, yn ol tystiolaeth y trigolion, sydd yn hen iawn. Dywed Mr. Morier, iddo ef gael yn y lle hwn hen furddynau wedi eu hadeiladu o briddfeini mawrion, cyfansoddedig mewn rhan o wellt, ac wedi eu sychu yn ngwres yr haul, cyffelyb i'r rhai a gafwyd yn Babilon. Gan fod hyn yn arwydd diammheuol o hynafiaeth, y mae yn cadarnhau, mewn modd arbenig, syniad Rennell.

**HABADIM**; adran o sect Iuddewig a elwid Chasidim. Y mae yr enw yn gyfansoddedig o'r tair llythyren gyntaf o dri gair Hebraeg, yn arwyddo doethineb, callineb, a gwybodaeth. Gelwir y blaid hefyd yn Orphwysyddion (*Quietists*), ar gyfrif eu bod yn ymwrthod â phob defod allanol yn eu haddoliad, ac yn ymroddi yn gwbl i fyfyrdodau arwyddluniol a thywyll.

**HACCATAN**: (הקטן=*bychan*): tad Iohanan, "pen cenedl" Azgad, yr hwn a ddychwelodd Babilon gydag Ezra: *Ezra* viii. 12.

**HACHALIAH** (חכליה=*yr hwn sydd yn disgwyl am yr Arglwydd*): tad Nehemiah: *Neh.* i. 1; a x. 1.

**HACHILAH**: bryn mewn coed, yn anialwch Ziph, lle yr ymguddiai Dafydd a'i chwe chant canlynwyr pan yr oedd Saul yn ei erlid: 1 *Sam* xxiii. 19; cymhar. 14, 15, 16, â xxvi. 1, 2, 3. Y mae lle o'r enw Ziph yn neheubarth Iudah etto, ac y mae yn bur debygol mai yno y safai y Ziph y cyfeirir ati uchod.

**HACHMONI**, (חכמני=*doeth*): tad Iehiel oedd (1 *Cron.* xxxii. 32); ac Iasobeam, pen cadbeniad Dafydd, ac un o'i gedyrn: 1 *Cron.* xi. 11; cym. 2 *Sam.* xxiii. 8.

**HAD—AU**: crynoad adgenedligol planhigion, neu y ddarpariaeth ryfedd a mawreddog er parhâd a lliosogiad y gwahanol rywogaethau o lysiau a phlanhigion. Y mae pob hedyn yn gynnwysedig o ddefnydd dechreuol neu anelwig y planhigyn dyfodol, ynghyd â darbodaeth telaid a digonol er ei amddiffyn yn ystod yr adeg y bydd yn ei unigrwydd yn gorwedd yn farw, ac hefyd er ei gynnhyrfu a'i borthi yn adeg ei fragodiad. Y mae ffurfiau, arwynebau, a chyfansoddiad yr hadau, a'r ffrwythelau yn mha rai y maent yn amgauedig, yn dra amrywiol, ac yn amlygu y cyfaddasiad mwyaf manwl ac eang at natur a chartrefleoedd eu planhigion gwahanol; a thrwy hyny

Digitized by Google

yn rhoddi miloedd o amlygiadau godidog o ddoethineb a daioni y Creawdwr mawr. Mae gan yr oll o honynt gyfansoddiad wedi ei gyflawn addasu i'w dadgenedliad, ac y mae gan y rhan fwyaf ffrwythlonder, tewychedd, a chyfansoddiad wedi eu haddasu yn arbenigol i wasanaethu fel ymborth i'r radd uchaf o anifeiliaid; tra y mae rhai, yn yr un a'r unrhyw adeg, yn foddion cynnaliaeth i anifeiliaid, ac yn gallu addynu o'r ddaear gyflawnder o faeth tuag at eu hadgenhedliad eu hunain. Y mae syth (*starch*), sugr, olew, môl (*gum*), sylweddau cyntainaidd, llyshalan, a llawer iawn o gyfansoddau neillduol mor ryfeddol o amrywiedig yn y gwahanol rywogaethau, fel, er y gwahaniaethau diddiwedd mewn hinsawdd, tir, ffurf, a chyflwr, yr ennillant mewn modd tra phwrpasol yr angenrheidiau er cynnal bywyd, gwrthsefyll ymgyrchiadau pryfaid, a gwneuthur darpariaeth trwy gyfnewidiad fferyllol ac aeddfediad, ar gyfer bod yn faeth i anifeiliaid a dadblygu anelwig y planhigyn dyfodol. Y mae arwisgoedd o fathau diderfyn ymron, a'r cyfan yn berffaith a thlws, yn amddiffyn y sylwedd mewnol rhag effeithiau niweidiol oerni mawr, gwres tanbaid, a sychder, a gwlybaniaeth mawr; ac y mae llawer o'r rhai hyn etto yn gwasanaethu un ai fel ymborth i anifeiliaid, neu ynte fel math o hadau tyfol.

Y mae llawer o hadau yn colli eu bywiolder trwy henaint neu gadwraeth ddrwg, a cheir fod y rhan fwyaf yn cael eu dwyn i'r farchnad o dan y nodwedd o hadau ffres; ac yn wir ymddangosant fel y cyfryw, pan mewn gwirionedd y byddant wedi eu lladd, fel y dywedir, trwy foddion fferyllol. Dengys adroddiad o eiddo pwyllgor Tŷ y Cyffredin, yr hwn a appwyntiwyd ychydig flynyddoedd yn ol, fod hen hadau clofer gwyn, yn cael eu lladd trwy yn gyntaf eu gwlychu ychydig, ac wedi hyny eu sychu yn mwg llosfaen (*sulphur*) wedi ei roddi ar dân; a bod hadau clofer coch yn cael eu lliwio trwy eu hysgwyd mewn sach, yn cynnwys ychydig indigo; ond wedi i hyn gael ei wneyd yn hysbys, dechreuodd y meddygon digydwybod hyn i arfer llingoed wedi ei barotoi i'r perwyl, ynghŷd â chwanegiad o ychydig gopras, neu wyrddegrid (*verdigris*); ac yn y modd hwn maent yn gwella ymddangosiad hen hadau, ond ar yr un pryd yn lleihau, os nad yn lladd, y gallu tyfol a adawyd ynddynt gan henaint. Pe caniateid nad oedd yr hadau yn cael eu niweidio drwy y triniaethau hyn, y mae yn ddigon amlwg fod y cyhoedd yn cael eu twyllo i raddau helaeth, trwy fod yr hadau yn ymddangos yn llawer gwell, ac o ganlyniad yn cyrhaedd o bum swllt i bump swllt ar ugain uwch pris y can pwys. Ond y drwg mwyaf yn gyssylltiol â'r arferion hyn ydyw, fod hadau hen a diwerth yn derbyn diwyg trwyddynt ag sydd yn eu gwneud yn ogystal a hadau newyddion mewn ymddangosiad. Dywedodd un o'r tystion ei fod wedi gwneuthur prawf ar hadau wedi eu trin felly; a chafodd nad oedd dros un mewn cant yn tyfu, a bod hyd yn oed y rhai hyny yn marw wedi hyny; tra y mae o bedwar ugain i ddeg a phedwar ugain o hadau iach a newyddion yn tyfu yn y cyffredin. Y mae y cyfanwerthwyr yn danfon yr hadau hyn i is-werthwyr yn y wlad, ac y maent hwythau wedi hyny yn eu gwerthu i'r amaethwyr; a chan nad yw un o'r dosbeirth hyn yn alluog i wahaniaethu rhwng y da a'r twyllodrus, ac hefyd yn awyddus i bwrcasu yn y farchnad rataf, y mae y wlad yn cael ei thwyllo i raddau helaethach nag y meddylir.

Y mae triniaethau cyffelyb yn ddiau yn cael eu harfer gyda golwg ar hadau ereill; a chan fod diffygion a lleihad cyfansoddiadol mewn bywiogrwydd yn cymmeryd lle trwy weithrediad achosion naturiol a diffyg triniaeth briodol, ni ddylai garddwyr ac amaethwyr byth beryglu cnwd trwy hau hadau ag y gall fod yr ammheuaeth lleiaf yn eu cylch, heb eu profi yn gyntaf. Y mae lliw hadau, er yr ystyrir ef yn arwydd o'u rhinwedd, yn un tra thwyllodrus, ac ni ddylid byth ei ystyried fel prawf o nerth a bywiolrwydd. Y mae yn wir yn hawddach eu gwerthu pan y bydd lliw da arnynt: ond dyna y cyfan. Y mae ffurf hedyn i raddau yn nodwedd arbenig o rywogaeth; ac etto, penderfynir hyny i fesur mwy neu lai gan y tir a'r hinsawdd—yn gymmaint a bod hinsoddau cynnes a thiroedd cynnar yn cynnyrchu hadau o ffurf mwy crwn na thiroedd oerion a diweddar. Y mae maint yr hadau hefyd, yn gystal a'i fod i gael ei briodoli i'r tir, yn amlygiad o addfedrwydd. Dylai pob hadau o dyfiant cartrefol a fwriedir yn hâd, gael eu dewis o'r planhigion goreu ac addfedaf, a gellir eu didoli oddi wrth y lleill yn hawdd trwy eu dyrnu yn ysgafn.

Y mae planhigion amaethyddol blwyddol neu ddeuflwyddol, pan yn cael eu tyfu oddi ar hadau fyddont wedi eu hau am flynyddoedd yn olynol ar faes neu ar dir a fyddo o'r un nodwedd o ran natur a sefyllfa, yn dueddol i ddiraddio; yn gyffelyb i anifeiliaid a fyddont yn cael eu cenhedlu o'r un hiliogaeth am amser maith. Pan y defnyddir hadau a fyddont wedi tyfu ar yr un fferm, y mae yn angenrheidiol eu newid o un ran o honi i ran arall; megys o dir trwm cleiog, i dir ysgafn, ac yn y gwrthwyneb. Gellir arfer yr un hadau ar ffermydd cleiog, yn y cyffredin, yn hwy nag ar diroedd ysgeifn: ond y drefn oreu a mwyaf manteisiol ydyw eu newid mor fynych ag y byddo modd; ac y mae y drefn hon yn seiliedig ar egwyddorion rhesymol. Y mae gan bob rhywogaeth o rawn a had ryw hinsawdd sydd yn gwbl gyfaddas iddo, yn yr hwn y mae yn ffynu ac yn tyfu i berffeithrwydd, ac yn yr hwn na welir byth mo hono yn gwaelu. Mewn gwlad ag y mae gwenith yn tyfu yn naturiol, fel yn Sicily, y mae yr hâd a ddisgyn oddi ar y fammog yn tyfu i'r perffeithrwydd uchaf, er na bydd cyfnewidiad yn yr had na'r tir; ond gan nad ydyw Prydain yn wlad gynnhenid gwenith, y mae yn fwy tueddol i ddiraddio yma, ac yn enwedig felly yn y parthau mwyaf gogleddol, er iddo gael ei newid, fel y sylwyd eisoes. Y ffordd ddiogelaf i sicrhau cnwd a grawn da ydyw chwilio am yr had goreu a ellir ei gael, a hwnw wedi tyfu ar dir ac mewn hinsawdd hollol wahanol i'r hyn y bwriedir ei dyfu. Y mae amaethwyr ar ororau sir Lincoln wedi cael prawf ei fod yn fanteisiol iddynt bwrcasu eu hadau gan amaethwyr y morfaoedd—y maent drwy hyny yn cynnilo yn y pris, ac ar yr un pryd yn sicrhau gwell grawn yn y canlyniad. Yn Flanders, ni welir byth mo'r amaethwyr yn hau yr had a dyfwyd ganddynt hwy eu hunain; ac nid ydynt chwaith yn edrych ar y gost o gyrchu had a fyddo drymach ac iachach o leoedd ereill. Cludant eu had llin o Riga neu Memel, a'u pytatws o'r Brabant. Mae Cymdeithas Amaethyddol yr Iwerddon, drwy y cynnygion o wobrwyon am y grawn goreu, wedi cychwyn yr arferiad o gyrchu had o Loegr, a thrwy hyn wedi achosi i'r grawn a dyfir yn yr Iwerddon gyrhaedd safle uwch o lawer yn y farchnad Seisonig nag oedd yn flaenorol i hyny. Y mae newidiad had, nid

Digitized by Google

yn unig yn sicrhau cnydau a grawn gwell, ac yn lluddias diraddiad, ond hefyd, gyda gofal yn y dewisiad, yn peri fod y cnwd yn cyrhaedd addfedrwydd yn gynnarach: yr hyn, mewn llawer man, sydd o bwys annhraethol. Er enghraifft, y mae grawn o Loegr a hauir yn yr Iwerddon yn gyffredin yn addfedu o ddeng niwrnod i bythefnos o flaen grawn y wlad hono, er fod y ddau wedi eu hau dan yr unrhyw amgylchiadau. Y mae yn brofadwy fod unrhyw gyfnewidiad yn nghyfansoddiad planhigion, a fyddo yn cael ei achosi gan y sefyllfa yn mha un y gosodwyd hwynt, yn gyffredin yn cael eu trosglwyddo i'w hiliogaeth. Felly y gwna planhigion a dyfant oddi ar had a gynnyrchwyd mewn tir tywodlyd, cynnes, dyfu yn gyflym mewn pa dir bynag y byddo yr had wedi ei hau; ac y mae planhigion oddi ar hadau a gynnyrchwyd mewn tir cleiog, oer, yn sicr o dyfu yn araf, hyd yn oed mewn tiroedd cynnes. Oddi yma y tardd y fantais o newid hadyd o diroedd cynnes i diroedd oer; canys er na thyf had o dir cynnes mor gyflym mewn tir oer ag y gwna mewn tir cynnes, etto ceir fod ei dyfiant yn ebrwyddach na had o dir oer. Heb law hyny, y mae newidiad had yn dylanwadu er chwanegiad y cynnyrch. Oddi ar brawf a wnaed gan yr enwog arglwydd Kames, ymddengys fod y cynnyrch ar had a newidir yn agos i 26 y cant yn fwy nag ar hen had. Er hyn i gyd, tra y bydd yr had fydd gan amaethwr yn rhoddi boddlonrwydd teg iddo yn y cynnyrch, fe allai mai gwell ei ddefnyddio na'i newid; hyny ydyw, os na bydd yn argyhoeddedig y chwanegir y cynnyrch trwy newidiad. Dylid hysbysu yn y fan hon, fod dau amgylchiad nad ydyw y rheol uchod yn gymmhwysiadwy atynt. Yn Flanders, lle y tyfir had llin i raddau helaeth iawn, rhaid cynnyrchu yr had o hinsawdd oerach, sef o'r Baltic, onid ê bydd y cnwd yn waelach. Y mae gwlydd pytatws hefyd, yn mhob gwlad, yn dueddol i grychu; a'r unig foddion a ddarganfyddwyd i luddias hyny ydyw, prynu yr hâd o hinsawdd oerach.

Y mae y swm neu y dogn o had y dylid ei hau mewn tir i'w reoleiddio gan amgylchiadau; megys hinsawdd, tir, tymmor, hin, y dull o hau, ac ansawdd yr had. Mewn hinsawdd lled ansefydlog a gerwin, y mae yn angenrheidiol rhoddi chwaneg o had i'r tir nag mewn hinsawdd dawel a sefydlog, pe bai ond i ddarparu ar gyfer y dinystr a achosir i'r had neu y planhigion ieuainc gan ystormydd o wlaw ac eira, a rhewogydd annhymmorol. Ar diroedd ysgeifn teneuon, ffafriol i gadeiriad, ac etto yn meddu ond ychydig o foddion cynnaliaeth i gnydau mawrion, dylid bod yn ofalus am beidio cymmhwyso cymmaint o had atynt ag at dir cryf, dwys, gafaelgar; y rhai ydynt anffafriol i gadeiriad, ond ar yr un pryd yn cynnwys ymborth digonol i'r cnydau mwyaf toreithiog. Etto, pan fyddo y tiroedd olaf hyn wedi cael trinogaeth ofalus, eu drainio, a'u dwyn i gywair uchel, y maent yn fynych yn gofyn cyn lleied o had a'r tiroedd ysgafnaf. Dengys hyn yr angenrheidrwydd am i bob amaethwr roddi ystyriaeth briodol i amgylchiadau, cyn penderfynu dogn yr had i'w ddefnyddio. Pan heuir meusydd mewn cywair da yn rhy dew, y maent yn dueddol i gynnyrchu mwy o blanhigion nag a all gyrhaedd perffeithrwydd; ac o ganlyniad, yn gorfodi y cnwd i dyfu yn wanaidd a digynnyrch. Y mae llai o had yn angenrheidiol ar fraenar haf nag ar fraenar ffa—llai ar fraenar ffa nag ar fraenar meillion—a llai ar fraenar meillion nag ar dir maip a hauir yn y gwanwyn. Y mae yr amser ar y flwyddyn hefyd yn teilyngu ystyriaeth mewn cyssylltiad â hyn Po mwyaf o amser a gymmer le rhwng hauad yr had a'i addfediad, lleiaf yn y byd o had fydd yn angenrheidiol; o herwydd y mae felly yn cael mwy a gwell amser i gadeirio a chryfhau gogyfer a'r amgylchiadau llym a'u cyfarfydd yn ystod misoedd y gauaf, yn gystal a gwres tanbeidiol yr haf. Pan fyddo y tymmor yn sych iawn, a thrwy hyny yn achosi prinder o leithder yn y tir yn amser hau, bydd i lai o had dyfu na than amgylchiadau mwy ffafriol; ac felly, dylai chwanegiad gymmeryd lle yn yr had. Mae llai o had yn angenrheidiol pan yr arferir y dull o blanu yr had nag wrth rillio, a llai wrth rillio nag wrth hau â llaw. Y mae graddau rhagoriaeth yr had yn rheoleiddio y swm etto; canys bydd eisieu llai o had perffaith nag o had ammherffaith; llai o had crwn nag o had hirgrwn; a llai o had a fyddo wedi ei gymmhwyso trwy y moddion arferedig cyffredin i wrthsefyll yr ymosodiadau a wneir arno gan bryfaid, ffyngoedd, a thymmorau ansefydlog, na had yn ei gyflwr naturiol.

HADAD [*cyfeillgarwch*]. Mae y gair hwn yn gyfystyr âg Adad: enw a roddid gan y Syriaid ar eu prif dduw, sef yr haul. Wedi hyny, gosodwyd yr enw ar frenin y wlad, fel y gŵr yn meddu yr awdurdod ddaearol uchaf. Newidiwyd ef i wahanol ffurfiau, megys Hadad, Benhadad (addolwr Hadad), a Hadadezer (yn cael ei gynnorthwyo gan Hadad). Ymddengys fod y teitl yn un swyddogol, fel Pharaoh; a dichon ei fod yn cael ei arfer felly gan Nicolaus Damascenus, fel y crybwyllir gan Josephus [*Hyn.* vii. 5, *adr.* 2], mewn cyfeiriad at frenin Syria, yr hwn a gynnorthwyodd Hadadezer yn erbyn Dafydd: 2 *Sam.* viii. 5. Mae yr enw weithiau yn cael ei newid i Hadar: *Gen.* xxv. 15; xxxvi. 39; cym. â 1 *Cron.* i. 30, 50.

1. Y cyntaf o'r enw yma oedd mab i Ishmael: *Gen.* xxv. 15; 1 *Cron.* i. 30. Mae yn debyg i'w ddisgynyddion feddiannu glanau gorllewinol Llyngclyn Persia, lle y mae yr enwau Attaei [*Ptol.* vi. 7, *adr.* 15], Attene, a Chateni [*Plin.* vi. 32], yn dwyn tebygolrwydd i'r enw gwreiddiol.

2. HADAD, brenin Edom, yr hwn a ennillodd fuddugoliaeth bwysig ar y Midianiaid yn maes Moab: *Gen.* xxxvi. 35; 1 *Cron.* i. 46. Enw ei brif ddinas ef oedd Afith.

3. HADAD, brenin Edom; y diweddaf o'r brenhinoedd Edomaidd. Cyfeirir at gyfnewidiad y deyrnas i fod yn ddugiaeth ar adeg ei farwolaeth yn 1 *Cron.* i. 51. Enw ei brif ddinas ef oedd Pau: 1 *Cron.* i. 50.

4. Yr olaf a enwyd ar yr enw Hadad ydoedd tywysog ieuangc o deulu Edom; yr hwn, pan gongcrwyd ei wlad gan Dafydd, a lwyddodd yn mhoethder y gyflafan a gyflawnwyd gan Ioab i ddiangc, gyda gweision ei dad, neu yn hytrach a gludwyd ganddynt i dir Midian. Oddi yno fe aeth Hadad i anialwch Paran, ac o'r diwedd symmudodd i'r Aipht, lle y derbyniwyd ef yn garedig iawn gan y brenin, yr hwn a'i gosododd mewn sefyllfa deilwng o'i urddas, ac a roddodd iddo yn wraig hyd yn oed chwaer ei wraig ei hun, o'r hon y cafodd fab, yr hwn a ddygwyd i fyny yn y palas gyda meibion Pharaoh. Arosodd Hadad yn yr Aipht hyd farwolaeth Dafydd ac Ioab, pryd y dychwelodd i'w wlad ei hun, mewn gobaith o adennill teyrnas ei dad: 1 *Bren.* xi. 14—22. Nid yw yr Ysgrythyr yn son am ganlyniad ei ymgais,

Digitized by Google

yn mhellach na dywedyd ei fod yn un o wrthwynebwyr teyrnasiad Solomon, yr hyn a awgryma rhyw fesur o lwyddiant. Wedi adrodd y ffeithiau hyn, dywed yr hanes fod gelyn arall wedi codi i Solomon, sef Rezin; ac yna chwanegir (*adn.* 25), fod hyn, "heblaw y drwg a wnaeth Hadad; ac efe a ffieiddiodd Israel, ac a deyrnasodd ar Syria."

HADADEZER, neu HADAREZER; mab Rehob, neu hin Sobah, (2 *Sam.* viii. 3); yr hwn, pan ar ei ffordd, "yn myned i ennill ei derfynau wrth afon Euphrates," a oddiweddwyd ac a orchfygwyd gan Dafydd, gyda cholled fawr mewn cerbydau, meirch, a dynion (1 *Cron.* xviii. 3, 4); a gyrwyd ef gyda rhelyw ei fyddin i'r ochr arall i'r afon: 1 *Cron.* xix. 16. Dygodd Dafydd y "tarianau aur" a gymmerwyd ar yr achlysur yma—mil mewn rhifedi—i Ierusalem, a chyssegrwyd hwynt i'r Arglwydd: 1 *Cron.* xviii. 7. Cadwyd yr arfau tramor yn y deml, ac adnabyddwyd hwy am amser maith fel arfau Dafydd: 2 *Cron.* xxiii. 9; *Can.* iv. 4.

Gan na ddigalonwyd Hadadezer trwy y gorchfygiad yma, ymaflodd yn y cyfleusdra cyntaf a gafodd i ddangos ei ddialedd; ac ar ol gorchfygiad cyntaf yr Ammoniaid a'r Syriaid o dan Ioab, efe a ddanfonodd ei fyddin i gynnorthwyo pobl Maachah, Pehob, ac Istob: 1 *Cron.* xix. 16; 2 *Sam.* x. 15; cymh. 8. Yr oedd y fyddin yn un fawr, fel y mae yn amlwg oddi wrth y nifer a laddwyd; ac yr oedd yn enwedig yn gref mewn meirch-filwyr: 1 *Cron.* xix. 18. O dan gadlywiaeth Sophach, neu Shobach, cadben y llu, croesasant yr Euphrates, gan ymuno â'r Syriaid, a gwersyllasant mewn lle a elwid Helam. Yr oedd yr adeg yn un enbyd, ac fe ddaeth Dafydd ei hun o Ierusalem i flaenori byddin yr Israeliaid. Fel ar yr achlysur blaenorol, yr oedd y fuddugoliaeth yn un gyflawn. Cymmerwyd saith gant o gerbydau, ac fe laddwyd saith mil o gerbydwyr, a deugain mil o feirchfilwyr. Fe ymostyngodd y mân dywysogion a fuant o'r blaen yn ddarostyngedig i Hadadezer i Dafydd, ac felly yr oedd cynghrair mawr y Syriaid ar y pryd wedi darfod. Ond fe ddarfu i Rezon-ben-Elidah, un o ganlynwyr ffyddlonaf Hadarezer, ddiangc o'r fyddin; ac wedi casglu ynghyd rai o'r ffoaduriaid, fel efe ei hun, efe a'u ffurfiodd yn un o'r minteiodd ysbeilgar hyny a gawsent nodded gan eu cyfeillion cydrywiol mewn ardaloedd ammhoblog rhwng yr Iorddonen a'r Euphrates: 2 *Bren.* v. 2; 1 *Cron.* v. 18—22. Wedi gweithio eu ffordd i Damascus, hwy a gymmerasant feddiant o'r ddinas hono. Fe ddaeth Rezon yn frenin, a dechreuodd yn ddioed i ddial colled ei gydwladwyr drwy aflonyddu Israel yn ddibaid hyd deyrnasiad Solomon. Yr oedd efe yn "wrthwynebwr" (yn satan), i Israel. . . . "efe a ffieiddiodd Israel;" 1 *Bren.* xi. 23—25.

HADAD-RIMMON, [*llef Rimmon*, neu *deisyfiad ar Rimmon*]. Yn ol yr esboniad a roddir yn gyffredin ar *Zech.* xii. 11, lle ydoedd hwn yn nyffryn Megido, yn cael ei enwi ar ol dau eilunddaw y Syriaid, lle y bu galar mawr am farwolaeth y brenin duwiol Iosiah, yn y ddiweddaf o'r pedair brwydr fawr ag sydd wedi hynodi dyffryn Esdraelon mewn hanesiaeth Hebreig: 2 *Bren.* xxiii. 29; 2 *Cron.* xxxv. 23: *Hyn. Josephus* x. 5, *adr.* 1. Dywed Jerome mai enw ar ddinas ydyw y gair, a newidiwyd yr enw yn ei amser ef i Maximianopolis, o barch i'r ymherawdwr Maximian. Yr oedd yn sefyll 17 o filldiroedd o Cesarea, a deg o Iezreel.

HADAR [*gogoniant, harddwch*]. HADAD yn 1 *Cron.* i. 30. Mab i Ismael: *Gen.* xxv. 15, 16.

2. Un o frenhinoedd Edom: olynwr Baal-hanan mab Acbor (*Gen.* xxxvi. 39). Y mae enw ei ddinas, ac enw a llinach ei wraig, yn cael eu crybwyll yn yr hanes. Yn rhestr yr enwau yn 1 *Cron.* i., ymddengys yr enw yn HADAD. Yr ydym yn gwybod oddi wrth fan arall (1 *Bren.* xi. 14, &c.) fod Hadad yn un o enwau teulu brenhinol Edom. Yn wir, y mae yn ymddangos yn y rhestr hon: *Gen.* xxxvi. 35. Ond hwyrach fod y ffaith hon yn ffafriol i'r ffurf Hadar fod yn gywir yn y fan yma. Y mae ei unigrwydd, fe ddichon, yn brawf ei fod yn enw gwahanol i'r lleill, pa mor debyg bynag ydyw iddynt.

HADASAH [*adnewyddiad*, neu *y dydd cyntaf o'r mis.*] Un o ddinasoedd Iudah, a enwir yn y Beibl yn unig yn *Ios.* xv. 37. Nid oes wybodaeth yn awr am ei safle.

HADASSAH. Gwel ESTHER.

HADES [Ἅιδης]: yr hwn, yn ol y farn gyffredin, sydd yn gyfansoddedig o'r negydd *a*, ac *idein*; ac yn arwyddo yr hyn sydd allan o'r golwg —yr anweledig—tu hwnt i olwg y llygad, ac i ganfyddiad y meddwl. Wrth ei gymmhwyso at berson, y mae yn arwyddo un yn dodi allan o olwg. Dywedir mai yr olaf oedd arwyddocâd y gair yn y Groeg boreuaf. Yn *Homer*, dyna ei unig ystyr; lle y mae yn deitl ar Pluto—duw y byd obry, neu arglwydd y byd anweledig. Gelwid ef wrth yr enw hwn, nid am ei fod ef ei hun yn anweledig, o blegid yr oedd anweledigrwydd yn briodoledd i'r holl dduwiau yn gystal ag yntau, ond am mai ganddo ef yr oedd y gallu i wneuthur dynion yn anweledig—i'w trosglwyddo o'r sefyllfa sydd tu hwnt i'n golygon. Ond fe allai iddo dderbyn yr enw hwn am fod *hades* yn cael ei ddarlunio gan y Groegiaid fel tiriogaeth dywyll; nid yn unig tu hwnt i ganfyddiad preswylwyr y byd hwn, ond ynddi ei hunan yn gaddug o dywyllwch. Mewn amser, daeth y gair yn enw yn mysg y Groegiaid ar sefyllfa y meirw. Yn nghyfieithiad y Deg a Thrigain, efe yw y gair cyffredin am *sheol*—yr Hebraeg. Etto, bernir fod olion yr ystyr boreuaf i'w cael. Gwel *Gen.* xxxvii. 34: "Yn ddiau, disgynaf yn alarus at fy mab i'm beddrod:" yn ol y Deg a Thrigain. "At fy mab i dŷ *hades*;" *eis aidou*. Yr oedd y gair *hades* yn mysg y Groegiaid yn cyfatteb hefyd i *orcus*, neu *inferna*, y Lladin. Golygid ef fel lle o wobr a chosp yn y sefyllfa ddyfodol, ac yn cynnwys o'i fewn ddwy diriogaeth; sef *elysium*—y lle dedwydd; a *tartarus*—trigle trueni.

Y mae y ffaith fod y gair paganaidd *hades* yn cael ei ddefnyddio fel cyfieithiad priodol o *sheol*, yr Hebraeg, yn cael ei ystyried fel prawf o gydgordiad neu debygolrwydd yn y drychfeddyliau a gyssylltir â'r ddau. Gall nad yw y tebygrwydd yn hollol; yn wir, y mae y gwahaniaeth hanfodol oedd rhwng paganiaeth ac Iuddewiaeth yn gwahardd i ni feddwl y gallasai y Groegiaid, y rhai oedd heb dderbyn dadguddiad, yn ymddyrchafu mor uchel yn eu syniadau am y byd anweledig a'r Iuddewon, i'r rhai yr amlygodd Iehofah bethau mawrion ei gyfraith. Etto, yn gymmaint a bod bywyd ac anllygredigaeth heb eu dwyn i oleuni

Digitized by Google

dan yr Hen Destament, ac y ceir yn yr Hen Destament nifer mwy o eiriau sydd yn cynnwys syniadau natur am y byd anweledig nag a geir yn cynnwys gwybodaeth helaethach dadguddiad, y mae yn naturiol dysgwyl cydgordiad rhwng y syniadau paganaidd a'r syniadau Iuddewaidd. Mae y cyfattebiadau canlynol yn amlwg rhyngddynt. *Hades*, yn ol y syniadau Groegaidd, oedd sefyllfa neu diriogaeth yr holl eneidiau yn ddiwahaniaeth. Fod yn *hades* ddau le; y naill i'r rhinweddol, a'r llall i'r drygionus. Felly yr oedd yr Iuddewon hefyd yn dysgu cyn ac ar ol dyddiau y Gwaredwr. *Elysium* y Groegiaid ydyw paradwys yr Iuddewon; a *tartarus* y cyntaf ydyw *gehenna* yr olaf. Cyttunai yr Iuddewon hefyd â'r Groegiaid mai enw ar le cyffredin yr holl feirwon ydyw *hades*. Dywed Josephus fod enaid Samuel wedi ei alw allan oddi yno, ac mai hyn oedd barn y Phariseaid [*Rhyf. Iudd.*, 4. 18, 3]. Cyttunent hefyd am sefyllfa *hades;* sef, ei bod yn gorwedd obry, rhywle tua chalon y ddaear. Yr oedd y fynedfa i *sheol* yn *ddisgyniad*, ac arferid y gair i osod allan y dymchweliad dyfnaf: *Deut.* xxxii. 22; *Iob* xi. 7, 9. "Tynu i lawr hyd yn uffern," ydyw y darostyngiad iselaf mewn bod. Fel mai y nefoedd ydyw yr arwyddlun goreu o uchder, yn mhob ystyr; felly *sheol*, neu *hades*, ydyw y goreu o iselder a darostyngiad. Ond, fel y sylwa un awdwr, nid yw hyn i'w olygu fel yn cadarnhau dim am le gwirioneddol eneidiau ymadawedig; o blegid nid oes ammheuaeth nad yw yr iaith yma, fel mewn llawer o enghreifftiau ereill, yn cael ei chymmeryd oddi wrth ymddangosiad pethau: a chan fod y corph, ar ol marw, yn cael ei ddodi yn nyfnder y ddaear, felly hefyd, ystyrid fod yr enaid yn myned hefyd i'r dyfnder. Ond nad ydyw hyn yn ddisgrifiad manwl o sefyllfa leol ysbrydion ymadawedig sydd amlwg oddi wrth eiriau ereill sydd yn cadarnhau y gwrthwyneb: megys, fod Duw wedi eu cymmeryd ato ei hun, neu y dangosai iddynt lwybr bywyd, neu y caent drigo yn ei dŷ yn dragywydd, neu fod ysbryd dyn yn myned i fyny. Yn ystod yr hen oruchwyliaeth, nid oedd un dadguddiad pennodol wedi ei roddi o barth sefyllfa neillduol ysbrydion diosgedig: nid oedd yr amser etto wedi dyfod i roddi y cyfryw amlygiadau: gan hyny, yr oedd yr iaith a ddefnyddid am y byd anweledig yn rhwym o fod yn ammhennodol—y cyfryw ag a gyfodai yn naturiol oddi ar deimladau cyffredin. O herwydd yr un rheswm yr oedd tywyllni a phrudd-der yn nodweddu syniadau pobl Dduw ar hyn. Nid oedd *sheol* i'r Iuddew ond tebyg i'r hyn oedd *hades* i'r pagan. Er gwybod y cadwai Duw hwynt rhag drwg yn *sheol*, ac na thynai efe ei amddiffyn oddi arnynt; etto, edrychent ar *sheol* fel "tir tywyllwch fel y fagddu;" fel tiriogaeth lle yr oedd llonyddwch, dystawrwydd, a thywyllwch marwolaeth yn teyrnasu arni o gwr i gwr. Rhyw fath o sicrhâd cyffredinol oedd gan dduwiolion yr Hen Destament y taenai Duw ei amddiffyn drostynt yn *hades*, ac na adawai efe hwynt hyd byth yno: ond nid oedd ganddynt ddim goleuni neillduol am y sefyllfa hono ei hun; ni charent sefydlu eu meddyliau arni: yn hytrach, llament drosti, rhyngddynt a goleuni yr adgyfodiad. Cyffelyb i'r golygiadau uchod oedd eiddo tadau yr eglwys. Crybwylla Pearson [*On the Creed*] am hen lyfr, *De Universi Natura*—a briodolir gan rai i Justin Ferthyr, gan ereill i Irenæus, ereill i Origen—yn yr hwn y dywedir fod y cyfiawnion a'r drygionus yn preswylio yn *hades;* etto, nid yn yr un lle. "Nid oes," ebe awdwr y llyfr hwn, "ond un porth i *hades;* ond ar ol myned i mewn trwyddo, y mae y cyfiawn yn troi ar y llaw ddeheu, i le o ddedwyddwch; a'r anghyfiawn ar yr aswy, i le o drueni." Mewn rhai pethau ereill, y mae golygiadau rhai o'r tadau yn rhy debyg i eiddo y paganiaid. Yr oedd Justin yn ystyried fod y dybiaeth y derbynir y cyfiawnion i'r nef yn ebrwydd ar ol marw yn heresi: yr un hefyd oedd golygiad Tertullian. Er amser Origen, ac yn benaf trwy ei ddylanwad ef, ennillodd y golygiad hwn dir; sef, fod y diafol, trwy hudo dyn, wedi meddiannu nerth marwolaeth, ynghyd âg arglwyddiaeth ar deyrnas y meirw, o diriogaethau tywyll pa un ni oddefai i eneidiau ymddyrchafu at Dduw. Felly, daeth *hades* i feddu ystyr gyffelyb i'r un a gyssylltir â'r gair *uffern* yn awr.

Yn Eglwys Groeg, derbyniwyd y golygiad hwn fel y mwyaf cywir; sef, fod *hades* wedi cael ei hysbeilio trwy waith y Gwaredwr yn dysgu iddi, a bod y credinwyr wedi cael eu symmud o honi i baradwys. Cymmerodd yr athrawiaeth ffurf arall yn yr Eglwys Orllewinol. Mor gynted ag y cafodd pwngc y purdan, yr hwn a weithiwyd i addfedrwydd gan Gregory Fawr, ei gyhoeddi, cafodd ei dderbyn gyda chymmeradwyaeth cyffredinol. Yn y canol, rhwng nef ac uffern, ond yn agosach i'r gyntaf, yr oedd dwy diriogaeth yn gorwedd, y *limbus infantum*, a'r *limbus patrum*. Yn yr olaf—yr un a mynwes Abraham—yr oedd duwiolion yr Hen Destament o dan rwymau, ar gyfrif y pechod gwreiddiol, i fyned o dan y *pœna damni*, etto heb deimlo dim poen [gwel PURDAN]. Ymwrthododd Eglwys y Diwygiad â'r syniadau hyn yn hollol, gan ddal fod pawb, yn mhob oes, yn myned naill ai i'r nefoedd neu i uffern. Ond nid oedd y golygiad hwn chwaith yn rhoddi boddlonrwydd. Yn y ddwy ganrif ddiweddaf, cyfododd rhai yn yr Almaen a Phrydain i gefnog i rhyw fatho sefyllfa ganol; yr hyn sydd yn ennill tir i raddau yn mysg Cristionogion Protestanaidd. Os yw y Beibl yn dysgu na bydd y perffeithrwydd uchaf wedi ei gyrhaedd hyd aduniad yr enaid â'r corph yn yr adgyfodiad, y mae yn rhaid ystyried y bydd y duwiolion, rhwng eu marwolaeth a'u hadgyfodiad, mewn rhyw fath o *status medius* (sefyllfa ganol). Ond nid sefyllfa ganol rhwng nefoedd ac uffern, gyffelyb i'r eiddo y Pabyddion; ond sefyllfa fydd yn uwch na chyflwr ammherffaith y saint yn y fuchedd hon, ond yn is na'r cyflwr y dygir hwy iddo yn yr adgyfodiad. Ond i ddychwelyd at y syniadau ysgrythyrol cyssylltiedig â *hades*. Yr ydym wedi dangos fod y prif syniadau cyssylltiedig â'r geiriau *hades* a *sheol* yr un. Y mae *sheol* yn deilliaw o ferf yn arwyddo *gofyn*, ac yn dynodi y lle sydd yn gofyn am, neu yn hawlio pawb. Disgrifir ef fel y lle ag y mae ei ofynion yn anniwalladwy; er yr holl liaws afrifed sydd yn disgyn iddo o oes i oes, y mae etto yn gofyn chwaneg: "Ni lenwir uffern a distryw." *Sheol*, yn ol fel y mae yr Hen Destament yn ei ddisgrifio, ydyw derbynfa gyffredin y marw—y cyfiawn, a'r drygionus: *Gen.* xxxvii. 35; *Hab.* ii. 5; *Salm* vi. 6; lxxxix. 48. Yn *Salm* xciv. 17, a cxv. 17, darlunir ef fel lle dystaw: yn *Iob* x. 21, fel lle tywyll: yn *Num.* xvi. 30, 33, a *Iob* xi. 7, 8, fel lle o orphwysfa: yn *Salm* vi. 5; lxxxix. 48; *Esa.* xxxviii. 18; *Iob* iii. 17—19; xiv. 7; ac *Esa.* xiv. 9, fel lle anhyfryd a phruddaidd. "Yn angeu nid oes goffa am danat; yn *sheol* pwy a'th folianna:" "Yno yr annuwiolion a beidiant â'u cyffro; ac yno y gorphwys y rhai lluddedig. Y

Digitized by Google

rhai a garcharwyd a gânt yno lonydd ynghyd; ni chlywant lais y gorthrymydd." Ond fel yr oedd dadguddiad yn llewyrchu, yr oedd mwy o obaith yn lliwio eu syniadau am *sheol*. Dadganent eu gobaith am ddihuniant o gwsg marwolaeth: *Salm* xvii. 15; *Esa*. xxv. 8; *Hos*. xiii. 14; *Dan*. xii. 2. Mae y naill ddosbarth o ddisgrifiadau yn cael eu gwneuthur oddi ar safle natur, a'r llall oddi ar safle dadguddiad.

Edrychir weithiau ar *sheol* yn fwy mewn cyssylltiad â'r corph; brydiau ereill, yn fwy mewn cyssylltiad â'r ysbryd. Yn y golygiad cyntaf, y bedd a feddylir yn benaf (*Gen*. xxxvii. 35; xlii. 38; 1 *Sam*. ii. 6); ac felly y mae yn cael ei gyfieithu yn y testyn Cymraeg. Mewn manau ereill, y mae yn cynnwys y syniad o ddarostyngiad a chospedigaeth, ac felly y cyfieithir ef *uffern*. Ond dywed Smith, fod y gair *uffern* yn fynych yn camarwain y darllenydd. Mae yn amlwg, er enghraifft, fod *Iob* xi. 8; *Salm* cxxxix. 8; *Amos* ix. 2—lle y mae *uffern* yn cael ei golygu mewn gwrthgyferbyniad i'r *nefoedd*—yn cyfeirio yn unig at y syniad Iuddewig am sefyllfa *sheol* yn nghrombil y ddaear, ac nid at *uffern*, fel lle o boen, mewn cyferbyniad i'r *nefoedd*, fel lle o ddedwyddwch. Mae hyd yn oed *Salm* ix. 17; *Diar*. xv. 24; v. 6; ix. 18, yn ymddangos fel yn cyfeirio, yn hytrach, at berygl marwolaeth ddisyfyd ac arswydus, nag at uffern fel lle o ing a thrueni. Dywed Smith y dangosai ymchwiliad astud i'r holl leoedd ag y digwydda y gair ynddynt, fod syniadau yr Hebreaid am *sheol* yn dra chymmysglyd ac ammhenodol.

Y mae amryw eiriau yn cael eu harfer yn y Testament Newydd i ddynodi y byd arall, y rhai a fenthycir allan o iaith yr oes. Cydnabyddir, yn lled gyffredinol, fod cryn anhawsder i benderfynu eu hystyr manwl. Ni a edrychwn yn fyr ar rai o'r adnodau lle y mae y gair *hades* yn dygwydd ynddynt:—Cyhoedda Iesu Grist uwch ben Capernaum, "y tynid hi i lawr hyd yn uffern." Y mae yn amlwg fod *hades* yma yn sefyll mewn cyferbyniad i *nef*, ac yn golygu y dyfnder isaf. Nid ydym i feddwl mai uffern fel lle o boen ydyw ystyr manwl y gair yn y lle hwn; ond fel y mae "dyrchafu hyd y nef" yn golygu y dyrchafiad uchaf, felly y mae "tynu i lawr hyd yn uffern" yn arwyddo y darostyngiad isaf. Cafodd y gair olaf ei gyflawni yn ninystr llythyrenol y dinasoedd hyn, trwy iddynt gael eu dileu mor llwyr, fel nad oes dim o'u holion yn aros. Y mae Lange yn gwneyd y sylwadau canlynol ar *hades*, ar briodoldeb pa rai nid amcanwn nodi ein barn. Gadawn i'r darllenydd wneyd hyny drosto ei hun. Dywed na ddylid cymmeryd *hades* yn lle uffern neu gehenna, a bod y drychfeddyliau canlynol yn perthyn i *hades*:—1. Trigle y meirw cyn cyflawniad gwaith y prynedigaeth. 2. Cyferbyniad rhwng y diriogaeth uchaf a'r un isaf; rhwng y lle i orphwys, a lle y poenau: *Luc* xv. 19—31. 3. Y sefyllfa o ammherffeithrwydd yr eneidiau yn *hades*; sefyllfa o ddyhead a hiraeth am y penderfyniad olaf: 1 *Pedr* iii. 9. 4. Parhâd fel teyrnas ganol hyd ddiwedd y byd. Y golygiadau cyffredin a phoblogaidd am *hades* oeddynt, yn 1af, Ei bod yn lle tanddaearol; yn 2il, Ei bod yn lle o berygl ac anghysur. Er nad yw y gair *hades* yma yn gyfystyr â gehenna, neu uffern, yn yr ystyr a gyssylltir genym ni â'r gair, etto nid oes dim yn amlycach na'i fod yn y lle hwn yn golygu dinystr llwyr ac anadferadwy. "A phyrth uffern nis gorchfygant hi" (*Mat*. xvi. 18); *pulai adou* =pyrth *hades*. Wrth "byrth *hades*" y meddylir teyrnas Satan, ebe De Wette; ac y mae Calvin, Erasmus, ac ereill, yn cymmhwyso y geiriau at oruchafiaeth Crist ar ddiafol a'i angylion. Y mae Lange, ac ereill, yn golygu fod "pyrth marwolaeth" yn gyfystyr â "phyrth *hades*." Y mae *hades*, yn yr holl Ysgrythyrau, yn golygu teyrnas marwolaeth, yr hon, yn wir, sydd yn gyssylltiedig â theyrnas Satan; etto, sydd yn meddu ar arwyddocâd mwy eang. Disgrifir *hades* fel yn meddu ar byrth: *Can*. viii. 6; *Iob* xxxviii. 17; *Esa*. xxxviii. 10; *Salm* cvii. 19. Yr oedd y pyrth hyn yn elynol i eglwys Crist, o herwydd fod marwolaeth Crist ei hun, pen yr eglwys, a merthyrdod yr apostolion, yn ymddangos i olwg ddynol fel yn peryglu ei diogelwch. "Ond pyrth marwolaeth nis gorchfygant hi;" am fod Crist wedi ennill buddugoliaeth ar angeu eisoes, a thrwy rinwedd y fuddugoliaeth hon, a ennillwyd ganddo ef ei hunan arno, bydd i'r eglwys etto ei lwyr orchfygu: yn yr adgyfodiad, bydd angeu, y gelyn diweddaf, wedi ei ddinystrio. "Ac yn uffern (*hades*) efe a gododd ei olwg;" *Luc* xvi. 23. Y mae yn amlwg mai ystyr y gair yma ydyw trigle gyffredin eneidiau ymadawedig hyd yr adgyfodiad. Yr oedd Lazarus hefyd yn *hades*, yn gystal a'r goludog; ond chwanegir fod yr olaf mewn poenau. Edrychir ar adgyfodiad Crist fel dyfodiad ei enaid allan o *hades*; neu, yr hyn sydd yr un peth, fel rhyddhâd arno oddi wrth rwymau angeu—"am na adewi fy enaid yn uffern;" *Act*. ii. 27. "Ni oddefi i'm henaid aros, wedi ei iachau oddi wrth y corph, yn y sefyllfa ganol." Nid yw y gair a gyfieithir yma uffern (*hell*) byth yn arwyddo lle y poenau. Weithiau, y mae yn air cyfystyr â bedd; ond yn fwyaf cyffredin, os nad bob amser, ei arwyddocâd yw cartref ysbrydion ymadawedig.—[Cook ar y lle]. Dywed yr awdwr hwn fod y gair Saesoneg *hell* yn cyfatteb yn ei ystyr i'r gair Groeg, *hades*: ei fod yn deilliaw o *helan*=gorchuddio, ac yn golygu lle tywyll, gorchuddiedig. Yn *Dad*. i. 18, priodolir "llywodraeth uffern a marwolaeth" i'r Arglwydd Iesu: "Y mae genyt agoriadau uffern a marwolaeth." Y mae Hengstenberg yn ymresymu fod ystyr ddrwg yn cael ei chyssylltu yma â *hades*, yn gystal ag â marwolaeth, o herwydd cyssylltiad y ddau air â'u gilydd. "Y mae yn cau marwolaeth a *hades* rhag ei bobl, i'w cadw rhag myned iddynt; ac yn eu hagoryd i satan a'i weision, ac yn bwrw y rhai hyn i mewn iddynt;" *Dad*. xx. i. Oddi wrth y cyssylltiad, nis gellir meddwl ond am y mater hwnw o farwolaeth sydd yn wirioneddol ddrwg, ac yn wrthddrych o ofn. Ond nid yw marwolaeth y corph felly, wrth edrych arno oddi ar safle y Testament Newydd. Arweinir ni i'r un casgliad gan gyssylltiad y gair *marwolaeth* â *hades*=uffern. Yn y *Dadguddiad*, ac yn gyffredinol, fe ddygir *hades* yn unig i sylw mewn cyssylltiad â phechaduriaid meirwon. Y mae felly yn amlwg na feddylir yma am farwolaeth naturiol ynddi ei hunan, am y gall hi fod yn ddaioni mawr—yn fynedfa i fywyd; ond fel y mae yn gospedigaeth pechod, ac yn gyssylltiedig â'r ail farwolaeth. Y mae yr awdwr hwn, yn mhellach, oddi wrth *Dad*. vi. 8, yn amcanu profi mai trigle yr anghyfiawnion yn unig a feddylir wrth *hades*. Dwg yn mlaen *Luc* xvi. 23, fel prawf o hyn; lle y dywedir fod y goludog wedi codi ei olwg yn uffern, ac efe mewn poenau. Ond y mae yn amlwg nad yw hyn yn profi y pwngc. Mwy naturiol yw cymmeryd uffern yma yn ystyr cyffredin

Digitized by Google

y gair *sheol*, yn yr Hen Destament; ac "mewn poenau," fel cyfeiriad at y diriogaeth hono o *hades* lle y cedwir eneidiau y drygionus. Mae golygiad Hengstenberg, fod *sheol*, yn Hebraeg, yn arwyddo yr holl fyd anweledig, neu ystâd y meirw yn gyffredinol, ond fod *hades*, yn y Testament Newydd, yn ddieithriad, yn golygu trigle annuwiolion yn unig, yn ymddangos i ni yn ddisail. Nid yw yn yr adnodau y sylwasom arnynt, o angenrheidrwydd, beth bynag, yn golygu cartref yr anghyfiawnion. Heb law hyny, y mae yn naturiol meddwl nad yw yn air cwbl gyfystyr â Gehenna. Pan sonir am le y poenau yn y byd arall, "Gehenna," a "llyn o dân," a'r "pwll diwaelod," ydynt y geiriau a arferir. Golygiad Howe, yn ei bregeth ar *Dad.* i. 18, ydyw, mai y byd anweledig, yn ei ystyr eangaf, a olygir wrth *hades*. Y mae y gair, yn ei arwyddocâd llythyrenol, yn arwyddo yr hyn sydd yn gorwedd allan o'r golwg. A chan fod y gair o ba un y mae *hades* yn cael ei ffurfio yn dynodi hefyd *gwybod*, yn gystal a *gweled*, y mae *hades* hefyd yn arwyddo yr hyn sydd yn gorwedd tu hwnt i gylch ein gwybodaeth—tu hwnt i gyrhaeddiad golwg y meddwl. Y mae ystyr cyffredin 'y gair, yn mysg pob dosbarth o ysgrifenwyr, yn cyttuno â hyn; yn gosod allan, yn ddiwahaniaeth, y byd anweledig, neu sefyllfa y rhai ymadawedig allan o'n byd ni, y rhai sydd wedi myned allan o'n golwg, pa un bynag ai da ai drwg; ac nid yw yn cyfeirio at uffern mewn modd arbenig, nac un lle neu sefyllfa o boen. Ar y cyfan, y mae yn amlwg nad yw uffern ond rhan fechan o'r hyn a olygir wrth *hades;* felly, byddai yn afresymol meddwl am yr awdurdod a briodolir yma i'n Harglwydd, yn ol y syniad cyfyng hwn. Byddai yr un mor ammherthynasol ag a fyddai i'r diben o fawrygu person o'r urddas mwyaf mewn llys tywysog galluog, ddyweyd ei fod yn geidwad carchar. Yr un hefyd yw golygiad Usher am y gair: dywed ei fod yn dynodi y byd arall—lle, neu sefyllfa y meirw, yn y fath fodd ag i gynnwys y nefoedd hefyd. Y mae Grotius hefyd yn sylwi ar *Luc* xvi. 23, fod y gair, yn y modd mwyaf diammheuol, yn dynodi lle sydd tu hwnt i'r canfyddiad: wrth ei gymmhwyso at y corph, arwydda y bedd; at yr enaid, yr holl diriogaeth lle y mae yr enaid yn hanfodi ar wahân oddi wrth y corph. Fel yr oedd y gŵr goludog, felly hefyd yr oedd Lazarus, yn *hades;* etto, mewn tiriogaethau gwahanol, o blegid, y mae paradwys ac uffern, neu, yn ol geiriau y Groegiaid, *elysium* a *tartarus*, yn *hades*.

Yr ydym, gan hyny, yn syrthio i'r casgliad ag y mae Herzog yn ei amddiffyn—fod *hades*, yn y Testament Newydd, yn gyfystyr â *sheol* yn yr Hen Destament, ac yn golygu sefyllfa dyn ar ol marw, ar wahân oddi wrth bob ystyriaeth o bleser neu boen; yr ystâd ddiosgedig, o ba un y rhyddheir ef yn yr adgyfodiad. Yn ol y golygiad hwn, yr oedd enaid y Gwaredwr, yn gystal ag enaid y gŵr goludog, yn *hades;* a phan ddywed credoau yr eglwys fod Crist wedi disgyn i uffern, y mae yn amlwg mai ystyr glasurol a Beiblaidd y gair *hades* a roddir ganddynt i'r gair *uffern*. Y mae y geiriau *carchar* (1 *Pedr* iii. 19); *α βυσσος* =*abyss*, (*Rhuf.* x. 7, *dyfnder*); ac yn enwedig *pwll diwaelod* (*Dad.* xx. 1); a *Gehenna*, yn golygu trigfod y damnedigion yn *hades;* a *mynwes Abraham* a *pharadwys* yn enwau ar gartref y cyfiawnion yno. Yr un yw Gehenna a'r uffern dân (*Mat.* xiii. 42, 50), i'r hwn y teflir y drygionus hyd ddiwedd y byd.

Er fod y syniadau paganaidd am *hades* yn debyg mewn amryw bethau i'r syniadau Iuddewig am *sheol*, etto yr oeddynt yn gwahaniaethu mewn pethau ereill tra phwysig, fel y gallesid dysgwyl oddi wrth ragoriaeth Iuddewiaeth ar baganiaeth. Un gwahaniaeth rhyngddynt oedd, fod athrawiaeth adgyfodiad y corph wedi ei dadguddio mewn Iuddewiaeth; felly, er fod *hades* yn ymddangos i'r Israeliad crediniol fel sefyllfa o anghysur a thywyllwch, etto, ymgysurai, wrth fyned i lawr tuag yno, yn y meddwl nad oedd ei arosiad yno i fod yn dragwyddol. Ymddiriedai yn y Duw a allai wared ei enaid o law y bedd, yr hwn hefyd a roddes iddo sail i obeithio y gwnai efe hyny yn ei amser da ei hun. Ond nid oedd gan y pagan un rhagolwg am y waredigaeth yma: nis gallai efe weled tu hwnt i *hades;* hûn dragwyddol oedd marwolaeth, fel yr ymddangosai iddo. Nid oedd ei athrawiaeth na'i grefydd yn taflu yr awgrym lleiaf am adgyfodiad y corph. Pan dristäai y pagan ar ol ei berthynasau cu, yr oedd yn tristau megys un heb obaith. Ond yr oedd gobaith, hyd yn oed dan ddadguddiad anghyflawn yr 'Hen Destament, yn taflu ei oleuni adfywiol i'r Israeliad ar *sheol.* Y patrieirch a edrychent am wlad well, a hono yn un nefol: "Ereill a ddirdynwyd heb dderbyn ymwared, fel y gallent hwy gael adgyfodiad gwell." Hysbysid gan brophwydoliaeth y deuai adeg i "breswylwyr y llwch gyfodi a chanu;" y "deffröid y rhai sydd yn cysgu yn llwch y ddaear." *Esa.* xxv. 10; *Hos.* xiii. 14; *Dan.* xii. 2. Adgyfodiad y meirw, ebe Paul, oedd yr addewid a wnaed gan Dduw i'r tadau, at yr hwn yr oedd y deuddeg llwyth yn gobeithio dyfod: *Act.* xxvi. 7. Cadarnha Josephus fod yr holl genedl, oddi eithr plaid fechan y Saduceaid, yn credu adgyfodiad y cyfiawnion i fendith ac anrhydedd [*Hyn.* xviii. 1, 3]. Yr oedd y gobaith hwn yn taflu y fath oleuni ar *sheol* i'r Israeliaid, ag oedd yn hollol ddieithr i *hades* y Groegwyr. Nid oedd y goleuni a daflai natur ar y byd anweledig iddynt hwy ond "goleuni fel y tywyllwch:" yr hyn a amcenid ganddynt fel cysuron yn ngwyneb angeu, nid oeddynt, mewn gwirionedd, ond cysuron gofidus —cysuron mewn ymddangosiad, heb fod mewn gwirionedd. Wrth i'r meddwl cythryblus aros uwch eu pen, diflanent fel mwg, heb weinyddu iddo na chynnorthwy na diddanwch. Gwahaniaeth arall rhwng *hades* y Groegwr, a *sheol* yr Hen Destament, ac yn enwedig *hades* y Testament Newydd, ydyw, fod y gyntaf yn cael ei golygu fel tiriogaeth annibynol, ar wahân oddi wrth yr hyn sydd yn ffynnonell bywyd, a than lywodraeth un arall. Edrychid ar Plato fel gwrthymgeisydd i frenin daear a nefoedd. Yr oedd gwrthdarawiad hanfodol rhwng teyrnas y ddau. Ond i'r Hebreaid, yr oedd amser a thragwyddoldeb dan lywodraeth yr un Iehofah; yr oedd *sheol* a distryw yn noeth i olygon Duw; a than y Testament Newydd, y mae y Cyfryngwr yn cael ei osod allan fel Arglwydd ar fywyd ac ar farwolaeth, "yr hwn sydd ganddo agoriadau uffern a marwolaeth." Pan y mae y Cristion yn myned i lawr i *hades*, nid yw yr ymadawiad yn ddim mwy na mynediad o un diriogaeth i diriogaeth arall yn nheyrnas fawr yr un brenin.

HADID (חדיד—*llym*): dinas a elwir felly, o bossibl, am ei bod yn sylfaenedig ar ryw fryn clogwynog. Nid ydym yn cyfarfod â'r enw ond yn unig yn *Ezra* ii. 33; a *Neh.* xii. 37; xi. 34. Yn amser Eusebius, yr oedd dinas o'r enw



Digitized by Google

Aditha, neu Adatha, o'r tu dwyreiniol i Diospolis (Lydda). Y mae yn debyg mai hon oedd Hadid. O ddeutu tairmilldir i'r dwyrain i Lydda y mae pentref o'r enw *el-Hadîtheh.* Disgrifir y pentref hwn gan yr hen deithiwr Iuddewig Ha-Parchi fel yn sefyll "ar ben bryn crwn;" a chwanega, mai yr un ydyw a Hadid—yr hyn yn ddiammheu sydd yn gywir.

HADLAI (חדלי—*fy ngorphwysfa*): gŵr o Ephraim, tad Amasa; yr hwn oedd un o benaethiaid y llwyth yn nheyrnasiad Pecah: 2 *Cron.* xxviii. 12.

HADORAM (הדורם—*eu harddwch*): pummed mab Ioctan: *Gen.* x. 27; 1 *Cron.* i. 21. Y mae yn anhawdd penderfynu lle ei ymsefydliad, fel y gellir gyda meibion ereill Ioctan.

2. Mab Tou, neu Toi, brenin Hamath, llysgenadwr ei dad at Dafydd, i'w longyfarch ar ei fuddugoliaeth ar Hadarezer, brenin Zobah (1 *Cron.* xviii. 10), ac i gyflwyno iddo anrhegion mewn aur, arian, a phres.

3. Enw arolygydd y trethi, o dan Dafydd, Solomon, a Rehoboam; a'r hwn a gollodd ei fywyd yn y gwrthryfel yn Sichem, ar ol coroniad Rehoboam: 2 *Cron.* x. 18. Anfonwyd ef gan Rehoboam i lonyddu y cythrwfl, fel un o'r hen blaid ryddfrydig, o bossibl. Ond yr oedd hyn yn aneffeithiol: "meibion Israel a'i llabyddiasant ef â meini, fel y bu farw."

HAELIONI [o *hy* ac *ael*]; tuedd gymwynasgar a pharod i gyfranu. Defnyddir y gair weithiau yn yr Ysgrythyrau trwy draws-enwad, i ddynodi yr hyn a gyfenwir: 2 *Cron.* viii. 2; ix. 11, 13; 1 *Cor.* xvi. 3. Ceir yn yr wythfed a'r nawfed bennod o Ail Epistol Paul at y Corinthiaid, ddisgrifiad cryno ac eglur o holl elfenau hanfodol haelioni Cristionogol. O ran ei natur, gelwir ef yn "ras Duw;" 2 *Cor.* viii. 1. Nid planigyn sydd yn tyfu yn naturiol yn y galon ddynol ydyw; ond y mae yn codi oddi ar yr egwyddor sydd yn cael ei phlanu gan yr Ysbryd yn enaid pob dyn duwiol i wneyd daioni i ereill.

Y rheolau a osodir i lawr gan Paul gyda golwg ar weithrediad haelioni ydynt—1. Fod i *bob* aelod o'r eglwys gyfranu: 2 *Cor.* ix. 7. Mae yn ddyledswydd mor bersonol ag ydyw credu ac edifarhau. Nis gall un aelod ei hesgeuluso heb bechu yn erbyn Duw. 2. Fod i bob un gyfranu yn ol ei allu, "yn ol yr hyn sydd gan un;" 2 *Cor.* viii. 12. Nid ydyw Duw yn gofyn dim ond yr hyn y mae genym allu i'w roddi. Ei reol ef i ofyn rhoddion genym ni ydyw ei roddion ef i ni. "I bwy bynag y rhoddwyd llawer, llawer a ofynir ganddo;" *Luc* xii. 48. Gan hyny, nid yn ol yr hyn a gyfrenir gan ereill, ond yn ol ein gallu ni ein hunain, y dylem ni gyfranu at bob achos da. 3. Fod haelioni i gael ei arfer yn gysson â chyfiawnder—"nid yn ol yr hyn nid oes ganddo;" 2 *Cor.* viii. 12. Mae cyfranu eiddo pobl ereill, hyd yn oed at yr achos goreu, yn bechod; ac felly y mae y rhodd yn anghymmeradwy. 4. Fod pob un i gyfranu yn llawen; "Pob un megys y mae yn rhagarfaethu yn ei galon, felly rhodded: nid yn athrist, neu trwy gymmhell; canys rhoddwr llawen y mae Duw yn ei garu;" 2 *Cor.* ix. 7. Y pwngc a ddysgir yn yr adnod hon ydyw, na bydd un rhodd yn gymmeradwy gan yr Arglwydd heb ei bod yn dyfod o'r galon—yn codi oddi ar egwyddor o gariad atto ef, ac nid o orfodaeth. Gosodir y drychfeddwl hwn allan yn dlws iawn gan Iesu mab Sirach:—"Dangos dy wyneb yn llawen yn mhob rhodd; a chyssegra dy ddegfed yn siriol. Dod i'r Goruchaf megys y rhoddes yntau i tithau, ac fel y mae dy allu, â llygad da. O blegid yr Arglwydd a dâl, ac efe a dâl i ti y saith cymmaint."—*Doethineb Iesus mab Sirach,* xxxv. 9—11. Dylid cofio bob amser fod Duw yn edrych ar bob gweithred mewn cyssylltiad â'r egwyddor sydd yn ei chynnyrchu. Nid oes dim yn ffrwyth da yn ei gyfrif ef ond yr hyn sydd yn tyfu ar wreiddyn da. Yr egwyddor oddi ar yr hon yr oedd y rhodd yn tarddu a ddygir i sylw gan Grist yn y geiriau—"Canys pwy bynag a roddo i chwi i'w yfed gwpanaid o ddwfr yn fy enw i, am eich bod yn perthyn i Grist, yn wir meddaf i chwi, Ni chyll efe ei wobr: *Marc* ix. 41. Nid am y weithred o roddi cwpanaid o ddwfr i un ar ei phen ei hun y gwobrwyir y rhoddwr, ond am roddi cwpanaid o ddwfr i un am fod yr un hwnw yn "perthyn i Grist." O herwydd yr egwyddor y gwobrwyir y weithred. Diau fod yr hyn a gyfrenir oddi ar egwyddor ddrwg yn lles i ereill, ond nid i'r rhoddwr:—"A phe porthwn y tlodion â'm holl dda, ac heb gariad genyf, nid yw ddim llesâd i mi" (y rhoddwr): 1 *Cor.* xiii. 2. Y mae haelioni yn un o'r prif bethau sydd yn profi gwirionedd cariad at Dduw; 2 *Cor.* viii. 8.

Ymddengys oddi wrth yr Ysgrythyrau fod haelioni i gael ei arfer tuag at y saint; *Rhuf.* xii. 13; *Gal.* vi. 10: tuag at ddieithriaid; *Lef.* xxv. 35: tuag at elynion; *Diar.* xxv. 21: tuag at bawb; *Gal.* vi. 10. Y modd y dylid ei arfer yw, trwy ymgeleddu yr anghenog; *Esa.* lviii. 7: trwy gyfranu at achos yr Arglwydd; *Exod.* xxxv. 21—29; *Phil.* iv. 14—16.

Y cymhelliadau i haelioni ydynt, yr ystyraeth o hawl Duw yn mhob peth a feddwn; *Salm* xxiv. 1; *Num.* xiii. 2; *Hag.* ii. 8: gorchymyn Duw; *Col.* ii. 12: daioni Duw tuag atom yn ei ragluniaeth; *Salm* lxviii. 19; cxlv. 9, 15, 16: esampl Crist; 2 *Cor.* viii. 9: esampl y saint o dan yr Hen Destament a'r Newydd; 1 *Cron.* xxix. 14—16; *Act* ii. 4, 5; 2 *Cor.* viii. 2, 3: addewidion am wobr; *Salm* xli. 1; cxii. 9; *Diar.* xxii. 9; *Preg.* xi. 1; *Heb.* vi. 10: y pleser a fwynheir wrth gyfranu; *Act.* xx. 35.

Y mae gwir haelioni yn dwyn gogoniant i'r Arglwydd, trwy ddangos o un tu effeithiolrwydd yr efengyl yn creu tuedd haelionus mewn dynion; ac o'r tu arall, yn ennyn diolchgarwch i'r Arglwydd yn nghalonau y rhai a dderbyniant ffrwyth y gras o haelioni: 2 *Cor.* ix. 11, 13.

HAERLLUGRWYDD, [o *haer* a *llug*]; hyfdra ammhriodol, taerineb anweddus ac afresymol, neu unrhyw ymddygiad gwrthwyneb i weddeidd-dra a moesgarwch. Mae haerllugrwydd bob amser yn codi naill ai oddi ar anwybodaeth neu oddi ar ysbryd trahaus ac anghyfiawn; ac y mae yn hollol groes i'r mwyneidd-dra a'r hynawsedd hwnw a gynnyrchir gan efengyl Crist. Dau eithafoedd y dylid bob amser eu gochelyd mewn cymdeithas ydyw yswilder a haerllugrwydd. Mae y cyntaf yn attal llwyddiant dyn, a'r olaf yn ei wneyd yn wrthddrych dirmyg. Dylid bod yn wylaidd heb fod yn yswil, ac yn wrol heb fod yn haerllug.

HAF. Gwel TYMMORAU.

HAGAR (הגר—*dieithr*); Aiphtes, llawforwyn, neu gaethferch Sarah: *Gen.* xvi 1. Rhoddwyd Hagar gan Sarah yn ordderchwraig i Abraham

Digitized by Google

wedi iddo breswylio deng mlynedd yn Ngwlad Canaan, ac na chawsai blant o Sarah: *Gen.* xvi. 2, 3. Dywedir yn yr Hen Destament a'r Newydd, ei bod yn gaeth (yn y Testament Newydd, y mae ei chaethiwed yn rhan o'i chymmeriad cysgodol), ac yr oedd ei bod yn gaethferch yr un peth hanfodol i'w bod yn ordderch gyfreithlawn. "Pan welodd feichiogi o honi," fe ddywedir i'w meistres ddyfod yn "wael yn ei golwg" (*adn.* 4); a chyda digofaint oedd yn naturiol i wraig rydd, y mae Sarah yn ceryddu Abraham am ganlyniadau ei gweithred ei hun (*adn.* 5). Gwraig ei fynwes oedd Sarah, a'i gydymaith am flynyddoedd lawer: yr oedd hefyd yn hanner chwaer iddo. Y mae ei attebiad, o ganlyniad, yn cael ei ffurfio yn fwy dan reolaeth serch na rheswm: a chyda'r un diffyg penderfyniad ag yn yr Aipht a llys Abimelech (yr hyn, fel y gwyddom, oedd yn dra gwahanol i'w gymmeriad cyffredin), y mae yn dywedyd, "Wele dy forwyn yn dy law di; gwna iddi yr hyn a fyddo da yn dy olwg." Yr oedd y caniatâd hwn yn angenrheidiol mewn tŷ dwyreiniol; ond dylid sylwi mai anfynych iawn yn awr y rhoddir ef. Ac oddi wrth sefydlogrwydd arferion yn y dwyrain, a chymmeriad cenhedlaethol y bobl hyny, y mae yn anhawdd genym feddwl ei bod yn arferiad gynt i ganiatau i'r wraig drin caethion yn sefyllfa Hagar yn chwerw. Ond y mae gwirionedd yr hanes yn cael ei gadarnhau drwy y gŵyriad ymddangosiadol hwn oddi wrth yr arferiad cyffredin: "Yna Sarai a'i cystuddiodd hi, a hithau a ffodd rhagddi hi," gan gyfeirio ei chamrau tua'i gwlad enedigol, drwy yr anialwch. Yn ymyl ffynnon ddwfr, yn ffordd Sur, y mae angel yr Arglwydd yn ei chael, yn gorchymyn iddi ddychwelyd, ac ymostwng o dan law ei meistres; ac yn cyflwyno y brophwydoliaeth ryfedd yn mherthynas i'w phlentyn: *adn.* 10—12. [Gwel Ismael]. "A hi a alwodd enw yr Arglwydd, yr hwn oedd yn llefaru wrthi, Ti O Dduw! wyt yn edrych arnaf fi; canys dywedodd, Oni edrychais (*h. y.*, 'onid wyf yn fyw'), ar ol yr hwn sydd yn edrych arnaf (*h. y.*, ar ol fy ngweled gan Dduw)? Am hyny y galwyd y ffynnon, Beer-lahai-roi;" *adn.* 13, 14. Ar ei dychweliad, rhoddodd Hagar enedigaeth i Ismael, ac yr oedd Abraham yn awr yn chwech a phedwar ugain oed.

Nid oes son am Hagar drachefn yn oes Abraham, hyd ddydd gwledd diddyfniad Isaac, pryd y mae Sarah yn gweled mab "Hagar yr Aiphtes, yr hwn a ddygasai hi i Abraham, yn gwatwar;" ac mewn canlyniad, y mae Hagar eilwaith yn cael ei bwrw allan: *Gen.* xxi. 9, 10. Y mae Abraham, yn ei ofid a'i anfoddlonrwydd i gyflawni dymuniad Sarah, yn cael ei gysuro gan Dduw gyda'r addewid mai yn Isaac y gelwid ei hâd, ac y byddai i genedl gael ei chyfodi o fab y gaethferch. Gydag ufudd-dod ffyddiog yr ydym yn darllen, "y cododd Abraham yn fore, ac a gymmerodd fara, a chostrel o ddwfr, ac a'i rhoddes at Hagar (gan osod ar ei hysgwydd hi hyny), a'r bachgen hefyd, ac efe a'i gollyngodd hi ymaith; a hi a aeth ac a grwydrodd yn anialwch Beersheba. A darfu y dwfr yn y gostrel, a hi a fwriodd y bachgen o dan un o'r gwŷdd. A hi a aeth ac a eisteddodd yn mhell ar ei gyfer, megys ergyd bwa; canys dywedasai, Ni allaf fi edrych ar y bachgen yn marw. Felly hi a eisteddodd ar ei gyfer, ac a ddyrchafodd ei llef, ac a wylodd. A Duw a wrandawodd ar lais y llangc; ac angel Duw a alwodd ar Hagar o'r nefoedd, Beth a ddarfu i ti, Hagar? Nac ofna, Duw a wrandawodd ar lais y llangc, lle y mae efe. Cyfod, cymmer y llangc, ac ymafael ynddo â'th law, o blegid myfi a'i gwnaf ef yn genhedlaeth fawr. A Duw a agorodd ei llygaid hi, a hi a ganfu bydew dwfr, a hi a aeth, ac a lanwodd y gostrel o'r dwfr, ac a ddiododd y llangc;" *Gen.* xxi. 14—19. Mae y naturioldeb a'r manylrwydd sydd mor gyffredin i'r dwyreinwyr, ynghyd â'r prydferthwch syml a gwir dyner sydd yn rhedeg drwy yr hanes hwn yn brofion mewnol o'i wirionedd, ar wahân oddi wrth bob prawf arall. Nid yw enw Hagar yn ymddangos drachefn ond yn unig lle y mae yn cymmeryd gwraig i Ismael (xxi. 21), ac yn yr achau: *Gen.* xxv. 12. Y mae Paul yn cyfeirio ati fel cysgod o'r hen gyfammod, ac yn ei thebygoli i Fynydd Sinai—Mynydd y Gyfraith: *Gal.* iv. 22—31.

Yn y traddodiadau Mahometanaidd, gelwir Hagar (Hâjir, neu Hágir) yn wraig i Abraham; yr hyn sydd yn naturiol pan gofiom mai Ismael oedd pen y genedl Arabaidd, o'r hon y tarddodd Mahomet. Dywedir hefyd iddi fod yn preswylio yn Mecca, a chyfeirir at y ffynnon sydd o fewn teml Mecca fel yr hon a ffurfiwyd yn wyrthiol i Ismael yn yr anialwch.

HAGGAI [*un yn cadw gŵyl*]: prophwyd Hebreaidd; y degfed mewn trefn o'r prophwydi lleiaf, ond y cyntaf o'r tri a awdurdodwyd i gyhoeddi yr ewyllys ddwyfol i'r genedl Iuddewig, ar ol ei dychweliad o gaethiwed Babilon i'w gwlad ei hun. Nid oes dim gwybodaeth sicr i ba lwyth y perthynai, nac am le ei enedigaeth, na'r flwyddyn y ganwyd ef, na chwaith am brif amgylchiadau ei fywyd. Y farn gyffredin yw, y ganwyd ef yn Babilon yn ystod y caethiwed; a'i fod yn un o'r Iuddewon hyny a ddychwelasant i'w gwlad gyda Zorobabel, mewn canlyniad i orchymyn Cyrus, yn y flwyddyn c. c. 536. Dywed un hen ysgrifenydd ei fod wedi ei gladdu yn Ierusalem gyda'r offeiriaid; oddi wrth yr hyn y mae rhai wedi casglu ei fod o deulu Aaron. Y mae yr amserau, pa fodd bynag, yn y rhai yr oedd yn prophwydo, wedi eu nodi allan mor bendant ganddo ef ei hun, fel y mae genym gymmaint o sicrwydd ar y pen hwn ag sydd genym gyda golwg ar un o'r prophwydi. Y mae yn amlwg ei fod yn prophwydo yn nheyrnasiad y brenin Persiaidd, Darius Hystaspis, yr hwn a esgynodd i'r orsedd yn y flwyddyn c. c. 521. Y mae Ewald yn tueddu i feddwl, oddi wrth *pen.* ii. 3, fod Haggai yn un o'r ychydig dadau gweddilliedig hyny oeddynt wedi gweled y deml gyntaf. Nid yw y dybiaeth yn annhebygol. Y mae llai o debygolrwydd dros dybiaeth y Talmud, ei fod yn aelod o'r synagog fawr. Y mae Arglwydd A. Harvey yn dwyn yn mlaen resymau, oddi ar gyffelybrwydd arddull, iaith, &c., dros farnu mai Haggai a ysgrifenodd *Ezra* iii. 2—vi. 22; oddi eithr iv. 6—23.

Y mae prophwydoliaeth Haggai yr eilfed ar bymtheg ar ugain yn nhrefn llyfrau yr Hen Destament. Ei chenadwri fawr ydyw cynnhyrfu y bobl i fyned yn mlaen gyda'r gwaith o adeiladu yr ail deml, gan eu ceryddu yn llym am drigo yn eu "tai byrddiedig" eu hunain, a gadael tŷ yr Arglwydd yn anghyfannedd. Rhyddhawyd yr Iuddewon o'r caethiwed yn y flwyddyn gyntaf o deyrnasiad Cyrus: *Ezra* i. 1, &c. Wedi dychwelyd i Ierusalem, dechreuasant ail adeiladu y deml yn y flwyddyn 535 c. c. Ond llesteiriwyd hwynt yn y gwaith gan y llywodraethwyr cymmydogaethol, y rhai a ddylanwadent ar y brenhinoedd Persiaidd [Cambyses, a'r Pseudo-Smerdis] i'w gwrth-

Digitized by Google

wynebu (cym. *Ezra* iv. 1, â 24), hyd yr ail flwyddyn i Darius. Digalonwyd y bobl gan y rhwystrau hyn, fel ag y darfu iddynt am bedair blynedd ar ddeg adael heibio y gwaith o adeiladu yr ail deml; ac yr oedd rhai Iuddewon dylanwadol yn cymmeryd arnynt nad oedd yr amser i ail adeiladu y deml wedi dyfod, o blegid fod y 70 mlynedd a brophwydasid gan Ieremiah i'w cymmhwyso at y deml hefyd, o amser dinystr yr hon nad oedd yn awr ond wyth mlynedd a thrigain wedi myned heibio; gan ddywedyd, "Ni ddaeth yr amser i adeiladu tŷ yr Arglwydd;" *pen.* i. 2. Felly, er i Pseudo-Smerdis farw, a'r gwaharddiad i adeiladu fyned felly yn ddirym, etto parhaent i aros am ddiwedd y deng mlynedd a thrigain, ac ymroddent i'r gwaith o adeiladu eu tai eu hunain. Ond darfu i'r Arglwydd y pryd yma dueddu y brenin Darius i adnewyddu y gorchymyn a roddasid allan gan Cyrus o berthynas i adeiladu y deml, a chyfodi y prophwyd Haggai hefyd i'w symbylu yn mlaen, tua'r flwyddyn 520 c. c.; ac mewn canlyniad i'w annogaethau ef, ail ymaflodd y bobl yn egniol yn y gwaith, a chwblhasant ef mewn ychydig flynyddoedd. Ac yn mhellach, er mwyn eu calonogi i fyned yn mlaen gyda'r anturiaeth, sicrhäai y prophwyd iddynt y byddai gogoniant y tŷ diweddaf hwn yn fwy na'r cyntaf: *pen.* ii. 9.

Y mae y brophwydoliaeth hon yn cael ei chynnwys mewn dwy bennod, ac yn cael ei gwneyd i fyny o bedair o raniadau neillduol:—

1. Oediad y bobl gydag ail adeiladu y deml oedd y rheswm am eu cospi â sychder mawr: *pen.* i. 1—12. Calonogiad i ymgymmeryd â'r gwaith: *adn.* 13—15.

2. Addewid y byddai gogoniant yr ail deml yn fwy na'r eiddo y deml gyntaf: *pen.* ii. 1—9. Cyflawnwyd hyn trwy i Grist anrhydeddu yr ail deml â'i bresennoldeb. Gwel *Luc* xix. 47; xx. 1; xxi. 38; *Ioan* xviii. 20.

3. Cerydd ar y cyflawnder deddfol, trwy yr hwn yr amddifedid y bobl o'r fendith: *pen.* ii. 10—19.

4. Gosodiad i fyny deyrnas y Messiah dan yr enw Zorobabel: *pen.* ii. 20—23.

Y mae arddull y prophwyd hwn gan mwyaf yn syml a diaddurn, ac yn cyfatteb i'r matter yn wastad; yn deimladwy, pan yn annog; yn llym, pan yn ceryddu; yn fwy uchel pan yn cyfeirio at ddygwyddiadau dyfodol, ac nid yn hollol amddifad o arlun barddonol.

Er na cheir yma ehediadau uchaf barddoniaeth, etto y mae y meddyliau yn fywiog, a'r iaith yn glir ac yn rymus. Y mae rhai beirniaid yn cyhuddo yr iaith o fod yn llafurio dan dlodi o ymadroddion: i brofi hyn, cyfeiriant at yr ail adroddiadau mynych sydd yma o'r un geiriau: *pen.* i. 2, 5, 7; ii. 4; a i. 14. Y mae Eichhorn yn priodoli y mynychiad hwn i ymgais at addurno; yr hyn a arweiniai y prophwyd i ail adrodd yn fynych ryw hoff ymadroddion. Ymddengys meddwl y prophwyd fel pe na buasai ond yn brin wedi ei adferu o'r nychdod diymadferth hwnw oedd yn effaith caethiwed maith, ac fel pe buasai ei delyn etto yn ymollwng, megys pan oedd yn grogedig ar yr helyg wrth afonydd Babilon. Ond y mae y sylwadau difrifol a wna rhai beirniaid ar ei arddull yn gwbl ddisail. Cynghorion plaen, a chalonogiad tyner, ac nid gwylltineb barddonol, oedd ar y genedl eisieu yn nyddiau Haggai; a dylid cofio hefyd fod y gogoniant wedi ymadael o'r iaith erbyn ei amser ef, gan fod ei phurdeb clasurol wedi ei lygru yn ddwfn yn ystod deng mlynedd a thrigain alltudiad y genedl.

Er fod arddull Haggai yn ddiaddurn, y mae weithiau yn defnyddio ymadroddion cyfochrog (*parallelism*); megys yn *pen.* i. 6, 9, 10; ii. 6, 8, 22. Y mae yn fynych yn dwyn i mewn y dull ymholiadol; megys yn *pen.* i. 4, 9; ii. 3, 12, 13, 19. Un o'i hoff ymadroddion ydyw "ystyriwch," neu "meddyliwch;" *pen.* i. 5, 7; ii. 15, 18. Y mae rhai beirniaid galluog yn ymwrthod â'r golygiad fod yr ymadrodd "dymuniant yr holl genhedloedd," yn cyfeirio at y Messiah: *pen.* ii. 7. Y mae y *Vulgate* yn cyfieithu, "*desideratus cunctis gentibus*" ("dymuniant yr holl genhedloedd);" ac o blegid hyn, dywedant fod y syniad wedi myned yn un cyffredin, ond mai prin y gwna y gwreiddiol oddef y cyfieithiad yna. Y mae y ferf yn y rhif liosog, ac nis gellir ei chyssylltu âg enw yn y rhif unigol, ond yn unig pan y mae yr enw hwnw yn un cynnulliadol (*noun of multitude*). Felly y mae y Deg a Thrigain yn darllen, "rhai dewisedig yr holl genhedloedd." Bydd pawb yn cael eu hysgwyd ac yn ofni; ond bydd y rhai detholedig, y rhai goreu, yn dyfod i dalu addoliad i Dduw. Felly Ewald: "Die liebsten aller Völker Kommen." Dr. Moore hefyd yr un modd: "A phrydferthwch yr holl genhedloedd a ddaw." Y mae yr awdwr a enwyd olaf yn gwneyd ymchwiliad manwl i'r ymadrodd, ac yn dwyn yn mlaen lawer o resymau cryfion yn erbyn yr esboniad cyffredin.

Gwneir cyfeiriadau at brophwydoliaeth Haggai yn yr Hen Destament a'r Newydd: *Ezra* v. 1; vi. 14; *Heb.* xii. 26; cym. *Hag.* ii. 7, 8, 22. Nid yw Haggai yn cael ei nodi wrth ei enw yn y rhan fwyaf o'r cofrestrau hynafol o lyfrau canonaidd yr Hen Destament; ond gan eu bod yn nodi deuddeg o'r prophwydi lleiaf, rhaid ei fod ef yn eu mysg, canys heb hyny ni buasai eu nifer yn gyflawn.

HAGGIAH, (חַגִּיָּה—*gwledd*): Lefiad, o lwyth Merari, a mab Simea: 1 *Cron.* vi. 30.

HAGGITH (חַגִּית—*dawnsiwr*): un o wragedd Dafydd. Cymmaint ag sy genym o'i hanes ydyw ei bod yn fam i Adoniah: 2 *Sam.* iii. 4; 1 *Bren.* i. 5—11; ii. 13; 1 *Cron.* iii. 2.

HAI; neu fel y gelwir hi mewn manau ereill, AI: dinas frenhinol yn Ngwlad Canaan, a fodolai mor foreu ag amser Abraham, a'r hon oedd yn gorwedd i'r dwyrain i Bethel, ac wrth Bethafen: *Gen.* xii. 8; xiii. 3; *Ios.* xii. 9; vii. 2; a viii. 9. Hon oedd yr ail ddinas a gymmerwyd gan Israel wedi croesi yr Iorddonen, ac a ddistrywiwyd y pryd hyny yn hollol: *Ios.* vii. 3—5; vii. 1—29; ix. 3; x. 1, 2; xii. 9. Modd bynag, os AI oedd Aiath—a chan fod yr olaf yn cael ei henwi mewn cyssylltiad â Megion, a Michmas, nid yw hyny yn annhebygol—yr oedd yr enw yn cael ei gyssylltu â'r llanerch lle y safai Hai, yn amser Sennacherib: *Esa.* x. 28. O'r hyn lleiaf yr ydym yn cael fod "gwŷr Bethel ac Ai," dau cant a thri ar hugain o honynt, yn dychwelyd o'r caethiwed gyda Zorobabel: *Ezra* ii. 28; *Neh.* vii. 32. A phan y mae y Beniaminiaid yn cymmeryd meddiant drachefn o'u dinasoedd, y mae "Michmas, Aia, a Bethel, a'u pentrefi," yn mhlith y lleoedd a enwir: *Neh.* xi. 31.

Ond nid oes un ymgais hyd yma wedi bod yn llwyddiannus i benderfynu y fan lle y safai Ai; y ddinas a gollfarnwyd i fod yn "garnedd dragwyddol." Tybia Krafft mai y lle a elwir *Kirbet-el-Haiyeh* yn bresennol ydoedd safle Ai; ac ereill

Digitized by Google

mai llygriad o Ai ydyw Avim: *Ios.* xviii. 23; a Gaza: 1 *Cron.* vii. 28; neu fel y gelwir hi yn awr—Azzah.

HAIARN (Saes. *iron;* Dan. *iern;* Ys. *hierro*). O bob mettel, haiarn ydyw y mwyaf cyffredin a helaeth, ac ar yr un pryd y mwyaf defnyddiol. Y mae i'w gael, nid yn unig yn y pridd, y creigiau, a'r mwnau, ond hefyd yn nghyfansoddiad yr anifail a'r llysieuyn, ac mewn dyfroedd mwnawl. Y mae ei ddefnyddioldeb yn anmhrisiadwy. "Y mae haiarn," medd Dr. Ure, "yn gwasanaethu ein holl angenion, ac hyd yn oed ein mympwyon; y mae yn llawn mor wasanaethgar i gelfyddyd, gwyddoriaeth, amaethyddiaeth, a rhyfel. Yr un defnydd sydd yn cynnyrchu y cleddyf, swch yr aradr, twythell (*spring*) yr oriawr a'r cerbyd, y cŷn, y gadwen, yr angor, y cwmpas, y magnel, a'r llosbelen; y mae yn gyffyr meddygol o gryn bwys, ac efe yw yr unig fettel na niweidia y cyfansoddiad dynol." A dywed Locke mai efe, yr hwn yn gyntaf a ddangosodd ddefnydd haiarn, mewn gwirionedd ydoedd "Tad Celfyddyd ac Awdwr Digonedd."

Pur anfynych, os byth, y mae i'w gael yn ei sefyllfa naturiol, neu fettelaidd; ond y mae ei fwnau yn dra lliosog a chyffredin. Fe ddywedir, pa fodd bynag, fod gwythen wedi ei chael yn Canaan, yn yr Unol Daleithiau, mewn math o hoegddelfaen (*chlorite schist*), yn ddwy fodfedd o drwch, ac yn llawn o haiarn naturiol. Y mae math o haiarn naturiol hefyd yn y Mynyddoedd Uralaidd, yr hwn sydd mewn cyssylltiad â phladin (*platinum*). Y mae y rhan fwyaf o haiarn i'w gael mewn cyssylltiad naill âg ufelai (*oxygen*), ufelai a sur carbonaidd (*carbonic acid*), neu ynte â *sulphur;* nid yw yr olaf, fodd bynag, yn cael ei weithio fel mŵn. Y prif fŵnau ydynt y rhai canlynol:—Yr egrid (*oxide*) coch, yr egrid du, neu y mŵn haiarn attynol (*magnetic*), ynghyd â'r ulyf haiarn, naill ai yn bur neu yn y ffurf o fŵn cleiog. Y mae y tri chyntaf i'w cael gan mwyaf o Sweden ac India, ac o honynt hwy y ceir yr haiarn goreu. Y mae y llall, o'r hwn y tynir y rhan fwyaf o'r haiarn Prydeinig, i'w gael yn welyau o gerygcleiog rhwng haenau o lo.

Rhai o brif ansoddau haiarn ydynt y rhai canlynol:—Y mae yn nodedig o estynadwy; gellir gwneyd o hono wyfr teneuach na gwallt dynol, ond nis gellir ei guro yn ddalenau teneuon iawn. Efe, o bob mettel, ydyw y gwydnaf; y mae gwyfr yn mesur .787 o linell (llinell=degfed ran o fodfedd), yn alluog i gynnal 550 o bwysau. Y mae yn bossibl ei wneyd yn bur loew; ond pan osodir ef yn agored i'r awyr neu y dwfr, y mae yn bwrw allan yr ulyf sydd ynddo, ac yn rhydu—neu yn iaith y fferyllydd, y mae yn troi yn egrid (*oxide*). Y mae yn ennynol, pan wedi ei dori yn ronynau mân; fel pan roddir lliflon (*filings*), yn fflam y lamp wirod (*spirit*), y mae yn cynneu yn y fan. Y mae ei dymmeredd cyffredin yn bur uchel, ond gellir cynnyddu ei galedrwydd drwy ei wresogi, ac yna ei oeri yn sydyn: y mae y pryd hyny, modd bynag, yn bur dueddol i dori. Y mae yn ofynol cael y gwres mwyaf dwys i'w doddi; ond wedi ei dwymno yn goch, y mae yn dyfod yn feddal ac ystwyth, ac mewn sefyllfa y gellir ei asio. Y mae ei gyfansoddiad yn llinynaidd, (*fibrous*). Attynir haiarn, neu yn hytrach ddur, gan y tynfaen (*magnet*), a gellir cyfleu yr elfen attyniadol iddo ef ei hun; yr hyn nas gellir ei wneyd âg unrhyw fettel arall ond *nickel.* Pan wresogir ef yn goch, y mae yr ansawdd hwn yn colli.

Y mae dau fath o haiarn, sef *haiarn bwrw* a *haiarn gŷr.* Y mae y cyntaf yn golygu yr haiarn yn ei ffurf fwyaf anorphenol, a'r llall y mettel wedi ei ryddhau oddi wrth bob ammhuredd a'i ddwyn i sefyllfa y gellir ei guro, a'i droi i wahanol ffurfiau. Cyn y bydd yr haiarn mewn sefyllfa ddefnyddiol, rhaid iddo fyned drwy amryw oruchwyliaethau.

I wneyd haiarn bwrw, rhaid yn gyntaf rhostio y mŵn mewn odyn neu ffwrnais, er mwyn tynu allan y dwfr, y *sulphur,* a'r arsenig, â'r rhai y mae yn gyssylltiedig, i raddau mwy neu lai, yn ei sefyllfa gyntefig. Wedi myned drwy yr oruchwyliaeth hon, y mae yn colli y chweched ran o'i bwysau. Y mae y mŵn rhostiedig, yn nesaf, yn cael ei doddi. Y mae hyn yn cael ei wneyd mewn ffwrnes wynt (*blast furnace*), yr hon a lenwir oddi uchod â symiau pennodol o fŵn, glo, neu *coke,* gyda cheryg calch. Diben yr olaf ydyw gwasanaethu fel cludydd i'r haiarn, a phrysuro ei doddiant. Er mwyn cynnyrchu y gwres sydd yn angenrheidiol i doddi y mŵn, y mae gwynt yn cael ei gyfleu trwy bibellau i'r ffwrnes, yr hwn a gynnyrchir yn gyffredin yn awr gan ager-beiriannau. O bryd i bryd, gollyngir yr haiarn o'r ffwrnes, ac arweinir ef ar hyd gwterau i foldiau a wneir yn y tywod, ar lawr y tŷ toddi; ac felly y ffurfir llawer o'r offerynau a wneir o haiarn bwrw—y *beams* anferth, olwynion a *cylinders* yr agerbeiriannau, hyd i'r defnyddiau lleiaf mewn arferiad teuluaidd. Yn y rhan fwyaf o amgylchiadau, y mae yr haiarn yn cael ei doddi eilwaith, yn y ffurf o hychod (*pig*), cyn ei wneyd yn offerynau. Rhoddwyd yr enw *pig* arno gan y gweithwyr, o blegid hyn:—y mae yr haiarn yn cael ei arwain i ddechreu i ffos lydan a elwir yr *hwch;* oddi wrth y ffos hon y mae amryw fân ffosydd yn rhedeg, y rhai a elwir y *pigs* (moch), y rhai sydd yn debyg i gynnifer o berchyll yn sugno tethau yr hwch. Allan o haiarn bwrw y gwneir *haiarn gŷr.* Y peth cyntaf a wneir i'r dyben o'i ddwyn i'r ffurf hon ydyw ei osod yn y ffwrnes bwdlo (*puddling furnace*), i'w buro. Yno y mae yn dyfod i gyffyrddiad â gwres cryf, a ffrwd o awyr yn chwareu ar ei wyneb. Y mae yr ammhuredd yn ymgodi yn gen ar y wyneb, a'r defnydd carbonaidd sydd ynddo yn cael ei losgi; a pho puraf y byddo yr haiarn oddi wrth y defnyddiau hyn, goreu oll ydyw. Fel y mae purdeb yr haiarn yn cynnyddu, y mae ei duedd toddiadol yn lleihau; nes, o'r diwedd, er fod y gwres yn parhau, y mae yn dyfod yn galed. Yn y cyflwr hwn y mae yn cael ei guro o dan "forthwyl mawr" y *forge,* neu fe'i tynir drwy y *rolls;* ac mewn canlyniad y mae ei ansoddau yn cael eu cydwasgu, a'i wydnedd yn cael ei gynnyddu i raddau helaeth. Wedi myned drwy yr amrywiol oruchwyliaethau hyn, y mae haiarn wedi ei gyfnewid o fod yn ddefnydd caled, brau, a thoddadwy, yn fâr gwydn, plygadwy, a chyfleus i'w forthwylio. O haiarn gyr y gwneir *dur;* sef, trwy ei ddwyn i gyffyrddiad â gwres cryf lle y mae math o ddefnydd carbonaidd yn treiddio i'w gyfansoddiad. Wedi ei dwymno yn goch, trochir ef mewn dwfr; ac felly y mae yn dyfod yn fwy caled a brau: ond wedi ei ail dwymno, bydd yn fwy gwydn na haiarn.

Y mae y Groegiaid yn priodoli darganfyddiad y mettel hwn iddynt eu hunain; ond dywed y Beibl fod Tubal Cain yn "weithydd pob cywreinwaith pres a haiarn"—3875 c.c. Gwrthddadleuir yn erbyn hyn, o blegid nad oes dim o hono i'w gael yn hen adfeilion yr Aipht, ac hefyd fod

Digitized by Google

credu hyn yn golygu fod gwybodaeth gelfyddydol wedi cyrhaedd i fwy o addfedrwydd nag yr oedd. Y mae yn ofynol, meddir, cael gwres yn cyrhaedd 3,000 o raddau Fahrenheit i'w doddi; a chyn y gellir cynnyrchu y gwres hwn, rhaid cael peiriannau, &c., nas gellir dywedyd y gwyddai Tubal Cain am danynt. Gellir yn hawdd rhoddi cyfrif am absennoldeb haiarn o'r adfeilion Aiphtaidd: y mae y mettel hwn yn fuan yn dadansoddi, yn enwedig pan wedi ei gladdu mewn pridd oedd mor lawn o nitr ag eiddo yr Aipht. Gyda golwg ar yr wrthddadl arall, os oedd y Rhufeiniaid gynt (fel y dywed hanesiaeth eu bod) yn gallu toddi eu haiarn drwy adeiladu eu ffwrneisiau ar leoedd uchel lle y deuent i gyffyrddiad â'r gwynt, nid ydyw yn ammhossibl nad oedd haiarn yn cael ei ddefnyddio hyd yn oed yn amser Tubal Cain.

Gellid meddwl fod tiroedd Canaan yn gyfoethog o haiarn, o blegid fe ddywedir fod "ei cheryg yn haiarn;" *Deut.* viii. 9. Yr oedd gan Og, brenin Basan, wely o haiarn: *Deut.* iii. 11. Wrth yr haiarn yna y mae Winer yn golygu y *basalt* sydd yn yr Hauran, a'r hwn sydd yn cynnwys llawer o haiarn. Y mae amryw frawddegau yn Iob sydd yn rhoddi ar ddeall fod haiarn yn bur adnabyddus. Nid yw *Iob* xix. 24 yn ein rhwymo i olygu fod haiarn yn cael ei arfer fel offeryn i ysgrifenu, er y gall hyny fod, mwy na bod adamant yn cael ei ddefnyddio felly (*Ier.* xvii. 1), neu fod esgidiau yn cael eu gwadnu â haiarn a phres: *Deut.* xxxiii. 25. Y mae haiarn yn cael ei ddefnyddio mor fynych mewn ymadroddion barddonol, fel y mae yn anhawdd gwahaniaethu rhwng yr ystyr llythyrenol a'r ystyr cyffelybiaethol. Mewn brawddegau fel y rhai canlynol—yn y rhai y mae "*iau* o haiarn" (*Deut.* xxviii. 48), yn golygu llafur caled; "*gwialen* haiarn (*Salm* ii. 9), lywodraeth ormesol; "*colofn* haiarn" (*Ier.* i. 18), cynnaliaeth gref; ac "*offer dyrnu* o haiarn" (*Amos* i. 3), offerynau gormes a chreulondeb—y mae mor amlwg mai caledrwydd a thrymder yr haiarn ydyw y prif ddrychfeddyliau, fel nad ydym yn rhwym o olygu fod defnyddiad haiarn yn y modd yna o angenrheidrwydd yn cael ei ddysgu ynddynt. Y mae "*ffwrn* o haiarn" (1 *Bren.* viii. 5) yn amlwg, yn golygu caethiwed caled; a gwyddys fod llafur caled ynglŷn â thoddiad haiarn. Arferid haiarn fel cynion (*Deut.* xxvii. 5), ac arfau tebyg; fel bwyeill (*Deut.* xix. 5; 2 *Bren.* vi. 5, 6; *Esa.* x. 34); ogau a llifiau (2 *Sam.* xii. 31; 1 *Cron.* xx. 3); yn hoelion (1 *Cron.* xxii. 3); a chyssylltiadau i byrth y deml; yn arfau rhyfel (1 *Sam.* xvii. 7; *Iob* xx. 24); a cherbydau rhyfel (*Ios.* xvii. 16, 18; *Bren.* i. 19; iv. 3—13). Gorchuddid y rhai olaf âg ef. Cyfeirir at ei arferiad fel arfogaeth amddiffynol (2 *Sam.* xxiii. 7: cym. *Dad.* ix. 9); fel pyrth carcharau (*Act.* xii. 10); fel barau y pyrth a'r drysau (*Salm* cvii. 16; *Esa.* xlv. 2); yn gystal ag i ddybenion meddygol: 1 *Tim.* iv. 2. Yr oedd cyflawnder o haiarn yn amser Dafydd: 1 *Cron.* xxii. 3. Yn ol Josephus, arferid ef gan Solomon i gyssylltu y creigiau mawrion â pha rai yr adeiladodd fryn y deml; a chan weithwyr Hezeciah i naddu allan ddyfrffosydd Gihon: *Eccles* xlviii. 17. Yr oedd offerynau amaethyddol yn cael eu gwneyd yn foreu o'r un defnydd. Yr oedd marchnad Tyrus yn cael ei chyflenwi â haiarn, wedi ei weithio gan farchnadwyr Dan ac Iafan: *Ezec.* xxvii. 19. Y mae ammheuaeth pa un a oedd yr hynafiaid yn gydnabyddus â haiarn bwrw.

Yn *Eccles.* xxxviii. 28, yr ydym yn cael darluniad o efail gôf (*Esa.* xliv. 12). Y mae y gof yn sychedig gan y mŵg a'r gwres, yn eistedd yn ymyl ei eingion, ac yn myfyrio ar yr haiarn anweithiedig, ei glustiau yn cael eu byddaru gan ddyrnodiau y morthwyl trwm, ei lygaid wedi eu sefydlu ar ei gynllun (*model*), ac nid ydyw un amser yn cysgu nes cyflawni ei orchwyl.

**HAIDD.** Y mae y grawn hwn mor adnabyddus, fel na raid rhoddi darluniad manwl o hono. Y cyfeiriad ysgrythyrol cyntaf ato ydyw *Exod.* ix. 39; lle y dywedir ei fod yn gynnarach na'r gwenith. Fe'i heuid yn Hydref, neu ddechreu Tachwedd; addfedai yn Mawrth, a thorid ef yn gyffredin yn Ebrill. Cyfrifid ef yn un o gynnyrchion pwysicaf Gwlad yr Addewid: *Deut.* viii. 8. Darllenwn am flawd haidd yn *Num.* v. 15; am fara haidd yn *Barn.* vii. 13; ac yn *Ezec.* iv. 12, am deisen haidd. Mesurid ef gyda'r ephah a'r homer. Defnyddid ef yn ymborth i feirch (1 *Bren.* iv. 28); ac y mae amryw ranau o'r Beibl sydd yn awgrymu ei fod yn mhlith yr Iuddewon, fel ninnau, yn llai gwerthfawr na'r gwenith. Yr oedd yr "offrwm eiddigedd" i fod yn gynnwysedig o flawd haidd (*Num.* v. 15), er mai peilliaid oedd y bwyd-offrwm cyffredin: *Lef.* ii. 1. Yr oedd yr haidd yn yr amgylchiad yma yn cael ei ddefnyddio i arddangos iselder a diystyrwch sefyllfa y person yr offrymid ef drosto.

Mae y cnwd haidd yn Mhrydain Fawr yn cael ei ystyried y mwyaf pwysig a defnyddiol, yn nesaf at y gwenith, mewn ystyr amaethyddol a chymdeithasol. Defnyddir haidd i wneyd bara mewn rhanau o Iseldiroedd yr Alban, a rhai parthau o Gymru. Hefyd, y mae swm mawr yn cael ei ddefnyddio yn yr Alban i wneyd "cawl haidd," ac y mae pob dosbarth o'r bobl yn dra hoff o hono. Fodd bynag, y mae y rhan fwyaf o'r haidd a dyfir yn y Deyrnas Gyfunol yn bresennol yn cael ei ddefnyddio i wneyd brag a gwirodydd, ac i besgi anifeiliaid; ac nid oes un ammheuaeth na byddai yn llawer gwell i gymdeithas yn gyffredinol pe defnyddid mwy o hono i besgi anifeiliaid, a llai i wneyd cwrw a gwirodydd. Y mae llawer o amaethwyr yn tybied fod brag yn wasanaethgar iddynt, a hyny am fod yn hawdd iddynt werthu eu haidd i'r bragwr bron bob amser: ond y mae hyn yn groes iawn i syniadau ereill. Y mae cyfrifiad manwl yn profi nad oes dim mwy na cheiniog o bob swllt a werir am ddiod yn myned i dalu am yr haidd o'r hwn y gwneir hi. O'r tu arall, pe gwerid arian am gig neu fara, byddai yr oll o honynt yn myned i dalu am ddefnydd ymborth sylweddol a llesol, oddi eithr ychydig o fael i'r gwerthwr. Y mae y neb sydd yn gwario ei gyflog am ddiodydd yn gwneyd ei hun yn fwy analluog, yn mhob ystyr, i brynu bwyd a dillad; a gellir dangos i foddlonrwydd, heb gymmeryd i ystyriaeth y berthynas sydd rhwng y pwngc hwn a sefyllfa foesol a chymdeithasol dynolryw, mai dyma y ffordd fwyaf diennill i'r amaethwr o bob ffordd y gellir defnyddio'r haidd, neu unrhyw rawn arall a dyfir ganddo. Pe y defnyddid y 50,000,000*p.* a werir am ddiodydd yn Mhrydain i gynnorthwyo yr anghenus, y mae yn ddiammheu y byddai y trethi yn ysgafnach, ac y byddai mwy o ofyn am ddefnydd ymborth; a byddai hyny yn ddigon o ad-daliad i'r amaethwr, pe na byddai iddo werthu dyrnaid byth o haidd i'w fragu. Y mae amryw fathau o haidd yn cael eu tyfu, ac adnabyddir rhai mathau wrth wahanol enwau mewn rhai ardaloedd.

Digitized by Google

Ystyrir y mathau canlynol fel y rhai goreu yn Berwickshire, a'r gwledydd cymmydogaethol, sef y *chevalier*, yr *annat*, a'r haidd cyffredin cynnar, twysenau yr hwn sydd yn dra hirion. Y *chevalier* sydd yn cynnyrchu y grawn goreu. Y mae yn pwyso yn gyffredin o ddeutu un pwys ar bymtheg ar hugain y pwysel; a gwerthfawrogir ef yn fawr gan y bragwyr. Y mae ei wellt yn hir a chryf, ac nid ydyw mor dueddol i orwedd a'r haidd cyffredin; a phan ddigwyddo hyn, nid yw braidd un amser yn egino. Y mae yn hwy yn addfedu o tua phedwar diwrnod ar ddeg na'r haidd cynnar cyffredin. Ond gellir ei hau yn gynnarach; gan hyny, nid yw yr hyn a grybwyllwyd o un rhwystr ymarferol. Y mae yr *annat*, ar y cyfan, yn debyg i'r *chevalier*, ond ei fod yn felynach, ac nid yw ei ronynau mor grynion. Y mae yn addfedu yn gynt, a bernir yn gyffredin ei fod yn fwy cynnyrchiol. Mae yr haidd cynnar cyffredin yn fwy tueddol i gynnyrchu cnwd rhy drwm na'r mathau a grybwyllwyd diweddaf. Yn y cyffredin, hauir ef yn lled ddiweddar mewn tir lle y bydd y maip heb eu codi hyd y gwanwyn.

Mewn rhanau uchel a gogleddol o'r deyrnas, heuir haidd dwbl, neu haidd yn cynnwys pedair rhes yn mhob twysen, am ei fod yn galetach, ac am ei fod yn addfedu yn gynt na haidd gyda thwysen ddwy-res. Mae math newydd o haidd, a elwir *Victoria Bere*, yr hwn sydd yn dra chynnyrchiol; yn gymmaint felly fel y byddai iddo dalu yn dda hyd yn oed mewn tiroedd isel.

Mae haidd yn hoffi tir cynnes a brac, ac yn ffynu yn well pan yr hauir ef yn lled ddyfn. Gan mai haidd yw y cnwd goreu ar ol maip, dylid cymmeryd mantais ar hin ffafriol i droi y tir yn ol fel y byddo y maip yn cael eu codi, neu y defaid yn cael eu symmud o un cwr i'r maes i gwr arall. Bydd i'r rhanau a droir o ddeutu dechreu Chwefror ddyfod yn hollol frac o dan effaith yr hin, a thrwy hyny bydd yn hawdd eu gwneyd yn addas i dderbyn yr hâd. Yn yr Alban, y maent yn arfer hau â llaw yn gyffredin, a gorchuddir yr hâd trwy lyfnu y tir, fel yr arferir mewn amryw fanau yn Nghymru. Ffordd rhai ydyw gwastatau y tir yn gyntaf trwy ei lyfnu, ac yna ei godi yn rhibynau, deuddeng modfedd rhwng y naill ribyn a'r llall—gydag offeryn priodol. Yna hauir yr hâd â llaw, a chleddir yr had drwy lyfnu y tir ar ei draws. Mae codi y tir yn rhibynau yn ei lacau, ac y mae yr hâd yn cael ei gladdu yn rhesi, a hyny gyda thrwch digonol a chyfartal o bridd. Mae rhibynu yn well na rhillio, o herwydd fod y tir yn cael ei gynnhyrfu yn well, a'r hâd yn cael ei gladdu yn ddyfnach ac yn fwy rheolaidd nag y gwneir gyda rhillyr cyffredin. Y mae yn wir yr ennillir cryn lawer o dir drwy hau yr hâd mewn rhesi culion; ond nid oes un ammheuaeth na cheir cryfach gwellt, twysenau llawnach, a chynnyrch mwy toreithiog drwy hau yr hâd yn lled deneu mewn rhych bâs, o dair i bedair modfedd o led, yn hytrach na hau yn rhy dew mewn rhes gul. Hauir haidd yn bresennol yn llawer cynnarach nag yr arferid ei hau ychydig flynyddoedd yn ol. Pan fyddo y tir wedi ei wrteithio yn dda, a'i dymmheredd wedi ei godi trwy ei ddrainio yn briodol, dylid hau y cylle cyntaf yn Mawrth; a ffyna haidd yn rhagorol mewn manau trwy ei hau yn Chwefror. Mae hau yn gynnar yn gwrthweithio y duedd sydd mewn haidd i fod yn rhy dew, trwy yr hyn y difethir y cnwd yn fynych mewn tir maethlawn a chryf. Mae yr achos fod haidd yn pwyso mwy yn gyffredin yn bresennol na thuag ugain mlynedd yn ol i'w briodoli i hau cynnar. Mae canolbwys y pwysel yn awr o ddeutu 53 pwys i 54 pwys, lle y mae tiroedd da; ac nid anfynych y ceir o 57 i 58 pwys. Mae cynnyrch erw yn cyrhaedd o 36 i 60 pwysel; ac y mae y canolrif o ddeutu 44 pwysel. Pan heuir â llaw, defnyddir o dri a hanner i bedwar pwysel yr erw, a llai o tua'r drydedd ran o bwysel pan heuir â'r rhillyr. Dylid gofalu, hyd y bydd yn bossibl, am hau y swm a fwriedir ei hau tua'r un adeg; os amgen, nis gellir disgwyl i'r meusydd gydaddfedu. Mae yn wir fod ansawdd y tir mewn manau yn anfanteisiol i hau y cwbl tua'r un adeg; ond er hyny, dylid gwneyd pob ymdrech i ddilyn y rheol uchod.

**HAIG, HEIGIAU—O** [*hy-aig*]: aig, haid, lliaws, lliosogi. Haig o bysgod (*shoal of fishes*): *Gen.* i. 20, 21; xlviii. 16; *Exod.* viii. 3; *Salm* cv. 30.

**HAINT.** Gwel Pla.

**HALAH:** enw afon yn Media, neu Colchis.
2. Dinas, neu wlad yn Media, i'r hwn yr alltudiwyd y deg llwyth gan frenhinoedd Assyria. Y mae ei sefyllfa yn anhysbys. Y mae yn cael ei henwi gyda Habor (2 *Bren.* xvii. 6); yr hyn sydd yn dangos ei bod ar fin yr afon Gozan. Tybia Hyde mai y lle a elwir Holwan yn awr ydyw; a dywed Bochart mai Halah ydyw prif ddinas y Calachene, ond fod y lythyren gyntaf yn y gair wedi ei chyfnewid.

**HALELIUIA.** Gwel Aleliwia.

**HALEN** [*hâl;* Saes., *salt;* Ll., *sal;* Ar., *holen*]: defnydd pur adnabyddus, ac o'r pwys mwyaf. Y mae dwfr y môr, yn mhob man, i raddau mwy neu lai, yn ei gynnwys. Yn Mhrydain, a lleoedd ereill, megys Ffrainc, Hungary, Poland, Yspaen, &c., y mae yn ffurfio creigiau anferth yn y ddaear. Cynnyrchir llawer o hono hefyd gan ffynnonau halen; ac y mae y pridd ei hun mewn rhan fawr o ddiffeith-diroedd Affrica ac Asia yn ei gynnwys. Y mae amrywiol ffyrdd trwy ba rai y tynir halen o'r môr. Mewn gwledydd lle y mae yr haf yn hir a phoeth, a'r tir heb fod yn lleidiog nac yn dyllog, fe wneir llynau o ddwfr y môr ar y lan. Yn ystod yr haf y mae y gwres yn peri i'r gwlybyroedd esgyn yn darth, gan adael yr halen ar y gwaelod. Fel hyn y parotoir ef yn Yspaen, Portugal, Ffraingc, ynghyd â llawer o fanau ar lan Môr y Canoldir; yn India hefyd, Ceylon, Siam, Tonquin, a China. Mewn gwledydd ereill, yn meddu tir a thymmeredd cyffelyb, y mae dwfr o'r môr yn amser gor-lanw yn ymdaflu dros y glanau, ac yn ffurfio llynau; ac fel yn yr amgylchiad a nodwyd, y mae y dwfr yn diflanu yn darth ac yn gwaelodi yr halen. Y mae hwn, mewn ystyr fferyllol, yn burach na'r cyntaf, ac i'w gael yn symiau mawrion o Cape de Verde, Ynys Turk, St. Martin yn India y Gorllewin, ac o Ynys Kangaroo, ar du deheuol Awstralia. Yn y lleoedd hyn, cesglir ef yn bentyrau o'r llynau; ac y mae ar unwaith yn barod i'w allforio. Adwaenir y ddau fath hyn o halen wrth yr enw *bay-salt*. Y mae halen yn cael ei dynu o ddwfr y môr hefyd gyda gwres celfyddydol, mewn gweithiau wedi eu hadeiladu i'r pwrpas; ond y mae y gost o'i wneyd yn fawr, ac y mae yr halen, mewn ystyr fferyllol yn amhur. Ychydig, mewn cymmariaeth, a wneir yn y modd hwn.

Digitized by Google

Mewn ystyr masnachol, y mae halen y ffynnonau a'r creigiau yn llawer pwysicach na halen y môr. Yn Mhrydain yn unig y mae y rhai hyn yn cynnyrchu digon o halen i gyflenwi yr holl fyd am gyfnod arbenig. Gorweddant yn benaf yn Northwich, a lleoedd ereill yn agos i'r afon Weaver, yn sir Gaer; ac yn Droitwich, yn sir Worcester. Y mae y ffynnonau yn y lleoedd hyn yn cael eu gweithio er ys cyfnod pur foreu; ond yn ddiweddar, mewn cymmhariaeth, y darganfyddwyd y cloddfeydd, sef yn 1625. Heb law y swm dirfawr o halen a ddefnyddir yn Mhrydain, y mae mwy na 12,000,000 o fwyselau (*bushels*)—gwerth dros 200,000 o bunnau—yn cael ei anfon o'r lleoedd hyn i wledydd tramor. O fewn o ddeutu 15 milltir i Cracow, yn Poland, y mae cloddfeydd hynod Wieliezka. Fe ddechreuwyd gweithio y rhai hyn o gylch 600 mlynedd yn ol, a dywedir nad oes un arwydd eu bod yn agos cael eu dyhysbyddu etto. Mae eu dyfnder a'u heangder yn fawr iawn, a ffurfiant fath o wladwriaeth ynddynt eu hunain. Y mae cannoedd wedi eu geni, a threulio eu hoes ynddynt, heb unwaith weled "goleuni dydd." Y mae eu tai, eu dodrefn, a'u haddoldy, wedi eu ffurfio o halen, ac y maent yn byw yn ol eu llywodraeth a'u deddfau eu hunain.

Y mae cloddfeydd tra hynod hefyd yn Salzbourg, yn Awstria Uchaf. Yn y rhai hyn, y mae ystafelloedd yn cael eu ffurfio yn y graig, yr hyn a ddygir oddi amgylch fel y canlyn:—Dygir dwfr ffres ar hyd sianelau o ryw ddefnyddiau neu gilydd i dyllau bychain ysgwâr a dorir yn y graig; y mae y dwfr yn toddi yr halen o'r ochrau, y llawr, a'r rhan uchaf o'r twll, hyd nes bydd y lle wedi ei eangu i raddau diogel, heb beryglu disgyniad y rhan uchaf, neu y nen, o herwydd pwysau y mynyddoedd uwch ben. Y mae rhai o'r ystafelloedd hyn yn cael eu ffurfio y naill uwch ben y llall, gan adael digon o drwch o graig rhyngddynt i gynnal pwysau y dwfr pan ollyngir ef i'r ystafell uchaf. Mewn amgylchiadau o'r fath, gorchuddir llawr yr ystafell uchaf â chlai, er mwyn attal y dwfr rhag effeithio arno. Pan y mae y dwfr yn dyfod yn llawn o halen, gollyngir ef allan, a chludir ef o'r cloddfeydd mewn cafnau o goed, ac yna tynir yr halen o hono drwy ei darthu a'i ferwi.

O halen y tynir *soda*, sur halig (*muriatic acid*), a halnwy (*chlorine*). Defnyddir halen fel gwrtaeth; ond ei brif ddiben ydyw diogelu ymborth rhag pydru, a rhoddi blas arno.

Er mor gyffredinol ydyw defnyddiad halen yn ein plith ni, yr oedd yn fwy felly yn mysg yr Iuddewon. Defnyddient hwy ef, nid yn unig i ddiogelu a blasu ymborth (*Iob* vi. 6; *Esa.* xxx. 24, ymyl y ddalen), ond yr oedd llawer o hono yn cael ei ddefnyddio yn nglŷn â'u haberthau: *Lef.* ii. 13. Yr oeddynt yn meddu cyflenwad dihysbydd o hono ar lanau deheuol y Môr Marw. Yma, y mae yn bossibl, yr oedd Dyffryn yr Halen (2 *Sam.* viii. 13); sef, ar fin y mynydd o greig-halen y sonia Robinson am dano [*Researches*, ii. 104]; yr hwn, medd efe, sydd yn bum milldir o hyd, a'r hwn yw prif gynnyrchydd yr halen yn y môr ei hun. Yma yr oedd y "pyllau halen" (*Seph.* ii. 9), y rhai a ffurfid, y mae yn debyg, yn y morfeydd ar du deheuol y môr, ac yn y rhai y byddai dwfr y môr yn gwaelodi yr halen pan yn llifo yn flynyddol dros ei lanau. Y mae y morfeydd yn orchuddiedig yn mron â halen. Yma hefyd yr oedd y gwahanol golofnau y dywedid o bryd i bryd mai gwraig Lot oeddynt. Gwel Colofn. Yr oedd y pyllau halen yn dwyn cryn lawer o elw i'r llywodraeth [*Hyn. Ios.*, xiii. 4, adr. 9]; a gwnaeth Antiochus ffafr fawr â Ierusalem pan anrhegodd hi â 375 bwysel o halen, at wasanaeth y deml [*Hyn. Jos.*, xii. 3, adr. 3]. Yr oedd y math gwaelaf o halen yn cael ei ddefnyddio yn wrtaeth: *Mat.* v. 13; *Luc* xiv. 35. Yr oedd gormod o hono, modd bynag, yn cynnyrchu diffrwythder (*Deut.* xxix. 23; *Seph.* ii. 9; *Iob* xxxix. 6, ymyl y ddalen; *Ier.* xvii. 61), fel ar lanau y Môr Marw; ac felly, yr oedd halen yn cael ei daenu ar sylfeini dinasoedd gorchfygedig yn arwydd o adfeiliant bythol: *Barn.* ix. 45. Credai yr Iuddewon fod halen yn colli ei rinwedd wrth ddyfod i gyffyrddiad â'r awyr (*Mat.* v. 13); ac yn myned yn ddihallt: *Marc* ix. 50. Yn ol Pliny, yr oedd yr un syniad yn bodoli ymhlith y Groegiaid; a dywed Maundrell [*Early Travels*] iddo ef gael gwyneb craig halen yn hollol ddiflas. Fel un o brif angenrheidiau ymborth, yr oedd halen yn arwyddo haelfrydedd a llettygarwch: fel cyffaethydd, arwyddai barhâd, ffyddlondeb, a phurdeb. Felly, arwyddai yr ymadrodd "cyfammod halen" (*Num.* xviii. 19; 2 *Cron.* xiii. 5), ffyddlondeb parhaus rhwng cyfeillion. Nid yw yr ymadrodd "halltu â halen llys y brenin" (*Ezra* iv. 14, ymyl y ddalen) o angenrheidrwydd yn arwyddo "cynnaliaeth o lys y brenin," ond yn hytrach rhwymau cyssegredig o ffyddlondeb i'w brenin. Felly, yn ein dyddiau ni, ystyria yr Arabiad yr hwn a fwyty halen gydag ef yn gyfaill iddo: ar y llaw arall, y term Persiaidd am fradwr ydyw *nemekharum*, "anffyddlawn i halen." Y mae yn debyg mai amcan defnyddiad halen gyda'r aberthau oedd cadw y drychfeddwl o ffyddlondeb i Dduw (*Lef.* ii. 13) yn barhaus o flaen meddyliau yr Iuddewon; ac hefyd, yn ddiweddarach, i sicrhau purdeb yr aberth: *Ezec.* xliii. 24. Tuedd buredigaethol halen a arweiniodd i'w ddefnyddiad fel arwydd allanol yn ngwyrth Elias: 2 *Bren.* ii. 20, 31. Cyfeirir at y rhinwedd hwn hefyd yn *Mat.* v. 13; *Col.* iv. 6. Oddi wrth hyn hefyd y deilliodd yr arferiad o rwbio babanod newydd eni â halen: *Ezec.* xvi. 4.

HELBUL—ON—US [*hel—pul*]: tristwch, profedigaeth, gofal; trafferthus: *Iob* xiv. 1; *Esa.* liv. 11.

HALEN DYFFRYN YR. Gwel Dyffryn.

HALEN, DINAS YR: y bummed o chwech dinasoedd Iudah a orweddent yn yr anialwch: *Ios.* xv. 62. Y mae y ffaith ei bod yn agos i Engedi, ynghŷd â'r enw ei hun, fel yn arwyddo ei bod yn sefyll yn nghymmydogaeth y Môr Halen; neu, fel y gelwir ef yn gyffredin, y Môr Marw. Tybia Robinson [*Researches*, ii. 109], ei bod yn gorwedd yn rhywle yn agos i'r gwastadedd, ar du deheuol y môr hwnw, sef yn Nyffryn yr Halen. Ond nid oes unrhyw weddillion, nac enw ar ddinas na llanerch sydd mewn bod yn awr, wedi galluogi neb i brofi i foddlonrwydd sefyllfa Dinas yr Halen.

HALSHES [*swynwr*]: tad Salum, "tywysog hanner rhan Ierusalem," yn amser adgyweiriad y mur gan Nehemiah: *pen.* iii. 12.

2. Un o "benaethiaid y bobl," y rhai a seliasant y cyfammod gyda Nehemiah: *pen.* x. 24.

HAM. Gwel Cam.

HAMAN [*cythrwfl*]: prif weinidog y brenin

Digitized by Google

Ahasferus: *Esth.* iii. 1. Ar ol aflwyddo yn ei ymgais i ddyfetha yr Iuddewon yn ymherodraeth Persia, crogwyd ef ar y crogbren a barotoisai i Mordecai. Y mae y *Targum* a Josephus yn esbonio y disgrifiad o hono ("yr Agagiad") fel yn golygu ei fod o darddiad Amalecaidd; ond gelwir ef gan y Deg a Thrigain yn Facedoniad (yn *Esth.* ix. 24: cym. iii. 1); a Phersiad, gan Sulpicius Severus. Y mae Prideaux [*Connexion, anno* 453], yn cyfrif fod yr arian y cynnygiai eu talu i'r drysorfa freninol (*Esth.* iii. 9) yn fwy na 2,000,000*p.* o'n harian ni. Dywedir fod rhai o'r Iuddewon diweddar yn galw pob gelyn Cristionogol wrth yr enw Haman.

HAMAH: ymwelodd Burkchardt â Hamah yn 1812. Y mae efe yn ei disgrifio fel yn sefyll ar ddau du yr Orontes; mewn rhan ar lechwedd bryn, ac mewn rhan ar y gwastadedd. Yr oedd y boblogaeth y pryd hyny yn 30,000.

HAMATH [חמת=*digofaint*], fe ymddengys, oedd prif ddinas Syria Uchaf, o amser y mynediad o'r Aipht hyd ddyddiau y prophwyd Amos. Safai yn nyffryn Orontes, a gellid gweled yr holl ddyffryn o honi, o'r bryniau isel rhwng yr Orontes a'r Litâny—"y mynediad i Hamath," fel y gelwir ef (*Num.* xxxiv. 8; *Ios.* xiii. 5)—hyd gulffordd Daphne, is law Antioch. Y llanerch hwn, fel yr ymddengys, oedd brenhiniaeth Hamath yn ystod ei hannibyniaeth.

Yr oedd yr Hamathiaid ymhlith y rhai a ddisgynasant o Canaan, mab Ham: *Gen.* x. 18. Ni ddywedir dim yn mherthynas i allu neu ddylanwad Hamath; ond y mae y cyfeiriadau daiaryddol mynych a wneir yn dangos ei fod yn lle pur adnabyddus (*Num.* xiii. 21; xxxiv. 8; *Ios.* xiii. 5; *Barn.* xviii. 28, &c.) hyd amser Dafydd; pryd yr hysbysir ni fod Toi, brenin Hamath, wedi cael rhyfela yn ei erbyn gan Hadadezer, brenin Sobah; ac ar orchfygiad yr olaf gan Dafydd, anfonodd ei fab Ioram i gyfarch brenin Israel (2 *Sam.* viii. 10); ac fel y gellid casglu oddi wrth y geiriau "ymofyn am heddwch," ar ymyl y ddalen, i osod Hamath o dan ei nawdd. Ymddengys fod Hamath yn gynnwysedig yn mreniniaeth Solomon (1 *Bren.* iv. 21—24): yr oedd ei brenin yn mhlith y lliaws tywysogion ar y rhai y llywodraethai y teyrn hwnw; y rhai oeddynt yn "dwyn anrhegion ac yn gwasanaethu Solomon holl ddyddiau ei einioes ef." Yn 2 *Cron.* viii. 4, cawn fod gan Solomon "ddinasoedd trysorau" yn Hamath:—marchnadfeydd i fasnach, mae'n debyg; o blegid yr oedd dyffryn Orontes bob amser yn bwysig fel llinell drafnidiol. Ar farwolaeth Solomon, ymddengys fod Hamath wedi adennill ei hannibyniaeth. Yn yr argraphiadau Assyriaidd o amser Ahab (c. c. 900), ymddengys fel gallu annibynol, mewn cyssylltiad â Syriaid Damascus, yr Hethiaid, a'r Phœniciaid. O ddeutu pymtheng mlynedd a thrigain yn ddiweddarach, y mae Ieroboam yr ail yn "dwyn adref" Hamath: 2 *Bren.* xiv. 28. Ymddengys ei fod wedi dinystrio y lle i raddau, o blegid y mae Amos y prophwyd, yr hwn a ysgrifenai yn ei deyrnasiad ef (*Amos.* i. 1), yn cyssylltu "Hamath fwyaf" â Gaza, fel enghreifftiau o ddifrodiad: *Amos* vi. 2. Yn fuan wedi hyny, y mae yr Assyriaid yn cymmeryd y lle (2 *Bren.* xviii. 34; xix. 13); ac o'r amser hwnw nid oes ond ychydig o bwysigrwydd yn perthyn iddo. Ymddengys fod Antiochus Epiphanes wedi newid yr enw yn Epiphaneia—enw wrth ba un yr adwaenid hi gan y Groegiaid a'r Rhufeiniaid yn amser Jerome [*Commentary on Ezekiel*], ac hwyrach yn ddiweddarach. Galwai y trigolion hi, modd bynag, Hamath; ac nid oes ond ychydig o wahaniaeth yn yr enw presennol.

HAMMADETHA: tad yr anfadyn Haman, yr hwn a elwir yn gyffredin yn y Beibl, yr "Agagiad:" *Esth.* iii. 1—10; viii. 5; ix. 24.

HAMMON [חמון=*digofaint*]: dinas oedd yn rhandir Aser (*Ios.* xix. 28): heb fod yn mhell oddi wrth Sidon-rabbah, neu "Sidon Fawr." Tybia Dr. Schultz mai yr un ydyw a'r Hamul bresennol, yr hon sydd o fewn o ddeutu deng milldir i Tyrus.—*Robinson's Researches*, iii. 66.

2. Dinas yn llwyth Naphtali, neillduedig i'r Lefiaid (1 *Cron.* vi. 76) ac yn cyfatteb i'r enwau Hammoth a Hammoth-Dor, yn *Iosuah* xxi. 32; xix. 35.

HAMONAH [המונה=*lliaws*]: y mae yr ymadrodd sydd yn cynnwys y gair hwn (*Ezec.* xxxix. 16) yn nodedig o dywyll. Mae yn ymddangos mai enw y lle, yn neu yn agos i'r hwn y claddwyd lluoedd Gog, ar ol eu dinystr ofnadwy gan Dduw, oedd Hamonah, ac mai oddi wrth y ffaith hon y derbyniodd yr enw.

HAMON-GOG, DYFFRYN [המרי פינ=*dyffryn lliaws Gog*]: enw i'w roddi ar ddyffryn, neu ddol, a adwaenid yn flaenorol fel "dyffryn y fforddolion o du dwyrain y môr," ar ol claddu yno "Gog a'i holl dyrfa;" *Ezec.* xxxix. 11, 15.

HAMOR [חמור=*asyn*]: Hefiad, yr hwn oedd dywysog Sichem ar fynediad Iacob i Ganaan, a thad y gŵr ieuanc gwrthnysig o'r enw Sichem, camymddygiad yr hwn at Dinah a ddygodd ddinystr arno ef, ar ei dad, ac ar yr holl ddinas: *Gen.* xxxiii. 19; xxxiv. 2, 4, 6, 8, 13, 18, 20, 24, 26. Ymddengys fod Hamor yn ŵr o gryn ddylanwad; o blegid y mae gwŷr ei lwyth yn cael eu galw ar ei ol yn wŷr Hemor, a gelwir ef ei hun (yn *Ios.* xxiv. 32; *Barn.* ix. 28; *Act.* vii. 15) yn "Hemor, tad Sichem." Yn *Barn.* ix. 28, defnyddir ei enw yn arwydd o wrthryfel, pan gynnygiodd gweddill yr Hefiaid gyfodi yn erbyn Abimelech, mab Gideon. Yn *Act.* vii. 16, y mae yr enw yn y ffurf Roegaidd, Emmor, a dywedir i Abraham brynu ei fedd gan "feibion Emmor."

HAMUEL [המואל=*digofaint Duw*]: gŵr o Simeon, mab Misma, o deulu Saul: (1 *Cron.* iv. 26); o'r hwn, yn ol yr adnod hon, yr hanodd holl lwyth Simeon a drigai yn Nghanaan.

HAMUL [המול=*duwiol*]: mab ieuangaf Pharez mab Iudah, o Tamar: *Gen.* xlvi. 12; 1 *Cron.* ii. 5. Hamul oedd pen teulu yr Hamuliaid: (*Num.* xxxvi. 21); ond nid oes achau un o'i ddisgynyddion yn gynnwysedig yn y rhestr yn 1 *Cron.*, er fod yr eiddo Zarah yno yn gyflawn.

HAMUTAL [המוטל=*"per'hynas i'r gwlith"*]: merch Ieremiah, o Libnah; un o wragedd y brenin Iosiah, a mam y tywysogion anffodus Iehoahaz, a Mattaniah, neu Sedeciah: 2 *Bren.* xxiii. 31; xxiv. 18; a *Ier.* lii. 1.

HANAMEEL [*gras oddi wrth Dduw.*] Mab Salum, a chefnder i Ieremiah. Pan y meddiannwyd Iudea gan y Caldeaid, a thra yr oedd Ierusalem yn cael ei gwarchae, ac Ieremiah yn

Digitized by Google

ngharchar, prynodd y prophwyd faes gan Hanameel yn Anathoth, tref yn rhandir Lefi, fel arwydd o amser i ddyfod, pryd y byddai tir unwaith etto yn eiddo sicr a diogel: *Ier.* xxxii. 7, 8, 9, 12: cym. *adn.* 44. Os oedd y maes hwn yn perthyn i Hanameel fel Lefiad, y mae y gwerthiad yn ymddangos fel trosedd o hen ddeddf yn Israel: *Lef.* xxv. 34. Ond y mae yn bossibl fod y maes yn disgyn yn eiddo i Hanameel oddi wrth ei fam. Cymharer yr hanes am Barnabas, yr hwn hefyd oedd Lefiad, yn gwerthu tir oedd ganddo: *Act.* iv. 37. Y mae Henderson (ar *Ier.* xxxii. 7) yn tybied y gellid gwerthu rhanau o diroedd y Lefiaid tu fewn i gylch y llwyth.

HANAN [*trugarog*]. 1. Un o benau cenedl llwyth Beniamin: 1 *Cron.* viii. 23.

2. Y diweddaf o feibion Azel, un o ddisgynyddion Saul: 1 *Cron.* viii. 38; ix. 44.

3. Mab Maachah, Syriad fe ddichon, o Aram Raacah; ac un o gedyrn Dafydd: 1 *Cron.* xi. 43.

4. Yr oedd meibion Hanan yn mhlith y Nethiniaid a ddychwelasant o Babilon gyda Zorobabel: *Ezra* ii. 46: *Neh.* vii. 49.

5. Un o'r Lefiaid a gynnorthwyasant Ezra i roddi esboniad cyhoeddus ar y gyfraith: *Neh.* vii. 7. Mae yr un person, fe ddichon, yn cael ei enwi yn *pen.* x. 10, fel yn selio y cyfammod rhwng Duw a'i bobl, gan fod llawer o enwau cyffelyb yn dygwydd yn y ddwy bennod.

6. Un o "benaethiaid y bobl;" hyny ydyw, o'r llëygwyr, y rhai hefyd a seliasant y cyfammod: *Neh.* x. 22.

7. Un arall o'r prif lëygwyr ar yr un achlysur: *Neh.* x. 26.

8. Mab Zaccur, mab Mattaniah, yr hwn a bennodwyd gan Nehemiah yn un o drysorwyr yr ymborth a gasglwyd fel degymau: *Neh.* xiii. 13. Mae yn debyg mai llëygwr ydoedd; ac os felly, yr oedd y pedwar trysorydd yn cynnrychioli y pedwar prif ddosbarth o'r bobl; sef, offeiriaid, ysgrifenyddion, Lefiaid, a llëygwyr.

9. Mab Igdaliah, "gŵr i Dduw:" *Ier.* xxxv. 4. Yr oedd gan feibion Hanan ystafell at eu gwasanaeth yn y deml.

HANANI [*fy nhrugaredd*]. 1. Un o feibion Heman, gweledydd y brenin Dafydd, y rhai a ymneillduwyd "i foliannu a chlodfori" yn y deml, a phenaethiaid y deunawfed cylch o gantorion: 1 *Cron.* xxv. 4, 25.

2. Gweledydd a geryddodd (c. c. 941) Asa, brenin Iudah, am iddo ddangos anymddiried yn yr Arglwydd, drwy hudo Benhadad I., brenin Syria, i ymladd yn erbyn Israel: 2 *Cron.* xvi. 7. Carcharwyd ef am hyn gan Asa: 2 *Cron.* xvi. 10. Efe, neu un arall o'r un enw, ydoedd tad Iehu y gweledydd, yr hwn a brophwydodd yn erbyn Baasa (1 *Bren.* xvi. 1, 7) ac Iehosaphat: 2 *Cron.* xix. 2; xx. 34.

3. Un o'r offeiriaid; y rhai, yn amser Ezra, oeddynt wedi ymgyssylltu â gwragedd dieithr: *Ezra* x. 20. Yn Llyfr Esdras, yr enw ydyw Ananias.

4. Brawd i Nehemiah, yr hwn a ddychwelodd (c.c. 446) o Ierusalem i Susa (*Neh.* i. 2); a'r hwn a wnaed wedi hyny yn llywodraethwr yn Ierusalem o dan Nehemiah: *Neh.* xii. 2.

5. Offeiriad a enwir yn *Neh.* xii. 36.

HANANIAH [*trugaredd yr Arglwydd*]. Un o feibion Heman, y cantwr, a'r penaf yn y 24ain adran o 288ain cantorion a alwyd allan o fysg y Lefiaid gan y brenin Dafydd. Neillduwyd meibion Heman i chwythu y cyrn: 1 *Cron.* xxv. 4, 5, 23.

2. Un o brif gadbeniaid byddin y brenin Uzziah: 2 *Cron.* xxvi. 11.

3. Tad Sedeciah, un o'r tywysogion yn nheyrnasiad Iehoiacim, brenin Iudah: *Ier.* xxxvi. 12.

4. Mab i Azur, Beniaminiad, o Gibeon, a gau brophwyd yn nheyrnasiad Sedeciah brenin Iudah. Yn y bedwaredd flwyddyn o'i deyrnasiad (595 c.c.) fe wrthwynebodd Hananiah y prophwyd Ieremiah, a phrophwydodd yn gyhoeddus yn y deml y buasai Ieconiah, a'i gydgaethgludwyr, ynghyd â llestri tŷ yr Arglwydd, y rhai a ddygwyd i Babilon gan Nebuchodonosor, yn cael eu dychwelyd i Ierusalem o fewn dwy flynedd o amser (*Ier.* xxviii.); yr hyn oedd brawf fod cyttundeb bradwrus eisoes wedi ei ffurfio yn ddirgelaidd gyda Pharaoh (Hophra yr hwn oedd newydd ddilyn Psammis ar orsedd yr Aipht), a bod gobaith cryf yn cael ei goleddu am ddinystr yr awdurdodau Babilonaidd ganddo ef. Mae y bennod flaenorol (xxvii. 3) yn dangos yn mhellach fod cynghrair yn cael ei wneyd rhwng Iudah a'r cenedloedd cylchynol; sef, Edom, Ammon, Moab, Tyrus, a Sidon, er mwyn cynllunio gwrthwynebiad i Nebuchodonosor, mewn undeb yn ddiau â symmudiadau bwriadol Pharaoh (Hophra). Er cadarnhau ei brophwydoliaeth, fe gymmerodd Hananiah y gefyn oddi am wddf Ieremiah, yr hwn a wisgai yn ol gorchymyn dwyfol (*Ier.* xxvii, fel arwydd o ddarostyngiad Iudea a'r gwledydd cymmydogaethol i ymherodraeth Babilon); a chan ei dori, efe a ddywedodd, "Fel hyn y dywed Arglwydd y lluoedd; Y modd hyn y toraf fi iau Nebuchodonozor brenin Babilon, o fewn ysbaid dwy flynedd oddi ar war pob cenedl." Ond gorchymynwyd i Ieremiah fyned at Hananiah, a dywedyd wrtho y gwelid gefynau haiarn yn lle y gefynau pren a dorasid ganddo ef; i ddangos y sicrwydd fod ymherodraeth Babilon i sefyll mewn grym am ddeng mlynedd a thrigain. Hefyd, cyfarwyddwyd Ieremiah i ragfynegi ei farwolaeth yn y geiriau canlynol:—"Gwrandaw, yn awr, Hananiah; Ni anfonodd yr Arglwydd mo honot ti; ond yr wyt yn peri i'r bobl hyn ymddiried mewn celwydd. Am hyny, fel hyn y dywed yr Arglwydd, Wele, mi a'th fwriaf di oddi ar wyneb y ddaear: o fewn y flwyddyn hon y byddi farw, o herwydd i ti ddysgu gwrthryfel yn erbyn yr Arglwydd. Felly Hananiah y prophwyd a fu farw y flwyddyn hono, yn y seithfed mis." Mae yr hanes yma am Hananiah yn ddyddorol iawn, gan ei fod yn taflu goleuni mawr ar wladlywiaeth y genedl Iuddewig yn y cyfnod pwysig hwnw, pryd yr oedd pleidiau wedi ymwahanu i gefnogi Babilon ar un ochr, a'r Aipht ar yr ochr arall. Y mae hefyd yn arddangos mewn ffurf effeithiol wendid y gau brophwydoliaethau, drwy y rhai yr oedd y blaid anghrefyddol yn ceisio cynnal eu hegwyddorion; tra y mae yn rhoddi eglurhad boddhaol ar y math o amcanion gwladlywiol at ba rai y cyfeirid y gau brophwydoliaethau. Y mae ar yr un pryd yn arwain y meddwl at yr amser yr esgynodd Pharaoh-Hophra i orsedd yr Aipht, a'r pryd y dechreuodd ei gais aflwyddiannus i adferu gallu yr Aipht (yr hwn a fu yn aros mewn darostyngiad er pan y dymchwelwyd Pharaoh-Necho: *Ier.* xlvi. 2) ar adfeilion yr ymherodraeth Fabilonaidd. Yr oedd y gogwyddiad tuag at yr Aipht, yr hwn, yn ol prophwydodiaeth Hananiah, a ddechreuodd yn y bedwaredd flwyddyn o deyrnasiad Sedeciah,

Digitized by Google

wedi tori allan yn y chweched flwyddyn o'i deyrnasiad ef, yn wrthgiliad agored oddi wrth Nebuchodonozor, ac yn fradwriaeth, yr hwn a gostiodd i Sedeciah ei goron a'i fywyd, fel y gwelir yn *Ezec.* xvii. 12—20. Y mae yr amser yn cael ei ddangos trwy gymmharu *Ezec.* viii. 1, â xx. 1. Dilynwyd y llwyddiant byr-barhaol a fu ar y brad y sonir am dano yn *Ier.* xxxvii, yn fuan â dychweliad y Caldeaid, a dinystr y ddinas, yn ol rhagfynegiad Ieremiah. Mae hanes Hananiah hefyd yn dangos y modd trwy ba un y rhwystrid cenadaeth ac effeithiau daionus gweinidogaeth y gwir prophwydi gan y gau brophwydi; a rhydd esampl hynod o'r dull yr oeddynt yn prophwydo pethau esmwyth, gan gyhoeddi heddwch pan nad oedd heddwch. Cymharer 1 *Bren.* xxii. 11, 24, 25.

5. Taid Iriah, penswyddog yn mhorth Benïamin, gan yr hwn y daliwyd Ieremiah dan gyhuddiad o gilio at y Caldeaid: *Ier.* xxxvii. 13.

6. Penadur a berthynai i lwyth Beniamin: 1 *Cron.* viii. 24.

7. Enw Hebraeg am Shadrach. Yn ol traddodiad Iuddewig, yr oedd yn perthyn i dŷ Dafydd: *Dan.* i. 3, 6, 7, 11, 19; ii. 17.

8. Mab i Zorobabel (1 *Cron.* iii. 19), enw yr hwn a berthynai i achau yr Arglwydd Iesu. Yr un person ydyw a'r hwn a elwir gan Luc yn Ioanna; yr hwn hefyd, pan ddiswyddwyd Resa, a ymddengys yno yn fab i Zorobabel.

9. Mae y ddau enw, Hananiah a Iehohanan, yn ymddangos yn ymyl eu gilydd yn *Ezra* x. 28, fel meibion Bebai, y rhai a ddychwelasant gydag Ezra o Babilon.

10. Offeiriad, ac un o'r apothecariaid, neu wneuthurwyr yr olew a'r arogl-darth sanctaidd (*Exod.* xxx. 22—38; 1 *Cron.* ix. 30), yr hwn a adeiladodd ran o fur Ierusalem yn amser Nehemiah: *Neh.* iii. 8. Dichon mai efe hefyd ydyw yr un a enwir yn y 30ain adnod, fel wedi adgyweirio rhan arall o hono. Os felly, mab ydoedd i Semaiah: hwyrach mai yr un ag a enwir yn *Neh.* xii. 41.

11. Un o brif offeiriaid Ieremiah, yn nyddiau Iehoiacim yr archoffeiriad: *Neh.* xii. 12.

12. Tywysog y palas yn Ierusalem. Dywedir am dano ei fod yn "ŵr ffyddlawn, ac yn ofni Duw yn fwy na llawer." Ymddengys fod ei swydd yn un o awdurdod ac ymddiried: cyffelyb, o bossibl, i eiddo Eliacim, "yr hwn oedd benteulu," yn nheyrnasiad Hezeciah. [Gwel ELIACIM.] Ymddiriedwyd y trefniadau i wylio pyrth Ierusalem iddo ef a Hanani, yr hwn oedd frawd i Tirsatha. Mae Prideaux yn tybio fod appwyntiad Hanani a Hananiah yn awgrymu fod Nehemiah y pryd yma wedi dychwelyd i Persia; ond nid ydym yn canfod fod y dyb hon yn gywir. Mae yn ymddangos fod Nehemiah yn arosol yn Ierusalem am gryn amser ar ol gorpheniad y mur: *Neh.* vii. 5, 65; viii. 9; x. 1. Hefyd, os ydyw y gair הבירה yn golygu, fel y barna Gesenius, nid y palas, ond amddiffynfa y deml, y mae llai o reswm fyth dros ddychymygu absennoldeb Nehemiah. Mae y modd y defnyddir y gair yn *Neh.* ii. 8 yn ffafriol i'r golygiad hwn. A chaniatau hyn, yr oedd Hananiah yn offeiriad o'r un teulu fe ddichon a'r un blaenorol. Yn mhellach: mae yn debyg y dylid darllen *Neh.* vii. 2, 3, fel hyn—"Mewn perthynas i Ierusalem, mi a orchymynais i Hanani a Hananiah, tywysogion yr amddiffynfa, gan ddywedyd, Nac agorer y pyrth nes gwresogi yr haul," &c.

13. Israeliad: *Neh.* x. 23.

HANES: enw dinas neu wlad yn yr Aipht: *Esa.* xxx. 4. Yr un, yn ol rhai, a Tapnanes (*Ier.* liii. 7); dinas yn yr Aipht Isaf, yn ymyl y cyffiniau dwyreiniol. Y mae Michaelis, Rosenmüller, a Gesenius, yn golygu mai Heracleopolis Magna, prif ddinas Heracleotes, yn yr Aipht Ganol, ydyw.

HANIEL: mab Ephod. Fel penaeth dros lwyth Manasseh, cynnorthwyodd i ranu Gwlad yr Addewid: *Num.* xxxiv. 23.

2. Un o feibion Ula: "dewis ŵr o nerth," a phen cenedl llwyth Aser: 1 *Cron.* vii. 39.

HANNAH [חנה=*gras*, neu *weddi*]: un o wragedd Elcanah, a mam Samuel (1 *Sam.* i. 2); a phrophwydes o gryn enwogrwydd, er nad yw ei hawl i'r enw hwnw yn orphwysedig ond ar un peth; sef, cân o fawl ar enedigaeth ei mab. Y mae y gân yn perthyn i'r dosbarth uchaf o farddoniaeth brophwydol. Y mae ei thebygolrwydd i'r eiddo Mair (cym. *Sam.* ii. 1—10, â *Luc* i. 46—55; gwel hefyd *Salm* cxiii.), wedi cael sylwi arno gan esbonwyr yn fynych; ac y mae yn dra nodedig mai yma y sonir gyntaf am y Messiah (eneiniog) o dan yr enw hwnw.

HANNER-ARIAID. Gwel ARIAID.

HANNER-PELAGIAID [*Semi-Pelagians*]: enw a roddwyd gan ysgol dduwinyddol y canoloesoedd ar blaid grefyddol a gododd o ddeutu y flwyddyn 425, yr hon a goleddai syniadau rhwng yr eiddo Pelagius ac eiddo ei wrthwynebydd galluog—Awstin. Eu harweinydd oedd Cassian, dysgybl i Chrysostom; yr hwn a drigai yn Marseilles, ac a sefydlodd ddau fynachdy yno; ac felly, gelwid y blaid ar y cyntaf yn Massiliaid. Eu prif athrawiaethau ydynt y rhai canlynol:—Nad yw Duw yn gweinyddu gras i'r naill yn fwy na'r llall, mewn canlyniad i ragarfaethiad; ond ei fod yn foddlawn i achub pob dyn a gydymffurfia âg ammodau yr efengyl. 2. Fod Crist wedi marw dros bawb. 3. Fod y gras a bwrcaswyd gan Grist, ag oedd yn angenrheidiol er cadwedigaeth, yn cael ei gynnyg i bob dyn. 4. Y gallai dyn, cyn derbyn gras, fod yn berchen ffydd a dymuniadau sanctaidd. 5. Fod dyn yn cael ei eni yn rhydd, ac felly ei fod yn alluog i wrthwynebu dylanwadau gras. Yr oedd yr Hanner-Pelagiaid yn bur liosog; a derbynid athrawiaeth Cassian yn y rhan fwyaf o ysgolion mynachol Ffrainge, ac ymdaenodd oddi yno yn mhell ac yn agos drwy y taleithiau Ewropaidd. Yr oedd y Groegiaid, a Christionogion dwyreiniol ereill, yn coleddu yr athrawiaeth hyd yn oed o flaen Cassian. Gwel PELAGIAID.

HANOCH. Gwel ENOCH.

HANUM [חנון=*trugarog*], mab Nahas (2 *Sam.* x. 1, 2; 1 *Cron.* xix. 1, 2); brenin Ammon, o gylch c. c. 1037, yr hwn a ddianrhydeddodd genhadau Dafydd (2 *Sam.* x. 4) ac a ddygodd yr Ammoniaid i ryfel echrys: 2 *Sam.* xii. 31; 1 *Cron.* xix. 6.

2. Gŵr, yr hwn, gyda phobl Zanoah, a adgyweiriodd borth y glyn, yn mur Ierusalem: *Neh.* iii. 13.

3. Gŵr, a elwir "chweched mab Salaph," yn *Neh.* iii. 30; yr hwn hefyd a gynnorthwyodd yn adgyweiriad y mur, ar y tu dwyreiniol.

HAPHARIM [חפרים=*cloddwyr*]: dinas yn rhandir Issachar: *Ios.* xix. 19. O fewn o ddeutu

Digitized by Google

dwy filldir i'r gorllewin o Solah (y Sunem a enwir yn yr un adnod), y mae pentref o'r enw El-Afuleh; yr hwn, yn ol tyb rhai, oedd Hapharim. Dywed Eusebius fod lle o fewn chwe milldir i'r gogledd o Legio, a elwid Apharaim.

HARAH [הרא—*mynydd*]. Nid yw yr enw yn dygwydd ond yn unig yn 1 *Cron.* v. 26; ond gadewir ef allan yno gan y Deg a Thrigain. Os nad yr un ydyw a Haran, y mae y lle yn hollol anadnabyddus. Y mae yr enw yn cyfatteb, yn mron, i Carrhae; yr enw wrth yr hwn yr adwaenid Haran gan y Groegiaid. Gellir golygu, fe allai, mai syniad awdwr y Cronicl ydyw, fod Pul a Tiglath-Pileser wedi cludo ymaith nifer o'r Israeliaid, a'u gosod yn Haran ar lan Belik, tra y cludwyd y nifer liosocaf i Habor. Cym. 1 *Cron.* v. 26, â 2 *Bren.* xvii. 6; xviii. 11, â xix. 12. Gwel hefyd yr erthyglau, HARAN, a HABOR.

HARAN [חרן—*mynydd-dir*]: enw y lle i'r hwn yr aeth Abraham a'i deulu o Ur y Caldeaid, a lle yr ymsefydlodd disgynyddion ei frawd Nachor. Ac felly gelwid Haran yn "ddinas Nachor:" cym. *Gen.* xxiv. 10, â xxvii. 43. Dywedir ei bod yn Mesopotamia (*Gen.* xxiv. 10); neu yn fwy manwl, yn ol y cyfieithiad Saesoneg, Padan-Aram (*Gen.* xxv. 20), yr hwn yw y "llanerch amaethedig wrth droed y mynyddoedd" y sonia Stanley [*Sinai and Palestine*) am dano; enw yr hwn sydd yn cyfatteb yn dda i'r llanerch brydferth sydd yn gorwedd wrth odreu Mynydd Masius, rhwng Khabour (Habor) a'r Euphrates. Tua chanol y lle hwn y mae tref o'r enw Haran; yr hon, yn ddiammheu, sydd yr un a Haran neu Charran y Beibl. Y mae yn ffaith nodedig hefyd fod trigolion Haran, hyd yn ddiweddar, yn arfer yr iaith Galdaeg, ac yn addoli duwiau y Caldeaid. Y mae Haran yn gorwedd ar y Belik—cangen o'r afon Euphrates. Pentref bychan ydyw yn awr, yn cael ei breswylio gan ychydig o Arabiaid.

2. Haran: trydydd mab Terah, a brawd ieuangaf Abram: *Gen.* xi. 26. Ganwyd ef yn Ur y Caldeaid, a bu farw yno tra yr oedd ei dad etto yn fyw. Dangosid ei fedd pan yr ysgrifenai Iosephus ei hanesiaeth [*Hyn. Ios.*, i. 6, adr. 5]. Yr hen draddodiad Iuddewig ydyw, fod Haran wedi ei losgi yn ffwrn Nimrod, am ei ymddygiad ansefydlog yn ystod profedigaeth danbaid Abraham. Ymddengys i'r traddodiad gael ei gychwyn trwy gyfieithu y gair *Ur*; yr hwn, yn Hebraeg, sydd yn arwyddo *tân*.

3. Haran: Lefiad Gersonaidd yn amser Dafydd; un o deulu Simei: 1 *Cron.* xxiii. 9.

4. Haran: mab Caleb, o'i orderchwraig Ephah (1 *Cron.* ii. 46), a thad Gazez.

HARBONA [neu Harbonah]: un o'r saith ystafellydd, a weinyddent ar y brenin Ahasferus (*Esther* i. 10); a'r hwn a awgrymodd ar fod i Haman gael ei grogi ar ei grogbren ei hun: *Esth.* vii. 9.

HARETH [חרת=*cerfio*]: coedwig, yn yr hon yr ymguddiodd Dafydd, ar ol iddo, yn ol cynghor y prophwyd Gad, adael ogof Adulam—os Adulam ydoedd, ac nid Mispah, yn Moab; yr hyn nid yw yn bur eglur: 1 *Sam.* xxii. 3, 5. Y mae y coed wedi diflanu er ys llawer dydd, ac nid oes ond yr ymadrodd pur gyffredinol "tir Iudah" i'n galluogi i benderfynu yn mha le yr oedd. Gallem gymmeryd yr adnod fel yn golygu y coed yn anialwch Ziph, yn yr hwn yr ymguddiai yn ddiweddarach (1 *Sam.* xxiii. 15, 19), pe na buasai y gair Hebraeg yn wahanol (*Choresh*, yn lle *Yaar*). Yn yr *Onomasticon* (hen eirlyfr Groegaidd) dywedir fod Areth (Hareth) y pryd hwnw i'r gorllewin i Ierusalem.

HARGOL: gair Hebraeg a gyfieithir yn y Saesoneg *beetle*. Y mae yn dygwydd yn unig yn *Lef.* xi. 22, fel enw ar un o bedwar o ehediaid a "ymlusga, ac a gerddo ar bedwar troed, yr hwn y byddo coesau iddo oddi ar ei draed, i neidio wrthynt ar hyd y ddaear," ac a ganiateid i'r Iuddewon i'w fwyta. Dywedir fod y cyfieithiad Saesoneg yn anghywir. Nid yw yn ymddangos fod y chwilen (*beetle*), er yn gyffredin yn yr Aipht, erioed yn arfer cael ei bwyta; ond bwytëid yr amrywiol fathau o locustiaid. Tybia Parkhurst ac Ainsworth mai math o locustiaid a olygir yma.

HARHUR [חרחור=*llosgedig*]. Yr oedd meibion Harhur yn mhlith y rhai a ddychwelasant o Babilon gyda Zorobabel: *Ezra* ii. 51; *Neh.* vii. 53.

HARIM [חרם]: offeiriad oedd efe, yn ngofal yr hwn yr oedd y trydydd adran yn nhŷ yr Arglwydd: 1 *Cron.* xxiv. 8. Daeth 1017 o'i feibion gyda Zorobabel o Babilon: *Ezra* ii. 39; *Neh.* vii. 42. Rhoddir yr enw (fel yn cynnrychioli y teulu hwyrach) yn mhlith y rhai a seliasant y cyfammod gyda Nehemiah: *pen.* x. 5. Ac yn mhlith yr offeiriaid, y rhai a orfodid i roddi ymaith eu gwragedd dieithr, yr oedd pump o feibion Harim: *Ezra* x. 21.

2. Yr oedd teulu arall o feibion Harim, yn dri chant ac ugain mewn nifer, yn mhlith y rhai a ddaethant i fyny o Babilon: *Ezra* ii. 32; *Neh.* vii. 35. Nid oedd y rhai hyn mewn swyddi; ac ymddengys iddynt dderbyn eu henw oddi wrth ryw le: o'r hyn lleiaf, y mae yr enwau ereill yn y rhestr yn enwau lleoedd. Y mae yr enwau hyn hefyd yn mhlith y rhai a briodasant wragedd dieithr (*Ezra* x. 31); ac hefyd yn mysg y rhai a seliasant y cyfammod: *Neh.* x. 17.

HARIPH [חרף=*gauaf*]. Yr oedd cant a deuddeg o feibion Hariph yn mysg y rhai a ddychwelasant o'r caethiwed gyda Zorobabel: *Neh.* vii. 24. Y mae yr enw yn digwydd hefyd yn mhlith y penau teuluoedd a seliasant y cyfammod: *Neh.* x. 19. Yn *Ezra* ii. 18, y mae yr enw yn Iorah. Y mae enw sydd yn mron yr un fath yn 1 *Cron.* ii. 51—Hareph, mab Caleb, a thad Beth-gader; ond nid yw yn ymddangos fod dim cysylltiad rhyngddynt.

HARNAPHER [חרנפר=*digofaint cynnyddol*]: un o feibion Sophah, o lwyth Aser: 1 *Cron.* vii. 36.

HAROD, FFYNNON. Wrth y ffynnon hon y gwersyllodd Gideon, a'i fyddin fawr, ar foreu y diwrnod y gorchfygwyd y Midianiaid (*Barn.* vii. 1); ac y rhoddwyd prawf ar y bobl yn ol eu dull o yfed: *adn.* 4, 5. Tybia Stanley [*Sinai and Palestine*] mai wrth Harod y golygir yr *Ain Jalûd* bresennol, yr hon yw y ffynnon fwyaf yn y gymmydogaeth, a'r hon sydd yn ffurfio llyn o gryn faintioli, o'r hwn y gallai lliaws yfed. Dywed Robinson [*Bib. Researches*, iii.] fod y ffynnon hon o fewn taith 20 munyd i Zerin (Iezreel), ac yn llifo oddi tan fath o ogof, mewn craig clobynfaen (*conglomerate*), yr hon sydd yn y fan hono yn ffurfio troed mynydd Gilboa. Y mae yn

Digitized by Google

ymdaenu, ar unwaith, yn llyn eang, gloyw, o ddeutu 40 neu 50 troedfedd o dryfesur, ac yn llawn o bysgod. Hon, yn ol pob tebyg, oedd ffynnon Harod. Cymmerwyd yr enw Harod (sef, crynu), y mae yn debyg, oddi wrth waith byddin Gedeon yn crynu (ofni ac arswydo: *Barn.* vii. 3) o dan eu prawf.

HAROSETH [חרשת=*amaethyddiaeth*]; neu "Haroseth y Cenhedloedd," fel y gelwid hi (am yr un rheswm, fe allai, ag y gelwid Galilea wedi hyny), oddi wrth yr amrywiol genhedloedd a'i preswyliai: dinas yn ngogledd Canaan, yr hon a safai, fel y tybir, ar lan gorllewinol y llyn el Huleh (Merom: *Ios.* xi. 5), o'r hwn y llifai yr Iorddonen, a'r hwn sydd yn rhandir Naphtali. Yma y trigai Sisera, tywysog llu Iabin, brenin Canaan: *Barn.* iv. 2. Hyd yma yr ymlidiodd yr Israeliaid, o dan Barac, lu Sisera, lle y syrthiasant oll ar fin y cleddyf: *Barn.* iv. 16. Nid oes neb wedi profi i fanylrwydd y man y safai Haroseth.

HARRI I.: brenin Prydain Fawr, ydoedd fab ieuangaf William y Gorchfygwr, o'i frenhines Matilda o Flanders, a'r unig un o'i feibion a anwyd yn Mrydain (B. A. 1068). Yr oedd yn meddu ar dalentau naturiol o radd uchel, a derbyniodd fanteision addysg rhagorach nag a fwynheid y pryd hyny gan feibion brenhinoedd a phendefigion yn gyffredin; yr hyn oedd y rheswm dros ei gyfenwi, Beauclerc, neu yr ysgolor. Pan yn marw, amlygodd ei dad ei ddymuniad fod i William ei fab ei ddilyn yn y frenhiniaeth, gan adael 5,000p. o arian i Harri: â 3000p. o ba rai y prynodd gan ei frawd Robert, diriogaeth Cotentin; yr hyn a gynnwysai o ddeutu [y drydedd ran o Normandy. Pan gyfododd y barwniaid Normanaidd yn erbyn Robert, cynnorthwyodd Harri ef i'w darostwng; ac ar yr achlysur yma, rhoddodd brawf amlwg o benderfynolrwydd anhyblyg ei gymmeriad. Un o'r rhai mwyaf dylanwadol yn y gwrthryfel ydoedd Conan o Rouen, yr hwn a ddedfrydwyd gan Robert i alltudiaeth am ei oes. Ond nid oedd hyn yn boddio Harri. Arweiniodd ef i ben tŵr uchaf y castell yr oedd yn garcharor ynddo; ac o dan yr esgus o ddangos iddo y wlad o amgylch, taflodd ef bendramwnwgl i lawr. Bu marwolaeth sydyn ei frawd Rufus (marwolaeth sydd yn amgylchynedig â llawer o dywyllwch, ac yn yr hon, fel y tybir, yr oedd gan Harri ran; o leiaf, ni wnaeth unrhyw ymchwiliad i'r achos) yn foddion i wneyd Harri yn frenin Lloegr yn y fl. 1100. Y dydd canlynol i'w goroniad, cyhoeddodd freintlen (*charter*), yn sicrhau rhyddid i'r eglwys a'r genedl, ac yn addaw adferiad o gyfreithiau y Cyffeswr, heb ddim mwy o gyfnewidiad yddynt nag a wnaethai ei dad William. Yr un pryd, plediai ei enedigaeth Brydeinig fel ei hawl i ymlyniad neillduol y genedl wrth ei frenhiniaeth; a phrysurodd i gadarnhau ei sefyllfa drwy weithred oedd yn mron yn gydnabyddiaeth nad oedd hawliau y llinell Sacsonaidd etto wedi ei dirymu. Yr 11eg o Tach., 1100, priododd Maud, neu Matilda, merch Malcolm, brenin Ysgotland, a nith i Edgar Atheling. Mor fuan hefyd ag y gwisgodd y goron, proffesai roddi heibio ei arferion penrhydd cyntefig; a chyda llawer o sêl ymddangosiadol, ymgymmerodd â chlirio y llys o feistresau a thruthiaid anfoesol y brenin diweddaf; ond daethpwyd i weled nad oedd hyn, fel llawer o'i broffesiadau ereill, ond rhywbeth i'w wasanaethu ar y pryd.

Y mae hanes brenhiniaeth Harri yn dechreu gyda'r ymrafael rhyngddo a'i frawd hynaf am yr orsedd. Pan bu farw Rufus, yr oedd Robert yn neheudir Italy, ar ei ffordd adref o Ryfeloedd y Groes; ond yn fuan ar ol y Sulgwyn, 1101, glaniodd yn Portsmouth, gyda byddin gref. Ond yn ofer:—yr oedd Harri a'i fyddin fawr ar y pryd yn Pevensey, a goddiweddodd ei frawd cyn iddo gyrhaedd Winchester, yr hon yr oedd wedi bwriadu ei chymmeryd. Ymgyfarfyddodd y brodyr, wedi peth ymdrafodaeth, ar lanerch gwag rhwng y ddwy fyddin, a'r penderfyniad y daethpwyd iddo ydoedd, fod i Harri gadw meddiant o Brydain, a Robert o Normandy; ond os byddai i'r naill neu y llall farw heb blant cyfreithlawn, fod i'r brawd a oroesai fod yn olynydd i'r llall. Ond nid oedd Harri yn bwriadu gadael i'w frawd ddiangc hyd yn oed er gwneyd y fath aberth ar ei ran. Yr oedd amryw o'r barwniaid Seisnig (y rhai yr oedd ganddynt feddiannau yn Normandy, yn awyddus am uno y ddwy wlad) wedi cymmeryd plaid Robert; ac er fod maddeuant cyflawn i bob enciliwr o'r fath yn un o ammodau y cyttundeb, cymmerodd Harri achlysur oddi wrth eu hymddygiad i amddifadu y rhai a'i gadawsant ef o'u meddiannau. Arweiniodd hyn i lawer o fân wrthryfeloedd, y rhai a ddarostyngwyd gan Harri gyda'r rhwyddineb mwyaf; ond cynhyrfodd ei ymddygiadau eiddigedd ei frawd Robert; a chymmerodd Harri fantais oddi ar ryw ymddygiadau yr arweiniasid ei frawd gan ei deimladau cynnhyrfus i'w cyflawni, i gyhoeddi fod heddwch wedi ei derfynu rhyngddynt am byth. Yr oedd nerth Robert erbyn hyn wedi ei leihau yn mhob ystyr i raddau dirfawr, trwy ddifaterwch a chamlywodraeth. Yn y lle cyntaf, anfonodd Harri am iddo roddi i fyny ei ddugiaeth am swm o arian, neu flwydd-dal rheolaidd. Gwrthododd Robert ei gais gyda dirmyg; ac yn 1105, aeth Harri drosodd i Normandy gyda byddin gref, a chymmerodd feddiant o lawer o'r lleoedd pwysicaf yn fuan, ond dychwelodd heb wneyd nemawr yn chwaneg.

Y flwyddyn ganlynol, ail groesodd y môr gyda gallu lliosocach nag o'r blaen; ac ar yr 28ain o Fedi, ymladdwyd brwydr faith a gwaedlyd rhwng y brodyr o flaen Tenchebrai, yr hon a derfynodd yn llwyr ddinystriad Robert a'i achos. Ar ol un arddangosiad arall o'i ddewrder arferol, cymmerwyd ef ei hun, ynghyd â 400 o'i farchogion, yn garcharorion, a chondemniwyd ef gan ei frawd i alltudiaeth am ei oes. Dywed Mathew Paris, iddo wedi hyny wneyd ymgais i ddiangc; a gorchymynodd ei frawd didrugaredd ar fod iddo ddioddef y gospedigaeth ddieflig o golli ei olwg. Daliwyd cwpan haiarn, wedi ei thwymno yn goch, o flaen ei lygaid, nes y llosgwyd hwy yn ddall; ac yn y sefyllfa druenus hon y bu fyw drachefn am 28ain mlynedd, yn niwedd y rhai yr oedd yn bedwar ugain oed; a bu farw yn nghastell Caerdydd, Chwefror, 1135, o ddeutu blwyddyn o flaen Harri. Ar ol buddugoliaeth Tenchebrai, cydnabyddwyd ef yn ddug gan farwniaid Normandy.

Aeth y saith mlynedd canlynol heibio heb i ddim digwyddiadau o bwys mawr gymmeryd lle. Yn 1113, ymosodwyd ar Harri yn Normandy gan Louis VI. o Ffrainge, a Fulk, iarll Anjou—y ddau yn cydweithredu yn ffafr iawnderau William (Fitz-Robert), mab y duc Robert, yr hwn oedd yn ffafryn mawr gyda phleidwyr ei dad, a gelynion ei ewythr Harri. Parhaodd y rhyfel am o ddeutu dwy flynedd, pryd y llwyddodd Harri gyda'i ddeheurwydd arferol i'w ddwyn i dertyniad drwy gyttundeb—yr hwn a adferai iddo ef y

Digitized by Google

cyfan a gollasai, ac a wahanai iarll Anjou, am amser, oddi wrth achos Fitz-Robert. Penderfynasid fod i William briodi Sibylla, merch yr iarll. Rhoddwyd y trefniad hwnw heibio yn awr, a chyttunwyd, yn lle hyny, fod i Matilda, merch arall i'r iarll, briodi unig fab Harri, y tywysog William o Loegr. Ond ymddengys fod Harri wedi gwneyd y cyttundeb hwn heb un bwriad o'i gyflawni. Mor fuan ag y darfu fod o wasanaeth iddo ef, dangosodd mewn modd amlwg yr anghymmeradwyaeth mwyaf o holl ammodau y cyttundeb: y canlyniad o'r hyn fu ail ymosodiad arno o'r Cyfandir gan yr iarll a brenin Ffraingc, mewn undeb â Baldwin, iarll Flanders. Parhaodd y rhyfel hwn am oddeutu dwy flynedd, pryd y bu i farwolaeth iarll Flanders, adnewyddiad y cyttundeb gyda golwg ar briodas merch iarll Anjou, ystrywiau cyfrwys Harri gyda barwniaid Normandy, ynghyd â chyfryngiad y pab, roddi terfyn arno yn 1120, yn hollol yn ffafr y brenin Harri.

Yn fuan ar ol yr heddwch hwn, trowyd gobeithion dysglaer Harri yn dywyll nos o dristwch, drwy suddiad y llong ar ba un yr oedd ei fab yn dyfod drosodd o Barfleur i Loegr. Gyda'r eithriad o un dyn, boddwyd pawb oedd ar y llong, yn rhifo o ddeutu 300 o bersonau, yn cynnwys y tywysog, ei hanner brawd Richard, ei hanner chwaer Marie, ac iarll Caerlleon, ynghyd â'i wraig a'i brawd, y rhai oeddynt nith a nai i'r brenin. Dywedir na welwyd gwên ar wyneb Harri byth ar ol y diwrnod hwn. Fodd bynag, ni ddarostyngwyd ei ysbryd uchelfrydig. Dwy flynedd cyn y digwyddiad hwn, collasai ei wraig rinweddol Maud; a'i unig blentyn cyfreithlawn yn awr ydoedd Matilda; yr hon, yn 1114, a briodasai yr ymherawdwr Harri v. Mewn gobaith am fab yn etifedd, ar yr 2il o Chwefror, 1121, priododd yr ieuangc a'r brydferth Adelais, merch Geoffrey, duc Louvaine. Prin yr oedd hyn wedi cymmeryd lle pan y gorfu arno gyfarfod y gwrthryfel a dorasai allan yn Normandy, a hyny drwy offerynoliaeth Fulk, iarll Anjou; yr hwn, wedi ei siomi gyda golwg ar briodas ei ferch, a ail ymunasai âg achos Fitz-Robert. Ond daeth cyfrwysder Harri i'w wasanaeth y tro hwn drachefn: ennillodd yr iarll o'i du, ac adnewyddodd heddwch eilwaith yn Normandy.

Wedi i bedair neu bum mlynedd o'i ail fywyd priodasol fyned heibio yn ddiblant, ymdrechodd Harri sicrhau y llywodraeth Brydeinig i'w ferch, yr ymherodres Matilda, yr hon oedd yn awr yn weddw. Yn nghastell Windsor, ar ddydd Nadolig, 1126, cyhoeddwyd hi yn etifeddes y goron. Y flwyddyn ganlynol, priodwyd hi â Geoffrey, yr hwn a gyfenwid Plantaganet, mab iarll Anjou; i'r hwn, er nad oedd ond un ar bymtheg oed, y gadawsai ei dad yr iarllaeth, ac yr aethai i Wlad Canaan, lle yn fuan wedi hyny y dewiswyd ef yn frenin Ierusalem. Ychydig wedi priodas Matilda, bu farw Fitz-Robert (Gorph. 28ain, 1128,) yn y 26ain flwydd o'i oed. Yn Mawrth, 1133, ganwyd mab i Matilda, yr hwn a alwyd Harri:—wedi hyny Harri ii. Y dydd cyntaf o Ragfyr, 1135, bu farw Harri; yr hyn a ddigwyddodd drwy fwyta lleiprai (*lampreys*) i ormodedd ar ddiwedd diwrnod o hela, yn Rouen. Cyrhaeddodd y 67ain mlwydd o'i oedran, a'r 35ain o'i deyrnasiad.

Heblaw y plant a anwyd o'i frenhines Maud, y mae haneswyr yn priodoli i Harri y plant canlynol: —1. Robert, iarll Gloucester, o Nesta, merch Rhys ap Tudur, tywysog Deheudir Cymru. 2. Richard (a foddwyd gyda'r tywysog William), o weddw Anskil, boneddwr o sir Berk. 3. Reginald, iarll Cernyw, o Sibylla, merch Syr Robert Corbet, a gwraig Henry Fitz-Herbert. 4. Robert, o Editha, merch Sigewolf, boneddwr Sacsonaidd. 5. Gilbert. 6. William, a gyfenwid de Tracy. 7. Henry Fitz-Herbert; yn ol un hanesydd, o Nesta. 8. Marie (a elwid hefyd Maud, neu Adela), is-iarlles Perche. 9. Maud, yr hon a briododd Conan the Gross, iarll Llydaw. 10. Tuliana, yr hon a briododd Eustace o Breteuil, iarll Pacie yn Normandy. 11. Constance, priod Roscelin, is-iarll Beaumont, yn Ffraingc. 12. Merch arall: gwraig Goet, Normaniad. 13. Un arall, a briododd Matthew Montmorency, sylfaenydd y teulu Ffrengig nodedig o'r enw hwnw. 14. Sibylla (a elwid hefyd Elizabeth), yr hon a briododd Alecsander i. o Ysgotland, o Elizabeth, gwraig Gilbert de Clare, iarll Penfro, a thad yr enwog Strongbow. [Gwel Fisher's *Comp. & Key to the History of England*, am hanes y personau hyn.]

Y mae cymmeriad Harri i'w weled yn amlwg oddi wrth y ffeithiau a nodwyd. Mewn ystyr foesol, yr oedd yn ddirmygus; ond arddengys ei wladlywiaeth alluoedd meddyliol o radd uchel. Yn nghanol ei holl benrhyddid, a'i uchelfrydedd dibetrus, meithrinai hoffder at lenyddiaeth ac addysg; ac yr oedd yn hoff o gymdeithas dynion dysgedig. Rhaid addef hefyd, yn ngwyneb y ffaith fod ei lywodraeth i raddau helaeth yn llym a gormesol, ei bod ar yr un pryd yn rhagori yn fawr ar yr eiddo ei dad, a'i frawd hynaf. Nis gall fod ammheuaeth fod y wlad dan ei lywodraeth wedi cynnyddu yn fawr mewn ystyr gymdeithasol. Yr oedd yn mwynhau gweinyddiad mwy rheolaidd o gyfiawnder rhwng gŵr a gŵr, a mwy o ddiogelwch rhag annhrefn, a niwed personol, nag a wnaethai er adeg dyfodiad y Normaniaid i Brydain. Dilynwyd Harri i'r orsedd gan Stephan.

HARRI II: yr hwn a gyfenwid Fitz-Empress, oedd fab hynaf Geoffrey Plantaganet [a enwid felly oddi wrth bingcyn o fanadl—Lladin, *planta genista;* Ffrancaeg, *plante genêt*—a wisgai yn ei gap], iarll Anjou, o Matilda, merch Harri i, ac a anwyd yn Le Mans, Mawrth, 1133. Yn yr ymdrech rhwng Stephan [Gwel Stephan] a Matilda am goron Prydain, yr oedd gŵr Matilda, Geoffrey, wedi darostwng Normandy yn mron yn llwyr erbyn y flwyddyn 1141, ac yr oedd ei fab Harri wedi ei gydnabod gan y rhan fwyaf o bendefigion y wlad hono fel eu duc. Yn Mehefin, 1142, aeth prif gynnorthwywr Matilda, sef ei hanner brawd Robert, iarll Gloucester, drosodd i Normandy, a dychwelodd yn Rhagfyr gyda'r tywysog Henry, ynghyd â chorff bychan o filwyr a gawsai gan yr iarll—ei dad. Am yn agos i bum mlynedd, bu Harri wedi ei gau i fyny, er mwyn diogelwch, mewn castell cryf yn Bristol. Yn 1147, dychwelodd at ei dad i Normandy. Yn 1149, yn 16 mlwydd oed, ail groesodd y môr, a threfnwyd mesurau rhwng ei ewythr Dafydd i., o Ysgotland, a chyfeillion ereill Harri, iddo adferu coron ei daid Yn y flwyddyn ganlynol, gwnaed ef, gan Louis vii. o Ffrainc, yn dduc yr oll o Normandy, oddigerth y parth a elwid Vexin, yr hwn a gadwyd gan Louis fel pris ei gydsyniad â dugiaeth Harri. Pan bu farw ei dad, gwnaed ef hefyd yn iarll Anjou, Touraine, a Maine. Sulgwyn y flwyddyn ganlynol, priododd Eleanor, gwraig ysgaredig y brenin Louis o Ffraingc—yn mhen chwech wythnos wedi ei hysgariad. Yr

Digitized by Google

oedd Eleanor ar y pryd yn is-iarlles Poitou, ac yn dduges Guienna, neu Aquitane, ac yr oedd Harri erbyn hyn yn feistr ar holl gyffiniau gorllewinol Ffrainc, oddi eithr Llydaw, o'r Somme hyd y Pyrenees. Yn fuan ar ol hyn, hwyliodd Harri i Brydain, gyda byddin fechan, ond pur ddetholedig. Cyfarfyddodd â Stephan yn Wallingford; ac mewn ymdrafodaeth a fu rhyngddynt yno, gan sefyll un ar bob tu i'r Tafwys, gwnaethant gyttundeb heddwch. Ac yn ddiweddarach, mewn canlyniad i farwolaeth Eustace, mab hynaf Stephan, mewn cynghor pwysig a gynnaliwyd yn Winchester, Tachwedd 7fed, 1153, fe fabwysiadwyd Harri gan Stephan: appwyntiodd ef yn olynydd. Ar ol ei farwolaeth, yr oedd i dderbyn gorsedd Brydain yn etifeddiaeth iddo ef ac i'w had byth.

Cyfrifir fod teyrnasiad Harri II. yn dechreu gyda'i goroniad ef a'i frenhines yn Westminster, Rhagfyr 19eg, 1154. Rhai o'i weithrediadau cyntaf oeddynt anfon ymaith y byddinoedd tramor a ddygasai Stephan i'r deyrnas; a dinystrio, hyd at eu sylfeini, y rhan fwyaf o'r castelli a gyfodasid mewn gwahanol fanau yn ystod yr ugain mlynedd o'r blaen gan y barwniaid, ac adfeddiannodd, gyda phenderfyniad didrugaredd, yr holl diroedd a drosglwyddasid oddi wrth y goron er adeg marwolaeth Harri I., gyda'r eithriad o'r rhai a roddasid i'r eglwys, ac i William, ail fab Stephan. Wedi hyny, yn 1155, galwodd gynghor ynghyd yn Wallingford, i'r diben o benderfynu yr olyniaeth; a chyttunwyd fod i'r goron, ar ol ei farwolaeth ef, fyned i'w fab hynaf, William: ond os byddai i William farw o'i flaen (yr hyn a ddygwyddodd y flwyddyn ganlynol i'r cynghor), i Harri, mab ieuangach, yr hwn nid oedd y pryd hyny ond ychydig fisoedd oed. Mewn cynghor arall, neu senedd, fel y geilw rhai ysgrifenwyr ef, a gynnaliwyd yn Llundain ar ol y gweithrediadau hyn, ac mewn cydymffurfiad â defod oedd erbyn hyn yn sefydledig, caniataodd fath o freintlen, yn sicrhau drosto ei hun a'i olynwyr, i'r clerigwyr, y pendefigion, a'r cyffredin, yr holl ryddid, hawliau, ac arferion a ganiatasid gan ei daid Harri I.

Tua'r adeg yma, galwyd am ei bresennoldeb dros y môr gan ymgais ei frawd ieuangach, Geoffrey, i gymmeryd ei dreftadaeth oddi arno; sef Anjou, Touraine, a Maine: ond ar ol ychydig o ymladd, gorfu i Geoffrey roddi i fyny yr ymdrechfa, a chyflwynodd Harri iddo bension o fil o goronau Seisonig, a mil o goronau Angevin, y rhai a fwynhaodd am ychydig dros flwyddyn. Bu farw yn 1158, yn Nantes, lle yr oedd yn llywodraethwr; ac mewn canlyniad, hawliai Harri y lle hwnw fel aer ei frawd. Mewn rhan drwy orfodaeth, ac mewn rhan drwy ei ddeheurwydd, llwyddodd Harri i ennill drwy yr hawl hon yr oll o Lydaw; yr unig ran o'i feddiannau oedd yn eisieu i gwblhau ei frenhiniaeth dros holl gyffiniau gorllewinol Ffraingc, ac yn wir dros yn agos i hanner y deyrnas hono. Gorfodwyd Conan, duc Llydaw, i arwyddo cyttundeb, yn ol yr hwn yr oedd i adael ei deyrnas ar ol ei farwolaeth i'w ferch Constantia, yr hon a ddyweddïodd â Geoffrey, mab ieuangaf Harri. Ar yr un pryd, sicrhawyd anymyriad Louis o Ffraingc, drwy drefnu fod i fab hynaf Harri, William, briodi merch y brenin hwnw, Margaret; a chyda hi derbyniodd dri o gastelloedd y Vexin fel ei chynnysgaeth. Yr oedd Harri eisoes wedi adferu oddi ar Malcolm IV. o Ysgotland, y siroedd gogleddol a gymmerwyd gan Dafydd I., ei flaenorydd yn y frenhiniaeth. Yr oedd hefyd wedi gyru y Cymry yn ol o'r rhanau hyny o Loegr a gymmerasant oddi ar Stephan. Ei symmudiad nesaf oedd ceisio meddiannu iarllaeth Toulouse, yr hon a hawliai yn rhinwedd ei wraig Eleanor; taid yr hon, William, duc Aquitaine, a briodasai Phillipa, unig blentyn William, pedwerydd iarll Toulouse. Trodd yr ymgyrch hwn allan yn aflwyddiannus.

Y mae hanes yr wyth mlynedd nesaf o frenhiniaeth Harri yn gynnwysedig yn yr ymdrechfa a fu rhyngddo â'r Eglwyswr balch ac ystyfnig, Thomas à Becket; yr hwn, wedi esgyn o sefyllfa o ddinodedd drwy y swyddau anrhydeddus o brif weinidog a changhellydd, i'r sefyllfa o archesgob Canterbury, a anturiodd ymgystadlu mewn mawredd ac awdurdod â'r brenin ei hun [gwel PRYDAIN]: ond ni therfynodd yr ymdrech hwn rhwng yr Eglwys a'r wladwriaeth am oruchafiaeth pan lofruddiwyd Becket, Rhagfyr 29ain, 1170. Yr oedd ei waed yn galw o'r ddaear gyda mwy o nerth a dylanwad na'i lais pan yn fyw. Ac yn 1174, gorfu i Harri, fel achosydd (anfwriadol, y mae yn wir) y weithred hon, ymostwng i fyned ar bererindod at fedd ei elyn: a dwy flynedd yn ddiweddarach, mewn cynghor a gynnaliwyd yn Northampton, rhoddwyd deddfau yr enwog Clarendon (drwy y rhai y gosodid yr Eglwys yn gyfrifol i'r wladwriaeth) mewn grym.

Yn y cyfamser, yr oedd dau wrthryfel pwysig o eiddo y Cymry (yn 1163 ac 1165), wedi eu darostwng; pryd yr anrheithiwyd rhanau eang o'r wlad, ac yr arferwyd tuag atynt greulondeb mawr, yn enwedig yr ail waith. Rhoddodd gwrthryfel y Llydawiaid yn erbyn Conan, eu duc, esgus i Harri gymmeryd meddiant o'r llywodraeth; yr hon a weinyddodd yn enw ei fab Geoffrey, a Constantia, merch Conan; y rhai, er mor ieuaingc oeddynt, a briodwyd er mwyn y trefniad yma. Ar y 10fed o Fedi, 1167, bu farw Matilda, mam Harri, yn Rouen. Un o ddigwyddiadau pwysicaf bywyd Harri, heb law ei ymrafael â Thomas à Becket, oedd gorchfygiad yr Iwerddon; yr hyn a ddechreuwyd yn 1169, gan nifer o anturiaethwyr gwirfoddol, yn cael eu blaenori gan Richard de Clare, iarll Penfro, neu Strongbow, fel y gelwid ef, ac a orphenwyd gan Harri ei hun, yr hwn a groesodd o Milford i Waterford gyda byddin gref, Hydref 18fed, 1171. Wedi myned yn ddiwrthwynebiad drwy y wlad—pryd yr ymostyngwyd iddo gan yr holl dywysogion, oddigerth tywysog Ulster—ac wedi cynnal ei lys, neu alw cynghorau ynghyd yn Dublin, Cashel, a lleoedd ereill, hwyliodd yn ol gyda'i fyddin o Wexford i Borthffinan, yn Nghymru, ddydd Llun y Pasc, Ebrill 17eg, 1172. Fodd bynag, adfywiodd ysbryd cenhedlaethol y Gwyddelod drachefn, ac ni ddarostyngwyd yr Iwerddon hyd 1175; pryd y gwnaed cyttundeb rhwng Harri a Roderic O'Conner; yr hwn a ystyrid yn frenin y wlad, yn ol yr hwn yr oedd yr olaf i dalu teyrnged flyneddol i Harri. Ac er ei fod i barhau o ran enw yn frenin, yr oedd i'w ystyried ei hun yn ddarostyngedig i frenin Lloegr.

Yr oedd rhan fawr o weddill bywyd Harri yn gynnwysedig o derfysg ac anghydfod teuluaidd—y meibion yn erbyn eu tad, y wraig yn erbyn ei gŵr, a brawd yn erbyn brawd. Yr oedd ei fab hynaf, Harri, nid yn unig wedi ei ethol yn iarll Maine ac Anjou, ond (er nad oedd y pryd hyny ond 16 mlwydd oed), fel etifedd tebygol gorsedd Prydain, wedi ei goroni fel y cyfryw yn Westminster Abbey, Mehefin 15fed, 1170. O blegid

hyny gelwir ef gan rai hen haneswyr yn Harri III. Yn 1172, aethpwyd eilwaith drwy seremoni y coroniad, pryd y coronwyd ei wraig, Margaret o Ffraingc, gydag ef. Yn fuan wedi hyn, drwy gymmhelliad ei dad yn nghyfraith Louis, fe ddywedir, hawliai y tywysog ran o awdurdod freninol ei dad:—mynai i Harri gyflwyno iddo naill ai Prydain ai Normandy. Gwrthodwyd ei gais: ac mewn canlyniad, yn Mawrth, 1173, cawn iddo ef, a'i frodyr ieuangach, Richard a Geoffrey, ddiangc i lys brenhinol Ffraingc. Hawliai Richard Aquitaine, yn rhinwedd ei fod wedi talu gwarogaeth i Louis am y ddugiaeth hono ar sefydliad heddwch Montmirail; a sylfaenai Geoffrey ei hawl i Lydaw, ar ei briodas â Constantia, merch Conan. Tua'r un amser, gadawodd y frenhines Eleanor ei gŵr, i'r diben o gefnogi mewn modd mwy cyhoeddus wrthryfel ei phlant, yr hwn a gychwynwyd yn benaf drwy ei chymhelliadau hi; o blegid yr oedd anffyddlondeb ac esgeulusdod Harri wedi troi serch y wraig hon yn ddygasedd chwerw a syched am ddial. Yr oedd yn prysuro tua llys ei gŵr cyntaf yn Ffraingc, wedi ymwisgo mewn dillad dyn, pan ddaliwyd ac y dygwyd hi yn ol at Harri, gyda'r hwn yr arosodd mewn caethiwed tra y bu efe byw. Ond ni bu y digwyddiad hwn yn foddion i derfynu gwrthryfel ei meibion. Cefnogid achos Harri ieuangc, nid yn unig gan Louis, ond hefyd gan William o Ysgotland, a chan rai o farwniaid galluocaf Normandy a Phrydain. Gyda'r egni a'r bywiogrwydd hwnw oedd yn naturiol iddo, parotodd Harri fodd bynag i gyfarfod ei elynion o bob pwynt. Dechreuodd y rhyfel ar y Cyfandir (lle yr aeth Harri ei hun gyda'r fyddin), ac ar gyffiniau Ysgotland, yn haf yr un flwyddyn. Weithiau yn peidio, ac wedi hyny yn ail ennyn, parhaodd y rhyfel am oddeutu dwy flynedd; yn ystod yr hwn amser y digwyddiad pwysicaf â gymmerodd le ydoedd cymmeryd y brenin William o Ysgotland yn garcharor, Gorph. 12fed, 1174. Yn fuan wedi hyn, cydsyniodd Harri â cheisiadau ei feibion am heddwch:—Louis ac yntau yn dychwelyd pa bethau bynag a gymmerasant oddi ar eu gilydd; a Harri ieuangc, Richard, a Geoffrey, yn ymfoddloni ar gastell neu ddau bob un, yn nghyd â symiau pennodol o arian o gyllid y taleithiau hyny a hawlient fel eu meddiannau. Yn Rhagfyr, 1174, gwnaed cyttundeb âg Ysgotland yn nghastell Falaise, Normandy, yn yr hwn y cydnabyddai yr Ysgotiaid ddibyniaeth gwarogaethol eu coron ar yr eiddo Harri, ar yr ammod o ryddhad eu brenin William. Y cyfnod o saith neu wyth mlynedd a ddilynodd hyn ydoedd y tawelaf yn ystod bywyd Harri, a'r cyfnod pryd yr oedd ei fawredd yn sefyll uchaf. Gyda'r meddiannau treftadol, Lloegr a Normandy, Anjou heb ei hawlio gan un ymgeisydd arall, Aquitaine a Poitou yn ymlynu wrth ei frenhiniaeth, goresgyniad yr Iwerddon wedi ei sicrhau, y Cymry a'r Ysgotiaid hefyd i radd helaeth wedi eu darostwng —efe, yn ddiammheu, oedd y pryd hyny y galluocaf o benaduriaid Ewrop. Yn 1183, fodd bynag, bu ysbryd ffyrnig a therfysglyd ei feibion yn foddion i arwain y ffordd drachefn i lawer o ryfeloedd teuluol. Y tro hwn, cymmerodd Richard arfau i fyny yn erbyn Harri a Geoffrey, a hyny am fod Harri ei dad yn gorchymyn iddo dalu gwarogaeth i Harri am Aquitaine: ac yn fuan wedi hyny gorfu i'r brenin Harri a Richard fyned i ryfel â Harri a Geoffrey. Wedi i Harri adael ei dad a'i frawd Geoffrey y naill ar ol y llall o ddeutu hanner dwsin o weithiau cymmerwyd ef yn glaf, a bu farw yn Château-Martel Meh. 11eg, 1183. Parhaodd Geoffrey i ryfela, yn cael ei gynnorthwyo gan brif foneddigion Aquitaine; ond yn fuan rhoddodd ei arfau i lawr, gan erfyn maddeuant ei dad. Cymmerodd heddwch teuluol difrifol le y pryd hyny, a chafodd Eleanor ei rhyddhau o garchar, a chaniatâd i fod yn bresennol. Ond ni pharhaodd ond am ychydig fisoedd: mewn canlyniad i waith Harri yn gwrthod rhoddi iarllaeth Anjou i Geoffrey, ffodd yr olaf i lys brenhinol Ffraingc, lle yr oedd Phylip II. yn awr yn frenin, a pharotodd i ryfel drachefn; ond cyn y gallodd roddi ei gynllun mewn gweithrediad, taflwyd ef oddi ar ei farch mewn twrneimaint, a bu farw yn mhen ychydig ddyddiau, yn Awst, 1186. Mor fuan ag y bu farw, prysurodd ei frawd Richard i gymmeryd ei le; ond wedi bod yn aflwyddiannus mewn ymgais i ail ennyn gwrthryfel yn Aquitaine, gorfu iddo daflu ei hun ar drugaredd ei dad. Tua diwedd y fl. 1188, mewn undeb â brenin Ffraingc, cymmerodd Richard drachefn arfau i fyny yn erbyn ei dad, ar yr esgus o fod Harri wedi gwrthod rhoddi i fyny y dywysoges Alice, chwaer Phylip o Ffraingc, a gwraig ddyweddiedig Richard. Proffesai Richard gredu fod ei dad yn amcanu ei phriodi ei hun, ac hefyd, fod ei anrhydedd wedi syrthio yn aberth i nwydau Harri; ac wedi talu gwarogaeth i Phylip am feddiannau ei dad ar y Cyfandir, prysurodd i'w cymmeryd oddi ar yr hen ŵr drwy nerth y cleddyf. Yr oedd ysbryd Harri erbyn hyn wedi rhoddi ffordd, ac yr oedd y gwrthwynebiad a wnaeth i'w fab yn wan ac aneffeithiol. Amcanodd y pab i gymmodi y tad a'r mab, ond methodd; a gorfu i Harri appelio at Richard am heddwch, a chyttunwyd rhwng Harri a Phylip, ar wastadedd rhwng Tours ac Azay-sur-cher, yn mysg pethau darostyngol ereill, fod i holl ddeiliaid Harri yn Mrydain ac ar y Cyfandir dalu gwarogaeth i Richard, fel cydnabyddiaeth o'i iawnderau, fel etifedd tebygol; ac fod yr holl bersonau hyny a gymmerasent ei blaid ef i gael eu hystyried o hyny allan yn ddeiliaid iddo, oddieithr y byddai iddynt ddychwelyd yn wirfoddol at ei dad. Pan ddarllenwyd y cyttundeb iddo, yr oedd Harri yn gorwedd ar ei glaf-wely; a phan ddeallodd fod ei fab ieuangaf ac anwylaf, John, (ffyddlondeb yr hwn nid oedd erioed o'r blaen wedi ei ammheu) yn mhlith cefnogwyr Richard, ymddengys i'r darganfyddiad hwn dori ei galon; trodd ei wyneb at y pared, a dywedodd fod ei holl gysur a'i ddyddordeb yn y byd bellach wedi darfod. Yn fuan wedi hyn symmudwyd ef i Chinon, ar yr afon Loire, lle y bu farw, Gorph. 6ed, 1189, a chanlynwyd ef ar yr orsedd gan Richard.

Plant Harri o'i wraig Eleanor oeddynt— 1. William; 2. Harri; 3. Maud, yr hon a briododd Harri V., duc Saxony; 4. Richard; 5. Geoffrey; 6. Eleanor, yr hon a briododd Alphonso VIII., brenin Castile; 7. Joan, yr hon a briododd William II., brenin Sicily; 8. John, yr hwn a ddilynodd Richard i'r orsedd. Ei blant anghyfreithlawn oeddynt—1. William (De Longspee) o'r enwog Rosamund, merch Walter, arglwydd Clifford—daeth y mab hwn yn iarll Salisbury yn rhinwedd ei briodas âg Ela, merch William Devereux: 2. Geoffrey, o'r un foneddiges, yr hwn a ddaeth yn esgob Lincoln, yn arglwydd ganghellydd, ac wedi hyny yn archesgob York: 3. Morgan, o wraig Rodolph Blewit, Eglwyswr, yr hwn a lanwai y swydd o gadfaer (*provost*) Beverley.

Digitized by Google

HARRI III. (a gyfenwid Winchester, oddi wrth le ei enedigaeth) ydoedd fab hynaf y brenin John, o'i frenhines Isabella, o Angoulême, ac a anwyd Hydref 1af, 1206. Coronwyd ef mewn modd difrifol, yr 28ain o Hydref, 1216, yn eglwys St. Pedr, Gloucester, a chyfrifir ei frenhiniaeth o'r amser hwnw.

Ar yr 11eg o fis Tachwedd, mewn cynghor mawreddog a gynnaliwyd yn Bristol, appwyntiwyd iarll Penfro yn amddiffynwr neu lywodraethwr y brenin a'r frenhiniaeth (*Rector Regis et Regni*); a pharhaodd y boneddwr rhagorol i flaenori yn y weinyddiaeth hyd ei farwolaeth, Mai, 1219. Wedi hyn, syrthiodd y weinyddiaeth i ddwylaw Hubert de Burgh, yr hwn a ennillasai enwogrwydd mawr yn ei waith yn gyru allan y tramorwyr, a Peter des Roches, esgob Winchester. Yn y cyfamser, Mai 17eg, 1220, mewn canlyniad i ammheuaeth oedd yn ffynu gyda olwg ar ddilysrwydd coroniad Harri yn Gloucester, aethpwyd drwy y seremoni eilwaith yn Westminiser, gan Langton, archesgob Caergaint. Yn 1221, gosodwyd heddwch ac undeb âg Ysgotland ar sylfaen gadarnach drwy briodas Alexander II, brenin y wlad hono, â Jane, chwaer hynaf Harri, a phriodas De Burgh â Margaret, chwaer hynaf Alexander.

Yn 1222, cyhoeddwyd Harri yn gymmhwys o ran oedran i weinyddu rhai swyddi cyssylltiedig â'r frenhiniaeth; ond yr oedd gwendid ei gymmeriad yn gyfryw fel nad oedd etto yn meddu unrhyw awdurdod. Rheolai De Burgh y weinyddiaeth (ac nid oedd neb arall yn ymyryd), ar y cyfan gyda gallu a llwyddiant; etto, mewn ysbryd llym, yr hwn pa un bynag a oedd yn angenrheidiol ai peidio, nis gallai lai na chreu iddo liaws o elynion; ac yn 1232, mewn canlyniad i waith Richard, iarll Cernyw, brawd y brenin, yn arfer dylanwad ei berthynas agos, a'i gyfoeth mawr, o'u plaid, gorfu i De Burgh ymadael â'i holl swyddau—carcharwyd ef, ac amddifadwyd ef o'i urddau a'i feddiannau. Gosodwyd Des Roches, esgob Winchester, yr hwn oedd erbyn hyn wedi dychwelyd, yn ei le; ond arweiniodd ei ormes a'i bleidgarwch ef tuag at ei genedl ei hun, a thramoriaid ereill, i'w ddiswyddiad yntau a dyrchafiad Edmund, archesgob Caergaint, i'w le. Yn 1236, yn 30 oed, priododd Harri Eleanor, merch Raymond, Count Provence. Dygodd y cyssylltiad hwn faich mawr ar y genedl; a hyny'o blegid gwaith y frenhines yn dwyn gyda hi gynnifer o'i pherthynasau a'i chydwladwyr, i'r rhai y llwyddodd i ddargymmhell ei gŵr i gyflwyno blwydd-daliadau, etifeddiaethau, urddau, ynghyd â'r swyddau mwyaf anrhydeddus yn y wladwriaeth. Heblaw y terfysg a achoswyd gan y fath ymddygiadau rhwng y goron a'r bendefigaeth, adnewyddodd yr ymrafael â Ffraingc, a hyny yn achos Isabella, mam Harri. Wedi marwolaeth y brenin John, dychwelodd Isabella, a phriododd Hugh, Count La Marche. Cymmhellodd ei gŵr i sarhau a herfeiddio Alphonso, count Poitou, brawd brenin Ffraingc, wedi talu gwarogaeth iddo; ac yna dargymmhellodd ei mab Harri i fyned i ryfel drosti yn erbyn Ffraingc. Hwyliodd Harri tua'r Cyfandir; ond trodd yr ymgyrch allan yn aflwyddiant gwaradwyddus. Wedi ei orchfygu gan Louis mewn llawer o frwydrau yn olynol, yr oedd yn dda ganddo ddychwelyd gartref, wedi ei amddifadu o'i fyddin, ei arian, a'i gelfi—pob peth a feddai; a sefydlwyd cynghrair heddwch eilwaith rhwng y ddwy wlad am bum mlynedd.

Fel y gallesid disgwyl, parodd y dygwyddiadau hyn i anfoddlogrwydd y genedl gynnyddu, ac i'r senedd leihau yn ei haelfrydedd tuag at y brenin. Parodd hyn i Harri amcanu llywodraethu ei ddeiliaid ar wahân oddi wrth y senedd (*by prerogative*); a llwyddodd mor bell fel na wnaed gwrthwynebiad effeithiol i'w lywodraeth am lawer o flynyddoedd. Pan oedd amgylchiadau yn gwasgu, galwodd y senedd ynghyd amryw weithiau; ond nid oeddynt nemawr mwy ffafriol i Harri: a'r canlyniad fu, iddo adnewyddu ei lywodraeth unbenaethol. Yn 1253, drwy gydsynio mewn modd difrifol i gadarnhau y breintlenau, llwyddodd i gael swm o arian gan y senedd; yr hyn a'i galluogodd i fyned drosodd i Guienne, gyda byddin, lle yr oedd gwrthryfel yn erbyn ei lywodraeth wedi ei ennyn gan Alphonso, brenin Castile. Terfynwyd yr ymrafael yn fuan drwy gyttundeb priodas rhwng Edward, mab hynaf Harri âg Eleanor, chwaer Alphonso. [Gwel IORWERTH I.] Ar ol hyn, cydsyniodd Harri âg ymdrafodaeth a ddygodd ei amgylchiadau yn fuan i ddyryswch mawr: derbyniodd gan Innocent IV. goron Sicily i'w fab Edmund, yr hon y proffesai fod ganddo hawl i'w rhoddi mewn canlyniad i farwolaeth y brenin blaenorol mewn cyflwr o esgymundod; a'r hon y bu yn ei chynnyg am amser maith i wahanol dywysogion yn Ewrop, heb gael neb yn ddigon ffol i gredu fod ganddo hawl i'w chyflwyno hyd nes y cynnygiodd hi i Harri, brenin Lloegr. Bu y gormes y gorfu i Harri ei arfer tuag at y genedl, i'r dyben o gyfarfod ei ymrwymiadau â'r pab yn foddion i ennyn teimladau gwrthryfelgar, y rhai a arweiniasant y deiliaid i godi mewn rhyfel yn erbyn y llywodraeth, o dan arweiniad yr enwog Simon de Montfort; a gorfu i brif weinidogion y llywodraeth ffoi allan o honi, a chymmerwyd y brenin yn garcharor gan y barwniaid. Yn fuan, torodd ymrafael allan yn mhlith y gwrthryfelwyr, yr hyn a roddodd fantais i Harri adennill ei awdurdod (1261) a gorfu i De Montfort ffoi i Ffraingc. Ond dychwelodd yn Ebrill, 1263; ac yn cael ei gefnogi gan Gilbert, iarll Gloucester, dechreuodd ymosodiad newydd ar y llywodraeth, yr hwn a lwyddodd i'r fath raddau fel ag i agos ddymchwelyd y llywodraeth, pryd y llwyddodd brawd Harri, Richard, iarll Cernyw, i heddychu y pleidiau. Gosodwyd De Montfort a'i gyfeillion drachefn yn y weinyddiaeth, a darostyngwyd y brenin i sefyllfa hollol ddiawdurdod—sefyllfa delw megys, yn eu dwylaw hwy. Yn mhen ychydig fisoedd, fodd bynag, adnewyddwyd y rhyfel rhwng y ddwyblaid. Ar y 14eg o Fai, 1264, cyfarfyddodd y byddinoedd—byddin y barwniaid o dan arweiniad De Montfort, a'r fyddin arall o dan arweiniad Harri ei hun, a'i fab Edward—yn Lewes, Sussex, lle yr ennillodd De Montfort fuddugoliaeth gyflawn, a chymmerwyd Harri a'i fab yn garcharorion. Gosododd hyn y llywodraeth yn gwbl o dan awdurdod De Montfort; ond dywedir fod ei uchelfrydedd a'i drais eisoes wedi peri i liaws o'r pendefigion mwyaf dylanwadol ymneillduo oddi wrtho, ac i wneyd trefniadau gyda golwg ar adferu y brenin i'w orsedd; ond dydd Iau, wythnos y Sulgwyn, 1265, llwyddodd y tywysog Edward i ddiangc o gastell Dover, ac ymunodd âg iarll Gloucester, yr hwn oedd wedi encilio oddi wrth De Montfort, ac yn aros gyda byddin i'w dderbyn yn Ludlow, sir Amwythig. Ar y 4ydd o Awst, cyfarfyddodd y pleidiau drachefn yn Evesham, a rhoddodd Edward y pryd hwnw brawf o allu milwrol anarferol. Llwyr orchfygwyd plaid De Montfort;

yn hollol, a bu cynghrair a wnaed â'r Ysgotiaid yn foddion i'w heddychu hwy am amser. Yn amser y cadoediad neu y cynghrair hwn (sef ar y 30ain o Fawrth, 1405) y goddiweddwyd ac y cymmerwyd meddiant gan y wiblong Brydeinig o'r llong yn yr hon yr oedd James, mab hynaf y brenin Robert o Ysgotland, yn hwylio tua Ffraingc, a'r hwn a gymmerwyd yn garcharor gan Harri: ac er y dylasai ddilyn ei dad yn yr orsedd yn y flwyddyn ganlynol, cadwyd ef yn garcharor gan Harri hyd 1424. Tua'r un amser darganfyddodd Harri fradwriaeth i gymmeryd ei fywyd, yn yr hwn yr oedd ei gefnder Edward, y duc o York, yn cymmeryd rhan bwysig, ac etifeddiaethau yr hwn a feddiannwyd yn ddioed gan y goron. Yr un adeg hefyd, darostyngwyd ymgais gwrthryfelgar arall, o eiddo teulu Percy, o dan arweiniad Scroop, archesgob York, yr hwn a ddiweddodd ei oes mewn canlyniad ar y dienyddle. Yn Chwefror, 1408, rhoddwyd trydydd gwrthryfel yn y gogledd i lawr—ymgais olaf hen iarll Northumberland, yr hwn a gollasai ei etifeddiaethau, ac a gyhoeddasid yn herwr (*outlaw*) ychydig o flynyddoedd cyn hyny—yn mrwydr Branham Moor, ger Tadcaster, pryd y lladdwyd yr iarll ei hun.

Yn y cyfamser, 'yr oedd rhyfel achlysurol â Ffraingc, yr hwn a ddygasid yn mlaen ar y cyntaf ar y môr, wedi arwain o'r diwedd i weithrediadau milwrol yn Guienne, lle yr oedd y Ffrangcod wedi ymosod ar feddiannau Prydain; yr hyn a ddygodd Harri i gymmeryd rhyw ran yn yr ymrafael oedd yn bodoli rhwng y ddwy blaid wladol oedd y pryd hyny yn gwneyd cymmaint o derfysg yn Ffraingc—y Bourguignoniaid a'r Orleaniaid, neu yr Armagnaciaid. Wedi iddo yn gyntaf anfon byddin i gynnorthwyo y flaenaf yn 1411, y flwyddyn ganlynol newidiodd ei blaid, ac ymunodd â'r olaf, gyda'r amcan, fe ymddengys, o gynnal i fyny yr aflywodraeth a achoswyd gan eu cweryl; ond nid arweiniodd yr ymdrafodaeth hon i unrhyw ganlyniadau pwysig yn ystod teyrnasiad Harri.

Fel yr oedd Harri yn heneiddio, daeth yn fwy llym ac angharedig, a chollodd yr holl ffafr hwnw a feddai yn ngolwg ei ddeiliaid ar ei esgyniad i'r orsedd; a chafodd y gofid o weled, nid yn unig ei gyfeillion goreu wedi troi yn elynion iddo, ond ffafr a serchiadau ei ddeiliaid yn gyffredinol wedi eu trosglwyddo i'w fab. Chwanegwyd hefyd at ei afiechyd corphorol bigiadau cydwybod am lawer o'i ymddygiadau creulawn cyntefig, ac yn enwedig am y dull yn mha un y cymmerasai feddiant o'r goron, a'r hon yr ofnai na byddai i'r nefoedd ganiatau i lawer o'i hiliogaeth ei gwisgo. Meddyliodd am esmwythau ei gydwybod drwy fyned ar bererindod i'r dwyrain; ond bu farw cyn cyflawni ei fwriad, Mawrth 20fed, 1413, yn y 47ain flwyddyn o'i oed, a'r 14eg o'i deyrnasiad.

O'i wraig Mary de Bohun, ganwyd iddo—1. Harri, yr hwn a'i dilynodd. 2. Thomas, iarll Albemarle, a duc o Clarence. 3. John, iarll Kendal, a duc o Bedford, ac wedi hyny rhaglaw Ffraingc. 4. Humphrey, iarll Penfro, a duc o Gloucester. 5. Blanch, a briodwyd yn olynol â Lewis Barbatus, duc o Bavaria, â brenin Aragon, ac â'r duc o Bar. 6. Phillipa, a briododd Eric x., brenin Denmarc a Norway. O'i ail wraig, Joanna, merch Charles II., brenin Navarre, a gweddw John v., y duc o Brittany, yr hon a briododd yn 1403, ni anwyd iddo blant.

HARRI V., a gyfenwid Monmouth (Mynwy), oddi wrth le ei enedigaeth, ydoedd fab hynaf Harri IV., o'i wraig gyntaf Mary de Bohun, ac a anwyd yn y flwyddyn 1388. Addysgwyd ef yn Ngholeg y Frenhines, Rhydychain, o dan arolygiaeth ei hanner ewythr, y cardinal enwog Henry Beaufort. Pan yr oedd ei dad mewn alltudiaeth [gwel HARRI IV.], yn 1399, cymmerwyd ef a mab i'r duc o Gloucester gan y brenin Richard i'r Iwerddon, a gosodwyd hwy mewn dalfa yn nghastell Trim, lle yr arosasant hyd ddiorseddiad Richard. Ar esgyniad ei dad i'r orsedd, gwnaed ef yn Dywysog Cymru, duc o Guienne, Lancaster, a Chernyw, ac iarll Caerlleon, a chyhoeddwyd ef mewn gweithred seneddol yn etifedd tebygol i'r goron. Gwisgodd arfau rhyfel pan nad oedd ond 16 mlwydd oed, yn mrwydr yr Amwythig; ac er iddo gael ei glwyfo yn dost yn ei wyneb, ymladdodd yn ddewr hyd derfyn y frwydr. Yn fuan iawn wedi hyn, anfonwyd ef i Gymru, gyda'r fyddin a ddefnyddiasid yn erbyn Owain Glyndwr o dan ei arweiniad, a bu am rai blynyddoedd yn ymladd yn erbyn y gŵr enwog hwnw; yn ystod pa amser amlygodd ddyfeisgarwch a gallu milwrol anghyffredin, gan orchfygu ei wrthwynebydd mewn amryw o ymosodiadau olynol. Mewn un o honynt, yn Grosmont, sir Fynwy, Mawrth, 1405, cymmerodd ei fab Gruffudd yn garcharor—ac o'r diwedd darostyngwyd y rhan fwyaf o Gymru i ufudd-dod. Fe ddywedir fod yr enwogrwydd a'r ffafr a ennillodd y tywysog yn y brwydrau hyn wedi ennyn cenfigen ei dad i'r fath raddau, fel ag i beri iddo ei dynu o'r fyddin; ac iddo yntau mewn canlyniad, wedi ei ryddhau oddi wrth lafur meddyliol a chorphorol, ymollwng i gyfeddach a meddwdod; yr hyn a ddygodd arno gymmaint o anghymmeradwyaeth a dirmyg ag a ennillasai o ffafr a gogoniant yn mhlith ei genedl cyn hyny. Aeth i'r fath eithafion yn y cyfeiriad yna, fel pan ddygwyd un o'i gymdeithion drygionus i sefyll ei brawf am ryw drosedd o'i eiddo, a phan gyhoeddwyd dedfryd y llys arno, tarawodd Harri yr arglwydd-brif farnwr yn nghanol y llys. Cafodd yntau ei garcharu gan Syr William Gascoigne mewn canlyniad. Ond pan ddaeth yn frenin, gadawodd ei hen gymdeithion yn hollol, ac adennillodd y ffafr a gollasai. Cyhoeddwyd Harri yn frenin, Ebrill 21ain, 1413, y dydd canlynol i farwolaeth ei dad, yn nghanol llawenydd brwdfrydig a chyffredinol y genedl. Dechreuodd ei deyrnasiad gydag amryw ymddygiadau o nodwedd haelfrydig, symmudodd weddillion Richard II. i Westminster Abbey—rhyddhaodd yr iarll ieuangc, March, o'r caethiwed y buasai ynddo yn ystod holl deyrnasiad ei dad, a galwodd yn ol fab Hotspur o'i alltudiaeth yn Ysgotland, a rhoddodd yn ol iddo ei urddau a'i feddiannau treftadol. Yn mhen o ddeutu blwyddyn wedi esgyn i'r orsedd, yn cael ei gefnogi yn wresog gan Dŷ yr Arglwyddi a Thŷ y Cyffredin, a chan y genedl yn gyffredinol, dechreuodd ar y gwaith o oresgyn Ffraingc; yr hyn sydd yn ffurfio yn mron yr oll o hanes ei deyrnasiad. Hawliai Harri goron Ffraingc ar yr un tir ag y gwnaethai Iorwerth III. yn y ganrif flaenorol—i iawnderau yr hwn yr ystyriai ei hun yn etifedd cyfreithlawn, yn rhinwedd ei olyniaeth yn yr orsedd, er nad oedd yn olynydd i'r brenin hwnw mewn llinach deuluaidd; ac yr oedd yr hawlfraint neillduol hon yn dibynu yn hollol ar waedoliaeth y person a'i ceisiai. Wedi gosod ei frawd, y duc o Bedford, yn rhaglaw (*regent*) yn ystod ei absennoldeb, hwyliodd o Southampton, Awst 13eg, 1415, gyda byddin o 24,000 o wŷr

Digitized by Google

traed, ac o ddeutu 6,500 o wŷr meirch, mewn llynges o 1,200 neu 1,400 o longau, a chyrhaeddodd enau y Seine ar y 15fed o'r un mis. Dechreuodd ymosod yn ddioed ar amddiffynfa gadarn Harfleur; ac ar ol gwarchau arni am chwech wythnos, hi a ymostyngodd. Yn ystod yr un amser, yr oedd clefyd y gwaed wedi tori allan yn mhlith milwyr Harri, gan wneyd difrod arswydus arnynt.

Ar y 6ed o Hydref, dechreuodd Harri encilio trwy Normandy, gyda byddin oedd erbyn hyn wedi ei lleihau i 9,000 o wŷr. Ar y 19eg, llwyddodd i groesi y Somme trwy ryd a orweddai rhwng Betencourt a Voyenne; ar y 24ain, croesodd y Ternois a'r Blangi; ac yna daeth i olwg byddin Ffrengig oedd yn ymddangos yn benderfynol o'i rwystro yn mlaen. Ar wastadeddau Agincourt, yr oedd yr holl fyddin Ffrengig wedi ei chasglu o dan lywyddiaeth cwnstabl Ffrainge. Nid oedd dim i'w wneyd bellach ond ymladd. Anfonwyd Dafydd Gam, cadben o Gymro, i gael allan nifer y Ffrangcod, yr hwn wedi dychwelyd a ddywedai—"Fy arglwydd, y mae yna ddigon i'w lladd, digon i'w cymmeryd yn garcharorion, a digon i redeg i ffordd." Gan fod y gelyn yn gymmaint lliosocach, casglodd Harri ei fyddin ar lain cul o dir rhwng dau lwyn o goed, ac yna arosodd ymosodiad ei elyn. Am amser, yr oedd y ddwy fyddin fel pe yn ofni dechreu; ni wnaent ond syllu ar eu gilydd: yna llefodd Harri:—"Fy nghyfeillion: gan na wnant ddechreu, gadewch i ni osod esampl iddynt." Er fod byddin Ffrainge yn rhifo o 50,000 i 150,000 o wŷr, fe wnaeth dewrder byddin Harri eu diffyg mewn rhif i fyny—ennillodd y frwydr, heb golli ond 40 o wŷr yn unig, tra yr oedd colled y Ffrangcod yn 24,000 rhwng lladdedigion a charcharorion. Ystyrir y fuddugoliaeth hon yn un o'r rhai cyflawnaf a rhyfeddaf sydd ar gof a chadw. Symmudodd Harri wedi hyny i Calais, a hwyliodd tua Lloegr. Pan gyrhaeddodd Dover, rhuthrai y bobl i'w gyfarfod; ac ar hyd y ffordd oddi yno i Lundain, wedi eu meddwi gan lawenydd, rhoddent ollyngdod i'w teimladau mewn trwst a barai i'r ddaear grynu megys oddi tanynt. Ond er na dderbyniodd cenedl erioed y fath ddyrnod mewn un frwydr ag a dderbyniodd Ffrainge y diwrnod hwnw, ac er fod pawb fel yn golygu fod y fuddugoliaeth hono yn sicrhau darostyngiad y genedl, ni chymmerodd goresgyniad llwyr y deyrnas le am flynyddoedd wedi hyny, pryd y darfu i'r genedl—yr hon oedd erbyn hyn wedi ei rhwygo gan ymrafaelion alaethus yn y wleidyddiaeth, ac wedi myned yn mron yn amddifad o un math o lywodraeth—ymostwng i dderbyn iau y goresgynydd. Prif erthyglau y cyttundeb a wnaed y pryd hyn oeddynt, fod i Harri briodi Catherine, merch Charles, brenin Ffrainge; fod i Charles fwynhau ei deitl a'i urddau tra y byddai byw, ond fod i Harri etifeddu y goron ar ei farwolaeth, a chael llywyddiaeth y deyrnas ar unwaith; fod i Ffrainge a Lloegr fod mewn undeb byth mwy, o dan un brenin, ond i gadw eu deddfau a'u rhagorfreintiau eu hunain.

Cymmerodd priodas Harri â Chatherine le Mehefin 2il, 1420. Ar y 4ydd, dechreuodd eilwaith ar ei weithrediadau milwrol, a bu am rai misoedd yn darostwng y trefydd Sens, Montereau, Villeneuve-le-Roi, a Melun. Ar y 18fed o fis Tachwedd, aeth Harri a Charles i mewn i Paris mewn goruchafiaeth, ac yno cadarnhawyd yn unfrydol gyttundeb Troyes (Rhagfyr 10fed) mewn cynnulleidfa o dair rhandir y frenhiniaeth.

Ar yr 22ain o Chwefror, y flwyddyn ganlynol, derbyniwyd ef a'i frenhines yn Llundain gyda llawenydd na welwyd ei gyffelyb yn y ddinas hono cyn nac wedi hyny.

Ond nid arosodd gartref yn hir. Ar yr 22ain o Fawrth, gorchfygwyd ei frawd, y duc o Clarence, yr hwn a adawsai yn llywydd Normandy, mewn brwydr a ymladdwyd yn Baugé, yn Anjou, gan fyddin oedd yn gynnwysedig yn benaf o gynnorthwywyr (*auxiliaries*) Ysgotaidd o dan yr iarll Buchan, yr hwn a laddodd Clarence â'i ddwylaw ei hun, am yr hyn y derbyniodd gan y Dauphin (mab hynaf Charles o Ffrainge) y swydd o gwnstabl Ffrainge. Gan deimlo fod ei bresennoldeb yn eisieu yn Ffrainge, hwyliodd Harri i Calais yn nechreu Mehefin, gan gymmeryd gydag ef fyddin Ysgotaidd, o dan lywyddiaeth iarll Douglas, ynghyd â'i garcharor, y brenin Ysgotaidd, i'r hwn yr addawai ryddhâd mor fuan ag y dychwelent i Brydain. Cyfarfyddodd Harri â'i lwyddiant arferol yn yr ymgyrch hwn; gyrai y Dauphin o'i flaen, o'r naill le i'r llall, nes ei orfodi i encilio i Bourges, yn Berry. Ar yr 22ain o Fai, 1422, gyda phomp mawr, aeth i mewn i Paris, yn cael ei ddilyn gan ei frenhines, yr hon a ddaethai drosodd i ymuno âg ef, wedi rhoddi genedigaeth i fab yn nghastell Windsor ar y 6ed o Ragfyr, y flwyddyn o'r blaen. Ond yr oedd diwedd bywyd buddugoliaethus Harri gerllaw. Daeth y Dauphin, a'r cwnstabl Buchan, i fyny drachefn o'r deheu, a dechreuasant warchae ar dref Cosne. Er fod Harri yn glaf ar y pryd, prysurodd i ryddhau y lle hwnw; ond yr oedd yn analluog i fyned yn mlaen yn mhellach na Corbeil, o ddeutu ugain milldir o Paris; rhoddodd lywyddiaeth ei fyddin i'w frawd, y duc o Bedford, a chludwyd yntau ar elorglud yn ol i'r Bois de Vincennes, yn agos i'r brifddinas; ac yno, wedi mis o afiechyd, bu farw, Awst 31ain, yn y 34ain flwydd o'i oed, a'r ddegfed o'i deyrnasiad.

Ni bu teyrn erioed yn fwy anwyl gan ei ddeiliaid na Harri v.; ac nid oes mewn hanesiaeth un enghraifft o anfoddlonrwydd gyda golwg ar un ran o'i lywodraeth, o ddechreu hyd ddiwedd ei deyrnasiad.

HARRI VI. (a gyfenwid *o Windsor*, oddi wrth le ei enedigaeth), ydoedd unig blentyn Harri v., o'i frenhines Catherine o Ffrainge. Ganwyd ef Rhagfyr 6ed, 1421; ac felly nid oedd ond naw mis oed pan bu farw ei dad, gan ei adael yn frenin Lloegr. Cyfrifir ei deyrnasiad o Medi 1af, 1422; sef y dydd canlynol i'r hwn y bu ei dad farw.

Ar goroniad Harri, ymddiriedwyd gofal y llywodraeth i'r ieuangaf o'i ddau ewythr, Humphrey, neu fel y gelwid ef, yn gyffredin, "Humphrey Dda," y duc o Gloucester; a chymmerodd yr hynaf, sef y duc o Bedford, le ei frawd ymadawedig fel llywodraethwr Ffrainge. Yn mhen amser wedi hyn rhoddwyd y brenin, ynghyd â'i addysgiad, o dan ofal Richard de Beauchamp, iarll Warwick, ac i ewythr y brenin, esgob (wedi hyny cardinal) Beaufort.

Y mae hanes y rhan gyntaf a'r rhan fwyaf o deyrnasid Harri vi. yn cael ei wneyd i fyny o hanes adfeiliad a therfyniad awdurdod Lloegr yn Ffrainge. Dilynwyd marwolaeth Harri v. yn mhen ychydig ddyddiau gan farwolaeth ei dad yn nghyfraith, Charles vi., pryd y cyhoeddwyd y Dauphin gan ei bleidwyr yn Charles vii., a chyhoeddwyd Harri vi. gan ei bleidwyr yntau

Digitized by Google

Ffraingc am ei ddrygioni. Ond gwelodd ar ei ddychweliad fod y bobl yn barod i ymderfysgu, a chymmerodd arno yr enw Mortimer; a chydag 20,000 o wŷr Kent o dan ei arweiniad, daeth i ymyl y brif ddinas, a gwersyllodd yn Blackheath. Ond oblegid cyflawni rhyw greulonderau, a derbyn llwgrwobrwyon gadawyd ef gan y rhan fwyaf o'i ganlynwyr; diangodd i'r coedwigoedd yn Kent, lle y canfyddwyd ac y lladdwyd ef (Gorph. 11eg, 1450) gan Alexander Iden; am yr hyn y derbyniodd 1000 o *marks* (gwerth *mark* ydoedd 13*s*. 4*c*.). Gosodwyd pen "Jack Cade" ar Bont Llundain; dienyddiwyd rhai o'i ganlynwyr, a dychwelodd y gweddill i'w cartrefi mor ddystaw ag y gallent. Cyn diwedd y flwyddyn ganlynol, yr oedd y Ffrancgod wedi adennill holl Guienne, yn chwanegol at Normandy, ac nid oedd ond Calais yn unig yn aros o holl feddiannau Lloegr ar y Cyfandir. Y flwyddyn ganlynol, gwrthryfelodd Bordeaux, yr hwn oedd wedi bod o dan lywodraeth Prydain er's tair canrif a hanner; ac anfonwyd y gwrol Talbot, yn awr yn bedwar ugain oed, i Guienne, i gymmeryd mantais o'r symmudiad hwnw. Ond ar yr 20fed o Orphenaf, 1453, syrthiodd ef a'i fab yn y frwydr; ac ar y 10fed o Hydref canlynol, ymostyngodd Bordeaux i Charles.

Y mae y gweddill o deyrnasiad Harri VI. yn cael ei wneyd i fyny gan mwyaf o'r digwyddiadau a gynnyrchwyd gan yr ymrysonfa am y goron; yr hyn a osododd deulu arall ar yr orsedd. [Gwel IORWERTH IV.] Ar y 13eg o Hydref, 1453, rhoddodd Margaret enedigaeth i fab, yn Westminster; yr hwn a alwyd Edward, a'r hwn a wnaed yn Dywysog Cymru ac yn iarll Caerlleon. Tua'r un amser, daeth y brenin yn hollol blentynaidd ac yn analluog o ran ei feddwl. Ond erbyn dechreu y flwyddyn 1455, yr oedd wedi adferu cymmaint o'i alluoedd meddyliol ag a feddai yn flaenorol, a chymmerodd feddiant drachefn (mewn enw) o'r weinyddiaeth, yr hon yn ystod ei afiechyd meddyliol ef a ymddiriedasid i'r duc o York. Yn yr ymdrechfa filwrol a gymmerodd le yn fuan wedi hyn, cymmerwyd Harri yn garcharor gan iarll Warwick, yn St. Albans, Mai 23ain, 1455; a thua diwedd y flwyddyn hono, cyhoeddwyd ef eilwaith mewn sefyllfa o analluedd meddyliol, a chymmerodd y duc o York ofal y weinyddiaeth, o dan yr enw "Amddiffynwr." Yn mhen ychydig fisoedd yr oedd Harri wedi adferu ei iechyd drachefn, a gweinyddwyd y llywodraeth yn ei enw ef nes y cymmerwyd ef yn garcharor eilwaith gan iarll March (wedi hyny Iorwerth IV.), yn Northampton, Gorph. 10fed, 1460. Ar yr achlysur hwn, diangodd y frenhines a'i mab i Ysgotland. Bu y fuddugoliaeth a ennillodd Margaret ar iarll Warwick, yn Barnet Heath, Chwefror 17eg, 1461, yn foddion i ryddhau ei gŵr drachefn. Wedi ymladdfa Towton, ar Mawrth 29ain, yr hon a sicrhaodd yr orsedd i Iorwerth IV., ymneillduodd gyda'r frenhines a'i fab i Ysgotland. Pan gymmerodd Margaret arfau i fyny drachefn, ac y gwnaeth ymgyrch i Loegr, yn 1462, gosodwyd Harri o dan amddiffyniad yn nghastell Harlech, yn sir Feirionydd; ac yno yr arosodd hyd y gwanwyn, 1464, pan ddygwyd ef o Gymru i ymuno â nifer o'i bleidwyr mewn gwrthryfel yn ngogledd Lloegr. Ar ol buddugoliaethau Hedgeley Moor, Ebrill 25ain, a Hexham, Mai 15fed, ymguddiodd y brenin darostyngedig am dros flwyddyn yn mhlith corsdiroedd Westmoreland, a sir Lancaster, nes o'r diwedd y bradychwyd ef gan fynach o Addington, ac y cymmerwyd ef i fyny tra yn bwyta ei giniaw yn Waddington Hall, sir York, Mehefin, 1465. Cymmerwyd ef yn ddioed i'r Tŵr, yn Llundain, lle yr arosodd mewn caethiwed hyd wrthryfel nodedig Hydref, 1470, pryd yr adferwyd ef eilwaith i feddiant o'i goron a'i ryddid am ychydig fisoedd. Cludwyd ef o Lundain i'r ymladdfa a gymmerodd le yn Barnet, Ebrill 14eg, 1471, lle y syrthiodd i ddwylaw Edward, yr hwn a'i dychwelodd drachefn i'w gell yn y Tŵr. Yno yr arosodd hyd lwyr ddarostyngiad ei gefnogwyr a llofruddiad ei fab yn Tewkesbury, Mai 4ydd. Ychydig ddyddiau wedi hyny, gwnaed ymgais gan Thomas Nevil (y Bastard o Falconberg) i dori i'w gell a'i gymmeryd ymaith, drwy orfod; ond ni lwyddodd. Rhag i ddim cyffelyb gymmeryd lle wedi hyn, gorchymynodd Edward ei symmud oddi yno. Cymmaint a wyddys yn mhellach ydyw, fod corph marw Harri VI. yn cael ei arddangos i'r cyhoedd yn St. Paul's, Mai 22ain o'r un flwyddyn. Y dyb gyffredin ydoedd, iddo gael ei lofruddio gan y duc o Gloucester, brawd y brenin, wedi hyny Richard III.

HARRI VII., a anwyd yn nghastell Penfro, Ionawr 21ain, 1456. Ei dad ydoedd Edmund Tudor, neu Tudur, yr hwn a wnaed yn iarll Richmond, yn 1452, a'r hwn oedd fab i Syr Owen Tudur, boneddwr o Gymro, o'r frenhines Catherine, gweddw Harri V. Yr oedd felly yn disgyn oddi wrth deulu brenhinol Ffraingc; ac hefyd, fe ddywedir, oddi wrth hen dywysogion Cymru. Ei fam ydoedd Margaret, merch John Beaufort, y duc o Somerset, tad yr hwn ydoedd mab hynaf John o Gaunt.

Adroddir yr hanesion canlynol gan Bacon yn ei lyfr ar Harri VII.:—"Pan oedd amryw bersonau urddasol yn ymgynnyg am law Margaret ei fam, mewn priodas, breuddwydiodd yr olaf un noswaith fod rhywun cyffelyb i esgob yn cynnyg Edmund, iarll Richmond, tad Harri VII., yn ŵr iddi; ac ni bu ganddi un plentyn ond y brenin, er y bu ganddi dri o wŷr. Un diwrnod, pan yr oedd Harri VI.—diniweidrwydd yr hwn oedd yn sancteiddrwydd iddo—yn ymolchi ei ddwylaw mewn gwledd fawreddog, a phan dynwyd ei sylw at Harri, y pryd hyny yn fachgen ieuangc, dywedodd, 'Dyma y bachgen a gymmer feddiant digyffro o'r hyn yr ydym ni yn awr yn ymdrechu am dano.'" Bu farw Edmund, iarll Richmond, yn 1456; y flwyddyn yn mha un y ganwyd Harri ei fab. Yn ystod y cyfnod terfysglyd a ddilynodd hyn, bu Jasper Tudor, iarll Penfro, ac ewythr Harri, yn amddiffynwr ffyddlawn iddo hyd esgyniad Iorwerth IV. i'r orsedd, pryd y gorfu i Jasper ffoi o'r wlad. Y pryd hyny, gosodwyd Harri gan y brenin newydd o dan ofal William Herbert (wedi hyny, iarll Penfro) yr hwn a'i cymmerodd i'w gastell (Castell Ragland) yn sir Fynwy. Ar adferiad Harri VI. i'w frenhiniaeth, yn 1470, gosodwyd Harri VII. yn ysgol Eton. Ar ol ymladdfa Tewkesbury, cymmerwyd ef yn ol i Gastell Ragland, lle yr arosodd nes y llwyddodd ei ewythr, yr hwn a ffoisai, i ddychwelyd, a'i gludo i'w gastell ei hun yn Mhenfro. Mewn ymgais o eiddo Harri ei ewythr i ffoi o Ddinbych y Pysgod i Ffraingc, pan orfodwyd hwynt o herwydd y tywydd i droi i Bretagne, cymmerwyd hwy yn gaeth gan Francis II.; ac er pob ymdrech o'r eiddynt hwy i fyned yn mlaen, ac appeliadau Iorwerth IV. am feddiant o honynt, yno y bu Harri hyd esgyniad Richard III. i'r orsedd.

Digitized by Google

Yn mis Medi, 1483, anfonwyd cenad at Harri, i Bretagne, i hysbysu iddo y byddai ymgodiad cyffredinol o'i blaid yn cymmeryd lle ar Hydref 18fed, ac y bwriedid rhoddi y goron iddo ef, ar yr ammod y byddai iddo briodi Elizabeth, merch Iorwerth IV. Hwyliodd Harri o St. Malo gyda llynges o ddeugain o longau, yr hon a gawsai yn benaf drwy gynnorthwy duc Bretagne; ond fel yr oedd yn croesi y Sianel, drylliwyd nifer mawr o'i lestri gan ystorm, ac felly tybiodd y byddai yn ddoethach iddo beidio glanio ar y pryd yn Mhrydain. Yn y cyfamser, yr oedd gwrthryfel byrbwyll ac annhrefnus Buckingham a'i blaid wedi syrthio i'r llawr, a Buckingham ei hun wedi ei ddienyddio fel bradwr. Cyfarfyddodd amryw ereill o'i gynghreiriaid â'r un dynged: diangodd rhai; ac achubodd iarlles Richmond ei bywyd yn unig trwy gyfryngiad arglwydd Stanley, ei gŵr, yr hwn oedd bleidiwr gwresog i Richard III. Dychwelodd Harri i Bretagne: ac yno, y Nadolig canlynol, yn mhresennoldeb pum cant o'r ffoaduriaid Prydeinig, ymrwymodd yn ddifrifol i briodi Elizabeth mor fuan ag y byddai iddo orchfygu y trawsdeyrn Richard. Yn mhen oddeutu blwyddyn wedi hyn, cawn fod Harri a'i gyfeillion, gyda chynnorthwy Charles VIII. o Ffraingc, yn parotoi ar gyfer rhyfelgyrch newydd; ac ar y 7fed o fis Mai, 1485, glaniasant yn Aberdaugleddyf, yn Neheudir Cymru. Ar yr 22ain, cyfarfu Harri â Richard yn Bosworth, sir Leicester, pryd y cymmerodd brwydr enwog "Maes Bosworth" le; yr hon a derfynodd yn ngorchfygiad a marwolaeth Richard, a gosodiad y goron ar ben Harri.

Ni phriododd Harri Elizabeth hyd Ionawr 18fed, 1486. Yn Ebrill, 1486, torodd gwrthryfel allan, o dan arweiniad Francis, is-iarll Lovel; ond darostyngwyd ef yn fuan. Ond cyn diwedd yr un flwyddyn, dechreuodd gwrthryfel arall, ac un llawer pwysicach, yr hwn a achoswyd o blegid bachgen o'r enw Lambert Simnel, mab i asiedydd (*joiner*) o Rydychain, yr hwn a gymmhellid i sylw fel Edward Plantagenet, iarll Warwick, mab ac etifedd y duc o Clarence, brawd Richard III. Ymunwyd â Simnel gan arglwydd Lovel, a John de la Pole, iarll Lincoln, mam yr hwn oedd yn chwaer i Iorwerth IV., a'r hwn a gyhoeddasid gan y brenin diweddaf yn etifedd i'r goron ar ol marwolaeth ei fab ei hun. Rhoddodd y dduges o Burgundy (chwaer arall i Iorwerth IV.) ei chefnogaeth i wrthryfel yr ymhonwr ieuangc hwn. Fodd bynag, rhoddwyd terfyn buan ar uchelgais Simnel. Llwyr orchfygwyd ei gefnogwyr yn mrwydr Stoke, Mehefin 16eg, 1487, pryd y lladdwyd iarll Lincoln ei hun. Dilynwyd ymhoniadau twyllodrus Simnel, yn mhen blynyddoedd wedi hyn, gan ymddangosiad gŵr arall o fwy o enwogrwydd, sef Perkin Warbeck; yr hwn, yn ol tystiolaeth ei bleidwyr, ydoedd Richard, duc o York, a brawd ieuangaf Iorwerth V., a'r hwn y tybid yn gyffredinol ei fod wedi ei lofruddio gyda'i frawd yn y Tŵr. Yn nechreu Mai, 1492, cyrhaeddodd Warbeck yr Iwerddon, o Lisbon, a chyhoeddwyd ef wedi hyny, fel y duc o York, neu yn hytrach, fel Richard, brenin Lloegr, nid yn unig gan y dduges o Burgundy, ond hefyd gan frenhinoedd Ffraingc ac Ysgotland. Ni ddarostyngwyd y gwrthryfel hwn am bump neu chwe blynedd yn llwyr—hyd ddiwedd 1497. Ar ei ol ef, cyfododd un arall o'r enw Ralph Wulford, mab i grydd; yr hwn a honai y teitl o iarll Warwick; ond attaliwyd ei ymgais ef ar unwaith drwy ei garchariad, a'i ddienyddiad yn Mawrth, 1499. Ymddengys fod y gwrthryfeloedd diorphwys hyn wedi darbwyllo Harri o'r diwedd na byddai ei orsedd yn sefydlog, na'i deyrnas mewn heddwch, hyd nes y rhoddid terfyn ar fodolaeth y personau hyny oedd yn cyffroi y gwrthryfeloedd. Yr un flwyddyn ag y rhoddwyd Wulford i farwolaeth, dienyddiwyd Perkin Warbeck, ac iarll Warwick. O'r amser hwn allan, yr oedd teyrnasiad Harri yn dawel a diwrthwynebiad; ac ymddengys iddo gymmeryd mantais ar hyn i chwanegu at ei gyllid a'i drysorau—gan godi arian ei ddeiliaid gyda phob math o esgusion gwaelach na'u gilydd; y rhai, pa mor ormesol bynag oeddynt o ran ffurf ac ymddangosiad, oeddynt ar yr un pryd yn hollol gyfreithlawn. Yr oedd cyfreithiau y deyrnas y pryd hyn, os estynid hwy cyhyd ag yr aent, yn rhoddi rhyddid i arfer tuag at y deiliaid y gormes mwyaf creulawn yn y llwybr a nodwyd.

Yn fuan ar ol dechreu ei frenhiniaeth, cymmerodd Harri ran mewn ymrafael a gododd rhwng Francis, duc Bretagne, a Charles VIII., y ddau o Ffraingc. Yr oedd efe wedi bod yn dal cysylltiad â hwynt cyn ei esgyniad i'r orsedd, ac anfonasant ato yn awr am ei gynnorthwy. Ar farwolaeth Francis, gwisgodd yr ymrafael hwn y ffurf o ymgais, ar ran Charles, am ddueiaeth Bretagne. Yr oedd teimlad y cyffredin yn Mrydain yn gryf yn erbyn yr ymddygiad hwn; ond er fod Harri yn cael ei orfodi, o leiaf mewn ymddangosiad, i ganlyn teimlad ei ddeiliaid, ni ddefnyddiodd unrhyw foddion effeithiol er attal darostyngiad Bretagne, hyd nes yr oedd yn rhy ddiweddar. Pleidleisiodd ei senedd symiau mawrion o arian gyda'r ewyllysgarwch mwyaf tuag at wrthwynebu Charles; a chasglodd Harri y cyfan yn ofalus; ond yn lle ymladd, amcanodd drafod y mater ar gynllun llawer rhatach. Wedi hyny, yn wir, yn ngwanwyn y flwyddyn 1489, cafodd ei hun o dan orfodaeth i arfogi byddin fechan, a'i hanfon drosodd i Bretagne; ond yr oedd Harri wedi sicrhau yn flaenorol i lywodraeth Ffraingc, os byddai i fyddin gael ei hanfon drosodd, na byddai iddi weithredu ond yn unig ar yr ochr amddiffynol; a chadwodd ei addewid. Wedi hyny, gorfododd Charles dduges Bretagne i'w briodi ef, er ei bod wedi ei dyweddïo â Maximilian, brenin y Rhufeiniaid; ac felly unwyd y ddugiaeth â llywodraeth Ffraingc. Cynyrchodd hyn y teimladau mwyaf digllawn yn Mrydain; yr hyn a barodd i Harri arwain byddin ei hun drosodd i Ffraingc, yn nechreu Hydref, 1492. Ond yr oedd efe eisoes wedi gwneyd cyttundeb heddwch dirgelaidd â Charles; a chyn i ddim ymladd gymmeryd lle, cyhoeddwyd y cyttundeb yn nechreu Tachwedd. Trwy y cyttundeb hwn, yr hwn a elwid Cyttundeb Estaples, yr oedd Charles yn ymrwymo i dalu i Harri y swm o 149,000 o bunnau, yn daliadau hanner-blwyddol o 25,000 *franks*. Yn 1496, fodd bynag, ymunodd Harri â chynghrair—yn cynnwys y pab, brenin y Rhufeiniaid, brenin Castile, duc Milan, a gwerinlywodraeth Venice—yr hwn, er i Charles yn 1494 wneyd ymgyrch llwyddiannus ar draws brenhiniaeth Naples, a barodd iddo gilio ymaith yn fuan. Ond pan fu farw Charles yn 1498, adnewyddwyd Cyttundeb Estaples â'i olynydd Louis XII.

Trwy gyttundebau, ar wahanol amserau, â James III. a James IV., sefydlwyd heddwch âg Ysgotland, hyd 1495, pryd y derbyniwyd Perkin Warbeck yn y wlad hono fel etifedd cyfreithlawn coron Prydain. Cynnorthwyodd James yr anturiaethwr, nid yn unig âg arian, a milwyr; ond

Digitized by Google

a dienyddiad Anne Boleyn le; sef, yn mhen llai na chwe mis wedi marwolaeth Catherine; a chyn diwedd yr un flwyddyn, priodwyd yr anfadyn Harri â Jane Seymour, prydferthwch yr hon a gynnhyrfodd ei nwydau i'r fath raddau, fel ag i beri iddo gyflawni y weithred lofruddiol ar Anne Boleyn. Ar y 14eg o Hydref, 1357, bu farw Jane, ychydig ddyddiau wedi rhoddi genedigaeth i fab. Dilynwyd hi gan Anne, chwaer y duc o Cleves, yr hon a briodwyd â Harri, yn Ionawr, 1549; ac yn mhen chwe mis rhoddwyd hithau o'r neilldu, pryd y cyhoeddodd y senedd ynghyd â'r gymmanfa eglwysig wasaidd a diegwyddor, fod y briodas yn ddirym. Aeth y senedd mor bell ag i osod allan ei bod yn uchel fradwriaeth i neb ystyried neu gredu fod y briodas a nodwyd yn gyfreithlawn.

Yn y cyfamser, yr oedd y cyfnewidiadau eglwysig yn myned yn mlaen mor gyflym ag o'r blaen. Yn 1536, gwnaed Cromwell yn fath o arglwydd-raglaw dros yr eglwys, o dan yr enw "ficer cyffredinol," yr hyn oedd yn gosod o dan ei ofal holl awdurdod y brenin ar yr eglwys. Parodd dinystriad y mynachdai, yn y flwyddyn hon a'r ganlynol, o dan arolygiad y gweinidog galluog hwnw, i amryw wrthryfeloedd gyfodi mewn gwahanol fanau o'r deyrnas; ac ni lwyddwyd i'w darostwng heb lawer o dywallt gwaed—ar y maes yn gystal a chan ddwylaw y dienyddwyr. Yn 1538, gorchymynwyd rhoddi copi o'r cyfieithiad newydd o'r Beibl yn mhob eglwys, ac i ddysgu i'r bobl y Credo, Gweddi yr Arglwydd, a'r Deg Gorchymyn, yn Saesoneg. Cymmerwyd delw enwog Mair y Forwyn ymaith o Walsingham, ynghyd â llawer o wrthddrychau cyffelyb o ranau ereill o'r wlad; y rhai a edmygid ac a berchid yn fawr gan y bobl, a llosgwyd y cyfan drwy orchymyn gan Cromwell. Yn 1538, pasiodd y senedd ddeddf a adwaenir wrth yr enw Deddf Waedlyd (*Bloody Statute*), yn ol yr hon yr oedd y gosp o losgiad, neu grogiad, i gael ei gweinyddu ar bawb a wadai mai corff a gwaed naturiol Crist oedd y bara a'r gwin yn y cymmun, neu fod cyfranogi o honynt yn angenrheidiol er iachawdwriaeth; neu fod gan offeiriad hawl i briodi; neu y dylid cymmeryd llw o ddiweirdeb; neu fod yr offeren yn unol â chyfraith Duw; neu ynte fod cyffesiad dirgelaidd yn ddymunol neu yn angenrheidiol. Bu y ddeddf hon yn achos o lawer o anfoddlonrwydd, ac o liaws o ddienyddiadau. Sefydlwyd y ddeddf drwy ddylanwad Gardiner, esgob Winchester, yr hwn bellach oedd fwyaf yn ffafr y brenin cyfnewidiol, ac arweinydd y blaid hono yn yr eglwys a'r wladwriaeth a wrthwynebodd Cranmer a Chromwell. Ni bu Gardiner yn hir cyn effeithio dinystriad y gŵr oedd fwyaf ar ei ffordd. Yn nechreu Mehefin, 1540, cymmerwyd Cromwell i fyny i'r Tŵr, o dan y cyhuddiad o fradwriaeth; ac yn mhen ychydig ddyddiau, dienyddiwyd ef.

Ar yr 8fed o Awst, yr un flwyddyn, priododd Harri ei bummed gwraig, yr arglwyddes Catherine Howard, yr hon a ddienyddiodd, Chwefror 13eg, 1542. Yn y cyfwng hwn hefyd dienyddiodd Margaret, arglwyddes waddolog Salisbury, yr hon a ddodasai yn ngharchar o dan y cyhuddiad o fradwriaeth. Ei gwir drosedd oedd ei bod yn fam i'r Cardinal Pole, yr hwn a ddigiasai y teyrn gorthrymus, ond oedd ei hun allan o'i gyrhaedd.

Yn niwedd 1542, cyhoeddwyd rhyfel yn erbyn Ysgotland, ac adnewyddwyd yr ymdrech am y goron hono. Dilynwyd ymgyrch o eiddo y duc o Norfolk i Ysgotland yn Hydref, gan ymgyrch arall yn y mis canlynol o eiddo byddin Ysgotland i Loegr; ond gorchfygwyd a llwyr wasgarwyd y fyddin Ysgotaidd yn Solway Moss; yr hyn, fe dybir, a effeithiodd farwolaeth y brenin James, yr hyn a ddigwyddodd ychydig wythnosau wedi y dinystr hwn, pryd y meddiannwyd ei goron gan yr anffodus Mary Stuart, y pryd hyny yn ddim ond saith niwrnod oed. Parodd aflwyddiant Harri i gael meddiant o'r orsedd ac o'r frenhines ieuangc, a hyny o herwydd gwrthwynebiad Cardinal Beaton a'r blaid Babyddol, iddo adnewyddu y rhyfel yn ngwanwyn 1544; pryd y gwnaed ymgyrch i Ysgotland gan fyddin gref, o dan arweiniad iarll Henffordd, yr hon a gyrhaeddodd Edinburgh, ac a'i llosgodd, ynghyd â llawer o drefydd a phentrefydd ereill. Y flwyddyn flaenorol, yr oedd Harri wedi ffurfio cynghrair gyda'r ymherawdwr yn erbyn brenin Ffraingc; ac yn mis Gorphenaf, 1544, aeth drosodd i Ffraingc gyda byddin fawr, yr hon a lwyddodd i gymmeryd meddiant o dref Boulogne: ond ar y 7fed o Fehefin, 1566, arwyddodd Harri gyttundeb, yn yr hwn yr ymrwymai i ddychwelyd Boulogne, ar yr ammod fod i frenin Ffraingc dalu iddo y swm o ddwy filiwn o goronau.

Ychydig flynyddoedd cyn hyn (Gorph. 10fed, 1543) yr oedd wedi priodi ei chweched gwraig, sef Catherine Parr, gweddw arglwydd Latimer. Fel yr oedd gwendidau henaint ac afiechyd yn dyfod arno, yr oedd ffyrnigrwydd a drwgdybiaeth ei natur yn cynnyddu; ac yr oedd blynyddoedd olaf ei fywyd wedi eu llychwino mor lwyr â gwaed a'r rhai a'u blaenorent. Un o'i weithredoedd cigyddol diweddaf ydoedd yr un a gyflawnwyd ar yr hoffus a'r dysgedig Henry Howard, iarll Surrey; yr hwn, wedi ei ddyfarnu yn ol yr arferiad cyffrenin am fradwriaeth, a ddienyddiwyd Ionawr 19eg, 1547. Yr oedd tad Surrey i dderbyn yr un dynged ar yr 28ain o'r un mis; ond achubwyd ef drwy farwolaeth y brenin eih un, am ddau o'r gloch boreu y diwrnod hwnw. Dywedwyd gyda llawer o briodoldeb am Harri, "nad arbedodd ddyn yn ei gynddaredd, na gwraig yn ei feluschwant."

Yn nheyrnasiad Harri VIII. y cydgorphorwyd Cymru â Lloegr, ac y caniatawyd cyfreithiau a rhagorfreintiau yr olaf i'r llall.

**HALL, ROBERT**: un o ysgrifenwyr a phregethwyr mwyaf galluog Prydain, a anwyd yn Arnsby, ger Leicester, Mai 2il, 1764. Yr oedd ei dad yn weinidog gyda'r Bedyddwyr yn y lle hwnw, ac yn awdwr amryw o gyhoeddiadau crefyddol—un o ba rai a ennillodd boblogrwydd mawr. Yr oedd ei fam hefyd yn hynod am ei synwyr a'i duwioldeb. Bu hi farw pan nad oedd Robert ond deuddeg oed (1776); ond cafodd ei dad ei weled ef yn un o ser dysgleiriaf llenyddiaeth a chrefydd. Bu yntau farw yn 1791.

Robert Hall ydoedd yr ieuangaf o bedwar ar ddeg o blant. Fel Newton, Locke, a Pascal, yr oedd ei blentyndod yn un cwrs diderfyn o afiechyd; ac am rai blynyddoedd, buwyd yn ofni mai marw a wnai. Ac fel hwythau, a llawer o feddyliau mawrion ereill, yr oedd talent yn amlygu ei hun ynddo yn fuan gydag iddo ddyfod i'r byd. Dywedir iddo ddysgu darllen yn mron mor fuan ag y dysgodd siarad, ac mai ei lyfrau cyntaf oeddynt y ceryg beddau a orweddent yn y fynwent ger llaw ei dŷ, lle y cymmerid ef gan ei *nurse* i "gael awyr." Fe allai mai nid y fynwent yw y lle goreu i roddi awyr i blant, ac nad beddergryph yw yr egwyddorlyfr goreu; ond yr oedd hyn yn arweiniad rhyfedd i enwogrwydd llenyddol.

Digitized by Google

Yn ysgol yr hen fenyw lle y derbyniodd elfenau cyntaf ei addysg, amlygai hoffder anarferol at lyfrau; a cheid ef yn aml, ar ol diwedd yr ysgol, yn eistedd ei hunan yn mhlith y beddrodau, er nad mwyach yn darllen yr argraphiadau oedd arnynt, ond *Rhyddid yr Ewyllys*, gan Jonathan Edwards; a *Chyfatebiaeth* Butler; a llyfrau ereill o'r fath. Pan mewn ysgol a gedwid gan un o'r enw Mr. Simmons, mewn pentref, o fewn pedair milldir i Arnsby, ar ol hyny, treuliai ei oriau hamddenol yr un modd; a dywed Dr. Gregory ei fod wedi darllen ac ail ddarllen y llyfrau a nodwyd gyda "dyddordeb dirfawr," cyn cyrhaedd ei ddegfed flwydd. Y mae amgylchiad arall mewn cyssylltiad â'r cyfnod hwnw o'i oes sydd yn dangos ei duedd at lenyddiaeth. Ymddengys ei fod wedi cyfansoddi llawer o draethodau bychain, ac yn fynych gwahoddai ei frawd a'i chwiorydd i'w glywed yn pregethu. Tro arall, pan yn penderfynu (yn ei ddychymyg) i bwy y deuai eiddo ei dad ar ol ei farwolaeth, golygai fod y gwartheg, y defaid, a'r moch, i fyned i'w frawd, ond yr holl *lyfrau* iddo ef.

Pan yn un ar ddeg oed, anfonwyd ef i ysgol yn Kettering, lle y rhoddodd lawer o amlygiadau o'i dalent. Yn fynych gwahoddai ei feistr ef i roddi prawf ar ei alluoedd *areithyddol* o flaen "cynnulleidfa ddetholedig"—ffolineb a gondemnid gan Robert Hall yn fynych ar ol hyny. Symudwyd ef o'r ysgol hon i un arall, ragorach, yn Northampton, yr hon a gedwid gan y Parch. John Ryland, boneddwr lled hynod o ran ei natur; ond fel ereill o'r un teulu, yr oedd yn perchen galluoedd meddyliol anghyffredin; ac y mae yn ddiammheu fod meddwl ei ddysgybl ieuangc wedi derbyn llawer symbyliad cryf ac effeithiol o dan addysgiaeth Mr. Ryland. Yn mhen o ddeutu blwyddyn a hanner, gadawodd yr ysgol hon; ac wedi treulio ychydig amser gartref yn astudio duwinyddiaeth, aeth i'r Baptist Academy yn Bristol i berffeithio ei addysg ar gyfer y weinidogaeth. Yr oedd hyn yn 1778, pan nad oedd Robert Hall yn llawn pymtheng mlwydd oed.

Yn ystod ei arosiad yn Bristol, ymddengys ei fod wedi gwneyd cynnydd arbenig yn holl gylch efrydiaeth y coleg. Defnyddiai lawer o'i amser i gyfansoddi, er fod ei gyfansoddiadau yn y cyfnod hwn, medd Dr. Gregory, yn arddangos mwy o "wychder" terfysglyd yr areithydd nag a fuasai "yn ei gymmeradwyo pan yn ugain." Y mae hyn yn ddigwyddiad cyffredin; o blegid y mae chwaeth ddifrifol yn y dyn galluocaf o dyfiant arafaidd.

Yr oedd ei ymgais cyntaf fel siaradwr cyhoeddus yn argoeli yn ddrwg. Pan ddaeth ei dro ef fel myfyriwr i gyflwyno anerchiad yn Nghapel Broadmead, dyrchafodd ddisgwyliadau ei wrandawyr drwy ragymadrodd byr, ond hyawdl; ond ymattaliodd yn sydyn, wedi llwyr golli ei hunanfeddiant; a chan orchuddio ei wyneb mewn ing a chywilydd, llefai, "O! yr wyf wedi colli fy holl ddrychfeddyliau." Yr oedd ei athraw yn hyderus (fel y dywedai Sheridan ar ol ei fethiant gwaradwyddus ef) ei bod ynddo; ac fel Sheridan penderfynai ei chael *allan* o hono. Gan hyny, penderfynodd fod iddo gyflwyno yr un anerchiad yr wythnos ganlynol. Ond y mae yn alarus dyweyd, pan y cyrhaeddodd yr "hen ysmotyn," digwyddodd iddo yr hyn a ddigwyddodd i lawer march nwyfus:—dychrynodd, ac nid aeth gam yn mhellach. Ond er methu yn hollol y tro hwn etto, nid aeth y digwyddiad heibio yn ddilês. Y mae meddyliau fel yr eiddo ef, yn hytrach na chael eu darostwng gan anhawsderau, yn cael eu symbylu yn mlaen; a chafodd yr amgylchiad hwn effaith foddhaol ar Robert Hall—ar ei galon, yn gystal ag ar ei feddwl. Dywed Dr. Gregory ei bod yn dra thebyg nad oedd ei syniadau yn ddigon teimladwy y pryd hwn o ddybenion uchaf gweinidogaeth yr efengyl; a'i fod yn rhy awyddus am gyrhaedd enwogrwydd meddyliol, ac fe allai yn rhy deimladwy o'i allu i gyrhaedd hyny. Y mae rhyw deimlad o'r natur yma i'w weled yn yr hyn a ddywedodd efe ei hun pan fethodd yr ail waith:—"Os na wna hyn fi yn ostyngedig, rhaid i'r diafol fy nghael!" Y mae llawer areithiwr ieuangc arall wedi methu yn ei ymgais cyntaf, ond wedi cyrhaedd enwogrwydd ar ol hyny. Yr hynodrwydd yn amgylchiad Robert Hall ydoedd ei fod heb ennill hunanfeddiant hyd yn oed ar ol cael llawer o ymarferiad o flaen "cynnulleidfaoedd detholedig" cyn hyny.

Tua diwedd 1781, aeth i King's College, Aberdeen, lle yr arosodd hyd 1785, gan ddilyn yn mlaen ei efrydiaeth o'r *classics*, *mathematics*, ac athroniaeth, gyda'i lwyddiant arferol; a chan gyrhaedd y sefyllfa uchaf yn mhob un o'r canghenau a nodwyd yn flynyddol. Tra yn aros yn Aberdeen, daeth i gydnabyddiaeth â'r enwog Macintosh, yr hwn a ddaethai i'r coleg flwyddyn o flaen Robert Hall, ond ydoedd flwyddyn ieuangach nag ef. Ffurfiwyd cyfeillgarwch rhyngddynt a drodd allan yn fendithiol i'r naill a'r llall, a chyfeillgarwch a dorwyd yn unig gan farwolaeth un o honynt. Dywedodd Macintosh wrth Dr. Gregory, i ryddfrydigrwydd a gonestrwydd cymmeriad Robert Hall, ynghyd âg arwyddion amlwg o'r galluoedd meddyliol oedd ynddo, ennill ei serch ar unwaith. Dywedai iddo ddyfod yn hoff o Robert Hall "am nas gallai wrth hyny." Wedi i'r ddau flaenllymu eu harfau drwy ddarllen, aent yn fynych ar y tywod ar lan y môr, ac yn fwy mynych na hyny i lanerch brydferth ar lan y Don, uwch law yr hen dref, lle yr ymdrinient gyda gwresogrwydd ar wahanol destynau eu hefrydiaeth. Nid oedd prin un pwngc o anhawsder yn Berkeley's *Minute Philosopher*, yn *Nghyfatebiaeth* Butler, na *Rhyddid yr Ewyllys*, gan Jonathan Edwards, nad oeddynt wedi ei ymresymu yn y modd hwn gyda'r brwdfrydedd mwyaf. Oddi wrth yr ymdriniaethau hyn, a myfyrdod arnynt ar ol hyny, dywedai Syr James iddo ddysgu mwy yn mherthynas i egwyddorion nag oddi wrth yr holl lyfrau a ddarllenodd erioed.

Yn chwanegol at ymresymu daliadau Berkeley, Butler, Edwards, ac athronyddion ereill, darllenent ynghyd ranau helaeth o awduron Groeg—yn enwedig Plato. Rhaid fod y fath gydgymdeithasiad o feddyliau yn dilyn yr un efrydiaethau—y fath adlewyrchiad megys o oleuni meddyliol, a chyd-ddadleuaeth gyfeillgar fel yr eiddynt hwy—rhaid fod hyn i gyd wedi bod o les ammhrisiadwy i'r naill a'r llall. Yn ystod blynyddoedd diweddaf efrydiaeth Hall, yr oedd ei gyfaill wedi gadael y coleg, ac ni chwiliodd yntau am gydymaith arall. Treuliodd yr amser yn astudio ar ei ben ei hun, ac fel yr ymddengys, oddi wrth ei addefiad ef ei hun, mewn gweddi a myfyrdod crefyddol. Yn 1785, derbyniodd y radd o A. C.

Tua'r amser yma, ymgymmerodd â'r swydd o weinidog Capel Broadmead, Bristol, gyda Dr. Evans; ac yn fuan wedi hyny appwyntiwyd ef yn athraw clasurol yn y Bristol Academy. Ac er nad oedd y pryd hyn ond un ar hugain oed, cyflawnodd ei swydd er anrhydedd iddo ei hun a budd mawr i'r efrydwyr am fwy na phum mlynedd.

Digitized by Google

wedi astudio yn ddwfn, mewn llawer o wahanol ganghenau. Gellir chwanegu fod ei ddiwydrwydd mewn ymchwilio am wybodaeth wedi ei ddilyn hyd ei fedd. Rhydd Dr. Gregory un enghraifft hynod o hyn. Cafodd ef un boreu, yn mlynyddoedd diweddaf ei fywyd, yn gorwedd ar lawr, gyda gramadeg a geiriadur Italaidd yn ei law, ac yn ddwfn mewn astudiaeth o'r iaith hono. Ymddengys iddo ddarllen mewn rhifyn o'r *Quarterly Review*, erthygl oedd yn cymmharu athrylith Dante â'r eiddo Milton; ac i'r erthygl hono ei foddio mor fawr fel y daeth i'r penderfyniad o astudio yr Italaeg yn unig er mwyn gallu barnu drosto ei hun gyda golwg ar gywirdeb y syniadau a gynnwysid yn yr erthygl. Yn mhlith y gwahanol orchestion a gyflawnwyd gan athrylith Macaulay, y mae yn ammheus a oedd un yn fwy hynod na'r ffaith fod ei draethawd cyntaf yn mron wedi peri i feddwl fel yr eiddo Robert Hall, yn drigain mlwydd oed, astudio iaith newydd, yn unig er mwyn barnu teilyngdod ei syniadau yn y feirniadaeth.

O bob rhagoriaeth a feddid gan Robert Hall—ac fe cyfyr pawb sydd wedi darllen ei weithiau fod ei ragoriaethau yn llawer—yr hyn oedd yn ei goroni ef ydoedd, fod ei holl alluoedd mawrion wedi eu cyssegru i'r dybenion gogoneddusaf: yr oeddynt oll yn ddarostyngedig i ddybenion llawer uwch na gallu neu enwogrwydd meddyliol. Ei uchelgais ef ydoedd ffurfio ynddo ei hun, ac mewn ereill, gymmeriad Cristionogol. Er ei fod yn mlynyddoedd boreuaf ei fywyd yn danllyd ac ymrysongar, yn ei flynyddoedd diweddaf daeth i gasau dadleuaeth; a dysgodd ymarfer y caredigrwydd a'r ewyllys da hwnw at ddynion da o bob enwad o grefydd a barodd iddo ddywedyd yn un o'i bregethau, "Pwy bynag sydd yn ddigon da i Grist, y mae yn ddigon da i mi." Yn ei foesau, yr oedd mor ddidwyll a phlentyn; ac yn ei ymddygiad, yr oedd yn gyflawn o garedigrwydd a haelfrydedd. Yr oedd ei amynedd yn nghanol gofidiau lliosog ei fywyd yn mron yn ddigyffelyb; ac yr oedd ganddo ddigon o ffydd a gostyngeiddrwydd i gydnabod fod y cyfan er daioni. Y mae ysgrifenydd yn y *Quarterly Review* yn sylwi gyda llawer o briodoldeb ei bod "yn ammhossibl darllen gweithiau y dyn neillduol hwn heb weled fod ei dymmerau yn ei ieuengctid yn derfysglyd i'r eithaf—nad oedd yni ei feddwl y pryd hyny o lawer o dan ei awdurdod—fod blynyddoedd o ystyriaeth, a phrofiad a gostiodd yn ddrud iddo, yn angenrheidiol iddo ef, yn anad neb, i'r dyben o ddofi ei ysbryd —a'i fod fel llew Milton, yn hir iawn cyn gallu ymryddhau oddi wrth y ddaear. "Yr wyf yn meddwl," meddai, yn un o'i lythyrau, "fod yr Arglwydd yn gweled mwy ynof fi i'w forthwylio a'i naddu, na phrin un gareg arall a ddewiswyd erioed i'w adeilad ysbrydol, ac mai dyna yw dirgelwch ei ymddygiad tuag ataf." Mewn gair, amlygodd holl nodweddion y Cristion pur:—disgleiriai ei gymmeriad fel yr oedd yntau yn heneiddio mewn dyddiau, "gan lewyrchu fwyfwy hyd ganol dydd." Fel Paul, ystyriai mai y gogoniant mwyaf mawreddus yr oedd yn bossibl ei gael, oedd cael bod yn WEINIDOG YR EFENGYL.

**HALLEY, Dr. EDMUND**; seryddwr enwog, a anwyd yn Haggerston, yn agos i Lundain, Hydref 29ain, 1656. Dygwyd ef i fyny yn Ysgol St. Paul's, dan Dr. Gale; a dywedir iddo, pan yr oedd yno, ddarganfod y cyfnewidiad yn ngwahaniaethiad nydwydd y cwmpawd. Yn 1683, aelodwyd ef yn Ngholeg y Frenhines, Rhydychain, lle yr ymroddodd gymmaint i seryddiaeth, fel, cyn bod yn ugain oed, yr anfonodd i'r Gymdeithas Frenhinol draethawd ar lwybrau (*orbits*) y prif blanedau. O herwydd cywreindeb y traethawd hwn, anfonodd Charles II. ef i St. Helena, i wneuthur rhestr o'r ser deheuol, yr hwn a gyhoeddwyd dan yr enw *Catalogus Stellarum Australium:* yr hwn, heblaw nodi sefyllfa 350 o ser, ac amryw o ffeithiau pwysig eraill, sydd yn cynnwys sylwadau dyddorol ar dramwyad y blaned Mercury ar draws wyneb yr haul. Fel cydnabyddiaeth o'r gwasanaeth gwerthfawr hwn, graddiwyd ef yn M.A. gan Athrofa Rhydychain trwy orchymyn y brenin, a thua'r un adeg etholwyd ef yn F.R.S. Yn ystod y fordaith hon hefyd, darganfyddodd y ffaith fod symmudiadau y pendil yn arafu ac yn ymestyn fel yr ydys yn dynesu at y cyhydedd. Tua diwedd 1680, aeth i Paris; ac ar ei ffordd yno, yn Rhagfyr, efe oedd y cyntaf a welodd gomed enwog y flwyddyn hono, wedi ei cholli yn Tachwedd. Yn Paris aeth i astudio ei symmudiadau gyda yr enwog Cassini; ac y mae y sylwadau a wnaed y pryd hyny yn nodedig, fel yn ffurfio rhan o'r sylfaen ar yr hon y seiliai Newton yn ei *Principia* ei gasgliadau ar gylchrawd comedau. Pan gymmerodd tân mawr Llundain le, yn 1666, llosgwyd eiddo tad y seryddwr, a bu hyn yn rhwystr am hir amser ar ei efrydiaeth; ond yn fuan ailymgymmerodd â'i orchwylion seryddol, ac ysgrifenodd amryw bapurau ar ddeddfau attyniad (*gravity*); yr hyn a'i dygodd i sylw Syr Isaac Newton. Yr oedd ei ohebiaethau â Syr Isaac ar y materion hyn yn un o brif gyfnodau gwyddoneg seryddol; ac y maent i'w gweled yn mywgraphiad Newton, gan Syr David Brewster. Yn 1686, cyhoeddodd Halley draethodau ar y gwyntoedd rheolaidd, a'r ystormydd cyffredin yn ngwledydd a moroedd y dwyreinfyd, ac ar y cyfartalwch cywrain a gedwir i fyny gan effaith yr wybren ar y môr, a chan ddylanwad y môr ar yr wybren. Ac yn 1691, yr oedd yn ymgeisydd am brofleswriaeth seryddiaeth, a sefydlasid gan yr enwog Saville, yn Rhydychain: ond am ei fod yn proffesu anghrediniaeth yn y Beibl, medd Whiston, fe etholwyd David Gregory yn ei le.

Yn 1696, yn fuan ar ol appwyntio Syr Isaac Newton yn Warcheidwad y Fathfa (*Mint*), efe a gafodd i Halley y swydd o ragolygydd y fathfa yn Nghaerlleon—un o bum bathfa taleithiol y deyrnas. Ond yn fuan ar ol hyn, cyfododd anghydfod rhwng y swyddogion. Dygodd un o'r is-swyddogion gyhuddiad yn erbyn Halley; a gorfu arno appelio at Syr Isaac i gael gan Charles Montague (ar ol hyny iarll Halifax) ei amddiffyn, gan ddadgan hefyd ei barodrwydd i roi ei swydd i fyny, yr hyn hefyd a wnaeth yn mhen ychydig amser; ac yn wir fe ddiddymwyd y bathfeydd taleithiol yn fuan ar ol hyn, er mwyn i'r unig fathfa fod yn y Twr Gwyn, yn Llundain.

Yn 1698, fe appwyntiwyd Halley gan y brenin William III. yn gadben yn y llynges ar y llong *Paramour Pink*, a gorchymynwyd iddo wneyd mordaith i geisio cael allan ddeddfau gwahaniaethiad nydwydd y cwmpawd yn ngwahanol barthau'r ddaear, a hydred a lledred lleoedd yn y taleithiau Americanaidd, ac i geisio darganfod tir i'r deheu i Fôr y Gorllewin. Ac yn Tachwedd y flwyddyn hono, efe a hwyliodd; ond yn y flwyddyn ganlynol, gorfu arno ddychwelyd, o herwydd gwrthryfel yn mhlith swyddogion y llong. Yna efe a hwyliodd drachefn, ac a wnaeth

Digitized by Google

lawer o sylwadau seryddol a daearyddol mewn amryw fanau yn Môr y Werydd, y rhai a gyhoeddwyd.

Ar gais ymherawdwr Germany, efe a aeth yn 1701 fwy nag unwaith i'r Adriatic, i gynnorthwyo yn ffurfiad ac adgyweiriad porthladdoedd ar ororau Italy; a rhoddodd yr ymherawdwr iddo, heb law ei gyflog, fodrwy adamant werthfawr yn wobr, ac yn gydnabyddiaeth o gywreinder a llwyddiant ei lafur. Dychwelodd i Loegr yn Tachwedd, 1703. Yr oedd Dr. Wallis, y Proffeswr Savilaidd yn Rhydychain, newydd farw; ac fe etholwyd Halley yn olynydd iddo; ac anrhydeddwyd ef gan'yr athrofa â'r gradd o LL.D.

Yr oedd wedi bod yn ysgrifenydd cynnorthwyol i'r Gymdeithas Freninol er y flwyddyn 1685; ond ar farwolaeth Syr Hans Sloane, yn 1713, etholwyd ef yn brif ysgrifenydd y sefydliad hwnw. Ar farwolaeth Flamsteed, y seryddwr breninol, 1609, apwyntiwyd Halley yn olynydd iddo. Ac er ei fod ar ei fynediad i'r syllfa (*observatory*) freninol yn Greenwich yn 65 mlwydd oed, efe a barhaodd am ugain mlynedd i gyflawni dyledswyddau y lle heb neb i'w gynnorthwyo.

Yn 1737, pan oedd yn 81 mlwydd oed, tarawyd ef â'r parlys yn ei law ddeheu. Ar ol hyn, dechreuodd ei nerth adfeilio; ac un diwrnod, Ionawr 14eg, 1742, fel yr oedd yn yfed gwydraid o win, bu farw yn dawel yn ei gadair, yn 86 mlwydd oed. Claddwyd ef yn mynwent Lee, yn agos i Windsor.

Yn hanes darganfyddiadau seryddol, mae enw Halley yn sefyll yn agos iawn at enw Syr Isaac Newton, â'r hwn y bu am flynyddoedd yn gydlafurwr. Mae ei enw yn yr oes hon yn fwyaf hysbys i'r cyffredin fel darganfyddwr ymddangosiadau cylchol a rheolaidd y seren wib a elwir ar ei enw ef Comed Halley.

HARSA: yr oedd meibion Harsa yn mhlith teuluoedd Nethinim, y rhai a ddychwelasant o Babilon gyda Zorobabel: *Ezra* ii. 52; *Neh.* vii. 54.

HARUM [חרום=*dyrchafedig*]: enw sydd yn dygwydd yn un o'r rhestrau mwyaf dyrus o achau Iudah, yn yr hon y dywedir i Cos genhedlu "teuluoedd Aharhel, mab Harum;" 1 *Cron.* iv. 8.

HARAS [חרוץ=*toredig*]: gŵr o Iotbah, tad Mesulemeth, brenhines Manasseh, a mam Amon, brenin Iudah: 2 *Bren.* xxi. 19.

HASABIAH [חשביה—*cyfrifedig yr Arglwydd*]: enw a ddefsyfid gan y Lefiaid yn gyffredinol, yn enwedig yn adeg y dychweliad o Babilon. Lefiad o dylwyth Merari, a mab Amasiah, yn llinach Ethan (neu Ieduthun) y cantor: 1 *Cron.* vi. 45.

2. Lefiad arall o'r un tylwyth: 1 *Cron.* ix. 14.

3. Lefiad etto, y pedwerydd o chwe mab Ieduthun, yr hwn a chwareuai y delyn yn ngwasanaeth tŷ yr Arglwydd, yn amser Dafydd, ac a ofalai am y chweched cylch: 1 *Cron.* xxv. 3, 19.

4. Un o'r Hebroniaid; hyny yw, un o ddisgynyddion Hebron, mab Cohath, un o brif deuluoedd y Lefiaid: 1 *Cron.* xxvi. 30. Efe a'i 1,700 brodyr a arolygent "yn mhob gorchwyl Duw a gorchwyl brenin," y tu gorllewin i'r Iorddonen. Hwyrach mai yr un oedd hwn a

5. Hasabiah mab Cemuel, yr hwn oedd dywysog o lwyth Lefi, yn amser Dafydd: 1 *Cron.* xxvii. 17.

6. Lefiad arall: un o dywysogion ei genedl, yr hwn a weinyddai yn Mhasc godidog y brenin Iosiah: 2 *Cron.* xxxv. 9.

7. Lefiad, o dylwyth Merari, a ddaeth gydag Ezra o Babilon· *Ezra* viii. 19.

8. Un o benaethiaid yr offeiriaid (ac felly o deulu Cohath), yr hwn hefyd a ddaeth i fyny gydag Ezra: *Ezra* viii. 24.

9. Tywysog hanner "rhan," neu amgylchedd Ceilah; a adgyweiriodd ran o fur Ierusalem o dan Nehemiah: *Neh.* iii. 17.

10. Un o'r Lefiaid, a seliodd y cyfammod: *Neh.* x. 11. Hwyrach mai hwn ydyw yr un a elwir yn un o dywysogion y Lefiaid (*Neh.* xii. 24: cym. *adn.* 26) yn union wedi y dychweliad o Babilon.

11. Lefiad arall, mab Bunni: *Neh.* xi. 15. Er cymmaint o debygrwydd sydd rhwng y rhestr hon a'r un yn 1 *Cron.* ix (cym. yr adnod hon â 1 *Cron.* ix. 14), nid yw yn ymddangos mai yr un ydynt, yn gymmaint a bod hon yn perthyn i'r amser ar ol y caethiwed, tra y mae rhestr y Cronicl yn cyfeirio at sefydliad yr arch yn Ierusalem, gan Dafydd, ac at y tabernacl. Cym. *adn.* 19, 21, â'r cyfeiriad at Gilboa, lle yr oedd y tabernacl y pryd hwn: *adn.* 35.

12. Lefiad etto yn rhestr y gweinidogion yn y deml: mab Mattaniah: *Neh.* xi. 22.

13. Offeiriad o deulu Hilciah yn 'nyddiau Iehoiacim, mab Ieshua, yn rhestr y dychweledigion o Babilon: *Neh.* xii. 21: cym. i. 10, 26.

HASADIAH [חסדיה—*caredig gan yr Arglwydd*]: enw sydd yn dygwydd yn llinach freninol Iudah: 1 *Cron.* iii. 20.

HASARADAR, &c. Gwel HASER.

HASARGADA. Gwel HASER.

HASARSUAL. Gwel HASER.

HASARMAFETH [cyntedd marwolaeth]: defnyddir y gair hwn yn y Beibl fel enw ar drydydd Mab Ioctan: *Gen.* x. 26. Yn yr Arabaeg, gelwir ef Hadramäwt. Yn Arabia ddeheuol, y mae llanerch a elwir Hadramäwt; yr hwn, yn ol tystiolaeth dysgedigion Beiblaidd, oedd trigfa Hasarmafeth a'i olynwyr. Mae y prawf o hyn yn gorphwys nid yn unig ar fod yr enw yr un, ond hefyd ar y ffaith ddiammheuol fod Ioctan wedi ymsefydlu ar gyffiniau deheuol Arabia. Gwel IOCTAN. Mewn cyferbyniad i'r diffeithdir tywodlyd sydd yn ei amgylchu, y mae Hadramäwt yn wlad amaethedig, ac yn hynod am ei thus, myrr, gwm Arabia (*gum-arabica*), aloes, &c. Ioctaniaid oedd brenhinoedd boreuol Hadramäwt. Y mae ei phreswylwyr yn gynnwysedig o fasnachwyr anturiaethus, ac y maent yn hynod am ffyrnigrwydd, penboethni, ac aflonyddwch eu tueddiadau.

HASBADANA: Lefiad, yr hwn a safai ar law aswy Ezra tra y darllenai y gyfraith i'r bobl yn Ierusalem: *Neh.* viii. 4.

HASER [חצר=*chatser*, o חצר, amgau neu amgylchu]: gair sydd yn dygwydd yn fynych yn y Beibl Hebraeg, ac yn cael ei gyfleithu *cyntedd* (2 *Bren.* xx. 4: ymyl y ddalen, *dinas*); ac arferir ef am ddinasoedd, neu bentrefydd pobl o duedd

Digitized by Google

grwydrol, ac ansefydlog mewn bywyd, megys yr anneddau Arabaidd a ddisgrifir gan deithwyr fel yn gynnwysedig o geryg anffurfiol wedi eu gorchuddio â lleni y babell, ac felly yn llenwi sefyllfa ganolog rhwng pabell y crwydryn—mor ansefydlog ag i fod yn arlun o derfyniad ebrwydd bywyd: *Esa.* xxxviii. 12—a'r ddinas sefydlog a pharhaol. Fel enw priodol, y mae yn dygwydd yn y Beibl Cymraeg:—1. Yn y rhif liosog, megys Haserim, Haseroth. 2. Yn y ffurf sydd dipyn yn wahanol—Hasor. 3. Mewn cyssylltiad â geiriau ereill, fel enw ar y ddinas neillduol a olygir. Yn y cyssylltiad yma, y mae yn cyfnewid i Hasar. A ganlyn sydd rai o'r lleoedd a enwir felly; ac fe ddylid sylwi fod pob un o honynt naill ai yn yr anialwch, neu ynte ar gyffiniau gwledydd gwareiddiedig.

1. Hasar-Adar: lle a enwir fel nôd terfyn ar gyffiniau deheuol Canaan, rhwng Cades-Barnea ac Asmon: *Num.* xxxiv. 4. Yn *os.* xv. 3, lle y nodir terfyn deheuol y wlad oedd yn wirioneddol wedi ei meddiannu, y mae yn y ffurf fyrach o Adar. Nid yw sefyllfa Hasar-Adauffrfdi ei benderfynu gan neb yn ddiweddar.

2. Hasar-Enan [dinas y ffynnonau]: lle y terfynai cyffiniau gogleddol Canaan, ac y dechreuai ei chyffiniau dwyreiniol: *Num.* xxxiv. 9. Enwir y lle hwn drachefn yn *Esec.* xlvii. 17, ac xlviii. 1, lle y prophwydir am eangder dyfodol y wlad. Mae y terfynau hyn yn cael eu holrhain gan Mr. Porter; yr hwn sydd yn tybied mai yr un ydyw Hasar Enan a Kuryetein—pentref o fewn o ddeutu 60 milldir i Damascus. Ei brif reswm dros ei olygiad ydyw, fod yn y lle hwn ffynnonau mawrion, a'r unig rai yn y parth eang hwnw—amgylchiad sydd yn cyttuno yn dda âg ystyr Hasar-Enan—*Porter's Damascus,* i. 252; ii. 358.

3. Hasar-Gada: un o'r dinasoedd ar derfyn deheuol Iudah, a enwir rhwng Moladah a Hesmon. Ar fap Van de Velde, y mae lle o'r enw Iurrah, yn ymyl Moladah (El-Milh); a thybia rhai mai hwn ydyw Gada, a rhoddir cyfrif am y gwahaniaeth yn yr enw drwy y ffaith fod y cyfnewidiad o D i R yn gyffredin yn y dwyrain.

4. Hasar-Sual [pentref llwynogod]: dinas ar derfyn deheuol Iudah, rhwng Hasargada a Beerseba: *Ios.* xv. 28; xix. 3; 1 *Cron.* iv. 28. Enwir hi yn yr un cyssylltiad wedi y dychweliad o Babilon: *Neh.* xi. 27. Ar fap Van de Velde (1858), y mae lle o'r enw Saweh yn cael ei nodi yn y llanerch hwn—llygriad, o bossibl, o Sual.

5. Hasar-Susah [pentref ceffylau]: un o'r dinasoedd a roddwyd i Simeon ar derfyn deheuol rhandir Iudah: *Ios.* xix. 5. Nid yw hon yn cael ei henwi yn rhestr dinasoedd Iudah (*pen.* xv.); ond cynnwysir hi yn mhlith yr eiddo Simeon yn 1 *Cron.* iv. 31, gyda sylw ei bod yn bodoli cyn ac hyd amser Dafydd. Tybia Stanley [*Sinai and Palestine*] fod Hasar-Susah, ynghŷd â Beth-Marcaboth [tŷ y cerbydau] yn cael eu defnyddio yn amser Solomon, ac wedi hyny, fel ystorfeydd ceffylau a cherbydau wrth fasnachu â'r Aipht (2 *Cron.* ix. 28); ac mai oddi wrth hyny y tarddodd yr enwau. Safai Hasar-Susah o fewn 33 o filltiroedd i'r gorllewin-ogledd-orllewin o Ierusalem.

HASERIM: "Yr Afiaid" oeddynt ddosbarth o bobl a breswylient barthau de-orllewinol Palestina "yn y dinasoedd" (Haserim=*dinasoedd*), "hyd Azza" (*Deut.* ii. 33), cyn eu dyfetha gan y Caphtoriaid. Haserim ydyw y rhif liosog am Haser.

HASEROTH: un o wersylloedd yr Israeliaid yn yr anialwch, yr hon a enwir yn nesaf i Cibroth-Hattafah: yr un, fe allai, a Hudhera bresennol yr Arabiaid [*Robinson's Researches,* a *Stanley's Sinai and Palestine*], yr hon sydd o ddeutu taith deunaw awr o Sinai, ar y ffordd i Akabah. Ymddengys fod y gair yn arwyddo pentrefydd gwasgaredig, fel y rhai y trig yr Arabiaid ynddynt. Gwel Haser.

HASMONA: un o wersylloedd yr Israeliaid, yn agos i fynydd Hor: *Num.* xxxiii. 29; cym. xx. 28, â *Deut.* x. 6.

HASOR [חצור—*gwyrog*]: dinas gaerog oedd yn rhandir Naphtali: *Ios.* xix. 36. Safai, fel yr ymddengys, rhwng Rama a Cades (*Ios.* xii. 19), ar yr ucheldir, wrth lyn Merom [*Hyn. Jos.*, v. 5, adr. 1]. Nid oes un rheswm dros dybied ei bod yn wahanol oddi wrth y lle y teyrnasai Iabin arno: *Ios.* xi. 1; *Barn.* iv. 2, 17; 1 *Sam.* xii. 9. Yr oedd trigolion y ddinas hon yn mhlith y rhai a gludwyd ymaith gan Tiglath-Pileser: 2 *Bren.* xx. 29. Tybia Robinson mai yr un ydyw Hasor a'r lle a elwir yn bresennol Tell Khuraibeh, yr hwn sydd yn ymyl Cades, a llyn Huleh (Merom).

2. Un o ddinasoedd Iudah, ar y terfyn deheuol: *Ios.* xv. 23.

3. "Hesron, hono yw Hasor;" *Ios.* xv. 25. Ond pa un a ydyw yr adnod yn golygu mai yr un ydyw hon a'r Hasor a enwir yn flaenorol, ynte mai enw cyntefig y ddinas oedd Hasor, a'r hwn a gyfnewidiwyd yn Hesron nid yw yn hawdd penderfynu.

HASUB: Lefiad Meraraidd: 1 *Cron.* ix. 14; *Neh.* xi. 15.

HASUBAH: mab Zorobabel: 1 *Cron.* iii. 20.

HASUM: daeth dau gant a thri ar hugain o "feibion Hasum" yn ol o'r caethiwed, gyda Zorobabel: *Ezra* ii. 19; *Neh.* vii. 22. Priodasai saith o honynt wragedd dieithr: *Ezra* x. 33. Yr oedd y pen teulu yn mhlith y rhai a seliasant y cyfammod gyda Nehemiah: *Neh.* x. 18.

2. Y mae yr enw yn mhlith y rhai a safent ar law aswy Ezra pan ddarllenai y gyfraith: *Neh.* xiii. 4.

HASSENAAH. Meibion Hassenaah a adeiladasant "borth y pysgod," pan adgyweirid mur Ierusalem: *Neh.* iii. 3.

HATACH: un o ystafellyddion Ahasferus: *Esther* iv. 5, 6, 9, 10.

HATLING: darn bychan o arian, dau o ba un a wnaent *quadrans,* ac yr oedd pedwar o'r olaf yn gyfartal â'r *as* Rhufeinig. Gwerth cyntefig yr



Dar. 355.

*as* oedd 3 neu 4 ffyrling, ond yn nyddiau ein Harglwydd, nid oedd ei werth ond 2¼ ffyrling. Nid oedd yr hatling ond yr wythfed ran o'r swm

Digitized by Google

hwnw—ychydig dros y bedwaredd ran o ffyrling Brydeinig. Efe oedd y darn arian lleiaf a adwaenid gan yr Hebreaid: *Luc* xii. 59.

**HATTUS**: mab i Sechaniah: 1 *Cron.* iii. 22.

**HAUL** [*ha-ul;* Ll. *sol;* Gr. *hêlios*]. Pe pwysigrwydd unrhyw destyn a ddylai benderfynu hyd yr erthygl arno, gellid yn hawdd cael digon o ddefnyddiau ynglyn â'r testyn hwn i lenwi cyfrolau. Fel y dywedodd Syr John Hill, y mae y goleuad hwn yn unig yn "ddigon i argraphu pwysigrwydd ar y wyddor i'r hon y perthyna." Byddai yn bossibl cadw trefn a bywyd ar y ddaear heb unrhyw wybodaeth am y lleuad, y planedau, a'r sêr; ond byddai yn anmhossibl gwneyd hyn heb fod yn gydnabyddus âg ysgogiadau yr haul. Pelydr yr haul ydyw achosydd mawr llawer o'r ysgogiadau sydd ar wyneb y ddaear. Drwy ei wres ef y cynnyrchir y gwynt, a'r cyfnewidiadau parhaus yn y byd llysieuol; y rhai, yn eu pryd, sydd yn dyfod yn gynnaliaeth i ddyn ac anifail. Drwy ddylanwad ei belydrau ef y perir i ddyfroedd y môr ymdaenu yn darth trwy yr awyrgylch; yr hwn sydd wedi hyny yn disgyn yn wlawogydd i'r ddaear, ac yn cynnyrchu ei ffrydiau a'i hafonydd. Mewn gair, efe, yn llaw Duw, sydd yn rhoddi ac yn cynnal bywyd yn ei wahanol ffurfiau. Ond y mae y pwysigrwydd hwn sydd yn perthyn iddo, ynddo ei hun, yn peri ei bod yn angenrheidiol ei ddwyn dan sylw mynych hefyd mewn cyssylltiadau ereill:—gwel yr erthyglau, DAIARYDDIAETH, BLWYDDYN, LLEUAD, TYMMORAU, YSGOGIAD, SERYDDIAETH, &c. Yn yr erthygl bresennol, cyfyngwn ein hunain at yr hyn a wyddys am natur cyfansoddiad yr haul, a rhyw ymddangosiadau perthynol iddo nas gellir yn briodol eu cynnwys o dan y geiriau uchod, ynghyd â'r cyfeiriadau ato yn yr Ysgrythyrau.

Yn hanes y cread, disgrifir yr haul fel y "goleuad mwyaf," mewn cyferbyniad i'r lleuad, y "goleuni lleiaf," ac mewn cyssylltiad â'r hon yr oedd i wasanaethu fel "arwyddion, a thymmorau, a dyddiau, a blynyddoedd," tra mai ei orchwyl ef oedd "llywodraethu y dydd;" *Gen.* i. 14—16. Mae yn debyg mai yr hyn a olygir wrth "arwyddion" yn y bennod hon ydyw *diffygiadau* (*eclipses*) yr haul a'r lleuad, y rhai a ystyrid fel yn rhagarwyddion o ddygwyddiadau dyfodol: *Ier.* x. 2; *Mat.* xxiv. 29; *Luc* xxi. 25. Yr oedd yn llywodraethu y dydd, nid yn unig o blegid ei ddylanwadau nerthol, ond hefyd am mai efe a bennodai hyd y dydd, a'r gwahanol adegau arno. Rhwng codiad yr haul a'i fachludiad yr oedd yr Iuddewon yn cyfrif tri o gyfnodau. 1. Pan ddelai yr haul yn boeth, o ddeutu naw o'r gloch y boreu: 1 *Sam.* xi. 9; *Neh.* vii. 3. 2. Pan wresogai y dydd, neu ganol y dydd: *Gen.* xliii. 16; 2 *Sam.* iv. 5. 3. "Awel y dydd:" ychydig cyn machludiad haul: *Gen.* iii. 8. Cyfeirir yn fynych at ysgogiad ymddangosiadol yr haul, mewn ymadroddion sydd yn awgrymu ei fod yn ysgogi mewn gwirionedd: *Ios.* x. 13; 2 *Bren.* xx. 11; *Salm* xix. 6; *Preg.* i. 5; *Hab.* iii. 11. Y mae yr ymadrodd "adenydd y wawr" yn golygu y cyflymder gyda pha un y mae pelydrau yr haul, pan yn codi, yn tramwy ar draws yr entrych: *Salm* cxxxix. 9; *Mal.* iv. 2; a disgrifir ei eofndra a'i fywiogrwydd drwy ei gymmharu i "was priod yn dyfod allan o'i ystafell," a "chawr yn rhedeg gyrfa;" *Salm* xix. 5.

Yr oedd addoli yr haul, fel y gwrthddrych mwyaf mawreddog a dylanwadol mewn natur, yn gyffredin yn y gwledydd ar gyffiniau Palestina. Yr oedd yr Arabiaid yn gwneyd hyny (*Iob* xxxi. 26, 27: *Strabo*, xvi. td. 784); ac y mae yn debyg ei fod yn arferedig yn mhlith hynafiaid yr Iuddewon yn Caldea a Mesopotamia. Yn yr Aipht hefyd yr oedd yn cael ei addoli o dan yr enw *Re* neu *Ra;* oddi wrth yr hwn y tardda enw eu brenhinoedd—Pharoah, yn hytrach Phra="yr haul." Prif addoldy yr haul yn yr Aipht oedd On (Bethsemes yr Hebreaid: *Ier.* xliii. 13);="tŷ yr haul." Ystyr yr enw Potiphar (*Gen.* xli. 45) oedd "perthynas i'r haul." Tybia rhai fod addoli yr haul mewn arferiad yn mhlith yr Iuddewon yn fuan wedi eu sefydliad yn Nghanaan: *Lef.* xxvi. 30; *Esa.* xvii. 8. Y mae y gair Hebraeg *chammânîm*, a gyfieithir "delwau" yn yr adnodau yna, yn amlwg yn arwyddo yr haul (ymyl y ddalen, "haul-ddelwau"). Yn ddiweddarach, y mae Manasseh yn dwyn hyn i arferiad: 2 *Bren.* xxi. 3, 5; ac yn *pen.* xxii. 11. Yr ydym yn cael fod Iudah wedi "rhoddi meirch i'r haul;" yr hon arferiad a darddodd, hwyrach, oddi wrth y Persiaid, y rhai a gyflwynent eu meirch iddo. A barnu oddi wrth y cyfeiriadau anfynych a geir yn y Beibl at y pwngc, gallem feddwl fod yr Iuddewon wedi cymmeryd eu dull o addoli yr haul oddi wrth wahanol genhedloedd. Tarddodd yr arferiad o arogldarthu ar benau y tai (2 *Bren.* xxiii. 5; *Ier.* xix. 13; *Zeph.* i. 5), y mae yn debyg oddi wrth yr Arabiaid, ynghyd â'r weithred o ymgrymu i'r haul pan yn codi: *Ezec.* viii. 16; cym. *Iob* xxxi. 27. Cafwyd yr arferiad o "osod blaguryn wrth y trwyn," oddi wrth y Persiaid, fel y tybia rhai, y rhai a ddalient fwrnel o geingciau yn eu llaw chwith wrth addoli yr haul: *Ezec.* viii. 17: *Strabo* xv. td. 733. Ond dywedir fod hyn yn ammheus, gan mai ystyr yr ymadrodd ydyw "rhoddi y *gyllell* wrth y trwyn;" *h.y.*, tori eu hunain â'r gyllell. Dywedir hefyd nad ydyw y Persiaid yn gosod y blagur wrth y trwyn. Mewn ystyr ffugrol, y mae yr haul yn arwyddo cyfraith Duw (*Salm* xix. 7); presennoldeb cysurlawn Duw (*Salm* lxxxix. 11); person yr Arglwydd Iesu (*Mal.* iv. 2; *Ioan* i. 9); ynghyd â gogoniant a phurdeb gwrthddrychau nefol (*Mat.* xiii. 43; *Dad.* i. 16; x. 1; xii. 2.)

Yr ymddangosiad y mae yr haul yn ei gyflwyno i'r llygad noeth ydyw pelen o oleuni tanbaid; y fath nas gall y llygad ei ddal heb edrych arno drwy awyr niwlog, neu ddarn o wydr tywyll. Y mae y goleuni hwn mor gryf fel y mae y fflamau dysgleiriaf y gall dyfais a medr dyn eu cynnyrchu yn diflanu yn ei bresennoldeb, ac y mae y defnyddiau cynneuedig yn dyfod yn ysmotiau tywyllion. "Dernyn bychan o gareg galch wedi ei losgi fel arferol," medd Herschel, "ac *oxy-hydrogen gas* yn chwythu yn raddol arno, a thân ar hwnw, ydyw yr efelychiad goreu etto o oleuni yr haul." Ond dywed yn mhellach, nad ydyw hon yn ngoleuni yr haul ond megys ysmotyn tywyll. Cyfrifir fod goleuni uniongyrchol yr haul yn gyfartal i'r hyn a gynnyrchai 5570 o ganwyllau cŵyr ar unrhyw wrthddrych o fewn troedfedd ato. Y mae ychydig bach o'i belydrau wedi eu casglu i un pwynt yn ddigon i doddi meteloedd. Yn Plymouth, flynyddoedd yn ol, yr oedd yn angenrheidiol i nifer o ddynion fyned i lawr i'r môr mewn sudd-gloch. Pan o ddeutu 30 troedfedd o dan y dwfr, eisteddodd rhai o dan bwynt lle yr oedd y pelydrau yn cydgyfarfod, yn y gwydrau argrwn (*convex glasses*) yn mhen uchaf y gloch: ac er eu bod mor ddwfn o dan y dwfr, dywedir i'w capiau gael eu llosgi. Cyfrifir mai



Digitized by Google

pellder yr haul oddi wrth y ddaear ydyw pymtheng miliwn a phedwar ugain o filldiroedd. Pe buasai agerbeiriant wedi ei chychwyn tuag ato bum canrif a hanner yn ol, tua diwedd Rhyfeloedd y Groes, ac wedi parhau i deithio yn ol ugain milldir yn yr awr, ni buasai ond prin wedi ei gyrhaedd etto. Y mae ei dryfesur yn 882,000 o filldiroedd, neu gymmaint 112½ o weithiau a'r ddaear. Ei amgylchedd ydyw 2,764,600 o filldiroedd; neu yn agos i filiwn a chwarter o weithiau yn fwy na'r ddaear. Cymmerai 200,000,000 o flynyddoedd i deithio pob rhan o'i arwyneb yn ol 30 milldir y dydd. Pe byddai yr haul yn sefyllfa y ddaear, cyrhaeddai oddi allan i drogylch y lleuad. Y mae dwysder yr haul, fodd bynag, yn llawer llai nag eiddo y ddaear. Pe gellid pwyso y ddau mewn clorian, ni byddai yr haul ond o ddeutu 354,936 o weithiau yn drymach na'r ddaear; yr hyn sydd yn llai o lawer nag y disgwylid iddo fod wrth ystyried ei faintioli. Ond dylid sylwi fod y cyfrif hwn yn cymmeryd i mewn yr oll a ellir ei weled o'r haul. Os ydyw y dybiaeth a nodir isod yn gywir, sef ei fod wedi ei amgylchu âg awyr dysglaer o eangder mawr, gall fod corph yr haul mor ddwys ag eiddo y ddaear, neu yn fwy felly.

Wrth syllu ar yr haul drwy bellddrych (drwy wydr tywyll) y mae dau amgylchiad yn dyfod i'r golwg. Nid ydyw ei wyneb yn hollol ddisglaer. "Y mae y maes yn llawn o ysmotiau," i arfer geiriau Herschel, "neu fân dyllau; y rhai, wrth barhau i sylwi, sydd yn cyfnewid yn barhaus. Nid oes dim yn arddangos hyn yn well na symmudiad araf rhyw ddefnydd fferyllol, casnachog, mewn hylif tryloew wrth edrych arno yn uniongyrchol oddi uchod." Mae mor debyg iddo, medd efe, fel mai ei ddrychfeddwl ef am yr haul ydyw corph mawr tywyll, yn cael ei amgylchu âg awyrgylch, yn yr hwn y mae rhyw ddefnydd dysglaer yn ymsymmud, ond heb fod yn ymuno âg ef—yn "ymnofio, naill ai fel cymylau yn ein hawyrgylch ni, neu ynte yn treiddio drwyddo yn lleni a cholofnau anferth fel fflam, neu baladrau ein goleuni gogleddol." Y mae y meddylddrych am y fath gorph o oleuni yn peri i'r meddwl ymgolli mewn syndod: ond y mae yn bwysig i ni gofio, ei bod yn ammhossibl i ni, sydd yn byw o dan gorph o awyr, sicrhau pa beth all gymmeryd lle goruwch iddo. Y mae yn bossibl, er nad yn bur debygol, na byddem yn ymwybodol o oleuni na gwres, pe y gallem dderbyn pelydrau yr haul cyn iddynt dreiddio yr awyrgylch.

Yr amgylchiad arall sydd yn dyfod i sylw ar wyneb yr haul ydyw yr ysmotiau duon a grybwyllwyd, oddi wrth symmudiadau parhaus a rheolaidd y rhai y penderfynwyd cylchdroad yr haul ar ei echel. Y mae yr ysmotiau hyn o amrywiol ffurfiau, a phob amser yn cael eu hamgylchu âg ymyl go-gysgodol, heb fod mor dywyll â'r ysmotyn. Y maent hefyd o wahanol faintioli, o'r lleiaf hyd yr ugeinfed ran o faintioli yr haul. Sylwa Herschel iddo ef, pan yn Penrhyn Gobaith Da, weled un oedd mor fawr fel y gallai y belen ddaearol hon fyned drwyddo, gan adael mil o filldiroedd ar bob tu iddi heb ei gyffwrdd. Y mae yr ysmotiau hyn yn ddarostyngedig i gyfnewidiadau mewn ffurf a maintioli. Gwelir amryw o honynt yn fynych yn dynesu at eu gilydd, ac yn ffurfio un ysmotyn mawr. O'r tu arall, gwelwyd un o faintioli anferth yn chwalu yn ysmotiau manach. Dywed Dr. Wollaston iddo weled un yn ymdori oddi wrth eu gilydd, fel darn o rew a deflir ar ryw ddefnydd caled. Ar un amgylchiad, sefydlodd Herschel ei sylw ar rai o'r ysmotiau hyn; ond wedi tynu ei olwg oddi arnynt am ddim ond un foment, yr oeddynt wedi diflanu. Arosant weithiau am ychydig ddyddiau, ac o hyny hyd chwech neu saith o wythnosau. Yn agos iddynt y mae ystripiau yn fynych, y rhai sydd yn ddisgleiriach na'r gweddill o'r arwyneb. Gelwir y rhai hyn yn *faculæ*, ac ynddynt hwy y mae yr ysmotiau yn aml yn dyfod i'r golwg gyntaf. Fe sylwyd ar yr ymddangosiadau hyn yn bur foreu. Tybiai ser-syllwyr gynt mai yr ysmotiau hyn oedd tanwydd y ffwrn eiriasboeth, neu ludw yn ymnofio ar lynclyn berwedig, neu fwg ffrwydriadau mynyddoedd tanllyd. Mae amryw dybiau yn mhlith athronwyr o berthynas i'w natur, ond yr un sydd wedi derbyn mwyaf o gymmeradwyaeth ydyw yr eiddo Herschel. Tybia efe fod yr haul yn meddu awyrgylch dwysach (*more dense*), ac felly tywyllach nag eiddo y ddaear; goruwch yr awyrgylch hwn, neu ynte yn gymmysgedig â'r haenau uchaf o hono, y mae un arall o gymylau hunan-lewyrchiadol, o wahanol ddyfnderau, weithiau yn amlygu yr awyrgylch isaf, yr hon sydd yn adlewyrchu goleuni yr awyrgylch ddisglaer sydd uwch ei phen. Y mae ysmotyn ar yr haul yn rhan o'r haul ei hunan, yr hwn a ddinoethir gan ryw gythrwfl sydd yn symmud y ddwy awyrgylch, neu y rhan fwyaf o honynt: y mae y gogysgod sydd o amgylch yr ysmotyn yn tarddu oddi wrth ymylau yr awyr-gylch isaf, y rhai a ffurfiant amgloddiau yr agen neu yr agorfa. Yr hyn sydd yn cynnyrchu y *faculæ*, ac ymddangosiad ysmotiog cyffredinol yr haul, ydyw y tonau neu yr ymylau sydd yn perthyn i'r awyrgylch ddisglaer. Oddi wrth fesuriadau o oleuni gwahanol fanau o'r haul, tybiai Herschel fod yr awyrgylch odywyll yn adlewyrchu ychydig yn llai na hanner y goleuni y mae yn ei dderbyn oddi wrth yr awyrgylch ddisglaer, a chorph sylweddol yr haul ychydig yn llai na'r ddegfed ran o hono. Tybiai hefyd fod presennoldeb ysmotiau a chynnhyrfiadau ereill yn arwyddion o ymffurfiad o lawer o oleuni a gwres yn yr haul; ac felly o dywydd gwresog, a thymmorau braf. Y mae yn tynu y casgliad hwn drwy gynunharu agwedd yr haul ar wahanol adegau â phrisiau gwenith yn union ar ol hyny. Yr oedd ef yn cael fod pris y gwenith bob amser yn codi pan y byddai yr haul heb ysmotiau, ac yn gostwng pan y dechreuent ail-ymddangos. Pa faint bynag o wirionedd sydd yn y dybiaeth olaf (ac ni chlywsom fod neb wedi ei gwrthbrofi) y mae y flaenaf yn mherthynas i'r ddau awyrgylch yn dra thebygol. Y mae yr haul felly, yr hwn y tybiai yr hynafiaid ei fod yn belen anferth o dân, yn gyffelyb i'n daear ni: mae cymylau mawrion yn fynych yn hofran uwchben ei awyrgylch, ac weithiau yn ymdaenu nes cuddio ei arwyneb yn gwbl o'r golwg; y maent yn ymwahanu eilwaith, ac yn ymgasglu yn dalpiau unigol, ac yna yn ymgyssylltu drachefn, gan ffορddio i'r awyrydd anturiaethus yn ei *balloon* gipdrem, yn awr ac eilwaith, o'r ddaear. Mae yr amgylchiadau hyn i ryw raddau yn cyfatteb i'r cyfnewidiadau sydd yn dwyn perthynas â'r haul. Os ydyw hyn yn gywir, y mae yn eithaf possibl fod yr haul yn cael ei breswylio gan wrthddrychau byw; ac er mai fflam anferth o oleuni sydd yn gwasanaethu iddynt hwy yn lle haul, gall fod yn llawn mor wasanaethgar iddynt, o blegid y mae yr awyrgylch isaf yn attal oddi wrthynt ormod o oleuni a gwres. Ond pa fodd y mae y goleuni a'r gwres hyn yn cael eu cadw i fyny, nid oes un athronydd

Digitized by Google

etto wedi rhoddi eglurhad boddlonol. Tybia rhai mai comedau sydd yn cludo y defnyddiau angenrheidiol. Y mae yn eithaf possibl fod comedau ar brydiau yn disgyn i'r haul; ond byddai mor resymol disgwyl i'r ager-beiriant gael ei gadw mewn trefn drwy daflu ei farwor ei hun arno. ag y byddai i gomedau gyflenwi yr hyn a fyddai yn angenrheidiol i gynnal i fyny belydr yr haul. Y mae pob darganfyddiad mewn fferylliaeth, yn hytrach na chynnorthwyo i egluro y dirgelwch hwn, yn taflu y possibilrwydd o hyny yn mhellach oddi wrthym. "Pe gellid anturio tybiaeth, buasem yn disgwyl i hyn gael ei gynnyrchu gan ymrwbiad (*friction*) neu arllwysiadau trydanol, yn hytrach na thrwy olosgiad unrhyw danwydd, pa un bynag ai sylweddol ai nwyol (*gaseous*).[1]

Fe ddarganfyddwyd yn ddiweddar y gellir gwahaniaethu pelydrau y goleuni oddi wrth belydrau y gwres; o blegid gellir dangos fod rhai o belydrau yr haul yn cynnyrchu gwres nas gallant gyfleu goleuni na lliw o gwbl. Y mae y gwres mwyaf yn gynnwysedig yn y pelydrau *cochion*, a'r gwres lleiaf yn y pelydrau hyny sydd o liw y *violet*. Y mae pelydrau yr haul hefyd yn cynnyrchu gwahanol effeithiau fferyllol. Duir yr halas arian (*muriate of silver*) gwyn yn y pelydr fioledaidd mewn 15 eiliad, ond ni wna y pelydr coch hyny mewn llai nag ugain munyd. Y mae llosnur (*phosphoric*) yn tanio yn y pelydr coch, ac yn diffodd yn y pelydr fioledaidd. Y mae goleuni yr haul o ganlyniad o dri math, un yn cynnyrchu *lliw*, un arall *wres*, a'r llall effeithiau *fferyllol*.

Y mae y dydd a'r nos yn meddu ar nodweddion gwahanol, mewn gwahanol ranau o'r ddaear. Nid ydym yn cyfeirio yn awr at y llanerchau pegynol, yn y rhai nid yw yr haul yn machludo o gwbl am amryw ddyddiau, ond at y parthau hyny lle y mae yr haul yn ymddangos ac yn machludo bob dydd yn rheolaidd. Ni gymmerwn un o ddyddiau y gwanwyn yn esampl — pan y mae yr haul yn y cyhydedd. Pe y cymmerem linell sefydlog, i ddynodi terfyngylch (*horizon*) gwahanol fanau, megys B. A. C, fe gyfyd yr haul i bwynt yn y cyhydedd fel ag i symmud ar hyd y cylch D. A. E, ac i ddyfod i fyny yn uniongyrchol o'r terfyngylch; tra mewn lle yn agos i un o'r pegynau fe symmuda (yn ei berthynas â'r terfyngylch B. A. C.), ar hyd y cylch F. A. G.




Y mae goleuni yn cael ei gyfleu oddi wrth yr haul hyd yn oed pan y bydd efe islaw y terfyngylch.



Dar. 354.

Achosir hyn gan alluoedd gwrthdroadol ac adlewyrchol yr awyrgylch. Drwy y cyntaf, y mae yr haul, i olwg y llygad, yn ymddangos yn uwch nag ydyw mewn gwirionedd; a phob boreu a hwyr, pan y bydd ymyl isaf yr haul fel yn gorphwys ar y terfyngylch, y mae ei holl gorph mewn gwirionedd islaw iddo, a byddai o'r golwg oni bai fod yr awyrgylch yn gwrthdroi ei belydrau. Pan o fewn 33 gradd—ychydig yn fwy na lled ymddangosiadol yr haul—i'r terfyngylch, y mae y pelydrau yn cael eu taflu i barthau uchaf yr awyrgylch; ond y maent yn parhau i'n cyrhaedd ni am amser trwy adlewyrchiad yr awyrgylch, ac yn cynnyrchu yr hyn a elwir y cyfddydd a'r cyfnos, sef y cyfnewidiad graddol o dywyllwch i oleuni, ac o oleuni i dywyllwch. Y mae y ddau gyfnod hyn yn parhau, tra byddo yr haul o fewn chwaneg na 15 o raddau i'r terfyngylch; er nad yw yn bossibl gwneyd heb oleuni y ganwyll am gymmaint a hyny. Ond bydded nifer y graddau a ganiateir i'r cyfnodau hyn y peth y bont, yn ardaloedd y cyhydedd, lle y mae yr haul yn esgyn ac yn disgyn yn uniongyrchol at neu oddi wrth y terfyngylch, y mae yn amlwg fod hyd y cyfnodau yn llai nag ydynt yn agos i'r pegynau Y canlyniad o hyn ydyw, fod y rhybudd o godiad neu fachludiad yr haul yn y trofanau yn fyr. Yn fuan iawn wedi i'r goleuni ymddangos, y mae yr haul ei hun yn dyfod i'r golwg, ac y mae yn ddydd cyflawn a gwresog; ac o'r ochr arall, wedi i'r haul fyned o'r golwg, y mae yn fuan yn myned yn nos dywyll. I'r gwrthwyneb gyda ni, ac yn fwy felly mewn parthau mwy gogleddol—y mae ymddangosiad neu ddiflaniad brenin y dydd yn cael ei ragarwyddo am lawer o oriau.

Pan y mae yr haul yn ymddangos ar y terfyngylch, y mae ei ffurf yn ymddangos yn lled hirgrwn—y mae ei dryfesur mewn llinell gyfredol â'r terfyngylch, yn ymddangos yn fwy na'r hyn ydyw ffordd arall—y mae ei ymyl isaf yn fwy gwastad na'r ymyl uchaf. Y mae hyn hefyd yn cael ei gynnyrchu gan allu gwrthdroadol yr awyrgylch; yr hwn sydd yn cynnyddu i'r fath raddau fel yr ydys yn dynesu at y terfyngylch, fel y mae ymyl isaf yr haul yn dyfod yn llawer mwy gwastad na'r ymyl uchaf. Y mae yr un amgylchiad yn dygwydd gyda'r lleuad llawn; a byddai felly hefyd gyda'r planedau, pe byddai eu maintioli yn ddigon i allu ei weled. Dylid sylwi hefyd fod yr haul a'r lleuad yn ymddangos yn fwy pan yn agos i'r terfyngylch; ond gyda golwg ar yr haul, nid yw hyn ond tybiaeth, o blegid wrth ei fesur gydag offerynau, yr ydys yn cael ei fod

[1] Syr F. W Herschel.

yn ogymmaint bob rhan o'r diwrnod. Y mae yn wir fod y ddau oleuad yn nes at yr edrychydd pan ar y terfyngylch, o gymmaint a hanner tryfesur y ddaear; y mae y lleuad yn ddigon agos i ddangos yr effaith o hyn pan fesurir ei thryfesur ymddangosiadol, ond nid ydyw felly gyda'r haul. Gall ymddangos yn hynod fod yr haul yn nes atom yn y gauaf, pan y mae y ffrydiau wedi eu cloi gan y rhew, y meusydd wedi eu gorchuddio âg eira, a'r teithiwr yn "rhynu gan oer anwyd," nag yn yr haf, pryd y llosgir y planhigion gan y gwres, yr ymdrecha yr anifail am ei anadl o dan gangau y coed, ac y gorfodir y gweithiwr blin a chwysedig i gilio i'r cysgod. Ond y mae y rhyfeddod yn diflanu pan gofir fod pelydr yr haul yn yr haf, pan y mae yn esgyn yn uwch i'r entrych, yn dyfod atom yn fwy uniongyrchol nag yn y gauaf. Pan y mae yr haul bellaf oddi wrthym, fel yn yr haf, y mae cyhyd ddwywaith uwch na'r terfyngylch, nag yn nghanol y gauaf. Mae y nos yn fyr hefyd; ac felly nid ydyw y ddaear yn cael cyfle i daflu allan ond ychydig o'r gwres a dderbyniodd cyn i'r haul ymddangos eilwaith.

Un o'r ymddangosiadau mwyaf dyddorol ynglyn â'r haul ydyw ei ddiffygiadau (*eclipses*). Ychydig o ddygwyddiadau sydd wedi achosi mwy o bryder yn y fynwes, ac a wyliwyd gyda mwy o gywreinrwydd, o leiaf gan y dosbarth mwyaf anwybodus. Y mae athronwyr mor gydnabyddus â'u hachosion, ac yn gallu dyweyd gyda chymmaint o fanylrwydd pa bryd y dygwyddant fel y mae yn anhawdd iddynt ffurfio drychfeddwl am yr effaith y maent yn ei gael ar y dosbarth anwybodus. Y mae gweled yr haul, oedd yn tywynu yn ei holl ogoniant, yn sydyn yn cael ei orchuddio gan len o dywyllwch, a'r ser mwyaf yn ymddangos, yr anifeiliaid yn cilio mewn dychryn, a phrudd-der yn ymdaenu ar bob llaw—y mae hyn yn rhwym o daro yr anwariaid, a'r rhai sydd yn anghydnabyddus â'r achos naturiol o honynt â braw a phryder. Y maent wedi bod yn foddion i roddi attalfa ar ryfeloedd, a pheri i'r milwyr dewr yswatio, a ffoi mewn dychryn. Y mae diffyg ar yr haul yn cael ei achosi gan fynediad y lleuad rhwng yr haul a'r ddaear, ac felly yn attal ei belydrau rhag ei chyrhaedd. Y mae y cysgod a deflir gan unrhyw wrthddrych yn derbyn ei ffurf a'i faintioli yn ol fel y bydd ffurf a maintioli y gwrthddrych ei hun. Gan fod maintioli y lleuad yn llawer llai na maintioli yr haul, y mae y cysgod y mae yn ei daflu ar y ddaear yn cymmeryd ffurf bigyrnog, fel yn y darlun. Nis gall y cys-




· Dar. 856.

god hwn, yn y pellder y saif y ddaear oddi wrth yr haul, fod yn fwy na 70 milldir o dryfesur; ac o ganlyniad nis gall yr haul fod yn orchuddiedig ar yr un adeg, ond i gymmaint ag a fyddent o fewn y cylch hwnw. Gan fod y ddaear yn symmud yn barhaus, y mae y cysgod yn symmud hefyd, fel nad yw y diffyg i'w weled, yn yr un man, ond am o ddeutu wyth munyd. Rhenir arwyneb yr haul yn ddeuddeg rhan cyfartal, y rhai a elwir *digits;* ac yn mhob diffyg *rhanol,* y mae rhyw nifer o'r rhanau hyn yn cael eu gorchuddio. Fel rheol gyffredin, gellir dywedyd fod maintioli y diffyg yn lleihau rhan, neu *digit,* am bob 250 milldir oddi wrth y lle y bydd y diffyg i'w weled yn gyflawn. Y mae yn bossibl, fodd bynag, i gysgod y lleuad derfynu cyn cyrhaedd y ddaear. Pan y bydd yr haul yn y pellder lleiaf oddi wrthym, a'r lleuad yn y pellder mwyaf, fe fydd y cysgod yn fyr o gyrhaedd y ddaear o ddeutu ugain mil o filldiroedd; o'r ochr arall, pan y bydd yr haul bellaf oddi wrthym, a'r lleuad agosaf atom, y mae y cysgod yn ddigon i gyrhaedd gymmaint a hyny tu draw i'r ddaear. Yn yr amgylchiad blaenaf, y mae tryfesur yr haul yn ymddangos fwyaf, ac eiddo y lleuad leiaf. Y mae, o ganlyniad, yn analluog i'w orchuddio yn hollol, ac y mae cylch o oleuni tanbaid yn ymddangos o amgylch ei chorff tywyll. Gelwir hwn y diffyg modrwyol—yr *annular eclipse:* ac nid ydyw yn dygwydd ond yn bur anfynych.

Gall pump o ddiffygiadau ddygwydd mewn un flwyddyn; y nifer lleiaf all gymmeryd lle ydyw dau. Gan fod y lleuad yn myned heibio y rhan hwnw o'i chylchdaith sydd yn gorwedd rhwng yr haul a'r ddaear unwaith yn y mis, disgwyliem i'r diffyg ddygwydd bob mis. Ond nid felly y mae; o blegid nid yw y lleuad yn symmud ar hyd arwyneb trogylch y ddaear, y mae llwybr y lleuad yn gogwyddo at yr eiddo y ddaear; y mae uwchlaw iddo yn ystod un hanner o'i thaith, ac islaw iddo yr hanner arall, gan ei groesi ddwywaith yn y mis, mewn dau bwynt cyferbyniol, a elwir ei thrawsglymau. Nis gall y diffyg cyflawn ddygwydd ond pan y bydd y lleuad rhwng yr haul a'r ddaear, *yn, neu yn ymyl* ei thrawsglwm; hyny yw, pan y mae yn croesi cylchlwybr y ddaear ar amserau ereill, y mae, i'n golwg ni, naill ai yn myned heibio uwchben neu islaw yr haul, ac y mae y ddaear yn myned heibio islaw neu uwchlaw ei chysgod hi. Os bydd y lleuad yn rhywle o fewn o ddeutu 16 o raddau i'w thrawsglwm, bydd y diffyg yn *rhanol.* Er fod diffygiadau yn dygwydd yn gyffredin, y mae diffyg cyflawn yn dibynu ar gydgyfarfyddiad cynnifer o amgylchiadau, fel mai anfynych iawn y dygwydd. Y mae oesoedd wedi myned heibio rhwng rhai o'r diffygiadau hyn. Y mae Halley, wrth sôn am ddiffyg cyflawn a ddygwyddodd yn Llundain, Mai, 1715, yn dyweyd na welsid un yn y ddinas hono o'r blaen er Mawrth, 1140—cyfnod o 575 o flynyddoedd. Dygwyddodd diffyg cyflawn *Gorph.* 8, 1842; a chynnyrchodd y diffyg hwnw ddyddordeb neillduol. Tywynai amryw o'r ser, er nad oedd yn dywyllwch perffaith. Ymattaliai y ceffylau yn y meusydd oddi wrth eu llafur, ac yn ofer y ceisid eu gyru yn mlaen. Yn Montpelier, daeth yr ystlumau allan o'u cuddfanau; gwelwyd dyllhuan yn ehedeg dros ran o'r dref, diflanodd y gwennoliaid, aeth y dofednod (*fowls*) i glwydo. Mewn rhai manau gwelwyd blodau yn cau, fel yn min yr hwyr; ymattaliai yr adar â'u cân, dystawai y gwenyn, a dychwelent i'w cychod. Cafodd y manylrwydd gyda pha un yr oedd hwn yn ateb i'r rhagdystiolaethau am dano argraph'ddwys ar y cyhoedd, gyda golwg ar y cynnydd a gymmerasai le mewn gwyddoriaeth, a'r rheoleidd-dra oedd yn perthyn i beiriant mawr y bydyssawd. Yn Milan a Pavia, torodd y bobl i waeddi allan "*Huzzah! vivient les astronomes!*" "Hwre! byw fyddo y seryddwyr!"

Pan wedi ei orchuddio yn gwbl gan y lleuad y mae safle yr haul yn cael ei amlygu gan ddysgleirdeb y rhan hono o'r ffurfafen yn mha un y saif. Y mae y dysgleirdeb hwn yn gwisgo

Digitized by Google

ffurf coron, neu fodrwy oleuedig, yn amgylchu y lleuad, drwy yr hwn y mae pelydrau tanbaid, ond bychain, yr haul yn ymdaflu. Tybir mai yr awyrgylch ddysglaer sydd yn amgylchu yr haul sydd yn cynnyrchu hyn. Peth arall tarawiadol ynglyn â'r diffyg cyflawn ydyw yr ysmotiau a'r pigyrnau rhuddgoch sydd yn ymddangos ar ymylon y lleuad. Y mae ysgrifenwyr wedi eu cymharu i ysgubau prydferth o fflam, a phigyrnau byth-wynion yr Alps, y rhai a "rosliwir gan haul y boreu neu y prydnawn." Tybir mai cymmylau ydyw y rhai hyn sydd yn gorwedd yn awyrgylch yr haul, a'r rhai sydd yn sugno y rhan fwyaf o belydrau y *spectrum*, oddi eithr y rhai cochion, fel y mae y cymmylau yn awyrgylch y ddaear, yn min yr hwyr. Fe sylwyd yn fynych fod ymyl y lleuad wrth ddyfod i gyffyrddiad â'r haul, yn gwisgo ymddangosiad a ddisgrifir gan Mr. Baily, fel cadwen o gleiniau (*beads*) dysglaer. Tybir fod hyn yn cael ei gynnyrchu gan dywyniad yr haul rhwng mynyddoedd clogyrnog y lleuad.

Weithiau, fe welir math o bigwrn goleuedig yn ymesgyn oddi wrth y terfyngylch, mewn cyfeiriad gogwyddol at y sidydd (*zodiac*), a'r hwn a elwir o ganlyniad yn Oleuni Sidyddol. Y mae yn ymddangos cyn i'r haul godi, ac wedi iddo fachludo, ond nid yw yn ymddangos mor ddysglaer yn unman ag yn mharthau y cyhydedd. Y pryd y mae i'w weled ydyw, ar ol y cyfnos yn Mawrth ac Ebrill, ac o flaen y cyfddydd yn Medi a Hydref. Mae y goleuni, o ran ffurf, yn debyg i gynffon y gomed. Y mae y ser gwelwaf yn tywynu drwyddo. Y mae ei liw yn amrywio, yn ol fel y bydd ansawdd yr awyrgylch; ond yn gyffredin y mae o liw lled rosynaidd. Y mae y dysgleirdeb yn gwahaniaethu hefyd; a rhai blynyddoedd, nis gwelir ef o gwbl. Bernir ei fod yn derbyn ei ffurf oddi wrth ei gylchdroad cyflym gyda'r haul ar ei echel; ond y mae ei wir natur yn gyfryw ag y rhaid i ni gyffesu ein hanwybodaeth yn ei gylch. Y mae pelydr prydferth y goleuad hwn, pan yn ymadael oddi wrthym, yn ddarlun tarawiadol o addewid Haul y Cyfiawnder, "Drachefn, ychydig ennyd a chwi a'm gwelwch." Ac mor amlwg ydyw cynlluniad a threfniad yr Anfeidrol ddoeth a da, yn sefydlogrwydd bythol yr haul yn nghanolbarth y gyfundrefn a chylchdroad rheolaidd y bydoedd a'i hamgylchant, yr hyn sydd, nid yn unig yn sicrhau dychweliad eu harwyneb i'w bresennoldeb, ond gallu a gogoniant anhysbydd ei belydrau! Os, yn lle creadigaeth uniongyrchol, y golygir fod yr haul a'r planedau wedi eu creu yn raddol, o dan lywodraeth deddf attyniad, y mae y cwestiwn, Pa fodd y dygwyddodd i'r defnydd hunan-lewyrchol yna gael ei gasglu yn un cyfangorph mawr i'r canolbarth, yn lle ei wneyd yn llawer o gyrph llai fel cyrph y planedau? "Nid wyf yn tybied," medd Newton, "y gellir rhoddi cyfrif am hyn drwy unrhyw achosion naturiol; ond gorfodir fi i'w briodoli i gynlluniad a threfniad Gweithredydd Rhydd."

**HAURAN** [חורן = *twll*, neu *ogof*]; ardal a enwir gan Ezeciel wrth nodi terfynau Gwlad yr Addewid: *Ezec.* xlvii. 16, 18. Gellid tybied oddi wrth ei eiriau ef ei bod yn gorwedd i'r gogledd i Damascus. Ond y mae yn dra thebyg mai yr un ydyw ag *Auranitis* y Groegiaid; ac a elwir yn bresennol *Haurân.* Y mae y llanerch yn gyflawn o ogofeydd lle y byddai yr hen breswylwyr yn cadw eu dwfr ac yn cuddio eu hydoedd rhag lladron. I'r gorllewin iddi y mae Gaulanitis: i'r gogledd y mae llanerch greigiog Trachonitis: i'r dwyrain, saif mynydd-dir Batanæa: ac i'r deheu y mae gwastadedd eang Moab: *Ier.* xlviii. 21. Y mae yn un o'r llanerchau mwyaf ffrwythlawn yn Syria; ac yn cynnwys hefyd dros gant o drefydd a phentrefydd, er nad oes ond ychydig yn byw ynddynt yn bresennol.

**HAZAEL**, ydoedd frenin Damascus, o ddeutu 886—840 c. c. Ymddengys ei fod cyn hyny yn ŵr o ddylanwad yn llys Benhadad, ac anfonwyd ef gan ei feistr at Elias, pan ymwelodd y prophwyd â Damascus, i ymofyn âg ef ynghylch ei afiechyd. Atteb Elias oedd, y *gallai* Benhadad wellhau; ond y *byddai* iddo farw, ac y byddai Hazael ryw ddiwrnod yn frenin ar Syria. Ymddengys mai appwyntio Hazael yn frenin oedd cyflawniad cenadwri Eliseus (1 *Bren.* xix. 15); yr hyn a arweiniodd i lofruddiad y brenin gan ei was trachwantus, yr hwn a esgynodd i'r orsedd: 2 *Bren.* viii. 7—15. Yn fuan aeth i ryfela âg Ahaziah brenin Iudah, am feddiant o ddinas Ramoth-Gilead: 2 *Bren.* viii. 28. O ddeutu yr un amser y mae yn myned i ryfel â brenin Assyria; ond gorchfygwyd ef, a chollodd 16,000 o filwyr, a 1100 o'i gerbydau. Tua diwedd teyrnasiad Iehu, y mae yn casglu ei luoedd, ac yn myned yn erbyn yr Israeliaid (o ddeutu 860 c. c.) y rhai a "darawodd efe yn eu holl gyffiniau;" 2 *Bren.* x. 32: ac felly cyflawnodd brophwydoliaeth Eliseus: viii. 12. Ymddengys fod brenhiniaeth Israel wedi hyn i raddau o dan ei awdurdod: xiii. 3—7, 22. A thua diwedd ei deyrnasiad, y mae hyd yn oed yn bygwth brenhiniaeth Iudah. Wedi cymmeryd Gath (xii. 17: cym. *Amos* vi. 2) y mae yn prysuro i ymosod ar Ierusalem, a gorchfygodd yr Iuddewon mewn ymladdfa: 2 *Cron.* xxiv. 34. Ac yr oedd ar fin ymosod ar Ierusalem, pan ddarbwyllwyd ef i ymadael drwy ei anrhegu â'r "holl aur a gafwyd yn nhrysorau tŷ yr Arglwydd, a thŷ y brenin;" 2 *Bren.* xii. 18. Ymddengys i Hazael farw o ddeutu 840 c. c., wedi teyrnasu 46 mlynedd. Ei ddilynydd ydoedd ei fab Benhadad: 2 *Bren.* xiii. 24.

**HEBER**, neu Eber: 1 *Cron.* i. 25. Wyr y patriarch Aser: *Gen.* xlvi. 17; 1 *Cron.* vii. 31; *Num.* xxvi. 45. 2. Un o lwyth Iudah: 1 *Cron.* iv. 18. 3. Un o lwyth Gad: 1 *Cron.* v. 13. 4. Beniaminiad: 1 *Cron.* viii. 17. 5. Beniaminiad arall: 1 *Cron.* viii. 22. 6. Heber y Cenead, gŵr Iael: *Barn.* iv. 11—17; v. 24. Nid ydyw yn hawdd deall pa fodd yr oedd yn Genead, o blegid fe ddywedir iddo ddisgyn oddi wrth Hobab, neu Iethro, offeiriad Midian. Priodolir y dyryswch hwn i duedd grwydrol y llwyth, y teulu i ba un y perthynai efe (*Barn.* i. 16), a'r Ceneaid yn gyffredinol. Yn 1 *Sam.* xv. 6, y maent yn ymddangos yn mhlith yr Amaleciaid. Dylid sylwi nad yw Iethro un amser yn cael ei alw yn Fidianiad, ond yn Genead (*Barn.* i. 16), fod yn dra phossibl nad yw yr ymadrodd "offeiriad Midian" yn golygu dim mwy nag mai Midian oedd gwlad Iethro; ac hefyd ei bod yn ymddangos fod dau dylwyth o'r Ceneaid wedi ymfudo i Palestina, yn gyntaf yn nghwmni "meibion Iudah," pan feddiannwyd y wlad gan yr Israeliaid (*Barn.* i. 16,) lle y golygir disgynyddion Iethro yn gyffredinol; ac yn ail, math o ymgyrch gwibiedig o deulu Heber, yr hwn a'u harweiniodd i Cades yn Naphtali. Ond nid ydym i olygu fod Heber wedi ymsefydlu yno y pryd hyny; ymddengys mai pabell oedd ei unig breswylfa, pan laddodd ei wraig Sisera: *Barn.* iv. 21.

Digitized by Google

HEBOG. Gwel GWALCH.

HEBRON [חברון = *y cyfaill*]: trydydd mab Cohath, yr hwn ydoedd ail fab Lefi, a brawd ieuangaf Amram, a thad Moses ac Aaron: *Exod.* vi. 18; *Num.* iii. 19; 1 *Cron.* vi. 2, 18; xxiii. 12. Efe oedd tad "meibion Hebron;" 1 *Cron.* xv. 9; xxiii. 19. Yn amser Dafydd, preswylient yn Iazer, yn Gilead, yn "feibion nerthol," 2,700 mewn nifer, a'r rhai a osodwyd gan Dafydd yn arolygwyr ar y ddau lwyth a hanner, "yn mhob gorchwyl Duw a gorchwyl brenin;" 1 *Cron.* xxvi. 31, 32. Yr un pryd yr oedd 1,700 o'r teulu yn yr un swydd o dan Hasabiah: *adn.* 30.

2. Y mae yr enw yn ymddangos yn llinach Iudah (1 *Cron.* ii. 42, 43), lle y dywedir mai Maresah oedd tad Hebron.

HEBRON, un o ddinasoedd Iudah (*Ios.* xv. 24), yr hon a safai yn mhlith y mynyddoedd, (*Ios.* xx. 7); ugain milldir Rufeinig i'r deheu i Ierusalem, a chynnmaint a hyny i'r gogledd i Beerseba. Hebron yn bresennol ydyw un o'r dinasoedd hynaf yn y byd. Yr oedd yn ddinas adnabyddus iawn pan aeth Abraham i Wlad Canaan, 3,780 o flynyddoedd yn ol: *Gen.* xiii. 18. Ei henw cyntefig oedd Ciriath (Caer) Arba (*Barn.* i. 10), a elwid felly oddi wrth Arba, tad Anac, a chyndad y cawr Anacim: *Ios.* xxi. 11; xv. 13, 14. Gelwid hi weithiau Mamre, oddi wrth gyfaill a chydymaith Abraham yn ddiammheu—Mamre yr Amoriad: *Gen.* xxiii. 19; xxxv. 27. Ond ymddengys nad oedd "derwen Mamre," lle y pabellai y patriarch mor fynych, *o fewn*, ond yn agos i Hebron. [Gwel MAMRE.] Y mae y prif ddyddordeb mewn perthynas i'r ddinas hon yn gynnwysedig yn y ffaith mai yma y cymmerodd rhai o'r digwyddiadau mwyaf hynod yn mywyd y patriarchiaid le. Bu farw Sarah yn Hebron, pryd y prynodd Abraham gan Ephron yr Hethiad, ogof a maes Machpelah, i fod yn feddiant beddrod i'r teulu: *Gen.* xxiii. 2—20. Y mae yr ogof yno etto, ac y mae muriau tewion yr *Haram*, neu y *mosque*, o fewn i'r hwn y gorwedda, yn ffurfio y gwrthddrych mwyaf hynod o fewn y ddinas. [Gwel MACHPELAH.] Gelwir Abraham gan y Mahometaniaid, *el—Khulîl*, "Cyfaill" (Duw), ac wrth yr enw yna yr adwaenir Hebron yn bresennol. Pan ddaeth yr Israeliaid i Ganaan, cymmerwyd Hebron oddi ar feibion Anac, gan Iosuah, a rhoddwyd hi i Caleb: *Ios.* x. 36; xiv. 6—15; xv. 13, 14. Cafodd ei neillduo i'r Lefiaid, a gwnaed hi yn "ddinas noddfa;" *Ios.* xxi. 11—13. Yma yn gyntaf y sefydlodd Dafydd ei freniniaeth, ac y preswylodd yn ystod y saith mlynedd a hanner y bu yn teyrnasu ar Iudah: 2 *Sam.* v. 15. Cafodd Hebron ei hail adeiladu ar ol y caethiwed; ond yn fuan syrthiodd i ddwylaw yr Edomiaid, oddi ar y rhai y cymmerwyd hi gan Iudas Maccabeus: *Neh.* xi. 25; *Mac.* v. 65: *Hyn. Joseph.* xii. 8. *adr.* 6. Ychydig cyn dinystr Ierusalem, llosgwyd hi gan un o swyddogion Vespasian. O ddeutu dechreu y ddeuddegfed ganrif, cymmerwyd Hebron gan Ryfelwyr y Groes. Bu am amser ar ol hyn yn adfeilion; ond yn 1167, gwnaed hi yn esgobaeth Babaidd. Yn 1187, syrthiodd i ddwylaw y Mahometaniaid, ac yn eu meddiant hwy y mae hyd yn hyn. Mae Hebron yn awr yn cynnwys 5,000 o drigolion, o'r rhai y mae o ddeutu 50 o deuluoedd yn Iuddewon. Y mae ei sefyllfa yn un o'r rhai prydferthaf—mewn dyffryn cul, yr hwn a amgylchir â mynyddau creigiog. Dyma "dyffryn Eschol," mae yn debyg, o'r lle y cafodd ysbïwyr yr Israeliaid y swp grawnwin: *Num.* xiii. 23. Mae llethrau y mynyddoedd o'i amgylch yn cael eu gwisgo etto â gwinllanoedd ffrwythlawn, a'i rawnwin ef ydyw y rhai mwyaf yn Palestina ddeheuol. Y mae yr olygfa yn cael ei thryfritho âg amryw lwynau o olewydd, a choed ereill. Y mae y dyffryn yn rhedeg o'r gogledd i'r deheu; ac y mae y brif ran o'r ddinas, lle y saif yr *Haram*, yn gorwedd mewn rhan ar y llechwedd ddwyreiniol: *Gen.* xxxvii. 14: cym. xxiii. 19. Y mae y tai wedi eu hadeiladu o geryg, penau y rhai sydd yn wastad, ac yn meddu un neu ddau o dyrau bwäog (*cupolas*). Nid oes muriau i'r ddinas. Ond i'r prif heolydd, y rhai sydd yn ymagor i'r prif-ffyrdd, y mae pyrth. Yn ngwaelod y dyffryn, i'r deheu i'r ddinas, y mae dyfrgist fawr, yn mesur 130 troedfedd ysgwâr, wrth 50 o ddyfnder. Yn mhen gogleddol y brif ran o'r ddinas, y mae un arall yn mesur 85 troedfedd o hyd wrth 55 o led. Y mae y ddwy yn bur hen; ac uwchben un o honynt—y flaenaf mae yn debyg—y crogodd Dafydd lofruddwyr Isboseth: 2 *Sam.* iv. 12. O ddeutu milldir oddi wrth y dref, i fyny y dyffryn, y mae un o'r coed derw mwyaf yn Palestina. Y mae yn sefyll yn unig yn mhlith y gwinllanoedd. Y mae yn 23 troedfedd o gylchfesur, ac y mae ei ganghenau yn gorchuddio llanerch sydd yn 90 troedfedd o dryfesur. Hwn, medd rhai, ydoedd *y pren*, o dan yr hwn y pabellai Abraham. Pa fodd bynag am hyny, gelwir y dderwen ar ei enw hyd heddyw.—*Robinson's Researches*, ii. 73.

2. Hebron oedd enw un o'r dinasoedd yn rhandir Aser: *Ios.* xix. 28. Enwir hi yn nesaf at Rehob, ac ymddengys ei bod yn sefyll yn nghymmydogaeth Sidon. Nid ydyw Eusebius a Jerome ond yn unig yn ei henwi, ac nid oes neb yn ddiweddar wedi darganfod ei sefyllfa.

HEBRONAH [עברנה o עבר=croesi, neu myned drosodd]: un o wersyllfaoedd yr Israeliaid yn yr anialwch: *Num.* xxxiii. 34, 35.

HEFIAD—IAID [החוי]. Yn yr Hebraeg, y mae yr enw bob amser yn y rhif unigol—"yr Hefiad." Meddylia rhai y gellir casglu oddi wrth hyn, fod yr enw wedi tarddu oddi wrth neillduolrwydd rhyw le neu amgylchiad, fel gyda'r gair Amoriaid—"mynyddwyr;" ac nid oddi wrth eu cyndad, fel gyda'r Ammoniaid—meibion Ammon; a'r Hethiaid—meibion Heth. Yr ystyr a roddir i'r gair gan Ewald ydyw, "preswylwyr y canoldir;" ond yn ol Gesenius, yr ystyr yw, "pentrefwyr." Yn yr adnodau canlynol, y mae y gair yn y Gymraeg yn y rhif unigol—yr Hefiad: *Gen.* x. 17; *Exod.* xiii. 28; xxxiii. 2; xxxiv. 11; *Ios.* ix. 1; xi. 3; 1 *Cron.* i. 15; hefyd, *Gen.* xxxiv. 2; xxxvi. 2. Yn mhob man arall y mae yn y rhif liosog. Yn *Gen.* x. 17, enwir "yr Hefiad" fel un o ddisgynyddion Canaan, mab Cam: 1 *Cron.* i. 15. Yr oedd yr Hefiaid yn meddiannu rhan o Wlad Canaan o flaen yr Israeliaid, sef y rhan ogleddol a gogledd-ddwyreiniol o'r wlad. Yn *Barn.* iii. 3, dywedir fod yr Hefiaid yn trigo yn mynydd Libanus, "o fynydd Baal-hermon hyd y ffordd y deuir i Hamath;" ac yn *Ios.* xi. 3, disgrifir y bobl hyn fel yn preswylio "dan Hermon yn nhir Mispah." Enwir "dinasoedd yr Hefiaid" yn 2 *Sam.* xxiv. 7; a chan eu bod mewn cyssylltiad â Tyrus a Sidon y mae yn rhaid eu bod yn y gogledd-orllewin. Yr oedd rhan o'r genedl yn bodoli yn amser Solomon, yr

Digitized by Google

hwn a'u darostyngodd hwy i dalu gwarogaeth iddo trwy lafur personol, ynghyd â gweddiil cenedloedd ereill y methasai yr Israeliaid eu gorchfygu: 1 *Bren.* ix. 20. Yr oedd rhan o'r genedl hon hefyd yn preswylio yn Palestina ogleddol, yn ninasoedd Gibeon, Chephirah, Beeroth, a Ciriath-Iearim; a derbyniodd y rhai hyn gan Iosuah sicrwydd o'u diogelwch drwy ddyfais: *Jos.* ix. 3—17; xi. 19.

Tybia rhai mai yr un oedd y bobl hyn a'r Afiaid: *Deut.* ii. 23.

HEGAI: un o ystafellyddion Ahasferus, o dan ofal yr hwn yr oedd y gwragedd yn Susan, neu "dŷ y gwragedd;" *Esther* ii. 8, 15.

HEL—A—IWR—WRIAETH—FA: casglu, ceisio, erlid: *Ier.* xvii. 11; 1 *Sam.* xxiv. 11; *Ezec.* xiii. 18, 20; *Micah* vii. 2; *Diar.* vi. 26. Ymlid anifeiliaid i'w lladd: *Gen.* xxvii. 3. Y mae y dybenion sydd mewn golwg yn yr arferiad o hela anifeiliaid yn dangos gwahanol sefyllfaoedd cymdeithas a gwareiddiad. Y mae hela, fel mater o angenrheidrwydd, pa un bynag ai er mwyn dyfetha bwystfilod peryglus, ynte cael gafael ar foddion cynnaliaeth, yn arwyddo sefyllfa o anwybodaeth, a hanner gwareiddiad. Fel moddion o ymarferiad corphorol a phleser, y mae yn arddangos cyflwr diwylliedig. Yn y flaenaf, dewrder a gallu corphorol sydd yn dyrchafu y naill ddyn ar ei gydymaith, ac yn ei gymmhwyso i'r flaenoriaeth; ac o herwydd hyny, gelwir Nimrod, un o brif wroniaid hynafiaeth, yn "heliwr cadarn ger bron yr Arglwydd" (*Gen.* x. 9); tra y dywedir fod Ismael, cyndad cenedl anwaraidd, yn enwog fel saethwr (*Gen.* xxi. 20); ac Esau, yr hwn a lanwai sefyllfa gyffelyb, yn "ŵr yn medru hela, ac yn ŵr o'r maes;" *Gen.* xxv. 27. Ar y cyntaf, nid oedd yr arferiad o hela yn cael ei ddilyn ond fel moddion cynnaliaeth. Yr oedd y moddion hyn yn naturiol yn blaenori arferion amaethyddol, gan eu bod yn dwyn i mewn ymborth gyda llawer llai o drafferth. Nid oedd eisieu ond cymmeryd yr anifail a'i ladd, tra yr oedd amaethyddiaeth yn golygu cydgasgliad o wybodaeth a dyfeisgarwch, a'r fath ragddarpariaeth o ymborth ag a alluogai ei berchenog i aros hyd nes yr addfedai ffwythau y tir. Mewn amser, wedi i wareiddiad gynnyddu i raddau, pan adeiladwyd dinasoedd, ac y diwylliwyd y tiroedd, daeth helwriaeth i fod yn fwy o foddion difyrwch ac adgryfhâd na chynnaliaeth.

Yn y dwyrain, yr ydym yn cael fod y naill a'r llall mewn arferiad. Yn *Hyn. Josephus*, xv. 7. *adr.* 7; a xvi. 10. *adr.* 3; dywedir fod Herod yn heliwr o gryn enwogrwydd. Yr oedd yn cadw ei farch hela a'i helwas yn rheolaidd; yn dilyn yr arferiad mewn gwlad ddiffaeth; ac fe ddywedir iddo ddal mewn un diwrnod "ddeugain o fwystfilod gwylltion" [*De Bell. Jud.*, i. 21, 13]. Yn Babilon, Persia, yr Aipht, ac Assyria, yr oedd yr arferiad mewn bri mawr. Yr oedd gan y cyfoethogion yn y lleoedd hyny eu parciau eang, i'r dyben o fagu ac ymlid anifeiliaid [Wilkinson's *Ancient Egyptians*, i. 215; *Xen. Cyrop.*, i.] Byddai y brenin ei hun yn arwain y ffordd i'r helfa, nid yn unig yn y parciau hyn, ond hefyd yn y meusydd agored, yn cael ei ddilyn gan ei bendefigion [*Xen. Cyr.*, i. 38].

Nid ydyw yn ymddangos fod yr Iuddewon yn arferol o hela yn y ffordd hon. Pobl amaethyddol oeddynt hwy; ac yr oedd lliosogrwydd y boblogaeth, difrifoldeb naturiol eu cymmeriad, a rhwymau seremoniol, yn enwedig y rhai hyny o berthynas i ymborth, yn cyduno i anghefnogi yr arferiad o hela; ac hwyrach fod esamplau Esau ac Ismael yn cael eu cofnodi i'r un dyben. Nid oedd dim prinder helwriaeth yn Palestina. Ar fynediad yr Israeliaid i'r wlad, yr oedd y bwystfilod gwylltion mor liosog ag i fod yn beryglus. Yr oedd eu difetha yn hollol yn cael ei wahardd yn nghyfraith Moses: *Exod.* xxiii. 11; *Lef.* xxv. 7: ond yr oedd rhai o'r anifeiliaid ffyrnicaf yn aros hyd gyfnod lled ddiweddar:—y llewod: *Barn.* xiv. 5; 1 *Sam.* xvii. 34; 2 *Sam.* xxiii. 20; 1 *Bren.* xiii. 24; xx. 36: eirth; 1 *Sam.* xvii. 34: gwas y llew (*jackal*); *Barn.* xv. 4: ac yr oedd y llwynogod (*Can.* ii. 15) yn lliosog. Yr oedd yr hydd, yr iwrch, ar ewig lwyd (*Deut.* xii. 15; 1 *Bren.* iv. 23) yn ffurfio moddion cynnaliaeth rheolaidd; ac hwyrach eu bod yn cael eu diogelu mewn parciau. Y dull o ddal y creaduriaid hyn oedd, naill ai trwy gloddio pwll, yr hyn oedd y ffordd arferol gyda'r creaduriaid mwyaf, fel y llew (2 *Sam.* xxiii. 20; *Ezec.* xix. 4, 8); neu drwy osod magl (*trap*) yn y ddaear (*Iob* xviii. 10) yn llwybr anifail (*Diar.* xxii. 5), yr hwn a'i daliai wrth ei goes (*Iob* xviii. 9); neu yn olaf, drwy gyfrwng y rhwyd, o'r hon yr oedd amryw fathau. Gyda hi delid yr afr-ewig (?): *Esa.* li. 20="tarw gwyllt," a chreaduriaid ereill o'r un dosbarth. [Gwel RHWYD.] Y mae Virgil yn disgrifio y dull y gosodid y rhwyd. Rhwymid deupen y rhwyd o bob tu i nant neu ddyffryn cul, lle y byddai llawer o'r anifeiliaid yn cael dwfr, ac ymlidid yr anifail i'r rhwyd gan yr heliwr, ac yna fe'i lleddid â'r bwa, neu y bicell [cym. *Wilkinson*, i. 214]. Yr anifeiliaid a leddid yn gyffredin oedd y cyfryw ag oedd yn briodol i'w bwyta: *Diar.* xii. 27. Yr oedd gofal yn cael ei gymmeryd i ollwng gwaed y rhai hyn, fel y creaduriaid dof: *Lef.* xvii. 13.

Yr oedd adar yn cael eu bwyta gan yr Hebreaid (*Lef.* xvii. 13), ac yr oedd llawer o ddyfeisgarwch yn cael ei arfer i'w dal. Y rhai canlynol oedd y dulliau mwyaf cyffredin:—1. Y *trap*; yr hwn oedd yn gynnwysedig o ddwy ran—rhwyd, yr hon a daenid dros ffram, gyda darn o bren i'w chynnal, wedi ei osod yn y fath fodd fel ag i syrthio ar unwaith pan gyffyrddid âg ef. Gelwir y pren hwn "croglath" yn *Amos* iii. 5; neu "dramgwydd;" *Salm* lxix. 22. Hwn oedd y llwybr mwyaf arferol: *Iob* xviii. 9; *Preg.* ix. 12; *Diar.* vii. 23. 2. Y *fagl*; yr hon oedd gynnwysedig o linyn (*Iob* xviii. 10: cymh. *Salm* xviii. 5; cxvi. 3; cxl. 5) wedi ei osod fel ag i ddal yr aderyn gerfydd ei goes. 3. Y *rhwyd*; cyffelyb i'r rhai a arferir yn yr Aipht mae yn debyg, yr hon oedd yn gynnwysedig o ddwy ystlys neu ffrâm, dros y rhai yr oedd rhwydwaith yn cael ei osod, yr hwn a drefnid yn y fath fodd fel y gellid ei gau â llinyn. [Gwel RHWYD.] 4. Yr *hudfa*; at yr hon y cyfeirir yn *Ier.* v. 26, 27. Math o *cage* ydoedd, yr hwn a lenwid âg adar, y rhai a weithredent fel hudwyr. Cedwid drws y *cage* yn agored â darn o bren, yr hwn oedd yn ffurfio math o groglath (*springe*). Ar fynediad yr aderyn i mewn, cauai y drws gyda *chlep*. Ymddengys fod y petris yn cael eu harfer i hudo: *Eccles.* xi. 30.

HELAM: llanerch i'r dwyrain o'r Iorddonen, ac i'r gorllewin o'r afon Euphrates, lle y casglwyd y Syriaid gan Hadarezer, a lle y cyfarfyddwyd ac y gorchfygwyd hwy gan Dafydd: 2 *Sam.* x. 16, 17. Y mae llawer o awgrymiadau wedi eu cynnyg o barth i sefyllfa Helam, ond nid oes dim sicrwydd ynglyn âg un o honynt. Yr

Digitized by Google

un mwyaf tebygol, o bossibl, ydyw, mai yr un ydoedd ag Alamatha—tref a enwir gan Ptolemy, ac yn sefyll, medd efe, i'r gorllewin i'r Euphrates, yn agos i Nicephorium.

HELBAH: tref yn rhandir Aser, ar wastadedd Phœnicia, fel yr ymddengys, yn agos i Sidon.

HELBON [חלבון]: enw sydd yn dygwydd yn unig yn *Ezec.* xxvii. 18, lle y dywed y prophwyd, wrth ddisgrifio cyfoeth a masnach Tyrus, "Damascus oedd dy farchnadydd...am win Helbon." Y mae Strabo yn son am win Chalybon, yn Syria, fel un o'r danteithion yr ymhyfrydai brenhinoedd Persia ynddynt. Y mae daiaryddwyr hyd yn ddiweddar wedi golygu mai yr un oedd Helbon a'r Aleppo bresennol, a'r hon a elwir *Haleb* gan yr Arabiaid: ond y mae rhesymau cryfion yn erbyn hyn. Y mae holl rym a phrydferthwch y disgrifiad yn *Ezeciel* yn gynnwysedig yn hyn, fod pob dinas a gwlad yn cael ymadael â'i chynnyrchion yn marchnad fawreddog Tyrus. Pa ham ynte yr oedd yn rhaid i drigolion Damascus brynu gwin o Aleppo, ac felly ei gludo am filldiroedd lawer drwy mawr anhawsderau dros y tir? Os oedd rhyw farchnadwyr estronol yn ymwneyd â'r fasnach hon, buasem yn naturiol yn disgwyl mai rhyw bobl forawl oeddynt, y rhai a allent ei gludo yn rhad ar hyd lan y môr o borthlath Aleppo.

O fewn ychydig filldiroedd i Damascus, y mae llanerch a phentref o'r enw *Helbon* (y mae y gair Arabaeg hwn yn cyfateb yn hollol i'r gair Hebraeg uchod), ac y mae y lle hwn etto yn hynod fel yn cynnyrchu y grawnwin goreu yn y wlad. [Gwel *Journal of Sacred Literature,* July 1853.] Nis gall fod ammheuaeth nad hwn ydyw Helbon *Ezeciel* a Strabo, ac nid Aleppo. Y mae y pentref yn gorwedd mewn cwm gwyllt, yn uchel i fyny gyferbyn â Libanus, yn Antilebanon. Y mae y lle yn cael ei amgylchu gan weddillion hen adeiladau mawrion a phrydferth. Y mae gwaelod y cwm yn cael ei orchuddio â gwinllanoedd hyfryd; ac y mae yr holl wlad o amgylch yn gyfoethog mewn gwinwydd a choed ffigys.—*Handbook for Syria & Palestine,* td. 495.

HELBUL—ON—US [*hel — pul*]: tristwch, profedigaeth, gofal; trafferthus: *Iob.* xiv. 1; *Esa.* liv. 11.

HELCATH: dinas yn llwyth Aser: *Ios.* xix. 25; yr hon, ynghyd â'i hamgylchoedd, a roddwyd i'r Lefiaid Gersonaidd: *Ios.* xxi. 31. Ni wyddys yn awr lle y safai.

HELCATH-HASSURIM: darn o wastattir, yn ymyl llyn Gibeon, fel yr ymddengys, lle y cymmerodd yr ymladdfa rhwng gwŷr Ioab ac Abner le, a'r hon a derfynodd yn marwolaeth yr holl ymladdwyr, ac a arweiniodd i ryfel cyffredinol: 2 *Sam.* ii. 16.

HELDAI: 1. Y deuddegfed cadben, neu "dywysog," yn nghwrs misol gwasanaeth y deml: 1 *Cron.* xxvii. 15. Gelwir ef "y Netophathiad," mab Othniel. 2. Un o'r Israeliaid a ddychwelodd o'r caethiwed; i'r hwn, ynghyd âg ereill, y gorchymynwyd i Zechariah wneyd math o goronau fel tystebau: *Zech.* vi. 10. Yn *adn.* 14, ymddengys fod yr enw wedi ei newid yn Helem.

HELEB: mab Baanah, y Netophathiad; un o wroniaid gwarchodlu Dafydd: 2 *Sam.* xxiii. 29. Yn 1 *Cron.* xi. 30, y mae yr enw yn Heled.

HELEM: gŵr a enwir yn mhlith hiliogaeth Aser: 1 *Cron.* xii. 35. Y mae yr ymadrodd yn dra thywyll, os yr hyn a feddylir ydyw mai brawd Samer oedd efe: yna yr un ydoedd a Hotham, yn *adn.* 32:—yr enw wedi ei gyfnewid wrth adysgrifenu hwyrach.

2. Gŵr a enwir yn Zechariah, *pen.* vi. 14; yr un, fel yr ymddengys, a Heldai: *adn.* 10.—*Ewald, Propheten,* 536.

HELEPH: y lle y dechreuai cyffiniau rhandir Naphtali: *Ios.* xix. 33. Ond yn mha le y safai, nis gellir sicrhau oddi wrth y Beibl. Tybia Van de Velde mai hon ydyw Beitlif—darn o wlad i'r gorllewin i Kades (Cades), yr hwn a ffurfiai ran o'r cyffiniau rhwng Naphtali ac Aser.

HELES: Un o'r deg ar hugain a ffurfient warchodlu Dafydd (2 *Sam.* xxiii. 26; 1 *Cron.* xi. 27): Ephraimiad, a chadben y seithfed cwrs misol: 1 *Cron.* xxvii. 10.

2. Gŵr o Iudah, mab Asariah: 1 *Cron.* ii. 39

HELI. Gwel HALEN.

HELIOPOLIS. Gwel ON.

HELM. Gwel ARFAU.

HELON [חלן]: tad Eliab, yr hwn oedd flaenor neu gadben llwyth Zabulon, pan gyfrifwyd y genedl yn anialwch Sinai: *Num.* i. 9; ii. 7; vii. 24, 29; x. 16.

HELYG: crybwyllir am helyg yn *Lef.* xxiii. 40, yn mhlith y coed oedd i gael eu defnyddio i ffurfio bwthynod ar gyfer gŵyl y pebyll; ac yn *Iob* xl. 22, fel y pren o dan yr hwn yr ymgysgodai y behemoth. Yn *Esa.* xliv. 4, dywedir y byddai i blant Israel dyfu fel helyg wrth ffrydiau dyfroedd: yn y Salm brydferth sydd yn disgrifio tristwch plant Israel yn y caethiwed, cawn eu bod, tra yn eistedd ac yn wylo wrth afonydd Babilon, wedi crogi eu telynau ar yr helyg o'u mewn: *Salm* cxxxii. 2. Yn yr amgylchiad yma, y mae yn ddiammheu mai yr helygen wylofus (*weeping willow*) a feddylir. Y mae llawer o'r pren hwn yn tyfu ar lanau yr Euphrates, mewn llawer o fanau yn Asia, heb law Palestina; ac hefyd yn Ngogledd Affrica [*Strand's Flora Palaest.*]. Y gair gwreiddiol am helygen yn *Ezec.* xvii. 7, ydyw *tzaphtzapha.* Y mae rhai wedi ceisio dangos mai rhyw bren arall ydyw hwn; ond y mae yn ddiammheu mai yr helygen a feddylir, ac mai yr un ydyw a'r Arabaeg *safsâf* =helygen. Y mae Burckhart [*Syria,* td. 644] yn son am ffynnon o'r enw Ain Safsâf=ffynnon yr helyg. Dywed Rauwolf am y *safsâf*:—"Y mae y coed hyn o amrywiol faintioli; y mae eu cyff, eu cangenau, a'u brigau, yn hir, teneu, a meddal, ac o liw melyn gwanaidd, heb fod yn annhebyg i'r fedwen; y mae y dail fel dail yr helygen gyffredin; ar y cangenau, yma a thraw, tyf math o flagur hir, fel y rhai hyny ar goed ffigys gwylltion Cyprus; ac yn y gwanwyn, daw allan o'r rhai hyn flodau tyner pluog, fel yr eiddo y poplys; y mae y blodau o liw gwelw, ac o arogl hyfryd; y mae y brodorion yn eu tori yn symiau mawrion, ac yn tynu o honynt gordial o werth mawr." Y mae hyn mewn arferiad etto mewn

Digitized by Google

gwledydd dwyreiniol, mor bell ag India Ogleddol; ac yr oedd, ac y mae etto, o bossibl, yn yr Aipht.

"Y mae plant Israel," [*Scripture Herbal*, 533] "yn parhau i gyflwyno helyg yn flynyddol yn eu synagogau, wedi eu rhwymo â phalmwydd a myrtwydd, a chyda hwynt y llebronwydd." Yn y wlad hon, y mae brigau o helyg blodeuog yn cael eu cario yn fynych yn y llaw, o dan yr enw "palmwydd," neu gosodir hwy ar ryw ran o'r wisg, gan ddynion a phlant ar Sul y Palmwydd.

O flaen caethiwed Babilon, byddai yr helyg bob amser yn dwyn cyssylltiad â theimladau o lawenydd a llwyddiant. "Y mae yn hynod," medd Mr. Johns [*Forest Trees of Britain*], "i'r pren hwn, mewn gwahanol oesoedd, fod yn arwydd o ddau deimlad hollol wrthgyferbyniol;" o blegid, ar ol y caethiwed, yr oedd yr helyg yn arwydd o dristwch, "ac nis gall fod ammheuaeth fod cyflwyniad y pren i ofid a galar i'w olrhain yn yr ymadrodd teimladwy yn y Salmau:" *Salm* cxxxvii. 2.

Mewn llawer o ystyriaethau, hwn ydyw y pwysicaf o'r holl blanhigion. Y mae cyflymder ei dyfiant, ei wydnedd, a'i ysgafnder, ynghyd â'i ddefnyddioldeb mewn meddyginiaeth a chelfyddyd, wedi peri iddo gael ei dyfu a'i feithrin mewn modd helaeth. Tyfa y gwahanol fathau o helyg, gan mwyaf, yn y rhanau oeraf o barthau tymmerus yr arddrych gogleddol. Y mae dau ddosbarth o'r helyg (*salix herbacea* a *salix arctica*) yn tyfu yn nes i'r pegwn nag unrhyw bren arall.

Ar gyfrif ystwythder a gwydnedd eu brigau, y maent yn cael eu defnyddio er ys canrifoedd i wneyd basgedau, cylchau, a chawellau, &c.; ac i'r dyben hwn y mae llawer o helyg yn cael ei feithrin yn y wlad hon. Y mae ei risgl yn cael ei ddefnyddio yn ngogledd Ewrop i wneyd matiau, fel y gwneir â rhisgl yr eurwernen (*linden-tree*). Yn Tartary, y mae y pren yn cael ei fwydo a'i hollti, ac yna ei wneyd yn edafedd i weu llian o hono. Y mae llawer o helyg yn cael ei arfer i wneyd siarcol; ac fe brofwyd fod siarcol helyg yn well nag un arall i wneyd pylor. Y mae rhisgl yr helyg yn gymmhwys at gyffeitho (*tan*) lledr; ac yn ol Syr H. Davy, y mae ynddo fwy o'r elfen angenrheidiol at hyny nag sydd yn y dderwen ei hunan. Allan o risgl rhai mathau o helyg y tynir yr elfen lysieuol a elwir *salicin;* yr hwn sydd yn gweithredu ar y cyfansoddiad yr un modd ag y gwna ryfgain (*quinine*); a defnyddir ef i'r un amcan. Y mae yr helyg yn arwydd o gariad diobaith. Plenir ef yn fynych yn mhlith yr yw a'r cypreswydd yn y fynwent. Flynyddoedd lawer yn ol, yr oedd yn arwydd o serch parhaol rhwng cariadon; a lle y byddai serch un yn cael ei wrthod, cyflwynid i'r gwrthodedig ffon gollen.

Y mae helyg mewn llawer o amgylchiadau yn cyrhaedd maintioli anferth. Yn Lichfield, flynyddoedd yn ol, yr oedd helygen brydferth mewn cryn ffafr gyda Dr. Johnson. Dinystriwyd hi yn ddiweddar gan gorwynt, wedi cyrhaedd y maintioli o 60 troedfedd o uchder, a 13 troedfedd o amgylchedd. Y mae yr helyg gwynion yn cyrhaedd yr uchder o 30 troedfedd mewn o ddeutu deng mlynedd. Y mae cannoedd o filldiroedd rhwng Moscow a chyffiniau Awstria yn cael eu gorchuddio â'r helyg hyn. Y mae y pren hwn yn dra defnyddiol at liwio, ac i wneyd dyrnau (*handles*) i bob math o offerynau. Gwneir hetiau a boneti o naddiadau (*shavings*) yr helyg hwn.

Y mwyaf dymunol o'r cyfan ydyw yr helygen **wylofus** (*weeping willow*). Dywedir iddi gael ei dwyn i'r wlad hon gan y bardd Pope. Dygwyddodd i'r bardd un diwrnod fod gyda'r arglwyddes Suffolk, pan dderbyniodd yr olaf sypyn o Yspaen, wedi ei rwymo â gwiail o'r helyg hwn. Planodd Pope un o honynt yn ei ardd, yr hon a dyfodd; a daeth yn dra adnabyddus i lawer, o dan yr enw *Pope's Willow*, yn Twickenham.

HELYNT [*hel—ynt*]: neges, dull, cyflwr, amgylchiadau bywyd. "Fy holl helynt a fynega Tychicus i chwi" (*Col.* iv. 7); neu yn ol William Salesbury, "A veneic y'wch veu holl *gyvlwr*." "Yn ol *helynt* y byd hwn;" *Eph.* ii. 2:—"yn ol dull," &c.

HEMAN [הֵימָן]: 1. Mab Zerah: 1 *Cron.* ii. 6; 1 *Bren.* iv. 31. Gwel isod. 2. Mab Ioel, ac ŵyr y prophwyd Samuel: un o'r Cohathiaid. Gelwir ef "y cantor;" yn hytrach, dylai fod y cerddor; 1 *Cron.* vi. 33: ac efe oedd y blaenaf o'r tri Lefiad a neillduwyd at wasanaeth cerddorol y deml yn amser Dafydd. Ei gymdeithion oeddynt Asaph ac Ethan (1 *Cron.* xv. 16—22); neu yn ol *pen.* xxv. 1, 3, Ieduthun. Rhoddir achau Heman yn 1 *Cron.* vi. 33—38. Yn 1 *Cron.* xxv. 5, gelwir ef "gweledydd y brenin yn ngeiriau Duw." Mae yr un gair (*gweledydd*) yn cael ei gymmhwyso at Ieduthun (2 *Cron.* xxxv. 15); ac at Asaph (*pen.* xxix. 30); a'r hwn sydd yn golygu, y mae yn debyg, yr un peth a phrophwydo mewn cyssylltiad âg Asaph ac Ieduthun: 1 *Cron.* xxv. 1, 3. Dywedir yn *pen.* xxv. 5, fod gan Heman bedwar ar ddeg o feibion, a thair o ferched. Yr oedd yr holl feibion yn cynnorthwyo eu tad gyda'r gerddoriaeth. Pa un ai hwn ydyw yr Heman y priodolir *Salm* lxxxviii. iddo, nid yw yn hollol sicr. Y prif reswm dros mai yr un a olygir ydyw, gan fod Salmau ereill yn cael eu priodoli i Asaph a Ieduthun, y gellir yr un modd yn briodol dyweyd fod hon yn perthyn i Heman y cantor. Ond, ar y llaw arall, yn *Salm* lxxxviii., gelwir Heman yn Ezrahiad; ac yn *Salm* lxxxix., gelwir Ethan yn Ezrahiad. Ond gan y dywedir yn 1 *Cron.* ii. 6, fod Heman ac Ethan yn feibion i Gerah, y mae yn dra thebyg fod Ezrahiad yn golygu o deulu Zerah; ac o ganlyniad, nad yr un yw Heman yn *Salm* lxxxviii. a Heman y cantor, yr hwn oedd Gohathiad. Yn 1 *Bren.* iv. 31, dywedir fod Solomon yn ddoethach nag Ethan yr Ezrahiad, na Heman, na Chalcol, na Darda, meibion Mahol. Y mae y rhestr yma yn cyfatteb yn hollol i feibion Zerah: 1 *Cron.* ii. 6. Y casgliad oddi wrth hyn yw fod Heman, heb law Heman y cantor, o deulu Zerah mab Iudah, a'i fod yn cael ei alw yn Heman yr Ezrahiad i'w wahaniaethu oddi wrth y llall, yr hwn oedd Lefiad.

Os darfu i Heman y Cohathiad, neu ynte ei dad, briodi un o ferched Zerah, fel y gwnaeth meibion Haccos rai o deulu Barzilai, ac o blegid hyny yn cael eu gosod yn achres Zerah, yna gall mai Heman y cantor a feddylir yn mhob un o'r cyfeiriadau uchod; a chan fod gallu cerddorol prif gerddor Dafydd, doethineb gweledydd Dafydd, a thalent awdwr *Salm* lxxxviii. yn cydgyfarfod yn yr un person, yr oedd yn dra phriodol cyssylltu ei enw â'r rhai ereill yn dywedir mai Solomon yn unig a ragorai arnynt mewn doethineb. Ond nis gellir sicrhau mai fel hyn yr ydoedd.

HEMDAN: mab hynaf Dison, mab Anah, yr Horiad: *Gen.* xxxvi. 26. Ymyl y ddalen, Amram; yr hwn yw y ffurf y rhoddir ef yn 1 *Cron.* i. 41.

Y mae Knobel (*Genesis*, 256) yn cymmharu yr

Digitized by Google

enw Hemdan â'r eiddo Humeidy a Hamady, dau o bum teulu o lwyth Omran neu Amran, y rhai a breswylient i'r gorllewin a'r de-orllewin i'r Akaba. Ac hefyd â'r Bene-Hamyde (meibion Hamyde), y rhai a drigent yn agos i Kerek, yn nghongl dde-orllewinol y Môr Marw.

HEMEROBAPTISTIAID. Gwel MENDEANIAID.

HEN [*Hem*]: mab Sephaniah: *Zech.* vi. 14: Yr un, y mae yn debyg, a Iosiah: *adn.* 10: cym. hefyd *adn.* 14. Yn ol Ewald, ac ereill, y mae y gair *Hen* yn golygu "yn ffafr" (mab Sephaniah).

HEN-DDYN. Gwel DYN.

HENRICIAID [*Henricians*]: canlynwyr mynach o'r enw Henry, yr hwn, yn y ddeuddegfed ganrif a gynnygiai ddiwygio yr holl glerigwyr ei hun—ofergoeledd a phechod y rhai a ystyriai yn ffiaidd ac anoddefol. Gwrthwynebai fedyddiad babanod, ymddygai gyda dirmyg at lawer o seremoniau a gwyliau yr eglwys, a chondemniai yn ddiarbed ragrith ac anfoesoldeb yr offeiriaid. Ymsefydlodd yn Toulouse yn y flwyddyn 1147, wedi teithio i lawer o fanau i daenu ei egwyddorion. Yma, daeth i gyfarfyddiad â'i wrthwynebydd, Bernard, prif-fynach Clairval. Llwyddwyd yn fuan i gael gan y Pab, Eugenius III., gondemnio egwyddorion Henry; ac mewn cymmanfa a gynnelid yn Rheims, yn 1148, pasiwyd penderfyniad i'w ddodi mewn carchar am ei oes. O dan gaethiwed a dysgyblaeth y carchar bu farw yn fuan.

HEOL—YDD [*he-ol*]: heol, yn briodol, ydyw unrhyw ffordd wedi ei phalmantu; ond fel yr arferir ef, ffordd mewn dinas neu dref, gyda thai o'r naill, neu y ddau du iddi; yn neillduol, prif-ffordd, mewn cyferbyniad i heolau (*alley*), neu lôn.

Y mae gwahaniaeth dirfawr rhwng heolydd y trefydd dwyreiniol a'r eiddom ni. Y maent yn gyffredin yn gulion, gwyrgam, a phrudd yr olwg arnynt, hyd yn oed yn y trefydd goreu, megys Cairo [*Lane* i. 25); Damascus [ *Porter* i. 30]; ac Aleppo [*Russell* i. 14]. Y mae hyn i'w briodoli i ffurf yr adeiladau, gwres yr hinsawdd, yr hwn sydd mor fawr yn y dwyrain fel y mae ystrydoedd culion yn llawer mwy cysurus i fyw ynddynt, a'r olwg brudd, ddifywyd, i'r ffaith fod y ffenestri, gan mwyaf, yn edrych i'r cyntedd mewnol. Gan fod yr un dylanwadau yn bodoli mewn hen amseroedd, y mae yn debyg fod yr ystrydoedd yn gyffelyb o ran eu natur. Y mae syniad gwahanol wedi ei goleddu, gan fod y gair Hebraeg *rĕchôb*, yr hwn a gymmhwysir yn fynych at heolydd, yn golygu, meddir, "lle eang." Ond ystyr briodol y gair hwn ydyw cyntedd, neu le agored. Cymhwysir ef yn y lleoedd hyn at y llanerchau eang oedd yn ymyl pyrth y ddinas, lle y gwneid masnach (*Deut.* xiii. 16); hefyd, at y cyntedd (heol) o flaen y deml (*Ezra* x. 9), neu o flaen y palas: *Esth.* iv. 6. Gall ei gymhwysiad at yr heol olygu dim mwy na lled cymhariaethol y brif heol; neu gall, hwyrach, gyfleu y drychfeddwl o gyhoeddusrwydd, yn hytrach na lled—ystyr sydd yn cyfatteb yn dda i'r adnodau yn mha un y dygwydda: *Gen.* xix. 2; *Barn.* xix. 15; 2 *Sam.* xxi. 12. Yr oedd yr heol a elwid "Uniawn," yn Damascus (*Act.* ix. 11) yn eithriad i'r rheol o gulni: heol ardderchog ydoedd hon. Yr oedd yn 100 troedfedd o led, ac yn cael ei rhanu yn amser y Rhufeiniaid yn dair rhodfa (*avenues*), gan dair rhes o golofnau (*colonnades*): y rhodfa ganol i deithwyr ar draed, a'r rhodfeydd ereill, y rhai oedd o bob tu iddi, i'r cerbydau a marchogion yn myned i wahanol gyfeiriadau [*Porter*, i. 47]. Mewn hen amseroedd, fel yn bresennol, y mae yn debyg fod y siopau a'r nwyddfeydd (*warehouses*) wedi eu casglu ynghyd yn nodachdai (*bazaars*. Yr ydym yn darllen am nodachdy (heol) y pobydd (*Ier.* xxxvii. 21), a nodachdai y gwlân, y nwyddau pres, a'r dillad [*Jos. Rhyf. Iudd.*, v. 8, adr. 1], ac hwyrach fod y cytundeb rhwng Benhadad ac Ahab, fod i'r olaf wneyd heolydd yn Damascus (1 *Bren.* xx. 34) yn cyfeirio yn fwy at nodachdai (y mae y gair a ddefnyddir yr un ag *Ier.* xxxvii. 21), ac mai sefydliad marchnadfa felly a olygir. Rhydd Porter [i. 58—60] ddisgrifiad bywiog o nodachdai Damascus. Ymddengys. oddi wrth *Ier.* xxxvii. 21, ac *Act.* ix. 11, fod heolydd yn meddu enwau yn achlysurol. Yn y trefydd dwyreiniol presennol, y mae pob heol a nodachdy yn cael ei chloi am y nos; ac o ganlyniad, nis gellir myned drwodd heb i'r gwyliedydd weied. Yr oedd hyn hefyd mewn arferiad gynt, y mae yn ymddangos: *Can.* iii. 3.

HEPHER [חֵפֶר]: un o hiliogaeth Manasseh. Yr ieuangaf o feibion Gilead (*Num.* xxvi. 32), a thad yr Hepheriaid. Efe oedd tad Salphaad, (*Num.* xxvi. 33, a xxvii. 1); merched yr hwn a godasant y cwestiwn o hawl gwraig heb feddu brawd i eiddo ei thad i sylw gyntaf.

2. Ail fab Naarah, un o ddwy wraig Assur, tad Tecoa (1 *Cron.* iv. 6), yn llinach Iudah.

3. HEPHER Y MECHERATHIAD: gwron yn ngwarchodlu Dafydd: 1 *Cron.* xi. 36. Yn y rhestr yn 2 *Sam.* xxiii. 34, nid yw yr enw yn cael ei nodi; a'r casgliad y mae Kennicott yn ei dynu, wedi ymchwiliad manwl i'r rhestrau, ydyw, mai yr enwau yn *Samuel* ydyw y rhai gwreiddiol, ac nad ydyw Hepher ond llygriad o honynt.

4. HEPHER: enw lle yn Nghanaan, sydd yn dygwydd yn rhestr y breninoedd gorchfygedig gan Iosuah: *pen.* xii. 3. Yr oedd ar du gorllewinol yr Iorddonen: cym. *adn.* 7. Yno hefyd yr oedd "tir Hepher," un o raglawiaethau Solomon: 1 *Bren.* iv. 10. A barnu oddi wrth y rhestr hon, yr oedd yn gorwedd yn rhywle yn rhan ddeheuol canolbarth Palestina; o leiaf, yr oedd is law Dor; ac felly nis gall fod unrhyw gyssylltiad rhyngddi â Gath-Hepher, yr hon oedd yn Zabulon, ger Sephoris.

HEPHSIBAH: enw sydd yn arwyddocau, "fy ymhyfrydiad ynddi," yr hwn sydd i'w roddi ar Ierusalem wedi ei hadferu: *Esa.* lxii. 4.

2. Gwraig y brenin Hezeciah, a mam Manasseh: 2 *Bren.* xxi. 1. Ni ddywedir dim ynghylch cymmeriad y frenines hon; ond y mae yn ddiammheu ei bod, fel ei gŵr Hezeciah, yn ffyddlawn yn ngwasanaeth yr Iehofah, ac y mae yn bossibl fod yr ymadrodd yn Esaiah yn cynnwys cyfeiriad ati.

HERACLEONIAID [*Heracleonites*]: sect o grefyddwyr; canlynwyr Heracleon, heretic o ddosbarth Valentine yn yr ail ganrif. Gwel VALENTINIAID. Gnosticiaeth, mewn ffurf mwy coethedig, oedd eu credo hwy: yr un pryd, gwadent brophwydoliaethau yr Hen Destament, a honent mai Ioan Fedyddiwr oedd yr unig arweinydd gwirioneddol at y Messiah.

Digitized by Google

HERES [*dyfeisiwr*]: Lefiad mewn cyssylltiad â'r tabernacl: 1 *Cron.* ix. 15.

2. HERES: distryw. Gwel IR-HA HERES.

HERESI GATAPHRYGAIDD [*Cataphrygian Heresy*]. Gwel MONTANISTIAID A CATAPHRYGIAID.

HERMAS: Cristion yn Rhufain, at yr hwn y mae Paul yn anfon anerch yn ei Epistol at y Rhufeiniaid: *pen.* xvi. 14. Y mae Irenæus, Tertullian, ac Origen, yn cyttuno i briodoli iddo ef y llyfr a elwir *Bugail Hermas*; ac oddi wrth y ffaith fod enw Clement yn digwydd ynddo, ystyrir iddo gael ei ysgrifenu yn amser Clement I. Myn ereill mai yn yr oes ar ol hyny yr ysgrifenwyd ef, gan un arall o'r enw, a brawd i Pius I. Y mae ereill yn gwadu dilysrwydd y llyfr. Oddi wrth gynnwysiad y llyfr, ymddengys fod yr awdwr yn briod, ac yn dad i blant, ac nad oedd ganddo unrhyw swydd eglwysig. Hefyd, ysgrifenwyd y llyfr yn y Groeg; yn yr hon iaith, y mae y tadau Groegaidd yn fynych yn dyfynu o hono, er ei fod yn bresennol i'w gael yn unig yn y Lladin. Ni dderbyniwyd ef erioed i blith y llyfrau canonaidd, ond edrychid arno gyda pharch mawr, a golygai rhai ei fod mewn rhyw ystyr yn ysbrydoledig.—*Caillau's Patres*, cyf. i., td. 17. Rhenir ef yn dair rhan: y rhan gyntaf yn cynnwys pedair o weledigaethau; yr ail, ddeuddeg o orchymynion, neu gynghorion; a'r drydedd, ddeg o gyffelybiaethau. Yn ol yr awdwr hwn, y mae pob dyn yn cael ei wylio gan angel drwg neu dda, y rhai ydynt yn barhaus yn amcanu llywodraethu ei ysgogiadau. Darllenid y llyfr yn gyhoeddus yn yr eglwysi boreuol. Y mae Neander, tra yn dyweyd ei bod yn ammheus iddo gael ei ysgrifenu gan Hermas Paul, yn ystyried fod y dybiaeth mai yn amser Pius I. yr ysgrifenwyd ef, yn llawer mwy felly.

2. HERMAS, neu yn hytrach Hermes: gŵr arall, yr hwn a enwir yn yr un epistol: *pen.* xvi. 14. "Yn ol y Groegiaid," medd Calmet, "yr oedd yn un o'r deg dysgybl a thrigain, ac wedi hyny yn esgob Dalmatia." Nodir ei ddydd gŵyl yn eu blwyddiadur hwy—Ebrill 8fed.

HERMIANIAID [*Hermiani*]: plaid grefyddol yn yr ail ganrif, a elwir felly oddi wrth eu harweinydd Hermias. Un o'u prif athrawiaethau oedd, fod Duw yn sylwedd corphorol: un arall, nad esgynodd Iesu Grist i'r nefoedd yn y corph, ond gadawodd ef yn yr haul.

HERMOGENES: gŵr a enwir gan Paul yn yr olaf o'i epistolau (2 *Tim.* i. 15), pan y darfu i'r rhai oll oedd yn Asia—hyny yw, y rhai a adawsai efe yno—droi oddi wrtho, ymhlith y rhai yr oedd Phygèlus a Hermogenes. Nid yw yn ymddangos pa un ai wedi gwrthgilio oddi wrth yr achos, yn awr, tra yr oedd efe mewn rhwymau, ynte wedi eu dychwelyd yr oeddynt fel Hymeneus a Philetus gan Iago Fwyaf. Nis gellir dywedyd mai yr un ydyw hwn a'r un a ddioddefodd o dan Domitian [*Alford*, ar 2 *Tim.* i. 15]; na'r Hermogenes yn erbyn yr hwn yr ysgrifenodd Tertullian. Y cyfan a wyddys am dano ydyw yr hyn a ddywedir yn yr adnod a nodwyd.

HERMOGENIAID: canlynwyr yr heretic Hermogenes, yr hwn oedd yn byw tua diwedd yr ail ganrif, a'r hwn a wrthwynebwyd mewn modd galluog gan Tertullian. Dysgai Hermogenes ddwy egwyddor dragwyddol:—Duw fel y gallu creadigol, a'r *chaos* fel sylwedd anghrëedig, oddi wrth wrthweithrediad yr hwn i allu creadigol Duw y tarddodd pob drwg.

HERMON: enw mynydd ar gyffiniau gogledd ddwyreiniol Palestina (*Deut.* iii. 8; *Ios.* xii. 1), gyferbyn a Libanus (*Ios.* xi. 17), ac yn gyssylltiedig â gwastadedd uchel Basan: 1 *Cron.* v. 23. Saif yn mhen deheuol cadwen mynyddoedd Libanus. Oddi tano, y mae hen ddinas gyffiniol Dan, a ffynnonau yr Iorddonen; ac efe yw yr hynotaf a'r prydferthaf o holl fynyddoedd Palestina a Syria. Yr achos o'i alw yn Hermon, yn ddiammheu, oedd ei ffurf—"pentwr uchel pigyrnog," yr hwn y gellir ei weled o bell: yn debyg fel y derbyniodd Libanus ei enw oddi wrth nodwedd gwyn ei greigiau o geryg calch. Rhoddid enwau ereill hefyd ar Hermon—pob un o honynt yn disgrifio rhyw neillduolrwydd arbenig perthynol i'r mynydd. Galwai trigolion Sidon ef yn Sirion; a'r Amoriaid yn Shenir—dau air yn arwyddo dwyfroneg. Tarddodd yr enw oddi wrth ddisgleirdeb ei gopa crwn, pan yr adlewyrchid pelydrau yr haul gan yr eira sydd yn ei orchuddio: *Deut.* iii. 9; *Can.* iv. 8; *Ezec.* xxvii. 5. Gelwid ef hefyd Seion, y dyrchafedig, am ei fod yn ymesgyn goruwch ei holl gymdeithion: *Deut* iv. 28. Yn awr, gelwir ef Jebel esh-Sheikh (y prif fynydd), a Jebel eth-Thelj (mynydd yr eira), yr hwn y dywed pawb a'i gwelodd sydd yn dra phriodol. Pan y mae y wlad o amgylch yn crasu yn ngwres yr haul y mae copa Hermon yn cael ei fritho gan linellau o eira. Y mynydd hwn ydoedd nôd terfyn mawr yr Israeliaid ar y tu gogleddol. Hwy a orchfygasant y tir i'r dwyrain i'r Iorddonen o afon Arnon hyd fynydd Hermon: *Deut.* iii. 8; iv. 48; *Ios.* xi. 17. "Ti a greaist ogledd a deheu. Tabor a Hermon a lawenychant yn dy enw:" *Salm* lxxxix. 12. Gellid meddwl oddi wrth yr adnod hon fod Hermon yn cael ei ddefnyddio i nodi y gogledd: ac o ba gyfeiriad bynag yr edrychai yr Israeliaid tua'r gogledd, yr oedd y mynydd hwn yn weladwy, ac yn terfynu y weledigaeth. Y mae ymadrodd yn *Salm* cxxxiii. 3—"gwlith Hermon yn disgyn ar fynyddoedd Seion"—yr hwn y mae dacaryddwyr wedi cael anhawsder mawr i'w esbonio. Y mae yn debyg mai yr un mynydd a olygir yn yr adnod hon wrth Seion a Hermon; o blegid yn *Deut.* iv. 48, yr ydym yn cael Hermon yn myned o dan yr enw Seion. Y mae yr eira ar ben y mynydd hwn yn crynhoi y tarth sydd yn ystod misoedd yr haf yn nofio yn mharthau uchaf yr awyrgylch, gan beri i gymylau gwynion hofran o'i gwmpas, a diferu gwlith arno yn helaeth, tra y mae yr holl wlad o'i amgylch yn "methu gan sychder," a'r holl awyrgylch yn mhob man arall yn ddigwmwl.

Y mae i Hermon dri thrum neu gopa, yn ffurfio math o driongl (neu "dri throed stôl"); o ddeutu chwarter milldir oddi wrth eu gilydd, ond cyffelyb o ran uchder. Gall y ffaith yna egluro yr ymadrodd yn *Salm* xlii. 6; "Coflaf di o dir yr Iorddonen, a'r Hermoniaid:" ac hefyd y tri enw gwahanol yn 1 *Cron.* v. 23. Ar un o'r trumau hyn y mae hen adfeilion dyddorol. O amgylch craig, yr hon sydd yn ffurfio ei frig uchaf, y mae sylfeini mur crwn, cyfansoddedig o geryg mawrion diaddurn, ac o fewn y cylch y mae pentwr mawr o geryg nadd yn amgylchu gweddillion teml fach, ond tra hen. Y mae yn ddiammheu mai un o'r uchelfeydd a godid gan drigolion

Digitized by Google

boreuol Palestina, a'r Iuddewon mewn efelychiad o honynt, "ar y mynyddoedd uchel ac ar y bryniau," oedd yr adfeilion hyn: *Deut.* xii. 2; 2 *Bren.* xvii. 11. Mewn dwy adnod yn y Beibl, gelwir y mynydd hwn Baal-Hermon (*Barn.* iii. 3; 1 *Cron.* v. 23); a'r unig reswm a ellir ei roddi dros hyn ydyw, fod Baal yn cael ei addoli yno.

Y mynydd hwn ydyw y mwyaf ond un yn Syria. Y mae yn nesaf o ran uchder i Libanus, ger y Cedrwydd, ac nid yw ond ychydig o gannoedd o droedfeddi is law iddo. Gellir dyweyd, o leiaf, ei fod yn 10,000 o droedfeddi o uchder; ac y mae y prif gopa o 2,000 i 3,000 uwch law y trumau ereill sydd yn ymgodi o hono; ac o ganlyniad, oddi ar Hermon y ceir yr olygfa fwyaf mawreddog yn holl Syria. Y mae ei gopa yn hollol noeth, ac nid yw yr eira un amser yn diflanu oddi arno. Yn y gwanwyn, a dechreu yr haf, y mae wedi ei orchuddio yn gwbl âg ef. Fel y mae gwres yr haf yn cynnyddu, y mae yr eira yn toddi oddi ar y brigau uchaf, ond yn parhau yn ystripiau hirion, dysglaer, yn y ceunentydd sydd yn ymdaflu oddi wrth y canolbwynt, ac yn edrych o bell fel yr ychydig gudynau gwallt sydd yn aros ar ben yr hen ŵr canmlwydd.

Y mae traddodiad a ddechreuodd, fel yr ymddengys, o ddeutu amser Jerome [*Reland*, td. 326], yn priodoli yr enw Hermon i gadwen mynyddoedd y Jebel-ed-Duby, ger Tabor, i'r dyben o egluro yn well *Salm* lxxxix. 12. Y mae yr enw hwn yn aros yn mynachdai Palestina, ac felly y daeth rhai teithwyr i'w gofnodi yn eu llyfrau.

**HERNHUTTIAID.** Gwel Morafiaid.

**HEROD** [*Herodes*]: y teulu herodaidd. Y mae hanes y teulu hwn yn arddangosiad, o un tu, o sefyllfa y genedl Iuddewig yn ei chyfnod diweddaf yn Nghanaan. Daeth y llygredigaethau a ymlusgasent i mewn i'r llywodraeth eglwysig ar ol y caethiwed i gael eu corffori yn ngormes teyrn estronol. Mabwysiadwyd crefydd fel gwladlywiaeth; a chariwyd allan ddyfeisiau Groegaidd Antiochus Epiphanes, o leiaf mewn ysbryd, gan ddynion a broffesent ufuddhau i'r ddeddf. Yn gyfochrog â theyrnas ysbrydol Duw, fel ei cyhoeddwyd gan Ioan Fedyddiwr, ac y sylfaenwyd hi gan Grist, sefydlwyd brenhiniaeth ddaearol, yr hon, o ran gogoniant allanol, oedd yn gyffelyb i'r eiddo Solomon. Y mae cydosodiad y ddwy egwyddor hon mewn ymarferiad —yr ysbrydol a'r genedlaethol—yn ffaith sydd yn llawn o addysg. Yn nghyflawnder yr amser, sefydlodd un o hiliogaeth Esau wrthran (*counterpart*) ffugiol o ogoniant addawedig y Messiah.

Y mae gwahanol farnau yn mherthynas i darddiad yr Herodiaid; ond gan adael o'r neilldu syniadau pleidiol gelynion a chyfeillion, ymddengys yn sicr eu bod o darddiad Idumeaidd [*Hyn. Jos.*, xiv. 1. adr. 3)[1]—ffaith sydd yn cael ei harddangos gan ffurfiau rhai o'r enwau yn y teulu [*Ewald Geschichte*, iv. 477]. Ond er mai estronjaid oedd yr Herodiaid o genedl, yr oeddynt yn Iuddewon o ran eu crefydd. Cafodd yr Idumeaid eu gorchfygu a'u dwyn at Iuddewiaeth gan John Hyrcanus [c. c. 130: *Hyn. Jos.*, xiii. 9. adr. 1]; ac o'r amser hwnw, parhasant yn ffyddlawn i'r grefydd newydd, gan edrych ar Ierusalem fel eu mam-ddinas, a hòni iddynt eu hunain yr enw Iuddewon [*Hyn. Jos.*, xx. 7, adr. 7].

Yr oedd gwladlywiaeth yr holl Herodiaid, oddi eithr mewn rhyw neillduolion personol, yn meddu yr un nodweddiad. Prif nod y cyfan oedd sefydlu brenhiniaeth fawreddog ac annibynol, a dwyn y grefydd Iuddewig yn wasanaethgar i gryfhâd y llywodraeth. Yr oedd nawdd yr ymherodraeth Rufeinaidd yn y lle cyntaf yn angenrheidiol; ond y mae gweithrediadau Herod I. ac Agrippa I. yn dangos yn amlwg mai eu nôd bob amser oedd ymherodraeth ddwyreiniol, ac nid llywodraeth ddarostyngedig. Ymddengys fod y genedl yn credu ar y cyntaf fod yr hyn y buasent yn ymawyddu cyhyd am dano, bellach i gael ei gyflawni [Gwel Herodiaid]; ac fel canlyniad naturiol, arweiniodd llywodraeth dymmorol yr Herodiaid i ddinystriad cenedlaetholdeb yr Iuddewon. Collodd y grefydd Iuddewig—y grefydd a ddarostyngwyd i'r fath raddau ag i fod yn offeryn i gyrhaedd y fath uchelgais rhyfygus —ei dylanwad i sicrhau undeb yn mhlith y bobl byth mwy. Pennodid a diswyddid yr archoffeiriaid gan Herod I. a'i olynwyr gyda'r fath ddibrisdod o bwysigrwydd y swydd, fel yr amddifadwyd y swydd yn hollol o'i mawredd cyntefig. Ymranodd y genedl; ac yn nghanol anghyttundeb pleidiau, sefydlwyd crefydd gyffredinol, yr hon a wnaeth fwy na chyflawni dysgwyliadau uchaf y genedl oddi wrth fawredd llys brenhinol.

Y mae cyssylltiadau teuluol yr Herodianiaid yn gorwedd mewn llawer o ddyryswch; a hyny am fod yr un enwau yn cael eu meddu gan gynnifer o'r teulu, ac nid yw y gwahanol hanesion a rydd Josephus yn gysson yn mhob amgylchiad. Fodd bynag, yr ydym yn meddwl y rhydd y tabl canlynol grynodeb boddhaol o'i osodiadau ef. Gwahaniaethir yr Herodiaid a enwir yn y Beibl oddi wrth y lleill drwy roddi eu henwau mewn prif lythyrenau mân.

Josephus ydyw y prif awdurdod am hanes y teulu Herodaidd. Nid yw yr ychydig gyfeiriadau sydd mewn ysgrifeniadau Hebreig a chlasurol yn taflu ond ychydig o oleuni ar y dygwyddiadau a gofnodir ganddo ef. O'r ysgrifenwyr diweddar, Ewald sydd wedi trin y pwnc yn y modd mwyaf cyflawn ac eglur.

1. Herod Fawr: oedd ail fab Antipater, yr hwn a bennodwyd yn rhaglaw Iudea gan Julius Cesar, c. c. 47, a Cypros, merch i deulu pendefigaidd yn Arabia [*Hyn. Jos.*, xiv. 7, adr. 3]. Pan ddyrchafwyd ei dad i'r rhaglawiaeth, er nad oedd ef ond pymtheg mlwydd oed, gosodwyd ef i lywodraethu ar Galilea, ac wedi hyny ar Cœlo-Syria. Pan ddaeth Anthony i Syria, pennodwyd Herod, a'i frawd hynaf, Phasael, yn detrarchiaid Iudea [*Hyn. Jos.*, xiv. 13, adr. 1]. Y flwyddyn ganlynol, gorfu i Herod ymadael o Iudea o blegid rhyfelgyrch y Parthiaid, y rhai a hawlient yr orsedd i Antigonus, cynnrychiolydd teulu brenhinol Asmoneus. Ffodd Herod i Rufain (c. c. 40), lle y cafodd dderbyniad croesawgar gan Anthony ac Octavian, a phenodwyd ef gan y senedd yn frenin Iudea [*Hyn. Jos.*, xiv. 14, adr. 4]. Yn ystod ychydig flynyddoedd, gyda chymmhorth y Rhufeiniaid, llwyddodd i gymmeryd Ierusalem (c. c. 37), a sefydlodd ei awdurdod drwy ei holl frenhiniaeth. Yn y flwyddyn c. c. 32, chwanegwyd

[1] Yn ol pleidwyr Iuddewig Herod, hanodd o un o'r teuluoedd pendefigaidd a ddychwelasant o Babilon. O'r ochr arall, y mae Africanus yn cyfeirio at draddodiad, yr hwn, medd efe, sydd yn dangos fod Antipater, tad Herod, yn fab i Herod oedd yn gaethwas mewn cyssylltiad â gwasanaeth crefyddol un o demlau Apollo yn Ascalon, a'r hwn a gymmerwyd yn garcharor gan ysbeilwyr Idumeaidd, ac a gadwyd ganddynt hwy, am nas gallai ei dad ei brynu yn rhydd. Y mae y chwedl hon yn cael ei hail adrodd gan Epiphanius, wedi chwanegu llawer ati.—*Haer.* xx.

Digitized by Google

# ACHAU TEULU YR HERODIAID.




Gwel Josephus *Hyn. Iudd.*, xviii. 6, 4.
" " xvii. 1, 3.
*Rhyf. Iudd.*, i. 28, 4.

(4) Herod Frenin: *Mat.* ii. 1, &c.; *Luc* i. 5.
(15) Herod y Tetrarch: *Mat.* xiv. 1; *Luc* iii. 1, 19; ix. 7; Brenin Herod: *Marc* vi. 14.
(27) Herod Frenin: *Act.* xii. 1.
(36) Y Brenin Agrippa: *Act.* xxv. 13.

at ei frenhiniaeth amryw o ddinasoedd pwysig [*Hyn. Iudd.*, xv. 10, adr. 1]; ac wedi hyny, rhaglawiaethau Trachonitus a Paneas. Yr oedd y gweddill o'i deyrnasiad yn rhydd oddi wrth drafferthion allanol, ond chwerwyd ei fywyd teuluol gan weithredoedd creulawn a dialeddgar, y rhai a gyflawnid yn barhaus hyd ddiwedd ei oes. Rhoddodd Hyrcanus, taid ei wraig Mariamne, i farwolaeth. Yn fuan wedi hyny, aeth i ammheu ffyddlondeb Mariamne; ac er ei fod yn nodedig o hoff o honi, syrthiodd yn aberth i'w gynddaredd. Cymmerai llofruddiaeth ar ol llofruddiaeth le, nes o'r diwedd, yn y flwyddyn c. c. 6, cymhellwyd ef i roddi terfyn ar einioes Alexander ac Aristobulus, meibion Mariamne, yn y rhai yr oedd prif obeithion y genedl yn gorphwys. Dwy flynedd yn ddiweddarach, y mae yn condemnio Antipater, ei fab hynaf, i farwolaeth, yr hwn oedd y prif achwynydd yn erbyn ei ddau frawd. Yr oedd hon yn un o'i weithrediadau olaf, o blegid bu farw ei hunan bum niwrnod ar ol marwolaeth ei fab, sef yn y flwyddyn y ganwyd Crist.

Nid oedd gweithredoedd creulawn ac arswydus Herod yn cael eu cyfyngu yn unig i'w deulu, ond cyflawnai yr un pryd y llofruddiaethau mwyaf erchyll ymhlith ei ddeiliaid. Parodd wendid a thruenusrwydd ei ddyddiau olaf iddo ymddwyn yn greulonach fyth; o blegid gorchymynodd fod i'r pendefigion a alwasai ato yn ei funydau olaf gael eu rhoddi i farwolaeth mor fuan ag y byddai yntau farw, fel y byddai hyny yn achlysur i alar ynglŷn â'i farwolaeth ei hun [*Hyn. Iudd.*, xvii. 7, adr. 5]. Rhaid mai pan ar wely marwolaeth y parodd lofruddio babanod Bethlehem: *Mat.* ii. 16—18. Nid yw Josephus yn coffâu y ffaith hon, ac nis gwyddom am well rheswm i'w roddi dros hyny nag fod y weithred anfad hon yn cilio o'r golwg wrth ei chymmharu âg ereill o eiddo Herod. Nid ydyw yn debyg fod nifer bechgyn Bethlehem a'i holl gyffiniau yn fwy na deg neu ddeuddeg, ac nid yw yr efengylwr yn dyweyd dim am y moddion a ddefnyddiwyd i'w lladd. Mewn amser diweddarach, ymddengys fod y weithred hon yn cael ei chyssylltu â marwolaeth Antipater: ond y mae Josephus yn cyfeirio at ddwy weithred lofruddiol o eiddo Herod yn ei ddyddiau olaf mewn dull sydd yn taflu ychydig o oleuni ar y mater. Dywedir nad arbedodd Herod "y rhai yr ymddangosai yn fwyaf hoff o honynt" [*Hyn. Iudd.*, xvi. 11, adr. 7]; ond llofruddiai bawb o'i deulu ei hun a gefnogai y Phariseaid, mewn gwrthod cymmeryd llw o ffyddlondeb i ymherawdwr Rhufain, tra yr edrychent yn mlaen am gyfnewidiad yn y llinach frenhinol [*Hyn. Iudd.*, xvii. 2, adr. 6; *Lardner's Credibility*, i]. Pa mor bell yr oedd hyn yn dwyn cyssylltiad â'r llofruddiaeth yn Bethlehem, y mae yn ammhossibl dywedyd, o blegid diffyg manylion; ond y mae achlysur a natur y dygwyddiad yn taflu llawer o oleuni ar yr hanes yn *Matthew*.

Wrth ymwneyd â theimladau crefyddol a rhagfarnau y genedl, dangosai Herod gymmaint o ddiystyrwch o lais y wlad ag yn nghyflawniad ei ddialedd personol. Arddangosai ei ddyrchafiad i'r orsedd drwy aberthu i Jupiter, yn nheml Rhufain, ac amgylchai ei hun âg estroniaid cyflogedig, o'r rhai yr oedd amryw wedi bod yn ngwasanaeth Cleopatra yn flaenorol [*Hyn. Ios.*, xv. 7.,3; xvii. adr. 1. 8, adr. 3]. Nid oedd yr argraph ar ei arian bathol ond hen draddodiadau o eiddo y Groegiaid; a dygodd lawer o gampau ac arferion paganaidd o fewn muriau Ierusalem. Dangosodd ei ffafr at estroniaid mewn modd bostfawr a digywilydd; a gormesai ar yr hen bendefigion Iuddewig [*Hyn. Ios.*, xv. 1, adr. 1; 8, adr. 1; xvi. 5, adr. 3]. Disgrifir ef gan yr hen draddodiadau Iuddewig fel yn ddim amgen na gwas i'r Hasmoneaid, neu y Rhufeiniaid; a dywedant mai un Rabbi yn unig a ddiangodd o'r erlidigaeth y darostyngwyd hwy iddo, a hyny drwy gymmeryd ei amddifadu o'i olwg [*Jost.* td., 319, &c].

Tra yr oedd Herod fel hyn yn gwneyd gelynion o'r Iuddewon, drwy greulondeb a diystyrwch o'r gyfraith, addurnodd Ierusalem â llawer o golofnau ac adeiladau mawrion a phrydferth. Y deml, yr hon a adeiladwyd ganddo gyda gofal arbenig, fel y byddai iddi ymddangos fel adgyweiriad o'r hen deml yn hytrach nag adeilad newydd [*Hyn. Iudd.*, xv], ydoedd y fwyaf fawreddog o'i weithredoedd. Dechreuwyd ei hadeiladu c. c. 20, a gorphenwyd y deml ei hun yn mhen blwyddyn a hanner: ond cymmerodd yr adeiladau allanol iddi fwy nag wyth mlynedd i'w hadeiladu. Yr oedd chwanegiadau hefyd yn cael eu gwneyd yn barhaus yn y blynyddoedd dilynol, fel pan ymwelodd Crist âg Ierusalem yn nechreu ei weinidogaeth, fe ddywedid mai "chwe blynedd a deugain y buwyd yn adeiladu y deml;" *Ioan*, ii. 20: ymadrodd sydd yn golygu yr holl amser o'i dechreuad gan Herod, hyd at y rhan chwanegol oedd yn cael ei wneyd y pryd hyny, ac felly yn cwblhau y gwaith, yn ol Josephus, yn nheyrnasiad Herod Agrippa II. [*Hyn. yr Iudd.*, xv. 11, adr. 5; xx. 8, adr. 7], B. A. 50.

Ond nid oedd y weithred fawreddog hon yn debyg o gamarwain yr Iuddewon gyda golwg ar wir gymmeriad Herod. Tra yr ail adeiladai y deml yn Ierusalem, adgyweiriai hefyd y deml yn Samaria, a darparai ar gyfer dwyn delwaddoliaeth i arferiad yn Cesarea, ei ddinas newydd; ac fe dybir fod ail adeiladiad y deml yn Ierusalem wedi rhoddi cyfleusdra iddo ddyfetha achrestrau yr offeiriaid, heb y rhai nis gallent brofi eu holyniaeth yn y swydd. Y mae gweithredoedd cyhoeddus Herod yn rhoddi ar ddeall mai ei amcan oedd dynwared rhwysgfawredd Solomon; ond gwnaeth fwy nag efelychu awdurdod a rhyddid y tywysog: ac fe ddywedir fod y gofgolofn a ddyrchafodd ar feddau y brenhinoedd i'w phriodoli i'r ofn a ddaeth arno ar ol ymgais rhyfygus i'w hysbeilio o'u trysorau cuddiedig [*Hyn. yr Iudd.*, xv. 8, adr. 5; 9, adr. 5; xvi. 7, adr. 1].

Y mae yn anhawdd gweled yn nghymmeriad Herod un o wir elfenau mawredd. Y mae rhai yn tybied mai *hynaf* y dylasid cyfieithu y gair a gyssylltir â'i enw, ac nid *mawr* [*Jost.*, td. 319; *Ewald Gesch.*, iv. 473, &c.]; etto, yr oedd daioni Harri VIII. yn perthyn iddo, yn gystal a'i ddrygioni. Llwyddodd i gadw heddwch gartref drwy yni a rhyddfrydedd prydlawn ei lywodraeth; a sicrhaodd ewyllys da y Rhufeiniaid drwy lawer o anhawsderau mawrion. Yr oedd ei rwysgfawredd, ac hyd yn oed ei ormes arglwyddaidd, yn peri i'r dwyreinwyr yn gyffredinol ei ofni a'i barchu. Beiddgar, ac etto gofalus; gormesol, ac etto haelfrydig—yr oedd ynddo lawer o'r nodweddion hyny sydd yn gwneyd gwron poblogaidd: ac y mae y teitl, yr hwn a roddwyd, fe allai, i ddechreu, mewn edmygedd o'i lwyddiant llywodraethol, yn awr yn gwasanaethu i ddangos gyda mwy o eglurdeb y pris ofnadwy a dalodd am y llwyddiant hwnw.

2. HEROD ANTIPAS, ydoedd fab Herod Fawr, o Malthace—Samariad. Amcanai ei dad, ar y cyntaf, iddo fod yn olynydd iddo ef yn y frenhiniaeth; ond yn ei ewyllys diweddaf, pennododd ef

Digitized by Google

yn detrarch Galilea a Perea [*Hyn. Jos.*, xvii., 8, adr. 1; *Mat.* xiv. 1; *Luc* iii. 19; ix. 7; *Act.* xiii. 1; a *Luc* iii. 1]; y rhai a ddygent iddo gyllid blynyddol o 200 o dalentau. Priododd i ddechreu ferch i Aretas, brenin Arabia Petrea; ond yn fuan wedi hyny, gwnaeth gynnyg priodas i Herodias, gwraig ei hanner brawd Phylip, yr hwn a dderbyniwyd ganddi yn ffafriol. Mewn canlyniad, y mae Aretas, yn eiddigus dros anrhydedd ei ferch, yn gwneyd rhyfelgyrch i feddiannau Herod; a gorchfygodd ef, gan beri colled fawr iddo. Y mae Josephus yn dyweyd fod y gorchfygiad hwn yn cael ei briodoli gan lawer i lofruddiad Ioan Fedyddiwr, yr hwn a gyflawnasid gan Herod ychydig cyn hyny o dan ddylanwad Herodias: *Mat.* xiv. 4, &c.; *Marc* vi. 17, &c.; *Luc* iii. 19. Yn ddiweddarach, y mae uchelgais Herodias yn profi yn ddinystr i'w gŵr. Cymmhellodd ef i fyned i Rufain i geisio y teitl o frenin (gelwir ef o dan yr enw hwnw yn *Marc* vi. 14; o barch iddo, y mae yn debyg), yr hwn a roddasid i'w nai Agrippa; ond dygwyd cwynion i'w erbyn yn llys Caligula, gan genhadon Agrippa [Gwel Herod Agrippa], ac alltudiwyd ef i Lyons, yn Ffraingc [*Hyn. Jos.*, xviii. 7, adr. 2], o ba le y symmudodd wedi hyny i Yspaen; lle y bu farw [*Rhyf. yr Iudd.*, ii. 9, adr. 6]. Dilynodd Herodias ef i'w alltudiaeth. Gwel Herodias.

Cymmerodd Pilat achlysur oddi wrth breswyliad Crist yn Galilea i'w anfon at Herod Antipas i gael ei holi (*Luc* xxiii. 6, &c.); yr hwn a ddaethai i fyny i Ierusalem i gadw y Pasc [*Hyn. Iudd.*, xviii. 6, adr. 3]; ac felly i symmud yr elyniaeth a fodolai rhwng y tetrarch ac yntau: *Luc.* xxiii. 12. Y mae y rhan a gymmerodd Herod felly yn nygwyddiadau olaf bywyd Crist yn cael sylwi arno yn neillduol yn *Act.* iv. 27, mewn cyssylltiad â *Salm* ii. 1, 2. Y mae ei gymmeriad, fel y mae yn ymddangos yn yr Efengylau, yn cyfatteb i nodwedd gyffredin ei fywyd. Yr oedd yn rhyfygus (*Luc* iii. 19); gormesol (*Luc* xiii. 31); a gwan (*Mat.* xiv. 9). Etto, yr oedd ei greulondeb wedi ei nodi â chyfrwysder (*Luc* xiii. 32); ac yn cael ei ddilyn gan gnofeydd cydwybod (*Marc* vi. 14).

Y ddinas Tiberias, yr hon a adeiladwyd ac a enwyd ganddo o anrhydedd i'r ymherawdwr, oedd gweithred fwyaf mawreddog ei deyrnasiad ef; ond fel pawb o'r teulu Herodaidd, yr oedd yn dra hoff o adeiladu dinasoedd. Ail adeiladodd Sephoris, ger Tabor, yr hon a gawsai ei dinystrio yn y rhyfeloedd ar ol marwolaeth Herod Fawr [*Hyn. Iudd.*, xvii. 12, adr. 9; xviii. 2, adr. 1]; a Betharamphtha (Beth-haram), yn Perea, yr hon a alwyd ganddo yn Iulius, oddi wrth enw gwraig yr ymherawdwr.

3. Archelaus, fel Antipas, oedd fab i Herod Fawr, o'i wraig Malthace. Dygwyd ef i fyny gyda'i frawd yn Rhufain; ac mewn canlyniad i achwyniadau ei frawd hynaf Antipater, mab Doris, amddifadwyd ef drwy ewyllys ei dad o unrhyw ran yn ei feddiannau. Wedi hyny, fodd bynag, newidiodd Herod ei feddwl, a gadawyd y frenhiniaeth i Archelaus, yr hon a fwriadasid i'w frawd Antipas [*Hyn.*, *Iudd. Jos.*, xvii. 8, adr. 1], a'r cyfnewidiad annisgwyliadwy hwn a barodd i Ioseph gilio i barthau Galilea: *Mat.* ii. 22. Ond nid esgynodd Archelaus i'w frenhiniaeth heb lawer o wrthwynebiad a thywallt gwaed: ond cadarnhawyd ewyllys Herod, yn ei phrif ranau, gan yr Ymherawdwr Augustus, a rhoddodd i Archelaus lywodraeth Idumea, Iudea, a Samaria, ynghyd â dinasoedd Cesarea, Sebaste, Ioppa, a Ierusalem, y rhai a ddygent iddo gyllid blynyddol o 400 i 600 o dalentau. Y teitl a roddwyd iddo i ddechreu oedd Ethnarch, gydag addewid o'r eiddo brenin, os ymddygai yn deilwng o hono. Ond profodd ei ymddygiad yn gyfryw ag i gyfiawnhau yr ofnau y rhoddasai ei gymmeriad blaenorol le iddynt. Wedi troseddu cyfraith Moses trwy briodi Glaphyra, gweddw ei frawd, cynnhyrfodd ei ddeiliaid trwy greulondeb a gormes i appelio i Rufain am gyflawnder. Y mae Augustus ar unwaith yn ei wysio i'w bresennoldeb, ac wedi profi ei achos, alltudiwyd ef i Vienna, yn Gaul, B. A. 7, lle, y mae yn debyg, y bu farw [Gwel *Strabo*, xvi. 8, td. 765; *Dio Cassius*, lv. 27]; er y dywed Jerome [Onomasticon] fod ei fedd yn cael ei ddangos, yn ei amser ef, yn agos i Bethlehem.

4. Herod Phylip i. (*Marc* vi. 17), oedd fab i Herod Fawr, a Mariamne, merch i archoffeiriad o'r enw Simon [*Hyn. Iudd. Jos.*, xviii. 6, adr. 4], ond fe ddylid sylwi mai nid yr un oedd hwn a'r tetrarch Phylip, sef Herod Phylip ii. Priododd Herodias, chwaer Agrippa i., o'r hon y ganwyd iddo ferch, Salome. Pa fodd bynag, gadawodd Herodias ef mewn modd gwaradwyddus, a phriododd ei hanner brawd, Antipas: *Mat.* xiv. 3; *Marc* vi. 17; *Luc* iii. 19. Herod yn unig y gelwir ef gan Josephus; ond y mae chwanegiad yr enw Phylip i'w gyfiawnhau wrth ystyried mor fynych y dygwydd yr un enwau yn y teulu Herodaidd, megys Antipater. Nid yw Jerome yn gwahaniaethu o gwbl rhwng y ddau Phylip, ac y mae y camgymmeriad hwn yn fwy naturiol pan gofiom fod mab Mariamne wedi ei amddifadu o bob rhan yn meddiannau ei dad, mewn canlyniad i fradwriaeth ei fam, ac wedi treulio y gweddill o'i oes mewn sefyllfa anghyhoedd [*Hyn. Iudd.*, xviii. 6, adr. 4; *Rhyf. yr Iudd.*, i. 30, adr. 7.

5. Herod Phylip ii. oedd fab i Herod Fawr, o Cleopatra. Fel ei hanner brodyr, Antipas ac Archelaus, dygwyd ef i fyny gartref; ac ar farwolaeth ei dad, amddiffynodd hawliau Archelaus o flaen Augustus. Gwnaed ef yn detrarch ei hun; a llywodraethai ar Batanea, Trachonitus, Auranitis (Gaulonitis), a rhai parthau o Iamnia: *Luc* iii. 1. Hynodid ei lywodraeth ef gan gyfiawnder a chymmedroldeb [*Hyn. Iudd. Jos.*, xvii. 2, adr. 4]; ac ymddengys iddo ymroddi yn gwbl at ddyledswyddau ei swydd, heb gyflawni dim o'r gweithredoedd anfad a ddygasant y fath waradwydd ar ei deulu. Adeiladodd ddinas newydd yn Paneas, yn agos i darddiad yr Iorddonen, yr hon a alwodd yn Cesarea (*Mat.* xvi. 13; *Marc* viii. 27); a gwnaeth Bethsaida yn Gaulonitis isaf yn ddinas o dan yr enw Iulias, a bu farw yno B. A. 34. Priododd Salome, merch Phylip i., â Herodias; ond gan na adawodd blant ar ei ol, chwanegwyd ei feddiannau at y dalaeth Rufeinaidd—Syria.

6. Herod Agrippa i., oedd fab Aristobulus, a Berenice, ac ŵyr i Herod Fawr. Dygwyd ef i fyny yn Rhufain gyda Claudius a Drusius; ac ar ol bywyd o gyfnewidiadau, taflwyd ef i garchar gan Tiberius, am arfer ymadroddion ammhriodol mewn araeth o'i eiddo; ac yno y bu hyd esgyniad Cauis (Caligula) i'r orsedd, B. A. 37. Derbyniodd gan yr ymherawdwr newydd y llywodraethau a feddiennid yn flaenorol gan y tetrarchiaid Phylip, a Lysanias; hefyd yr arwyddion brenhinol, ac amlygiadau ereill o'i ffafr. Cynnhyrfodd hyn eiddigedd Antipas, a Herodias ei wraig, ac aethant i Rufain gyda'r amcan o gymmeryd lle Agrippa yn ffafr yr ymherawdwr. Yr oedd Agrippa yn hysbys o'u bwriad, a rhwystrodd

Digitized by Google

hwy i'w gyrhaedd drwy ddwyn cyhuddiad yn erbyn Antipas o fradwriaeth yn erbyn yr ymherawdwr, mewn cyssylltiad â'r Parthiaid. Methodd Antipas atteb i'r cyhuddiad, ac alltudiwyd ef i Gaul, B. A. 39, a chwanegwyd ei feddiannau at yr eiddo Agrippa. Wedi hyny, bu Agrippa o wasanaeth arbenig i Claudius mewn anghyttundeb rhyngddo a'i senedd, a derbyniodd ganddo mewn canlyniad lywodraeth Iudea a Samaria, B. A. 41; fel yr oedd ei holl feddiannau erbyn hyn mor eang a'r eiddo Herod Fawr [*Hyn. Iudd. Jos.*, xviii; *Rhyf. Iudd.*, ii.]. Yn wahanol i ereill o'r teulu, yr oedd Agrippa yn talu sylw manwl i'r gyfraith, a llwyddodd i ennill ffafr yr Iuddewon yn gyffredinol.[1] Y mae yn bossibl mai gyda'r amcan hwn y rhoddodd Iago, mab Zebedeus, i farwolaeth, ac y carcharodd Pedr: *Act.* xii. 1, 2, 3. Ond bu ei farwolaeth sydyn yn fuan wedi hyny yn foddion i roddi terfyn ar ei gynlluniau uchelfrydig.

Yn y bedwaredd flwyddyn o'i lywodraeth dros holl Iudea, B. A. 44, rhoddodd Agrippa ei bresenoldeb mewn campau a gynnelid yn Cesarea, mewn anrhydedd i'r ymherawdwr. Pan ddaeth i mewn i'r chwareudy, mewn gwisg o ddefnydd arianaidd, yr hon a lewyrchai yn ngoleuni y boreu, cyfarchodd ei wenieithwyr ef fel Duw; ac yn ddisymmwth, goddiweddwyd ef gan boenau dychrynllyd, a bu farw bum niwrnod wedi hyny mewn pangfeydd dirfawr [*Hyn. Iudd.*, xix. 8. adr. 2; *Act.* xii. 21, 22: cymh. 2 *Mac.* ix. 5—9.

7. HEROD AGRIPPA II., oedd fab Agrippa I., o Cypros, gor-nith i Herod Fawr. Yn adeg marwolaeth ei dad, yr oedd yn Rhufain; ac o herwydd ei ieuenctid (yr oedd yn 17 mlwydd oed) attaliwyd yr ymherawdwr rhag rhoddi ei fwriad o'i osod yn olynydd i'w dad mewn gweithrediad. Yn fuan wedi hyny, fodd bynag, rhoddodd Claudius iddo frenhiniaeth Chalchis, o ddeutu B. A. 50, yr hon a fuasai yn perthyn i'w ewythr, yr hwn a fu farw B. A. 48 [*Hyn. Iudd.*, xx. 4, adr. 2]; ac yn B. A. 52, rhoddodd iddo y ddwy detrarchaeth a ddaliesid gan Phylip a Lysanias [*Hyn. Iudd.*, xx. 6. adr. 1; *Rhyf. Iudd.*, ii. 12, adr. 8]; ynghyd â'r teitl o frenin: *Act.* xxv. 13; xxvi. 2, 7, &c.

Wedi hyny, cynnyddodd Nero ei feddiannau drwy chwanegu atynt amryw ddinasoedd; a dangosodd yr un duedd ag ereill o'i deulu at godi adeiladau mawreddog yn Ierusalem a Berytus, ac achlysurodd drwy hyny archollion dwfn i deimladau yr Iuddewon. Bu y berthynas a ddaliai â'i chwaer Berenice (*Act.* xxv. 13) yn achos o lawer o ddrwgdybiaeth: *Hyn. Iudd.*, xx 6., adr 3. Yn y rhyfel Rhufeinaidd diweddaf, cymmerodd Agrippa ran y Rhufeiniaid; ac ar ol dinystr Ierusalem, ymneillduodd gyda Berenice i Rufain, lle y bu farw, yn y drydedd flwyddyn o deyrnasiad Trajan, B. A. 100; ac efe oedd yr olaf o deulu Herod.

Y mae ymddangosiad Paul o flaen y tywysog hwn yn cynnwys amryw neillduolion pur nodweddiadol o hono. Ymddengys fod Agrippa yn gydnabyddus â Festus [*Hyn. Iudd.*, xx. 7. adr. 11]; ac yr oedd yn naturiol fod y llywodraethwr Rhufeinaidd yn ymgynghori âg ef mewn achos oedd yn dwyn perthynas â'r gyfraith Iuddewig: *Act.* xxv. 17, &c.; cym. *Hyn. Iudd.*, xx. 8. adr. 7. Yr oedd y rhwysg gyda'r hwn yr ymddangosai Agrippa yn yr ystafell brawf (*Act.* xxv. 23), yn cydweddu yn dda â'i ymddangosiad cyffredin; ac y mae yr oerfelgarwch a'r haiarnedd gyda'r hwn y gwrandawai ar anerchiad cyffrous yr apostol (*Act.* xxvi. 27, 28) yn cyfatteb yn gywir i natur un oedd yn foddlawn i gymmeryd rhan yn ninystriad ei genedl.

8. BERENICE. Gwel BERNICE.

9. DRUSILLA. Gwel DRUSILLA.

[1] Mae Jost [*Gesch. d. Judenthums*, 420] yn cyfeirio at draddodiad fod Agrippa wedi tori i wylo wrth ddarllen mewn addoliad cyhoeddus *Deut.* xvii. 17; ac fod y bobl wedi gwaeddi allan, "Na ofidia, Agrippa: ein brawd ydwyt ti;" sef trwy darddiad mewn rhan o'r Hasmoneaid.

HERWR—IAETH [*herw—gŵr*]: crwydryn, ffoadur, ysbïwr; bywyd crwydrol digartref. Môrherwr, môr-leidr. 'Porthiant-herwr"; cynnaliaeth y ffoadur: arian a ganiateid unwaith yn Nghymru, gan rai o arglwyddi y cyffindiroedd, tuag at gynnal crwydriaid, er mwyn diogelu y wlad oddi wrth eu hysbeiliadau. Y mae y gair *herwr* yn dygwydd yn y Beibl yn 2 *Sam.* xiv. 13, 14.

HESG. Yn *Iob* viii. gofynir "A dyf yr hesg heb ddwfr?" Y gair a gyfieithir "hesg" yn yr adnod yna ydyw *achû*. Yn *Gen.* xli. 2, 18, y mae yr un gair yn cael ei gyfieithu "gweirglodd-dir." Dywed Gesenius [*Thes.*, td. 67,] mai gair Aiphtaidd ydyw hwn, yn golygu *planhigion corsdirol o bob natur.* Y gair sydd gan Theodotion yn *Iob* viii. 1, ydyw *αχί*; ac yn nghyfieithiad y Deg a Thrigain o *Esa.* xix. 7, cawn y gair *ἄχι*, fel cyfieithiad o עָרוֹת (papur-frwyn), yr hwn a eglurir gan Gesenius—lleoedd noethion heb goed; y lleoedd porfaog ar lanau y Nilus. Yn *Exod.* ii. 3, 5, ac *Esa.* xix. 6; y mae y gair Heb. *sûph*, (y gair oddi wrth yr hwn y tardda enw ysgrythyrol y Môr Coch, *Yam-Suph*="y môr chwynog," yn cael ei gyfieithu *hesg.* Yn y ddau amgylchiad, cyfeirir at ddwfr-blanhigyn sydd yn tyfu yn yr Aipht ar fin yr afon. Mae yn debyg mai yr *Algæ Nilotica* ydyw hwn, a ddisgrifir gan Pliny [xiii. 23]. Y mae y gair "hesg" yn digwydd hefyd yn *Ionah* ii. 5; ond yn y Saesneg, y cyfieithiad ydyw *weeds.*

HESMON: lle a nodir fel yn gorwedd rhwng Moladah a Beerseba (*Ios.* xv. 27) ac felly i'r deheu eithaf i Iudah. Ni wyddys ddim mwy yn ei gylch; ond tybia rhai mai ffurf arall ar Asmon ydyw, a osodir i lawr yn *Num.* xxxiv. 4, fel un o nodau terfyn deheuol Iudah.

HESPEN—AU, bach, gafaelfach. "Hespenau y clo;" *Can.* v. 5. Gwel CLO.

HESRAI; neu yn ol 1 *Cron.* xi. 36, Hesro: brodor o Carmel—yr un ddeheuol, fe allai; ac felly, hwyrach, caethwas i Nabal, un o 30 cedyrn Dafydd: 2 *Sam.* xxiii. 35.

HESRO. Gwel HESRAI.

HESRON: mab Reuben (*Gen.* xlvi. 9; *Exod.* vi. 14,) a chyndad teulu yr Hesroniaid: *Num.* xxvi. 6.

2. Mab Phares, ac un o hynafiaid Dafydd: *Gen.* xlvi. 12; *Ruth* iv. 8. Yn *Mat.* i. 3, *Esrom.*

3. "Hesron, hono yw Hasor;" *Ios.* xv. 25. Gwel HASOR.

HESYCHASTIAID (*Hesychasts*), oedd sect yn mhlith mynachod Mynydd Athos, a elwir felly oddi wrth y gair Groeg *esuchaso*="bod yn llonydd." Daeth y sect hon i sylw yn y bedwaredd ganrif ar ddeg. Dychymygent y gallent trwy fyfyrdod dwys a llonydd gyrhaedd dirnad-

Digitized by Google

aeth eglur o'r goleuni dwyfol o'u mewn. Condemniwyd hwy gan yr abad Groegaidd Barlaam fel hereticiaid; ond cymmerodd y cynghor eu rhan, mewn canlyniad fe allai i ddadl arall a gyfododd rhwng Barlaam ac archesgob Thessalonica o berthynas i natur y goleuni dwyfol a ymddangosodd mewn cysylltiad â gweddnewidiad Crist. Aeth Barlaam at Eglwys Rhufain; ond parhaodd yr ymrafael flynyddoedd, cynnaliwyd dwy gymmanfa yn rhagor, a phasiwyd penderfyniadau yn condemnio opiniynau yr heretic.

**HANDEL, GEORGE FREDERICK:** yr enwocaf o gerddorion y byd, ydoedd enedigol o Halle, yn Saxony uchaf, ar y 24ain o Chwefror, 1684. Nid bob amser y mae athrylith yn rhedeg mewn gwaed, ac anfynych y ceir mab yn dyfod yn enwog yn yr un gangen o wybodaeth a'r tad. Felly yr oedd gyda Handel. Meddyg enwog oedd ei dad, ac yr oedd yn agos i drigain mlwydd oedd pan anwyd y mab hwn iddo—ffrwyth ail briodas. Nid ymddengys fod gan yr hen ŵr fawr o chwaeth at gerddoriaeth, na rhyw feddwl uchel iawn am gerddoriaeth. Er fod George Frederick yn dangos tuedd gref o'i fabandod at gerddoriaeth, ac yn rhoddi argoelion mynych o athrylith gerddorol, gwaharddai ei dad iddo ymwneyd dim â'r gelfyddyd, gan mai ei amcan oedd i George Frederick gael ei ddwyn i fyny yn gyfreithiwr. Nid oedd gan y tad ddigon o dreiddgarwch i ganfod fod ei fab yn un o'r rhai hyny nad ydynt yn cael eu geni ond rhyw unwaith bob mil o flynyddoedd. Credai nad oedd hoffder y bachgen o gerddoriaeth yn ddim amgen na rhyw wammalrwydd hawdd ei orchfygu; ac er mwyn lladd ei duedd gerddorol mewn pryd, gwnaeth ddeddf nad oedd un cerddor i gael dyfod i'w dŷ, nad oedd y bachgen i gael myned i un math o gyfarfod cyhoeddus os byddai yno gerddoriaeth, na myned i unrhyw ysgol lle y dysgid cerddoriaeth i'r plant, na goddef un math o offeryn cerdd yn ei dŷ. Ond yr oedd gwas yr hen Handel yn fwy craff na'i feistr, ac yn gallu canfod fod athrylith yn y bachgen; ac efe a'i cynnorthwyodd i brynu hen offeryn ail law, a elwid *clavichord*—math ar berdoneg—a chuddiwyd yr offeryn mewn ystafell fechan yn llofft uchaf y tŷ; a phob nos, ar ol i'r teulu fyned i orphwys, byddai Handel bach yn codi o'i wely, ac yn myned yn ddistaw a lladradaidd i'r groglofft, i chwareu yr hen offeryn hwnw. Ac felly, yn oriau tywyll y nos, heb un athraw ond natur, y dysgodd Handel chwareu, ac y darganfyddodd gyfrinion swynol cynghanedd

Pan oedd Handel tua saith mlwydd oed, penderfynodd ei dad fyned i edrych am ei fab hynaf, yr hwn oedd mewn swydd uchel yn mhalas Duc Sax-Weissenfels. Ymbiliodd y bachgen am gael myned gyda'i dad; ond yr oedd ar yr hen ŵr ofn iddo glywed offerynau cerdd; a chychwynodd y tad yn ei gerbyd. Aeth y bachgen allan i'w weled, a sylwyd fod ei lygaid yn llawn dagrau. Dilynodd ar ol y cerbyd o hirbell am gytran o'r ffordd. Wrth weled hyny, toddodd calon yr hen ŵr; a throdd yn ol, gan gymmeryd ei fachgen seithmlwydd gydag ef. Wedi iddynt gyrhaedd y palas, a phan oedd y tad yn cofleidio ei fab hynaf, gwelodd George Frederick y ffordd i lofft yr organ yn y capel brenhinol. Aeth yno, ac eisteddodd wrth yr organ. Rhedodd ei fysedd ar hyd yr allweddau. Synwyd ef gan y swn rhyfedd; a dechreuodd chwareu alawon difyfyr, gan ymgolli mewn afiaeth a mawrfrydedd. Yr oedd y duc yn dygwydd bod yn y capel ar y pryd, a synwyd yntau wrth glywed y chwareu rhyfedd hwnw, a holodd pwy oedd wrth yr organ. Dywedodd rhywun wrtho mai bachgen bychan, saith mlwydd oed, brawd ieuangaf un o swyddogion y palas. Yr oedd gan y tywysog well clust na'r hen Handel, a chanfyddodd fod y bachgen wedi ei dynghedu gan Ragluniaeth i fod yn rhywun mawr. Cynghorodd y tad i adael i'r bachgen astudio cerddoriaeth. Yr oedd yr hen ŵr yn dal yn ystyfnig at ei amcan o wneyd Handel yn gyfreithiwr; ond, drwy i'r duc ddangos y perygl o rwystro llwyddiant y bachgen trwy ei orfodi i ddilyn galwedigaeth groes i'w elfen, efe a gydsyniodd; ac yn fuan wedi hyny, gosodwyd Handel ieuangc o dan addysg yr hen Zachau, organydd eglwys gadeiriol Halle. Gwnaeth Zachau ei ran yn ardderchog er gwreiddio ei ddysgybl ieuangc yn elfenau hanfodol gwybodaeth gerddorol, a daeth yn fuan iawn yn falch o'i ddisgybl, yr hwn, pan yn naw mlwydd oed, a ddaeth yn alluog i gymmeryd lle ei feistr yn achlysurol wrth yr organ, ac i ymarfer cryn lawer mewn cyfansoddi. Pan mor ieuangc a hyny, cyfansoddodd Wasanaeth, neu Gantawd Ysbrydol bob wythnos, i leisiau ac offerynau, a pharhaodd i wneyd hyny am dair blynedd olynol. Hefyd, cyfansoddodd amryw ddarnau i'r *oboe*, yr hwn oedd ei hoff offeryn cerdd.

Astudiodd yn ei ddinas enedigol hyd nes yr oedd yn bedair blwydd ar ddeg oed. Addefai Zachau ei fod, y pryd hwnw, yn llawer gwell cerddor na'i athraw, a chynghorwyd ei dad i'w ddanfon i Berlin. Aeth yno yn y flwyddyn 1698. Yr oedd yr *opera* yn dra blodeuog yn Berlin ar yr adeg hono, o dan arweiniad Buoncini Attilio. Daeth Handel i gyssylltiad lled annymunol â Buoncini yn mhen blynyddoedd ar ol hyny; ond gadawn hyny yn awr. Pan mor ieuangc a hyny, synwyd Berlin gan athrylith gerddorol Handel, a chynnygiodd etholwr Brandenburg ei gymmeryd i'w wasanaeth, a'i ddanfon i Italy i gwblhau ei efrydiaeth. Ond gwrthododd tad y bachgen y cynnygiad, am y buasai hyny yn gwneyd Handel yn rhy ddibynol ar yr etholwr, a dychwedodd i Halle. Yn mhen ychydig amser wedi hyny, bu ei dad farw; a chan i Handel fethu myned i Italy, o herwydd y costau, symmudodd i Hamburg, er ceisio ennill bywoliaeth gyda'i broffes gerddorol.

Y mae gan Mattheson, yr hwn oedd gerddor gwych ac ysgrifenwr enwog, gofnodiad dyddorol am ymddangosiad cyntaf Handel yn Hamburg, yn 1703. "Myfi," ebe fe, "oedd un o'r rhai cyntaf y gwnaeth efe gydnabyddiaeth â hwynt yn y lle hwn. Cyfarfyddais ef yn llofft organ eglwys St. Mair Magdalen, Gorphenaf y 30ain, 1703. Aethum âg ef oddi yno i dŷ fy nhad, lle yr ymddygwyd ato gyda phob caredigrwydd a chroesaw; ac aethum gydag ef ar ol hyny, nid yn unig i glywed organau, corau, a chyngherddau, ond gwnaethum ef yn gydnabyddus âg amryw ysgolheigion. Ar y cyntaf, nid oedd ond chwareuwr crwth yn seindorf yr *opera;* a chan ei fod yn dra hoff o ddigrifwch diniwed a hanner digrifol, byddai yn arfer, y pryd hwnw, cymmeryd arno fod yn hynod anwybodus am gerddoriaeth, yn enwedig mewn cyssylltiad âg offer cerdd, a gwnelai hyny yn y fath fodd fel ag i beri i bawb o'i amgylch chwerthin yn galonog, tra yr edrychai ef yn hollol ddifrifol. Ond canfyddwyd ei ddysg a'i athrylith yn fuan yno. Digwyddodd amgylchiad lled darawiadol i ddwyn hyny i'r golwg. Yr oedd chwareuwr y berdoneg yn yr *opera* wedi



Digitized by Google

methu dyfod yno un noson, a gofynodd rhywun i Handel gymmeryd ei le, a chwareu yr offeryn hwnw. Gwnaeth hyny, a dangosodd ei hun y fath feistr ar yr offeryn fel ag i synu pawb ond fy hunan; oherwydd yr oeddwn i wedi cael digon o brofion o'i allu a'i fedrusrwydd ar wahanol offerynau."

Pan ddaeth Handel a Mattheson yn gydnabyddus â'u gilydd felly, yr oedd Handel yn 19 oed, a Mattheson yn 22. Aethant yn gyfeillion calon, a chanlynent eu gilydd i bob man. Byddent yn fynych yn cael cystadleuaeth galed ar chwareu offerynau; ac y mae Mattheson, yn un o'i ysgrifau, yn cydnabod ei fod ef yn cael ei ystyried cystal a Handel ar y berdoneg, ond mai Handel oedd y goreu o lawer ar yr organ. Bu agos i'r ddau gyfaill ieuangc fyned yn wrthymgeiswyr am swydd unwaith. Yr oedd eisieu organydd yn eglwys Lubech, a theithiodd y ddau wr ieuangc yno mewn mèn gyffredin, er mwyn cystadlu am y swydd. Galwyd ar Handel yn gyntaf i chwareu yr organ. Dywed Mattheson ei fod wedi peri syndod i bawb, ac nad oedd obaith i neb am y swydd yn ei erbyn. Ond, wedi i'r ddau langc chwareu, canfyddasant fod un ammod led ddigrif yn y cyttundeb—yr oedd yn rhaid i bwy bynag a gymmerai y swydd gymmeryd rhywbeth arall hefyd; a'r peth hwnw oedd—*gwraig;* ac nid yn unig hyny, yr oedd yn rhaid cymmeryd y wraig a enwid gan yr awdurdodau. Nid oedd Handel yn foddlawn i hyny, a dychwelodd heb y swydd o organydd Lubech.

Ffraeodd y ddau gyfaill, Handel a Mattheson, yn lled fuan ar ol hyn, a bu agos i'r ffrae a bod yn angeuol i Handel. Yr oedd Mattheson wedi cyfansoddi *opera* o'r enw *Cleopatra,* yr hon a genid yn Hamburg gyda llwyddiant mawr, ac yn yr hon yr oedd Mattheson ei hun yn cynnrychioli Antony, a Handel yn chwareu y cyfeiliant ar y berdoneg. Yr oedd Mattheson yn arfer myned at y berdoneg ei hun, ar ol cynnrychioli marwolaeth Antony, yr hyn a ddigwyddai yn lled gynnar yn y cyfansoddiad; ond un noson, gwrthododd Handel godi oddi wrth y berdoneg i roddi lle i'r cyfansoddwr, ac aeth yn ffrae ffyrnig rhyngddynt, a tharawyd Handel ar ei foch gan Mattheson. Gyda hyny, tynodd Handel ei gleddyf, ac aeth y ddau i dŷ'r farchnad i ymladd gornest. Tarawyd Handel gan gleddyf Mattheson ar ei fron; ond yn ffodus, yr oedd Handel, wrth adael yr *opera*, wedi dodi y llyfr, a gynnwysai waith Mattheson, o dan ei hugan, a tharawodd y cleddyf yn erbyn clawr caled y llyfr, nes yr aeth yr arf yn ddau ddarn. Felly, daeth llyfr cerddoriaeth Mattheson yn fath o angel gwarcheidwol i Handel. Digwyddodd hyn ar y 5ed o Ragfyr, 1704; ond, fel prawf ddarfod iddynt ddyfod yn gyfeillion drachefn, y mae Mattheson yn crybwyll ei fod, ar y 30ain o'r un mis, wedi myned gyda'r cerddor ieuangc i glywed dadganiad dirgelaidd o'r *opera Almira*, a'u bod ar ol hyny wedi dyfod yn fwy o gyfeillion nag erioed.

Tra yn Hamburg, cyfansoddodd Handel amryw ddarnau operataidd, gyda llu mawr o ganeuon, cantodau, a darnau i'r berdoneg. Ystyrid ef erbyn hyn y chwareuwr mwyaf ar yr organ yn yr holl Almaen.

Ennillodd ddigon o arian yn Hamburg, trwy ei wahanol gyfansoddiadau, i'w alluogi i fyned i'r Eidal, ac aeth i brif fagwrfa yr awenau. Arosodd am beth amser yn Florence, lle y cyfansoddodd ei *Rodrigo*. Oddi yno aeth i Venice, lle y dygodd allan ei *Agrippena*, yn 1709. Aeth oddi yno i Rufain, lle y cafodd gyfleusderau i glywed prif gyfansoddiadau a phrif gantorion yr oes. Tra yn Rhufain y cynnyrchodd efe ei *Serenata Il Trionfo del Tempo.* Yna ymwelodd â Naples, lle y dygodd allan ei *Acis and Galatea,* ar eiriau Italaidd.

Dychwelodd Handel i'r Almaen tua dechreu y flwyddyn 1710, a gwnaed ef yn feistr côr capel Etholydd Hanover, yr hwn a ddaeth wedi hyny yn George I., brenin Lloegr. Ond nid arosodd yn hir yn ngwasanaeth yr Etholydd; ond cyfeiriodd ei gamrau tua Llundain, lle yr oedd cais egniol yn cael ei wneyd at wella cerddoriaeth. Yr oedd y cyfansoddiadau a genid yn Llundain ar y pryd yn isel a dichwaeth, a chafodd Handel groesaw mawr gan amryw bendefigion oedd wedi ei gyfarfod yn yr Eidal a Hanover, y rhai a obeithient y byddai iddo ef fod yn foddion i ddiwygio cerddoriaeth yn Lloegr: ac ni chawsant eu siomi. Gyda'i gyfansoddiadau ef y dechreuodd cynnydd cerddoriaeth uchelryw yn Mhrydain. Cyfansoddai lawer, a daeth i boblogrwydd rhyfeddol.

Tua therfyn y flwyddyn 1710 y glaniodd Handel yn Lloegr. Yn ebrwydd ar ei ddyfodiad i Lundain, cyflogwyd ef gan un, Aaron Hill, i gyfansoddi *opera* newydd. Hill ei hun a ddewisodd y testyn, allan o bryddest fawr Tasso ar Adferiad Ierusalem, a galwyd y cyfansoddiad yn *Rinaldo*. Dadganwyd y darn hwn ar y 24ain o Chwefror, 1711, gyda llwyddiant rhyfeddol. Teimlai y cyhoedd cerddgar eu bod, hyd yn hyn, wedi arfer gwrando ar gerddoriaeth isel, diamcan ac annheilwng, a'u bod yn awr yn ngwyddfod gwir athrylith. Cafodd nodau swynol y *Rinaldo* eu hadseinio o enau i enau, o glust i glust, ac o galon i galon, nes dyfod yn boblogaidd drwy yr holl deyrnas. Dywedir fod Walsh, cyhoeddwr y cyfansoddiad hwn, wedi ennill 1,500*p.*, wrth werthu yr argraphiad cyntaf, yr hyn a barodd i Handel ysgrifenu ato fel hyn:—"Fy anwyl Walsh,—Gan y byddai yn hollol deg i ni ein dau sefyll ar dir cyfartal, cewch *chwi* gyfansoddi yr *opera* nesaf, a *minnau* ei *gwerthu.*"

Mwynhaodd Handel tua deng mlynedd o lwyddiant mawr a difwlch yn Lloegr, heb i ddim ddigwydd i beri iddo unrhyw flinder hynod, na neb yn beiddio cystadlu âg ef am y flaenoriaeth. Cyfansoddodd lawer iawn, ac yr oedd yn cael bri ac anrhydedd gan bendefigion penaf y deyrnas, a chan y teulu brenhinol. Yr oedd Lloegr mewn rhyfel â rhai o alluoedd y Cyfandir ar y pryd; ond pan wnaed cyttundeb heddwch Utrecht, gorchymynodd y brenin i Handel gyfansoddi emyn o ddiolchgarwch a buddugoliaeth ar yr achlysur, yr hyn a fu yn achlysur iddo gyfansoddi ei *Te Deum* a'i *Jubilate;* y rhai a safant yn uchel, hyd y dydd hwn, yn mhlith prif gyfansoddiadau y byd. Ac fel prawf o'i ddiolchgarwch am y fath gyfansoddiadau, rhoddodd George I., a'i frenhines, flwydd-dal i Handel, yn chwanegol at yr hyn a addawsid eisoes iddo yn llythyr cymmun y frenhines Anne.

Ond nid oedd ei hawddfyd i barhau byth. Tua dechreu y flwyddyn 1720, cafodd brofi beth oedd blinder, gelyniaeth, a gwrthwynebiad. Daeth y cerddor enwog Buoncini drosodd i Loegr, a llwyddodd i gael gan amryw o'r pendefigion Seisnig ei bleidio ef, ac i wrthwynebu poblogrwydd Handel. Yr oedd Buoncini ei hun yn cyfaddef mai ei amcan oedd dinystrio poblogrwydd a llwyddiant Handel. Rhanwyd Llundain yn ddwy blaid—yr Handeliaid a'r Buonciniaid—

Digitized by Google

ac aeth yn rhyfel ffyrnig rhwng y naill a'r llall. Nid ymddengys fod gan y ffraeth Ddeon Swift fawr o gydymdeimlad â'r naill blaid na'r llall. Cyfansoddodd linellau duchanllyd i'r gwrthbleidwyr, y rhai a gollent eu harabedd pe y cyfieithid hwynt i iaith arall:—

"Some say that Signor Buoncini,
Compar'd to Handel's a mere ninny;
While others say that, to him, Handel
Is hardly fit to hold a candle.
Strange, that such difference should be,
'Twixt tweedle-dum and tweedle-dee."

Er i'r elyniaeth yma wneyd llawer iawn o ddrwg i Handel mewn ystyr arianol, ni wnaeth ddim drwg i'w enwogrwydd fel cerddor. Yr oedd ganddo ef ddigon o benderfyniad i fyny gorchfygu rhwystrau, a pharodd ei golledion arianol iddo ddodi holl rym ei athrylith ar waith, a chynnyrchodd gyda chyflymdra rhyfedd lawer o gyfansoddiadau uchelryw, ar destynau gwladol, o ba rai, mewn adeg ddiweddarach, y cymmerwyd amryw alawon at wasanaeth crefyddol. Nid oedd y darnau hyfryd a thoddedig hyny, "*Lord, remember David*," "*He was eyes unto the blind*," ac ereill, yn ddim ond alawon mewn darnau chwareuol ar y dechreu; ond pan sobrodd Handel yn ei feddylfryd, ac y trodd ei holl athrylith at gyfoethogi cerddoriaeth grefyddol, trowyd yr alawon hyny i wasanaethu geiriau ysgrythyrol, yn ol egwyddor Rowland Hill, yr hwn a ddywedodd—"Ni ddylai y diafol gael y tônau goreu."

Nid yw hanes bywyd Handel, am amryw flynyddoedd ar ol hyn, fawr amgen na hanes brwydrau celyd yn erbyn gwrthwynebiadau ac aflwyddiant. Daeth dwy gantores enwog iawn drosodd i Loegr o'r Eidal. Enw un oedd Cuzzoni, a'r llall Faustina. Yr oedd gelyniaeth anghymmodlawn rhwng y ddwy; ac aeth y cyhoedd yn ddwy blaid gyda golwg arnynt hwythau, fel yr oedd wedi bod gyda Handel a Buoncini. Parodd hyn hefyd flinder a cholled i Handel, am fod Cuzzoni yn canu mewn un *opera*, a Faustina mewn *opera* arall, o'i waith ef. Os Cuzzoni fyddai yn canu un noson, byddai holl bleidwyr Faustina yn ceisio niweidio y cyfarfod; ac os Faustina fyddai yn canu y noson drachefn, byddai pleidwyr Cuzzoni yn llawn mor egnïol i niweidio y cyfarfod hwnw. Gallwn gasglu mai dynes o dymmer chwerw ac anynad oedd Cuzzoni; ond bu Handel yn drech na hi. Ar un achlysur, dywedodd Cuzzoni wrtho, na fuasai yn canu yr alaw "*Falsa Imagine*" o'i waith ef. Pan glywodd yntau hi yn dyweyd hyny, neidiodd ati mewn digllonedd, a dywedodd—"Mi wyddwn mai hen gythraul oeddych chwi, Madam; ond cewch wybod mai fi ydyw Beelsebub, penaeth y cythreuliaid; ac os na chanwch chwi bob alaw a roddaf i chwi, mi a'ch taflaf allan trwy'r ffenestr."

Nid ymdrown yn hwy gyda'r gyfran hono o oes Handel a dreuliodd yn benaf at gyfoethogi trysorau cerddoriaeth y chwareudy, ond deuwn at y cyfnod yn mha un y dechreuodd droi ei athrylith gref at gerddoriaeth uwch.

Yr oedd ei alluoedd naturiol wedi eu coethi yn ofalus, ei athrylith yn ddiderfyn: safai yn mhen uchaf rhestr cerddorion ei oes; ond er y cwbl, teimlai yn siomedig ac anfoddlawn. Yn y teimlad hwnw y gadawodd gerddoriaeth ysgafn yr *opera*, ac y trodd ei fryd at yr *oratorio*, yn llwyr argyhoeddedig nas gallai atteb dyben ei ddanfoniad i'r byd ond trwy ymroddi o hyny allan at gerddoriaeth gyssegredig.

Y mae gan ysgrifenwyr Cymreig amryw eiriau bathedig am *oratorio*, megys treithalaw, areithgan, &c.—ond i gyd yn eiriau ammhriodol. Dechreuodd yr *oratorio* gydag ychydig o offeiriaid Pabaidd a elwid "Offeiriaid yr *Oratori*," yn Rhufain, tua'r flwyddyn 1540, gan un Philip Neri, yr hwn, er mwyn denu yr ieuengctyd yn fwy i'r eglwys, a fynodd gael canu emynau, salmau, a chaniadau ysbrydol; rhai mewn cydgan ac ereill fel alawon. Rhanwyd y darnau hyny i ddwy ran—y gyntaf i gael ei chanu o flaen y bregeth, a'r ail ar ei diwedd. Trowyd hanesion ysgrythyrol ar gân, a chyfansoddwyd cerddoriaeth arnynt; ac ar ol canu y rhan gyntaf, traddodid y bregeth, a byddai pobl yn cael eu denu i aros hyd y diwedd er mwyn clywed yr ail ran o'r canu. Y testynau, yn yr hen amseroedd oeddynt, y Samariad, y mab afradlawn, a hanesion cyffelyb; yr hyn, trwy ardderchogrwydd y cyfansoddiadau, y gerddoriaeth offerynol, a'r canu, a ddygodd yr *oratori* i enwogrwydd mawr; ac oddi wrth yr *oratori* yma y cafodd y math hwn o gerddoriaeth ei alw yn *oratorio*.

Yr *oratorio* gyntaf a gyfansoddodd Handel oedd *Esther*, yr hon a ddadganwyd yn gyhoeddus trwy orchymyn y brenin; ac yn 1733, rhoddwyd dadganiad cyhoeddus o'i *Deborah*. Yn 1735, efe a ddygodd allan *Acis and Galatea*, ac *Alexander's Feast*; yn 1738, *Israel in Egypt*; a *L'Allegro ed il Penseroso*, yn 1739. Yn 1740, dadganwyd yr *oratorio Saul* yn chwareudy Lincolns-Inn-Fields; ac ar ol y dyddiad hwnw, ni wyddis fod Handel wedi cyfansoddi dim ond cerddoriaeth grefyddol. Nid oedd yr elw a ddeilliai oddi wrth ddadganiad ei gyfansoddiadau godidog yn ddigon i'w ddigolledu; ac y mae yn aros yn warthrudd ar gymmeriad yr oes hono, na ddarfu i hyd yn oed "Y MESSIAH" ei hun droi allan yn llwyddiannus, na dwyn dim elw i'w chyfansoddwr am rai blynyddoedd. Y mae yn ddigon naturiol i ni dybio fod hyn wedi chwerwi llawer ar ysbryd uchelfrydig Handel. Ond ni fynai ei ddigaloni gan ddim. Penderfynodd appelio oddi wrth anghyfiawnder a rhagfarn pobl Lloegr at deimladau y Gwyddelod, ac efe a aeth o Lundain i Dublin. At yr amgylchiad yma y mae y prydydd Saesneg, Pope, yn cyfeirio yn y llinellau hyny yn y *Dunciad*, sydd yn dechreu gyda'r geiriau, "Strong in new arms," a'r rhai a gyfieithwn fel y canlyn:—

"Mewn arfau newydd, wele Handel gawr,
Fel hyf Briareus, gyda'i allu mawr,
Yn ennyn ac yn ysgwyd enaid dyn,
Fel tabwrdd Mawrth, neu daran lau ei hun;
Ti, dduwies, dal ef! neu ni chysgi byth.
Clywodd—i'r Werddon gyrodd ef yn syth."

Pan oedd Handel yn myned tua'r Iwerddon y pryd hwnw, bu gorfod iddo aros yn Nghaerlleon am ychydig amser o herwydd gwynt croes; a chan ei fod yn awyddus am glywed rhai o'i ddarnau ei hun yn gael eu canu, efe a holodd am ychydig o gantorion i fyned gydag ef i'r Eglwys Gadeiriol. Dywedwyd wrtho fod argraphydd yn y ddinas, o'r enw Janson, yn medru canu yn dda. "Fedrwch chwi ganu wrth y golwg—(*at sight*)?" gofynai Handel wrtho. Dywedodd Janson y gallai. Ond, pan aeth i ganu, yr oedd yn gwneyd cam dybryd â'r gerddoriaeth, ac yn dangos anfedrusrwydd mawr; yr hyn a ddanfonodd Handel i dymmer ddrwg, a gwaeddodd, "Y cnaf! ai ni ddywedaist y medret ganu wrth y golwg?" "Do, Syr," attebai Janson, "ac mi fedraf hefyd, ond nid wrth y golwg cyntaf."

Dadganwyd y *Messiah* yn Dublin ar y 27ain o Fawrth, 1742. Yr oedd y llwyddiant yn ddirfawr,

Digitized by Google

ag y gallasai dyn ffaededig byth ei wneyd, gan ddechreu gyda phrophwydoliaethau yr Hen Destament am ddyfodiad y Messiah, lle y portreadir teimladau ffyddiog, disgwylgar, pryderus, hyderus, a gorfoleddus y prophwydi—yn enwedig Esaiah. Yna mynega am enedigaeth y "Mab a roddwyd i ni," gan ddechreu gyda'r *pastoral symphony*, yr hwn a ddarlunia dawelwch melus, gorphwysol, a thangnefeddus lliw nos yn ngwlad y dwyrain, gyda'r deadelloedd yn gorphwys, yr awel yn suo trwy y cangau, yr eos yn canu, yr awyr yn llwythog â pherarogl balmaidd, swn y ffrwd wrth dreiglo yn y nant, a chaniadau y bugeiliaid wrth wylio eu praidd liw nos. Yna cawn bortread o fywyd gweinidogaethol yr Iachawdwr; a thywysir ni, o gam i gam, yn ol traed yr hwn a gerddai oddi amgylch gan wneuthur daioni, i weled ei wyrthiau a'i haelioni; a chawn ein tywys yn naturiol at yr adran o'r cyfansoddiad sydd yn darlunio dioddefaint ac angeu Arglwydd y Bywyd, gan ddechreu gyda'r cydgan, "Behold the Lamb of God," a diweddu yr adran gyda'r cydgan, "All we like sheep." Testyn yr adran nesaf ydyw Adgyfodiad Crist; ac y mae hono yn arwain i'r adran sydd yn portreadu lledaeniad a buddugoliaeth cyffredinol yr efengyl, gan ddybenu gyda'r cydgan mawreddog, yr *Halleluiah Chorus*. Dywedodd Handel ei hun beth oedd ei deimladau pan oedd yn cyfansoddi y cydgan hwn. "Yr oeddwn," eb efe, "yn gweled yr holl nefoedd yn agored, a'r Duw mawr ar ei orsedd." Y mae yr adran nesaf yn ddisgrifiad effeithiol o obaith y Cristion am adgyfodiad y cnawd a'r bywyd tragwyddol, gan ddechreu gyda'r alaw, "*I know that my Redeemer liveth.*" Yna terfynir yr arwrgerdd gyda'r ddau gydgan, "*Worthy is the Lamb*," a'r "*Amen Chorus.*" Darfu i Handel, fel y prawf olaf o'i ymroddiad duwiolfrydig, agos ddyhysbyddu ei holl wyddoniaeth er mwyn cyfansoddi yr "*Amen Chorus*," gan ddefnyddio holl alluoedd ei feddwl, holl gyfrinion ei gelfyddyd, a holl ymadferthoedd ei athrylith, i roddi maen clo teilwng i'r adeilad digymmhar. Meddylddrych yr holl *fugue*, gyda dyweyd, ac ail ddyweyd, y gair AMEN mewn cynnifer o wahanol ffyrdd, ydyw portreadu TRAGWYDDOLDEB o burdeb a dedwyddwch, mwynhâd, cariad, a moliant.

HANES-YDD-IAETH; HISTORI, YSTORI, (Gr., Ll., Ys., a Port., *historia;* Ff., *histoire;* Saes., *history*). Yn dwyn cyssylltiad â *histori* neu *ystori* y mae *ysdawr*, gwrthddrych sylw neu ofal, *dawr*, gofalu; ac *ystyried*, cymmeryd sylw neu ofal.

Gellir edrych ar hanesiaeth neu histori, naill ai fel cangen o wybodaeth, a maes i ymarferiad meddyliol, neu ynte fel ffurf o gyfansoddiad llenyddol. Yn y sylwadau a ganlyn, ni a gymmerwn olwg ar ein testyn yn y ddau olygiad.

I. *Hanesiaeth fel cangen o wybodaeth ac ymarferiad meddyliol.* Y mae Bacon yn rhanu gwybodaeth i dri dosbarth:—Hanesiaeth, yr hwn sydd yn perthyn yn fwyaf neillduol i'r côf; athroniaeth, yr hwn sydd yn dwyn cyssylltiad yn benat â'r rheswm, neu y deall; a barddoniaeth, â'r hwn, gan mwyaf, y mae a fyno y dychymyg. Er nad yw y dosraniad hwn, fe allai, yn hollol gywir, y mae er hyny yn cyfleu yr hyn a ddeallir yn gyffredin wrth y naill a'r llall. Wrth gwrs nid ydys yn golygu mai y cof yn unig a elwir i ymarferiad mewn hanesiaeth, neu fod athroniaeth yn gwneyd i ffordd â'r dychymyg a'r cof, nac chwaith fod barddoniaeth yn cau allan y rheswm a'r cof; ond y meddwl ydyw fod mwy o'r elfenau a nodwyd yn ymddangos yn y gwahanol ddosranau o addysg nag o unrhyw elfen feddyliol arall. Gorchwyl neillduol hanesiaeth, gan hyny, ydyw cofio a chofnodi y digwyddiadau a aethant heibio. Ond nis gellir cofio a chofnodi y pethau a fu gydag unrhyw briodoldeb, heb i'r dygwyddiadau hyny ar yr un pryd effeithio ar y teimladau, y rheswm, a'r dychymyg, ac heb i'r person fydd yn gwneyd hyny roddi rhyw fath o esboniad arnynt, yn ol ei arfer ef o feddwl, neu ei bwrpas a'i amgylchiadau ar y pryd. Mewn bywyd cyffredin nis gall un dyn alw unrhyw amgylchiad i gof, heb wneyd rhywbeth yn chwaneg na hyny; ac nis gall fod yn wahanol gyda hanesiaeth.

Yn yr ystyr a nodwyd, y mae adgofio *unrhyw* ddigwyddiad, neu ynte *gyfres* o ddigwyddiadau, yn hanesiaeth. Ac yn yr ystyr yma, gall hanesiaeth gymmeryd ffurfiau aneirif; megys, hanes gweithrediadau person unigol yn ystod pedair awr ar hugain; neu hanes clwb, neu gymdeithas fechan o ddynion; neu hanes rhyw fesur seneddol, neu rhyw amgylchiad neillduol mewn hanes cenedl o ddynion; neu hanes teyrnasiad brenin, neu hanes cyfodiad, cynnydd, a darfyddiad plaid wleidyddol. Fel hyn, cawn hanes yr agerbeiriant, hanes masnach, hanes coginiaeth, hanes llenyddiaeth, hanes athroniaeth, hanes crefydd, neu hyd yn oed hanes hanesiaeth. Ond y mae rhai o'r hanesion hyn, y rhai y gellir eu galw yn hanesion neu hanes pethau neillduol: un o ba rai ydyw yr hwn y mae a fyno â bywydau a chymmeriadau enwogion. Gelwir hwn yn *fywgraffiaeth.*

Ond er fod croniclo, neu gofnodi unrhyw gyfres o ddigwyddiadau neu ffeithiau a aethant heibio, mewn ystyr cyffredinol, yn hanesiaeth, y mae etto rywbeth arall i'w ddeall wrth hanesiaeth, yn briodol. "Ymddengys i mi," medd Dr. Arnold, "mai yr hyn sydd i'w ddeall yn briodol wrth hanesiaeth ydyw bywgraffiaeth cymdeithas. Nid yw yn ymddangos i mi mai hanesiaeth ydyw o gwbl, ond bywgraffiaeth syml, ond mor bell ag y bydd yn cael yn y personau y sonia am danynt rywbeth o fuddioldeb cyffredinol. Yr hyn ydyw hanesiaeth i fywyd cyffredin y lliaws, ydyw bywgraffiaeth i fywyd person unigol. Cymmerer er enghraifft unrhyw deulu cyffredin:—Y mae aelodau y teulu hwnw yn dyfod yn fuan mor wasgaredig, ac yn ymgymmeryd â galwedigaethau mor wahanol, fel, er ei bod yn bossibl ysgrifenu bywgraffiaeth pob un o'r aelodau, nis gall fod y fath beth, mewn dull priodol o siarad, a hanes y teulu. Ond tybier fod holl aelodau y teulu yn cael eu taflu i blith dieithriaid, neu anwariaid, yna y mae bywyd sydd yn perthyn yn unig i'r teulu yn dyfod i'r golwg yn y fan. Y mae yno unoliaeth gweithrediad, dyddordeb, a phwrpas, sydd yn wahanol i'r eiddo pawb o'u hamgylch; yr hyn sydd yn eu gwneyd hwy ar unwaith yn destyn priodol i hanesiaeth. Rhaid i bob cylch o gymdeithas feddu rhyw fath o unoliaeth; ac o gymmaint ag mai aelodau ydyw ei aelodau, o herwydd fod y naill a'r llall o honynt ar wahân yn rhanau anghyflawn, ond, gyda'u gilydd yn ffurfio y cyfangorph, o gymmaint a hyny y mae yn ymddangos i mi fod eu bywyd gyda'u gilydd yn destyn priodol i hanesiaeth." Yn ol y disgrifiad hwn, yr hyn sydd i'w ddeall yn briodol wrth hanesiaeth ydyw cofnodiad cymmhwys o weithredoedd a phrofiadau dynion pan mewn undeb â'u gilydd—yn gymdeithasau, pa un bynag ai bychain ai mawrion fyddo y cymdeithasau hyny. Ond yn gyffredin, yr hyn a

Digitized by Google

ystyrir yn destyn cyfaddas i hanesiaeth, ydyw y math hwnw o gymdeithas yr ydym yn ei galw yn *wladwriaeth; h. y.*, cymdeithas yn meddu math o unoliaeth gwleidyddol (*political*) o'i mewn ei hunan, yn pennodi ei chyfreithiau ei hun, ac yn bodoli mor bell a hyny ar wahân oddi wrth wladwriaethau ereill o'i hamgylch, ond yn dwyn perthynas mwy neu lai â hwy mewn amgylchiadau ereill. Yma hefyd, gall fod gwahaniaeth gyda golwg ar y graddau i ba rai y gall cenedl fod yn wrthddrych hanesiaeth. Nid oedd hen wladwriaeth ogoneddus Athen, yn ei rhwysgfawredd mwyaf, yn cynnwys mwy na 400,000 o boblogaeth; ac yr oedd hyd yn oed dinasoedd, y pryd hyny yn wladwriaethau, ac yn meddu yr unoliaeth a'r annibyniaeth gwleidyddol hwnw a gynnwysir yn y syniad presennol o wladwriaeth. Yr oedd felly yn amser gwerinlywodraethau Venice, Florence, Genoa, &c. Yr un pryd, nid yw y byd erioed wedi bod yn amddifad o gyfundebau gwleidyddol ar gynllun eangach. Fel hyn, er fod yr Atheniaid, y Spartiaid, y Thebiaid, ac ereill, ynddynt eu hunain yn gyfundebau gwleidyddol, ac fel y cyfryw yn meddu hanesiaeth, pob un ar wahân, y maent yn dyfod yn gymmhlethedig â hanes y cyfundeb eangach a elwir "cenedl y Groegiaid, neu yr Helleniaid," ysgrifenu hanes yr hon fyddai yn orchwyl llawer pwysicach. Drachefn, y mae y cyfundeb gwleidyddol a elwir *ymherodraeth* yn llawer mwy cynnwysfawr na'r un sydd yn dwyn yr enw *cenedl*, gan fod ymherodraeth yn cymmeryd i mewn yn fynych lawer o genedloedd, y rhai a orchfygwyd mewn rhyfel, neu ynte a unwyd â'u gilydd drwy briodasau yn mhlith eu teuluoedd brenhinol. Y cyfryw ymherodraethau—pa un bynag a fyddont wedi eu ffurfio yn y fath fodd fel ag i gynnal i fyny i ryw raddau y cyfundebau llai, ynte a ddinystrir y cyfundebau hyny, ac y cydgesglir yr awdurdod ar y cyfan i'r un lle—yn y naill amgylchiad neu y llall, yr ymherodraethau sydd yn dyfod yn wrthddrychau hanesiaeth. Mewn gair, yr hyn sydd yn angenrheidiol er ffurfio testyn priodol i hanesiaeth ydyw *unrhyw* gorph cynnulledig o'r hil ddynol (o ba faintioli bynag) yn meddu y nodweddiad o gyfundeb gwleidyddol; ac o ganlyniad, unoliaeth bywyd cyffredin. Yn sefyllfa bresennol y byd, fodd bynag, gellir galw y math uchaf o hanesiaeth, yn *hanesiaeth cenedl. Y genedl*—pa un bynag a fyddo y genedl yn cynnwys, fel yn Mhrydain Fawr a Ffrainge, o ugain i ddeng miliwn ar hugain o bobl gymmysgedig, neu, fel yn Groeg, o filiwn i ddwy filiwn—*y genedl*, dyna ydyw y ffurf o gyfundeb gwleidyddol â pha un yr ydys yn fwyaf cydnabyddus er ys canrifoedd bellach. Y mae Awstria, yn wir, yn ymherodraeth, neu haib o genhedloedd; y mae Germany, fel y cyfryw, yn gynghrair: a Rwssia, er fod corph y boblogaeth yn un genedl fawreddog, y mae hithau yn meddu amryw fân lywodraethau chwanegiadol. Y mae pob un o'r mân lywodraethau, neu daleithiau hyn, yn gymmaint a'u bod yn cynnal i fyny eu neillduolion, er hyny yn meddu eu hanes eu hunain. Ar y cyfan, fodd bynag, yn sefyllfa bresennol y byd, gellir edrych ar y *genedl* fel cynllun (*type*) o'r cyfundebau hyny o gymdeithas y perthyn i hanesiaeth gofnodi eu bywyd.

Gellir cofnodi hanes cenedl, naill yn rhanau, neu ynte yn y cyfanswm. Mae genym hanesion o'r ddau fath. Wrth gofnodiad neu hanes cenedl yn y cyfanswm, yr ydys yn golygu cofnodiad neu hanes yn dechreu gyda'r foment gyntaf y caniateir fod y genedl mewn bod, gan ddilyn y genedl yn barhaus drwy ei gwahanol amgylchiadau hyd nes y byddo wedi ei llyngcu i fyny megys yn hanes cenedloedd ereill, drwy ei hundeb â hwy, neu wedi diflanu o'r golwg mewn rhyw ffordd arall. Mewn adolygiad ar hanes y byd, yr ydys yn cael llawer o genedloedd wedi cyfarfod â therfyniad cyffelyb. Draw yn y cynoesoedd, y mae cenedl yr Aiphtiaid yn ymddyrchafu i'r golwg am oesoedd lawer: nid oes un genedl arall yn deilwng o'i chystadlu â hi; ond ar adeg bennodol, y mae ei mawredd yn diflanu o flaen nerth ac awdurdod llywodraeth Groeg, neu Groeg-Macedonia. Y pryd hyny, y mae yr Aipht wreiddiol yn cilio o'r golwg; ac er fod Aiphtiau wedi cyfodi ar ol hyny, gellir edrych arnynt yn hytrach fel Aiphtiau newyddion nag fel adnewyddiad o'r hen Aipht; ac fel y cyfryw, y mae yn perthyn iddynt eu hanes eu hunain. Felly hefyd gyda'r Groegiaid:—rhedasant hwythau eu gyrfa; ac er fod yr enw yn aros, y mae y *peth* wedi diflanu. Yr un modd gyda'r Rhufeiniaid, ond ar radd eangach :—ar y cyntaf, cawn eu gallu yn gyfyngedig o fewn canolbarth Italy; wedi hyny yr ydym yn eu cael yn feistriaid yr oll o Italy; yna yn llywodraethu ymherodraeth fawr yn nghanolbarth Ewrop; ac yna wedi colli eu holl ogoniant. Mewn amgylchiadau o'r fath, fe ellir cael hanesion cyflawn, yn cyfatteb i fywgraffiaeth cyflawn unrhyw berson unigol o'i enedigaeth drwy ei ieuengetid a'i ddynoliaeth, hyd henaint a marwolaeth. Ond yn amgylchiad cenhedloedd sydd etto yn fyw, ac yn blodeuo, y mae yn wahanol. Yr hanes mwyaf cyflawn mewn amgylchiadau o'r fath yna a fyddai un yn dechreu yn nghychwyniad, neu, fel y gellir dyweyd, gyda genedigaeth y genedl, gan ei dilyn i lawr hyd ei sefyllfa bresennol, pa beth bynag fyddo y sefyllfa hono. Fel hyn, yr hanesiaeth Ffrengig cyflawnaf fyddai un yn dechreu gyda Ffrainge, neu Gaul, o dan lywodraeth y Derwyddon, ac yna o dan y Rhufeiniaid, gyda'r gwahanol oruchwyliaethau yr aeth drwyddynt wedi hyny cyn dyfod i'w sefyllfa bresennol. Felly gyda hanesiaeth Saesnig:—i fod yn gyflawn, dylai ddechreu gyda Phrydain yn y cyfnod Derwyddol, pryd y ceisiodd Cæsar ymwthio iddi; a diweddu gyda Phrydain y dyddiau presennol. Ychydig o hanesion fel yna sydd genym: ond y mae hanes y naill genedl a'r llall yn gyffredin yn cael ei ysgrifenu yn rhanau. Fel hyn y mae genym hanes Ffrainge yn ystod teyrnasiad y Bourboniaid; hanes Ffrainge o 1789 hyd 1815; hanes Prydain o ddyddiau y Gorchfygwr hyd amser James I.; hanes Prydain yn nheyrnasiad George III.; ac am gyfnodau ereill hefyd.

Pa un bynag o'r ffurfiau hyn a ddewisir, y mae y syniad priodol am hanesiaeth yn aros yr un; sef, mai bywgraffiaeth cenedl ydyw—yn y naill amgylchiad yn rhoddi y bywyd yn gyflawn; yn y llall, dim ond rhan o hono. Ond yn mha beth y mae yr unoliaeth—y cyffredinolrwydd hwnw sydd yn angenrheidiol mewn bywyd cenedl, i'r dyben o ysgrifenu ei hanes, yn gynnwysedig? Mewn dull cyffredin o siarad, gellir dywedyd ei fod yn gynnwysedig yn holl weithredoedd a phrofiadau pob un o'r personau sydd yn cyfansoddi y genedl. Cyn y gellir cael gafael ar y rhanau hyny, lle y mae y bywyd yn unol â chyffredin, rhaid cael gwybod yr hyn oll a deimlwyd, a ddywedwyd, a wnaed, ac a ddioddefwyd gan bawb a fuont fyw yn y genedl o'i dechreu i'w diwedd. Ond y mae hyn yn ammhossibl. Gan hyny—gan nas gellir dyfod i wybod am bob amgylchiad neu ffaith sydd yn gynnwysedig yn mywyd y genedl, fe ddylid gwneuthur ymchwiliad a oes yno *fathau* neu

Digitized by Google

*ddosbarthiadau* o ffeithiau ac amgylchiadau, yn y rhai y mae cymmeriad a bywyd cyffredin y genedl yn cael eu harddangos mewn modd mwy neillduol nag mewn ereill. A ffeithiau o'r fath fe wyddys yn dda fod. Yn mhob cyfundeb o bobl, y mae rhyw rai yn gwneyd i fyny ran bwysicach yn nghymmeriad y cyfundeb nag ereill. Y mae rhai o aelodau y cyfundeb, naill ai o herwydd eu hamgylchiadau bydol, neu eu galluoedd naturiol, neu y ddau ynghyd, yn meddu mwy o ddylanwad o fewn y cyfundeb nag ereill—yn cynnwys ynddynt eu hunain, mewn dull o siarad, ran fwy o'r bywyd cyffredin: o ganlyniad, y mae yn un o ddeddfau hanesiaeth i gymmeryd sylw arbenig o fywyd a gweithrediadau personau unigol, os bydd y personau hyny yn meddu hynodrwydd a dylanwad; ac fe deimlir bob amser wrth ddisgrifio ymddangosiad a chymmeriad, ac wrth adrodd symmudiadau personau o'r fath, fod llawer o anhawsderau hanesiaeth yn cael eu goresgyn, ac fod ei phrif ddybenion, i raddau helaeth, yn cael eu cyrhaedd. Heblaw dylanwad personau unigol o'r fath yna, y mae mewn gwahanol ffurfiau o gymdeithas amryw ddygwyddiadau naturiol yn meddu llawer o ddylanwad, megys newyn, heintiau, daeargrynfäau, a'r cyffelyb; y mae hefyd ddygwyddiadau achlysurol yn dylanwadu ar gymdeithas, megys dyfeisiau peiriannol, a darganfyddiadau sydyn a mawrion. Y mae pob dygwyddiad o'r fath yn galw am sylw neillduol yr hanesydd, gan fel y maent ar unwaith yn effeithio cyfnewidiadau mawrion ar gymdeithas yn gyffredinol. Yn mhellach, y mae pob cymdeithas wedi ei ffurfio yn y fath fodd fel, yn ol natur pethau, y mae y bywyd cyffredin yn bur anghyfartal mewn gwahanol ranau o'r gymdeithas—y mae y ffurfiau uchaf o hono, o angenrheidrwydd, yn ymgasglu i'r un lle. Er enghraifft, yn mysg y cenedloedd hynafol, yr oedd rhan fawr o'r boblogaeth yn gynnwysedig bob amser o gaethion, i'r rhai y perthynai y galwedigaethau isaf a mwyaf llafurus, tra yr oedd y swyddau uchel ac awdurdodol yn perthyn i ddosbarth uwch, sef y bobl rydd, ac yn fwyaf neillduol i ryw ranau o'r dosbarth hwnw. Yn awr, er y byddai hanesiaeth Athenaidd a adawai allan bob sylw o fodolaeth ac arferion y caethion—hanesiaeth a fyddai yn ddystaw gyda golwg ar y miloedd hyny a lafurient yn ddyddiol islaw yr esgynlawr hwnw o fywyd cyhoeddus a breswylid gan y dosbarth rhydd—er y byddai hanes felly yn ddiffygiol, fe wyddys yn dda mai gweithrediadau y dosbarth rhydd sydd mewn gwirionedd yn cyfansoddi hanesiaeth Athen. Ac yn gyffelyb y mae mewn cymdeithas yn bresennol. Nid yn unig y mae cymmaint o bwysigrwydd yn perthyn i rai personau neillduol, fel y gellir edrych arnynt fel yn cynnrychioli pawb ereill; ond y mae trefniadau pob cymdeithas y fath, fel (i ddybenion hanesiol) nad ydyw yn angenrheidiol cymmeryd sylw neillduol o bob rhan o honi—dim ond yn unig cadw pob rhan mewn golwg, a sefydlu y sylw ar y dosbarth uchaf o gymdeithas. Ystyrir yn bwysig yn mhob hanesiaeth cael rhestr gywir o'r llywodraethwyr, neu y prif farnwyr, ac fod ymddangosiad allanol eu bersonau, a chymmeriad pob un, yn olynol, yn cael eu disgrifio yn lled fanwl. Ystyrir hyn yn angenrheidiol hyd yn oed pan na byddai dim neillduol yn perthyn i'r llywodraethwyr hyny i'w ddisgrifio: a'r rheswm am hyny ydyw, gan mai y dynion hyn ydoedd y prif bersonau yn y cyfundeb neu y wladwriaeth yr oeddynt yn troi ynddo yn ystod eu bywyd—y gwrthddrychau cymdeithasol mwyaf nodedig, a chanolbwynt sylw cyffredinol—y mae eu gosod hwy, y naill ar ol y llall, yn neillduol o flaen y meddwl, fel yn dwyn ymwybyddiaeth iddo o'r oesoedd yr oeddynt hwy yn byw ynddynt. Ar yr egwyddor yma y seilir yr arferiad o ddyddio gwahanol ddygwyddiadau, drwy eu cyssylltu â theyrnasiad gwahanol frenhinoedd.

Ffordd arall i wneyd hanesiaeth yn orchwyl mwy hawdd yw astudio cynnydd neu adfeilaid y genedl fydd dan sylw yn ei gweithiau celfyddydol, yn ei llenyddiaeth, ac yn ei hathroniaeth, ynghyd â'i rhagolygon a'i hanturiaethau masnachol. Yn y gweithiau celfyddydol (pa un bynag ai cerddoriaeth, arluniaeth, cerfiadaeth, neu adeiladaeth) a gynnyrchir gan genedl, y mae a'i meddwl, ei thueddiadau—ïe, pob peth sydd yn fwyaf cyffredin a nodweddiadol yn mywyd cenedl, pa un bynag ai ei bywyd meddyliol, ai teimladol, ai moesol—y mae y naill fel y llall yn cael eu dadblygu mewn modd arbenig. Felly gyda'i llenyddiaeth. Y mae hwn yn cynnwys crynodeb byw o dymmerau, nwydau, hoffder, ac ymgyrhaeddiadau cenedl. Y mae cydnabyddiaeth eang â llenyddiaeth, ac yn enwedig prif farddoniaeth genhedlaethol cenedl, yn wir angenrheidiol i'r neb fydd yn ysgrifenu ei hanes. Yn mhellach, y mae bywyd mwyaf mewnol—sylfaen pob bywyd arall perthynol i genedl—*h. y.*, ei dull o feddwl—i'w gasglu oddi wrth hanes ei hathroniaeth a'i chrefydd. Y mae yr hyn sydd heddyw yn rhagolwg yn dyfod yfory i weithrediad; ac fel hyn y mae cadwen bywyd unrhyw genedl i'w holrhain yn fwyaf neillduol yn ei syniadau gyda golwg ar y gwrthddrychau hyny sydd yn fwyaf cyffredin a phwysig i ddynolryw.

Wedi y cwbl, fe fyddai hanesiaeth yn dra anghyflawn pe na byddai maes ei hymchwiliad yn eangach na'r un a dorwyd allan iddi hyd yma genym ni. Er fod bywyd cenedl yn cael ei ddadguddio yn mywyd a gweithrediadau personau unigol o ddylanwad, yn hanes y dygwyddiadau pwysig naturiol a effeithiasant arni, yn rhestr ei dyfeisiau a'i darganfyddiadau, yn symmudiadau ac arferion cymdeithasol ei dosbarthiadau uchaf, yn narluniau ac amseroedd ei llywodraethwyr, yn ei chelfyddyd, ei llenyddiaeth, a'i hathroniaeth, y mae i'w astudio gyda llawer mwy o sicrwydd ac awdurdod *yn nghyfres ysgrifenedig ei gweithredoedd cyhoeddus.* Cofrestriad priodol o weithredodd cyhoeddus cenedl bob amser, ydyw asgwrn cefn ei hanesiaeth; a pha wybodaeth bynag arall a gynnwysir, rhaid ei gyfleu *o amgylch hwnw.* Ond pa beth ydyw gweithredoedd cyhoeddus cenedl? Y gweithredoedd a gyflawnir gan y genedl, *yn unig fel cenedl* ydynt. Gellir edrych ar unrhyw symmudiad cyffredinol o eiddo y genedl fel un o'r gweithredoedd hyny, hyd yn oed pan na bydd y symmudiad hwnw yn unffurfiol; ond fel rheol, y mae yn atteb dybenion yr hanesydd i edrych ar y gweithredoedd hyny a wneir gan y llywodraeth *yn enw* y genedl, fel gweithredoedd y genedl ei hun. Nid ydyw o un pwys pa un ai mewn un person, mewn cynghor yn cynnwys amryw o bersonau, mewn cymmanfa boblogaidd o liaws o bersonau, ynte mewn nifer o awdurdodau unedig, y byddo y llywodraeth wedi ei chorffori. Nid yw o un gwahaniaeth chwaith pa un a fyddo y llywodraeth yn aros yn unffurf, ynte yn cyfnewid o dro i dro. Cyhyd ag y bydd llywodraeth yn gweithredu yn enw y genedl, y mae y genedl yn gweithredu drwyddi; ac o ganlyniad, rhaid i'r hanesydd dalu sylw neillduol i lywodraeth y genedl y bydd yn ysgrifenu ei hanes, a rhaid iddo gymmeryd ei gweithrediadau fel corphoriad o weithrediadau y genedl.

Digitized by Google

yn y Beibl. Y mae y byraf o'r rhai hyn yn gosod creadigaeth y dyn cyntaf yn y flwyddyn c. c. 3483; a'r hwyaf yn y flwyddyn c. c. 6984—dros 3000 o flynyddoedd yn foreuach—anghysson-deb wedi ei sylfaenu ar y gwahaniaeth sydd yn ymddangos rhwng yr Hen Destament Hebraeg, y Samariaidd, a'r Deg a Thrigain. Yr amseryddiaeth a gymmeradwyir yn gyffredin gan dduwinyddion Prydeinig ydyw yr eiddo Usher; yr hwn sydd yn pennodi amser y cread, c. c. 4004; ac amser y diluw, c. c. 2348.

Wedi gadael y cyfnod hwn, a phennodi rhyw ddyddiad i'r diluw a dybir ganddo ef yn fwyaf cywir, y mae yr hanesydd yn cyfarfod âg ysbaid maith o amser ynghylch yr hwn—oddi eithr iddo ddibynu yn hollol ar dystiolaeth y Beibl Hebraeg—rhaid iddo fod yn hollol ddystaw. Fodd bynag, wrth wneyd defnydd o'r rhan hwnw o Genesis sydd yn ymdrin â phoblogiad y byd ar ol y diluw, y mae yn alluog i gyfleu nodwedd i hanesiaeth gyffredinol y byddai amddifadrwydd o hono yn ei wneyd yn wir ddiffygiol. Gall edrych arno fel y cyfnod yn mha un y gwasgarwyd dynolryw, ynghyd â'u rhaniad yn ieithoedd, tafodieithoedd, a chenhedloedd. Ac yma, pa oleuni arall bynag y mae yn bossibl iddo ei daflu ar dystiolaethau y Beibl, rhaid iddo ddibynu ar y wyddor a elwir cenhedleg (*ethnology*) am danc. Amcan y wyddor hon ydyw olrhain perthynas gwahanol genhedloedd a thylwythau â'u gilydd, drwy chwilio allan debygolrwydd a gwahaniaeth eu cyfansoddiadau mewnol, a'u hymddangosiadau allanol; cyfatteboiaeth a gwahaniaeth eu harferion, eu nodweddiad meddyliol, a'u hiaith; a hyny i'r dyben o ddangos eu disgyniad achyddol, ac hyd y mae'n bossibl olrhain eu tarddiad i ychydig o brif dylwythau, ac yna i un gwreiddyn. Ond hyd yma, y mae cenhedleg yn cael fod dynolryw, yn y cyfnod boreuaf i'r hwn yr estynwyd ei hymchwiliadau hi, yn gynnwysedig, nid o un teulu perthynasol, cynnulledig ar un llanerch o'r ddaear, ond wedi eu rhanu yn amryw ddosbarthiadau, a'u gwasgaru dros wahanol ranau o'r ddaear, a'u rhanu drachefn yn ddosbarthiadau llai. Mewn cyssylltiad â'r athrawiaeth hon o eiddo cenhedleg, y mae amryw ffurfiau o ddosbarthiant wedi eu cynnyg; y mwyaf cyfleus ac eglur o ba rai ydyw yr un sydd yn rhanu y byd i dri phrif ddosbarth—dosbarth y NEGRO, yn meddu cyfandir Affrica, neu y rhan fwyaf o hono, yn gartref; dosbarth y MONGOLIAID, yn cynnwys y gogledd, y canolbarth, a'r rhan ddwyreiniol o Asia, ac fe allai, rhanau o America; a dosbarth y CAUCASIAID, yn cynnwys Asia orllewinol, Ewrop, a'r rhanau hyny o Affrica sydd yn terfynu ar Fôr y Canoldir. Y mae y dosbarth Caucasiaidd yn cael ei adranu i (1.) Y teulu *Semaidd* neu *Syro-Arabaidd*, yn preswylio parthau gorllewinol Asia, rhwng y Tigris a Môr y Canoldir, a rhanau cyfagos o Affrica: (2.) Teulu *Iapheth*, neu y teulu *Indo-Ewropaidd*, y rhai sydd yn wasgaredig dros y rhanau ereill Caucasiaidd o Asia ac Affrica, a thros yr oll o Ewrop. Yn ol cenhedleg, o ganlyniad, rhaid i'r hanesydd ddechreu yn y pwynt hwnw yn hanes y byd, pryd y mae y ddaear yn rhanedig rhwng y Negroaid, y Mongoliaid, a'r Caucasiaid: a'r rhai hyn, mewn rhai manau, fe allai, yn ddim amgen na rhyw lwythau rhydd, crwydredig; ond mewn manau ereill yn tueddu at ymffurfio yn gyfundebau mwy, y rhai a elwir yn genhedloedd. Yn ol yr amseryddiaeth mwyaf cyffredin, gall osod y pwynt hwn tua c. c. 2000. Ymddengys fod preswylwyr y ddaear y pryd hwnw yn gyffelyb o ran eu sefyllfaoedd daearyddol i'r hyn ydynt yn bresennol—y Negroaid yn Affrica, i'r deheu i fynydd yr Atlas; y Mongoliaid yn nghanolbarth a pharthau dwyreiniol a gogleddol Asia; a'r Caucasiaid yn Asia orllewinol, Affrica ogleddol, ac Ewrop.

Gan ddechreu yn y pwynt hwn, y mae yn angenrheidiol i'r hanesydd gadw ei lygad ar grwydr megys o amgylch y ddaear, a gwylio am yr arwyddion cyntaf o fywyd a gweithrediad yn mhlith y cyfundebau cenedlaethol yna. Ac yma y mae pwynt o anhawsder yn dyfod i'r golwg. Y mae rhai haneswyr yn tybied y gellir cario hanesiaeth rhai hen genhedloedd drwy gyfrwng brutiau, croniclau, a chofgolofnau, mor bell yn ol a c. c. 2000, os nad yn mhellach: tybia ereill nas gellir myned yn mhellach yn ol na c. c. 1000, neu c. c. 800, a golygant nad yw y traddodiadau a'r rhestrau o frenhinoedd, &c., drwy ba rai y mae cenedloedd yn olrhain eu hanesiaeth yn foreuach na hyny, yn ddim amgen na chwedloniaeth, a dychymygion disail. Fodd bynag, ymddengys bod ymchwiliadau hynafiaethwyr diweddar yn cadarnhau y gosodiad, y gellir, hyd yn oed mor foreu a'r flwyddyn c. c. 2000, gael gafael ar *fleithiau hanesyddol* yn mherthynas i wahanol genhedloedd. Heb fyned yn ddim pellach i'r ddadl, ni a nodwn y cenhedloedd hyny a ystyrir yn gyffredinol yn meddu yr hynafiaeth mwyaf. 1. Yn mhlith y tylwyth mawr Negroaidd, yn preswylio deheubarth a chanolbarth Affrica, yr unig gyfundeb cenediaethol sydd yn galw am sylw neillduol yr hanesydd ydyw yr *Ethiopiaid*; y rhai a osodir allan fel yn meddu hynafiaeth mawr, ac yn preswylio yn mhell oddi wrth y môr, uwchlaw yr Aipht Uchaf. 2. Gan gymmeryd cipolwg dros breswylfa eang y Mongoliaid, yn Asia ac America, fe wel yr hanesydd, draw ac yma, olion o hen lwythau neu genedloedd yn dwyn yr enw Scythiaid, a'r cyffelyb; ond yr unig gyfundeb pwysig a pharhaol y mae ei hynafiaeth yn ei gwneyd yn wrthddrych sylw neillduol yr hanesydd, ydyw y *Chineaid*. Nid ydyw Peruffaid a Mexicaniaid yr America yn dyfod i'r golwg hyd yn ddiweddar, mewn cymmhariaeth; ac o ganlyniad, gadewir America allan o hanesiaeth henafol. 3. Wrth symmud at y trigolion Caucasiaidd yn mharthau gorllewinol a deheuol Asia, yn ngogledd-barth Affrica, ac yn Ewrop, y mae yr hanesydd yn cael ei daraw gan y gwahaniaeth sydd yn perthyn i'r parthau hyn. Yno, yn lle un genedl neillduol, fel yn y ddau ddosbarth blaenaf, fe welir amryw o genhedloedd gwahanol ar unwaith, neu yn fuan ar ol eu gilydd, fel yn ymdrechu am sylw yr hanesydd. Yn y lle cyntaf, yn mhell tua'r dwyrain, ac i raddau helaeth ar wahân oddi wrth y lleill, y mae yr *Indiaid*—dosbarth o bobl perthynol i'r llwyth Iaphethaidd, neu Indo-Ewropaidd, yn hòni hynafiaeth uchel, yr hwn, fel eiddo y Chineaid, sydd yn galw am ei chwilio. Yn nesaf, wedi ymdyru ynghyd yn Asia orllewinol, rhwng Môr y Canoldir a'r Tigris, a rhanau cyfagos o Affrica, y mae nifer o genhedloedd Semaidd, yr enwocaf o ba rai ydyw yr *Aiphtiaid*, yr *Hebreaid*, y *Phœniciaid*, yr *Assyriaid*, a'r *Babiloniaid*. Wedi hyny, ychydig yn ddiweddarach o ran amser, ac yn preswylio gweddill y parthau Indo-Ewropaidd o Asia, fe welir yr Iaphethiaid, neu ddisgynyddion Iapheth, sef *Mediaid* a *Phersiaid* Irania, a *Lydiaid* Asia Leiaf, yn ennill sylw; tra yn Ewrop, y mae y *Groegiaid* a'r *Etrusciaid* yn dyfod i'r golwg.

Y rhan neu y dosbarth cyntaf o hanesiaeth gyffredinol, o ganlyniad, ydyw yr un sydd yn

Digitized by Google

Y mae HANESIAETH yn cynnwys

- **I. HANESIAETH HENAFOL:** yr hon sydd yn cynnwys ......
  - I. HANESIAETH HENAFOL Y CYNOESOEDD *(Primeval Ancient History):*—yn cynnwys, wedi rhoddi darluniad digonol o wahanol genhedloedd yn yr adegau boreuaf sydd yn bossibl, hanes y cenhedloedd hynaf a adwaenir; megys yr Ethiopiaid, yr Indiaid, y Chineaid, yr Aiphtiaid, yr Hebreaid, y Phoeniciaid, yr Assyriaid, y Babiloniaid, y Lydiaid, y Mediaid, a'r Persiaid; ynghyd â rhoddi hanes gweithrediadau rhai o'r cenhedloedd hyn ar eu gilydd; yr hyn, ar ol cyfnod pennodol o rwysg Babilonaidd ac Assyriaidd, a derfynodd yn ffurfiad yr ymherodraeth Bersiaidd—C. C. 538—485.
  - II. HANESIAETH HENAFOL CLASUROL *(Classical Ancient History):* yr hon a ddosrenir i—
    1. *Hanesiaeth Roegaidd:* yr hon sydd yn dechreu gyda'r adolygiad angenrheidiol ar hanes y tiriogaethau Groegaidd, ynghyd â'r tiroedd cyssylltiedig â hwy, cyn y fl. C. C. 490, ac yn wahanol amgylchiadau y genedl yn y cyfnod Hellenaidd, ac wedi hyny yn y cyfnod Groegaidd-Macedoniaidd, mor belled a C. C. 168, neu o gylch hyny.
    2. *Hanesiaeth Rufeinig:* yn cynnwys adolygiad cyffelyb ar hanes Italy, a'r parthau hyny ar lan Môr y Canoldir oedd yn dwyn perthynas â hi: megys Carthage, Yspaen, &c., hyd C.C. 168; ac yna hanes yr holl fyd adnabyddus, hyd B. A. 395.
- **II. HANESIAETH DDIWEDDAR**—yn cynnwys
  - I. HANES Y CANOLOESOEDD *(Medieval History):* o B. A. 395 hyd B. A. 1453, yr hwn a renir i
    1. *Hanes y Canoloesoedd yn y gorllewin:* yn cynnwys gweithrediad y tylwythau Gothaidd ar ymherodraeth Rhufain yn y gorllewin, a hanes cymdeithasau Ffraingc, Italy, Yspaen, Prydain, Germany, &c., (yr hwn a ffurfir gan y gweithrediad hwnw), mewn undeb ac ar wahân, hyd doriad y Diwygiad Protestanaidd.
    2. *Hanes y dwyrain:* yn cynnwys hanes ymherodraeth Byzantium, a hanes cyssylltiedig yr Arabiaid, y Tartariaid, y Tyrciaid, ynghyd â hanes y Sclavoniaid hyd yr un amser.
  - II. HANES YR OESOEDD DIWEDDAF—o B. A. 1453 hyd yr amser presennol—yr hwn hefyd sydd yn rhanedig i
    1. *Hanesiaeth ddiweddar y gorllewin:* yn cynnwys parhâd o hanes cenhedloedd y rhan orllewinol o Ewrop, ynghyd ac ar wahân, er y flwyddyn 1453; ac yn arddangos gweithrediadau y cenedloedd hyn, yn enwedig yr Anglo-Sacsoniaid, yn Affrica, Asia, ac America; ac yno, yn enwedig yn yr olaf, yn seilio cenedlaethau newyddion, a ffurfiau newydd o wareiddiad.
    2. *Hanesiaeth ddiweddar y dwyrain:* yn cynnwys hanes ymherodraeth y Tyrciaid, a pha gyfeiriadau bynag at China, a pharthau ereill o Asia, a fyddo yn angenrheidiol i gyflawni ein gwybodaeth am sefyllfa bresennol yr holl fyd.

Digitized by Google

Gelwir damcaniaethau ar gyssylltiad perthynasol ffeithiau hanesiol, ynghyd â'r addysg sydd i'w dynu oddi wrthynt, &c., yn *Athroniaeth Hanesiaeth*. Y mae athroniaeth o'r fath wedi bod erioed. Yr hen hanesydd Thucydides, er esampl—y mae efe, nid yn unig yn gwneyd adroddiad o ffeithiau, ond yn ymresymu yn eu cylch; hyny ydyw, y mae yn hoff o olrhain dygwyddiadau hanesiol i'r hyn a ystyrir ganddo ef yn achos o honynt, a thynu casgliadau cyffredinol oddi wrth yr ystori a adroddir ganddo. Ac am y rheswm hwn, fe'i gelwir yn fynych yn hanesydd athronyddol. Ond y mae yr holl hen haneswyr sydd yn rhywbeth amgenach na chroniclwyr, i ryw raddau yn athronyddol yn yr un ystyr. Y maent oll yn myned yn mlaen ar yr egwyddor fod pob dygwyddiad cymdeithasol yn gyffelyb lle y bydd tebygolrwydd rhwng amgylchiadau cymdeithasol. Fe aeth dynion fel Aristotle yn llawer pellach, a thrwy astudio cyfansoddiad gwahanol lywodraethau, ac effaith y cyfansoddiadau hyny ar eu llwyddiant, ceisiasant osod i lawr egwyddorion cyffredinol, yn ol y rhai y ffurfid y llywodraethau goreu, a chyda golwg ar dynged debygol y llywodraeth hon neu y llall. Yn mhellach, y mae y meddwl crefyddol yn mhob oes wedi cydnabod rhyw drefn neillduol ar amgylchiadau cenedloedd—rhyw gwrs a thueddiadau neillduol yn mywyd cyfundebau o bobl yn gystal a phersonau unigol. Y mae pob gwladwriaeth henafol wedi arfer meddwl fod ei holl amgylchiadau o dan reolaeth rhyw dduw neu dduwiau, ac fod eu hewyllys a'u bwriad hwy i'w weled yn mhob peth a ddygwyddai iddynt. Mewn amseroedd diweddar, y mae pob dyn mawr ac uniongred yn arfer synied fod Rhagluniaeth yn llywodraethu holl amgylchiadau dynolryw. "Pa beth ydyw ein holl hanesion a chofnodiadau o'r amser a fu" ebe Cromwell, "ond Duw yn amlygu ei hun ei fod wedi siglo, a dymchwelyd, a sathru o dan ei draed pa beth bynag na phlanodd efe?" Ac yn yn ol y syniad Cristionogol am Ragluniaeth, y mae y golygiad hwn yn cymmeryd ffurf mwy neillduol; fel nad ydym i edrych ar holl gylch mawr ac eang hanesiaeth ond fel dadblygiad graddol o gynllun dwyfol · sylwedd yr hwn ydyw Cristionogaeth.

Ond tra y mae athroniaeth hanesol o'r fath yna wedi bod erioed, nid ydyw y drychfeddwl o hanesiaeth fel gwyddor—y drychfeddwl o fod dygwyddiadau cymdeithasol yn cymmeryd lle yn ol deddfau sefydlog a phennodol fel deddfau cyffredin natur—nid yw y syniad yna ond diweddar mewn cymhariaeth. Y mae y pwngc hwn wedi ei egluro yn feistrolgar gan amryw o awduron y Cyfandir megys Vico (Italiad, 1688—1744), yn ei waith a elwir *Scienza Nuova*, neu "Egwyddorion Gwyddor Newydd;" Montesquieu, Herder [*Ideas, towards a Philosophy of History*], &c. Ond y galluocaf o'r holl weithiau a ymddangosodd ar y pwngc ydyw yr eiddo Kant; yr hwn a elwir *Idea of an Universal History in a Cosmopolitical Point of View.* Dywed efe:—

"Pa beth bynag fydd y syniad y mae yn bossibl i un ei ffurfio, mewn ystyr arddansoddol, am ryddid yr ewyllys, y mae ei effeithiau—gweithrediadau plant dynion—i'w penderfynu, fel pob dygwyddiad naturiol arall, yn ol deddfau cyffredin natur. Y mae lle i obeithio y bydd i hanesiaeth,—gorchwyl yr hon yw cofnodi y dygwyddiadau hyn—pan ddêl i edrych ar weithrediadau ewyllys dyn ar y raddfa (*scale*) fawr, ddarganfod cwrs naturiol yn y cyfan; fel y bydd i'r hyn sydd yn ymddangos yn ddamweiniol ac afreolaidd mewn amgylchiadau neillduol, ymddangos, yn ei gyssylltiad â'r holl hil ddynol, fel dadblygiad arafaidd, ond parhaol a chynnyddol, o'u tueddiadau gwreiddiol. Fel hyn, ymddengys nad yw genedigaethau, priodasau, a marwolaethau—gan fod ewyllys rydd y dyn yn meddu cymmaint o ddylanwad arnynt—yn ddarostyngedig i un reol yn ol yr hon y gellir penderfynu yn mlaen llaw eu rhifedi drwy gyfrifiad; ac etto, y mae y rhestrau blynyddol a roddir o honynt yn mhlith cenedloedd mawrion yn rhoddi ar ddeall eu bod yn cymmeryd lle lawn cymmaint yn ol deddfau rheolaidd natur a'r gwlawogydd; y rhai, er nas gellir penderfynu amser eu dygwyddiad, bob un ar wahân, nid ydynt yr un pryd, ar y cyfan, yn fyr o ofalu am feithriniad planhigion, llifiadau afonydd, &c., mewn cwrs unffurf a pherffaith reolaidd. . . . Y mae yn ammhossibl i un beidio cael ei lenwi â math o ddigofaint wrth edrych ar weithredoedd dynion yn cael eu harddangos ar chwareufwrdd mawr y byd; ac wrth gael—er nad heb weled ambell enghraifft o ddoethineb yma a thraw—y cyfangorph, yn y diwedd, yn gynnwysedig o wallgofrwydd, oferedd plentynaidd, ac yn fynych o ddrygioni a thueddiadau dinystriol plant. O dan yr amgylchiadau hyn nid oes gan yr athronydd ond amcanu at ddarganfod *cynllun naturiol* yn y cwrs ansynwyrol hwn ar weithrediadau dynolryw; fel nad ydyw ysgrifenu hanesiaeth creaduriaid sydd yn byw heb un reol neu gynllun yr un pryd yn anmhossibl, ond gweithredu yn ol cynllun pennodedig mewn natur."

Hyd yma, fodd bynag, y mae nifer yr egwyddorion y cyfeiriwyd atynt, ac sydd wedi eu gosod i lawr, yn ychydig iawn. Yr achos o hyn ydyw cymmhlethrwydd a dyryswch y ffeithiau sydd gan wyddoniaeth gymdeithasol mewn golwg. Fodd bynag, nid ydys heb ddyfod i ryw fath o benderfyniad gyda golwg ar ddeddfau mantoliad a symmudiadau cymdeithasol. Er esampl, gellir edrych ar egwyddorion trefnidedd gwleidyddol, cyn belled ag y maent wedi eu gosod i lawr gan y rhai sydd wedi gwneyd hyn yn destyn astudiaeth yn ystod y ganrif ddiweddaf, fel casgliadau neu gyfundraeth o reolau gyda golwg ar gyfoeth cymdeithasol, ac fel y cyfryw yn chwanegiad pwysig at ddefnyddiau hanesyddiaeth y dyfodol. Gellir chwanegu at hyn, gasgliadau o fathau ereill oddi wrth ystadegau cenedlaethol. Ac nid ydym yn amddifaid o ryw fath o ddosbarthiant egwyddorol ar weithrediadau dynolryw fel cyfangorph. Er esampl, wrth gyfeirio at y disgrifiad a roddwyd uchod o brif raniadau hanesiaeth gyffredinol, arweinir ni yn naturiol oddi wrth y ffeithiau eu hunain i dynu casgliadau neillduol oddi wrthynt.

Un casgliad o'r fath yw hyn:—Er fod chwareufa gyntaf gweithrediadau hanesol yn gyfyngedig i gylch bychan o'r ddaear, y mae yr amgylchiadau bob amser yn tueddu at helaethu y cylch hwnw; fel, erbyn hyn, y mae holl drigolion y ddaear yn mron a dyfod i ffurfio un cyfangorph cymdeithasol, ac yn meddu ar lawer o gyfleusderau i ddyfod i gydymwybyddiaeth a chydweithrediad ewyllys. Mewn cyssylltiad â'r ffaith hon y mae yr amgylchiad fod y goresgyniad a'r diwylliant graddol hwn ar gymdeithas wedi ei ddwyn oddi amgylch hyd yma gan y dosbarth Caucasiaidd o ddynoliaeth, ac yn benaf, fe allai, gan y cenedloedd Iaphethaidd ac Indo-Ewropaidd

Digitized by Google

o'r dosbarth hwnw. Hefyd, yn gyssylltiedig â'r un ffaith, y mae yr amgylchiad dyddorol fod tuedd ddaearyddol y symmudiad, ar y cyfan, wedi bod o'r dwyrain i'r gorllewin. I ddechreu, yr ydym yn cael y lefain a osodwyd i lawr yn y dwyrain yn treiddio i orllewinbarth Asia cyn belled a Môr y Canoldir: wedi hyny y mae y Persiaid yn estyn y chwareufa hanesol at Fôr Ægea: yn nesaf, y mae y Groegiaid neu y Groegiaid-Macedonaidd yn ei estyn hyd Fôr Adria: a thrachefn y mae y Rhufeiniaid yn ei estyn hyd Fôr y Werydd. Yn erbyn y rhagfur hwn, bu tonau mawrion bywyd a grym y ddynoliaeth yn curo am bymtheg canrif; ond o'r diwedd, fe weithiodd y llifeiriant ei ffordd tua'r gorllewin, ac fel fflachiad y fellten o'r cwmmwl ymsaethodd ysbryd Columbus i fyd newydd. Ac ymddengys nad yw y symmudiad etto wedi terfynu. Y mae tueddiad yr Americaniaid tua gorllewin-barth eu cyfandir hwy, a sefydliad y Prydeiniaid yn Ynysoedd y Môr Tawel, yn ein cyfeirio at amser pryd y bydd cylch hanesyddiaeth yn cyrhaedd o amgylch y ddaear—o'r dwyrain hyd derfynau eithaf y gorllewin.

Ond y mae y ffeithiau a nodwyd yn amlwg yn cael eu dysgu gan hanes cymdeithas yn ei hagwedd allanol yn unig. Mae ein syniadau gyda golwg ar symmudiadau a gweithrediad mewnol dynoliaeth yn llawer mwy tywyll a dychymygol. Ond y mae mwy nag un wedi cynnyg yr hyn y gellir ei galw yn ddeddf amgylchiadau hanesyddol. Tybiai Vico fod cwrs yr hil ddynol yn myned ar gylch: *h.y.*, fod y byd, ar ol myned drwy nifer pennodol o amgylchiadau neu *stages*, yn dyfod yn ol i'r un pwynt neu ddosbarth o amgylchiadau ag yn y dechreu, ac yna yn myned eilwaith yr un ffordd: ac yr oedd efe yn tueddu i feddwl nad oedd holl hanesiaeth ddiweddar, o amser dadgyssylltiad yr ymherodraeth Rufeinig, ond ail argraphiad megys o hanes y byd o flaen yr amser hwnw. Pa beth bynag a ddywedir am y gyfundraeth yna o eiddo Vico, y mae y rhan fwyaf o'r ysgrifenwyr diweddarach wedi mabwysiadu y gyfundraeth o *ddadblygiad* (*evolution*); neu, mewn geiriau ereill, "cynnydd a gwareiddiad." Fe ddywedir fod cwrs yr hil ddynol wedi bod yn un o gynnydd a gwareiddiad. Ond yn mha beth y mae y gwareiddiad hwn yn gynnwysedig? Mewn cyfnewidiad graddol yn y dull o weithredu: *h.y.*, yn newidiad graddol y dull ofergoelus o feddwl am y dull rhesymol a gwyddorol o feddwl; ac mewn cyfnewidiad graddol o sefyllfa o ryfel a thywallt gwaed, i sefyllfa o ddiwydrwydd a gweithgarwch heddychol!—Yn ninystriad graddol o pob peth sydd yn ymyryd â rhyddid personol, ac mewn gogwyddiad graddol at gydraddoldeb gwleidyddol, os nad cymdeithasol, medd ereill!—Yn mharotoad graddol y ddynoliaeth, medd Kant, ar gyfer ffurf o gymdeithas neu wladwriaeth fyddo yn gwneyd i ffordd yn hollol â chenhedloedd, ymherodraethau, &c., ac etto yn cynnwys y cyfan! Yn yr holl ddamcaniaethau a rhagfynegiadau hyn, yr ydym yn cael o leiaf rhyw gymmaint o wirionedd; ond ar y cyfan, y mae corph y gwirioneddau hyny, y rhai y gellir eu cynnwys yn mhlith ffeithiau diammheuol hanesiaeth, yn bur fychan: ac er fod y dynion goreu yn awr yn cyttuno ei bod yn ammhosibl sylfaenu gwleidyddiaeth ddiogel fel celfyddyd ond ar astudiaeth o hanesiaeth fel gwyddor—mewn geiriau ereill, nad yw gwleidyddiaeth ond cymmhwysiad o hanesiaeth—y mae y cymmhlethrwydd a'r dyrysweh yn y rhai y mae athrawiaethau a chredoau gwleidyddol yn gorwedd yn profi mor bell yr ydym o allu gwneyd unrhyw ddefnydd neillduol o'r gwirioneddau hyny.

II. *Hanesiaeth fel ffurf o gyfansoddiad llenyddol.* Bydd ein sylwadau o dan y pen hwn o angenrheidrwydd yn ychydig; ond, yr un pryd, ni a nodwn allan rai o anhebgorion hanesydd, fel y mae i'w wahaniaethu oddi wrth y rhai sydd a wnelont â changhenau ereill o lenyddiaeth.

1. I fod yn llwyddiannus fel hanesydd, y mae yn angenrheidiol fod meddwl yr ysgrifenydd o duedd (*cast*) hanesyddol. Fe ŵyr pawb fod y fath beth a meddwl o dueddfryd barddonol, neu dueddfryd athronyddol; ond nid yn fynych y byddys yn tybied fod tueddfryd hanesyddol yn perthyn i feddyliau—bod yr hanesydd yn gymmaint ar ei ben ei hun a'r bardd a'r athronydd. Yr ydym eisoes wedi nodi prif nodwedd meddyliol yr hanesydd:—gydag ef y mae pob rhan arall o'r meddwl i raddau helaeth o dan reolaeth y cof, yn debyg fel y mae y rheswm yn llywodraethu yn meddwl yr athronydd, a'r dychymyg yn meddwl y bardd. Mae llawer o'r fath ddynion. Fe geir dynion, y rhai y mae yn bleser o'r mwyaf ganddynt alw nifer o ffeithiau neu amgylchiadau, yn mhlith y rhai y buont hwy yn troi, i'r cof:—adgofio personau, lleoedd, dygwyddiadau, gwisgoedd, ffurf wynebau, ac amgylchiadau naturiol a chymdeithasol o bob math. Y maent yn ymhyfrydu mewn adgofion a hanesion, yn unig er eu mwyn eu hunain; a phan yn unig, neu mewn cwmni, y maent yn hoff o ddifyru eu hunain ac ereill drwy ail adrodd hanesion a dygwyddiadau. Yn aml, lle y bydd cyfleusderau, mae y chwaeth hwn yn dyfod yn hoffder at yr hynafol—nid yn unig at y *presennol*, ond at yr *amser a fu*. Y mae yn dyfod yn hyfrydwch i edrych ar hen bont, neu adeilad, neu gareg fawr yn nodi rhyw ysmotyn neillduol ar lanerch o wlad, ac i feddwl am y dygwyddiad hwn neu y llall a gymmerodd le yno yr amser a'r amser. Un hynod felly oedd Syr Walter Scott, ac felly yr oedd Herodotus. Gellir cymmeryd Scott a Herodotus, o ganlyniad, yn esamplau neillduol o feddyliau o dueddfryd hanesyddol; ac fe allai mai Scott ydyw yr esampl goreu, yn gymmaint a'n bod yn gweled yn ei amgylchiad ef y ffaith fod yn bossibl i ddyn fod o dueddfryd nodedig o hanesyddol, ac etto heb fod yn gwbl felly. Yn Scott, yr ydym yn cael yr hanesydd a'r bardd yn cydgyfarfod mewn modd neillduol: yr oedd efe yn cofio tra yn dychymygu, ac yn dychymygu pan yn cofio. Fe ysgrifenodd hanesiaeth yn gystal a barddoniaeth.

2. Dylai pob hanesydd fod yn ddyn perffaith gywir. Ond y mae dau fath o gywirdeb—*goddefol a gweithredol*. Wrth y cyntaf y mae i ni ddeall, y duedd anrhydeddus hono o eiddo y meddwl sydd yn peri i'r dyn gilio o hono ei hun oddi wrth anwiredd; a phwy bynag fyddo yn amddifad o hyn, fe ddylid ei hwtio a'i ymlid oddi ar faes hanesiaeth. Nis gellir edrych ar gamddarluniad neu adroddiad, i ba ddyben bynag, os byddys yn hysbys o hono, ond yn unig fel anwiredd gwirfoddol. Ond fe geir llawer sydd yn hynod o gywir yn yr ystyr a nodwyd nad ydynt yn gymmaint felly mewn ystyr weithredol; hyny ydyw, nid ydynt yn gwneyd ond ychydig o ymdrech tuag at glirio yr hyn sydd eisoes wedi ei ddyweyd neu ei ysgrifenu o bob celwydd, a dyfod o hyd i'r gwirionedd. Rhaid i'r hanesydd feddu y neillduolrwydd hwn hefyd. Ond y mae haneswyr yn gwahaniaethu yn fawr yn hyn. Fe geir rhai ysgrifenwyr a dreuliant wythnosau i gyrhaedd llawn sicrwydd am unrhyw ddyddiad

Digitized by Google

yn hytrach na'i osod i lawr yn anghywir; ac os methant a chael gafael ar sicrwydd, hwy a ddywedant hyny. Y mae ereill yn llawer mwy diofal ynghylch hyn. Er holl ragoriaethau Hume fel hanesydd, fe'i cyhuddir o fod yn hynod o ddifater gyda golwg ar ymchwiliad manwl i wirionedd yr hyn a ysgrifenai; ac fe ddywedir fod yr hanesydd Ffrengig, Father Daniel, yn "tystio fod astudio papurau y wladwriaeth yn orchwyl mwy blinderus na defnyddiol;" a phan ddangoswyd iddo yn Llyfrgell Frenhinol Paris nifer mawr o ysgrifau gwreiddiol mewn perthynas i hanes Ffrainge, yn nheyrnasiad Louis XI., treuliodd awr o amser i edrych drostynt, ac yna dywedai ei fod wedi ei lwyr foddloni. Fe allai fod y Ffrangcod yn pechu mwy yn y ffordd hon na'r Germaniaid, er fod yn eu plith hwy eithriadau rhagorol. Ond rhaid i'r hanesydd fod ar ei wyliadwriaeth hyd yn oed pan yn gwneyd defnydd o'r hyn a elwir yn ffynnonellau ac awdurdodau gwreiddiol hanesiaeth. Y mae yn rhaid iddo wylio rhag dau fath o anghywirdeb: anghywirdeb gwirfoddol dynion anonest yn agos i darddiad y ffrwd; a thueddiadau haneswyr, yn mhob dosbarth o gymdeithas, ac yn enwedig yn yr oesoedd boreuol, i gymmysgu â'r hyn sydd wirionedd chwedloniaeth a dychymyg—i ddychymygu dygwyddiadau cyfatebol i'r teimlad, ac yna eu gosod i lawr fel ffeithiau gwirioneddol. Nid oedd ond ychydig, hyd yn ddiweddar, wedi ystyried y pwysigrwydd o wylio yn erbyn yr anghyssondeb olaf.

3. Bydd gwerth unrhyw hanesiaeth i'w fesur mewn rhan fawr iawn yn ol natur yr hanesydd ei hun. Gan mai gorchwyl yr hanesydd ydyw cael gafael ar ffeithiau gwirioneddol, a'u cofnodi, fe dybir yn fynych nad yw ansawdd y meddwl wrth wneyd hyny o un pwys, os bydd digon o ddiwydrwydd ac ymchwiliad yn cael ei arfer. Ond yr ydym eisoes mewn effaith wedi gwrthbrofi y dybiaeth hon. Nid yw y cof ond tymmer neillduol o eiddo y meddwl, fel cyfangorph; ac o ganlyniad fe fydd cymmeriad y cof yn gwahaniaethu yn ol ansawdd yr holl feddwl sydd yn cofio neu yn adgofio. Fel y mae dychymyg y bardd, a deall yr athronydd, mewn rhyw ffordd ddirgeledig yn cydymffurfio â chyfraith yr oll o'u natur—fel y mae genym feirdd o ddychymyg mawreddog, a beirdd o ddychymyg isel a disylw; a meddylwyr uchel a gwreiddiol, a meddylwyr iselwael a thlawd—felly hefyd y mae y cof; ac ni a gawn haneswyr gorwych eu cof, ac ereill crebychlyd a gwael. Yn y lle cyntaf, y mae yn dibynu ar gymmeriad yr hanesydd, fel person, pa beth fydd natur y ffeithiau a lŷn yn ei gof, neu a fydd yn ddyddorol iddo yn ei ymchwiliadau; ac yn yr ail le, pa beth fydd swm y pwysigrwydd a esyd ar y ffeithiau a gofnoda. Y mae hyd yn oed ffeithiau yr oes bresennol, y rhai nid ydynt yn galw am ymchwiliad, yn gwahaniaethu i wahanol feddyliau. Er enghraifft, yr oedd marwolaeth ymherawdwr Rwssia, Nicholas, yn allanol, yr un peth i bawb; ac etto pan ysgubodd y newydd hwnw ar draws y Cyfandir, fe ddaeth, mewn dull o siarad, ar unwaith, yn fil o wahanol ffeithiau i'r mil o wahanol bersonau â pha rai yr oedd yn cyffwrdd. Ac felly, o dan amgylchiadau llawer mwy dyrys, y mae gyda gwrthddrychau hanesiaeth yr oesoedd blaenorol. Y mae rhagorolrwydd llenyddiaeth hanesol, neu haneswyr unrhyw gyfnod, gan hyny, yn dibynu ar swm rhagorolrwydd y natur ddynol fel y mae yn cael ei arddangos yn y cyfnod neu yr hanesydd fyddo mewn golwg. Casgliad o ffeithiau anbyblyg ynddynt eu hunain, ydyw defnyddiau pob hanesiaeth; ond y mae yn dibynu ar yr ysbryd â pha un yr ymdrinir â'r ffeithiau hyny, pa beth fydd yr hanesiaeth. Nid yn unig *fe all*, ond y *mae* pob hanesiaeth yn rhwym o ddwyn delw yr hanesydd. Y mae mewn hanesiaeth, o ganlyniad, gymmaint o le i roddi arddangosiad o gymmeriad moesol, athrylith, gwreiddiolder, a gallu dychymygol y meddwl, ag mewn unrhyw gangen arall o wybodaeth. Herodotus, Thucidydes, Tacitus, Voltaire, Gibbon, Hume, Robinson, Macaulay—yr ydym yn teimlo wrth ddarllen eu gweithiau hwy fod llenyddiaeth hanesol yn gystal cyfrwng drwy ba un y gallent arddangos eu cymmeriad, yn ystyr helaethaf y gair, ag un cyfrwng arall. Caner i fyny gant o wahanol haneswyr, mewn cynnifer a hyny o ystafelloedd, yr oll yn gwneyd defnydd o'r un defnyddiau, i gofnodi yr un amgylchiadau:—pan orphenant, fe fydd y cant gwahanol hanesion, er yr un o ran sylwedd, etto yn sicr o ddwyn argraph yr hanesydd—o'i wybodaeth flaenorol, ei ddull o feddwl ac o deimlo; ïe, o holl athroniaeth ei fywyd. Y mae rhai haneswyr yn farddonol a disgrifiadol, ereill yn athronyddol a damcaniaethol, ereill yn llym a nodedig o feirniadol: y mae rhai yn ddwys a difrifol, ac ereill yn ysgafn a chellweirus yn eu dull.

4. Ni a geisiwn yn awr, cyn diweddu yr erthygl hon, nodi allan y personau a ystyrir yn gyffredin yn brif haneswyr yn mhlith y gwahanol genhedloedd, a chyda'u gilydd yn brif haneswyr y byd:—

I. Haneswyr y Cynoesoedd.—Yma fe saif haneswyr cyssegredig yr Hen Destament; ac oddi wrthynt hwy, mewn cyssylltiad âg adolygiadau yr haneswyr Groegaidd, yn enwedig Herodotus, ac hefyd mewn cyssylltiad â darganfyddiadau hynafiaethol, megys mewn ymchwiliad i gofgolofnau yr Aipht, Ninefeh, a hen ddinasoedd ereill, y mae i ni gasglu ein holl wybodaeth am y cynoesoedd.

II. Haneswyr Clasurol.

(1.) *Haneswyr Groegaidd.*—Y mae y gyfres hon yn dechreu gyda Herodotus,—"Tad Hanesiaeth"—gŵr y mae dynolryw yn gyffredinol yn rhwym o barchu ei enw fel un o'r dynion mwyaf athrylithgar a fu yn y byd erioed. Y nesaf mewn trefn ydyw Thucidydes, Xenophon, Polybius, Dionysius o Halicarnassus, Diodorus Siculus, Arrian, a Plutarch; at y rhai y gellir chwanegu Josephus, yr hanesydd Iuddewig, a'r hanesydd eglwysig Eusebius. (2.) *Haneswyr Lladinaidd:* yr enwocaf o ba rai oedd Sallust, Julius Cæsar, Livy, Suetonius, a Tacitus.

III. Haneswyr y Canoloesoedd.

(1.) *Haneswyr Lladinaidd y cenhedloedd gorllewinol.*—Y mae rhan fawr o hanes y cenhedloedd gorllewinol yn y cyfnod hwn yn gynnwysedig yn hanes neu draddodiadau bywyd y saint. Ond yr oedd gan bob cenedl ei chroniclwyr—eglwysig a gwladol—ei hunan, a rhai o honynt yn deilwng o'r enw haneswyr. Yn mhlith y rhai hyn fe ddylid enwi Gregory o Tours, yr hwn a ysgrifenodd *Hanes Eglwysig y Ffrangcod.* Yr oedd hefyd rai croniclwyr a bywgraffwyr enwog yn amser Charlemagne; a chynnyrchodd Ffrainge tua'r un amser haneswyr da am Ryfeloedd y Groes. Ond nid oedd un wlad yn fwy cyfoethog o haneswyr yn y canoloesoedd na Phrydain. Yr oedd Bede, yn yr wythfed ganrif, yn hanesydd rhagorol; ac yn y ddeuddegfed, y drydedd ar ddeg, y bedwaredd ar ddeg, a'r bymthegfed ganrif, yr oedd lliaws o ysgrifenwyr enwog yn y Lladin,

Digitized by Google

cyntaf wedi eu cof odi ar y pryd ac yn y lle y dygwyddent; ac hefyd fod y rhai a ymgymmerent âg ysgrifenu hanesiaeth foreuol yn amddifad o'r cymmhwysderau priodol i wneyd hyny—llawer o honynt yn anghymmhwys o ran cymmeriad, ac ereill yn hollol anwybodus am ddeddfau a rheolau hanesiaeth, ynghyd â'r dull o gymmhwyso y deddfau hyny. Y mae eu tystiolaethau, o ganlyniad, yn fynych yn dywyll, anghysson, ac anfoddhaol; ac o ganlyniad, yn achlysur i lawer o ymddadleuaeth a gwahaniaeth opiniynau. Ond mae yn ddiammheu fod llawer o ddadleuaeth ac anghydfod wedi ei achosi gan ddiffyg syniad priodol am wir ddyben hanesiaeth eglwysig. Nid adroddiad noeth o syniadau a chyfeiliornadau yr eglwys ar wahanol amserau yn unig, a ddylai fod; ond dylai arddangos cynnydd neu leihâd bywyd ysbrydol yr eglwys, a pha fodd y darfu i'r eglwys, o dan fendith ei Harglwydd, ddwyn yn mlaen y gwaith a osodwyd iddi i'w wneuthur. Nid ydys i edrych heibio i'w hadeiladau allanol—ei harferion, ei llywodraeth, ei dysgyblaeth, a'i hamrywiol athrawiaethau—ond ei bywyd mewnol ac ysbrydol ddylai fod yn flaenaf mewn golwg; o blegid ynddi hi y corphorir ac y cynnrychiolir Crist ar y ddaiar. Y mae ysgrifenwyr diweddar wedi cyrhaedd syniadau uwch a chyflawnach, megys Neander a Gieseler, &c. Rhydd y daflen ganlynol fras olwg ar hanes dygwyddiadau boreuaf yr eglwys:—

| B.A. | YMHERAWDWYR RHUFEINIG. | ESGOBION, SWYDDOGION EGLWYSIG, AC YSGRIFENWYR ENWOG. | DYGWYDDIADAU HANESIOL. |
|---|---|---|---|
| 60 | Nero, a fu farw 68.<br>Galba, a fu farw 69. | Pedr a Phaul yn ferthyron yn Rhufain. | |
| 70 | Vespasian, bu farw 79.<br>Titus, a fu farw 81. | | |
| 80 | Domitian, a fu farw 96. | Clement o Rufain. | 80. Cyssegriad rhai i swyddau eglwysig, drwy arddodiad dwylaw.—Cadwraeth y Sabbath Iuddewig yn cael ei barhau yn mhlith yr Iuddewon Cristionogol.—Cadwraeth y prif wyliau Iuddewig, megys y Pasc a'r Pentecost, yn cael ei barhau yn mysg yr Iuddewon Cristionogol. |
| 90 | Nerva, a fu farw 98.<br>Trajan, a fu farw 117. | | |
| 100 | | | 100. Darllen y Testament Newydd yn yr eglwysi. |
| 110 | Hadrian, a fu farw 138. | Ignatius, o Antioch, a fu farw 116. | 110. Y cymmundeb mewn cyssylltiad â gwasanaeth crefyddol, yn enwedig gwasanaeth y Sabbath.—Egwyddoriaid (*Catechumens*).—Parotoad ar gyfer bedydd drwy ympryd a gweddi.—Pwysigrwydd cynnyddol y llywydd yn ngholeg yr henuriaid. |
| 120 | | Papias, o Hierapolis, yn Phrygia.<br>Justin Ferthyr, a fu farw 165. | 120. Gweinyddiad priodasau yn cael ei ddwyn i gyssylltiad â'r eglwysi. Cyfraniadau gwirfoddol ar yr achlysur o weinyddiad Swper yr Arglwydd. — Olion dosraniad gwasanaeth crefyddol i ddwy ran. |
| 130 | | Y Gnosticiaid, Marcion, a Basilides. | 130. Yr Ysgrythyrau yn cael eu hegluro yn y gwasanaeth crefyddol gan y gweinidog; a gweinyddiad syml o Swper yr Arglwydd.—Y diaconiaid yn cymmeryd yr elfenau i'r aelodau absennol. |
| 140 | Antoninus Pius, a fu farw 161. | Polycarp, o Smyrna, a fu farw 167. | 140. Darllen yr Ysgrythyrau a'r tadau yn yr addoliad crefyddol. -- Anfoniad epistolau o'r naill eglwys i'r llall. |
| 150 | | Montanus – y Montanistiaid.<br>Anicetus, esgob Rhufain.<br>Hegesippus, hanesydd eglwysig.<br>Celsus, yn erbyn y grefydd Gristionogol. | 150. Arddodiad dwylaw mewn bedydd.—Ymrafael ynghylch gweinyddiad y Pasc rhwng yr eglwysi dwyreiniol a gorllewinol. |
| 160 | Marcus Aurelius, athronydd, a fu farw 180. | Claudius Apollinaris, esgob Hierapolis.<br>Melito, esgob Sardis.<br>Bardesanes, y Gnosticiad. | 160. Dechreuad neillduad adeiladau at addoliad cyhoeddus. — Ymdrafodaeth rhwng Polycarp ag Anicetus o berthynas i'r anghyttundeb gyda golwg ar y Pasc.—Casgliadau wythnosol neu fisol, yn yr addoliad, i'r tlodion a'r cleifion.—Defnyddiad arwydd y groes yn holl amgylchiadau mwyaf cyffredin bywyd. |
| 170 | | Dionysius, esgob Corinth.<br>Theophilus, esgob Antioch.<br>177. Irenæus, esgob Lyons, a fu farw 202. | 170. Holwyddorwyr. — Ymryson ynghylch y Pasc yn Asia Leiaf.—Gweddwon, dros drigain oed, yn cael eu hordeinio yn ddiaconesau.—Defnyddiad bara cyffredin a gwin wedi ei gymmysgu â dwfr yn Swper yr Arglwydd.—Ymgynghori â'r diaconesau yn mherthynas i weinyddiad priodas.—Y priodfab a'r briodferch yn cyd-gyfranogi o Swper yr Arglwydd.—Pwys mawr yn cael ei osod ar weinyddiad bedydd ar noswyl y Pasc a'r Sulgwyn. |
| 180 | | Pantænus, yr holwyddorwr, yn Alexandria. | 180. Yr arferiad Gristionogol o gladdu y marw.—Dosbarthiad yr addoliad cref- |

| B. A. | YMHERAWDWYR RHUFEINIG. | ESGOBION, SWYDDOGION EGLWYSIG, AC YSGRIFENWYR ENWOG. | DYGWYDDIADAU HANESIOL. |
|---|---|---|---|
| | Commodus, a fu farw 192. | Tertullian yn Carthage, a fu farw 220. | yddol yn ddwy ran yn dyfod yn arferiad gyffredinol.—Tertullian yn gwrthwynebu bedydd babanod.—Hereticiaid, ar eu dyfodiad i'r eglwys, yn Asia Leiaf a gogleddbarth Affrica yn cael eu hail fedyddio; ond yn Rhufain yn cael ymddwyn atynt fel personau edifeiriol.—Ymdrech tuag at nodi dydd genedigaeth Crist. |
| 190 | Pertinax, a fu farw 193. Septimius Severus, a fu farw 211. | Victor, esgob Rhufain, a fu farw 202. Clement, holwyddorwr, yn Alexandria. Caius, henuriad yn Rhufain. | 190. Delwau o Grist yn mysg y Paganiaid.—Defodau arwyddluniol mewn bedydd.—Eneinio ar ol bedydd.—Defnyddiad llaeth a mel.—Cusan heddwch. Arddodiad dwylaw fel gweithred derfynol yn cael ei ystyried yn neillduol o bwysig.—Ymrafael rhwng Cristionogion Asia Leiaf a Christionogion Rhufain yn nghylch gweinyddiad y Pasc. |
| 200 | | Zephyrinus, esgob Rhufain, a fu farw 218. 203. Origen, holwyddorwr, yn Alexandria. | 200. Dadleuaeth gyhoeddus ar fedydd hereticiaid yn Affrica Ogleddol.—Cyfranu Swper yr Arglwydd mewn tai cyffredin yn ngogledd Affrica.—Cadw dydd genedigaeth y merthyron.—Lle o addoliad cyhoeddus yn Edessa. |
| 210 | Caracalla, bu farw 217. | Demetrius, esgob Alexandria, a fu farw 232. | 210. Rhanu yr Egwyddoriaid yn ddosbarthiadau gan Origen. |
| 220 | Macrinus, ,, 218. Heliogabulus ,, 222. Alexander Severus, a fu farw 235. | 228. Origen yn cael ei ordeinio yn henuriad yn Cesarea. | 220. Yr esgobion taleithiol mewn cyssylltiad â'r eglwysi cyfagos yn dewis esgob.—Arwyddlun y bedydd, yr ordinhad o fedydd, Gweddi yr Arglwydd, a rhai caniadau eglwysig yn cael eu celu oddi wrth yr Egwyddoriaid. |
| 230 | Maximus, y Thraciad, a fu farw 238. | Hippolitus, esgob. Origen yn ffoi i Cesarea, yn Palestina. 233. Heraclus, esgob Alexandria. Julius Affricanus. | 230. Ymgeiswyr am fedydd yn cael eu tynghedu. Cyssegriad y dwfr.—Tai o addoliad cyhoeddus yn fwy lliosog.—Yr eglwysi yn darparu at gynnaliaeth eu gweinidogion.—Cymharu y gweinidogion Cristionogol â'r offeiriaid Iuddewig. |
| 240 | Gordianus III., a fu farw 244. Phillip, yr Arabiad, a fu farw 249. Decius Trajanus, a fu farw 251. Trebonianus Gallus I., | Dionysius, prif athraw yr ysgol holwyddorol yn Alexandria. Minucius Felix, cyfreithiwr, yn Rhufain. 244. Gregory Thaumaturgus, esgob Neocesarea, a fu farw 270. Dionysius, esgob yn Alexandria, a fu farw 265. 248 Cyprian, esgob Carthage, a fu farw 258. Fabian, esg. Rhufain, a fu farw 251. | 240. Cymmundeb babanod yn Affrica, ac wedi hyny yn y dwyrain.—Bedydd Clinicaidd.—Arddodiad dwylaw mewn cyssylltiad â'r newydd-fedyddiedig yn perthyn yn briodol i'r esgob yn unig. Y cymmun yn cael ei estyn i'r rhai claf ac agos i farw.—Adeiladau mynych a mawrion i gynnal addoliad ynddynt.—Cymmanfaoedd taleithiol yn gyffredin yn Affrica a rhanau o Asia.—Holl gorph y gweinidogion a'r bobl yn cymmeryd rhan ynddynt.—Ymrafael rhwng yr esgobion a'r henuriaid yn Rhufain ac Affrica.—Diaconiaid cynnorthwyol. Acolythiaid. Consurwyr. Ostiari (ceidwaid y drysau).—Barn yr holl eglwys yn cael ei ofyn yn achlysurol ar faterion eglwysig. |
| 250 | a fu farw 253. Gallus Volusianus, a fu farw 253. Valerian, a fu farw 260. Gallienus, a fu farw 268. Claudius Gothicus, a | Cornelius, esgob Rhufain, a fu farw 252. Novatian. Stephanus, esg. Rhufain, 253-257. 254. Origen, a fu farw ——. Sixtus II., esgob Rhufain, a fu farw 258. Dionysius, esg. Rhufain, a fu f. 270. Sabellius. Paul, o Samosata, esgob Antioch, 265–269. | 250. Sul y Pasc yn ddydd o ymprydd cyffredinol yn yr eglwys.—Y bobl yn cymmeryd rhan yn etholiad personau i swyddau eglwysig, yn enwedig yn etholiad esgobion a henuriaid.—Esgobion enwog yn dwyn yr enw "pab."—Gregory Thaumaturgus yn caniatau gwleddoedd yn y gwyliau er anrhydedd i'r merthyron.—Cyhoeddi bedydd babanod yn angenrheidiol gan gynghor Carthage. Cyprian yn galw am eneiniad wrth fedyddio. |
| 260 | fu farw 270. Aurelianus, a fu farw 275. Tacitus, a fu farw 276. | Commodianus. Felix, esgob Rhufain, a fu farw 275. Mani, a fu farw 277. | 260.—Yr arferiad o gymmeradwyo y pregethwr tra yn traddodi ei bregeth.—Swper yr Arglwydd yn ddefod mwy dyrys a mawreddog. |
| 270 | Aurelius Probus, a fu farw 282. Aurelius Carus, cydraglaw â Carinus, a fu farw 283. | Methodius, esgob Tyrus. | 270. Ffurfreolau yn cael eu gosod gyda golwg ar weinyddu yr ordinhad hon.—Cadw rhestr o'r aelodau eglwysig ac o Gristionogion a fuont feirw. |
| 280 | | Pierius a Theognostus, yn Alexandria. | 280. Bedydd babanod yn gyffredin yn mhlith y Cristionogion Persiaidd. |

Digitized by Google

| B. A. | YMHERAWDWYR RHUFEINIG. | ESGOBION, SWYDDOGION EGLWYSIG, AC YSGRIFENWYR ENWOG. | DYGWYDDIADAU HANESIOL. |
|---|---|---|---|
| 290 | Numerianus, a fu farw 284. | Caius, esg. Rhufain, a fu farw 296.<br>Pamphilius, llywydd yn Cesarea.<br>Marcellinus, es. Rhufain, a fu f. 304. | 290. Pamphilus yn sefydlu ysgol dduwinyddol yn Cesarea.—Y flwyddyn eglwysig yn dechreu gyda Gŵyl y Pasc.—Ymgais at ddwyn delwau i'r eglwysi. |
| 300 | Diocletian a Maximian o 286 hyd 305, rhaglawiaid i'r ymherawdwyr Galerius a Constantine Chlorus<br>306. Constantius Chlorus, a fu farw—<br>Cystenyn, Maxentius, Maximianus, Galerius, Severus, a Maximin, rhaglawiaid.<br>307. Severus, a ddilynwyd gan Licinius. | Lucian a Dorotheus, llywyddion yn Antioch.<br>Pedr, esgob Alexandria, a fu farw 309.<br>Marcellus, esgob Rhufain, a fu farw 309.<br>Arnobius, areithiwr yn Sicca.<br>Eusebius, esgob Rhufain, a fu farw 311.<br>Melchiades, esgob Rhufain, a fu farw 314. | 300. Gwisg neillduol y gweinidogion. – Dechreuad esboniadaeth gyssegredig — Dechreuad ysgol Antioch. – 305. Cynghor Elvira yn gwahardd dwyn delwau i mewn i'r eglwysi, yn ordeinio ymprydiau Sabbathol, yn ceryddu yr afreoleidd-dra yn nghadwraeth y noswyliau, ac yn cyfyngu Gŵyl y Sulgwyn i un diwrnod. Dechreuad cylchrawd o bedair a phedwar ugain o flynyddoedd ynglŷn â'r Pasc yn Eglwys Rhufain. – Defnyddiad y celloedd tanddaearol (*catacombs*) yn Rhufain i gladdu y meirw Cristionogol. |
| 310 | Maximian, a fu farw—<br>311. Galerius, eto —<br>312. Maxantius, eto —<br>313. Maximinus, eto— | Lactantius.<br>Alexander, esgob Alexandria.<br>Sylvester, esgob Rhufain, a fu farw 335. | 310. Diddymiad urdd o esgobion gwledig yn y rhan fwyaf o fanau.—Rhaniad rheolaidd personau edifeiriol yn ddosbarthiadau. – Cylchwyl y Pasc yn cael ei phenodi yn bedair blynedd ar bymtheg. |
| 320 | Licinius, a fu farw 324.<br>Cystenyn, yr ymherawdwr, a fu farw 338. | Arius, yn Alexandria, a fu farw 336.<br>Eusebius, esgob Cesarea yn Palestina, a fu farw 340.<br>Eusebius, esgob Nicomedia.<br>Eustathius, esgob Antioch.<br>Alexander, esgob Caer Cystenyn.<br>Athanasius, esgob Alexandria, a fu farw 373. | 320. Pennodi oedran canoniad yr esgobion; a nifer y diaconiaid i fod yn saith. Gwahardd y rhai a dderbyniasant fedydd Elinicaidd i fod yn weinidogion.—Allorau yn cael eu gwneyd gan mwyaf o goed. – Cystenyn a'i fam yn brysur yn adeiladu eglwysi yn Asia ac Ewrop. Adeiladu eglwys St. Sophia. – Y gyfraith gyda golwg ar gadw dydd Gwener yn ddydd gŵyl crefyddol. – 325 Y cynghor Nicenaidd yn ordeinio gweinyddiad unffurf o'r Pasc yn yr eglwysi. |
| 330 | Cystenyn II., a fu farw 340.<br>Constans, a fu farw 350. | Marcus, esgob Rhufain, a fu farw 336.<br>Julius I., esgob Rhufain, a fu farw 352.<br>Macarius, hynaf ac ieuangaf.<br>Julius Firmicus Maternus. | 330. Arch-henaduriaid. Archddiaconiaid.—Gweddïo dros y marw. |
| 340 | | Gregorius, esgob Alexandria.<br>340. Macedonius, esgob Caer Cystenyn.<br>Eusebius, esgob Emesa, a fu farw 360.<br>Leontius, esgob Antioch.<br>Hilarius, esgob Pictarium, a fu farw 368. | 340. Esgobion ac ymherawdwyr yn arfer dylanwad mawr mewn etholiadau eglwysig. – Delwau mewn llawer o eglwysi dwyreiniol. – Y penderfyniad yn Antioch gyda golwg ar gadwraeth y Pasc. – Gŵyl flynyddol er coffadwriaeth am gyssegriad yr eglwysi. – Cadw gŵyl genedigaeth Crist yn Rhufain (ar y 25ain o Ragfyr). Eneinio cyn ac wedi bedyddio.—Newid yr enw ar ol bedyddio mewn arferiad. |
| 350 | | Liberius, esgob Rhufain, 352–55, a 358—66.<br>Felix, esgob Rhufain, 355—8.<br>Cyril, esgob Ierusalem, a fu farw 386.<br>Zeno, esgob Verona.<br>Hilary, y diacon. | 350. Cantorion eglwysig.—Yr ymherawdwyr yn cael caniatâd i fyned i'r areithfa yn y dwyrain. – Caniadaeth attebiadol (*responsive*) yn cael ei dwyn i eglwys Antioch gan y mynachod. Consuriaeth barotoadol ar y dyddiau blaenorol i'r bedydd gan Cyril o Ierusalem. |
| 360 | Gratian, a fu farw 383.<br>Valentinian II., a fu farw 392.<br>Theodosius yn y dwyrain. | Ærius, henuriad yn Sebaste.<br>Ephraem, y Syriad, diacon Edessa, a fu farw 378.<br>Jerome, a fu farw 420.<br>Rufinus, o Aquileia, a fu farw 410.<br>Epiphanius, esgob Constantia, a fu farw 403.<br>Damasus, esgob Rhufain, a fu farw 384.<br>Optatus, esgob Milevi. | 360. Ysgol dduwinyddol yn Edessa.—Dysgu llenyddiaeth baganaidd mewn ysgolion Cristionogol yn cael ei wahardd gan Julian.—Allorau ceryg yn dyfod i arferiad. – Deddfau eglwysig gyda golwg ar gadw y Sabbath a'r Grawys. Gwyliau mewn cyssylltiad â'r merthyron yn bur gyffredin. – Yr arferiad o goroni personau newydd briodi â blodeubleth, ac o osod gorchudd ar wyneb y briodasferch, &c. yn cael ei chynnal i fyny. |
| 370 | | Basil, esgob Cesarea, yn Cappadocia, a fu farw 379.<br>Gregory, esgob Nyssa, a fu farw ar ol 394.<br>Martin, esgob Tours, a fu farw ar ol 400.<br>Amphilochius, esgob Iconium, a fu farw ar ol 394.<br>Diodorus, esgob Tarsus, a fu farw o gylch 390. | 370. Temlau paganaidd yn cael eu troi yn eglwysydd Cristionogol. – Ystwyll yn amser bedydd yn y dwyrain. Ambroze yn trosglwyddo caniadaeth attebiadol i eglwysi y gorllewin, ac yn cyfansoddi hymnau i'r eglwys. |

Digitized by Google

| B.A. | Ymherawdwyr Rhufeinig. | | Esgobion, Swyddogion Eglwysig, ac Ysgrifenwyr Enwog. | Dygwyddiadau Hanesiol. |
|---|---|---|---|---|
| 380 | | | Ambrose, esgob Milan, a fu farw 397.<br>Gregory Nazianzen, esgob Caer Cystenyn, a fu farw 391.<br>Dydimus, llywydd yr ysgol holwyddorol yn Alexandria, a fu farw 395.<br>Jovian, mynach yn Rhufain.<br>Apollinaris, esgob Laodicea.<br>Siricius, esgob Rhufain, a fu farw 398. | 380. Tlottai a chlafdai yn Italy.—Bedydd leoedd yn neu yn agos i'r eglwysydd—Anghyttundeb rhwng Rhufain ac Alexandria gyda golwg ar gadw gŵyl y Pasc.—Delwau o'r groes yn gyffredin, ond delwau o Grist yn parhau i gael eu gwrthwynebu. |
| 390 | 392. Theodosius, unig ymherawdwr, a fu farw 395. | | Theophilus, esgob Alexandria, a fu farw 412.<br>Chrysostom. 386. Llywydd yn Antioch. 398. Esgob Caer Cystenyn, a fu farw 407.<br>Asterius, esgob Amasia.<br>Severianus, esgob Gabala, a fu farw ar ol 408.<br>Awstin, esgob Hippo, a fu farw 430.<br>Theodorus, esgob Mopsuestia, a fu farw 429.<br>Palladius, ieu., esgob Aspona, a fu farw cyn 431.<br>Gaudentius, esgob Brixia.<br>Anastasius I., esgob Rhufain, a fu farw 402.<br>Sulpitius Severus, henuriad, a fu farw 420. | 390. Cenhadaethau yn cael eu cefnogi a'u hyrwyddo gan Chrysostom.—Deddfau yr ymherodraeth yn gorchymyn ymattal oddi wrth orchwylion cyffredin wyth niwrnod cyn ac wedi y Pasc.—Y Donatiaid yn gwrthwynebu gŵyl yr Ystwyll.—Dydd genedigaeth Crist fel y pennodwyd ef gan Rufain yn cael ei fabwysiadu yn y gorllewin yn gyffredinol.—Yr arferiad o gyflogi gwragedd i alaru yn cael ei dwyn i'r eglwys.—Cyfranu rhoddion er cof am y meirw.—Delwau yn cael eu caniatau yn y dwyrain. |
| | Rhaniad yr Ymherodraeth. | | | |
| | Ymherodraeth Orllew. | Ymherodraeth Ddwyr. | | |
| 400 | Honorius, a fu farw 423. | Arcadius, a fu farw 408. Yr ymherodres Eudocia. | Paulinus, esgob Nola, a fu farw 431.<br>Innocent I., esgob Rhufain, a fu farw 417.<br>Atticus, esgob Caer Cystenyn.<br>Prudentius. | 400—407. Amddiffynwyr yr eglwys yn cael eu sefydlu.—Esgobion yn cael eu claddu yn yr eglwysydd.—Gwleddoedd yn ymyl beddau y meirw, yn cael eu dilyn â llawer o afreoleidd-dra a chreulondeb. |
| 410 | | Theodosius II. a fu farw 450.<br>414. Pulcheria Augusta. | Vigilantius, hen. yn Barcelona.<br>Victor, o Antioch.<br>Nilus, y mynach.<br>Pelagius a Cœlestius.<br>Joannes Cassianus, a fu farw ar ol 432.<br>Cyril, esgob Alexandria, a fu farw 444.<br>Isidorus, o Pelusium, a fu farw o gylch 440.<br>Zosimus, esgob Rhufain, a fu farw o gylch 418.<br>Boniface I., esgob Rhufain, a fu farw 422. | 410—418. Swydd y *parabolani* (y rhai a gymmerent ofal y cleifion) yn Nghaer Cystenyn.—Cynnyddu nifer y *parabolani* i 600.—Paulinius yn cefnogi defnyddiad eilunod mewn eglwysydd a bedyddfeydd, yn enwedig i'r dyben o addysgu pobl y wlad.—Ymrafael yn ngogledd Affrica ynghylch yr ympryd Sabbathol.—Canwyllau yn oleuedig tra y darllenid yr Efengylau yn yr eglwysydd dwyreiniol. |
| 420 | Valentinian III., a fu farw 455. | | Possidius, esgob Calama.<br>Synesius, esgob Ptolemais.<br>Philostorgius, ysgrifenydd eglwysig.<br>Cœlestinus I., esgob Rhufain, a fu farw 432.<br>Vincentinus, o Lirinum, a fu farw 440.<br>Nestorius, esgob Caer Cystenyn, a fu farw o gylch 440.<br>Theodoret, esgob Cyrus yn Syria, a fu farw 457. | 420. Y bobl yn y dwyrain yn parhau i gymmeryd rhan mewn etholiadau eglwysig. — Offrymau addunedol yn yr eglwysydd, yn enwedig yn nghapelau y merthyron.—Chwareyddiaethau ar y Sabbath ac ar uchel-wyliau eglwysig yn cael eu gwahardd gan yr ymherawdwr.—Gwahaniaeth yn y dull o gadw gŵyl genedigaeth Crist yn yr Aipht. |
| 430 | | | John, esgob Antioch.<br>Proclus, esgob Caer Cystenyn, a fu farw 446. | 430. Swydd yr Apocrisiarii. |
| 440 | | | Hilary, esgob Arles, a fu farw 449.<br>Sixtus III., esgob Rhufain, a fu farw 440.<br>Peter Chrysologus, esgob Ravenna, a fu farw 458.<br>Barsumas, esgob Nisibis hyd 489.<br>Leo I., esgob Rhufain, a fu farw 461. | 440. Appwyntiad diaconesau yn cael ei wahardd yn y gorllewin.—Croesau yr allor.—Cynnal cynghorau yn y bedyddfeydd.—Ymrafael ynghylch gŵyl y Pasc yn y flwyddyn 444. |

Digitized by Google

| P. A. | YMHERAWDWYR RHUFEINIG. | | ESGOBION, SWYDDOGION EGLWYSIG, AC YSGRIFENWYR ENWOG. | DYGWYDDIADAU HANESIOL. |
|---|---|---|---|---|
| 450 | | | Salvianus, henuriad yn Massilia.<br>Socrates, yr hanesydd.<br>Sozomen, yr hanesydd. | 450, 451. Yr esgobion yn meddu arolygiaeth ysbrydol y mynachdai a'r lleiandai. |
| 460 | Ricimer, a fu farw 472.<br>Anthemius. | Pulcheria, bu farw 453<br>Marcian, a fu farw 457.<br>457. Leo I., y Thraciad. | Dioscurus, esgob Alexandria.<br>Symeon Stylites, a fu farw 460.<br>Maximus, esgob Turin.<br>Gennadius, esgob Caer Cystenyn.<br>Arnobius Ieuangaf.<br>Hilary, esgob Rhufain, a fu farw 468.<br>Simplicius, esgob Rhufain, a fu farw 483.<br>Pedr, y Panwr.<br>Sidonius, Apollinaris, esgob Clermont.<br>Acacius, esgob Caer Cystenyn. | 460. Leo yn caniatau i'r edifeiriol y rhagorfraint o gyffesiad dirgelaidd cyn eu derbyniad drachefn i'r eglwys.—461. Cymmanfa Tours yn penderfynu fod i'r bara gael ei wlychu yn y gwin yn ngweinyddiad y cymmun i'r claf.—Claddfeydd yr eglwysydd (eglwysydd y merthyron yn enwedig) yn cael eu hystyried yn hynod gyssegredig. |
| 470 | 475. Romulus Augustulus.<br>Ymherodraeth y gorllewin yn cael ei rhanu yn amryw lywodraethau newyddion. | 474. Leo II., yn cael ei ddilyn yn fuan gan ei dad Zeno. | Pedr, y mynach, esgob Alexandria.<br>Victor, esgob Vita.<br>Cennadius, henuriad Masillon, a fu farw 493.<br>Vigilius, esgob Tapsus.<br>Macedonius, esgob Caer Cystenyn. | 470. Pedr Fullo yn chwanegu at y Trisagion.—Yr eglwys yn ngogleddbarth Affrica yn glynu yn benderfynol wrth ffurf neillduol o weddi.—Rhieni yn feichafon (*sponsors*) dros eu plant eu hunain.—Dyddiau y gweddiau yn cael eu hordeinio yn Vienna. |
| 580 | | | Felix III., esgob Rhufain, a fu farw 492.<br>Flavian, esgob Antioch. | 480, 489. Gelasius, o Rufain, yn ymdrechgar o blaid ffurfwasanaeth. |
| 490 | 476. Odoacer, brenin Italy a Noricum.<br>481. Clovis I., a fu farw 511. | 491. Anastasius, yn ymherawdwr hyd 518. | Gelasius I., esgob Rhufain, a fu farw 496.<br>Anastasius II., esgob Rhufain, a fu farw 498.<br>Avitus, esgob Vienna.<br>Symmachus, esgob Rhufain, a fu farw 514.<br>Boethius, a fu farw 525.<br>Epiphanius, hanesydd yr eglwys. | 490. Swydd neillduol yn cael ei sefydlu yn Nghaer Cystenyn i'r dyben o gofrestru yr egwyddoriaid yn llyfrau yr eglwys.—Cymmanfa Agde yn gorchymyn fod i'r egwyddoriaid ar Sul y Palmwydd adrodd y Credo yn gyhoeddus.—Cyssegriad allorau. |
| 500 | | | | 500. Esgobion Rhufeinig, mewn ffordd o enwogrwydd, yn dwyn y teitl o "bab." |

**HANNIBAL**: un o gadlywyddion Carthage, oedd fab i Hamilcar Barcas, ac a anwyd 247 c. c., sef y ddeunawfed flwyddyn o ymdrechion y Rhufeiniaid a'r Carthaginiaid yn y Rhyfeloedd Punaidd (*Punic Wars*). Yr oedd ei deulu yn mhlith y rhai mwyaf pendefigaidd yn Carthage, a honai ei fod yn disgyn oddi wrth hen frenhinoedd Tyrus. Nid yw yn anhawdd ffurfio syniad lled gywir am gymmeriad y cadfridog enwog hwn, pan ystyriom ddarfod iddo, am un mlynedd ar bymtheg, heb un cynnorthwy, yn mron, oddi wrth ei gydwladwyr, gynnal i fyny ymdrechfa am brif ymherodraeth y byd, a hyny yn erbyn cenedl oedd wedi arfer bod yn fuddugoliaethus yn mhob rhyfel y cymmerodd ran ynddo. Pe buasai Hannibal wedi ei gynnorthwyo yn briodol gan ei gydwladwyr, y mae yn debyg y buasai y gogoniant wedi ymadael o Rufain am byth; ac y buasai Carthage y pryd hwnw yn sefyll fel gorchfygydd y byd, a ffynnonell ei wareiddiad. Y mae ymosodiadau diorphwys Hannibal ar y Rhufeiniaid i'w priodoli yn benaf i'w gasineb at y genedl hono—teimlad a ymaflodd ynddo yn ddwys, yn ddiammheu, yn naw mlwydd oed, pan y gwnaeth ei dad iddo dyngu ger bron yr allor yn ngwlad ei enedigaeth na byddai iddo byth fod yn gyfaill i'r Rhufeiniaid, ond y byddai iddo eu hymlid gyda chasineb diildio hyd ei fedd. Ar farwolaeth Hasdrubal (221 c. c.), yr hwn oedd olynydd Hamilcar yn llywyddiaeth y fyddin, etholwyd Hannibal gan y milwyr i gymmeryd ei le; a buan y gorchfygodd Hannibal yr Olcadiaid, y Taccæaid, y Carpesiaid, ynghyd â'r llwythau Yspaenaidd ereill, a adawsai Hasdrubal heb eu darostwng. Yr unig genedl i'r deheu i afon Ebro, yn awr heb ei gorchfygu, oedd y Saguntiaid; y rhai, wedi eu dychrynu o blegid llwyddiant digyffelyb Hannibal, a anfonasant genhadon i Rufain, i rybuddio y Rhufeiniaid o'u perygl. Mewn canlyniad, fe anfonodd y Rhufeiniaid lysgenhadon at Hannibal, i'w hysbysu yr ystyrient unrhyw niwed a wneid i'r Saguntiaid yn gyhoeddiad o ryfel yn eu herbyn hwy. Modd bynag, ni thalodd Hannibal un sylw i'r rhybudd.

Yr oedd y rhyfel Bunaidd gyntaf wedi terfynu er ys ugain mlynedd bellach, a'r Carthaginiaid wedi cael amser i adennill eu nerth, ac wedi cymmeryd meddiant o'r rhan fwyaf o Yspaen. Mewn canlyniad i waith y Rhufeiniaid yn cymmeryd mantais ar ryw amgylchiad i gymmeryd meddiant o Sardinia, fe adnewyddodd y Carthaginiaid y rhyfel yn eu herbyn. Felly y dechreuwyd yr ail ryfel Bunaidd. Yr oedd Hannibal eisoes yn gwarchae ar Saguntum; ac yn 219 c. c., fe lwyddodd i'w chymmeryd, wedi gwarchau arni am wyth mis. Defnyddiodd y gauaf i barotoi ar gyfer rhyfelgyrch i Italy. Caniataodd i amryw o'i filwyr ymweled â'u cartrefi, gan mai dyna o bossibl oedd eu cyfleusdra diweddaf; a sicrhaodd ei feddiant o Affrica ac Yspaen, drwy osod yn mhob un 16,000 o wyr:—byddin o Yspaeniaid yn Affrica, a byddin o Affricaniaid yn Yspaen, o dan lywyddiaeth ei frawd Hasdrubal. Hefyd, gofalodd am gael allan pa beth ydoedd teimlad y bobl yr oedd yn rhaid iddo dramwy drwy eu gwlad ar ei ffordd i Italy. I'r dyben yma, anfonodd yn ddirgelaidd i ogledd Italy er mwyn sicrhau cyd weithrediad cymmaint ag oedd yn bossibl o'r preswylwyr, mor fuan ag yr ymddangosai yn eu

mysg. Cafodd allan fod yn bossibl hefyd iddo groesi yr Alpau, er y gwyddai y byddai iddo gyfarfod â llawer o anhawsderau.

Wedi gwneyd y parotoadau hyn, cychwynodd o Carthage Newydd (Carthagena) gyda byddin o 90,000 o wyr traed, a 12,000 o farchogion. Wrth droed y Pyrenees, ymgododd y trigolion yn ei erbyn, ac ni lwyddodd i'w gorchfygu heb golli lliaws o'i ddynion. Cafodd hefyd fod nifer ei filwyr a aeth heibio i'r Pyrenees wedi eu lleihau erbyn hyn i 50,000 o wŷr traed, a 9,000 o wŷr meirch, ond yr oedd y rhan fwyaf o'r rhai hyny wedi ymarfer â chaledi mewn rhyfeloedd maith o'r blaen. Yr oedd Hannibal wedi cyrhaedd y Rhone cyn bod y Rhufeiniaid yn hysbys o'i gychwyniad o Carthagena. Anfonwyd Publius Scipio gyda thrigain o longau i wneyd ymosodiad ar Yspaen, a J. Sempronius yr un pryd i wneyd rhyfelgyrch i Affrica. Ond pan gyrhaeddodd Scipio enau y Rhone, synodd yn aruthr pan ddeallodd fod Hannibal yn yr un gymmydogaeth! Glaniodd ei fyddinoedd yn ddioed, a pharotôdd i ymosod ar y gelyn; ond deallodd y cadfridog galluog hwnw ei fwriad, a chyn fod Scipio wedi symmud yn mlaen, yr oedd milwyr Hannibal yn e gyn yn brysur i'r Alpau. Gan nad oedd obaith y llwyddai i'w goddiweddyd, dychwelodd Scipio i Italy, gan fwriadu cyfarfod â Hannibal ar ei ddisgyniad o'r mynyddoedd. Coleddir ammheuaeth gyda golwg ar y fynedfa a ddewiswyd gan Hannibal i groesi yr Alpau; ond y syniad cyffredin ydyw iddo ddilyn cwrs yr afon Isèra, heibio i St. Bernard Fychan, a disgyn yn y taleithiau Insubriaidd o Italy. Modd bynag, croesodd yr Alpau mewn pymtheng niwrnod, ond gyda llawer o anhawsderau, a chafodd nad oedd ganddo ond 20,000 o wŷr traed, a 6,000 o farchogion ar ol eu croesi. Cyflawnodd Hannibal yr holl daith o Carthagena i Italy mewn o ddeutu pum mis o amser. Ar lanau y Po, er ei syndod, cafodd fod Scipio a'i fyddin yn barod i'w wrthwynebu. Cymmerodd ymladdfa le yn fuan ar lanau yr afon Ticinus, pryd y gorchfygwyd y cadfridog Rhufeinaidd, ac y gorfodwyd ef i encilio i'r tu arall i'r Po. Ymlidiodd Hannibal Scipio dros yr afon, a chafodd ef wedi ymsefydlu ar lanau yr afon Trebia, ger Piacenza. Gwelai Scipio nad oedd ganddo ddim i'w wneyd ond ceisio blino Hannibal o'r wlad, drwy beidio rhoddi cyfle iddo i ymosod arno; ond yr oedd y cadfridog Rhufeinig wedi ei glwyfo, ac felly, yn analluog i gymmeryd rhan yn yr ymdrafodaethau hyn. Modd bynag, yn cael ei galonogi gan ryw ychydig o lwyddiant, anturiodd ei gynghreiriad, J. Sempronius, dros y gwarchgloddiau; ac mewn canlyniad, gorchfygwyd y Rhufeiniaid yn llwyr. Yn fuan wedi hyn, daeth Piacenza i feddiant Hannibal; ac yn ystod deufis o amser, yr oedd holl ogledd Italy (Gaul Gisalpaidd) wedi syrthio i'w feddiant; ac yn awr daeth y preswylwyr yn mlaen i'w gyfnerthu gyda milwyr a chyflenwadau, yr hyn yr oeddynt o'r blaen yn analluog i'w wneuthur o blegid presennoldeb Scipio a'i fyddin. Derbyniodd y Rhufeiniaid yr hysbysrwydd hwn gyda dychryn mawr; ond nid oeddynt yn barod i ymostwng. Cymmerodd y ddau gadfridog Rhufeinig eu sefyllfa lle y gallent wylio gweithrediadau Hannibal; yr hwn, fel yr oedd yn naturiol iddynt dybio, a symmudai yn mlaen ar ol misoedd y gauaf. Ac felly, yn nechreu y gwanwyn, 217 c. c., cawn Hannibal yn croesi mynyddoedd yr Appennines i Etruria, ac ar y morfeydd corslyd a elwir Paludi di Fucecchio, a'r rhai a safant ychydig uwchlaw, lle y mae yr Agno yn disgyn i'r môr. Dioddefodd ei fyddin yn fawr, collodd Hannibal un o'i lygaid, a bu agos iddo a cholli ei fywyd.

Yn Arretium, dinas a orweddai ar lethrau yr Appennines, cafodd Hannibal fod Flaminius, y consul Rhufeinig, yn barod i'w wrthwynebu. Wedi gorphwys ei fyddin am ychydig yn nghymmydogaeth Fæsulæ, ac wedi anrheithio a difa y wlad oddi amgylch, symmudodd yn mlaen, heibio i Arretium, a thynodd Heminius i gynllwynfa a osodasai iddo ar lanau Llyn Thrasymene, lle y lladdwyd y consul, ac y gorchfygwyd ei holl fyddin. Yr oedd y ffordd i Rufain yn agored iddo bellach; ac y mae yn destyn syndod na buasai yn symmud ar unwaith i gymmeryd meddiant o'r ddinas, a chydag un dyrnod penderfynol yn terfynu y rhyfel. Yn lle hyny, trodd tua'r dwyrain, ac aeth trwy Umbria, a Picenum, a chyrhaeddodd Apulia, lle y treuliodd y gauaf. Y flwyddyn ganlynol, 816 c. c., penderfynodd y Rhufeiniaid ymladd brwydr arall. Cyfodwyd byddin o 80,000 o wŷr traed, a 10,000 o farchogion, y rhai a osodwyd dan lywyddiaeth L. Æmilius Paulus, a C. Terrentius Varro. Rhif byddin y Carthaginiaid ar y pryd oedd 40,000 o wŷr traed, a 10,000 o wŷr meirch. Ond er nad oedd byddin y Carthaginiaid ond hanner rhifedi y Rhufeiniaid, mewn brwydr a gymmerodd le ar lanau yr Aufidius yn nghymmydogaeth Cannæ, yn Apulia, Awst yr 2il, gorchfygwyd y Rhufeiniaid, gyda lladdfa ddychrynllyd. Yr oedd eu colled, medd Polybius, yn rhywbeth nas gellir ei gredu yn mron; cafodd yr holl wŷr traed a gymmerasant ran yn y frwydr, 70,000 mewn rhif, eu dyfetha yn llwyr, oddi eithr 3,000 a ddiangasant i'r dinasoedd cyfagos; dyfethwyd hefyd yr oll o'r gwŷr meirch, oddigerth 300 a berthynent i'r cynghreiriaid, a 70, y rhai a ffoisant gyda Varro. Anfonasid 10,000 o wŷr traed i wneyd ymosodiad disymwth ar wersyll Hannibal, a chymmerwyd y rhai hyn i gyd yn garcharorion. Yr oedd y tri chonsul hefyd, Æmilius, Servilius, ac Attilius yn mhlith y lladdedigion. Nid oedd holl golled Hannibal ond 5,700, rhwng gwŷr traed a marchogion.

Yr oedd Rhagluniaeth yn awr, eilwaith, fel yn ei gyfeirio tua Rhufain; ac nis gellir llai na meddwl fod peidio ymosod ar y ddinas yn gamgymmeriad anfaddeuol ynddo. Ond treuliodd y gauaf yn Capua; ac ymddengys fod moethusrwydd a phenrhyddid yn y llanerch hwnw wedi cwbl gyfnewid cymmeriad ei filwyr; ac o hyny allan, ymladdent gyda llawer llai o ysbryd nag y gallesid disgwyl iddynt, wrth ystyried mawredd y wobr oedd mewn golwg. Ymunodd Capua, a'r rhan fwyaf o ddinasoedd Campania, â Hannibal; ond parhaodd y nifer lliosocaf o'r taleithau Italaidd yn selog o blaid Rhufain; a gwelai Hannibal, bellach, fod 'llwyr ddarostygiad Italy yn ammhosibl heb lawer o adgyfnerthion. Yr oedd yn gobeithio am gynnorthwy oddi wrth Phylip o Macedon, ac oddi wrth y Syracusiaid. Ond siomwyd ef. Yn chwanegol at hyny, cymmerodd y Rhufeiniaid ail feddiant o Capua (211 c. c.) ac felly gorfu i Hannibal anfon drosodd i Yspaen am gynnorthwyo Hasdrubal, ei frawd. Yn 207 c. c., croesodd Hannibal yr Alpau, gyda byddin lled liosog. Ond yr oedd Rhagluniaeth fel yn troi yn erbyn Hannibal yn awr, o blegid mewn brwydr ar lanau yr afon Metaurus, fe laddwyd Hasdrubal, a llwyr orchfygwyd ei fyddin. Yr oedd yn rhaid i Hannibal, bellach, gymmeryd yr ochr amddiffynol. Yn y cyfamser, yr oedd Scipio yn goresgyn Yspaen. Darostyngodd yr holl wlad

Digitized by Google

hyd Gades; croesodd i Affrica, a chyda chynnorthwy Masinissa, ymosododd ar y Carthaginiaid yn eu gwlad eu hunain. O ganlyniad, gorfu i Hannibal ddychwelyd, yn y fl. 203 c. c, i amddiffyn ei wlad, wedi cadw rhanau eang o Italy yn ei feddiant am un mlynedd ar bymtheg. Wedi gorchfygiad byddin Hannibal yn Zama, yn Affrica, nid oedd gan y Cathaginiaid bellach ddim i'w wneyd ond ildio i'r gelyn. Sefydlwyd cyttundeb heddwch, ond ar ammodau celyd; ac aeth Hannibal yn awr i geisio diwygio y weinyddiaeth oddi wrth lawer o gamarferion oedd wedi ymgripio i mewn iddi; ond, ar yr un pryd, cynnhyrfodd ddygasedd pendefigion ei wlad, ac yr oeddynt yn barod i wneyd defnydd o unrhyw gyfle i'w alltudio. Cyhuddwyd ef wrth y Rhufeiniaid o fod mewn cynghrair âg Antiochus, brenin Syria, yr hwn y tybid ei fod yn darparu i fyned i ryfel yn eu herbyn; a phan anfonodd y Rhufeiniaid bersonau i chwilio i'r mater, yn hytrach nag aros y canlyniad, ffodd Hannibal i'r dwyrain, a chyrhaeddodd Tyrus yn ddiogel. Yma, fe arosodd am ychydig ddyddiau, lle y derbyniodd barch mawr: tra yn Carthage, yr oedd ei feddiannau yn cael eu hattafaelu, a'i dŷ yn cael ei ddinystrio hyd ei sylfaeni. Wedi hyny, fe symmudodd i Ephesus, lle y derbyniwyd ef yn groesawgar gan y brenin, yr hwn a ymgynghorai âg ef gyda golwg ar wneyd ymosodiad ar y Rhufeiniaid. Arosodd gydag Antiochus am amryw flynyddoedd; ond pan orchfygwyd Antiochus, yn y fl. 190 c.c., yr oedd y brenin hwnw yn analluog i'w ddiogelu yn hwy rhag dialedd ei elynion. O ganlyniad, fe ffodd i Creta, ac wedi hyny at Prusias, brenin Bithynia, lle yr arosodd am amryw flynyddoedd, gan ei gynnorthwyo mewn rhyfel yn erbyn Eumenes, brenin Pergamus, a chynghreiriad i'r Rhufeiniaid. Yma drachefn fe ddilynwyd ef gan ddialedd ei elynion. Gofynai llysgenhadon o Rufain fod iddo gael ei roddi i fyny; a chan fod Prusias yn ddigon angharedig i gydsynio â'u cais, yn hytrach nag ymostwng i unrhyw ormes na gorthrwm mwy, terfynodd y cadfridog enwog ei einioes drwy lyngcu gwenwyn, yr hwn a gludai bob amser i'w ganlyn. Ac felly, tua 182 c. c., bu farw yr enwocaf o'r cadfridogion Carthaginiaidd — yr unig ddyn a allasai gadw ei wlad rhag dinystr, a'i hadferu i'w gogoniant cyntefig.

HARRIS, HOWELL: un o brif gychwynwyr y Methodistiaid Calvinaidd Cymreig, a aned yn Nhrefecca, yn sir Frycheiniog, Ionawr 23ain, 1714 —yr un flwyddyn ag y ganed Whitfield, a'r flwyddyn ganlynol i'r hon y ganed Daniel Rowlands—y tri "diwygiwr," a thri o gewri a fu wŷr enwog gynt. Hwy, ynghyd â John Wesley, oeddynt brif offerynau un o'r diwygiadau crefyddol pwysicaf a deimlodd ein gwlad erioed. Mab i dyddynwr cyfrifol o Drefecca oedd Howell Harris, a'r ieuangaf o dri o frodyr. Bwriedid ef i'r Eglwys Sefydledig, a chafodd bob manteision addysg o fewn ei gyrhaedd. Pan yn 18 mlwydd oed, claddodd ei dad: tywyllodd hyn ei ragolygon, ac agorodd ysgol i blant yn y gymmydogaeth. Llangc digon gwyllt ac anystyriol ydoedd; ond wrth wrandaw cynghorion difrifol y parson, yn eglwys Talgarth, wythnos cyn y Pasc, ac wrth dderbyn Swper yr Arglwydd ar Sul y Pasc, taflwyd saethau i'w galon a ddygasant drallod dirfawr arno. Dyma'r pryd y derbyniodd y wreichionen o dân nefol a chwythwyd yn wenfflam dros holl siroedd Cymru, ac a gynnyrchodd y diwygiad roddodd fod **a ffurf i gyfundeb y Methodistiaid, ac a fu yn** foddion i adfywio crefydd yn mysg pob enwad yn y Dywysogaeth. Yn mhen ychydig o ddyddiau, gwisgodd y teimladau cyffrous ymaith; ond adnewyddwyd a dyfnhawyd hwy trwy ddarllen llyfr ar y Gorchymynion gan Bryan Duppa, ynghyd â llyfr arall na roddir ei enw. Aeth trallod ei feddwl ynghylch ei gyflwr yn fawr iawn. Ond ar y Sulgwyn (Mai 25ain, 1735) wrth fwrdd yr Arglwydd etto, cafodd oleuni ar Geidwad digonol, a syrthiodd ei faich oddi ar ei ysgwyddau. Er iddo fyned at y bwrdd dan bwys euogrwydd ei bechodau, "Argyhoeddwyd fi," meddai, "gan yr Ysbryd Glân, i Grist farw drosof, a bod fy holl bechodau wedi eu gosod arno ef. Cefais fy hun yn rhydd o flaen gorsedd cyfiawnder, ac yn llys fy nghydwybod." Cymmaint oedd llawenydd ei galon fel nas gallasai beidio dywedyd wrth y bobl ar y ffordd adref o'r eglwys y Sulgwyn hwnw, y gwyddai fod ei bechodau wedi eu maddeu. Llyncwyd ei feddwl i fyny gan y pethau hyn, a theimlai duedd i gau ei hunan oddi wrth gymdeithas pawb. "Gwerthais," meddai, yr hyn oll a feddwn, a rhoddais i'r tlodion; ac yn mhlith pethau ereill, y cyfryw ddillad ag a farnwn yn anweddus i Gristion. Gwelais mai peth ofnadwy oedd peidio cymmeryd Duw ar ei air yn ol y gair hwnw, 'A phob un a'r a adawo dai, &c., er mwyn fy enw i, a dderbyn y can cymmaint, a bywyd tragwyddol a etifedda efe.' Ar yr addewid hon, gorchymynais fy nghorph a'm henaid i'w ofal am byth." Dechreuodd gadw addoliad teuluaidd yn nhŷ ei fam, a delai llawer ynghyd i'w wrandaw. Llefarai wrth ei gymmydogion am angeu, y farn, a thragwyddoldeb. Yr oedd tân Duw yn llosgi yn ei enaid, ac nis gallai orphwys na dydd na nos heb wneuthur rhywbeth dros ei Dduw a'i Iachawdwr.

Yr oedd ei lygaid o hyd ar fod yn barson; ac yn mis Tachwedd, y flwyddyn hon, trwy gymhorth cyfeillion, aeth i Rydychain. Ond yr oedd terfysg ei argyhoeddiad yn ormod i roddi llonyddwch i'w feddwl i fyned yn mlaen gyda'i efrydiau, ac i oddef cymdeithas ei gydefrydwyr anystyriol. Dychwelodd adref, a dechreuodd fyned o dŷ i dŷ i ymddyddan â'i gymmydogion am eu sefyllfa ger bron Duw, nes ymweled â holl deuluoedd y plwyf a'r cyffiniau. Llithrodd yr arferiad yma—braidd yn ddiarwybod iddo ei hun—i ryw fath o bregethu, ac arferai y bobl dyru i'w gyfarfod yma a thraw i'r tai y byddai yn ymweled â hwynt. Gwyliai bob cyfleusdra i rybuddio dynion ynghylch achos eu heneidiau. Yn haf y flwyddyn 1736, cynghorwyd ef gan gyfaill i agor ysgol yn Nhrefecca, yr hyn a wnaeth; a symmudodd yr ysgol yn fuan i eglwys y plwyf. Rhoddai hyn gyneusdra iddo i hyfforddi llawer o bobl ieuaingc yn ffordd iachawdwriaeth. Yn niwedd yr un flwyddyn, dygwyddodd fod dyn yn myned trwy yr ardaloedd i ddysgu y bobl ieuaingc i ganu Salmau. Gan fod tyru mawr ato gan yr ieuengetyd, gwelodd Harris fod yma gyfleusdra da i wneyd daioni. Aeth gydag ef yn ei deithiau, ac mor gynted ag y gorphenai y gŵr hwnw â'i wersi, rhoddai yntau air o gynghor iddynt; a chanlynodd effeithiau rhagorol. Tua'r amser yma y dechreuodd ffurfio y cymdeithasau neillduol a elwir "*societies*," yn ol cynllun a welodd mewn llyfr o eiddo Dr. Woodward—y rhai sydd o hyny hyd yn awr wedi eu profi yn dra bendithiol i achos crefydd yn Nghymru.

O'r flwyddyn hon (1736) y dyddir dechreuad ei bregethu. Aeth y son am ei ddoniau a'i ddylanwad yn mhell ac agos, ac aeth yntau dros derfynau ei blwyf a'i sir, i ba le bynag yr agorid drws iddo,

Digitized by Google

er nad oedd wedi ei awdurdodi i bregethu gan nac esgob na chymmanfa, na neb arall ond yr Ysbryd a dderbyniodd oddi uchod. Nid oedd ar y cyntaf yn ymwybodol ei fod yn gwneyd dim allan o'i le, a dymunai yn fawr gadw mewn heddwch â'r Eglwys Sefydledig, er ei fod yn myned ar ei gyfer ar draws ei rheolau. Cafodd ddeall hyny yn fuan hefyd trwy lythyrau oddi wrth y parson, yn bygwth esgob a chyfraith arno. Parodd hyny ofid mawr iddo, o blegid nid oedd dim pellach oddi wrth ei feddwl na ffurfio sect newydd, neu dreisio y weinidogaeth iddo ei hun; etto, nid oedd yn bossibl ganddo ymattal mwy. Anghenrhaid a osodwyd arno. Yr oedd edrych ar annuwioldeb y byd, a chysgadrwydd yr eglwysi o'i amgylch, yn tanio ei enaid yn fflam angerddol. Ni byddai yn y blynyddoedd cyntaf yn rhagddarparu beth a ddywedai; ond dibynai ar barodrwydd ei feddwl, gwres tanbaid ei galon, a'r cymmhorth a dderbyniai oddi uchod. Ac yr oedd bob amser yn dwyn ystorm ddychrynllyd o fellt a tharanau am ben y gwrandawyr, ac yn eu hysgwyd uwch ben uffern, nes byddent yn gwelwi ac yn gwaeddi. Elai allan i'r rhedegfeydd, y ffeiriau, y gwylmabsantau, a phob cynnulliadau annuwiol. Esgynai, yn ddyn mawr cadarn a golygus, i ben y clawdd neu y twmpath, a dechreuai dywallt ar y bobl, fynychaf, heb destyn na rhagymadrodd. Trwy ganol dwndwr a therfysg erlidwyr, a chawodydd o geryg, tyweirch, llaid, a llawer o bethau gwaeth, gwnelai dyrfaodd cyfain yn welw gan ddychryn, a diffygiai eu calonau ynddynt gan arswyd damnedigaeth. Yn 1738, a'r flwyddyn ganlynol, daeth Harris i gydnabyddiaeth â Rowlands a Whitfield; deallodd eu bod hwythau wedi derbyn yr unrhyw Ysbryd, yn llafurio gyda'r un gwaith, ac yn cyfarfod â'r un gwrthwynebiadau. Rhoddodd Whitfield y ganmoliaeth uchaf i'w lafur, er ei fod yn ddiurddau, a'r annogaethau taeraf iddo barhau i fyned yn mlaen. Teithiodd drwy holl siroedd De a Gogledd Cymru, ac yr oedd ei weinidogaeth fel llais udgorn barn, yn deffro ac yn ysgwyd y wlad. Deffroai hefyd holl lid y parson yn ei erbyn; ac yn brin y diangodd â'i fywyd o lawer ardal, wedi gadael y fan y pregethai yn orchuddedig â'i waed. Ymwelodd â Bristol a Llundain, a threfi ereill yn Lloegr, a daeth trwy hyny i gydnabyddiaeth â chyfeillion a chefnogwyr newydd.

Yr oedd nerth y diwygiad erbyn hyn yn ymledu yn fawr dros Gymru, ac amryw yn mysg y dychweledigion yn awyddus i ddilyn esampl Harris i fyned allan i'r prif-ffyrdd a'r caeau i "gynghori." Gwelwyd fod angen arolygiad ar y personau hyn, yn gystal ag ar y lliaws eglwysi oeddynt yn ymffurfio yn brysur dros y wlad. Dyma fu yn achos ffurfio y "Cyfarfod Misol," yn y fl. 1740, a'r "Gymmanfa" eilwaith (y gyntaf yn Watford, Morganwg) yn 1743—y rhai ydynt wedi parhau hyd yr awr hon, a'r rhai y mae agos yr holl enwadau crefyddol wedi eu hefelychu. Yn y gymmanfa yn Watford, pennodwyd Harris yn arolygwr dros holl Gymru, ac i fyned i Loegr pan fyddai galw. Aeth y gwaith yn mlaen yn hynod o lwyddiannus am rai blynyddoedd, er yr holl rwystrau oddi allan: ond cododd blinder mewnol, yr hwn a barodd attalfa a rhwygiad gofidus arno. Mor gynnar a'r flwyddyn 1745, dechreuodd oerfelgarwch fagu rhwng Harris a Rowlands. Dylid cofio eu bod hwy yn ddau brif gychwynydd y diwygiad, mewn dau barth gwahanol o'r wlad, a'r naill yn hollol annibynol ar y llall. Ac er fod gweinidogaeth a llafur y ddau yn hynod o rymus a bendithiol, yr oedd eu cyssylltiad â'r weinidogaeth yn bur wahanol. Yr oedd Rowlands yn barson urddedig, tra nad oedd Harris ond lleygwr wedi ymaflyd yn y gwaith o hono ei hun.

"Heb arddodiad
Dwylaw dynion o un rhyw,
Na chael cenad gan un esgob."

Ond yr oedd wedi teithio a dyoddef mwy na Rowlands, a maes ei lafur wedi bod yn llawer eangach. Pan ddechreuodd cyfundeb newydd ymffurfio, pan ddaeth achosion i'w barnu, a chymmanfa i'w llywodraethu, nid oedd yn beth rhyfedd i dipyn o deimlad eiddigus a drwg fagu rhwng dau yn y cyfryw sefyllfa. Yn chwanegol at hyn, dywedodd Harris ei fod wedi derbyn dadguddiad neillduol o fawredd a gogoniant person y Cyfryngwr, a dechreuodd ddefnyddio geiriau mwy cryfion nag arfer, megys "Duw yn dioddef"—"Duw yn marw," &c. Cododd rhai i'w wrthwynebu. Ffromodd yntau o'r herwydd. Pleidiodd rhai Harris, a throdd ereill gyda Rowlands yn erbyn. A'r diwedd fu, mewn cymmanfa yn Llanidloes, yn 1751, ymraniad hollol y ddwy blaid, ac enciliodd Harris i Drefecca—i'r hwn le y cyfyngodd y rhan fwyaf o lafur gweddill ei oes. Parodd hyn flinder, rhwystr, a dirywiad mawr ar grefydd trwy y wlad. Y flwyddyn ganlynol (1752), dechreuodd adeiladu adeilad fawr yn Nhrefecca i fod yn fath o nawdd-dŷ i Gristionogion erlidiedig. Cafodd y syniad, mae'n debyg, oddi wrth adeilad gyffelyb oedd wedi ei chodi rai blynyddoedd cyn hyny gan un Frank, yn Germany, ac wedi hyny gan ei gyfaill Whitfield yn Georgia, America. Bwriadai ef hefyd i fod yn lle pregethu iddo ei hun am weddill ei oes. Yr oedd yr holl eglwysi yn gauedig yn ei erbyn, er fod ei deulu yn mynychu yr eglwys yn gysson, ac yntau yn cymuno ynddi hyd ddiwedd ei oes; ac yr oedd wedi treulio y ddwy flynedd ar bymtheg blaenorol i bregethu mewn annedd-dai, ysguboriau, a'r awyr agored. Aeth at y gorchwyl costus heb un geiniog o arian ar ei gyfer, ond ymddiried yn gwbl yn Rhagluniaeth y nefoedd; a chredai fod yr un Ysbryd ag a'i cynnhyrfodd i bregethu, yn ei gynnhyrfu hefyd gyda'r gorchwyl hwn. Cwblhawyd yr adeilad yn 1753; ac yn y flwyddyn ganlynol yr oedd teulu Trefecca yn gant o nifer, a'u holl ofal tymmorol ac ysbrydol ar Howell Harris, yr hwn nad oedd etto ond 40ain mlwydd oed. Ymwelai â hwynt dair gwaith yn y dydd, i bregethu, gweddïo, a chynghori; ac yr oedd ei lafur a'i bryder yn annisgrifiadwy. Bu y teulu unwaith yn rhifo cymmaint a naw ugain, ac nid oedd ganddo yntau ond ymddiried yn gwbl ar addewid Duw am fodd i'w cynnal. Gyrid arian iddo wrth yr ugeiniau o bunnau oddi wrth bersonau o bell ac o agos, a llawer o honynt na wyddai o ba le y deuent. Dywedai fod yr holl deulu yn rhai hynod mewn duwioldeb, a bod y lle yn fath o baradwys ysbrydol.

Yn y flwyddyn 1760, pan yr oedd galwad am filwyr i amddiffyn y wlad rhag y perygl a fygythid oddi wrth y Ffrangcod, perswadiwyd meddwl Harris fod yr Ysbryd oedd wedi ei anfon i bregethu yn awr yn ei anfon i amddiffyn crefydd a rhyddid ei wlad, ac i aberthu ei fywyd, os byddai raid, yn yr achos. Felly ymunodd â'r *militia*, gan ddwyn 24ain o'i deulu o Drefecca gydag ef, a chynnaliai 12eg o honynt ar ei draul ei hun. Rhoddwyd swydd banerwr (*ensign*) iddo ar y cyntaf, ond wedi hyny gwnaed ef yn gadben. Bu allan dair blynedd, gan symmud o dref i dref yn Lloegr, a gwylio pob cyfleusdra a gai i bregethu yr efengyl i'r bobl. Yna dychwelodd ef a'i wŷr i Drefecca. Yr oedd Iarlles enwog Huntingdon wedi ymgydnabyddu â Harris er's blynyddoedd bellach, ac yr oeddynt

Digitized by Google

yn gyfeillion mawr. Daeth i fryd y foneddiges hono i godi athrofa i addysgu a chymmhwyso gwŷr ieuaingc i'r weinidogaeth; a phennodwyd ar Drefecca fel y fangre fwyaf iachus a chyfleus at hyny. Yr oedd yn arfaethu hefyd, yn ddiau, ar gael cynnorthwy pwysig gan Harris yn ei llywodraethiad. Yr oedd hen adeilad a elwid Trefecca Isaf, o fewn lled cae neu ddau i adeilad newydd Harris. Bernir mai rhan o hen gastell ydoedd, wedi ei adeiladu gan Harri II., yn y flwyddyn 1176. Adgyweiriodd Harris hwn y blynyddoedd 1767—8, a gosododd ef dan ardreth i'r Iarlles. Agorwyd ef ar ddydd pen blwydd yr Iarlles, Awst 24ain, 1768, pan bregethodd Whitfield oddi wrth *Exod.* xx. 24; "Yn mhob man y rhoddaf goffadwriaeth o'm henw y deuaf atat ac y'th fendithiaf." Y flwyddyn ganlynol, pan gadwyd cylchwyl gyntaf agoriad y coleg, yn mhen 18 mlynedd wedi ymneillduad Harris oddi wrth ei frodyr, yr oedd yno liaws o weinidogion enwog wedi dyfod ynghyd; yn mysg y rhai yr oedd Rowlands, Williams o Bant y celyn, Howell Davies, Peter Williams, Wesley, ac amryw weinidogion Saesnig ereill. Yr oedd hyn, yn gystal a llythyrau ereill sydd ar gael, yn profi fod y teimlad drwg rhwng Harris a Rowlands wedi ei symmud, a bod ysbryd Harris etto yn ymglymu â'i frodyr Cymreig. Rhyw bedair blynedd ar ol hyn y bu Harris byw, a threuliodd hwynt mewn llafur diball gyda'i ofal mawr yn Nhrefecca. Bu farw Gor. 21ain, 1773, yn 60ain mlwydd oed, gydag ysbryd mor wrol, a ffydd mor gref ag erioed. "Bendigedig fyddo Duw," meddai, "y mae fy ngwaith wedi darfod: ac yr wyf yn gwybod fy mod yn myned at fy anwyl Dduw a'm Tad, canys efe a gafodd fy nghalon—ie, fy holl galon." Felly yr ymadawodd apostol mawr Methodistiaeth Gymreig; un o gewri cedyrn ein Hymneillduaeth; a'r pregethwr mwyaf dewr, tanllyd, a hunanymwadol, a fagodd ein gwlad. Dyn oedd wedi ei godi gan Dduw at y gorchwyl mawr oedd Rhagluniaeth wedi ddarparu iddo. Fel Ioan yn Iudea i'r Diwygiad Cristionogol, ac fel Luther yn Germany i'r Diwygiad Protestanaidd, yr oedd Howell Harris i'r Diwygiad Methodistaidd. Dangosodd gymmaint o wroldeb lawer tro ag a ddangosodd Luther pan ddywedai yr elai i Worms pe buasai yno gynnifer o gythreuliaid yn ei erbyn ag oedd o lechi ar benau y tai. Pan gyfarfyddai Harris â'i gydweinidogion yn ffoi am eu bywyd, wedi methu cynnal eu cyfarfodydd yn ol y cyhoeddiad gan greulondeb didrugaredd eu herlidwyr, troai hwynt yn eu hol, elai o'u blaen i ganol terfysg yr erlidwyr, esgynai i ben y clawdd, a gwaeddai "Gweddïwn!" neu "Gosteg, yn enw Brenin y nefoedd!" gyda dau ddwrn mawr yn estynedig, nes taraw ei elynion yn fud mewn dyc ryn, a gwneyd iddynt gilio mewn ofn a chywilydd; neu, fe allai, fyned oddi yno gan ochain "Beth a wnaf fel y byddwyf cadwedig." Dyma linell neu ddwy o un o'i lythyrau at frawd yn yr un gwaith, sydd yn dangos yr un a'r unrhyw ysbryd a holl lafur anturiaethus ei fywyd:—"Bydded i ddaear, uffern, pechod, a Satan, ymuno â'u gilydd; tydi, ŵr Duw,—tydi, dywysog y Duw byw, estyn allan dy law, ac yn nerth y Goruchaf, ni a awn trwy y dyfroedd, ni a sathrwn ar ysgorpionau, ni a fuddugoliaethwn yn y fflamau, ni a orfoleddwn, ac a neidiwn dros bob mur—ni a awn i mewn ac a feddiannwn wlad yr addewid." Y mae yn ddiau iddo wneyd rhai camsyniadau pwysig yn ei fywyd, ac i'r rhai hyny esgor ar flinderau dybryd iddo efe a'i frodyr, a'r eglwysi, a chyfyngu cylch ei ddefnyddioldeb yntau yn fawr. Ond camsyniadau oeddynt, ac nid oes y sail leiaf i gredu nad oedd ef yn berffaith gydwybodol a gonest yn mhob ysgogiad yr ymgymmerodd âg ef. Claddwyd ef yn eglwys Talgarth; a dangosir y teimlad dwys oedd ar yr amgylchiad yn ngeiriau yr enwog William Jay, yn ei bregeth yn nghapel Surrey, Llundain, Mawrth, 1835. "Mynegwyd i mi gan ŵr ag oedd yn bresennol yn ei gladdedigaeth, ddarfod ei roddi yn y bedd heb y gwasanaeth arferol. Yr achos oedd hyn:—Nid allai y parson ddarllen y gwasanaeth, o herwydd ei lwyr orchfygu gan ei deimladau; estynodd y llyfr i arall, ond ni allai yntau fyned yn mlaen; estynwyd ef i'r trydydd, ond ni allai hwn chwaith ei ddarllen; ac felly gosodwyd ei weddillion yn y ddaear heb y ffurf arferol, ond gyda dagrau ac ocheneidiau tyrfa fawr, yr hyn oedd yn llawer gwell." Gosodwyd y coffadwriaeth canlynol uwch ben ei fedd:—"Yn agos i fwrdd yr allor, y mae yn gorwedd y gweddillion o HOWELL HARRIS, Yscwier, a anwyd yn Nhrefecca, Ionawr 23, 1713—14. O.S. Yma, lle y mae ei gorph yn gorwedd, y cafodd ei argyhoeddi o bechod, ac y cafodd selio ei bardwn, a theimlad o rym gwerthfawr waed Crist yn y Cymun Sanctaidd. Wedi profi gras ei hun, efe a ymröes i ddadgan i ereill yr hyn a wnaethai Duw i'w enaid. Efe oedd y pregethwr teithiol cyntaf a drodd allan heb urddau Eglwysig, yn yr adfywiad diweddar yn *Lloegr* a *Chymru*. Pregethodd yr Efengyl dros ysbaid pedair blynedd ar bymtheg ar hugain, hyd oni chymmerwyd ef i'w orphwysfa dragwyddol. Efe a dderbyniodd y rhai a geisiasant iachawdwriaeth i'w dŷ; wrth hyny y cododd teulu yn Nhrefecca, i ba rai y darfu iddo ffyddlawn weini hyd ei ddiwedd, fel dyfal weinidog Duw, ac aelod cywir o Eglwys *Loegr*. Ei ddiwedd oedd ddedwyddach na'i ddechreuad; gan edrych ar Iesu wedi ei groeshoelio, efe a orfoleddodd hyd y diwedd, fod angeu wedi colli ei golyn; a hunodd yn yr Iesu, yn Nhrefecca, Gorphenaf 21ain, 1773, ac yn awr yn gwynfydedig orphwyso oddi wrth ei lafur."

HARRIS, EVAN. Gweinidog poblogaidd gyda'r Trefnyddion Calfinaidd Cymreig oedd y Parch. Evan Harris. Ganwyd ef mewn lle bychan o'r enw Ty'n y llan, ger llaw hen eglwys blwyfol Llanwrtyd, sir Frycheiniog, yn y flwyddyn 1784 neu 1785. Enwau ei rieni oedd Harry (*Henry*) ac Anne Harris. Yr oedd ei dad yn enedigol o sir Aberteifi, a'i fam yn chwaer i'r Parch. E. Evans, o'r Ffos, Llanwrtyd; ac yr oedd y ddau yn aelodau gyda'r Annibynwyr yn y Glynos. Saer coed oedd y tad wrth ei gelfyddyd, ac felly y mab; ac yr oedd amgylchiadau y teulu yn bur isel a thlawd. Treuliodd Evan Harris ddyddiau ei ieuengctid yn ddichlynaidd iawn, er nad oedd yn proffesu crefydd; ac yr oedd yn feddiannol ar synwyr a ffraethineb ag oedd yn ei wneyd yn hynod yn mysg ei gyfeillion. Yn y flwyddyn 1808, pan tua phedair ar hugain oed, priododd â Maria, merch y Parch. David Parry, o'r Gilfach, Llanwrtyd—un o'r gweinidogion hynaf a ordeiniwyd gan y Methodistiaid yn y Deheudir. Yn mhen dwy neu dair blynedd wedi priodi, ymunodd Harris âg eglwys y Methodistiaid yn Mhont rhyd y bere, Llanwrtyd; ac yn mhen dwy neu dair blynedd wedi hyny—yn y flwyddyn 1814, pan tua 30ain mlwydd oed—dechreuodd bregethu. Gwnaeth y cynnygiad cyntaf ar bregethu gyda'i dad yn nghyfraith mewn ffermdy yn ei ardal enedigol, o'r enw Cefn yr esgair. Yn mhen

Digitized by Google

ychydig flynyddoedd, symmudodd i Capel Isaf ac oddi yno eilwaith yn y flwyddyn 1818 i Aberhonddu, lle y bu am yn agos i ugain mlynedd, yn myned oddi amgylch i bregethu, ac yn cadw masnachdy brethynwr. Ordeiniwyd ef yn Llangeitho yn y flwyddyn 1826. Yn 1837, symmudodd i Dowlais (Morganwg) i fyw, a bu yn cadw masnachdy brethynwr yno am bedair blynedd. Yna rhoddodd y fasnach i fyny, a symmudodd i Ferthyr, lle y preswyliodd nes i angeu ei symmud i fyd yr ysbrydoedd, Tach. 20fed. 1861. Bu yn un o weinidogion ffyddlonaf Morganwg am yr ugain mlynedd diweddaf o'i fywyd, a llafuriodd lawer fel pen-adeiladydd capeli yn y sir.

Darn o gynnyrch naturiol bryniau Brycheiniog ydoedd Evan Harris, heb gael fawr o'i gaboli erioed gan addysg mewn coleg nac ysgol. Nid oedd yn ddyn o feddwl nac amgyffrediad nerthol, ond yr oedd yn hynod o wreiddiol yn ei syniadau a'i draddodiad. Nid oedd yn bregethwr mawr; ond yr oedd yn un o'r rhai mwyaf poblogaidd. Nid oedd syniadau ei bregeth yn ddwfn nac yn newydd; ond meddai ar athrylith arbenig i wisgo y syniadau mwyaf cyffredin mewn gwisg mor newydd a tharawiadol nes y cai y dwl a'r doeth ynghyd wledd wrth ei wrandaw. Yr oedd ganddo ei ffordd ei hun i drin pob pwngc, ac nid oedd berygl iddo golli sylw ei wrandawyr tra y byddai wrtho. Yr oedd ei ysbryd yn llawn o elfenau tanllyd, a byddai ei bwngc yn rhoi ei holl enaid yn ffagi weithiau cyn pen deng munyd ar ol darllen ei destyn. Yr oedd pob gewyn o'i gorph fel ar dori, y chwys yn cwympo fel gwlaw, y llygaid yn melltenu i fyw llygaid y gynnulleidfa, a nerth y pregethwr mewn perygl o losgi allan cyn diwedd y bregeth. Ni bu erioed yn ddarllenwr mawr, ac nid o lyfrau y byddai yn cael defnyddiau ei bregethau, ond o ganol dygwyddiadau cyffredin bywyd. "*Real life*" oedd y llyfr yr astudiodd ef fwyaf arno, a llwyddodd i ddeall y natur ddynol yn dda. Ei brif nodweddion fel pregethwr oedd craffder llygaid, *wit* anarferol, poethder ysbryd, a gwreiddioldeb tarawiadol yn ei ddull o draddodi. Daliodd yn ei boblogrwydd hyd ei fedd, er iddo gael byw hyd yn ymyl pedwar ugain. Y mae yn ammhossibl cael syniad cywir am bregeth Evan Harris, heb gael Evan Harris i'w thraddodi; o blegid nid yn nghyfansoddiad y bregeth yr oedd yr hynodrwydd, ond yn y pregethwr ei hun.

HAU—WR: y dull cyffredin o hau yn y dwyrain, fel yn ein gwlad ni, yw â'r llaw; gweithred sydd yn rhy adnabyddus i alw am un eglurhad. Y mae darluniau yr Aipht yn arddangos y dull y dygid hyn oddi amgylch. Daliai yr hauwr y llestr hau yn ei law chwith; tra, â'r llaw ddeheu, y gwasgarai yr had ar wyneb y maes. Mewn rhai amgylchiadau, megys gyda phridd tywodlyd, byddid yn hau cyn aredig, a dilynid yr hauwr gan yr aradr, yr hon oedd yn troi y pridd ar yr had [*Russell's Aleppo*, i. 74]. Mewn amgylchiadau ereill, lle nad oedd yn angenrheidiol gwneyd defnydd o'r ôg, neu ryw offeryn arall, i falurio y pridd, dilynid yr aradr gan yr hauwr, tra yr oedd gŵr arall yn gofalu am lenwi y llestr neu y fasged hau mor fuan ag ei gwagheid. Mewn pridd gwlyb, byddai geifr ac anifeiliaid ereill yn sathru yr had i mewn: *Esa.* xxxii. 20. Dechreuai y "pryd hau" yn Hydref, a pharhäai hyd ddiwedd Chwefror: yr oedd y gwenith yn cael ei hau cyn, a haidd wedi dechreu Ionawr [*Russell*, i. 74]. Yr oedd cyfraith Moses yn gwahardd cymmysgu yr had (*Lef.* xix. 19; *Deut.* xxii. 9); ac ymddengys mai yr amcan mawr mewn golwg yn hyn oedd cadw y drychfeddwl o burdeb o flaen meddwl y bobl; ac nid, fel y dywed Josephus, i'r dyben o gydymffurfio â deddf natur, yr hon sydd yn wrthwynebol i bob cymmysgedd.—*Josephus Hyn. Iudd.*, iv. 8, adr. 20. Ond gellid meddwl oddi wrth *Esa.* xxviii. 25, nad oedd gwaharddiad i hau gwahanol hadau mewn gwahanol ranau o'r maes. Yn *Lef.* xi. 37, 38, gwahaniaethir rhwng had sych a had gwlyb mewn cyssylltiad â'i gyffyrddiad â chorph marw:—byddai y cyntaf, gan ei fod yn fwy tueddol i ymlygru drwy hyny, yn cael ei wneyd yn aflan, ond ni byddai felly gyda'r llall. Yn *Diar.* xi. 18; *Mat.* xiii. 19, 24; 2 *Cor.* ix. 6; a *Gal.* vi. 7—arddangosir cyfatebiaeth rhwng eginiad yr had âg effaith egwyddor a chwrs bywyd y dyn ar ei gymmeriad, er da neu ddrwg.

Y mae o'r pwys mwyaf fod y tir yn cael ei barotoi yn y modd mwyaf effeithiol i dderbyn yr had—ei lanhau, ei drin, a'i gyffeithio, fel y byddo yn faethle priodol i'r planhigyn ieuangc. Ond y mae holl lafur parotoawl yr amaethwr yn myned yn ofer i raddau helaeth, os na bydd yr had yn cael ei hau yn briodol. Fod hyn yn cael ei deimlo yn gyffredin gan amaethwyr y wlad hon sydd eglur oddi wrth y draul fawr yr eir iddo i ddarganfod a pherffeithio y peiriannau hau sydd yn cael eu defnyddio yn bresennol.

Ymddengys yn rhesymol y dylai planhigion mewn meusydd fod yr un pellder oddi wrth eu gilydd, er mwyn rhoddi i bob planhigyn yr un a'r unrhyw le i wreiddio, cadeirio, ac ymberffeithio; a phe na byddai eisieu cymmeryd dim dan ystyriaeth ond y tir, yr awyr, a hadau y cnwd dyfodol, byddai y cynllun hwn yn ddiau y goreu o'r cyfan. Ond yn anffodus, y mae rhywogaethau lawer o hadau mân ag sydd un ai wedi hadu yn y cnwd blaenorol, neu ynte wedi eu cludo yno gan wyntoedd, yn fynych yn cyd-dyfu â'r planhigion hauedig, ac yn eu gorthrechu. Y mae hyn wedi peri i amaethwyr a pheirianwyr feddwl am ryw lwybr trwy yr hwn y gellir rhoddi sefyllfa fanteisiol i'r had, ynghyd â mantais i'r amaethwr i ddefnyddio offerynau er dinystrio y llysiau dieithriol, a rhyddhau y tir heb wneuthur niwed i'r planhigyn cyfreithlawn. Y cynllun a fabwysiadwyd i atteb y dybenion hyn ydoedd yr un linellol.



Dar. 854. YR HAUWR A'R ARADRWR.

Digitized by Google

Ond nid sefyllfa yr had *ar* y tir ydyw yr unig bwnge sydd yn teilyngu ystyriaeth: y mae ei sefyllfa *yn* y tir hefyd o lawn cymmaint o bwys. Gwyddys yn y cyffredin pan yr heuir meusydd â llaw, y rhoddir rhyw gymmaint o had gogyfer â'r golled a geir drwy fod llawer o hono yn cael ei adael ar wyneb y tir, gan nad ydyw yr óg ond offeryn ammherffaith, a dywedyd y lleiaf, er ei guddio. Y mae y dull cyntefig hwn hefyd yn fynych yn achosi fod yr had a guddir un ai yn cael ei gladdu yn rhy ddwfn, neu ynte yn rhy ysgafn, ac felly yn peri difrod mawr ar gynnyrch amaethyddol.

Y mae yr ystyriaethau hyn wedi achlysuro y pryder mwyaf am gael rhyw fath o beiriannau a ddodant yr had yn y ddaear yn lled gyfartal o ran dyfnder, a gwastad o ran nifer. Nid yw y peiriannau hyn wedi cyrhaedd nodwedd uchel hyd yn ddiweddar, ac y maent yn anadnabyddus mewn rhanau eang o Brydain Fawr; etto, y maent yn adnabyddus, mewn rhan, er ys canrifoedd yn eithafion dwyreiniol a gorllewinol y byd gwareiddiedig; ac y maent wedi bod yn myned ar gynnydd mewn effeithiolrwydd, o ran ffurf a gweithrediad, fel y maent erbyn hyn wedi cyrhaedd gradd uwch mewn perffeithrwydd, fe allai, nag un offeryn amaethyddol arall. Mae amaethwyr India, Japan, ac Arabia, er cyn cof, wedi bod yn arfer rhillio a phlanu eu hadau. Y mae rhai o beiriannau hau y Chineaid yn bresennol yn tebygu i ferfa, ac ereill i aradr fechan, y rhai ydynt yn meddu ar fath o dri chwlltwr, drwy ba rai y mae yr had yn disgyn i'r tir. O ddeutu canol yr 17eg ganrif, yr ydym yn cael disgrifiad gan Gabriel Platte o beiriant planu a ffurfiwyd o binau heiyrn, "y rhai a chwareuent i fyny ac i lawr fel "Jack mewn cistan;" a thuag ugain mlynedd yn ddiweddarach, cyhoeddodd Worlidge ddisgrifiad o beiriant a ddarganfyddwyd ganddo. Y nesaf y cawn hanes am dano yn gwellhau yr offerynau hyn ydyw yr enwog a'r bythgofiadwy Jethro Tull, yr hwn oedd y cyntaf a ddyfeisiodd dyllau mewn pren crwn i godi yr had o gell, a'i ollwng i waered drwy bibellau i'r ddaear. Ar ei ol ef, daeth Syr John Anstruther, o Edinburgh, y Parch. James Cooke, o Heaton-Norris, a Mr. Henry Baldwin, o Norfolk—y rhai a chwanegasant at y peiriant rai o brif nodweddion y rhilliau presennol. Wedi hyny, cawn enwau Mri. Smyth o Pensenhall, a Mr. R. Garrett, o Suffolk—y rhai a wellhasant gryn lawer ar yr offeryn, yn enwedig yr olaf, gan yr hwn a'i fab y dygwyd y peiriant rhillio i'w safle uchel presennol fel offeryn amaethyddol. Y mae lliaws ereill o ddyfeiswyr a gwneuthurwyr rhilliau, megys Mri. Hornsby, o Grantham, swydd Lincoln; Mri. Marychurch a'i Fab, o Haverfordwest; Mri. Ransome, o Ipswich; Mr. Moodie, o Denholm; Mri. Holmes, o Norwich, &c., y rhai ydynt yn troi allan o'u gweithfaoedd rilliau i wahanol ddybenion; sef i hau ŷd, maip, ffa, ynghyd âg ereill a henant y cyfryw hadau a gwrteithiau gwneuthuredig i'w canlyn. Ond y mae yr oll o'r rhilliau hyn yn seiliedig ar egwyddorion yr hwn a elwir rhill Suffolk.

Y mae dull arall o hau ag sydd wedi bod mewn bri uchel yn Lloegr, ac yn parhau felly mewn manau, sef diblo neu blanu. Y drefn gyntefig ydoedd i feibion a merched gerdded y meusydd yn rhengoedd, a phob un yn tyllu â phlanbren, gan ollwng ychydig o had i'r tyllau, ac wedi hyny eu cuddio â'u traed. Ond gwelwyd fod y draul yn gorbwyso yr ennill; ac mewn canlyniad, aed i ddyfeisio moddion i leihau y gost. Y cyntaf a ddaeth i'r maes ydoedd Vingoe, ond nid oedd ei beiriant ef yn atteb y dyben. Yna, cawn fod Mri. Ransome wedi bod yn alluog i gynnyrchu offeryn ag oedd yn gweithio i bwrpas; ac y mae hwnw mewn arferiad yn bresennol. Ond y peiriant sydd yn teilyngu y ganmoliaeth uchaf yn y rhestr hon ydyw yr un a ddygwyd i fodolaeth gan Mr. J. W. Newberry, o Banbury; ond y mae mor drwm fel ag i analluogi amaethwyr tiroedd trymion a gwlybion i'w ddefnyddio.

Y mae llawer o ddadleu ac ysgrifenu o blaid ac yn erbyn y gwahanol ddulliau o hau, ac fe allai fod rhesymau cryfion yn erbyn pob un a ddyfeisiwyd hyd yn hyn. Y mae gwahanol fathau o dir yn gofyn triniaethau gwahanol, ac fe ddichon mai oddi ar gymmeradwyaeth o unrhyw beiriant fel un cyffredinol, y mae llawer o'r camsyniadau a'r gwrthwynebiadau wedi cyfodi. Ond, ac ystyried yr holl amgylchiadau, barnwn mai cynllun y rhillio sydd yn ennill tir, cyn belled ag y mae a wnelo âg ŷd a maip; ond planu gyda golwg ar ffa, mangles, a'r cyffelyb.

HAWDDGARWCH (*hawdd—câr*): anwylaidd, tirion, prydferth. Mae miloedd afrifed o wrthddrychau hawddgar yn y greadigaeth. Nis gellir dyrchafu y llygaid tua'r ffurfafen, na syllu ar wyneb y ddaear yn ei gwahanol agweddau, heb i'r meddwl ystyriol ganfod graddau annisgrifiadwy o ysblander, tegwch, neu hawddgarwch o'r fath a leinw yr enaid â swyn a gorfoledd mawr. Y mae natur yn mron yn mhob ffurf yn llawn o dlysni a hawddgarwch; ond pa mor ogoneddus bynag ydyw hawddgarwch anianol a gweledig, nid ydyw i'w gymmharu â hawddgarwch moesol. Bod moesol ydyw Awdwr anian; ac er y rhaid i'w weithredoedd fod yn deilwng o hono, y mae efe ei hun yn sicr o sefyll uwchlaw rhagoriaethau penaf gwaith ei ddwylaw. Duw, gan hyny, yw ffynnonell fawr pob hawddgarwch. "Mae efe oll yn hawddgar;" *Can.* v. 16. Pan y mae dyn yn caru natur yn fwy na Duw natur, neu yn caru hawddgarwch anian yn fwy na hawddgarwch moesol, dengys drwy hyny ddiffyg chwaeth, yn gystal a bod ei galon yn amddifad o brif egwyddorion rhinwedd a sancteiddrwydd. Y rhinweddau hyny ag sydd yn ymdebygoli fwyaf i briodoliaethau moesol Duw yw y pethau hawddgaraf (yn nesaf at Dduw ei hunan) sydd mewn bod. "Pa bethau bynag sydd onest, pa bethau bynag sydd gyfiawn, pa bethau bynag sydd bur, pa bethau bynag sydd hawddgar, pa bethau bynag sydd ganmoladwy, od oes un rhinwedd, ac od oes dim clod, meddyliwch am y pethau hyn;" *Phil.* iv. 8.

Nid hawddgar ond (y) difalch; nid difalch ond (y) trugarawg; nid trugarawg ond (y) deddfawl. —DIAREB.

HAWL (*hy—awl*). Mae hawl, yn ddieithriad, yn cynnyrchu rhwymedigaeth. Os oes gan un dyn hawl i etifeddiaeth, y mae ereill yn rhwym o ymattal rhag ymyraeth yn ddigenad â hi; ac os oes gan rieni hawl i barch gan eu plant, y mae y plant o dan rwymau i'w parchu hwythau.

Gan fod rhwymedigaeth foesol yn dibynu ar ewyllys Duw, rhaid i hawl, yr hwn sydd beth cydberthynasol â rhwymedigaeth, hefyd ddibynu ar yr un Gallu Mawr. Y mae hawl, o ganlyniad, yn golygu cydweddiad âg ewyllys Duw.

I. Y mae hawliau yn dyfod yn eiddo i ddyn yn naturiol, neu ynte yn ddygwyddol. Hawliau

Digitized by Google

naturiol ydyw y cyfryw a berthynent iddo pe na byddai unrhyw lywodraeth wladol mewn bod yn y byd. Hawliau dygwyddol ydyw y rhai hyny nas gallasent berthyn iddo heb awdurdod llywodraeth wladol.

Y mae *hawliau naturiol* yn cynnwys hawl dyn ar ei fywyd, ei aelodau, a'i ryddid; ei hawl i gynnyrch ei lafur personol; a'i hawl i fwynhau, gyda phawb arall, yr awyr, y goleuni, a'r dwfr. Pe gosodid mil o wahanol bersonau o fil o wahanol fanau o'r byd gyda'u gilydd mewn ynys anghyfannedd, byddai ganddynt hawl yn union fel eu gillydd i'r holl bethau hyn.

Y mae *hawliau dygwyddol* yn gyfansoddedig o hawl y brenin ar ei ddeiliaid, cadfridog ar ei filwyr, barnwr ar fywyd neu ryddid carcharor; hawl i ddewis neu appwyntio ynadon, i godi trethi, a phenderfynu dadleuon; hawl, mewn gair, un dyn, neu gymdeithas o ddynion, i ffurfio deddfau a rheolau i lywodraethu ereill.

Y mae'r cwestiwn yn awr yn cyfodi—Pa fodd y crëir hawliau dygwyddol? neu, yr hyn sydd yr un peth, Pa fodd y gall hawliau dygwyddol gyfodi oddi wrth sefydliad cymdeithas wladol, gan fod hawliau o bob natur yn dibynu ar ewyllys Duw; ac nad yw cymdeithas wladol ond sefydliad dynol? Er mwyn egluro hyn, cofier fod Duw yn ewyllysio dedwyddwch i ddynolryw, a'i fod yn cymmeradwyo cymdeithas wladol fel sefydliad er hyrwyddo eu dedwyddwch. O ganlyniad, y mae llawer o bethau, y rhai ydynt yn ddefnyddiol i gynnal cymdeithas wladol yn gyffredinol, yn gydweddol âg ewyllys Duw, er na fuasent felly ar wahân oddi wrth sefydliad y cyfryw gymdeithas.

Ymddengys hefyd nad yw hawliau dygwyddol, o herwydd eu bod yn cael eu cynnyrchu drwy appwyntiad dynol, yn llai cyssegredig na hawliau naturiol, na'r rhwymedigaeth i'w cydnabod yn llai pwysfawr. Y mae'r ddau fath o hawliau yn dibynu ar yr un awdurdod, sef ewyllys Duw. Tybier fod dyn yn hawlio meddiant o ryw eiddo neillduol; nis gall brofi ei hawl, mae'n wir, ond yn ol deddfau y wladwriaeth i ba un y perthyna. Serch hyny, byddai yn gymmaint o bechod i ddifeddiannu y dyn o'i eiddo drwy ddichell neu drais a phe buasai yr eiddo wedi ei neillduo iddo, fel Gwlad Canaan i'r Israeliaid, drwy ordeiniad uniongyrchol Duw.

.II Y mae hawliau yn drosglwyddadwy neu yn annhrosglwyddadwy. Y mae y termau hyn yn esbonio eu hunain.

Y mae'r hawl sydd genym i'r rhan fwyaf o'r pethau a elwir yn eiddo, megys tai, tiroedd, arian, &c., yn drosglwyddadwy.

Y mae hawl tywysog dros ei bobl, gŵr dros ei wraig, meistr dros ei was, yn gyffredin ac yn naturiol, yn annhrosglwyddadwy.

Y mae'r gwahaniaeth yn dibynu ar y modd y derbynir yr hawl. Os bydd yr hawl yn cyfodi oddi ar gyttundeb, ac yn cael ei gyfyngu i berson drwy ammodau uniongyrchol y cyttundeb, y mae efe y pryd hwnw yn annhrosglwyddadwy. Yn mhob ystyriaeth arall, y mae yn drosglwyddadwy.

Y mae hawl i ryddid gwladol yn drosglwyddadwy. Gwir fod llawer o ddynion, trwy angerddoldeb eu sel o blaid y rhyddid yma, wedi ei ystyried yn annhrosglwyddadwy. Y gwir reswm fod dynolryw yn casau coffadwriaeth y rhai sydd wedi gwerthu eu rhyddid i ormesdeyrn ydyw, am eu bod hefyd ar yr un pryd wedi gwerthu neu beryglu rhyddid ereill, yr hyn yn ddiau nid oedd ganddynt hawl i'w wneyd.

III. Y mae hawliau yn berffaith neu yn ammherffaith.

Gellir amddiffyn hawliau perffaith drwy rym cyfraith; ond nis gellir gwneyd hyny â hawliau ammherffaith.

*Enghreifftiau o hawliau perffaith.*—Hawl dyn ar ei fywyd, ei berson, a'i dŷ: o blegid os ymosodir ar y rhai hyn, fe all wrthwynebu yr ymosodiad yn union trwy gryfder a gorthrech, neu gospi yr ymosodwr yn ol y gyfraith. Hefyd, hawl dyn i'w etifeddiaeth, dodrefn, dillad, arian, a phob math o eiddo cyffredin: os cymmerir y rhai hyn trwy foddion annhêg oddi arno, gellir gorfodi y troseddwr i wneyd iawn dros ei ymddygiad.

*Enghreifftiau o hawliau ammherffaith.*—Mewn etholiad i ryw swydd, lle y nodir y cymmhwysderau i'w chyflawni, y mae gan yr ymgeisydd sydd yn meddu y cymmhwysderau goreu hawl i gael y flaenoriaeth; er hyny, os gwrthodir ef, nid oes ganddo unrhyw lwybr i feddiannu y swydd trwy drais. Mae ei hawl gan hyny yn ammherffaith. Y mae gan gymmydog tlawd hawl i gael cymmhorth; ond os naccir ef iddo, nis gall ei fynu allan o anfodd. Y mae gan gymmwynaswr hawl i ddiolchgarwch y sawl a dderbynia ei gymwynas; ond os na chaiff ddiolchgarwch, rhaid iddo ymdawelu. Y mae gan blant hawl i gariad ac addysg gan eu rhieni; a rhieni, ar eu rhan hwythau, hawl i ufudd-dod a pharch gan eu plant: ond os diystyrir yr hawliau yma gan y naill ochr neu y llall, nid oes unrhyw ddeddf ddynol yn bod trwy ba un y gellir gorfodi iddynt gael eu cydnabod.

Pa le bynag y mae yr hawl yn ammherffaith, y mae'r rhwymedigaeth gydberthynasol yn ammherffaith hefyd. Mae dyn yn rhwym i ddewis yr ymgeisydd goreu mewn etholiad, i gynnorthwyo y tlawd, i fod yn ddiolchgar i'w gymmwynaswr, i ofalu am ei blant, ac i barchu ei rieni ei hun; ond y mae ei rwymau yn yr holl bethau hyn yn ammherffaith.

Yr ydys yn galw y rhwymau hyn yn "ammherffaith," mewn cydymffurfiad â'r term a ddefnyddir gan awdwyr wrth ysgrifenu ar y pwngc hwn. Y mae y term, fodd bynag, yn un anhappus, ar gyfrif ei fod yn arwain rhai i dybio fod llai o ddrwg i ddibrisio rhwymedigaeth ammherffaith nag i ddibrisio rhwymedigaeth berffaith. Y mae syniad o'r fath yma yn hollol ddisail. Nid yw fod rhwymedigaeth yn berffaith neu yn ammherffaith yn penderfynu dim mwy na hyn:—pa un a ellir defnyddio trais i orfodi cyflawniad y rhwymedigaeth, ai peidio. Mae y graddau o euogrwydd a deimlir mewn canlyniad i droseddiad o'r rhwymedigaeth yn beth hollol wahanol, a phenderfynir ef gan amgylchiadau, yn gwbl annibynol ar y gwahaniaeth sydd rhwng rhwymedigaeth berffaith a rhwymedigaeth ammherffaith mewn ystyr wladol a chyfreithiol. Mae y dyn a fedr siomi ymgeisydd teilwng am swydd a sefyllfa yn y byd, trwy bleidlais lygredig a rhagfarnllyd, yn droseddwr, yn ein barn ni, mor wirioneddol a'r lleidr mwyaf beiddgar a diegwyddor.

Gan fod gorchymynion pendant yn fynych yn ammhenderfynol yn eu natur, a chan mai ammhenderfynolrwydd rhwymedigaeth yw yr hyn sydd yn ei gwneyd yn ammherffaith, y mae yn canlyn fod gorchymynion pendant yn gyffredin yn cynnyrchu rhwymedigaeth ammherffaith.

Mae gorchymynion nacaol, y rhai ydynt yn aml yn ddiamwys a manwl, yn cyfansoddi rhwymedigaethau perffaith.

Mae y pummed gorchymyn yn un pendant, ac

y mae'r ddyledswydd sydd yn y cyfodi oddi wrtho yn ammherffaith. Mae y chweched gorchymyn yn un nacaol, ac felly yn rhoddi bodolaeth i rwymedigaeth berffaith. Y mae y rhwymedigaethau ammherffaith gan mwyaf yn perthyn i grefydd a rhinwedd; ac y mae deddfau y gymdeithas wladol yn gofalu yn bur helaeth am y rhwymedigaethau ereill.

IV. *Hawliau cyffredinol dynolryw.*

1. Hawl i ffrwythau a llysiau y ddaear. Nid yw rhanau dideimlad y greadigaeth yn agored i dderbyn niwed: ofer gan hyny fyddai chwilio i mewn i natur hawl pan nas gall y defnyddiad o hono gael ei ddilyn gan unrhyw berygl neu niwed. Ond hwyrach y byddai yn werth sylwi, er mwyn yr awgrymiad a wneir yn mlaen, gan fod Duw wedi creu chwant ynom am luniaeth, a'i fod wedi darparu pethau addas i'w diwallu, gellir tybio yn rhesymol ei fod wedi bwriadu i ni eu defnyddio at ein gwasanaeth.

2. Hawl i gig anifeilaidd.

Y mae hon yn hawl pur wahanol i'r un flaenorol. Y mae rhyw esgusawd yn ymddangos yn ofynol dros y boen a'r golled yr ydym yn achosi i anifeiliaid, drwy gymmeryd ymaith eu rhyddid, anafu eu cyrph, ac wedi hyny rhoddi terfyn ar eu bywydau er mwyn ein hyfrydwch a'n gwasanaeth ein hunain.

Y rhesymau a roddir dros yr arferiad yma yw y rhai canlynol:—1af, Fod y ffaith fod yr amrywiol rywogaethau o greaduriaid wedi eu creu i ysglyfaethu ar eu gilydd, yn cynnwys math o gyfatebiaeth yn profi fod y teulu dynol wedi eu bwriadu i ymborthi arnynt. 2il, Pe gadewid iddynt fyw, y buasent yn gorlenwi y byd, ac yn amddifadu dynion o'u lle ynddo, 3ydd, Eu bod yn derbyn iawn am yr hyn y maent yn ddioddef oddi ar ein llaw ni, drwy ein gofal a'n hamddiffyn drostynt.

Gellir sylwi ar y rhesymau hyn, fod y cyfatebiaeth y sonir am dano yn bur egwan, gan nad oes gan y creaduriaid direswm un ffordd arall i gynnal bywyd; ond y mae genym ni. Gall holl ddynolryw fyw ar ffrwythau, llysiau, a gwreiddiau, megys y gwna lliaws o'r llwythau Hindwaidd. Fe all y ddau reswm arall fod yn eithaf teg mor bell ag y maent yn myned; o blegid y mae'n ddiammheu pe bai dyn yn byw yn hollol ar fwyd llysieuol, na buasai y rhan fwyaf o'r creaduriaid a leddir i addurno ein byrddau byth yn cael modd i fyw: ond nid ydym mewn un modd yn cyfiawnhau ein hawl dros fywydau bwystfilod i'r graddau yr arferir hi genym ni. Er enghraifft:—Pa berygl sydd i bysgod ymyraeth â'n tiriogaeth ni yn y byd, tra yn mwynhau eu helfen naturiol eu hunain? Neu, beth a gyfrenir genym ni tuag at eu cynnaliaeth a'u diogelwch?

Y mae yn ymddangos y byddai yn anhawdd amddiffyn yr hawl yma drwy unrhyw resymau a geir yn ngoleuni natur; a rhaid i ni seilio yr hawl ar yr hyn a ddywedir yn yr Ysgrythyr; sef "Duw hefyd a fendithiodd Noah a'i feibion, ac a ddywedodd wrthynt, Ffrwythwch a lliosogwch, a llenwch y ddaear. Eich ofn hefyd a'ch arswyd fydd ar holl fwystfilod y ddaear, ac ar holl ehediaid y nefoedd, a'r hyn oll a ymsymmudo ar y ddaear, ac ar holl bysgod y môr; yn eich llaw chwi y rhoddaf hwynt. Pob ymsymmudydd yr hwn sydd fyw fydd i chwi yn fwyd: fel y gwyrdd-lysieuyn y rhoddais i chwi bob dim;" *Gen.* ix. 1—3. I Adda a'i hiliogaeth y rhoddwyd yn fwyd y "gwyrdd-lysieuyn" "a ffrwyth pob pren," a dim arall. Yn y rhan olaf o'r adnodau a ddyfynwyd, y mae'r hen ymborth yn cael ei ail adrodd, a chig anifeiliaid yn cael ei chwanegu. Ond ni chymmerodd hyn le hyd ar ol y diluw, ac nid oes genym wybodaeth fod y cynddiluwiaid yn bwyta cig. A oeddynt yn ymwrthod â chig, sydd gwestiwn arall. Yr ydym yn cael fod Abel yn cadw defaid, ac y mae'n anhawdd penderfynu i ba ddyben yr oedd yn eu cadw, heblaw i fod yn ymborth, os nad oedd yn meddwl iddynt fod yn aberthau i'r Arglwydd.

Yn ol rheswm neu ddadguddiad dwyfol, neu yn ol y ddau ynghyd, y mae'n eglur fod yr Hollalluog wedi bwriadu i gynnyrchion y ddaear fod yn foddion cynnaliaeth i'r bywyd dynol. Gan hyny, y mae pob gwastraff a chamddefnyddiad o'r cynnyrchion yma yn groes i fwriad ac ewyllys Duw. Dyma yr addysg a ddysgir i ni gan yr Iesu, pan y dywedodd wrth ei ddysgyblion, "Cesglwch y briwfwyd gweddill, fel na choller dim."

Gellir casglu hefyd oddi wrth yr un bwriad haelfrydig o eiddo Duw, na ddylid gwneuthur dim yn eiddo neillduol, os gellir yn gyfleus ei fwynhau gan bawb yn gyffredinol.

HAYDN, FRANCIS JOSEPH: tad cerddoriaeth gyd-ganiadol (*orchestral music*) ddiweddar, a'r mwyaf gwreiddiol a dychymygfawr o gyfansoddwyr—a anwyd yn Rohrau, tref fechan neu bentref o fewn o ddeutu pump a deugain o filldiroedd i Vienna, Mawrth 31ain, 1732. Saer coed ydoedd ei dad; a chyn priodi, yr oedd ei fam yn gogyddes yn nheulu Count Harrach—arglwydd y pentref. Yr oedd ei dad yn meddu llais tenor da, ac yn gallu chwareu ar y delyn. Ar ddyddiau gŵyl, ar ol yr addoliad, byddai yn chwareu y cyfeiliant tra y canai ei wraig; a phan nad oedd Haydn ond pump oed, arferai sefyll yn ymyl ei rieni, gan gymmeryd rhan yn y cyngherdd gyda dau ddarn o bren, un o ba rai a wasanaethai fel crwth, a'r llall fel bwa. Yn mhen llawer o flynyddoedd wedi hyn, a phan yn cael ei amgylchu âg anrhydedd a gogoniant, mynych yr adgofiai Haydn y cyngherdd bach hwn ar aelwyd ei rieni. Un Sabbath, ymwelodd cefnder y saer, o'r enw Frank, ysgolfeistr yn Hamburg, â'r teulu, a chymmerodd ran yn y *triawd*, a sylwai fod y bachgen (yr hwn, y pryd hwnw, nid oedd ond chwech oed) yn cadw amser gyda chywirdeb a rheoleidd-dra hynod. Yr oedd Frank yn deall cerddoriaeth yn dda, a chynnygiodd gymmeryd Haydn bach o dan ei addysgiaeth. Derbyniodd y rhieni y cynnygiad yn llawen, gan dybied y byddai yn haws iddynt gael Joseph i'r offeiriadaeth ond iddo fod yn deall cerddoriaeth. O dan gronglwyd ei berthynas caredig, dysgodd Haydn gerddoriaeth fel celfyddyd, a daeth yn fuan yn alluog i wneyd ddefnydd o grwth gwirioneddol, ac i ddeall rhyw gymmaint o'r Lladin. Un tro, dygwyddodd i Reuter, pencerddor Sant Stephan, eglwys gadeiriol Vienna, ddyfod i dŷ Frank i chwilio am blant i fod yn aelodau o'i gôr. Cynnygiodd Frank Joseph iddo, a rhoddodd Reuter iddo *ganon* i'w ganu yn y fan; yr hyn a wnaeth gyda chymmaint o ysbryd, cywirdeb, a phereidd-dra, nes swyno y cerddor yn hollol. Ei unig fai, meddai Reuter, gan wenu, ydoedd nad oedd yn gwneyd y *shakes*. A phan ofynodd iddo y rheswm, attebodd yn ffraeth, "Sut y gallech chwi ddisgwyl i mi wneyd y *shakes* pan na fedr fy nghefnder ei hun eu gwneyd?" "Deuwch yma," ebe Reuter, "a mi a'ch dysgaf." Cymmerodd y bachgen ar ei lin i'r dyben hwnw, a dywedir i Haydn wneyd *shake* dda yn y fan.

Digitized by Google

Wedi ei lygad-dynu gan lwyddiant ei ysgolhaig, tywalltodd swp o sirion i'w logell, y rhai yr oedd Frank wedi eu bwriadu i Reuter ei hun. Sylwai Haydn yn fynych wedi hyn ei fod yn tybied bob amser wrth wneyd *shake*, fod y sirion prydferth hyn yn ei safn.

Cymmerodd Reuter Haydn gydag ef i Vienna; ac yn ystod yr holl amser y bu o dan y meistr hwn, dywedai Haydn ei fod yn treulio un ar bymtheg neu ddeunaw awr bob dydd i astudio, a hyny o'i wirfodd; o blegid nid oedd yn ofynol i un o'r efrydwyr wneyd hyny am fwy na dwy awr. Trwy y diwydrwydd a'r penderfyniad diflino hwn, ynghyd â nerth ei athrylith, y gosododd y bachgen i lawr sylfaen ei enwogrwydd dyfodol.

Cyfansoddodd Mozart, pan yn ddeuddeg oed, *opera* a drodd allan yn llwyddiannus; pan yn dair ar ddeg oed, cyfansoddodd Haydn *mass* cyflawn, a chwarddodd Reuter am ei phen. Wedi ei ddarbwyllo, ar ol cymmharu ei waith ei hun â chyfansoddiadau rhai ereill, fod Reuter yn iawn, ac fod natur heb gelfyddyd fel eryr heb blu, daeth Haydn i'r penderfyniad o astudio *counterpoint*. Ond nid oedd Reuter yn dysgu ei ysgolheigion i gyfansoddi; ac nid oedd un o'r rhai a wnaent hyny yn Vienna yn ddigon haelfrydig i addysgu bachgen tlawd a diddylanwad fel Haydn. Ond fe allai mai i hyn, gan mwyaf, y mae gwreiddioldeb Haydn i'w briodoli. O dan feistr, gallasai ochelyd rhai o'r camgymmeriadau y syrthiodd iddynt wrth gyfansoddi cerddoriaeth eglwysig a chwareÿddol ar ol hyny, ond buasai yn rhwym o fod yn llai gwreiddiol. Prynodd weithiau Fuchs, Mattheson, Emanuel Bach, a Kirberg, ar egwyddorion a rheolau cyfansoddiad, ac astudiodd hwy gyda diwydrwydd mawr, gan lafurio mewn unigrwydd, ac etto meistroli pob anhawsder cerddorol; a mawr oedd yr hyfrydwch a deimlai wrth wneyd hyny. Er ei fod yn dlawd, yn crynu gan oerni, ac yn flinedig o eisieu cysgu, tra yn eistedd beunydd wrth hen delgord ysigedig, dywedai na bu yn fwy dedwydd ar un cyfnod o'i fywyd.

Tua'r adeg yma, daeth i gydnabyddiaeth â'r enwog Porpora, yr hwn oedd yn byw yn hotel y llysgenhadwr o Venice; a chan dalu sylw dyfal i ddywediadau yr hen gerddor, casglodd lawer o wybodaeth oddi wrtho, yn enwedig gyda golwg ar ganu; gyda'r hyn y gwnaeth gymmaint o gynnydd, fel y darfu i'r llysgenhadwr, ar ol ei glywed, ei gymmeryd i'w wasanaeth, a phennodi swm bychan o gyflog iddo. Ond pan ddaeth yn ddeunaw oed, torodd ei lais; a chyda hyny collodd ei foddion cynnaliaeth. Yr oedd ei dad heb fodd i'w gynnorthwyo; ac yn nghanol ei dlodi a'i dristwch, cynnygiwyd iddo gartref yn nhŷ Keller, gwneuthurwr berwigau, yr hwn a'i derbyniodd yn llawen, ac a'i galluogodd i fyned yn mlaen yn ddirwystr gyda'i efrydiau. Ond cafodd ei arosiad yn nhŷ Keller ddylanwad pwysig ac anffortunus ar ei amgylchiadau yn y dyfodol. Yr oedd gan Keller ddwy ferch, a chynnygiodd un o honynt yn wraig i Haydn: yntau, wedi ei lyngcu i fyny gan ei astudiaethau, ac heb feddwl ond ychydig am gariad, a dderbyniodd y cynnygiad. Yn mhen amser, cyflawnodd ei ymrwymiad yn anrhydeddus; ond ni chwanegodd y briodas at gysur y naill na'r llall.

Dechreuodd Haydn gyfansoddi *sonatas* i'r berdoneg, y rhai a werthai am bris isel i'r ychydig fenywod oedd o dan ei addysgiaeth. Hefyd, ysgrifenodd ***minuets, allemands,* a *waltzes*** **i'r *Ridotto.*** Wrth berfformio serenawd yn yr ystrydoedd gyda dau o'i gyfeillion, fe dynodd sylw Curtz, arolygydd chwareudy Carinthia, yr hwn a'i cyflogodd i ysgrifenu cerddoriaeth, a throdd yr ymdrafodaeth allan yn llwyddiannus. Ond nid oedd talent gerddorol Haydn erioed wedi ei bwriadu i'r *stage*. Dewisodd ef ei faes priodol pan yn ugain oed: cyfansoddodd chwe thriawd—gwreiddioldeb a chywreinrwydd y rhai a'i dygasant i sylw ar unwaith. Yn fuan wedi hyn, cyhoeddodd ei bedwarawd cyntaf, yr hwn a ennillodd boblogrwydd digyffelyb. Gan adael tŷ Keller, aeth Haydn i lettya gyda Martinez; a daeth i gydnabyddiaeth â'r bardd Metastasio. Bu am amser yn rhoddi addysg i ferch y bardd, ac addysgodd yr olaf yntau yn yr Italaeg, ac mewn llenyddiaeth gyffredinol: hefyd, rhoddodd iddo lawer o gyfarwyddiadau gwerthfawr gyda golwg ar drefnu geiriau i gerddoriaeth. Dygodd hyn ef i sylw y Count Mazartin, boneddwr rhagorol am ei nodded i gerddorion a cherddoriaeth. Yn 1759, aeth Haydn i'w wasanaeth ef; ac wedi hyny, yn 1761, i wasanaeth y tywysog cyfoethog Anthony Esterhazy, a pharhaodd yn bencerddor iddo ef, ynghyd â'i olynydd Nicholas, am lawer o flynyddoedd. Nid anghofiodd Haydn ei ymrwymiad â Keller; a chan ei fod yn awr mewn gwell amgylchiadau, priododd Ann ei ferch; ond gadawodd hi yn mhen amser, o blegid ei hymddygiad a'i thymmer ddrwg.

Yr oedd Haydn bellach yn arweinydd i gerddfa (*orchestra*) gyflawn a rhagorol, ac wedi ei fendithio â'r fath gyfuniad o amgylchiadau dedwydd fel ag i roddi i'w athrylith gyflawnder o le i weithredu. Trigai yn mhalas Eisenstädt, yn Hungary; codai yn bur foreu, ymwisgai yn daclus, a gosodai ei hun yn ymyl bwrdd bychan wrth ochr ei berdoneg, ac yno yr arosai hyd yr hwyr. Y pryd hwnw, elai i'r cyngherddau neu i'r *opera*, yr hon a gynnelid yn mhalas y tywysog bedair gwaith yn yr wythnos. Weithiau, ond yn bur anfynych, fe dreuliai y boreu i hela, a threuliai hyny o amser oedd ganddo yn ngweddill yn mhlith ei gyfeillion a Mademoiselle Boselli—cantores o gryn enwogrwydd. Cyffelyb ydoedd cwrs ei fywyd am ddeng mlynedd ar hugain; a gall hyn roddi cyfrif am swm anferth ei gyfansoddiadau—mewn cerddoriaeth offerynol, cerddoriaeth eglwysig, ac *operas*. Yn ystod hanner cant o flynyddoedd, nid oedd swm ei gynnyrchion yn ddim llai na 527 o gyfansoddiadau offerynol; ac nid oes un o'r rhai hyn i gyd yn gopi neu yn efelychiad o un arall, ond y rhai a fwriadodd efe i fod felly. Yr oedd ganddo seindorf gyflawn yn byw yn yr un tŷ, a phob amser wrth ei alwad, ac yr oedd felly yn alluog i roddi prawf ar bob darn a ysgrifenai cyn ei gyhoeddi i'r byd; pryd yr oedd yn gyfryw ag i herio beirniadaeth y beirniad galluocaf.

Costiodd cyfansoddiadau goreu Haydn iddo lafur dirfawr; nid oddi ar ddiffyg drychfeddyliau, ond o blegid tynerwch a manylrwydd digyffelyb ei chwaeth, yr hon yr oedd bron yn anmhossibl ei boddloni. Cymmerai *symphony* iddo lawn mis, weithiau, i'w gyfansoddi, a *mass* ddeufis yn fynych. Byddai ysgrif o un darn yn fynych yn cymmeryd cymmaint o le ag a fuasai dau neu dri o ddarnau. Ond er fod hyn yn ymddangos yn llafur dirfawr, byddai Haydn yn arfer dyweyd na byddai byth yn fwy happus na phan yn gweithio. Ni ddaeth dim i'w ofidio hyd farwolaeth y Tywysog Nicholas, yn y flwyddyn 1789, ynghyd â marwolaeth ei gyfeilles Boselli ar ol

Digitized by Google

epistol hwn. Ei awduriaeth yn unig a ammheuid gan Erasmus, Calvin, a Beza. Yr oedd Luther yn analluog i weled ei gyssondeb âg athrawiaethau Paul; ac am hyny, golygai mai gwaith un o ddysgyblion yr apostol ydoedd; yr hwn a adeiladodd, nid yn unig aur, arian, a meini gwerthfawr, ond hefyd coed, gwair, a sofl, ar sylfaen ei feistr. A thra yr oedd Eglwys Groeg yn y bedwaredd ganrif yn rhoddi iddo y degfed lle, a phrydiau ereill (fel y rhydd eglwysi Syria, Rhufain, a Phrydain yn awr), y pedwerydd lle ar ddeg i'r epistol hwn yn mhlith epistolau Paul, yr ydym yn cael fod Luther, pan argraphodd ei gyfieithiad o'r Beibl, wedi ei wahanu oddi wrth epistolau Paul yn hollol, a'i osod gydag Epistol Iago ac Iudas, yn nesaf i'r Dadguddiad; gan roddi ar ddeall, drwy y fath gyfnewidiad, ei fod yn ystyried y pedwar llyfr hyn yn llai eu pwys a'u hawdurdod na'r gweddill o'r Testament Newydd. Cefnogwyd ef yn ei syniad gan amryw; ond nid ydyw yn ymddangos fod yr Eglwys Lutheraidd wedi mabwysiadu y syniad hwn.

Y mae awdurdod canonaidd y Llythyr at yr Hebreaid, o ganlyniad, yn ddiogel, cyn belled ag y gall traddodiad eglwysig sicrhau; a buasai pob ammheuaeth ynghylch hyn wedi diflanu yn llawer cynt pe buasai yn bossibl dwyn gwybodaeth eangach a beirniadaeth fwy pwyllog i gyffyrddiad â'r pwngc.

II. *Pwy ydoedd awdwr yr epistol?* Y mae y cwestiwn hwn o lai pwys ymarferol na'r olaf; o blegid fe dderbynir llawer o lyfrau fel rhai canonaidd, tra nad ydys yn gwybod ond ychydig neu ddim am eu hawdwyr. Yn yr epistol hwn, y mae enw yr awdwr yn eisieu. Y mae gwahanol awdwyr, er dyddiau Clement o Alexandria, wedi rhoddi cyfrif am hyn, trwy dybied fod Paul yn gadael allan ei enw, rhag y gallai yr olwg arno anfoddio yr Iuddewon Cristionogol; y rhai, o bossibl, a edrychent arno fyth fel gelyn y gyfraith (*Act.* xxi. 21), yn hytrach na llesolwr eu cenedl hwy: *Actau* xxiv. 7. A chwanega Pantenus, neu rywun arall o gynoeswyr Clement, mai y rheswm nad ysgrifenodd Paul at yr Iuddewon fel apostol oedd, am ei fod yn golygu yr Arglwydd Iesu ei hun yn apostol iddynt hwy. Gwel yr ymadrodd nodedig yn *Heb.* iii. 1.

Yr oedd yn arferiad gan y tadau boreuaf ddyfynu ymadroddion ysgrythyrol heb enwi yr awdwr na'r llyfr o ba un eu dyfynwyd. Ond nis gall fod ammheuaeth rhesymol nad oedd yr eglwysi yn gyffredinol ar y cyntaf, oddi gerth yn ngogledd Affrica, yn edrych ar Paul fel ei awdwr. "Yn mhlith y tadau Groegaidd," medd Olshausen [*Opuscula*, td. 95], "nid oes neb yn cael ei enwi yn yr Aipht, Syria, Palestina, Asia, neu Groeg, ag sydd yn wrthwynebol i'r syniad fod yr epistol hwn oddi wrth Paul." Y tadau Alexandraidd oeddynt y rhai cyntaf i sylwi ar y gwahaniaeth rhwng arddull yr epistol hwn a'r tri ar ddeg ereill; a derbynient hwy ef fel eiddo Paul yn yr un ystyr ag y derbynir *Act.* xxii. 1–21. Yr oedd Clement yn priodoli cyfieithiad yr epistol i'r Groeg, o gopi Hebraeg Paul, i Luc. Yr oedd Origen, gan fabwysiadu golygiad rhai oedd o'i flaen yn Alexandria, yn credu fod y meddyliau yn eiddo Paul, ond mai eiddo Luc neu Clement o Rufain oedd yr iaith a'r cyfansoddiad—y wisg yn mha un yr ymddangosai y meddyliau hyny. Nid oedd Tertullian yn gwybod fod dim cyssylltiad rhwng Paul a'r epistol hwn; a dywed mai Barnabas oedd ei awdwr tybiedig, yn unol â thraddodiad eglwysi gogledd Affrica; ac yn amser Awstin yr oedd amryw yn gwadu mai Paul oedd ei awdwr. Yn nyddiau Isidore o Seville, yr oedd ysgrifenwyr Lladinaidd yn golygu mai ei awdwr ydoedd Barnabas, neu Clement. Yr oedd Clement ei hun yn ddistaw o berthynas i awdwr yr epistol hwn, fel ereill a ddyfyna; ac y mae ysgrifenwyr diweddarach, hyd ganol y bedwaredd ganrif, yn gwadu mai Paul oedd ei awdwr.

Wedi hyn fe fabwysiadwyd syniad y tadau Alexandriaidd yn yr eglwysi; sef, fod gan Paul o leiaf ran yn yr epistol hwn. Dyna ydoedd golygiad Eusebius; ac fe allai mai derbyniad graddol y syniad hwn a arweiniodd i symmudiad yr epistol o'r degfed i'r pedwerydd lle ar ddeg yn mhlith yr epistolau, sef yn niwedd epistolau Paul, yr hyn a wnaed tuag amser Eusebius. Cadwodd yr epistol y lle hwn hyd ddyddiau Luther; yr hyn a awgrymai fod yr eglwys yn yn gyffredinol yn ei ystyried fel un o gyfansoddiadau Paul, ond nid yn hollol yn yr un ystyr a'r deg epistolau ereill, y rhai a anfonwyd at eglwysi neillduol.

Yn ystod y tair canrif diweddaf, y mae pob gair ac ymadrodd yn yr epistol wedi ei chwilio gyda'r gofal mwyaf am brofion grammadegol a hanesiol o'i awduriaeth. Y mae casgliadau personau unigol yn bur amrywiol; ond nid yw y penderfyniad cyffredinol yn newid ond ychydig ar draddodiad yr hynafiaid.[1] Y mae Forster [*Apostolical Authority of the Epistle to the Hebrews*], a Stuart [*Commentary on the Epistle to the Hebrews*], ar ol ymchwiliad manwl i iaith a phrofion mewnol yr epistol hwn, yn dyfod i'r penderfyniad fod yr iaith, yn gystal a'r meddyliau, yn eiddo Paul. Cawn hefyd y dysgedig Wordsworth [*On the Canon of the Scriptures*, dar. ix.] yn tueddu yr un ffordd. Yn ei *Introduction to the New Testament*, rhydd Dr. Davidson grynodeb manwl a chyflawn o ymresymiadau y prif feirniaid diweddar sydd wedi chwilio i brofion mewnol yr epistol; ac y mae yn dyfod i'r penderfyniad mai Paul ydoedd ei awdwr, ond fod Luc wedi cymmeryd rhan yn ei ysgrifeniad, fel ag i wneyd iddo ymddangos yn ei iaith a'i ddullwedd presennol. Tueddai yr Almaeniaid, yn lled gyffredinol, i briodoli yr epistol i rywun arall yn lle Paul. Yn eu plith, yr oedd Luther yn ei briodoli i Apollos; ac y mae ei syniad ef wedi ei fabwysiadu gan Le Clerc, Bleek, De Wette, Tholuck, Bunsen, a chan ereill.[2] Yn ol Weseler, Thiersch, ac ereill, Barnabas[3] ydyw yr awdwr. Luc, medd Grotius. Y mae Neander yn ei briodoli i ryw ŵr apostolaidd a fu dan ddysgyblaeth Paul. O'r tu arall, y mae Ewald a Wetstein yn golygu, nid yn unig nad Paul oedd ei awdwr, ond mai nid at yr Hebreaid yr ysgrifenwyd ef; ond at ryw eglwys mewn tref Italaidd bwysig

[1] Ystyria yr Esgob Pearson fod y dull yn mha un yr enwir Timotheus (xiii. 23) yn brawf digonol mai Paul ydoedd awdwr yr epistol hwn [*De successione priorum Romæ Episcoporum*, viii. 8.]

[2] Y mae Alford [*Greek Testament*, cyf. iv.], yn dyfod i'r penderfyniad fod yr epistol wedi ei ysgrifenu gan Apollos at y Rhufeiniaid, o Ephesus, B. A. 69.

[3] Yn mhlith y rhai uchod, y mae rhai sydd yn gwadu mai Barnabas a ysgrifenodd yr epistol sydd yn dwyn ei enw. Os caniateir nad oes genym enghraifft o'i arddull, y mae yr ymresymiad sydd yn ei gyssylltu â'r Epistol at yr Hebreaid yn dyfod yn llai tebygol. Y mae llawer o amgylchiadau sydd yn dangos fod iddo rai cymmhwysderau at ysgrifenu epistol o'r fath—ei ddisgyniad o lwyth Lefi, ei addysg offeiriadol, ei gymmeriad da yn Ierusalem, ei gydnabyddiaeth âg eglwysi y Cenedloedd, ei gym deithas â Paul, traddodiad Tertullian, &c.

Digitized by Google

gan Iuddew dysgedig o Ierusalem, yr hwn a anfonodd yr epistol gyda chenhadaeth a anfonasid i Wlad Canaan. Y mae y rhan fwyaf o'r syniadau hyn yn amddifad o awdurdod hanesiol; ac y maent yn gyfryw ag y gallai unrhyw ddyn dysgedig eu lliosogi, hyd nes y cynnwysent bob enw adnabyddus yn mhlith cydoeswyr Paul.

Ond nid yw traddodiad y tadau Alexandriaidd heb anhawsderau yn gyssylltiedig âg ef. Y mae yn amlwg fod y dull o ymresymu yn yr epistol yn wahanol i'r hyn ydyw yn epistolau ereill Paul. Ond gellir gofyn—A ydyw mabwysiad dull gwahanol o ymresymu yn anghysson âg amrywiaeth doniau y meddwl hwnw a amlygai ei hun mewn ysgrifeniadau mor amrywiol a'r epistolau a briodolwyd bob amser i Paul?—neu mewn anerchiadau mor amrywiol a'r rhai a gyflwynwyd yn Athen a Lycaonia i Iuddewon Antioch, a henuriaid Cristionogol Miletus? Ai nid peth i'w ddisgwyl ydyw yr amrywiaeth hwn mewn dyn oedd, yn Antioch, yn condemnio enwaediad a Phedr, ond yn Ierusalem yn cadw y llw Nazareaidd, ac yn gwneyd esgusodion dros y Cristionogion Hebreaidd; yr hwn oedd yn proffesu bod yn bob peth i bawb (1 *Cor.* ix. 22); yr hwn yr oedd ei addysg yn ei gymmhwyso i amlygu ei feddyliau yn ieithoedd Syria fel yn y Groeg, ac i amddiffyn yn mhob man pa beth bynag oedd wirionedd, yn nhraddodiadau y Rabbiniaid fel yn athroniaeth Alexandria?

Os gofynir i ba raddau, a chan bwy y cynnorthwywyd Paul yn nghyfansoddiad yr epistol hwn, rhaid atteb yn ngeiriau Origen, "Pwy a ysgrifenodd (*h.y.*, a ysgrifenodd dros yr awdwr, fel yn *Rhuf.* xvi. 22) yr epistol hwn, Duw yn unig a ŵyr." Nid ydyw yr arddull yn hollol fel eiddo Clement o Rufain. Mae yr arddull a'r meddwl yn hollol wahanol i'r eiddo awdwr Epistol Barnabas. O'r tri gŵr apostolaidd a enwir gan y tadau Affricanaidd, Luc ydyw y tebycaf o fod wedi cymmeryd rhan yn yr epistol hwn. Y mae y tebygolrwydd sydd rhwng dullwedd ysgrifeniadau Luc a'r Epistol at yr Hebreaid, ei gymdeithas barhaus â Phaul, a'i arferiad o wrandaw ac ysgrifenu ymresymiadau yr apostol, yn ffurfio prawf tebygol cryf o'i blaid.

Ond os credir fod Luc yn gyd-awdwr â Phaul, pa ran o'r cyfansoddiad sydd i'w briodoli iddo? Y mae y cwestiwn hwn wedi ei ofyn gan rai a ystyriant gyd-awduriaeth yn ammhossibl, ac yn priodoli yr epistol i rywun arall yn lle i Paul. Nid yw yn hawdd, fe allai—yn sicr nid yw yn angenrheidiol—rhoddi atteb a foddlonai, nac a ddistawai, bersonau sydd yn estyn eu hymchwiliadau hanesyddol i fröydd tebygolrwydd. Pwy sydd yn alluog i ddynodi *y rhan* oedd gan Timotheus, Silfanus, a Sosthenes yn y saith epistol hyny—1 a 2 Corinthiaid, Philippiaid, Colossiaid, 1 a 2 Thessaloniaid, a Philemon—lle yr enwir hwy mewn cyssylltiad âg enw Paul? Pa cyn belled y mae iaith yr efengylwr Marc yn gwisgo adgofion ysbrydoledig Pedr; y rhai a gofnodir, medd traddodiadau yr hynafiaid, yn yr Efengyl sydd yn dwyn ei enw? Neu, cymmerwn yr ysgrifeniadau a briodolir i Luc ei hun—pa un ydyw rhan y rhai oedd "o'r dechreuad yn gweled, ac yn weinidogion y gair" (*Luc* i. 2); neu pa un ydyw rhan yr apostol Paul yn yr Efengyl hono, yr hon a ysgrifenwyd gan Luc, medd rhai—ac nid heb gefnogaeth traddodiad—o dan lygad ei feistr yn nghharchar Cesarea? Neu, pwy all nodi allan ran y meistr neu y dysgybl yn y saith anerchiad hyny a draddodwyd ganddynt yn Antioch, Lystra, Athen, Miletus, Ierusalem, a Cesarea. Os Luc a ysgrifenodd Efengyl Paul, ac a grynhôdd ei anerchiadau cenhadol, ai nid ydyw yn bossibl ei fod wedi hyny wedi cymmeryd rhan bwysicach yn nghyfansoddiad yr Epistol at yr Hebreaid?

*Rhoddwn yma ychydig o engreifftiau o'r profion mewnol mai yr apostol Paul yw awdwr yr epistol.*—Fe fydd y darllenydd yn fwy galluog i ffurfio barn iddo ei hun ar y rhau yma o'r cwestiwn; heblaw fod y gangen hon o'r ymchwiliad yn fwy addysgiadol ynddi ei hun.

1. Y mae amgylchiadau yn cael cyfeirio atynt yn yr epistol. "Gwybyddwch ollwng ein brawd Timotheus yn rhydd;" *Heb.* xiii. 23. Yr oedd Timotheus wedi bod yn gyfaill, ac yn gydymaith i Paul. Yr ydoedd gyda'r apostol yn Rhufain yn ystod ei garchariad yno. Yn *Phil.* ii. 19, y mae yr apostol yn llefaru am anfon Timotheus ar fyrder atynt. Pa beth gan hyny a all fod yn fwy tebygol nag iddo wneuthur felly? ac iddo yn absennoldeb Timotheus, ysgrifenu yr epistol hwn, yn yr hwn y mae yn hysbysu iddynt fod Timotheus wedi ei anfon ymaith, ac y byddai iddo ef dalu ymweliad â hwynt yn fuan, os byddai i'r efengylydd ddychwelyd yn fuan o Philippi.

Yr ochr arall, dywedir mai y casgliad ydyw, fod awdwr yr epistol mewn rhyw le gwahanol i Timotheus, yr hwn oedd wedi ei *ollwng yn rhydd* o garchar—dyna ystyr y gair, meddir—a'i fod yn aros am ddyfodiad Timotheus, ac yn bwriadu, os deuai yn fuan, i dalu ymweliad â'r Hebreaid gydag ef. Dadleuir dros y ddwy ochr oddi wrth yr adnod hon.

Yn *Heb.* xiii. 18, 19, y mae yr ysgrifenydd yn gofyn am weddïau y rhai y mae yn eu cyfarch am ryddhad buan; ac yn *adn.* 23 y mae yn dadgan ei obaith i dalu ymweliad â hwy ar fyrder. Oddi wrth hyn, cesglir fod yr ysgrifenydd yn ngharchar, a'i fod yn disgwyl yn fuan cael rhyddhâd; yr hyn a'i galluogai i dalu yr ymweliad â hwy.

Ymadrodd arall a ddefnyddir yw, "Chwi a gyd-ddioddefasoch â'm rhwymau i hefyd;" *Heb.* x. 34; a'r casgliad ydyw, fod hyn yn gysson â'r hyn a wyddom am garchariad Paul. Ond yr ochr arall, dadleuir mai y gwir ddarlleniad ydyw, "Chwi a gyd-ddioddefasoch â'r carcharorion;" ac felly, nad ydyw yn cynnwys cyfeiriad at Paul. Dywedir hefyd am y cyfarchiad yn *Heb.* xiii. 24; "Y mae y rhai o'r Ital yn eich anerch"—y gallesid dysgwyl i Paul anfon y cyfryw. Nid yw hyn, medd Alford, yn profi dim y naill ffordd na'r llall.

Yr enghraifft gryfaf yn erbyn awduriaeth Paul ydyw, *Heb.* ii. 3; "ac a sicrhawyd i ni gan y rhai a'i clywsant." Y mae llawer o esbonwyr wedi gosod pwys mawr ar hyn yn erbyn awduriaeth yr apostol. Hyn ydyw grym eu hymresymiad—fod Paul yn dadgan yn gryf ei apostoliaeth yn ei epistolau adnabyddus; ei fod wedi derbyn yr efengyl, nid oddi wrth ddynion, ond oddi wrth yr Arglwydd ei hun; ac o ganlyniad, nas gallwn feddwl y buasai un oedd yn arfer llefaru felly yn ysgrifenu fel yn y geiriau sydd dan sylw—"ac a sicrhawyd i ni gan y rhai a'i clywsant ef;" ac yn enwedig gwneuthur hyn wrth ysgrifenu at yr eglwys lle yr oedd awdurdod Paul heb ei sefydlu fel awdurdod yr apostolion ereill. Y mae Alford, ar ol lliaws o rai ereill, o amser Luther a Calvin, yn gosod pwys mawr ar hyn. Ar y llaw arall, y mae llawer nas gallant weled fod yr holl bwys yma i'w osod ar yr ymresymiad hwn; ac nad oes yn yr ymadroddion hyn ond a geir yn fynych

Digitized by Google

yn ieithwedd Paul, sef ei fod yn gosod ei hun yn mhlith ei ddarllenwyr; heb, er hyny, feddwl gosod ei hun ar yr un tir a hwynt yn mhob dim. Mae y dull hwn o ymadroddi i'w gael yn yr Epistol at yr Hebreaid: vi. 1—3; x. 24—26; xii 1. Mae yn arferol mewn epistolau ereill: *Rhuf.* xii. 11—13; 1 *Cor.* x. 8, 9; 2 *Cor.* vii. 1. Y mae yr un arddull i'w ganfod hyd yn oed yn yr adnodau cylchynol, "Pa fodd y diangwn *ni*:" "Y mae yn rhaid i *ni* ddal yn well." Pa beth gan hyny a allasai fod yn fwy naturiol nag iddo ddywedyd "Ac a gadarnhawyd i *ni* trwy y rhai a'i clywsant ef." Heblaw hyny, yr oedd gwybodaeth Paul o'r hyn a lefarodd Crist ar y ddaear yn ymddibynu mewn mesur ar dystiolaeth y rhai a'i clywsant ef. Gallasai amgylchiadau, nad ydym ni yn hysbys o honynt, ei attal rhag rhoi ei enw; ac o ganlyniad, rhag rhoddi arbenigrwydd i'w apostoliaeth.

(2.) Y mae cyflead defnyddiau yr epistol yn gyffelyb i epistolau addefedig Paul. Mae cymmysgedd o'r athrawiaethol a'r ymarferol, yn niwedd epistolau Paul: dygir amgylchiadau personol i mewn felly yn yr epistol hwn. Y mae yn gofyn am ran yn eu gweddïau; yn eu gorchymyn i Dduw yr heddwch; yn anfon ei anerchiadau ei hun ac ereill; ac yn dibenu yn y dull arferol o gyhoeddi bendith. Cymmharer epistolau Paul yn hyn â'r epistol dan sylw.

3. Y mae tebygolrwydd yn nghynnwysiad athrawiaethol yr epistol hwn ac eiddo epistolau addefedig Paul.

(1.) Am berson Crist: *Heb.* i. 3; 2 *Cor.* iv. 4; *Col.* i. 15, 16, 17, &c.

(2.) Ei ddarostyngiad a'i ddyrchafiad, a'r berthynas rhyngddynt: *Heb.* ii. 9; xii. 2; i. 4; *Phil.* ii. 8, 9. Ni cheir y meddwl fod Crist wedi myned trwy ddyoddefiadau i'w ogoniant, ac wedi ei ennill yn wobr am ei ufudd-dod hyd angeu, ond yn epistolau Paul, a'r Epistol at yr Hebreaid.

(3.) Efe a ddinystriodd nerth marwolaeth a'r diafol: *Heb.* ii. 14; 1 *Cor.* xv. 54, 55; 2 *Tim.* i. 10.

(4.) Y mae Crist wedi marw unwaith dros bechod: *Heb.* ix. 26, 28; *Rhuf.* vi. 9, 10.

(5.) Y mae yn gyfryngwr rhwng Duw a dynion: 1 *Tim.* ii. 5. Y mae yr ymadrodd, *offeiriad*, a geir yn yr epistol hwn yn cynnwys cyfryngdod.

(6.) Ar ol gorphen gwaith y prynedigaeth, esgynodd i'r nefoedd: *Heb.* vii. 26; iv. 14; *Eph.* iv. 10.

(7.) Y mae yn eiriol gyda'r Tad: *Heb.* vii. 25; *Rhuf.* viii. 34.

(8.) Y mae yn teyrnasu ar ddeheulaw y Tad hyd nes y darostynger ei holl elynion dan ei draed: *Heb.* x. 13; 1 *Cor.* xv. 25; *Titus* ii. 13; 2 *Tim.* iv. 1, 8.

(9.) Y mae y cyfammod cyntaf yn gysgod y daionus bethau i ddyfod: *Heb.* viii. 5; 1 *Cor.* ii. 17.

(10.) Y mae gwahaniaeth pwysig rhwng y cyfammod cyntaf a'r ail. Y mae y cyntaf yn rhoi puredigaeth allanol, heb buro y gydwybod. Y mae yr ail yn dwyn purdeb a heddwch i'r gydwybod: *Heb.* vii. 16—19; ix. 9—13, &c. &c.; 2 *Cor.* iii. 6, 7; *Gal.* iii. 3, 24.

(11.) Y mae dyfodfa at y Tad trwy Grist: *Heb.* x. 19, 20; *Eph.* ii. 18; *Rhuf.* v. 2.

(12.) Y mae gwahaniaeth rhwng ffydd, gobaith, a chariad: *Heb.* x. 22—24; 1 *Cor.* xiii. 13.

Y mae yn amlwg y gellir estyn y gymmhariaeth hon lawer yn mhellach. Ond y mae yn deg i hysbysu fod y rhai sydd yn erbyn awduriaeth Paul wedi defnyddio yr un dull o ymresymu, gan geisio dangos fod gwahaniaethau pwysig rhwng epistolau Paul a'r Epistol at yr Hebreaid. Yr enghreifftiau a ddygir ger bron ydyw y rhai canlynol, a'r cyffelyb. Nid oes dim yn yr epistol hwn am adgyfodiad Crist a ffydd gyfiawnhaol. Y mae yr epistol hwn yn cynnwys syniadau nad ydynt yn un epistol arall; sef, *perffeithiad* Crist, cymmhariaethau, a chymmhwysiadau cysgodol. Nis gallwn deimlo fod nemawr o rym yn y gwahaniaethau hyn i wrthbrofi awduriaeth Paul. Nid ydyw amrywiaeth yn y dull o osod allan y gwirionedd yn brawf o anghyssondeb: ac hefyd yr oedd amgylchiadau gwahanol yn gofyn am wahaniaeth yn y dull o osod allan y gwirionedd. Wrth fyned dros y rhai hyn bob yn un ac un, gellir dangos nad oes ynddynt fawr o rym i'r dyben y defnyddir hwynt. Y mae y maes yn dra eang ac adeiladol, fel maes ymchwiliad i'r cyffelybiaethau a'r gwahaniaethau sydd rhwng yr epistol hwn ac epistolau addefedig Paul. Y mae hyn yn ddigon fel enghraifft o natur yr ymchwiliad.

Gallwn enwi yn fyr pa rai ydyw y prif wrthddadleuon i awduriaeth Paul. 1. Yr anhawsder i ddyfalu pa beth a allasai fod ei reswm dros beidio rhoddi ei enw, os efe oedd yr awdwr: ond y mae yr anhawsder yr un, os Luc, neu Apollos, neu Barnabas, neu ryw un arall, oedd yr awdwr. 2. Y mae rhai yn dadleu fod yr ymresymiad yn fwy cywrain a rheolaidd nag a geir yn epistolau Paul. Ond gellir atteb fod yr ymresymiad mor gywrain a rheolaidd yn yr Epistol at y Rhufeiniaid ag ydyw yn yr Epistol at yr Hebreaid. 3. Y mae rhai yn dadleu nad ydyw Paul yn galw Crist yn offeiriad, yn fugail, yn apostol, &c. Attebir fod Paul yn dewis enwau ffugrol, yn ol amgylchiadau y rhai y mae yn ysgrifenu atynt. Yr oedd yn naturiol wrth ysgrifenu at Iuddewon i osod allan Crist a'i efengyl trwy gyfrwng eu seremonïau a'u cysgodau hwy.

Am y prawf allanol, yr oedd awduriaeth Paul yn cael ei gydnabod o'r dechreu yn yr eglwys ddwyreiniol—y gangen hono o'r eglwys oedd yn meddu y manteision goreu i wybod. Yn yr eglwys orllewinol, ni chydnabyddid awduriaeth Paul hyd y bummed ganrif

Oddi wrth y cwbl, gallwn gasglu:—1. Nad oes gan neb well hawl i'w ystyried yn awdwr yr epistol hwn na Phaul. 2. Y mae y profion mewnol ac allanol yn gryfach dros mai efe ydyw yr awdwr na thros awduriaeth neb arall. 3. Nid oes un rhwystr anorfod dros briodoli yr epistol iddo ef.

III. *At bwy yr anfonwyd yr epistol?* Gofynwyd y cwestiwn hwn mor foreu ag amser Chrysostom, yr hwn sydd yn ei atteb—"at yr Iuddewon yn Ierusalem a Gwlad Canaan." Y mae yr hen draddodiad oedd yn meddiant Clement o Alexandria, a'r hwn sy'n hysbysu iddo gael ei ysgrifenu yn Hebraeg, yn awgrymu yr un peth. Ac y mae y cyndynrwydd â pha un yr oedd yr eglwys ddwyreiniol o'r dechreu yn hòni awduriaeth yr epistol hwn, yn ein harwain i'r penderfyniad iddo gael ei anfon yno ar y cyntaf gyda digon o dystiolaethau o'i blaid. Fel Epistol Cyntaf Ioan, y mae yn ddiffygiol o anerchiad personol; ond etto y mae yn wahanol i draethawd, trwy fod ynddo liaws o gyfeiriadau amgylchiadol. Nid yw fel pregeth chwaith, gan ei fod yn terfynu gyda chenadwri ac anerchiadau. Nis gellir profi fod yr enw sydd wrtho yn awr wedi ei osod gan yr ysgrifenydd: gall ei fod wedi cael ei roddi wrtho yn unol â'r defnydd a wneir o'r gair *Hebreaid* yn y Testament Newydd, os anfonwyd ef naill ai at

Digitized by Google

Iuddewon yn Ierusalem, y rhai a siaradent Aramaeg (*Actau* vi. 1,) neu ynte at yr Iuddewon yn gyffredinol: 1 *Cor.* xi. 22; *Phil.* iii. 5.

Ond y mae ymresymiad yr epistol yn gyfryw ag y gellid ei gymmhwyso yn fwyaf effeithiol at eglwys fuasai yn gynnwysedig o Iuddewon o waedoliaeth yn unig—rhai fuasai yn berffaith adnabyddus o wasanaeth y deml, ac yn ymlynu wrtho. Ac nis gellir cael gafael ar gyfundeb o'r fath ond yn Ierusalem, neu yn agos iddi [*Bleek, Hebraer* i. 21]. Ac os oedd yr eglwys yn Ierusalem y pryd hwn, fel ar y cyntaf, yn gynnwysedig o liaws o offeiriaid (*Act.* vi. 7)—dosbarth o bobl oedd o angenrheidrwydd yn gydnabyddus â chaniadau y deml; yn arfer âg ymresymu ymadroddion ysgrythyrol; ac yn hysbys o athroniaeth yr ysgol Alexandriaidd—eglwys o'r fath yna fuasai yn fwyaf galluog i werthfawrogi y fath gyfansoddiad a'r Epistol at yr Hebreaid. O blegid y mae un ar bymtheg, o'r deuddeg ar ugain ymadroddion a ddyfynir o'r Hen Destament ynddo, yn gynnwysedig yn Llyfr y Salmau. Y mae yn dibynu i'r fath raddau ar ddyfyniadau o'r Ysgrythyr, fel y mae rhai wedi cyfeirio at yr amgylchiad fel peth anghysson â nodweddiad annibynol ac awdurdodol epistolau ereill Paul. Ac mor fynych ydyw y defnydd a wneir o athroniaeth ac esboniadaeth Alexandria fel y mae rhai beirniaid yn casglu mai Apollos ydyw yr awdwr, ac mai at eglwys Alexandria yr anfonwyd ef ar y cyntaf. Os oedd meddiannau (*Heb.* x. 34) gan yr eglwys yn Ierusalem, a modd i weini (vi. 10) i rai oedd mewn cyfyngder, nid yw y ffaith yn anghysson, fel y tybia rhai, a thlodi mawr trigolion ereill yn Ierusalem (*Rhuf.* xv. 26, &c.,) ac y mae yn cyttuno yn hollol â sefyllfa yr eglwys hono ddeng mlynedd ar ugain o'r blaen: *Act.* ii. 45; iv. 34. Fe ddywedir fod awdwr yr epistol hwn yn dyfynu o'r Deg a Thrigain, a hyny heb ei gywiro lle y mae yn wahanol i'r Hebraeg. Y mae hyny yn hollol gysson âg arferiad Paul drwy ei holl epistolau; ac â'r ffaith fod yr Hebraeg, erbyn hyn, yn Ierusalem fel yn mhob man, yn iaith farw, ac yn ammhossibl ei dysgu ond gyda llawer o boen gan y dysgedig. Yr oedd yr Ysgrythyrau yn adnabyddus i'r cyffredin yn yr Aramaeg neu y Groeg. Dyfynid o'r hyn oedd mewn côf, a gwirid y dyfyniadau gan gôf rhai ereill. Ac fe allai fod Jowett yn iawn [*On the Hebrews*, i. 361,] lle y dywed nad oedd Paul yn *gynnefin* â'r Hebraeg gwreiddiol, tra yr oedd yn berffaith hysbys yn y Deg a Thrigain.

Mae Ebrard yn cyfyngu darllenwyr cyntaf yr epistol hwn i *adran* o'r eglwys yn Ierusalem. Ystyria y fath ymadroddion a *pen.* v. 12; vi. 10; a x. 32, yn anghymmhwysiadol fe allai, at yr oll o'r eglwys hono; ac o ganlyniad, y mae yn casglu mai at ryw ddysgyblion newyddion yr oedd Paul yn ysgrifenu; y rhai, er nad yw eu dychweliad yn cael ei nodi yn yr *Actau*, oeddynt yn ddyledus, fe allai mewn rhan, i ddylanwad yr apostol yn ystod ei ymweliad diweddaf ag Ierusalem: *Act.* xxi. 22.

Y mae rhai beirniaid yn golygu fod yr epistol hwn wedi ei gyfeirio yn uniongyrchol at Iuddewon Cristionogol yn mhob man. Golyga ereill mai at Iuddewon Asia a Groeg yr ysgrifenwyd ef. Y mae agos i bob man lle y bu yr apostol yn llafurio wedi ei enwi fel y lle yr anfonwyd yr epistol hwn. Heblaw Rhufain a Cesarea, lle y bu Paul yn hir yn garcharor, y mae hyd yn oed Alexandria wedi ei nodi yn ngwyneb holl ddystawrwydd y tadau boreuol yn y lle hwnwar y pwngc ac er nad oedd yr apostol wedi bod yno erioed. Ac y mae un beirniad yn cyssylltu yr epistol hwn â'r Cristionogion Cenedlig yn Ephesus. Ond nid oes awdurdod hanesiol i un o'r tybiau hyn; ac y mae cymmaint o debygolrwydd ag sydd yn mhob un o honynt yn dwyn cyssylltiad âg anhawsderau priodol iddynt eu hunain.

IV. *Yn mha le yr ysgrifenwyd ef, a pha bryd?* —Y mae traddodiadau dwyreiniol y bedwaredd ganrif, mewn cyssylltiad â'r syniad mai Paul ydoedd ei awdwr, yn nodi Italy, Rhufain, neu Athen fel y lle yr ysgrifenwyd ef. Y mae enwi y naill neu y llall o'r lleoedd yna yn gysson â'r sylw a wneir o Timotheus yn y bennod ddiweddaf. Gellir tynu casgliad yn mhlaid Rhufain oddi wrth garchariad maith Paul, Timotheus, a Luc, yn y ddinas hono. Y mae Cesarea yn sefyll mewn cyssylltiad cyffelyb; ac fe enwyd y lle hwn fel man tebygol ysgrifeniad yr epistolau at y *Colossiaid*, yr *Ephesiaid*, a'r *Philippiaid*; ond nid oes un traddodiad yn cefnogi y fath syniad. Oddi wrth yr ymadrodd "y rhai o'r Ital" (*Act.* xiii. 24), fe gesglir nas gallasai yr apostol fod yn Italy; ond y mae Winer yn gwadu fod yr arddodiad o'r (*apo*) yn meddu yr ystyr yma.

Y mae yn ddiammheu fod yr epistol wedi ei ysgrifenu cyn dinystr Ierusalem, yn B. A. 70. Y mae yr holl ymresymiad, ac yn enwedig viii. 4, &c. a ix. 6, &c. (lle y mae yr *amser presennol* yn y Groeg wedi ei newid i'r *mynedol* yn y Gymraeg); a xiii. 10, &c., yn awgrymu fod y deml etto yn sefyll, ac fod ei gwasanaeth yn parhau i gael ei ddwyn yn mlaen. Darllenydd Cristionogol, yn dyfal wylio yn y ddinas gollfarnedig am gyflawniad o brophwydoliaeth ei Arglwydd—fe ddeallai ef ar unwaith y cyfeiriadau bygythiol at "yr hon sydd yn dwyn drain a mieri, sydd anghymmeradwy, ac agos i felldith; diwedd yr hon yw ei llosgi;" "yr hwn a aeth yn hen ac yn oedranus, ac sydd yn agos i ddiflanu; a dynesiad "y dydd" disgwyliedig, a "symmudiad y pethau a ysgydwir:" vi. 8; viii. 13; x. 25, 37; a xii. 27. Gellir cymmhwyso y cyfeiriadau at athrawon blaenorol (xiii. 7), ac addysgiadau boreuol (v. 12; a x. 32) at unrhyw adeg ar ol sylfaeniad yr eglwys; a byddai yn ddyddorol cyssylltu xiii. 7, â merthyrdod yr apostol Pedr, yn amser y Pasc, B. A. 62 [*Josephus Hyn. Iudd.*, xx. 9, adr. 1; *Eusebius*, E. H. ii. 23; a *Recogn. Clement*, i. 70; *ap. Coteler. i.* 509]. Er fod beirniadaeth ddiweddar wedi gwanhau cyssylltiad yr epistol hwn â charchariad Paul yn Rhufain, B. A. 61—63, etto nid yw wedi ei ddinystrio drwy ddarllen τοῖς δεσμίοις, "y carcharorion," yn lle τοῖς δεσμοῖς μου, "fy rhwymau i" (x. 34); drwy gynnyg esbonio ἀπολελυμένον (xiii. 23) fel yn golygu, "wedi ei anfon ymaith," yn hytrach na "gollwng yn rhydd," a thrwy olygu nad ydyw sefyllfa yr ysgrifenydd fel ei darlunir yn xiii. 18, 19, 23, o angenrheidrwydd yn sefyllfa carcharor, a bod yn bossibl nad oes gyfeiriad at hyny yn xiii. 3. Ar y cyfan, y dyddiad sydd yn cyttuno oreu â thraddodiadau yr hynafiaid o barth i awduriaeth ac anfoniad yr epistol hwn, ydyw B. A. 63, tua diwedd carchariad Paul yn Rhufain.

V. *Yn mha iaith yr ysgrifenwyd ef?*—Y dystiolaeth gyntaf am hyn ydyw yr eiddo Clement o Alexandria, yr hon sydd i'r pwrpas mai yn Hebraeg yr ysgrifenwyd ef gan Paul, ac i Luc ei gyfieithu i'r Groeg; ac fel hyn, medd efe, y gellir cyfrif am y tebygolrwydd sydd rhwng arddull yr Hebreaid ag Actau yr Apostolion

Digitized by Google

Ail adroddir tystiolaeth Clement gan Eusebius, Theodoret, a Jerome, ac amryw o'r tadau diweddarach; ond y mae y mwyafrif o honynt yn ddistaw ar hyn. Ni ddywedir dim a'n tuedda i feddwl mai traddodiad ydyw hyn, ac nid tybiaeth wedi ei seilio ar arddull yr Epistol: ni ddywedir fod neb wedi gweled y copi gwreiddiol yn yr Hebraeg. Nid oes neb wedi ystyried y copi Aramaeg sydd yn y cyfieithiad Syriaidd, a elwir y Peshito, yn ddim amgen na chyfieithiad. Yn mhlith yr ychydig ysgrifenwyr diweddar sydd yn dadleu o blaid ysgrifeniad yr epistol hwn gyntaf yn yr Aramaeg, y mae Joseph Hallet, awdwr Saesneg galluog yn 1727. Dadleua J. D. Michaelis mai yn y Groeg yr ysgrifenwyd ef; a hyny yn benaf o blegid purdeb a rhediad esmwyth yr iaith yn y copi Groeg; defnyddiad geiriau Groeg, y rhai nis gellid rhoddi eu hystyr yn gyflawn yn yr Hebraeg heb gylchymadroddion hirion; a defnyddiad y Deg a Thrigain mewn dyfyniadau a chyfeiriadau sydd heb fod yn gysson â'r testyn Hebraeg.

VI. *Sefyllfa yr Hebreaid, ac amcan yr epistol*—Yr oedd yr amrywiol eglwysi Cristionogol oedd yn wasgaredig ar hyd Iudea (*Act.* ix. 31; *Gal.* i. 22) yn ddarostyngedig yn barhaus i erledigaeth yr Iuddewon (1 *Thes.* ii. 14); yr hyn a ddeuai yn fwy tanllyd ac eang fel y lliosogai yr eglwysi, ac fel yr oedd anfoddogrwydd cynnyddol y genedl yn addfedu i wrthryfel:—B. A. 66. Niweidiau personol, ysbeiliad meddiannau, diarddeliad o'r synagog, ac ymrafaelion teuluaidd—dyna ydoedd ffurfiau arferol yr erledigaeth. Ond yn Ierusalem, yr oedd yr erlidwyr yn meddu un offeryn arall o orthrwm. Y deml ardderchog a chenedlaethol, ynglŷn â'r hon yr oedd llawer o adgofion dymunol, mewn hanesiaeth a phrofiad personol yn ei chyssegru i bob Iuddew—y deml gyda'i swyn anorchfygol, ei pheroriaeth liniarus, a'i seremoniau lliosog a rhyfedd—gellid ei chau hi yn erbyn y Cristion Hebreaidd. Ac hyd yn oed, os arbedid y brofedigaeth hon iddo, yr oedd pob Iuddew Cristionogol yn dwyn baich arall o boen oddi mewn iddo, yr hwn oedd yn anhysbys i bawb ond iddo ef; gwyddai ef fod diwedd holl hyfrydwch a phrydferthwch Seion yn agos. Yr helyntion hyn, o bossibl, a fu yn foddion i darfu ei syched am wybodaeth, i wanychu ei ffydd, ac i'w osod mewn perygl o ymddieithrio oddi wrth Grist. Canys fel yr oedd profedigaethau yn cynnyddu o'i amgylch, ac yn gwneyd iddo deimio yn fwy angerddol ei ymddibyniaeth ar Dduw, a'i angen am gymdeithasiad mynych ac agos âg ef, ymddangosai, yn ei gyssylltiad â Christionogaeth, ei fod yn myned yn mhellach oddi wrth Dduw, ac yn cael ei amddifadu o'r moddion hwnw o gymmundeb yr oedd efe unwaith yn ei fwynhau. Angylion, Moses, a'r archoffeiriad—ei gyfryngwyr yn y nef, yn y bedd, ac ar y ddaear—daeth y rhai hyn yn bur ddibwys yn nghredo yr Hebread Cristionogol; diflanai eu gogoniant hwy fel y cynnyddai ei brofiad Cristionogol yntau. Yr oedd eisoes yn teimlo fod Dydd yr Arglwydd yn disodli y Sabbath, a'r cyfammod newydd yn cymmeryd lle yr hen. Pa beth allai lenwi lle y deml, yr hyn oedd tu mewn i'w lleu, aberthau yr offeiriaid, a'r ddinas sanctaidd, pan beidient hwy a bod? Pa ad-daliad a allai Cristionogaeth wneyd iddo, wrth ei amddifadu o hyn i gyd, yr hyn yr oedd yntau yn ei deimlo yn fwy o hyd?

Yr oedd Iago, esgob Ierusalem, newydd farw o ferthyrdod. Yr oedd Cephas yn Babilon, ac Ioan yn Ephesus—colofn arall yn yr eglwys Apostolaidd—yn anhysbys o fawr angen yr Hebread, ac yn analluog i'w gysuro oddi tano. Ond fe ddaeth ato lais o Rufain—llais un a oedd yn 'mlaenaf o bawb yn mhrofi dyfnder, lled, ac uchder cariad Crist—cariad nad oedd yr Iuddew yn meddu fawr o ddirnadaeth am dano—llais un ag yr oedd achos ei genedl ei hun yn agos iawn at ei galon, yn ngwyneb ei ddirfawr ofalon gydag eglwysi ereill, ac un oedd bob amser yn barod i ddyddanu y profedigaethus, ac i gyflawni gweithredoedd o garedigrwydd i'r rhai oedd mewn angen o honynt, ac yn fynych yn talu drwg iddo wedi hyny am danynt. Efe, yr hwn a anfonwyd o Ierusalem mewn cadwyni i Rufain—efe oedd yr hwn a ddyrchafodd ei lais drachefn yn y ddinas yn mhlith ei bobl orthrymedig, mewn geiriau ac ymresymiadau tra chymmhwys i'w sefyllfa, ond mewn accen oedd yn ddieithr a benthyciol, ac mewn tôn oedd yn amddifad o awdurdod apostolaidd, a chyda'i wyneb yn orchuddiedig gan gariad oddi wrthynt—yr oedd yn ofni y byddai i'r plant gwrthnysig wrthod y gwirionedd dwyfol ac achubol, pan ddisgynai oddi ar wefusau Paul.

Y mae yn cyfarfod y Cristionogion Hebreaidd ar eu tir eu hunain. Ei atteb yw—"Y mae eich crefydd newydd yn rhoddi Crist i chwi, ac yn Nghrist bob peth yr ydych yn ei geisio—pob peth a geisiodd eich tadau. Yn Nghrist, Mab Duw, y mae genych Gyfryngwr hollddigonol, nes na'r angylion, i'r Tad, rhagorach na Moses mewn caredigrwydd, mwy teimladwy a dylanwadol na'r archoffeiriad. Y mae ei Sabbath yn eich aros yn y nefoedd. Ni fwriadwyd yr hen gyfammod ond i fod yn wasanaethgar i'r newydd: ei iawn ef ydyw y sylwedd tragwyddol, i'r hwn nid oedd yr aberthau ond cysgodau diflanedig: ei ddinas ef yw y nefol—dinas, nid o waith llaw. Gan ei fod ef genych, credwch ynddo â'ch holl galon—gyda ffydd yn y dyfodol anweledig, ffydd fel ffydd eich tadau gynt—amyneddgar o dan gystudd presennol, a pharod i gyfarfod yr hwn a ddaw, llawn yni, a gobaith, a sancteiddrwydd, a chariad."

Y cyfryw ydoedd addysg yr epistol i'r Hebreaid. Nid ydym yn alluog i olrhain, gam ar ol cam, ei effeithiau arnynt hwy; ond gwyddom ei fod wedi cyrhaedd ei amcan. Ni ddarfu i'r eglwys yn Ierusalem encilio. Ymfudodd i Pella [*Eusebius*, *H. E.* iii. 5]; ac yno, wedi ei rhyddhau oddi wrth orthrwm Iuddewaeth, ac fel Hebreaid Cristionogol y gwasgariad cyntaf, daeth i feddiant o'r rhyddid perffaith hwnw y mae cyfraith Crist yn ei ganiatau i bawb.

Ac y mae yr epistol rhagorol hwn yn aros fel maen clo, yn cyssylltu holl ddynion ysbrydoledig y Beibl sydd yn ymestyn dros yr holl oesoedd rhwng Moses ac Ioan. Y mae yn dysgu i'r efrydydd Cristionogol undoliaeth sylweddol dadguddiad Duw, pa un bynag ai trwy y prophwydi ai trwy Fab Duw y gwneir ef; o blegid dengys fod bwriadau yr Iehofah yn ddigyfnewid, pa mor wahanol bynag yr adlewyrchwyd hwy, mewn gwahanol oesoedd, yn belydrau toredig a gwyrog gan ddyfroedd cythryblus yr enaid dynol. Y mae yn ffynnonell ddihysbydd o gysur i'r Cristion adfydus, ac yn gynllun i'r athraw Cristionogol pa fodd y dylai eangu golygiadau ei ddysgyblion, yn dyner, yn barchus, ac mewn pryd—golygiadau rhai a fyddai yn glynu wrth hen ffurfiau, ac yn ymorphwys mewn hen deimladau.

VII. *Cynnwysiad yr epistol.* Y mae yn ymranu i amryw o ddosbarthiadau.

Digitized by Google

ADRAN GYNTAF.

Uchafiaeth Cyfryngwr y Testament Newydd, fel Mab Duw, ar bob cyfryngwyr ereill.

I. Uchafiaeth Iesu Grist ar y prophwydi a'r angylion—cyfryngwyr yr hen gyfammod.

(1.) Y mae dadguddiad diweddaf Duw wedi ei roddi i ni yn y Mab, y Cyfryngwr perffaith, yr hwn sydd wedi ei ddyrchafu goruwch pawb, ac uchafiaeth yr hwn ar yr angylion sydd yn amlwg yn yr enw *Mab*: *Heb*. i. 1—4.

(2.) Prawf ysgrythyrol o uchafiaeth Crist fel Mab Duw, a Brenin ar yr angylion: *Heb*. i. 5—14.

(3.) Gocheliad ac annogaeth i dderbyn dadguddiad wedi ei roddi gyda'r fath arbenigrwydd: *Heb*. ii. 1—4.

(4.) Nad ydyw uchafiaeth Crist ar yr angylion ddim wedi ei golli trwy ei ddarostyngiad a'i fywyd ar y ddaear, eithr yn hytrach y mae y ddynoliaeth wedi ei dyrchafu: *Heb*. ii. 5—13.

(5.) Y mae ei ymgnawdoliad wedi gwneuthur Mab Duw yn alluog i ddyoddef a marw, a thrwy hyny yn gymmhwys i fod yn archoffeiriad gyda Duw dros ddynion: *adn*. 14—18.

II. Rhagoriaeth Iesu Grist ar Moses ac Iosuah.

(1.) Y mae annogaeth i ffyddlondeb i Grist, apostol ac archoffeiriad ein cyffes, yn seiliedig ar uchafiaeth Crist ar Moses, yr hwn nid oedd ond gwas, er ei fod yn ffyddlawn yn ei holl dŷ, tra y mae Crist yn Fab ar ei dŷ ei hun: *Heb*. iii. 1—6.

(2.) Y mae bygythiad yr Hen Destament, nad oedd derbyniad i anghredinwyr i mewn i orphwysfa Duw, yn parhau mewn grym i bobl Dduw dan y Testament Newydd, ac y mae galwad mwy arbenig arnom ni i'w osod at ein calon: *adn*. 7—19.

(3.) Y mae yr addewid am fynedfa i mewn i orphwysfa Duw, nid yn unig yn parhau mewn grym yn barhaus, ond y mae grym arbenig yn perthyn iddi i ni, Gristionogion: *Heb*. iv. 1—10.

(4.) Dylem ymdrechu myned i mewn yn fwy, o gymmaint ag y mae y fath awdurdod a bywyd yn perthyn i air Duw: *adn*. 11—13.

III. Uchafiaeth Crist ar Aaron, a'i olynwyr yn yr offeiriadaeth Lefiaidd.

(1.) Uchafiaeth Crist fel archoffeiriad sydd wedi myned i mewn i'r nefoedd, yn sail annogaeth i ffyddlondeb yn ein proffes Gristionogol: *adn*. 14—16.

(2.) Y mae Crist yn meddu cymmhwysder i fod yn archoffeiriad, o herwydd ei fod yn alluog i gydymdeimlo â'r rhai sydd mewn gwendid: *Heb*. v. 1—3.

(3.) O herwydd ei fod wedi ei alw gan Dduw, ac hefyd o herwydd ei fod yn wrthgysgod i Melchisedec: *adn*. 4—10.

ADRAN YR AIL.

I. Uchafiaeth Crist, fel offeiriad yn eistedd yn dragwyddol ar ei orseddfainge, fel gwrthgysgod Melchisedec.

(1.) Y mae y darllenwyr yn sefyll mewn angen am adnabyddiaeth eangach am y gwirioneddau hyn: *adn*. 11—14.

(2.) O ganlyniad, y mae yn eu hanog i ymestyn yn mlaen at adnabyddiaeth gyflawnach, yn ol eu manteision, ac at berffeithrwydd: *Heb*. vi. 1—3.

(3.) Fod adferiad i sefyllfa o ras yn anmhosibl i'r cyfryw sydd wedi profi nerthoedd Cristionogaeth a'r byd a ddaw, ac wedi syrthio ymaith: *adn*. 4—8.

(4.) Y mae y darllenwyr mewn sefyllfa yn mha un y gallant trwy ras Duw gyrhaedd amcan mawr eu crefydd, sef iachawdwriaeth; a'u dyledswydd ydyw dangos diwydrwydd hyd y diwedd: *adn*. 9—12.

(5.) Y mae esampl Abraham yn dangos fod parhâd mewn ffydd yn arwain i fwynhâd o'r addewid yr hon sydd wedi ei sicrhau gan Dduw trwy lŵ: *adn*. 13—15.

(6.) Annogaeth i ddal gafael yn yr addewidion y mae y fath sicrwydd o'u plaid: *adn*. 16—20.

II. Archoffeiriadaeth dragwyddol a pherffaith Iesu Grist.

(1.) Y mae i berson Melchisedec, fel cysgod o Grist, dair rhagoriaeth ar yr offeiriaid Lefiaidd: *Heb*. vii. 1—10.

(2.) Y mae yr Hen Destament yn prophwydo am ddiddymiad yr offeiriadaeth Lefiaidd, yr hon oedd wedi ei sylfaenu ar gyfraith Moses, er mwyn agor y ffordd i offeiriadaeth dragwyddol Crist: *adn*. 11—19.

(3.) Y mae y Testament Newydd yn well, o gymmaint ag y mae person Iesu yn Feichnïydd: *adn*. 20—22.

(4.) Y mae Crist yn byw yn dragwyddol; ac o ganlyniad, yn ei offeiriadaeth anghyfnewidiol a thragwyddol, y mae yn cynnrychioli y gwaredigion, ac yn eiriol drostynt gyda Duw: *adn*. 23—25.

(5.) Y mae Iesu Grist, Mab Duw—y diddrwg, a'r dihalog—wedi aberthu ei hun unwaith am byth dros bechodau: *adn*. 26—28.

III. Y mae Crist wedi perffeithio ei offeiriadaeth fel Brenin yn y nefoedd, ac fel Cyfryngwr y cyfammod newydd y prophwydir am dano yn yr Hen Destament.

(1.) Fel archoffeiriad "y gyssegrfa, a'r gwir dabernacl, yr hwn a osododd yr Arglwydd ac nid dyn," y mae Iesu Grist yn eistedd "ar ddeheulaw gorseddfainge y Mawredd yn y nefoedd:" *Heb*. viii. 1—5.

(2.) Y mae offeiriadaeth Crist yn rhagori, o gymmaint ag y mae y cyfammod yn rhagori, i'r hwn y mae yn Gyfryngwr; ac y mae y cyfammod yn well, gan ei fod yn gorphwys ar addewidion gwell nag addewidion y cyfammod cyntaf, yn ol ei dystiolaeth ei hun: *adn*. 6—13.

ADRAN Y TRYDYDD.

Rhagoriaeth y cyfammod trwy Iesu Grist.

I. Y mae y cyfammod newydd yn dwyn dynion i gymdeithas â Duw; yr hyn ni allasai y cyntaf ond cysgodi ac addaw.

(1.) Yr oedd tabernacl a chyssegr cysgodol ynddo ei hun yn dangos fod y gymdeithas â Duw yn ammherffaith: *Heb*. ix. 1—10.

(2.) Y mae cymdeithas berffaith â Duw yn bossibl yn unig trwy gyfryngdod perffaith, a hono hefyd yn seiliedig ar iawn gwirioneddol: *adn*. 11—15.

(3.) I'r cyfammod newydd y mae gwaed Iesu Grist yn anhebgorol angenrheidiol: *adn*. 16—22.

(4.) Y mae marwolaeth Crist fel aberth difai i Dduw yn meddu rhinwedd holldigonol i ddileu pechod: *adn*. 23—28.

(5.) Yr oedd mynychiad gwastadol aberthau y gyfraith yn brawf o'u hannigonolrwydd i symmud ymaith bechod: *Heb*. x. 1—4.

(6.) Prawf ysgrythyrol o ddigonolrwydd y sancteiddiad sydd yn seiliedig ar ufudd-dod Iesu Grist: *adn*. 5—18.

II. Annogaethau, gocheliadau, ac addewidion.

(1.) Annogaeth i lynu yn y ffydd, ac i barhau yn nghymdeithas y saint, yn seiliedig ar ddyfodiad buan yr Arglwydd: *adn*. 19—25.

(2.) Y mae barnau anocheladwy yn disgyn ar y rhai sydd yn tynu yn ol oddi wrth y ffydd: *adn*. 26—31.

(3.) Mynedfa prysur i ddedwyddwch i'r rhai sydd yn parhau hyd y diwedd: *adn*. 32—39.

Digitized by Google

III. Adolygiad annogaethol ar hanes credinwyr sydd wedi myned o'r blaen.
(1.) Hyd amser Abraham: *Heb.* xi. 1—7.
(2.) Abraham a Sarah: *adn.* 8—12.
(3.) Arbenigrwydd ffydd Abraham: *adn.* 13—19.
(4.) Isaac, Iacob, ac Ioseph: *adn.* 20—22.
(5.) Moses: *adn.* 23—29.
(6.) O amser goresgyniad Canaan hyd amser y Maccabeaid: *adn.* 30—40.
IV. Cymmhelliad ac annogaeth, yn seiliedig ar yr hanes blaenorol.
(1.) Gan fod iddynt y fath ragflaenoriaid, ac yn enwedig Crist Iesu ei hun, dylent ddangos pob parhâd i redeg yr yrfa syddwedi ei gosod o'u blaen: *Heb.* xii. 1—3.
(2.) Bod eu dyoddefiadau yn amlygiadau o gariad Tad, ac yn dwyn ffrwyth iddynt hwythau: *adn.* 4—13.
(3.) Dylent wrthwynebu pob tuedd i adfeiliad, trwy ymdrechu i ddiogelu undeb a sancteiddrwydd.
(4.) Y mae natur y cyfammod newydd yn eu gosod dan rwymau i hyny: *adn.* 18—24.
(5.) Y mae y gosp a ddisgyn ar wrthgilwyr yn gyfattebol i fawredd rhagorfreintiau a bendithion y cyfammod newydd: *adn.* 25—29.

DIWEDD YR EPISTOL.

(1.) Annogaethau o natur mwy cyffredinol: *Heb.* xiii. 1—6.
(2.) Annogaethau mwy neillduol yn cael eu cyfeirio yn erbyn pob gogwydd i dynu yn ol: 7—17.
(3.) Hysbysiadau personol: *adn.* 18—25.
VIII. *Ysgrifeniadau yn dwyn cyssylltiad â'r epistol.*—Yn chwanegol at y llyfrau yr ydym eisoes wedi cyfeirio atynt, y mae chwech esboniad y gellir eu nodi fel y rhai goreu mewn ieithoedd estronol; sef, yr eiddo Chrysostom, Calvin, Estius, Bleek, Lünemann, a Delitzsch.
Yn Saesneg, y mae yr eiddo Stuart o America, Ebrard, wedi ei gyfieithu gan y Parch. J. Felton, a Dr. Owen, yn mhlith y rhai goreu. Yn mysg y nodiadau Saesnig ar y testyn Groeg a Saesneg o'r Testament Newydd, gellir enwi yr eiddo Hammond, Fell, Whitby, Macknight, Wordsworth, ac Alford. Y mae yr epistol hwn hefyd yn ffurfio testyn i dair o'r *Warburtonian Lectures* gan F. D. Maurice.

HEDDWCH. Defnyddir y gair hwn yn y Beibl mewn amryw ystyriaethau. 1. Heddwch, neu gymmod â Duw, drwy iawn am y pechodau a gyflawnwyd; yr hyn a bwrcaswyd drwy ddioddefaint a haeddiannau Crist: *Eph.* ii. 14. 2. Heddwch cydwybod, neu heddwch â ni ein hunain. Cyfyd hyn oddi ar ymwybyddiaeth o heddwch â Duw, yn rhinwedd marwolaeth Crist, a thrwy weithrediad yr Ysbryd Glân yn ein calonau: *Rhuf.* xiv. 17; *Phil.* iv. 7. 3. Ymostyngiad i ewyllys Duw: *Iob* xxii. 21. 4. Heddwch â dynion; (*a*) cyttundeb a thangefedd rhwng brodyr crefyddol (*Salm* xxxiv. 14; *Gal.* v. 22); (*b*), a llonyddwch neu ymwared rhag erledigaethau gelynion: *Diar.* xvi. 7.
Y mae heddwch yn wrthwyneb i ryfel, ac yn sefyll am sefyllfa dangnefeddus trigolion unrhyw wlad ar ol terfysgoedd cartrefol neu estronol: 2 *Bren.* xx. 19. Mae hefyd yn dynodi tawelwch yn sefyllfa yr eglwys—ei rhyddid oddi wrth ymraniadau ac ymrafaelion cyfeiliornadol oddi mewn, ac oddi wrth orthrwm ac erledigaethau gelynion oddi allan: *Salm* cxxii. 6; *Act.* ix 31; *Dad.* vi. 4. Weithiau, arwydda gyttundeb rhwng tywysog a thywysog (1 *Bren.* v. 12), ac weithiau ymattaliad oddi wrth ryfel: *Barn.* iv. 7. Y mae Paul yn ei epistolau yn dymuno heddwch neu dangnefedd i'r eglwysi yr ysgrifena atynt. Y mae drwy hyny yn dymuno ar fod i fwynhâd o ffafr a chariad Duw, ac ymwybyddiaeth o hyny yn eu calonau eu hunain, gael ei barhau tuag atynt, a'i gynnyddu o'u mewn; ac yn rhinwedd hyn, fod iddynt gael meddiant o bob bendith a dedwyddwch, mewnol ac allanol, yn enwedig heddwch cydwybod, a mwynhâd diogel o gariad Duw. Hefyd, yn olaf, y mae heddwch yn arwyddo gorphwysdra, llawenydd, a thangnefedd y saint yn y nefoedd, lle nad oes perygl i un gelyn eu blino byth: *Esa.* lvii. 2; 2 *Pedr* iii. 14.
Am gyttundebau heddwch, gwel RHYFEL.

HEDDYW (*hedd*). Heddyw, ydydd presennol. Y mae gwahanol ystyron i'r gair hwn yn yr Ysgrythyrau: megys, yr amser presennol; dydd gras; dydd iachawdwriaeth: *Salm* xcv. 7; *Heb.* iii. 7; a iv. 7.

HEGEL: athronydd enwog, yr hwn a aned yn Stuttgart, Awst 27ain, 1770, ac a fu farw yn Berlin, yn nawn ei enwogrwydd, Tachwedd 14eg, 1831. Y mae yr hanesion am ei ddylanwad a'i enwogrwydd yn ei wlad enedigol, yr Almaen, yn dwyn i'r meddwl y traddodiadau am Pythagoras, yr athronydd Groegaidd—dysgyblion yr hwn a dybiai ei fod yn rheswm digonol dros unrhyw osodiad i ddweyd "*y mae efe yn dywedyd.*" Creodd ysgol o feddylwyr, yr hon a gymmerai i mewn, nid yn unig athronwyr a dysgedigion, ond yr hon a gynnhyrfodd yr holl wlad, ac a effeithiodd ar ei chrefydd, ei duwinyddiaeth, a'i gwladlywiaeth. Nis gallwn ffurfio unrhyw ddrychfeddwl am gyfeiriad ac amcan yr athronydd hwn, heb ganfod yn gyntaf ei berthynas â'r prif athronwyr oedd wedi ei ragflaenu; sef, Kant, Fichte, a Schelling. Y mae athroniaeth yn myned rhagddi; y mae casgliadau eithaf un oes yn egwyddorion sylfaenol yr oes ganlynol; ac felly y mae yr ysgogiad yn dirwyn yn y blaen hyd nes y bydd yr egwyddorion cyntefig wedi esgor ar eu canlyniadau eithafol. Y mae cylch yr athroniaeth Germanaidd wedi esgor ar ei heithaf yn Hegel. Yn unol â'r achyddiaeth ryfedd hon, y mae Kant yn arwain i Fichte, Fichte i Schelling, a Schelling i Hegel. Pa beth yn Kant a'i athroniaeth oedd yr hedyn a ymagorodd mewn Hegeliaeth? Ond i'r darllenydd ddarllen yr erthygl GWYBODAETH, fe wêl fod y prif ddadleuon o berthynas i natur gwybodaeth wedi codi o'r ddwy elfen wrthgyferbyniol; sef drychfeddyliau a phrofiad, y sicr a'r damweiniol. Gwelir yn yr erthygl hono fod tuedd gwahanol athronwyr a gwahanol oesau i roddi arbenigrwydd weithiau ar y naill, ac weithiau ar y llall o'r elfenau hyn. Yn ysgrifeniadau Hume, yr ammheuwr, yr oedd y *sicr* wedi ei golli o wybodaeth mewn athroniaeth a chrefydd. Hyn a roddodd symbyliad i Kant yn yr Almaen, ac i Reid yn yr Alban, i chwilio i gyfansoddiad meddwl dyn, ac i ddidoli y sicr a'r damweiniol—yr *à priori*, a'r *à posteriori*—oddi wrth eu gilydd. Didolodd brofiad a drychfeddyliau oddi wrth eu gilydd, gan ddangos fod egwyddorion sic. yn perthyn i feddwl dyn yn flaenorol i, ac yn annibynol ar brofiad, o ran *natur;* er yn olynol i, ac yn ddibynol ar brofiad, o ran yr amlygiad o honynt mewn *amser.* Gosododd Kant hyn allan gyda'r fath eglurdeb, fel nad oedd neb mwy i gael i ammheu hanfodiad egwyddorion sefydlog

yn meddwl dyn. Ond er ei fod yn addef fod profiad i fod yn arweinydd i ni yn ei bethau ei hun, etto nid ydyw rheswm ac ymresymiad yn profi hanfodiad ffeithiau fel y maent yn profi hanfodiad egwyddorion cynnwynol. Nid yw athroniaeth Kant, gan hyny, yn unrywiol drwyddi; eithr yn hytrach mewn rhai ystyriaethau, dwy athroniaeth ydoedd. Addefai Kant nad oedd dim yn cael ei gynnyrchu yn y meddwl ond mewn canlyniad i brofiad a gweithrediad y synwyrau corphorol. Ond y mae yr addefiad hwn yn ddinystriol i holl gyfundrefn Kant, fel y mae yr Almaenwyr yn deall cyfundrefn o athroniaeth; sef, cynnyrch angenrheidiol un egwyddor neu ddrychfeddwl. Ond y mae Kant yn addef dwy, heb allu gweled pa fodd i groesi o'r naill i'r llall. Yn y fan yma y mae Fichte yn dyfod i mewn, ac yn hòni, gan nas gall Kant *brofi*—dim ond gweled—byd gweledig; yna, ar dir athroniaeth, nid oes genym hawl i ddyweyd fod byd felly mewn bod. Y mae Fichte yn derbyn casgliadau eithaf Kant am yr ammhossiblrwydd i brofi neu adnabod yn uniongyrchol ddim ond y meddwl ei hun. Ac o ganlyniad, eb efe, nid oes dim ond meddwl, neu fel y dywed ef, yr *ego*—*y myfi*—yn bod. Y mae dyn gan hyny wedi ei garcharu ynddo ei hunan. Dyma ei un egwyddor—*myfi*—yn gorphwys arno ei hun, ac yn cynnal pob peth arall. Ei ymgais yn nesaf oedd adeiladu cyfundrefn a gynnwysai bob peth allan o ddefnyddiau sydd i'w cael yn yr *ego*. Ar flaen y nydwydd yma yr amcanai godi cyfundrefn a gynnwysai y Creawdwr a'i greadigaeth. Nid oes dim gormodiaeth yn yr ymadroddion hyn i osod allan amcan Fichte yn ei athroniaeth. Yn y modd mwyaf cymmedrol a difrifol, gallwn ddyweyd ei fod ef yn hòni fod meddwl dyn yn cynnwys natur a Duw. Pa beth ydyw y greadigaeth weledig? Nid ydyw yn ddim ond darluniad y mae y meddwl wedi eu creu er ei ddifyrwch ei hun. Y meddwl sydd yn creu natur; ïe, yn mhellach—maddeued y darllenydd ein bod yn defnyddio ymadroddion sydd yn ymddangos iddo ef mor debyg i gabledd—y meddwl sydd yn CREU DUW! Dyma ei eiriau ef ei hun. Y mae yr *ego* yn cynnwys y *non-ego*—y myfi yn cynnwys pob peth nad ydyw y myfi. Y mae yn rhoi terfyn arno ei hun ac yn creu ei hunan. Nid yw ei hunan, ond trwy roddi rhywbeth ar ei gyfer ei hun, nad yw ei hunan, ac felly yn rhoddi bod iddo ei hun. Gan fod ganddo y gallu i'w derfynu ei hun, y mae yn rhaid ei fod ei hunan yn annherfynol; hyny yw, yn anfeidrol. Mae hyn oll yn codi yn naturiol oddi wrth yr egwyddorion a dderbyniodd Fichte oddi wrth Kant. Gwthio egwyddorion Kant i'w heithafoedd a wnaeth Fichte. Dyma y gyfundrefn a elwir yn *idealism* hollol a thrwyadl. Yn ol y gyfundrefn hon, y mae dyn wedi ei gau i mewn ynddo ei hun. A'r ymofyniad nesaf ydyw, Pa fodd y gall ddiangc o hono ei hun, fel ag i gyrhaedd adnabyddiaeth o'r hyn sydd y tu allan iddo ei hun. Yn ol athroniaeth synwyr cyffredin, y mae dynion yn canfod pethau allanol fel y maent, ac nid oes chwaneg am hyny. Ond synwyr cyffredin ydyw hyny, ac nid athroniaeth yr hollol (*absolute*). Dyfeisiodd Schelling gynneddf uwchlaw y meddwl a'i weithrediadau, *Anschauung, intellectual intuition*. Trwy y gynneddf hon y mae dyn yn syllu yn uniongyrchol ar fod hunan-hanfodol, nad oes ammodau na therfyn iddo, yr hwn a elwir yr *absolute*. Y mae y gair hwn yn llenwi lle mawr yn mhlith yr athronwyr hyn, ac nid peth hawdd ydyw ffurfio dychymyg am yr ystyr a briodolant iddo. Pe dywedem mai y gair goreu yn Gymraeg am dano ydyw yr *hollol*, neu unrhyw air arall, ni byddai yn llai angenrheidiol ei egluro er mwyn cyfleu rhyw ddychymyg am y meddwl a briodolant iddo. Y mae yn angenrheidiol gwahaniaethu rhwng yr ystyr a roddir iddo gan athronwyr Saesnig, a'r ystyr sydd iddo yn mhlith yr ysgrifenwyr Almaenaidd. Wrth wirioneddau *absolute*, y meddylia y blaenaf y gwirioneddau hyny sydd yn hanfodol i gyfansoddiad meddwl dyn, ac nas dichon iddo ymryddhau oddi wrthynt: megys, Y mae i bob ansawdd sylwedd: Y mae i bob effaith achos. Wrth athroniaeth yr *absolute* yn mhlith yr Almaenwyr y meddylir, nid athroniaeth sydd â'i hamcan i chwilio allan yr egwyddorion angenrheidiol hyny sydd yn rhan o gyfansoddiad dyn; ond athroniaeth sydd â'i hamcan i ddangos pa beth ydyw elfen gyntaf pob peth sydd mewn bod—Duw, a dyn, a natur; ac hefyd i ddangos pa fodd y mae yr elfen hono yn esgor ar bob peth. Nid chwilio am achos cyntaf pob peth, ac olrhain ei weithrediadau mewn natur a rhagluniaeth; ond amgyffred natur yr achos cyntaf, rhoi rheolau i lawr i ddangos pa fodd y mae yn gweithio, a pha fodd y mae dan angenrheidrwydd i weithio; ac o ganlyniad, casglu oddi wrtho pa beth a fu, y sydd, ac a fydd. Fe wêl y darllenydd oddi wrth hyn, nad yw yr athroniaeth hon yn amcanu at ddim llai nag amgyffred ac egluro pob peth, heb adael cymmaint ag un dirgelwch yn Nuw na'i greadigaeth. Y gwahaniaeth sydd rhyngddynt a'u gilydd ydyw o barth i fam-elfen y cwbl. Yn Spinoza, yr hwn sydd yn rhagflaenor yr athronwyr diweddar, *sylwedd* ydyw y fam-elfen hon. Yn Fichte, fel y gwelsom, *hunan*—*y myfi*—sydd yn meddu yr anrhydedd hwn. Y gwahaniaeth rhwng Schelling a Fichte ydyw, fod Schelling yn dadleu dros iawnderau yr *allanol* yn gystal a'r *mewnol*. Ei farn ef ydyw, nad oes gan y mewnol ddim hawl i lyncu i fyny yr allanol, mwy nag sydd gan yr allanol i lyncu i fyny y mewnol. Rhaner gan hyny yr ymrafael trwy ddywedyd fod y fam-elfen yn flaenorol i'r ddau, ac weithiau yn amlygu ei hun yn y naill, ac weithiau yn y llall. Alltudiwyd natur o fod gan Fichte, ond dychwelwyd hi yn ol gan Schelling. Yn ol ei athroniaeth ef, gan hyny, mae cyfanswm pob peth yn amlygiadau cynnyddol o un egwyddor sydd yn cynnwys y cwbl, ac yn rhoddi bod i'r cwbl. Ond pa beth ydyw yr egwyddor hono etto? a pha beth ydyw deddf ei gweithrediad? A pha fodd y profir ei bod? Y mae hyn yn beth na wnaeth Schelling. Pa ham y mae yr egwyddor hon yn ei dadblygu ei hun? Pa ham y mae yn dyfod yn attyniad, yn oleuni, yn wres, yn weithgarwch, yn ymwybyddiaeth?—weithiau y naill, ac weithiau y llall. A ydym i ofyn i brofiad? Ond nis gall profiad ond casglu ffeithiau, nis gall eu hesbonio. Pe dywedid fod yr egwyddor gynnwynol hon yn ymddadblygu yn amrywiol yn ol ei natur, gofynir mewn attebiad, Pa beth ydyw ei natur? Ac i hyn nid yw Schelling yn rhoi un atteb. Dan bwys gofynion fel hyn y dyfeisiodd efe ei *intellectual intuition*—cynneddf trwy ba un y disgwyliai y gallai ymgodi ac ehedeg uwchlaw cwestiynau trafferthus fel y rhai hyn, a chael mynedfa uniongyrchol i bresennoldeb yr *absolute*. Pa beth ydyw y gynneddf hon?—ai cynneddf naturiol, ai ynte rhagorfraint oruwchnaturiol? Nid oes gan Schelling atteb ychwaith i'r gofyniad hwn. Ond y mae bod heb atteb unrhyw gwestiwn a

Digitized by Google

ofynir am Dduw, a dyn, a natur, yn anghysson â phroffes yr athroniaeth dan sylw. Y mae yn rhaid gan hyny iddi gymmeryd cam yn mhellach, neu ynte wadu ei phroffes.

Cymmerodd Hegel y cam pellach hwn. Chwiliodd am athroniaeth a allai atteb pob cwestiwn, a chredodd, ac ennillodd ran fawr o'i gydwladwyr i gredu ei fod wedi llwyddo i'w chael allan. Penderfynodd na chai dim tywyll ac anesboniadwy fod yn ei gyfundrefn ef. Mae gan Hegel hefyd yr hollol (*absolute*) yn ei athroniaeth. Pa beth ydyw? Nid ydyw na meddwl na defnydd, na hanfod na sylwedd, y mewnol na'r allanol. Y meddwl mewn *gweithrediad* (*thought*) ydyw: nid y meddwl, na'i wrthddrychau, ond y *gweithrediad—y process.* Yma y mae canfyddiad y meddwl a gwrthddrych y canfyddiad yn un. Y mae gweithrediad y meddwl (*thought*), yn wybodaeth ac yn fod ar unwaith. Ymffrost mawr yr athroniaeth Almaenaidd ydyw, ei bod wedi uno *bod* a *gwybod* mewn un gweithrediad (*process:* y mae hwn yn air pwysig) neu ddrychfeddwl. Y mae bod a gwybod yn un. Pa ham dau air ynte am un peth? Dywedwn, nid bod a gwybod, ond *idea*, drychfeddwl. Yr *idea:* dyna Dduw Hegel. Dadblygiad yr *idea:* dyna *sylwedd. Adnabyddiaeth* o'r dadblygiad: dyna wyddor (*science*). Dyma y darganfyddiad mawr! fod Bod yn Wybodaeth, a Gwybodaeth yn Fod; ac y mae y ddau yn un yn y drychfeddwl—yn yr *idea*. Gan mai yr un peth ydyw bod a gwybodaeth, y mae pob bod yn cael ei gynnwys a'i amgyffred yn y meddwl, o herwydd fod gwybodaeth yn y meddwl. Y mae pob dirgelwch gan hyny yn diflanu. Yn awr, gan y gwyddom pa beth ydyw yr egwyddor neu yr elfen gyntaf, ein mam ni, a phob peth hollol, sef y drychfeddwl; ac nad oes dim mewn bod ond sydd yn deilliaw o'r *idea*, yr ymofyniad nesaf ydyw, Pa fodd y mae pob peth yn dyfod i fod o'r drychfeddwl? Neu mewn geiriau ereill, Pa beth ydyw deddfau dadblygiad y drychfeddwl? Rhesymeg sydd yn atteb y cwestiwn hwn. A dyna ydyw rhesymeg yn nghyfundrefn Hegel, sef penderfynu deddfau y drychfeddwl.

Ac y mae y deddfau hyn i gyd yn ddeilliedig o'r un ddeddf sylfaenol; sef, fod gwrthgyferbyniadau neu anghyssonderau, ond eu holrhain, yn *un*. Yn ol Hegel, y mae pob meddwl, pob bod, pob drychfeddwl, yn cynnwys anghyssondeb. Ac y mae yr anghyssondeb hwn, nid yn unig *mewn* pethau; ond hyn sydd yn eu cyfansoddi. Gelwir y ddeddf hon yn ddeddf *hunaniaeth anghyssonderau* (*the identity of contradictories*). Y mae Hegel yn cyfaddef fod yr athrawiaeth hon yn ymddangos yn groes i synwyr cyffredin; ond ar yr un pryd, ei gweled yn dyfod i'r amlwg y mae yr athronydd hwn, yn mhob man. Y mae synwyr cyffredin yn dwyn tystiolaeth iddi: fel prawf o hyn, dywedir fod pob oes yn cydnabod y gwahaniaeth a'r unoliaeth sydd yn perthyn i gorph ac enaid: cydhanfodiad a gwrthwynebiad rhagwybodaeth Duw a rhyddid dyn. Nis gallwn ymwrthod â'r naill o'r gwirioneddau hyn er mwyn y llall, er eu bod yn wrthwynebol. Y mae Duw ar unwaith yn bersonol, ac etto yn anfeidrol—hyny yw, yn ammhersonol: y mae yn weledig ac yn anweledig. Onid yw Cristionogaeth yn ein dysgu fod Duw wedi gwneuthur pob peth o ddim, ac etto fod Duw wedi ei wneuthur yn ddyn? Y mae celfyddyd yn cyflwyno enghreifftiau cyffelyb. Y mae goleuni yn rhagdybied tywyllwch. Nis gallwn wahaniaethu gwrthddrychau mewn goleuni perffaith—hyny yw, heb ddim cysgod—mwy nag y gallwn yn y tywyllwch.

Dyma ddeddf dadblygiad y drychfeddwl. Y mae pob peth yn hanfodi i'r meddwl, am ei fod yn cynnwys anghyssonder neu wrthwynebiad (*contradictory*). Mewn geiriau ereill, y mae peth arall yn sefyll ar ei gyfer; a thrwy y gwrthgyferbyniad, yr ydym yn gweled y ddau yn well. Y mae drychfeddwl a'i wrthwyneb yn *ddwy elfen* hanfodol o bob act o feddwl. Ar ol sylweddoli y ddwy elfen hyn yn y meddwl, set y syniad a'i wrthwyneb, yna y mae *trydedd* elfen yn ymddangos; sef, yr ymdrech *i'w cyssoni;* neu i chwilio am drydydd syniad, un uwch na'r ddau gyntaf, i'w cynnwys. Y mae y tair elfen hyn—sef syniad, ei wrthwyneb, a'u hundeb—yn cynnwys un act gyflawn o resymeg. Y tair elfen hyn, yn iaith Hegel, ydynt y *thesis*, yr *antithesis*, a'r *synthesis;* sef, y gosodiad, y gwrthosodiad, a'r cydosodiad. Yn ol y cynllun hwn, y mae y drychfeddwl yn dadblygu ei hun yn Nuw a'r greadigaeth. Yn ei waith mawr, *Encyclopædia of Philosophical Sciences*, y mae yn cymhwys, gyda llafur a chywreinrwydd aruthrol, yr ysgogiad rhesymegol hwn—y gosodiad, y gwrthosodiad, a'r cydosodiad—yn mhob cyfeiriad, ac yn mhob celfyddyd a gwyddor, heb eithrio dim. Hunaniaeth anghyssonderau sydd i'w canfod yn mhob man. Y mae pob peth yn llawn o wrthwynebiadau:—bywyd a marwolaeth, ysgogiad a gorphwysiad, enaid a chorph, ffeithiau ac iawnderau, cymdeithas a natur, athroniaeth a chrefydd. Nid ydyw bywyd a marwolaeth ond dwy elfen yr un bod—dau wyneb yr un angenrheidrwydd ydyw ffaith a hawl—nid ydyw cymdeithas ond cynnydd ar natur—dadblygiad o grefydd ydyw athroniaeth.

Ei ddull gwastadol ef o athronyddu ydyw chwilio yn mhob drychfeddwl am ddrychfeddwl gwrthwynebol, ac yna eu huno mewn trydydd. Mewn dull arall o ymadroddi, y mae yn edrych ar bob peth *ynddo ei hun;* ac yna, *allan o hono ei hun;* ac yn olaf, *iddo ei hun*. Ac y mae hyn yn esboniad ar bob peth:—ac fel y canlyn y mae yn dechreu esbonio pob peth. Y mae *bod* yr un peth a *dim*. *Bod—Dim*. Y meddwl o hyn yw, os amddifedwch fod o bob priodoledd ac ansawdd, yr ydych yn ei wneuthur yn ddim. O ganlyniad, y mae y syniad noeth o fod wedi ei ddiosg o'i holl ansoddau yr un peth a dim. Allan o'r gosodiad hwn, sef fod bod yr un peth a dim, y mae yn esbonio pa fodd y daeth y greadigaeth i fod. 1. Y mae y drychfeddwl noeth o fod a gwybodaeth—y mae y ddau yn un—yn cael ei ragdybied yn gyntaf yn ei ffurf symlaf heb ei ddadblygu o gwbl. 2. Y mae yr angenrheidrwydd sydd yn perthynu i weithrediad y meddwl yn peri i'r meddwl neidio i ffurf allanol; ac felly yr ydym yn cael *natur*. 3. Dan yr un angenrheidrwydd y mae y drychfeddwl, neu fod, yn sylweddoli ei hun mewn undeb ymwybyddol, a hyn ydyw *meddwl*.

Ni buasem yn dyweyd cymmaint a hyn am yr hyn nas gall ein darllenwyr edrych arnynt yn amgen na breuddwydion, oni buasai am y canlyniadau niweidiol a gwir ddychrynllyd sydd iddynt ar y Cyfandir, ac hefyd yn Lloegr. Pan ofynom Yn mha le y mae Duw yn y gyfundrefn hon? dywedir wrthym ei fod yn y greadigaeth fel y mae yr enaid yn y corph. Duw ydyw meddwl neu fod yn ei ffurf wasgarog, heb fod mewn Person na Bod personol, ac heb fod yn meddu ymwybyddiaeth bersonol nes iddo gyrhaedd hyny yn

Digitized by Google

mherson ac ymwybyddiaeth dyn. Mae hyn yr un peth a dywedyd nad oes Duw personol, gwahanol oddi wrth ac uwchlaw y greadigaeth, ac nad yw creadigaeth a rhagluniaeth yn weithredoedd gwirfoddol; ond gweithrediad angenrheidiol *dim*, yn ymostwng i ddeddf orfodol hunaniaeth anghyssonderau. Nid oes gwybodaeth, na deall, na phersonoliaeth yn perthyn i Dduw, nes iddo ei sylweddoli ei hun mewn dyn, ac yn mhob dyn. Er fod dyn yn cael ei ddyrchafu i fod yn Dduw ar un llaw, etto, ar y llaw arall, y mae yn cael ei ddarostwng islaw dyn. Nid ydyw dyn yn fod personol, cyfrifol am ei weithredoedd; nid ydyw ond cynnyrch angenrheidiol yr ysgogiad rhesymegol sydd yn dwyn pob peth i fod. Yn y gyfundrefn hon, y mae dyn yn colli ei anfarwoldeb, fel pob peth arall o werth, trwy ymsuddo yn ol i anymwybyddiaeth, fel y mae Duw yn dechreu bod trwy ddyfod yn ddyn. Y mae Duw yn fôr o fod diderfyn, di-enaid, difeddwl, mewn ymdrech gwastadol i ddyfod i fod yn meddwl dyn. Y mae cenedlaethau dynolryw yn donau sydd wedi ymgodi am ychydig ar wyneb y môr yma, ac yna yn suddo yn ol i anghof a diddymdra. Fel hyn y mae Hegeliaeth yn amddifadu dyn o Dduw, o'i hanfodiad personol ei hun, ac o anfarwoldeb. Y mae yn cymmhwyso ei athroniaeth hefyd at y Beibl. Nid ydyw athrawiaeth y Drindod ond ysgogiad y meddwl mewn ufudd-dod i ddeddf gwrthwynebiadau—y gosodiad, y gwrthosodiad, a'r cydosodiad. Nid yw y cwymp ond ymddangosiad y meddwl mewn ffurf allanol: ac nid yw y prynedigaeth ond dygiad y gosodiad a'r gwrthosodiad i undeb yn y cydosodiad.

Dyma gyfundrefn ddychrynllyd o anffyddiaeth; yr hon sydd yn ffynu ar y Cyfandir, ac yn ymledaenu yn Mhrydain. Dan gysgod hon y mae dynion fel Strauss yn ceisio dadsylfaenu gwirionedd hanesyddol y Beibl, ac yn enwedig yr Efengylau. Nis gall fod perygl oddi wrthi ar yr un pryd, ond mewn anwybodaeth o'r pentwr o afresymoldeb, yr anghyssonderau, y tybiau disail a'r hunan-dwyll sydd yn ei gwneud i fyny.

Y mae ffynnonell yr holl ganlyniadau dinystriol hyn yn tarddu o wrthodiad Kant i dderbyn casgliadau profiad, trwy ganfyddiad allanol a mewnol. Yr oedd y gwrthodiad hwn yn seiliedig ar y ffaith nad yw yr egwyddorion *à posteriori* yn meddu yr ansoddau o gyffredinolrwydd ac angenrheidrwydd fel yr egwyddorion *à priori*. Tra yr oedd yr athronwyr Almaenaidd yn ymwrthod â hanner ein gwybodaeth, ac yn marchogaeth yr hanner arall i farwolaeth pob peth sydd yn werthfawr ac yn bwysig i ddyn, yr oedd athronwyr yr Alban yn rhoddi cydbwysedd ar y ddwy ochr hyn i'n gwybodaeth, a hyny ar y tir anwrthwynebadwy fod ymwybyddiaeth yn sail y ddwy. Os derbynir y naill, rhaid derbyn y llall, o herwydd yr un tyst sydd dros y ddwy.

**HENADURIAETH**: [πρεσβυτερος, *presbuteros*, oddi wrth πρεσβυς, *presbus*, un mewn oedran, hen, henadur; "mab hynaf," (*presbuteros*): *Luc* xv. 25; hynafgwyr, 1 *Tim*. v. 1; hynafiaid; *Mat*. xv. 2]. Enw o anrhydedd yn cael ei roddi yn yr Eglwys Iuddewig a Christionogol ar ddynion o brofiad a doethineb, y rhai a fyddent yn gyffredin mewn oed, ac wedi eu galw i gymmeryd rhan yn llywodraethiad achosion cyhoeddus: *Exod*. xviii. 12; xix. 7; xxiv. 19, &c. Defnyddir y gair yn y Testament Newydd am aelodau y Sanhedrim Iuddewig yn Ierusalem: *Act*. xxiv. 1; *Mat*. xvi. 21; xxvi. 57, &c. Am ddisgrifiad cyffredinol o henaduriaeth fel cyfundrefn eglwysig, gwel dan y gair EGLWYS; ac am rai bethau neillduol a berthynant i'r gyfundrefn yn Nghymru, gwel METHODISTIAID CALFINAIDD.

YN OL YSTYR YSGRYTHYROL y gair, defnyddir *presbuteroi* am henuriaid yr eglwysi Cristionogol, i'r rhai yr ymddiriedwyd arweiniad a llywodraethiad eglwysi unigol. Defnyddir y gair yn yr ystyr hwn yn gyntaf yn *Act*. xi. 30; "gan ddanfon at yr henuriaid." Yr oeddynt yn arolygwyr y cynnulleidfaoedd:—swydd a fenthyciwyd, fe allai, o'r synagog Iuddewig. Sefydlwyd hwynt yn yr eglwysi yn gyffredinol gan yr apostolion: *Act*. xiv. 23. Defnyddir *henuriaid (presbuteroi)* yn yr un ystyr yn y Testament Newydd a'r gair *esgobion*, επισκοποι—*episcopoi*. Addefir gan esgobyddion eu hunain nad oedd *episcopos* ddim yn enw ar swydd uwch na'r *presbuteroi* yn yr oes apostolaidd.—Gwel *Alford's Greek Test*., xiv. 30. Rhydd y cyfeiriadau canlynol yn brawf o hyny: *Act*. xx. 17, 28; *Titus* i. 5—7; 1 *Pedr* v. 1, 2; *Phil*. i. 1. Y mae henaduriaid yn credu fod y seiliau cryfaf o blaid unrhywiaeth swydd esgob a henadur yn yr eglwys apostolaidd: canys, yn y lle cyntaf, y mae y teitlau o *esgob* a *henadur* yn cael eu defnyddio yn ddiwahaniaeth, ac mewn dull cyfnewidiol, mewn cyfeiriad at yr un a'r unrhyw bersonau. Er enghraifft: y mae Paul yn cyfarch yr "henuriaid" yr anfonodd am danynt o Miletus yn y cymmeriad o "esgobion," *Act*. xx. 17—28; ac yn mysg y cymmhwysderau a ofynid gan yr henuriaid, ag yr oedd Titus, yn ol cyfarwyddyd Paul, i'w hordeinio, dywedir, "canys rhaid i esgob fod yn ddiargyhoedd;" *Titus* i. 5—7. Parhawyd i ddefnyddio y termau hyn yn gyfystyr ac yn gyfnewidiol am yr un personau, medd Neander, hyd yn mhell yn yr ail ganrif. Gwneir cyfeiriad hefyd, yn *Phil*. i. 1, at "esgobion a diaconiaid." Os nad henuriaid a gyferchir yma yn yr anerchiad at yr esgobion, pa fodd y mae i ni esbonio y gadawiad allan o'r swydd ganolog: tra y mae lliosogrwydd o esgobion mewn un eglwys yn anghydweddol â'r dybiaeth fod gan bob un o honynt awdurdod breladol? Y mae yr un disgrifiad o'r ddwy swydd i'w cael yn Epistolau Clemens Romanus. Mae dadl arall i'r un perwyl; sef, fod y swyddog sydd yn myned dan yr enwad hwn yn yr Ysgrythyr, bob amser yn cael ei osod allan fel yn arolygu, nid yn unig yr henuriaid, ond y gynnulleidfa:—"Edrychwch gan hyny ar yr holl *braidd*, ar yr hwn y gosododd yr Ysbryd Glân chwi yn *esgobion*" (*episcopous*); *Act*. xx. 28; 1 *Pedr* v. 2, 3. Heblaw hyny, y mae yr unrhyw gymmhwysderau yn ofynedig gan esgobion a henuriaid. Ni raid ond cymmharu 1 *Tim*. iii. 2—7, â *Titus* i. 6—10, mewn trefn i gael sicrwydd fod yr apostol yn son am yr un swydd o dan yr enwad *esgob* yn yr amgylchiad cyntaf, a *henadu* yn yr olaf; ac oddi ar hyn yr ymresyma Jerome [Ep. 83, *ad Oceanum*]—"Yn y ddau epistol, pa un bynag ai esgobion ai henuriaid (er bod yn rhaid fod *esgobion a henuriaid yr un* yn amser yr hynafiaid, canys y mae un enwad yn dynodi urddas, a'r llall yn dynodi oedran), rhaid dewis gwŷr un wraig i lenwi y swydd gyssegredig." Yr oedd yr unrhyw ordeiniad i esgobion a henuriaid yn yr eglwys apostolaidd: *Act*. xx. 17—28: *Titus* i. 5—7. Y mae unrhywiaeth hefyd yn eu dyledswyddau, gan fod termau y llywyddiad uchaf yn cael eu cymmhwyso at yr henuriaid: *Heb*. xiii. 7—17; 1 *Thes*. v. 12; *Act*. xx. 28; tra yr oeddynt nid yn unig yn gweinyddu ordinhadau yr eglwys, ond hefyd yn meddu rhan yn y

Digitized by Google

llysoedd uchaf: *Act.* xv. 23. Ac nid ydyw yn anhawdd profi chwaith fod gan yr henuriaid hawl berffaith i ordeinio hyd yn oed yn eglwys yr apostolion; ac nid oes un gwaharddiad, trwy yr holl gyfarwyddiadau a roddir iddynt, i beidio cyflawni hyn. Nid oes dim yn natur yr eglwys am yr hyn y dylent gael eu hamddifadu o'r hawl. Y mae y defnyddiad o chwech o wahanol dermau yn y Testament Newydd i arwyddo ordeiniad yn anghysson â'r dybiaeth ei bod yn dynodi mwy na neillduo i swydd, neu ei bod yn weithred mor anghyffredin o arbenig fel ag i ofyn swydd uwch a rhagorach mewn trefn i'w gweinyddu. Nid yw dwyn yn mlaen enghreifftiau,yn mha rai yr oedd apostolion ac efengylwyr yn ordeinio, mewn un modd yn profi fod gwaharddiad i henuriaid i wneuthur yr un peth; tra yn amgylchiad Apollos (*Act.* xviii. 27), ac hyd yn oed Paul ei hun, pa un bynag ai yn Damascus neu yn Antioch nid oes un lle i feddwl mai oddi wrth y prelad esgobol yr oedd y commissiwn a dderbyniasant. Ond y mae ordeiniad Timotheus yn cael ei olrhain yn uniongyrchol i lys yr henaduriaid: 1 *Tim.* iv. 17. Yr ydoedd Calvin—er ar y cyntaf yn ammheus ynghylch ystyr y gair *henuriaeth*, ac yn dueddol, yn ei *Institutions*, i'w adael yn ammhenderfynol pa un ai swydd ai llys a ddynodai—wedi dyfod o'r diwedd, yn ei eglurhâd ar yr adnod, yn benderfynol mai yr olaf oedd y gwir ystyr. Pe buasai yn arwyddo swydd, ac os ydym i ddarllen mewn cyssylltiad âg ef "dawn y swydd henadurol," y mae ar unwaith yn dinystrio y ddadl o blaid esgobyddiaeth oddi wrth weinidogaeth Timotheus. Henadur ydoedd efe ar ol y cwbl, ac nid esgob. Ond y mae yn rheol addefedig mewn deongliadaeth fod yn rhaid penderfynu ystyr unrhyw derm yn ol cyfattebiaeth yr amgylchiadau ereill yn mha rai y dygwydda. Nid yw "henuriaeth" byth yn arwyddo swydd: y mae yr arwyddocâd *llys* yn amlwg iddo mewn dau le. Y mae ei gymmhwysiad at henaduriaid yn eu cynmeriad cynnulliadol, o ganlyniad, yn eithaf naturiol a rheolaidd. Gellid chwanegu fod cyfeiriadau dygwyddiadol lliosog, y rhai sydd yn cyfreithloni casgliadau (nid yn llai grymus o herwydd ei bod yn anuniongyrchol), yn cadarnhau mewn modd tarawiadol nodwedd ac awdurdod y swydd henadurol o ran parhâd ac uchafiaeth; megys, ni chyfeirir at esgobion mewn cyssylltiad â'r eglwys yn Ierusalem. Danfonwyd casgliadau i'r tlodion yn y ddinas hono, nid at yr esgobion, ond at yr henuriaid; ac y mae hyd yn oed yr apostolion eu hunain, pan y maent yn dynodi eu safle gyda golwg ar swyddogion cyffredin a sefydlog yr eglwys, yn ei hystyried yn anrhydedd cael eu rhestru yn mhlith yr henuriaid: 1 *Pedr* v. 2.

BARN Y TADAU BOREUOL.

Ond er mai hyn ydyw yr ystyr a rydd henaduriaid i'r geiriau dan sylw yn y Testament Newydd, etto nid ydynt mewn un modd yn gwrthod cyfaddef fod preladiaeth esgobol wedi meddiannu safle uchel, mewn ystyr wladol, cyn sefydliad Cristionogaeth yn yr ymherodraeth Rufeinig. Yr oedd Paul ac Ioan wedi sylwi ar, a chondemnio, ymadawiad llawer pwysicach oddi wrth symlrwydd trefn a phurdeb yr eglwys gyntefig cyn terfyniad y cyfnod apostolaidd: 2 *Thes.* ii. 7; 1 *Ioan* iv. 3. Nid yw o gymmaint syndod, gan hyny, gyda golwg ar y rhan yma o lywodraeth eglwysig, fod y chwennychiad am oruchafiaeth, sydd mor naturiol i'r galon ddynol, wedi awgrymu a dwyn i mewn mor ebrwydd lawer o newydd-debau ar gydraddoldeb yr henuriaeth. Pan yn ymgyfarfod mewn unrhyw ddinas neu drefedigaeth, i drin achosion eglwysig mewn unrhyw ystyr, byddai yr henuriaid, fel y gwneir mewn pob cymdeithas arall, yn penodi cadeirydd i gadw trefn. Yr hyn yn ddiammheu a effeithiai arnynt wrth ddewis y cyfryw fyddai ei dalent, dylanwad ei gymmeriad, ynghyd â phrofiad digonol. Byddai llwyddiant y llywydd mewn un cyfarfod yn foddion i sicrhau ei ail etholiad mewn cyfarfodydd dilynol, nes o'r diwedd y daethpwyd i edrych ar y swydd fel un yn terfynu ond gyda bywyd y cyfryw. Fel yr oedd yr eglwys yn raddol yn dirywio, daeth elfenau ereill i weithrediad: temtiodd uchelgais y gweinidogion i ddefnyddio rhwysgfawredd er mawrygu eu swydd; gwnaethant gynnyg am eu hawl i'r offeiriadaeth; a chynmerodd trefniadau eglwysig eu ffurf oddi wrth raddfa y swyddi a amlygid yn yr eglwys Iuddewig, ac oddi wrth y gwahaniaeth urddas a dderbynid oddi wrth y dinasoedd lle yr oedd gweinidogaeth wedi ei sefydlu, nes, o radd i radd, y daeth yr holl gyfundrefn, gan ddechreu gydag esgobyddiaeth blwyfol fel y cam cyntaf, o'r diwedd i ddiweddu yn unbenaeth ysbrydol Rhufain.

Nid ydyw yr eglurhâd hwn o ddechreuad esgobyddiaeth yn cael ei ystyried gan henaduriaid fel damcaniaeth yn unig. Y mae yn gorphwys, yn eu barn hwy, ar ffeithiau awdurdodedig, yn gystal ag ar dystiolaeth y tadau boreuol. Gellid dyfynu dywediadau o eiddo amryw o'r tadau, ac o benderfyniadau cymmanfaoedd, oddi wrth ba rai y mae yn anwadadwy nad allai y breladiaeth ar y cyntaf ymestyn dros ragor nag un eglwys. Mewn un dalaeth fechan, sonir am gynnifer o esgobion yn llafurio ac yn dysgu, fel nad oedd yn bossibl fod eu terfynau yn eangach nag un plwyf; canys dywed Du Pin, fod 690 o esgobaethau yn cael eu nodi mewn hen ysgrifau yn Affrica yn unig; ac nad oedd gan rai o'r esgobion ddim mwy yn eu hesgobaeth na phentref bychan, amddiffynfa, mynachdy, neu ddinasoedd lle nad oedd yno Gristionogion yn preswylio yn barhaus. Ar y cynseiliau dinôd hyn o awdurdod eglwysyddol y sefydlwyd y gyfundrefn fwy rhwysgfawr a'r awdurdod eangach o uchafiaeth breladaidd. Er cadarnhau y golygiadau hyn y mae henaduriaid yn arferol o appelio at Awstin a Hilary, ond yn fwy arbenig at Jerome yn ei esboniad ar *Titus* i. 5. Mae yr hyn a ganlyn yn adolygiad o syniadau pwysig y tad dysgedig:—

1. Y mae Jerome yn gwadu yn bendant fod gan yr esgobion safle uwch na'r henaduriaid trwy *ddwyfol appwyntiad*. I brofi ei haeriad ar y pen hwn, y mae yn myned yn uniongyrchol at yr Ysgrythyrau, ac yn ymresymu, fel y gwna pleidwyr cydraddoldeb, oddi wrth gyfnewidioldeb y *teitlau* o *esgob* a *henadur*, oddi wrth y *cyfarwyddiadau* a roddir iddynt, heb yr awgrym lleiaf am wahaniaeth yn eu hawdurdod, ac oddi wrth yr awdurdod ddiammheuol a berthynai i henaduriaid yn ei ddyddiau ef.

2. Tystia Jerome fel *ffaith hanesyddol*, fod y llywodraeth yma gan *henaduriaid yn unig* wedi parhau hyd nes y tybiwyd yn addas ei gyfnewid er mwyn arbed ymraniadau ac ymrysonau gwarthus.

3. Tystia Jerome fel *ffaith hanesyddol*, na wnaed y cyfnewidiad hwn yn llywodraeth yr eglwys—y cread hwn o radd uwch o weinidogion,—ond yn *raddol*. Y gair a arfera yw "*paulatim*," o "fesur ychydig ac ychydig."

Digitized by Google

4. Tystia Jerome fel *ffeithiau hanesyddol* mai *dyfais ddynol* oedd dyrchafu un henadur uwchlaw y lleill—nad oedd wedi ei osod trwy awdurdod, ond iddo ymlusgo i mewn trwy arferiad; a bod henaduriaid ei oes ef yn berffaith gydnabyddus â'r ffaith.

5. Tystia Jerome yn mhellach fel *ffaith hanesyddol*, fod yr esgobion cyntaf wedi cael eu gosod gan yr henaduriaid eu hunain; ac o ganlyniad "nas gallant feddu na chyfranu un awdurdod uwch na henaduriaid." [Gwel *Gweithiau Dr. Mason*, cyf. iii.] Y mae geiriau Jerome yn dra neillduol pan yn cymhell i sylw y cyferbyniad rhwng dechreuad y breladiaeth a'r ordinhadau hyny nad oedd un cwestiwn ynghylch eu dwyfol awdurdodiad:—y mae yn gosod y "*consuetudo ecclesiæ*" yn erbyn y "*dispositionis dominicæ veritas*,"—arferiad yr eglwys yn erbyn cyfraith ein Harglwydd. Y mae hefyd yn ffaith bwysig, ac yn teilyngu sylw, nad ydyw yn seilio ei resymau ar unrhyw opiniwn o'i eiddo ei hun, ond ar ffeithiau oedd yn cael eu haddef yn gyffredinol, a thu hwnt i ammheuaeth.

I gyfarfod â'r cadarnhad nodedig hwn i'r gyfundraeth henadurol mewn perthynas i ddechreuad llywodraeth esgobol, dygir tri rheswm yn mlaen gan ddiffynwyr esgobyddiaeth.

1. Fod y symmudiad graddol y sonia Jerome am dano yn gydredol â'r oes apostolaidd, a bod y cyfnewidiad o ganlyniad wedi derbyn cadarnhâd apostolaidd.

2. Fod Jerome, mewn llythyr at Evagrius, yn cyfyngu yr hawl i ordeinio i esgobion, ac felly yn caniatau y gwahaniaeth hanfodol rhwng eu swydd hwy ag eiddo yr henadur.

3. Ei fod, yn niwedd y gyfryw frawddeg, yn cyfeirio at ryw debygolrwydd rhwng yr urdd driphlyg yn y glwysbenaeth Iuddewig a gwahanol swyddau y weinidogaeth dan yr oruchwyliaeth newydd. Nid yw henaduriaid wedi canfod un anhawsder i gyfarfod â'r rhesymau hyn. Y mae y rhagosodiad cyntaf yn cael ei wadu yn y modd mwyaf penderfynol. Nis gallai fod Jerome yn golygu symmudiad oedd yn cymmeryd lle o flaen llygaid ac o dan awdurdod yr apostolion. I brofi unrhywiaeth dechreuol yr esgobion a'r henuriaid, y mae yn dyfynu allan o dri o epistolau gwahanol yn y Testament Newydd. Y mae yn rhaid fod yr unrhywiaeth hwnw yn bodoli yn yr oes yr ysgrifenwyd hwynt gan yr apostolion; ond buasai nerth ei resymeg yn cael ei ddadsylfaenu pe cymmerasai y cyfnewidiad, trwy ba un y dyrchafwyd yr esgobion goruwch yr henaduriaid, le yn ystod yr un oes, a phe hawliai yr un awdurdod uchel a'r cydraddoldeb blaenorol. Y mae un o'r epistolau y cyfeiriwyd atynt wedi ei ysgrifenu yn ddiweddar iawn ar hanes Paul. Gyda golwg ar yr honiad fod Jerome yn dadgan mai eiddo yr esgobion ydoedd yr awdurdod i ordeinio, y mae yr ymadrodd ar ba un y sylfaenir yr honiad i'w gael yn ei lythyr at Evagrius, lle y seilia ei ddadl dros ddarostyngiad y diacon i'r henuriad ar y ffaith fod gan yr henuriad yn y dechreu yr un gallu ac awdurdod a'r esgob, a hyny drwy gommissiwn a threfniad apostolaidd. Haera ymhellach nad oedd un gwahaniaeth rhwng y ddwy swydd yn yr eglwys hyd yn oed yn ei ddyddiau ef, oddigerth yn y mater o ordeiniad. "*Quid facit, excepta ordinatione, episcopus, quod non faciat presbyter?*" Y mae y dybiaeth fod yr haeriad sydd yn awgrymedig yn y gofyniad hwn yn cyfeirio at yr eglwys gyntefig, ac nid yn neillduol at yr eglwys yn ei ddyddiau ef, yn anghysson â chystrawen y geiriau, yn gystal a sylfaen ei holl ymresymiad, sef unrhywiaeth perffaith y ddwy swydd yn amser yr apostolion. Ac yn olaf, gyda golwg ar yr ymadrodd a ganlyn, sydd yn yr un llythyr—"Gan fod yn wybyddus i ni fod y traddodiadau apostolaidd wedi eu cymmeryd o'r Hen Destament, bydded i esgobion, a henuriaid, a diaconiaid hawlio yr un safle yn yr eglwys a'r hyn ydoedd Aaron a'i feibion, a'r Lefiaid, yn y deml"—y mae yn eglur, gan mai holl amcan ei lythyr oedd profi mai yr un ydoedd esgob a henadur ar y cyntaf, a bod y gwahaniaeth wedi cyfodi, nid oddi ar *draddodiad apostolaidd*, ond oddi ar *arferiad yr eglwys*, fod y ddwy swydd o henadur neu esgob, a diacon, fel sefydliad dwyfol, yn cael eu gosod allan ganddo fel yn cyfatteb i'r swyddau offeiriadol a Lefiaidd dan yr hen oruchwyliaeth. Buasai ymadroddion y gŵr dysgedig, o'u hystyried mewn unrhyw olygiad arall, yn hollol anegluradwy.

Ar ol dywedyd cymmaint a hyn yna am ystyr ysgrythyrol a boreuol y gair, a'r gyfundrefn y defnyddir ef i'w osod allan, ni a edrychwn ar y gwahaniaeth sydd rhwng y tair ffurf o lywodraeth eglwysig fel y maent mewn arferiad yn mysg Prosestaniaid; sef, esgobyddiaeth, henaduriaeth, ac annibyniaeth, neu gynnulleidfaoliaeth.

Y mae henaduriaeth yn y canol rhwng esgobyddiaeth neu breladiaeth ar un llaw, a chynnulleidfaoliaeth ar y llaw arall. Y mae yn cyttuno mewn rhai egwyddorion âg esgobyddiaeth, yn erbyn annibyniaeth; ac mewn rhai egwyddorion âg annibyniaeth, yn erbyn esgobyddiaeth. Y mae henaduriaethwyr yn cyttuno âg esgobyddwyr, yn erbyn cynnulleidfaoliaeth, yn y pethau canlynol yn benaf:—Mewn gwadu fod pob cynnulleidfa yn meddu yn gyffredin hawl, hawl ddwyfol, i annibyniaeth hollol a chyflawn yn llywodraethiad ei hachosion; mewn priodoli awdurdod i lywodraethu yn mhob cynnulleidfa i'r swyddogion, yn wrthgyferbyniol i'r aelodau cyffredin; ac mewn dal fod yn briodol i wahanol eglwysi ymuno â'u gilydd mewn un trefniant rheolaidd, fel y gellir gweinyddu llywodraeth gan swyddogion yr eglwysi unedig arnynt oll. Y mae esgobyddwyr yn cyttuno â henaduriaethwyr yn yr egwyddorion canlynol:—nid ydynt yn caniatau fod yn iawn i ymddiried i'r aelodau cyffredin yr awdurdod i drefnu eu holl achosion eglwysig, a gweinyddu ei llywodraeth; a hyny yn annibynol ar bob awdwrdod y tu allan iddynt eu hunain. Y maent yn dal fod yr hawl, neu yn hytrach, y gweinyddiad cyffredin o'r hawl i weinyddu achosion y gynnulleidfa, nid yn nwylaw aelodau y gynnulleidfa, ond yn nwylaw y swyddogion. Ond y mae henaduriaethwyr yn dal fod gan yr eglwys hawl i ddewis y swyddogion; yr hyn nid yw esgobyddwyr yn gwneyd. Mae i swyddogion unedig pob henaduriaeth hawl i weinyddu awdurdod yn mhob eglwys a gynnrycholir gan yr henuriaeth.

Y mae henaduriaethwyr yn cyttuno â chynnulleidfaolwyr yn erbyn esgobyddwyr yn hyn:—fod yr apostolion wedi sefydlu dwy swydd yn yr eglwys, sef henaduriaid a diaconiaid; ond y mae henaduriaethwyr yn golygu fod dau ddosbarth o henaduriaid, sef y rhai nad ydynt yn gwneuthur dim ond llywodraethu, a'r rhai sydd yn dysgu ac yn llywodraethu. Y mae y cynnulleidfaolwyr yn gwadu y gwahaniaeth hwn. Yr unig beth y mae esgobyddwyr yn cyttuno â chynnulleidfaolwyr ynddo, yn erbyn yr henaduriaethwyr, ydyw

Digitized by Google

ynghylch yr hawl ysgrythyrol i wneuthur gwahaniaeth rhwng yr henuriaid sydd yn llywodraethu a'r henuriaid sydd yn dysgu.

Oddi wrth y gymmhariaeth hon, ni a welwn fod tair elfen hanfodol i'r gyfundrefn henadurol.

*Awdurdod yr henuriaid -cynnrychiolaeth yr aelodau cyffredin—undeb eglwysi mewn llysoedd adolygiadol.*

I. Gyda golwg ar yr *awdurdod* a hawlir:—1. Y mae o *appwyntiad dwyfol.* Mae henaduriaid yn gyffredin yn hòni fod awdurdod swyddol yr henadur yn deilliaw yn uniongyrchol oddi wrth Iesu Grist, er fod yr alwad i'w gweinyddu yn dyfod trwy gyfrwng y bobl. Yn y golygiad yma, y mae ufudd-dod i reolaeth eglwysig yn cael ei gymmhell ar y gydwybod gan yr awdurdod ysbrydol uchaf, fel trefniad sydd yn cyfodi, nid oddi ar addasrwydd a chymmhwysder pethau, ond wedi ei appwyntio yn bennodol gan Dduw.

2. Y mae swydd yr henadur yn *briodol* ac *arbenig.* Nid ydyw yn gyfaddas i bob aelod o'r eglwys i ymgymmeryd â'r gorchwyl o addysgu a rheoli yn yr eglwys pan y myno. Oddi wrth y doniau neillduol a efynir—y ffurfiau arbenig a ddefnyddid yn yr eglwys gyntefig wrth neillduo dynion i'r swydd -y gwahaniaeth a wnaed mor fynych rhwng y rhai a lywodraethent a'r rhai oedd i ymddarostwng iddynt—pwysfawredd y swydd, fel yn cynnwys pregethiad yr efengyl, gweinyddiad y sacramentau, a chynnaliaeth dysgyblaeth -ac oddi wrth yr enwau a roddir ar lywodraethwyr yr eglwys yn yr Ysgrythyrau—dadleuir nad yw yr henaduriaeth yn swydd, ag y gall unrhyw ddyn ymgymmeryd â'r gwaith o'i chyflawni pan y tybia ei hun yn gymmhwys i hyny, ond yn swydd i'w gwenyddu yn unig gan ddynion fyddont wedi eu galw mewn modd arbenig, a'u hordeinio iddi.

3. Y mae awdurdod yr henadur yn hollol *weinidogaethol.* Y mae yr ystyriaethau ar ba rai y myntumir y golygiad yma ar y swydd yn seiliedig ar y tystiolaethau ysgrythyrol hyny sydd yn egluro y dyledswyddau sydd yn gyssylltiedig â hi. Yr oedd y swyddogion uchaf fu erioed yn yr Eglwys Gristionogol, sef yr apostolion, yn darlunio eu hunain fel gweision Crist, ac yn hawlio ufudd-dod, ond yn unig cyn belled ag yr oeddynt yn gweithredu dan ei gyfarwyddyd ef, ac heb unrhyw hawl i "arglwyddiaethu" ar ffydd yr eglwys. Gyda golwg ar henuriaid, gorchymynir iddynt mewn modd mwy enwedigol beidio "traarglwyddiaethu ar etifeddiaeth Duw, ond bod yn esiamplau i'r praidd." Mae yr awdurdod i reolciddio gweithrediadau eglwysig a gwasanaeth crefyddol, lle nad oes reol arbenig wedi ei gosod i lawr, wedi cael ei ymddiried iddynt hwy yn y cyfarwyddyd cyffredinol—"Gwneler pob peth yn weddaidd ac mewn trefn." Y mae henaduriaid, modd bynag, yn gwrthdystio yn erbyn y syniad fod gan yr eglwys hawl i sefydlu defodau ac arferion newyddion, i ba rai nad oes awdurdod ysgrythyrol iddynt. Pan y byddo swyddogion yr eglwys wedi ymgyfarfod fel llys barn, ac wedi eu galw ynghyd i benderfynu ar faterion o ffydd, nis gallant weithredu ond mewn ystyr weinyddol. Fel hyn y dywed *Cyffes Ffydd Westminster*, xxxi. 3:—"Y mae yn perthyn i gymmanfaoedd a chynghorau mewn ystyr *weinyddol* i benderfynu dadleuon ynghylch pynciau ffydd, ac achosion cydwybod."

4. Y mae parhâd y swydd i fod cyhyd a bodolaeth yr eglwys sydd mewn angen am ei gwasanaeth. Mewn geiriau ereill, y mae yn *barhaus* neu *arosol.* Nid ydyw, fel prophwydoliaeth yr hen oruchwyliaeth neu apostoliaeth yr oruchwyliaeth newydd, wedi cael ei sefydlu fel darpariaeth ar gyfer angen neu sefyllfa neillduol yr eglwys. Y mae y cyfarwyddiadau a roddwyd yn yr epistolau ysbrydoledig er hyfforddiant henaduriaid yn awgrymu parhâd eu swydd hyd ddiwedd amser.

5. Yn olaf, yn ol y gyfundrefn henadurol, y swydd uchaf yn yr eglwys ydyw yr henaduriaeth. Y mae y gosodiad yma wrth gwrs mewn gwrthdarawiad i brif egwyddor esgobyddiaeth; yr hon a haera fod esgob yn swyddog eglwysig, nid yn unig o urdd gwahanol, ond hefyd o radd uwch; a chan yr hwn yn unig y mae yr awdurdod i lywodraethu ac ordeinio. Y mae henaduriaid, o'r ochr arall, yn haeru nad oes un gwahaniaeth rhwng esgob a henadur; fod yr holl weinidogion yn rhinwedd eu commisiwn yn gydradd o ran urddas ac awdurdod, a bod yn rhaid i'r appeliad eithaf, mewn achosion o ddadleuaeth neu ddysgyblaeth, gael ei wneyd, nid at lywydd esgobaeth ond at lys o henaduriaid. Er cadarnhâd y golygiad hwn, y maent yn arfer dangos bod y seiliau ar ba rai yr hawlia yr esgob swyddogaeth uwch a gwahanol yn ddirym—fod unrhywiaeth esgob a henadur yn cael ei gydnabod yn amlwg yn yr Ysgrythyr, ac nad ellir olrhain dechreuad esgobyddiaeth, ar dystiolaeth awdurol yr hen dadau, i un appwyntiad dwyfol ac apostolaidd, ond i arferion sydd wedi cael eu himpio i mewn yn ddiweddarach.

II. Os ydyw Pen yr eglwys, drwy y swydd henadurol, wedi darparu gogyfer â llywodraeth briodol yr eglwys, y mae ei pherffaith ryddid yn cael ei sicrhau trwy yr elfen gynnrychioliadol. Yn gymmaint ag nad ydyw yr eglwys yn fath o werin-lywodraeth, felly nid ydyw chwaith yn unbenaeth träarglwyddaidd. Dywedodd Bunsen, gyda golwg ar bob cyfansoddiad eglwysig a chynnulleidfaol, mai rhyddid Cristionogol, o fewn terfynau cydweddol â'r Ysgrythyr, ydyw yr angenrhaid penaf i sicrhau adnewyddiad bywyd. Ymdrechwn ddangos yn fyr pa mor bell y mae y gyfundraeth henadurol yn cydgorphori ac yn sicrhau rhyddid yn gystal a threfn.

1. Y mae henaduriaid yn gwadu fod yr holl awdurdod eglwysig wedi ei ymddiried i'r weinidogaeth. Y mae y weinidogaeth wedi ei sefydlu er mwyn yr eglwys, ac nid yr eglwys er mwyn y weinidogaeth. "I'r eglwys weledig gatholig hon y rhoddodd Crist y weinidogaeth."—*Cyffes Ffydd Westminster*, xxv. 3. Tra y credant mai yr henaduriaeth ydyw yr awdurdod eglwysig uchaf a mwyaf priodol, a'i fod yn deilliaw fel rhodd uniongyrchol oddi wrth Ben yr eglwys, etto y mae yr awdurdod hwnw i gael ei weinyddu er lles yr eglwys. Bendith wedi cael ei gyfranu iddi fel cyfangorph ydyw llywodraeth. Ac yn yr hyn oll sydd yn dwyn perthynas â'r ffurfwasanaeth, a'i phenderfyniadau gyda golwg ar dangnefedd a threfn, a gweinyddiad dysgyblaeth, y mae gan y bobl hawl wirioneddol a sylweddol, er ei fod yn anuniongyrchol, i ran yn y llywodraeth, o fewn y terfynau a ganlyn; sef, fod yn rhaid iddo fod yn gysson â'r Ysgrythyr, a chael ei ddwyn i weithrediad trwy gyfrwng y swyddogion cymmhwys hyny a fyddont wedi cael eu happwyntio yn neillduol i'r perwyl.

2. Y mae y cyfryw gydnabyddiaeth o'r bobl yn cael ei awdurdodi gan ysbryd y cyfeiriadau lliosog a wneir atynt yn yr Ysgrythyrau; yn ol pa rai, hwynt hwy, ac nid y gweinidogion, yw yr eglwys. Y mae yr Ysbryd yn trigo ynddynt hwy er eu

sefydlu brawdgarwch Cristionogol ar un sylfaen "undeb yr ysbryd yn nghwlwm tangnefedd." Mewn geiriau ereill, y mae gwadu gwirionedd cymmeriad Cristionogol, pa mor eglur bynag y byddo yn cael ei wirio, am ei fod tu allan i gylch ein henwad, yn sism, neu rywbeth gwaeth. Dilys ydyw, o ganlyniad, fod yn rhaid i ryw ddarpariaeth gyfansoddiadol fodoli yn yr eglwys, a'n galluoga i ochelyd unbleidiaeth (yr hwn mewn ymarferiad sydd yn gyfystyr a'r cyfryw gyfeiliornad) ac i gydnabod rhai yn Gristionogion mewn cynnulleidfaoedd ereill ar yr un tir a'r eiddom ein hunain. 2il, Y mae y *dyledswyddau gorphwysedig* ar aelodau yr eglwys yn cynnwys amnaid o gydrwymedigaethau a gweithrediadau sydd tu draw i derfynau cynnulleidfa unigol. Yn y dystiolaeth dros y gwirionedd, yn yr ymdrech i sicrhau gweinidogaeth gymmhwys, yn y gwyliadwriaeth eiddigus y dylid ei arfer er mwyn sicrhau cymmundeb pur, ac yn lledaeniad yr efengyl, yn enwedig yn mhlith y paganiaid, y mae yr un gyfraith ag sydd yn ein gorfodi, er mwyn cydweithrediad, i ymostwng i a pharchu barn y brodyr mewn un gynnulleidfa, yn ein rhwymo hefyd i weithredu yr un hunanymwadiad gyda golwg ar yr holl gynnulleidfaoedd a fyddont yn ewyllysgar i gymdeithasu â ni. Y mae yn ammhossibl canfod pa fodd y gall yr amcanion hyn gael eu cyrhaedd a'u hyrwyddo ond trwy ymddarostyngiad i lywodraeth gyffredinol, un ai parhaus ac awdurdodol, neu ynte neillduol a thrwy gyttundeb. Ond i gyfarfod âg amgylchiad parhaus, y mae yn sefyll i reswm y dylai cyfansoddiad yr eglwys gynnwys darpariaeth arosol ar ei gyfer. 3ydd, Y mae yr holl olygiadau a roddir i ni ar yr eglwys gyntefig yn seiliedig ar y dybiaeth o fod undeb yn perthyn iddi, yr hwn oedd yn cydio yr aelodau ynghyd, nid yn un gynnulleidfa yn Ierusalem, ond â holl gynnulleidfaoedd y byd. Yr oedd yr apostolion yn arfer awdurdod gyffredinol dros y cyfan; a chyfansoddasant hwynt yn y fath fodd fel nad oeddynt yn annibynol ac ar wahân, ond yn y fath undeb â'u gilydd fel y gellid eu galw yn un eglwys. Mae hyn yn eglur, yn marn henaduriaid, oddi wrth y ffaith hon—y sonir am holl gredinwyr Ierusalem, Ephesus, a Chorinth, fel un eglwys, er fod yn y dinasoedd hyn lawer o gynnulleidfaoedd: 1 *Cor*. i. 2; xiv. 34. 4ydd, Y ffurf benodol yn mha un y dygwyd yr undeb hwn i ymarferiad ydoedd trwy *lysoedd adolygiadol: Act* .xv. Mae prif nodweddau trafodaeth y cyfarfod hwn yn cynnwy scyfeiriad oddi wrth eglwys neillduol at lys ymgynnulledig mewn lle arall, penderfyniad a basiwyd mewn canlyniad i'r cydymgynnulliad, a'r dadganiad o rwymedigaeth yr holl eglwysi i gydymffurfio â'r penderfyniad. Cyn belled ag y gellir casglu oddi wrth yr hanes a'r penderfyniad, nid cyfarwyddyd yn nghylch ffaith a ofynid; ond ynghylch egwyddor, am yr hyn yr oedd y gynghorfa yn ystyried eu hunain yn meddu awdurdod i ddadgan eu barn. Nis gellir chwaith ddywedyd fod y penderfyniad yn fynegiad ysbrydoledig yn unig; canys os felly, gallasai Paul ar unwaith benderfynu y ddadl yn Antioch. Yr eglurhad mwyaf tebygol ar yr ymdrafodaeth ydyw, ei bod yn warant trwy yr hwn y mae braint newydd yn cael ei rhoddi i'r eglwys drwyddi, a dadblygiad newydd o'i hawdurdod yn cael ei gadarnhau yn unol âg amgylchiadau eglur ei thyfiant a'i lledaeniad; sef undeb yn y ffurf o lywodraeth gyffredinol dros amryw gynnulleidfaoedd.

*Hanes Henaduriaeth.*—Y mae henaduriaid yn credu na ddaeth esgobyddiaeth breladol yn ffurf lywodraeth gyffredinol yn yr Eglwys Gristionogol hyd nes yr oedd yr ail ganrif wedi myned heibio. Y mae yr engreifftiau o lywodraeth henadurol mewn canrifoedd dilynol yn perthyn mwy o'r braidd i ddosbarth y rhesymau hanesyddol o'i phlaid; ond y mae yn cynnwys manylion mor eang a lliosog, fel nad ydyw ein gofod yn caniatau adolygiad helaeth arnynt. Haerir, ar awdurdod Philostorgius, fod yr eglwysi Gothaidd, hyd amser Ulphilas, odditan lywodraeth henadurol. Cyfeirir weithiau at amgylchiad Bavaria fel engraifft, yn mha un yr oedd y ffurf yma o lywodraeth yn ffynu o'r flwyddyn 540 hyd babaeth Zachary yn 740. Yn ei lythyr at Boniface Moyunt, sydd etto ar gael, y mae Zachary fel yn haeru nad oedd henaduriaid y dalaeth hono wedi derbyn ordeiniad esgobyddol cyn iddo osod Vivilo yn esgob arni. Gellir golygu ymadroddion Zachary, pa fodd bynag, fel yn cynnwys ond yn unig ei fod yn ansicr gan bwy y derbyniodd yr henuriaid Bavariaidd eu hordeiniad. Dadleua Lechler mai nid benthyca y gyfundraeth henadurol gan y Waldensiaid a ddarfu i'r Diwygwyr, yn gymmaint ag nas gellir profi fod yr ol lleiaf o'r henaduriaeth yn bodoli yn eu mysg yn y cynoesoedd. Prin y gellir ystyried y gosodiad hwn yn ddiffynadwy; canys nid ydyw nodwedd hanfodol henaduriaeth yn dibynu yn hollol ar fodolaeth y dosbarth yma o swyddogion, hyd yn oed ar y dybiaeth—yr hyn sydd wedi ei wadu—mai ffurf newydd ar eu hen drefn ydyw ei hanfodiad presennol yn mysg y Waldensiaid; tra y mae yn eglur oddi wrth dystiolaeth eu haneswyr hwy eu hunain, yn gystal a'r awdurdodau Rhufeinaidd boreuaf—Reinerus, Seyssel, Æneas, Sylvius, a Bellarmine—eu bod yn ymwrthod yn hollol â glwysbenaeth—âg unrhyw swydd o radd uwch na henadur. Y mae Seyssel, archesgob cyntaf Turin, yn disgrifio eu cyfundrefn mewn traethawd a gyhoeddodd yn 1520, ar ol ei ymweliad â'r gyfran hono o'i esgobaeth; ac y mae ei dystiolaeth ef yn eglur yn cau allan pob llywodraeth uwch na henadur. "Y maent yn appwyntio y rhai hyny a farnont yn oreu yn eu plith yn offeiriaid (hyny yw, henuriaid), at y rhai y cyrchant ar bob achlysur, fel at ficeriaid ac olynwyr yr apostolion." Dywed Æneas:—"Y maent yn gwadu glwysbenaeth; gan fyntumio nad oes un gwahaniaeth yn mysg yr offeiriaid o ran urddas swydd." Ac y mae llythyr Morel, gweinidog Waldensiaidd, at Œcolampadius, yn y flwyddyn 1530, yn cyfeirio at gynghorfa gyffredinol o'r henaduriaid hyn, trwy yr hwn y rheoleiddid amgylchiadau eglwysig y frawdoliaeth.

Yn yr amrywiol wledydd i ba rai y cyrhaeddodd dylanwad y Diwygiad Protestanaidd, yr oedd cyfansoddiad yr Eglwys Brotestanaidd yn cael ei chyflunio yn ol graddau y rhyddid a fwynhaent. I'r graddau ag yr oeddynt yn cael eu gadael yn rhydd oddi wrth reolaeth y wladwriaeth o barth i sefydliad eu trefniant a'u hurdd, yr oedd eu tueddiad cyntaf at y ffurf henadurol. Darfu i'r Eglwysi Lutheraidd gan mwyaf mewn amser fabwysiadu y gyfundrefn esgobyddol, a'r Eglwysi Diwygiedig yr un henadurol; ond y mae yn sicr fod rhai eithriadau. Er enghraifft, nid oedd eglwys Zeurich, er ei bod yn un o'r Eglwysi Diwygiedig, yn gwbl henadurol; tra y gorfu i ddiwygwyr Saxony ymgymmeryd â'r ffurf esgobyddol gan amgylchiadau. Felly, y mae gwahaniaeth yn bodoli rhwng golygiadau damcanol Luther a'u dadblygiad ymarferol. Gan

Digitized by Google

ddal yr egwyddor o offeiriadaeth gyffredinol credinwyr, daliai fod iawnderau a gweithrediadau eglwysig yn y lle cyntaf yn perthyn i'r eglwys; yn ngweinyddiad y ddysgyblaeth, galwai am gydweithrediad y llëygwyr fel cynghorwyr; ac yn y flwyddyn 1523, annogodd y Bohemiaid i ethol eu bugeiliaid a'u hesgobion eu hunain. Yr oedd anwybodaeth cyffredinol yr amseroedd, pa fodd bynag, yn gyfryw, fel mai ei brif amcan ydoedd sefydlu yn y cyfamser ryw drefn i addysgu y bobl mewn athrawiaeth iachus. Derbyniodd fwy o gynnorthwy er sefydlu a llywodraethu yr eglwys gan y tywysogion a'u swyddogion, na chan y werin; y rhai, hyd yn hyn, oeddynt yn rhy anniwylliedig i ymddiried iddynt gyfrifoldeb y llywodraeth. Nis gall dim fod yn fwy nerthol na chondemniad Luther o ymyriad hedd-ynadol âg achosion ysbrydol; etto, daeth y trefniant i ba un yr ymostyngai, o herwydd ei bod yr unig un ymarferadwy ar y cyntaf, o'r diwedd yn rheol yn sefydliad yr eglwys. Yr oedd yr awdurdodau gwladol yn anfoddlawn i roddi i fyny eu hawl i'w llywodraeth. Er nad oedd yr eglwyslysoedd, hefyd, ar y cyntaf, ond llysoedd eglwysig i achosion eglwysig; etto, collasant o radd i radd eu nodwedd neillduol. Yn Leipsic, yn y flwyddyn 1547, penderfynwyd yn nghymmanfa yr uchelwyr fod yr eglwyslysoedd i weinyddu mewn achosion bydol yn gystal ag mewn rhai ysbrydol. Syniad sylfaenol y gyfundrefn eglwyslysol ydyw trosglwyddiad o bob llywodraeth eglwysig oddi wrth yr esgobion Rhufeinig i'r awdurdodau gwladol, cyn belled ag y byddai yn cydweddu â rhyddid cydwybod, ac i'r hawl ordeiniol sydd yn perthyn yn neillduol i'r swydd weinidogaethol. Ar yr egwyddor hon y mae aelodau yr eglwyslysoedd yn cael eu happwyntio gan y wladwriaeth. O ganlyniad, y mae tebygoliaeth mewn dau beth rhwng y drefn eglwyslysol a'r drefn henadurol. Y mae yn anuniongyrchol yn cymmeryd i mewn gynnrychiolaeth y llëygwyr, ac y mae 'yn seiliedig ar wrthodiad Luther o unrhyw swydd uwchlaw henadur: canys, er fod gan yr Eglwys Lutheraidd hyd y dyddiau presennol arolygwyr yn ei gwasanaeth, etto y mae eu swyddogaeth yn seiliedig yn unig ar gyfleusdra, ac nid ar awdurdod ysgrythyrol, nac ar gynlluniau yr hynafiaid. Nid ydynt yn gweinyddu ond ordeiniad henadurol; nid ydynt o anghenrheidrwydd yn parhau mewn swydd dros eu hoes; a rhaid iddynt gyflwyno adroddiadau o ansawdd ysbrydol eu dosbarth i'r eglwyslysoedd, oddi wrth ba rai hefyd y derbyniant gyfarwyddiadau mewn achosion o bwysigrwydd.

Cafodd y drefn eglwyslysol ei ffurfio yn ol gofyniadau y taleithiau; ond dianghenrhaid ydyw sylwi ond ar yr amgylchiadau hyny oedd yn cyfatteb fwyaf i egwyddorion sylfaenol henaduriaeth. Yn y flwyddyn 1526, darfu i Brenz sylfaenu ffurflywodraeth eglwysig yn ninas rydd ymherodrol Halle yn Suabia, yn yr hon yr unid henaduriaeth o ddynion duwiol â'r fugeiliaeth er arolygiaeth y cynnulleidfaoedd; ond gadawyd yr hawl i appwyntio y cyfryw i'r swydd i'r heddynadon, os byddent yn efengylaidd, yn ol y syniad Almaenaidd o'r gair—neu mewn geiriau ereill, os perthynent i'r Eglwys Brotestanaidd. Yn nghymmanfa eglwysig Homberg, yn yr un flwyddyn, cynnygiodd Francis Lambert gynllun o gymmanfaoedd taleithiol, yn gynnwysedig o'r gweinidogion, a phrwyadur neu genadwr o bob cynnulleidfa. Yr oedd y gyfundrefn yn gymmanfaol, yn hytrach na henadurol, o ran nodwedd; ond ni chafodd ei sefydlu, yn gymmaint a bod Luther, pan yr ymgynghorwyd âg ef yn ei chylch, yn tybied nad oedd y bobl etto yn gymmhwys a galluog i hunan-lywodraeth. Yn 1539, pa fodd bynag, dygwyd y swydd henadurol i mewn i eglwys Hesse, ond nid effeithiodd yr amgylchiad hwnw unrhyw gynnrychiolaeth o'r meddwl a'r ewyllys cyffredinol yn yr uchel lysoedd eglwysig. Ar ol ymdrech hirfaith â'r awdurdodau gwladol, llwyddodd John á Lasco, yn y flwyddyn 1544, i sefydlu ffurflywodraeth henadurol yn Embden; a ffrwyth ei lafur ef ydoedd Eglwys Ddiwygiedig flodeuog Ffriesland Ddwyreiniol. Gellir casglu sylwedd ei gynllun oddi wrth y ffurflywodraeth a dynwyd allan i'r gynnulleidfa Almaenaidd yn Llundain, â pha un y bu mewn cyssylltiad wedi hyny. Ni chydnabyddai ond dwy swydd, sef yr henaduriaid a'r diaconiaid; ond cynnwysai y cyntaf ddau ddosbarth, sef yr addysgol a'r llywodraethol. Oddi wrth restr a gynnygid gan y gynnulleidfa, dewisai yr eglwys y rhai a dybient yn fwyaf cymmhwys i'r swydd. Mae y cynnydd neu y gwelliant a wnaeth à Lasco ar gyfundrefn Calvin, fel y sefydlwyd hi yn Geneva, dair blynedd yn flaenorol i sylfaeniad y llywodraeth henadurol yn Embden, yn gynnwysedig mewn golygu y swydd glerigol a'r swydd henadurol fel un, yn nghydnabyddiad yr eglwys-lys fel geneu yr holl gynnulleidfa, ac yn y gallu a sicrhawyd i'r bobl yn yr etholiadau. Galwyd y Pwyliad dysgedig hwn wedi hyny i Frankfort, a than ei ddylanwad ef y sefydlwyd henaduriaeth yn y ddinas hono. Oddeutu diwedd yr unfed ganrif ar bymtheg, rhoes ymuniad yr etholwr Frederick III. â'r Gyffes Ddiwygiedig, arweiniad i mewn i ffurflywodraeth eglwysig newydd yn y freiniarllaeth. Cyfuniad ydoedd hon o'r gyfundrefn eglwyslysol â'r un henadurol. Yr oedd gan bob cynnulleidfa henadurfa, yn gynnwysedig o'r gweinidog, ac oddi dan ei lywyddiaeth ef, ac amryw ereill, y rhai a etholid gan yr awdurdodau eglwysig er cadw iawn drefn a dysgyblaeth. Uwchben yr holl eglwys wladol, eisteddai cynghorfa appwyntiedig gan yr etholwr, aelodau yr hon oeddynt dri o dduwinyddion, a thri o gynghorwyr gwladol, y rhai a gynnalient eu cyfarfodydd yn Heidelberg. Islaw y gynghorfa hon yr oedd arolygwyr yn mhob un o'r esgobaethau. Yn ystod erlidigaeth Alva, diangodd llawer o bobl o'r Iseldiroedd i ranau o'r Rhine Isaf, a dygasant gyda hwynt eu hymlyniad at henaduriaeth. Yn 1566, diweddodd cynnadledd a gynnaliwyd yn Wesel gyda dadganiad o hawl ddwyfol yr henaduriaeth—egwyddor a gadarnhawyd yn fwy ffurfiol mewn cymanfa fawr yn Embden yn 1571. Trefnwyd hefyd ar gyfer cyfarfodydd chwarterol yr henadurfa, cymmanfaoedd taleithiol blynyddol, a chymmanfaoedd cyffredinol bob dwy flynedd. Ac y mae y gyfundrefn a sefydlwyd yn y modd hwn yn parhau felly i raddau helaeth hyd y dyddiau presennol. Yn y flwyddyn 1577, mwynhaodd talaeth Nassau holl freintiau llywodraeth a dysgyblaeth henaduriaeth; a thua deng mlynedd yn ddiweddarach, dygwyd y gyfundrefn i arferiad lled gyffredinol yn Westphalia. Y mae hanes dilynol henaduriaeth yn yr eglwysi Almaenaidd yn rhy gymmhlethog ac amrywiol i oddef eglurhâd cryno a manwl. Y mae lliaws o bryd i bryd wedi 'codi eu lleisiau er amddiffyn hawliau ac iawnderau henaduriaeth; ac yn eu plith y mae enwau Spener, Schleiermacher, a Neander.

Y mae olion henaduriaeth hefyd i'w canfod yn



Digitized by Google

hanes yr eglwysi a gyfodasant mewn canlyniad i'r Diwygiad tu allan i'r Almaen. Amlygodd y genedl Slavonaidd ei bod yn hoffi athrawiaeth a llywodraeth yr Eglwys Ddiwygiedig yn hytrach na'r un Lutheraidd. Yma cyfarfyddodd cynnadledd efengylaidd cyntaf y Pwyliaid yn Pinkzow, yn Hydref 1550. Yn ol nodiadau Comenius ar y *Book of Order*, a fabwysiadwyd gan y brodyr Bohemiaidd yn 1616, y mae y gair *henadur* yn cael ei gymmhwyso gan yr apostolion, "nid yn unig at weinidogion, ond hefyd at eu cynnorthwywyr yn ngwyliedaeth y praidd, y rhai nad ydynt yn llafurio yn y gair a'r athrawiaeth;" tra y mae y *Book of Order* ei hunan yn hòni fod, yn ol yr apostolion, "yr henadur a'r esgob yr un a'r unrhyw." Cyfansoddwyd yr eglwysi Moravaidd ar yr un cynllun, gydag ychydig gymmysgedd o esgobyddiaeth; sef, rhoddi y flaenoriaeth i ordeiniad esgobion, er eu bod yn ystyried ordeiniad yr Eglwys Ddiwygedig yn llawn mor rymus a safadwy; ac yr oedd yr esgobion, nid yn mwynhau y rheolaeth uchaf ar achosion eglwysig, ond yn ddarostyngedig i lys o henaduriaid. Yn Hungary, ar y dechreu, yr oedd gan bob cynnulleidfa weinidog, ynghyd âg arolygwr llëygol, y rhai a etholid gan yr aelodau. Yr oedd yno lysoedd graddedig, cyfarfodydd *senorial*, cymmanfaoedd taleithiol, a chynnadledd gyffredinol. Y mae goruchwyliaeth gymmanfaol o'r fath yma wedi bod mewn gweithrediad er y flwyddyn 1564. Ond yn ddiweddar, mewn canlyniad i'r ymdrech aneffeithiol i ymryddhau oddi wrth orthrwm Awstria, y mae rhyddid yr Eglwys Hungaraidd wedi cael ei lethu. Y mae ei hamgylchiadau yn cael eu gweinyddu gan eglwyslys; neu mewn geiriau ereill, gan ddynion appwyntiedig gan y llywodraeth i'r swydd.

Yn Switzerland, cafodd y cynllun llywodraethol a ddyfeisiwyd gan Zuingle i Zurich, ei gymmhwyso at Berne, St. Gall, a Schaffhausen; prif nodwedd yr hwn ydoedd, fod amgylchiadau eglwysig yn cael eu hymddiried i ofal heddynad, os byddai yn Gristion; ac felly, cynghor y Dau Cant oedd yn ymarferol yn gweinyddu ei hachosion yn enw yr eglwys. Cynnygiodd Œcolampadius gynllun i Basle, yn yr hon yr oedd yr henuriaid, nifer o ba rai a etholid gan y bobl, yn cael eu huno â'r gweinidogion yn ngweinyddiad y ddysgyblaeth. Ar ol i'r wladwriaeth wneuthur cyfnewidiadau hanfodol ynddo, tuedd pa rai ydoedd cwtogi gweithrediad annibynol yr eglwys, pasiwyd ef yn gyfraith. Ond mewn cyssylltiad â Switzerland, y cynllun henadurol a sefydlwyd gan Calvin yn Geneva sydd yn teilyngu ein sylw penaf. Y mae yn rhaid i ni yn y lle hwn etto, fel yn amgylchiad Luther, sylwi ar y gwahaniaeth oedd rhwng eglurhâd Calvin ar ei gynllun o lywodraeth eglwysig fel egwyddor, a'r wedd a ymgymmerodd yn ei dygiad i weithrediad, neu fel ei dadblygwyd mewn ymarferiad. Dwy egwyddor fawr a roddes ffurf i'r cynllun o lywodraeth a sefydlwyd gan y diwygiwr enwog hwn. Sylfaenodd ef ar sail ysgrythyrol; a gwelodd yn eglur pa mor angenrheidiol ydoedd ffurf llywodraeth dda er sicrhau trefn a phurdeb yn yr eglwys. Henaduriaeth ydoedd y ffurf a dybiai yn oreu er myntumiad dysgyblaeth. Rhoddir braslun o'i gyfundrefn mewn dwy wahanran o'i *Institutes*. Nis gall dim fod yn fwy eglur a chryno na'i fynegiad (*Institut.*, llyfr iv. pen. xi. adran 5), yn yr hwn y mae yn dadblygu *prif amcan* llywodraeth eglwysig, "*to prevent the occurrence of scandals*,"—mewn geiriau ereill, purdeb yr eglwys: ei *nodwedd arbenig* fel yn hollol a chwbl ysbrydol, "*this spiritual power is altogether distinct from the power of the sword;*" a'i *threfn ysgrythyrol* drwy henaduriaeth, "*that it be not administered at the will of one individual, but by a lawful consistory.*" Gyda golwg ar yr ail egwyddor, dywed yn arbenig—"*for the severest punishment of the church, and as it were her last thunderbolt, is excommunication,*"—geiriau pwysig a chynnwysfawr mewn gwirionedd, nid yn unig yn hawlio annibyniaeth yr eglwys, ond hefyd yn sylfaenu ar dir cadarn yr hyn oll sydd yn werthfawr mewn rhyddid crefyddol! Y cwbl y mae yn ei geisio ydyw, yr hyn y dylai pob cymdeithas a ffurfir i ddybenion crefyddol neu haelionus ei fwynhau, sef, yr hawl o ryddid i nodi teleran derbyniad i mewn iddi, ac i orfodi cydymffurfiad â'r cyfryw trwy ddiarddeliad am droseddiadau yn eu herbyn. Gwahardda yr eglwys rhag ymyraeth â "*mulctis, vel carceribus, vel aliis civilibus pœnis.*" Ac yn mhellach, i ddiogelu rhyddid crefyddol, y mae yn gosod llywodraeth yr eglwys, nid yn nwylaw y gweinidogion yn unig, ond mewn henaduriaeth, "*senatus presbyterorum,*" yn gynnwysedig o ddau ddosbarth, sef yr henuriaid addysgol a'r henuriaid llywodraethol:—"*Alii ad docendum erant ordinati, alii morum censores duntaxat erant.*" Y mae y dyfyniadau hyn yn ddigonol i ddynodi yn ddiammheuol beth ydoedd trefn llywodraeth eglwysig Calvin, tra yr amlygant ar yr un pryd yr ysbryd yn mha un y golyga y mater; sef, fel yn cynnwys yr unig gyfundrefn ag y gosodwyd sel ddwyfol awdurdod arni er sicrhau llwyddiant gwir grefydd a moesoldeb pur, yn gydweddol â rhyddid ac iawnderau cydwybod.

Nid ydyw dyweyd na wnaeth Calvin un ddarpariaeth ar gyfer gweithrediad cymmanfaol o un pwys. Y mae efe yn dadgan elfenau hanfodol ei gyfundrefn, y rhai nid ydynt yn cau allan fodolaeth llysoedd eglwysig uwchlaw yr henadurfa; ac y mae yn cydnabod y rhaid i gryn lawer o bethau yn nadblygiad ei gynllun gael ei adael i amgylchiadau. Y mae y cynllun a dynodd allan i eglwys Ffraingc yn cynnwys llysoedd adolygiadol. Yr oedd Geneva yn rhy fechan i sefyll mewn angen am fwy na henadurfa. Ac nid oes y sail leiaf i'r haeriad ei fod, o herwydd iddo ddefnyddio ymadroddion moesgyfarchiadol a chyfeillgar tuag at Eglwys Loegr, wedi ymwrthod â'r egwyddorion a gyhoeddodd yn ei *Institutes*. Yn ei esboniad ar *Act.* xx.—un o'i weithiau diweddaraf, a'r hwn a ysgrifenwyd ond ychydig cyn ei farwolaeth—dywed "nad oedd unrhyw wahaniaeth rhwng henaduriaid ac esgobion, yn ol yr Ysgrythyrau; ond fod galw yn esgobion y rhai a feddent gyssylltiadau â dinasoedd neillduol wedi codi oddi ar lygriad ac ymadawiad oddi wrth burdeb cyntefig."

Taflwyd llawer o rwystrau ar ffordd Calvin i sefydlu ei gyfundrefn yn Geneva, trwy fod yr awdurdodau gwladol yn edrych yn eiddigus ar y gosodiad i fyny o unrhyw allu pa bynag, heblaw yr eiddynt hwy. Ar ol ei fynediad oddi yno, gwnaed aml gais am ei ddychweliad; ond gwrthododd, ond ar yr ammod iddo gael sefydlu yr henaduriaeth. Nis gellir hawlio i Calvin yr enw o fod yn gyntaf i gynllunio y ffurflywodraeth henadurol; etto, ar yr un pryd rhaid rhoddi iddo y clod deublyg a briodolir iddo gan Lechler. Yn y lle cyntaf, dadblygodd y drychfeddwl fel damcaniaeth eglur, neu yn hytrach fel cyfundrefn ymarferol; ac yn ail, ar ol ymdrech galed, sefydlodd hi mewn cyflawn weithrediad yn Geneva.

Digitized by Google

Ymledaenodd yr Eglwys Ddiwygiedig hefyd yn gyflym iawn yn Ffraingc, a'i ffurf o'r dechreuad ydoedd yr henadurol. Yn y flwyddyn 1561, nid oedd dim llai na 2150 o gynnulleidfaoedd yn perthyn iddi; a hysbysir i ni gan L'Hopital fod un ran o bedair o'r genedl wedi gadael cymundeb Eglwys Rhufain. Cymmerodd cyfarfod o Brotestaniaid Paris le yn y flwyddyn 1555, pryd y cyttunasant i ethol gweinidog, henaduriaid, a diaconiaid; a dilynwyd eu hesiampl mewn trefydd mawr ereill. Yn ngwyneb perygl dirfawr, ac o dan gysgodion y crogbrenau a godwyd i'w dinystrio, cyfarfyddodd cenadon perthynol i unar-ddeg o eglwysi y Gyffes Ddiwygiedig mewn cynnadledd gyffredinol yn Paris, cyttunasant ar Gyffes Ffydd, ynghyd â ffurflywodraeth, awduriaeth pa un a briodolir i Calvin. Yn ol y cyfansoddiad hwn, yr oedd i bob cynnulleidfa ei heglwyslys o henaduriaid, y rhai ar y cyntaf a etholid gan y gynnulleidfa. Pan y byddai gwagle yn y llys, llenwid y cyfryw gan yr eglwyslys; ond yr oedd eu dewisiad hwy i fod yn ddarostyngedig i gymmeradwyaeth y gynnulleidfa. Ymddiriedid etholiad y gweinidogion i'r gynnadledd daleithiol, ond yr oedd yn rhaid i'r cynnulleidfaoedd gadarnhau y dewisiad cyn y gellid ei benderfynu. Dywed De Felice: "Os gwneir unrhyw wrthwynebiad, rhaid ei osod o flaen y rhai yr ymddiriedwyd dewisiad y gweinidogion iddynt. Nis gellir mewn un amgylchiad wneuthur appwyntiad yn wrthwynebol i lais y mwyafrif." Cynnelid cyfarfodydd ddwywaith yn y flwyddyn gan un henadur ac un gweinidog o bob eglwys a gynnrychiolid. Yr oedd cymmanfaoedd taleithiol hefyd yn gynnwysedig o eglwysi dosbarth eangach, ond o gyfansoddiad cyffelyb, yn cyfarfod unwaith yn y flwyddyn. Yr oedd y gynnadledd gynhedlaethol yn gyfansoddedig o ddau weinidog a dau henadur o bob un o'r îs-gynnadleddau. Cynnaliwyd y gynnadledd genhedlaethol gyntaf yn Paris, yn 1559; a'r nawfed ar hugain, a'r olaf, yn Loudun, yn 1669. Ar ol hyn, attaliwyd y caniatad i ymgyfarfod. Yn ol deddf yr 18fed Germinal, 1802, gosodwyd pump neu chwech o eglwysi dan eglwyslys, yr hwn a appwyntiwyd am y tro cyntaf gan bump ar hugain o Brotestaniaid y dosbarth a gyfranent fwyaf at y trethi cyhoeddus. Nid oedd gan y bobl hawl i ethol nac i anghydsynio â'r etholiad. Yn lle cymmanfaoedd taleithiol, sefydlwyd cymmanfaoedd "*d'arrondissement*," yn gynnwysedig o genadon oddi wrth bump o'r eglwyslysoedd hyn. Ond ni weithiwyd y cynllun hwn allan, gan na bu ond un cyfarfod o'r natur yma, a hwnw yn La Drome, yn y flwyddyn 1850. Gwnaed cryn gyfnewidiadau gan ddeddf Mawrth 10fed, 1852. Yn lle eglwyslys yn llywyddu pump neu chwech o eglwysi, y mae y ddeddf yn appwyntio *cynghor henadurol* yn mhob plwyf, yn cynnwys gweinidog fel llywydd, a dim llai na phedwar, na mwy na saith, o henaduriaid wedi eu hethol gan y bobl. Cynnelir eglwyslysoedd cyffredinol yn mhrif drefydd dosbarth, yn gyfansoddedig o'r holl weinidogion, a nifer pennodol o genadon dewisedig gan y plwyfydd. Y mae hanner yr aelodau sydd yn cyfansoddi y cynghor henadurol a'r eglwyslysoedd cyffredinol yn agored i gael eu hail-ethol bob tair blynedd. Uwch ben yr holl lysoedd hyn, y mae cynghorfa ganolog Brotestanaidd, yn gyfansoddedig o'r ddau weinidog hynaf yn Paris, a phymtheg o aelodau, appwyntiedig y tro cyntaf gan y wladwriaeth. Y mae y cymmhwysder meddiannol a ofynid gynt wedi ei ddileu. Yr oedd yn y flwyddyn 1858, 617 o weinidogion yr Eglwys Ddiwygiedig yn Ffraingc; 2,730 o ba rai a ymlynasant wrth Gyffes Augsburg. Swm y cyllidau a roddid gan y llywodraeth er cynnaliaeth yr eglwysi Protestanaidd oedd 1,375,936*ff*. Heblaw yr eglwysi a gynnelid gan y llywodraeth, y mae yno o ddeutu 120 o weinidogion cynnulleidfaoedd ereill, 27 o ba rai sydd mewn cyssylltiad âg Undeb yr Eglwysi Efengylaidd; y rhai, o ran ffurflywodraeth a dysgyblaeth, ydynt yn henadurol.

Cynnaliwyd cynnadledd daleithiol cyntaf Holland yn Dort, yn y flwyddyn 1574. Mabwysiadodd y gynnadledd Erthyglau Embden, y rhai a unent henaduriaid a gweinidogion yn llywodraethiad yr eglwys. Darfu i'r llywodraeth, pa fodd bynag, wrthod eu cadarnhau, yr hyn a achosodd ymdrechfa galed a hirfaith rhyngddynt — y wladwriaeth yn ymgais am reolaeth Erastiaidd, a'r eglwys â'i bryd ar fynu rhyddid i weithredu mewn pethau ysbrydol. Y canlyniad fu i bob talaeth sefydlu cyfansoddiad eglwysig iddi ei hun. Henaduriaeth a fabwysiadwyd yn mhob man; ond henaduriaeth yn ddarostynedig i'r heddynadaeth wladol. Yn mhlith y cwestiynau y galwyd ar Gymmanfa Dort, yn 1618, i'w trafod a'u penderfynu, yr oedd y pwnc o lywodraeth eglwysig; a dadganwyd ar y pryd yn rymus a chadarn o blaid henaduriaeth. I lawr hyd y flwyddyn 1795, yr oedd yno saith o werinlywodraethau eglwysig gwahanol o dan reolaeth y wladwriaeth, i fesur mwy neu lai, heb unrhyw rwymyn cyssylltiadol arall rhyngddynt heblaw ymohebiad trwy genadon yn y cymmanfaoedd taleithiol. Yn 1816, sefydlwyd cyfansoddiad i'r holl eglwys o dan nawdd breninol, yr hwn a gynnwysai ddarpariaeth ar gyfer cymmanfa daleithiol. Cymmerodd rhai cyfnewidiadau le yn 1852; ond, a chymmeryd golwg gyffredinol, y canlyniad fu i'r eglwys wladol gael ei rhanu i dri a deugain o *ddosbarthiadau*, ac yn ddeg o gylchdeithiau taleithiol, yn cynnwys cyfanrif, yn ol cyfrifiad 1850, o 1,273 o eglwysi, 1,508 o weinidogion, a 1,661,661 o eneidiau.

Y mae yr awduron henadurol yn dwyn yn mlaen fleithiau lliosog ac amrywiol i brofi fod eu ffurflywodraeth eglwysig yn gydoesol â Christionogaeth Prydain, a dangosant dystiolaethau olynol o blaid eu golygiad; ac yn mysg ereill, yr eiddo Wickliffe, i lawr hyd amser y Diwygiad. Nid oes dim ammheuaeth nad oedd tueddiad lliaws o sefydlwyr yr Eglwys Saesnig yn y cyfeiriad yna. Golygai Cranmer fod esgob a henadur yr un; a chynnygiodd ar un adeg, y sefydliad o lysoedd cyffelyb i eisteddfodau eglwysig a chymmanfaoedd taleithiol a sefydlwyd wedi hyny yn yr Alban. Tystiodd y merthyr Lambert o blaid cydraddoldeb y weinidogaeth yn 1538. Y mae "*The Institution of a Christian Man*"—llyfr a gyhoeddwyd yn 1536, yr hwn nid yn unig a argymmhellwyd, ond hefyd a arwyddwyd gan ddau archesgob a phedwar ar bymtheg o esgobion —yn haeru "nad oes ond dwy urdd o glerigwyr, ac nad oes gan un esgob awdurdod ar un arall, yn ol gair Duw." Dygir yn mlaen hefyd dystiolaeth â Lasco, lle y sicrhâ fod yn mwriad Iorwerth VI. gyfnewid ac adgynllunio yr Eglwys Saesnig yn unol â'r purdeb apostolaidd; ac y mae y cyddestyn yn eglur ddangos mai barn â Lasco ydoedd fod purdeb apostolaidd yn hollol ac yn gwbl henadurol. Yr oedd ordeiniad henadurol yn cael ei gydnabod yn rhwydd gan dduwinyddion Lloegr y cyfnod hwnw. Darfu i'r Archesgob Grindal, yn

Digitized by Google

1582, appwyntio Morison, oedd wedi ei ordeinio gan Eglwys yr Alban, i ddyledswyddau gweinidogaethol yn esgobaeth Caergaint. Pan yn 1588, y cymhellodd Bancroft i sylw ei ddadl o hawl ddwyfol dros uchafiaeth esgobion ar henaduriaid, dywedodd y dysgedig Rainolds, mewn llythyr at Syr F. Knolleys, mai yr athrawiaeth wrthgyferbyniol, sef eu cydraddoldeb, "ydoedd barn gyffredinol yr Eglwysi Diwygedig:" ac ar ol enwi y cyfryw, chwanega, "a'r eiddom ninnau hefyd." Yr oedd Puritaniaid boreuol Lloegr gan mwyaf yn dal golygiadau henadurol, er fod eu dadleuon gyda'r Eglwys Sefydledig yn cyffwrdd mwy â defodau ac arferion neillduol yn eu haddoliad. Ar esgyniad Elizabeth i'r orsedd, mor gynnar a'r flwyddyn 1566, cyttunodd amryw o dduwinyddion rhagorol, pan wedi eu siomi yn eu gobaith am ddiwygiad mwy trwyadl, "i dori eu cyssylltiad â'r eglwysi cyhoeddus, ac i ymgyfarfod mewn annedd-dai neu fanau ereill, fel y caent gyfleusdra, i addoli Duw mewn dull na throseddai yn erbyn argyhoeddiad eu cydwybodau." Yn y rhagdraeth o'r penderfyniad hwn, y maent yn cyfeirio, mewn cydsyniad amlwg â'i egwyddorion, at "Y llyfr a'r drefn o bregethu, gweinyddiad y sacramentau, a'r *ddysgyblaeth*, a gymmeradwywyd gan yr enwog Mr. Calvin." O'r diwedd, wedi penderfynu ar ffurfiad cyflawnach o'r blaid, ymgyfarfyddodd pymtheg o dduwinyddion ac amryw lëygwyr yn Wandsworth—pentref ar fin yr afon Tafwys, o ddeutu pedair milldir o Lundain. Dewiswyd un-ar-ddeg o henaduriaid yn y cyfarfod hwnw, ac y mae eu dyledswyddau yn cael eu disgrifio mewn llyfr a elwir "*The Orders of Wandsworth.*" Er cymmaint y dirgelwch a arferwyd, daeth cyfarfod yr henaduriaeth hwn yn hysbys: ond ni buwyd yn alluog i wybod pwy oedd yr aelodau. Ffurfiwyd cymdeithasau cyffelyb mewn manau ereill. Byddai y clerigwyr eglwysig hefyd, y rhai oedd â'u tuedd at syniadau henadurol, yn cynnal cyfarfodydd o'r un natur a'r cymmanfaoedd a'r henaduriaethau, i'r dyben i ymgynghori a bod o wasanaeth crefyddol i'w gilydd; a chyrhaeddai nifer y cyfryw yn y flwyddyn 1586 i 500. Y mae llai o anhawsder i benderfynu ffurf y syniadau henadurol oedd yn bodoli yr adeg hon na rhifedi y rhai oedd yn eu proffesu. Y mae llyfr oedd mewn bri mawr gan y Puritaniaid, a ysgrifenwyd gan Travers, a argraphwyd yn Geneva yn 1574, ac a alwyd "*Disciplina Ecclesiæ sacra ex Dei verbo descripta,*" yn rhoddi esboniad clir a llawn ar eu golygiadau. Y mae yn eu hannog i sefydlu eisteddfodau yn gynnwysedig o weinidogion a henaduriaid wedi eu hethol gan y bobl; ar yr is-lys hwn, sylfaenir darpariaeth ar gyfer cymmanfaoedd taleithiol a chenhedlaethol. Un wedd neillduol yn yr ysgrifau hyn ydyw eu bod yn cynnyg cynghorfa gyffredinol gyfansoddedig o gynnrychiolwyr oddi wrth bob cymmanfa genedlaethol. Er profi eangder lledaeniad y tueddfryd at ffurflywodraeth henadurol, y mae cyfeiriad wedi ei wneyd at ymddyddan a gyhoeddwyd yn nheyrnasiad Elizabeth, yn yr hwn y dywedir fod 100,000 yn ffafriol iddi. O'r tair plaid, sef, Eglwys Rhufain, Eglwys Loegr, a'r Puritaniaid, y mae Hallam yn cyfrif mai Eglwys Loegr "ydoedd y lleiaf o ran rhifedi." Ar y llaw arall, y mae Fuller, yn ei ddisgrifiad campus o sefyllfa y pleidiau, yn ein harwain i dybied fod Eglwys Loegr yn gryfach na'r Puritaniaid. Gwel "*Fuller's Church History.*" Addefir fod cryfder y dylanwad henaduriaethol wedi ei helaethu yn ddirfawr mewn canlyniad i'r gwrthweithrediad a ddygwyd i fodolaeth trwy lywodraeth Laud. Cafodd Arminiaeth ffafr a nodded dan ei lywyddiaeth, yr hyn oedd yn gwbl wrthwynebol i fwyafrif y clerigwyr. Pan welodd y clerigwyr Calvinaidd nad allent ddibynu ar yr esgobion na'r wladwriaeth chwaith, i'r dyben i attal lledaeniad y syniadau Arminaidd, amlygasant eu haiddgarwch i sefydlu ffurflywodraeth henadurol, fel, mewn canlyniad, y gallai meddwl cyffredinol yr eglwys fwynhau rhyddid llafar a dylanwad teilwng. Erbyn hyn, yr oedd henaduriaeth wedi cael yr oruchafiaeth. Diddymwyd esgobyddiaeth yn y flwyddyn 1642. Pan yr ymgynnullodd Cymmanfa Westminister yn 1643, ar ol ymresymiad maith ac amyneddgar, dadganodd yn ffafr henaduriaeth. Gwnaed ymdrech i gael cydnabyddiaeth gan y senedd o'i tharddiad a'i hawdurdod ddwyfol; ond ymfoddlonodd y senedd ar y cydnabyddiad o honi "fel yn gyfreithlawn ac yn unol â gair Duw." Yn mis Mawrth, 1646, rhoddwyd gorchymyn ar fod henaduriaid llywodraethol yn cael eu dewis yn mhob cynnulleidfa Saesnig, a sefydlwyd brawdlysoedd eglwysig tua'r un amser. Dygwyd y gyfundrefn i weithrediad y flwyddyn ddilynol yn Llundain a swydd Lancaster. Yn y flwyddyn 1648, cyhoeddwyd fod "yr holl blwyfydd a lleoedd pa bynag," oddigerth capelau y brenin a'r arglwyddi, o dan lywodraeth henadurol. Ar esgyniad Cromwell i'r llywodraeth, adfeiliodd henaduriaeth; ond derbyniodd adfywiad yn 1660, pryd yr ail sefydlwyd y cynllun gan y senedd. Yn adeg yr adferiad, pa fodd bynag, rhoddodd henaduriaeth le i esgobyddiaeth; a chan i dros 2000 o weinidogion, y rhai oeddynt bron i gyd yn henaduriaid, wrthod cydymffurfio â Deddf yr Unffurfiaeth, diarddelwyd hwy yn y flwyddyn 1662 o'r Eglwys Sefydledig: a byth er hyny y mae henaduriaeth wedi bod yn gymundeb ar ei ben ei hun yn Lloegr.

Dioddefodd henaduriaid, fel Ymneillduwyr ereill, gryn erledigaeth hyd y chwyldroad; on cawsant fesur helaeth o ryddid trwy Ddeddf y Goddefiad yn y fl. 1689. Adennillodd eu hachos safle uchel yn ebrwydd iawn, canys cyn pen deng mlynedd ar hugain, yr oedd ganddynt 800 o gynnulleidfaoedd yn Lloegr, 59 o ba rai oeddynt yn swydd Gaerefrog yn unig. Cynnrychiolent lawn dwy ran o dair o'r dylanwad ymneillduol. Dygir yn mlaen amryw resymau dros eu hadfeiliad yn ystod y ganrif ddilynol. Ymledaenodd Ariaeth—a hwnw yn prysur gyflymu at Undodaeth—yn eu plith: yn cael ei achlysuro mewn rhan, am nad oedd yr orfodaeth i arwyddo safonau yr eglwysi yn cael ei gadw i fyny; ac mewn rhan, am nad oedd y llywodraeth henadurol wedi cael ei dwyn i weithrediad cyflawn ac effeithiol. Y cyfryw ydyw y rhesymau a roddir yn gyffredin am y dirywiad hwn mewn athrawiaeth; ond rhaid fod cyssylltiad rhyngddo â rhyw achosion eangach, gan fod holl eglwysi cred ar y pryd yn dioddef oddi wrth yr un llygrediaeth. Mewn cyfarfod a gynnaliwyd yn Salter's Hall, Llundain, nid oedd dim ond 53 allan o 110, oedd yn bresennol, a bleidleisient dros orfodi gweinidogion i arwyddo athrawiaeth y Drindod. Parodd hyn i ymraniad gymmeryd lle:—un blaid yn mynu arwyddiad o erthygl gyntaf Eglwys Loegr, ynghyd â'r pummed a'r chweched cwestiwn yn y *Catecism Byr;* a'r llall yn ymwrthod â'r gosodiad o unrhyw delerau cyffelyb. Yn Northumberland yn unig, lle yr oedd henaduriaeth yn cael ei gweithio allan yn fwyaf effeithiol, y cadwyd yr eglwysi rhag y

Digitized by Google

cyfeiliornadau hyn. Dylanwadodd y cyfryw ddynion a Lardner a Priestley ar eu brodyr yn y weinidogaeth nes eu harwain i wneyd arddelwad o olygiadau Ariaidd ac Undodaidd gydar un hyfdra ag y gwrthwynebwyd yr athrawiaeth iachus ganddynt hwy. I'r graddau ag y daeth Undodaeth i gael ei chyhoeddi o'r pulpudau, ac y syrthiodd ffurfiau henadurol i'r cysgod, i'r graddau hyny y ciliodd llawer o'r cynnulleidfaoedd henadurol, a chyrchasant i leoedd ereill o addoliad, lle y clywent yr efengyl yn cael ei phregethu yn ei phurdeb; ac yr oedd bywiogrwydd ysbrydol a sel eglwysig yr Annibynwyr a'r Methodistiaid Wesleyaidd y fath, fel yr oedd yn foddion pellach a mwy effeithiol i dori eu cyssylltiad blaenorol â'r eglwysi henadurol, a thrwy hyny leihau i raddau dirfawr eu nifer a'u dylanwad: fel yn y fl. 1812 nad oedd eu cynnulleidfaoedd (yn Undodiaid, a'r rhai a ymlynent wrth yr athrawiaeth gyntefig) dros 270. Yn y flwyddyn 1850, yr oedd yn Lloegr 217 o gynnuleidfaoedd Undodaidd; ond gan nad oes ganddynt eisteddfod berthynol i gynnulleidfaoedd unigol, na llysoedd ereill yn eu huno dan lywodraeth gyffredinol, nis gellir yn briodol eu galw yn henaduriaid. Yn y cyfrifiadau gwladol, gelwir hwynt yn "Undodiaid." Y mae er hyny lawer o gynnulleidfaoedd etto, yn enwedig yn Northumberland, a olrheiniant eu tarddiad i 1662, pryd y ffurfiwyd hwynt gan lafurwaith gweinidogion a ddiarddelwyd trwy Ddeddf Unffurfiaeth. Ond y mae y ffurf benaf yn mha un y mae henaduriaeth yn bod yn Lloegr yn bresennol i'w gael mewn cyssylltiad âg eglwysi yr Alban, y rhai sydd o'r un ffurflywodraeth ac athrawiaeth. Y mae o ddeutu 15 mewn cyssylltiad âg Eglwys Sefydledig yr Alban, a 60, cyn belled ag y mae anfon cynnrychiolwyr i'w cynnadleddau blyneddol yn myned, yn gyssylltiol â'r Presbyteriaid Unedig. Y mae cyfundeb mwy etto, yn rhifo llawer o gynnulleidfaoedd, mewn perthynas gyfeillgar âg Eglwys Rydd yr Alban, ond heb fod mewn cyssylltiad âg un o honynt, gan y darfu iddynt yn y flwyddyn 1844 gyhoeddi dadganiad o'u hawl i fod yn eglwys annibynol a gwahanedig, yn meddu eu hathrofa dduwinyddol a'u huchel-lys eu hunain. Gan na bu erioed yn ymgorphoredig âg un eglwys arall, a chan eu bod yn parhau i ymlynu wrth safonau Westminster, gellir ei hystyried fel yn cynnrychioli henaduriaeth gyntefig Lloegr. Y mae ymgais a chynnygion wedi eu gwneyd amryw weithiau i ymdrechu uno y ddwy olaf ynghyd, ond hyd yn hyn y mae y cyfan yn aneffeithiol.

Y mae i henaduriaeth America darddiad amrywiol ac anrhydeddus. Y mae y cyflenwadau helaethaf a dderbyniodd er dechreu y ganrif ddiweddaf yn gynnwysedig o ymfudwyr o'r Alban a'r Iwerddon. Cyn diwedd yr ail ganrif ar bymtheg, o'r Alban yr elai y nifer fwyaf. Ond ar ol y chwyldroad, yr oedd henaduriaid o'r Iwerddon yn cael eu llethu gan Ddeddf y Prawf Sacramentaidd, a'r ammodau neu y telerau neillduol ar ba rai y dalient eu tiroedd, nes y gorfu i liaws mawr ymfudo o'r wlad hono. Yr oedd dros o ddeutu 12,000 bob blwyddyn yn gadael yr Iwerddon am y Byd Newydd cyn canol y ganrif ddiweddaf; a'r manau y byddai yr ymfudwyr henadurol gan mwyaf yn cyfeirio eu traed oeddynt Jersey Newydd, Virginia, Pennsylvania a Carolina Ogleddol a Deheuol. Gellir hefyd nodi pedwar tarddle arall o ba rai y mae henaduriaeth America wedi derbyn cyflenwadau pwysig, sef Puritaniaid Lloegr, Eglwys Ddiwygiedig Holland, Protestaniaid yr Almaen, a Huguenotiaid Ffraingc. Philadelphia ydoedd y lle yr ymgyfarfyddodd yr henaduriaeth gyntaf; yr hon a sefydlwyd yn y flwyddyn 1705, ac a gynnwysai saith o weinidogion. Yn 1716, ffurfiwyd cynnadledd; a chan fod yr eglwys yn ymeangu, rhanwyd y cyfundeb yn bedair cymmanfa, oddi tan lywyddiaeth cynnadledd gyffredinol. Yn 1729, mabwysiadwyd mewn dull ffurfiol *Cyffes Ffydd* a *Holwyddoregau* Cynnadledd Westminester; a chafodd yr eglwys fwynhau undeb a chydgordiad mewn pyncgiau athrawiaethol am dros gan mlynedd o amser. Ond yn 1838, cymmerodd ymraniad le, rwy yr hwn yr ymwahanwyd dan yr enwau hyn:—Henaduriaeth yr Hen Ysgol, a'r Ysgol Newydd; a rhoddir y tri rheswm canlynol dros yr ymraniad hwnw. Yn gyntaf, cymmysgedd o gynnulleidfaolwyr o Daleithiau Lloegr Newydd, y rhai oeddynt yn naturiol yn gogwyddo at hen arferion eglwysig. Yn ail, lledaeniad athrawiaethau cyfeiliornus ar y cyfryw byngciau a phechod gwreiddiol, etholedigaeth, a gras effeithiol. Ac yn olaf, y flaenoriaeth a roddid gan rai i gymdeithasau gwirfoddol, yn hytrach nag i Eglwys Wladol, fel cynllun priodol i lwyddiant amcanion crefyddol. Yr oedd yr Hen Ysgol yn ymlynu wrth olygiadau a chyfundrefn cyntefig yr eglwys ar yr holl byngciau hyn. Y mae yr Ysgol Newydd, er y flwyddyn 1857, wedi ymranu—y rhan ddeheuol yn cymmeryd safle ammhleidiol ar bwngc caethwasiaeth, ond yn ymarferol yn ei gefnogi; tra y mae y gogleddwyr yn hytrach yn ei wrthwynebu. Yn ol dadganiad swyddogol yn 1858, yr oedd gan yr Hen Ysgol yn mis Mai, 33 o gymmanfaoedd, 150 o henaduriaethau, 2468 o weinidogion, 3357 o eglwysi, a 259,335 o gymmunwyr; tra yr oedd y cyfraniadau y flwyddyn hono at wahanol achosion yn 2,632,717 o ddoleri. Ar y llaw arall, yr oedd gan yr Ysgol Newydd 26 o gymmanfaoedd, 120 o henaduriaethau, 1613 o weinidogion, 1686 o eglwysi, a 143,410 o gymmunwyr; ac yr oedd eu cyfraniadau blynyddol at wahanol ddybenion crefyddol yn 273,952 o ddoleri. Y mae y cyfundeb a ymwahanodd oddi wrth yr Ysgol Newydd yn 1857 wedi cymmeryd yr enw "Cynnadledd Unedig yr Eglwys Henadurol;" ac y mae ganddi 113 o weinidogion. Y mae yno hefyd Eglwys Henadurol Rydd, yr hon sydd yn gwrthod cymmundeb i gaethfeistriaid: nifer gweinidogion yr hon ydyw 43.

Y mae cyfundebau ereill hefyd, sydd â safle wahanedig ganddynt yn yr America o'r dechreuad. Ymsefydlodd Eglwys Ddiwygedig yr Is-dir o ddeutu canol yr ail ganrif ar bymtheg yn y Taleithiau. Yr oeddynt, pa fodd bynag, odditan lywodraeth Cymmanfa Amsterdam hyd y fl. 1772, pryd y cawsant gyfansoddiad rheolaidd ac annibynol dan bump o ddosbarthiadau, y rhai oeddynt yn ddarostyngedig i gymmanfa cyffredinol. Y mae yr eglwys hon yn hollol Galvinaidd o ran athrawiaeth, ac y mae ganddi 330 o weinidogion.

Y mae yr Eglwys Ddiwygedig Almaenaidd hefyd wedi mwynhau cyfansoddiad annibynol er y flwyddyn 1792; ac y mae nifer ei gweinidogion yn 350.

Mae yr Eglwys Henadurol Ddiwygedig wedi ymsefydlu yn gyfundeb yn y Taleithiau er y flwyddyn 1752; ond yn y flwyddyn 1774 y cyfansoddwyd ei henaduriaeth gyntaf. Ymranodd yr eglwys hon yn 1833 ar y cwestiwn o berthynas â llywodraeth wladol yr Unol Daleithiau. Un blaid a haerai nas gallai y llywodraeth dderbyn

Digitized by Google

eu cefnogaeth gydwybodol, o herwydd bod y cyfansoddiad yn cenfogi caethwasiaeth, ac heb fod yn bleidiol i Gristionogaeth. Y blaid arall a ddywedai nad oedd y cyfansoddiad yn wrthwynebol, ond yn hytrach, ar y cyfan, yn ffafriol iawn i wir grefydd; ac nad oedd caethwasiaeth ond trais ar y cyfansoddiad, yr hwn y gobeithient weled ei ddiddymiad. Y mae yn awr gymmanfaoedd perthynol i'r ddwy blaid hon:—y gyntaf yn ymgyfenwi yn Gynnadledd yr Eglwys Henadurol Ddiwygedig, â chanddi 53 o weinidogion; a'r olaf yn Gynnadledd Gyffredinol yr Eglwys Henadurol Ddiwygedig, â chanddi yr un nifer o weinidogion.

O ddeutu y flwyddyn 1754, sefydlwyd Cynnadledd Gyfunol America Ogleddol, yr hon sydd yn cynnrychioli eglwysi enciliadol yr Alban; ac ar ymuniad rhai o'i haelodau â rhai o aelodau y Gynnadledd Henadurol Ddiwygedig y sefydlwyd yr Eglwys Ddiwygedig Gyfunol yn y flwyddyn 1782. Yr ymdrech i uno y ddwy, hyn â'u gilydd a esgorodd ar ffurfiad tair o eglwysi. Yn ystod y flwyddyn 1858, pa fodd bynag, effeithiwyd undeb y Gynnadledd Gyfunol â'r Gynnadledd Henadurol Ddiwygedig, dan yr enwad o Eglwys Henadurol Unedig, yr hon a wahaniaethir oddi wrth gyfangorph henaduriaid America gan y tri pheth canlynol:—gwrthwynebiad i gaethwasiaeth, ymlyniad wrth salmyddiaeth ysbrydoledig, ac anghymmeradwyaeth o gymdeithasau dirgel—perthynas â pha rai oedd yn cau allan o gymundeb eglwysig. Y mae nifer y gweinidogion yn 429.

Y mae corph lliosog henaduriaid Cumberland yn dyddio ei fodolaeth o 1803. Cafodd ei gychwyniad oddi wrth gynnygiad a wnaed i drwyddedu ac ordeinio lleygwyr oedd yn meddu dawn ymadrodd, er cyfarfod â'r angen am weinidogion wedi eu haddysgu yn rheolaidd i'r swydd. Y mae gan y corph hwn 588 o weinidogion, y rhai a broffesant Galviniaeth gymmedrol.

Cafodd yr Eglwys Lutheraidd ei bodolaeth gyntaf pan yr ymfudodd ei gweinidog cyntaf, Jacob Fabricius, i America, yn y flwyddyn 1669. Sefydlwyd hi mewn modd mwy ffurfiol ac effeithiol tua chanol y ganrif ddiweddaf. Y mae yn hollol henadurol: ond gwahaniaetha oddi wrth Lutheriaeth Ewrôp drwy ymwrthod â'r pwngc o bresennoldeb corphorol y Gwaredwr yn y cymmun. Y mae ganddi dros 400 o weinidogion.

Yn Canada, oddi tan dair cynnadledd gwahanol, y rhai ydynt yn gyssylltiedig âg Eglwys Sefydledig, Eglwys Rydd, ac Eglwys Henadurol Unedig yr Alban, y mae 390 o weinidogion. Y mae dros 120 yn Nova Scotia a Brunswick Newydd, o dan gynnadleddau gwahanol; tra, mewn taleithiau Prydeinig ereill yn America, megys Jamaica a Guiana, y gellir rhestru o ddeutu 50 yn chwanegol.

Y mae henaduriaeth hefyd wedi cael safle a chryn lwyddiant yn Awstralia; ac y mae yn cael ei chynnrychioli gan yn agos i 150 o weinidogion, y rhai ydynt yn dal cyssylltiad â'r tri chyfundeb mwyaf dylanwadol yn yr Alban. Yn Zealand Newydd, cyfrifir dros 20 o weinidogion perthynol iddi.

Am hanes henaduriaeth yr Alban, gwel Eglwys yr Alban; lle y rhoddir crynodeb o olygiadau y gwahanol enwadau; amser, ac amgylchiadau eu sefylliad; ynghyd â'r llwyddiant sydd wedi dilyn yr ymdrechion a wnaed mewn cyssylltiad â hwynt.

Gwelir hefyd hanes henaduriaeth yn Nghymru o dan y gair Methodistiaeth Cymru; a gellir cyfeirio y darllenydd at lyfr tra dyddorol o'r un teitl, a ysgrifenwyd ar y mater gan y diweddar Barch. J. Hughes, Liverpool. Rhoddwn yma grynodeb o'u cyfrifon yn y flwyddyn 1864. Nifer y gweinidogion ydoedd 332; pregethwyr 273; diaconiaid, 2781; aelodau, 92,160; deiliaid yr Ysgol Sabbothol 139,690; canolrif y gwrandawyr, 181,425; capelau a lleoedd pregethu, 1,016.

**HENARURIAID.** Gwel Henaduriaeth.

**HENAINT** (*hy—en, henain*): oedranus. Yr oedd dyddiau henaint yn oesau cyntaf y byd yn cyrhaedd hyd wyth neu naw cant o flynyddoedd; ond rhyngodd bodd i'r Iehofah fyrhau einioes dyn ar y ddaear, ac yn awr y mae efe yn cael ei ddal gan henaint yn fuan ar ol iddo weled deng mlynedd a thrigain.

Geilw Solomon henaint "y dyddiau blin, a nesau o'r blynyddoedd yn y rhai y dywedi, Nid oes i mi ddim diddanwch ynddynt;" *Preg.* xii. 1. Anerch pobl ieuaingc gwammal ac anystyriol y mae'r gŵr doeth yma; ac mewn cyfeiriad at fywyd y dyn annuwiol yn unig y mae yn briodol dywedyd nad oes "dim diddanwch" i'w fwynhau yn nyddiau henaint. Gwir fod llygaid dyn pan yn heneiddio yn pylu, ei glyw yn pallu, ei nerth yn darfod, a bywiogrwydd a hoenusrwydd ei gorph yn marweiddio; ond nid ydys i feddwl fod ei natur, er yn llygredig trwy bechod, yn ei lwyr amddifadu o bob dedwyddwch. Y mae y dyn anianol a bydol yn colli yn mron ei holl fwynderau pan wedi myned yn hen, o blegid fod ei chwantau cnawdol yn diflanu megys o'i anfodd; a chan fod annuwioldeb yn dylanwadu yn niweidiol ar iechyd y corph, y mae efe yn ei gyflwr oedranus yn llawn poen a blinder. Ond am y dyn cymmedrol, "sobr, cyfiawn, a duwiol," y mae ef yn ei henaint yn debyg o fwynau iechyd da, a chysuron gwerthfawr, ac yn sicr o fedru tynu diddanwch i'w feddwl o'r ffynnonell fawr dragwyddol sydd yn estyn llawenydd a hyfrydwch i angylion y nef a saint y ddaear yn mhob oes.

**HENFFYCH WELL.** Cyfarchiad cyfeillgar a charedig, o gyffelyb ystyr â'r ymadrodd cyffredin a arferir genym ni yn awr, sef "Dydd da i chwi." Yr oedd cyfarchiadau o'r natur yma yn perthyn i ddefodau cymdeithasol penaf yr Iuddewon. Yn y modd yma y cyfarchwyd yr Iesu yn fradychus gan Iudas, ac yn wawdlyd gan y milwyr: *Mat.* xxvi. 49, a xxvii. 29. Yn *Mat.* xxviii. 9, ni a gawn fod yr Iesu ei hun, ar ol ei adgyfodiad, wedi defnyddio yr un cyfarchiad mewn ysbryd serchog a gorfoleddus pan gyfarfu â'r gwragedd ar eu ffordd yn myned i fynegu i'r dysgyblion eu bod wedi gweled eu Harglwydd, wedi ymryddhau yn fuddugoliaethus o garchar tywyll y bedd. Y mae ysbryd y cyfarchiad hwn o eiddo'r Iesu yn parhau hyd y dydd heddyw i roddi cysur a dyddanwch i bawb o'i ganlynwyr drwy ystod eu pererindod yn y byd.

**HENRY, PHILIP:** yr Anghydffurfiwr duwiol a dysgedig, ydoedd fab i John Henry, gwychwas (*page*) i James, y duc o York. Ganwyd ef yn Whitehall, Llundain, ar ddydd Gŵyl Bartholomeus, Awst 24ain, 1631. Yr oedd yn disgyn o linach Gymreig. Bu yn gwasanaethu gydag iarll Penfro, ac wedi hyny gyda Charles I., yr hwn oedd yn hoff iawn o hono. Yr oedd y plant brenhinol a Philip Henry yn gyfeillion mawr;

Digitized by Google

ac addawai y tywysogion ieuaingc le da iddo wedi iddynt hwy ddyfod i oedran. Derbyniwyd ef i Ysgol Westminster pan oedd o ddeutu deuddeg oed. Profodd yn fuan fod ganddo alluoedd rhagorol i dderbyn addysg; a daeth yn uchel i ffafr y prif athraw, Dr. Busby. Bu Philip Henry, ac ereill, yn cynnorthwyo Busby i gasglu defnyddiau at y gramadeg Groeg a gyhoeddodd ar ol hyny. Yr oedd ei holl fryd ar ddysgu ei wersi, darllen llyfrau, a chasglu gwybodaeth. Ni threuliai ddim o'i amser gyda'i gyd-ieuenctyd mewn chwareu a difyrion; ond treuliai lawer amser ciniaw heb damaid na llymaid yn llys Westminster, yn gwrando achosion cyfreithiol yn cael eu trafod. Tra yn yr ysgol hon y profodd nerth y gwirionedd ar ei feddwl; ac o'r amser hwnw y dyddiai ddychweliad ei galon at Dduw. Yn 1647, symmudodd i Brifysgol Rhydychain, a rhoddodd iarll Penfro, ei dad bedydd, ddeg punt yn ei boced i dalu ei gostau. Yn mhen ychydig fisoedd wedi ei fynediad yno, parodd y senedd wneuthur ymchwiliad yn y brifysgol am y *Royalists*—pleidwyr y brenin—a gosodid ar bob un i gydnabod awdurdod gwrthwynebwyr Charles. Y gofyniad oedd, A wnewch chwi ymostwng i awdurdod y senedd yn yr ymweliad presennol? Attebiad Philip Henry i'r gofyniad hwn, ydoedd, "Ymostyngaf mor bell ag y gallaf wneyd hyny gyda chydwybod rhydd, ac heb dyngu anudon." Yn Rhagfyr, 1652, cafodd ei raddio yn Athraw yn y Celfyddydau; a'r mis Ionawr canlynol, pregethodd ei bregeth gyntaf, oddi wrth *Ioan* viii. 34—"Pwy bynag sydd yn gwneuthur pechod y mae efe yn was i bechod." Ac er ei fod yn nodedig am ei ostyngeiddrwydd a'i wyleidd-dra, daeth yn bur adnabyddus yn y brifysgol, a chanmolwyd ef yn gyhoeddus am eangder ei ddysgeidiaeth gan Dr. Owen, yr hwn oedd ar y pryd yn Is-ganghellydd. Yn Medi, 1653, gadawodd Rhydychain, ac ymsefydlodd yn Worthenbury—pentref ar gyffiniau swyddi Fflint, Amwythig, a Chaer. Daeth yno fel caplan ac athraw i deulu Syr John Puleston, barnwr yn llys y *Common Pleas*. Pregethai unwaith y Sabbath yn eglwys Worthenbury, ac ymdrechai yn ddyfal mewn llawer ffordd i oleuo a dysgu y plwyfolion yn ngwirioneddau yr efengyl. Bu yn aros yma am wyth mlynedd, a phrofodd ei hun, i gydwybod yr holl ardal, mai gwas i Grist ydoedd, ac mai gwasanaethu Crist a'i deyrnas oedd amcan a hyfrydwch ei fywyd. Heblaw pregethu, cadwai fath o gynnadleddau crefyddol yn nhai y plwyfolion i gydymddyddan am bethau crefyddol, ac er dysgu, ac annog, a chysuro eu gilydd. Yn ystod ei arosiad yn Worthenbury, priododd âg un Catherine Matthews, unig blentyn ac etifeddes Mr. Daniel Matthews, boneddwr oedd yn byw ar ei etifeddiaeth ei hun, yn Broad Oak, ar gyffiniau sir Fflint. Yr oedd ei thad ar y cyntaf yn groes i'w ferch wneyd dim âg ef, am mai gŵr dieithr ydoedd. "Nid oes neb," meddai, "a ŵyr o ba le y mae yn dyfod." "Ond mi wn i," attebai y ferch, "i ba le y mae yn myned, ac yr ydwyf am fyned gydag ef." Priododd Ebrill 26ain, 1660; a phan basiwyd Deddf Unffurfiaeth, ac iddo ef gael drws ei eglwys yn gauedig yn ei erbyn, symmudodd i Broad Oak i fyw; ac oddigerth ychydig ysbeidiau byrion, yno y treuliodd y 34ain mlynedd gweddill o'i oes. Ac er cau ei enau yn gyhoeddus gan y ddeddf orthrymus, ni pheidiodd ei lafur Cristionogol. Cysurai ei feddwl ei hun, a meddyliau ereill, â'r ysgrythyr hono, "Triged fy ngwasgaredigion gyda thi, Moab, bydd di loches iddynt rhag y dinystrydd;" *Esa.* xvi. 4. Dywedai, os oeddynt yn wasgaredig, mai gwasgaredigion (*outcasts*) yr Arglwydd oeddynt, ac y byddai yn sicr o ofalu am danynt. Ac ychydig o amser cyn marw, dywedai, er i amryw o'r gweinidogion a drowyd allan ddioddef erledigaethau a thlodi dirfawr, na chlywodd am un o honynt mewn carchar am ddyled. Pan nad allai bregethu, gwnelai gymmaint a allai o waith efengylwr yn ei deulu ac yn ei ardal. Rhoddai waith i'r tlodion, dysgai yr anwybodus, a chwiliai am bob cyfleusdra i wneuthur daioni. Nid oedd yn benboeth nac eithafol yn ei anghydffurfiaeth. Yr oedd eangder ei wybodaeth, a nerth ei dduwioldeb, yn cymmedroli ei ysbryd, ac yn ei wneyd yn rhyddfrydig a goddefol, etto yn gydwybodol. Yr oedd ei lafur a'i ymroddiad crefyddol yn ei deulu ei hun yn ddigyffelyb, gydag esbonio yr Ysgrythyrau, gweddïo, a dysgu ei deulu yn mhob peth a berthynai i fywyd a duwioldeb. Gweddïai ei wraig ac yntau ynghyd bob bore a hwyr. Yn ei lafur crefyddol yn y dirgel yr oedd ei fawr gryfder. Ei gynghor a'i rybudd cyffredin i'w blant a'i gyfeillion ydoedd, "Cofiwch fod yn ddyfal gyda'ch dyledswydd yn y dirgel; cedwch hyny i fyny beth bynag a fyddo; nis gall enaid lwyddo yn yr esgeulusdra o honi. Mae gwrthgiliad yn gyffredin yn dechreu wrth ddrws yr ystafell ddirgel." Os cyfyngodd Deddf Unffurfiaeth faes llafur Philip Henry, fe allai na chollwyd rhyw lawer yn y diwedd; o blegid parodd i'w holl ymadferthoedd gael eu cymmhwyso at ei deulu ei hun, i'r dyben o'i wneyd yn fendith i'r byd. Pan wasgarodd y teulu hwn, yr oedd yn llawn o'r dylanwad nefol, a dygodd pob aelod o hono "gyflawnder bendith efengyl Crist" gydag ef. Os na chai ef, fel Dafydd, ryddid i adeiladu y deml, cafodd gasglu y defnyddiau yn barod i'w fab. Pan basiwyd Deddf Goddefiad, ar esgyniad William a Mary, cafodd yntau ei ryddid i bregethu drachefn; ond nid ymgymmerodd â gofal unrhyw eglwys mwy. Bu farw Mehefin 24ain, 1696, yn 65ain mlwydd oed, a chladdwyd ef yn Whitchurch, y Sadwrn canlynol. Ysgrifenwyd cofiant rhagorol iddo gan ei fab, Matthew Henry.

HENRY, MATTHEW: awdwr yr esboniad rhagorol ar y Beibl, oedd ail fab i'r Parch. Philip Henry, A.C., a Catherine, ei wraig, a aned yn Broad Oak—ffermdy yn Is-coed, swydd Fflint, Hydref 18fed, 1662. Cymmerodd ei enedigaeth le yn mhen pythefnos wedi symmudiad ei rieni o Worthenbury, yn achos dyfodiad Deddf nodedig Unffurfiaeth i rym. Eiddil o gorph, a gwael ei iechyd ydoedd yn ystod ei febyd, a meddyliwyd droion na fuasai byw i gyrhaedd oedran gŵr. Etto, er ei eiddilwch a'i afiechyd, dangosai arwyddion o alluoedd meddwl anarferol pan yn ieuangc iawn. Dywedir y medrai ddarllen ei Feibl yn rhwydd ac eglur yn dair blwydd oed. Oddigerth am ychydig amser y bu un Turner yn aros yn Broad Oak, ac yn rhoddi gwersi i'r plant, cymmerwyd gofal addysg foreuol Matthew gan ei dad. Credai y llanc iddo, cyn ei fod wedi cyrhaedd ei 11eg mlwydd oed, gael ei ddwyn i wybod y gwirionedd, ac i gredu yn Nghrist, trwy bregeth o eiddo ei dad oddi wrth *Salm* li. 17: "Aberthau Duw ydynt ysbryd drylliedig; calon ddrylliog gystuddiedig, O Dduw! ni ddirmygi." Barnai llawer fod ynddo duedd er yn blentyn at y weinidogaeth, oddi wrth ei awydd parhaus i ddarllen y Beibl, ei hoffder o gymdeithas gweinidogion, ei arferiad o ysgrifenu y pregethau a

Digitized by Google

wrandawai, a duwiolfrydedd anarferol ei feddwl.

Yn 1680, gosodwyd ef dan ofal y gweinidog ffyddlawn, Thomas Doolittle, yr hwn oedd yn cadw ysgol i ddynion ieuaingc yn Islington, Llundain. Ond ni bu yn hir iawn yno, gan i'r athraw orfod ffoi o flaen erledigaeth, a'r ysgolheigion ymwasgaru. Bernir i Matthew etto ddychwelyd i Broad Oak, ac ymroddi i ddwyn yn mlaen ei efrydiaethau dan ofal ei dad. Yn 1685, oddi ar ddymuniad Mr. Hunt, cyfaill mawr i'w dad, gosodwyd Matthew yn Gray's Inn, Llundain, i astudio y gyfraith. Nid oes sicrwydd am yr amcan oedd mewn golwg gan Hunt —ai edrych ar wybodaeth o'r gyfraith fel cymmhwysder chwanegol at y weinidogaeth, neu geisio troi meddwl y gŵr ieuangc at alwedigaeth wahanol. Ond nid oedd pob astudiaeth ond dwyseiddio ei feddwl yn ngwirioneddau mawrion y Beibl, a'i addfedu i'r gwaith yr oedd rhagluniaeth wedi ei fwriadu iddo. Dechreuodd bregethu yn 1685 yn Nantwich a Chaerlleon, ar gais ei gyfeillion yn y lleoedd hyny; ac yn Mai, 1687, ordeiniwyd ef yn Llundain, pryd y gweinyddai amryw weinidogion Presbyteraidd ar yr achlysur. Yn y Mehefin canlynol, cydsyniodd â chais eglwys Caerlleon, ac ymsefydlodd yn fugail arni, lle y treuliodd y rhan fwyaf o weddill ei oes. Yn mis Awst, priododd â Miss Hardware, o Moldsworth; yr hon a fu farw yn mhen blwyddyn a hanner o'r frech wen, ar amser genedigaeth ei chyntafanedig. Priododd yr ail waith â Miss Warburton, merch Mr. Robert Warburton, o Gaerlleon, yn yr hon y cafodd ymgeledd ffyddlawn. Treuliodd 25ain mlynedd yn Nghaerlleon, mewn llafur a lludded mawr ddydd a nos, gydag achos eneidiau dynion. Daeth yn fuan i fri mawr yn y dref a'r wlad oddi amgylch, ac yr oedd y galw oedd am ei wasanaeth yn ddirfawr. Byddai yn pregethu yn fynych chwech a saith gwaith yr wythnos, ac yn traddodi darlithiau rheolaidd ar byngciau duwinyddol. Yr oedd gofal yr eglwysi, o fewn cylch 30 milldir, i raddau mawr, arno ef. Talai ymweliadau parhaus hefyd â'r siroedd cyfliniol. Yr oedd wedi ffurfio penderfyniad pan yn ieuangc na wrthodai gais i bregethu i neb, os byddai yn bossibl iddo allu ei gyflawni. Wedi myned trwy dymmestloedd garw, neu rwystrau, a fuasent yn ddigon o esgus i ereill dros aros gartref, dywedai, "Rhaid i ni ddioddef caledi, a llawenhau am gyfleusdra i wneuthur daioni, pe na byddai ond i ychydig." A pha faint bynag fyddai y galwadau, nid oedd yn esgeuluso cartref. Ni chollodd y Sabbath cyntaf yn y mis yn ei eglwys yn Nghaerlleon gymmaint ag unwaith mewn pedair blynedd ar hugain. Ac er ei holl lafur a'i deithiau gyda'r weinidogaeth, prynai amser i wneuthur gwaith dirfawr â'i ysgrifell yn ei lyfrgell. A phan gedwid ef allan o'i fyfyrgell, fel y gwnelid yn fynych gan boenau corphorol arteithiol, dywedai, "Gall dyn fod o ddefnydd i'r eglwys trwy amynedd i ddioddef gwaith, yn gystal a thrwy sel i wneuthur gwaith." Derbyniai alwadau mynych i fyned i aros i Lundain. O'r diwedd, yn Mai, 1712, symmudodd i gymmeryd gofal eglwys yn Hackney. Ond ni bu yno yn hir. Yr oedd yn gorfod talu ymweliadau mynych â'i hen gartref. Talodd ei ymweliad diweddaf â Chaerlleon, Mai, 1714. Wedi gadael Caer, ymwelodd âg amryw leoedd yn y wlad ar ei ffordd i Lundain. Y ddau Sabboth diweddaf y bu byw, pregethodd am "Yr orphwysfa sydd etto yn ol i bobl Dduw." Dydd Llun, Mehefin 21ain, nid oedd mor hwylus ag arferol; ond mynodd fyned yn mlaen i Nantwich at ei gyhoeddiad. Pregethodd yno oddi wrth *Ier.* xxxi. 18. Ond sylwai pawb ar y cyfnewidiad oedd ynddo. Dranoeth, Mehefin 22ain, 1714, o ddeutu pump o'r gloch y boreu, tarawyd ef gan *apoplexy;* ac wedi gorwedd dair awr yn fud, efe a hunodd, yn 52ain mlwydd oed.

Yr oedd Matthew Henry yn un o Gristionogion mwyaf disglaer ei oes, yn un o'r gweinidogion mwyaf cyflawn ac ymroddedig i wasanaeth ei Arglwydd "yn ei holl dŷ," ac yn un o'r gweithwyr mwyaf diwyd a llwyddiannus yn ei winllan. Ac er ei fod yn Anghydffurfiwr egwyddorol, etto yr oedd, fel ei dad, yn meddu ar ryddfrydigrwydd oedd yn berffaith gydweddu â grym ei dduwioldeb. "Mae yn gas genyf," meddai, "weled neb yn hawlio crefydd a'r eglwys oll iddynt eu hunain, fel pe byddai Crist yn cymmeryd ei fesurau oddi wrth ein dychymygion a'n tybiau ni. Y rhai hyny ydwyf fi yn alw yn Gristionogion, nid y rhai sydd yn perthyn i'r blaid hon, ond y rhai sydd yn galw ar enw Iesu Grist ein Harglwydd; y rhai, gan nad ar ba enw y gelwir hwynt, sydd yn byw yn sobr, yn gyflawn, ac yn dduwiol." Tua'r flwyddyn 1690, pan oedd yn 28ain oed, y daeth Mr. Henry allan y waith gyntaf fel awdwr, mewn llyfryn bychan o'r enw "*A brief Inquiry into the True Nature of Schism.*" Nid oedd ei enw wrtho; a pharodd ei gyhoeddiad lawer o gyffro, a llawer o waith i feirniaid ac adolygwyr. O hyny hyd ddiwedd ei oes, cyhoeddodd o ddeutu 35 o lyfrau neu draethodau gwahanol—y rhan fwyaf o honynt yn bregethau ar faterion dyddorol neu boblogaidd. Ei brif gynnyrchion oeddynt—*Life of Philip Henry* (ei dad), *Directions for Daily Communion with God, A Method for Prayer, Four Discourses against Vice and Immorality, The Communicant's Companion, Family Hymns, Scriptural Catechism, The Pleasantness of a Religious Life,* &c. Ond ei brif waith, a'r hwn a geidw ei enw byth mewn coffadwriaeth yw ei esboniad anghymmharol ar y Beibl. Er mai ychydig o amser, mewn cymmhariaeth, y bu yn ysgrifenu yr esboniad helaeth, etto y mae yn ffrwyth llafur ei fywyd er yn blentyn. Symmudwyd ef o ganol ei waith at ei wobr, cyn bod ei esboniad wedi cyrhaedd yn mhellach na diwedd Actau yr Apostolion. Yr oedd wedi parotoi llawer o ddefnyddiau at y gweddill, a gorphenwyd yr Epistolau a'r Dadguddiad gan amryw dduwinyddion enwog, y rhai y rhoddir eu henwau yn yr argraphiad 8plyg a gyhoeddwyd yn Llundain yn 1841. Y maent fel y canlyn:—Rhufeiniaid, Dr. John Evans; 1af Corinthiaid, Mr. Simon Brown; 2il Corinthiaid, a 1af a 2il Thessaloniaid, Mr. D. Mayo; Galatiaid, Mr. Bayes; Ephesiaid, Mr. Roswell; Phillipiaid a'r Collosiaid, Dr. W. Harris; 1af a 2il Timotheus, Mr. Atkinson; Titus a Philemon, Mr. J. Smith; Hebreaid a'r Dadguddiad, Mr. W. Tong; Iago, Dr. S. Wright; 1af Pedr, Mr. Z. Marriott; 2il Pedr, Mr. J. Hill; Epistolau Ioan, Mr. J. Reynolds; Judas, Mr. J. Billingsley. Dywed Dr. Watts mai Zech. Merrill ysgrifenodd ar 1af Pedr. Diau i sylw Matthew Henry gael ei dynu at y gorchwyl hwn gan waith ei dad yn esbonio y Beibl bob dydd yn rheolaidd yn y teulu, ac yn gosod ar y plant i ysgrifenu yr oll a allent gofio o'r sylwadau; a dywed y bywgraffwyr fod defnydd helaeth wedi ei wneyd o'r ysgrifau hyny yn yr esboniad. Yr oedd rhanau helaeth o'r esboniad yn barod flynyddoedd cyn dechreu ei gyhoeddiad, er nad yn y ffurf gyflawn a gorphenedig y mae genym

Digitized by Google

ni. Yn y flwyddyn 1700, anfonodd ddarnau helaeth o'i esboniadau i'w gyfaill, y Parch. Samuel Clark, i ofyn ei farn arnynt, yr hwn a'i hannogodd yn daer i'w cyhoeddi. Mewn llythyr at y gŵr uchod yr un flwyddyn, dywed, "Yr wyf yn gadael arnoch chwi am gyhoeddiad y gwaith, ac yn penderfynu dilyn Rhagluniaeth. Y mae y gwaith ei hun wedi bod, ac yn parhau i fod, i mi yn ddigon o gyflog, a'r pleser yn ddigon o wobr am y boen. Byddwch cystal a'm hysbysu beth sydd wedi ei wneyd yn eu cylch; pe dychwelent i'r lle o'r hwn yr aethant allan, caent dderbyniad croesawus. Nid edifarhâf am eu hysgrifenu; a gobeithio nad edifarhewch chwithau am eu darllen, pe nad elent ddim pellach." Y tebygolrwydd felly ydyw i'r llyfrwerthwyr wrthod ymgymmeryd â hwynt.

Yn y flwyddyn 1704, adnewyddwyd y gwaith ganddo ar raddfa eangach; ac yn 1706, fe ymddangosodd yr hysbysiad canlynol, ynglŷn â phregeth angladdol o eiddo Mr. Henry i'r Parch. James Owen: "Yn awr yn y wasg, ac a gyhoeddir yn fuan, Esboniad, gyda sylwadau ymarferol, ar Bum Llyfr Moses, gan yr un awdwr." Dyfynwn ychydig o ddyddlyfr yr esboniwr ei hun, er mwyn i'r darllenydd gael trem ar y modd, ac ar yr ysbryd, yn mha un y dygid y gwaith yn mlaen:—

"Cyf. i., 1704. Tach. 12. Heno, ar ol llawer o feddyliau calon, a llawer o weddïau yn ei gylch, y dechreuais fy sylwadau ar yr Hen Destament. Nid yw yn debyg y caf fyw i'w orphen; neu os caf, y bydd o wasanaeth cyhoeddus. Etto, yn nerth Duw, a chyda llygad syml, gobeithio, at ei ogoniant, yr wyf yn ymgymmeryd â'r gorchwyl, &c.

Ion. 17, 1705. Astudio yn *Gen.* xiv.

Gor. 19. Trwy law raslawn fy Nuw arnaf, gorphenais Genesis. Y mae yr Arglwydd o hyd yn myned gyda mi.

Gorph. 22. Dechreu Exodus.

Medi 14. Astudio yn *Exod.* xxi. Yr wyf yn awr wedi dyfod i'r rhanau lleiaf dymunol o ysgrifeniadau Moses; ond diolch i Dduw, y mae yr holl Ysgrythyr yn fuddiol.

Tach. 7. Gorphen Exodus, a dechreu Lefiticus.

Ion. 15, 1706. *Numeri* viii. a ix. Mr. Parkhurst yn ysgrifenu ataf i ddyweyd yr ymgymmerai ef â chyhoeddi yr esboniad ar Bum Llyfr Moses. Cyfarwydded yr Arglwydd ef yn y peth.

Tach. 12, 1706. (Pen y ddwy flynedd o'r dechreu). Heno, derbyniais y ddalen olaf o Bum Llyfr Moses (cyf. i)."

Yr oedd wedi cyrhaedd hyd ddiwedd yr Actau cyn ei farwolaeth, yn 1714, ond nis gallasai gyflawni gwaith mor fawr mewn mor lleied o amser oni bai fod llawer o ffrwyth llafur blynyddoedd blaenorol ganddo wrth law. Am yr esboniad ei hun, y mae uwch law clod. Y mae cannoedd o Gristionogion blaenaf yr oes hon yn barod i dystio gyda'r enwog a'r duwiol Romaine, "Nad oes un esboniad ar y Beibl, na hen na diweddar, yn mhob peth, yn gyfartal iddo." Ceir ynddo hefyd olwg barhaus ar eangder gwybodaeth, eglurder amgyffrediad, cynhesrwydd calon, a chrefyddoldeb ysbryd yr awdwr. Cyhoeddwyd dau gofiant i Matthew Henry—un gan Mr. W. Tong, a'r llall gan Mr. John Bickerton Williams, Amwythig.

**HENURIAD.** Gwel Henaduriaeth.

**HENURIADAETH.** Gwel dan y gair Henaduriaeth.

**HERCULANEUM,** neu *Herculanum:* hen ddinas Italaidd a safai ar gyffiniau Campania, wrth droed Vesuvius, ac o fewn tua phum milldir i Naples. Y mae traddodiad iddi gael ei sylfaenu gan Hercules; yr hyn, er nad yw ond chwedl, sydd yn rhoddi ar ddeall fod y ddinas yn meddu hynafiaeth mawr. Y mae yn debyg iddi gael ei sylfaenu gan y Pelasgiaid; ond y mae ei hanes yn amgylchedig â llawer o dywyllwch, ac nid yw yn ymddangos iddi fod yn meddu llawer o bwysigrwydd erioed. Yn y flwyddyn 79 c. c., cafodd Herculaneum gyda Pompeii, a'u holl drigolion, eu claddu yn y ddaear gan un o ffrwydriadau Vesuvius. Yr oedd Herculaneum yn bur agos at droed y mynydd, ac ymddengys mai hi a ddioddefodd gyntaf; ac er fod dinystr Pompeii yn gyflawn, yr oedd yr eiddo Herculaneum, yn ddiammheu, yn fwy ofnadwy. Nid yw trwch yr ysbwriel a'r lludw sydd yn gorwedd ar Pompeii mewn un man yn fwy na deuddeg neu dair ar ddeg o droedfeddi; tra y mae Herculaneum yn gladdedig yn y dyfnder o 70 i 100 o droedfeddi dan wyneb y tir. Ymddengys fod y gramen sydd yn gorchuddio yr olaf wedi ei dwyn i gyffyrddiad â dwfr fel y disgynai yn gawodydd toddedig ar y lle; o blegid y mae yn sylwedd caled, cydwasgedig, ac anhawdd ei dreiddio, ac yn dra gwahanol i'r lludw rhydd sydd yn ffurfio beddrod Pompeii.

Darganfyddwyd Herculaneum yr ail waith drwy ddamwain. Fel yr oedd gweithiwr yn digwydd cloddio ffynnon yn y lle i'r Tywysog d'Elbœuf, daeth ar draws rhyw weddillion hynafol. Fel yr elai yn mlaen i gloddio, chwanegid at ei ddarganfyddiadau. Ond aeth y newydd hwn i glustiau llywodraeth Naples, a gwaharddwyd un ymchwiliad pellach. Parhaodd pethau yn y sefyllfa hon hyd 1738, pryd yr adnewyddwyd yr ymchwiliad gan Don Carlos, o Yspaen; yr hwn oedd yn awr yn llywodraethu ar y ddwy Sicily. Cafodd y gorchwyl ei ymddiried i beiriannwr Yspaenaidd, yr hwn a'i dygodd yn mlaen gydag anwybodaeth a diofalwch anfaddeuol, gan oddef dinystriad llawer colofn a chofarwydd ysblenydd mewn celfyddyd hynafol. Er y pryd hyny, fodd bynag, y mae cynnydd neillduol wedi cymmeryd lle, er fod y gorchwyl o ddadenhuddiad wedi ei attal, fwy nag unwaith, o blegid y dinystr a fygythid drwy hyny i Portici a Reyina, dwy dref sydd wedi eu hadeiladu uwchben gweddillion y ddinas hono. Etto, nid yw y rhanau a ddadenhuddwyd yn fwy na chwe chan llath o hyd wrth dri chan llath o led; ac y mae y gorchudd mor dew fel yr ail-lanwyd llawer o fanau mor fuan ag y chwiliwyd hwy. O'r adeiladau a ddygwyd i'r amlwg hyd yma, y mwyaf nodedig ydyw y chwareudy, yr hwn a gynnaliai gynnulleidfa o 8000 o bobl. Ymddengys fod yn perthyn iddo ddwy brif fynedfa, o ugain i ddeg ar hugain o resi hirion o eisteddleoedd, a saith o fynedfeydd ereill a elwid *vomitoria*, i fyned i mewn ac allan trwyddynt. Yr oedd yr holl furiau wedi eu prydferthu â gwahanol addurniadau adeiladaeth; y lloriau yn farmor o amrywiol liwiau; a'r parwydydd yn addurnedig â darluniau. O fewn yr adeilad hefyd y cafwyd hyd i lawer o gerfddelwau; ac uwchben y brif fynedfa yr oedd darlun o gerbyd buddugoliaeth (*triumphal car*) mewn clydr (*bronze*) goreuredig, gyda nifer o feirch yn ei dynu. Yn agos i'r chwareudy hwn safai eglwys gadeiriol—oddi mewn i furiau yr hon y cafwyd darluniau a gopïwyd i'r gyfrol

gyntaf o'r *Antichilta d' Ercolano*—llyfr a gyhoeddwyd ar yr achlysur trwy orchymyn brenin Sicily. Heblaw y brenhinllys yma, deuwyd o hyd i deml, dadleudy, ac adeiladau cyhoeddus ereill, ynghyd â llawer o dai annedd. Yr oedd yn perthyn i'r dadleudy golofnrawd (*colonnade*), ac yr oedd ei furiau wedi eu gorchuddio mewn rhan â marmor, ac mewn rhan wedi eu paentio. Yr oedd y tai annedd yn fychain, anffurfiol, wedi eu hadeiladu gan mwyaf o briddfeini, ac heb fod yn meddu ond un uchder o ystafelloedd. Yr oedd eu muriau yn gyffredin yn orchuddiedig â darluniau, llawer o'r rhai a dorwyd allan ac a gymmerwyd i'r Royal Museum yn Naples. Yr oedd yr ystrydoedd a ddadorchuddiwyd yn uniawn, ac wedi eu palmantu â *lava*, fel heolydd Naples yn bresennol. Yr oedd un o'r rhai hyn dros ddeg troedfedd ar hugain o led; ac ar bob tu iddi, ychydig yn fwy dyrchafedig na'r heol ei hun, yr oedd llwybrau i gerdded ar hyd-ddynt; ac ar y llwybrau hyn cafwyd nifer o golofnau toredig, y rhai a fuasent unwaith, yn ddiammheu, yn ffurfio colofnrawd. Mewn rhan arall o'r dref deuwyd o hyd i feddrod (*vault*) yn cynnwys nifer o gloerau neu agorfeydd, yn mhob un o'r rhai yr oedd cwpan fawr (*vase*) yn cynnwys lludw, ac uwchben pob cloer yr oedd enw rhyw berson wedi ei baentio mewn llythyrenau cochion. Yr oedd y beddrod yn mesur deuddeg troedfedd wrth naw, ac yn ffurfio claddfa, mae'n debyg, i ryw deulu neu gilydd.

Fe osodwyd y trysorau a ddarganfyddwyd yn Herculaneum, ar y cyntaf, yn y Royal Museum yn Portici; ond erbyn hyn y maent wedi eu symmud i'r Museo Borbonico yn Naples. Y maent yn cynnwys enghreifftiau o bob cangen o gelfyddyd, nwyddau teuluol, a gweddillion llenyddol. Ond yr hyn a ennillodd fwyaf o sylw o bob peth ar y pryd ydoedd llyfrgell fawr a ddarganfyddwyd, yn cynnwys 2000 o ysgrifau, yn mhlith y rhai y disgwylid cael llawer gorchestwaith a gyflawnwyd gan athrylith yr hynafiaid, a'r rhai oeddynt cyn hyny ar goll. Bu rhai o ddysgedigion mwyaf yr oes, yn mhlith y rhai yr oedd Syr Humphrey Davy, yn gwneyd ymchwiliad iddynt; ond cafwyd nad oedd un o honynt yn meddu ar fawr o bwysigrwydd. Y mae y gwaith a elwir "*Herculanensium Voluminum quæ supersunt*" — tair cyfrol a gyhoeddwyd yn Naples yn 1788, 1809, 1827—yn cynnwys y cyfan a ddeonglwyd hyd yn hyn. Yn 1824—5 cyhoeddodd Prifysgol Rhydychain ddwy gyfrol wythplyg, a gyflwynwyd gan George IV., yn cynnwys copi o amryw o'r ysgrifau a ddarganfyddwyd yn Herculaneum. Yn mhlith ereill y mae y ddwy gyfrol uchod yn cynnwys traethodau yn yr iaith Roeg, gan Philodemus "Ar Bechodau," "Ar Ganiadau," "Ar Resymeg," ac "Ar Bechodau a Rhinweddau Cyferbyniol;" traethawd gan Demetrius "Ar Ganiadau;" ac un arall, heb enw yr awdwr, "Ar Ddigofaint." Yr oedd y rhan fwyaf o'r ysgrifau yn gynnwysedig o bapyrfrwyn, ac o wahanol liwiau. Yr oedd rhai o honynt yn cynnwys y ffon, o amgylch yr hon y byddid yn arferol o rolio ysgrifau; ac yr oedd y rhai hyn, ynghyd â'r ysgrifau, wedi eu llosgi yn siarcol, ac yr oedd yr ysgrifau yn gyffredinol mewn sefyllfa mor bwdr a glynedig fel mai gydag anhawsdra dirfawr y llwyddwyd i wneuthur defnydd o un o honynt. Rhoddir disgrifiad dyddorol o'r gwahanol foddion a arferwyd i'w dadblygu yn yr *Encyclopædia Britannica*, cyf. xi., erthygl *Herculaneum.*

**HERESI**, yn ei ystyr eangaf, ydyw unrhyw athrawiaeth groes i byngciau sylfaenol y grefydd Gristionogol. Y mae y gair *heresi* yn tarddu o'r gair Groeg *αιρεσις*—ystyr priodol yr hwn ydyw dewisiad o unrhyw beth, pa un bynag ai da ai drwg fyddo. Arferid ef ar y cyntaf yn benaf i ddynodi dewisiad neu fabwysiad o un dyb neu farn, yn hytrach na rhyw dyb neu farn arall: ac wedi hyny defnyddiwyd ef i arwyddo hyd yn oed y dyb hono ei hun. Ei ystyr cyffredin yn yr ysgolion athronyddol boreuol yn yr ymherodraeth Rufeinig ydoedd *sect* neu *blaid.* Geilw Cicero y blaid y perthynai Cato iddi yn *heresi;* a sonia Josephus am dair *heresi*, y Phariseaid, y Saduceaid, a'r Esseniaid. Nid yw y gair *heresi*, ynddo ei hun, yn cyfeirio at unrhyw syniad o barth i'r gwirionedd, nac at unrhyw gyfeiliornad mewn barn, ond yn unig *sect* neu blaid o bobl; ond yr ydym ni yn awr yn gyffredin yn cyssylltu â'r gair y drychfeddwl o gyfeiliornad gyda golwg ar byngciau sylfaenol crefydd.

Defnyddir y gair yn y Testament Newydd i osod allan dri pheth; sef sect o bobl, cyfeiliornad mewn barn, ac ymraniad eglwysig. Yn *Act.* v. 17, a xv. 5, a xxvi. 5, cymmhwysir ef at y pleidiau Iuddewig; ac yn *Act.* xxiv. 14, a xxviii. 22, cymmhwysir ef at y Cristionogion, fel enw o waradwydd, gan eu gelynion. Arferir ef yn *Titus* iii. 10, ac yn 2 *Pedr* ii. 1, 2, i ddynodi cyfeiliornadau dinystriol mewn athrawiaeth. Cymmharer hefyd *Dad.* ii. 2, 14, 15. Y mae Paul yn trin ei wrthwynebwyr Iuddewig fel hereticiaid o'r natur yma, ac yn cyhoeddi melldith uwchben pob un a gredai neu a ddysgai fod rhyw drefn arall i gadw dyn euog heblaw trwy haeddiant y Cyfryngwr; *Gal.* i. 8; ii. 21. Defnyddir ef i osod allan ymraniad yn yr eglwys (1 *Cor.* xi. 19); "Canys rhaid yw bod hefyd heresiau yn eich mysg, fel y byddo y rhai cymmeradwy yn eglur yn eich plith chwi." Y mae yn amlwg oddi wrth y geiriau cyssylltiedig mai ystyr y gair *heresiau* yma ydyw sismau neu ymraniadau. Nid oedd yr apostol wedi gwneyd un cyfeiriad at gyfeiliornad mewn athrawiaeth, ond son yn unig y mae am *afreoleidd-dra mewn ymddygiadau;* a'r peth cyntaf a grybwylla efe ydyw fod yno ymrafaelion ac ymraniadau. Nid yw y drychfeddwl fod y gair yn y lle hwn yn cyfeirio at *athrawiaethau* yn gysson â rhediad y geiriau cyssylltiedig; ac yn wir, pe cymmerid ef yn yr ystyr hwnw, ni byddai un synwyr yn yr ymadrodd. Yna, darllenai yr adnodau fel hyn:—"Yr ydwyf yn clywed fod ymrafaelion neu bleidiau yn eich mysg, ac nis gallaf eich canmawl chwi am hyn; canys nis gellir llai na disgwyl y bydd *cyfeiliornadau yn yr eglwys gyda golwg ar yr athrawiaethau sylfaenol.*" Nid yn y dull hwn yr oedd Paul yn ymresymu. Ei feddwl ef yw, "Y mae ymrafaelion yn eich plith chwi. Peth i'w ddisgwyl ydyw hyny. Nis gall, yn wyneb cyflwr presennol y natur ddynol, lai na bydd ymrysonau a phleidiau yn yr eglwys; ac y mae hyn i'w ddisgwyl mewn trefn i'r rhai sydd yn wir Gristionogion gael eu didoli oddi wrth y rhai nad ydynt." Nid yn y grefydd Gristionogol ei hun y mae sail yr angenrhaid hwn; canys un bur ydyw hi, ac y mae yn amcanu am, ac gofyn undeb; ond y mae hanfodiad sectau ac ymrysonau i'w briodoli i raddau helaeth i awydd am awdurdod a phoblogrwydd—balchder a dallbleidiaeth—lliosogiad ammodau aelodaeth eglwysig, a helaethiad credoau a chyffesion ffydd—ac i waith dynion yn dangos mwy o barch i athraw crefyddol nag i Grist.

Ymddengys mai at gyfeiliornadau mewn athrawiaeth y cymmhwysid y gair *heresi* bron

Digitized by Google

bob amser gan y tadau Cristionogol. Y mae Ignatius yn cynghori y Cristionogion i gilio oddi wrth y rhai sydd yn euog o heresi, fel oddi wrth wenwyn marwol; ond y mae ar yr un pryd yn eu hannog i weddïo drostynt ar iddynt gael eu hargyhoeddi o'u cyfeiliornadau; a dywed mai y feddyginiaeth oreu yn erbyn heresi ydyw ymostyngiad i'r esgobion. Edrychai Irenæus ar bawb a wrthodent ufudd-dod i olynwyr yr apostolion fel hereticiaid, ac fel rhai yn offrymu tân dieithr —hyny ywathrawiaethau dieithr—ar allor Duw. Barnai Tertullian fod heresi yn waeth na sismau, ac mai y cyntaf yw yr achos o'r olaf. Credai fod y golygiadau hyn o eiddo y tadau wedi codi yn benaf oddi wrth eu profiad o Gnosticiaeth. Mae Irenæus yn galw sylw at y ffaith fod ymrafaelion ac ymraniadau yn tori allan yn barhaus yn mhlith yr hereticiaid eu hunain, ac yn ei hegluro trwy ddywedyd nad oedd ganddynt un ddysgyblaeth na threfn, a bod pob un yn dysgu y peth mwyaf gwasanaethgar i'w amcanion uchelgeisiol ei hun, a thrwy hyny cynnyrchwyd llygredigaeth dychrynllyd yn eu plith. O herwydd hyn, teimlai yr eglwys gyntefig elyniaeth gref yn erbyn heresi. Etto, ymddengys oddi wrth yr hyn a ddywed Irenæus am Cerdon, fod hereticiaid edifeiriol yn fynych hyd yn oed mewn amgylchiadau o wrthgiliad yn cael eu hadferu i fwynhâd o holl freintiau yr eglwys; ond fe ymledodd yr arferiad yn fuan i beidio rhoddi derbyniad i'r rhai oeddynt wedi gwrthgilio; a dilynwyd hi yn yr eglwys hyd y drydedd ganrif, pryd yr ail ddechreuwyd rhoddi derbyniad i'r cyfeiliornwyr gwrthgiliedig, ar broffes o edifeirwch, yn ol i gymmundeb yr eglwys. Ymddengys oddi wrth ysgrifeniadau Vincentius fod llawer yn ystyried gwrthwynebiad cyndyn i awdurdod yr eglwys fel yr elfen fwyaf hanfodol yn y drychfeddwl o heresi. Y mae syniad Awstin am heresi yn deilwng o sylw neillduol, yn gymmaint a'i fod yn ffurfio sylfaen athrawiaeth ac arferiad yr eglwysi yn y canol-oesoedd. Tra y teimlai y tadau boreuaf wrthwynebrwydd cryf i ddefnyddio y gallu gwladol yn erbyn heresi, haerai ef y dylasai yr ynad gwladol gospi pob un a gyhoeddid gan yr eglwys yn heretic neu yn sismaticiad. Modd bynag, nid oedd yn ffafriol i roddi hereticiaid i farwolaeth; nid am nad oedd efe yn meddwl eu bod yn haeddu hyny, ond am fod yr eglwys gyntefig yn hollol wrthwynebol i'r dull hwn o'u cospi. Yn y canol-oesoedd, dygwyd yr arferiad o roddi hereticiaid i farwolaeth i mewn i Eglwys Rufain.

HERETIC: un yn coledd cyfeiliornadau croes i athrawiaethau sylfaenol Cristionogaeth, ac yn peri anghydfod ac ymraniadau yn yr eglwys; yr hwn, o herwydd hyny, sydd yn wrthddrych y dylid ei ochel: *Tit.* iii. 10, 11.

HERODIANIAID. Yn yr hanes a roddir yn *Mat.* xxii. 15, &c., a *Marc* xii. 13, &c., o ymdrechion gwahanol bleidiau o'r Iuddewon i brofi Crist yn euog, y mae plaid o'r enw *Herodianiaid* yn cael ei nodi, fel yn gweithredu mewn cyssylltiad â'r Phariseaid: *Mat.* xxii. 16; *Marc* xii. 13. Yn *Marc* iii. 6, yr ydym yn cael hanes ymuniad blaenorol y ddwy blaid hon i'r un dyben; ac mewn lle arall (*pen.* viii. 15, cym. *Luc* xii. 1), y mae yr un efengylwr yn cofnodi dywediad o eiddo Crist, sydd yn gosod "surdoes Herod" mewn cyssylltiad agos â "surdoes y Phariseaid." O'r ochr arall, nid ydyw plaid yr Herodianiaid yn cael sôn am dani wrth ei henw o gwbl yn Efengyl Luc.

Ychydig sydd genym o hanes y blaid hon. Anfynych y cyfeirir ati yn yr Efengylau, ac nid oes dim arall yn taflu chwaneg o oleuni ar ei hanes; ond gellir ffurfio syniad lled gywir am ei nodwedd trwy ystyriaeth o sefyllfa teimlad yn mhlith yr Iuddewon yn yr oes apostolaidd. Mae yn debyg fod llawer o'r Iuddewon yn teimlo fod eu hunig obaith o annibyniaeth eu cenedl yn gorphwys ar eu hymlyniad wrth deulu Herod. Mewn cyferbyniad i fel yr oeddynt yn ystyried eu hannibyniaeth cenhedlaethol fel yn ammod cyntaf o'u llwyddiant dyfodol, byddent yn foddlawn i gymmeryd eu llywodraethu gan ddynion oeddynt eu hunain o haniad estronol [Gwel HEROD], ac heb fod yn selog dros gyflawniad o'r gyfraith Iuddewig. Gallai felly dwy blaid wahanol ymuno i gefnogi yr hyn oedd, mewn cymmhariaeth i ddibyniad hollol ar Rufain, yn ormes dirfawr:—y rhai hyny a edrychent ar yr Herodiaid fel amddiffyniad rhag llywodraeth baganaidd, yr hyn ydoedd prif wrthddrych eu hofn; a'r rhai hyny oedd yn dueddol i edrych gyda boddhâd ar lygriad hen grefydd eu tadau, a dygiad i mewn lawer o ddefodau a syniadau paganaidd, megys y gwnaeth Herod Fawr a'i ganlynwyr, fel y gwir a'r unig lwybr i sylweddoli gobeithion y genedl.[1] O un tu, dygid yr Herodiaid—pleidwyr Herod—fel hyn i undeb â'r Phariseaid; ac o'r tu arall, â'r Saduceaid: ac felly yr oedd athrawiaethau y gwahanol bleidiau, pa mor groes bynag, yn symmud o'r neilldu, i'r dyben o roddi lle i'r hyn a dybid yn angenrheidrwydd gwladol. Y mae y fath gyfuniadau yn gyffredin yn mhob oes; ac y mae anfynychrwydd y cyfeiriadau at yr Herodianiaid fel plaid neillduol yn rhoddi ar deall nad oedd i'r undeb hwn fel rhai ereill cyffelyb, ond ychydig o ddylanwad er ffurfio un blaid sefydlog a chyttûn o'r gwahanol bleidiau. Parhaodd y teimladau a arweiniodd i'r undeb, ond nid oeddynt yn meddu digon o rym i sefydlu cydweithrediad perffaith am unrhyw dymmhor parhaus.

HERODIAS. Gwel HEROD.

HERODION: perthynas i Paul, at yr hwn y mae yn "anfon anerch," yn mhlith Cristionogion yr Eglwys Rufeinaidd: *Rhuf.* xvi. 11. Ni wyddys ddim yn sicr yn ei gylch. Yn ol Hippolytus, bu yn esgob Tarsus; ond yn ol Pseudorothoea, yn Patrae.

HERODOTUS: "tad hanesiaeth," a'r cyntaf o'r haneswyr Groegaidd a elwir yn briodol felly —a anwyd yn Halicarnassus, dinas yn Caria, a lywodraethid yn amser ei enedigaeth ef gan Artemisia, arwres enwog Salamis. Cymmerodd ei enedigaeth le c. c. 484; ac os ysgrifenwyd y rhanau hyny o'i *Hanesiaeth* (i. 130; iii. 15) ganddo ef, yr oedd yn fyw c. c. 408. Y mae ffeithiau ei fywyd yn ychydig ac ansicr, oddi eithr y rhai hyny y gellir eu casglu o'i weithiau ef ei hun. Oddi wrth y rhai hyn, ynghyd â sylw a wneir o hono gan Suidas, deallwn ei fod o deulu pendefigaidd yn Halicarnassus—mai enw ei dad oedd Cyxas, ac enw ei fam, Dryo; a bod y bardd arwrol Sanyasis yn ewythr iddo. Pan gyrhaeddodd oedran

[1] Fel hyn dywedir fod yr Herodiaid yn golygu mai Herod Antipas oedd y Messiah. Dywed Philastrius fod rhai yn synied felly am Herod Agrippa; ac yn ol Epiphanius, ystyrid Herod Fawr felly hefyd.

Digitized by Google

gwr, yr oedd dinas ei enedigaeth o dan lywodraeth y teyrn gorthrymus Lygdamis, ŵyr Artemisia; ac mewn adgasedd a dirmyg, ymneillduodd Herodotus i ynys Samos, lle y daeth i gydnabyddiaeth â'r dafodiaith Ioniaidd, yn yr hon yr ysgrifenodd ei hanes, ac yr ymunodd mewn ymgais i ryddhau Halicarnassus, a diorseddu Lygdamis; ac yn hyn y buwyd yn llwyddiannus. Ond ni ddarfu i alltudiaeth y gormeswr ddwyn heddwch i Halicarnassus, a chan ddyfod yn wrthddrych dygasedd ei hun, gorfu i Herodotus, drwy ymrafael yn mhlith pleidiau gwleidyddol, eilwaith ymadael â'i wlad. Fe ddywedir iddo y pryd hwn ymuno â threfedigaeth a anfonid gan yr Atheniaid i Thurii neu Thurinum yn Italy Ddeheuol, c.c. 445; ac iddo farw yn y lle hwnw, a chael ei gladdu yn Agora. Ymddengys Herodotus ar ddalenau bywgraffiaeth yn y cymmeriad deublyg o deithiwr a hanesydd; ond yn ei weithiau, y mae y teithiwr mor ddarostyngedig i'r hanesydd, fel nad yw yn ymddangos ond yn anfynych, a hyny i'r dyben o gadarnhau rhyw dystiolaeth led hynod. Gellir casglu beth oedd eangder ei deithiau oddi wrth ei hanes, ond y mae pennodi amseriad a threfn ei ymweliad â phob lle yn ammhossibl. Y mae yn sicr iddo dreulio llawer o'i amser yn Athens, Thebes, a Chorinth. Ymwelodd hefyd â'r rhan fwyaf o'r ynysoedd Groegaidd, ynghyd âg ynysoedd moroedd Ionia ac Ægea, a'r holl daleithiau Groeg yn Asia Leiaf; a hefyd, amgylchodd y Mor Du, ac ymwelodd â Scythia a Thrace. Yn Asia, aeth cyn belled â Babilon, a thalodd ymweliad âg Ecbatana a Susan, heblaw myned ar bererindod i Tyrus, i wneyd ymchwiliad i addoliad Hercules. Yn Affrica, ymwelodd â'r Aipht, o lanau Mor y Canoldir yn y gogledd, hyd yr Elephantine, neu y pwynt mwyaf deheuol o'r wlad. Wedi hyny fe drodd ei wyneb tua'r gorllewin, a gwyddys iddo gyrhaedd Cyrene yn y cyfeiriad hwn, er nad yw yn annhebyg iddo ymweled â Charthage. Ymddengys nad oedd ei hoffder at deithio wedi ei adael yn ei hen ddyddiau; o blegid, wedi ail ymsefydlu yn Thurii, fe deithiodd drwy y rhanau deheuol o orynys Italy, yn gystal a rhai parthau o Sicily. Y mae y ffaith iddo ymweled â'r holl leoedd yna yn brawf iddo ymweled â lawer o fanau ereill; ond er cymmaint a welodd, fe barhaodd ei edmygedd a'i hoffder at Groeg yn ddiysgog hyd y diwedd.

Y mae y blynyddoedd o'i oes pryd yr ymgymmerodd â theithio yn llawn mor ansicr a ffeithiau ereill ei fywyd. Ymddengys yn fwyaf tebyg iddo ddechreu wedi ymadael â dinas ei enedigaeth, ac iddo barhau i wneyd hyny hyd yr amser yr ymsefydlodd yn Thurii. Y mae yn llawn mor ammheus pa bryd y gosododd ei deithiau mewn ffurf o hanesiaeth. Fe ddywedir gan Lucian, mewn ffordd o gellwair, fe allai, ddarfod i Herodotus ddarllen ei " anesiaeth," wedi iddo ei orphen, i gynnulleidfa o Roegiaid yn un o'r gŵyliau Olympaidd, c.c. 455: fod Thucydides, y pryd hyny yn fachgen pymtheg oed, yn mhlith y gynnulleidfa, ac iddo wylo yn hidl wrth ei wrandaw; ac fod y dorf wedi ei swyno i'r fath raddau yn hanes ei deithiau, fel y galwasant y naw llyfr i'r rhai y rhenir y gwaith yn "Naw Duwies Dysg."

Ond, fel y dangosir yn amlwg gan Suidas, nid oedd Herodotus y pryd hyny ond deuddeg ar hugain oed; ac y mae pob rhan o'r gwaith yn arddangos meddwl oedranus ac aeddfed, ac yn cyfeirio yn fynych at ddigwyddiadau nad oeddynt wedi cymmeryd lle hyd yn mhen blynyddoedd wedi hyn. Mae y traddodiad iddo ei ddarllen yn Athen, yn yr ŵyl Banathenaidd, c. c. 445, ac fod llywodraeth y ddinas hono wedi ei anrhegu â deg o dalentau fel arwydd o edmygedd o'i dalent, yn llawn mor ddisail. Adroddir y chwedl hon gan Plutarch yn ei draethawd ar "Falais Herodotus." Prif amcan y traethawd hwn oedd profi fod Herodotus wedi ei lwgrwobrwyo gan yr Atheniaid. Ond gan ei bod yn amlwg mai yr hyn a gymmhellodd Plutarch i wneuthur y sylw ydoedd y ffaith fod Herodotus wedi bod mor ddidderbynwyneb a chofnodi annewredd a llyfrdra y Thebiaid yn ystod y rhyfel â Phersia, y mae yr ystoriau hyn, fel y lleill, yn annheilwng o sylw. Y mae gwaith mawr Herodotus—ei *Naw Llyfr*—yn gynnwysedig o hanes y Groegiaid, yn eu perthynas â'u gilydd, ac â'r galluoedd estronol y daethant i gyffyrddiad â hwynt, o ddymchweliad Sardes gan y Persiaid, c. c. 546, hyd gymmeriad Sestos, c. c. 478. Er holl amrywiaeth a gwasgaredd ymddangosiadol y gwaith, mae yn sicr fod gan yr awdwr amcan neillduol mewn golwg yn nghanol y cyfan—amcan sydd er hyny yn gwbl anamlwg ond wrth astudio y gwaith yn drwyadl. Gellid meddwl mai bwriad Herodotus ydoedd uno a threfnu yr holl amgylchiadau a esyd i lawr, fel ag i ymddangos yn un cyfangorph cryno a chysson—gosod yr holl dryblith digwyddiadau a gofnodir fel ag i gyfeirio gyda threfnusrwydd a rheoleidd-dra *drama* at un nôd arbenig—trefnu hyd yn oed amgylchiadau a mân ddigwyddiadau oedd heb fod yn perthyn yn uniongyrchol i'r Groegiaid fel ag i ymuno mewn un canlyniad cyffredinol—gellid meddwl mai dyna ydoedd amcan Herodotus. Ac y mae wedi cyrhaedd ei amcan gyda chymmaint o berffeithrwydd fel y dywedai y Milwriad Mure mai "Hanesiaeth Herodotus," yn nesaf at yr "*Iliad*" a'r "*Odyssey*," ydyw campwaith mwyaf athrylith y Groegiaid. "Perffeithrwydd barddoniaeth arwrol ydyw un," meddai efe, a "pherffeithrwydd rhyddiaith arwrol ydyw y llall." Mor fawr a rhagorol yn wir ydyw y gwaith fel yr aeth cenedlaethau o'r byd yn analluog i'w werthfawrogi. Yr oedd yn rhywbeth tu hwnt i ddirnadaeth cydoeswyr Herodotus. Edrychent hwy ar ei hanesion fel chwedlau trafaeliwr; heb ddim ynddynt ond ychydig o destynau chwerthin, ac heb fawr o feddwl y byddai yr oesoedd a ddeuent yn gwirio ei dystiolaethau, yn cydnabod yn un llais fod hanesiaeth y Groegiaid, heb hanesiaeth Herodotus, yn ddaflen wâg, ddisynwyr.

Ysgrifenodd Herodotus ei waith pryd yr oedd barddoniaeth wedi peidio bod yn gyfrwng cyffredin i ddadblygu y meddwl, a phryd nad oedd rhyddiaith, fel celfyddyd, wedi cyrhaedd perffeithrwydd; ac y mae y gwaith o ganlyniad yn meddu llawer o diffygion fel cyfansoddiad. Ond nid oes ond ychydig o ysgrifenwyr mewn unrhyw iaith y mae eu ddiffygion mor hawdd i ni eu maddeu, ac yn cael eu cuddio i'r fath raddau gan ragoriaethau ereill y gwaith. Y mae rhyw newydd-deb a bywiogrwydd cynnyddol yn ei arddull a'i syniadau, sydd yn fynych yn wir farddonol. Pa beth bynag fyddo y testyn dan sylw, fe'i hamgylchir â'r fath ddyddordeb, fel nad yw y darllenydd mwyaf anffodus a diystyr un amser yn teimlo yn flin. Ni bu un nofel gan Scott, na chroniel gan Froissart, yn fwy dyddorol na hanesiaeth Herodotus. Ni bu un teithiwr erioed yn fwy hynod am ei allu i ddynoethi a phrofi yr hyn y deuai i gyffyrddiad âg ef, i drysori yr hyn oedd werthfawr, a gwrthod yr hyn oedd salw a difudd. Y mae y gallu hwn yn dyfod i'r amlwg hyd yn

Digitized by Google

oed yn yr hyn a ystyrid gan lawer yn wendid ynddo—yn ei ofergoeledd. Y mae bob amser yn ymgrymu i'r hyn a ystyrir ganddo ef yn brif elfen yn nghrefydd pob cenedl a ddisgrifia. Ond, er ei fod yn ofalus i beidio chwerthin am ben yr ynfydrwydd oedd weithiau yn amgylchu yr elfen hono, y mae bob amser yn dangos ei fod yn gweled drwy y cwbl. "Y mae swyn Herodotus," medd Dahlmann, "yn gorwedd yn y symlrwydd plentynaidd hwnw sydd bob amser i'w weled, lle y mae cariad anllygredig at y gwirionedd, ac yn yr arddull happus a deniadol hwnw y mae yn ammhossibl ei gyrhaedd drwy unrhyw gelfyddyd, na chynnhwrf teimladol, ac i'w gael yn unig lle y mae ymddygiadau yn cydymffurfio â natur; o blegid, tra y mae cyfansoddiadau dyddorol ereill gan ddynion yn ymdreiglo yn mlaen fel rhaiadrau, ac yn prysuro gyda thwrf ar eu taith fer, y mae ffrydlif arianaidd ei eiriau ef yn llifo yn mlaen yn ddigyffro, yn sicr o barth annherfynoldeb ei ffynnonell, yn mhob man yn bur a thryloew, pa un bynag ai arwynebol ai dwfn; ac nid ydyw ofn diystyrwch, rhag yr hwn y mae y byd yn arswydo, yn effeithio un mymryn ar symlrwydd ei feddwl ef."

Yr argraphiadau goreu o Herodotus at wasanaeth ysgolion ydyw yr eiddo Matthiœ, Bekker, a George Long. Ar ddaearyddiaeth Herodotus, y mae amryw draethodau campus wedi eu hysgrifenu gan Rennell, Niebühr, Dahlmann, a Heyse. Y cyfieithiadau goreu i'r Saesneg hyd yma ydyw yr eiddo Beloe, Taylor, a Cary; ond nid oes un o honynt yn gwneyd cyfiawnder âg ysbryd na ffurf y gwreiddiol.

**HERSCHEL, SYR WILLIAM:** yr astronomydd enwog, ydoedd fab i gerddor yn Hanover, lle y ganwyd ef, Tachwedd 15fed, 1733. Yr oedd iddo bedwar o frodyr, y rhai a ddygwyd i fyny, fel yntau, yn broffeswyr cerddoriaeth. William oedd yr ail fab: a phan yn bedair ar ddeg oed, gwnaed ef yn aelod o seindorf (*band*) y gatrawd Hanoveraidd o warchfilwyr; ac yn 1759, daeth gyda hwynt i Loegr. Bu am amser yn Durham, lle y ffurfiodd seindorf i'r cartreflu; a bu wedi hyny am amryw flynyddoedd yn organydd yn Halifax, lle y defnyddiodd lawer o'i amser i roddi addysg mewn cerddoriaeth, ac i astudio ieithoedd. Adroddir amryw chwedlau dyddorol gyda golwg ar ei orchwylion cerddorol; megys, ddarfod iddo, pan yn ymgeisio am y swydd o organydd, chwareu ar ddarnau bychain o blwm a osodasai ar yr *holding notes;* ac iddo, pan yn Italy, i'r dyben o gael arian i dalu ei ffordd adref, roddi cyngherdd, yn yr hwn y chwareuodd ar unwaith ar delyn a dau gorn, y rhai a rwymid wrth ei ysgwyddau; ond nid oes ond ychydig o ddibyniaeth i'w osod ar y chwedlau yna, yn enwedig yr olaf; gan na bu yn Italy erioed. Yn 1766, yr oedd yn organydd yn yr Octagon Chapel, yn Nghaerbaddon. Tra yn Halifax, bu yn astudio *mathematics;* ac yn Nghaerbaddon, trodd ei sylw at seryddiaeth; ac wedi astudio y wyddor hono yn ysgrifeniadau Ferguson, yr oedd yn awyddus i astudio yr ymddangosiadau wybrenol y dygasid ei sylw atynt yn yr ysgrifeniadau hyny. Cafodd gymmaint o hyfrydwch gydag ysbienddrych bychan, a fenthyciwyd iddo gan gyfaill, fel y dymunodd feddiannu un ei hun; ond gan nas gallai fforddio cael un da am bris isel, efe a wnaeth yspienddrych adlewyrchol (*reflecting*) â'i ddwylaw ei hun. Ar ol llawer o ymdrech diflin, efe a orphenodd, yn 1776, yspienddrych Newtonaidd, pum troedfedd o hyd, â'r hwn y darganfu fodrwyau y blaned Sadwrn, a gwregysau a lleuadau y blaned Jupiter. Yn 1782, efe a wnaeth yr yspienddrych mawr, 30 troedfedd o hyd, a llathen o dryfesur, â'r hwn y gwnaeth y rhan fwyaf o'i ddarganfyddiadau seryddol.

Yn y flwyddyn 1780, dechreuodd ei ysgrifeniadau i'r *Philosophical Transactions;* y rhai a barhasant i ymddangos yn flynyddol hyd 1815, sef am 36ain mlynedd—yn ystod pa amser y cyflawnodd orchestion na welwyd eu cyffelyb erioed mewn darganfyddiadau seryddol.

Yn 1781, cyhoeddodd i'r byd ddarfod iddo ddarganfod *comet* newydd: ond troes allan mai planed newydd oedd hon, y tu allan i lwybr Sadwrn—y blaned a dybid y pryd hyny y bellaf o'r planedau. Er anrhydedd i George III., galwodd hi wrth yr enw *Georgium Sidus*, sef Seren Siôr. Galwyd hi ar ol hyny gan astronomyddion yn Herschel, o anrhydedd i'r darganfyddwr; ond ei henw cyffredinol yn awr yw Uranus. Gwnaeth y darganfyddiad pwysig hwn ei enw yn glodfawr drwy y byd; ac anrhydeddodd George III. ei frenhiniaeth drwy gyssylltu y seryddwr newydd â'i lys, o dan yr enw Seryddwr Neillduol i'r Brenin. Appwyntiodd iddo gyflog o bedwar cant o bunnau yn flynyddol, i'w alluogi i ymroddi at seryddiaeth; a gwnaed ef yn aelod anrhydeddus o brif sefydliadau seryddol Ewrop. Ar hyn, efe a ymsefydlodd yn Datchet; ac ar ol hyny yn Slough, gerllaw Windsor, lle, am dros 40 mlynedd, y dygodd yn mlaen yr ymchwiliadau hyny i'r nefoedd ffurfafenol ag a osodasant ei enw ar ben uchaf y pinacl fel darganfyddwr seryddol.

Yn Ionawr 11eg, 1787, efe a ddarganfu ail a phedwaredd lleuad y blaned newydd Uranus; ac yn y naw mlynedd canlynol, ei lleuadau ereill. Yn niwedd 1785, efe a ddechreuodd wneuthur yspienddrych mwy fyth; yr hwn a orphenodd yn llwyddiannus. Yr oedd yn 40 troedfedd o hyd, a 4 o dryfesur; a dygwyd yr holl draul gan y brenin. Gorphenwyd yr offeryn gogoneddus hwn Awst 27, 1789, ar ol pedair blynedd o lafur caled; ac ar y prydnawn hwnw, efe a ddarganfu, trwy ei yspienddrych newydd, chweched lleuad Sadwrn; ac yn mhen llai na mis, ei seithfed lleuad. Yr oedd y lleuadau hyn yn anhawddach eu darganfod na'r lleuadau ereill, am eu bod yn agosach i'r blaned. Yr ydym hefyd yn ddyledus i Herschel am ddarganfyddiad yr ysmotiau ar y blaned Mawrth, am gylchysgogiad modrwy Sadwrn a lleuadau Jupiter, a chylchdroad dyddiol Sadwrn a Gwener, ac ysgogiadau y sêr dwbl.

Yn 1786, anrhydeddwyd ef gan Athrofa Rhydychain â'r gradd o D.C.L. Yn 1716, efe a wnaed yn farchog; ac yn 1820, efe a etholwyd yn brif gadeirydd y Gymdeithas Seryddol. Priododd Syr William Herschel yn 1788, weddw John Pitt, Ysw., gyda'r hon y cafodd gynnysgaeth fawr, ac o'r hon y bu iddo unig fab, Syr John Herschel. Efe a fu farw, Awst 25ain, 1822, yn 84 mlwydd oed. Claddwyd ef yn eglwys Upton, sir Buckingham.

**HERSCHEL, JOHN FREDERICK WILLIAM:** unig fab Syr William Herschel, a seryddwr enwog, a anwyd yn Slough, ger llaw Windsor, yn 1792. Ar ol bod dan addysgiaeth Mr. Rogers, *mathematician* galluog yn Ysgotland, efe a aeth i goleg St. Ioan yn Nghaergrawnt, lle y graddiwyd ef yn B.A. yn 1813. Tra y bu byw ei dad, yr oedd yn benaf yn ymdrin â seryddiaeth, fferyll-

Digitized by Google

iaeth, ac anianyddiaeth. Cyn bod yn llawn ugain mlwydd oed, efe a gyhoeddodd waith talentog o'r enw "*A collection of examples of the application of the Calculus to finite differences.*" Yn 1819, efe a gyhoeddodd yn yr *Edinburgh Philosophical Journal* ei ymchwiliadau dyddorol ar *hyposulphurous acid and its salts;* ac yn y flwyddyn ganlynol yn yr un cylchgrawn, draethawd ar "*The Theory and Summation of Series.*"

Yn mis Mawrth, 1821, mewn cyssylltiad â Syr James Smith, efe a ddechreuodd restr o sylwadau ar bellderau a sefyllfaoedd tri chant a phedwar ugain o ser deublyg a thriphlyg. Parhaodd yr ymchwiliadau hyn am rai blynyddoedd; a chyhoeddwyd hwy mewn cyfrol fawr bedwarplyg yn 1824. Efe a wnaeth yspienddrychau rhagorach na'r rhai a wnelsai ei dad; a thrwy eu hofferynoldeb hwy efe a astudiodd bellderau, a maintioli, ac ysgogiadau y bydoedd serenol. Yn 1825, efe a ddechreuodd astudio yr amrywiol gymmyl-ser (*nebulæ*) â ddarganfyddasid gan ei dad; ac mewn wyth mlynedd, efe a gyfansoddodd lyfr ar y pwngc, yr hwn a gyhoeddwyd yn 1832, a'r hwn a'i gosododd ef yn un o seryddwyr penaf yr oesoedd. Tra yn cyfansoddi y gwaith hwn, efe a ddarganfu rhwng tair a phedair mil o ser dwbl.

Yn 1834, efe a hwyliodd gyda'i deulu i ddeheudir Affrica, i astudio wyneb y ffurfafen ddeheuol. Efe a fu 'yno yn astudio ac yn sylwi am dros bedair blynedd; ac fe gyhoeddwyd ei sylwadau dyfnddysg ar draul y Duc Northumberland. Hwn yw un o'r cyhoeddiadau mwyaf pwysig a wnaed erioed ar y gangen seryddol o wybodaeth.

Ar ei ddychweliad i Loegr, croesawyd ef â derbyniad mwy gwresog nag a ddangosir yn gyffredin i wyddonwyr. Penderfynodd y Gymdeithas Seryddol yn ei absennoldeb, roddi ail dlws aur iddo fel gwobr am ei ddarganfyddiadau. Yr oedd eisoes wedi cael ei wneuthur yn farchog gan William IV.; ac ar goroniad Victoria, efe a wnaed yn farwnig. Anrhydeddodd Rhydychain ef â'r gradd o D.C.L. Yn 1850, gwnaed ef yn Feistr y Fathfa (*mint*); ond parodd gwaeledd iechyd iddo roddi y swydd i fyny yn 1855. At ei ddyrchafiadau ereill, chwanegwyd iddo yr anrhydedd o fod yn Farchog o Urdd Prwssia, a sefydlwyd gan Ffrederic Fawr i wobrwyo teilyngdod; a daeth hefyd yn olehydd swyddol athrofeydd Petersburg, Vienna, Gottingen, Bologna, Brussels, Naples, Copenhagen, Stockholm, &c.

HERSCHEL, CAROLINE LUCRETIA: chwaer Syr William Herschel, a anwyd yn Hanover yn 1750. Hi a ddaeth i Loegr yn 1772; ac a gynnorthwyodd ei brawd yn Datchet a Slough yn ei ddarganfyddiadau seryddol, fel ysgrifenydd iddo. Trwy gyfrwng yspienddrych Newtonaidd a wnaed o bwrpas iddi hi ei hun, hi a ddarganfu bump o gometau newyddion. Hi a gyhoeddodd hefyd, yn 1798, restr o ser nas nodasid o'r blaen mewn un restr Brydeinig. Dygwyd traul y cyhoeddiad hwn gan y Gymdeithas Frenhinol. Ar ol marw Syr William, ei brawd, hi a ddychwelodd i Hanover, lle y parhaodd i ddilyn ei hastudiaethau astronomaidd. Bu farw yno Ionawr 9fed, 1848, yn gan mlwydd oed ond dwy.

HESBON (Ἑσεβών = *Hesebôn*): prif ddinas Sihon, brenin yr Amoriaid: *Num.* xxi. 26. Safai ar gyffiniau gorllewinol y gwastadedd uchel (Mishor, *Ios.* xiii. 17), ac ar y llinell derfyn rhwng Reuben a Gad. Ugain milldir i'r dwyrain i'r Iorddonen, mewn llinell gyfredol â thu gorllewinol y Môr Marw y mae adfeilion dinas a elwir *Hesbân*. Yr un oedd yn ddiammheu a Hesbon y Beibl. Yn y bedwaredd ganrif, yr oedd hi yn parhau yn lle o beth pwysigrwydd; ond er's llawer o ganrifoedd bellach y mae yn hollol anghyfannedd.

Saif adfeilion Hesbon ar fryn bychan ar y gwastadedd eang anwastad. Maent yn fwy na milldir o'u hamgylch; ond nid oes gymmaint ag un adeilad gyfan yn aros. Y mae amryw ddyfrgistiau yn mhlith yr adfeilion; a thua'r deheu, o fewn ychydig latheni i waelod y bryn, y mae hen gronbwll mawr, yr hwn sydd yn galw i'n cof yr ymadrodd yn *Can.* vii. 4, "Dy lygaid sydd fel pysgod-lynoedd yn Hesbon, wrth borth Bath-rabbim. Gwel BATH-RABBIM.

HETEROUSIAID, [*o hanfod gwahanol*]: cangen o'r Ariaid, y rhai a ddalient fod Mab Duw yn wahanol i'r Tad o ran hanfod. Gwahaniaethir hwy felly oddi wrth yr Homoiusiaid, neu uchel Ariaid, y rhai a ddywedent ei fod o hanfod gyffelyb, (ond nid yr un fath) a'r Tad. Gwel ARIAID; HOMOOUSIAID.

HETH—IAID. Cyndad cenedl yr Hethiaid ydoedd Heth. Yn *Gen.* x., a 1 *Cron.* i., gosodir ef allan fel mab i Canaan, ieuangach na Sidon y cyntafanedig; ond enwir ef o flaen y Jebusiaid, yr Amoriaid, a'r teuluoedd ereill perthynol i Canaan. Heth a Sidon yn unig a enwir fel personau: y mae y lleill i gyd yn ymddangos fel tylwythau: *Gen.* x. 15; 1 *Cron.* i. 13; a gwel Josephus, *Hyn. Iudd.*, i. 6, ad. 2.

Disgynodd yr Hethiaid felly o Ham, neu Cham; ac nid oeddynt o "wlad," nac o "genedl" Abraham: *Gen.* xxiv. 3, 4; xxviii. 1, 2. Y cyfeiriad cyntaf at genedl yr Hethiaid ydyw, *Gen.* xxiii. 19, a xxv. 9; lle y dywedir fod Abraham wedi prynu gan "feibion Heth," yr hyn ydoedd eu henw y pryd hyny, faes ac ogof Macphelah, y rhai a berthynent i Ephron yr Hethiad. Yr oedd y genedl y pryd hyny wedi ymsefydlu mewn tref, yr hon, o dan ei henw newydd, Hebron, oedd i fod yn un o ddinasoedd enwocaf Gwlad Canaan, a'r hon a elwid y pryd hyny Ciriath-Arba, ac hefyd, hwyrach, Mamre: *Gen.* xxiii. 19; xxv. 9. Ymddengys fod y genedl y pryd hyny yn tueddu yn fwy at fasnach na milwriaeth. Yr oedd yr "arian cymmeradwy yn mhlith masnachwyr," ynghyd â'r dull o'i bwyso, yn eithaf adnabyddus iddynt. Ymgasglu yn heddychol "i borth y ddinas" oedd eu dull o dderbyn y gŵr dyeithr oedd yn awyddus am "feddiant" wedi ei "sicrhau" yn eu plith. Y mae urddasolrwydd a moesgarwch eu hymddygiad hefyd yn cael ei arddangos yn amlwg yn yr hanes hwn. Fel y sylwa Ewald—dewisodd Abraham ei gynghreiriaid mewn rhyfel o fysg yr Amoriaid, ond gwnaeth ei fedd yn mhlith yr Hethiaid. Ond y mae yn ddiammheu nad oedd y genedl etto ond bechan, nac yn ddigon pwysig i'w henwi gyda'r "Canaaneaid a'r Phereziaid," yn meddiant y rhai yr oedd y rhan fwyaf o'r wlad y pryd hyny: *Gen.* xii. 6; xiii. 7. Yn y rhan ddeheuol o'r wlad y preswyliasant am gyfnod maith ar ol hyn, gan ymestyn, mae'n bossibl, hyd Gerar a Beersheba, yn mhell islaw Hebron: *Gen.* xxvi. 17; xxviii. 10. O'u teuluoedd hwy y priododd Esau ei ddwy wraig gyntaf; a rhag ofn i Iacob wneyd yr un peth, y mae Rebeccah yn ei anfon i Haran. Yr un teimlad a barodd i Abraham anfon i Mesopotamia

am wraig i Isaac. Nis gallai un o hiliogaeth Sem briodi o ferched Cham—"o ferched y Canaaneaid y rhai y trigai yn eu mysg, ond," dywedai ei dad, "i'm gwlad i yr ai .... i dŷ Bethuel, tad dy fam, a chymmer i ti wraig oddi yno;" *Gen.* xxviii. 2; xxiv. 4.

Trwy holl Lyfr Exodus, ni wneir ond enwi yr Hethiaid yn mhlith preswylwyr ereill Gwlad Canaan. Ond yn adroddiad yr yspïwyr, gwneir cyfeiriad hanesol atynt—"a'r Hethiaid a'r Iebusiaid, a'r Amoriaid yn gwladychu yn y mynydd-dir;" *Num.* xiii. 29. Pa amgylchiadau tymmorol bynag a barodd i'r bobl hyn—pobl yn meddu tueddiadau tawel a masnachol Ephron yr Hethiad a'i gyfeillion—pa beth bynag a barodd iddynt symmud mor bell tua'r deheu a Beersheba, ni all fod hyny wedi peri iddynt gymmeryd i fyny y bywyd crwydrol a therfysglyd oedd yn naturiol i wlad oedd yn ymylu ar y diffaethwch; ac fel hyn, yn ystod preswyliad Israel yn yr Aipht, yr oeddynt wedi ymneillduo o'r llanerchau hyny, gan encilio o flaen Amalec (*Num.* xiii. 29) i'r mynydd-dir, yn nghanol y wlad. Dichon fod geiriau Ezeciel (xvi. 3, 45) yn awgrymu iddynt gynnorthwyo i adeiladu Ierusalem.

O'r amser hwn, fodd bynag, y mae eu tueddiadau heddychlawn yn diflanu, ac y maent yn cymmeryd eu rhan yn erbyn y gelyn, gyda'r cenhedloedd Canaaneaidd ereill: *Ios.* ix. 1; xi. 3, &c.

O hyn allan y mae y cyfeiriadau yn ychydig ac aneglur. Cawn ddau berson o'r llwyth hwn mewn cyssylltiad â Dafydd:—1. "Ahimelech yr Hethiad:" yr hwn oedd gydag ef yn mryn Hachilah, ac a'i dilynai i babell Saul: 1 *Sam.* xxvi. 6. 2. "Urias yr Hethiad," un o ddeg ar hugain "cedyrn Dafydd" (2 *Sam.* xxiii. 39; 1 *Cron.* xi. 41); ac anffodion trychinebus bywyd yr hwn sydd yn ffurfio y fath frycheuyn du ar gymmeriad ei feistr: 2 *Sam.* xii.

Yn mrutiau yr Aiphtiaid, fe'n hysbysir am nifer mawr o'r Hethiaid oedd yn trigo yn nyffryn yr Orontes, gyda'r rhai yr ymladdodd Sether I., neu Sethos, o ddeutu 1340 c. c.—prif ddinas y rhai, sef Ketesh, ger Emesa, a orchfygodd efe. Yn yr arwyddluniau ar adfeilion Assyria, fe gyfeirir at genedl o'r enw Khatti yn trigo yn nyffryn Orontes, y rhai, fel y tybir, sydd yr un a'r Hethiaid.

Ni ddywedir dim am grefydd yr Hethiaid.

HETHLON: enw lle ar gyffiniau gogleddol Gwlad Canaan. Nid yw yn dygwydd ond dwy waith yn y Beibl; sef, yn *Ezeciel* xlvii. 15, a xlviii. 1. Y mae yn dra thebyg mai wrth yr ymadrodd "ffordd Hethlon" y mae i ni ddeall y bwlch sydd yn mhen gogleddol Libanus, ac yn cyrhaedd oddi wrth lan Môr y Canoldir hyd wastadedd Hamath, ac felly yr un a "mynedfa Hamath:" *Num.* xxxiv. 8, &c.—Gwel "*Five Years in Damascus*," ii. 356.

HEXAPLA, [*chwephlygion*]: enw ar argraffiad o'r Beibl a ddarparwyd gan Origen yn chwecholofn. Yn y golofn gyntaf, yr oedd Hebraeg yr Hen Destament; yn yr ail, Hebraeg mewn llythyrenau Groeg; yn y drydedd, Groeg y Deg a Thrigain; a Groeg Aquila, Symmachus, a Theodotion, a lanwai y tair ereill.

HEZECI: ffurf fyrach o'r gair Hezeciah; enw a nodir yn achres Beniamin, un o feibion Elpaal, o hiliogaeth Shaarim: 1 *Cron.* viii. 17.

HEZECIAH, [חזקיה; Gr. *Esechias*="*cadernid yr Iehofah*"]: mab Ahaz, a'r deuddegfed o frenhinoedd Iudah, a esgynodd i'r orsedd yn 25ain oed, c. c. 726. Gan nad oedd Ahaz ond 36ain oed pan fu farw, y mae yn rhaid nad oedd ond 11 oed pan anwyd Hezeciah. Y mae rhai yn tybied fod hyn yn annhebyg, ac o blegid hyny ceisiant osod allan fod Hezeciah yn 20 oed pan esgynodd i'w frenhiniaeth. Ond nid yw y peth yn ammhossibl; y mae amrwy enghreifftiau cyffelyb mewn hanesiaeth ddwyreiniol.—(Gwel Hieron. *Ep. at Vitalem*, td. 132; *Greog. Sacr.*, td. 920; Keil ar 2 *Bren.* xviii. 1, a Knobel, *Ios.* 22, &c).

Hezeciah ydoedd un o dri brenhinoedd perffeithiaf Iudah: 2 *Bren.* xviii. 5. Ei weithred gyntaf ydoedd puro, adgyweirio, ac ail sefydlu gwasanaeth y deml; yr hon a lygrasid, ac a gawsai ei hesgeuluso i'r fath raddau yn ystod teyrnasiad diofal ac eilunaddolgar ei dad. Bu y cyssegriad hwn yn foddion i adfywio yr ysbryd dwyflywyddol i'r fath raddau fel ag i ddinystrio yr "uchelfeydd;" y rhai, er eu bod wedi eu goddef gan amryw frenhinoedd da, a lygrasid yn naturiol drwy addoliad delwau: 2 *Bren.* xviii. 4. [Gwel UCHELFANAU.] Gweithred lawn mwy penderfynol oedd dinystriad sarph bres—yr un, fe ddywedid, a'r sarph a ddefnyddiwyd gan Moses er iachâd yr Israeliaid yn yr anialwch (*Num.* xxi. 9), yr hon a ddygasid i Ierusalem, ac a barhasai "hyd y dyddiau hyny" yn wrthddrych edmygedd, ac hyd yn oed o addoliad. Yr oedd dinystrio y sarph hon yn arddangos sêl a meddwl cryf a phenderfynol; a chyfiawnhäai Hezeciah drwy ei galw (gyda diystyrwch, fe allai) Nehushtan="y peth pres." Pan syrthiodd brenhiniaeth Israel, estynodd Hezeciah ei ymdrechion diwygiadol i Ephraim a Manasseh, a thrwy wahodd y preswylwyr gwasgaredig i Basc a barotoisai, taniodd eu heiddigedd hwythau yn erbyn yr arferion eilunaddolgar oedd etto yn aros yn eu mysg. Cedwid y Pasc hwn, fel yr oedd angenrheidiau yr achos yn galw, ar amser anarferol, er nad anghyfreithlawn (*Num.* xl. 10, 11); a thrwy sêl ormodol y Lefiaid, cadwyd ef am bedwar diwrnod ar ddeg—tymmor na bu ei gyffelyb o'r blaen yn hanes y genedl: 2 *Cron.* xxix. xxx, xxxi. Gellid meddwl ar yr olwg gyntaf fod y Pasc hwn wedi ei gynnal yn fuan ar ol cyssegriad y deml; ond y mae ystyriaeth fanwl o'r hanes yn dangos mai yn y chweched flwyddyn o deyrnasiad Hezeciah y cymmerodd le, pan feddiannwyd y genedl gan edifeirwch ac arswyd trwy ddarostyngiad Samaria: 2 *Cron.* xxxi. 1; xxx. 6, 9; a gwel Keil ar 2 *Bren.* xviii. 3.

Trwy ragluniaeth hynod, cefnogid a chynghorid y goreu o frenhinoedd gan y galluocaf a'r mwyaf hyawdl o'r prophwydi. Ond bu raid i Esaiah ymdrechu yn erbyn "gwatwariaeth" yr hen gynghoriaid brenhinol cyn ennill ei ddylanwad: *Esa.* xxviii. 14. Prif swyddog llys Hezeciah ydoedd Sebna; yr hwn, fel y gellid meddwl oddi wrth *Esa.* xxii. 16, [gwel Blunt, dg. *Coincidences*], a'r ffaith nad ydyw enw ei dad yn cael ei nodi, ydoedd estron o genedl:—Syriad, fe allai [*Hitzig*]. Trwy orchymyn Esaiah, ymddengys iddo gael ei ddarostwng o fod yn rhaglaw y palas (yr hon swydd a roddwyd i Eliacim; *Esa.* xxii. 21), i fod yn ysgrifenydd y wladwriaeth (2 *Bren.* xviii. 18), ac arbedwyd ef rhag yr alltudiaeth y bygythiasai Esaiah efe âg ef (*Esa.* xxii. 18), am iddo ddiwygio (*Esa* xxxvii. 2), fe allai.

Fel arweinydd cenedl edifeiriol ac unedig, anturiodd Hezeciah yn erbyn y Philistiaid; ac mewn

Digitized by Google

cyfres o fuddugoliaethau, llwyddodd, nid yn unig i adennill y dinasoedd a gollasai ei dad (2 *Cron.* xxviii. 14), ond hefyd i gymmeryd oddiarnynt eu holl ddinasoedd, ond Gaza a Gath: 2 *Bren.* xviii. 8: *Hyn. Iudd. Ios.*, ix. 13. *adr.* 3. Fe allai mai at gostau y rhyfel hwn y cymmhwysodd yr arian y dylesid eu rhoddi yn deyrnged i Salmaneser yn ol cyttundeb Ahaz â'i flaenorydd yn y frenhiniaeth, Tiglath Pileser. Pan, ar ol darostwng Samaria, yr appeliodd brenin Assyria, am y deyrnged hon, gwrthododd Hezeciah ei thalu, ac ni anfonai chwaith y rhoddion arferol (2 *Bren.* xviii. 7):—ymddygiad a gymmhellwyd yn ddiamheuol gan ei gynghorydd, y prophwyd.

Ond bu y weithred hon o eiddo Hezeciah yn achlysur i ddwyn Salmanezer i ryfel âg ef. Ond nid yn uniongyrchol; o blegid yr oedd ar y pryd mewn rhyfel â'r Tyriaid—y rhai a barhasant i ymladd gyda dewrder a phenderfyniad am bum mlynedd [*Ios. Hyn. Iudd.*, xi. 14], pryd y terfynwyd ef. Rhaid fod hwn yn dymmor o bryder dirfawr i Ierusalem; ac arferodd Hezeciah bob moddion galluadwy i chwanegu ei nerth, ac i adgyfnerthu y ddinas: 2 *Bren.* xx. 20; 2 *Cron.* xxxii. 3—5, 30; *Esa.* xxii. 8—11; xxxiii. 18. Y mae Ewald hefyd yn cyfeirio at yr amgylchiadau hyn: *Salm* xlviii. 13. Ond tra yr oedd holl Iudea yn crynu mewn arswyd o ymosodiad oddi wrth yr Assyriaid, a thra yr oedd Sebna ac ereill yn ymddiried "yn nghysgod yr Aipht," ni lwfrhaodd Esaiah; ac y mae hyd yn oed yn cyhoeddi digofaint Duw yn erbyn y ddinas fasnach-falch a phechadurus (*Esa.* xxiii) oedd yn awr yn ffurfio prif amddiffynfa Iudea yn erbyn ymosodiad uniongyrchol.

Mae yn debyg mai yn ystod y gwarchau ar Samaria y bu Salmaneser farw, ac y dilynwyd ef yn y frenhiniaeth gan Sargon, yr hwn, yn eiddigus o ddylanwad yr Aiphtiaid yn Iudea, a anfonodd fyddin o dan Tartan ei gadfridog (*Esa.* xx. 1), yr hon a dreiddiodd i'r Aipht (*Nah.* iii. 8—10), ac a ddinystriodd No-Amon; ond gallem feddwl oddi wrth 2 *Bren.* xviii. 7, mai ychydig o argraff arosol a adawodd yno. Yn y bedwaredd flwyddyn ar ddeg o frenhiniaeth Hezeciah, a'r degfed o'i frenhiniaeth ei hun, gwnaeth Sargon ryfelgyrch i Palestina. Ond nid yw ei frutiau yn cofnodi unrhyw fuddugoliaeth o'i eiddo ar Hezeciah y tro hwn, ac ymddengys iddo gyfyngu ei hun at warchaead Asdod (*Esa.* xx. 1), a gwneuthur ymchwiliad i fwngloddiau [*Rosenmüller's Bibl. Geog.*, ix]. Rhaid mai at y rhyfelgyrch hwn y cyfeirir yn 2 *Bren.* xviii. 13; *Esa.* xxxvi. 1—rhyfelgyrch na wneir yn unig ond cyfeirio ato, gan nad arweiniodd i unrhyw ganlyniadau pwysig. Ond i'r dyben o gyssoni yr hanes ysgrythyrol â thystioliaethau hanesiaeth Assyria, ymddengys ei bod yn angenrheidiol i Esaiah (ac felly 2 *Bren.*) fyned drwy fath o drawsgyflead. Fod rhyw gynllun cyffelyb yn angenrheidiol, os yw hanesiaeth Assyria yn gredadwy, ydyw syniad Dr. Hincks mewn erthygl o'i eiddo yn y *Journal of Sacred Literature* (Hydref 1858). "Yr oedd y testyn," medd efe, "yn wreiddiol, fe allai, yn debyg i'r hyn a ganlyn:—2 *Bren.* xviii. 13. Ac yn y bedwaredd flwyddyn ar ddeg i'r brenhin Hezeciah, *y daeth brenin Assyria i fyny*, [gan gyfeirio at yr ymosodiad, a gofnodir yn mrutiau Sargon] (2 *Bren.* xx. 1—19). Yn y dyddiau hyny y clafychodd Hezeciah hyd farw, &c. (xviii. 13). A Senacherib brenin Assyria a ddaeth i fyny yn erbyn holl ddinasoedd caerog Iudah, ac a'u hennillodd hwynt, &c. (xviii. 13; xix. 37)." Mae yn bossibl i rywun oedd yn anhysbys o'r ymosodiad cyntaf, wrth adysgrifenu yr hanes mewn amser diweddarach, gymmhlethu y cyfeiriad at Sargon yn 2 *Bren.* xviii. 13 (pryd yr oedd Hezeciah yn glaf), â'r hanes manwl am ymosodiad Senacherib (*pen.* xviii. 14, hyd xix. 37); a chan ystyried fod hanes afiechyd Hezeciah yn tori ar reoleidd-dra yr hanes, iddo ei osod yn y diwedd.

Yn ol y cynllun hwn, yr oedd afiechyd peryglus Hezeciah o'r bron yn gydamserol â rhyfelgyrch aflwyddiannus Sargon, yn y bedwaredd flwyddyn ar ddeg o deyrnasiad Hezeciah—un mlynedd ar ddeg cyn rhyfelgyrch Senacherib. Mai *cyn* ymosodiad Senacherib y digwyddodd, sydd agos yn amlwg oddi wrth yr addewid yn 2 *Bren.* xx. 6, yn gystal ag oddi wrth ddarganfyddiadau diweddar [*Layard's Nineveh & Babilon*, i. 145]. Dyna hefyd yw golygiad y Rabbis [*Seder Olam*, pen. xxiii], Usher, a'r rhan fwyaf o'r esbonwyr, oddi eithr Vitringa a Gesenius. Nid ydyw yn ymddangos fod unrhyw sail i'r dybiaeth mai yr un ydoedd clefyd Hezeciah a'r pla a ddinystriodd y fyddin Assyriaidd [Winer, *Hesikias;* Jahn, *Heb. Common.* ad. xli]. Nid yw y gair שחין yn cael ei gymmhwyso mewn unman arall at y pla, ond at friwiau llosdarddol a chornwydydd llidiog: *Exod.* ix. 9; *Iob* ii. 1, &c. Y mae teyrnas Hezeciah y pryd hyn mewn sefyllfa beryglus; y mae yntau heb etifedd i'r orsedd (o blegid ni anwyd Manasseh am lawer o amser wedi hyny; 2 *Bren.* xxi. 1), ac yn synied fod angeu yn terfynu ei einioes (*Esa.* xxxviii), fe "droes ei wyneb at y pared...ac a wylodd âg wylofain mawr," wrth feddwl fod ei ddiwedd gerllaw. Tosturiodd Duw wrtho yn ei ofid, a gwrandawodd ei weddi. Prin yr oedd Esaiah wedi gadael y palas pan orchymynwyd iddo addaw i'r brenin adferiad dioed, a chwanegiad o 15 mlynedd at ei oes; gan gadarnhau yr addewid âg arwydd, ac iachau y cornwyd â ffigys—meddyginiaeth a ddefnyddid yn fynych mewn amgylchiadau cyffelyb [*Gesen.*, *Thes.*, i. 311; Celsius, *Hierobot.* ii. 377; Bartholinus, *De Morbis Biblicis*, x. 47]. Pa beth oedd gwir natur y clefyd, nis gellir dywedyd: yn ol Meade, twymyn ydoedd, yn terfynu mewn chwyddiadau poeth madruddol. Mewn perthynas i ddychweliad y cysgod ar ddeial Ahaz, gwel DEIAL AHAZ.

Ar adferiad Hezeciah, daeth amryw lysgenhadon ato gyda llythyrau ac anrhegion (2 *Cron.* xxxii. 23), ac yn eu plith ddirprwyaeth oddi wrth Merodach-Baladan (neu Berodach: 2 *Bren.* xx. 12), rhagdeyrn (*viceroy*) Babilon—y Mardokempados y sonia Ptolemy am dano yn ei ganon. Un o brif amcanion y genadaeth hon oedd cyfarch Hezeciah ar ei wellhâd (2 *Bren.* xx. 12; *Esa.* xxxix. 1), ac "ymofyn am y rhyfeddod a wnaethid yn y wlad" (2 *Cron.* xxxii. 31), chwedl nas gallasai lai na bod yn ddyddorol i bobl mor hoff o serddewiniaeth. Ond ei gwir ddyben ydoedd ymholi pa mor bossibl neu ddymunol fyddai cael cynghrair rhwng y ddwy wlad, o blegid yr oedd Mardokempados, fel Hezeciah, yn ofni yr Assyriaid. Mewn gwirionedd, diorseddwyd ef gan Sargon y flwyddyn ganlynol (yr 16eg i Hezeciah), er ei bod yn ymddangos iddo ddychwelyd yn mhen amser, ac ymsefydlu drachefn chwe mis, yn niwedd yr hwn amser y llofruddiwyd ef gan Belibos [Dr. Hincks; Rosenmüller *Bibl. Geog.*, *pen.* viii; Layard, *Nin. & Bab.* i. 41]. Derbyniodd Hezeciah y cynnygiad am undeb â Babilon gyda boddhâd; ac i'r dyben, fe allai, o ddangos ei bwysigrwydd ei hun fel cynghreiriad, dangos-

Digitized by Google

odd i'r cenhadon y trysorau ardderchog a gasglasai efe a'i flaenoriaid yn y frenhiniaeth. Y mae y crybwylliad am y trysorau gwerthfawr hyn yn cryfhau yr ymresymiad mai cyn ymosodiad Senacherib y cymmerodd y digwyddiadau hyn le (gwel 2 *Bren.* xviii. 14—16), er eu bod yn cael eu cofnodi ar ei ol gan haneswyr y Beibl. Os gwag ogoniant yn unig oedd yn ngolwg Hezeciah, cafodd ei geryddu yn chwerw o'i blegid, a hysbyswyd ef gan Esaiah mai o frenhiniaeth sigledig a darostyngol Babilon, ac nid o Assyria alluog, y deuai dinystr a chaethgludiad Iudah: *Esa.* xxxix. 5. Yn y brophwydoliaeth hon, ynghyd â'r eiddo Micah (*Mic.* iv. 10), yr ydym yn cyfarfod gyntaf â disgrifiad o wlad y gallu hwnw, lle yr oedd cymmylau alltudiaeth a fygthiasid mor foreu (*Lef.* xxvi. 33; *Deut.* iv. 27; xxx. 3), yn awr yn dechreu ymgasglu. Y mae yn ffaith bwysig ac ofnadwy fod adeg o gymmaint llawenydd wedi ei defnyddio yn gyfle i fygythio ac fod y prophwydoliaethau am waredigaeth rhag yr Assyriaid yn cael eu gosod yn gyfochrog â'r rhai hyny am y caethiwed Babilonaidd. Yr oedd y cyfaill gwan i gyflawni yr hyn oedd i'r gelyn nerthol yn ammhossibl. Ond er mai balchder oedd y pechod a gondemnid mor llym gan y prophwyd, y mae yn ddiammheu nad oedd Esaiah yn anhysbys o'r amcanion *gwleidyddol* (*Ios., Hyn. Iudd.*, x. 2, *adr.* 2) oedd mewn golwg gan Hezecïah wrth dalu y fath sylw i'r cenhadon Babilonaidd. Ymholodd y prophwyd i'r amcanion hyny, ond yn ofer; cyfarfyddodd y brenin y rhan hwnw o'i gwestiwn, "Beth a ddywedodd y gwŷr hyn?" â dystawrwydd hollol. Y mae attebiad addfwyn Hezeciah i fygythiad y prophwyd wedi cael edrych arno gan rai fel yn arddangos ymostyngiad rhagrithiol, yn gystal a hunanoldeb ac ynfydrwydd (Newman, *Hebr. Mon.*, td. 274). I'r gwrthwyneb, cyd nabyddiaeth syml o gyfiawnder ac uniondeb ymddygiadau Duw ydwy, ac amlygiad o ddiolchgarwch naturiol am hyd yn oed attaliad amserol ar gyflawniad y ddedfryd ofnadwy.

Dilynwyd Sargon yn y frenhiniaeth gan ei fab Senacherib (c. c. 703)—dau ryfelgyrch yr hwn ydyw y digwyddiadau pwysicaf yn hanes teyrnasiad Hezeciah. Cymmerodd y rhyfelgyrch cyntaf le yn y drydedd flwyddyn o deyrnasiad Senacherib, hanes yr hwn a gynnwysir yn 2 *Bren.* xviii. 13—16. Parodd yr hanes am y rhyfelgyrch i Hezeciah ddyblu ei ymdrechion, a pharotoi ar gyfer gwarchae, drwy ddarparu arfau amddiffynol ac ymosodol, gan gau i fyny y ffynnonau, a symmud rhedegfeydd y dwfr; a dygodd ddwfr Gihon i'r ddinas ar hyd camlas tanddaearol: *Eccles.* xlviii. 17. Ond prif obaith y blaid wleidyddol ydoedd cynnorthwy yr Aipht; ac ymddengys iddynt ymdrechu ei sicrhau drwy anrhegion ac erfyniadau dirgelaidd (*Esa.* xxx. 6), i'r dyben, yn benaf, o gael gwasanaeth eu cerbydau a'u gwŷr meirch (*Esa.* xxxi. 1—3), yr hyn oedd ddiffyg mwyaf y gwasanaeth milwrol Iuddewig, fel y gellir gweled oddi wrth wawdiaeth cenhadon Senacherib: 2 *Bren.* xviii. 23. Cynnhyrfodd yr appeliadau hyn eiddigedd Esaiah: gwelai ef yn amlwg fod yr Aipht yn rhy wan ac anffyddlawn i fod o wasanaeth, ac yr oedd appelio at Pharaoh (yr hwn a gyffelybir gan Rabsaceh i un o'r brwyn ar lân ei afon ei hun), yn arddangos diffyg ymddiried yn Nuw. Ond nid oedd Esaiah yn wrthwynebol i'r cynnorthwy a gynnygid yr un pryd gan yr Ethiopiaid cedyrn a rhyfelgar (gwel cyf Ewald o *Esa.* xviii. 2, 7); am y tybiai, fe allai, ei fod yn wir ragluniaethol.

Yn *Brutiau Senacherib*, lle y rhoddir hanes y rhyfelgyrch cyntaf hwn, dywedir iddo ymosod ar Hezecïah, am i'r Ecroniaid anfon eu brenin Padiya ("Haddiya," yn ol Rawlinson) yn garcharor i Ierusalem (gwel 2 *Bren.* xviii. 8); iddo gymmeryd chwech a deugain o ddinasoedd (mae yn ymddangos nad yw "yr holl ddinasoedd caerog)" yn 2 *Bren.* xviii. 13, ond ymadrodd cyffredinol), a 200,000 o garcharorion; iddo amgylchu Ierusalem â gwarchgloddiau; ac er i Hezeciah addaw talu iddo 800 o dalentau arian (o'r rhai ni thalwyd hwyrach ond 300), a 30 o dalentau aur (2 *Bren.* xviii. 14; a gwel *Layard's Nine. & Bab.*, iv. td. 148), er hyny nid oedd yn foddlawn, a chymmerodd ran o'i diriogaethau oddi arno, gan eu rhoddi i frenhinoedd Ecron, Asdod, a Gaza: Rawlinson, *Herod.* i. 475, &c. Mor bwysig ydoedd y rhyfelgyrch hwn, fel y mae Demetrius, yr hanesydd Iuddewig, yn priodoli i Senacherib y caethgludiad mawr. Yn mhob amgylchiad, yn mron, y mae yr hanes hwn yn cyttuno â'r eiddo y Beibl; a gallwn weled rheswm am gymmaint aberth o du Hezeciah, yn yr olwg a rydd Esaiah (*pen.* xxii. 12—14) o'r brif ddinas wedi ei chynnhyrfu gan wallgofrwydd anobaith i orfoledd penrydd ac ansanctaidd. Yr oedd o leiaf un effaith ddaionus yn dilyn yr ymosodiad hwn, sef dangos yr aflesolrwydd o ymgyssylltu â'r Aipht; o blegid mewn lle o'r enw Altagû (Eltecon? *Ios.* xv. 59) cafodd Senacherib fuddugoliaeth cyflawn ar alluoedd unedig yr Aipht ac Ethiopia, y rhai a ddaethent i gynnorthwyo Ecron. Ond edrychai Esaiah ar y dull y pwrcaswyd heddwch fel ymddygiad o'r fath fwyaf llwfr: ac yn yr olwg ar ei gyd-ddinaswyr yn sefyll yn llonydd i edrych oddi ar benau y tai ar yr Assyriaid beiddgar ac arfog, llenwid ef âg eiddigedd ac anobaith (*Esa.* xxii. 1—7=os yw yr esboniadau diweddaraf o'r bennod hon yn gywir).

Bu yr arian a dalwyd gan Hezeciah yn foddion i sicrhau heddwch am amser, o blegid aeth yr Assyriaid i'r Aipht; ond wrth ddychwelyd, ymddygodd Senacherib yn anffyddlawn at Hezeciah (*Esa.* xxxiii. 1), drwy ymosod ar amddiffynfa Lachis. Dyma ydoedd dechreuad yr *ail* ryfelgyrch y rhoddir hanes mor fanwl am dano yn 2 *Bren.* xviii. 17, &c.; 2 *Cron.* xxxii. 9, &c.; *Esa.* xxxvi. Fod *dau* ryfelgyrch wedi cymmeryd lle, ac nid *un*, fel y tybia Layard ac eraill, sydd amlwg oddi wrth y manylion a roddir o'r cyntaf yn y brutiau Assyriaidd (gwel Rawlinson, *Herod.* i td. 477). Er fod brutiau Senacherib ar y rholfaen (*cylinder*) mawr yn yr Amgueddfa Brydeinig, Llundain, yn cyrhaedd hyd ei *wythfed* flwyddyn, ac er i'r ail ymosodiad hwn gymmeryd lle yn ei bummed flwyddyn (c. c. 698, yn yr 28ain fl. i Hezeciah), etto nid oes un cyfeiriad ato wedi ei gael ynddynt. A'r rheswm a ellir ei roddi am hyn ydyw fod balchder cenhedlaethol yr Assyriaid mor fawr fel nas gellid meddwl am gofnodi dinystr mor waradwyddus. Anfonodd fyddin o Lachis yn erbyn Ierusalem, o dan ddau swyddog, a'i drulliad, yr areithydd Rabsaceh, gyda gorchymyn cableddus a dirmygus i ymostwng, gan wawdio gobeithion Hezeciah oddi wrth yr Aipht; ac ymddengys fel pe yn ceisio cynnhyrfu y bobl i anymddiried yn Nuw: 2 *Bren.* xviii. 25—30. Y mae yr ymresymiad olaf o eiddo Rabsaceh, ynghyd â'i feistrolaeth lwyr o'r Hebraeg (yr hon a ddefnyddiodd i geisio temtio y bobl drwy addewid: *pen.* v. 31, 22), yn rhoddi lle i'r dybiaeth mai Iuddew enciliedig ydoedd (?) Llanwyd gweinidogion Hezeciah â gofid ac anobaith. Nid felly

Esaiah: taflodd ef fygythiad am fygythiad yn ol, gyda hyawdledd a nerth anghymmharol. Cawn ef hyd yn oed yn prophwydo fod y tanau yn Tophet yn llosgi eisoes mewn disgwyliad am gyrph yr Assyriaid i borthi eu fflamau. Yn y cyfamser, yr oedd Senacherib wedi cymmeryd Lachis (yr hyn a ddarlunir, fe allai, ar nifer o geryg (*slabs*), yn Mosul:—Layard, *Nin. & Bab.* 148—152), ac yn gwarchau ar Libnah, pan ddychrynwyd ef gan chwedl fod Tirhacah yn dynesu, ac y gorfodwyd ef i roddi heibio ei ymosodiadau ar Hezeciah am amser, ac ymfoddloni ar anfon llythyr bygythiol ato. Y digwyddiad nesaf a gofnodir o'r rhyfelgyrch hwn ydyw fod Hezeciah yn ei dduwiolfrydedd syml yn gweddio ar Dduw, gyda llythyr Hezeciah wedi ei daenu o'i flaen, ac iddo dderbyn addewid o waredigaeth uniongyrchol. "A'r noson hono yr aeth angel yr Arglwydd, ac a darawodd yn ngwersyll yr Assyriaid bump a phedwar ugain a chant o filoedd o wŷr;" 2 *Bren.* xix. 35.

Y mae yn ddiammheu fod rhyw ail achos wedi ei ddefnyddio i gyflawni hyn. "Nid ydym i dybio," medd Dr. Johnson, "fod yr angel yn myned o amgylch gyda chleddyf yn ei law, ac yn eu trywanu y naill ar ol y llall, ond fod rhyw allu naturiol grymus yn cael ei arfer." Y mae y Talmud Babilonaidd yn ei briodoli i ystormydd o fellt; Faber, i'r gwynt poeth a gwenwynig a elwir y *simoon;* Paulus, i wenwyniad y dwfr; ond gan Josephus, yr hwn a ddilynir gan y rhan fwyaf o lawer o esbonwyr, hen a diweddar, i haint y nodau. Byddai hwn nid yn unig yn achos effeithiol [*Justin* xix. 11; *Diodor.* xix. td. 434; a gwel *Rosenmüller*, *Winer*, *Keil*, *Jahn*, &c.], ond hefyd yn dra thebygol oddi wrth sefyllfa ddychrynedig, liosog, a gwasgedig y gwersyll.

Wedi y digwyddiad torcalonus hwn, ffôdd Senacherib i Ninefeh, lle y cymmerodd gyfle i ymddial ar gymmaint o Iuddewon ag oedd o dan ei awdurdod (*Tobit* i. 18), ac ar ol llawer o flynyddoedd, (nid deng niwrnod a deugain fel y dywedir yn *Tobit* i. 21), llofruddiwyd ef gan ddau o'i feibion, fel yr yfai ei hun i feddwdod yn nhŷ Nisroch (Assarac?) ei dduw. Bu fyw o leiaf hyd c. c. 680; o blegid cofnodir ei ail flwyddyn ar hugain ar dabled o glai [*Rawlinson*, *l. c.*]; bu fyw felly o ddeutu 17eg mlynedd ar ol Hezeciah. Mae yn debyg fod amryw o'r Salmau yn cyfeirio at ddinystr ei fyddin: *Salm* xlvi., xlviii., lxxvi.

Ar ol teyrnasiad o 29ain mlynedd, fe hunodd Hezeciah gyda'i dadau, yn yr 56ain flwyddyn o'i oedran (c. c. 697), a chladdwyd ef gyda llawer o barch a galar cyffredinol, "yn yr uchaf (neu y *rhagoraf*) o feddau meibion Dafydd;" 2 *Cron.* xxxii. 33. Cyflawnodd lawer o weithredoedd heddychol yn ei fywyd—bywyd ardderchog, ac un oedd yn mron yn ddifrycheulyd yn nghanol ei holl drafferthion: ac i'w lafur duwiolfrydig ef yr ydym yn ddyledus am o leiaf un rhan o'r Ysgrythyr: *Diar.* xxvi; gwel hefyd *Eccles.* xlviii. 17, &c. Nis gellir dyweyd am dano yn well nag yn ngeiriau mab Sirach: "Methodd hyd yn oed brenhinoedd Iudah, canys esgeulusasant gyfraith y Goruchaf; *methodd yr oll ond Dafydd, Esecias, ac Iudas.*" Am chwaneg o oleuni ar y cyfnod hwn o hanes yr Iuddewon, ar yr hwn y taflwyd cymmaint o oleuni gan ymchwiliadau diweddar Layard, Wilkinson, Rawlinson, a Dr. Hincks, gwel *Josephus; Prideaux's Connection; Jahn's Hebr. Com.;* Winer, ac Ewald, *Gesch.*

2. Hesecīah, mab Neariah, disgynydd o deulu brenhinol Iudah: 1 *Cron.* iii. 23.

3. Ceir yr enw yn *Seph.* i. 1: un o deulu y prophwyd hwnw.

4. Ater o Hezeciah (*Ezra* ii. 16; *Neh.* vii. 21): yn ol Esdras, Ateresias. Gwel Ater.

HEZIR (חֵזִיר). 1. Offeiriad yn amser Dafydd, arweinydd yr ail gylch ar bymtheg yn ngwasanaeth y deml: 1 *Cron.* xxiv. 15.

2. Hezir, neu Hesir, un o benaethiaid y bobl, y rhai a seliasant y cyfammod gyda Nehemiah: *Neh.* x. 20.

HIDAI (הִדַּי): un o wroniaid gwarchodlu Dafydd; a ddisgrifir fel un yn dyfod "o afonydd Gaas:" 2 *Sam.* xxiii. 30. Yn y gyfrestr yn 1 *Cron.* xi. 32, yr enw ydyw Hurai.

HIDDECEL (חִדֶּקֶל; Τίγρις): un o afonydd Eden, "hono sydd yn rhedeg o du y dwyrain i Assyria" (*Gen.* ii. 14), a elwir gan Daniel (x. 4) "yr afon fawr," ac a osodir allan gan y Deg a Thrigain fel yr un a'r Tigris, ac yn gywir felly, mae'n ymddangos. Y mae *Decel* (דֶּקֶל) yn ddiammheu yn gyfystyr â *Digla* neu *Diglath*—enw sydd wedi ei arfer ar y Tigris er yr oesoedd boreuaf.

Fe dybid yn gyffredinol nad oedd *Digla* ond llygriad Syro-Arabaidd o *Tigra*, ac mai yr olaf oedd enw priodol yr afon. Dywed Strabo, Pliny, ac ysgrifenwyr ereill, fod enw yr afon wedi tarddu oddi wrth gyflymder ei rhediad, gan mai ystyr y gair Tigris (*Tigra*), yn yr ieithoedd Medo-Persiaidd, ydyw "saeth." Y mae hyn yn ymddangos yn ddigon tebygol. Ond rhaid cofio fod y ddau ffurf i'w cael yn gyfochrog ar yr adfeilion Babilonaidd, ac mai enw cyffredin yr afon ar yr adfeilion Assyriaidd ydyw *Tiggar.* Dywed Rawlinson, "Os caniateir mai yr un ydyw *Decel* a'r Tigris, gellir meddwl mai *Decel* yw yr hynaf o'r ddau enw. Gan hyny, hwyrach mai gwell ydyw tybied fod yn yr iaith Fabilonaidd foreuol wreiddair, *dic*, cyfystyr â'r Ariaidd *tig*, neu *tij*, ac mai o'r ddau wreiddyn hyn y ffurfiwyd, yn annibynol ar eu gilydd, y ddau enw, *Decel*, *Dicla*, neu *Digla* a *Tiggar*, *Tigra*, neu *Tigris*." Adwaenid yr afon wrth y naill enw yn gystal a'r llall; ond fynychaf, ar y cyfan, mewn amseroedd boreuol, o dan yr enw Ariaidd. Ond pan orchfygodd yr Arabiaid Mesopotamia, adnewyddwyd y Syro-Arabaidd *Dijleh*, a hwn yw yr enw sydd arni yn mhlith y brodorion hyd y dydd hwn. Gyda golwg ar gwrs yr afon, gwel Tigris.

HIEL (חִיאֵל): brodor o Bethel, yr hwn a ail adeiladodd Iericho yn nyddiau Ahab (1 *Bren.* xvi. 34); ac ar yr hwn y cyflawnwyd y felldith a gyhoeddwyd gan Iosuah 400 mlynedd o'r blaen: *Ios.* vi. 26. Dywed Strabo fod melldithiad dinasoedd dinystriedig yn hen arferiad, a chyfeiria at y melldithion a gyhoeddwyd gan Agamemnon a Croesus. Y mae Masius yn cymmharu amgylchiad Iericho â melldithiad Carthage gan y Rhufeiniaid.

HIERACIAID (*Hieracites*): plaid o hereticiaid yn y drydedd ganrif, a elwir felly oddi wrth eu harweinydd, Hierax, o Leontopolis—un o athronwyr yr Aipht. Gwadai Hierax adgyfodiad y meirw, cefnogai fywyd dibriod, ac egwyddorion ereill meudwyol, a dysgai mai Melchisedec oedd yr Ysbryd Glân.

HIERAPOLIS. Enwir y lle hwn unwaith yn unig yn y Beibl, sef yn *Col.* iv. 13, lle y nodir

Digitized by Google

eglwys y lle mewn cyssylltiad â'r eiddo Colossa a Laodicea. Y mae y tair tref yn sefyll yn nyffryn Maeander, yn Phrygia, ac o fewn ychydig filldiroedd i'w gilydd. Y mae yn debyg fod Hierapolis, fel Laodicea, yn un o'r manau hyny y dywed Tacitus (*Ann.* xiv. 27) iddynt gael eu dinystrio gan ddaiargryn, wedi yr amser y sylfaenwyd Cristionogaeth yn y llanerch hwn. Ei henw yn bresennol ydyw Pambouk-Kalessi. Yr hyn sydd yn hynodi y gymmydogaeth yn bresennol ydyw ei ffynnonau poethion calchog, gwaddodion y rhai ydyw y cromenau mawrion a hynod a gofnodir gan deithwyr. [Gwel *Chandler's Trav. in Asia Minor*, a *Hamilton's Res. in Asia Minor.*]



Dar. 357—Hierapolis.

Y mae safle Hierapolis yn nodedig o brydferth. Mae ynddi lawer o adfeilion; yr hynotaf o ba rai ydyw ei chwareudy, a'i gorchestfa (*gymnasium*).

HIERONYMIAID (*Hieronymites*): enw a roddid ar amryw ddosbarthiadau o fynachod Rhufeinaidd, a godasant yn y bedwaredd ganrif ar ddeg. Sefydlwyd un dosbarth gan Pecha, drwy awdurdod Gregory xi., yn 1373. Ar y cyntaf, gelwid y dosbarth hwn yn urdd St. Awstin; ond yn 1424, derbyniodd yr enw o urdd St. Jerome; ac yn 1595, unwyd hi â'r Hieronymiaid ereill. Sefydlwyd urdd o'r un enw yn Italy, yn 1377. Y mae ganddynt fynachdai yn Sicily, India Orllewinol, ac America Yspaenaidd, a gwisgant wisg wen, ynghyd âg ysgwyddor ddu.

HIGGAION (חפיון): gair sydd yn digwydd dair gwaith yn y Salmau; sef *Salm* ix. 17; xix. 15; a xcii. 4. Cyfieitha Mendelssohn ef, *myfyrdod*, *meddwl*, neu *drychfeddwl*. Y mae Knapp yn ei osod allan fel yn gyfystyr—yn *Salm* ix. 17—â dau air Arabaeg sydd yn arwyddo *gwatwor*; ac felly, cyfieitha yr ymadrodd, "Y fath floedd chwerthinus!" Ond yn *Salm* xcii. 4, cyfieitha ef, "caneuon." Y mae R. David Kimchi, yn ei esbonio fel yn cynnwys dau ystyr. Ar *Salm* ix. 17, dywed, "Y mae y cymmhorth hwn i ni yn (destyn o) fyfyrdod a diolchgarwch;" ond yn *Salm* xcii. 4, gesyd ef allan fel yn golygu "peroriaeth;"—"dyma beroriaeth yr hymn pan ddadgenir hi ar y delyn." Cyfieitha Rashi y gair yn *Salm* ix. 17, "Myfyriwn ar hyn yn dragywydd." Esboniad Aben Ezra ar y geiriau "Higgaion, Selah," ydyw, "cofnodaf hyn mewn gwirionedd." Hefyd, ar *Salm* xcii. 4; dywed, "Golyga Higgaion beroriaeth yr hymn, neu ynte y mae yn enw ar offeryn cerddorol." Yn ol Fürst, y mae y gair yn tarddu o air Hebraeg arall, ystyr yr hwn ydyw "sisial," ac y mae yn cyfeirio naill ai (1) at gryniadau (*vibrations*) tannau y delyn, neu ynte at agoriad (*interlude*), syniad a gefnogir gan y Deg a Thrigain, gan Symmachus, ac Aquilas; neu (2) golyga *fyfyrdod tawel*, yr hyn sydd yn unol â'r detnydd a wneir o'r gair yn y Talmud, ac ysgrifeniadau y Rabbiniaid. Gan hyny, ymddengys fod i Higgaion ddau ystyr; un cyffredinol megys *meddwl*, *myfyrdod*; ac un arall o natur gelfyddydol (*technical*), yn dwyn cyssylltiad â seiniau, neu arwyddion cerddorol, yr hwn oedd yn ddealladwy yn amser Dafydd, ond sydd bellach yn ammhossibl ei benderfynu i sicrwydd.

HILCIAH (הלסיה="yr Arglwydd yw fy rhan"). Y mae amryw bersonau o'r enw hwn yn cael eu nodi yn y Beibl. 1. Hilcïah, tad Eliacim: 2 *Bren*. xviii. 37; *Esa*. xxii. 20; xxxvi. 22. 2. Archoffeiriad yn nheyrnasiad Iosiah: 2 *Bren*. xxii. 4, &c.; 2 *Cron*. xxxiv. 9, &c. Yn ol 1 *Cron*. vi. 13, dywedir ei fod yn fab i Salum; ac oddi wrth *Ezra* vii. 1, gellid meddwl ei fod yn un o hynafiaid Ezra yr ysgrifenydd. Yr Hilcïah hwn a gafodd "lyfr y gyfraith" yn y deml. Tybia Kennicott, oddi wrth neillduolrwydd yr Hebraeg yn 2 *Cron*. xxxiv. 14, mai wrth "lyfr y gyfraith" y mae i ni ddeall y copi gwreiddiol o'r Pum Llyfr, fel yr ysgrifenwyd ef gan Moses.

Digitized by Google

[Gwel Pum Llyfr Moses]. 3. Lefiad o deulu Merari, a mab Amzi: 1 *Cron*. vi. 45. 4. Hilciah neu Hilciahu, Lefiad arall, o'r un teulu; ail fab Hosah, un o geidwaid drysau y deml yn nyddiau Dafydd: 1 *Cron*. xxvi. 11. 5. Un o'r rhai a safent ar ddeheulaw Ezra, pan ddarllenai y gyfraith i'r bobl: Lefiad, ac, hwyrach, offeiriad: *Neh*. viii. 4. Fe allai mai yr un ydyw hwn a'r Hilciah a ddaeth gyda Zorobabel a Iesua o'r caethiwed (*Neh*. xii. 7), a'r hwn oedd un o hynafiaid Hasabiah: xii. 21. 6. Offeiriad o Anathoth, a thad Ieremiah: *Ier*. i. 1. 7. Tad Gemariah, yr hwn oedd un o lysgenhadon Sedeciah i Babilon: *Ier*. xxix. 3.

HILEL (הלל), brodor o Pirathon, yn mynydd Ephraim, tad Abdon, un o farnwyr Israel: *Barn*. xxi. 13, 15.

HIMALAYA. Gwel Mynyddoedd.

HIN. Ystyr cyntaf y gair hwn, fel y gair Saesneg *weather*, ydyw *awyr*, neu yr *awyrgylch*; megys,

"Bwa'r *hin* heb un llinyn,
Y sydd bedwar defnydd dyn."

L. Glyn Cothi.

The bow of the *sky* without a string, is of the four elements of man.

*Cyf*. Dr. Pugh.

Ond ei ystyr gyffredin, yn bresennol, ydyw, ansawdd yr awyrgylch, gyda golwg ar wres neu oerni, lleithder neu sychder, gwynt neu wlaw.

Mewn rhai gwledydd, y mae cyfnewidiadau yn ansawdd yr awyrgylch yn cymmeryd lle yn mron yn rheolaidd; ac yn y parthau hyny, gellir prophwydo, gyda llawer o sicrwydd, pa beth fydd natur y tywydd am ddyddiau, ac hyd yn oed am fisoedd i ddyfod. Ar bob tu i fynyddoedd y Ghauts, y rhai sydd yn ymestyn ar hyd gorynys orllewinol yr India, o'r gogledd i'r de, y mae yr hin yn cyfnewid yn rheolaidd bob hanner blwyddyn:—ar hyd glanau Malabar, y mae yr awyrgylch yn glir o fis Medi hyd Ebrill canlynol; ac ar gyffiniau Coromandel, y mae yr hin deg yn parhau o Ebrill hyd fis Medi; tra, yn ystod y chwe mis canlynol, yn y ddau lanerch, y mae yn gwlawio yn mron yn ddiddarfod. Y mae hin wlawog a hin deg yn cymmeryd lle yn gysson, bob yn ail, yn nghanoldir Affrica; a dywed Humboldt ei bod yn gwlawio yn barhaus yn ystod pump neu chwe mis o bob blwyddyn, oddiwrth gyffiniau Guiana hyd fynyddoedd yr Andes. Ond yn gyffredin, mewn llanerchau ynysol, ac yn enwedig yn Ewrop a Gogledd America, y mae y gwyntoedd (y rhai ydynt o wahanol gyfeiriadau a nerth, ac heb unrhyw ddeddf sefydlog) ar adegau ammhennodol yn cymmysgu crugau mawrion o awyr llaith sydd yn codi o'r môr â'u gilydd, ac felly yn peri i gymmylau orchuddio y terfyngylch, ac i gawodydd o wlaw, eira, a chenllysg ddisgyn i'r ddaear. Y mae y gwynt sydd yn chwythu gryfaf mewn unrhyw fan neillduol, yn gyffredin, pan *ddechreua* chwythu, yn rhoddi ar ddeall pa fath hin ellir ei ddisgwyl; ond yn fynych, nid oes un amgylchiad yn dygwydd drwy ba un y gellir rhagwybod cyfnewidiad yr awyrgylch; o fod yn glir, i fod yn gymmylog, neu yn groes i hyny, hyd yn oed ychydig oriau cyn i hyny ddygwydd.

Fe appelir yn fynych at y lleuad fel rhagfynegydd o'r tywydd, a chan fod cyfnewidiadau tymmorol y lleuad yn fynych yn cyd-ddygwydd â mathau neillduol o hin, yr oedd yn dybiaeth naturiol fod cyssylltiad rhyngddynt â'u gilydd—tybiaeth sydd yn cael ei chefnogi, fe ellid meddwl, gan ddylanwad adnabyddus y lleuad ar lanw yr awyr a'r môr. [Gwel Llanw.] Y mae yn ffaith, fodd bynag, nad yw effeithiau y lleuad mewn cyfnewid y tywydd ond o ychydig barhad, a'u bod yn cymmeryd lle yn raddol, yn ol deddfau sefydlog. Y mae y lleuad, o ganlyniad, yn hollol analluog i gynnyrchu y cyfnewidiadau sydyn ac afreolaidd hyny ag y mae yr awyr yn ddarostyngedig iddynt. Yr unig ddylanwad y gellir gosod unrhyw ymddiried ynddo mewn cyssylltiad â'r lleuad ei hun ydyw ei thuedd i glirio yr awyrgylch o gymmylau, ac i gynnyrchu noson ddisglaer a thawel, pan y bydd mor agos i'r llawn ag i ymddangos i'r llygad yn grwn. Ond y mae hyn yn rhywbeth mwy nag arwydd syml. Gellir olrhain yr effaith a nodwyd, o leiaf, mor bell ag y mae a wnelo â chlirder yr awyrgylch, i achos naturiol, sef y gwres a deflir oddi wrth wyneb y lleuad. Ac yma ni bydd crynodeb o sylwadau Syr Humphrey Davy ar ragarwyddion gwlaw a thywydd teg allan o le, gan mai sylwadau ydynt sydd wedi eu sylfaenu ar egwyddorion a gydnabyddir mewn athroniaeth naturiol.

Gyda golwg ar yr achos o fod cymmylau rhuddgoch, yn y gorllewin, yn arwydd o hin deg, dywed fod yr awyr, pan yn sych, yn gwrthdroi (*refract*) mwy o'r pelydrau cochion a gwresgynnyrchiol na phan yn llaith; a chan nad yw awyr sych yn hollol glir (*transparent*), adlewyrchir y pelydrau hyny ar y terfyngylch. Chwanegir fod lliw copraidd, neu feiyn, yr haul pan yn machludo yn arwydd o wlaw; ond, fel rhagfynegydd o ddynesiad hin wlyb, nad oes dim yn fwy sicr na chylch goleu (*halo*) o amgylch y lleuad; gan mai dwfr yn troi yn gwmmwl, yn mharthau uchaf yr awyrgylch, sydd yn ei gynnyrchu; a pho mwyaf y byddo y cylch, agosaf ydyw y cymmylau, a pharotaf, o ganlyniad, i ddisgyn yn wlaw.

I egluro pa ham y mae enfys yn y boreu yn arwydd o wlaw, ac enfys yn yr hwyr o dywydd teg, dywed nas gellir gweled yr enfys ond pan y byddo y cymmylau sydd yn tywallt y gwlaw gyferbyn a'r haul; ac fel hyn, yn y boreu, y mae y bwa yn y gorllewin, ac yn yr hwyr yn y dwyrain; a chan fod gwlawogydd y wlad hon yn cael eu dwyn, yn gyffredin, gyda gwyntoedd y gorllewin, y mae bwa yn y gorllewin yn arwyddo fod y gwlaw yn dyfod tuag at yr edrychydd, tra y mae bwa neu enfys yn y dwyrain yn arwyddo fod y gwlaw yn myned oddi wrtho.

Mewn perthynas i ehediadau uchel gwenoliaid fel arwydd o dywydd teg, dywedir fod y gwybed—ar ba rai y mae yr adar hyn yn ymborthi—yn hoffi ehedeg yn haenau cynnhesaf yr awyrgylch; ond gan fod awyr cynnhes yn ysgafnach na'r hwn sydd yn llaith, y mae yn llenwi parthau uwch yn yr awyrgylch, ac felly y mae y gwenoliaid yn gorfod dilyn eu hysglyfaeth i'r parthau hyny. Ar y llaw arall, pan y bydd yr awyr cynnhes yn agos i arwyneb y ddaear, y y mae yr adar a'r gwybed felly hefyd; ac yna, fel y mae yr awyr yn disgyn i'r un lle, y mae dwfr yn cael ei dywallt i'r ddaear. Dywedir fod y dybiaeth fod adar y môr yn dyfod i'r lân, i'r dyben o ochelyd yr ystorm sydd yn dynesu yn anghywir; ac mai yr achos o'u dyfodiad ydyw, fod y pysgod ar ba rai y maent yn byw yn myned yn isel i'r dwfr yn amser ystorm, ac fod yr adar o ganlyniad yn fwy sicr o'u hymborth ar y lân nag yn y môr.

Gellir sylwi hefyd fod y cil-gwmmwl a elwir

Digitized by Google

*cirostratus* yn cael ei ddilyn bob amser, yn mron, gan ostyngiad yn nhymmeredd yr awyrgylch, a chan wynt neu wlaw. Yr unig gyfundraeth o reolau gyda golwg ar ragwybod y tywydd ag y mae profiad wedi dangos eu bod i ryw raddau i'w hymddiried, ydyw yr eiddo y Llyngesydd Fitzroy. Y mae ei lafur ef yn y llwybr hwn eisoes yn dwyn ffrwyth ymarferol yn y ffurf o rybuddion pellebrol o ddynesiad y drycin. Nis gall fod gwell prawf o hyn na'r ffaith fod yr esampl a osodwyd gan forlys Prydain Fawr mewn sefydliad pellebrau ar hyd glanau y môr, eisoes wedi ei ddilyn i raddau helaeth yn Holland a Ffrainge.

I'r dyben o egluro cyfundraeth Fitzroy, ni a roddwn grynodeb o un o'i weithiau yn y fan hyn.

1. "Er fod pawb o'r bron yn gwybod dyben ymarferol hin-wydrau (*weather-glasses*) ar y môr, yn gystal ag ar y tir, nid oes neb ond y rhai hyny sydd wedi hir wylio eu mynegiadau, ac wedi eu cymmharu hwynt yn ofalus, yn wir alluog i wybod mwy na bod codiad yr hinwydr, yn gyffredin, yn rhagfynegu llai o wynt neu wlaw, a bod ei ostyngiad yn rhagfynegu chwaneg o wlaw neu wynt, neu y ddau; a'i godiad yn uchel yn rhagfynegu tywydd teg. Ond er mor wasanaethgar ydyw y rhagfynegiadau cyffredinol hyn yn y rhan fwyaf o amgylchiadau, y maent weithiau yn gyfeiliornus.

2. Trwy dalu sylw manwl i'r sylwadau canlynol (ffrwyth profiad llawer o bersonau am lawer o flynyddoedd), gall un nad ydyw erioed wedi arfer defnyddio hin-wydr, wneyd hyny heb un anhawsder.

3. Mae yr hinwydr yn dangos pa un a ydyw yr awyr yn myned yn ysgafnach ai yn drymach, neu yn aros yn yr un sefyllfa. Mae yr arian byw yn gostwng fel y mae'r awyr yn ysgafnhau, yn codi fel y mae yn trymhau, ac yn aros yn yr un man yn y bibell wydr tra y bydd yr awyr heb un cyfnewidiad. Y mae awyr yn gwasgu ar bob peth o fewn deugain milldir i wyneb y ddaiar, fel môr ysgafn, yn ngwaelod yr hwn yr ydym yn byw—heb deimlo ei bwysau; o herwydd fod ein cyrph yn llawn o awyr, ond yr ydym yn teimlo ei ffrydiau, sef y gwyntoedd. Mae awyr yn gwasgu gyda nerth neu bwysau o agos i bymtheg pwys ar bob modfedd ysgwâr o arwyneb, tuag at unrhyw le o ba un y tynwyd yr awyr trwy sugniad. Y cyfryw wasgiad sydd yn dal llygad y myharen wrth y graig, pan y bydd y pysgodyn, trwy ymgwtogi, wedi gwneyd lle heb awyr o dan ei gragen. Wedi gwaghau pibell yr hinwydr, a'i llenwi âg arian byw pur, troir hi i lawr i lestr yn cynnwys yr un hylif, yr hwn, o dan bwysau yr awyr, a wesgir ganddo i'r fath raddau, fel ag i fantoli colofn o ddeutu deng modfedd ar ugain (mwy neu lai) yn y bibell, lle na bydd dim awyr yn gwasgu ar ben y golofn.

4. Pe gwagheid pibell hir—â dim ond un pen iddi wedi ei gau—o awyr, a'i llenwi â dwfr, gan gadw y pen agored mewn dwfr, a dal y bibell yn unionsyth, codai y dwfr ynddi fwy na deg troedfedd ar ugain. Yn y dull hwn y gwneir hinwydr dwfr.

5. Ni ddylid edrych yn gymmaint ar y geiriau ar raddegau hinwydrau am ragfynegiadau o'r tywydd ag ar godiad a gostyngiad yr arian byw; canys os saif ar y *Cyfnewidiol* (29.50), ac yna codi tua'r *Teg* (30.090), y mae yn rhagfynegu cyfnewidiad yn y gwynt, neu yn y tywydd, er nad mor fawr a phe buasai yr arian byw wedi codi yn uwch; ac yn y gwrthwyneb, os saif yr arian byw uwch law *Teg*, ac yna gostwng, y mae yn rhagfynegu cyfnewidiad, er nad i raddau mor fawr a phe buasai yn sefyll yn is. Nid oddi wrth y man y gall yr arian byw sefyll, yn unig, yr ydym i ffurfio barn am sefyllfa y tywydd, ond oddi wrth ei *godiad* neu ei *ostyngiad*, ac oddi wrth y symmudiadau a fyddont yn ddioed yn blaenori dyddiau yn gystal ag oriau, gan gadw mewn cof effeithiau cyfnewidiad *cyfeiriad*, a sychder neu leithder, yn gystal a chyfnewidiad yn nerth gwynt.

6. Dywedir fod yr hinwydr yn *gostwng* pan y bydd yr arian byw yn y bibell yn suddo, neu pan y bydd y bys yn symmud tua'r aswy. Y mae yr hinwydr yn *codi* pan y mae y golofn o arian byw yn hwyhau, neu pan y bydd y bys yn symmud tua'r llaw ddeheu.

7. Yn y rhan yma o'r byd, y mae yr arian byw yn codi neu yn gostwng yn agos i dair modfedd—sef, rhwng o ddeutu deng modfedd ar hugain, a naw rhan o ddeg (30.9), a llai nag wyth modfedd ar hugain (28.0) ar achlysuron anghyffredin; ond yr amrywiad cyffredin ydyw o tua deng modfedd ar hugain a hanner (30.5), i o ddeutu naw modfedd ar hugain. Nid ydyw y gostyngiad ond ychydig iawn gerllaw y cyhydedd, oddi eithr ar dymmestloedd, pan y bydd weithiau yn gostwng i saith modfedd ar hugain.

8. Mae y *sliding scale* (*Vernier*) yn rhanu y degau yn ddegau o ranau bob un, neu y ganfed ran o fodfedd.

9. Nid ydyw gwresfesurydd (*thermometer*) yn dangos pwysau awyr. Nid oes dim awyr oddi mewn i'r bibell. Nis gall dim fyned i mewn. Ond y mae pen crwn y bibell yn llawn o arian byw, yr hwn sydd yn cwtogi ar oerni, ac yn chwyddo ar wres—gan effaith yr hwn y tynir yr edau fettel yn y bibell fechan i lawr, neu y gwthir hi i fyny gynnifer o raddau; ac fel hyn y mae yn dangos y tymmeredd. Deuddeg gradd ar hugain ydyw y pwynt yn mha un y mae dwfr yn dechreu rhewi, neu rew ddadmer.

10. Pe rhwymid darn o lian neu *muslin* yn rhydd o gwmpas y pen crwn, wedi ei wlychu yn ddigonol i'w gadw yn llaith trwy lain neu edeu yn cyrhaedd i gwpanaid o ddwfr, dengys lai o wres nag yn sych, yn gyfattebol i sychder yr awyr, a'r cyflymdra o sychu. Mewn tywydd gwlyb iawn, gyda neu o *flaen* gwlaw, tarth, neu wlith, bydd dau wresfesurydd o'r fath yn lled debyg i'w gilydd.

11. I'r dyben o wybod sychder neu wlybaniaeth yr awyr, y ffordd rwyddaf a sicraf ydyw cymmharu dau wresfesurydd cywir: un sych, y llall newydd ei wlychu, a'i gadw felly. Wedi ei oeri gan fygdarthiad yn gymmaint ag y goddef sefyllfa yr awyr—dengys y gwresfesurydd gwlyb dymmeredd lled gyffelyb i'r llall pan y bydd yr awyrgylch yn wlyb iawn; ond yn is ar amserau ereill—mewn cyfartalrwydd i sychder yr awyr—cyn belled a deuddeg neu bymtheg o raddau yn yr hinsawdd yma; ugain, neu hyd yn oed chwaneg mewn lleoedd ereill. Peth cyffredin yn Lloegr ydyw gweled gwahaniaeth o dri i wyth gradd; ac ystyrir o ddeutu saith yn iach mewn ystafelloedd preswyliedig. Dylai y gwresfesuriaduron fod yn ymyl eu gilydd, ond nid o *fewn* tair modfedd.

12. Dengys y gwresfesurydd sydd wedi ei gyssylltu â hinwydr, wedi ei fwriadu i gael ei ddefnyddio yn unig fel hinwydr, dymmeredd yr awyr o'i gwmpas yn lled gywir—ond nid yw yn ddangosiad cywir o dymmeredd yr arian byw oddi mewn. Mae yn gwneyd hyny, modd bynag, yn ddigon cywir i bob dyben ymarferol—a chymmeryd yn ganiatäol na oddefir i'r haul, na thân, na gwres lamp, weithredu yn ammhriodol ar yr offeryn.

13. Gan fod oerni a gwres yn effeithio ar yr arian byw yn y bibell, dylid cofio hyn wrth geisio rhagddywedyd y tywydd wrth hyd y golofn, a gwneyd cymmhariaethau âg offerynau ereill.

14. Yn fyr, dengys yr hinwydr bwysau neu wasgiad yr awyr; y gwresfesurydd—oerni, a gwres, neu dymmeredd; a'r gwresfesurydd gwlyb, wrth ei gymmharu â'r un sych, y gradd o wlybaniaeth neu leithder.

15. Dylid cofio bob amser fod sefyllfa yr awyr yn rhagddywedyd tywydd dyfodol, yn hytrach nag yn dangos y tywydd presennol (ffaith bwysig a anghofir yn rhy aml)—mai po hwyaf fydd yr amser rhwng yr arwyddion a'r cyfnewidiad a ragfynegir ganddynt, hwyaf yn y byd y pery y tywydd a ragfynegir; ac yn y gwrthwyneb, po lleiaf fyddo yr amser rhwng rhybudd a chyfnewidiad, lleiaf yn y byd a bery y tywydd a ragfynegir.

Digitized by Google

16. I wybod sefyllfa yr awyr, nid yn unig dylid gwylio hinwydr a gwresradduron, ond dylid sylwi yn fanwl ar ymddangosiadau y ffurfafen.

17. Os ydyw yr hinwydr wedi bod o ddeutu ei uchder arferol, dyweder yn agos i ddeng modfedd ar hugain, wrth wastadedd y môr, ac yn sefydlog, neu yn codi—tra y bydd y gwresraddur yn gostwng, a'r lleithder yn lleihau—gellir disgwyl gwynt gogledd-orllewinol-gogleddol, neu ogledd-ddwyreiniol, neu lai o wynt, neu ynte lai o wlaw neu eira.

18. Y mae gostyngiad, gyda gwresraddur isel, yn rhagfynegi eira.

19. Y mae eithriadau i'r rheolau hyn yn digwydd pan y bydd gwynt gogleddol, gyda gwlybaniaeth (gwlaw, cenllysg, neu eira) yn nesau, o flaen y rhai y bydd yr hinwydr yn fynych yn codi (ar gyfrif cyfeiriad y gwynt dyfodol yn unig), ac yn twyllo y bobl a ddisgwyliant dywydd teg oddi wrth yr arwydd hwnw (y codiad) yn unig.

20. Pan y bydd yr hinwydr yn îs na'i uchder arferol, dyweder i lawr i agos i naw modfedd ar hugain a hanner (wrth wastadedd y môr), y mae codiad yn rhagfynegi llai o wynt, neu gyfnewidiad yn ei gyfeiriad tua'r gogledd, neu lai o leithder; ond pan y bydd wedi bod yn bur isel, o ddeutu naw modfedd ar hugain, yn gyffredin y mae y codiad cyntaf yn blaenori neu yn rhagfynegu gwynt cryf—weithiau hyrddwynt cryf — o'r gogledd-orllewin, gogledd, neu gogledd-ddwyrain, ar ol yr hyn y mae codiad graddol yr hinwydr yn rhagfynegi gwelliant yn y tywydd, os gostynga y gwresraddur. Ond, os parha y gwres, y mae yn debygol y try y gwynt yn ol yn erbyn gyrfa yr haul: canlynir ef gan wynt mwy deheuol, neu un de-orllewinol; yn enwedig os bydd codiad yr hinwydr yn ddisymmwth.

21. Y mae y cyfnewidiadau mwyaf peryglus yn y gwynt, neu y gwyntoedd gogleddol trymaf, yn digwydd yn fuan ar ol i'r hinwydr godi o bwynt pur isel; neu, os bydd y gwynt yn troi yn raddol, yn mhen peth amser ar ol hyny.

22. Rhagfynegir cyfnewidiad agoshaol yn y tywydd, a chyfeiriad a nerth y gwyntoedd, yn llai gan uchder yr hinwydr na chan ei ostyngiad neu ei godiad. Er hyny, y mae uchder o fwy na deng modfedd ar hugain (wrth wastadedd y môr) yn dynodi tywydd teg a gwyntoedd cymmedrol; oddi eithr o'r dwyrain i'r gogledd, yn achlysurol.

23. Y mae codiad cyflym yr hinwydr yn dynodi tywydd ansefydlog. Symmudiad arafaidd, yn y gwrthwyneb; megys hefyd y mae hinwydr sefydlog, yr hwn, pan yn barhaus, a chyda sychder, sydd yn rhagfynegi tywydd teg iawn.

24. Y mae gostyngiad cyflym a mawr yn arwydd o dywydd tymmestlog, a gwlaw (neu eira). Y mae codiad a gostyngiad bob yn ail yn dynodi tywydd ansefydlog a bygythiol.

25. Yr amser y bydd yr hinwydr yn gostwng mwyaf ydyw gyda gwyntoedd cryfion o'r de-ddwyrain, deheu, neu dde-orllewin; a'r amser y bydd yn codi mwyaf ydyw gyda gwynt o'r gogledd-orllewin, gogledd, neu ogledd-ddwyrain, neu gyda thawelwch.

26. Er fod yr hinwydr yn gyffredinol yn gostwng gyda gwynt y deheu, ac yn codi gyda gwynt y gogledd, mae yn dygwydd weithiau yn y gwrthwyneb; yn y rhai amgylchiadau y mae gwynt y deheu yn gyffredinol yn sych, gyda thywydd teg; neu y mae gwynt y gogledd yn gryf, ac yn cael ei ganlyn gan wlaw, eira, neu genllysg; hwyrach gyda mellt.

27. Pan y bydd yr hinwydr yn gostwng cryn lawer, gellir disgwyl llawer o wynt, gwlaw (hwyrach gyda chenllysg), neu eira, gyda neu heb fellt. Bydd y gwynt o'r gogledd, os bydd y gwresraddur yn isel (am y tymmor)—o'r deheu, os bydd y gwresraddur yn uchel. Yn achlysurol, canlynir gwydr isel gan fellt yn unig, tra y bydd tymmestl tu hwnt i'r terfyngylch.

28. Weithiau, canlynir gostyngiad disymmwth yr hinwydr gyda gwynt y gorllewin, gan ystorm o'r gogledd-orllewin, neu y gogledd, neu y gogledd-ddwyrain.

29. Os daw gwynt cryf o'r dwyrain, neu y deddwyrain, pery yr hinwydr i ostwng hyd nes y bydd y gwynt yn ymyl cyfnewidiad amlwg, pryd y gall tawelwch ddigwydd; ar ol hyn, adnewyddir y gwynt yn fuan, hwyrach yn ddisymmwth a nerthol, a dynodir troad y gwynt tua'r gogledd-orllewin, gogledd, neu ogledd-ddwyrain, gan godiad yr hinwydr gyda gostyngiad y gwresraddur.

30. Ymddengys fod o leiaf dri pheth yn effeithio ar hinwydr:—

31. Yn gyntaf, Cyfeiriad y gwynt gogledd-ddwyrain yn tueddu i'w godi fwyaf; gwynt de-orllewin i'w ostwng fwyaf, a gwynt o gyfeiriadau o'r cwmpawd rhyngddynt mewn cyfartaledd i'w hagosrwydd at y naill neu y llall o'r pwyntiau pellaf.

32. Gan hyny, gellir galw y gogledd-ddwyrain a'r de-orllewin yn *begynau y gwynt.*

33. Y mae yr amrywiaeth neu y gwahaniaeth uchder a ddangosir—dyledus i gyfnewidiad cyfeiriad yn unig—oddi wrth un o'r cyfeiriadau hyn at y llall (a chaniatau fod nerth, neu rym a lleithder, yn aros yr un fath), yn cyrhaedd y lledredau hyn i o ddeutu hanner modfedd.

34. Yn ail, Ymddengys fod y swm—a'i gymmeryd wrtho ei hun—o darth, lleithder, gwlybaniaeth, gwlaw neu eira, fydd yn y gwynt neu ffrwd o awyr (a chaniatau fod y cyfeiriad a'r nerth yn aros yn un) yn achosi cyfnewidiad, yn cyrhaedd yn yr eithaf i o ddeutu hanner modfedd.

35. Yn drydydd, Blaenorir neu rhagddywedir nerth neu rym y gwynt o unrhyw barth (a chaniatau fod y lleithder a'r cyfeiriad heb newid), gan ostyngiad neu godiad, yn lo fel y bydd y nerth yn fwy neu yn llai, yn amrywio yn yr eithaf i fwy na dwy fodfedd.

36. A chaniatau fod y tri achos yn cydweithredu—mewn amgylchiadau eithafol—amrywiai yr uchder o agos i 31 modfedd (30·90) i o ddeutu 27 modfedd (27·00), yr hyn sydd wedi digwydd, er mai anaml, ac hyd yn oed mewn lledredau trofegawl.

37. Anfynych y bydd y tri achos yn cydweithredu yn gryf, ac felly y mae amrywiaethau cyffredin tywydd yn dygwydd yn llawer anamlach na chyfnewidiadau eithafol.

38. Y mae rheol gyffredinol arall yn galw am sylw; sef, fod y gwynt yn fynych yn ymddangos yn troi, yn newid, neu yn myned o gwmpas gyda'r haul (o'r llaw aswy i'r llaw ddeheu), a phan na bydd yn gwneyd hyny, neu yn troi yn ol, gellir disgwyl chwaneg o wynt neu dywydd drwg yn lle gwelliant.

39. Ni fwriedir mewn un modd anghefnogi yr arferiad o dalu sylw i'r hyn a elwir yn gyffredin yn "ddoethineb y tywydd." Yn y gwrthwyneb, y mae pob dyn call yn sicr o gyssylltu sylw ar yr elfenau a'r rhagfynegiadau y gall efe eu cael oddi wrth offerynau; a gwel mai po mwyaf o ofal a gymmerir i gymmharu a chyssylltu y ddwy ffynnonell, mai mwyaf boddhaol y bydd eu canlyniadau.

40. Y mae hinwydr yn dechreu codi cryn lawer cyn diwedd gwynt cryf, weithiau hyd yn oed ar ei ddechreu. Er ei fod yn gostwng isaf cyn gwyntoedd uchel, y mae yn fynych yn gostwng llawer iawn o flaen gwlaw trwm. Y mae yr hinwydr yn gostwng, ond nid bob amser, ar ddynesiad mellt a tharanau. Y mae yn gyffredinol yn sefyll yn uchel o flaen ac yn ystod y rhan flaenaf o dywydd sefydlog, ac y mae yn aros yr un fath yn aml.

41. Modd bynag, y mae enghreifftiau o dywydd teg gyda gwydr isel yn dygwydd, ond y maent bob amser yn blaenori parhâd gwynt neu wla, os nad yw ddau.

42. Gall tymmestl gyda gwlaw ddygwydd ar ol tywydd gwresog a thawel iawn; hefyd, ar unrhyw amser pan y bydd yr awyrgylch wedi ei boethi uwch law tymmeredd arferol y tymmor; a phan y mae cryn lawer o derfysg trydanol yn yr awyrgylch.

43. Dylid bob amser wneyd caniatâd ar gyfer sefyllfa flaenorol y gwydrau yn ystod rhai dyddiau, yn gystal a rhai oriau, o herwydd gall achosion pellenig neu y cyfnewidiadau a fyddont ger llaw, effeithio ar eu rhagfynegiadau. Gall rhai o'r cyfnewidiadau

Digitized by Google

hyn ddygwydd mewn lleoedd pell, gan ddylanwadu ar y gororau cymmydogaethol, ond heb fod yn weledig i bob sylwedydd ag y mae ei hinwydr yn teimlo eu heffaith.]

44. Gall fod gwlawogydd trymion neu wyntoedd nerthol, tu hwnt i'r terfyngylch a golwg y sylwedydd, y rhai a effeithiant lawer ar ei offerynau, er na bydd un cyfnewidiad neillduol yn cymmeryd lle yn ei gymmydogaeth ef.

45. Gellir ail adrodd mai po hwyaf o amser yn mlaen llaw y rhagfynegir gwynt neu dywydd, hwyaf yn y byd y pery y tywydd rhagfynegedig; ac yn y gwrthwyneb, po byraf fo y rhybudd, lleiaf yn y byd y pery.

46. Weithiau, gall drycin o'r deheu, heb fod yn parhau yn hir, ddygwydd heb achosi gostyngiad mawr, o herwydd ei fod yn cael ei ddilyn am amser hir gan wynt o'r gogledd; ac weithiau gall yr hinwydr ostwng gyda gwynt y gogledd a thywydd teg, yn erbyn y rheolau hyn mewn ymddangosiad, o herwydd fod gwynt y deheu i ddilyn am amser maith. Gall un gael ei gamarwain gan y cyfryw gyfnewidiadau a'r rhai hyn.

47. A ganlyn sydd ychydig o brif arwyddion tywydd; ac, ond talu sylw manwl iddynt, gallant fod o wasanaeth mawr i'r morwr, yr amaethwr, a'r garddwr:—

48. Pa un bynag ai clir ai cymmylog fyddo—y mae y ffurfafen goch ar fachlud haul yn arwydd o dywydd teg:—y mae ffurfafen goch yn y boreu yn rhagfynegi tywydd drwg, neu lawer o wynt (hwyrach gwlaw):—os bydd y ffurfafen yn llwyd yn y boreu, ceir tywydd teg:—os bydd gwawriad y dydd yn uchel, ceir gwynt:—os bydd gwawriad y dydd yn isel, ceir tywydd teg. "Gwawrddydd uchel" ydyw, pan y bydd yr arwyddion cyntaf o doriad y dydd i'w gweled uwch ben pentwr o gymmylau, a "gwawrddydd isel" ydyw pan y bydd y dydd yn tori ar neu yn agos i'r terfyngylch, pan y bydd llinellau cyntaf y goleuni yn bur isel.

49. Y mae cymmylau o ymddangosiad meddal neu ysgafn yn rhagfynegi tywydd teg. gydag awelon cymmedrol neu ysgeifn:—cymmylau olewaidd gydag ymylau celyd, gwynt. Y mae ffurfafen dywyll, bruddlaidd, las, yn wyntog; ond y mae ffurfafen las ddisglaer yn rhagfynegi tywydd teg. Yn gyffredinol, po meddalaf yr ymddengys y cymmylau, gellir disgwyl llai o wynt (ond hwyrach fwy o wlaw); a pho caletaf, a mwyaf gwibiog a charpiog, cryfaf yn y byd fydd y gwynt agoshaol. Hefyd, y mae ffurfafen ddisglaer fel ar fachlud haul, yn rhagfynegi gwynt; ffurfafen felynlwyd, wlybaniaeth; ac fel hyn trwy ffyniant lliwiau, coch, melyn, neu lwyd, gellir rhagfynegi y tywydd dyfodol yn bur agos: a chyda chymmhorth offerynau, bron yn gywir.

50. Y mae cymmylau bychain o ymddangosiad du yn rhagfynegi gwlaw; y mae cymmylau ysgeifn cawodog yn rhedeg ar draws cymmylau trymion, yn arwydd o wynt a gwlaw; ond os eu hunain, gallant ddynodi dim ond gwynt.

51. Y mae cymmylau uchel yn croesi yr haul, y lleuad, neu y ser, mewn cyfeiriad gwahanol i gyfeiriad y cymmylau isaf, neu y gwynt a deimlir y pryd hyny oddi tanodd—yn rhagfynegi cyfnewidiad yn y gwynt.

52. Ar ol tywydd teg, clir, yr arwyddion cyntaf yn y ffurfafen o gyfnewidiad agoshaol, yn gyffredinol, ydynt sypynau o gymmylau pell, gwynion, crychog, torchog, yn cynnyddu mewn maintioli, ac yn cael eu canlyn gan darth tywyll, yn cynnyddu yn gymmylau. Y mae yr ymddangosiad hwn, yn fwy neu lai olewaidd neu ddyfrllyd, fel y bydd gwynt neu wlaw yn ffynu, yn arwydd anffaeledig.

53. Yn gyffredinol, po uchaf a phellaf yr ymddengys y cyfryw gymmylau—mwyaf graddol, ond cyffredinol—fydd cyfnewidiad y tywydd dyfodol.

54. Y mae lliwiau ysgeifn, tyner, tawel, o ffurf feddal ac ammhennodol, yn dynodi, ac yn canlyn y wydd teg: ond y mae lliwiau gwych neu anarferol, gyda chymmylau caled ac ammhennodol, yn rhagfynegi gwlaw, ac hwyrach wynt cryf.

55. Arwydda cymmylau niwliog, yn ymffurfio neu yn crogi ar leoedd uchel, wynt a gwlaw—os arosant, gan gynnyddu a disgyn. Os codant, gan ymwasgaru, gwellhâ y tywydd, neu daw yn deg.

**HIN.** Gwel MESURAU.

**HINDOSTAN.** Y mae Hindostan wedi ei hystyried er yr oesoedd boreuaf fel un o'r gwledydd mwyaf ffafriol ar y ddaear, ac fel gwlad sydd yn gyflawn o gynnyrchion rhagoraf natur a chelfyddyd. Mewn hen amseroedd, nid oedd y Groegiaid, a chenedloedd gorllewinol ereill, yn gwybod ond ychydig am y parthau pellenig hyn; ond yr oeddynt yn dadforio ei nwyddau gwerthfawrocaf—ei diamwnt, ei sidanau, a chynnyrch drudfawr ei llaw-weithfaoedd. Yr oedd yn naturiol fod gwlad oedd yn gyflawn o ddefnyddiau mor werthfawr yn cael ei hystyried yn eisteddle cyfoeth dirfawr; ac yr oedd y chwedl fwyaf dychymmygfawr o barth i'w gwynfyd a'i gogoniant yn cael ei chredu yn y fan. Yn y canoloesodd, yr oedd masnach eang yn cael ei chynnal â'r wlad hon trwy borthladdoedd yr Aipht a'r Môr Coch; ac yr oedd dygiad ei chynnyrchion gwerthfawr i Ewrop, gan farchnadwyr Venice, yn cadarnhau y syniad cyffredin y rhaid fod ei choethder yn fawr, a'i chyfoeth yn eang. Ar ol darganfyddiad y fynedfa i'r India o amgylch Penrhyn Gobaith Da, yr oedd yr un syniad yn parhau; ac ymrafaeliai llywodraethau cyffiniol o Ewrop, gyda'u byddinoedd a'u llyngesau, am feddiant o'r moroedd Asiaidd, ac am farsiandiaeth y wlad. Gwnaed buddugoliaethau pwysig gan Portugal, ac wedi hyny gan yr Ellmyn, a dygent fasnach eang yn mlaen. Yn ddiweddarach, daeth Prydain a Ffraingc i ymgystadlu am yr un wobr fawreddog, a chaniatawyd iddynt godi ystordai ar y cyffiniau i gadw eu nwyddau. Yn raddol fe drawsffurfiwyd y rhai hyn yn orsafoedd a chyflegrfeydd milwrol, yn cael eu hamddiffyn gan filwyr a chyflegrau; ac mewn amser diweddarach, yr oedd y ddau allu hyn yn gwrthwynebu eu gilydd yn holl ryfeloedd a gwleidyddiaeth yr India. Terfynodd yr ymdrechfa hon yn muddugoliaeth yr arfau Prydeinig. Collodd Ffraingc yr oruchafiaeth ar gyfandir yr India, a daeth Prydain yn fuan i feddu mawredd a dylanwad, ac y mae yn awr yn teyrnasu mewn heddwch o fynyddoedd yr Himalaya hyd Benrhyn Comorin. Y mae y chwanegiad hwn at diriogaethau Prydain Fawr yn y dwyrain wedi agor y ffordd i barthau mewnol yr India. Y mae wedi eangu ein gwybodaeth am y lle pellenig hwn; ac os ydyw ymchwiliad a phrofiad wedi cyfyngu y chwedlau rhyfeddol am ei gogoniant a'i mawredd o fewn terfynau gwirionedd a sobrwydd, yr oedd yn Hindostan=eisteddle diwydrwydd, masnach, a chelfyddyd, tra yr oedd Ewrop wedi suddo mewn anwybodaeth a barbareidd-dra; golygfa llawer ymdrech ymrafaelgar a gwaedlyd, o'r rhyfelgyrch a wnaed iddo gan y Mahometaniaid, hyd ei gorchfygiad gan fyddinoedd Prydain Fawr; a gwlad sydd yn cael ei phreswylio gan bobl o arferion neillduol, gyda chyfreithiau, sefydliadau, a chrefydd neillduol—y mae yn y wlad hon etto faes ëang a dyddorol i ymchwiliad, ac anturiaeth o bob natur.

Y peth cyntaf a ddaw dan ein sylw yn ein disgrifiad o'r wlad hon, ac o amgylchiadau cysylltiedig â hi, ydyw—

Digitized by Google

EI SEFYLLFA DDAEARYDDOL.

Nid oedd un o'r hen ddaearyddwyr yn meddu syniad clir am eangder Hindostan, neu yr India (bwriadwn ddefnyddio y ddau air hyn fel rhai cyfystyr yn yr erthygl bresennol), ac o ganlyniad, estynent ei chyffiniau, ar du y gorllewin, hyd Persia, ac yn y dwyrain, hyd China. Mewn amseroedd diweddarach, yr oedd rhyfeloedd yn gwneyd cyfnewidiad yn ei therfynau, yn fynych, a gwasanaethent yn unig i ddangos cwrs buddugoliaeth, heb fawr o sylw yn cael eu dalu i gywirdeb daiaryddol. Ond nid oes un rhan o'r ddaear lle y mae terfynau mor amlwg ac mor fawreddog wedi eu trefnu gan natur, ag yn ansawdd ddaearyddol Hindostan. Yn y gogledd, y mae yn cael ei gwahanu oddi wrth Thibet gan fur ardderchog mynyddoedd yr Himalaya; yn y gorllewin, y mae cadwyn y Suliman, parhâd o fynyddoedd y Sufeid Soh—yn ei gwahanu oddi wrth Afghanistan a Beloochistan; ar ei thu dwyreiniol, y mae breichiau o'r Himalaya, a chadwynau o fynyddoedd coediog sydd yn pasio godrau Chittagong, yn Bengal, ac yn ymestyn at Pegu, gan wahanu tiriogaethau Prydain oddi wrth diriogaeth Burmah. Y mae yr Indus a'r Ganges yn ymdywallt i'r môr ar gyffiniau gorllewinol a dwyreiniol Hindostan; ac yn y deheu y mae y wlad yn ffurfio math o driongl, ac yn ymestyn i Fôr India, o fewn o ddeutu 1000 o filldiroedd, neu wyth o raddau, i'r cyhydedd. Hyd Hindostan, oddi wrth fraich ogleddol yr Himalaya, hyd Benrhyn Comorin, ydyw o ddeutu 1900 o filldiroedd, tra y mae yn 1800 o filldiroedd o led, ac yn cynnwys 370,635 o filldiroedd ysgwâr. Gwel INDIA.

NODWEDDION ANIANYDDOL.

Y mae arwyneb Hindostan yn hynod o amrywiol, ac yn ddarostyngedig i hinsoddau o bob natur, yn gynnwysedig o bob dosbarth o bridd, ac yn rhoddi crynodeb, megys, o'r holl amrywiaeth golygfeydd y mae yn bossibl i anian eu cyfleu—o'r creigiau noeth a danneddog, a'r mynyddoedd gorchuddiedig âg eira tragwyddol, hyd yr iseldir bras a gwastad, sydd yn doreithiog o gynnyrch y trofanau. Y mae yr amrywiaeth hwn yn arwyneb Hindostan wedi achlysuro y rhaniadau canlynol:—

1. Hindostan Ogleddol, yn cynnwys yr Himalaya yn y gogledd, gyda breichiau llai dyrchafedig o'r un mynyddoedd yn ymestyn tua'r deheu i wastadeddau yr Indus a'r Ganges, ac yn cyrhaedd o Peshawur a Cashmere yn y gorllewin, hyd Bootam ac Assam yn y dwyrain.

2. Hindostan Briodol, yn ymestyn i'r deheu, hyd Afon Nerbuddah, lle y dechreua y Deccan, ac yn cynnwys taleithiau isaf Bengal, y taleithiau gogledd-orllewinol, ynghyd âg Oude, Malwa, neu India y Canolbarth, y Punjaub, Guzerat, Scinde, a Cutch.

3. Y Deccan, yn cael ei therfynu yn y gogledd gan yr Afon Nerbuddah, ac yn deheu y eu gan yr afonydd Krishna a Toombudra. Cynnwysa y rhan fwyaf o raglawiaeth Bombay, gydag Arissa, tiriogaethau y Nizam, a thiriogaeth Nagpore.

4. India, i'r deheu i Afon Krishna, yn cynnwys y tiriogaethau sydd o dan lywodraeth Madras, ynghyd â thaleithiau brodorol Cochin, Travancore, a Mysore.

Y mae y llanerch mynyddig sydd yn terfynu Hindostan yn y gogledd yn ffurfio ystrip cul, o ddeutu 150 o filldiroedd o led. Yma y mae cyfandir Asia yn cyrhaedd ei uchder mwyaf; ac y mae y wlad yn gynnwysedig o gyfres o fynyddoedd mawrion sydd yn ymesgyn yn mhell goruwch llinell yr eira gwastadol. Yr hyn sydd yn cyfansoddi y diffeithleoedd rhewedig hyn, mewn llawer o fanau, ydyw creigiau noethion a chlogyrnog, yn ymesgyn yn uchel i'r awyrgylch, ac yn aredig gan nentydd serth a dyfnion, y rhai sydd yn fynych yn terfynu mewn agenau tywyllion, coediog weithiau, ond yn aml yn gynnwysedig o greigiau llym, cannoedd o droedfeddi o uchder, ac heb fwy o le rhyngddynt nag a wisgwyd gan ffyrnigrwydd y gwlawogydd. Y mae pob peth sydd yn arddunol mewn natur wedi ei gorphori yn y lle hwn. Yn ymddyrchafu i uchder aruthrol ar bob tu, y mae brigau bythwyn mynyddoedd o bob ffurfiau:—pigyrnau llymion mynyddoedd tân; mynyddoedd y mae eu penau yn llyfnion a chrwn; neu fynyddoedd wedi eu hollti mewn modd ofnadwy yn ddibynau danneddog a serth, yn ymesgyn yn uchel i'r awyrgylch, neu yn disgyn gyda serthedd dychrynllyd i nentydd tywyllion; a'r cyfan yn orchuddiedig âg eira. O'r llanerch mynyddig hwn y mae eira tyredig gauafau lawer yn disgyn yn fynych gyda dinystr dychrynllyd i'r gwastadeddau islaw; ac yma y mae yr oerni yn dylanwadu mor angerddol ar y creigiau nes eu dymchwel yn aml oddi ar eu seddau, a'u taflu bendramwnwgl i lawr y llechwedd, gan ddryllio yn chwilfriw yr hyn a orwedd oddi tanynt. Y mae tu deheuol yr Himalaya yn llawer serthach na thu y gogledd, yr hwn sydd yn disgyn i Thibet, ac y mae o ganlyniad yn fwy peryglus ac anhawddach ei deithio. Nid oes fath yn y byd o ffordd yn y parthau mynyddig hyn. Y mae y teithiwr yn gorfod dringo yr ucheldérau mwyaf dychrynllyd ar hyd llwybr mor gul fel y mae yn ammhossibl i ddau ddyn fyned ar hyd-ddynt yn gyfochrog. Y mae y llwybrau hyn yn dirwyn i fyny y mynyddoedd, ar hyd dibynau noethion a serth, yn fynych, i fyny grisiau afreolaidd a chul, neu dros glogyrnau mawrion o farmor caboledig, ac weithiau ar hyd ysgwydd yn y graig, o gylch troedfedd o led, tra y mae dyfnder o 600 neu 700 o droedfeddi ar un tu iddo. Y mae y llwybrau hyn mor geimion, fel, yn fynych, ar ol teithio pedair ar hugain o droedfeddi, nid oes mwy na deg troedfedd wedi ei esgyn o'r mynydd, ac y mae y grisiau y cyfeiriwyd atynt mor bell oddi wrth eu gilydd, yn aml, fel y mae y perygl a'r anhawsder o'u dringo yn fawr iawn i bawb ond y mynyddwr caled a phrofiadol, yr hwn sydd wedi arfer eu dringo o'i febyd gyda'r cyflymder a'r diogelwch mwyaf. Fe'i gwelir ef, yn fynych, yn disgyn o'r mynyddoedd, o dan faich o drigain pwys, yn eithaf esmwyth a digyffro. Yn agos i Gangoutri y mae y wlad yn dyfod mor wyllt fel y mae yn ammhossibl ei theithio ond ar hyd bylchau a gwelyau yr afonydd; ac y mae yr afonydd hyn, o fod yn ffrydiau cyflym cythryblus yn ymddylifo dros welyau o graig, yn dyfod yn llifogydd nerthol a ffyrnig, yn disgyn o un telpyn anferth o graig at un arall islaw; ac wrth i'r teithiwr fyned yn mlaen y ffordd yna, y mae o'r diwedd yn dyfod at gruglwythau mor arferth, o adfeilion fel y mae yn ammhossibl iddo fyned yn mhellach. Y mae y parthau anhygyrch hyn wedi eu chwilio yn lled ddiweddar gan y teithiwr anturiaethus, Dr. Gerard, yr hwn a groesodd Fwlch yr Himalaya, ac a dreiddiodd i uchel wastadedd Tartary. Y mae y crynodeb a roddir o hanes ei daith yn yr *Asiatic Journal* yn llawn o ddyddordeb a gwybodaeth wir werthfawr

Yn mynyddoedd yr Himalaya, y mae tarddiad yr afonydd mawrion sydd yn llifo trwy wastadeddau llosgedig Hindostan. Y nentydd dyfnion

Digitized by Google

ac ingc." Nid yw yn cyrhaedd yn mhellach i'r gogledd-orllewin na Rohilcund, lle y mae y wlad yn ddiwylliedig ac iachus, ac yn ymestyn at odreuon y bryniau sydd yn ymgodi yn sydyn oddi ar y gwastadedd tywodlyd islaw. Dyfrheir y bryniau isel hyn gan ffrydiau o'r mynyddoedd uwchben y rhai a wahenir oddi wrth y bryniau gan ddyffrynoedd cynnyrchiol, sydd yn fynych yn bur hirion.

Y mae gwastadedd mawr Hindostan yn dra gwahanol i'r parthau uchod. Newidir yr oerni sydd yn teyrnasu uwchben am wres craslyd a llosgedig; ni welir y llifeiriant rhuadwy sy'n ymruthro o'r mynydd yno, oddigerth pan y bydd llifogydd, ond y mae y dyfroedd yn ymlwybro yn araf dros y gwastadedd. Gydag ychydig o eithriadau, y mae y llanerch eang sydd yn gorwedd rhwng yr Indus a'r Brahmapootra, ac yn ymestyn i'r dwyrain a'r gorllewin, o 1200 i 1400 o filldiroedd, ac o gylch 300 neu 400 o filldiroedd i'r gogledd a'r deheu, yn dir gwastad, yn cynnwys, yn benaf, wastadedd mawr y Ganges, ac yn doreithiog o goed a phlanhigion—llwyni o balmwydd, mango, a choed ereill mawrion eu dail—yn cael eu britho yma thraw â meusydd diwylliedig. Y mae ansawdd ac ymddangosiad y wlad yn y lle hwn yn cael ei benderfynu gan yr afon fawreddog sydd yn rhedeg drwy y gwastadedd, ac yn dwyn ei enw. Y mae dyfroedd yr afon hon, yn agos i'r môr, yn nhaleithiau Bahar a Bengal, yn bur eang a dwfn, ac yn dyfrhau cymmaint ar y wlad, fel yn y tymmor sychaf nad oes un lle yn chwaneg nag ugain milldir oddi wrth ryw afon neu ffrwd; a thrwy gyfrwng llynau, aberoedd, a dyfroedd ereill, gall cychod nofio hyd at ddrysau y tai. Yn ystod y gorlifiad blynyddol, y mae rhan eang o'r wlad yn cael ei gorchuddio i ddyfnder mawr; ac y mae rhan isaf y Delta, yr hwn a elwir y Sunderbunds, yn cael ei fritho â rhwydwaith o aberoedd ac afonydd, sydd yn ymestyn dros 200 o filldiroedd, tra y mae y gorlifiad gwirioneddol yn 100 milldir o led, a thai, coed, a phentrefydd yn ymgodi fel ynysoedd uwch wyneb y dwfr. Yn uwch i fyny, yn nhiriogaeth Bahar, nid yw yr afon dros filldir o led; y mae y tir yn wastad a ffrwythlawn, ond nid yw mor gyfoethog o goed a gwastadeddau breision Bengal. Tua'r gorllewin y mae y gwastadedd a ddyfrheir gan y Ganges yn dwyn cyflawnder o holl gynnyrchion y trofanau. Brithir y gwastadedd â chadwynau o fynyddoedd, gyda phigyrnau, yma a thraw, yn ymsaethu o honynt, ac yn cael eu coroni âg amddiffynfeydd; ac yn y rhai hyn, yn amser adfeiliad ymherodraeth y Mogul, yr oedd penaethiaid gwrthryfelgar a lladronllyd yn ceisio cynnal eu hannibyniaeth. Tua chyffiniau gorllewinol Delhi, ar fin y diffaethwch, y mae yr unig lanerchau diffrwyth a sych yn holl wastadedd Hindostan; yno, nid oes nemawr yn tyfu, na neb yn byw. Tua pharthau de orllewinol y gwastadedd, yn agos i'r Nerbuddah, yn nhiriogaeth Malwah, y mae y tir yn uwch, ond yn disgyn yn llyfn o fynyddoedd y Vindhya, y rhai sydd yn rhedeg ar hyd tu gogleddol yr afon. Ond fel yr ydys yn cilio oddi wrth yr afon fawreddog hon, y mae y wlad yn newid ei hymddangosiad; nid afon fawr yn ymdaenu dros y gwastadedd, ac yn gyfleus i'w mordwyo sydd mwyach, ond llifeiriant mynyddig, heb ddim dyfnder ynddo i gludo cynnyrch y wlad. Tua'r gorllewin, wrth nesu at Fôr India, y mae llanerchau gwylltion, afrywiog, a chreigiog, gorchuddiedig â phrysgwydd (*jungle*), a thrigfeydd bwystfilod gwylltion ac ysbeilwyr; ac yn mhellach yn y gorllewin, y mae tiriogaeth Cutch, yn anialwch oer a diffrwyth. Yn nghanolbarth Hindostan y mae llanerchau eang a breision wedi eu gwneyd yn wylltion drwy esgeulusdod, a thrwy ddifrodiadau rhyfel. Gorchuddir y rhai hyn â phrysgwydd, a phlanhigion criblog sydd yn amgylchu y coed, ac yn eu cyssylltu ynghyd. Yn y *jungles* hyn y mae anifeiliaid gwylltion y wlad, a heidiau o ysbeilwyr mwy gwaedlyd na hwythau, yn llechu drwy y blynyddoedd.

Pe na byddai am ei gwlawogydd tymmorawl, a gorlifiad ei hafonydd, byddai Hindostan, a gwledydd trofanol ereill, yn ddiffeithwch tywodlyd fel Affrica. Yn ngorllewinbarth Hindostan y mae un llanerch o'r natur hwn, ac yn ymestyn o ddeutu 500 o filldiroedd o'r gogledd i'r deheu, ac o gylch 300 o filldiroedd o led. Saif tiriogaethau Delhi ac Agra ar y tu dwyreiniol iddo; y Ghara i'r gogledd, llynau y Cutch i'r deheu, a'r Indus i'r gorllewin. Dywed Elphinstone fod y tywod yn cael ei gludo yn yr haf oddi ar y diffeithwch hwn yn gymmylau o flaen y gwynt, ac yn bygwth claddu y teithiwr oddi tano. Pur anfynych y gwelir un math o bentref yn y lle hwn; a'r pryd hyny nid oes ond ychydig o fwthynod gwellt crynion, gyda muriau isel, a thöau pigyrnog—yn bur debyg i deisi o ŷd—ac yn cael eu hamgylchu gan ganghenau o ddrain sychion wedi eu gosod yn y tywod. Oddi allan i'r pentrefydd annedwydd hyn y mae nifer o gaeau, yn cael eu dyfrhau gan y gwlith a'r gwlaw, ac yn dwyn ychydig ffa, pys, ffacbys, ynghyd â'r dosbarth gwaelaf a mwyaf cyffredin o rawn. Y mae dwfr yn brin iawn yno, ac nis gellir ei gael ond trwy gloddio ffynnonau o ddeutu 300 troedfedd o ddyfnder, y rhai sydd yn fynych heb fod dros latheu o led. Gwelodd Mr. Elphinstone un o'r rhai hyn yn 345 troedfedd o ddyfnder, o'r hon y tynwyd yr holl ddwfr mewn un noswaith gan ddau ych yn troi olwyn ddwfr. Yn y diffeithwch tywodlyd hwn, y mae cyflawnder o'r dwfr-felonau mwyaf suddlawn. O gyffiniau gorllewinol Ajmeer, yn Shekawulty, hyd Bahawulpoor, y mae pellder o 280 o filldiroedd, o'r hwn y mae 100 milldir o'r rhan orllewinol yn amddifad o drigolion, o ddwfr, ac o bob math o blanhigion. Yn y Punjaub a'r Indus, y mae cyflawnder o ddwfr, coed, a phorfeydd mawrion a breision, yr hyn sydd yn terfynu y diffeithwch. Yn y gogledd-orllewin, yn uchel i fyny yr Indus, y gorwedda dyffryn Cashmere—dyffryn sydd yn nodedig mewn chwedlau dwyreiniol am ei brydferthwch rhamantaidd. Yma y byddai tywysogion y dwyrain, yn nyddiau eu llawnder, yn ymneillduo i geisio anghofio eu gofalon, ac i dynu eu hapusrwydd o swyn a phrydferthwch y golygfeydd a'u cylchynent.

Y mae y wlad sydd i'r deheu i Nerbuddah, sef y Deccan, yn cyrhaedd ar draws Hindostan, ac yn ymestyn i'r gogledd-orllewin, a'r de-ddwyrain 800 o filldiroedd. Y mae cadwyn orllewinol mynyddoedd y Ghauts yn ymddyrchafu gyda serthedd mur o lanau Môr India, ac yn rhedeg ar hyd y cyffiniau, mewn cyfeiriad deheuol, oddi wrth yr afon Taptee hyd benrhyn y Comorin, ac yn ffurfio y tir uchaf, o fewn llai na deng milldir a thrigain oddi wrth y cyffiniau gorllewinol; tra, ar y tu arall i'r mynyddoedd, y mae byrdd-dir sydd yn sefyll o gylch 3000 o droedfeddi uwchlaw y môr, ac yn gogwyddo yn raddol tua'r dwyrain, am bellder o 300 i 700 o filldiroedd, ac o blegid hyn y mae yr holl afonydd mawrion megys y Godavery a'r Krishna, y Palar a'r Cavery, yn

Digitized by Google

rhedeg i lawr llethrau dwyreiniol y Ghauts. Tua deheubarth Nagpore, y mae llanerchau eang wedi eu diffeithio gan ryfeloedd ac ysbeilwyr, o'r rhai y mae amryw gofarwyddion yn y trefydd adfeiliedig, a'r meusydd sydd wedi eu gorchuddio â phrysgwydd a gwyllt-goed. Y mae tiriogaethau gorllewinol rhaglawiaeth Bombay yn ymestyn tua Môr India, ac yn cynnwys y gadwyn orllewinol o fynyddoedd y Ghauts, ac yn gorwedd 3000 o droedfeddi uwchlaw y môr. Y maent yn gyflawn o holl ddyddordeb golygfeydd mynyddig, ac yn cael eu coroni âg amddiffynfeydd lliosog a chedyrn. Y mae y llechwedd dwyreiniol yn ymestyn allan yn fyrdd-dir, a gwastadeddau ffrwythlawn; tra y mae y llanerch cul sydd yn cyfryngu rhwng y mynyddoedd a'r môr, yn arw a chlogyrnog yn ei fin, ond yn gwella fel yr ydys yn dynesu at y mynyddoedd, y rhai y mae eu godreu yn amgylchynedig â llwyni mawreddog o goed gwerthfawr.

I'r deheu i'r afon Kristna neu Krishna, y mae y wlad yn ffurfio math o driongl, gyda glanau y Malabar a'r Coromandel o ddeutu iddo, ac yn ymgyssylltu wrth Benrhyn y Comorin, oddi wrth yr hwn, hyd afon Kristna, y mae 600 o filldiroedd, tra y mae y rhan letaf o'r wlad yn 550 o filldiroedd. Y mae yn sefyll o gylch 3000 o droedfeddi uwchlaw y môr, rhwng y Ghauts dwyreiniol a gorllewinol, ac yn cynnwys y prif daleithiau yn rhaglawiaeth Madras. Y mae ei arwyneb yn amrywio—yn cynnwys coedwigoedd, diffeithdiroedd, a phrysgwydd; a dyfrheir y tir allan o gistiau mawrion sydd yn llawn o ddwfr. Y mae y mynyddoedd yn orchuddiedig â choedwigoedd mawrion, yn cynnyrchu pupyr, cassia, thus, a phethau peraroglus ereill.

Y mae hyd prif afonydd Hindostan fel y canlyn:—yr Indus, 1700 o filldiroedd; y Brahmapootra, 1900; y Ganges, 1500; y Jumna (hyd ei chyssylltiad â'r Ganges, 780), 1507; y Sultej, (hyd yr Indus, 900), 1490; y Ghylum (hyd yr Indus, 750), 1250; y Gunduck (hyd y Ganges 450), 980; y Godavery, 850; y Kristna, 700; y Nerbuddah, 700; y Mahanuddy, 550; y Taptee 460; a'r Cavery, 400. Nid oes ond ychydig o lanau cyhyd, ac mor amddifaid o borthladdoedd â glanau Hindostan. Yr unig ynys wirioneddol yn agos iddi ydyw Ceylon; ac ar y tu dwyreiniol, nid oes un porthladd o faintioli, ond Masulipatam, rhwng Trincomalee yn ynys Ceylon, ag afon y Ganges. Ar y tu gorllewinol nid oes ond Bombay, Kurachea, a Scinde, yn gymmhwys i dderbyn llongau mawrion.

### HINSAWDD HINDOSTAN.

Er fod y wlad, ar y cyfan, yn gorwedd o fewn y cylch poeth, y mae yn cynnwys agos i bob math o hinsawdd: y mae rhai parthau yn annioddefol o boeth, tra y mae ereill yn annrhigiannol gan oerni. Mewn rhai manau, megys yn y Circars, fe ddywedir fod y gwlaw yn parhau am gymmaint ag wyth mis, tra nad yw yn parhau ond am ddau fis mewn lleoedd ereill ar yr un cyffiniau. Y mae Bengal yn ddarostyngedig i gyfnewidiadau mawrion; yn awr, cyfnodau meithion o wlaw, ac yna gwres annioddefol; weithiau, awyrgylch yn pelydru gan ddysgleirdeb, ac wedi hyny niwl trymllyd a gwenwynig. O ganlyniad, y mae y wlad yn yn afiach. Y mae glanau Coromandel yn sychach a phoethach na cdyffiniau Malabar, lle y mae llawer o gulffyrdd a choedwigoedd tewion, ac o ganlyniad lawer o lanerchau afiachus. Yn gyffredin, y mae diffeithdiroedd uchel, y wlad sydd rhwng y Jumna, a'r Ganges, a'r Punjaub, er cymmaint o ffrydiau ac afonydd sydd ynddi, yn cael ei bendithio âg awyrgylch burach ac oerach; ac erbyn hyn y mae Bombay—"beddrod Ewropiaid," fel y'i gelwid gynt—yn iach mewn cymmhariaeth. Y mae hinsawdd llanerchau mynyddig yn dibynu i'r fath raddau ar y lle, ac ar gyfeiriad y gwyntoedd, fel y mae yn ammhossibl gosod rheol gyffredin o berthynas iddo. Fel hyn, mewn rhai manau yn mynyddoedd yr Himalaya, fe geir cnydau o rawn a llwyni o goed, tra y mae lleoedd ereill o'r un uchder yn orchuddiedig âg eira. Y mae Dr. Gerard yn sylwi fod pethau yn tyfu yn uwch ar y tu gogleddol nag ar y tu deheuol, lle nad oes un math o dyfiant yn cymmeryd lle uwchlaw 12,000 o droedfeddi. Ond ar y tu gogleddol, y mae yn cyrhaedd, mewn rhai manau, hyd 17,000 o droedfeddi.

### TYMMORAU YN HINDOSTAN.

Mewn dull priodol o siarad, nid oes yn India wanwyn, cynauaf, haf, na gauaf. Nid oes ond dau dymmor, sef y gwlyb a'r sych. Yn nghanolbarth, a pharthau gorllewinol y wlad, y mae y tymmor gwlyb yn parhau o Ebrill neu Mai hyd Hydref; ac y mae y gweddill o'r flwyddyn, yn gyffredin, heb gwmmwl na diferyn o wlaw. Yn ystod y tymmor hwn, y mae yr haul uwchben y gwastadedd yn llosgi i fyny bob glaswelltyn a phlanhigyn, ac y mae wyneb yr holl wlad—oddi eithr yn y fforestydd a'r prysgwydd—yn dyfod i ymddangos fel un maes eang, oddi ar yr hwn y mae yr holl wyrddlesni wedi diflanu. O dan ddylanwad y gwres, y mae y tir cleiog yn crasu ac yn ymagor yn agenau llydain, amryw droedfeddi o ddyfnder yn fynych. Yna y mae y *monsoon* yn dyfod i mewn. "Ar ol amryw ddyddiau bygythiol, y mae yr awyrgylch yn yr hwyr yn dyfod i wisgo ymddangosiad cythryblus; ac yn ystod y nos y mae y *monsoon*, yn gyffredin, yn dyfod i mewn. Ynglyn âg ef, y mae ystormydd ofnadwy o daranau a mellt—ystormydd nas gall preswylwyr y parthau cymmedrol braidd ffurfio dychymmyg am danynt. Y mae yn dechreu yn gyffredin gyda chwiffiau ffyrnig o wynt, y rhai a ddilynir gan ddylifau o wlaw. Am rai oriau, y mae y mellt yn ymwibio yn ddibaid; y rhai sydd weithiau yn goleuo yr awyrgylch, ac yn dangos y cymmylau ar ei derfyn yn unig; ond brydiau ereill, yn dadguddio y mynyddoedd draw, ac yn gadael y cyfan mewn tywyllwch drachefn; ac yna, ar amrantiad, y maent yn ail ddechreu ymsaethu yn fflachiadau dysglaer ac olynol, gan amlygu y gwrthddrychau agosaf megys gan oleuni dydd. Yn ystod yr holl amser hwn nid oes terfyn ar ruadau y taranau, ac nid oes dim yn eu gostegu i ryw raddau ond ymfolltiad rhyw daran agosach; ac wrth ddisgyn ar y glust y mae ei thwrf sydyn ofnadwy yn ddigon i beri i'r galon galetaf gael ei llenwi â dychryn. O'r diwedd, y mae y taranau yn distewi, ac nid oes dim yn glywedig ond disgyniad di-ildio cawodydd o wlaw, a rhuthriad ofnadwy afonydd y wlad. Y dydd canlynol, y mae yr olygfa yn brudd; y mae y gwlaw yn disgyn etto yn llifeiriant, a phrin y gellir cael golwg ar y meusydd duon; y mae yr afonydd yn chwyddedig a llwydion, ac yn hyrddio i'w canlyn y gwrychoedd, y bwthynod, a gweddillion y diwylliant a ddygid yn mlaen yn y tymmor sych." Yn mhen ychydig ddyddiau, y mae yr awyrgylch yn clirio, ac y mae y cyfnewidiad sydd yn cymmeryd lle ar wyneb y tir—y cyflymder gyda'r hwn yr arwisgir y meusydd â thyfiant drachefn, braidd yn wyrthiol: y mae y gwelltglas a'r planhigion

[1] *Elphinstone's Account of the Kingdom of Cabul.*

Digitized by Google

wedi eu dwyn allan mewn un noswaith yn mron, ac y mae y gwastadedd agenog a llychlyd wedi ei drawsffurfio yn ddol wyrddlas a ffrwythlawn.

CYNNYRCHION TYFIANNOL HINDOSTAN.

Y prif blanhigion bwytaol yn Hindostan ydynt reis (o'r hwn y mae saith ar hugain o fathau), gwenith, haidd, gwenith India (*maize*), milet, dhoara, a badchera, neu bajera. Ei phrif blisgrawn ydynt pys, ffa, ffacbys, *moong* neu *mudga*, a *toll* (y mae y pedwar diweddaf yn adnabyddus yn Ewrop). Y mae afalau pinwydd a melonau o'r fath fwyaf blasus yn gyffredin yn y rhan fwyaf o'r tiriogaethau; gwelir y *lotus* a'r dwfr-lili mewn cyflawnder yn nghymmydogaeth llynau ac afonydd; ac yn lle pytatws, y mae y *katchil*, gwreiddyn sydd yn ddu o'r tu allan, ac yn wyn y tu fewn; yr *arachis*, yr *hypogæa*, neu y *moogfully*, a'r *igname*, yr hwn sydd yn fynych yn amryw bwysau.

Y mae blodeu yr India yn afrifed, ac mewn llawer o amgylchiadau yn anghyffredin o brydferth. Gwaith y llysieuydd ydyw rhoddi disgrifiad manwl o'r rhai hyn; ond wrth roddi hanes cynnyrchion naturiol Hindostan, nis gallwn fyned heibio iddynt yn ddisylw. Y rhagoraf o'r blodau yn y wlad hon, fel gwledydd ereill, ydyw y rhosyn, yr hwn, heblaw fforddio cyffelybiaethau prydferth i feirdd a chariadau, sydd yn cynnyrchu yr *attar;* sudd melusach a phereiddiach nag un sylwedd arall yn y byd.[1] Gan fod gwneyd yr attar yn orchwyl o gryn bwysigrwydd, y mae maesydd eang o rosynau yn cael eu diwyllio ger Lucknow, Ghâzeepore, ac yn Cashmere, lle y mae yr awyrgylch yn y gwanwyn a'r haf yn llawn o berarogl hyfryd. Y mae y *koonja*, math rhagorol o rosyn gwyn, yn persawru dyffrynoedd Delhi a Serinagur; tra y mae Orissa yn ymorchestu yn ei *nusreen*, blodeuyn o ffurfiad tyner, ond o arogl gwir hyfryd, ac un y mae ei ddail yn wynion o'r tu allan ac yn felyn o'r tu fewn. At y rhai hyn gellir chwanegu y *siasmin* mawr blodeuog; â'r *atimukta*, a'r *champaca*, â'r hwn y mae yr Hindwaid yn addurno eu penau, ac yn perarogli eu dillad; yr *ixora*, yr hwn sydd o gylch chwe troedfedd o uchder, a'r hwn y mae ei sypiau crynion o flodau ysgarlad mor debyg i farwor tân, fel y gelwir ef "fflam y coedwigoedd;" a'r *mussænda frondosa*, yr hwn y mae ei flodau prydferth yn ymagor am bedwar yn y prydnawn, ac yn cau i fyny drachefn am bedwar yn y boreu. Gelwir y planhigyn hwn gan y Malayaid yn "ddalen y dywysoges," am fod eu boneddigesau yn hoff o berarogl ei ddail gwynion. Y mae llawer yn ei drawsblanu yn eu gerddi, ac yn ei ddefnyddio fel deial.

Ond nid ydyw cynnyrchion tyfiannol Hindostan yn hynod am eu prydferthwch a'u persawredd yn unig; y mae y wlad yn cynnwys lliaws o blanhigion sydd yn chwanegu at gysuron, ac yn cynnal ac yn adferu iechyd dynolryw. Yn mhlith y rhai hyn y penaf ydynt y cotwm, llin, carth, opiwm, indigo, tybaco, saffrwm, *betel*, *sesamum*, *jalap*, a *sarsaparilla*. Cynnyrchir *cardamom* yn mynyddoedd yr Oude, tua godrau y Ghauts, ac yn Malabar; hefyd, yn Malabar, Bengal, Bahar, a Ceylon, y mae pupyr yn tyfu; ac y mae cotwm i'w gael yn mhob ardal fynyddig yn mron, er mai o Bengal a glanau Coromandel y mae y math goreu yn dyfod. Y mae glanau y rhan fwyaf o'r afonydd a'r llynau, yn gystal a'r morfeydd a'r corsydd, yn orchuddiedig â choedwigoedd o bambŵ, math o gorsen sydd yn fynych yn drigain troedfedd o uchder. Y mae y coedwigoedd hyn yn heidio o fwngcïau, ac yn drigle y teigr, a chreaduriaid ysglyfaethus ereill. Un o'r dosbarth bythwyrdd yw y bambŵ, a chymmhwysir ef gan y trigolion i lawer o ddibenion gwasanaethgar: y maent yn ffurfio bwthynod iddynt eu hunain, o hono; ac yn ei orchuddio â chroen, i wneyd mathau o gychod, cyffelyb i'r cwrwgl a ddefnyddid gan yr hen Frythoniaid, ac a ddefnyddir etto gan rai morwyr yn Nghymru.[1] Defnyddir cylymau neu gyssylltiadau y gorsen yn llestri i gludo dwfr; ac yn China y mae yr un pren yn gwasanaethu fel pibellau i ddwyn dwfr o un rhan i'r dref i'r llall. Hefyd, fe wneir papur, matiau, colofnau i ysgwydd-gludau, &c., o'r bambŵ. Y mae y planhigyn sugr wedi ei dyfu yn Bengal er yr amseroedd boreuaf. Yn ngwastadeddau Hindostan, y mae cyflawnder o bob amrywiaeth o balmwydd, ac o'r *ficus Indica*, pren cnau Areca, a'r banana, yr oll o ba rai sydd yn chwanegu llawer at brydferthwch a chyfoeth y wlad. Yn y parthau gorllewinol, y mae afalau, gellygau, eiryn, apricotau, eurafalau, ynghyd â ffrwythau Ewropaidd ereill. Y mae agos yr oll o goed fforestydd Ewrop yn tyfu yn nghoedwigoedd Hindostan, ynghyd â *teak*, a choed ereill sydd yn perthyn yn neillduol i'r wlad hono, a gwledydd cymmydogaethol. Y mae Ceylon yn cynnyrchu eboni—pren a werthfawrogid yn fawr gan yr hynafiaid, ac a ystyrir yn bur werthfawr etto; ac yn ol yr *Ayeen Akberry*, cyf. ii. 36, y mae yr un pren yn tyfu ar lanau y Ganges. Yn y Deccan a Ceylon, ceir y pren sandal coch, *gamboge*, ystorlud (*gumlac*), y dosbarth o lawryf sydd yn cynnyrchu camphor, cassia, a *mace;* yno y mae y pren cinamon hefyd, yr hwn y tybid unwaith mai Arabia yn unig oedd yn ei gynnyrchu.

ANIFEILIAID HINDOSTAN.

Rhaid gadael i'r naturiaethwr ddarlunio ac enwi yn fanwl y tryblith lliosog o anifeiliaid sydd yn gynnulledig ar wastadeddau, ac yn nghoedwigoedd Hindostan, ac enwi yn y lle hwn y gwrthddrychau mwyaf nodedig. Yn y wlad hon y mae creaduriaid o'r fath fwyaf ffyrnig, a mwyaf dinystriol yn preswylio gyda'r lleiaf, y tyneraf, a'r mwyaf diniwed o anifeiliaid. Ceir yr elephant, y rhinoceros, y llew, y teigr, yr hyena, a'r blaidd yn cyd-drigo yr un fforestydd a'r un prysgwydd a'r camel, yr asyn, yr iwrch, y ddafad, a'r wiwer. Nid yw y ceffylau yn lliosog nac o ddosbarth da yn Hindostan; ond y mae yr elephant, y camel, a'r ddafad yn gynhenid yn y wlad, ac i'w cael yn wylltion mewn amryw fanau. Sonia naturiaethwyr am ddosbarth o ychain yn Ceylon, a chymmydogaeth Surat, sydd heb fod yn fwy na'r ci Newfoundland, ac er eu bod yn ffyrnig eu hymddangosiad, eu bod yn cael eu magu i gludo plant deuddeg oed [Pennant, *Outlines of the Globe*, i td. 101]. I'r gogledd i Bengal, yn y

[1] Dywedir fod y ddyfais o dynu sudd neu sylwedd y rhosyn wedi ei ddarganfod yn ddamweiniol gan brif sultana Jehanghir. Er mwyn boddhau yr ymherawdwr nwydog hwn, hi a orchymynodd fod i'r baddon oedd yn ngardd y palas gael ei lenwi hyd yr ymyl â dwfr rhosynau, ac yr oedd dylanwad yr haul yn cydgasglu y gronynau olewaidd oedd ar wyneb y dwfr. Gan dybio fod y dwfr wedi llygru, casglodd y gweinidogion y defnydd hwn ymaith yn ofalus, ac wrth wneyd hyny torasant y chwysigenau bychain, a chafwyd fod yr arogl fwyaf peraidd yn ymddyrchafu o honynt. Hyn a awgrymodd y possiblrwydd o efelychu cynllun natur o gasglu yr *attar* drwy foddion celyddydol.

[1] Byddai Hyder Ali yn cludo lliaws o'r rhai hyn i'w ganlyn yn ei holl ryfelgyrchoedd. Byddai rhai o honynt yn ddigon o faintioli i gynnal 28 o ddynion, neu gyflegr; ac mewn chwarter awr o amser fe ellid hwylio llynges bach o'r natur yma ar unrhyw lyn neu afon oedd ar ei ffordd.

Digitized by Google

frenhinoedd Pandya. Prif diriogaeth y Brahminiaid oedd deheubarth y Deccan; o blegid dengys traddodiadau y brodorion mai llwythau anwaraidd oedd yn preswylio y gogleddbarth yn llawer diweddarach.

Fel y dangoswyd eisoes yn ysgrifeniadau y Groegiaid a ddilynasant Alexander, yn enwedig Megasthenes, rhoddir rhyw gymmaint o hysbysrwydd am ogleddbarth Hindostan yn y drydedd a'r bedwaredd ganrif o flaen genedigaeth Crist. Ond nid oes braidd ddim yn wybyddus am hanes y wlad hon o'r pryd hwnw hyd y gorchfygiad Mahometaidd. Ar ol dymchweliad y llywodraeth Roegaidd yn Bactria, gan y Tartariaid, C. C. 126, ymddengys fod y bobl hyn (a elwir Scythiaid gan y Groegiaid, a *Sakas* gan yr Hindwaid), wedi ymdaenu dros y rhan fwyaf o diriogaethau gogledd-orllewinol Hindostan, y rhai a barhasant yn eu meddiant hyd deyrnasiaid Vicramaditya I., C. C. 56, yr hwn wedi chwanegu amryw diriogaethau at ei ymherodraeth, a yrodd y Tartariaid i'r tu hwnt i'r Indus. Preswyliai y penadur hwn yn Ayodhya a Canoj, a llywodraethai dros y rhan fwyaf o ogleddbarth Hindostan, o Cashmere hyd y Ganges. Rhoddodd lawer o getnogaeth i addysg a'r celfyddydau breiniol, ac edrychir arno hyd heddyw gan yr Hindwaid fel un o'u tywysogion mwyaf a doethaf. Lladdwyd ef mewn ymladdfa yn erbyn Salivahana, raja y Deccan. Yr ydym yn darllen am ddau benadur arall o'r un enw, sef, Vicramaditya II., B. A. 191, a Vicramaditya III., B. A. 441. Yr amgylchiad mwyaf nodedig yn y cyfnod hwn yn hanes Hindostan ydyw erledigaeth y Buddhistiaid, gan y Brahminiaid, a'u hanfoniad allan o'r wlad, o blegid gwrthwynebiad eu hathrawiaethau i grefydd canlynwyr Brahma. Yn ystod y cyfnod hwn yr oedd llawer o ynysoedd yr Ynysfor Indiaidd yn cael eu preswylio gan Brahminiaid yn gystal a Buddhistiaid; o blegid er fod y Brahminiaid yn y diwedd yn llwyddiannus, ymddengys eu bod wedi eu gorchfygu gan y Buddhistiaid mewn rhai manau o Hindostan, a'u gorfodi i ymfudo i wledydd estronol.

Dywedir fod Cristionogaeth wedi cael derbyniad yn Hindostan yn y ganrif gyntaf; wedi ei sylfaenu, medd rhai, gan yr apostol Thomas; gan Bartholomeus medd ereill. Ond nid oes fawr o ddibyniaeth i w osod ar un o'r dywediadau hyn. Ymddengys mai Nestoriaid oedd y Cristionogion cyntaf. o unrhyw nifer mawr, a ddaethant i breswylio i Hindostan. Ymsefydlodd y rhai hyn ar gyffiniau Malabar, i ddybenion masnachol, yn y bummed neu y chweched ganrif. Pan gyrhaeddodd Vasco de i Gama Cochin, ar lanau y Malabar, cafodd nifer mawr o Gristionogion yn y lle hwnw ac yn Travancore, gan y rhai yr oedd dros gant o eglwysi. Ond ymddengys mai disgynyddion y Nestoriaid oedd y rhai hyn, ac na ddychwelwyd neb o'r Hindwaid drwy gyfrwng eu gweinidogaeth hwy.

*Yr ail gyfnod*:—hanes y tiriogaethau Mahometaidd. Golyga haneswyr Arabaidd fod rhan o Hindostan wedi ei gorchfygu gan y Mahometiaid mor foreu a'r wythfed ganrif. Ond y rhyfelgyrch cyntaf o eiddo y bobl hyn y gellir siarad am dano gyda graddau o sicrwydd ydyw yr un a wnaed tua diwedd y ddegfed ganrif, gan Sabuktaghin, milwr Tartaraidd a gyhoeddasid gan y fyddin yn frenin Ghizni. Aeth heibio i'r Indus ddwy waith o leiaf, gan ddiffeithio Lahore, a dychwelyd i Ghizni yn llwythog o ysbail. Ond ni wnaeth orchfygiadau arosol. Bu farw yn B. A. 997, pryd y dilynwyd ef gan ei fab, yr enwog Sultan Mahmud, yr hwn a ystyrir yn gyffredin fel goresgynydd cyntaf Hindostan. Y mae haneswyr Mahometanaidd yn gwneyd llawer o'r deuddeg rhyfelgyrch a wnaeth yn erbyn yr Hindwaid, ac yn canmawl yn fawr ei zel grefyddol yn ninystriad delwau a themlau y trigolion. Bu farw yn 1028, a daeth Massud, ei fab, i'r orsedd ar ei ol. Er i Mahmud orchfygu y rhan ogleddol o Hindostan, o'r Indus hyd y Ganges, etto nid oedd llywodraeth reolaidd wedi ei sefydlu ond yn Lahore, a thiriogaethau y gogledd-orllewin. Yr oedd Massud a'i olynwyr yn analluog i ddwyn yn mlaen eu gorchfygiadau yn y wlad hon, o blegid cadernid y gelynion oedd ganddynt gartref. Ond yn y flwyddyn 1171, fe ddarfu i Yeasuddin, brenin Gaur, yn Khorasan, oresgyn yr holl wledydd oedd i'r gorllewin i'r Indus, a'r rhai oeddynt dan lywodraeth brenhinoedd Ghizni, a gorfododd y Sultan oedd yn llywodraethu i gymmeryd noddfa yn Lahore. Cymmerwyd Lahore yn 1184 gan Mahomet, brawd Yeasuddin, a rhoddwyd Khosrou II., yr olaf o deulu Sabaktaghin, i farwolaeth.

Ond ni dderbyniodd yr Hindwaid unrhyw fantais oddi wrth y cyfnewidiad hwn yn y llywodraeth. Yn 1191, symmudodd Mahomet yn nes i'r dwyrain, ac er i'r rajiaid Hindwaidd ei orchfygu ar y cyntaf, bu yn llwyddiannus yn y diwedd i oresgyn y rhan fwyaf o'r tiriogaethau gogleddol. Pennododd Kuttub, caethwas oedd yn ei ffafr, yn llywodraethwr y tiriogaethau yr oedd newydd eu gorchfygu; a chariodd yntau oresgyniadau Mahomet yn mlaen. Yn 1193, cymmerodd feddiant o Delhi, lle y sefydlodd eisteddle ei lywodraeth; ac o blegid hyny, fe'i gelwir yn fynych yn sylfaenydd yr ymherodraeth Fahometaidd yn Hindostan. Yn ystod bywyd Mahomet, yr hwn a ddilynodd Yeasuddin ei frawd, yr oedd tiriogaethau gogleddol Hindostan yn ffurfio rhan o ymherodraeth Ghizni; ond wedi i Mahomet gael ei lofruddio, yn 1206, daeth Kuttub yn annibynol, a gadawodd ei feddiannau i'w fab, Aram, yr hwn a'i dilynodd i'r orsedd yn 1210. Gorfu i Aram roddi y gallu o'i law i Altumsh, mab yn nghyfraith Kuttub, a thywysog galluog a phenderfynol, yr hwn a estynodd y goresgyniad yn mhellach fyth. Bu farw yn 1235. Yn ystod ei deyrnasiad ef y gorchfygodd Genghis Khan y rhan fwyaf o Asia. Ac er na threiddiodd i Hindostan, fe demtid y Moguliaid i'r fath raddau gan gyfoeth a ffrwythlondeb y wlad, fel yr oedd olynwyr Altumsh mewn ymdrech parhaus i gadw y milwyr yn ol. Yr oedd Mahmud II., yr hwn a esgynodd i'r orsedd yn 1244, a Balin, ei olynydd (1266), yn ddau dywysog galluog, a gorchfygasant y Moguliaid yn fynych; ond tywysog gwan oedd Kai-Kobad, olynydd Balin, a llofruddiwyd ef yn 1289. Gyda'i farwolaeth ef y terfynodd llywodraeth y Gauriaid, ac aeth y tiriogaethau i feddiant yr Affghaniaid.

Yn nheyrnasiad Firoz II., olynydd Kai-Kobad, ymgymmerodd y Mahometiaid â goresgyniad y Deccan. Cymmerwyd meddiant o Deoghir gan Alâ, nai Firoz; ond ni lwyr ddarostyngwyd gogleddbarth y Deccan hyd deyrnasiad y brenin dilynol. Dilynwyd Firoz II. i'r orsedd gan A â, yn 1295, brenin creulawn, ond galluog a nerthol. Gorchfygodd y Moguliaid, darostyngodd y Rajpootiaid, a thrwy gyfrwng ei gadfridog, Kafoor, chwanegodd y rhan fwyaf o'r Deccan at ei feddiannau. Ond gyda'i farwolaeth ef, yn 1316, dechreuodd llwydd a gogoniant yr ymherodraeth.

Digitized by Google

Fahometaidd yn Hindostan ddiflanu yn gyflym. Dilynwyd ef i'r orsedd gan gyfres o dywysogion gweiniaid yn ystod teyrnasiad y rhai y llwyddodd amryw o'r rajiaid Hindwaidd adennill eu hannibyniaeth; a bu rhyfelgyrch Timur (Tamerlane), yn 1398, yn foddion i ddymchwelyd goruchafiaeth sigledig tywysogion Delhi. Nid arosodd Timur yn Hindostan ond dros ychydig fisoedd; ond wedi ei ymadawiad, fe ranwyd y wlad i amryw fan daleithiau annibynol, yn cael eu llywodraethu gan benaethiaid Mahometaidd, ac yn ddarostyngedig i ymherawdwr Delhi. Yr oedd dyryswch yn hanfodi yn mbob rhan o'r llywodraeth, nes o'r diwedd i Baber, perthynas i Timur, yn nheyrnasiad Ibrahim II., wneyd rhyfelgyrch i Hindostan, a rhoddi terfyn ar frenhiniaeth yr Affghaniaid. Yn 1526, cymmerodd feddiant o Delhi, ac efe a sylfaenodd y frenhiniaeth Dartaraidd neu Fogulaidd, fel y'i gelwir yn gyffredin. Estynodd ei diriogaethau hyd lanau y Ganges; ac er ei fod yn ymgymmeryd yn barhaus âg ymdrafodaethau milwrol, cafodd amser i ddiwyllio celfyddydau heddwch, a phobpeth arall a dueddai at lwyddiant ei ymherodraeth. Yr oedd trafferthion teyrnasiad Humaiun (olynydd Baber, yn 1530), yn gymmaint fel nas gallai dalu sylw i annhrefn mewnol yr ymherodraeth; ac nid hyd esgyniad Akbar, yn 1556, y llwyddwyd i osod arglwyddiaeth y Moguliaid yn Hindostan ar sylfaen sefydlog. Ymddengys fod yr Hindwaid yn mwynhau mwy o lwyddiant a hapusrwydd yn ei deyrnasiad ef nag a wnaethent er eu darostyngiad gan y Mahometiaid. Hynodid Akbar gan gymmedroldeb a chariad at gyfiawnder; ac y mae adgofion dymunol yn y wlad yn gyssylltiedig â'i enw yn mhlith yr Hindwaid a'r Mahometiaid hyd heddyw. Bu farw Akbar yn 1605, a dilynwyd ef i'r orsedd gan Selim ei fab, yr hwn a wisgai y teitl o Jehanghir—"gorchfygydd y byd." Blinid ei deyrnasiad ef gan ryfeloedd tramor a chartrefol. Daeth yr Uzbekiaid i feddiant o Cabul; cymmerwyd Candahar gan frenin Persia; adnewyddodd y Rajpootiaid eu hymdrechion am annibyniaeth; gwrthryfelodd yr Affghaniaid yn y gogledd, a throdd Shah Jehân, mab Selim, yn erbyn ei dad. Ond yn ngwyneb cymmaint o drafferthion, gellid meddwl fod y wlad ar y cyfan yn mwynhau cryn llawer o lwyddiant yn ystod ei holl deyrnasiaid; diwyllid llenyddiaeth mewn modd helaeth; adeiladwyd llawer o ddinasoedd newyddion; a rhoddid mwy o ryddid i gefnogwyr y grefydd Hindwaidd nag hyd yn oed yn nheyrnasiad Akbar. Yn nheyrnasiad Jehangir y cyrhaeddodd Syr Thomas Roe lys brenhinol Agra, ac y derbyniodd gan yr ymherawdwr ragorfreintiau manteisiol i Gwmni yr India Ddwyreiniol. Dilynwyd Jehanghir, yn 1627, gan Shah Jahân, yn ystod llywodraeth yr hwn y darostyngwyd rhan fawr o'r Deccan oedd heb ei ddarostwng gan Kafoor, gan ei fab Aurungzebe. Fel yr ymddygasai Shah Jehân at ei dad yr ymddygodd ei feibion ato yntau. Taflwyd ef i garchar gan Aurungzebe, lle y bu farw yn 1666, yn 74 mlwydd oed. Dilynwyd ef i'r orsedd gan Aurungzebe, yr hwn oedd yr olaf o'r penaduriaid galluog a lywodraethent dros diriogaethau Mogulaidd Hindostan. Cymmerodd feddiant o ddinasoedd Hyderabad, Bejapore, a Golconda, ac estynodd ei feddiannau yn agos i derfynau y Carnatic. Yn ystod ei deyrnasiad ef daeth y Mahrattiaid gyntaf i awdurdod, ac yr estynasant eu gorchfygiadau gyda chyflymder dros y rhan fywaf o'r Deccan, pryd y sylfaenwyd yr ymherodraeth Fahrattaidd. Bu farw sylfaenydd yr ymherodraeth hon, sef Sevajee, yn 1682, a dilynwyd ef i'r orsedd gan ei fab Sambajee, yr hwn a gymmerwyd yn garcharor gan Aurungzebe, ac a ddioddefodd farwolaeth greulawn yn 1689. Ar ol marwolaeth Aurungzebe, yn 1707, adfeiliodd y llywodraeth Fogulaidd yn gyflym. Dilynwyd ef gan Shah Alum, yr hwn a fu farw, wedi teyrnasiad byr, yn 1712. Cyfododd gelynion newyddion ar bob tu. Estynodd y Mahrattiaid eu gorchfygiadau yn y deheu; adennillodd y Rajpootiaid eu hannibyniaeth; a diffeithiwyd tiriogaethau Lahore a Delhi gan y Sikhiaid (Sikhs). Y mae y Sikhiaid erbyn hyn yn ffurfio cenedl nerthol yn India, ac yn meddiannu rhan helaeth o diriogaethau gorllewinol yr hen ymherodraeth Fogulaidd. Perthyna hanes tarddiad ac amgylchiadau boreuol y bobl hyn i hanes crefydd yr Hindwaid [Gwel ar hyn yn mhellach yn mlaen]. Gwanychwyd y llywodraeth Fogulaidd yn mhellach gan derfysgoedd mewnol. Ymrafaeliai pedwar mab Shah Alum am yr orsedd, yr hon a feddiannwyd wedi ymdrech arw gan y mab hynaf Moez-eddin. Diorseddwyd ef yn mhen ychydig fisoedd gan ei nai, Farukhsir (1713), yr hwn a ddilynwyd i'r orsedd yn 1720, gan Mohammed Shah, ŵyr i Shah Alum. Yn ystod ei deyrnasiad ef collodd y Moguliaid bob meddiant gwirioneddol yn Hindostan. Daeth y Deccan mewn effaith yn annibynol ar eu hawdurdod o dan raglawiaeth Nizam-al-Math, a chymmerwyd rhan fawr o'r tiriogaethau gogleddol oddi arnynt gan y Rohilliaid (llwyth Affghanaidd), y rhai a ymsefydlasant yn y rhan hono o'r wlad a adwaenid wedi hyny wrth yr enw Rohilcund. Bu rhyfelgyrch Nadir Shah yn 1739, a lladdedigaeth trigolion Delhi gan ei fyddinoedd, yn foddion chwanegol i wanychu yr ymherodraeth Fogulaidd. Dilynwyd Mohammed i'r orsedd yn 1747, gan ei fab Ahmed Shah. Yn ystod ei deyrnasiad ef, yr hon a barhaodd chwe blynedd, gellir dyweyd fod dryliad yr ymherodraeth Fogulaidd wedi cymmeryd lle. Ymosodwyd ar y tiriogaethau gogleddol a gogledd-orllewinol, a chymmerwyd meddiant o honynt gan yr Affghaniaid a'r Sikhiaid, ac estynodd y Rajpootiaid eu terfynau hyd Ajmeer. Yn 1753, diorseddwyd Ahmed Shah gan Alamghir, ŵyr i Moez-eddin. Wedi teyrnasu am saith mlynedd, llofruddiwyd Alamghir; a disgynodd y frenhiniaeth (mewn enw), i Alum II., yr hwn a wnaed yn mhen amser yn *bensioner* gan Gwmni yr India Ddwyreiniol, y rhai a ddaethant i feddiant o awdurdod yr ymherawdwyr Mogulaidd.

*Y trydydd cyfnod:*—hanes buddugoliaethau yr Ewropiaid. Y Portugiaid oedd y rhai cyntaf o Ewrop i feddiannu unrhyw ran o Hindostan. Glaniodd Vasco de Gama, gyda thair o longau, yn Calicut, ar lanau Malabar, Mai 20fed, 1498. Daeth y Portugiaid yn fuan i feddu dylanwad ac awdurdod eang yn y wlad. Drwy feddianniad Malacca, yr hon a syrthiodd i'w dwylaw bedair blynedd ar hugain ar ol glaniad De Gama, daethant i lywio masnach yr Ynys Indiaidd; a thrwy eu sefydliadau lliosog ar hyd glanau Malabar, yn enwedig yn Goa a Diu daethant i feddu yr awdurdod ar y fasnach âg Ewrop. Yn nechreu yr ail ganrif ar bymtheg, dechreuodd y Prydeiniaid, yr Isellmyn, a'r Ffrangcod, ymsefydlu ar y cyffiniau; a chollodd y Portugiaid eu hawdurdod yn mron mor fuan ag y daethant i feddiant o hono.

Ni ddaeth yr Isellmyn i feddu nemawr o ddylanwad yn Hindostan; er eu bod un adeg yn

cario yn mlaen y rhan fwyaf o'r fasnach Indiaidd. I'r gwrthwyneb, daeth y Ffrangcod i awdurdod ar ranau eang o'r Deccan. Eu prif sefydliad oedd Pondicherry—a feddianwyd ganddynt yn niwedd yr ail ganrif ar bymtheg, ac a ddaeth yn fuan yn un o'r sefydliadau Ewropaidd mwyaf ardderchog yn y wlad. Ond gellir priodoli eu gallu hwy yn y Deccan yn benaf i lywodraeth ddoeth ac egniol Dupleix, yn 1749. O dan ei lywodraeth ef, cymmerwyd meddiant o'r Circars Gogleddol gan y Ffrangcod, a bu agos i awdurdod y Prydeiniaid gael ei ddyfetha. Dilynwyd Dupleix gan Count de Lally, yr hwn a anfonwyd o Ffraingc yn 1756, gyda llynges fawr. Ond aflwyddodd yr ymgyrch; ac yn 1761, cymmerwyd meddiant o Pondicherry gan y Saeson. Yn bresennol y mae tiriogaethau Ffraingc yn gynnwysedig o Pondicherry, yr hon a adferwyd, ac ychydig o leoedd ereill.

Am hanes llywodraeth a meddiannau Prydain Fawr yn Hindostan, gwel INDIA DDWYREINIOL, CWMNI YR.

DOSBARTHIADAU O HINDWAID.

Yr oedd brodorion Hindostan yn cael eu rhanu yn raddau neu ddosbarthiadau (*castes*) er yr amseroedd boreuaf. Gelwir y dosbarthiadau hyn yn y Sanscrit, *varna*—"lliw." Ond nis gellir penderfynu pa beth ydoedd tarddiad y dosraniad hwn. Tybia Heeren ei fod i'w briodoli i fuddugoliaethau mewn rhyfel: fod y tri llwyth blaenaf o haniad estronol, ac iddynt orchfygu brodorion Hindostan, a'u darostwng i sefyllfa israddol. Mae ereill yn olrhain hyn i hoffder at sicrhau neu fytholi disgyniad rheolaidd o swyddau a galwedigaethau neillduol o dad i fab, fel gyda dodrefn tŷ—yr hyn sydd yn dra nodweddiadol i agos bob cenedl o darddiad Indo-Germanaidd.

Nid oes un o'r ysgrifeniadau Hindwaidd yn cydnabod mwy na phedwar dosbarth pur:—y Brahmin, Kshatriya, Vaisya, a'r Sudra. Ond y mae Megasthenes, yr hwn yw awdurdod Arrian, Strabo, a Diodorus Siculus, yn nodi saith o ddosbarthiadau:—1 Athronwyr; 2 Amaethwyr; 3 bugeiliaid a helwyr; 4 Llaw-weithwyr a chrefftwyr; 5 Rhyfelwyr; 6 Arolygwyr cyhoeddus; 7 Cynghorwyr brenhinol. Ond y mae yn sier fod Megasthenes yn rhanu yn ddosbarthiadau neillduol bersonau yn perthyn i'r un dosbarth. Mae yn ffaith fod yr arolygwyr cyhoeddus a'r cynghoriaid brenhinol, yn gystal a'r athronwyr, yn perthyn i ddosbarth y Brahminiaid; yr amaethwyr, y bugeiliaid, a'r helwyr, i ddosbarth y Vaisya; a'r llaw-weithwyr a'r crefftwyr i'r Sudra. Rhydd y dyfyniad canlynol o'r *Jatimala*, gwaith Sanscritaidd ar y dosbarthiadau Hindwaidd, y traddodiad brodorol am darddiad pob dosbarth:—"Yn y greadigaeth gyntaf gan Brahma, daeth y Brahmin gyda'r Veda o enau Brahma. O'i freichiau ef y tarddodd y Kshatriya; felly Vaisya o'i lwynau; a'i Sudra o'r droed; pawb gyda'u benywod. Wrth edrych arnynt, dywedai Arglwydd y greadigaeth, "Beth fydd eich galwedigaethau?" Attebasant, "Nid ein meistriaid ein hunain ydym. O Dduw! gorchymyn i ni pa beth yr ymgymmerwn âg ef." Wedi golygu a chymmharu eu llafur, gosododd y llwyth cyntaf yn ben ar y lleill. Gan fod tuedd mawr yn y blaenaf at y gwyddorion dwyfol, felly efe oedd y Brahmin. Yr amddiffynwr rhag drwg oedd Kshatriya. Efe, yr hwn sydd yn ymwneyd â marsiandiaeth—yr hyn sydd yn hyrwyddo llwyddiant rhyfeloedd, er amddiffyniad iddo ei hun a dynolryw—ac âg amaethyddiaeth, a gwylio anifeiliaid, a alwodd efe yn Vaisya. Dylai y llall yn wirfoddol wasanaethu y tri llwyth, ac felly fe ddaeth yn Sudra. Dylai ymostwng wrth eu traed." Y mae sefyllfa pob dyn, medd Robertson, Mill, ac ereill, yn mhob dosbarth, yn anghyfnewidiol. Ni ellir symmud o'r naill ddosbarth i'r llall; y mae y gyfraith wladol yn gommedd hyn; ac heblaw hyny y mae y sefydliad o darddiad dwyfol, a byddai cynnyg eu cymmysgu yn bechod o'r fath fwyaf rhyfygus. Ac nid yn unig, chwanegant, y mae pob dosbarth yn cael eu cadw ar wahân fel hyn, ond y mae pob aelod o bob dosbarth bob amser yn dilyn galwedigaeth ei hynafiaid; ac fel hyny mae yr Indiad, mor fuan ag y daw i wybod dim yn mron, yn gwybod beth yw y sefyllfa a bennodwyd iddo, a'r alwedigaeth y mae i ymgymmeryd â hi. Yn ei flynyddoedd boreuaf, dechreuir dysgu iddo ei orchwyl, yr hwn a gyflawna gyda rhwyddineb a hyfrydwch drwy ei oes. I hyn rhaid priodoli y gradd uchel hwnw o berffeithrwydd sydd yn perthyn i lawer o gynnyrchion llaw-weithfaol Hindostan—perffeithrwydd ag y mae yr Ewropiad, gyda'i holl wybodaeth wyddonol, a'i fanteision celfyddydol, hyd yn hyn heb ei gyrhaedd. Ond addefir fod tystiolaethau yr awduron uchod yn eithafol.

Y mae llinell y gwahaniaethiad rhwng y tri dosbarth blaenaf a'r Sudra yn gref iawn. Caniateir i'r rhai cyntaf dderbyn gwybodaeth o'r Veda; ac ystyrir a gelwir hwy yn ailanedig. Arwyddnod yr adgenhedliad hwn ydyw math neillduol o reffyn neu wregys, yr hwn sydd yn gwahaniaethu yn ol fel y byddo y dosbarth, ac â'r hwn y gwisgir y Brahmin o'i wythfed hyd ei unfed flwydd ar bymtheg; y Kshatriya o'i ddeuddegfed hyd ei ailfed flwydd ar hugain; a'r Vaisya o'i ddeuddegfed hyd ei bedwaredd ar hugain [*Menu*, ii. 36-38]. I'r gwrthwyneb, gyda'r Sudra: ni chyfrifir ef yn ailanedig; a gosodid ef i farwolaeth, yn ol y gyfraith Hindwaidd, pe darllenai y Veda.

Perthyn i'r Brahmin yn unig y mae dysgu allan o'r Veda; a chanddynt hwy yn unig gynt yr oedd pob gwybodaeth. Er mai o ddosbarth y Kshatriya y dewisid brenin neu lywodraethwr y wlad, etto, gan y Brahmin yr oedd yr awdurdod mewn gwirionedd, ac efe oedd cynghoriad y brenin, a barnwr ac ynad y wlad [*Menu*, viii. 1, 9, 11]. Yr oedd eu personau a'u meddiannau yn gyssegredig rhag niwed, ac er iddynt gyflawni y troseddau mwyaf anfad, cymmaint ag a ellid wneyd iddynt oedd eu hanfon o'r wlad. Yr oedd y penadur i ymddwyn atynt gyda'r parch mwyaf; gan fod Brahmin, "pa un bynag ai gwybodus ai anwybodus, yn dduwinydd galluog;" [*Menu*, ix. 313—317]. Yr oedd melldith y Brahmin yn effeithiol i ddwyn y duwiau i drueni; a chynnwysa y *Ramayana* a'r *Mâhâbhârata* lawer enghraifft o effeithiau ofnadwy y fath felldith. Mewn gwirionedd y mae y Brahmin gymmaint uwchlaw y brenin fel yr ystyriai yr un mwyaf annheilwng ei fod yn ymlygru wrth fwyta gydag ef, a byddai marwolaeth ei hun yn fwy dymunol ganddo ef na'r darostyngiad o adael i'w ferch fyned yn briod i un brenin.

Dyledswydd briodol y Brahmin ydyw dysgu o'r Veda, aberthu i'r duwiau, a myfyrio ar bethau dwyfol. Pan yn bur ie ange, gosodir ef o dan addysg Brahmin, o'r enw *Guru*—gorchymynion yr hwn y mae i ufuddhau iddynt, a'r hwn y mae i'w ystyried a'i barchu fel tad ysbrydol. Wedi cyrhaedd addfedrwydd oedran, y mae yn dyfod yn ddyledswydd arno briodi, ac i arwain bywyd myfyrgar a chrefyddol. Fe ddylai gael ei gynnal



Digitized by Google

gan gyfraniadau y cyfoethog, ac nid bod o dan orfod i ennill ei fywoliaeth drwy lawer o lafur corphorol, neu alwedigaethau defnyddiol ereill. Ond gan nas gellid cynnal yr holl Frahminiaid gan y dosbarth gweithiol o'r boblogaeth, fe gafwyd ei bod yn angenrheidiol caniatau iddynt ymwneyd â galwedigaethau ereill; ac mewn canlyniad fe nodwyd yn nghyfreithiau Menu y gallai Brahmin analluog i'w gynnal ei hun gyda'i ddyledswyddau crefyddol "fyw drwy alwedigaeth milwr; ac os yn analluog i ymgynnal fel hyn, gallai wneyd hyny fel gŵr masnachol, a gwneyd defnydd o amaethyddiaeth a gwyliadwriaeth anifeiliaid" [*Menu*, x. 81, 82]. Mewn tymmorau celyd a phrin, yr oedd rhyddid pellach yn cael ei ganiatau. Gallai weithredu fel meddyg, neu ddilyn galwedigaethau dysgedig ereill—fel arlunydd neu gerfiwr; neu gallai weithio am gyflog, gweini mewn teulu, derbyn rhoddion, ac arian ar usuriaeth.

Y mae y Brahmin etto yn llenwi y lle uchaf mewn cymdeithas Hindwaidd, ac ymddygir tuag ato gyda pharch mawr yn mhob rhan o Hindostan. Ond mewn canlyniad i oresgyniad y wlad gan lywodraethau estronol, a mynychrwydd y sectau crefyddol sydd yn ymwrthod â'u gwasanaeth, darfu i'r awdurdod y buont unwaith yn ei mwynhau ddechreu diflanu yn fuan. Ac erbyn hyn y mae lledaeniad yr efengyl, a gwybodaeth o iaith a llenyddiaeth y Saeson, ynghyd â sefydliad ysgolion, wedi gwneyd eu dylanwad yn bur fychan, "ac y mae yn agos i ddiflanu."

Rhenir y Brahminiaid yn ddau ddosbarth: un o ba rai sydd yn preswylio yn nhiriogaethau y gogledd, a'r llall yn y parthau deheuol o'r wlad. Edrycha y Brahmin deheuol gyda dirmyg ar Frahmin y gogledd; ac ni chaniatâ iddo gymmaint a bwyta yn ei dŷ. Ond y mae Brahminiaid y gogledd mor feilchion a'r eiddo y deheu, ac yn meddu ar amryw resymau dros edrych arnynt gyda dirmyg. Y rheswm penaf ydyw, fod Brahmin y deheu yn gadael i'w wraig ymddangos yn gyhoeddus. Yn y Deccan, dosrenir y Brahminiaid i (1) y Vaidikiaid—rhai yn byw ar elusen, ac yn treulio eu bywyd mewn astudiaeth a chrefyddolder: (2) Lokikiaid—y rhai yn dilyn galwedig aethau bydol: (3) y Numbiaid—rhai yn gweini mewn temlau, ac yn gwasanaethu eilun-dduwiau.

Y mae y Guruaid, neu y cynghorwyr ysbrydol, yn meddu y sefyllfa uchaf yn mysg y Brahminiaid. Yn y Deccan, y mae llawer o'r rhai hyn yn meddu awdurdod lled gyffelyb i esgobion Eglwys Loegr. Y mae ganddynt awdurdod dros ardal neu diriogaeth neillduol, lle maent i benderfynu cwestiynau o barth i grefydd neu sefyllfa gymdeithasol. Teithiant mewn rhwysg mawreddog, a derbyniant gyfraniadau arianol mawrion gan eu dysgyblion. Dywed Buchanan [*Journey from Madras*, &c., cyf. i. td. 22], fod raja neu dywysog Tanjore yn rhoddi 250 *pagoda* (91p. 18s. 6½c), y bydd i'w Guru, bob tro yr anrhydeddir ef âg ymweliad oddi wrth y gŵr hwnw.

Dywed y Brahminiaid fod y Kshatriya, neu y dosbarth milwrol, erbyn hyn, wedi diflanu; ond yn ol pob tebyg, y mae Rajpootiaid a Nairiaid y Deccan yn perthyn i'r dosbarth hwn, er fod y Brahminiaid yn tystio mai perthyn i'r Sudra y maent. Hysbysir ni gan Buchanan [i. 253–4], fod y bobl a elwir Chitrakaru, yn iaith y Carnatic, ond sydd yn fwy adnabyddus dan yr enw Mahometanaidd, Jinigar, neu Jiligar, yn proffesu bod yn nosbarth y Kshatriya; ond edrychir ar eu honiadau fel rhai gau gan bob dosbarth arall. Dichon mai yr achos o adfeiliad y dosbarth hwn oedd eu rhyddid oddi wrth ryfeloedd, a'u tueddiadau heddychol, yr hyn a barai fod eu galwedigaeth yn afreidiol. Ond yn ol hen draddodiad, fe ddinystriwydy Ksh atriya gan Parasu Ramâ, y chweched ymgnawdoliad o Vishnw, a chyflwynwyd eu meddiannau i'r Brahminiaid.

Dyledswydd y Sudra ydyw gweini ar y dosbarthiadau uchaf, yn enwedig y Brahminiaid; ond gall ddilyn galwedigaethau celfyddydol, megys gwaith asiedydd, saer maen, arluniaeth, ac ysgrifeniadaeth; ac er fod galwedigaethau y dosbarth uchaf yn gyffredin yn cael eu gwahardd i'r dosbarth isaf, etto caniateir i ddeiliaid y Sudra ddyfod yn fasnachwyr neu yn amaethwyr. Fel y sylwyd, y mae adroddiadau Robertson, Mill, ac ereill, gyda golwg ar alwedigaethau pob dosbarth yn eithafol; o leiaf y mae eu disgrifiad yn fwy cyfattebol i sefyllfa y dosbarthiadau hyn ar y cyntaf nag ydynt yn awr. Yr ydys wedi dangos fod cyfreithiau Manu yn caniatau llawer o ryddid i'r Brahmin: y mae yr un breintiau yn perthyn i'r Kshatriya, a'r Vaisya. Sylwa Mr. Colebrooke [*Miscellaneous Essays*, ii. 187], yr hwn y mae ei gydnabyddiaeth eang â llenyddiaeth yr Hindwaid yn peri fod ei syniadau yn haeddu y parch mwyaf, "fod agos i bob galwedigaeth, er ei bod yn perthyn yn rheolaidd i un dosbarth, yn agored i'r rhan fwyaf o'r dosbarthiadau ereill," ac mai yr unig alwedigaeth gyfyngedig ydyw yr eiddo y Brahminiaid, "yr hyn a gynnwysir yn addysgiad y Ved, a chynnorthwyo mewn seremoniau crefyddol." Hyd yn oed mor foreu a chasgliad cyfreithiau Menu, yr oedd y Sudra wedi dyfod i awdurdod brenhinol; ac yn bresennol nid oes gymmaint ag un tywysog Kshatriyaidd yn bod. "Y mae prif dywysogion Hindostan oll, oddi eithr y Paishwa, Brahminiaid. o enedigaeth ddinôd." [*Rickard's India*, i. td. 29.] Ar y llaw arall, y mae y Brahmin, ar wahanol amserau, wedi gorfod ymgymmeryd âg agos i bob galwedigaeth er ei gynnaliaeth. Yn ol Ward, y maent hyd yn oed wedi ymostwng i goginio ymborth i'r dosbarth isaf. "Y mae Sudriaid cyfoethog, o bob math, yn cyflogi Brahminiaid i barotoi ymborth yn eu gwleddoedd" [*View of the Hindoos*, i. td. 95].

Y mae rhan fawr o boblogaeth Hindostan sydd heb fod yn perthyn i un o'r pedwar dosbarth a nodwyd. Y mae y bobl sydd yn gwneyd i fyny yr hyn a elwir y dosbarthiadau neu y llwythau ammhur neu gymmysgedig (Sanscrit:—*Varna-Sankara*), yn gynnwysedig naill ai o drigolion cyntefig y wlad, y rhai ni phroffesasant erioed y grefydd Hindwaidd, neu ynte bersonau a fuont unwaith yn perthyn i un o'r pedwar dosbarth pur, ac naill ai wedi colli eu dosbarth eu hunain, neu ynte wedi disgyn oddi wrth rai oedd wedi ei golli, neu ynte yn ffrwyth priodasau rhwng personau o wahanol ddosbeirth. Y troseddau sydd yn peri i un fforffetio ei aelodaeth o ddosbarth, ac o'r rhai nis gellir rhoddi maddeuant, ydynt:—"1 Cydgyfeillach anghyfreithlawn, neu briodas, rhwng perthynasau gwaharddedig. 2. Cydgyfeillach anghyfreithlawn, neu briodas, ag unrhyw ddosbarth gwaharddedig. 3. Bwyta ymborth gwaharddedig, neu yfed diodydd meddwol. 4. Lladrata. 5. Lladd unrhyw anifail o ddosbarth y fuwch, neu y dyn; ond gall Brahmin ladd ei elyn mewn rhyfel. 6. Bwyta yn nghwmni personau o ddosbarth arall, neu ymborth wedi ei ddarparu gyda dwylaw aflan. 7. Bwyta ar fwrdd llong ymborth a barotoisid yno. 8. Esgeuluso cyflawni defodau sydd yn ddyledus i rieni ymad-

Digitized by Google

awedig." Ond y mae y rhan fwyaf o'r dosbarthiadau ammhur neu gymmysgedig wedi tarddu o briodasau rhwng personau o wahanol ddosbeirth. Nid ydyw yn wirionedd, er ei fod wedi ei ddywedyd yn fynych, fod pob person o dan orfod i briodi o fewn ei ddosbarth ei hun. Hyd yn oed yn nghyfreithiau Menu [iii. 13—44], y mae Brahmin yn rhydd i ddewis gwraig o'r un a fyno o'r pedwar dosbarth: gall Kshatriya briodi Vaisya neu Sudra, os dewisa; a Vaisya un o'r Sudra, os bydd yn well ganddo nag o'i ddosbarth ei hun; ond ni chaniateir i'r Sudra briodi neb ond o'i ddosbarth ei hun. Ond er fod y priodasau hyn yn gyfreithlawn, nis gellir rhoddi derbyniad i'r plant i ddosbarthiadau eu rhieni.

Mor foreu a chasgliad cyfreithiau Menu, yr oedd nifer y dosbeirth cymmysg yn bur fawr. Gellir rhanu y rhai pwysicaf o honynt yn ddwy ran.

I. Y dosbeirth a darddasant drwy briodas gŵr o ddosbarth uwch â gwraig o ddosbarth is.

1. *Mûrdhâbhishicta*—drwy briodas Brahmin â gwraig o ddosbarth y Kshatriya. Ei alwedigaeth ef ydyw dysgu gwasanaeth milwrol.

2. *Ambastha* neu *Vaidya*—gan Frahmin o wraig o ddosbarth y Vaisya. Ei orchwyl ef ydyw meddyginiaeth.

3. *Nishâda*, neu *Pârasava*—gan Frahmin o wraig o ddosbarth y Sudra. Ei waith ef ydyw pysgota.

4. *Mâhishya*—gan Kshatriya o wraig o ddosbarth y Vaisya. Ei brofes ef ydyw cerddoriaeth, seryddiaeth, a gofalu am anifeiliaid.

5. *Ugra*—gan Kshatriya, o wraig o ddosbarth y Sudra. Ei waith ef, yn ol Menu, ydyw lladd a chaethiwo anifeiliaid sydd yn preswylio mewn tyllau; ond yn ol y *Jatimala*, moliedydd (*encomiast*), neu fardd ydyw.

6. *Carana*—gan Vaisya, o wraig o ddosbarth y Sudra. Gweini ar dywysogion, neu ysgrifenu, ydyw ei waith ef.

II. Y dosbeirth a darddasant drwy briodas gwraig o ddosbarth uwch â gŵr o ddosbarth is. Y mae y plant sydd yn ffrwyth y priodasau hyn —y rhai sydd yn anghyfreithlawn—yn cael eu hystyried yn israddol i'r dosbeirth a nodwyd yn yr adran flaenorol.

1. *Sûta*—gan Kshatriya, o wraig o ddosbarth y Brahmin. Ei alwedigaeth ef ydyw trin ceffylau, a gyru cerbydau.

2. *Vaidêha*—gan Vaisya, o wraig o ddosbarth y Brahmin. Gweini ar wragedd ydyw ei waith ef.

3. *Chândâla*—gan Sudra, o wraig o ddosbarth y Brahmin. Edrychir arno ef fel y mwyaf ammhur o'r holl ddosbarthiadau. Ei waith ydyw cludo cyrph allan, dienyddio troseddwyr, a chyflawni swyddi diraddiol ereill yn ngwasanaeth y llywodraeth.

4. *Mâgaddha*—gan Vaisya, o wraig o ddosbarth y Kshatriya. Ei orchwyl ef, yn ol Menu, ydyw, teithio gyda marsiandiaeth; ond yn ol y *Jatimala*, moliedydd neu fardd ydyw.

5. *Kshattri*, neu *Kshatta*—gan Sudra o wraig o ddosbarth y Kshatriya. Ei waith ef, medd y *Jatimala*, ydyw lladd a chaethiwo anifeiliaid sydd yn byw mewn tyllau.

6. *Ayogava*—gan Sudra, o wraig o ddosbarth y Vaisya. Saer ydyw ef.

Sylwa Colebrooke [*Miscellaneous Essays*, ii. td. 187], fod rhyddid i bob un o'r dosbeirth cymmysg ymgymmeryd â galwedigaethau ereill heblaw y rhai a nodwyd uchod, sef yr alwedigaeth neillduol fyddo yn perthyn i'r dosbarth o ba un y tarddasant o ochr eu mam. O leiaf y mae y rhai hyny a enir yn nhrefn naturiol y dosbeirth yn meddu y fraint hon, megys y *Mûrdhâbhishicta*, yr *Ambasthra*, ac ereill. Hefyd, caniateir i'r dosbeirth cymmysg ymarfer â galwedigaethau y Sudra, megys gweini mewn teuluoedd, dilyn crefft, masnach, ac amaethyddiaeth.

Y mae llawer o ddosbarthiadau ereill wedi eu ffurfio oddi ar briodasau rhwng gwahanol ddeiliaid y deuddeg dosbarth cymmysg a nodwyd. Y mae y *Jatimala* yn nodi 42 o'r cyfryw. Un o'r rhai mwyaf adnabyddus ydyw y *Pariah*. Y mae nifer y bobl hyn yn fawr iawn—yn cynnwys, medd yr Abbe Dubois, y bummed ran o boblogaeth Hindostan; ond tybir fod yr adroddiad hwn yn bur eithafol. Edrychir ar y Pariah gan y dosbeirth uwchraddol gyda'r dirmyg mwyaf sydd yn bossibl, yn enwedig yn rhanau deheuol y wlad; nid yw yn gymmaint yn y gogledd. "Yn y rhan hono o Mysore, lle yr wyf yn ysgrifenu y tu dalenau hyn, y mae y dosbeirth uwchraddol yn goddef dynesiad y Pariah; o blegid y maent yn caniatau iddo fyned i mewn i'r rhan hwnw o'r tŷ sydd yn noddi y gwartheg; ac mewn rhai amgylchiadau, fe ganiateir iddynt *ddangos eu penau ac un troed yn nhŷ eu meistr* . . . . Fel rheol, y mae y Brahmin yn ystyried fod awyr cymmydogaeth gyfan yn cael ei lygru gan ddynesiad Pariah; ac o blegid hyn y gwaherddir iddo gerdded yr heol lle y preswylia y Brahminiaid; ac os troseddant, y mae gan y bodau hyny hawl, nid i'w curo eu hunain, o blegid byddai yn ffiaidd ganddynt gyffwrdd â hwynt â phawl hir; ond gallent roddi curfa dda iddynt drwy ddwylaw rhai ereill, neu hyd yn oed roddi terfyn ar eu heinioes, yr hyn a ddigwyddodd lawer o weithiau drwy orchymyn y tywysogion brodorol, heb un gwrthwynebiad nac ymchwiliad i'r achos. Efe, yr hwn a gyffyrddwyd gan Bariah sydd lygredig, ac nis gall ymlanhau oddi wrth yr ystaen, nac ymwneyd â'i gydradd mwy, heb fyned drwy lawer o seremoniau, mwy neu lai anhawdd, yn ol urddas y person ac arferiad y dosbarth i ba un y perthyna" [*Description of the Manners, &c., of the People of India*, td. 454]. Y mae y rhan fwyaf o'r bobl hyn yn gwerthu eu hunain, eu gwragedd, a'u plant, i amaethwyr; y rhai sydd yn eu gorfodi i gyflawni gorchwylion caletaf amaethyddiaeth, ac yn eu trin gyda'r llymder mwyaf. Hwy hefyd sydd yn ysgubo yr heolydd, ac yn clirio y budreddi sydd yn ymgasglu yn y tai. Mae rhai o honynt sydd heb fod yn byw fel hyn, ac yn cael eu cyflogi i gymmeryd gofal ceffylau boneddigion, neu y fyddin, elephantiaid hefyd, ac ychain. Mae ereill sydd yn gweithredu fel negeswyr. Mewn ychydig fanau, caniateir iddynt amaethu tiroedd er eu help eu hunain, ac mewn lleoedd ereill gallant ddilyn galwedigaeth y gwehydd [*Dubois*, td. 458].

Y mae llwythau neu ddosbeirth ereill, y rhai a ystyrir yn fwy darostyngedig nag hyd yn oed y Pariah, megys y *Palli* a'r *Puli*, yn neheubarth y Deccan. Edrychir ar y rhai hyn fel yn îs nag anifeiliaid y maes, ac ni chaniateir iddynt gymmaint ag adeiladu tai iddynt eu hunain. Mewn *shed* a wneir ganddynt ar bedwar pawl bambw, a'r hon sydd yn agored ar bob tu, yr ymgysgodant rhag y tywydd garw. Ni feiddiant gerdded y ffordd, rhag i'w traed ei halogi; a phan welant rywun yn dynesu, gorchymynir iddynt waeddi, neu ysgrechian fel bwystfil gwyllt, a myned o gwmpas fel y gallo y llall fyned heibio [*Buchanan's*

Digitized by Google

yn amlwg gan y doethawr." [*Colebrooke on the Vedas; Asiat. Researches*, cyf. viii. td. 395, &c. Cymmh. *Menu*, xii. 123]. Y mae yn amlwg oddi wrth hyn, medd Mr. Colebrooke, ac oddi wrth amryw nodiadau yn yr ysgrythyrau Hindwaidd, nad oedd crefydd hynafol yr Hindwaid yn cydnabod ond un Duw, na chwaith yn hollol alluog i wahanu rhwng y Creawdwr a'r creadur.

Yn mhlith gweddïau a hymnau yr Yajur Ved., y mae amryw ymadroddion arddunol, ond tywyll ac afreolaidd, yn y rhai y mae awydd dwfn am ddangos unoliaeth Duw i'w weled yn amlwg, yn nghanol tryblith o ddrychfeddyliau sydd yn tueddu at Olldduwiaeth :—

"Tân ydyw yr achos gwreiddiol hwnw; yr haul ydyw *hwnw;* felly yr awyr; felly y lleuad; felly hefyd y Brahm [1] pur hwnw, a'r dyfroedd hyny, a'r arglwydd hwnw ar y creaduriaid. Eiliadau, a mesuriadau ereill ar amser:—o'r person dysglaer hwnw y tarddasant; yr hwn nis gall neb ei amgyffred fel gwrthddrych i edrych arno, i fyny, o amgylch, neu yn y canol. O hono ef, gogoniant yr hwn sydd mor fawr, nid oes un ddelw: efe ydyw yr hwn sydd yn nodedig mewn amryw nodweddion sanctaidd. Efe yn unig yw y duw, yr hwn sydd yn llenwi pob llanerch; efe yw y cyntafanedig; efe yw yr hwn sydd yn y groth; efe yw yr hwn a enir; ac efe yw yr hwn a gynnyrchir: efe, yn amrywiol ac yn gyffredinol, sydd yn aros gyda phob dyn. Efe—o flaen yr hwn ni anwyd dim erioed, ac o'r hwn y daeth pob peth, ei hunan yn arglwydd y creaduriaid, gyda chorph yn gyfansoddedig o un aelod ar bymtheg—efe a gynnyrchodd y tri goleuad, yr haul, y lleuad, a'r tân. I ba Dduw yr offrymem aberthau, ond i'r hwn a wnaeth yr awyr hylifol a'r ddaear sylweddol; yr hwn a sicrhaodd y cylch heulog a'r breswylfa nefolaidd; a'r hwn a ffurfiodd ddefnynau o wlaw yn yr awyrgylch? I ba Dduw yr offrymem aberthau, ond i'r hwn y mae nefoedd a daear yn myfyrio arno, tra y nerthir ac yr addurnir hwy drwy offrymau, ac y pelydrir arnynt gan yr haul sydd yn cyfodi uwch eu penau? Y mae y gŵr doeth yn sylwi ar y bod rhyfeddol hwn, yn yr hwn y preswylia y bydyssawd yn barhaus, gan orphwys ar yr unig gynnaliaeth hyny. Ynddo ef, dyhysbyddir y byd hwn; o hono ef y deillia; mewn creaduriaid y mae yn ymnyddu ac yn ymwenu gydag amryw ffurfiau o fodolaeth. Bydded i'r dyn doeth sydd yn gydnabyddus âg ystyr dadguddiad foli gyda pharodrwydd y Bod anfarwol hwn; y rhyfeddol ei hanfod, a'r amrywiol ei breswylfa: efe, yr hwn a ŵyr ei thair sefyllfa (ei chreadigaeth, ei pharhâd, a'i dinystriad) —yr hyn sydd yn amgylchedig â thywyllwch—ydyw tad y tad. Y Brahm hwnw, yn yr hwn yr anfarwolir y duwiau, tra y preswyliant yn y drydedd neu y breswylfa nefol, ydyw ein tad parchedig, a'r rhagluniaeth sydd yn llywodraethu yr holl fydoedd."—*Asiatic Researches*, cyf. viii. 431, 433.

Mewn rhan arall o'r Ved, arddangosir yr enaid goruchel a chyffredinol fel yn canu hymn, er ei ogoniant ei hun :—

"Yr wyf yn gydstad â'r Rudra, y Vasu., yr Aditya, a'r Viswadev. Yr wyf yn cynnal yr haul a'r môr, yr awyrgylch a'r tân, yn gystal a'r ddau Aswin. Cynnaliwyf y lleuad, dinystrydd gelynion; a'r haul, yr hwn a elwir Twashtri, Pushan, neu Bhaga. Yr wyf yn cyfranu cyfoeth i'r addunedydd gonest sydd yn cyflwyno aberthau, yn offrymu anrhegion, ac yn boddloni y duwiau. Myfi, yr hwn wyf frenhines, yn pentyru cyfoeth, yn meddiannu gwybodaeth, ac yn mlaenaf o'r rhai sydd yn teilyngu addoliad, rhoddwr y duwiau, yn bresennol yn mhob man, ac yn treiddio i bob peth. Pwy bynag sydd yn bwyta drwof fi, fel yr hwn sydd yn gweled, yn anadlu, neu yn clywed, drwof fi, ac etto heb fy adnabod, sydd golledig. Gwrandawer ynte y grefydd yr wyf fi yn ei chyhoeddi. Myfi, ïe myfi, sydd yn cyhoeddi fy hun, yr hwn a addolir gan dduwiau a dynion. Cryfhâf yr hwn a ddewiswyf; gwnaf ef yn Brahma sanctaidd a da. I Rudra yr ydwyf yn plygu y bwa i ddifetha y cythraul, gelyn Brahma; dros y bobl gwnaf ryfel â'u gelynion; a llanwyf nefoedd a daear. Myfi a ddygais y tad ar ben y meddwl cyffredinol hwn; a'm dechreuad sydd yn eigion y môr; ac felly yr wyf yn treiddio pob peth, ac yn cyffwrdd â'r nefoedd â'm ffurf. Gan ddechreu pob peth, âf heibio fel awel; yr wyf goruwch y nefoedd hon, goruwch y ddaear hon; a pha beth bynag yw yr un mawr ydwyf fi."—*Asiatic Researches*, cyf. viii. tudal. 403.

Y mae yr athrawiaeth hon—athrawiaeth sydd wedi cyfarfod â digon o gefnogwyr yn Ewrop—yn cael ei chrynhoi gyda chywirdeb nodedig gan Pope, yn ei *Essay on Man*, i ychydig lineilau :—

"Rhanau yw'r cyfan o gyfanwaith byw;
Y corph yw Natur, ond yr enaid, Duw;
Drwy'r oll amrywia, tra yr un o hyd;
Mawr yn y ddaear, ac amgylchau'r byd;
Gwresoga'r haul, bywioga'r awel rydd,
Goleua'r sêr, blagura yn y gwydd;
Bywyd pob bywyd, traidd trwy'r gwagle i gyd;
Ymlêd heb ranu, gweithia heb dreulio o hyd;
Anadl ein henaid, cyfarwyddwr dynion,
Mor llawn, mor berffaith, yn y gwallt a'r galon;
Mor llawn, mor berffaith, yn ngwael adyn llawr,
Ag yn angerddol seraph nefoedd fawr;
Heb iddo uwch, nac îs, na llai, na mwy
Tra'r unfaint, llanwai, cylchai, cydiai hwy."

Mae yr athrawiaeth a gynnwysir yn y llinellau uchod yn ddarlun mor darawiadol o'r hyn y mae yr Hindw yn ei feddwl ac yn ei gredu ar y pwngc hwn, fel, pan ddarllenwyd hwy ar lanau y Ganges i Gopala, Brahmin dysgedig, y neidiodd oddi ar ei eisteddle, a gofynodd am gopi o honynt, a thystiodd fod yn rhaid mai Hindw oedd yr awdwr.—*Ward's View of the History*, &c., *of the Hindoos*, cyf. i; Rhagar. i. td. lvii.

Fel hyn, gwelwn fod sylwedd, a phob peth arall yn y greadigaeth weledig hon, yn ol crefydd hynafol yr Hindwaid, yn deilliaw o'r Duwdod, yr hwn yw enaid pob peth. Y duwiau yn gystal a'r bydyssawd, yr elfenau a phob bod crëedig—y mae y cyfan yn tarddu o'r Un Mawr, yn yr hwn, wedi chwareu ac ymsymmud am ychydig, fel cysgodau ar chwareufwrdd y byd darfodedig hwn, y dyhysbyddir ac y collir hwy etto i gyd. Ond os nad ydyw cynnwys y greadigaeth yn ddim amgen na ffrydiau yn tarddu o ffynnonell y Duwdod—na dadblygiad gweledig o'r hanfod anweledig—na ffurf, mewn gwirionedd, ar y Duwdod ei hun, yn mha le y mae y pechod o wneyd y dwfr, y tân, yr awyr, a'r ddaear yn wrthddrychau addoliad?

I ba le bynag y symmudwn, a pha beth bynag a welwn, yno y mae Duw! Y cyfryw ydoedd y syniadau oedd yn tarddu yn naturiol o gredo gwreiddiol yr Hindw :—credo, pa mor arddunol bynag, a pha mor sanctaidd bynag oedd o ran ei amcan, oedd etto heb fod yn ddim gwahanol o ran ei natur i Olldduwiaeth diweddar, ac arweiniodd i addoliad yr elfenau. Yr oedd y chwanegiad hwn at y gyfundrefn gyntefig wedi cymmeryd lle pan gyfansoddwyd y Ved. (yr hwn, medd

[1] Nid yr un ydyw *Brahm* neu *Brahme*—yr un Duw anfeidrol ac anamgyffredadwy—a *Brahma*, un o bersonau y *Trimurti*. Y mae yn dyb gyffredin, a gwneir ef yn osodiad pendant gan Warde, nad adeiladwyd yr un deml yn India i'r gwir Dduw. Modd bynag, fe'n hysbysir gan Colonel Tod, fod yn Cheetore, etto, adeilad fawr a chostfawr, a gyssegrid i *Brahm*, y Creawdwr—nid *Brahma*. Am mai perthyn i'r Un yr ydoedd, ac nad oedd ynddo ddim delwau, y diangodd, y mae yn bossibl, rhag cynddaredd yr ymosodwyr estronol [*Annals of Rajast'hah*, cyf. i. tudal. 275]. Tybia yr un awdwr fod dwyfyddiaeth bur yn bodoli unwaith yn India [tudal. 535].

Digitized by Google

llawer o ysgrifenwyr dysgedig, sydd agos mor hen a Phum Llyfr Moses [*Colebrooke's Asiat. Res.* cyf. viii. tudal. 489, &c.]: o blegid y mae y llyfrau hyn yn orlawn o hymnau i'r dwfr, i'r tân, &c.

Gwnaed y greadigaeth o ddwfr, medd yr Hindw: a chyfrifa yr elfen hon y sancteiddiaf o'r cyfan. I hon y mae y Brahmin, ar ol ymdrochi gyda'r wawr yn y Ganges, yn cyflwyno ei weddïau. "O ddyfroedd!" medd efe, "gan eich bod yn fforddio hyfrydwch, caniatewch i ni ddedwyddwch yn y presennol, ac edrychiad cysurlawn y Duw goruchaf. Fel mamau tyner, gwnewch ni yn gyfranog o'ch sylwedd mwyaf ffyniannus. Deuem yn foddlawn gyda'ch sylwedd chwi—gyda'r hwn yr ydych yn boddloni y greadigaeth. Ddyfroedd! caniatewch hyn i ni!" Yn yr *Agni-Purân* y mae y ddefod hon yn cael ei gosod allan fel y canlyn:—"Gyda'r cyfddydd bydded i'r dyn adrodd yn ofalus y gweddïau sydd i'w cyflwyno i'r dyfroedd, a chyflawni defod y puredigaeth trwy daflu dwfr ar goryn ei ben, ar y ddaear, a thua'r wybren; drachefn, tua'r wybren, ar y ddaear, ar goryn ei ben, ar y ddaear; drachefn ar goryn ei ben, a thrachefn ar ei ben." [*Asiatic Researches,* cyf. v., td. 347]. Yn mhlith athronwyr boreuol Groeg, yn enwedig yr ysgol Ioniaidd, yr oedd dwfr yn cael ei ystyried yn egwyddor gyntaf pob peth; ond golygid mai meddwl neu ddeall a greodd yr holl fydyssawd allan o'r elfen hon. Gan hyny, yr oedd mater neu sylwedd, yn ol Paganiaid y gorllewin, yn dragwyddol; a chan ddilyn athrawiaeth eu Ved., golygai yr Hindwaid yr un peth [*Ward*, cyf. i.; Rhagar. td. 72].

Daeth tân—y fwyaf bywiog, ofnadwy, a'r un pryd y fwyaf wybrenol (*ethereal*) o'r elfenau—i feddu safle bwysig yn nghredo yr Hindwaid. Y mae Agni, y duw sydd yn llywodraethu yr elfen hon, yn cael ei arddangos fel dyn corph-dew, yn marchogaeth ar afr. Mae ei wallt, ei farf, ei aeliau, a'i lygaid, o liw copr caboledig; ei fynwes o ymddangosiad y wawr; yn ei law ddeheu y mae picell, a gleinres (*bead-roll*) yn ei law chwith; ac o'i gorph y tardda mil o ffrydiau o ogoniant [*Ward*, cyf. i., Rhagar., td. 72].[1] Nid oes iddo demlau na delwau; ond addolir ef yn ddyddiol gan y Brahmin; ac er ei anrhydedd cedwir tân, fel yr eiddo Vesta, i losgi yn barhaus. Y mae y weddi ganlynol i'w chyflwyno i'r duw hwn, ac y mae i'w gweled yn yr *Yajur-Ved Gwyn*:—"Am gyfoeth a doethineb yr wyf yn deisyf ar hwn, yr arglwydd rhyfeddol yr allor, cyfaill Indra, dymunolaf (dân): boed yr offrwm hwn yn effeithiol. Y tân! gwna fi y dydd hwn yn ddoeth: drwy gyfrwng y ddoethineb hono a addolir gan y duwiau a'r tadau, bydded yr offrwm hwn yn effeithiol. Rhodded Virwn i mi ddoethineb; boed i'r tân a Prajâpati ganiatau i mi ddoethineb; rhodded Indra ac awyr i mi wybodaeth; Rhagluniaeth i mi ddeall: boed i'r aberth hwn gael ei offrymu yn llwyddiannus! Boed i'r offeiriad a'r milwr gyfranogi o'm llwyddiant; caniatäed y duwiau i mi ddedwyddwch annhraethol: i ti, yr hwn yw y dedwyddwch hwnw, boed i'r aberth hwn gael ei gyflwyno yn effeithiol.—*Asiatic Researches*, cyf. viii. td. 433, 434.

[1] "Ymddengys," medd Ward "nad oes un dosbarth o fenywod yn mhlith yr Hindwaid yn gyffelyb i forwynion y Vesta (chwech o offeiriadesau a gadwent y tân i gynneu ar allor y dduwies Rufeinaidd Vesta); ond y mae llawer o wragedd Hindwaidd, pan elo'r hen leuad o'r golwg, yn cyflawni ymrwymiad trwy wylio am bedair awr ar hugain uwch ben lamp o ymenyn puredig, i'w chadw rhag diffodd hyd amser ymddangosiad y lleuad newydd."

Yn ol yr Abbe Dubois, yr oedd addoliad y ddaear yn blaenori addoliad y dwfr:—"*Daear,*" medd efe, "yw yr elfen o ba un y ceir y cynnyrchion mwyaf angenrheidiol i ddyn. O'i mynwes hi y ceglir y grawn a'r planhigion sydd yn maethu ei gorph. Hi ydyw mam pob creadur byw. Hi, o ganlyniad, ydyw y flaenaf o'r duwiau: hi ydyw Brahma. Ond heb ymweliad tymmorol y gwlawogydd a'r gwlith, mewn gwlad sydd mor boeth ac amddifad o ddwfr, byddai llafur yr amaethwr a'r garddwr yn ddieffaith; a deuai y pridd, sydd yn awr mor doreithiog ei gynnyrchion, yn llwm a diffrwyth. *Dwfr* ydyw ceidwad mawr yr hyn y mae y ddaear yn ei gynnyrchu, neu yn rhoddi bywyd ynddo. O ganlyniad, dwfr, gyda'i holl fendithion, ydyw ail dduw yr Hindwaid, ac sydd yn gwisgo urddau Vishnw. Ond pa beth allasai y ddaiar swrth, hyd yn oed gyda chynnorthwy y dwfr, yr hwn sydd mor oer ac anghysurus ei natur—pa beth a allasent hwy, mewn undeb, ei gynnyrchu heb y tân, ffynnonell cynnhesrwydd, yr hon a ddaeth i adfywio a chynnhyrfu y pentwr mawr? Heb yr elfen fywiocaol hon, gwrthodai y planhigion roddi allan eu gwisgoedd ceinwych, ac ni chyrhaeddent yr addfedrwydd hwnw sydd yn angenrheidiol i'w gwneyd yn ymborth priodol i ddyn. Ond y mae *Tân*, nid yn unig yn adfywio, ac yn dwyn etifeddion bywyd i berffeithrwydd, ond y mae hefyd yn prysuro adfeiliad a marwolaeth—yr hyn sydd yn llawn mor angenrheidiol; o blegid o'r sefyllfa hon y mae natur yn cael ei hadferu ac yn ail ddechreu blaguro. O ganlyniad, y mae y tân wedi cyflawni rhan mor bwysig a'r elfenau ereill, ac yn llawn mor deilwng o'r edmygedd a'r addoliad sydd wedi gosod arno enw ac urddasolrwydd Shiva." [*Dubois, Description of the Manners*, &c., *of the Hindoos*, td. 375, 376]. Sylwa yr un awdwr, fod addoliad yr elfenau mewn amseroedd boreuol yn mhlith yr Hindwaid, yn ol pob tebygolrwydd, wedi ei gyssegru â themlau a adeiladwyd i'w gwasanaeth, er na bu efe yn alluog i weled dim olion o adeiladau o'r fath. Yn ol Abraham Roger, fodd bynag, yr oedd yn sefyll yn ei amser ef, mewn llanerch ar lanau Coromandel, deml a gyfodasid er anrhydedd i'r pum elfen. Ac yn Benares, etto, y mae amryw fân adeiladau neu gapelau er anrhydedd i'r tân, lle y cedwir fflam yn oleu yn barhaus. Y mae y cyfreithiau a briodolir i Menu yn cyfeirio yn fynych at addoliad tân, yr hyn a ddaeth i gael ei ystyried mewn amseroedd diweddarach, fel y dangosir isod, yr un â Shiva.

Yn dilyn addoliad yr elfenau, yr oedd addoliad y sêr a'r planedau—y ffurf fwyaf naturiol a diagored i gondemniad, fe allai, o bob ffurf o baganiaeth. O blegid i lygad noeth yr anwariad diddysg, nid rhyfedd fyddai i "Lu y Nefoedd," wedi eu gwisgo â holl brydferthwch dihafal y nosweithiau dwyreiniol, ymddangos fel yn gydryw â rhyw elfen ddwyfol—yn feddiannol ar ymwybyddiaeth, â gallu i ddylanwadu oddi ar orsedd mor oruchel, mor ysblenydd, a sefydlog, ar amgylchiadau dynolryw cyfnewidiol a gwael. Nid oes neb ystyriol nad yw wedi teimlo yn fynych ryw brydferthwch crefyddol, megys, yn y nos; yr hyn, pe yn amddifad o grefydd well, y byddai yn hawdd i ni ei gamgymmeryd yn wrthddrych ein haddoliad. Y mae y teimladau sydd yn ymgynnyg i'r meddwl anniwylliedig, o dan amgylchiadau o'r natur uchod, yn gael eu disgrifio gan un o awduron y Ved, fel y canlyn:—

"Dynesa y nos, wedi ei goleuo â sêr a phlanedau, a

chan edrych ar bob tu gyda llygaid afrifed, y mae yn tadu i'r cysgod bob goleuni mwy distadl. Mae y duwies anfarwol yn gorchuddio y ffurfafen, yn ymdaenu dros y dyffrynoedd a'r planhigion, a thros y mynyddoedd talgryf a'r coed; ond yn fuan y mae yn cynnhyrfu y tywyllwch âg ysblander nefolaidd. Gan gynnyddu mewn disgleirdeb, y mae yn y man yn adalw ei chwaer, y boreu; ac y mae cysgodau yr hwyr yn graddol wisgo ymaith. Bydded hi y pryd hwn yn drugarog! – hi, yn nghynnar wyliadwriaeth yr hon y gallwn orwedd yn dawel yn ein palasau, fel y gorphwys yr adar ar y coed. Cysga dynolryw yn awr yn eu trefydd; yn awr, gyrau a deadellau a hunant yn heddychlawn, a chreaduriaid adeiniog, hyd yn oed gweilch cyflym, a fwlturod. O nos! cadw oddi wrthym fenyw a gwryw y blaidd; ac O! gâd i ni dy dreulio mewn gorphwysdra esmwythaol! O foreu! mewn amser cyfaddas symmud ymaith y düwch hwn, y tywyllwch sydd etto yn weledig, yn gorniesguddio, ac yn bresennol yn fy amgylchu, fel yr ydwyt yn fy ngalluogi i symmud cymmylau eu ceuleoedd hwy. Ferch y nefoedd, nesaf atat gyda moliant, fel y dynesa y fuwch at ei godryed. Derbyn, O nos! nid yn unig yr hymn, ond aberth dy ymbiliwr sydd yn gweddio fod i'w elynion gael eu darostwng."—*Hymn to Night*, *Works of Sir William Jones*, cyf. xvii. td. 380, 381.

Ond yn mhlith y cyrph nefol, yr haul, yr hwn a ystyrid gan hen genhedloedd fel enaid hollbresennol y bydyssawd, sydd yn llenwi y lle pwysicaf. I'r goleuad mawreddog hwn, neu, yn hytrach fe allai, i'r Duw a olygid fel yn llywodraethu drosto, ac yn preswylio o'i fewn, y cyflwynir y *Gâytri*, neu yr "Adran Sancteiddiaf," o'r Ved.:—"BOED I NI FYFYRIO AR OLEUNI MOLIANNWIW Y DWYFOL REOLYDD: BOED IDDO ARWAIN EIN MEDDYLIAU" [*Colebrooke's Asiat. Researches*, viii., td. 400]. Yn ol adran arall o'r llyfrau cyssegredig, ac un a ystyrid gan Syr William Jones fel yn egluro y Gâytri, nid yw y weddi a gynnwysir yn yr "Adran Sancteiddiaf," yn cael ei chyflwyno i'r haul, ond i'r Duwdod:—"Yr hyn ydyw yr haul a'r goleuni i'r byd gweledig hwn, ydyw y daioni a'r gwirionedd goruchaf i'r greadigaeth weledig a meddyliol; a chan fod ein llygaid naturiol ni yn gallu gweled yn amlwg wrthddrychau a oleuir gan yr haul, felly y mae ein heneidiau yn cyrhaedd gwybodaeth bennodol, drwy fyfyrio ar oleuni gwirionedd, yr hwn sydd yn tarddu oddi wrth fod y bodau—hyny ydyw, y goleuni—drwy yr hwn yn unig y cyfeirir ein meddyliau ar hyd y llwybr i wynfa."

Tybia yr un awdwr mai yr un peth sydd i'w feddwl, nid yn unig wrth Krishna, ond hefyd tri duw y Trimurti, a'r haul. "Tueddir fi yn wir i gredu fod nid yn unig Krishna, neu Vishnw, ond hefyd Brahma a Shiva, mewn undeb; a phan yr enwid hwy gyda'r gair rhyfedd OM, wedi eu bwriadu gan yr eilunaddolwyr cyntefig i arddangos tân yr haul. Ond y mae Phœbus, neu gylch yr haul wedi ei bersonoli, yn cael ei addoli gan yr Indiaid fel y duw Swriâ, ac oddi wrth yr enw yna y gelwir y sect sydd yn talu addoliad iddo yn *Saura*. Disgrifir car y duw hwn, gan feirdd ac arlunwyr y Swriâ, fel yn cael ei dynu gan saith o geffylau gwyrddion, yn cael ei flaenori gan *Aruna*, neu y wawr, yr hwn sydd yn gweithredu fel ei gerbydwr, a'i ddilyn gan filoedd o *genii*—(bodau dychymmygol rhwng dynion ac angylion) y rhai sydd yn ei addoli, ac yn dyrchafu ei fawl." A dyweyd y gwirionedd, y mae y Ved. ei hun yn llawn o aneglurder ar y pen hwn—yn ymddangos, mewn un man, fel yn gwahaniaethu rhwng y Duwdod a'i brif weinidog gweledig, ac mewn man arall fel yn eu cyssylltu yn hollol.

Er uched y meddyliau a goleddir am yr haul, y mae addoliad y dwfr, yn nhrefn defodau y Brahminiaid, yn bresennol yn blaenori yr eiddo yr haul. Ond wedi talu yr anrhydedd angenrheidiol i'r dwfr, y mae y Brahmin yn prysuro i addoli yr haul, gan sefyll ar un troed, a gosod pwys y troed arall ar ei sawdl, neu ei ffêr. Yn y sefyllfa hon, gyda'i wyneb tua'r dwyrain, a chan ddal ei law mewn ffurf gafnog (*hollow*) o'i flaen, y y mae yn adrodd yn ddystaw y weddi ganlynol:—

"Pelydrau y goleuni a raghysbysant yr haul tanllyd, ysblenydd, yn ymddyrchafu yn brydferth i oleuo y bydyssawd. Y mae yn cyfodi yn rhyfeddol, llygad yr haul, y dwfr, gallu cydgasgledig y duwiau; lleinw y nefodd, y ddaear, a'r awyr, â'i rwyd oleuedig; efe ydyw enaid pob peth—yr hyn sydd yn sefydlog, neu yn symmudol. Y mae y llygad yma yn annhraethol ddaionus, yn ymddyrchafu yn bur o'r dwyrain: boed i ni ei weled am gant o flynyddoedd; boed i ni fyw am gan mlynedd; boed i ni glywed can mlynedd. Cadwer ni gan y gallu dwyfol, gan fyfyrio ar y nefoedd goruwch bröydd tywyllwch, gan agoshau at y 'duwdod, yr ardderch ocaf o'r goleuadau."

Gellir chwanegu y weddi hon hefyd:—

"Tydi wyt hunan-hanfodol—tydi wyt belydr arddderchocaf—tydi a roddi ddysgleirder. Dyro ef i mi."

Telir sylw ac addoliad mwy arbenig i'r duw hwn ar y Sul, ar godiad haul, yn mis Magha. Nid yw y bobl hyny (y *Saura*) sydd yn mabwysiadu yr haul fel eu duw ceidwadol, yn bwyta nes addoli yr haul, ac ymprydiant pan orchuddir ef yn hollol gan gymmylau. Yn mhlith enwau lliosog y duw hwn, y mae *Dyumani* "Gem yr Awyrgylch;" *Taruni*, "y Ceidwad;" *Grahapati*, "Arglwydd y Ser;" a *Mitra*, "y Cyfaill;" *h.y.*, cyfaill y dwfrlili, yr hwn sydd yn ymagor gyda chodiad yr haul, ac yn cau pan fachluda.—*Ward*, cyf. iii. td. 32—35.

Ond heblaw yr haul, fe addolir yr holl gyrph nefol:—y planedau, y cydser (*constellations*), arwyddion y sidydd, y sêr yn gyffredinol, ac yn enwedig y seren Canopus, yr hon a enwir gan yr Hindwaid "y Doethawr." Addolir rhai o "lu y nefoedd" yn ystod gŵyliau duwiau ereill; addolir ereill ar wahân. Addolir y cydser yn benaf ar enedigaeth plant, a phan gedwir dydd eu genedigaeth. Tybia yr Hindwaid fod tynged plant dynion yn cael ei benderfynu gan ddylanwad y ser. Mae y rhai hyny o honynt a aner dan blaned ddrwg yn fynych yn cael eu llenwi â phrudd-der, ac yn ymollwng i anobaith; gan dybied mai oferedd ydyw gwylio dros einioes sydd yn gyssylltiedig âg argoelion mor ddrwg.—*Ward*, cyf. iii. td. 62–63.

Cyflwynir rhyw fath o offrwm i'r planedau ar y gŵyliau mawrion bob amser, ond addolir hwy ar wahân, yn fynych, gan y claf a'r anffortunus. Y mae y seremoniau y pryd hyn yr un fath ag ar achlysuron ereill, a therfynant gyda phoethoffrwm i bob un o'r naw planed. Y mae y rhoddion mewn cyssylltiad âg addoliad y gwahanol blanedau yn amrywiol:—i'r haul rhoddir buwch flith, i'r lleuad, cragen;[1] i Mawrth, tarw; i Mercher,

[1] Y mae y lleuad, yn chwedloniaeth yr Hindwaid, yn wrywaidd. Ei delw ydyw dyn gwyn, yn cael ei dynu gan ddeg o geffylau, neu yn eistedd ar ddwfr-lili [*Ward*, cyf. iii. td. 64]. Hefyd, yn mhlith yr Aiphtiaid cyntefig, ystyrid y lleuad yn dduw yn wrywaidd—[*Jablonski*, *Proleg.* llyfr ii td. xl]. Y mae Creuzer [*Religions de l'Ant.*, llyfr iv. *pen.* 3], yn cynnwys llawer o nodiadau ar addoliad y duw *Lunus* (y lleuad), yn mhlith trigolion boreuol Asia Leiaf, Albania, a Syria. Arddangosid ef ar fedalau y dinasoedd Asiaidd fel gŵr ieuangc yn gwisgo bonet Phrygiaidd,

Digitized by Google

y mae yn myned i'r deml, ac yn tori un neu ddau o fysedd ei law ddeheu yn aberth i'r duw. Y mae y *Morasu* yn aberthu i'r Saktiaid benywaidd ereill, ond nid ydynt yn gweddio ar Vishnw na Shiva, ac nid oes ganddynt offeiriaid [*Journey through Mysore*, &c., cyf. i. td. 319]. Y mae un a elwir *Purohita*, neu offeiriad teuluol, o lwyth arall, yn gweinyddu y seremoni briodasol, ac yn ystod y seremoniau, neu y gwyliau, a gedwir yn flynyddol, ac yn amser y newyddloer, er anrhydedd i enwau eu hynafiaid.

Er fod y Brahminiaid wedi darostwng llwythau anwaraidd deheubarth India, y mae yn amlwg na ddarfu i'w crefydd gydredeg â'u dylanwad politicaidd. Ymddengys fod pob cenedl wedi cadw ei chrefydd gyntefig. Ac yn lle gwthio i'w plith eu hopiniynau, fe ddylanwadwyd ar y Brahminiaid gan goelgrefydd y gorchfygedig, a daethant i fabwysiadu eu duwiau; ond gan fod y duwiau hyn o duedd niweidiol, ac er mwyn cadw ymddangosiad, fe'u galwyd gan y Brahminiaid yn weinidogion Shiva—y gallu dinystriol. "Mewn afiechyd a chyfyngder y maent yn galw gyda dychryn a chryndod ar allu Bhairava, a'r Saktiaid benywaidd; y rhai a ystyrid gan y brodorion cyntefig, fe allai, fel ysbrydion dinystriol y coedwigoedd, y mynyddoedd, a'r afonydd; ac a addolid gydag aberthau, fel duwiau y llwythau anwaraidd sydd yn preswylio y parthau mynyddig i'r dwyrain i Bengal, a thlodi y rhai sydd hyd yma wedi attal ymwthiadau offeiriaid eu cymmydogion mwy dysgedig i'w plith.—*Journey through Mysore*, cyf. i. td. 320.

Yn mhlith y llwythau anwaraidd hyn yn y deheu, y mae rhai megys y *Mucua*, sydd heb fabwysiadu yr athrawiaeth o anfarwoldeb yr enaid. Y mae ereill sydd yn "credu fod dynion drygionus, ar ol marw, yn myned yn gythreuliaid, a bod dynion da yn cael eu haileni ar ffurf dynol. Y mae ysbrydoedd y dynion sydd yn meirw heb briodi yn dyfod yn *Virika*;[1] ac er cof am danynt hwy, cyfodir temlau a delwau, lle y cyflwynir offrymau o frethyn, reis, a'r cyffelyb, er eu hanrhydedd. Os esgeulusir hyn, y maent yn ymddangos mewn breuddwydion, ac yn bygythio y rhai sydd yn anghofio eu dyledswydd. Y mae y temlau hyn yn gynnwysedig o bentwr neu garnedd o geryg, yn y rhai y mae agorfa fechan, a gynnelir gan ddwy neu dair o lechfeini; ac y mae y ddelw yn gynnwysedig o gareg annaddedig ac anffurfiol, ar yr hon, weithiau, y rhoddir olew, fel ar bob eilun arall yn y wlad hon.—*Journey through Mysore*, cyf. i. td. 359.

Yn Coimbatore, y mae y *Shivayddion*, pan yn dioddef oddi wrth afiechyd, yn addunedu addurno teml y Sakti, yr hwn y tybiant sydd yn achosi yr anhwylder; ac os adferant, y maent yn crogi delw o blentyn neu geffyl, o glai y crochenydd, yn nghyntedd y deml. Yn mhlith y *Mucuaid*, y mae *Bhadra Káli*, un o'r Saktiaid benywaidd, yr hon a arddangosir gyda boncyff o bren, ac a foddlonir bedair gwaith yn y flwyddyn drwy aberthu ceiliog iddi, ac offrymau o ffrwythydd. Golygir fod y Saktiaid hyn yn byw yn y ser, y cymmylau, a pharthau isaf y nefoedd serenog, neu hyd yn oed yn y nefoedd, ar Mahâ Meru, mynydd sanctaidd chwedloniaeth yr Hindwaid. Yn *Tulava*, y mae y Brahminiaid yn gweithredu fel offeiriaid yn nhemlau yr ysbrydion hyn; ond gan eu bod yn erbyn tywallt gwaed, cyflwynant aberthau o does, wedi ei wneyd ar lun anifeiliaid.—*Journey through Mysore*, cyf. ii. td. 350, 528; a iii. 78, 92.

[1] Y mae addoliad y *Virika* yn lleol, ac heb fod yn cyrhaedd ddim yn is na'r Caveri.—*Journey through Mysore*, cyf. ii. td. 120.

Mae y gair *Bhwtiaid*—yr enw cyffredinol ar yr ysbrydion niweidiol hyn—yn arwyddo hefyd, *elfen*, oddi wrth yr hyn y gellir casglu eu bod yn cael eu haddoli fel "arglwyddi yr elfenau." Mewn llawer parth o India, nid oes un ffurf arall o grefydd yn cael ei goddef. Y mae hyn yn wirionedd am "y gadwen hir hono o fynyddoedd sydd yn gorwedd i'r dwyrain i Mysore, lle nad yw y trigolion yn ymarfer âg un addoliad ond addoliad y diafol. Y mae i bob tŷ a theulu ei Bhwta neillduol ei hun, yr hwn sydd yn sefyll fel ei dduw gwarcheidwol; ac i'r hwn y cyflwynir gweddiau ac aberthau yn ddyddiol, nid yn unig er mwyn ei gadw rhag bwrw ei lid ei hun, ond er mwyn iddo eu hamddiffyn oddi wrth y drygau y gallai Bhwtiaid eu cymmydogion neu eu gelynion eu hachosi iddynt. Yn y parthau hyny, y mae delw y diafol i'w gweled yn mhob man, yn cael ei arddangos mewn agwedd ddychrynllyd, ac yn fynych gyda chareg anffurfiol. Y mae i bob un o'r ellyllon hyn ei enw priodol ei hun, ac y mae y rhai hyny o honynt sydd yn fwyaf galluog a chreulawn yn cael eu holli mewn cyfattebiaeth."—*Dubois, Description of the Manners, &c., of the People of India*, td. 451. 452.

Yr aberthau a gyflwynir i'r ellyllon hyn yn gyffredin ydyw teirw gwylltion, baeddod, hyrddod, a cheiliogod. Pan offrymir reis, rhaid ei drochi mewn gwaed; ac o blith y blodau ni chyflwynir ond yn unig y rhai cochion, am eu bod yn debyg i liw gwaed. Fe'u boddlonir hefyd â diodydd meddwol. Y mae y diafol-addoliad hwn yn fwyaf cyffredin yn yr anialdir, mewn lleoedd pellenig ac unig, ac yn nghesciliau annhreiddiedig a gwylltion y mynyddoedd. Mewn sefyllfaoedd o'r fath y mae syniadau plant dynion yn gyffredin yn bruddglwyfus. Y mae natur yn eu plith hwy yn gwisgo agwedd ddychrynllyd. Am amser y mae perffaith ddystawrwydd yn teyrnasu yn y lle, ac yna daw ystormydd ofnadwy i ruo yn y llwyni tewion, yr ogofeydd, a'r ceunentydd dyfnion a thywyll. Y mae pob clogwyn, coedwig, a cheunant, yn raddol yn ymgyssylltu âg ellyll sydd i deyrnasu yno; ac felly y sefydlir y gyfundrefn ellyllol. Y mae y grefydd hynafol hon yn fwy cyffredin yn India nag y mae llawer yn arfer meddwl. Ond ar ei hol hi dygwyd addoliad Brahmâ i arferiad—crefydd a ddyfeisiwyd gan y Brahminiaid, y rhai oeddynt mor hynod yn mhlith y cenhedloedd boreuol am eu doethineb a'u crefyddolder. Y mae yr amser y sefydlwyd y grefydd hon yn ammhenderfynol; ond gellid meddwl ei bod yn hŷn o ganrifoedd nag ysgrifeniad y Veda, yr hwn sydd yn ymddangos fel ymgais i gyfuno yr holl wahanol goelgrefyddau yn un gyfundrefn fawreddog. Fodd bynag, tybia rhai mai hon ydoedd crefydd wreiddiol India. Gan ymostwng i awgrymiadau eu dychymmyg, neu yn hytrach gan fenthyca, heb ystyriaeth briodol, ddrychfeddyliau y beirdd—drychfeddyliau eithaf goddefol mewn *barddoniaeth*—darluniasant yr Hindwaid fel cenedl o ddynion oedd yn "wisgedig mewn diniweidrwydd a duwiolder, yn offrymu i Brahmâ aberthau mor bur a'u calonau eu hunain, blaenffrwyth eu tir, a llaeth eu deadelloedd a'u buchesau."—*Creuzer, Religions de l'Antiquite*, cyf. i. td. 140.

Ni leddid anifeiliaid yn ebyrth i Brahmâ; o blegid gan mai y duw hwn oedd creawdwr y bydyssawd, tybid y byddai yn anfoddlawn ganddo ddyfetha gwaith ei ddwylaw ei hun. Nid oedd

yn nghrefydd Brahmâ ddigon o waith i'r Brahminiaid i adael iddi barhau yn hir. Ymddengys iddi ddiflanu yn mron yn ebrwydd; o leiaf ei bod wedi dyfod yn goelgrefydd ddianrhydeddus, ac yn ddigon disylw yn nghanol ffurfiau mwy dangosiadus ac amanol o grefydd. Nid oes dim temlau i'r duw hwn mewn arferiad yn bresennol, ac nid oes neb yn ei ddewis fel duwdod gwarcheidwol; er fod y Brahminiad, yn nghylch dyddiol ei ddyledswyddau, yn myned dros fath o wers, yn cynnwys disgrifiad o'i ddelw, ac fel gweithred o addoliad yn cyflwyno iddo un blodeuyn. Hefyd, yn amser poeth-offrwm, cyflwynir iddo swm bychan o ymenyn puredig. Yn amser y llawn lleuad, yn mis Magha bob blwyddyn, cedwir gŵyl er anrhydedd iddo, pryd y gosodir i fyny ddelw glai o hono, gyda Shiva ar ei law ddeheu, a Vishnw ar ei chwith; ac yna addolir ef â chaniadau, dawnsiau, a cherddoriaeth; a thranoeth fe deflir y tair delw i'r afon Ganges. Mewn brawddeg aneglur yn yr *Yajur-Ved.*, fe ddywedir fod Brahmâ, ar ol ei ddyfodiad o'r ŵy aur, yn teimlo arswyd at fod yn unig yn y greadigaeth; ac o ganlyniad, awdurdododd hanfodiad un arall. ac yn ebrwydd daeth yn wryw-fenywaidd. Wedi hyny, drwy ail weithrediad yr ewyllys ddwyfol, daeth y ddau ryw oedd yn hanfodi yn yr un duw i gael eu rhanu a'u gwneyd yn ŵr a gwraig. Ymddengys fod y Groegiaid wedi clywed am y traddodiad hwn; o blegid nid yw yr *Androgyne* gan Plato ond yn unig aralleiriad o'r chwedl a nodwyd. Ar adfeiliad addoliad Brahmâ, ymddengys fod dwy sect wedi cyfodi yn Hindostan; y naill yn addoli Shiva, a'r llall Vishnw. Nis gellir bod yn sicr o barth i'r amser yr ymddangosodd y sectau hyn; ond tybir mai yr eiddo Shiva yw yr hynaf. Fe ddywedir ar awdurdod un o chwedlau dammegol y *Scand-Pwrân*, fod sect Shiva, fel Mahometaniaeth, wedi ei sylfaenu drwy rym y cleddyf [*Asiatic Researches*, cyf. viii. td. 47; *Creuzer*, *Rel. de l'Ant.* cyf. i. td. 141]; ond y mae y chwedl yn dywyll, a'i hesboniad yn bur ammheus. Fe allai mai mewn amseroedd o adfyd y cyfododd y sect—yn amser rhyfel cartrefol neu estronol; neu, fe allai fod ei sylfaenwyr yn arweinwyr rhyfelgyrch yn erbyn canlynwyr mwy heddychlawn Brahmâ; neu, yr hyn sydd yn fwy tebygol, fe allai mai cenedl orchfygol a'i dygodd i'r wlad, yr hon a sefydlodd ei hawdurdod a'i chrefydd ar yr un pryd. Pa fodd, a pha bryd bynag y sefydlwyd hi, ni wyddys; ond y mae addoliad y duw Shiva wedi gwreiddio yn fwy dwfn, ac ymledaenu yn fwy eang nag un grefydd arall. Arddangosir y duw hwn mewn amrywiol ffyrdd. Weithiau, fel dyn o liw arian, gyda phump o wynebau, ac yn mhob gwyneb dri o lygaid, o'r rhai y mae y trydydd yn ei dalcen [*Asiat. Res.*, cyf. i. td. 248, 249; *Creuzer*, i. 177]. Am dano y mae gwisg o groen teigr, ac y mae yn eistedd ar *lotus* (blodeuyn a ystyrir yn arwyddlun o'r Ganges).[1] Brydiau ereill, darlunir ef gydag un pen; ond y mae ganddo dri o lygaid fyth, a'r eilun o hanner lleuad ar ei dalcen. Y mae yn marchogaeth ar darw, heb ddillad, ac yn orchuddiedig â lludw. Y mae ei lygaid yn gochion gan ddiodydd meddwol; yn un o'i ddwylaw y mae corn, ac yn y llaw arall dabwrdd. Ffurf arall ar Shiva ydyw y *ling*—careg ddu lefn—pur aflan o ran ffurf a chyssylltiadau, gyda delw o'r *Yoni* yn ymestyn o'i gwaelod. Dan yr arwyddlun hwn yr addolir Shiva yn fwyaf cyffredin. Y mae temlau afrifed wedi eu cyfodi er ei anrhydedd drwy yr oll o Hindostan; ac yn y rhai hyn, Yoni-Lingam (*h. y.*, fe allai, yr arwyddlun o allu cenhedlol a bywydol natur) ydyw yr unig ddelw a addolir. Addolir Shiva, weithiau, dan yr enw *Mâhâ Kala*, neu "Amser, y Dinystrydd Mawr," ac yn y ffurf hon yn unig y cyflwynir iddo ebyrth gwaedlyd. Ei ffurf o dan yr enw hwn ydyw bachgen ieuangc, o liw mwg, gyda thri o lygaid; yn wisgedig mewn dillad cochion, â thorch o benglogau dynol o amgylch ei wddf [*Ward*, cyf. iii. td. 14; *Asiat. Res.*, cyf. i. td. 243]. Y mae yn ddiammheu mai personoliad yw y duw hwn o'r egwyddor fywydol, yr hon, wrth ymdrosglwyddo o ffurf i ffurf, sydd yn gyntaf yn rhoddi bywyd, yn grymuso, yn dwyn i berffeithrwydd, ac yna yn treulio ac yn dyfetha y corph sydd yn ei amgylchu. Hon ydyw yr elfen faterol sydd yn llenwi y bydyssawd; ond yr hon a ystyrir ar wahân oddi wrth yr achos deallol (*intellectual*) mawr cyntaf.

Ar ol mabwysiad yr addoliad hwn, dygwyd addoliad Vishnw (ffurf goethach o Shivyddiaeth, fe allai) i arferiad. Ond mewn cyfartaledd i fel yr oedd yn fwy coethedig ac ysbrydol, yr oedd yn llai cymmhwys i lenwi lle yr hen goelgrefydd; ac mewn canlyniad, ymddengys mai araf yr oedd yn ennill dylanwad, ac fod canlynwyr y duw hwn yn llawer mwy anfynych bob amser na'r eiddo Shiva. Dosranir ei addolwyr i amryw sectau, gan bob un o ba rai y mae eu cyfrinachau, eu haberthau, a'u harwyddluniau neillduol eu hunain. Y sect fwyaf poblogaidd o'r cyfan "ydyw yr un sydd yn dwyn nôd y *nama*, neu y tair llinell unionsyth, ar eu talcenau, fel arwyddun arbenig o'u hymlyniad wrth, a'u hoffder at, y duw hwn. Enwau a phriodoleddau neillduol Vishnw ydynt—Prynwr a Cheidwad pob peth. Y mae y duwiau ereill, hyd yn oed Brahmâ ei hun, wedi bod mewn angen am ei gynnorthwy yn fynych; ac oni buasai am ei gymmhorth galluog ef, ar lawer amgylchiad cyfyng, buasent wedi syrthio i ddinystr. Y mae y teitl hwn o 'Geidwad pob peth' wedi peri ei bod yn angenrheidiol iddo wisgo amrywiol ffurfiau, y rhai a elwir gan yr Hindwaid yn *âvâtâran*, neu drawsnewidiadau [*Dubois*, td. 431]. O'r *âvâtâran*, neu y trawsnewidiadau hyn ar Vishnw, y mae deg a ystyrir yn fwy pwysig na'r lleill, sef y pysgodyn, y baedd, y llew-ddyn, y corach, y ddau Râma, Krishna, Budh, a Kalki. Dywedir fod naw o'r rhai hyn wedi, a'r degfed ar fin, os nad wedi cymmeryd lle.

"Gwneir delwau ceryg o Vishnw i'w gwerthu a'u haddoli yn nhai y rhai hyny sydd wedi dewis y duw hwn yn warcheidwad. Nid oes gwyliau cyhoeddus yn cael eu cynnal iddo, ond addolir ef pan offrymir poeth-offrwm, yn yr ymsoniadau a addroddir yn ddyddiol gan y Brahminiaid, yn nglŷn âg addoliad y pum duw, ac hefyd ar ddechreuad pob *shrâd*—y ceremoni a gyflawnir dros y marw. Ni chyflwynir ebyrth gwaedlyd i Vishnw. Y mae yr offrymau a wneir iddo yn gynnwysedig o ffrwythau, blodau, dwfr, ymenyn puredig, melusion, brethynau, addurniadau, &c. Perchir ef fel y duw teuluaidd; ac addolir ef pan y byddo person yn dechreu preswylio mewn tŷ newydd, neu ar amserau ereill, gyda'r amcan o gael ymwared oddi wrth anffodion teuluaidd [*Ward*, cyf. iii. td. 8]. Rhoddir disgrifiad gwych ryfeddol o nefoedd y duw hwn yn y *Mâhâbhârat*. Y mae yn bedwar ugain mil o filldiroedd o

[1] Ystyriai yr Aiphtiaid yr un blodeuyn yn arwyddlun o'r Nilus; ac arddangosir duwiau y Tartariaid, y Japaniaid, a chenhedloedd gorllewinol ereill, yn eistedd ar y blodeuyn hwn.—*Ward*, cyf. iii. td. 11.

Digitized by Google

amgylchedd, ac wedi ei ffurfio yn gwbl o aur. Y mae ei phalasau wedi eu gwneuthur o berlau, ac y mae ei holl golofnau, pendrawstiau, &c., yn fflachio ac yn disgleirio â gemau. Disgyna dyfroedd grisialaidd y Ganges o'r rhanau uchaf o'r nefoedd ar ben Shiva, ac oddi yno, drwy sypiau gwallt y saith gwyr edifeiriol, i'r gwastadedd, lle y ffurfiant afon fawreddog Paradwys. Yn y lle hwn hefyd y mae llynau bychain prydferth o ddwfr, ar wyneb y rhai y mae symiau afrifed o lili y dwfr coch, glas, a gwyn, yn blodeuo. Ar orsedd ogoneddus fel haul y cyhydedd, yn eistedd ar liliau dwfr, y mae Vishnw,[1] ac ar ei law ddeheu y dduwies Lakshmi, yn disgleirio yn ddiddiwedd, mor danbaid a fflachiad y fellten, tra y mae perarogl y *lotus* yn dyfod allan o'i chorph prydferth, ac yn ymdaenu drwy yr holl nefoedd. Cenir clodydd y duw gan yr ysbrydoedd gwynfydedig sydd yn cydgyfranu o'i ddedwyddwch; ac weithiau y mae y duwiau yn ymuno mewn cân gyda lleisiau ei addolwyr, tra y mae *Garuda*, neu *Gyrwr*, y "duw-aderyn,"[2] yn gwylio y drws.

Y mae y tri duw a nodir uchod—Brahma, Vishnw, a Shiva—yn ffurfio yr hyn a elwir y *Trimurti*, neu y Drindod Hindwaidd. Ystyr y gair Trimurti yw "Tair Ffurf;" a defnyddir ef i ddynodi y tri duw hyn—Creawdwr, Cynnaliwr, a Dinystrydd pob peth. Y mae pob un o'r tri yn cael ei arddangos weithiau ar ei ben ei hun, gyda'i briodoleddau ei hun; a phrydiau ereill y mae y tri wedi eu cyfuno yn un corph, gyda thri o benau; ac yn y sefyllfa yna y derbyniant yr enw Trimurti, neu y tri gallu. Ymddengys fod yr undeb hwn wedi ei fwriadu i ddangos fod yn ammhossibl cynnyrchu ac adgynnyrchu bywyd a bod, heb gyfuniad o'r gallu triphlyg, sef creadigaeth, cynnaliaeth, a dinystriad [*Dubois*, td. 367]. Cydnabyddir ac addolir y Trimurti gan y rhan fwyaf o'r Hindwaid, er fod ambell ddosbarth yn ymlynu mewn modd neillduol wrth sect Vishnw neu Shiva. Ystyrir y tri duw hyn gan y Brahminiaid mewn gwirionedd yn un duw, yr hwn sydd yn llenwi y tri chymmeriad o *Greawdwr*, *Cynnaliwr*, a *Dinystrydd* pob peth; ac addolir yr undeb dwyfol a ystyrir fel hyn o dan yr enw tair-llythyrenog ac anneongledig *Aum* (Om), yr hwn a ffurfiwyd, medd rhai, o lythyrenau cyntaf enwau duwiau y Trimurti[3] [*Ram Mohun Roy, Translation of the Vedas*, td. 109].

Ni chaniata gofod i ni sylwi ar yr holl dduwiau israddol, y rhai sydd yn rhifo, medd yr Hindwaid, 300 o filiynau; ond nis gallwn fyned heibio i *Kâmdêv*,[4] "duw y cariad," *a Krishna*. Arddangosir Kâmêdev, mab Brahmâ, fel bachgen ieuangc prydferth, yn dal bŵa a saethau o flodau yn ei law. Y mae i'w weled bob amser yn nghwmni ei wraig *Rati*, duwies pleser a difyrwch, a chyda'r gôg, y wenynen sïol, a'r awelon tyner; a dywedir ei fod bob amser yn crwydro trwy y tri byd. Brydiau ereill, cawn ef gyda'i fam a'i wraig, yn mhlith ei erddi a'i demlau, neu yn marchogaeth wrth oleu y lleuad ar fath o *barrot*, ac yn cael ei ddilyn gan enethod (*nymphs*) yn dawnsio, y flaenaf o ba rai sydd yn cludo ei luman—darlun o bysgodyn ar ddefnydd coch. Y mae ei fŵa wedi ei wneyd o'r gorsen sugr, a llinyn ei fŵa o res o wenyn; ac ar flaenau ei bum saeth y mae blodeuyn o ansawdd wresogol [*Syr William Jones, Works*, cyf. xiii. td. 236; *Asiat. Res.*, cyf. i. td. 265]. Pan y bydd gwraig yn gadael tŷ ei thad i ymuno â'i gŵr, y tro cyntaf, gweddïir ar y duw hwn am blant a hapusrwydd.—*Ward*, cyf. iii. td. 178.

Krishna, y mwyaf nodedig o drawsnewidiadau Vishnw, ydoedd fab *Devaki*, o *Vasudêv*. Gwnaed ei enedigaeth yn ddirgel, rhag ofn y creulon Kuns, brenin Muttra, ac ewythr i Krishna; a magwyd ef yn Muttra, gan fugail neu wyliwr gwartheg o'r enw Nanda, a'i wraig Yasoda. "Yn eu teulu hwy yr oedd llu o *Gopaid*, neu fugeiliaid ieuaingc, a *Gopïaid*, neu laeth-forwynion prydferth, y rhai oeddynt yn cydchwareu âg ef yn ei ieuengctid. A'r adeg hon dewisodd Krishna naw o wyryfon fel ei brif gyfeillesau, gyda'r rhai y treuliai ei oriau i ymddifyru mewn dawnsio, prancio, a chwareu ar ei *flute*. Am nifer neillduol ei Gopïaid, nid oes genyf unrhyw awdurdod ond darlun mympwyol, lle y gosodir ynghyd naw o enethod mewn ffurf elephant, ar yr hwn y mae Krishna yn eistedd ac yn chwareu ar ei offeryn; ac yn anffodus, y mae y gair *nava* yn arwyddo 'newydd,' neu 'ieuangc,' yn gystal a 'naw,' fel y gellir esbonio yr enw yn yr ymadrodd canlynol mewn dwy ffordd:—'Yr wyf yn cadw yn fy mynwes yn barhaus y duw hwnw, yr hwn, er mwyn adloniant chwareuol, gyda gosgordd o naw o (ieuaingc) ferched llaeth, sydd yn dawnsio yn brydferth, yn awr yn hoew, yn awr yn araf, ar y tywod sydd newydd ei adael gan ferch yr Haul.'

"Y mae efe a Râm[5] yn cael eu disgrifio fel rhai ieuaingc, o brydferthwch perffaith. Ond yr oedd tywysogesau Hindostan, yn gystal a gwyryfon amaethdy Nanda, mewn cariad dwfn â Krishna, yr hwn dduw yw anwylyd y gwragedd Hindwaidd hyd heddyw. Y mae y sect sydd yn talu addoliad neillduol iddo yn dal nad un o'r *âvâtârau* ydyw efe, ac felly heb feddu ond *ansa* (rhan) o'r duwdod, ond mai person Vishnw ei hun, mewn ffurf ddynol, ydoedd Krishna. Ac o ganlyniad, ystyriant Râma, ei frawd hynaf, fel yr wythfed *âvâtâr*, wedi ei gynnysgaeddu â chyfran o'i ogoniant dwyfol ef; ac yn y prif eiriadur Sanscritaidd, yr hwn a gasglwyd o'gylch dwy fil o flynyddoedd yn ol, y mae Krishna, Vasudvê, Govinda, ac enwau ereill ar y bugeil-dduw hwn, yn cael eu cydgymmysgu â chyfenwau i Nârâyin neu yr ysbryd dwyfol. Paentir pob *âvâtâr* gyda choronig emawl Ethiopaidd neu Barthiaidd am ei ben, â phelydrau yn ei amgylchu; gemau yn ei glustiau; dwy gadwen o gleiniau am ei wddf, un o honynt yn syth, a'r llall yn gorphwys ar ei fynwes, gyda gemau yn crogi wrthynt; blodeubleth amryliw a phrydferth, neu wregys o berlau, yn hongian o flaen ei wasg; mantell

[1] Mewn rhai o'r ysgrifeniadau Hindwaidd, y mae Vishnw yn cael ei arddangos yn lledorwedd mewn agwedd fyfyriol ar ddeilen o'r ffigysbren Indiaidd, neu ar sarph sydd yn nofio ar wyneb y môr. Allan o'i fogail y mae *lotus* yn tarddu, ac yn nghwpan (*calix*) brydferth y blodeuyn hwn y mae Brahmâ i'w weled yn eistedd, ac yn barod i gyflawni gwaith y greadigaeth.—*Sonnerat, Voy. aux Indes*, cyf. i. td 171; *Dubois*, td. 368; *Creuzer*, cyf. i. td. 178.

[2] Fel aderyn naturiol, math o grëyr mawr ydyw y *garuda*. Gwel *Haughton's Bengali Dictionary*, td. 2850.

[3] Gwel hefyd y nodyn, tudalen 468 ar hyn.

[4] Tardda enw y duw hwn o *kâma*, "dymuniad;" a *deva*, "duw;" ac enw ei wraig, *Rati*, o'r ferf, *ram*, "chwareu, neu roddi pleser" [*Ward*, cyf. iii. td. 178]. Yn ol Syr William Jones, mab *Mâyâ*, neu "y gallu attynol cyffredin," ydyw Kâmadeva; ac arwydda yr enw *Rati*, serch. —*Ward*, cyf. xiii. td. 236].

[5] Mab *Dusrath*, a anwyd yn Oudh, a thrawsnewidiad, neu ymgnawdoliad ar Vishnw, a ddaeth i lawr i ladd y cawr Rawan, brenin Ceylon, gan yr hwn yr oedd deg pen, ac ugain o freichiau. Priododd Râm a *Sectâ*, ac addolir y ddau ynghyd o dan yr enw *Seetâe=Râm*

Digitized by Google

phriodoleddau i Bhavâni yr Indiaid, yr hon a gynnrychiolir gan yr un anifail. Bhavâni a addolir, mewn gwirionedd, ac nid y fuwch, er fod sel y cenhadon wedi peri iddynt gamfarnu am hyn; o blegid yn y seremoni fe'i gelwir yn "fam y duwiau." A phrofir hyn gan natur yr holl seremoni. Yn yr adeilad lle y cedwir y gwartheg, gosodir cwpan yn llawn dwfr i fyny, ac o flaen y gwpan hon adroddir gweddïau. Ar derfyniad y gwasanaeth, y mae y Brahmin gweinidogaethol yn darllen y *Chandi*—pryddest lle y traethir am ryfeloedd Bhavâni. Ar achlysuron ereill, teflir blodau at draed y fuwch, a gosodir gwelltglas ffres o'i blaen; a chan ei chyfarch fel ffurf y dduwies, dywed yr addolydd:—"Bwyta, O Bhavâni!" Yn mis Phâgwn, y mae y llaethwyr yn lliwio cyrn eu gwartheg yn felyn, ac yn eu trochi yn yr afon [*Ward*, cyf. iii. td. 196; *Jablonski*, cyf. i. td. 6]. Gosodir anrhydedd dwyfol ar y tarw, fel ymgnawdoliad enaid Brahmin [*Buchanan*, cyf. iii. td. 253-391]. Ystyrir *Hânwmân*,[1] y duw-fwngci, a ennillodd Ceylon i Râm, yn *âvâtâr* o eiddo Shiva. Ystyrir y mwngci, o ganlyniad, yn gyssegredig. Mewn rhai manau o Benares, medd yr esgob Heber, y mae y creaduriaid hyn yn lliosog, ac i'w gweled "yn hongian wrth döau ac ysgwyddau bychain muriau y temlau, gan wthio eu penau a'u dwylaw yn ddigywilydd i bob siop ffrwythau a melusion, ac yn cipio ymborth y plant pan yn bwyta eu prydau."—*Heber's Narrative*, &c., cyf. i. td. 373.

Y mae gan Shiva farch-gi sydd yn cyfranu o'i urddas. Addolir Bhavâni weithiau dan gynnrychioliad gwas y llew (*jackal*), ac hefyd dan y ffurf o eryr Coromandel, i'r hwn y mae yr Hindwaid bob amser yn ymgrymu, pan el heibio iddynt. Addolir Vishnw dan y ffurf o bysgodyn. Nadroedd, hefyd, fel arwyddluniau o'r egwyddor ddinystriol—lleddfir eu cynddaredd hwy drwy seremonïau cyssegredig. Y mae yr ofergoeledd hwn, mewn cyssylltiad âg anifeiliaid direswm, wedi ymaflyd i'r fath raddau yn yr Hindwaid, fel y mae ysbytty wedi ei adeiladu i anifeiliaid afiach ac analluog, ac i wybed, chwain, trychfilod, &c., er nad yw yn ymddangos eu bod, fel y dywed rhai teithwyr, yn porthi y creaduriaid hyn ar gig cardotwyr a gyflogir i gartrefu yn yr ysbytty, i'r dyben hwnw. Y mae ysbytty o'r fath i'w weled yn Broach, yn Guzerat, yn yr hwn y mae mwngcïau, paenod, ceffylau, cwn, cathod, a blychau bychain yn llawn gwybed a chwain. Y mae amryw goed yn cael eu haddoli gan yr Hindwaid hefyd fel ffurfiau ar dduwiau neillduol. Gwneir hyn gan y gwragedd yn enwedig, y rhai sydd yn ei hystyried yn rhinwedd arbenig i ddyfrhau eu gwreiddiau yn ystod y misoedd poethion [*Works of Sir W. Jones*, cyf. ix. td. 388—390; *Forbes Orient. Mem.*, cyf. ii. td. 360]. Ystyrir llyfrau yn bethau dwyfol; ac felly mathau o geryg callestr hefyd, a elwir *sâlagrâma*, y rhai ydynt i'w cael yn nghymmydogaeth yr afon Gundhak.

Ond yn mhlith gwrthddrychau addoliad yr Hindwaid, y mae afonydd bob amser wedi llenwi sefyllfa bwysig. Gwyddys fod y Nilus wedi ei hystyried erioed gan breswylwyr gorllewinbarth Affrica fel peth dwyfol, er fod ei hanrhydeddiad, yn bresennol, yn gynnwysedig mewn seremonïau a gyflawnir wrth ei tharddle gan un offeiriad yn unig. Y mae y Ganges, fodd bynag, yn gystal ag ereill o afonydd mawrion India, yn cael eu hystyried hyd heddyw fel rhai o brif dduwiau y dwyrain. Dangosir y Ganges, neu yn hytrach y dduwies (*nymph*) Ganga, yr hon a elwir yn ferch Mynydd Himavat, fel gwraig wen, yn eistedd ar y crocodil, yr hwn a elwir *makar*, gyda dwfr-lili yn ei llaw dde, a dwsmel (*lute*) yn ei chwith. Y mae pob llwyth a dosbarth yn talu addoliad i Ganga. Dewisant lanau yr afon hon i addoli o flaen pob man arall; ac yma, ar ddyddiau pennodol o oedran y lleuad, ymdrochant a chyflwynant eu haddunedau a'u gweddïau i'w duwiau. Ar yr achlysuron hyn, gwneir offrymau o ffrwythau, blodau, reis, a melusion, a chrogir blodau-blethau ar draws yr afon. Aberthid plant bychain gynt drwy eu taflu i grocodiliaid cyssegredig y Ganges,[2] hyd nes y gwaharddwyd yr arferedig gan y llywodraeth Brydeinig. Mae llawer yn boddi eu hunain yn flynyddol yn nghyssylltiadau yr afon hon, ac afonydd cyssegredig ereill; tra y mae llawer ereill yn tori ymaith eu penau yn aberth i'r Ganges. Tra yn eistedd o flaen drws ei dŷ, medd Ward, fe wêl yr Hindw dyrfaoedd mawrion yn myned heibio yn ddyddiol at yr afon hon; a "phan ddêl i'w golwg, fe gyfyd pob un ei ddwylaw arni, mewn dull o addoliad. Ant i lawr iddi, a chan fyned drwy amryw seremonïau manwl, y maent yn cyflawni eu haberthau, ac yn ymdrechu am lanhâd oddi wrth y llygredd a'i dilynai, oni bae hyny, i'r ail sefyllfa. Ar achlysuron neillduol, gydag un cipolwg, gwel filoedd ar unwaith yn nghanol yr afon gyssegredig, mewn agwedd addoliadol, wirioneddol, a dyfnddwys, gan aros am yr adeg ymlanhaol—arwydd y Brahmin iddynt suddo i'r dwfr. Gwel hefyd, yn fynych, rai ereill yn yr agwedd fwyaf ymbiliol, yn gweini ar berthynas sydd yn marw; a chan ddefnyddio dwfr a chlai yr afon gyssegredig hon, yn cyflawni arno ddefodau a ystyrir ganddo ef o'r fath bwysicaf fel ymbarotoad gogyfer â'r sefyllfa nesaf o fodolaeth. Wedi marwolaeth y person, y mae yr Hindw yn sylwi ar y perthynasau a nodwyd, y rhai, wedi llosgi y corph, sydd yn gwneyd ffos oddi wrth y pentwr llosgedig at yr afon, i'r hon y golchant ludw y corph sydd newydd ei ddifa, fel y gallo ymgymmysgu â'r dwfr puredigaethol. Bryd arall, fe wel rywun yn cludo asgwrn, rhan o gorph perthynas a fu mor anffodus a marw yn mhell oddi wrth y Ganges; ac er buddioldeb y marw, fe deifl ei asgwrn i'r afon. Y mae ereill yn myned heibio iddo gan ddwyn dyfroedd y Ganges mewn llestri ar eu hysgwyddau, am gannoedd o filldiroedd, fel y gallont gyflawni â hwy ddefodau sydd yn gyssylltiedig, fel y tybiant hwy, â'u lles penaf. Y mae yr ystorïau a glywir ganddo yn mhlith ei deulu, neu yn mysg plant a dynion y mae yn cymdeithasu â hwynt, yn cynnwys cyfeiriadau parhaus at alluoedd gwyrthiol yr afon hon; a chyda'r gweddill o'i gydwladwyr, y mae yn disgyn i lawr ac yn talu addoliad i dduwies ag y mae ei dyfroedd yn adfywio y byw, ac yn dwyn y marw i sefyllfa o ddedwyddwch."—*Ward*, cyf. i. rhagdraith, td. xxxi, xxxii.

Y mae gwneyd iawn am bechod drwy benyd yn un o brif athrawiaethau y Brahminiaid. Mae y penydiau yn gynnwysedig mewn ymprydiau, ymostyngiadau, gwyliadwriaethau, a blinderau

[1] Cadfridog byddin o fwngcïau, gyda'r rhai y cymmerwyd Ceylon gan Râm.

[2] Sef yn Allâhâbâd, "dinas duw," lle y mae y Ganges a'r Jumna yn cyfarfod. Dywed y Brahminiaid fod afon arall o'r enw Sarswti yn cyfarfod y ddwy hyn. Afon danddaearol ydyw yr afon hon, meddant; a dywedant fod y tair afon yn arddangos y tri duw, Brahma, Vishnw, a Shiva—yr oll o ba rai sydd yn ymdoddi yn un yn Brahma. Gelwir y lle hwn Triveni—tri dwfr.

Digitized by Google

corphorol ereill. "Os bydd Brahminiad," medd Menu, "wedi lladd dyn o'r dosbarth offeiriadol, yn ddifalais, rhaid iddo wneyd bwthyn yn y goedwig, a phreswylio ynddo ddeuddeng mlynedd llawn, gan ymgynnal ar roddion, er puredigaeth ei enaid. Os bydd yr hwn a laddo yn frenin, gall wneyd aberthau, gyda rhoddion o werth mawr; os bydd person cytoethog wedi cyflawni y pechod hwn, gall roddi ei holl feddiannau i ryw Frahmin dysgedig yn y Ved." Mewn rhai amgylchiadau, y mae y penyd yn gynnwysedig mewn bwyta peth sydd yn afian a llygredig. Os bydd i Frahmin ladd cath, neu *ichneumon*, neu yr aderyn *chisha*, neu lyffant, neu gi, neu lysard, neu ddylluan, neu frân, a hyny yn fwriadol, rhaid iddo gyflawni y penyd angenrheidiol am ladd Sudra. Y mae dosbarth neillduol o'r Hindwaid a elwir Fakiriaid, yn amlygu eu duwioldeb drwy ddioddef yn wirfoddol y poenydiau mwyaf chwerw. Y mae Heber yn disgrifio, gyda'i allu arferol, ymddangosiad y bobl hyn ar ei fynediad i'r ddinas sanctaidd Benares :—"Y mae tai y Fakiriaid i'w cael yn mhob congl o honi, wedi eu haddurno â delwau; ac allan o honynt, yn ddiddiwedd, deuai seiniau a thingciadau vinai, bialau, ac offerynau ansoniarus ereill; tra yr oedd crefyddwyr Hindwaidd o bob sect yn llythyrenol yn gorchuddio yr ystrydoedd, ac yn gwisgo pob math o ymddangosiad y gallai *chalk*, tail gwartheg, doluriau, gwallt a barfau ymddyrysedig (*matted*), aelodau anffurfiedig, ac agweddau dirmygus a dychrynllyd o benyd, ei gynnyrchu. "Yma," chwanega, "gwelais lawer o esamplau o'r penyd hwnw y clywais gymmaint am dano yn Ewrop—dynion gyda'u coesau a'u breichiau wedi eu dadgymmalu a'u croesgamu yn wirfoddol, y rhai a gedwir yn yr un sefyllfa; a'u dwylaw cauedig wedi eu gwasgu, nes yr oedd yr ewinedd yn gweithio allan drwy eu cefnau." Y mae y poenydiau a ddioddefir gan y penboethiaid hyn yn anghredadwy. Disgrifia Fraser benydiwr a welodd yn eistedd rhwng dau dân, mewn gŵyl gyhoeddus. Wedi eistedd ar esgynlawr pedwaronglog nes i'r haul gyrhaedd pwynt pur boeth, fe safodd ar un goes, gan edrych yn sefydlog ar ei belydrau llosgedig, tra yr oedd tânau digon gwresog i rostio eidion yn llosgi o'i amgylch—y penydiwr, yr un pryd, yn cyfrif ei gleiniau, ac weithiau yn taflu chwaneg o danwydd. Safodd ar ei ben rhwng y tanau hyn am dair awr; ac yna, gan eistedd, â'i goesau yn nghroes, fe barhaodd dan wres difaol yr haul a'r tânau hyd derfyn y dydd" [*Mill's History of British India*, cyf. i. td. 353]. Cyflawnir defodau creulawn a gwaedlyd ereill gan addolwyr Shiva a'i wraig, Kali. Yn un o wyliau y dduwies hon, gwelodd Heber un dyn gyda bachau wedi eu gwthio drwy ewynau ei gefn, yr hyn a ddioddefai yn ddigyffro; a chan rwymo gwregys am ei wasg, rhag i'r bachau ymrwygo drwy y croen, gan bwysau ei gorph, sicrhawyd ef wrth bawl hir; ac yna, trwy gyfrwng pawl arall a osodasid yn y ddaiar, gosodwyd ef i hongian, ac i chwrlio yn yr awyr. Pan roddwyd arwydd i'w dynu i lawr, rhoddodd yntau arwydd iddynt fyned yn mlaen; yr hyn a dderbyniwyd gan yr edrychwyr anwybodus gyda bloeddiadau o gymmeradwyaeth. Gwelid penydwyr ereill yn myned oddi amgylch, gyda phicellau bychain drwy eu tafodau a'u breichiau, neu gyda haiarn poeth yn gwasgu eu hystlysau. Gwelodd Heber un arall yn hanner rhostio ei hun mewn gwirionedd, o flaen tân a gynneuasai mewn twll yn y ddaear. Gwelwyd un arall yn hopian ar un troed, wedi ymrwymo i beidio byth gwneyd un defnydd o'r goes arall, yr hon oedd bellach wedi cwtogi a chrebachu yn hollol. Yr oedd un arall wedi dal ei freichiau yn syth i fyny, fel yr oedd yn hollol analluog i'w tynu i lawr at ei ystlysau. Gwelir rhai wedi eu claddu hyd eu gyddfau, neu yn is, yn y ddaear, heb ddim ond twll bychan wedi ei adael i anadlu. Y mae rhai yn gorwedd ar welyau o bicellau heiyrn; neu yn rhwygo eu cnawd â phicellau; neu yn cadwyno eu hunain am eu hoes wrth foncyff pren; neu yn sefyll am flynyddoedd, nes y bydd eu coesau yn chwyddo, ac yn tori allan yn ddoluriau madruddawg, ac o'r diwedd yn myned yn rhy weiniaid i'w cynnal. Y mae ereill yn newynu eu cyrph allan drwy hir ymprydio; ac ereill yn syllu ar wyneb tanbaid yr haul nes myned yn ddeillion. Y mae y penydwyr hyn yn byw yn gwbl ar roddion; a sonia Buchanan am ddosbarth o honynt yn neheubarth Hindostan, oedd yn crwydro oddi amgylch, gyda chlychau wedi eu rhwymo wrth eu coesau a'u breichiau, i'r dyben o hysbysu eu presennoldeb ar eu dynesiad i'r pentrefydd [*Journey through Mysore, &c.*, cyf. i. td. 238]. Y maent bob amser yn noethion, ac yn aflan o'r fath aflanaf—wedi eu gorchuddio â thail gwartheg, a *chalk;* ac er y poenau a ddioddefant yn y cyhoedd, y maent yn ymfwynhau yn y dirgel gyda'r penrhyddid mwyaf anianol.—*Martin*, cyf. i. td. 291.

Yn mhlith defodau crefyddol ereill, y mae yr Hindwaid yn gwneyd llawer o deithiau pererinol; ac y mae y lleoedd sanctaidd y teithiant iddynt, yn gyffredin, yn agos i'r môr, tarddleoedd, a chyssylltiadau afonydd, penau mynyddoedd nodedig, ffrydiau poethion, ogofäau, rhaiadrau, a manau ereill sydd yn anhawdd neu beryglus i fyned drwyddynt. Ond y lleoedd mwyaf nodedig am bererinion yn India ydyw Gaya, Benaares, Prayâga, Juggutnath, Râmêswara, Gangâ-Sâgara, Ayodhya, a Haridwâra. Gaya ydyw prif ddinas tiriogaeth Bahar. Yn ol traddodiad Brahminaidd, derbyniodd y ddinas hon ei chyssegredigrwydd am mai yno y cafodd Vishnu fuddugoliaeth ar yr Asura Gaya. Ar y llaw arall, y mae y Buddhistiaid yn hòni mai genedigaeth a phresennoldeb eu prophwyd a'u sylfaenydd mawr hwy yn y lle a gyssylltodd y fath rinwedd a hyfrydwch âg ef. Ond pa beth bynag ydoedd yr achos gwreiddiol o'i gyssegredigrwydd, nid oes un Hindw uniongred yn ammheu effeithiolrwydd ei awyrgylch i symmud ymaith ei bechod. Y mae nifer y pererinion sydd yn ymweled â'r lle hwn yn flynyddol—yn myned yno â'u baich ar eu cefnau, fel Cristion Bunyan, ac yn dychwelyd oddi yno mewn llawenydd a hapusrwydd, wedi cael ymwared o'u llwyth—yn aruthrol; nid ydynt braidd byth yn llai na chan mil, ac weithiau, mewn blynyddoedd heddychol, y mae y nifer yn gymmaint arall. Y mae pob un o'r pererinion yn talu toll flynyddol i'r llywodraeth Brydeinig; ac yr oedd gwerth yr arian a dderbyniwyd fel hyn yn 1816, o ddeutu dau cant a deg ar hugain o filoedd o *rupees* (gwerth *rupee* ydyw o ddeutu 2s).

Ystyria y Brahminiaid nad ydyw Benares yn perthyn i unrhyw ran o'r ddaear yr ydym ni yn ei phreswylio; yr hon sydd yn gorphwys, meddant hwy, ar y neidr *Ananta*, neu "Tragwyddoldeb," gan yr hon y mae mil o benau. Ond gorwedda Benares ar flaen tridant Shiva. Ac o ganlyniad, dywedant nad oes byth ddaeargrynfäau yn y lle hwn. O'r ddinas hon y mae ffordd freiniol (*royal road*) i'r nefoedd. Mae preswylio am un foment o fewn ei therfynau yn ddigon i sicrhau iach

Digitized by Google

awdwriaeth. Gall hyd yn oed Prydeiniaid pesgedig, a ânt yno i dynu eu hanadliadau diweddaf, gael eu llwyr "ddyhysbyddu i Brahm;" ac ymddengys oddi wrth adroddiadau y Brahminiaid fod un Sais ofergoelus—â'i gydwybod, fe allai, wedi ei ddyrysu—yn falch o gael gwneyd defnydd o'r rhagorfraint a gyssylltwyd gan Shiva â'i hen breswylfa hoff. Pa fodd bynag, er mwyn gwneyd ei gadwedigaeth yn gwbl sicr, fe adawodd i'r Brahminiaid yn ei ewyllys swm o arian at godi teml ar ol ei farwolaeth.[1]—*Hamilton's Description*, &c., cyf. i. td. 307.

Yn mhlith y gwahanol wrthddrychau sydd yn peri fod Benares mor neillduol o sanctaidd, y mae delw y *Ling*—Shiva ei hun, wedi myned yn gareg, fe dybir! O anrhydedd iddo, y galluocaf o'r duwiau, y mae y rhai blaenaf o'r is-dduwiau (*demigods*), wedi cyfodi hefyd ddelw o'r *Ling* yn y ddinas hon, yr hon sydd yn cynnwys, fe ddywedir, o ddeutu miliwn o'r fath yma. Ddydd a nos, o ganlyniad, cyn belled ag y mae dylanwad Hindwaeth yn cyrhaedd, gellir gweled pererinion, gyda phenau eilliedig, yn teithio y ffyrdd llychlyd ar eu traed tua'r Ddinas Sanctaidd. Os teithia pererin mewn palancin, neu mewn cwch, y mae yn colli hanner lles ei bererindod.

Priâg, neu Allâhâbâd, ar gyssylltiad y Jumna â'r Ganges, sydd le arall nodedig fel cyrchfa pererinion. Y mae lluoedd o'r Hindwaid, o bob parth o'r wlad, yn dyfod yma i ymdrochi yn yr afon gyssegredig, lle y mae llawer yn aberthu eu bywyd o'u gwirfodd. Wedi cyrhaedd y lle gyntaf, y mae yn eistedd ar lan yr afon, ac yna yn achosi i'w ben a'i gorph gael eu heillio, yn y fath fodd fel ag i beri i bob blewyn ddisgyn i'r dwfr, o blegid fe'i dysgir yn eu hysgrifeniadau sanctaidd fod miliwn o flynyddoedd i gael eu mwynhau yn y nefoedd am bob blewyn a aberthir fel hyn. Wedi myned drwy y seremoni hon, y mae yn ymdrochi.

Nid oes nemawr o'n darllenwyr nad ydynt wedi clywed am Juggutnâth,[2] neu Juggernâth. Saif teml y duw hwn ar gyffiniau Orissa, ar wastadedd o dywod llosgedig; ac i'r rhai hyny sydd yn teithio ar hyd Bay Bengal, y mae yn ymddangos, yn y pellder, fel pigadail (*obelisk*) du anferth. Y mae wedi ei adeiladu o flociau dirfawr o wenithfaen, ac wedi ei ffurfio yn y fath fodd fel ag i gau allan bob gwreichionen o oleuni yr haul; ond goleuir yr adeilad â chant o lampau, y rhai a gedwir yn oleuedig bob amser o flaen yr eilun.

Y mae yr ei lun yn gyfansoddedig o bren du, yr hwn a adnewyddir bob tair blynedd, pryd y tynir allan esgyrn gwreiddiol Krishna o fol yr hen eilun, ac fe'i gosodir yn y newydd. Tra yn myned drwy yr oruchwyliaeth ofnadwy hon, y mae yr offeiriad Brahminaidd yn gorchuddio ei lygaid, rhag i'r olwg ar y gweddillion hynod hyn ei ysu fel mellt. Y mae arswyd o hyn yn peri fod yr addolwyr yn gyffredinol heb un awydd am weled esgyrn Krishna; ond dywedir fod un tywysog Hindwaidd (Kirti Chandra) wedi llwgrwobrwyo y Brahminiaid â dau *lac* o *rupees* (20,000 o bunnau), i'r dyben o gael golwg ar yr esgyrn hyn; a bu farw yn mhen chwe mis wedi hyny *am ei ryfyg* [*Ward*, cyf. iii. td. 349, nodiad]. Y mae lluoedd o enethod ieuaingc, neu ferched dawns, fel y gelwir hwy, yn preswylio o fewn y deml; ac er fod eilunaddoliaeth yn gyffredinol yn bleidiol i ddrygioni, y mae yn ei gymhell mewn modd gwrthun yn y lle hwn. Nid yw y merched hyn yn ddim amgen na phuteiniaid i'r Brahminiaid, a theflir hwy allan i drengu pan elont yn hen, os na bydd ganddynt ferched pryd-ferth i'w cynnal ar gyflog eu gwarthrudd.

Ond er mwyn disgrifio y lle hwn, byddai yn well i ni wneyd defnydd o eiriau un a'i gwelodd. "Gwyddem," medd Buchanan, "ein bod yn dynesu at Juggutnâth (er ein bod hanner can milldir oddi wrthi) oddi wrth yr esgyrn dynol a welsom er's dyddiau yn daenedig ar y ffordd. Yn y fan hon ymunwyd â ni gan amryw dyrfaoedd lliosog o bererinion, o ddeutu dwy fil mewn rhifedi, y rhai a ddaethant o amrywiol ranau o India. Dywed rhai y buom yn ymddiddan â hwynt eu bod yn cerdded er dau fis, gan deithio yn araf, yn y tymmor poethaf o'r flwyddyn, gyda'u gwragedd a'u plant. Y mae yn eu plith rai hen bobl sydd yn dymuno marw yn Juggutnâth. Y mae llawer o bererinion yn marw ar y ffordd; a gadewir eu cyrph yn gyffredin heb eu claddu. Ar wastadedd wrth yr afon, yn agos i letty (*caravansera*) y pererinion, mae mwy na chant o benglogau. Ymddengys fod y cwn, gweision y llewod, a'r fwlturod, yn bywyn y lle hwn ar gyrph dynol"—*Christian Researches*, td. 19.

Aeth y teithiwr synedig yn mlaen; wedi clafychu yn hollol eisoes ar yr olygfa a adawsai, ond gan ddisgwyl golygfeydd oedd yn fwy erchyll drachefn. Wedi cyrhaedd i olwg y deml, sylwa:—"Y mae llawer cwmni o bererinion wedi ein dilyn am rai dyddiau. Maent yn gorchuddio y ffordd, o'n blaen ac ar ein hol, cyn belled ag y cyrhaedda ein llygad. Naw o'r gloch y boreu heddyw, daeth teml Juggutnâth i'r golwg, mewn pellder mawr. Pan ddaeth y lluoedd i'w golwg gyntaf rhoddasant floedd anferth, ac yna disgynasant i lawr i addoli. Nid wyf wedi clywed dim heddyw ond trwst a bloeddiadau gwahanol dyrfaoedd o bererinion. O'r lle yr wyf yn awr yn sefyll, gwelaf leng, fel byddin, o bobl yn sefyll wrth borth allanol tref Juggutnâth; lle y mae gwarchodlu o filwyr (Prydeinig) yn eu hattal rhag myned i'r dref nes talu treth y pererin.[3] Daethym heibio i un pererin heddyw, yr hwn a orweddai i lawr bob cam, gan fesur y ffordd i Juggutnâth â hyd ei gorph, a hyny fel penyd i foddio yr eilun" [*Christian Researches*, td. 20].

Fel y dynesai at y porth, ymddangosai llu anferth y pererinion—wrth gyfarfod fel miloedd o ffrydiau yn y ffordd fawr sydd yn arwain i'r ddinas—fel afon fyw, fawreddog, yn ymdreiglo yn mlaen, fel heb allu i ddychwelyd. Ymddangosai fod rhyw fwriad dirgelaidd wedi meddiannu y cyfan. Mor fuan ag y gwelsant Ewropiad yn eu plith, dyrchafasant floedd fyddarol, ond nid bloedd fygythiol nac anfoddog. Y funyd y gwelsant eu cyd-deithiwr, meddiannwyd y creaduriaid truenus gan benderfyniad i geisio ymwthio i mewn yn ei yscil heb dalu y dreth. Hysbyswyd ef o'i berygl gan hen ŵr, ond yr oedd yn rhy ddiweddar; yr oedd y mob mewn gweithrediad, a chyda bloedd aruthrol ymwasgasant tua'r porth. Gan weled ei berygl, fe agorodd y gwyliwr oddi mewn y porth, a chludwyd ef gyda'r llifeiriant i Juggutnâth. Yr oedd yr ymdrech am fynediad yn awr

[1] Ward, y mae yn debyg, ydoedd awdurdod Hamilton. Dywed ef:—"Yr wyf yn peidio enwi fy nghydwladwr rhag cywilydd."—*Ward*, cyf. iii. td. 347.

[2] *Juggut*, "byd," a *nâth*, "arglwydd"—arglwydd y byd.

[3] Yr oedd cyssylltiad ein llywodraeth â theml Juggutnâth yn warth mawr arni. Ond ni ofynir "treth y pererin" bellach, ac y mae hunanladdiad y trueiniaid paganaidd, drwy osod eu hunain dan olwynion cerbyd Juggutnâth, erbyn hyn yn bur achlysurol, ac o drugaredd, yn groes i'r gyfraith.

Digitized by Google

pererinion yn dyfod yma ydyw ymdrochi yn nyfroedd yr afon gyssegredig.

ATHRONIAETH HINDWAETH.[1]

Defnyddir y gair *athroniaeth* weithiau mewn ystyr cyfyng, ac weithiau mewn ystyr eang. Yn yr ystyr blaenaf, dynoda ddosraniad cynneddfau a gweithrediadau y meddwl; esbonia berthynasau y cynneddfau meddyliol, a pherthynas yr oll o honynt â gwrthddrychau y synwyrau; ac olrheinia ddeddfau yr holl weithrediadau meddyliol, yn eu perthynas â'r meddwl ei hun, ac â gwrthddrychau oddi allan iddo ei hun. Yn ei ystyr eang, golyga y gair *athroniaeth* ymchwiliad y meddwl i natur, sylweddau, priodoleddau, deddfau, a pherthynasau yr oll a fodola; pa un bynag ai fel mater neu ysbryd—fel Duw neu ddyn, neu wrthddrychau defnyddiol creadigaeth. Athroniaeth, yn yr ystyr olaf hyn, sydd gyfystyr âg athrawiaeth *bodaeth*. Yn y golygiad hwn yn unig y defnyddir y gair *athroniaeth*—mewn cyfeiriad at yr ysgrifeniadau Hindwaidd.

Er fod y gair a ddefnyddir gan ysgrifenwyr hynafol India er dynodi yr ystyr hyn yn llawn cystal, efallai, a'r gair *philosophi*; etto, mae yn rhaid addef y byddai y gair Indiaidd *darshana* —neu *dorshon*, fel y seinir ef yn gyffredin—yn arwyddo *arddangosiad*, yn ddigon ammhriodol pe defnyddid ef, fel y defnyddir y gair *philosophi* weithiau, er dynodi ymchwiliad i gynachosion pob ymddangosiad, pa un bynag ai mewn cyssylltiad âg ysbryd neu â defnydd; brydiau ereill, er arwyddo cydgasgliad o nifer o egwyddorion neu ddeddfau, er egluro rhyw gyfres o effeithiau, neu ryw gangen o wybodaeth; a phrydiau ereill, cyfanswm holl gyfundraethau gwybodaeth ddynol. Pa fodd bynag, cymmerir y gair *athroniaeth* yma fel yn gyfystyr â'r gair *arddangosiad* yn ei ystyr Hindwaidd. Tybid yn angenrheidiol dywedyd cymmaint a hyn er gochelyd aneglurdeb yn yr hyn a ganlyn.

Diben yr holl ysgrifenwyr Hindwaidd yn eu holl ymchwiliadau athronyddol, fel y dywedent hwy eu hunain, ydoedd egluro cynachosion, deddfau, priodoleddau, a pherthynasau *bodaeth* (*ontology*) a *gwybodaeth* (*gnosiology*), gan gynnwys Duw yn gystal a chreadigaeth bob amser, o fewn cylch eu hymchwiliadau. Rhaid iddynt yn wastad ymdrin âg egwyddorion a deddfau duwinyddiaeth, defnyddiaeth (*physics*), ac arddansoddiaeth, yn nghronfa eu "harddangosiad." A chan fod perthynasau a chyssylltiadau y tair cangen hyn yn anattodadwy, ac i raddau helaeth yn anwahanadwy, efallai y dylid caniatau fod y dull hwn o ymdrin a hwy yn llawn mor syml a naturiol a'r cynllun o'u gwahaniaethu yn ddosbarthiadau anghyssylltiadol.

Pob carwr gwybodaeth a ddymunai, yn ddiddadl, fod yn gydnabyddus â chynnyrchion y meddwl dynol mewn gwlad mor eang ag India; pa un, yn ddaearyddol, sydd mor agos i gryd dynoliaeth—pa un, yn genhedlaethol, a dyf ar ei boncyff ei hun o'r oesoedd cynhanesiol hyd yn bresennol; a'r hon mewn ystyr feddyliol, a ffurfiodd olygiadau, ac a gynlluniodd gyfundraethau meddyliol holl genhedloedd de-ddwyrain Asia, o'r môr Caspiaidd hyd Japan. Holl ddysgyblion Buddha, yn gystal a'r eiddo Brahma, a olygant, a addefant, ac a barchant India, fel cynorsaf eu cred, eu gwybodaeth, a'u gogoniant. Er y cwsg cywreinrwydd yn meddwl dyn, hyd yn oed Cristion myfyrgar ac athrongar, pan sonir am yr Hottentot, y Caffir, ac hyd yn oed yr Arab, bydd yn llawn effro ar unwaith pan ddygir y meddwl i gyffyrddiad âg athrylith Groeg, neu âg aflonyddwch meddyliol diderfyn miliynau Hindwstan.

Pa beth a feddyliai poblogaethau cyntefig India ynghylch Duw, dyn, a natur? Pa ffurf a gymmerai meddwl dyn yn ei ymchwiliadau i'r dyrys-byngciau hyn, pan addysgai Moses ac y canai Dafydd? Pa rai o gynddeddfau rhesymeg, o gynseiliau athroniaeth feddyliol, ac o nodweddion ysbrydiaeth (*psychology*), a ddeallid yn y cynoesoedd hyny? Pa nifer o ddeddfau ac o elfenau natur a ddygid i arferiad y pryd hyny er cynnyddu cyfanswm gwybodaeth yr hil? Ymofyniadau o'r fath a gyfodant yn naturiol yn meddwl unrhyw Gristion dwfn-feddwl, myfyrgar, ac ymchwilgar; a'i gywreinrwydd nis boddlonir hyd oni chyrhaeddo ddigon o amneidiau er ei alluogi i ddyfalu pa gyfeiriad a gymmerai meddyliau effro a grymus yn mysg y fath bentyrau anferthol o'i hil ei hun. Ac nid hyny ydyw yr oll a ddymunai efe wybod. Daw yr amneidiau gwasgaredig ynghylch ffurfiau crefyddol, gwladlywyddol, a chymdeithasol, y dynion boreuol hyny, hefyd o fewn cylch ei ymchwiliad. Ymgais, hyd y mae yn bossibl, i drosglwyddo ei hun i gymdeithas y meddylwyr cyntefig hyny, er deall eu dull o gredu, o fyw, o weithredu, ac o ymchwilio; ac nid porthi chwilfrydedd chwaith ydyw unig ysgogydd, nac unig gynnyrch, y fath gywreinrwydd. Dyledswydd a defnyddioldeb a gydredant law yn llaw gyda'r chwilfrydedd hwn. Dichon yr esgor ar ddyfodol annisgrifiadwy yn y presennol.

*Athroniaeth Hindwaidd.*—Er mwyn eglurdeb, gallai y dosraniad canlynol fod yn fanteisiol:—

1af, Nifer a threfn cyfodiad amseryddol cyfundraethau athronol yr Hindwaid.

2il, Yr egwyddorion a'r golygiadau, pa rai a redant trwy yr holl gyfundraethau ag ydynt gyffredin iddynt oll; neu, mewn geiriau ereill, hynodion cyffredinol athroniaeth India.

3ydd, Neillduolion y cyfundraethau, neu y golygiadau arbenigol, o herwydd pa rai y rhenir golygiadau athronol yr Hindwaid yn dair cangen wahaniaethol.

4ydd. Cyfeiliornadau sylfaenol y cyfundraethau oll; fel yr ymddangosant yn nullwedd rhesymeg a chasgliadau yr ymchwilwyr.

O ran nifer cyfundraethau athronol India, nid oes un lle wedi ei adael i'w ammheu. Y frawddeg boblogaidd "*Shad Darshan*," neu y *chwech arddangosiad*, a benderfyna y mater. Yn nulleiriad y gorllewin, gelwid y "chwech arddangosiad" hyn, yn chwech *ysgol athronol.* Etto, prif ddysgedigion India, yn gyffredin, a olygant y "chwech arddangosiad" hyn, fel yn cyfansoddi tair cyfundraeth wahaniaethol yn unig, gan gyfrif,

Y Nyaya Sutra, gan Gontom; a'r Vaisheshaka, gan Konada, fel yn cyfansoddi cyfundraeth y *Nyaya.*

Y Sankhya Sutra, gan Kopila; a'r Yoga Sutra, gan Patanjoli; fel yn gynnwysedig yn nghyfundraeth y *Sankhya.*

A'r Purva Mimansa, gan Joimini; a'r Uttara

[1] Os gwel rhai o'n darllenwyr ychydig o wahaniaeth rhwng y rhan ganlynol a'r rhan flaenorol o'r ysgrif hon, yr ydym yn hysbysu fod y rhan gyntaf wedi ei ysgrifenu o'r llyfrau goreu sydd yn y Saesoneg; ond y mae y rhan ddiweddaf wedi ei ysgrifenu gan y Parch. W. Pryse, cenhadwr y Methodistiaid Calfinaidd yn India, yr hwn oedd mor alluog a neb i ysgrifenu ar y testyn hwn. Yr oedd ei orchwylion cenhadol yn peri nad allai ysgrifenu yr erthygl i gyd.

Mimansa, neu y Vedanta; gan Vyasa, fel yn gwneyd i fyny y *Vedanta*.

Felly y tair cyfundraeth athronol ydynt, y *Nyaya*, y *Sankhya*, a'r *Vedanta*. Ac yn ol y dosbarthiad hwn yr ymdrinir â hwynt yma.

Os ydyw yn hawdd penderfynu eu *nifer*, y mae eu *hamseryddiad* a threfn eu cyfodiad yn faterion tra dyryslyd. Ni fedd y llyfrau Hindwaidd ddyddiad. Personoliadau Plato ac Aristotle a led-arwyddant yr oes yr ysgrifenent; ond o blegid fod haneswyr yn gyfochrog âg athronwyr India hynafol, ni chynnyrchodd hi haneswyr. Natur y ddysgeidiaeth, a ffurf a geirweddiad y cyfansoddiadau athronol, ydynt y prif, a bron yr unig ddefnyddiau cyrhaeddadwy er ffurfio unrhyw olygiad rhesymol ar amseryddiad y traethodau.

Prif elfenau eu hamseryddiad, hwyrach, ydynt y canlynol:—

Y mae yn eglur ddigon fod y Vedan yn hen, yn barchus, ac yn cael ei hystyried yn awdurdodedig a dwyfol, pan ysgrifenwyd pob un o'r traethodau athronol; o blegid fel y cyfryw y cyfeirir atynt gan y chwech ysgrifenydd. Etto, rhaid addef fod cryn lawer o wahaniaeth yn ngraddau y parch a ddangosir iddynt gan y gwahanol athronwyr. Er enghraifft, er y sonia Gontom a Konad, Kopil a Patanjoli, gyda pharch am y Vedan, etto gwada rhai o honynt ei dwyfol darddiad mewn geiriau eglur; a gesyd yr oll o honynt reswm a rhesymeg uwchlaw awdurdod y Vedan; tra y gesyd Joimini a Vyas eiriau y Vedan yn uwchafol, yn benderfynol, a dwyfol. Rhaid i reswm a synwyr cyffredin fod yn fud, ac ymguddio, pan lefarir unrhyw wers yn y Vedan.

Y mae yn amlwg hefyd fod defodau a seremoniau lliosog a manwl y Vedan wedi dyfod yn feichus i gymdeithas—gwedi crebychu a gwanychu y meddwl Brahminaidd, trwy ei gaethiwo oddi mewn i gylch y seremoniau allanol a dyddiol, nes nad oedd nemawr o wahaniaeth, o ran gwrteithiad meddwl a gwybodaeth, rhwng Brahman a Sudra, cyn i'r chwyldroad meddyliol, yr hwn a gynnyrchodd y traethodau athronol, gymmeryd lle.

Drachefn, y mae yn eglur fod meddyliau rhyw bersonau neu bleidiau o gryn ddylanwad cymdeithasol wedi tori allan mewn gwrthryfel yn erbyn caethiwed meddyliol gwasaidd y seremoniau Vedaidd; ac wedi ymosod ar awdurdod y Vedan, y Brahmin, a'r oll o'r grefydd Frahminaidd; a chynnyg sefydlu gwybodaeth ac ymchwiliadau athronyddol fel prif, os nid unig, foddion iachawdwriaeth i ddyn. Prawf y traethodau athronyddol eu hunain mai dysgyblion Buddha neu Sakya Sinha—tywysog ieuangc o waed brenhinol Hindwaidd pur, Ikshwaku—oedd sylfaenydd y grefydd a'r gred newydd wrth-Frahminaidd hon. Rhyddid i feddyliau wedi eu dal cyhyd mewn caethiwed gwasaidd, yn cael ei gyhoeddi felly yn mynwes cymdeithas, gyda dylanwad tywysog o'i du, ydoedd brofedigaeth rhy gref i feddyliau Brahmin ieuangc. Llithiwyd lluoedd o honynt o'r caethiwed Vedaidd i ffydd newydd yr "Hetu Sastra," neu *Ysgrythyrau rheswm*, fel y gelwid y grefydd newydd. Ymgynnhyrfodd meddwl, a deffrodd ymchwiliad trwy yr holl wersyll Brahminaidd; a dechreuodd anghydfod yn gyntaf mewn dadleu, yn olaf mewn arfau—pa un a barhaodd am bymtheg canrif.

Dechreuodd y chwyldroad meddyliol hwn yn rhywle tua chanol y bummed ganrif cyn Crist. Yr Athraw Lasseu[1] a rydd brofion, agos y tu hwnt i ammheuaeth, i farwolaeth Sakya Sinha, sylfaenydd crefydd Buddha, ddygwydd tua'r flwyddyn 554 neu 543 c. c.

Dygwyd Brahminiaeth i berygl oddi wrth grefydd Buddha. Cyfododd yr athronwyr y naill ar ol y llall, er ceisio gwaredu Hindwaeth heb ail gaethiwo meddwl a rheswm. Ar y naill law, defnyddient gyda chryn fedrusrwydd arfau rhesymegol canlynwyr Buddha; ar y llaw arall, dalient yn dŷn dros ragoriaeth y Brahman, ac awdurdod y Vedan. Eithr gan fod yn ammhossibl cymmodi dysgeidiaeth rheswm âg awdurdod y Vedan, mewn llawer amgylchiad, creai yr ammhossibilrwydd hwn anghydfod a gwrthddywediad rhwng sylfaenwyr y cyfundraethau athronol. O'r chwech ysgrifenwyr sylfaenol, ochrai dau—Joimini a Vyas—yn wastad gyda'r Vedan, gan aberthu rheswm. A phedwar—Gontom, Konad, Kopil, a Patanjoli—a ochrent gyda llais rheswm, ar draul y Vedan, pan y byddai raid; er y proffesent addef awdurdod y Vedan. O herwydd hyn, golygir y ddau flaenaf yn uniawngred gan bawb, tra yr edrych y Brahmin gyda chryn ddrwgdybiaeth ar y pedwar olaf; ac yn enwedig ar y ddau olaf a enwyd. Gellid gyda mantais gymmharu y chwyldroad meddyliol hwn gyda hanes Ewrop yn nghyfnod canrif gyntaf y Diwygiad Protestanaidd.

Oddi wrth yr hyn a ddywedwyd, gwelir yr ystyrir y pedair canrif ddiweddaf cyn Crist fel cyfnod cyfodiad y cyfundraethau athronol yn India; yr hwn a ymestyn, hwyrach, i'r bedwaredd ganrif ar ol Crist.

Y mae rhai rhesymau o natur fewnol ac amgylchiadol dros fabwysiadu y canlynol fel trefn amseryddol eu cyfodiad:—

| | |
|---|---|
| Y Nyaya. | 1. Y Nyaya Sutra, gan Gontom. |
| | 2. Y Vaiseshaka Sutra, gan Konad. |
| Y Sankhya. | 3. Y Sankhya Sutra, gan Kopil. |
| | 4. Y Yoga Sutra, gan Patanjoli. |
| Y Vedanta. | 5. Y Purva Mimansa, gan Joimini. |
| | 6. Yr Uttara Mimansa, gan Vyas. |

Ymddengys amryw o nodweddion yn llyfr Gontom yn rhoddi iddo hawl i sefyll ar ben y rhestr o draethodau athronol, yn gystal o ran amseriad ag o ran rhagoriaeth ei gynnwysiad. Traethawd ar resymeg eiriol ydyw o ran ymddangosiad; etto, ymdrinir âg agos holl athrawiaethau bodaeth yn nghylch ei ymchwiliad. Ei gyfres o sylweddau ac ansoddau, a'i reolau rhesymegol, a feddant lawer o debygolrwydd i'r eiddo Aristotle. Ymgais i gyssoni casgliadau rhesymeg ac awdurdod ddadguddiadol y Vedan, ac ymddengys yn ddigon eglur yn ei draethawd. Egluriadol, yn hytrach na dadleuol ydyw; yr hyn a arwain i'r casgliad y rhagflaenai y traethodau athronol dadleuol.

Traethawd Konad sydd eglurhâd o, a helaethiad ar, yr eiddo Gontom. Tra yr ymdrinia yr olaf yn benaf â rheolau rhesymeg, ymdrinia y blaenaf yn benaf âg athrawiaeth y mân ronynau tragwyddol, a'r sylweddau—pa rai a ddeilliant o honynt.

Yn y Sankhya [Sutra 25ain], crybwylla Kopil am draethodau Gontom a Konad, wrth eu henwau, fel yn adnabyddus iddo ef pan ysgrifenodd—"nid ydym ni o'r rhai a ddaliant ryw chwech cyfres, fel y Vaiseshaka ac ereill." Un o ddibenion Patanjoli, fel y proffesa, ydoedd gwaredu Kopil rhag y cyhuddiad o atheistiaeth. Felly

1 Gwel ei gymmhariaeth rhwng amseryddiaeth dysgyblion Buddha yn y gogledd a'r dehau, yn ei Indische Alterthumskunde.

Digitized by Google

nid oes le i ammheu na chyfododd cyfundraeth y Sankhya ar ol y Nyaya o ran amser.

Pa bryd y cyhoeddwyd y *Mimansa* blaenaf ac olaf sydd yn fwy ansicr. Myn traddodiad mai dysgybl Vyas ydoedd Joimini. Etto, y mae yn eglur ddigon oddi wrth y traethodau, fod yr eiddo y dysgybl wedi ei gyhoeddi o flaen yr eiddo ei athraw. Diben y ddau draethawd, fel yr ymddengys, ydoedd adsefydlu awdurdod y Vedau yn meddwl cymdeithas. A chan fod y pedwar athronydd blaenorol wedi ymosod, i raddau mwy neu lai, ar awdurdod y Vedau—a'r ddau olaf wedi ysgrifenu i'w amddiffyn yn benaf—yn absennoldeb unrhyw elfenau amseryddol, ymddengys yn fwyaf naturiol i roddi y lle olaf yn y rhestr i'r Vedanta.

Felly yr amseryddiad a fabwysiedir yma yw, i'r cyfundraethau oll gyfodi rhwng y bummed ganrif cyn Crist, a'r ail neu y drydedd ganrif wedi Crist. Ac os ydyw yr amseriad hwn yn gywir, canfyddir eu bod yn gyfoesol â chyfundraethau Groeg a Rhufain.

ADRAN YR AIL.

*Golygiadau cyffredin i'r holl gyfundraethau.*

1. Meddwl (*manas*), sydd synwyr corphorol, ac nid cynneddf neu allu meddyliol, yn mhob un o'r cyfundraethau. Synwyr (*organ*) du fewnol ydyw meddwl, er derbyn argraphiadau y synwyrau allanol, a'u trosglwyddo i'r enaid; ac er galluogi yr enaid i ddeall, teimlo, a gweithredu.

Dysgir ni yn y *Nyaya* mai synwyr mewnol ydyw *manas*, o natur ronynol (*atomic*), trwy ba un y derbynia yr enaid ei wybodaeth o wrthddrychau [gwel *Nyaya Dorshon*, 47—49]. Profir mai gronyn ydyw y synwyr hwn oddi wrth y ffaith nas gall yr enaid dderbyn amgyffrediad o fwy nag un gwrthddrych ar unwaith. [Yr un *Sutra*, 85].

*Y Sankhya.*—"Profir bodolaeth enaid trwy gyfattebiaeth (*analogy*), a chasgliad (*inference*), o blegid mai er ei wasanaethu ef y gweithreda natur yn lluniad y byd; pe amgen, buasai lluniad y byd heb ddiben iddo" [*Sankhya Sutra*, llyfr i. 66—303]. "Yr enaid yn annibynol ar y *Manas*, ni fedd na gweithrediad, na theimiad" [Yr un 107]. Y *manas* ydyw y droell, pa un a gyssyllta enaid â natur. Y naill o'r ddau hyn nis gall weithredu ar y llall, ond trwy gyfryngiaeth *manas*; cyfagosrwydd ydyw eu hunig gyssylltiad [Yr un 95—99]. Y blaenaf a'r penaf o gynnyrchion natur ydyw *manas*. Ni chynnyrchodd natur ddim ond *manas*, na *manas* ddim ond hunanwybyddiaeth, &c. [Etto, 71, 72].

*Y Vedanta.*—"Yr enaid ydyw yr amgyffredwr, y *manas* yw yr offeryn trwy ba un yr amgyffredir" [*Aitereya Upanishad*, iii. 2, 3]. "Y *manas* sydd offeryn ar wahân oddi wrth enaid" [*Tait Up.*, 7]. "*Manas* a deall (*Budhi*), ydynt ddau synwyr ar wahân oddi wrth enaid" [*Suet. Upan.*, ii. 5]. "Trwy offerynoliaeth *manas*, aiff enaid i mewn i'r corph" [*Prasna Upan.*, iii. 3].

2. Bod yr enaid dynol yn anghreedig a thragwyddol, yn ddiddechreu a diddiwedd, sydd olygiad arall yn mha un y cyttuna yr holl gyfundraethau. Bod ysbryd a defnydd yn ddau sylwedd creadigol a gwahaniaethol, nid ymddengys i neb o'r ysgrifenwyr hynafol gredu. Rhai o ddiffynwyr diweddar y cyfundraethau hyn a ddaliant y golygiad hwn mewn rhyw ffurf, eithr nid ymddengys y golygiad yn yr ysgrifeniadau hynafol. Yn y *Vedanta*, gwneir yr enaid dynol yr un a Brahma. Y dyb eu bod yn wahanol ydyw cyfeiliornad dyn, ac unig achos ei drueni.

*Y Vedanta.*—"Yr enaid nis genir, ac ni bydd farw" [*Bhagavat Gita*, ii. 19, 20]. "Enaid nis genir, ni bydd farw, ac nis cynnyrchir ef gan neb." [*Katha Upanishad*, ii. 13]. "Ysbryd yn unig ydyw hyn oll: gweithredoedd, penydiau—pwy bynag a adnebydd y Brahma goruchaf ac anfarwol hwn, yr hwn a breswylia yr ogof, a ryddheir oddi wrth rwymau anwybodaeth" [*Manduka Upan.*, ii. *adr.* ii. 10]. Ac aneirif leoedd ereill.

Yn y *Sankhya*, delir fod eneidiau mewn rhif yn aneirif, ac mewn natur yn anfeidrol a thragwyddol. Eithr nid addef Kopil fod Duw.

*Y Sankhya.*—Yn y gyfundraeth hon, profir fod natur ac enaid yn dragwyddol trwy y gosodiad; "Gan nad oes gwraidd i wraidd, gwraidd yr oll sydd ddiwraidd" [*Sankhya Sutra*, llyfr i. 47]. "Bodolaeth yr enaid anfeidrol a thragwyddol hyn, a gesglir oddi wrth y ffaith, fod yn rhaid bod rhyw ddyben i ymdrechion natur (*prakriti*) ddiddeall a direswm wrth ffurfio y byd—y dyben hwnw a raid fod dedwyddwch yr enaid (*purusha*)" [Yr un llyfr, i. 66; a'r ii. 1, 3, 34, 36; a'r iii. 16].

Yn y *Nyaya*, eneidiau ydynt olldreiddiol a thragwyddol.

*Y Nyaya.*—"Tragwyddolrwydd enaid sydd eglur, o blegid trwy ei weithgarwch blaenorol y genir ef drachefn a thrachefn. Efe ydyw cartrefle hunanwybyddiaeth (*egoism*) a dealltwriaeth; ac y mae yn hollbresennol." [Gwel *Nyaya Sutra*, td. 160; a *Nyaya Dorshon Sutra*, 47, 49, 50].

3. Pwngc arall yn mha un y cyttunant oll ydyw, mai achos pechod a thrueni yn mysg dynion ydyw anwybodaeth. Ni chyttunant anwybodaeth o ba beth, eithr cyttunant oll mai anwybodaeth o rywbeth yw achos pob drwg a phob poen. Myn y *Nyaya* mai anwybodaeth o'r gwahaniaeth rhwng enaid a chorph, ac o esboniad yr athronwyr o'r *Categories* (*Padartha*) ydyw.

*Y Nyaya.*—"Gwybodaeth sydd o ddau fath; golygiad cywir, a golygiad anghywir. Golygiad anghywir ydyw gwybodaeth, pa un a eglura unrhyw beth fel yn bresennol lle nad ydyw yn bresennol; o ba un y mae dau fath, sef camsyniad ac ammheuaeth. Camsyniad ydyw gwybodaeth sicr o fodolaeth bresennol unrhyw beth, lle nis bodola y peth hwnw ar y pryd; megys, er esampl, golyga yr enaid fel yn boboli yn y corph, &c." [*Nyaya Dorshon*, 126-128]. Hyny yw, medd y *Scholiast*, "y camsyniad o drosglwyddo y dyb o enaid i'r corph, fel y gwneir pan ddywedwn, 'Yr wyf yn newynog, neu yn gochliw,' mewn cyfeiriad at y corph, tra mai yr enaid mewn gwirionedd ydyw y 'myfi.' Dyma achos trueni dyn."

Yn ol y *Sankhya*, anwybodaeth o'r gwahaniaeth rhwng enaid a natur (*purusha* a *prakriti*), ac o'r pum sylwedd ar hugain ydyw.

*Y Sankhya.*—"Yn y *Sankhya*, y prif byngciau ydynt, ymgais yr enaid am ryddhâd, a'r moddion priodol er cyrhaedd yr ymgais, sef gallu gwahaniaethu rhwng enaid a natur." [*Sankhya—Prauachana-bashya*, td 5]. "Peidio gwahaniaethu rhwng natur ac enaid ydyw achos caethiwed yr enaid," [*Sankhya Sutra*, llyfr i. 55, 56].

Golyga y *Vedanta* mai anwybodaeth o'r ffaith mai Brahma ydyw yr oll a fodola ydyw.

*Y Vedanta.*—"Pan wypo dyn nad ydyw yr holl wrthddrychau yn ddim amgen na'r ysbryd, pan ganfyddo unigolrwydd yr ysbryd, yna diflana camsyniad, diflana poen" [*Isa Upan.*, 7]. "Y dyn doeth, yr hwn a genfydd mai Brahma ydyw pob gwrthddrych, a gyrhaedd ryddhâd" [*Kena. Upan.*, *adr.* 2, 5, a llawer o leoedd ereill]. "Pan allo dyn, yn ei sefyllfa bresennol, adnabod ysbryd, yna cyrhaedda ei ddyben." Hyny yw, ni chenfydd ddim ond ysbryd; dadsoddir ei fodolaeth wahaniaethol ef ei hun ynddo [*Kena Upan.* ii. 5]. "Y dyben penaf ydyw dinystrio anwybodaeth yn nghylch unigolrwydd ysbryd a'r byd. Y neb a adnebydd hyn a ryddheir. Y neb a adnebydd Brahma a ddaw yn Brahma [*Vedanta*]."

Digitized by Google

**4.** Trawseneidiad sydd fater arall cyffredin i'r holl gyfundraethau. Cyfyd y golygiad hwn yn naturiol oddi wrth y gred o dragwyddolrwydd eneidiau. Yn ol y *Nyaya*, genedigaeth ydyw un o brif drallodau dynoliaeth; ac yn ol Gontom, y mae rhinwedd yn gystal a bai yn arwain yn anocheladwy i enedigaeth. Rhaid i'r enaid adymgorpholi hyd nes y cyrhaeddo sefyllfa yn mha un ni theimla, ni wybydd, ac ni weithreda.

*Y Nyaya.*—"Trueni, genedigaeth, gweithgarwch, bai, cyfeiliornad. Pan symmuder un o'r rhai hyn, yr oll a'i blaenorai a ddiflanant; yna y canlyn perffaith ryddhâd" [*Nyaya Sutra*, llyfr i. 2]. "Felly y trallod penaf yn mysg pump ydyw anwybodaeth; y prif achos—yr hedyn yr hwn a gynnyrcha y pentwr hyn o drallodau; yr hwn bentwr a wneir i fyny o bob peth amgyffredadwy" [*Vijnana Bhikshu, Patanjoli, Chashya Virtika*]. "Caffaeliad corph a gyfyd oddi wrth haeddiant, a'r cyffelyb, fel achosion" [*Tattwa Kanmodi*, td. 43]. "Cynnyrchir corph trwy rinwedd haeddiant ac anhaeddiant; pa rai ydynt gynnyrch gweithredoedd blaenorol" [*Nyaya Sutra Vritti*, td. 160].
Noder yma fod geni a gweithio yn rhestr drygau a thrallodau, ac y rhaid eu symmud.

Dysg y *Sankhya*, fod adymgorpholiad yn angenrheidrwydd, hyd nes y cyrhaedda wybodaeth o'r gwahaniaeth rhwng corph ac enaid, ac o'r pum sylwedd ar hugain.

*Y Sankhya.*—Aiff Kopil yn uniongyrchol at wreiddyn y mater trwy ddywedyd nad oes dim i'w ddymuno hyd yn oed yn nedwyddwch y nef, o blegid y rhaid cymmeryd cyrph ereill er derbyn y wobr:—"Dylid gochelyd hyd yn oed y nef a'i dedwyddwch; o blegid y rhaid dychwelyd drachefn a thrachefn i boenau genedigaeth. Y poenau pa rai a achosir gan adfeiliad a marwolaeth a berthynant yn gyfartal i bawb." Hyny yw, yn gystal yn y nefoedd ag ar y ddaear. [*Sankhya Sutra*, llyfr iii. 52, 53].

Ac athrawiaeth y *Vedanta* ydyw, y rhaid i'r enaid gymmeryd corph drachefn a thrachefn, nes y gall ddywedyd, "Myfi ydwyf Brahmo;" yna y llwyr waredir ef oddi wrth gyfeiliornad y rhif Deuaidd, ynghyd â phob poen a thrueni a gyfyd o'r cyfeiliornad hyny.

*Y Vedanta*, mewn cyffelyb fodd, a'n haddysga, y rhaid i eneidiau dynol adgymmeryd cyrph eilwaith ac eilwaith, hyd oni chyrhaedder gwybodaeth o Brahmo:—"Yr enaid, pa un a gynnysgaeddir â chynneddfau, a weithreda er mwyn ffrwyth y gweithredoedd, pa rai hefyd a fwynhâ. Meddianna amryw ffurfiau; cynnysgaeddwyd ef â'r tair cynneddf; gwna ddewis rhwng y tair ffordd. Efe ydyw arglwydd bywyd—byth deithia o enedigaeth i enedigaeth trwy ei weithredoedd" [*Swetaswatara Upan.*, v. 7]. Y tair cynneddf y sonir am danynt ydynt gwiredd, gweithgarwch, a thywyllwch (*satya, rajas, tamas*); y tair ffordd ydynt, rhinwedd, camwedd, a gwybodaeth. Y golygiad ydyw fod gweithredoedd da, yn gystal a drwg, yn rhwymo yr enaid i gymmeryd ei eni drachefn a thrachefn:—"Yn nghanol anwybodaeth, ynfydion, gan dybied eu hunain yn ddoeth a dysgedig, a gylchdroant yn ddiddiwedd, oddi tan faich o drueni, fel deillion yn cael eu harwain gan ddeillion" [*Mundaka Upan.*, ii. 8; gwel hefyd *Katha Upan.*, ii. 5]. Y cylchdroadau diderfyn y sonir am danynt, ydynt olynol enedigaethau mewn gwahanol gyrph.

**5.** Bod defnyddiau creadigaeth yn dragwyddol, sydd olygiad arall cyffredin i'r holl athronwyr. Wrth greu, golygant yn unig gyfansoddi, ffurfio, a threfnu; ond nid un amser rhoddi bodolaeth i'r hyn ni fodolai, trwy rinwedd ewyllys a gallu anfeidrol. Yn ol y *Nyaya*, y mae gronynau ac eneidiau, yn gystal a Duw, yn anfeidrol a thragwyddol. Dywed dysgyblion y *Nyaya* fod *creu*, yn yr ystyr o "wneuthur peth o ddim," yn berffaith anamgyffredadwy. Ac felly y mae. Eithr onid ydyw creu yn yr ystyr o *lunio* byd o aneirif ronynau anfeidrol a thragwyddol gan luniwr heb nac aelodau nac offerynau yn gyfartal anamgyffredadwy? A phan ein dysgir fod y gronynau tragwyddol hyny yn hollol annibynol ar Dduw, ac annarostyngol i'w ewyllys, y mae golygu i Dduw lunio byd o'r fath ronynau, nid yn unig yn anamgyffredadwy, ond yn anghysson â deddfau amgyffrediad.

Enaid, amser, *space, ether* (*akas*), a gronynau cyssefin daear, awyr, tân, dwfr, a meddwl, ydynt oll yn dragwyddol, ac yn bodoli o angenrheidrwydd eu natur, yn ol y *Nyaya*. O'r defnyddiau gronynol hyn y lluniwyd y byd, medd Gontom a Konad. Eithr pwy a'i lluniodd? Dysgyblion diweddar y *Nyaya*, yn ddiddadl, a briodolant eu ffurfiad i Dduw. Nid ydyw mor eglur, pa fodd bynag, mai felly y golygai sylfaenwyr y gyfundraeth. Nid enwir Duw o gwbl gan Konad: enwir ef mewn tair *Sutra*, gan Gontom; eithr nid ydyw mor sicr y priodolir iddo un gorchwyl. Ei eiriau ydynt—"Duw ydyw yr achos, yn gymmaint ag y ceir fod gweithredoedd eneidiau yn aneffeithiol. Nid felly: o blegid yn absennoldeb gweithredoedd eneidiau nis gellir cynnyrchu effeithiau. Ymdrechion eneidiau ydynt weithiau heb gynnyrchu effeithiau, o blegid achosir eu diffrwythder gan ddiffyg gweithredoedd." Rhydd yr esbonwyr ddwy ystyr wahanol i'r *Sutras* hyn. Yn ol y blaenaf, gwrthwynebwr a wrthddadleu, gan ddywedyd mai "Duw a greodd y byd;" yr hwn osodiad a wrthbrofir gan Gontom yn y *Sutras* canlynol. Yn ol yr ystyr olaf, Gontom a gadarnhâ mai Duw a greodd y byd; a rhyw wrthddadleuwr a wrthddadleu yn y ddwy *Sutra* ganlynol. Oddi wrth hyn, canfyddir ei fod yn anhawdd penderfynu gwir olygiad Gontom yn nghylch y mater, pa un ai Duw neu dynged a ffurfodd y gronynau tragwyddol yn fyd. Os cymmerir ei olynwr galluog, Konad, fel esboniwr Gontom, y mae yn ddiddadl mai tynged (*adrista*) a ffurfiodd y byd. Felly hefyd y golygai Viswanatha Bhattacharya yn ei esboniad dysgedig:—"Gwrthddadleuir—'Cynnyrchwyd corph fel pob cyfansoddiad defnyddiol arall, o'r elfenau.' Defnyddir y geiriau 'pob cyfansoddiad defnyddiol arall' er mwyn cau allan bob achosion ereill. Felly, megys y mae tarddiad a chynnyrchiad pob defnydd arall, felly hefyd y mae tarddiad y corph dynol o'r elfenau yn annibynol ar weithredoedd blaenorol. Dyma yr wrthddadl: yr atteb ydyw—'Nid felly: o blegid y mae yr esampl a ddefnyddir er egluro, yn yr un amgylchiadau yn union a'r hyn a fwriedir ei egluro. Y corph, a defnyddiau creadigaeth, megys clai a cheryg, ydynt o'r un natur; a daliwn ni y tardda y naill yn gystal a'r llall o'r gronynau tragwyddol yn ddibynol ar haeddiant gweithredoedd eneidiau."

Drachefn, dysgyblion y *Sankhya*, a ddaliant fod defnyddiau y greadigaeth yn dragwyddol, o dan yr enw "*Prakriti*"[1]—yr hon a alwn ni yn *natur*, o ddiffyg gair cymhwysach. "Natur," medd Kopil, "ydyw y sefyllfa o gyfartaledd y tair priodoledd, sef gwiredd, gweithgarwch, a thywyllwch. Cynnyrcha natur y meddwl; meddwl, hunanwybyddiaeth; hunanwybyddiaeth, y pum elfen anweledig

[1] "*Prakriti*," yn llythyrenol, ydyw y *tarddiedydd*, neu y *cynnyrchydd*. Os cymmerir y gair *natur* yn yr ystyr hyn, cyffelyb ydyw i ystyr *prakriti*.

Digitized by Google

(*tanmatra*), a'r deg synwyr; cynnyrchant hwythau y pum elfen weledig. Yna bodola enaid (*purusha*). Dyma y pum sylwedd ar hugain."[1]

Yn mhellach, dysgir ni gan Patanjoli, nid yn unig fod y defnyddiau yn dragwyddol, eithr fod olynol ymdrechiadau natur, yn ffurfiad bydoedd, yn troi mewn cylch tragwyddol:—fod ffurfiad y byd, yn gystal a'r defnyddiau o ba rai y ffurfir ef, yn ddiddechreu a diddiwedd.

"O adanedig (*dwija*), amser addoladwy sydd ddiddechreu a diddiwedd. Y rhai hyn, gan hyny, ydynt annherfynol; sef, creadigaeth, parhâd, terfyniad, a gorphwysiad y byd: gan y cadarnheir y gosodiad hwn gan gannoedd o osodiadau, sef, fod byth-ysgogiad creadigaeth yn ddiddechreu, ac na bydd iddo ddiwedd." A hyn cyttuna Kopil:—"Megys y mae y byd yn ddiddechreu, yn gymmaint ag na bu hyd yn hyn ddiffyg byd, felly gellir casglu am y dyfodol na bydd iddo derfyn. Fel y gwelir o bob tu yn bresennol, felly y parhâ pethau i ddylifo yn fythol. Ni bydd terfyniad ar gylchrediad creadigaeth."

Am y *Vedanta*, gellir dywedyd mewn byr eiriau nad oes y fath beth a chreadigaeth neu greu. Tybir y bodola dyn a gwrthddrychau creadigol, o blegid anwybodaeth dyn. Symmuder yr anwybodaeth, ac nid oes a fodola ond Brahmo.

"Yr enaid, yn mha un y preswylia anwybodaeth gyda'i ddau allu, sydd ynddo ei hun yr *achos offerynol* (*nimittam*); a thrwy offerynoliaeth ei briodoledd o anwybodaeth, yr *achos defnyddiol* (*upadanam*)—megys y mae'r pryf copyn, trwy ei offerynoliaeth ei hun, yn achos offerynol o'i we; a thrwy ei gyfansoddiad corphorol yn achos defnyddiol o'r unrhyw. O'r enaid, pan yn amgauedig gan anwybodaeth, fel gallu i dwyllo, yn mha allu y drydedd gynneddf o dywyllwch a lywodraetha, y cynnyrchir *ether* (*akas*). O'r *ether*, y gwynt; o'r gwynt, y tân; o'r tân, y dwfr; o'r dwfr, daear." Felly y mae anwybodaeth yn dragwyddol, ac nid oes defnyddiau.

Mewn gair, dyma gyfanswm dysgeidiaeth y cyfundraethau mewn un pennill,—

"Bodola y byd—pan heb enw na ffurf,
Yn yr hyn a eilw rhai natur, rhai gronynau,
a rhai dwyll."

Rhed amryw olygiadau ereill trwy yr holl gyfundraethau Hindwaidd; pa rai, y mae yn afreidiol eu henwi un ac un. Daw amryw o honynt dan sylw rhagllaw. Digon ydyw dywedyd yma, yr appeliant oll at y *Vedau* fel awdurdod. Athrawiaeth y pum elfen weledig, a'r pum elfen anweledig a ddelir ganddynt oll. Yr ammhossiblrwydd o unrhyw gyssylltiad dealladwy rhwng ysbryd a defnydd a ddelir mewn *rhyw ffurf* ganddynt oll, er nad addef y *Vedanta ddefnydd*, na'r Sankhya *ysbryd dwyfol:* etto, cyfarfyddir â'r un fath ymadroddion ynddynt oll, fel pe y credent fodolaeth ysbryd a defnydd.

Rhai o ddysgedigion Ewrop, yn hyddysg i raddau mwy neu lai yn yr iaith Sanscrit, a ddalient na fedd yr olaf air cyfystyr a defnydd (*matter*). Pa un bynag ai cywir ai anghywir ydyw hyn, y mae yn ddigon eglur y medda y Sanscrit eiriau yn arwyddo rhywbeth gwrthgyferbyniol i sylwedd ysbrydol. Bydded y geiriau "*tanmatra*," a "*pancha bhut*" yn brofion; felly hefyd, "*anu*," "*prakriti*," &c.

ADRAN III. NEILLDUOLION.

Y mae golygiadau gwahaniaethol hefyd: pe amgen, buasai gwahanol gyfundraethau yn ammhossibl.

Cyfundraeth y *Nyaya* a'r *Vaisheshak*, a ddeil yn dŷn dros fodolaeth mân ronynau anfeidrol a thragwyddol, fel defnyddiau cyssefin pob peth crëedig. Gwrthwynebir y golygiad hwn yn egniol gan athronwyr y cyfundraethau ereill.

Drachefn yn y *Nyaya*, dysgir ni mai y gronynau tragwyddol hyn, a thynged (*adrista*), cydrhyngddynt a ffurfiasant y byd. Ni wnaeth Duw (*Ishwara*),—os bodola—ond bodoli yn anghyssylltiadol a thragwyddol. Ni wnaeth ddim.

Eneidiau dynion ydynt dragwyddol, diddeall, dideimlad, diysgogiad, diweithrediad, hollbresennol, ac aneirif, yn ol y *Nyaya*. Yr unig wahaniaeth rhwng yr eneidiau hyn a Duw ydyw, mai efe ydyw y prif ysbryd, er heb feddu ymwybodolrwydd o ddedwyddwch, annedwyddwch, ysgogiad, neu weithrediad; tra y medda eneidiau dynol ymwybodolrwydd trwy eu cyssylltiad â meddwl (*manas*—y synwyr mewnol); yr hwn gyssylltiad ni fedd y prif ysbryd. Teg ydyw dywedyd fod dysgyblion diweddar y *Nyaya* yn ymdrechu i ymwrthod â'r golygiad hwn, trwy geisio gwneuthur *adrista* yn un o briodoleddau y Duwdod (*Ishwar* y *Nyaya*—eithr heb resymeg). Daw y matter dan sylw etto.

Gontom a Konad,[1] a unant fod gweithgarwch a genedigaeth yn ddrygau ynddynt eu hunain, ac y rhaid i ddyn fod yn hollol rydd oddi wrth ewyllys, gweithgarwch, ac ysgogiad, cyn y rhyddheir ef o ddrygau adenedigaeth.[2] Geni sydd brawf o weithgarwch blaenorol, boed dda neu ddrwg. Anenedigaeth[3] sydd brawf o anhaeddiant, da na drwg. Pan sicrheir anenedigaeth, sicrheir perffaith ddedwyddwch. Dyma ddysgeidiaeth y *Nyaya*.

Ni wahaniaetha y *Vedanta* ond ychydig, fel y gwelir yn ol llaw. Gwahaniaetha y *Sankhya* gryn dipyn. Medda y *Sankhya* ei neillduolion. *Natur* (*prakriti*) ydyw cynachos a lluniwr pob peth mewn bod, ond enaid (*purusha*). Nodwyd yn barod y cyfansoddir natur o'r tair ansawdd dragwyddol—gwiredd, gweithgarwch, a thywyllwch—mewn sefyllfa o gyfartal gymmeidraeth.

Yr egwyddor ddwyol (*dual*) hefyd a ymddengys wrth wraidd cred y *Sankhya*. *Prakriti* a *purusha*, neu natur ac enaid, ydynt annibynol a thragwyddol. Er y gwada Kopil yn bendant fodolaeth Duw, etto, deil hanfodiad tragwyddol enaid. Ei ymresymiad ydyw, "Os bodola Duw, rhaid ei fod naill ai caeth neu rydd. Nis gall fod y blaenaf: o blegid, pe felly, byddai yn ddarostyngedig i gael ei dwyllo; yr hyn nis gall Duw fod. Ac nis gall fod yr olaf: o blegid, pe, felly, byddai yn ddarostyngedig i ddymuniad, ac i lywodraeth egwyddor feddyliol i ysgogi, ac nis

1 *Sankhya Sutra*, llyfr i. 61:—Cyfieithir *mahat*, (yn llythyrenol, "yr un mawr"), "meddwl, ac *ahamkara* (yn llythyrenol, "gwneuthur y myfi"), "hunanwybyddiaeth." *Tanmatra*:—Y pum elfen anweledig ydynt lliw, llais, cyffyrddiad neu deimlad (*touch*), archwaeth, ac arogliad. Er y gelwir y *sathwa*, *rajas*, *tamas*, yn dair priodoledd: etto y mae yn eglur y golygai yr Hindwaid hwy yn sylweddau, o blegid priodolant iddynt amryw gynneddfau ereill. Golyga holl athronwyr India hwy yn dragwyddol, ac nid ymddengys y gwyddai neb athronwyr ereill ddim am danynt.

[1] *Nyaya Sutra*, iv. 59, 60, 61, 62. "Nid oes iachawdwriaeth, o herwydd ein cyssylltiad â dyledswyddau, trallodau, a gweithgarwch." Hyny yw, gweithgarwch mewn da neu ddrwg a'n rhwyma i gael ein geni drachefn.

[2] Y gair "adenedigaeth," a ddefnyddir yma yn ei ystyr llythyrenol—nid ei ystyr duwinyddol. Dynoda eneidiau yn adgymmeryd cyrph.

[3] "An-enedigaeth," nid ydyw yn air sathredig, hwyrach, eithr bydd ei ystyr nacaol yn ddigon eglur.

Digitized by Google

dichon i Dduw fod oddi tan awdurdod unrhyw beth. Felly, gan nas gail Duw fod na chaeth na rhydd, nis gellir profi y bodola."[1]

Perffaith ddedwyddwch y *Sankhya* a gyrhaeddir trwy wybodaeth o ddau beth; sef, o'r gwahaniaeth rhwng yr enaid a'r corph, a gwybodaeth o'r pum egwyddor ar hugain. Yn yr erthygl olaf o wybodaeth angenrheidiol, gwahaniaetha oddi wrth y *Nyaya* a'r *Vedanta*. Prif achos caethiwed enaid ydyw methu gwahaniaethu rhwng ysbryd a natur. Nid achosir caethiwed yr enaid trwy unrhyw weithrediad neu ysgogiad o'r eiddo ei hun, o blegid nid ysgoga. ysgogiad sydd ammhossibl i fod hollbresennol fel yr enaid; o blegid enaid fel *akas* (*space*—ymlediad, lle), sydd ddiderfyn. A'r hyn sydd ddiderfyn, nis gall ysgogi.

Golygiad neillduol i'r *Sankhya* hefyd ydyw, nad achosir caethiwed enaid gan weithredoedd blaenorol, trwy haeddiant neu anhaeddiant. Ni pherthyn i enaid na gweithrediad na phrofiad. Ac nid ydyw caethiwed enaid ond geiriol—nid gwirioneddol. Agosrwydd at natur yn unig yw achos caethiwed enaid.

Y mae rhywbeth neillduol yn nisgrifiad Kopil o enaid. I'r *manas*, nid i'r enaid, y perthyn y priodoleddau a'r gweithrediadau o wybyddiaeth (*cognition*), ewyllys, gweithgarwch (*pravritti*); trueni, dedwyddwch, haeddiant, anhaeddiant, a'r cyffelyb. Priodolir hwy i'r enaid yn unig yn ffurf *adlewyrchiad;* yn cyfodi oddi ar eu hannidoliad fel achos, ac agosrwydd enaid. "Er fod," ysgrifena Kopil, "y priodoleddau o ddedwyddwch, trueni, haeddiant, anhaeddiant, a'r cyffelyb, yn briodoleddau o'r synwyr mewnol (*h.y.*, y *manas*), etto, eu cartrefle ydyw yr enaid, yn ffurf adlewyrchiad, yn cyfodi oddi ar eu hannidoliad fel achos." Yr enaid, wedi ei ddihatru felly, ni fedd na chynneddf na gweithrediad, yn absennoldeb y *manas*.

Ymsuddiad (*absorption*) y cyfryw enaid yn natur, nis gallai sicrhau rhyddhâd iddo; o blegid byddai raid i'r enaid adgodi; ac o blegid mai diben gweithrediadau natur ydyw dedwyddwch yr enaid. Er fod natur yn ddiddeall a direswm, etto gweithreda er mwyn enaid, fel y darperir llaeth yn nghyfansoddiad y fam. Pan adgyfyd enaid o natur, "bydd yn hollalluog a hollwybodol. Y bodola yn Arglwydd (*Ishwara*) sydd ddiddadl."[2]

Prif hynodrwydd dysgeidiaeth y *Vedanta* ydyw, mai un heb ail ydyw sylwedd, sef *Brahmo;* ac mai ansylweddol ac ymddangosiadol yn unig ydyw pob gwrthddrych ond efe. Delir tri math o fodolaeth—gwirioneddol, ymarferol, ac ymddangosiadol.[3] Y blaenaf yn unig sydd wir a sylweddol fodolaeth; y ddau fath olaf ydynt ansylweddol a thwyllodrus. Ni chynnwys y blaenaf ond *Brahmo* yn unig. Bwriedir wrth yr ail, holl wrthddrychau creadigaeth, fel yr ymarferir hwynt; pa rai a dybir yn sylweddol trwy anwybodaeth yn unig, eithr mewn gwirionedd ni feddant fodolaeth sylweddol. Y trydydd math ydyw camsyniadau y synwyrau, neu y ddirnadaeth trwyddynt, megys pan dybir am ddernyn o râff mai sarph ydyw.

1 *Sankhya Sutra*, llyfr I. *Sutra* 92—95. Cenfydd athronwyr rym gwrthddadl Kopil:—Nis gall Duw fod yn gaeth; o blegid byddai hyny yn anghysson â'r golygiad o Dduw annibynnol a hunanfodol. Nis gall fod yn rhydd, *a chreu;* o blegid profai y ffaith o greu ewyllys:—unig orchwyl ewyllys ydyw *ewyllysio*. Eithr arwydda *ewyllysio* rhyw ddiffyg: a rhaid i bob diffyg, naill ai parhau yn ddiffyg, neu gael ei gyflenwi. Pa un bynag a gymmerir, nis gall yr ewyllysiwr fod yn hunanfodol a hunanddigonol. Felly nid Duw ydyw. Y canlyniad ydyw, nis gellir profi fod Duw oddi wrth y ffaith o greadigaeth.

2 *Sankhya*, iii. 54—57.

3 "Bodolaeth sydd o dri math: *paramarttika*, *vyavaharika*, a *pratibharika*. Gwir fodolaeth ydyw yr eiddo Brahmo yn unig: *ymarferol* ydyw tân, dwfr, &c., &c. *Ymddangosiadol* ydyw tybied mai arian ydyw *nacre*, a'r cyffelyb."—*Vedanta Paribhasha*, td. 18.

Egwyddor fawr arbenigol y *Vedanta* ydyw athrawiaeth yr *Un di-ail—Brahma*. Ac er na sonir byth am ddechreuad neu greadigaeth anwybodaeth, etto eglur ydyw yr osgöir yr ymchwiliad hwn; o blegid y byddai ei addef yn rhwymo y *Vedantin* i roddi rhyw gyfrif am darddiad yr anwybodaeth hynod hwn. Felly boddlona gyda dywedyd, "Nis gellir dywedyd fod an wybodaeth nac yn bodoli, nac heb fodoli" [*Vedanta Sara*]. Eithr gan y daw y matter hwn dan sylw rhagllaw, ni a'i gadawn ef yma.

Peth arall a hynoda y *Vedantin* ydyw, y disgrifiad a rydd o'i feddylddrych am Dduw. "*Brahmo*, nis gellir ei brofi i fod yn sylwedd. Deli di (y *Nyaiha* yn gwrthddadleu) mai cynsail ansawdd ydyw sylwedd, neu ei achos sylweddol (*samavayi*). Eithr *Brahmo*, gan ei fod yn amddifad o briodoleddau, nis gall fod yn gynsail ansoddau. Ac nid ydyw ef yn achos sylweddol iddynt, yn gymmaint ag nas gellir profi fod *samaváya* yn bodoli fel sylwedd gwahaniaethol."[1] "*Brahmo* sydd fod heb ranau, heb weithrediad, heb ysgogiad, heb ddiffyg, ac heb nwydau."[2]

Afreidiol chwanegu enghreifftiau, gan y daw y pethau hyn oll o dan sylw yn yr hyn a ganlyn.

Dylid, pa fodd bynag, sylwi fod y *Vedanta* a'r *Sankhya* yn dra chyffelyb yn y rhan liosocaf o'u hegwyddorion; a bod y ddwy gyfundraeth hyn wedi cynnyrchu llawer dyfnach effeithiau ar Hindwaeth ddiweddar na'r *Nyaya*, er mai yr olaf ydyw yr agosaf i gywirdeb a rheswm. Daw hyn hefyd dan sylw rhagllaw.

Am y cyntaf, *maya* neu *sakti* y *Vedant*, ydyw *prakriti* y Sankhya. *Atma* y blaenaf ydyw *purusha* yr olaf. Er y deil y blaenaf unigolrwydd Brahmo, a'r olaf yr athrawiaeth ddwyfol o *prakriti* a *purusha*, neu wryw a banyw; etto, y mae yn eglur fod llawer mwy o gyssylltiad rhyngddynt ill dwy, nag sydd rhwng y ddwy a'r *Nyaya*.

ADRAN IV.

Er fod athroniaeth, yn y ffurf o duedd i ymchwilio i gyn-achosion ymddangosiadau naturiol, yn hanfodol i feddwl dyn, ac yn tarddu, hwyrach, oddi ar gyfansoddiad ei alluoedd meddyliol a rhesymiadol; etto, naill ai o herwydd diogi meddyliol, neu oruchafiaeth y synwyrau allanol a'r nwydau anifeilaidd, neu ddylanwadau attyniadol cymdeithas eisoes wedi ei llygru, metha y rhan fwyaf o ddynion mewn dyfeisio llwybrau a chyrhaedd penderfyniadau boddlonol yn eu hymchwiliadau athronol. Wedi i brif feddylwyr cenedl neu oes unwaith fyned ar dyr, naill ai yn eu ffurf-ymchwiliad, neu yn eu casgliadau, neu yn mhob un o'r ddau, rhaid cael meddyliwr o allu a hyfdra anghyffredin, i ysgubo ymaith eu llafur ac ail ddechreu gyda symlrwydd natur.

Y mae yn ddigon tebyg fod rhyw fath o gyfundraethau athronol yn mysg pob hen genedl o

1 *Vedanta Paribhasha*, td. 18. *Samavaya* a *Samavayi* nis gellir yn hawdd eu cyfieithu. Ystyr y cyntaf ydyw y cyssylltiad rhwng rhanau a chyfan, rhwng sylweddau a'u hansoddau, ac â'u gweithrediadau. Dywed dysgyblion y *Nyaya*, fod y cysylltiadau hyn yn meddu bodolaeth ynddynt eu hunain, ar wahân oddi wrth y sylweddau a'r ansoddau.

2 *Swetaswatara Upanishada*.

Digitized by Google

unrhyw tafodiaith, yr hon a gyrhaeddodd radd o lenyddiaeth a gwareiddiad; ond y Groegiaid a'r Hindwaid a adawsant fwyaf o gynnyrch eu hymchwiliadau boreuol. Os cymmerir gweddillion ymchwiliadau y flaenaf o'i dechreuad i lawr hyd Socrates, goddef yr olaf gymmhariaeth, nid anfanteisiol, â'r genedl feddylgar hono. Eithr Socrates a Plato a wthiasant eu hymchwiliadau i randiroedd meddyliol, moesol, ac ysbrydol; pa rai nid ymddengys i'r goreu a'r uchaf o'r athronwyr Hindwaidd gyrhaedd y gipolwg lleiaf ar eu llinell derfyn. Mewn un ystyr, pa fodd bynag, rhagora yr Hindwaid bob amser o'u dechreuad ar y Groegiaid boreuol: gan na chollasant eu golwg un amser ar y golygiad mai ysbryd ydyw y *prif sylwedd* a fodola. Hyd yn oed Kopil, yr hwn a wadai Dduw, a ddaliai yn gadarn ragoriaeth *ysbryd* ar bob peth arall.

Pa beth ydyw nôd terfynol, a dyben pob ymchwiliadau athronol? Pa un ai cyrhaedd sefyllfa o berffaith orphwysfa yn y meddiant o *wirionedd* wedi ei gyrhaedd, neu bleserau y gweithgarwch meddyliol yn yr ymchwiliad diderfyn am dano? Pa un ai gorphwysdra meddyliol, neu weithgarwch meddyliol, ydyw gwrthddrych, prif-nôd, a diben dyn?

Cyn belled ag y perthyna y cwestiwn hwn i athroniaeth Hindwaidd—ac ni chynnygir ymchwilio iddo yn mhellach yma—gellir atteb yn ddibetrus mai perffaith orphwysdra i'r meddwl, nid yn unig oddi wrth drallodau ac aflonyddwch byd fel hwn, eithr hefyd gorphwysfa berffaith oddi wrth feddwl, dymuno, ewyllysio, a theimlo. Dysgybl y Beibl hefyd a ymofyn am orphwysfa o ryw natur. Dengys Syr William Hamilton mai gweithgarwch yn yr ymchwiliad, ac nid sefyllfa o orphwysdra ddiwaith, ydyw prif nôd a dyben dyn yn ei holl ymchwiliadau, yn ol golygiadau athronwyr y gorllewin, yn hen a diweddar.[1] Os felly, y mae yn ddiddadl ddigon y gwahaniaetha y dwyrain a'r gorllewin yn y mater hwn.

Wrth edrych dros athroniaeth dduwinyddol y *Shod Dorshon* fel cyfanswm, gellir canfod ar unwaith fod awdwyr sylfaenol y cyfundraethau wedi benthycio drychfeddyliau a golygiadau, yn gystal ag enwau a ffurf-eiriadau, o ryw hen drysorfa gyffredin o olygiadau a ffurf-eiriadau traddodiadol. Yr un drysorfa, hwyrach, a'r eiddo yr hen Galdeaid, y Persiaid, a'r Sabeaid, pe ceid hyd i athroniaeth yr hen genhedloedd hyny; ond yn gwahaniaethu yn fawr oddi wrth gredoau a ffurf-eiriadau hen genhedloedd y gorllewin, cyn belled ag y gellir eu holrhain yn llinellau toredig hanesyddiaeth athroniaeth hynafol.

Fel enghreifftiau o hyn, gellid nodi y golygiadau fod Duw, neu y cyn-achos, yn ddibriodoledd, diysgogiad, diweithrediad, a dideimlad: nid yn *berson*, ond yn *beth* (*vastu*), yn y canolryw (*neuter*)—fod meddwl (*monos*) yn synwyr corphorol tu mewnol, gwahanol oddi wrth enaid—fod dyn yn meddu dau gorph, y naill yn weledig, a'r llall yn anweledig a gronynol—fod yr enaid dynol yn ddiddechreu, diddiwedd, ac annibynol; ac mai cyrhaedd gwybodaeth o hyn yn unig a all sicrhau dedwyddwch i ddyn—fod y tair ansawdd o wiredd (*sotyo*), gweithgarwch neu nwydog (*rojos*), a gwrthuni neu dywyllwch (*tomos*), yn dragwyddol, ac yn achos defnyddiol ac effeithiol y bydyssawd (*universe*)—fod y greadigaeth wrthddrychol wedi cyfodi o bum elfen anweledig (*toumatro*), a phum elfen weledig (*ponchobhut*); fod y pum gallu synwyrol, sef gweled, clywed, teimlo, arogli, ac archwaethu, yn sylweddau gwirioneddol, er yn anweledig, pa rai a elwir *y pum gronynyn* (*poncho toumatro*)—a bod amser, lle, ac eangder (*akas*) yn sylweddau tragwyddol ac annibynol, &c.

Cyfarfyddir â'r golygiadau hyn yn holl gyfundraethau ac ysgrifeniadau yr Hindwaid, yn rhyw ffurf neu gilydd; a gellid ychwanegu at y rhestr agos yn ddiderfyn. A chan y sonir am danynt gan yr holl ysgrifenwyr, fel rhyw ddrychfeddyliau uwch awdurdod rheswm ac ymchwiliadau athronol, y casgliad naturiol ydyw, y tarddant o ryw hen gyn-draddodiadau. Lled amneidir at y rhan fwyaf o honynt yn y tair *Vedo* hynaf; eithr chwedl-ddysg yr oesoedd canlynol a'i dadblygodd i'w sefyllfa bresennol.

Gan gymmeryd athroniaeth Hindwaidd fel y ceir hi yn bresennol, ac fel ei disgrifiwyd yn fyr yn y rhanau blaenorol o'r ysgrif hon, ceisir nodi yn fyr, yn gyntaf, brif ddiffygion a gwallau ffurf-ymchwiliad (*method*) yr athronwyr dan sylw; ac yn nesaf, rhoddir ychydig enghreifftiau er dangos rhai o'r prif gyfeiliornadau, i ba rai yr arweiniodd y ffurf-ymchwiliad diffygiol hyny ei chanlynwyr.

Y ffurf-ymchwiliad Hindwaidd sydd bob amser, ac yn mhob cyfundraeth, yn gyfosodol (*synthetic*), heb un esampl o ddadglymiad (*analysis*) o'i mewn. Yn rhai o'r mân draethodau diweddar, rhaid addef, cyfarfyddir âg ychydig enghreifftiau lled drwsgl o ddadglymiad. At y rhai hyny, dybygid, y cyfeiriai Syr W. Hamilton yn un o'i nodiadau ar lyfr Dr. Reid. Eithr nid cynnyrch y meddwl Hindwaidd, ond un benthyciol, ydyw y ffurf-ymchwiliad hwn. Dyma un o brif ragoriaethau athronwyr Groeg hynafol ar yr eiddo India. Yn y naill, gellir canlyn symmudiadau rhesymegol meddwl yr ysgrifenydd, a dirnad egwyddorion sylfaenol ei ymresymiad, tra y byddo y llygad neu y glust yn derbyn cyfansoddiad geiryddol yr ysgrifenwr: yn y llall, ni cheir byth ond y casgliad yn unig, a hwnw wedi ei eirio yn y fath fodd, fel nad ydyw yn bossibl cael hyd i wir olygiad yr ysgrifenydd heb gymmhorth esboniad ac esboniwr. Felly cedwir y wybodaeth yn ddiogel ddigon yn nwylaw yr esbonwyr a'r athrawon, pa beth bynag ydoedd bwriad yr ysgrifenwyr wrth wisgo eu meddyliau felly.

Diffyg arall yn ffurf-ymchwiliad yr athronwyr hyn ydyw, fod eu holl synwyr-wersi yn berffaith osodedigol (*dogmatical*). Nid ymostynga neb o honynt i'n hysbysu trwy ba weithrediadau meddyliol a rhesymegol y daethant o hyd i'r gosodiadau hyny. Gosodant eu hegwyddorion i lawr fel gwirioneddau pendant a hunan-brofadwy; a gadewir i'r darllenydd geisio dyfalu pa resymau a ddichon fod drostynt.

Peth arall cyffredin i'r ffurf-ymchwiliad Hindwaidd ydyw cymmysgu awdurdod rheswm a dadguddiad yn y profion athronyddol. Cyfundraeth y *Vedanto* ydyw y fwyaf beius yn y peth hwn. Etto, dyfynir brawddegau o'r *Vedan* yn fynych fel awdurdod mewn pyngciau athronol ganddynt oll. Y fath gymmysgiad nid ydyw gydweddol âg awdurdod dadguddiad, nac â phriodle rheswm. Ac er yr arferir ef weithiau gan ddynion mor athrongar a dwfn-dreiddiol a Hooker a Jonathan Edwards, etto rhaid addef mai diffyg ydyw mewn pyngciau athronol.

Os caniateir fod dyfyniadau (*definitions*) a dadglymiad (*analysis*) o egwyddorion cynseiliol; fod ymresymiad anosodedigol teg a manwl; a bod

[1] Gwel ei *Lectures on Metaphysics*, cyf. i. darlith i. td. 8—12, lle y dyfyna yn helaeth o'r gwahanol athronwyr.

Digitized by Google

casgliadau rhesymegol diwall yn hanfodol i bob ymchwiliadau athronyddol da; yna rhaid addef, gan fod ffurf-ymchwiliadau yr Hindwaid yn amddifaid o'r tair elfen hyn, eu bod yn ddiffygiol.

Dylid, pa fodd bynag, nodi yma un eithriad anrhydeddus yn ffafr y *Nyayo*. Rhydd Gontom gyfres o reolau rhesymegol tra deheuig a phwrpasol. Pe buasai ef a'i ddysgyblion y neu canlyn yn eu hymchwiliadau, buasai eu cyfundraeth yn dra gwahanol i'r peth ydyw. Tra y nodir diffygion, dylid hefyd nodi rhagorion rheolau eu ffurf-ymchwiliad. Os nad ydyw rhesymeg ffurfiol ond casgliad o reolau sylfaenedig ar ddeddfau meddwl mewn gweithrediad, er ei hyrwyddo a'i ddiogelu yn ei ymchwiliad am y gwirionedd, yna proffesa Gontom mai rhoddi y fath gasgliad o reolau ydoedd prif ddyben ei draethawd. Cynnwysa hefyd draethiad maith ar athrawiaeth Bodaeth, neu yn hytrach Foddau Bodaeth.[1] Ei resymeg a ddaw dan sylw yma; a'r ddysgeidiaeth ynghylch Bodaeth, pan ymchwilir i'w ddull o ddefnyddio ei resymeg ei hun.

*Prawf rhesymegol*, yn ol Gontom, a wneir i fyny o bedair rhan; sef amgyffrediad, casgliad, cyfattebiad, a llefariad, neu benderfyniad geiriol[2] (*sabdo*). *Amgyffrediad* ydyw y wybodaeth a gyrhaeddir trwy y synwyrau, ac sydd o chwe math, yn ol rhif offerynau amgyffrediad. *Casgliad* ydyw y wybodaeth a gyrhaeddir trwy offerynoliaeth gosodiad cyffredinol; a phrawf casgliadol ydyw y wybodaeth a gyrhaeddir trwy gyfresymiad rheolaidd. *Cyfattebiad* a rydd wybodaeth drwy yr elfen o gyffelybrwydd rhwng gwrthddrychau. Prawf trwy gyfattebiad a gyfyd o ganfyddiad y cyffelybrwydd hyny. *Llefariad*, neu wybodaeth eiriol, a gyfyd o ddefnyddiad geiriau, a dirnadaeth o'u hystyr.

*Gosodiad* (*proposition*) yn y *Nyayo* a gynnwys bedair elfen; sef cyfagosrwydd, cyssondeb, cyfansoddiad, a bwriad; gan olygu wrth y flaenaf gyfagosrwydd priodol geiriau mewn brawddeg; wrth yr ail, eu cyssondeb; wrth y drydedd, eu cystrawen; ac wrth yr olaf, fwriad neu feddwl y llefarwr. Gwna Gontom ei gyfresymiad i fyny o bum braich neu osodiad—*avoyovo*, fel y geilw efe hwynt. Y ganlynol ydyw prif enghraifft Gontom er egluro ei ffurf ef o gyfresymiad (*syllogism*):—

"1. Y mynydd hwn sydd danllyd,
2. O herwydd y myga.
3. Yr hyn a fyga sydd danllyd—fel aelwyd cegin.
4. Myga y mynydd hwn,
5. Gan hyny, y mae yn danllyd."

Yn ffurf cyfresymiad y gorllewin, safai yr unrhyw esampl yn debyg i hyn:—"Pa beth bynag a fyga sydd danllyd; myga y mynydd hwn; gan hyny, y mae yn danllyd."

Gellir sylwi fod rhanau prawf a gosodiadau cyfresymiad Gontom y gwrthwyneb (*reverse*) yn union i'r eiddo Aristotle a'i ganlynwyr yn y gorllewin. Yn ol Gontom, terfyna prawf rhesymegol gyda *sobdo*, neu benderfyniad geiriol, a dechreua ei gyfresymiad gyda'r gosodiad, pa un a fwriedir ei brofi. Canfyddir hefyd y byddai y cyfresymiad yr un mor gadarn pe teflid allan y ddwy fraich gyntaf, a dechreu gyda'r drydedd; neu, pe teflid ymaith y ddwy olaf, a dilyn yr ymresymiad ar i fyny, wedi newid lle y canolair (*middle term*). Os cymmerir y trydydd gosodiad yn yr ystyr y bwriedir ef gan Gontom, fel esampl o berthynas hanfodol tân a mwg, ac o ammherthynas mwg â dim arall, gellid yn gyfiawn wrthddadleu nad all unrhyw un esampl unigol brofi rheol gyffredinol.

Dysgyblion y *Nyayo* a gyfiawnhant ddosraniad amleiriog, os nad ad-eiriog (*tautological*) Gontom, trwy ddyweyd ei fod mewn dadl â gwrthwynebwyr presennol pan ysgrifenai. Felly, meddant, er y buasai yn ddigonol rhoddi y ddwy fraich flaenaf yn absennoldeb gwrthddadleuwyr byw; sef, "Y mae y mynydd yn danllyd, o herwydd myga;" eithr gallai gwrthwynebwr byw ofyn am reswm dros y fath haeriad. Yna y cyfyd y trydydd gosodiad:—"Cynnyrchir mwg yn unig gan dân; fel, er esampl, cegin aelwyd." Dywedant mai esampl, ac nid gosodiad, ydyw hwn. Er cymmhwyso yr esampl at y gosodiad mewn llaw, chwanegir y ddwy fraich olaf. Eithr nis gellir sylfaenu rheol gyffredinol ar amgylchiadau neillduol, nac amddiffyn rhesymeg Gontom ar sail sefyllfa gymdeithasol ei oes.

Yn ngeiriau y *Nyayo*, eglurir cyfresymiad fel hyn:—"Yn mherthynas i gasgliad, y cyssylltiad ydyw ystyriaeth, pa un ydyw achos y wybodaeth o berthynas angenrheidiol y pwngc (*subject*), gyda'i flaen-draeth (*predicate*) mewn gosodiad cyffredinol. Nid yr hyn sydd wybyddus—*h.y.*, y *predicate*—ydyw achos y cyssylltiad; o blegid, pe felly, nis gallai fod casgliad (*inference*) yn absennoldeb, neu yn ol dinystrio yr hyn a roddodd iddo fodolaeth. Ystyriaeth (*onumiti*) ydyw y wybodaeth fod y pwngc yn ei gyssylltiad didor gyda'i flaendraeth, yn unedig hefyd â'r casgliad (*poksho*) neu ganfyddiad unolrwydd y rheswm â'r casgliad, yr hwn reswm nis gall fod yn gyssylltiedig âg unrhyw beth anghydweddol â'r penderfyniad yn y casgliad. Y penderfyniad (*h.y.*, y *minor term*) yn y casgliad ydyw y sicrwydd fod y casgliad yn penderfynu y pwngc mewn llaw; oddi eithr fod y bwriad i'w benderfynu yn absennol. Oddi wrth y wybodaeth o gyssylltiad y rheswm â'r casgliad y cyfyd y penderfyniad yn anocheladwy."[1]

Yn ol y dull cyffredin o ddosbarthu cyfresymiad i brif osodiad (*major*), is-osodiad (*minor*), a chasgliad (*conclusion*), ymddengys y rhydd gwersi y *Nyayo* y synwyr hyn:—Rhaid canfod cartrefiad gwrthddrych (*subject*) yr is-osodiad yn mlaendraeth (*predicate*) y prif osodiad trwy gyfrwng ystyriaeth, gan y gellid derbyn blaendraeth y prif osodiad fel gwirionedd heb iddo awgrymu gwrthddrych yr is-osodiad. Eithr nid *cartrefiad* y gwrthddrych yn y blaendraeth, ond yr *ystyriaeth* o hyny, ydyw achos y casgliad; pe amgen, ni byddai yn gasgliad. Y wybodaeth o gartrefiad angenrheidiol y gwrthddrych yn y blaendraeth derbyniedig, a led arwydda y casgliad; o blegid y cyssylltir y gwrthddrych â'r blaendraeth trwy ganol-air (*middle term*), pa un a ddefnyddir mewn ystyr eang yn y blaendraeth, ac mewn ystyr gyfyngach yn y gwrthddrych. Cyn gynted ag y canfyddir y *cartrefiad* a nodwyd, cyfyd y casgliad gyda sicrwydd anocheladwy—"oddi

[1] Y mae cryn debygolrwydd rhwng rhestr Bod-foddaeth (*Categories—Podártho*) Gontom a'r eiddo Aristotle. Enwa y blaenaf saith, a'r olaf ddeg o Foddau Bodaeth:—

Y mae esgusawd yn ddyledus i Gymry dysgedig, ac i ddarllenwyr Cymreig, am ddefnyddiad rhai geiriau newyddion yn yr ysgrif hon, megys Bod-foddaeth am *Podártho* neu *Category*, &c. &c. Defnyddir hwy yn unig o blegid nas gŵyr yr ysgrifenydd am eu gwell; er, hwyrach, y bodolant. A hydera y derbyn y darllenydd caruaidd hyn fel esgusawd cyffredinol.

[2] "*Protyoksho*" (*perception*), "*onumáno*" (*inference*) "*repománo*" (*analogy*), a "*sobdo*" (*affirmation—word.*)

[1] *Nyayo Dorshon*, 66—70. Gwel hefyd *Gontom Sutra*, llyfr ii. oll.

Digitized by Google

eithr," fel y sylwa Gontom, "fod y bwriad i benderfynu yn absennol."

Hwyrach y bydd enghraifft yn gynnorthwy er deall y *Nyayo* yma:—"Pa greadur bynag a fedd allu i wahaniaethu rhwng gwir ac anwir, sydd weithredydd moesol. Medda dyn y cyfryw allu; gan hyny, y mae dyn yn weithredydd moesol."

Canfyddir yma fod y casgliad—"dyn sydd weithredydd moesol,"—yn cael ei wneyd i fyny o'r ddau air eithafol yn y cyfresymiad. Y ddau ddrychfeddwl ynghylch pa rai yr ymchwilir yma ydynt, "dyn," a "gweithredydd moesol;" a dyma ddau air eithafol y cyfresymiad. Y canol air (*middle term*), pa un a'u cyssyllta, ydyw, "Creadur yn meddu gallu i wahaniaethu rhwng gwir ac anwir." Gellid derbyn y prif osodiad yma fel gwirionedd, heb i hyny roddi un amnaid am y gwrthddrych neillduol "dyn," yn yr isosodiad. Eithr pan uner y ddau trwy roddi i mewn y *canol-air*, cyfyd y casgliad o angenrheidrwydd yn y meddwl, yn unol â deddfau ei weithrediadau.

Oddi wrth yr hyn a ddywedwyd, eglur ydyw nas gwyddai yr Hindwaid athrylithgar ddim am y pedwar pedwariaid o rywogaethau cyfresymau, yn unol â chynllun Aristotle a'i ganlynwyr, pa rai a wahaniaethid yn ddosbarthiadau yn ol sefyllfa y canol-air. Yn ysgrifeniadau yr Hindwaid, ni chyfarfyddir âg un amnaid y gwyddent am chwaneg o rywogaethau cyfresymiad na dwy, oddi tan y rheol flaenaf (*Barbara*), a dwy dan yr ail (*Camestres*). Nid enwir gwahanol rywogaethau gan neb o honynt; ond gellir eu casglu o'u hesamplau. Cadarnhâd cyffredinol, nacâd cyffredinol, a chasgliadau oddi wrth osodiadau cymmysg o gadarnhâd a nacâd, ydyw yr oll a gyfarfyddir yn y *Nyayo*.

Addefir yn rhwydd, pa fodd bynag, y cynnwys y *Nyayo* lawer o reolau rhesymegol tra rhagorol; a phe canlynasid hwy, buasai gwirionedd yn llawer mwy eglur nag ydyw, yn ddiddadl, yn nwylaw yr athronwyr hyn.

Bellach, ceisir dangos pa fodd y cymmhwyswyd y rheolau a'r rhesymeg hyn yn ymchwiliad yr athronwyr am wirioneddau mawrion sylfaenol *bodaeth, priodoliaethau, perthynasau,* a *moesau.*

Yn athroniaeth bodaeth (*ontology*), yr ymholiad cyntaf a gyfyd yn naturiol ydyw, Pa beth ydyw *sylwedd*, neu gyn-sail bodaeth? Ac y mae yr Hindwaid wedi talu sylw neillduol i'r cwestiwn hwn.

Yn y *Vedanto*, y gair a ddefnyddir am sylwedd yn gyffredin ydyw *vosto;* yn y *Nyayo*, *drovyo;* ac yn y *Sankhyo*, *prokriti*, ac yn fynych, *drovyo*. Yn ol y blaenaf, *ysbryd* yn unig ydyw sylwedd, ac un ysbryd ydyw pob sylwedd; yn yr ail, defnyddir y gair *sylwedd* yn gyffredinol er arwyddo ysbryd a defnydd; ac yn y trydydd, y mae *prokriti* a *purusho*, neu ddefnydd ac ysbryd, yn wahanol, annibynol, a thragwyddol.

SYLWEDD YN OL Y "VEDANTO."

Yn ol y gyfundraeth hon, "y gwahaniaethiad rhwng y sylwedd (*vastu*) gwirioneddol a thwyllodrus ydyw y wybodaeth mai Brahmo ydyw yr unig sylwedd gwirioneddol, a bod pob peth heb law Brahmo yn dwyllodrus."[1] "Megys y cynnyrcha y pryf copyn ei we, megys y cyfyd gwreichion o dân; felly oddi wrth yr ysbryd hwn y cyfyd yr holl anifeiliaid, yr holl fydoedd, yr holl dduwiau, a phob creadur."[2] "Hyn oll" (sef y byd creadigol) "ydoedd yn y dechreuad Un, sef Brahmo."[1] Y golygiad ydyw, yn y rhai hyn ac ugeiniau lawer o destynau ereill, mai Brahmo ydyw sylwedd yr oll a fodola. Dylid sylwi yma yr arwydda y geiriau *Brahmo* a *Vastu* yr un peth, a bod y ddau yn y canolryw. *Peth*, ac nid *person*, ydyw y *Brahmo* hwn. Priod-hynodion ei natur ydynt, *sylwedd, dealltwriaeth*, a *llawenydd.*[2] Nid dealltwriaeth mewn gweithrediad, na llawenydd mewn mwynhâd; o blegid y mae efe uwch law meddwl, mwynhau, a theimlo. Ewyllys, gweithrediad, neu ysgogiad, ni pherthyn i'w natur ef; ac nis gallant berthynu, yn ol ffurf-resymiad yr Hindwaid, o blegid yr arwydda y golygiad o *ewyllys* ddiffyg yn ei berchenog, ac y dynoda y golygiad o weithrediad ac ysgogiad gyfnewidiad a therfyn yn eu gwrthddrych; tra y mae *Brahmo* yn anghyfnewidiol ac annherfynol oddi ar angenrheidrwydd ei natur. Felly, yn ol y dull hwn o ymresymu, gan fod *Brahmo* yn annherfynol o ran *lle* ac *amser*, nis gall fod unrhyw wrthddrych yn meddu bodolaeth sylweddol ond efe. A chan ei fod yn anghyfnewidiol, nid ydyw yn bossibl iddo na chreu na rheoli; o blegid arwyddai hyny gyfnewidiad—yr hyn nis gall ddigwydd mewn cyssylltiad â *Brahmo*.

Gallai y fath ymresymiad ymddangos yn ddisylfaen i rai; eithr i'r Hindw ymddengys yn olygus (*plausible*). Etto, rhaid addef mai twyllymresymiad ydyw. Hyd yn oed ymresymiad y *Vedanto* a brawf hyn. Addefa doctoriaid y *Vedanto* nad ydyw yr ymddangosiad o'r hyn a elwir "byd" yn dragwyddol; o ganlyniad, pe caniateid mai *Brahmo* ydyw sylwedd y "byd," etto yr oedd yr arddangosiad hwn o hono ei hun fel *byd o wrthddrychau* yn gyfnewidiad o ryw fath ynddo neu arno; pe amgen, buasai yr arddangosiad a'r gwrthwyneb yr un. Y ddau olygiad ydynt yn ammhossibl ar yr un pryd i'r un gwrthddrych. Hefyd, gan fod *Brahmo*, yn ei sefyllfa gynhenid yn gwbl amddifad o briodoledd[3] (*nirgun*), yr oedd angenrheidrwydd am iddo ymuno â'r tair ansawdd er ei alluogi i ymddangos fel *byd o wrthddrychau*. Drachefn, dylasai y doctoriaid Vedantaidd roddi rhyw gyfrif am darddiad y tair priodoledd, yr hyn ni wnaethant; a thrwy y diffyg hwn, gadawant y mater, pa un ai un di-ail ydyw *Brahmo*, ai peidio, heb ei ben-

1 *Vedanto Sara.*
2 *Brihod Aronoko Upanishod.*

1 Yr un.
2 "*Sochid Anondo moyo:*" hyny yw, "*sat*," gwir fodolaeth neu sylwedd; "*chito*"—dealltwriaeth; ac "*anondo*"—llawenydd.

Dylid nodi yma—unwaith am yr oll—y defnyddir y gair *sylwedd* trwy yr ysgrif hon fel yn deilliaw o "sail" a "gwedd"—agos yn gyfystyr â "cynffurf." Nid yw yr ysgrifenydd yn sicr ai cywir hyn ai peidio. Geilw yr Hindwaid *ysbryd*, "*atma;*" felly hefyd y galwant "hunan," neu y "myfi" (*atyo*), gan olygu yn eglur mai yr ysbryd ydyw y dyn—yr "*ego*"—y "myfi." A dywedant yn mhellach mai y cymmysgiad o'r corph a'r ysbryd yn y drychfeddwl o'r "myfi" ydyw prif achos trueni dyn.

3 "*Ekomevadwityom:*" "Un ac heb ail." Dyma brif air y *Vedanto*, yn gystal ag eiddo dysgyblion diweddar y *Brahmo Somag* sylfaenedig gan y diweddar Ram Mohun Roy. Golyga yr olaf y wers fel yn cyfeirio at Dduw fel person—mewn gair, Duw y Beibl. Eithr nid ymddengys mai dyna ei gwir ystyr yn y *Chandogyo Upanishod*. Dyma y wers oll fel y saif yno:—

"Hwn, O! ddysgybl caruaidd, a fodolai yn y dechreuad—Un Di-ail. Dywed rhai yn wir na fodolai hwn yn y dechreuad—Un Di-ail; gan hyny, gellir cynnyrchu bodolaeth o anfodolaeth. Eithr pa fodd, O! ddysgybl addfwyn, y dichon hyn fod? Pa fodd y dichon bodolaeth gyfodi o anfodolaeth? Hwn, O! ddysgybl addfwyn, ydoedd sylwedd ("*sattwo*") yn y dechreuad. Un heb ail."

Y gair "Hwn" ("*idom*") sydd yn y canolryw, ac yn cyfeirio at y byd gwrthddrychol. Felly y meddwl ydyw mai yr un sylwedd ydyw Duw a'r byd. Gwel ***Professor Banerjea's Dialogues on Hindoo Phil.*, td. 435, *ff.***

Digitized by Google

derfynu. Addefant na pherthynai y tair ansawdd i *Brahmo* yn ei gyn-sefyllfa ddibriodoledd; ac hefyd na chreodd *Brahmo* hwynt. Y canlyniad ydyw, fod yn rhaid iddynt ddyfod i fodolaeth mewn rhyw ffordd arall, neu y bodolent yn dragwyddol, a'u bod yn annibynol yn eu natur. Yr olaf ydyw y golygiad cyffredin. Eithr pa un bynag o'r golygiadau uchod a fabwysiedir, rhaid derbyn yr egwyddor ddwyol (*dual*) gyda'r golygiad hwnw. Os daethant i fodolaeth trwy unrhyw achos heb law *Brahmo*, bodolai yr achos hwnw; ac felly, yr oedd dau: neu, os delir fod y tair ansawdd yn dragwyddol, yr oedd dau. Eithr pe derbynid yr egwyddor ddwyol mewn unrhyw ffurf, syrthiai holl gyfundraeth y *Vedanto* ar unwaith, gan y sylfaenir hi ar y gred mai *un di-ail*, ydyw *Brahmo*, sylwedd yr oll a fodola; ac nad oes sylwedd ond efe.

*Brahmo*, gan hyny, fel sylwedd dibriodoledd, sydd uwch amgyffredol ac uwch synwyrol; *h.y.* yn berffaith ddiddymdra o ran dim a ŵyr dyn. Eithr pan gyssylltir ef â'r tair ansawdd o wiredd, gweithgarwch, a gwrthuni, daw yn *Isa*, yn *Ishwor*, yn greawdwr, ac yn wrthddrych amgyffrediad dynol. Etto ni chrea ond ymddangosiad o hono ei hun: ni fedd y byd fodolaeth sylweddol. Ar ol yr ymddangosiad, pery y sylwedd yr un, megys cyn hyny.

Pa ham? Pa fodd? A thrwy weithrediad pwy y daeth *Brahmo* i gyssylltiad â'r tair ansawdd? Nid ei weithrediad ei hun; o blegid yr oedd efe yn ddibriodoledd, diysgogiad, a diweithrediad. Nid trwy weithrediad y tair ansawdd; o blegid ni feddant hwy na deall, bwriad, na dymuniad. Ysgogydd a modd y cyssylltiad hwn, ni chyfrifir am dano yn neb o'r ysgrifenwyr Vedantaidd, er y dywed pawb o honynt mai y tair ansawdd yn ffurf anwybodaeth[1] ydyw achos ymddangosiad *Brahmo* yn ffurf byd o wrthddrychau.

Nid oes anhawsdra mawr i nodi allan wendidau y fath gyfundraeth a hon; a bydd eu nodi allan yn unig, heb gynnyg ymresymiad o un math er gwrthbrofi y fath osodiadau, yn ddigon i'n dyben presennol.

Yn y lle cyntaf, gellid sylwi mai unig ffynnonellau gwybodaeth a phrawf i feddwl dyn, yn unol â natur ei gyfansoddiad presennol, ydynt hunanymwybyddiaeth, ac ymwybyddiaeth fewnol o foddau, gweithrediadau, a sefyllfaoedd y meddwl: yn nesaf, y synwyrau a'r galluoedd amgyffredol perthynol iddynt: ac yn olaf, rheswm, a'r galluoedd llywodraethol yn yr enaid er barnu, cymmharu, a phenderfynu perthynasau a deddfau. Heb law y tair elfen hyn, nis gwyddom am un

[1] "*Anwybodaeth* ydyw amgyffrediad cyfeiliornus.' Gwel *Amuro Kosa*, dan y gair "*ogydnoin.*" *Anwybodaeth* ydyw y wybodaeth o "*ohom moti:*" hyny yw, tyb gyfeiliornus o "myfi." Gwel *Hoimo Kosa*, dan yr un.

Y golygiad Hindwaidd ydyw, fod anwybodaeth yn chwaneg nag absennoldeb gwybodaeth: y mae yn wybodaeth sylweddol o'r hyn nid yw. Fel gwybodaeth, y mae mor sylweddol a gwirioneddol ag ydyw gwir wybodaeth o'r hyn sydd. Yr unig wahaniaeth rhwng gwybodaeth ac anwybodaeth ydyw, fod y blaenaf yn wybodaeth o'r hyn sydd, ac felly yn wir: a'r olaf yn wybodaeth o'r hyn nad yw, ac felly yn gau. Er esampl:—"*Ahom-moti*," neu y dyb o "myfi," pan gymmer i mewn y corph yn gystal a'r ysbryd, sydd yn gau wybodaeth: a phan y cymmer i mewn yr ysbryd yn unig, gwir wybodaeth ydyw.

Cyfansoddir y gau wybodaeth hon o'r tair ansawdd; a chan mai yr anwybodaeth hon ydyw achos ymddangosiad *Brahmo* yn ffurf y byd a'i briodoleddau, yn unol ag egwyddor Hindwaidd arall, "na chyfyd dim o ddiddymdra," rhaid fod y gwrthddrychau a'u priodoleddau yn y tair ansawdd wreiddiol—bydded y gwrthddrychau yn sylweddol neu yn ymddangosiadol.

llwybr, trwy ba un y mae yn bossibl i ddyn gyrhaedd gwybodaeth neu ffurfio barn am unrhyw wrthddrych neu fater. Cymmerer ymaith bob gwybodaeth gyrhaeddadwy trwy y synwyrau, trwy ymwybyddiaeth feddyliol, a thrwy benderfyniad rheswm, ac y mae holl gyfryngau a seiliau gwybodaeth ddynol wedi eu symmud.

Yn awr, *Brahmo*, fel bod dibriodoledd, diysgogiad, a diweithrediad; gwrthddrychau y greadigaeth, ac enaid dynol, fel ymddangosiadau disylwedd, ac nid fel sylweddau gwirioneddol, er yn greadigol a dibynol; a bodolaeth rhyw dair ansawdd yn twyllo y meddwl trwy ryw allu gorchuddiol a gallu pelldaflol,[1] ydynt osodiadau, pa rai ni phrofir yn un o'r tri llwybr a enwyd uchod. Ni rydd na'r synwyrau, nac ymwybyddiaeth fewnol, na barn rheswm, unrhyw wybodaeth am fod dibriodoledd, neu am wrthddrychau disylwedd, neu am dair ansawdd yn twyllo y meddwl. Ac os ydyw y tair elfen hyn yn ymddibynol ar unrhyw brawf yn meddiant y meddwl dynol, dylai y doctoriaid Vedantaidd egluro sylfeini y prawf. Ond ni wnant; a'r gommeddiad hwn a ddinystria eu cyfundraeth. Hyd yn oed *Sonkoro Acharyo*—y mwyaf galluog a'r mwyaf penboeth o ysgrifenwyr galluog y *Vedanto*—a addef fod prawf yn ammhossibl heb ymwybyddiaeth y meddwl; eithr dywed fod y dyb o fyd, neu o enaid dynol, ar wahân oddi wrth *Brahmo*, yn gamsyniad o'r un natur a thybied mai sarph ydyw rheffyn, ac mai arian ydyw *nacre*, a'r cyffelyb. Pe caniateid fod y camsyniad o dybied y byd yn rhyw sylwedd heb law *Brahmo* yn gyffelyb i'r dyb mai sarph ydyw rheffyn, neu arian *nacre;* etto, os na phrawf ymwybyddiaeth (*consciousness*) fod amgyffrediad (*perception*) yn golygu fod y sarph a rheffyn—y byd a *Brahmo*—yn sylweddau, byddai y fath gamsyniad yn ammhossibl: neu, os yn bossibl, y profai y camsyniad fodolaeth sylweddol y gwrthddrychau. O blegid, pa beth ydyw y camsyniad y cwynir o'i herwydd? onid trosglwyddo priodoleddau y naill wrthddrych i wrthddrych arall? Ac os prawf fodolaeth y naill, prawf yr un modd fodolaeth y llall. Os gwneir y fath gamsyniad, rhaid ei wneyd ar y dyb fod y naill a'r llall o'r gwrthddrychau yn bodoli yn wirioneddol. Eithr nid yn yr amgyffrediad, fel y dywed yr Hindw, ond yn nghasgliad y meddwl yn nghylch y gwrthddrychau, y cartrefa y camsyniad.

Ar y cwbl, eglur ydyw—pa un bynag ai trwy gyffyrddiad uniongyrchol y synwyrau allanol â gwrthddrychau, yn ol y golygiad Hindwaidd—

[1] "*Odhydrópo* ydyw gosod yn y meddwl y drychfeddwl o beth sylweddol ar beth disylwedd; megys, gosod y drychfeddwl o sarph ar ddernyn o raff. Y peth sylweddol ydyw y tragwyddol, oll-ddoeth, oll-ddedwydd *Brahmo*, heb ail. Y peth disylwedd ydyw yr oll ag sydd ddifywyd a diwybodaeth. Y peth amddifad o ymwybodaeth ydyw yr hyn nis gellir ei egluro fel yn bodoli, nac yn ddifodolaeth; ereill a'u gwnant i arwyddo y rhywbeth cyfansoddedig o'r tair ansawdd, pa rai a fodolant ac a attaliant wybodaeth."—*Vedanto Sáro*, td. 15.

Y gair *odhydropo* neu *bhrom*, a ddynoda, yn llythyrenol, "gosod ar;" hyny yw, "gosod ar" y naill beth y meddylddrych o beth arall; megys "gosod ar" reffyn y meddylddrych o sarph; neu ar *Brahmo* y drychfeddwl o fyd o wrthddrychau.

Y ddau allu o eiddo *anwybodaeth*, at ba rai y cyfeirir yn y testyn ydynt "*ovoron shanti*" a "*vikshepo shokti*." Y blaenaf sydd nacaol yn unig, yn gorchuddio Brahmo yn nrychfeddwl yr enaid, gan beri i'r meddwl dynol dybied fod y byd yn wirioneddol ynddo ei hun. Yr ail sydd weithredol, yn arwyddo *tafliad allan*, er dynodi tyb y meddwl fod gwrthddrychau y byd yn sylweddol a gwirioneddol, tra nad ydynt ond *Brahmo*. Felly, arwydda "*ovoron*"—gorchuddiad; a "*vikshepo*"—tafliad allan, neu belldafliad (*a projecting*).

Digitized by Google

neu trwy ryw gyfrwng arall, y ffurfir amgyffrediad y meddwl o'r gwrthddrychau hyny, fod y meddwl yn ymwybodol o amgyffrediad o wrthddrychau *sylweddol*, ac nid o ymddangosiadau o bethau disylwedd; a bod ymwybyddiaeth feddyliol yn elfen hanfodol yn mhob prawf. Y canlyniad ydyw, fod golygiad y *Vedanto* am natur sylwedd yn gyfeiliornus, yn gystal ynghylch y sylwedd dibriodoledd a elwir *Brahmo;* ac yn nghylch ansylweddolrwydd gwrthddrychau y synhwyrau. Gellir enwi elfenau yr ymresymiad angenrheidiol er profi hyn yn fyr fel y canlyn:—

1. Pa un bynag a ydyw gwybodaeth o wrthddrych amddifad o briodoleddau o unrhyw fath yn gyrhaeddadwy i ryw fath o feddwl, ai peidio, addefir o bob tu fod y meddwl dynol wedi ei gyfansoddi er adnabod gwrthddrychau yn unig trwy eu priodoleddau a'u deddfau. O ganlyniad, os bodola y fath wrthddrych a'r *Brahmo* a ddisgrifir gan yr Hindwaid, nis gall dyn wybod y bodola.

2. Caniateir hefyd o bob tu fod ymwybyddiaeth y meddwl o'i amgyffredion ei hun ynghylch bodolaeth gwrthddrychau y synwyrau, yn ymwybyddiaeth o honynt fel *sylweddau*, ac nid fel pethau *disylwedd;* a bod ymwybyddiaeth o sefyllfaoedd y meddwl yn hanfodol i brawf. O ganlyniad, rhaid naill ai derbyn prawf yr ymwybyddiaeth hono ar y mater, neu fyned heb brawf o gwbl.

3. Nid ydyw y golygiad Hindwaidd, fod perffaith annibyniaeth a thragwyddolrwydd yn hanfodol i'r drychfeddwl o *sylwedd* ("*vostu*"), yn sylfaenedig ar unrhyw ffaith adnabyddus yn neddfau dirnadaeth a gwybodaeth ddynol. A phe byddai, profai ormod; o blegid profai fod meddwl y meddyliwr ei hun, naill ai yn ddisylwedd, neu yn annibynol a thragwyddol; yr hyn sydd wrthwyneb i dystiolaeth ei ymwybyddiaeth o'i fodolaeth ei hun fel bod dibynol a chyfnewidiol.

SYLWEDD, YN OL Y "SANKHYA."

Golyga Kopil fod sylwedd yn dragwyddol mewn dwy ffurf; sef natur ("*prokriti*"), ac ysbryd ("*purusho*"). Y ddau sylwedd hyn ydynt yn eu priod-natur yn hunanfodol; yn annibynol ar y naill y llall, ac uwch law gwybodaeth trwy offerynoliaeth y synhwyrau. Dylid sylwi, er y dywed Kopil y cyfyd "*prokriti*" o gymmesuredd y tair ansawdd annechreuol, sef gwiredd, gweithgarwch, a thywyllwch—etto dywed ei bod yn ddiddechreu yn ffurf "gwraidd diwraidd," a "*mul prokriti*," neu wreidd-natur. Pa un a fu y tair ansawdd yn bodoli yn annibynol ar y naill y llall, ac yn meddu bodolaeth wahaniaethol; neu ynte, a ydyw eu sefyllfa o gymmesuredd yn dragwyddol, yn gystal a'r ansoddau, ni ddywed yr athronwyr. Ymddengys y credai Kopil fod y byd a'r gorchwyl o greu yn ddiddechreu a diddiwedd. "Er," meddai Kopil, "y bodola y byd yn ddiddechreu, gan na welwyd amser hyd y dydd hwn pan nad oedd byd yn bodoli, gellir casglu na welir byth y fath amser yn y dyfodol. Megys yn bresennol, felly yn dragywydd y parhä trefn y byd: ni bydd attaliad ar rediad y byd byth."[1] Y mae rhyw ddirgelwch o gwmpas y tair ansawdd, a'r "*prokriti*"[2] a gyfyd o'u sefyllfa o gymmesuredd, yr hwn nid eglurir gan neb o'r athronwyr. Pan ddechreua "*prokriti*" weithredu er cynnyrchu "*mohot*" neu ddealltwriaeth, try yn "*vikriti*." Yr egwyddor ddwyol o wryw a banyw ydyw sylfaen y gyfundraeth hon. Ac o honi y tarddodd duwiau a duwiesau chwedlddysg Hindwaeth ddiweddar.

Heblaw y ddau sylwedd tragwyddol ac annibynol hyn, y mae, yn ol y *Sankhya*, saith egwyddor gynnyrchedig; pa rai ydynt gyn-egwyddorion sylweddol holl sylweddau cyfansawdd y greadigaeth; sef, deall, hunanwybyddiaeth (*egoism*), a'r pum elfen ronynol (*ton matro*). O'r saith hyn y cyfododd y pum sylwedd ar hugain, pa rai a enwyd yn barod. Gwthir allan yn hollol y golygiad o Dduw o gyfundraeth Kopil; o herwydd hyny gelwir hi y gyfundraeth *oneshwor* neu didduw.

Anhawdd iawn ydyw dyfalu safleoedd meddyliol cychwynol Kopil. Pa beth a allasai fod tarddiad y golygiad o'r tair ansawdd? A pha ham y gadewir hwy gan athronwyr o feddyliau mor dreiddiol ac ymchwilgar a'r eiddo Kopil, Vachospoti Misro, a Vijnau Bhiksha, heb gynnyg rhoddi un cyfrif am eu tarddiad? Beth a allasai fod egwyddor gyntefig y dyb o gyfodiad *natur* o gymmesuredd y tair ansawdd hyn? Anhawdd iawn ydyw dirnad dyben Kopil wrth ddihatru enaid o bob cynneddf weithgar, megys deall, rheswm, ewyllys, pleser, poen, &c., a'u rhoddi oll i'r synwyr mewnol a elwir "*monos*" (meddwl), gan adael enaid heb un gynneddf ond bodolaeth.

Yn yr hen ysgrifeniadau Hindwaidd, ni chyfarfyddir â'r drychfeddwl o ddwy egwyddor dragwyddol, gwryw a banyw; eithr sonir yn rhai o'r *Upanishod* am *genhedliad* y byd:—anhawdd ydyw penderfynu ai yn yr ystyr ddaearol o genhedlu ai peidio. "Hwn ydoedd yn y dechreuad yn ysbryd unigol, a dim arall pa beth bynag yn gweithredu."[1] Brahmo a ystyriai, "Un unigol ydwyf fi; bydded i mi ddyfod yn amryw."[2] "Y gwryw annechreuol, wedi ei uno â, a fwynhäai y fenyw annechreuol, pa un sydd yn goch, gwyn, a du; yr hon a gynnyrchai liaws o greaduriaid o'r un natur a hi ei hun, &c."[3]

Y mae yn bossibl mai rhyw hen olygiadau anelwig felly, pa rai a gyfarfyddai Kopil yn yr hen draddodiadau, wedi eu cyssylltu â hen olygiad Hindwaidd arall; sef, fod yn rhaid i *sylwedd perffaith* fod yn ddibriodoledd, o blegid y dynoda priodoledd ammherffeithrwydd—a sylwedd perffaith nis gall feddu dim ond bodolaeth—bod cyfodiad dealltwriaeth yn gyfamserol â chyfodiad creadigaeth; a bod annibynrwydd, pleser, poen, a'r cyffelyb, yn cartrefu yn mhob peth daearol. Gosoder y pethau hyn ynghyd, a chyfyd y golygiad o'r tair elfen, ac o natur, fel y canlyn:—Yn y dechreuad, yr ydoedd y cyn-achos yn ddibriodoledd, gan nas dichon sylwedd pur feddu dim ond bodolaeth. Mewn rhyw ddull, yr hwn ni ddisgrifir, cyssylltwyd y sylwedd pur hwnw â'r tair ansawdd—dechreuodd feddwl—"Yr ydwyf yn un, dymunwn ddyfod yn amryw." O'r meddwl a'r dymuniad hwn, cyfododd creadigaeth. A chan fod pleser, poen, a thwyll, i'w canfod yn

[1] *Sankhya Sutra*, llyfr i. 158, 159.

[2] Dywed Dr. Fitz Edward Hall mai "*originant*," neu "*evolvant*," ydyw y cyfieithiad goreu o'r gair; ac "*originate*," neu "*evolute*," o'r gair "*vikriti*." Gwel ei gyfieithiad o draethawd Pandit Nilkanto Sastri, td. 9.

[1] *Artoreyo Upanishod*, *pen*. i. 1.

[2] *Brihod Aronoko Upanishod.*

[3] *Swetoswotoro Upanishod*, *pen*. iv. 5. Y tri lliw, "coch, gwyn, a du," a gyfeiriant yn ddiddadl at y tair ansawdd y gwna y Sankhya gymmaint o honynt. Proffeswr Banerjia a ddeil i'r *Upanishod* hon gael ei hysgrifenu yn ddiweddar ar ol Kopil, ac mai o'r Sankhya y benthyciwyd y rhaniad triphlyg. Yma ni chynnygir ymchwilio i sylfeini y golygiad hwn. Digon ydyw dyweyd y gall y lliwiau o wyn er dynodi *sotyo; coch*, er arwyddo *rojo;* a *du*, er lled hysbysu tywyllwch y *tomo;* gyfeirio at y tair ansawdd o ba rai y mae Kopil mor hoff.

Digitized by Google

mhob peth creadigol, ac nas dichon, yn ol y golygiad Hindwaidd, fod dim yn yr effaith nad ydoedd o'r blaen yn yr achos, rhaid fod y tair ansawdd hyn yn y meddwl (*mohot*), yr hwn a achosodd greadigaeth. A chan eu bod yn y meddwl pa un a gafodd ddechreuad, rhaid y bodolai yr ansoddau hyny cyn cyfodiad y meddwl; ac mai eu huniad a'i achosodd. "Gan y cyfarfyddir â'r tair ansawdd hyn yn mhob peth crëedig, rhaid eu bod yn y meddwl yr hwn a gynnyrchodd greadigaeth. Eithr gan fod y meddwl (*mohot*) ei hun yn gynnyrch, rhaid fod iddo gael ei gynnyrchu gan rywbeth yn meddu y tair ansawdd. Galwer y rhywbeth hwnw "*prokriti*," yr hwn a wneir i fyny o enaid y tair ansawdd, ac a gynnyrcha *mohot*, neu feddwl. Y *mohot* hwn a gynnyrcha bob peth arall mewn graddiaeth reolaidd. Am *Brahmo*, gan ei fod yn ddibriodoledd, diysgogiad, a diwaith, y mae yn hollol y tu allan i gylch gwybodaeth; gan hyny, nis gellir profi y bodola."

Y bodola sylwedd ysbrydol, a brofir gan Kopil, gyda'r un prawf hwn:—"Rhaid fod i natur ddiddeall ryw ddyben wrth greu y byd. Y dyben hwnw nis gall fod yn amgen na dedwyddwch enaid; gan hyny, rhaid y bodola enaid."

Afreidiol ydyw treulio amser i wrthbrofi golygiadau fel hyn. Gwybod pa beth ydynt sydd yn ddigonol er sicrhau eu gwrthodiad.

Bod yr ansoddion o bleser, poen, a thwyll, yn y byd, sydd sicr. Mai y tair hyn ydynt unig ansoddion gwrthddrychau creadigol, nid ydyw mor eglur. Eithr pe caniateid hyny, er mwyn ymresymiad, ni phrofai hyny fodolaeth annibynol a thragwyddol yr ansoddau, a'u huniad er ffurfio rhyw sylwedd benywaidd o'r enw *prokriti*, pa un a ddaeth ei hun yn ddefnydd yn gystal ag yn greawdydd y byd. Yn chwanegol at hyn, creodd y *prokriti* hon y byd—er ynddi ei hun yn ddiddeall a dideimlad—i ddyben pennodol, er dedwyddwch enaid, mewn cyffelyb fodd ag y darperir y llaeth—ei hun yn ddiddeall—yn nghyfansoddiad y fuwch er mwyn y llo.[1]

Cynnwys y fath gyfundraeth o olygiadau a hon anhawsderau, pa rai y mae agos yn ammhossibl i'r dychymmyg mwyaf rhamantus fyned drostynt. Dyma ansoddau hunanfodol a thragwyddol heb berthyn i unrhyw sylwedd—ansoddau yn ymuno mewn cymmesuredd er ffurfio gallu cynnyrchiol sylweddol—y gallu hwnw, er heb ddeall na theimlad, yn dyfod yn ddefnydd ac yn achos byd o wrthddrychau—y byd hwnw yn dyfod yn achos trueni enaid, er mai dyben ei ffurfiad ydoedd rhyddhâd enaid—yr enaid hwnw, heb fod mewn gwirionedd nac yn rhydd nac yn rhwym, etto yn bodoli heb na phriodoledd, gweithrediad, ysgogiad, na theimlad.[2]

Byddai yn anfri ar resymeg gynnyg ei darostwng er profi nad oes i osodiadau fel yr eiddo Kopil y cysgod lleiaf o sylfaen, nac yn natur gwrthddrychau, nac yn neddfau y meddwl dynol. Pa beth a all rhesymeg ddywedyd ynghylch byd o sylweddau defnyddiol, wedi ei lunio o ansoddau tragwyddol?—neu, o enaid heb na deall, ysgogiad, na theimlad? Hynodion ydyw y rhai hyn yn mysg opiniynau y byd, pa rai y rhaid eu gadael, nid i'r deall, eithr i'r dychymmyg Hindwaidd yn unig.

SYLWEDD, YN OL Y "NYAYO."

Y darnodiad (*definition*) o sylwedd fel "cynsail ac anneddle ansoddau," sydd, hwyrach, cystal ag unrhyw ddarnodiad a ellid ei roddi, o'r drychfeddwl o *beth*, yr hwn nis gellir ei wybod trwy offerynoliaeth y synwyrau; ac etto, pa un nis caniatâ angenrheidiau a deddfau y meddwl i ni ei wadu. Gyda phob parch i resymiadau Berkeley ynghylch sylwedd defnydd, a'r eiddo Hume ynghylch sylwedd ysbryd, gorfodir ni i gredu tystiolaeth ymwybyddiaeth y meddwl o bresennoldeb gwrthddrychau o'n cwmpas, fel yn cynnwys cynffurf, neu sylwedd—neu ryw *air* pa un sydd yn anghrëedig hyd yn hyn, er dynodi *peth* yn absennoldeb y drychfeddwl o'i ansoddau, fel anneddle neu safle yr ansoddau. Byddai son am "ffurf," er enghraifft, fel ansawdd, a gwadu y "*quiddity*," neu y "*substrate*," neu y *saf-fan*, lle y cartrefa yr ansawdd hwnw, yn wrthddywediad i'n hamgyffredion (*perception*), ac yn groes i ddeddfau ein rheswm. Ac yn absennoldeb profion y synwyrau ac amgyffrediad, na thystiolaeth rheswm, yr ydym yn hollol amddifad o ddefnyddiau prawf, ac felly heb brawf. Felly gan y cyttuna tystiolaeth ymwybyddiaeth feddyliol (*consciousness*) â darnodiad y *Nyayo*, gallwn dderbyn y ddau.

Er y tra rhagora cyfundraeth y *Nyayo* ar bob golygiadau ereill yn ysgrifeniadau yr Hindwaid hynafol, yn gystal yn rheolau ymchwiliad, ac yn sylwedd llawer o'r golygiadau a ddelir, etto y mae llawer o olygiadau gweiniaid iawn yn y *Nyayo*. Ceisir nodi yn fyr iawn wendidau golygiadau Gontom a Konad ynghylch sylwedd. Ac i'r dyben presennol, gwneir defnydd o esboniad rhagorol y proffeswr Banerjea ar y mater mewn llaw.[1] Ni roddir yma ond talfyriad byr o'r mater.

Dysgybl y *Nyayo* a ddywed fod terfyn i raniad defnydd. Wedi cyrhaedd y pwynt terfynol, geilw y gweddill yn ronynau heb faintioli, sefyllfa, &c., yn *geometrical points*. "Pe caniateid rhaniad diderfyn, byddai hedyn mwstard a mynydd yn gyfartal."[2] "Gwirionedd rhyfeddol syml ydyw fod pob peth a renir âg anfeidredd (*finity*) yn gyfartal; ac," ebai doethwr y *Nyayo*, "os nad ydych yn barod i wrthbrofi y prif brawf hwn, y mae egwyddorion y *Nyayo* yn ddiogel."

Y gronynau anranedig hyn ydynt ddiddechreu a hunanfodol. Ni chrewyd dim erioed: ammhossibl ydyw creu heb ddefnydd, pa un bynag ai gan Dduw neu ddyn: nid all hyd yn oed Hollalluogrwydd greu, yn yr ystyr o roddi bod i sylwedd, pa un ni fodolai mewn rhyw ffurf yn flaenorol. Dysgybl y Beibl a ddywedai, "Os nad all yr Ysbryd Hollalluog a Hollddigonol greu *peth* o ddiddymdra, yna y mae terfyn i'w allu a'i ddigonedd, ac nid Duw y Beibl ydyw. Y dyb o sylwedd defnyddiol tragwyddol ac annibynol, sydd yn wrthwynebol yn gystal i'n hymwybyddiaeth foesol, ag i wir athroniaeth." Eithr nid addef un athronydd Hindwaidd hyn. Addefant fod pob perffeithrwydd yn perthyn i'w meddylddrych o Dduw: ac etto, gwadant yn rymus wiredd y wers fechan, "Wrth ffydd yr ydym yn deall wneuthur y bydoedd trwy air Duw" (gan

[1] Kopil, mewn attebiad i wrthddadl dybiedig, ynghylch y possiblrwydd i natur ddiddeall ffurfio y byd i ddyben pennodol, a ddywed [*Sutra* ii. 37], "Fel y fuwch er mwyn y llo."

[2] "Nid priodoledd yn perthyn i enaid ydyw dealltwriaeth; o blegid y mae yr enaid yn ddibriodoledd."—*Sankhya Sutra*, i. 146.

"Y mae yr enaid yn hollol rydd, er yr amrywia ymddangosiadau."—Yr un, 160.

[1] *Dialogue on the Hindoo Philosophy. Dialogue* iv. tudal. 150—166.

[2] Cymmharer ag ystori Zeno o Elea ynghylch rhedfa Achilles a Malwoges.

Digitized by Google

olygu wrth "air," ewyllys hollalluog), yn gymmaint mai nad o *bethau* gweledig y gwnaed y pethau a welir." "Os ydyw, fel y dywedwch, y meddwl yn offeryn synwyrol mewnol, dylai o leiaf gael yr un gred a'r synwyrau allanol; o blegid heb y meddwl (*monos*), gwybodaeth o wrthddrychau allanol sydd ammhossibl. Yn awr, oni fedd ein hymwybyddiaeth fewnol, neu yn hytrach ddeddfau ein rheswm, argyhoeddiad, neu fewnol-ddysg (*intuition*), fod bod yn meddu perffaith wybodaeth, gallu, &c., uwchlaw ein hunain a bodau ammherffaith ereill? Os na fedd, yna, pa ham y bodola y gred yn mysg yr anllythyrenog a'r gwâr o hil dyn fod Duw yn bod? Os oes, pa ham nas derbynir y dystiolaeth hyny fel yr eiddo y synhwyrau ereill?

"Os bernir fod Gontom a Konad yn anghywir; yna, pa ham na fernid Syr Isaac Newton felly, gan y dywed yntau mai dechreuad y greadigaeth ydoedd *gronynau?*" "Pa ham?" O blegid na chaniatäai efe fod dim yn anghrëedig a thragwyddol ond Duw. Dyma ei eiriau cyntaf ynghylch gronynau:—"Ymddengys i mi yn debygol i Dduw yn y dechreuad *greu* defnydd yn ronynau sylweddol, celyd, trymion, annhreiddiol, ac ysgogol.[1]" Canfyddir na ddylai neb daflu ymaith gyda dirmyg ymresymiad dysgybl y *Nyayo*; etto y mae yn eglur na phrawf ei bwngc i foddlonrwydd; o blegid pe yr addefid.—1. Nas gellid *danyos pa fodd* y gallai ewyllys hunanysgogol a hollalluog gynnyrchu *sylweddau* gwahanol iddi ei hun yn eu natur, etto dibynol arni ei hun yn ei bodolaeth, pa ham nad allai y fath greadigaeth gymmeryd lle? 2. Pa fantais a gyrhaedd a rheswm trwy dderbyn gronynau tragwyddol, pa rai ni feddant faintioli na safle, etto a ffurfiant, trwy ymuno, bob un o'r ddau—gronynau na feddant na "hyd, lled, na thrwch," ac etto, trwy ymuniad, a gynnyrchant y rhai hyn oll. Credu creadigaeth o'r fath hon sydd lawer mwy anhawdd i reswm na chredu i Ysbryd Hollalluog *ewyllysio*, ac i'r ewyllys hollalluog ddyfod i weithrediad, a chreu byd o wrthddrychau gwahanol iddi ei hun, ac etto, yn ddibynol arni am eu bodolaeth. Os addefir fod Duw yn Ysbryd hollddoeth, hollddigonol, a hollalluog, yna byddai yn anghysson gredu hefyd fod myrdd o ronynau ac ysbrydoedd ereill yn bodoli yn annibynol a thragwyddol. A pha fodd y gall Duw fod yn hollddigonol, os ymddibyna ar ronynau hunanfodol er creu byd? Hefyd, gan fod pob enaid dynol yn dragwyddol, a phob peth tragwyddol yn annibynol, y canlyniad ydyw, fod pob dyn yn annibynol nid yn unig ar Duw, ond hefyd ar bawb a phob peth. Nis gall dyn hunanfodol ac annibynol fod yn gyfrifol i neb. Y canlyniad yw hollol ddinystr ar foesoldeb, crefydd, a chyfrifoldeb." A dyma y canlyniadau i ba rai yr arweinia rhesymeg y *Nyayo* ei dysgyblion o angenrheidrwydd.

Felly, pa ragoriaethau bynag a berthyn i reolau rhesymegol y *Nyayo*, canfyddir fod y casgliadau i ba rai yr arweiniant yn anathronol, gwrthymarferol, ac annuwiol. Y maent yn *anathronol*, o blegid mai prif, os nad unig orchwyl athroniaeth ydyw treiddio trwy wrthddrychau at ddeddfau, trwy ymddangosiadau at hanfodion, trwy effeithiau at eu hachosion, a thrwy amrywiaethau gwrthddrychau y synwyrau at eu cynegwyddorion; ac yn olaf, trwy fodau dibynol a'u deddfau at y Cyn-fod Mawr yr hwn yn unig a all fod eu hachos a'u deddfroddwr. Dyma brif ffordd rheswm coethedig, yn ol ei ddeddfau hanfodol ei hun. Yn lle ei ganlyn, gwna y *Nyayo*, mewn dull gosodedigol a phendant, i bob gwrthddrych gyfodi o'i ronynau annibynol, hunanfodol, a thragwyddol ei hun. Y mae y golygiadau yn *wrthymarferol;* o blegid ni thystia ymbrawf (*experience*) neb, pa un bynag ai ymwybyddiaeth fewnol ai y synhwyrau allanol a roddasant fodolaeth i'r ymbrawf hyny, ei fod ef ei hun, a gwrthddrychau ereill o'i amgylch, yn hunanfodol, yn annibynol, a thragwyddol; eithr tystia y gwrthwyneb. Y maent yn *annuwiol*, o blegidgwthir Duw allan yn hollol o bob perthynas â dyn a'r greadigaeth. Ni fedd na rhan na chyfran mewn na gwrthddrychau na deddfau. Y canlyniad rhesymol ydyw, nas gellir derbyn golygiadau y *Nyayo*, a derbyn cyfansoddiad dyn, a'r byd o wrthddrychau fel y maent. Pwy na ddewis a wrthod y blaenaf?

Y DRYCHFEDDWL AM DDUW.

Oddi wrth yr hyn a ddywedwyd am *sylwedd* yn barod, bydd yn hawdd canfod nas gall y golygiad am Dduw, yn ei fod, a'i briodoliaethau, a'i weithredoedd, fod yn gywir. Afreidiol ydyw treulio llawer o amser er profi hyny.

Y GOLYGIAD VEDANTAIDD AM DDUW.

*Brahmo* sydd *beth ysbrydol*, dibriodoledd, yn meddu bodolaeth yn unig. Byddai meddu priodoledd yn ammherffeithrwydd. Gallu, deall, ewyllys, oll a led-arwyddant weithgarwch, yn cyfodi oddi ar angenrheidrwydd natur y priodoleddau. Eithr *Brahmo*, nid ydyw dan rwymau o unrhyw fath: o ganlyniad, ammhossibl yw iddo feddu dim ond bodolaeth sylweddol—heb briodoledd, ysgogiad, na gweithrediad.

Dylid sylwi, pa fodd bynag, y daw y *Brahmo* hyn, mewn rhyw ffordd na ddisgrifir gan neb o'r athronwyr, i gyssylltiad â'r tair ansawdd a enwyd yn barod; yna y try y *peth* yn *berson*—y *Brahmo* yn *Brahma* neu *Isworo*—y *Vastu* dibriodoledd yn *weithredydd*, yn *greawdwr*.

Yn awr gellid gofyn, Os *peth* dibriodoledd felly ydyw *Brahmo*, pa fodd y daeth i fod yn gyn-sylwedd (*substrate*) byd o ymddangosiadau? Yr atteb ydyw, "Iddo ddyfod felly yn hollol ddiwybodaeth iddo ei hun; fel gosodiad y dyb o arian ar *nacre*, neu sarph ar reffyn." Os gofynir, "Trwy weithrediad pwy y daeth *Brahmo* i gyssylltiad â'r tair ansawdd?" ni cheir un atteb ond i *Brahmo* ystyried, "Yr ydwyf yn un, &c." Pa fodd y gallai *Brahmo*, pan yn ddibriodoledd "ystyried," nid eglurir. Os gofynir, "Gan fod y tair ansawdd yn ddiddechreu, pa fodd y gellir dal mai *un* sylwedd *di-ail* ydyw *Brahmo.*" Atebir, "Er fod y tair ansawdd yn ddiddechreu, etto nid ydynt na sylweddol, na disylwedd."[1]

Yn awr, digon ydyw dywedyd am y fath Dduw ag y disgrifir *Brahmo*, mai diddymdra ydyw. Hyd yn oed Sonkoro Acharyo, ni feddai well atteb i'r cwestiwn, "Pa fodd y mae yn bossibl i ddyn wybod y bodola y fath fod dibriodoledd?" na

1 Sir Isaac Newton's *Optics*.

1 "Anwybodaeth" (pa un a gyfansoddir o'r tair elfen), "fel ei heglurir, sydd fath o fodolaeth ddiddechreu; pa un nis gellir ei disgrifio fel yn bodoli, nac ychwaith fel yn ddifodolaeth.—pa un nis gellir ei ddirnad ond yn unig trwy iawn amgyffrediad."—*Vedanto Sikhâmoni*; dyfynedig gan Sandit, N. N., Sastri Gore.

Yr "iawn amgyffrediad," y cyfeirir ato yma ydyw gwybod na fodola dim ond *Brahmo;* ac mai *Brahmo* ydyw yr amgyffredwr ei hun. Hyny yw, y mae y tair ansawdd, a'r anwybodaeth a gyfansoddir o honynt, y tu allan i gylch gwybodaeth neb; ond dysgybl y *Vedanta* ar ol ei berffeithio, pan y gall ddywedyd "Ahom Brahmosmi," *Myfi ydwyf Brahmo.*

Dyma beth newydd mewn athroniaeth feddylIol. Hwyrach na chafodd neb o athronwyr y byd—hen na diweddar-allan fod yr holl gynneddfau deallol, ewyllysiol, a theimladol yn meddiant dyn, yn perthyn i ryw "offeryn mewnol" corphorol, ac nid i'r enaid dynol. *Dyn* athronwyr y chwe chyfundraeth sydd greadur hollol newydd i bobl gwledydd ereill. Fod meddwl yn rhyw ronynyn bychan tyllog er derbyn argraph o wrthddrychau y synwyrau allanol, a throsglwyddo eu delw i'r enaid, yr hwn sydd yn yr ymyl, sydd greadigaeth dychymmyg, nid yn unig *uwch-ddynol*, ond hefyd *wrth-ddynol*. Nid yn unig y mae y fath olygiad y *tu hwnt*, eithr hefyd *yn erbyn*, pob tystiolaeth ag y gall rheswm a theimlad dyn ei rhoddi.

Am egwyddorion a galluoedd moesol dyn, ni chyfarfyddir â dim yn y cyfundraethau yn werth ei nodi. Cyssylltiad yr "offeryn mewnol," y soniwyd mor fynych am dano, âg enaid ydyw unig achos rhinwedd a bai. Symmuder y cyssylltiad, a diflanna y ddau; tra y cyrhaedd enaid ei sefyllfa ddibriodoledd, ddigyffro, o gwsg diddiwedd. Y cyssylltiad hwn ydyw achos trueni; a'i ddattodiad ydyw iachawdwriaeth yr enaid. Nid enaid a ffurfiodd y cyssylltiad hwn; o blegid ni feddyliai, nid ewyllysiai, ni weithredai, ac nid ysgogai enaid. Nid yr "offeryn mewnol" a'i hachosodd, o blegid defnydd elfenol diddeall a difywyd yw ef. Pwy a achosodd y cyssylltiad anhapus, nid eglura yr athronwyr. Nid enaid neu ysbryd, ac nid corph neu ddefnydd, ydyw achos y cyssylltiad; eithr y cyssylltiad ydyw achos pob rhinwedd a phob bai sydd mewn bod. Cyn-achos pechod sydd bob amser yn anhawsdra, hyd yn oed i'r meddyliau dyfnaf a mwyaf; ond ni thybid cyn-achos a ffynnonell rhinwedd yn gymmaint anhawsdra. Yn yr athroniaeth hon, y mae dechreu a diwedd y ddau yn un; ac y mae mor angenrheidiol cael ymwared oddi wrth rinwedd a'i effeithiau ag oddi wrth bechod a'i ganlyniadau. Sicrha y naill fel y llall enedigaeth drachefn a thrachefn mewn rhyw gorph neu gilydd i drallod a gwae. Cymmerir athrawiaeth trawseneidiad yn ganiataol yn gyffredin gan bawb o honynt. Noda y *Nyayo* ychydig resymau dros ei chredu. Hebddi (meddant), nis gellir cyfrif am anghyfartaledd sefyllfaoedd dynion, nac am boenau genedigaeth a maboed; ac hebddi, byddai yn rhaid credu fod eneidiau newydd eu creu yn dechreu eu gyrfa mewn trallod a phoen. Felly rhaid fod pob enaid yn dragwyddol, ac yn cael ei eni drachefn a thrachefn, er derbyn gwobr neu gosp am weithredoedd blaenorol.

Wrth gau i fyny yr ymchwiliad byr hwn i deithi a hynodion athroniaeth Hindwaidd, rhaid dywedyd yr ymddengys yn dra thebygol na bydd yr hil ddynol fawr gwell erddi, ac na fedd un ffurf-ymchwiliad nac egwyddor nad oeddym yn ei feddu o'r blaen mewn ffurf-eiriad llawer rhagorach, os yn werth ei gadw fel gwirionedd. Y dull gosodedigol nid yw yn gweddu i athroniaeth. Ysgrifenwyr goreu Groeg a fyddant byth yn boblogaidd, o blegid y cymmerant ereill yn eu cyfeillach yn eu hymchwiliadau; ond bydd yr Hindwaid yn ammhoblogaidd, o blegid y gommeddant roddi eu rhesymau dros eu casgliadau.

Gwnaeth eu hathroniaeth gryn ddrwg i grefydd a moesau. Eithr y mae y drwg hwnw yn diflanu yn gyflym. Y mae dosbarth o ddynion dysgedig yn cyfodi yn mynwes cymdeithas yn India, pa rai ydynt yn gydnabyddus âg athroniaeth uwch, mwy pur, a mwy rhesymol; athroniaeth wedi tyfu i fyny ochr yn ochr â'r gwir ddadguddiad; ac wedi ei heffeithio i gryn raddau ganddo. Ychwanega y dosbarth hwn filoedd at ei nifer bob blwyddyn. Eisoes y mae yn dylanwadu ar gymdeithas yn ddwfn, a chyn hir bydd addysg cymdeithas yn ei law. Gyda'i oruchafiaeth, cilia yr eilunod, a'r athroniaeth a ddesgrifiwyd yn ammherffaith yma ynghyd; a myn dysgeidiaeth dadguddiad le yr eilunod, ac eiddo rheswm goleuedig le yr athroniaeth anelwig hon.

### Y PRIF AWDURON BRODOROL,

at ba rai y cyfeirir yn yr ysgrif hon ydynt, Y Nyayo Sutro, gan Gontom; y Vaiseshoko, gan Konad; y Sankhyo Sutro, gan Kopil; yr Yoga Sutro, gan Patanjoli; Purvo Mimanso, gan Joimini, mewn rhan o ddarn o hen lawysgrif, ond yn benaf o awduron ereill; Uttoro Mimanso, gan Vyas; Esboniadau Sonkoro Acharyo; Esboniadau Vijnau Bhikshu; Esboniadau Sonkoro Misro; Prosno Uponishod; Katha, etto; Swetaswotoro, etto; Chandogyo, etto; Brihod Aronoko, etto; Aitoreyo, etto; Sri Bhagavot Puran; Vedanto Saro; Hostamutoko; Vedanto Paribhasha; Bhagavot Gita.

Ymgynghorwyd yn fynych hefyd â'r awduron canlynol yn y Saesneg, weithiau er cael allan feddwl yr athronwyr brodorol; ond yn benaf er cael geiriau er gosod allan eu *technical metaphysical terms*.

"Dialogues on Hindu Philosophy by the Rev. Krishno Mohun Banerjea." Gwaith galluog iawn.

"A Rational Refutation of the Hindu Philosoical Systems," by N. N. Sastri Gore.

"Colebrooke's Mis. Essays on Hindu Philosophy."

### GAIR DDEONGLYDD BYR O RAI O'R PRIF EIRIAU ATHRONOL YN YR YSGRIF.

*Vastu.*—Peth, gwrthddrych, defnydd (ystyr gyffredin), cyn-sail pob sylwedd; yr unig wir sylwedd (yn ei ystyr gelfyddydol).

*Atma.*—Ysbryd, enaid (ystyr gyff.), ysbryd pur dibriodoledd. Yr unig hunanfodol (ystyr gelf.).

*Purusho.*—Gwryw (ystyr gyff.), ysbryd, y cynysbryd, y cyn-wryw, yr hunanfodol (ystyr gelf.).

*Prokriti.*—Natur (ystyr gyff.), y cynnyrchydd gwreiddiol, y gyn-fenyw (ystyr gelf. ac athr.).

*Monos.*—Meddwl: y gallu meddyliol (ystyr boblog.), synwyr defnyddiol corphorol, yn rhyw le oddi fewn i'r corph, er trosglwyddo adlewyrchiad o wrthddrychau y synwyrau allanol, ac o sefyllfaoedd mewnol i'r enaid. Heb adlewyrchiad a gweithrediad y synwyr hwn, ni fedd yr enaid na gwybodaeth na theimlad.

*Guno.*—Ansawdd, priodoledd, cortyn (ystyr gyff.), cynansoddion diddechreu; achos a defnydd pob gwrthddrych ac ansawdd defnyddiol a fodola.

*Sottwo.*—Daioni, gwirionedd (ystyr boblogaidd), cronfa neu bersonoliad o'r egwyddor o wiredd (*reality*), sylweddoliad gwirionedd. Ansawdd yn meddu sylweddolrwydd gwirionedd (ystyr athron.) Yn yr ystyr olaf hwn, nis gwyddom am un gair yn un o ieithoedd Ewrop er ei gyfieithu.

*Rojos.*—Pyllor, llwch, y misglwyf (ystyr gyff.), cronfa, neu ansawdd gynseiliol yr egwyddor o weithgarwch, nwydau, cyn-ansawdd gweithgarwch wedi ei sylweddoli (ystyr athron), anghyfieithedig.

*Tomos.*—Tywyllwch, gwrthuni, trallod (ystyr gyff.), cyn-ansawdd y rhai hyn, wedi ei sylweddoli (ystyr athronol).

(Y mae yn deilwng o sylw y priodolir ansoddau ereill i'r tair ansawdd hyn, fel pe baent sylweddau, gan athronwyr).

*Adrishto.*—Yn llythyrenol, anweledig; yn ei ystyr boblogaidd, tynged, neu ryw allu anweledig oddi fewn, neu oddi allan, yn achosi dygwyddiadau bywyd. Yn athronol, ffrwyth gweithredoedd mewn corph blaenorol. Rhyw allu oddi fewn neu allan i bersonau a gwrthddrychau, yn peri fod dygwyddiadau yn angenrheidiol. Angenrheidrwydd.

Digitized by Google

yn amddifaid o etifeddiaethau treftadol; a golygir hwy yn annheilwng o fwyta gyda'u gwŷr. Caethion eu gwŷr gormesol ydynt, ac ymddygir tuag atynt yn fynych yn y dull creulonaf; ond ni chaniateir iddynt ymadael â'u gwŷr, tra y gall gŵr gael ymwared o'i wraig ar yr esgus fwyaf plentynaidd. Cyffelyb yw sefyllfa y gwragedd yn ol cyfreithiau Hindostan, ac nid oes genym le i ammheu nad ydyw y cyfreithiau mewn ymarferiad. Y mae hyny yn ffaith, fod yn ammhossibl i gyflwr y wraig fod yn uwch tra yr erys mewn sefyllfa o'r fath ddygn anwybodaeth.

Y mae y dull y cyflëir addysg yn Hindostan, fel pob peth yn mron yn mysg yr Hindwaid, yn gwahaniaethu yn fawr oddi wrth y gweddill o'r hil ddynol. Y mae y plentyn yn dechreu gydag elfenau cyffredin addysg pan gyrhaedda ei bummed flwydd, pryd y dysgir ef gan ei dad i ysgrifenu yr egwyddor, neu yr anfonir ef i'r dyben hwnw i ysgol y gymmydogaeth. Cyflogir athrawon yn nheuluoedd y cyfoethog; ac y mae y rhai hyny, heblaw cyfranu elfenau cyntaf gwybodaeth, yn amcanu at ddiwyllio arferion y plentyn, gan ei ddysgu pa fodd i ymddwyn at ei rieni, ei gyfeillion, ei athraw crefyddol, &c. Er nad yw cyfundraeth arferion yr Hindwaid yn galw am gadwraeth mor fanwl o reolau moesoldeb plentynaidd ag a wneir oddi wrth blant y Chineaid, y mae awdurdod y rhieni er hyny yn cael ei amddiffyn gan liaws o ddefodau sydd yn tueddu at gynnyrchu ufudd-dod ac ofn mabaidd. Fe ddysgir y plentyn o'i febyd i gyfarch ei rieni fel hyn:—"Fy Arglwydd, Fy Arglwyddes;" ac wrth ddychwelyd i'w gartref oddi ar daith neu ymweliad, rhaid iddo godi y llwch oddi wrth eu traed, a'i osod, neu broffesu ei osod, ar ei ben.

Ni ddysgir llythyrenau yr egwyddor fel yn Ewrop, sef, trwy eu pwyntio allan ar lyfr, a'u henwi yn ei glyw. Y mae y bachgen, i ddechreu, yn eu hysgrifenu â ffon neu â'i fys ar y llawr; wedi hyny â phwyntyl o haiarn neu o gorsen ar ddeilen palmwydden; ac yn olaf ar ddeilen werdd y llyr (*plantain*). Wedi dysgu y llythyrenau, ä i gyssylltu y llythyrenau yn sillau a geiriau, ac at ffugrau rhifyddiaeth. Y mae yr athrawon, er yn fychain eu hennillion, yn gyffredin yn bobl barchus—Brahminiaid gan mwyaf. Tra yn addysgu, y maent yn eistedd â'u coesau yn mhleth, ar groen teigr neu afr-ewig, neu ar *fat* o ddail palmwydd, wedi ei daenu ar lawr, gyferbyn â'u hysgolorion. Cynnelir yr ysgolion yn gyffredin yn y gerddi a'r llwyni cyssegredig, lle y bydd delwau o'r Lingam, y Ganesa, a'r Saiaswati—y ddau olaf fel duw a duwies gwybodaeth a hyawdledd: a phan ddaw y dysgyblion i'r ysgol, y maent yn troi eu llygaid at y delwau hyn, a chan gyfodi eu dwylaw tua'r nefoedd, addolant y duwiau, gan ddywedyd wrth fyned heibio, "Moliant i ti, tydi wir feistr!" Neu gan gyfarch y ddau dduw, "Boed i chwi addoliad!"

Y mae rhagorfreintiau addysg o radd uchel yn dra anfynych yn Hindostan; ac er y ceir ambell Brahmin yn medru Sanscrit, nid oes fawr o wahaniaeth rhyngddynt yn yr ystyr hwn a'r dosbarth isaf o'r Pabyddion, y rhai a ddysgant y Lladin er gallu adrodd gwersi a *chants* eu heglwysydd.

Yn mhlith arferion canmoladwy a gymmhellir yn addysg yr Hindwaid, y mae glanweithdra yn nodedig. Ac y mae llawer wedi ceisio dangos fod hyn yn elfen arbenig yn eu cymmeriad, ac fod hyn hefyd i'w weled yn mhlith y Brahminiaid yn enwedig; ond fod tuedd ynddynt yn hyn, fel mewn llawer iawn o bethau ereill, i syrthio i eithafion. Os bydd Hindw wedi rhoddi ei bresenoldeb mewn angladd, y mae ar unwaith yn ystyried ei hun yn aflan; a chyn y gall ddychwelyd i'w gartref, rhaid iddo buro ei gorph drwy ymdrochi mewn rhyw afon neu lyn. Y mae hyd yn oed clywed am farwolaeth perthynas iddo—er iddo fod fil o filldiroedd oddi wrtho—yn ei wneyd yn halogedig, a rhaid iddo drochi ei gorph [*Dubois*, td. 108, 109]. Ond y gwirionedd am yr Hindwaid fel corph o bobl ydyw, eu bod yn resynus o aflan eu harferion. Y mae chwaeth at lanweithdra yn brawf o ddiwylliant a choethder; ond nid ydyw hyn i'w ganfod yn un rhan o Asia. Y mae holl heolydd dinasoedd y dwyrain yn gul a thywyll; a chan nad oes yno heddgeidwaid, teflir iddynt bob math o garthion a sothach. Nid ydyw yr Hindwaid yn eithriad i'r rheol hon. Yn yr holl brif ddinasoedd, y mae yr ystrydoedd yn druenus o fudron. Nid ydynt chwaith yn lanach eu personau. Y mae eu gwisg yn lliwiedig; gan hyny, nid ydynt braidd byth yn eu golchi; ac, fel y Chineaid, y maent yn fynych yn gadael i'w gwisg ddisgyn ymaith gan bydrni cyn y meddyliant am ei newid.

Pan ddel y bachgen Hindwaidd i oedran priodasol, y mae y seremoni yn cael ei chyflawni gyda chryn rwysg a chost. Pan y bydd gŵr mewn cymmydogaeth â chanddo ferch yn ddigon hen i briodi, y mae priod yn fuan yn ymgynnyg am dani; o blegid yn India, nid oes nemawr, os neb, o'r benywod o dan orfod i fyw bywyd dibriod. Yn mhlith y Sudra, priodir bechgyn yn gyffredin pan yn bum mlwydd oed; ond rhaid i'r Brahminiaid aros hyd nes bydd y bachgen wedi ei urddo yn aelod o'r dosbarth cyssegredig; hyny ydyw, yn gyffredin, pan y bydd yn naw oed [*Ward*, cyf. i. td. 164]. Yn ol yr arferiad cyffredin, fodd bynag, un ar bymtheg ydyw yr oedran yn mhlith y Brahminiaid pryd y gall bechgyn briodi; a rhaid i'r fenyw a ddewisir fod o dan bedair neu bum mlwydd oed. Ond pa beth bynag fyddo oedran y pâr priodasol, rhaid i oruchwyliaeth bwysig y garwriaeth gael ei dwyn yn mlaen gan drydydd person, yr hwn yn gyffredin fydd y priodfab.

Wedi i'r Brahmin ieuangc fyned drwy gylch ei astudiaeth, ac amlygu dymuniad am briodi, cyflwynir iddo gopi o'r Veda gan ei dad, ynghyd â buwch, fel arwyddlun o Gwener. Rhaid i'r gŵr ieuangc ofalu am beidio dewis gwraig â *gwallt coch* ganddi (y mae y lliw hwn i'w gael yn mhlith gwragedd Hindwaidd). Ni wiw iddo chwaith gymmeryd geneth heb ddim gwallt, neu gyda gormod o hono; neu un anffurfiol neu afiach ei chorph; neu un anghymmedrol o siaradus; neu gyda llygaid cochion. Ond nid dyna y cyfan. Rhaid iddo ymgadw rhag geneth gydag enw un o'r cydser, enw pren, afon, cenedl anwareiddiedig, mynydd, creadur adeiniog, neidr, caethes, neu unrhyw enw y byddo arswyd ynglŷn âg ef. Rhaid iddo ddewis priod heb un diffyg yn ei chorph, un âg enw dymunol ganddi, un sydd yn cerdded yn ddestlus (fel *phenicopteros*, neu fel elephant ieuangc), un sydd â'i dannedd a'i gwallt yn gymmedrol o ran maintioli a nifer, ac un sydd â'i chorph o dynerwch rhagorol [*Institutes of Menu*, pen. iii. adn. 9, 10].

Wedi i'r tad benderfynu rhoddi y garwriaeth mewn gweithrediad, y mae yn hwylio gydag anrhegion tua thŷ y briodferch. Ond os cyferfydd â chath, llwynog, neidr, neu unrhyw anifail ag y mae ei ymddangosiad yn rhagarwydd o ddrwg, y mae efe yn gohirio ei ymweliad hyd

ddiwrnod arall. Wedi gwneyd y cynnygiad priodasol, y mae tad yr eneth yn gohirio ei attebiad hyd nes y bydd math o lysard neu geneugoeg sydd yn ymgripio o gylch y muriau, yn rhoddi argoel o ddaioni gyda'i nâd llym ammheraidd. Ac mor fuan ag y *lefaro* y lysard, perswadir y tad fod y duwiau yn foddlawn, ac yna y mae yn rhoddi ei gydsyniad, ac yn pennodi diwrnod y briodas. Cymmer hon le yn gyffredin, yn Mawrth, Ebrill, Mai, neu Mehefin yn un o'r pedwar mis a neillduwyd gan gyfreithwyr hynafol Hindostan i weinyddiad y seremoni hon; a hyny, fe allai, am fod y gwres arteithiol sydd yn rhoddi attalfa ar lafur y pryd hyn yn rhoddi hamdden ddymunol i gyflawni yr oruchwyliaeth bwysig hon. Y mae y seremoniau mewn cyssylltiad â phriodas yn lliosog, ac weithiau yn dra digrifol. Yn ystod y nos flaenorol i'r seremoni, y mae tai y pâr priodasol yn adseinio gan swn uchel ansoniarus offerynau cerdd, a gosodir lampau goleuedig wrth y drysau. Yr un pryd fe grogir pelenau o reis mwydiedig, gyda llawenydd a chwerthin, gan y boneddigesau; y rhai, gyda therfyn y nos, sydd yn bwyta reis gyda'r priodfab a'i gymmhar. Yn foreu dranoeth, y mae y gwragedd yn ymweled â'r cymmydogion, gyda lampau goleuedig, llestr o ddwfr pur, pelenau o flawd reis, a swm o'r planhigyn a elwir *betel*, yn eu dwylaw: cyflwynir y *betel* i'r cymmydogion. Wedi gosod y priodfab a'r briodferch ar fath o ffrâm o bambŵ, a chylwfannu o gylch eu traed dusw o wellt dair gwaith, y mae y gwragedd yn cymmeryd pelen o edafedd, a chan amgylchu y ffrâm tedair gwaith, rhwymant y pâr dyweddïedig ynghyd. Wedi hyny eneinir hwy âg enaint peraroglus. Ac yna anrhegant hwythau y naill y llall â *betel*, ffrwythau, a melusion; ac yn ystod y prydnawn fe eillir eu penau. Yn ebrwydd, gosodir careg yn nghanol llyn, a barotoir, ac a amgylchir â choed yn y rhai y crogir lampau goleuedig. Saif y priodfab ar y gareg; a chyda lampau, a phelenau reis yn eu dwylaw y mae y gwragedd yn nesu ato yn orymdaith ddifrifol, ac yna yn cyfarch â'i ben gyda'r nwyddau fydd yn eu dwylaw. Y mae y priodfab a'r briodferch yn ymprydio nes y gorphenir y seremoni.

Yn mhriodas personau o urddas, fe gyflawnir yr oruchwyliaeth gyda phomp a gwychder mawr. Ac ar ei ymweliad â'r briodferch yn y nos, pentyrir addurniadau o aur, perlau, a meini gwerthfawr ar y priodfab, a gosodir ef mewn palancin goreuredig gyda choron ar ei ben. Yn mhob congl o'r palancin, saif gweision; y rhai ydynt oll yn awyro eu meistr drwy ysgwyd brws o gynffon buwch Tartari uwch ei ben. O'i flaen y mae gorymdaith fawr, yn cynnwys gwasanaethyddion gyda ffyn arian hirion yn eu dwylaw; cerbydau agored, yn cynnwys cerddorion a dawns-ferched; meirch, camelod, ac elephantiaid hardd-wisgedig. Goleuir yr ystrydoedd â thorchau a ffaglau, y rhai a gerir gan yr orymdaith yn eu dwylaw, ac â thân gwyllt a osodir ar bob ochr i'r ffordd. Dywed Ward:—"Mewn priodas.........a welais rai blynyddoedd yn ol, deuai y priodfab o bell o ffordd, a phreswyliai y briodferch yn Serampore, lle yr oedd y priodfab i ddyfod gyda'r dwfr. Wedi aros am ddwy neu dair awr, fe hysbyswyd, yn ngeiriau yr Ysgrythyr, 'Wele y mae y priodfab yn dyfod, ewch allan i gyfarfod âg ef!' Ar hyn, goleuodd pawb eu lampau, a rhedasant â hwy yn eu dwylaw i'r orymdaith: yr oedd rhai o honynt wedi colli eu goleuni, ond yr oedd yn rhy ddiweddar i fyned i chwilio am dano, a symmudodd yr orymdaith tua chartref y briodferch, lle yr oedd y cyntedd töedig, ond agored, o flaen y tŷ, wedi ei oleuo yn brydferth, ac yn cynnwys llawer o gyfeillion, yn eu gwisgoedd gwychaf, ac yn eistedd ar fatiau. Cludwyd y priodfab i mewn yn mreichiau cyfaill, a gosodwyd ef ar eisteddle ysblenydd yn nghanol y cwmni, lle yr eisteddodd am ychydig; ac yna aeth i'r tŷ, drws yr hwn a gauwyd yn ebrwydd, ac a wyliwyd gan sepwys. Ymbiliais i ac eraill ar geidwaid y drws am gael myned i mewn—ond yn ofer. Ni tharawyd fi gymmaint erioed gan ddammeg brydferth ein Hiachawdwr a'r pryd hwn:—'A chauwyd y drws!' Yr oeddwn yn wir awyddus am fod yn bresennol tra y cyflawnid y seremoni briodasol, ond gorfu i mi ddychwelyd mewn siomedigaeth" [*Ward*, cyf. i td. 171]. Mor fuan ag yr êl y priodfab i'r tŷ, dadwisgir ef gan ei dad-yn-nghyfraith, yr hwn sydd, wedi hyny, yn rhoddi gwisg newydd am dano. Y mae wedi hyny yn cael ei osod i sefyll ar ystôl, o dan yr hon y mae pen buwch, ac amryw bethau cyssegredig ereill, wedi eu claddu yn y ddaear. Wedi hyny, dygir y briodferch i mewn ar ystôl arall gyffelyb, ac wedi ei gorchuddio â hen ddillad y priodfab. Cludir hi saith gwaith o amgylch ei gŵr dyfodol; ac wedi hyny y mae y ddau yn syllu ar eu gilydd, yn dynesu at ac yn eistedd gyda'u gilydd. Yna y mae y tad yn nghyfraith yn anrhegu y priodfab â phedwar ar ddeg o welltglas peraroglus a elwir *cusa;* tywallta ddwfr ar gledr ei law dde, gan ddarllen *mantra*, neu orchan (*incantation*), uwch ei ben. Wedi hyny, teflir y dwfr ar lawr. Yna y mae yr offeiriad Brahminaidd, wedi peri i'r priodfab roddi ei law mewn llestr o ddwfr, yn dynesu ato gyda'r briodferch, a chan osod ei llaw ar ei law yntau, y mae yn rhwymo y ddwy â blodeubleth. Wedi myned drwy y ffurf o roddi a derbyn y briodferch, y mae tad y briodferch yn adrodd y *Gâyatri*, yr hon yw yr adnod sancteiddiaf o'r holl Veda. Wedi hyny, tynir math o len dros benau y pâr priodasol; ac wedi syllu ar eu gilydd am amser, y maent yn ymgrymu i'r Salagrama, ac yn erfyn bendithion y duwiau a'r Brahminiaid. Yn ystod y seremoniau hyn, darllenir rhanau o'r *Misra* (llyfr ar y gwahanol ddosbarthiadau Hindwaidd), ac y mae talcenau y gwahoddedigion wedi eu lliwio â phowdr y pren sandal. Wedi hyny, cyssylltir y priodfab â'r briodferch gerfydd eu dillad, yn arwydd o undeb, ac yna arweinir hwy yn ol i ganol y teulu [*Ward*, cyf. i. td. 163, 178; *Dubois*, td. 132, 146]. Y mae y seremoniau yn gwahaniaethu yn mhlith gwahanol ddosbeirth, ac yn mhlith yr oll o honynt y maent yn llawer lliosocach na'r uchod. Ni chaniatâ gofod i ni fanylu chwaneg. Ond wedi i'r briodas fyned drosodd, ac i'r pâr unedig ddyfod i'w cartref, y mae mam y priodfab, gyda holl foneddigesau y teulu, yn dynesu at y briodferch, gan wneyd y sŵn mwyaf annealladwy a disynwyr; ac wedi gosod pysgodyn yn mhlygion ei gwisg, a rhoddi melusion yn ngenenau y pâr priodasol, y mae yn tywallt llaeth, wedi ei gymmysgu â phlwm coch, ar draed y wraig ieuangc, ac yn rhoddi mesur o wenith ar ei phen. Wedi hyny, y mae y cyfan yn symmud i ganolbarth y tŷ; ac wrth fyned, y mae y gŵr yn cymmeryd gwenith allan o'r fasged ar ben ei wraig, ac yn ei wasgaru o'i amgylch. Yna cyflwynir aberth llosg, a chymmer y gŵr a'r wraig swm o reis crasedig, a nifer o ddail y pren *shami* (*acacia suma*), yn eu dwylaw, tra y dywed y wraig:—"Yr wyf wedi

Digitized by Google

Wrth ddisgrifio palas ardderchog, dywedir mai "nefoedd Vishnw" ydyw; gwlaw trwm, "y diluw;" torf, "cynnulliad o fyrddiynau." Os bydd arnynt angen sôn am fôr-bistyll, dywedant fod "elephantiaid y duw Indra yn yfed." Yr enfys ydyw "bwa saethu Râm;" "ymbrangciad ysbrydion uffernol," ydyw y trowynt: y taranau, ydyw "sŵn hyrddiad taranfolltau Indra at y cythreuliaid anferth sydd yn dyfod i yfed dwfr o'r cymmylau:" a "fflachiad y taranfolltau hyn yn eu hyrddiad drwy yr awyrgylch," ydyw y mellt. Yr hyn sydd yn achosi y cylch goleu a elwir weithiau yn gylch y lleuad ydyw, ysblander y duwiau sydd yn eistedd mewn cynghor gyda duw y blaned hono.

Mae arddull eu llythyrau, a'r cyfarchiad yn nglyn â hwy, yn nodedig o eithafol. Wrth gyfarch *brenin*, dywedant, "At y mawr, y rhagorol, y llwyddiannus, a'r hyglod frenin, Krishna-Chandra Raya, meithrinwr lluoedd mawrion o lawer gwlad; yr hwn y mae perarogl ei enwogrwydd wedi ymdaenu drwy yr holl fyd; wrth draed yr hwn y mae brenhinoedd lawer, â'u penau yn addurnedig â choronau disgleirwych, yn plygu; gogoniant yr hwn a bâr i'w elynion yswatio, fel y gwna yr haul gyda'r lleuad; yr hwn y mae ei enwogrwydd mor bur a brenhines y nos, offeiriad y tân aberthol tragyfyth." *At athraw:*—At abhishtadera, y badwr ar draws fôr y byd hwn; arweinydd y ffordd i ymwared oddi wrth bechod; dinëydd heulog y tywyllwch gorddwfn sydd yn cyfodi oddi ar serch bydol; y gneuen sydd yn symmud ammhurdeb yr enaid:—At dy draed yr ymostyngaf, ewinedd y rhai sydd fel *cyrn yr hanner lleuad.*" *At dad:*—"At berson rhagorol fy nhad, unig awdwr fy mod, fy llywodraethwr; yr hwn y mae ei feddwl yn yfed y mêl sydd ar draed dwfr-liliol y duwdod; at dy draed, y rhai sydd yn gyru fy nhywyllwch i gerdded, y plygaf." *At fam:*—"At fy rhagorol a'm hurddasol fam, yr hon a'm dug yn ei chroth; yr hon a'm porthodd, a'm maethodd, ac a'm cysurodd, gan fy nghyfodi yn ddyn; drwy yr hon y gwelais y byd, a'r hon a roddodd i mi gorph i gyflawni dyledswyddau crefyddol:—At dy draed yr ymgrymaf, y rhai yw y dwfr-liliau sydd ar ddyfrgist fy nghalon."—*Ward*, cyf. iii. td. 190.

Pan gyferfydd Hindw âg anffodion mewn unrhyw dŷ, y mae yn rhoddi cyfrif am yr amgylchiad drwy olygu fod yn rhaid fod esgyrn wedi eu claddu ynddo; ac o dan ddylanwad y dyb hon y mae yn fynych yn symmud i dŷ arall. Y mae dull yr Hindwaid o adferu eiddo lladratedig hefyd yn hynod. Os bydd ammheuaeth yr hwn a golledwyd yn disgyn ar rywun yn y tŷ, y mae yn galw deiliaid y tŷ ynghyd, ac yna yn rhwbio ewinedd eu bodiau, gan ddychymmygu y bydd i enw y lleidr ymrithio ar ewin y gŵr.

Pan y bydd rhywun yn digwydd tisian, y mae pawb o'r gwyddfodolion yn dyweyd, "Bydd fyw!" i hyn yr ettyb y tisiwr, "Gyda chwi." Rhaid i'r neb fydd yn ystwyrian "gleeio" ei fys a'i fawd, gan adrodd yr un pryd enw duw, megys, "Râm! Râm!"

Y mae y seremoni sydd yn rhoddi hawl i'r Brahmin ieuangc yn swydd y dosbarth hwnw yn nodedig. Hyd nes y cymmer hyn le, edrychir arno gan y gyfraith fel yr edrychir ar yr anifeiliaid direswm—heb unrhyw ragorfraint, ac heb fod nemawr yn amgen na phe na byddai ganddo hanfod o gwbl. Mae y seremoni yn gynnwysedig yn ei wisgiad â'r gorden gyssegredig, ac yn cymmeryd lle ar amlygiad y bachgen o'i awydd i'r swydd, pan y bydd o saith i naw oed. Gosodir y gorden i orphwys ar draws yr ysgwydd chwith, a rhwymir hi ar y tu deheu iddo, ychydig yn is i lawr na'i lwynau. Mae y gorden yn gynnwysedig o dri chudyn tew o gotwm, a phob cudyn yn gynnwysedig o amryw edafedd teneuach. Pan briodir y Brahmin, y mae pob un o'r tri chudyn yn cael ei liosogi yn dri chymmaint, ac edrychir arnynt fel arwyddluniau o'r tri phrif dduw—Brahma Vishnw, a Shiva. Y mae costau mawrion ynglŷn â gwisgiad y gorden. A chan fod y Brahminiaid tlotaf yn analluog i gynnyrchu y symiau angenrheidiol, y maent yn gwneyd casgliad; a dywedir fod Hindwaid o bob dosbarth yn bur haelionus ar yr achlysur, ac yn edrych ar eu haelioni yn rhinwedd nodedig. Y mae gwneuthuriad y gorden, neu *paita*, fel ei gelwir, yn gofyn gofal a seremoniau lliosog. Er mwyn gochelyd y llygredigaeth a achosid gan gyffyrddiad dwylaw ammhur âg ef, rhaid i'r cotwm sydd yn ei gyfansoddi gael ei gasglu oddi ar y planhigyn, yn gystal a'i weu a'i gyfrodeddu, gan ddwylaw Brahminiaid yn unig. Wedi i'r *paita* gael ei wneuthur yn briodol, y mae tad yr ymgeisydd ieuangc, yr hwn a elwir o hyny allan *brahmachâri*, yn dechreu drwy ddewis, yn ol rheolau ser-ddewiniaeth, y mis, yr wythnos, y dydd, a'r munyd hwnw o'r dydd sydd yn fwyaf ffafriol i gyflawniad y seremoni. Wedi hyny, parotoir gwledd i'r Brahminiaid, yr hon sydd yn gynnwysedig o reis, pys, pompionau, llaeth ceuledig, ymenyn toddedig, cocoa, ynghyd â'r amrywiol fathau o ffrwythydd a ddigwydd fod yn y tymmor. Y mae y tŷ yn myned drwy oruchwyliaeth buredigaethol, pryd y rhwbir y muriau a'r llawr â thail gwartheg wedi ei deneuo â dwfr, a phryd yr addurnir y tu allan, fel hen dai yn Italy a Ffrainge, âg ystripiau llydain ac unionsyth; y rhai a wneir â phridd coch. Gofelir hefyd am symiau mawrion o *betel* (math o bupyr), ynghyd â darnau o lian newydd, i fod yn anrhegion. Hefyd, rhaid gofalu am lestri coginio newyddion, ac "anghydnabyddus â'r tân," fel y dywedant; a rhaid peidio defnyddio y rhai hyn mwy. Pery y seremoni a'r wledd am bedwar diwrnod, ac yn niwedd pob dydd, rhaid cyflwyno anrhegion mewn modd hael i'r gwahoddedigion. Yr un a wahoddir gyntaf ydyw y *purohita*, neu yr offeiriad. Ar y dydd pennodedig, y mae yn dyfod, gan ddwyn gydag ef y *paita*, ynghyd â nifer o ddail *mango*, y llysieuyn cyssegredig *darbha* neu *cusa*, a chroen gafr-ewig i eistedd arno. Wedi i'r holl wahoddedigion ddyfod ynghyd, y mae y *purohita* yn dechreu drwy alw ar dduw y teulu. Ond cyflawnir y rhan fwyaf o'r defodau o dan *shed* a gyfodir i'r pwrpas, yn y cyntedd o flaen y tŷ. Tra y mae yr offeiriad yn adrodd ei *mantras* neu weddïau, dygir delw *Vijhnêswara*, "duw rhwystrau" a gosodir hi dan y *shed*. Yn lle y ddelw, y maent yn fynych yn codi pentwr o dail gwartheg neu laid, gan olygu fod yr offeiriad drwy ei swynion yn alluog i'w drawsffurfio yn dduw. I'r dyben o foddio y duw hwn—duw a ofnir yn fawr—gwneir iddo aberth o berarogl, lampau goleuedig, a gronynau o reis wedi eu lliwio yn goch.

Ni oddefir i wragedd gweddwon fod yn bresennol mewn amgylchiadau o'r fath yma, gan yr ystyrir fod anffodion yn rhwym o ddilyn eu presennoldeb. Y mae y gwragedd priod, ar ol cyflwyniad yr aberth i *Vijhnêswara*, yn myned ymaith i ymdrochi a phuro eu hunain. Wedi hyny, y mae rhai o honynt yn darparu y wledd,

Digitized by Google

mewn canlyniad, ar ledred y lle. Mewn gwledydd poethion, wrth gwrs, y mae y llinell hon uchaf. Y mae wedi ei brofi fwy nag unwaith fod y llinell ar rai o fynyddoedd yr Andes, yn agos i'r cyhydedd, yn 15,000 o droedfeddi uwchlaw y môr; ond yn Norway (60° lled.) y mae mynyddoedd sydd heb fod dros 5000 o droedfeddi o uchder bob amser yn orchuddiedig âg eira. Ac yn Nghulfor Magellhan (52° lled.), yn yr arddrych deheuol, fe ddywedir fod y llinell 3500 neu 4000 o droedfeddi uwchlaw y môr. O ddeutu 80° lled. gogleddol, y mae y llinell yn dyfod i lawr i arwyneb y ddaear.

Y mae mynyddoedd America Ddeheuol yn cynnwys enghraifft megys o'r holl fyd gyda golwg ar dymmeredd a'i gynnyrchion tyfiannol. Mewn un man, yn agos i arwyneb y môr, y mae y gwres yn annioddefol; ond y mae taith diwrnod i fyny y llethrau serth, er mai taith flin ydyw, yn ein symmud o dymmeredd y cyhydedd i dymmeredd y pegynau. Ceir ambell i lanerch ar y daith oddi ar yr hon y gellir gweled pob dosbarth a ffurf o blanhigion, o blanhigion a choed cawraidd y cyhydedd hyd brysgwydd a tharddwrain (*lichens*), y cylch gogleddol. Wrth edrych i lawr i ddyffrynoedd yr Andes, fe'u gwelir yn orchuddiedig â holl gyfoeth a phrydferthwch tyfiannol y trofanau:—y palmwydd, y *banana*, y pren coffi, y planhigyn sugr, a phren y fuwch (pren â'i gyff yn llawn o laeth); a choedwigoedd anferth, ffrwyth suddlawn, a blodau prydferth a mawreddog y trofanau. Wrth edrych i fyny, gwelir meusydd o rawn Ewropaidd, a fforestydd o goed derw a phinwydd. Yn uwch i fyny, y mae planhigion y lledredau pegynol: ac yn uchaf o'r cwbl, gwelir llanerch lle nad oes ond tarddwrain a phrysgwydd y gogledd eithaf yn tyfu. Goruwch y llanerch hwn, y mae mynyddoedd bythwyn y *Nevada* yn terfynu yr olygfa.

Wrth edrych ar y tabl canlynol, a'r map, bydd yn haws i'r darllenydd ddeall ein sylwadau.

**Yr Arddrych Gogleddol.**

| Lle. | Lledred. | Terfyn yr eira gwastadol. |
|---|---|---|
| | GOGLEDD. ° ′ ° ′ | Troedfeddi. |
| Ynys Mageroe ... ... ... ... ... | 71 15 | 2,400 |
| Iceland, Oesterjokul ... ... ... ... | 65 00 | 3,100 |
| Siberia, Cadwyn Mynyddoedd Aldan ... | 60 55 | 4,500 |
| Kamtschatka, Mynydd Tanllyd Shevelutch ... | 56 40 | 5,200 |
| Altai ... ... ... ... ... ... ... | 49 15—51 00 | 7,000 |
| Yr Alpau ... ... ... ... ... ... | 45 45—46 00 | 8,000 |
| Y Pyrenees ... ... .. ... ... | 42 30—43 00 | 9,000 |
| Y Mynyddoedd Creigiog (Rocky Mountains) ... | 43 03 | 12,500 |
| Sicily, Mynydd Etna ... ... ... | 37 30 | 9,500 |
| Yspaen, Sierra Nevada yn Granada ... ... | 37 10 | 11,200 |
| Himalaya, y tu gogleddol ... .. ... | 30 15—31 00 | 16,600 |
| " y tu deheuol ... ... ... ... | " " | 13,000 |
| Mexico ... ... ... ... ... ... ... | 19 0—19 15 | 14,800 |
| Abyssinia ... ... ... ... ... ... ... | 13 10 | 14,100 |
| America Ddeheuol, Sierra Nevada de Merida | 8 5 | 15,000 |
| " mynydd Tanllyd Tolima .. | 4 46 | 15,300 |
| " " Purace | 2 18 | 15,400 |

**Yr Arddrych Deheuol.**

| Lle. | Lledred. | Terfyn yr eira gwastadol. |
|---|---|---|
| | DEHEU. ° ′ ° ′ | |
| Quito ... ... ... ... ... ... ... | 0 0 | |
| Andes Quito ... ... ... ... ... . | 1 0—1 30 | |
| Yr Andes Boliviaidd { Cadwyn ddwyreiniol ... | 14 30—18 0 | |
| Yr Andes Boliviaidd { Cadwyn orllewinol ... | " | |
| Chili, mynydd Tanllyd Peuquenes ... ... | 33 0 | |
| Andes, cyffiniau Chili ... ... ... | 41 0—44 0 | |
| Culfor Magellan ... ... ... ... ... | 53 0—54 0 | |

3. *Agosrwydd gwlad, neu ei phellder oddi wrth y môr.* Y mae tymmeredd y môr yn fwy unffurf na thymmeredd y tir; ac o ganlyniad, y mae y gwyntoedd sydd yn ysgubo ar ei draws yn dyfod i raddau yn gyfranog o'i natur, ac yn gadael argraph o hyny ar y gwledydd y maent yn chwythu arnynt. Y mae y gwynt sydd yn chwythu arnynt o'r môr yn llawn lleithder, tra y mae gwynt y tir yn sych a chras. Fel hyn, yn yr ynysoedd Prydeinig, mae gwynt y de-orllewin a gwynt y dwyrain yn hollol wrthgyferbyniol o ran natur; yr hyn yw y rheswm fod ein hinsawdd ni, fel hinsawdd ynysoedd a pharthau arforawl ereill, yn llawer mwy tyner na hinsawdd gwledydd pell oddi wrth y môr yn yr un lledred. Mae gwyntoedd oerion y môr yn cymmedroli gwres yr haf, tra y mae gwyntoedd cynnhes drachefn yn cymmedroli oerni y gauaf.

Yn Llundain, y mae y gauaf yn llai gerwin, a'r haf yn llai gwresog, nag yn Paris; ond y mae y ddwy dref, er hyny, yn yr un lledred. Y mae gwahaniaeth mawr, o'r un natur, rhwng gauaf a haf yr Iwerddon ac eiddo gwledydd ereill yn yr un sefyllfa ddaearyddol. Pe cychwynem ar daith

Digitized by Google

o orllewinbarth Ewrop tua'r parthau dwyreiniol, fe demlid yn fuan fod cynnydd graddol yn cymmeryd lle yn yr oerni. Er enghraifft, wrth gymmharu tablau yr hinsawdd yn Warsaw â'r eiddo Dublin, yn yr un lledred, yr ydys yn cael fod tymmeredd blynyddol yr olaf, yn gyffredin, yn 44°15, tra y mae yn 49°05 yn y llall: felly y mae yn 5° oerach yn Warsaw nag yn Dublin. Yn Moscow, drachefn, y mae yn 6½° yn oerach nag yn Copenhagen, er fod y ddwy dref yr un pellder oddi wrth y cyhydedd.

Y mae yn naturiol hefyd fod gwledydd yn ein harddrych ni yn boethach pan y bydd tir i'r deheu iddynt a'r môr i'r gogledd; ac o'r tu arall, yn oerach pan y bydd tir i'r gogledd, a'r môr i'r deheu. Fe welir hyn yn amlwg wrth gymmharu hinsawdd yr India â hinsawdd Affrica, i'r gogledd i'r cyhydedd. Y mae y gwres yn yr India yn llawer mwy dioddefol nag yn Affrica.

Trwy holl gyfandir America, y mae llai o wres i'w deimlo nag mewn parthau cyferbyniol yn yr arddrych dwyreiniol. Fel eglurhâd ar hyn, fe ddywed Humboldt—"fod culni cymmhariaethol y cyfandir hwn—ei ymestyniad tua rhew y pegynau—y môr, ar draws wyneb gwastad yr hwn yr ysguba y gwyntoedd trafnidiol—y llifogydd oerion o ddwfr sydd yn rhedeg o Gulfor Magellan tua Pheru—y cadwyni o fynyddoedd lliosog sydd yn gorwedd yn nharddleoedd ei afonydd, â'u penau yn orchuddiedig âg eira, ac yn ymesgyn i fyny i'r cymmylau—lliosogrwydd ei afonydd mawrion, y rhai, er ymddolenu a throellu yn ddiddiwedd, sydd bob amser yn tueddu tua'r cyffiniau pellaf—diffeithdiroedd, ond nid o dywod, ac o ganlyniad yn llai tueddol o gael eu trwytho â gwres-coedwigoedd mawrion, annhreiddiadwy, yn ymestyn ar draws y cyhydedd, ac yn dryfrith o afonydd, y rhai, yn y rhanau hyny o'r wlad sydd mor bell oddi wrth y mynyddoedd a'r môr, sydd yn cynnyrchu llifogydd dirfawr o ddwfr—y mae yr holl achosion yna ynghyd yn cynnyrchu yn neheudir America hinsawdd sydd yn llawer iawn oerach na hinsawdd cyfandir Affrica, yr hwn sydd gyferbyn âg ef. I'r achosion hyn yn unig y mae i ni briodoli y cyflawnder dirfawr hwnw o blanhigion—planhigion sydd mor fawrion ac mor orlawn o sudd—ynghyd â'r deilwaith eang a chysgodfawr sydd mor neillduol i gyfandir America.

4. *Gogwydd gwlad, neu ffurf ei harwyneb, yn ei berthynas â chylchdaith yr haul.*—Y mae y cyfeiriad yn ol yr hwn y tery pelydrau yr haul y ddaear mewn unrhyw le; ac mewn canlyniad, dylanwad y pelydrau hyny ar ei wresogiad, yn amrywio yn ol fel y byddo arwyneb y lle yn amrywio.




Pan y bydd sefyllfa yr haul (H) ganol y dydd yn 45° uwchlaw y terfyngylch (T), fe ddisgyna ei belydrau ar lethr bryn (D) fyddo yn gwynebu y deheu, yn ol ongl cyfattebol, tra nad yw y gwastadedd (I) islaw iddo yn eu derbyn ond yn ol ongl o 45°. Tybier fod y tu gogleddol (G) i'r bryn yn meddu gogwydd cyffelyb, fe ddisgynai y pelydrau yn gyfredol â'i arwyneb, a byddai eu heffaith yn bur ddibwys; a phe byddai yn fwy serth, byddai arwyneb y tu hwnw yn y cysgod yn hollol. Er mai pur anghyffredin y mae yn digwydd fel hyn yn hollol, etto, fe wasanaetha hyn i ddangos pa fodd y mae tymmeredd yn amrywio gydag amrywiaeth yn arwyneb y ddaear. Gan nad pan y mae yr haul yn nghylch canol dydd ydyw y rhan gynnhesaf o'r dydd, ond yn mhen dwy awr neu dair ar ol hyny; y mae yn naturiol, yn ein harddrych ni, mai llanerch sydd yn gwynebu tua'r de-dde-orllewin, neu tua'r deorllewin, ydyw y cynnhesaf, ac mai llanerch gogledd-ogledd-ddwyreiniol neu ogledd-ddwyreiniol ydyw yr oeraf, os na bydd rhyw amgylchiadau lleol yn peri ei bod yn wahanol.

Y mae pob amrywiaeth dichonadwy ag sydd a wnelo â gŵyrni mwy neu lai yn nghyfeiriad y pelydrau, yn cael ei achlysuro gan fel y mae y ddaear wedi ei haredig, megys yn agenau dyfnion, rhai llanerchau eang wedi suddo yn geunentydd, fel yn y gwledydd o amgylch y Môr Caspiaidd, ac mewn manau ereill wedi ymgodi yn ucheldiroedd gwastad, a'u llethrau yn ymostwng yn raddol i'r deheu a'r gogledd, tua chodiad a machludiad yr haul.

Y mae effeithiau anwastadrwydd gwlad neu wledydd ar eu hinsawdd i'w weled yn fwy amlwg, wrth reswm, mewn llanerchau sydd yn orchuddiedig â mynyddoedd mawrion. Fel hyn, ar ystlysau yr Andes, lle y mae yr haul yn union uwchben, fe ddisgyna ei belydrau mewn cyfeiriad mor ogwyddol ag y derbynir hwy yn Mhrydain ar y tir gwastad; neu mor ogwyddol, fe allai, ag y disgynant yn yr haf ar wyneb gwastad eira Spitzbergen. Y mae godrau deheuol yr Alpau, mewn rhai lleoedd, yn derbyn gwres mor uniongyrchol a'r hwn sydd yn llosgi ac yn difa yn niffaethwch Sahara, tra y mae y godrau gogleddol mor guddiedig oddi wrth ddylanwad yr haul a gwastadeddau oerion bythwynion Lapland. Ar un tu i'r Alpau, yn y Valais, mae llwyni tewion o winwydd yn tyfu, tra y mae y tu arall yn gloedig rhwng talpiau o rew. Fel hyn, hefyd, ar y tu gogleddol, lle y mae y sarnau (*terraces*),

Digitized by Google

a'r gwastadeddau llechweddog sydd yn disgyn oddi wrth fyrdd-diroedd mawrion canolbarth Asia yn dyfod i gyffyrddiad â gwastattiroedd diffaethwch Siberia, y mae hi mor oer fel ag y rhewa arian byw; tra y mae y sarnau cyssylltiedig â llechweddau deheuol yr Himalaya yn cynnyrchu afalau pinwydd, *mango*, coed cotwm, *saul*, a phethau ereill sydd yn tyfu yn agos i'r trofanau. Yn uwch i fyny y llechwedd—o ddeutu 4,000 neu 5,000 o droedfeddi uwchlaw y môr—y mae cynnyrchion y cylch cymmedrol yn tyfu; coed helyg a llwyf, rhosynau a fioledau: ac yn uwch drachefn, y mae planhigion o ddosbarth y rhewgylch a'r Alpau.

5. *Sefyllfa a chyfeiriad cadwyni o fynyddoedd.*—Y mae mynyddoedd yn effeithio ar hinsawdd mewn amryw ffyrdd. Y maent yn sugno y lleithder o'r awyrgylch, ac yn cynnyrchu y gwlawogydd mawrion hyny sydd mor gyffredin yn nghymmydogaeth cadwyni uchel. Ceir esampl darawiadol o hyn yn Scandinavia. Yn Bergen, y mae 88½ o fodfeddi o ddwfr yn disgyn yn flynyddol; yr hyn sydd yn fwy nag mewn un ddinas arall yn Ewrop, ac amryw lanerchau sydd yn gorwedd o fewn y trofanau. Yr achos o hyn ydyw, fod y cymmylau yn cael eu gyru o flaen gwyntoedd y de-orllewin i Norway, lle yr attelir ac y cesglir hwy ynghyd rhwng y mynyddoedd, y rhai sydd megys yn gwasgu y dwfr o honynt.

Y mae mynyddoedd hefyd yn ffurfio cysgodfeydd rhag y gwynt. Un rheswm dros fod canolbarth a deheubarth Rwssia Ewropaidd yn ddarostyngedig i fwy o oerni nag yr arweinid ni gan eu sefyllfa ledredol a'u gogwyddiad tua'r deheu i'w ddisgwyl ydyw, eu hamddifadrwydd o un gadwen o fynyddoedd i'w cysgodi i ryw raddau rhag gwyntoedd y Môr Gwyn, a'r Mynyddoedd Uralaidd. Y mae llymder dirfawr hinsawdd Siberia yn cyfodi oddi ar ei gogwyddiad tua'r gogledd, yr hyn sydd yn ei gosod yn agored i wyntoedd y Môr Rhewllyd; ac heblaw hyny, y mae y cadwyni o fynyddoedd mawrion sydd yn croesi canolbarth Asia yn attal y gwyntoedd deheuol ar eu ffordd tua'r gogledd, y rhai a dueddent at larieiddio yr oerni hwn.

6. *Ansawdd y pridd.*—Y mae hyn yn effeithio yn bwysig ar yr hinsawdd. Y mae un math o bridd yn sugno y gwres ac yn ei ddal yn hwy, neu yn ei wrthdaflu yn gynt, na math arall. Mae pridd rhydd, agored, yr hwn sydd yn gollwng y gwlaw yn ebrwydd i'r ddaear, yn bwrw allan lawer llai o darth na'r un sydd yn cadw y dwfr yn agos i'w wyneb. Mae i bob dosbarth o bridd —ysgafn ac agored, hen blanhigion pydredig, tir tywodlyd a charegog, clai gwydn a gwlyb, &c.— eu galluoedd pennodol gyda golwg ar sugno, neu wrthdaflu y gwres; a pha un bynag a fyddo llanerch yn gleiog neu yn dywodlyd, yn noeth neu yn orchuddiedig â phlanhigion, y mae hyn yn effeithio yn fawr ar ei hinsawdd. Ymddengys oddi wrth brawfiadau a wnaed, fod y gwahaniaeth lleiaf yn ansawdd y rhan allanol o sylweddau—gwahaniaeth disgleirdeb, neu lyfnder; gwahaniaeth lliw pa un ai gwyn ai du a fyddont; gwahaniaeth defnydd—pa un ai metelaidd ai gwydrol, ynte pren, neu ryw ddefnydd tyfiannol arall ydynt—yn gwneyd gwahaniaeth gyda golwg ar leithder neu sychder. Gan hyny, y mae yn ddiammheu fod y gwahaniaeth sydd mor gyffredin yn rhanau allanol dail—mwy neu lai o ddisgleirdeb, neu dywyllni, neu ysgafnder lliw, neu y defnydd mânflewog sydd weithiau yn eu gorchuddio—y mae yr holl wahaniaethau hyn yn peri bod llawer o amrywiaeth yn y gwres, ac o ganlyniad yn yr hinsawdd.

Fel hyn, y mae tiroedd corslyd a chleiog yn achosi gostyngiad yn y tymmeredd; ac mewn hinsoddau poethion a llaith yn enwedig, yn effeithio yn y fath fodd ar yr awyrgylch, fel ag i'w wneyd yn niweidiol i iechyd. Ar y llaw arall, y mae tiroedd ysgeifn, caregog, neu galchog, yn tueddu at buro yr awyrgylch. Y mae oerni mawr, ac awyr llygredig y llywodraethau Rwssiaidd yn Astrakham ac Orenburg, yn ngogledd y Môr Caspiaidd, i'w priodoli i raddau i halltrwydd y pridd; ac y mae yn eithaf hysbys fod crâsdiroedd tywodlyd Affrica ac Arabia yn cyflawni rhan bwysig yn nghynnyrchiad y gwres dirfawr y mae y gwledydd hyny yn ddarostyngedig iddo.

7. *Y graddau o ddiwylliant a chynnydd amaethyddol y mae gwlad wedi ei gyrhaedd.*—Heb ddiwylliant, ni byddai ond ychydig o hinsoddau yn iach ac yn foddhaol i fyw ynddynt. Mewn gwledydd lle na bu dyn gwareiddiedig yn llafurio, y mae yr afonydd yn dylifo yr iseldiroedd ac yn ffurfio corsydd heintlyd; ac y mae coedwigoedd, llwyni, a chwŷn mor liosog ac annhreiddiadwy fel ag i gysgodi y ddaear rhag pelydrau cymmwynasgar yr haul. Y mae yr awyr o blegid hyn yn cael ei lenwi yn barhaus âg elfenau gwenwynig. Ond y mae ymdrechion celfyddgar a phenderfynol yr hil ddynol yn foddion i gynnyrchu cyfnewidiad nodedig. Sychir y corsydd; cyfyngir rhedleoedd yr afonydd; y mae y tir yn cael ei aredig a'i osod dan ddylanwad yr haul a'r gwynt; a thrwy symmud ymaith y coedwigoedd, fe ddyrchefir y tymmeredd, a chaiff yr awyr le rhydd i gylchdaenu. Nis gall fod ammheuaeth fod llawer llanerch yn Ewrop, yn awr, yn meddu hinsawdd mwy tyner ac awyrgylch mwy pur na phan yr oedd y Rhufeiniaid yn ein gwlad, neu hyd yn oed mewn cyfnodau diweddarach. Mewn llawer parth o'r America, fel y mae y wlad wedi ei phoblogi, a'r tir wedi ei ddiwyllio; y mae gwelliant cyffelyb wedi cymmeryd lle yn yr hinsawdd. Y mae Darby yn sicrhau fod hyn i'w weled yn amlwg yn yr Unol Daleithiau; lle y mae y gauaf yn gynnhesach, a'r haf yn llai poeth nag o'r blaen. Ond y mae yn bossibl i ddinystriad coedwigoedd gael ei gario yn rhy bell, a thrwy hyny niweidio y wlad, drwy ei hamddifadu o'i noddfa rhag gwyntoedd neillduol, neu (yn enwedig mewn hinsoddau poethion) drwy leihau llawer gormod ar y lleithder; o blegid fe wyddys fod dail coed a phlanhigion yn cynnyrchu llawer o wlybaniaeth drwy darthiant. Y mae awyrgylch mwll, a sychder ofnadwy Ynysoedd y Cape de Verde, i'w briodoli i ddinystriad y coedwigoedd— ac fe ddywedir fod Italy a Groeg wedi dioddef oddi wrth yr un amgylchiad. I hyn hefyd y mae i ni briodoli y ffaith fod deheubarth Iceland, yn bresennol, yn ddarostyngedig i gymmaint o oerni Môr y Gogledd.

8. *Y gwyntoedd sydd yn fwyaf cyffredin mewn gwlad.* Y mae yn eithaf hysbys fod cyfnewidiad yn y gwynt yn achosi dyrchafiad neu ostyngiad yn y gwresfesurydd. Ond y mae gwahaniaeth mawr rhwng lledredau uchel ac isel yn hyn. Yn yr olaf, nid yw cyfnewidiad yn y gwynt yn codi nac yn gostwng ond ychydig raddau ar y mesurydd, tra y mae gwahaniaeth o ddeg neu ddeuddeg gradd yn cymmeryd lle yn fynych mewn lledredau gogleddol yn ystod ychydig oriau. Rhoddir esampl o hyn gan Captain Scoresby. Mewn lle yn agos i un o'r pegynau, medd efe, ar symmud-

Digitized by Google

iad byrbwyll y gwynt i'r gogledd, fe ddisgynodd y gwresfesurydd 34 o raddau (o 32° i 2°). Ond y mae cyfnewidiadau mor fawr a hyn, cyn belled ag y gellir eu mesur â graddau y mesurydd, yn digwydd yn yr Unol Daleithiau, yn lled bell oddi wrth Fôr y Werydd. Hefyd, mewn lledredau isel, y mae dylanwad cyfnewidiad yn y gwynt yn fwy amlwg ar fyrdd-diroedd uchel nag ar wastadeddau isel. Sylwa Mr. Dunn ei bod yn dygwydd weithiau ar fyrdd-dir Guatemala, America, yn ystod cyfnod y gwyntoedd gogleddol, fod cyfnewidiad o ugain gradd yn cymmeryd lle mewn ychydig oriau. Yr achos o'r dylanwad hwn sydd yn perthyn i wyntoedd ydyw, eu bod oll yn meddu mwy neu lai o wres ac oerni, yn ol ansawdd y parthau o ba rai y maent yn chwythu, a'r gwledydd y maent yn eu croesi. [Gwel GWYNTOEDD.] Fe gollai Prydain, i gryn raddau, yr hinsawdd sydd yn perthyn iddi fel ynys, pe deuai ei gwyntoedd cyffredin ar draws y Cyfandir, yn lle o Fôr y Werydd.

9. *Y swm blynyddol o wlaw sydd yn disgyn mewn gwlad.*—Fel rheol, y mae mwy o wlaw yn disgyn mewn ynysoedd, ac ar lanau y môr, nag mewn parthau pell oddi wrtho; rhwng y mynyddoedd nag ar y gwastattir; ac o fewn y trofanau, nag mewn cylchoedd ereill. Y mae gwres mawr y parthau cyhydeddol yn peri fod y tarth yn llawer mwy nag mewn lledredau uwch.

Dengys y tabl canlynol ganol-swm y gwlaw sydd yn disgyn mewn gwahanol fanau o'r byd; a gwelir oddiwrtho fod y swm yn myned yn llai, ar y cyfan, fel y mae y lledredau yn myned yn uwch. Y mae yr eithriadau i'w priodoli i amgylchiadau lleol.

| Y LLE. | LLEDRED. GOGLEDDOL. | | MODFEDDI O WLAW. |
|---|---|---|---|
| | ° | ' | |
| Grenada | 12 | 0 | 26 |
| Kingston yn Jamaica | 18 | 0 | 83 |
| Calcutta | 22 | 39 | 81 |
| Rhufain | 41 | 53 | 39 |
| Paris | 48 | 49 | 21 |
| Plymouth | 50 | 23 | 37 |
| Llundain | 51 | 30 | 24 |
| Llynlleifiad | 53 | 25 | 34 |
| Kendal | 54 | 20 | 56 |
| Glasgow | 55 | 51 | 21 |
| Edinburgh | 55 | 57 | 24 |
| Upsal | 59 | 52 | 16 |
| Petersburg | 60 | 0 | 16 |

Ond nid ydyw lleithder neu sychder cymmharïaethol lle i'w benderfynu oddi wrth ei swm blynyddol o wlaw; o blegid y mae nifer y dyddiau gwlawog mewn blwyddyn yn llai, yn gyffredin, yn y gwledydd hyny lle y mae cyfanswm y gwlaw fwyaf. Fel hyn, yn y cylch poeth, y mae nifer y dyddiau ar ba rai y disgyn gwlaw yn ystod y flwyddyn yn llawer llai nag yn y parthau tymmherus o'r ddaear; ac yn y rhanau hyny o Ewrop sydd yn gorwedd i'r deheu i'r Alpau, y mae nifer y dyddiau gwlawog yn llai nag yn y gwledydd sydd i'r gogledd i'r mynyddoedd hyny, er fod cyfanswm y gwlaw yn fwy yn gyffredin. Ond yn ngwledydd y trofanau, fe ellir dywedyd fod y gwlaw yn disgyn mewn gwirionedd yn llifeiriant, a chyda graddau o ffyrnigrwydd sydd yn ammhossibl i breswylwyr ein lledredau ni ffurfio drychfeddwl priodol am dano, ag sydd yn fynych yn gwneyd cymmydogaethau eang yn ammhossibl eu cerdded mewn ychydig oriau. Fe ddywedir fod yn Bombay gymmaint ag un ar bymtheg o fodfeddi o wlaw wedi eu casglu mewn pedair awr ar hugain; ac yn Demerara, fe'n hysbysir fod chwe modfedd wedi disgyn mewn deuddeng awr. Yn y cylch poeth, y mae y gwlawogydd yn gyffredin yn dilyn cwrs yr haul:—y mae y tymmor gwlawog, yn y parthau gogleddol o'r cylch, yn arferol o ddigwydd pan y bydd yr haul ar y tu gogleddol i'r cyhydedd, a'r tymmor sych pan y bydd i'r deheu iddo. Ac yn gyffelyb y mae yn yr hanner deheuol o'r un cylch. Pa fodd bynag, y mae eithriadau lleol i hyn; ac mewn rhai gwledydd, o fewn, neu yn agos i'r trofanau, y mae dau dymmor sych, a dau dymmor gwlyb, yn dygwydd mewn un flwyddyn. Gwel GWLAW.

Oddi wrth brawfiadau a wnaed gyda'r gwresfesurydd, yr hinfesurydd, y lleithfesurydd, y gwlawfesurydd, y gwyntfesurydd, ac offerynau cyffelyb, y mae gwyddonwyr wedi bod yn alluog i ddosranu arwyneb y ddaear i nifer o ystripiau neu gylchau, o fewn y rhai y mae gwres ac oerni, gwlaw a heulwen, gwynt a thawelwch, &c., yn digwydd yn bur gyffelyb o ran amser a natur mewn gwahanol ranau o'r byd. Fel hyn y mae y cylchau sydd yn cynnwys y manau hyny lle y mae y tymmheredd blynyddol yr un fath, neu yn gyffelyb, yn cael eu galw yn *gylchau cyttymmeredd* (*isothermal zones*), a gelwir y llinellau sydd yn nodi eu terfynau yn *llinellau cyttymeredd*. Yn y lle nesaf ni a geisiwn ddisgrifio y rhai hyn.

II. LLINELLAU CYTTYMMEREDD.

Pe byddai i deithiwr gychwyn allan, dyweder tua'r dwyrain, i ymweled yn olynol â'r holl fanau hyny lle y mae y tymmeredd blynyddol yr un fath, neu yn gyffelyb, fe olrheiniai ar y map yr hyn a elwir yn llinell cyttymeredd. Y mae y llinellau hyn yn gwyro mwy yn barhaus oddi wrth y llinellau lledredol fel y maent yn pellhau oddi wrth y cyhydedd. Y mae yr achosion sydd yn penderfynu eu ffurf yn amlwg oddi wrth yr hyn a ddywedwyd yn yr adran flaenorol:—rhaid iddynt wyro mwy neu lai oddi wrth y llinellau lledredol yn unol â gwahanol amgylchiadau lleol, y rhai sydd yn meddu cymmaint o ddylanwad ar hinsawdd y lle fel y mae yn bossibl i wahaniaeth pwysig fod rhwng dau le o fewn yr un lledred. Ond y prif amgylchiad yn mhenderfyniad eu ffurf ydyw sefyllfa lle goruwch y môr.

Humboldt oedd y cyntaf i nodi llinellau y cyttymmeredd ar fap, oddi wrth sylwadau a wnaeth mewn o ddeutu 360 o wahanol fanau. Yn ddiweddarach, cyhoeddwyd mapiau o'r fath gan y proffeswr Dove, o Berlin, yn y rhai y gosodwyd y llinellau oddi wrth brawfiadau a wnaed mewn 913 o leoedd. Y mae y tablau canlynol o'r tymmeredd wedi eu casglu ynghyd o'i adroddiadau ef, y rhai a ddarllenwyd o flaen y British Association yn 1847—8.

Oddi wrth y tablau isod, gellid nodi allan ar fap yr holl leoedd hyny lle y mae tymmeredd y canolrif o'r hafau yr un fath; ac hefyd y manau hyny lle y mae tymmeredd canolrif y gauafau yr un fath, a thynu llinellau drwy y lleoedd hyny. Gwel y map yn nechreu yr erthygl.

Yn gyffelyb, fe ellid tynu llinellau a fyddent yn dibynu ar amgylchiadau mewn cyssylltiad â chymmylau, gwlaw, gwynt, &c., pe byddai ymchwiliad digon manwl yn cael ei wneyd i hyny.

Yn y tablau isod, pan y gosodir llinell (—) o flaen gradd lledredol, arwydda mai lledred *deheuol* ydyw; os o flaen gradd hydredol y bydd, golyga hydred *dwyreiniol*. Hefyd, arwydda y llythyren T. yn y bedwaredd golofn, *troedfeddi*; a'r nod (°) yn y bummed, y chweched, y seithfed, yr wythfed, a'r nawfed golofn, *raddau ar y mesurydd*.

Digitized by Google

| Gwledydd. | Lled. gog. ° | ' | Hyd. gor. ° | ' | Sefyllfa goruwch y môr. | Gauaf. | Gwanwyn. | Haf. | Cynauaf. | Blwyddyn. |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| | | | | | T. | ° | ° | ° | ° | ° |
| Ynys Melville - - | 74 | 47 | 110 | 48 | . . | —28·45 | — 3·19 | 37.08 | — 0·48 | 1·24 |
| Port Bowen - - | 73 | 14 | 88 | 56 | . . | —25·09 | — 5·77 | 34·40 | 10·58 | 3·53 |
| Boothia Felix - - | 69 | 59 | 92 | 1 | . . | —21·71 | — 5·21 | 38·04 | 9·69 | 3·70 |
| Winter Island - | 66 | 11 | 83 | 11 | . . | —20·47 | 6·35 | 31·80 | 17·58 | 8·82 |
| Fort Simpson - - | 62 | 11 | 121 | 32 | 250 | —11·04 | 26·10 | 59·16 | 26·24 | 25·12 |
| Iakutsk - - | 62 | 1 | —129 | 44 | . . | —36·37 | 15.61 | 61·72 | 12·76 | 13·43 |
| Fort Franklin - - | 65 | 12 | 123 | 13 | 230 | —16·66 | 14·05 | 50·23 | 21·12 | 17·18 |
| Nain - - - | 57 | 10 | 61 | 50 | . . | 3·66 | 24·57 | 47·90 | 35·16 | 27·82 |
| Torneo - - - | 66 | 24 | — 23 | 47 | . . | 6·41 | 27·83 | 57·89 | 32·10 | 31·06 |
| Irkutsk - - | 52 | 17 | —104 | 17 | 1,355 | 0.90 | 35·29 | 61·50 | 32·77 | 32·62 |
| Kazan - - - | 55 | 48 | — 49 | 7 | 150 | 6·34 | 36·20 | 62·39 | 36·91 | 35·45 |
| Umea - - - | 63 | 50 | — 20 | 16 | . . | 13.47 | 33·16 | 57·42 | 37·45 | 35·37 |
| Petersburgh - - | 59 | 56 | — 30 | 18 | . . | 18·66 | 37·06 | 61·68 | 41.02 | 39·61 |
| Moscow - - | 55 | 45 | — 37 | 38 | 400 | 15·20 | 40·98 | 63·97 | 39·94 | 40.02 |
| Quebec - - - | 46 | 48 | 71 | 17 | . . | 14·15 | 39.05 | 68·08 | 46·10 | 41·85 |
| Christiana - - | 59 | 55 | — 10 | 45 | 74 | 23·18 | 40·08 | 59·88 | 42·62 | 41·45 |
| Stockholm - - | 59 | 21 | — 18 | 4 | 128 | 26·04 | 38·21 | 60·43 | 44·41 | 42·27 |
| Halifax - - | 44 | 39 | 63 | 38 | . . | 21·00 | 31·67 | 61·00 | 46·67 | 40·08 |
| Montreal - - - | 45 | 31 | 73 | 35 | . . | 17·79 | 45·76 | 71·40 | 48·08 | 45·76 |
| Toronto - - | 43 | 40 | 79 | 22 | 340 | 25·43 | 42·34 | 64·63 | 46·81 | 44·81 |
| Warsaw - - - | 52 | 13 | — 21 | 1 | 351 | 24 91 | 43·05 | 63·21 | 45·41 | 44·15 |
| Delaware - - | 42 | 16 | 74 | 58 | 1,384 | 25·64 | 43·48 | 67·38 | 48·03 | 46·38 |
| Leipzig - - - | 51 | 20 | — 12 | 22 | . . | 31 79 | 45.72 | 60·25 | 47·86 | 46 41 |
| Copenhagen - | 55 | 41 | — 12 | 35 | . . | 31 31 | 43·74 | 62·70 | 48·70 | 46·56 |
| Breslau - - - | 51 | 07 | — 17 | 02 | 373 | 29·19 | 45.73 | 63·61 | 48·42 | 46·74 |
| Dantzig - - | 54 | 20 | — 18 | 41 | . . | 30·01 | 43·57 | 61·92 | 47·06 | 45·64 |
| Northumberland - | . | . | . | . | . . | 37·08 | 44.64 | 57·37 | 47·64 | 46·68 |
| Edinburgh - - | 55 | 58 | 3 | 11 | 220 | 38·45 | 45·02 | 57·17 | 47.89 | 47·13 |
| Meiningen - - | 50 | 40 | — 10 | 30 | . . | 32·61 | 46·58 | 63·46 | 48·90 | 47·89 |
| Bremen - - | 53 | 05 | — 8 | 49 | . . | 33·10 | 47·11 | 63·30 | 48·99 | 48·13 |
| Berlin - - - | 52 | 30 | — 13 | 24 | 100 | 31·45 | 47·41 | 64·56 | 49·23 | 48·16 |
| Boston - - | 42 | 21 | 71 | 4 | . . | 28·29 | 46·09 | 69·04 | 50·46 | 48·47 |
| Dublin - - - | 53 | 21 | 6 | 11 | . . | 39·83 | 47·16 | 59·57 | 49·63 | 49·05 |
| Plymouth - - | 50 | 22 | 4 | 7 | . . | 44·88 | 49.68 | 60·87 | 52·91 | 52·08 |
| Geneva - - - | 46 | 12 | — 6 | 10 | 1,253 | 34.04 | 52·21 | 70·36 | 54·25 | 52·71 |
| Vienna - - - | 48 | 13 | — 16 | 23 | 450 | 31·95 | 51.60 | 69·40 | 51·16 | 51·03 |
| Brussels - - | 50 | 51 | — 4 | 22 | 262 | 38·01 | 49.04 | 64·04 | 51·60 | 50·08 |
| Llundain - - | 51 | 30 | 0 | 05 | . . | 39.50 | 49.06 | 62·93 | 51·83 | 50·83 |
| Neufchatel - | 46 | 59 | 6 | 55 | 1,350 | 35·68 | 50·08 | 66·50 | 52·07 | 51·08 |
| Paris - - - | 48 | 50 | — 2 | 20 | 114 | 37·85 | 50·62 | 64·58 | 52.20 | 51·31 |
| Bristol - - - | 51 | 27 | 2 | 36 | . . | 40·33 | 50·33 | 64·33 | 51·67 | 51·67 |
| Auckland - - - | —36 | 51 | —174 | 45 | . . | 66·92 | 59·83 | 50·75 | 56·83 | 58·58 |
| Hobart Town - | — 42 | 53 | —147 | 28 | . . | 63·06 | 51·55 | 42·14 | 52·75 | 52·37 |
| Turin - - - | 45 | 11 | — 7 | 41 | 857 | 33 46 | 53·73 | 71·51 | 53·80 | 53·13 |
| Philadelphia - | 39 | 57 | 75 | 01 | . . | 30·07 | 49·80 | 71·36 | 51·87 | 50·78 |
| New York - - | 40 | 43 | 74 | 1 | . . | 30·12 | 52·06 | 70·93 | 53·20 | 51·58 |
| Pekin - - - | 39 | 54 | —116 | 26 | . . | 28·23 | 55.51 | 75·17 | 54.22 | 53·28 |
| Washington - - | 38 | 57 | 76 | 55 | 115 | 37·76 | 56·19 | 76·74 | 56·87 | 56.89 |
| Nantes - - | 47 | 13 | 1 | 33 | . . | 40.63 | 54.65 | 68·68 | 55·63 | 54 90 |
| Trieste - - - | 45 | 38 | — 13 | 46 | . . | 39·44 | 58·69 | 71·39 | 56·69 | 55·50 |
| Bordeaux - - | 44 | 50 | 0 | 35 | . . | 43·10 | 56·08 | 71·08 | 57·88 | 57·03 |
| Madrid - - - | 40 | 25 | 3 | 42 | 1,939 | 43.16 | 55·64 | 76·40 | 57·44 | 58·16 |
| Marseilles - - | 43 | 18 | — 5 | 22 | 140 | 45·22 | 55·91 | 72·93 | 59·21 | 58·32 |
| Rhufain - - - | 41 | 54 | — 12 | 25 | 160 | 46·73 | 58·25 | 74·24 | 62·75 | 60·49 |
| Monte Video - | — 34 | 54 | 56 | 13 | . . | 77·33 | 68·00 | 57·33 | 64·77 | 68·83 |
| Quito - - - | — 0 | 14 | 78 | 45 | 8,970 | 79·60 | 60·17 | 59·71 | 60·61 | 73·31 |
| Naples - - - | 40 | 52 | — 14 | 15 | . . | 47·65 | 57·56 | 74·38 | 61·46 | 60·26 |
| Genoa - - - | 44 | 24 | — 8 | 54 | . . | 47·33 | 58·81 | 75·08 | 62·97 | 61·05 |
| Lisbon - - | 38 | 42 | 9 | 9 | . . | 52·52 | 59·66 | 70·94 | 62·48 | 61·40 |
| St. Helena - - | —15 | 55 | 5 | 43 | 1,764 | 63·87 | 64·96 | 58·41 | 58·38 | 61·40 |
| Mexico - - | 19 | 25 | 99 | 6 | 6,990 | 53·64 | 63·42 | 65·23 | 60·13 | 60·00 |
| Norfolk (Virginia, Unol Daleithiau), | 36 | 58 | 76 | 16 | . . | 46·95 | 62·91 | 78·30 | 66·69 | 63.71 |
| Messina - - - | 38 | 11 | 15 | 34 | . . | 54 97 | 61·48 | 77·14 | 69·21 | 65·70 |
| Penrhyn Gobaith Da | — 34 | 11 | 18 | 26 | . . | 66·95 | 62·00 | 54·39 | 59·73 | 60·77 |
| Alexandria - - | 31 | 13 | — 29 | 48 | 204 | 64·43 | 69·31 | 76·89 | 69·04 | 63·03 |
| Barcelona - - | 41 | 23 | — 2 | 12 | 80 | 50.18 | 60·37 | 77·0 | 64·51 | 63·03 |
| Funchal - - - | 32 | 38 | 16 | 56 | . . | 63·50 | 64·46 | 71·60 | 70·88 | 67·61 |
| Caer Cystenyn - | 41 | 0 | — 29 | 0 | . . | 40·94 | 53·00 | 71·36 | 60·56 | 56·47 |
| Cadiz - - - | 36 | 32 | 6 | 18 | 2,500 | 52·90 | 59·53 | 70·43 | 65·35 | 62·06 |
| Ierusalem - | 31 | 47 | — 35 | 14 | . . | 49·61 | 60·50 | 73·88 | 66.53 | 62·63 |
| Ynysoedd Ioniaidd - | 38 | 0 | — 21 | 0 | . . | 58·06 | 60·37 | 76·89 | 69·04 | 63·03 |
| Malta - - - | 35 | 54 | — 14 | 34 | . . | 58.06 | 60·37 | 77·0 | 69.04 | 63.03 |
| New Orleans - - | 29 | 58 | 90 | 7 | . . | 55·80 | 72·08 | 82·04 | 69·28 | 69·80 |
| Bermuda - - | 32 | 20 | 64 | 50 | . . | 58·76 | 63·74 | 75·20 | 71·90 | 67·40 |

Digitized by Google

digwydd yn y ffurf o orfeydd (*ulcers*), o flaen marwolaeth, ac yn dangos pa fodd y gellir cael arwyddion sicr o hyny oddi wrth y dull y gorwedda y claf yn ei wely.

Yn ei draethawd ar *Natur Dyn*, y mae yn sylwi ar yr elfenau. Gan fod pedair elfen—tân, awyr, daear, a dwfr—o ganlyniad, y mae y cyfansoddiad dynol yn cynnwys y pedwar hylif canlynol:—sef gwaed, llysnafedd, geri, a'r ddueg. Pan fyddo y rhai hyn wedi eu cymmysgu mewn cyfartaledd pennodol, mae y corph dynol yn mwynhau iechyd; ond y mae afiechyd yn dilyn diffyg cyfartaledd priodol o honynt. Efe oedd y cyntaf i bennodi tri chyfnod i glefyd; geilw y diweddaf, neu yr argyfwng, y dyddiau pwysig. Y rhai hyn oeddynt y pedwerydd, y seithfed, yr unfed ar ddeg, y pedwerydd ar ddeg, yr ail ar bymtheg, a'r ugeinfed, ac y mae yn debygol fod mwy o reoleidd-dra ynglyn â hwynt yn ei ddyddiau a'i wlad ef nag yn ein plith ni; a hyny, mewn rhan, o herwydd gwahaniaeth yr hinsawdd, ac hefyd o blegid arferion syml y bobl.

Yr oedd ei wybodaeth o ddifyniaeth yn dra diffygiol. Y mae yn siarad am y cyhyrau megys cnawd; a chymmysgai y gwythïenau â'r rhydwelïau, hefyd y gewynau, y gïau, a'r rhwymynau. O barth i genhedliad, yr oedd yn credu fod plentyn gwryw yn dyfod o ochr ddeheu y fam, a phlentyn banyw o'r ochr chwith. Fodd bynag, cyrhaeddodd wybodaeth gywir ynghylch y pen a'r ymysgaroedd. Fe ddichon ei fod wedi cyrhaedd hyn drwy ymchwiliadau pan ddeuai rhai wedi cyfarfod â damweiniau pwysig ato i gael eu meddyginiaethu. Ymddengys na arferid difynu y corph dynol yn ei ddyddiau ef, a hyny o herwydd rhyw resymau ofergoelus. Nid aeth Hippocrates cyn belled ag i wahanu llawfeddygiaeth oddi wrth gyfferïaeth. Defnyddiai yr ysolyr (*cautery*), mewn rhai amgylchiadau, fel yr ymddengys oddi wrth ei arwireb—fod yn rhaid iachau yr hyn na ellir ei wella â chyfferïau â'r gyllell, a'r hyn na ellir ei iachau â'r gyllell â thân.

Arferai waedu, ac mewn amgylchiadau o ennynfa, cynghorai i hyny gael ei wneyd yn agos i'r rhan ennynedig. Yr oedd hefyd yn hyddysg mewn ysgryffiniad (*cupping*), ac yn deall ansoddion meddygol amryw fwnau a llysiau, ac arferai ddefnyddio cyfferïau rhyddhaol cryfion. Arferai hefyd wneyd defnydd o'i glust er mwyn canfod arwyddion afiechyd, a chymmhellai ymgynghori â physygwyr.

Y mae didwylledd a rhyddfrydedd Hippocrates yn ymddangos mewn gwrthgyferbyniad gogoneddus i gêlgarwch a dichellion yr offeiriaid, o grafangau cribddeiliog y rhai y rhyddhaodd efe y gelfyddyd feddygol. Y mae yn crybwyll yn fynych am yr amryw gamgymmeriadau y syrthiodd efe iddynt yn moreu ei oes broffeswrol, er mwyn i ereill dderbyn budd oddi wrth ei rybuddion. Ni chyfarfyddir mewn un man â golygiadau uwch a mwy dyngarol o berthynas i waith meddyg nag a geir yn ei ysgrifeniadau ef:—"Na fydded i awydd am gasglu cyfoeth fod yn brif amcan yn eich golwg, wrth ddilyn eich proffes. Rhoddwch gymmhorth meddygol ar brydiau am ddim, gan ymfoddloni ar y diolchgarwch a'r parch a dderbyniwch drwy hyny. Gwasanaethwch y tlawd a'r dieithr, pan fyddo amgylchiadau yn galw am hyny; o herwydd os bydd i chwi garu dynolryw, bydd i chwi hefyd garu eich galwedigaeth. Pan elwir am eich gwasanaeth mewn ymgynghoriad, na arferwch eiriau mawr, ac na siaradwch mewn dull dysgedig a rhwysgfawr—nid oes dim yn tueddu yn fwy i ddangos diffyg medr ac anwybodaeth." Yn y "llw," dangosir y meddyg fel yn gwneyd adduned ddifrifol—"Fy unig amcan fydd cyfranu cysur a chymmhorth meddygol i'r cleifion, i fod yn ffyddlawn i'r ymddiried a roddant ynof, ac i ochelyd hyd yn oed ammheuaeth o anffyddlondeb, yn enwedig mewn cyssylltiad â'r rhyw fenywaidd." Ymddengys ei fod yn dra chydwybodol yn nghyflawniad ei ddyledswyddau proffeswrol. Dadleuir gan rai fod Hippocrates, trwy sylwi yn unig ar gwrs natur, ac ymddiried gormod i'w gallu meddyginiaethol, yn goddef i'r cleifion fyddai dan ei ofal feirw; ac ymddengys fod rhyw gymmaint o wir yn yr haeriad.

Dywedir fod saith o feddygon, o enwogrwydd mwy neu lai, wedi hanu o deulu Hippocrates, a'u bod y naill ar ol y llall wedi gwasanaethu yn y swydd feddygol am dros dri chant o flynyddoedd.

**HIPPOLYTUS**: esgob, ac ysgrifenydd eglwysig yn y rhan gyntaf o'r drydedd ganrif, ac y mae ei enw yn ddiweddar wedi ennill hynodrwydd a phwysigrwydd mewn cyssylltiad â darganfyddiad traethawd gwerthfawr. Mae hanes y traethawd hwn yn llawn o ddyddordeb. Yn mhlith yr amryw ysgriflyfrau Groegaidd a ddygwyd o Fynydd Athos i Paris, yn 1842, ac a roddwyd yn y llyfrgell genhedlaethol, yr oedd un yn perthyn i'r bedwaredd ganrif, heb enw wrtho, wedi ei ysgrifenu ar bapur cotwm, ac wedi ei enwi—*Llyfr ar yr holl Heresiau.* Ni thalwyd un sylw neillduol iddo am gryn amser; ond o'r diwedd, tynwyd sylw M. Emmanuel Miller—swyddog yn y sefydliad—at ranau o waith Pindar, ynghyd â gwaith telynfardd anadnabyddus oedd ynddo; a thrwy hyny arweiniwyd ef i'w chwilio yn fwy manwl, a daeth i'r penderfyniad mai traethawd colledig o eiddo Origen ydoedd. O dan ddylanwad y darbwylliad hwn, efe a'i cynnygiodd i Athrofa Rhydychain i'w gyhoeddi, a daeth allan o'r wasg hono yn 1851, o dan olygiad M. Miller, ac yn dwyn yr enw *Origenis Philosophumena, sive omnium Heresium Refutatio.* Ychydig wedi hyny, astudiwyd ef gan y Chevalier Bunsen; ac ar ol ymchwiliad gofalus a dyfal, efe a brofodd tu hwnt i ammheuaeth mai gwaith gwreiddiol perthynol i'r drydedd ganrif ydoedd, ac nad Origen ydoedd ei awdwr, ond Hippolytus, henadur o Eglwys Rhufain, ac esgob porthladd Rhufain, *Portus.* Y mae y penderfyniad hwn wedi ei gadarnhau gan ysgolheigion ereill; yn neillduol eiddo Dr. Dunker, Dr. Jacobi, yn yr Almaen, a Dr. Wordsworth, yn Lloegr.

Nid oedd bodolaeth Hippolytus nemawr gwell na chwedl, hyd nes y darganfyddwyd y traethawd hwn. Yr oedd ei enw, mae yn wir, yn ganmoladwy yn hanes foreuol Cristionogaeth. Gwyddid ei fod wedi bod yn esgob; ond yr oedd yr hyn a wyddid am dano heblaw hyny mor annhenderfynol, fel yr oedd yn ammheus pa un ai yn y dwyrain ai yn y gorllewin yr oedd maes ei lafur. Mae Neander [*Church History, Vol.* ii. 471] yn ystyried y dystiolaeth o'r ddeutu yn lled gyfartal. Etto, ar y cyfan, ymddengys i ni fod y dystiolaeth yn ffafr y lle diweddaf, hyd yn oed cyn y darganfyddiad diweddar. Mae Bunsen wedi dangos yn amlwg nad yw tybiaeth Le Moyne, sef mai y Portus Romanus a gyssylltid âg enw Hippolytus ydoedd Aden, yn Arabia—tybiaeth a gariwyd allan gan Cave mewn dull awdurdodol yn dibynu ar well sylfaen na chamgyfieithiad o un o'r adranau yn Eusebius, yn yr hon y crybwyllir am Hippolytus [*Eusebius*, vi. 20]. Pa fodd bynag, nis gall fod un ammheuaeth yn awr, ar ol

Digitized by Google

dyweyd, mewn gwirionedd, hyd y pryd hwnw, eu bod wedi llwyr orchfygu y lle (1 *Mac.* viii. 4). Yn *Rhuf.* xv. 24, 28, y mae Paul yn dadgan ei fwriad i ymweled â Hispaen. Y mae y cwestiwn pa un a gyflawnodd efe ei fwriad, ai peidio, yn bwngc o ddadl mewn cyssylltiad â hanes Paul. Fodd bynag, y mae y bwriad yn unig yn dangos dwy ffaith ddyddorol iawn, sef sefydliad eglwys Gristionogol yn y wlad hono, a hyny gan Iuddewon Groegaidd oedd yn preswylio yno. Nid oes genym unrhyw dystiolaeth uniongyrchol o barth i'r ffeithiau hyn; ond gan fod yr Iuddewon wedi ymwasgaru ar hyd glanau Môr y Canoldir cyn belled a Cyrene yn Affrica, a Rhufain yn Ewrop (*Act.* ii. 10), gellir cymmeryd yn ganiataol eu bod hefyd i'w cael yn ninasoedd masnachol cyffiniau dwyreiniol Hispaen. Y mae tystiolaethau Irenæus a Tertullian yn cadarnhau fod Cristionogaeth wedi ei dwyn i'r Hispaen yn dra boreu. Gyda golwg ar gyflwr presennol a sefyllfa ddaearyddol Hispaen fel teyrnas, gwel d.g. YSPAEN.

HISTORI. Gwel HANESYDDIAETH.

HOBAB. Ni cheir yr enw hwn o fewn y Beibl ond mewn dau fan (*Num.* x. 29; a *Barn.* iv. 11), ac y mae yn ammheus pa un ai ei dad yn nghyfraith, ynte ei fab a ddynodir gan Moses. 1af, Yn ffafr yr olaf ni a gawn (1.) yr hysbysiad pendant fod Hobab yn "fab i Raguel" (*Num.* x. 29); a bod Raguel neu Reuel, (yr un gair Hebraeg a ddefnyddir am y naill a'r llall), yn enw ar yr un person, sef Iethro, nid yn unig yn *Exod.* ii. 18; (cymmharer iii. 1, &c.), ond hefyd yn Josephus, yr hwn a rydd yr enw hwn iddo yn ddieithriad. (2.) Y ffaith fod Jethro, rywbryd yn flaenorol, wedi gadael gwersyll yr Israeliaid i ddychwelyd i'w wlad ei hun: *Exod.* xviii. 27. O barth i'r geiriau "tad yn nghyfraith" Moses, yn *Num.* x. 29; er eu bod yn cael eu cyssylltu â Hobab yn y rhan fwyaf o'r hen gyfieithiadau, etto gellir eu darllen yn yr iaith wreiddiol y naill ffordd neu y llall; ac o ganlyniad, nis gellir seilio unrhyw wrthddadl oddi wrthynt. 2il, Yn mherthynas i'r geiriau a geir yn *Barn.* iv. 11, gellir sylwi (1.) eu bod yn ffafriol i'r dybiaeth mai yr un person ydyw Hobab ac Iethro; ond dylid cofio fod yr hyn a ddywedir yma o ddyddiad diweddarach na'r hyn a grybwyllwyd o'r blaen, ac y mae y dywediad hwn yn fwy achlysurol na'r cyntaf. (2.) Mae Josephus yn crybwyll unwaith wrth son am Raguel [*Hyn. Iudd.*, ii. 12, *adr.* 1], fod yr enw Iothor (Iethro), yn cael ei arfer fel cyfenw arno. Mae Whiston ac ereill yn casglu fod Josephus yn rhoi ar ddeall fod ganddo fwy nag un cyfenw; ond y mae hyn yn ammheus. Mae yn ddiammheuol fod y traddodiadau Mahometaidd yn ffafriol i'r dybiaeth mai yr un person ydyw Hobab ac Iethro. Adnabyddir ef yn bresennol, yn y Koran, a llyfrau ereill, ac yn y dwyrain, wrth yr enw *Sho'eib*, yr hwn yn ddiau sydd yn llygriad o Hobab. Yn ol y traddodiadau a nodwyd, yr oedd Hobab yn brophwyd i Dduw, ac anfonwyd ef at eilunaddolwyr *Medyen* (Midian), y rhai a ddinystriwyd am na chredasant ei genadwri [*Lane's Koran*, td. 179—181]. Dywedir hefyd ei fod yn ddall [td. 180, sylw.]; mai efe a roddes y wialen i Moses, yr hon a fu unwaith yn meddiant Adda, a'i bod o rywogaeth myrtwydd Paradwys, &c., [td. 190; a *Weil's Bibl. Legends*, 107—109]. Mae yr enw *Sho'eib*, yn bresennol, yn cael ei osod ar un o'r nentydd sychion (*wadys*) sydd i'r tu dwyreiniol i'r Iorddonen, gyferbyn âg Iericho; a thrwyddi hi, medd traddodiad sydd yn mhlith trigolion y lle, y teithiodd meibion Israel at yr Iorddonen. Yn ol y traddodiad hwn, efe a aeth gyda'r bobl cyn belled a Gwlad yr Addewid; ac y mae hyn, os gellir rhoddi pwys arno, ac wrth gymmeryd *Exod.* xviii. 27, dan ystyriaeth, yn milwrio yn erbyn y dybiaeth mai yr un person ydyw efe ac Iethro. Dangosir lleoedd ereill sydd yn dwyn ei enw ef a'i ddwy ferch yn nghymmydogaeth Sinai, a morgaingc Akaba [Stanley, *Syria & Palestine*, td. 33].

Ond pa un a oedd Hobab yn dad yn nghyfraith i Moses, ai nid oedd, mae yr hanes am dano yn *Num.* x. 29—32, er nad yw ond byr, yn llawn o addysg a dyddordeb. Tra y mae Iethro yn cael ei bortreadu fel gweinyddwr doeth ac ymarferol, ymddengys Hobab yn y cymmeriad o henuriad Arabaidd profiadol—at yr hwn yr oedd Moses yn edrych am ddiogelwch ei fintai fawr a blinderus yn y tir dieithr a dyrys oedd o'u blaen. Yr oedd holl lwybrau a bylchau yr "anialwch gwag erchyll" hwnw yn adnabyddus i Hobab; ac yr oedd ei graffder, ei sylw, a'i fedrusrwydd ymarferol ef, yn gwasanaethu yn "lle llygaid" iddynt hwy, i ganfod y llwyni gwyrddleision yn y pellder, y rhai oeddynt yn rhagarwyddion o ffynnonau a ffrydiau at eu gwasanaeth yn eu gwersyllfa ddyddiol, ac i roddi rhybudd prydlawn iddynt o ddynesiad yr Amaleciaid, neu ereill o ysbeilwyr y diffaethwch.

HOBAH [חובה]: enw y lle yr ymlidiodd Abraham y rhai a ysbeiliasant Sodom: *Gen.* xiv. 15. Yr oedd y lle hwn yn gorwedd "i'r gogledd i Damascus." Mae Josephus yn crybwyll am draddodiad a gawsai gan Nicolaus o Damascus, o berthynas i Abraham:—"Ac Abraham a deyrnasodd yn Damascus, ac estron ydoedd efe.... ac y mae ei enw yn parhau yn anrhydeddus yn y wlad; a dangosir pentref a elwir wrth ei enw, *Preswylfod Abraham*."—*Hyn. Iudd.*, i. 7, *adr.* 2. Mae yn nodedig fod yn Burzeh (pentref sydd dair milldir i'r gogledd o Damascus), *wely* neu addoldy perthynol i'r Mahometiaid, yn dwyn yr enw *Masjad Ibrahîn*, "lle gweddi Abraham," oddi wrth y patriarch. Edrychir ar y lle hwn gyda pharch mawr gan y trigolion; ac mewn cyssylltiad âg ef y mae traddodiad i'r pwrpas mai yn y lle hwn y cyflwynodd Abraham ddiolchgarwch i Dduw, wedi iddo lwyr orchfygu y brenhinoedd: *Gen.* xiv. Mae agen yn y graig, o'r tu ol i'r *wely* hwn, yn yr hon, medd traddodiad arall, y bu y patriarch yn llechu ar un amgylchiad rhag y cawr Nimrod. Mae yn nodedig hefyd mai ystyr y gair Hobah ydyw "ymguddfan."

Mae Iuddewon Damascus yn sicrhau mai pentref *Iôbar*, yn agos i Burzeh, ydyw Hobah y Beibl. Mae ganddynt synagog yno, wedi ei chyssegru i Elias, i'r hon y byddant yn myned yn fynych ar bererindod [*Syria and Palestine*, td. 491, 492].

HOBBES, THOMAS: yr athronydd o Malmesbury, a anwyd Ebrill 5ed, 1588, ac a fu farw yn Chatsworth, preswylfa Iarll Devonshire, yn 1679. "Athronydd Malmesbury," medd Warburton, "oedd dychryn yr oes ddiweddaf, fel y mae Tindall a Collins i'r oes bresennol. Y mae y wasg yn ymchwysu gan ddadleuaeth; ac y mae pob milwr eglwysig ieuangc am roddi prawf ar ei arfau drwy eu hyrddio at gap dur Hobbes" [*Divine Legation*, rhagym. i cyf. ii. td. 9]. Ac

"oedd cyfundraeth Hobbes o foesoldeb a gwleidyddiaeth; tryloew, cyfartal yn ei holl ranau, mawreddog, yn cael ei edmygu gan y diofal fel preswylfa ddymunol; ond un a ddadsylfaenwyd yn raddol gan wres mewnol teimlad dyn, ac yna a doddwyd yn ddwfr lleidiog gan belydrau haul athroniaeth bur."

Y mae yn nodedig fod Descartes yn meddwl cymmaint o foesddysg yr athronydd hwn, fel ag i dystio ei fod "yn fwy o feistr ar foesoldeb nag ar uchanianaeth." Y mae y syniad ynddo ei hun yn brawf amlwg o iselder moesoldeb yn Ffrainge o ddeutu canol yr ail ganrif ar bymtheg. Ar y llaw arall, y mae Addison yn rhoddi y flaenoriaeth (o holl weithiau Hobbes), i'w *Draethawd ar y Natur Ddynol;* "ac â'i farn ar y pwynt hwn, yr wyf yn cyttuno yn hollol; gan gymmeryd i mewn yn yr un ganmoliaeth, fodd bynag, rai o'i draethodau athronyddol ereill ar byngciau cyffelyb. Dyna yr unig ranau o'i weithiau y gellir eu darllen i fuddioldeb yn bresennol; ac y maent yn mhob man yn amlygu yn eu hawdwr, hyd yn oed pan y bydd yn meddwl yn y modd mwyaf anghywir ei hun, y gallu hwnw i osod ei ddarllenydd i feddwl; yr hyn sydd yn un o nodau diammheuol athrylith wreiddiol."[1] Mae yn amlwg fod Locke a Hume wedi eu hastudio gyda'r gofal mwyaf. Y gweithiau hyn a awgrymodd i'r blaenaf rai o'i brif sylwadau ar Gymdeithasiad Meddylddrychau, yn gystal a llawer o'r twyll-ymresymiad a amlygir yn y llyfr cyntaf o'i draethawd, ar *Darddiad ein Gwybodaeth,* ac ar natur gelfyddydol ein hegwyddorion moesol. I Hume (yn mhlith llawer o awgrymiadau o lai pwys), y maent wedi priodoli ei athrawiaeth ar natur y cyssylltiadau sefydlog sydd rhwng digwyddiadau naturiol, ynghyd â sylwedd ei ymresymiad yn erbyn athrawiaeth ysgolion y canoloesoedd ar amgyffrediad cyffredin.

Byddai yr attebion i ymresymiadau Hobbes yn ei *Leviathan* yn unig yn ddigon i ffurfio llyfrgell. Ond y mae y rhan fwyaf o honynt wedi myned i ebargofiant, fel ysgrifeniadau dadleuol yn gyffredin. Amddiffynai Harrington [*Oceana*] ryddid, ac Iarll Clarendon yr eglwys. Ei wrthwynebwyr athronyddol oeddynt Cumberland, Cudworth, Shaftesbury, Clarke, Butler, a Hutcheson. Er nas gellir ystyried y pedwar olaf yn hollol fel yn dadleu yn erbyn Hobbes, etto dyrnod ofnadwy yr athronydd hwn—dyrnod oedd fel yn siglo moesddysg hyd at ei sylfaeni, a gynnhyrodd y dynion hyn i lafurio. Y maent yn ein harwain yn mhell i'r ddeunawfed ganrif; a'u gweithiau hwy, y rhai a achlysurwyd gan athrawiaethau Hobbes, a hauodd had gweithiau Hume, Smith, Price, Kant, a Stewart, ar Foesddysg; ac hefyd, i raddau llai, yr eiddo Tucker, a Paley, heb s'n am Mandeville—twyll-resymwr a gwatwarwr y tafarndai; neu Claude Adrien Helvetius, ysgrifenydd athrylithgar, ond disylwedd, cellweirus, ac anianol o'r fath waethaf.

HOCED (hoc): twyll, dichell, cyfrwysdra.

> Fe wna y gwan o fewn ei garn,
> Ryw *hocedion* i'r cadarn." — TUDUR ALED.

"The weak within his retreat will play some *tricks* to the strong" — *Cyf.* DR. PUGHE.

"Wrth *ddichell* (hoced) dynion;" *Eph.* iv. 14. —W. SALESBURY.

HOCYS (Saes., *mallows*): neu, fel y gelwir hwy weithiau, *meddalai.* Y mae y gair yn digwydd yn *Iob* xxx. 4, lle y mae y patriarch yn cwyno ei fod yn ddarostyngedig i ddiystyrwch y dosbarth isaf o'r bobl, "y rhai a dorent yr hocys mewn brysglwyni, a gwraidd meryw yn fwyd iddynt." Y mae rhai ysgrifenwyr, megys R. Levi, a Luther, yn tybied mai danadl a feddylir wrth y gair gwreiddiol *malluach.* Felly hefyd Dr. Morgan, cyfieithydd y Beibl i'r Gymraeg; ac ymddengys oddi wrth Pliny, ac ereill, fod y planhigyn hwn yn ffurfio rhan fawr o ymborth y tlodion yn y dwyrain er's cyfnod pur foreu. Ond y syniad cyffredin ydyw mai rhyw ddosbarth o hocys a olygir. "Hocys yr Iuddew," medd Sprengel; felly hefyd yr arglwyddes Callcott [*Script. Herbal,* 255]. Dywed yr olaf fod llythyr yn "*Purchase's Pilgrims,*" oddi wrth Mr. William Biddulph, yr hwn oedd yn teithio o Aleppo i Ierusalem yn 1600, yn yr hwn y dywed, "Gwelsom liaws o bobl dlodion yn casglu hocys, a gwelltglas tri-deiliog; a gofynasom iddynt pa beth yr oeddynt yn ei wneyd â hwynt: i'r hyn yr attebasant mai dyna oedd eu holl ymborth, a'u bod yn eu bwyta." Y mae yr hocys hyn yn cael eu bwyta yn Arabia ac yn Ngwlad Canaan etto. Ond y mae yn ddiammheu mai yr hocys a adwaenir gan lysieuwyr wrth yr enw *atriplex halimus,* a olygir yn *Iob,* gan fod y gair *malluach* yn arwyddo naill ai fod y planhigyn yn tyfu gerllaw dyfroedd heilltion, neu ynte fod blas y planhigyn yn hallt. Mae Bochart, Drusius, Celsius, Hiller, Rosenmüller, a Kitto, yn golygu yr un peth. Gelwir ef gan Dioscorides yn *halimus,* a dywed ei fod yn blanhigyn sydd yn cael ei ddefnyddio yn wrychoedd, a'i fod yn debyg i'r *rhamnus*—yn wyn ac heb bigau arno; y mae ei ddail fel dail yr olewydd, ond yn lletach ac yn llai garw. Y mae yn cael ei goginio yn ymborth, ac yn tyfu gerllaw y môr, ac yn y gwrychoedd, yn Groeg, Arabia, Syria, &c. Dywed Aben-Beitar, fod y planhigyn a elwir *halimus* gan Dioscorides yn cael ei alw gan y Syriaid yn *maluch.*

Perthyna yr hocys i'r dosbarth hwnw o blanhigion a eilw y llysieuwyr *malvaceæ,* a thyfant bob amser yn mharthau tyneraf y ddaear, ac yn enwedig mewn gwledydd poethion. Y mae rhai o honynt yn nodedig am brydferthwch eu blodau, a llawer o honynt yn bur wasanaethgar i ddyn. Defnyddir hwy fel cyfferiau meddygol—"hocys y morfa" yn enwedig. Gorchudd blewog hadau un dosbarth o honynt ydyw y cotwm sydd mor bwysig yn ffurfiad ein gwisgoedd. Defnyddir y *malva tricuspidata* yn lle sebon gan negroaid yr India Orllewinol. Y mae hadau dosbarth arall (*hibiscus abelmoschus*), yn gynnhes a mwsgawl, ac yn cael ei ddefnyddio yn lle mwsg fel perarogl. Y mae rhisgl mewnol mathau ereill yn cael ei dori yn llinynau at wahanol ddybenion.

Y mathau mwyaf adnabyddus ydynt yr hocys cyffredin, hocys bendigaid (*hollyhock*), hocys y gors, hocys y morfa, hocys gwyllt, neu twsgawl, a hocys y môr (*tree mallow*).

1. HODAFIAH (הודויה; *Gr. Odoia, Oduia, Odavia*). Gŵr o lwyth Manasseh, un o benau yr hanner llwyth ar du dwyreiniol yr Iorddonen: 1 *Cron.* v. 24.

2. HODAFIAH: gŵr o lwyth Beniamin, mab Hasenuah; 1 *Cron.* ix. 7.

3. HODAFIAH: Lefiad, oddi wrth yr hwn y mae yn debygol y derbyniodd teulu pwysig yn llwyth Lefi ei enw: *Ezra* ii. 40. Ceir yr enw mewn ffurf wahanol yn *Neh.* vii. 43, sef Hodefah. Mae yr arglwydd A. Hervey wedi galw sylw at y

[1] Dugald Stewart's *Preliminary Dissertations to Enc. Brit.,* cyf. i. td. 42.

Digitized by Google

ffaith fod yr enw hwn yn dal cyssylltiad agos âg Iudah [*Genealogies*, 119]. O ganlyniad y mae yn bossibl mai yr Hodafiah hwn a enwir yn *Neh.*viii.7.

HOENYN—AU (hoen): blewyn, magl, croglath, llinyn.

"O *hoenyn* i *hoenyn* ydd â'r march yn swta."—Diar.

Mewn geiriau ereill:—"*Blewyn* ar ol *blewyn* fe gyll y ceffyl ei gynffon."

Y mae y gair yn digwydd yn y Beibl yn *Iob* xviii. 10; *Salm* cxl. 5; xiv. 9.

HOFFMANIAID: sect o bobl a gofleidient syniadau un Daniel Hoffman, proffeswr yn athrofa Helmstadt, yr hwn yn y flwyddyn 1598 a gymmerai arno ddysgu fod goleuni rheswm, hyd yn oed fel y mae yn ymddangos yn ysgrifeniadau Plato ac Aristotle, yn wrthwyneb i grefydd; a bod diwyllio y deall dynol i raddau uchel, trwy fyfyriaeth athronyddol, yn gyfnerthiad i'r gelyn diafol, am ei fod drwy hyny yn derbyn chwanegiad mawr at nifer ei arfau amddiffynol.

HOG—I: llymu, blaenllymu, llifio, rhoddi min ar beth. Y mae y gair yn digwydd yn *Diar.* xxvii. 17, lle y dywedir fod haiarn yn hogi haiarn, ac "felly gŵr wyneb ei gyfaill." Yr hyn sydd yn cyfeirio yn ddiammheu, at ddylanwad cydymdeimlad a chymmhelliadau y naill berson yn ffurfiad teimladau ac ymddygiadau y llall. Gwel 1 *Sam.* xxiii. 16; *Iob* iv. 3, 4; *Heb.* x. 24.

HOGLAH [הגלה]: y drydedd o bum merch Salphaad, yn ffafr y rhai y cyfnewidiwyd cyfraith etifeddiaeth, fel y gallai merch feddiannu etifeddiaeth ei thad pan na byddai meibion ar ei ol: *Num.* xxvi. 33; xxvii. 1; xxxvi. 11; *Ios.* xvii. 3.

Ceir yr enw hefyd mewn cyssylltiad â'r gair *Beth* yn Beth-Hoglah. Gwel Beth-Hoglah.

HOHAM [הוהם]: brenin Hebron, pryd y gorcsgynwyd Canaan [*Ios.* x. 3]. Un o'r pum brenin a ymlidiwyd gan Iosuah, ar hyd bwlch Beth-horon, ac a ddaliwyd o'r diwedd yn ogof Maccedah, ac a roddwyd i farwolaeth yno. Cyfeirir yn fynych ato fel "brenin Hebron," yn *Ios.* x.; ond ni cheir ei enw ond yn yr adran uchod yn unig.

HOLON: (חלן; Gr. *Olon*, *Holon*). 1. Tref yn mynyddoedd Iudah. Yn *Ios.* xv. 51, enwir hi rhwng Gosen a Giloh, a rhoddwyd hi a'i "meusydd pentrefol" i'r offeiriaid: *Ios.* xxi. 15. Yn rhestr dinasoedd yr offeiriaid, 1 *Cron.* vi., gelwir hi yn Hilen. Yn yr *Onomasticon*, crybwyllir am "Helon" ac "Olon;" ond prin y gellir casglu oddi wrth yr hyn a ddywedir yno ei bod mewn bod y pryd hyny; ac nid yw teithwyr hyd yn hyn wedi cael gafael ar le o'r enw hwn mewn un man.

2. HOLON: (חלון; Gr. *Helon*): dinas yn Moab. Ni chrybwyllir am dani ond yn unig yn *Ier.* xlviii. 21. Yr oedd yn un o drefydd y *Mishor*, sef y gwastadedd ar du y dwyrain i'r Iorddonen, ac a enwir mewn cyssylltiad âg Iahazah, Dibin, a lleoedd ereill adnabyddus; ond nid oes un wybodaeth am dani hyd yn hyn, ac ni cheir ei henw yn y rhestrau cyffelyb sydd yn *Num.* xxxii., ac *Ios.* xiii.

HOLWYDDOREG HEIDELBERG. Cyfansoddwyd y llyfr rhagorol hwn gan Olevianus ac Ursinus yn y flwyddyn 1652. Bwriadwyd ef ar y cyntaf at wasanaeth eglwysi y Freiniarllaeth yn yr Almaen, ond derbyniwyd ef yn fuan gan yr holl eglwysi diwygiedig. Mae y llyfr hwn yn cynnwys credo a rheolau buchedd Eglwys Ddiwygiedig yr Is-Ellmyn; a chredir mai oddi wrth hwn y cyfansoddwyd Catecism Byraf Westminster. Darparwyd *Cyffes Heidelberg* gan Bullinger; cyhoeddwyd ef yn 1564; a chyfieithwyd ef gan ei awdwr o'r Lladin gwreiddiol i'r Germanaeg. Derbyniwyd ef hefyd gan lawer o eglwysi oddi allan i derfynau y Freniarllaeth.

HOLLAND. Gwel Iseldiroedd.

HOLLBRESENNOLDEB DUW. Gwel Duw.

HOLLBRESENNOLWYR (*Ubiquitarians*: o *ubique*—pob man); y rhai a ddalient fod natur ddynol Crist yn hollbresennol. Y mae awgrymiad o'r athrawiaeth hon i'w gael yn yr athrawiaeth Lutheraidd o gydsylweddiad, neu uniad corph a gwaed Crist â'r elfenau wedi eu cyssegru; ond ni seiliodd Luther ei hun ei athrawiaeth arni, ond ar eiriau yr Ysgrythyrau, yn ol fel yr oedd efe yn eu hesbonio. Fodd bynag, ymddengys ei fod yn tybio, oddi wrth undeb y natur ddynol â'r ddwyfol, y gallai y natur ddynol fod yn mhobman; dywedai y gallai y dyn Iesu fod yn unrhyw fan lle yr oedd angenrheidrwydd am ei bresennoldeb. Yr oedd hyn yn fath o hollbresennoldeb galluogol (*potential*); *h y.*, y mae yn awgrymu fod y fath beth a hollbresennoldeb dynoliaeth Crist yn bossibl, er nad yw yn sicrhau fod y neillduolrwydd hwn yn hanfodol iddi. Ond elai duwinyddion Alsace a Swabia yn llawer pellach na hyn, a honent ei bod yn hollbresennol o ran ei natur. Amddiffynid yr athrawiaeth hon gan Brentius, yn 1561, gan Flacius, Illyricus, Chemnitius, Osiander, Musculus, ac ereill. Daliai rhai o honynt fod hollbresennoldeb yn perthyn i Grist bob amser; ac ereill mai ar ol ei esgyniad yn unig y perthynai iddo.

HOLLDDUWIAETH. Gwel Olldduwiaeth.

HOLLGYFOETHOG. Gwel Duw.

HOLLWYBODAETH DUW. Gwel Duw.

HOMER, neu OMER: mesur Hebreaidd, yn cynnwys 75 galwyn a 5 peint. Gwel Mesurau.

HOMER: bardd arwrol penaf Groeg; ac enw o'r pwysigrwydd mwyaf, nid yn unig mewn cyssylltiad â Groeg, ond âg Ewrop yn gyffredinol, ac â hanes yr hil ddynol; o blegid yn Homer, y mae a wnelom, nid yn unig â bardd o'r radd uchaf, yn llenwi yr un sefyllfa mewn llenyddiaeth ag a wna Aristotle a Newton mewn athroniaeth, ond hefyd â'r ysgrifeniadau hynaf—ar ol llyfrau Moses—sydd wedi cynnyrchu dylanwad arosol ar wareiddiad y gorllewin. O ganlyniad, geilw Homer am ystyriaeth fanwl, yn annibynol ar ei sefyllfa oruchel ar ben Parnassus.

Nid yw oes Homer yn gorwedd yn gwbl o fewn cyfnod haniad llenyddiaeth Groeg; ac nid oedd bywgraffwyr yn ei amser ef yn ymgymmeryd â chofnodi dywediadau a gweithredoedd plant athrylith. Nid ydyw y tystiolaethau llenyddol o barth i ffeithiau yn mywyd y bardd yn cyrhaedd yn mhellach nag amser Pindar (c. c. 500); hyny yw, dros dri chan mlynedd yn ddiweddarach nag amser Homer. Mewn canlyniad, yr oedd hyd

Digitized by Google

yn oed lle ei enedigaeth yn anhysbys i'r Groegiaid, ac yr oedd nodi cyfnod ei breswyliad yn ormod gorchwyl i'w haneswyr galluocaf. Ond nid ydym yn hollol anwybodus ynghylch y pwngc hwn. Pa mor dywyll a diymddiried bynag y gall traddodiadau poblogaidd fod, y maent yn gyffredin yn cynnwys cnewyllyn y gwirionedd, yr hwn a wahenir gan y llygadgraff a'r hyddysg oddi wrth ddychymmyg gwag a disail; ac os na bydd sylwedd traddodiadau o'r fath yn mherthynas i fywyd bardd mawr yn cael eu gwrthbrofi, ond yn hytrach eu cadarnhau, gan dystiolaethau yn ngwaith y bardd ei hun, gall dyn rhesymol bwyso arnynt mor hyderus ag ar unrhyw beth arall fyddo yn dibynu ar y gradd uchaf o debygolrwydd; ond y mae yn ammhossibl, yn y naill amgylchiad na'r llall, gyrhaedd sicrwydd celfyddydol.

Wrth ystyried yr hanes a rydd Aristotle am le genedigaeth Homer, a'r hyn a ddywed Ephorus oedd traddodiad pobl Cumæ, yn Campania, am dano, ac am y colofnau i'w goffadwriaeth a ddangosid yn ynys Ios, y mae yn hawdd canfod mor ddisail ydyw honiadau llawer o ddinasoedd Groegaidd am gael bod yn lleoedd genedigaeth i'r bardd. Saith o ddinasoedd a nodir yn gyffredin fel yn hawlio yr anrhydedd hwn; ond wrth droi dalenau Suidas, fe welir fod o leiaf chwech ereill yn hòni yr un anrhydedd. Y saith dinas sydd yn ymryson fwyaf am hyn ydyw Smyrna, Ios, Colophon, Rhodus, Salamis, Argos, ac Athen; ond y mae honiadau rhai o honynt yn annheilwng o sylw manwl. Mae yr eiddo Athen yn gorphwys yn unig ar y ffaith fod Ioniaid Smyrna yn drefedigaeth o Attica (yn yr hwn randir y gorweddai Athen); ac os oedd Homer yn Smyrniad, fod mor briodol ei alw yn Atheniad; yn debyg fel y gall un genedigol o Sydney yn Awstralia, ddweyd mai Llundeiniad yw am fod ei daid neu ei hendaid felly. A chyda golwg ar Salamis, yn Cyprus, gellir egluro ei honiadau hi gyda'r ffaith fod Stasinus, un o'r beirdd y priodolid yr *epic cycle* iddo, yn frodor o'r ynys hono, ac fod yr arwrgerdd a elwir *Cypria*, yn y cyfansoddiad hwnw, ac a ysgrifenwyd ganddo ef, wedi ei phriodoli gan rai i Homer; gan yr hwn, fe ddywedir, y derbyniodd Stasinus hi, fel rhodd briodasol gyda merch y bardd [*Ælian*, V. H. ix. 15]. Yn gyffelyb y mae Colophon yn hòni genedigaeth bardd yr *Iliad;* o blegid cân ddigrifol adnabyddus, o'r enw *Margitæ*, a'r hon a briodolid yn gyffredinol i Homer. Ond y mae yr un ymchwiliad beirniadol ag sydd yn ein galluogi i ddangos gwendid honiadau y lleoedd hyn yn dadguddio y ffaith nodedig fod y dinasoedd ereill hyny sydd ganddynt fwyaf i'w ddyweyd dros eu hawliau honedig yn Homer, yn ymuno, drwy ffurf neillduol eu traddodiadau, i roddi i Smyrna yr anrhydedd o fod yn lle ei enedigaeth. Ac y mae y bywgraffiad hynaf a mwyaf manwl o Homer (yr un a briodolir i Herodotus), yn gosod ei rieni yn Magnesia, yn Thessaly. Oddi yno, dywed fod Melanopus wedi croesi Môr Ægea, ac ymsefydlu yn Cumæ, prif ddinas yr Æoliaid yn Asia Leiaf, lle y priododd foneddiges, o'r hon y ganwyd iddo ferch o'r enw Critheis. Ffurfiodd Critheis gyssylltiad anghyfreithlawn â rhywun anhysbys; ac i ochelyd gwarthrudd, anfonwyd hi i Smyrna; ac ar lanau yr afon Meles, yn y lle hwnw, rhoddodd enedigaeth i Homer. Oddi wrth enw yr afon hon, gelwid Homer yn Melesigenes. Dywedasom eisoes nad hanes yw traddodiadau o'r fath; ond pan y cawn un arall o'r saith dinas, sef Ios, yn cynnwys traddodiad, yr hwn, tra yn wahanol i'r eiddo Cumæ yn mhob peth arall, sydd yn cyttuno âg ef yn nygiad y bardd anfarwol i lanau y Meles i gael ei eni, y mae y tebygolrwydd cryfaf yn gorwedd mewn cyssylltiad â'r wlad hon. Ac y mae yn llawn mor debygol iddo farw yn Ios—un o'r ynysoedd a elwir Cyclades, yn Môr Ægea—o blegid ar y pwngc hwn hefyd y mae y gwahanol draddodiadau yn cyttuno; a phan foddlonwn ein meddyliau ar hyn, cawsom y cwbl sydd yn wybyddys ynghylch tad barddoniaeth arwrol yn Groeg. Fod Homer, fel beirdd yn gyffredin, yn crwydro oddi amgylch yn ngweinyddiad ei swydd, sydd dra thebygol, oddi wrth y wybodaeth ddaearyddol eang a amlygir yn ei weithiau. Yn yr holl hen fywgraffiadau, dywedir fod Homer yn ddall; ond olrheinir y chwedl hon i'r ffaith fod dyn dall yn cael ei ddwyn i mewn i'r *Odyssey* (viii. 64), ac i'r Emyn i Apollo. A'r emyn hon, yn ddiammheu, ydyw prif awdurdod y rhai sydd yn gosod genedigaeth y bardd yn Ios; o blegid fel hyn y rhed y llinellau:—

Τυφλὸς ἀνὴς, οἰχεῖ δε Χίῳ ἐνι παιπαλοέσσῃ.

Yr hen ŵr dall a drig yn ynys greigiog Ios.

Ond wedi gwrthod y llinell yna fel prawf, nid oes dim arall yn cael ei ddefnyddio fel sail i honiadau Ios, heblaw y ffaith fod cymdeithas neu dylwyth o feirdd o'r enw Homeridæ yn trigo yn yr ynys [*Strabo*, xiv. td. 645],—ffaith sydd mor ddiwerth fel prawf a phe y dywedid fod Calvin wedi ei eni yn Nghymru, am fod Calviniaeth yn bur flodeuog ynddi.

Y mae llai i'w ddyweyd am amser neu oes Homer nag hyd yn oed am le ac amgylchiadau ei enedigaeth; a'r rheswm am hyny ydyw, nad oes yn natur traddodiad i ymwneyd dim âg amseryddiaeth; ac er fod yn ei farddoniaeth yn unig brofion amlwg iddo gael ei eni yn y rhan hwnw o Asia Leiaf, lle y gorwedd Smyrna, nid oes dim nad yw yn rhoddi lle i ammheuaeth a llawer o ddychymmyg o barth i amser y bardd. Gesyd Herodotus [ii. 53], Homer yn bedwar can mlynedd yn hŷn nag ef ei hun; hyny ydyw, o ddeutu c. c. 850; ond y mae Aristotle yn ei adroddiad o draddodiad Ios yn gosod ei enedigaeth yn gyfamserol âg ymfudiad mawr yr Ioniaid, yn c. c. 1044; tra y mae Dionysius o Samos yn ei daflu yn ol i amser Rhyfel y Troiaid, c. c. 1193—1184. Nis gellir penderfynu pa un sydd yn iawn; ond golygir nad yw Dionysius yn gywir, o blegid fod Homer yn disgrifio gwroniaid ei *Iliad* fel rhai oedd cyn ei amser ef; ac o'r tu arall, nas gall fod yn ddiweddarach na dyddiad Herodotus, gan fod amseryddiaeth cenhedlaethol y Groegiaid yn dechreu yn c. c. 776, tra yr oedd yr ansicrwydd mwyaf yn bodoli yn mhlith y genedl ynghylch amser y bardd.

Yr achos ein bod wedi manylu cymmaint ar y pyngciau hyn ydyw, fod cymmaint o ammheuaeth wedi ei daflu ar wirioneddolrwydd amgylchiadau mewn cyssylltiad â Homer. Y mae rhai wedi myned cyn belled a gwadu bodolaeth y fath ddyn o gwbl. Er enghraifft, dywed Grote:—"Y mae enw Homer—canys nid wyf yn caniatau ei bersonoldeb hanesyddol—yn golygu yr *Iliad* a'r *Odyssey*, a dim arall;" ac etto, "Nid dyn gwirioneddol ydoedd Homer, ond tad dwyfol neu wronaidd yr Homeridæ Cenhedlig" [cyf. ii. td. 179]; hyny yw, tra yr oedd holl genedl y Groegiaid yn credu fod ganddynt unwaith fardd mawr arwrol, i athrylith ragorol yr hwn, fel i achos naturiol a digonol, y priodolent eu dwy arwrgerdd fawr (yn debyg fel

Digitized by Google

y mae hanfodiad y byd yn cael ei egluro drwy ei briodoli i hanfodiad Duw), yr ydym ni, gwŷr dysgedig yr amseroedd diweddarach hyn, yn rhwym o ammheu pa un a fu y bardd yn hanfodi, a pha un a ydyw y caniadau hyn i gael eu ,hystyried fel cynnyrchion athrylith fawreddog o gwbl, ond mai gwaith rhyw hanner dwsin neu ugain o rigymwyr eilraddol ydynt, gwŷr nad oedd neb yn caru gwybod eu henwau, ond y rhai a fuont yn ddigon cyfrwys i godi eu hunain i sefyllfa hanesiol bwysig, trwy greu pen arwyddlunìol i'w corfforaeth, a'i alw yn Homer, yr hwn y mae y byd wedi bod mor ynfyd a chredu, am 3,000 o flynyddoedd, ei fod yn ddyn gwrioneddol a sylweddol! Yr hyn a arweiniodd i'r anffyddiaeth hwn yn benaf ydoedd, lliosogrwydd, ac anghyttundeb, ac annaturioldeb llawer o'r chwedlau a gofnodid am y bardd. Ond ni ddylai dygwyddiadau anghyffredin, nac hyd yn oed gwyrthiol, yn mywyd person hanesiol, siglo ein ffydd yn ei hanfodiad; o blegid am fod ei hanfodiad mor darawiadol a dylanwadol y dyfeisiwyd ac y credid y chwedlau rhyfeddol hyn. Cariai yr Israeliaid eu hachres yn ol cyn belled a mab Isaac, o'r hwn y tarddasant. Pe na buasai llyfrau Moses, gyda'u holl fanylion amgylchiadol a'u naturioldeb perffaith, wedi eu hysgrifenu, gallai rhywun ddyweyd nad oedd Iacob ond arwyddlun yn unig. Priodolai yr Atheniaid gyfnewidiadau llywodraethol pwysig yn eu gwlad i fab Ægeus, am yr hwn y dywedir lliaws o chwedlau rhyfeddol a goruwchnaturiol; ond y mae y chwedlau hyn mor bell o'n cyfiawnhau i dadlu y mab Ægeus hwn i blith arwyddluniau ag ydyw celwyddau ynfydion am Abraham a'r patriarchiaid ereill a gofnodir yn y Koran a llyfrau dwyreiniol ereill, i osod "tad y ffyddloniaid" yn yr un sefyllfa.

Y cwestiwn nesaf i'w benderfynu ydyw awduriaeth y caniadau a briodolir i Homer. Ystyriai yr hynafiaid yn gyffredinol mai Homer ydoedd awdwr yr *Iliad* a'r *Odyssey*. Yr oedd caniadau ereill, megys y *Batrachomyomachia*, neu *Ymladdfa y Llyffaint a'r Llygod*, y *Cypria a'r Margitæ*, yn cael eu tadogi iddo, ond nid oedd awduriaeth y rhai hyn mor rydd oddi wrth ammheuaeth. Yr *Iliad* a'r *Odyssey* yn unig y teimlai pawb yn sicr yn eu cylch. Y cyntaf a gyssylltodd ammheuaeth â'r rhai hyn ydoedd F. A. Wolf, yn 1795, pan gyhoeddodd ei *Prolegomena*, lle y ceisiai ddangos nad dwy gerdd o awduriaeth a chyfanwaith un person oeddynt, ond amryw ganeuon arwrol bychain ac annibynol ar eu gilydd, pob un yn dadgan rhyw orchest neillduol o eiddo un o'r gwroniaid; ac fod y caneuon hyn *am y tro cyntaf* wedi eu hysgrifenu i lawr a'u huno, fel yr *Iliad* a'r *Odyssey*, gan Pisistratus, y gormeswr creulawn o Athen. Achosodd hyn ddadl frwd, yn nghylch tarddiad y cerddi Homeraidd—dadl sydd hyd yma heb ei phenderfynu. Ond y mae dysgedigion yn lled gyffredin yn cyttuno yn yr hyn a ganlyn:—Mai awdwr gwreiddiol yr *Iliad* a'r *Odyssey* ydoedd Homer; iddo eu cyfansoddi allan o nifer o ganeuon traddodiadol am y Rhyfel Troiaidd; ond gan nad oedd y gelfyddyd o ysgrifenu yn adnabyddus, neu o leiaf mewn nemawr o ymarferiad, daeth y cerddi hyn mewn amser i'w sefyllfa gyntefig, yn yr hon sefyllfa y buont hyd amser Pisistratus, yr hwn a'u casglodd ac a'u trefnodd fel y maent yn bresennol. Fod yn eithaf possibl fod llawer o gyfnewidiadau, mewn geiriau a llinellau wedi ymlithro i mewn er pan eu cyfansoddwyd i ddechreu, a hyny o blegid yr amgylchiadau yr oeddynt danynt. Os nad oedd ysgrifenu mewn ymarferiad, yr oedd yn rhaid iddynt ddibynu am gywirdeb eu trosglwyddiad ar y cyfrwng ansicr hwnw a elwir "llafar gwlad;" ac o'r tu arall, os ysgrifenwyd hwy, yr oedd yn ammhossibl i gyfnewidiadau beidio llithro i mewn. O blegid os digwyddodd hyn gyda'r Ysgrythyrau, y rhai yr oedd cymmaint o ofal yn cael ei arfer gyda hwynt, a chymmaint o eiddigedd o'u plaid, nid rhyfedd fod y caniadau Homeraidd wedi cyfarfod â'r un dynged. Ond golygir fod hanfodiad yr Homeridæ, cymdeithas enwog o feirdd yn Ios, y rhai a broffesent eu bod yn hanu oddi wrth y bardd, a phrif orchwyl y rhai oedd canu a dysgu yr *Iliad* a'r *Odyssey* mewn gwyliau a gwleddoedd i'w dysgyblion—tybir fod hanfodiad a gwarcheidwaeth eiddigus y bobl hyn, hyd pan ymgymmerodd Pisistratus â'i orchwyl, yn sicrwydd fod y caniadau o ran sylwedd fel y daethant o enau Homer ei hun. O amser Pisistratus, yr oedd gan y Groegiaid eu Homer ysgrifenedig—testyn rheolaidd—ac un oedd yn ffynnonell a sylfaen i bob copi diweddarach.

Y mae yn amlwg fod yr *Iliad* yn rhagori ar yr *Odyssey* fel cyfansoddiad, ac y mae rhai beirniaid gorgraff wedi ceisio chwyddo y rhagoriaeth hwn yn fwy nag ydyw; yr hyn, meddent, yn gystal a gwahaniaethau ereill sydd yn perthyn i'r gân, megys defnyddiad gwahanol o'r un geiriau yn y ddwy gân, &c., sydd yn ddigon i ddangos eu bod wedi eu cyfansoddi gan wahanol awdwyr. Y mae yn ddiammheu fod yr *Odyssey* wedi ei chynnyrchu yn llawer diweddarach yn oes Homer na'r *Iliad*, ac y mae y testyn yn wahanol; ac i'r ddwy ffaith hyn y priodola beirniaid diddueddd y prif wahaniaeth sydd ynddynt.

Y gorchwyl nesaf sydd genym ydyw ystyried cymmeriad a gwerth y caneuon eu hunain. Testyn yr *Iliad*, fel y gŵyr llawer o'n darllenwyr, ydyw dialedd Achilles[1] ar Agamemnon[2] am ddwyn oddi arno ei gariadferch, yn ystod y gwarchae ar Troy, ynghyd â'r drygau a ddaeth ar y Groegiaid mewn canlyniad. Y mae stori Homer am ei wron yn debyg fel y canlyn:—Pan orfu i Agamemnon roddi ei Chryseïs yn ol i'w thad, bygythiodd gymmeryd Briseïs oddi ar Achilles. Ar gais Athena (duwies Roegaidd), cyflwynodd Achilles hi iddo; ond gwrthododd gymmeryd rhan pellach yn y rhyfel, a chauodd ei hun i fyny yn ei babell. Y mae Zeus (duw Groegaidd), ar gais Thetis, mam Achilles, yn bygwth troi y rhyfel o du y Troiaid, yn niffyg anrhydeddiad ei mab, ac y mae yn canlyn fod anffawd ar ol anffawd yn disgyn ar y Groegiaid. Yna gwesgir hwy mor galed, fel y mae dirprwyaeth yn cael ei anfon at Achilles gydag anrhegion gwerthfawr, ac addewid o ddychweliad Briseïs, os deuai yntau i'r frwydr. Ond yn ofer. O'r diwedd y mae yn caniatau i'w gyfaill anwyl Patroclus i wneyd defnydd o'i filwyr. Lleddir Patroclus; ac y mae Achilles mewn gofid dirfawr, ac yna y mae yn penderfynu mynu meddiant o'i gorph, a dial ei waed, cyn y bwytäai nac yr yfai ddim. A'i lais taranllyd yn unig y mae yn gyru y Troiaid i ffoi; yna yn lladd ac yn anafu lliaws o honynt; ac yna yn cyfarfod â Hector, prif wron y Troiaid, yr hwn a ymlidir ganddo dair gwaith o amgylch muriau y ddinas. Wedi hyny, y mae yn ei ladd, yn rhwymo ei gorph wrth ei gerbyd, ac yn ei

[1] Brenin y Myrmidoniaid (dosbarth o'r Groegiaid), yn Phthiotis, yn Thessaly, ac arweinydd ei ddeiliaid, yr Helleniaid, a'r Achaiaid (oll yn Roegiaid), yn erbyn Troy.

[2] Prif gadlywydd y Groegiaid yn yr un ymgyrch, a brenin Myceneæ.

Digitized by Google

o dan amgylchiadau neillduol, sydd yn cydgordio â duwinyddiaeth eu gwlad. Ond mewn oesoedd oddiwylliant meddyliol, pryd y mae dull damcanyddol a dieithr o feddwl yn fynych yn dyrchafu ei ben yn mhlith prif feddyliau yr oes, y mae beirdd yn fynych yn teimlo eu hunain dan orfod i brotestio yn erbyn argyhoeddiadau crefyddol y bobl, ac fel hyn y mae awyrgylch llenyddiaeth yn fynych yn dyfod yn gymmysglyd a du. Gwelir hyn yn amlwg yn hanes Euripides, Lucretius, Lucan, Lucian, Göethe, Byron, Burns, Shelley, a llawer ereill. Ond âg anhawsderau o'r fath yma—anhawsderau sydd yn ymyryd llawer â phoblogrwydd dylanwad bardd—nid oedd gan Homer ddim i'w wneyd. Yr oedd duwinyddiaeth ei amser ef yn ddiammheu yn llawn o'r hyn a ellid ei alw yn blentyneiddrwydd, ac heb fod yn rhydd oddi wrth anghyssonderau; ond yr oedd athroniaeth etto heb ei geni, ac felly nid oedd y plentyneiddrwydd a'r anghyssonderau hyn wedi eu dwyn i wrthgyfarfyddiad â syniadau ereill o eiddo y meddylgar. Ac yn ngweithiau Homer nid oes un gradd o anffyddiaeth nac ammheuaeth un amser yn amlygu ei hun.

Y mae gweithiau Homer wedi eu cyfieithu i holl brif ieithoedd y gorllewin; ac y mae y llyfrau a ysgrifenwyd ar ei farddoniaeth—rhai i ddadgan ei glod, rhai i amlygu ei wallau, &c., &c.,—yn ddigon i wneyd llyfrgell ynddynt eu hunain. Am chwaneg o wybodaeth ynghylch y bardd hwn a'i weithiau, dymunem gyfeirio y darllenydd at yr *Encyclopædia Brtiannica*, *Smith's Classical Dictionary*, dan y gair *Homer*, *Col. Mure's Critical History of the Language and Literature of Ancient Greece.*

**HOMOOUSIAID.** Gwel Ariaid.

**HOPKINS, LEWIS a WILLIAM.** Beirdd o Forganwg. Buont feirw yn 1770, a 1780.

**HOOKER, RICHARD:** awdwr enwog yr *Ecclesiastical Polity.* Ganwyd ef yn 1553, neu 1554, yn Heavytree, ger Exeter, swydd Devon. Trwy garedigrwydd ei ewythr, John Hooker, trysorgellydd Exeter, cynnysgaeddwyd ef â gwell addysg ysgol nag y gallasai ei rieni ei fforddio iddo; a dygodd yr un perthynas ef wedi hyny i sylw yr enwog Jewel, esgob Salisbury, yr hwn a sicrhaodd iddo ysgoloriaeth yn Corpus Christi College, Rhydychain, yr hyn a'i dygodd yn gysurus drwy ei yrfa golegawl. Yn 1577, etholwyd ef yn gymmrawd o'r un coleg. Yn 1579, pennodyd ef yn ddarlithiwr ar Hebraeg; ond wedi cyflawni y swydd hon am dri mis, diarddelwyd ef, a phedwar ereill, gan yr is-athraw. Y mae yr achos o'r weithred ormesol hon yn anhysbys; ond rhaid nad oedd iddi unrhyw sail wirioneddol, o blegid yn mhen llai na mis cafodd y pump gwrthodedig eu hail dderbyn. Tair blynedd yn ddiweddarach, ymaflodd Hooker yn y swydd offeiriadol, a phennodwyd ef i bregethu yn St. Paul's Cross, Llundain. Wedi cyrhaedd y brif ddinas, aeth i dy un Mr. Churchman, gwraig yr hwn a'i perswadiodd "ei fod yn ddyn o gyfansoddiad gwanaidd; ac fod yn well iddo gael gwraig a fyddai yn *nurse* iddo—y fath ag a estynai ei einioes, ac a'i gwnai yn fwy cysurus; ac ymrwymodd y byddai iddi sicrhau iddo y fath un, os y tybiai efe mai gwell oedd iddo briodi." Cymmerodd y gweinidog diniwed a difeddwl-ddrwg ei berswadio ganddi. Dewisodd y wraig ei merch ei hun, Joan; a'r flwyddyn ganlynol priodwyd hi â Hooker, er nad oedd ganddi, medd Walton, "na phrydferthwch na chynnysgaeth, ac er fod ei natur yn rhy debyg i eiddo y wraig hono a gymmherir gan Solomon i 'ddefni parhaus.'" Trodd allan yn "wraig benffol a thaiog." Yn y fl. 1584, pennodwyd Hooker i bersonoliaeth Drayton-Beauchamp, yn sir Buckingham. Yn ystod ei breswyliad yno, ymwelwyd âg ef gan ddau o'i hen ysgolheigion. Cawsant ef, medd Walton, "gyda llyfr yn ei law —*Odlau* Horace ydoedd. Yr oedd y pryd hyn, fel Abel ddiniwed a gostyngedig, yn gwylio ei gorlan bach o braidd mewn cae; yr hyn, meddai wrth ei ysgolheigion, yr oedd dan orfod i'w wneyd y pryd hyny, gan fod ei was wedi myned adref giniawa, ac i helpu ei wraig gyda rhyw orchwyl teuluaidd. Ond pan ddychwelodd ei was, fel ag i'w ryddhau—pryd y dilynodd ei ysgolheigion ef i'w dŷ—lle nad oedd ganddynt well difyrwch na'i gwmni tawel ef, o'r hwn yr amddifadwyd hwy yn fuan; o blegid galwyd Richard i siglo y cryd!" Wrth ymadael dranoeth, sylwodd un o'r ysgolheigion (Mr. Cranmer) wrtho:—"Athraw da: drwg genyf na buasai gwell parsonoliaeth wedi disgyn i'ch rhan; ond y mae yn fwy drwg genyt na buasai eich gwraig yn troi allan yn gwmni mwy cysurus, wedi i chwi flino eich hun gyda'ch astudiaethau diorphwys." Attebodd y dyn da:— "Fy anwyl George: os oes i saint yn gyffredin ran ddyblyg o drueni y bywyd hwn, ni ddylwn i, yr hwn nid wyf un, gwyno o herwydd yr hyn a bennodwyd i mi gan fy Nghreawdwr doeth; ond ymdrechu—fel yr wyf bob dydd—i ddarostwng fy ewyllys fy hun i'r eiddo ef, a meddiannu fy enaid mewn amynedd a heddwch." Yn 1585, dyrchafwyd Hooker i fod yn *Master of the Temple*, Llundain. Pan ymgymmerodd â'r swydd hon, yr oedd yr anerchiadau prydnawnol yn cael eu traddodi gan Walter Travers gŵr dysgedig, galluog, ac o werth personol; yr hwn a ordeiniasid i'r swydd gan henaduriaeth Antwerp, ac a amddiffynai yn wresog lawer o ddaliadau Calvin. Yn fuan, er yn groes i'w ewyllys, tynwyd Hooker i ddadl âg ef ar lywodraeth eglwysig, a rhai pyngciau duwinyddol. Daeth y ddadl mewn amser i fygwth canlyniadau mor niweidiol, fel y bu i'r archesgob Whitgift wahardd i Travers bregethu. Appeliodd yntau at y Cyfringynghor, ond yn ddieffaith. Yna cyhoeddodd ei appêl, a chefnogwyd ef yn alluog gan lawer yn y Temple, a manau ereill. Gwnaeth Hooker attebiad grymus, yr hyn a enillodd iddo yntau lawer o gyfeillion; ond "fel y gallai argyhoeddi ac ennill y rhai oeddynt o farn Mr. Travers, penderfynodd ysgrifenu traethawd difrifol a phwyllog ar awdurdod yr Eglwys i wneyd canonau at wasanaeth seremoniau, a thrwy gyfraith i fynu ufuddhad iddynt, fel gan ei phlant; a hyn yr oedd yn cynnyg ei wneyd mewn *Wyth Llyfr ar Ddeddfau Llywodraeth Eglwysig.* I'r dyben o gario allan ei gynllun mewn heddwch a distawrwydd, erfyniodd gael ei symmud i ryw fywoliaeth yn y wlad; ac yn 1591, pennodwyd ef i barsonoliaeth Boscum neu Boscombe, yn esgobaeth Sarum, swydd Wilts. Yn y lle hwn y gorphenodd ei bedwar llyfr cyntaf ar Lywodraeth Eglwysig, y rhai a gyhoeddodd yn 1594. Yn 1595, symmudwyd ef o Boscombe i Bishop's Bourne, ger Caergaint, lle yr arosodd hyd ddydd ei farwolaeth, Tach. 2il, 1600. Ychydig ddyddiau cyn hyn, torodd lladron i'w dŷ, a dygasant rai pethau. Pan hysbyswyd ef o'r ffaith, gofynodd, "A ydyw fy llyfrau a'm papyrau yn ddiogel?" Pan attebwyd eu bod, dywedodd, "Yna nid ydyw o ddim pwys; o blegid

Digitized by Google

nis gall colled arall flino dim arnaf." Bu fyw i weled ei bummed llyfr o'r wasg, ond ni chyhoedd-wyd y tri ereill hyd 1647—yn agos i hanner canrif wedi marwolaeth yr awdwr. O ran ei gymmeriad personol, yr oedd Hooker yn un o'r dynion hawddgaraf a fu yn perthyn i Eglwys Loegr. Hyd yn oed yn ei ieuengctid, yr oedd yn hynod am ei ostyngeiddrwydd a'i ddifrifoldeb tawel. Dangosodd yr un tueddfryd yn ei ddadl â'r Anghydffurfwyr; ac ennillodd ei dduwioldeb a'i ddysg iddo barch cyffredinol ei gydoeswyr.

**HOPCINSIAID**: plaid grefyddol yn America, dilynwyr Samuel Hopkins, gweinidog Calvinaidd, yn Newport, Rhode Island, yr hon a fu farw yn y flwyddyn 1803. Yn mhlith amryw opiniynau arddansoddol ereill, yr oedd Hopkins yn gwadu athrawiaeth cyfrifiad cyfiawnder Crist i bechadur, ac yn dal fod sancteiddrwydd yn gynnwysedig mewn caredigrwydd diduedd a chyffredinol; a bod yn rhaid i gariad dyn at Dduw, cyn y gellir ei ystyried yn ddiledryw a gwirioneddol, fod yn hollol rydd oddi wrth hunan-les, ac y dylai y Cristion foddloni hyd yn oed ar fod yn golledig dragwyddol: ond yn wyneb y cwbl, y dylai efe garu Duw, a llwyr gymmeradwyo ei ymddygiad tuag ato. Mae y ddamcaniaeth hon uwchlaw gwybodaeth a: amgyffred creadur meidrol fel dyn, yn hollol anghyfaddas i'w natur, ac heb feddu awdurdod yr Ysgrythyrau.

**HOPHNI** (הפני, "ymladdwr"): un o ddau fab Eli, y rhai a wasanaethent fel offeiriaid yn Siloh. Yr oedd eu trais a'u hymddygiad anifeilaidd, y rhai oeddynt megys yn ennill nerth fel yr heneiddiai eu tad (1 *Sam.* ii. 22, a 12 - 17), y fath, fel y buont yn foddion i lenwi y bobl â ffieidd-dod a digofaint, ac i ddwyn arnynt hwythau y felldith oedd wedi ei bygwth ar dŷ eu tad, gan brophwyd anadnabyddus yn gyntaf (*adn.* 27—36), ac wedi hyny gan Samuel: 1 *Sam.* iii. 11—14. Torwyd hwynt i lawr mewn un diwrnod, yn mlodau eu dyddiau, a chymmerwyd ymaith arch Duw, yr hon a ddilynasant i'r frwydr, gan y Philistiaid: 1 *Sam.* iv. 10, 11. Cyflawnwyd y rhagfynegiad am ddinystr a gwrthodiad tŷ Eli pan yr oedd Solomon yn teyrnasu. Mae anfoesoldeb beiddgar yr offeiriaid ieuaingc hyn yn rhoddi golwg ddychrynllyd ar gyflwr isel y bobl ddewisedig ar yr adeg hon. Mae y Beibl yn eu galw yn "feibion Belial;" sef rhai hollol ddiwerth ac afreolus: 1 *Sam.* ii. 12.

**HOPHRA, PHARAOH.** Gwel PHARAOH.

**HOR, MYNYDD,** (הר ההר, *h. y.*, Hor y mynydd): y mynydd ar ba un y bu farw Aaron: *Num.* xx. 25, 27. Dywed ieithwyr mai ffurf arall ydyw Hor ar *Har*—y gair Hebraeg arferedig am "fynydd" [*Gesenius, Thes.* 391]; fel mai ystyr yr enw Hor ydyw "mynydd y mynyddoedd," fel y mae gan y Deg a Thrigain mewn amgylchiad arall. Gwel isod, 2.

Saif y mynydd a olygir fel mynydd Hor ar




Dar. 358—MYNYDD HOR.

du dwyreiniol dyffryn mawr Arabah, ac efe ydyw y mwyaf o gadwen mynyddoedd tywodlyd Edom. Ei enw yn bresennol ydyw *Jebel Nebi-Harûn*—"mynydd y prophwyd Aaron." Gosodir ef allan yn y Beibl fel yn sefyll "wrth derfyn" (*Num.* xx. 23) neu "yn nghŵr" (xxxiii. 37) tir Edom, ac fel gwersyllfa yr Israeliaid ar ol gadael Cades (xx. 22; xxxiii. 37), a chyn cyrhaedd Salmonah (xxxiii. 41), yn "ffordd y Môr Coch:" xxi. 4. Ar ben y mynydd hwn y rhoddodd Aaron ei wisgoedd a'i swydd offeiriadol i fyny, y rhai a roddwyd yr un pryd i Eleazar, ei fab: "a bu farw Aaron yno, yn mhen y mynydd." Yn yr esgyniad i'r mynydd i farw, a'r gwaharddiad o Wlad yr Addewid, y mae diwedd y naill frawd yn tebygu i ddiwedd y llall; ond y mae presennoldeb Eleazar a Moses, ac edrychiadau y dyrfa islaw, yn wahaniaeth tarawiadol rhwng marwolaeth yr offeiriad a marwolaeth unigol y prophwyd.

Digitized by Google

i'w gweled yn ngweithiau Burckhardt, Irby a Mangles, Stephens, Wilson Robinson, Martineau, a Stanley. Y maent yn ddigon i greu dyddordeb mewn cyssylltiad â'r lle, sydd heb fod nemawr llai na'r hyn sydd yn perthyn iddo fel gwersyllfa plant Israel, a beddrod Aaron.

2. HOR (τὸ ὄρος το ὄρος = 'mynydd tra uchel): mynydd arall, ar wahân yn gwbl oddi wrth yr uchod, ac a enwir yn *Num.* xxxiv. 7, 8, yn unig, fel un o nodau terfyn gogleddol Gwlad yr Addewid. Y mae darganfyddiad y mynydd hwn, bob amser, wedi bod yn un o brif anhawsderau daearyddiaeth ysgrythyrol. Môr y Canoldir ydoedd y terfyn gorllewinol. Dechreuai y terfyn gogleddol wrth y môr; y pwynt cyntaf arno oedd Mynydd Hor; yr ail, y fynedfa i Hamath. Gan fod Sidon wedi ei neillduo yn ddiweddarach i'r llwyth mwyaf gogleddol—Aser—ac mai hi, cyn belled ag yr ydym yn gwybod, ydoedd y dref fwyaf gogleddol a neillduwyd felly, ymddengys yn debygol mai yno, neu tuag yno, y dechreuai y terfyn gogleddol; hyny ydyw, gyferbyn a'r lle y mae cadwen mynyddoedd Libanus yn disgyn i'r môr. Y nôd terfyn nesaf ydoedd Hamath; a gellid tybied fod Porter yn iawn pan yn golygu hon fel yr un a'r fynedfa yn *Kalat-el-Husn*, yn ymyl *Hums* (yr hen Hamath), yn mhen arall cadwen Libanus. Gan hyny, rhaid mai cadwen fawr Libanus ei hun ydoedd Hor. Wrth ystyried nodwedd anferth ac uchder ofnadwy y gadwen hon, y mae yn anhawdd meddwl mai rhyw un mynydd neu bigwrn neillduol a olygir, ac nid yr holl gadwyn, yr hon sydd yn cymmeryd cwrs sydd agos yn uniawn rhwng y ddau bwynt a nodwyd; ac yn cynnwys, islaw iddi, wastadedd mawr *Buka'a*, ynghyd â'r oll o Palestina, a elwir yn briodol felly.

Yr enw a rydd *Targum Pseudojonathan* ar Hor ydyw *Umanos*, gan olygu, mae yn debyg, Amana. Yr olaf hefyd ydyw darileniad y *Talmud* [*Gittin* 8, yn cael ei ddyfynu gan Fuerst], lle y cyssylltir ef âg Amana *Caniad Solomon* (iv. 8). Ond nid yw sefyllfa yr Amana hwn yn cael ei nodi o gwbl. Nis gall fod cyssylltiad rhyngddo a'r afon Amana, neu Abana, oedd yn rhedeg drwy Damascus, gan fod hono yn mhell oddi wrth y sefyllfa a nodir yn y Beibl. Y mae y daearyddwyr Hebreig, Schwarz a Parchi, o blegid amryw resymau, traddodiadol ac ieithyddol, yn penderfynu ar fynydd yn mhell yn y gogledd, rhwng Tripoli a Hamath. Ond y mae hwn o ddeutu 200 milldir i'r gogledd i Sidon, a 150 uwchlaw Hamath, yr hyn sydd yn estyn terfynau Gwlad yr Addewid yn llawer pellach nag y mae genym awdurdod i wneyd. Y mae cadwen fawreddog Libanus yn gosod terfyn mor naturiol ar ogleddbarth y wlad, fel nad oes reswm dros ammheu mai yr holl gadwen a olygir wrth y gair Hor.

HOREB. Gwel SINAI.

HOREM: un o'r lleoedd caerog yn nhiriogaeth Naphtali. Enwir hi mewn cyssylltiad âg Iron a Migdal-el (*Jos.* xix. 38). Mae Van de Velde [i. 178, 9; *Memoir*, 322], yn crybwyll am *Hurah* megys safle Horem. Safle hen adfeilion ydyw hwn, yn nghanol y wlad, hanner y ffordd rhwg *Ras en-Nakhura*, a Llyn Merom, ar fryn yn nghwr deheuol *Wady el-Ain*, un o weddnodau naturiol y wlad. Mae un peth arall yn ffafriol i'r dybiaeth uchod, sef fod Hurah yn agos i *Yarûn*; yr hon, y mae yn debygol, sydd yn cynnrychioli yr hen ddinas Iron, a enwir mewn cyssylltiad â Horem.

HOR HAGIDGAD: enw gorsaf yn y diffaethwch lle y bu yr Israeliaid yn gwersyllu (*Num.* xxxiii. 32), yr un, y mae yn debygol, a Gudgodah (*Deut.* x. 7). Mae yn cael ei henwi gyda thair gwersyllfa ereill; sef Moserah, neu Moseroth (Beeroth), Bene-Iaacan, ac Iosbath, neu Iotbathah, a rhwng y ddau le olaf; ond nid yw yr enwau yn digwydd yn yr un drefn yn yr ymadroddion uchod. Mae Hengstenberg [*Genuineness of the Pentateuch*, ii. 356], yn ceisio rhoddi eglurhâd ar hyn trwy dybied fod yr Israeliaid, yn ol *Deut.* x. 7, yn teithio mewn cyfeiriad gwyrthgyferbyniol i'r hwn a nodir yn *Num.* xxxiii. 32. Nid ymddengys fod neb wedi cael allan wir sefyllfa y lle hwn. Y mae yn deilwng o sylw fod Robinson (cyf. i map), yn nodi lle o'r enw *Wady Ghûdâghdh*, ar ochr orllewinol yr Arabah; ac ymddengys na buasai cyssylltiad y *Wady*, neu y dyffryn hwn, â'r Arabah yn ammhriodol i wersyllfa rhwng mynydd Hor, yn agos i'r hwn y gorweddai Moserah (cym. *Num.* xx. 28; *Deut.* x. 6) ac Esion-Gaber.

1. HORI: un o'r Horiaid, fel y mae ei enw yn arwyddo; mab Lotan, mab Seir, a brawd i Hemam, neu Homam: *Gen.* xxxvi. 22; 1 *Cron.* i. 39. Nid oes unrhyw olion o'r enw hwn wedi ei gael mewn amseroedd diweddar.

2. HORI: gŵr o lwyth Simeon; tad Saphat, yr hwn oedd yn cynnrychioli y llwyth hwnw yn mhlith yr ysbiwyr a anfonwyd gan Moses i Wlad Canaan: *Num.* xiii. 5.

HORMAH: ydoedd prif dref "brenin" un o'r llwythau Canaaneaidd, ar gyffiniau deheuol Palestina (y mae ei henw cyntefig, Zephath, i'w weled yn *Barn.* i. 17): gorchfygwyd hi gan Iosuah (*Jos.* xii. 14), a daeth wedi hyny yn un o ddinasoedd tiriogaeth Iudah (xv. 30; 1 *Sam.* xxx. 30); ond ymddengys yn fwy tebygol ei bod yn perthyn i lwyth Simeon, tiriogaeth yr hwn a gyfrifid fel rhan o'r eiddo Iudah (*Jos.* xix. 4; cym. *Barn.* i. 17; 1 *Cron.* iv. 30). Gellir symmud yr anghyssondeb ymddangosiadol sydd rhwng *Num.* xxi. 3, a *Barn.* i. 17, trwy dybied fod yr adduned y cyfeirir ati yn Numeri wedi ei chyflawni mewn cyfnod diweddarach (yn ol *Barnwyr*), a bod yr enw Hormah (gwreiddyn yr hwn sydd bron bob amser yn arwyddo "neillduo i ddinystr," neu "llwyr ddinystrio") wedi ei ddefnyddio mewn ffordd o ragwelediad. Mae Robinson [ii. 181] yn tybied mai yr un yw mynedfa *Es-Sûfa* a Zephath, a hyny oddi wrth debygolrwydd y ddau enw, a natur y lle; sef bwlch sydd yn y gadwen o fynyddoedd sydd yn rhedeg o amgylch y deorllewin, a'r gogledd-ddwyrain, ac yna yn terfynu gwastadedd Palestina Ddeheuol, ac yn ymddyrchafu uwchlaw y llechwedd isaf, sef gwastadedd diffaethwch *et-Tih*, yr hwn sydd rhyngddo a'r Ghor.

HORNE, GEORGE: awdwr esboniad da ar y Salmau. Ganwyd ef yn y flwyddyn 1730, yn Otham, swydd Kent. Derbyniodd ei addysg foreuol yn ysgol Maidstone, ac aeth oddi yno i brifysgol Rhydychain. Efe a ddaeth wedi hyny yn gymmrawd, ac yna yn brif feistr coleg Magdalen. Yn y flwyddyn 1771, dewiswyd ef yn gaplan i'r brenin, ac efe a barhaodd yn y swydd hono am ddeng mlynedd. Yn y flwyddyn 1776,

Digitized by Google

gwnaed ef yn isganghellydd y Coleg. Pum mlynedd wedi hyny, gwnaed ef yn ddeon Caergaint; ac yn 1790, dyrchafwyd ef i esgobaeth Norwich, lle y preswyliodd hyd ei farwolaeth, Ionawr 17, 1792.

Y mae esboniad yr esgob Horne ar y Salmau—yr unig waith pwysig a ysgrifenodd efe—yn arddangos adnabyddiaeth drwyadl o'r iaith Hebraeg, a gwybodaeth ysgrythyrol; a hynodir ef hefyd gan yr ysbryd gwir grefyddol sydd yn rhedeg drwyddo. Y mae y gwaith hwn wedi ei argraphu amryw weithiau yn y Saesneg; ac y mae yn parhau i ddal ei dir. Y mae ei weithiau ereill, y rhai oeddynt gan mwyaf o nodwedd ddadleuol, yn awr wedi eu hanghofio. Y goreu o honynt ydyw yr hwn a ysgrifenwyd i amddiffyn golygiadau Hutchinson, yn erbyn yr eiddo Syr Isaac Newton; o herwydd credai yr esgob, cyn iddo ddeall golygiadau Newton yn drwyadl, eu bod wedi eu bwriadu i ddymchwelyd duwinyddiaeth y Beibl.

HORONAIM [חרנים=" dwy ogof"]: un o drefydd Moab, yr hon y crybwyllir am dani mewn cyssylltiad â Soar a Luhith (*Esa.* xv. 5; *Ier.* xlviii. 3, 5, 34), ond nis gellir gwybod dim am ei safle oddi wrth y crybwyllion a geir am dani yn y Beibl, nac mewn unrhyw lyfrau ereill. Ymddengys ei bod yn sefyll ar le uchel, a gelwir y fynedfa iddi (megys i Beth-horon). y "ffordd" (*Esa.* x. 5.) neu y "goriwaered" (*Ier.* xlviii. 5). Gellid tybied oddi wrth gyfeiriad cyffelyb a wneir at Luhith, mai dau le cyssegredig oedd y rhai hyn ar rai o'r ucheltanau y byddai y dwyreinwyr yn y cyfnod hwnw yn arfer ymgynnull i addoli. Os golygir fod yr enw yn un Hebraeg, gallwn dybied fod ei ffurf neu ei ystyr dyblyg—"dwy ogof"—wedi deilliaw naill ai oddi wrth fod dwy ogof yn y gymmydogaeth, neu o bossibl oddi wrth fod yno ddwy dref, yr uchaf a'r isaf, megys y ddwy Beth-horon, a'u bod yn cael eu cyssylltu an y ffordd ar hyd yr hon yr esgynid iddynt.

Mae lle i gasglu mai o Horonaim y daeth Sanbalat yr Horoniad.

1. HOSAH: dinas yn llwyth Aser (*Ios.* xix. 29); a'r "terfyn" nesaf ar y cyffiniau i Tyrus.

2. HOSAH: un o'r rhai a ddewiswyd gan y brenin Dafydd yn geidwaid y drysau—"porthorion" i'r arch—wedi iddo ei dwyn i Ierusalem: 1 *Cron.* xvi. 38. Yr oedd Hosah yn un o'r Lefiaid, o lwyth Merari, ac yr oedd ganddo feibion a brodyr (1 *Cron.* xxvi. 10, 11: triarddeg—o'r rhai yr oedd pedwar, o leiaf, o honynt yn feibion: *adn* 10, 11), a'r hyn a osodwyd dan ei ofal ydoedd porth Salecheth, yn ffordd y rhiw.

1. HOSAIAH. Un o'r rhai a gynnorthwyent yn nghyssegriad muriau Ierusalem, wedi eu hailadeiladu gan Nehemiah: *Neh.* xii. 32. Efe oedd yn blaenori tywysogion Iudah yn yr orymdaith; ond ni ddywedir a oedd efe yn un o'r tywysogion, ai nad oedd.

2. HOSAIAH: tad un o'r enw Iezaniah, neu Azariah, yr hwn oedd yn hynod yn mhlith y genedl, ar ol dinystrio Ierusalem gan Nebuchodonosor, brenin Babilon: *Ier.* xlii. 1; xliii. 2.

HOSAMAH: un o feibion Ieconiah, neu Iehoiachin, brenin diweddaf ond un ar Iudah: 1 *Cron.* iii. 18. Mae un peth yn deilwng o sylw yn hanes Nebuchodonosor yn cymmeryd Ieconiah yn garcharor; sef, na ddywedir dim am feibion yr olaf, er fod crybwylliad am fam a gwragedd y brenin: 2 *Bren.* xxiv. 12, 15. Mae hyn yn cyttuno â'r bygythiad y byddai efe yn ŵr di-blant: *Ier* xxii. 30. Mae lle cryf i ammheu fod rhyw gymmysgedd yn llinach y teulu brenhinol yn 1 *Cron.* iii; ac ymddengys fod y ffeithiau uchod yn cadarnhau hyny.

HOSANNA (Heb. הושע נא=" Achub, yr ydym yn attolwg"): llef y tyrfaoedd oedd yn dilyn yr Arglwydd Iesu pan yn marchogaeth i Ierusalem ar ebol asyn: *Mat.* xxi. 9, 15; *Marc* xi. 9, 10; *Ioan* xii. 13. Yr oedd y Salm (cxviii.) o ba un y cymmerwyd ef yn dra adnabyddus iddynt hwy, drwy eu bod yn arfer adrodd y 25ain a'r 26ain o'r adnodau yn Ngŵyl y Pebyll. Ar yr achlysur hwn yr oedd yr *Hallel Fawr*, yn cynnwys *Salm* cxiii. cxviii., yn cael ei ddadgan gan un o'r offeiriaid, tra yr oedd y gynnulleidfa, yn awr ac eilwaith, yn ymuno âg ef, gan ysgwyd eu cangau o helyg a phalmwydd, a llefain "Haleliwia," neu "Hosanna," neu, "Attolwg, Arglwydd, pâr yn awr lwyddiant;" *Salm* cxviii. 25. Gwneid hyn wrth adrodd yr adnod gyntaf a'r ddiweddaf yn *Salm* cxviii.; ond, yn ol Hillel a'i blaid, wrth ddweyd "Attolwg, Arglwydd, achub yn awr." I'r gwrthwyneb, y mae canlynwyr Shammai yn dyweyd mai gyda'r geiriau "Pâr yn awr lwyddiant," yn yr un adnod, y gwneid hyny. Dywed Rabbi Akiba nad oedd y Rabbis Gamaliel ac Iosuah yn ysgwyd eu cangau ond gyda'r geiriau "Attolwg, Arglwydd, achub yn awr" [*Mishna, Succah*, iii. 9]. Ar bob un o saith niwrnod yr ŵyl, ymdyrai y bobl i gyntedd y deml, ac elent yn orymdaith o amgylch yr allor, gan blygu eu cangau tuag ati, tra yr oedd yr udgyrn yn seinio, a hwythau yn bloeddio Hosanna. Ond ar y seithfed dydd, amgylchent yr allor seithwaith, gan waeddi yr un pryd yr Hosanna *fawr*, gyda sain udgyrn y Lefiaid [*Lightfoot, Temple Service*, xvi. 2]. Disgwylid i hyd yn oed y plant a allent ysgwyd y cangau gymmeryd rhan yn y gwasanaeth [*Mishna, Succah*, iii. 15; *Mat.* xxi. 15]. Oddi wrth yr arferiad o ysgwyd cangau o fyrtwydd, helyg, a phalmwydd ynglŷn â'r gwasanaeth, daeth y gair *Hosanna* i gael ei arfer, mewn amser, am y cangau eu hunain; fel y dywed Elias Levita [*Thisbi*], fod y "sypiau o helyg afon y maent yn eu cario yn Ngŵyl y Pebyll yn cael eu galw yn Hosanna." Hefyd, cymmhwysir yr un enw gan ysgrifenwyr Iuddewig at yr ŵyl ei hun, a gwahaniaethant y seithfed dydd drwy ei alw yn Hosanna fawr [*Buxtorf, Lex. Talmud*]. Nid oedd yn beth anghyffredin yn mysg yr Iuddewon, mewn amseroedd diweddarach, i wneyd defnydd o seremoniau yr ŵyl hon—gŵyl nodedig am ei llawenydd—i amlygu yr un teimladau ar achlysuron ereill [1 *Mac.* xiii. 15; 2 *Mac.* x. 6, 7], ac nid rhyfedd, o ganlyniad, iddynt wneyd hyny pan farchogodd Crist i Ierusalem. Yn ei gyssylltiad â'r amgylchiad hwn, yr ystyr ydyw "Arglwydd, cadw y Mab Dafydd hwn: pentyra flatrau a bendithion arno!"

HOSEA: mab Beeri, a'r cyntaf, o ran trefn, o'r prophwydi lleiaf.

I. *Amser Hosea.* Rhaid penderfynu y pwngc hwn, cyn belled ag y gellir ei benderfynu, mewn rhan drwy gyfeirio at y teitl, ac mewn rhan drwy ymchwiliad i gynnwysiad y llyfr. Iaf, Gyda golwg ar y teitl, y mae rhai wedi ceisio dangos mai chwanegiad diweddarach ydyw [*Rosenmüller, Jahn, Calmet*, &c.], ac fod y

Digitized by Google

brophwydoliaeth yn dechreu mewn gwirionedd gyda'r geiriau, "Dechreu ymadrodd yr Arglwydd trwy Hosea;" *Hos.* i. 2 [*Calmet*, td. 474]. Ond gellir dangos fod hyn yn anghywir; ac y mae Eichhorn, er mor ammheus ydyw o deitlau yn gyffredin, yn myned heibio i'r eiddo Hosea heb un ammheuaeth. Y mae rhai wedi casglu, heb un rheswm, oddi wrth y teitl hwn ei fod yn awgrymu fod bywyd prophwydol Hosea yn ymestyn dros deyrnasiad y gwahanol frenhinoedd a nodir fel yn cydoesi âg ef. Ond y mae yn hawdd dangos fod y cyfnod hwn, yn cynnwys fel y mae dros gant o flynyddoedd, yn gwbl ammhossibl fel parhâd gweinidogaeth unrhyw brophwyd. Ac nid yw y teitl, o angenrheidrwydd, yn awgrymu y fath beth; ac wrth ei esbonio yn ngoleuni y brophwydoliaeth ei hun, fe welir fod yn bossibl cyfyngu cryn lawer arno. *Dechreuad* gweinidogaeth Hosea, medd y teitl, ydoedd teyrnasiad Uzziah, brenin Iudah; ond cyfynga y deffiniad tywyll hwn drwy gyfeirio at Ieroboam II., brenin Israel. Fel hyn, gesyd y teitl Uzziah yn gydoeswr âg Ieroboam; ac o ganlyniad, cynnwysa ddyddiad sydd heb fod yn ddiweddarach na c. c. 783. Yn awr, y mae cwestiwn yn ymgynnyg, pa faint pellach yn ol y gellir gosod ymddangosiad cyhoeddus cyntaf Hosea. I hyn, nid yw y teitl yn atteb; o blegid ymddengys yn sicr mai yr unig reswm dros enwi Ieroboam o gwbl ydoedd nodi cyfran neillduol o deyrnasiad Uzziah. 2il, O ganlyniad, y mae yn angenrheidiol cyfeirio at gynnwysiad y brophwydoliaeth; ac wrth wneyd hyn, dengys Eichhorn yn eglur nas gellir rhoddi llawer o amser i'r prophwyd yn nheyrnasiad Ieroboam (c. c. 823—783). Y mae y llyfr yn cynnwys disgrifiadau sy'n hollol anghymmhwysiadol at sefyllfa brenhiniaeth Israel yn ystod teyrnasiad y brenin hwn: 2 *Bren.* xiv. 25, &c. Y mae y darluniad grymus a rydd Hosea o amgylchiadau cymdeithasol a gwleidyddol yn fwy perthynol i'r cyfwng a ddilynodd farwolaeth Ieroboam (c. c. 782—772), ac i deyrnasiad ei olynwyr. Y mae galw am gynnorthwy yr Aipht ac Assyria (*Hos.* x. 3; xiii. 10) yn beth oedd yn hollol ammherthynol i frenhiniaeth gref a galluog Ieroboam. Ac nid yw yn debygol y buasai prophwyd a dreuliodd lawer o amser o dan Ieroboam yn myned heibio yn ddisylw i fuddugoliaethau y brenin hwnw, wrth gofnodi caredigrwydd yr Arglwydd i Israel: *pen.* ii. 8. Gan hyny, y mae yn ymddangos yn sicr nad oedd ond ychydig, beth bynag, o'i brophwydoliaethau wedi eu hysgrifenu hyd ar ol marwolaeth Ieroboam: c. c. 783.

Cymmaint a hyn yna am ddechreuad ei yrfa. Gyda golwg ar ei diwedd, y mae y teitl yn ein gadael mewn mwy o dywyllwch fyth. Cymmaint a ddywedir ydyw, na phrophwydodd Hosea yn ddiweddarach na theyrnasiad Hezeciah. Ond yma hefyd y mae cynnwysiad y llyfr yn ein galluogi i symmud ychydig o'r aneglurdeb. Yn y chweched flwyddyn i Hezeciah, cyflawnwyd prophwydoliaeth Hosea; ac y mae yn bur annhebygol y gadawsai i'r prawf gogoneddus hwn o ddwyfoldeb ei anfoniad fyned heibio yn ddisylw. Gan hyny, nis gall ei fod wedi byw yn hir yn nheyrnasiad Hezeciah; a chan fod blwyddyn o deyrnasiad Ieroboam ar un tu, ac o deyrnasiad Hezeciah ar y tu arall, yn ddigon i gyfiawnhau galw y prophwyd yn gydoeswr â'r ddau frenin hyny, gellir tybied fod gyrfa brophwydol Hosea yn cyrhaedd o c. c. 784 hyd 725, cyfnod o bedair ar bymtheg a deugain o flynyddoedd. Y mae genym felly —

| | | |
|---|---|---|
| O deyrnasiad | Ieroboam II., | 1 flwyddyn. |
| " | Uzziah ... | 26 " |
| " | Iotham ... | 16 " |
| " | Ahaz ... | 16 " |
| " | Hezeciah ... | 1 " |
| | | — |
| | | 59 |

II. *Y lle y cyhoeddwyd y brophwydoliaeth.* Y mae esbonwyr yn lled gyffredinol yn golygu mai yn mrenhiniaeth Israel y cymmerodd hyn le, gan mai rhybuddion i Israel yn benaf sydd yn gynnwysedig ynddi. Nid yw Eichhorn [iv. 284], yn ymgymmeryd â phenderfynu y cwestiwn hwn. Tybia ef fod yn bossibl iddi gael ei thraddodi yn mlaenaf i Iudah, fel appeliad anuniongyrchol at gydwybod y llywodraeth hono; ond y mae yn amlwg ei fod yn tueddu at y syniad arall, sef iddi gael ei chyhoeddi yn gyntaf yn Israel, ac fod copi wedi ei anfon wedi hyny i Iudah. Dengys y teitl fod y brophwydoliaeth hon yn cael ei hystyried yn bur foreu fel yn perthyn i Israel ac Iudah hefyd; ac oni chaniateir iddi gael ei throsglwyddo o'r naill i'r llall, y mae yn anhawdd rhoddi cyfrif am ei hanfodiad yn y canon presennol.

III. *Llwyth a rhieni Hosea.* Y mae y blaenaf yn hollol anadnabyddus. Ond dywed y *Pseudo Epiphanius*, ar ba sail nis gwyddom, mai perthyn i lwyth Issachar yr oedd Hosea. Mae rhai esbonwyr yn gwneyd allan mai yr un ydyw Beeri, tad Hosea, a Beerah, o lwyth Reuben: 1 *Cron.* v. 6. Ond y mae hyn yn gama mseriad. Nid yw syniad yr Iuddewon, fod pob prophwyd nad ydyw lle ei enedigaeth yn cael ei enwi, wedi ei eni yn Ierusalem [*Rabbi David*, *Vatab.*] yn ddim amgen, fe allai, na dychymmyg [*Corn. à Lap.*]. Ynghylch Beeri, tad Hosea, ni wyddys ddim. Y mae esboniadau arwyddluniol o'r enw, ynghyd â'r syniad Rabbinaidd fod crybwyll tad y prophwyd yn nechreu ei lyfr yn brawf fod y tad a'r mab yn brophwydi; wedi eu defnyddio i geisio profi fod Beeri yn brophwyd; ond nid oes unrhyw awdurdod ynglŷn â'r naill na'r llall.

IV. *Trefn Llyfr Hosea yn nghyfres y prophwydi.* Mae yr esbonwyr hynaf, ac esbonwyr y canoloesoedd, yn gosod Hosea fel y cyntaf o'r prophwydi. Eu prif ymresymiad dros hyn ydyw hen ddarlleniad o *pen.* i. 2, yn ol yr hwn yr awgryma "dechreu ymadrodd yr Arglwydd trwy Hosea," fod ffrydiau ysbrydoliaeth brophwydol wedi dechreu gydag ef, fel ar wahân oddi wrth y prophwydi ereill. Y mae esbonwyr diweddarach yn gwrthod yr esboniad hwn; ac esboniant y geiriau fel yn golygu mai y brophwydoliaeth a ddilynai oedd y gyntaf a draddododd yr Arglwydd drwy Hosea. Trefnir y prophwydi lleiaf gan De Wette [*Einleitung*, adr. 225], fel y canlyn:—

| TESTYN HEBRAEG. | TESTYN GROEG. |
|---|---|
| 1 Hosea. | 1 Hosea. |
| 2 Ioel. | 2 Amos. |
| 3 Amos. | 3 Micah. |
| 4 Obadiah. | 4 Ioel. |

Yn ol Wall [*Crit. Not. Old. Test.*] y maent fel hyn:—Ionah, Ioel, Hosea: yn ol Horne, Ionah, Amos, Hosea: ac yn ol Gesenius, Ioel, Amos, Hosea. Mewn gwirionedd, y mae yn bur anhawdd trefnu y prophwydi hyn. Cyn belled ag y gellir barnu oddi wrth y teitlau, Amos yn unig oedd cydoeswr Hosea; ond y mae 2 *Bren.* xiv. 25, yn myned yn mhell i ddangos y rhaid i'r ddau roddi y flaenoriaeth i Ionah. Fe allai ei bod yn fwy pwysig gwybod fod Hosea yn cydoesi mwy neu lai âg Esaiah, Amos, Ionah, Ioel, a Nahum.

Digitized by Google

Ni wnaeth y cynghrair hwn ddim daioni iddo. Gwnaed y peth yn hysbys yn llys Nineveh gan y blaid Assyriaidd oedd yn Ephraim, a daliwyd Hosea yn union fel is-swyddog gwrthryfelgar, a rhoddwyd ef yn ngharchar; ac ymddengys yr ymddygid ato yn y dull mwyaf dirmygus: *Micah* v. 1. Os digwyddodd hyn cyn y gwarchae (2 *Bren.* xvii. 4), rhaid i ni roddi cyfrif am dano trwy dybied fod Hosea, er mwyn cuddio ei fradwriaeth ac ennill amser, wedi myned at Salmaneser i roddi cyfrif o'i ymddygiad, neu ynte ei fod wedi ei orchfygu mewn rhyw frwydr nad oes genym hanes am dani, a'i gymmeryd yn garcharor. Gallwn gasglu iddo, wrth *Hos.* xiii. 11, x. 7, ei fod wedi myned o'r golwg yn ddisymmwth "fel ewyn ar wyneb dwfr." Parhaodd gwarchae Samaria am dair blynedd; o herwydd yr oedd y ddinas "ogoneddus a phrydferth" hono mewn sefyllfa gadarn fel "coron balchder" yn mhlith y bryniau: *Esa.* xxviii. 1—5. Bu Salmaneser farw yn ystod y gwarchae, ac y mae yn ddiammheu mai ei olynydd, Sargon, a gymmerodd Samaria; ac y mae efe yn rhoddi disgrifiad byr o'r digwyddiad yn ei frutiau:—"Edrychais ar Samaria, gorchfygais hi; cymmerais ymaith 27,280 o ddynion (teuluoedd?) a breswylient yn y ddinas......... Gwnaethum ddeg a deugain o gerbydau yn eu gwlad. Appwyntiais lywodraethwr arnynt, a gosodais hwynt dan yr un deyrnged a'r preswylwyr blaenorol" [*Dr. Hincks' Journal of Sacr. Liter., Oct.* 1858; *Layard's Nin. and Bab.*, i. 14]. O barth i helyntion Hosea ar ol hyn, nid ydys yn gwybod dim am danynt. Efe a ddaeth i'r orsedd yn rhy ddiweddar, ac yr oedd yn llywodraethu ar deyrnas oedd wedi ei rhwygo yn ddarnau gan ymgyrchfeydd cenhedloedd estronol, ynghyd â therfysgoedd mewnol. Yr oedd brenin ar ol brenin wedi cwympo trwy ddwylaw y bradlofrudd; ac yr ydym yn gweled oddi wrth y darluniad pruddaidd a geir yn y prophwydi cydoesol (HOSEA, MICAH, ESAIAH), fod llofruddiaeth ac eilunaddoliaeth, meddwdod a chwantau pechadurus, wedi gweithio fel clefyd anfeddyginiaethol (*Micah.* i. 9) i galon moesoldeb y genedl. Arweiniwyd hi i ddinystr trwy ymddygiad a gwladlywiaeth annuwiol y gwrthgiliwr, yr hwn oedd wedi cymmeryd arno ei gwneyd yn annibynol: 2 *Bren.* xvii; *Ios. Hyn. Iudd*, ix. 14; *Ked* ar 2 *Bren.* ii. 50.

3. HOSEA: mab Azaziah: 1 *Cron.* xxvii. 20. Fel y gŵr anrhydeddus o'r un enw ag ef, yr oedd hwn o lwyth Ephraim, ac yn llywodraethwr yn y llwyth hwnw yn nyddiau Dafydd.

4. HOSEA: un o benaethiaid y "bobl;" gŵr lleyg, yr hwn a seliodd y cyfammod â Duw gyda Nehemiah: *Neh.* x. 23.

1. HOTHAM: gŵr o lwyth Aser; mab Heber, o deulu Beriah: 1 *Cron.* vii. 32.

2. HOTHAM, neu HOTHAN: gŵr o Aroer, tad Sama ac Iehïel, dau o'r cedyrn a berthynent i wylwyr Dafydd: 1 *Cron.* xi. 44. Mae defnyddio Hothan yn lle Hotham yn wall o eiddo y cyfieithwyr. Cymmharer cyfieithiad y Deg a Thrigain o'r ddau enw uchod.

HOTHIS: trydydd mab ar ddeg Heman, "gweledydd y brenin" (1 *Cron.* xxv. 4), ac felly, Lefiad Cohathaidd. Ganddo ef yr oedd gofal unfed cylch ar hugain y cerddorion yn ngwasanaeth y tabernacl: 1 *Cron.* xxv. 28.

HOWARD, JOHN: y dyngarwr, a anwyd yn Enfield (nid yn Hackney, fel y dywed ei gofgolofn yn eglwys St. Paul's, Llundain), ger Llundain, lle yr oedd ei dad, ar ol ymneillduo oddi wrth ei fasnach yn y brif ddinas, wedi prynu ystâd. Ganwyd ef Medi 2il, 1726. Yr oedd ei dad yn gyfoethog, ac etholwyd ef i weini fel sirydd; ond gan fod gweithred y prawf-lw [1] y pryd hyny mewn grym, fe dalodd y ddirwy y byddai Ymneillduwyr y pryd hyny yn arferol o'i thalu i'r diben o osgoi yr anrhydedd hwnw. Plentyn afiach ydoedd Howard, a chafwyd fod awyr y wlad yn angenrheidiol i'w iechyd. Symmudwyd ef i Cardington, pentref ger Woburn, yn sir Bedford, lle yr oedd gan ei dad ystâd fechan. Y mae digwyddiadau boreu ei oes yn ychydig, ac felly ni chymmerir nemawr o amser i'w hadrodd. Cynnyddodd mewn oedran a nerth, yn fachgen llonydd, syml, a gwreiddiol; heb fod dim tanbeidrwydd, egni nac uchelgais yn perthyn iddo. Ei ddau ysgolfeistr cyntaf oeddynt y Parch. John Horsley (awdwr *Grammadeg Lladin*, a chyfieithiad o'r Testament Newydd), a Mr. John Eames, F.R.S.; ond ychydig o Ladin, a llai fyth o Roeg, a ddysgodd ganddynt hwy; er hyny, yn ei flynyddoedd boreuaf, yr oedd wedi cyrhaedd cryn wybodaeth o'r ieithoedd byw, a chydnabyddiaeth lled eang â gwyddoriaeth naturiol, daearyddiaeth, a meddyginiaeth. Pan yn un ar bymtheg prentisiwyd ef gyda *grocer* yn y brif ddinas, gan dalu saith gant o bunnau "o'i flaen." Ond y pryd hyn, bu ei dad farw, ac yr oedd yntau yn feistr iddo ei hun. Mewn canlyniad, prynodd ei ryddhâd o'i brentisiaeth, teithiodd i Ffraingc ac Italy, prynodd ddarluniau, ymwelodd âg eglwysi a dinasoedd enwog; ac wedi absennoldeb o ddwy flynedd, yn ystod yr hwn amser y perffeithiodd ei hun yn y Ffrangcaeg, fel i allu siarad yr iaith fel un o'r brodorion, a dychwelodd i Loegr. Preswyliodd yn Stoke Newington, lle yr astudiodd feddyginiaeth a goruchionaeth, a bu fyw ar fara a thê. Yna aeth yn bur glaf, a phriododd ei *nurse*—hen wraig oedd yn afiach sefydlog. Yr oedd efe yn bump ar hugain, a hithau yn dair ar ddeg a deugain. Priododd hi am ei fod yn credu iddi achub ei fywyd, ac nad oedd un ad-daliad arall am ei charedigrwydd mawr yn ddigonol.

Bu fyw am dair blynedd fel ei wraig, pryd y bu farw o'i hafiechyd, a chladdwyd hi yn mynwent eglwys St. Mary, Whitechapel, Llundain. Pan y bu farw, rhoddodd Howard heibio gadw tŷ. Yr oedd daeargryn ofnadwy newydd ddigwydd yn Lisbon—y ddaeargryn y mae ei heffeithiau ar feddyliau dynion yn cael eu disgrifio mor effeithiol gan Göethe yn ei *Wahreit und Dichtung.* Cynnhyrfwyd yr elfen ddyngarol yn Howard; credai y gallai gynnorthwyo i liniaru yr adfyd yr oedd hyn wedi ei gynnyrchu, a hwyliodd yno yn y llong *Hanover.* Ond yr oedd Rhyfel y Saith Mlynedd [gwel RHYFEL] y pryd hyny yn ei rhwysg mwyaf: yr oedd byddinoedd Ffraingc, Awstria, a Phrwssia, yn ymladd mewn gwahanol ranau o Ewrop, ac yr oedd gwiblongau Saesnig a Ffrengig yn ysgubo y moroedd yn mhob cyfeiriad. Tafiodd Rhagluniaeth yr *Hanover* yn ffordd gwiblong Ffrengig, a chymmerwyd hi a'r rhai oedd arni i Brest. Ymddygwyd at y dwylaw o'r teithwyr gyda'r creulondeb mwyaf; hyrddiwyd hwy o fan i fan; newynwyd hwy, a thaflwyd hwy i

[1] Deddf ydoedd hon yn gorfodi swyddogion milwrol a gwladol i gymmeryd llw yn erbyn traws sylweddiad, o fewn chwe mis i'r amser y daethant i'w swydd. Yr oeddynt cyn hyny dan orfod hefyd i gymmeryd y sacrament yn ol arferiad Eglwys Loegr. Pasiwyd y ddeddf hon yn nheyrnasiad Charles II.

Digitized by Google

ddaeardai tywyll a ffiaidd. Yr oedd calon Howard yn mron tori gan eiddigedd wrth feddwl am driniaeth ei gydwladwyr dewr ond anhappus. "Cefais sicrwydd," meddai, "eu bod yn cael eu trin gyda'r fath farbareidd-dra fel yr oedd cannoedd lawer wedi meirw, yr oedd un ar bymtheg ar hugain wedi eu claddu mewn twll yn Dinan mewn un dydd." Wedi ei ryddhau, ar yr ammod y dychwelai erbyn amser pennodedig, aeth at y llywodraeth: disgrifiodd, mewn iaith gref, yr erchyllderau a welsai, a gorfododd Ddirprwywyr Llongwyr Afiach ac Anafus i ddefnyddio mesurau tuag at sicrhau newidiad carcharorion. Yn mhen ychydig ddyddiau, cafodd y pleser o glywed am ryddhad ei gydgarcharorion yn Llydaw.

Yr oedd Howard etto yn ymgadw oddi wrth fywyd cyhoeddus. Parhaodd ei efrydiau gwyddonol; a Mai 13eg, 1756, etholwyd ef yn *Fellow of the Royal Society*. Dwy flynedd yn ddiweddarach, ail briododd. "Fy ail wraig," meddai, "ydoedd Henrietta Leeds, yr hon a roddodd y Duw da i mi, Mai yr 2il." Buont fyw ynghyd am naw mlynedd mewn tŷ neillduedig yn y wlad, pryd y ganwyd eu hunig fab, ac y bu farw y fam yn yr amgylchiad. Ar ol ei marwolaeth hi, dechreuodd gyrfa gyhoeddus John Howard. Yn ystod ei bywyd yr oedd ei dueddiadau dyngarol yn gyfyngedig i bentref Cardington, ac yn y lle hwn y dechreuodd y diwygiad hwnw yn nhai y dosbarth gweithiol a elwir adeiladiad y *model cottages*. Efe oedd y cyntaf i godi y rhai hyn.

Pan aeth Howard i drigo gyntaf yn Cardington, yr oedd y lle hwnw mor fudr, truenus, ac afiach, ag unrhyw ran o Brydain. Yr oedd boneddigion y gymmydogaeth yn dilyn eu cŵn hela, ac yn hawlio eu hardrethi. Yr oedd y tlodion yn ddiog, budron, ac anfoesol; a'u gwragedd yn cael eu camdrin, a'r plant yn anwybodus, ac heb neb yn gofalu am danynt. Nid oedd meddiannau Howard yn y gymmydogaeth ond ychydig mewn cymmhariaeth i'r eiddo ei gymmydogion; a chyn dechreu ar ei waith o godi anneddau newyddion, chwanegodd at ei feddiannau trwy brynu dau ddarn helaeth o dir, yr hyn a fu yn foddion i gynnyddu ei ddylanwad yn y gymmydogaeth, yn gystal ag i ëangu maes ei weithrediadau. Wedi hyny, cododd ysgoldy i fechgyn a genethod y gymmydogaeth, ceisiodd athraw ac athrawes dda, a gwahoddodd y pentrefwyr, nid yn unig ei denantiaid ei hun, ond pawb, i anfon plant iddi; a'r unig ammodau a osodid oedd cyssondeb, glanweithdra, a rhoddi eu presennoldeb mewn rhyw le o addoliad ar y Sabbath. Yr un pryd, tynodd i lawr y bythynod truenus y trigai ei denantiaid tlodion ynddynt—bythynod âg un ystafell ynddynt, yn yr hon yr oedd y tad, a'r fam, a phlant wedi tyfu i fyny, yn gorfod bwyta a chysgu—ac adeiladodd anneddau mwy a chyfleus yn eu lle. Gyda greddf sicr y diwygiwr, gwelai nad oedd, ac nas gallai fod bythynod o'r fath a breswylid ar y pryd, yn gartrefi dedwydd—mai anneddau oeddynt ag yr oedd yn ammhossibl i ddyn oedd â rhyw gymmaint o deimlad o gywilydd a hunan-barch o'i fewn fyw yn gysurus, tra yr oedd y dafarn yn cynnyg ei siriol oleuni a'i chwmni difyrus yn eu lle. O ganlyniad, ymgymmerodd â'u symmud. Yr oedd ei *model cottages* yn cael eu preswylio mor fuan ag y cyfodid hwy. Costient fwy o arian—ond nid oedd yn codi y rhent; o blegid, er gwaethaf ei fagwraeth fasnachol, yr oedd yn erbyn rhoddi arian allan ar lôg, ac edrychai ar gyfoeth fel eiddo cyssegredig a moesol, wedi ei ymddiried i'w ofal at leshau dynolryw.

Yn mhen ychydig flynyddoedd, wrth weled mor lwyddiannus oedd ei ymdrechion, rhoddodd rhai o'i gyfeillion a'i gymmydogion cyfoethog—yn enwedig Samuel Whitbread, darllawydd enwog—eu cynnorthwy yn y gwaith da. Llwyddodd yr ysgolion; daeth y plant yn lanwaith a bochgoch; herwhelwriaeth yn anfynych; llenwid y capelau a'r eglwysydd; daeth clytiau bychain o erddi i flodeuo o flaen y drysau; collodd y tafarnau rai o'u prif hudoliaethau; a daeth Cardington i daraw llygad yr ymwelydd fel pentref glân, prydferth, a llwyddiannus.

Ar ol marwolaeth ei ail wraig, aeth Howard yn ddiwyd iawn gyda'i lyfrau, ei ysgolion, a'i dai. Teithiodd i Holland. Aeth i Ffraingc, Switzerland, Italy, ond heb gael gorphwysdra i wadu ei droed. Dychwelodd mor bell a Holland—ei hoff wlad—ac aeth oddi yno i Rufain a Naples. Aeth adref drwy Munich, Augsburg, a'r Rhine. Yn annisgwyliadwy, ar ei gyrhaeddiad adref, enwyd ef yn sirydd Bedford, pryd y dechreuodd ei yrfa gyhoeddus. Yr oedd hyn yn 1773. Ymgymmerodd â'r swydd o sirydd, er ei fod yn Ymneillduwr; ond penderfynodd na chymmerai y sacrament yn ol y ddeddf, ond y beiddiai gyfraith ddrwg; ac os yr erlynid ef, yr amddiffynai ei hun yn y llys. Nid erlynwyd ef. Pan agorodd y brawdlys, cymmerodd yntau ei eisteddle; ac wedi i dreialon y dydd fyned drosodd, aeth i edrych sefyllfa y carcharorion yn y carchar. Y carchar i ba un y taflwyd John Bunyan ydoedd—y carchar yn mha un yr ysgrifenodd Bunyan ei anfarwol *Daith y Pererin*. Cafodd Howard ef, fel carcharau yn gyffredinol y pryd hyny, yn fudr a chlos; heb le cyfaddas o gwbl i'r gwragedd, a phrin ddim i wahanu rhwng y ddau ryw. Yr oedd yr awyr yn ddrwg, y bwyd yn waeth, a'r dwfr yn annioddefol. Yr oedd y tollau (*fees*) yn uchel, ac yn cael eu hawlio yn llym—ceidwad y carchar a'i wasanaethyddion yn byw ar y cyflog truenus y gallent ei wasgu allan o adfyd y carcharorion. Yr hyn a synai fwyaf ar ei galon deimladwy ef, ac a'i llanwai â mwyaf o eiddigedd, oedd y ffaith fod rhai o'r rhai cyhuddedig, ar ol eu cyhoeddi yn rhydd gan y barnwr a'r rheithwyr, ac ar ol gadael y llys heb unrhyw ystaen, yn cael eu cadw yn y carchar arswydus am gyfnodau mwy neu lai—weithiau am *flynyddoedd*—nes y talent dollau eu rhyddhâd. Dygodd Howard y camwri anfad hwn ar unwaith o flaen yr ustusiaid, a chynnygiodd fod gorchymyn yn cael ei roddi i ryddhau y dioddefwyr diniweid hyn; ac fod rheol yn cael ei mabwysiadu yn y dyfodol i ryddhau pob carcharor diniwed yn y llys agored. Synwyd yr ustusiaid gan y fath ddiwygiadau beiddgar; gwrthdystiai ceidwad y carchar yn erbyn colli ei dollau, y rhai oedd ei gyflog a'i foddion cynnaliaeth. Gwrthdystiai cofiadur y brawdlys (*clerk of assize*) yn gyffelyb. Cynnygiai Howard wneuthur i fyny am y tollau hyn drwy fod y sir yn talu iddynt gyflogau rheolaidd; ond gan na wyddai yr ustusiaid am weithred gyffelyb i'r hyn a gynnygid gan Howard o'r blaen, nis gallent ganiatau hyny. Ymgymmerodd Howard â dyfod o hyd i un os oedd un wedi cymmeryd lle mewn un o'r siroedd agosaf. Aeth i Gaergrawnt, Huntingdon, Northampton, Leicester, a Nottingham, ac ymestynodd y siwrnai yn raddol i bob tref yn Lloegr oedd yn cynnwys carchar. Ond ymddengys fod pawb ar eu gocheliad; a methai a chael hanes un amgylchiad lle y gosodid cynnaliaeth swyddogion y sir arni ei hun; ond canfyddodd y fath gam-

o ran ei natur ag ydoedd o ddyngarol o ran amcan. Ond cyn eu rhoddi yn nwylaw yr argraphydd, ymgymmerodd â thaith eang arall drwy y deyrnas hon, gan adolygu a diwygio ei sylwadau blaenorol, chwanegu atynt, lliniaru dioddefiadau, rhyddhau dyledwyr tlodion, ac arolygu gweithrediad deddf newydd y carcharau; ac wedi bod yn y llafur dirfawr hwn bob dydd am saith mis, ymddangosai iddo fod mantais mor fawr ynglŷn âg adolygiad o'r fath, fel y daeth i'r penderfyniad o dalu ail ymweliad â'r Cyfandir, gan estyn ei ymchwiliadau i wledydd ag yr oedd hyd hyny heb ymweled â'u carcharau. Hwyliodd tua Lyons; yna croesodd i Geneva, lle y llonwyd ef yn fawr wrth gael ond pump o garcharorion. Oddi yno, aeth i Berne, drwy gantrefydd lle nad oedd cymmaint ag un carcharor; aeth yn mlaen i Soleure a Basle, gan lawenhau o blegid glendid, dysgyblaeth Gristionogol, a thiriondeb rheolaeth yr holl garcharau yn Switzerland. Aeth oddi yno i Germany a Holland, gan ymweled neu ail ymweled â'r prif garcharau. Dychwelodd i Loegr; ac yn 1777, cyhoeddodd ei lyfr hynod, a elwir *The State of Prisons in England and Wales*. I gasglu ei ddefnyddiau, yr oedd wedi treulio yn agos i bedair blynedd, ac wedi teithio dim llai na 13,418 o filldiroedd.

Cynnyrchodd y llyfr gyffro mawr; ac un o'i effeithiau cyntaf ydoedd ail godi y cwestiwn, Pa beth a wneid â'r rhai a ddyfarnid i gospwasanaeth? Yr oedd America yn gwrthod eu derbyn yn hwy; ac yr oedd Awstralia, hyd hyny, heb gynnyg ei nawdd i wehilion Prydain. Yr oedd y llywodraeth mewn penbleth, a phawb yn cynnyg ei gynllun ei hun o weithredu. Yr oedd cyfflong (*hulk*) eisoes wedi ei gosod ar y Tafwys, ger Woolwich, i dderbyn penyd-weinyddion; ac ymddygid atynt fel yn ngharcharau gwaethaf yr hen amser, fel yr oedd pob math o annhrefn yn cael lle yn y llong. Nid oedd gan Howard obaith am lwyddiant heb newid y gyfundrefn; ond yr oedd ei brofiad ar y Cyfandir wedi ei argyhoeddi fod dysgyblaeth gartrefol yn llawer gwell i'r troseddwr na'i anfon dros y môr; ac wedi llawer o ymdrafod yn mysg pendefigion, mabwysiadwyd ei ddrychfeddwl ef o dreio y *ddysgyblaeth o waith caled*, a gorchymynwyd i Syr William Blackstone a Mr. Eden dynu allan fesur gyda golwg ar godi sefydliad cymmhwys. Yr oedd carchar newydd yn angenrheidiol i'r cynlluniau newyddion; nid oedd un carchar yn y deyrnas y gellid ymddiried prawf ynddo; ac ymfoddlonodd Howard i fyned drachefn ar y Cyfandir, a chasglu cynlluniau a gwybodaeth a fyddai yn wasanaethgar.

Aeth i Amsterdam, a gwnaeth ymchwiliad manwl i'r nydd-dai a'r rhathelldai yr oedd y ddinas hono mor hynod am danynt. Aeth yn mlaen i Prwssia, Saxony, Bohemia, ac Awstria, drwy linellau y byddinoedd Germanaidd a lywyddid gan Frederick Fawr a'r ymherawdwr Joseph II. Yr oedd ei enwogrwydd wedi teithio o'i flaen, a derbyniwyd ef gyda'r parch mwyaf yn Berlin a Vienna. Treuliodd foreu gyda thywysog Prwssia, a chiniawodd gyda Maria Theresa. O Vienna, aeth i Italy, yr hon a deithiodd o Venice i Naples, gan ymweled â charcharau, ysbyttai, a tlottai, a chofnodai yn fanwl ddiffygion a rhinweddau y naill fel y llall. Ar ei ddychweliad o Naples tua Leghorn, cyfarfyddodd âg ystorm ofnadwy, yr hon a chwythodd am dri diwrnod gyda ffyrnigrwydd mawr. Yr oedd y llestr bach y teithiai arni yn hollol aflywodraethus, a chwythwyd hi ar lanau Tuscany; ond gwrthododd y trigolion adael iddynt lanio yno rhag ofn y pla. Taflwyd hwy drachefn ar drugaredd yr ystorm, yr hon a'u chwythodd i dueddau Affrica, i gael eu hanfon ymaith drachefn gan yr un ofnau. Yr oeddynt wedi cychwyn o Civita Vecchia, yn Naples, tra yr oedd y pla yn dinystrio yno, ac yr oedd pawb yn arswydo rhag eu dynesâd. Dioddefodd Howard yn ofnadwy yn ei iechyd o blegid hyn; ac wedi i'w lafur gyda'r carcharau fyned drosodd, ac wedi cael llawn adferiad o'i iechyd, trodd at y gelyn newydd ac arswydus, a chollodd ei fywyd mewn canlyniad, mewn ymgais i gael allan yr achos o'r pla, a'r modd i'w symmud. Yn ystod yr ymweliad prysur hwn, fe deithiodd bedair mil a chwe cant o filldiroedd. Tra yn Ffraingc, tynwyd ei sylw eilwaith at ei hen destyn, sef y driniaeth annynol a dderbyniai carcharorion rhyfel. Dywedwyd wrtho fod y carcharorion hyn yn cael eu trin yn waeth yn Mhrydain nag yn un man; fod y Prydeiniaid yn ymyryd â'u teyrngarwch; a bod cyfundrefn o gamdriniaeth yn cael ei harfer i'w gorfodi i ymwrthod â'u teyrngarwch trwy lw, ac ymgymmeryd â'r gwasanaeth Prydeinig. A'i galon yn llosgi o eiddigedd, aeth at Ddirprwywyr Morwyr Afiach ac Anafus, y rhai a amlygent syndod mawr at y fath adroddiad; a phan ddywedodd ei fod yn bwriadu edrych i mewn i'r peth ei hun, cynnygiasant ei gynnorthwyo yn ei ymchwiliadau; a daeth ein carcharorion rhyfel dan rwymau i fod yn dra diolchgar am ei ymyriad.

Rhoddodd y wybodaeth a gasglodd yn ystod y daith hon at wasanaeth Tŷ y Cyffredin; yr hwn, wedi hyny, a basiodd fesur yn gorchymyn codi dau benyd-adeilad, yn Middlesex, Surrey, Kent, neu Essex, yn ol fel y penderfynid yn mhellach, ac yn y rhai yr oeddys i roddi prawf ar ddysgyblaeth y gweithio. Pennodwyd Howard yn brif arolygydd y weithred seneddol hon; Mr. Whatley o'r *Foundling Hospital* yn ail; a Dr. Fothergill yn drydydd. Yn araf, fodd bynag, y gweithiai y cynllun; teimlai Howard fod ei fywyd yn cael ei gamddefnyddio mewn mân ymrafaelion a dadleuon â Mr. Whatley, o barth i safle y ddau adeilad; ac yr oedd Syr William Blackstone a Dr. Fothergill yn marw tra yr oedd Mr. Whatley yn dadleu. Y canlyniad fu i Howard ysgrifenu at Arglwydd Bathurst, gan erfyn ar i'r brenin roddi caniatâd iddo i ymadael â'i swydd. Yr oedd drychfeddyliau Howard, fodd bynag, yn cael eu cario allan mewn llawer o fanau. Yn yr holl garcharau newyddion a adeiladwyd wedi hyny, gwnaed darpariaethau i osod troseddwyr i weithio. Trodd ei wyneb drachefn tua'r Cyfandir, gyda'r amcan o gasglu pa beth bynag fyddai o ddefnydd i'w gydwladwyr yn y gwledydd hyny yr oedd etto heb ymweled â hwy; a dechreuodd daith newydd, a hwy, yr hon, yn raddol, a estynai o amgylch Ewrop, drwy Holland, Schleswig, Denmark, Norway, Sweden, Rwssia, Poland; yna yn ol i Lundain; ac yna i Portugal, Yspaen, Ffraingc, a'r Netherlands. Yr oedd y daith yn nodedig am hynodrwydd a rhamantiaeth ei dygwyddiadau; ac ar ei gorpheniad, cyhoeddodd Howard argraphiad newydd o'i *State of Prisons*, gydag attodiad.

Yr oedd Howard yn awr yn rhydd oddi wrth bob cyfrifoldeb pwysig ynglŷn â phwngc y carcharau, a throdd ei sylw at ddrychfeddwl arswydus y pla. Yr oedd masnach Prydain â'r Levant yn cynnyddu yn brysur, a choleddid bwriad cryf mewn cylchoedd swyddogol i osod pob llong a

gyrhaeddai o'r dwyrain dan brawf rheolaidd am ddeugain niwrnod. Ond ychydig a wyddid yn Mhrydain am sefydliadau o'r fath, tra yr arswydid y pla yn fawr, gan fel yr adgofid am ddinystriadau ofnadwy pläau Llundain, yn 1603 a 1665. Yr oedd y llywodraeth yn awyddus am wybodaeth, ac ymrwymodd Howard i'w sicrhau. Bwriadai ddechreu yn Marseilles, yna Venice a Leghorn; ac wedi cyrhaedd pob gwybodaeth ragbarotoawl yn y dinasoedd hyn, yr oedd am fyned yn mlaen i Smyrna a Chaer Cystenyn, prif nythleoedd y pla; ac yno, astudio ei natur a'r dulliau o'i drin. Yr oedd llywodraeth Ffraingc yn cofio traethodyn y Bastile, a gwrthododd roddi iddo deitheb (*passport*); ac yn lle gwneyd ymchwiliadau yn Marseilles, gwaharddwyd iddo gymmaint a rhoi ei droed ar dir Ffraingc. Ceisiodd Arglwydd Caerfyrddin, llysgenad y wlad hon yn Paris, symmud yr anhawsder, ond yn ofer; ond gan fod Howard yn golygu y byddai peidio myned i Marseilles yn amddifadu ei daith o gryn lawer o fuddioldeb a lles, beiddiodd y bygythion a gyhoeddid arno; gwisgodd wisg ac ymddangosiad ffugiol, ac aeth i Ffraingc yn y dull arferol Yr oedd heddswyddog yn ei ddilyn i Paris, o blegid yr oedd llysgenad Ffraingc yn yr Hague wedi derbyn gorchymyn oddi wrth M. Le Noir, arolygydd heddgeidwaid yn Paris, i gadw gwyliadwriaeth ar symmudiadau y dyngarwr; a thrwy wyrth o weithrediad cyflym a gwrol yr achubodd ei hun rhag cael ei osod mewn daeargell yn y Bastile. Weithiau, fel meddyg Ffrengig, ac weithiau fel coegyn o'r Faubourg St. Germain, teithiodd drwy Ffraingc cyn belled a Marseilles; rhoddwyd caniatad iddo fyned i'r ddinas, a chafodd noddfa yn nhŷ gweinidog Huguenotaidd, er fod yr heddgeidwaid yn chwilio am dano, gyda disgrifiad o'i berson yn eu dwylaw. Bu ei wroldeb, ei ffugymddangosiad, a'i arferion trwyadl Ffrengig, yn foddion i'w taflu oddi ar ei lwybr; er hyny, yr oedd y perygl a feiddiai yn fawr, ac anadlodd yn llawer rhyddach wedi croesi y terfyn. "Yr wyf bellach wedi ymadael yn hollol â Ffraingc," ysgrifenai at gyfaill; "yr wyf yn gwybod fy mod wedi rhedeg *risk* fawr, ond cyrhaeddais fy amcan. Yr oedd yn hyfryd genyf gyrhaedd i Nice, allan o wlad pobl dwyllodrus, cenfigenus, ac angharedig." Aeth i Florence, Rhufain (lle y cafodd ymweled â'r pab Pius), Naples, a Smyrna, lle yr oedd ei ddeheurwydd a'i wybodaeth feddygol yn agor iddo bob carchar ac ysbytty y dymunai ymweled â hwy. Arosodd yn Smyrna, gan iachau ychydig bersonau. Nid oedd eu hafiechyd yn fawr, ac nid oedd eisieu llawer o fedrusrwydd i'w hiachau, ond edrychid ar waith Howard yn gwneyd hyny braidd yn wyrthiol. Aeth yn mlaen i Gaer Cystenyn, lle yr oedd hanes ei fedrusrwydd fel meddyg wedi cyrhaedd yn hir o'i flaen; ac mor fuan ag y cyrhaeddodd, galwyd arno i mewn gan *pasha* mawr i wella ei ferch, yr hon, fe ddywedir, a roddasid i fyny gan yr holl feddygon Italaidd. Gwellhaodd: ac wrth gwrs, chwyddodd ac ymledaenodd enwogrwydd y meddyg yn fwy nag erioed. Cyfyngodd ei ymweliadau fodd bynag i dai y pla, y carcharau, a'r ysbyttai; dywedai mai meddyg i'r tlawd yn unig ydoedd efe. Yr oedd Syr Robert Ainslie, llysgenadwr Prydain yno ar y pryd, yn hysbys o'i ymdrechion dyngarol, a chynnygiodd iddo letty gydag ef. Gwrthododd, gan fod yn ormod ganddo osod neb arall yn agored i fyned yn ysglyfaeth i'r pla, a chymmerodd ei gartref gyda meddyg, i'r hwn y gallai hysbysu ei weithrediadau bob dydd. Ond yr oedd rhyw swyn ynglŷn â'i fywyd. Yr oedd y rhai a darewid gan y pla yn disgyn yn feirw wrth ei draed. Ymwelai â llettyau a thai lle yr oedd y pla yn ei lawn nerth, a lle yr oedd y meddyg, yr arweinydd, a'r cyfieithydd, yn gwrthod ei ddilyn. Dychwelai o'r lleoedd hyn gyda phoenau arteithiol o gylch ei arleisiau, er fod awr o awyr ffres ac ymarferiad corphorol bywiog yn foddion i'w symmud ymaith. O'r diwedd, yr oedd ei ymchwiliadau yn gyflawn. Gyda chist lawn o bapurau—cynlluniau o ysbyttai (*lazarettos*), opiniynau meddygon enwog a breswylient yn y Levant, a chopïau o reolau a chyfarwyddiadau—parotódd at ddychwelyd, ac anfonodd i hysbysu ei gyfeillion o'i fwriad i groesi y tir i Vienna. Ond tra yr oedd ei barotoadau at ddychwelyd yn cymmeryd lle, daeth i'w feddwl fod yr holl wybodaeth a gasglasai, er mor amrywiol ydoedd, wedi ei derbyn gan ereill—mai ail-llaw ydoedd, nid gwreiddiol; ei fod wedi gweled, ond heb brofi dysgyblaeth heinttai (*lazarettos*) y Cyfandir; ac o blegid hyny, fod yn bossibl i rywbeth, o bwys mawr i berffeithiad ei amcan, fod wedi diangc ei sylw. Yr oedd yr ofn hwn yn ddigon. Gan newid ei gynllun, penderfynodd ddychwelyd, a chael hyd i long ffiaidd, i fyned drosodd i Venice, fel y gallai fyned o dan y driniaeth yr oedd pawb a ammheuid o fod yn heintus yn myned dano yn heinttai y ddinas hono. Yr oedd y fath weithred yn dra pheryglus. Yr oedd un o lysgenhadon Prydain yn y ddinas hono (Mr. Murray) newydd farw yn yr heintty; ond nid oedd dim a'i digalonai, a dychwelodd. Torodd y pla allan yn y llong, a bu farw un dyn cryf mewn ychydig oriau; er hyny, aeth Howard yn mlaen i Smyrna. Ar y ffordd, ymosodwyd ar y llestr gan fôrladron, pryd y synwyd y dwylaw gan ddewrder Howard, a chan wers a roddodd iddynt mewn defnyddio eu gynau. Cydnabyddent fod y meddyg Prydeinig wedi eu hachub rhag marchnad y caethion yn Tunis neu Tripoli. Ar y trigeinfed dydd, cyrhaeddasant Venice, a throsglwyddwyd hwy oll i'r heintty, lle y dioddefodd iechyd Howard yn ddirfawr oddi wrth ei gaethiwed, er fod y meddwl ei fod yn derbyn gwybodaeth fuddiol wrth wneyd hyny yn ei gynnal yn ngwyneb y cwbl. Y mae ei hanes am ddysgyblaeth yr heintty hynod hwn yn un o'r rhai mwyaf dyddorol.—*Lazarettos of Europe*, td. 10—22. Daeth Howard o'i gaethiwed wedi teneuo hyd yr asgwrn, a chochder heintlyd yn ei wyneb. Erbyn hyn, daeth y newydd o Brydain fod ei unig fab, yr hwn oedd bellach yn wr ieuangc, wedi myned yn wallgof; ac o dan ofal *keeper*. Fel y gellid meddwl, yr oedd Howard yn dra awyddus am fyned adref; ond yr oedd ei wendid mor fawr fel nas gallai deithio am rai dyddiau. Aeth i Trieste a Vienna, lle y cafodd ymddiddan maith â'r ymherawdwr Joseph II., yr hwn oedd hefyd yn ddiwygiwr. Cyrhaeddodd Brydain yn Chwefror, 1787, wedi bod yn absennol yn ei genhadaeth ryfedd am un mis ar bymtheg.

Mor fuan ag y rhoddwyd ei amgylchiadau teuluaidd yn y drefn oreu ag oedd yn bossibl, ac wedi cyhoeddi ei *Lazarettos of Europe*, dechreuodd Howard adolygiad newydd, a'r diweddaf, ar garcharau y deyrnas hon. Ymwelodd â'r cwbl yn ofalus, a rhoddodd anrheg o Feibl i bob un o garcharau y wlad. Yr oedd diwygiad mawr eisoes wedi cymmeryd lle yn llywodraeth a dysgyblaeth y carcharau; yn ymborth, gwisg, ac addysg grefyddol y trueiniaid. Y rhai blaenaf

Digitized by Google

ymgymmerodd y tad âg addysg y duwinydd ieuangc Pan yn ddwy ar bymtheg oed, anfonwyd ef i *Christ's College*, Caergrawnt; a'r flwyddyn ganlynol, ennillodd y radd o B. A. Tra yn aros yn y coleg, daeth i gydnabyddiaeth â'r enwogion, Dr. Henry More, a Dr. Cudworth; ac o herwydd hyn, "nid ydyw yn rhyfedd," medd Calamy, "iddo dderbyn y tueddfryd Platonaidd hwnw sydd mor amlwg yn rhedeg drwy yr ysgrifeniadau a gyhoeddodd yn ddiweddarach." Yn ebrwydd wedi derbyn ei radd o B. A., symmudodd Howe i Rydychain, lle y derbyniodd yr un gradd y flwyddyn ganlynol. Yr oedd yn beth cyffredin y pryd hyny i gymmeryd yr un gradd mewn dwy brifysgol. Yn fuan, etholwyd ef yn gymmrawd o Goleg Magdalen, athraw yr hwn ydoedd yr enwog Dr. Goodwin, ac o'r hwn y daeth Howe yn addurn disgleirwych; ac yn 1652, gwnaed ef yn athraw yn y celfyddydau. Ar ei ymadawiad o Rydychain, dychwelodd i gartref ei dad yn sir Lancaster; ac yn fuan wed'yn, ordeiniwyd ef yn Winwick, gan Mr. Herle, parson y lle, a gweinidogion capelaethau (*chapelries*) cymmydogaethol. Byddai Mr. Howe yn dywedyd yn fynych mai esgob cynoesol oedd Mr. Herle, ac mai ei glerigwyr oedd y gweinidogion a nodwyd; a chan fel yr oeddynt hwy yn gosod dwylaw arno, ei fod yn meddwl mai ychydig mewn amseroedd diweddar a gawsant ordeiniad mor gynoesol ag ef. Yn mhen ychydig amser, "drwy ymddygiad annisgwyliadwy o eiddo rhagluniaeth ddwyfol," symmudwyd ef i Great Torrington, sir Devon, lle y cyflogwyd ef yn barson. Dywed Dr. Walker mai math o guradiaeth neu fywoliaeth eglwysig ddigyfrwng oedd hon, ond un a ystyrid yr un fath, ac yn gydwerth â pharsonoliaeth reolaidd. Trowyd Theophilus Powel allan o'r fywoliaeth yn 1646. Yma y pregethodd Howe y pregethau hyny a gyhoeddodd yn ddiweddarach yn y ffurf o draethodau, dan yr enw *The Blessedness of the Righteous*, a *Delighting in God*. Nid oedd ond ieuangc pan ymsefydlodd yn y lle hwn, ond dilynwyd ei lafur gan lwyddiant rhagorol; yr oedd ganddo gynnulleidfa liosog, a chymdeithas Gristionogol bur flodeuog dan ei ofal bugeiliol, ac nid oedd ganddo feddwl arall ond am fyw a marw yn eu plith.

"Nid anghofiaf byth," medd Calamy, "yr hanes a roddodd efe ei hun i mi unwaith am y gofal dirfawr a gymmerai gyda hwynt, heb unrhyw help na chynnorthwy, ar yr ymprydiau cyhoeddus, y rhai a ddigwyddent yn lled fynych y dyddiau hyny, ac a gynnelid yn gyffredin gyda llawer o ddifrifoldeb. Dywedai mai ei ddull cyffredin ar y gwyliau hyn ydoedd dechreu o ddeutu naw yn y boreu, gyda gweddi am o ddeutu chwarter awr, yn yr hon yr erfyniai fendith ar waith y dydd; ac yna darllenai ac esboniai bennod neu salm, gyda'r hon y treuliai o ddeutu tri chwarter awr; wedi hyny, gweddïai am o ddeutu awr; a gweddïai drachefn am o ddeutu hanner awr. Yna ymneillduai am chwarter awr i gymmeryd lluniaeth a gorphwysdra, tra yr oedd y gynnulleidfa yn canu, hyd nes y dychwelai i'r pulpud, pryd y gweddïai am awr arall, ac y traddodai bregeth arall o ddeutu awr o hyd; ac felly y terfynai gwasanaeth y dydd, o ddeutu pedwar o'r gloch y prydnawn, gyda hanner awr neu chwaneg o weddi. Gwasanaeth ydoedd hwn nas gallai nemawr fyned trwyddo heb flinder annisgrifiadwy iddynt eu hunain ac i'w cynnulleidfaoedd. Ond yr oedd ganddo ef ben cryf, calon gynnhes, a chyfansoddiad corphorol da; a pho mwyaf a dreuliai arno ei hun yn ngwasanaeth ei Feistr, mwyaf yn y byd yr hoffid ef gan drigolion ei blwyf."

Yn y lle hwn y priododd ferch ei "gyfaill mynwesol," Mr. George Hughes, yr hwn oedd yn weinidog o gryn enwogrwydd a dylanwad yn Plymouth. Yr oedd ef a Howe yn gohebu â'u gilydd bob wythnos yn Lladin; ac ynglŷn â hyn y mae Calamy yn nodi amgylchiad neillduol. Dygwyddodd i dân dori allan yn nhŷ Howe, yn Torrington; yr hyn a allasai fod yn ddinystr i'w deulu, pe na buasai am gyfryngiad cawod ffyrnig o wlaw, yr hon a gyflawnodd ran fawr at ei ddiffodd. Ar y dydd neillduol hwnw, derbyniodd Howe lythyr oddi wrth Hughes, yr hwn a derfynai gyda'r weddi hon:—*Sit ros cœli super habitaculum vestrum* (Bydded gwlith y nefoedd ar eich preswylfa)—gweddi nad oedd bossibl fod y gŵr da yn gweled ei hamseroldeb wrth ei hysgrifenu at ei blant, pryd nas gallasent hwy lai na sylwi yn hoffus arni ar dderbyniad y llythyr.

Yn fuan wedi hyn, sef yn nechreu 1657, cymmerodd Howe daith i Lundain. Un Sabbath, aeth i gapel Whitehall.[1] Yr oedd Cromwell yn bresennol, ac fel arferol, â'i lygaid yn mhob man. Sylwodd ar Howe, deallodd oddi wrth ei wisg ei fod yn weinidog yn y wlad, a thybiai ei fod yn gweled rhywbeth mwy na'r cyffredin yn ei wyneb; ac anfonodd genad i ofyn iddo ddyfod ato ar derfyn y gwasanaeth. Ar ei tynediad ato, gofynodd Cromwell iddo bregethu o'i flaen y dydd Sabbath canlynol. Synodd Howe, a dymunai yn wylaidd arno ei esgusodi. Ond ni fynai Cromwell nacâd; ac addawodd, yn ngwyneb esgus y duwinydd, y byddai ei eglwys yn anesmwyth yn ei gylch, yr anfonai ef rywun i lanw ei le, gan ysgrifenu atynt ei hun: yr hyn a wnaeth. Pregethodd Howe yn ol ei gais; "ac wedi rhoddi iddo un bregeth, gwasgai Cromwell ef am ail a thrydedd pregeth; ac o'r diwedd, nid oedd dim a wnai y tro ond i Howe ddyfod yn gaplan yn ei deulu. Erfyniodd Howe ei oreu am esgusodiad, ond ni fynai Cromwell ei wrthod; a'r canlyniad fu, i Howe, gyda llawer o anfoddlonrwydd, symmud ei deulu i Whitehall, lle y ganwyd amryw o'i blant. Ac yn y sefyllfa hon, ymdrechodd fod yn ffyddlawn, a chadw cydwybod dda; ac ennillodd glod y mwyaf brwdfrydig o elynion ei blaid. Heb ddibrisio hawliau y Puritaniaid, yr oedd yn defnyddio pob cyfleusdra i amddiffyn a dyrchafu dynion duwiol a dysgedig o bleidiau ereill. Yn mhlith amryw enghreifftiau o'i garedigrwydd, gellir nodi ei ymddygiad ynglŷn â Dr. Ward, esgob dyfodol Exeter, a Thomas Fuller; y rhai a amlygasant ddiolchgarwch gwresog wedi hyny o'i blegid. Yr oedd Ward yn bwriadu ymgynnyg am lywyddiaeth Coleg yr Iesu, Rhydychain, ar ymadawiad Dr. Michael Roberts, a chanddo y mwyafrif o gymmrodorion y coleg hwnw o'i blaid. Ond yr oedd un Francis Howell, o Goleg Exeter, am fod yn feddiannol ar yr un swydd; ac i'r dyben hwnw, mynodd addewid Cromwell, gan yr hwn yr oedd hawl i lenwi y swydd, o'i blaid. Pan ddeallodd Ward hyn, appeliodd yntau at Howe, yr hwn a addawodd roddi ei ddylanwad o'i blaid, er nad oedd yn disgwyl nemawr o lwyddiant. Dygodd Howe ef at Cromwell, ac wedi hysbysu yr Amddiffynwr o gymmeriad a galluoedd Dr. Ward, a bod y mwyafrif o'r cymmrodorion o'i blaid, dywedodd Cromwell nas gallai alw yn ol ei addewid i Mr. Howell; ond

[1] Capel mewn cyssylltiad â'r palas brenhinol yn Westminster.

Digitized by Google

am bregeth arall. Pa fodd bynag, anfonodd at Howe, a chafwyd ef yn ei wely, yn bur sal, mewn chwys dirfawr. Taer erfyniwyd arno ddyfod i bregethu, gan fod tyrfa fawr wedi ymgasglu ynghyd, gan ddisgwyl ei glywed. Y canlyniad fu i Howe godi o'i wely; ymoerodd gynted ag y gallai; ac aeth, a phregethodd gyda bywiogrwydd a nerth anghyffredin; a dywedai, yn mhen amser ar ol hyny, "na welodd erioed bobl wedi eu cyffroi gymmaint, ac yn derbyn y gair gyda mwy o bleser." A chwanegai, "Os bu fy ngweinidogaeth erioed o ryw ddefnydd, yr wyf yn meddwl y rhaid ei bod y pryd hyny."

Yn ystod y pum mlynedd y bu Howe yn preswylio yn yr Iwerddon, yr oedd yn fynych yn pregethu yn gyhoeddus, gyda chefnogaeth esgob y lle, yr hwn oedd yn gyfaill mawr iddo. Yma y cyhoeddodd y rhai mwyaf hyawdl o'i draethodau byraf, *The Vanity of this Mortal Life*, &c., a *Delighting in God;* yr olaf o ba rai a gyflwynodd i blwyfolion Torrington. Yma hefyd y cynlluniodd ei waith mwyaf ac enwocaf, *A good Man the Living Temple of God:* gwaith sydd heb fod yn ol o ran gallu arddansoddol ac arucheledd ei feddyliau i unrhyw waith mewn duwinyddiaeth Seisnig.

Yn 1676, dychwelodd Howe i Loegr, a daeth yn weinidog i eglwys Anghydffurfiol yn Silver Street, Llundain. Ac wedi iddo ymsefydlu yno, cyhoeddodd ei *Living Temple.* Yn ei anerchiad cyflwyniadol i Arglwydd Massarene, dywed i'r gwaith gael ei genhedlu yn ei dŷ ef, a'i eni oddi allan i'w dŷ; a'i fod, o ganlyniad, yn ei hystyried yn weddus a chyfiawn fod i'r gwaith gydnabod mewn modd eglur ei berthynas âg ef, ynghyd â dyled yr awdwr i'w arglwyddiaeth. Yr oedd enwogrwydd Howe bellach wedi cynnyddu i'r fath raddau, fel yr oedd prif ddynion Eglwys Loegr, megys Stillingfleet, Tillotson, Kidder, ac ereill, yn falch o'i gyfeillgarwch. Yn nghymdeithas y dynion hyn, treuliodd Howe y dyddiau blin a ddilynodd ei ymsefydliad yn Llundain mewn cyflwr lled heddychlawn a diogel. Yn 1677, ymddangosodd ei draethodyn ar *The Reconcileableness of God's Prescience of the Sins of Men with the Wisdom and Sincerity of his Counsel, Exhortations, and whatsoever means he uses to prevent them.* Ymosodwyd ar y gwaith hwn yn enbyd o wahanol gyfeiriadau; ac amddiffynwyd ef gan ereill, yn enwedig gan Andrew Marvel.

Yn amser brâd y Pabyddion i lofruddio Siarl II., i ddymchwelyd y llywodraeth, a rhoddi terfyn ar Brotestaniaeth, pryd y llanwyd deiliaid Protestaniaeth âg arswyd a digalondid gyda golwg ar y dyfodol, amlygodd llawer o Eglwyswyr ac Anghydffurfwyr eu hawydd am gael undeb rhwng y ddwy blaid. Yn mhlith ereill a ystyrient hyn yn effeithiol i gyfarfod a gwrthweithio dylanwad Pabyddiaeth, yr oedd Howe, a Dr. Tillotson, deon Caergaint. Ymgyfarfu amryw gyfeillion o'r ddwy blaid i drafod y pwngc, ac ymddengys fod Tŷ y Cyffredin, yn 1680, yn ffafriol i undeb; o blegid dygwyd i mewn fesur er uno deiliaid Protestanaidd ei fawrhydi Siarl II., ond methwyd a'i orphen yr eisteddiad hwnw. Yr un tymmor, yn Nhŷ yr Arglwyddi, pasiwyd mesur yn ymwrthod a'r Anghydffurfwyr, gan fwyafrif o ddeg ar hugain, o'r rhai yr oedd pedwar ar ddeg yn esgobion.

Ar ol hyny, trodd amgylchiadau yn fwy chwerw nag o'r blaen yn erbyn Anghydffurfwyr. Daeth y clerigwyr yn selog o blaid olyniad y dug o York i'r orsedd, "fel be buasai brenin Pabyddol yn fendith uniongyrchol o'r nefoedd;" ac edrychent ar yr Anghydffurfwyr fel plaid beryglus iawn. Anghofiasant Babyddiaeth yn eu pregethau, a throisant holl nerth llifeiriant eu sel yn erbyn Ymneillduaeth. Cyn hyn, yr oedd Stillingfleet wedi amlygu dymuniad cryf am undeb rhwng y ddwy blaid; yn bresennol, trodd yntau ei dôn; ac mewn pregeth o'i eiddo o flaen arglwydd faer Llundain, henaduriaid, barnwyr, a phrif gyfreithwyr y ddinas, cymmerodd achlysur i arddangos yr holl Anghydffurfwyr fel rhwygwyr a gelynion yr Eglwys, yn gystal a gelynion heddwch. Attebwyd ef yn alluog gan Dr. Owen, Baxter, Howe, ac ereill:—Howe mewn ffurf o lythyr a elwid *A Letter written out of the Country to a Person of Quality in the City, who took offence at the late Sermon of Dr. Stillingfleet,* yr hwn lythyr a ysgrifenodd gyda llawer o eglurder, boneddigeiddrwydd, a nerth ymresymiadol, yr hyn a gydnabyddwyd wedi hyny gan y Dr. Yr un flwyddyn, traddodwyd pregeth gan Dr. Tillotson yn y llys (oddi ar *Ios.* xxiv. 15), yn dwyn y teitl:—"Y grefydd Brotestanaidd yn cael ei hamddiffyn yn erbyn y cyhuddiad o Neillduolrwydd a Newydd-deb," yn yr hon y dadleuai nad oedd un dyn yn rhwym i bregethu yn erbyn crefydd gwlad, *os na bydd ganddo y gallu i gyflawni gwyrthiau.* Cysgodd Siarl, drwy yr oll o'r bregeth, yn mron; ac ar y diwedd, daeth pendefig ato, ac a ddywedodd, "Gresyn fod eich mawrhydi wedi cysgu; o blegid cawsom y tipyn goreu o Hobbistiaeth a glywsoch yn eich bywyd." "*Odds fish,*" ebe Siarl, "caiff ei hargraphu ynte." Cyhoeddwyd hi; ac anfonodd y deon gopi o honi i Howe, fel yr arferai wneyd â phob peth bron a gyhoeddai. Gofidiwyd Howe yn fawr wrth ddarllen ynddi y syniad y cyfeirwyd ato; ysgrifenodd lythyr maith, yn yr hwn y ceryddai y doctor yn arw am roddi y fath glwyf i'r Diwygiad Protestanaidd, gan roddi ar ddeall iddo "fod Luther, Calvin, a'r gweddill o'n diwygwyr bendigedig (diolch i Dduw), o feddwl gwahanol. Mae y grefydd Gristionogol eisoes wedi ei chadarnhau gan wyrthiau, ac a raid ei galw yn ol bob tro y bydd penadur annuwiol yn dewis sefydlu gau grefydd? Ai ni raid i neb sefyll dros y wir grefydd hyd nes y gall gyflawni gwyrth?" Cymmerodd Howe y llythyr ei hun, a rhoddodd ef yn nwylaw y Dr., yr hwn wedi cymmeryd brasolwg ar ei gynnwysiad, a amlygodd ei barodrwydd i drafod y pwngc â Howe; ac er mwyn llonyddwch i wneyd hyny, cyttunasant i fyned allan i'r wlad, i giniawa â'r arglwyddes Falconbridge, yn Dutton Court; ac ar y ffordd yno, yn ngherbyd y deon, darllenodd Howe ei lythyr, gan ymhelaethu arno. Y canlyniad fu i'r dyn da dori i wylo yn hidl; a dywedai, fel rheswm dros draddodiad y bregeth, mai pregethu yn lle un arall a ddarfu y diwrnod hwnw; na roddwyd ond ychydig iawn o rybudd iddo; i'r testyn a nodwyd ymgynnyg i'w feddwl; a'i fod yn tybied fod y syniad yn cyfodi yn naturiol oddi arno. A chwanegai fod Siarl wedi gorchymyn argraphu y bregeth, ac nad oedd yn ei allu i'w diwygio.

Yn 1681, erlidid yr Ymneillduwyr gyda ffyrnigrwydd mawr mewn dinas a gwlad; ac yn y flwyddyn hon, cyhoeddodd Howe ei *Thoughtfulness for the Morrow.* Yn 1682, yr oedd pethau yn dal yn gyffelyb. Ac yn y flwyddyn hon, cyhoeddodd Howe ei waith, a elwir *Self Dedication and Union among Protestants.* Yn 1683, rhoddwyd gorchymyn gan yr ynadon heddwch, yn mrawdlys chwarterol Exon, yn addaw deugain

Digitized by Google

swllt o wobr i bwy bynag a ddaliai rywrai o'r Anghydffurfwyr, ac yn dadgan eu penderfyniad i roddi y cyfreithiau mwyaf llym mewn gweithrediad yn eu herbyn, yn enwedig y 35ain o deyrnasiad Elizabeth; cospedigaethau am yr hon ydoedd carchariad, diofrydiad o'r deyrnas, neu farwolaeth. Yn yr un flwyddyn y dienyddiwyd y gwladgarwr ardderchog hwnw, yr arglwydd William Russell; ac mewn canlyniad, anfonodd Howe lythyr o gydymdeimlad at ei weddw, yr hwn lythyr, meddai Montgomery, "ydyw un o'r cyfansoddiadau epistolaidd mwyaf teimladwy ac ardderchog yn yr iaith." Ni ddododd Howe ei enw wrth y llythyr; ond ni bu yr arddull, ac amryw fanylion ynddo, yn ol o dangos pwy oedd ei awdwr. Anfonodd yr arglwyddes ato lythyr o ddiolchgarwch; dywedodd nad oedd yn wiw iddo feddwl aros yn guddiedig oddi wrthi, ac yr ymdrechai ddilyn ei gynghorion. Buont yn gohebu â'u gilydd yn fynych wed'yn, a chyfododd cyfeillgarwch mawr rhyngddynt.

Yn 1684, cyhoeddodd Howe y mwyaf dyfnddwys o ran teimlad o'i holl weithiau, sef *The Redeemer's Tears over Lost Souls*. Yr oedd yr Anghydffurfwyr bellach yn cael eu herlid yn greulawn a chyffredinol; ac ni feiddiai neb siarad nac ysgrifenu o'u plaid. A chan bryder, a gormod llafur, yr oedd iechyd Howe, erbyn hyn, wedi adfeilio yn fawr; ac yr oedd yn falch o gydsynio â chais arglwydd Philip Wharton, i deithio gydag ef ar y Cyfandir. Yr oedd yr amser hefyd mor ddrwg fel yr oedd yn rhaid iddo drefnu ei ymadawiad mor ddirgelaidd a sydyn ag i beidio ffarwelio â'i eglwys yn bersonol, ond boddloni ar anfon llythyr ati o'r tu arall i'r Sianel.

Bu yn teithio am yn agos i flwyddyn, yn ystod yr hwn amser ymwelodd â'r dinasoedd enwocaf ar y Cyfandir. Yr oedd amgylchiadau yn llawn mor adfydus yn y deyrnas hon fyth; ac o ganlyniad, yn y flwyddyn 1686, ymsefydlodd am amser yn Utrecht. Yr oedd yno yn ennill bywoliaeth anrhydeddus, drwy gadw gwest-ysgol (*boarding school*), drwy bregethu yn y capel Saesneg ar y Sabbathau, a thrwy ddarllen yn ddirgel gydag efrydwyr Saesneg, yn y brifysgol, a'u cynnorthwyo yn eu hefrydiaethau. Yn mhlith ei gyfeillion arbenig yn y lle hwn, yr oedd Burnet, esgob dyfodol Salisbury—trwy ddylanwad yr hwn y cafodd fynedfa lawer gwaith i gwmni William, Tywysog Orange, yr hwn, medd Calamy, "a ymddiddanai â Howe gyda'r rhyddid mwyaf." Dywedai Burnet wrth Howe, tra yn ymddiddan un diwrnod, y byddai Anghydffurfiaeth farw gydag ef (Howe), Baxter, Bates, ac ychydig ereill. Atebodd Howe, fod yn rhaid gadael hyny i Dduw; ar yr un pryd, yr oedd efe yn credu yn wahanol. Credai ei fod yn dibynu, nid ar bersonau, ond ar egwyddorion; y rhai a goleddid yr un mor sicr gan ddynion cydwybodol eraill. Gwyddom pa faint o wirionedd oedd yn ei dystiolaeth. Yn y cyfamser, tra yr oedd Howe yn disgwyl yn bryderus am newyddion, daeth hysbysiad fod Iago II. wedi cyhoeddi ei *Declaration for Liberty of Conscience*, a chymmerodd Howe fantais oddi ar hyn i ddychwelyd i Lundain, lle yr oedd ei eglwys yn disgwyl yn dra awyddus am dano. Blwyddyn yn ddiweddarach, yr oedd William o Orange ar orsedd Prydain, pryd y gosodwyd rhyddid crefyddol ar sylfaen gadarnach, yr hon a wnaed yn gadarnach fyth pan basiwyd Deddf y Goddefiad. Howe a arweiniodd yr orymdaith o Anghydffurfwyr a aethant i longyfarch William ar ei ddyfodiad i'r orsedd; ac nid anghofiodd y teyrn, yn mhlith ei ofalon a'i amgylchiadau newyddion, yr hen gyfeillach yn Utrecht; o blegid anfonodd am Howe lawer gwaith i'w balas yn Kensington, lle yr oedd yn hoff iawn o'i holi ynghylch ei hen feistr, "Oliver," fel yr arferai ei alw. I gyfarfod â'r ymrafaelion a dorasant allan yn mhlith Anghydffurfwyr, ar byngciau athrawiaethol a llywodraeth eglwysig, cyhoeddodd Howe, yn 1693, ei dair pregeth *On the Carnality of Religious Contention*; y rhai, pa mor alluog bynag, a pha mor lawn bynag ydynt o ddoethineb a thynerwch Cristionogol, a fuont am flynyddoedd yn hollol ddisylw.

Yr oedd rhai o ysgrifenwyr galluocaf yr oes eisoes, megys Wallis, Sherlock, South, a Cudworth, wedi cyhoeddi ysgrifeniadau ar y Drindod; ac yn 1694—5, cyhoeddodd Howe amryw draethodau ar yr un pwngc; y penaf o ba rai ydoedd, *A Calm and Solemn Inquiry concerning the Possibility of a Trinity in the Godhead.* Yn y traethawd hwn, nid yw yn amcanu gosod i lawr dystiolaeth y Beibl ar yr athrawiaeth hon, yn gymmaint ag at ddangos mor annheilwng ydyw dynion i farnu natur y Duwdod, ac mor ryfygus ydyw pob damcaniaeth, *à priori*, gyda golwg ar yr hanfod ddwyfol.

Yn ei ddegted flwydd a thrigain, yn cael ei rybuddio gan farwolaeth ei gydoeswyr enwog—Owen, Baxter, Bates, a Mead—fod ei ddiwedd yntau yn agos, cyhoeddodd Howe un o'i draethodau cyfoethocaf: *The Redeemer's Dominion over the Invisible World*. Ac fel pe na buasai am adael un llanerch bwysig o dduwinyddiaeth heb gyffwrdd âg ef, cyhoeddodd, yn 1701, *Discourses on Man's Enmity against God, and Reconciliation to Him*. Yn ngwanwyn 1705, ymddangosodd ei gyhoeddiad diweddaf, yr hwn a elwir *Patience in Expectation of Future Blessedness*. Yr oedd yn amlwg erbyn hyn, oddi wrth liaws o arwyddion, fod ei nerth yn pallu yn brysur; yr hyn a hyrwyddid gan fwy nag un anhwylder poenus. Yr oedd lluoedd, yn bresennol, yn ymweled â gwely marwolaeth y Puritan ardderchog, ac yn ymadael oddi wrtho gan deimlo fod rhywbeth mor anghyffredin yn ei angeu ag yn ei fywyd; ac fod ei ymddiddan, "fel yr eiddo preswylwydd byd arall." Yn mhlith y lliaws a ymwelent â Howe y pryd hyn, daeth Richard Cromwell, yr hwn oedd bellach yn hen ŵr. "Bu llawer o ymddiddan difrifol rhyngddynt. Dyhidlid dagrau yn rhydd o bob tu, ac yr oedd yr ymadawiad yn bur ddifrifol ac effeithiol." Cafwyd ef un boreu wedi bywiogi yn anghyffredin, yr hyn y sylwyd arno yn ebrwydd gan y llygaid craff, pryderus, o'i amgylch. Dywedai ei fod am "deimlo yn fyw; ac etto, yr oedd yn bur foddlawn i farw, a gadael y llyffethair hwn (gan bwyntio at ei gorph), o'r neilldu." Dywedai unwaith wrth ei wraig ei fod yn ei charu mor ddirfawr ag oedd yn bossibl ac yn gymmhwys i un creadur garu un arall; ac etto, pe rhoddid iddo ddewis, naill ai marw y foment hono, neu ynte fyw saith mlynedd yn hwy, tystiai y byddai yn well ganddo farw y foment hono. "O'r diwedd, wedi llwyr dreulio ymaith, terfynodd ei yrfa mewn llawenydd, Ebrill 2il, 1705; a symmudwyd ef i fröydd tawel a heddychlawn y Goruchaf bendigedig, lle na bydd ond cariad a pherffaith sirioldeb yn teyrnasu yn dragywydd." Claddwyd ef yn mynwent eglwys St. Allhallows, Bread Street, Llundain; yn yr 77ain flwydd o'i oed.

Syrthiodd i ran y gŵr mawr hwn i fyned drwy oes o gythrwfl a thymmestloedd cymdeithasol, ac

Digitized by Google

i lenwi sefyllfaoedd tra pheryglus i'w gymmeriad; a daeth allan o bob prawf heb un brycheuyn. Bu tymmer fyrbwyll Baxter yn foddion i'w lithio fwy nag unwaith i ymddygiadau lled anghysson. Yr oedd Owen yn fynych yn rhy ddiplomataidd fel duwinydd; ond y mae hyd yn oed enllibwyr, yn eu hymosodiadau chwerwaf ar y Puritaniaid, wedi gadael Howe yn gyffredin yn ddigerydd. Rhaid fod ei fawredd moesol yn anghyffredin pan y gallai ddychrynu Cromwell i ddistawrwydd; peri i Tillotson dywallt dagrau; gorthrechu ymneillduaeth a distawrwydd oedd mor gyfansoddiadol yn y brenin William; a llyfnhau gwrychyn y mynachaidd Anthony-à-Wood—gŵr nad oedd ganddo byth air da i'w ddyweyd am Anghydffurfwyr—a pheri iddo ef wenu a chanmawl.

Mewn ystyr feddyliol, gellir dyweyd fod ynddo gyfundeb o lawer o elfenau rhagorol. Buasai meddiant o ddim ond un o honynt, yn y graddau yr oeddynt ynddo ef, yn ddigon i'w ddyrchafu i enwogrwydd. Rhagorid arno gan Baxter mewn gallu pregethwrol, a chan Owen mewn addysg dduwinyddol; ond efe, o ddigon, oedd y meddyliwr mwyaf dyfnddwys ac athronyddol o'r holl Buritaniaid; a chynnyrchodd, fe allai, fwy o feddyliau anghyffredin a gwreiddiol na phawb o dduwinyddion ei oes. Prin yr eir heibio iddo mewn craffder ymresymiadol gan Jonathan Edwards, na chan Butler mewn athrylith a dyfnder; ond gymmaint uwchlaw iddynt ydyw mewn teimlad a dychymmyg! Ac etto, nid yw ei ddychymmyg yn cymmylu ei feddyliau, fel y mae yn dygwydd weithiau gyda Jeremy Taylor: gallu dysgybledig ynddo ydyw, llawforwyn hawddgar i reswm, yn dwyn rheswm i fyny i oleuni haul, "ar adenydd o arian, a phlu o aur melyn." Y mae ei weithiau yn orlawn o arucheledd, er nad yn hynod o gyffrous. Yn yr ystyr hwn y mae dull Baxter yn gyffelyb i ruthriad diorphwys yr afon fawr; ond Howe, fel ymlediad yr afon hono yn llyn eang, gloew—dyfnderau yr hwn sydd yn ddrych i ser disglaer a dirif. Nodwedd arbenig yn ei weithiau ydyw eu tuedd at dawelu a dyrchafu y meddwl. Yr ydys yn teimlo wrth eu darllen ein bod yn eistedd ar fynydd uchel, mewn awyr glir, iach, gan edrych i lawr ar gymmylau ac ystormydd yn isel islaw i ni.

Etto, fel ysgrifenydd, nid yw yn fyr o ddiffygion oedd yn perthyn yn gyffredin i dduwinyddion ei amser ef. Y mae ei duedd at fanylu ar bethau na ddylasai ond cyffwrdd â hwy, ac i attal dylifiad rheolaidd meddwl ac arddull, drwy raniadau ac adraniadau diddiwedd, yn lleihau llawer ar ei boblogrwydd fel ysgrifenydd. Yn fynych, y mae ei iaith yn anghyfartal â'i feddyliau, a braidd na buasai yn dda genym pe buasai, ar ol ffurfio y marmor yn ddelw, yn galw ar Bates neu Tillotson i gaboli y ddelw hono; etto, yn rhai o'i brif ranau, megys ei gymmhariaeth anfarwol o enaid dyn i deml ddrylliedig, y mae y meddwl a'r iaith yn dilyn eu gilydd yn ysblenydd; ac y mae ei eiriau yn dylifo gyda holl gyfoeth brawddegau rhagoraf Jeremy Taylor. Ond, a chaniatau y diffygion a nodwyd, rhaid edrych ar John Howe fel un o'r prif ser yn ffurfafen duwinyddiaeth Seisnig, yn pelydru gyda'r disgleirdeb sydd yn perthyn yn neillduol iddo ei hun: ac os gellir galw Jeremy Taylor yn Spencer, gellir yr un mor briodol alw Howe yn Milton duwinyddiaeth Seisnig.

**HOWELLS, MORGAN**: un o bregethwyr mwyaf poblogaidd ac effeithiol y Methodistiaid Calfinaidd. Ganwyd ef mewn amaethdy bychan yn mhlwyf St. Nicholas, rhwng Caerdydd a'r Bontfaen, sir Forganwg, Mai, 1794. Enw ei dad ydoedd Morgan Howells: i'r hwn y bu tri o blant, ond ni adawyd i fyned yn hen ond Morgan yn unig. Yr oedd Morgan Howells, yr hynaf, yn aelod gyda'r Methodistiaid; heb fod yn "anhynod fel dyn a Christion, ac yr oedd 'gair da iddo gan y gwirionedd ei hun.'" Yr hyn yr oedd yn ddiffygiol ynddo mewn gallu meddyliol a wnai i fyny mewn haelioni; yr hyn yn fynych a gymmerai y ffurf neillduol o roddi gwair i geffylau pregethwyr. Ymddengys fod crefydd yn bwngc yr oedd ef a'i briod yn methu cyttuno arno; a mynych y clywid rhai yn dyweyd, pan y byddai Mr. Howells yn cipio ei faich gwair yn lladradaidd i'r Trehill, lle yr arferai addoli: —"Daew gŵr y Breach (enw y ffarm) yn cario gwair etto i Drehill. Beth pe bâi Bess yn gwybod!"

Pan yn fachgen pur ieuangc, gwan, ac afiach, anfonwyd Morgan i ysgol hen wraig a elwid Margaret Lewis, oedd yn byw rhwng cymmydogaeth y Ship Court a Thresimwn. Mewn amser pryd yr edrychid ar addysgiad plant yr un peth a'u gosod ar y llithrigfa i falchder, drygioni, a dinystr, neu fel hunangais ffol balchder eu rhieni, ychydig o obaith fuasai i ysgolion gramadeg a chlasurol yr oes bresennol mewn cymmydogaeth fel Tresimwn. Yn ysgol yr hen fenyw a nodwyd, y mae yn ammheus genym a ddysgodd Morgan bach gymmaint a darllen Saesneg yn dda; ac fe'n hysbysir yn mhellach gan ei fywgraffydd, y Parch. E. Morgan, Caerdydd, mai un o brif nodweddion yr ysgol hon ydoedd fod ei hathrawes yn peri i'r plant adrodd eu breuddwydion bob boreu, tra yr oedd hithau yn eu deongli! Ond yn mhen amser, symmudwyd ef i ysgol a gedwid gan barson ei blwyf, y Parch. Mr. Thomas. Tra yn yr ysgol hon, bu ei dad farw, sef yn 1807. Rhanwyd yr ychydig arian a gafwyd am ei feddiannau rhwng y teulu; ond symmudwyd Morgan wedi hyn i'r Cotterell, palas y Milwriad Lascells, yr hwn a gymmerodd ddyddordeb anghyffredin yn amgylchiadau y teulu, ac a ofalodd fod Morgan yn myned i'r ysgol megys cynt. Tra yn aros yn y Cotterell, hysbysir ni ei fod yn arfer darllen llawer, ac astudio, ac yn feddiannol ar wybodaeth Ysgrythyrol anghyffredin; "ond nid oedd arno arwydd teimlad o'i sefyllfa fel pechadur; ond yn hollol i'r gwrthwyneb, ymarferai â phob chwareuaeth a ddygid yn mlaen gan ei gyfoedion; ac yn holl gampiau y gymmydogaeth efe oedd y gŵr blaenaf."

Yn y flwyddyn 1810, symmudodd y Mil. Lascells i Lundain; ac anfonwyd Morgan, yn un ar bymtheg oed, i ddysgu saernïaeth, gyda rhywun yn Nghasnewydd. Yn y lle hwn, heb dad na mam, na brawd na chwaer, na chyfaill o un math i'w rybuddio a'i gynghori, ymollyngodd i ganlyn ei arferion cyntefig, ac er "gwybod ei ffyrdd," ni chwennychai rodio ynddynt. Treuliai y rhan fwyaf o'i hamddenau i chwareu cardiau, gyda'r hyn yr oedd yn hynod o fedrus. Ond yn mhen llawer o amser, arweinwyd ef gan fachgen crefyddol y ffurfiasai gyfeillgarwch âg ef i wrandaw y Parch. John Rees, gweinidog ar eglwys Seisnig berthynol i'r Methodistiaid yn Casnewydd, yr hwn a fu wedi hyny yn weinidog am flynyddoedd yn Llundain; ac o dan weinidogaeth y gŵr galluog hwn dygwyd Morgan yn fuan yn argyhoeddedig o'i sefyllfa fel pechadur; ac yn mhen

Digitized by Google

amser yr oedd mor hynod yn y gymmydogaeth am ei dduwioldeb ag ydoedd cyn hyny am ei ddrygioni. Erlidiwyd ef yn dost gan ei hen gyfeillion, y rhai a'i galwent "Morgan y Sant;" ac nid oedd a'u herlidient yn waeth na'r teulu yr oedd yn byw ynddo. A thra yr oedd yr ystorm oddi allan yn cynnyddu, yr oedd ei enaid yntau yn chwerwi o'i fewn. Un seiat ganol yr wythnos, y seiat gyntaf iddo ef, wedi ei glwyfo yn ddyfnach nag erioed gan weinidogaeth y Sabbath, llefai, â'i ddwylaw i fyny, "*I am lost, I am lost!*" Yna, gan edrych i lawr, gwaeddai (yn Saesneg), "ymeangodd uffern, ac agorodd ei safn yn anferth;"[1] ac er ei gyfeirio gan Mr. Rees tua'r groes, ffynnonell hedd a dedwyddwch, elai ef yn mlaen i waeddi, â'i lygaid yn dyhidlo dagrau mawrion, "*I am lost, I am lost!*" "Uffern odditanodd a gynnhyrfodd."[2] Yn raddol, fodd bynag, cafodd ollyngfa i'w feddwl, yn y geiriau "Canys felly y carodd," &c.; ond yr oedd ei erlidwyr mor liosog ag erioed. Yn y teulu y preswyliai, nid oedd gair digon câs, na gweithred rhy front i'w chyflawni er ei ofidio. Gwatwarid ef yn ngwydd ymwelwyr, rhoddid esgidiau iddo i'w glanhau ar y Sabbath; ac yn niffyg cyflawni hyn, cedwid ef drwy y dydd heb damaid o fwyd, er y gallesid yn hawdd roddi yr esgidiau iddo yn ol ei ddymuniad ar nos Sadwrn. Yn ngwyneb hyn i gyd, ymgysurai Morgan Howells, drwy ddyweyd, "Os yw Crist genyf, pob peth yn dda; y mae hyny yn fwy na'r cwbl sydd ar eu helw hwy."

Trwy ryw gyfnewidiad yn y teulu, cafodd Mr. Howells yr hyfrydwch o'i symmud gan y Milwriad Lascells, i ddysgu galwedigaeth dodrefnydd, gydag un o'r enw David Evans, lle y bu yn gweithio am amryw flynyddoedd. Ond ymddengys mai ychydig o hyfrydwch a gâi fel celfyddydwr. Bu am flynyddoedd lawer cyn dyfod yn deilwng o'i alw yn grefftwr; a'r pryd hyny, "yr oedd ei ddwylaw gydag un peth, a'i feddwl gyda pheth arall; weithiau, safai yn syn yn y gweithdy; gorchfygid ef bryd arall gan ddwys fyfyrdod; bryd arall, syrthiai yr offer gwaith o'i ddwylaw, ac yno, o'i ran ef, y caent fod am dro. Ar ol iddo ymaflyd ynddynt drachefn, disgynai y ffit yn bwysig arno eilwaith, a darllenai dipyn; ac nid peth anarferol fyddai ei weled cyn terfyn y dydd yn hollol analluog i wneyd dim" [*Boanerges*, td. 17, gan y Parch. E. Morgan]. Gwawdiwyd llawer arno o blegid hyn gan ei gydweithwyr; ond yr oedd hyn i gyd yn dangos na fwriadwyd Mr. Howells erioed i fod yn saer coed nac yn ddodrefnydd.

Yn y flwyddyn 1815, yn unol â chymmhelliadau y cyfeillion crefyddol yn Nghasnewydd, a'i awydd yntau am wneyd daioni, dechreuodd Mr. Howells bregethu. Ond yr oedd y rhagfarn a goleddid gyda golwg ar bregethwyr ieuaingc yn gyffredin—sef eu bod wedi myned yn rhy ddiog i lafurio â'u dwylaw—yn cael lle yn mynwes un hen ŵr yn Nghasnewydd at Mr. Howells. Tra yr ymddiddenid âg ef yn yr eglwys gyda golwg ar y weinidogaeth, dywedodd yr hen ŵr wrtho, "Wel, frawd bach, mater pwysig yw pregethu yr efengyl!—Y mae perygl i chwi ruthro i'r swydd heb eich galw. Dewch, dewch yn awr, gadewch i ni glywed tipyn o'ch profiad ar hyn; ai nid bywyd esmwyth sydd mewn golwg?" Attebodd Mr. Howells ef gyda'r parodrwydd hwnw oedd yn ffurfio un o brif neillduolion ei gymmeriad:—"*Ië, bywyd esmwythach*—bywyd esmwythach fydd hi na bod yn ddistaw yn hwy! Angenrhaid a osodwyd arnaf; a gwae fydd i mi oni phregethaf yr efengyl." Traddododd ei bregeth gyntaf ar ystôl mewn ystafell a elwid "Llofft y pobty," yn Nghasnewydd. Yn raddol, galwyd am dano i bregethu yn y cymmydogaethau o amgylch, ac yna drwy yr oll o sir Fynwy. Yn ystod yr amser hwn, yr oedd ei nerth pregethwrol yn cynnyddu fwyfwy, ac fel bob amser gyda'r neb sydd yn deall ac yn teimlo nerth gwirionedd ei hunan, yr oedd yn dwyn ei wrandawyr cysglyd i ddeall a theimlo hefyd. Yr oedd ei feddwl wedi ei lwyr efengyleiddio yn nechreuad ei weinidogaeth; yr hyn, mewn cyssylltiad â chraffder a pharodrwydd yr athrylith hono oedd yn wreiddiol ynddo, a wnelai i fyny am lawer o ddiffyg gwybodaeth a mwy addfedrwydd barn; ac fe ddywedir fod nerth anghyffredin—anghyffredin iawn yn y sir hono, lle nad oedd ond o ddeutu hanner dwsin o bregethwyr o gwbl—yn dilyn ei weinidogaeth y pryd hyny, ac "arswyd yr Arglwydd ar ei wrandawyr." Yr oedd yn amlwg i bawb erbyn hyn fod Mr. Howells wedi ei alw i'r weinidogaeth; ond etto, ni fynai pawb weled hyny. Yr oedd gweled y "bachgen o'r Casnewydd," fel ei gelwid, yn gorlenwi y capelau, oedd er's llawer o amser cyn hyny yn mron yn weigion, fel picellau o iâ yn nghalonau cydbregethwyr cenfigenus iddo. "Y mae y wlad," ebe un o honynt, "wedi myned yn od iawn! Och y fi! gwaeddi mawr gyda'r fath gorgi a hwna!" Ond yn ngwyneb ei holl lwyddiant, nid ymfalchïodd efe: teimlai bwys y gwaith a'i annheilyngdod ei hun yn gymmaint ag erioed. Er dangos agwedd ei ysbryd o ddeutu tair blynedd wedi dechreu ar ei weinidogaeth, gellir sylwi iddo fyned un Sulgwyn i gymmanfa Bristol, lle y cymmerwyd ef yn bur glaf. Arferai ddyweyd mai amgylchiad ofnadwy oedd hwn iddo: cernodiai Satan ef yn ddidrugaredd, a gwnai ei oreu i'w daflu i anobaith. Suddodd ei feddwl yntau: ond pan oedd y llewyrch mwyaf egwan yn mron wedi pallu, daeth y geiriau hyny i'w feddwl, "Ein gwaredydd ni, ei enw yw Arglwydd y lluoedd, Sanct Israel;" ac o'r diwedd, gwaeddodd allan, "Wel, os Arglwydd y lluoedd yw ei enw, pwy wyt ti, Satan? Nid oes o fewn dy ymherodraeth un a fedr sefyll o'i flaen! Dere yn mlaen, Satan, â'th holl luoedd gyda thi; dyma *Arglwydd* y lluoedd yn eu gwyneb!" "Ymollyngodd y cadwynau," medd Mr. Morgan, "ac yntau a aeth yn rhydd." Nid oes sicrwydd pa un a ddarfu iddo waeddi "gogoniant" y tro hwn; ond y mae yn ddigon tebyg mai "gogoniant" a "Haleliwia" oedd byrdwn y gân.

Yn 1818, cododd Mr. Howells yr arian oedd yn dyfod iddo ar ol ei dad (o ddeutu 400*p.*), ac agorodd shop *grocer* yn Nghasnewydd, pryd y daeth ei fam a'i chwaer ato i fyw. Yr oedd y fath fusnes yn hollol anadnabyddus iddo, ac yntau, o ganlyniad, yn hollol anghymmhwys i ymgymmeryd âg ef.

Priodwyd ei chwaer, ac aeth i fyw i Bristol yn fuan wedi ei dyfodiad i'r Casnewydd. Yr oedd ei fam yn bur afiach, ac yn gorwedd y rhan fwyaf o'i hamser, ac yr oedd Mr. Howells ei hun yn absennol yn fynych iawn gyda'r weinidogaeth; a phan gartref, treuliai y rhan fwyaf o'i amser yn ei fyfyrgell. Cymmerwyd mantais ar hyn, yn nghyd â'i anwybodaeth masnachol, a'i ddiniweidrwydd yntau, gan bersonau diegwyddor; ac nid hir y bu cyn i'w amgylchiadau gael eu llwyr ddinystrio. Teimlai fod y weinidogaeth yn bwysicach na phedwar can punt, a chan "obeithio 'r goreu, a disgwyl wrth yr Arglwydd," cyttunodd

[1] *Esaiah* v. 14. [2] *Esaiah* xiv. 9.

Digitized by Google

a merch ieuangc i edrych ar ol ei siop, fel y gallai yntau ymroddi yn fwy llwyr gyda'r weinidogaeth. Nid oedd gan y ferch hon y cymmhwysder lleiaf i gyflawni ei swydd: o ran gwybodaeth fasnachol na gonestrwydd egwyddor; treuliai y rhan fwyaf o'i hamser i "eistedd ar y *counter*, fel pe y gosodid hi yno i ofalu rhag i hwnw ffoi; ond er fod y *counter* yn aros, yr oedd masnach y *counter* yn cilio." Treuliai lawer o'i hamser mewn cyfeillach â'i hymwelesau. Dywedwyd hyn wrth Mr. Howells, a bod y fasnach yn cilio; ond ei atteb oedd, "Yr wyf yn credu ei bod yn onest, Mr. Mullock; ac o ran llwyddiant y fasnach, rhaid gadael hyny i ofal rhagluniaeth y nef." Heblaw hyny, gan gymmeryd mantais ar orchymyn Mr. Howells, i'w forwyn i roddi i "bobl y capel" pa beth bynag a geisient, dywedir fod llawer o bobl ddiegwyddor wedi cludo nwyddau o'r siop, pryd nad elent i'r capel un diwrnod mewn blwyddyn. Pan gartref, anaml iawn y gwelid ef yn y siop. Pan ganai y ceiliog gyntaf yn y boreu, ceid ef yn ei fyfyrgell, lle y buasai drwy y nos, a'r rhan fwyaf o'r dydd blaenorol; a phan elai i'w wely, yno yr oedd cwsg o angenrheidrwydd yn ei gadw hyd lawer o'r dydd—weithiau mor ddiweddar a phump o'r gloch y prydnawn. Pan gyfodai, clöid y drysau, tra yr elai Mr. Howells drwy y ddyledswydd deuluaidd. Ac fel hyn, tra yr oedd ei weinidogaeth yn llwyddo, ac yntau o ran ei brofiad yn teimlo fod "y lleuad o dan ei draed," yr oedd ei fasnach yn mron yn llwyr wedi adfeilio. Yr oedd ef yn hollol anhysbys o hyn; ac yn sicr, yn yr amgylchiad hwn, nid gwir y ddiareb Seisneg, "*Where ignorance is bliss 'tis folly to be wise.*"

Yn y flwyddyn 1821, ar ei ffordd i ymweled â rhai o eglwysi sir Gaerloyw, aeth Mr. Howells i Bristol, a chyda'r absennoldeb meddwl hwnw yr oedd mor hynod o'i herwydd, aeth â'i farch gydag ef, er fod yn rhaid iddo groesi y Bristol Channel. Ond tra yr oedd yr hwyl fwyaf anarferol yn dilyn ei weinidogaeth yn sir Gaerloyw, a'r bobl yn ei alw "*The wonderful man,*" daeth cyfaill iddo â'r newydd galarus fod masnachwr yr oedd Mr. Howells yn cael nwyddau ganddo wedi cyrhaedd Casnewydd, ac, yn niffyg cael yr arian oedd yn ddyledus iddo, yn bygwth gwerthu cymmaint a feddai. Wedi cyrhaedd gartref, yn mron llethu gan ofid ac ofn—ofn colledu ei ofynwyr, ac ofn i achos ei Arglwydd fyned dan warth—yr oedd hyn eisoes wedi peri iddo orwedd am bythefnos ar ei daith o dan fath o iselder ysbryd; ond pan gyrhaeddodd Casnewydd, ac y gwelodd ei ofynwyr, o'r rhai yr oedd amryw erbyn hyn wedi ymgasglu, tarawodd ei law ar ei oriadur, ac yna cododd ei law i fyny, a gwaeddai yn uchel, "*Every jot of what I am possessed of shall go to pay my debt*" ("Caiff pob iot o'r hyn a feddaf fyned i dalu fy nyled"); a chan dynu ei oriadur, dywedai (yn Saesneg fyth), "Dyma fy *watch*, cymmerwch hon i ddechreu." Yr oedd hyn yn fwy nag y gallai ei gyfaill ei ddal; a chan dynu ei oriadur ei hun allan, dywedai wrth Mr. Howells, "Cymmerwch hon yn ei lle: y mae yn well genyf o lawer fyned heb *watch* fy hun, na'ch gweled chwi heb un." Gwerthwyd y cyfan a feddai; ac ar ol i'r *sale* fyned drosodd, aeth i'w lyfrgell y llyfrgell lle yr oedd Howe, Doddridge, Owen, Henry, Watson, Hall, Gurnal, a chyfeillion lawer ereill o'r fath yn arfer ei dderbyn yn siriol, ac adgyfnerthu ei feddwl prudd yn mhob profedigaeth a'i cyfarfyddai cyn hyny—ond wedi myned yno y diwrnod hwn, a gweled eu lle yn wâg, tarawodd ei law ar ei fynwes, a chan ollwng ochenaid annisgrifiadwy o brudd, dywedai, "Dyna'r llyfrau wedi myn'd, o'r rhai y cesglais berlau cyn hyn; buont o ddefnydd mawr i mi; do, do; ac o les, yr wyf yn credu, i bechaduriaid; *ond y mae yn rhaid i'r bobl gael eu harian!*" Er cysur mawr iddo, llwyddodd y Parch. Theophilus Jones i gael amryw o honynt yn ol. Goddefer i ni grybwyll un enghraifft arall hynod o symlrwydd a gonestrwydd y gŵr rhyfedd hwn. Rywfodd, gadawyd ei gyfrwy a'i ffrwyn heb eu gwerthu; a chan fod rhyw gymmaint o'i ddyled etto yn aros, hwyliodd Mr. Howells â hwy ar ei ysgwydd tua thŷ ei ofynwr trymaf, yr hwn a breswyliai yn Bristol. Wedi i'r masnachwr ei wahodd yn garedig i'r tŷ, dywedodd Mr. Howells, "Gadawyd y cyfrwy a'r ffrwyn hon heb eu henwi yn yr ysgrol (*schedule*); daethum o hyd iddynt, a dygais hwy i chwi ar gyfrif y gweddill o'm dyled." Yr oedd hyn, fel y gellid meddwl, yn rhywbeth pur anarferol yn mhrofiad y masnachwr; a chan agor ei lygaid mewn syndod, dywedai gyda'r gwresogrwydd mwyaf, nad oedd ganddo yr ammheuaeth lleiaf am ei onestrwydd, ond nas gallai feddwl am gymmeryd y cyfrwy a'r ffrwyn oddi arno. O'r tu arall, gwasgai Mr. Howells ef i'w cymmeryd; ac ar ol hir ddadleu, bu raid iddo, ar ol bwyta ychydig, hwylio ymaith drachefn, gyda'r baich oedd ganddo yn cychwyn, "wedi ei faeddu gan diriondeb ac ewyllys da ei ofynwr, a'i wobrwyo am ei onestrwydd."

Yn Awst, 1824, yn nghymdeithasfa Llangeitho, ordeiniwyd ef yn gyflawn weinidog, pryd yr ymaflodd yn ei swydd gyda nerth a llwyddiant adnewyddol a dyblyg. Yn 1825, bu farw ei fam. Yn Medi, 1824, priododd Miss Lewis, "dynes garuaidd ac addfwyn." Ganwyd iddo o'r wraig hon chwech o blant.

Tua'r flwyddyn 1829, mewn canlyniad i werthiad capel y Methodistiaid yn Nghasnewydd, i dalu dyled rhyw ddyn y tynasid gweithredoedd y capel yn ei enw, ymgymmerodd Mr. Howells â chynnorthwyo cyfeillion tlodion ei gartref i dalu dyled capel newydd (o ddeutu 1920*p.*), trwy gasglu arian oddi ar siroedd Cymru yn gyffredinol. Mor fuan ag y rhoddwyd caniatâd iddo gan y gymmanfa, hwyliodd ymaith tua'r Gogledd, gan alw mewn amryw fanau yn ei sir ei hun, sir Aberteifi, a sir Gaerfyrddin, ar ei daith. Yr oedd ei ddylanwad ar y cynnulleidfaoedd, a'i lwyddiant gyda'r casgliad yn anghyffredin. Yr oedd ei wendid naturiol, ynghyd â'i brofedigaethau lliosog, wedi peri i'w gnawd gurio hyd yr esgyrn; ac yr oedd hyn, ynghyd â rhyw oruwchnaturioldeb oedd yn ei agwedd, yn peri ei fod yn debycach i un o breswylwyr ysbrydol y byd arall nag i greadur o ddyn; ac os nad oedd ysbrydion ereill dan ei awdurdod yn treiddio llogellau y bobl, yr oedd eu calonau hwy eu hunain yn tynu o honynt yn rhwydd. Y ffordd sicraf i drysor y llogell bob amser ydyw drwy y galon; ac yr oedd yn hollol ammhossibl i'r neb a welai neu a glywai Mr. Howells beidio agor ei galon yn fuan. Yn Llanllechid, dywedai ar weddi, "Fy Nhad anwyl, fe elli di droi y creigiau sydd o amgylch yma yn sofrens, i'r bobl hyn gael gwasanaethu dy achos di." Yr oedd y dagrau yn ymddyhidlo yn rhydd ar hyd gruddiau ei wrandawyr ar y pryd; ac yna, gan gyfeirio at ei gorph egwan, a dangos ei ddwylaw teneuon, dywedai ddarfod iddo ofni "y buasai yn rhaid i'r corph gwael hwnw fyned i'r carchar o achos y capel." Ond ymddangosai yr holl bobl fel ar waeddi yn un llais, "Na: ni chei

Digitized by Google

wythnos ganlynol, yr oedd mewn poen mawr; ond yr oedd cwyno o herwydd poen mor naturiol iddo ef, fel na feddyliodd ei deulu, nac yntau, fod dim anghyffredin arno, hyd ddydd Sadwrn, pryd yr oedd y boen yn cynnyddu, a phryd y galwyd y meddyg i mewn. Llwyddodd y meddyg i roddi rhywbeth i liniaru ychydig arno; ond dychwelodd gyda mwy o ffyrnigrwydd nag o'r blaen, tra y gwaeddai y gŵr duwiol yn ei ganol yn barhaus, "O! y drefn fawr! O! y drefn fawr! O! y drefn fawr am achub! Y mae fy nghorff yn rhy wan i'w *bearo* hi." Ac ar y "drefn fawr," tua dau o'r gloch dranoeth (Mawrth 21ain), pan oedd y bobl "yn Nghwmtaf yn dylifo tua'r Baduchaf, *gyda'r bwriad o'i wrandaw yn pregethu*," y cludwyd ei ysbryd tangnefeddus i fynwes Abraham. Bu farw yn 57 mlwydd a 10 mis oed, wedi bod yn weinidog yr efengyl am 37 o flynyddoedd. Claddwyd ef yn mynwent capel y Trefnyddion Calfinaidd yn Nhredegar.

Gyda golwg ar gymmeriad naturiol Mr. Howells, fe ymddengys mai ei brif nodweddion oeddynt—1. *Ei symledd a'i onestrwydd.* Yr ydym eisoes wedi nodi amryw esamplau o'i onestrwydd arianol: yr oedd yr un mor syml a gonest yn ei ymwneyd â chymdeithas yn gyffredinol. Nid oedd y gradd lleiaf o dwyll na phleidgarwch yn perthyn iddo: yn mha le bynag y gwelai ef lwybr ei ddyledswydd, dilynai ef, er iddo orfod dioddef yn chwerw o blegid hyny; ond yn gyffredin yr oedd yn ammhossibl digio wrtho ef, dywedai a gwnai a fynai. Dyma enghraifft o hyn:—Yr oedd yn teithio un tro gyda gŵr ieuangc o bregethwr ag yr oedd tuedd anghyffredin ynddo i fyned "i fyny;" ac ar y daith digwyddodd amgylchiad a roddodd gyfle i Mr. Howells roddi ergyd i'w hunan. Gyferbyn a phalas ardderchog rhyw foneddwr, dywedai y llangc, "A welwch chwi, Mr. H.—dyna *fansion* brat. O! fel y carwn i fyw mewn tŷ o'r fath! Mi deimlwn yn hapus dros ben." "Ah!" attebai Mr. H., gan edrych yn anfoddog, "y mae gormod o hyna ynoch *chi;* mae mwy o eisieu i *chi* gael gostyngeiddrwydd i'ch tynu i lawr, na thŷ *baronet* i'ch codi yn uwch i'r gwynt." Ond parhau i edmygu y palas a wnai y gŵr ieuangc, pryd yr ymaflodd Mr. Howells yn dŷn yn ei fraich; ac ebe fe, "A dâl dyweyd wrthych chi, John bach, mae'n rhaid i chi ddysgu gostyngeiddrwydd." Yna gosododd ei law ar ei ben—pryd y dechreuai y ceffylau aflonyddu—a dywedai, gan ddal ei law yno, "I lawr â chi, John! I lawr â chi, John! I lawr â chi John!" nes y gwasgodd gorynei het yn hollol wastad. Nid oedd Mr. Howells yn amcanu at ddarostwng yr het, ond fel y darfu i'r ceffylau aflonyddu; ond ei amcan oedd darostwng John, pa un bynag a fu y cerydd o les iddo ai peidio.

2. *Ei hunanymwadiad.* Gellid nodi mwy na mwy o esamplau o hyn. Nid oedd dim yn ddigon isel ganddo fod, na digon bychan ganddo ei gymmeryd, na gormod i ymwrthod âg ef, neu i'w wneyd, ei hunan, os byddai hyny yn foddion i chwanegu at hapusrwydd rhai ereill, ac yn enwedig at ogoniant ei Dduw. Pa beth bynag fyddai ei angen neu ei boenau corphorol, edrychai heibio neu anghofiai y cyfan yn llwyr, os byddai hyny o wasanaeth i grefydd. Mewn man yn sir Benfro, pan yn casglu at ddileu dyled capel y Casnewydd—yn ddigon digalon—daeth gwraig foneddig ar ei ol i dŷ y capel, ac estynodd sofren iddo. "Yr wyf yn ddiolchgar i chwi, ma'm," ebe yntau, gan ddodi y sofren at y casgliad. "Na," ebe y foneddiges, "nid fel yna. Yr wyf eisoes wedi rhoddi at y casgliad; cedwch y sofren yna i chwi eich hunan." "Na, os gwelwch yn dda, ma'm," ebe yntau, "mi a'i rhoddaf i'r Arglwydd y tro hyn; waith drosto ef yr wyf wedi dod." Yr oedd i bregethu un noswaith yn Maesteg; ond pan gyrhaeddodd y lle, yr oedd mewn poenau ingol gan y ddannodd, neu yn hytrach y *tic douloureux*. Ond aeth i'r pulpud, â chadach am ei ben; ac wedi i'r neb oedd yn dechreu yr oedfa eistedd, cododd ar ei draed, gan ddyweyd wrth y gwrandawyr, "Alla'i ddim pregethu i chi heno. Mae'r *tic douloureux*, a'r ddannodd, yn fy mlino yn ofnadwy. Mae pechod wedi myned i'r esgyrn; ond ni wn i pam y mae poen yn y dannedd yn fwy angerddol na rhyw ran arall, os nad mai hwy fu gyntaf yn y camwedd pan y bwytawyd yr afal.

"Yn Eden cofiaf hyny byth,
Bendithion gollais rif y gwlith
"O golled fawr!
"Syrthiodd fy nghoron wiw;
Ond buddugoliaeth Calfari
Ennillodd hon yn ol i mi,
Mi ganaf tra fwy' byw.

"Gogoniant! Mae buddugoliaeth Calfari yn gwella'r *tic douloureux*, a'r ddannodd, a'r cwbl!" Yna ymaflodd yn ffyrnig yn y cadach, gan ei dynu oddi am ei ben, a dywedai "Dyna, mi bregethaf i chi 'n awr;" ac heb ganu, elai yn mlaen gyda'i bregeth, wedi anghofio, neu o leiaf heb sylwi ar ei boenau o gwbl.

3. *Gwreiddiolder*, yn tueddu yn aml at nwythigrwydd (*eccentricity*). Cyfrifid ef er yn fachgen yn hynod; a phan ddaeth yn ddyn, edrychid arno heb ei gyssylltu yn y meddwl â dim a wnelai neu a ddywedai neb arall. Pan yn son am wreiddiolder a hynodrwydd, nid ydym yn cyfeirio yn bresennol at ei bregethau a'i ddull o bregethu, ond at ei feddyliau a'i arferion yn gyffredinol. Yn hyn, fel yn ei bregethau, yr oedd fel ei hunan yn hollol, ac heb neb yn debyg iddo, er fod ereill mor hynod. Yr oedd yn hynod o ddiofal mewn rhai o'i arferion, ac mewn ereill llai pwysig yr oedd yn nodedig o fanwl; ac fel hyn elai i eithafion o bobtu; ond "nid oedd ei eithafion yn cynnwys dadgyffesiad o un gwirionedd, nac yn wyriad oddi ar dir rhinwedd a sancteiddrwydd." Yr oedd ei feddwl "fel adnod gynnwysfawr yn y *Diarhebion*, yr hon a rydd synwyr cyflawn heb fod yn gyssylltiedig âg adnod o flaen nac ar ol"—safai ar ei ben ei hun. Yr oedd ei feddwl yn ddigon mawr a bywiog i ymdrin â phobpeth a ddeuai dan sylw, a hyny gyda'r neillduolrwydd a'r parodrwydd mwyaf. Gellid nodi amryw esamplau o hyn; ond ymfoddlonwn ar un neu ddwy. Pan yn dychwelyd o Aberdar, un tro, gan arwain ei farch gerfydd ei ffrwyn, cyfarfu â gŵr ieuangc o Undodiad—yr hwn a ofynodd, gan ymaflyd yn y ffrwyn, "Ai chwi yw Morgan Howells?" "Ië." "Yr wyf yn clywed eich bod yn arfer erlid yr Undodiaid; ac Undodiad wyf fi. Beth sy genych i brofi fod Iesu Grist yn Dduw?" Yr oedd y cwestiwn yn eithaf annisgwyliadwy; ond attebodd Mr. Howells ef yn ebrwydd, "O! y mae geny' ddigon: 'Chwi adwaenoch ras ein Harglwydd Iesu Grist, iddo ef, ac yntau yn gyfoethog, fyned er eich mwyn chwi yn dlawd, fel y cyfoethogid chwi drwy ei dlodi ef.' Yr wy'n deall iddo fod yn gyfoethog cyn dyfod yn dlawd. Yn awr, y gŵr ifangc, rhowch wybod i fi, os nad oedd eich Crist chwi yn fwy na dyn, *pa bryd y bu yn gyfoethog?*" Aeth y "gŵr ifangc" ymaith

Digitized by Google

yn fud, â'i wedd wedi disgyn gryn raddau. Dro arall, digwyddodd Mr. Howells fod yn pregethu yn Mhentwyn, lle y preswyliai y Parch. John Evans, Llwynffortun, ar y pryd. Wedi yr oedfa, aeth Mr. H. i ymweled â Mr. Evans; yr hwn oedd, yn ol tystiolaeth ei wraig, yn "lled wael." Ar ei ddyfodiad i'r tŷ, gofynai Mr. Evans iddo, "*O! how do you do, my dear sir; and how are the friends at Tredegar, and about Monmouthshire? Sit down, my dear sir.*" Eisteddodd y ddau am amser ar yr aelwyd, yn cydymddiddan yn gysurus; ond yn sydyn, o dan ddylanwad un o'i ffitiau nwythig, dywedodd Mr. Evans, gan ymsythu yn ei gadair, a syllu yn graff ar gareg yr aelwyd, "A welwch chwi fod yn dda i dynu eich traed atoch, *my dear sir;* yr ydych yn cadw mwy na hanner careg yr aelwyd, ac y mae hyny yn afresymol." "Na, na," ebe Mr. H., "nid oes genyf fi ddim mwy na'r hanner, pe bai'r byd yn barnu." Wedi ymddiddan ychydig yn mhellach, ffarweliodd y ddau yn wresog. Ond ymwelodd Mr. Howells â Phentwyn drachefn, a galwodd gyda Mr. Evans. Cafodd ei fod yn ei wely. Wedi deall ei fod yno, gorchymynai Mr. Evans i'r wraig, "Gelwch arno ddyfod i fyny, druan." Pan yn esgyn y grisiau dywedai Mr. Howells wrth y wraig fod ganddo rywbeth i'w ddyweyd wrth ei phriod—nad oedd wedi anghofio careg yr aelwyd etto. Wedi myned i'r llofft, ac heb atteb gair i ofyniadau Mr. Evans yn nghylch ei iechyd, &c., tarawodd ei droed yn y llawr, cododd ei ddwylaw ar led, a throai hwynt o amgylch ei ben, gan waeddi yn ddifrifol, ac edrych yn wyllt, "Rhyw fyd ofnadwy yw y byd hwn; mae y Pab o Rufain, a'r Doctor Pusey, a'r cythraul, yn *drivo'r* bobl wrth y miloedd tuag uffern, a Mr. Evans yn gorwedd yn y gwely. Mae Seintiau y dyddiau diweddaf fel c——— ar hyd y wlad, a chitha'n gorwedd man hyn." Agorai Mr. Evans ei lygaid mawr mewn syndod a dychryn, tra yr elai Mr. Howells yn mlaen, "Dewch i lawr, y dyn; os na wnewch chi godi, fe ddaw y Pab o Rufain i'ch *rowso.* Dewch i lawr y dyn, a wnewch chi?" Yr oedd golwg wyllt a dieithr erbyn hyn ar Mr. Evans, a gofynai yn daer, "Beth sy, druan? Beth sy, druan? Beth sy, druan? O! O! Rachel, Rachel, pa le mae fy *slippers* i?" Wedi dwyn y *slippers*, ac ymddiddan ychydig yn mhellach, ymadawodd Mr. Howells; a dywedai Mrs. Evans wrth ei phriod, "Rhyw ddyn hynod yw Mr. H. yna, onide syr?" "O ie, druan;" ebe yntau, "dyn Duw yw hwna! Dyn o enaid mawr! Dyn *eryraidd* iawn ei olygiadau! O! a ddarfu i chwi sylwi, druan? a ddywedodd e fy mod i yn annuwiol, neu beidio?" "O! naddo, syr: ni ddywedodd e ddim o hyny." "O! yr ydych yn meddwl na ddywedodd e ddim o hyny?" gofynai wed'yn. "Yr wyf yn sicr na ddywedodd e ddim o hyny," atebai hithau. "O!" ebe yntau, "y mae'n dda iawn geny' na ddywedodd e ddim fy mod i yn annuwiol; ond bid siwr, pe buasai yn dyweyd, ni chredaswn i ddim o hono."

4. Ond ynglŷn â'r rhagoriaethau uchod dylem nodi yr hyn oedd yn ffaeledd ynddo. Yn mhlith ei wendidau, gellid meddwl mai y penaf ydoedd *gwresogrwydd ei dymmer, a'i duedd gwynfanus.* 'Hwyrach fod y naws anhappus hon wedi cynnyddu arno o herwydd ei afiechyd. Ni fwynhaodd iechyd perffaith am un diwrnod cyfan yn ystod llawer o flynyddoedd; a hawdd y gall dyn cryf edrych yn llon yn ngwyneb ei gyfaill llesg, a synu o herwydd ei wedd anfoddog." Ac heb law hyny, yr oedd y rhan fwyaf o'i dymmer wresog yn "fwy tebyg i sel grefyddol nag i ddim nwydwyllt a digofus."

Deuwn bellach at gymmeriad gweinidogaethol Mr. Howells. Buasai yn dda genym allu rhoddi dyfyniad o rai o'i bregethau, y rhai y buasai llawer o'r hynafgwyr a'u clywsant yn hoffi cael eu hadgofio o honynt, a'r rhai a fuasent yn rhwym o fod yn dra dyddorol i'r rhai na chlywsant Mr. Howells erioed. Ond ni chaniatâ gofod i ni ymdroi gyda'r gŵr hynod hwn ond ychydig yn mhellach. O bob hynodrwydd a berthynai iddo, ei hynodrwydd pregethwrol oedd y mwyaf. Yr oedd yn hynod ar bawb yn ystumiau ei gorph yn y pulpud, yn gystal ag yn yr hyn a ddeuai allan o'i enau. "O bawb pregethwyr, efe oedd y tebycaf iddo ei hun. Os gofynir pa fath oedd hyny, atebir mai *y fath oedd Morgan Howells,* heb neb o'i flaen nac ar ei ol wedi ei doddi yn yr un fold." Wedi cyrhaedd y capel, o ddeutu chwarter neu hanner awr wedi amser dechreu, â'i draed yn ymestyn tua chynffon ei farch, a'i ben yn pwyso ar ei war, elai yn gyntaf i'r tŷ capel i gael dyferyn o ddwfr, tra y byddai rhywun yn dechreu yr oedfa iddo. Wedi esgyn i'r pulpud, "byddai llygaid y gynnulleidfa yn syllu arno mor awyddus a phe y disgwylient i awyren (*balloon*) godi." Wedi trefnu ystôl y pulpud, i sefyll arni, ymaflai yn y llyfr hymnau; ond agorai y Beibl, gan adrodd hen bennill cyffredin, mewn dull digon difater yn fynych, ond dull digon effeithiol bob amser i ysu pob modfedd o'r cnawd, ac weithiau i beri i gynnwys y pennill dreiddio "rhwng y cymmalau a'r mêr," ac i redeg fel olew myrr, ac ar hyd hespenau lawer calon ddrylliedig a phrudd:—

> "Mae'r iachawdwriaeth fel y môr,
> Yn ddigon i bob rhai," &c.

"Ar ol darllen y testyn drosodd ddwy waith, ni allai neb ddychymygu beth fyddai ei sylwadau arweiniol; ac o ran trefn, gallai pob dyn adnabyddus o reolau areithyddiaeth ddyweyd ei fod mor bell oddi wrth bob rheol osodedig yn y gelfyddyd hono, a phe buasai wedi llunio un ar wahân oddi wrth bawb ereill at ei ddybenion ei hun." Byddai pawb anhysbys a ddeuent i'w wrandaw, ac wedi rhagdybied iddo bregethu yn null rhywun galluog a adwaenent neu y clywsent hwy sôn am dano yn areithio, yn sicr o gael eu siomi. Os disgwylient ei weled yn sefyll fel maen mynor yn y pulpud, heb ysgogi y lleiaf yn ystod y bregeth, cawsent eu siomi yr un mor sicr. Y mae yn ammheus a allodd efe aros yn llonydd am foment, o'i enedigaeth i'w fedd; yr oedd ei gymmalau wedi eu ffurfio i symmud yn ddiddiwedd, ac yr oedd *perpetual motion* yn ddeddf mor sefydlog yn nghyfansoddiad ei natur ag unrhyw ddeddf naturiol arall. Drwy gydol yr amser y byddai yn y pulpud, symmudai, plygai yn isel dros y pulpud, ymgodai ar flaenau ei draed, neu ymostyngai hyd ei wddf yn y pulpud; tarawai â'i law, a churai â'i droed, "ac ni fuasai saith mlynedd o addysg athrofaol yn gwneyd un cyfnewidiad arno, heb dynu yr elfen danllyd allan o'i gyfansoddiad; etto, yr oedd yn feddiannol ar bob arferiad oedd yn hanfodol i wneyd effaith ar ei wrandawyr." Rhyw ysglodyn oedd ei gorph, bychan, eiddil, yn ymgodi ac yn ymostwng, yn ymsymmud ac yn ymluchio ar fôr mawr a nerthol yr ysbryd oedd dano. "Yr oedd y wyneb llwydaidd a theneu, a'r llygaid syml a diniwed, yn arddangos meddwl wedi ymddieithro llawer iawn i bethau y byd hwn, ac wedi ei lyngcu i fyfyrdod ar bethau mawrion y byd anweledig,

Digitized by Google

gan syllu yn synedig ar eu rhyfeddodau. Yr oedd ysbryd y weinidogaeth yn hynod ynddo. "Ymddangosai ger bron y cynnulleidfaoedd fel dyn Duw, a theimlai fel cenad dros Grist at fyd colledig. Yr oedd tanbeidrwydd yn ei ysbryd, gwresogrwydd yn ei ddull, agosrwydd yn ei ymadrodd, difrifwch yn ei agwedd, a zêl dros ogoniant ei Dduw yn llosgi yn ei fynwes. Collasai ei ymddiried yn mhob peth o eiddo y byd yma; ond gafaelai o'r herwydd yn fwy sicr yn y cyfammod a'r "breichiau tragwyddol." "Gogoniant!" meddai yn fynych, "pe bâi yr hen ddaear yma yn llosgi, mi lamwn ar ei lludw!"

Gallesid casglu oddi wrth y pregethau ei fod yn llafurio mwy am feddyliau nag am drefn i'w gosod allan. Ymddangosai yn ymestyn yma a thraw, yn gwibio yn mhell ac yn agos, i gasglu perlau gwerthfawr, meddyliau cryfion ac ardderchog, ond heb ofalu nemawr am eu trefnu yn rhesau rheolaidd mewn cadwen blethedig." "Deuai i'n plith fel un oedd newydd ddisgyn o'r byd anweledig, lle y gwelsai bethau anhygoel, ac yn methu dadgloi drws ei ymadrodd i roddi golwg ar y byd hwnw, trwy fod y pethau yn eu mawredd a'u gogoniant yn gyfryw "nad yw gyfreithlawn i ddyn eu hadrodd." Mynych y sylwid ar dremiad ei lygaid. Yr oedd fel un yn canfod y gogoniant; ond mor ddisglaer ydoedd fel nas gallai gael un dull o ymadrodd i drosglwyddo i ereill yr hyn oedd yn nghynnwys ei feddwl ei hun. Dywedai yn fynych iawn, "O! O! ogoniant trefn Duw! 'Rwy' bron a dyrysu!" &c. Yr oedd ei lygaid fel llygaid eryr—gwelai yn mhellach na dynion yn gyffredin i ddirgelion trefn achub; ond wrth esgyn i fyny ar adenydd ei ffydd i awyr bur y nefoedd, ac wrth edrych ar yr Haul Mawr yn ei danbeidrwydd uwch ben, prin y gallai ei lygaid yntau ddal yr olwg y pryd hyn. Etto edrychai arno yn fwy sefydlog nag ereill; ac wrth ei olrhain, a'i ryfeddu, a gorfoleddu yn ei oleuni, braidd na orchfygid ef âg awydd i esgyn yn uwch o hyd, nes cyrhaedd awyrgylch y *gogoniant* ei hun. I ddefnyddio ymadrodd cyffredin o'i eiddo, teimlai yn fynych fod ei enaid "*bron a myned o'i gorph.*" Ond, er fod y llestr pridd yn rhy wan i ddal, y mae ei ysbryd er's amser bellach wedi ei ollwng yn rhydd, a'r llestr yn ddigon cadarn i ymgynnal, heb ddryllio, o dan y "tragwyddol bwys gogoniant a ddadguddir." Deuai atom fel un wedi bod yn siarad wyneb yn wyneb â Duw, ac wedi derbyn ganddo bethau i'w traethu o barth i agwedd grefyddol yr oes; cyflwr gwrthgiliedig yr eglwys; y cyfeiliornadau perthynol i wahanol enwadau crefyddol, yn Babyddion, Puseyaid, Sosiniaid, Finneyaid, &c., yn gystal a chyflwr dyfodol yr eglwys; barnau Duw ar gau-grefyddwyr, heblaw amserau blinion i gyfarfod â phobl Dduw. Ymddangosai fel pe bâi ganddo genadwri neillduol o barth i'r testynau uchod; ac nid oes ammheuaeth na fu ei waith yn codi ei lais fel udgorn yn erbyn llygredigaethau yr oes yn foddion i ddeffro llawer o wylwyr Seion at eu dyledswydd; a bod ei ragddarbodiad o ddrygau i ddyfod wedi peri dychryn i feddyliau llawer, rhag fod ein gwlad yn addfedu i farnau dinystriol.'

HU GADARN: cynarweinydd patriarchaidd, a phrif-dad tybiadol cenedl y Cymry. "O bob anhawsder a welir yn yr hen lyfrau, nid oes un mwy na deall pwy, yn mha le 'n byw, ac yn mha oes, yr oedd Hu Gadarn. Tybygid wrth a welir mewn manau, mai enw ar Dduw oedd Hu Gadarn. Wrth a geir mewn manau ereill, ymddengys mai dyn oedd; a'r cyntaf a ddysgodd i genedl y Cymry lafurio tir. Dyna farn y prif hynafieithydd—Iolo Morganwg. Ond y mae yr hanesydd beirniadol T. Stephen, o Ferthyr, wedi cael allan yn ddiweddar mai person ffugiol a grewyd gan ddychymyg rhyw Ffrangcwr yn y drydedd ganrif ar ddeg oedd Hu Gadarn; ac na wyddai yr hen Gymry cyntefig ddim am dano. Cyfieithwyd y chwedl o'r Ffrangcaeg i'r Lladin; ac wedi hyny, Madog ab Selyf, "athro da," a'i troses i'r Gymraeg. Edrychwn yn gyntaf ar yr hyn a ddyweda y Trioedd am Hu Gadarn. Sylwir mai yn y bedwaredd ganrif ar ddeg y dygir ei enw gyntaf i sylw gan yr hen awdwyr Cymreig, yn "Cyfres III.," sef y ddiweddaraf o'r Trioedd.

1. Cyplysir ei enw ef gyda Phrydain ab Aedd Mawr, a Dyfnwal Moelmud, fel un o "dri phost cenedl Ynys Prydain; cyntaf Hu Gadarn a ddaeth a chenedl y Cymry gyntaf i Ynys Prydain, ac o wlad yr Haf, a elwir Deffrobani, y daethant." *Cynnaliwr* yw ystyr y gair *post* yn y lle hwn. Gelwir ereill yn y Trioedd yn "dri phost Cad" =*three pillars of battle*. Yr un modd y gelwir Caradog yn "Golofn Cymry."

2. Cyssylltir ef gyda Phrydain ab Aedd Mawr, a Rhitta Gawr, fel "tri gwrthrym ardwy Ynys Prydain," sef rhai yn darostwng ac yn rheoleiddio galluoedd gwrthwynebol.

3. "Tri chyfarwysawg cenedl y Cymry;" hyny yw, tri chymmwynaswr y genedl—"cyntaf Hu Gadarn a ddangosodd y ffordd i aru tir gyntaf i Genedl y Cymry, pan oeddynt yn ngwlad yr Haf, sef y lle mae Constanoblys yn awr, cyn no'u dyfod i Ynys Prydain." Tebygol, yn ol y chwedl, mai tra chyntefig ac anhylaw oedd y ffordd a ddangoses Hu Gadarn i'r Cymry i aru tir; canys yn ol yr un Triad, "Elltud farchawg, a sant o gor Dewdws, a wellhäes y modd a arid tir, ac a ddysges well nag a wyddid o'r blaen i Genedl y Cymry, ac a roddes iddynt y drefn a'r gelfyddyd ar aru tir sydd yn awr, canys cyn no'g amser Elltud ni chyferid tir eithr a chaib ac arad arsang yn unrhyw a ffordd y Gwyddelod." Yr un person oedd Illtyd farchog ac Illtyd sant, ar enw yr hwn y mae Llanilltyd yn Morganwg. Gwnaed ef yn ben ar Goleg Tewdws yn Morganwg, tua B. A. 520.

4. Cyplysir ef gyda Dyfnwal Moelmud a Thydain tad Awen, fel "tri chynofydd Cenedl y Cymry." Rhan Hu Gadarn, fel "cynofydd" oedd gwneyd "clud a gosgordd gyntaf ar Genedl y Cymry," sef, llunio cludeion iddynt i ymsymmud yn fyddinoedd o'r naill fan i'r llall.

5. Cyssylltir ef â Gwyddon Ganhebon a Thydain Tad Awen fel "tri deifnogion cerdd a cheudawd Cenedl y Cymry." "Hu Gadarn a ddodes gyntaf ar gerdd gynal cof a cheudawd." Deifnogion yw cynathrawon, neu ddysgawdwyr elfenol y genedl.

6. Un o "dri phrif orchestwaith Ynys Prydain;—ychain banawg Hu Gadarn a lusgasant afanc y llyn i dir ac ni thores y llyn mwyach." Ond mae yr hen chwedlau hynaf yn priodoli yr ychain banawg a'u gorchestwaith i Ddewi Sant, cyn i neb eu cyssylltu âg enw Hu Gadarn.

Dyna y campau a briodolir i Hu Gadarn yn y Trioedd. Barna llawer mai yr un yw Hu Gadarn y Cymry a Hercules y Groegiaid.

Edrychwn etto ar dystiolaeth y beirdd am Hu Gadarn. Mae Lewis Glyn Cothi, wrth foli Rhys ab Dafydd ab Tomas, o flaen Trèn, yn dywedyd fel hyn:—

Digitized by Google

"Wrth lys Rhys, wrth liw ser oedd,
Llys Hu Gadarn llesg ydoedd;
Lle lliwiwyd graddau 'r neuadd
O liw aur Groeg lawer gradd."

Dywed L. G. Cothi yn mhellach:—

"Tŷ Hu Gadarn teg ydoedd,
Pwys ei dŷ ar un post oedd,"—

sef mai arno ef ei hun yr oedd ei holl dylwyth yn pwyso.

Y mae Iolo Goch yn cyfeirio at Hu Gadarn fel yr un a ddysgodd i'r Cymry aredig y tir:—

"Hu Gadarn, por hoew giwdawd,
Brenin a roi'r gwin er gwawd;
Emherawdr tir a moroedd,
A bywyd oll o'r byd oedd.
Ef daliai gwedi diluw,
Aradr gwaisg arnoddgadr gwiw."

Cyfeirir ato fel noddwr barddoniaeth gan Wilym Tew:—

"Bid gan Hu Gadarn arnynt,
Ei gerdd o nef, gyrddion ynt.

Dywed Llywelyn Moel fel hyn am y Mellt:—

"Ychain yn' a chynenid,
Hu Gadarn, a darn o'i did,
Ei bum angel a welwch,
A pheirian aur fflamdan fflwch."

Aeth y beirdd yn hyfach i ddwyfoli Hu Gadarn, a'i ystyried yn rhywbeth uwchlaw dyn, mal y tystia geiriau Rhys Brydydd.

"Bychanaf o'r bychenyd
Yw Hu Gadarn fel barn byd,
A mwyaf, a Naf i ni,
Da coeliwn, a'n Duw Celi.
Ysgafn ei daith ac esgud
Mymryn tes gloew-wyn ei glud;
A mawr ar dir a moroedd
A mwyaf a gaf ar goedd,
Mwy no'r bydoedd! 'marbedwn,
Anmharch gwael i'r mawr hael hwn!"

Yr oedd beirdd y bymthegfed ganrif wedi myned allan o'r ffydd gyffredin i addoli Hu Gadarn, ac y mae Siôn Cent yn eu ceryddu gyda llymder teilwng o dduwinydd Lolardaidd.

"Dwy ryw awen, dioer cwybr,
Sydd yn y byd, loewbryd lwybr.
Awen gan Grist, ddidrist ddadl,
O iawn dro, awen drwyadl;
Awen arall, nid call cant,
Ar gelwydd, vudr argoeliant
Yr hon a gafas gwyr Hu,
Camrwysg brydyddion Cymru."

Ymddengys mai "gwyr Hu" oedd yr ystoriäwyr, neu feirdd y chwedlau a'r Mabinogion, y rhai, yn ol Siôn Cent, a gawsant eu hawen o gythraul:—

"Deuryw ysbryd a yrawdd,
Duw i ni, da yw ei nawdd;
Un o Dduw o iawn ddeall,
A llen o gythraul yw 'r llall."

Dylid gwahaniaethu rhwng Hu Gadarn a Hu. Cyfarfyddir â'r gair *Hu* mewn hen awdwyr cyn bod son am Hu Gadarn. Mae Gwyn ab Nudd yn cyfarch Gwyddneu fel hyn:—

"A'th gyfarchaf Huysgwn,
Gŵr a'i ysgwyd yn angen,
Nifer gŵr pan yw dy ychen."

Barnai y dysgedig Peter Roberts [*Early History of the Britons*], mai Hu Gadarn wedi ei Ladineiddio oedd Hisychion neu Huysgwn; ond y mae yn debycach mai ansoddair yw Huysgwn, yn arwyddo, yn ol Pughe, *apt to ascend;* ac mai canmawl Gwyddneu yr oedd y bardd am ei uchelgais a'i gynnydd. Hefyd, y mae Madog Dwygraig, tua B. A. 1300, yn ei farwnad i Gruffydd ab Madawg, yn dywedyd:—

" * * * * llin teyrnedd
Balch y beirdd, bobl heirdd harddedd-
Hu ysgwr,
Bryn, hynafwalch gŵr brenhineiddwedd."

Tybia Davies, a elwir y Celtic [*Myth of the Brit. Druids*], fod Hu ysgwr yn cyfeirio at Hu Gadarn; eithr ansoddair yw hwn hefyd, yn arwyddo, yn ol Pughe, *tending to be energetic.*

"Hydr udd cleddyfrudd clodfras
Huysgwr yn oed gwas." LL. P. MOCH.

Cymmerwyd mantais i dduweiddio Hu Gadarn oddi ar ystyr y gwreiddair Hu, yr hyn sydd yn dynodi hyf, treiddgar, ymledaenawl. Yr oedd Hu yn un o'r hen enwau Cymreig ar y Duwdod. Gelwid Môn yn "Ynys foliant Hu." O'r gair hwn y deillia Huon, enw arall am y Duwdod.

"Mi ddygais Huon i lawr glyn Ebron."—
ION. MYNYW.

"Gwae hwynt ddydd brawd ger bron Huon."—
GER. F. GLAS.

O'r gair hwn hefyd y deillia Huad, Huan, &c.

Barna'r Celtic Davies mai y patriarch Noah wedi ei wisgo â chwedleuwisg Gymraeg, a'i dduweiddio, oedd Hu Gadarn. Y mae efe yn creu y pethau canlynol fel ffeithiau hanesyddol. 1. Ei fod yn byw yn amser y dylif. 2. Iddo gyflawni rhyw orchest gyda'i ychain fel na ddelai y dylif mwyach dros y ddaear. 3. Mai efe oedd corpholwr ac arweinydd cyntaf cenedl y Cymry. 4. Iddo eu ffurfio yn gyfundebau neu deuluoedd. 5. Efe a roddes yn gyntaf ddeddfau traddodiadol er rheoleiddio a llywodraethu cymdeithas. 6. Yr oedd efe yn enwog mewn cyfiawnder, uniondeb, a heddwch. 7. Efe a arweiniodd amryw deuluoedd o'r Cymry i'w priodol fanau yn y gwahanol wledydd. 8. Efe a ddysgodd y Cymry i aru tir, cyn iddynt symmud ac ymwahanu. Mae gan Davies lawer o bethau ereill i ddangos fod Hu Gadarn a Noah yn cyfatteb i'w gilydd. Ond y mae yn amlwg erbyn hyn mai bod dychymmygol ydyw, ac na bu iddo fodolaeth erioed oddigerth mewn ystori neu ramant a ffurfiwyd yn y canol-oesoedd; ac y mae myfyrio y traddodiadau am dano, a'r cyfeiriadau ato, yn angenrheidiol mewn trefn i ddeall llenoriaeth Cymru yn y bymthegfed ganrif.

Mae yn bryd bellach i ffugchwedlau gael eu deall fel y cyfryw, ac i ffeithiau hanesyddol gael eu lle priodol yn meddyliau y genedl.

HUAL—AU [*hu-gâl*]: llyffethair, gefyn. Gwneid hualau neu lyffetheiriau y dwyrain weithiau o bres, ac weithiau o haiarn, ac ymddengys eu bod yn arfer eu gwneyd yn barau: *Barn.* xvi. 21; 2 *Sam.* iii. 34; 2 *Bren.* xxv. 7; 2 *Cron.* xxxiii. 11; xxxvi. 6; *Ier.* xxxix. 7; lii. 11. Mae y gair *cebel*, a gyfieithir "gefyn" (*Salm* cv. 18), a "gefynau" (*Salm* cxlix. 8), yn y rhif unigol yn yr iaith wreiddiol, ac fe allai ei fod yn cyfeirio at y fodrwy â'r hon y cysylltid y llyffetheiriau. Y cyfieithiad mwyaf cyffredin o'r gair *zikkim* ("llyffetheiriau;" *Iob* xxxvi. 8), yw cadwynau; ond ymddengys fod ei ystyr wreiddiol yn cyfeirio at rwymiad y traed â chadwen.

HUCCOC: enw lle ar derfynau Naphtali (*Ios.* xix. 34), ac a nodir yn nesaf at Aznoth-Tabor. Crybwyllir am dano gan Eusebius a Jerome [*Onomasticon*, "Icoc"], ond ymddengys

Digitized by Google

Digitized by Google



John Hughes

Digitized by Google

na wyddant [illegible] gyrbwyllir [illegible] 1320, a W[illegible] yn cael allan [illegible] —pentref yn [illegible] Bewinol car [illegible] milldir i'r de-ddwyrain [illegible] *W[illegible]dy-el-Amud.* [illegible] yn gosod beddrod [illegible]

HUCOC: enw a [illegible] yn lle Helcath, yr hwn [illegible] ffeiyb o ddinasoedd y G[illegible] *Jos.* xxi. 31.

HUDOLIAETH (o [illegible] llygad-dyniad. Yn yr [illegible] gair *hudoliaeth* bron [illegible] dynion trwy ddewiniaeth [illegible] vii. 11. Yr oedd yn mysg [illegible] lawer iawn o hudolion a [illegible] honent eu bod yn medru [illegible] phreswylwyr y byd anweledig [illegible] dirgelion—yn medru rhagfynegi [illegible] —yn meddu gallu i wneyd [illegible] gelaidd i fywydau a meddiannau [illegible] hyn, yr oeddynt yn meddu dy[illegible] cydgasedd, a defnyddiai llaw[illegible] lawned [illegible] i gefnogi eilunaddoliaeth. [illegible] hen oesoedd, yr oedd bron bob [illegible] gan dduwiau yn swynyddion, a thrwy eu hudoliaethau, denent y bobl i addoli y duwiau, ac i gyfranu o'u heiddo at gynnaliaeth eu gwasanaeth. Ymddengys mai hudoliaeth [illegible] oedd un o brif bechodau preswylwyr [illegible] Gwlad Canaan, ac mai am y pechod [illegible] wyd hwynt o'r wlad. "O achos y ffieidd-dra hyn y mae yr Arglwydd dy Dduw yn eu gyru hwynt allan o'th flaen di;" *Deut.* xviii. 12. O herwydd hyn yr ydym yn cael fod yr Arglwydd yn rhybuddio Israel yn mlaen llaw i beidio dysgu gwneuthur yn ol ffieidd-dra y cenhedloedd hyny pan elent i Wlad Canaan (*Deut.* xviii. 9); ond er yr holl rybuddion a gawsant, yr oeddynt yn dra thueddol i wrandaw ar yr hudolion, ac i wasanaethu duwiau dieithr, a thrwy hyny byddent yn fynych yn tynu barnau yr Arglwydd arnynt: 2 *Cron.* xxxiii. 6, 11. Am "amlder ei hudoliaethau" swynyddol y dinystriwyd Babilon: *Esa.* xlvii. 9. Yn ol cyfraith Moses, cospid hudolion â marwolaeth (*Exod.* xviii. 22); a mynych y cyhoeddai y prophwydi fygythion dychrynllyd uwch eu penau: *Mal.* iii. 5. Yn y Testament Newydd, defnyddir y gair *hudoliaeth* i arwyddo hudo neu ddenu un trwy dwyll i gyfeiliorni mewn barn neu fuchedd. Yn *Mat.* xiii. 22, cyfieithir y gair Groeg ἀπάτη, yn *dwyll*:—"Ac y mae gofal y byd hwn a *thwyll* cyfoeth yn tagu y gair, ac y mae yn myned yn ddiffrwyth." Ond yn *Marc* iv. 19, cyfieithir ef *hudoliaeth*:—"Ac y mae gofal y byd hwn a *hudoliaeth* golud, a chwantau am bethau ereill, yn dyfod i mewn, ac yn tagu y gair, a myned y mae yn ddiffrwyth." Nid yn y cyfoeth y mae y twyll, ond yn syniadau dynion am dano, a'u dysgwyliadau oddi wrtho. Nid ydyw cyfoeth yn addaw dim, na Duw yn meddwl iddo wneuthur dim heblaw diwallu angenion y corph; ond dynion sydd yn addaw iddynt eu hunain ddedwyddwch nad ydyw i'w gael mewn golud daearol; eu chwantau sydd yn eu hudo, a thrwy hyny yn eu twyllo, ac yn llenwi y meddwl i'r fath raddau fel nad ydynt yn cymmeryd hamdden i feddwl am y gwirionedd a wrandawant.

[illegible] miwydd oed [illegible] yddol o'r enw William [illegible] weddar i'r gymmydogaeth [illegible] boen i ddysgu ei [illegible] y Beibl; ac ymddengys fod [illegible] iodd gan y gŵr hwnw wedi [illegible] yn ddwys ar ei feddwl. Yn fuan wedi myned i'r ysgol, dysgodd ddarllen Saesneg; a dysgodd ddarllen Cymraeg heb unrhyw help gan ereill, oddi eithr ychydig a gai gan ei fam. O ddeutu yr amser yma dechreuwyd Ysgol Sabbothol yn nghapel yr Adwy. Aeth yntau i'r ysgol, a chafodd lawer o addysgiadau a chynghorion gwerthfawr ynddi. Rhoddwyd iddo amryw draethodau bychain, y rhai a ddarllenai gyda'r pleser mwyaf; ac ni bu darllen y traethodau hyny, na gwrandaw ar y cynghorion a roddid i'r plant, yn ofer iddo; o blegid trwyddynt hwy ennillwyd ei sylw, goleuwyd ei ddeall, tynerwyd ei gydwybod, diwygiwyd ei foesau, a meithrinwyd ynddo chwaeth hefyd at ddarllen. Yr adeg hon, dechreuodd ddysgu allan *Hyfforddwr* Mr. Charles, ac adnodau o'r Beibl ar wahanol byngciau, pennodau



Digitized by Google

na wyddant ddim am dano ond yr hyn a grybwyllir yn y Beibl. Y mae Hap-Parchi yn 1320, a Wolcott a Robinson yn ein dyddiau ni, yn cael allan mai yr un ydoedd Huccoc a *Yakuk*—pentref yn mynyddoedd Naphtali, ar du gorllewinol cŵr uchaf Môr Galilea, o ddeutu saith milldir i'r de-ddwyrain i Safed, wrth gŵr uchaf *Wady-el-Amud*. Mae hen draddodiad Iuddewig yn gosod beddrod Habacuc yn y lle hwn.

HUCOC: enw a ddefnyddir yn 1 *Cron*. vi. 75, yn lle Helcath, yr hwn a geir mewn rhestr gyffelyb o ddinasoedd y Gersoniaid, yn llwyth Aser: *Jos*. xxi. 31.

HUDOLIAETH (o *hudol*): llithiad, twyll, llygad-dyniad. Yn yr Hen Destament, arferir y gair *hudoliaeth* bron bob amser i ddynodi twyllo dynion trwy ddewiniaeth a swyngyfaredd: *Exod*. vii. 11. Yr oedd yn mysg y cenhedloedd boreuol lawer iawn o hudolion a swynyddion, y rhai a honent eu bod yn medru dal cymmundeb â phreswylwyr y byd anweledig—yn gwybod pob dirgelion—yn medru rhagfynegi tynged pob dyn—yn meddu gallu i wneyd niwed mewn dull dirgelaidd i fywydau a meddiannau; ac o herwydd hyn, yr oeddynt yn meddu dylanwad mawr ar eu cydgenedl, a defnyddiai lliaws o honynt y dylanwad hwnw i gefnogi eilunaddoliaeth. Yn yr hen oesoedd, yr oedd bron bob un o offeiriaid y gau dduwiau yn swynyddion; a thrwy eu hudoliaethau, denent y bobl i addoli y duwiau, ac i gyfranu o'u heiddo at gynnaliaeth eu gwasanaeth. Ymddengys mai hudoliaeth swynyddol oedd un o brif bechodau preswylwyr cyntaf Gwlad Canaan, ac mai am y pechod hwn y gyrwyd hwynt o'r wlad. "O achos y ffieidd-dra hyn y mae yr Arglwydd dy Dduw yn eu gyru hwynt allan o'th flaen di;" *Deut*. xviii. 12. O herwydd hyn yr ydym yn cael fod yr Arglwydd yn rhybuddio Israel yn mlaen llaw i beidio dysgu gwneuthur yn ol ffieidd-dra y cenhedloedd hyny pan elent i Wlad Canaan (*Deut*. xviii. 9); ond er yr holl rybuddion a gawsant, yr oeddynt yn dra thueddol i wrandaw ar yr hudolion, ac i wasanaethu duwiau dieithr, a thrwy hyny byddent yn fynych yn tynu barnau yr Arglwydd arnynt: 2 *Cron*. xxxiii. 6, 11. Am "amlder ei hudoliaethau" swynyddol y dinystriwyd Babilon: *Esa*. xlvii. 9. Yn ol cyfraith Moses, cospid hudolion â marwolaeth (*Exod*. xviii. 22); a mynych y cyhoeddai y prophwydi fygythion dychrynllyd uwch eu penau: *Mal*. iii. 5. Yn y Testament Newydd, defnyddir y gair *hudoliaeth* i arwyddo hudo neu ddenu un trwy dwyll i gyfeiliorni mewn barn neu fuchedd. Yn *Mat*. xiii. 22, cyfieithir y gair Groeg *ἀπάτη*, yn *dwyll*:—"Ac y mae gofal y byd hwn a *thwyll* cyfoeth yn tagu y gair, ac y mae yn myned yn ddiffrwyth." Ond yn *Marc* iv. 19, cyfieithir ef *hudoliaeth*:—"Ac y mae gofal y byd hwn a *hudoliaeth* golud, a chwantau am bethau ereill, yn dyfod i mewn, ac yn tagu y gair, a myned y mae yn ddiffrwyth." Nid yn y cyfoeth y mae y twyll, ond yn syniadau dynion am dano, a'u dysgwyliadau oddi wrtho. Nid ydyw cyfoeth yn addaw dim, na Duw yn meddwl iddo wneuthur dim heblaw diwallu angenion y corph; ond dynion sydd yn addaw iddynt eu hunain ddedwyddwch nad ydyw i'w gael mewn golud daearol; eu chwantau sydd yn eu hudo, a thrwy hyny yn eu twyllo, ac yn llenwi y meddwl â'r fath raddau fel nad ydynt yn cymmeryd hamdden i feddwl am y gwirionedd a wrandawant. Defnyddiai yr apostol Paul yr ymadrodd, "Ein cynghor ni nid oedd o hudoliaeth," i osod allan ei fod ef a'i frodyr yn dysgu dynion trwy yr efengyl mewn dull didwyll a dihoced—"nid megys yn rhyngu bodd i ddynion, ond i Dduw, yr hwn sydd yn profi ein calonau ni;" 1 *Thes*. ii. 3, 4.

HUGAN. Gwel GWISG.

HUGHES, JOHN: gweinidog enwog perthynol i'r Trefnyddion Calfinaidd. Yr oedd efe yn fab i Hugh a Mary Hughes, o Adwy'r Clawdd, ger Gwrecsam, yn sir Ddinbych. Ganwyd ef Chwefror 11eg, 1796. Ni chafodd y fraint o gael ei eni o rieni wedi eu hennill i broffesu crefydd Crist, er bod eu hymarweddiad yn ddichlynaidd a gweddaidd; ond ymddengys fod ei dad wedi cael magwraeth grefyddol. Yr oedd ei rieni ef yn proffesu crefydd gyda'r Methodistiaid, ac yn enwog mewn duwioldeb. Taid Mr. Hughes oedd Richard Hughes, y Sarffle, ger Llanarmon Dyffryn Ceiriog, yr hwn a fu farw yn y flwyddyn 1813, yn y 96ain flwyddyn o'i oedran, gan adael ar ei ol y nifer mawr o gant a phedwar ugain a chwech o blant ac ŵyrion. Daeth Hugh Hughes, tad gwrthddrych ein cofiant, o Lanarmon i'r Adwy yn 1780, ac yno yr arosodd hyd ei farwolaeth yn 1850: ei oedran oedd 87. Priododd Mary Davies, unig blentyn Edward Davies, o'r Adwy; a bu iddynt ddeuddeg o blant—pump o feibion a saith o ferched. Bu tair o honynt feirw yn eu mebyd. John oedd y trydydd mab. Saer o ran ei alwedigaeth oedd Hugh Hughes; a dilynodd ei fab John yr un gelfyddyd nes cyrhaedd deunaw oed. Er na bu y tad erioed yn proffesu crefydd, rhoddodd addysg dda i'w blant, a chafodd y pleser o'u gweled oll yn aelodau o'r eglwys yn yr Adwy yn moreu eu hoes.

Arferai Mr. Hughes fyned gyda'i dad i'r capel ar y Sabbathau pan oedd o ddeutu pum mlwydd oed, a gofynai hefyd iddo lawer o gwestiynau priodol i'w oedran ynghylch y pregethwyr a'r pregethu, y rhai a barent iddo synu ato. Ni bu erioed yn rhydd i ddilyn yr un llwybrau pechadurus yn hollol a'r cyffredin o'i gyfoedion; a dywedai ef ei hun nad oedd yn cofio iddo erioed gymmeryd enw yr Arglwydd yn ofer ond *unwaith*. Pan oedd o ddeutu wyth mlwydd oed, anfonwyd ef i'r ysgol at ŵr crefyddol o'r enw William Evans, a ddaethai yn ddiweddar i'r gymmydogaeth, yr hwn a gymmerai boen i ddysgu ei ysgolheigion yn mhethau y Beibl; ac ymddengys fod yr addysg a dderbyniodd gan y gŵr hwnw wedi effeithio yn ddwys ar ei feddwl. Yn fuan wedi myned i'r ysgol, dysgodd ddarllen Saesneg; a dysgodd ddarllen Cymraeg heb unrhyw help gan ereill, oddi eithr ychydig a gai gan ei fam. O ddeutu yr amser yma dechreuwyd Ysgol Sabbothol yn nghapel yr Adwy. Aeth yntau i'r ysgol, a chafodd lawer o addysgiadau a chynghorion gwerthfawr ynddi. Rhoddwyd iddo amryw draethodau bychain, y rhai a ddarllenai gyda'r pleser mwyaf; ac ni bu darllen y traethodau hyny, na gwrandaw ar y cynghorion a roddid i'r plant, yn ofer iddo; o blegid trwyddynt hwy ennillwyd ei sylw, goleuwyd ei ddeall, tynerwyd ei gydwybod, diwygiwyd ei foesau, a meithrinwyd ynddo chwaeth hefyd at ddarllen. Yr adeg hon, dechreuodd ddysgu allan *Hyfforddwr* Mr. Charles, ac adnodau o'r Beibl ar wahanol byngciau, pennodau



Digitized by Google

ymarferiad, daeth yn bregethwr medrus, effeithiol, a phoblogaidd iawn yn yr iaith Saesneg. Yr oedd ei bethau sylweddol, ei ddull serchiadol, a'i ddeheurwydd yn egluro a chymmhwyso y gwirionedd, yn ei wneyd yn hynod o gymmeradwy gan y Sais yn gystal a'r Cymro. Byddai yn pregethu Sabbath neu ddau bob mis i'w gydgenedl yn Ngwrecsam, ac yn fynych yn pregethu yno ar noson ganol yr wythnos. Nid newydd-deb a gwreiddioldeb oedd prif nodwedd ei feddwl; ond ei ragoriaeth oedd, ei fod yn pregethu yn gryno a medrus yn ffurf gyffredin pregethau yr oes hono. Ni byddai efe un amser yn pregethu mewn dull dadleugar; eithr efe a bregethai yr efengyl, a'r holl efengyl, yn ei hysbryd a'i llewyrch ei hun. Byddai, fel y sylwodd y Parch. H. Rees, "yn pregethu athrawiaeth yn ymarferol, ac yn pregethu ymarferiadau yn athrawiaethol ac efengylaidd."

Er mai dymuniad penaf Mr. Hughes, pan roddodd efe yr ysgol i fyny, oedd ymroddi yn llwyr i weinidogaeth y gair, nid oedd y ffordd ar y pryd yn ddigon goleu iddo gael yr hyn a ddymunai. Gan hyny, ymunodd â'i frawd oedd yn byw yn Adwy'r Clawdd mewn masnach ŷd a blawd; ac yr oedd y telerau yn gyfryw ag a sicrhäai iddo lawer mwy o amser nag a gawsai yn Ngwrecsam. Symmudodd i'r Adwy yn 1835. Ond yn 1838, symmudodd i Liverpool, mewn cyssylltiad â'r un fasnach. Yn lled fuan, pa fodd bynag, rhoddwyd y fasnach yma i fyny; ac aeth yntau i swyddfa masnachwr mewn haiarn, o'r enw Smith. Ond nid hir yr arosodd yn y sefyllfa hon; o blegid yn y flwyddyn 1839, rhoddodd eglwysi Liverpool alwad iddo i'w gwasanaethu fel bugail, a pharhaodd i'w gwasanaethu yn ffyddlawn hyd angeu.

Yn nechreu y flwyddyn 1857, taenwyd y gair fod Mr. Hughes yn bwriadu ymadael o Liverpool, ac ymsefydlu mewn rhyw le yn Nghymru a farnai ef yn iachach na Liverpool; ac yr oedd gwirionedd yn y siarad. Dywedir fod gradd o anghydwelediad wrth wraidd y bwriad hwn. Pa le yr oedd y bai, nis gwyddom. Modd bynag, aeth y cwbl drosodd yn fuan, a llwyr wellhawyd pob teimlad drwg o bobtu. Ond cyn i Mr. Hughes ddyfod i'r penderfyniad pa un ai gadael Liverpool ai peidio a wnai, daeth i feddwl lliaws o'i gyfeillion wneuthur iddo ryw amlygiad sylweddol o'u parch iddo, ac o'u cymmeradwyaeth o'i lafur yn eu plith. Ac ar y 3ydd o Fawrth, 1857, cyflwynwyd iddo mewn cyfarfod cyhoeddus anerchiad, ynghyd âg oriadur, a phwrs yn cynnwys 200p. Effeithiodd y fath amlygiad o serch tuag ato yn yr eglwysi, yn gystal a'r teimladau da oedd wedi eu hadferu rhyngddo ef a'i holl frodyr, i beri iddo roddi heibio ei fwriad i ymadael.

Fe ysgrifenodd Mr. Hughes amryw lyfrau gwerthfawr a phoblogaidd. Diau y bydd *Cydymaith i'r Ysgrythyr*, *Y Proffwydydd Ysgrythyrol*, *Drych Prophwydoliaeth*, *Holwyddoreg ar Hanesiaeth Ysgrythyrol*, *Y Protestaniaid yn Germany*, *Traethawd ar y Sabbath* (yr hwn a gyhoeddwyd yn *Y Gyfres Gymraeg* ar ol ei farwolaeth), &c., yn gofgolofnau parchus o'i ddysg, ei ddawn a'i ddiwydrwydd; ond uwch law y cwbl, *Methodistiaeth Cymru*, yr hwn a gostiodd iddo lafur dirfawr, ac a drosglwydda ei enw fel hanesydd campus i'r oesoedd a ddêl.

Yn nechreu y flwyddyn 1860, ymosododd afiechyd trwm ar Mr. Hughes, yr hwn a ddioddefodd hyd y diwedd yn dawel, yn siriol, yn ddirwgnach, mewn ymostyngiad hollol i ewyllys Duw, ac yn y mwynhâd o dangnefedd yr efengyl. Bu farw ar yr 8fed o Awst yn yr un flwyddyn, yn Abergele, lle yr oedd efe wedi myned gyda'r disgwyliad y buasai cyfnewidiad awyr yn gymmhorth iddo wellhau. Ei oed oedd 63 mlwydd. Bu yn pregethu yr efengyl dros ysbaid saith mlynedd a deugain, a llafuriodd am y tair blynedd ar hugain olaf o'i oes yn Liverpool. Cymmerwyd ei gorph marwol i Liverpool, a chladdwyd ef mewn dull anrhydeddus yn nghladdfa Smithdown Lane. Pan ddygwyd yr arch i gapel Bedford, yr hwn oedd yn llawn o gynnulleidfa alarus, gwelwyd cannoedd o wynebau yn wlybion gan ddagrau. Yr oedd yn agos i bedwar ugain o weinidogion a phregethwyr yn bresennol, rhai o bob sir yn Ngogledd Cymru, gyda dau frawd parchus o'r Deheudir.

**HUGHES, ROWLAND**: un o weinidogion blaenaf y Wesleyaid, ac un o bregethwyr rhagoraf ei oes, a anwyd yn y Bala, sir Feirionydd, ar y 6ed dydd o Fawrth, 1811. Ond er ei eni yn y dref hynod hono, ychydig mewn cymmhariaeth a wybu efe am dani hi; canys symmudodd ei rieni, pan oedd Rowland bach yn bedair mlwydd oed, o lanau Llyn Tegid i dref Dolgellau, yn yr un sir; ac yno, yn Nolgellau, y digwyddodd i Mr. Hughes amryw o'r pethau mwyaf pwysig yn holl hanes ei fywyd i gyd. Yno y derbyniodd ei addysg foreuol; yno y dychwelwyd ef at Dduw; ac yno y dechreuodd bregethu; oddi yno hefyd yr aeth allan, "gan fyned ac ymdaith tua'r deheu," i ddechreu ei weinidogaeth deithiol.

Yr oedd William ac Anne Hughes, ei rieni, yn perthynu i'r bobl gyffredin; ac felly, nid oedd addysg foreuol Mr. Hughes ond rhywbeth lled debyg i'r hyn a roddid y pryd hwnw yn gyffredin i fechgyn trefydd Cymru oll. Tipyn o gydnabyddiaeth weddol gyda'r tair *r* oedd y cwbl:—"*reading*, '*riting*, a '*rithmetic*" oedd cylch eangaf y *curriculum* i gyd. Mae yn ymddangos fod rhieni Mr. Hughes hefyd yn arfer a gwrandaw, fel y dywedir, ar y Methodistiaid Calfinaidd; a'i fod yntau hefyd er yn fachgen wedi arfer cerdded yn llaw ei fam i'w capel hwy, i wrandaw ar eu gweinidogaeth. Ac nid dyna y cwbl chwaith; ond y mae yn ymddangos hefyd fod y bachgen Rowland, er yn foreu iawn—er pan yn ddeuddeng mlwydd oed beth bynag, yn profi argraphiadau crefyddol dwysion a dyfnion iawn. Pan o ddeutu pedair ar ddeg oed, tueddwyd ef rywfodd i newid ei gapel. Dechreuodd gyrchu yn amlach i gapel y Wesleyaid. Dywedai ef ei hun mai yr achos penaf o'r cyfnewidiad hwn oedd rhyw argyhoeddiad dwfn yn ei feddwl ef ei hun fod athrawiaethau y Wesleyaid yn fwy unol â'r Beibl nag eiddo unrhyw enwad arall. Gall crybwyll hyn gynnyrchu gwên; canys y mae meddwl am fachgenyn pedair ar ddeg oed yn ffurfio barn, ac yn cyrhaedd argyhoeddiad ar bethau mor fawrion ag athrawiaethau dyfnion crefydd Crist, yn feddwl digon hynod. Ond er y cwbl, y mae yn rhaid addef fod yn ddigon possibl, ie, i fachgenyn felly gael ei berswadio gan ryw adnod neillduol, neu ynte gan ryw reswm cywrain tarawgar, i gredu y pethau hyn, yn hytrach na phethau ereill. Pa un bynag am hyny, i'r capel Wesleyaidd yr aeth Rowland o'r amser yma allan; ac yno, ar ol gwrandaw yn rheolaidd am o ddeutu dwy flynedd, y daliwyd ef o'r diwedd yn rhwyd yr efengyl. Nos Sabbath, yr 11eg o fis Mawrth, 1827, yr oedd y selog a'r donio

Digitized by Google

Edmund Evans yn pregethu yn Nolgellau ar y geiriau hyny, "Dywedwch mai da fydd i'r cyfiawn; canys ffrwyth eu gweithredoedd a fwynhânt;" *Esa.* iii. 10: a'r tro hwnw, beth bynag, ni chafodd lafurio yn ofer. Ganwyd i'r efengylwr llafurus y blaenaf, yr enwocaf o'i feibion! Cafodd Rowland Hughes yn wobr am ei lafur! Ymunodd y bachgen y noswaith hono âg eglwys yr Arglwydd Iesu. "Yn y fan nid ymgynghorodd â chig a gwaed," eithr "rhoddodd ei hunan yn gyntaf i'r Arglwydd, ac i'w bobl ef trwy ewyllys Duw."

Wedi ymuno fel hyn â'r eglwys, pan yn un ar bymtheg oed, bu ei gynnydd yn ddiau yn amlwg i bawb; o blegid, tua phen y flwyddyn ar ol hyn, tua dechreu y flwyddyn 1828, yr oedd annogaethau ei gyfeillion, ynghyd â pherswadiad trwyadl ei feddwl ei hun, wedi ei gario i ddechreu ar orchwyl mawr arbenig ei oes, sef efengylu yn mhlith y Cymry "anchwiliadwy olud Crist."

Yn mhen o ddeutu blwyddyn ar ol dechreu pregethu—hyny yw, rhyw dro yn y flwyddyn 1829—cymmhellwyd Mr. Hughes i adael ei gartref, ei geraint, a'i gyfeillion, ac anturio i Ferthyr Tydfil, i lafurio yno fel pregethwr cynnorthwyol cyflogedig. Yn ddeunaw mlwydd oed, cychwynodd i'w daith. Rhyw lengcyn tal, teneu, a gwanllyd oedd efe y pryd hwnw; ac nid oedd dim o'i flaen ond cerdded yr holl ffordd o Feirion i Forganwg; a hyny, fel y dywedai efe ei hun yn mhen blynyddoedd wedi hyny, â'i *library* a'i *cardrobe* hefyd i gyd ar ei gefn! Yr oedd *coaches* y pryd hwnw yn bethau hynod o ddieithr i ffyrdd croesion y wlad; heb son dim am y *railways*, a'r *trains*, a'r lliaws cyfleusderau ereill cyssylltiol â hwy ag sydd mor liosog yn y dyddiau rhyfedd hyn. Modd bynag, cyrhaeddodd y bachgen ben ei daith yn llwyddiannus, ac ymroddodd i'w waith yn galonog. Cafodd eithaf cylchdaith i ddechreu ynddi, beth bynag. Yr oedd yr amser hwnw yn ddigon eang a llafurus i brofi ei nerth yn mhob ystyr o'r gair. Ond gweithiodd hi am dair blynedd gyfan, a hyny gyda chymmeradwyaeth mawr.

Yn Awst, 1832, galwyd ef allan i waith rheolaidd y weinidogaeth. Dechreuodd ei yrfa hon yn nghylchdaith Caernarfon. Teithiodd wedi hyny naw mlynedd ar hugain. Ei gylchdeithiau o ddechreuad ei yrfa oeddynt, Caernarfon, Beaumaris, Liverpool, Llanasa, Liverpool, Bangor, Merthyr, Crughywel, Manchester, Liverpool, a Dinbych—lle y gorphenodd ei daith mor gynnar ac anisgwyliadwy; ac yr oedd ei holl yrfa weinidogaethol, o'i dechreuad yn nghanol mynyddoedd mawreddig Arfon, hyd ei therfyn yn Nyffryn paradwysaidd Clwyd, wedi bod yn un linell gyfan o lafur caled, o ddefnyddioldeb uchel, ac o enwogrwydd a dylanwad y tu hwnt i'r cyffredin.

Yn ei gyweithas gyffredin gyda dynion, dichon fod callineb, gonestrwydd, a ffyddlondeb yn nodau amlycach ynddo na thynerwch tra-serchog a chynnhes. Yn wir, gallasai dyn dieithr iddo feddwl ei fod o dymmer oerllyd, sychlyd, ac uchel. Ond y dieithr iddo yn unig a allai feddwl hyny. Gŵyr ei gyfeillion i gyd fod yn nghalon Rowland Hughes gyflawnder mawr yn bod o deimlad, o dynerwch, ac o serch. Gwir yw mai ychydig a ddywedai efe, hyd yn oed wrthynt hwy, am ei deimlad tuag atynt; ond dangosai ef mor amlwg a neb. Yr oedd fel llawer un arall yn anuhueddol braidd i wneuthur llawer o gyfeillion; ond nid cyfeillach cyffredin oedd yr hyn a wnai efe—"Calon wrth galon" oedd hi. "Un enaid mewn dau gorph." Mae dau fath o honom yn y byd yma. Mae un dosbarth o honom fel y rhosyn agored yn dangos ei geinion i gyd ar unwaith; ond y dosbarth arall fel y rhosyn bach—yn rhyw ddechreu ymagor, ac yn amlygu rhyw brydferthwch newydd bob tro yr edrycher arno. Mae un dosbarth o ddynion yn amlygu pob mymryn o deimlad, ac o serch, ac o diriondeb ag sydd ynddynt yn yr awr gyntaf bron a dreuliwch gyda hwy; ac yna yn eich anghofio, fe allai, yn llwyr cyn y cwrddwch â hwy drachefn: ond y mae dosbarth arall i'w gael na welwch, fe allai, ond ychydig o'u calon y tro cyntaf y cyfarfyddwch â hwy, ond a ddangosant i chwi fwy, fwy, fwy o bob peth sydd hawddgar, ac o bob peth sydd ddymunol, fel y cerdda y gyfeillach yn mlaen. I'r dosbarth olaf a goreu hwn y perthynai Rowland Hughes. Cyfaill pur, diledrith, a ffyddlawn oedd efe. Ar yr un pryd, y mae'n rhaid cyfaddef y dywedai efe weithiau ambell air a flinai yn dost ei gyfaill goreu. Ond nid blino cyfaill fyddai'r amcan byth. Y gwir yw, yn y geiriau edlym, pigog hyny, prin y byddai amcan o gwbl yn bod, amgen na rhoddi ffordd i ffraetheb finiog a ymgodai o'i fewn, ac a saethai a lan fel mellten mewn moment heb yn wybod bron iddo ef ei hunan. Yr oedd Mr. Hughes yn dra nodedig yn y gallu peryglus ond defnyddiol hwn. Yr oedd ei *wit* yn rhyfeddol o'r parod, a chyrhaeddgar, a llym; ac addefai ef ei hunan fod rhoddi ffordd iddo mewn modd chwerw, pigog, a sarhaus yn un o demtasiynau mawr ei oes. A pha ryfedd os oedd hi felly? Y mae'n ddiammheu pe buasai ambell un a'i beiai ef fwyaf am y peth hwn yn gallu ei wneyd cystal a Rowland Hughes, y buasai yn ei wneyd yn llawer amlach, ac yn llawer chwerwach hefyd. Ond wedi'r cwbl, dyna'r gwir am dano ef; os dywedai efe air i flino cyfaill, dywedai ef yn wastad wrtho, ac nid am dano. Deuai'r sylw ffraethlym allan yn ngwyneb dyn; eithr yn ei gefn, byddai ei enw, a'i deimlad, a'i bob peth ef yn berffaith gyssegredig yn nghyfrif Mr. Hughes. Anaml iawn y clywsom ef yn canmawl dyn yn ei wyneb, ac anamlach na hyny yn dirmygu dyn yn ei gefn. Gellid yn onest ysgrifenu ar gareg ei fedd:—

"Caredig, cywir ydoedd."

Tra yn teithio yn Liverpool y tro cyntaf, ymunodd mewn glân briodas gyda Miss Elizabeth Evans, merch henaf y Parch. David Evans—un o weinidogion mwyaf parchus a chymmeradwy y Wesleyaid Cymreig.

Bu farw ar y 25ain o Ragfyr, 1861, a gadawodd ei weddw gyda phump o blant, mewn galar dwys o blegid colli ynddo ef briod hynod o dyner a thad mor anwyl ag a allasai byth fod. "Y gwynt a aeth drosto, ac nid oes mwy o hono, a'i le nid edwyn ddim o hono ef mwy."

Gyda golwg ar Mr. Hughes fel pregethwr, y peth cyntaf fe allai a welid ynddo fyddai rhyw ddwysder a difrifoldeb mawr. Ond yr oedd ynddo hefyd ddigon o'r hunanfeddiant ac o'r urddas pwysig hwnw ag sydd yn gweddu mor dda i un hollol ymwybodol o'i allu i ddysgu ei wrandawyr. Ni a roddwn ddisgrifiad o hono gan y Parch. W. Davies:[1]—Y mae yr emyn cyntaf yn cael ei darllen yn bwyllog; y mae yr accen, a'r pwyslais, a phob peth yn eu lle; ond y mae yna rywbeth yn hynod; a dyna ydyw—y mae y geiriau a ddarllenir yn cael eu tori yn lled gwta, ac fe allai, o'r ddau, dipyn yn sychlyd braidd. Y rheswm am hyny yw, y mae tipyn

[1] Gwel *Baner ac Amserau Cymru* am Ionawr 29, 1862.

Digitized by Google

bach o "attal-dywedyd" ar y pregethwr. Yn y weddi, y mae y geiriau yn ychydig, y brawddegau yn fyrion, a'r syniadau yn hollol syml. Dim yn hynod, dim eofndra, dim mawredd yma—oddi eithr yn unig y mawredd hwnw ag sydd yn dangos ei hunan mewn symledd pur, a phriodoldeb mawr. Yn awr, beth bynag, y mae rhanau blaenaf yr addoliad drosodd, a dyma'r bregeth yn dechreu. Pregethai bob amser am awr neu awr a chwarter o leiaf, er y tystiai y pregethwr wrth ddechreu ei fod yn "amcanu yn fy-fwy at fyrdra nag at fy-feithdra." Yn y cyffredin, ychydig o sylwadau eglurhaol ar gyssylltiadau y testyn fyddai y cwbl, a'r rhai hyny yn terfynu mewn codi rhyw un egwyddor, neu athrawiaeth, neu sylw cyffredinol i'r wyneb; ac ar yr un hwnw, yn ei wahanol olygweddau, y cedwid golwg trwy gydol y bregeth i gyd. Yn fuan iawn wedi cychwyn gyda'i bwngc, byddai pob llygad arno, a phob meddwl bron yn cydymdaith gydag ef. Brithid ei sylwadau fel yr elai yn mlaen gan ddywediadau diarebol miniog a tharawiadol. Wedi hyny, cyfeiriai, fe allai, at ryw ffaith ysgrythyrol er egluro ei feddwl; neu ynte, adroddai ryw hanesyn neillduol, mewn ffordd mor effeithiol a thlws, nes y gwelid y dyrfa oll yn cynnhyrfu drwyddi—rhai yn gwenu, ereill yn sychu dagrau, a phawb wrth eu bodd. Yna deuai swp o feddyliau arddunol allan mewn iaith mor farddonol a choeth nes peri i bawb ddal eu hanadl, a theimlo rhyw fesur o ymwared wrth ddeall fod y wibdaith oruchel ar ben. Anaml iawn y ceid disgrifiad maith a llafurus o ddim gan Mr. Hughes; ac nid mynych iawn y rhedai yn mhell gyda'i ymresymiadau chwaith. Rhyw ddawn byr, cwta, oedd ganddo. Yr oedd Rowland Hughes fel darluniedydd yn debycach i Cruikshank, Teniell, a Leach, nag i Martin, Turner, a Landseer: tarawai i ffwrdd gyda *stroke* neu ddau o'i bwyntyl bortread mor debyg, mor wir, ac mor fyw, os nad mor *elaborate* a chywrain, a dim a wnai ereill trwy lafur mawr, a thrafferth blin. Ac am ei ymresymiadau, terfynid hwy yn bur fuan gan ryw *stroke* orchestol o *wit*—yn peri naill ai chwerthin am ben, neu ynte ddigio wrth y golygiad a wrthwynebid ganddo. Dyma, fe allai, y diffyg mwyaf yn y bregeth i gyd. Aberthid pob peth bron i gic *sarcastic* trwm. Yr oedd yr un peth, yr un gwendid, fe allai, yn ymddangos yn ei ysgrifeniadau hefyd. Ond dichon, wedi y cwbl, fod llawer o gyfaddasrwydd yn hyn i stâd ac angen y bobl gyffredin. Ac etto i gyd, gallasai dyn ddymuno iddi fod fel arall. O blegid dyna'r gwir: nid yw *stroke* o *wit*, na gwawdeb lem, yn profi dim ond medr y rhoddwr, ac weithiau fe allai hefyd ei doster a'i chwerwder chwith.

Ond prin iawn y gallasai Rowland Hughes ymffrostio yn ei lais, beth bynag. Nid am fod dim anhyfryd ynddo chwaith, ond ychydig iawn o gwmpas oedd iddo. Yr oedd efe yn ei lywodraethu yn bur dda. Cadwai ef yn gyffredin o fewn ei gylch naturiol. Parai hyny i'r lliaws beidio meddwl fawr am dano; a galluogai yntau hefyd i amlygu drwyddo ei deimlad i raddau, yn gystal a'i feddwl. Ond etto, wedi'r cwbl, pe buasai Mr. Hughes yn dibynu ar ei lais mor bell ag y gwna rhai, y mae yn rhaid addef mai pregethwr lled gyffredin fuasai ef, a dyweyd y lleiaf am dano. Gyda golwg ar ystumiau hefyd, wrth lefaru, ychydig iawn o hyny drachefn a berthynai iddo ef. Dull tawel, hamddenol, a dirodres, oedd ei ddull arferol ef. Estynai ei fraich allan weithiau, yn unionsyth o'i flaen, gyda chledr y llaw at i lawr, tra y cedwid y llaw arall yn dŷn ar yr ystlys. Ac yna, ambell dro, pan godai yn wresog iawn, gwelid y ddwy fraich yn dyfod allan yn unionsyth, ac yna yn syrthio oddi wrth eu gilydd yn bellach, bellach, fel dyn yn ceisio nofio. Dyna bron yr oll o'i ystumiau ef; ac fe wêl pawb yn ddiau mai ychydig iawn o gelfyddyd oedd i'w chanfod yn y symmudiadau yna. Peth arall hefyd, ac y mae yn rhaid ei nodi —fe gadwai Mr. Hughes yn annhraethol bell oddi wrth bob digrifwch ac ysmaldod wrth bregethu. Gwelsom rai yn troi pulpud y cyssegr yn chwareufa y *buffoon* a'r *harlequin*. Ond yr oedd aruthredd y lle yn amlwg yn Hughes o hyd. Gŵyr miloedd o'i gydnabod y medrai, wrth rydd-areithio, yn awr ac eilwaith, oglais, a difyru, a pheri chwerthin yn gymmaint a neb. Ond ymgadwai yn ofalus rhagddo wrth draethu gair Duw. Yr oedd geiriau ysbrydoliaeth yn "eiriau gwirionedd a sobrwydd" yn ei enau ef yn wastad. Y gwir yw, yr oedd poblogrwydd Rowland Hughes yn codi o ragoriaethau uwch o lawer na'r pethau israddol hyn.

Un o ragoriaethau amlycaf 'y gŵr enwog hwnw oedd purdeb a symledd yr iaith a arferai. Dywedwyd o'r blaen wrth adrodd ei hanes fod ei addysg foreuol yn un hollol gyffredin. Ac felly yr oedd hi. Ond llafuriodd yn ddyfal, mor ddyfal a neb yn ei oes, i wneuthur i fyny y diffyg hwnw:—a llwyddodd yn dda hefyd. Cyrhaeddodd wybodaeth dda, ïe, yn wir, fanwl, o'r iaith Saesnig. Talodd gryn dipyn o sylw i'r Groeg ac i'r Hebraeg; ond pa mor bell y cyrhaeddodd ynddynt, nis gallwn ddyweyd. Aeth yn ddigon pell ynddynt, beth bynag, i allu gwneyd defnydd hwylus o'r *Lexicons* ynddynt, ac felly yn mlaen. Ond yn ei hen iaith odidog ei hun yr oedd nerth mwyaf Rowland Hughes. Deallai hono yn dda, a gwyddai yn gystal a neb y ffordd i'w defnyddio hi. Nis gwyddwn am neb a allai ei hwylio yn well. Yr oedd yn hynod o ofalus, ac yn llawn mor ddedwydd, yn ei ddewisiad o eiriau. Wedi cael meddwl da, cymmerai boen, a phoen fawr weithiau, i'w wisgo yn dda hefyd. Pwngc mawr ganddo ef oedd dyweyd ei bethau "yn y ffordd debycaf o dori," chwedl 'yntau. Clywyd llawer cyn hyn yn dangos eu medr mewn iaith trwy bentyru geiriau cyfystyr mewn modd diarbed y naill ar y llall, fel dynion ar eu llw i beidio gadael un gair lled gymmhwys ar ol, rhag digwydd trwy ryw anffortun mai hwnw fyddai y goreu wedi'r drafferth i gyd. A chlywyd rhai hefyd yn galw hyny yn hyawdledd! Fe allai ei fod. Ond nid dyna hyawdledd Rowland Hughes. Hyawdledd y gair priodol yn ei le ei hun oedd yr eiddo ef. Dewisai ef y geiriau goreu, a gadawai'r lleill ar ol hyd adeg ac eisieu arall. "Chwiliai y pregethwr am eiriau cymmeradwy;" a'r canlyniad naturiol oedd, fod ei arddull gyffredin ef yn nodedig o syml, a nerthol, a phur. Bu cwyno yn ei erbyn tua dechreuad ei yrfa gyhoeddus fod ei bregethau dipyn yn dywyll, o herwydd dieithrwch a charictor ymchwyddol ei iaith. Ac y mae yn bur bossibl fod hyny yn ddigon gwir. Y mae arfer iaith chwyddedig, ac uchel, yn demtasiwn, fe allai, i bregethwr ieuangc sydd â thipyn o rywbeth ynddo. Ond gwellhaodd Rowland Hughes yn gyflym gyflym iawn. Am yr ugain mlynedd diweddaf, yr oedd mor agos i berffaith mewn iaith, yn gystal a meddwl, ag un dyn a glywyd yn pregethu erioed. Pregethai yn gyffredin, beth bynag, mor agos

Digitized by Google

ac eglur, nes y galiai plant ei ddeall, ac etto mor goeth a godidog nes y gallai ysgolheigion ei fwynhau.

Ond at y rhagoriaeth yma yr oedd gan Mr. Hughes hefyd feddwl galluog iawn. Gwelwyd amryw, fe allai, â'u hamgyffrediad yn fwy cyflym nag ef; ond ychydig iawn a welwyd yn fwy sicr yn y pen draw o weithio ei ffordd i waelod y peth a gymmerai mewn llaw. Un peth nodedig iawn yn nghymmeriad ei feddwl ef oedd, fod y ddwy elfen bwysig hyny—yr un resymiadol a'r un ddychymmygol—mor hynod o gryf, ac etto mor agos i gyfartal ynddo. Gwelsom lawer un yn meddu y naill neu y llall o'r galluoedd hyn i raddau uchel iawn; ond pur anfynych yr ydym yn meddwl y gwelwyd y ddwy mor nerthol a chyfartal ag y gwelwyd hwy ynddo ef. Mynych iawn y ceir yr elfen resymiadol mor gref mewn pregethwr nes y gwneir ef yn wastad yn ymresymwr cywrain, a chadarn, ond sychlyd a dadleugar, a dim ond hyny. Ac nid anfynych chwaith y ceir yr elfen ddychymmygol mor nodedig o gryf mewn un arall fel na bydd ganddo byth ddim i'n porthi ond lluniau a blodau, a phethau tlysion felly. Mae un fel yr estrys, yn rhy drwm o gorph, ac yn rhy wan o aden i ehedeg dim; a'r llall fel y glöyn byw, yn adenydd i gyd, ac heb fod yn dda i ddim ond i ehedeg. Ond am Rowland Hughes, yr oedd y ddwy elfen yma yn cydgyfarfod ynddo ef. Dichon mai y resymiadol oedd y benaf. Dyna'r achos fod ei holl gyfansoddiadau mor hynod o drefnus, a chysscn, a syml. Yr oedd ganddo ef feddyliau, a'r rhai hyny yn fynych iawn yn wir odidog hefyd. Ond nid dyna'r cwbl: yr oedd y meddyliau hyny yn wastad yn eu trefn briodol; hyny yw, yn eu trefn naturiol. Yr oedd cynlluniad y bregeth bob amser yn hapus. Ac nid dyna'r oll chwaith; eithr wedi i'w feddyliau sylfaenol ef gael eu trefnu felly—wedi hyny, meddwn, deuai'r gallu dychymmygol allan i wisgo'r cwbl gyda'r fath ddilladaeth ardderchog o ddywediadau ffraethlym, o ehediadau barddonol, ac o gymmhariaethau tarawgar, nes swyno pob meddwl o'i flaen, a chynyrchu argraph ddofn iawn.

Y gallu mawr yma, wedi ei ddiwyllio yn dda trwy lafur ac ymchwiliad dyfal, ac yn cael ei gynnorthwyo gan deimlad crefyddol dwfn, a chan adnabyddiaeth helaeth o'r iaith Gymraeg, a'i cododd ef yn ddiau i'r safle uchel a feddiennid ganddo yn mhlith pregethwyr ei oes. Disgleiriai fel seren o'r maintioli cyntaf yn ffurfafen yr eglwys Gymreig.

HUGUENOTIAID (*Huguenots*). Gwel Ffraingc, Eglwys; a Bartholomeus, Dydd.

HULDAH: prophwydes; gŵr yr hon, sef Salum, ydoedd ceidwad y gwisgoedd yn amser y brenin Iosiah. Yr oedd Huldah yn preswylio yn maesdref Ierusalem, ac yn un o'r personau mwyaf nodedig yn Ierusalem o ran ei doniau prophwydol, tra yr oedd Ieremiah etto heb ymadael o Anathoth, ac yn ddyn ieuangc heb dderbyn unrhyw anrhydedd. Ac ati hi yr aeth Iosiah pan gafodd Hilciah lyfr y gyfraith, er mwyn cael barn benderfynol arno: 2 *Bren* xxii. 14; 2 *Cron.* xxxiv. 22.

HUMBOLDT, FREDERICK HENRY ALEXANDER: teithiwr ac athronydd naturiol enwog. Nid oes dim dyddorol mewn gwyddoriaeth naturiol na chyssylltir enw Humboldt âg ef. Nid oes un teithiwr a fu yn ymweled â lleoedd pellenig y ddaear, i'r dyben o sylwi ar amrywiol ddygwyddiadau ac ymddangosiadau natur, wedi chwanegu cymmaint at ein hystôr o wybodaeth flaenorol. Daearyddiaeth, goruchianaeth, attyniaeth, dosbarthiad gwres, y gwahanol ganghenau o hanesiaeth naturiol, ynghyd â chydberthynas cenhedloedd ac ieithoedd, hanes cenhedloedd, cyfansoddiadau llywodraethol gwledydd, ystadegaeth masnach, ac amaethyddiaeth—y mae y cyfan wedi derbyn chwanegiadau eang a gwerthfawr oddi wrth dalentau mawrion y dyn galluog hwn. Ac o ganlyniad, nis gall adroddiad o'i hanes lai na bod yn ddyddorol a phwysig. Ni fwriedir yn yr erthygl bresennol roddi hanes manwl am ddarganfyddiadau Humboldt; gan hyny rhaid cyfeirio y darllenydd at weithiau Humboldt ei hun, yn gystal ag at erthyglau ar bynciau gwyddoroi yn y gwaith hwn, megys Daearyddiaeth, Gwlaw, Hin, Hinsawdd, &c., &c.; ond cyfyngwn ein hunain at amgylchiadau mwy personol, ynghyd â rhyw ffeithiau nad ydys yn debyg o fod wedi eu cynnwys yn yr erthyglau a nodwyd.

Ganwyd Humboldt yn Berlin, Medi 14eg, 1769. Yr oedd ei dad yn filwr cyfoethog, ac wedi bod yn gwasanaethu o dan Frederick Fawr, o Prwssia. Dertbyniodd ei addysg golegawl yn Frankfort-on-the-Oder, a Gottingen, lle yr oedd Heyne, ysgolhaig clasurol enwog, yn broffeswr. Yr oedd George Forster, mab yn nghyfraith Heyne, wedi bod gyda Captain Cooke yn Môr y De, a chafodd ei ddisgrifiadau gwresog o'r parthau hyn argraph ddwfn ar feddwl Humboldt. Yn 1790, aeth gyda Forster a Van Genus drwy gymmydogaethau y Rhine, Holland, a Phrydain; ac yn yr un flwyddyn, cyhoeddodd ei waith cyntaf, a elwir *Mineralogical Considerations on Certain Basaltic Formations on the Rhine*. Gan fwriadu cael swydd dan lywodraeth Prwssia, aeth i Hamburg i astudio cadw cyfrifon a ffurfiau ereill gwybodaeth fasnachol; ac wedi hyny aeth i Freyberg i dderbyn addysgiadau yr enwog Werner, sylfaenydd y wyddor o ddaeareg. Yn 1793, cyhoeddodd sylwadau ar fwngloddiau y llanerch hwnw, dan yr enw *Specimen Floræ Freibergensis Subtevanæ*. Wedi ei bennodi yn ardrethwr y *Council of Mines* yn Berlin, ac wedi hyny yn arolygydd cyffredinol cloddfeydd Baireuth ac Anspach, yn Ffranconia, trodd ei sylw at ffurfio sefydliadau cyhoeddus yn y parthau hyn; ac yn 1795, ymwelodd â rhanau o Italy a Switzerland. Tua'r amser yma, tynwyd ei sylw at ddarganfyddiadau Galvani; ac yn 1796, cyhoeddodd ei brawfiadau ei hun mewn milattyniaeth, gyda nodiadau gan Blumenbach. "Teimlaswn," meddai, "er yn bur foreu, awydd tanbaid am deithio mewn gwledydd pellenig o'r byd oedd heb eu chwilio gan Ewropiaid. Ac i'r dyben hwnw rhoddodd ei swydd o arolygydd cloddfeydd i fyny. Tra yn Paris, yn 1795, daethai i gydnabyddiaeth âg M. Aimè Bonpland, yr hwn a'i dilynodd yn ei deithiau, ac a enwogodd ei hun yn fawr drwy ei ddarganfyddiadau mewn llysieuaeth. Yr oedd sefyllfa gyffröedig y Cyfandir ar y pryd mewn canlyniad i'r rhyfeloedd a ddilynasant y Chwyldroad yn Ffraingc, yn gyfryw, fel ag i beri iddo oedi ei daith am ddwy flynedd, yn ystod pa amser yr oedd yn preswylio yn Jena, lle y daeth i gydnabyddiaeth â Göethe a Schiller, ac y cyhoeddodd ei *Investigations on the Muscles and Nerve-fibres*, &c., ac *On Subterranean Gases*—dau waith bychan a fuasent eu hunain yn sier-

Awst 19eg, hwyliodd y teithwyr mewn cwch hyd y Manzanares tua gorynys Araya. Glaniasant tuag wyth o'r gloch y boreu, a gwnaethant ymchwiliad i'r gweithiau halen, ac i ansawdd ddaearegol y lle. Tua therfyn y dydd, hwyliasant tua bwthyn Indiaidd, rai milldiroedd o ffordd. Mewn llwybr cul, rhwng cadwen o greigiau serth a danneddog a'r môr, daeth y nos ar eu gwarthaf. Wedi cyrhaedd godrau hen gastell Araya, yr oeddynt yn awyddus am sylwi ar fachludiad y blaned Gwener; ond yr oedd eu harweinydd yn diffygio gan syched, a chrefai arnynt ddychwelyd, trwy ddarogan dywalgwn, a nadroedd cynffondrwst. Wedi cerdded yn mlaen am o ddeutu tri chwarter awr, ymunwyd â hwy gan y negro oedd yn cludo eu hymborth, yr hwn a'u harweiniodd drwy lwyn o blanhigion a elwir *nopal*, at fwthyn Indiad, lle y derbyniwyd hwy gyda chroesaw mawr. Y mae golud preswylwyr y llanerch hwn yn gynnwysedig yn benaf o eifr mawrion, o liw llwyd-felyn. Yn mhlith y rhan felynddu o'r trigolion, yr oedd crydd Yspaenaidd, yr hwn a dderbyniodd y teithwyr gydag agwedd o ddifrifwch a phwysigrwydd mawr. Wedi eu difyru âg arddangosiad ysblenydd o'i wybodaeth, gorfododd hwy i dderbyn nifer o berlau bychain, gan ddymuno arnynt gofnodi ar eu tabledau, "fod crydd tlawd o Araya, ond dyn gwyn, ac o haniad Castilaidd pendefigaidd, yn alluog i roddi iddynt yr hyn a geisid o'r tu arall i'r môr fel peth o werth mawr." Ar foreu yr 20fed, arweiniwyd y teithwyr gan Indiad ieuangc i bentref Maniquarez.

Un o'r pethau mwyaf hynod yn Araya, yn marn y trigolion ydyw yr hyn a alwant yn *gareg-lygad*. Ystyriant hi yn anifail yn gystal a chareg, a dywedant ei bod yn berffaith sefydlog yn y tywod; ond pan osodir hi ar ddefnydd gloew, megys plât neu ddysgl, y mae yn symmud os symbylir hi â sudd lemon. Pan osodir hi yn y llygad, y mae yn clirio pob peth arall a ddichon fod wedi myned iddo. Cynnygid y ceryg hyn i'r teithwyr gan y trigolion wrth y cannoedd, a dymunent gael rhoddi tywod yn eu llygaid, er rhoddi prawf ar allu meddygol rhyfeddol y gareg-lygad. Ond nid oedd yn ddim amgen, o ran ei natur, na chuddfa (*operculum*), math o bysgodyn cregyn. Wedi gwneyd ymchwiliad i gymmydogaeth Maniquarez hwyliodd y teithwyr, yn y nos, mewn cwch pysgota bychan, yr hwn oedd mor gandryll, fel yr oedd yn rhaid i un fod ar waith o hyd yn taflu y dwfr allan o hono; ond cyrhaeddasant yn ddiogel.

Medi 4ydd, cychwynodd Humboldt a'i gyfaill ar ymgyrch i orsafau cenhadol Indiaidd y Chayma, ac i'r mynyddoedd uchel sydd yn croesi Andalusia Newydd. Yr orsaf genhadol gyntaf yr ymwelsant â hi ydoedd San Fernando. Derbyniwyd hwy gan y mynachod oedd yn arolygu y genhadaeth; neu o'r hyn lleiaf, gan y prif fynach – gŵr siriol a chorphorol—yn bur garedig. Eisteddai ef y rhan fwyaf o'r dydd mewn cadair ddwyfraich, a chwynai yn aruthr yn erbyn diogi y trigolion. Ystyriai orchwyl y teithwyr yn ffolineb, gwenai wrth edrych ar eu hofferynau a'u planhigion sychedig; a dywedai, nad oedd yn mysg holl bleserau bywyd, gyda'r eithriad o gysgu, ddim y gellid ei gymmharu â'r pleser o fwyta *beef* da. Yn mhentref Arenas, yr hwn a breswylir gan Indiaid o'r un dosbarth a'r eiddo San Fernando, daeth y teithwyr o hyd i labrwr, Francisco Loyana, yr hwn y buasai plentyn yn sugno llaeth o'i ddwyfronau. Dygwyddai y fam fod yn glaf, a chymmerodd y tad y plentyn ac a'i gwasgodd at ei fynwes, pryd y parodd y symbyliad a achosir gan sugniad y plentyn i laeth lifo o un o'i fronau. Gwelodd Humboldt a'i gyfaill dystysgrif a wnaethid gan y trigolion pan gymmerodd y dygwyddiad le; a gwnaeth Bonpland ymchwiliad i'w fronau, a chafodd hwy yn grychedig fel yr eiddo gwragedd. Y mae Alexander Benedictus yn nodi ffaith o'r un natur am un o'r Syriaid; ac y mae teithwyr ereill wedi rhoddi esamplau cyffelyb. Gan ddychwelyd tua Cumana, galwasant yn Cumanacoa; ac oddi yno, ar y 12fed, aethant tua Caripe, yr hon yw prif orsaf genhadol y Chayma, gan alw yn San Antonis, gorsaf genhadol arall. Er fod mynachod Caripe yn deall mai Protestant oedd Humboldt, derbyniasant ef gyda'r caredigrwydd mwyaf, a gwnaethant yr hyn oedd yn eu gallu i hwyluso ei ymchwiliadau. Medi 22ain, bu raid iddynt ymadael o'u hanfodd o'r llanerch brydferth a dyddorol hon, o blegid prinder bara a gwin eu llettywyr. Wedi teithio am bell o ffordd, gwelsant gwmni o Indiaid noethion yn teithio tua mynyddoedd Caripe. Yr oedd y dynion wedi eu harfogi â bwäau a saethau, a'u gwragedd o dan feichiau trymion yn cerdded o'r tu ol. Cerddent mewn distawrwydd, â'u llygaid tua'r ddaear. Yr oedd ein teithwyr yn mron diffygio gan y gwres a'u blinder, a holasant yr Indiaid o barth i'w pellder o Vera Cruz, lle y bwriadent dreulio y nos. Ond nid oeddynt yn ddigon hyddysg yn yr Yspaenaeg i'w cyfarwyddo. Cyrhaeddasant Vera Cruz yn yr hwyr; a'r dydd canlynol, aethant yn mlaen tua Chulfor Cariaco. Ar eu ffordd yno, treiddiasant goedwig anferth, a daethant at orsaf genhadol Catuaro mewn llanerch gwyllt, a llettyasant yn nhŷ yr offeiriad – dyn bychan, teneu, pert; yr hwn a gwynai yn ddiddiwedd yn nghylch ymrafael cyfreithiol oedd rhyngddo â phrif fynach yr orsaf, a'r hwn a ofynai farn Humboldt ar ewyllys rydd, ac eneidiau anifeiliaid. Yma, cyfarfuasant â phrif swyddog (*corregidor*) y gymmydogaeth, yr hwn a roddodd dri Indiad at eu gwasanaeth i dori y canghenau a'r dyrysni oedd ar eu ffordd drwy y goedwig. Ond mynai y cenadwr bychan eu dilyn i Cariaco, a llwyddodd i wneyd y daith yn hynod o flin, drwy sylwi ar yr angenrheidrwydd o'r gaethfasnach, drygioni cynhenid negroaid, ynghyd â'r lles yr oeddynt yn ei dderbyn drwy fod yn ddarostyngedig i Gristionogion!

Cawsant fod y rhan fwyaf o drigolion Cariaco yn eu gwelyau, yn dioddef oddi wrth dwymyn, a barnasant yn oreu iddynt ymadael cyn gynted ag oedd yn bossibl. Hwyliasant yn foreu y diwrnod canlynol mewn cwch (*canoe*) ar yr afon Carenicuar. Yr oedd y gwynt gymmaint yn eu herbyn fel y bu raid iddynt lanio yn Pericantral; ond yn yr hwyr hwyliasant eilwaith, a chyrhaeddasant Cumana y dydd canlynol.

Treuliodd y teithwyr fis yn hwy yn Cumana. Gan eu bod wedi penderfynu cymmeryd taith i fyny yr Orinoco a'r Rio Negro, a chan mai eu prif neges ar y daith hon ydoedd penderfynu sefyllfa lleoedd yn eu cyssylltiad â'r ser, yr oedd yn fantais iddynt aros yn Cumana i weled diffyg ar yr haul oedd i ddygwydd yn niwedd Hydref. Ar y 18fed o Dachwedd, cymmerasant eu taith fwriadedig mewn cwch oedd yn hwylio rhwng y glanau hyn ac Ynysoedd yr India Orllewinol. Gan groesi y môr i La Guayra, treuliasant ddau fis yn Caraccas, ac yna teithiasant y Llanos, neu wastadeddau mawrion, hyd enau yr Orinoco.

Digitized by Google

"Yn mhlith y lliaws gwrthddrychau rhyfedd a welais," medd Humboldt, "yn ystod fy nheithiau, addefaf nad oedd nemawr a effeithient yn y fath fodd ar fy nychymmyg a Phren y Fuwch, fel ei gelwir." Gwelodd y teithwyr ef gyntaf yn agos i Porto Cabello. "Yn ochr losgedig craig, tŷf pren gyda dail sychion, lledrog, â'i wraidd dirfawr prin yn treiddio y ddaear. Am amryw fisoedd o'r flwyddyn, nid oes gymmaint a chawod i feddalu ei ddail; y mae ei ganghenau yn edrych yn feirw a chrin; ond pan dyllir ei foncyff, rhed llaeth tyner a maethlawn o hono. Gyda'r wawr y rhed y ffrwd yn fwyaf rhydd. Y pryd hyny, gwelir y negroaid a'r brodorion yn dynesu o bob cyfeiriad gyda chwpanau mawrion i dderbyn y llaeth, yr hwn sydd yn myned yn felyn a thew ar y wyneb. Y mae rhai yn gwaghau eu llestri yn y lle, tra y mae ereill yn eu cludo i'w plant." Yn mhen pum niwrnod neu chwech, y mae y llaeth yn suro, ac yna yn pydru. Pan edrychir ar hyn i gyd ynglŷn â'r ffaith ein bod o'n mebyd i fyny yn arfer cyssylltu y syniad o gynnyrchiad llaeth â ffurfiad cyfansoddiadol cig a gwaed, nid rhyfedd fod y teithwyr wedi eu synu i'r fath raddau ar ddarganfyddiad y pren hwn. Treuliai y teithwyr y rhan fwyaf o'u nosweithiau ar y daith hon yn yr awyr agored; weithiau mewn gwelyau (*hammocks*) crogedig wrth goed, weithiau ar gefnau eu meirch, ac waith arall mewn cychod bychain. Dioddefasant lawer oddi wrth newyn, a syched, a'r hinsawdd—weithiau yn mron rhynu gan anwyd, a phryd arall yn mron diffygio gan y gwres. Yn ngogleddbarth y Llanos, wedi treulio dwy noson ar eu meirch, ac yn teimlo yn dost oddi wrth syched, daethant at amaethdy a elwid El Cayman, yn cael ei amgylchu gan amryw fwthynod bychain oedd yn orchuddiedig â hesg a chrwyn. Yr oedd meistr y ffarm yn absennol, a gofal y lle ar y pryd yn nwylaw hen negro, yr hwn a soniai yn barhaus am fuchesau yn eu meddiant yn rhifo miloedd o wartheg; ond gwrthodai roddi un dyferyn o laeth, a bu raid i'r teithwyr sychedig ymfoddloni ar ddwfr lleidiog a drewllyd, yr hwn y llwyddasant i'w yfed wedi ei dywallt drwy lian. Wedi i'r meirch gael eu rhyddhau, aethant hwythau i chwilio am ddwfr; a chan eu dilyn, daeth y teithwyr at gronfa o ddwfr da, yn cael ei amgylchu gan balmwydd. Yn orchuddiedig gan lwch, ac wedi eu llosgi gan wynt tywodlyd y gwastadeddau, ymdaflasant i'r dwfr; ond prin y cawsant ddechreu ymddifyru yn lledorwedd yn y dwfr cyn i grocodil ddechreu trystio yn y llaid yn eu hymyl, a'u gyru ar ffo yn bendramwnwgl. Daliwyd hwy gan y tywyllwch, collasant eu ffordd, a bu raid iddynt dreulio y nos yn eistedd dan balmwydden.

Wedi cyrhaedd Calabozo, yn nghanol y Llanos, derbyniwyd y teithwyr yn hynod o groesawgar gan Don Miguel Cousin, gweinyddwr (*administrator*) y Real Hacienda. Y mae cyfoeth y trigolion yn gynnwysedig, gan mwyaf, o wartheg, o'r rhai yr oedd 98,000 yn y porfeydd cymmydogaethol. Cyfrifai M. Depons fod yn y gwastadeddau hyn, o enau yr Orinoco hyd Lyn Maracaybo, 1,200,000 o ychain, 180,000 o geffylau, a 90,000 o fulod; ac yn y Pampas, yn Buenos Ayres, dywedir fod 12,000,000 o wartheg, a 3,000,000 o geffylau, heb gymmeryd i'r cyfrif geffylau a gwartheg sydd heb berchenog. Dywed Humboldt, ein bod wrth glywed am y nifer aruthrol sydd o wartheg yn Neheubarth America, yn anghofio y ffaith fod yn Ffraingc gynnifer a 6,000,000; ac yn Awstria o ddeutu 13,400,000 o wartheg. Tra yn aros yn Calabozo, gwnaeth Humboldt brawfiadau ar y llysywen drydanol [Gwel TRYDANIAETH]. Gadawsant Calabozo Mawrth 24ain; ac ar y 26ain y cyrhaeddasant derfyn eu taith dros y Llanos, yn San Fernando. Saif y dref hon ar yr Apure—afon sydd yn rhedeg i'r Orinoco.

Hwyliodd y teithwyr o San Fernando i lawr yr Apure, tua'r Orinoco, Mawrth 30ain. Cludid hwy mewn cwch, gyda phedwar o Indiaid yn llywiedyddion. Hefyd, yr oedd gyda hwy Don Nicolas Sopo, brawd yn nghyfraith llywodraethwr y diriogaeth. Gwnaed caban yn y rhan ol i'r cwch, digon o faint i gynnwys bwrdd, a meingciau wedi eu gorchuddio â dail y corypha. Cymmerasant gyda hwy ddigon o ymborth am fis, ynghyd â chelfi pysgota, arfau tân, a chasgeidiau o frandi, i gyfnewid â'r brodorion. Yr oedd yr afon islaw Diamante o ddeutu 320 llath o led, ac ar ei glanau yr oedd gwrychoedd o *sauso*, yn llawn adwyau, lle y gwelent deigrod, *pecariaid*, a *thapiriaid* yn yfed, ac yn rhodio yn bwyllog yn ol a blaen. Pan yr oedd y llanerch yn fanteisiol i hyny, gwelent hefyd yn fynych liaws o grocodiliaid yn gwmniau o wyth i ddeg, ac o bymtheg i bum troedfedd ar hugain o hyd, yn ymestyn yn dawel ar y tywod, â'u safnau yn agored. Dywedai yr Indiaid wrth y teithwyr nad oedd prin flwyddyn yn myned heibio heb i dri neu bedwar o bersonau gael eu boddi ganddynt. Dywedent hanes geneth ieuangc o Urituco, yr hon a gludwyd gan grocodil i'r dwfr. Yr oedd ganddi ddigon o bresennoldeb meddwl i deimlo am lygaid y bwystfil, a gwthio ei bysedd iddynt, pryd y gollyngodd hi yn rhydd, wedi tori ymaith ei llaw chwith. Ac er colli llawer o waed, bu yn alluog i gyrhaedd y lan drwy nofio â'i llaw dde. Gan aros islaw genau y Cano de la Tigrera, mewn dyblygiad yn yr afon a elwir La Vuelta del Joval, mesurodd Humboldt gyflymder yr afon yn ymyl y wyneb; ac yma amgylchwyd hwy gan haid o'r creaduriaid a elwir *chiguire*, y rhai a nofient fel cŵn, â'u penau o'r dwfr; ac ychydig yn is, gwelent deigr anferth yn gorwedd dan gysgod pren, ac yn bwyta *chiguire*. Yr oedd newydd ei ladd, tra yr oedd heidiau o fwlturod yn hofran o'i amgylch. I'r dyben o ddeall eu harferion yn well, aeth y teithwyr i gwch bychan, pryd y ciliodd teyrn y goedwig tu draw i'r gwrych *sauso*, gan adael ei ysglyfaeth ar ei ol, yr hwn y dechreuodd y fwlturod ei fwyta yn y fan. Ond buan y gyrwyd hwy i ffoi gan ruthriad y teigr i'w plith. Treuliodd y teithwyr y nos yn yr awyr agored mewn planhigfa. Gyda hwy yr oedd perchenog y blanhigfa—heliwr teigrod, hanner noeth, a lled ddu—yr hwn a ymorchestai yn ei haniad Ewropaidd, ac hefyd ei wraig Donna Isabella, a'i ferch Donna Manuela, y rhai oeddynt cyn noethed a dued ag yntau. Daethai Humboldt â *chiguire* gydag ef; ond sicrhaodd ei lettywr wrtho fod bwyd felly yn hollol anghymmhwys i foneddigion gwynion fel hwy; ac ar yr un pryd rhoddai iddynt gig carw. Gan nad oedd gan y gŵr rhagorol hwn dŷ na bwthyn o un math, gwahoddodd y dieithriaid i grogi eu hamogau yn ymyl yr eiddo ef, rhwng dau bren; a chawsant eu gwlychu at y croen gan gawod drom mewn canlyniad. Yr oedd cath Donna Isabella wedi myned i gysgu mewn pren, ond syrthiodd i fwthyn islaw; preswylydd yr hwn a waeddai yn ddychrynllyd fod bwystfil gwyllt yn ei fwyta. Gyda'r wawr, ffarweliodd y teithwyr

Digitized by Google

thybia nad oes un esampl cywir o fod ei yn adnabod ei feistr mewn darlun cyflawn ohono.

Cynnygiodd cenadwr Atures a Maypures ddilyn y teithwyr hyd gyffiniau Brazil, a gwnaethant eu hunain yn barod i'r daith. Yr oedd dau Indiad i fyned gyda hwynt, y rhai a gadwynwyd y noswaith cyn cychwyn rhag iddynt ddiange. Ar foreu y 10fed, hwyliodd y cwmni ymaith. Glaniasant yn Carichana, gorsaf genhadol; yn mhlith Indiaid pa le cawsant hyd i wraig, chwaer i Jesuit, o New Grenada. Cafodd y teithwyr bleser mawr wrth ymddiddan â hi, gan nad oedd angen am drydydd person i gyfieithu. Yr oedd cyfieithwyr yn dilyn y teithwyr yn eu holl ymgyrchion; ond yr oeddynt mor hurt ac anwybodus—er yn llai felly nag Indiaid yn gyffredin—fel nad oedd braidd ddim i'w gael ganddynt heb law, "ie," neu "nage." Weithiau, wrth geisio amlygu ei feddwl i'r Indiaid, dewisai Humboldt arfer arwyddion—dull y mae yn ei gymmhell i deithwyr, gan fod yr amrywiaeth tafodau a siaredir ar y Meta, yr Orinoco, y Casiquiare, a'r Rio Negro, mor fawr fel nas gallai neb wneyd ei hun yn ddealladwy ynddynt oll. O amgylch Carichana, casglodd Humboldt amryw ffeithiau daearegol pwysig; a chafodd Bonpland nifer o ddosbarthiadau newyddion o blanhigion. Wedi gadael Carichana, cawsant yr afon yn fwyfwy anhawdd ei theithio gan liosogrwydd y creigiau. Yn ymyl rhaiadr Cariven yr oedd rhediad yr afon mor gyflym fel nas gallent lanio hyd nes y nofiodd dau o'r Indiaid i'r lan, gan dynu y cwch ar eu holau gyda rhaff. Cysgasant ar graig ithfaen, oddi ar yr hon y clywsant sŵn tanddaearol, fel chwareuad organ; ffaith sydd wedi ei chofnodi am greigiau ereill mewn gwahanol fanau; ond nid ydyw yr achos o'r sŵn hwn hyd yma yn hollol eglur. Gyda llawer o anhawsder, gan y creigiau, a chyflymder rhediad yr afon, cyrhaeddasant enau y Meta, yr hon, yn nesaf i'r Guaviare, ydyw yr afon fwyaf sydd yn ymuno â'r Orinoco. Treuliasant ddwy awr ar graig fawr yn nghanol yr Orinoco, lle y penderfynodd Humboldt hydred genau y Meta—afon a fydd ryw ddiwrnod o gryn bwys gwleidyddol i breswylwyr Guiana a Venezuela, gan fod modd ei theithio hyd odrau Andes New Grenada. Prydnawn yr un diwrnod, cyrhaeddasant y *Rapids of Tabaje*. Gan nad anturiai yr Indiaid heibio iddynt yn y cwch, bu raid iddynt lanio, a gorphwys ar ddibyn serth, â'i rigolion yn llawn ystlumod. Clywid rhuadau y teigr drwy y nos; yr oedd yr awyr fel y fagddu; ac ymunai trwst dirfawr y rhaiadr â chrochlais y taranau i chwanegu at ofnadwyaeth noswaith ofnadwy iawn. Yn foreu dranoeth, cyrhaeddasant San Borja, lle y cawsant chwech o dai yn cael eu preswylio gan Indiaid gwylltion; ond nid oeddynt wedi eu paentio, ac yr oedd gan amryw o honynt farfau, o'r rhai yr ymddangosent yn bur falch. Cymmerasant y teithwyr gerfydd eu gen, gan ddangos drwy arwyddion eu bod fel hwy eu hunain. Gan ddilyn eu taith, treuliasant y nos ar lan yr afon; ond poenid hwy i'r fath raddau gan wybed a *mosquitoes*, fel y bu raid iddynt ymadael am bump boreu dranoeth. Gan fyned heibio i enau y Rio Parueni, cysgasant ar yr ynys Panumana. Prydnawn dranoeth, cyrhaeddasant yr *Orinoco Cataracts*, lle y gwnaethant amryw ymchwiliadau daearyddol, daearegol, fferyllol, &c., i sefyllfa a tharddiad y rhaiadrau, i natur a ffurfiad y creigiau, ac i ansawdd y dwfr a'r awyr, &c.

Wedi treulio rhai dyddiau yn y lle hwn, hwyliodd y teithwyr tua Maypures, lle y treuliasant dridiau, gan wneyd ymchwiliad i'r gymmydogaeth, y rhaiadrau, hydred a lledred y lle, a thymmeredd yr awyr, &c.; ac yna aethant yn mlaen, a glaniasant yn ngenau y Rio Vichada i edrych y planhigion. Cysgasant y nos ar lanau yr Orinoco, yn ymyl genau y Zama. Dri o'r gloch boreu dranoeth, aethant yn mlaen; a thua hanner nos glaniasant yn San Fernando de Atabapo, lle yr ymgyferfydd yr afonydd Atabapo, yr Orinoco, a'r Guaviare, a lle y derbyniwyd hwy gyda'r caredigrwydd mwyaf. Yma, dechreuasant deithio y Rio Atabapo; ac ar y 26ain, treuliasant y nos ar ben craig, o ddeutu deng milldir i fyny yr afon, ger planhigfeydd Indiaidd Guapasoso. Dau o'r gloch y boreu, cychwynasant drachefn; ac ar y 29ain, cyrhaeddasant San Baltasar, lle y lletyasant am y nos; a thranoeth, wedi esgyn yr Atabapo am bum milldir, daethant i'r afon Rio Temi. Cyrhaeddasant San Antonio de Javita, lle y treuliasant agos i wythnos, tra y cludai yr Indiaid y cwch dros y tir i'r Rio Negro.

Ar y 5ed o Fai, cychwynodd y teithwyr ar eu traed ar ol eu cwch. Yr oedd yn rhaid iddynt rydio llawer o afonydd, yr hyn oedd yn dra pheryglus ar gyfrif y lliaws nadroedd sydd yn y morfeydd. Wedi cerdded drwy fforestydd tewion o goed talgryf, gan ddarganfod amryw fathau o goed a phlanhigion newyddion, cyrhaeddasant amaethdy bychan, ar lan yr afon Pimichin, lle y treuliasant y noswaith mewn hen fwthyn adfeiliedig a gwag, mewn perygl i gael eu brathu gan nadroedd, gan fod yn rhaid iddynt gysgu ar lawr. Cyn myned i'r bwthyn, yr oedd eu canlyn yr newydd ladd dwy neidr fawr; ac yn y boreu cafwyd gwiber fawr o dan y croen teigr yr oedd un o honynt yn cysgu arno. Dranoeth teithiasant yn mlaen ar hyd y Pimichin, ac yn mhen pedair awr a hanner cyrhaeddasant y Rio Negro. "Yr oedd y boreu," medd Humboldt, "yn dawel a phrydferth: yr oeddym wedi bod yn gaethiwus am un ar bymtheg ar hugain o ddyddiau mewn cwch cul, mor ansefydlog, fel y dymchwelid ef gan y neb a gyfodai yn sydyn oddi ar ei eisteddle, heb rybuddio y rhwyfwyr i gadw y cwch yn wastad, drwy bwyso tua'r ochr arall. Dioddefasom yn fawr oddi wrth golyniadau gwybed; ond daliasom yr hinsawdd afiachus; aethym heibio i'r holl raiadrau a'r clogyrnau sydd yn attal mordwyad yr afonydd, ac yn eu gwneyd yn fynych yn fwy peryglus na theithiau hirfaith ar y môr. Wedi y cwbl a ddioddefasom, fe oddefir i mi grybwyll y boddhâd a deimlem mewn cyrhaedd ffrydlifoedd yr Amazon, ac mewn cyrhaedd sierwydd y gallem gyflawni dyben pwysicaf ein taith—penderfynu drwy sylwadau seryddol gwrs y gangen hono o'r Orinoco sydd yn ymuno â'r Rio Negro, yr hon gangen yr oedd ei bodolaeth wedi ei brofi a'i wadu bob yn ail am hanner canrif."

Ystyriai yr Yspaeniaid y Rio Negro, yr hon sydd yn llifo i'r Amazon tua'r dwyrain, o bwys gwleidyddol mawr, gan y gallai y Portugiaid deithio ar hyd-ddi yn rhwydd i genadaethau Guiana. Yr oedd cenfigen y ddwy genedl ymrysongar hyn, anwybodaeth ac amrywiaeth ieithoedd yr Indiaid, yr anhawsder i deithio i'r parthau yn-nhirol hyn, ynghyd âg amryw achosion ereill, yn peri fod gwybodaeth am darddiad, yn gystal a ffrydlifoedd y Rio Negro a'r Orinoco yn dra diffygiol. Ceisio taflu rhyw gymmaint o oleuni ar y pwynt daearyddol hwn, ac yn enwedig penderfynu cwrs y gangen hon o'r Orinoco, sydd

Digitized by Google

yn ymuno â'r Rio Negro, ydoedd dyben mawr y daith hon o eiddo Humboldt. Wedi dechreu teithio y Rio Negro, daeth y teithwyr yn fuan at genhadaeth Maroa, yn cynnwys cant a hanner o Indiaid, lle y prynasant luniaeth. Wedi hyny, galwasant yn nghenadaethau Davipe, lle y derbyniwyd hwy yn groesawgar gan y cenadwr, a lle y prynasant ednogion, a mochyn, yr hwn a effeithiai yn y fath fodd ar eu gweision fel y pwysent arnynt i ymadael fel y gallent gyrhaedd Ynys Dapa i'w rostio. Wedi cyrhaedd yr ynys, cysgodd y teithwyr mewn bwthyn yn mhlith pedwar ar ddeg o Indiaid. Gan ddilyn eu taith ar y Rio Negro, aethant heibio genau y Casiquiare—yr afon sydd yn cyssylltu y flaenaf â'r Orinoco; a thua'r hwyr cyrhaeddasant genhadaeth San Carlos de Rio Negro, gyda llywodraethwr yr hon y llettyasant. Treuliasant dri diwrnod yn San Carlos, gan wylio y rhan fwyaf o bob nos, gyda'r gobaith o weled seren yn croesi y canolgylch (*meridian*); ond yr oedd yr awyrgylch yn orchuddiedig yn barhaus gan darth. Ar y 10fed o Fai, hwyliodd y teithwyr drachefn i fyny y Rio Negro. Gan fyned rhwng yr ynysoedd Zaruma a Mibita, ac esgyn *rapids* y Piedra de Vinumane, aethant i'r Casiquiare, o ddeutu naw milldir a hanner o San Carlos. Treuliwyd y nos yn nghenadaeth San Francisco Solana, ar lan y Casiquiare. Drannoeth, gadawsant San Francisco Solano; ac ychydig yn uwch i fyny yr afon penderfynodd Humboldt yr hydred a'r lledred. Yr oedd hyn o bwys mawr mewn ystyr wleidyddol a daearyddol, gan fod yr anghywirdeb mwyaf mewn mapiau; a'i fod yn syniad cyffredin mai y cyhydedd oedd y terfyn rhwng meddiannau Portugal ac Yspaen. Yn nghenadaeth Mandavaca, gwelsant fynach, yr hwn a dreuliasai ugain mlynedd yn y wlad, a'r hwn yr oedd ei goesau wedi eu hystaenio i'r fath raddau gan wenwyniadau gwibed, fel mai prin y gellid canfod gwynder y croen. Cwynai yn fawr o blegid ei unigrwydd, a'r angenrheidrwydd alaethus yr oedd dano i adael y troseddau mwyaf anfad yn ddigosp. Dywedai fod llywiawdwr neu arolygwr (*alcayde*) brodorol, ychydig flynyddoedd yn ol, wedi bwyta un o'i wragedd,[1] ar ol ei thewychu â phorthiant da. Teithiwyd y Casiquiare am saith niwrnod yn hwy; ac ar y seithfed dydd, daethant eilwaith i sianel yr Orinoco.[2] Yr oedd ganddynt etto daith o 863 o filldiroedd cyn cyrhaedd Angostura, prif ddinas Guiana, y ffordd y bwriadent ddychwelyd i Cumana.

Yn agos i'r lle y mae yr afon yn ymranu, y mae y genhadaeth Gristionogol bellaf, a mwyaf unigol ar yr Orinoco, sef Esmeralda, yn cynnwys pedwar ugain o drigolion. Derbyniwyd y teithwyr yn y lle hwn yn garedig gan hen swyddog Yspaenaidd. Prif gig y preswylwyr ydoedd cig mwngci, yr hwn sydd mor arswydus o debyg, wedi ei rostio, i blentyn, fel y mae Ewropiaid, medd Humboldt, pan orfodir hwy i fwyta y cig hwn, yn tori ymaith y pen a'r pawenau rhag edrych arnynt. Ar y 23ain o Fai, gadawodd y teithwyr Esmeralda mewn sefyllfa o wendid ac afiechyd, gan ddiffyg ymborth priodol, a brathiadau y gwybed, ac o blegid cyflawni taith mor hir mewn cwch cul a llaith. Nid anturiasant esgyn yr Orinoco hyd ei tharddiad, gan fod y wlad uwch law y genhadaeth hon yn cael ei phreswylio gan Indiaid ymladdgar; ac o ganlyniad, bu raid iddynt ymfoddloni ar benderfynu natur ymgyssylltiad yr afon â'r Rio Negro. Wedi pedair awr o deithio i lawr yr afon, daethant at ei hymraniad, a gorphwysasant ar lanau y Casiquiare—lle, ychydig ddyddiau o'r blaen, y lladdasid eu ci gan y teigrod. Ar y 27ain o Fai, cyrhaeddasant San Fernando de Atabapo. Yn ystod y mis a aethai heibio er pan y llettyodd y teithwyr yma o'r blaen, yr oedd llywydd y lle wedi bod yn hynod o anesmwyth ynghylch dyben eu taith, a gofynai i Humboldt adael ar ei ol dystiolaeth ysgrifenedig o drefnusrwydd cenhadaethau yr Orinoco, a'r tynerwch a arferid tuag at y brodorion; ond gwrthodai Humboldt wneyd hyn. Ar yr 31ain, glaniasant yn Puerto de la Expedicion, gyda'r amcan o ymweled âg ogof Ataruipe, yr hon sydd yn ffurfio beddrod cenedl sydd wedi llwyr ddarfod. Yn y beddrod hwn, cawsant gynnifer a 600 o ysgerbydau mewn sefyllfa dda. Yr oedd pob asgwrn yn gyfan, ac yn ei le ei hun. Parotoasid yr ysgerbydau mewn tair o wahanol ffyrdd; drwy eu gwynu yn ngwres yr haul, drwy eu lliwio yn goch â defnydd a geir o'r planhigyn a elwir *bixa orellana*, neu drwy eu gorchuddio, fel *mummies*, âg ystor perarogliaidd, a'u hamgylchu â dail *heliconia* a *banana*. Dywedai yr Indiaid fod pob corph yn gyntaf yn cael ei gladdu yn y ddaear hyd nes y pydro y cnawd. Rai misoedd yn ddiweddarach, tynir ef allan, ac os bydd cnawd yn aros, crafir ef ymaith a cheryg miniog. Er dychryn mawr i'r brodorion oedd yn eu harwain, agorodd y teithwyr rai o'r basgedau oedd yn cynnwys yr ysgerbydau hyn, i'r dyben o chwilio yn fwy manwl pa beth oedd ffurf y penglogau. Cymmerasant amryw benglogau gyda hwy, ynghyd âg ysgerbydau plentyn chwech neu saith oed, a dau ddyn wedi tyfu i fyny. Yn gwybod am y gwrthwynebiad otergoelus sydd gan yr Indiaid at gyrph meirw, paciasant yr esgyrn hyn yn ofalus mewn basgedau wedi eu gorchuddio â matiau newyddion. Ond yr oedd treiddgarwch a gallu arogliadol anghyffredin yr Indiaid yn rhy drech iddynt; aroglent yr ystor oedd yn nglŷn â'r esgyrn yn mha le bynag yr arosent: yn nghenhadaethau y Carib, yn nghanol y Llanos, a rhwng Angostura a Barcelona Newydd, ymgasglai y brodorion o amgylch eu mulod i edmygu y mwngciau a ddygasant gyda hwy. "Prin y cyffyrddasai y bobl dda hyn â'u paciau," medd Humboldt, "na phrophwydent farwolaeth ebrwydd y mulod oedd yn cludo y meirw." Wedi aros yn Atures am gymmaint o amser ag oedd yn angenrheidiol i gludo eu cwch heibio y rhaiadrau, aeth y teithwyr yn mlaen i Carichana, lle y derbyniwyd hwy yn groesawgar. Oddi yno cyrhaeddasant yn mhen deuddydd i Uruana; yr hon genhadaeth a breswylir gan yr Otomac-

[1] Yr oedd Humboldt wedi ei sicrhau cyn hyn fod llawer o Indiaid yn bwyta cig dynol, yn enwedig yr eiddo eu gelynion. Yr oedd gan y teithwyr un Indiad ffoedig o Guaisia yn eu cwch, yr hwn a ddaeth mewn amser yn ddigon gwareiddiedig i fod yn bur wasanaethgar. Yr oedd ganddynt awydd i'w gymmeryd i'w gwasanaeth, ond gwelsant fod ei dueddiadau dynfwytaol yn aros fyth, a rhoddasant y bwriad i fyny. Dywedai fod ei berthynasau ef yn dewis cledr y llaw ddynol o flaen unrhyw ran arall: ac wrth ddweyd hyny, gwisgai agwedd o awydd barbaraidd am law dyn ar y pryd.

[2] Y mae yr afon hon, wedi ffrydio o'r mynydd i wastadedd sydd yn terfynu yn ymyl y Rio Negro, yn ymranu yn ddwy gangen. Rhed y brif gangen yn mlaen tua'r gorllewin ogledd-orllewin, gan droi o amgylch mynyddoedd y Parime; tra y mae y gangen arall yn llifo tua'r deheu, ac yn ymuno â'r Rio Negro. Ar hyd y gangen olaf yr esgynodd y teithwyr o'r Rio Negro, ac y daethant eilwaith i'r Orinoco, bedair wythnos wedi ei gadael yn agos i enau y Guaviare.

Digitized by Google

iaid – un o'r tylwythau mwyaf anwaraidd o'r Indiaid. Llyngcant symiau o bridd i'r dyben o liniaru eu newyn. Pan y bydd dyfroedd yr afon yn isel, y maent yn byw ar bysgod a chrwbanod; ond pan chwydda yr afon, y mae y bwyd hwnw yn dyfod yn brin iawn, ac y maent yn bwyta yn ddyddiol swm mawr o glai. Cafodd y teithwyr bentyrau pigfain o hono yn eu bythynod, wedi ei wneyd yn belenau crynion.

Mehefin 7fed, gadawodd y teithwyr y lle hwn; ac yn mhen naw niwrnod cyrhaeddasant Angostura, pellder o 328 o filldiroedd o Uruana. Ar eu dyfodiad i Angostura, aethant yn ebrwydd at Don Felipe de Ynciarte, llywodraethwr Guiana, yr hwn a'u derbyniodd yn bur foneddigaidd. Parodd amgylchiad gofidus iddynt dreulio mis cyfan yn y lle hwn. Ychydig ddyddiau wedi cyrhaedd yno, ymosodwyd ar y ddau gan anhwylder; yr hwn, yn M. Bonpland, a gymmerodd y ffurf o dwymyn wanychol. Dywedid ei fod wedi marw ar y nawfed dydd: ond nid oedd ond wedi syrthio i ddideimladrwydd, yn yr hon sefyllfa y bu am lawer o oriau; ac wedi hyny dechreuodd adfywio. Dioddefodd Humboldt yn dost am un diwrnod; ond wedi iddo gymmeryd cymmysgedd o fêl ac o sudd y *cortex angosturæ*, diangodd yr ail ddydd; ond parhaodd Bonpland mewn sefyllfa lesg a pheryglus am amryw wythnosau. Barnai y teithwyr iddynt dderbyn eu hafiechyd yn nghoedwigoedd lleithion y rhan uchaf o'r Orinoco. O Angostura, teithiodd Humbolt a'i gyfaill ar draws y Llanos i New Barcelona; ac oddi yno aethant mewn llong i Cumana. Derbyniwyd hwy yno mewn llawenydd, gan fod y stori wedi cyrhaedd y lle ychydig cyn hyny eu bod wedi dioddef marwolaeth ar yr Orinoco.

Wedi treulio o ddeutu dau fis yn Cumana, gan orphen eu hymchwiliadau seryddol, ac i ddaeareg a phlanhigion y gymmydogaeth, cychwynasant ar yr 16eg o Ragfyr i Havannah, prif ddinas Cuba, lle y preswyliasant hyd Mawrth, 1801, gan wneyd ymchwiliadau i ansawdd yr ynys—ei phoblogaeth, ei hinsawdd, a'i chynnyrchion. O Cuba aeth y teithwyr yn ol tua Deheubarth America, gan dreulio chwe diwrnod yn Carthagena i wneyd ymchwiliadau i hinsawdd a phlanhigion y lle; a lle y cawsant amryw ddosbeirth o goed mawrion oedd cyn hyny yn anadnabyddus; ac hefyd, yn enwedig yn nghymmydogaeth Turbaco, nadroedd mor liosog fel yr ymlidient y llygod ffreinig i'r tai, a'r ystlumod ar benau y tai; ac ymwelsant â'r chwydfeydd llaid (*mud-volcanoes*) sydd yn enwogi pentref Turbaco. Yna teithiasant yn mlaen mewn cyfeiriad deheuol; nes cyrhaedd Lima, gan groesi yr Andes a'r Cordilleras bum gwaith yn ystod y daith. Dioddefasant lawer ar y daith oddi wrth oerni, gwlybaniaeth, anhygyrchedd y ffordd, &c. Rhwygid eu dillad gan ddrain, ac yn fynych eu hesgidiau gan y pigau a saethent allan oddi wrth wreiddiau coed y bambŵ, fel y gorfodid hwy yn aml i gerdded yn droednoeth. Yr oedd gyda hwy ddigon o ymborth am fis, yr hwn a gludid gan ddeuddeg o ychain, ynghyd â'u hofferynau a'u casgliadau athronyddol. Cysgent fynychaf mewn pebyll gwneuthuredig o ganghenau y coed, wedi eu gorchuddio â dail y *vijao*—pren o ddosbarth y *banana*—y rhai a ddaliant wlawogydd ffyrnig y trofanau am fis heb wlychu y preswylwyr. Treuliwyd yn agos i chwe mis i wneyd ymchwiliadau o wahanol fathau yn y mynyddoedd bythwyn Antisana, Cotopaxi, Tunguragua, Chimborazo, Himmaleh, &c. Esgynasant y tânfynydd Pichincha ddwywaith, lle y gwnaethant brawfiadau i ansawdd yr awyr, &c. Ac yn ystod y daith hon, gwnaethant liaws o ddarganfyddiadau a fuont yn chwanegiadau gwir bwysig at lawer cangen o athroniaeth naturiol, ac yn enwedig mewn daearyddiaeth a goruchionaeth (*meteorology*). Gwel Hinsawdd.

Yn Ebrill, 1803, cyrhaeddasant Mexico; ac yn Ionawr, 1804, gadawsant y wlad hono gyda'r amcan o wneyd ymchwiliadau i New Spain—ynghylch yr hon wlad, er mor ddyddorol a phwysig ydyw, yr oedd llawer o anwybodaeth yn ffynu yn Ewrop; ac yn ei ddarganfyddiadau yno, bu Humboldt o wasanaeth mawr. Yn awyddus am orphen ei ymchwiliadau athronyddol yn Cuba, dychwelodd i'r lle hwnw yr un flwyddyn (1804). Wedi hyny, preswyliasant am ychydig yn yr Unol Daleithiau—yn Washington a Philadelphia—ac yna dychwelasant i Ffrainge, gan gyrhaedd Bordeaux yn Awst, 1804. Treuliodd Humboldt naw mis yn Paris yn trefnu ei ysgrifeniadau; y rhai, ynghyd â'r eiddo Bonpland, y dechreuwyd eu cyhoeddi yn 1807, a'r rhai a ymddangosasant mewn nifer mawr o gyfrolau, dan yr enw *Travels of Humboldt and Bonpland in the Interior of America during* 1799 - 1804. Cynnorthwywyd ef yn nharotoad y gwaith hwn gan amryw athronyddion galluog:—gan Oetmans yn yr adran seryddol; gan Arago a Gay-Lussac yn y fferyllol; gan Cuvier yn y filyddol (*zoological*); a chan Klaproth yn yr oruchionol. Rhenid y gwaith i chwech o ddosbarthiadau, ac ysgrifenwyd ef mewn rhan mewn Lladin, ac mewn rhan yn y Ffrengig. Yr oedd y rhan lysieuol yn unig yn cynnwys ugain o gyfrolau, yn cael ei addurno a 1,200 o ddarluniau. Wedi treulio naw nis yn Paris yn trefnu ei nodiadau, ac yn cynnorthwyo Gay Lussac mewn prawfiadau fferyllol, aeth i breswylio am ychydig amser yn Italy, a Berlin; ac wedi cael caniatad brenin Prwssia dychwelodd i Ffrainge, lle y preswyliodd tra y bu ei weithiau yn cael eu hargraphu.

Yn 1818, ymwelodd Humboldt â Llundain, lle y dymunwyd arno gan y galluoedd Cynghreiriol i ysgrifenu adolygiad ar diriogaethau America Ddeheuol. Yn Tachwedd yr un flwyddyn, caniataodd brenin Prwssia iddo flwydd-dâl o 12,000 o ddoleri, gyda'r amcan o'i gynnorthwyo i ymweled âg Asia, ac yn enwedig mynyddoedd Thibet. Yn 1822, aeth gyda brenin Prwssia i senedd Verona; ac wedi hyny ymwelodd â Venice, Rhufain, a Naples; ac yn 1827—28, yn Berlin, traddododd gyfres o areithiau ar gyfansoddiad anianyddol y glôb, y rhai a wrandawyd gan y teulu brenhinol a'r llys. Yn 1829, ymgymmerodd â thaith bwysig arall i'r mynyddoedd Uraliaidd, cyffiniau China, a'r Môr Caspiaidd. Talwyd costau y daith hon gan Nicholas, ymherawdwr Rwssia, a chynnorthwywyd Humboldt yn ei ymchwiliadau gan Rose ac Ehrenberg. Teithiasant dros 2,320 o filldiroedd; ac yn 1843, yn Paris, cyhoeddodd ffrwyth ei ymchwiliadau o dan yr enw *Central Asia: Researches on its Mountain-chains and Climatology*. Yn 1848, aeth i breswylio yn agos i frenin Prwssia, llys yr hwn y bu yn addurn iddo hyd ei farwolaeth. Yn 1845, dechreuasai ar ei *Cosmos: or, a Physical Description of the Universe*—yr hwn a orphenwyd yn 1851, ac sydd yn dra phoblogaidd yn y Saesneg. Yr oedd yn aelod o agos bob cymdeithas wyddonol yn y byd, ac yn *Grand Officer of the French Legion of Honour*. Bu yn achlysur o sylfaeniad

Digitized by Google

archwilfeydd (*observatories*) gwyddorol yn Prwssia, Rwssia, Awstria, Ffrainge, Prydain, ac America. Drwy ei lafur dirfawr, ennillodd y teitl o ffurfiwr y wyddor o ddaearyddiaeth gymmharíaethol, ac adnewyddwr astudiaeth gwyddoriaeth yn gyffredinol. Bu farw y 7fed o Fai, 1859, yn ddeg a phedwar ugain (o fewn pedwar mis) oed.

HUMTAH: dinas yn llwyth Iudah; sef un o'r rhai hyny oedd yn y mynydd-dir—yr agosaf i Hebron. Nid oedd yn adnabyddus i Eusebius a Jerome, ac nid oes neb hyd yn hyn wedi cael hyd i'w safle. Y mae rhyw debygolrwydd yn yr enw i Kimath, sef un o'r lleoedd a chwanegwyd gan y Deg a Thrigain at y rhestr Hebreaidd sydd yn 1 *Sam.* xxx. 27–31.

**HUNANOL—RWYDD, (hy—un). 1. Arferir y gair *hunan* mewn ystyr priodol, i arwyddo unrhyw berson unigol, ar wahân oddi wrth bawb ereill.** "Ond myfi fy *hunan* yn unig a ddiengais i fynegu i ti;" *Iob* i. 15. Ymwybodolrwydd sydd yn gwneyd dyn yr hyn a eilw ef ei *hunan*. 2. Arferir ef mewn cyssylltiad â rhagenw personol. Fel hyn, er rhoddi pwyslais; "Myfi fy *hunan* a'i hysgrifenodd; a chaiff hi ei *hunan* ei ddarllen." 3. Defnyddir ef i arwyddo unigedd. "Ac efe a adawyd yno ei *hunan*." 4. Arferir ef trwy drawsenwad i arwyddo y duedd gref sydd mewn dyn fel pechadur i'w wneyd ei hun yn amcan mawr ei fodolaeth; neu, mewn geiriau ereill, i wneyd ei hun yn dduw iddo ei hun. "Yr oedd cwymp dyn," medd un awdwr, "yn gwymp oddi wrth Dduw iddo ei hun." O herwydd hyn, disgrifir dynolryw wrth natur fel rhai yn rhoddi eu "serch arnynt eu hunain;" 2 *Tim.* iii. 2:—yn "rhyngu eu bodd eu hunain, yn lle rhyngu bodd Duw;" *Rhuf.* xv. 1:—yn "ceisio eu llesâd eu hunain," heb ofalu dim am lesâd ereill: 1 *Cor.* x. 33:—yn ceisio eu helw eu hunain, yn mhob peth a wnant, a hyny yn fynych ar draul gwneyd cam a cholled i ereill; *Esa.* lvi. 11:—yn "byw iddynt eu hunain," yn lle "byw i Dduw;" 2 *Cor.* v. 15: —yn "gwasanaethu Duw er elw" tymmorol; *Mal.* i. 10. "Hunanolrwydd," medd Dr. Harris, "ydyw ffurf gyffredinol llygredigaeth y natur ddynol: nid ydyw gwahanol bechodau neu droseddau ond gwahanol amlygiadau o hono. Beth yw cybydd-dod, ond hunanolrwydd, yn crafangu ac yn trysori iddo ei hun? Beth yw afradlonrwydd, ond hunanolrwydd yn addurno ac yn boddhau ei hun:—dyn yn aberthu iddo ei hun fel ei dduw ei hun? Pa beth yw diogi, ond y duw hwnw yn cysgu, ac yn gwrthod gwrandaw ar alwadau uchel dyledswydd? A pha beth yw eilunaddoliaeth, ond y duw hwnw yn cael ei addoli:—dyn yn addoli cysgod ei ddelw ei hun? Nid ydyw cnawdolrwydd, ac yn wir holl bechodau y cnawd, yn ddim ond hunanolrwydd yn gosod ei hun uwchlaw cyfraith, ac yn boddhau ei hun yn erbyn pob attalfa. Ac nid ydyw holl bechodau 'r ysbryd ond yn unig yr un egwyddor yn gwrthod cydnabod un bod uwchlaw iddo, na phlygu i unrhyw ewyllys ond ei ewyllys ei hun. Pa beth ydyw hunan-ganmoliaeth, ond hunanolrwydd yn siarad? Neu drosedd, ond hunanolrwydd yn gweithio heb orchudd? Neu ryfel ymosodol, ond hunanolrwydd wedi ymgynghreirio, ymarfogi, ac yn benderfynol o'i ddyrchafu ei hun trwy drais a gwaed? Byddin ymosodol ydyw hunanolrwydd cenedl wedi ymgorphori, ac yn ymsymmud i gyrhaedd ei amcan dros longddrylliadau dedwyddwch a bywyd dynol. 'O ba le y mae rhyfeloedd ac ymladdau yn eich plith chwi? Onid oddi wrth hyn, sef eich meluschwantau y rhai sydd yn rhyfela yn eich aelodau?' A pha beth yw yr holl chwantau drwg hyn, ond yr hunan-gariad pechadurus hwnw nad ydyw yn cydnabod un gyfraith, ac na chymmer ei gaethiwo gan unrhyw ddeddf—yr hunanolrwydd hwnw, yr hwn yw calon llygredigaeth?—a pha beth ond hwn sydd wedi llenwi y byd âg ymrysonau ac ymladdau? Pechod cyntaf yr angylion na chadwasant eu dechreuad, yn gystal a phechod cyntaf dyn—pa beth ydoedd ond hunanolrwydd gwallgof?—ymgais afresymol ac ynfyd i fyned dros y terfynau priodol i'r creadur, i ymosod ar yr orsedd, ac i attafaelu iawnderau y Duwdod. A phe chwiliem i mewn i natur y pechod olaf a gyflawnwyd genym ni, caem allan mai hunanolrwydd mewn rhyw ffurf neu gilydd oedd ei dad. Fel hyn, os cariad oedd egwyddor lywodraethol y greadigaeth ansyrthiedig, y mae yr un mor sicr mai hunanolrwydd yw egwyddor lywodraethol y byd wedi ei anrheithio a'i anffurfio gan bechod. Mae yn amlwg gan hyny mai y *peth mawr* sydd yn eisieu ar y ddynoliaeth yn ei chyflwr syrthiedig ydyw meddyginiaeth i hunanolrwydd—afiechyd heintus ein natur."

Ond y mae gwahaniaeth mawr rhwng hunanolrwydd a hunan-gariad. Mae pob dyn yn ei garu ei hun, ond nid ydyw pob dyn yn hunanol. Mae y dyn hunanol yn ceisio ei les ei hun ar draul niweidio ereill; ond nid ydyw hunan-gariad yn cymmhell dyn i ddim ond gwneyd ei hun mor ddedwydd ag y gall, yn y byd hwn ac yn y byd a ddaw. Wrth geisio hyn, y mae hunan-gariad rhesymol yn fynych yn peri i ddyn ymwadu â mwynhâd presennol, er mwyn mwynhâd helaethach a mwy parhaus yn y dyfodol; ac i ddioddef poen presennol er mwyn gochelyd poen mwy yn y dyfodol. Ond y mae hunan-gariad yn bechadurus, neu yn hunanolrwydd, pan y mae yn 1. Yn ein harwain i ffurfio barn rhy ffafriol am ein beiau ein hunain. 2. Pan y byddwn yn meddwl yn rhy dda am ein cyfiawnder, yn gorbrisio ein gweithredoedd da, ac yn bur yn ein golwg ein hunain. 3. Pan y byddwn yn gorbrisio ein galluoedd, ac yn coledd meddyliau rhy dda am ein gwybodaeth a'n talentau. 4. Pan y byddwn yn falch ac ymffrostgar o bethau bychain, ac yn dueddol i ddiystyru ereill. 5. Pan y byddwn yn gwneyd ein manteision bydol, ein cyfleusderau, neu ein helw yn amcan i'n gweithredoedd. 6. Pan y byddwn yn awyddus am achlysur i siarad am danom ein hunain. Beth bynag fyddo nodweddiad dyn, y mae yn sicr o ddyfod i'r golwg; ac ni wna neb gredu ei air ef ei hun am dano ei hun. Nis gall dim a ddywedwn ein hunain guddio ein gwendidau, na chwanegu at ddisgleirdeb ein rhagoriaethau; ond i'r gwrthwyneb, yn fynych efe a ddengys y cyntaf, ac a guddia yr olaf. Po leiaf a siarado dyn am dano ei hun, mwyaf yn y byd y meddylia ereill am dano; a pho leiaf a glodfora arno ei hun, mwyaf yn y byd o glod a gaiff gan ereill. Y ffordd i ennill anrhydedd ydyw peidio ei geisio; a'r ffordd i'w gadw wedi ei gael ydyw ei roddi i ereill.

**HUNAN-FEDYDDWYR** (*Se-baptists*): rhai yn bedyddio eu hunain. Sect fechan a flurfiwyd yn Lloegr o ddeutu canol yr ail ganrif ar bymtheg, gan John Smith, o Amsterdam. Yr oedd sect fechan hefyd yn Rwssia yn dal yr un golygiadau ag yr oeddynt hwy.

Digitized by Google

HUET, THOMAS. Cantor Mynyw. Cymmerodd ran yn y cyfieithiad o'r Testament Newydd i'r Gymraeg, a argraphwyd gan William Salesbury yn 1567. Y rhan a gyfieithodd efe oedd Llyfr y Datguddiad, wrth yr hwn y mae prif lythyrenau ei enw "T. H. C. M."—hyny yw, "THOMAS HUET, *Cantor Menevæ.*" Bu yn brif gantor Tŷ Ddewi o 1562 hyd 1568; ac yn beriglor Cefnllys, yn Mrycheiniog, a Dyserth, yn Maesyfed. Bu farw Awst 19eg, 1591; a chladdwyd ef yn eglwys Llanafan, Brycheiniog.

HUGHES, PARCH. DAVID. Derbyniodd ei addysg yn Ngholeg yr Iesu, yn Rhydychain, a bu yn un o'r arholwyr ar yr ymgeiswyr am raddau yn y brifysgol. Efe oedd diwygiwr y wasg pan y dygwyd allan yr argraphiad diwygiedig o'r Beibl Cymraeg yn 1810. Cafodd barsonoliaeth Hirnant, yn sir Drefaldwyn.

HUGHES, PARCH. DAVID. Ganwyd ef yn 1800, yn agos i Amlwch, yn sir Fôn; a bu yn weinidog gyda'r Annibynwyr yn Trelech, yn sir Gaerfyrddin. Derbyniodd ei addysg yn Ngholeg Caerfyrddin, dan y Parchn. D. Peter a D. L. Jones. Ar ol ymadael â'r coleg, derbyniodd alwad eglwys Annibynol Heol y Felin, yn Casnewydd. Ar ol hyny, bu yn gwasanaethu i eglwysi y Graig, Trelech, a Blaen-y-coed, yn sir Gaerfyrddin, gyda llawer o lwyddiant. Dywedir iddo dderbyn, y flwyddyn gyntaf o'i weinidogaeth yn Nhrelech, tua hanner cant, y ddwy flynedd ganlynol dri chant a deg a thrigain; ac yn ystod y deng mlynedd y bu yno, chwanegwyd at yr eglwysi tua saith gant o aelodau. Yr oedd yn awdwr '*Holwyddoreg*' ar athrawiaethau crefydd. Bu farw Chwefror 20fed, yn y fl. 1849, yn 49ain oed.

HUGHES, PARCH. EDWARD. Tybir mai brodor o Feirionydd oedd efe; a bu am flynyddoedd yn gaplan ar fwrdd llong rhyfel. Pennodwyd ef wedi hyny i ficeriaeth Bodfari, yn Nyffryn Clwyd. Ennillodd y wobr am yr awdl ar "Elusengarwch" yn Eisteddfod Dinbych. Yr oedd yr enwog Dewi Wyn yn wrthwynebydd iddo. Ni phetrusai y beirdd ddywedyd mai Dewi Wyn a ddylasai dderbyn y wobr. Ei ffugenw y pryd hwnw oedd "Y Dryw;" ac wrth yr enw hwn yr adwaenid ef oreu gan y beirdd yn y blynyddoedd dilynol. Ennillodd hefyd wobr y Cymmrodorion, yn 1822, am y cywydd goreu ar "Hu Gadarn.' Yr oedd yn fardd o allu diammheuol; ac yr oedd ei ddysgeidiaeth i'w ganfod yn ei gyfansoddiadau lawn cymmaint a'r elfen farddonol.

HUGHES, PARCH. GRIFFITH. Ganwyd ef yn Mhen-y-waen, ger Cwmifor, Llandilo, yn sir Gaerfyrddin, tua'r fl. 1775. Bu yn weinidog gyda'r Annibynwyr yn y Groeswen, Morganwg. O herwydd marwolaeth ei dad pan nad oedd efe ond plentyn, ni chafodd fawr o fanteision addysg. Yn mhen ysbaid o amser, symmudodd i fyw at ewythr, a thra yno dechreuodd bregethu yn nghapel Gwynfe; ac yn 1797, ymwelodd, trwy wahoddiad, â'r Groeswen, pan y dymunwyd arno gymmeryd gofal yr eglwys; ac ordeiniwyd ef y flwyddyn hono. Yr oedd yn hyawdl naturiol, ac ar adegau ysgubai bob peth o'i flaen. Bu yn brif offeryn i helaethu capel y Groeswen; ac i godi capeli newyddion yn Rhydri, Caerphili, Nantgarw, a Llanfabon; ac i sefydlu cangen-eglwysi newyddion ger y Gollen Ffrengig, ac yn Nghwm yr Aber. Bu yn llafurio yno am 42ain o flynyddau; ac yr oedd hefyd yn ŵr amlwg yn yr enwad y perthynai iddo. Bu farw Gorphenaf 30ain, 1839, yn 64ain oed.



HUGHES, HUGH. Ganwyd ef Mawrth 22ain, 1693. Enw ei dad oedd Gruffydd Hughes; a'i enw barddonol ef oedd *Bardd Coch.* Preswyliai yn Llwydiarth Esgob, ger Llanerchymedd, yn Môn, ar ei dir a'i dreftadaeth ei hun. Yr oedd yn fardd o naturiaeth, a chyfansoddodd yn y ddwy iaith. Cyhoeddwyd y rhan fwyaf o'i ysgrifeniadau mewn cyssylltiad â'r eiddo Goronwy Owen a Lewis Morris, yn y *Dyddanwch Teuluaidd*, yr hwn a gyhoeddwyd yn 1763; ac hefyd, yn y *Dyddanwch i'w Feddiannydd, neu Ganiadau Defosiynol*, a argraphwyd yn Dublin, yn 1673. Yr oedd yn awdwr ac yn gyfieithydd hefyd o amryw draethodau mewn rhyddiaeth; wrth ba rai y rhoddai y ffugenw "Hugh ab Hugh." Ystyrid ef yn hynafiaethydd da, ac yn gasglydd llwyddiannus o hen ysgrifau Cymreig—y rhai a gyflwynodd efe i Lewis Morris; a chyhoeddodd Iolo Morganwg amryw o honynt yn ei *MSS.* Bu farw Ebrill 6ed, 1776, yn 83ain oed, yn Nghaergybi.

HUGHES, PARCH. HUGH. Ganwyd ef Medi 14eg, 1777, yn Llain y Goetre, yn mhlwyf Llanon, ger Pwllheli; a bu yn weinidog tra defnyddiol gyda'r Trefnyddion Wesleyaidd. Ymunodd â'r enwad hwn yn Maguire Street, Liverpool; a dechreuodd bregethu yn 1806. Yn 1808, gosodwyd ef ar gylchdaith Aberystwyth. Bu ar ol hyny mewn cyssylltiad âg amryw gylchdeithiau eraill; a thra yn Machynlleth, bu yn golygu yr *Eurgrawn Wesleyaidd.* Yn 1814, priododd Miss Price, Pant-y-gored, ger Aberhonddu. Cyfieithodd *Esboniad y Parch. John Wesley ar y Testament Newydd* i'r Gymraeg, gyda'r Parch. John Williams (2il). Treuliodd oes lafurus a llwyddiannus yn mhob man lle y bu yn preswylio, a pherchid ef yn fawr. Bu farw yn Nghaerfyrddin, Rhagfyr 17eg, 1855.

HUGHES, PARCH. JOHN: Archddiacon Ceredigion, a mab ac etifedd i John Hughes, o'r Llwyn Glâs, yn mhlwyf Llanfihangel-genau'r-glyn, ger Aberystwyth. Ganwyd ef yn 1787. Derbyniodd ei addysg yn Ystradmeurig. Wedi bod yn cadw ysgol yn Llundain, dychwelodd i Gymru, ac ordeiniwyd ef, yn 1811, gan Esgob Llanelwy. Bu yn llafurio fel curad yn Llandrillo-yn-Rhos, ger Conwy, am chwe blynedd; ac yn 1817, symmudodd i Loegr, i gymmeryd curadiaeth Foleshill, ger Coventry. Symmudodd oddi yno i Deddington, yn sir Rhydychain; ac wedi hyny, cafodd beriglóriaeth Aberystwyth; a thua'r un amser, pennodwyd ef yn gurad Llanbadarn Fawr. Yn 1859, pennodwyd ef gan Dr. Thirlwall yn Archddiacon Ceredigion. Bu farw Tachwedd 1af, 1860, yn 73ain oed. Llafuriodd lawer, a chyda llwyddiant mawr; a chyfrifid ef y clerigwr mwyaf poblogaidd oedd yn perthyn i'r Eglwys Sefydledig yn holl siroedd y Deheu; ac yr oedd ei gymmeriad yn uchel yn mhob ystyr yn mysg pawb a'i hadwaenent. Ysgrifenodd a chyhoeddodd amryw lyfrau yn Gymraeg a Saesneg; a dioddefodd yr Eglwys Sefydledig golled fawr yn ei farwolaeth.

HALAC, MYNYDD ("y mynydd esmwyth")

Digitized by Google

mynydd a enwir ddwywaith, a dim ond dwywaith, fel terfyn deheuol y tiriogaethau a orchfygwyd gan Iosuah—"o fynydd Halac, yr hwn sydd yn myned i fyny i Seir;" *Ios.* xi. 17; xii. 7. Ond nid ydym yn gwybod yn mha le y safai; ac nid ydyw yn ymddangos fod un teithiwr wedi gwneyd un ymgais i gael hyd iddo.

HALE, SYR MATTHEW: barnwr enwog yn Mhrydain. Ganwyd ef yn Alderley, yn swydd Gloucester, yn y flwyddyn 1609. Gan i'w rieni farw pan nad oedd efe ond pum mlwydd oed, magwyd ac addysgwyd ef gan berthynas o glerigwr Puritanaidd. Pan oedd yn un-ar-bymtheg oed, anfonwyd ef i brif athrofa Rhydychain, ac astudiodd yn bur ddyfal yno hyd nes yr ymwelodd mintai o wib-chwareuwyr â'r lle. Wrth ymgyfeillachu â'r rhai hyn, aeth i garu bywyd ofer; a bu ar fedr ymuno â byddin y Tywysog Orange, oedd y pryd hwnw yn yr Iseldiroedd; ond darfu i ryw ŵr o'r enw Glanvil, wrth weled y talentau oedd yn y llangc, ei berswadio i ymroddi i'r gyfraith. Yn y flwyddyn 1629, gan hyny, cafodd fyned i mewn i Lincoln's Inn, a dechreuodd fyfyrio y gyfraith o ddifrif. Ac fe ddarfu i farwolaeth ddisyfyd un o'i gymdeithion ofer effeithio mor ddwys ar ei feddwl fel y gadawodd ei ddrwg arferion yn llwyr. Enillodd enwogrwydd mawr fel dadleuydd, a llwyddodd i ddangos ei hun yn ammhleidiol hollol yn ystod y rhyfel cartrefol. Bu yn gweithredu fel dadleuydd dros Strafford, Laud, Hamilton, ac hyd yn oed Siarl ei hun; er hyny, cymmerodd ei wneuthur gan Cromwell yn un o farnwyr y llys cyffredin. Ar ol bod yn cyflawni dyledswyddau ei swydd am amser gyda medrusrwydd mawr, teimlodd, neu cymmerodd arno deimlo, nad oedd yn iawn iddo weithredu fel barnwr mewn achosion o droseddi (*criminal cases*) o dan Cromwell; am hyny rhoddodd i fyny weithredu yn llysoedd y goron, er iddo barhau i weinyddu y gyfraith mewn achosion gwladol (*civil*). Yr oedd yr ymddygiad hwn yn myned yn groes i'w reswm dros dderbyn y swydd o farnwr; ac ymddengys nad oedd yn seiliedig ar farn deg. Pan fu farw Cromwell, gwrthododd Hale ddal ei swydd dan lywodraeth yr amddiffynwr, Richard. Yr oedd yn aelod o'r senedd a alwodd Siarl II. yn ei ol; ac yn fuan wedi yr Adferiad, sef yn 1660, gwnaed ef yn brif farnwr y trysorlys. Ar ol hyny gwnaed ef yn farchog, ac yn 1671 yn brif farnwr llys y brenin. Yn 1675, rhoddodd i fyny ei swydd; ac yn y flwyddyn ganlynol bu farw o'r dyfrglwyf, yn 67ain mlwydd oed.

Yr oedd yn ddyn dysgedig, yn farnwr uniawn, ac yn Gristion diargyhoedd. Yr unig frycheuyn ar ei gymmeriad ydyw ddarfod iddo gondemnio dwy wraig am ddewiniaeth yn mrawdlys Bury St. Edmunds yn 1665. Addefodd Hale yn ystod y prawf ei fod yn credu mewn dewiniaeth; a chafodd y rheithwyr y carcharorion yn euog, er fod llawer o edrychwyr yn tystiolaethu nad oeddynt yn credu y cyhuddiad. Barna rhai hefyd ei fod yn arddangos cryn wendid wrth garu esmwythyd personol yn hytrach na chymmeryd rhan yn yr ymdrechfa boliticaidd oedd yn cael ei dwyn yn mlaen yn ei amser.

Ysgrifenodd Hale lawer ar byngciau duwinyddol, athronyddol, a chyfreithiol, er nad argraphwyd un o'i ysgrifeniadau yn ystod ei fywyd. Ei weithiau penaf ydynt, "*The History of the Pleas of the Crown;*" "*History of the Common Law;*" "*Contemplations, Moral and Divine;*" a "*The Knowledge of Christ crucified.*" Y mae hefyd yn Lincoln's Inn gasgliad o ysgrifau o'i waith yn ymdrin a rheithofyddiaeth a hanesiaeth. Ysgrifenwyd hanes ei fywyd gan Burnet, Roscoe, a chan J. B. Williams yn 1835. Casglwyd ynghyd â chyhoeddwyd ei weithiau moesol a chrefyddol mewn dwy gyfrol yn 1805 gan y Parch. T. Thirlwall.

HALHUL: un o drefydd Iudah yn y dosbarth mynyddig: *Ios.* xv. 58. Dywed Jerome yn yr *Onomasticon* (dan *Elul*), fod pentref o'r enw "Alula" ger Hebron. Y mae yr enw etto heb ei newid, ac yn gyssylltiedig â bryn amlwg tua milldir i'r ochr aswy i'r ffordd o Ierusalem i Hebron—rhwng tair a phedair milldir o'r olaf. Gyferbyn ag ef, ar yr ochr arall i'r ffordd, y mae *Beit-Sûr*, a enwid gynt *Bethsur;* ac ychydig yn mhellach i'r gogledd y mae *Jedûr*, yr hen Gedor. Nodir ei safle gan adfeilion muriau a sylfeini, yn mhlith y rhai y saif teml Fahometaidd adfeiliedig o'r enw *Neby Yunus*—y prophwyd Ionah.—"*Robin.*," i. 216.

HALI: tref ar derfyn Aser, a enwir rhwng Helcath a Beten: *Ios.* xix. 25. Ni wyddys yn mha le y safai.

HALICARNASSUS: dinas enwog yn Caria, yn Asia Leiaf, fel lle genedigaeth Herodotus, a'r hanesydd diweddarach, Dionysius. Nid ydyw o un dyddordeb Beiblaidd, oddi eithr fel preswylfod poblogaeth Iuddewig, yn y tymmor rhwng hanes yr Hen Destament a'r Newydd. Yn 1 *Macc.* xv. 23, enwir y ddinas hon fel yn cynnwys y cyfryw boblogaeth. Y mae y ddeddf yn Josephus ["*Hyn.*," xiv. 10, *adr.* 23], lle y mae y Rhufeiniaid yn gorchymyn fod Iuddewon Halicarnassus i gael eu goddef i fyned at "lan y môr i weddïo, yn ol arfer eu tadau," yn ddyddorol wrth ei chymmharu âg *Act.* xvi. 13. Yr oedd y ddinas yn enwog am ei phorthladd, ac am nerth ei hamddiffynfeydd; ond ni ddarfu iddi erioed adferu y niwed a ddioddefodd ar ol gwarchae Alexander. Enw diweddar y lle yw y *Budrûm*.

HALL, JOSEPH: prelad Saesneg, enwog am ei ddysg a'i dduwioldeb. Ganwyd ef Gorph. 1af, 1574, yn Bristow Park, Ashby-de-la-Zouch, yn sir Leicester. Yr oedd ei dad yn dal swydd o dan Iarll Huntington—yr hyn a'i galluogodd i roddi addysg led dda i'w ddeuddeg plentyn. Yr oedd ei fam yn foneddiges o dduwioldeb anghyffredin. Yr hyn oedd Monica, mam Awstin iddo ef, dyna oedd Winifred Bambridge i Hall ieuangc. Yn ysgol ei bentref genedigol y derbyniodd ei addysg foreuol; ac erbyn ei fod yn bymtheg oed, yr oedd yn fater o gryn bryder iddo ef a'i dad i ba le yr elai nesaf. Eiriolodd ei frawd hynaf ar ei ran, ar iddo gael ei anfon i Goleg Emmanuel, yn Rhydychain. Nid oedd wedi treulio ond dwy flynedd yn y coleg, pan y daeth amgylchiadau ei dad i fod yn gyfryw fel y teimlai y rhaid iddo alw ei fab o'r coleg i fod yn athraw yn yr ysgol y bu unwaith yn ysgolor ynddi. Rywfodd neu gilydd, ni ddigwyddodd hyn; ond dewiswyd ef yn gymmrawd o'i goleg. Urddwyd ef i'r 'offeiriadaeth' yn yr Eglwys Sefydledig, a chafodd gan yr Arglwyddes Drury beriglorïaeth Halstead, yn Suffolk. Yn mhen peth amser, efe a aeth ar daith i'r Cyfandir, yn nghwmni Syr Edmund Bacon; ac y mae y llyth-

Digitized by Google

yrau a ysgrifenwyd ganddo yn rhoddi hanes y daith hon yn hynod ddyddorol. Nid oedd bywoliaeth Halstead ond un fechan; ac mor fechan, fel y dywed efe ei hun ei fod o dan "angenrheidrwydd i ysgrifenu llyfrau mewn trefn i brynu llyfrau." Appeliodd at y noddwr am ddeg punt chwaneg yn y flwyddyn—appeliad nad oedd mewn un modd yn afresymol, yn enwedig wrth ystyried fod Syr Robert Drury yn defnyddio at ei wasanaeth ei hun ran o gyflog gweinidog y plwyf. Parodd gwaith Syr Robert yn gwrthod y cais rhesymol hwn i Hall wneyd ei feddwl i fyny i dderbyn ryw fywoliaeth arall a allasai gael ei chynnyg iddo. Ac yn fuan cafodd fwy nag a ddymunodd. Yn ystod ymweliad a dalodd efe â Llundain, daeth cyfaill ato gan roddi ar ddeall iddo y gymmeradwyaeth a awsai ei "*Meditations*" yn mhlith cyfeillion Henry, tywysog Cymru, ac i'w gymmhell i ddal ar gyfleusdra i bregethu o flaen ei uchelder. Addawodd yntau wneyd hyny y Sabbath dilynol yn Richmond. Boddhawyd y tywysog gymmaint fel y dymunwyd arno bregethu drachefn y dydd Mawrth canlynol: gwnaeth hyny, a chyda mwy o dderbyniad nag o'r blaen. Tua yr adeg hon cyflwynwyd i Mr. Hall berigloriaeth Waltham. Gweithiodd yn ddiwyd ac yn ymroddgar yno, megys y gwnaeth yn Halstead o'r blaen. Pregethai deirgwaith yn yr wythnos yn rheolaidd yno: ac yn gymmaint ag i'r tywysog Henry farw ar y 6ed o Dachwedd, 1612, nid oedd ei arosiad yn y llys wedi hyny yn attal cyflawniad ei ddyledswyddau. Yr oedd yr un mlynedd ar bymtheg a dreuliwyd gan Mr. Hall yn Waltham yn mysg rhai mwyaf dymunol ei oes. Yr oedd ei amgylchiadau yn ei ryddhau oddi wrth bryderon a gofalon, ac yr oedd ei aelwyd gartref yn fangre dedwyddwch.

Pennododd y brenin Dr. Hall yn ddeon Worcester. Ac yn 1618, dewiswyd ef yn un o'r pedwar duwinydd oedd i gynnrychioli Eglwys Loegr yn Nghymmanfa Dort. Yn 1627, dyrchafwyd Hall yn esgob Exeter. Yr oedd yn flaenorol i hyn wedi gwrthod esgobaeth Gloucester. Gwyddai wrth ymgymmeryd â'r swydd am yr ammheuon gyda pha rai yr edrychid arno, gan fod "amryw o'r rhai a flaenorent yn yr eglwys yn teimlo yn eiddigus tuag ato am ei fod yn rhy ffafriol i Buritaniaeth." Gwyddai fod rhai wedi eu gosod ar waith er gwylio ei ysgogiadau. Gwnaeth benderfyniad, pa fodd bynag, i ddilyn y rheol a osodasai iddo ei hun, ac i beidio troi oddi ar ei lwybr. O herwydd ei fod yn rhagweled fod cyffro a chynnhyrfiadau yn debyg o gymmeryd lle yn esgobaeth Exeter, derbyniodd y cynnyg a gafodd o esgobaeth Norwich yn 1641; a symmudodd yno. Deallir gwerth gwasanaeth yr esgob Hall, a pheryglon ei sefyllfa, pan ystyrir mai Laud oedd y pryd hwnw yn archesgob Caergaint. Yn mysg pethau anghymmeradwy eraill a gefnogid gan y prelad hunan-dybus hwnw, yr oedd "*Llyfr y Chwareuon.*" Mynai ef i hwn gael ei ddarllen o bulpud pob eglwys yn y wlad; a chondemnid y rhai a wrthwynebent hyny am eu Puritaniaeth. Ond ymdrechodd Hall, a llwyddodd i raddau pell, i attal clerigwyr ei esgobaeth ef i gydymffurfio â hyn. Ni ddarfu i'w gymmedrolder, pa fodd bynag, ei gadw rhag bod yn agored i'r ystorm a ymddorodd y pryd hwn, yr hon a argoelwyd er's amser, ac oddi wrth yr hon y cafodd yr esgobion deimlo. Pan y cyfarfu y senedd, tua diwedd y flwyddyn 1641, yr oedd y teimlad cyhoeddus yn rhedeg mor gryf yn erbyn yr esgobion fel yr ymgasglodd llawer o filoedd o wŷr yn arfog o amgylch Tŷ yr Arglwyddi, y rhai a waeddent "Dim esgobion!" Teimlai archesgob Caerefrog, a gwrthddrych yr erthygl hon, y rhai a ddigwyddent fod yn bresennol, fod eu bywydau mewn perygl, a chydag anhawsder y diangasant i'w cartrefi. Argymmhellodd archesgob Caerefrog yr esgobion i arwyddo deiseb yn gofyn i'r brenin a'r senedd i sicrhau iddynt eu diogelwch, ac yn gwrthdystio yn erbyn pob cyfraith a allasai gael ei phasio yn eu habsennoldeb hwy. Cymmerodd gelynion yr esgobion y gwrthdystiad hwn fel dadganiad anghyfansoddiadol a bradwrus, a gwnaed ef yn sail cyhuddiad yn erbyn y deuddeg a'i harwyddodd. Wedi i'r mesur basio y ddau dŷ o senedd, a derbyn y cydsyniad brenhinol, i gymmeryd oddi ar yr esgobion eu seddau yn y senedd, penderfynodd aelodau Tŷ y Cyffredin fyned yn mlaen i ddwyn y cyhuddiad o uchelfradwriaeth ger bron Tŷ yr Arglwyddi yn erbyn y deuddeg a lawnodasant y gwrthdystiad. Ond wrth weled nad oedd un gobaith i lwyddo gyda chyhuddiad mor fawr, cymmerasant dir is. Dygwyd mesur i'r ddau dŷ yn dadgan fod yr esgobion yn gamweddwyr mawr, ac i gymmeryd oddi arnynt eu hawdurdod eglwysig, gan ganiatau rhodd flynyddol i bob un. Yna rhyddhawyd Hall a'r esgobion eraill o'r Twr ar eu gwaith yn rhoddi gwystlon am 5,000*p.* bob un, ar ol bod yn garcharorion am bum mis. Pan ryddhawyd ef, aeth yn ddioed i Norwich, i'w esgobaeth newydd; a derbyniodd yno fwy o arwyddion o barch nag a ddisgwyliai oddi wrth ysbryd yr amseroedd. Parhaodd i weinyddu ei swydd yno heb i neb aflonyddu arno hyd y mis Mawrth canlynol (1643), pryd yr attafaelwyd meddiannau yr esgobion yn ol gorchymyn y senedd. Ond darfu i ryw foneddiges garedig brynu ei ddodrefn yn ol iddo, hyd nes y byddai efe yn alluog i'w hail brynu drachefn; a darfu i ryw foneddwr brynu ei lyfrau iddo ar yr un telerau. Appeliodd Hall at bwyllgor yr attafaeliad am y cynnorthwy blynyddol a ganiateid gan y llywodraeth; ond yr oll a gafodd oedd blwydd-dâl bychan i'w wraig. O'r diwedd, ar ol dioddef llawer o galedi, trowyd ef o'r palas; ond cafodd brydles ar le bychan yn Higham, ger Norwich—ac yno y bu efe, o'r flwyddyn 1647 hyd nes y bu farw yn 1656, yn 81ain mlwydd oed.

Yr oedd yr Esgob Hall yn ddyn synwyrol, dysgedig, addfwyn, gostyngedig, a duwiol. Y mae ei ysgrifeniadau yn dangos ei fod yn ddyn o feddwl cryf a duwioldeb diammheuol: a cheir hwynt yn llawn o dduwinyddiaeth. Y mae llawer iawn o feddwl wedi ei grynhoi ganddo i ychydig le. Ychydig a wyddai fwy am weithrediadau y galon, ac a adwaenai y meddwl dynol yn well nag ef; ac er fod ei ymadroddion weithiau braidd yn ddiofal, a'i arddull yn ymddiddanol, i bawb sydd yn gallu gwerthfawrogi perlau, serch eu bod heb eu caboli, y mae gweithiau Hall yn drysordy gwerthfawr. Y mae ei weithiau yn gynnwysedig mewn pump o gyfrolau pedwar plyg, neu ddeuddeg o rai wyth-plyg; ond y mwyaf adnabyddus, ac un o'r rhai goreu yn ddiammheu, ydyw ei "*Contemplations*"—gwaith a edmygir yn fawr ar gyfrif ei iaith, ei feirniadaeth, a'i ysbryd crefyddol. Yr oedd yr Esgob Hall yn un o addurniadau penaf Eglwys Loegr yn yr eilfed ganrif ar bymtheg.

Casglwyd ei weithiau lliosog at eu gilydd, a

Digitized by Google

chyhoeddwyd hwynt gyda Hunangofiant, Nodiadau, Mynegai, &c., gan y Parch. Josiah Pratt, mewn deg o gyfrolau yn Llundain, yn 1808. Cyhoeddwyd argraphiad diweddarach gan ddisgynydd iddo, sef y Parch. Peter Hall, Rhydychain, yn 1837—9, mewn deuddeg o gyfrolau.

**HAMMOTH-DOR**: dinas yn Naphtali, a roddwyd gyda'i meusydd pentrefol i'r Lefiaid Gersonaidd, ac yn ddinas noddfa: *Jos.* xxi. 32. Os nad oedd yno ddau le o'r un enw, neu enw tebyg yn Naphtali, yr un ydyw hon a *Hammath.* Pa ham y chwanegir *Dor* ati y mae yn anhawdd dyweyd, os nad ydyw y gair yn cyfeirio rhyw fodd at sefyllfa y lle ar lan y môr, yn yr hyn yn unig (mor bell ag y gwyddom ni) yr oedd yn debyg i *Dor* ar lan Môr y Canoldir. Yn 1 *Cron.* vi. 76, cwttogir y gair i *Hammon.*

**HAMPDEN, JOHN**: gwladofydd a gwladgarwr enwog. Ganwyd ef yn 1594, o rieni cyfrifol, yn swydd Buckingham; ac yr oedd yn gefnder, o du ei fam, i Oliver Cromwell. Ar ol gorphen ei addysg yn Rhydychain, bu yn astudio yn yr Inner Temple, a gwnaeth cryn gynnydd yn y gyfraith gyffredin. Yn 1619 priododd, a bu fyw fel boneddwr cyffredin hyd y fl. 1625, pryd yr etholwyd ef yn gynnrychiolydd dros fwrdeisdref Grampound yn y senedd. Ymunodd â phlaid St. John, Selden, Coke, Pym, a'r rhai a wrthwynebent ormes y goron; ond anfynych y cymmerai ran mewn dadl. Yr oedd efe yn un o'r rhai hyny a wrthodasant gyfranu at yr echwyn cyffredinol a ofynwyd gan y brenin yn 1626; ac am hyny carcharwyd ef. Pan ollyngwyd ef yn rhydd, dechreuodd gymmeryd rhan weithredol mewn achosion cyhoeddus, a chynnyddodd ei enwogrwydd yn gyflym. Etholwyd ef amryw weithiau yn aelod dros Wendover, ac yn ddiweddaf oll dros swydd Buckingham—ei sir ei hun. Yn 1634, bu farw ei wraig, yr hon oedd yn hoff iawn ganddo, gan adael naw o blant ar ei hol. Ymbriododd eilwaith â Letitia, merch Mr. Vachell, o Coley, ger Reading; ond ni bu iddo blant o honi hi.

Yn 1636, efe a wrthododd dalu treth y llongau, a dilynodd llawer yn swydd Buckingham ei esampl. Erlynwyd ef am hyn gan y goron, a pharhaodd ei brawf am dri diwrnod-ar-ddeg. Aeth y ddedfryd yn erbyn Hampden; ond fe wnaeth hyny ef yn anwylach fyth gan y bobl, canys ystyrient mai er eu mwyn hwy yn benaf yr oedd efe yn dioddef. O herwydd y gormes hwn, dechreuodd llaweroedd o ddeiliaid Prydain ymfudo i wledydd eraill; ac er attal hyny, gwaharddodd y brenin i bob llong deithwyr hwylio ymaith heb gael trwyddedau neillduol. Yr oedd wyth o'r cyfryw longau yn gorwedd y pryd hwnw yn y Tafwys; ac yn un o honynt yr oedd Oliver Cromwell a Hampden, y rhai oeddynt ar fedr croesi y Werydd. Ond gwrthodwyd rhoddi trwydded i'r llong hono.

Darfu i waith Hampden yn gwrthsefyll dylanwad annheg Siarl I. gynnhyrfu cymmaint ar y brenin hwnw fel y darfu iddo gyhuddo Hampden o geisio yn fradwrus ddymchwelyd deddfau a llywodraeth y deyrnas; a cheisiodd hyd yn oed gymmeryd gafael ynddo yn y Tŷ. Amddiffynodd y Tŷ ef rhag trais; ond cododd terfysgoedd, a dadleuon brwd, y rhai a arweiniasant yn fuan i ryfel cartrefol. Pan ddechreuodd y rhyfel, cynnullodd Hampden fyddin o filwyr, a gwasanaethodd dan Essex. Dangosodd allu ac yni anghyffredin fel llywydd milwraidd, ac fel aelod o Bwyllgor y Diogelwch Cyhoeddus. Yr oedd efe o blaid ymosod yn egniol a phenderfynol. Ystyriai fod Essex, y pen llywydd seneddol, yn sefyll gormod ar yr amddiffynol. Mewn ysgarmes a gymmerodd le rhyngddo ef a'r Tywysog Rupert ar Faes Chalgrove, yn agos i Thame (Mehefin 18fed, 1643), clwyfwyd ef mor dost fel y bu farw yn mhen chwe diwrnod. Ei eiriau diweddaf oeddynt:—"O Arglwydd! achub fy ngwlad—yr hon sydd yn gwaedu!"

Ymuna haneswyr pob plaid i ganmawl y dyn mawr hwn. Tystiolaethant oll i'w fwyneidddra, i'w graffder, i'w hyawdledd, i'w weithgarwch, ac i'w wroldeb anghyffredinol yn gwrthsefyll gormes y goron, a gormes mewn llawer o ffurfiau eraill, yn y blynyddoedd hyny. Ysgrifenwyd hanes ei fywyd gan J. Forster, a chyfrol ddorus o *Memorials* gan Arglwydd Nugent. Y mae delwau o hono yn y National Portrait Gallery, ac yn St. Stephen's Hall, Westminster.

**HARRIS, JOSEPH** (*Gomer*); llenor enwog, a phregethwr rhagorol gyda'r Bedyddwyr yn Abertawe. Ei le genedigol oedd Llan-ty-ddewi, ger llaw Hwlffordd, yn sir Benfro, lle y ganwyd ef rywbryd yn y fl. 1773. Ychydig sydd yn hysbys am ei rieni, yn gymmaint ag nad yw ei fywgraphydd—y diweddar Barch. D. R. Stephen—yn gwneuthur nemawr o sylw ar hyny. Yr oeddynt yn grefyddol, ac yn perthyn i Eglwys Loegr; ond y mae lle i gasglu mai lled isel o ran amgylchiadau oeddynt, ac nad oedd ei dad yn ddyn wedi diwyllio nemawr ar ei feddwl ei hun, a'i fod hefyd i raddau yn dangos anfoddlonrwydd at y duedd a amlygid gan ei fab cyntafanedig, Joseph, i ymdrechu gwneuthur yr hyn a esgeulusodd efe; o herwydd yr oedd hoffder mawr at addysg wedi dyfod i'r golwg yn foreu yn Joseph Harris. Mewn gwirionedd, dywedir fod ei dad mor amddifad o gydymdeimlad â'r bachgen yn ei awydd am ddysg a gwybodaeth fel y taflai rwystrau ar ei ffordd, ac na fedrai yn y boreu na'r hwyr gyflwyno dim o'i amser at y gwaith hwn; gan hyny, yn gymmaint a bod ei awydd am wybodaeth mor fawr, treuliai lawer o oriau y nos—amser cwsg—i ddarllen ac efrydu. Yr oedd ei awydd am ddarllen yn angerddol. Nid oedd y gwrthwynebiadau oedd ar ei ffordd ond yn grymuso ei benderfyniad i'w gorchfygu. Ymddengys mai i'r eglwys blwyfol yr arferai fyned amlaf pan yn fachgenyn, er y byddai yn awr ac eilwaith yn myned i wrandaw i gapel y Bedyddwyr oedd yn y gymmydogaeth hono, sef Beulah, yn yr hwn yr ymgynnullai cangen o eglwys Llangloffan. Yr oedd yn ddeiliad argyhoeddiadau crefyddol dyfnion er yn foreu: a phan yn 19eg oed, efe a ymunodd â'r Bedyddwyr yn y lle uchod, a bedyddiwyd ef gan y Parch. H. Davies, y gweinidog, yn Llangloffan. Wrth iddi sylwi ar ei fywyd diargyhoedd, ei rodiad gweddus, a'i alluoedd a'i ddoniau diammheuol, amlygodd yr eglwys yr oedd yn aelod o honi ei dymuniad am iddo ddechreu pregethu; ac a hyn y cydsyniodd yntau. Cymmerodd hyn le yn y fl. 1796, pan oedd ychydig gyda dwy ar hugain oed—ac ychydig dros dair blynedd wedi iddo ymuno â'r eglwys. Bu yn pregethu gyda chymmeradwyaeth yma a thraw o gwmpas cartref am o ddeutu pedair blynedd; ac yn y fl. 1800, ordeiniwyd ef yn weinidog yn Llangloffan.

Pan ar daith drwy sir Forganwg, ymwelodd âg Abertawe, a phregethodd yn nghapel Heol

Digitized by Google

Gefn yn y dref hono; ac yn mhen ychydig o amser wedi hyny yma lawodd y gweinidog oddi yno. Cafwyd addewid gan Mr. Harris i ddyfod i ymweled â hwy drachefn; ac felly fu. Mewn canlyniad i'r ail ymweliad hwn, cafodd alwad unfrydol i ddyfod yno i'w bugeilio. Yr oedd y cyfeillion yn Llangloffan yn teimlo yn dra anfoddlawn iddo ymadael; ond yr oedd taerineb pobl Abertawe, a gogwyddiad ei feddwl yntau, yn gyfryw fel y penderfynodd o'r diwedd i gydsynio â'u cais, a symmudodd yno yn y fl. 1801. Ychydig o amser cyn ymadael o Langloffan yr oedd wedi ymbriodi â Miss Martha Symmons—merch ieuangc oedd yn byw yn yr un gymmydogaeth ag ef. Ar ol myned i Abertawe, teimlai Harris yr anfantais o fod yn ddiffygiol mewn gwybodaeth ymarferol o'r iaith Saesnig; ac yn unol â'i duedd ei hun, a chydsyniad ac annogaeth yr eglwys y gweinyddai arni, aeth i athrofa y Bedyddwyr yn Nghaerodor, dan addysgiaeth yr hybarch Ddr. Ryland. Bwriadai ar y cyntaf aros yno am flwyddyn; ond o herwydd rhyw amgylchiadau eglwysig, methodd aros am fwy na phedwar mis o amser. Ond bu hyn yn fantais fawr iddo: cafodd afael yn mhen y ffordd i fod yn hyddysg yn yr iaith hono, ac yn fuan daeth yn alluog i bregethu a chyfansoddi ynddi. Tra yn yr athrofa hefyd, daeth i gydnabyddiaeth âg amryw o weinidogion y Bedyddwyr yn Lloegr; a dechreuwyd cyfeillgarwch â Dr. Ryland a gryfhaodd ar hyd eu hoes. Ar ol ei ymsefydliad yn Abertawe, efe a ymroddodd i gyflawni dyledswyddau ei swydd gydag egni a ffyddlondeb mawr, ac ni bu ei lafur yn ofer; a gwnaeth ei ol ar y gynnulleidfa a'r eglwys. Arferai bregethu deirgwaith bob Sabbath; a phregethai a llafuriai lawer hefyd yn y cylchoedd mewn gwahanol ffyrdd. Nid segura ei amser a wnaeth efe; ond llafurio yn ddyfal yn ngwinllan ei Arglwydd am y pum mlynedd ar hugain y parhaodd ei weinidogaeth yn Abertawe.

Daeth Mr. Harris allan mewn cyssylltiad â'r wasg yn 1796, pryd y cyhoeddodd "*Pigion o Hymnau.*" Ac yn gynnar yn y ganrif hon, cyhoeddodd ei gyfieithiad o "*Yr anghyffelyb Broffeswr yn nghanol-ddydd ei ddisglaerdeb,*" a "*Bwyell Crist yn nghoed Anghrist;*" yr olaf yn cynnwys attebiad i Mr. Josiah Rhys a'r Undodiaid Cymreig. Drachefn, yn 1816, ymddangosodd ei "*Draethawd ar briodol Dduwdod ein Harglwydd Iesu Grist,*" &c., yn Saesneg; a daeth âg ef allan y flwyddyn ganlynol yn Gymraeg. Cafodd y traethawd hwn, yr hwn a gynnwysai sylwedd dwy bregeth a draddodwyd ganddo, dderbyniad gwresog a sylw mawr. Ystyrid Mr. Harris fel amddiffynwr cadarn i'r gwirionedd yn erbyn y syniadau Sosinaidd a ledaenid, ac ennillodd barch a chymmeradwyaeth Eglwyswyr ac Ymneillduwyr fel eu gilydd ar gyfrif ei wasanaeth i'r gwirionedd. Yn ei anerchiad i'w glerigwyr, cymmhellodd Esgob Tyddewi draethawd Joseph Harris i'w sylw manylaf. Yn y gwaith rhagorol hwn, y mae galluoedd ymresymiadol yr awdwr yn dyfod i'r golwg yn amlwg; ac aufynych, yn ddiau, o fewn cylch mor fychan, yr ymdrinir â'r mater pwysig yn fwy cryno ac eglur nag y gwneir ynddo. Rhagora yr awdwr ynddo fel ymosodwr ac amddiffynwr.

Yr oedd sefyllfa Cymru, o ran moddion addysg a gwybodaeth, yn hynod isel yn nechreu y ganrif bresennol; ac nid oedd neb yn teimlo yn fwy dros yr anfantais hon na Mr. Harris. Nid oedd cyhoeddiadau cyfnodol, sydd yn gyfryngau mor ragorol i ledaenu gwybodaeth, i'w cael yn y wlad. Cyttunodd ef a nifer o foneddigion gwladgarol i gyhoeddi newyddiadur Cymreig, yr hwn oedd y cyntaf o'r fath yn y Dywysogaeth. Ac ar y 1af o Ionawr, 1814, daeth allan y rhifyn cyntaf o "*Seren Gomer, neu Hysbysydd Wythnosol Cyffredinol dros holl Dywysogaeth Cymru.*" Gomer ei hun oedd y golygydd; ac fel y canlyn y darfu iddo, yn ei anerchiad, osod allan amcanion y cyhoeddiad hwn:—"Bydd i '*Seren Gomer*' wynebu ar derfynau anwybodaeth, a gwahodd y preswylwyr yn gariadlawn i fwynhau pleserau gwybodaeth. Bydd yn cynnwys hanesion pellenig a chartrefol, am ryfel a heddwch; newyddion gwladol ac eglwysig; crynodeb o'r cyfreithiau newyddion a wneir yn ein hamser; ymdrechiadau a llwyddiant y cenhadon Cristionogol yn mhlith eilunaddolwyr; pris yr ŷd, ac amryw bethau eraill; amser ffeiriau yn y Dywysogaeth, ynghyd â phob peth arall hefyd a fyddo yn gysson â moesoldeb, tra y byddo lle; canys tra bo yn llewyrchu ar achosion y fuchedd bresennol, fe ymdrechir ei thebygu i'r seren yn y Dwyrain i dywys at Seren Iacob, neu hyd at yr hwn a anwyd i fod yn Frenin i'r Iuddewon. Saif '*Seren Gomer*' hefyd yn yr adwyau rhwng yr hoff-iaith Gymraeg a'i gelynion, drwy annog a denu pobl i ddarllen, hysbysu cyfansoddiadau gwerthfawr, a chefnogi ymdrechiadau barddonol yn yr iaith hon, ynghyd â derbyn ysgrifeniadau yn tueddu i'w phuro a'i diwygio," &c.

Ond er mor ganmoladwy oedd yr ymdrech hwn i oleuo a dysgu y Cymry, ac er mor gymmhwys at y gwaith oedd y golygydd talentog, ni ddaeth allan ond pedwar ugain ac un o ysgrifau o'r "*Seren*" yn y ffurf uchod. Rhoddwyd hi i fyny gyda y rhifyn a ddaeth allan Awst 16eg, 1815; ac y mae yn ofidus orfod dyweyd i'r meddianwyr gwladgarol fod yn golledwyr o amryw ganoedd o bunnau yn yr anturiaeth wir ganmoladwy hon. Ond gan faint ei awyddfryd i fod o wasanaeth i'w oes a'i genedl ar faes llenyddiaeth, ni ddarfu i'r methiant hwn ddigaloni na pheri i Joseph Harris roddi heibio y syniad o wasanaethu ei gydwladwyr yn y ffordd hon; ac ar y dydd 1af o Ionawr, 1818, daeth y rhifyn cyntaf allan o "*Seren Gomer, neu gyfrwng Gwybodaeth gyffredinol i'r Cymry,*" fel cyhoeddiad misol. Llafuriodd yn ddyfal i wneuthur y "*Seren*" yn gyhoeddiad teilwng o gefnogaeth; a llwyddodd, gyda chymmhorth amryw ysgrifenwyr galluog eraill, i'w gwneyd yn gyfrwng gwybodaeth ac addysg yn mhob man y tu hwnt i'w ddisgwyliadau. Nid ydyw yn hysbys pa faint a ysgrifenodd ei hun i'r "*Seren;*" ond y mae yn sicr ei fod yn ysgrifenu cryn lawer iddi. Ei ysgrifau ef oedd y rhai a ddygent y ffugenwau Llewelyn, ac Iorwerth, a Gwrthddiffynwr, a Gedeon; a diau fod ei ysgrifeniadau yn mysg y mwyaf galluog a geir yn yr iaith ar byngciau dadleuol. Ysgrifenodd lawer iawn hefyd heb fod un enw wrth yr ysgrifau. Cyhoeddodd Feibl dwyieithawg, a chafodd hwnw dderbyniad da; a chasgliad o emynau at wasanaeth y Bedyddwyr. Cymmerodd ran mewn dadl ar fedydd, a chyhoeddodd bamphledyn bychan mewn attebiad i'r Parch. T. Powell, o Aberhonddu, yn dal cyssylltiad â'r pwngc.

Ond cynnyrch llenyddol olaf ei ysgrifell oedd "*Cofiant Ieuan Ddu;*" ac y mae yn debyg nad oes yn yr iaith Gymraeg ddim mwy tyner a theimladwy. Fel y canlyn y dywed y Parch.

Digitized by Google

D. R. Stephen, ei fywgraphydd, am y gwaith:—"Nid ydym yn meddwl fod cymmaint o dynerwch a theimladrwydd mewn unrhyw lyfr arall yn y Gymraeg. Ei ddarlleniad ystyrgar a berai hyfforddiant i'r athronydd o barthed *phenomena* y meddwl dynol. Hyfrydwch anhylon yr enaid cystuddiedig i boeni ei hun drwy fyfyrio yn ddiymdôr ar ei wae—cywreinrwydd arswydus y meddwl i wrthod pob cysur—ei ymroddiad diflin i gynnal a chynnyddu ei arteithiau, er eu dygned a'u poenusrwydd, ydynt addysgiadol i'r sawl a garo adnabyddiaeth o dueddiadau a gweithrediadau y natur ddynol. Yr arwyddion hyn ydynt ganfyddadwy iawn yn y cofiant dan sylw. Er holl annogaeth ei gyfeillion iddo ymattal rhag ei ysgrifenu, yr oedd y cwbl yn aneffeithiol. Gyda phenderfyniad, cyfagos i ystyfnigrwydd, ymroddodd at, a pharhaodd yn y gorchwyl; er fod pob llinell a ysgrifenai yn peri clwyf anaele ar ei galon, a phob gwahanran yn trywanu ei enaid âg aeth angeuol!"

O adeg marwolaeth ei anwyl fab, John Ryland Harris, yn mis Rhagfyr, 1823, dechreuodd iechyd Gomer waelu, dan bwys ei hiraeth a'i ofid dwys. Rhoddodd i fyny olygiaeth y "*Seren*" yn ngwanwyn y flwyddyn 1825, a graddol waelu yr oedd o hyd; ac ar y 10fed o Awst, y flwyddyn hono, efe a fu farw, yn 52ain mlwydd oed. Ac os bu neb farw o alar gwirioneddol, a hiraeth tadol, felly bu yr enwog Gomer farw—wedi tori ei galon ar ol ei fab uniganedig, yr hwn oedd yn hyfrydwch ei lygaid, ac yn yr hwn hefyd yr oedd cynnifer o'i obeithion wedi eu cydblethu.

Yn marwolaeth Joseph Harris, collodd Cymru un o'i gwladgarwyr ffyddlonaf, ac un o'r llenorion enwocaf o'i mewn. Yr oedd ynddo ragoriaethau mawrion fel dyn, Cristion, pregethwr, ac awdwr; a chydnabyddid cyn, ac ar ol ei farw, ei fod yn un o ddynion blaenaf ei wlad. Cyhoeddwyd ei "*Weithiau Awdurol,*" dan olygiad y Parch. D. R. Stephen, ei fab-yn-nghyfraith; ac y mae yn drysor gwerthfawr mewn llenyddiaeth Gymreig.

Yr ydym yn dyfynu yr hyn a ganlyn o erthygl ar "*Weithiau Awdurol Joseph Harris,*" a ymddangosodd yn y gyfrol gyntaf o'r "*Traethodydd,*" yn 1845:—

"Ond i ddychwelyd yn ol. Wrth ddarllen rhai o fyfyrdodau ysgrifenedig Joseph Harris, yr ydych yn teimlo fel pe byddai un o brif philosophyddion hen Groeg gynt, â'i feddwl seraphaidd wedi cael ei drochi a'i drwytho yn athrawiaethau dwyfol Cristionogaeth; ac yna, wedi dysgu yr hen Gymraeg, er mwyn trosglwyddo ei amgyffredion disglaer i blant Cymru. Gallem yn hawdd dreulio diwrnodiau cyfain gyda digrifwch dibaid a digwmmwl yn myfyrio ei ddynion da; neu ynte yn syn-ryfeddu ei ystyriaethau ardderchog ar briodoliaethau anghyfranogol y Duwdod. Yr oeddym bob amser yn meddwl yn uchel ac yn barchus am Joseph Harris; ond nid oedd genym un rhith dychymyg na dirnadaeth, cyn darllen ei waith drwyddo, a'i fyfyrio yn drwyadl o ben-bwy-gilydd, ei fod yn ddyn mor wir fawr, nac yn ddiau mor rhyfeddol dda. Gyda gwirionedd perffaith, gallwn yn awr fabwysiadu geiriau brenhines Seba wrth Solomon:—'A hi a ddywedodd wrth y brenin, Gwir yw y gair a glywais yn fy ngwlad am dy ymadroddion di, ac am dy ddoethineb. Etto ni chredais i y geiriau nes i mi ddyfod, ac i'm llygaid weled; ac wele ni fynegasid i mi yr hanner: mwy yw dy ddoethineb a'th ddaioni na'r clod a glywais.'.........Pa bethau a gyfansoddant athronydd moesol a meddyliol campus? Dylai fod ei wybodaeth yn helaeth ac yn gyffredinol; ei gyrhaeddiadau yn eang ac yn nerthol; ei amgyffredion yn wrol ac yn wreiddiol; ei galon yn iach ac yn wresog; a'i fedrusder i drin arfogaeth ei feddwl y fath nes y dichon ddadlenu holl ddirgeledigaethau ystafelloedd dyfnion, dyrus, tywyllion, enaid a chalon dyn i'r cyfryw oleuni ac eglurder, fel y medro y neb a redo eu darllen. Os ydyw y darluniad neu y portread ammherffaith hwn, o'r hyn beth neu bethau ag ydynt angenrheidiol i gyfansoddi gwir athronydd moesol a meddyliol, yn cynnwys rhyw gymmaint o wirionedd, diau y dywed pawb ar a adwaen Joseph Harris, fel y mae yn byw ac yn bod yn ei ysgrifeniadau mawrion a meistrolaidd—'Wele ynte, haeddai hwn, heb os nac oni bae, gadair yn mhlith prif philosophyddion cred.' Fel yr oeddym yn troi dalen ar ol dalen o'r gwaith hwnw, meddyliem a gwelem athrylith yr hen Omeraeg yn syllu gyda difrifwch gwynfydedig ar ei mab gwych, anrhydeddus, ac yn udganu drwy yr holl nefoedd mewn banllef fawr, uchel, gynnhyrfiol, syniadau os nad geiriau y Sais, '*I herald thee to immortality;*' ac yn ddiffuant ac o eigion ein calon dywedem ninnau, a dywedwn etto, Amen, amen yn wir, ac am byth bythoedd."

**HARRIS, JOHN RYLAND** (*Ieuan Ddu o Lan Tawy*): llenor a bardd ieuangc gobeithiol. Mab ydoedd i'r Parch. Joseph Harris [gwel yr erth. flaenorol]. Ganwyd ef Rhag. 20fed, 1802 yn Heol Ifan, Abertawe. Nid oedd dim neillduol yn ei hynodi yn ei blentyndod, ond yn unig ei fod yn dysgu yn rhagorol yn yr ysgol, a'i fod yn awyddus am wybod pob peth. Deuai hyn i'r golwg ynddo pan nad oedd efe ond plentyn pur ieuangc. Yr oedd yn mryd ei rieni i'w ddanfon i ryw athrofa i ddysgu yr ieithoedd clasurol; ond cymmerai y bachgen bleser mawr yn y gelfyddyd o argraphu, a threuliai lawer o'i amser yn swyddfa Mr. D. Jenkyn; a deisyfai yn daer ar i'w dad ganiatau iddo ddysgu y gelfyddyd hono. Cydsyniodd yntau iddi fod felly, gan olygu y buasai yn gallu dysgu yr ieithoedd clasurol ar ol gorphen ei amser fel egwyddorwas, ac na wnaethai dysgu galwedigaeth un niwed iddo, beth bynag a ddeuai o hono. Nid oedd John ond deng mlwydd oed pan rwymwyd ef; ond rhoddodd Mr. Jenkyn yr alwedigaeth i fyny yn mhen tair blynedd, a rhyddhawyd yntau. Erbyn hyn yr oedd ei rieni mewn cyfynggynghor pa beth i'w wneyd, gan fod y bachgen yn tueddu yn fwy i gyssodi llythyrenau nag i ddysgu ieithoedd; ond nid oedd gwaith felly i'w gael yn y dref hono, ac nid oeddynt hwythau yn ewyllysio iddo symmud yn mhell oddi wrthynt. Prynodd ei dad iddo argraphwasg a llythyrenau. Cyhoeddwyd "*Greal y Bedyddwyr,*" a'r "*Traethawd ar Dduwdod Crist*" yn Gymraeg, ac amryw lyfrau eraill pan oedd efe rhwng tair ar ddeg a phedair ar ddeg oed. Fel hyn y dywed ei dad:—"Y fath oedd ein petrusdod rhag na thalai y swyddfa ei ffordd, fel na cheisiasom un cyssodydd ond fy Ieuan bach, dros agos i bedair blynedd. Llafuriodd ef a'i dad yn galed yn yr ysbaid hwn:—Ieuan yn cyssodi y cwbl, a'i dad yn cadw ysgol ar hyd y dydd, ac yn ysgrifenu a darllen y prawfleni yn yr hwyr. Prin y meddyliaf fod nemawr i gyssodydd wedi gwneuthur cymmaint o waith yn y cyfryw amser ag a wnaeth fy hyfrydaf Ieuan Ddu, er ieuanged a thynered ydoedd. Er hyny, ni chafodd well iechyd erioed na'r pryd hyny, a rhai blynyddau wedi hyny. Efe ei hun a gyssododd y '*Seren*' i gyd, a phob llyfryn a argrephid genym yn 1818 a 1819. Pymtheg oed ydoedd ef yn dechreu ar hyn."

Digitized by Google

Yn nechreu y flwyddyn 1819, daeth Mr. Job Symmons, ewythr i Ieuan Ddu, brawd ei fam, i gymmeryd gofal y swyddfa; a chafodd Ieuan y pryd hwnw hamdden i droi ei feddwl at ddysgu yr ieithoedd clasurol. Byddai yn dilyn ei efrydiau am wythnos gyfan weithiau, a phryd arall byddai wythnos yn y swyddfa; ond ar y cyfan tua hanner ei amser oedd ganddo i ddilyn ei efrydiau ieithyddol. Ei athrawon oeddynt Mr. Jennings, a'r Parch. D. Williams (*Iwan*). Fe ddaeth yn gryn feistr ar y Lladin; ac yr oedd yn dechreu ymhyfrydu yn y Groeg a'r Hebraeg; ac yr oedd ei lygad hefyd ar y Ffrangcaeg, yr Eidalaeg, a'r Ellmynaeg. O herwydd fod cymmaint o Saesneg yn cael ei siarad yn Abertawe, nid oedd Ieuan yn gyfarwydd iawn yn yr iaith Gymraeg hyd nes y gadawodd yr ysgol y tro cyntaf; ond wedi hyny daeth i ymhyfrydu yn fawr ynddi, ac ymgyfarwyddodd â'r geiriau mwyaf ansathredig ynddi. Deallai y geiriau mwyaf anghynnefin a ddefnyddir gan y beirdd; esboniai yn rhwydd y rhai mwyaf aneglur a geir yn "*Coll Gwynfa;*" sef, cyfieithiad y Dr. Pughe o "*Paradise Lost.*" Ac yr oedd ei ymlyniad wrth, a'i hoffder o'r iaith Gymraeg yn gyfryw ag a barodd iddo ymdrechu ffurfio Cymdeithas o Gymreigyddion yn Abertawe, pan ydoedd rhwng dwy ar bymtheg a deunaw mlwydd oed, a llwyddodd yn ei amcan; ac efe oedd un o'i haelodau mwyaf selog a gweithgar tra y parhaodd ei fywyd. Ysgrifenodd lawer yn Gymraeg a Saesneg; ond yr oedd llawer o honynt heb eu cyhoeddi, ac mewn cyflwr anorphenedig. Pan rhwng un ar ddeg a deuddeg oed, ysgrifenodd lyfr a alwai efe "*Cymmhorth i Chwerthin;*" sef, casgliad o ffraethebau o'r "*Seren*" wythnosol, a rhai llyfrau Saesnig. Cyfansoddai yn gyflym mewn rhyddiaith a barddoniaeth. Ymddangosai ei gynnyrchion yn awr a phryd arall yn y "*Seren.*" Efe a gyfieithodd "Hanes rhyfedd y Mynach Anllad," a llawer o ysgrifau eraill, o 1818 hyd 1823. Ymddangosodd ysgrifau hefyd o'i eiddo mewn newyddiaduron Saesnig, a'r "*Monthly Magazine.*" Bu mewn dadl frwd â chyfreithiwr o sir Gaernarfon ynghylch yr iaith Gymraeg, yr hon a ddygid yn mlaen yn yr iaith Saesnig yn y "*Cambrian.*" Tua'r un adeg, cyfieithodd lawer o "*Paradise Regained*" i'r Gymraeg, yn yr un mesur ag a ddefnyddiodd y Dr. Pughe yn ei gyfieithiad o "*Paradise Lost.*" Ystyrid fod ei gyfansoddiadau yn gyffredin o deilyngdod uchel. Y gwaith olaf a gyfansoddodd oedd "*Grisiau Cerdd Arwest,*" neu hyfforddiadau i ddysgu canu yn gywir. Deallai gerddoriaeth yn dda, ac ymhyfrydai yn fawr ynddi; ac yr oedd yn chwareuwr rhagorol ar y chwibanogl (*flute*). Bwriadai, pe yr arbedasid ei fywyd, gyhoeddi geiriadur Saesneg a Chymraeg, a geiriadur barddonol; ac yr oedd wedi casglu llawer o ddefnyddiau ar gyfer hyny. Erbyn hyn yr oedd iechyd Ieuan yn dechreu gwaelu yn amlwg; ac hyd yma, er ei fod yn un o'r rhai mwyaf moesol a rheolaidd ei ymarweddiad, ac yn un o'r rhai ffyddlonaf yn moddion gras, yn Sabbothol ac wythnosol, hyd yr oedd amgylchiadau yn caniatau iddo, nid oedd wedi ymuno â'r eglwys, er ei fod wedi arwyddo wrth ei dad ei benderfyniad i wneyd hyny cyn i afiechyd ei oddiweddyd. Fel hyn yr ysgrifena ei dad gyda golwg ar hyn:—"Gofynwyd iddo wedi iddo glafychu, os dewisol ganddo oedd cael ei fedyddio y pryd hyny? Attebodd yn debyg i hyn, 'Da iawn genyf pe buaswn wedi cael fy meddyddio pan oeddwn iach; eithr fy meddwl yw, i ordinhadau yr efengyl gael eu bwriadu i ddynion mewn iechyd, i ogoneddu Duw, a dangos cariad Crist, ac na amcanwyd na bedydd na Swper yr Arglwydd i fod yn geidwad i gleifion yn ngwyneb angeu, i ffoi atynt am iachawdwriaeth!' O ieuengctyd mwynion Cymru, sydd â pharch cywir yn eich mynwesau at grefydd Iesu, peidiwch oedi eich ufudd-dod i ordinhadau yr efengyl—gwelwch fod hyn wedi dolurio meddwl yr hawddgaraf Ieuan Ddu!" Pwysai yn hollol ar ras Duw am iachawdwriaeth i'w enaid, â medrai o'r diwedd ymddiddan am angeu yn hollol ddiarswyd.

Ymaflyd yn gryfach yr oedd ei afiechyd (y darfodedigaeth) ynddo er pob ymdrech i'w ddiwreiddio. Aeth i ffynnonau Llanwrtyd, a bu yn yfed y dwfr yno; eithr ni dderbyniodd ddim lleshad. Dyfod adref yn hytrach yn waelach a wnaeth. Parhau i ddihoeni yr oedd ar hyd y flwyddyn 1823, hyd y 4ydd o Ragfyr yn yr un flwyddyn, pan ymadawodd â'r fuchedd hon—o fewn un niwrnod ar bymtheg i gwblhau yr unfed flwydd ar hugain o'i oedran. Bu ei farwolaeth yn ddyrnod i'w serchoglawn dad, yr hon y methodd ymgynnal dani. Yr oedd ei alar am ei unig a'i anwylaf fab, Ieuan Ddu, yn ddirfawr; ac ni fynai ei gysuro. Ymosododd ar y gwaith o ysgrifenu ei gofiant—ei waith llenyddol olaf —er, fel y sylwir yn yr erthygl ddiweddaf, fod llawer wedi ceisio ei berswadio i beidio, gan fod hyny yn cadw yr archoll yn agored. Ond yn mlaen yr aeth, ac y mae y cofiant hwnw ynghyd â'r alargan a gyfansoddodd, sydd wedi ei chyhoeddi gydag ef, yn brawf diymwad mor ddwfn ac mor fawr oedd ei hiraeth am ei fab gobeithiol a thalentog.

HARVEY, WILLIAM: darganfyddwr cylchrediad y gwaed. Ganwyd ef yn Folkestone, ar y laf o Ebrill, 1578; a phan yr oedd yn un-ar-bymtheg oed, aeth i Gaergrawnt. Ar ol ymroddi am chwe blynedd i ddysgu rhesymeg ac anianyddiaeth yn y brif athrofa hono, aeth i brif athrofa Padua—yr hon oedd yr ysgol feddygol oreu yn y byd y pryd hwnw. Ar ol bod yno bum mlynedd, cafodd ei raddio yn ddoethawr mewn meddyginiaeth. Ar hyny dychwelodd adref; ac wedi derbyn o hono y gradd o ddoethawr gan ei hen athrofa, efe a ymsefydlodd yn Llundain fel meddyg. Pan oedd yn ddeg-ar-hugain oed, etholwyd ef yn gymmrodor o Goleg y Meddygon; ac yn fuan wedi hyny, pennodwyd ef yn feddyg i Ysbytty St. Bartholomew. Yn 1615, dewiswyd ef gan y coleg i draddodi y darlithiau Lumleiaidd ar ddifyniaeth a llawfeddygiaeth; a thybir mai y pryd hwn y dechreuodd efe draethu ei syniadau am gylchrediad y gwaed. Ond ni thraethodd hwynt yn llawn, hyd nes y cyhoeddodd, yn y fl. 1628, y traethawd a elwir "*Exercitatio Anatomica de Motu Cordis et Sanguinis.*" Yn 1623, pennodwyd ef yn feddyg i Iago I.:—a daliodd yr un swydd dan Siarl I. hefyd. Bu yn gweini ar y brenin yn ei wahanol hyntiau yn ystod y rhyfel cartrefol. Yn 1645, etholwyd ef trwy orchymyn y brenin yn warden Coleg Merton; ond pan roddodd Rhydychain ei hunan i fyny i'r seneddolion yn Ngorphenaf, 1646, gadawodd Harvey y brif athrofa, a dychwelodd i Lundain. Yr oedd erbyn hyn yn heneiddio; ac felly rhoddodd heibio ymarfer â meddyginiaeth.

Yn 1654, etholwyd ef yn llywydd Coleg y

Digitized by Google

Meddygon; ond gwrthododd y swydd ar gyfrif ei wendid. Yn mis Gorphenaf, 1656, rhoddodd i fyny ei swydd fel darlithydd Lumleiaidd, yr hon a ddaliasai am fwy na deugain mlynedd; ac wrth ganu yn iach i'r coleg, anrhegodd hi â'i lyfrgell, ynghyd â'i ystâd dreftadol yn Burmarsh, yr hon oedd yn werth 56*p.* yn y flwyddyn. Bu farw yn Llundain, ar y 3ydd o Fehefin, 1657, a chladdwyd ef yn Hempstead, yn Essex.

Parodd ei draethawd ar gylchrediad y gwaed gryn ddadleuaeth; ond yr oedd iddo chwaneg o gefnogwyr nag o wrthwynebwyr. Tua 1616—19 y darfu iddo hysbysu yn gyhoeddus ei ddarganfyddiad mawr; o herwydd yr hyn y cafodd ei ddirmygu, a'i erlid yn ddiarbed am fwy nag ugain mlynedd. Nid ysgrifenodd un Sais yn ei erbyn. Rolianus, Proffeswr Difynyddiaeth yn Mharis, oedd yr unig un o'i wrthwynebwyr y darfu i Harvey ei atteb. Yn 1628 y cyhoeddodd efe yr eglurhâd ar y darganfyddiad, dan y teitl a welir uchod. Heb law y gwaith hwn, ysgrifenodd lyfr ar genhedliad anifeiliaid; yr hwn a elwir "*Exercitationes de Generatione Animalium.*" Ysgrifenodd lawer o bethau eraill hefyd, ond llosgwyd y rhan fwyaf o'r llawysgrifau yn ystod y rhyfel cartrefol. Yr argraphiad goreu o weithiau Harvey, yn yr iaith Saesnig, ydyw un Dr. Willis, yr hwn a gyhoeddwyd gan y *Sydenham Society* yn 1847.

HASTINGS, WARREN: llywodraethwr cyffredinol cyntaf yr India Brydeinig. Ganwyd ef yn y flwyddyn 1733, yn Churchill, ger Daylesford, yn swydd Worcester, lle yr oedd ei dad yn beriglor. Gadawyd ef yn amddifad yn ieuangc iawn; ond pan nad oedd ond saith oed, penderfynodd adennill yr ystâd a aethai allan o feddiant ei deulu. Addysgwyd ef yn Ysgol Westminster, ac yr oedd yn arwyddo bod yn un o ysgolheigion goreu ei oes, pan yr anfonwyd ef, yn 17eg oed, i India, fel ysgrifenydd yn ngwasanaeth y Cwmni. Pan gyrhaeddodd yno, ymroddodd yn ddyfal i gyflawni ei ddyledswyddau, a defnyddiai ei amser hamddenol i ddysgu yr ieithoedd Persiaidd a Hindwstanaidd —yr hyn beth a fu yn fuddiol iawn iddo. Ar ol treulio pedair blynedd ar ddeg yn Bengal, efe a ddychwelodd i Loegr gyda chryn lawer o gyfoeth—ar fedr treulio y gweddill o'i oes, dybygid, mewn tawelwch. Yn 1769, pa fodd bynag, cafodd ei bennodi yn annisgwyliadwy yn ail yn nghynghor Madras; ac yn 1772, pennodwyd ef yn llywydd Cynghor Uchaf Bengal. Yn mhen y flwyddyn, chwanegodd y senedd ei awdurdod trwy ei wneuthur yn llywodraethwr cyffredinol, ac yn ben goruchaf ar holl diriogaethau y Cwmni yn yr India. Yr oedd cyllid y llywodraeth mewn cyflwr annhrefus iawn y pryd hwnw: er hyny galwai Cwmni yr India Ddwyreiniol am arian yn ddibaid. Y peth cyntaf a wnaeth Hastings i gyfarfod â hyn oedd ysbeilio y Mogul Goruchel o rai o'i daleithiau cyfoethocaf, a'u gwerthu i Sujah Dowlah, Nabob Oude. Ni fynai y Rohilliaid gymmeryd eu gwerthu yn erbyn eu hewyllys i feistr creulawn: am hyny rhoddodd Hastings, am wobr, meddir, fenthyg byddin y Cwmni i'r Nabob, er gallu o hono eu darostwng hwynt. Trwy ei ddylanwad ef, eu rhoddwyd y Brahman, Nuncomar, i farwolaeth, yn unig er mwyn gyru ofn ar y trigolion. Dirgymmhellodd Cheyte Sing, Rajah Benares, i roddi symiau mawr o arian iddo; ac o'r diwedd attafaelodd ei holl feddiannau. Camdriniodd ac ysbeiliodd dywysogesau Oude hefyd. Pan ddaeth y pethau hyn yn hysbys i bobl Prydain, digiodd y dosbarth goreu o honynt yn ddirfawr. Yn nechreu y flwyddyn 1785, rhoddodd Hastings ei swydd i fyny; a phan hwyliodd i Loegr, gwyddai o'r goreu fod ystorm yn ei aros. Pan gyrhaeddodd i'r wlad hon, derbyniwyd ef gyda pharch mawr gan Sior III., a'i lys; ond rhai a deimlad y Whigiaid yn gryf iawn yn ei erbyn, a llwyddasant i gario cynnygiad yn Nhŷ y Cyffredin i'w gyhuddo wrth far Tŷ yr Arglwyddi. Dechreuodd y prawf hwn yn Westminster Hall, Chwefror 12fed, 1788. Y prif gyhuddwr oedd Burke; a'i gynnorthwywyr oedd Fox, Sheridan, Grey, ac eraill. Wedi i'r enwogion hyn draddodi eu hareithiau, dechreuodd y dyddordeb a gymmerai y cyffredin yn y cyhuddiad leihau: er hyny, parhaodd y prawf dros saith mlynedd. Ar y 23ain o Ebrill, 1795, cyhoeddwyd ef yn ddieuog yn ngwyneb yr holl gyhuddiadau gan fwyafrif mawr.

Y mae yn amlwg fod y teimlad cyhoeddus wedi newid yn fawr yn ystod y prawf, a bod y wlad wedi myned i edrych ar Hastings fel dyn gorthrymedig, yn lle fel dyn gorthrymus. Ceisiodd Hastings wrthbrofi y cyhuddiad o gribddeiliaeth trwy dystiolaethu yn ddifrifol na bu erioed yn werth chwaneg na chan mil o bunnau.

Ar ol hyn, ymneillduodd Hastings i'r ystâd a brynasai yn Daylesford. Bu farw Awst 22ain, 1818, yn 86ain mlwydd oed. Y mae hanes ei fywyd a'i brawf wedi ei ysgrifenu gan y Parch. G. R. Gleig, a'i adolygu yn fedrus gan Arglwydd Macaulay, yn yr *Edinburgh Review.*

HAVELOCK, SYR HENRY: cadlywydd Prydeinaidd enwog. Ganwyd ef ar y 5ed o Ebrill, 1795, yn Bishop-wearmouth, yn swydd Durham, lle yr oedd ei dad yn farsiandwr, ac yn adeiladydd llongau. Derbyniodd ei addysg yn y Charterhouse, yn Llundain. Ymunodd â'r fyddin yn mhen mis neu ddau ar ol brwydr Waterloo; ac ar ol gwasanaethu am wyth mlynedd yn Lloegr, Ysgotland, a'r Iwerddon, aeth i'r India gyda'r drydedd gatrawd ar ddeg o'r milwyr ysgafndrec. Yno enwogodd ei hun yn fawr yn y rhyfeloedd yn erbyn yr Affghaniaid a'r Sikhiaid. Yn 1856, llywyddai ar ran o'r fyddin a aeth allan i ymosod ar Persia. Tra yr oedd efe yn y wlad hono, daeth y newydd fod yr Indiaid wedi codi yn erbyn llywodraeth y Saeson a phrysurodd yntau i Calcutta. Gosodwyd ef ar waith i ffurfio colofn symmudol fach yn Allahabad, ac i ymwthio yn mlaen i gynnorthwyo y Prydeinwyr yn Cawnpore a Lucknow. Gorchfygodd y gelyn ddwywaith:—y waith gyntaf yn Aeng, a'r ail waith wrth bont y Pandu Nuddi, yr hon sydd o fewn wyth milldir i Cawnpore. Mewn canlyniad i'r fuddugoliaeth hon, llofruddiwyd yr holl wragedd a'r plant Ewropaidd oedd yn nwylaw Nana Sahib. Ar ol gwthio y gwrthryfelwyr o bentref Ahrwa, aeth Havelock a'i wŷr i mewn i Cawnpore. Darfu i'r olwg ar gyrph y gwragedd a'r plant a lofruddiasid eu llanw âg ysbryd dial; ac yn yr ysbryd hwnw gadawsant Cawnpore, ac aethant rhagddynt tua Lucknow. Aethant dros y Ganges, gan gilgwthio y gwrthryfelwyr o Unao a Busserut Gunge. Wedi i Havelock ennill wyth o fuddugoliaethau ar ei elynion, cafodd fod ei fyddin fechan wedi ei theneuo gymmaint gan lesgedd ac afiechyd fel y gorfu arno gilio yn ol i Cawnpore. Yn mis Medi, daeth y cad-

Digitized by Google

lywydd Outram gydag adgyfnerthion, ac aeth Havelock ymaith eilwaith i ddwyn ymwared i Lucknow gyda byddin o 2,500 o wŷr a 17eg o ynau. Gorthrechodd y gwrthryfelwyr yn Mungalwar, ac yn Alum Bagh. Yna ymladdodd y golofn dan Havelock ei ffordd trwy heolydd y ddinas nes cyrhaedd o honi y Breswylfa (*Residency*). Derbyniwyd hi gan y gwarchodlu gyda llawenydd annisgrifiadwy. Ond gwarchauwyd arni hithau hefyd yn ei thro gan y gelynion, nes y daeth Syr Colin Campbell, a'i wŷr, i'w chynnorthwyo. Yr oedd pryder a llafur eisoes wedi dechreu siglo cyfansoddiad Havelock; ac ar yr 22ain o Dachwedd, 1857, bu farw o'r gwaedlif. Bu y ffaith ddarfod iddo farw, newydd i'r gwrthryfel gael ei ddarostwng, yn achos o alar mawr, nid yn unig yn yr India, ond hefyd yn y wlad hon. Pan ddaeth y gwasanaeth mawr a wnaeth efe yn beth hysbys, anfonwyd anrhydedd ar ol anrhydedd iddo—ond daeth y cwbl yn rhy ddiweddar! Yr oedd Havelock yn ddyn crefyddol iawn, ac yn ddysgyblwr llym; ac yn hyn yr oedd yn tebygu i'r Puritaniaid dewr a difrif a fuont yn ymladd ac yn gorchfygu dan Cromwell. "Am fwy na deugain mlynedd," meddai, wrth Syr James Outram yn ei funydau olaf, "yr wyf wedi llywodraethu fy mywyd yn y fath fodd, fel pan ddelai angeu y gallwn ei wynebu yn ddiofn." Gwnaed cerfddelw yn goffadwriaeth am dano trwy danysgrifiad cyhoeddus, yr hon a osodwyd i fyny yn Trafalgar Square, yn Llundain.

HERBERT, EDWARD, Arglwydd Herbert o Cherbury, yr hwn a gyfrifir yn gyffredin y cyntaf o'r ysgrifenwyr Deistaidd. Ganwyd ef o deulu pendefigaidd yn 1581, yn Nghastell Trefaldwyn. Ar ol gorphen ei addysg yn Rhydychain, ymwelodd â Llundain; ac yn fuan wedi hyny, aeth i'r Cyfandir i ymdeithio. Gyda ei fod wedi dychwelyd i Loegr, efe a aeth ymaith drachefn yn 1610 i'r Iseldiroedd, lle y bu yn ymladd dan Maurice, y Tywysog Orange. Anfonwyd ef ddwywaith yn genad i Ffrainge; a phan ddychwelodd yn 1625, fe'i gwnaed yn arglwydd Gwyddelig, ac ar ol hyny yn farwn Saesneg. Pan dorodd y rhyfel cartrefol allan, dangosodd cryn betrusder—gan ddarfod iddo ar y cyntaf ymuno â'r senedd, ac wedi hyny â'r brenin. Ymosodwyd ar ei balas, a llosgwyd ef. Bu farw yn Llundain yn y flwyddyn 1648.

Sylfaenodd Herbert ei gyfundraeth—fel ag y gwnaeth Descartes ei gyfundraeth athronyddol—ar reddfau naturiol, neu grediniaethau gwirebus (*axiomatic*). Y pum crediniaeth y mae a wnelont â chrefydd, medd efe, ydynt:—"bod Duw, y ddyledswydd o addoli, yr angenrheidrwydd am dduwioldeb a rhinwedd, effeithioldeb edifeirwch, a'r sicrwydd am wobr a chosp yn y byd hwn a'r nesaf." Y mae y gweithiau y mae yn ymdrin ynddynt â'r pethau hyn, a rhai cyffelyb, yn cynnwys traethawd ar Wirionedd ("*De Veritate*," 1624); Achosion Cyfeiliornadau ("*De Causis Errorum*," 1645); Crefydd Gŵr Lleyg ("*De Religione Laici*," 1663); ac ar Grefydd y Cenhedloedd ("*De Religione Gentium*"). Amddiffyna y casgliadau y mae yn dyfod iddynt trwy brofi fod ei grediniaethau gwirebus i'w cael yn mhob crefydd, a thrwy appelio hefyd at "oleuni neu reswm mewnol." Y mae yr holl wirebau hyn, meddai, yn amlwg o honynt eu hunain; ac ystyria fod pob peth a chwanegir atynt gan grefyddau neillduol yn ammheus—ac felly yn ddirym. Er ei fod yn gwadu dadguddiad, etto yr oedd mor anghysson a chredu ei fod ef ei hun wedi cael dadguddiad neillduol i'w gyfarwyddo i gyhoeddi ei gyfundraeth.

Attebwyd Herbert gan Baxter, Haleyburton, a Leland, a chan Locke hefyd yn ei "*Reasonableness of Christianity*" (1695).

HERBERT, GEORGE: y bardd Saesneg. Ganwyd ef yn Nghastell Trefaldwyn, ar y 3ydd o Ebrill, 1593, ac yr oedd yn frawd i Arglwydd Herbert. Addysgwyd ef yn ysgol Westminster; ac yn 1608, anfonwyd ef i Goleg y Drindod, yn Nghaergrawnt. Yn 1615, etholwyd ef yn gymrawd; ac yn 1619, gwnaed ef yn areithydd cyhoeddus. Tra yn y swydd hon, daeth yn gydnabyddus âg Arglwydd Bacon, Esgob Andrews, ac amryw enwogion eraill. Gan obeithio cael dyrchafiad, treuliodd gryn amser ar ol hyny o ddeutu y llys. Pan fu farw Iago I., ymroddodd i astudio duwinyddiaeth, er mwyn ymbarotoi i'r weinidogaeth. Gwnaed ef, yn 1626, yn brebendur Leighton Bromswold; ac yn 1630, cafodd beriglorïaeth Bemerton—a gwraig. Yn mhen dwy flynedd ar ol hyn, bu farw o'r cryd beunyddiol (*tertian ague*), yn 39ain mlwydd oed.

Ei brif waith barddonol yw "*The Temple, or Sacred Poems and Private Ejaculations.*" Ni chyhoeddwyd ef hyd ar ol ei farw, ond ennillodd ar unwaith gymmeradwyaeth mawr iawn. Fe ddywed Walton fod ugain mil o gopïau wedi eu gwerthu cyn 1670. Ysgrifenodd waith mewn rhyddiaith hefyd, o'r enw "*The Country Parson;*" yr hwn sydd yn cynnwys rhestr o reolau da i weinidogion yr Eglwys Sefydledig. Y mae y gwaith hwn hefyd yn deilwng o enw Herbert, er nad am yr un rhesymau. Heb law hyn, efe a gyfansoddodd amryw ganeuon yn Lladin; cyfieithodd waith Cornaro ar Gymmedroldeb; ac efe, gyda Ben Johnson a Hobbes, a gyfieithodd yr "*Advancement of Learning*" i'r iaith Lladin. "Y mae cymhendod (*quaintness*) ei feddyliau," medd Coleridge, "(nid ei ieithwedd, canys nis gall dim fod yn fwy pur, yn fwy gwraidd, ac yn fwy naturiol na hono) wedi cuddio rhagoriaethau cyffredinol ei ganiadau oddi wrth ddarllenwyr y dyddiau hyn." "Yr wyf yn addef," meddai Baxter, "nad wyf yn cael cymmaint o flâs ar ganiadau yn y byd, oddi allan i'r Ysgrythyr, ag ar ganiadau Herbert."

Ysgrifenwyd hanes ei fywyd gan Izaak Walton, ac y mae yn debyg fod enw Herbert wedi ei wneuthur yn fwy anfarwol gan waith Walton na chan ei weithiau ef ei hun.

HERCULES, neu HERCWLFF: arwr penaf chwedloniaeth y Groegiaid, a'r hwn a ystyrid ganddynt fel cynllun o berffeithrwydd dynol. Mab ydoedd, yn ol y chwedl, i Iau ac Alcmene. Pan anwyd ef, darfu i Hera, neu Juno, o genfigen tuag ato, anfon dwy sarph i'w ddyfetha; ond llindagodd y baban hwynt yn ei gryd. Enwogodd ei hun yn foreu trwy ei wrhydri. Lladdodd lew ysglyfaethus oedd yn cynniwair yn mynydd Cithæron, a gwaredodd Thebes rhag talu teyrnged i Erginus, brenin yr Orchomeniaid. Fel ad-daliad iddo am y gwasanaeth hwn, rhoddodd Creon, brenin Thebes, ei ferch, Megara, yn wraig iddo. Rhoddodd y duwiau hefyd iddo arfau yn anrhegion: rhoddwyd iddo gleddyf gan Hermes, bŵa a saethau gan Apollo, llurig aur gan Hephæstus, a mantell borphor (*peplus*) gan Athena. Torodd iddo ei hun glwpa neu bastwn

Digitized by Google

yn nghymmydogaeth Nemea, er y dywed rhai mai clwpa prês ydoedd, a roddwyd iddo gan Hephæstus. Gan ei fod wedi ei dynghedu i wasanaethu Eurystheus, brenin Mycenæ, efe a wnaeth, wrth ei orchymyn ef, nifer o orchestion a elwir yn "Ddeuddeg gwrolgamp Hercules." Gosodwyd arno, yn gyntaf, i ladd y llew Nemeaidd, ac i ddwyn ei groen i Eurystheus. Yn ail, i ladd y sarph amlbenog ag oedd yn nghorsdir Lernæ; ond cynnorthwywyd Hercules i wneyd y gwrolwaith hwn gan ei gyfaill Iolaus. Felly gwrthododd Eurystheus wneyd cyfrif o hono. Yn drydydd, i ddal ewig Diana, yr hon oedd yn hynod am ei chyflymder, ac i'w dwyn yn fyw i Mycenæ. Yn bedwerydd, i ddal baedd gwyllt, oedd yn anrheithio cymmydogaeth Erymanthus, ac i'w ddwyn yn fyw i Eurystheus. Yn bummed, i lanhau beudai Augeas, brenin Elis. Yr oedd gan Augeas dair mil o ychain, y rhai yr oedd eu corau heb eu glanhau er's deng mlynedd ar hugain. Glanhaodd Hercules y rhai hyn trwy droi yr afonydd Alpheus a Peneus drwyddynt. Yn chweched, i ddyfetha, neu o'r hyn lleiaf i yru ymaith, yr adar ysglyfaethus a ddifrodent y wlad o amgylch llyn Stymphalis. Yn seithfed, i ddwyn y tarw Cretaidd yn fyw i Peloponnesus. Yn wythfed, i ddwyn cesyg y brenin Diomedes i Mycenæ. Nawfed, i ddwyn oddi ar Hippolyta, brenhines yr Amazoniaid, y gwregys a gawsai gan Ares. Yn ddegfed, i ladd yr anghenfil Geryon o ynys Erythia, ac i ddwyn ei ychain i Argos. Dyma'r holl wrolgampau y gorchymynwyd i Hercules eu gwneuthur ar y cyntaf; ond gan fod Eurystheus yn tystiolaethu ddarfod iddo wneuthur yr ail a'r pummed mewn modd anghyfreithlawn, efe a orchymynodd i Hercules wneuthur dau yn rhagor. Yr unfed ar ddeg o'i wrol-gampau oedd cyrchu yr afalau aur o ardd yr Hesperides. Y deuddegfed oedd dwyn Cerberus, y ci tri-phen, o Annwn. Rhyddhawyd Hercules ar ol hyn o'i gaethiwed.

Gwnaeth Hercules lawer o orchestion eraill heb law y rhai hyn, yn ol y chwedl: ond prin y maent yn werth eu henwi. A mynegir ddarfod ei gymmeryd yn y diwedd i fyny i'r nef.

Tybia chwedlofyddion fod amryw o arwyr o'r enw Hercules, heb law yr un Thebaidd; sef, un Indiaidd, un Aiphtaidd, un Pheniciaidd, un Cretaidd, un Celtaidd, ac un Ellmynaidd; ond mai yr un Thebaidd yw yr enwocaf, a bod gweithredoedd y lleill oll yn cael eu priodoli iddo ef. Tybia rhai o'r ysgolheigion mwyaf diweddar nad ydyw Hercules ond arwyddlun o'r haul, ac mai yr hyn a olygir wrth ei ddeuddeg gorchwyl ydyw y deuddeng mis, neu ddeuddeg arwydd y ffurfafen.

HERRING, JOHN: gweinidog enwog gyda'r Bedyddwyr. Ganwyd ef yn y flwyddyn 1789, yn mhlwyf Llanyspyddyd, yn sir Frycheiniog. Gan iddo gael ei amddifadu o'i dad, bu gorfod arno fyned i wasanaethu cyn bod yn naw oed. Pan oedd yn bymtheg oed, derbyniwyd ef yn aelod o eglwys y Bedyddwyr yn Sirhowy; ac yn mhen ychydig flynyddoedd wedi hyny, dechreuodd bregethu. Yn mhen rhyw dair blynedd ar ol hyny, anfonwyd ef i athrofa Caerodor, lle yr oedd Dr. Ryland y pryd hwnw yn brif athraw. Er ei fod yn cymmeryd ei ddysg yn rhwydd, etto ni theimlodd ei hun yn ei elfen yno. Pregethu oedd yn myned â'i fryd ef; felly gadawodd y coleg yn mhen y flwyddyn: ac ar yr 11eg o Fehefin, 1811, pan nad oedd etto ond dwy ar hugain oed, ordeiniwyd ef yn weinidog i eglwys Aberteifi. Cymmaint oedd ei lwyddiant fel bugail a phregethwr fel yr aeth y capel, yn fuan, yn rhy gyfyng i gynnwys y gynnulleidfa a ymdyrai i wrandaw arno. Helaethwyd ef yn 1819 yn gymmaint arall; ond buan y gwelwyd ei fod, hyd yn oed felly, wedi ei wneuthur yn rhy fychan. O dan ei ofal ef yr oedd yr eglwysi Cilgeran a Berwig hefyd, a chafodd brawf nad oedd ei lafur yn myned yn ofer yno chwaith. Bu hefyd yn offeryn i sefydlu achosion bychain ar hyd y wlad, y rhai sydd erbyn hyn yn eglwysi cryfion.

Yr oedd Herring yn un o brif bregethwyr y Bedyddwyr. Yr oedd yn feddyliwr cryf, ac yn ymadroddwr rhwydd a grymus. Dywedai Christmas Evans ei fod "yn feddiannol ar fwy o dalentau ag sydd yn gwneuthur i fyny wir fawredd pregethwr nag un dyn arall yn Nghymru. Nid yw byth yn treulio ei amser yn ofer i guro haiarn oer." Blinwyd ef yn fawr yn ystod ei flynyddoedd olaf gan ddiffyg anadl. Bu farw ar y 12fed o Ebrill, 1832, yn 43ain oed.

HERVEY, JAMES, awdwr y "*Myfyrdodau.*" Ganwyd ef yn Hardingstone, yn swydd Northampton, ar y 26ain o Chwefror, 1714. Darfu i'w dad, yr hwn oedd weinidog yr efengyl yn Collingtree, ei anfon ar y cyntaf i Ysgol Rammadegol Northampton, ac wedi hyny i Goleg Lincoln, yn Rhydychain, lle yr ennillodd efe radd gwyryf. Daeth yno yn gydnabyddus â John Wesley, a theimlodd ymlyniad cryf wrth ei syniadau athrawiaethol; ond ar ol hyny aeth i gredu fod y syniadau hyny yn gyfeiliornus, ac am hyny ymlynodd wrth y Calviniaid. Pan oedd yn ddwy ar hugain oed, pennodwyd ef gan ei dad yn gurad Weston Favel; a chyflawnodd ddyledswyddau ei swydd yn ddyfal a chydwybodol. Yn ystod y blynyddoedd canlynol, bu yn gwasanaethu fel curad yn Bideford, ac amryw leoedd eraill yn ngorllewin Lloegr. Yn Bideford yr ysgrifenodd ei "*Meditations among the Tombs,*" a'i "*Reflections in a Flower Garden.*" Pan fu farw ei dad, gwnaed James Hervey yn beriglor Weston Favel a Collingtree yn ei le. Gorphwysodd oddi wrth ei lafur ar ddydd Nadolig, 1758.

Cydnebydd pawb fod cymmeriad Hervey yn un o'r rhai prydferthaf. Er nad oedd yn ddyn mawr, yr oedd yn ddyn da odiaeth. Ysgrifenodd lawer o lyfrau, a bu galw mawr am danynt unwaith. Arddull blodeuog, chwyddedig, a gwasgarog sydd ganddo. Y rhai mwyaf poblogaidd o'i weithiau, heb law y rhai a enwyd uchod, ydyw "*Theron and Aspasio;*" "*On the Night;*" a "*Remarks on Lord Bolingbroke.*"

HERZEGOVINA. Gwel "Ewrop fel y mae," yn niwedd yr Attodiad hwn.

HILARY, neu fel y gelwir ef yn fynych, Sant Hilary, esgob Poictiers, a doctor yn yr eglwys; yr hwn, er nad oedd yn mysg y rhai a ysgrifenodd fwyaf o'r tadau Lladinaidd, etto, o herwydd natur y pyngciau yr ysgrifenodd arnynt, y rhai a ddygent gyssylltiad yn benaf â'r ddadl ar Ariaeth, y mae i'w weithiau le pwysig yn llenyddiaeth tadau yr Eglwys Orllewinol. Ganwyd ef o rieni paganaidd yn Poictiers, yn foreu yn y bedwaredd ganrif. Gan fod ei rieni mewn sefyllfa gysurus o ran eu hamgylchiadau, cafodd bob mantais i gael addysg dda. Yr oedd

Digitized by Google

ei dröedigaeth at Gristionogaeth yn benaf yn ganlyniad i'w waith yn astudio y prophwydoliaethau; ac ni chymmerodd hyny le hyd nes ei fod wedi cyrhaedd i gryn oedran. Bedyddiwyd ef, a'i wraig, a'i ferch ar yr un pryd. Perchid ef yn fawr yn ei dref enedigol; ac er ei fod yn briod, etholwyd ef yn esgob, o ddeutu B.A. 350. Yr oedd y ddadl Ariaidd y pryd hwnw yn ymledu yn brysur yn yr Eglwys Orllewinol. Gosododd ef ei wyneb yn erbyn Ariaeth. Wedi tynu anfoddlonrwydd y llys arno, efe a garcharwyd; ac wedi hyny alltudiwyd ef gan Gynghor Beziers i Phrygia, yn y fl. B.A. 356. Ymddangosodd yn nghynnadledd eglwysig Sileucia yn Isauria, a gwrthwynebodd yno yn egnïol y rhai a haerent nad oedd y Gair yn cyfranogi o'r un natur a'r Tad. Wedi hyny yn Nghaer Cystenyn, yr oedd yn gweithio mor benderfynol yn erbyn Ariaeth y llys, fel y danfonwyd ef yn ol i'w esgobaeth yn Poictiers. Er iddo gael ei dderbyn yn y modd mwyaf anrhydeddus, yr oedd ganddo lawer i'w wneyd am dymmor i wrthweithio yr Ariaeth a gyfodasai yn ei absennoldeb ef. Efe a lwyddodd i yru Saturninus o'i esgobaeth eilwaith, a chyhuddodd Auxentius, esgob Milan, o ddal syniadau cyfeiliornus. Galwyd y ddau ger bron yr ymherawdwr Valentinian. Rhoddwyd attebion boddhaol gan Auxentius. Dadganodd Hilary ei fod yn rhagrithiwr; ac o blegid hyn, gorchymynwyd iddo adael Milan fel cythryblwr ar heddwch yr eglwys. Bu farw yn Ionawr, 368. Yr oedd nerth ei gymmeriad, ei ddewrder, a'i ddyfal-barhâd diflino yn ei wneuthur yn hynod ddylanwadol yn ystod ei fywyd. Yr oedd ei sêl, pa fodd bynag, yn ei arwain i wneyd pethau annoeth. Gelwid ef yn forthwyl yr Ariaid, oddi wrth y safle benderfynol a gymmerodd efe yn erbyn yr heresi Ariaidd. Ei Esboniad ar Efengyl Mathew ydyw yr esboniad hynaf sydd ar gael ar yr efengylwr hwnw. Ei waith pwysicaf ydyw yr un ar y Drindod; ond ei dri anerchiad i'r ymherawdwr Constantius, o herwydd eu gwresogrwydd, ac eofndra yr iaith a arferid, sydd wedi tynu mwyaf o sylw beirniaid. Y mae gweithiau Hilary yn werthfawr, yn benaf ar gyfrif yr hanes a geir ynddynt am y blaid Ariaidd; ac yn enwedig am yr amrywiol arweddion yr aeth y blaid drwyddynt rhwng Cynghorfa Nicea a Chynghorfa Caer Cystenyn.

**HILL, ROWLAND.** Ganwyd y gŵr da a defnyddiol hwn yn Hawkstone Hall, yn swydd Amwythig, y 23ain o Awst, 1744. Yr oedd yn fab i Syr Rowland Hill, barwnig, ac yn frawd i Syr Richard Hill, A.S. dros y sir ddywededig. Cafodd crefydd le yn meddwl y bachgen Rowland yn bur foreu. Priodolai ei argraphiadau crefyddol cyntaf i Watt's "*Divine and Moral Songs for Children.*" Dyfnhawyd yr argraphiadau hyn, mewn amser diweddarach, gan eiriau syml a difrifol yr Esgob Beveridge. Addysgwyd ef yn Eton, ac yn Ngholeg St. Ioan, Caergrawnt. Graddiwyd ef yn Nghaergrawnt yn A.C.; ond pan y ceisiodd gael ei ordeinio yn yr eglwys, gwrthodwyd ef gan chwech o esgobion. Cafodd ei urddo yn ddiacon; ond nid ordeiniwyd ef erioed yn 'offeiriad.' Yr oedd, er's talm cyn hyn, wedi myned yn hynod fel pregethwr yn yr awyr agored, ac fel cyfaill i flaenoriaid y symmudiad Methodistaidd. Yr oedd yn llawen gan yr Iarlles Huntington, a'i chyfeillion, gael y fath weithiwr ieuangc; ac iddynt hwy yr oedd efe yn ddyledus am ei gynnaliaeth. Rhoddasant iddo ferlyn i farchogaeth arno i'w deithiau. Tra annhebyg, yn wir, oedd y creadur hwn i'r ceffylau ardderchog y byddai yn ymfalchïo ynddynt ar ol dyfod o hono i sefyllfa fwy cysurus; canys yr oedd yr hen saint pendefigaidd yn gosod bri mawr ar ei geffylau. Yr oeddynt mor olygus, fel na allai ei nai enwog, Arglwydd Hill, beidio a chenfigenu wrtho o'r herwydd.

Dyn go dda oedd yr hen Syr Rowland yn ei ffordd; ond yr oedd yn ddig iawn wrth ei ddau fab am ymddwyn fel y gwnaent; canys dealler fod ei fab Richard hefyd yn efengylu ar amserau. Ar ryw brydnawngwaith teg yn yr haf, gwelai yr hen Syr dyrfa fawr, a chlywai lais uchel-groch ei fab Rowland ar odrau Hawkstone Park. Yna galwodd ar Richard, a gofynodd iddo fyned i edrych pa beth oedd yno. "Rowland, syr, sydd yn pregethu i bobl y gymmydogaeth." "Ewch i beri iddo ddyfod ataf fi yn ddioed," ebai y tad.

Pan ddygodd Richard y gorchymyn hwn i'w frawd, ufuddhaodd iddo ar unwaith; ond cymmerodd Richard ei le, ac aeth rhagddo i orphen y bregeth. Aeth Rowland at ei dad; ond tra yr oedd yn derbyn cerydd am anweddusder ei ymddygiad, dywedodd Syr Rowland, "Mi glywaf rywun arall yn pregethu:—Pwy ydyw hwn yna, tybed?

"Mi dybygaf, syr, mai Richard ydyw, yn gorphen fy mhregeth i," ebe Rowland.

"Ewch ato, a dywedwch wrtho am ddyfod ataf fi yn ddioed; a deuwch chwithau yr ol gydag ef."

Ond erbyn hyny, yr oedd y bregeth wedi ei gorphen, a'r gynnulleidfa ar gael ei gollwng ymaith. Ceryddwyd y ddau fab yn llym am "iselhau eu hunain yn ngolwg y bobl." Attebasant ef yn fwyn; a chyn hir, gyrasant ef i wenu trwy adrodd rhai o ymadroddion diolchus y bobl. Yr oedd yr hen ŵr yn dioddef gan y gymmalwst ar y pryd; ond nis gallai guddio ei foddhâd, wrth glywed fod ei feibion, a'u gweinidogaeth, yn gymmeradwy gan bobl yr ardal.

Un lled debyg, mewn llawer o bethau, oedd Hill i'r hen John Berridge, periglor Everton; ac fel hyn yr ysgrifenodd efe am dano, mewn llythyr at Arglwyddes Huntington:—"Clywais eich bod wedi cael y dihoced Rowland i lawr i Bath. Y mae yn adargi ieuangc tlws, yn gymmhwys i'r tir, ac i'r dwfr, ac y mae ganddo gyfarthiad rhyfeddol. Y mae wedi gadael tad, mam, a brodyr, ac wedi rhoddi pob peth i fyny i'r Iesu; a chredaf y gwnaiff weithiwr defnyddiol, os gall efe ymgadw rhag myned i faglau y merched (*petticoat snares*). Arddelodd Duw ef yn rhyfeddol yn Nghaergrawnt, ac yn y gogledd; a gobeithio yr wyf yr arddelir ef yn helaethach yn y gorllewin." Ac yn y gorllewin y daeth efe yn fwyaf adnabyddus. Pregethai bob dydd i dyrfaoedd mawrion yn Ngwlad yr Haf, ac yn siroedd Caerloyw a Wilts.

Tua'r pryd hwn, priododd Miss Mary Tudway, chwaer Clement Tudway, Ysw., A.S. dros Wells. Bu yn gydymaith cymmhwys iawn iddo; a thrwy ddylanwad ei brawd hi yr ordeiniwyd ef, mewn rhan, yn weinidog yn Eglwys Loegr. Gwasanaethodd dymmor ei guradiaeth yn mhentref Kingston, yr hwn sydd tua phedair milldir oddi wrth Taunton. Gadawodd Kingston yn mhen rhyw gymmaint o amser, ac adeiladodd dŷ i'r Arglwydd, ac iddo ei hun, yn Wootonunder-Edge, yn swydd Gaerloyw. Llanwyd y 'tabernacl' hwn bron ar unwaith. Ymgasglai

tyrfaoedd iddo o bob bryn a dyffryn o amgylch. Gweinidogaethai Mr. Hill yn y lle hwn am chwe mis bob blwyddyn; a llanwai y pulpud yn y misoedd eraill â dynion cyffelyb eu cymmeriad a'u hysbryd iddo ef ei hun. Ei gurad yn y fan hon, yn ystod blynyddoedd olaf ei oes, oedd Theophilus Jones—"*my Welshman*," fel y galwai Mr. Hill ef. Tystiolaethir nad oedd ei ddefnyddioldeb a'i ddylanwad yn nemawr llai na'r eiddo Rowland Hill ei hun. Yn haf 1783, agorwyd capel Surrey yn St. George's Fields, yr hwn oedd yn un o'r adeiladau eangaf yn Llundain; ac o hyny hyd ei farwolaeth, byddai yn pregethu ynddo yn gysson bob gauaf.

Codwyd adeilad yn agos i'r capel, yr hwn yr oedd rhan o hono wedi ei neillduo yn ysgol i bedair-ar-hugain o enethod tlodion "â gair da iddynt," a'r rhan arall yn elusendai i'r un nifer o hen wragedd o'r un cymmeriad.

Yn ystod ei weinidogaeth yn Nghapel Surrey, ffurfiwyd tair-ar-ddeg o Ysgolion Sabbothol mewn cyssylltiad â'r capel, yn cynnwys tair mil o blant. Yr oedd hwn yn waith mawr pan ystyriwn y gwahaniaeth rhwng yr amseroedd hyny a'r rhai hyn. Darluniai Mr. Hill ei hun yn nghanol y prysurdeb fel "Periglor Capel Surrey, ebrwyad Wooton-under-Edge, a churad pob maes, pob cyttir, pob heol, pob ffordd, &c., trwy Loegr a Chymru." Hwyrach na chadwodd neb, oddi eithr John Wesley, ei gymmeradwyaeth fel pregethwr yr efengyl am gynnifer o flynyddoedd fel Rowland Hill. Ymestynai tymmor ei weinidogaeth dros ddeng mlynedd a thrigain; canys dechreuodd bregethu cyn bod yn ugain oed, ac yr oedd yn ei ddegfed flwydd a phedwar ugain pan beidiodd a phregethu. Dywedir ei fod wedi pregethu 22,291 o weithiau cyn mis Mehefin, 1831.

Arferai gymmysgu cryn lawer o ddigrifwch â'i bregethau—a gormod, fe ddichon, ar brydiau. Ond ymddengys nas gallai ymattal rhag gwneyd hyny; ac yr oedd y ddawn hon ar y cyfan mor ddefnyddiol ac effeithiol ag un arall a feddai. Nid gwiw a fyddai i ddyn prudd ei dymmer gondemnio Rowland Hill am fod yn llon. Arferai Richard Brinsley Sheridan ddyweyd, "Yr wyf yn myned i wrandaw ar Mr. Hill, am fod ei feddyliau yn dyfod yn chwilboeth o'i galon." Galwai yr Arglwyddes Huntingdon ef yn "ail Whitfield." Darfu i Milner, yr hanesydd, Deon Carlisle, fyned ato ar ol rhyw oedfa, a dywedyd wrtho—"Mr. Hill! Mr. Hill! teimlais heddyw mai y pregethu *slap-dash* yma, gan nad beth a ddywedir am dano, sydd yn gwneyd mwyaf o les." Fod *slap-dash* yn air priodol i ddynodi ei bregethu sydd amlwg oddi wrth y modd y darfu iddo unwaith ddosbarthu ei fater:—"Gellir yn naturiol ddosbarthu y pwngc yn dair rhan," meddai. "Yn gyntaf, ni a awn at y pwngc; yn ail, ni a awn o amgylch y pwngc; ac yn drydydd, awn ymaith yn lân oddi wrth y pwngc." Y mae'r chwedlau a adroddir am Rowland Hill yn afrifed; ond dylid dyweyd fod llawer o honynt yn ddi-sail. Unwaith, darllenodd gyfrol o'r "*Percy Anecdotes*," lle yr adroddir ddarfod iddo ddywedyd o'r pulpud, "Dyma Mrs. Hill yn dyfod, â chist ddillad ar ei phen!" Yntau, yn ddigllawn, a ysgrifenodd ar ochr y ddalen, "Celwydd!" a dywedodd wrth Mr. William Jones—ei fywgraphydd ar ol hyny:—"Syr, yr wyf yn gobeithio fy mod yn ormod o Gristion, os nad o ŵr boneddig, i wneyd fy ngwraig yn destyn chwerthin i'r cyffredin." Mynegir, fodd bynag, fod yr hanesion canlynol yn wir am dano. Fel yr oedd efe yn myned i'r capel ryw foreu Sabbath, aeth dau ddyn ieuangc heibio iddo, a dywedodd y naill wrth y llall, "Gadewch i ni fyned i glywed Rowland Hill, er mwyn cael ychydig o ddifyrwch." Prysurodd yntau heibio iddynt, a dywedodd wrth y drysor am eu dodi hwynt i eistedd ar gyfer y pulpud. Yr adnod a gymmerodd yn destyn oedd hon:—"Y rhai drygionus a ymchwelant i uffern, a'r holl genhedloedd a anghofiant Dduw!" Yna, gan edrych yn myw llygaid y llangciau, efe a ddywedodd, "Dyna i chwi ddifyrwch!" Yna aeth rhagddo i ddarlunio drwg pechod, y farn ddiweddaf, a phoenau uffern; ac yn niwedd pob paragraph, troai ei lygaid at y llangciau, gan ddyweyd fel byrdwn, "Dyna i chwi ddifyrwch!" hyd nes yr aethant yn wrthddrychau sylw pob llygad yn y capel. Llesmeiriodd un honynt, a bu raid ei gymmeryd allan; ond arosodd y llall yn ei le, heb gyffroi dim. Daeth yr un a lesmeiriodd yno drachefn y Sabbath canlynol; ymunodd â'r eglwys, a chyn hir yr oedd yn weinidog yr efengyl; a bu, cyn ei farw, yn llywydd yr Undeb Cynnulleidfaol. Tyfodd y llall yn adyn di-obaith, a deolwyd ef oddi wrth ei gyfeillion, ac o'i wlad. Dyma enghraifft hynod o'r gwirionedd y gall yr unrhyw air fod yn "arogl bywyd i fywyd, neu yn arogl marwolaeth i farwolaeth." Weithiau, yn wir, byddai Mr. Hill yn cael y gwaethaf wrth ymliw â phechaduriaid. Dywedodd wrth ei gyfaill Clayton, iddo unwaith, wrth fyned i'w gapel, glywed gyriedydd yn tyngu yn ddychrynllyd. Dywedodd Mr. Hill wrtho, "Ah! ddyn, byddaf yn dyst cyflym yn eich erbyn." "Y mae hyny yn ddigon tebyg," ebe'r dyn. "Y dyhirod mwyaf, bob amser, sydd yn troi yn dystion y brenin" (*king's evidence*). "Pa beth a ddywedasoch yn atteb i hyny," ebai ei gyfaill. "Pa beth a allaswn ei ddyweyd," ebai Mr. Hill? "Yr oedd yr hyn a ddywedodd yn berffaith wir, er fy mod yn gobeithio nad oedd o ddim yn gymmhwysiadol ataf fi; ond penderfynais fod yn fwy gofalus pa bryd a pha fodd i siarad wrth y fath ddynion drachefn. Pan gymmerai rhywun arno gynghori Rowland Hill i bregethu yn goeth, ymddengys y byddai mewn profedigaeth i ddial ar ei gynghorwyr trwy ddyweyd ymadroddion mwy anghoeth nag arferol. Rhoddwyd ar ddeall iddo yn ngwisgfa (*vestry*) rhyw gapel, cyn ei fyned i'r pulpud, fod cynnulleidfa y capel hwnw yn un bwysig a pharchus iawn; ac nad oedd ar neb yno eisieu *tag-rag* a *bob-tail*. Ond ni fynai Rowland Hill ymostwng i borthi "parchusrwydd" cynnulleidfa ar gais rhyw ymyrwr mursenaidd. Felly ar ei weddi, anfonodd i fyny yr eirchion rhyfedd hyn:—"O Arglwydd! bendithia *tag*, bendithia *rag*, a bendithia *bob-tail*." Nis gwyddom pa effaith a gafodd y weddi hon ar y gwrandawyr. Dichon iddi gael yr effaith a fwriadai y gweddïwr, canys nid oedd Mr. Hill heb wybod yn dda pa fodd i drin gwahanol ddynion a gwahanol gynnulleidfaoedd, fel y dengys yr hanes canlynol. Ymgyfarfu tyrfa o longwyr unwaith ar lanerch yr oedd Rowland Hill wedi ei gyhoeddi i bregethu arni, ar fedr aflonyddu arno trwy gadw sŵn a thaflu ceryg ato. Daeth Hill yno ar ei farch, a'i was yn ei ganlyn. Gwelodd ar unwaith pa fodd yr oedd pethau yn bod; ac am hyny, anerchodd hwynt fel hyn:—"Fy mhobl, os nad ydych yn dewis gwrandaw arnaf, nid oes genyf fi ddim hawl i'ch gorfodi i wneyd hyny; ond yr ydwyf wedi toithio rhai

Digitized by Google

milldiroedd yn y gobaith o wneyd neu gael rhyw les. Yn awr, y mae genyf gynnyg i'w wneyd i chwi. Yr wyf bob amser yn edmygu llongwyr Prydeinig. Gwelsoch lawer o wasanaeth, yn ddiammheu; a buoch mewn llawer ystorm a llongddrylliad. Y mae yn hoff genyf glywed am anturiaethau morwyr. Yn awr, safed rhai o honoch i fyny i ddyweyd wrthym yr hyn a welsoch, ac a ddioddefasoch, ac mi a wrandawaf arnoch; a chewch chwithau ar ol hyny wrando arnaf finnau. Y mae hyny yn eithaf teg!" Chwarddasant, wrth reswm, pan glywsant hyn, a chwarddodd Mr. Hill gyda hwynt. Annogasant eu gilydd i draddodi araeth; ond pan welodd Mr. Hill nad ydoedd neb o honynt yn barod i wneyd hyn, efe a ddywedodd, "Onid oes neb o honoch am dderbyn fy nghynnygiad? Wel, yr wyf fi yn ŵr eglwysig: daethum o brif athrofa Caergrawnt, ac nid oes genyf ddim i'w ddyweyd heb law yr hyn sydd yn y Beibl a'r Llyfr Gweddïau. Yn awr, os gwrandewch chwi, mi ddywedaf wrthych yr hyn yr oeddwn yn meddwl ei ddyweyd." Cyn hir, yr oedd y morwyr yn chwerthin ac yn wylo bob yn ail; a phan y gorphenodd efe bregethu, rhoisant dair banllef iddo, a dymunasant arno frysio yno drachefn. Yr oedd ei boblogrwydd yn peri fod llawer o bobl yn dyfod i ymweled âg ef; a derbyniad digon cwta a gai rhai o honynt. Yr oedd ar fyned allan o'i dŷ unwaith, pan y cyfarfu wrth y drws â dyn a ddygasai anair ar grefydd. Gofynodd hwn yn wepddwys—"Sut yr ydych chwi Mr. Hill? Y mae yn dda odiaeth genyf eich gweled unwaith yn rhagor." Nid attebodd Mr. Hill iddo air, ond gwaeddodd mewn syndod, "Beth! oni chrogwyd chwi etto?" Ar hyny aeth i mewn i'r tŷ, ac ni fynai fyned i'r drws drachefn, hyd oni sicrehid ef fod y dyn wedi myned ymaith. Er fod Rowland Hill yn ŵr boneddig, ac yn ŵr athrofaol, ac felly yn rhyw gymmaint o ysgolhaig ei hun, etto nid oedd yn cymmeradwyo y dull cyffredin o wneuthur gweinidogion. Unwaith, dymunodd gŵr ieuangc, newydd ddyfod o'r athrofa, am gael ei weled, er mwyn ymgydnabod âg ef. Ar ol gofyn ynghylch iechyd eu gilydd, dywedodd yr hen ŵr nerthol, "Ac yr ydych wedi dyfod allan fel gweinidog yr efengyl, ai e?" "Ydwyf, syr." "Un o ddynion ieuaingc Dr. Bogue, mi dybygaf?" "Ie." "Wedi dyfod o'r gweithdy sydd ganddo i lunio pregethwyr, ai e?" Erbyn hyn, ni wyddai y gŵr ieuangc pa beth i'w ddyweyd. Yna, aeth Mr. Hill rhagddo, gan ddyweyd, "Ah! pethau drwg ydyw yr athrofeydd yna. Nid yw yn dda genyf mo'r dull y mae dynion ieuaingc yn cael eu trawsnewid yn bregethwyr yn yr athrofeydd yna. Nid ydynt yn gwneyd pregethwyr o'r iawn ryw." Yr oedd rhai pregethwyr ieuaingc, pa fodd bynag, ag yr oedd efe yn eu mawrygu ac yn eu caru yn fawr, megys Dr. Collyer a James Parsons—dynion ag yr oedd eu pregethau, o ran cyfansoddiad, yn gwbl wahanol i rai Rowland Hill.

Cam â Rowland Hill fyddai esgeuluso dyweyd ei fod hefyd yn ddyngarwr enwog. Nid efe, yn wir, ond ei gymmydog, Dr. Jenner, a ddarganfu yr egwyddor o fuchfrechiad; ond credir iddo allu gwneyd mwy na Jenner ei hun er dwyn buchfrechu i arferiad cyffredin. Yn 1806, cyhoeddodd bamphled o'r enw "*Cow-pock Inoculation, vindicated and recommended from matters of fact.*" I ba le bynag yr elai i bregethu, efe a gyhoeddai y newydd da am fodd i attal y frech wen. Buchfrechodd filoedd lawer ei hun, ar ol y gwasanaeth yn Nghapel Surrey, yn gystal ag mewn llawer o fanau ereill yn Lloegr a Chymru. Buchfrechodd gynnifer a naw cant a chwech-ar-hugain yn sir Frycheiniog yn unig, yn ystod gwibdaith yn Nheheudir Cymru. Pan ddywedai rhywun wrtho y "dylasai fod arno gywilydd cymmeryd mater allan o fuwch fudr a'i blanu mewn baban Cristionogol," dywedai, "Pa beth a feddyliwch chwi wrth 'fuwch fudr?' Y mae *Cushie* yn rhoddi i ni ymenyn danteithiol—yr ydym yn bwyta hwnw—a chaws danteithiol hefyd; a pha beth a wnaem ni heb ei llaeth? Nid ydych yn galw y pethau hyn yn 'fudr;' a byddai yn well genyf fwyta buwch na Christion unrhyw ddiwrnod!"

O dan nawdd Rowland Hill y sefydlwyd yr Ysgol Sabbothol gyntaf yn y brif ddinas; ac yr oedd hefyd yn un o gefnogwyr penaf Cymdeithas Genhadol Llundain, Cymdeithas y Beiblau, a Chymdeithas y Traethodau Crefyddol.

Ymddengys ei fod yn arswydo rhag gwrando areithiau hirion. Gofynwyd iddo unwaith lywyddu yn un o gyfarfodydd blynyddol y gymdeithas olaf a enwyd uchod. Danfonodd yntau lythyr at yr ysgrifenydd, yr hwn sydd yn diweddu fel hyn:—"Yr wyf yn ofni fod llawer achosion da yn cael eu niweidio gan y modd y dygir cyfarfodydd yn mlaen er eu cefnogi. Gall rhai siarad i'r perwyl nes boddhau y gwrandawyr; ond O! y fath ddylni, y fath wegi, a'r fath eiriogrwydd a geir gan y lleill! Nid oes ond ychydig a allant siarad yn sylweddol, yn fyr, ac yn felus; a chan mai peth anhawdd genyf ydyw bod yn sylweddol ac yn felus, fy noddfa bob amser ydyw bod yn fyr. Tosturiwch, gan hyny, wrth hen ŵr truan; ac na ddyfarnwch ef i ddioddef y fath gospedigaeth boenus, a cheisiwch gael rhyw bechadur arall da ei amynedd i ddioddef yn fy lle."

Er mor gymmeradwy oedd Rowland Hill, yr oedd ganddo yntau ei elynion—a gelynion chwerwon iawn hefyd. Ceisiwyd ei saethu unwaith yn ei bulpud; ond yn rhagluniaethol, aeth y belen dros ei ben, gan fyned i'r pared. Ni chafwyd byth afael ar y dyhiryn a wnaeth hyn.

Bu farw yn dawel a diboen ar yr 11eg o fis Ebrill, 1833. Claddwyd ef o dan bulpud capel Surrey, yn nghanol arwyddion o alar dwys. Darllenwyd y gwasanaeth claddu gan Dr. Collyer, a thraddodwyd y bregeth angladdol gan William Jay.

Y mae ei ysgrifeniadau yn lliosog; a bu un o honynt, sef ei "*Village Dialogues,*" yn gymmeradwy dros ben unwaith. Cyhoeddwyd y 34ain argraphiad yn 1839. Ysgrifenwyd cofiant iddo gan y Parch. W. Jones, gyda rhagymadrodd gan y Parch. James Sherman. Nid arbedai ei ffraethineb, ei afiaeth, a'i watwariaeth, pa bryd bynag y gallai beri iddynt wasanaethu ei amcan; fel y gwelir wrth ddarllen pamphled gwawdiol a ysgrifenodd yn erbyn gweinidogion yr Eglwys Sefydledig, yr hwn a gyhoeddodd wrth yr enw "*Spiritual Characteristics, by an Old Observer.*"

**HINFYNAG** (*Barometer*). Offeryn i fesur pwysau yr awyr. Dyfeisiwyd yr offeryn hwn gan Torricelli, o Florence, yn y flwyddyn 1643. Nis gellir egluro gwneuthuriad yr hinfynag yn well na thrwy ddangos pa fodd i wneyd un o fath yr eiddo Torricelli. Cymmerer pibell wydr, tua 33ain modfedd o hyd, âg un pen iddi yn agored,

Digitized by Google

a llanwer hi âg arian byw; ac yna, gan ddal y fawd yn dŷn ar y pen agored, doder y bibell yn unionsyth, gyda'i phen agored i waered, mewn cwpan yn cynnwys arian byw. Pan dyner y fawd ymaith, fe ddisgyn yr arian byw yn y bibell hyd at rhyw 30ain modfedd uwch law gwyneb yr arian byw yn y cwpan, os gwneir y prawf mewn lleoedd cydwastad â'r môr. Cynnelir yr arian byw yn y bibell gan waith yr awyr oddi allan yn gwasgu ar wyneb yr arian byw fydd yn y cwpan. Gan fod y naill yn mantoli y llall, y mae yn amlwg, gan hyny, y gwnaiff y golofn o arian byw yn y bibell ddangos yn gywir pa beth fydd pwysau yr awyr.

Gwaith yr hinfynag yw dangos cyfnewidiadau y tywydd, a phenderfynu uchder mynyddoedd, trwy esgyniad neu ddisgyniad yr arian byw. Er mwyn hyn, cyssylltir y bibell â graddfa, wrth yr hon y gellir gweled y cyfnewidiad lleiaf yn y golofn o arian byw.

Y mae amryw fathau o hinfynegion; megys yr hinfynag cyffredin, yr hinfynag gwrthonglog (*diagonal*), yr hinfynag cyfonglog (*rectangular*), yr hinfynag olwynog, yr hinfynag morawl, yr hinfynag cludadwy, &c. Y ddau fath a arferir yn fwyaf cyffredin yw yr hinfynag uniawn cyffredin, a'r hinfynag olwynog. Y cywiraf o'r holl hinfynegion yw yr un cyffredin; yr hwn sydd wedi ei wneuthur o bibell yn llawn o arian byw, gyda chogyn (*basin*) yn y gwaelod, a graddfa i ddangos esgyniad a disgyniad yr arian byw.

Dyfeisiwyd yr hinfynag olwynog gan un Hook —ac fel addurn mewn parlwr y gwelir ef gan amlaf. Y mae i'r math hwn o hinfynag wyneb crwn â bys arno, fel sydd gan awrlais. Yn mhen echel y bys hwn y mae olwyn âg edeu drosti, yr hwn a gedwir yn dŷn ar yr olwyn gan bwysau sydd yn hongian wrth un pen iddo. Cyssylltir y pen arall o'r edeu wrth ddernyn o haiarn neu wydr sydd yn nofio ar wyneb yr arian byw. Gan fod y dernyn hwn yn myned i lawr ac i fyny i ganlyn yr arian byw, fe ysgogir yr olwyn a'r mynegfys i'r naill gyfeiriad neu y llall, trwy gyfrwng yr edeu. Nid yw yr hinfynag hwn yn ddigon syml ei wneuthuriad i fod yn un cywir iawn; ond y mae yn well gan lawer ef na'r mathau eraill, am fod cyfnewidiad bychan yn uchder yr arian byw yn cael ei ddangos ganddo yn fwy eglur nag y mae i'w weled ar y llall.

Arferir yr hinfynag cludadwy i fesur uchder mynyddoedd. Gwneir hwn ar yr un egwyddor a'r hinfynag cyffredin; ond fod iddo offeryn i yru yr arian byw i ben uchaf y bibell pan y bydd eisieu ei gario o fan i fan.

Y mae llawer sydd wedi sylwi yn fanwl ar y cyssylltiad rhwng sefyllfa yr arian byw yn yr hinfynag a chyflyrau a chyfnewidiadau y tywydd na roddant ddim pwys ar y geiriau "Gwlaw," "Teg," "Sych," &c., a welir ar wahanol fanau ar y raddfa. Dywedant mai gogwyddiad, ac nid sefyllfa yr arian byw sydd yn rhagarwyddo ansawdd y tywydd mewn amser i ddyfod. A siarad yn gyffredinol, y mae cwymp yr hinfynag yn arwyddo gwlaw, a'i godiad yn arwyddo tywydd teg. Pan y bydd yr hinfynag yn sefydlog, arwyddo parhâd y mae o'r tywydd a fydd ar y pryd. Y mae ei ddisgyniad disymmwth yn rhagflaenu tymmhestl, yr hon y bydd ei ffyrnigrwydd yn cyfatteb i sydynrwydd y disgyniad. Y mae ansefydlogrwydd yr hinfynag yn darogan tywydd ansefydlog hefyd. Heb law hyny, cyn y gellir deall a deongli yn gywir newidiadau yr hinfynag, rhaid cymmeryd i ystyriaeth y gwyntoedd a fyddont yn chwythu ar y pryd; canys y mae ambell wynt—megys gwynt y de, neu wynt y de-orllewin—yn fwy chwannog i ddwyn gwlaw gyda hwy na gwyntoedd eraill.

HOADLEY, BENJAMIN: esgob Bangor, &c., yr hwn a anwyd yn Westerham, yn Nghaint, ar y 4ydd o Dachwedd, 1676. Yn 1691, aeth i Catherine Hall, yn mhrif athrofa Caergrawnt; ac wedi ennill o hono y gradd o athraw yn y celfyddydau, gwnaed ef yn ddysgawdwr (*tutor*) yno. Yn 1701, fe'i dewiswyd yn ddarlithydd St. Mildred in the Poultry, ac yn 1704 yn beriglor St. Peter-le-Poor, Broad Street. Dechreuodd ymenwogi tua'r pryd hwn fel dadleuydd ar byngciau crefyddol a gwleidyddol. Daeth i'r golwg gyntaf drwy y llythyr a ysgrifenodd at Dr. Fleetwood, yn yr hwn y mae yn cyfeirio at draethawd yr olaf ar "Wyrthiau." Bu yn ymddadleu â Calamy ynghylch y rhesymoldeb o gydffurfio âg Eglwys Loegr, ac wedi hyny â Dr. Atterbury ynghylch maint yr ufudd-dod y dylai gwŷr eglwysig ei roddi i'r gallu gwladol. A dygodd Hoadley y ddadl hon yn mlaen yn y fath fodd fel yr ennillodd gymmeradwyaeth Tŷ y Cyffredin; ac yn eu hanerchiad i'r frenhines Anne, cyfeiriasant at y gwasanaeth pwysig a wnaeth efe i achos rhyddid gwladol a chrefyddol. Rhoddwyd iddo, fel ad-daliad am hyn, beriglorïaeth Streatham yn Surrey. Pan esgynodd Sior I. i'r orsedd yn 1715, dyrchafwyd Hoadley yn esgob Bangor; ond nid ymwelodd unwaith â'i esgobaeth. Yn 1717, traddododd bregeth o flaen y brenin ar y testyn, "Fy mrenhiniaeth i nid yw o'r byd hwn;" pryd y ceisiodd ddangos nad oedd Crist ddim wedi trosglwyddo ei awdurdod (*powers*) i swyddogion eglwysig. Daliai mai dyma'r tir goreu a diogelaf i sefyll arno tuag at wrthbrofi Pabyddion, ac Ymneillduwyr hefyd. Hyn a achlysurodd "ddadl Bangor," yn yr hon y bu raid i Hoadley gyfarfod â Sherlock Hare, Law, a Snape, ac ysgrifenwyr enwog eraill. Cyhoeddwyd hanes "Dadl Bangor," fel ei gelwir, yn 1719.

Yr oedd y dadleuon a fuont yn y confocasiwn ynghylch ei bregeth wedi myned mor ffyrnig fel y darfu i'r llywodraeth ymyryd, a rhoddi terfyn ar y gweithrediadau. Ni pheidiodd ei wrthwynebwyr a'i gyhuddo o amcanu dymchwelyd y sefydliad yr oedd efe yn swyddog ynddo. Yn 1721, symmudwyd ef i esgobaeth Henffordd, yn 1723 i Gaergaeadog (Salisbury), ac yn 1734 i Gaerwynt (Winchester). Y mae ei draethodau a'i bregethau wedi eu casglu ynghyd, a'u cyhoeddi yn dair cyfrol unplyg. Bu farw Ebrill 17eg, 1761, yn 85ain mlwydd oed.

HOLOFERNES, neu yn hytrach OLOFERNES, cadlywydd i Nebuchodonosor, brenin yr Assyriaid. Yn ystod y gwarchau ar Bethulia, darfu i Iuddewes brydferth o'r enw Judith beryglu ei heinioes a'i diweirdeb trwy fyned i babell Holofernes. Wedi i Holofernes fyned i gysgu, gan effaith y gwin a yfasai, lladdodd Judith ef, a diangodd gyda'i ben ef i Bethulia. Pan welodd trigolion y dref fod y cadlywydd wedi ei ladd, hwy a ruthrasant ar eu gelynion, ac a'u gorchfygasant yn llwyr. Ni chrybwyllir am yr hanesyn hwn gan Josephus; a chredir mai chwedl ydyw, wedi ei sylfaenu ar ryw hanes gwirioneddol. Terfyniad Persiaidd sydd i enw y gŵr hwn; ond y mae ystyr y gair yn ansicr.

Digitized by Google

HOOPER, JOHN: esgob a merthyr enwog. Ganwyd ef yn Ngwlad yr Haf, yn y flwyddyn 1495, ac addysgwyd ef yn Oxford. Trwy ddarllen yr Ysgrythyrau, a gweithiau y Diwygwyr Almaenig, fe'i trowyd yn Brotestant. O herwydd hyn efe a adawodd yr athrofa, a'r deyrnas hefyd; ac ar ol crwydro am gryn amser o fan i fan ar y Cyfandir, efe a ymsefydlodd o'r diwedd yn Switzerland, lle y cafodd dderbyniad cyfeillgar gan y prif ddiwygwyr. Pan esgynodd Edward VI. i'r orsedd, yn 1547, efe a ddychwelodd i Loegr, ac a ymroddodd i bregethu yr efengyl yn Llundain. Yn 1550, pennodwyd ef yn esgob Caerwrangon (*Gloucester*), ond ni chymmerodd efe ei 'gyssegru' am gryn amser wedi hyny, am ei fod yn ammharod i wisgo y gwisgoedd esgobawl. Er mwyn gorchfygu ei anewyllysgarwch, caethiwyd ef yn ei dŷ ei hun; ac o'r diwedd traddodwyd ef am rai misoedd i garchar y Fleet. Yr oedd yn ddrwg hyd yn oed gan y duwinyddion Swissaidd fod Hooper yn gadael i ystyriaethau cymmharol ddibwys leihau ei ddylanwad a'i ddefnyddioldeb yn yr eglwys; ac annogasant ef i gydsynio. Yn 1552, pennodwyd ef yn esgob Caerloyw (*Worcester*) hefyd, yn lle Dr. Heath, yr hwn oedd yn ngharchar am nacau cydsynio â Llyfr yr Urddiadau. Pan esgynodd Mari i'r orsedd, traddodwyd Hooper gan ei chynghor i garchar y Fleet. Dygwyd ef allan amryw weithiau, ac annogid ef yn daer bob tro i wadu ei ddaliadau; ond gan ei fod yn parhau i wrthod gwneyd hyny, condemniwyd ef i gael ei losgi yn Nghaerloyw ar y 9fed o Chwefror, 1555. Yr oedd ei boenau yn ofnadwy, ond dioddefodd hwynt gydag amynedd anghyffredin. Gan fod y ffagodau yn irion, bu am dri chwarter awr cyn llosgi i farwolaeth. Yr oedd ei ranau isaf wedi eu difa yn mhell cyn i'r fflamau gyrhaedd ei ranau bywydol. Ysgrifenodd bedwar ar hugain o draethodau, a mân lyfrau, tra y bu yn y carchar. Heb law hyn, ysgrifenodd ar y Sacrafentau, ar Weddi yr Arglwydd, ac ar y Deg Gorchymyn.

HORNE, THOMAS HARTWELL: ysgolhaig Beiblaidd enwog. Ganwyd ef yn Llundain, Hydref 20fed, 1780, ac addysgwyd ef yn *Christ's Hospital*. Bu ar ol hyn yn ennill ei fywoliaeth fel ysgrifenydd, gan ddefnyddio ei oriau hamddenol i chwanegu ei wybodaeth, ac i ymbarotoi gogyfer â gwaith uwch. Ysgrifenodd lawer o lyfrau ar wahanol byngciau; ond y maent, gan mwyaf, wedi eu hanghofio. Bu, o'r flwyddyn 1809 hyd 1823, yn is-lyfrgellydd yn y *Surrey Institution;* ac o 1824 hyd 1860 yn is-lyfrgellydd hynaf yn adran y llyfrau argraphedig yn yr Amgueddfa Brydeinig. Yn 1818, ymddangosodd ei "*Introduction to the Critical Study and Knowledge of the Holy Scriptures,*" mewn tair cyfrol. Gwnaeth y gwaith hwn ef yn adnabyddus ar unwaith; derbyniwyd ef fel cyfarwyddyd anhebgorol i efrydwyr Beiblaidd, a chyhoeddwyd deg argraphiad o hono yn Lloegr yn ystod bywyd yr awdwr, heb sôn am y rhai a gyhoeddwyd yn yr America. Yr oedd yr argraphiad olaf i gael ei olygu gan Dr. Davidson, a'r Parchedig J. Ayre, a Dr. Tregelles; ond gwrthodwyd y gyfrol a orphenwyd gan Dr. Davidson, am fod ei syniadau ar Ysbrydoliaeth yn rhy ryddion. Felly gwnaed ei gyfran ef o'r gwaith drosodd drachefn gan rai mwy uniongred. Cafodd Dr. Howley, esgob Llundain, ei foddhau gymmaint yn yr "*Introduction,*" fel yr ordeiniodd efe Horne yn 'offeiriad,' er nad oedd ganddo un radd athrofaol cynt. Ar ol bod yn gurad yn Llundain am tua chwe blynedd, fe'i pennodwyd yn 1833 yn beriglor yn y ddinas. Yn 1829, cymmerodd y gradd o wyryf mewn duwinyddiaeth yn Ngholeg St. Ioan, yn Nghaergrawnt; ac yn mhen rhyw gymmaint o amser wedi hyny, cafodd y gradd o D. D. o brif athrofa Pennsylvania. Bu farw yn Llundain, Ionawr 27ain, 1862. Cyhoeddwyd "*Reminiscences of T. H. Horne*" gan S. A. Cheyne.

HORSLEY, SAMUEL: esgob Seisnig dysgedig. Ganwyd ef yn y fl. 1733, yn St. Martin's-in-the-Fields, Llundain. Cafodd ei addysg yn Ysgol Westminster, ac yn Trinity Hall, Caergrawnt, lle yr astudiodd yn galed, ac y casglodd wybodaeth helaeth anghyffredin; er hyny, ni chafodd un gradd yn y celfau. Yn 1758, aeth yn gurad i'w dad, yr hwn oedd yn beriglor Newington; ac yn fuan wedi hyny, rhoes ei dad y beriglorìaeth i fyny iddo. Yn 1767, etholwyd ef yn gymmrawd o'r Gymdeithas Frenhinol; ac yn 1773, gwnaed ef yn ysgrifenydd y gymdeithas. Yn 1781, pennodwyd ef yn archddiacon St. Albans. Gwyddorol, ac nid duwinyddol, oedd yr ysgrifeniadau a'i dygasant ef gyntaf i sylw. Yr hyn a'i henwogodd ef fel duwinydd oedd ei ddadl fawr â'r Dr. Priestley. Wrth ystyried pwysigrwydd y pyngciau yr ymdrinid â hwy, ynghyd â thalentau godidog y dadleuwyr, nid gormod yw dweyd mai hon oedd dadl dduwinyddol fwyaf y ddeunawfed ganrif. Cyn belled ag y mae ergydio caled a didrugaredd yn myned, Horsley a gafodd y trechaf o ddigon. Er ei fod wedi gwisgo am dano holl arfogaeth dysgeidiaeth, etto, y mae ei iaith fras, herfeiddiol, a sarhaus yn peri i ddyn deimlo fod mwy o naws yr ymladdwr ynddo nag o aidd y dadleuydd Cristionogol. Y gwaith a achlysurodd y ddadl hon oedd "*The History of the Corruptions of Christianity*" gan Dr. Joseph Priestley, gweinidog Presbyteraidd o syniadau Undodaidd. Cyfrifai Priestley yn mhlith ei "*Corruptions*" amryw o athrawiaethau a gydnabyddir yn uniongred. Adolygodd Horsley y gwaith hwn yn dra llym mewn cynghor a roddodd i glerigwyr archddeoniaeth St. Albans, Mai 22ain, 1783. Attebodd Priestley ef yn nghorph yr un flwyddyn mewn cyhoeddiad o'r enw "*Letters to Dr. Horsley, in answer to his Animadversions,*" &c. Attebodd Horsley yntau yn 1784, mewn "*Seventeen Letters from the Archdeacon of St. Albans, in reply to Dr. Priestley.*" Dygodd y rhai hyn Priestley i'r maes eilwaith; ac ar ol deunaw mis o ddistawrwydd, Dr. Horsley a attebodd Dr. Priestley drachefn yn ei "*Remarks on Dr. Priestley's second Letters,*" &c.; ac yn 1789, efe a gasglodd ac a gyhoeddodd yr hyn oll a ysgrifenasai ar y pwngc. Rhoddodd y canghellor Thurlow eisteddfa prebendur iddo yn eglwys Caerloyw fel gwobr am ei wasanaeth, gan sylwi y "dylai y rhai sydd yn amddiffyn yr Eglwys gael eu cefnogi gan yr Eglwys." Yn 1788, gwnaed ef yn esgob Tŷ Ddewi; ac yn 1802, symmudwyd ef i esgobaeth Llanelwy. Bu farw yn Brighton, Hydref 4ydd, 1806.

Yr oedd Dr. Horsley yn ddyn haelionus a thra dysgedig, ac yn bregethwr hyawdl. Yr oedd yn erbyn dwyn newydd-bethau i mewn, nac i'r eglwys nac i'r wladwriaeth.

Heb law y gweithiau a grybwyllwyd eisoes, cyhoeddodd yr esgob "*Critical Disquisitions on*

Digitized by Google

bethau o'r fath a gyfarfu yn nyddiau boreuol ei lafur yn yr ardal hono. Yr oedd yn cerdded llawer o fan i fan, ac y mae cerdded ar hyd ffyrdd cyffredin sir Faesyfed yn beth difrifol y dydd heddyw. Pa fath oeddynt y pryd hwnw, y mae yn anhawdd dychymygu. Yr oedd y ffyrdd yn gorsydd anobeithiol mewn llawer o fanau, a'r dynion yn ymddangos am amser yn rhai anobeithiol i wneuthur argraph arnynt er daioni. Ond parhaodd i lafurio yn ddiflino, er pob peth a gyfarfu i'w rwystro a'i ddigaloni; a bendithiodd yr Arglwydd ei lafur i fod yn achubiaeth i laweroedd: a phan ymadawodd o'r wlad, yr oedd wedi gwneuthur argraph arni sydd yn aros hyd y dydd heddyw. Yn ystod ei arosiad yn sir Faesyfed, cafodd ei neillduo yn Nghymdeithasfa Llangeitho, yr un pryd a Mr. Griffiths, Browyr, a Mr. Morgan Howells, Casnewydd, Mynwy. Llafuriodd y cyntaf yn mysg Saeson Browyr am bum mlynedd a deugain, ac adwaenid yr olaf am flynyddoedd lawer trwy holl Gymru fel un o'r pregethwyr mwyaf poblogaidd a nerthol a feddai y cyfundeb.

Gadawodd Mr. Howells Ben-y-bont ar ol amryw flynyddoedd o lafur caled, a dychwelodd i Abertawe; ac yno, gan mwyaf, y cartrefodd o hyny hyd ei farwolaeth. Yr ydym yn dyweyd 'gan mwyaf,' o blegid bu yn aros am dymmorau byrion mewn lleoedd eraill. Yn y flwyddyn 1840, gwnaed ymdrech mawr i gael ganddo symmud i Gaerfyrddin; ond methwyd a chael ganddo ef wneuthur mwy na myned yno am ychydig fisoedd. Ar ol hyny llwyddwyd i gael ganddo i symmud i Lanilltyd Fawr, er mwyn gofalu am yr eglwysi yn mro Morganwg, o ba rai yr oedd deg neu ddeuddeg heb weinidog yn perthyn i un o honynt. Ond ar ol bod yno am ddwy flynedd, mwy neu lai, dychwelodd drachefn i Abertawe—lle, bellach, y trigiannodd hyd oni hunodd yn yr angeu ar y pedwerydd o Awst, 1873.

Y mae pethau yn mha rai y mae holl weinidogion y Gair yn gyffelyb i'w gilydd; a chyn belled ag y mae y rhai hyny yn myned, byddai desgrifiad cywir o un o honynt yn ddisgrifiad o honynt oll. Ond y mae rhai yn rhagori mewn un peth, ac eraill mewn peth arall, fel ag i beri amrywiaeth mawr yn eu mysg. Y mae rhai pethau sydd yn cael eu cyfiawn ystyried yn mhlith anhebgorion gweinidogaeth yr efengyl, yn mha rai yr oedd Mr. Howells yn rhagori ar y rhan fwyaf o'i frodyr.

Un o'r rhai hyny ydoedd ei ofal mawr a didòr am achos crefydd. I eglwys y Trinity, Abertawe, y perthynai; ac ystyrid gan bawb fod yr eglwys hono yn perthyn iddo ef am flynyddoedd cyn ei fod yn cael ei gydnabod yn fugail arni, yn yr ystyr y mae y gair hwn yn cael ei ddeall yn awr. Ond nid oedd ei ofal yn gyfyngedig i'w eglwys gartrefol. Yr oedd yn cymmeryd i mewn holl eglwysi y dosbarth, ac i raddau nid oeddynt ond ychydig llai, ac ychydig iawn, na holl eglwysi Morganwg. Byddai, fel ei frodyr, yn pregethu yma a thraw—heddyw yn y pen hwn i'r sir, y Sabbath nesaf yn y pen arall, a'r un ar ol hwnw yn y canol; ond nid oedd efe yn cyfrif ei fod wedi gorphen ei waith ar ol pregethu ddwy waith neu dair, fel y digwyddai. Anfynych yr ymadawai efe ag un man heb ymholi i sefyllfa yr achos yno, ac heb roddi cynghorion a chyfarwyddiadau, y rhai a olygai efe fel yn tueddu at ei lwyddiant. Cwestiynau a ofynid yn aml ganddo pan gyfarfyddai â brawd yn y weinidogaeth oeddynt, "Pa beth a wnawn gyda golwg ar hwn, neu hwn?" a "Pha beth a ddylid ei wneyd yn y lle, neu'r lle?"—er fod y dyn yr ymholai yn ei gylch yn byw yn mhellder gwlad, a'r lle y gofalai felly am dano yn y pen arall i'r sir. Pe buasai sir Forganwg yn esgobaeth, ac yntau wedi ei bennodi yn esgob arni, yn ol ffurf a defod Eglwys Loegr, nis gallasai ei ofal am bob lle fod yn fwy dwys nag oedd—a hyny oll, nid oddi ar ysbryd ymyrgar na thra-awdurdodol, ond oddi ar wir ofal am achos Crist. Yr oedd yn cael lle mawr, ac nid yw yn ormod dywedyd ei fod am flynyddoedd yn cael y lle blaenaf yn nghyfarfodydd misol ei sir, yn gystal a chymdeithasfaoedd ei dalaeth, am fod pawb yn argyhoeddedig fod yr hyn oll a ddywedai yn cyfodi oddi ar fawr ofal calon am lwyddiant gwaith yr Arglwydd yn eu plith.

Peth arall a'i hynodai oedd ei lafur mawr. "Gwaith" oedd arwyddair ei fywyd, ac yr oedd efe yn weithiwr difefl. Nid oedd wedi cael ond ychydig o fanteision dysgeidiaeth yn ei ieuengctid. Sir Faesyfed a fu yr unig athrofa iddo ef; ac er na ddysgodd na Groeg na Lladin yno, fe ddysgodd un peth ag y mae rhai wedi methu dyfod o hyd iddo yn y colegau goreu oll. Dysgodd weithio. Byddai weithiau oddi cartref am wythnosau, gan dreulio y dyddiau yn nhai cyfeillion, a phregethu ar y nosweithiau; ond pa le bynag y byddai efe ynddo, ofer fyddai i'r teulu ddisgwyl cael ei gwmni trwy y dydd. Yr oedd yn rhaid iddo gael ystafell i fyned iddi wrtho ei hun i weithio; a phan y byddai gartref byddai wrthi yn ddiderfyn. Galwasom i'w weled yn fynych yn ystod y blynyddoedd y buom yn gymmydogion; ac nid ydym yn cofio ei gael erioed yn ei dŷ heb ei gael hefyd yn ei fyfyrgell, a'r Beibl a llyfrau eraill yn agored ar y bwrdd, a'r bregeth nesaf ar waith. Parhaodd felly hyd ddiwedd ei oes, er iddo fyw o fewn pedair blynedd i bedwar ugain. Clywsom un o'i brif edmygwyr yn dywedyd y dylasai bregethu ei hen bregethau; ond yr oedd yn rhaid iddo ef hyd ei ddyddiau diweddaf ar y ddaear wneuthur rhai newyddion.

Hynodrwydd arall ynddo ydoedd ei gydnabyddiaeth eang a manwl o'r Ysgrythyrau. Disgwylir i bob pregethwr fod yn gyfarwydd â'r Beibl, ac nid yw y disgwyliad hwnw ond teg a rhesymol; ond anhawdd cyfarfod â neb mor gyfarwydd â'i holl fanylion ag efe. Difyrus ac adeiladol oedd ei glywed yn myned dros ryw hanes ysgrythyrol. Gwelid yn amlwg ei fod wedi meistroli yr holl amgylchiadau. Os deuai lle o dan sylw, gofelid ei wahaniaethu oddi wrth le arall o'r un enw, neu enw tebyg, mewn parth arall o'r wlad. Os am yr Arglwydd Iesu, mewn rhyw fan, y soniai, gofalai ddywedyd o ba le yr oedd wedi dyfod i'r fan hono, ac i ba le yr aeth oddi yno, a pha sawl gwaith yr oedd wedi bod yno o'r blaen. Os am yr apostol Paul, mewn rhyw fan, y llefarai, gofalai ddywedyd ar ba un o'i deithiau yr oedd y pryd hwnw. Os am Ichoiacim y soniai, dymunai ar y bobl ofalu rhag ei gymysgu am Iehoiachin. "Yr oedd Iehoiachin," meddai "yn frenin; ond am Iehoiacim yr wyf fi yn sôn." Ni soniai am Iago, heb ddywedyd pa Iago—Iago, brawd yr Arglwydd, neu yr un arall; ac felly am bob peth, athrawiaethau a phrophwydoliaethau, yn gystal a hanesion. Os bu neb erioed, yr oedd David Howells yn gadarn yn yr Ysgrythyrau.

Yr oedd efe hefyd yn nodedig am ei ysbryd

Digitized by Google

duwiolfrydig a defosiynol. Yr oedd yn amlwg i bawb a'i hadwaenai ei fod yn meddwl llawer am bethau crefydd yn eu perthynas âg ef ei hun. Darllenai lawer ar y Beibl, y Llyfr Hymnau, a llyfrau eraill o'r un nodweddiad, am ei fod yn cael meithriniaeth ynddynt i grefydd yn ei enaid. Gwelsom ysgrifau ar ddiwedd ei Lyfr Hymnau yn nodi y dydd pan yr oedd wedi gorphen darllen y llyfr hwnw drwyddo, ac yn dadgan ei ddiolchgarwch am y lleshâd ysbrydol yr oedd wedi ei dderbyn drwy hyny. Fe allai nad oedd y beirniaid yn foddlawn i gydnabod ei fod yn bregethwr mawr; ond gwyddent hwy, a phawb eraill a'i hadwaenent, ei fod yn weddïwr mawr. Clywsom ef, pan yn cynghori pobl i ochel meithder mewn gweddïau cyhoeddus, yn dywedyd—"Byddwch yn fyr yn y cyhoedd, ac yn faith yn y dirgel. Gellwch flino dynion â meithder, ond nis gellwch flino Duw." Ac y mae yn sicr genym ei fod ef ei hun "yn faith yn y dirgel;" a hyny oedd y rheswm am yr eneiniad mawr ac amlwg a orphwysai arno yn fynych yn y cyhoedd. Ni chlywsom yn ein hoes ddim yn fwy nerthol na rhai o'i weddïau cyhoeddus ef. Cafwyd un enghraifft neillduol o hyny mewn cymdeithasfa yn Llanelli. Gan yr ystyrid ei fod yn rhy agos i'w gartref i bregethu, gosodwyd ef i ddechreu y cyfarfod deg ar y maes—ac yr oedd yn ddechreu bythgofiadwy. Traddodwyd yno bregethau arddercheg gan rai o flaenion y cyfundeb; ond nid ydym yn petruso dywedyd mai yr hyn a wnaeth yr argraph ddyfnaf ar y pryd, ac a gofir hwyaf hefyd, oedd gweddi David Howells.

Fel pregethwr, yr oedd iddo safle uchel yn mhlith ei frodyr. Er, fe allai, nad oedd yn mysg y blaenaf oll, nid oedd yn mhell yn ol; a theimlid dros holl Gymru fod ei syrthiad ef i'r bedd yn syrthiad un o brif gawri y cyfundeb Methodistaidd. Yr oedd ganddo ei ffordd ei hun i bregethu, a hono yn ffordd anhawdd i'w disgrifio, ac anhawddach fyth i'w hefelychu. Byddai yn fynych yn myned yn y blaen yn araf iawn, gan orphwys ennyd rhwng ei frawddegau, fel pe buasai yn chwilio am ryw beth i'w ddyweyd, neu yn dyfeisio pa fodd i ddywedyd rhywbeth ag yr oedd yn ei weled yn anamlwg. Yr oedd bob amser yn hamddenol iawn, ac yn berffaith hunan-feddiannol. Nis gwelsom ef erioed yn colli ei feddiant arno ei hun cyn ei fod wedi cael hollol feddiant ar ei fater. Y mae yn gôf genym ei wrandaw yn pregethu yn Bristol ar gyfarfod y Sulgwyn—ac fel y gŵyr pawb a fuont yno, y mae pulpud Broadmead yn un rhyfedd. Y mae y grisiau, ar hyd pa rai yr esgynir i safle y pregethwr, y tu fewn iddo. Byddai Mr. Howells bob amser yn gwneyd cyfeiriadau mynych at yr Ysgrythyrau, gan droi at adnod yma ac acw, a'u darllen hwy. Y tro hwn yr oedd yn myned yn y blaen yn araf araf; ac ar ol rhyw gymmaint o amser dywedai, gan deimlo ar yr ystyllen â'i law ddeheu, a thaflu cil ei lygaid tua'r cyfeiriad hwnw:—"Mi ddarllenaf adnod i chwi." "Chym—chy—ym." "Mi a ddarllenaf adnod i chwi"—"chym." "Ond rhaid i mi fyned i chwilio am fy *spectacles*." Yn y man dechreuodd ddisgyn y grisiau; ond pan welodd y dyfnder i ba le yr oedd ei *spectacles* wedi disgyn, daeth i fyny drachefn am eiliad i ddywedyd wrthym:—"Mi ddôf fi yn ol yn union." Fe ddaeth yn ei ol, â'r drychau ar ei lygaid; darllenodd yr adnod, ac aeth yn y blaen mor gysurus a phe na buasai dim wedi digwydd nad oedd yn arferol o ddigwydd bob dydd. Yr oedd penau ei bregeth yn fynych yn gyfansoddedig o eiriau y testyn wedi eu gosod mewn gwahanol leoedd. Dyma un testyn:—"Os profasoch fod yr Arglwydd yn dirion." Y pen cyntaf oedd, y tiriondeb a brofasant. Yr ail oedd, eu profiad hwy o'r tiriondeb. Dyma un arall:—"Y mae yma un mwy na'r deml:" a'r penau oeddynt, Crist yn y deml, a'r deml yn Nghrist. Byddai weithiau yn enwi pump neu chwech o faterion, gan siarad ychydig ar bob un o honynt fel yr elai yn y blaen; ac ar ol gorphen hyny, dychwelai gydag ymddiheurad at y cyntaf, ac äi drostynt oll drachefn gyda mwy o fanylwch. Yr oedd ei bregeth yn fynych yn llawn o gyferbyniadau; megys "Y mae pob duwiol yn gweddio—ond nid yw pawb sydd yn gweddio yn dduwiol." "Nid yw neb yn meddu ar ysbryd y gair, ond y sawl sydd yn hoff o air yr Ysbryd." Safai yn o syth, gan osod ei law aswy yn llogell ei wasgod, a thynu y llall yn awr ac eilwaith dros ei wyneb, ond elai hono yn mhen ennyd i'r llogell arall. Ond pan ddelai yr hwyl, ymadawent a'r llogellau, a chyfarfyddent â'u gilydd gan droi yn ac o amgylch y naill y llall, fel pe buasent yn cael eu golchi; a phan ddeuai yn iawn, teflid un neu y llall o honynt yn nghyfeiriad y bobl, fel pe buasai y pregethwr yn taenellu y gynnulleidfa â'r dylanwad y golchai ei ddwylaw ynddo. A mynych yr elai yn fwy na thaenellu—yn dywallt mawr, fel llifeiriant nerthol yn cludo pob peth o'i flaen. Y prydiau hyny yr oedd D. Howells yn mawredd ei nerth, a phawb yn teimlo bod Duw yn y lle.

Ni bu ei gystudd olaf yn faith, er ei fod yn suddo yn amlwg rhai misoedd cyn i'r diwedd ddyfod. Pan yn gorwedd yn ymyl angeu, yr oedd ei awydd yn angerddol am gyfodi a myned at ei waith. Y pryd hwnw, yr oedd yn gofalu mwy am yr achos nag am dano ei hun. Dau ddiwrnod cyn ei farwolaeth, dywedai wrthym, "Rhai yn gwneuthur fel hyn ac fel hyn yn sir Faesyfed." "Yr ydych yn myned i'r gymdeithasfa ddydd Mawrth. Cofiwch fi at y brodyr. Buasai yn dda iawn genyf fod yn eu plith; ond y mae hyny yn anmhossibl, mae'n debyg. Dywedwch wrthynt am gadw geiriau gwirionedd a sobrwydd yn eu lleoedd priodol—gair y deyrnas yn y lle y mae bob amser yn arferol o fod." Dranoeth, dywedai wrthym ei fod yn suddo, a'i fod yn sicr nad adferai mwy. A phan ofynasom iddo pa fodd yr oedd hi yn edrych yr ochr draw? Attebodd, "'Dyw hi ddim yn gwaethygu. Yr wyf yn hyderus y caf fod am byth gyda'r pethau sydd wedi bod yn hyfrydwch i mi yn y byd hwn:—Person Mawr y Cyfryngwr, cadernid ei swyddau, gwerth ei aberth, anfeidrol ddigonolrwydd ei iawn, effeithiolrwydd ei waed, a'i ffyddlondeb i'w air. Dyna'r pethau dianwadal; ie, *di-an*-wadal." Pan alwasom boreu dranoeth, cawsom ei fod wedi myned er's dwy awr at y "pethau dianwadal."

**HUGHES, DAVID**: llenor enwog, a phregethwr defnyddiol gyda'r Annibynwyr. Ganwyd ef mewn ffermdy o'r enw Cefn uchaf, yn mhlwyf Llanddeiniolen, yn swydd Gaernarfon, ar yr 21ain o Fehefin, 1813. Ymddengys ei fod yn ddeiliad argraphiadau crefyddol pan nad oedd ond plentyn, a phan yn ieuangc iawn iddo gael ei dderbyn i gymmundeb yr eglwys yn Bethel, gan y diweddar Barch. David Griffiths. Gwelai ei gyfeillion a'r eglwys y perthynai iddi

Digitized by Google

fod ynddo gymmhwysderau i droi mewn cylch cyhoeddus; a phan nad oedd ond ychydig gyda deunaw oed, cymmhellwyd ef i arfer ei ddawn fel pregethwr. Penderfynodd yntau astudio ar gyfer y weinidogaeth, ac ymbarotódd i fyned i Goleg Hackney, yn Llundain. Wedi gorphen ei efrydiau yno, aeth i Brifysgol Glasgow, lle y cymmerodd efe ei radd o B.A. gydag anrhydedd. Tra y bu yn y brifysgol, efe a astudiodd dduwinyddiaeth o dan addysgiaeth Dr. Wardlaw. Llansantsior a Moelfre, yn ardal Abergele, oedd maes cyntaf ei weinidogaeth, lle yr ordeiniwyd ef yn 1841, pryd y cymmerai y Parchn. Dr. W. Rees, Samuel Roberts, Dr. Robert Vaughan, ac eraill, ran yn y gwasanaeth. Cymmerodd Mr. Hughes ofal yr eglwys yn Llanelwy hefyd.

Yn niwedd y fl. 1846, efe a symmudodd i Fanchester, i gymmeryd gofal yr eglwys Annibynol Gymreig yn Great Jackson street. Oddi yno drachefn wedi hyny, efe a aeth i breswylio yn Mangor, lle yr arosodd am naw mlynedd. Yn niwedd y fl. 1855, ymgymmerodd â gweinidogaeth Soar, Tredegar, ac yno y bu yn llafurio gyda ffyddlondeb mawr hyd ei farwolaeth—yr hyn a gymmerodd le yn ei breswylfod ei hun yn George Town, Tredegar, Mehefin 3ydd, 1872, pan yn mron a bod yn ei 59ain mlwydd oed. Claddwyd ef yn nghladdfa Cefn-goleu, y dydd Iau canlynol, yn nghanol arwyddion o alar a pharch cyffredinol yr holl dref. Yr oedd dros ddeugain o weinidogion yr efengyl yn bresennol yn ei angladd.

Yr oedd Mr. Hughes yn dduwinydd a llenor rhagorol. Ysgrifenodd lawer i gyfnodolion Cymreig, ac hefyd amryw erthyglau i'r gwaith hwn. Bu yn golygu argraphiad o "*Eiriadur Saesneg a Chymraeg*" Caerfallwch; a gwnaeth chwanegiadau gwerthfawr ato. Ond ei brif waith ydyw ei "*Eiriadur Duwinyddol a Beiblaidd.*" Yr oedd yn ddarllenwr mawr, a chanddo lyfrgell ragorol. Yr oedd yn bregethwr gwir dda a chymmeradwy: syml ydoedd o ran ei arddull, ond yn dra efengylaidd ei syniadau, a gwresog ei ysbryd. Yr oedd llawer iawn o deimlad yn ei bregethau; ac ar amserau byddai yn nodedig o effeithiol, ac yn cynnyrchu teimladau dwys yn ei wrandawyr.

HUGHES, Y PARCH. JOHN, Pont Robert, yn swydd Drefaldwyn. Bu yn weinidog llafurus a dylanwadol gyda'r Methodistiaid Calvinaidd am yr ysbaid o 54ain o flynyddoedd. Ganwyd ef mewn tŷ bychan o'r enw Y Fawnog, yn mhlwyf Llanfihangel-yn-Ngwynfa, yn y fl. 1775, a bu farw Awst 3ydd, 1854. Saif ei dŷ genedigol gyferbyn ag eglwys y plwyf, ar yr ochr aswy i'r ffordd, fel yr eir o Lwydiarth i Lanfyllin. Nid ymddengys i wrthddrych ein cofiant gael ond ychydig iawn o fanteision addysg foreuol. Pan yn lled ieuangc prentisiwyd ef yn wehydd gyda thad y Parch. John Davies, cenhadwr Otaheite; yr hwn oedd yn byw ar y pryd ar ran o fferm Pendugwm, ger Pont Robert. Yn ystod y cyfnod hwn y dechreuodd y cyfeillgarwch cysson a maith a fu rhyngddo â'r cenhadwr enwog; ac yma hefyd, mae'n dra thebyg, y derbyniodd ei argraphiadau crefyddol cyntaf. Ymddengys mai nid hir y parhaodd efe gyda'r gelfyddyd wehyddol; o blegid, cawn ef, pan yn lled ieuangc, yn cadw ysgol ddyddiol o fan i fan. Bu am dymmor yn cadw ysgol mewn rhan o'i blwyf genedigol; wedi hyny symmudodd i Gemmaes, yn swydd Drefaldwyn; ac oddi yno i Bont Robert, lle y treuliodd weddill ei oes. Deuai gwreiddioldeb ei gymmeriad i'r golwg yn y dull a gymmerai i geryddu y plant. Cedwid yr ysgol yn mhlwyf Llanfihangel, mewn hen dŷ ffwrn, neu bobty; a dodid y plant direidus y naill ar ol y llall ar eu torau yn y ffwrn—eu penau tuag i mewn. Yn Mhont Robert, drachefn, lle nad ydoedd ffwrn, dodai y plentyn drwg dan ei gôb uchaf, ac â'i freichiau crytion gwasgai ychydig arno. Os oedd y pobty yn Llanfihangel yn ddychryn i ddireidi, diammheu fod y wasgfa o dan y gôb uchaf yn fwy fyth. Wedi bod felly am ranau o flynyddoedd yn ysgolfeistr ac yn wehydd, bob yn ail, dechreuodd bregethu yn y fl. 1800, pan yn bump ar hugain oed. Tua'r un adeg yr ymbriododd â Ruth Evans, merch Mr. Morris Evans, o'r Mardy. Cafodd erbyn hyn afael ar waith mawr ei oes; a thrwy ymroddiad a dyfal-barhâd, cyrhaeddodd safle uchel. Meistrolodd ddigon ar yr iaith Saesnig i fedru gwneyd defnydd o rai o'i hawduron. Dysgodd hefyd ryw gymmaint o'r iaith Roeg a Hebraeg, fel o leiaf ag i fedru defnyddio geiriaduron yn yr ieithoedd hyny. Ymddengys iddo fyned i'r llafur o gychwyn parotoi (er ei fwyn ei hun, mae'n fwyaf tebyg) rhyw fath o Eiriadur Groeg a Chymraeg. Mewn ymdrafodaeth ar byngciau duwinyddol yn rhai o gymmanfaoedd ei gyfundeb, arferai weithiau ddyfynu geiriau o'r iaith Roeg. Eithr yn yr Ysgrythyrau Sanctaidd, yn iaith ei fam yr oedd yn gartrefol hollol, yn gystal ag yn nuwinyddiaeth y Puritaniaid. Ei hoff awdwyr oeddynt Dr. Owen, a'r cyffelyb. Er ei fod yn dduwinydd o radd uchel, ac o ran ei safle fel pregethwr yn gymmeradwy, nid ymddengys iddo gymmeryd rhan flaenllaw yn y dadleuon duwinyddol a gymmerasant le yn ei gyfundeb tua hanner can mlynedd yn ol. Y tebygolrwydd yw nad ydoedd ei gydymdeimlad yn gryf iawn â'r naill eithafion na'r llall.

O ran ei ymddangosiad allanol, yr oedd yn ŵr o daldra cyffredin, trwchus, gwyneb llydan agored, a'r olwg arno yn hynod wladaidd a Chymroaidd. Fel pregethwr, meddai ddawn pwyllog, arafaidd; ond pan gynnhyrfid ef byddai yn danbaid a grymus. Meddai y neillduolrwydd gwerthfawr o ddyweyd llawer iawn mewn ychydig, a hyny gydag eglurder grisialaidd. Yr oedd ei holl bregethau ar ddullwedd Puritanaidd—yn llawn rhaniadau, ac yn ysgrythyrol. Arferai, nid yn unig ddyweyd yr adnodau, ond hefyd enwi y llyfr a'r bennod lle yr oeddynt i'w cael. Prif faterion ei weinidogaeth fyddai Person Crist, cyfritiad, a chyfiawnhâd. Ni byddai bron byth yn pregethu heb wneyd cyfeiriad at y defodau Iuddewig a'r oruchwyliaeth seremoniol. Teimlai ei wrandawyr goreu ei fod yn mysg y pregethwyr mwyaf sylweddol a feddai y cyfundeb y perthynai iddo.

Oddi gerth blwyddyn neu ddwy, bu fyw ei holl oes bregethwrol yn nhŷ capel y Methodistiaid yn Pont Robert. Yn nghanol ei deulu lliosog, yn ei gadair freichiau fawr, yr arferai ddarllen a myfyrio. Trowyd yr anfantais hon trwy ei benderfyniad di-ildio ef yn gryfder iddo. Dygir tystiolaeth gan amryw mor drwyadl yr ymgollai yn yr hyn fyddai dan ei sylw. Mae'n gofus genym glywed y Parch. R. Thomas (*Ap Fychan*) yn dyweyd iddo ef sylwi arno unwaith yn darllen llyfr yn ngorsaf Caer, ac na welodd neb erioed yn ymddangos fel wedi ymgolli yn llwyrach yn ei fater. Ac fel meddyliwr cryf ac

Digitized by Google

iachus yn benaf yr edrychid arno yn y cyfarfod misol, ac yn nghylchoedd uwchaf ei gyfundeb. Yr oedd yn bregethwr grymus, yn enwedig ar adegau, ac yn ychydig o Drefnydd hefyd; ond fel gŵr o feddwl grymus ac aeddfed ar bob pwnge a ddygid ger bron yr edrychid arno yn benaf.

Yr oedd yn cydoesi âg ef am rai degau o flynyddoedd, o fewn ychydig filldiroedd i Bont Robert dri o wŷr cyfrifol fel gweinidogion—y Parchn. Evan Griffiths, Meifod; Robert Davies, Llanwyddelan; a Richard Jones, Llanfair-caereinion. Braidd nad allem ddyweyd fod y pedwar yn dwyn mesur o nodweddau y pedwar anifail a welodd Ioan yn ynys Patmos. Y Parch. E. Griffiths oedd y *dyn*—cyflawn, cryno, cymmesur—heb ddim yn ngholl, nac yn ormod. Llanwai amryw gylchoedd pwysicaf bywyd gyda medrusrwydd mawr—ei holl esgeiriau yn ogyhyd. Efe oedd y dyn. Y Parch. R. Davies oedd yr *ych*. Efe oedd y gweithiwr yn y cyfarfod misol. Doder unrhyw swm o feichiau ar ei gefn, ac fe'i cludai yn gysurus. Y Parch. R. Jones oedd y *llew*—yn enwedig pan yr esgynai i'r pulpud. A'r Parch. John Hughes oedd yr *eryr* craff, treiddgar, a syllai gyda phenderfyniad ar

"Uchelderau mawr ei Dduwdod,
A dyfnderoedd ei ufudd-dod."

Y nodwedd gwerthfawr hwn a barai fod pawb a'i hadwaenai yn teimlo y parch dyfnaf tuag ato. Bu y diweddar Barch. H. Rees, am yr un mlynedd ar bymtheg y bu yn yr Amwythig, lawer yn ei gymdeithas. Gwelodd lawer o droion trwstan a digrifol ynglŷn âg ef, ond teimlai hyd ei fedd barch digymmysg i'w goffadwriaeth. Fel y gŵyr ei wrandawyr, yr oedd ei ymddangosiad allanol, yn gystal a rhyw arferion bychain a ystyrir erbyn hyn yn isel, ynghyd â'r arfer wastadol o gludo gydag ef sypynau o lyfrau i'w gwerthu ar ddiwedd yr oedfa, ac yn y cymmanfaoedd cyhoeddus, yn rhwym o fod yn milwrio yn erbyn ei barchusrwydd yn mhlith ei frodyr. Ond er hyn oll, nis gallasai y rhai oedd yn ei adnabod oreu lai na theimlo parch diledryw tuag ato. Yr oedd ei feddylgarwch a'i ddifrifoldeb dwys a naturiol fel yn gwisgo y cwbl ymaith, ac yn sicrhau iddo le mawr yn nghalon goreugwyr ei wlad a'i oes. Yn ystod ei flynyddoedd olaf, efe oedd yr awdurdod mawr mewn materion dysgyblaethol trwy gylch y sir. Parai ei ymddangosiad ddychryn i derfysgwyr eglwysig. Cyfranogai, weithiau, yn dra helaeth o ysbryd Siencyn Penhydd:—tarawai ei ffon fawr yn y llawr, a chyda dylanwad oedd yn ysgubo pob peth o'i flaen, gorchymynai derfysgwyr allan o'i bresennoldeb. Teimlai sêl aiddgar dros burdeb a thangnefedd yr eglwysi. Bu yn noddwr tyner o honynt am oes faith. Efe oedd tad y cyfarfod misol. Ni phetrusai gymmeryd y 'gadair' am flynyddau meithion—heb na dewisiad na pheth. Yr oedd megys wedi myned yn feddiant iddo. Bu farw ar ddiwrnod cyfarfod misol; a phan gyrhaeddodd y newydd, dywedodd Dafydd Davies, Cowarch, yn ei ffordd gyffrous ef, "Wel, bobol, be newch chi rŵan! Dyma'ch tad chwi wedi marw!" ac ni wnaed nemawr y diwrnod hwnw ond edrych ar eu gilydd mewn syndod a dagrau.

Yn chwanegol at ei nodweddau fel gŵr cyhoeddus, yr oedd yn feddiannol ar ansoddau dymunol fel cyfaill a chymmydog. Nid oedd nemawr o bregethwr a hoffid yn fwy nag ef gan y teuluoedd fyddai yn arfer lletya pregethwyr. Ond nid am y cymmerai rhyw lawer o drafferth i wneyd ei hun yn gymmeradwy. Yr oedd yn dra phell oddi wrth hyny. Pan y gofynid iddo ar ei ddyfodiad i mewn, "Wel, John Hughes, sut yr ydych chwi heddyw?" estynai ei law yn ddigon llipa, ac attebai gyda mesur helaeth o bwysau, "Yr ydwi'n symol!" a dyna y cyfarchiadau i gyd drosodd. Fu neb erioed pellach oddi wrth wneyd *fuss;* ac etto yr oedd diniweidrwydd a symledd ei gymmeriad yn ei wneyd yn ŵr hoffus. Byddai ganddo bleser mewn gwneyd plant yn ddifyr yn ei gwmni. Cludai yn gyffredin rhyw lyfrau bychain gydag ef, a gwnai anrhegion o honynt; a thrwy amryw lwybrau bychain a diniweid, gwnai bob plant yn hynod hoff o hono. Wrth gwrs, fel yr oedd yn heneiddio yr oedd yn colli mesur o'r neillduolrwydd hwn. Meddiennid ef yn ei flynyddoedd olaf gan farweidd-dra a syrthni corphorol trwm. Byddai sefyll i fyny i siarad yn faich iddo. Elai allan i'w gyhoeddiadau yn fynych pan yr oedd efe yn fwy cymmhwys i fod gartref. Bu yn Nghymdeithasfa Llanerchymedd yn ngwanwyn y flwyddyn y bu farw; ac yr oedd yn awyddus i fod yn nghymdeithasfa yr haf, a gynnelid yn Llanrwst. Gofynai yn bryderus i'r meddyg, ai ni allai ei "*batchio* i fyny i fyned i'r Sysassiwn?" Erbyn Cymdeithasfa Caernarfon yn Medi, yr oedd wedi huno yn yr angeu. Gwnaed sylwadau parchus am dano gan ei frodyr. Y mae eu sylwedd i'w weled yn "*Nhrysorfa*," 1854, td. 377:—

"Gellir dyweyd yn briodol fod, yn ei farwolaeth ef (J. Hughes), dywysog a gŵr mawr wedi syrthio yn ein mysg. Y mae yn wir ei fod yn ddiffygiol o ryw addurniadau oedd yn rhwystro i rai dosbarthiadau o bobl weled ei fawredd; ond pa le bynag y byddai gradd o farn a dwysder meddwl, fe welid yn ebrwydd fod J. Hughes yn ŵr o amgyffred clir a chadarn, ac yn meddu ar gyflawnder gweinidogaeth. Cawsai ei ddwyn i fyny yn hollol dywyll a difater am grefydd; ond pan ymaflodd gwirionedd yr efengyl yn ei feddwl, cyfododd fel cawr, gan weithio ei ffordd trwy anhawsderau i gyrhaedd gwybodaeth; a thrwy anhawsderau y dechreuodd bregethu, ac yr aeth yn mlaen nes cyrhaedd dylanwad fel un o arweinwyr y cyfundeb. Yr oedd ganddo mewn corph swrth a marwaidd ysbryd penderfynol a di ildio: dyn ydoedd a osodai ei holl fryd ar y peth yr ymaflai ynddo. Yr oedd yn ddiysgog yn athrawiaeth yr efengyl, ond yn ystwyth i bleidio pob diwygiad gyda threfniadau amgylchiadol. Cafodd oes hir fel gweinidog yr efengyl; ac efe a ymdrechodd ymdrech deg, ac a gadwodd y ffydd, heb i neb ddwyn ei goron. Bu farw â phwys ei enaid ar y gwirionedd a bregethodd yn ei fywyd."

Bu farw yn hollol fel yr ydoedd wedi byw. Tawel a digyffro ydoedd yn ei fywyd; ni chyfeiriai ond anfynych at farwolaeth, ac yn y cyffelyb fodd yr aeth drwodd—mewn perffaith dangnefedd. Fel yr hysbyswyd, bu farw ddydd Iau, Awst 3ydd, 1854, a chladdwyd ef y dydd Mawrth canlynol yn y fynwent berthynol i hen gapel (erbyn hyn) Pont Robert. Pregethwyd ar yr achlysur gan y Parch. D. Morgan, Trallwm, oddi ar 1 *Sam.* xxv. 1, a chyfarchwyd y gynnulleidfa liosog wrth y bedd gan y Parch. D. Morgan (A.), Llanfyllin. Tua deuddeng mlynedd yn ol, rhoddodd cyfarfod misol y sir gofgolofn hardd ar ei fedd, ac yn gerfiedig arni brif neillduolion ei gymmeriad.

Gellir dyweyd wrth derfynu hyn o goffadwriaeth ddarfod i'r hen barchedig frawd a thad gyhoeddi rhyw hanner dwsin, mwy neu lai, o

Digitized by Google

bregethau yn ei fywyd, ynghyd âg amryw gofiantau byrion. Cyfansoddodd hefyd amryw bennillion—ychydig o ba rai a genir tra y pery yr iaith Gymraeg; megys,

"Bywyd y meirw, tyr'd i'n plith."

"Duw ymddangosodd yn y cnawd."

Bu ganddo hefyd law fawr yn nghadwraeth emynau anfarwol Anne Griffiths, Dolwar Fach.

HUGHES, STEPHEN: un o Ymneillduwyr boreuaf Cymru. Ganwyd ef yn nhref Caerfyrddin, naill ai yn 1622, neu 1623, neu fe allai ychydig yn gynt. Y mae hanes ei ddyddiau boreuol yn anhysbys. Cafodd ei ddwyn i fyny i'r weinidogaeth yn yr Eglwys Wladol, dybygid; o herwydd mynegir iddo gael ficeriaeth Meidrym yn swydd Gaerfyrddin yn 1645. Oddi wrth gyfeiriad a wna efe mewn cân o ragymadrodd i "*Ganwyll y Cymry,*" gellir casglu ei fod yn gwasanaethu ar yr un pryd yn eglwys Merthyr Cynon. Ni chyfyngai y gŵr da hwn ei lafur i'r eglwysi plwyfol y gweinyddai ynddynt; ond teithiai yma a thraw drwy y sir i bregethu ac i oleuo y bobl. Y mae profion i'w cael ei fod wedi casglu ynghyd amryw o eglwysi bychain yn swydd Gaerfyrddin, mor foreu a'r fl. 1650, a'i fod yn fawr ei ofal am danynt. Yn 1662, bwriwyd ef allan o'r Eglwys Sefydledig gan Ddeddf Unffurfiaeth. Yn mhen ychydig amser ar ol hyn, priododd wraig rinweddol o Abertawe, gan yr hon yr oedd cynnysgaeth a'i cynnorthwyai i fyw yn gysurus am y gweddill o'i oes. Symmudodd i Abertawe i drigiannu; ac yn awr ymroddai yn fwy nag erioed i gyflawni ei hoff waith o bregethu, a phlanu a dyfrhau eglwysi yma a thraw ar hyd y wlad. Efe, dybygid, a fu y prif foddion i sefydlu yr eglwysi yn Nghapel Isaac, Pencadair, Pant-teg, Caerfyrddin, Henllan, Llanybri, Trelech, a Llanedi. Yn briodol iawn y cafodd yr hen efengylwr ffyddlawn hwn ei alw yn "apostol sir Gaerfyrddin." Yr oedd yn bregethwr dymunol, trefnus, a thra effeithiol—yn llawn teimlad ei hun; ac anfynych y methai gael ei wrandawyr hefyd i deimlo. O ran ei olygiadau, yr oedd yn gymmedrol, ac yn rhyddfrydig tuag at eraill nad oeddynt yn gallu cydolygu âg ef, ac yn dra boneddigaidd o ran ei foes; a diau fod hyn wedi bod yn ffafriol iddo, a'i gadw o bossibl rhag bod yn wrthddrych cymmaint o erlidiau ag y bu rhai o'i frodyr yn yr amseroedd hyny yn ddarostyngedig iddynt. Bu ei weinidogaeth dderbyniol, yn ddiammheuol, yn foddion argyhoeddiad i lawer; ac yn eu plith rai a fuont yn wasanaethgar iawn mewn cylchoedd cyhoeddus gyda chrefydd. Canmolir ef yn fawr am ei nawdd a'i garedigrwydd i ddynion ieuaingc oeddynt wedi troi allan i bregethu, ac a fuont wedi hyny yn weinidogion mewn gwahanol eglwysi, yn Ngogledd a Deheudir Cymru; ac yn eu plith gellir enwi James Owen, Croesoswallt; Daniel Phillips, Pwllheli; Owen Davies, Henllan; David Penry, Llanedi; a William Evans, Caerfyrddin.

Gyda bod yn awyddus am oleuo a lleshau ei wlad drwy bregethu yr efengyl, yr oedd Stephen Hughes yn ymdrechgar iawn i wneyd hyny drwy gyhoeddi llyfrau crefyddol a da—rhai o honynt yn wreiddiol, ac eraill yn rhai cyfieithiedig. Dywedir ei fod wedi cyhoeddi tuag ugain o lyfrau yn yr iaith Gymraeg, a dau neu dri o argraphiadau o rai o honynt. Yn mysg eraill a ddygwyd allan ganddo, gellir enwi "*Canwyll y Cymry,*" gan y ficer Pritchard, gyda rhagymadrodd, a rhai o weithiau Baxter; sef, "*Galwad i'r Annychweledig;*" ac "*Yn awr, neu byth,*" wedi ei gyfieithu gan Richard Jones, o Ddinbych; "*Traethawd ar Droedigaeth,*" gan Joseph Alleine," "*Eglurhâd ar Weddi yr Arglwydd,*" gan Perkins, &c. Ni chyfansoddodd ac ni chyfieithodd o bossibl un o'r llyfrau a gyhoeddodd. Yn gymmaint ag nad oedd un wasg yn Nghymru y pryd hwnw, na chyssodwyr Cymreig o bossibl yn swyddfeydd argraphu Llundain na Rhydychain, yr oedd yn angenrheidiol, gan hyny, i Mr. Hughes fod lawer o'i amser yn Llundain tra yn arolygu dygiad y llyfrau allan drwy y wasg. Llafuriodd y gŵr da hwn yn y modd mwyaf canmoladwy i oleuo a chrefyddoli ei wlad; ac fel y gellid disgwyl ar y fath adeg, ni ddiangodd yn hollol heb fod yn wrthddrych erledigaethau. Y mae Calamy yn dywedyd am Stephen Hughes:—"Tra yn dwyn yn mlaen ei waith canmoladwy, bu yn agored i gerydd ceidwaid yr agoriadau cyssegredig—i ba rai nid oedd yn wahaniaeth o gwbl pa un ai o bechodau pobl, ai ynte o'u duwioldeb y gwnaent farchnad. Pasiodd y boneddwyr hyn geryddon yr eglwys arno; a chyn pen hir wedi hyny, traddodwyd ef i'r gallu gwladol, a chaethiwyd ef i'r carchar yn Nghaerfyrddin; yr hyn oedd yn niweidiol i'w iechyd, ac yn beryglus i'w fywyd. Ond gwelodd Duw yn dda, drwy ryw ragluniaeth ffafriol ac annisgwyliadwy, i ddwyn oddi amgylch ei ryddhâd, drwy yr hyn yr adferwyd ei iechyd, ac y cafodd fwy o gyfleusderau i wneyd daioni." Mewn cyssylltiad â Thomas Gouge, a Henry Maurice, bu yn offeryn i ddwyn allan ddau argraphiad o'r Beibl Cymraeg. Y mae yn debyg i'w lafur caled ac ymroddgar o'r diwedd ammharu ar ei iechyd. Yr oedd ofnau yn ei feddiannu weithiau rhag i'w synwyrau ddyrysu, ac mewn amgylchiadau o'r fath iddo ddywedyd dim i ddianrhydeddu crefydd; a mynych y gweddiai, "Arglwydd, cadw ni yn ngwasfa marwolaeth, ac na fydded i ti ein gadael ein hunain i'th ddianrhydeddu di yn ein munydau olaf." Cafodd ei ddymuniad yn hyn. Bu farw mewn tawelwch mawr rywbryd yn y flwyddyn 1688, yn 65ain neu 66ain mlwydd oed, a chladdwyd ef yn mynwent St. Ioan, Abertawe. Nid oes un cyfnod yn dynodi y fan lle y gorwedd ei weddillion.

HUMPHREYS, Y PARCH. RICHARD. Ganwyd y gŵr a adwaenid am flynyddau lawer trwy Gymru fel 'Richard Humphreys, o'r Dyffryn,' mewn ffermdy bychan o'r enw Gwerncanyddion, hen gartref ei dad a'i daid, yn y flwyddyn 1790. Hanai o deulu parchus, oedd wedi byw yn yr ardal er cyn dyddiau Oliver Cromwell; y rhai oedd yn perchen tipyn o eiddo, ond mwy o synwyr, ac yn meddu cryn ddylanwad yn mhlith eu cymmydogion. Darn o wlad heb lawer o ddim i'w hynodi yn y ffordd o olygfeydd naturiol ydyw Dyffryn Ardudwy. Ni fedd afon brydferth yn ymddolenu drwy y gwastadedd, na mynydd uchel ysgythrog ei grib, na chreigiau serth rhamantus; nid oes ynddo yr un cwm cul garw, na choedwig dewfrig henafol, i dynu sylw neillduol atynt; ond unig swyn y lle ydyw ei fod yn llecyn agored iach—llawn o olygfeydd eang. Ar ddiwrnod clir hafaidd, gellir gweled o ben y bryniau cyfagos ran o bedair sir; sef, Arfon, Aberteifi, Penfro, a Meirion, ynghyd â milldiroedd llydain o ddyfroedd y Cardigan Bay sydd yn golchi y glanau ger llaw.

Digitized by Google

Yn nghanol eangder natur, mewn man lle nad oedd llafur a chelfyddyd y pryd hyny wedi gwneuthur fawr heb law codi cloddiau, adeiladu ambell i ffermdy gwael, ychydig fythynod tlawd, corlanau i'r defaid, a murddyn yma ac acw, i gyfnewid gwyneb y ddaear, y ganwyd ac y magwyd Richard Humphreys—oedd yn hynod am eangder ei syniadau, gwreiddiolder a naturioldeb ei sylwadau. Tra yr oedd Richard etto yn blentyn, symmudodd ei rieni i fyw i fferm gyfagos o'r enw Faeldref; ond cyn y symmudiad hwn, yr oedd wedi colli ei fam—yr hon oedd yn wraig ofalus, llawn o synwyr cryf, ac wedi derbyn addysg foreuol lled dda, ac hefyd yn feddiannol ar raddau helaeth o'r ddoethineb oddi uchod.

Yr oedd Humphrey a Jennet Richard (canys dyna oedd enw ei rieni) yn aelodau eglwysig ffyddlawn gyda'r Trefnyddion Calvinaidd yn y Dyffryn tra y buont byw.

Pan yn bymtheg oed, cawn iddo golli ei dad; ac felly gadawyd ef yn fachgen amddifad yn y cyfnod tyner hwn, i wynebu peryglon, ac i ymladd brwydrau bywyd ei hun; ond bu Rhagluniaeth yn ofalus o hono, a chafodd ei gadw trwyddynt oll i gyrhaedd cyflawn oedran heb ei niweidio.

Yn ystod tymmor ei ieuengctid, derbyniodd addysg dda yn yr ysgolion cymmydogaethol, ac hefyd yn yr Amwythig. Yr oedd yn berffaith gydnabyddus â'r iaith Saesnig, i'w darllen a'i hysgrifenu; a Saesneg a ddefnyddid ganddo i ysgrifenu llythyrau at ei deulu ac eraill oedd yn hyddysg yn yr iaith hono. Mawr hoffai ddarllen ei llenyddiaeth. Ymblesera1, nid yn unig gyda llyfrau aml-eiriog y duwinydd trwm Dr. Owen, a gweithiau yr athronydd John Howe, a'r Puritaniaid eraill, pa rai a ystyrir yn gyffredin fel yr unig ymborth feddyliol digon sylweddol i bregethwr; ond gallai efe hefyd fwynhau traethodau bywiog Addison a Steele yn y "*Spectator*," a "*Rambler*" Dr. Johnson, a "*Coll Gwynfa*" Milton, ac yn "*Dramas*" Shakespeare. Ei hoff lyfrau oedd gweithiau Robert Hall, Dr. Dick, a duwinyddiaeth Dr. Dwight. Yr oedd yn nodedig o gydnabyddus yn hanesiaeth Prydain Fawr, ac yn lled hyddysg mewn hen hanesiaeth (*ancient history*). Darllenodd Rollins' "*Ancient History*" lawer gwaith drosodd. Cymmerai fwy o ddyddordeb mewn ffeithiau nag mewn damcaniaethau; ac felly, cawn ei fod yn llawer gwell daearyddwr nag ydoedd o arddansoddwr (*metaphysician*). Tueddai ei feddwl yn fwy at yr ymarferol a'r defnyddiol nag at y cywrain a'r addurnol. Adeiladai dai, a chapelau, gweddol gysurus i fyw, neu i wrandaw a phregethu ynddynt; ond digon moel a diaddurn fyddai eu hymddangosiad oddi allan, yn gystal ag oddi fewn.

Wedi marw ei dad, disgynodd gofal y fferm a'r teulu arno ef yn hollol; a thrwy ddiwydrwydd, dan nawdd Rhagluniaeth dyner, llwyddodd i gadw cartref cysurus iddo ei hun, ei frawd, a'i chwaer. Cymmerai bleser mawr mewn trin y ddaear, a chyfrifid ef yn amaethwr medrus; ond nid oedd mor hylaw ar y gwaith o brynu a gwerthu anifeiliaid. Byddai yn bur hoff o drwsio ceryg. Gwyddai am bob careg ar y fferm; ac nid hawdd fyddai ganddo roddi caniatâd i neb symmud un o'r meini mawr sydd i'w canfod mor fynych ar wyneb meusydd y Dyffryn. Yr oedd yn gloddiwr da, ac yn adeiladydd gofalus; ond rhagorai yn neillduol yn y gorchwyl o godi 'pentan.' Ei waith ef yw y ddau bentan ar yr adwy sydd yn agor o'r ffordd fawr i lawr at y Faeldref; a thra y mae pob pentan arall yn yr ardal, heibio i ba rai y bydd ychydig o dramwy, yn chwalu unwaith neu ddwy bob deng mlynedd, saif y ddau hyn yn ddiysgog; ac ymddangosant fel pe gallent aros yno ddyddiau y ddaear.

Nid oedd, yn ystod y chwe blynedd cyntaf ar ol marwolaeth ei dad, yn aelod eglwysig; ond er hyny, gofalai bob amser gadw trefn weddus ar ei dŷ. Pan yn 21ain oed, ymunodd un noswaith âg eglwys y Trefnyddion Calfinaidd yn y Dyffryn. Ei dynu yn raddol at grefydd a gafodd, ac nid ei orchfygu gan rym argyhoeddiad nerthol a disymmwth. Y geiriau a dorodd y ddadl yn ei feddwl oeddynt, "Canys meirw ydych, a'ch bywyd a guddiwyd gyda Christ yn Nuw." Cyn hir, dewiswyd yr aelod newydd yn flaenor ar yr eglwys; ac yn fuan, dechreuodd y blaenor ieuange esbonio ychydig ar bennod yn y cyfarfod gweddi nos Sabbath. Profodd ei hun yn siaradwr medrus, o ddawn parod a rhwydd, ac yn gallu gosod allan ei feddyliau mewn dull goleu a nerthol.

Ar annogaeth daer ei frodyr, ymgymmerodd, pan yn 29ain oed, â gwaith y weinidogaeth gyhoeddus, trwy ddechreu pregethu. Ni bu erioed mewn coleg, ac ni dderbyniodd ddim addysg rhagbarotoawl at y gwaith hwnw—amgen na gwybodaeth gyffredinol eang, a phrofiad o'r byd a dynolryw; etto, na feddylied neb mai pregethwr heb ddim diwylliant oedd. Yr oedd wedi meistroli y rhan fwyaf o *Euclid*, a gwelsom lyfr trwchus wedi ei lenwi ganddo â *mensuration problems*. Nid oedd, y mae'n wir, yn hyddysg yn yr ieithoedd dysgedig, nac yn medru un o ieithoedd y Cyfandir; ond gellid ei ystyried yn *good English scholar* o'i ddydd, wedi darllen llawer ar lyfrau hanesiaeth, daearyddiaeth, seryddiaeth, ac athroniaeth naturiol, ac yn cymmeryd dyddordeb neillduol mewn peirianniaeth. Heb law hyn, yr oedd yn dduwinydd da, wedi meddwl llawer drosto ei hun ar y gwahanol byngciau, ac yn meddu golygiadau clir ac ysgrythyrol arnynt.

Nid amaethwr yn pregethu tipyn ydoedd, fel rhyw ail waith; ond dyn coeth oedd efe, wedi ei ddonio gan y Meistr mawr â galluoedd cymmhwys i'r weinidogaeth, a'i galon wedi ymroddi i'r gwaith—un oedd "yn mawrhau ei swydd"—ond un oedd, o herwydd yr amserau a'r amgylchiadau, yn gorfod ymrwystro gyda'r byd, er mwyn sicrhau iddo ei hun a'i deulu gynnaliaeth gysurus.

Yn 1822, priododd Miss Anne Griffith, Quay Cottage, Abermaw, merch Cadben Griffith—coffadwriaeth yr hwn sydd etto yn fendigedig yn mhlith hen drigolion y 'Bermo. Yr oedd Miss Griffith yn perchen mwy o eiddo na Richard Humphreys, y pregethwr a'r amaethwr o'r Faeldref. Ond gan nad oedd hi yn penderfynu priodi gŵr aur, hyd yn oed pe bae yn "llô aur," ymfoddlonodd i fwrw ei choelbren gydag ef; canys mwy gwerthfawr yn ei golwg oedd synwyr da, medr at fyw, a chrefydd bur, na chyflawnder o eiddo. Ar ol priodi, symmudasant i'r Lluesty, i gadw siop, lle y buont yn byw am ddeng mlynedd. Ganwyd iddynt yno dri o blant, Mary Anne, yr hynaf, yr hon a briododd Mr. G. Jones, *draper*, o Borthmadog; merch a fu farw yn ei mabandod; a Jennette Griffith, yr ieuengaf, yr hon a briododd y diweddar Barch. E. Morgan, Dyffryn, ag sydd etto yn byw yn y Faeldref.

Digitized by Google

Nid hir y bu Mr. Humphreys, ar ol dechreu pregethu, heb dderbyn cymmeradwyaeth gyffredinol, a daeth yn fuan yn bregethwr lled boblogaidd. Nid canu yn fwyn y byddai, er fod ganddo lais da, clir, a soniarus, a'i fod yn tori ei eiriau yn brydferth, ac yn siaradwr pleserus i'w wrandaw. Nid areithyddiaeth oruchel oedd ganddo, yr hon sydd yn hawlio ac yn mynu sylw cynnulleidfaoedd, bodd neu anfodd, gan eu dwyn yn gaeth; er nad oedd yn amddifad o'r hyn a elwir yn addurniadau areithyddol. Nid dyfnder a newydd-deb ei feddyliau, na chadernid ei ymresymiadau, na threfn a chyssylltiad llachar ei osodiadau, a swynai ei wrandawyr; er fod ei allu meddyliol yn gryf a chraff i dreiddio ac i egluro. Ei ddynoliaeth fawr, ei synwyr da, a'i grefydd ddwys, oedd cuddiad ei gryfder fel pregethwr a gwladwr. Nis gellir rhoddi gwell syniad am dano i'r darllenydd na thrwy ddyfynu y llinellau canlynol o waith y gŵr talentog hwnw, Mr. Rees Roberts, o Harlech:—

"Yr oedd Mr. Humphreys yn ddyn o ymddangosiad talgryf ac urddasol iawn; a phenderfyniad, nerth, a phwyll, yn argraphedig ar ei holl ysgogiadau; a hyny mewn llythyrenau mor freision fel y byddem ni, hogiau y Dyffryn, yn ymdeimlo yn union pan y canfyddem ei dremwedd yn y pellder, fod yn y fan hono ryw gryn lawer o 'uweidder llwch y byd' yn ymsymmud gyda'u gilydd. Yr oedd ei wynebpryd yn un tra awgrymiadol o bob teimlad dymunol; fel pe buasai natur, neu yn hytrach, ei Duw, wedi darparu *treat* i bob cynnulleidfa y talai Mr. Humphreys ymweliad â hi. Yr oedd pob teimlad haelfrydig a hynaws yn daenedig ar ei wyneb llydan braf—yn ffurfio y fath *gontrast* rhyngddo ag ambell i greadur gwyneb-gul y teimlem yn falch nad oedd modd dangos mwy o surni a chwerwder ar ei *frontispiece*. Ond am Mr. Humphreys, ni fuasai yn waeth gan neb pe buasai ei wyneb gan lleted a'r ffenestr; o herwydd na fuasai ond gollwng ffrwd o oleuni ar deimladau mwyaf dymunol y galon ddynol. Teimlid fod cyfarchiad caruaidd Mr. Humphreys hefyd yn werth ei gael. Byddai ei '*How di do*, machgen i,' yn ymofyniad serchog a gwirioneddol, ac yr oedd ei ysgydwad llaw yn rhyw beth pur sylweddol. Nid fel ambell un yn gollwng ei bawen i'ch llaw fel rhyw lwmp o *sponge* llaith, gan edrych ffordd arall, y byddai efe; na, byddid yn teimlo fod ei galon fawr yn *throbio* yn nghledr ei law, a'i ddau lygad mawr gloew yn edrych yn eich llygaid chwithau, fel pe yn yspio a oedd rhyw drallod a gofid yn rhywle tua gwraidd y galon ag y gallai ef roi *plaster* wrthynt. Efelychai yn fawr yn hyn dynerwch tosturiol yr Iachawdwr bendigedig, fel ei dangosir gan y bardd Cowper yn y llinellau hyny ar 'Y Daith i Emmaus:'—

'Ere yet they brought their journey to an end,
A stranger joined them, courteous as a friend,
And asked them, with an engaging air,
What their affliction was? and begged a share.'"

Daeth Mr. Humphreys yn naturiol i gymmeryd y flaenoriaeth yn y cyfarfod misol ar ol marwolaeth y Parch. Richard Jones, o'r Wern. Nid deddfwr na diwygiwr ydoedd efe, ond barnwr tawel call; ac yn rhy dueddol, os yr un, i adael pethau yn llonydd fel yr oeddynt, gan orphwys a rhoddi diolch. Yr oedd yn weithiwr a wir ofalai am yr achos mawr. Nid yn unig dysgai a chynnorthwyai yr eglwysi yn y rhan ysbrydol o'r gwaith; ond yr oedd yn abl i'w hyfforddi mewn pethau bydol—y rhan allanol—trwy gynllunio ac adeiladu eu capelau newyddion, ac adgyweirio yr hen. Fel enghraifft o'i gymmwynasgarwch, a'i barodrwydd i wasanaethu yr efengyl yn y cylch allanol hwn, ni a nodwn yr hanesyn canlynol. Sylwodd un Sabbath, pan yn pregethu yn Llanuwchllyn, fod tyllau yn nhô yr hen gapel. Boreu Llun, aeth i chwilio am fenthyg dillad gweithio y diweddar Evan Foulk; ac wedi dyfod o hyd iddynt, aeth i ben y capel, a thrwsiodd ei dô cyn myned ymaith.

Llanwai holl wahanol gylchoedd ei gyfarfod misol gyda ffyddlondeb mawr. Gwir ofalai am lwyddiant yr achos crefyddol, a chyflawnai bob gwasanaeth oedd ar ei law ef i'w wneyd yn y cyfeiriad hwn. Teimlai, er ei fod yn amaethu, mor ddwys a'i fab-yn-nghyfraith, Mr. Morgan, dros gynnaliaeth deilwng i'r weinidogaeth. Siaradodd allan yn gyhoeddus ar y pwngc mewn cymmanfaoedd; a chawsant ill dau frwydrau poethion, a rhai clwyfau bryntion gan eu gwrthwynebwyr mewn mwy nag un cyfarfod misol, pan yn dadleu cwestiwn y fugeiliaeth. Cymmerodd Mr. Humphreys hefyd ei ddewis yn weinidog ffurfiol ar amryw eglwysi, a chyflawnai waith bugail yn mhob ystyr o'r gair yn ei gymmydogaeth ei hun.

Yn 1841, cawn ef yn y Bala, yn cymmeryd rhan yn y gwasanaeth ordeinio, pryd y gwnaeth sylwadau ar "Ddyledswydd yr eglwys tuag at ei gweinidog." Yn 1851, traddodwyd y cyngor ganddo yn sassiwn Caernarfon. Drachefn yn 1853, traddododd araeth ar "Natur Eglwys," yn nghymdeithasfa Machynlleth; ac yn nghymmanfa Bangor, Medi, 1855, cawn ef yn traethu eilwaith ar "Ddyledswyddau yr eglwys at ei gweinidog."

Cymmerodd Mr. Humphreys ran flaenllaw gyda'r achos dirwestol hefyd. Daeth yn ddirwestwr llwyr ei hun, ac ymdrechodd lawer i gael gan eraill ddilyn ei esampl. Yr oedd yn areithiwr ar ddirwest heb ei ail. Cofir yn hir ar hyd y gwledydd am ei hanesion digrifol ac addysgiadol (a gofalai bob amser fod addysg ynglŷn wrth y digrifwch), ei sylwadau craffus, a'i ddull dymunol. Nis gallwn ddangos yn well pa fath un oedd na thrwy roddi yma ddyfyniad o'r araeth ddirwestol a draddodwyd ganddo ar ol y pregethau ddau o'r gloch yn un o gymdeithasfaoedd Pwllheli:—

"Ni wn i pa ham y mae eisieu perswadio cymmaint arnoch i adael y diodydd meddwol. Y mae rhai o honoch yn ceisio dyfod â rhyw bethau ydych yn ei alw yn rhesymau dros ei harfer yn gymmedrol. Ond ni welais i ryw lawer o rym yn rhesymau neb drostynt; ac o'm rhan i, haws fyddai genyf o lawer gredu mai ffond o honynt ydych. Ond nid hawdd genych addef hyny. Gwirionedd ydyw hwn y rhaid ei wasgu allan o honoch. Yr oedd yn ein gwlad ni acw ŵr a gwraig yn byw yn weddol gysurus. Rhyw ddiwrnod, fe darawodd cymmydog wrth y gŵr, ac fe ddywedodd wrtho, 'Gwraig go sâl a gefaist ti, hwn a hwn.' 'Be sydd arni hi?' meddai y gŵr. 'Wel,' meddai y cymmydog, 'y mae hi yn aml iawn ar hyd tai y cymmydogion.' 'O! felly,' ebe y gŵr. 'Ac y mae hi yn ddiog iawn hefyd.' 'O! felly,' meddai y gŵr drachefn. 'Yn wir, y mae hi yn un fudr iawn.' 'Wel,' meddai y gŵr, 'dywed di a fynoch di am Betty Rhys, y mae yn dda gen i *hi*.' Yr oedd y cymmydog yn dyweyd y gwir bob gair am dani; mi hadwaenwn i hi, ac un fudr ddiddaioni oedd hi. Fe fu y cymmydog yn bur hir cyn cael gan y gŵr i ddyweyd fod yn dda ganddo Betty Rhys; ond wedi iddo ddyweyd, fe welodd y cymmydog mai y peth goreu iddo ef oedd rhoddi ei gerdd yn ei gôd, a gadael rhwng y ddau a'u gilydd. Ond rywfodd, nis gallwn ni yn ein byw adael llonydd i chwi, er ein bod yn gwybod fod yn dda genych am y ddiod feddwol; o blegid y mae y drygau sydd yn perthyn iddi yn llawer gwaeth, fy mhodd i, na'r drygau oedd y cymmydog yn eu rhoi yn erbyn

Digitized by Google

Betty Rhys. Gadewch hwy; ac ond i chwi eu gadael, chwi gewch fanteision lawer iawn i chwi eich hunain, ac i'ch teuluoedd. Byddwch fyw yn hwy, ond i chwi eu gadael. Fe ellir dywedyd am 'Ddirwest,' y mae 'hir hoedl yn ei llaw ddeheu hi, ac yn ei llaw aswy y mae cyfoeth a gogoniant.' Fe fyddai eich cael i gredu hyn yn rhywbeth. O'm rhan i, yr wyf yn ei gredu yn fy nghalon er's blynyddoedd. Yn wir, yr oedd hen barson yn byw tua'r Bala acw, wedi dyfod i ddeall hyn flynyddoedd lawer cyn bod son am y Gymdeithas Ddirwestol. Fe aeth hen gyfaill iddo i edrych am dano, ac aeth y parson i gwyno mai degwm bychan iawn oedd yn perthyn i'r plwyf hwnw. 'Pa faint ydyw?' gofynai y cyfaill. 'Nid yw ond hyn a hyn,' ebe y parson. 'O! y mae hyny yn o lew. Y mae genych gyda hyny dipyn i'w dderbyn oddi wrth briodi a chladdu,' attebai y cyfaill. 'Yn wir,' meddai yntau yn ol, 'nid oes yma neb byth yn priodi, ac ychydig iawn sydd yn marw yma hefyd. Ni welsoch erioed lai.' 'Wel, y mae hyn yn beth rhyfedd iawn; y mae marw yn mhobman—beth sydd arnynt na farwent yma?' chwanegai y cyfaill. 'Ond yfed dwfr oddi ar y clai glas (neu, fel y gelwch chwi ef yn Lleyn yma, marl glas) y maent.' Yr oedd y gŵr parchedig wedi deall y rheswm. Ewch chwithau a gwnewch yr un modd."

O dro i dro ysgrifenodd amryw ddarnau byrion gwerthfawr i'r "*Traethodydd*," "*Y Methodist*," a'r "*Geiniogwerth.*" Yr oedd efe yn ysgrifenydd cywir, prydferth, a hynod o hapus mewn ffurfio brawddegau byrion cynnwysfawr, i gyd yn gnewyllyn, heb ddim rhisgl na phlisgyn o'i amgylch. Ei glust oedd ganddo i'w arwain yn ffurfiad ei frawddegau a detholiad ei eiriau. Nid dyn mân reolau oedd Mr. Humphreys, wrth ysgrifenu mwy nag wrth fyw; ond dilynai natur yn y naill a'r llall yn ei symlrwydd a'i gwreiddiolder.

Digwyddai troion digrifol yn ei hanes weithiau yn ei gyssylltiad â'i gymmydogion, ac yn ei gyssylltiad â'r eglwys. Dyfynwn yr enghraifft a ganlyn fel dangoseg gywir o'r hyn ydoedd:—

"Yr oedd tynerwch ei galon, weithiau, yn myned ar y ffordd iddo weithio allan benderfyniadau ei feddwl. Gwnaeth benderfyniad un tymmor na byddai iddo werthu dim o gynnyrch y fferm ond am arian parod; a mynegodd y dderdd i'w was, fel na byddai i hwnw werthu dim yn ei absennoldeb. Ond cyn machlud haul yr un dydd ag y mynegwyd y cynllun hwn, daeth dau gymmydog iddo, ac aelodau o'r eglwys yr oedd efe yn weinidog arni, i ofyn am bytatws ar werth. Gofynai yntau a oedd ganddynt arian? 'Nac oes, dan yr amser a'r amser,' ebe hwythau. Ar hyn hi a aeth yn wrthdarawiad rhwng tynerwch ei galon a phenderfyniad ei feddwl; a bu distawrwydd tra yr oedd yr ymrysonfa yn cymmeryd lle yn ei feddwl. Yn y man dywedai, 'Os nad allaf werthu pytatws i chwi, heb dori fy ngair, gallaf roddi cynghor i chwi.' 'Ewch at Ann (sef Mrs. Humphreys) a gofynwch am fenthyg iddi dan y pryd a nodasoch.' Aeth y dynion, a dychwelasant yn fuan: prynasant y nwyddau gan Mr. Humphreys, a thalasant am danynt gydag arian Mrs. Humphreys."

Yr oedd yn deimladwy iawn i'r digrifol, ac ni allai ymattal pan ddeuai heibio iddo. Dyma eiriau ei fywgraphydd am dano:—

"Byddai yn cael ei demtio weithiau i ddywedyd gair lled ysmala wrth drin achosion na byddai yn gweled pwys mawr ynddynt. Yr oedd anghydfod wedi tori allan rhwng brawd a chwaer perthynol i'r eglwys, a dywedai y brawd fod y wraig wedi ei daro. Gofynai Mr. Humphreys i'r wraig a oedd hi wedi gwneyd hyny?

'Wel do,' ebe y wraig, 'mi a'i tarewais ef.'

'Gyda pha beth?' gofynai Mr. Humphreys.

'Gyda'r golch bren,' ebe y wraig.

'Wel, oni chefaist ti beth pwrpasol iawn!' chwanegai y gweinidog.

Collodd ei olwg ar y bai yn nghyfaddasrwydd yr offeryn a ddefnyddiodd y wraig i ddial ei cham. Ei esgusawd dros wneyd sylwadau o'r fath fyddai, nas gallai yn ei fyw arbed pêl deg pan y deuai ato."

Fel y sylwyd eisoes, cuddiad ei nerth ydoedd ei ddynoliaeth fawr, eangder ei syniadau, cywirdeb ei farn, ac yn enwedig tynerwch a charedigrwydd ei galon. Teimlai y gynnulleidfa wrth wrandaw arno fod yno ddyn llawn yn siarad synwyr da wrthynt, gyda difrifwch, a'i fod mewn gwirionedd yn caru eu lles. Yr un peth a'i gwnai mor dderbyniol yn mhlith ei gymmydogion. Teimlent fod iddynt gyfaill ffyddlawn a charedig yn Mr. Humphreys; a hawdd fyddai ganddynt fyned i osod eu cwynion ger ei fron, neu i ofyn am ei gynghor mewn amgylchiadau dyrus. Gŵr o gynghor ydoedd efe, yn anad dim; a'i gynghor bob amser yn air addas, ac yn air yn ei bryd. Bydd fyw yn hwy yn ei gynghorion a'i sylwadau call nag mewn dim arall. Byddent wedi eu gwisgo mewn geiriau mor gymmeradwy, ac mor llawn o synwyr, fel y trysorid hwy yn y côf megys hen ddiarhebion. Ei sylwadau wrth fyned heibio oeddynt y pethau goreu yn ei bregethau:—

"Cwynai gwraig gyfrifol wrtho unwaith ei bod mewn profedigaeth oddi wrth ryw bersonau, nad oedd fawr o foneddigeiddrwydd yn perthyn iddynt. 'Na feindiwch,' ebe yntau, 'mae yn haws i chwi ddioddef nag iddynt hwy dori ar eu harfer."

"Mr. Humphreys, rhoddwch gynghor i Mary yma i chwilio am ŵr, fel y rhoddasoch i Miss ——," meddai gŵr y tŷ wrtho, pan ar daith yn Lleyn. 'Ni roddais i erioed gynghor i un ferch ieuangc i chwilio am ŵr, John; ond cynghor i ddewis gŵr pan y cai gynnyg arno a roddais i.' 'Wel, gadewch i ni ei gael,' meddai y teulu. Ar hyn, trodd yntau at Mary, a dywedai yn ei ddull siriol a dengar—

'Mary bach, peidiwch cymmeryd dyn diog: mae o yn ddrud iawn i'w gadw, ac ni ddwg nemawr i mewn. Gochelwch ddiotwr; canys y mae yn berygl iddo fyned yn feddwyn. Peidiwch cymmeryd dyn digrefydd, rhag i'r Arglwydd ddigio wrthych, a'i adael felly. A pheidiwch er dim gymmeryd ffŵl; canys y mae yn annhossibl gwneyd hwnw byth yn gall."

Dyma enghraifft o'i sylwadau:—

"Os nad oes lle i bob rhinwedd yn dy grefydd, ni thâl hi ddim."

"*Un drwg ydyw pechod.*—I gael golwg ar ddrwg pechod yn iawn, dylem edrych, nid yn unig ar yr hyn a wnaeth yn y byd yma, ond ar yr hyn a wnai pe cai."

"*Dewis y gwir Dduw yn Dduw.*—Gwnewch mor gall, mhobl i, ag y gwnaeth Æsop wrth fyned gyda mintai i ben y mynydd. Yr oedd yno lawer o gludgelfi ac ymborth yn cael ei ddarparu ar gyfer y daith, a phawb yn dewis ei faich. Ond dewisodd Æsop y baich bwyd i'w gario; ac fel yr oeddynt yn esgyn, yr oeddynt yn gorphwys ac yn ymborthi; ac wedi hyny cychwyn, a phob un â'i faich ei hun. Ac yr oedd baich pawb yn cadw ei bwysau, neu yn hytrach yn trymhau, fel yr oeddynt yn dringo, ond baich Æsop. Yr oedd ei faich ef yn ysgafnach bob tro y gorphwysent; a mwy na hyny, yr oedd baich Æsop yn rhoddi nerth adnewyddol bob tro i ail gychwyn. Felly chwithau, fy mhobl i, dewiswch yr Arglwydd yn Dduw i chwi: cewch y bydd ei iau yn esmwyth a'i faich yn ysgafn, a chewch fwrw eich baich arno, ac efe a'ch cynnal chwi a'ch beichiau."

Ei ddynoliaeth ragorol, wedi ei thrwytho yn

Digitized by Google

ysbryd crefydd, a'i gwnai yn weddïwr mor neillduol. Y drychfeddwl llywodraethol yn ei weddïau oedd y syniad am Dduw fel Brenin a Thad. Cydnabyddai ei ddaioni mawr yn nhrefn natur a rhagluniaeth, yna llithrai yn naturiol i ddiolch am drefn y cadw, a diweddai bron bob amser gydag erfyniad taer am i'r Duw Mawr hwn fod yn Dduw iddynt byth. O'r un gwreiddyn y tarddai ei ddwysder teimlad (*pathos*) a'i arabedd nodedig. Ceir y ddau hyn bob amser yn cyd-fod. Pa le bynag y mae dynoliaeth lawn a chynneddfau meddyliol clir, yno hefyd, er fe allai yn guddiedig, y bydd teimlad dwys ac arabedd (*humour*). *Humour* ydyw tân byw: *wit* yw gwreichion. Gellir taraw gwreichion allan o gareg â haiarn oer; felly gall *wit* drigo mewn mynwes gan oered ac mor farw a'r iâ. Gall dyn arwynebol, heb ddim dyfnder teimlad na natur, fod yn *witty;* ond rhaid cael mynwes gynnes â rhywfaint o ddyfnder a dwysder teimlad i gynnyrchu gwir *humour.* Hawdd iawn oedd tynu y dagrau i lygaid Mr. Humphreys; a llawer gwaith y llawenhawyd calonau tlodion a rhai anghenus y Dyffryn â'i garedigrwydd. Deuai ei *humour* i'r amlwg yn fwyaf neillduol yn ei attebion pert, yn gystal ag yn y dull medrus a dymunol gyda pha un y daliai y ddysgl yn wastad mewn cyfarfodydd, y rhoddai derfyn ar ddadl fyddai yn tueddu i fyned yn frwd â rhyw sylw digrifol, neu trwy adrodd hanesyn cymmhwys at yr amgylchiad. Nodwn yma y ddwy esampl ganlynol, wedi eu cymmeryd o'i gofiant.

Yr oedd yn y Dyffryn ryw hynafgwr, yr hwn a fyddai â'i law yn drom ar y bobl ieuaingc. Byddai yn gweled rhyw ysmotiau duon arnynt bob amser; ac ar ol iddo fod yn eu fflangellu am rywbeth a ystyriai efe yn feius, dywedai Mr. Humphreys, "Y mae pawb yn gweled y gwrthddrychau yr edrychant arnynt trwy wydr yr un lliw a'r gwydr ei hunan. Os du fydd y gwydr, du yr ymddengys pob peth drwyddo." Ac wedi gwneyd y sylw, trodd at y brawd, a dywedodd, "Fe fyddai yn burion peth i tithau newid dy *spectol.*"

Fel yr oedd arwerthwr yn canmawl rhyw nwyddau oedd ganddo yn eu gwerthu, dywedai am rywbeth oedd dan ei forthwyl. "Dyma i chwi beth a bery byth."

"Hir ydyw byth, Mr. E——," meddai Mr. Humphreys.

"A ddarfu i chwi ei fesur, Mr. Humphreys?" gofynai yr arwerthwr.

"Naddo, neu buasai hyny yn brawf nad ydyw yn hir."

Ynghyd â'r *humour* y soniasom am dano, meddai Mr. Humphreys ffraethineb a'i gwnai yn gwmni difyrus i ba le bynag yr elai, ac yn wrthwynebwr i'w ofni. Wrth ymddiddan am ryw frawd pur siaradus, medd ei fywgraphydd, dywedai cyfaill wrtho—"Diau ei fod yntau yn aelod o'r corph mawr cyffredinol." "O! ydyw," ebe Mr. Humphreys. "Pa aelod ydych chwi yn ei feddwl ydyw, Mr. Humphreys?" gofynai y cyfaill. "Ei dafod, 'rwy'n credu," oedd ei atteb.

Yr oedd wedi myned i'r Gwynfryn un boreu Sabbath i wrandaw ar gyfaill iddo yn pregethu, a gofynodd Mrs. Jones iddo aros i giniawa gyda hwy. "Na," meddai yntau, "y mae fy nghyhoeddiad yn y Faeldref am giniaw, a gwell i mi dori cyhoeddiad gyda phawb na chydag Ann." "Ie," ebe John Jones—un o hen flaenoriaid y Gwynfryn—"y mae merched yn burion nes yr ânt i suro." "Ho!" meddai Mr. Humphreys, "ni bydd Ann byth yn suro: ond bydd weithiau yn *sharpio*—a gallaf fi yfed diod *sharp,* ond nid diod sûr."

Wrth fyned o Faentwrog i Ffestiniog ar un Sabbath, cafodd wlaw hynod o ddwys. "Wel, beth ydych yn ei ddyweyd am yr hin yma, Mr. Humphreys?" ebe rhywun wrtho yn y pentref wedi cyrhaedd pen y daith. "Dyweyd," attebai, "nid oes genyf ond dyweyd mai gwir yw yr adnod—'A chnawd arall sydd i bysgod.' Y mae eu cnawd hwy wedi ei wneyd i fod yn y dŵr; ond yr wyf yn teimlo mai nid felly fy nghnawd i."

Byddai ei ffraethineb weithiau yn cymmeryd gwedd lym a miniog iawn, pan y barnai hyny yn briodol.

Aeth un o'r dosbarth hwnw, a elwir y 'grwgnachwyr,' ato unwaith i gwyno yn erbyn y blaenoriaid, a dywedai na wnaent wrandaw ar ddim a ddywedai efe wrthynt. O'r diwedd, blinodd Mr. Humphreys ar ei faldordd, a dywedodd, "Nid yw ryfedd yn y byd eu bod yn gwrthod gwrandaw arnat, os wyt ti yn siarad cymmaint o ynfydrwydd wrthynt hwy ag yr wyt ti gyda mi."

Yn 1852, collodd ei briod; ac o hyny hyd 1858, bu yn byw yn y Faeldref gyda'i ferch a'i fab-yn-nghyfraith, pryd y priododd Mrs. Evans, Gwern-Iago, Pennal, a symmudodd yno i fyw. Ganwyd iddynt un ferch, Elizabeth—yr hon sydd etto yn fyw. Nid hir y bu yno cyn iddo ddechreu llesghau. Ychydig a deithiodd ar ol hyn, a Chwefror 15fed, 1863, bu farw. Cafodd gladdedigaeth tywysogaidd yn mynwent Capel y Dyffryn.

Nis gallwn derfynu hyn o ysgrif yn fwy priodol na thrwy ddodi yma y disgrifiad o hono a gyfansoddwyd gan y diweddar Barch. E. Morgan, sydd yn gerfiedig ar ei fedd:—"Yr oedd hynawsedd ei dymmer, ei synwyr cryf, a'i arabedd, yn tynu sylw pob gradd ato, ac yn ennill iddo gymmeradwyaeth gyffredinol fel dyn; ac yr oedd ffyddlondeb, a chywirdeb tryloew ei fywyd gweinidogaethol yn ennill y gradd o ŵr Duw a gweinidog cymmhwys y Testament Newydd yn nghydwybodau pawb a'i hadwaenent. Efe a fu ar hyd ei oes yn fab tangnefedd, a gorphenodd ei yrfa mewn tangnefedd."

**HUNNIAID**:—enw ar gydgasgliad o amryw lwythau o Scythiaid crwydrol, a fuont â chryn llaw ganddynt yn nymchweliad yr ymherodraeth Rufeinig yn y gorllewin yn y rhan gyntaf o'r bummed ganrif. Y mae eu hanes boreuol yn aros mewn cryn ddirgelwch. Ymddengys eu bod yn perthyn i'r tylwyth mawr Mongolaidd; ac yr oedd eu harferion, eu hymddangosiad, a'u nodweddion corphorol, yn cadarnhau y syniad. Tybir mai gwastadeddau mawrion Tartary, ar derfynau China, oedd cryd yr hiliogaeth; yr hon, yn mhell cyn y cyfnod Cristionogol, oedd yn ddigon cref i gadw ei chymmydogion mewn ofnau parhaus. Dywedir fod y Chineaid a ddioddefasant oddi wrthynt wedi adeiladu mur mawr China (tua 200 o flynyddoedd C.C.), er diogelu eu hunain oddi wrth eu hymosodiadau parhaus. Wedi eu gyru yn ol ar yr ochr hon, cyfeiriodd yr Hunniaid eu cwrs tua'r gorllewin, ac ynghylch canol y bedwaredd ganrif, ceid eu bod wedi ymsefydlu yn y wlad a orweddai rhwng y Môr Caspiaidd a'r Dniester. Am drigain mlynedd ar ol hyn amddiffynent eu sefydliadau newyddion yn ngwyneb ymosodiadau y llwythau cym-

Digitized by Google

mydogaethol. A'r mwyaf peryglus o'r rhai hyn oedd yr Alani, llwyth o'r un gwaed a'r Hunniaid eu hunain: ar ol llawer o ymdrechfeydd gwaedlyd, fodd bynag, bu agos i'r Alani gael eu llwyr ddifodi. Ymgymmysgodd y rhai a adawyd o honynt gan y rhyfel â'r Hunniaid. O ddeutu B.A. 376, daeth yr Hunniaid yn mlaen i'r gorllewin, ac ymosodasant ar y Gothiaid ar yr ochr ogleddol i'r Danube. Gwnaeth tua dau can mil o'r Visigothiaid eu noddfeydd yn y tiriogaethau Rhufeinig, lle y trefnwyd tiroedd iddynt. Adgyfnerthwyd rhengoedd yr Hunniaid o blith minteioedd eraill a ymunodd gyda hwynt; ac am dymmor neillduol, ymunasant â'r Gothiaid. Ac yn nesaf, ymosododd yr Hunniaid ar y Rhufeiniaid, ac mewn brwydr fawr a ymladdwyd ger Adrianople, lladdwyd yr ymherawdwr Valens. Parhaodd eu gallu i gynnyddu yn sefydlog hyd ganol y bummed ganrif, pan y cyrhaeddodd ei uchder mwyaf o dan Attila. Ar ol ei farwolaeth ef, ymranodd yr amrywiol lwythau oedd wedi eu dwyn ynghyd a'u gwneyd megys yn un genedl gan ei athrylith ef, ac ymosodwyd arnynt gan y Gothiaid, y rhai a'u hofnent gymmaint ag yr arswydai y Rhufeiniaid hwythau; a gyrwyd hwynt yn ol dros yr afon Don. Ymsefydlodd rhai o honynt yn Pannonia, a gadawsant ol eu presennoldeb yno yn barhaol yn enw y wlad a elwir yn awr Hungary. Ceir fod cangen o honynt, a elwid yr Hunniaid Gwynion, yn goresgyn Persia yn nheyrnasiad Firoze; ond er canol y chweched ganrif, nid oes sôn am danynt ar ddalenau hanesyddiaeth.

HUGHES, JAMES: gweinidog enwog gyda'r Methodistiaid Calfinaidd yn Llundain. Ganwyd ef yn y Neuadd Ddu, Ciliau, ger Trichrug Aeron, swydd Ceredigion, yn y flwyddyn 1779. Treuliodd flynyddoedd boreu ei oes, meddir, gyda gorchwylion amaethyddol a bugeiliol, a chlywyd ef yn dyweyd ei fod, pan yn

"Iraidd langc,
Yn arail praidd ei dad ar ben y bangc."

Er nad oedd ei deulu o duedd grefyddol, ceir fod argraphiadau crefyddol dyfnion ar ei feddwl ef yn dra boreu ar ei oes. Tueddwyd ef pan yn ieuangc i fwrw ei goelbren yn mysg y Methodistiaid Calfinaidd; a symmudodd yn y cyssylltiad crefyddol hwnw i Lundain, pan yn un ar hugain oed, yn y flwyddyn 1800. Nid oes nemawr chwaneg o'i hanes am flynyddoedd cyntaf ei drigias yn y brif ddinas, ond fod ynddo awydd angerddol am wybodaeth, a'r defnydd a wnai o bob mantais y caffai afael arni i gyrhaedd hyny mewn barddoniaeth, ieithyddiaeth, a duwinyddiaeth.

Bu yn gweithio yn galed â'i ddwylaw yn *dock-yard* y llywodraeth yn Deptford, nes cyrhaedd y bummed flwyddyn a deugain o'i oedran—wedi bod yno am bum mlynedd ar hugain, ac mewn cyssylltiad â'r Methodistiaid yn Wilderness Row. Yn y flwyddyn 1806, daeth yr enwog John Elias i ymweled â'i frodyr, fel y byddai yn arfer gwneyd yn lled fynych y pryd hwnw; a chafwyd diwygiad grymus trwy ei weinidogaeth nerthol ef, fel y teimlodd llawer ei ddylanwad—ac yn eu mysg, James Hughes lawn cymmaint a neb, fel y gadawodd argraph ddaionus arno hyd ddiwedd ei oes lafurus. Ond fel llawer o'i gydwladwyr, yr oedd ei anfanteision yn fawr, a'r diffyg o addysg dda yn moreu ei oes yn eu gwneuthur yn fwy, a hefyd diffyg llyfrau mewn gwahanol ganghenau gwybodaeth: ac er cael ambell i lyfr, yr oedd yr amser yn brin i'w astudio. Yr oedd o gyfansoddiad corphorol cryf, ac yn meddu ar feddwl o'r fath fwyaf penderfynol, nes gorchfygu llawer o anhawsderau trwy ei ddyfal-barhad a'i ymdrech.

Rywbryd yn yr adeg hon, daeth i gydnabyddiaeth â'r ieithyddwr enwog, Dr. William Owen Pughe; ac fe ffurfiwyd cyfeillgarwch mor agos rhyngddynt fel y treulient lawer o amser mewn cystadleuaeth i gyfieithu y darnau anhawddaf a ellid gael o weithiau enwogion barddonol y Saeson; a beirniadent yn fanwl a chaled ar waith eu gilydd, a cherid y gystadleuaeth yn mlaen mewn grammadeg ac ieithyddiaeth yn yr hen "*Seren Gomer.*" Felly y daeth efe yn enwog fel ysgolhaig Cymraeg a Saesneg, ond yn arbenig fel cyfieithydd o'r naill iaith i'r llall; ac yr oedd yn ddiarwybod iddo ei hun yn ymbarotoi at waith mawr ei oes. Dechreuodd bregethu yn y flwyddyn 1809, pan yn ddeg ar hugain oed. Ordeiniwyd ef i holl waith y weinidogaeth yn Llangeitho yn y flwyddyn 1816. Ei brif nodweddion oeddynt y pregethwr, y bardd, yr ysgrifenydd, a'r esboniwr. Yn ei gyssylltiad â'r tri rhagoriaeth cyntaf, troai mewn cylch cyfyng a chartrefol; ond o fewn y cylch hwnw cariai ddylanwad mawr a daionus: a phan y bu farw, teimlid fod "tywysog a gŵr mawr wedi syrthio yn Israel." Ond fel llawer o'i frodyr enwog, anghofiasid ef, a'i lafur, yn fuan gyda'r oes yr oedd yn byw ynddi. Modd bynag, cyfododd golofn yn ei fywyd, sef ei Esboniad ar y Beibl, yr hwn a saif yn goffadwriaeth iddo am oesoedd lawer etto i ddyfod. Ond yn meddwl pwy y gwreiddiodd y syniad gyntaf o gael esboniad i'r Ysgol Sabbothol, a'r Cymry yn gyffredinol? Pwy a feddai y gwroldeb, y penderfyniad, a'r gallu i ymgymmeryd â'r fath anturiaeth bwysig a hon yn yr adeg y dygwyd ef allan? Nid yn meddwl James Hughes, nac ychwaith yn meddwl y cyhoeddwr diweddar, sef Mr. Peter M. Evans. Ond cychwynodd yn meddwl bachgenyn tra yn darllen y bedwaredd bennod ar hugain o Efengyl Matthew yn yr Ysgol Sabbothol yn hen gapel Pentre-felin, ger Gwrecsam, pan y gofynwyd llawer o gwestiynau dyrus ac anhawdd, ac y rhoddwyd attebion amrywiol iddynt. Ond nid oedd y cwestiynau, na'r attebion, yn iawn yn ol ei feddwl ef, nac yn ei foddloni. Ac ebe fe ynddo ei hun, "Y mae ar ddeiliaid yr Ysgol Sabbothol angen am Esboniad ar y Beibl." Ac ar ei ffordd adref o'r ysgol, penderfynodd, os caffai fyw i ddyfod yn rhydd o'i brentisiaeth, ac os gwelai y Brenin Mawr yn dda estyn ei einioes a llwyddo ei lafur, y mynai efe esboniad. Yr oedd gan y gŵr bach ddeuddeng mlynedd o lafur o'i flaen cyn y byddai yn ŵr rhydd; ond cadwodd afael yn y syniad hwn, fel y gwna â phob un arall a gymmeradwyir ganddo—a llwyddodd. Y gŵr hwnw ydyw Mr. Evan Lloyd, gynt o'r Wyddgrug, ond yn awr o Lundain; mab i'r diweddar Barch. Evan Lloyd, o Adwy'r Clawdd. Efe a'i cynlluniodd, ac a'i cychwynodd yn yr Wyddgrug am lawer o'r blynyddoedd cyntaf o'i gyhoeddiad.

Y cam pwysig nesaf oedd cael gŵr cymmhwys i ysgrifenu yr esboniad. Nid gorchwyl hawdd oedd hyny. Na: yr anhawddaf ar lawer ystyriaeth. Pa fodd bynag, hysbyswyd Mr. Lloyd pe y caffai gan y Parch. James Hughes, o Lundain, i ymgymmeryd â'r gwaith, ei fod ef y mwyaf cymmhwys y gwyddid am dano yn un man y pryd hwnw. Gohebwyd âg ef heb oedi. Ond

Digitized by Google

nis gellid mewn un modd gael ganddo ymgymmeryd â gwaith mor fawr, er defnyddio pob cymmhelliad y gellid meddwl am dano at hyny. Ond yn yr adeg hon, daeth amgylchiadau i gyfarfod Mr. James Hughes, fel yr oedd o dan orfodaeth i ymgymmeryd â rhywbeth heb law pregethu i'r Methodistiaid yn Llundain, er ei allu-ogi i gynnal ei deulu: a'r canlyniad o hyny fu iddo gydsynio i ymgymmeryd â'r gwaith hwn.

Erbyn hyn, yr oedd pob peth yn barod, a chyhoeddwyd yr Esboniad gan Mr. Evan Lloyd yn yr Wyddgrug, yn y flwyddyn 1829. Daeth allan yn rhifynau chwecheiniog, a bu yn cael ei gyhoeddi gan Mr. Lloyd hyd nes y pen-nodwyd ef i swydd o dan y llywodraeth. Daeth yn raddol yn feddiant i'r cyhoeddwr presennol. Gorphenwyd yr Esboniad ar y Testament Newydd yn y flwyddyn 1835, ar ol llafur dyfal am saith mlynedd—heb sôn am ei lafur gweinidogaethol yn Jewin Crescent, a manau eraill. Dechreuodd yn ddioedi ar yr Hen Destament gydag ymroddiad di-ildio, er ei fod erbyn hyn yn heneiddio, a'i natur yn llesghau; ond trwy ddyfalbarhâd, aeth yn mlaen hyd ganol y flwyddyn 1844, ac hyd nes y cyrhaeddodd *Ier.* xxxv. 7. Dechreuodd ysgrifenu ar hono, ond rhoddodd ei bin o'r neilldu, gan feddwl ail ymaflyd yn y gwaith yn fuan. Ond yr oedd ei orchwyl ar ben—llesgedd ei natur a orfuodd. Bu farw yn ei dŷ yn mhlwyf Rotherhithe, Llundain, Tachwedd 2il, 1844, yn 65ain mlwydd oed. Ei eiriau olaf oeddynt "Arglwydd Iesu, derbyn fy ysbryd!" Claddwyd ef yn hen fynwent Bunhill Fields, yn ninas Llundain, lle y gorwedd llu mawr o'r hen Buritaniaid mwyaf adnabyddus yn hanes yr Eglwys Brotestanaidd.

Yr oedd efe fel pregethwr wedi ei addurno â chymmhwysderau lawer, ac yr oedd, yn ystyr helaethaf y gair, yn weinidog cymmhwys y Testament Newydd—mewn sylwedd, coethder, a thraddodiad. Ond er y rhagoriaethau hyn, blinid ef yn aml gan iselder meddwl, a llwfrdra ysbryd, yr hyn a barai flinder iddo gan ofn dyn. Ond eithriadau oedd y pethau hyn, canys teimlid yn llawer amlach ei fod yn derbyn yr "eneiniad oddi wrth y Sanctaidd hwnw," nes ei godi i ehedeg fel "angel yn nghanol y nef;" ac yn mhob peth ymddygai yn addas i ŵr Duw, fel y teimlid yn wastad ei fod yn byw mewn awyrgylch sanctaidd.

Fel bardd, adnabyddid ef o dan yr enw *Iago Trichrug*. Ymddangosodd nifer fawr o'i gyfansoddiadau barddonol yn nghyhoeddiadau cylchynol Cymru. Yr oedd cyfansoddi englyn mor naturiol iddo yn mron ag oedd siarad. Ac am ei emynau cyssegredig, y maent yn nodedig am eu hystwythder a'u tlysni.

**HUNTER, JOHN**: llawfeddyg, naturiaethwr, a difynydd enwog:—mab ieuangaf i Mr. John Hunter, a brawd i Dr. William Hunter. Ganwyd ef Chwefror 14eg, 1728, yn Long Calderwood, yn swydd Lanark. Bu farw ei dad pan nad oedd efe ond deg oed; ac wedi ei adael i raddau i ddilyn ei dueddiadau, ymhyfrydai mewn hela, a phethau o'r fath, yn hytrach nag yn ei lyfrau. Pan yn ddwy ar bymtheg oed, aeth i Glasgow at frawd-yn-nghyfraith iddo, o'r enw Buchanan—gwneuthurwr dodrefn wrth ei alwedigaeth. Bu yno am tua thair blynedd yn gweithio gyda'r gelfyddyd hono. Pan yn ugain oed, aeth at ei frawd William i Lundain, yr hwn oedd feddyg yn y ddinas hono. Yr oedd ei fedrusrwydd mewn difyniaeth (*anatomy*) yn boddhau ei frawd, ac efe a gafodd le iddo yr haf dilynol (1749) yn Meddygdy Chelsea, o dan Cheselden. Y llawfeddyg mawr hwn a roddodd i John Hunter ei addysg cyntaf mewn llawfeddygiaeth; a phan ymddiswyddodd Cheselden yn 1750, aeth Hunter i Feddygdy Bartholomew, o dan Dr. Pott. Symmudodd oddi yno i goleg St. Mair, yn Rhydychain; ond gan iddo benderfynu cyfyngu ei hun i ymarfer fel llawfeddyg, aeth yn ddysgybl i feddygdy St. George yn y fl. 1754. Mynychai yr ystafell ddifynol yn y gauaf, ac ymarferai fel llawfeddyg yn yr haf. Yn 1755, aeth John Hunter i bartneriaeth â'i frawd William yn yr ysgol ddifynol; gan hyny, yr oedd raid iddo draddodi ei gyfran o'r darlithiau. Nid oedd efe yn gymmhwys iawn i'r gwaith hwn, canys siaradwr cyhoeddus gwael oedd efe; ac y mae bod yn siaradwr yn dra angenrheidiol er llwyddo fel addysgydd difyniaeth. Er ei fod yn meddu gwybodaeth drwyadl ar y pwnge, ni bu erioed yn meddu arddull poblogaidd. Ar ol gweithio am ddeng mlynedd yn galed gyda'i efrydiau a'i ymarferiadau yn ei alwedigaeth, dechreuodd ei iechyd waelu; ac yn 1759, cynghorwyd ef i fyned i hinsawdd dynerach. Appeliodd yntau am bennodiad yn y fyddin; a chafodd ei wneyd yn feddyg yr ysgorddawd. Yna anfonwyd ef allan i Belleisle, ac wedi hyny i Portugal. Pan wnaed heddwch rhwng Yspaen a Phrydain yn 1763, rhoddwyd John Hunter ar hanner tâl. Ymsefydlodd yntau'yn arosol bellach yn Llundain, a gosododd ei hun i fyny fel llawfeddyg. Nid oedd ei ymarferiad yn fawr am dymmhor; o ganlyniad, cyflwynodd lawer o'i amser ac o'i arian er astudio difyniaeth gymmharol. Arferai brynu yr anifeiliaid a fyddent feirw yn y Twr, ac mewn milodfeydd teithiol; ac mewn trefn i gario yn mlaen ei ymchwiliadau difynol ac anianyddol, efe a brynodd ddarn o dir yn Earl's Court, Brompton; ac a adeiladodd yno dŷ bychan, yn yr hwn y gwnaeth efe y rhan fwyaf o'i ymchwiliadau. Etholwyd ef yn gymmrawd o'r Gymdeithas Frenhinol yn 1767: yn y flwyddyn ddilynol, etholwyd ef yn llawfeddyg i Feddygdy St. George; ac yn fuan wedi hyny dewiswyd ef yn aelod o gorphoraeth y llawfeddygon. Dechreuodd gymmeryd dysgyblion erbyn hyn—y rhai fyddent yn talu 550*p.* yr un iddo. Yr oedd yr enwog Jenner yn un o honynt, yn 1770; ac yr oedd ei holl ddysgyblion yn rhagori yn eu galwedigaeth. Cadwai Hunter i fyny ohebiaeth barhaus â Jenner a Berkeley. Yn 1771, efe a briododd gyda Miss Home—merch i feddyg yn y fyddin. Cyhoeddodd y rhan gyntaf o'i "*Treatise on the Teeth*," yn yr un flwyddyn. Yr oedd erbyn hyn alw mawr am ei wasanaeth; ond nid oedd ei incwm yn cyrhaedd i 1,000*p.* yn flynyddol hyd 1774. Yn 1773, y teimlodd efe yr ymosodiad cyntaf o'r afiechyd a brofodd yn y diwedd yn angeuol iddo; sef, afiechyd y galon. Yn Hydref yr un flwyddyn y dechreuodd ar ei gwrs pennodol cyntaf o ddarlithiau ar lawfeddygiaeth. Ac yn y flwyddyn 1776, cafodd ei bennodi yn llawfeddyg anghyffredinol i'r brenin.

Penderfynodd adeiladu amgueddfa i'w gasgliad o gywrein-bethau difynol a llawfeddygol yn 1783:—a chwblhawyd yr adeilad yn 1785. Yn 1786, pennodwyd ef yn is-feddyg cyffredinol i'r fyddin: yn 1787, efe a dderbyniodd fathodyn Copley gan y Gymdeithas Frenhinol. Cydnabyddid Hunter yn awr gan lawfeddygon ieuainge

Digitized by Google

yn gyffredin fel y blaenaf yn ei alwedigaeth; ond nid oedd llawer o'i gydoeswyr yn ei ystyried yn ddim amgen na phenboethyn. Bu farw ar y 16fed o Hydref, 1793, yn 65ain mlwydd oed, a chladdwyd ef yn St. Martin's-in-the-Fields; ond symmudwyd ei weddillion oddi yno yn 1860, i Fynachlog Westminster, lle y mae cofadail briodol wedi ei chyfodi yn goffadwriaethol o hono gan Gynghor Coleg Brenhinol y Llawfeddygon.

Gellir ffurfio rhyw ddychymmyg am ddiwydrwydd dirfawr Hunter oddi wrth y ffaith fod ei amgueddfa yn cynnwys, yn adeg ei farwolaeth, 10,563 o esamplau i egluro difyniaeth ddynol a chymmharol, anianyddiaeth, heintofyddiaeth, a hanesiaeth naturiol. Bu farw yn gymmharol dlawd, a phwrcaswyd ei gasgliad gan y llywodraeth, am y swm o 15,000*p*. Yr oedd wedi costio iddo ef tua 70,000*p*. Cyflwynwyd y casgliad i Goleg Breiniol y Llawfeddygon. Yr oedd yn awdwr amryw weithiau llenyddol ar lawfeddygiaeth. Cyhoeddwyd hwynt gyda'u gilydd, ynghyd â nodiadau a bywgraphiad gan Palmer, yn 1838, gan Longman, mewn pedair o gyfrolau.

HADATTAH: un o drefydd Iudah yn y parth mwyaf deheuol: *Jos*. xv. 25. Tybir ei bod yn sefyll yn lled agos i Cades.

HADRACH: gwlad yn Syria, a grybwyllir unwaith yn unig gan y prophwyd Zechariah, yn y geiriau canlynol:—"Baich gair yr Arglwydd yn nhir Hadrach, a Damascus fydd ei orphwysfa ef; pan fyddo llygaid dyn ar yr Arglwydd, fel yr eiddo holl lwythau Israel. A Hamath hefyd a derfyna wrthi; Tyrus a Sidon hefyd, er ei bod yn ddoeth iawn;" *Zech*. ix. 1, 2. Ni wyddis yn mha le y safai. Tybir nad oedd yn mhell oddi wrth Damascus; ond nid oes un sierwydd ynghylch hyny. Y golygiad a dderbynir gan amryw o'r ysgolheigion diweddaraf ydyw, fod y gair yn arwyddo yr un peth a *Syria*, a bod yr enw yn ffurf arall ar y gair *Sadrach*—enw duw y tymmhorau yn Syria; yr hwn enw a roddwyd yn mhen amser ar frenin y wlad hono, ac yn ddiweddaf oll ar y wlad ei hun.

1. HAFILAH: mab Cus: *Gen*. x. 7.

2. HAFILAH: mab Ioctan: *Gen*. x. 29. Coleddir gwahanol dybiau yn mherthynas i'r bobl hyn. Ymddengys yn dra thebygol fod y ddau gyff wedi ymsefydlu yn yr un wlad, a'u bod yno wedi priodi eu gilydd. Fel hyn, derbyniasant yr un enw, a ffurfiasant un genedl. Nid ydyw o bwys penderfynu pa un a ymsefydlasant ar yr un amser; na chwaith, ai cymmeryd enw yr hen ymsefydlwyr a wnaeth ymfudwyr newyddion. Gyda golwg ar Hafilah, ymddengys mai Cusiaid o'r enw hwn a ffurfiasant drefedigaeth fwyaf gorllewinol Cus ar hyd deheubarth Arabia, a bod yr Ioctaniaid wedi ymsefydlu yno o'u blaen. Tybir yn gyffredin mai yn nosbarth Khäwlán, yn yr Yemen, talaeth yn Arabia, yn gorwedd ar lenydd y Môr Coch a Morgainge Aden, y preswyliai yr hen genedl hon; a chadarnheir y dyb hon gan yr enwau Ioctanaidd a geir yno. Dywed Niebuhr, fod dwy Khäwlán; ac oddi wrth hyn dadleuwyd gan rai fod Hafilah Cusaidd a Ioctanaidd. Modd bynag, yr ail Khäwlán sydd dref, ac nid dosbarth mawr ac adnabyddus fel y cyntaf, neu yr un mwyaf gogleddol; ac y mae y dybiaeth a sylfaenwyd ar haeriad Niebuhr yn afreidiol, os mabwysiedir y dybiaeth o ymsefydliad dwbl. Y mae hefyd dref yn yr Yemen a elwir *Häwlán*.

Y mae dosbarth Khäwlán yn gorwedd rhwng dinas San'a o'r Hijás; *h.y.*, yn y parth gogleddorllewinol o'r Yemen. Cymmerodd ei enw, yn ol yr Arabiaid, oddi wrth Khäwlán, un o hiliogaeth Kahtan (Ioctan); neu, fel y dywed rhai, Kahlán, brawd Himyer. Nid ydyw yr achau hyn yn dywedyd ond ychydig mwy na bod yr enw yn Ioctanaidd; ac ni ddylid rhoddi un pwys ar y gwahaniaeth rhwng Kahtan a Kahlán, gan fod y naill a'r llall yn hanu o'r ymsefydlwr cyntaf; ac y mae yr holl draddodiadau boreuol hyn yn cyfeirio at sefydliad Ioctanaidd, heb, hwyrach, gadw enw Ioctan yn eglur, ac yn sier heb roddi achrestr gywir oddi wrtho ef i lawr.

Y mae Khäwlán yn diriogaeth ffrwythlawn, yn cynnwys rhan fawr o'r dosbarth hwnw o Arabia sydd yn cynnyrchu y perlysiau gwerthfawrocaf a mwyaf dymunol. Y mae, ar y cyfan, yn fynyddig, yn meddu cyflawnder o ddwfr, ac yn cynnal poblogaeth fawr. Yr oedd y darn hwn o Arabia yn fwy adnabyddus i'r hynafiaid, ac i oesoedd diweddar, na'r gweddill o'r Yemen, a'r talaethau dwyreiniol a chanolbarthol. Y mae yn gyfagos i Nejrán (y dosbarth a'r dref o'r enw hwnw), yr hwn a grybwyllir yn yr hanes am ryfelgyrch Aelius Galius, a maes erledigaethau mawrion y Cristionogion gan Dhu-Nuwás—yr olaf o'r Tubbaas, cyn i Arabia gael ei gorchfygu gan Abyssinia, yn y flwyddyn 523 B.A.

HAFOTH-IAIR: pentrefydd neillduol o du y dwyrain i'r Iorddonen, yn Gilead neu Basan. Yn *Num*. xxxii. 41, y ceir y crybwylliad cyntaf am Hafoth-Iair, yn yr hanes am sefydliad y wlad tu hwnt i'r Iorddonen—lle y dywedir fod Iair, mab Manasseh, wedi cymmeryd rhyw bentrefydd yn Gilead, gan eu galw hwynt yn ol ei enw ei hun, 'Hafoth-Iair,' neu 'drefydd Iair.' Yn *Deut*. iii. 14, dywedir fod Iair "wedi cymmeryd holl wlad Argob, hyd fro Gesuri, a Maachathi;" a'i fod hefyd wedi eu "galw hwynt ar ei enw ei hun, Basan Hafoth-Iair." Yma, cyfeirir at y pentrefydd; ond rhaid fod gwagle ar ol y gair "Maachathi," yn yr hwn yr oeddynt yn cael eu crybwyll; neu ynte, nid oes dim i gyflawnhau y lliosog—"hwynt." Yn y cofnodau am Manasseh yn *Jos*. xiii. 30, a 1 *Cron*. ii. 23 (defnyddir "trefydd Iair"), cyfrifir Hafoth-Iair gyda dosbarthiadau eraill fel yn gwneuthur i fyny drigain o "ddinasoedd." Yn 1 *Bren*. iv. 13, enwir hwynt fel rhan o'r dosbarth oedd dan ofal Mab Geber, yn nesaf mewn trefn at y "trigain o ddinasoedd mawrion" Argob. Y mae cryn ansierwydd yn mherthynas i nifer "trefydd Iair." Yn 1 *Cron*. ii. 22, dywedir mai eu nifer oedd tair-ar-hugain; ond yn *Barn*. x. 4, dywedir fod eu nifer yn ddeg-ar-hugain. Modd bynag, cyfeirir yn yr ail adnod at ail Iair—gan ddeg mab ar hugain yr hwn y llywodraethid hwynt, ac i'r rhai y dichon fod y nifer gwreiddiol wedi eu cynnyddu.

HAGARIAID. Gwel AGARENIAID.

HANMER, JOHN, D. D. Mab ydoedd, y mae'n debyg, i Thomas Hanmer, o Bentrepant, yn mhlwyf Selattyn, ger llaw Croesoswallt; a ganwyd ef yno yn 1574. Wedi derbyn amryw swyddau eglwysig, a chael ei bennodi yn gaplan

Digitized by Google

i'r brenin Iago I., dyrchafwyd ef i esgobaeth Llanelwy, Chwefror 15fed, 1623, ar farwolaeth y Dr. Richard Parry. Bu farw Mehefin 23ain, 1629, yn 55ain mlwydd oed.

HANMER, MEREDITH, D. D. Yr oedd yntau yn fab i Thomas Hanmer; a ganwyd ef yn Pentrepant, ger llaw Croesoswallt, yn 1543. Nid disglaer iawn fu ei yrfa eglwysig; ond er ei holl ddiffygion, ystyrid ef yn bregethwr ac yn ysgolhaig rhagorol, ac yn gyfarwydd mewn hanesion gwladol ac eglwysig. Heb law amryw draethodau a ysgrifenodd yn erbyn y Jesuitiaid, cyhoeddodd, yn 1576, "*The Ancient Ecclesiastical Histories of the first 600 years after Christ, originally written by Eusebius, Socrates, and Evagrius.*" Ail argraphwyd y llyfr yn 1585; a chwanegwyd ato "*A Chronography, with a Supputation of the Years from the beginning of the World.*" Ymddangosodd pummed argraphiad o hono yn 1650.

HANMER, SYR THOMAS, BARWNIG. Yr oedd efe yn wladweinydd enwog, ac yn fab i William Hanmer, o Barc Bettisfield, yn sir Fflint, lle y ganwyd ef yn 1677. Ar farwolaeth ei ewythr, Syr John Hanmer, yn 1701, meddiannodd y teitl a'r etifeddiaeth. Dychwelwyd ef yn aelod seneddol dros sir Fflint ar ddyrchafiad Ann i'r orsedd. Etholwyd ef yn y fl. 1707 yn aelod seneddol dros Suffolk; a dewiswyd ef yn unfrydol yn Llefarydd Tŷ y Cyffredin yn 1714. Wedi treulio 30ain mlynedd fel seneddwr gweithgar a blaenllaw, ymgiliodd o fywyd cyhoeddus at lenyddiaeth. Bu farw Mai 7fed, 1746; a chladdwyd ef yn eglwys Hanmer.

HARRIS, PARCH. ISAAC. Bu yn gweinidogaethu yn nhref Wyddgrug agos i ddeugain mlynedd. Lle ei enedigaeth oedd Blaenegwad, ger Llanegwad, yn sir Gaerfyrddin. Derbyniwyd ef i Goleg Caerfyrddin yn 1820; yr hwn oedd y pryd hwnw dan ofal Dr. Peter. Yn 1824, symmudodd i'r Wyddgrug, ar alwad yr eglwys yno. Bu yn cadw ysgol ddyddiol yno hefyd am amryw o flynyddoedd, ac ystyrid ef yn athraw rhagorol. Parhaodd i weinidogaethu gyda ffyddlondeb mawr, ac ennillodd barch y trigolion. Bu farw Mawrth 23ain, 1864.

HARRIS, JOSEPH. Ganwyd ef yn Talgarth, yn agos i Trefecca, yn sir Frycheiniog, yn 1702. Yr oedd efe yn frawd i'r enwog Howel Harris; ond o feddwl athronyddol. Gôf oedd, o ran ei gelfyddyd; ond dringodd, yn rhinwedd ei allu ei hun, i sefyllfa yn y bath-dy (*mint*) yn Llundain o gryn bwysigrwydd; sef, gofalu fod yr arian bathol, fel y deuent allan o'r wasg, yn llawn bwysau, a'r argraph arnynt yn eglur. Yr oedd yn awdwr amryw lyfrau ar serydddiaeth a mesuroniaeth, y rhai a gyhoeddwyd yn ddienw. "*A Treatise on Optics*" oedd un o honynt, yr hwn a argraphwyd yn 1775—ar ol ei farwolaeth. Oddi wrth yr hyn sydd ar gôf-faen yn eglwys Talgarth, ymddengys ei fod wedi dyfeisio llawer o offerynau mesuronol; a bod ei dalentau politicaidd yn gydnabyddus i wladweinwyr y blynyddoedd hyny. Priododd un o ferched ac aeresau Thomas Jones, o Drepustan. Bu farw yn y Twr yn Llundain, Medi 26ain, 1764—lle y claddwyd ef.

HEBREIG, LLENYDDIAETH. Yn yr Hen Destament yr ydym yn cael y llenyddiaeth hynaf sydd mewn bod mewn unrhyw wlad nac iaith ar wyneb y ddaear. Gwel d.g. GENESIS. Nid yw llenyddiaeth Groeg a Rhufain i'w chymmharu â hi, gan nad ydyw yn dechreu gyda ffug-hanesion a chwedl-ofyddiaeth, ond gydag ysgrifeniadau y gellir ymddiried yn eu gwirionedd. Felly, pa faint bynag o wybodaeth gywir yr ydym yn ei feddu am ddaearyddiaeth a hanesiaeth yr oesoedd pellaf yn ol, yr ydym yn eu casglu o ysgrifeniadau yr Iuddewon. Ac na feddylier mai y prif ddigwyddiadau a gymmerasant le yn hanes y byd sydd genym yn unig. Yr ydym yn meddu darlun cywir o fywyd teuluaidd y byd, ac o berthynas gyffredin dynion â'u gilydd, yn gystal a'u harferion, a'u sefydliadau, a'u masnach; a hyny ddeg can mlynedd cyn yr amser y tybir fod Homer wedi ysgrifenu. Gan gymmeryd y genedl hynotaf fu erioed ar y ddaear fel canolbwynt, olrheinir eu hanes yn yr Hen Destament o'u dechreuad cyntaf hyd eu sefydliad fel cenedl yn Ngwlad Canaan—ac oddi yno yn mlaen hyd eu gwasgariad. Ni bu gan un genedl arall fu ar y ddaear erioed y fath hanes cyflawn ag sydd gan y genedl Iuddewig.

Ymestyna y llenyddiaeth hon dros dymmor o fil o flynyddoedd. Yr oedd un ganrif ar ddeg rhwng Moses a Malachi; ac er hyny, y mae yn meddu y cyssondeb mwyaf perffaith. Ceir fod ëangiad ynddi, a symmudiadau yn mlaen; ond nid ydyw yr iaith yn myned dan gyfnewidiad pwysig, ac nid oes anghyssondeb rhwng syniadau y naill oes a'r llall. Nis gellir dywedyd fod llenyddiaeth un wlad arall ar y ddaear yn meddu yr hynodion hyn. Hyd yn oed yn ein hiaith ein hunain, nis gallwn ddeall ystyr geiriau a arferid bump neu chwe chanrif yn ol, heb eiriadur; ac hyd yn oed felly, yr ydym yn cael fod anghyttundeb amlwg rhwng eu syniadau hwy a'r eiddom ni. Ond yn llenyddiaeth yr Hebreaid, y mae'r iaith a'r syniadau yn parhau yn mron yn ddigyfnewid. Er fod ychydig o wahaniaeth mewn rhai geiriau a arferir yn y Pum Llyfr, y maent mor hawdd eu darllen a phrophwydoliaeth Malachi: ac am y syniadau a geir ynddynt, y maent yn gwbl a hollol gyttûn â'u gilydd. Y mae y llyfrau prophwydol yn eglurach, ac yn llawnach, na llyfrau Moses; ac yr oedd hyn yn naturiol, gan mai gorchwyl arbenig prophwyd oedd, nid yn unig amddiffyn gwirionedd, ond ëangu ei etifeddiaeth hefyd. Gyda Christionogaeth y daeth y gwirionedd allan yn ei gyflawnder; a phan berffeithiwyd canon yr Ysgrythyrau, nid oedd gan y byd un sail i ddisgwyl am ddadguddiad pellach. Yn yr oesoedd cyn Moses, yr oedd gwybodaeth ar gynnydd; ond nid oes un symmudiad wedi cymmeryd lle oddi wrth y llinellau a osodwyd allan ganddo ef; ac y mae hyd yn oed Cristionogaeth ei hun wedi ei gorchuddio, megys, â'r cysgodau a'r cyflawniadau oedd yn neddf Moses. Nis gellir dychymmygu am brawf mwy argyhoeddiadol fod yr Ysgrythyrau wedi eu hysgrifenu gan ysbrydoliaeth Duw na bod llyfrau sydd wedi eu gwahanu mor bell oddi wrth eu gilydd, o ran amser eu hysgrifeniad, yn meddu y fath gyssondeb perffaith o amcan ac athrawiaeth; a'u bod, yn mhen pedair canrif ar ol hyny, yn cyfarfod â'u hesboniad a'u cyflawniad yn y grefydd hono sydd yn unig yn cyfarfod yn llawn âg anghenion enaid dyn; yr hon a ddeil hefyd y prawf cryfaf y gellir ei roddi arni trwy yr ymchwiliadau manylaf a galluocaf.

Digitized by Google

Ar ol y sylwadau cyffredinol hyn, goddefer i ni yma gymmeryd sylw mwy neillduol ar lenyddiaeth yr Iuddewon. Ac yn gyntaf, ni a gyfeiriwn at ei tharddiad.

Yn ol fel yr ymddengys, dechreuodd gydag achau dynion. Yn y dwyrain, gosodir pwys mawr ar restrau teuluaidd cywir; ac yr ydym yn cael fod Moses wedi rhoddi deg o'r cyfryw yn Llyfr Genesis. Y mae hefyd yn cyfeirio, yn *Numeri* xxi. 14, at "lyfr rhyfeloedd yr Arglwydd;" yr hwn, yn ol fel y bernir, oedd yn gasgliad o emynau byrion o fawl i Dduw am fuddugoliaethau y genedl—yn debyg fel yr oedd Cân Moses ar ol y mynediad trwy y Môr Coch (*Exod.* xv.), ac ar ol hyny Cân Deborah: *Barn.* v. Ysgrifenwyd y deddfau yn gynnar, fel y gellid eu cadw yn well. Felly, ysgrifenwyd y Deg Gorchymyn ar lechi ceryg. A phan, mewn amser, y byddai ganddynt frenin, yr oedd efe i ysgrifenu copi o'r gyfraith ei hun mewn llyfr. Dyma orchymyn yr Arglwydd:—"A phan eisteddo ar deyrngadair ei frenhiniaeth, ysgrifened iddo gopi o'r gyfraith hon mewn llyfr, allan o'r hwn sydd ger bron yr offeiriaid y Lefiaid. A bydded gydag ef, a darllened arno holl ddyddiau ei fywyd; fel y dysgo ofni yr Arglwydd ei Dduw, i gadw holl eiriau y gyfraith hon, a'r deddfau hyn, i'w gwneuthur hwynt. Fel na ddyrchafo ei galon uwch law ei frodyr, ac na chilio oddi wrth y gorchymyn, i'r tu deheu nac i'r tu aswy: fel yr estyno ddyddiau yn ei frenhiniaeth, efe a'i feibion yn nghanol Israel;" *Deut.* xvii. 18—20).

Ond yn Moses y daeth llenyddiaeth Hebreig gyntaf i gyrhaedd amcan uwch. I ba raddau yr oedd ganddo hen ysgrifeniadau at ei wasanaeth, nis gellir dywedyd. Ond y mae yn ymddangos yn sier nad oedd hanes y patriarchiaid wedi ei adael yn unig i draddodiad; ond fod cofion ysgrifenedig ar gael, o ba rai y gwnaeth Moses ddefnydd. Gan hyny, o dan arweiniad yr Ysbryd, efe a ysgrifenodd y llyfr Hebraeg mawr cyntaf; yn yr hwn y mae wedi cadw, at wasanaeth yr oesoedd dyfodol, bob pethau y gellid ymddiried i'w cywirdeb yn hanes yr oesoedd boreuol; ac y mae hefyd wedi rhoddi i ni hanes llawnach, a manylach, o'r digwyddiadau mawr a gymmerasant le yn ei ddyddiau ef ei hun, a thrwy ba rai y daeth Israel gyntaf yn genedl.

Yr oedd yr Iuddewon bob amser yn ystyried y Pum Llyfr yn fwy cyssegredig na'r gweddill o'r Ysgrythyrau; ac aeth y Samariaid mor bell a gwrthod cydnabod un llyfr arall yn ysbrydoledig. Yn y Testament Newydd y mae yr Arglwydd Iesu yn amlwg yn dadgan mai Moses oedd awdwr y Pum Llyfr (*Ioan* v. 46, 47; vii. 19); fod eu hamcan arbenig o brophwydo am dano ef wedi parhau hyd Ioan Fedyddiwr (*Mat.* xi. 13); ac na ddaeth Crist ei hun i "dori y gyfraith, ond i'w chyflawni;" *Mat.* v. 17, 18.

Gelwir yr adran fawr nesaf yn y llenyddiaeth Hebreaidd "Y PROPHWYDI" (*Mat.* v. 17; vii. 12, &c.); o blegid iddynt hwy yr ydym yn ddyledus am hanesion, yn gystal a phrophwydoliaethau, yr Hen Destament. Y mae'n debygol fod Moses wedi bwriadu sylfaenu yn yr offeiriadaeth ddosbarth dysgedig; ond hynod ydyw pa mor fychan yr ydym yn ddyledus iddynt hwy am yr Ysgrythyrau hyd ar ol y dychweliad o Babilon. Yn ol fel yr ymddengys, yn ysgol y prophwydi, pa rai y dywedir a sefydlwyd gan Samuel, yr ymddyrchafwyd i dir uwch mewn addysg. Hyd yn oed cyn hyny, gan Deborah, y brophwydes, yr ysgrifenwyd yr emyn hynod a geir yn *Barn.* v.; a thybir yn gyffredin fod hanes yr amseroedd hyny wedi eu casglu yn nyddiau Samuel—os nad ganddo ef—o ysgrifeniadau prophwydi blaenorol eraill. Bernir na wnaeth Samuel, with sefydlu yr ysgolion hyn, fwy na threfnu a diwygio y sefydliadau oedd o'r blaen mewn bodolaeth. Pan alwyd Saul i'r orsedd, yr ydym yn cael fod yr efrydwyr oedd ynddynt yn myned allan—yn hanner beirdd, ac yn hanner pregethwyr—â'u geiriau a'u gweithredoedd yn cael eu goruwch-lywodraethu o bryd i bryd gan ysbrydoliaeth Ddwyfol. Tra y bu Dafydd yn teyrnasu, yr oedd tri o honynt yn cadw rhestrau o'r holl ddigwyddiadau cyhoeddus; ac ymddiriedwyd y swydd i aelodau o'r dosbarth hwn gan y brenhinoedd a'i dilynasant. Heb law eu bod yn ddosbarth dysgedig, yr oedd y bobl hyn o ddifrif gyda chrefydd. Amcan mawr eu bywyd oedd cadw i fyny addoliad "yr unig wir Dduw," a gwrthwynebu eilun-addoliaeth; o blegid ynglŷn âg eilun-addoliaeth yr oedd y pechodau mwyaf aflan i'w cael Byddent yn arfer condemnio y rhai hyn yn ddi-ofn, a hyny yn mysg y mawrion yn gystal a'r tlodion. Am gryn amser, ni adawodd hyd yn oed y rhai mwyaf o honynt—dynion fel Elias, ac Eliseus—un hanes ysgrifenedig am eu gweithrediadau ar eu hol. Ond yn raddol, dygwyd yr ysgrifell i'w gwasanaeth:—yn gyntaf, yn fyr, fel yn mhrophwydoliaethau Ioel ac Amos: ac o'r diwedd, cyrhaeddodd prophwydoliaeth ei thir uchaf mewn mawredd a phrydferthwch yn nghyfansoddiadau dwyfol y prophwyd Esaiah.

Y mae yn ffaith hynod fod y llyfrau hanesiol sydd yn awr wedi eu gosod yn yr ail ddosbarth o lyfrau yr Hen Destament, a elwid gan yr Iuddewon oddi wrth eu hawduron "Y Prophwydi Boreuol," â'u hawdwyr yn anhysbys. Yr ydym yn gweled fod rhestrau o bob teyrnasiad wedi eu cadw, ac y mae enwau llawer o'u hysgrifenwyr wedi eu cadw hefyd; ond ni wyddom pwy a gasglodd oddi wrthynt y crynodeb o'r hanesion cysson hyny sydd yn ein meddiant ni yn awr. Y mae'n eglur oddi wrth eu cynnwysiad, fodd bynag, eu bod wedi eu hysgrifenu cyn y dychweliad o Babilon.

Y drydedd adran o'u hysgrifeniadau, a elwid gan yr Iuddewon "Y PROPHWYDI DIWEDDAR." Nid ydyw yn angenrheidiol i ni sylwi yn mhellach na dywedyd iddynt gael eu bwriadu yn gyntaf i'r Iuddewon, gyda'r amcan o gadw yn y genedl syniadau priodol am eu huchel alwedigaeth, ac o'r sicrwydd am ddyfodiad eu Messïah. Fel pobl briodol yr Arglwydd, yr oeddynt, gan hyny, yn cael eu ceryddu yn llym am eu hangrhediniaeth ynddynt, ac am y pechodau a gyflawnent; a gofynid iddynt fyw bywyd sanctaidd a chrefyddol. Ond yn ail, yr oedd y prophwydoliaethau i fod â'u hwyneb ar y dyfodol, hyd ddiwedd amser—fel y prawf mwyaf trylwyr o wirionedd Cristionogaeth. O blegid ynddynt—a hyny mewn llyfrau a ysgrifenwyd lawer o ganrifoedd cyn i'r digwyddiadau gymmeryd lle, y rhai a ymddiriedwyd i'w cadw yn ofalus, nid i Gristionogion, ond i Iuddewon—y mae genym holl brif ddigwyddiadau bywyd a marwolaeth ein Harglwydd wedi eu rhagfynegu mor fanwl a chywir a phe buasent wedi cymmeryd lle yn flaenorol; ac y mae yr holl athrawiaethau mawr sydd yn gyssylltiedig â'i natur, a'i swyddau, wedi eu gosod allan mor amlwg fel y mae yr apostol Pedr yn dadgan eu bod yn ffurfio tystiolaeth a phrawf argyhoeddiadol a boddhaol—

Digitized by Google

hysgrifenu mewn modd mor annhrefnus, fel na chymmer ond ychydig bersonau y drafferth o'u darllen. Dangosodd Lightfoot, er hyny, yn ei "*Horæ Talmudicæ*," gymmaint y gellir ei wneuthur gan unrhyw berson fydd yn meddu ar yr amynedd a'r amser angenrheidiol i'w gyflwyno at y gwaith.

Byddai yn ammhossibl olrhain llenyddiaeth yr Hebreaid trwy y Canol-oesoedd hyd yr amser presennol heb ysgrifenu llyfr arno. Digon yw dywedyd, nad ydyw yr Iuddewon erioed wedi peidio a bod yn bobl lenyddol. Iddynt hwy yr ydym yn ddyledus am y geiriaduron Hebrëig cyntaf, a'r grammadegau, a'r mynegeiriau. Y mae llawer hefyd o'u hesboniadau, er wedi eu dirdroi gan gyfeiliornadau Iuddewig, o werth ammhrisiadwy fel cynnorthwyon i ddeall yr Ysgrythyrau. Trwy ryw amryfusedd neu gilydd, y mae ysgolheigion wedi diystyru y cynnorthwyon hyn; neu, wedi eu digaloni rhag gwneyd defnydd o honynt, o herwydd y llafur mawr sydd yn angenrheidiol i feistroli yr iaith lygredig, yn yr hon, hyd yn ddiweddar, yr oeddynt wedi eu hysgrifenu. Ond am lawer a ymgymmerasant â'r gorchwyl yn amser y Diwygiad, cawsant gymmaint i wobrwyo eu llafur fel y mae eu gweithiau yn parhau i gael eu hystyried yn dra gwerthfawr hyd y dydd hwn. Ac y mae'n debyg y ceid graddau mwy o'r un ffrwyth pe y gwneid detholiad gyda doethineb o'r swm mawr o ddefnyddiau sydd wedi eu parotoi gan fywiogrwydd llenyddol yr ysgolheigion Iuddewig; sef, y rhanau hyny a'n cynnorthwyant i ddeall yn well y llyfrau a ysgrifenwyd gan eu tadau—pa rai y maent hwy, fel ninnau, yn eu gwerthfawrogi fel yr "oraclau bywiol" a ymddiriedwyd gyntaf i'w gofal gan Dduw.

HEDD MOLWYNOG. Yn ol rhai ysgrifau, gelwir ef yn 'Hydd Molwynog,' neu 'Hydd ab Olwynog.' Yr oedd yn fab i Greddf Tygynydd ab Llawr ab Llawfrodedd Farchawg; ac yn bendefig yn preswylio yn Isdulas—rhan o barth gogledd-orllewinol sir Ddinbych—a phenaeth ar un o Bymtheg Llwyth Gwynedd. Preswyliai yn yr Henllys, yn mhlwyf Llanfair Talhaiarn; yn ymyl yr hwn y mae cae a elwir yn "Faes y Bendithion," am mai yno yr arferai Hedd wneuthur ei elusenau. Bu yn oruchwyliwr ar etifeddiaeth Dafydd ab Owain Gwynedd, o 1170 i 1195; a chynnorthwyodd y tywysog hwnw i ddwyn cleddyf a galanastra hyd at byrth Coventry. Yr oedd Llanfair Talhaiarn, Dyffryn Elwy, a Nant Aled, yn sir Ddinbych, yn cael eu hystyried yn mysg ei arglwyddiaethau, a'i gyfoeth—y rhai a ranwyd yn gyfartal rhwng ei dri mab, Meuter, Gwyllonon, a Gwrgi.

HEIDDYN HIR. Bardd yn ei flodau tua chanol y chweched ganrif; ond nid oes dim o'i waith ar gael. Yn y *Trioedd*, cyssylltir ei enw ef gyda Llywarch Hen a Llemenig, dan y penawd "Tri bardd trwyddedawg hanfodawg Llys Arthur." Crybwyllir ei enw hefyd yn amryw o'r *Mabinogion*.

HEILYN, PETER, D. D. Hanodd o deulu Pentre Heilyn, yn sir Drefaldwyn. Yr oedd yn nai i Rowland Heilyn, yr hwn a gyhoeddodd amryw lyfrau Cymraeg rhad a buddiol. Gelwir ef gan y Saeson "*Peter Heilyn, the Historian*;" o herwydd yr amryw weithiau hanesyddol gwerthfawr a ysgrifenodd. Addysgwyd ef yn Ngholeg Magdalen, yn Rhydychain. Yn 1631, cafodd brebenderiaeth yn Winchester, a dyrchafwyd ef yn gapelwr i'r brenin. Yn 1633, derbyniodd y radd o D. D., a chafodd fywoliaethau South Wainborough ac Arlesford, yn sir Hamps. Bu mewn dadl ar bwnge y Sabbath â'r archesgob Williams—yr hwn oedd y pryd hyny yn esgob Lincoln. Torodd y gwrthryfel gwladol allan tua'r adeg hon; a chan ei fod yn Eglwyswr gorselog, ac yn ffafriol i'r brenin, yr oedd yn un o'r rhai cyntaf a gyhuddwyd yn amser Cromwell; ac yn 1643, collodd ei swyddau eglwysig, a dygwyd ef i dlodi. Ond ar adferiad Siarl II., adferwyd yntau i'w fuddiannau. Ysgrifenodd amryw lyfrau; y rhai a gynnwysir oll, o'r bron, yn ei "*Historical and Miscellaneous Tracts.*" Heb law y rhai hyn, cyhoeddodd "*Roundhead Remembrances*," 1643; "*History of the Life and Death of Archbishop Laud*," 1671; a "*History of the Presbyterians*," 1670. Bu farw Mai 8fed, 1662, cyn i'r ddau ddiweddaf gael eu cyhoeddi.

HEILYN, ROWLAND. Ganwyd ef yn sir Drefaldwyn, ac yr oedd wedi hanu o hen deulu urddasol yr Heilyniaid, o Bentre Heilyn, yn mhlwyf Llantysilio. Ymsefydlodd yn Llundain, a dringodd i fod yn henadur, ac yn sirydd, yn y ddinas hono. Y mae cenedl y Cymry o dan ddyled neillduol i Rowland Heilyn, yn gymmaint ag mai i'w haelioni ef y priodolir yr argraphiad cyntaf wythplyg o'r Beibl Cymraeg, a gyhoeddwyd, yn benaf, trwy ei haelioni ef yn 1640. Cyhoeddodd y llyfr a elwir "*Ymarfer Duwioldeb*" hefyd; a "*Geiriadur.*" Bu farw yn ddietifedd yn 1634, ac aeth ei feddiannau yn eiddo i deulu o'r enw Congreve.

HELIG FOEL. Yr oedd efe yn fab i Glanawg ab Gwgan Gleddyfrudd ab Caradawg Freichfras; ac yn arglwydd ar lain ëang o dir isel ar du gogleddol Arfon, a elwid Tyno Helig - yr hwn a orlifwyd gan y môr yn y seithfed ganrif. Yr oedd Traeth y Lafan, rhwng Môn ac Arfon, yn ffurfio rhan o gyfoeth Helig—yr hwn a ymestynai mor bell a'r Penmaenmawr. Dywed y morwyr eu bod yn credu eu bod yn gweled murddyn Llys Helig o dan y dwfr pan y bydd yr hin yn braf, a'r llanw yn isel.

HENBEN, neu HENBRIEN. Penaeth dewr, yr hwn a gofnodir yn y *Trioedd* gydag Eiddnew a Gruddneu, o dan y penawd—"Tri Escynydd Aerau," a'u "cynneddfau oeddynt nad elynt o gâd neu ryfel onid ar eu helorau, gwedi nas gallynt symmud na bys na thafawd."

HENRY, THOMAS. Fferyllydd enwog, a anwyd yn 1734, yn Ngwrecsam; lle yr oedd ei dad yn cadw ysgol fyrddiol. Daeth i gryn enwogrwydd fel athronydd, ac yn enwedig fel fferyllydd; o blegid yn 1771, cyflwynodd i Goleg Frenhinol Meddygon Llundain ysgrif ar ffordd well na'r hon oedd yn adnabyddus i ddarparu *magnesia alba*, ynghyd â thraethodau ar destynau fferyllol eraill—y rhai a gyhoeddwyd mewn un gyfrol yn 1773. Yn y fl. 1776, cyfieithodd waith y fferyllydd enwog, Lavoisier, o'r Ffrangcaeg, dan y teitl "*A Historical View of the Progress of Pneumatic Chemistry*," gyda nodiadau ganddo ef ei hun. Ar ol hyny, cyfieithodd gyfres o fywgraphiadau a gyflwynwyd gan yr un awdwr i Goleg Gwyddonol Paris. Gwnaeth y meddygon Priestly a Perceval gryn



Digitized by Google

sylw o arbrawfion fferyllol Mr. T. Henry. Y pwysicaf o honynt a ystyrid ar y pryd oedd yr arbrawf a wnaeth ar yr angenrheidrwydd am awyr iach i feithrin bywyd a thyfiant planhigion. Darganfyddodd hefyd y modd i gadw dwfr yn ddilwgr ar y môr, trwy ei ddognu â chalch; a gwnaeth ei ddarganfyddiad yn hysbys i'r Môrlys. Etholwyd ef, yn 1775, yn gymmrawd o'r Gymdeithas Frenhinol; ac yn 1781, sefydlwyd cymdeithas athronyddol yn Manchester, a phennodwyd ef yn un o'i hysgrifenyddion mygedol. Bu ar ol hyny yn llywydd arni; ac ennillodd lawer o glod fel athronydd fferyllol ynglŷn â'r gymdeithas. Yn 1783, dechreuodd ddarlithio ar egwyddorion cyffredinol fferylliaeth, ac ar y gelfyddyd o gânu, lliwio, ac argraphu *calico*. Parhaodd i weithredu fel meddyg hyd o fewn ychydig amser i'w farwolaeth; yr hyn a gymmerodd le Mehefin 18fed, 1816. Yr oedd yn hynod am ei ddyngarwch, ei ostyngeiddrwydd, a'i haelfrydedd.

HERBERT, EDWARD, Barwnig. Yr oedd yn fab i Charles Herbert, o Aston, yn sir Drefaldwyn, a chefnder i Argl. Herbert, o Cherbury. Ganwyd ef yn 1591, ac addysgwyd ef yn Rhydychain. Ymgymmerodd â'r gyfraith; ac yn fuan, ennillodd enwogrwydd fel bargyfreithiwr. Pennodwyd ef yn gyfreithiwr cyffredinol yn Ionawr, 1640; ac yn ddadleuwr cyffredinol yn Ionawr, 1641—pan y rhoddodd ei le i fyny fel aelod seneddol. Bu yn arglwydd-geidwad y sêl fawr. Y flwyddyn ganlynol, cafwyd ef yn euog gan Dŷ y Cyffredin o gynghori ac annog gweithrediadau y brenin Siarl I.; a charcharwyd ef. Ar ol ei ryddhâd, ymunodd â'r brenin yn Nghaerefrog; a pharhaodd yn ffyddlawn iddo trwy holl gyfyngderau y rhyfel cartrefol. Bu farw yn Paris, tua diwedd 1657. Cafodd ei fab hynaf ei ddyrchafu i swydd uchel yn y fyddin; ond bu farw yn mrwydr Aghrim. Yr oedd ei ail fab yn swyddog morwrol enwog; a bu yn mrwydr Beachy Head—ar ol yr hyn y gwnaed ef yn Iarll Torrington. Daeth ei drydydd mab yn brif farnwr dan Iago II. Efe a ddilynodd y teyrn hwnw i'w alltudiaeth; a gwnaed ef yn geidwad y sêl fawr ganddo.

HERBERT, WILLIAM, Iarll Penfro. Yr oedd yn gymmeriad hynod yn amser Iorwerth IV. Syr William ab Thomas oedd ei dad; a Gwladys, merch Syr Dafydd Gam, oedd ei fam. Yr oedd yn bleidiwr gwresog i deulu Caerefrog; ac ymladdodd amryw frwydrau yn erbyn y Lancastriaid. Mor fuan ag yr esgynodd Iorwerth IV. i'r orsedd, fe'i gwnaed ef yn un o'i gynghor, yn Mai, 1461, yn wobr am ei ffyddlondeb a'i wrhydri. Dyrchafwyd ef hefyd yn brif farnwr, ac yn ystafellydd Deheubarth Cymru; ac hefyd, yn oruchwyliwr ar gymmydau Caerfyrddin a Cheredigion, ac yn brif goedwigwr y siroedd hyny am ei oes. Yn Medi y flwyddyn hono, gwnaed ef yn oruchwyliwr ar gastell ac arglwyddiaeth Brycheiniog, ac ar yr holl gestyll perthynol i'r Duc o Buckingham oedd yn Nheudir Cymru. Tachwedd 4ydd, yr un flwyddyn, gwnaed ef yn farwnig; a Mai 27ain, yn yr wythfed flwyddyn o deyrnasiad Iorwerth IV., gwnaed ef yn iarll Penfro. Yn 1469, anfonwyd ef i gyfarfod y Lancastriaid gydag wyth mil o wŷr; ac ymladdodd y frwydr yn Danesmore, ger Banbury—lle y cafodd ei lwyr orchfygu. Cymmerwyd ef, a'i frawd, Syr Risiart Herbert, yn garcharorion, a dienyddiwyd y ddau trwy orchymyn y Duc o Clarence ac Iarll Warwick.

HONDURAS BRYDEINIG. Trefedigaeth yn cynnwys 7,562 mill. pet., yn nghanol yr America. Mesura 174 mill. o hyd, a 68 mill. ar ei thraws. Yn 1881, yr oedd ei phoblogaeth yn 27,452. Ei phrif gynnyrchion ydynt mahogani a *logwood*. Nid ydyw ei derbyniadau a'i threuliau dros 70,000*p*. bob un yn y flwyddyn.

HONDURAS, GWERINIAETH. Gwladwriaeth ganol America Ganolog ydyw, yn cynnwys 42,658 o fill. pet., gydag ychydig o diriogaeth Mosquito, ac ynysoedd yn Nghulfor Honduras. Y boblogaeth yn 1889 oedd 431,917. Derbyniadau y llywodraeth yn 1888—9 oedd 431,000*p*., a'r treuliau yn 427,480*p*. Y mae hi yn wlad gyfoethog mewn mwnau.

HOPKINS, STEPHEN. Merch y Parch. William Wilkinson, pregethwr gyda'r Bedyddwyr yn Providence, America, ydoedd ei fam. Ymfudodd ei dad yno o Gaerdydd, yn 1670. Cafodd ei addysg yn yr ysgol gyffredin, a gwnaeth y goreu o honi; a bu yn arolygwr arni am amryw flynyddoedd. Pennodwyd ef yn farnwr yn 1728—cyn bod yn 21ain oed. Dewiswyd ef i gynnrychioli tref Satuate yn y Cynnulliad Cyffredinol, a phennodwyd ef yn farnwr y sessiwnau; ac yn 1723, yn brif farnwr y llys hwnw—swydd a gyflawnodd gydag anrhydedd mawr. Yn 1757, dewiswyd ef yn brif farnwr y goruwch-lys; ac yn 1754, pennodwyd ef yn rhagswyddwr Ynys Rhode i'r gymmanfa a ymgyfarfu yn Albany i sicrhau y pum gallu Indiaidd yn y rhyfel Ffrengig agoshaol, a chael undeb rhyngddynt â threfedigaethau Prydain Fawr. Yn yr ymryson a fu rhwng y trefedigaethau a'r wlad hon, efe a bleidiodd y trefedigaethau. Ac ysgrifenodd lyfr dan y teitl, "*The Rights of Colonies considered;*" yr hwn a gyhoeddwyd trwy orchymyn yr Eisteddiad Cyffredinol yn y fl. 1765—yn yr hwn y dynoethodd amryw o anghyfiawnderau y llywodraeth Brydeinig. Bu farw Gorphenaf 13eg, 1785, yn 78ain oed. Yr oedd un arall o'r teulu hwn, o'r enw Ezekiel Hopkins, yn fôr-raglaw. A gwnaed ail fab iddo ef (Stephen Hopkins) yn brif-archwr llynges yr Unol Dalaethau, yn Rhagfyr, 1775.

HOPKINS, Parch. WILLIAM. Ganwyd ef yn Nhrefynwy, yn y fl. 1706. Derbyniodd ei addysg yn ysgol rydd ei dref enedigol, ac yn All Souls, Rhydychain. Yn 1731, pennodwyd ef yn gurad Buxted a Cuckfield, yn Sussex. Yn 1756, etholwyd ef yn athraw Ysgol Rammadegol Cuckfield; ac yn 1763, adolygodd a chyhoeddodd "*The Liturgy of the Church of England in its ordinary Service reduced nearer the standard of Scripture.*" Cyhoeddodd hefyd gyfieithiad diwygiadol o Lyfr Exodus, gyda nodiadau beirniadol ac eglurhaol arno. Bu farw yn 1786, yn 80ain oed.

HOLLAND, HUGH. Mab i Robert Holland oedd efe, o dref Dinbych, yn yr hon y ganwyd ef. Cafodd ei roddi yn ngharchar yn Nghaer Cystenyn gan Syr Thomas Glover, am siarad yn ddiraddiol am y frenhines Elizabeth yn Rhufain. Yr oedd yn fardd Saesnig da, ac yn fardd rhagorol hefyd yn yr iaith Lladin; ac ystyrir ef gan rai yn deilwng o'i gymmharu â Spencer a

Digitized by Google

Sidney, ac eraill. Cyhoeddodd amryw lyfrau yn Saesneg; a bu farw yn Westminster, Gorph. 23ain, 1633, a chladdwyd ef yn y fynachlog.

HOWELL, JAMES. Ganwyd ef yn Cefnbryn, plwyf Llangammarch, sir Frycheiniog, yn 1594. Yr oedd yn awdwr amryw lyfrau. Bu ei dad, Thomas Howell, yn gurad Llangammarch, o 1576 hyd 1601; pryd y cafodd fywoliaeth Abernant a Chynwil Caio, yn sir Gaerfyrddin. Addysgwyd James Howell yn rhyddysgol Henffordd; ac aeth oddi yno, yn 1610, i Goleg yr Iesu, Rhydychain. Yn y brif ysgol ymroddodd yn ddyfal i efrydu; a chymmerodd y radd o B. A. yn 1613. Gadawodd Loegr yn 1819, gan fyned i ymdaith yn Holland, Flanders, Ffraingc, Yspaen, ac Italy; a chan fod ganddo gynneddfau cyflym, efe a ennillodd wybodaeth helaeth, a meistrolodd rhai o ieithoedd y gwledydd hyny. Yn 1622, danfonwyd ef i'r Yspaen er ceisio adennill llong Seisnig werthfawr, a attafaelid gan is-frenin Sardinia; ac ar ei ddychweliad, pennodwyd ef yn ysgrifenydd i Scrope, iarll Sunderland—trwy ddylanwad yr hwn yr etholwyd ef yn aelod seneddol dros Richmond, yn 1626. Yr oedd wedi ei raddio yn gymmrawd o Goleg yr Iesu yn 1623. Yn 1630, efe a aeth fel ysgrifenydd gyda Robert, Iarll Leicester, yr hwn a bennodwyd yn llysgenhadwr arbenig i lys Denmark; ac yno, ger bron y brenin a'i lys, arddangosodd ei allu areithyddol yn yr iaith Lladin, a derbyniodd ffafrau uchel gan y brenin. Wedi dychwelyd i'r wlad hon, pennodwyd ef yn un o ysgrifenyddion y cynghor yn Llundain; ond o blegid ei ddiffyg cynnildeb, carcharwyd ef yn fuan yn Ngharchar Fleet am ddyled; ac yno ymgyflwynodd i ysgrifenu ei lyfrau lliosog. Y mae Wood yn dodi rhestr o 50 neu 60 o honynt. Y rhai a adwaenir oreu yn bresennol o'i lyfrau ydynt, "*Dodona's Grove;*" yr hwn a gyhoeddwyd gyntaf yn 1639, ac a gafodd y fath groesaw calonog, fel y gwerthwyd mewn byr amser amryw argraphiadau o hono. Y llall yw, "*Epistolæ Hoelianæ;*" ac ail argraphwyd hwn hefyd, fel y llall. Ar yr ysgrif-bin y dibynai yn benaf am ei fywoliaeth hyd adferiad Siarl II.; ond efe a'i pennododd i'r swydd o hanesydd brenhinol, yr hon a lanwodd hyd ei farwolaeth yn 1666. Claddwyd ef yn eglwys y Temple; a cher llaw ei fedd, cyfodwyd colgolofn, ac arni gofnod parchus yn Lladin i'w fawr enwogrwydd a'i ddysgeidiaeth. Ond symmudwyd y golofn hon pan yr adgyweiriwyd yr adeilad yn 1683.

HOWELL, JOHN. Bardd cywrain, a lled enwog, oedd efe. Ei ffugenw oedd *Ioan Glandyfroedd.* Ganwyd ef yn mhlwyf Abergwili, yn sir Gaerfyrddin, yn 1774. Gwehydd oedd efe o ran ei alwedigaeth; ond ymroddodd i gasglu gwybodaeth, a daeth yn fardd Cymraeg da, ac yn rhifyddwr rhagorol. Bu yn athraw yr ysgol genedlaethol yn Llanymddyfri, lle y trigodd hyd derfyn ei oes. Yr oedd yn gydymgeisydd â Gwallter Mechain yn Eisteddfod Caerfyrddin ar awdl y gadair, er coffadwriaeth am y cadflaenor Syr Thomas Picton; ond er nad ennillodd efe y gamp, cydnabyddwyd ef â thlws. Yn 1824, cyhoeddodd gasgliad o waith beirdd yr ardal, dan y teitl "*Blodau Dyfed;*" yn yr hwn y mae amryw o'i gyfansoddiadau ef ei hun. Bu farw Tachwedd 18fed, 1830, yn 56ain oed; a chladdwyd ef yn mynwent Llan dingad, ger Llanymddyfri.

HOWELL, PARCH. THOMAS, D.D. Ganwyd ef yn 1588, yn Cefnbryn, plwyf Llangammarch, yn sir Frycheiniog. Wedi derbyn ei raddau, a chael ei ordeinio, daeth yn bregethwr enwog. "Yr oedd ei bregethau (meddai Fuller) fel dyfroedd Siloah, yn rhedeg yn esmwyth, ac yn llifeirio yn dawel, fel yr oeddynt yn ennill mynediad lladradaidd a chanmoladwy i galonau ei wrandawyr." Derbyniodd amryw o bennodiadau eglwysig; ac yn 1636, wedi cael y radd o D. D., cafodd ganoniaeth yn Windsor. Bu farw yn 1646, a chladdwyd ef yn mynachlog Bristol. Dywedir fod ei barch mor fawr yn mysg trigolion Bristol fel y cymmerasant ofal am ei blant—y rhai oeddynt yn un-ar-ddeg mewn rhifedi.

HUAIL. Un o feibion Caw o Brydyn. Efe a'i hynododd ei hun yn rhyfeloedd Arthur, ac a restrir yn y *Trioedd* gyda Chai a Thrystan fel "tri thaleithiawg câd." Yn ol rhai hen lyfrau, yr oedd yn aelod o Goleg Cattwg; ac am hyny, cyfrifir ef yn sant Cymreig: a sefydlodd eglwys mewn parth o Euas, yr hwn sydd bellach yn rhan o sir Henffordd. Iddo ef, yn "Englynion y Clywed," y priodolir y dywediad—"Mynych y syrth mefl o gesail." Hanes arall a ddywed ei fod yn gydymgeisydd âg Arthur am law a chalon gwyryf brydweddol a breswyliai yn Nyffryn Clwyd; i ymladdfa law-law gymmeryd lle rhyngddynt, yn yr hon y clwyfwyd y brenin enwog. Efe a dynghedodd Huail, er ei fywyd, nad yngana air am yr ymdrafod. Eithr mewn dawnsfa yn Rhuthyn, Huail a dorodd y gyfrinach; ac am hyny Arthur a bares ei roddi i farwolaeth yn y fan a'r lle. Torwyd ymaith ei ben ar garreg yn yr heol a ddangosid hyd yn ddiweddar, ac a elwid "Maen Huail."

HUGHES, PARCH. JOHN. Ganwyd ef yn 1776 yn Aberhonddu. Masnachydd cyfrifol, o'r enw William Hughes, oedd ei dad. Yr oedd yn awdwr dysgedig, ac yn weinidog enwog gyda'r Trefnyddion Wesleyaidd. Arferodd ei berthynasau bob dylanwad a allent gydag ef, gyda'r amcan o gael ganddo ymuno â'r Eglwys Sefydledig; ond at y Wesleyaid yr oedd ei duedd ef—ac atynt hwy yr aeth efe. Dechreuodd bregethu tua'r flwyddyn 1796. Yn yr Awst canlynol, symmudwyd ef i Hwlffordd; ac oddi yno i Gaerdydd yn ol; a thrachefn i gylchdaith y Trallwm, yr hon a gynnwysai rhan fawr o siroedd Trefaldwyn a Maesyfed. Pan ar y gylchdaith hon, efe a dreuliodd rai wythnosau yn nghylchdaith yr Amwythig, pryd y daeth i adnabyddiaeth bersonol â'r enwog Barch. Mr. Fletcher, o Madeley. Yn Awst, 1800, cynnygiodd y Dr. Coke, arolygwr cyffredinol y genhadaeth Gymreig, fod i Mr. Hughes, a'r Parch. Owen Davies, fyned yn genhadon rheolaidd i Ogledd Cymru. Mewn perthynas i hyn, efe a ddywed, "Mi a ufuddhëais i'r pennodiad mewn ofn a dychryn." Awst 20ain, gadawodd Aberhonddu, a'r Sadwrn canlynol, efe a gyrhaeddodd Gwrecsam. Dengys ei ddyddlyfr ei fod, ar ei fynediad i'r Gogledd, wedi pregethu llawer yno yn nghwmni Owen Davies, a'i fod wedi llafurio yn galed yn y weinidogaeth, fel cenhadwr Wesleyaidd yn Nghymru—yn y Deheudir, yn gystal ag yn y Gogledd. Wedi i ni ei ddilyn fel hyn trwy amrywiaethau ei lafur yn y genhadaeth Gymreig, cawn ein tynu ganddo i berfedd-dir Lloegr. Fel ysgolhaig, yr oedd y Cymry etto heb allu ei brisio yn deilwng—ond yn unig fel

Digitized by Google

areithydd poblogaidd, yn gallu effeithio ar y tymmherau. A chan nad oedd John Hughes yn un o'r rhai goreu o ran hyawdledd barddonol, a thraddodiad tanllyd, fe allai mai doeth oedd y symmudiad hwn o'i eiddo. Pan yn preswylio yn nghylchdaith Caerdydd, yn 1817, pennodwyd ef i gylchdaith Newcastle-under-Lyne; a thra yno yr argraphodd ei waith rhagorol, a elwir "*Horæ Britannicæ.*" Ysgrifenodd a chyfieithodd amryw lyfrau yn ei iaith ei hun, ac yn Saesneg. Derbyniodd wobrwyon gan Gymdeithas y Cymmrodorion am ei weithiau dysgedig, a thri bathodyn arian. Yn y flwyddyn 1824, cynnygiwyd y brif wobr yn Eisteddfod Powys ar y testyn canlynol:—"Sefydliad a lledaeniad Cristionogaeth yn mhlith y Cymry gan dri theulu llafurus Bran ab Llyr, Cynedda Wledig, a Brychan Brycheiniog;" a derbyniodd y wobr o bum gini, ac arian-dlws gwerth dau gini. Bu farw Mai 15fed, 1843, yn 69ain oed, ar ol treulio oes lafurus a llwyddiannus iawn.

HUGHES, Parch. JOSEPH: yr hwn a adnabyddir wrth yr enw barddonol *Carn Ingli.* Ganwyd ef Ebrill 3ydd, 1803, mewn amaethdy a elwir y Parciau, yn mhlwyf Trefdraeth, yn sir Benfro. Enwau ei rieni oedd Dafydd a Hannah Hughes; a phreswylient ar eu fferm eu hunain, ar ochr orllewinol mynydd ysgythrog Carn Ingli. Wedi treulio blynyddau mewn ysgol yn y gymmydogaeth, anfonwyd ef, yn y fl. 1816, i'r Ysgol Rammadegol yn Nghaerfyrddin, lle yr arosodd ychydig dros flwyddyn. Yn 1818, aeth i Ysgol Rammadegol Aberteifi; ac yn 1824, symmudodd i Ysgol Rammadegol Ystrad Meurig. Yn 1826, derbyniodd arian-dlws oddi wrth Gymmrodorion Llundain am draethawd o'i eiddo ar "Galondid." Yn y fl. 1827, aeth i Goleg Dewi Sant, Llanbedr. Yn yr adeg hon, tueddwyd ei feddwl at farddoniaeth Gymreig. Yn 1826—27, efe a ysgrifenodd gerdd arwraidd ar yr "Haf" —pryddest ddiodl; ac yn 1828, ysgrifenodd bryddest ddiodl arall—"Awdl ar y Daran." Yn 1836, symmudodd i Liverpool; a bu am tua blwyddyn yn gurad Eglwys St. Jude yn y dref hono—periglor yr hon, ar y pryd, oedd Dr. M'Neile. Ennillodd ariandlws am y cyfieithiad ail-oreu i'r Gymraeg o Emyn Genhadol Esgob Heber; a'r wobr gyntaf am y cyfieithiad o'r llinellau ar farwolaeth Syr John Moore. Yn Hydref, 1837, fe'i pennodwyd ef i berigloriaeth Meltham, yr hon sydd gaplaniaeth yn mhlwyf Almondbury—lle y preswyliodd hyd ei farwolaeth. Yr oedd yn bresennol yn eisteddfodau Beaumaris, yn 1832; Aberffraw, yn 1849; Rhuddlan, yn 1850; Tremadoc, yn 1851; y Fenni, yn 1853; ac yn Llangollen, yn 1858. Cyfrifid ef yn awdurdod ar reolau barddoniaeth Gymreig, dros ba rai y bu efe yn ddadleuydd cadarn. Dechreuodd gyfieithu "Myfyrdodau Nosawl Dr. Young" i'r Gymraeg, yn 1853; ond ni orphenodd y cyfieithiad. Yn Awst, 1837, priododd Catherine, trydedd ferch William a Jane Laycock, o Appleton, ger Caerefrog. Yr oedd efe yn ŵr o gymmeriad personol uchel, ac ystyrid ef hefyd yn weinidog ymroddgar. Nid ydyw adeg ei farwolaeth yn hysbys.

HUGHES, Parch. JOSHUA, D.D. Esgob Llanelwy. Ganwyd ef yn y flwyddyn 1807. Derbyniodd ei addysg yn Ngholeg Llanbedr. Pennodwyd ef i'r esgobaeth uchod yn y flwyddyn 1870, gan Mr. Gladstone. Efe oedd y Cymro cyntaf a bennodwyd i esgobaeth Gymreig er's llawer o flynyddoedd. Saeson oeddynt yn ddieithriad—heb ddeall nac anghenion na dymuniadau y Cymry, mwy na'u hiaith, ac heb feddu ond ychydig o gydymdeimlad â'r genedl. Ond pennodwyd Dr. Hughes, am ei fod yn Gymro. Efe a ymddygodd fel boneddwr a Christion; ac a sicrhaodd iddo ei hun barch ac edmygedd yn maes newydd ei lafur. Cafodd ei daraw gan y parlys, a bu am amryw fisoedd yn analluog i gyflawni gorchwylion ei swydd; ac yr oedd ei waeledd yn gymmaint fel nas gallai hyd yn oed ymddiswyddo. Bu farw yn Crieff, yn Ysgotland, Ionawr 1af, 1889, yn 82ain mlwydd oed.

HUGHES, Parch. MORRIS. Ei dad oedd Hugh Morris, o'r Fachwen, Llanberis; lle y ganwyd ef yn 1808. Dringodd, trwy ei ymroddiad a'i allu ei hun, o fod yn chwarelwr, i fod yn feistr porthladd Felinheli. Yno yr ymunodd gyntaf gyda'r Trefnyddion Calfinaidd; ac fe ddaeth yn weinidog o gryn enwogrwydd yn eu plith. Cyflawnodd ei ddyledswyddau cyffredin gyda ffyddlondeb, ac ennillodd barch ac ymddiried pawb y dygai berthynas â hwynt. Bu am lawer blwyddyn yn un o brif golofnau cyfarfod misol Arfon. Ysgrifenodd amryw ddarnau i'r *Traethodydd*, a'r *Drysorfa*; a bu mewn dadl, a chyhoeddodd hefyd draethawd pwysig, ar lwyr ymattaliad, mewn attebiad i Caledfryn. Bu farw Chwefror 21ain, 1863, yn 55ain oed; a chladdwyd ef yn mynwent Llanddeiniolen.

HUGHES, ROBERT, yr hwn a adnabyddid wrth y ffug-enw *Robin Ddu o Fôn.* Ganwyd ef yn Caint Bach, yn mhlwyf Penmynydd, Môn, tua'r flwyddyn 1744. Bu am dymmor yn cadw ysgol yn Amlwch. Symmudodd oddi yno i sir Amwythig; ac ar ol hyny i Lundain—lle y treuliodd tuag ugain mlynedd fel ysgrifenydd i fargyfreithiwr yn y Temple. Symmudodd oddi yno i Gaernarfon, o herwydd gwaeledd ei iechyd —lle y bu farw Chwefror 27ain, 1785, yn 41ain oed. Yr oedd yn un o sylfaenwyr, ac yn aelod ffyddlawn o Gymdeithas y Gwyneddigion; yr hon a osododd faen ar ei fedd, â cherfiad coffadwriaethol arno hefyd. Cyfansoddodd amryw ddarnau barddonol.

HUGHES, Parch. WILLIAM, D.D. Esgob Llanelwy. Yr oedd yn fab i Huw ab Cynric, a Gwenllian, merch i John Fychan ab John ab Gruffydd ab Owen Pygott; a ganwyd ef yn sir Gaerfyrddin. Wedi gorphen ei efrydiaeth yn Rhydychain a Chaergrawnt, derbyniodd y radd o D.D. o'r brifysgol gyntaf, yn 1570. Pennodwyd ef i rectoriaeth Llysfaen yn 1567, ac yn esgob Llanelwy yn y fl. 1573. Gweinyddodd y swydd o ddeon hefyd yn yr un lle; a chafodd ganiatâd gan archesgob Caergaint i ddal y ddwy swydd, ynghyd â bywoliaethau eglwysig eraill, gwerth 150*p.* yn y flwyddyn. Yn yr "*Annals of the Reformation,*" o waith Strype, ceir enghreifftiau galarus o'i drachwant ariangar yn dal cynnifer ag un ar bymtheg o fywoliaethau eglwysig; yn mha rai yr oedd saith o guradiaid ganddo. Ac nid oedd naw o'r bywoliaethau hyn yn ddim oll ond segur swyddau. Bu farw Hydref 1600, a chladdwyd ef yn Eglwys Gadeiriol Llanelwy. Dywedir nad oes na chof-adail, na cherfiad, yn dangos ei orweddle.

HUGHES, Parch. WILLIAM. Gweinidog

Digitized by Google

parchus gyda'r Annibynwyr yn Ninas Mawddwy. Ganwyd ef yn Mai, 1761, yn Rhoscillbach, yn mhlwyf Llanystymdwy, yn sir Gaernarfon. Hugh a Mary Rowlands oedd enw ei rieni; a chyfenwyd ef, yn ol hen arferiad y genedl, ar enw ei dad. Yr oedd efe yn gloff o groth ei fam. Dechreuodd bregethu yn Mhwllheli pan ydoedd tuag 21ain oed. Bu yn efrydu yn Llanuwchllyn, dan y Parch. A. Tibbott; ac yna symmudodd i Fangor. Yn Llanrwst, fe'i cyhuddwyd ef o flaen yr ynadon o bregethu gau athrawiaethau. Erbyn iddo ofyn i'w gyhuddwyr pa beth cyfeiliornus oedd yn ei athrawiaeth, methasant ei atteb. Er hyny, dirwywyd ef i ddeg punt gan yr ynadon anystyriol; a chadwyd ef yn ngharchar nes yr oedd yn mhell yn y nos! Yna, deallodd yr ynadon fod y ddeddf yn dadgan, os na byddai gan bregethwr fodd i dalu y ddirwy, y gellid ei chodi oddi ar ei wrandawyr; a gorfu i un o honynt dalu y cwbl. Ond fe ad-dalodd William Hughes y swm. Bu yn llafurio yn Mangor gyda diwydrwydd mawr hyd ddechreu 1797; a symmudodd oddi yno i Ddinas Mawddwy, lle y llafuriodd gyda chryn lwyddiant am ddeng mlynedd ar hugain. Bu yn foddion i godi amryw gapeli. Bu farw Rhagfyr 31ain, 1826. Yr oedd yn bregethwr sylweddol ac ysgrythyrol; a bu o fawr fendith i'w oes a'i genhedlaeth. Priododd Margaret, merch Ellis ac Ann Roberts, Ty'n-y-ddol, ger y Bala, yn 1790; a bu ganddynt ddeg o blant.

HUMPHREYS, HUMPHREY, D.D. Ganwyd ef Tachwedd 24ain, 1648. Enw ei dad oedd Richard Humphreys, o Benrhyndeudraeth, Meirion; ac enw ei fam oedd Margaret, merch Robert Wynn, o'r Gesailgyfarch, yn sir Gaernarfon. Etholwyd ef yn ysgolor yn Ngholeg yr Iesu, Rhydychain. Ordeiniwyd ef yn Mangor, Tachwedd 1670, a chafodd ei bennodi i beriglor-iaeth Llanfrothen. Yn Tachwedd, 1672, pennodwyd ef i berigloriaeth Trawsfynydd; ac yn mhen ychydig flynyddoedd yn ddeon Bangor. Ac yn 1689, pennodwyd ef yn esgob Bangor. Symmudwyd ef oddi yno, yn 1701, i esgobaeth Henffordd (*Hereford*), lle y bu farw Tach. 20fed, 1712, yn 64ain oed. Margaret, merch y Dr. Robert Morgan, esgob Bangor, oedd ei wraig. Yr oedd yn hynafiaethydd Cymreig galluog, ac yn awdwr bywgraphiadau amryw o Gymry o enwogrwydd.

HUMPHREYS, Parch. ROBERT. Ganwyd ef yn Llanelidan, yn sir Ddinbych, yn 1779. Galwyd ef i'r weinidogaeth gyda'r Wesleyaid yn 1805. Yr oedd yn meddu galluoedd cryfion, ac yn fardd o gryn enwogrwydd. Dangosai ofal neillduol am yr athrawiaethau a arddelid gan yr enwad y perthynai iddo; a gwrthwynebai gydag egni y syniadau a anghymmeradwyai efe ar y "Pum Pwngc"—y rhai y bu cymmaint o ddadleuon arnynt yn nechreu y ganrif hon. Cyfansoddodd amryw emynau. Bu farw Awst 21ain, 1832, yn 53ain oed.

HUNGARY. Y mae y wlad hon wedi ei chyssylltu âg Awstria, a'r ddwy yn cael eu galw wrth yr enw AWSTRIA-HUNGARY.

*Llywodraethwr.*—Francis Joseph ydyw yr ymherawdwr; a gelwir ef yn 'Ymherawdwr Awstria; brenin Bohemia, &c., a brenin Apostolaidd Hungary.' Ganwyd ef Awst 18fed, 1830; esgynodd i'r orsedd Rhagfyr 2il, 1848; priodwyd ef Ebrill 24ain, 1854, âg Elizabeth, merch Maximilian Joseph, duc yn Bavaria, yr hon a anwyd Rhagfyr 24ain, 1837. Efe hefyd ydyw 'brenin Hungary,' a choronwyd ef fel y cyfryw Mehefin 8fed, 1867.

*Y Llywodraeth.*—Yr oedd Awstria gynt yn sefyll yn mlaenaf yn y Cynghrair Germanaidd; ond diddymwyd hwnw yn y flwyddyn 1866. Y canlyniad fu ffurfiad yr ymherodraeth Awstria-Hungaraidd, yn y fl. 1867. Yn mherson yr ymherawdwr, y mae y ddwy ran o'r ymherodraeth yn cael eu cyssylltu â'u gilydd; ac y mae efe, i raddau pell, yn annibynol. Gelwir y teyrn yn 'ymherawdwr' yn Awstria, ond yn 'frenin' yn Hungary; ac y mae yr orsedd yn etifeddol. Yn Awstria Briodol, y mae yr awdurdod deddfwrol yn gorwedd mewn senedd a elwir Reichsrath:—math o Dŷ yr Arglwyddi, a Thŷ y Cyffredin. Yn y cyntaf, y mae nifer o dywysogion y teulu ymherodrol, 56 o bendefigion (a elwir *nobles*) â'u swyddi yn etifeddol, 17 o archesgobion ac esgobion, a 102 o swyddogion am eu hoes. Cynnwysa Tŷ y Cynnrychiolwyr 353 o aelodau—y rhai sydd yn cael eu dewis gan y gwahanol dalaethau.

Cynnwysa senedd Hungary hefyd fath o Dŷ yr Arglwyddi; o ba rai y mae 3 yn dywysogion ymherodrol, 21 yn archesgobion ac yn esgobion, a thua 700 o bendefigion y wlad. Hefyd, y mae ganddi Dŷ y Cyffredin, yn cynnwys 458 o aelodau; y rhai a ddewisir am bum mlynedd.

*Maintioli.*—Gorwedda yn nghanol Ewrop; sef, rhwng 42° a 51° lled. gog., a 8° 20′ a 26° 20′ hyd. dwyr. Dyma y deyrnas fwyaf ar gyfandir Ewrop, yn nesaf at Rwssia. Cynnwysa 261,649 mill. pet.; gyda phoblogaeth o tua 41,827,700. Gellir rhanu yr uchod fel y canlyn:—Yn Awstria, gyda Bosnia a Herzegovina, y mae 137,201 mill. pet.; gyda phoblogaeth o 24,485,000. Yn Hungary, y mae 124,448 mill. pet.; a phoblogaeth, yn 1888, o 17,342,700. Yn mysg y boblogaeth hon yr oedd, yn 1880, o ddeutu 18,920,000 o Slavs, neu drigolion Sclavonia — talaeth o Awstria; 9,977,000 o Germaniaid; 6,489,000 o Magyariaid—pobl a darddasant o Finland; a 2,614,000 o Roumaniaid.

*Yr Ymherodraeth.*—Mae yr ymherodraeth yn cael ei galw yn iaith y wlad yn Oesterreichisch-Ungarische; sef, y frenhiniaeth Awstria-Hungaraidd. Rhenir yr ymherodraeth yn ddwy ran; a gelwir hwynt yn 'Deyrnas Awstria,' a 'Theyrnas Hungary.' Meddianna y ddwy eu senedd, eu gweinidogion, a'u trefniadau llywodraethol eu hunain, fel yr awgrymwyd uchod.

*Rhaniadau yr Ymherodraeth.*—Rhenir hi i bedair-ar-bymtheg o dalaethau, heb law y Terfyn Milwraidd; o ba rai y mae pedair-ar-ddeg a elwir yn Awstriaidd, a phump yn Hungaraidd.

Y rhanau a berthynant i goron Awstria ydynt y rhai canlynol:—Awstria Isaf, Awstria Uchaf, Salzburg, Styria, Carinthia, Carniola, Dosbarthiadau yr Arfordir (sef Göritz, Gradisca, Trieste, ac Istria), Tyrol a Vorarlberg, Bohemia, Moravia, Silesia, Galicia, Bukowina, a Dalmatia.

Y rhanau a berthynant i goron Hungary ydynt Hungary Briodol, Transylvania, Fiume, Croatia, a Sclavonia:—ynghyd â'r

Terfyn Milwraidd.

*Arwynebedd.*—Y mae y wlad, er fod ynddi amryw o wastadeddau ëang, gan mwyaf yn dra mynyddig. Y mae ynddi dair o gadwyni mawr; sef, Mynyddoedd Bohemia, yr Alps, a'r Mynyddoedd Carpathiaidd.

Digitized by Google

*Prif drefydd.*—Y mae Prague yn cynnwys 170,000 o drigolion. Hen ddinas gaerog ydyw —a'r fwyaf sydd yn yr ymherodraeth, yn nesaf at Vienna. Ynddi y mae y brif ysgol hynaf yn Awstria; ac yn y ddinas hon y llafuriodd John Huss, a Jerome o Prague. Cracow:—â'i phoblogaeth yn 52,000. Prif ddinas Poland oedd hi yn yr hen amseroedd; ac yma y mae claddfeydd llawer o'i brenhinoedd. Yn agos i'r ddinas hon y mae Wielicza a Bochnia, y rhai sydd yn hynod am fwngloddiau halen; y rhai a ystyrir y mwyaf yn y byd. Y mae Wielicza yn mron o dan y ddaear, gydag ystrydoedd ac eglwysydd wedi eu tori allan o'r halen naturiol; a chyfrifir hi mor hynod fel y mae teithwyr yn gyffredin yn awyddus am gael ei gweled. Yn Lemberg, gyda phoblogaeth o 115,000, y mae prif ysgol Peterwardein; yr hon a elwir wrth yr enw hwn am fod Pedr y Meudwy wedi casglu ei filwyr yma cyn cychwyn i'r Groesgâd gyntaf. Buda-Pesth: — prif ddinas Hungary ydyw hon, a'i phoblogaeth tua 365,000. Vienna:—prif ddinas yr ymherodraeth, poblogaeth yr hon ydyw tua 1,110,000; a chyfrifir hi yn un o'r dinasoedd mwyaf a phrydferthaf yn Ewrop. Grätz—â'i phoblogaeth o 100,000—a orwedda yn gyfleus i fasnach, rhwng Vienna a Trieste. Brunn:—prifddinas Moravia, â'i phoblogaeth yn 90,000; yn yr hon y mae llawer o weithfeydd gwlân. Yn agos iddi y mae Austerlitz, lle yr ennillodd Napoleon fuddugoliaeth fawr a hynod ar yr Awstriaid, yn 1805. Trent:—yn yr hon y bu cynghor Pabaidd Eglwysig, rhwng y blynyddoedd 1545 a 1563. Trieste—gyda phoblogaeth o tua 150,000—ydyw prif borthladd yr ymherodraeth; ac o honi y mae masnach helaeth yn cael ei gario yn mlaen trwy Fôr y Canoldir â rhanau gorllewinol Asia.

*Morgeingciau ac Ynysoedd.*—Y mae ganddi ddwy fôrgaingc yn ngogledd yr Adriatic; sef, Môrgaingc Trieste a Môrgaingc Quarnero. Y mae ynysoedd yr ymherodraeth yn yr Ynysfor Illyriaidd, yn Môrgaingc Quarnero, ac yn yr Ynysfor Dalmatiaidd, yn ngorllewin Dalmatia.

*Llynau.*—Balaton, neu y Platten See, a'r Neusiedler See, yn Hungary; a Traun See, ac Atter See, yn Awstria Uchaf—oll yn mhantle y Danube.

*Afonydd.*—Er fod yr ymherodraeth yn ëang, yr unig afon fawr sydd ynddi ydyw y Danube; ac nid ydyw hi ond mewn rhan yn y wlad, gan fod ei tharddleoedd yn Germany Ddeheuol, a'i phantle isaf yn Twrci. Y prif afonydd sydd o fewn yr ymherodraeth hon ydynt yr Elbe, yr Oder, a'r Vistula.

*Hinsawdd a Chynnyrchion.*—Os rhenir yr ymherodraeth yn dair rhan, gellir dywedyd fod y rhan ogleddol, o ran tymmheredd, yn debyg i hinsawdd Prydain; ac ynddi y tyfir ydau a llin mewn cyflawnder mawr. Y canol, yn cynnwys arwynebedd o 150,000 mill. pet., ydyw y rhan o'r wlad yn yr hon y tyfir ŷd india, gwenith, a gwinwydd. Yn y rhan ddeheuol, y mae olewydd, merwydd, a ffigys, yn tyfu. Y mae pytatw, a gwraidd *beet* yn tyfu ynddi hefyd. Ystyrir Awstria yn nesaf at Ffraingc, Italy, ac Yspaen, yn Ewrop, o ran gwinwydd. Yn 1888, gwnaed yn Awstria 91,404,720 o alwyni o win; ac yn Hungary, yn 1887, 109,144,134 o alwyni. Ond nid ydyw gwinoedd yr ymherodraeth hon mor adnabyddus yn Mhrydain, o herwydd mai ychydig o'r wlad sydd ar yr arfordir. Cynnyrchwyd, yn 1887, 1,050,000 o dynelli o sugr wedi cael ei wneuthur o wraidd *beet*. Y mae coedwigoedd y wlad yn ëang; a phlanhigion meddyginiaethol yn cael eu tyfu ynddi i raddau helaeth. Ystyrir fod Awstria yn gyfoethocach yn ei mŵnau nag un wlad arall yn Ewrop. Ei phrif gynnyrchion ydynt haiarn, glô, efydd, a halen. Ceir y mettelau gwerthfawr mewn cyflawnder yn Hungary hefyd; ac y mae'r gweithfeydd arian byw sydd yn Idria yn mysg y rhai goreu yn y byd. Yn ei mynyddoedd ceir metteloedd o bob math, yn mron. Pwysai yr aur, arian, efydd, haiarn, arian byw, a'r plwm, a'r glô, &c., a godwyd yn Awstria, yn 1888, 42,269,432 tynell; ac yn Hungary, yn 1887, 5,019,695 tynell. Ceir ynddi hefyd ddyfroedd meddyginiaethol. Ei hanifeiliaid gwylltion ydynt yr arth, y blaidd, y *lynx*, a'r llwynog. Telir llawer o sylw i fagwraeth defaid yn Hungary, ac yn Galicia.

*Gweithfeydd a Masnach.*—Y mae gweithfeydd yr ymherodraeth hon yn cael eu cyfyngu yn mron i'r talaethau Awstriaidd—yn enwedig i Bohemia a Moravia. Ystyrir fod Bohemia yn enwog am ei llieiniau, a'i chotwm, a'i defnyddiau gwlân; ac yn fwy felly am ei gwydr. Gwin, a'r metteloedd, sydd yn cael sylw trigolion Hungary fwyaf; er fod lledr yn cael ei weithio, i raddau, yn holl ranau y wlad. Y brif ddinas ydyw y fan lle y gwneir cerbydau yn benaf, ac offerynau cerdd, ac addurniadau boneddigesau. Anfonir llawer o ŷd a mŵnau, a defnyddiau gwneuthuredig, o'r wlad. Ond ni all Awstria ymffrostio yn ei masnach â gwledydd tramor; yr hyn sydd i'w briodoli i'r ffaith nad oes ganddi ond ychydig o borthladdoedd. Ar yr un pryd, o herwydd ëangder yr ymherodraeth, y mae, i raddau, yn annibynol ar wledydd eraill.

*Poblogaeth.*—Cynnwysant bedair o genhedloedd; sef, Germaniaid, yn y talaethau Awstriaidd; Italiaid, neu Roumaniaid, ar y dde yn y Tyrol, ac ar arfordir dwyreiniol yr Adriatic; Sclavoniaid, yn ffurfio mwyafrif trigolion Hungary, Bohemia, Moravia, Silesia, Illyria, Dalmetia, ac yn mron y cwbl yn Galicia. Y mae y Magyariaid hefyd yn Hungary. O'r holl genhedloedd hyn, y Germaniaid sydd yn fwyaf gwareiddiedig; a'r Germanaeg ydyw iaith y llys a llenyddiaeth y wlad.

*Addysg.*—Er fod addysg mewn sefyllfa is yno nag yn Germany, y mae yn rhaid addef ei bod yn cael sylw neillduol. Y mae ynddi wyth o brif ysgolion yn y rhan Awstriaidd o'r ymherodraeth; sef, Vienna, Prague (dwy), Cracow, Czernowitz, Lemberg, Grätz, ac Innsbruck—yn mysg pa rai y mae prifysgol Vienna yn hynod am y manteision a rydd i efrydwyr meddygol. Ceir tair prif ysgol yn Hungary; sef, yn Buda-Pesth, Klausenberg, ac Agram. Yn Awstria, rhaid i bob plentyn rhwng 6 a 14 oed fod dan addysg; naill ai mewn ysgol, neu gartref. Yn nosbarthiadau y gweithfeydd, ni oddefir i'r plant gael eu hanfon i weithio cyn bod yn llawn naw mlwydd oed. Ar ol hyny, rhaid iddynt fyned i ysgolion bob nos Wener, a boreu Sabbath, nes y byddant yn bymtheg oed. Yn y rhanau Pabaidd, yr offeiriaid ydynt yr arholwyr; ac yn y rhanau Protestanaidd, y gweinidogion. Yn 1881, yr oedd ysgolion elfenol yr ymherodraeth yn rhifo 18,826; o ba rai yr oedd 2,000 yn Hungary. Yn ol y cyfrifon, yr oedd 86 y cant o'r plant, a ddylent fod o ran eu hoed yn yr ysgolion, yn Awstria; a 75 y cant, yn Hungary.

Digitized by Google

*Ieithoedd.*—Perthynant i bedwar o deuluoedd hollol wahanol; sef, y Sclavonaidd, y Teutonaidd, y Greco-Lladin, a'r Finno-Tartaraidd.

*Crefydd.*—Pabyddiaeth sydd yn fwyaf cyffredin yn Awstria. Rhifent fel y canlyn yn y cyfrifiad diweddaf:—Pabyddion, 25,539,000; Pabyddion Groegaidd, 4,036,000; Protestaniaid (Diwygiedig yn benaf), 3,624,000; Iuddewon, 2,922,000; Undodiaid, ac enwadau eraill, 13,000. Ond Protestaniaid sydd o lawer yn fwyaf lliosog yn Hungary.

*Y Fyddin.*—Y mae byddin yr ymherodraeth hon yn gref; ac yn rhifo, ar adeg o heddwch, 273,779 o ddynion, a 19,733 o swyddogion; ac mewn adeg o ryfel, y mae y fyddin yn rhifo 1,177,644 o filwyr a swyddogion, gyda 2,008 o gyflegrau mawr. Gorfodir pawb i dreulio rhyw gymmaint o amser yn y fyddin. Nid ydyw llynges Awstria yn gref. Rhifa 157 o longau; o ba rai y mae 12 wedi eu gwisgo â haiarn, 6 o lestri *torpedo*, a 57 o gychod *torpedo*. Pola yw ei phorthladd mawr, ac ystordy arfau y llynges.

*Dadforion ac Allforion.*—Maent yn cynnwys pob math o nwyddau masnachol. Cyfrifir fod tua hanner ei hallforion yn gynnyrchion amaethyddol. Gyda Germany, Italy, Roumania, a Rwssia, y mae masnach yr ymherodraeth yn cael ei chario yn mlaen yn benaf, trwy borthladdoedd rhyddion Trieste a Fiume. Gwneir llawer o fasnach rhyngddi a Phrydain hefyd.

*Llongau Masnachol a Ffyrdd Haiarn.*—Yn 1888, yr oedd yn perthyn i'r ymherodraeth 9,728 o longau masnachol, yn cario 311,987 o dynelli. Yr oedd 14,354 o filldiroedd o ffyrdd haiarn wedi eu hagor.

CYLLID AWSTRIA.

| | |
|---|---|
| Derbyniadau, yn 1890 ... | .. *P*.45,234,662 |
| Taliadau etto ... | ... 45,003,823 |
| Dyled Awstria ei hun, yn 1889 ... | 88,112,860 |
| Dyled yr ymherodraeth—perthynol i'r ddwy wlad, yn 1889 | ... 234,925,193 |
| Dadforion o'r Deyrnas Gyfunol i Awstria, yn 1889 ... ... | 1,392,090 |
| Allforion i'r Deyrnas Gyfunol etto. | 2,286,834 |

Y *florin* ydyw prif arian treigl y wlad; a chyfrifir fod punt o'n harian ni yn werth 12 *florin*.

CYLLID HUNGARY.

| | |
|---|---|
| Ei derbyniadau, yn 1889, oedd | .. *P*.29,018,915 |
| Ei thaliadau etto | ... 28,725,330 |
| Cyfrifir fod dyled wladol Hungary yn 1889 yn ... | ... 131,493,615 |
| Holl allforion Hungary yn 1889 oedd | 38,380,250 |
| Ei dadforion yn yr un flwyddyn ... | 38,289,832 |

Tuag at dreuliau cyffredin yr ymherodraeth y mae Awstria yn cyfranu 68.6 y cant, a Hungary 31.4 y cant.

HUTTON, ADAM, D.C.L. Ganwyd ef yn Nghaerforiog, ger Tŷ Ddewi, yn sir Benfro. Disgynodd o deulu anrhydeddus; ac o herwydd hyny, yn gystal a'i ddysgeidiaeth uchel, dyrchafwyd ef i fod yn esgob Tŷ Ddewi, yn 1361. Tra yn gweinyddu y swydd hon, efe a sefydlodd ac a adeiladodd Goleg Mair, sydd yn ymyl yr eglwys gadeiriol; a gwaddolodd ef â chan punt yn y flwyddyn—yr hwn oedd yn swm da y pryd hyny. Pennododd saith cymmrawd, gyda thŷ i bob un o honynt breswylio ynddo, dan yr ammod y byddai iddynt fyned "bob Sul, a gŵyl, i wrandaw y gwasanaeth dwyfol yn yr eglwys.' Ysgrifenodd y "*Statuta Ecclesiæ Menevensis*"—gwaith sydd etto ar gael yn mysg ysgrifau Tŷ Ddewi; ac y mae cyfysgrif o hono gyda'r ysgrifau Harleiaidd, yn yr Amgueddfa Brydeinig.

HWFA AB CYNDDELW. Pendefig urddasol, a phen un o Bymtheg Llwyth Gwynedd. Yr oedd efe yn preswylio yn Mhresaddfed, yn Môn; ac yn cydoesi âg Owain Gwynedd, yn y ddeuddegfed ganrif; a dywedir iddo fod yn ben teuluyddwr iddo. Yr oedd efe, a'i etifeddion, yn gweinyddu y swydd o roddi y dalaith ar ben tywysogion Aberffraw pan y coronid hwy; a'i wobr am hyny oedd hawl treftadol i gyfoeth Presaddfed. Dyma ei achau:—Hwfa ab Cynddelw ab Cwnws, ab Cillin, ab Madog Dda, ab Greddf, ab Cwnws Ddu, ab Cillin Ynad. Bu ganddo bump o feibion; sef, Methusalem, Cyfnerth, Ieuan, Iorwerth, a Blettrws; a dywedir fod amryw o brif deuluoedd Ynys Môn yn olrhain eu hachau yn uniongyrchol oddi wrtho.

HYDER ALI. Llywodraethwr Mysore; un o dywysogion Mahometaidd enwocaf India, ac un o brif elynion gallu Prydain yn y wlad hono. Ganwyd ef yn y fl. 1728. Un o gadfridogion Rajah Mysore oedd ei dad; yr hwn a gafodd i'w law lywodraeth Bangalore. Disgynodd swyddi ei dad i'w fab, Hyder; yr hwn, yn 1759, a bennodwyd yn brif gadlywydd y fyddin Mysoraidd. Nid oedd y Rajah yn ddim amgen nag offeryn yn ei law; ac wedi sefydlu ei hun yn gadarn fel prif weinidog, rhoddodd flwydd-dâl i'r Rajah; ac yn 1761, daeth ei hun yn llywodraethwr ar Mysore. O hyny allan, ymroddodd yn llwyddiannus i gynnyddu ei awdurdod. Gorchfygodd Calicut, Bednor, Onor, Cananor, a thalaethau cymmydogaethol eraill; ac yn 1766, yr oedd ei diriogaethau yn cynnwys mwy na 84,000 o filldiroedd petryal. Bu mewn rhyfel â'r Prydeiniaid tua'r pryd hwn, a bu yn gwbl lwyddiannus; canys gwnaeth heddwch o dan furiau prif ddinas talaeth Madras. Ni chadwodd y Prydeiniaid y cyttundeb hwn gyda ffyddlondeb. Yn 1770, goresgynwyd Mysore gan y Mahrattiaid, a darostyngwyd Hyder i gyfyngder mawr. Ymbiliodd yn daer am gynnorthwy y Prydeiniaid; ond yr oll y medrodd ei sicrhau oedd cael ganddynt sefyll yn ammhleidiol; a bu raid iddo wneuthur heddwch ar delerau anfanteisiol yn 1772. Yn 1774, o herwydd yr ymraniadau a gymmerasant le yn mysg y Mahrattiaid, cafodd gyfle i adfeddiannu yr hyn a gollodd yn ol. Ail ymosododd y Mahrattiaid arno yn 1778; ond efe a'u gorchfygodd hwynt mewn dwy frwydr. Bu raid iddo, fodd bynag, droi ei wyneb eilwaith i Madras am gymmhorth. Siomwyd ef yr ail waith; ac o blegid hyny, a thrwy ddylanwad y Ffrangcod oedd yn ei wasanaeth, efe a ffurfiodd gynghrair â'r Nizam a'r Mahrattiaid yn 1779. Nid oedd rhaglawiaeth Madras wedi cael cyfleusdra i wneyd nemawr ddim darpariadau, pan, yn Ngorphenaf, 1780, yr aeth Hyder gyda byddin liosog i'r Carnatic. Anrheithiwyd y wlad ganddo hyd at ymyl muriau Madras; ac yn gymmaint a bod y gwladwyr yn y dalaeth hono yn cael eu gorthrymu, ac o ganlyniad yn teimlo yn anfoddhaol, edrychent ar Hyder fel gwaredwr iddynt, yn hytrach nag fel gelyn. Yn ystod y fl. 1780, a'r un ganlynol, ar yr amddiffynol y safai y Prydeiniaid, yn benaf. Ymgadwai Hyder hyd y gallai heb ymladd brwydrau mawr; ond llwyddodd i gael meddiant o amryw drefydd ac amddiffynfeydd pwysig. Yr oedd yn meddu byddin liosog anarferol, ac yn

Digitized by Google

eu plith lawer o feirchfilwyr; ac yn ystod y ddau ryfelgyrch, gwnaeth ddifrod dirfawr ar y wlad; ac yr oedd Madras ei hun mewn cyfyngder mawr. Cynnygiodd Arglwydd Macartney delerau heddwch iddo ond efe a'u gwrthododd. Yr oedd holl dalaeth Madras erbyn hyn wedi ei darostwng i sefyllfa o newyn, ac ymddangosai ei dinystr megys yn ymyl; pan y darfu i farwolaeth Hyder, yn mis Rhagfyr, 1782, yn 54ain mlwydd oed, ryddhau y Saeson o beryglon dirfawr.

Cariodd Hyder Ali ei ryfelgyrchoedd oll yn mlaen gyda phenderfyniad a dyfalwch mawr. Yr oedd ei lwyddiant yn ddyledus i'w fedrusrwydd milwrol, ei ofal am ddysgyblaeth, ei alluoedd diplomyddol, a'i ddoethineb yn medru uno y gwahanol lwythau a wasanaethent dan ei faner, ei gynnildeb yn ei dreuliau personol, y sylw manwl a dalai i gyllid y wlad, a'i waith yn gofalu am dalu yn rheolaidd i'w fyddin. Yr oedd Hyder Ali yn hynod yn mysg penaethiaid y dwyrain am larieidd-dra ei gymmeriad a'i lywodraethiad, a cherid ef yn fawr gan ei ddeiliaid. Cefnogodd amaethyddiaeth, masnach, a'r celfyddydau; ac amddiffynodd bob crefyddau, heb ofyn dim gan neb ond ymostyngiad i'r cyfreithiau. Ei fab, Tippoo Saib, oedd ei olynydd.

HYWEL AB DAFYDD AB IEUAN AB RHYS, M.A. Blodeuai rhwng 1450 a 1480; ac yr oedd efe yn fardd o orsedd Morganwg. Efe oedd awdwr "Cywydd Cynog Sant" a geir yn yr *Iolo MSS.*; a chyfansoddodd amryw ddarnau barddonol eraill. Ysgrifenodd Hanes Prydain hefyd yn yr iaith Lladin, a hanes Tywysogaeth Cymru yn y Gymraeg.

HYWEL AB EDWIN. Hanodd o deulu Hywel Dda; ac yn 1021, cymmerodd ran bwysig, gyda'i frawd Meredydd, mewn gwrthryfel yn erbyn Llywelyn ab Sitsyllt, tywysog Gwynedd. Ni lwyddasant yn eu hamcan; ac yn 1032, bu raid i Hywel gilio o'i wlad. Yn 1037, efe a amcanodd adfeddiannu ei diriogaethau eilwaith; ond llwyr orchfygwyd ef mewn brwydr a gymmerodd le yn Mhencadair, yn sir Gaerfyrddin. Lladdwyd ef gan y tywysog Gruffydd, yn 1043, ger Abertywi, yn sir Gaerfyrddin.

HYWEL AB EINION LLYGLIW. Bardd enwog, a flodeuodd tua diwedd y 14eg ganrif. Yn y "*Myvyrian Archaiology*" ceir cywydd serch o'i waith i "Myfanwy Fechan o Gastell Dinas Brân;" a chyfieithiad rhagorol o honi yn "*Pennant's Tours in Wales.*" Ysgrifenodd amryw ddarnau barddonol eraill.

HYWEL AB EMYR LLYDAW. Penaeth hynod a flodeuodd yn y chweched ganrif. Gelwid ef Hywel Faig, a Hywel Farchog. Ceir cofnodiad am dano yn y *Trioedd* gyda Morgan Mwynfawr a Medrawd, dan y penawd "tri marchawg brenhinol" llys Arthur. "Yr oeddynt," meddir, "mor hynaws, a llaryeidd, ac addfwyn eu hymadroddion, ag y byddai yn anhawdd gan un dyn o'r byd ommedd a nacau iddynt a geisient." Claddwyd ef yn Llanilltyd Fawr.

HYWEL AB OWAIN GWYNEDD. Mab anghyfreithlawn ydoedd efe i Owain; ac ar ei farwolaeth, o herwydd anaf corphorol Iorwerth Drwyndwn, sef ei fab cyfreithlawn, ac etifedd naturiol y goron, meddiannwyd hi gan Hywel, a chadwodd hi am ddwy flynedd. Yna, gadawodd Gwynedd, er mwyn myned drosodd i'r Iwerddon i hawlio a threfnu cyfoeth a adawyd iddo gan deulu ei fam—enw yr hon oedd Pyfog, merch ac aeres i bendefig a breswyliai yn y wlad hono. Yn y cyfamser, cymmerodd ei frawd Dafydd feddiant o'r goron trwy drais, a chasglodd fyddin lled gref, gan ddisgwyl am ddychweliad Hywel; ac efe a'i gorchfygodd mewn brwydr. Dychwelodd Hywel yn archolledig gyda'i wŷr tua'r Iwerddon, lle y bu farw; a rhoddodd ei gyfoeth i'w frawd, Rhirid. Yr oedd Hywel yn fardd galluog, ac y mae wyth cywydd o'i waith yn argraphedig yn y "*Myvyrian Archaiology*," a chyfieithiad o un o honynt yn y "*Cambrian Register*," cyf. I. 412.

HYWEL ERYRI. Bardd cywrain a flodeuai tua diwedd y ganrif ddiweddaf. Ei enw bedydd oedd Huw Evans, a ganwyd ef yn Llanfair Mathafarn Eithaf, yn Môn, yn 1764. Preswyliodd am ran helaeth o'i oes yn Mhlas Madog, yn Nghlynnog, yn sir Gaernarfon. Y mae llawer o'i gyfansoddiadau yn argraphedig yn yr hen gylchgronau Cymreig.

HYWEL SELE. Pendefig o Feirionydd, yn niwedd y 14eg ganrif. Yr oedd yn gefnder i Owain Glyndwr; a phroffesai ei bleidio, er ei fod yn elyn anghymmodlawn iddo ef, ac i'w achos. Digwyddodd iddo unwaith wahodd Owain ato i hela yn mharc Nannau; ac un dydd, codwyd ysglyfaeth ganddynt. Ond yn lle annelu at y pryf, trôdd Hywel ei fŵa yn fradwrus ar Owain Glyndwr. Methodd ei nôd, fodd bynag; ac er dïal arno, trywanodd Owain Glyndwr ef yn farw; ac er mwyn celu y weithred, taflodd y corph i geubren ger llaw, yr hon a adwaenid wrth yr enw Ceubren yr Ellyll.

HYWEL Y FWYELL. Yr oedd efe yn fab i Einion ab Gruffydd ab Hywel; ond yn ol Pennant, mab ydoedd i Gruffydd ab Hywel ab Meredydd. Hanai Hywel o Gollwyn ab Tagno, ac yr oedd yn enedigol o Eifionydd. Gwasanaethodd fel cadlywydd i Iorwerth, y Tywysog Du, yn mrwydr hygof Poitiers; yr hon a gymmerodd le yn 1356—lle yr ennillodd efe lawer o glod am ei ddewrder. A dywedir iddo gymmeryd brenin Ffrainge yno yn garcharor, gan dori ymaith ben ei farch âg un ergyd â'i gadfwyell. O blegid hyn, gwisgai ar ei arfbais beisarfau brenhinol Ffrainge, â chådfwyell yndddynt. Gwnaed ef yn farchog ar faes y frwydr; ac wedi hyny, yn geidwad cestyll Caerlleon ar y Ddyfrdwy, a Chricciерth, yn sir Gaernarfon.

HYWEL Y PEDOLAU, BARWNIG. Mab ydoedd i Gruffydd ab Iorwerth, yr hwn a hanai o Hwfa ab Cynddelw — cyff un o Bymtheg Llwyth Gwynedd. Ei fam oedd Gwenlliant, merch i Rhirid Flaid. Mam Syr Hywel oedd mamaeth y brenin Iorwerth II.; a chan ei fod yn frawd-maeth i'r brenin hwnw, ac yn gyfeillgar âg ef, efe a'i anrhydeddodd âg urdd marchog. Gelwir ef 'Hywel y Pedolau' am y dywedir y gallai uniawni pedol ceffyl â'i ddwylaw moelion. Tybir mai yn eglwys St. Pedr, yn Nghaerfyrddin, y claddwyd ef; o herwydd cafwyd yno, rai blynyddoedd yn ol, hen feddfaen candryll, âg arno ddelw o ryfelwr yn dal pedol rhwng ei ddwylaw, ac fel yn y weithred o brofi ei nerth.

Digitized by Google

HUNANLADDIAD (o *hunan* a *lladd*), ydyw gwaith dynion yn rhoddi terfyn ar eu heinioes â'u dwylaw eu hunain. Un o'r dygwyddiadau mwyaf pruddaidd ac alaethus y gallwn feddwl am dano ydyw hunanladdiad. Y mae rhywbeth mor erchyll a chroes i bob rheswm ynddo, fel yr ydym bob amser yn cael ein taraw â dychryn pan y clywn fod un o'n cyd-ddynion wedi ei gyflawni, ac yn gorfod casglu y rhaid ei fod naill ai yn wallgof, neu ynte yn dioddef y fath boen ddirfawr yn ei feddwl neu ei gorph ag oedd yn gwneyd ei fywyd yn faich iddo.

Yn gyffredin, rhestrir hunanladdiadau o dan dri phen:—1. Hunanladdiadau yn codi oddi ar wallgofrwydd naturiol. 2. Hunanladdiadau yn codi oddi ar wallgofrwydd moesol. 3. Hunanladdiadau a gyflawnir gan ddynion yn eu hiawn bwyll.

1. Hunanladdiadau yn codi oddi ar wallgofrwydd naturiol: neu mewn geiriau ereill, gwallgofrwydd wedi ei gynnyrchu gan achosion naturiol, megys rhyw anhwyldeb corphorol neu feddyliol ag sydd yn dyrysu y synwyrau i'r fath raddau fel nad ellir ystyried fod dyn yn gyfrifol am ei weithredoedd: ac os nad ydyw yn gyfrifol, nid ydyw ei hunanladdiad yn bechod; ac ni ddylid ei feio mwy nag y dylid beio dyn am ei fod wedi ei daraw gan y parlys. Er fod y weithred wedi ei chyflawni gan ei law ef ei hun, ni chyflawnwyd hi gan ei feddwl; ac am hyny, nid ei weithred ef mewn ystyr briodol ydyw, ac am hyny nid ydyw yn gyfrifol am dani, ac ni ddylid edrych arno fel gwaradwydd ar ei gymmeriad.

2. Hunanladdiadau yn codi oddi ar wallgofrwydd moesol. Wrth "wallgofrwydd moesol" y golygir gwallgofrwydd wedi ei gynnyrchu gan achosion moesol; megys anghymmedroldeb, afradlonedd, nwydau drwg, &c. Y mae y math cyntaf o wallgofrwydd a enwasom yn codi oddi ar achosion nad ydynt o dan lywodraeth y dyn ei hun; ac am hyny nid ydyw yn gyfrifol am unrhyw weithred a gyflawnir ganddo pan o dan ei ddylanwad; ond y mae yr ail yn codi oddi ar achosion ag y mae gan ddyn fel creadur rhesymol ddigon o allu i'w gochelyd, ac am hyny y mae yn gyfrifol am bob gweithred a gyflawnir ganddo pan o dan ei ddylanwad. Ffrwyth drygioni ydyw hwn; ac am hyny y mae yn bechadurus. Mae o angenrheidrwydd yn cyfranogi o natur yr achosion a'i cynnyrchasant. Hen ddywediad cyffredin ydyw, mai gwallgofrwydd byr ydyw digofaint. Ond ni chlywir neb byth yn cyfiawnhau llofruddiaeth trwy ddyweyd ei fod wedi ei gyflawni o dan ddylanwad y nwyd o ddigofaint, oddi eithr cyn belled ag y gellir yn deg ddadleu natur a graddau y cynnhyrfiad, i'r dyben o liniaru ychydig ar ysgelerder y weithred. Ac nid ydym byth yn cyfiawnhau unrhyw drosedd, o herwydd ei fod wedi ei gyflawni pan yr oedd dyn yn feddw. Egwyddor sefydlog a chyffredinol ydyw, nas gall ansawdd meddwl sydd ynddo ei hun yn bechadurus byth gyfiawnhau unrhyw drosedd a gyflawnir o dan ei ddylanwad. Os yw yr ymresymiad hwn yn gywir gyda golwg ar bangfa neillduol o ddigofaint, neu wallgofrwydd meddwdod, nis gall lai na bod yn gywir hefyd gyda golwg ar ansawdd mwy parhaol y meddwl, yn codi oddi ar fynychiad y cyfryw bangfeydd, mewn canlyniad i goledd nwydau digofus, neu ymarferiad anghymmedrol â diodydd meddwol.

Mae rhy fychan o lawer o sylw yn cael ei dalu i'r gwahaniaeth rhwng gwallgofrwydd yn codi oddi ar achosion naturiol, a gwallgofrwydd yn codi oddi ar achosion moesol, pan yn trafod y cwestiwn o hunanladdiad. Os gellir profi fod y person yn wallgof pan y cyflawnodd efe y weithred angeuol, dyna'r cwbl yn gyffredin y meddylir am dano. Ond wrth drafod y pwngc yn ei berthynas â moesoldeb, dylid ystyried yn ddifrifol a diduedd pa beth oedd yr achosion o'r gwallgofrwydd. Dylid cofio fod pob trosedd a gyflawnir o dan ddylanwad y gwallgofrwydd sydd yn codi oddi ar ddrygioni yn cyfranogi o euogrwydd y drygioni hwnw. Yn yr amgylchiad blaenaf a enwasom, nid oedd un syniad poenus o anghymmeradwyaeth foesol yn gymmysgedig â'n cydymdeimlad; ond yn yr amgylchiad presennol, nis gall, ac ni ddylai fod felly. Dylai ein tosturi fod yn gymmysgedig â chondemniad.

3. Hunanladdiadau a gyflawnir gan ddynion yn eu hiawn bwyll. Gwyddom fod llawer yn ammheu a welwyd erioed un enghraifft o hunanladdiad o'r natur yma. Y farn gyffredin yw fod pob hunanleiddiad yn wallgof. Dichon fod y syniad hwn wedi codi oddi ar ddau beth. Yn gyntaf, casglwyd oddi wrth nerth naturiol y cariad at fywyd a deimlir gan bob dyn yn ei fynwes ei hun nas gall dim ond dylanwad gwallgofrwydd ei orchfygu: yn ail, oddi wrth natur cyfraith y tir gyda golwg ar hunanleiddiad. Y mae cyfraith Lloegr yn attafaelu eiddo yr hunanleiddiad i'r goron, ac yn gwahardd claddu ei gorph mewn tir cyssegredig; ac yr oedd gynt yn gofyn i'r trengholydd a'i reithwyr ei ddedfrydu i gael ei gladdu o dan ffordd gyffredin, a chwanegu at y gwarth trwy roddi polyn trwyddo i gyfeirio sylw pawb ato: ond yn ol 4 *Geo*. iv pen. 52, rhaid i'r trengholydd orchymyn ei gladdu heb un math o wasanaeth crefyddol yn mynwent y plwyf, rhwng naw a deuddeg o'r gloch y nos. Nid ydyw yn gydweddol âg amcan yr erthygl hon i ni wneyd ymchwiliad i'r priodoldeb neu yr ammhriodoldeb o'r cyfryw gyfreithiau ag sydd fel hyn yn cospi y byw am weithred y marw, trwy eu hamddifadu hwynt o eiddo a syrthiai yn naturiol i'w rhan, yn gystal a chwanegu at rwygiad teimladau ag sydd eisoes wedi eu clwyfo yn arswydus. Gellir dywedyd llawer iawn o'u plaid yn gystal ag yn eu herbyn. Mae yn amlwg fod y cyfryw gyfraith yn creu y fath dosturi dwfn yn meddyliau rheithwyr, fel y maent yn fynych, o dan ddylanwad yr hyn y gorfodir ni i'w alw yn dynerwch twyllodrus, yn cael eu tueddu i gyhoeddi dedfryd o wallgofrwydd, pan yr oedd y dyn mewn gwirionedd yn ei iawn bwyll. Yn awr, y mae hyn yn dylanwadu yn niweidiol ar syniadau moesol y genedl. Mae yn cymmysgu dau beth ag sydd yn hanfodol wahanol. Mae yn peri i'r cyffredin edrych ar bob hunanleiddiad fel gwallgof-ddyn, ac yn eu temtio i osod y naill a'r llall yn yr un dosbarth, ac i edrych arnynt gyda'r un teimlad. Gellir dyweyd hefyd ei fod i raddau yn lleihau dychryn y trosedd, a thrwy hyny yn tueddu i gefnogi ei gyflawniad.

Ni a addefwn yn rhwydd y rhaid fod meddwl y dyn a gyflawna weithred mor erchyll a hunanladdiad mewn sefyllfa tra arswydus. Ond dylid cofio ei bod yn bossibl i feddwl dyn fyned yn ddyryslyd iawn, ac etto heb fod yn wallgof. Nid oes un ammheuaeth nad ydyw meddwl y dyn hwnw mewn sefyllfa druenus ag sydd yn cymmeryd ei lywodraethu gan nwydau, ac nid gan reswm. Rhaid fod meddwl y dyn hwnw wedi ei ddymchwelyd, ag y mae y byd wedi cael y fath oruchafiaeth arno, fel y mae ei siomedigaethau a'i drallodion yn peri iddo flino cymmaint ar ei

Digitized by Google

fywyd nes peri iddo roddi terfyn arno â'i law ei hun. Ond y mae hyn yn wahanol iawn i wallgofrwydd. Cyflawnir hunanladdiadau weithiau o herwydd yr achosion mwyaf dibwys. Y dydd o'r blaen, boddodd geneth ei hun am i'w mam ei cheryddu am aros allan yn hwyr y nos. Darllenasom am ddyn yn tori ei wddf o herwydd iddo anghofio rhoddi llythyrau yn y pôst. Derbyniodd dyn o'r enw Hudson, gŵr priod â theulu ganddo, trulliad i Syr Thomas Hepburn, o Smeaton, ddau neu dri o lythyrau gan ei feistr i'w rhoddi yn y pôst; ond rywfodd, anghofiodd wneyd hyny. Wrth eu canfod, yn mhen boreu neu ddau ar ol hyny, efe a'u llosgodd; ac yna dychrynodd gymmaint o herwydd y weithred fel y torodd ei wddf, gan adael llythyr i'w wraig i ddyweyd wrthi pa ham yr oedd efe wedi rhoddi terfyn ar ei fywyd. Yn yr amgylchiad hwn, cyflawnwyd y weithred gyda'r pwyll mwyaf.

Dengys ystadegau fod mwy o hunanladdiadau yn digwydd yn y gwanwyn a'r haf, nag mewn un tymmor arall. O 1,131 o hunanladdiadau a gyflawnwyd yn Berlin, Hamburg, Westminster, a Paris, cymmerodd 237 le yn y chwarter cyntaf o'r flwyddyn; 299 yn yr ail; 335 yn y trydydd; a 260 yn y pedwerydd. Ymddengys oddi wrth adroddiadau trengholydd Westminister, fod 169 o hunanladdiadau wedi cymmeryd lle yn y chwarter cyntaf o bum mlynedd ar hugain; 182, yn yr ail, 159, yn y drydydd, a 146 yn y pedwerydd. Dygwyddodd y nifer mwyaf yn Mehefin, Gorphenaf, a Mawrth.

Y mae y duedd at hunanladdiad yn amrywio yn mhlith personau o wahanol sefyllfaoedd a galwedigaethau. Dengys adroddiad y cofrestrydd cyffredinol mai yn mysg personau sydd yn gweithio allan y mae leiaf; ac mai yn mysg crefftwyr, y rhai sydd o gyfansoddiad gwanaidd o'u genedigaeth, a'r rhai sydd yn gorfod bod i mewn yn barhaus, ac heb gymmeryd ond ychydig o ymarferiad corphorol, y mae fwyaf. Er enghraifft, y cyfartalrwydd o hunanladdiadau blynyddol yn mhlith seiri, seiri coed, a chigyddion ydyw 1.33 yn mhob 10,000; ac yn mhlith teilwriaid, cryddion, a phobwyr, 7.43 yn mhob 10,000; ac yn gyffredinol, cyflawnir mwy o'r hanner o hunanladdiadau yn mysg crefftwyr nag yn mysg llafurwyr. Nis gellir profi fod addysg, fel yr haera rhai ei bod, yn tueddu i fagu tuedd at hunanladdiad; ond dengys ystadegau fod ei ffrwyth yn hollol wahanol. Ac nid ymddengys fod sefyllfa o dlodi a chyfoeth yn meddu un dylanwad pwysig; ond dengys pob adroddiad fod hunanladdiadau yn dygwydd yn amlach yn mhlith trigolion dinasoedd mawrion nag yn mhlith trigolion y dosbarthiadau gwledig.

Cyflawnir hunanladdiadau yn amlach yn mysg meibion nag yn mysg merched. Dywed adroddiad Westminster, fod 478 o feibion a 178 o ferched wedi lladd eu hunain mewn pum mlynedd ar hugain; gan hyny, y cyfartalrwydd ydyw 73 yn erbyn 27. Ymddengys fod y cyfartalrwydd yn lled debyg yn Paris a Geneva. Y mae y cyfartalrwydd cyffredinol, medd M. Esquirol, yn dri mab yn erbyn un ferch. Profir hefyd fod y duedd at hunanladdiad yn llai yn y sefyllfa briodasol nag yn y sefyllfa unigol. Yr oed mwyaf darostyngedig i hunanladdiad ydyw rhwng 20 a 30.

Nid oes dim sydd amlycach na bod hunanladdiad yn un o'r pechodau mwyaf y gall dyn fod yn euog o hono.

1. Y mae yn drosedd uniongyrchol o'r gorchymyn "Na ladd." Tybia Dr. Dwight fod y gorchymyn hwn yn gwahardd lladd pob bywyd—bywyd yr anifeiliaid yn gystal a dynion—oddi eithr yn yr amgylchiadau ag y mae Duw ei hun wedi gwneuthur eithriad i'r rheol. Ond rhaid i ni ddyweyd nad ydym o'r un golygiad ag ef. Ein barn ni yw, nad ydyw y gorchymyn yn cynnwys un cyfeiriad at fywyd yr anifeiliaid; o blegid amcan mawr holl orchymynion yr ail lech ydyw dangos dyledswydd dyn ato ei hun ac at ei gymmydog. Yr eglurhad a roddir gan dduwinyddion Westminster ar y chweched gorchymyn ydyw, "ei fod yn ein gwahardd i ladd ein hunain yn gystal a lladd ein cymmydog yn anghyfiawn, ac i ochelyd pob peth a dueddo at hyny." Mae yn amlwg fod bywyd dyn yn werthfawr yn ngolwg y Creawdwr; dengys y geiriau a lefarwyd ganddo wrth Noah yn ddioed ar ol ei ddyfodiad allan o'r arch, ei fod yn edrych arno fel peth cyssegredig. "Ac yn ddiau gwaed eich einioes chwithau hefyd a ofynaf fi; o law pob bwystfil y gorchymynaf ef; ac o law dyn, o law pob brawd iddo y gofynaf einioes dyn;" *Gen.* ix. 5. A ydyw yn rhesymol i ni feddwl fod yr hwn sydd fel hyn wedi amddiffyn bywyd ereill trwy ofyn gwaed am waed, wedi gadael dynion at eu rhyddid i gymmeryd ymaith eu bywydau eu hunain—gadael iddynt, heb un gwaharddiad na bygythiad o gospedigaeth, i roddi terfyn arno yn ol eu hewyllys? Os buasai "gwaed einioes" dyn ar ben dyn arall, pe buasai dyn arall wedi ei dywallt, ac os gofynasid ef oddi ar ei law ef gan yr Arglwydd, rhaid y bydd ar ben yr hunanleiddiad, ac y gofynir ef oddi ar ei law ef ei hun, os gan ei law ei hun y tywalltwyd ef yn wirfoddol? Nid oes un gwahaniaeth rhwng nodwedd y weithred yn y naill amgylchiad na'r llall.

2. Condemnir hunanladdiad gan holl ddisgrifiadau y Beibl o ragluniaeth Duw. Yno dysgir ni fod pob peth o dan ei lywodraeth uniongyrchol ef; fod pob dygwyddiad yn hanes, a phob amgylchiad yn nhynged pob un o feibion dynion, wedi eu hordeinio ganddo ef. "Yr hwn y mae einioes pob peth byw yn ei law, ac anadl pob math ar ddyn;" *Iob* xii. 10. "Eiddo ef yw ein holl ffyrdd;" *Dan.* v. 23. "Yn ei law ef y mae ein hamserau;" *Salm* xxxi. 15. Y mae yr hwn sydd yn dywedyd, "Chwi a delwch fwy na llawer o adar y tô," yn dywedyd hefyd, "Ac ni syrth un aderyn y tô ar y ddaear heb eich Tad chwi. Ac y mae, ïe, holl wallt eich pen wedi eu cyfrif;" *Mat.* x. 29—31. Mae yr hwn a fyrhao ei einioes trwy ladd ei hun, yn cymmeryd ei "amserau" o law Duw i'w law ei hun. Mae yn gwrthod ymostwng i'w drefniadau ef. Nid oes gan neb ond Awdwr bywyd awdurdod i gymmeryd bywyd ymaith. Ein dyledswydd ni yw arfer pob moddion o fewn ein cyrhaedd i gadw ac estyn ein bywyd: ac nis gallwn gyflawni un weithred yn wirfoddol a fyddo o duedd i'w fyrhau heb fod yn euog o wrthryfel yn erbyn ein Creawdwr.

3. Y mae hunanladdiad yn hollol groes i'r cynghorion a'r annogaethau a roddir i ni yn y Beibl i fod yn foddlawn i ffyrdd Rhagluniaeth, ac i ymostwng o dan drallodion bywyd. Nis gall y darllenydd lai na chanfod ar unwaith fod pob un o honynt wedi ei seilio ar y dybiaeth nad oes gan ddynion hawl i fyrhau, trwy hunanladdiad gwirfoddol, y trallodion â'r rhai y gwelodd Rhagluniaeth Ddwyfol yn dda ymweled â hwynt. Cynnwysa pob un o honynt, yn mha gyssylltiad bynag y mae yn dygwydd, waharddiad union-

Digitized by Google

gyrchol o'r weithred. Mewn cyssylltiad â thrallodion bywyd, dylid bob amser gofio dau beth:—yn gyntaf, Ein haeddiant fel pechaduriaid. Yr ydym oll yn droseddwyr o gyfraith Duw, ac fel y cyfryw yr ydym yn cyfiawn haeddu bod o dan ei lid ef. Y mae ein dioddefiadau yn y fuchedd hon, pa mor fawr bynag y gallant fod, yn anfeidrol lai na'u haeddiant. Dylai yr ystyriaeth hon ladd pob tuedd rwgnachlyd, a'n gwneyd yn dawel o dan y cystuddiau trymaf. Yn ail, Dyben ein cystuddau a'n trallodion. Er nad ydynt yn hyfryd ynddynt eu hunain, y maent wedi eu bwriadu er ein lles—ein lles mewn amser ac am dragwyddoldeb. Goruchwyliaeth o eiddo Rhagluniaeth ydynt, i ddwyn dyn ato ei hun—i arwain ei feddwl oddi wrth bethau amser at bethau tragwyddol. Dylai yr ystyriaeth o'u dybenion ein gwneyd yn ddioddefgar danynt.

4. Y mae hunanladdiad yn symmud dyn i sefyllfa yn yr hon nis gall fod o un gwasanaeth i'w berthynasau, i gymdeithas, nac i Dduw. Er enghraifft, os oes gan yr hunanleiddiad deulu, y mae yn y lle cyntaf yn archolli eu teimladau yn y dull mwyaf arswydus; ac os oeddynt yn dibynu arno ef am eu cynnaliaeth, y mae yn ymwrthod â dyledswydd gyssegredig a osodwyd arno gan Dduw a natur, ac yn ymddwyn yn y modd mwyaf annynol ac annaturiol. Ei ddyledswydd amlwg oedd byw er eu mwyn, ac nid eu gadael i ddibynu ar ereill. Os oedd ei amgylchiadau bydol yn gyfyng, ei ddyledswydd oedd ymostwng o dan alluog law Duw, a chyflawni ei ddyledswydd yn ffyddlawn, gan ymddiried ynddo ef am bob beth tymmorol yn gystal ag ysbrydol.

5. Mae yr hunanleiddiad yn ei hyrddio ei hun i'r farn yn y cyflawniad o un o'r troseddau erchyllaf y gall dyn fod yn euog o hono; ac hyd yn oed a chymmeryd yr olwg fwyaf ffafriol arno, y mae yn peryglu ei ddedwyddwch tragwyddol.

6. Nid oes dim hanes yn y Beibl am neb wedi cyflawni hunanladdiad, ond dynion annuwiol a drygionus. Fe ddioddefodd Iob, Dafydd, Elias, Ieremiah, Daniel, Crist, a'r apostolion, ofidiau mawrion; ond ni roddodd un o honynt derfyn ar ei ofidiau trwy ladd ei hun yn wirfoddol. Yr unig rai y dywed y Beibl eu bod wedi cyflawni hunanladdiad ydyw Saul, Ahitophel, ac Iudas Iscariot. Yr oedd y cyntaf yn wrthryfelwr cyhoeddus yn erbyn ei Greawdwr, a bwriadodd lofruddio Dafydd ac Ionathan· yr oedd yr ail yn fradwr i'w gyfiawn benadur: a'r trydydd yn fradwr i'r Gwaredwr.

**HUL**: ail fab Aram, ac ŵyr i Sem (*Gen.* x. 23). Nid yw sefyllfa ddaearyddol y bobl y mae efe yn eu cynnrychioli yn hollol hysbys. Mae Josephus [*Hyn. Iudd.*, i. 6, *adr.* 4] a Jerome, yn ei chyfleu yn Armenia; ac y mae Schulthess [*Parad.* td. 262], oddi ar seiliau geiryddol (am mai ystyr yr enw yw "tywod") yn cynnyg deheubarth Mesopotamia: tra y mae Von Bohlen [*Introd. to Gen.* ii., 249] yn ei chyfleu yn nghymmydogaeth Caldea. Y mae mwy o awdurdod i'r dybiaeth mai yn ngodrau Libanus y safai, ac y mae yr enwau canlynol, sef *Ard-el-Huleh*—rhandir ar du gogleddol Llyn Merom; *Oulatha*—tref a grybwyllir gan Josephus [*Hyn. Iudd.*, xv. 10, *adr.* 3], rhwng Galilea a Trachonitis; a *Golan*, ynghyd â ffurf ddiweddar yr enw yna, *Djaulân*, yn dwyn rhyw debygolrwydd i'r enw gwreiddiol Hul, neu yn hytrach *Chul*, fel y dylid ei ysgrifenu.

**HUME, DAVID**: athronydd a hanesydd enwog yn y ganrif ddiweddaf. Ysgrifenodd hefyd ar Gynnildeb Gwladol. Y mae yn adnabyddus i liaws yn fwy fel awdwr anffyddiol o'r radd uchaf a chadarnaf. Er fod bywgraffiadau helaeth wedi eu hysgrifenu o hono gan Ritchie, Burton, ac ereill, y mae y defnyddiau o'r rhai y cyfansoddwyd hwy yn brinion. Cynnwysant nodiadau hunan-fywgraffiadol, yn y rhai ni cheir fawr chwaneg na rhestr o brif ffeithiau ei fywyd, ynghyd â'u hamseriad. Fel math o esgusawd dros roddi mwy o fanylion, a thros beidio ymhelaethu ar amgylchiadau ei fywyd, dywed "fod yn anhawdd i ddyn lefaru llawer am dano ei hun, heb falchder." Ymdrechwn yn yr erthygl hon, roddi crynodeb byr o hanes ei fywyd; a cheir hysbysrwydd manwl am ei olygiadau fel athronydd anffyddol mewn erthyglau ereill; megys GWYRTHIAU, MEDDWL, &c.

Ganwyd ef yn ninas Edinburgh, yn y flwyddyn 1711. Yr oedd ei dad yn disgyn o deulu yr iarll Home, neu fel y mynai gwrthddrych ein herthygl ei alw, Hume. Yr oedd ei fam yn ferch i Syr David Falconer, llywydd llys y barnwyr. Bu ei dad farw pan oedd ei fab etto yn blentyn; ond ymroddodd ei fam ar ol ei golli, i ddwyn i fyny ac addysgu ei phlant. "Er ei bod yn ieuangc a phrydferth, cyssegrodd ei hunan i feithrin ac addysgu ei phlant." Nid oes genym ond ychydig o hanes ei fachgendod. Pan yr oedd tua phymtheg oed, aeth i'r brifysgol yn Edinburgh, ac aeth trwy ei addysg yn dra llwyddiannus, fel y gallesid disgwyl i un o'i athrylith ef wneuthur. Ond ymddengys ei fod yn fwy hynod am helaethrwydd ei ddysg nag am gywirdeb a dyfnder. Dechreuodd ymhoffi mewn llenyddiaeth pan etto yn dra ieuangc, a chynnyddodd ei hoffder i ymlyniad angerddol. Yr oedd ei berthynasau yn awyddus iawn am iddo astudio y gyfraith; ond pan yr oeddynt hwy yn tybio ei fod yn gweithio ei ffordd yn mlaen trwy ddyrus goedwigoedd y gyfraith, yr oedd y bachgen David yn hytrach yn dewis rhodio trwy feusydd hyfryd barddoniaeth Virgil, ac yn ymhyfrydu yn ngweithiau athronyddol Cicero. Yn 1734, aeth i Bristol, a dechreuodd ymsefydlu yno fel marsiandwr, a chafodd ei gyflwyno i gylchoedd parchus; ond buan y blinodd ar y bywyd hwn a'r lle, a dywedai fod "yr olygfa yn hollol anghyfaddas i'w feddwl." Ar ol hyn ymfudodd i Ffraingc, lle yr ymroddodd i astudio llenyddiaeth ac athroniaeth yn Rheims, ac yn La-Fleche. Y pryd hwn, meddyliodd a chyfansoddodd ei *Draethawd ar y Natur ddynol.* Yr oedd y gwaith hwn yn rhyfeddod wrth ystyried ei fod yn gynnyrch meddwl mor ieuangc, ac yn amlygiad o graffder arddansoddol anarferol. Y mae yn ymddangos ei fod yn dioddef o ddechreuad ei oes gyhoeddus, ac wedi parhau i ddioddef oddi wrth deimlad pruddaidd (*nervous*) o natur dieithrol, yr hwn a olygir fel effaith neu ganlynydd gweithgarwch ac ymroddiad ei feddwl. Y mae rhai ysgrifenwyr Ysgotaidd yn ceisio esgusodi, neu o leiaf liniaru, euogrwydd ei anffyddiaeth trwy alw sylw at y gwendid naturiol neu yr iselder ysbryd hwn.

Yn y flwyddyn 1737, daeth i Lundain i gyhoeddi ei *Draethawd ar y Natur ddynol;* ond yn ol ei dystiolaeth ef ei hun, "erioed ni bu un ymgais llenyddol mwy anhapus. Syrthiodd yn erthyl-farw o'r wasg, heb hyd yn oed gyrhaedd digon o sylw fel ag i gynnhyrfu un murmur." Yr oedd hyn yn friw i'w ddisgwyliadau uchel, fel y gellid meddwl; ond dywed iddo yn fuan ymiachau oddi wrth y clwyf, ac ymsythu oddi tan

y siomedigaeth. Ac yn 1742, ymgalonogodd i gyhoeddi y rhan gyntaf o'i "*Essays*," neu ei *Draethodau*, y rhai oeddynt yn fwy difyr a deniadol, yn gymmaint a'u bod yn fwy amrywiol yn eu testynau, ac yn fwy gorphenol yn eu harddull. Cawsant gan hyny dderbyniad gwell, ac y maent yn wastad yn fwy poblogaidd na'i weithiau ereill. Yn y flwyddyn 1745, ymgymmerodd â bod yn addysgwr i farchog ieuangc; yr hwn ydoedd ŵr ieuangc tra phruddglwyfus, ac yn ymylu ar fod yn wallgof. Tua'r amser hwn, aeth cadair athroniaeth foesol yn wâg, ac ymdrechodd am ei chyrhaedd; ond ffaelodd o herwydd ei olygiadau. Darfu i'r methiant hwn ei ofidio yn dost. Yn fuan ar ol hyn, cafodd ei appwyntio yn ysgrifenydd i'r Cadfridog St. Clair. Ond yn 1749, aeth i fyw at ei frawd, lle y bu am ddwy flynedd, ac y cyfansoddodd yr ail ran o'i *Draethodau*, ynghyd â gwaith arall newydd, sef ei *Ddadleuon Gwladyddol*, a'i ymchwiliad gyda golwg ar egwyddorion moesau." Y pryd hwn, anfonwyd ei gyhoeddwr ato i'w hysbysu fod ei weithiau yn dechreu cerdded. Yn 1751, aeth i Edinburgh, ac yn y flwyddyn ganlynol, cyhoeddodd y *Dadleuon Gwladyddol*—y gwaith llwyddiannus cyntaf o'i eiddo; ac yn yr un flwyddyn, yn Llundain, cyhoeddodd ei *Ymchwiliad i Egwyddorion Moesau*. Barnai ef ei hunan y gwaith olaf hwn y goreu o'i holl weithiau; ond nid ydyw barn dyn am ragoriaeth cymmhariaethol ei weithiau ei hun yn aml yn gywir. Pa fodd bynag, y mae Syr J. Mackintosh yn cydweled â Hume ei hunan gyda golwg o leiaf ar berffeithrwydd a rhagoriaeth ei arddull. Y mae yn fwy rhydd oddi wrth syniadau gwrthgred hefyd nag un o'i weithiau—ac yn yr ystyr hwn yn well; ond nid ydyw yn amlygu cymmaint o nerth a gwreiddiolder meddwl ag amryw o'r lleill. Yn y flwyddyn 1752, cafodd ei appwyntio yn llyfrgellydd i'r *Faculty of Advocates*. Derbyniodd yr appwyntiad, er nad oedd y cyflog ond bychan. Cafodd gyfleusdra trwy hyn i gael mynedfa at lyfrau gwerthfawr, ac ymroddodd i gyfansoddi ei *History of England*. Dechreuodd gyda theulu y Stuarts. Cyfarfyddodd cyhoeddiad y gwaith hwn â gwrthwynebiad ffyrnig, a rhoddodd anfoddlonrwydd mawr.

Yn y flwyddyn 1759, cyhoeddodd ei *History of the House of Tudor*, yr hwn waith a gododd ystorm fawr o anghymmeradwyaeth. Er fod Hume ei hunan yn dra anfoddog a siomedig gyda golwg ar gylchrediad ei weithiau, y gwirionedd ydyw ei fod wedi derbyn mwy o arian am ei ysgrifeniadau nag a roddasid i neb o'i flaen yn Lloegr. Y mae ei hanesiaeth, er fod diffygion pwysig ynglŷn âg ef, yn cael ei ystyried fel yn feddiannol ar ragoriaethau neillduol. Yn Hume, fel hanesydd, y cawn yr enghraifft gyntaf mewn amseroedd diweddar o hanesiaeth, wedi cael ymdrin âg ef mewn ysbryd ac ar egwyddorion athronyddol; a chyfaddefir yn gyffredinol fod ei arddull yn ddigymmhar. Rhwng y rhan gyntaf a'r ail o'i hanesiaeth, cyhoeddodd ei *Natural History of Religion*; yr hwn, yn ol barn yr awdwr ei hun, ni chafodd ond derbyniad prin ac anfoddhaol. Yn 1761, aeth Hume i Ffraingc, fel cyfaill i Lord Hertford, yr hwn a aeth yno yn llysgenhadwr. Yn 1766, dychwelodd i Edinburgh, yn ol ei eiriau ei hun, gyda "chwaneg o arian; ond nid yn gyfoethocach." Pan yr oedd yn Paris, yr oedd yn eilun, ac yn cael ei hanner addoli gan y cylchoedd goreu yn y ddinas hono. Cwerylodd â'r awdwr Ffrengig enwog **Rousseau**; neu yn hytrach, cwerylodd Rousseau âg ef. Er fod y cweryl ar y pryd wedi tynu sylw mawr iawn, nid ydyw erbyn hyn yn werth manylu arno; ond bernir fod Hume ar y cyfan wedi dyfod allan o hono yn anrhydeddus, er y beiir arno gan rai am roddi cyhoeddusrwydd i'r ohebiaeth. Yn 1767—1769, cafodd y swydd o is-ysgrifenydd y llywodraeth. Wedi i'r weinyddiaeth hono roddi i fyny, ymgiliodd Hume i Edinburgh. Yr oedd erbyn hyn yn werth tua 1000*p*. y flwyddyn; a cheisid ei gymdeithas gan ddynion o'r enwogrwydd mwyaf mewn llenyddiaeth, a'r rhai hyny o farnau tra gwahanol ar faterion gwladol, athronyddol, a chrefyddol. Yn 1775, cymmerwyd ef yn glaf o afiechyd yn y coluddion, a bu farw yn 1776. Dioddefodd ei afiechyd gydag amynedd a thawelwch mawr. Edrychai yn mlaen ar angeu gyda theimlad digynnhwrf. Gellir rhoddi cyfrif am hyn yn hawdd, trwy fod ei dymmer naturiol mor dawel ac oeraidd, a'i argyhoeddion anffyddaidd mor gryfion. Yr oedd o ran ei gyfansoddiad yn hollol amddifad o ronyn o frwdfrydedd, ac nid oedd ynddo y gradd lleiaf o gydymdeimlad â'r uchel a'r arwrol. Ac yr oedd amgylchiadau ei fywyd yn gyfryw ag i ffafrio ei dueddiadau cynhenid. Ni chyfarfyddodd â phethau chwerwon yn ystod ei oes—y cyfryw ag a fuasent yn tueddu at ei gyffroi a'i ysgwyd i unrhyw fath o deimlad dwfn o gydymdeimlad a brwdfrydedd. Yr oedd ei ragfarn yn gryf yn erbyn y Saeson, fel yr oedd rhagfarn Dr. Johnson, ar y llaw arall, yn gryf yn erbyn yr Ysgotiaid. Y mae ei glod fel awdwr ac ysgrifenydd yn gorphwys yn fwy ar yr hyn yr ydoedd yn alluog o hono nag ar yr hyn a gyrhaeddodd yn weithredol. Y mae ei arddull yn oeraidd, yn ddiffygiol mewn dychymmyg, ac yn eisieu mewn manylder a chywirdeb. Y mae hefyd yn amddifad o fywiogrwydd a dyfais bortreadol; ac yn aml y mae yn esgeulus o fanylion angenrheidiol, megys enwau ac amseriadau. Dywedir ei fod yn hollol amddifad o bob eiddigedd a chenfigen llenyddol. Ni bu erioed yn briod. O ran ei ymddangosiad corfforol, yr oedd yn debycach, medd un ysgrifenydd, i *alderman* boliog, hoff o'r *turtle*, nag i athronydd. Yr oedd ei wyneb yn llydan a gwastad, ei enau yn fawrion ac agored, ei lygaid yn wâg a difywyd, a'i holl edrychiad y fath ag a arweiniai un ar gyfeiliorn mewn barn ar ei alluoedd meddyliol. Cafodd ei gladdu yn ei ddinas ei hun, ar big craig yn crogi uwchben yr hen dref:—yr ysmotyn a ddewisodd efe ei hun.

HUNANDDIFFYNIAD: gwaith dyn yn amddiffyn ei fywyd a'i feddiannau rhag pob gelyn. Y mae rhai yn condemnio pob hunanddiffyniad, pa niwed bynag y cynnygir ei wneuthur i ni. Haera ereill mai yr oll y dylid ei wneyd ydyw dangos gwrthwynebiad noeth; ac na ddylid byth ei gario mor bell a pheryglu bywyd yr ymosodwyr. Ereill drachefn a addefant ei fod yn gyfreithlawn, mewn rhai amgylchiadau, lladd yr ymosodwr; ond ar yr un pryd, honant mai mwy canmoladwy a chysson â'r efengyl ydyw dewis yn hytrach colli bywyd, yn ol esampl Crist, na'i ddiogelu ar draul amddifadu un arall o'i fywyd, wrth gyflawni yr hyn a oddefir gan natur. Ond "er gwaethaf enwogrwydd y personau," medd Grove, "a amddiffynant y naill neu y llall o'r golygiadau hyn, nis gallaf lai na meddwl fod hunanddiffyniad, er ei fod yn peri i ddyn ladd un arall i achub ei fywyd ei hun, nid yn unig yn cael ei oddef, ond ei orchymyn gan natur; ac yr esgeulusai dyn ei ddyledswydd at Awdwr ei

fodolaeth, at gymdeithas, ac ato ei hun, pe gadawai i unrhyw ddyn gymmeryd ymaith ei fywyd yn ddiwrthwynebiad." Fod dyn yn fforffetu ei fywyd ei hun i gleddyf cyfiawnder wrth ladd dyn arall heb un achos, sydd egwyddor anwrthwynebol. Gan mai felly y mae, yr wyf yn gofyn pa ham y dylwn oddef i un arall fy lladd, yn hytrach nag anturio achub fy hun trwy ladd fy ngelyn? Ni ddylwn ei oddef er mwyn cymdeithas; yr hon trwy fy ngwaith yn goddef i un arall fy lladd, sydd yn colli dau fywyd, sef bywyd dyn gonest trwy drais anghyfiawn, a bywyd ei lofrudd, os gellir ei alw yn golled, trwy law cyfiawnder. Tra na byddaf, wrth ladd yr ymosodwr ar fy mywyd, ond yn unig yn cymmeryd ymaith fywyd, yr hwn a fuasai oni bâi hyny yn cael ei fforffedu, a chadw bywyd dyn diniwed. Ac nid ydyw cariad at fy nghymmydog yn fy rhwymo i'w oddef; gan nad wyf mewn gwirionedd yn achub ei fywyd ef trwy golli fy mywyd fy hun, ond yn unig yn gadael iddo ef gael ei roddi i farwolaeth mewn dull mwy gwarthus gan y dienyddwr cyhoeddus. Ac os dywedir fy mod yn ei hyrddio ef i'r byd arall yn ei bechodau, am y rhai y gallasai fyw yn ddigon hir i edifarhau pe y gadawsid iddo gael ei gondemnio gan lys barn; gan fod yn rhaid i'r hwn a'm gosododd o dan yr angenrheidrwydd o arfer y dull hwn o achub fy hun, fod mewn sefyllfa ammharod, felly dichon nad wyf fi fy hun mewn sefyllfa barod, neu nad wyf mor sicr o hyny ag i anturio i bresennoldeb fy Marnwr mawr; ac nid oes unrhyw gariad yn fy rhwymo i ofalu mwy am ddiogelwch enaid dyn arall nag am ddiogelwch fy enaid fy hun."

Cyfeirir at achos tybiedig yn nghyfraith Moses ag sydd yn dangos y gellir cymmeryd bywyd dyn ymaith, heb droseddu y chweched gorchymyn, er amddiffyn ein bywydau ein hun, neu fywydau y rhai a roddwyd gan Ragluniaeth o dan ein gofal. "Os ceir lleidr yn tori tŷ, a'i daraw fel y byddo farw; na choller gwaed am dano. Os bydd yr haul wedi codi arno, coller gwaed am dano;" *Exod.* xxii. 2, 3. Y mae yn amlwg mai amcan y geiriau hyn ydyw dangos na ddylid cymmeryd ymaith fywyd hyd yn oed lleidr neu dorwr tŷ yn afreidiol. Os bydd yr haul wedi codi, tybid y gellid ei ddal a'i ddwyn i afael cyfiawnder, ac adferu yr eiddo yn gystal a chospi y troseddwr; ac yn yr amgylchiad hwn, yr oedd hyd yn oed bywyd lleidr i'w ddial â gwaed: ond os lleddid ef yn nhywyllwch y nos, nid oedd un dialedd o'r fath i fod. Cymmerid yn ganiataol fod y lleidr, yn y cyfryw amgylchiad, yn bwriadu ymosod ar fywyd yn gystal ag ar eiddo; ac yn mhellach, nad oeddid yn meddu yr un fantais i'w ganfod a'i ddal. Os dygwyddai i ddyn ladd yr ymosodwr yn nhywyllwch y nos, wrth geisio amddiffyn ei hun a'i eiddo, nid oedd awdwr ei farwolaeth i gael ei gospi:—"Na choller gwaed am dano."

Haera rhai fod pob math o hunanamddiffyniad, yn enwedig mor bell ag i ladd dyn arall er mwyn amddiffyn ein bywyd ein hunain, yn hollol groes i'r egwyddor a ddysgir yn ngeiriau Crist. "Clywsoch ddywedyd, Llygad am lygad, a dant am ddant. Eithr yr ydwyf fi yn dywedyd wrthych chwi, Na wrthwynebwch ddrwg: ond pwy bynag a'th darawo ar dy rudd ddeheu, tro y llall iddo hefyd;" *Mat.* v. 38, 39. Gwelir y gorchymyn, "llygad am lygad," yn *Exod.* xxi. 24; *Lef.* xxiv. 20; a *Deut.* xix. 21. Dylid cofio ei fod wedi ei roddi i reoli penderfyniadau barnwyr mewn llysoedd barn. Eu rheol hwy oedd cymmeryd llygad am lygad, a dant am ddant. Nid oes dim yn ngeiriau Crist yn dileu y rheol hon. Ond yn lle ei chyfyngu i ynadon, cymmerai yr Iuddewon hi yn rheol *bersonol*, gan honi ei bod yn rhoddi hawl iddynt i ddial ar eu gelynion—i wneuthur yr un drwg i ereill ag a wnaethid gan ereill iddynt hwy. Yn erbyn hyn y gwrthdystiai Crist. Ei amcan ef oedd dangos nad oedd un cyfeiriad yn y rheol at ddialedd personol—mai rheol i'r barnwyr ydoedd, i gospi drwgweithredwyr—a bod eu hymddygiadau personol hwy i gael eu rheoli gan egwyddorion gwahanol. Ond y mae yn sicr nad oedd Crist yn meddwl y dylem edrych ar ein teuluoedd yn cael eu llofruddio, neu y dylem gymmeryd ein llofruddio ein hunain heb ddangos un gwrthwynebiad. Mae deddf natur, yn gystal a'r ddeddf ddadguddiedig, yn cyfiawnhau hunan-amddiffyniad pan y bydd bywyd mewn perygl. Nis gallwn goledd y syniad am funyd fod Crist yn amcanu dysgu y dylai tad eistedd yn ddigyffro, ac edrych ar ei deulu yn cael eu cigyddio gan anwariaid, heb ganiatâd i'w hamddiffyn. Yr egwyddor a ddysgid ganddo ef oedd, mai gwell i ni mewn pethau bychain, mewn cymmhariaeth, ydyw dioddef cam, yn hytrach nag ymryson ac ymgyfreithio. Modd bynag, nid ydyw hyn yn ein hattal rhag gwrthdystio yn erbyn anghyfiawnder y peth.

Ystyrir yn gyffredinol hefyd ei bod yn gyfreithlawn lladd dyn er amddiffyn diweirdeb, pan na bydd un ffordd arall i'w amddiffyn.

HUNTINGDONIAID: plaid o Gristionogion; sef dilynwyr y selog a'r haelionus Selina, Iarlles Huntingdon. Yr oedd yn cymmeryd dyddordeb mawr yn llafur cenhadol Whitfield a Wesley; ac yr oedd yn gwerthfawrogi Whitfield i'r fath raddau fel y bu raid iddi gael ei wasanaeth fel caplan. Gwahoddodd y chwe gweinidog, a'r pedwar pregethwr a aethant i'r *conference* Wesleyaidd cyntaf a gynnaliwyd yn Llundain, yn 1744, i ddyfod i'w thŷ, lle y cawsant bob caredigrwydd. Pan ymwahanodd Wesley a Whitfield, ymlynodd wrth yr olaf, ac adeiladodd goleg yn Nhrefecca, yn Neheudir Cymru, yr hwn wedi hyny a symmudwyd i Cheshunt. Adeiladwyd llawer o gapelau trwy ei haelioni; a bu i'r cwynion cyfreithiol a ddygwyd yn erbyn rhai o'i gweinidogion, ynghyd â gwaith yr esgobion yn gwrthod ordeinio rhai o'i myfyrwyr, o'r diwedd yn foddion i dori y rhwymau oedd yn peri iddi hi a'i chyfeillion ymlynu wrth yr Eglwys Sefydledig. Mae gan gyfundeb Lady Huntingdon o ddeutu 109 o gapelau, y rhai sydd yn ddigon eang i gynnwys 38,727 o bersonau. Gelwir hwynt weithiau yn Fethodistiaid Calvinaidd Seisnig. Defnyddir ffurf-wasanaeth yr Eglwys Sefydledig yn gyffredin yn eu capelau, ac weithiau arferir y gwisgoedd Eglwysig. Mae eu cyffes ffydd, o ran ei sylwedd, yn gyffelyb i Erthyglau Eglwys Loegr.

HUPPA: offeiriad yn amser Dafydd, yr hwn a bennodwyd i wasanaethu ar y trydydd dyddgylch ar ddeg yn y deml: 1 *Cron.* xxiv. 13

HUPPIM: penteulu yn llwyth Beniamin; mab Bela, yn ol y Deg a Thrigain (*Gen.* xlv. 21); ond dywedir yn 1 *Cron.* vii. 12, mai mab Ir oedd efe, yr hwn oedd un o bum mab Bela: *adn.* 7. Yr oedd yr Huphamiaid, yn ol *Num.* xxvi., yn un o deuluoedd cyntefig llwyth Beniamin. Fe briododd chwaer Huppim un o lwyth Manaseh: 1 *Cron.* vii. 15.

Digitized by Google

na pherson unigol, yr hyn a rydd gyfrif boddhaol, fe allai, am ddefnyddio yr enw yn y rhif liosog. Yn y rhestr a geir yn *Num.* xxvi. mae yr enw wedi ei gyfnewid i Suham. Mae Husim yn cael lle mawr yn nhraddodiadau yr Iuddewon mewn cyssylltiad â'u coffadwriaeth am Ioseph, a chladdedigaeth Iacob yn Hebron.

2. HUSIM: un o linach Beniamin: 1 *Cron.* vii. 12. Y mae ffurf liosog yr enw i'w weled yn amlwg yn y lle hwn etto, o herwydd dywedir fod Husim "yn feibion" (*bene*) i Aher.

3. HUŠIM. Mae yr enw hwn yn digwydd eilwaith yn llinach Beniamin, fel enw ar un o wragedd Saharaim (1 *Cron.* viii. 8), a mam i ddau o'i feibion: *adn.* 11. Ni chyfeirir yn y lle hwn at ystyr lliosog yr enw.

HUSS, JOHN: y diwygiwr enwog o Bohemia, a anwyd yn Hussinecz neu Hussinez, ger Prague, Gorphenaf 6ed, 1369. Nid oedd ei rieni ond tlodion; ac yn mlynyddoedd ei ieuengctid, bu raid iddo yntau lafurio yn galed:—dysgyblaeth a fu yn ddiammheu o les iddo, er ei ddarparu gogyfer â'i yrfa ddyfodol. Ond llwyddodd ei dad i roddi iddo addysg dda. Wedi derbyn elfenau cyntaf addysg, aeth i brifysgol Prague, lle yr astudiodd athroniaeth a duwinyddiaeth o dan Stanislaus, o Znaim—gŵr o dueddiadau rhyddfrydig, oddi wrth yr hwn y derbyniodd Huss ei symbyliad cyntaf i'r cwrs hwnw o feddwl a gweithredu sydd yn ei hynodi mewn hanesiaeth eglwysig. Yn y brifysgol hon, yn 1396, y derbyniodd ei A. C., ac yn 1408 ei B. D. Yn 1400, appwyntiwyd ef yn gyffesydd i Sophia, brenhines Bohemia: yn 1401, daeth yn athraw duwinyddol yn y brifysgol: ac yn 1402, etholwyd ef i'r swydd o weinidog yn Nghapel Bethlehem; adeilad a gyfodasid ac a waddolasid gan John o Milheim, un o'r cynghorwyr brenhinol, a chan ddinasydd cyfoethog o Prague, o'r enw Creutz. Cyfodasid yr adeilad i'r dyben o bregethu ynddo yn nhafodiaith y Bohemiaid. Dengys yr appwyntiadau hyn pa mor uchel ydoedd Huss yn ffafr a barn ei gydgenedl, er nad oedd etto ond dyn ieuangc. Yr oedd ei weinidogaeth yn Nghapel Bethlehem yn bwysig iawn iddo ef, gan ei bod yn rhoddi cyfle iddo ymarfer y gallu neillduol hwnw oedd ynddo i anerch yn boblogaidd, ac i ddefnyddio y gallu hwn yn hyrwyddiad y mesurau diwygiadol hyny yr oedd eisoes wedi gosod ei galon arnynt.

Tra yr oedd etto yn efrydydd yn y brifysgol, yr oedd meddwl difrifol a chrefyddol Huss yn cael ei boeni yn fynych gan ffyniant ysgafnder ac anfoesoldeb yr offeiriaid, yn gystal a chan ofergoeledd, anwybodaeth, a drygioni dirfawr y rhan fwyaf o'i gydwladwyr. Ymddangosodd Huss yn nghanol tywyllwch mwyaf dygn y canoloesoedd, pryd yr oedd pob anwiredd yn un chwant yn cael lle yn yr eglwys, pryd yr oedd terfysg ac anghydfod yn bygwth ei dinystriad, a phryd yr oedd pob dyn a deimlai yn ei fynwes ryw gymmaint o barch i lwyddiant crefydd a moesoldeb yn gorfod gweinyddu yn y swydd o geryddwr a diwygiwr. Sylwa Mosheim, nad oedd un ysgrifenydd nac athraw o ddim enwogrwydd yn y bymthegfed ganrif heb deimlo ac amlygu gofid dirfawr o blegid sefyllfa druenus yr Eglwys Gristionogol; a rhagwelent ei dinystr, oddi eithr i Dduw gyfryngu a'i hachub. Yr oedd amryw wedi ymddangos eisoes yn Bohemia, ac wedi dyrchafu eu llais yn erbyn y llygredigaethau oedd yn ffynu. Yr oedd Miliez o Kremsia, Conrad o Waldhausen, John o Steikna, a Matthias o Janow, wedi bod yn gweithio yn olynol, ac yn raddol yn lefeinio meddwl y werin at well sefyllfa ar foesau a chrefydd. Yn ol traed y gwŷr hyn, wedi ei drwytho yn llwyr â'r un ysbryd, ac yn hollol gydnabyddus â'u gweithiau, cychwynodd Huss ar ei yrfa ddiwygiadol; a thrwy ei anerchiadau hyawdl, teimladwy, ac eofn yn Nghapel Bethlehem, eangodd derfynau y symmudiad gryn raddau. Ar y cyntaf, cyfyngai ei hun at byngciau oedd a wnelent yn unig a'r werin; ond yn raddol ymosododd yn nerthol ar gamweddau llygredig ac anfad yr offeiriaid. Y canlyniad fu, iddo ffurfio cylch bychan—ond ffyddlawn—o gefnogwyr yn mhlith y blaenaf; ond cynnhyrfodd gynddaredd a chasineb eithaf yr olaf.

Heblaw gweithiau y gwŷr a nodwyd uchod, yr oedd Huss wedi derbyn llawer o symbyliad i'w feddwl oddi wrth weithiau Wicliffe. Yr oedd wedi darllen rhai o honynt mor foreu a 1391; ond ymddengys na chawsant nemawr o ddylanwad arno hyd gyfnod diweddarach. Trwy eu darlleniad hwy, ennillwyd ef i gofleidio syniadau y Sylweddiaid mewn athroniaeth; ac er nad oedd yn cyttuno â holl ddaliadau duwinyddol Wicliffe, yr oedd yn ddiammheuol yn ddyledus iddo am lawer o wybodaeth grefyddol, a chydnabyddai hyny yn fynych, gan amlygu dymuniad fod ei enaid yn angeu yn myned i'r un lle a'r eiddo Wicliffe [*Æneæ Sylvii Hist. Bohem., pen.* 35]. Fel amddiffynydd Wicliffe y daeth Huss i wrthgyfarfyddiad gyntaf â Zbynek, archesgob Prague. Yn 1406, ymosododd y gŵr hwn at ddiwreiddio yr heresi Wicliffaidd yn ei esgobaeth, ac aeth cyn belled ag i alltudio a llosgi i farwolaeth amryw o'r rhai a goleddent syniadau y diwygiwr Seisnig, am na ddadgyffesent y syniadau hyny. Yn erbyn y creulondeb hwn, er nad oedd yn cyttuno â syniadau y rhai a ddioddefent, protestiodd Huss yn nerthol. "Pa fath beth yw hyn," ysgrifenai at yr archesgob—"pan y mae dynion sydd yn euog o ymlosgach a phob math o anfadrwydd yn diangc yn ddigosp, y mae offeiriaid tlodion, sydd yn dadwreiddio pechodau, yn cyflawni eu dyledswydd, ac yn meddu pob dyledus barch i'ch llywodraeth chwi, heb ddilyn oferchwant, ond yn rhad, er mwyn Duw, yn llafurio yn yr efengyl, yn cael eu taflu i garchar fel hereticiaid, ac yn dioddef alltudiaeth am bregethu yr efengyl?" Ymddengys fod y gwrthdystiadau hyn, ar y cyntaf, yn cael gwrandawiad gan Zbynek; o leiaf nid aeth yn mlaen y pryd hwn gydag erlediguaeth y Wicliffiaid, ac nid ymddengys fod Huss wedi ei gythruddo o blegid ei sel yn eu plaid. Ond cafwyd achos mwy pwysig yn erbyn Huss yn yr ymrafaelion oedd y pryd hyny yn cynnhyrfu holl deyrnasoedd cred, mewn canlyniad i'r ymraniad Pabaidd. Yr oedd yr archesgob wedi dyfod allan o blaid Gregory XII., yn erbyn Wenceslaus, brenin Bohemia, a chymmerodd Huss blaid y brenin, ac arferodd ei holl ddylanwad dros ei achos. Nid llawer o amser cyn hyn, digwyddodd amgylchiad—drwy ymdrechion Huss yn benaf—a fu yn foddion i gynnyddu i raddau helaeth ei allu i wasanaethu y brenin. Hyd yn hyn, yr oedd mwyafrif efrydwyr prifysgol Prague yn Germaniaid. Yr oeddynt yn bur lliosog, ac yn meddu y rhagorfraint o dair pleidlais yn mhob achos a berthynai i'r brifysgol, tra nad oedd gan yr efrydwyr Bohemiaidd ond un bleidlais. Yn erbyn hyn, fel gweithred anghyfiawn, yr oedd Huss, gyda chynnorthwy Jerome, ac ysbryd gwladgarol llawer o'u cydwladwyr, wedi bod yn llwyddiannus o'r diwedd yn ei ymdrechion. Yn

Digitized by Google

1409, rhoddodd y brenin y tair pleidlais i'r Bohemiaid, a'r un bleidlais i'r Germaniaid. Mewn canlyniad, ymneillduodd yr olaf fel plaid, yn rhifo, fe ddywedir, 5,000. Yn ebrwydd wedi hyny, dyrchafwyd Huss i fod yn llywydd y brifysgol; ond tra y galluogwyd ef fel hyn i wasanaethu y brenin yn fwy effeithiol yn erbyn yr archesgob a'r offeiriaid, bu y rhan a gymmerasai yn achlysuriad ymneillduaeth y Germaniaid, yn mhen amser, o niwed mawr iddo. Yr oedd drwy hyny nid yn unig wedi digio yn aruthr archesgob ac offeiriaid Bohemia, ond lliosogwyd gelynion iddo yn mhob man lle yr enciliasai yr efrydwyr a'r athrawon Germanaidd; tra y bu y golled a achoswyd gan ymadawiad cynnifer o breswylwyr Prague yn foddion i droi oddi wrtho ffafr ei gyd-ddinasyddion, ac i hyrwyddo ymdrechion ei elynion i godi plaid yn ei erbyn.

Yn bresennol, adnewyddodd yr archesgob ei erledigaeth ar y Wicliffiaid, a phenderfynai roddi taw cyflawn ar y diwygwyr o hyn allan. Yn 1410, awdurdodwyd ef gan y pab Alexander v., i attal pregethu mewn capelau preifat, ac i gasglu a llosgi holl weithiau Wicliffe. Yn ngwyneb hyn oll, parhaodd Huss i bregethu fel o'r blaen yn Nghapel Bethlehem, lle y gwrandewid arno fyth gan dyrfaoedd edmygus. Parodd hyn i'r archesgob ei gyhuddo wrth y pab o heresi; ac mewn canlyniad, gorchymynwyd iddo ymddangos yn Bologna, o flaen y cardinal Otto, o Colonna, i atteb drosto ei hun. Gwrthododd Huss ymddangos; ac o blegid hyny, esgymunwyd ef. Cadarnhawyd y condemniad hwn gan y cardinal Brancas, yr hwn y cyflwynasid yr achos i'w ystyriaeth; ond er i Zbynek ymdrechu rhoddi y condemniad mewn gweithrediad, yr oedd dylanwad Huss gyda'r brenin a'r bobl etto mor fawr, fel y gorfu iddo roddi yr ymgais i fyny, ac hyd yn oed i alw yn ol ei gyhuddiad o heresi, ac i erfyn ar y pab i ddileu y condemniad.

Yn 1411, bu farw yr archesgob Zbynek, a dilynwyd ef yn ei swydd gan Alric o Unitzow, gŵr nad oedd ganddo ddyddordeb o gwbl mewn ymrafaelion yn achos y brenin. O dan ei lywodraeth ef, gallasai Huss fod mewn heddwch, pe na buasai i amgylchiadau ei orfodi i gymmeryd sefyllfa fwy gwyrthwynebus fyth i lygredigaethau y Babaeth. Yn 1412, anfonwyd archlythyr gan y pab, yn gorchymyn croesgad yn erbyn Ladislaus, brenin Naples, gan addaw maddeueb gyflawn am bob drwg i bob un a ymunai â'r groesgad, neu a roddai arian at yr ymgyrch. Cynnhyrfodd hyn eiddigedd Huss i'r eithaf, ac ymosododd yn ffyrnig ar yr archeb gyda'i dafod a'i ysgrif-bin. Yn hyn, ymunwyd âg ef yn selog gan Jerome; yr hwn, heb fod yn foddlawn ar dywallt ei hyawdledd tanllyd ar y pwngc, a aeth i goeg-gyhoeddi llythyr maddeuant y pab hyd yr heolydd, yr hwn lythyr a grogasai am wddf putain gyffredin, ac a losgwyd wedi hyny ar ganol yr heol. Fel y gellid meddwl, cynnhyrfodd yr ymdrafodaethau hyn ddigofaint y pab: yr oedd yn ormod hyd yn oed gan y brenin ei oddef; ac mewn canlyniad, pan osodwyd Huss eilwaith o dan gondemniad y pab, bu raid iddo ymostwng. Gadawodd Prague yn 1413, ac ymneillduodd i Hussinecz; ond cyn hyny, appeliodd oddi wrth y pab at Grist dros uniondeb ei olygiadau, y rhai a amddiffynodd mewn llyfr a alwodd *De Ecclesia.* Yn Hussinecz, defnyddiodd ei amser i ysgrifenu llythyrau at ei gyfeillion, i gyfansoddi amddiffyniadau chwanegol i'w olygiadau, ac i bregethu yn achlysurol yn y meusydd agored.

Yn y cyfamser, nid oedd ei elynion wedi ei anghofio, nac wedi ildio yn eu penderfyniad i'w ddinystrio. Yn 1414, agorwyd Cynnadledd Constance, lle y gorchymynwyd i Huss ymddangos i atteb y cyhuddiad o heresi. Er fod y gorchymyn hwn o eiddo yr ymherawdwr Sigismund yn peri iddo ymddangos o flaen "gelynion lliosog a marwol iddo," cydymffurfiodd âg ef yn eofn, wedi ymddiried ei hun yn gwbl i'w Dduw a'i Iachawdwr, oddi wrth yr hwn y disgwyliai am ddoethineb a chyfarwyddyd, fel y gallai atteb ei gyhuddwyr, a sefyll yn gadarn dros y gwirionedd [*Bonnechose's Lettres de Jean Hus*, td. 82]. Ond cyn ymadael o Prague, amcanodd amddiffyn ei ddiniweidrwydd drwy ymostwng i gael ei holi o flaen y chwiliedydd (*inquisitor*) Pabaidd, yr hwn ni chaffai ddim yn hereticaidd ynddo. Hefyd, derbyniodd oddi wrth yr ymherawdwr lythyr o amddiffyniad yn ystod y daith, ac oddi wrth y pab derbyniodd y sicrwydd cryfaf o'i nawdd. Yn cael ei ddilyn gan amryw bendefigion Bohemiaidd, gadawodd Prague ar yr 11eg o Hydref, a chyrhaeddodd Constance ar y 3ydd o Dachwedd. Am y pedair wythnos cyntaf o'i arosiad yno, ni wnaed ac ni ddywedwyd dim ynghylch ei achos. Gan ddisgwyl y caffai gyfarch y cynghor, defnyddiodd y cyfamser i barotoi ei amddiffyniad. Ond ni fwriadai ei elynion iddo gael y fath ragorfraint. Ar yr 28ain o Dachwedd, taflwyd ef i ddaeargell ffiaidd; ond trwy gyfryngiad yr ymherawdwr, symmudwyd ef oddi yno i ystafell lanach ac iachach, lle yr arosodd mewn caethiwed llym hyd y 24ain o Fawrth, 1415. Wedi hyn, er gwaethaf gwrthdystiadau y barwniaid Bohemiaidd, symmudwyd ef i gastell Gottleben, lle yr ymddygwyd ato gyda'r llymder mwyaf, o dan yr hyn y bu i'w iechyd, yr hwn oedd eisoes wedi gwanychu yn fawr, adfeilio yn llwyr. O'r diwedd, wedi curio gan afiechyd, a diffygio gan ddioddefaint, dygwyd ef o flaen y cynghor; ond ymddygwyd ato yma fel un oedd eisoes wedi ei gondemnio. Ar ei ymddangosiad cyntaf, Mehefin 5ed, pa bryd bynag y ceisiai efe siarad yn ei amddiffyniad ei hun, gwaeddid a thrystid yn y fath fodd fel nas gellid deall gair a ddywedai; ond ar ei ail a'i drydydd ymddangosiad, Mehefin 7fed ar 8fed, rhoddwyd attalfa ar y trystio gwaradwyddus hwn gan bresennoldeb yr ymherawdwr; ond ychydig o ryddid a gafodd Huss er hyn i amddiffyn ei hun. Mynai y cynghor, er ei waethaf, briodoli iddo gyfeiliornadau na chofleidiodd mo honynt erioed, ac ni fynent ddim ganddo ond dadgyffesiad trylwyr o honynt. Yn ofer y gofynai "Pa fodd y dadgyffesaf yr hyn ni honais erioed?" Yr oedd y cynghor yn anargyhoeddadwy ac ystyfnig, a thaflwyd Huss eilwaith i garchar, lle yr oedd i wneyd i fyny ei feddwl, naill i farw neu i ddadgyffesu. Gwnaed amryw ymdrechion gan genhadau oddi wrth y cynghor i beri iddo ddadgyffesu; ond fel yr oedd diwedd y merthyr yn nesau, ymddyrchafodd ei ysbryd o'i fewn, a glynodd yn ddiysgog wrth lwybr cyssondeb a gwirionedd. "Yr wyf yn ysgrifenu hyn," meddai, mewn llythyr at ei gyfeillion yn Prague, "mewn carchar ac mewn cadwynau, gan ddisgwyl yfory gael fy nghondemnio i farw, ac yn llawn o obaith yn Nuw na bydd i mi gilio oddi wrth y gwirionedd, na dadgyffesu cyfeiliornadau a briodolir i mi gan dystion gau." Cyhoeddwyd y condemniad disgwyliedig ar y 6ed o Orphenaf, yn mhresennoldeb yr ymherawdwr a'r cynghor. Pan ddarllenwyd ef iddo, syrthiodd ar ei liniau, a dywedai,

Digitized by Google

"Arglwydd Iesu, maddeu i fy ngelynion! Gan y gwyddost fy mod wedi fy nghyhuddo ar gam ganddynt, ac iddynt ddefnyddio gau-dystiolaethau ac athrod yn fy erbyn, maddeu iddynt er mwyn dy fawr drugaredd." Chwarddodd ei elynion yn uchel, fel yr esgynai y weddi hon drostynt i'r nefoedd; ac yna tynwyd ei wisg offeiriadol oddi am dano, a gosodwyd meitr o bapur ar ei ben, gyda darluniau o gythreuliaid wedi eu tynu arno, ynghyd â'r geiriau "Arweinydd hereticiaid!" ac yna dywedai ei farnwyr, "Yn awr, cyflwynwn dy enaid i'r cythreuliaid uffernol." "Ond yr wyf fi," ebe Huss, gan godi ei lygaid tua'r nefoedd, "yn cyflwyno fy enaid, yr hwn a brynwyd genyt ti, i'th ddwylaw di, O Arglwydd Iesu Grist!" Yna arweiniwyd ef i le y dienyddiad. Pan rwymwyd ef wrth yr ystangc, dywedai, "Yn ewyllysgar y gwisgaf y cadwynau hyn er mwyn Crist, yr hwn a wisgodd rai garwach fyth." Unwaith drachefn gofynwyd iddo ddadgyffesu; ond ei atteb ydoedd, "Pa gyfeiliornad a ddadgyffesaf, pan nad wyf yn ymwybodol o un? Prif amcan fy mhregethau ydoedd dysgu edifeirwch a maddeuant pechodau yn unol â gwirionedd efengyl Iesu Grist, ac âg esboniadau y tadau sanctaidd; gan hyny yr wyf yn barod i farw gyda chalon lawen." Yna taniwyd y ffagodau; ac fel yr oedd eu fflamau a'n mwg yn ymesgyn o gylch y merthyr, gwaeddai allan "Iesu, Fab y Duw byw, cymmer drug redd arnaf." Dywedodd hyn ddwywaith; ond cyn y gallai orphen yr ymadrodd yr ail waith attaliwyd ei lais gan y fflamau, y rhai a chwythid gan y gwynt tuag ato. Etto, symmudai ei wefusau megys mewn gweddi, a daliai yn ddiysgog nes gollwng ei anadliad diweddaf. Wedi i'r fflamau wneyd eu gwaith, casglwyd ei ludw, a chludwyd hwy i'r Rhine, fel na lygrid y tir gan un gronyn o honynt, ac na chaffai ei gyfeillion dalu y parch lleiaf i'w weddillion.

HUSSAB: yn ol opiniwn cyffredin yr Iuddewon, oedd brenhines Ninefeh yn y cyfnod yr oedd Nahum yn traddodi ei broph wydoliaeth. Ac ymddengys fod y golygiad hwn yn cael ei ddilyn yn ein cyfieithiad ni (*Nah.* ii. 7), ac amddiffynwyd ef yn ddiweddar gan Ewald. Fodd bynag, mae y nifer mwyaf o esbonwyr diweddar yn tueddu i gredu nad yw Hussab yn enw priodol mewn un modd: ond y mae cryn anhawsder i ddeall yr adran yn yr ystyr hon, er nad ydyw yn annhebygol wedi y cwbl nad enw priodol ydyw Hussab. Mae yn dra annhebygol y buasid yn crybwyll mor ddisymmwth am frenhines Ninefeaidd, yr hon ar amryw ystyriaethau oedd yn gwbl anadnabyddus; o herwydd nis gallwn gydsynio â'r hyn a ddywed Ewald, fod y "brenhinesau Ninefeaidd bron mor alluog a chyhoeddus a'r brenhinoedd." Nid oes un rheswm yn erbyn cymmeryd y gair fel ymadrodd *daiaryddol*, cyfystyr â'r gair *Assyria*, neu gynnrychiolydd iddo, yr hon a fygythid gan y prophwyd. Fe allai fod Hussab yn dynodi "gwlad y *Zab*," neu y rhandir ffrwythlawn o du y dwyrain i'r Tigris (*Zab Ala* a *Zab Asfal*), sef A-*diab*-ène y daearyddwyr. Gallai y dalaeth hon—y rhan werthfawrocaf o Assyria—yn eithaf priodol gynnrychioli holl Assyria, gyda'r hon yr unir hi gan Pliny [*Historia Naturalis*, v. 12] ac Ammianus [xxiii. 6]. Mae yr enw *Zab*, fel y cymmhwysir ef at afonydd, yn dra hen; o herwydd ceir ef ar gerfysgrifau Tiglath-Pileser I., tua chanol y ddeuddegfed ganrif cyn Crist.

HUSTINGWYR (o *husting* = sisial, cario chwedlau, &c). Y mae y gair yn digwydd yn *Esa.* viii. 19; a xxix. 4; ac yn golygu yno yr hyn a elwir yn *ventriloquism*; sef peri i'r llais siarad yn y fath fodd fel ag i argyhoeddi y gwrandawyr ei fod yn dyfod o gyfeiriad neu oddi wrth wrthddrych gwahanol i'r hwn oedd yn siarad. Yr oedd y dewiniaid — merched gan mwyaf—yn gwneyd llawer o'r gallu hwn i dwyllo yr anwybodus. Gwel BOL-LEFARIAETH. Yn *Diar.* xvi. 23; a xviii. 8; *Rhuf.* i. 30; ac yn 2 *Cor.* xii. 20, yr ydym yn cael y gair yn ei ystyr briodol o enllibio, neu gario chwedlau yn gyfrinachol am gymmydogion. Gwel ENLLIB.

HUTCHINSONIAID: enw a roddid ar ychydig o athronwyr ac esbonwyr duwiol, canlynwyr John Hutchinson. Ganwyd ef yn Spennythorpe, sir Gaerefrog, yn 1674: derbyniodd addysg dda: daeth yn naturiaethwr brwdfrydig, a chasglydd ffosylau: bu yn stiward i'r dug o Somerset, ac wedi hyny yn *Master of the Horse* i George I. Yn 1724, cyhoeddodd ei *Moses Principia*, gyda'r amcan o ddymchwelyd *Principia* enwog Newton. Yr oedd ei gyhoeddiadau diweddarach yn bur lliosog; ac wedi ei farwolaeth, casglwyd a chyhoeddwyd y cyfan mewn deuddeg o gyfrolau wythplyg, yn 1748. Ei brif syniadau ef oedd y rhai hyn:—fod y Beibl yn cynnwys cyfundraeth gyflawn o athroniaeth naturiol: nad ydyw yr Ysgrythyrau Hebreig mewn un man yn dysgu fod yr haul yn symmudol, na'r ddaear yn sefydlog: eu bod yn arddangos y gyfundrefn greedig fel *plenum* (sylwedd), heb ddim *vacuum* (gwagder) o gwbl; a bod attyniad, a'r cyffelyb, yn hollol afreidiol i symmudiadau natur, gan y dygir hwy yn mlaen gan beiriannwaith y nefoedd, yn ei ffurf driphlyg o dân, goleuni, ac ysbryd, neu awyr—y galluoedd a osodwyd i weithredu ar y dechreu: fod y nefoedd serenog, wedi ei ffurfio yn y modd hwn gan ddoethineb yr Anfeidrol, yn arwyddlun sefydledig a gweledig o *Iehofah Aleim*, y Tragwyddol Dri, y gogyfuwch a'r cyd-deilwng Drindod yn Undod; fod unoliaeth sylwedd y nefoedd hon yn cyfeirio at unoliaeth hanfod, a neillduolrwydd personol personau y Duwdod, heb gydgymmysgu y personau na rhanu y sylwedd: ac yn gymmaint a'i bod wedi ei chreu yn arwyddlun, fod y nefoedd hon yn cael ei galw yn Hebraeg *shemin*—yr enwau, y cynnrychiolion, neu yr arddangosiadau; gan ddangos fel hyn drwy eu henwau eu bod yn arwyddluniau, a thrwy eu swyddau pa beth neu bethau y maent yn arwyddluniau o honynt. Dychymmygai Hutchinson hefyd fod yr Ysgrythyrau Hebreig yn cynnwys rhai geiriau mewn llythyrenau mawrion (*capital*), y rhai, fel y tybiai, oedd yn cynnwys yn eu hystyr wreiddiol y gwirioneddau mwyaf cysurlawn. Fel hyn, darllena y gair *Elohim*, yn Aleim, a chyfeiria ef at y llw a wnaed rhwng personau y Drindod mewn cyfammod o ras. Esbonia y gair *berith*, yr hwn a gyfieithir "cyfammod" yn y Beibl Cymraeg, fel yn golygu "efe, neu yr hyn sydd yn puro"—y *Purwr*. Dealla mai arwyddlun (*hieroglyphic*) oedd y cerub er addysgiad dwyfol, neu eilun cyssegredig i ddisgrifio, mor bell ag y gall ffugrau fyned, yr Aleim a dyn, neu ddynoliaeth mewn undeb â'r Duwdod.

Y mae cyfundraeth ieithyddol Hutchinson yn ffurfio rhan o gynsail yr eiddo Bates a Parkhurst. Hefyd, cefnogid ei syniadau gan yr esgob Horne, a Romaine, Jones, Spearman, Catcott, a Lord President Forbes, o Culloden, yr

Digitized by Google

Ysgotland. Ond ni chymmerir nemawr o sylw o honynt gan ddysgedigion a duwinyddion diweddar.

HWNT: ymadrodd a ddefnyddir yn fynych yn y Beibl mewn cyssylltiad â'r Iorddonen, "y tu *hwnt* i'r Iorddonen," – a'r hyn a ddynodai yr ochr arall i'r afon. Gwel IORDDONEN.

HWRDD. Gwel DAFAD, ac ABERTHAU.

HWCH. Gwel MOCH.

HWYR. Defnyddir y gair hwn mewn amryw gyssylltiadau; ond y mae bob amser yn cynnwys y syniad o *ddiweddarwch;* megys diwedd y dydd, neu y cytnos:—"a'r *hwyr* a fu, a'r boreu a fu, y dydd cyntaf;" *Gen.* i. 5. Diwedd einioes; diwedd llwyddiant a hawddfyd:—"Cysgodau yr *hwyr* a ymestynasant;" *Ier.* vi. 4. Diwedd unrhyw amser gosodedig i fyned, dyfod, neu gyflawni unrhyw beth:—

"*Hwyraf* dial dial Duw;
Llwyraf dial dial Duw." *Diareb.*

HWYLBREN. Gwel LLONG.

HYACINTHUS, (=ὑάκινθος; Saes. *Jacinth*): maen gwerthfawr, yn ffurfio rhan o sail un o furiau Ierusalem Newydd: *Dad.* xxi. 20. Ymddengys mai yr un peth a feddylir wrth yr Hebraeg *leshem*, yr hwn a gyfieithir yn Gymraeg "lygur:" *Exod.* xxviii. 19. Yr oedd y *leshem* yn un o feini dwyfroneg yr archoffeiriad. Math o sargon ydyw yr hyacinth, yr hwn a geir yn rheiddyllau (*prisms*) ysgwâr, o liw gwyn, llwyd, coch, coch-lwyd, melyn, neu felynwyn. Delidfaen grisialaidd ydyw y lygur, o liw melynwyrdd, neu liw yr afal. Ceid ef yn Liguria, yn ngogleddbarth Italy, oddi wrth yr hwn le y tardd ei enw. Dywedid fod yn perthyn iddo allu attyniadol, fel y sydd gan y gwefr (*amber*) [*Theophrastus*, *History of Precious Stones*. *pen.* 28], ac le allai mai mewn cyfeiriad at yr ansawdd hwn y geilw y Deg a Thrigain ef yn *ligurion* (fel o *lichein*, "llyfu").

Y mae *hyacinthus* yn enw gan lysieuwyr ar y planhigyn a elwir yn gyffredin "botasau y gog." Galwyd ef yn *hyacinthus*, medd rhai, oddi ar debygolrwydd lliw ei flodeuyn i'r eiddo un dosbarth o'r perl o'r un enw; ond mwy tebygol ydyw iddo gael ei alw felly oddi wrth y Groegwr ieuangc Hyacinthus; yr hwn, medd chwedloniaeth ei genedl, a laddwyd gan Apollo, ac a dröwyd yn blanhigyn fel hyn. Y mae llawer dosbarth o hono, a blodeua rhai dosbarthiadau yn nodedig o brydferth.

HYDRED a LLEDRED. Gwel *d. g.* MAP.

HYDD: carw. Yr oedd yn un o'r creaduriaid bwytadwy dan y gyfraith: *Deut.* xii. 15; xiv. 5; xv. 22. Ac oddi wrth yr ymadroddion hyn, ynghyd â 1 *Bren.* iv. 23, gellid meddwl ei fod yn un o'r rhai mwyaf cyffredin fel ymborth. Yn *Esa.* xxxv. 6, defnyddir ei fywiogrwydd fel enghraifft o gyflymder, er mai yr iwrch a ddefnyddid fynychaf gan yr ysgrifenwyr ysbrydoledig yn y cyssylltiad hwn. Yn *Salm* xlii. 1, bernir fod terfyniad benywol y ferf *brefa* (yn Hebraeg), yn awgrymu mai yr ewig a olygir. Ac yn *Galar.* i. 6, y darlleniad cywir ydyw "hyrddod," (אילים) fel y mae yn y Deg y Thrigain a'r Vulgate.

HYENA. Y mae yn ammheus pa un ai *hyena*, ynte "aderyn brith," y dylesid cyfieithu *tzâbû'a* yn *Ier.* xii. 9. Y mae ystyr y gair yn cael ei gadw yn y naill fel y llall, gan fod yr hyena yn *frith*. Nid yw y gair yn digwydd ond mewn dau le arall yn y Beibl, sef 1 *Sam.* xiii. 18, a *Neh.* xi. 34; ac yno y mae yn enw priodol—*Zeboim*= "dyffryn yr hyeniaid." Dyna yr ystyr a rydd Aquila i'r gair. Disgrifir yr hyena gan ysgrifenwyr y Talmud o dan bedwar o wahanol enwau, o'r rhai y mae *tzâbû'a* yn un [*Lewysohn's Zoology*, adr. 119]. Y mae Bochart [*Hieroz.*, ii. 163], a Gesenius [*Thes.*, td. 1149], o blaid yr un golygiad o barth i *Ier.* xii. 9; ac nis gallai fod ammheuaeth, pe na buasai am y gair *ait*, sef "aderyn" sydd mewn cyssylltiad â *tzâbû'a*, yr hwn sydd bob amser yn cyfeirio at aderyn. Yr oedd yr hyena yn gyffredin yn yr Aipht mewn hen amseroedd fel yn awr; a gwelir darluniau o hono ar ei cholofnau yn barhaus [*Wilkinson*, i. 213, 225]. Rhaid felly ei fod yn eithaf adnabyddus i'r Iuddewon, os nad oedd, yn wir, yn llawn mor gyffredin yn Palestina. Yr unig anifail gwyllt a welodd Stanley [*Syria and Palestine*, td, 162, nodyn] yn y wlad hono ydoedd yr hyena. Y mae ystyr yr ymadrodd yn *Ieremiah* yn awgrymu anifail cryf, ffyrnig, heb fod nemawr israddol i'r llew, yn yr ymadrodd cyferbyniol (v. 6); ac y mae yr hyena yn cyfatteb yn llawn i'r disgrifiad yma. Er ei fod yn llwfr o ran ei



DAR. 359—HYENA.

natur, y mae yn bur ffyrnig pan unwaith yr ymosoda, ac y mae nerth ei enau y fath fel y gall falurio asgwrn clun ych [*Livingstone's Travels* td. 600]. Cyfyngir yr hyena yn hollol i Affrica ac Asia. Y mae tri dosbarth o hono yn adnabyddus: yr ystripiog, yr ysmotiog, a'r llwydgoch. Chwilia am ei ysglyfaeth yn y nos, gan drigo y dydd mewn ogofeydd. Y mae yn nodedig o wangcus, ac yn byw yn benaf ar gyrph meirw, y rhai a godir ganddo yn fynych o'u beddau. Cyn y cyfnod a elwir gan ddaearegwyr yn rhewllyd (*glacial period*), yr oedd Prydain a Ffraingc yn heidio o'r creadur hwn, fel y gwelir oddi wrth gyflawnder ei weddillion yn ogofeydd y gwledydd hyn.

HYGOEL—EDD: argyhoeddusrwydd, coelgarwch. Y dyn *hygoel* ydyw yr hwn y mae yn hawdd ganddo gredu unrhyw beth, heb ddigon o dystiolaeth o'i blaid. "Tu hwnt i bob *hygoeledd*," medd Dr. Samuel Clarke, "y mae hygoeledd anffyddwyr, y rhai sydd yn credu y gallai damwain wneyd y byd, pryd nas gall godi tŷ." "Fel na thwyllo neb chwi âg ymadrodd *hygoel*;" *Col.* ii. 4. Geiriau heb unrhyw sail iddynt yn yr Ysgrythyrau; addysgiadau gau athrawon.

HYLLDREMU: edrychiad beiddgar, cuchiog,

Digitized by Google

ffyrnig. Y mae y gair yn digwydd yn y Beibl yn *Exod.* xix. 21, yn unig, lle y gorchymynir i'r bobl, ynglyn â chyhoeddiad y ddeddf oddi ar Sinai, i beidio "rhuthro at yr Arglwydd i *hyll-dremu.*" Y mae y wers a ddysgir yn y geiriau yn un o reolau cyffredin moesgarwch rhwng dyn a dyn, ac y mae y trosedd o'r rheol yn fwy yn ol mawredd y person y dylid arfer y rheol tuag ato, fel yr oedd manyldrem ac uchelgais beiddgar dyn meidrol a llygredig i ddeall dirgelion Duw sanctaidd ac anfeidrol yn drosedd o'r fath fwyaf anfad. Gosodid hyd yn oed Moses ar ei wyliadwriaeth (*Exod.* iii. 3), a chospwyd amryw diystyr â marwolaeth.

HYMENEUS: un a broffesai Gristionogaeth yn Ephesus, a'r hwn, ynghyd âg Alexander (1 *Tim.* i. 20), a Philetus (2 *Tim.* ii. 18), a giliasant oddi wrth y gwirionedd, gan arwain ereill ar gyfeiliorn. Yn yr ymadrodd cyntaf y cyfeiriwyd ato, cawn yr apostol yn traddodi Hymenëus ac Alexander i Satan, "fel y dysgent na chablent;" ac ymddengys oddi wrth yr ail adnod y cyfeiriwyd ati mai y "cabledd"—o leiaf cabledd Hymenëus a Philetus—ydoedd "dywedyd ddarfod yr adgyfodiad eisoes." Y mae y geiriau "rhoddais i Satan," yn gystal a'r rhai olaf a gofnodwyd, yn amgylchynedig â llawer o dywyllwch. Y syniad mwyaf cyffredin yn mhlith dysgedigion ydyw, eu bod yn deall yr adgyfodiad mewn ystyr ffugrol, sef mai y cyfnewidiad mawr a gynnyrchasid gan oruchwyliaeth yr efengyl ydoedd. Barna rhai eu bod wedi eu camarwain gan eiriau yr apostol yn ei Epistol at yr Ephesiaid (*pen.* ii. 1—5); ond y mae hyn yn bur annhebygol, o blegid os camddeallasant y geiriau hyn, nid oedd eisieu iddynt ond hysbysu hyny, a buasai yn hawdd i'r apostol eu cywiro. Ac heblaw hyny, ymddengys fod un o honynt yn elyn personol i Paul (2 *Tim.* iv. 14), ac yn bur annhebyg o gyfeirio ato fel awdurdod. Y mae rhai beirniaid, megys Dr. Mosheim, yn meddwl mai dau berson gwahanol ydyw Hymenëus y ddau epistol at Timotheus. Gosodir pwys mawr gan Dr. Mosheim, ar y geiriau "a roddais i Satan." Ond pa beth bynag yw ystyr yr ymadrodd hwn, y mae yn ddiammheu fod y gospedigaeth wedi ei bwriadu er lles ac adferiad y personau yr oedd a fyno â hwynt [cym. 1 *Cor.* v. 5]; ac felly, fod yr ymadrodd yn mhell o fod yn amlygu eu bod wedi eu gollwng i annuwioldeb diobaith. Ac nid ydyw y geiriau yn yr ail epistol yn awgrymu troseddiad llai pwysig o'r gwirionedd na'r rhai hyny yn y cyntaf. Os dywedir yn y cyntaf fod y personau wedi "gwrthod cydwybod dda," a gwneyd "llongddrylliad am y ffydd," disgrifir hwy yn yr ail fel yn ymhyfrydu mewn "halogedig ofer-sain" yr hyn a gynnyddai "i fwy o annuwioldeb;" fel wedi "cyfeiliorni o ran y gwirionedd," a "dadymchwelyd ffydd" ereill. Prin y gellid dyweyd hyn am "ddau gymmeriad gwahanol, heb ddim yr un fath ynddynt ond eu henwau" [*Mosheim's Commentaries*, i. 304—306]. Y mae yn sicr mai yr un person a olygir wrth Hymenëus yn y ddau epistol at Timotheus ydyw syniad y mwyafrif o ddysgedigion Beiblaidd, hen a diweddar.

HYMNAU—YDDIAETH. Cyfeirir at hymnau yn y Beibl mewn tri o fanau yn unig; sef yn *Mat.* xxvi. 30; *Eph.* v. 19; a *Col.* iii. 16; ac yn y ddau le olaf, cyssylltir y gair â dau ereill o ystyr cyffelyb, "salmau," ac "odlau ysbrydol." Bernir mai wrth "salmau a hymnau" y dylid deall cyfansoddiadau barddonol yr Hen Destament yn benaf; ac fod y gair "ysbrydol," a gyssylltir â'r "odlau," yn dynodi yr ymollyngiadau gorfoleddus a gynnyrchid gan y "rhoddion" ysbrydol a ganiateid i'r Cristionogion cyntefig. Ond yn 1 *Cor.* xiv. 26, gelwir cynnyrchion o'r natur olaf yn "salmau." Tybir yn gyffredin mai y rhan ddiweddaf o'r *Hallel*, neu y salmau a genid yn gyffredin gan yr Iuddewon ar noswaith y Pasg, sef *Salm* cxiii. a cxviii. ydoedd yr hymn a genid gan Grist a'i ddisgyblion ar nos y bradychiad, yn yr oruwchystafell. Cenid *Salm* cxiii. a cxiv. cyn, a'r gweddill wedi y Pasg.—*Buxtorfü, Lex. Talm.*, yn cael ei ddyfynu gan *Kuinoel ar Mat.* xxvi. 30; *Lightfoot's Heb. & Talm. Exercitations*, xi. 435.

Ychydig a wyddys am hymnyddiaeth yr eglwysi boreuaf. Dywedir mai Hilary, esgob Poictiers, oedd y cyntaf a gyfansoddodd hymnau i'w canu yn yr eglwys, ac i Ambrose hefyd ei ddilyn yn hyn. Cyfansoddwyd llawer gan Prudentius. Yr oedd hymnau yr eglwys foreuol yn syml ac effeithiol; a chenid salmau yr Hen Destament yn gyffredin. Nid oes ond ychydig o'r hymnau hyn ar gael yn bresennol. Y mae yr hynaf y mae genym hanes am dani i'w gweled yn y *Pædagogue*, gan Clement o Alexandria.

Yr hymnau rhagoraf yn mhlith y Saeson ydyw yr eiddo Watts, Wesley, Doddridge, a Newton. Gyda golwg ar hymnyddiaeth y Dywysogaeth, gwel HYMNYDDIAETH GYMREIG. Gwel hefyd CERDDORIAETH.

HYMNYDDIAETH GYMREIG. Cynnwysir pob peth perthynol i hymnau yn y gair *hymnyddiaeth*. Geiriau cyfystyr, yn arwyddo moliant, yw hymn a salm, er yr arferir y blaenaf yn awr i ddynodi mawl-eiriau cyssegredig o waith dynion cyffredin, a'r olaf i ddynodi mawl-eiriau o waith dynion dan ddwyfol ysbrydoliaeth. Gwelwn oddi yma fod hymn yn farddoniaeth, yn perthyn i'r rhyw uchaf o hono, sef cerddfoliant i Dduw—tad y gân—a'r hwn yn unig sydd yn deilwng o'i derbyn;—yn farddoniaeth arwestol, sef cân yn gofyn cymmhorth per seiniau cerddoriaeth i'w gosod allan mewn grym ac effeithioldeb. Y mae cyfansoddiadau barddonol nas gellir eu canu gyda thôn a goslef: un felly yw *Coll Gwynfa*, a'r awdlau, a'r cywyddau, a'r englynion Cymreig; er, fe allai fod yr hen Gymry celfyddgar yn arfer dadgan eu caniadau plethedig a chywrain gan dant. Enaid a sylwedd barddoniaeth yw iaith danllyd a chynnhyrfus y nwyd a'r dychymmyg, o dan lywyddiaeth barn a rheswm; a barddoniaeth o ran y wisg, neu yr addurn allanol, yw iaith briodol i'r syniadau, wedi ei chyfleu mewn dull cyngherddol a hysain, o ran corfan, accen, cynghanedd, ac odl; yn fyr, miwsig geiriau. Y pethau hyn sydd yn gwahaniaethu barddoniaeth oddi wrth iaith rydd.

Mae barddoniaeth gyssegredig yn hen gelfyddyd seiliedig ar natur. Gallasai cerddorion y cynfyd wrando ar yr adar yn telori, y daran yn rhuo, y gwynt yn chwiban, a'r llifeiriant yn gohyrddu, a chael drychfeddwl uchelryw am fiwsig a defnyddiau at gyfansoddi eu halawon.

Yr hymn hynaf yn y byd yw Cân Moses ar draethell Môr Edom, pan oedd Pharaoh a'i fyddin wedi eu claddu o dan yr heli chwyddedig. Yr oedd yno awdl ardderchog a goruchel, a cherddoriaeth orfoleddus y gwaredigion yn gymmhlethedig: y dyrfa ddiangol yn llawen-byncio lleisiongerdd i

Digitized by Google

Dduw, a'r tympanau a'r offer cerdd yn cynnorthwyo i roddi grym a dylanwad i'r gyngherdd.

Mae cenedl y Cymry eiroed yn hoff iawn o awen a chân. Y mae iachusrwydd a chryfder y genedl, bywiogrwydd eu tymmerau, a grym eu hathrylith yn ddigon i roddi cyfrif am hyn. Mae eu hen farddoniaeth yn gyffredin ar destynau cyffrous. Clod gwroniaid milwraidd, galargŵyn ar ol y dewr a'r anffodus mewn rhyfel, neu fawl merch, yw y rhan fwyaf o'r hen farddoniaeth. Yn llewyrch y gân, tra yr elai y corn hirlas oddi amgylch yn llawn o'r medd melyn, y treuliai yr hen Gymry eu gŵyliau yn llawen, ac yr ysgydwent eu gofidiau i'r gwynt. Ac y mae lliosogrwydd a rhagoroldeb eu hymnau, effeithioldeb eu hen dônau crefyddol, ac amlder eu cantorion, yn brawf fod eu hen ysbryd yn fyw ac yn ei lawn nerth a'i iechyd etto; ond ei fod wedi cael ei gyssegru i ddybenion pwysicach.

Yn nechreuad Cristionogaeth, arferai y brif eglwys ganu mawl yn gynnulleidfaol. Nid oedd y byd annuwiol yn cael clywed eu hymnau, na neb yn dysgu y gân ond y rhai a brynwyd oddi ar y ddaear. Canent y Salmau Iuddewig, a mawl-eiriau priodol allan o'r Ysgrythyr Lân. Bu ammheuaeth a dadl unwaith ynghylch y priodoldeb o ganu hymnau o waith dynion anysbrydoledig yn nghyssegr Duw; ond yn awr, ymollyngir i'r eithafion arall, a chenir pob math o bennillion diystyr, yn hytrach na'r hen Salmau dwyfol. Gan mai ar gof a llafar y Cristionogion y cedwid yr hymnau cyntefig, nid rhyfedd iddynt fyned braidd i gyd ar ddifancoll.

Daeth yr efengyl yn foreu i blith y Cymry; ond ychydig a wyddom am hymnau yr hen oesoedd cyn dyddiau Edmwnt Prys, awdwr y Salmau cân. Y mae Taliesin yn nechreu y chweched ganrif yn dywedyd:—

> "Nid cerddor celfydd
> Ni molwy Ddofydd,
> Nid cywir ceiniad
> Ni molwy y Tad."

Hyny yw, nid oes un cerddor yn gelfydd os nad yw yn moli Dofydd, nac un canwr yn gywir, os nad yw yn moli y Tad. Mae yna gyfeiriad amlwg at fawl crefyddol, er nas gwyddom pa fath hymnau a thônau a arferent wrth foli Dofydd yn yr oes hono.

Yr oedd sant o'r enw Curig, yn byw yn y seithfed ganrif, a phriodolir rhai emynau iddo ef. Math o golectau, heb odl, mesur, na chynghanedd ydynt. Dyma un yn engraifft:—"Crist yr Arglwydd a deyrnasa; Crist a orfydd; Crist drwy haeddedigaethau y glân Gurig Ferthyr, a Dduwlitta ei fam ef, a holl saint y nef, a'i santesau, a'n rhyddhao ni, ac a'n cadwo rhag pob drwg enaid a chorph, Amen." Mae yn amlwg mai rhywun arall a gyfansoddodd yr "emyn" uchod, yn mhell ar ol i Gurig gael ei ferthyru. Yr oedd gan Gurig ffon rinweddol iawn, yn ol chwedlau y canoloesoedd, wedi ei chael yn anrheg gan Iesu Grist:—

> "Ffon a ddanfones Iesu
> I Gurig, da fenthyg fu."

Nid oedd emynau a gweddïau y canoloesoedd ddim amgen na breuddwydion Pabaidd. "Mair wen," a'r saint, a'r angylion, oedd pob peth yn nghoel-grefydd yr oes hono.

> "Mi a luniaf man lanwaith
> Gywyddau a salmau saith
> A naw emyn o newydd
> A phawb gair i Fair a fydd."—
> *Llawdden.*

> "Mair a'n tŷn o'r mieri
> Ac wedi hyn gyda hi,
> Cawn wynfyd can y Wenfair
> Cawn y nef oll canwn i Fair." *T. Aled.*

Syniadau truenus fel yna oedd gan y Cymry pan yr oedd tywyllwch Pabyddiaeth yn teyrnasu arnynt.

Dafydd Ddu o Hiraddug, ficer Dymeirchion, tua 1340, cyfoeswr Siôn Cent, a chymmrawd cyffelyb iddo, oedd y cyntaf, am a wyddom, a gyfansoddodd emyn Gymreig ar fesur cerdd. Efe a droes "Ti Dduw a folwn," neu Gân Ambrose ac Awstin, i fesur hypynt. Dyma'r pennill cyntaf yn enghraifft:—

> "Ti Dduw a addolwn
> Ti a weddiwn,
> Ti a addefwn, eiddun Ddofydd;
> Ti Arglwydd nefawl,
> Tad tragwyddawl
> Tô daear a'th fawl y sawl y sydd."

Dyma hymn arall o'i waith:—

> "Molwch ef yn yr holl nefoedd,
> Molwch ef yr uchel luoedd,
> Molwch ef ei nerthoedd gleinion,
> Molwch ef yr holl angylion."

Gwel ragor o emynau D. Ddu o Hiraddug, yn y *Myfyrian Archaiology of Wales.*

*Edmwnt Prys.*—Bardd galluog, dysgedig a rheolaidd oedd yr arch-ddiacon Prys; cyfoeswr Siôn Tudur, Simwnt Fychan, a William Llŷn; cynnorthwyr y Dr. Morgan i gyfieithu yr holl Feibl i'r Gymraeg y waith gyntaf. Gallai farddoni mewn wyth iaith, yn ol ei dystiolaeth ei hun.

> "Profais mi fydrais yn faith,
> Brif ieithoedd brawf o wythiaith."

Y mae beirniaid cymmhwys yn ystyried ei "Salmau Cân" yn orchestwaith cywrain a dysgedig; ond y maent mor gyffredin fel ag y gŵyr ein darllenwyr oll am danynt.

*Rowland Fychan*, o Gaer Gai, yn Mhenllyn, oedd emynwr arall tua diwedd oes Edmwnt Prys. Ei gyfansoddiad ef yw'r hymn adnabyddus hono,

> "Tyr'd Ysbryd Glân i'n c'lonau ni," &c.;

a "Chyffes Pechadur edifeiriol," sy'n diweddu,

> "Trugaredd, Arglwydd, heb ddim mwy,
> Yw'r cwbl 'r wy'n ei geisio."

I'r oes hon hefyd y perthyna caniadau efengylaidd yr enwog Rhys Prichard, M. A., ficer Llanymddyfri, er nas gellir yn briodol eu galw yn hymnau.

*Elis Wyn*, awdwr athrylithgar y Bardd Cwsg, a gyfansoddodd rai hymnau rhagorol, megys:—

> "Mi wn, medd Iob, o'r cynfyd cudd,
> Mai byw'm Gwaredydd hawddgar," &c.

> "Myfi yw'r adgyfodiad mawr,
> Myfi yw gwawr y bywyd," &c.

Yn y gwahanol gasgliadau o hymnau, priodolir eiddo Rowland Fychan ac Elis Wyn i'r archddeon Prys; yr hyn, yn ddiau, sydd yn gyfeiliornad, ac yn gam â choffadwriaeth y gwŷr awdwyr.

*Cyfnod y Salmau a'r Carolau.*—Nis gwyddom pa bryd y dechreuwyd canu carolau yn Nghymru. Ni ddygwyddodd i ni ganfod dim tebyg i garol cyn oes Edmwnt Prys; ac er y gelwir hwy weithiau yn weddillion Pabyddiaeth, ymddengys mai yn mhell ar ol y Diwygiad Protestanaidd y daethant i arferiad. Math o gerddi athrawiaethol ar enedigaeth Crist oeddynt yn gyffredin. Yr oedd

Digitized by Google

"Gosod babell yn ngwlad Gosen," &c.,

ond un meddwl sydd yn rhedeg drwyddi, ac yn cael ei adrodd chwech neu saith o weithiau; yr hyn sydd yn brawf y medrai yr hen emynfardd awenyddol daenu'r ymenyn yn bur deneu heb ladd ei flas.

Ceir y gwallau canlynol yn fynych yn ein hymnau:—

1. Tor-mesur. Nid rhy fyr, ond rhy hir yn fynych, o sill neu ddau, fel nas gŵyr y cantorion beth yn y byd i wneyd â'r darn gormodol. Dyna goll mawr Ann Griffiths; ac y mae yr hen Williams yn ddiofal ar y pen hwn weithiau hefyd.

2. Twyll odlau: megys gosod ***sen* a *son*, *croes* a *nos*, *gwaed* a *rhad***, i gydodli.

3. Anystwythder corfanol, megys,

"Henffych i enw Iesu gwiw."

Heblaw hyny, nid oes un math o ystyr i "henffych." *Henffych well* yw y gair yn briodol.

4. Iaith gymmysglyd a thywyll. Megys,

"Yr enw mwya' mawr,
Erioed a glywyd son,"

sef yr enw mwyaf y clywyd erioed son am dano.

"Am heddwch lefain at ei draed,"

sef i lefain am heddwch.

"O! hoelia'm meddwl ddydd a nos,
Crwydredig wrth dy nefol groes."

Mae cyflëad y geiriau yna yn hynod o'r anhapus.

5. Drwg ystyr, neu ffugyrau ammhriodol, megys,

"Croeshoelio'r Oen ar bren."

Lladd neu aberthu Oen yw iaith y Beibl.

"Byw ar gariad anorchfygol,
Pur, y croeshoeliedig Oen."

Ni sonia y Beibl am gariad yr Oen; ond am rinwedd ei waed.

"Yr afon a lifodd rhwng nefoedd a llawr,
Yw *sail* fy ngorfoledd," &c.

Dyna'r afon yn llifo yn yr awyr, yn lle rhwng y bryniau; ac y mae'r afon yn *sail* i adeiladu gorfoledd arni.

Dyma engraifft nodedig o "Ddrwg ystyr,"—

"Fe welwyd craig mewn dalfa,
Gan wŷr y gwaewffyn,
Fe welwyd craig yn hongian
Ar ben Calfaria fryn."

Dyna graig yn cael ei dal fel drwgweithredwr! Yn cael ei chrogi rhwng y lladron!

6. Syniadau isel a gwrthun. Y mae yr engreifftiau yn dra lliosog ar y pen hwn, ond ymattaliwn rhag eu cofnodi, o barch i'n darllenwyr.

*Hanfodolion Hymn.* Y mae gwahanol rywiau o farddoniaeth; megys, cerdd foliant, cerdd hanes, cân addysg, dyfalgerdd, cân serch, galargerdd, &c., ac y mae rhyw bethau yn hanfodol i bob un o honynt er eu gwahannodi oddi wrth y lleill.

Telyneg (*lyric*) sanctaidd yw hymn, yn cynnwys mawl, hanes, addysg, serch, a galar. Nis gall pechadur edifeiriol a chadwedig foli Duw yn ei gyssegr heb gymmhlethu yr elfenau uchod yn ei glodforedd. Mae y pethau canlynol yn hanfodol i hymn.

1. Mawl i Dduw, yn cael ei gyfeirio at Dduw, a'i ddadgan wrth Dduw; neu o leiaf ei glodfori am ei fawredd a'i ryfeddodau, yn yr ail berson. Y rhyw uchelaf o farddoniaeth yw mawlgerdd; a moli Tad y gân, yr Hwn sydd uwchlaw pob bendith a moliant, yw yr orchestgamp ogoneddusaf a gynnygiwyd erioed gan ddyn neu angel. Nid yw llawer o'n hymnau, a gamenwir felly, ddim amgen na chyffes ffydd y prydydd wedi ei throi ar gynghanedd anghelfydd; ac nid ydyw llawer o'n hymnau profiadol, fel eu gelwir, ddim amgen na thruth diystyr dynion yn lladd arnynt eu hunain, ac yn tybied eu bod wrth wneuthur felly yn moli Duw. Y mae profiadau duwiolion y Beibl i'w gweled yn amlwg yn mawl-wersi *Llyfr y Dadguddiad*, a'r cyffelyb; megys, "Iddo ef, yr hwn a'n carodd," &c. Y mae genym lawer o hymnau yn cyfatteb i'r rheol hon. Enghraifft—

"Marchog Iesu yn llwyddiannus," &c.

Sylwer ar ddullwedd Salmau Dafydd. Y mae y per-ganiedydd yn anerch Duw Israel, ac yn mawrhau ei air a'i weithredoedd yn ei holl fawlgerddi cyssegredig.

2. Dylai'r hymn adrodd rhyw deimlad duwiolfrydig, nerthol, a chyffrous, wrth Dduw. Nid yw y pennillion sydd yn cynnwys golygiadau yr awdwyr ar y peth hyn neu y peth arall, neu pan fyddo dynion yn son am danynt eu hunain, neu yn siarad â'u gilydd, yn cyfatteb i'r rheol hon. Iaith y nwydau yw barddoniaeth; a llef gorfoledd ac iachawdwriaeth sydd i fod yn holl bebyll merch Seion.

3. Rhaid i'r hymn fod mewn iaith syml a phrydferth; ei brawddegau yn goeth, cynnwysfawr, a phriodol; ei geir-drefniad yn naturiol, yn rheolaidd, ystwyth, ac eglur; fel y gellir ei chofio yn hawdd, a'i chanu yn rhwydd a deallus, heb swrth neidio na chamadrodd. Dylid gochel iaith fratiog a gwrachiaidd, fel peth rhy isel ac annheilwng i gyssegr Duw; ac ar y llaw arall, ymwrthod â chwyddiaith fursenaidd a dieithr, fel ffieidd-beth coeg-ddysgedig, ac annghydweddol â'r symledd a'r godidogrwydd perthynol i'r nefoedd.

Os yw y rheolau hyn yn gywir a safadwy, mae'n rhaid i lawer o'n hymnau gymmeryd eu lle yn nosbarth y "gân dduwiol." Gallant gynnwys gwirioneddau pwysig yn fynych, pethau gwerth eu darllen a'u gwybod yn bersonol, er eu bod yn hollol anghyfaddas fel caniadau Seion. Gan nad ydynt yn foliant cyfeiriedig at Dduw, nis gallant ddyrchafu meddyliau yr addolwyr i'r nefoedd, ac nis gall yr hwn sydd yn eistedd ar yr orseddfainge eu cydnabod fel clodforedd i'w enw sanctaidd ef, am mai at rywun arall y mae cyfeiriad y canu. Nid yw drychfeddyliau rhy farddonol neu wylltion yn addas i'w canu mewn cynnulleidfa gymmysg o Gristionogion syml a diddysg. Clywsom rai o'r dosbarth hwn yn ammheu priodoldeb y syniad,—

"Rhy fyr yw tragwyddoldeb llawn,
I ddweyd yn iawn am dano."

Nis gall meddyliau gwerinaidd amgyffred y syniad a gyflëir yn y gair "rhy fyr," yn y lle hwn. Yr oedd hyd yn oed Williams, o Bant-y-celyn, yn troseddu y rheol hon weithiau; megys,

"Mawr iawn y gorfoledd, pan gododd ein Ner
Fe chwarddodd yr haulwen, fe ddawnsiodd y ser."

Nid yw barddoniaeth ddychymmygfawr fel yna yn gweddu i feddyliau gwerinaidd. Gellid nodi lliaws o engreifftiau i'r un pwrpas o waith rhai o'n prif-feirdd diweddaraf. Un o'r engreifftiau goreu o farddoniaeth bur, a chyfaddas i'r bobl, yw yr hen hymn felus hono,

"Mae'r iachawdwriaeth fel y môr, &c."

Digitized by Google

Hefyd, anweddus iawn, feddyliem ni, yw canu barnedigaethau, uffern a'i harteithiau, &c., megys

"Annuwiolion
Gânt eu llosgi 'n ulw man."
"A'm holl elynion obry
Yn llosgi yn y llyn," &c.

Dysgir ni yn yr Ysgrythyrau i garu ein gelynion, ac i weddïo drostynt, ac nid i ymorfoleddu yn eu dinystr.

*Dylanwad caniadaeth efengylaidd.* Nid oes dim yn fwy effeithiol i ladd dylanwad crefydd na chanu pennillion gwael ar dônau diffrwyth yn yr addoliad. Yr oedd cân Israel ar lan y Môr Coch yn hynod o effeithiol ar galonau y bobl, ac ar y gelynion oddi amgylch. Yr oedd sain eu gorfoledd yn peri i ddolur ddal preswylwyr Palestina, i ddugiaid Edom synu, i ddychryn ddal holl hyrddod Moab, ac i ddewrder holl breswylwyr Canaan doddi ymaith fel dwfr; o herwydd ofn o arswyd, gan fawredd nerth braich yr Arglwydd a syrthiodd arnynt. Y canu yw y rhan effeithiolaf o'r gwasanaeth dwyfol. Os ceir digon o hymnau efengylaidd a thônau sylweddol, a digon i ganu â'r ysbryd ac â'r deall, ni bydd achos ofni colli bywyd crefydd o'n plith: tra y mae canu rhimynau disylwedd ar dônau gwylltion yn ddigon i ddiflasu a tharfu pawb o'r addoliad mewn tristwch neu gynddaredd. Gan fod pob rhan arall o'r addoliad i ddiflanu yn y byd arall, a chan mai ein dwyn i ganu yw uchafnod iachawdwriaeth gras, dylai y gwaith hwn gael mwy o sylw. Dylid cymmeryd mwy o ofal i ddethol hymnau priodol a thônau cyfaddas, a gwneyd mwy o ymdrech cyffredinol at ddysgu canu. Yn y nefoedd, bydd canu o ran sylwedd a chelfyddyd yn ei berffeithrwydd. Dyna yr amser y bydd holl gerddorion pob oes, a gwlad, a chenedl, wedi eu crynhoi at eu gilydd i ganu y gân newydd o fawl i Dduw a'r Oen.

Y mae amryw o gasgliadau o hymnau wedi eu cyhoeddi; ac y mae gan bob enwad, o'r bron, ei gasgliad. Ond y casgliad llawnaf o lawer ydyw yr un a gyhoeddwyd yn y swyddfa hon, dan yr enw "*Emynau y Cyssegr*," gan T. Gee. Cynnwysa 2,685 o emynau—yn mha rai y mae 9,225 o bennillion; a 36 o Salmau wedi eu trefnu i'w canu yn gorganau.

**HYNAFIAETHAU.** Enw ydyw hwn ar gangen o astudiaeth ag y mae terfynau ei hymchwiliad wedi bod bob amser yn bur ammhenodol. Cyfyngid ef unwaith yn mhlith y Saeson at hynafiaethau Groeg a Rhufain, gweithiau celfyddydol, sefydliadau gwleidyddol, ffurfiau ac amgylchiadau cyfreithiol, crefydd, adeiladaeth, arferion teuluaidd a chenhedlaethol, morwriaeth a milwriaeth, pwysau a mesurau, y dull o gyfrif amser, &c., fel yr oeddynt yn eu plith hwy: ond gwahaniaethid rhwng astudiaeth o'r rhai hyn ag astudiaeth o'u hanesiaeth gwleidyddol, ac o ieithoedd Groeg a Rhufain, tra yn Germany yr oedd yr ieithoedd yn cael eu dwyn i'r un cylch. Yn ddiweddarach, y mae y gair wedi cael ystyr eangach; ac edrychir arno mewn cyssylltiad â phob peth hynafol yn mhlith pob cenedl. Defnyddir ef yn fynych gan Dr. Prichard [*Physical History of Man*, &c.], fel yn gyfystyr, agos, â'r gangen hono o filofyddiaeth a elwir *palæontology*, neu y wyddor sydd yn ymdrin â gweddillion ffosylaidd anifeiliaid a phlanhigion. Ond nid yw wedi ei ddilyn yn hyn gan ereill, a defnyddir y gair bron gan bawb yn bresennol fel enw ar y wyddor sydd yn cynnyrchu hanesiaeth o weddillion hen amseroedd. Y mae pwngc mor eang ei derfynau o angenrheidrwydd yn galw am lawer o ddosraniad; ac ymdrinir â rhai o brif ganghenau yr astudiaeth dan y geiriau Aipht, Babilon, Groeg, Mexico, Persia, Rhufain, &c. Hefyd, dilynir yr erthygl hon ar hynafiaethau yn gyffredinol âg un arall ar Hynafiaethau Cymreig yn neillduol.

Nid ydyw ymgyrhaeddiad y meddwl dynol am wybodaeth o ddirgeledigaethau y dyfodol yn fwy greddfol a chyffredinol na'i awydd am adferu cuddiedig bethau yr hen amseroedd, y rhai y mae cynnydd cymdeithas yn dangos eu gwerth; a chan fod ysbryd hynafiaethol yn ffurfio nodwedd arbenig yn llenyddiaeth pob cenedl wareiddiedig, y mae dylanwad yr un ysbryd i'w weled yn amlwg ar bob cyfnod pwysig o ddiwylliant a chynnydd. Ynglŷn âg adnewyddiad celfyddydwaith a llenyddiaeth, yn y drydedd ganrif ar ddeg, a'r bedwaredd ar ddeg, adnewyddwyd y gwerthfawrogiad o gynlluniau Rhufain a Groeg o gelfyddyd, &c.; a thra yr oedd cynnydd diwylliant a barn yn y bymthegfed ganrif yn peri fod gweithiau celfyddydol y canoloesoedd yn cael eu cyfnewid am rai mwy clasurol, y mae tuedd Ewrop, yn bresennol, yn mhlith y lliaws elfenau cynnyddol, yn mron yn gyffredinol at gelfyddydwaith y canoloesoedd, ac at gyrhaedd rhagoriaeth tu hwnt i ddim a gyrhaeddwyd etto, trwy dadblygiad perffeithiach o gynlluniau yr oesoedd hyny.

Y mae hynafiaeth yn ddyledus i lafur llwyddiannus y daearegwr am ei heangiad dros holl derfynau hanesiaeth, ac am ei hanfod fel gwyddor reolaidd a threfnus, drwy yr hon y gall yr efrydydd goleuedig wthio ei ymchwiliadau i blith cofnodion o amgylchiadau tu draw i ddim mewn croniclau nac adroddiadau ysgrifenedig, ac felly chwanegu pennodau at hanesiaeth dynolryw a fuasent heb hyny dan len o dywyllwch. Y mae y daearegwyr, heb gynnorthwy cofnodion ysgrifenedig, yn dilyn eu hymchwiliadau drwy gyfnodau olynol yn hanes y byd cyn Adda, ac yn dadblygu natur y gwahanol greaduriaid a roddent fywyd yn yr oesoedd pellenig hyny. Gan ddechreu gydag olion cyntaf bywyd yn yr haenau ffosylaidd hynaf, esgyna y daearegwr o gyfundrefn i gyfundrefn, gan arddangos esgynliu ryfeddol o fywyd—bywyd ag y mae llawer o'r ffurfiau hynod oedd yn ei gynnwys, a'r rhai oeddynt megys yn ffurfio dolenau y gadwen esgynol hon, wedi diflanu oddi ar wyneb y ddaear: ac yn y diwedd, wedi cyrhaedd yr haenau diweddaf a ffurfiwyd, y mae yn dadguddio i ni weddillion creaduriaid o natur rhai sydd mewn bod yn bresennol, ac hyd yn oed olion celfyddyd dyn, yr hyn sydd yn diweddu cyfnodau y daearegwr, ac yn dechreu cyfnodau yr hynafiaethydd. Yma, try y blaenaf at yr olaf am y gweddill o hanes bywyd ar y ddaear hyd gyfnod rheolaidd hanesiaeth.

Yr oedd olion y celfyddydau cynoesol, a diwylliant trigolion cyntaf Ewrop, yn eithaf hysbys i'r hynafiaethydd yn hir cyn i syniad cywir o'u gwerth fel tystion hanesiol gael ei ffurfio gan nemawr, os neb. Mae esboniad y rhai hyn i'w briodoli yn benaf i lafur hynafiaethwyr a chenedldraethwyr (*ethnologists*) Denmarc a Sweden, yn nghyd â chydweithrediad egniol, ond diweddarach, efrydwyr Prydeinig; a thrwy eu hymdrechion hwy y cafwyd y gangen hynafiaethol o astudiaeth yn agos i berffeithrwydd, y cafwyd allwedd i ddirgelion amseroedd oedd tu hwnt hyd yn oed i lechres hynafol cofadeiliau yr Aipht.

Digitized by Google

Rhenir maes ymchwiliadau hynafiaeth gynoesol i dri dosbarth neu gyfnod, a elwir Cyfnod y ceryg, Cyfnod yr elydr (*bronze*), a Chyfnod yr haiarn. Gwneir hyn er mwyn hwylusdod ac eglurder; ac y mae digonedd o dystiolaethau fod trefn amseryddol y cyfnodau hyn fel eu gosodwyd i lawr. *Cyfnod y ceryg*, ydyw y cyfnod yn mha un y golygir fod yr unig offerynau anghelfydd ag oedd mewn ymarferiad, megys cyllyll, bwyeill, saethau, &c., yn cael eu gwneuthur gan mwyaf o gareg, er fod corn ac asgwrn yn cael eu defnyddio. Yn *nghyfnod yr elydr*, y mae cynnydd mewn diwylliant wedi dwyn nwyddau metelaidd o elydr (cymmysgiad o gopr ac alcan) i ymarferiad: tra yn *nghyfnod yr haiarn* y mae cynnydd pellach ar wareiddiad a diwylliant wedi taflu y ceryg a'r elydr o'r naill du bron yn hollol, a dwyn nwyddau haiarn a pherffeithiach i ddefnyddiad yn eu lle. Y mae pob un o'r cyfnodau hyn yn gorwedd oddi allan i gylch unrhyw adroddiad ysgrifenedig, ac yn amgylchynedig, yn enwedig y ddau gyntaf, â chymmaint o dywyllwch, yn annibynol ar eu tystiolaeth eu hunain, â chyfnodau cyntefig (*palæozoic*) ac ulyfddwyn (*carboniferous*) y daearegwr. O ganlyniad, nid ydyw yn un rhyfeddod fod haneswyr o radd uchel wedi bod bob amser yn ammheus gyda golwg ar gasgliadau yr hynafiaethydd oddi wrth ei ymchwiliadau. Aeth y rhan fwyaf o honynt cyn belled ag i haeru nad oedd cyfundrefn gyfnodol yr hynafiaethydd yn ddim amgen na dychymmyg ddisail. Fodd bynag, nad dychymmyg disail ydyw, sydd amlwg oddi wrth y ffaith nad oes un genedl na dosbarth o ddynion yn bresennol wedi eu cau allan oddi wrth y byd gwareiddiedig, yn meddu dim gwybodaeth am gelfyddydwaith metelaidd; ac nad oes pobl led wareiddiedig, heb gyfleusderau ymdrafodaeth âg ereill sydd yn fwy felly, yn gydnabyddus â'r gelfyddyd o doddi a gweithio y mŵn haiarn.

Pan ddarganfyddwyd yr Esquimaux, Indiaid Cochion yr America, a thylwythau gwasgaredig yr Ynysoedd Polynesiaidd, yr oeddynt yn hollol amddifaid o wybodaeth am fetelau, ac yn cyflenwi eu hanghenion âg offerynau o gareg, cragen, asgwrn, a phren. I'r gwrthwyneb, yr oedd y Mexicaniaid a'r Azteciaid gwareiddiedig, pan yr ymwelwyd â hwy gyntaf gan yr Yspaeniaid yn y bymthegfed ganrif, yn eithaf cydnabyddus â gweithiad gopr ac aur, er na wyddent ddim am haiarn; ond defnyddient i ddybenion cyffredin rai o hen offer ceryg y cynoesoedd. Symmudodd Groeg oddi wrth yr elydr at yr haiarn o fewn y cyfnod a gynnwysir yn hanes ei llenyddiaeth; ac y mae yn bossibl olrhain y gallu o weithio y mŵn haiarn anhydrin i hanes boreuaf Rhufain, ychydig cyn iddi ddyfod i gyffyrddiad âg anwariaid y tu arall i'r Alpau. Yn mysg y rhan fwyaf o'r anwariaid hyn—tylwythau Germanaidd a Cheltaidd—ymddengys fod haiarn eisoes yn adnabyddus pan y daethant gyntaf i gyfarfyddiad â gwareiddiad ymgyrchol y deheu; ac oddi wrth un o honynt, sef y Norici (yn ngwlad yr hwn, yn ngwastadeddau Awstriaidd y Danube, gweithir y metel hwn etto gyda'r celfyddgarwch mwyaf), y mae lle cryf i feddwl, y cafodd y Rhufeiniaid y gelfyddyd o wneyd dur.

Os nad yw hanesiaeth i ddechreu ond—fel hanes Prydain Fawr—gydag ymgyrch cyntaf y Rhufeiniaid, yna, yn ddiammheu, y mae cyfnodau y ceryg a'r elydr mor ddiwerth a diystyr ag ydyw y cyfnodau a elwir yr *eocene* a'r *miocene*, mewn daeareg, i'r daearegwr sydd yn hòni mai diluw Noah a gynnyrchodd y digwyddiadau cyntaf a gofnodir yn y creigiau. Ond i bawb sydd yn foddlawn i olrhain darganfyddiadau hynafiaeth, fel yr olrheinir yr eiddo gwyddorion ereill, drwy ymresymiad casgliadol (*inductive reasoning*), y mae yn amlwg fod sail iddi mewn gwirionedd diysgog. Nid oes ond un gwahaniaeth pwysig i'w wneyd rhwng defnyddiau ei hymresymiad hi ag eiddo yr henfodofydd (*palæontologist*). Mae y dosbarthiadau creigiol, gyda'u gweddillion ffosylaidd, bob amser yn dilyn yr un rheol; a pha mor bell bynag y byddo dosbeirth o'r un natur oddi wrth eu gilydd, golygir eu bod yn ogymmaint eu hoedran. Ond, a siarad yn iaith y daearegwr, y mae holl hanes dynolryw yn gyfyngedig i un cyfnod; tra yn y gweddillion celfyddydol sydd yn ffurfio sail ymresymiad yr hynafiaethydd, dygir elfen newydd i mewn, sef gallu meddyliol, neu ymresymiadol, ynghyd â medrusrwydd celfyddydol —efelychiadol a chymdeithasol; yr hyn sydd yn taflu llawer o ddyryswch i blith dosbarthiadau llai. Y mae cyfnod y ceryg yn Mhrydain a Denmarc yn cyfatteb yn hollol i sefyllfa pethau yn yr Ynysoedd Polynesiaidd yn bresennol. Mor debyg ydyw offerynau ac arfau y blaenaf i'r rhai a ddefnyddir yn bresennol yn yr ynysoedd hyn, fel y geilw am lygad profiadol i wahaniaethu y naill oddi wrth y llall. Y casgliad oddi wrth hyn ydyw, fod yn yr ynysoedd hyn, yn Môr y Dê, esampl o bobl yn yr un sefyllfa anwaraidd ag yr oedd trigolion y Cyfandir a Phrydain yn nghyfnod y ceryg. Ond mewn ystyr amseryddol, y mae gwahaniaeth o ddeutu dwy fil o flynyddoedd rhwng cyfnod y ceryg yn y ddau le. Yn gyffelyb, yr oedd cyfnod yr elydr yn Mexico heb newid dim arno gyda dyfodiad elfenau mwy diweddar i mewn, pan ddaeth i gyffyrddiad gyntaf â diwylliant addfetach Ewrop, yn y bymthegfed ganrif, tra yr oedd cyfnod yr elydr yn Mhrydain wedi terfynu cyn y ganrif Gristionogol gyntaf. Mae yr un rheol yn gymmhwysiadol at hynafiaeth gynoesol pob gwlad; ac y mae ffynnonell ddibrin i gamgymmeriad wedi tarddu o'r syniad a ganlyn :—yn gymmaint ag fod yn Groeg ac Italy, Germany, Gaul, Scandinavia, a Phrydain, gyfnodau ceryg ac elydr wedi bod, y rhaid fod yr oll yn gyfamserol. O ganlyniad, fel pwynt o wahaniaeth pwysig rhwng ymresymiadau y daearegwr a'r hynafiaethydd, nis gellir rhoddi gormod o bwys ar y ffaith, nad yw cyfnodau yr olaf, er yn gyfystyr, o angenrheidrwydd yn gyfamserol, fel cyfnodau y daearegwr; ond, i'r gwrthwyneb, fod agos i bob nodwedd berthynol i *hanes naturiol* dyn, ac i ddadblygiad hanesiol dynolryw, i'w gweled yn eu gwahanol *stages* yn mhlith cenhedloedd yn bresenol :—o'r barbareidd-dra mwyaf cyntefig, a chelfyddydau mwyaf elfenol gwareiddiad a diwylliant, hyd y sefyllfa berffeithiaf mewn gwybodaeth a medrusrwydd celfyddydol.

Y mae ymgais wedi ei wneyd fwy nag unwaith i bennodi oedran ac amgylchiadau ereill amseryddol perthynol i gyfnod yr hynafiaethydd, ond heb nemawr o lwyddiant hyd yn ddiweddar. Y mae tystiolaethau daearegol o gyfnewidiadau sydd wedi, ac yn digwydd o fewn y cyfnod hanesiol, pan fyddo ynglŷn â hwy olion o gelfyddyd ddynol, yn cyflawni eu rhan yn y cyfeiriad pwysig hwn; a thra y mae sylw ac ystyriaeth goleubwyll i'r gweddillion celfyddydol hyn, yn yr haenau nesaf allan o'r creigiau, ac yn gymmysgedig â

Digitized by Google

gweddillion ffosylaidd rhywogaethau presennol a darfodedig o anifeiliaid, yn cyflenwi y ddolen drwy yr hon y cymmer dyn ei le gyntaf yn nghadwen hirfaith bywyd ar y ddaear, y mae olion celfyddyd fwy perffeithiedig i'w cael yn nes atom, ac yn perthyn i gyfnodau tu hwnt i gyfnod hanesiaeth, yn ffurfio dolenau diweddarach, drwy y rhai y cydir dolen olaf daeareg â dolen gyntaf hanesiaeth, ac yr unir yr holl oesoedd a fuont â'r cyfnod presennol.

Ceir fod y gyfundrefn o hynafiaeth gynoesol a gymmhwysir at hen weddillion Prydeinig yn cyfatteb mor agos yn ei holl brif nodweddion i'r eiddo Ewrop, fel y cyrhaeddwn amcan yr erthygl bresennol yn well drwy ddefnyddio hynafiaeth Prydain, yn ei phrif ranau, fel esampl o'r llall; ac egluro y rhai hyn fel yr eir yn mlaen gyda'r gweddillion o'r un natur a gafwyd mewn gwledydd ereill. Y mae y tystiolaethau o barth i sefyllfa diwylliant a chelfyddyd yn mhlith ein hynafiaid yn Mhrydain i'w cael oddi wrth ei hanneddau a'i hallorau adfeiliedig—cromlechau, tomenau, a charneddau—ac oddi wrth yr offerynau, yr arfau, yr addurniadau personol, a'r llestri pridd, &c., a geir o fewn y rhai hyn. Hefyd, ceir chwanegiadau gwerthfawr at ein gwybodaeth drwy y darganfyddiad achlysurol y mae gweithrediadau amaethyddol, cloddfaol, ac adeiladol yn arwain iddynt, megys darganfyddiad y môrfilod yn nyffryn marianol y Frith of Forth, lawer o droedfeddi uwchlaw lefel y llanw mwyaf, ac amryw filldiroedd oddi wrth wely presennol yr afon. Ynglŷn â'r gweddillion hyn, cafwyd profion o drigolion cydamserol yn y ffurf o ffonbicellau anghelfydd, gwneuthuredig o gyrn ceirw; tra y mae tystiolaethau hanesiol perthynol i'r lle, ynghyd âg olion amlwg hen ffyrdd milwrol y Rhufeiniaid, yn cyttuno i ddangos fod ymgodiad y tir yn y lle hwn—ymgodiad a brofir drwy ymchwiliadau daearegol—wedi digwydd lawer cyn gwawriad cyfnod hanesiaeth ddiwrthddadl, neu ddechreu y cyfnod Cristionogol.

Gyda thystiolaethau o'r fath yma, galluogir ni i gyfeirio at breswyliad yr ynysoedd Prydeinig a gogledd Ewrop mewn cyfnod pur foreu—ganrifoedd lawer cyn i'n hynys ymddangos o fewn clorianau hanesiaeth. Y mae ymchwiliadau y cenedldraethwr yn chwanegu at ein gwybodaeth am y cyfnod pellenig hwn, drwy ddangos rhai o nodweddion naturiol y cynfrodorion, yr hyn a gesglir oddi wrth y gweddillion dynol a geir yn gladdedig yn y beddrodau hynaf, ynghyd â gweddillion mwyaf anghywrain celfyddyd: ac y mae ymchwiliadau Nillson, Eschricht, a chenedldraethwyr ereill ar y Cyfandir, pan gymmherir hwy â'r ymchwiliadau a wnaed yn Mhrydain, yn dadguddio tebygolrwydd nodedig mewn ffurfiad penglogau, ond penglogau sydd yn dra gwahanol i'r eiddo prif breswylwyr presennol Ewrop.

Y mae nifer aruthrol yr arfau a'r offer ceryg a ddarganfyddwyd yn y wlad hon, ac ereill, er pan dalwyd sylw mwy cyffredinol i'r gangen hon o astudiaeth, yn profi fod y cyfnod y buont mewn ymarferiad ynddo yn bur faith. Mewn amryw o amguddfeydd Prydain Fawr a'r Iwerddon, y mae casgliadau mawrion o'r nwyddau hyn wedi eu gwneyd mewn ychydig flynyddoedd, tra yn y Christiansborg Palace, Copenhagen, y mae nifer yr offer a'r arfau ceryg yn unig yn rhifo yn agos i bedair mil. Am fanylion y gweddillion hyn, yn gystal a nodweddion gwahaniaethol yr amrywiol fathau o feddrodau, yr anneddau tanddaearol, y cofgolofnau unfaenol ac amryfaenol, &c., a berthynent i'r cyfnod cynoesol hwn, dymunem gyfeirio ein darllenwyr at weithiau Hoare, Douglas, Worsaae, Ackerman, Roach, Smith, Wright, Wilson, Evans, ac ereill, yn gystal ag at gyhoeddiadau a chofnodiadau yr amryw gymdeithasau hynafiaethol.

Mae yn ddiammheu fod y cyfnod y perthynai y gweddillion cynoesol hyn iddo yn gyfnod o farbareidd-dra hollol, fel y gwelir yn amlwg oddi wrth ei gyfattebiaeth i sefyllfa brodorion Ynysoedd Môr y De yn bresennol. Cafwyd yr anneddau tanddaearol a elwir "tai y Pictiaid" (Gaelaidd, a Gwyddelaeg, *uamhah*=ogof), yn fynych yn y sefyllfa y gellid meddwl eu bod ynddi pan adawyd hwy gan eu trigolion cyntefig; ac oddi wrthynt yr ydys yn cael mai eu prif ymborth ydoedd pysgod cregyn, a chrawenogion (megys crangcod a chrwbanod) ynghyd â chynnyrch achlysurol yr helfa. Y mae y symiau mawrion o gregyn cyffredin ein glanau a gafwyd yn yr anneddau hyn yn nodedig, er nad ydys wedi bod yn fyr o gael yn fynych y llaw-felin gareg, yn gystal a'r ŷd-ysigwr, neu y mortar a'r pestl anghelfydd, ynglŷn â'r cregyn a nodwyd; yr hyn sydd yn dangos nad oedd ein cynfrodorion yn Mhrydain yn gwbl anhysbys o werth grawn bwytadwy.

Y mae yr achos o gyfnewidiad trigolion Prydain, a'r oll o Ewrop, o'r sefyllfa farbaraidd hon, i'w briodoli i ddyfodiad metelau i'w plith, a darganfyddiad y gelfyddyd o doddi mwnau. Mae yn debyg mai aur oedd y metel cyntaf a weithiwyd, gan ei fod yn fwy deniadol ei ymddangosiad, yn haws i'w gael, ac yn fynych mewn sefyllfa y gellid ei weithio yn haws na meteloedd ereill. Ceir hefyd fod alcan (*tin*) yn cael ei weithio yn neheubarth Prydain, yn ngwawr cyntaf hanesiaeth; yr hwn, gyda'r copr y mae y fath gyflawnder o hono yn yr un ardal, a gynnyrchodd elfenau y metel newydd a phwysig, a eiwir elydr.

Bu haneswyr a hynafiaethwyr yn gyffredinol yn golygu nad oedd y cleddyfau elydr prydferth, y blaenau picellau, tarianau, torchau, ac arfau rhyfel ereill, a ddarganfyddid mor fynych, yn ddim amgen na gweddillion buddugoliaethau a masnach estroniaid; a phriodolid hwy gan wahanol bersonau i'r Aiphtiaid, Phœnicaid, Rhufeiniaid, a'r Daniaid. Ond y mae y syniad hwn wedi ei hen wrthbrofi drwy ddarganfyddiad mynych y moldiau i wneyd yr arfau, yn gystal ag ysbwrial y metel toddedig, gwelyau o siarcol a lludw, &c., yn yr un lle ag y ceid yr arfau eu hunain. Yr un pryd, y mae yn deilwng o sylw fod y cyfnewidiad oddi wrth y ceryg at yr elydr yn ymddangos yn bur sydyn, pan gofiom gymmaint o allu a phrofiad sydd yn ofynol i weithio yr olaf; ac fe sylwyd yn gywir fwy nag unwaith gan ddysgedigion, nad oes ond ychydig o esamplau yn cael eu nodi o ddarganfyddiad offerynau copr, yr hwn sydd mor hawdd i'w weithio, fel yr oedd mewn arferiad hyd yn oed yn mhlith Indiaid Cochion America. Y casgliad oddi wrth hyny ydyw hyn:—fod y celfyddydau metelaidd yn ngogleddbarth Ewrop yn tarddu o ffynonnell estronol, naill ai drwy fuddugoliaethau rhyfel, neu ynte drwy fasnach, ac fod yn y nwyddau elydr prydferth y cyfeiriwyd atynt olaf, a'r rhai y ceir cymmaint o honynt, yn enwedig yn yr Ynysoedd Prydeinig a Denmarc, yn arddangosiad o ffrwyth y profiad hwnw y darfu i ddiwylliant addfetach yr Aipht a Phœnicia ei wasgaru. Yr oedd cydymdrafodaeth uniongyrchol y gwledydd

Digitized by Google

un pen cyffredinol. os byddai y gelyn tramor yn ymosod arnynt. Gan mai awdwyr Rhufeinig sydd wedi cadw enwau y llwythau ar gof, gosodwn hwy i lawr, yn gyntaf, yn yr iaith hono, ac edrychwn am eiriau cyfystyr iddynt yn ein iaith ninnau.

*Cantii*, sef preswylwyr Kent; y Ceintwys, neu wŷr Caint. Caergaint oedd eu prif ddinas.

*Regni*, y rhai a drigent yn Surrey a Sussex; y Rhegeinnwys, neu wŷr Rhygaint.

*Bibroci*, a drigent yn mharthau de-ddwyreiniol swydd Berk, a'r siroedd cylchynol; y Bifrogwys, neu y Pifrogiaid.

*Attrebates*, y rhai a drigent yn y rhanau gorllewinol o swydd Berk; sef yr Attrefigion, neu yr Attrefwys.

*Segontiaci*, ar derfynau Berk a Hant. Dichon mai enw eu gwlad oedd Isgwentwg, sef Gwent Isaf, ac y gelwid hwythau yn Iswentogiaid.

*Belgæ*. Eu trigfod hwy oedd Gwlad yr Hâf, a swydd Wilt a Hant. Gelwid hwy y Belgwys, y Belgiaid, gwŷr Belg. Caerwent oedd eu prif ddinas.

*Durotriges*, yn swydd Dorset; sef y Dwrdrigwys, neu rai yn trigo ar fin y dwr. Dichon mai hwy hefyd a elwid Monwys, Merini, &c., am eu bod yn trigo gerllaw y môr. Dwfrdrigiaid.

*Hædni*, ar derfynau Gwlad yr Hâf, a sir Gaerloew; sef yr Hafwys, gwŷr Gwlad yr Haf, neu yr Heidionwys, ar gyfrif eu lliosogrwydd.

*Damnonii*, yn swydd Devon a Chernyw; sef y Dyfneinnwys. Gwŷr Dyfnaint,

"Gŵr dewr o Goettir Dyfnaint,"

oedd Geraint ab Erbin.

*Cainabi*, yn neheubarth Cernyw; sef gwŷr Cernyw, y rhai a gadwasant eu hiaith hyd y ganrif ddiweddaf. Preswyliai y deg llwyth uchod yn y rhan hono o'r ynys a alwai y Rhufeiniaid, Britannia Prima.

*Silures*, y rhai a breswylient siroedd Henffordd, Mynwy, Maesyfed, Morganwg hyd yr afon Nedd, a rhan o sir Gaerloew. Gelwid hwy Essyllwyr Gwentwyson, gwŷr Essyllwg, gwŷr Bro Essyllt, &c. Eu hiaith oedd y Wenwysaeg.

*Dimetæ*, sef y Dyfedwys, neu wŷr Dyfed, y rhai a breswylient yn Mhenfro, Bro Gŵyr, a holl siroedd Caerfyrddin, Brycheiniog, a Cheredigion. Eu hiaith hwy oedd y Ddeheubartheg.

*Ordovices*, y Gordofigwys, y Gordofigion, sef trigolion Gogledd Gymru, rhan o sir Gaerlleon, a rhan o sir Amwythig. Tebygol y cynnwysid gwŷr Powys, a'r Gwyndodwys, a'r Monwysiaid yn y dosbarth hwn. Eu hiaith oedd y Wyndodeg.

Y tri llwyth uchod oedd cyndrigolion Cymru, a phreswylwyr y parth y alwai y Rhufeiniaid yn Britannia Secunda.

*Trinobontes*, a breswylient Middlesex ac Essex. Dichon mai cymmysg o Frython a Lloegrwys oeddynt. Eu prif ddinas oedd Tre Lundain. Gelwid hwy y Tranofantwys, neu wŷr Tranofant.

*Iceni*, neu y *Cenimagni*, y rhai a drigent yn swyddi Caergrawnt, Suffolk, Norfolk, a Huntingdon. Tybia rhai fod yr enw yn dynodi Esyntiaid, sef gwŷr tarianog. Deillia ereill yr enw o *cyn*, y Cyniaid, Cynwyson. Ereill a ddeonglant y gair Cenimagni, neu Cenimani, o *cyn* a *man*—y Cynfanwys, gwŷr y cynfanau.

*Coritani*, sef trigiannwyr swyddi Rutland, Northampton, Lincoln, Leicester, Derby, a Nottingham. Gelwir hwy y Coraniaid, y rhai oeddynt gynnwysedig o Frython a Lloegrwys. Dywed y *Trioedd* fod ciwdawd y Coraniaid, y rhai a ddaethant yma yn oes Lludd, mab Beli, yn un o'r tair gormes, a chyssylltir hwy a'r Gwyddyl Ffichti a'r Saeson. Neu yn ol hen gof arall, gosodir hwy yn mhlith y saith gormes fu yn goresgyn Prydain; y rhai oeddynt, Draig Prydain, y Ddraig Estrawn, y Gwŷr Lledrithiawg, y Coraniaid, y Cesariaid, y Gwyddyl Ffichti, a'r Saeson.

*Cassii*, a feddiannent ranau o swyddi Hertford a Bedford, i'r Nen yn y gogledd, a rhanau minfin o swydd Buckingham. Ymddengys mai dynion dygasog oedd y rhai hyn, gan mai Casiaid, Caswyr, neu Caseion oedd eu henw. Gelwid hwy hefyd *Cattieuchlani*, Cadwyllionwys, sef Gwylliaid rhyfelgar.

*Dobuni*, y rhai a etifeddent ran o swydd Gaerloew, ac iseldiroedd swydd Rhydychain hyd y Tafwys. Tafeini, Tafeiniaid, neu Teifiniaid, gwŷr Teifi.

*Huiccii*, neu *Jugantes*, a breswylient ran o sir Gaerloew, holl swydd Warwick, a'r rhan fwyaf o swydd Gaerwrangon. Mae yr enw yn arwyddo Gwychiaid, Gwychweision, Gwycheintwys.

*Ancalites*, y rhai a drigent yn mharthau dwyreiniol swyddi Rhydychain a Buckingham. Tybia rhai fod yr enw yn arwyddo Uchelwyr; ond y mae Calenwys—Calenwyson—yn dyfod yn nes i swn y gair.

*Cornabi*, y rhai a breswylient swyddi Caerlleon a'r Amwythig, Stafford, &c. Eu prif ddinas oedd Euriconium, neu Bengwern, neu Dinlle Frecon, gerllaw Moel Wrec, yn agos i'r Amwythig. Coreineifwyr, Coreineifwys.

Yr wyth giwdawd uchod a breswylient yn y dosbarth o'r Ynys a alwai y Rhufeiniaid, Flavia Cæsariensis, sef o'r Tafwys yn y deheu, yr Hafren yn y gorllewin, i'r Mersey, Don, a'r Hymyr yn y Gogledd.

*Setantii* Sistantii, a breswylient sir Gaerhirfryn, a'r parthau deheuol o Westmorland. Pobl wledig oedd y rhai hyn, ac y mae yr enw yn arwyddo tyddynwyr, neu drinwyr tir.

*Volantii*, a drigent yn y rhanau gogleddol o Westmorland a Chumberland oll. Coedogion oedd y rhai hyn, ac y mae yr enw yn arwyddo Gwylleintiaid, Gwylleintwys; sef rhai yn preswylio mewn lleoedd cysgodol

*Brigantes*. Preswylient swydd Durham, a rhan o swydd Gaerefrawg. Brig cenedl oedd y rhai hyn, a gelwid hwy Brigantwys, Gwŷr y Brigant, &c.

Cynnwysid y tri llwyth uchod yn y dalaeth Rufeinig a elwid Maxima Cæsariensis.

*Ottodini*, Preswylwyr Northumberland. Y Gododinwys, neu wŷr Manau Gododin. I'r rhai hyn y perthynai Aneurin Gwawdrydd.

*Gadeni*: yn y gogledd y trigai y rhai hyn hefyd. Tebygol mai Gwŷr Goddau oeddynt, ac y gelwid hwy Goddeiniaid, Goddeinwys.

*Selgovæ*, a breswylient Annandale, Nithsdale, &c. Dichon y gelwid y bobl hyn Sallgwyfai, Gwŷr ar Sall-Gwy.

*Novantes*: a drigent yn Galloway. Mae yr enw Nofantwys, neu Gwŷr Nofant yn arwyddo eu bod yn byw ar lan dyfroedd. Mae Aneurin yn coffa am danynt yn y *Gododin* fel hyn,

"Tri llwry Nofant."

*Damnii*, oeddynt gymydogion y Nofantwys—gwŷr Selwy a gwŷr Goddau. Arwydda yr enw Dyfnwys, Dyfnwyson, &c., eu bod yn byw mewn glynoedd dyfnion, yn gyffelyb i wŷr Dyfnaint.

Digitized by Google

Preswyliai y pum llwyth diweddaf yn y dalaeth Rufeinig a elwid Valentia.

*Horestii:* a drigent yn Strathern, a chilfachau mynyddoedd Perth, i'r deheu i'r Tay. Mae yr enw Hyrwystr, neu Hyrwystriaid, yn arwyddo rhai yn attal neu yn rhwystro.

*Vecturones:* a feddiannent Perth, i'r gogledd i'r Tay, &c. Uchaeronwys, Gwŷr Uchaeron.

*Paixali:* a breswylient holl Mar, i'r gogledd i'r Dee, a Buchan. Deillir yr enw o Tachial, sef gwlad agored; a gelwir y trigolion Tachialwys, Tachialwyr.

*Vacomagi:* a breswylient yr oll o Banff, Murray, ac Inverness. Ymddengys mai gwlad grymog oedd ganddynt, ac mai Pau Gymog oedd ei henw; a gelwid hwythau y Paugymogwys, Gwŷr y Bau Gymog.

*Albani,* a drigent i'r gogledd i'r Vacomagi. Y mae y gair *Alban* yn arwyddo uchel, neu yr uchaf. Wrth yr enw hwn yr adwaenir Ysgotland hyd heddyw. Albanwyr, Albanwys.

*Attacotti:* trigolion Lenox. Tebygol eu bod ar gwr eithaf Coed Celyddon, a bod yr enw yn arwyddo Eithacoedwys.

Cynnwysid y chwech llwyth uchod yn y dalaeth Rufeinig a elwid Vespasiana.

*Caledoni:* a breswylient berfedd-wlad Inverness, &c. Hwynt-hwy oedd y Celyddon, Celyddonwys, neu Wŷr Celyddon. I'r dosbarth hwn y perthynai Merddin Wyllt, yr hwn a ddywed yn ei *Afallenau.*—

"Afallen beren beraf ei haeron,
A dyf yn argel Argoed Celyddon."

*Cantæ:* a breswylient ranau awyreiniol Ross. Maent o'r un enw a gwŷr Caint, a thebygol fod eu tiriogaeth yn dwyn nodwedd gyffelyb hefyd.

*Logi:* trigent yn arfordir Sutherland. Tebygol fod y gair o'r un gyfiach a Llwg, Gwenllwg, sef Morfa Gwent. Y Llygiaid.

*Carnabii:* a breswylient holl Caithness, i'r gogledd i'r Ale. Gelwir y rhai hyn Cernywiaid, yr un fath a thrigolion Cernyw.

*Catini:* a drigent yn arfordir Strathnavern. Catinwyr, Caterion—gwŷr yn ymladd â chatau o goed.

*Mertæ:* a drigent berfedd-wlad Strathnavern a Sutherland. Gelwid hwy Meirydi, Meirionwys, am mai eu prif orchwyl oedd cadw anifeiliaid—Maeronwyr.

*Carnonacæ:* a breswylient draethau Ross, o Loch Assynt i Loch Breyn. Gwlad garneddog oedd ganddynt, a gelwid hwythau Carneinwyr, Cerneinogiaid, &c.

*Cerones:* a ymestynent o Loch Assynt i'r afon Itys, yn Inverness. Dichon mai enw gwreiddiol y llwyth hwn oedd Cawron neu Cawronwys.

*Creones:* a feddiannent y wlad o'r Afon Itys i'r Llyn Hir. Feallai mai eu henw Cymreig oedd Creon, neu Creonwys, neu Bloeddwyr. Barna ereill mai o'r gair *crau* y deilliodd yr enw, a'i fod yn dynodi Creuonwys neu Wyr Gwaedlyd.

*Epidii:* a drigent yn Cantire a Knapdale. Dichon mai Ebyd neu Epynt oedd enw eu gwlad, ac y gelwid hwythau Ebydiaid neu Epydwys.

Dyna enwau y gwahanol lwythau Prydeinig, cyn belled ag y gellir eu casglu ynghyd o'r awdwyr Rhufeinig. Mae'n debyg nad yw yr enwau Rhufeinig a roddwyd arnynt ddim amgen na'r enwau Celtig wedi eu Lladineiddio; am hyny, ymdrechwyd eu hadferu yn ol i'w cyflwr cyntefig. [Gwel *Cambrian Register*, cyf. ii. *Trans. of the Cymr.*, cyf. ii.]

Er fod y Cymry fel hyn yn gyfansoddedig o wahanol dylwythau, ac wedi poblogi yr ynys, bob cŵr o honi, a chanddynt benaethiaid yn eu plith eu hunain, etto pan ddeuai gelyn estronol i mewn i geisio eu darostwng, ymunent i'w wrthsefyll o dan un pen cyffredinol, yr hwn a alwent y Pendragon, megys ag y gwnaethant o dan arweiniad Caswallon er attal ymgyrch Julius Cæsar, yr hyn sydd yn brawf o'u gwareidd-dra gwladyddol a'u doethineb milwraidd. Methodd Cæsar a'u darostwng; canys dywed Tacitus mai eu dychrynu, a meddiannu yr arfordir yn unig a wnaeth. Dywed yn mhellach fod y Cymry yn ei amser ef yn ufudd i'r llywodraeth Rufeinig, os na chaent achos i gwyno o blegid gorthrymder a thrais; ond os gwnelid cam â hwy, y gwrthwynebent yn ddiattreg a diamynedd. Cawsant eu gorchfygu, ond nid eu digaloni; eu dwyn i ufudd-dod, ond nid eu darostwng i gaethiwed. Mae y dystiolaeth hon yn wir, ac yn brawf fod yr hanesydd Rhufeinig yn adnabod nodweddiad y genedl; canys yr un yw ei hanianawd hyd y dydd heddyw.

II. *Hynafion Milwraidd.* Dywedir mai "ciwdawd addwyn" oedd y Cymry yn y dechreuad; ac mai er mwyn llonyddwch y daethant gyntaf i Ynys Prydain. Ond ni bu heddwch iddynt yn hir yn eu trigfa newydd; a bu i'r ymosodiadau parhaus a wnaed arnynt gyfnewid eu hanianawd, o fod yn bobl heddychol i fod yn genedl ryfelgar. Yr ymosodiad cyntaf y darllenwn ni am dano a wnaed gan Wŷr Llychlyn, tua 200 C. C.; pan, yn ol y chwedl, yr oedd Urb Luyddawg wedi myned â holl flodau y genedl gydag ef tua gwlad Groeg neu Asia Leiaf. Buont mewn rhyfeloedd hefyd â'r Gwyddelod a'r Brithwyr cyn i'r Rhufeiniaid ddyfod i ymosod arnynt. O leiaf, felly y dywed traddodiadau milwraidd y genedl. Y mae yn amlwg i'r Cymry fod yn rhyfela llawer yn yr hen oesoedd, canys nid oes odid o ardal heb fod yn llawn o draddodiadau milwraidd, ac olion brwydrau, mewn dull o gloddiau, ffosydd, caerau, dinasoedd, amddiffynfeydd, beddau, &c. Meddylier am Dre'r Geiri, ar gopa'r Eifl, a Dinas Dinlle, yn sir Gaernarfon, yn enghraifft.

Eu harfau milwraidd oedd y waewffon, y darian, y cieddyf deuddwrn, y fwyall enniileg, y cleddyf byr, a'r bwa. Rhoddid enwau mawreddog ar rai arfau rhyfel. Gelwid gwaewffon Arthur, *bôngoniant;* ei gleddyf, *caledfwlch,* a *dyrnwyn;* a'i ddagr, *carnwenan.*

Yr oedd ganddynt gerbydau rhyfel a elwid gan y Rhufeiniaid *essedæ*=yswidydd, neu rhodawg, a phladuriau yn adenydd eu holwynion, y rhai a wnelent ddifrod mawr yn rhengau y gelyn wrth ruthro a charlamu drwyddynt. Drwy gymmhorth y rhodawg, yr oeddynt yn gallu cyfuno buandra y gwŷr meirch â chadernid y gwŷr traed yn yr un fintai. Mae Llywarch Llaety yn darlunio hen ryfelwyr yn ei rodawg, fel hyn:—

"Piau y rhodawg rudd faran—aerfle,
A'i haerflaidd gyr ei ban;
Pwy briw uch browys-farch can,
Pwy ei henw, hynod gyfran?"

III. *Hynafion Eglwysig.* Dan y pen hwn gellir cynnwys pob hen olion crefyddol, megys yr hen gylchau derwyddol, y cromlechau, &c. Mae hen demlau derwyddol Abury, a Chôr Gawr, neu Waith Emrys, yn perthyn i'r dosbarth hwn o hynafiaethau, os caniateir y dyb mai hen weddillion crefyddol ydynt. Ond ni pherthyn i ni yma ymdrin â hen grefydd cenedl y Cymry. Gwnaed hyny eisoes yn helaeth dan y geiriau BARDD;

Digitized by Google

Derwyddiaeth, &c. Ond etto, rhaid i ni ddyweyd wrth fyned heibio nad oedd y cyn-grefyddwyr Prydeinig mor anwar ac ofergoelus ag y myn llawer eu bod. Cyhuddir hwy yn fynych o aberthu dynion ar y cromlechau i'w duwiau, ac o losgi dynion yn y gwialfarch ar amserau gosodedig. Gadawer i hyny fod yn wirionedd, ond pa ham y teflir hyn yn ein hwyneb yn wastad i'n dirmygu? Onid ydyw y cenhedloedd gwareiddiaf ar wyneb y ddaear yn aberthu dynion hyd y dydd hwn? Pa beth arall ydyw y crogi yn Lloegr, a'r tori pen yn Ffrainge, ond aberthu dynion? Onid math o ebyrth i gyfiawnder cymdeithasol y cyfrifir y cyfryw farwolaethau yn yr oes bresennol? Os nad ydyw cyfiawnder gwladyddol yn gofyn bywyd y cyfryw rai, pa hawl sydd gan neb i'w llofruddio? A pha hawl sydd genym ninnau i roddi yr esboniad mwyaf anffafriol ar ddefodau yr Hen Gymry? Os oeddynt yn llosgi y drwgweithredwyr, onid oedd Rhufain Babaidd yr hon a broffesa mai hi yw yr unig wir eglwys, yn llosgi gweithredwyr da hyd yn ddiweddar iawn? Ac onid oedd Lloegr Brotestanaidd yn llosgi y rhai a alwent yn hereticiaid, mor ddiweddar a theyrnasiad Iago I.? Ië, llosgwyd gwraig foneddig a duwiol yn nheyrnasiad Iago yr ail, mor ddiweddar a Hydref 23ain, 1685! Dylid barnu yr Hen Gymry yn ngoleuni cymdeithas; ac yn y goleuni hwnw daliant i'w cymmharu, nid yn unig â'u cyfoeswyr, ond â rhai yn byw mewn gwell manteision, ac yn proffesu pethau uwch ac amgenach.

Er nad oes genym hanes cofnodedig mewn llyfr gan yr hen Dderwyddon eu hunain o'u golygiadau crefyddol, a chan fod traddodiadau yn cyfnewid ac yn ymlygru yn nhreigliad oesoedd fel nas gellir dibynu nemawr ar eu cywirdeb, etto mae genym ychydig o hen eiriau pur a chyntefig, oddi wrth y rhai y gallwn gasglu pa beth oedd golygiadau duwinyddol yr hen bobl, gyda rhyw radd o gywirdeb. Adnabyddent Dduw fel Crëwr, neu Gynachosydd, dan yr enw *Perydd*; adwaenent ef fel Llywodraethwr, neu Lywydd Rhagluniaeth, dan yr enw *Dofydd*; adwaenent ef fel bod ysbrydol ac anweledig, dan yr enw *Celi*; adwaenent ef fel eu Tad dan yr enw *Rhi*; ac adwaenent ef fel y Diddechreu a'r Tragwyddol, dan yr enwau Ion, *Ior*, *Rhen*, &c. Mae y geiriau uchod yn dangos fod ganddynt olygiadau rhy uchel a rhesymol am y natur ddwyfol i fod yn eilunaddolwyr. Ac er mor hoff ydym o hen bethau, ni chlywsom erioed am hen eilunod y Cymry, na hen ddelwau cerfiedig o un math. Rhufain Babaidd, yn y canoloesoedd, a ddygodd greiriau a delwau i'w plith gyntaf; ac y mae yn ffaith hefyd i'r Cymry yn yr oesoedd diweddaf hyn ysgwyd ofergoelion Pabaidd ymaith yn llwyrach nag y gwnaeth un genedl arall. Hefyd, y mae yn amlwg i Gristionogaeth ddyfod yn foreu i'r Ynys; ac yn ol pob awgrym hanesyddol sydd ar gof a chadw, cafodd yr "ymadrodd am y groes" dderbyniad croesawus gan yr hen Wyddoniaid; a throwyd y llanau derwyddol yn llanau neu lanerchau cyssegredig i addoli y gwir Dduw, trwy gyfryngwriaeth ei anwyl Fab. Nid ydym yn meddwl i'r Cymry newid eu Duw wrth newid eu crefydd, a derbyn yr efengyl; canys Duw Noah oedd gwrthddrych eu haddoliad. Ond cawsant oleuni eglurach am dano, a gwybodaeth lawn a dadguddiedig o'i feddwl yn nghyhoeddiad "y newyddion da o lawenydd mawr." Ychydig a wyddom am gyflwr eglwysig y Cymry o dan y Rhufeiniaid. Yn hyn, mae ein hynafiaethau yn dra diffygiol, fel nad oes genym nemawr o weddillion crefyddol o'r oesoedd hyny. Gwir fod genym rhyw adgofion traddodiadol am "Hud Morien," a "Heresiau Morgan;" ond daethant i'n meddiant ni trwy gyfryngau Pabaidd, fel mae yn rhaid i ni edrych ar orchestion y saint, a gwrhydri Maes Garmon fel chwedlau disail ac ofergoelus. Mae cyfnod y seintiau Cymreig yn dechreu tua'r bummed ganrif, pan sefydlwyd llawer o'n llanau plwyfol. Rhaid cofio i hyn gymmeryd lle wedi i'r Saeson ein cyfyngu i'r terfynau presennol; ac i'r penaethiaid Cymreig ffoi am nodded i Wyllt Walia. Ond mae yn amlwg fod crefydd yn dra blodeuog o'r bummed i'r seithfed ganrif, gan fod yn Nghymru gynnifer o Fangorau a chynnifer o Lanau y pryd hwnw. Nid oes genym weddillion eglwysig na hynafiaethau perthynol i'r tymmor boreuol hwn; canys wedi hyny, trwy ddylanwad y Saeson, daeth Eglwys Rhufain, yn ei hanwybodaeth a'i hofergoelion, i deyrnasu arnom. Felly y mae ein hynafiaethau eglwysig, mewn adeiladau, a chreiriau, megys Derfel Gadarn, Ffon Gwrig, y Gloch Bangu, y Grog o Gaer, Ffynnon Gwenfrewi, ynghyd â'r holl ffynnonau sanctaidd, yn bethau perthynol i Babyddiaeth yr oesoedd tywyll, y rhai nad yw yn weddus na phriodol eu cyfrwyo ar genedl y Cymry. Hynafiaethau Pabaidd yn hytrach na Hynafiaethau Cymreig ydynt

IV. *Hynafion Llenorol.* O dan y pen hwn yr ydym yn dra chyfoethog o hen bethau. Mae ein hen iaith, ein hen ddiarebion, ein hen farddoniaeth, ein hen Frudiau, a'n hen Fabinogion yn arddangosiad llawn o gyfoeth ein hynafiaethau llenorol.

1. *Ein hen Iaith.* Nid ydym yn myned i draethu am hynafiaeth yr iaith Gymraeg; ond detholwn ychydig o eiriau i osod allan rai o hynafion y genedl. Dyna'r gair *adeilad*. Mae tarddiad y gair yn dangos mai *eilio* ac *adeilio* y byddai y Cymry wrth wneuthur eu tai. Curent bolion i'r llawr, a phlethent wrysg mewn dull eiliedig ac adeiliedig, a ffurfient glwyd wiail, a chrogent hono i fyny fel math o dô, a galwent hi yn gronglwyd, sef clwyd grogedig, neu glwyd gron, neu gronglwyd, yr hyn sydd yn dangos mai tai â'u nen o ffurfiad crynddull oedd ganddynt. Mae'n debyg nad oedd ffenestri yn eu tai, gan nad oes genym hen air Cymraeg i ddynodi ffenestr; tra y mae genym lawer i ddynodi simnai, megys *ffumer*, *llumon*, *llwfer*, *sawell*, &c.

Tebygol fod gan y Cymry feirch o'r dechreuad, canys y mae ganddynt gyflawnder o eiriau i ddynodi y creadur gwasanaethgar hwnw; megys *gwilwg*, *gorwydd*, *gorwyddawd*, *rhedant*, *eddestl*, *eddestr*, *carnwydd*, &c. Ond y mae yn debyg nas gellir gosod yr asyn yn mhlith yr hynafiaethau, canys nid yw *mul* ac *asyn* yn eiriau o fonedd Gymreig; ac y mae *mul* yn meddu ystyr hollol wahanol yn y Gymraeg, sef gwylaidd, ofnus, gweiddaidd—cynneddfau na ŵyr yr asyn ddim am danynt.

Mewn hen eiriau ereill, ceir golwg ar ddull yr hen Gymry yn byw; megys ag y dengys y geiriau *hafod* a *hendref*. Yr hendref oedd eu gauafdy, a'r hafod neu'r hafotty oedd eu hafdy. Symmudent i'r hafod ddechreu haf, a dychwelent i'r hendref Galan Gauaf;—

"Calan Gauaf, Gweddw Hafod."

Ymborthent y gauaf ar gynnyrch yr haf mewn difyrwch cymdeithasol, yn canu gyda'r tannau, yn llewyrch tân goleugoch o billwydd di-fwg, di-wreichion; canys y mae Llywarch Hen yn

Digitized by Google

yn ngorchfygiad y fyddin Syriaidd, cynnyddodd nerth Hyrcanus; ac ar farwolaeth Antiochus VII., cymmerodd feddiant o amryw o'r dinasoedd Syriaidd, a sefydlodd ei annibyniaeth yn hollol. Adgyfnerthodd ei hun drwy gynghrair â Rhufain, ac estynodd ei feddiannau drwy orchfygiad yr Idumæaid, y rhai a orfododd i ufuddhau i'r enwaediad a chyfraith Moses, a thrwy feddiannu Samaria, yr hon a ddinystriodd hyd y llawr, er fod Antiochus IX. wedi anfon byddin yn ei erbyn. Cythryblid y rhan ddiweddaf o'i lywodraeth gan ymrafaelion rhwng y Phariseaid a'r Saduceaid. Perthynai Hyrcanus ar y cyntaf i'r Phariseaid; ond gadawodd eu plaid hwy o blegid ammharch a dderbyniodd mewn gwledd yn nhŷ Eleazar, yr hwn oedd ŵr dylanwadol yn mysg y Phariseaid. Trwy ymuno â'r Saduceaid, daeth Hyrcanus, er ei lwyddiant llywodraethol, a'r daioni a wnaethai i'w ddeiliaid drwy lywodraethiad doeth ac egniol, yn dra ammhoblogaidd yn mhlith y werin, y rhai oeddynt, gan mwyaf, o du y Phariseaid. Bu farw c. c. 106, a dilynwyd ef i'r orsedd gan ei fab Aristobulus, yr hwn oedd y cyntaf o'r tywysogion Asmonæaidd a arferodd y teitl o frenin.

HYRCANUS YR AIL Gwel ASMONÆAID.

HYSIO. Mewn saith o argraphiadau o'r Beibl Cymraeg, o 1690 hyd 1790, dywedir am yr annuwiol:—"Curant eu dwylaw arno, ac a'i *hys-sant* (o ysu) allan o'i le (*Iob* xxxii. 23), yr hyn sydd yn hollol wahanol ei ystyr i'r gair a ddefnyddir yn bresennol *hysiant;* yr hwn hefyd yw y cyfieithiad o שרק yn argraphiadau 1620, 1630, 1654, a 1678. Cyfieithir y gair yn 1 *Bren.* ix. 8; *Galar.* ii. 15; *Esa.* vii. 18; v. 26; a *Zech.* x. 8, *chwibianu*, yr hyn yw cyfieithiad Dr. Morgan yn *Iob*. Yn *Barn.* v. 16, cyfieithir ef *brefu*, ac yn 2 *Cron.* xxix. 8, *gwatwargerdd.* Mae'n debyg mai yr ystyr yn *Iob* ydyw hela neu hwtio allan. Y mae Iob yn cyfeirio at ddywediad Bildad (*pen.* xviii. 18):—

"Efe a yrir o oleuni i dywyllwch,
A helir ef allan o'r byd." (Cyf. *Barnes*).

Yn niwedd y bennod hon, y mae y patriarch yn ail adrodd syniadau ei wrthwynebwyr, prif nod y rhai oedd dangos fod dyn yn cael ymddwyn ato yn ol ei haeddiant yn y byd hwn; ac yn y pennodau dilynol y mae yn cyfarfod â'u gwrthwynebiadau drwy draethu ei syniadau ei hun ar ragluniaeth Duw.

HYWEL DDA. Hywel Dda, deddfwr hynotaf a chlodforusaf cenedl y Cymry, oedd fab Cadell, fab Rhodri Fawr. Yr oedd Cymru wedi colli ei choron frenhinol, a myned yn Dywysogaeth, er dyddiau Ifor ab Alan, yn y fl. 688, er fod yr enw brenin yn cael ei gymmhwyso at y penadur tywysogaidd mor ddiweddar ag oes Hywel Dda. Bu Rhodri Fawr yn teyrnasu o 843 hyd 877. Yn y flwyddyn olaf a nodwyd "y bu waith Dyw Sul ym Mon, ac yn hono y llas Rhodri Mawr, a Gwnad ei frawd, a Gweirydd mab Owain Morganwg, gan y Seison. Ac yna, yn eu llawn angerdd, y cymmerth gwragedd Mon arfau, ac a ruthrasant ar y Seison, a'u lladd yn greulawn, oni orfu arnynt ffoi."

Yr oedd Cymru benbaladr yn un Dywysogaeth, o dan reolaeth Rhodri Fawr; ond ar ei farwolaeth, rhanodd hi, yn ol hen ddeddf *Gavelkind*, rhwng ei dri mab. Rhoddodd y Deheubarth i Cadell, a'i Lys yn Ninefwr; Gwynedd i Anarawd, a'i Lys yn Aberffraw; a Phowys i Ferfyn, a'i Lys yn Mathrafal. Etto, nid oedd Gwent a Morganwg o fewn y rhaniadau uchod; ac yr oeddynt hwy yn dywysogaeth annibynol, ac ar wahân oddi wrth y Deheubarth, sef Dyfed. Pa fodd bynag, ni chyttunodd meibion Rhodri â'u gilydd yn hir; canys gorfu Cadell ar Ferfyn ei frawd, a dygodd Bowys oddi arno; ac ar ei farwolaeth, yn 907, daeth Hywel i orsedd y Deheubarth a Phowys; ac ar farwolaeth Idwal Foel, mab hynaf Anarawd, tywysog Aberffraw, daeth Hywel ab Cadell, sef Hywel Dda, yn dywysog neu frenin Cymru oll.

Ymddengys fod Hywel Dda, fel y cerdd y chwedlau am dano, wedi ymroddi yn nechreu ei deyrnasiad i fod yn ddiwygiwr trwyadl, i ffurfio deddfau newyddion, i ddirymu 'hen ddeddfau anfuddiol, ac i adgyweirio y rhai diwygiadwy. Teyrnasodd mewn doethineb, llwyddiant, a heddwch am ddeugain mlynedd; a bu farw yn llawn parch ac anrhydedd yn 948 neu 950, am y gelwid ef Hywel Dda, "Pen moliant yr holl Frutaniaid."

Ymddengys oddi wrth y cyfreithiau a briodolir i Hywel Dda, fod Cymru mewn cyflwr hynod o farbaraidd ac annhrefnus yn nechreu y ddegfed ganrif. Nid oedd yn ddiberygl i ddynion deithio ar hyd y prif ffyrdd heb fod o dan nawdd y brenin, neu 'r frenhines; ac er hyny, torid y cyfryw nawdd yn fynych. Nid oedd trefn hyd yn oed ar dŷ y brenin: yr oedd y frenhines ei hun yn agored i gael ei sarhau drwy gael bonclust gan un o wŷr y llys. "O dri modd y sarhäir y frenhines; pan torer ei nawdd, neu pan tarawer trwy lid, neu pan tyner peth gan drais o'i llaw." Mae fod yma gynnifer o ddeddfau yn pennodi mân ddirwyon am ymosodiadau ar bersonau, trais ar fenywod, &c., yn brofion fod moesoldeb a gwedd-eidd-dra yn bethau lled ddieithr yn y wlad Yr oeddym ni yn meddwl yn uwch am foesoldeb a gwareiddiwch yr hen Gymry cyn darllen y deddfau hyn nag yr ydym yn bresennol; etto, tybiwn y dalient eu cymmharu, hyd yn oed y pryd hwnw, â'r cenhedloedd ereill a breswylient o'u hamgylch. Gan mai fel deddfroddwr y mae Hywel Dda yn cael ei hynodi, yn ngoleu ei ddeddfwriaeth yn benaf y mae i ni edrych arno. Y cyfrif goreu a ellir gael am ei weithrediadau deddfwrol sydd yn y Rhaglith i'r Cyfreithiau. Cyflëwn y meithaf o'r Rhaglithiau yn y lle hwn, am ei fod yn fynegiad llawn o'r modd y cafodd y deddfau eu ffurfio.

"Hywel Dda o rad Duw, mab Cadell, brenin Cymru oll, a welas y Cymry, yn nghamarfer o gyfreithiau a defodau, ac wrth hyny a ddyfynawdd attaw o bob cwmwd o'i deyrnas chwegwyr a arferynt o awdurdawd ac yn ngneidaeth a'r holl eglwyswyr y deyrnas a arferynt o deilyngdawd baglau, megys archesgob Mynyw ac esgyb ac abadau a phriorau hyd y lle a elwir y Tŷ Gwyn ar Daf yn Nyfed. Y tŷ hwnw a beris ef ei adeilad o wiail gwynion yn llety iddaw wrth hely pan ddelai i Ddyfed, ac wrth hyny y gelwid ef y Tŷ Gwyn.

"A'r brenin a'r gynnulleidfa hono a drigasant yno trwy yr holl Arawys yn gweddio Duw trwy ddirwest perffaith, ac i erchi rad a darpar i'r brenin i wellau cyfreithiau a defodau [Cymru]. Ac o'r gynnulleidfa hono, pan derfynawdd y Grawys, y dewisawdd y brenin y deuddeg llëyg doethaf o'i wyr, a'r un ysgolaig doethaf yr hwn a elwid yr athraw Flegywryd, i luniaethaw ac i

Digitized by Google

Nid ydyw Carnhuanawc [*Han. Cym.*], yn cydsynio yn hollol â Peter Roberts, nac yn gallu ei wrthbrofi chwaith. Tebygol fod gormod o dywyllwch yn gorwedd ar yr hanes, fel nas gellir bod yn sicr y naill ffordd na'r llall. Nid ydym yn cael yn *Brown Willis* fod y fath un a Chebur yn esgob yn Llanelwy y pryd hwnw, yr hyn sydd yn chwanegu at y dyryswch. Boed hyny fel y bo, y traddodiad yw, i Hywel Dda fyned i Rufain i gael bodd a sel y pab wrth ei ddeddfau. Cyfansoddwr neu ysgrifenydd y deddfau oedd Blegywryd archddiacon Llandaf; "a doctor yn nghyfraith yr amherawdwr, ac yn nghyfraith yr Eglwys oedd ef." Gelwid ef hefyd "Blegywryd ab Owain, Pencyfeistedd Llandaf, brawd Morgan brenin Morganwg." Rhenir y Cyfreithiau yn dri dosbarth:—

I. Defodau a swyddogion y llys. Dan y pen hwn, traethir am bedwar ar hugain o swyddogion llys y brenin; nodir eu gwaith, eu cyflog, eu bwyd, a'u lle wrth y bwrdd, &c. Dyma eu henwau:—Penteulu, Offeiriad teulu, Dystain, Ynad llys, Hebogydd, Pengwastrawd, Pencynydd, Gwas ystafell, Dystain brenhines, Offeiriad brenhines, Bardd teulu, Gostegwr llys, Drysawr neuadd, Drysawr ystafell, Morwyn ystafell, Gwastrawd afwyn, Canwyllydd, Trulliad, Meddydd, Swyddwr llys, Côg, Troedawg, Meddyg llys. Nodir amryw o swyddogion heblaw y rhai a enwyd uchod, megys y Pencerdd, Gof llys, Maer y biswail, &c. Gwaith y Troedawg oedd eistedd wrth y bwrdd gyferbyn a'r brenin, i ddal ei draed ar ei liniau, ac i fwyta o'r un cawg ag ef. Yr oedd yr offeiriad i eistedd mewn lle manteisiol wrth y bwrdd i "fendigaw y bwyd a chanu ei bader." Nodir yn mhellach pa fodd yr oeddynt i gael dillad, a pha le yr oeddynt i lettya.

II. Cyfreithiau y wlad, sef hawliau a defodau cymdeithasol, cyfreithiau ynghylch meddiannau, &c.

III. Dirwyon am wahanol droseddau, gwerth gwyllt a gwar, prisiau dodrefn, offer amaeth, &c. Os byddai gŵr a gwraig yn dewis ymadael â'u gilydd, trefnir pa fodd i ranu yr eiddo, a gofelir am eithaf tegwch i'r wraig.

Dywed Carnhuanawc fod y deddfau hyn yn hollol Gymroaidd a chyssefin, "nad oes rhyngddynt y berthynas leiaf â chyfreithiau Ewrop. Yn gyffredinol, nid ydynt yn dwyn un cyffelybrwydd i'r cyfreithiau Rhufeinig, naill ai o eiddo *Justinianus*, nac un deddfroddwr arall; felly y maent, o wir a digymmysg darddiad Cymraeg." Dywedir na bu Hywel Dda yn rhyfela, ac i'r Cymry fwynhau heddwch am y deugain mlynedd y bu yn teyrnasu. Bernir nad yw hyn yn hollol gywir; ond gellir bod yn sicr i'w deyrnasiad ef fod yn hynod o dangnefeddus mewn cymmhariaeth i deyrnasiad ereill o'i flaen ac ar ei ol.

Cofnodir ei ddiwedd fel hyn:—"Oed Crist 948, y bu farw Hywel Dda, fab Cadell, brenin Cymru oll, y doethaf a'r cyfiawnaf o'r holl dywysogion. Efe a garai heddwch a chyfiawnder, ac a ofnai Dduw, ac a lywodraethai yn gydwybodus, yn mhob iawnder tangnefus, ac efe a gerid yn fawr gan bawb o'r Cymry, a chan lawer o ddoethion y Seison, a gwledydd ereill, ac achos hyny y gelwid ef Hywel Dda." Cyhoeddwyd y cyfreithiau gan y Dr. Watton yn 1730; a chyhoeddwyd hwy drachefn gan y llywodraeth dan olygiad Aneurin Owen, Ysw., 1841. Maent hefyd yn y *Myfyrian Archaiology of Wales*, cyhoeddedig gan T. Gee.

Digitized by Google

# I.



IA (gloew, llithrig, rhew). Yr un gair Hebraeg (כפור) a gyfieithir yn mhob man (ond *Iob* xxxviii. 29, a *Salm* cxlvii. 17), *rhew*. Yr ystyr yn y blaenaf *ydyw* rhew, fel y mae yn y Saesoneg; ac yn yr olaf, mae yn ddiammheu mai *eira* neu *genllysg* a olygir, ac nid *rhew*; o leiaf, mae hyn yn fwy cydweddol â'r ymadrodd "*bwrw* ei ia fel *tameidiau*." Y Saesoneg ydyw *hoar-frost*, gwlith neu darth rhewedig, llwydrew. Gwel RHEW.

IAACOBAH: un o dywysogion teuluoedd Simeon: 1 *Cron.* iv. 36. Yr unig wahaniaeth rhwng yr enw hwn ag Iacob, yn y gwreiddiol ydyw y terfyniad *ah*.

IAALA. Yr oedd meibion Iaala yn mysg hiliogaeth "gweision (caethion) Solomon," y rhai a ddychwelasant gyda Zorobabel o Babilon: *Neh.* vii. 58. Y mae yr un person yn ymddangos fel

IAALAH (*Ezra* ii. 56); ac yn *Esdras* y mae yn IEELI.

IAALAM (יעלם="yr hwn a guddia Duw"): mab i Esau, o'i wraig Aholibamah (*Gen.* xxxvi. 5, 14, 18: cymh. 1 *Cron.* i. 35), a phencenedl (duc) yr Edomiaid.

IAANAI: enw sydd yn digwydd yn unig yn 1 *Cron.* v. 12: ar un o flaenoriaid llwyth Gad. Yn nghyfieithiad y Deg a Thrigain, cyssylltir yr enw â'r un canlynol, Saphat=Iaanai-Saphat.

IAARE-OREGIM, yn ol y cyfieithiad awdurdodedig (2 *Sam.* xxi. 19) ydoedd Fethlehemiad, tad Elhanan, yr hwn a laddodd "frawd Goliath y Gethiad." Yn 1 *Cron.* xx. 5, yr ydys yn cael Iair (nid Iaare), tra y gadewir Oregim allan. Ni cheir Oregim yn un man arall fel enw priodol, ac nid ydyw yn air cyffredin; ond y mae yn cael ei gyfieithu yn niwedd yr adnod yn 1 *Cron.*, "gwehydd," adnod gyferbyniol i 1 *Sam.* xvii. 7; ac nid yw yn debygol y digwyddai yn nghanol yr adnod hefyd. Barna Kennicott mai camattodiad ydyw dechreu yr adnod olaf a grybwyllwyd o'r geiriau yn niwedd 1 *Cron.* xx. 5; yr hyn nid yw yn annhebygol pan ystyriom mai at arfau Goliath y cyfeirir yn y naill le, ac at rai ei *frawd* yn y llall. Barna hefyd mai Iair, neu Iaor, ydyw y ffurf briodol, ac nid Iaare. Gwel IAIR.

Yn y cyfieithiad Peshitaidd, yr hwn a ddilynir gan yr Arabaidd, yn lle Iaare-Oregim, dywedir "Malaph y gwehydd;" ond pa ham felly, nis gellir penderfynu. O'r tu arall, y mae y *Targum*, gyda'r amcan yn ddiammheu o symmud pob gwrthddywediad ymddangosiadol i'r hanes yn 1 *Sam* xvii., yn gosod Dafydd yn lle Elhanan; ac yn cael ei arwain gan ystyr y gair *Oregim*, y mae yn adrodd, neu fe allai yn dyfeisio, pa beth oedd galwedigaeth Iesse:—"A Dafydd mab Iesse, gwehydd lleni y cyssegr sanctaidd, yr hwn oedd o Bethlehem, a laddodd Goliath y Gathiad."

Yn y testyn Hebraeg cywiraf ysgrifenir Iaare gydag *r* fechan, i ddangos fod y Masoretiaid o'r farn fod y lythyren yn ansicr.

IAASAU: un o feibion Bani, yr hwn a briodasai wraig estronol, yr hon y gorfu iddo ei rhoddi o'r neilldu: *Ezra* x. 37.

IBASIEL: mab Abner, llywodraethwr neu "dywysog" ei lwyth (llwyth Beniamin) yn amser Dafydd: 1 *Cron.* xxvii. 21.

IAAZANIAH: neu yn fanylach, IAAZANIAHU: un o "dywysogion y lluoedd" a ddilynent Iohanan mab Careah i gyfarch Gedaliah yn Mispah ar ol cwymp Ierusalem (2 *Bren.* xxv. 23); ac ymddengys iddo wedi hyny gynnorthwyo i gymmeryd ysglyfaeth Ismael o'i grafangau (cymh. *Ier.* xli. 11, â'r adnod uchod). Wedi hyny mae yn debyg iddo fyned i'r Aipht gyda'r lleill: *Ier.* xliii. 4, 5. Gelwir ef yn y gwreiddiol yn "fab y Maachathiad;" ond yn y cyfieithiad Cymraeg, gadewir yr *y* allan. Yn *Ier.* xlii. 1, gelwir ef "Iezaniah mab Hosaiah."

2. IAAZANIAH: mab Saphan, ac arweinydd y cwmni o ddeg a thrigain henuriaid Israel a welsid gan Ezeciel yn addoli o flaen yr eilunod ar fur cyntedd tŷ yr Arglwydd: *Ezec.* viii. 11. Mae yn bossibl mai yr un ydyw hwn ag

3. IAAZANIAH, mab Asur, un o "dywysogion" y bobl y gorchymynwyd i Ezeciel brophwydo yn eu herbyn: *Ezec.* xi. 1.

4. IAAZANIAH: Rechabiad, a mab i Ieremiah. Ymddengys mai efe oedd penaeth llwyth y Rechabiaid yn amser ymweliad Ieremiah â hwynt: *Ier.* xxxv. 3. Gwel IEHONADAB.

IAAZIAH (neu, yn fwy manwl, IAAZIAHU), fe dybygid oedd trydydd mab Merari y Lefiad. Yr oedd yn un o'i hiliogaeth, o leiaf ac yn sylfaenydd cangen annibynol o'r teulu Meraraidd: 1 *Cron.* xxiv. 26, 27. Nid enwir ef na'i hiliogaeth yn un man arall (cymh. y rhestrau yn *pen* xxiii. 21—23; *Exod.* vi. 19, &c.). Dylid cyfieithu y gair *beno*, sydd yn dilyn Iaaziah, "ei fab," sef mab Merari.

IAAZIEL: un o Lefiaid yr ail ddosbarth, neu "radd," a bennodwyd gan Dafydd i gyflawni y gwasanaeth cerddorol o flaen yr arch: 1 *Cron.* xv. 18. Os yr un ydyw Iaaziel a'r Aziel sydd yn *adn.* 20, lle y mae yr enw mewn ffurf fferach, a'r hyn yw syniad dysgedigion yn gyffredinol, yna gorchwyl Iaaziel oedd "canu (chwareu) nablau ar Alamoth." Ceir cyfnewidiad cyffelyb yn 1 *Cron.* xxv., lle y rhoddir yn *adn.* 2, Asaelah, ac yn *adn.* 13, Iesarelah.

Digitized by Google

saith milldir o Ramleh, a phedair o Akir (Ecron). Tybir mai y pentref hwn ydoedd Iabneh neu Iabneel, o blegid ceir ynddo weddillion hen adeiladau—gweddillion yr amddiffynfa a gyfodwyd gan Rytelwyr y Groes, fe allai.—*Porter's Handbook of the Holy Land*, td. 274.

2. IABNEEL, [Gr. Alex., *Ieónaël*]: un o nodau terfyn Naphtali: *Ios.* xix. 33, yn unig. Enwir hi yn nesaf ar ol Adami Neceb, ac y mae yn debyg fod Lacum rhyngddi a "chyrau eithaf" y terfyn wrth yr Iorddonen; ond nid oes nemawr neu ddim yn yr ymadrodd a'n galluoga i ddeall ei sefyllfa. Credir mai yr un lle ydyw Iamnia a *Iamnith* Josephus [*Bywyd Iosephus, adr.* 37; *Rhyfel yr Iudd.*, ii. 20, *adr.* 6]; pentref a enwir ganddo yn mhlith ereill yn Galilea Uchaf, oeddynt "yn gryfion ynddynt eu hunain," ond a gryfhawyd ganddo ef mewn disgwyliad am ymosodiad oddi wrth y Rhufeiniaid, iau y rhai yr oedd yr Iuddewon wedi penderfynu ei thaflu ymaith. Y pentrefydd ereill a enwir ganddo ef ydynt Meroth, ac Achabare, neu graig Achabari. Dywed Schwarz mai enw diweddar Iabneel ydoedd *Kefr Yamah*—y pentref wrth y môr. Y mae hyn, ynghyd â chyfeiriadau aneglur Josephus, yn ein tueddu i feddwl fod Iabneel yn sefyll yn y rhan ogledd-orllewinol o Fôr Galilea, yn y bryniau.

IABNEH, [יַבְנֶה; Gr. Alex., *Iabnia*]: 2 *Cron.* xxvi. 6. Yr un ydyw hon ag Iabneel. Gwel IABNEEL, Rhif. 1.

IACAN: cyndad Bene-Iacan (*Num.* xxxiii. 31, 32), neu, yn ol y cyfieithiad Cymraeg yn gyffredin, meibion Iacan; o amgylch ffynnonau y rhai y gwersyllodd yr Israeliaid wedi gadael Mosera, a chyn cyrhaedd Hor-Hagidgad: *Deut.* x. 6. Iacan ydoedd fab Ezer, fab Seir yr Horiad: 1 *Cron.* i. 42. Yn *Gen.* xxxvi. 27, ceir yr enw yn y ffurf byrach *Acan*. Nid oes neb etto wedi nodi sefyllfa y ffynnonau. Yn amser Eusebius [*Onomasticon*, d.g. *Iacin*], dangosid yr ysmotyn hwn ddeng milldir o Petra, ar ben mynydd. Cynnygia Robinson y ffynonnell *et-Taiyibeh*, yn ngwaelod y bwlch a elwir *er-Rubây*, islaw Petra, ychydig bellder o ddyffryn Arabah. Ond y mae y gair *Beeroth* (*Deut.* x. 6) yn golygu nifer o ffynnonau—nid ffynnonell.

2. IACAN, [Gr. *Iachan*]: un o saith penadur llwyth Gad: 1 *Cron.* v. 13.

1. IACIM: arweinydd deuddegfed cylch yr offeiriaid yn amser Dafydd: 1 *Cron.* xxiv. 12. Gwel IACHIN, a IEHOIARIB.

2. IACIM: Beniaminiad, un o feibion Sema neu Simhi: 1 *Cron.* viii. 19.

IACOB (יַעֲקֹב=disodlwr): ail fab Isaac a Rebeccah. Ganwyd ef gyda'i frawd Esau hefyd wrth y ffynnon Lahai-roi, pan oedd eu tad yn 59, a'u taid Abraham yn 159 oed. Mae hanes Iacob i'w weled yn y rhan ddiweddaf o *Gen.* (*pen.* xxv.—l), ac y mae mor hysbys i ddarllenwyr y Beibl fel mai prin y rhaid i ni fanylu ond ar y prif ffeithiau ynddo. Cawn iddo dyfu i fyny yn ŵr ieuangc llonydd, cartrefol, ac yn anwylaf fab ei fam. Pan o ddeutu deuddeg ar hugain oed, prynodd enedigaeth-fraint ei frawd; ond cyn ei eni ef a'i frawd, hysbyswyd eu mam y byddai i'r hynaf wasanaethu yr ieuangaf. Ac wrth gondemnio ymddygiad Rebeccah yn nghymmhelliad a chyfarwyddiad ei mab ieuangaf i fyned â bendith ei frawd trwy dwyll, a gwaith Iacob yn ufuddhau, fe ddylid cadw y ddwy ffaith grybwylledig mewn golwg; y rhai, er nad ydynt yn dieuogi y naill na'r llall, etto ydynt, fe allai, yn ysgafnhau y camwedd hwn. Ar hyn, gwel yn mhellach yn mlaen yn yr erthygl hon. Hyd yn hyn yr oedd y meibion yn cydgrwydro â'u rhieni yn "nhir y deheu;" ond y pryd hyn, pan oedd Iacob yn 78 mlwydd oed, anfonwyd ef oddi cartref i ochelyd llid ei frawd, yr hwn oedd am ei ladd. Anfonwyd ef i Padan-Aram i geisio gwraig yn mhlith ei geraint—teulu Laban. Fel yr oedd yn teithio trwy Bethel, ymddangosodd Duw iddo mewn gweledigaeth. Yn mhen un mlynedd ar hugain, dychwelodd o Padan-Aram gyda dwy wraig—merched Laban, ei ewythr—dwy ordderchwraig, un ar ddeg o feibion a merch, ynghyd â llawer o eiddo. Yr oedd ei wragedd a'i eiddo, fel y gwyddys, yn ffrwyth un ar hugain o flynyddoedd o lafur. Wedi iddo fod gyda Laban o ddeutu mis, y mae ei ewythr yn gofyn iddo pa beth a fynai yn wobr am ei lafur. Ettyb yntau, mai y "deg ei phryd," a'r "landeg yr olwg" Rahel, yn wraig. Y mae Laban yn ei haddaw iddo am saith mlynedd o lafur—tymmor maith yn sicr; ond yr oedd "yn ei olwg ef fel ychydig ddyddiau, am fod yn hoff ganddo hi." Yn niwedd y saith mlynedd, y mae Iacob yn hawlio ei wraig. Ond gwelodd y cyfrwysgall a'r cyfoethgar Laban yn arferion ei wlad foddion i gael gan Iacob saith mlynedd yn chwanegol o lafur am Rahel. Y mae yn arferiad yn y dwyrain fod i'r tad, ar ol i'r wledd briodasol derfynu, arwain ei ferch yn y tywyllwch ac o dan orchudd at y priodfab. Mae yn arferiad hefyd iddo ofalu am i'r ferch hynaf gael ei phriodi gyntaf. Felly y gwnaeth Laban yn yr amgylchiad hwn, dybygid, gan ddwyn Leah at Iacob; yr hwn, ar ol canfod ei sefyllfa yn y boreu, a gofyn y rheswm o'r twyll, a attebwyd gan ei ewythr, "Nid felly y gwneir yn ein gwlad ni, gan roddi yr ieuangaf o flaen yr hynaf." Y canlyniad o hyn fu i Iacob lafurio saith mlynedd yn chwanegol am Rahel. Ond Leah a gafodd y rhagorfraint o fod yn fam y cyntafanedig, yr hwn a alwyd Reuben; a ganwyd iddi wedi hyny, cyn geni i Rahel un plentyn, Simeon, Lefi, a Iudah. Yr oedd y ffrwythlondeb hwn yn achlysur o boen mawr i Rahel. Cwynodd yn chwerw wrth Iacob, ac attebodd Iacob hi mewn iaith a ddangosai pa mor addfwyn bynag ydoedd yn gyffredin, fod ynddo ddigon o yni i fod yn llym pan ydoedd angen am hyny. Ond gwnaed trefniad yn ol yr hwn y cafodd Rahel blant drwy gyfrwng ei morwyn Bilhah, yr hon a wnaed yn ordderch i Iacob, ac o'r hon y ganwyd Dan a Naphtali. Ganwyd dau fab arall i Iacob o'i ordderch Zilpah, llawforwyn Leah, sef Gad ac Aser. Wedi hyn, ganwyd i Leah ddau fab a merch—Issachar, Zabulon, a Dinah. O'r diwedd, ganwyd i Rahel fab, a galwodd ei enw ef Ioseph. Yn mhen pedair blynedd ar ddeg, y mae Iacob yn awyddus i ddychwelyd at ei rieni; ond ar gais taer ei ewythr, y mae yn aros saith mlynedd drachefn, yn ystod yr hwn amser y mae y callineb hwnw oedd yn naturiol yn Iacob, a rhithyn o'r twyll a ddysgwyd iddo gan ei fam, yn dwyn ffrwyth mewn gosod Iacob yn feddiannol ar gyfoeth mawr. Nis gallwn yma fanylu ar hyn; ond gall y darllenydd gael esboniad gwerthfawr ar yr hanes a rydd y Beibl yn ngweithiau Michaelis a Rosenmüller, yn gystal a'r rhai canlynol: *Pliny's Natural History*, vii. 10; *Bochart Hieroz.* i. 619; *Hieron. Quæst. in Genesis*; a *Winer's Handwort.*

Digitized by Google

weledigion y caethiwed drwy eu sicrhau fod y Duw a garodd Iacob yr un mor ewyllysgar i'w caru hwy. Heblaw y cyfeiriadau mynych a wneir at Iacob mewn cyssylltiad â'r ddau batriarch ereill, y mae cyfeiriadau neillduol at ddigwyddiadau yn ei fywyd mewn pedwar o lyfrau y Testament Newydd. Yn *Rhuf.* ix. 11, 13, y mae Paul yn dyfynu hanes genedigaeth Iacob i ddangos nad ydyw gweinyddiad ffafr Duw yn dibynu ar drefn genedigaeth. Yn *Heb.* xi. 21; a xii. 16, cyfeirir at drosglwyddiad yr enedigaeth-fraint oddi wrth Esau, a bendithion Iacob wrth farw. Cofnodir ei weledigaeth yn Bethel, a'i berchenogiad o dir yn Sichem, yn *Ioan* i. 51; a iv. 5, 12. Ac y mae Stephan, yn ei anerchiad (*Act.* vii. 12, 16), yn sylwi ar y newyn a fu yn foddion i adferu i Iacob ei fab colledig, yn gystal ag am gladdedigaeth y patriarch yn Sichem.

Yn gyffelyb i hyn yna y mae ffeithiau hanes Iacob, fel y cofnodir hwy yn y Beibl. Y mae rhai o honynt yn galw am sylw manylach.

1. O blegid gwerthiad ei enedigaeth-fraint i Iacob, disgrifir Esau yn *Heb.* xii. 16, fel gŵr "halogedig." Y mae y rhagorfreintiau canlynol yn cael eu nodi fel yn perthyn i'r cyntafanedig yn amser y patriarchiaid, y rhai oeddynt wrthddrychau dymuniad Iacob. (1.) Y radd nesaf i'r tad yn y teulu: *Gen.* xlix. 3, 4. (2.) Rhan ddyblyg o eiddo y tad;—felly y dywed Aben Ezra, a gwel *Gen.* xlviii. 22; a *Deut.* xxi. 27. (3.) Y swydd o offeiriad yn yr eglwys batriarchaidd: gwel *Num.* viii. 17—19. Yn ffafr hyn, y mae Jerome [*Evangel. Epis.*, lxxiii. adr. 6], a Jarchi [ar *Gen.* xxv], Shuckford [*Connexion*, llyfr vii.], a Blunt [*Undesigned Coincidences*, rhan i. 1. *adn.* 2, 3]. (4.) Addewid ammodol, neu ddargysgodiad (*adumbration*) o'r nefoedd:—gwel Cartwright yn y *Critica Sacra* ar *Gen.* xxv. (5.) Addewid o'r Had, yn yr hwn y bendithid holl dylwythau y ddaear, oedd fendith arall; yr hon, er nad oedd yn gynnwysedig yn yr enedigaeth-fraint, etto a olygid felly o bossibl gan y patriarchiaid, fel gan eu hiliogaeth: *Rhuf.* ix. 8; [*Shuckford's Connexion*, llyfr viii]. Gwel yr erthygl GENEDIGAETH-FRAINT.

2. Am waith Iacob yn meddiannu bendith ei dad, nis gellir gwadu fod yr ymddygiad hwn yn feius, ac yn cyfleu darlun o'r fath fwyaf poenus:—y fam gydag un mab yn cynllunio i dwyllo ei gŵr oedranus, gyda'r amcan o amddifadu ei mab arall o'i feddiant cyfreithlawn. Y mae cyfiawnhau y naill a'r llall yn ammhossibl. Dichon fod yr anwybodaeth oedd yn perthyn i fenywod yn gyffredin y pryd hyny, ynghyd â'r addewid yn ffafr Iacob, yn ffurfio rhyw fath o esgusawd dros Rebeccah. Ond gyda golwg ar Iacob ei hun, nid oes ond ychydig a gydsyniant âg Awstin [*Serm.* iv. adr. 22, 23], pan esyd fel esgusawd digonol dros dwyll Iacob, mai gweithred ffugrol yn unig ydoedd, ac fod personoliad Iacob o Esau yn cael ei gyfiawnhau gan ei bwrcasiad blaenorol o enedigaeth-fraint ei frawd. Modd bynag, nid ydyw yn angenrheidiol, i'r dyben o feithrin dygasedd sanctaidd at bechod, i bentyru gwaradwyddiadau ar ddyn ffaeledig, yr hwn y mae dewisiad Duw o hono wedi ei wneyd yn anwyl a pharchedig gan bob credadyn. Ac fel y dywed Blunt [*Undes. Coinc.*], nid oedd un "o'r patriarchiaid yn gynllun o foesoldeb Cristionogol. Preswylient o dan gyfreithiau oedd heb fod yn gwbl dda; heb fod mor dda, fe allai, a'r rhai Lefiaidd; o blegid fel nad oedd y rhai olaf ond parotoi y ffordd i'r eiddo Crist, felly, o bossibl, nid oedd y rhai patriarchaidd ond darparu ar gyfer cyfraith Moses." Y mae yr amgylchiadau a arweiniasant i'r ymddygiad gofidus hwn yn cael eu trafod yn ofalus yn y gweithiau canlynol:—*Benson's Hulsean Lectures* (1822) *on Scripture Difficulties*, xvi. a xvii.; *Woodgate's Historical Sermons*, ix.; a *Maurice's Patriarchs and Lawgivers*, v. Ar gyflawniad y prophwydoliaethau ynghylch Esau ac Iacob, a phrophwydoliaethau Iacob ei hun wrth farw, gwel *Bishop Newton's Dissertations on the Prophecies*, *adr.* iii. a iv.

3. Gweledigaeth Iacob yn Bethel sydd ffaith arall nodedig yn hanes y patriarch hwn. Cyn gadael ei rieni, y mae Iacob yn cael ei fendithio eilwaith gan ei dad; dyben yr hon fendith, yn ddiammheu, ydoedd cadw yn fyw yn meddwl Iacob yr addewid fawr a wnaed âg Abraham; ac felly i drosglwyddo y dylanwad hwnw, yr hwn, o dan gymmhorth Rhagluniaeth ddwyfol, oedd i ddiweddu yn ngosodiad y teulu mewn meddiant o Wlad Canaan, a gwneyd y teulu hwnw yn "gynnulleidfa (neu liaws) o bobloedd." Ond y mae yr iaith a ddefnyddir gan yr hen ŵr yn awgrymu y drychfeddwl fod y goleuni crefyddol a gynneuasid yn meddwl Abraham wedi colli gradd o'i gyflawnder, os nad hefyd o'i ddisgleirder; gan fod "bendith Abraham," yr hon a gynnwysai holl genhedloedd y ddaear, yn cael ei chyfyngu yn y fan hon i hiliogaeth yr un teulu patriarchaidd hwn. Ac felly ymddengys oddi wrth iaith Iacob, gyda golwg ar ei weledigaeth yn Bethel (*Gen.* xxviii. 16), nad oedd ei syniad ef am y Duwdod yn nemawr gwell nag mai duw lleol ydoedd:—"Diau fod yr Arglwydd yn *y lle hwn*, ac *nis gwyddwn i*." Ac nid yw yr iaith a ddefnyddia yn ebrwydd wedi hyny yn dangos fod ei syniad am berthynas Duw â dyn o nodwedd uchel a choethedig:—"Os Duw fydd gyda mi, ac a'm ceidw yn y ffordd yma, yr hon yr ydwyf yn ei cherdded, a rhoddi i mi fara i'w fwyta, a dillad i'w gwisgo, a dychwelyd o honof mewn heddwch i dŷ fy nhad, *yna y bydd yr Arglwydd yn Dduw i mi*." Felly ymddengys mai amcan y weledigaeth, a'r geiriau a lefarwyd wrtho ynglŷn â hi gan Dduw, oedd eangu syniadau Iacob am Dduw, a gwneyd ei grefydd yn fwy cynnwysfawr yn gystal a dylanwadol. Am sylwadau helaeth ar hyn, gwel *De Scalâ Iacobi* yn y *Thesaurus Novus Theologico-Philologicus*, i. 195. Hefyd Awstin—*Sermon* cxxii.

4. Amlwreicaeth Iacob sydd enghraifft o arferiad batriarchaidd hollol anghydnaws â moesoldeb Cristionogol; ond rhaid i ni roddi cyfrif am dani ar y sail fod yr amser etto heb ddyfod i Dduw roddi dadguddiad cyflawn o'i ewyllys ar y pwngc hwn. Y mae hawliau cydberthynasol gŵr a gwraig yn cael eu gosod allan yn hanes y cread; ond y mae esamplau mynych o amlwreicaeth yn mhlith personau a enwir yn yr Ysgrythyrau—o Lamech (*Gen.* iv. 19) hyd Herod [*Hyn. Josephus*, xvii. 1. *adr.* 2]. Mewn amseroedd pryd yr oedd rhyfeloedd creulawn a mynych yn cynnyddu nifer y rhai a gymmerid yn garcharorion, a'r amddifaid, ac yn darostwng agos bob gwasanaeth i gaethiwed, gallai fod rhyw reswm dros estyn cydnabyddiaeth ac amddiffyniad y gyfraith i orddercliadon neu hanner gwragedd, megys Bilhah a Zilpah. Ac yn amgylchiad Iacob, y mae yn iawn cofio nad oedd yn ei fwriad gwreiddiol ef i briodi ond un o ferched Laban, sef Rahel, ond fel y twyllwyd ef gan Laban, ei thad.

Digitized by Google

Kitto, Lange, Davidson, ac ereill, nad ydym o angenrheidrwydd i olygu chwaer mam yr Iesu wrth "Mair gwraig Cleophas," yn *Ioan* xix. 25. Ond nis goddef y Groeg yr esboniad yna, heb chwanegu neu adael allan y gair *καὶ*=*a*, *gyda*, *hefyd*, &c., a darllen y rhan gyntaf fel hyn:—

"Ac yr oedd yn sefyll wrth groes yr Iesu, ei fam ef, chwaer ei fam ef," &c.,

neu ynte, y rhan olaf fel hyn:—

"*Gyda* Mair gwraig Cleophas, a Mair Magdalen.'

Trwy gyfeirio at *Mat.* xiii. 55, a *Marc* vi. 3, cawn fod rhai o'r enw Iago ac Ioses, gyda dau frawd ereill a elwid Iudas a Simon, ac o leiaf dair (*πᾶσαι*=*pâsai*) chwaer, yn byw gyda Mair y Forwyn yn Nazareth. Wrth gyfeirio at *Luc* vi. 16, ac *Act.* i. 13, cawn fod dau frawd o'r enw Iago ac Iudas yn mhlith yr apostolion. Yn sicr byddai yn naturiol i ni feddwl nad oes yma ond un teulu o bedwar brawd, a thair neu chwaneg o chwiorydd—plant Cleophas a Mair, a neiod a nithod i Mair y Forwyn. Ond y mae anhawsderau yn ffordd y golygiad hwn:—(1.) Disgrifir y brodyr hyn yn *Mat.* xiii. 55, fel brodyr (Gr. *adelpoi*), yr Iesu; ac nid fel ei gefndyr. (2.) Cawn hwynt yn yr un adnod fel pe yn byw gartref gyda Mair y forwyn; yr hyn a ymddengys yn annaturiol os golygwn mai eu modryb ydoedd hi, tra yr oedd eu mam, fel y gwyddom, yn fyw. (3.) Disgrifir Iago gan Luc (vi. 15), fel mab, nid Cleophas, ond Alphëus. (4.) Ymddengys fod "brodyr yr Arglwydd," y rhai yn amlwg oeddynt Iago, Ioses, Iudas, a Simon, yn cael eu cau allan o'r apostoliaeth o herwydd eu hanghrediniaeth yn Messïaeth Crist (*Ioan* vii. 3—5); a gwahaniaethir rhyngddynt a'r dysgyblion gan yr efengylwyr:—*Mat.* xii. 48; *Marc* iii. 33; *Ioan* ii. 12; ac *Act.* i. 14. (5.) Nid elwir Iago ac Iudas yn "frodyr yr Arglwydd" yn y rhestrau o'r apostolion. (6.) Gelwir Mair yn fam Iago ac Ioses, pryd y galwesid hi yn fam Iago ac Iudas, pe buasai Iago ac Iudas yn apostolion, ac Ioses heb fod yn apostol: *Mat.* xxvii. 46. Y rhai hyn ydyw y chwe phrif wrthddadl i'r golygiad a grybwyllwyd; a gellir rhoddi yr atebion canlynol iddynt.

*Gwrthddadl* 1.—"Gelwir hwy yn *frodyr*." Y mae yn rheol gan bob gwir feirniad fod i eiriau gael eu deall yn eu hystyr mwyaf syml a llythyrenol. Pan yr achosir anhawsderau mwy drwy gadw at ystyr lythyrenol gair na thrwy ei esbonio yn fwy agored a rhydd, fe ddylid ei esbonio yn agored. Mae yn ffaith nad *yw* yn *angenrheidiol* deall *adelpoi* yn "frodyr" yn ystyr agosaf y gair. Ni raid iddo olygu ond perthynas. Cym. y Deg a Thrigain yn *Gen.* xiii. 8; xiv. 14; xx. 12; xxix. 12; xxxi. 23; *Lef.* xxv. 48; *Deut.* ii. 8; *Iob* xix. 13; lxiii. 11; *Xenophon's Cyrop.* i. v. adr. 47; *Isocrates' Panegyric*, 20; *Plato's Phædrus*, 57, &c., *Crito*, 16; gwel hefyd *Cicero's Epist. ad Atticum*, 15; *Tacitus' Annals*, iii. 38; a *Quintus Curtius*, vi. 10, adr. 34. Defnyddir y gair yn y gwahanol fanau yna am rai heb fod yn frodyr, fel y deallir y gair genym ni, megys am rai o'r un gwaed neu o'r un teulu. Ond ai nid yw amgylchiadau yr achos yn galw am i ni ei gyfieithu yn frodyr? I'r gwrthwyneb, y mae y cyfieithiad yna yn cynnyrchu anhawsderau pwysig. O blegid, yn gyntaf, y mae yn dwyn i'n sylw ddau ddosbarth o gefnderoedd, yn dwyn yr enwau Iago, Iudas, Ioses, a Simon. Mae tair tybiaeth wedi eu mabwysiadu i ochelyd yr anhawsder hwn:—(1.) Mai plant Ioseph o wraig flaenorol oeddynt. Tarddodd y syniad hwn oddi wrth un i'r un pwrpas yn Efengyl apochryphaidd Pedr [*Origen on Mat.* xiii. 55], a mabwysiadwyd ef hefyd gan Epiphanius, Hilary, ac Ambrose, a throsglwyddwyd ef yn mlaen yn ddiweddarach yn Eglwys Groeg [*Epiph. Haer.*, xxvii. *Op.* cyf. iii. 115; *Hilary on Mat.* i; *Ambrose's Op.*, cyf., ii. td. 260]. (2.) Tybiaeth Helvidius, Bonosus, a Jovinian, yr hon a adfywiwyd gan Strauss a Herder yn Germany, a chan Davidson ac Alford yn Lloegr; sef, fod Iago, Ioses, Iudas, a Simon, a'u tair chwaer, yn blant i Ioseph a Mair. Y mae y syniad hwn yn groes i deimlad Cristionogion yn gyffredinol, pa un bynag ai priodol ai ammhriodol, yn mhob cyfnod yn hanes yr eglwys; ac fel y crybwyllwyd eisoes, y mae yn creu dau ddosbarth o gefndyr o'r un enw. A phrin y mae yn unol âg ymddygiad yr Arglwydd Iesu wrth farw, yn nhrosglwyddiad ei fam i ofal Ioan [gwel Jerome, *Opii*, cyf. ii. td. 10]; o blegid os caniateir fod ei meibion y pryd hyny yn anghrediniol (yr hyn sydd yn bur annhebygol: *Bloomfield's Drip. Theol.*, td. 67; *Neander's Plant. of Christian.*, iv. 1), fe wyddai yr Iesu na byddent felly ond ychydig ddyddiau. Fod y geiriau "mab cyntafanedig" (*prototocos vios*) yn *Luc* ii. 7, a *Mat.* i. 25, yn cyfeirio at enedigaeth plant, wedi hyny sydd bellach heb dderbyn nemawr o gymmeradwyaeth. Gwel *Pearson on the Creed*, i. 304; ii. 220. (3.) Mae y dybiaeth arall yn rhy ddibwys i fanylu arni. Nid oedd ond ymgais diawdurdod a wnaed yn yr unfed ganrif ar ddeg i gyssoni y traddodiadau Groeg a Lladin trwy dybied fod Ioseph a Cleophas yn frodyr, a bod Ioseph wedi cyfodi hâd i'w frawd marw.—*Theophilus*, esgob Antioch, *ar Mat.* xiii. 55.

*Gwrthddadl* 2.—"Ceir fod y pedwar brawd a'u chwiorydd yn cael eu disgrifio fel yn preswylio gyda Mair y forwyn." Os plant Celophas oeddynt, eu modryb ydoedd Mair y forwyn. Gellid meddwl fod ei gŵr hi wedi marw rywbryd rhwng B. A. 8, a B. A. 26. Ac nid oes reswm dros gredu fod Cleophas yn fyw yn ystod gweinidogaeth yr Iesu.[1] Pa anhawsder sydd mewn tybied fod y ddwy chwaer, o ganlyniad, yn byw ynghyd; yr hyn a fyddai yn fwy naturiol hefyd yn gymmaint ag fod unig fab y naill oddi wrthi mor fynych. Ac oni byddai yn dra naturiol fod dau deulu o gefndyr, yn byw fel hyn ynghyd, yn cael edrych arnynt gan y cyffredin fel un teulu, ac yn cael siarad am danynt fel brodyr a chwiorydd, yn lle yr hyn oeddynt mewn gwirionedd? Mae yn nodedig nad ydyw Mair yn un man yn cael ei galw yn fam y pedwar brawd.

*Gwrthddadl* 3.—"Gelwir Iago yr apostol yn fab Alpheus, nid Cleophas." Ond yr un enw yw Cleophas ac Alpheus (Gr. *Alpæas*), wedi ei drosglwyddo i'r Groeg mewn dwy ffordd wahanol, ond cyffredin a rheolaidd, o'r Aramaeg *Colpas* a *Halphas*.—Gwel *Mill's Accounts of Our Lord's Brethren*, &c., td. 236; ac *Arnaud's Recherches*, &c.

*Gwrthddadl* 4.—Ystyria Alford fod *Ioan* vii. 5, o'i gymharu â vi. 67—70, yn profi nad oedd un o frodyr yr Iesu yn mhlith y deuddeg apostol [*Proleg. to Ep. of James*, G. T. iv. 88]. Os yw yr adnod hon, fel y dywed ef, yn goron pob anhawsder, ynghyd â'r dybiaeth mai yr un ydoedd Iago (yr apostol), mab Alpheus ac Iago brawd yr Arglwydd, nid yw yr holl anhawsderau yn ormod i'w goresgyn. Mewn canlyniad i ymadawiad llawer o ddysgyblion oddi wrth yr Iesu (*Ioan* vi. 66), y mae Pedr yn tori allan yn wresog

[1] Nid yr un gŵr yw y Cleophas a enwir yn *Luc* xxiv. 18.

**IAGO, EPISTOL:** y cyntaf o'r saith epistol a elwir yn gatholig neu gyffredinol (καθολικα). Mae amryw dybiau wedi eu coledd pa ham eu gelwid wrth yr enw hwn. Meddyliodd rhai mai am mai epistolau oeddynt wedi eu cyfeirio at Gristionogion yn gyffredinol. Syniad arall yw yr un a ddelid gan Noesselt; sef, ddarfod i epistolau cyntaf Ioan a Phedr gael ar y dechreu eu galw yn epistolau catholig i'w gwahaniaethu oddi wrth epistolau ereill y ddau apostol hyny, y rhai nad oeddynt, megys y ddau epistol cyntaf, yn cael edrych arnynt gan yr eglwys yn gredadwy; ac felly o ganlyniad heb eu hystyried yn ganonaidd. Yn ol llaw, pa fodd bynag, pan y newidiodd barn yr eglwys i fod yn ffafriol i ddau epistol arall Ioan, Ail Epistol Pedr, ac epistolau Iago ac Iudas, trosglwyddwyd yr enw i'r pump hyn hefyd; ac wrth yr enw hwn yr adnabyddid y saith epistol oddi wrth lythyrau Paul. Tybia ereill fod yr enw *cyffredinol*, neu *gatholig*, wedi ei roddi i'r epistolau hyn am fod eu cynnwys yn berffaith gyttuno âg athrawiaeth yr eglwys gatholig:—cyfansoddiadau â'u hamcan i ddal i fyny a lledaenu y ffydd uniongred gatholig. Teilynga opiniwn Hug ei grybwyll ar gyfrif ei hynodrwydd, yn fwy nag o blegid dim a ellir ei ddweyd o'i blaid. Synia ef mai enw yw hwn yn perthyn yn arbenig i'r dosbarth hwnw o lyfrau yr Ysgrythyr sydd yn cynnwys ysgrifeniadau addysgawl yr holl apostolion, oddigerth Paul. Y golygiad cyntaf yw yr hynaf, mor bell ag y gellir gweled. Nid yw yn ddigon o wrthddadl dyweyd nad yw yr enw yn addas i'r holl epistolau, megys ail a thrydydd epistol Ioan, pa rai a anfonwyd at bersonau unigol. Ni elwid hwy yn *gyffredinol* ar y cyntaf; chwanegwyd hwy at 1 *Pedr*, 1 *Ioan*, ac *Iudas*, ar amser pan yr ymddengys fod y gair *catholig* neu *gyffredinol* wedi dyfod i gael ei ddefnyddio mewn ystyr arall. Awgryma Michaelis hefyd y dichon ddarfod cyfleu dau lythyr diweddaf Ioan yn mhlith y saith, er mwyn diogelu cyfansoddiadau mor fyrion, ac hefyd er mwyn cadw gyda'u gilydd y rhai a ddygent enw Ioan. Gellid yn wir ddadleu yn erbyn priodoldeb yr enw i Epistol Iago, gan na chyfeiriwyd hwn chwaith at Gristionogion o blith y Cenhedloedd o gwbl, na chwaith at Gristionogion Iuddewig yn Palestina, ond at "y deuddeg llwyth ar wasgar." Etto, gellid yma hefyd sylwi, fod yr enw wedi dyfod yn eithaf cyfaddas, pan ar adeg ddiweddarach y dechreuwyd arfer y gair *catholig* yn yr ystyr o *ganonaidd*, ac y cyflewyd yr epistolau hyn gyda'u gilydd fel y cyfryw. Ac heb law hyny, os bydd epistol wedi ei gyfeirio at gorph mawr o Gristionogion, ac nid, fel epistolau Paul, at eglwysi neu bersonau neillduol, nid ymddengys fod y neb a'i geilw yn "gyffredinol" yn gwyro nemawr oddi wrth ystyr fanwl yr ymadrodd. Rhoddid y teitl hwn iddynt, pa fodd bynag, mor foreu ag amser Origen.

Mai nid Iago, fab Zebedeus, a brawd Ioan, ydoedd awdwr yr epistol hwn, sydd, dybygid, yn eithaf sier. Gwir mai iddo ef y mae y *Peshito*, neu yr hen gyfieithiad Syriaeg, yn ei briodoli; felly hefyd un hen gyfieithiad Lladinaidd: ond y mae yn anhygoel fod yr eglwysi wedi dyfod i'r amgylchiadau a dybir yn y llythyr yn ystod bywyd Iago brawd Ioan. Wedi ei ferthyrdod ef, gellid tybied fod dau Iago yn aros yn mysg y Cristionogion cyntefig, sef Iago fab Alpheus, ac Iago brawd yr Arglwydd. Yr oedd y cyntaf yn un o'r deuddeg, a cheir ei enw yn nawfed yn mhob rhestr o'r apostolion a roddir gan yr efengylwyr. Cyfeirir at yr olaf yn *Gal.* i. 19. Gwir yr honid rhai mai yr un oedd y ddau. Felly y credai Clement o Alexandria, a Jerome, Theodoret, a Chrysostom. Cyfeiria amddiffynwyr y dyb hon hefyd at *Gal.* i. 19; lle, yn ol deongliad mwyaf syml a naturiol yr ymadrodd, y cyfrifir Iago brawd yr Arglwydd yn mhlith yr apostolion; ac felly y rhaid mai yr un ac Iago mab Alpheus ydoedd. Mae hanes hefyd yn cael ei ddyfynu gan Jerome allan o'r Efengyl yn ol yr Hebreaid, yn mha un y sonir am Iago brawd yr Arglwydd fel yn bresennol ar sefydliad Swper yr Arglwydd. Casgliad a dynir oddi wrth y rhesymau hyn, ac ereill tebyg, yw, mai am un Iago y sonir yn y Testament Newydd, wedi marwolaeth mab Zebedeus; sef am Iago fab Alpheus, yr hwn a elwid yn *frawd* yr Arglwydd ar gyfrif rhyw berthynas bellach na brawd yn llythyrenol a hanfodai rhyngddynt. Tybia coleddwyr y dyb yma fod Iago yn fab i chwaer i Mair mam yr Iesu; ac felly yn briodol yn gefnder i'n Hiachawdwr. Hwn, meddant, oedd yr Iago oedd yn arweinydd ac arolygydd yr eglwys yn Ierusalem; ac o ganlyniad, ysgrifenydd yr epistol yma. Ond o'r tu arall, mae llawer o resymau dros eu hystyried fel dau berson gwahanol. Ni oddef y gair ἀδελφός yn deg ei gymmeryd am *gefnder*, neu *berthynas:* ond yn hytrach golyga *brawd*, yn briodol felly. Hefyd, mae yr ysgrifenwyr boreuaf, gan ddechreu gyda Hegesippus, yr hwn a breswyliai yn Palestina, yn eu gwahanu. Dyfynir Hegesippus gan Eusebius i'r perwyl hwn:—"Iago brawd yr Arglwydd a gymmerodd arno lywodraeth yr eglwys gyda'r apostolion. Gelwid ef 'y cyfiawn' gan bawb o amseroedd ein Harglwydd hyd ein hamseroedd ninnau. O herwydd bu llawer o'r enw Iago." Eusebius ei hun hefyd a sonia am "Iago, brawd yr Arglwydd, yr hwn a enwir fel un a gafodd ei bennodi gan y Gwaredwr ei hun yn esgob cyntaf yr eglwys yn Ierusalem." Sonia Eusebius am dano yn y fan yna fel allan o gylch yr apostolion. Felly mewn llawer o ysgrifeniadau boreuol, sonir am dano, nid fel apostol, ond fel "brawd yr Arglwydd;" yr hyn, fe dybygid, a olyga ei fod yn un o blant Ioseph a Mair, a anwyd ar ol ein Iachawdwr. Un wrthddadl gref yn erbyn y golygiad eu bod yn ddau ddyn gwahanol, ac nad oedd Iago brawd yr Arglwydd yn apostol, a dynir oddi wrth *Gal.* i. 19. Ond golygir mai y gair sydd yn cyfeirio at Iago yno yw "gwelais," ac nid "yr apostolion." Ni byddai yn drais ar yr ymadrodd ei ddarllen felly:—"Eithr neb arall o'r apostolion, nis gwelais, ond [gwelais] Iago brawd yr Arglwydd." Pa fodd bynag, y mae yn fater nas gellir ei benderfynu. Mae yr enwau mwyaf yn yr eglwys wedi bod bob amser yn rhanedig arno; ac mewn gwirionedd y mae yn un o'r cwestynau mwyaf anhawdd o fewn cylch yr hanes apostolaidd. Ond nid yw y rhai a gyttunant eu bod yn ddau berson gwahanol yn cyttuno drachefn pa un a ysgrifenodd Epistol Iago. Rhaid, fe ymddengys, i ni gredu mai yr hwn y cyfeirir ato yn y cyfryw leoedd ag *Act.* xii. 17; xv. 13; xxi. 18; 1 *Cor.* xv. 7; *Gal.* ii 9; ydoedd hefyd awdwr y llythyr hwn. Ond pa un ai mab Alpheus ynte brawd yr Arglwydd oedd hwnw? Rhai a haerant mai y cyntaf, gan honi nad oes y fath gyssylltiad yn bod rhwng y ddwy bennod gyntaf o'r Galatiaid fel ag i'n gorfodi i gredu mai at yr un person y cyfeiria *Gal.* i. 19, a ii 9, 12. Mae'n rhaid, meddant, mai yr hwn y rhoddir lle mor arbenig iddo yn yr Actau, a'r

Maneldfs, i Germany. Ond trodd yr ymgyrch yn fethiant hollol; difethwyd hanner y fyddin gan bla cyn iddi groesi y môr, ac nid aeth y gweddill i Bohemia; yr hon a arosodd mewn canlyniad yn meddiant yr ymherawdwr, neu yn hytrach y duc o Bavaria, i'r hwn yr oedd yr ymherawdwr drwy ei lwyrwys wedi ei rhoddi.

Bu Iago farw yn y ddeunawfed flwyddyn a deugain o'i deyrnasiad (rhwng Ysgotland a Lloegr) ar y 27ain o Fawrth, 1625, pryd yr oedd, o fewn tri mis, yn bedair ar bymtheg a deugain oed. Fel y digwyddai gyda marwolaeth pob person o enwogrwydd y pryd hyny, ammheuid fod Iago wedi ei ddwyn ymaith drwy wenwyn iad; a phan gyhuddwyd Buckingham yn Nhŷ y Cyffredin yn nechreu teyrnasiad Charles I., un o'r pethau a osodid yn ei erbyn ydoedd ei fod wedi achosi marwolaeth y brenin Iago drwy osod rhyw blasterau ar ei gorph, a rhyw ddiod i'w hyfed, a hyny heb ganiatâd y meddygon. Ymddengys fod rhywbeth o'r fath yma wedi cymmeryd lle, er fod Buckingham, fe allai, yn eithaf diniwed ei fwriadau. Yr oedd gwrthwynebwyr Charles yn myned cyn belled ag i ddyweyd fod ganddo ef ei hun ran yn ngwenwyniad ei dad; ac y mae yn syn meddwl fod hyd yn oed Milton yn amddiffyn y fath dybiaeth ddisail. Bu gan Iago saith o blant o'r frenhines Anne o Denmarc; ond ni thyfodd i fyny ond tri o honynt, sef Elizabeth, Henry, a Charles.

Yr oedd Iago, er ei fod yn fab i gwpl harddaf eu hoes, yn rhyw greadur anffurfiol ei hun, o agwedd ffroen-uchel, ac o ymddygiadau anfoesgar a thrwsgl. Yr oedd yn arfer cerdded agos ŵysg ei ochr; yr oedd yn hynod o *nervous*, a'i safn bob amser yn yslefrian; ac yr oedd rhyw fachgeneiddiwch yn perthyn iddo, oedd yn hynod o ddigrif o'i gyferbynu â'i awyddfryd parhaus i ymddangos yn urddasol a brenhinol. Diammheu y gellid cael y diffygion hyn mewn dynion gwir fawr; ac anfynych yn wir y mae natur mor haelfrydig ag i gynnysgaeddu y corph a'r meddwl â llawer o ragoriaethau. Nid oedd ynddo na mawredd na rhagoriaeth meddyliol na moesol yn gwneyd i fyny am hagrwch y dyn oddi allan. Yr oedd yn feddiannol ar beth dysg, mae yn wir; ac o fewn cylch bychan, dangosai gryn lawer o graffder a chywreinrwydd mewn pyngciau politicaidd a moesol: ond yr oedd ei ddeall yn ddiffygiol mewn dyfnder, yn gystal a chadernid; yr oedd ei egwyddorion yn benrhydd, tywyll, ac anmhennodol; ei ragfarn yn nodedig, a'i hygoeledd yn ddiderfyn; ac nid oedd ond ei goegddysg, ei chŵydd-eiriaeth, a'i benwendid, yn gyfartal i'w hunan a'i wâgdyb. Fel brenin, efe, o bossibl, oedd yr hynotaf o fewn clorian hanesyddiaeth. Yr oedd ei syniadau gormesol am lywodraeth, a'i honiadau o awdurdod unbenol, yn barhaus yn ei enau; a thra nad oedd ganddo gymmaint a gwarchodlu o filwyr i roddi ei syniadau mewn ymarferiad, siaradai gyda mwy o hyder nag hyd yn oed Hadrian, pan y blaenorai efe fyddin o bedair ar hugain o lengoedd, fel meistr a llywodraethwr yr ymherodraeth Rufeinig. Mewn ymarferiad, fodd bynag, ni bu brenin erioed a weinyddodd ei deyrn-freintiau yn llai gwydn. Nid oedd yn foneddigaidd yn rhoddi ffordd i ysbryd symmudol a chynnhyrfus rhyddid, ac nid oedd chwaith yn defnyddio mesurau effeithiol i'w attal; ond ciliai oddi ar ei ffordd o'i flaen, gan ffraeo a gwaradwyddo wrth fyned. Ni bu un brenin erioed yn fwy dirmygus gan ei ddeiliaid, ac nid ymgadwai hyd yn oed Buckingham rhag chwerthin yn ei wyneb. Hefyd, yr oedd anfoesoldeb ei lys—meddwdod a phenrhyddid hyd yn oed y benywod oedd ynddo—yn dyfod yn wrthddrychau dygasedd y genedl yn gyffredinol, yr hon oedd i'w nodweddu gan lymder moesol oedd bron yn Stoicaidd. At hyn, rhaid chwanegu camweddau mwy—llofruddiaethau a gwenwyniadau yr oedd prif ddynion ei lys, o wedi eu cyflawni gyda'i gymmeradwyaeth, neu leiaf, ei anymyriad ef. Ac wrth ystyried y cyfan, gellid meddwl fod natur ac addysg wedi ymdrechu eu goreu i wneyd Iago yn gynllun perffaith o bob peth na ddylasai brenin fod.

*Enwogion yn amser Iago.*—Arglwydd Bacon, sylfaenydd athroniaeth ddiweddar (1561–1626); Syr Walter Raleigh (1552—1618); Arglwydd Herbert o Cherbourg (1581—1648); y Cymro, Syr Hugh Myddelton (1570—1637), yr hwn a ddygodd y *New River* i Lundain, ac Inigo Jones, yr adeiladydd (1572—1653); Ben Jonson (1574—1637); Camden (1551—1623); Dr. W. Harvey, darganfyddwr cylchrediad y gwaed (1578—1657); Pery, Monteagle, a Guy Fawkes; Chapman, cyfieithydd cyntaf Homer (1557—1634); Fairfax, cyfieithydd Tasso (—1632); a Gunter, y mesuronydd (1581—1626).

IAGO II: brenin Lloegr, ac ail fab Charles I, a Henrietta o Ffraingc. Ganwyd ef Hydref 15fed, 1633, a chyhoeddwyd ef ar unwaith yn ddug o York. Pan ymostyngodd Rhydychain i fyddin y senedd, yn Mehefin 1646, cymmerwyd Iago yn garcharor, gydag Elizabeth, ei chwaer, pryd y gosodwyd hwy o dan ofal y duc o Northumberland. Ond yn Ebrill, 1648, diangodd i Holland mewn gwisg benyw; a chymmerodd noddfa gyda'i chwaer, Mary, tywysoges Orange. Yr oedd y pryd hyny yn 15eg oed. Yn 1649, aeth at ei fam i Paris, ac wedi cyrhaedd ei ugeinfed flwyddyn, gwasanaethodd yn myddin Ffraingc, o dan Turenne; ac yn ddiweddarach, ymunodd â byddin Yspaen, yr hon oedd yn Flanders, o dan Don John o Awstria, a thywysog Condé. Yn amser yr Adferiad (yn 1660), dychwelodd i Loegr, a phriododd Anne Hyde yn ddirgelaidd, merch yr iarll Clarendon. Dywedid ei fod wedi ei phriodi, neu o leiaf wedi gwneyd cyttundeb priodas â hi, o ddeutu blwyddyn yn ol, yn Breda; o blegid ganwyd iddo fab o honi yn mhen chwech wythnos ar ol y briodas yn Lloegr. Dywed Burnet iddo geisio ei rhoddi ymaith; "ond yr oedd yn wraig o gryn ysbryd, a mynai ddangos hyny iddo, boed ei ymddygiad ati wedi hyny fel y byddai." Yn yr un flwyddyn, gwnaed ef yn ben-llyngesydd Prydain, ac arglwydd-warden porthladdoedd y Cinque. Ac yn amser y rhyfel â'r Isellmyn, dangosodd ddeheurwydd a dewrder mawr fel llyngesydd. Gyda golwg ar amcan y rhyfel hwn, golygir mai llethu yr Isellmyn fel corph o Brotestaniaid, ynghyd â'u hanalluogi i rwystro adsefydliad Pabyddiaeth yn Lloegr oedd gan y brodyr mewn golwg. Yn 1671, bu farw gwraig Iago, yn y 34ain flwydd o'i hoedran; yr hyn a brysurwyd, fe ddywedir, gan esgeulusdod a chamdriniaeth oddi wrth ei gŵr; a'r hwn, er cymmaint oedd ei sel broffesedig dros grefydd, a ymollyngai i eithafion penrhyddid yr oes, ac a gadwai butain yn mron o'r dydd y priodwyd ef. Yn 1673, priododd Mary Beatrix Eleanora, merch Alphonso IV., y duc o Modena, boneddiges bymtheg oed.

Ar farwolaeth ei frawd, Chwefror 6ed, 1685, esgynodd Iago i'r orsedd. Y weithred gyntaf o bwys yn ei deyrnasiad ydoedd galw cyfringynghor ynghyd; yn yr hwn wedi canmawl ychydig

ar ei flaenorydd rhinweddol (?), yr amlygai ei benderfyniad i gadw y llywodraeth yn ddiysgog mewn eglwys a gwladwriaeth; a chan ei fod eisoes wedi anturio ei fywyd dros y genedl, tystiai yr elai etto cyn belled ag unrhyw ddyn i gadw yn ei meddiant yr holl hawliau a'r rhagorfreintiau oedd yn perthyn iddi yn gyfreithlawn. Derbyniwyd yr anerchiad gyda llawer o gymmeradwyaeth, nid yn unig gan y cynghor, ond hefyd gan yr holl genedl. Daeth anerchiadau iddo yntau o bob cyfeiriad, yn llawn o'r amlygiadau mwyaf gwresog o ffyddlondeb—ie, o'r gwaseiddiwch mwyaf llwyr. Nid felly anerchiad y Crynwyr. Yr oedd hwn yn nodedig am ei synwyr a'i symlrwydd:—"Nyni a ddaethom," meddent hwy, "i amlygu ein gofid o blegid marwolaeth ein cyfaill da Charles, a'n llawenydd dy fod ti wedi dy wneyd yn llywodraethwr arnom. Yr ydym yn clywed nad ydwyt o ddaliadau Eglwys Loegr, ddim mwy na ninnau; ac o ganlyniad, gobeithiwn y caniatei i ni yr un rhyddid ag a ganiatei i ti dy hun. Os gwnei hyn, dymunwn i ti bob math o happusrwydd." Ond dangosodd y brenin yn fuan wedi hyny naill ai nad oedd ei addewidion ond rhagrith, neu ynte ei fod yn meddu syniad mor uchel am ei awdurdod brenhinol fel nas gallai ei gywirdeb mwyaf ef wneyd ond ychydig tuag at sicrhau rhyddid a rhagorfreintiau y bobl. Hawliai ef y cyllidau a'r tollau, heb un math o awdurdod seneddol; elai yn eofn ac agored i'r offeren, gyda holl urddasolrwydd a mawrhydi ei sefyllfa; ac aeth cyn belled ag i anfon un Caryl i Rufain, i wneyd trefniadau gyda'r pab i sefydlu y Babaeth yn Mhrydain. Penderfynodd alw senedd, fodd bynag; ond yr oedd yn gynnwysedig bron yn gwbl o geidwadwyr selog, ac fel y cyfryw yn bur barod i gydsynio â dymuniadau y brenin. Penderfynasant fod yr holl gyllidau a fwynheid gan Charles II. yn cael eu cadw gan Iago hyd ddydd ei farwolaeth. Attebodd Iago yr ad-dalai y ffafr hon drwy sicrhau i'w holl ddeiliaid lawn fwynhâd o amddiffyniad a rhagorfreintiau y gyfraith; ond gyda golwg ar grefydd, yr oedd yn ammhossibl cael atteb ganddo. Yr oedd yn amlwg ei fod yn penderfynu newid hono:—ac yn mhob peth ond hyn, yr oedd Iago ar y pryd yn haeddu clod. Defnyddiodd ei gyllid gyda'r deheurwydd a'r cynnildeb mwyaf oedd yn bossibl; rhoddodd derfyn ar dreuliadau afreidiol, a dangosodd ei hun yn selog dros ogoniant y genedl; ymdrechodd glirio ei lys oddi wrth y llygredd a fuasai ynddo mor ben-uchel yn ystod teyrnasiad ei flaenorydd, ac i adfer moesoldeb a gweddusrwydd i'w le; llywyddai yn ddyddiol yn ei gyfrin-gynghor, ac yn mwrdd y trysorlys a'r morlys; a chymmerodd ran yn holl fanylion trafodaethau prif swyddfeydd y llywodraeth. Ond yr oedd ei ymlyniad penboeth a rhagfarnllyd wrth Eglwys Rhufain yn taflu cwmmwl ar ei holl ragoriaethau, ac yn ei wneyd yn wrthddrych ofn a dygasedd gan y mwyafrif o'i ddeiliaid.

Ond tra yr oedd heddwch yn teyrnasu yn Mhrydain, yr oedd ystorm yn prysur ddarllaw ar y Cyfandir. Er's amser maith, yr oedd William, tywysog Orange, yn awyddu am orsedd Prydain; a phan aeth Monmouth ymaith ar ol ei fradwriaeth, cafodd noddfa a pharch nodedig gan William. Pan glywodd am farwolaeth Charles II., mae'n wir iddo newid ei dôn, ac anfon Monmouth ymaith; ond parhaodd i ohebu âg ef yn gyssen. Penderfynodd Monmouth wneyd rhyfelgyrch i Loegr, tra yr oedd dealltwriaeth rhyngddo â'r iarll Argyll, yr hwn oedd i godi gwrthryfel yn Ysgotland. Yr oedd tywysog Orange yn addaw yr arian angenrheidiol i'r duc, ond pallodd ei haelfrydedd cyn dechreu yr ymgyrch braidd, a bu raid i Monmouth gasglu ei holl adgyfnerthion oddi wrth gynnyrch arwerthiant o'i lestri arian a'i emau, &c.; tra y rhoddodd gweddw gyfoethog a brwdfrydig i Argyll ddeng mil o bunnau, â'r rhai y prynodd dair o longau, ac y llanwodd y rhai hyny âg arfau ac adnoddau. Wedi cyrhaedd Ysgotland, cyhoeddodd Argyll ei fwriadau, gosododd ei hun yn flaenor ar ddwy fil a phum cant o ddynion, ac ymdrechodd gynnhyrfu y bobl o'i blaid. Ond daeth corph cryf o fyddinoedd y brenin yn ei erbyn, a chwalodd ei fyddin yn ebrwydd; ac yntau ei hun, wedi ei glwyfo wrth geisio diangc, a gymmerwyd yn garcharor gan un o frodorion Ysgotland. Anfonwyd ef i Edinburgh; ac wedi ei waradwyddo a'i boeni mewn gwahanol ffyrdd, yn y diwedd dienyddiwyd ef. Erbyn hyn yr oedd Monmouth wedi glanio yn swydd Dorset, gyda phrin gant o ganlynwyr. Yr oedd ei enw, modd bynag, mor boblogaidd, ac yr oedd casineb y bobl tuag at Iago, o blegid ei grefydd, mor fawr, fel yr oedd ei ganlynwyr, yn mhen pedwar diwrnod, dros ddwy fil o wŷr; a chan fyned yn mlaen yr un mor lwyddiannus, yr oedd ganddo yn fuan iawn chwe mil o wŷr; ond yr oedd yn gorfod ymadael â llawer yn ddyddiol o ddiffyg arfau. Yn ddychrynedig, prysurodd y brenin i alw yn ol chwech o gatrodau o Holland, ac anfonwyd corph o filwyr sefydlog, yn rhifo tair mil, o dan yr argiwyddi Feversham a Churchill, i attal ychydig ar yrfa y gwrthryfelwyr. Gwersyllasant ger Bridgewater, lle yr ymunwyd â hwy gan nifer mawr o gatrefu y wlad. Yma, penderfynodd Monmouth ymosod; ac wedi gosod ei ganlynwyr yn y drefn oreu oedd yn bossibl, gyrodd filwyr y brenin o'r maes, ac yr oedd ar fin ennill buddugoliaeth gyflawn, pryd y difethwyd pob peth gan lwfrdra Gray, yr hwn oedd meistr y ceffylau. Ffodd y boneddwr hwn ar yr ymosodiad cyntaf; a chan fod yr ymosodiad ar y gwrthryfelwyr o'u hystlys, rhoddasant i fyny yr ymdrechfa yn mhen tair awr. Ffodd Monmouth o faes y gwaed, hyd nes y syrthiodd ei farch oddi tano. Y pryd hyny, newidiodd ddillad â bugail, a ffodd ar ei draed, yn cael ei ddilyn gan iarll Germanaidd a ddaethai gydag ef o Holland. Wedi diffygio o'r diwedd gan newyn a lludded, gorweddasant i lawr mewn cae, gan orchuddio eu hunain â rhedyn. Yn y cyfamser, cafwyd y bugail yn ngwisg Monmouth, yr hyn a barodd i'r ymlidwyr barhau eu hymchwiliad; a thrwy gyfrwng gwaedgwn, cafwyd y duc yn ei loches druenus, gyda phys yn ei logell, ar y rhai y bu efe fyw er's amryw ddyddiau. Torodd i wylo pan ymaflwyd ynddo gan ei elynion, ac erfyniai gyda'r taerineb mwyaf distadl am ei fywyd. Ac wedi hyny, yn mhresennoldeb y brenin, ymbiliai gyda'r gwaseiddiwch mwyaf annheilwng o'i sefyllfa am ei fywyd; ond yn ofer. Condemniwyd ef i'r dienyddle, ac yno ymddygodd yn hynod o wrol a phenderfynol. Yr oedd amgylchiadau ynglŷn â'i farwolaeth a barodd arswyd mawr yn mhlith yr edrychwyr. Methodd y dienyddwr ei ddyrnod, gan daraw Monmouth ar ei ysgwydd; a chododd yntau ei ben oddi ar y blocyn, ac a edrychodd yn llawn yn ngwyneb y dienyddwr, fel pe i'w geryddu am ei gamgymmeriad. Tarawodd y dyn ddwywaith drachefn, ond yn wanaidd; ac yna taflodd ymaith y fwyell. Ond gorfododd y sirydd ef i gyflawni ei waith; ac o'r diwedd torwyd

ymaith ben y duc, yr hwn, dybygid, oedd eisoes wedi marw.

Dilynwyd gorchfygiad Monmouth gan gyflawniad yr erchyllderau mwyaf cythreulig ar y rhai y tybid eu bod yn bleidiol iddo, yn gystal ag ar lawer oedd yn berffaith ddieuog, gan y milwriad Kerke, a'r prif farnwr Jeffreys. Rhwng y ddau, fe orchuddiwyd y siroedd de-orllewinol âg ysgerbydau ac aelodau gwŷr, gwragedd, a phlant, a lofruddiasid â'r cleddyf neu y fwyell; a llosgwyd rhai, megys yr arglwyddes Lisle, a Mrs. Gaunt, i farwolaeth. Ar ei ddychweliad, gwnaed Jeffreys yn arglwydd, ac yn fuan wedi hyny yn arglwydd ganghellydd.

Pan ail gyfarfyddodd y senedd, yn Tachwedd yr un flwyddyn (1685), dywedwyd wrth yr aelodau gan Iago ddarfod iddo gyflogi yn y cyfyngder diweddar amryw o swyddogion Pabyddol; a'i fod, er eu mwyn hwy, ac ar ei gyfrifoldeb ei hun, wedi diddymu y prawflw cyfreithiol o gydymffurfiaeth âg Eglwys Loegr oedd i'w gymmeryd gan bob dyn ar ei fynedfa i unrhyw swydd gyhoeddus dan y llywodraeth. Yr oedd hyn yn ormod i'w ddioddef, heb rai amlygiadau o anfoddlonrwydd a dychryn; ond yr oedd gwrthwynebiad Tŷ y Cyffredin yn hynod o egwan ac ofnus. Cydsyniwyd â gweithrediadau y brenin, ac yna dadgorphorwyd y senedd am hyd yn oed oedi ei chydweledìad, pryd nad oedd wedi eistedd ond wythnos.

Y cam nesaf a gymmerodd Iago ydoedd sicrhau dylanwad Pabaidd yn y cyfrin-gynghor. I'r dyben hwnw, etholwyd yn aelodau o hono bedwar o arglwyddi Pabaidd; sef, Powys, Arundel, Bellasis, a Dover. Gwelai Sunderland mai yr unig ffordd iddo ennill blaenoriaeth gyda'r brenin oedd fel Pabydd, ac o ganlyniad "dychwelwyd" ef. Diswyddwyd Rochester, y trysorydd, am anghydffurfio. Yn yr Iwerddon hefyd, am yr un achos, diswyddwyd y duc o Ormond —boneddwr a fuasai yn un o brif gefnogwyr y brenin yn mhob peth arall—a gosodwyd Pabydd ffyrnig, o'r enw arglwydd Tyrconnel, yn ei le. Yn ei sel dros Babyddiaeth, dywedir i Iago blygu mor isel ag i amcanu dychwelyd Kirke; ond dywedodd y milwr beiddgar wrtho ei fod eisoes wedi ymrwymo—ei fod wedi addaw wrth frenin Morocco, pan yr oedd yno, os byddai iddo newid ei grefydd, y deuai yn Fahometiad. Yr oedd dychryn erbyn hyn wedi ymdaenu drwy holl wersyll y Protestaniaid, a dechreuwyd defnyddio mesurau i wrthwynebu y gau grefydd. Taranid yn enbyd o'r pulpudau, ac yn ofer y ceisiai Iago gadw distawrwydd ar y pwngc hwn. Yn lle distewi, elai y pregethwyr Protestanaidd yn mlaen gyda mwy o wres a hyawdledd. Er cyrhaedd ei amcanion, penderfynodd y brenin adsefydlu Llys yr Uchel Ddirprwywyr (*High Commission Court*), yr hwn oedd wedi bod yn wrthddrych adgasrwydd mwyaf y genedl, ac wedi ei ddiddymu gan y senedd drwy ddeddf, yn llwyr ac am byth. O ganlyniad, trefnwyd dirprwyaeth eglwysig, pryd y cynnysgaethwyd saith o ddirprwywyr âg awdurdod berffaith ac anghyfyngedig ar yr holl Eglwys. Y cam nesaf ydoedd caniatau rhyddid cydwybod i Ymneillduwyr, a phob plaid grefyddol. Gwnaed hyn, gan gredu, os caffai Pabyddiaeth lawn ryddid i weithredu, y byddai yn sicr o orchfygu. Heblaw hyny, gallai yr un awdurdod ag a ganiatasai ryddid cydwybod ei alw yn ol, neu ei gyfyngu, ac felly beri i Babyddiaeth yn unig lywodraethu. Mewn canlyniad, cyhoeddodd fod Anghydffurfiaeth o hyny allan yn gyfreithlawn; ond yn Ysgotland, gorchymynodd i'w senedd roddi y rhyddid hwn yn unig i'r Pabyddion. Yn yr Iwerddon, taflwyd yr holl Brotestaniaid yn ddiseremoni o bob swydd o ymddiried ac elw, gan osod Pabyddion yn eu lle. Yr oedd y gweithredoedd hyn o'i eiddo wedi llanw yr holl deyrnas â'r ffieidd-dod mwyaf dygn, fel mai prin y gallasai chwanegu ato drwy ei waith yn anfon Castlemaine fel llysgenhadwr arbenig i Rufain, i amlygu ei ufudd-dod i'r pab, ac i sefydlu tangnefedd rhwng Prydain a'r Babaeth. Yr oedd hyn yn rhy fyrbwyll hyd yn oed gan y pab, ac ni wnaeth efe ond anfon cenadwr (*nuncio*) drosto i Loegr. Ond yr oedd hyn yn groes i'r ddeddf, yr hon a gondemniai bob cymmundeb â'r pab fel uchelfradwriaeth. Yn fuan wedi hyn, goddefwyd i'r Jesuitiaid godi colegau mewn gwahanol ranau o'r deyrnas, ac i gyflawni y gwasanaeth Pabaidd yn y modd mwyaf agored. Yn 1686, cyhoeddwyd ail ddadganiad yn ffafr rhyddid cydwybod, yn yr un ymadroddion a'r un blaenorol, gyda'r chwanegiad canlynol:—Fod i'r holl glerigwyr a'r gweinidogion ei ddarllen ar ol y gwasanaeth yn eu heglwysydd. Penderfynodd y clerigwyr anufuddhau i'r gorchymyn hwn. Llawnodwyd anerchiad at y brenin gan yr esgobion Lloyd o Llanelwy, Kenn o Bath a Wells, Turner o Ely, Lake o Chichester, White o Peterborough, a Trelawney o Bristol. Cynnwys yr anerchiad ydoedd, nas gallent ddarllen y dadganiad yn eu heglwysydd yn unol â'u cydwybodau a'u parch i Brotestaniaeth. Er mor dyner a pharchus oedd geiriad yr anerchiad hwn, derbyniwyd ef gan Iago gydag amlygiadau o syndod ac anfoddlonrwydd. Dywedai nad ydoedd yn disgwyl y fath anerchiad oddi wrth Eglwys Loegr, yn enwedig oddi wrth rywrai oedd yn perthyn iddi; a gorchymynodd ar iddynt ofalu er eu perygl nad ufuddhäent: gan fod yr anerchiad wedi ei gyflwyno yn breifat, galwodd y brenin yr esgobion o flaen y cynghor. Y canlyniad fu, iddynt gael eu gosod yn y Tŵr; ond bu raid eu cludo yno gyda'r dwfr, gan fod teimlad y werin mor gryf o'u plaid. Oddi yno dygwyd hwy o flaen y *Court of King's Bench*, ar y cyhuddiad o gyhoeddi cabldraith celwyddog, maleisus, dinystriol, a bradwrus. Cyhoeddwyd hwy yma yn "ddieuog:" yr hyn a dderbyniwyd gan yr holl deyrnas gyda llawenydd dihafal, gan y golygent iddynt gael ymwared cenhedlaethol. Yr oedd Iago yn ciniawa gydag arglwydd Feversham, yn y gwersyll yn Hounslow; a phan welodd lawenydd y milwyr, gofynodd yr achos o hono. Hysbyswyd ef nad oedd yn ddim ond y milwyr yn bloeddio o blegid rhyddhâd yr esgobion. "Ai dim y gelwch chwi hyn yna," ebe fe; "ond cymmaint gwaeth fydd iddynt hwy." Ond ni roddodd y gorchfygiad hwn yr attalfa leiaf ar y brenin gorphwyllog. I ddefnyddio geiriau Hume, "Diswyddodd ddau o'r barnwyr, sef Powel a Holloway, y rhai a ymddangosent fel yn bleidiol i'r esgobion; anfonodd orchymyn ar i'r holl glerigwyr na ddarllenasant y dadganiad gael eu cospi, *h.y.*, yr oll o Eglwys Loegr, heblaw dau cant." Yn methu er y cwbl gyda'r clerigwyr, treiodd Iago beth allasai wneyd gyda'r fyddin, gan dybied os gallai ddwyn cymmaint ag un gatrawd i roddi ufudd-dod llwyr a pharhaus, y dilynai y lleill ei hesampl. O ganlyniad, galwodd un gatrawd i'w bresennoldeb, gan ddymuno ar i bawb oedd yn erbyn y dadganiad roddi eu harfau i lawr. Er ei syndod, rhoddodd yr holl gatrawd, ond dau swyddog o Babyddion, eu harfau o'u dwylaw. Ychydig

Digitized by Google

ddyddiau wedi hyn, rhoddodd y frenhines enedigaeth i fab. Gallesid meddwl y buasai hyn—y rhagolwg am olynydd yn y frenhiniaeth—yn adsefydlu Iago yn ffafr ei ddeiliaid; ond cymmaint oedd yr elyniaeth yn ei erbyn, fel y taenwyd chwedl nad oedd yr enedigaeth ond ffug—nas ganesid un mab i'r frenhines o gwbl. Ond addefir yn lled gyffredinol erbyn hyn fod yr ystori yn ddisail.

Yr oedd mab yn nghyfraith Iago, y tywysog Orange, â'i lygaid ar y digwyddiadau hyn, ac yn canfod yn eglurach o hyd fod ei obeithion am orsedd Prydain yn fwy tebyg o'u cyflawni; ac ato ef yr edrychai deiliaid Prydain yn awr am waredigaeth. Appeliwyd am ei gynnorthwy a'i amddiffyniad gan amryw o bendefigion y deyrnas; ac o'r diwedd cydsyniodd. Cychwynodd allan gyda llynges o ddeg a deugain o lestri arfog, a thri chant o gludlestri, yn cynnwys 14,000 o filwyr, a chyrhaeddodd Torbay, yn sir Devon, Tachwedd 5ed, 1688, pryd y glaniodd. Cyn diwedd y mis hwnw, cafodd Iago ei hun wedi ei adael gan bron bawb. Yr oedd pawb gyda'r tywysog:—y bobl, y boneddigion, y pendefigion, y fyddin, cyfeillion agosaf Iago, ei weinidogion, ac hyd yn oed ei blant. Yn y nos, ar y 12fed o Ragfyr, dilynodd ei wraig a'r tywysog ieuangc tua Ffraingc, heb neb gydag ef ond un gweinidog yn unig; ond gyrwyd ef yn ol gyda'r gwynt, a gorfu iddo lanio yn Feversham; a dychwelodd oddi yno i Whitehall ar yr 16eg. Y dydd canlynol, cyrhaeddodd tywysog Orange y brifddinas, a gorchymynodd i Iago adael y palas, pryd yr aeth i Rochester; ac oddi yno, ar y 23ain, aeth i Ambleteuse yn Llydaw. Oddi yno aeth i St. Germains, lle y derbyniwyd ef gyda llawer o garedigrwydd gan Louis XIV., a sicrhaodd efe iddo flwydd-dal o bump a deugain o filoedd o bunnau; a rhoddodd iddo gastell St. Germains i fyw ynddo, ynghyd â deng mil o bunnau i'w ddodrefnu, a chynnal ei lys bach.

Yn y cyfamser, esgynodd William, tywysog Orange, a'i wraig Mary, i'r orsedd. [Gwel WILLIAM III. A MARY.] Yn nechreu Mawrth, y flwyddyn ganlynol, hwyliodd Iago o Brest, a glaniodd yn Kinsale; a theithodd oddi yno i Dublin, gyda byddin fechan a roddasid iddo gan Louis XIV. Ychydig o wythnosau wedi hyny, gwarchaeodd ar Londonderry; ond yr oedd yn analluog i'w darostwng, er i'w fyddin ei hamgylchu dros dri mis. Gan ddychwelyd, cynnaliodd senedd yn Dublin, ac am amser gweithredodd fel brenin yn y ddinas hono: ond wedi amryw weithrediadau milwrol, manylion y rhai sydd yn perthyn yn briodol i deyrnasiad ei olynydd, llwyr ddinystriwyd ei achos gan y gorchfygiad a gafodd gan William yn mrwydr Boyne, Gorph. 1af, 1690. Yn fuan wedi hyn, dychwelodd i Ffraingc, a pharhaodd i breswylio yn St. Germains hyd nes y bu farw, Medi 6ed, 1701, yn yr 68ain flwydd o'i oed.

Bu gan Iago bedwar ar ddeg o blant cyfreithlawn; ond bu pob un o honynt farw yn eu mabandod, ond pedwar; sef, Mary, ac Anne, y rhai a ddaethant yn frenhinesau Prydain; Iago, yr hwn a elwid yr Ymhonwr hynaf; a Maria Louisa Teresia, yr hon a anwyd yn St. Germains, 1692, ac a fu farw, 1712. Yr oedd ganddo hefyd bump o blant anghyfreithlawn; sef, pedwar o Arabella, chwaer arglwydd Churchill, a'r llall o Catherine, merch syr Charles Sedley, yr hon a wnaed ganddo yn *countess of Dorchester.*

*Enwogion teyrnasiad Iago* oeddynt, James, y duc o Monmouth (1619—1685), "anwylyd pobl Lloegr;" y barnwr Jeffreys (1603—1689); John Bunyan (1628—1688); John Howe (1630—1705); Wycherley (1640—1715); Richard Baxter (1615—1691); Otway (1651—1685); Andrew Marvell (1620—1678); yr esgob Stillingfleet (1635—1699); Dr. Cudworth (1617—1688); a'r esgob Burnet (1643—1715).

**IAGUR**: tref yn llwyth Iudah. Un o'r rhai pellaf tua'r deheu, ar gyffiniau tir Edom: *Ios.* xv. 21. Enwir Cabseel (yr hon sydd yn yr un rhestr) ar ol hyn; ond ni chyfarfyddir âg enw Iagur wedi hyn, ac nid oes olion o'r lle wedi eu darganfod drwy yr ychydig ymchwiliadau ammherffaith a wnaed yn y lle anial hwnw. Rhaid fod yr Iagur a ddyfynir gan Schwarz [*Descr. Geog.*, td. 99] o'r *Talmud*, fel un o nodau terfynol rhandir Ascelon, yn mhellach tua'r gogledd-orllewin.

**IAH.** Gwel IEHOFAH.

**IAHATH** (Gr. *Ieth.*): mab Libni, fab Gersom, fab Lefi: 1 *Cron.* vi. 20. Yr oedd yn un o hynafiaid Asaph: *adn.* 43.

2. **IAHATH**: pen teulu diweddarach o'r Gersoniaid, mab hynaf Simei, fab Laadan. Yr oedd teulu Iahath yn hanfodi yn amser Dafydd: 1 *Cron.* xxiii. 10, 11.

3. **IAHATH**: gŵr yn llinach Iudah (1 *Cron.* iv. 2), mab Reaiah, fab Sobal. Ei feibion oeddynt Ahumai a Lahad. Sobal ydoedd cyndad y Sorathiaid. Os yr un ydoedd Haroch a Reaiah, yr oedd Iahath yn un o hiliogaeth Caleb fab Hur. Gwel REAIAH.

4. **IAHATH**: Lefiad, mab Selomoth, cynnrychiolydd un o deuluoedd y Cohathiaid (*Isar*), yn nheyrnasiad Dafydd: 1 *Cron.* xxiv. 22.

5. **IAHATH**: Lefiad, o dylwyth y Merariaid, yn nheyrnasiad Iosiah, ac un o arolygwyr adgyweiriad y deml: 2 *Cron.* xxiv. 12.

**IAHAS, IAHASAH, IAHAZ,** neu **IASAH**: pedwar o wahanol ffurfiau ar enw lle. *Iassa* neu *Iasa* ydyw gan y Deg a Thrigain, yn mhob man. Yn y Beibl Cymraeg, *Iahas* ydyw yn *Num.* xxi. 23; *Deut.* ii. 32; ac *Esa.* xv. 4. Yn *Barn.* xi. 20; a *Ier.* xlviii. 34, cawn *Iahaz.* Yn *Ios.* xiii. 18; xxi. 36; ac *Ier.* xlviii. 21, *Iahasah* ydyw: ac yn 1 *Cron.* vi. 78, cawn *Iasah.*

Yn Iahas y cafodd Israel lwyr oruchafiaeth ar Sihon brenin yr Amoriaid, yr hyn a derfynodd yn ngwaith Israel yn meddiannu yr holl wlad rhwng yr Arnon a'r Iabboc—*Belka* bresennol yr Arabiaid. Yr oedd yn rhandir Reuben (*Ios.* xiii. 18), er nad yw yn cael ei henwi yn rhestr *Num.* xxxii.; a rhoddwyd ef gyd â'i amgylchoedd i'r Lefiaid Meraraidd (1 *Cron.* vi. 78; a *Ios.* xxi. 36), er fod yr Hebraeg cyffredin yn ei adael allan yma.

Cawn Iahas (Iahasah), mewn cyssylltiad â'r lleoedd y cyhoeddai Esaiah ac Ieremiah—farn arnynt, fel preswylwyr "y tir gwastad," *h.y.*, y Misor (y *Belka* bresennol); ond, heblaw y ffaith ei fod y pryd hyn yn meddiant y Moabiaid, nis gwyddom ddim o'i hanes.

Oddi wrth yr ymadroddion yn *Num.* xxi. a *Deut.* ii., buasem yn disgwyl cael Iahas yn neheubarth eithaf tiriogaeth Sihon, ond etto i'r gogledd i'r afon Arnon (gwel *Deut.* ii. 24 36; a'r geiriau "dechreu feddiannu," yn *adn.* 31); ac yn yr ysmotyn hwn y mae Schwartz [*Descr. Geog.*, td. 227], yn nodi safle adfeilion lle o'r enw *Iazaza,*

Digitized by Google

ond ni wyddys am neb arall yn ei enwi. Ac nid yw hyn yn cyttuno â thystiolaeth Eusebius [*Onomasticon—Iessa*], yr hwn a ddywed ei fod yn ei amser ef rhwng Medeba a Debons (*Dibon*, dybygid); yr hyn a osodai y lle yn llawer rhy bell tua'r gogledd. Fel llawer pwngc arall perthynol i'r lleoedd oedd i'r dwyrain i'r Môr Marw, rhaid aros am eglurhad ar hwn oddi wrth ymchwiliadau pellach. [Gwel *Ewald's Geschichte*, ii. 266, 271.]

**IAHASAH.** Gwel Iahas.

**IAHAZ.** Gwel Iahas.

**IAHASIAH** (*Hebr. Iach'zeah; Gr. Iaasiah*): mab Tikfah, offeiriad, dybygid, a hynodir fel un o'r pedwar cyntaf a gefnogasant Ezra yn niarddeliad y gwragedd dieithr: *Ezra* x. 15.

**IAHAZIEL** (Gr. *Iehexiel*): un o'r gwroniaid a enciliasant oddi wrth Saul, ac a ymunasant â'r Beniaminiaid â Dafydd yn Siclag: 1 *Cron*. xii. 4.

2. IAHAZIEL (Gr. *Iaziel*): offeiriad yn nheyrnasiad Dafydd; perthyn i'r hwn, gyda Benaiah, yr oedd chwythu yr udgorn yn y gwasanaeth o flaen yr arch, pan ddygasai Dafydd hi i Ierusalem: 1 *Cron*. xvi. 6.

3. IAHAZIEL: Lefiad o dylwyth y Cohathiaid, a thrydydd mab Hebron. Enwir ei deulu ef yn mhlith y Lefiaid a rifid yn amser Dafydd: 1 *Cron*. xxiii. 19; a xxiv. 23.

4. IAHAZIEL: mab Zechariah, a Lefiad o deulu Asaph, a ysbrydolwyd gan Ysbryd yr Arglwydd i galonogi Iehosaphat a byddin Iudah mewn adeg o berygl mawr; sef, pan yr oeddynt yn disgwyl cael ymosod arnynt gan lu anferth o'r Moabiaid, yr Ammoniaid, a'r Mehuniniaid (trigolion Mynydd Seir), a barbariaid ereill: 2 *Cron*. xx. 14. Gelwir *Salm* lxxxiii. yn "Salm Asaph;" ac y mae hyn, ynghyd â chrybwylliad am Edom, Moab, ac Ammon, ac ereill ynddi, fel gwrthwynebwyr Israel, wedi arwain rhai i'w chysylltu â'r digwyddiad uchod. [Gwel Gebal.] Ond y mae hyn yn bur ansicr.

5. "MAB IAHAZIEL" (Gr. *Ezechiel*): y penaf o feibion Sechaniah, a ddychwelasant gyd âg Ezra o Babilon—yn ol y testyn Hebraeg yn ei sefyllfa bresennol. Ond yn ol y Deg a Thrigain, ynghyd â'r ymadrodd cyferbyniol yn *Esdras* viii. 32, y mae enw wedi diangc o'r testyn Hebraeg; a dylai ddarllen, "o feibion Zathoe [*Zattu*, dybygid—gwel yr enw], Sechaniah mab Iahaziel." Yn *Esdras* yr enw ydyw Iezelus.

**IAHLEEL**, neu **IALEEL** (Gr. *Iahelel*): y trydydd o dri mab Zabulon (*Num*. xxvi. 26; a *Gen*. xlvi. 14), a sylfaenydd teulu yr *Ialeeliaid*.

**IAHSEEL**, neu **IASEEL** (Gr. *Iasiel*): yr hynaf o bedwar mab Naphtali, a sylfaenydd teulu yr *Iaseeliaid*: *Gen*. xlvi. 24; *Num*. xxvi. 48. Yn 1 *Cron*. vii. 13, yr enw ydyw *Iasiel*.

**IAIR**: un o ddisgynyddion Iudah, o du ei dad, a Manasseh, o du ei fam. Ei dad ydoedd Segub, fab Hesron, fab Phares, o'i drydedd wraig, merch yr enwog Machir—gŵr mor fawr fel yr arferir ei enw weithiau fel yn gydbwys â'r eiddo Manasseh: 1 *Cron*. ii. 21, 22. Fel hyn, o bob tu, yr oedd yn aelod o'r teulu mwyaf dylanwadol yn y naill lwyth a'r llall. Gelwir ef gan Moses yn "Iair mab Manasseh" (*Num*. xxxii. 41; *Deut* iii. 14); ac yn 1 *Cron*. ii. 23, gelwir ef yn un o "feibion Machir, tad Gilead." Galwyd ef fel hyn ar ol ei fam, yn hytrach nag ar ol ei dad, fe allai, oddi ar y ffaith ddarfod iddo ymsefydlu yn llwyth Manasseh, i'r dwyrain i'r Iorddonen. Yn ystod goresgyniad Gwlad yr Addewid, cyflawnodd un o'r prif orchestion a gofnodir. Cymmerodd feddiant o'r holl wlad a elwid Argob [Gwel Argob] — gwlad sydd mewn ystyr naturiol braidd yn annhreiddiadwy; sef Trachonitis y Testament Newydd, a'r hon a elwir yn bresennol yn *Lejah*: *Deut*. iii. 14. [Gwel d. g. Trachonitis.] Ac yn chwanegol, cymmerodd feddiant o rai pentrefi perthynol i wiblwythau yn Gilead; a galwodd y pentrefi yn Hafoth-Iair [Gwel Hafoth-Iair]: *Num*. xxxii. 41; 1 *Cron*. ii. 23. Bernir nad ydyw yr adnod hon yn ei ffurf briodol yn cyfeirio at feddianniad cyntaf y pentrefydd hyn gan Iair, ond at eu hail-feddianniad yn hytrach. Dywedir mai y cyfieithiad cywir ydyw, "A Gesur ac Aram a gymmerasant yr Hafoth-Iair oddi arnynt, gyda Chenath a'i merched-drefydd [*Beibl Cymraeg* — "pentrefydd"], trigain o ddinasoedd.—*Bertheau's Chronik*., td. 16. Nid oes un o'i hiliogaeth yn cael ei enwi yn amlwg, ond bernir fod *Ira yr Iairiad* yn un o honynt: 2 *Sam*. xx. 26. Bernir hefyd y nesaf yn un:—

2. IAIR Y GILEADIAD, yr hwn a farnodd Israel am ddwy ar hugain o flynyddoedd: *Barn*. x. 3—5. Yr oedd ganddo ef ddeg ar hugain o feibion, y rhai a farchogent ddeg ar hugain o "ebolion asynod," ac a feddiannent ddeg ar hugain o "ddinasoedd" yn ngwlad Gilead, y rhai a elwid, fel eiddo y gŵr o'r un enw o'u blaen, yn Hafoth-Iair. Mae yn bossibl fod y tair ar hugain cyntaf yn gynnwysedig yn y deg ar hugain hyn. Dywed Josephus, fod yr Iair hwn o lwyth Manasseh, a bod lle ei gladdedigaeth (Camon), yn Gilead. Gwel Hafoth-Iair.

3. IAIR: Beniaminiad, mab Cis, a thad Mordecai: *Esther* ii. 5. Yn yr Apocrypha, yr enw ydyw *Iairas*.

4. IAIR: tad Elhanan, yr hwn oedd yn un o wroniaid byddin Dafydd, ac a laddodd Lami, brawd Goliath: 1 *Cron*. xx. 5. Yn 2 *Sam*. xxi. 19; yr enw ydyw *Iaare Oregim*. Gwel Elhanan, ac Iaare-Oregim.

Yn y Testament Newydd, fel yn yr Apocrypha, cawn Iair yn y ffurf Groegaidd, *Iairus*.

**IAIRIAID, YR**: 2 *Sam*. xx. 26. Gwel Iair.

**IAIRUS**: llywodraethwr synagog, mewn rhyw dref tua chyffiniau gorllewinol Môr Galilea, dybygid Adferwyd bywyd ei ferch ef gan yr Arglwydd Iesu: *Mat*. ix. 18; *Marc* v. 22; *Luc* viii. 41. Ffurf Groegaidd yr enw *Iair* ydyw Iairus, mae yn ymddangos.

2. IAIRUS: y ffurf gwreiddiol yn mha un yr ymddengys yr enw *Iair* yn *Esther* ii. 5. Gwel Iair (3).

**IALON**: un o feibion Ezrah, ac enw sydd yn digwydd yn llinach Iudah: 1 *Cron*. iv. 17.

**IAMAI**: gŵr o Issachar, ac un o benau teuluoedd Tola: 1 *Cron*. vii. 2.

**IAMBERES.** Gwel Iannes ac Iambres.

1. **IAMIN**: ail fab Simeon, a sylfaenydd teulu yr Iaminiaid: *Gen*. xlvi. 10; *Exod*. vi. 15; 1 *Cron*. iv 24; *Num*. xxvi. 12.

Digitized by Google

2. IAMIN: gŵr o lwyth Iudah, o deulu Hesron, ac ail fab Ram, cyntaf-anedig Ierameel: 1 *Cron.* ii. 27.

3. IAMIN: un o'r Lefiaid, o dan Ezra a Nehemiah, a ddarllenasant ac a esboniasant y gyfraith i'r bobl: *Neh.* viii. 7.

IAMINIAID, YR: hiliogaeth IAMIN, yr hwn oedd fab i Simeon: *Num.* xxvi. 12.

IAMLECH: un o brif ddynion (tywysogion) llwyth Simeon (1 *Cron.* iv. 34), yn amser Hezeciah, dybygid. Gwel *adn.* 41.

IANNA: mab Ioseph, a thad Melchi, yn llinach Crist: *Luc* iii. 24. Tybir mai amrywiad o Ioannas, neu Ioan, ydyw.

IANNES ac IAMBRES: dau swynwr yn yr Aipht, a wrthwynebent Moses. Paul yn unig sydd yn eu henwi wrth eu henwau: a chymmaint a ddywed efe ydyw, iddynt wrthsefyll Moses, ac i'w ffolineb mewn gwneyd hyny gael ei amlygu: 2 *Tim.* iii. 8, 9. Ymddengys oddi wrth yr esboniadau Iuddewig, y golygid mai y rhai hyn oedd arweinyddion y swynwyr a wrthwynebent Moses ac Aaron yn yr Aipht; a'r rhai, wedi methu efelychu rhai o wyrthiau Moses, a gydnabyddent fod Duw gydag ef a'i frawd. [*Targum Ionathan*, vii. 11, 22; viii. 18, 19.] A hyn y mae geiriau Paul yn cyttuno yn hollol.
Ysgrifenid *Iambres* weithiau *Mambres;* yr hwn yw y ffurf tebycaf i'r eiddo esbonwyr Iuddewig. Ond hyd yma nid oes hanes fod Iambres na Mambres wedi ei weled mewn un ysgrif Aiphtaidd. Y mae y terfyniad, yn gyffelyb i lawer o ansoddeiriau Aiphtaidd, yn diweddu gyda *ra*, "yr haul," megys *Men-kau-ra.* Tybir mai ffurf arall ar Aân, yr hwn a seinid, dybygid, Iâu, ydyw Iannes. Yr oedd hwn yn enw ar ddau frenin Aiphtaidd: un yn yr unfed arglwyddiaeth ar ddeg; y llall yn y pedwerydd neu pummed o frenhinoedd y bymthegfed arglwyddiaeth, a'r hwn a elwir gan Manetho, *Iannas* neu *Ianias* [*Horæ Ægyptiacæ*, td. 174–5.] Un brenin a fu ar ol yr olaf cyn teyrnasiad y Pharoah a ddyrchafodd Ioseph. Dengys hyn fod yr enw Iannes, neu Aân, mewn arferiad yn yr Aipht, yn neu yn agos i'r amser y trigai yr Israeliaid yno. Yr enwau mwyaf arferedig gan yr Aiphtiaid ydoedd enw eu brenin ar y pryd. Dengys hyn hefyd fod yn eithaf possibl i adroddiad Paul fod yn ffaith hanesyddol, ac nid yn draddodiad Iuddewig, fel y mynai y tadau, ac ereill, oddi ar annhebygrwydd yr enwau i'r rhai Aiphtaidd.

IANOAH: lle, dybygid, yn ngogledd Galilea, neu "dir Naphtali," un o'r lleoedd a gymmerwyd gan Tiglath-Pileser ar ei ryfelgyrch cyntaf i Wlad Canaan: 2 *Bren.* xv. 29. Nid oes hanes am dano yn unman arall, ond yn yr *Onomasticon*, lle y camgymmerir ef am Ianohah, yn nghanolbarth y wlad.

IANOHAH (Gr. Alex., *Ianoë*): enw lle ar gyffiniau rhandir Ephraim; rhyngddo, o bossibl, a Manasseh. Enwir ef rhwng Taanath-Siloh ac Ataroth; ac y mae y cofrestrad yn myned o'r gorllewin tua'r dwyrain: *Ios.* xvi. 6, 7. Gesyd yr *Onomasticon* (*Ianó*) ef o fewn deuddeng milltir i Neapolis. O fewn ychydig llai na hyny i Nablûs, ac i gyfeiriad de-orllewinol iddi, y mae pentref o'r enw *Ianûn,* yr hwn yn ddiammheuol ydoedd Ianohah. Mae yn gorwedd mewn dyffryn sydd yn disgyn yn serth tua'r Iorddonen, i'r dwyrain. Mae y pentref yn bresennol yn bur fychan, ond y mae yr adfeilion yn helaeth a dyddorol. "Ni welais," medd Van de Velde, "un o hen ddinasoedd yr Israeliaid mewn sefyllfa o'r fath:—tai a muriau cyfain wedi eu gorchuddio â phentyrau anferth o bridd."

IANUM (yn yr Hebr. gwreiddiol, *Iannim*): un o drefydd Iudah, yn y mynydd-dir, heb fod yn mhell, fe ymddengys, o Hebron. Enwir hi rhwng Esean a Beth-taffuah: *Ios.* xv. 53. Nid oedd yn adnabyddus i Eusebius a Jerome [gwel *Onomasticon*, d. g. *Ianun*], ac nid ydyw yn ymddangos fod un teithiwr diweddarach wedi canfod dim o'i hol.

IAPHETH, fel y bernir yn gyffredin, oedd yr hynaf o dri mab Noah; ond y mae Hengstenberg yn barnu mai Iapheth oedd yr ieuangaf, ac y safent o ran oedran yn y drefn y cofnodir hwy yn yr Ysgrythyr – Sem, Cam, Iapheth. Yn *Gen.* ix. 24, gelwir Cam yn fab ieuangaf Noah; ac yn *pen.* x. 21, gelwir Sem yn frawd Iapheth yr hynaf. Yn ol y dyb gyffredin, gosodir Iapheth yn hynaf, a Cham yn ieuangaf. Barna ereill mai Sem, yr hwn a elwir yn "frawd hynaf Iapheth," oedd cyntafanedig Noah, ac mai Cam oedd yr ieuangaf o'r tri. "Y tri hyn oedd feibion Noah; ac o'r rhai hyn yr hiliwyd yr holl ddaear."
Y mae rhai yn cymmharu Iapheth âg Iapetus y chwedlau Groegaidd, mab Cœlus o Terra, yr hwn a briododd Asia, ac a ystyrid yn dad dynolryw. Yn ol y cyfrif Moesenaidd, yr oedd gan Iapheth saith o feibion; sef, Gomer, Magog, Madai, Iafan, Tubal, Mesech, a Thiras. "O'r rhai hyn y rhanwyd ynysoedd y Cenhedloedd yn eu gwledydd, pawb wrth eu hiaith eu hun, trwy eu teuluoedd, yn eu cenhedloedd." Y mae yr hanes hwn yn egluro yr hyn oedd dywyll i'r awdwyr Paganaidd, sef dechreuad y cyn-genhedloedd. Yn lle gwasgariad ffugchwedlau megys ag y gwnai hen awdwyr cenhedlig, fod un genedl wedi tarddu o'r ddaear, arall o'r grilliad neu y ceiliog rhedyn, arall o'r dderwen, arall o'r ffwng, arall o ddant draig—yn lle y chwedlau afresymol hyn, dyry y fath gyfrif am boblogiad y ddaear ar ol y dylif na cheir ei gyffelyb mewn un llyfr arall yn y byd, a'r hyn y mae pob llyfr arall yn y byd sydd yn cynnwys rhywbeth ar y mater yn cadarnhau ei wirionedd.
Dywed Abulfaragi, yn *Hanes Teyrnedd yr Aipht,* "Yn y flwyddyn 104, i Peleg y rhanwyd y ddaear drwy ail raniad rhwng meibion Noah. I feibion Sem y rhoddwyd canol y ddaear; sef, Palestina, Syria, Assyria, Samaria, Babel, Persia, a Hagiaz, neu Arabia Garegog. I feibion Cam, Teman, neu Idumea, Affrica, Nigritia, yr Aipht, Nubia, Ethiopia, Scindia ac India, neu India Orllewinol a Dwyreiniol o ddau du yr Indus. I feibion Iapheth, Garbia, neu y Gogledd, Yspaen, Ffrainge, gwledydd y Groegiaid, yr Ysglafoniaid, y Bulgariaid, y Tyrciaid, a'r Armeniaid." Gelwir Iapheth yn gyffredin yn dad y Tyrciaid a'r barbariaid. Dywed syr William Jones, fod plant Iapheth, fel y gellir olrhain wrth eu henwau, wedi ymledaenu yn ddirfawr, ac mai eu hiliogaeth hwy yw y Tartariaid. O Gomer ei fab hynaf y deilliodd y Cimeriaid; y rhai, yn ol Herodotus, a wladychent ar Mœotiss, yn y Crimea, ac o'r rhai y disgynodd y Cymry a'r Llydawiaid. Magog a gyssylltir gan Iosephus â'r Scythiaid ar fôr Azof.

Digitized by Google

Ond y mae Kiepert yn cyssylltu ei enw â Maka, ac yn ei gymmhwyso at lwythau bugeilaidd o Scythiaid, y rhai a ymwthiasant i blith y Mediaid, Kindiaid, ac Armeniaid. O Madai y deilliodd y Mediaid. Y mae Iafan yn cyfatteb i 'Ιαων y Groegiaid, o'r hwn y deilliodd yr Ioniaid (Ἰάονες), boncyff-lwyth y Groegiaid. Tubal a Mesech yn ddiau yw y Tibareni a Moschi: y blaenaf a leolir gan Herodotus ar y dwyrain i'r Thermodon, a'r olaf rhwng tarddellau y Phasis a Cyrus. Tiras, yn ol Josephus, y Thraciaid, y rhai a eilw Herodotus y llwyth lliosocaf, yn nesaf i'r Indiaid. Gan y cyfleir hwy yma wrth ochr Mesech, felly hefyd y canfyddwn ar hen gofadeiliau Aiphtaidd *Mashuash*, a *Tuirash*, ac ar y rhai Assyriaidd, *Tubal* a *Misek* (Rawlinson). "Duw a helaetha ar Iapheth," neu "i Iapheth." Gan mai *helaethiad* yw ystyr yr enw Iapheth, y mae yn amlwg fod y frawddeg yn fath o argyfenwad yn chwareu ar y gair hwnw, megys ag y gwelir yn y manau canlynol: *Gen.* v. 29; xlix. 8, 16, 19. A helaethwyd mwy ar Iapheth nag ar y lleill? Do, yn ei diriogaeth a'i ddisgynyddion. Yr oedd tiriogaethau hiliogaeth Iapheth yn helaeth iawn; canys heblaw holl Ewrop, meddiannent Asia Leiaf, Media, rhan o Armenia, Iberia, Albania, a'r gwledydd eang hyny tua'r gogledd, a breswylir yn awr gan y Tartariaid; a thebygol iddynt groesi o Kamschatka i gyfandir y byd newydd, a phoblogi yr America, ac mai hwy oedd cyntrodorion y wlad hono. "Ac efe a breswylia yn mhebyll Sem." Y mae rhai yn darllen, "Bydded i Dduw eangu Iapheth," "Bydded iddo ef breswylio yn mhebyll Sem!" Y mae disgynyddion Iapheth yn sefyll yn y canol rhwng yr eiddo Sem a Cham. Nid yw yr Iehofah yn briodol yn Dduw i Iapheth, ond y mae Duw yn parotoi ffordd i Iapheth ddyfod i bebyll Sem, lle y caiff efe Iehofah a'i iachawdwriaeth. Y mae ei gyfranogiad mewn iachawdwriaeth yn cael ei ddwyn oddi amgylch trwy Sem. Y mae rhai yn deall, preswylio yn mhebyll Sem, yn *feddiannu tiriogaethau Sem.* Y mae hyny yn wirionedd, canys disgynyddion Iapheth yw y blaid fwyaf dylanwadol yn llywodraethiad y byd. Hwy a sefydlasant yr ymherodraethau Groegaidd a Rhufeinaidd. Ond yn llinach Sem yr oedd yr addewid am iachawdwriaeth, yr hon a ddadguddiwyd yn eglurach ar ol hyny i Abraham. Y mae y brophwydoliaeth yn cyfeirio at ddychweliad y Cenhedloedd i gael iachawdwriaeth trwy yr Iuddewon. Y mae y brophwydoliaeth hon yn cynnwys cipolwg talfyriadol ar holl hanes a thynged y byd. [Gwel *Bh. Newton on the Prophecies*; *Keil & Delitzsch on the Pentateuch*; cyf. i.; *Hengstenberg's Christology*, cyf. i.; *Kurtz's History of the old Covenant*, Cyf. i].

IAPAN. Gwel DAIARYDDIAETH.

IAPHIA [Gr. Alex. *Iaphie*]: esgynai terfyn Zabulon o Daberath i Iaphia, ac oddi yno i Gath-hepher: *Ios.* xix. 12. Ymddengys fod Daberath ar lethrau mynydd Tabor; ac y mae yn bossibl mai Gath-hepher ydyw *el-Meshhad*, o fewn dwy filldir i Nazareth; chwe milldir i'r gorllewin i'r blaenaf, a dwy filldir i'r deheu i'r olaf, y mae *Iaffa*, yr hon, dybygid, ydoedd Iaphia [*Robinson's Researches*, ii. 343 - 4]; o leiaf y mae hyn yn fwy tebygol nag mai *Chaifa* Eusebius [*Onomasticon*] ydyw, o blegid y mae sefyllfa ddaearyddol yr olaf, yn gystal a ffurf yr enw, yn anghysson â hyn. Y mae yn bossibl hefyd mai *Iaffa* ydoedd yr *Iapha* a breswylid gan Josephus yn ystod ei ymdrech â'r Rhufeiniaid:—"pentref mawr yn Galilea Isaf, wedi ei amgylchu â muriau, ac yn llawn o bobl" [*Bywyd Josephus*, adr. 45, cym. 37; *Rhyfel. Iudd.*, ii. 20, adr. 6], o'r rhai y lladdwyd 15,000, ac y cymmerwyd 2,130 yn garcharorion gan y Rhufeiniaid [*Rhyfel Iudd.*, iii. 7. adr. 31].

Dywed traddodiad [*Maundeville's Early Travels*, td. 186], mai *Iaffa* ydoedd lle genedigaeth Zebedeus, a'i feibion, Iago a Ioan. O ganlyniad gelwir hi gan y mynachod o Nazareth, "San Giacomo."

1. IAPHIA: brenin Lachis, pan oresgynwyd Canaan gan yr Israeliaid: *Ios.* x. 3. Yr oedd yn un o bum "brenhinoedd yr Amoriaid," a aethant i gynghrair yn erbyn Iosuah, a'r rhai a orchfygwyd yn Beth-horon, ac a gollasant eu bywydau yn Maccedah. Enwir ef "brenin Lachis" fwy nag unwaith yn yr hanes hwn (*adn.* 5, a 23), ond nid yw ei enw priodol yn ymddangos ond yn *adn.* 3.

2. IAPHIA: un o feibion Dafydd, y degfed o'r pedwar ar ddeg a anwyd iddo ar ol ei ymsefydliad yn Ierusalem: 2 *Sam.* v. 15; 1 *Cron.* iii. 7; xiv. 6.

IAPHLET: un o hiliogaeth Aser, o Beriah; ei fab ieuangaf, a'r hwn a enwir fel tad tri o "feibion Iaphlet;" 1 *Cron.* vii. 32, 33.

IAPHLETI: [Hebr. הַיַּפְלֵטִי="yr Iaphletiad"]. Yr oedd "ardal Iaphleti," neu "yr Iaphletiad," yn un o nodau terfyn Ephraim, i'r dwyrain i Beth-horon isaf, a rhwng y lle hwn ag Ataroth: *Ios.* xvi. 3. Pwy ydoedd "yr Iaphletiad" nis gellir sicrhau. Y mae yn bossibl mai enw ydoedd ar ryw hen dylwyth a arferent unwaith breswylio y bryniau hyn, yn debyg fel y mae yr enwau Zemaraim "y Zemariaid," Ophni "yr Ophniaid," Cephar ha-Ammonai ("pentref yr Ammoniaid"), &c., yn awgrymu preswyliad blaenorol tylwythau o'r enwau a nodwyd yno. Credir nad oes gyssylltiad rhyngddo a Iaphlet; ac nid oes neb etto wedi cael olion o'r lle.

IAPHO [Gr. *Ioppe*]: enw sydd yn digwydd unwaith yn y Beibl Cymraeg: *Ios.* xix. 46 Ffurf arall ydyw ar IOPPA; ond ei ffurf bresennol ydyw *Iaffa*, yr hyn yw yr Arabaidd am IAPHIA —gair pur annhebyg yn yr Hebraeg. Gwel IOPPA.

IARAH: un o hiliogaeth Saul, mab i Micah, a gorŵyr i Mephiboseth: 1 *Cron.* ix. 42; cym. *adn.* 40. Yn y gyfrestr sydd yn *pen.* viii., newidir; yr enw yn IEHOADAH.

IAREB. Y mae yr enw hwn yn digwydd ddwywaith yn y Beibl, sef yn *Hos.* v. 13; a x. 6. Ar ymyl y ddalen, cyfieithir y gair hwn (ירב), "y brenin a ddadleuai," ac yn y Saesneg, "*King Jareb*"—fel pe buasai yn enw priodol. Fel hyn y mae y cyfieithwyr wedi rhoddi iddo dri o wahanol ystyron: berf, o'r gwreiddyn Hebraeg *rûb* "ymryson," neu "ddadleu;" enw personol, ac enw lle; tra y mae dysgedigion ereill yn barnu yn wahanol o barth i'w ystyr. Tybia Michaelis, fod gwir ystyr y gair i'w gael yn y Syriaeg, "*ireb*"="mawr," a gyfieitha yr ymadrodd, "ac a hebryngodd at y brenin mawr," &c. Yr ystyr a rydd y Targum iddo ydyw "dialedd"—"ac a

Digitized by Google

hebryngodd at y brenin, fel y deuai i ddial eu cam." Tybia Hitzig fod cyssylltiad rhwng y gair âg un arall mewn tafodiaith gymmysg, a chyssylltiedig â'r Assyriaeg, sef âg *iarbam*=ymdrechu," neu "ymladd;" ac âg "*iarbech*," gair Ethiopaeg am "wron neu ryfelwr dewr." Gogwyddа Westcott at y syniad diweddaf, "rhyfelwr neu ddialydd," a chyssyllta y gair âg Assyria, fel enw ar frenin y wlad hono, neu ynte ar y wlad ei hun. Ond pa beth ydyw ei wir ystyr gwreiddiol, y mae yn ammhossibl penderfynu yn bresennol.

IARED: un o'r patriarchiaid cynddiluwiaidd —y pummed ar ol Adda, mab Mahalcel, a thad Enoch: *Luc* iii. 37. Yn *Gen.* v. 15—20; ac 1 *Cron.*i. 2, y ffurf ydyw IERED.

IARESIAH (Gr. *Iersia*): Beniaminiad; un o feibion Iehoram, ac un o benaethiaid ei lwyth: 1 *Cron.* viii. 27.

IARHA (Gr. *Ieraa*): Aiphtwr, a gwas Sesan, o gylch amser Eli. "Ac nid oedd i Sesan feibion...a Sesan a roddodd ei ferch yn wraig i Iarha ei was." Fel hyn daeth yn etifedd ei feistr, ac yn sylfaenydd un o brif deuluoedd yr Ierameeliaid, yr hwn deulu a barhaodd o leiaf hyd amser Hezeciah, ac o'r hwn y tarddodd amryw enwogion; megys Zabad, yn amser Dafydd, ac Azariah yn nyddiau Ioas: 1 *Cron.* ii. 31, &c.; xi. 41. [Gwel AZARIAH a ZABAD.] Byddai yn ddyddorol gwybod pa beth oedd enw gwraig Iarha. Yn *adn.* 31, dywedir "meibion Sesan; Alai:" ac yn *adn.* 34, "*nid oedd* i Sesan feibion, ond merched." Yn *adn.* 35, dywedir i ferch Sesan ymddwyn i Iarha Attai (ŵyr yr hwn ydoedd Zabad, *adn.* 36); ac yn *pen.* xi. 41, dywedir "Zabad mab (ŵyr ?) Alai (=brawd i mi)," gan Sesan, i arwyddo ei fabwysiad gan Israel. Tybia ereill mai ffurf arall ar Alai ydyw Attai. Barna ereill mai mab a anwyd i Sesan ar ol priodas ei ferch ydoedd Alai; ond gwell genym ni ddilyn y cyfieithiad Saesoneg o *adn.* 31, a darllen "*plant* Sesan," yn lle "meibion," fel yn y Gymraeg. Yn ol hyn y mae yn eithaf tebygol mai enw merch Sesan, a gwraig Iarha, oedd Alai. Gelwid ei hiliogaeth ar ei hol hi, yn lle ei gŵr, yn debyg fel y gelwid Abisai, Ioab, ac Asahel, yn "feibion Serfiah;" (*adn.* 16), ac fel y saif Abigail yn mhen llinach Amasa: *adn.* 17, &c. Gellir sylwi fod cyssondeb nodedig, ond anfwriadol, rhwng y ffaith fod Iarha yr Aiphtwr yn byw gydag Ierameeliad, â'r ffaith fod y bobl hyn yn preswylio ar y tu hwnw o Iudah oedd nesaf i'r Aipht: 1 *Sam.* xxvii. 10; cymmharer 2 *Sam.* xxiii. 20, 21; 1 *Cron.* iv. 18. Gwel IERAMEEL a SESAN.

1. IARIB: un o feibion Simeon, yn ol 1 *Cron.* iv. 24. Lleinw yr un lle yn y rhestr hon ag Iachin yn y cydrestrau sydd yn *Gen.* xlvi. *Exod.* vi. a *Num.* xxvi.; a thybir mai llygriad ydyw Iarib o Iachin.

2. IARIB; "un o'r penaethiaid," neu o brif ddynion y genedl Iuddewig a ddaethent gydag Ezra o Babilon i Ierusalem; ond pa un ai o'r Lefiaid ynte o ryw lwyth arall yr oedd, nid yw yn hollol eglur: *Ezra.* viii. 16. Yn 1 *Esdras,* y ffurf ydyw Ioribas.

3. IARIB: offeiriad o deulu Iesua fab Iosadac, un o'r rhai a briodasant wragedd dieithr, ac a orfodwyd i'w rhoddi heibio: *Ezra* x. 18. Yn 1 *Esdras,* cawn Ioribus.

1. IARMUTH (Gr. *Iarumath,* ac *Irmus*): tref ar wastadedd y Sefelah, neu iselder llwyth Iudah, yr hon a enwir gydag Adulam, Socoh, ac ereill: *Ios.* xv. 35. Yr oedd Piram ei brenin yn un o'r pump a gyttunasant i gospi Gibeon am ymgyngreirio âg Israel, ac a orchfygwyd ac a laddwyd gan Iosuah yn Maccedah: *Ios.* x. 3, 5, 23. Yn yr hanes hwn, yn gystal ag yn y rhestr o'r dinasoedd brenhinol a ddinystriwyd gan Iosuah, enwir Iarmuth yn nesaf i Hebron; yr hon, fodd bynag, oedd yn y mynyddoedd. Enwir hi yn *Neh.* xi. 29, fel lle a fuasai yn breswylfa i rai o blant Iudah ar ol eu dychweliad o'r caethiwed. Naill ai yr oedd Eusebius a Jerome yn gwybod am ddau le o'r enw hwn, neu ynte y mae gwall wedi ymgripio i'r *Onomasticon;* o blegid o dan y gair *Iarimuth,* dywedant ei bod ger Estaol, pedair milldir o Eleutheropolis ond o dan *Ierimus.* Disgrifir hi fel yn ddeng milldir o Eleutheropolis, ar y ffordd i Ierusalem. Ymwelwyd â safle adfeilion o'r enw *Iarmûc,* gydag uchelfa gyfagos o'r enw *Tell-Ermûd,* gan Robinson [*Researches,* ii. 17], a Van de Velde [*Inemoir.* td. 324]. Saif o gylch milldir a hanner o *Beit-netif;* yr hon, drachefn, sydd o fewn wyth milldir i *Beit-gibrin,* ar aswy y ffordd i Ierusalem. Gorwedda *Shuweikeh* (yr hen Socoh) ar fryn cyfagos. Ond pa fodd y cyssonir y ffaith fod Iarmuth yn y mynydd-dir â'r ffaith ysgrythyrol fod y dref yn gorwedd yn y Sefelah—yr "iseldir?" A oedd y gymmydogaeth hon yn derbyn ei henw oddi wrth y gwastadedd sydd yn ffurfio y rhan fwyaf o honi, tra yr oedd y gweddill yn gynnwysedig o'r mynydd-dir? Nis gellir rhoddi atteb cadarnhaol i hyn, gan nas gellir penderfynu ar ba egwyddor y gwnai yr Hebreaid eu rhaniadau daearyddol. Nis gall fod ammheuaeth fod Iarmuth yn y mynydd-dir, er y dynodir y lle fel gwastadedd.

2. IARMUTH: un o ddinasoedd Issachar, yr hon, gyda'i hamgylchoedd, a gyflwynwyd i'r Lefiaid Gersonaidd: *Ios.* xxi. 29. Lle y dynodir terfynau Issachar, nid oes grybwylliad am Iarmuth (gwel *Ios.* xix. 17–23); ond enwir *Rameth* yno (*adn.* 20): ac yn y gyfres gyfattebol o ddinasoedd y Lefiaid (1 *Cron.* vi. 73), lleinw *Ramoth* le Iarmuth. Nid ydyw y ddau enw ond amrywiaethau o'r un gwreiddyn, a gellid yn hawdd ddefnyddio y naill am y llall. Ymddengys nad oes neb etto wedi cael allan yr Iarmuth hon. Gwel *Ramoth.*

IAROAH: (Gr. *Iara*): un o benaethiaid llwyth Gad: 1 *Cron.* v. 14.

IASAH. Gwel IAHAS.

IASEN. Nodir "meibion Iason" fel rhai o wroniaid gwarchodlu Dafydd: 2 *Sam.* xxiii. 32. Yn y testyn Hebraeg, fel y diwygiwyd ef gan y Masoretiaid, nid oes gyssylltiad hanfodol rhwng yr enwau ag ereill, o'u blaen nac ar eu hol, yn y rhestr; ond yn y cyfieithiad awdurdodedig, cyssylltir hwy â'r rhai sydd yn dilyn:—"o feibion Iasen, Ionathan. Drwy gymmharu y cydadnodau yn 2 *Sam.* xxiii. a 1 *Cron.* xi. 34, â'r adnodau cylchynol, gwelir fod *adn.* 32 yn y blaenaf yn ymddangos yn anghyflawn. Yn yr olaf (1 *Cron.* xi. 33, 34), ar ol "Eliahba y Saalboniad," darllenir yn lle "o feibion Iasen, Ionathan,"—"meibion Hazem y Gizoniad, Ionathan mab Sageth (neu Sammah), yr Harariad." Kennicott, wedi chwilio yn fanwl i hyn [*Dissert.,* 198—203], a ddengys

Digitized by Google

fod seiliau digonol dros gredu fod enw yn ngholl yn y ddau le; ac y dylid darllen, "o feibion Hazem, Guni, Ionathan fab Sammah (neu Sageth) yr Harariad." Y mae Jerome, yn ei *Questions Hebraical*, o ddiffyg deall yr adnodau o bossibl, yn gadael allan enwau Iasem ac Ionathan o'i restr.

**IAZER, LLYFR** [Heb. *Sashar*]. Y mae hwn yn enw ar waith cwbl anadnabyddus, yn mhellach nag y cyfeirir ato ddwywaith yn yr Ysgrythyrau. Unwaith y sonir am dano yn yr Ysgrythyrau Cymraeg dan yr enw hwn; sef yn 2 *Sam*. i. 18; lle crybwyllir am Dafydd yn dyweyd am ddysgu meibion Iudah i saethu â bwa, neu yn galarnadu ei alarnad am Saul ac Ionathan ei fab:—"Wele," meddir yno, *y mae* yn ysgrifenedig yn llyfr Iazer." Y mae amryw a fynant gyfleithu yr ymadrodd yn nechreu *adn*. 18, fel hyn:—"Dysgodd iddynt 'y bwa;'" yr hyn a ystyrir oedd teitl ei alarnad. Ond er cadw o honom at y cyfieithiad awdurdodedig, dichon y cynnwysid yr alarnad o fewn yr hyn oedd wedi ei ysgrifenu yn Llyfr Iazer. Y man arall a gyfeiria ato yw *Ios*. x. 13; lle—pan yn son am yr haul yn aros, a'r lleuad yn sefyll wrth air Iosuah, nes i'r genedl ddial ar ei gelynion—y dywedir, "Onid yw hyn yn ysgrifenedig yn llyfr yr uniawn." Yma, yr ydym yn cael y cyfieithiad Cymraeg yn cadw ystyr yn hytrach na dull y gair Hebraeg; o herwydd ystyr yr ymadrodd yw "syth," neu "uniawn;" a'r syniad cyffredinol ydyw, mai llyfr ydoedd Llyfr Iazer yn cael ei wneyd i fyny o hanesion neu ganiadau er clodforedd i ddynion hynod a godasai yr Arglwydd i weithio drosto ef a'i bobl. Felly, byddai Iazer, neu "uniawn," yn ddisgrifiad cywir o'r dynion hyny; ac nid o honynt hwy yn unig, ond hefyd o holl blant Israel, mor bell ag y rhodient yn addas i'w galwedigaeth fel pobl briodol yr Arglwydd. Yn unol â hyn, cyfiethir ef gan y *Vulgate* yn "*liber justorum*,"=llyfr y cyfiawnion; tra y mae cyfieithiad y Deg a Thrigain yn fwy cywir yn darllen megys y Gymraeg, "llyfr yr [un] uniawn." Cyfieithiad y Syriaeg yw "llyfr y moliannau," neu salmau.

Y mae pwysigrwydd a dyddordeb wedi dyfod i berthyn i'r llyfr hwn yn nglŷn â'r dadleuon o barth i oedran cyfran o'r Beibl. Gan y dyfynir ef yn *Iosuah*, a 2 *Sam*., y mae rhai wedi tynu y casgliad nas gallai Llyfr Iosuah fod wedi ei ysgrifenu cyn amser galarnad Dafydd. Ond y mae hyn yn cymmeryd yn ganiataol y darfu i Lyfr Iazer gael ei ysgrifenu i gyd ar unwaith; yr hyn, dybygid, sydd fwy nag y gallwn ni yn deg ei wneuthur, pan ystyriom mor ychydig yw y fantais sydd genym i wybod dim yn ei gylch. Pe tybiem mai llyfr hanesyddol ydoedd, gallai fod yn cynnwys cyfres o gofnodau am ddygwyddiadau pwysfawr wedi cymmeryd lle ar adegau cyffrous yn hanes y genedl, pan y symbylid dynion i wneuthur a allent er cadw y cyfryw ddygwyddiadau mewn cof o bryd i bryd trwy eu hysgrifenu mewn llyfr. Ond yn gymmaint ag y gellir yn deg ei ystyried fel llyfr o ganiadau neu emynau cenhedlaethol, y mae hyny yn dyfod yn rheswm cryfach dros dybied nad ysgrifenwyd ef oll ar unwaith. O bob llyfrau, y rhai a adgyhoeddwyd fynychaf gyda chwanegiadau a chyfnewidiadau oeddynt gasgliadau o gyfansoddiadau barddonol, pa un bynag ai cyssegredig ai peidio. Dywed ysgolheigion Beiblaidd ei bod yn dra thebyg ddarfod i Lyfr y Salmau fyned trwy gwrs o'r fath yma, o ddyddiau Dafydd hyd, fe allai, amser Nehemiah. Felly, y mae yn debygol, y bu gyda Llyfr Iazer. Nid yn yr un oes y cyfansoddwyd ef i gyd; ond rhoddid ato y naill dro ar ol y llall, yn ol fel y byddai amgylchiadau yn cyffroi dynion i hyny. Perthyn i'r un dosbarth o gyfansoddiadau, ac amlygu yr un tueddfryd yn y genedl, gellid meddwl, yr oedd "Llyfr Rhyfeloedd yr Arglwydd," yr hwn y cyfeirir ato ac y dyfynir o hono yn *Num*. xxi. 14.

**IASIEL.** Gwel IAHSEEL.

**IOSOBEAM** (Gr. *Iesbaam*): un o ganlynwyr Dafydd yn ystod ei erlidiad gan Saul—yr un a'r unrhyw, fe allai, a'r hwn a ddisgrifir fel Hachmoniad yn 1 *Cron*. xi. 11, fel Corhiad yn 1 *Cron*. xii. 6, ac fel mab Zabdiel yn 1 *Cron*. xxvii. 2. Daeth at Dafydd yn Siclag. Ei wrhydri nodedig ef ydoedd lladd 300 (neu 800, 2 *Sam*. xxiii. 8) o ddynion ar unwaith. Enwir ef yn gyntaf yn mhlith y rhai penaf o gedyrn Dafydd (1 *Cron*. xi. 11); a gosodwyd ef yn flaenor ar y cylch neu y dosbarth cyntaf o'r deuddeg dosbarth misol o 24,000 o ddynion a wasanaethant y brenin: 1 *Cron*. xxvii. 2. Ymddengys fod camgymmeriad wedi ymgripio i 2 *Sam*. xxiii. 8, wrth adysgrifio ei enw.

**IASON**: enw Groeg a ddefnyddid yn fynych gan yr Iuddewon Hellenaidd fel yn gyfystyr âg *Iesu* ac *Iosuah* [cymh. *Hyn. Iudd*., xii. 5. adr. 1]. Ceir cyfnewidiad cyffelyb o Eliaceim i *Alcimus*; tra nad ydyw *Nicolous*, *Doritheus*, *Menelaus*, &c., ond cyfieithiadau uniongyrchol enwau Hebraeg. Y cyntaf o'r enw hwn ydyw:—

1. **IASON**, MAB ELEAZAR: un o'r dirprwywyr a anfonwyd gan Iudas Maccabæus i wneuthur cyttundeb heddwch â'r Rhufeiniaid, c. c. 161. [1 *Macc*. viii. 17; *Hynaf. Iudd*., xii. 10, adr. 6]. Anfonwyd yr un person yn ddiweddarach fel llysgenhadwr i Rufain: 1 *Macc*. xii. 16; xiv. 22.

2. **IASON**, O CYRENE: hanesydd Iuddewig, a ysgrifenodd mewn "pum llyfr" hanes ymdrechfa yr Iuddewon am ryddid, o'r hwn y cafwyd y prif ddefnyddiau i *Ail Lyfr y Maccabeaid*. Gellir meddwl oddi wrth ei enw a lle ei breswylfa mai Iuddew Hellenaidd ydoedd Iason, ac y mae yn y llyfr brofion tebygol ddarfod iddo gael ei gyfansoddi yn y Groeg. Cynnwysai yr hanes hwn y rhyfeloedd o dan Antiochus Eupator, ac felly rhaid ei fod wedi ysgrifenu wedi c. c. 162; ond ni wyddys dim mwy am dano nag a gesglir oddi wrth 2 *Macc*. ii. 19—23.

3. **IASON**, YR ARCHOFFEIRIAD: ail fab Simon II., a brawd Onias III. Llwyddodd ef i gael yr archoffeiriadaeth, ac felly amddifadwyd ei frawd hynaf o honi (c. c. 175) [2 *Macc*. iv. 7—26; 4 *Macc*. iv. 17; *Hynaf. Iudd*., xii. 5, *adn*. 2]. Ymdrechodd yn mhob modd i ddwyn arferion a defodau Groeg i blith y bobl; a llwyddodd i raddau helaeth: 2 *Macc*. iv. Sefydlodd orchestfa (*gymnasium*) yn Ierusalem, a chafodd gan hyd yn oed yr offeiriaid i esgeuluso eu gwasanaeth cyssegredig er mwyn cymmeryd rhan yn y campau (2 *Mac*. iv. 9—14); ac aeth o'r diwedd mor bell ag i anfon dirprwyaeth i gampau Tyrus, o anrhydedd i Hercules. Yn mhen tair blynedd (c. c. 172), yr oedd yntau wedi ei ddisodli yn ffafr y brenin gan ei brif weinidog ei hun, Menelaus; yr hwn a dderbyniodd y swydd o archoffeiriad gan Antiochus drwy gynnyg pris uwch am dani; a gorfu

Digitized by Google

ond yn hytrach yr ymadroddion, "rhoddi iawn," a "gwneuthur iawn." Mae y Seisoneg, *atonement*, yn arwyddo, yn gyntaf oll, *bod yn un* (*at-one-ment*), heb un cyfeiriad at y modd y dygir oddi amgylch, yr undeb neu y cymmod hwnw. Ond y mae yn gysson â'r cyfnewidiadau sydd yn cymmeryd lle mewn iaith i'w ddefnyddio yn ail am gyfrwng y cymmod, heb un cyfeiriad at ansawdd foesol y cyfrwng hwnw. Ond hyn ydyw y drychfeddwl cyntaf yn y gair Cymraeg *iawn;* sef, "adferu heddwch, a therfynu anghydfod, trwy wneuthur yr hyn, dan yr amgylchiadau, sydd yn iawn; hyny yw, trwy wneuthur iawn. Y gair Hebraeg ydyw *copher* (כפר), ac arwydda yr hyn sydd yn difodi, ac yn symmud ymaith yr achos o anghydfod, fel nas gwelir ef mwy; hefyd cyfrwng gwaredigaeth; pridwerth; un sydd yn dioddef yn lle un arall:—"Myfi a roddais yr Aipht yn iawn (*copher*) trosot, Ethiopia a Seba am danat;" *Esa.* xliii. 3, 4. Y mae y farn oedd ar ddisgyn ar Israel yn disgyn ar yr Aipht, ac y mae Israel yn diange. Y mae cosp yr Aipht yn foddion gwaredigaeth i Israel. "Yr annuwiol a roddir yn iawn (*copher*) dros y cyfiawn, a'r troseddwr dros yr uniawn;" *Diar.* xxi. 18. Cawn yr un syniad yn *Diar.* xi. 8; "Y cyfiawn a waredir o gyfyngder, a'r drygionus a ddaw yn ei le ef." "Gan waredu ni wared neb ei frawd, ac ni all efe roddi iawn (pridwerth) drosto i Dduw;" *Salm* xlix. 7. "Yna efe a drugarhâ wrtho, ac a ddywed, gollwng ef rhag disgyn o hono i'r clawdd, myfi a gefais *iawn;*" *Iob* xxxviii. 24. Gelwir yr hanner sicl a delid dros bob un o feibion Israel yn *iawn* (*copher*) yn *Exod.* xxx. 12; ac hefyd yn *arian cymmod*, i wneuthur cymmod dros eu heneidiau yn *adn.* 16. Ystyr wreiddiol y ferf *copher* (כפר), a gyfieithir *gwneuthur iawn*, a *gwneuthur cymmod*, ydyw cuddio, gorchuddio, dirgelu; ac yn y gwahanol gymmhwysiadau a wneir o'r gair hwn, y mae cyfeiriad at ei ystyr gwreiddiol—gorchuddio. Cymmhwysir ef weithiau at y tramgwyddedig, neu y neb a fyddo wedi cael cam. "*Boddlonaf* (cuddiaf) ei wyneb ef â'r anrheg sydd yn myned o'r blaen;" *Gen.* xxxii. 20. "Digofaint y brenin sydd megys cenad angeu, ond gŵr doeth a'i *gostega*," trwy symmud ymaith neu orchuddio yr achos o hono. Cymmhwysir y gair weithiau at y pechod, ac nid at y neb y pechir yn ei erbyn. "A thrugarhâ wrth ein pechodau;" *Salm* lxxix. 9; hyny yw, Cuddia ein pechodau. Fel y dywedwyd, defnyddir y sylweddair am yr hyn sydd yn cuddio—weithiau arian, megys yr hanner sicl, arian cymmod; ond yn gyffredin aberth: *Exod.* xxix. 36; xxx. 10. Yr un ystyr gwreiddiol sydd i'r enw Hebraeg a roddir ar y drugareddfa (*capphoreth*), sef y cauad ar arch y dystiolaeth. Taenellid gwaed ar ac o flaen y drugareddfa; ac felly yr ydoedd megys yn orchudd ar bechod, fel na byddai i'r Arglwydd ei weled: *Ier.* xviii. 23. Yr un gair *caphar* a gyfieithir *gwneuthur cymmod* a *gwneuthur iawn*. Bron yn ddieithriad yn ein cyfieithiad ni yr ymadrodd ydyw gwneuthur cymmod; ond yn Saesoneg, gwneuthur iawn. Y mae hyn yn dangos i ni fod y ddau ymadrodd yn gyfystyr, a bod cymmod yn cael ei wneuthur trwy iawn. Teirgwaith y defnyddir y gair iawn yn y cyfieithiad Cymraeg o'r Testament Newydd. "Yr hwn a osododd Duw yn *iawn;*" *Rhuf.* iii. 25. Y gair Groeg am *iawn* yn y lle hwn ydyw *hilastêrion* (ἱλαστηριον); ac nid arferir ef ond mewn un man arall yn y Testament Newydd: *Heb.* ix. 5. "Ac uwch ei phen gerubiaid y gogoniant yn cysgodi *y drugareddfa;*" sef y cauad ar arch y cyfammod. Hwn ydyw y gair a ddefnyddia y Deg a Thrigain yn gyffredin am y *capphoreth*, neu y drugareddfa. "Myfi a lefaraf wrthynt oddi ar yr *hilastêrion;*" *Exod.* xxv. 22. Pa beth bynag ydoedd y drugareddfa yn ngwasanaeth y cyssegr gynt, hyny ydyw Crist yn nhrefn yr efengyl. Oddi arni yr oedd Duw yn hysbysu ei fod yn gymmodlawn â'i bobl—trwy daenelliad gwaed ar y drugareddfa y dygid y cymmod oddi amgylch—trwy waed y bustach a offrymid ar ddydd mawr gŵyl y cymmod y gwnelid cymmod gynt—er gwneyd iawn, yr oedd yn yn rhaid wrth aberthu—ac yr oedd yr aberth dros bechod yn cael ei gyssylltu â'r cymmod. Amcan yr apostol ydyw dangos yr Arglwydd Iesu Grist yn aberth dros bechod; ac y mae hyn i'w weled oddi wrth y berthynas oedd rhwng y drugareddfa a'r gwaed a daenellid arni. Y mae llawer o esbonwyr yn dewis deall y gair *aberth* (θυμα), yn gyssylltiedig â *hilastêrion.* "Yr hwn a osododd Duw yn aberth dyhuddol," neu iawnol. Ansoddair ydyw *hilastêrion*, a gellir ei gyssylltu â'r sylweddair *aberth* gyda chymmaint o briodoldeb ag y gellir ei arfer i ddynodi y drugareddfa neu orchudd yr arch. Yr hyn sydd yn gogwyddo llawer i gyssylltu y gair *aberth* âg ef ydyw, fod yr ymadrodd "yn ei waed ef," sydd yn dilyn, yn fwy naturiol felly. Rheswm arall hefyd ydyw, fod y gair yn cael ei ddefnyddio am aberth iawnol, neu offrwm er effeithio cymmod, gan y Groegiaid. Ystyr priodol y gair *hilastêrion* ydyw *iawnol* neu *ddyhuddawl*, ac y mae yn ymddibynu ar y cyd-destynau pa beth sydd i'w gyssylltu âg ef. Cyfarfyddir â'r gair *iawn* yn 1 *Ioan.* ii. 2; "Efe yw yr iawn dros ein pechodau ni." Er mai gair o'r un tarddiad, ac o'r un ystyr hanfodol a *hilastêrion* a gyfieithir yn y lle hwn yn *iawn*, etto nid ydyw o'r un ffurf. Y gair a ddefnyddir yma ydyw *hilasmos* (ἱλασμος), ac ni ddefnyddir ef yn un man arall yn y Testament Newydd, ond yn 1 *Ioan* iv. 10, lle y cyfieithir ef yn *iawn*. Ystyr priodol y gair ydyw cymmodi, gostegu, boddloni, troi llid ymaith; a gellir gwneyd hyn trwy aberth, caniadau, gwasanaeth, neu offrymau gwaedlyd. Nid ydym i ddeall *hilasmos* (iawn) am *hilastes*, un yn gwneuthur iawn; ond fel sancteiddrwydd (αγιασμος), 1 *Cor.* i. 30; a phechod, 2 *Cor.* v. 21, mewn ystyr dansoddol. Y mae y ferf *hilascesthai* (ἱλασκεσθαι) yn arwyddo, heddychu trwy aberthu, troi ymaith lid; ac y mae Crist fel ἱλασμος, neu ἱλαστηριον—hyny yw, fel pech-aberth—wedi cymmodi Duw â phechaduriaid trwy farw yn wirfoddol fel aberth yn eu lle.

I. *Yr angenrheidrwydd am iawn.*—Yn eu hymdriniaeth âg athrawiaeth yr Iawn, y mae duwinyddion yn dechreu yn gyffredin gydag ystyriaeth o'r angen am dano. Gellid dechreu gyda'r hyn y dywed yr Ysgrythyr am waith Crist fel Cyfryngwr, ac yna fyned yn mlaen at yr angenrheidrwydd am dano: ond y mae yn fwy naturiol i ddechreu gyda'r hyn, yn natur a llywodraeth Duw, ac yn nghyflwr dyn, sydd yn gwneuthur yr iawn yn angenrheidiol.

Y mae duwinyddion yn ymranu yn dri dosbarth gyda golwg ar yr angenrheidrwydd am iawn. Yn 1. Y rhai sydd yn ei wadu yn hollol, ar y tir fod Duw yn abl ac yn barod i faddeu heb iawn. Dyma athrawiaeth y Sociniaid. 2. Y rhai sydd yn dal yr angenrheidrwydd am iawn, ond hefyd yn dal ei fod yn angenrheidrwydd sydd yn seiliedig ar ewyllys Duw; ac y gallasai, pe dewisasai, drefnu llwybr arall o waredigaeth

Digitized by Google

ddynion yn ddyledwyr iddo, ac yna ymresymant fel y canlyn: Gan y dichon i bob gofynwr faddeu dyled i'w ddyledwr, heb ofyn na boddlonrwydd na chydnabyddiaeth, os bydd yn dewis gwneuthur felly, yna nid oes un rheswm paham nas gall Duw faddeu i ddynion eu pechodau heb na chydnabyddiaeth na chydwerth personol na meichniol. Yma y mae yn angenrheidiol sylwi fod pechod yn cael ei osod allan mewn tri chymmeriad yn yr Ysgrythyrau—fel dyled, camwedd, a throsedd. Gallwn fod mewn dyled i berson unigol. Gallwn wneyd cam â pherson unigol. Fel troseddwyr, y mae a fyno cyfraith a llywodraeth â ni. Y mae sail ysgrythyrol i edrych ar bechod yn ddyled, ac hefyd i edrych arno yn gamwedd. Y mae gwirioneddau pwysig yn cael eu dysgu i ni trwy yr ymadroddion hyn. Ond nid ydym i anghofio y golygiad arall am bechod, a'r un gwreiddiol a hanfodol; sef, fod pechod yn drosedd o gyfraith Duw :—"Anghyfraith yw pechod." Y mae Duw yn sefyll tuag at ddynion nid yn unig yn y berthynas o ofynwr unigol, ac nid yn unig fel person unigol wedi cael camwri oddi ar eu llaw, ond hefyd yn y berthynas o ddeddfroddwr a barnwr. Mewn rhai amgylchiadau, fe ddichon i ofynwr, ac i un fyddo wedi dioddef cam, faddeu y ddyled i'r dyledwr, a'r camwedd i'r neb fyddo wedi ei gyflawni. Ond y mae Duw fel deddfroddwr wedi cyhoeddi deddf gyfiawn, ac wedi cyhoeddi bygythion ar ei throseddwyr, ac y mae dan rwymau natur i amddiffyn ei gyfraith trwy weinyddu cosp ar droseddwyr. Fel barnwr cyfiawn, nis gallwn lai na meddwl am Dduw dan rwymau natur i amddiffyn ei gymmeriad ei hun, i ddiogelu sancteiddrwydd yn ei lywodraeth, i anrhydeddu ei gyfraith, ac i gadarnhau ei orseddfaingc; ac o ganlyniad, fel un nas gall faddeu i droseddwyr heb ddarpariaeth effeithiol i sicrhau y dybenion hyn. Nis gallwn, ac ni ddylem, edrych ar Dduw fel gofynwr personol, neu fel un wedi cael cam personol yn unig; ond fel Barnwr yn gweinyddu cyfraith. Yr oedd deiliaid ei lywodraeth wedi eu cynnysgaeddu â phob cymmhwysder i roddi ufudd-dod—cyhoeddwyd marwolaeth yn gosp am anufudd-dod—ac y mae grym ei lywodraeth a chadernid ei orseddfaingc yn ymddibynu ar fod y gosp yn cael ei gweinyddu ar droseddwyr, naill ai yn eu personau eu hunain, neu ynte ar un cymmhwys i sefyll yn eu lle.

Heblaw hyny, y mae Duw yn llywodraethu er mwyn ei holl greaduriaid—er mwyn amlygu ei gyfiawnder i'w greaduriaid, ac argymmhell ei bwysigrwydd arnynt yn eu hymwneyd â'u gilydd. Mewn trefn i hyn, y mae ufudd-dod yn angenrheidiol, heblaw ei fod yn uniawn ynddo ei hun.

Nid ydyw yn wir chwaith y gall dyn faddeu dyled ei ddyledwr bob amser—gan y dichon i leshâd cyffredinol ofyn cospy troseddwr. Nid yw yn wir y dichon i dad bob amser faddeu hyd yn oed i'w fab edifeiriol chwaith—gan fod yr egwyddor o wobr a chosp yn hanfodol mewn teulu. Mewn cymdeithas wladol, y maent bob amser yn gweithredu, pa un bynag a gydnabyddir hwynt ai ni wneir: ac heb hyn, ymddattodai cymdeithas oddi wrth ei gilydd. A ydyw Duw wedi gadael pob llywodraeth ar ddynion i lywodraethau gwladol? Hyd yn oed pe y llefarem am Dduw fel Tad yn unig, fel y myn y rhai sydd yn gwadu yr angenrheidrwydd am iawn i ni wneyd—etto, onid ydyw yn angenrheidiol iddo yn y cymmeriad hwn ddefnyddio gwobr a chosp i gymmhell ac i ddysgu ei blant mewn ufudd-dod iddo ei hun, fel y gwna rhieni dacarol?

Fe allai na chawn le mwy priodol i alw sylw at y cymmhwysiad deublyg a wneir o'r geiriau *dyled*, a *thalu dyled*, yn y cyssylltiadau hyn. Defnyddir hwy yn gyntaf am ddyled arianol; ac yn ail am rwymedigaeth i ufudd-dod, neu rwymedigaeth i gosp. Pan y mae y ddyled arianol yn cael ei thalu, naill ai gan y dyledwr ei hun neu ynte gan un arall yn ei le, y mae y dyledwr o angenrheidrwydd yn myned yn rhydd: ond mewn rhwymedigaeth i gosp, pan na byddo y ddyled ei hun yn cael ei thalu, ond yr hyn sydd yn gyfartal yn ei lle, nid yw y dyledwr o angenrheidrwydd yn myned yn rhydd; o herwydd nid oedd y gofynwr yn rhwym i dderbyn dim ond y ddyled yn ei ffurf wreiddiol: ond pan y gallesid gwrthod y gyfryw gydnabyddiaeth, y mae hi yn cael ei derbyn yn iawn. Mae y gwahaniaeth hwn yn cael ei gydnabod gan gyfreithwyr, a'i gymmhwyso at ddyledion arianol, ac at rwymedigaeth i gosp. Mewn dyled arianol, nid yw o bwys *pwy* sydd yn talu—ond *pa beth* a delir. O ganlyniad, nid yw y gofynwr yn dangos dim tosturi tuag at y dyledwr wrth ei oliwng yn rhydd, o herwydd y mae wedi derbyn yr hyn oedd yn ddyledus iddo. Mewn rhwymedigaeth i gosp y mae yn wahanol. Y mae y gyfraith yn gofyn ufudd-dod personol; ac yn niffyg ufudd-dod, cosp. Y mae y rhwymedigaeth yn gyntaf oll yn cyrhaedd y person a'r gosp. Felly, mewn trefn i ryddhau yr euog oddi wrth gosp trwy fod un arall yn cymmeryd ei le, y mae yn angenrheidiol i'r barnwr neu y llywodraethwr i gyfryngu, i ganiatau ac i dderbyn meichnïaeth. Y mae pechod, nid yn unig yn ddyled, ond hefyd yn drosedd; ac o ganlyniad, nis dichon i feichnïydd roddi iawn heb fod y barnwr yn foddlawn i'w dderbyn yn lle yr euog. Nid yw iawn a maddeuant gan hyny yn anghysson â'u gilydd. Dioddefodd Crist hyd at roddi iawn; ond o ras at bechadur y caniatawyd, y gosodwyd, ac y derbyniwyd meichnïydd yn ei le.

Wedi dangos fod o bwys i ni gadw mewn golwg yn wastadol ar yr athrawiaeth hon, fod Duw yn sefyll yn y berthynas i'w greaduriaid rhesymol o lywodraethwr moesol a barnwr, y mae yn angenrheidiol i ni hefyd fod yn glir ein syniadau am *gyfiawnder* Duw fel priodoledd hanfodol iddo yn y berthynas a'r cymmeriad hwn Nis gellir amddiffyn athrawiaeth yr iawn ond ar y tir hwn: y mae y naill yn sefyll neu yn syrthio gyda'r llall. Y mae gwrthwynebwyr syniadau uniawngred am yr iawn yn gamsyniol eu syniadau am gyfiawnder. Y mae dal yr iawn, ond gwadu cyfiawnder Duw, neu wadu cyfiawnder a dal yr iawn, yn ammhossibl. Y mae y Sociniaid yn gwadu fod cyfiawnder yn briodoledd hanfodol yn Nuw. Gwadant o gwbl fod priodoledd yn natur Duw yn gosod angenrheidrwydd arno i gospi pechod.

Y mae rhai yn addef cyfiawnder Duw mewn gair, ond yn ei wadu mewn gwirionedd. Addefant fod Duw yn gwobrwyo rhinwedd ac yn cospi pechod; ond etto, nid am fod y naill yn rhinwedd a'r llall yn bechod, ond er llesiant cyffredinol ei greadigaeth. Yn y gyfundrefn hono, yr un peth ydyw cyfiawnder a chymmwynasgarwch. Y mae gweithred yn dda, am ei bod yn dwyn dedwyddwch; ond yn ddrwg, am ei bod yn dwyn trueni. Yr ydym yn addef fod daioni yn tueddu i gynnyrchu happusrwydd, a drygioni yn tueddu i gynnyrchu trueni: ond nid am eu bod yn cynnyrchu dedwyddwch neu drueni y

Digitized by Google

mae y naill yn dda a'r llall yn ddrwg. Y maent felly yn eu natur. Goruwchlywodraethir pob cosp er daioni y greadigaeth; ac yn ngweithredoedd Duw, nid ysgerir cyfiawnder a daioni oddi wrth eu gilydd; y mae y ddau yn natur a llywodraeth Duw yn anwahanol. Etto, nid yr un ydynt. Nid ffurf arall ar haelioni ydyw cyfiawnder. Y mae teimlad greddfol dynolryw yn eu cadw yn wahaniaethol. Gellir cyrhaedd dyben daionus trwy weinyddu cosp; ond nis gellir gweinyddu cosp er mwyn y dyben hwnw, oni bydd y gweinyddiad ynddo ei hun yn gyfiawn. Gwneuthur drwg fel y delai daioni fyddai hyny. Y mae haelioni a chyfiawnder yn ansoddau gwahaniaethol yn nghymmeriad dyn. "O blegid braidd y bydd neb farw dros un *cyfiawn*; o blegid dros y *da*, ysgatfydd, fe feiddiai un farw hefyd." Gofyn ydyw nodwedd cyfiawnder; rhoddi yw nodwedd cariad:—a hyn ydyw y gwahaniaeth rhwng deddf ac efengyl. "Cyflog pechod yw marwolaeth, a dawn Duw yw bywyd tragwyddol;" *Rhuf.* vi. 23. Difodi gwahaniaeth hanfodol ydyw dyweyd nad yw cyfiawnder ond ffurf arall ar haelioni, ac mai dyben gweinyddu cosp ydyw lleshâd cyffredinol. Yn y Beibl, y mae gweinyddu cosp yn cael ei seilio, nid ar y lleshâd cyffredinol, ond ar gyfiawnder Duw. "Ar yr annuwiolion y gwlawia efe faglau, tân a brwmstan, a phoethwynt ystormus: dyma ran eu phiol hwynt. Canys yr Arglwydd cyfiawn a gâr gyfiawnder;" *Salm* xi. 6, 7. "Dadguddiad cyfiawn farn Duw, yr hwn a dâl i bob un yn ol ei weithredoedd;" *Rhuf.* ii. 5, 6. "Ai anghyfiawn yw Duw, yr hwn sydd yn dwyn arnom ddigofaint?" &c.; *Rhuf.* iii. 5. 6.

Nid ydyw yn ddigon i addef fod cyfiawnder yn briodoledd yn Nuw, os na ddeallir y gair *cyfiawnder* yn ei ystyr cyffredin, fel y deallir ef yn mysg dynion. Y mae llawer yn addef y gair, tra yn gwadu y peth. Gwneir hyny (1.) trwy ddyweyd mai digofaint yn yr ystyr o nwyd ydyw cyfiawnder yn Nuw; ac fel y gall dyn ddarostwng ei deimlad, felly y gall Duw heb iawn. Hônir hefyd mai hawl yn Nuw ydyw cospi drwg, ac nad ydyw dan rwymau i wneyd hyny: ac fel y gall dyn ymwrthod â'i hawl, os nad â'i ddyledswydd, felly y gallai Duw. Dyma y golygiad a gymmer Socinus. (2.) Maent yn gwadu cyfiawnder trwy ei olrhain i ewyllys Duw. Dywedent fod pob gwahaniaethau moesol yn dibynu ar ei ewyllys; felly fod pob peth a wna Duw, pa un bynag ai cospi ai maddeu, yn gyfiawn. Yn lle dyweyd fod cyfiawnder yn briodoledd yn natur Duw, ac felly yn dragwyddol ac yn anghyfnewidiol, dywedir ei fod, fel ei weithredoedd, yn ymddibynu ar ewyllys Duw; ac felly y gallasai fod neu beidio. (3.) Y mae ereill yn gwadu cyfiawnder trwy ddywedyd mai ffyddlondeb Duw i'w ymrwymiadau yn unig ydyw. Yn ol y golygiad hwn, nid oedd rwymau hanfodol i gospi pechod; ond wedi i Dduw addaw neu fygwth, y mae ei ffyddlondeb yn galw arno i gyflawni y naill neu y llall. Nid oedd rhwymau cyfiawnder i fygwth cospi pechod; ond wedi cyhoeddi ei fygythiad, y mae dan rwymau ei eirwiredd i'w gyflawni. Y mae hyn yn cynnwys gwirionedd pwysig, ond y mae yn gadael allan wirionedd mwy pwysig. (4.) Mae ereill yn dadleu nad oes dim yn Nuw yn galw am gosp ond ei ddaioni a'i ddoethineb:—a bod y priodoliaethau hyn yn galw am gospi pechod am fod hyny yn angenrheidiol i amddiffyn dedwyddwch y greadigaeth, ac i fod yn attalfa ar ffordd trosedd:—a bod yr iawn wedi ei fwriadu i sicrhau yr un dybenion mewn cyssylltiad â threfn i faddeu. Y mae y gyfundrefn hon yn seiliedig ar yr egwyddor mai dedwyddwch ydyw nôd eithaf Duw yn y greadigaeth, ac mai da ydyw pob peth sydd yn llesol, am ei fod yn llesol, ac mai drwg ydyw pob peth sydd yn chwerw, am ei fod yn chwerw. Y mae hyn yr un peth a gwadu cyfiawnder Duw, o herwydd y mae yn cynnwys nad oes dim yn natur Duw yn arwain i gosp, ond gofal am ddedwyddwch y greadigaeth; ac ond i hyny gael ei sicrhau, y gallai pechod fyned yn ddigosp. Dyma ydyw cyfundrefn GILBERT yn y *Congregational Lecture* — "THE ATONEMENT." Nis gellir gwadu nad ydoedd daioni Duw, dan arweiniad ei ddoethineb, yn gofyn am iawn. Nid allasai doethineb gael un llwybr mwy effeithiol i sicrhau happusrwydd yn llywodraeth Duw. Ond yn gyntaf oll, y mae pechod yn haeddu ei gospi ynddo ei hun, ac y mae cyfiawnder yn galw am ei gospi; ac nid oes dim a all wneuthur gwaredigaeth oddi wrth gosp yn bossibl ac yn anrhydeddus ond boddlonrwydd llawn i ofynion y gyfraith a droseddwyd. (5.) Amrywiaeth yn y golygiad diweddaf, ydyw, fod sancteiddrwydd dan arweiniad doethineb yn galw am gosp. Y mae y ddau olygiad yn rhagdybied mai amcan cosp ydyw diogelwch a llesiant y greadigaeth. Y mae y ddau yn gwadu mai er mwyn ei ddrwg haeddiant ei hun y mae pechod yn cael ei gospi; Nad cyflog pechod ydyw cosp, ond darpariaeth i attal ei gynnydd trwy ddangos y canlyniadau chwerwon sydd yn ei ddilyn. Nid er mwyn "dangos cyfiawnder Duw," ond er mwyn creu argraphiadau moesol ar ddeiliaid ei lywodraeth, a pheri iddynt ffoi oddi wrth bechod, y mae cosp wedi ei gyssylltu âg ef. Nid i Dduw y mae yr iawn - nid i'r gyfraith, na chyfiawnder—ond i ddylanwadu ar y pechadur trwy ddangos casineb Duw at bechod er ei fod yn ei faddeu. Y mae y golygiadau hyn, fel y gwelir oddi wrth y sylwadau blaenorol, yn cau allan y syniad o euogrwydd a drwg haeddiant.

Ond y mae cyfiawnder yn golygu ei ddrwg haeddiant, ac ar gyfrif ei ddrwg haeddiant y mae yn galw am gosp. Mae cospedigaeth yn atteb dybenion ereill; ond ei hanfod fel cosp ydyw ei fod yn "gyflog pechod." Hyn ydyw y syniad am gyfiawnder sydd wedi ei blanu yn ein natur gan y Creawdwr; ac y mae y syniad hwn yn gyffredinol. Mae cydwybod pob dyn yn dwyn tystiolaeth i euogrwydd a drwg haeddiant pechod, ac o ganlyniad i egwyddor yn Nuw sydd yn galw am gosp. Y mae y teimlad o euogrwydd bob amser yn dilyn trosedd. Wrth deimlad o euogrwydd y meddylir argyhoeddiad anorchfygol ein bod yn haeddu cosp—mai cyfiawnder fyddai i ni gael ein cospi—ac o ganlyniad, fod llywodraethwr uwchlaw i ni yn bod, yr hwn a weinydda gosp am bechod.

Yn y cyssylltiad hwn y mae o bwys i ni gofio y gwahaniaeth rhwng cyfiawnder a sancteiddrwydd Duw. Y mae sancteiddrwydd yn briodoledd yn Nuw, a'i ystyried ynddo ei hun; y mae cyfiawnder yn perthyn iddo fel llywodraethwr. Ei gasineb anfeidrol at bechod, a'i gariad at burdeb, ydyw ei sancteiddrwydd. Ei benderfyniad anghyfnewidiol, fel Arglwydd a barnwr, i gospi y drwg ac i wobrwyo y da ydyw ei gyfiawnder. Y mae y ddwy briodoledd yn annattodol gyssylltiedig â'u gilydd; a gellir dywedyd fod sancteiddrwydd yn cymmeryd ffurf cyfiawnder yn ei ymwneyd â chreaduriaid rhesymol. Etto, er mwyn dangos yr angenrheidrwydd am iawn, y mae o'r pwys mwyaf i gadw y ddwy yn wahaniaethol. Y

Digitized by Google

mae rhwystr yn sancteiddrwydd Duw i adferiad y pechadur i heddwch a chymdeithas â Duw; ond nid yr un rhwystr ydyw a'r rhwystr sydd yn codi o'i gyflawnder. Nid yn yr un llwybr ychwaith y mae symmud y ddau. Gofyn am symmud ymaith euogrwydd y mae cyflawnder, a thrwy iawn y mae gwneuthur hyny; ond aflendid sydd yn wrthdarawiadol i sancteiddrwydd—a'r hyn y mae sancteiddrwydd yn ei ofyn ydyw llwybr i symmud ymaith yr aflendid hwnw. Dileu euogrwydd, a symmud ymaith y rhwymedigaeth farnol i gosp, ydyw yr hyn y mae cyfiawnder yn ei ofyn; ond dileu yr halogedigaeth, a symmud ymaith yr anghymmhwysder i gymdeithasu ydyw yr hyn y mae sancteiddrwydd yn ei ofyn. Cymmhwysder presennol i gymdeithasu â Duw y mae sancteiddrwydd yn ei ofyn; ac ond i hyny gael ei sicrhau, pa beth bynag oedd y dyn yn flaenorol, y mae sancteiddrwydd wedi cael boddlonrwydd. Ond pa beth bynag a allai dyn fod yn bresennol o ran purdeb bywyd, neu foesau, os oes dedfryd gyfiawn yn ei erbyn am yr hyn a fu, y mae cyfiawnder heb ei foddloni nes cael iawn. Mewn llywodraeth wladol, dichon i gymmhwysder moesol gydhanfodi âg anghymmhwysder barnol i gymdeithas bur. Hyny yw, dichon i ddyn a fu unwaith yn droseddwr ac yn wrthddrych dedfryd farnol am ei drosedd, ac wedi dioddef y gosp haeddiannol, fod yn rhydd yn wyneb cyfraith i unrhyw gymdeithas, ond etto yn parhau yr un o ran ei gymmeriad, ac felly yn wrthodedig gan bob cymdeithas a feddai barch i gymmeriad. Ac ar y llaw arall, byddai yn bossibl i ddyn a fu unwaith yn cael ei osgoi am ei ddrygioni, gael cyfnewidiad bywyd; tra ar yr un pryd y gallai fod cyhoeddiad barnol uwch ei ben heb ei symmud ymaith. Mewn llywodraeth wladol, y mae yn bossibl i'r cymmhwysder neu yr anghymmhwysder moesol a barnol, fod ar wahân; ond yn y llywodraeth ddwyfol, y mae hyny yn ammhossibl, o herwydd y mae cyfiawnder a sancteiddrwydd yn briodoliaethau sydd mewn cydgordiad perffaith yn yr hanfod a'r bwriadau dwyfol. Ond er nad ydyw gofynion cyfiawnder a sancteiddrwydd ar wahân yn llywodraeth Duw, etto y maent yn hollol wahaniaethol—ac y mae y ddarpariaeth i'w cyfarfod yn nhrefn gras yn wahanol. Y prawf o gyfaddasrwydd yr efengyl i natur Duw a dyn ydyw ei bod yn cyfarfod gofynion sancteiddrwydd trwy waith yr Ysbryd Glân ynom, ac yn cyfarfod gofynion cyfiawnder trwy waith Crist drosom.

Wrth gadw y gwirionedd yn glir am sail yr angenrheidrwydd am iawn yn llywodraeth a chyfiawnder Duw, gallwn ddeall pa fodd y mae ffynonnell ein bywyd yn tarddu o benarglwyddiaeth ei ras. Nid yn natur Duw y mae yr anhawsder i faddeu, ond yn ei lywodraeth. Nid am fod Duw yn anewyllysgar i faddeu y mae yn gofyn iawn; ond am ei fod yn llywodraethwr cyfiawn, a bod anrhydedd ei lywodraeth yn gofyn iddo gospi pechod. Po mwyaf y rhwystrau oedd ar ffordd maddeuant, mwyaf oll ydyw y cariad sydd wedi trefnu llwybr i orchfygu y rhwystrau hyny. Pe na buasai cyfiawnder yn gofyn iawn, ni buasai cariad i'w weled yn trefnu iawn. Dylem gadw yn wastadol o flaen ein meddwl fod Duw yn llywodraethwr moesol ar un llaw, ac yn benarglwydd grasol ar y llaw arall. Wrth golli y cyntaf, yr ydym yn colli yr angenrheidrwydd am iawn: ac wrth golli yr olaf, yr ydym yn colli ffynonnell holl iachawdwriaeth pechadur.

Lleferir weithiau fel pe byddai anghyssondeb ac anghydgordiad rhwng y gwahanol briodoliaethau moesol yn natur Duw—fel pe byddai trugaredd a chariad o blaid achub, a chyfiawnder a sancteiddrwydd yn erbyn achub. Defnyddir y dull yma o ymadroddi gan y rhai sydd yn gwadu athrawiaeth yr iawn, fel gwrthddadl yn ei herbyn. Dadleuant fod athrawiaeth felly yn gwneuthur Duw yn anghysson âg ef ei hun, ac yn peri fod rhwyg yn y Duwdod. Y mae yr wrthddadl hon yn codi oddi ar anwybodaeth, neu ddiffyg ystyriaeth o'r gwahaniaeth pwysig sydd rhwng llywodraeth a phenarglwyddiaeth Duw—rhwng ei natur ynddi ei hun, a'r berthynas yn mha un y mae yn sefyll, fel llywodraethwr a barnwr tuag at ei greaduriaid. Y mae holl briodoliaethau Duw mewn perffaith gydgordiad â'u gilydd. Nid ydyw y naill yn anghysson nac yn wrthwynebol i'r llall. Nid oes dim yn sancteiddrwydd Duw yn groes i'w gariad. Yn natur a chymmeriad Duw y mae cyssondeb perffaith; ac nid oedd iawn yn angenrheidiol mewn trefn i sicrhau y cyssondeb hwn. Y mae y Beibl yn llawn o'r cyferbyniad sydd rhwng daioni a thoster, cyflawnder a thrugaredd. Cyferbyniad ydyw hwn rhwng yr hyn ydyw Duw fel llywodraethwr ar un llaw, ac fel penarglwydd ar y llaw arall. Pe edrychem ar yr hyn ydyw Duw ynddo ei hun, gan anghofio ei berthynas fel barnwr â'i greaduriaid, byddai yn anhawdd, os nad yn ammhossibl, dangos pa fodd y gallai yr un personau fod yn wrthddrychau ei gariad a'i ddigofaint ar unwaith. Nis gallwn ddirnad pa fodd y dichon i un person fod yn wrthddrych cariad a digofaint dyn ar unwaith, os na bydd ond perthynas bersonol rhyngddynt. Ond pan yr edrychom ar yr un person yn sefyll mewn perthynas unigol a barnol hefyd tuag at yr un un, nid oes un anhawsdra i ganfod pa fodd y dichon iddo fod dan angenrhaid, fel barnwr, i gyhoeddi dedfryd ar yr hwn y mae ei galon yn tosturio wrtho ac yn cydymdeimlo âg ef ar yr un pryd. Fel hyn y gallwn gyssoni y ddau ddosbarth mawr o adnodau ag sydd ar un llaw yn cynnwys amlygiadau o anfoddlonrwydd Duw, ac ar y llaw arall yn cynnwys amlygiadau mor bendant o'i gariad a'i ewyllys da. Y mae dynion, fel pechaduriaid, ar unwaith yn wrthddrychau ei ddigofaint a'i gariad. Casgler ynghyd yr ymadroddion ysgrythyrol sydd yn gosod allan gyflwr dyn fel troseddwr, ei fod yn blentyn digofaint, ac yn agored i gyfiawn farn Duw; ac hefyd, y tystiolaethau pendant o fod Duw wedi eu caru yn y sefyllfa hono, ac fel ffrwyth ei gariad ei fod wedi anfon ei Fab i fod yn iawn dros ein pechodau. Gellir gofyn, Pa fodd y mae y ddau ddisgrifiad yn wir? Pa fodd y mae dyn yn wrthddrych digofaint Duw, ac yn wrthddrych ei gariad rhad, tragwyddol, a phenarglwyddiaethol ar unwaith? Ond y mae yr atteb yn amlwg yn ngwyneb y gwahaniaeth rhwng Duw fel barnwr, ac fel penarglwydd grasol: ac y mae y gwahaniaeth hwn yn taflu goleuni ar holl ymddygiadau Duw tuag at ddynion. Yn ei wyneb, ymddengys yr angenrheidrwydd am iawn fel yr unig lwybr i foddloni cyfiawnder, ac hefyd fel yr unig amlygiad o gariad digon mawr i barotoi iawn. Y mae pob syniad am Dduw sydd yn difodi neu yn gwanhau yr angenrheidrwydd am iawn, yn difodi neu yn gwanhau yr angenrheidrwydd am gariad y Tad i osod, a chariad y Mab i ddyfod yn iawn.

Os fel person neu fod sanctaidd yn unig y mae Duw yn gofyn iawn, ac nid fel llywodraethwr,

Digitized by Google

yna nis gall fod un amcan i'r iawn ond i ogwyddo Duw i drugarhau. Y mae hyn yn llwyr ddat-troi efengyl Crist. Nid ydyw cariad Duw yn effaith marwolaeth Crist, ond yn achos o hono. Nid gwaith y Mab ydyw sail gwaith y Tad:—"o herwydd hyn (medd Crist) y mae y Tad yn fy ngharu i o blegid dodi o honof fy einioes dros y defaid."

Amcan y sylwadau hyn ydyw dangos y pwys-igrwydd sydd mewn cadw yn glir o flaen y meddwl y gwahaniaeth yr ydym yn gosod cym-maint o bwys arno; a hyny yn gyntaf, mewn trefn i brofi yr angenrheidrwydd am iawn o gwbl; ac yn ail, er mwyn cadw arbenigrwydd ar gariad Duw fel ffynnonell yr iachawdwriaeth.

Os oes grym yn y sylwadau blaenorol, y maent yn dangos fod yr angenrheidrwydd am iawn, yn anhebgorol a diammodol, yn dibynu ar gyfiawn-der Duw, ac nid ar ei ewyllys.

Ond yn chwanegol at hyn oll, dygir yn mlaen ystyriaeth arall sydd yn ymddangos yn hollol benderfynol i brofi fod pob llwybr arall o wared-igaeth i bechadur yn ammhossibl ond yr un sydd wedi ei ddadguddio yn yr efengyl. Y mae yr ystyriaeth hon yn seiliedig ar Dduwdod Crist. Heb ryfygu dyweyd yn bendant pa beth sydd yn bossibl neu yn ammhossibl i Dduw, heb law yr hyn y mae efe ei hun yn ei ddyweyd sydd felly, y mae yn anhawdd meddwl pe buasai rhyw ffordd arall yn bossibl, y buasai Mab Duw yn dyfod i barthau isaf y ddaear, a marw o farwolaeth fell-digedig y groes. Pe buasai rhyw lwybr i ddwyn maddeuant i bechadur, mor anrhydeddus i gym-meriad ac mor ddiogel i lywodraeth Duw, heb i'r Mab gael ei aberthu, nis gallwn ei deimlo yn rhyfyg i ddywedyd y buasai y Mab yn cael ei arbed.

Wrth brofi yr angenrheidrwydd i bechod gael ei ddilyn gan gosp, gall rhai wrthddadleu ein bod trwy hyny yn profi mwy nag y mynem; sef, nid yn unig yr angenrheidrwydd am iawn, ond yr ammhossiblrwydd o faddeuant. Os ydyw cosp yn angenrheidiol, onid ar y troseddwr y mae yn angenrheidiol? Y mae yr un cyfiawnder ag sydd yn gofyn am gosp, yn galw hefyd, nid am gosp rhyw un, ond yr hwn sydd yn ei berson ei hun yn haeddu cosp. Ni ŵyr cyfiawnder ddim am gospi y diniwed yn lle yr euog, ac nid oes ganddi un ddarpariaeth ar gyfer hyny. Iё, y mae yr wrthddadl yn myned yn mhellach; sef, fod yn anghyfiawn cospi y diniwed yn lle yr euog, a thrwy hyny ganiatau i'r troseddwr ddi-ange. Yma y mae y dirgelwch, nid mewn dangos fod yn rhaid i gyfiawnder gael ei foddloni, ond fod yn rhaid iddo gael ei foddloni rhyw ffordd heb law trwy gospi yr euog. Y mae y gwrth-ddadleuon hyn yn ein harwain at—

II. *Possiblrwydd Iawn.*—Heb law cadarnhau yr egwyddorion blaenorol am lywodraeth foesol Duw, y mae y Beibl yn dadguddio egwyddor arall, sydd yn meddu neillduolrwydd arbenig yn ymddygiadau Duw tuag at ddynion; sef, yr eg-wyddor o *gynnrychiolaeth.* Y mae yr egwyddor hon yn symmud ymaith lawer o dywyllwch, a fuasai heb hyny yn gorphwys ar ymddygiadau Duw. Mor bell ag y gallwn ni ffurfio barn am ymddygiadau Duw tuag at greaduriaid uwch na dyn, y mae genym le i gasglu fod pob un yn sefyll drosto ei hun, ac yn gyfrifol bersonol ac unigol yn ei enw ei hun. Am ddim a wyddom ni, nid oes ond yr egwyddor bersonol yn ymddyg-iadau Duw tuag at greaduriaid uwch. Y mae yr egwyddor hon yn llywodraeth Duw tuag at dynion:—"Yr enaid a becho, hwnw a fydd marw." Ond ar y llaw arall, y mae dynolryw wedi eu creu fel teulu; ac y mae ymddygiadau y pen yn effeithio ar yr holl deulu yn ol egwyddor cyn-nrychiolaeth. Yr oedd Adda, nid yn unig y dyn cyntaf, ond hefyd yn dad a chynnrychiolwr holl ddynolryw, yn ol trefniad Duw. Yn unol â theilyngdod neu annheilyngdod y pen, yr oedd nid yn unig ef ei hun i gael ymddwyn tuag ato, ond hefyd pawb a gynnrychiolid ganddo. Yr oedd ei ufudd-dod neu ei anufudd-dod ef i ddwyn dedwyddwch neu drueni arnynt hwy. Y mae hyn yn egwyddor yn llywodraeth Duw ar ddyn-ion [gwel CYFRIFIAD]; a thrwy rinwedd yr eg-wyddor hon y mae dynolryw wedi myned yn euog ac yn llygredig yn Adda. Nis gallwn ym-resymu yn erbyn yr egwyddor hon ar dir ffaith, o herwydd nid oes dim yn fwy amlwg yn hanes y byd yn ei wahanol gyssylltiadau na bod ym-ddygiadau personau unigol yn dwyn dyrchafiad mewn rhai amgylchiadau i liaws, ac mewn am-gylchiadau ereill yn dwyn tlodi a gwarth ar laweroedd.

Felly, y mae yr un egwyddor yn cynnwys yn-ddi ei hun y possiblrwydd o adferiad a dyrchaf-iad dyn. Nis gallwn ddyweyd y buasai adferiad yn ammhossibl ond yn y llwybr yma. Y mae yn ddigon i ni ddyweyd nad oes un llwybr arall yn ymddangos trwy ba un y mae gwaredigaeth yn ddichonadwy. Wedi i ddynolryw syrthio trwy bechod dan anfoddlonrwydd Duw, y mae pob ffordd o waredigaeth yn ymddangos fel yn cau, os na ddaw trwy gyfryngiad oddi allan i ddyn. Ond pe ceid person yn meddu pob cymmhwysder angenrheidiol, ac wedi ei awdurdodi gan y llyw-odraeth i gymmeryd achos dyn arno ei hun, codai gwawr o obaith ar ei gyflwr. Ond fe fyddai hyny trwy gymmhwysiad o'r un egwyddor trwy yr hon yr aeth dyn i lawr, sef yr egwyddor o gynnrychiolaeth, neu feichnïaeth. Cyn edrych dan ba amgylchiadau a than ba ammodau y gellid cymmhwyso meichnïaeth at achos ac er adferiad dyn, gallwn gyfeirio at sefyllfa yr angylion, y rhai ni chadwasant eu dechreuad, fel cadarnhâd o'r casgliad a wnaethom, mai mewn cynnrychiol-aeth yn unig y mae possibilrwydd yn ymddangos o adferiad dyn. Yn ol pob peth a allwn ni ei gasglu oddi wrth yr Ysgrythyr, y mae yr angyl-ion yn sefyll neu yn syrthio bob un drosto ei hun. Ac fe all fod digon o reswm am y gwahaniaeth rhwng dynion ac angylion yn hyn, trwy fod y naill yn deulu, ac mewn undeb naturiol â'u gilydd, tra nad oes genym le i feddwl fod y llall felly. Nid yw undeb angylion yn seiliedig ar genhedliad naturiol. Er fod lliaws o'r angylion wedi syrthio i'r un sefyllfa o farwolaeth a dyn, etto nis gwydd-om am un drefn i'w gwaredu hwy. Nis gallwn lai na theimlo fod pwysigrwydd yn nghyferbyn-iad y ddwy ffaith hyn am ddynion ac angylion. Y mae dynion wedi syrthio, a hyny trwy fod un yn sefyll i gynnrychioli llawer; ac yn yr un eg-wyddor yr ydym yn gweled possiblrwydd eu gwaredigaeth. Y mae angylion wedi syrthio, pob un drosto ei hun, ac nis gwyddom am un llwybr o waredigaeth iddynt. Nid ydyw yr egwyddor o gynnrychiolaeth yn ymddangos o gwbl yn ym-ddygiad Duw tuag atynt hwy.

Ond am ymddygiad Duw tuag at ddynion, y mae yr egwyddor hon, tra nad ydyw yn difodi yr egwyddor o gyfrifoldeb personol, yn un pegwn o gwmpas yr hwn y mae cwymp ac adferiad dyn yn troi—"Megys yn Adda y mae pawb yn meirw, felly hefyd yn Nghrist y bywheir pawb."

Digitized by Google

Yn mha amgylchiadau y dichon i'r diniwed ddioddef yn lle yr anghyfiawn? Yn mysg dynion, ni allai hyn ddigwydd ond yn dra anfynych, o herwydd ni byddai digon o gariad i gymmhell un i ddioddef yn lle un arall. Ni byddai yn fanteisiol i lywodraeth ei ganiatau ychwaith mewn amgylchiadau cyffredin. Byddai cynnydd, felly, ar elfenau gwaethaf cymdeithas ar draul yr elfenau goreu. Er y dygir ychydig o esamplau yn mlaen o hanesiaeth hynafol, o fod un yn cynnyg ei hun i ddioddef yn lle un arall, etto nid oes hollol sicrwydd am yr hanesion hyny. Heb law hyn, byddai mor anhawdd i ennill unrhyw lywodraeth i ganiatau y fath beth ag a fyddai i gael neb i wneuthur y cyfryw aberthiad gwirfoddol o hono ei hun. Pa amgylchiadau, gan hyny, a allasai ymgyfarfod yn marwolaeth Iesu Grist i gyfiawnhau marwolaeth y cyfiawn hwnw yn lle yr anghyfiawn. (1.) Rhaid ei fod wedi ei awdurdodi gan Dduw—llywodraethwr nefoedd a daear. (2.) Rhaid ei fod yn wirfoddol. (3.) Rhaid i'r meichnïydd fod yn ddi-bechod ei hun. (4.) Rhaid fod cymmundeb natur rhwng y meichnïydd a'r troseddwr. (5.) Yr oedd yn angenrheidiol i'r meichnïydd gyfiawnhau y gyfraith, yr hon a droseddwyd, a than felldith yr hon y mae efe yn dioddef. (6.) Rhaid fod urddas y dioddefydd diniwed o werth cyfattebol, os nad o werth uwchraddol, i sefyllfa wreiddiol y troseddwr. (7.) Nis gallem gymmodi ein meddwl â marwolaeth y cyfiawn yn lle yr anghyfiawn, onid allai y marw ddyfod yn fyw drachefn. (8.) Rhaid fod ganddo gyflawn awdurdod ar ei einioes, i'w dodi i lawr, ac i'w chymmeryd i fyny drachefn. Y mae y profion ysgrythyrol o'r gosodiadau hyn yn gyflawn a helaeth. Ac yn ngwyneb y fath ammodau a'r rhai hyn, nis gall fod marwolaeth y cyfiawn yn groes i gyfiawnder; o herwydd nid oes neb wedi cael cam. Nid yw *Crist ei hun*, y meichnïydd, wedi cael cam; o herwydd efe a ddioddefodd yn wirfoddol, ac yr oedd ganddo awdurdod i roddi ei einioes i lawr, ac yr oedd ganddo awdurdod i'w chymmeryd hi drachefn. Nid yw *Duw* wedi cael cam; o herwydd yn ei ewyllys a'i gariad ef y tarddodd yr holl drefn. Nid yw y *llywodraeth ddwyfol* wedi cael cam, trwy gael ei hamddifadu o'r hwn a roddes iddi yr ufudd-dod a gafodd erioed; o herwydd y mae Crist, yr hwn a fu farw, wedi dyfod yn fyw drachefn, ac efe a fydd byw yn dragywydd. Nid ydyw y llywodraeth yn derbyn cam chwaith trwy arbediad y troseddwyr; o herwydd y maent yn cael eu gwneuthur yn greaduriaid newydd yn Nghrist Iesu. Nid ydyw *deddf Duw* chwaith wedi cael cam; o herwydd y mae hi wedi derbyn perffaith ufudd-dod gan Grist, a thrwy undeb âg ef yr ydym yn un âg ef, ac yntau yn un â ninnau, fel y mae ein pechod ni wedi gorphwys arno ef, a'i gyfiawnder a'i fendithion ef yn cael eu rhoi i ni.

Y mae yr egwyddor o gynnrychiolaeth, neu feichnïaeth, yn ei chyssylltiad âg adferiad pechadur i heddwch Duw, yn un nas gellir dwyn dim yn ei herbyn ar dir cyfiawnder. Ond etto, y mae dynion sydd yn edrych ar yr athrawiaeth hon fel un afresymol ac annealladwy. Paham felly? Onid ydyw yn eithaf rhesymol i ni ddisgwyl y byddai i holl amcanion cyfiawnder, a dybenion cosp, gael eu cyrhaedd trwy ddioddefiadau y Gwaredwr mawr mor wirioneddol a phe buasai yr euog eu hunain wedi dioddef. Ac yn enwedig pan gofiwn y cymmhwysderau sydd yn ymgyfarfod yn ei feichnïaeth ef.

Y mae yn deilwng o sylw arbenig, y gofal mawr a gymmerwyd gan Ragluniaeth i wneyd y syniad am feichnïaeth ac aberth yn adnabyddus cyn dyfodiad y Gwaredwr, yn enwedig yn mhlith y genedl Iuddewig—yr unig genedl oedd yn meddu syniadau cywir am lywodraeth a phriodoliaethau Duw—ac i ryw raddau yn mhlith cenhedloedd eraill hefyd. [Gwel d.g. ABERTH.] Syniad sylfaenol y prif aberthau oedd gwaed am waed, bywyd am fywyd. Mewn trefn i sicrhau dïangfa i'r troseddwr, rhaid oedd i'r aberth farw. Cyflog pechod yw marwolaeth; ac yr oedd yr aberth yn marw, nid dros ei bechod ei hun—yr oedd yn ddi-bechod—ond dros bechod un arall. Yr oedd y gwaed yn waed y cymmod. Ac fel yr oedd pechod yr aberthwr yn cael ei gyfrif ar yr aberth, yr oedd gwaed yr aberth yn cael ei roddi o blaid yr aberthwr, i wneuthur cymmod drosto. Heb law gwirioneddau eraill a ddysgir trwy aberthau yr hen oruchwyliaeth, y mae y ddau wirionedd hyn yn arbenig felly:—Yn gyntaf, fod rhywbeth yn nghyfansoddiad a llywodraeth Duw yn rhwystr ar ffordd pechadur i gael maddeuant. Nid oedd edifeirwch, na dymuniad i gael adferiad i ffafr a chymdeithas Duw, pa mor ddidwyll bynag, yn ddigon i symmud ymaith y rhwystrau hyn. Codent o berthynas pechadur â deddf a chyfiawnder Duw. Yr oedd dan farn condemniad, ac ni allasai efe ei symmud ymaith ei hun. Yr oedd yn rhaid i arall ei ddioddef yn ei le, ac felly ei ddileu. Ac yn ail, Y mae trefn o ymwared i'r troseddwr, trwy farwolaeth aberth yn ei le. Cododd y gwrthryfel yn erbyn Duw o ochr dyn; ond wedi iddo gymmeryd lle, nid oedd y rhwystr yn sefyll yn unig o ochr dyn i ymgodi eilwaith i ffafr Duw. Na: yr oedd rhwystr cyfiawnder a deddf o ochr Duw, yr hwn nid allasai dyn, pe mynasai, ei symmud ymaith. Ac yr oedd mor angenrheidiol i'r rhwystr gael ei symmud ymaith o ochr Duw ag o ochr dyn. Ond nid yn ewyllys na chariad Duw yr oedd y rhwystr: nid chwaith yn ei sancteiddrwydd personol, ond yn ei gyfiawnder ac yn ei lywodraeth. Wedi i Dduw o'i gariad tragwyddol drefnu llwybr i gymmodi Duw â dyn, a dyn â Duw, yr oedd yn angenrheidiol i ddyn dderbyn yr hwn a osododd Duw yn iawn drosto. Ei wrthryfel ef a barodd yr angenrheidrwydd am feichnïaeth; ac y mae yn rhaid iddo ef syrthio i mewn â'r feichnïaeth hono cyn y dichon iddo gyfranogi o'r bendithion. Y mae pechodau troseddwr yn cyfarfod ar yr aberth, ac y mae rhinwedd yr aberth yn cael ei osod o blaid, ac yn cael ei dderbyn gan y troseddwr.

Y mae athrawiaeth yr iawn a'r aberthau yn annattodol gyssylltiedig â'u gilydd; gan hyny, y mae y rhai sydd yn gwadu natur iawnol meichnïol marwolaeth Crist yn gwadu hefyd fod aberthau yr Hen Destament o osodiad dwyfol, neu ynte yn gwadu eu bod o natur iawnol. Ar y llaw arall, os addefir fod aberthau yr Hen Destament yn iawnol yn eu natur, yna y mae yn canlyn fod yr Aberth Mawr, gwrthgysgod yr holl aberthau Iuddewig, yn iawn, ac yn foddlonrwydd i gyfiawnder dwyfol. Er fod cyfeiriad at y mater hwn dan y gair ABERTH, etto ni a roddwn yma grynodeb o'r rhesymau sydd yn profi fod aberthau o darddiad dwyfol. Nid yw yn debyg y buasai Duw yn gadael dynion mewn anwybodaeth am y modd i'w addoli; ac etto y weithred gyntaf o addoliad cymmeradwy y darllenwn am dani oedd aberthu anifail. Mae yr annhebygolrwydd hwn yn cael ei gryfhau gan yr ystyriaeth fod Duw wedi rhoddi sail gobaith i ddyn



Digitized by Google

mewn addewid, ac hefyd ei fod wedi ymostwng i barotoi ar gyfer angenion tymmorol dyn. Nid yw yn debygol gan hyny y buasai yn ei adael iddo ei hun am y llwybr i'w addoli. Y mae *cyffredinolrwydd* aberthau iawnol yn profi teimlad dwfn dyn o'i angen am aberth; ac etto, os nad ydyw aberthau o drefniad dwyfol, nid oes un ddarpariaeth ar gyfer ei angen. Pe na buasai y Creawdwr wedi dysgu dyn i aberthu, nid yw yn debyg y buasai dynion wedi dyfeisio y fath lwybr i nesau at Dduw mor foreu; ac etto, yr ydym yn cael fod y teulu cyntaf yn nesau ato trwy aberthau, fel eu cyfrwng sefydledig ac unig i addoli Duw. O bob llwybr i addoli Duw nid oes un mor annhebygol i fod wedi gwreiddio yn meddwl dyn a'r un trwy aberth gwaedlyd—trwy ladd anifail. Etto, y mae Abel yn dewis y ffordd yma, yn hytrach na thrwy ddilyn y ffordd fwyaf naturiol o gyflwyno llysiau a ffrwythau. Y mae cymmeradwyaeth Duw o'i aberth yn cryfhau y grediniaeth fod y drefn yma o addoli o osodiad dwyfol. Nid oedd derbyniad aberth Abel, a gwrthodiad aberth Cain, i'w briodoli i wahaniaeth yn eu personau yn unig; ond hefyd i wahaniaeth yn eu haberthau. Y mae cymmeradwyaeth aberth Noah yn cael ei briodoli i'w natur iawnol: *Gen.* viii. 20, 21. Gan fod y ffydd y mae yr apostol yn ei chanmawl yn ffydd oedd yn arwain y patriarchiaid i weithredoedd o ufudd-dod, nis gallwn ammheu nad oedd ffydd Abel hefyd yn gynnwysedig mewn ufudd-dod i Dduw. Am y rhesymau hyn, gallwn gasglu fod aberthau o osodiad dwyfol.

Y mae mor amlwg hefyd fod yr aberthau cyntefig a phatriarchaidd yn aberthau dros bechod, ac o natur iawnol. Fe offrymodd Iob poethoffrymau dros ei feibion, canys dywedodd, "Fy meibion, ond odid a bechasant;" i. 5; xlii. 7, 8. Pan adeiladodd Noah allor i'r Arglwydd, efe a offrymodd poeth-offrymau ar yr allor, "a'r Arglwydd *a arogladd arogl* esmwyth (neu *ddyhuddaul*); a dywedodd yr Arglwydd, Ni chwanegaf felldithio y ddaear mwy er mwyn dyn:" *Gen.* viii. 21; *Lef.* xxvi. 3. Y mae y gwahaniaeth rhwng aberthau Abel a Chain yn dangos yr un peth. Yr un modd aberthau y gyfraith. Lladdwyd yr aberthau yn nghyntedd y cyssegr. Yr oedd yr offrymwr yn troi ei wyneb tua'r cyssegr, ac yn gosod ei law ar ben yr anifail, cyn iddo gael ei ladd; derbyniai yr offeiriad waed yr aberth i lestr, a thaenellai y gwaed "o flaen yr Arglwydd," yn gyffredin "ar yr allor oddi amgylch," ac ar adegau neillduol ar yr allor bres, ac ar ac o flaen y drugareddfa. Yr ystyr a roddid i'r gweithredoedd arwyddluniol hyn gan y rhai sydd yn credu fod ystyr ysbrydol iddynt o gwbl, ydoedd fod yr offrymwr yn dwyn aberth drosto ei hun; ac wrth osod ei law ar ben yr aberth, yr ydoedd yn trosglwyddo ei euogrwydd ei hun arno; yr ydoedd marwolaeth yr aberth yn dangos y gosp a haeddai yr offrymwr; yr oedd tywallt neu daenellu y gwaed o flaen yr Arglwydd yn ddangosiad o ystyr yr holl wasanaeth, gan fod y gwaed yn ddangosiad o fywyd wedi ei aberthu i'r Arglwydd.

Yr esboniad a rydd llawer o wadwyr diweddar athrawiaeth yr iawn ar yr aberthau hyn ydyw, eu bod yn arwyddion gweledig fod yr aberthwr yn rhoddi ei fywyd yn ol i Dduw trwy ffydd ac edifeirwch; ac nad oes dim i'w ddeall wrth guddio pechod a gwneuthur cymmod dros anwiredd, ond fod dyn yn marw iddo ei hun. Yn ol yr esboniad hwn, nid oedd dim rhinwedd yn yr aberthau i wneuthur iawn, hyd yn oed mewn ystyr gysgodol. Arwyddion gweledig yn unig ydynt o gyfnewidiad mewnol y galon. Yn ol y golygiad hwn, y mae y gwirionedd, fod bywyd yn cael ei roddi a'i dderbyn yn lle bywyd yn diflanu. Y mae meichniaeth yn colli o'r Hen Destament yn gyntaf, ac fel canlyniad o'r Newydd. Hyn ydyw esboniad Bahr yn yr Almaen, a Maurice yn Lloegr. Y mae gwahanol ffurfiau o'r esboniad hwn gan wahanol ysgrifenwyr. Dywed rhai nad yw aberthau yn ddim ond math o gydnabyddiaeth y mae yr Arglwydd yn foddlawn i'w dderbyn o law dyn am y trugareddau y mae yn eu cyfranu iddo. Ni raid ond edrych i mewn i'r hyn a ddysgir i ni yn helaeth am natur yr aberthau i weled anghyssondeb ac ammhriodoldeb y cyfryw esboniadau. Mor benderfynol ydyw hyd yn oed un ymadrodd yn unig!—"A gosoded Aaron ei ddwylaw ar ben y bwch byw, a chyffesed arno holl anwiredd meibion Israel, a'r bwch a ddwg eu holl anwiredd hwynt arno;" *Lef.* xvi. 21, 22.

Ond yr egwyddor o aberth iawnol sydd yn rhedeg trwy holl aberthau yr Hen Destament; sef, fod y diniwed yn cael ei ladd yn lle yr euog, fod euogrwydd yr aberthwr yn cael ei roddi ar ben yr aberth, ac mai trwy gyfrwng yr aberth yr oedd derbyniad i weddi, a sail arbediad i'r euog. Y mae yr egwyddor hon i'w chanfod yn yr aberth diolch—yn y poeth-offrwm; hyn a ddysgir yn arbenig trwy y pech-aberth ar ŵyl y cymmod; a'r egwyddor hon sydd yn amlycach na dim arall trwy oen y pasc. Ië, gellir olrhain yr un egwyddor yn mhellach, yn nefodau cadarnhâd cyfammod: at yr hyn y cyfeiria Paul yn *Heb.* ix. 18—22. Puredigaeth oddi wrth lofruddiaeth anadnabyddus: *Deut.* xxi. 1—9: ac mewn puredigaethau ereill. Mae yr esboniadau diweddar yn methu yn mhob dim a rhoddi eglurhâd boddlonol ar yr aberthau a'r defodau hyn, tra ar y llaw arall y mae pob cyfaddasrwydd ynddynt i ddysgu yr egwyddor o feichnïaeth trwy aberth yn lle yr euog. Ac ar sail yr egwyddor hon dysgir ymgyflwyniad personol i Dduw. Ond ail feddwl ydyw hwn, yn tarddu o'r meddwl cyntaf am aberth. Os arbedir bywyd trwy aberth, teimlir rhwymedigaeth cariad i gyssegru y bywyd hwnw i'r hwn a'i arbedodd. Ond os ymgyssegriad personol ydyw drychfeddwl cyntaf aberth, yna nid oes un llwybr gwaredigaeth i'r euog, nac un cymmhelliad i ufudd-dod.

Am gyffredinolrwydd aberthau yn y byd cenhedlig, a'r hyn a ddysgir trwyddynt, y mae archesgob York yn dyweyd:—"Nis gallwn ymwrthod âg aberthau fel ffaith; ac y maent o leiaf yn profi fod dynion yn credu y gallent gael dyfodfa at yr Hollalluog drwyddynt. Ac am yr wrthddadl nas gellir trosglwyddo euogrwydd na chosp ar y diniwed, yr ydoedd yn adnabyddus i'r Groegwr a'r Rhufeinwr a fyddent yn offrymu eu haberthau i Iau a'r Lleuad, yn gystal ag i athronydd y dyddiau presennol. Ac etto yn wyneb yr wrthddadl, yr oeddynt yn parhau i aberthu. Deddf natur ydyw, 'Yr enaid a becho hwnw a fydd marw'—ac er hyny y mae y ffaith fod pob cenedl wedi rhoddi cosp yr euog ar y diniwed mewn trefn i wneuthur iawn dros eu pechodau yn ddigon gan bob meddwl diduedd i brofi fod yr egwyddor o aberth yn meddu gafael dyfnach yn meddwl dyn na'r egwyddor o gosp bersonol."

Fel y canlyn y dywed Madame de Staël:—"Yr wyf yn ystyried aberthau yn sylfaen pob crefydd. Yr oedd aberthau dynol yn perthyn i lawer o grefyddau yr hen fyd; ond yn y defodau

Digitized by Google

creulawn o aberthu bywyd dynion yr oedd rhyw beth hynod, sef yr angenrheidrwydd am iawn. Nis gellir dileu o'r enaid y grediniaeth fod rhinwedd dirgelaidd yn ngwaed y diniwed, a'i fod yn ysgogi nefoedd a daear. Y mae dynion wedi credu erioed y gallai gwaed y cyfiawn ennill maddeuant i'r euog, naill ai yn y byd hwn neu y byd arall. Y mae rhyw syniadau gwreiddiol yn perthyn i natur dyn sydd yn ail ymddangos bob amser, ac yn mhlith pob cenedl, er yn cael eu hanurddo. Ar y syniadau hyn, nis gallwn flino yn myfyrio; o herwydd ynddynt ni a gawn olion o urddas gwreiddiol ein natur."

III. *Natur yr Iawn.*—Dan y pen hwn, rhaid i ni gasglu ychydig o'r hyn y mae yr Ysgrythyrau yn ddyweyd am ufudd-dod a dioddefiadau yr Arglwydd Iesu Grist. Felly yn unig y gallwn obeithio cyrhaedd sicrwydd am yr hyn sydd uwchlaw rheswm dynol.

1. Yr oedd ei ddioddefiadau yn *gospawl*, neu yn gosp am bechod. Y mae hyn yn amlwg oddi wrth *Esay* liii. Yn *gyntaf*, "Efe a archollwyd *am ein camweddau ni*, efe a ddrylliwyd *am ein hanwireddau ni. cospedigaeth* ein heddwch ni oedd arno ef." Wrth ddwyn pechod y meddylir dwyn ei gosp: *Ezec.* xviii. 19, 20; *Lef.* xx. 17; *Num.* xiv. 33, 34. Yn *ail*, Efe a ddwg ein camweddau a'n hanwireddau trwy gael ei *archolli* a'i *ddryllio*. Yn *drydydd*, Dywedir ei fod yn dwyn pechod fel aberth: "Pan osodo efe ei enaid yn aberth dros bechod" (*adn.* 10). Yn *bedwerydd*, Y mae pob peth yn ymgyfarfod ynddo sydd yn angenrheidiol mewn iawn. Pechod ydyw yr achos haeddiannol o'i ddioddefiadau. "Ein pechodau ni:" nid yr eiddo ei hun:—Duw, y barnwr, a osododd anwiredd arno, neu yn ei erbyn. Yr Arglwydd a wnaeth i'n hanwiredd ni ymgyfarfod arno (*adn.* 6). Ymgymmeriad gwirfoddol Crist â deddfle yr euog:—er ei orthrymu, nid agorai yntau ei enau (*adn.* 8). Boddlonrwydd dros bechod:—er iddo osod ei enaid yn aberth dros bechod, etto efe a gymmerwyd o garchar ac o farn (viii. 10). Efe a ddybenodd gamwedd, a selioda bechodau, a wnaeth gymmod dros anwiredd: *Dan.* ix. 24. "Yr hwn ei hun a ddug ein pechodau ni yn ei gorph ar y pren;" 1 *Pedr* ii. 24.

Nid dioddef er mwyn perffeithio ei gymmeriad a wnaeth efe, fel esampl perffaith:—"Efe a ddysgodd ufudd-dod trwy ddioddefiadau." Nid dysgyblu ei hun i ufudd-dod, ni bu erioed yn anufudd—nid fel y profai chwerwder ufudd-dod; ei fwyd a'i ddiod ef oedd ufudd-dod: ond trwy ddioddefiadau, efe a ddaeth yn brofiadol o ddyfnderoedd yr ufudd-dod hyd angeu oedd yn angenrheidiol fel y perffeithid ef yn Dywysog ein Hiachawdwriaeth.

2. Dywedir fod Crist wedi prynu ei bobl â'i waed. "Canys er gwerth y'ch prynwyd;" 1 *Cor.* vi. 20; 1 *Pedr* i. 19; *Titus* ii. 14; *Eph.* i. 17; *Mat.* xx. 28. *Lutron* (λυτρον) ydyw y gair Groeg am "bridwerth," a'i ystyr ydyw y pris a delir am ryddhâd caethwas o gaethiwed, neu oddi wrth farwolaeth. Yn 1 *Tim.* ii. 6, y gair am bridwerth ydyw *antilutron*: yr hyn a ddynoda, nid rhyw beth yn bridwerth, ond bywyd am fywyd. Nid rhyddhâd trwy allu noeth ydyw rhyddhâd yr efengyl, ond rhyddhâd trwy bridwerth.

3. Dywedir fod Crist wedi marw drosom nid *er ein lles* yn unig, ond *yn ein lle*, fel meichnïydd: *Rhuf.* v. 6, 7; viii. 32; 1 *Pedr* iii. 18. Yr arddodeiriau a ddefnyddir yn y Groeg am *dros*—"y Cyfiawn *dros* yr anghyfiawn," ydynt υπερ (*uper*), αντι (*anti*), a δια (*dia*). Ymgais y rhai a wadant feichniaeth ydyw ceisio dangos nad yw y geiriau hyn yn arwyddo dim mwy nag *er ein lles.* Addefir y defnyddiai y Groegiaid hwynt yn yr ystyr o fantais; ond nid yw hyn yn profi na ddefnyddid hwynt hefyd *yn lle*. Dyma ychydig o lawer o enghreifftiau—"Buddiol yw i un farw dros (*uper*) y genedl:" *Ioan* xi. 50. Yr oedd yn rhaid i Grist neu y genedl farw. Nis gall fod ystyr arall i υπερ yn *Rhuf.* v. 6, 8. Nis gallwn feddwl am neb yn marw dros y da, ond mewn trefn iddo ef ddiangc rhag marw. Yn yr un ystyr y defnyddiai y Deg a Thrigain *anti* yn 2 *Sam.* xviii. 33: "O na buaswn yn marw drosot,"—"yn lle." Yr un modd yn y Testament Newydd:—"Teyrnasodd Archelaus *yn lle* (*anti*), Herod ei dad;" *Mat.* ii. 22. "Os gofyn efe bysgodyn, a ddyry efe sarph iddo" yn lle hyny (*anti*)? "Ac a roddes ei einioes yn bridwerth dros (*anti*) lawer." Nis dichon i feichnïaeth gael ei gosod allan yn well nag a wneir trwy yr ymadroddion hyn.

Fod Crist wedi dioddef cosp pechod yn lle ereill sydd amlwg oddi wrth 2 *Cor.* v. 21; "Yr hwn nid adnabu bechod, a wnaeth efe yn bechod drosom ni," &c.: *Gal.* iii. 13; "Crist a'n llwyr brynodd oddi wrth felldith y ddeddf, gan ei wneuthur yn felldith drosom." Y mae yr un gair Hebraeg yn sefyll am "bechod," a "phechaberth." Dan y gyfraith yr oedd yr aberth yn dwyn pechod, a'r felldith a haeddai pechod, arno ei hun. Mae hyn i'w weled yn amlwg yn y bwch diangol: *Lef.* xvi. 5, &c. Ac fel y cyfryw y mae yn gysgod o Grist.

4. Priodolir cymmodiad pechadur â Duw i waed Iesu Grist: 2 *Cor.* v. 18, 19; "Yr hwn â'n cymmododd ni âg ef ei hun," &c. Cymmodi ydyw symmud ymaith gelyniaeth rhwng dwy blaid. Duw sydd yn cymmodi: derbyn y cymmod y mae y pechadur. Y mae yr elyniaeth rhwng Duw a dyn yn cael ei symmud ymaith trwy weithred o eiddo Duw. Y mae hyn yn amlwg. (1.) O herwydd y mae Duw yn cymmodi trwy *Iesu Grist;* trwy ei angeu, a thrwy ei angeu fel aberth. Trwy wneuthur iawn y mae aberth yn cymmodi, ac nid trwy gynnyrchu cyfnewidiad moesol. (2.) Yn *Rhuf.* ix. 9, 10, y mae yr ymadrodd "wedi ein cyfiawnhau trwy ei waed," a bod wedi "ein heddychu â Duw," o'r un ystyr; yr hyn sydd yn dangos fod y cymmod neu yr heddychiad yn gynnwysedig mewn rhoddi boddlonrwydd i gyfiawnder Duw trwy aberth Crist. (3.) Yn yr ystyr hwn y mae cymmod â Duw yn achos neu ffynnonell cyfnewidiad ysbrydol, neu ailenedigaeth. Hyn yw gwirionedd mawr y Beibl. Trwy osod ei Fab yn iawn, y mae Duw yn cymmodi y byd âg ef ei hun; ac ar sail fod Duw yn gymmodlawn yn Nghrist, y mae wedi trefnu gweinidogaeth y cymmod, a thrwy hon y mae yn galw ar ddynion—"Cymmoder chwi â Duw." Nid Cymmodwch eich hunain â Duw—y mae y gair yn y modd goddefol—ond Derbyniwch y cymmod. Y mae y cymmod wedi ei effeithio trwy angeu Crist. Y mae Duw yn awr yn gymmodlawn. Y mae yn gyfiawn ac yn cyfiawnhau yr annuwiol. Sail y cymmod a chymmeradwyaeth â Duw ydyw, "Canys yr hwn nid adnabu bechod," &c. Un o'r ammodau angenrheidiol iddo gael ei wneuthur yn bechod drosom ni ydoedd iddo fod heb bechod ei hun. Heb hyny, ni allasai gymmeryd lle pechadur. Y mae yr esbonwyr hynafol gan mwyaf yn deall yr

Digitized by Google

ymadrodd, "a wnaeth efe yn bechod," a wnaeth efe yn bech-aberth, tra y mae llawer o esbonwyr diweddar, fel Calvin, yn deall y gair "pechod" yn gyfystyr â "phechadur;" hyny yw, medd Alford, "cynnrychiolydd pechod," *the representative of sin*, yn wrthgyferbyniol â chyfiawnder Duw; *h.y.*, cynnrychiolydd cyfiawnder—wedi ei wisgo ynddo, ac yn esamplau o hono. Ond mewn esboniad sydd newydd ddyfod allan ar yr Epistol at y Galatiaid, y mae Dr. Lightfoot yn dewis yr hen esboniad. Ond y mae yr ystyr yr un, pa fodd bynag y deallir ef. Yr unig ystyr yn mha un y gwnaethpwyd Crist yn bechod ydyw, ei fod wedi dwyn euogrwydd; ac yn yr ystyr hwn yr oedd pob pech-aberth wedi ei wneuthur yn bechod. Yr oedd Crist yn ei fywyd a'i angeu yn feichnïydd. Mewn meichnïaeth y mae un yn cymmeryd lle un arall. Yr oedd yr aberth yn lle yr aberthwr; a thrwy farwolaeth yr aberth yr oedd yr aberthwr yn cael diangc. Pe buasai y ddau wedi marw, ni buasai dim meichnïaeth. Y mae bod Crist wedi ei wneyd "yn bechod," yn sail i bechadur gael ei wneuthur "yn gyfiawnder" ar yr un egwyddor. Ein pechodau ni oedd yr achos mewn cyfraith o ddioddefiadau Crist, o herwydd eu bod yn foddlonrwydd i'r gyfraith; a'i gyfiawnder ef ydyw yr achos neu y sail mewn cyfraith o gymmeradwyaeth pechadur gyda Duw, fel y mae maddeuant yn weithred o gyfiawnder.

Heb chwanegu enghreifftiau yn mhellach, y mae ystyriaethau cyffredinol yn profi mai yn lle ereill yr oedd yr Arglwydd Iesu yn dioddef.

Nis gellir cyssoni marwolaeth y cyfiawn âg uniondeb llywodraeth Duw, ond ar y dybiaeth ei fod yn dioddef yn lle ereill. Y mae yr anhawsder yn fawr pe nad edrychem arno yn ddim uwch nag y gwna y Sociniaid—fel dyn diniwed a pherffaith. A pho uchaf yr edrychir arno, y mae yr anhawsder yn mwyhau. Os credwn ei fod yn Fab Duw, ac yn dioddef marwolaeth, nis gallwn osgoi y canlyniad ei fod yn lle yr euog. Y mae yn ammhossibl credu yn mawredd ei berson, a gwadu ei feichnïaeth. Y mae y gwirionedd am ei Berson a'i waith yn annattodol â'u gilydd.

Y mae yr athrawiaeth o feichnïaeth yr Arglwydd Iesu Grist yn meddu, heblaw y profion ereill o'i gwirionedd, y prawf yma—nad oes dim yn egluro ffeithiau ei fywyd a'i angeu ond hyn. Heb yr athrawiaeth hon, nis gallwn weled pa fodd i gyfiawnhau y llywodraeth ddwyfol wrth gospi y diniwed. Ond gan mai y diniwed yn lle yr euog ydyw, y mae y cyhuddiad o anghyfiawnder yn syrthio i'r llawr. Y mae yn wir fod dirgelwch yn aros etto, a dirgelwch mawr; sef, pa fodd y daeth y fath un i'r fath le. Yr anhawsder yn awr ydyw, nid cyssoni anghyssonderau, ond amgyffred yr Anfeidrol. Oddi wrth y tystiolaethau ysgrythyrol a gasglwyd dan yr adran hon, a'u cyffelyb, yr ydym yn casglu fod dioddefiadau yr Arglwydd Iesu Grist, yn y lle *cyntaf* yn gosp am bechod (cospawl=*penal*): yn *ail*, eu bod yn feichnïawl; hyny yw, dioddefodd yn lle ereill (*vicarious*): yn *drydydd*, eu bod yn iawnol, (*expiatory*)—wrth ufuddhau a dioddef, fe wnaeth iawn.

Y mae rhai yn petruso cymmhwyso y gair *cosp* a *chospawl* at ddioddefiadau a marwolaeth Crist. Os defnyddir y gair *cosp* am ddioddefiadau a weinyddir ar y troseddwr ei hun, yna ni ddioddefodd gosp pechod, o herwydd nid drosto ei hun y bu efe farw. Ond nid oes un rheswm dros gyfyngu y gair fel ag i gynnwys haeddiant personol. Y mae priodoldeb y gair *cospedigaeth* yn ei gymmhwysiad at ddioddefiadau Crist yn ymddibynu ar y ffaith ei fod ef wedi dioddef yn lle pechaduriaid, yr hyn y buasai raid iddynt hwy ddioddef oni buasai iddo ef ddioddef yn eu lle. Y mae yr ymadrodd hefyd yn un ysgrythyrol—"Cospedigaeth ein heddwch ni oedd arno ef." Dadleua y Sociniaid fod cospi y diniwed yn anghyfiawnder. Ond nid ydym yn cyfarfod yr wrthddadl trwy ymwrthod â'r gair *cosp;* o herwydd yr wrthddadl ydyw, fod Crist wedi dioddef yn lle a thros bechaduriaid, er mwyn iddynt hwy gael diangc y gosp haeddiannol. Pa un a ddefnyddir y gair *cosp* ai peidio, nid yw o bwys: y mae yr wrthddadl yr un. Mewn trefn i gyfarfod yr wrthddadl ei hun, gellir sylwi, (1.) Nad ydyw yn perthyn i hanfod cosp i gael ei gweinyddu, bob amser, ac o angenrheidrwydd, ar y troseddwr ei hun. Fel hyn y dywed Grotius, yr hwn sydd wedi cymmhwyso egwyddorion cyfreithiol gyda dysgeidiaeth mawr at athrawiaeth yr iawn—"Dylem sylwi fod yn hanfodol i gosp gael ei gweinyddu am bechod, ond nid yw yn hanfodol iddi gael ei gweinyddu ar y troseddwr ei hun." (2.) Y mae llywodraethau gwladol yn caniatau i ryw raddau yr egwyddor o feichnïaeth; ac y mae llywodraeth naturiol Duw ar y byd yn dysgu yr un peth. (3.) Y mae yr anhawsder sydd yn nioddefiadau Crist mor fawr, yn ol y gyfundrefn Socinaidd, ag ydyw yn y gyfundrefn uniongred; o herwydd y mae y diniwed yn dioddef yn ol y ddwy. Ond nid oes gan y Sociniaid yr un esboniad ar yr anhawsder. (4.) Ond y mae fod dioddefiadau Crist yn lle ereill, ac o natur iawnol, yn esboniad cyflawn.

Dioddefodd hyd at roddi iawn. Ond gan fod y gair *iawn* yn cael ei ddefnyddio yn fynych am unrhyw gydnabyddiaeth a wneir am gam a ddioddefwyd, y mae duwinyddion yn fynych yn defnyddio yr ymadrodd *rhoddi boddlonrwydd i gyfiawnder*, i osod allan natur yr iawn; ond y mae yn bossibl i ddynion wedi colli y gwirionedd barhau i ddefnyddio y geiriau trwy ba rai y gosodir ef allan. Y mae hyn yn dangos yr angenrheidrwydd i geisio cyssylltu meddwl pendant wrth yr ymadroddion a ddefnyddir. Y mae *iawn* yn foddlonrwydd i gyfiawnder. Y mae y gair Cymraeg *iawn* yn tra rhagori ar y Saesneg *atonement*, o herwydd ei fod yn ei ystyr gwreiddiol yn arwyddo yr hyn sydd yn *iawn* yn ngwyneb cyfraith, yr hyn nid yw *atonement* yn ei wneyd. Wrth iawn Crist y meddylir yr hyn sydd yn *sail gyfiawn*, neu *reswm digonol* yn ngwyneb cyfraith dros faddeu i droseddwr. Pe gofynem pa beth sydd yn sail ddigonol dros faddeu i'r euog, ni byddem ond yn amrywio y dull o ymadroddi wrth ddyweyd fod *boddlonrwydd i gyfiawnder* yn gyfryw. Y mae yr ymadrodd *boddlonrwydd* (*satisfaction*) yn un a ddefnyddir yn fynych gan dduwinyddion i osod allan yr hyn a gyflawnodd Crist drosom. Nid ydym i gasglu oddi wrth yr ymadrodd fod y Tad wedi derbyn boddlonrwydd yn angeu Crist, ei fod yn cael hyfrydwch yn nioddefiadau y Mab. Nis gall fod dim yn fwy gwrthun ynddo ei hun, nac yn fwy anghysson â thystiolaethau pendant yr Ysgrythyrau na'r cyfryw ddywediad. Ac etto, fe fyn y Sociniaid briodoli y cyfryw syniadau i'r rhai sydd yn dal athrawiaeth yr iawn yn yr ystyr uniawngred, er eu gwrthdystiadau yn eu herbyn. Fel y canlyn y mae Witsius yn egluro yr ymadrodd, yn nacaol ac yn gadarnhaol:—"Y mae Crist wedi ymrwymo i wneuthur

Digitized by Google

*boddlonrwydd drosom* i Dduw. Nid ydym i ddeall y boddlonrwydd hwn fel y mae Sociniaid yn ei ddeall, fel pe na chynnwysai fwy na hyn, sef fod Crist wedi cyflawni ewyllys Duw yn berffaith, ac wedi gwneuthur pob peth a orchymynwyd iddo mewn trefn i'n hiachawduriaeth, ac felly wedi boddloni Duw, a hyny drosom ni; hyny yw, ar ein rhan, sef er ein daioni uchaf a thragwyddol ............ond yn hyny y mae yn gynnwysedig, fod Crist drosom, ac yn ein lle, wedi boddloni cyfiawnder Duw, trwy ufuddhau i holl orchymynion y ddeddf, a dioddef ei melldithion, ac felly wedi cyflawni holl gyfiawnder y ddeddf, sef yr hyn yr oedd y ddeddf yn ei ofyn genym er ein gwaredigaeth oddi wrth gosp, "ac mewn trefn i gael hawl i fywyd tragwyddol." Sylwer ar y gwahaniaeth rhyng y ddau olygiad uchod:—un ydyw *boddloni ewyllys* Duw; y llall ydyw *boddloni cyfiawnder* Duw. Yn unol â'r ymadrodd cyntaf, gallesid rhoddi iawn trwy unrhyw gydnabyddiaeth gyffredinol a ewyllysiai Duw. Ond dyna hanfod yr iawn yn colli. Dyma un o'r ffyrdd sydd gan elynion y gwirionedd i'w osgoi. Er nad ydyw yr ymadrodd "cyflawni cyflawnder," i'w gael yn yr Ysgrythyrau, etto, y mae y meddwl yn un ysgrythyrol. Y mae i'w gael yn yr holl ymadroddion a ddefnyddir i osod allan natur dioddefiadau ac angeu Crist; megys, "prynedigaeth," "pridwerth," "iawn," "cymmod," "aberth," &c.

Y mae y meddwl yn cael ei gynnwys yn y modd cryfaf a chyda'r priodoldeb mwyaf yn yr ymadrodd "cyfiawnder Duw," fel y defnyddir ef drwy ysgrifeniadau Paul. Nis gall dim fod yn foddlonrwydd i gyfiawnder ond cyfiawnder; a'r boddlonrwydd uchaf a pherffeithiaf i gyfiawnder, ydyw "cyfiawnder Duw." Y mae yr efengyl yn ddadguddiad o "gyfiawnder Duw;" *Rhuf.* i. 17; iii. 22—26; iv. 3—5. "Os o'r ddeddf y mae cyfiawnder, yna y bu Crist farw yn ofer;" *Gal.* ii. 12. Gwaith Crist oedd gwneuthur cyfiawnder: iii. 21; iv. 5; 1 *Cor.* i. 30; 2 *Cor.* iii. 9; *Phil.* iii. 6—9. Y mae yn amlwg wrth ystyried yr ymadroddion hyn mai nid y briodoledd o gyfiawnder yn Nuw a feddylir: nid egwyddor o gyflawnder yn enaid pechadur crediniol chwaith: ond rhywbeth y tu allan i bechadur, yr hyn a "ddadguddir" yn yr efengyl. Gelwir yr efengyl yn "weinidogaeth cyfiawnder;" 2 *Cor.* iii. 19. Y mae ei bendithion "yn ddawn cyfiawnder;" *Rhuf.* v. 17. Y mae y cyfiawnder hwn "i bawb ac ar bawb a gredant;" *Rhuf.* iii. 22. Cyferbynir "pechod" a "chyfiawnder" â "marwolaeth" a "bywyd;" *Rhuf.* v. 12—18. Fel y mae pechod wedi dwyn marwolaeth, felly y mae cyfiawnder yn dwyn bywyd. Iesu Grist ydyw y cyfiawnder hwn; "yr hwn a wnaethpwyd i ni gan Dduw yn gyfiawnder;" 1 *Cor.* i. 30. Y mae y cyfiawnder hwn yn cael ei gyhoeddi yn yr efengyl: *Rhuf.* iii. 21. Yr oedd y cyhoeddiad hwn yn angenrheidiol *ar gyfrif*, nid *trwy* (*ðια*) "faddeuant y pechodau a wnaethid o'r blaen" i saint yr Hen Destament. Cyfiawnder i'w dderbyn trwy ffydd ydyw "y cyflawnder o Dduw trwy ffydd;" *Phil.* iii. 9.

Mesur a safon "cyfiawnder Duw" ydyw cyfiawnder fel priodoledd yn y Duwdod, a'r cyflawnder hwn yn cael ei amlygu yn y gyfraith. Cyfiawnder mewn gofynion sydd yn y gyfraith, ond cyfiawnder mewn cyflawniad sydd yn yr efengyl. Y mae amlygiad o gyfiawnder mewn gofyn am foddlonrwydd; y mae amlygiad o gyfiawnder mewn parotoi y boddlonrwydd hwnw. Y mae y syniad am gyfiawnder mewn creadur yn cynnwys cydymffurfiad â'r gyfraith. Y mae y ddau air *cyfraith* a *chyfiawnder* yn cynnwys y naill y llall. O fewn cylch cyfraith y mae cyflawnder i'w gael: gan hyny, y mae yr ymadrodd "cyfiawnder Duw," am yr hyn a wnaeth ac a ddioddefodd Crist, yn cynnwys darostyngiad i ddeddf, a chyflawniad y ddeddf yn ei holl eangder. Yr oedd y ddeddf i ba un y gostyngodd Crist ei hun yn ddeddf doredig, yn parhau i gyflwyno ei gorchymynion o'i flaen, ac wedi ei harfogi â'r felldith a haeddodd y troseddwr o honi. Yn briodol gan hyny y disgrifir yr hyn a wnaeth Crist yn ei gyssylltiad â deddf—"wedi ei wneuthur dan y ddeddf;" *Gal.* iv. 4. Y mae y cyflawnder ar ba un y mae cymmeradwyaeth dyn yn ymddibynu yn "gyflawnder y ddeddf;" *Rhuf.* viii. 4. Mae gwaith Crist yn "ddiwedd i'r ddeddf, er cyfiawnder i bob un sydd yn credu;" *Rhuf.* x. 4. Wrth ddiwedd i'r ddeddf y meddylir y cyflawniad y mae y ddeddf yn ei ofyn, ac nas gall ond ei ofyn nes ei gael. Yn Nghrist yn unig y mae y cyflawniad yma i'w gael. Yn yr holl ddisgrifiadau hyn, ni a welwn mai natur y gwaith a wnaeth Crist drosom ac yn ein lle ydoedd cyflawni y gyfraith; neu, mewn geiriau ereill, rhoddi boddlonrwydd i gyfiawnder.

Gweithiodd allan gyflawnder trwy *ufudd-dod*. Yr oedd ei ufudd-dod yn ymestyn dros yr oll o'i fywyd, o'r dechreu i'r diwedd. "Yr hwn ac efe yn ffurf Duw ...........gan fod yn ufudd hyd angeu, ïe, angeu y groes;" *Phil.* ii. 6—10. "Er ei fod yn Fab, a ddysgodd ufudd-dod;" *Heb.* v. 8. "Trwy ufudd-dod un y gwneir llawer yn gyfiawn;" *Rhuf.* v. 19. Nid ydyw y gair *ufudd-dod* yn cyfeirio at weithredoedd unigol o eiddo Crist, ond at ei holl fywyd, yn weithredol ac yn ddioddefol. Yr oedd ufudd-dod yn elfen ag ydoedd yn rhedeg drwy ei holl weithredoedd a'i ddioddefiadau, ac yn cyssylltu y cwbl yn un ufudd-dod perffaith. Trwy weithred o ufudd-dod y daeth i sefyllfa ei ddarostyngiad, a thrwy weithred o ufudd-dod y cyrhaeddodd ei dyfnderoedd isaf: "Efe a fu yn ufudd hyd angeu, ïe, angeu y groes." Ac yr oedd yr un ufudd-dod yn rhedeg trwy yr oll o'i fywyd; ac felly y mae yr ysgrifenwyr sanctaidd yn edrych arno fel un ufudd-dod: *Ioan* iv. 34; v. 19, 20; viii. 29; x. 17, 18; xii. 49, 50; xiv. 31; xxvi. 29; *Phil.* ii. 8; *Heb.* v. 8. Yr oedd dioddefiadau yr Arglwydd yn weithredoedd gwirfoddol, a'i weithredoedd yn ddioddefiadau. Yr oedd ei ddioddefaint yn weithredol, a'i weithred yn ddioddefol (*passio ejus fuit activa et actio fuit passiva*). Nid dwy ufudd-dod wahaniaethol y sydd, fel y dywed rhai; ond un ufudd-dod, a hono yn gynnwysedig yn ymostyngiad gwastadol ei ewyllys i ewyllys ei Dad.

Gan fod Crist wedi rhoddi ufudd-dod i ewyllys ei Dad, y mae wedi cyflawni y gyfraith. Y mae y ddau osodiad yma yn gyfystyr. Dywedodd ef ei hun, "Na thybiwch fy nyfod i dori y gyfraith, neu y prophwydi: ni ddaethum i dori, ond i gyflawni;" *Mat.* v. 17. Yr oedd *ufudd-dod* Crist, gan hyny, yn gyflawniad y gyfraith; a hyny yn ei berthynas â Duw, âg efe ei hun, ac â'i gymmydog. Yr oedd ei holl fywyd yn brawf o'i gariad at ei Dad, a'r cariad hwn oedd egwyddor ei ufudd-dod. "Ond fel y gwypo y byd fy mod i yn caru y Tad, ac megys y gorchymynodd y Tad i mi, felly yr wyf yn gwneuthur;" *Ioan* xiv. 31; xv. 10; viii. 49. Y mae y cyflawniad o'r ail gyfres o ddyledswyddau, sef tuag ato ei hun, i'w ganfod yn ei burdeb moesol ei hun: *Heb.* vii 26. Fe roddes y prawf uchaf oedd yn ddichonadwy

Digitized by Google

o'i gariad at ddynion trwy farw drostynt: *Ioan* xv. 13. Yn rhinwedd yr un cariad yr aeth oddi amgylch gan wneuthur daioni. Rhoddes ufudd-dod nid yn unig i'r ddeddf foesol, ond hefyd i gyfraith Moses: *Luc* ii. 21; &c.

Y gorchymyn mawr a roddwyd iddo oedd i farw; ac yma, yn nghanol y temtasiynau i dynu yn ol, yr oedd eangder a nerth ei ufudd-dod i'w ganfod. Yr ydym eisoes wedi dangos ei fod yn ufudd-dod yn lle ereill. Y mae un gair yma yn ddigon, "Trwy ufudd-dod UN y gwneir LLAWER yn gyfiawn;" *Rhuf.* v. 19.

Oddi wrth hyn ni a welwn fod ufudd-dod a dioddefiadau Crist yn gyfiawnder perffaith i'r gyfraith, a bod y cyfiawnder hwn yn cynnwys *boddlonrwydd* a *haeddiant.* Y mae rhai duwinyddion yn gwahaniaethu rhyngddynt trwy ddyweyd fod *boddlonrwydd* yn ein gwared oddi wrth gosp pechod, a *haeddiant* yn rhoddi hawl i fywyd tragwyddol. Cyferbynir y ddwy fendith hyn yn fynych, "i ddybenu camwedd......ac i ddwyn cyfiawnder tragwyddol;" *Dan.* ix. 24. "Llwyr brynu oddi wrth felldith y ddeddf............fel y delai bendith;" *Gal.* iii. 13; *Rhuf.* v. 10; *Act.* xxvi. 18. Ond nid yw yr Ysgrthyrau yn gwahaniaethu rhwng boddlonrwydd a haeddiant yn y fath fodd ag i briodoli gwaredigaeth oddi wrth gosp i'r naill, a hawl i fywyd i'r llall. Y mae holl waith Crist, yn ei fywyd a'i angeu, yn sail gwaredigaeth gyflawn pechadur; sef, rhyddhâd oddi wrth gosp, a hawl i ogoniant. Ond heb geisio gwahaniaethu rhyngddynt, y mae holl ddisgrifiadau y Beibl am yr hyn a wnaeth ac a ddioddefodd Crist yn lle pechadur yn ein gwarantu i ddyweyd iddo roddi boddlonrwydd i'r gyfraith drosto, a haeddu bywyd tragwyddol iddo. Ond gan mai trwy roddi boddlonrwydd yr haeddodd, ac mai trwy haeddu y rhoddodd foddlonrwydd, y mae y ddau air yn cyfleu yr un drychfeddwl. Y ddau brif ddrychfeddwl a osodir allan yn yr hyn a ddywedir yma am natur yr iawn ydyw *meichnïaeth* a *boddlonrwydd.* Trwy ei ddioddefiadau a'i angeu, efe a offrymodd ei hun yn aberth, ac yn offrwm i Dduw: nid mewn ystyr gymmhariaethol, ond mewn ystyr briodol. Fe wnaeth hyny yn neddfle pechadur, a thrwy wneuthur hyny fe ddioddefodd y gosp a haeddodd pechadur, ac felly a wnaeth iawn drosto i Dduw. Y mae y profion ysgrythyrol yn helaeth fod Crist wedi dioddef dros bechod; ac yn y fan yma y mae y cwestiwn yn codi, a ddioddefodd Crist *y gosp* a haeddodd pechadur? Nid yw y cwestiwn hwn yn cael ei atteb yn union yr un fath gan dduwinyddion sydd yn cyttuno i ymwrthod â golygiadau Sosinaidd am yr iawn. Dywed rhai mai y gosp briodol a haeddodd pechadur a ddioddefodd Crist. Felly y mae Dr. Owen yn atteb y cwestiwn. Etto, nid allai Dr. Owen, na neb arall, ddal fod dioddefiadau Crist yn union, ac yn mhob ystyr, yr un a dioddefiadau y colledigion. Nis gall y rhai sydd yn dal meichniaeth yn yr ystyr gaethaf ddal hyn. Felly y mae dosbarth arall yn credu mai y modd goreu i atteb y cwestiwn ydyw, nid fod Crist wedi dioddef yr *un* (*idem*) dioddefiadau, yr un gosp, a'r hyn y mae pechadur wedi eu tynu arno ei hun; ond cosp *cyfartal* (*tantundem*). Fod dioddefiadau Crist yn ogymmaint—ond nid yr un. Y mae amddiffynwyr y cyntaf o'r golygiadau hyn yn eiddigeddus i ddysgu fod Crist wedi dioddef y cwbl a osodir allan mewn ymadroddion fel "cospedigaeth pechod" a "melldith y ddeddf." Tra y mae amddiffynwyr y golygiad arall yn awyddus i ddefnyddio ymadroddion sydd heb roddi lle i gasglu eu bod yn dal fod Crist wedi dioddef cnofeydd cydwybod euog ac anobaith tragwyddol. Y mae y ddau beth hyn yn nioddefiadau y colledigion; ond cabiedd fyddai dyweyd eu bod yn nioddefiadau Crist. Nid oes neb, fodd bynag, sydd yn dal golygiadau Calvinaidd am ddioddefiadau y Cyfryngwr yn dyweyd hyn. Ond y mae yr ymadrodd—yr *un* dioddefiadau—yn rhoi lle i rai gasglu hyny. Er mwyn ysgoi hyny, defnyddir yn fwyaf cyffredin yr ymadroddion *o gymmaint, cyfartal, llawn gyfartal.* Nid yw y gwahaniaeth ond un mewn geiriau gan mwyaf, o gymmaint a bod y rhai sydd yn defnyddio y naill ffordd a'r llall o ymadroddi yn ymwrthod â'r casgliad cableddus fod yr Arglwydd Iesu wedi dioddef ing cydwybod euog; ac y mae y ddau hefyd yn dal ei fod o bwys i syniadau cywir am natur yr iawn, i gredu fod y meichnïydd wedi dioddef cyflawn gosp pechod, yn yr hyn sydd yn hanfodol i gosp. Ond nid ydyw ing cydwybod ddrwg yn hanfodol i gosp. Codi y mae o bechadurusrwydd ac euogrwydd personol y troseddwr; ac felly, rhan ydyw o bechod ei hun, yn hytrach na'r gosp am bechod. Ni allasai Duw ei weinyddu fel cosp, gan nad ydyw yn awdwr pechod. Nid ydyw yr athrawiaeth fod Duw wedi rhoddi ar Grist ein hanwiredd ni i gyd—ei fod ef wedi tynu ymaith bechodau y byd—fod cospedigaeth ein heddwch ni arno ef, yn cynnwys fod Crist wedi dioddef yr hyn oedd yn codi yn naturiol o euogrwydd personol dyn. Y mae atteb arall yn cael ei roddi i'r cwestiwn a ofynwyd uchod; sef, nid fe ddioddefodd Crist yr *un* dioddefiadau a'r colledigion; ac hefyd, nid fe ddioddefodd yn gyfartal â hwynt; ond fe ddioddefodd *rywbeth* yn lle y gosp ddyledus am bechod. Gwelir fod yn yr ymadrodd pen-agored hwn le i gystal a gwadu meichnïaeth o gwbl. Nid rhywbeth yn lle y gosp ydyw athrawiaeth y Beibl; ond *y gosp* ddyledus am bechod, i bob amcan a dyben, o ran ei helfenau hanfodol. Marwolaeth ydyw cospedigaeth pechod: a bu Iesu Grist yn ufudd "hyd angeu, ïe, angeu y groes."

Am eangder yr iawn; ac hefyd am hanes yr athrawiaeth; a chyfeiriadau at y llyfrau goreu sydd wedi ei hysgrifenu ar y matter hwn, gwel dan y gair PRYNEDIGAETH NEILLDUOL.

IAITH. Y mae gwreiddyn, neu ffynnonelliad, neu darddiad iaith, yn un o'r pyngciau hyny sydd wedi bod yn destyn myfyrdodau dysgedigion er amser Dionysius Thrax, y grammadegydd dwyreorllewinaidd cyntaf, hyd amser Grimm, a Bopp, Adelung, Benfey, a Max Müller.

Wrth enwi Dionysius Thrax fel yr ymchwilydd a'r cyfundrefnydd cyntaf yn y gelfyddyd rammadegol ac ieithyddol, nid ydym yn anghofio fod grammadegwyr ereill mewn cwr arall o'r byd; sef Panini, ac ereill oedd yn astudio y Sanskritaeg, gannoedd o flynyddoedd cyn geni Crist, wedi talu sylw manwl a difrif-ddwys i'r pwngc yma o ffynnonelliad, gwreiddyn neu darddiad, neu ffurfiad iaith ac ieithoedd.

Fel y mae yn naturiol meddwl, y mae llawer o wahanol farnau a chroes-farnau wedi bod ar y pwngc yma, fel ar pob pwngc arall, yn mhlith dysgedigion pob oes; ond tuedd yr ymchwiliadau manylaf a diweddaraf ydyw cadarnhau y drychfeddwl, neu yn hytrach y ffaith, a draddodir yn Llyfr Genesis, fod yr holl hil ddynol yn siarad yr un iaith yn oesoedd boreuaf y byd.

Ein dyledswydd gyntaf yn gyssylltiedig â'r

Digitized by Google

gair dan sylw ydyw rhoddi byr olwg o ddrychfeddyliau y dynion dysgedicaf ar y pwnge o philosophi, neu athroniaeth a ffurfiad iaith.

"Wrth chwilio i mewn i hanes dynolryw," meddai Dugald Stewart, "yn gystal ag wrth chwilio i mewn i ymddangosiadau y byd sylweddol, os na allwn gael gafael ar y modd y cymmerodd y digwyddiad yma neu 'r digwyddiad acw le, y mae yn aml o bwys i ni fod yn alluog i ddangos pa fodd y *gallasai* gymmeryd lle trwy offerynoldeb achosion naturiol. Ac fel hyn, er na allwn benderfynu gyda sicrwydd anflaeledig pa rai ydyw y camrau y ffurfiwyd unrhyw iaith drwyddynt, etto, os gallwn ni ddangos oddi wrth egwyddorion adnabyddus y natur ddynol sut y *gallasai* gwahanol ranau unrhyw iaith gael eu graddol ffurfio, mae y meddwl nid yn unig yn cael ei foddloni i ryw raddau, ond y mae attaliad yn cael ei roddi i'r philosophyddiaeth ddioglyd hono sydd yn priodoli pob peth nas gall ei egluro i wyrth, pa un bynag a fydd hyny yn y byd moesol ynte yn y byd naturiol."

Dywedir wrthym fod y dyn cyntaf yn fab Duw; fod Duw wedi ei greu ar ei ddelw ei hun, wedi ei ffurfio o bridd y ddaear, ac wedi anadlu yn ei ffroenau ef anadl einioes. Dyma ffeithiau syml, a rhai i gael eu derbyn fel y cyfryw; o blegid os dechreuwn ni ymresymu arnynt, y mae min y deall dynol yn llithro oddi arnynt; ond etto, nid yw hyn oll yn dangos pa fodd y ffurfiwyd yr iaith hono yr oedd Adda a'i deulu yn ei siarad. Mae rhai philosophyddion yn haeru y gallasai dyn weithio ei ffordd allan o gyflwr o fudandod, a ffurfio geiriau neu enwau ar bob gwrthddrych, ac i bob gwrthddrych a gyfarfyddai, ac i bob drychfeddwl a ymgyfodai yn ei feddwl; ond y maent yn anghofio nas gallasai dyn trwy ei nerth ei hun gael gafael ar GYNNEDDF ymadrodd, yr hyn sydd yn gwahaniaethu dyn oddi wrth pob creadur arall ar wyneb y ddaear. "*Der mensch ist nur mensch durch Sprache*," medd yr Athronydd enwog Von Humboldt; hyny yw, nid yw dyn ddim yn ddyn, ond yn unig fel y mae yn meddu iaith; ond cyn y gallasai ddarganfod iaith, yr oedd yn rhaid iddo fod yn ddyn eisoes.

Y mae cyflwr cyntaf yr hil ddynol wedi bod yn destyn swynol athronwyr y wlad yma, yn gystal a rhai y Cyfandir, ac y mae rhyw gyfundrefn, gyda golwg ar darddiad iaith, yn gyffredin yn ffurfio myfyrdodau ac ymddiddanion y naill a'r llall; ond hyd nes, trwy offerynoldeb yr anfarwol Leibnitz, y dechreuwyd astudio philologiaeth neu eirdarddiad cymmhariaethol (*comparative philology*), yr oedd y cyfundrefnwyr yma yn y Cyfandir ac yn Mhrydain yn amddifaid o ffeithiau; ac o ganlyniad, yn ddarostyngedig i dynged rhai yn dyfod â *systems* anattegiedig yn mlaen; ni chawsant hyd i ddim byd oedd yn argyhoeddi eu gwrandawyr a'u darllenwyr. Ond y mae ymchwiliadau y ganrif bresennol wedi rhoddi golwg hollol wahanol ar y pwngc yma; y mae y dull iawn wedi cael ei fabwysiadu, a dyma ydyw hwnw, sef, fod yr unig gasgliadau cywir, gyda golwg ar gyflwr cyntefig iaith, i gael eu tynu oddi wrth ac oddi ar ymchwiliad manwl a diduedd o'r holl wahanol ffurfiau y mae iaith yn ei arddangos yn ei chyflwr presennol. Wrth iaith, meddylir pob iaith. Ond er nad ydys wedi chwilio holl ieithoedd y byd mewn dull manwl a chelfyddydol, yr ydys wedi myned cyn belled a gallu eu dosbarthu i gyd o'r bron i ryw ychydig iawn o deuluoedd; ac yr ydys wedi chwilio i mewn i wahanol aelodau y dosbarth y perthyn ein ieithoedd ni yn y deyrnas yma iddynt gyda'r fath fanylrwydd nad oes dim rhyw lawer iawn etto i'w ddarganfod, o leiaf fel ag i ffurfio cyfundrefn wahanol i'r un sydd yn ffynu yn bresennol.

Y canlyniad o'r gyfaledd a'r gymmhariaeth yma rhwng ein hiaith ni ac ieithoedd ereill, a rhwng y naill iaith a'r llall—pa beth yw? Dyma beth ydyw—fod y philosophyddion mwyaf dwfnddysgedig a phwyllog, sydd wedi cyflwyno eu hamser a'u talentau i'r gangen yma o athroniaeth, wedi dyfod i'r cadlyniad neu y casgliad yma, mai effaith hunan-gynnyrchiol ac angenrheidiol natur dyn ydyw iaith, fod y natur ddynol a lleferydd dynol yn anwahanadwy, ac o ganlyniad mai un iaith oedd yn wreiddiol. Fel y mae *anatomists* wedi dyfod i'r penderfyniad neu y casgliad oddi wrth gorph dyn, mai un dyn oedd yn y dechreu, felly y mae philologwyr wedi dyfod i'r casgliad a'r penderfyniad mai UN iaith oedd, a bod y gwahaniaethau a welir yn iaith neu ieithoedd dynion, fel y gwelir hefyd yn nghorph neu gyrph dynion, wedi tarddu oddi ar wasgariadau gorfodedig dynion dros wyneb yr holl ddaear, filoedd ar filoedd o flynyddoedd yn ol, a thrwy weithrediadau dilynol ereill, amrywiol achosion y gallai gwahanol ranau y teulu gwasgaredig fod wedi bod yn agored iddynt.

Mae canlyniadau ymchwiliadau o'r natur yma yn fwy boddhaol yn gyffredin i feddyliau ymchwiliol nag unrhyw dystiolaeth ysgrifenedig, pa mor awdurdodedig bynag y byddo, gyda golwg ar greadigaeth a chyflwr cyntefig dyn, o blegid fod y ffeithiau sydd yn dwyn y gyfryw dystiolaeth wedi cymmeryd lle gannoedd o flynyddoedd cyn i ysgrifenu gael ei ddarganfod; traddodiadau ydynt—a'r rhai hyny yn gyfryw rai na allant ddywedyd celwydd—wedi eu cadw ar lafar gwledydd o dad i fab, ac o fab i ŵyr, gan ddechreu gyda'r dyn cyntaf, nes cyrhaedd y sawl a'u hysgrifenodd i lawr, nid fel traddodiadau, ond fel ffeithiau darganfyddedig trwy gelfyddyd.

Dyma ynte farn, casgliad, a phenderfyniad y dynion dysgedicaf gyda golwg ar undeb gwreiddiol holl ieithoedd y byd, a hyny yn annibynol o dystiolaeth yr Ysgrythyrau, sef fod rhaid fod un craidd cyffredinol wedi bod gynt, a bod pob iaith yn y byd yn deilliaw fel pelydrau yr haul, neu fel edyn olwyn, o'r cyff neu y ffynonnell gyntaf hono.

Er fod yr Ysgrythyr yn dyweyd i'r "Arglwydd Dduw lunio o'r ddaear holl fwystfilod y maes, a holl ehediaid y nefoedd, a'u dwyn at Adda i weled pa enw a roddai efe iddynt hwy; a pha fodd bynag yr enwodd y dyn bob peth byw, hyny fu ei enw ef;" yr hyn a feddylir yw, y *gallu i siarad*, y *gynneddf* y cyfeiriasom ati uchod, ac nid fod yr Elohim wedi rhoddi iaith ddadguddiedig o'r nefoedd ar unwaith:—"*f'chol asher iikra-lo ha Adam nephesh chaiiah, hw sh'mo;*" nid oes dim awgrymiad yn y geiriau yma o iaith ddadguddiedig, er fod *Le Catholique*, cyf. i. td. 418, yn tynu y casgliad yna mewn cydweddoldeb a barn y *plebs*. Yr oedd Adda wedi ei gyfansoddi yn y fath fodd a bod ganddo *allu* i siarad; ac arferodd y gallu yma yn gyntaf o gwbl trwy roddi enwau i'r gwahanol greaduriaid; ond er fod ganddo y gallu yma i siarad, etto, nid oedd yno neb i ymddiddan âg ef, neb i gydymdeimlo âg ef, neb wedi ei gynnysgaeddu â'r galluoedd rhyfeddol yma o reswm ac ymadrodd, "ni chafodd ymgeledd (*gheger*, cymmhorth, *Hilfe stütze*), gymmhwys iddo." Mae y frawddeg fechan yma yn cynnwys, mewn gair, fraslun o'r hyn oll y mae

Digitized by Google

athroniaeth a philologiaeth wedi ei ddysgu i ni gyda golwg ar ffynnonelliad neu darddiad iaith. Canlyniadau eithafol cydwybodolrwydd dynol yw hyn— fod y gwrthddrych meddyliol *yn bodoli*, a *bod* rhywbeth o'r tu allan, neu oddi allan iddo; neu, yn ngeiriau yr athronwyr Allmaenaidd, fod *myfi*, a *nid myfi*, yr *Ich*, a'r *Nicht Ich;* neu, mewn dull arall o lefaru, y mae ef yn *gwybod* ei fod ef ei hun yn bodoli, ac yn *credu* fod rhywbeth heb law efe ei hun. Yn y ddau ganlyniad yma o bob cydwybodolrwydd—yn y cydwybodolrwydd o *hunan*, ac *nid hunan*, y mae yr holl fyd yn gynnwysedig fel y mae yn bodoli i *feddwl* dyn. Mae pob drychfeddwl, pob amgyffred, pob teimlad, pob argraph y mae cyffyrddiad â'r byd allanol yn ei achosi yn gynnwysedig yn y cyntaf, sef y *myfi*, yr *Ich*. Ond mae y meddwl dynol yn buan flino ar ddarfelydd diwrthddrych. Mae'n hiraethu am wrthddrychioldeb yn barhaus, ac yn ymdrechu perffeithio a sefydlogi ei ddrychfeddyliau tumewnol trwy ryw fath o arddangosiadau allanol neu gilydd; ac felly, mae y meddwl yn perffeithio ei hun yn yr ynganiad. Pe bae dyn hyd yn oed ar ei ben ei hun yn y byd, mewn meddiant o'r holl gynneddfau y mae'n awr yn eu mwynhau, fe roddai enwau ar wahanol wrthddrychau y greadigaeth anifeilaidd pan ymddangosent o'i flaen. Cymmerai ei feddwl afael ar y ran neu y wedd, neu y ffurf fwyaf tarawiadol yn mhob dosbarth; a dynodai y cyfryw ddosbarth gydag enw priodol a gwahaniaethol, a hyny trwy yr unig foddion fyddai yn ei gyrhaedd, sef sain ynganedig. Ond os gellid disgwyl y fath ymegnïad ieithyddol gan ddyn unigol, byddai yn ganlyniad sicr o gyfarfyddiad â rhyw greadur meddyliol, llafurus, arall. Yn y cyfryw amgylchiad, byddai yn sicr o ymdrechu cyfleu ei ddrychfeddyliau i'r byd gwrthddrychol allanol sydd yn adnabyddus i'w gydgreadur yn ogystal ag iddo ef ei hun, trwy y moddion mwyaf naturiol ac amlwg; yr hyn yw, fel y dywedasom, *sain ynganedig*. A phe byddai ond dau gyfryw berson yn y byd yn y dechreu, byddai eu hymdrafodaeth—gan gael ei rheoli, yn ol cydsyniad sylfaenedig ar gymmundeb rheswm, a chymmundeb angenrheidiau—yn sicr o ffurfio iaith gyntaf, a iaith wreiddiol dyn; a thrwy draddodiad, ffurfiai iaith yr holl hil ddynol.

Y cyfryw ydyw syched ac awydd dynion ymchwilgar wedi bod i wybod pa beth, neu pa un oedd iaith wreiddiol dyn, fel y mae genym engreifftiau digrifol o'r moddion a fabwysiadasant i dreiddio i mewn i'r dirgelwch; hyny yw, yn ol eu tyb hwy. Yn *Euterpe* Herodotus, *Keph.* 2, yr ydym yn darllen fel hyn:—'Tra yr oedd Psammetichus yn prysur chwilio i mewn i'r pwngc pa un oedd hynaf, yr Aiphtiaid ynte y Phrygiaid, daeth y drychfeddwl canlynol i'w ben fel y moddion mwyaf effeithiol i brofi y pwngc. Parodd gyrchu dau blentyn newydd-eni—plant rhïeni tlodion, a thraddododd hwynt i fugail i gael eu dwyn i fyny gyda'r praidd. Gorchymynwyd i'r bugail beidio siarad sut yn y byd yn eu gŵydd: fod iddo eu cyfleu mewn bwthyn unigol; ac ar amserau pennodol, iddo gyrchu geifr atynt iddynt eu sugno, tra y byddai efe yn dilyn gorchwylion eraill. Ei ddyben oedd gwybod pa air a ynganent gyntaf. Llwyddodd yr *experiment* yn ol ei ewyllys. Bu y bugail yn ofalus yn yr holl gyfarwyddiadau; ac yn mhen dwy flynedd, wrth iddo agor drws y bwthyn ryw ddiwrnod, estynodd y ddau blentyn eu breichiau tuag ato, fel mewn deisyfiad, ac ynganasant y gair *becos*. Ar y cyntaf, ni thynodd hyn ddim o sylw y bugail; ond gan eu bod yn ail ddywedyd yr un gair bob tro yr ymddangosai, adroddodd yr amgylchiad i'w feistr, a dygodd y plant ger ei fron ef. Pan glywodd Psammetichus hwynt yn adrodd yr un gair, ymdrechodd gael allan yn mhlith pa genedl yr oedd y gair mewn arferiad; a chafodd allan mai y gair Phrygiaidd am *fara* ydoedd. Ar ol ystyried (σταθμησάμενοι) yr amgylchiad hwn, addefodd yr Aiphtiaid fod y Phrygiaid yn hynach na hwy eu hunain.'

Ac fel pe na buasai hyn yn ddigon o blentyneidd-dra, dywedir i'r brofeb (*experiment*) gael ei gwneyd gan yr ymherawdwr Swabaidd, Frederick II., a thrachefn gan Iago IV. o Ysgotland, a chan un o ymherawdwyr Mogulaidd yr India. Ond nis gall y cyfryw dreialon brofi dim. Nid yw plant, wrth ddysgu siarad, yn ffurfio nac yn darganfod iaith. Y mae yr iaith yno yn barod iddynt wrth law, ac wedi bod er's miloedd o flynyddoedd. Maent yn dysgu iaith fel y maent yn tyfu i fyny, ac felly ddwy, tair, neu bedair; ac ofer yw "ymofyn pa un a ddarganfyddai plant, wedi eu gadael iddynt eu hunain, ryw iaith benodol, ai peidio. Mewn gair, byddai yn annichonadwy, yn annaturiol, ac yn anghyfreithlawn, wneyd prawf o'r peth;" ond hyn sydd sicr, y byddai i ryw fath o iaith gael ei ffurfio, fel y tyfent i fyny, o angenrhaid; ond pe y gwneid yr un brofeb mewn gwahanol ranau o'r byd ar blant o'r un genedl a gwaedoliaeth, neu ar blant o wahanol genhedloedd a gwaedoliaeth, byddai pob iaith yn wahanol yn ol natur pethau, ac yn ol argraphiadau unigol ar feddyliau unigol.

Mae goruwchadeilad pob iaith yn gorphwys ar y gwreidd-eiriau; a'r gofyniad nesaf yw, *Pa beth yw y gwreidd-eiriau yma eu hunain?*

Mae amryw wahanol farnau ar y pwngc hwn. Ac er nad yw y naill gyfundrefn, na'r llall, yn cynnwys y gwir i gyd, etto, y mae pob un yn cynnwys rhyw gymmaint o wir. O eisieu geiriau parod, rhaid defnyddio rhai Groeg, neu ffurfio rhai trwsgl Cymraeg wrth drafod y pwngc.

1. Y gyfundrefn *Onomatopöeaidd*—sef fod pob gwrthddrych wedi derbyn ei enw, naill ai oddi wrth ei ymddangosiad allanol, neu ryw arwydd neillduol a tharawiadol yn ei gyfansoddiad. Herder oedd apostol y gyfundrefn Onomatopöeaidd; barn yr hwn y mae Steinthal wedi ei chyhoeddi yn helaeth yn ei *Ursprung der Sprache*:—"Cymmerer yn ganiataol, ynte, fod dyn, tra etto yn fudan, wedi clywed lleisiau adar, cŵn, defaid, ychain, rhuad y môr, croch-lais y daran, sibrwd y goedwig, murmur yr afonig, a süad yr awelon. Ymdrechai ddynwared y gwahanol seiniau hyn; a chan ganfod fod ei seiniau dynwaredol ef yn fuddiol i gyfleu y gwahanol wrthddrychau o flaen ei feddwl, er eu bod hwy eu hunain yn absennol, dilynodd y drychfeddwl, a daeth allan iaith." Er enghraifft, fel y dywed Herder, "Dyma ddyn yn gweled oen. Nid yw yn ymddangos iddo fel blaidd rheibus: nid yw yn cael ei flino gan unrhyw reddf aflywodraethus. Mae arno eisieu ei adnabod; ond nid yw yn cael ei dynu tuag ato, nac yn cael ei wthio oddi wrtho trwy ei synwyrdeimladau. Dyna'r oen yn sefyll o'i flaen fel yn gynnrychioledig gan ei synwyr-deimladau, yn wŷn, yn foddog, yn dyner, ac yn wlanog. Mae enaid cydymwybyddol a myfyriol dyn yn chwilio am nôd gwahaniaethol—dyna'r oen yn brefu!—dyna'r nôd wedi cael hyd iddo. Mae y brefiad, yr hyn a wnaeth yr argraph ddyfnaf, yn wahanol i bob argraph arall ar y meddwl trwy y llygad neu y cyffyrddiad, yn aros yn yr enaid. Mae yr

Digitized by Google

oen yn dychwelyd—yn wyn, yn foddog, yn dyner, ac yn wlanog. Mae yr enaid yn gweled, yn cyffwrdd, yn myfyrio, ac yn edrych am nôd. Mae yr oen yn brefu, ac yna y mae yr enaid yn ei adnabod. "Ah! tydi yw yr anifail brefiadol," medd yr enaid wrtho ei hun; a sain brefiad, yr hyn a ganfyddwyd fel nôd gwahaniaethol yr oen, fydd enw yr oen. Dyma oedd y nôd amgyffrededig—y gair. A pha beth yw y cyfan o'n iaith ond casgliad o'r cyfryw eiriau! Gyda golwg ar yr hyn beth, fe ddywed Prof. Max Müller fel hyn:—"Er fod geiriau yn mhob iaith wedi eu ffurfio trwy ddynwarediad, etto nid yw y rhai hyn ond rhan fechan o'r iaith. Chwareu-bethau iaith ydynt, ac nid ei chelf-offerynau; ac y mae pob ymgais i briodoli hyd yn oed y geiriau mwyaf cyffredin ac angenrheidiol i seiniau dynwaredol yn sicr o ffaelu yn drwyadl. Fe roddodd Herder ei hun y pwngc i fyny yn gyhoeddus yn ei flynyddau diweddaf, gan daflu ei hun mewn anobaith i freichiau y sawl oedd yn ystyried ieithoedd fel pethau wedi eu dadguddio mewn dull goruwchnaturiol, a hyny ar ol iddo amddiffyn yn gadarn y gyfundrefn Onomatopöëaidd, fel y gelwir hi, ac ar ol cael y wobr yr oedd *Academy* Berlin wedi ei chynnyg am y traethawd goreu ar "Ffynnonelliad neu darddiad iaith." Ni a roddwn yma ddyfyniad Saesneg o waith Müller, er mwyn cymmeryd y cyfleusdra i ddangos, er mor ddysgedig oedd efe, nad yw y doethaf a'r dysgedicaf yn anffaeledig.

"We do not speak of a *bow-wow*, but of a dog. We speak of a cow, not of a *moo;* of a lamb, not of a *baa*. It is the same in the most ancient languages, such as Greek, Latin, and Sanskrit. If this principle of Onomatopöëia is applicable any where, it would be in the formation of the names of animals. Yet we listen in vain for any similarity between goose and cackling, hen and clucking, duck and quacking, sparrow and chirping, dove and cooing, hog and grunting, cat and mewing, and between dog and barking, yelping, snarling, or growling."

Mae'r proffeswr wedi anghofio tri pheth yn gyssylltiedig â'r gyfundrefn Onomatopöëaidd; sef y gall gwahanol briodoliaethau neu briodoleddau yn yr un anifail daro gwahanol feddyliau mewn dull gwahanol: yn ail, y gall yr *unrhyw* a'r *un* briodoledd daro gwahanol feddyliau mewn gwahanol ddulliau—y gall yr un sain ymddangos yn wahanol i wahanol glustiau: ac yn drydydd, *fod* cyssylltiad anwadadwy rhwng sain, neu frefiad, neu fuchiad, neu rüad anifeiliaid, â'r enwau y maent yn adnabyddus wrthynt. A rhaid i ni addef yn mhellach, nad yw ei gyfaleddiad rhwng y gair *cuckoo*, y gôg, a'r gair *raven*, cigfran, fel enghraifft o afresymoldeb y gyfundrefn Onomatopöëaidd mewn cymmhariaeth i fath o gyfundrefn arall mewn un modd yn llwyddiannus i brofi yr hyn y mae efe yn ceisio ei brofi. Ymrwymem i wneyd yr un peth yr ochr arall i'r ddadl; ac oni bae ein bod yn gwybod ei fod o ddifrif, buasem yn meddwl mai cellwair yr oedd pan yn dyfynu o waith Aupamangava i brofi nad ydyw dynwarediad sain byth yn cael ei wneyd. Dywed Aupamangava, o ganlyniad, nad dynwarediad sain yw enw *brân* yn y Sanskrit, sef *kâka:* ond mai talfyriad ydyw o'r gair *apakâlayitavaga;* sef yw hyny, "yr aderyn y dylid ei anfon ymaith:" *tittiri, partridge*, petrisen, o *tar*, neidio (yr hyn fyddai yn llawn mor briodol i robin goch, neu y dryw bach); neu ynte o *tilamâtrachitra*, yr aderyn â'r spotiau bach.

Y gyfundrefn arall yw y Gyfundrefn Ebychiadol; sef ysgogiadau sydyn y meddwl wrth weled gwrthddrychau, yn ol fel y teimlid poen neu bleser, ofn neu lawenydd, petrusder neu sicrwydd; ac mai dyma sylfaen wreiddiol, neu y gwraidd y goruwch-adeiladwyd iaith arni. Ond er fod Condillac yn un o apostolion y gyfundrefn yma, y mae'n hawdd gweled fod ganddi hi lai o le, er nad ydym yn barod i wadu nad oes ganddi rywfaint mwy o le yn adeiladaeth y lleferydd dynol, nag sydd gan y gyfundrefn gyntaf.

Y drydedd gyfundrefn yw yr un Analytaidd, neu Ddansoddiadol; sef, fod pob gwreiddyn yn cynnwys drychfeddwl *cyffredinol*, ac nid drychfeddwl personol neu unigol. Yn erbyn y gyfundrefn hon, y mae llawer o enwau goruchel mewn athroniaeth, sef Locke, Condillac, Adam Smith, Dr. Brown, ac i raddau, Dugald Stewart; ac os ydym yn sicr gofio, Jean Jacques Rousseau: ond gan nad oeddynt yn ieithyddwyr nac yn philologwyr—o blegid gŵyr y deallus fod gwahaniaeth rhwng y ddau air—ond athronwyr yn unig, y mae barn dysgedigion eraill sydd o blaid y gyfundrefn hon, gan eu bod yn philologwyr ac yn athronwyr hefyd, yn teilyngu mwy o barch, cred, a sylw. Dyma y gyfundrefn a ffurfiodd Leibnitz, rhagredegydd mawr agos i bob darganfyddiad gwerthfawr sydd wedi cael ei wneyd yn y gelfyddyd o philologiaeth o'i amser ef hyd yn awr.

Er mwyn gosod y gyfundrefn hon yn helaethach o flaen y darllenydd, gellir dyweyd fel hyn—fod pob enw cadarn, yn wreiddiol, yn gosod allan *un* o amryw briodoleddau gwrthddrych, a bod y briodoledd hono o angenrheidrwydd yn ddrychfeddwl cyffredinol, pa un bynag ai mathdeb ai gweithred a fydd. Y peth cyntaf a adnabyddir yw y cyffredinol; a thrwy hwnw yr ydym yn adnabod, ac wedi hyny yn enwi gwrthddrychau unigol. "Y mae plant," medda Leibnitz yn ei *Nouveaux Essais*, a'r rhai hyny nad ydynt yn gwybod ond ychydig o'r iaith y maent yn ceisio ei siarad, neu y pwngc y maent yn ceisio ei drin, yn arfer *termau* cyffredinol, megys *peth, llysieuyn, anifail*, yn lle arfer enwau priodol, o'r rhai y maent yn amddifad. Ac y mae yn sicr fod pob enw priodol neu bersonol wedi bod yn enw cyffredinol ar y cyntaf." Ond ar ol y cwbl, nid oes neb wedi rhoi rheswm na chyfundrefn foddhaol i egluro hyn; sef, *pa fodd y mae sain yn gallu cynrychioli meddwl:—pa fodd y daeth gwreiddiau yn arwyddion drychfeddyliau cyffredinol?* Yr unig beth a ellir ei ddywedyd arno yw, fod yn ngallu dyn, fod gan ddyn y *gynneddf* ddynol, neu os mynir, y gynneddf ddwyfol, o roddi enwau ar wrthddrychau allanol, ac wed'yn ar ysgogiadau meddyliol. Ond nid oes un cyssylltiad hanfodol rhwng yr *enw* a'r *peth;* o blegid pe amgen, ni allai amrywiaeth ieithoedd fodoli. Er enghraifft, gall y drychfeddwl o *fod yn unionsyth* gael ei gyfleu trwy wahanol eiriau mewn gwahanol ieithoedd:—*sefyll* yn Gymraeg, *stand* yn Saesneg, *sto* yn Lladin, ἵστημι (*istêmi*) yn Groeg, *stehen* yn yr Allmaenaeg, *stoiat'* y Rwssiaeg, *staae* y Ddanaeg, *estar* yr Yspaeneg, *stac, stavac*, y Bwylaeg, *stoh* yn y Swedaeg, *staan* yn yr Hollandaeg neu y Dutch, *se tenir de bout* yn y Ffrangcaeg, a *stare* yn yr Eidalaeg. Er fod dwy lythyren yn treiddio trwy yr holl ieithoedd hyn, sef *st*, etto, gwyddom mai yr achos o hyny yw, o blegid eu bod oll yn tarddu o'r un gwreiddyn. Ond nid oes un cyssylltiad *hanfodol* rhwng *st* â *sefyll* yn y meddwl dynol; o blegid pe felly, buasai yr un gwreiddyn yn ffynu yn yr ieithoedd Semitaidd;

Digitized by Google

ac y profwyd y berthynas rhwng gwahanol ganghenau y teulu, neu deuluoedd lliosog a restrir yn yr erthygl yma, yn y man, ar ol gwneyd rhai sylwadau mewn cyssylltiad â'r Sanskrit ei hun.

Mae y gair *Sanskrit*, neu *Samskrit*, yn gyfansoddedig o ddwy ran, sef rhagddodiad, *sam*, cyfystyr â'r Groeg *συν* (*sun*), y Latin *con*, a'r Cymraeg *cyd*, "*together*," a'r rhangymmerydd goddefol *krita*, cyfystyr â'r Latin *factus*, Saesneg *made*, Cymraeg *gwneuthuredig*, ac *s* euphonaidd, neu berlefarol, wedi ei rhoddi yn y canol; yr ystyr yn te yw, "gwneuthuredig yn ofalus," *carefully constructed*. Yn yr ystyr yma y mae y Sanskrit yn groes i'r iaith Prakrit, sef, fel y dengys ystyr y gair, iaith llafar gwlad, yr iaith gyffredin a darddodd o'r Sanskrit, ac o ba un drachefn yr hanodd y rhan fwyaf o'r ieithoedd a siaredir yn awr yn yr India Uchaf. O'r rhai hyn yr hanodd yr Hindi, neu yr Hindustani, neu Urdu, a'r Marathi, a'r Gujarathi, y Bengali, iaith Bengal, y debycaf o'r holl rai uchod i'w hen famiaith; yr Uriya, sef iaith Orissa yn nhiriogaeth Cuttack; y Sindi, sef iaith y Sindh; y Punjabi, sef iaith y Punjab; y Kasmiraeg, sef iaith Kasmir; a'r Nipalaeg, sef iaith Nepaul. Dyna blant diweddaraf y Sanskrit yn ei gwlad gynnwynol.

Darganfyddiad yr iaith ryfeddol ac anhawdd yma oedd y wreichionen wefreiddiol a doddodd yr holl ieithoedd oedd yn nofio rhwng lledred o 208 o raddau i fod yn un teulu. Er fod yr iaith yn wybyddus er's oesoedd cyn Crist, ac amryw lyfrau wedi cael eu *cyfieithu* mor foreu a theyrnasiad Abasside Kalif Almansur, tywysog Mahummedanaidd, 773 o oed Crist, etto, nid oedd Ewropiaid yn gydnabyddus â hi ond mor ddiweddar a theyrnasiad Aurengzebe, sef tua 1658—1707. Mae yn anhawdd dywedyd pwy oedd y cyntaf—*h. y.*, y cyntaf yn Ewrop—a'i dysgodd. Pan laniodd Vasa di Gama yn Nghalcutta, ar y nawfed o Fai, 1498, dechreuodd Padre Pedro, offeiriad Pabaidd, bregethu ar unwaith i'r trigolion cynfrodorol, a dioddefodd ferthyrdod cyn i ddarganfyddwr yr India ddychwelyd i Lisbon. "Dygai pob llong a gyrhaeddai yr India genhadon newyddion; ond yn ofer yr edrychwn dros amser maith i'w llythyrau a'u gohebiaethau am son neu grybwylliad o'r iaith Sanskrit na llenoriaeth Sanskritaidd. Francis Xavier, oedd y cyntaf i drefnu y gorchwyl o bregethu yr efengyl yn India; a'r cyfryw oedd ei zel a'i frwdfrydedd, y cyfryw oedd ei lwyddiant yn ennill serchiadau boneddig a gwreng, fel y priodolodd ei gyfeillion "ddawn tafodau" iddo ymhlith ei amryw ddoniau gwyrthiol ereill; ond etto nid ydys yn darllen fod neb o genhadon Eglwys Rhufain wedi astudio yr iaith hyd y flwyddyn 1559 yn Goa, trwy help a chyfarwyddyd Brahmin dychweledig."

Fe allai mai nid ansicr nac annheg fyddai dyfarnu yr anrhydedd o wneyd y Sanskrit yn adnabyddus i Ewropiaid i Roberto de Nobili. Aeth ef i'r India yn 1606. Penderfynodd "basio ei hun" fel Brahmin, er mwyn cael mynediad i mewn at fawrion a dysgedigion y wlad. Bu fyw fel meudwy am flynyddoedd, gan astudio yn ddirgelaidd a dysgu, nid yn unig y Damilaeg a'r Deluguaeg, ond hefyd y Sanskrit. Efe oedd yr ysgolhaig Sanskrit cyntaf o Ewrop. Ar ei ol ef, daeth Pere Pons; ond ni effeithiodd efe ddim llawer tuag at goleddu meithriniad ac astudiaeth o'r iaith yn Ewrop yn yr un ysbryd ag y coleddir ac yr astudir y Roeg a'r Ladin; yr hwn a wnaeth i fyny y diffyg yma, trwy gyhoeddi geiriadur a grammadeg, ydoedd Johann Philip Wesdin, mynach Carmelitaidd, a adnabyddir yn well wrth yr enw Paulinus a Santo Bartholomeo. Cyhoeddodd ei rammadeg yn Rhufain, 1790, dan yr enw *Sidharubam, sen Grammatica Samscrdamica*. Ond y mae hanes yr hyn a elwir "Philologiaeth Sanskrit Ewropaidd" i gael ei ddyddio o amser sefydliad y Gymdeithas Asiaidd, yn 1784: a thrwy lafur ein cydwladwr enwog Syr William Jones, Carey, Wilkins, Forster, Colebrook, Yates, Wilson, Wilkins, Bopp, a Benfey, daeth yr iaith yn adnabyddus i ni. Gresyn garw fod cymmaint o wahaniaeth rhwng llythyrenau, *characters* neu *types*, yr argraphwyr Allmaenaidd a'r rhai Prydeinig. Ar yr olwg gyntaf, prin y mae yr iaith yn ngrammadeg Benfey yn ymddangos yr un peth ag yn ngrammadeg Monier Williams.

"Yr oedd yn annichonadwy," medd un awdwr, "sylwi ar dreigliadau y berfau, egwyddiadau yr enwau cadarn, yn y modd mwyaf arwynebol, heb synu at y tebygolrwydd rhyfeddol, ac, mewn rhai manau, y cydweddoldeb hollol sydd rhwng ffurfiau gramadegol yn y Sanskrit, Groeg, Ladin, Persiaeg, ac Arabaeg, a hyny nid mewn geiriau celfyddol a ffugyrol a allasai gwyddorau a chelfyddydau eu peri, ond mewn geiriau un-sill, yn enwau y rhifau a phethau oedd raid fod yn hysbys ar doriad cyntaf gwawr gwareiddiad. Dywed Syr William Jones, "ei bod y iaith fwyaf celfyddydol yn ei chystrawenia, ei bod yn fwy perffaith na'r Groeg, yn fwy cyflawn na'r Lladin, ac yn tra rhagori yn ei phurdeb ar y ddwy; ac etto yn dal perthynas agos â'r ddwy. Nis gall yr un ieithyddwr chwilio i mewn i'r Sanskrit, a'r Groeg, a'r Lladin, heb gredu eu bod wedi tarddu o'r un gwreiddyn, yr hwn nid yw, fe allai, yn bodoli yn awr. Y mae rheswm cyffelyb, er nad yw yn llawn mor rymus, dros gredu fod y Gothaeg a'r Geltaeg o'r un gwreiddyn a ffynnonelliad a'r Sanskrit, a gellir chwanegu yr hen Bersiaeg at yr un teulu."

Bu llawer o ammheu, a dadleu, ac anffyddiaeth ar y pwngc yn y dechreu; ond y mae yr athrawiaeth wedi ei sefydlu yn awr tu hwnt i bob ammheuaeth.

Y geiriau y gallwn ni yn rhesymol edrych am debygolrwydd ynddynt yn y naill iaith a'r llall ydynt y geiriau gwreiddiol, y geiriau symlaf, y geiriau mwyaf angenrheidiol, fel y dywed Lord Monboddo, ar ol i'w gyfundrefn ei hun ar darddiad iaith o ddaimoniaid-frenhinoedd yr Aipht gael ei tharaw yn ei thalcen trwy ddarganfyddiad y Sanskrit; ac yn gydweddol â'i ddrychfeddwl, *à priori*, dyma yn union y geiriau sydd yn debyg i'w gilydd mewn modd ac i raddau tarawiadol.

Cymmerer, er enghraifft, y rhestr ganlynol o'r rhifau o "*Geschichte der Deutschen Sprache*," gan Grimm:—

| | I. | II. | III. | IV. | V. |
|---|---|---|---|---|---|
| Sansk. | eka | dva | tri | tshatvâr | pantshan |
| Zend. | aeva | dva | thri | tshathvar | pantshan |
| Persaeg | jeki | du | sih | tschehar | pendsch |
| Groeg | ἑις (heis) | δυο (duo) | τρεις (treis) | τεσσαρες (tessares) | πεντε |
| Latin | unus | duo | tres | quatuor | quinque |
| Lithawaeg | wienas | du | trys | keturi | penki |

Digitized by Google

| | I. | II. | III. | IV. | V. |
|---|---|---|---|---|---|
| Slafonaeg | jedin | dva | tri | tschetyri | piat' |
| Pwlaeg | jeden | dwa | trzi | cztery | pies |
| Tshechaeg | geden | dwa | trj | ctyrj | pêt |
| Gothaeg | ains | tvai | threis | fidvor | fimf |
| Hen Uch-all | ein | zuênê | dri | fior | finf |
| Anglo-Sacsaeg | án | tvegen | thri | feover | fif |
| Saesneg | ono | two | three | four | five |
| Swedaeg | en | tvo | tre | fyra | fem |
| Wyddelaeg | aon | do | tri | ceathair | cuig |
| Cymraeg | un | dau | tri | pedwar | pump |
| Armoraeg | (Llydaw)unan | daou | tri | pevar | pemp |
| Russaeg | oden | dva | tri | tshetüre | piat' |
| | VI. | VII. | VIII. | IX. | X. |
| Sansk. | shash | saptan | ashtan | navan | das'an |
| Zend. | csvas | haptan | astan | navan | das'an |
| Persaeg | shesh | heft | hescht | nuh | deh |
| Groeg | ἕξ (hex) | ἑπτα (hepta) | οκτω (okto) | εννεα (ennea) | δεκα (deca) |
| Latin | sex | septem | octo | novem | decem |
| Lithawaeg | szeszi | septyni | asztuni | dewyni | deszimt |
| Slafonaeg | shehest' | sedm' | osm' | deviat' | desiat |
| Pwlaeg | szesc | siedm | osm | dziewie'c | dziesiec |
| Tshechaeg | sest | sedm | osm | dewet | deset |
| Gothaeg | saihs | sibun. | ahtau | niun | taihun |
| Hen Uch all | sehs | sipun | ahtô | niun | zehan |
| Anglo-Sacsaeg | six | seofon | eahta | nigon | tyn |
| Saesneg | six | seven | eight | nine | ten |
| Swedaeg | sex | siu | otta | nio | tio |
| Wyddelaeg | se | seacht | ocht | noi | deich |
| Cymraeg | chwech | saith | wyth | naw | deg |
| Armoraeg | chouech | seiz | eiz | nao | dek |
| Russaeg | sheshť' | sem' (sedm') | vocem' | deviat' | deciat' |

Yn awr, gyda golwg ar yr hyn a elwir cyfryngiad, *mediation*, *vermittlung*, y gwahanol a'r amrywiol wahaniaethau sydd yn y rhestr uchod, er enghraifft, y Sanskrit *eka* a'r Saesneg *one* (*won*), *quinque* y Lladin, a *piat* y Rwssiaeg, neu *εις* y Roeg, ac *un* y Gymraeg, a oes modd cyfryngu y cyfryw eiriau yn y fath fodd fel ag i'w dwyn i un crai o berthynas ieithyddol? Gydag ond ychydig o eithriadau, yr ydym yn credu fod modd gweithredu y cyfryw gyfryngiad; ac ni wel neb sydd yn gydnabyddus â thrawsffurfiad yr un geiriau, yr un enwau priodol, mewn gwahanol ieithoedd, ac i wahanol ieithoedd, ddim anhawsder nac anhygoeldra yn y cyfryw gyfryngiad, heb son am Ganonau Grimm ar y pwngc, y rhai y gellir eu galw bron yn anffaeledig, ac at y rhai, os bydd ein gofod yn caniatau, y cyfeiriwn yn y man. Ond er enghraifft: dyma rai cyfnewidiadau mewn geiriau nad oes dim dadl yn eu cylch. Y mae *Roma* y Lladiniaid wedi troi yn *Rufain* y Cymry, ac yn *Rim* y Rwssiaid; Στεφανος (Stephanos) y Groegiaid wedi ei lygru i *Etienne* y Ffrangcod; Πετρος (Petros) i *Pierre*; *σχολη* (scholee) i *ecole*; Orlando yr Italiaid wedi myned yn Roland, a Rowland, a Roiant, a Roli; Gottfried (Allmaenaeg) wedi troi yn Geffery, Geofredo, Jeffry, Siffre, a Giff; *Botolphstown* wedi ei lygru i *Boston*; Guido (Gwido) yr Yspaenwyr wedi ei dalfyru i Guy y Saeson; Heinrich (Allmaenaeg) wedi myned yn Henery, yn Henry, yn Harri, yn Hal, yn Enrique, ac yn Hangri; Μαγδαληνη (Magdaleenee), wedi ei throi yn *Fodlan*, a *Maglan* (*h. y.* Llanfaglan): מיכאל (Mi-chäel) yr Hebreaid wedi ei estyn i Mihangel y Cymry, ei drawsgyweirio i Miguel yr Yspaenwyr, a'i dalfyru i *Michel* y Ffrangcod, a Mikl y Rwssiaid; y mae Brixgesstan wedi ei lygru i Brixton; Bristelmesstan wedi ei lygru i Brightleston, a Brighthampton i'Brighton. Y mae Melidunum wedi ei dalfyru i Moulton; Seccan-dun i Seccington; *Stebenhithe* wedi myned yn Stepney; a Badecanwylla wedi myned yn Bakewell. Tuedd gyffredinol y lleferydd dynol ydyw talfyru geiriau, o blegid diogi; ac felly y mae *κυναγχη* (Kunangchie) y Groegiaid wedi myned yn *quinsy* y Saeson, a *spinag* y Cymry, yn tarddu o *epine* y Ffrangcod; felly hefyd, o blegid yr un rheswm, yr ynganir y fath eiriau a *Cirencester* yn *Cisenster*, *Gloucester* yn *Gloster*, *Worcester* yn *Woster*, *Barfreestone* yn *Barston*, a *Trotter's-cliffe* yn *Trosley*; a'r un fath hefyd fyth gydag enwau priodol dynion—dyna *St. Denys* wedi ei lygru i *Sidney*, *St. Maur* i *Seymour*. *St. Paul* i *Semple*, *Sevenoaks* i *Snooks*, *St. John* i *Sinjun*, *St. Leger* i *Sillinger*, *St. Clair* i *Sinclair*, a *Llangadwaladr* i *Llangoed*. Dyna ddigon o enghreifftiau, er y gellid helaethu y rhestr yn gan cymmaint, a hyny gyda geiriau nad oes dim dadl yn nghylch eu cystlyned.

Ond gyda golwg ar y rhifau o dan sylw yn bennodol:—Myn Bopp (tudal. 308) fod *éka* y Sanskrit yn gyfansoddedig o'r rhagenw dangosiadol *é*, a'r un gofyniadol *ka*, a bod y Slafonaeg *jedin* (un) yn tarddu o'r Sanskrit *âdi*, *primus*, y cyntaf, *unus*, *ains*, *οἱος*=*είνος*, y rhagenw dangosiadol Sanskritaidd *êna*. Onid mwy tebygol yw fod y llythyren *n* sydd yn rhedeg trwy yr holl ieithoedd ereill o'r bron, wedi myned ar goll, neu yn is-orwedd yr *êka*, fel y gwelir ei bod yn isorwedd y gair Groeg yn y gwahanol egwyddiadau. Er mwyn dangos y peth yn amlycach, rhoddwn yr egwyddiadau Groegaidd mewn llythyrenau gwreiddiol, a llythyrenau Rhufeinig:

| | | | |
|---|---|---|---|
| Egwyddiad enwedol | εἷς | heis | un |
| Egwyddiad meddiannol | ἑνος | hen-os | o un |
| Egwyddiad dodol | ἑνι | hen-i | i un |
| Egwyddiad gwrthddrychol | ἑνα | hen-a | un |

Digitized by Google

Yr ydym yn cyflwyno y gwahanol egwyddiadau yma yn neillduol i sylw ein darllenwyr, o blegid bydd genym chwaneg i'w ddyweyd am danynt pan ddeuwn at y rhagenwau personol; ond wrth fyned heibio, sylwer fel y mae y llythyren *n* sydd wedi myned ar goll yn yr egwyddiad enwadol yn cael ei hadferu yn y tri egwyddiad arall.

Yn y rhifau II. a III., y mae yr holl ieithoedd uchod wedi glynu yn darawiadol wrth y blaenoliaid dantol, ond y Persaeg *sih* (tri), fel lispiad o *th*, a'r *r* yn myned ar goll. Tarawiadol iawn hefyd ydyw yr adferf Lladin *bis* am *duis*, Sanskr. *dvis*, Gr. δις (dis), Goth. *twis*, *twizoa*; ac y mae yr un *b* yn dangos ei hun mewn amryw gyssylltiadau, yn *bigo* am *dnigo*, o *bisjugo* am *duisjugo*, yn *binus* am *duinus*, yn *bellum* am *duellum*—anghydfod rhwng *dau*.

Gellid gwneyd sylwadau helaeth ar y rhifau o IV. i X.; ond byddai yn ymeangiad gormod ar y testyn, fe allai. Y mae *h* yn lle *s* yn y Zendaeg, *haptan*, yn gydweddol â'r Gr. ἕξ (*hecs*), a ἑπτᾶ (*hepta*), cyfnewidiad arall nid anfynych i'r hwn hefyd y perthyn y *chwech* Cymraeg, a'r *chouech* Armoraidd neu Lydawaidd. I'r llythyren *p*, y mae yn ddiafrydog Sanskr. *pantshan*, Gr. πεντε (*pente*), Celtaeg *pempe*, Lithawaeg *penpi*. Sluf. *piat*; a'r *f* ddadgyfleedig (*lautverschobene*) yn *fimf*, mewn cyferbyniad i *k* y Lladin, Ffrangcaeg a'r Wyddelaeg yn *quinque*, *cinq* (senge) cuig. Ychydig yn wahanol yw perthynasiad y rhif V. yn Æol. πισυρες, πεσορες, πεσσυρες (pisures, pesores, pessures). Osk. *petora*, Cymraeg *pedwar*, Goth. *fidvôr*, y lle mae y wefus-sain yn ffynu mewn cymmhariaeth i'r Lladin *quatuor*, Albanaeg κατερ (cater), Lith. *ketuer*, Gwyddel. *ceathair*, Galaeg *ceithir*, lle mae y gyddf-lais yn ffynu, ynganiad a dreigla yn hawdd i'r *tsh* yn *tshatfâr*, *tshehar*, *tshetri*, *Tshetyri* (*sheturi*) cytery, ac i'r Groeg τεσσερες, Ioneg τεσσερες (tesseres) Doreg, τετταρες, gan fyned drosodd i'r sain ddantol.

Yr ydym yn tybied y bydd hyn yn ddigon i ddangos perthynas wreiddiol yr holl rifau uchod, er mor annhebyg y gall rhai o honynt fod ar yr olwg gyntaf; ond er mwyn gosod allan, fel oddi ar safle arall o olygu, y berthynas sydd rhwng y rhai uchod, cymmerer y daflen isod o'r ieithoedd Turanaidd:—

| | I. | II. | III. | IV. | V. |
|---|---|---|---|---|---|
| Fennaeg | yksi | kaksi | kolmi | neljä | wiisi |
| Estaeg | üts | kats | kolm | nelli | wiis |
| Lapaeg | akt | qwekte | kolm | nelje | wit |
| Hungraeg | egy | kettö | három | negy | öt |
| Bascaeg | bat | bi, bic | hiru | lau | bost |
| | VI. | VII. | VIII. | IX. | X. |
| Fennaeg | kuusi | seitsen | kahdeksa | yhdeksa | kymmen |
| Fstaeg | kuus | seitse | kattesa | üttesa | kümme |
| Sapaeg | kot, kut | kietja | kaktse | akte | lokke |
| Hungraeg | hat | het | njoltz | kilentz | tiz |
| Biseaeg | sei | zazpi | zortzi | bederatzi | amar |

Er fod *yksi* y Finnaeg ac *egy* yr Hungaraeg yn galw yn ol *êka* y Sanskr.; ac er fod *tig* yr Hungar. yn cyfeirio at *dasan*, *decem*, *deg*, etto, ar y cyfan, yr ydym yn gweled ein bod yn ymwneyd â theulu o ieithoedd hollol newydd, neu yn hytrach hollol wahanol i'r teulu Aryaidd; ac felly, yr ydym yn tynu y casgliad yma, fod y canghenau Turanaidd wedi ymwahanu oddi wrth y famiaith yn llawer boreuach nag yr ymadawodd y gwahanol ganghenau Aryaidd oddi wrth eu gilydd, pa mor annhebyg bynag yw yr olaf i'w gilydd.

Awn yn awr yn mlaen, fel yr awgrymasom, at y rhagenwau personol. Nid oes dim gwahaniaeth rhyw yn rhagenwau personol y person cyntaf a'r ail, na chwaith yn rhyw y trydydd person atdröol (*reflective*), o blegid fod presennoldeb y llefarwr neu'r siaredydd, a'r un y siaredir gyda neu wrtho, yn gwneyd hyny yn ddiangenrhaid; ac felly hefyd gyda golwg ar y trydydd person at-dröol, o blegid ei ddyngyrchiad neu at-dyniad at yr egwyddiad enwedigol o flaen y ferf. Gellid dychymmygu gwahaniaeth rhyw yn y person cyntaf a'r ail, ac i ymadrodd neu frawddeg fod felly yn fwy gwrthddrychiol; ac yn wir, y mae yr Hebraeg wedi gwneyd y gwahaniaeth yma rhwng yr ail berson gwryw a'r ail berson benyw.

אתה (*atta*)=tydi, (ddyn) את (*At*)=tydi, (ddynes) אתם *attem*=chwychi (ddynion) ;את *atten*, chwychwi (ferched). Ond y mae philologwyr yn barnu fod hyn yn arwydd o *abstraction* hynach yn yr ieithoedd Aryaidd nag yn yr iaith Hebraeg; hyny yw, peidio gwahaniaethu rhwng rhyw y person cyntaf a'r ail[1]

Yn ngeiriau Grimm, ynte, cyfyngwn ein hymchwiliadau i gyfaledd a chymmhariaethau y rhagenwau personol di-ryw, gan fod perthynas wreiddiol y rhagenwau sydd yn meddu ar ryw (*geschlechtigen*) yn rhy amrywiol a chenglog i ni ei harddangos yn amlwg, er ei bod yn treiddio trwy y cwbl.

[1] Es musz als ein bedeutsames zeichen uralter abstraction gelten, dasz unsere sprachen das geschlecht der zweiten person ununterscheiden lassen—*Grimm*, tudal 179.

EGWYDDIADAU Y PERSON CYNTAF (*cases*).

| | *Egwydd. enwedol.* | *Eg. meddiannol.* | *Eg. derbyniol.* | *Eg. gwrthddrychol.* |
|---|---|---|---|---|
| Sanskr. | aham | mama | mahjam | mam |
| Zend. | azem | mana | mói | manm |
| Groeg | εγω (ego) | μου (mow) | μοι (moi) | με (mi) |
| — | εγων (egoon) | εμεθεν (emethen) | εμιν (emin) | |
| Latin | ego | mei | mihi | me |
| Lith. | asz | manes | man | mane |
| Let. | es | mannis | mannim | man |
| Prws. | as | maisei | meunei | mien |
| Slaf. | az | mene | mnje | mja |
| Pwl. | ia | mnie | mnie | mie |

Digitized by Google

| | *Egwydd. enwedol.* | *Eg. meddiannol.* | *Eg. dodol.* | *Eg. gwrthddrychol.* |
|---|---|---|---|---|
| Tschech. | ga | mne | mne | me |
| Ossetaeg | äz | män | mänän | mä |
| Gothaeg | ik | meina | mis | mik |
| Hen Uch-All. | ih | min | mir | mih |
| Angl. Sacson. | ic | min | me | mec |
| Saesoneg | I | mine | me | me |
| Wyddelaeg | (me) | mo | (damh) | me |
| Cymraeg | mi, myfi | fy | i mi | mi, y fi, fi |
| Ffrangcaeg | je | — | moi (*mwa*) | me |
| Italaeg | io | de me | a mi, mi | me, mi |
| Yspaenaeg | yo | de mi | a mi | para mi |
| Allmaeneg | ich | meiner | mir | mich |
| Swedaeg | iag | — | mig | mig |

EGWYDDIADAU YR AIL BERSON.

| | *Egwydd. enwedol.* | *Eg. meddiannol.* | *Eg. dodol.* | *Eg. gwrthddrychol.* |
|---|---|---|---|---|
| Sanskrit | tvam | tava | tubhjam | tvâm |
| Zendaeg | tûm | tava | thvôi | thvanm |
| Groeg | *συ* (sw) | *σου* (sow) *σεθεν* | *σοι* (soi) | *σε* (se) |
| Doric | *τυ, τυγα* | *τεος, τεους* | *τοι τίν* | *τε* |
| — | (tw, twga) | (teos, teows) | (toi tin) | (te) |
| Lladin | tu | tui | tibi | te |
| Lithuanaeg | tu | tawes | taw | tawe |
| Lettaeg | tu | tewis | tewim | tew |
| Prwssiaeg | tou | twaise | tebbei | tien |
| Slafoneg | ty (ti) | tebe | tebje (tebie) | tja (tia) |
| Pwylaeg | ty | ciebie | tobie | ty |
| Tschechaeg | ty | tebe | tobě | ti |
| Gothaeg | thu | theina | thus | thuk |
| Hen Uch-Allm. | dû | din | dir | dih |
| Allmaeneg | du | deiner | dir | dich |
| Angl-Sacsoneg | thû | thin | the | thec |
| Saesoneg | thou | thine | thee | thee |
| Wyddelaeg | tu | do | (duit) | thu |
| Cymraeg | ti, tydi | dy | iti | di, ti |
| Albanaeg | *τι τινε* | *του* | *του* | *του* |
| | (ti, tine) | (tow) | (tow) | (tow) |
| Ffrangcaeg | tu | tien | toi | te, t' |
| Italaeg | tu | di te | a te, ti, te | ti |
| Yspaeneg | tu | de ti | a ti | parati |
| Swedaeg | du | din, dit | dig | dig |

Y TRYDYDD PERSON AT-DRÖOL.

| | *Eg. enw.* | *Eg. medd.* | *Eg. dodol.* | *Eg. gwrth.* |
|---|---|---|---|---|
| Sanskrit | yn eisiau | yn eisiau | yn eisiau | yn eisiau |
| Prakritiaid | do. | hê hôi | he hôi | do. |
| Groeg | — | *ὁυ ἕθεν* | *ὁι* | *ἑ σφὶ* |
| | — | (how hethen) | (hoi) | (he sphe) |
| Lladin | — | sui | sibi | se |
| Llithuanaeg | — | sawes | saw | sawe |
| Lettaeg | — | — | sewim | sew |
| Prwssiaeg | — | swaise? | sebbei | sien |
| Slafoneg | — | sebe | sebje | sja |
| Pwylaeg | — | siebie | sobie | siebie, sie |
| Rwssiaeg | sebia | sebja | sebe | sebia |
| Tschechaeg | — | sebe | sobě | sé |
| Gothaeg | — | seina | sis | sik |
| Hen Uch-Allm. | — | sin | — | sih |
| Albanaeg | — | *βέτι* | *βέτι* | *βετελε* |
| | | (beti) | (beti) | (beteche) |
| Cymraeg | hun, hunan | — | hun, hunan | hun, hunan |

Oddi wrth y gwahanol lechresau uchod, gellir sylwi ar y person cyntaf. Y mae yr egwyddiad enwedol yn mhob iaith yn dechreu gyda bogeiliad, heb un eithriad; pan, ar y llaw arall, y mae pob un o'r egwyddiadau ereill yn dechreu mewn neu gyda chydseiniaid. A allasai y cydseiniaid yma fod yn perthyn i'r egwyddiad enwadol yn y cynoesoedd, ynte rhagddodiad ydyw yn yr egwyddiadau ereill? Pwy all benderfynu? Pa fodd bynag am hyny, y mae wedi myned ar ddifancoll—os dyna yw y drychfeddwl cywir—ers miloedd o flynyddoedd. Gyda golwg ar yr ail lythyren yn yr egwyddiad enwedol, gellir sylwi fod *h*, *z*, Gamma y Groeg, Γ; *s*, *z*, y Lithawaeg; *k*, *c* (galed), yn gydgyfnewidiol mewn ugeiniau o eiriau; ie, gellir dywedyd mewn cannoedd o eiriau, yn ol proflon diammheuol o'r geiriau eu hunain, ac yn gydweddol â chanonau Grimm.

Yn yr ail berson, y mae blaensain ddantol yn rhedeg trwy yr holl egwyddiadau, sef *t*, neu *s*

neu *th*, neu *d*, llythyrenau a ffurfir gan agos yr un organau, a'r cwbl yn gydgyfnewidiol â'u gilydd, neu yn lle y naill a'r llall.

Er mwyn dangos yn amlycach yr hyn a feddylir wrth gydgyfnewidioldeb cydseiniaid a bogeliaid, rhoddwn yma ychydig enghreifftiau:—

Y mae *s* ac *h* yn gydgyfnewidiol neu gydgyfnewidiadwy. Y mae y Sanskrit, Lladin, Allmaenaeg, Slafonaeg, a'r Wyddelaeg, yn arfer *s*, lle y mae y Gymraeg, Zendaeg, Persiaeg, a'r Groeg yn arfer *h*.

Yn y Sanskrit, dyma yw y rhagenw personol, trydydd person, *sa sâ*, yn Zend *ho hâ;* yn Groeg ὁ, ἡ (ho, hi); yn Gothaeg *sa, so*, yn Gymraeg *è, hi;* Saes. *he, she*—y Saesneg fel hyn yn uno y ddwy elfen yn y trydydd person benywaidd; a chydweddol â'r un egwyddor yn y rhagenw dangosiadol Cymraeg *hwn, hon, hyn*. *S* yn cyfatteb i *h*:—

| | S. | H. |
|---|---|---|
| Sansk. | sara | Groeg ἅλς—Hals. |
| Latin | sal | Cymr. halen. |
| Goth. | salt | — |
| H. U. A. | salts | — |
| Gwyddel. | salan | — |
| Slaf. | sol' | — |
| Pwl. | sol | — |
| Tshech. | sul | — |
| Lith. | surus salsus | — |
| Leth. | sahls | — |
| Latin | sus | Groeg ὗς (hiws). |
| H. U. A. | sû | Cymraeg hwch. |
| Gwyddel. | seabhac | Cymr. hebog. |
| Gwyddel. | saileog | Cymr. helyg. |
| Latin | salix | Groeg ἑλίκη (*helici*). |
| Latin | senex | Cymr. hen, hynach, hynaf. |
| Góth. | sineigs | — |
| Gwydd. | sean | — |
| Gwydd. | sanas | Cymraeg hanes. |
| — | seisge | — hesgen. |

Gellid rhoddi rhestr cyffelyb o gydgyfnewidioldeb y gwahanol lythyrenau ereill yn yr egwyddor; ond rhaid i ni ddychwelyd at ein prif osodiad gyda'r rhagenwau.

Yn y trydydd person at-drëol, y mae yr egwyddiad enwadol yn ddiffygiol, neu yn eisieu, neu ar ol; neu, fel y dywed rhai ysgrifenwyr, yn "annichonadwy," y mae yn sicr nas gellid ei dreiglo yn yr ieithoedd Celtaidd ond mewn dull cwmpasog a chlogyrnaidd. Er enghraifft, cyferbynir y tair iaith canlynol:—

| | Groeg. | Latin. | Cymraeg. |
|---|---|---|---|
| Egwydd. Enw. | — | — | — |
| Eg. medd. | οὗ (how) | sui | o hono ei hun. |
| Eg. dod. | οἷ (hoi) | sibi | iddo ei hun. |
| Eg. gwrth. | ἕ (he) | se | ef ei hun. |

Drachefn, gyda golwg ar y rhagenw personol cyntaf, gwelir ei fod yn ymwahaniaethu neu fel yn ymrwygo i'r fath raddau nes mae *aham*, Sansk., yn dechreu gyda bogeiliad yn yr egwyddiad enwedol, ond yn wahanol yn yr holl egwyddiadau ereill; tra ar y llaw arall, y mae y blaeniaid *tvam* yn glynu, neu yn hytrach yn ffynu yn mhob egwyddiad. Fe allai mai hyn yw y rheswm am hyny, sef fod yn llai angenrheidiol rhoddi tradyrchafiad i'r "*ich*," i'r *myfi*, nag i'r *du, y tydi*. Yn ol cyfaledd yr ail berson, gellir dychymmygu neu ddyfalu fod M yr egwyddiadau ysgöawl neu ochrog (*oblique cases*) yn perthyn yn wreiddiol i'r egwyddiad enwedol; ac o ganlyniad, fod *aham* Sansk. yn sefyll am, neu yn lle, *maham;* ac er nas gellir profi hyn o'r ieithoedd Teutonaidd, etto y mae y rhagenw Cymreig *myfi*=*mymi*, yn profi y peth i'n meddyliau ni tu hwnt i bob dadl.

Nid yw yr A lawn yn aham, mama, mahjam, mam, ddim yn glynu yn unlle mor ffyddlawn ag yn y Lithawaeg asz, manes, man, mane. Y mae y Slafonaeg yn gwthio allan y fogeliad, ac yn dyfod yn *mnje*. E deneu sydd yn ffynu yn ego, εγω, te, me, es, mec, me, ek, mera, me. Y mae 'r tafodiaethau Teutonaidd yn hoffi i, ik, mis, mik (fel y mikils=μεγας; maha, *ist*=*εστι* asti), er fod yr hen ysgrifau Persiaidd cûnffurf yn dangos *miqa*, sef y Lladin am mahjam.

Y mae *sz* a *z* y Lithawaeg a'r Slafonaeg yn tebygu yn rhyfeddol i *azem* y Zend., yr hyn, fe allai, a barodd gyfnewidiad yr *a* i *e*; o blegid y mae y *g* Slafonaidd yn troi i *z* o flaen *i*. Er enghraifft, y mae y gair Rwssiaidd *Bog'* (Duw) yn troi y *g* i *z* feddal yn y rhif liosog o flaen *i*, *Bog'*, Bozi, neu Bogi. Hefyd, cyfeiria *az* at agi, *azi* at aga. Y mae *sz* y Lithaw. yn gyfattebol i'r *h* Allmaenaidd: szis=his, szû=hund, szalmas =hilms, deszimt=taihun; aham, ih, ik, ich, *i*, ego (my) fi=my mi=mi-mi=ma=mah. Y mae yn sicr, ynte, wrth gymmharu y gwahanol raddau yma, fod y Gymraeg yn meddu y ffurfiau hynaf o'r ddau air yma, *myfi* a *tydi*. Y mae yn beth eithaf adnabyddus fod rhagenwau personol yn ymhoffi mewn dyblygion, ond yn enwedig er mwyn eu gwneyd yn fwy, yr hyn a alwn o eisieu gwell gair, *particular*, neu bennodol; yn Lladin, *meme* (myfi, fy hun), *sese* (efe, ef ei hun), a pha ham, fel y gofyn Grimm, na ellir ysgrifenu, neu na ysgrifenwyd *tete*=tydi; os nid ammhriodol ynte ydyw casglu fod *mama* yn tarddu oddi ar ddyblygiad o *ma*, nid afresymol fyddai casglu fod *tava* yn tarddu o *tvatva*=tydi; *svava* o *svasva;* a byddai yr arferiad parhaus o'r geiriau hyn yn sicr o'u *teneuo*, neu eu cwtogi, *mahmah* i *mama*, *tvatva* i *tvava tva*, *svasva* i *svava sva*, ac oddi yma y mae y Lladin *sui* yn hanu; ond yn y Gymraeg, y mae wedi myned ar goll.

Y geiriau nesaf y gellid disgwyl i'r holl ieithoedd Aryaidd debygu y naill i'r llall ydyw enwau perthynasau. Tynai dyn y casgliad yna *à priori*. Y geiriau cyntaf a arferid fyddai geiriau yn dangos y cyssylltiad rhwng gwahanol ac amrywiol aelodau teuluoedd. Yn wir, nid oes genym na hawl na rheswm i ddisgwyl i'r teuluoedd yma ymdebygu y naill i'r llall ond yn y geiriau mwyaf anhebgorol angenrheidiol, geiriau boreu y byd, fel pe bai; er fod rhai canghenau yn debyg i'w gilydd mewn geiriau cyssylltiedig â gwrthddrychau yn dangos gradd uwch o ddiwylliad, fel y ceir gweled rhagllaw.

Yma, rhoddwn lechres allan o *Geschichte* Grimm, ynghyd âg ychydig o'n chwanegiad ein hunain o'r cyfryw eiriau a'r rhai uchod:—

| | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|
| Sanskr. | pitr | mâtr | bhrâtr | svasr | duhitâ |
| Zend. | pata | mâta | brâta | khanka | dughdha |
| Pers. | pader | mâder | brâder | khwaher | dokhter |
| Lladin | pater | mater | frater | soror | (filia) |
| Ital. | padre | madre | fratello | sorella | (figlia) |
| Ysp. | padre | madre | (hermano) | (hermana) | (hija) |
| Ffrangc. | pere | mere | frere | soeur | (fille) |

Digitized by Google

| | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|
| Groeg | πατηρ | μητηρ | φρατηρ | (αδελφη) | θυγατηρ |
| | (pater | mitir | phratir | adelphi | thwgatir) |
| Gothaeg | fadar | (aithei) | brôthar | sirstar | dauhtar |
| Hen Uch-Allm. | fatar | muotar | pruodar | suestar | tohtar |
| U. All. diweddar | vater | mutter | bruder | schwester | tochter |
| Dutch | fater | moeder | broeder | zuster | dochter |
| Danaeg | fader | moder | broder | soster | datter |
| Swedaeg | fader | moder | broder | syster | dotter |
| Angl-Sacsoneg | fäder | môdor | brôdor | soeostor | dohtor |
| Saesneg | father | mother | brother | sister | daughter |
| Hen Sacsoneg | fadar | muodor | bruodor | suester | dohtor |
| Hen Ddutch | fadir | môdir | brôdir | systir | dòttir |
| Gwyddelaeg | athair | mathair | brathair | siur | dear |
| Cymraeg | (tad) (athraw) | mam | brawd-brodyr | chwaer | (merch) |
| Lithuanaeg | (tewas) | mote | brolis | sessû | dukte |
| Lettaeg | (tehws) | mahte | brahlis | (mahse) | (meita) |
| Prwssiaeg | (tâws) | mûti | brâtis | | duckti |
| Hen Slafoneg | (ot'z") | mati | brat" | sestra | d'schtschi |
| Russiaeg | (otetz") | mat' | brat" | sestra | dotsch' |
| Pwylaeg | (ojciec) | matka | brat | siostra | corka |
| Tschechaeg | (otec) | matka | bratr | sestra | dci |
| Finnaeg | (isä) | muori | (weli) | sisar | tytär |
| Esthoneg | (issa) | (emma) | (welli) | sössar | tüttar |
| Lappaeg | (attje) | (edne) | (välja) | (abba) | daktar |
| Lapp. newydd | (atzhje) | (aedne) | (velj) | (oabba) | (nied) |
| Hungariaeg | (atya) | (anya) | (batya) | (nene) | (leanyka) |
| Hebraeg | אב־אבות | אם־אמות | אח־אחים | אחות־אחיות | |
| | âf âfoth | êm-îmmioth | âch-ächoin | âchoth-achaaioth | |

Er mwyn parotoi meddwl y darllenwyr gyda golwg ar rai enghreifftiau o gyfryngiaeth a roddir rhag llaw, a rhag iddynt feddwl ein bod yn rhy ryfygus, yn rhy ëofn, neu yn rhy ddisail yn ein dargynnygiadau, dyfynwn ar y pwngc hwn ychydig linellau o *Science of Language* Max Müller.

"Y mae yn anhawdd ffurfio drychfeddwl i ba raddau y mae holl arwyneb iaith yn cael ei gyfnewid trwy yr hyn a iawn enwir 'cyfnewidiad lleisiol;' hyny yw, 'dirywiad lleisiol,' '*phonetic change*.' I feddwl, er enghraifft, fod genym yr un elfenau yn y gair Ffrangcaeg *vingt* (ugain) ag sydd yn *deux* (dau), a *dix* (deg); fod ail ran y gair Ffrangcaeg *douze* (dwsin) yn cynnrychioli y Lladin *decem* yn *duodecim* (deuddeg); fod y llythyrenau *te* yn *trente* (tri ar ddeg) yn cynnrychioli y diweddiad Lladinaidd *ginta* yn *triginta:* fod *ginta* drachefn yn haniad ac yn dalfyriad o'r Sanskrit *dasa*, neu *dasata*—deg. Ystyrier drachefn, mor foreu yr oedd yn rhaid fod y clwyf yma wedi tori allan—y clwyf o ddarfodedigaeth neu ddirywiad lleisiol. O blegid yn y fath fodd ag y mae *vingt* yn y Ffrangcaeg, *veinte* yn yr Yspaeneg, a *venti* yn yr Italaeg, yn rhoddi ar ddeall i ni hen ffurf hynach, sef *viginti* yn y Lladin, felly hefyd y mae y *viginti* Lladin yn rhoddi ar ddeall i ni, yn gystal ag *ἐικοσι* y Groeg, a *vinsati* y Sanskrit, iaith hynach fyth, o'r hon y maent hwythau yn eu tro wedi hanu, ac yn mha un yr oedd y ffurf hynach *dvi-ginti*, o flaen neu cyn *viginti;* a chyn hyn drachefn, fod gair cyfansawdd yn bodoli mor amlwg a dealladwy a'r gair Chinäeg am ugain, sef *eúl-shi*, ac yn gyfansoddedig o'r hen air Aryaidd am ddau, sef *dvi*, a deg, sef *dasati*."

Dyna y gwahaniaeth mawr sydd rhwng yr ieithoedd Aryaidd a'r ieithoedd Turanaidd. Y mae y teulu cyntaf fel pe yn treiglo ei hun yn barhaus i ffurfiau newyddion, tra y mae y canghenau Turanaidd, yn ol eu hanfod, yn cadw at ystyr a ffurf wreiddiol eu cyfansodd-eiriau. Yn Chinäeg, er enghraifft, y gair am ddeg ydyw *shi;* a byddai yn amhossibl cyfnewid *shi* mewn un modd heb ei wneyd yn ammhriodol ac yn anntgonol i osod *deg* allan. Pe, er enghraifft, y dywedem *tsi*, arwyddai hyny *saith*, ac nid deg. Ond bwriwch yn awr fod arnom eisieu gosod allan neu ddyweyd *dau ddeg*, neu ugain. Yn y Chinäeg, cymmerem y gair *eul*, sef dau, a rhoddem ef o flaen *shi*, a dywedem *eulshi*—ugain. Yn y Tahitaeg, y gair am *ddeg* ydyw *chu*, a *nyi* yw y gair am *ddau:* rhoddwn *ddau* o flaen y *deg*, neu *nyi* o flaen y *chu*, a dyna ni yn cael *ugain*. Ond wrth i ni roddi *dau* o flaen y *deg* yn y Gymraeg, ni cheir ond deuddeg—12. Y mae ymgais wedi cael ei wneyd, ac yn cael ei wneyd gyda graddau o lwyddiant, i ddiwreiddio yr hen ddull trwsgl Cymraeg o roddi allan hymnau, ac o ynganu rhifau; *h. y.*, yn lle dyweyd 'un ar bymtheg a phedwar ugain ar ol y ganfed,' ceisir dyweyd 'cant, naw deg, a chwech. Y mae hyn yn groes i gyfaledd yr iaith. Er hyny, cyfrifir fod y cyfnewidiad o fantais fawr yn mhob ystyr, gan ei fod yn fyrach, ac yn fwy dealladwy. Y mae yn eglur nad yw Cymry llawer cymmydogaeth yn cymmeryd yn garedig at y cyfnewidiad; ond y mae yn debyg y daw yn fuan i arferiad cyffredinol. Dywedai yr hen Gymry "deng ugain ond pedwar."

Y mae effeithiolrwydd gwenwynig DIRYWIAD LLEISIOL mor dreiddgar nes bwyta allan holl gorph a choluddion gair, a gadael dim ar ol weithiau ond darnau dadfeiliedig. Fel y gwelir uchod, mae'r gair *chwaer*, Saes. *sister*, Sanskrit *svasor*, i'w weled yn yr erthyl dirywiedig *cho* yn y Pehlöig a'r Ossetaeg; a chan fod yr S. Sanskrit yn cyfatteb i'r Hen Bersiaeg, neu yn gydgyfnewidiol gyda hi—mewn ffordd arall, gosodir y peth allan fel hyn, S=H. Dyna *svasor* yn= *hoahar; hoahar* yn troi yn ei lygredigaeth i *chohar*, *chohar* i *chor*, a *chor* i *cho*. Y mae Bopp yn ei *Comp. Grammar*, § 35, yn helaethu ar hyn.

Drachefn, fel y dywed Müller, dyna y gair Sanskrit, *duhitar* (merch), Saes. *daughter*, wedi ei dalfyru, a'i dalfyru nes y mae yn ymddangos yn y ffurf *dci* yn y Tschechaeg. Ac oni bae yr egwyddiadau ysgöawl, lle y mae y gweddill o'r

Digitized by Google

gair yn dyfod i'r amlwg, buasai yn anghredadwy mai yr un gair gwreiddiol ydynt, a bod y fath ddirywiad yn ddichonadwy; oni bai fod genym yr egwyddiad meddiannol *dcere* yn y Tschechaeg, buasai yn anhawdd credu fod yr un gwreiddyn yn perthyn i'r ddau. "Pwy, drachefn, fuasai yn meddwl mai yr un gair gwreiddiol yw *deigr* Cymraeg, *tear* Saesneg, a *larme* Ffrangcaeg;" ond y mae eu cyfryngiaeth mor amlwg a'r haul pan edrychir ar gydgyfnewidiolrwydd cydseiniaid sydd yn ffynu yn yr holl ieithoedd Aryaidd. "Pwy fuasai yn meddwl fod y gair Ffrangcaeg *méme*=myfi fy hun, tydi dy hun, &c., &c., yn cynnwys y Lladin *semetipsissimus;* fod genym y gair Lladin *dies* (dydd) ddwy waith yn y gair Ffrangc. *anjourd'hui:* fel hyn—*dies*=Ital. *oὄρι*, Lladin *hodie*, (heddyw), a *jour*=*diurnum*, o *dies*= y dydd heddyw. Pwy adnabyddai y gair Lladin *pater* yn y gair Armenaidd *hayr:* ond etto, nid oes dim anhawsdra yn nghylch unrhywebu (*identify*) *pere* a *pater*; a chan fod amryw H-au dechreuol yn yr Armenaeg yn cyfatteb i P-wreiddiol (Het-Ped-es, troed), *Hing-Pente*, Groeg (pump); *hour*=pur, tan, tynir y casgliad mai *pater* ydyw *hayr*."

Y mae yn anghredadwy, ar yr olwg gyntaf, i ba raddau y mae, nid yn unig geiriau, ond ieithoedd hefyd, yn cyfnewid, a hyny mewn ychydig iawn o amser, os na fyddent yn meddu llenoriaeth ysgrifenedig. Dywed Moffat am rai o ieithoedd Affrica Ddeheuol, "Fod purdeb a harmoni rhai o'r ieithoedd yn cael eu cadw trwy eu *pitchos* a'u cyfarfodydd cyhoeddus, trwy eu gwyliau, eu seremoniau, ynghyd â thrwy eu caniadau a'u hymdrafodaeth barhaus. Ond y mae hi yn bur wahanol gyda phentrefwyr unigol yr anialwch; nid oes ganddynt hwy y cyfryw gyfarfodydd; a gorfodir hwy i deithio dros y crasdir anial yn aml i bellder mawr oddi wrth eu gwlad enedigol. Yn y cyfryw amgylchiadau, y mae tad, a mam, a phawb a all gludo pwn, yn ymadael am wythnosau lawer yn olynol, gan adael eu plant o dan ofal dau neu dri o hen bobl fethiant. Bydd y plant fel hyn, rhai o honynt yn dechreu lispian, rhai ereill, fe allai, yn alluog i ddywedyd geiriau cyflawn, a rhai ereill yn fwy galluog fyth, wrth ymgampio a chwareu â'u gilydd, yn blant natur ar hyd y dydd, "yn ymgynnefino â iaith o'r eiddynt eu hunain." Bydd y rhai mwyaf siaradus, neu yn hytrach y rhai mwyaf galluog i lefaru yn amlwg, yn ymddarostwng at alluoedd y rhai ieuengaf; ac fel hyn, o'r Babel ieuengaidd yma y mae tafodiaith yn gynnwysedig o lu o eiriau bastarddaidd, ac ymadroddion wedi eu huno, heb ddim rheol, yn tarddu; ac felly, "yn ysbaid un genhedlaeth, y mae holl gymmeriad yr iaith yn newid." Darllenwn am genhadon yn Nghanolbarth America a geisiasant ysgrifenu ieithoedd y llwythau anwareiddiedig, a'r rhai a gasglasant yn ofalus yr holl eiriau a allent gael gafael arnynt. Wrth ddychwelyd at yr un a'r unrhyw dylwythau yn mhen deng mlynedd, cawsant fod y geiriaduron a wnaethant hwy eu hunain yn hollol ddifudd iddynt; o blegid fod yr iaith wedi cyfnewid i'r fath raddau yn ystod y tymmor byr hwnw. "Il ne pouvait se servir," meddai Waldeck, "yn 1833, d'un vocabulaire composé avec beaucompe de soin dix aûs auparavant;" *h. y.*, "Ni allai wneyd un defnydd, yn 1833, o eiriadur oedd wedi ei ysgrifenu gyda llawer o ofal ddeng mlynedd yn ol." A dywed Brown, y cenhadwr Americanaidd, yr hwn a dreuliodd ei holl fywyd agos yn Burmah, Irawaddy, fod rhai tylwythau oedd wedi gadael eu pentref genedigol i wladychu mewn dyffryn arall, wedi myned yn hollol annealladwy yn eu hiaith i'w cenhadau mewn dwy genhedlaeth neu dair. Gellid chwanegu llawer ar y dargynnygiad yma; ond rhaid i ni ddychwelyd at ein prif bwngc.

Yn y lechres uchod, y mae "cyfochraeth" yr ieithoedd Teutonaidd yn eglur iawn, oddi eithr y Gothaeg, yr hon sydd yn amddifad o'r gair *môdar*, a'r hon nid arferai ond lled anfynych y gair *fadar*. Yn y Lladin, y mae θυγατερ (thwgater) yn eisieu. Yn y Groeg, y mae *soror*. Yn yr ieithoedd Slafonaidd, y mae y gair unrhywiol am *pater* (tad) yn eisieu, o blegid y mae yn lled ammheus, os nad yn bur ammheus, a ydyw *ot'z*," *otetz*, yn cynnrychioli *pot'z*," *potec* gwreiddiol; o blegid fod R gymmeriadol diwedd y gair wedi ei cholli, a phrin y cyflëir neu y cyflenwir hi drwy Z. Ond y mae hi yn wahanol gyda golwg ar y gair Gwyddelig *athair*, yr hwn sydd yn amlwg yn canlyn yr un gyfaledd a'r geiriau Gwyddelig ereill—*mathair*, *brathair*, a mwy na thebyg yw fod *athair* yn sefyll yn lle *pathair*—*athair*= *athraw*, Cymraeg, q. d. *path*raw. Gwyddom fod y llythyren M wedi myned yn hollol ar goll yn y gair *merch* pan arferir y gair yn yr un ystyr a *mab* fel *patronymic*, "ech Ifan, 'ech Shon, 'ech Dafydd, yr un fath ac *ab*, *ap*, am *mab*. Mab Ifan ab Shon ap Harri mab Ellis. Mwy na thebyg ynte, mai y P sydd wedi myned ar goll yn *athair* ac *atharw*, ac nid geiriau newydd neu wahanol ydynt. Am y gair Cymraeg *tad*, rhaid ei gyssylltu â'r Groeg **τεττα** (tetta), *Iliad.* Homer, Ll 4, llinell 412.

**Τεττα, σιωπῇ ἧσο, εμω δ'ἐπιπείθεο μυθῳ.**

*O sire*, be still, and listen to my speech.

**Τεττα**—a term of respect used by young people in addressing their seniors; also, as a term of kindness between friends, as Diomedes addressing Stheneleus.—Gwel *Donnegan*, o dan y gair.

Os cywir y cyssylltiad ynte, fel y myn Grimm, yna gallwn ei gyssylltu, fel y gwna yntau hefyd â'r Pwlaeg a'r Tschechaeg *tata*, *tatek*, Alban. **ταττε**, (tate), Lith. tëtis, iaith y *Sipsiwns*, *dad*, (Gwel *Pott*, 2. 308), Seisneg *dad*, daddy, a'r Bafaraeg *tatt*, *tatta*, *tatte*. Mae yn debygol ynte fod y gair *pathair*=athair=athraw=tad, wedi peidio cael ei ddefnyddio yn foreu iawn yn yr ieithoedd Celtaidd, a bod gair o anwyldeb wedi cymmeryd ei le. Yn wir y mae yr un peth i'w weled yn amlwg i raddau yn y geiriau perthynasol ereill. Tuedd serch ydyw arfer geiriau bychanol (*diminutives*), a hyny i'r fath raddau nes bydd y gair gwreiddiol mewn iaith yn aml yn myned ar goll. O'r ffynnonell yma, neu yr achos yma, y mae y fath eiriau a *puella*=lodes fach, *fratello*=brawd bach. *sorella*=chwaer fach, yn tarddu, a'r rhai hyn, wedy'n, yn cael eu talfyru i *sele*, *brole*, *male* yn y Serbaeg. Mae rhai ieithoedd yn hynod am y talfyriadau yma, yn enwedig y Rwssiaeg o'r Italaeg, ond y mae 'r Gymraeg yn hynod am ei hamddifadrwydd o'r talfyriadau hyn.

Yn y rhestr uchod, yr ydym wedi rhoddi amryw enghreifftiau o'r ieithoedd Turanaidd, ynghyd â'r Hebraeg; nid o blegid fod fawr neu y nesaf peth i ddim o berthynas rhyngddynt, ond er mwyn dangos i'n darllenwyr mewn ffurf o *gontrast*, mor agos yw y naill, ac mor bell yw y lleill; cawn weled hyn etto maes o law, pan yn cymmharu y brif gangen Semitaidd â'r brif gangen Geltaidd, sef yr Hebraeg â'r Gymraeg.

Mae yn ddidadl hefyd, y gellir dilyn yr un berthynasiad gyda golwg ar eiriau cyfathrachol



Digitized by Google

yn yr un ieithoedd; er enghraifft, y gair *mab*, mewn amryw ieithoedd na allasent mewn modd yn y byd fenthyca oddi ar eu gilydd ar ol yr ymfudiad, neu yr ymwahaniad cyntaf;—dechreuwn gyda'r Sanskrit, *sûnu*, Goth. *sunus*, H. U. A. *sunus*, Anglo. Sax. *sunu*, Hen. Is. *sonr*, Saes. *son*, Lith. *sunus*, Prws. *sonus*, Slaf. *s'in"*, Rwss. *sun"*, Pwl. a Tschechaeg, *syn;* y mae yr ieithoedd Aryaidd yma oll yn cyttuno yn hynod o darawiadol, oddigerth y gair *sonr* yn unig, gan fod yr *r* wedi myned ar goll yn yr ieithoedd ereill, y mae yn debyg.

Gyda golwg, pa fodd bynag, ar y fath eiriau ag αδελφη (*adelphi*), sef chwaer, a *filia*, *merch*, *meita*, er nad ydym yn gweled y modd i'w cyfryngoli yn ol goleuni presennol ieithyddiaeth, nid ydym o ganlyniad yn rhwym o roddi i fyny y possiblrwydd o wneyd hyny; ond dylem gofio, ar y llaw arall, fod dau neu dri o eiriau yn cael eu defnyddio am yr un peth yn moreu iaith, fel y gwneir yn bresennol; a bod y gair yma wedi myned ar goll, neu wedi syrthio i ddiymarfer mewn un iaith, a'r gair arall am yr un peth wedi syrthio i anarferiad mewn iaith arall; a dyna, mae yn debyg, yw yr unig reswm fod cymmaint o eiriau hollol wahanol am yr un peth mewn ieithoedd sydd yn dal cyssylltiad mor agos ag yw y Gymraeg, Llydawaeg, Gwyddelaeg, Gaelaeg, a'r Gernywaeg, o blegid buont hwy yn un teulu o fewn côf, mewn dull cymmhariaethol o lefaru; hyny yw, yr oedd eu hymwahanraniad yn gannoedd, os nad yn filoedd o flynyddoedd yn ddiweddarach na ieithoedd ereill o'r un boncyff.

Awn yn mlaen yn awr at ddosbarth arall o eiriau, y rai, os nad ydynt mor hen a chyffredinol a'r rhai uchod, sydd etto yn ddigon cyffredinol a thry-redol i ddangos yr un egwyddor o barthed i'r ieithoedd Aryaidd. Dywed Max-Müller; "The words which have as nearly as possible the same form and meaning in all the languages, must have existed before the people who afterwards formed the prominent nationalities of the Aryan family, separated. * * * * If you find that languages like Greek, Latin, Gothic, Celtic, or Slavonic, which, after their first separation, have but little contact with Sanskrit, have the same word, for instance, for IRON, which exists in Sanskrit, this is proof absolute that IRON was known previous to the Aryan separation." Y mae genym y cyfryw eiriau, nid yn unig am berthynasau gwaed, ond am wahanol efyddau, offerynau, celfau, ac eirf. Mae pob iaith, yn wir, yn ddarostyngedig i dderbyn neu i fabwysiadu geiriau estronol a thramor am wrthddrychau a phethau nad ydynt yn adnabyddus i'r genedl fydd yn arfer unrhyw iaith, ac yn eu hymwneyd âg ymfasnachiad, y naill genedl a'r llall; ac felly nid oes dim byth a dry y gair *tê* (*tea*), neu *siwgr*, neu *goffee*, neu *sago*, neu *bupur*, i fod yn Gymraeg neu Seisneg gwahanol i'r hyn ydynt yn bresennol; ond os byddwn ni yn meddu rheswn cadarn i gredu na fu dim ymdrafodaeth rhwng y naill genedl a'r llall, er enghraifft, rhwng y Rhufeiniaid a'r Slafoniaid, ac etto, yn cael hyd i'r UN GAIR am yr UN PETH, nid oes dadlu yn erbyn y cyfryw brawf, nac anghredu, i ddim meddwl a deall rhesymol.

Yn y restr ganlynol o enwau *meteloedd*, mae y gwahaniaeth yn fwy, fel y gallesid disgwyl, nag yn y rhestrau perthynasol, a'r cyfryngoliad yn fwy anhawdd i'w effeithioli, ac mewn rhai enghreifftiau yn ammhossibl yn ol cyflwr neu ystâd bresennol y gelfyddyd o ieithyddiaeth.

| | | | | |
|---|---|---|---|---|
| Groeg | χαλκος | χρυσος | αργυριον | σιδηρος |
| (Sain) | (chalkos) | (chrusos) | (argwrion) | (sidiros) |
| Latin | αες (aeris) | aurum | argentum | ferrum |
| Ital. | bronzo | oro | argento | ferro |
| Yspan. | bronze | oro | argen | hierro |
| Ffrang. | bronce | or | argent | fer |
| Roman. | irom | aur | argient | fier |
| Walach. | aram | aur | ardshint | feru |
| Alban. | Ζιλε | ἄρρ | ερFεντ | χεκουρε |
| Sain | (zile) | (arr') | (ergwent) | (chekowri) |
| Gwydd. | umha | or | airgjod | jaran |
| Cymraeg | pres (?) | aur | arian | haiarn |
| Armor. | — | aour | argan | houarn |
| Bask. | urraida | urrea | cilarra | burdina |
| Prwss. | — | ausis | sirablas | — |
| Lith. | waras; | auksas | sidabras | gelezis |
| Slaf. | bron | glato | sacbro | sheljeso |
| Rwss. | ruda | zolcto | serebro | sheljeso |
| Leth. | warsch | selts | sudrabs | dselze |
| Pwl. | fronc (*bronty*) | zloto | srebro | zelazo |
| Tschech. | ruda | zlato | strjbro | zelezo |
| Wendaeg. | ruda | zloto | sljebro | zelezo |
| Gothaeg | ais (?) | gulth | silubr | eisarn |
| H. U. A. | èr (chuphar) | kold | silapar | isarn |
| U. All. D. | erz (kupfer) | gold | silber | eisen |
| Angl-Sax. | ár (bräs) | gold | seolfor | isern íron |
| Seis. | ore-brass | gold | silver | iron |
| Dutsh. | koper | goud | zilver | ijzer |
| H. D. | eir bras | gull | silfr | iarn |
| Schwed | koppar | guld | silfer | järn |
| Danaeg | kobber | guld | sölv | jern |
| Finn. | kasari, baski | kuld | hopia | rauta |
| Est. | werrew, wask | kulda | höbbe | raud |
| Lapp. | air | golla | silb | roude |
| Hungr. | ertz | arany | ezüst | vas |
| Hebr. | נחשת | זהב | כסף | ברזל, |
| Sain. | (nychosheth) | (zâhâf) | (ceseph) | (bar'zel) |

Digitized by Google

At y rhestr gyflawn uchod o'r eiddo Grimm, nid oedd genym ddim i'w wneyd ond at-roddi y geiriau Hebraeg yn y rhestr, a hyny er mwyn dangos mor hollol wahanol yw y teulu Semitaidd, wrth ei gymmharu â'r teulu Aryaidd. Y tebygolrwydd yw, fod pob dosraniad o'r teulu dynol gwreiddiol wedi ffurfio geiriau am y gwahanol feteloedd yn ol yr argraphiad a wneid ar eu meddyliau ar ol yr ymwahaniad cyffredinol. Gelwir *copper* yn *nychosheth* yn yr Hebraeg, o blegid ei liw melyngoch; *nychosheth*, medda Fürst, "Wegen der rothe farbe, and da man es in altherthum gestählt hat, so wird es bildlich gur bezeichuung d. Stärke gebraucht; *h. y.*, gelwir ef *nychosheth* o blegid cochni y lliw, a chan eu bod yn y cynoesoedd yn ei *galedu*, neu ei *ddurio* (durus), arferir y gair yn ffigyrol am nerth neu gadernid.

זהב (*zâhâf*), o'r gwreiddyn, זהב (*zâhâf*), disgleirio yn felyn.

כסף (*ceseph*), o'r gwreiddyn כסף (*câsâph*), bod yn las-wyn (*von der weissen Farbe*), o blegid gwynder ei liw:—Furst.

ברזל (*barzel*), "*s. v. a.* בזל=*βυσαλτης* (*mit-Reinschub*), harte masse, eisenmarmor;"—Furst: hyny yw, *barzel*, yr un peth a *buzel*=basaltis, yr *r* wedi ei thaflu i mewn—sylwedd caled, marmor haiarn.

Mae[1] y rhestr uchod yn dangos fod y teuluoedd Teutonaidd a Slafonaidd yn tebygu i'w gilydd yn *aur* ac *arian*, mewn gwrthgyferbyniad i'r teuluoedd Latin a Cheltaidd; ond yn y gair *haiarn*, ac *erz*, ac *eisen*, y mae cyd-darawiad y canghenau Teutonaidd, Latinaidd, a Cheltaidd, yn dyfod i'r amlwg. Yn y canol rhwng y ddau deulu, mae y Lithawaeg; ac felly, fel y gosodasom yn y cychwyn, rhaid i ni adgofio i'n darllenwyr nas gallasai y fath gydsyniad rhwng cymmaint o ieithoedd byth gymmeryd lle drwy ymdrafodiaeth, o blegid ni fu y cyfryw beth rhwng y gwahanol ganghenau pellenig hyn; ond ei fod wedi cael ei achosi trwy gyffredinolrwydd neu undeb gwreiddiol.

Mae *aes* (*egwydd. medd. aeris*), yn sefyll am *aes*, *aesis*, yr un peth a'r Gothaeg, *ais*, *aiges*, ac yn y geiriau *er*, *eir*, *âr*, *ore*, mae cyfnewidiad yr *s* i *r* yn myned yn mhellach yn mlaen; ac ymddengys nad yw yr H. Uchel-All. ddiweddar *erz* (sain *erts*), Uchel-All-canol, *erze*, a'r H. Uch. All. *arugi*, ddim ond math o eangiad o'r gair *ér* gyda thalfyriad o'r fogeiliad yn ystyr wreiddiol y gair *scorio*=*slack*, ac yn cyd-greiddio yn ei ffurf Ladinaidd *rudus*, raudus; ac yn yr ystyr yma gall y gair arwyddocau unrhyw fetal; ond yn gyfochrog â'r gair yma, dyna *aes* ac *ais* yn gyfystyr â'r gair Sanskrit *ajas* (sain *aias*, neu *ayas*), sef haiarn, a chan na allasai y Gothiaid ei fenthyca oddi ar yr Indiaid, na'r Indiaid ar y llaw arall mo'i fenthyca oddi ar y Gothiaid, neu, dyweder y Cymry, os mynir, y mae yn rhaid fod y gair yn eiddo cyffredin y naill a'r llall cyn iddynt ymwahanu, er ei fod yn ymddangos mewn ffurf allanol led wahanol. Yn awr, fel y mae y tair iaith uchod yn gwthio allan *r* yr ail sillaf, felly ar yr ochr arall y mae y Saesneg *iron* a'r Anglo-Sax. *iron*, yn gwthio allan yr *s*, ac yn cyfochri â'r ffurfiau Celtaidd o'r gair, sef haiarn; Deheudir *harn*, Llydaw *houarn*, a'r Gwyddel. *iaran*. Anhawg yr ymddengys cyfryngoliad y gair Lladin *ferrum*, yr hwn sydd yn yr Yspaenaeg *hierro* hefyd yn debyg i *haiarn a iarn*. Ond yn gyffredin, y mae y ddwy *r* olynol yn Lladin yn deilliaw o *rs*; *h. y.*, *turris*=tŵr, o *τυρρίς*, o *τυρσις*, *porro* *πορρώ* o *πορο*, *torreo* o *torseo*, Gothaeg *thairsa*, *erro* o *erso*, Goth. *airgia*, *ἄρρην* o *αρσην*, *curro* o *curso*, *terra*, mae yn debyg, *o tersa*, sef y tir sych mewn gwrthgyferbyniad i'r dwfr, ac felly *ferrum*=*fersum*=*fesrum* a droid yn naturiol i *eisarn*, *isarn*, (*isran yn Graff.* i. 490), a'r *f* yn amlwg yn gydgyfnewidiol âg *h*, fel yr ymddengys yn y ffurf Yspaenaidd o'r gair. Pan ystyriom hefyd fod gwybodaeth yr hynafiaid yn llai manwl na'r eiddom ni yn bresennol, a phan ystyriom hefyd fod llawer o anfanylrwydd (*inaccuracy*) yn ffynu gyda golwg ar *feteloedd* yn y dyddiau presennol ar lafar gwlad, er enghraifft, *pres*, a ddywedwn ni y Cymry am *gopr*, rhaid rhestru y gair Wallach. *aram* ac *irom*, fel yn tarddu oddi ar yr un gwreiddyn, neu graidd, *ferrum*, a'r gair Baskaidd *burnia*, fel yn cyfeirio at ffurf debyg *fernum*=*ferrum*. Yr un gair yw *gold* y teulu Teutonaidd, a *zloto* y teulu Slafonaidd; gyddf-lais yn troi yn sü-lais, fel y gwelir mewn afrifed o eiriau fod *g* ac *h* a'r *χ* (*ch*) Groeg, a'r *z* Slafonaidd, yn gydgyfnewidiol; Lladin *humus*, *hiems*, Cymraeg *gauaf*, Groeg *χειμων* (*cheimon*), yn cyfnewid yn y Rwssiaeg i *zemja* (sain *zemia*), *zemlja*, *zymia*; neu yr un fath ag *ch* yr H. U. All. *chnâhan*, Anglo. Sax. *cnâvan*, yn Slafonaeg yn *znâti*=gwybod i'r hwn y mae y gair Saesneg *know*, Allmaenaeg *kennen*, yn berthynas agos. Mae dadgyflead y fogail yn *gold* a *zlato* yn cael ei gadarnhau yn gyfaleddol gan lawer o enghreifftiau; *kalt* (oer), yr Allmaenaeg *chlad* yw yn y Slafonaeg, ac felly *halm*, *slama* yw (cymmharer y gair Cymraeg *callod*, *q. d.*, hallod, gwlydd ffa), *milch* yn *mleko*, *folk* yn *pulk*, *elbe* yn *labe*, *karl* yn *krol*, *bart* (Cymraeg, barf) yn brada, a boroda; *furf* (Cymraeg sarn=ffordd) yn *brod*, *birke* yn *breza* (Saes. *birch*); ac yn mhob un o'r geiriau Slafonaidd uchod, lle nad oes ond un bogeiliad, mae y Rwssiaeg yn hoffi bogeiliaid deublyg, *zoloto*, *cholodnyi*, *moloko*, *golova*, *boroda*, *berega*, a chymmharer yn mhellach y gair *calamus* Lladinaidd.

Cyfryngolir y gair *silver* a *srebro* trwy y gair Wendaidd *sLiebro*, *l* ac *r* pa un sydd yn cyfnewid lle yn y gair Prwssiaidd *sirablas*, tra y mae *l* a *d* yn *silubr* a *sidabras* yn cyfatteb i'w gilydd yr un fath a *levir*=*δαηρ*, *lingua*, *dingua*, *lautia*, *dautia*, *lacrima*, *dacryma*, *filius*, *fidius*. Mae cilarra (sain, silara), yn perthyn yn amlwg i'r un gyfres.

Mae *argentum* a'r holl eiriau Romansaidd ereill yn cydgyfarfod â'r Gymraeg a'r ieithoedd Celtaidd ereill, ac felly y Groeg *αργυριον* (*argwrion*), ond yn yr ieithoedd *Turanaidd* drachefn, fel o'r blaen, dyma ni yn dyfod at y clawdd terfyn, o blegid prin y gellid meddwl fod y Finn. *hopia* wedi ei ffurfio o *cuprum*; ac am yr Hungaraeg, mae Ezüst yn ein cyfeirio yn amlwg at eu cartrefle gwreiddiol yn Ngogledd Asia, i fynyddoedd yr Altai.

Mae yn ddiddadl fod gwreiddiau cyffredinol y gwahanol enwau cadarn yma am y gwahanol *feteloedd* i gael chwilio am danynt mewn gwahanol ansoddeiriau priodol i bob iaith; er enghraifft, cyfeiria *arian*, *argentum*, *αρχυριον* (argwrion), yn uniongyrchol at y gwreiddyn *αργος* (*argos*), gwyn—cymmharer yr un gwreiddyn yn y gair Cymraeg arian (*rime*, *hoar frost*), ac arianog, (*rimed*, *hoary*), Gwyddel. *aeg*; etto, gan fod cymmaint o gymmysgedd drychfeddyliau, a chymmysgedd ac anfanylrwydd geiriau a phethau wedi cymmeryd lle yn yr oesoedd boreuol yn mhlith gwahanol deuluoedd anwareiddiedig an-

[1] Gwel *Grimm's Geschichte*, am y rhan fwyaf o'r sylwadau canlynol.

Digitized by Google

ion (*inlaut*) a'r olafiaid (*auslaut*) yn dangos dadgyfleadau gwanach.

Yr oedd gan y Lladin ei *f* i'w chyfleu yn lle yr Φ Roeg; ond nid oedd gan y Rhufeinwyr ddim i lenwi lle *ch* ac *th* (θ) y Groegiaid; ac o ganlyniad, yn lle *ch*, dodir yn unig enadliaid, ac weithiau dim llythyren yn y byd, ond dechreu gyda'r bogeiliad flaenol. *Th* a gynnrychiolir drwy enadliadau gwefusol, neu *t* deneu; hyny yw, try yn ol at y blaenoliad y tarddodd *th* o honi; ond y mae yr *f* Lladin mor ansicr nes y saif weithiau hyd yn oed yn lle *ch* ac hyd yn oed yn lle *th* weithiau hefyd. Y mae yr un rheol hefyd, neu yn hytrach yr un afreol yn mhob iaith fydd yn amddifad o unrhyw fogeliad neu gydseiniad. Yn y cyfryw amgylchiad, nid oes iddynt ond gwneyd goreu gallant. O'n rhan ein hunain, yr ydym ni, y Cymry, wedi mabwysiadu amryw lythyrenau a seiniau nad ydynt yn perthyn i Gymraeg gynnwynol, er enghraifft, y *g* feddal a'r *j* Saesneg, ac i'r graddau hyny wedi Seisnigeiddio ein cynaniad. Felly hefyd yn yr Allmaenaeg, mae y lythyren *th*, θ, yn anadnabyddus, a llenwir ei lle gyda *z*=*ts*, a'r un fath y mae yr Armoraeg yn gwneyd gyda golwg ar eiriau Cymraeg yn cynnwys y llythyren yma.

Yr ydym yn cymmeryd dywenydd yn y darganfyddiad o'r eiddom, mewn cyssylltiad â Chanonau Grimm, fod yr egwyddiadau Cymraeg ar ol rhagenwau meddiannol yn troi yn hollol i'r gwrthwyneb; er enghraifft:—

| P | B | PH | T | D | TH |
|---|---|---|---|---|---|
| pen, | dy ben, | ei phen, | tad, | dy dad, | ei thad, &c., &c. |

Gellid myned trwy holl restr y cydseiniaid a'r bogeiliaid; ond nid yw hyn oll ddim yn gwrthbrofi nac yn gwrthddyweyd yr hyn a ddywed yr ieithydd Allmaenaidd; o blegid son y mae efe am ddadgyflead perthynasol rhwng iaith a iaith.

Mewn perthynas i weithrediad y canonau uchod, ynghyd â rhai ereill a ellid eu dyfynu, rhaid boddloni ar ychydig enghreifftiau o rai o'r cydseiniaid:—

1. P F F (Allan o Grimm).

Cymraeg pysg-od, Lladin pisc-is, Goth. fisks, H. U. A. fisc, Sanskr. padas, Lladin pes-pedis, Gr, πους, ποδος, Lith. pedas, Goth. fotûs, H. U. A. fuoz, Saesneg foot.

Lladin porcus, Lith. parszas, Rws. poros', Anglo-Sax. fearh, H. U. A. farah.

Groeg πυρ (pwr), Angl-Sax. fŷre, Saes. fire, H. U. A. früri.

2. Ph B P

Groeg φηγος (ffigos), Goth. fôka.

Groeg ωερο (ffero), Goth. baira, H. U. A. piru.

Lladin florere, Angl-Sax. blôvan, H. U. A. pluojan pludhan, Cymraeg blodeuo, a'i berthyn flos, blodeuyn; Goth. blôma, Angl-Sax. blôsma, Saesneg blossom.

3. G K Ch

Groeg γενος (genos), Lladin genus, Goth. kuni, H. U. A. chuni.

Groeg γονυ (gonw), Lladin genu, Goth. kniu, Hen Ddutsh knê, Saesneg knee, Cymraeg gliniau.

K H H

Groeg καλαμος (calamos), Lladin calamus, H. U. A. halam, H. Dd. hâlmr, Saesneg halm, a *hawm* mewn rhai siroedd.

Lladin centum, Goth. hunda, All. hundert, Saes. hundred, Cymraeg cant.

Lladin collum, Goth. hals, All. hals.

Groeg καρδια (cardia), Lladin cor, cordis, Goth. hairtô, Angl-Sax, heort, H. U. A. herza All. hertz, Saes. heart.

Groeg κερας (ceras), Lladin cornu, Cymraeg corn, Goth. haurn, All. horn, Sasneg horn.

Gyda golwg ar yr ieithoedd ereill, a thrawsffurfiad y llafariaid a'r cydseiniaid, y mae gan Grimm ei ganonau priodol i bob un; er enghraifft, gyda golwg ar gyfaledd rhai o'r blaenolion Slafonaidd, dyma ei ganon:—

| | | |
|---|---|---|
| G yn troi o flaen *i* yn | Z o flaen *e* yn | SH |
| K „ | TZ „ | TSCH |
| CH „ | S „ | SCH |
| CT=Q x s | SCHTSCH | |

Cymraeg nos, Lladin nox, noctis; Slaf. noschtch, Lladin mactus=validus potens, Slaf. moschtsch.

Cyn gorphen y rhan yma o'r pwngc, rhoddwn restr o gydgyfnewidiadau mwyaf adnabyddus y cydseiniaid yn yr ieithoedd mwyaf adnabyddus o'r teulu Aryaidd:—

I. 1. *B* yn gydgyfnewidiol gyda *v*; ferbui a fervi; sebum a sevum, habere, Sp. havere, Ffr. avoir; bene vene, bixit vixit.

2. *B* yn gydgyfnewidiol gyda *p*, καρπασος (carpasos), Lladin carbasus (llin), πυξος (puxos) buxus.

3. *B* yn gydgyfnewidiol gyda *f*, αμφω (ampho) ambo, ορφανος (orffan-os) orbus, rubeo, a rufus.

4. *B* yn gydgyfnewidiol gyda *m* βροτος, mortalis; ond y rhan amlaf, rhoddir *b* rhwng *m* a llythyren dawdd, *camulare*, Ffrangc. combler, numerous, nombre.

II. 1. *C*, ei sain galed fel *k*, a'i sain yn ganolig fel *g*, yn gydgyferbyniol i *g*; leciones a legiones, vicesimus a tricesimus yn gyfochrog gyda vigesimus a tricesimus; amicus, Ysp. amigo; secundo, Ysp. segundo.

2. *C* yn gydgyfnewidiol gyda *t*; Basculi a Bastuli, Tectones a Tettones; nux (cŷff nuc) nut; Cymraeg, tlodi a clodi.

3. *C* yn gydgyfnewidiol â gwefusolion; focus a foveo, nic-s a nisis, connic-si a conniveo, vic-si =vixi o vivo, dacus a davus.

III. 1. *D* yn gydgyfnewidiol gyda *t*, at a l, apud aput, mentor mendos, quattuor neu quatuor quadraginta.

2. *D*—X u yn gydgyfnewidiol gyda *b*, duellum bellum, duis bis, duonus bonus.

3. *D* yn gydgyfnewidiol gyda *l*, pando palam, scando scala, dacrima lacrima, Odusses Ulysses, sedes selba, mando mala.

4. *D* yn gydgyfnewidiol gyda *s*, ροδον (rhodon) rosa, rhosyn, medius mesos, Clausus Claudius.

5. *D* yn gydgyfnewidiol gyda *z*, pendulus penzolo, medius mezzo, radius razzo.

6. *D* yn gydgyfnewidiol gyda *l*, caducus caluco, cicada cicala, hedera ellera.

IV. 1. *F* yn gydgyfnewidiol gyda *h*, fedus hedus, fasena hasena, fordeum hordeum, vefo veho, ferrum hierro, filio hijo, fabulari hablar.

2. *F* yn gydgyfnewidiol gyda *th* Θ—fera, Θηρα, ferveo Θεωρ, febris Θερμος. Cymmharer y Gymraeg *saer* a *faber*.

3. *F* yn gydgyfnewidiol gyda *b*, af am ab, sifilare am sibilare, rufus ruber, fremo βρεμω, fascino βασκαινω

V. 1. *G* yn gydgyfnewidiol gyda *c*; gwel c. Yn yr ieithoedd Romansaidd, y mae *g* yn troi yn *j* feddal, galbinis, Ffr. jaune, Portug. jalde, Ysp. jalde; weithiau collir hi yn hollol rhwng dwy fogeiliad; *h. y.*, regalis, legalis, ligare, Augustus, rex (cŷff, reg)), wedi eu troi yn reale, leale, lier; Août, re a roi.

VI. 1. *H* yn gydgyfnewidiol gyda *ch*, hamus

Digitized by Google

χαμος (chamos), hirundo φελιδων, hiems φειμων.

2. *H* yn gydgyfnewidiol gyda *f*; gwel *f*.

3. *H* yn gydgyfnewidiol gyda *s*, ἅλς (hals), sal, halen, salix, helyg, ἥλιος (hilios), haul, sol ἥλος (hilos) hoel—hoelion.

VII. 1. *L* yn gydgyfnewidiol gyda *d*; gwel *d*.

2. *L* yn gydgyfnewidiol gyda *n*, νυμφη (nwmffi), lympha, nitrum, λιτρον (litron), fulvus a furvus, Urfilas Ulfilas; להן (lachan) a נחן (nachan), gyru; Chaldaeg לדן (lydan) a לדנא (lidnah) gwain; נשכה a לשכה (nishcah a lishcah) ystafell; ψαλτηριον (psaltirion) a פסנתרין (psanterin).

3. *L* yn gydgyfnewidiol gyda *r*, λειριον (leirion) lillium, y lili; Parilia, Pacilia; שרשרה (shar's-'shra) a שלשלה (shal'sh'la) cadwyn, ארמנוה (ar'manoth) ac אלמנות (almanoth), palasau נות.

VIII. 1. *M* yn gydgyfnewidiol gyda *n*, y terfyniadau lliosog ־ים ac ־ין (*im* ac *in*) שטן a שתן (satam a satan), satan, cythraul, Lladin eumdem a eundem, quorundam a quorumdam, imbellis ac inbellis, inprimo ac imprimo, &c.

2. *M* yn gydgyfnewidiol gyda *b*; gwel *b*.

IX. 1. *N* yn gydgyfnewidiol gyda *l*; gwel *l* Adde venenum, Ital. veleno.

2. *N* yn gydgyfnewidiol gydag *r*. Nid oes ond ychydig iawn o hyn, a phrin y gellir ei galw yn ganon; Nebuchadnezzar a Nebuchadrezzar.

X. 1. *P* yn gydgyfnewidiol â'r holl wefusolion (*labials*); gwel *b*. Opilio ovilio, pes pedis, All. fuss, Saes. foot; pater, All. vater, father, coopertus, It. coverto, pauper povera, ripa rive. Mewn geiriau cyfansawdd hefyd, y mae *p* yn troi yn *t*, ac weithiau yn hollol doddi ymaith; *h.y.*, Lladin captivus, aptus, Ital. cattivo, atto, capsa, cassa, caisse.

XI. 1. *Q* yn atteb i *c* Gymraeg, a kappa y Groeg. Y mae hi, o ganlyniad, yn gydgyfnewidiol â'r llythyrenau hyn, fel y gwelir yn y gyfres isod o eiriau, fel yr ysgrifenid neu y torid hwy mewn hen *inscriptions* Lladinaidd:—

| | |
|---|---|
| pequdes | pecudes |
| pequnia | pecunia |
| qum | cum |
| quoquirca | quocirca |
| quojus | cujus |
| quoi | cui |
| quur | cur—quare |
| quod | cuod. |

2. Q yn cyfatteb i'r Koph ק Hebraeg, ac yn gydgyfnewidiol gyda *t*, quinque, equus, sequor, yn cyfatteb i πεντε, ἵππος ἕπω, פכח a פתה (pacach a pathach) agoryd; שקה a שתה (shakah=shaca a shatha) yfed; Ethiopaeg פהר a פכך (pathar a pacar) deongli, cyfieithu.

XII. 1. *R* yn gydgyfnewidiol gyda *d*, *l*, ac *n*; gwel y llythyrenau hyny.

2. *R* yn gydgyfnewidiol gyda *s*, arbor ac arbos, color a colos, labor a labos, lepor a lepos, nasis a naris, pulvis a pulver, asa ac ara, plusima a plurima, &c.

XIII. 1. *S* yn gydgyfnewidiol gyda *r*; gwel uchod.

2. *S* yn gydgyfnewidiol gyda *d*; gwel *d*.

3. *S* yn gydgyfnewidiol gyda *t*, tensus a tentus, aggrettus ac aggressus, mertare a mersare, pultare a pulsare, סין a טין (sin a tin) tom, סמך a תמך (samach a tamach), סלל a תלל (salal a talal).

4. *S* yn gydgyfnewidiol gyda'r hawchlythyren *h*, ἑπτα (hepta), septem, saith, ἕξ (hex), Lladin sex, ἕρπω (herpo) serpo, ὑπερ (huper) super.

5. *S* a *ss* yn gydgyfnewidiol gyda *x*, llythyren ddeublyg, axis ac assis, Ulixes ac Odusseus, Sextius a Sestius, Ajax ac Aias.

XIV. 1. *T* yn gydgyfnewidiol gyda *c* galed; gwel *c*.

2. *T* yn gydgyfnewidiol gyda *d*; gwel *d*.

3. *T* yn gydgyfnewidiol gyda *s*; gwel *s*.

XV. 1. V—U—W—Gw, y cwbl yn gydgyfnewidiol â'u gilydd.

Y mae hen lythyren Roeg, a elwid y Digamma, F, sef Γ (gamma) wedi ei dyblu, wedi myned ar goll; ond y mae gweddillion o honi i'w canfod mewn nifer mawr o eiriau, y rhai sydd yn dangos yn amlwg fod ei chynaniad yn tueddu weithiau at *v*, weithiau at *u*, weithiau at *w*, ond yn amlaf at *gw*, fel yn y gair Cymraeg gwin, Lladin vinum. Felly hefyd y mae yr ieithoedd Romansaidd gyda golwg ar gyfnewidioldeb y llythyrenau cyttrasol uchod; tra y mae yr ieithoedd Teutonaidd yn gwrthod sain galed y Degamma, mae yr ieithoedd Romansaidd yn mabwysiadu y dull Cymraeg.

| Ital. | All. | Cymraeg. |
|---|---|---|
| Guardare | warden | gwarden—gwarchod |
| Guastare | wuostan | gwastio a wastio |
| Guerra | werra | gaer, Saes. *war* |
| Guisa | weise | " *wise* |
| Galli | Walah (?) | gwalwys—gauls |
| Latin. | | |
| Venus, eneris | | Gwener |
| | voden | gwydion |

Y mae y Wyddelaeg yn cyferbynu *f* i'r ddigamma, fion gwin uinuni, fear gwyrdd viridis, feor, gwr, vir fior, gwir verus, faolchon gwalch, falco, fion gwyn.

2. *V* yn gydgyfnewidiol gyda *b*, *p*, *c*; gwel o dan y llythyrenau hyny.

Yn ol y canonau hyn, ynte, a llawer ereill mwy manwl, a llawer anhaws eu deall, yr ydym yn cyfryngoli geiriau yn y gwahanol ieithoedd mor sicr agos a phe byddem yn gweithredu yn ol gosodiadau *mathematics*. Nid dyfalu na phalfala am y geiriau y byddys; ond gweithio allan *broblem* yn ol rhagosodiadau mwyaf manwl a chelfyddydol, gan roddi ein rheswm cyfaleddol a chynmhariaethol dros gredu mai yr un gair ydynt yn yr ieithoedd mwyaf pellenig oddi wrth eu gilydd, neu am wrthod y cyfryw gasgliad. Felly, pan yn gwrthod derbyn dargynnygiadau fel hyn, sef mai Gwenwynwyn yw *Cincinatus*, gwyddom yn sicr fod unebiaeth y ddau air yn hollol groes i bob cyfaledd; y buasai Gwenwynwyn yn ei ffurf Lladin yn *Venvenius*, neu ryw ffurf gyfagos arall; am wrthod credu mai yr un gair yw *Saturnus* a *Saf-teyrn*, am wrthod credu fod *Rhea Silva* yn tarddu o'r gair Cymraeg rhed, rhedeg; a bod Iasus, yr hwn a aeth i chwilio am y cnu aur o Golchis, yn tarddu o'r gair Cymraeg ias. Nid yw priodoli tarddiadau cyffelyb i'r rhai uchod and plentyneiddiwch disail, caffio yn y tywyllwch, heb na rheol, na chelfyddyd, na rheswm.

Cyn darfod â'r gaingc o gyfryngoliaeth, fel un o brif elfenau y gelfyddyd, ac fel math o wrthgyferbyniad i'r dull uchod a gondemnir, rhoddwn rai enghreifftiau chwanegol yn mha fodd y cafodd elfenau gwreiddiol geiriau eu darganfod gyntaf.

Cymmerwn y gair Cymraeg spio, yspiwyr, yspio. Rhoddwn yma rwydd-gyfieithiad oddyfyniad allan o waith y Proffeswr Max Müller:—

"Gadewch i ni gymmeryd y gair *respectable*. Gair o darddiad Lladinaidd yw, ac nid o darddiad

Digitized by Google

Saxonaidd,[1] fel y gwelwn wrth y terfyniad *able*." Yn *respectabilis*, yr ydym y canfod yn hawdd y ferf *respectare*, a'r terfyniad *bilis*. Yna yr ydym yn gwahanu y rhagddodiad *re*, yr hyn sydd yn gadael *spectare* fel ffurfiad rhangymmeriadol o'r ferf Lladin *spicere* neu *specere*; hyny yw, gweled, edrych.[2] Yn *specere*, drachefn, yr ydym yn gwahaniaethu rhwng y terfyniad cyfnewidiadwy *ere* a'r gweddill anghyfnewidiol *spec*, a dyma wreiddyn y gair. Disgwyliem gael hyd i'r gwreidyn hwn yn y Sanskrit a'r ieithoedd Aryaidd ereill; ac felly yr ydym yn ei gael. Yn Sanskrit, y ffurf fwyaf gyffredin yw *pas*, gweled, heb yr *s* flaenddodedig; ond ceir hyd hefyd i *spas* yn y gair *spasa*, yspiwr, yn *spashta* (yn *vispashta*) amlwg, eglur, ac yn Vedaidd *spas*, ceidwad. Yn y teulu Teutonaidd, cawn hyd i *spëhon* yn yr Hen Uchel Allmaenaeg, yn arwyddo edrych, spio, myfyrio; a *spëha*, Saes. *spy*, Cymraeg yspiwr. Yn Ngroeg, y mae y gwreiddyn *spek*=*spec*, wedi ei droi i *skep*, yr hwn sydd yn bodoli yn *skeptomi*, edrychwyf, chwiliwyf, o'r hyn y deillia y gair Saesneg *sceptic*, chwiliwr, ymofynwr, ammheuwr, ac mewn ystyr ddifynyddol, anghredinïwr; ac hefyd *episkopos*, arolygwr, esgob. Gadewch i ni yn awr edrych i mewn i wahanol ymganghenïad y gwraidd yma. Gan ddechreu gyda *respectable*, canfyddwn mai ei ddrychfeddwl gwreiddiol oedd "un yn teilyngu parch," *respect*, a *respect* yn arwyddo edrych yn ol, neu ol-spio. Yr ydys yn myned heibio i wrthddrychau cyffredin neu bersonau cyffredin heb gymmeryd dim sylw o honynt; ond byddwn yn troi yn ol drachefn i edrych ar y rhai hyny fydd deilwng o yspïo arnynt, ac yn haeddu ein parch a'n gwarogaeth. Dyna oedd ystyr wreiddiol *respect* a *respectable*; ac ni raid i ni ddim synu pan ystyriom nad oedd y gair *nobl*, *noble*, *nobilis*, yn Lladin, yn arwyddo dim ond dyn a ddylai gael ei adnabod am ei deilyngdod; o blegid y mae *nobilis* yn sefyll am *gnobilis*, yr un fath ag mae *nomen* yn sefyll am *gnomen*, a *natus* am *gnatus*, Cymraeg *gnawd*, yn ei hen ystyr yn englynion y misoedd, &c. (?)

Y ffurf Normanaidd o *respectus*, sef y Ffrangeaeg *repit*, ydyw y gair Saesneg *respite*. Arwyddai *repit* yn wreiddiol "edrych yn ol," *h. y.*, ail ystyried yr holl dystiolaeth. Byddai carcharor yn derbyn hyn a hyn o ddyddiau, *ad-respectum*, i ail yspïo, ail chwilio ei achos. Yn ddiweddarach, dywedid fod carcharor wedi derbyn *respite*; *h.y.*, wedi cael ail ysbïad, ail ymchwiliad; ac o'r diwedd, gwnaed berf, a dywedid fod dyn wedi cael ei *resbitio*—y rhagddodiad *re* yn unig sydd yn elfen estronol i'r iaith Gymraeg.

Fel y daeth *spekere*—*specere*, gyda'r rhagddodiad *re*, i arwyddo parch, felly gyda'r rhagddodiad *de*—*down*—i lawr, y mae yn ffurfio y gair Lladin *despicere*; *h.y.*, edrych i lawr ar rywun, ac oddi yma yr hana y gair Saesneg *despice*. Nid ydyw y gair Ffrangcaeg *depit* (Hen Ffrangcaeg *despit*) yn arwyddo dirmyg yn awr, er mai yr un gair a'r Lladin *despectus* ydyw; ond yn hytrach digter, vecsio, fel y dywedwn ni yn Gymraeg. Fegsio, crugo, ydyw *se depiter*. "En depit de lui," yn wreiddiol, "dig wrtho ef" yw; yna, "er ei waethaf," ac nid yw y geiriau Saesneg *spite*, *in spite of*, *spiteful*, ddim ond talfyriadau o *despit*, *in despite of*, *despiteful*, ac felly yn tarddu o'r un gwaed a'r gair yspïo Cymraeg, oddigerth yn unig y rhagddodiad *de*, am yr hwn ragddodiad y mae genym lawer i'w ddyweyd, os caniatâ gofod, yn ffurfiad geiriau Cymraeg.

Fel y mae *de* yn arwyddo i lawr oddi uchod, felly y mae *sub* yn arwyddo i fyny oddi isod, a hwn, wedi ei uno â *specere*, a rydd i ni *suspicere*, *suspicari*, edrych i fyny, mewn ffordd o ammheuaeth. [Felly, yr un drychfeddwl sydd yn y gair Groeg ὕποδρα (hypodra), â chil y llygaid, wedi ei ffurfio o ὑπο (hypo) a *dra*, yr hwn sydd yn gyssylltiedig â δερκ-ομαι (derk-omai), yr hwn sydd yn gyssylltiedig â'r gair Cymraeg e-drych, yr hwn sydd yn gyssylltiedig â'r gair Sanskrit dri-s, gweled]. O'r gair yma, y mae yn hanu *suspicion*, *suspiciour*, ac hefyd y gair Ffrangcaeg *soupcon* (sain *swpsong*) hyd yn oed yn y fath frawddeg a hon—"y mae swpsong o sikory yn y coffee;" *h. y.*, y pinsiad lleiaf erioed, yr atom mwyaf distadl, o sikory (chickory—chicory).

Gan fod *circum* yn arwyddo o gylch o-gylch, felly yn naturiol y mae *circumspect* yn arwyddo cylch-yspiwr, gwyliadwrus, gofalus, pryderus (?), dichellgar (?).

Gyda'r rhagddodiad *in*, yn arwyddo *into*, y mae *specere* yn myned yn *inspecire*, *inspect*, *inspectio*, mewn-spïo, ac yna *inspector*, *inspection*.

Gydag *ad* tuag *at*, y mae *specere* yn ffurfio *adspicere*, edrych ar beth, neu at beth. Ac oddi yma *adspectus*, *aspect*, edrychiad, neu olwg, neu adspïad ar rywbeth.

Felly hefyd gyda'r blaenddodiad, neu ragddodiad *pro*, "yn mlaen," y mae *specere* yn ffurfio *prospecere*, ac yn rhoddi hanfod i'r fath eiriau a *prospective*, *prospectus*, *prospect*. Gyda'r geiriau *con*, "*with*," "gyda," y mae *spicere* yn ffurfio *conspicere*, cydweled, cydspïo, cyspïo, *conspectus*, *conspicuous*. Gwelsom o'r blaen yn y gair *respectable* fod gair newydd, sef *spectare*, yn cael ei ffurfio o rangymmerydd *spicere*. Y mae hwn, ynghyd â'r rhagddodiad ex=ys, yn rhoddi i ni y gair Lladin *expectare*, Saesneg *expect*, yspïo, disgwyl—"am bwy yr wyt ti yn spïo"—pwy wyt ti yn ei ddisgwyl? Y mae llafar gwlad yn aml yn cadw llawer peth gwreiddiol nad yw ar gael mewn llenoriaeth ysgrifenedig ac argraphedig.

Y mae *auspicious* yn air arall sydd yn cynnwys yr un gwreiddyn yn ei ail ran. Y mae y gair Lladin *auspicium* yn sefyll am *avis-spicium*, ac yn arwyddo edrych allan, neu yspïo am ryw adar pennodol, y rhai, yn ol coel y Rhufeiniaid, a ystyrid yn arwydd drwg neu arwydd da i unrhyw anturiaeth fyddai mewn llaw, neu a fwriedid ei dwyn yn mlaen, naill ai yn gyfrinachol neu yn gyhoeddus; a *haru*-*spex*=arwydd-spïwr—oedd yr enw a roddid i'r offeiriad paganaidd fyddai yn rhagddywedyd beth fyddai i ddyfod oddi wrth sylwi ac yspïo i mewn i goluddion anifeiliaid.

Drachefn, allan o'r gair *spicere* y ffurfiwyd y gair *speculum*, yspïen-ddrych—*looking-glass*, neu unrhyw foddion arall i edrych arnom ein hunain; ac o *speculum*, cawn *speculari*, a'r geiriau Saesneg *speculate*, *speculative*, &c.

Ond y mae llawer chwaneg o gangenau o'r un cyff hwn. Fel hyn, er enghraifft, y mae y gair Lladin *speculum* yn myned yn *specchio* yn yr Eidalaeg. A'r un gair, er mai mewn dull cwmpasog, a ddaeth yn ansoddair yn yr iaith Ffrangcaeg—*espiegl*. Llygriad yw o'r gair Allmaenaidd *Eulenspiegel*.

Gan fod y Ffrangcaeg wedi benthyca nid yn unig o'r Lladin, ond hefyd o'r ieithoedd Teuton-

[1] Y mae y Proffeswr yn camgymmeryd yn y fan yma; y mae yn sicr mai yr hyn a olygai ydoedd, mai gair o ffurfiad Lladinaidd ydoedd, ac nid o darddiad Lladinaidd yn unig, o blegid ei darddiad yw y pwngc o dan sylw; os nad yw o darddiad Saxonaidd yn gystal ag o darddiad Lladinaidd a Chymreig, yna wedi ei fenthyca y mae.

[2] Gwel *Muller's Lectures*.

Digitized by Google

aidd, cawn yn y flaenaf, ochr yn ochr, hanedigion o'r gair Lladin *specere*, ac o'r Hen Allmaenaeg *spëhon*, heb ond ychydig o fwgwd arno, sef *épier*, a'r Eidalaeg *spiare*. *Spëha* oedd yr hen air Allmaenaidd am *spy*, spïwr; ac y mae hwn yn ymddangos mewn hen Ffrangcaeg *espie*, *espion*. O'r un cyff hefyd, y mae y gair Lladin *specier*—εἶδος, y Ffrangcaeg *espece*, a'r Saesneg *special*, neillduol neu bennodol, mewn cyferbyniad i gyffredin, *general*, yn tarddu; er nad oes ond ychydig o'r gwreiddyn *spar* a spïo i'w ganfod ar unwaith yn *special messenger*, a *special train*. Clywir y gair specifio, neu spesifeio, yn cael ei arfer gan adeiladwyr, ac ereill. Beth yw ei ystyr? Y mae y Lladin canoloesaidd *specificus* yn gyfieithiad llythyrenol o'r gair Groeg εἰδοποιος (*eidopoios*); *h.y.*, peth sydd yn gwneyd i fyny neu yn cyfansoddi *species*, math, *mathdeb*, neillduolrwydd, *particulars*.

Yr ydym yn terfynu gyda'r gair Ffrangcaeg *epicier*, yn arwyddo yn awr yr hyn a elwir *grocer*, ond ar y cyntaf yn arwyddo un yn gwerthu drugiau (*drugs*). Yr oedd y gwahanol gyfferïau a werthid gan yr apothecari yn cael son am danynt, gyda math o ymddangosiad dysgedig, fel *species*, nid fel cyfferïau cyffredin, ond fel cyfferïau neillduol a meddygol. Am hyny, gelwir y fferyllydd, neu apothecari, yn *spezziale* yn yr Eidalaeg, a'i fasnachdy yn *spezieria*. Yn y Ffrangcaeg *species*, yr hyn yn rheolaidd a ddaeth yn *espece*, a gymmerodd ffurf newydd i arwyddo cyfferïau, sef *epices*, yr un a'r gair Saesneg *spices*, a'r Allmaenaeg *spezereien*. Pe ymdrechid am funyd olrhain y gair Saesneg *spicy*, neu y frawddeg "well-spiced article," yn ol i'w wreiddyn syml *spec*—gweled, spïo, edrych—gwelir yn union ryfeddol allu iaith sydd yn ffurfio ac yn creu cymmaint a chynnifer o enwau ar bethau allan o'r elfenau mwyaf syml. Gallesid chwanegu llawer o hanedigion ereill; megys specimen, spectator, le spectacle, specialite, spectrum, spectacles, specious, specula, &c.[1]

Y mae yn debyg y tybiasai rhai o'n darllenwyr ar yr olwg gyntaf, neu o leiaf cyn dechreu darllen yr erthygl bresennol, mai ammhwyllo y buasem pe buasem yn meiddio dywedyd mai o'r un cyff gwreiddiol y mae yn tarddu, neu ynte, mewn geiriau ereill, mai yr un gair yn wreiddiol yw οφθαλμος (ophthalmos) y Groegiaid, *llygad* y Gymraeg, ac *eye* y Saesneg; ond y mae y cyfryngiad mor sicr ag ydyw y *broblem* hawddaf yn *Euclid*.

Ystyrier yn gyntaf mai llythyren ber-lefarol (*euphonic*), yw yr *m* yn Ngroeg, yn cael ei mewnddodi, o blegid trymder y ddwy gydseiniaid φ ac θ. Yn awr am y cyfryngiad:—

| | | |
|---|---|---|
| Groeg | οφθαλμος | (ophthalmos). |
| Doric | οπτιλος | (optilos) heb ddim "*m*." |
| Latin | occulus | am gydgyfnewidiad *p* a *t* ac *c*, gwel y gwahanol ganonau. |
| Eidalaeg | ochio | (sain okio) *l* yn myned ar goll. |
| Slafon. | oko | (yr *c* a'r *l* yn myned ar goll). |
| Allmaen. | auge | (*l* yn myned ar goll). |
| Ysp. | ojo | (sain ocho) *l* yn myned ar goll. |
| Ffrang. | il | (yr *c* yn myned ar goll, a'r *l* yn cael ei chadw). |
| Saes. | eye | |
| Russ. | (o) glaz" | (yr "*o*" yn myned ar goll). |
| Cymraeg | llygad | |

Nid oes dim anhawsdra gweled y cyttrasiad sydd rhwng yr holl ieithoedd uchod, nac fel mae naill ran o'r gair gwreiddiol wedi myned ar goll yn y fan yma, a'r rhan arall yn y fan arall, a'r chwanegiad a'r attodiadau idiomataidd sydd (yn "os" y Groeg ac "*us*" y Lladin, oddi eithr yn unig y gair Cymraeg *Llygad*; ond gyda golwg ar y gair olaf, mae yn ddedðf brofadwy fod *ll* Gymraeg yn cynnrychioli neu yn cyfatteb i gydseiniad fud, neu yn cael ei ffurfio trwy *assimilation*—ymdebygiad;—felly llaeth, yn Lladin *lac* yw, fel trwy ymdebygiad *b* yn blith; felly *lliw* yr un gair a'r Anglo Sax. *bleov* yw, llaw, yn y Wyddelaeg *lawh* neu *lahom*; Anglo. Sax., *glôfa*, o ba un y tardd y gair Saesneg *glove*; llawr neu llor yn Anglo. Sax. *flôr* yw, ac yn Saes. *floor*, ac felly mae llygad yn=glygad=oglygad, a chan nad yw *ad* ond terfyniad ffurfiol at wreiddyn y gair, mae y llythyrenau gwreiddiol yn y gair Cymraeg llygad, sef *o*, *g*, *l*=*o*, *c*, *l*, ond yn unig fod yr *c* wedi ei thoddi yn unol â'r ganon.

Y FERF BOD.—Un o'r pethau mwyaf tarawiadol yn yr ieithoedd Aryaidd hynaf yw y prifair yma—y ferf *bod*, *to be*. Rhoddwn yma arddangosfa o wahanol foddau ac amserau y ferf yma yn y prif ieithoedd Aryaidd.

MODD DYNODOL.

*Amser Pennodol.*

| | Unigol. | | | Lluosog. | | |
|---|---|---|---|---|---|---|
| | P 1 | P 2 | P 3 | P 1 | P 2 | P 3 |
| Sanskri | asmi | asi | asti | smas | stha | santi |
| Russ. | esm' | esi | est' | esmu | este | sŵt' |
| Pwlaeg | iestem[2] | estes | iest | iestesmi | iestescie | sa |
| Latin | sum | es | est | sumus | estis | sunt |
| Groeg | ειμι | εις | εστι | εσμεν | εστε | εισι |
| | (eimi | eis | esti | esmen | este | eisi) |
| Ffrangc. | suis | es | est | sommes | etes | sont |
| Cymraeg | ydwyf | ydwyt | ydyw | ydym | ydych | ydynt |
| | wyf | wyt | yw | y'm | y'ch | ynt |

*Amser Gorphenedig.*

| | Unigol. | | | Lluosog. | | |
|---|---|---|---|---|---|---|
| | 1 | 2 | 3 | 1 | 2 | 3 |
| Sanskrit | asam | asis | asit | asma | asta | asan |
| Cymraeg | oeddwn | oeddit | ydoedd | oeddym | oeddych | oeddynt |

[1] Gwel *Muller passim.*

[2] Jestem—jestes—jest—dyna'r dull yr ysgrifenir y gair mewn llyfrau Pwlaidd; ond grym neu sain *i* Gymraeg yn y gair *iawn* sydd gan *i* yn yr iaith Bwlaidd.

| | 1 | 2 | 3 | 1 | 2 | 3 |
|---|---|---|---|---|---|---|
| Sanskrit o wreiddyn arall *bhu*=bod. | | | | | | |
| — | abhavam | abhavas | abhavat | abhavama | abhavata | abhavan |
| Cymraeg | buom | buost | bu | buom | buoch | buont |
| Russ. | bwil | 'bwil | 'bwil | bwili | buili | buili |
| —benyw | bula (bum I) | bula | bula | | | |
| —hebryw | bulo | bulo | bulo | buli | do | do |
| Pwl. — | bylem | byles | byl | bylismi | byliscie | byli |
| —benyw | bylam | bylas | byla | bylysmi | bylyscie | byly |
| —hebryw | bylom | bylos | bylo | bylysmi | bylyscie | byly |
| Latin | fui, eram | fuitsi eras | fuit-erat | fuimus | fuistis | fuerunt |
| Groeg | ἦν (in) | ἦς (is) | ἦ | ημεν (îmen) | ητε (ite) | ηααν (isan |

*Amser Dyfodol.*

| | Unigol. | | | Lliosog. | | |
|---|---|---|---|---|---|---|
| | 1 | 2 | 3 | 1 | 2 | 3 |
| Sankrit | bhavitasmi | bhavitasi | bhavita | bhavitasmas | bhavitastha | bhavitaras |
| Russ. | bydy[3] | bydesh' | bydet" | bydeom' | bydete | bydet" ; |
| Cymraeg | byddaf | byddi | bydd | byddwn | byddwch | byddant |
| Pwlaeg | bede[4] | bedziesz | bedzie | bedziemy | bedziecie | beda |

Y MODD ANNHERFYNOL.

| | | | | |
|---|---|---|---|---|
| Sanskrit | bhu | Pwlaeg | byc | (*c* feddal fel "*s*" deneu) |
| Cymraeg | bod | Latin | (esse) | |
| Russaeg | bwyd' | Groeg | ειναι | (einai) |

Wrth gymmharu y cystraweniadau uchod gwelir fod y pedair iaith gyntaf yn glynu yn rhyfeddol wrth eu gilydd, tra ar y llaw arall y mae y Groeg a'r Ladin yn gwahaniaethu yn ddirfawr, tra yn mhellach, y mae yr ieithoedd Teutonaidd wedi cymmeryd llwybr gwahanol iddynt eu hunain, fel y gwelir oddi wrth y ddwy enghraifft gynnwysedig yn y *paradigma* isod.

ALLMAENAEG.

SEIN (bod). Yr un gair ag o'r blaen.

MODD DYNODOL.

*Amser Presennol.*

| Unigol. | | Lliosog. | |
|---|---|---|---|
| (ich) bin | (wyf) | (wir) sind | —zind |
| (du) bist | — | (ihr) seid | —zeid |
| (er) ist | — | (sie) sind | —zind |

*Amser Gorphenedig.*

| Unigol. | | Lliosog. | |
|---|---|---|---|
| (ich) | war | (wir) | waren |
| (on) | warst | (ihr) | waret |
| (er) | war | (sie) | waren |

*Amser tra-gorphenedig.*

| Unigol. | | Lliosog. | |
|---|---|---|---|
| (ich) | bin gewesen (wyf wedi bod) | (wir) | sind gewesen |
| (on) | bist gewesen | (ihr) | seid gewesen |
| (er) | ist gewesen | (sie) | sind gewesen |

SWEDAEG.

*Vara.* (bod). Yr un gair ag o'r blaen.

MODD DYNODOL.

*Amser Presennol.*

| Unigol. | Sain. | | Lliosog. | Sain. | |
|---|---|---|---|---|---|
| Iag | är | êr | vi | äro | ere |
| du | är | êr | i | ären | eren |
| han | är | êr | de | äro | ero |

*Amser Gorphenedig.*

| | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|
| Iag | var=oeddwn=bûm | | | vi | voro |
| du | var | &c. | &c. | i | voro |
| han | var | &c. | &c. | de | voro |

*Amser Tra-gorphenedig.*

| Unigol. | | | Lliosog. | | |
|---|---|---|---|---|---|
| Iag | har | varit | vi | hafva | varit |
| du | har | varit | i | hafva | varit |
| han | har | varit | ae | hafva | (o) varit |

*Amser Dyfodol.*

| Unigol. | | | Lliosog. | | |
|---|---|---|---|---|---|
| Iag | skall | vara | vi | skola | vara |
| du | skall | vara | i | skola | vara |
| han | skall | vara | de | skola | vara |

Mae yr amser presennol yn yr Allmaenaeg fel yn "*impingio*," ar yr amser gorphenol yn y teulu Slafonaidd, Celtaidd, a Sanskritaidd; ond hyn sydd hynod o darawiadol fod y tair, ie, y pedair cenedl uchod wedi cadw ffurf y ferf uchod yn hynod o gyflawn a pharhaus, er na fu dim masnach nac ymwneyd rhwng y naill a'r llall er's miloedd o flynyddoedd; tra ar y llaw arall, mae y canghenau Teutonaidd mor wahanol i'w gilydd ag sydd modd, er eu bod yn tarddu o'r un dechreuad, ac wedi bod mewn cyssylltiad â chyfathrachiad agos a thyn gyda eu gilydd trwy yr holl oesoedd.

Nid oes dim angenrheidrwydd i ni ddywedyd yn mhellach fod y "*d*" yn y geiriau Cymraeg yn atteb i "*s*" galed neu feddal yn y Sanskrit a'r ieithoedd Slafonaidd. Mae y cyfryngiad yn amlwg yn ol digon o enghreifftiau.

Yr oeddym wedi bwriadu rhoddi rhestr o eiriau cyttrasol yn yr ieithoedd Slafonaidd ac yn yr iaith Gymraeg; ond rhaid i ni roddi diweddglo, ar y rhan yma o'n herthygl trwy roddi rhestr o'r gwahanol ganghenau a theuluoedd o'r ieithoedd Aryaidd, a myned yn mlaen at y teuluoedd ereill.

IEITHOEDD ARYAIDD.—TAFELL ACHYDDOL.

*Dosran Ddeheuol*

Y Class Indiaidd.

| Ieithoedd byw. | Ieithoedd Trancedig. |
|---|---|
| Hindustanee | Prakritaeg |
| Marathi | Paliaeg |
| Gujarathi | Sanskrit diweddar |
| Bengali | Sanskrit Fedaidd |
| Uriya | — |
| Sindhi | — |
| Panjabi | — |
| Kasmirian | — |
| Nipalese | — |
| Sipsiwnaeg | — |

[3] Mae sain "*y*" yn Rwssaeg yr un ag "*w*" yn Gymraeg.

4 Mae sain y bogeiliaid yn y Bwlaeg yn drwynol i raddau bach, fel pe yr sgrifenasid hwy yn Gymraeg fel beng-deng, &c., &c.

Digitized by Google

Y Class Iranaidd.

| Ieithoedd byw. | Ieith. Treng. |
|---|---|
| Persiaeg | Parsi |
| Afghanistaeg | Pehlevi |
| Kurdistaeg | Arysgrifau cunffurf |
| Bokharaeg | |
| Armeniaeg | Zend |
| Ossethiaeg | |

DOSRAN OGLEDDOL.

*Y Class Celtaidd.*

| Cymraeg. Byw. | Cymraeg. Treng. | Gaelaeg neu Gaddelaeg. Byw. |
|---|---|---|
| Cymraeg | Cernywaeg | Ysgotaeg=Gaelaeg |
| Brythonaeg | — | Gwyddelaeg |
| neu | — | |
| Lydawaeg | — | •Mynawaeg, rhwng byw a marw |

*Class Eitalaidd.*

| Byw. | Trengedig. |
|---|---|
| Portugaeg | Lanque d'oc |
| Yspanaeg | Langue d'oil |
| Provenzaeg | Oscanaeg |
| Ffrangcaeg | Latin |
| Eidalaeg | — |

*Y Class Illiraidd.*

Y Wallachaeg
Grisonaeg (?)
Albanaeg.

*Y Class Hellenaidd.*

| Byw. | Treng. |
|---|---|
| Groeg | Kohe { Doric—Æolic |
| " | Attic—Ionic |

Y CLASS SLAFONAIDD.

*Cangau Dwyreiniol.*

| Byw | | Treng. |
|---|---|---|
| Lithwaeg | | Yr hen Brwssaeg. |
| Letthaeg | (yn Kurland a Livonia | — |
| Bwlgaraeg, Rwssaeg | Bulgaria, Roumelia, Macedonia | |
| Illyraeg | Serbia, Bosnia, Slavenia, Croatia, Dalmatia | Hen Slawenaeg eglwysig, i'r iaith yma y Cyfieithodd Cirillus a Methodius y Beibl a arferir yn eglwysi Rwssia, &c. |
| Sloweaeg | Carynthia, Krain, Styria | |

*Cangau Gorllewinol.*

| Byw. | | Treng. |
|---|---|---|
| Pwlaeg | Poland | — |
| " | Gallizia | — |
| " | Schlesia | — |
| " | Prwssia—mewn rhan | — |
| Tschechaeg neu Bohemaeg | Bohemia | Hen Bohemaeg |
| | Moravia | neu |
| | Hungary uchaf | Tschechaeg |
| Wendaeg | Lausitz | Polabiaeg |

Geilw y Wallachiaid eu hunain yn "Romani," a'u hiaith yn "Romania." Siaredir yr iaith yma yn Wallachia, Moldavia, rhanau o Hungary, Transylvania a Bessarabia. Ar lanau deheuol y Donaw neu y Danube, y mae hi yn awr yn meddiannu rhai rhanau o Thracia gynt, Macedonia, ac hyd yn oed Thessaly. Rhenir hi gan y Donaw yn ddwy ran; yr Ogleddol neu y Daca-Romaeg Deheuol, neu y Macedo-Romaeg. Mae y gyntaf yn burach na'r olaf, ac yn meddu graddau o ddiwylliad llenorol, ond y mae y llall wedi benthyca rhifedi mawr o eiriau Groeg ac Albanaidd, ac heb ei sefydlu yn rammadegol etto. Merch yw y Wallachaeg bresennol i'r iaith a leferid yn Dacia gynt, gwlad a orchfygwyd gan y Rhufeiniaid. Gelwid trigolion cyntefig Dacia yn Thraciaid, a'u hiaith yn Illyraeg; ond nid oes genym ond y nesaf peth i ddim o weddillion yr hen Illyriaeg—ddim digon o leiaf i benderfyny ei chyssylltiad â'r Roeg, na'i chyttrasiad a theulu yn y byd arall o ieithoedd.

Mae y gwahanol ieithoedd Slafonaidd yma yn meddu gwahanol raddau o ddiwylliad. Mae y Tschechaeg a'r Slofakaeg yn Hungary Uchaf, yn meddu llenoriaeth yn ei holl ganghenau, ond yn neillduol gyfoethog mewn barddoniaeth telynegol. Mae y Rwssaeg a'r Bwlaeg yn meddu ar lenoriaeth goethedig ac eang. Y Bulgaraeg yw yr iaith dlotaf a'r fwyaf glogyrnaidd. Y buraf o'r cwbl yw y Rwssaeg, a'r fwyaf llygredig yw y Bwlaeg; mae y Bwlaeg yn cynnwys ugeiniau os nad cannoedd o eiriau Lladin, wedi eu dwyn i mewn trwy ddylanwad yr Eglwys Babaidd, tra y mae y Rwssiaidd wedi glynu wrth yr Eglwys Roegaidd neu ddwyreiniol ac felly wedi cadw eu hiaith yn llawer purach.

| Byw. | | Treng. |
|---|---|---|
| Allmaenaeg ne. Germanaeg | | Hen Uchel Allmaenaeg |
| | | Uchel Allmaenaeg Ganolig |
| Saesneg | Isel Allmaenaeg | |
| Hollandaeg ne. Dutch | Isel Allmaenaeg | Gothaeg |
| | | Anglo, Sax. |
| | | Hen Ddutsh. |
| Friesaeg | Isel Allmaenaeg | Hen Friesaeg |
| Gogledd All. | Isel Allmaenaeg | HenSaxonaeg |
| Danaeg | Scandinafiaid Llychlyn | " |
| Swedaeg | Scandinafiaid Llychlyn | " |
| Norwegaeg | Scandinafiaid Llychlyn | Hen Norsaeg |
| Icelandaeg | Scandinafiaid Llychlyn | |

Wrth Uchel Allmaenaeg ddiweddar (New High German, *Hoch Deutsch*), y mae i ni ddeall yr iaith Allmaenaidd er's amser Luther; Uchel Allmaenaeg ganolig yw yr iaith fel yr ysgrifenid hi o'i amser et yn ol i'r ddeuddegfed ganrif; Hen Uchel Allmaenaeg, fel y lleferid ac yr ysgrifenid hi o hyny yn ol hyd y seithfed ganrif. Yr unig weddillion o'r Gothaeg yw cyfieithiad o'r Beibl i'r iaith hono gan Esgob Ulfilas, tua'r flwyddyn 350 B. A.

IEITHOEDD SHEMAIDD, NEU SHEMITAIDD.

Nid ydym ni yn gwybod am un rheswm da dros alw y teulu yma yn *Semitic* yn lle *Shemitic*; *h. y.*, yn Semaidd yn lle Shemaidd, gan yr addefir pa un bynag ai yn gywir ai peidio, eu bod yn cael eu galw felly oddi wrth SHEM fab Noah, ac nid oes dim dadl nad yr *s* dew, ac nid yr *s* deneu, a arferir wrth orgraphu y gair *sheem* (שם), a dywed Gesenius yn bendant fel hyn, gyda golwg ar darddiad y gwahanol genhedloedd o'i lwynau ef, "Shem, Sem, proper name of the eldest son of Noah, *Gen.* v. 32; from whom are derived the *Semitic* nations, *i. e.*, the nations of Western Asia, the Persians, Assyrians, Arameans, Hebrews, and part of the Arabs." O dan y gair SHEM, yr hwn y mae Dr. Julius Fürst yn ei Allmaeneiddio trwy "Sem," cawn yr hyn a ganlyn, "Shem, *n. p. m.*, von welchem ô nach der mosäischem Volkergenralogie die Voker der Südwestlichen Asiens abgeleitet erden welche Völkermasten daher die 'Semietische' genanut wird;" *h. y.*, "enw priodol gwryw, o'r hwn yn ol achyddiaeth Moses y tarddodd trigolion de-orllewin Asia, a'r rhai o blegid

Digitized by Google

hyn a elwir Semitaidd." Mae awduron Saesneg yn dilyn yr Allmaenwyr, er fod yr enw priodol wedi ei gyfieithu yn Shem yn Saesneg, etto Shemaidd, neu Shemitaidd, yw y cywiraf yn ol yr Hebraeg.

Gan fod yr enw "Iaphetaidd" wedi cael ei roddi o'r neilldu a'i wrthod, a'r gair Aryaidd wedi cael ei fabwysiadu, ni chyfeiriasom at ach yr Aryaid fel yn hanu o Iapheth; ond gyda golwg ar Shem, y mae y peth yn wahanol. Nid yw o bwys i ni o ba ffynnonell yr oedd Moses yn tynu neu wedi cael ei wybodaeth; mae yn sicr ei fod yn adrodd ffeithiau hanesyddol gyda golwg ar gyflead disgynedigion Elam, Arphacsad, Lud, ac Aram, neu Peleg a Joktan. O Peleg y tarddodd yr Hebreaid; ac o Joktan, llwythau Arabia ddeheuol a'u hieithoedd. Yr oedd eithafoedd terfynau y llwythau, cenhedloedd, a ieithoedd Shemitaidd, yn estyn neu yn cyrhaedd rhywbeth yn debyg i fel y canlyn:—tua'r gogledd, Cadwyn y Taurus—sydd yn tori Asia Leiaf fel pe bai yn ddwy ran anghyfartal, gan ymgeingcio i mewn i ranau tu mewnol Asia; tua'r gorllewin, Môr y Canoldir, yr Aipht, y Môr Coch; tua'r de, cefnfor Arabia a Phersia, a rhan o'r gwastad-dir yr ochr draw i'r afon Tigris. Yr oedd trigolion yr holl wledydd sydd gynnwysedig o fewn i'r terfynau rhagddywededig yn unedig yn y cwlwm cryfaf sydd yn rhwymo dynion yn un, sef *Iaith.* O blegid, er fod yr iaith Hebraeg, y Syriaeg, y Galdeaeg, a'r Arabaeg yn gwahaniaethu llawer oddi wrth y naill y llall, etto un teulu oeddynt, ar ei ben ei hun yn dra gwahanol, heb ddyweyd yn hollol wahanol i ieithoedd yr Hamiaid, ac yn fwy gwahanol i ieithoedd y Japhetiaid.[1] Er fod lle i gredu fod amryw deuluoedd Cushaidd wedi mabwysiadu iaith neu gangen o iaith Shemaidd yn lle eu hiaith gynnwynol hwy eu hunain, er enghraifft y Pheniciaid; yr un fath ag y gwnaeth y Longobadaid neu Lombardiaid yn yr Eidal, Gothiaid, Yspaen, a Ffrangcod Gaul, mabwysiadodd pob un o honynt, i raddau mawr, iaith y wlad a orchfygasant yn lle eu hen iaith Deutonaidd eu hunain.

Yn yr oesoedd boreuaf o'r oruchwyliaeth bresennol, ac yn y canol-oesoedd, pan nad oedd dim ieithoedd yn cael eu hastudio na'u dysgu ond Groeg, Lladin, a Hebraeg, yr oedd y dosraniad i *sanctaidd* a *chyffredin*, neu i *glasurol* a *dwyreiniol*, yn digoni; ond pan yr eangodd difinyddion gylch eu hastudiaeth i gael gwybodaeth o'r Arabaeg, y Galdaeg, a'r Syriaeg, gwnaed cam yn mlaen, a hwnw yn gam pwysig tuag at sefydlu teulu o ieithoedd. Ni allasai neb beidio gweled fod yr ieithoedd yma yn dal y berthynas agosaf at eu gilydd, a'u bod yn gwahaniaethu oddi wrth y Groeg a'r Lladin yn mhob peth yr oeddynt yn cyttuno á'u gilydd ynddo.

Tair prif ran y teulu Shemitaidd ydyw yr *Aramaeg*, yr *Hebraeg*, a'r *Arabaeg*, fel yr awgrymasom uchod. Mae yr Aramaeg yn ffynu yn Syria, Mesopotamia, a rhan o deyrnasoedd hynafol Babilonia ac Assyria. Rhoddir yr enw blaenorol i'r iaith sydd wedi cael ei chadw i ni mewn cyfieithiad o'r Beibl, sef y PESHITO (syml). Cyfieithwyd yr Hen Destament o'r Hebraeg, a'r Testament Newydd o'r Groeg, o ddeutu 200 B.A., neu cyn hyny. Siaredir yr iaith hon etto, er ei bod wedi llygru yn ei ffurf, gan Nestoriaid Kurdistar, yn agos i lyniau Van ac Urmia, a chan rai tylwythau Cristionogol yn Mesopotamia, a gwnaed ymdrech gan y cenhadon Americanaidd sydd yn sefydledig yn Urmia, i adferu y llafar gwlad yma (*dialect, idiom*), i ryw fath o gywirdeb grammadegol trwy gyfieithiadau a grammadegau o'r hyn a alwant Neo-Syriaeg.

Rhoddir[2] yr enw Chaldaeg i'r iaith y darfu i'r Iuddewon ei mabwysiadu yn ystod y caethgludiad Babilonaidd. Er fod yr Iuddewon wedi cadw i fyny wybodaeth o'u hiaith sanctaidd eu hunain, etto dechreuasant fabwysiadu llafar eu gorchfygwyr, nid yn unig i berwylion masnachol ac ymddiddanol, ond hefyd yn eu cyfansoddiadau llenorol. Mae Llyfr Ezra yn cynnwys darnau yn Nghaldaeg o'r un oed ac arysgrifau cunffurf Darius a Xerxes, ac y mae yn debyg fod y rhan fwyaf o'r llyfrau Apocryphaidd wedi eu cyfansoddi yn y Galdaeg, ac nid yn yr Hebraeg, er eu bod wedi cael eu cadw i ni yn y Groeg. Rhydd y *Targum* hefyd, fel y gelwir hwynt, sef cyfieithiadau neu aralleiriad o'r Hen Destament, wedi eu cyfansoddi yn ystod y canrifoedd oedd yn union deg yn rhagflaenu ac yn dilyn y cyfnod Cristionogol, enghraifft arall o'r Aramaeg, neu iaith Babilonia, wedi ei thrawsblanu i Palestina. Yr Aramaeg yma oedd yr iaith a siaredid gan Grist a'i ddysgyblion. Mae ychydig eiriau sydd wedi eu cadw yn y Testament Newydd, fel y rhai a arferid gan ein Harglwydd yn ei iaith ei hun, megys *Talitha, Cumi, Ephphatha, Abba*, yn Galdaeg neu Aramaeg, fel y siaredid hi y pryd hyny gan yr Iuddewon, ac nid yn Hebraeg.[3]

Ar ol dinystr Ierusalem, parhaodd llenoriaeth neu lenyddiaeth yr Iuddewon i gael ei ysgrifenu yn yr un iaith. Mae *Talmud* Ierusalem yn perthyn i'r bedwerydd ganrif, a Thalmud Babilon yn perthyn i'r bummed ganrif, yn dangos yr iaith Aramaeg fel y siaredid hi gan Iuddewon dysgedig; oedd yn y gwahanol leoedd hyny y pryd hwnw, er ei bod wedi ei llygru a'i hanharddu trwy gymmysgiad gydag elfenau estronol. Ysgrifenwyd y *Masora*, ac esboniad traddodiadol ar yr Hen Destament yn yr un iaith o gwmpas yr un amser. Yn fuan ar ol hyny mabwysiadodd yr Iuddewon yr iaith Arabaidd fel eu hiaith lenorol, ac arferasent hi hyd y drydedd ganrif ar ddeg. Yna dychwelasant a mabwysiadasant fath o Hebraeg ddiweddar, yr hon hefyd a arferant hyd heddyw mewn dadleuon dysgedig.

Mae yn beth rhyfedd fod y gangen Arameaidd o'r teulu Shemaidd wedi cael ei chadw i ni yn llenyddiaeth yr Iuddewon a Christionogion Syria yn unig, er mai hi oedd iaith brenhiniaethau a theyrnasoedd mor eang â Babilon a Ninefeh. Rhaid fod llenyddiaeth Babilonaidd wedi bodoli, o blegid yr oedd doethineb y Caldeaid wedi ennill y fath glod nas gallasai gael ei gynnal heb lenyddiaeth. Rhaid mai Aramaeg oedd Abraham yn siarad cyn iddo ymfudo i Ganaan. Yr un iaith oedd Laban yn siarad, a Syriaeg yw yr enw a roddodd ar y garnedd geryg oedd i fod yn dystiolaeth rhyngddo ef a Iacob, sef *Tegar-sahadutha*, tra ar y llaw arall, Hebraeg yw yr enw y galwodd Iacob hi, sef *Galeed*. Os byth y ceir gwybodaeth am, neu o, lenyddiaeth Babilon, rhaid i hyny gymmeryd lle trwy ddeongliad o'r arysgrifau cunffurf a gludwyd yn ddiweddar i'r wlad yma o Babilon a Ninefeh, o blegid y mae yn amlwg mai mewn iaith Shemaidd y maent wedi eu hysgrifenu. Nid oes ammheuaeth, bellach, ynghylch hyny. Ac er mai yn raddol iawn yr ydys yn llwyddo i'w deongli—arafach o lawer nag y disgwylid

[1] Gefrörer, "*Urgeschichte des Menschlichen Geschlecht.*"

[2] Gwel *Muller passim.*

[3] Gwel RENAN.

Digitized by Google

unwaith; etto, nid oes achos anobeithio. Mewn llythyr dyddiedig yn 1853, fe ddywed Syr Henry Rawlinson:—

"Ar y llechau clai y cawsom hyd iddynt yn Ninefe, ac y mae miloedd o honynt; y mae traethodau eglurhaol ar agos i bob testyn o dan haul; y gelfyddyd o ysgrifenu, grammadegau, geiriaduron, nodiadau, pwysau a mesur, dosbarthiad amser, amseryddiaeth, astronomyddiaeth, daearyddiaeth, hanesiaeth, mythyddiaeth (chwedloniaeth), daearegiaeth, llysieuaeth, &c., &c. Y mae genym yn awr mewn ffaith gylchgrawn perffaith o gelfyddydau Assyriaidd."

Pan ystyriom gymmaint sydd eisoes wedi ei gyrhaedd ar y ffordd i ddeongli un dosbarth o'r arysgrifau cûnffurf, sef y Persiaidd, nid oes achos ammheu na ddarllenir y cwbl o'r gwyddoniadur hwnw ryw ddydd mor hawdd ag y darllenir yn awr *Mynydd-hanesion Darius.*

Pa fodd bynag, y mae yn bodoli ryw fath o weddillion truenus o'r hyn oedd llenoriaeth y Caldeaid a'r Babiloniaid unwaith, sef *Llyfr Adda,* a'r cyfryw gyfansoddiadau wedi eu cadw gan y Mendaiaid neu Nasoriaid, sect baganaidd wedi sefydlu yn agos i Bassora. Er fod y llyfrau hyn wedi eu hysgrifenu mor ddiweddar â'r ddegfed ganrif o oed Crist, tybir eu bod yn cynnwys gronynau o wir feddyliau hynafiaethol Babilon o dan grystyn diweddarol mabinogion rhamantus a disynwyr; ac yn hyn o beth yn debyg iawn o ran eu cyfansoddiadau i'n hysgrifau mabinogaidd a barddonol ni, y rhai a briodolir i gyfnod o amser gannoedd o flynyddoedd cyn iddynt erioed gael eu hysgrifenu. Mae y Mendaiaid yma, mewn gair, wedi cael eu huno gyda'r Nabateaid, y rhai a grybwyllir mor ddiweddar â'r ddegfed ganrif o oed Crist—paganiaid pur, yn hollol wahanol i'r Iuddewon, Cristionogion, a'r Mahometiaid.

Yr ail gangen o'r teulu Shemaidd yw yr Hebraeg, yr hon a gynnrychiolir yn benaf, gan hen iaith Palestina, lle y siaredid ac yr ysgrifenid yr iaith Hebraeg o ddyddiau Moses hyd amser Nehemiah a'r Maccabeaid yn nghanol llawer o amrywiaethau a gwahaniaethau, fel y gellid meddwl, a chydag ymgymmysgiad cryf o'r ffurf Arameaidd, ond yn enwedig felly er's amser y caethgludiad Babilonaidd, a chyfodiad diwylliad grymus yn y wlad gyfagos—Syria. Yr oedd hen iaith Phœnicia, fel yr awgrymasom yn ol Gefrörer, yn perthyn yn agos i'r Hebraeg, fel y gwelir oddi wrth arysgrifau; ac i'r gangen yma hefyd y mae yn rhaid priodoli iaith Carthage.

Llygrwyd yr iaith Hebraeg yn y lle cyntaf trwy ddylanwad llafarau Araméaidd, o blegid uchafiaeth gwladwriaethol Babilon, a mwy fyth felly o blegid uchafiaeth Syria; ac o'r diwedd, ysgubwyd hi ymaith gan yr Arabaeg, yr hon sydd yn awr, er amser gorchfygiad Palestina a Syria yn 636 o oed Crist, yn meddiannu yr holl diriogaeth lle yr oedd y ddwy gangen hynaf o'r cyff Shemaidd yn ffynu, sef yr Aramaeg a'r Hebraeg.

Hanodd y drydedd gangen yma, sef yr Arabaeg, o gyfandir Arabia, lle y siaredir hi yn bresennol gan boblogaeth liosog a chryno. Ei llenoriaeth hynaf ydyw yr arysgrifau *Himyaritic.* Trawsblanwyd y gangen Arabaidd yma yn foreu iawn i Affrica, lle y mae llafar hynafol Arabaidd yn ffynu hyd y dydd heddyw, sef i'r de o'r Aipht a Nubia, gogyfer â Yemen. Dyma'r Ethiopaeg, neu yr Abyssiniaeg, neu fel y gelwir hi gan y trigolion eu hunain—Geesaeg. Er na siaredir mo honi yn ei phurdeb yn awr gan drigolion Habesh, etto y mae hi i'w chael yn ei phurdeb yn eu llyfrau cyssegredig, cyfieithiadau o'r Beibl, a'r cyfryw ysgrifeniadau sydd mor hen a phymtheg cant o flynyddoedd o oed. Amharaeg y gelwir iaith bresennol Abyssinia.

Mae yr ysgrifau Arabaidd boreuaf yn hynach nag oes Mahomet. Moallakat y gelwir hwy—hyny yw, "Pryddestau crogedig;" o blegid, dywedir iddynt gael eu harddangos yn y dull hwnw yn Mecca. Hen bryddestau llafar gwlad ydynt, yn cynnwys disgrifiadau o fywyd a dreulir yn yr anialwch. Gyda Mahomet, daeth yr Arabaeg yn iaith y grefydd fuddugoliaethus, ac eangodd ei dylanwad dros Asia, Affrica, ac Ewrop.

Mae y tair cangen yma—yr Aramaic, yr Hebraic, a'r Arabic—yn berthynasau mor agos i'w gilydd, fel nad oes modd peidio eu hadwaen, a chydnabod eu tarddiad cyffredin. Mae yn rhaid i bob gwreiddyn, neu wreidd-air, yn yr ieithoedd yma, cyn belled yn ol ag yr ydym ni yn gydnabyddus â hwynt, fod yn gynnwysedig o dair cydseiniad; a ffurfir llawer o eiriau o'r gwreidd-eiriau hyn trwy gyfnewid y bogeiliaid, gan adael y boncyff neu y *skeleton* gwreiddiol, heb gyffwrdd âg ef cyn belled ag y byddo modd. Rhoddwn yma enghreifftiau o hyn :—

| | Sain. | Ystyr. | Gwreiddyn. |
|---|---|---|---|
| למכשלות | lymemsh'loth | i lywodraeth | כשל |
| מהשחיתם | mehaschitham | rhag eu dinystrio | שחת |
| נזעמים | niz'ghamim | y rhai llidiog | זעם |
| מכרים | niscarim | cofiedig | זכר |
| נפוצותם | n'photzothem | chwalwyd chwi | פוץ |

Gwelir fod y llythyrenau gwreiddiol yn y geiriau uchod o dan ba gyssylltiad bynag y byddont yn sefyll allan, eu bod fel esgyrn i'r cyfansoddiad anifeilaidd; ac yn wir, y mae yr un peth yn ffynu yn mhob iaith i raddau, ond yn unig fod yr ieithoedd Shemaidd wedi stampio, fel pe b'ai, y gwreiddyn yn foreuach na'r ieithoedd gorllewinol. Ond cofier, nid gwreiddiau dychymmygedig ydyw y rhai hyn, fel y mae Dr. Owen Pugh, a'r ysgol anphilosophaidd y perthyn iddi, wedi eu dyfeisio fel gwreiddiau Cymreig—y mae gwreiddiau Cymreig yn ddiddadl, yn y ffurf symlaf, yn gynnwysedig o dair, neu o ddwy gydseiniad; ond nid ydys wedi cael hyd ond i ychydig o honynt. Mae yn ammhossibl camgymmeryd iaith Shemaidd, ac nis gellir dychymmygu chwaith am iaith Aryaidd yn tarddu allan o iaith Shemitaidd, neu un Shemaidd yn tarddu allan o iaith Aryaidd. Mae y ffrâm neu y ffurf rammadegol yn hollol wahanol yn y ddau deulu yma o ieithoedd; ond ar yr un pryd, nid yw hyn yn cau allan y possiblrwydd mai dwy ffrwd yn tarddu o'r un ffynnonell ydynt yn wreiddiol; ac y mae y gymmhariaeth a sefydlwyd rhwng gwreidd-eiriau Shemitaidd, ar ol eu tynu i lawr i'w ffurf mwyaf ammhlyg, gyda gwreidd-eiriau Aryaidd, wedi gwneuthur y peth yn fwy na thebygol mai yr un oedd yr elfenau sylweddol y cychwynodd y ddau deulu gyda hwynt yn y dechreu.

Ieithoedd ereill y tybir eu bod yn perthyn i'r teulu Shemaidd ydyw llafar Berber yn ngogledd Affrica; llafarau a siaredid ar hyd lanau y môr o'r Aipht hyd Fôr y Werydd cyn y goresgyniad Arabaidd, y rhai sydd yn awr wedi eu gwthio i ranau tufewnol Affrica, fel y gwthiwyd y Gymraeg i Gymru. Rhestrir rhai ieithoedd ereill hefyd, megys yr Haussaaeg a'r Galläaeg yn mhlith y teulu Shemitaidd, a iaith yr Aipht er's amser

Digitized by Google

yr arysgrifau offeirgraphol (*hieroglyphic*) hynaf hyd ddyddiau y Goptaeg, yr hon a beidiodd gael ei siarad tua dau gan mlynedd yn ol, a briodolir hefyd i'r dosbarth yma o deuluoedd. Ond y mae cymmeriad Shemaidd y llafarau hyn yn llawer llai amlwg nag y dymunid, ac y mae gradd bennodol eu cyttrasiad â'r ieithoedd Shemitaidd yn bwngc i'w benderfynu etto.

Fe allai fod rhywrai o'n darllenwyr yn barod i ofyn, os o'r un gwreiddyn y tarddasant, pa fodd y maent mor wahanol—hyny yw, pa fodd y mae y teuluoedd Aryaidd mor wahanol i'r rhai Shemaidd. Yr ydym wedi cyfeirio at hyn o'r blaen trwy ddyweyd y gallasai yr iaith wreiddiol gynnwys llawer o gyfenwau (*synonymous*) am yr *un veth*—rhai o'r rhai hyn yn myned ar goll mewn *un* iaith, y lleill yn myned ar goll mewn iaith *arall*. Nid oes dim sydd amlycach; y mae yr un peth o dan ein llygaid yn mhob plwyf, cwmwd, a chantref yn Nghymru, ac yn mhob gwlad arall. Dywedir fod cynnifer a chwech ugain o gyfenwau am ynys yn yr Islandaeg; fod cynnifer â phum cant o enwau am lew yn yr Arabaeg, a mil o gyfenwau am gleddyf: wrth gwrs, y mae llawer o ormodiaeth barddonol yn hyn oll; ond bwrier fod pedwar neu bump, neu dri o gyfenwau am yr un peth yn yr un iaith, y mae yn amlwg y gallai pedair neu bump o ieithoedd gwahanol darddu o'r un cyff, a phob un ar ol ychydig iawn o amser trwy ddylanwad amgylchiadau yn ymddangos yn hollol wahanol ar y rhan fwyaf o bethau i'w gilydd. Felly yn wir y mae hi yn bod gyda'n teulu ni ein hunain—y Gymraeg, y Wyddelaeg, yr Ysgotaeg, neu iaith Ucheldir Ysgotland—er yn hanu o'r un gwreiddyn, y mae y naill genedl yn hollol annealladwy i'r llall.

Yn gydweddol â'r sylwadau hyn ynte, nid oes llawer o debygrwydd i fod rhwng ein iaith ni yn neillduol â'r iaith Hebraeg—Hebraeg fel cynnrychiolyddes yr holl ieithoedd Shemitaidd. Y mae llawer wedi haeru fod perthynas agos a neillduol rhwng y ddwy—*myth* yw i gyd! Disgwyliem yn naturiol weled ryw ychydig gyttrasiaeth rhyngddynt; ond am debygu neu gymmharu y Gymraeg â'r Hebraeg i'w gilydd, awydd am iddi fod felly oedd tad y drychfeddwl.

Cyn belled ag y gallwn ni weled, y mae y gyfathrach rhwng yr Hebraeg, neu yn hytrach y teulu Shemaidd, a'r teulu Aryaidd yn rywbeth tebyg i gynnwysiad y daflen isod. Nid ydym yn ei rhoddi o flaen ein darllenwyr ond fel dargynnygiad o gyfathrachiad; a'r geiriau hyny sydd yn ymddangos yn ammheus neu yn anfoddhaol, yr ydym wedi eu harwyddnodi â serenell:—

קול (kol) Cym, galw—S. call.
עטר (atar) τιαρα* tiaria. (W. cyd—cydio, cadwaen ?)*
דרך C. dyrnu.* troed,* S. track, Gr. τρεχειν.
גדל C. gadael.
חרה L. uro, areo, ira.
כון Cym. cwnn(u), to bring up.
תור C. tŵr, tro,* S. tower, turret, L. turris, All. thurm.
מנה Cym. mân.
חזק G. ισχυσ.*
כבר* S. cave, C. ogof, L. Cavus.
שית S. sit, Cym. ista' (eistedd), L. sto, G. ἵστημι.
כבר L. guber(no), G. κυβερ(νω), Eid. gober(nare), Saes. gover(n).
לקט L. lego, lectum, All. lesen.*
עתה S. yet,* jetzt—(now).
עוד קוד S. yet.

עבר Saes. over, All. über, Gr. ὑπερ, L. super, Cym. gyfer.
יבש L. hres.
בנה All. bauen.
מכה G. μαχη.
ברך G. γονυ, L. genu, All. knie, S. knee, Cym. glin.
קרע S. crack, Cym. (c) rhwyg, crecciau.
הלל All. hellen.
חקר L. quæro—quisivi.
ארך All. reichen, Saes. reach.
נפל All. fallen, Saes. fall.*
כפף G. κυπτω.
שמד S. smite; to destroy—s softened as we
שמד see even the Jews themselves softening the same letter in Shibboleth and Sibboleth. —Gwel *Gesenius*.
בשר G. σαρξ*.
נחת S. 'neath, All nieder.
ירא G. ἱεροσ.
חזה S. gaze.*
זרע L. sero.
ארג ακραχνη Com., Ff. araignee, L. aranea.
כעס Cym. cas.
זיד All. sieden, S. seeth, sodden.
בוש S. bash(ful), a—bash.
עבד L. obed (io), S. obey, obeir, Cymr. ufudd.
נכה yn yr Hiphil ictus הכה.
שבר S. shiver.
קרא S. cry, Cym. cri.
בזר S. Bazaar, Ffr. Bourse.*
כלם S. calumny.
קהל S. call, Cym. galw (gwel uchod o dan y gair *kol*).
שנה L. annus.*
נער All. baner, Dutsh boor, L. Baro.
חגר S. gird,* C. gwregys.*
שק S. sack—sach. Gwel uchod.
עבור Gr. υπερ, S. over, All. über. Gwel o'r blaen.
כתנת Gr. χιτων, S. coat.
הלך S. walk, All. walken.
ילך S. walk.
גרש All. greis, Gr. γηρας.
עור S. skin.
קנה S. win, gain, All. winnen, Cym. en-nill.
לעג All. lachen, S. laugh. Gwel mewn man arall.
חרה L. ira.*
בחל L. pello.*
כלב All. klaffen.
שכל S. skill, G. σχυολα, S. school, All. schule, C. ysgol (s) call.
אבס L. obesus.
אגר Gr. αγειρω, L. agger.*
אדר G. αδζοσ, L. ador(o).
אהל G. αυλη.
אוה L. aveo.
אויל* S. evil, Teut. uvel, All. übel.
אין All. kein.*
אלם L. alumen.
אם mam, mama, am(o), Ff. aimer, Eid. amar.
אמן L. omen.
אפד Gr. απτω, L. apto, S. apt.
אצר θησαυρος with a prefixed ת*[1]
אור Gr. αηρ, ωρα, C. awyr, L. aurora.
אמל G. αμαλοσ.
בוא G. βαι(ν)ω, L. via,* Saes. way, All. weg.
בחל Gr. βαλλω.
בלה G. παλαι(ος).
בלע S. (s) wallow,* onomatopetic, Cymraeg llyngcu, llwngc.

[1] Gwel Gesenius

בנט S. bind, All. binden.
בקר L. vacca, C. buwch, buches, Gr. βος,* &c.
ברק S. bright.
נאה G. γαιω, S. gay, Ff. joie, Eid. jioia, S. joy.
גוב S. gibbous.*
נחל inde, נחלת pl. נחלים, con. נחלי, Cym. glo, gloyw, All. glühen, Dan. gloe, glow, coal, Islandic gloa.
נלב G. γλυφω (to scrape=to make smooth) S. glaber, glib, G. γλαφω.
נלד C. caled(u), S. cold,* All. kalt, Llad. gelidus.
נלם L. glom(us), S. glomerate, con(glomer)ate, C. glynu.*
ננב Teut. knap(pen), Swed. napa, S. knave.
נפר G. κοπαρισσοσ, L. cypressus, S. cypress.
נרנרת G. γαργαρεων, S. gargle, All. gurgle.
נורל G. κληροσ.*
דיה Armoric a Chym. dû.
דמה G. δαμαω, L. domûs, C. dôf, S. tame.
דמן tommen, reg. dommen, All. dungen, S. dung.
דקר All. degen, S. dagger.
הלל All. hellen, G. αλλαομαι, ἕιλη Ηηλιοσ, Cym. haul, L. sol, Eid. sola, Ff. soleil.
זוע* Groeg, σειω, All. schrauben,* S. shake, shock.
זפת Attic πιττα πισσα, L. pix, All. pech, S. pitch, Cym. pŷg.
זרם All. strömung, S. stream.
זרע S. strow, All. streuen, Groeg στροοο.
חבל S. cable.*
חגר S. gird, All. gürten.
חכה S. hook.*
חלב G. αλφος, L. albus.
חלט S. clutch.*
חמל G. αμαλος, L. mollis.
חנק G. αγγω, All. hängen, S. hang.
חרף L. carp(o) crop, All. rupfen.*
טוב Cym. da.
טוח All. tünchen, S. thack, thatch, L. tego, Groeg τεγος.
אחז All. hash-en.
קנה G. καννη-καννα, L. canna, S. cane.
דרש S. thresh, All. dresch-en.
זבה σφαοσ(ω)
חוג עוג C. cy(l)ch, G. κυκλοp, S. circle, All. tsirkel, kugel.
פלג L. pelagos, fluc-tus, fluc-si o flu-o, Sans. plu, Gr. φλυ-ω-βλαω, C. llif—llifo, פל yr Hebraeg, φλ y Groeg, ac *fl* y Lladin wedi ei newid fel arferol i *ll* Gymraeg.
פגע hen gyff, Llad. pago, pango, hinc pepigit, πηγ νυμι, All. pochen.
מדד Sans. mâd, Zend. mèitê, G. μετρον, L. metior, meta, Goth. mitan, Anglo-Sax. metan, Germ. messen, Saes. mete, Isl. maele, Lith. mattoju, Gwydd. mead, Cymr. modd, meidrol, mesur, medr.
נגש Cymr. nagosh(au), nesh(au) o agos y ffurf agos i'r gair Cymraeg *agos* yw *y Kal.* נגש.
דחל G. δειλος.
ריח All. Ruch, Geruch, Rauch.
הריח Hiphil voice of רוח* All. Riechen.
באש All. böse.
קיר C. caer.
בית bwth, Saes. booth, All. Bude, Cym. bwthyn.
פרי S. fruit, L. fructus, Cym. ffrwyth.
בנע G. γονυ, L. genu, Sans. ganu, All. kni, Saes. knee, Cym. glûn.
אכר G. αγοσος, L. ager, Goth. akr, All. acken, S. acre, Cym. acar, âr.
אש L. ussi (perf of uro) אשא, Sans. ash, ashes, ustus, All. heissen heiss, Saes. hot.

פגע G. πηγ(νυμι) pago, i. q. pango paciscor—pax i. q. pacs.
לשון Sans. rasana, Gr. (γ)λωσσα.
משל βασιλ-ευσ (not from βασις & λαος.
לאט } λα(ν) θανω lateo, Sans. lud.
לוט }
דמן Cym. tomen.
קצר All. kurts, Saes. curt.
כחד Cym. cyhudd, (cuddio).
יסד San. Sad., L. sed(ere) set, Goth. sat jan, Cymr. gosod.
כדים כד Sansc. ghada, Gr. καδος καδδος, Llad. cadus, Slav. kad, Russ, kad'.
חוש (onomatapetic) All. häschen, haschen, Saes. haste, chase.
כלא G. κλειωκλ εις κληις κλαίς L. clavis, claudo, S. close, Cym. clo, cloi, cliciad, F. clef, Ital. chiave, Sp. llava, clave

* * *

בוה } S. base, Ffr. bas, Eid. basso.
בוה }
חרץ scratch.
טפח All. Teppich.
קוי Cym. cwyno, cŵyn.
טבע y cyff gwreiddiol yw טב, Saes. dep-th, Goth. diup, Saes. deep, All. tief, also Gothic doufan, All. tandfeon, Saes. dip, Gr. δυπτω δευω, Cymraeg dwfn, dyfn.
גדר Sk. cadarum, It. catarata, All. gatter, gitter: ceir y gair yn amlach gyda'r *k* wedi ei thraws-symmud, χορτος, L. hortus, cors, chors, cohors, All. garten, Saes. garden, Cymr. gardd, Slaf. gorod, a Saes. yard (an enclosed place).
יבל All. wall-en, welle, Saes. well, Cymraeg (g)wlaw, (g)wlith, S. (f)low.
שבע Sans. saptan, Zend. hapta, Pers, Gr. ἕπτα Lladin septem, Goth. sibun, All. sieben, Saes. seven, Cym. saith.
סכר } S. to shut, to close, *i. e.*, to secure, hince
סגר } sagar is cognate with Latin sicur(us; Cym. sicr, sickr, Saes. sure, All. sichen.
כלא (to shut up) Cym. cloi, clo, cliciad, Gr. κλεις κληις, Llad. clavis, claudo, Saes. close, Ffr. clef, It. chiavo, Sp. llave, Saes. key. Gwel uchod.
רוח All. rauch, riechen, Saes. reek.
פרק S. break, breach, All. Bruch, Gr. ρηγνυμι Sans. prah, Llad. frango, Goth. prickan, prichan.
כלב (gair onomatopetic) Cym. cleppian, All. klappern, S. clap, clapir, yelp.
פרד L. veredus, All. pferd.
בוס (bus) to tread; the abstract idea of treading is expressed in many languages by e syllable pat variously inflected: Sans. pati (way), Zend. pethoand pâte (a path) πατος & πους for ποδς; Llod. pes, Low Ger. paddun pfad, Eng. path, in Hebrew the t is changed into a sibilant.—*Gesenius.*
טור טוהים Cym. tŵr tyrau, tre.
טרה Gr. τειρω, L. tero, S. tire.
ירע Groeg ειδω.
כהן Gr. κονεω, diacon.
מכין Rhangymmerydd yr Hiphil, Gr. μηχανη.
כפף Gr. κοπτω, καπτω καμπτω.
כות cudo cdo.
לאט Gr. ληθω (2nd fut. λαθω. λανθανω, L. lateo.
לבט L. labor (lapsus)*.
להט S. light,* (tân, cynneu tan).
להך Gr. λειχω. S. lick. All. lecken.
לוע to lick up. •
לעג All. lachen.

Digitized by Google

לפד Gr. λαμπα, L. lampa, S. lamp, All. lampe, see Gesenius again.
לקח Gr. ληλω, λαγλανω, S. luck, All. Glück.
מוד S. mete, L. metior, All. maas, Gr. μετρον, L. modius.
מזג Gr. μισγεω, S. mix, All. mischen, Cym. mysgu, cymmysgu.
מטיל Gr. μεταλλον, metallum, metal metall.
נוה ναιω, ναος*
נוה νυξ, L. nox, Goth. nauts, All. nacht, S. night, F. nuit, Eidal nocce.†
טרת infin of נטר, τηρεω, tueri.
נכה L. neco, noceo.
נגל All. nagel, Dan. nagle, Saes. nail.'
נהג allan o'r modd imper, הג Gr. αγω, αγομαι, L. ago All. jagen.
נוע Gr. νευω, L. nuo, All. nicken, S. nod.
נפל S. fall, All. fallen.
עבר Gr. υπερ, S. over, All. über, L. super supra, Eid. sopra, Ff. sur.
עגל All. kugel, wheel, Gr. κυκλος.*
עדן Gr. ηδονη.
ענק All. nacken, Saes. neck.
עור Gr. ορω ορνυμι, L. orior, All. gähren
ערב L. corvus, S. crow, All. krähe
ערג Gr. ορεγω, ορεγνυμι οργαω.
ערום Gr. ερημος, All. arm, (tylawd).
עת L. ætas, All. jetzt.
פארור L. parer, S. fair.
פג L. ficus, Saes. fig, &c., &c., &c.
פה Gr. φαω, φημι φημη.
פחת L. puteus, S. pit, Ff. puits, Eid. pozzi.
פוך Gr. φυκος, L. fucus.
פלה All. pflug.*
פרא L. ferus, S. fierce.
פרד S. part, C. parth, parthu.
פרה Gr. φερω, L. fero, pario, All. bären, Saes. bear, (a child), bwrw (lloi), Sans. bhri.
פרץ S. breach, bruise, All. bruch.
פשע pass (a step), Ff. pas.
פתת / פת } S. bit, bite, All. beissen.
פתח Gr. πεταω, L. pateo.
צדק L. judex, S. judge.*
צחק L. jocor, S. joke, Sans. kalk, Gr. καχαζω, cachinor, All. gackern, kichern, S. giggle.
צרר Ff. serrer.*
צור S. cave, L. cavus, Cym. o-gof.
קטב S. to cut.
כלע Gr. κοιλος, L. clum, S. hollow, All. hohl.
קום All. kommen,* S. come.
קרא Cym. cri, S. cry, Gr. κραζειν κηρυσσω; S. crow, cry, Ff. crier; Twed. skreian, All. krähe.
קרן Gr. κερας, L. cornu. C. coru—cyrn. S. a horn.

Sans. carnis, carŭgan. O'r gair yma y mae enwau lleoedd yn tarddu yn Nghymraeg ac Allmaenaeg;—Schreckhorn, wetterhorn, Aarhorn. Cornwall, kornaw, cernaw, Cernioge; ac hefyd Carneddau, corn-y-bwch.

ראה Gr. οραω.
רעע Cym. rhwygo, S. rag, Gr. ῥήγνυμι.
רעם ῥεμβω, All. brum-en.
ארץ Gwel ein sylwadau ar y gair neu y gwreiddyn AR.
רצץ G. ρησσω, ρηγνυμι, L. rush.*
רקם through the Arabic, Sp. recamare, Ital. recamor, Ff. recamer; but this word was introduced only in the early or middle ages, and therefore proves nothing as the primitive consanguinity of the Indo-teutonic languages.*

† Mae Gesenius yn meddwl yn wahanol.

שאר G. σαρξ.
שבט S. staff, shaft, All. stab.
שבר / סבר } L. sper(o).
שחר L. scurus, S. obscure, All. schwartz, S. swarthy.
שחת S. scath.
שכן G. σκηνη.
שלל G. σολαω.
שלח G. στελλω.
שלט S. shield, All. schild.
שסף G. σφασσω—σφαιτω.
שק σακος-σακκος, Ethiop ΨΦ, L. saccus, Coptic COK, S. sack, Cym. sach.
שש G. ἓξ, All. sechs, S. six.
תאב L. tabeo.*
תכן G. τεχνη.*
תמה G. δαυμα, L. tim(eo), S. timid.
תער C. tori, G. τρωω, S. tare, Eid. tagliare, Ff. tailler—hence tailleur and tailor, a'r Cym. teiliwr.
תרע G. θυρα, All. thüre, S. door, Cym. drws.
שרק (sharak) to whistle, Saes. shrick, Sans. svri (to sound), G. συρισσω-συριττω, Llad. (su)surro.
ילל (yalal) yell, Llad. ejul(are) ulul (are), Gr. ολολ (υζειν).
כחד (cahad), S. to hide., W. cyhudd cuddio.
פרק (parak), Saes. break, Sans. pra, L. frango, Goth. prikan prichan, All. brechen brecken.
לביא All. löwe, G. λεω, S. hori, Cym. llew, S. lion, &c.
בד (bad), L. vid-uus, Saes. wid-dow, Allmaen. wittwe, G. οιαδον=לבד, Ff. veuve, It. vedova, Sp. viuda, Rwss. ВДОВА (vdova).
מרה (marah), All. murren, S. mur(m)ur, It. mormorare, Cym murmur*—grwgnach—gwrthryfela.
שאב Goth. skephan, All. schöppfen.
שאר C. sür, Saes. sour, All. sauer, &c.
צים צן G. αζα, Sans. aga, Goth. Gaitsa, Anglo-Sax. gat, Eng. goat, Germ. Geis, Gems, Ff. chamois, αἶξ αἰγος, Cymr. gafr.
שרף (saraph), Sans. sarpa, Lladin serpens, Saes. serpens, Cym. sarph, Ysp. serpiente, Gr. ἕρπειν.
חרש (charash), G. χαρασσω (character).
לקק (lakak), S. to lick, All. lecken.

IEITHOEDD SHEMAIDD NEU SHEMITAIDD.

*Tafell Achyddol.*

| Ieith. byw. | Ieith. trengedig. |
|---|---|
| Arabaeg | " |
| Yemenaeg | " |
| Coutfaeg | Arysgrifau Himyaretaidd |
| Amharaeg | Ethiopaeg |
| Hebraeg | Hen Hebraeg y Beibl |
| | Samaritanaeg |
| | Carthagenaeg |
| | Pheniceaeg |
| Neo-Syriaeg | Chaldaeg |
| | Syriaeg |
| | Arysgrifau cunffurf Babilon a Ninefeh |

‡ Gwel *Parkhurst*, a *Gesenius* o dan y gair.

Digitized by Google

IEITHOEDD TURANAIDD.

Mae y teulu lliosog yma yn cynnwys y cenhedloedd Normadaidd ymfudol hyny ag sydd wedi eu gwasgaru dros y rhanau gogleddol a chanol o Asia. Ystyr y gair *Tura*, o ba un y ffurfir yr enw *achol*, yw 'cyflymder y marchog.'

Y mae y teulu hwn yn gynnwysedig o ddau ddosbarth mawr; sef, y gogleddol a'r deheuol. Gelwir y dosbarth gogleddol weithiau yn *Ural-Altaic*, neu *Ugro Altaic*, a rhenir ef yn bum cangen; sef, y Tungusig,[a] Mongolig, Tyrcig, Finnig, a Samoiedig.[b]

IAITH: Attodiad, i'r Argraphiad hwn.

Y mae bellach lawn ddeng mlynedd ar hugain er pan ysgrifenwyd yr erthygl uchod; ac fe allai nad oes yr un wyddoreg wedi camru mwy ymlaen yn ystod y blynyddoedd hyny na 'gwyddoreg iaith.' Ond yr oedd ei dargan-fyddiadau pwysicaf hithau wedi eu gwneyd ymhell cyn ysgrifenu'r erthygl hon, a'i phrif egwyddorion wedi eu sefydlu; ac ni syflir yr egwyddorion hyny. Y mae'n wir fod amryw byngciau a gredid gynt wedi eu dymchwel; er hyny, saif y prif egwyddorion. Mewn manyldeb ac eangu'r maes y bu cynnydd ieitheg yn benaf. A chan fod ein herthygl uchod ar linellau gwyddonol, ac yn cadw yn benaf at y prif byngciau, nid oes ynddi lawer yn gofyn ei gywiro; er y buasem, erbyn hyn, yn gosod rhai pethau mewn ffordd wahanol. Er hyny, tybiasom mai gwell nag ysgrifenu erthygl hollol newydd fuasai ysgrifenu'r attodiad hwn at yr hen erthygl; o blegid er i ni trwy hyny golli tipyn mewn symlrwydd ac uniongyrchedd, ni chollir dim mewn effeithioldeb addysgol i'r efrydydd. Ac heb law hyny, y mae'r erthygl uchod yn ddyddorol ynddi ei hun fel un o'r ymgeisiadau cyntaf i draethu yn Gymraeg ar ieitheg wyddonol. Ysgrifenwyd hi pan oedd braidd bob llenor Cymreig, yn wybodol neu beidio, yn credu yn ieitheg ddi-reol, a di-reswm Dr. W. O. Pughe.

Fel y gellid disgwyl, un anhawsder mawr yr adeg hono oedd cael termau Cymraeg syml. Yr oedd yn 'rhaid defnyddio rhai Groeg, neu ffurfio rhai trwsgl Cymraeg;' ond erbyn hyn, y mae'r ymdrafod a fu yn Gymraeg ar ieitheg wedi hyrwyddo'r ffordd i ni gael termau Cymraeg ag y mae'r rhai Groeg yn drwsgl yn eu hymyl. Bron na synem erbyn hyn na buasid yn arfer y gair syml Cymraeg 'dynwaredol' yn lle'r gair trwsgl Groegaidd '*onomatopœiaidd*'—ag yntau yn cyfleu'r syniad gymmaint gwell na'r gair Groeg. Rhoddwn yn awr, gan hyny, restr o'r termau newydd a arferir genym yma, ac a arferasom yn yr erthyglau ieithegol eraill; sef, Cymraeg, a Cymry. Rhydd hyny help i'r efrydydd ddarllen Iaith yng ngoleu'r erthyglau hyny, a'r *Attodiad* hwn. Gall hefyd wneyd rhywbeth at sicrhau termyddiaeth gliriach yn y maes hwn yn Gymraeg. Yn gyntaf, ynte, tybiwn mai doeth yw arfer y gair 'gwyddoreg' am *un* '*science*;' megys, 'gwyddoreg iaith,' *the science of language*:—a'r gair 'gwyddoniaeth' am *science* yn gyffredinol, megys 'gwyddoniaeth a'r Beibl,' *science and the Bible*. Felly, 'gwyddonol' fydd *scientific*; a 'gwyddon' neu 'wyddonydd' fydd *scientist*.

Arferasom 'ieitheg,' yn lle '*philologiaeth*,' am *philology*; 'iethegwr' neu 'ieithegydd' am *philologist*; ac 'ieithegol' am *philological*. Gellir arfer 'ieithydd' am *linguist*, ac 'ieithyddiaeth' am *the science of language*, sef gwyddoreg iaith yn gyffredinol. Prin, fe allai, y mae angen am y gair 'ieithyddwr' am wyddonydd iaith. Y mae 'ieithyddiaeth,' neu 'wyddoreg iaith,' yn cynnwys amryw is-wyddoregau:—'ieitheg' yn ymdrin â ffurfiau geiriau; 'seineg' (*phonology*) yn ymdrin â natur seiniau; 'ffurfeg' (*morphology*) yn ymdrin â ffurfiau brawddegau; ac 'ystyreg' (*sematology*), sef gwyddoreg ystyron.

Mewn cyssylltiad âg ieithyddiaeth, y mae amryw wyddoregau eraill; sef, 'dyneg' (*anthropology*), sef hanes naturiol dyn; 'cenhedleg' (*ethnology*), gwyddoreg perthynas cenhedloedd â'u gilydd.

Arferasom y gair 'tylwyth' am *family*; a 'theulu' am *group* o ieithoedd. Y mae y fantais o hyny yn amlwg. Gallwn ddyweyd fod yr iaith Gymraeg yn perthyn i'r teulu Celtaidd, a hwnw'n perthyn i'r tylwyth Ariaidd; a rhydd hyny i ni syniad go gywir am y berthynas. Y mae 'treigliadol' yn hen derm am *inflectional*. Arferasom y termau newydd 'gludiol' am *agglutinative*; 'didolair' am *isolating*; 'crynhöadol' am *polysynthetic*; a'r term Cymraeg 'dadansoddol' yn lle y term Groeg *analytaidd*. Arferasom 'gydweddiad' am *anology*; a 'chyflwr,' yn lle 'egwyddiad,' am *case*. Fe allai mai dyma'r holl dermau sydd yn gofyn eu henwi; a dymunem i'r darllenydd sylwi'n fanwl ar y rhai hyn.

O berthynas i ddechreuad cyntaf iaith, nid oes nemawr ddim wedi ei benderfynu er pan ysgrifenwyd ein herthygl flaenorol. Fel y sylwir ynddi, gwaith hollol ofer yw ceisio chwilio am yr iaith wreiddiol yn mysg ieithoedd y byd. '*Nid oes un iaith wreiddiol*;' o blegid, fel y sylwir yn mhellach (td. 641), 'y mae yn anghredadwy, ar yr olwg gyntaf, i ba raddau y mae, nid yn unig geiriau, ond ieithoedd hefyd, yn newid; a hyny mewn ychydig o amser, os na byddant yn meddu llenoriaeth ysgrifenedig.' Yn wir, y mae y rhan fwyaf o ieithegwyr yn awr yn gwadu fod *un* iaith wreiddiol wedi bod erioed. Y rheswm a roddant hwy dros y syniad hwn yw, nas gellir profi yr un berthynas rhwng dau dylwyth o ieithoedd â'u gilydd. Y mae pob tylwyth, fel y sylwasom (cyf. iii., td. 49), yn 'cynnrychioli dull gwahanol o edrych ar y byd.' Dylid rhoi pwys priodol ar hyn; sef, nas gellir profi yr un berthynas, er enghraifft, rhwng Cymraeg a Hebraeg, nac hyd yn oed rhwng y fam-iaith Ariaidd a'r fam-iaith Semitaidd. Yn wir, er pan y mae eu ffurf briodol eu hunain arnynt, nis gallant fod yn perthyn i'w gilydd. Er hyny, ni phrawf hyn nad allai fod cyfnod y tu hwnt i gyrhaedd ieitheg, pryd y lleferid iaith ddi-ffurf, a allasai ddadblygu i unrhyw gyfeiriad:—iaith dyn, cyn i'w feddwl gael hyfforddiant, a dilyn yr un o gyfeiriadau y meddwl deffroedig:—iaith fel iaith baban cyn iddo ddysgu llunio brawddegau. Nis gallasai'r iaith wreiddiol fod yn amgen na hyny; ond gallasai un felly fod. Y mae'r Proffeswr R. W. Warner wedi dysgu ieithoedd rhai o rywogaethau o eppaod—ieithoedd â chanddynt saith neu wyth o eiriau. Disgwyliwn y teifl ei

[a] Nid Tungusaeg, am fod y terfyniad 'ig' yn arwyddo llawer o ieithoedd yn perthyn i'r prif ddosbarth.

[b] Gadawsom allan y rhelyw o'r hen erthygl; sef, 'Dosbarthiad a Rhestr o'r ieithoedd Turanaidd.' Y mae'r rhestr erbyn hyn yn hen a diwerth; ac yn cynnwys mwy o ieithoedd nag sydd yn y gwir dylwyth Turanaidd; ac fel rhestr faith o enwau sych a dieithr, nid yw o un dyddordeb.



Digitized by Google

ymchwiliadau ef ryw oleuni ar y pwngc tywyll o ddechreuad iaith.

Gyda golwg ar ddefnyddiau cyntefig iaith, y mae rhyw ychydig, fe allai, o oleuni wedi ei gael yn rhagor. Fe ddeil yr hyn a ddywedir (td. 632) am y gwahanol gyfundrefnau i esbonio y defnyddiau hyn, fod 'pob un yn cynnwys rhyw gymmaint o wir.' Y mae amryw wreiddiau, yn ddiddadl, wedi eu ffurfio trwy ddynwarediad sain, fel y dadleuir yn yr erthygl; er fod y fath ŵr a Max Müller, y pryd hyny, o farn wahanol. Y mae llefau ebychiadol, hefyd, wedi rhoi bod i ychydig wreiddiau, fel y dywedir yno; a dïau fod ysgogiadau'r corph a'r wyneb yn gymmhorth i'r llefarwyr cyntefig roddi ystyr i'r seiniau ebychiadol hyn.

'Y drydedd gyfundrefn,' meddir yn yr erthygl, 'yw yr un *analytaidd*, neu ddansoddiadol; sef, bod pob gwreiddyn yn cynnwys drychfeddwl *cyffredinol*, ac nid drychfeddwl personol neu unigol.' Y mae'n wir mai ystyron *cyffredinol* sydd i'r rhan fwyaf o'r gwreiddeiriau; ac am hyny, nis gall ond ychydig o honynt fod yn seiniau dynwaredol neu ebychiadol. Ond tra y mae'r gyfundrefn ddansoddiadol yn canfod hyn, ac yn ei wthio yn rhy bell, nid oes ganddi oleuni ei hun i'w roi ar y pwngc. Nid yw yn ceisio dangos pa fodd y daeth gwahanol seiniau i gynnrychioli drychfeddyliau cyffredinol neu weithredol. Taflwyd llawer o oleuni ar hyn gan Noiré yn ei lyfr, '*Der Ursprung der Sprache*' (1877). Cynnyrch cymdeithas ydyw iaith—nid dyfeiswaith un dyn; a gwyddom oll am y llefau hyny a wneir gan ddynion fydd yn gweithio gyda'u gilydd, megys llongwyr yn tynu rhaff, neu yn rhwyfo, a barbariaid yn ymosod ar eu gelyn. Achosir y llefau gan y gwaith cyffredin; ac, yn araf, daethant yn seiniau i gynnrychioli'r gwaith; ac felly esbonir y lliaws gwreiddiau sy'n dynodi gweithredoedd.

Yr ydym eisoes (cyf. iii., td. 53) wedi galw sylw at ystyr briodol y term 'gwreiddyn,' neu 'wreiddair.' Y gwreiddyn yw'r rhan o'r gair fydd yn aros wedi tynu ymaith o hono yr holl ranau cyfnewidiol. Y camgymmeriad cyffredin yw tybied fod y gwreiddyn noeth wedi bod yn cael ei arfer fel gair, ac nad yw'r terfyniadau ond gwreiddiau eraill wedi eu gludio wrtho. Y mae'r syniad fod pobl wedi bod yn siarad iaith o wreiddiau'n unig yn afresymol ddigon, pan geisir ei gymmhwyso at yr ieithoedd Semitig; o blegid ynddynt hwy *tair cydsain* ydyw'r gwreiddyn, a chyflëir y gwahanol dreigliadau trwy roi llafariaid rhyngddynt. Ac hyd yn oed yn yr ieithoedd Ariaidd, nis gellir dod o hyd i gyfnod pan oedd y terfyniadau yn eiriau gludiol, nac i gyfnod pan arferid geiriau heb y terfyniadau (gweler cyf. iii., td. 49, 53).

Gadawn y pwngc dyrys hwn yn y fan hon. Ofnwn yr aiff llawer o flynyddoedd heibio eto cyn y gallwn ddyweyd gair penderfynol ar y pwngc o ddechreuad iaith. Fel y crybwyllasom (cyf. iii., td. 48), dosberthir ieithoedd y byd yn dylwythau a theuluoedd. Rhenir y tylwythau drachefn yn ddosbarthiadau ffurfegol; sef, yn dylwythau treigliadol, neu ludiol, neu ddidolair, neu grynhoadol.

Y tylwyth treigliadol a elwir yr **Ariaidd** yw ein tylwyth ni. Rhoddasom eisoes (cyf. iii., td. 50) y dosbarthiad diweddaraf o ieithoedd y tylwyth hwn. Fel y gwelir uchod (td. 635), darganfyddiad y Sanscrit a arweiniodd i ddarganfyddiad y tylwyth hwn (gweler hefyd cyf. iii., td. 78); a cheir yn yr erthygl uchod (td. 635—651) y dull a arferwyd i gymmharu ieithoedd y tylwyth hwn â'u gilydd. Drwy'r gymmhariaeth hon y sefydlwyd deddf Grimm (td. 645); ac erbyn hyn, y mae'r gwaith wedi ei wneyd mor fanwl nes rhaid cael pob llythyren i gyfatteb i'w llythyren cyn sicrhau perthynas rhwng dau air o wahanol ieithoedd. Gellir hefyd ddyweyd pa un ai brodorol, ai wedi eu benthyca, y bydd geiriau'r ieithoedd. Cyfeiriwn y darllenydd at y tablau—cyf. iii., td. 51, 52—am berthynasau'r prif seiniau yn ol yr ymchwiliadau diweddar.

Gyda golwg ar y geiriau a gymmherir â'u gilydd uchod, y mae enwau'r metteloedd yn gofyn sylw arbenig. Dywedir (td. 642) fod yn anhawdd sefydlu perthynas bob amser rhwng y geiriau hyn yn y gwahanol ieithoedd; ac, 'mewn rhai enghreifftiau, yn ammhossibl, yn ystâd bresennol y gelfyddyd o ieithyddiaeth.' Gellir, erbyn hyn, brofi fod y peth, yn wir, yn ammhossibl; o blegid nid oes berthynas rhyngddynt. Ac y mae hyn yn cyttuno â'r casgliad y daw cenhedleg iddo; sef, fod yr Ariaid cyntefig wedi ymwahanu cyn gwybod dim am fetteloedd. Cymmerwn yma gyfleusdra i gywiro'r sylwadau a wneir ar *aes* a *haearn*,* er mwyn dangos fel y teifl ieitheg ddiweddar oleuni ar hanes y cenhedloedd. Tardda'r gair Cymraeg *haearn* o ffurf Geltaidd gynnarach *ais-arn;* a gwreiddyn hwn yw *ais*—ffurf a gyfettyb i'r Lladin *aes*. Gwelir felly fod gan y Celtiaid a'r Italiaid gopr cyn ymwahanu. Wedi hyny y cafodd y Celtiaid haearn; a ffurfiasant enw iddo (*aisarn*) o'r gair am gopr (*ais*). Yna cafodd y Teutoniaid haearn drwy'r Celtiaid; a benthyciasant oddi arnynt yr enw Celtaidd *aisarn;* o blegid y mae terfyniad Celtaidd y gair hwn yn profi mai Celtaidd ydyw. Cyttuna hyn â chasgliad cenhedleg mai'r genedl Geltaidd a ddechreuodd wareiddio Ewrop. Er mor ddyddorol i ni ydyw'r ieithoedd Ariaidd, teimlwn ein bod, yn yr erthygl uchod, a than y penau CYMRAEG a CYMRY, wedi rhoi cymmaint o le ag a allwn iddynt heb wneyd cam â'r ieithoedd eraill. Gan hyny, ni wnawn etto ond sôn am lenyddiaeth hynaf yr ieithoedd hyn.

Y llyfr hynaf ar gael mewn iaith Ariaidd ydyw'r llyfr Sanscrit a elwir y *Rig Veda*. Casgliad o hymnau ydyw. Ysgrifenwyd ef tua phymtheg can mlynedd cyn Crist; a daeth yn llyfr sanctaidd yn India—mor sanctaidd na bu yn yr Eglwys Gristionogol erioed athrawiaeth o ysbrydoliaeth eiriol hanner mor eithafol a'r hyn a gredid am y *Rig Veda*. Cyfrifwyd ei hymnau, ei linellau, ei eiriau, a'i sillau; ac y mae sicrwydd ei fod wedi ei drosglwyddo i ni yn berffaith ddiwall o'r chweched ganrif cyn Crist. A thrwy astudio'r llyfr hwn, fe gododd yn yr India, ganrifoedd cyn Cred, rammadegwyr a ddarganfyddodd egwyddorion nad ydynt ond newydd eu hail ddarganfod yn y ganrif oleu hon.

Ym Mhersia y ceir y nesaf o ran oed; sef. y *Zend Avesta*—beibl y Zoroastriaid. Anhawdd yw penderfynu ei oed; ond fe geir mewn cerfysgrif fawr a gododd Darius Hystaspis yn Behistun, ei fod ef wedi adfer yr Avesta ar ol i'r Magi Turanaidd ddymchwel y ffydd Zoroastraidd. Chwe neu saith canrif, fe allai, cyn Crist, y cawn Homer yn nhir Groeg; ac ymhen

*Gall y darllenydd gofalus gywiro drosto'i hun lawer o'r manylion a geir yn yr erthygl hon trwy gyfeirio at y tabl sydd yn cyf. iii., td. 51.

Digitized by Google

tair neu bedair canrif wed'yn y cawn ddechreuad llenyddiaeth Ladin. Y llyfr hynaf mewn iaith Deutonaidd ydyw 'r Beibl a gyfieithodd Ulfilas i'r Gothig yn y bedwaredd ganrif. Nid oes genym ond ychydig eiriau o'r ieithoedd Celtaidd ar gerfysgrifau o'r chweched a'r seithfed ganrif; ac mewn llawysgrifau Lladin o'r wythfed. Yn y ddeuddegfed ganrif yr ysgrifenwyd y llawysgrif Gymraeg hynaf; ac nid oes yng Ngwyddeleg un nemawr hŷn; ac yn y ddegfed ganrif y dechreua llenyddiaeth Slafonaidd.

Y tylwyth nesaf o ran pwysigrwydd yw'r tylwyth Semitaidd. Y mae'r hysbysrwydd am yr ieithoedd hyn wedi ëangu yn ddirfawr er pan ysgrifenwyd yr erthygl uchod. Dywedir, er enghraifft (ar td. 652), 'Os byth y ceir gwybodaeth o lenyddiaeth Babilon, rhaid i hyny gymmeryd lle trwy ddeongliad o'r arysgrifau cŷnffurf a gludwyd yn ddiweddar i'r wlad yma o Babilon a Ninifeh.' Y mae'r arysgrifau hyny bellach wedi eu deongli, ac y mae amryw gyfrolau o gyfieithiadau Seisnig o'u cynnwys wedi eu cyhoeddi. Nid Aramaeg, neu Galdaeg y Beibl, ychwaith, ydyw'r iaith sydd ynddynt; ond iaith Semitaidd arall hŷn, a elwir Assyriaeg, neu Assyro-Babylonian. Yn y llyfrgell fawr a gasglodd Assur-bani-pal, mab Esar-haddon, y cafwyd y rhan fwyaf o'r arysgrifau sydd yn yr Amgueddfa Brydeinig; a chopïau ydynt, yn benaf, o ysgrifau hŷn. Ond y mae yno hefyd arysgrifau llawer hynach na hyny; megys gweithredoedd cyfreithiol o amser Khammuragas, yr hwn a ddechreuodd deyrnasu yn y flwyddyn 2,290 cyn Crist[a]. Y mae'r rhan fwyaf o lyfrgelloedd Babilonia dan y ddaear etto, yn disgwyl yr anturiaethwr i'w dihuddo. Ysgrifenwyd yr ysgrifau ar glai meddal, â rhyw offeryn yn gwneyd marc o ffurf cŷn; ac yna, craswyd hwynt. Cynnwysant bob math o hymnau a thraethodau crefyddol, a hen chwedloniaeth a hanes, a gwyddoniaeth. Ceir ynddynt hanes y diluw a'r greadigaeth, yn gyffelyb i hanesion Genesis; ac aml i rysêt feddygol gyffelyb i'r rhai a roddir gan feddygon ein gwlad a'n canrif ni, gyda rhyw ddirgel swyn, fe allai, yn y gwaelod, i foddio'r ofergoelus. Ond nid y Semitiaid a lefarai iaith yr arysgrifau hyn oedd trigolion cyntefig Babilonia. Yr oedd yno o'u blaenau bobl a elwir yr Accadiaid, â'u hiaith yn perthyn i dylwyth hollol wahanol i'r tylwyth Semitaidd. Gan yr Accadiaid hyn y dysgodd Semitiaid Babilonia yr ysgrifen gŷnffurf, ac elfenau eu gwareiddiad. Ymgymmysgodd y ddwy genedl â'u gilydd; ac o'r diwedd, yr iaith Semitaidd a orfu. Y brenin Semitaidd cyntaf ym Mabilonia oedd Sargon y cyntaf; a phrofir ei fod yn byw 3,750 o flynyddoedd cyn Crist.[b] Bu'r iaith Accadaidd farw tua 2,000 cyn Crist. Ychydig flynyddoedd yn ol, ni wyddid beth oedd ystyr yr arwyddion ar y tefyll clai, heb sôn am air o'r iaith a gynnrychiolent. Ond erbyn hyn, trwy sêl, a medr, a llafur anghredadwy, y mae dirgelwch yr arwyddion wedi ei ddatrys, a'r *ddwy* hen iaith wedi eu dehongli.

Nid yw yr Hebraeg ond tafodiaith leol, yn perthyn, gydag iaith Phœnicia, a Moab, ac eraill, i'r teulu Canaanëaidd o'r tylwyth Semitaidd. Nis gwyddom am Hebraeg ond drwy'r darnau o'i hen lenyddiaeth a gedwir yn yr Hen Destament; ac yn fuan ar ol y gaethglud, fe

[a] Sayce: '*Religion of the Ancient Babylonians: Hilbert Lectures*, 1887,' td. 12, 23. [b] Etto, td. 23.

ddiweddarwyd iaith y rhai hyny bron i gyd.[b] Ac wedi cyfnod y Maccabeaid, bu'r Hebraeg farw fel iaith lafar; a llefarwyd yr Aramaeg yn ei lle. Y mae'r hen Aramaeg gryn dipyn yn wahanol i'r Assyriaeg a'r Hebraeg, er ei bod yn perthyn i'r un gangen o'r ieithoedd Semitaidd. Lleferid hi yn helaeth yn Syria a Mesopotamia. Tua'r wythfed ganrif cyn Crist, daeth yn iaith fasnachol y parthau hyny; a dilëodd yr Assyriaeg a'r Hebraeg, fel y dilëwyd hithau wed'yn gan yr Arabeg. Daeth y Syriaeg—ffurf ddiweddarach ar yr Aramaeg—yn iaith lenyddol trwy'r cyfieithiad o'r Beibl a elwir *Peshito*, a wnaed tua dechreu'r drydedd ganrif. Erbyn hyn, nid oes o'i hôl ond ychydig o dafodieithoedd Syriaeg newydd, a leferir o gylch llyn Urumiyah.

Perthyna'r uchod oll i'r gangen ogleddol o'r ieithoedd Semitig. Yn y gangen ddeheuol, y bwysicaf yw'r iaith Arabeg. Er fod genym ychydig o ganeuon Arabeg cyn amser Mahomet, gyda'r '*Koran*' y daeth hi yn iaith bwysig. Lledaenodd gyda'r grefydd Fahometanaidd i'r Aifft, a Syria, a Barbary. Yn ei chyfnodau diweddar, y mae peth adfeiliad seiniol wedi cymmeryd lle ynddi, er fod iaith y Bedouiniaid yng nghanolbarth Arabia etto mor bur ag iaith y '*Koran*;' ac mewn rhai agweddau, yn fwy hynafol ei ffurf hyd yn oed nag Assyriaeg Ninifeh.[c] Y mae'r Arabeg yn iaith gyfoethog, a'i llenyddiaeth yn ëang. Ysgrifenwyd ynddi weithiau pwysig ar wyddoniaeth yn y canoloesoedd; ac y mae ei cherddi a'i dyrïau etto'n enwog drwy'r holl fyd. Palla gofod i ni sylwi yma ar yr ieithoedd deheuol eraill o'r tylwyth Semitaidd.

Fel y sylwasom, y mae pob ymgais i brofi perthynas rhwng y tylwyth hwn a'r tylwyth Ariaidd wedi methu. Gan hyny, gallesid gadael allan o'r hen erthygl, 'IAITH,' y tabl hir lle y cymmherid gwreiddiau Hebraeg â geiriau Ariaidd; o blegid nid yw o un defnydd mwyach, nac o nemawr ddyddordeb i'r darllenydd. Tylwyth treigliadol ydyw'r Semitaidd, fel yr Ariaidd. Ond y mae egwyddor dreigliadol y ddau dylwyth yn hollol wahanol. Tra mai sill, neu ddeusill, ydyw'r gwreiddair Ariaidd, tair cydsain ydyw y Semitig; a threiglir trwy roi gwahanol lafariaid rhyngddynt (gweler cyf. iii., td. 49). Er hyny, fe dreiglir weithiau yn Semitig hefyd trwy arfer terfyniad. Yr oedd i'r enw Semitig dri chyflwr—enwedigol, gwrthddrychol, a meddiannol; ac yr oedd ganddynt y tri therfyniad *um*, *am*, ac *im*.[d] Tra mai'r ferf yw enaid yr ieithoedd Ariaidd, nid oes yn yr ieithoedd Semitaidd ond berfau wedi eu ffurfio o enwau; ac yn wir, y mae'n ammheus a ydynt yn ferfau gwirioneddol etto, er mor gyflawn a dyrys yr edrych eu treigliadau yn y grammadegau. Yn nhrefn y geiriau yn y frawddeg, cyttuna'r ieithoedd Semitaidd yn hynod â'r ieithoedd Hamitaidd (er nad mewn dim arall); ac y mae'r drefn hon yn hollol groes i'r drefn Ariaidd gyntefig. Daw'r ferf Semitaidd yn gyntaf—deuai'r ferf Ariaidd yn olaf. Bellach, rhoddwn restr gyflawn o'r ieithoedd Semitaidd o'r '*Introduction to the Science of Language*' (cyf. ii., td. 37). Dengys y marc hwn (†) wrth enw iaith fod hono wedi marw.

[b] '*Introduction to the Science of Language;*' cyf. ii., td. 169. [c] Etto, cyf. ii., td. 172.

[d] Son yr ydym am y famiaith Semitaidd. Ond ceir y terfyniadau mewn ieithoedd diweddar. Yn Arabeg, *oun*, *an*, *in* ydynt.

Digitized by Google

(*d*) *Gogleddol:* — † Assyro - Babylonaidd; †Phaenico-Hebreaidd; †Punic; Samaritaidd; Aramäaidd (†Chaldeaeg, †Syriaeg, †Mandaiteg, Syriaeg Newydd).

(*β*) *Deheuol:*—Gheez (Ethiopaidd): Amharaidd; Tigre (Tigrina); Harari; Himyaritaidd (Sabean); Mehri; †Ehkili; Arabeg; †Sinaiteg; †Safa; †Maltaeg.

Treigliadol ydyw'r tylwyth Hamitaidd hefyd; ac o'r tylwyth hwn, yr iaith bwysicaf, yn ddiammheu, ydyw'r hen Eiffteg. Yr oedd llenyddiaeth yr Aifft yn ëang, ac yn cyrhaedd hynafiaeth ddirfawr; ond ni chadwyd i ni ond cyfran fechan, mewn cymmhariaeth, o honi. Fe allai mai ei gwaith pwysicaf oedd '*Llyfr y Meirw*'[a]—llyfr crefyddol yn adlewyrchu syniadau tra aruchel am ddyledswyddau moesol dyn. Y mae'n llyfr hen iawn hefyd. Dyfynir pennod o hono ar arch Men-ke-ra; yr hwn a fu farw tua 4,100 o flynyddoedd cyn Crist. Yr ysgrifen hïeroglyphig oedd yr ysgrifen hynaf yn yr Aifft; ac o honi y tarddodd yr ysgrifen ddiweddarach a elwir yr *hieratig*. O ddarluniau adar, ac anifeiliaid, a'r cyffelyb y ffurfir yr ysgrifen hïeroglyphig; ac fel ym Mabilonia, felly yn yr Aifft, ni ddeallid, ddechreu'r ganrif hon, mo'r arwyddion na'r iaith a gynnrychiolent. Pan ddarganfyddwyd y *Rosetta Stone*—careg sydd âg ysgrifau Aifftaidd a Groegaidd arni—fe gafwyd agoriad i'r dirgelwch trwy gymmharu'r gair *Alexandria* yn y Groeg â chynnifer o gasgliadau o'r arwyddion hieroglyphig oedd yn ymddangos fel pe'n cyfatteb iddo. Ac wedi mawr lafur, fe ddëonglwyd pedair llythyren ar ddeg. Ond fel yn yr ysgrifen gûnffurf, y mae lliaws mawr o'r arwyddion yn cynnrychioli sillau; ac y mae llawer iawn yn sefyll hefyd, nid i gynnrychioli sain, ond i helpu'r ystyr. Pan gofir hefyd na wyddid mo'r iaith, fe wêl y darllenydd amcan pa anhawsderau oedd i'w gorchfygu. O'r hen ysgrifen hïeroglyphig hon y tarddodd y llythyrenau Phœniciaidd: ac o'r rhai hynny y tarddodd ein llythyrenau ni. Nid oes yr un o'r llythyrenau a ysgrifenwn ni yn awr, nac a ddarllenwch chwithau, nad yw eu tarddiad yn hen ddarluniau hïeroglyphig yr Aifft.

Y mae'r hen Eiffteg, fel y sylwyd, yn debyg o ran ffurf ei brawddegau i'r ieithoedd Semitig; ond ei bod yn symlach o lawer. Ond nid oes dim tebygrwydd arall rhyngddi a hwy. Nid oes gan yr Eiffteg ddim tebyg i'r gwreiddiau Semitaidd tair-cydsain. Y mae ei gwreiddiau a'i threigliadau yn debycach, o ran eu natur, i rai'r ieithoedd Ariaidd; ond eu bod yn symlach o lawer. Yn wir, y mae'r iaith hon, hyd yn oed pan gawn hi gyntaf, tua chwe mil o flynyddoedd yn ol, yn dangos symlrwydd a brawf ei bod y pryd hynny'n iaith hynafol. Ac yn ystod y canrifoedd maith y gallwn ni ddilyn ei hanes, cyfnewidiodd gryn lawer, er fod ganddi lenyddiaeth ysgrifenedig ëang. Ac erbyn y cyfnod Cristionogol, yr oedd ei gwedd wedi newid:—er enghraifft, yr oedd terfyniadau'r hen Eiffteg wedi myned erbyn hynny yn flaenddodiaid. Gelwir hi yn y ffurf ddiweddaraf hon, 'Coptic.' Cyfieithwyd yr Ysgrythyrau yn foreu i'r Goptig, ac y mae ynddi gryn dipyn o lenyddiaeth Gristionogol. Heddyw, yr Arabeg a leferir trwy'r holl Aifft; a Mahometaniaid ydyw mwyafrif mawr y trigolion. Ond y mae yno hefyd sect Gristionogol a elwir y Coptiaid;[b] ac arferant y Goptig yn y gwasanaeth cyhoeddus. Eithr bu'r iaith hon farw fel iaith lafar yn y ganrif ddiweddaf. Drwy help y Goptig hon, ac yn enwedig ei llenyddiaeth foreu, y dehonglwyd ei mamiaith—yr hen Eiffteg.

Y mae yn y tylwyth Hamitaidd ddau deulu arall; sef, y Libiaidd a'r Ethiopiaidd. I'r teulu Libiaidd y perthyn y Berber, ac ieithoedd eraill yn Affrica; ac yr oedd iaith Guanches y Canary Islands yn perthyn i'r un teulu. Y mae tua dau gant o gerf-ysgrifau ar gael, sydd yn cynnwys hen ffurf ar y Berber. O'r un genedl a'r Berberiaid a'r Guanches y dywed cenedlegwyr fod yr Iberiaid—sef, trigolion cyn-Geltaidd yr Ynysoedd Prydeinig—yn hannu; a hynny a esbonia'r ffaith fod llawer o nodweddion y gystrawen Hamitaidd yn y Gymraeg a'r Wyddeleg.

I'r teulu Ethiopiaidd y perthyn y Somâli, ac amryw dafodieithoedd a leferir yn neheudir a gorllewin Abyssinia. Bellach, rhoddwn yma dabl o'r ieithoedd Hamitaidd. Dengys y marc, †, fel o'r blaen, iaith drancedig:—

(*a*) † Yr hen Eiffteg, a'r † Coptic.

(*b*) Libiaidd: † Numidian: † Iaith Guanches y Canary Islands: Berber, Kabyle, a Tamashek, &c.

(*c*) Ethiopiaidd: Beja, Denkâli, Somâli, Galla, Agaü, a Saho.

Y tri thylwyth uchod ydyw'r prif dylwythau treigliadol. Yn wir, nid oes ond ychydig heb law hwy o'r cyfryw dylwythau'n aros. Treigliadol ydyw tylwyth Alarodaidd y Caucasus; i'r hwn y perthyn y Georgian. Y mae i'r Georgian wyth o gyflyrau i'r enw; ac y mae treigliad y ferf ynddi yn ddyrys dros ben. Yn ffurfegol, y mae'r tylwyth hwn yn bur gyffelyb i'r tylwyth Ariaidd; ond o ran gwreiddiau, neu ddefnydd, nid oes ynddynt ddim yn gyffredin.

Dywed Dr. Bleek, yr hwn yw y prif awdurdod ar ieithoedd deheubarth Affrica, fod y tylwyth Hottentot yn dreigliadol. Y mae i'r tylwyth hwn dair iaith; a cheir ynddynt gleciadau, a seiniau anhawdd iawn, a dieithr. Y mae i'r enw dair rhyw; sef, gwrywaidd, benywaidd, a neodr: tri rhif—yr unigol, y deuol, a'r lliosog: a dau gyflwr—enwedigol a gwrthddrychol. Ac y mae i'r ferf bedwar amser; ac amryw dreigliadau, megys gweithredol, goddefol, achosol, a'r cyffelyb. Fe allai nad oes ymysg miloedd ieithoedd y byd ond rhyw un neu ddau dylwyth treigliadol heb law y rhai a enwyd.

Flynyddoedd yn ol, fe dybid y gellid dosbarthu ieithoedd y byd yn dri thylwyth; sef, yr Ariaidd, y Semitaidd, a'r 'Turanaidd.' Yn wir, yn ein hen erthygl, ni sonir am dylwyth arall; a rhoddid dan y pen 'Turanaidd' fwy o'r hanner o ieithoedd nag sy'n perthyn i'r tylwyth hwnnw [gweler nodyn, td. 657]. Ond fe wêl y darllenydd, oddi wrth ein sylwadau diweddaf, fod yr ieithoedd Semitaidd, a'r rhai Hamitaidd, yn ddau dylwyth gwahanol; a bod, o leiaf, bump o dylwythau treigliadol. Fe wêl hefyd, oddi wrth cyf. iii., td. 49, fod holl ieithoedd y byd yn ymrannu'n bymtheg tylwyth a thrigain, o leiaf.

Tylwythau gludiol, fe allai, ydyw y nifer liosocaf o honynt. Yn yr ieithoedd treigliadol,

[a] Geilw'r Saeson ef yn gyffredin '*The Ritual of the Dead.*' Ond mwy priodol y geilw Renouf ef, yn ei *facsimile* o '*Bapyrus Ani*'—'*The Book of the Dead;*' megys ag y gelwir ef gan yr Almaenwyr '*Das Todtenbuch;*' a chan y Ffrancwyr '*Le Livre des Morts.*'

[b] Gweler '*Lane's Modern Egyptians.*' *Supplement.*

Digitized by Google

dangosir gwahanol swyddi gair trwy gyfnewid y llafariaid neu'r cydseiniaid sydd ynddo, neu drwy chwanegu terfyniadau neu flaenddodiaid nad oes iddynt ystyr ynddynt eu hunain. Yn yr ieithoedd gludiol, o'r ochr arall, dangosir swyddi gair trwy ludio wrtho fân eiriau âg ystyr benodol iddynt. Y mae'n wir y ceir, weithiau, ludiadau sy'n ymddangos yn ddi-ystyr, ac felly'n gyffelyb i dreigliadau; ond henaint a barodd i'r ystyr fyned yn anghof, tra na bu ystyr erioed i'r treigliadau. Fel hyn, ymddengys rhai gludiadau yn hollol fel yr *i* yn y Lladin *reg-i*, '*to a king*;' ond gwelir y gwahaniaeth yn y ffaith y gellir rhoi gludiad âg ystyr iddo yn lle'r llall, os mynnir; fel pe dywedid yn Lladin, *reg-de*, '*from a king*;' a gŵyr y sawl a ŵyr Ladin nas gellir gwneyd felly ynddi hi. Rhaid dyweyd *de reg-e*, gan arfer arddodiad a threigliad arall diystyr. Fe welir oddi wrth hyn fod cynllun sylfaenol yr ieithoedd gludiol yn fwy rhesymegol a chyson na chynllun yr ieithoedd treigliadol.

Y pwysicaf o'r tylwythau gludiol ydyw'r tylwyth Ural-Altäic, a elwir hefyd y tylwyth T u r a n a i d d. Ond na chamgymmerer ystyr y term hwn am yr ystyr a roddid iddo gynt, i gynnwys pob iaith, ond y rhai Ariaidd a Semitaidd. Mae'r tylwyth Turanaidd, er hynny, yn un mawr iawn; a chynhwysa, o leiaf, chwech o deuluoedd niferus. Lleferir yr ieithoedd hyn gan y Finniaid a'r Lappiaid yn y gogledd; yr Esthiaid a'r Ugriaid yn Rwssia; y Magyariaid yn Hungaria; yr Osmanliaid yn Nhwrci; a chan y Tartariaid, y Samoiediaid, y Mongoliaid, y Mantchuaid, a'r Tungusiaid. Ac fe allai fod iaith Japan yn perthyn i'r un tylwyth.[a] Ceisiodd y Tywysog Lucien Bonaparte, ac amryw ysgolheigion eraill, brofi fod y Basque hefyd yn perthyn i'r tylwyth hwn; ac os gwir y ddwy ddamcaniaeth olaf, cawn lefarwyr ieithoedd Turanaidd yn trigo yn eithafion yr hen fyd, yn nwyrain Asia, ac yng ngorllewin Ewrop.

Ac nid yn unig hynny, ond cawn hwynt hefyd yn eithafion hynafiaeth. O blegid i'r tylwyth hwn y perthynai iaith yr Accadiaid; y rhai, fel y crybwyllwyd eisoes, a drigai ym Mabilonia cyn i'r Semitiaid ddyfod yno, ac a ddysgasant i'r Babiloniaid Semitaidd y llythyrennau cûnffurf, ac elfennau eu gwareiddiad. Yr Accadiaid oedd efrydwyr boreuaf seryddiaeth a mesuroniaeth. Hwynt-hwy gynnyrchodd 'ddoethineb y Caldeaid'—doethineb y profir ei ddilysrwydd mor amlwg yn yr hen defyll clai; ac mai nid breuddwyd oesoedd diweddarach oedd.

Y mae yr ieithoedd Turanaidd wedi eu cymharu yn lled fanwl, yn y dull y cymharwyd yr ieithoedd Ariaidd; ac y mae deddfau, fel deddf Grimm, wedi eu sefydlu. Olrheiniwyd, hefyd, hanes mudiadau boreu'r llwythau Turanaidd trwy gymharu eu hieithoedd; ond nid ydys wedi cyrraedd y tymor boreu cyn i'r Accadiaid cyntaf adael eu perthynasau, a mudo tua'r de. Afraid i ni, fe allai, yw rhoi yma dabl o'r chwech neu saith iaith a thrigain sy'n perthyn i'r tylwyth hwn.

Gludiol hefyd ydyw tylwyth D r a v i d i a i d d yr India. Y mae i'r tylwyth hwn ryw ddeuddeg o ieithoedd—rhai o honynt yn ieithoedd barbaraidd, eraill yn ieithoedd diwylliedig, yn meddu llenyddiaeth eang. Daeth y Dravidiaid i'r India o flaen yr Ariaid, ar hyd yr un ffordd o'r gogledd-orllewin; ac yr oedd yno lwythau eraill o'u blaen hwythau, megys y Kolariaid. A gludiol ydyw ieithoedd y rhai hyn hefyd. Gofod a ballai i ni draethu am y tylwyth K o l a r i a i d d, y tylwyth M a l a y o - P o l y - n e s i a i d d, y tylwyth M e l a n e s i a i d d, heb sôn am y degau sydd o fân dylwythau eraill yn perthyn i'r dosbarth gludiol.

Y mae llawer o'r ieithoedd gludiol, i ryw raddau, yn gynwysiadol (*incorporating*); hynny yw, cynwysant neu ymgorfforant ragenw, neu air arall, rhwng rhannau gludiedig gair. Y mae hyn i'w weled yn yr hen Accadeg, ac yn amryw o'r ieithoedd Turanaidd eraill. Ac yn wir, dyma brif nodwedd y Basque, fel y cyfrifir hi'n gyffredin yn iaith gynwysiadol, yn hytrach nag yn iaith ludiol. Fe allai mai rhyw gyssylltiad boreu rhwng y Celtiaid a llefarwyr y Basque ydyw'r rheswm fod enghreifftiau o ymgorffori yn yr ieithoedd Celtaidd. Ceir yn aml yng Ngwyddeleg ragenw rhwng blaenddod a gwreiddair, megys pe dywedid *gor*-EI-*folais*, yn lle *gor-folais ef*. Enghraifft o ymgorffori hefyd ydyw *fe*'M-*lluddiwyd* yn Gymraeg; o blegid er yr ysgrifennir y geiriau hyn ar wahân, fel un gair y lleferir hwynt. Cymharer hefyd y Ffrangeg, *je vous donne*. Nid ydym ond yn dechreu deall dirgelion ein hieithoedd Celtaidd.

Egwyddor nid anghyffelyb i'r un gynwysiadol ydyw yr un grynhöadol; ond fod yr olaf megys yn eithafiaeth o'r gyntaf. Yn yr ieithoedd crynhöadol, y mae holl eiriau'r frawddeg wedi eu crynhoi gyda'u gilydd yn *un* gair cyfansawdd mawr; ac nis gellir arfer gair ar ei ben ei hun, ond yn unig fel rhan o frawddeg felly; megys ag nas gellir arfer '*m* yn Gymraeg ond mewn brawddeg. Y mae y rhan fwyaf o dylwythau lliosog ieithoedd brodorol yr Amerig yn dylwythau crynhöadol, er nad oes berthynas eiriol o gwbl rhyngddynt â'u gilydd. Y mae'r ieithoedd crynhöadol hyn yn adlewyrchu gallu rhesymegol a dadansoddol egwan; a diau fod y cynllun crynhöadol yn debycach na'r un arall i gynllun ieithoedd boreuaf y byd.

Annhebyg iawn i hwn ydyw'r cynllun didolair. Yn yr ieithoedd didolair, saif pob gair yn ddidoledig yn y frawddeg. Ni chyfnewidir dim ar yr un o'r geiriau i ddangos cyflwr na pherthynas. Gall yr un gair fod yn enw, neu ansoddair, neu ryw ran ymadrodd arall, yn ol fel y gofyna'r synwyr. A danghosir swydd gair yn y frawddeg drwy ei safle ynddi; neu weithiau, trwy help 'geiriau gweigion,' sef, geiriau heb ystyr iddynt ond i ddangos perthynas geiriau eraill â'u gilydd, fel *of* yn Saesneg, pan na bo ond arwydd y cyflwr meddiannol; neu fel *yn* yn Gymraeg mewn brawddeg fel 'Y mae hwn *yn* goch.' Dywed ysgolheigion Chineaidd fod y cynllun didolair yn fwy rhesymegol o lawer na'r un o'r lleill; ac yn wir, y mae'n hieithoedd treigliadol ni wedi taflu ymaith y rhan fwyaf o'r treigliadau, a myned yn fwy-fwy dadansoddol bob dydd, ac yn fwy tebyg i'r ieithoedd didolair. Dywed y Cymro *i frenin*, yn lle *rig i*, fel y dywedai ei hynafiad. Yn lle *tybiaf*, y mae'n fwy tueddol i ddyweyd *yr wyf yn tybied*, er gwaethaf y gramadegwyr; ac yn yr iaith Saesneg, gall gair, fel *close*, fod yn ferf—*to close*; yn enw, *a close*; yn ansoddair, *a close fit*; neu yn rhagferf, *close by*. Felly hefyd yn Gymraeg, gellir troi pob enw yn ansoddair, megys 'yr Ysgol Sul,' er fod coeg-feirniaid yn

[a] '*Introduction to Science of Language*,' cyf. ii., td. 189.



Digitized by Google

dal fod eisieu ansoddair ffurfiol fel 'Sabbothol,' i wneyd yr ymadrodd yn gywir. Wrth gwrs, y mae gwahaniaeth dirfawr rhwng iaith ddadansoddol ag un ddidolair; o blegid o iaith dreigliadol y tarddodd y naill; ac er colli ei threigliadau diwerth, fe bery ôl yr hen ramadeg arni. Ond didolair oedd y llall o'r cychwyn. Fe allai mai yr enghreifftiau puraf o ddidoli sydd genym yn Gymraeg ydyw diarhebion fel 'Goreu arf, arf dysg.' Dangosir y drychfeddwl yma, nid trwy gymorth perwyddiad treigliedig, ond yn unig trwy gyferbynu'r gwahanol dermau â'u gilydd, yn ol yr egwyddor ddidolair.

Y bwysicaf o'r ieithoedd didolair ydyw'r Gateieg—neu, y Chinese. Y mae hon yn ei gwahanol dafod-ieithoedd yn iaith tua chwarter holl drigolion y ddaear. Y mae adfeiliad seiniol wedi gwneyd difrod mawr ar y Gateieg. Y mae ei geiriau erbyn hyn oll yn unsill; a therfynant oll, ond un, mewn llafariad neu gydsain drwynol. Drwy'r adfeiliad hwn, daeth amryw eiriau, oedd gynt yn wahanol, yn gyffelyb eu sain; a daeth 'tonau,' neu gyweiriadau, i arferiad i'w gwahaniaethu. Y mae llenyddiaeth y Gateieg yn ëang, ac yn hen iawn. Yr oedd gwŷr Catai wedi cyrraedd gwareiddiad uchel pan oedd ein hynafiaid ni yn farbariaid. Y mae'r Proffeswr Terrien de Lacouperie wedi dangos mai o Fabilonia, trwy Susiana fel cyfryngle, y cafodd Catai ei gwareiddiad; a bod ei gwareiddwyr cyntaf wedi mudo yno yn y drydedd ganrif ar hugain cyn Crist. Profa'r proffeswr ei brif bwnc trwy ddangos fod ysgrifen Catai yn tarddu o'r hen ysgrifen Fabilonaidd gŷnffurf; a bod perthynas rhwng llawer iawn o enwau Babilonaidd a Chineaidd, megys termau seryddol, mesuronol, a gwleidyddol, &c.; y rhai a drefna efe dan rhyw drigain o bennau.

Soniasom uchod am yr *iaith* Gateieg; ac felly y gwneir yn gyffredin. Ond fe allai mai cywirach fuasai ei galw y *tylwyth* Chinëaidd; o blegid nid oes iaith arall yn perthyn iddi; ac y mae ei gwahanol dafodieithoedd hithau mor annhebyg i'w gilydd nes bod mewn gwirionedd yn ieithoedd gwahanol. Y rheswm pam y cyfrifir hi'n un iaith ydyw, mai un iaith ysgrifenedig sydd trwy holl China. Yn yr ysgrifen Chinëaidd y mae pob carictor yn cynnrychioli, nid sain fel *a*, *b*, ond gair; a darllenir ef yn wahanol mewn gwahanol barthau o'r wlad. Ond gan mai lle'r gair yn y frawddeg a ddengys ei swydd yn yr ieithoedd didolair, os rhowch y carictor yn ei le priodol ymysg eraill, fe ddeallir y frawddeg gan bob Chinëad. Ac felly, gall dau Chinëad, na ddeallant mo ieithoedd llafar eu gilydd, ymohebu drwy'r ysgrifen hon; er nas deallai'r naill mo'r llall yn ei darllen. Yn union fel y dealla'r Cymro a'r Rwsiad ffigyrau fel 12345 er rhoddi enwau gwahanol iddynt. Ni phrawf hyn fod y Gymraeg a'r Rwsiaeg yn un iaith: felly, nid un iaith sydd yn China. Ond y mae'r ffaith fod un ysgrifen yn cynnrychioli'r holl ieithoedd Chinëaidd yn brawf o berffeithrwydd rhesymegol y cynllun didolair — cynllun i'w gyffelybu yn hyn o beth i rifyddeg.

Y mae yn y parthau hynny amryw eraill o dylwythau didolair; megys y tylwyth mawr Tibeto-Burman, â'i saith teulu, a rhyw hanner cant o ieithoedd. Nid annyddorol i ni, yng Nghymru, fydd sylwi mai didolair ydyw tylwyth y Khasi. Ceir tylwythau didolair hefyd yn mysg ieithoedd brodorol gorllewinbarth yr Amerig.

Dyna, yn fyr, fyr, hanes rhai o brif ieithoedd y byd, yn ol eu tylwythau a'u dosbarthiadau ffurfegol.

Yn y blynyddoedd diweddaf hyn, y mae wedi tarddu o ieithyddiaeth ddwy wyddoreg bwysig arall; sef, chwedloniaeth gymharol, a gwyddoreg crefydd. Ieitheg rydd gyfrif am ddechreuad mythi. Tarddant o esboniadau ar enwau yr anghofiwyd eu hystyron, ac o argraffiadau a roddai natur ar feddwl y dyn anwar. Ieithyddiaeth rydd gyfrif am yr athrawiaethau rhyfedd y mae dyn, o bryd i bryd, wedi eu credu. Creir geiriau llafaredig gan gymdeithas; ac yna llywodraethir cymdeithas ganddynt. Trwy gymharu gwahanol grefyddau'r byd â'u gilydd yng ngoleu ieitheg y ceir llawer peth yn eglur, oedd o'r blaen yn dywyll yn eu hanes, a gwell mantais i adnabod gwir grefydd. Fel un engraifft o gymhariaeth felly, sylwer nad yw addoli delwau, a holl ffurfioldeb Eglwys Rhufain, ddim mwy annhebyg i ddysgeidiaeth ddwyfol Crist, nag ydyw addoli creiriau, a pheiriannau gweddïo, a ffurfiau'r Buddhistiaid i ddysgeidiaeth sylfaenydd eu crefydd hwy. Heb law hyn oll, trwy ieithyddiaeth yn unig y deuir i ddeall gwir ystyr y Beibl, a llyfrau hynafol y crefyddau. Ni chawn ond prin grybwyll fel yna am ieithyddiaeth yn y cymwysiadau pwysig hyn o honi.

Sonia'r prif-fardd Tennyson am '*the fairy tales of science.*' Prin y mae gan yr 'un wyddoreg gymaint o honynt i'w hadrodd ag sydd gan ieithyddiaeth. Ond gorfu i ni foddloni ar adrodd yn fyr ergyd ychydig o'r prif rai, ac enwi ychydig o'r *dramatis personæ*. Ac os nad oedd ein hadroddiad yn ddyddorol, hyderwn y gwelir fod y pwnc yn neillduol felly. Teimlwn y dylem ni, y Cymry, yn y dyddiau a ddaw, fod yn ieithyddwyr mawr. Y mae genym wrth law iaith ddyddorol ac addysgiadol dros ben; a bydd bai yn rhywle os na wneir defnydd mawr o honi.

**IBERIAID.** Gwel GEORGIA, EGLWYS.

**IBHAR**: un o feibion Dafydd, yr hwn a enwir yn y rhestrau yn nesaf ar ol Solomon, ac o flaen Elisua: 2 *Sam.* v. 15; 1 *Cron.* iii. 6; xiv. 5. Ganwyd Ibhar yn Ierusalem. Yr oedd ei fam yn un o wragedd Dafydd.

**IBLEAM** [Gr. *Ieblaam*]: un o ddinasoedd llwyth Manasseh: *Barn.* i. 27. Er ei bod yn meddiant Manasseh, y mae yn ymddangos nad oedd yn gorwedd o fewn terfynau y llwyth hwnw; ond ei bod o fewn terfynau Issachar, neu Aser: *Ios.* xvii. 11. Ni ddywedir pa un o'r ddau, er ei fod yn amlwg oddi wrth grybwylliadau eraill mai yn y blaenaf yr ydoedd. Yr oedd "rhiw Gur," lle y clwyfwyd Ahaziah i farwolaeth, "yn (ג) Ibleam" (2 *Bren.* ix. 27), yn rhywle yn agos i'r *Jenin* bresennol—i'r gogledd iddi, fe allai, tua'r lle y saif *Ielama* yn awr.

Yn rhestr y dinasoedd o Manasseh a roddwyd i'r Lefiaid Cohathaidd (1 *Cron.* vi. 70), yr oedd BILEAM yn un, yr hon sydd yn cyfatteb o ran sefyllfa yn y rhestr i Gathrimmon yn *Ios.* xxi. Tybir mai ffurf arall ar Ibleam ydyw Bileam; ond nid yw hyn yn sicr.

**IBNEIAH**: Beniaminiad, a mab Ieroham: yr hwn, dybygid, oedd yn un o enwogion ei lwyth pan y daeth gyntaf i Ierusalem: 1 *Cron.* ix. 8.

Digitized by Google

IBRI Gr. [Alex. *Hebri*]: Lefiad Meraraidd o deulu Iaaziah, yn amser Dafydd, yr hwn oedd ganddo ryw ran yn ngwasanaeth y tabernacl.

Mae y gair yn hollol yr un fath a'r un a gyfieithir mewn manau ereill yn *Hebraeg*.

IBSAM: un o feibion Tola, fab Issachar. Yr oedd y meibion hyn yn "benaethiaid ar dŷ (neu dylwyth) eu tadau," ac yn wroniaid galluog yn eu cenhedlaethau: 1 *Cron.* vii. 2. Ymddengys fod hiliogaeth Ibsam yn gwasanaethu yn myddin Dafydd, a chydag ereill o'r un tylwyth yn rhifo dros 22,000.

IBSAN [Gr. *Iosephus*, *Abesan*]: brodor o Bethlehem, yr hwn a farnodd Israel am saith mlynedd ar ol Iephthah: *Barn.* xii. 8, 10. Yr oedd ganddo ddeg ar hugain o feibion, a deg ar hugain o ferched, a chymmerodd adref i'w feibion ddeg ar hugain o wragedd. Hefyd, anfonodd ei ferched oddi carfref at gynnifer o wŷr. Claddwyd ef yn Methlehem. Oddi wrth y ffaith nad yw "Ephratah," neu "Iudah," yn cael ei chwanegu at Bethlehem yn yr adnodau uchod, ac oddi wrth y ffaith fod olynydd Ibsan o lwyth Zabulon, mae yn dra thebygol mai y Bethlehem hon ydoedd yr un oedd yn rhandir Zabulon: *Ios.* xix. 15; a gwel *Hynaf. Iudd. Josephus*, v. 7. *adr.* 73. Nid oes y sail leiaf i'r dybiaeth a goleddwyd gan rai, mai yr un oedd Ibsan a Boaz. Mae hanes ei deulu mawr ef yn dra anghysson â'r hyn a ddywedir am Boaz yn Llyfr Ruth.

ICES: tad IRA yr Iecoad, ac un o wroniaid gwarchodlu Dafydd: 2 *Sam.* xxiii. 26; 1 *Cron.* xi. 28; xxvii. 9.

ICONOCTASTIAID. Gwel DELW-DORWYR.

ICONIUM: dinas a elwir yn bresennol Conich, a saif ar ran orllewinol gwastadedd eang, ar fyrdd-dir mwyaf mewnol Asia Leiaf. Gelwid y gwastadedd hwn gynt LYCAONIA, ond gelwir ef yn awr Haramania, i'r hwn y mae Conich nei Iconium yn brifddinas. Ymwelwyd â hi gan Paul yn B.A. 45, pryd y dychwelwyd llawer o'r cenhedloedd yn gystal a'r Iuddewon; ond cynnhyrfwyd erledigaeth yn ei erbyn ef a Barnabas gan rai Iuddewon anghrediniol, rhag yr hwn y diangasant gydag anhawsder: *Act.* xiii. 51; xiv. 1, &c. Yn B. A. 51, ymwelodd â'r ddinas eilwaith. Parhaodd yr eglwys a blanwyd yma gan Paul i flodeuo hyd nes y darfu i'r Saraceniaid, ac wedi hyny y Seljukiaid, ei diddymu bron drwy eu herlidigaethau. Ond y mae rhai Cristionogion, o Eglwys Groeg ac Armenia, gydag esgob o Eglwys Groeg, i'w cael etto yn amgylchoedd y ddinas; ond ni oddefir iddynt breswylio yn y dref.

Amgylchedd y dref ydyw o ddwy i dair milldir, oddi allan i'r hyn y mae mathau o bentrefydd sydd mor boblog a'r dref ei hun. Mae muriau y dref yn gryfion ac uchel, ac arnynt y mae llawer o dyrau ysgwâr. Adeiladwyd y rhai hyn gan sultaniaid y Seljukiaid, i'r rhai y bu Iconium yn brifddinas. Digonir y dref, y pentrefydd, a'r gerddi, â dwfr o ffrydiau sydd yn rhedeg o'r mynyddoedd i'r gorllewin iddynt. Gwneir carpedau yn y dref, a chyffeithir a sychir lledrau glas a melyn. Hefyd, cludir oddi yma gotwm, gwlân, a chrwyn, &c., i Smyrna gyda minteioedd (*caravans*).

ICHABOD: mab Phinees, ac ŵyr Eli. Wrth roddi genedigaeth iddo ef, bu farw ei fam o ofid wrth glywed am farwolaeth sydyn ei gŵr a'i thad yn nghyfraith. Enw ei frawd ydoedd Ahiah, neu Ahimelech: 1 *Sam.* iv. 21; xiv. 3.

IDALA: un o ddinasoedd Zabulon, yr hon a enwir rhwng Simron a Bethlehem: *Ios.* xix. 15. Dywed Schwarz mai yr un ydyw a "Chirii, (Kellah al-Chire), chwe milldir i'r de-orllewin o Semunii." O blaid y syniad hwn y mae un o lyfrau y Talmud. Dangosir *Semuniyeh* (Semunii), ar amryw o'r mapiau fel yn sefyll o fewn llai na thair milldir i'r deheu i *Beit-lehm* (Bethlehem). Nid yw y lle yn cael ei nodi yn yr *Onomasticon* o gwbl.

IDBAS: un o dri mab "tad Etam" (Heb. *Abi-Etam*), yn mhlith teuluoedd Iudah: 1 *Cron.* iv. 3. Enwir Haselelponi fel ei chwaer. Ni wyddys yn iawn pa un ai person ai lle a olygir wrth Idbas. Enwau lleoedd ydyw y nifer mwyaf o'r rhai sydd yn y rhestr hon.

IDLAPH: mab Nahor: *Gen.* xxii. 22. Ni chafwyd allan leoedd ei ymsefydliad, ond golygir eu bod yn ngwlad yr Euphrates.

1. IDO: tad Abinadab, ac un o ddarparwyr misol ymborth Solomon a'i deulu: 1 *Bren.* iv. 14.

2. IDO: un o hiliogaeth Gersom, fab Lefi: 1 *Cron.* vi. 21. Yn adnod 41, gelwir ef Adaiah, a gwelir oddi wrth y cyd-destynau ei fod yn un o hynafiaid Asaph y gweledydd.

3. IDO: mab Zechariah, a llywodraethwr ("tywysog") llwyth Manasseh ar du y dwyrain i'r Iorddonen, yn amser Dafydd: 1 *Cron.* xxvii. 21.

4. IDO: gweledydd, gweledigaethau yr hwn yn erbyn Ieroboam a nodent rai o weithredoedd Solomon: 2 *Cron.* ix. 29. Ymddengys hefyd iddo ysgrifenu cronicl neu ystori [*Gesenius*, *Midrach*, td. 357], am fywyd a theyrnasiad Abiah (2 *Cron.* xiii. 22), ac hefyd llyfr ynghylch achau, yn yr hwn y cofnodid gweithredoedd Rehoboam: 2 *Cron.* xii. 15. Mae y llyfrau hyn yn golledig, ond y mae yn bossibl eu bod yn ffurfio rhan o sail dau lyfr y Cronicl [*Bertheau on the Chronicles, Introd.; adr.* 3]. Mae yn bossibl mai y ffaith ei fod yn cael ei enwi fel un a brophwydodd yn erbyn Ieroboam, a arweiniodd rhai o'r Iuddewon i olygu mai efe ydoedd y "gŵr i Dduw," o Iudah a brophwydasai yn erbyn allor Ieroboam: 1 *Bren.* xiii. 1, &c. [Gwel Jerome ar y traddodiadau Iuddewig—*Quæst. Hebr.* ar 2 *Cron.* xii. 15; a *Hynaf. Iudd. Josephus* viii. 3. *adr.* 5]. Tybia rhai mai yr un ydoedd ag Oded: 2 *Cron.* xv. 1.

5. IDO: taid y prophwyd Zechariah, er y gelwir Zechariah mewn manau ereill yn "fab Ido;" *Zech.* i. 1, 7; *Ezra* v. 1; vi. 14. Dychwelodd Ido o Babilon gyda Zorobabel ac Iesua: *Neh.* xii. 4. Ac yn y genhedlaeth ddilynol—"yn nyddiau Ioiacim," fab Iesua—cynnrychiolid ei deulu gan Zechariah: *Neh.* xii. 10, 12, 14.

6. IDO: pennaeth y rhai a ymgynnullasant i Chasiphia, pryd y daeth yr ail fintai o gaethiwed Babilon, yn nheyrnasiad Artaxerxes Longimanus, c. c. 458. Yr oedd yn un o'r Nethiniaid, o'r rhai fe gydsyniodd 220 â chymmhelliad Ezra i gynnorthwyo yn y dychweliad i Iudea: *Ezra* viii. 17; cym. *adn.* 20. Yn *Esdras* gelwir ef Saddeus a Doddeus.

IDUMEA. Gwel EDOM.

Digitized by Google

IEARIM, MYNYDD: lle a enwir wrth nodi terfyn gogleddol Iudah: *Ios.* xv. 10 Rhedai y terfyn o fynydd Seir "rhagddo at ysgwydd ('ystlys') mynydd Iearim, hono yw Chesalon" —hyny ydyw, Chesalon ydoedd y nod terfyn *ar* y mynydd. Saif pentref *Kesla* (Chesalon) saith milldir i'r gorllewin i Ierusalem, "ar bwynt uchel ar du gogleddol y mynydd hir a banog sydd rhwng *Wady* (dyffryn) *Ghurâb*, a *Wady Ismail.* Parhâd de-orllewinol ydyw *Wady Ismail* o *Wady Beit Hanina*, a rhed *Wady Ghurâb* yn gyfochrog ac i'r gorllewin iddo, a gwahanir y ddau gan y mynydd hwn, yr hwn, dybygid, yw Mynydd Iearim" [*Robinson's Researches*, iii. 154]. Os golygir mai Hebraeg yw Iearim, ei ystyr ydyw "coedwigoedd." Ac yn ein hystyr ni o'r gair coedwigoedd, nid oes yno goedwigoedd o gwbl. Ond dywed y teithiwr diweddaraf o hynodrwydd i'r dwyrain, fod yno "lwynydd tewfrig, y rhai, o ran unigedd a thywyllwch, na welodd eu cyffelyb er pan adawodd Germany [Tobler, yn *Wanderung*, 1857, td. 178]. Nid yw Ciriath-Iearim (os *Kuriet le-Enab* ydyw hono), ond dwy filldir a hanner i'r gogledd, ac yn cael ei gwahanu oddi wrtho gan y dyffryn dwfn a llydan a elwir *Wady Ghurâb.*

IEATERAI [Gr. *Iethrai*]: Lefiad Gersonaidd, a mab Zerah: 1 *Cron.* vi. 21. Ymddengys mai efe ydoedd penaeth ei dŷ neu ei dylwyth, pryd y sefydlwyd gwasanaeth y tabernacl gan Dafydd: cym. *adn.* 31. Yn yr achres wrthgyferbyniol o hiliogaeth Gersom (*adn.* 41), dywedir mai mab Zerah ydoedd Ethni. Golygir fod digon o debygrwydd rhwng y ddau enw i ganiatau mai yr un person a enwir yn y ddau le; ond nid yw hyn yn sicr. Os yw hyn yn gywir, yr oedd Ieaterai yn un o hynafiaid Asaph y cantor: *adn.* 39, &c.

IEBERECHIAH [Gr. *Barachias*]: tad un o'r enw Zechariah, oedd yn byw yn nheyrnasiad Ahaz: *Esa.* viii. 2. Gan nad yw y ffurf hwn o'r enw yn digwydd yn un man arall o'r Beibl, a chan mai y ffurf sydd gan y Deg a Thrigain, a chyfieithiad Lladin y Vulgate ydyw *Berechiah*, golygir mai llygriad damweiniol ydyw cyssylltu *Ie* â'r gair. Mae Zechariah a Berechiah, neu Barachiah, yn enwau cyffredin yn mhlith yr offeiriaid: *Zech.* i. 1. Nid y rhai sydd genym dan sylw a enwir fel tad a mab yn *Mat.* xxiii. 35, lle y dywedir ddarfod i'r Iuddewon ladd Zecharias "rhwng y deml a'r allor." Mae yn sicr mai Zechariah, mab Iehoiada, yn nheyrnasiad Ioas, a olygir yna (gwel 2 *Cron.* xxiv. 20, 21). Ond y mae yn bossibl eu bod o'r un teulu; ac os Berechia ydoedd tad y *teulu*, ac nid y *personau*, mae yn bossibl mai yr un personau a olygir yn *Esa.* viii. 2, a *Mat.* xxiii. 35. Mae yn nodedig fod Josephus yn nodi Zacharias arall, mab Baruch; yr hwn Zacharias a laddwyd gan yr Iuddewon yn y deml, ychydig cyn dinystr diweddaf Ierusalem. Gwel *Hynaf. Iudd.* iv. 5, *adr.* 4; a nodyn Whiston ar hyn.

IEBUS: un o enwau Ierusalem, yr hon oedd ddinas yr Iebusiaid, a'r hon a elwid hefyd IEBUSI. Mae yr enw Iebus yn digwydd ddwy waith yn unig: yn gyntaf, yn hanes taith y Lefiad a'i orddercli anffodus o Bethlehem i Gibeah (*Barn.* xix. 10, 11); ac yn ail, yn hanes meddiannіad y lle gan Dafydd: 1 *Cron.* xi. 4, 5. Yn yr un hanes, yn 2 *Sam.* v. 6—9, defnyddir yr enw Ierusalem. Esbonir y gair Iebus gan Gesenius [*Thesaurus*, 189], a Fürst [*Handwb.* 477], fel yn golygu lle sych neu sathredig fel llawr-dyrnu —esboniad a ddefnyddir gan Ewald a Stanley i brofi y rhaid mai Iebus oedd bryn de-orllewinol— "craig sych" y Seion presennol, ac "nid Mynydd Moriah;" lle, medd rhai, y saif Ierusalem [Gwel MORIAH]. Cnd y mae hyn yn bur ansicr ac ammheus yn nghanol y tywyllwch sydd yn amgylchu yr enwau hynafol hyn. Yr oedd Iebus yn ddinas yr Iebusiaid; ac naill ai fe darddodd enw y ddinas oddi wrth y llwyth, neu ynte i'r gwrthwyneb. Os y blaenaf sydd gywir, yna rhaid i'r esboniad a nodwyd o eiddo Gesenius a Fürst syrthio i'r llawr; ac os yr olaf sydd iawn, yna teflir tarddiad yr enw Iebus mor bell yn ol a dechreuad y Canaaneaid—mor bell fel ag i wneyd ei gyssylltiad â gwreiddyn Hebraeg yn dra ansicr.

IEBUSI [חיבוסי="yr *Iebusiad*"]: enw a ddefnyddir am Ierusalem yn *Ios.* xviii 28. Yn y cyfieithiad Seisoneg, y mae yn digwydd hefyd yn *adn.* 16. Yr un gair a gyfieithir "yr Iebusiaid," yn *Ios.* xv. 8. Eglurir y gair, drwy chwanegu "hono yw Ierusalem," yn y lle olaf, ac yn *Ios.* xviii. 28; ond gadewir ef yn benagored yn *adn.* 16; o'r bennod olaf. Defnyddir y gair yn unig yn yr hen ysgrif Hebraeg sydd yn disgrifio nodau terfynau a threfydd Iudah a Beniamin. Gwelir yr un dull o ddynodi lle gydag enw y preswylwyr, ynglŷn âg enwau ereill yn yr un rhestr, megys Semarim (xviii. 22), Afim (*adn.* 23), Ophni (*adn.* 24), ac Iaphletiad (xvi. 3), &c.

IEBUSIAD, IEBUSIAID, YR.—Er y defnyddir y ddau ffurf hyn yn y Beibl Cymraeg, y naill am y llall, y ffurf unigol, Iebusiad, a ddefnyddir bob amser yn y gwreiddiol, pa un bynag ai at bersonau unigol ynte at y genedl y cymmhwysir yr enw. Ni sonir yn unman am gyndad y llwyth hwn; ond cyssylltir yr enw a ddylasai fod arno ef â'r ddinas lle y cawn hanes am yr Iebusiaid gyntaf. [Gwel IEBUS]. Mae y Deg a Thrigain yn rhoddi yr enw *Iebusaios*; a chyfieithiad Lladin y Vulgate, *Iebusaeus*.

1. Yn ol y rhestr yn *Gen.* x., trydydd mab Canaan ydoedd "yr Iebusiad." Saif yn y rhestr rhwng Heth a'r Amoriad (*Gen.* x. 16; 1 *Cron.* i. 14); a llanwodd y llwyth y sefyllfa hon amser maith wedi hyn (*Num.* xiii. 29; *Ios.* xi 3); ac y mae yr un berthynas i'w gweled yn ngeiriau Ezeciel (xvi. 3, 45), yr hwn sydd yn cyfarch Ierusalem fel ffrwyth undeb Amoriad a Hethiad. Ond yn y ffurf-ymadrodd a ddefnyddir mor fynych i ddynodi Gwlad yr Addewid, y mae yr Iebusiaid bob amser yn olaf, yr hyn a achoswyd, fe allai, gan ychydigrwydd eu nifer, neu ynte eu tuedd heddychlawn: *Gen.* xv. 21; *Exod.* iii. 8, 17; xiii. 5; xxiii. 23; xxxiii. 2; xxxiv. 11; *Deut.* vii. 1; xx. 17; *Ios.* iii 10; ix. 1; xii. 8; xxiv. 11; 1 *Bren.* ix. 20; 2 *Cron.* viii 7; *Ezra* ix. 1; *Neh.* ix. 8.

2. Yr olwg gyntaf a gawn arnynt mewn hanesiaeth ydyw, yn adroddiad yr ysbïwyr:—"A'r Hethiaid, a'r Iebusiaid, a'r Amoriaid, sydd yn gwladychu yn y mynydd-dir;" *Num.* xiii. 29. Yr oedd hyn ddeugain mlynedd cyn dyfodiad yr Israeliaid i Ganaan, ond nid ymddengys fod un cyfnewidiad yn eu preswylfa wedi digwydd yn y cyfamser; o blegid pan ffurfid cynghrair gan Iabin yn erbyn Iosuah, efe a anfonodd, yn mhlith ereill, "at yr Amoriaid, a'r Hethiaid, a'r Phereza-

Digitized by Google

faid, a'r Iebusiaid, yn y mynydd-dir;" *Ios.* xi. 3. Tylwyth mynyddig ydoedd, a thylwyth mynyddig yr arosodd, hyd oresgyniad Gwlad Canaan gan Israel. "Iebus, yr hon yw Ierusalem," a gollodd ei brenin yn lladdfa Beth-horon (*Ios.* x. 1, 5, 26; cym. xii. 10); annrheithiwyd a llosgwyd hi gan feibion Iudah (*Barn.* i. 21), ac mewn amser goresgynodd ac ennillodd Dafydd ei hamddiffynfa: *Barn.* v. 6. Er hyny nid oedd bossibl gyru Iebusiaid y mynydd-dir o'u trigfa, ond parhasant i breswylio gyda meibion Iudah a Beniamin hyd adeg bur ddiweddar: *Ios.* xv. 8, 63; *Barn.* i. 21; xix. 11. Mae y cyndynrwydd hwn yn nodwedd neillduol o eiddo y mynyddwyr, fel y gwelir yn hanes ein cenedl ein hunain, y Circassiaid, &c.; ac y mae hyny a ddywedir am yr Iebusiaid yn rhoddi lle i gasglu eu bod yn rhai galluog mewn rhyfel. Cyn yr ymgyrch o dan Iabin, yr oedd Adonisedec (*Ios.* x), brenin Ierusalem, ei hun wedi blaenori yr ymosodiad ar y Gibeoniaid, yr hyn a derfynodd yn lladdfa Beth-horon, ac a gostiodd iddo yntau ei fywyd yn yr hwyr nodedig hwnw o dan y coed yn Maccedah.[1] Mae y ffaith eu bod wedi ymsefydlu yn amddiffynfa gadarnaf y wlad, sef Ierusalem, yn dywedyd llawer o blaid eu dewrder a'u nerth; a phan gollasant hi, collasant hi, nid trwy lyfrineb, ond yn hytrach trwy wagymffrost. Gwel IERUSALEM.

Wedi hyn, nid ydynt yn dyfod i'r amlwg ond unwaith, a hyny yn mherson "Arafnah yr Iebusiad"—"Arafnah y brenin," yr hwn sydd yn ymddangos ger ein bronau mewn gwir fawrhydi brenhinol yn ei ymdrafodaeth â Dafydd yn nghylch y llawr dyrnu: 2 *Sam.* xxiv. 23; 1 *Cron.* xxi. 18. Mae y darlun a gyflëir yn yr adnodau hyn yn wir ddyddorol. Gwelwn frenin syrthiedig yr Iebusiaid, gyda'i bedwar mab, ar eu llawr-dyrnu, ar gopa moel mynydd Moriah, yn sathru allan eu gwenith (Beibl Cymraeg—"dyrnu"), drwy yru yr ychain â'u carau trymion (Cym. "offer dyrnu") dros y gwenith. Gwelwn Arafnah, ar ddynesiad Dafydd, yn disgyn ar ei wyneb ar y ddaear, a chlywn ef yn gofyn, "Pa ham y daeth fy arglwydd frenin at ei was (Heb. *cacthuas*)?" yr hyn a ddilynir gan ei waith yn traddodi ei holl eiddo i Dafydd. Ond nid yw hyn oll yn amlygu un nodwedd neillduol o eiddo yr Iebusiaid—dim oedd yn wahanol ynddynt hwy i'w cydoeswyr yn Nghanaan. Yr oedd barnwyr a brenhinoedd boreuol Israel yn dyrnu gwenith yn y gwinwryf (*Barn.* vi. 11), yn dilyn y gwartheg i'r maes (1 *Sam.* xi. 5), ac yn cael eu cymmeryd o'r gorlan (2 *Sam.* vii. 8); a cheir enghraifft bron mor darawiadol o foesgarwch yn ymdrafod Ephron yr Hethiad âg Abraham: *Gen.* xxiii. Ni amlygir un nodweddiad arall o'r eiddynt, na chwaith ddim ynghylch eu crefydd neu eu defodau.

Dau berson yn unig a enwir o'r Iebusiaid, sef Adonisedec ac Arafnah. Yr unig hynodrwydd sydd yn perthyn i'r enw cyntaf ydyw ei ffurf Hebraeg, yn yr hwn y golyga "Arglwydd cyfiawnder." Y mae yr enw Arafnah yn fwy ansicr—yn gymmaint felly ag i'n harwain i feddwl ei fod yn debycach i'w ffurf wreiddiol. Yn yr hanesyn gan Samuel, dodir yr enw (yn yr Hebraeg, mewn tair ffurf:—"yr Afarnah" (*adn.* 16), Araneah (*adn.* 18), ac Arafnah. Dywed Josephus [*Hynaf.* *Iudd.* vii. 13; *adr.* 9], fod Arafnah yn un o brif gyfeillion Dafydd, ac wedi ei arbed ganddo mewn modd arbenig pan gymmerodd feddiant o amddiffynfa Ierusalem. Os oes gwirionedd yn hyn, rhaid fod y cyfeillgarwch wedi ei ffurfio pan oedd Dafydd ar grwydr, a phan wnaeth gyfeillion o Urias, Ahimelech, a Sibbechai yr Hethiad, yn nghyd âg ereill o'i ddilynwyr a berthynent i'r hen genhedloedd: *adn.* 20, 21. Yn yr hanes fel y mae yn 1 *Cronicl*, gelwir ef ORNAN, tra mai *Orna* sydd gan y Deg a Thrigain. Gwel ORNAN.

Yn *Actau* (Apocryphaol) *yr Apostolion*, dywedir fod esgyrn Barnabas ar ol ei ferthyru yn Cyprus wedi eu claddu mewn ogof, lle gynt y trigai tylwyth yr Iebusiaid; ac ychydig o flaen hyn, cofnodir dyfodiad Iebusiad duwiol i'r ynys, yr hwn oedd yn perthyn i Nero.—*Act. Apocr.* td. 72, 73.

[1] Yn *adn* 5 o'r bennod uchod, gelwir brenin Ierusalem yn un o "bum brenin yr Amoriaid." Ond yn nwy ysgrif y Deg a Thrigain, "pum brenin yr *Iebusiaid*," a ddywedir.

IECAMEAM: Lefiad yn amser Dafydd; y pedwerydd o feibion Hebron mab Cohath: 1 *Cron.* xxiii. 19; xxiv. 23.

1. IECAMIAH: mab Salem, yn llinach Alai. Yr oedd yn cydoesi â'r brenin Ahaz, neu yn agos felly: 1 *Cron.* ii. 41.

2. IECAMIAH: un o saith a ddygwyd i mewn i'r llinell frenhinol pan ballodd Iehoiacim, yr hwn oedd yr olaf yn llinell Solomon. Y cyntaf o'r rhai hyn oedd Salathiel; ac fe ellid meddwl fod yr oll o honynt yn feibion Neri, yn llinach Nathan, o blegid yr oedd Salathiel yn ddiammheu felly: *Luc* iii. 27; cymmh. 1 *Cron.* iii. 18. Gwel yr erthyglau dan yr enwau uchod; hefyd, IESU GRIST—*Achyddiaeth Crist.*

IECUTHIEL: gŵr a enwir yn llinach Iudah: (1 *Cron.* iv. 18). fel mab un o'r enw Mered, o'i wraig Iuddewig [gwel IEHUDIAH], ac fel "tad" neu sylfaenydd y dref Zanoah. Nid oes nemawr o bwys i'w roddi ar ddarlleniad y *Targum* o'r adnod hon. Dywedir yno mai Moses ydoedd *Iered*, a dywedir mai teitlau arno ef ydyw yr enwau sydd yn canlyn. Priodolir y teitl Iecuthiel (="ymddiried yn yr Arglwydd") iddo, "am ddarfod i'r Israeliaid yn ei amser ef ymddiried yn Nuw y nefoedd ddeugain mlynedd yn yr anialwch."

Mewn gweddi nodedig a arferir gan yr Iuddewon yn Yspaen a Portugal, yn addoliad diweddaf y Sabbath, cyferchir Elias fel un a gawsai "newyddion tangnefeddus drwy law Iecuthiel." Yr esboniad a roddir ar hyn ydyw, ei fod yn cyfeirio at ryw ymdrafodaeth yn mywyd Phineas, yr hwn, medd traddodiadau Iuddewig, oedd yr un ag Elias.—*Modern Judaism, td.* 229.

IECHOLIAH: gwraig Amasiah, brenin Iudah, a mam Asariah neu Uzziah, ei olynydd: 2 *Bren.* xv. 2. Disgrifir y frenhines hon, yn gystal ag Ioadan, gwraig Ioas, fel o Ierusalem.

IECHONIA, IECHONIAH, neu IECHONIAS: ffurfiau ereill ar yr enw IEHOIACIN, yr hwn a elwir hefyd *Coniah*, yr olaf ond un o frenhinoedd Iudah: 1 *Cron.* iii. 16, 17; *Ier.* xxiv. 1; xxvii. 20; xxviii. 4; xxix. 2; *Esth.* ii. 6; *Mat.* i. 11, 12.

1. IEDAIAH: blaenor yr ail ddyddgylch o'r offeiriaid, fel yr oeddynt wedi eu rhanu yn amser Dafydd: 1 *Cron.* xxiv. 7. Dychwelodd rhai o honynt o'r caethiwed yn Mabilon i Ierusalem, fel yr ymddengys oddi wrth *Ezra* ii. 36; a *Neh.* vii.

Digitized by Google

39—"meibion Iedaiah, o dŷ Iesua, naw cant a thri ar ddeg a thrigain." Y mae y chwanegiad, "o dŷ Iesua," yn awgrymu fod dau deulu offeiriadol o'r enw Iedaiah, yr hyn, fel y gwelir oddi wrth *Neh.* xii. 6, 7, 19, 21, oedd yn bod mewn gwirionedd. Os penaeth y "meibion Iedaiah" hyn oedd IESUA, yr archoffeiriad yn amser Zorobabel—ac fe ddywed traddodiad Iuddewig mai felly yr oedd [*Lewis' Orig. Heb.*, *ll.* ii. *pen.* vii]—fe allai mai dyma y rheswm pa ham yr enwir cylch Iedaiah o flaen yr eiddo Ioiarib (1 *Cron.* ix. 10; *Neh.* xi. 10), tra mai cylch Ioiarib oedd y cyntaf. [Gwel IEHOIARIB.] Ond fe allai mai offeiriad arall, wedi hanu oddi wrth Iedaiah, oedd Iesua, oddi wrth yr hwn y tarddodd y gangen hon. Y mae yn amlwg fod camgymmeriad yn *Neh.* xi. 10, lle y dywedir, "Iedaiah mab Ioiarib." Yn 1 *Cron.* ix. 10, y mae y rhestr yn gywir.

2. IEDAIAH: offeiriad, yn amser Iesua yr archoffeiriad: *Zech.* vi. 10, 14.

3. IEDAIAH: gŵr a enwir yn achrestrau Simeon fel cyndad Ziza: un o benaethiaid y llwyth, dybygid, yn amser y brenin Hezeciah: 1 *Cron.* iv. 37, 38.

4. IEDAIAH: mab Harumaph, y gŵr a wnaeth ei ran yn ail adeiladaeth mur Ierusalem: *Neh.* iii. 10.

1. IEDIAEL: un o bendefigion llwyth Beniamin, oddi wrth yr hwn y tarddodd llawer o deuluoedd Beniaminaidd o dadau, yn rhifo 17,200 o wŷr cedyrn o nerth, yn amser Dafydd: 1 *Cron.* vii. 6, 11. Golygir yn gyffredin mai yr un ydyw Iediael ag Asbel, mab Beniamin: *Gen.* xlvi. 21; *Num.* xxvi. 38; a 1 *Cron.* viii. 1. Y mae Hervey ac ereill yn ammheus gyda golwg ar hyn; a golyga y blaenaf fod yn bossibl mai un diweddarach o hiliogaeth Beniamin ydoedd Iediael, "yr hwn, o blegid ffrwythlonrwydd ei dŷ, a therfyniad canghenau hynach o dŷ Beniamin, a ddyrchafwyd i'r radd flaenaf yn y llwyth." Ond ymddengys yn fwy tebygol mai mab uniongyrchol i Beniamin ydoedd.

2. IEDIAEL: ail fab Meselemiah, a Lefiad, o feibion Ebiasaph, mab Core. Yr oedd yn un o borthorion tŷ yr Arglwydd yn amser Dafydd: 1 *Cron.* xxvi. 1, 2.

3. IEDIAEL: mab Simri, ac un o wroniaid gwarchodlu Dafydd: 1 *Cron.* xi. 45. Yn absennolrwydd gwybodaeth fanylach am dano, nis gellir penderfynu nad yr un ydyw a'r nesaf.

4. IEDIAEL: un o benaethiaid y miloedd o lwyth Manasseh a ymunasant â Dafydd ar ei daith o Aphec i Siclag, pan y gadawodd y fyddin ef, y dydd cyn brwydr Gilboa, y rhai hefyd a'i cynnorthwyasant i ddial ar yr Amaleciaid ysbeilgar: 1 *Cron.* xii. 20; cymmh. 1 *Sam.* xxix. 20.

IEDIDAH [ידידה="anwylyd"]: gwraig y brenin Amon, a mam y brenin da Iosiah: 1 *Bren.* xxii. 1. Yr oedd yn ferch i un o'r enw Adaiah, ac yn anedig, dybygid, o Boscath, ger Lachis.

IEDIDIAH [ידידיה="anwylyd yr Iehofah"]: yr enw a roddwyd drwy Nathan y prophwyd ar Solomon mab Dafydd: 2 *Sam.* xii. 25.

Yr oedd plentyn cyntaf Dafydd o Bathseba wedi marw—"yr Arglwydd a'i tarawodd ef:" *adn.* 15. Ganwyd iddo ail fab, yr hwn, naill ai mewn cyfeiriad at sefyllfa heddychlawn y wladwriaeth, neu ynte o blegid adferiad tangnefedd meddyliol Dafydd, a alwyd ganddo Solomon (neu, yn fwy cywir, Selômôh="heddychlawn"); "a'r Arglwydd a'i carodd ef" (Solomon), neu, mewn geiriau ereill, a adawodd iddo fyw. Ac anfonodd Dafydd, trwy law Nathan, am ryw arwydd o ffafr Duw ar y baban; ac mewn canlyniad, galwyd ei enw yn IEDID-IAH. Yna chwanegir fod hyn wedi ei wneyd "o blegid yr Arglwydd" (Heb. "Iehofah"). Ymddengys fod allwedd ystyr y geiriau olaf hyn, ac yn wir ystyr yr holl amgylchiad, yn gorwedd yn y ffaith fod "Iedid" a "Dafydd" ("Dafid") yn tarddu o'r un gwreiddyn, neu ynte o ddau wreiddyn sydd yn perthyn yn agos i'w gilydd. [Gwel *Gesenius' Thesaurus*, 565, ar ידד a דוד]. I ni, nis gall fod nemawr yn y fath chwareu ar eiriau; ond yr oedd i'r Hebreaid, fel i'r dwyreinwyr yn bresennol, yn llawn o ystyr. I Dafydd, "anwylyd" ei deulu a'i bobl ei hun, nis gall fod un argoel ddymunolach, na sêl werthfawrocach o'i adferiad i ffafr Duw ar ol ei gwymp, na'r hysbysiad hwn o eiddo y prophwyd, fod enw ei blentyn i gynnwys ymuniad o'i enw ei hun âg enw yr Iehofah—IEDIDAH, "anwylyd yr Iehofah."

Y mae yr arferiad o gyssylltu ail enw, o ryw ystyr grefyddol, â'r enw gwreiddiol, yn parhau etto yn y Dwyrain.

IEDUTHUN: Lefiad, o'r teulu Meraraidd, yr hwn, gyda Heman y Cohathiad, ac Asaph y Gersoniad, a flaenorai wasanaeth cerddorol y tabernacl, yn amser Dafydd. Dywedir yn 1 *Cron.* xxiii. 6, fod Dafydd wedi dosbarthu y Lefiaid (cerddorol) "yn ddosbarthiadau rhwng (cym. "yn mysg") meibion Lefi, sef Gerson, Cohath, a Merari." Ond y mae y prawf mai Merariad ydoedd Ieduthun yn dibynu ar pa un ai efe ydoedd Ethan (1 *Cron.* xv. 17; vi. 44), yr hwn, fe ddywedir, oedd yn un o'r Merariaid. [Gwel HEMAN.] Y mae tebygolrwydd mwy yn yr enw Ethan i Ieduthun, ynglŷn â'r ffaith nad oedd ond tri dosbarth o'r Lefiaid (ac felly tri arweinydd arnynt), yn ol rhifedi meibion Lefi, a'r ffaith y dywedir yn amlwg mai Gersoniad ydoedd Asaph, ac mai Cohathiad ydoedd Heman, yn ein tueddu yn gryf i gredu mai Merariad ydoedd Ieduthun, a'r un ag Ethan. (eir prawf arall cryf o hyn yn y ffaith fod Hosiah yn cael ei alw yn fab i Ieduthun (1 *Cron.* xvi. 38, 42), ac yn un o'r "porthorion," y Cohathiaid, o'i cymmharu â xxvi. 10, lle y dywedir fod Hosah o feibion Merari. Gan hyny, gan olygu mai yr un oedd Ethan a Ieduthun, ac mai "amrywiad swyddogol," fel y dywed Hervey, ydyw y naill o'r llall, cawn fod Ieduthun, fel mab Cisi, neu Cusaiah, wedi hanu o Mahli, fab Musi, fab Merari, fab Lefi; a'i fod yn byw yn y bedwaredd genhedlaeth ar ddeg o deulu Lefi. Ei swydd, yn gyffredin, ydoedd arolygu y rhan gerddorol o wasanaeth y tabernacl a'r deml, yr hwn oedd yn cynnwys y nabl, y delyn, y symbal, ynghyd â'r llais dynol (cyfyngid yr udgyrn i'r offeiriaid). Ond ei waith neillduol ef, yn gystal a Heman ac Asaph, ydoedd "seinio (Cym. "lleisio") â symbalau pres," tra yr oedd y lleill yn chwareu ar y nabl a'r delyn: 1 *Cron.* xv. 16—24. Appwyntiwyd hwy i'w swydd gan benaethiaid ("penau cenedl") y Lefiaid, yn ol gorchymyn Dafydd, pob dosbarth, dybygid, yn dewis ei flaenor ei hun. Yr achlysur cyntaf ar ba un y gweinyddodd Ieduthun ei swydd ydoedd, pan

[1] Yr achos fod y geiriau "mab Ieduthun" yn cael eu cyplysu âg enw Obed-edom yn yr adnod uchod ydyw, er mwyn ei wahaniaethu oddi wrth Obed-edom y Gethiad (2 *Sam.* vi. 10), yr hwn a enwir yn yr un adnod, a'r hwn oedd, dybygid, yn un o'r Cohathiaid: 1 *Cron.* xxvi. 4.

Digitized by Google

ddygwyd yr arch i Ierusalem gan Dafydd. Y pryd hyny, cymmerodd ei le yn yr orymdaith, a chwareuodd ar y symbalau. Ond pan ranwyd gwasanaeth y Lefiaid, o blegid fod y tabernacl yn Gibeon a'r arch yn Ierusalem, gosodwyd Asaph a'i frodyr i weini o flaen yr arch, tra y trefnwyd fod i Ieduthun a Heman aros gyda Sadoc yr offeiriad, i roddi diolch "o flaen y tabernacl, yn yr uchelfa oedd yn Gibeon; ond etto, trwy seinio symbalau yn gyfeiliant i'r offerynau cerddorol ereill: 1 *Cron.* xvi.; cymmh. *Salm* cl. 5. Yn hanes pasg y brenin Iosiah, yn 2 *Cron.* xxxv., cyfeirir at y canu fel yn cael ei ddwyn yn mlaen yn unol â threfniadau a wnaed gan Dafydd, a chan Asaph, Heman, a Ieduthun, *gweledydd y brenin.* [Gwel HEMAN.] Tybir fod yr ymadrodd yn golygu cynghorydd y brenin, mewn materion perthynol i'r gwasanaeth cerddorol. Gwaith rhai o feibion Ieduthun (1 *Cron.* xxv.), sef chwech o honynt, ydoedd prophwydo gyda'r delyn. Y chwech hyn oeddynt Gedaliah, blaenor yr ail gylch, Seri neu Isri, blaenor y pedwerydd, Iesaiah, blaenor yr wythfed, Simei, blaenor y degfed[1], Hasabiah, blaenor y deuddegfed, a Mattithiah, blaenor y pedwerydd ar ddeg. Yr oedd dau o'i feibion yn borthorion (xvi. 42), sef Obededom a Hosah (*adn.* 38); a chan Hosah yr oedd tri ar ddeg o feibion a brodyr: xxvi. 11. Ymddengys fod rhaniad triphlyg o'r Lefiaid cerddorol, y dosbarthiadau ar y rhai yr oedd Ieduthun, Asaph, a Heman yn arolygwyr - ymddengys fod y rhaniad hwn wedi parhau cyhyd a'r deml, a bod pob dosbarth yn cael ei alw wrth enw ei arweinydd neu ei arolygydd. Ar gyssegriad teml Solomon, yr oedd "y Lefiaid, y rhai oedd gantorion, hwynthwy oll o Asaph, o Heman, o Ieduthun," yn cyflawni y rhan a berthynai iddynt: 2 *Cron.* v. 12. Yn nheyrnasiad Hezeciah, drachefn, yr ydym yn cael yr un dosbeirth, o dan yr enwau meibion Asaph, meibion Heman, a meibion Ieduthun, yn cyflawni eu rhan yn mhuredigaeth y deml: 2 *Cron.* xxix., 13, 14. Sylwasom eu bod yn cael crybwyll am danynt yn amser Iosiah, ac mor ddiweddar âg amser Nehemiah, yr ydym yn cael amryw o hiliogaeth Ieduthun ynglŷn â'r gwasanaeth cerddorol: *Neh.* xi. 17; 1 *Cron.* ix. 16.

Cawn enw Ieduthun uwch ben tair o salmau, sef *Salm* xxxix., lxii, a lxxvii; a'r achos o hyn, dybygid, ydyw eu bod i'w canu gan ei gôr ef.

IEEZER: y ffurf a ddefnyddir yn *Num.* xxvi. 30, am ABIEZER (*Ios.* xvii, 2; *Barn.* vi. 34; viii. 2; 1 *Cron.* vii. 18), mab hynaf Gilead, un o hiliogaeth Manasseh, a sylfaenydd un o brif deuluoedd y llwyth, sef yr *Ieezeriaid* (*Num.* xxvi. 30), neu yr *Abiezeriaid.* Yn 1 *Cron.* vii. 18, dywedir ei fod yn fab i Hammolecheth, chwaer Gilead; ond tybir fod llygriad wedi ymlithro yma i'r testyn. Gellid meddwl fod yr Ieezeriaid ar y cyntaf, gyda'r gweddill o deulu Gilead, ar du dwyreiniol yr Iorddonen; ond wedi hyny, cawn o leiaf ryw ran o hono wedi croesi yr Iorddonen; ac ymsefydlu mewn lle o'r enw Ophrah, yr hwn, er nas cafwyd olion o hono, oedd yn sefyll, y mae yn ddiammheu, ar y mynyddoedd sydd i'r deheu i wastadedd mawr Esdraelon—golygfa llawer o frwydrau Gwlad Canaan [*Stanley's Syria and Palestine*, td. 246 - 7; *Barn.* vi. 24]. Yma, pan oedd amgylchiadau y teulu ar y gwaethaf (*adn.* 15)—pan oedd yn "waelaf yn Manasseh," (Heb. "fy *mil* sydd waelaf") y pryd hyn y ganwyd y barnwr enwog Gideon, yr hwn a ddyrchafodd ei deulu drachefn i urddasolrwydd brenhinol bron, a'r hwn a ennillodd i'w wlad un o'r buddugoliaethau gogoneddusaf a gofnodir yn ei hanesiaeth.

[1] Gadewir hwn allan o *adn.* 3, ond y mae yn angenrheidiol i wneyd i fyny y chwe mab.

IEGER—SAHADUTHA (="carnedd y dystiolaeth"): yr enw Aramaeg a roddodd Laban y Syriad ar y garnedd geryg a gyfododd fel cofarwydd o'r cyttundeb a wnaed rhyngddo â Iacob, pryd y cyfododd Iacob yntau golofn i'r un dyben: *Gen.* xxxi. 47. Y gair Hebraeg ydyw Galeed; ond nid ydyw Galeed yn gyfleithiad perffaith o Ieger-Sahadutha. Mae y Deg a Thrigain yn dangos y gwahaniaeth drwy gyfieithu yr olaf *Bouvòs tes marturias*, a'r blaenaf *Bouvôs martus.* Ond y mae yn amlwg fod y ddau, yn meddwl yr hanesydd, yn gyfystyr, ac y mae y dull yn mha un y mae yn cymmhwyso yr enw at yr amgylchiadau a gofnodir, ac at y llanerch lle y cymmerodd yr amgylchiadau hyn le, yn enghraifft nodedig o dueddfryd yr Hebreaid—tueddfryd a welir yn fynych yn yr Hen Destament[1]—sef cyfnewid ychydig ar enw oedd eisoes mewn arferiad, fel y cyfleai i'r Hebreaid ryw syniad dealladwy, ac, ar yr un pryd, i gadw hanfodion ei ffurf wreiddiol. Y mae pob lle i gredu fod Gilead yn tarddu oddi wrth wreiddyn sydd yn cyfeirio at nodweddion naturiol y llanerch a elwir felly, ac a elwid felly yn ddiammheu cyn cyfarfyddiad Iacob â Laban, neu, o leiaf, cyn amser yr hanesydd. Yn wir defnyddir ef yn *adn.* 23, 25 o'r bennod uchod, cyn cofnodi hanes y golofn. Yr oedd y garnedd a gyfodwyd gan Laban yn nodi amgylchiad yn hanes Iacob a dorodd ymaith bob ymdrafodaeth rhyngddo a'i berthynasau yn Syria, ac o hyn allan cyfyngai y patriarch ei grwydriadau i Wlad yr Addewid. Yr oedd y fath amgylchiad, yn cael ei gofnodi yn y fath fodd, yn cael ei ystyried gan yr hanesydd yn ddigon pwysig i adael ei argraph ar yr holl lanerch, ac yn Galeed, "y dyst-garnedd," y cafwyd enw gwreiddiol llanerch mynyddog Gilead. Gwel GILEAD.

Rhoddir tarddiad cyffelyb i MISPAH (*adn.* 48, 49), yr hyn a awgrymwyd, fe allai, gan debygrwydd *mi(t)spah* i *matstsêbâh*—y "gareg sefydlog," neu "golofn" a gyfodwyd gan Iacob i fod yn gofarwydd o'r eiddo ef o'r amgylchiad, fel yr oedd y garnedd geryg yn arwydd i Laban. Ar y golofn neu y gareg sefydlog hon, efe a dyngodd i'r Iehofah, "ofn ei dad Isaac;" a thyngodd Laban uwch ben ei garnedd, i Dduw Abraham a Nachor, Duw eu tad Terah; y naill fel y llall yn amlygu ei syniad o ddifrifoldeb y cyttundeb drwy ddefnyddio y ffurfiau mwyaf ofnadwy o lw y gallai y naill a'r llall eu dychymmygu.

1. IEHALELEEL: un o lwyth Iudah, a thad Ziph, Ziphah, Tiria, ac Asareel: 1 *Cron.* iv. 16.

2. IEHALELEEL: Lefiad Meraraidd, mab yr hwn, sef Azariah, a gynnorthwyodd yn adgyweiriad y deml, o dan Hezeciah: 2 *Cron.* xxix. 12.

1. IEHDEIAH: enwir y gŵr hwn fel cynnrychiolydd "meibion Subael"—hiliogaeth Gersom, mab Moses—yn nyddiau Dafydd: 1 *Cron.* xxiv. 20.

[1] Mae y ddau hanes gwahanol am darddiad "Beer-seba" (*Gen.* xxi. 31; xxvi. 33); yr eglurhad ar "Soar" yn *Gen.* xix. 20, 22, ac ar yr enw Moses, yn *Exod.* ii. 10; yn enghreifftiau o hyn; ac y mae llawer o'r cyfryw. Nid yw y tueddfryd hwn yn perthyn yn unig i'r Hebreaid. Y mae yn perthyn i bob iaith yn ddieithriad.

Digitized by Google

2. IEHDEIAH: Meronothiad, gan yr hwn yr oedd gofal yr asenod—da marchogol a magwrol (*breeding*) Dafydd: 1 *Cron.* xxvii. 30.

IEHESECEL: offeiriad, i'r hwn y rhoddodd Dafydd arolygiaeth yr ugeinfed dyddgylch o'r offeiriaid, yn y tabernacl: 1 *Cron.* xxiv. 16. Mae yr enw yn y gwreiddiol bron yn hollol yr un fath ag Ezeciel.

IEHIAH: efe, gydag Obed-Edom, oeddynt geidwaid drysau (porthorion), pabell yr arch, pan sefydlwyd hi yn Ierusalem: 1 *Cron.* xv. 24. Nid yw yr enw yn digwydd ond yma, ond y mae yn bossibl iddo gael ei gyfnewid i'r ffurf cyffelyb, *Iehiel*, neu *Ieiel*: 1 *Cron.* xvi. 5.

1. IEHIEL: gŵr a ddisgrifir fel tad Gibeon, a chyndad y brenin Saul: 1 *Cron.* ix. 35, &c. Yn 1 *Cron.* viii. 29, gadewir yr enw allan yn hollol. Bernir nad yr un ydyw hwn a'r Abiel a enwir yn 1 *Sam.* ix. 1; er fod rhai yn meddwl felly.

2. IEHIEL: un o feibion Hotham yr Aroeriad, ac aelod o warchodlu Dafydd: 1 *Cron.* xi. 44.

3. IEHIEL: un o'r Lefiaid a bennodwyd gan Dafydd i gynnorthwyo yn ngwasanaeth y tabernacl: 1 *Cron.* xv. 18, 20; xvi. 5.

4. IEHIEL: un o feibion Iehosaphat brenin Iudah, yr hwn a laddwyd gan ei frawd Iehoram, yn fuan wedi iddo ddyfod yn frenin: 2 *Cron.* xxi. 2.

5. IEHIEL: un o flaenoriaid tŷ Dduw yn amser diwygiadau Iosiah: 2 *Cron.* xxxv. 8.

6. IEHIEL: Lefiad Gersonaidd. Efe oedd y penaf o "feibion," neu deulu Laadan, yn amser Dafydd, a chan y teulu hwn yr oedd gofal y trysorau: 1 *Cron.* xxiii. 8; xxix. 8. Yn 1 *Cron.* xxvi. 21, gelwir ef *Iehieli.*

7. IEHIELI: mab Hachmoni, neu Hachmoniad, a'r hwn a nodir yn rhestr swyddogion Dafydd fel un oedd "gyda meibion y brenin," pa beth bynag yw ystyr hyny: 1 *Cron.* xxvii. 32. Y mae yn ymddangos oddi wrth *adn.* 33, lle yr enwir Ahitophel, fod hyn cyn gwrthryfel Absalom. Yn *Quæstiones Hebraicæ*, Jerome, dywedir mai Chileab neu Daniel, mab Dafydd, ydoedd Iehiel; ac mai cyfenw ydoedd Hachmoni (yr hwn a gyfleitha *Sapientiesimus*), ar Dafydd ei hun. Pa awdurdod sydd dros hyn, y mae yn anhawdd gwybod.

8. IEHIEL: Lefiad, o "feibion," neu deulu Heman, yr hwn a gymmerodd ran yn niwygiadau Hezeciah: 2 *Cron.* xxix. 14.

9. IEHIEL: Lefiad arall, yn yr un cyfnod, ac un o arolygwyr yr hyn a offrymid i'r Arglwydd: 2 *Cron.* xxxi. 13. Nid yw ei deulu yn cael ei nodi.

10. IEHIEL: tad Obadiah, ac un a flaenorai ddau cant a deunaw o ddynion o deulu Ioab, yn y dychweliad o Babilon gydag Ezra: *Ezra* viii. 9.

11. IEHIEL: un o deulu "meibion" Elam, a thad y Sechaniah a gymmhellodd Ezra i roddi ymaith wragedd dieithr y bobl: *Ezra* x. 2.

12. IEHIEL: aelod o'r un teulu, yr hwn hefyd a roddodd ymaith ei wraig estronol: *Ezra* x. 26.

13. IEHIEL: offeiriad, o deulu Harim, a'r hwn a roddodd heibio ei wraig estronol: *Ezra* x. 21.

IEHIZCIAH: neu, yn fwy cywir, *Ieehizciahu*: mab Salum, ac un o benaethiaid llwyth Ephraim, o dan deyrnasiad y brenin Ahaz: 2 *Cron.* xxviii. 12. Yn ol cymmhelliad y prophwyd Oded, efe a wrthsafodd yn wrol yr ymgais a wnaed gan fyddin Israel, o dan Pecah, i ddwyn nifer mawr o gaethion a llawer o ysbail i Samaria, pan ymosododd y fyddin hono ar ei chwaer, Iudah. Drwy ymdrechion Iehizciah a'i gydbenaethiaid dilladwyd y caethion, porthwyd, gwyliwyd, a dychwelwyd hwy i Ierusalem ar eu ffordd i Iudah. Cymmharer â'r adnod uchod, *adn.* 8, 13, 15.

IEHOADAH: un o hiliogaeth Saul, mab Ahaz, a gorŵyr Meribaal neu Mephiboseth: 1 *Cron.* viii. 36. Yn 1 *Cron.* ix. 42, gelwir ef Iarah.

IEHOADAN; neu "Iehoadan o Ierusalem," fel y gelwir hi, ydoedd gwraig Ioas, brenin Iudah, a mam Amasiah y brenin: 2 *Bren.* xiv. 2; 2 *Cron.* xxv. 1.

IEHOAHAZ: yr enw a roddid i fab ieuangaf Iehoram brenin Iudah, yn ystod bywyd ei dad. Fel brenin, adnabyddir ef wrth yr enw Ahaziah, yr hwn sydd yn Azariah yn 2 *Cron.* xxii. 6. Gwel *Berthean* ar 2 *Cron.* xxi. 17. Mae yr enw hwn yn digwydd fynychaf yn y ffurf dalfyredig, Ioahaz.

IEHOFAH-IIRE (*h.y.*, "yr Arglwydd a edrych" neu "a ddarpara"): yr enw a roddwyd gan Abraham i'r lle y gorchymynasid iddo aberthu Isaac arno. Rhoddodd yr enw arno yn gofarwydd o gyfryngiad angel yr Arglwydd, yr hwn a ymddangosodd i attal yr aberthiad gosodedig, ac a ddarparodd wrthddrych arall yn aberth: *Gen.* xxii. 14. Y mae cyfeiriad uniongyrchol yr ymadrodd at yr wythfed adnod, lle y dywedir, "Duw a edrych iddo (neu *drosto*) ei hun am oen y poethoffrwm;" ond nid yw yn annhebygol fod ynddo hefyd gyfeiriad cuddiedig at Moriah, safle yr holl ymdrafodaeth. Wedi cofnodi y ffaith o gyfenwad y lle yn Iehofah-iire, y mae yr hanesydd, gan chwareu ar yr un gair, yn cofnodi diareb boblogaidd:—"fel y dywedir heddyw, yn mynydd yr Arglwydd y gwelir (ef)," neu "y gwneir darpariaeth;" dyma y darlleniad yn ol y gwahannodiad (Hebreig) mwyaf awdurdodol; ond ar hyn y mae gwahaniaeth barn. Cyfieithiad y Deg a Thrigain ydyw:—"ar y mynydd yr Arglwydd a ymddangosodd;" ac yn gyffelyb y mae Lladin y Vulgate, a'r Syriaeg.

IEHOFAH-NISSI: (*h. y.*, "Iehofah yw fy maner"): yr enw a roddwyd gan Moses i'r allor a adeiladodd, er cof am y fuddugoliaeth fawreddog a ennillodd Iosuah a'i ryfelwyr dewisol ar yr Amaleciaid yn Rephidim: *Exod.* xvii. 15. Adeiladwyd hi naill ai ar y bryn goruwch maes yr ymladdfa—ar yr hwn fryn yr eisteddai Moses, gyda gwialen Duw yn ei law—neu ynte cyfodwyd hi ar faes y rhyfel ei hun. Yn ol Aben Ezra, ar fynydd Horeb, yr adeiladwyd hi. Y darlleniad yn *Nhargum Onkelos* ydyw hwn:—"Adeiladodd Moses allor, ac addolodd arni ger bron yr Iehofah, yr hwn a wnaethai wyrthiau ar ei ran." Dyma hefyd esboniad R. Iarchi ar yr enw—cyfeiriad at gyfryngiad gwyrthiol Duw yn ngorchfygiad yr Amaleciaid. Cyfieithiad y Deg a Thrigain ydyw "yr Arglwydd yw fy *noddfa*," yr hyn a achlysurwyd, dybygid, oddi ar dybiaeth fod *nissi* yn tarddu o'r gwreiddyn Hebraeg *nus*, sef "ffoi." Y mae y Vulgate drachefn yn olrhain y gair i *nasa*="dyrchafu," ac felly yn cyfieithu, "Duw yw fy nyrchafydd" (*Dominus exaltic mea*). Y mae ystyr yr enw yn gynnwysedig, dybygid, mewn cyfeiriad at y wialen a

Digitized by Google

ddaliai Moses yn ei law fel baner yn ystod yr ymladdfa, a chodi neu ostwng yr hon wialen a droai y frwydr yn ffafr Israel neu y gelyn. Fel hyn, yn yr allor a adeiladwyd, yr oedd Duw yn cael ei gydnabod fel gwaredydd ei bobl, yr hwn sydd yn eu harwain i fuddugoliaeth, ac yn ganolbwynt eu hymgasgliad a'u gobaith yn awr cyfyngder. Gyda golwg ar ystyr ffugyrol "baner," gwel *Salm* lx. 4; ac *Esa.* xi. 10.

IEHOFAH-SHALOM ( = "Arglwydd tangnefedd," neu "heddwch"): allor a adeiladwyd ac a alwyd wrth yr enw hwn gan Gideon, er côf am gyfarchiad yr angel:—"Tangnefedd i ti;" *Barn.* vi. 24. Adeiladwyd yr allor yn Ophrah.

IEHOHANAN (="rhodd yr Iehofah;") enw cyfystyr â Theodore; Gr. *Iohanan*); enw tra chyffredin, yn y ffurf yma, yn gystal a'r ffurf fyrach, IOHANAN, yn nghyfnodau diweddaraf hanesiaeth Iuddewig. Y ffurf Gymraeg ydyw *Ioan* (Saes. *John*).

1. IEHOHANAN: Lefiad, ac un o "borthorion" tŷ yr Arglwydd, neu y tabernacl, yn nyddiau Dafydd: 1 *Cron.* xxvi. 3. Efe oedd y chweched o saith mab Meselemiah; un o hiliogaeth Core—sylfaenydd y teulu pwysig hwnw o'r Cohathiaid a elwid "y Corhiaid." Dywedir yn *adn.* i. ei fod "o feibion Asaph;" sef o hiliogaeth Asaph; ond y mae yr Asaph hwn yn dalfyriad o Ebiasaph, fel y gwelir oddi wrth 1 *Cron.* ix. 19. Hefyd, yr oedd Asaph y cantor o'r Gersoniaid, nid o'r Cohathiaid.

2. IEHOHANAN: un o benaethiaid Iudah, o dan Iehosaphat. Yr oedd yn flaenor ar 280,000 o wŷr, o fewn ac o amgylch Ierusalem, dybygid: 2 *Cron.* xvii. 15; cym. *adn.* 13, 19. Enwir ef yn ail yn y rhestr hon, a gelwir ef "y tywysog." Yr un gair a gyfieithir "y penaf" yn *adn.* 14. Y mae yn debyg mai yr un gŵr ydyw a'r IOHANAN yn 2 *Cron.* xxiii. 1; lle y gwelwn Iehoiada yn ymgynghori âg ef, gydag ereill, o barth i adferiad llinell frenhinol Iudah.

3. IEHOHANAN: un o "feibion (hiliogaeth) Bebai;" Israeliad a orfodwyd gan Ezra i roddi heibio ei wraig estronol: *Ezra* x. 28.

4. IEHOHANAN: offeiriad; cynnrychiolydd teulu Amariah, yn ystod archoffeiriadaeth Ioiacim; hyny ydyw, yn yr oes ar ol y dychweliad cyntaf o'r caethiwed: *Neh.* xii. 13; cym. *adn.* 2; *adn.* 21.

5. IEHOHANAN: offeiriad a gymmerai ran yn y gwasnaeth cerddorol o ddiolchgarwch, wrth gyssegru muriau Ierusalem gan Nehemiah: *Neh.* xii. 42. Gelwir ef mewn dau le arall IOHANAN.

IEHOIACIM, neu IOACIM, fel y gelwir ef fynychaf, ydoedd y deunawfed (gyda Dafydd) neu y pedwerydd ar bymtheg, a chyfrif Ioahaz, o frenhinoedd Iudah. Yr oedd yn bump ar hugain oed pan ddaeth i'r orsedd, ac yn fab i Iosiah a'i wraig Zebudah—merch Pedaiah o Rumah.[1] Gwnaed ei frawd ieuengaf, Ioahaz, yn frenin gan y bobl, ar farwolaeth Iosiah, ei dad, gyda'r amcan, fe allai, o ddilyn yn mlaen yr hyn a gychwynasid gan Iosiah, sef cefnogi Nebuchodonosor yn erbyn yr Aipht, gan eu bod, fel y tybia Prideaux, yn ddeiliaid llŵ o ffyddlondeb i frenhinoedd Babilon [*Prideaux's Con. of Old & New Test.* i. 50]. Gan hyny, cawn Pharoah-Necho, brenin yr Aipht, yn beiddio pob gwrthwynebiad gyda byddin fawreddog, yn taflu Ioahaz oddi ar ei orsedd, ac yn ei ddwyn mewn cadwynau i Riblah, lle, dybygid, yr oedd ei ffordd i Charchemis: 2 *Bren.* xxiii. 33, 34; *Ier.* xxii. 10, 12. Wedi hyny, gosododd ei frawd hynaf, Eliacim, ar yr orsedd—newidiodd ei enw yn Iehoiacim—ac wedi gosod arno y gorchwyl o gasglu treth o gan talent o arian, a thalent o aur (o ddeutu 40,000 o bunnau), drwy yr hyn y cospodd y wlad am y rhan a gymmerasai Iosiah yn ei erbyn gyda Babilon, dychwelodd i'r Aipht, gan gymmeryd Ioahaz gydag ef, yr hwn a fu farw yno mewn caethiwed: 2 *Bren.* xxiii. 34;[1] *Ier.* xxii. 10—12; *Ezec.* xix. 4. Ni ddychwelodd Pharaoh-Necho ef hun mwy i Ierusalem, o blegid wedi y fuddugoliaeth fawr a gafwyd arno yn Charchemis, yn y bedwaredd flwyddyn o deyrnasiad Iehoiacim, efe a gollodd ei holl diriogaethau Syriaidd (2 *Bren.* xxiv. 7; *Ier.* xlvi. 2), ac ni wnaeth ei olynydd, Psammis [*Herodotus* ii. clxi.] un ymgais i'w hadennill. Gan hyny, ni fu a wnelai yr Aipht â gwleidyddiaeth yr Iuddewon yn ystod saith neu wyth mlynedd teyrnasiad Iehoiacim. Ar ol brwydr Charchemis, daeth Nebuchodonosor i Wlad Canaan fel i un o deyrnasoedd gwarogaethol yr Aipht—ennilliad yr hon oedd yn ffrwyth ei fuddugoliaeth ar Necho. Cafodd Iehoiacim yn hollol ddiamddiffyn. Ar ol gwarchae byr, aeth i mewn i Ierusalem; cymmerodd y brenin yn garcharor, rhwymodd ef mewn cadwynau i'w gaethgludo i Babilon, a chludodd hefyd rai o lestri aur y deml i wlad Sinar, i deml ei dduw, Bel. Y pryd hyn, yn y bedwaredd, neu yn ol cyfrifiad Daniel, yn y drydedd flwyddyn o'i deyrnasiad,[2] y cymmerwyd Daniel, Hananiah, Misael, ac Azariah, yn gaethion i Babilon; ond ymddengys fod Nebuchodonosor wedi newid ei feddwl o barth i Iehoiacim, derbyn ei ymostyngiad, a'i ail sefydlu ar ei orsedd, gan gofio, fe allai, am ffyddlondeb ei dad Iosiah. Mae hyn yn sicr, sef fod Iehoiacim wedi hyn o dan warogaeth i Nebuchodonosor, ac iddo barhau felly am dair blynedd, pryd y torodd ei gyfammod, ac y gwrthryfelodd yn ei erbyn: 2 *Bren.* xxiv. 1. Pa beth a gymmhellodd Iehoiacim i wneyd hyn, y mae yn anhawdd dyweyd, os nad tueddfryd anhywaeth a gwrthryfelgar ei galon, ac anfoddlonrwydd i dalu teyrnged i frenin Babilon—yr hon deyrnged y buasai yn well ganddo ei gwario er lles ei foethusrwydd a'i falchder ei hun (*Ier.* xxii. 13—17); o blegid nid oes dim i gefnogi syniad Winer, a thystiolaeth Josephus, sef fod rhywbeth yn agwedd yr Aipht y pryd hyn oedd yn cymmhell y gwrthryfel. Ymddengys yn fwy tebygol fod Iehoiacim yn gweled yr Aipht wedi colli pob awdurdod yn Syria, a brenin Babilon yn llawn ei helynt mewn rhyfeloedd pell, yn hyderu y gallai ennill ei annibyniaeth. Ond pa beth bynag ydoedd yr amcan neu y cymmhelliad yn y cam ffôl a phechadurus hwn, yr hwn oedd yn groes i rybuddion parhaus Ieremiah, y mae yn amlwg iddo ddwyn trueni a dinystr arno ei hun ac ar ei wlad. Er nad oedd Nebuchodonosor ei hun yn gallu dyfod i gospi y brenin gwrth-

[1] Yr un ydoedd hwn, dybygid, âg Arumah, yn *Barn.* x. 41. Rumah sydd yma yn nghyfieithiad Lladin y Vulgate; ac os yw hyn yn gywir, yr oedd y lle hwn yn llwyth Manasseh.

[1] Nid yw yn ymddangos oddi wrth 2 *Bren.* xxiii., lle y cawn yr adroddiad manylaf, pa un a aeth Pharaoh-Necho i'r Aipht yn uniongyrchol o Ierusalem, ynte a ddigwyddodd iddo y trychineb alaethus yn Charchemis, ar lan yr Euphrates, ar y ffordd.

[2] Mae yn bossibl fod y gwahaniaeth hwn yn y cyfrifiad yn tarddu oddi ar fod y naill yn cyfrif blwyddyn fel teyrnasiad Ioahaz, a'r llall yn gadael allan y flwyddyn hon.

Digitized by Google

ryfelgar, anfonodd yn ei erbyn gwmnïau lliosog o'r Caldeaid, gyda Syriaid, Moabiaid, ac Ammoniaid, y rhai oeddynt oll erbyn hyn yn ddarostyngedig i Babilon (2 *Bren.* xxiv. 7), a'r rhai a anrheithient yn greulawn yr holl wlad. Y pryd hyn, fe allai, y digwyddodd y sychder mawr a ddisgrifir yn *Ier.* xiv; cymmharer xv. 4 â 2 *Bren.* xxiv. 2, 3). Rhaid fod blynyddoedd diweddaf teyrnasiad Iehoiacim yn dra thruenus. Ymddengys i'r Ammoniaid anrheithio tir Gad (*Ier.* xlix. 1), ac i'r cenhedloedd cymmydogaethol gymmeryd mantais ar ddistadlrwydd Israel i anrheithio yr holl wlad hyd yr eithaf: *Ezec.* xxv. Nid oedd gorphwysdra na diogelwch oddi allan i furiau y dinasoedd. Ni chofnodir manylion y rhan ddiweddaf o'i deyrnasiad. Fel yr oedd amser dyfodiad Nebuchodonosor ei hun i Iudea yn dynesu, y mae yn debyg fod ymosodiadau ac ymgyrchoedd afreolaidd a gwasgaredig ei filwyr yn dyfod yn fwy unol a nerthol. Naill ai mewn ymosodiad o'r fath yma, neu ynte drwy ddwylaw rhai o'i ddeiliaid gorthrymedig ei hun (y rhai a amcanent gymmodi y Babiloniaid drwy lofruddio eu brenin), cyfarfyddodd Iehoiacim â diwedd alaethus yn yr unfed flwyddyn ar ddeg o'i deyrnasiad. Taflwyd ei gorph mewn gwaradwydd ar y ddaear; ac wedi ei adael i orwedd yno am amser, llusgwyd ef ymaith, a chladdwyd ef "â chladdedigaeth asyn .... tu hwnt i byrth Ierusalem;" *Ier.* xxii. 18, 19; xxxvi. 30. O fewn tri mis ar ol ei farwolaeth, cyrhaeddodd Nebuchodonosor, gan roddi terfyn ar y frenhiniaeth drwy gludo y brenin Iehoiachin i Babilon. [Gwel IEHOIACHIN.] Y mae pob hanes sydd genym am Iehoiacim yn cyttuno i ddangos ei fod o gymmeriad drygionus ac anghrefyddol. Dywedir wrthym yn 2 *Bren.* xxiii. 37, ddarfod iddo wneyd "yr hyn oedd ddrwg yn ngolwg yr Arglwydd;" dywedir hyn eilwaith yn xxiv. 9, a thrachefn yn 2 *Cron.* xxxvi. 5. Yn wir, defnyddir iaith gryfach yn *adn.* 8 o'r bennod olaf:—"ei ffieidd-dra ef, y rhai a wnaeth efe." Ond yn ysgrifeniadau Ieremiah y cawn y darluniad cyflawnaf o hono. Mae yn dra thebyg fod y bedwaredd bennod ar bymtheg o *Ieremiah* yn perthyn i'w deyrnasiad ef; ac os felly, cawn ynddi fanylion o'r arferion eilunaddolgar a gwarthus a ffynent yn Ierusalem o dan gefnogaeth y brenin—â'r hyn y mae gweledigaeth Ezeciel—o'r hyn oedd yn cymmeryd lle hyd yn oed o fewn muriau y deml, chwe blynedd yn ddiweddarach—yn cyttuno yn hollol:—arogldarth yn cael ei offrymu i "bob llun ymlusgiad ac anifail ffiaidd," "gwragedd yn wylo am Tammuz," a dynion yn nghynteddd mewnol y deml—"rhwng y porth a'r allor...â'u cefnau at deml yr Arglwydd...yn ymgrymu i'r haul tua'r dwyrain;" *Ezec.* viii. Mae erledigaeth ddialgar y brenin ar Uriah, mab Semaiah, ynghyd â'r modd y gwarthruddwyd ei gorph, drwy ei orchymyn, am feiddio prophwydo yn erbyn Iudah, yn esampl nodedig o orthrwm ac anghrefyddolder Iehoiacim. Prin y diangodd Ieremiah rhag yr un dynged: *Ier.* xxvi. 20—24. Mae y crybwylliad hynod a wneir am dano yn 1 *Esdras* i. 38:—ddarfod iddo roddi ei bendefigion mewn cadwynau, a dal Saraces ei frawd yn yr Aipht, a'i ddwyn i fyny oddi yno i Ierusalem. Mae hyn yn cyfeirio yn amlwg at ei greulondeb. Mae ei annuwioldeb beiddgar yn rhwygo ac yn llosgi prophwydoliaeth Ieremiah, a hyny pan yr oedd ympryd cyhoeddus yn cael ei gynnal, yn enghraifft arall o'i gymmeriad, a dygodd arno y condemniad hwn:—"Ni bydd iddo a eisteddo ar frenhinfaingc Dafydd, a'i gelain ef a fwrir allan i wres y dydd, ac i rew y nos;" *Ier.* xxxvi. Condemnir yn y modd llymaf ei orthrwm, ei anghyfiawnder, ei drachwant, ei foethusrwydd, a'i ormes (*Ier.* xxii. 13—17), ac fe sylwyd yn fynych, fel peth sydd yn amlygu ei hunan a'i ddifaterwch cyfangwbl o barth i ddioddefiadau ei gyd-ddynion, ei fod pan yr oedd ei wlad yn dioddef tlodi mor ofnadwy, gan deyrnged drom i'r Aipht a Babilon, yn gallu gwario symiau mawrion i godi palasau a phorthi ei foethusrwydd ei hun: *Ier.* xxii. 14, 15. Mae yr hanes a roddir uchod wedi ei gasglu o'r Ysgrythyrau, ac, fe ymddengys, yn cyttuno yn eithaf â symmudiadau y gellid disgwyl i Nebuchodonosor eu cymmeryd, ac hefyd â'r darganfyddiadau mwyaf diweddar ynghylch Nebuchodonosor. [Gwel NEBUCHODONOSOR]. Mae teyrnasiad Iehoiacim yn cyrhaedd o C.C. 609 hyd C.C. 598, neu 599, fel y cyfrifa rhai.

IEHOIACHIN: ffurf wreiddiol yr enw IOACHIN; yr hwn ffurf sydd yn digwydd yn unig yn 2 *Bren.* xxiv. 8, yn y cyfieithiad Cymreig, a'r hwn sydd yn ymddangos hefyd yn y ffurf wahanol, IECHONIAH, a CONIAH: mab Iehoiacim, neu Ioiacim, brenin Iudah, o'i wraig Nehusta. Bu am dri mis a naw niwrnod yn frenin ar Iudah, ar ol ei dad. Efe oedd y pedwerydd ar bymtheg o Dafydd, neu yr ugeinfed, a chyfrif Ioahaz. Yn ol 2 *Bren.* xxiv. 8, yr oedd Ioachin yn ddeunaw mlwydd oed ar ei esgyniad i'r orsedd. Ond 2 *Cron.* xxxvi. 9, ac *Esdras* i. 43, yw y darlleniad cywiraf, fe ellid meddwl; lle y dywedir mai wyth oed[1] ydoedd, a'r hyn sydd yn gosod ei enedigaeth yn amser caethgludiad ei dad, yn ol *Mat.* i. 11.

Daeth Iehoiachin i'r orsedd pryd yr oedd yr Aipht etto yn y llwch o blegid y fuddugoliaeth a gafodd Nebuchodonosor ar Pharoah-Necho yn Charchemis, a phryd yr oedd yr Iuddewon er's tair blynedd yn cael eu poeni a'u hysbeilio gan ymgyrchoedd cwmnïau arfog o'r Caldeaid, yr Ammoniaid, a'r Moabiaid, y rhai a anfonid yn eu herbyn gan Nebuchodonosor o blegid gwrthryfel Iehoiacim. [Gwel IEHOIACIM]. Yr oedd Ierusalem, gan hyny, yn gwbl ddiamddiffyn y pryd hyn, ac yn analluog i gynnyg unrhyw wrthwynebiad i fyddin reolaidd Nebuchodonosor, yr hon a anfonwyd i warchae arni yn yr wythfed flwyddyn o'i deyrnasiad; a'r hon, fe ymddengys, iddo ef ei hun ymuno ar ol dechreuad y gwarchae: 2 *Bren.* xxiv. 10, 11. Yn mhen ychydig amser, dybygid, ac heb golledion oddi wrth newyn neu ymladdfeydd—yr hyn a amlygai wrthwynebiad ystyfnig o du yr Iuddewon—cawn Iehoiachin gyda doethineb yn ymostwng; a daeth ef a'i fam, a'i holl weinidogion, cadbeniaid, a swyddogion allan o'r ddinas, gan roddi eu hunain i fyny i Nebuchodonosor, yr hwn a'u cludodd gyda gwragedd ac ystafellyddion (eunuchiaid) y brenin i Babilon: *Ier.* xxix 2; *Ezec.* xvii. 12; xix. 9. Hefyd, holl drysorau y brenin, a holl drysor y deml, gyda llestri aur y deml, y rhai a adawsid gan frenin Babilon pan anrheithiodd efe hi yn y bedwaredd flwyddyn o deyrnasiad Iehoiacim—cludwyd neu ynte difethwyd y cyfan; a chludwyd hefyd yr holl bendefigion, a'r rhyfelwyr nerthol, a'r crefftwyr goreu, heb adael ond y gwaelaf a'r gwanaf yn ol: 2 *Bren.* xxiv. 13; 2 *Cron.* xxxvi. 19. Yn ol 2 *Bren* xxiv. 14, 16, yr oedd y nifer a gym-

[1] Dyma ddarlleniad Deg a Thrigain y Vatican; ond y mae y cyfieithiad awdurdodedig yn 2 *Bren.* yn dilyn y Groeg Alex. a'r Vulgate, ac yn darllen *deunaw.*

Digitized by Google

merwyd y pryd hwn i Babilon yn 10,000, sef 7,000 o filwyr, 1,000 o grefftwyr—seiri, gofaint, &c.—a 2,000, y rhai ni chrybwyllir eu galwedigaeth. Ond yn ol *Ier.* lii. 28 (brawddeg a adewir allan yn y Deg a Thrigain), y nifer a gaethgludwyd y pryd hyn (yr hwn amser a elwir yno y *seithfed* o deyrnasiad Nebuchodonosor, nid yr *wythfed*, fel yn 2 *Bren.* xxiv. 12) ydoedd 3,023. Pa un ai llygriad sydd yma yn y testyn, ynte rhan yn unig o'r nifer gwreiddiol a gymmerwyd a gaethgludwyd i Babilon, tra y gadawyd y gweddill gyda Sedeciah, ar ei waith yn cymmeryd llw o ffyddlondeb—pa un o'r ddau syniad sydd gywir, fe allai nas gellir penderfynu. Y mae rhif yr holl gaethglud yn *Ieremiah* yn bur fychan—dim ond 4,600—tra y dywedir yn *Ezra* ii., a *Neh.* vii., fod nifer y dychweledigion yn 42,360. Modd bynag, cludwyd Iehoiachin ei hun i gaethiwed, ac yno y bu yn garcharor—yn y carchar mewn gwirionedd, ac yn gwisgo dillad carcharor, am un mlynedd ar bymtheg ar hugain, sef hyd farwolaeth Nebuchodonosor, a dyfodiad Efil-Merodach i'r orsedd, yr hwn a ymddygodd ato gyda llawer o garedigrwydd—rhyddhaodd ef o'r carchar, newidiodd ei ddillad, dyrchafodd ef goruwch yr holl frenhinoedd gorchfygedig neu gaethgludedig ereill, a gwnaeth iddo eistedd wrth ei fwrdd ei hun. Pa un a oroesodd Iehoiachin y ddwy flynedd y bu Efil-Merodach yn teyrnasu, ni ddywedir; ac nid oes genym unrhyw fanylion o hanes ei fywyd yn Babilon. Ymddengys fod y disgrifiad cyffredinol a roddir o hono yn 2 *Bren.* xxiv. 9:—"Ac efe a wnaeth yr hyn oedd ddrwg yn ngolwg yr Arglwydd, yn ol yr hyn oll a wnaethai ei dad"—ymddengys fod hyn yn cyfeirio at ei gymmeriad pan oedd yn frenin, ac etto yn fachgen; ac at hyn hefyd y cyfeiria *Ier.* xxii. 24—30, ac *Ezec.* xix. 5—9. Gwelwn hefyd oddi wrth *Ier.* xxviii. 4, fod yn Ierusalem, bedair blynedd ar ol caethgludiad Iehoiachin, ddisgwyliad mawr am ei ddychweliad; ond ni ddywedir pa un a oedd Iehoiachin yn gobeithio hyn yr un pryd. [Gwel HANANIAH, 4]. Ond gellid casglu oddi wrth dôn llythyr Ieremiah (*Ier.* xxix) at "henuriaid y gaethglud;" fod plaid yn mhlith y gaethglud, yn cael ei chymmhell gan gau brophwydi i edrych yn mlaen y pryd hyn am ddymchweliad Nebuchodonosor a dychweliad Iehoiachin; ac fe allai fod marwolaeth Ahab, mab Colaiah a Sedeciah mab Maaseiah—y prophwydi gau (*adn.* 22)—ynghyd â chyfyng-gaethiwed Iehoiachin yn ystod teyrnasiad Nebuchodonosor, yn ganlyniad rhyw fradwriaeth neu dueddfryd wrthryfelgar o eiddo rhai o blant y gaethglud yn erbyn Nebuchodonosor. Ond nid yw Daniel nac Ezeciel, y rhai oeddynt gydag ef yn Babilon, yn gwneyd un crybwylliad pellach am dano, oddigerth *Ezec.* i. 2; viii. 1; xxiv. 1, &c.; lle y mae y prophwyd yn dyddio ei genadwri gyda blwyddyn o "gaethgludiad y brenin Iehoiachin." Y dyddiad olaf ganddo ydyw "y seithfed flwyddyn ar hugain;" *Ezec.* xxix. 17; xl. 1. Dywedir hefyd yn *Esther* (ii. 6), fod Cis, hynafiad Mordecai, yn Iehoiachin yn y caethiwed. Y mae llyfrau yr Apocrypha yn fwy manwl—yn ormod felly, fe allai, weithiau. Y mae awdwr Llyfr Baruch yn dwyn "Iechonias, mab Iehoiacim" i'w hanes, ac yn arddangos Baruch fel yn darllen ei brophwydoliaeth yn nghlywedigaeth y brenin, ac yn nghlywedigaeth meibion y brenin, y pendefigion, yr henuriaid, a'r bobl oedd yn y caethiwed. Wrth wrandaw geiriau Baruch, chwanegir iddynt wylo, ymprydio, a gweddïo, ac anfon casgliad o arian i Ierusalem, i Ioiacim, mab Hilciah, mab Salum yr archoffeiriad, yr hwn gasgliad oedd i brynu ebyrth, offrymau ac arogldarth, gan erfyn arnynt weddïo am lwyddiant Nebuchodonosor a Belsassar ei fab. Hefyd, y mae hanes Susannah a'r Henuriaid, fe ymddengys, yn gwneyd Iehoiachin yn ŵr pwysig; o blegid, medd yr awdwr, gŵr Susannah ydoedd Ioiacim—gŵr o gyfoeth mawr, a'r gŵr penaf yn mhlith y gaethglud—i dŷ yr hwn yr elai pawb i geisio cynghor neu farn—disgrifiad sydd yn cyfatteb i Iehoiachin. Y mae Africanus [*Routh's Rel. Sacr.* ii. 113] yn galw gŵr Susannah yn frenin; a dywed fod brenin Babilon wedi ei wneyd yn gydymaith brenhinol iddo ei hun. Hefyd, crybwyllir am dano yn 1 *Esdras* v. 5; ond ymddengys fod y testyn yma yn llygredig, o blegid y mae yn annealladwy. Nid yw yn ymddangos yn amlwg oddi wrth y Beibl fod gan Iehoiachin blant, na'i fod wedi priodi. Fod y Sedeciah a elwir yn 1 *Cron.* iii. 6 yn fab Iehoiachin, yr un â Sedeciah ei *ewythyr* (a'r hwn a elwir "ei frawd" yn 2 *Cron.* xxxvi. 10), a'i olynydd ar orsedd Iudah, sydd dra thebygol. Ond nid yw yn ammhossibl fod Assur (="caethgludedig"), yr hwn a enwir yn mhlith "meibion Ieconiah" yn 1 *Cron.* iii. 17, yn fab iddo mewn gwirionedd, ac wedi marw yn ieuangc, neu ynte ei wneyd yn ystafellydd (eunuch) i frenin Babilon: *Esa.* xxxix. 7. Y mae hyn yn eithaf cysson â'r ymadrodd "diblant"—hwn sydd yn cyfeirio at Iehoiachin yn *Ier.* xxii. 30. [Gwel *Achyddiaeth Crist*, yn yr erthygl IESU GRIST].

Iehoiachin ydoedd yr olaf yn llinell frenhinol Solomon, a phan ballodd ynddo ef, aeth yr hawl i'r frenhiniaeth i linell Nathan; un o hiliogaeth yr hwn, sef Salathiel mab Neri, a alwyd mewn canlyniad yn un o "feibion Iehoiachin." Dyma pa ham y mae yn sefyll fel y mae yn llinach Crist: *Mat.* i. 11, 12.

IEHOIADA (="adnabyddus gan yr Arglwydd"): enw amryw bersonau yn y Beibl, ac yn hanes cenedl Israel. Yn y llyfrau diweddaraf y mae yn y ffurf dalfyredig, IOIADA.

1. IEHOIADA: tad Benaiah—un o brif ryfelwyr Dafydd: 2 *Sam.* viii. 18; 1 *Bren.* i. a ii; 1 *Cron.* xviii. 17, &c. Yn 1 *Cron.* xxvii. 5; dywedir fod tad Benaiah yn brif offeiriad, neu yn "offeiriad penaf;" ac felly yr un ydyw efe a'r nesaf.

2. IEHOIADA: arweinydd (tywysog) yr Aaroniaid, sef yr offeiriaid a ymunasant â Dafydd yn Hebron, i gynnorthwyo gydag ereill i "droi brenhiniaeth Saul ato ef," ac yn rhifo 3,700 o wŷr: 1 *Cron.* xii. 27.

3. IEHOIADA: yn ol 1 *Cron.* xxvii. 34, mab Benaiah, ac un o brif gynghoriaid Dafydd—olynydd Ahitophel yn y swydd hon, dybygid. Ond y mae yn dra thebygol mai Benaiah, mab Iehoiada a olygir, ac nid Iehoiada mab Benaiah—fod yma gamgymmeriad cyffelyb i'r hwn a welir yn 1 *Cron.* xviii. 16; a 2 *Sam.* viii. 17, gyda golwg ar Abimelech ac Abiathar. Dywedir yn y ddwy adnod yna, "Abimelech mab Abiathar;" ond yn 2 *Sam.* xx. 25, a phob man arall yn yr Hen Destament, dywedir mai Abiathar oedd yr offeiriad gyda Sadoc yn nheyrnasiad Dafydd; a gwyddom mai Abimelech oedd yr offeiriad yn nyddiau Saul, ac i Saul ei ddinystrio ef a'i holl dŷ *oddi eithr Abiathar* am roddi y "bara gosod" i Dafydd, pan oedd newyn arno: 2 *Sam.* xxii. At hyn, chwaneger

Digitized by Google

y ffaith fod Abiathar yn cael ei ddisgrifio yn 1 *Sam.* xxii. 20, fel mab Abimelech, ac Abimelech fel mab Ahitub. Y mae yn canlyn oddi wrth hyn oll mai *Abiathar mab Abimelech* a olygid uchod, ac nid *Abimelech mab Abiathar*, ac y mae yr un mor debygol mai *Beniah mab Iehoiadah*, a olygir yn 1 *Cron.* xxvii. 34.

4. IEHOIADA: archoffeiriad, pan drawsfeddiannodd Athaliah orsedd Iudah (c. c. 884—878), ac yn ystod y rhan fwyaf o ddeugain mlynedd teyrnasiad Ioas. Nid yw yn ymddangos pa bryd y daeth yn archoffeiriad; ond y mae yn bossibl fod hyn mor foreu a'r rhan ddiweddaf o deyrnasiad Iehosaphat. Modd bynag, y mae yn debyg mai efe oedd olynydd Amariah. Priododd IOSEBA, neu *Iosabea*, merch y brenin Iehoram, a chwaer y brenin Ahaziah: 2 *Cron.* xxii. 11. A phan laddodd Athaliah holl had brenhinol Iudah ar ol i Ahaziah, brenin Iudah gael ei ladd gan Iehu, darfu i Iehoiada a'i wraig ddwyn Ioas o blith meibion y brenin, a chuddiasant ef chwe blynedd yn y deml, ac ar ol hyny gosodasant ef ar orsedd ei hynafiaid. [Gwel IOAS, ac ATHALIAH]. Yn nghyflawniad y chwyldroad hapus hwn, drwy yr hwn y gwaredwyd gorsedd Dafydd a gwasanaeth crefyddol cyfraith Moses rhag y perygl amlwg o'u dinystrio, dangosodd Iehoiada allu a doethineb nodedig, gan aros yn amyneddgar hyd nes yr aeth gorthrwm Athaliah, ynghyd â'i harferion estronol, a'i heilun-addoliaeth, dybygid, yn faich adgas yn y wlad: cawn ef yn y seithfed o flynyddoedd ei theyrnasiad yn ymgynghreirio â phrif gefnogwyr gorsedd Dafydd, ac addoliad y gwir Dduw. Hefyd, casglodd i Ierusalem y Lefiaid o wahanol ddinasoedd Israel a Iudah, gyda'r broffes, fe allai, eu bod i roddi eu gwasanaeth yn y deml, a thrwy hyny cuddiodd gorph mawr o wŷr yn y deml, drwy beidio rhoddi gollyngdod i ddydd-gylchau y naill wythnos o'r offeiriaid, pan y daeth ereill ar y Sabbath i gymmeryd eu lle. Drwy gyfrwng y tariannau a'r gwaewffyn cyssegredig a gymmerasai Dafydd mewn rhyfeloedd, a'r rhai a gedwid yn nhrysorfa y deml (cym. 1 *Cron.* xvii. 7—11; xxvi. 20—28; 1 *Bren.* xiv. 26, 27), cynnysgaeddodd gadbeniaid y cannoedd âg arfau i'w milwyr. Yna, wedi rhanu yr offeiriaid a'r Lefiaid yn dri chwmni, y rhai a osodwyd i sefyll wrth y tair prif fynedfa i'r deml, ac wedi llenwi cynteddoedd allanol y deml â phobl oedd yn ffafriol i'r achos, efe a ddygodd y brenin ieuangc ger bron y gynnulleidfa, coronodd ac eneiniodd ef, a rhoddodd iddo gopi o'r gyfraith, yn ol *Deut.* xvii. 18—20. Ond ni ddarfu i gyffro yr amgylchiad beri iddo anghofio cyssegredigrwydd tŷ Dduw; ni oddefai i neb ond yr offeiriaid a'r Lefiaid gweinidogaethol i ddyfod i'r deml; a gorchymynodd yn gaeth fod i Athaliah gael ei chludo oddi allan i'w hamgylchoedd cyn ei rhoddi i farwolaeth. Yn yr un ysbryd, efe a hynododd deyrnasiad Ioas drwy wneyd cyfammod difrifol rhyngddo ei hun, fel archoffeiriad, â'r brenin a'i ddeiliaid, y byddai iddynt ymwrthod yn hollol âg addoliad Baal, yr hwn a sefydlasid gan dŷ Ahab, ac y byddai iddynt o hyny allan wasanaethu yr Arglwydd. Dilynwyd hyn yn uniongyrchol gan ddinystriad allor a theml Baal, a marwolaeth Mattan, ei offeiriad. Wedi hyny efe a drefnodd i berffeithrwydd wasanaeth y deml, ac ar yr un pryd sefydlodd yn hollol y frenhiniaeth newydd; a hyn i gyd, fe ellid meddwl, heb ddim trais na chreulondeb. O dan ofal, a chyda chynghorion gŵr mor ddoeth a rhinweddol, llywodraethodd y brenin ieuangc ei ddeiliaid yn dda a llwyddiannus; ac yr oedd yn rhagori mewn gweithredoedd da yn ystod bywyd Iehoiada. Yr oedd adgyweiriad y deml, yn y drydedd flwyddyn ar hugain o'i deyrnasiad (2 *Bren.* xii; 2 *Cron.* xxiv), yn un o brif ddigwyddiadau y cyfnod hwn o hanes yr Hebreaid. O'r diwedd, bu farw Iehoiada, c. c. 834; ac er ei farw yn bur oedranus, bu farw yn rhy fuan ar les ei wlad, a chymmeriad gwan ac ansefydlog y brenin Ioas. Yn ol 2 *Cron.* xxiv. 15, ynghyd â Josephus, a'r Deg a Thrigain, yr oedd yn gant a deg ar hugain pan fu farw. Ond, a thybio iddo fyw hyd y bymthegfed flwyddyn ar hugain o deyrnasiad Ioas (yr hyn nid yw yn gadael ond pum mlynedd yn unig i holl ddigwyddiadau diweddarach ei deyrnasiad), yr oedd felly yn 95 pan gyfodwyd yn erbyn Athaliah; a phymtheng mlynedd cyn hyny, *pan nad oedd Iehoram, ei dad-yn-nghyfraith, ond deuddeg ar hugain oed*, yr oedd efe yn *bedwar ugain*—yr hyn sydd yn hynod o annhebygol. Ymddengys gan hyny fod rhyw lygriad boreuol yn y cyfrifiad. Tybia rhai y dylid darllen tri a phedwar ugain, yn lle cant a deg ar hugain, fel ei oed pan fu farw; tybia ereill mai cant a thri sydd yn gywir. Felly Hervey [*Genealogy of our Lord*, td. 304]. Ond y mae hyn yn ammhossibl ei benderfynu. O blegid ei wasanaeth tra phwysig i'w Dduw, ei frenin, a'i wlad, yr hyn a ennillodd iddo safle yn mysg dynion rhagoraf Israel, efe a gafodd yr anrhydedd o'i gladdu yn mhlith brenhinoedd Iudah, yn ninas Dafydd. Y mae yn debygol mai ei olynydd ydoedd Zechariah, ei fab.

Yn *Mat.* xxiii. 35, enwir Zechariah, mab Iehoida fel "mab *Barachias*," neu Berchiah. Gadewir hyn allan yn *Luc* (xi. 51), ac ysgrifenwyd ef gan Matthew, dybygid, drwy gamgymmeryd y Zechariah hwn am y prophwyd Zechariah, yr hwn *oedd* yn fab Berechia; neu ynte drwy ei gamgymmeryd am fab Ieberechia: *Esa.* viii. 2.

5. IEHOIADA: prif offeiriad (*Sagan*), neu yr offeiriad nesaf i Seraiah, yr archoffeiriad Diswyddwyd ef yn nechreu teyrnasiad Sedeciah (am lynu wrth y prophwyd Ieremiah, fe allai), a gosodwyd Sephaniah i lenwi ei le;[1] *Ier.* xxix. 25—29; 2 *Bren.* xxv. 18. Gwelir oddi wrth yr adnodau yn Ieremiah pa beth oedd natur swydd yr ail offeiriad y pryd hyn: efe oedd yr "arolygwr yn nhŷ yr Arglwydd." Y mae Winer yn camsynied yr adnodau uchod, ac yn deall yr Iehoiada hwn fel yr archoffeiriad yn nheyrnasiad Ioas.

6. IEHOIADA: mab Paseah, neu Paseach. Efe a gynnorthwyodd i adgyweirio "hen borth" Ierusalem: *Neh.* iii. 6.

IEHOIARIB, neu *Ioiarib*: blaenor y cyntaf o bedwar dyddgylch ar hugain yr offeiriaid, yn ol trefniad y brenin Dafydd: 1 *Cron.* xxiv. 7. Dychwelodd rhai o'i hiliogaeth o gaethiwed Babilon, fel y gwelir oddi wrth 1 *Cron.* ix. 10; *Neh.* xi. 10. [Gwel IEDAIAH]. Eu blaenor yn nyddiau Ioiacim yr archoffeiriad, mab Iesua, ydoedd Mattenai: *Neh.* xii. 6, 19. Yr oeddynt o deulu Eleazer, dybygid. I ddyddgylch Iehoiarib y perthynai teulu nodedig yr Asmoneaid (1 *Mac.* ii. 1), a dywed Josephus [*Hynaf. Iudd.* xii. 6. *adn.* 1], ei fod yntau yn perthyn iddo. Dywed Prideaux [*Con. of O. & N. Test.* i. 129], gan ddilyn y traddodiad Iuddewig, na ddychwelodd

[1] Y mae yn bossibl i'r swydd fyned yn wag drwy farwolaeth Iehoiada.

Digitized by Google

ond pedwar dyddgylch o Babilon, sef yr eiddo Iedaiah, Immer, Pasur, a Harim (Ioiarib sydd gan y Talmud Babilonaidd yn lle Harim), a'r rheswm ganddo dros hyn ydyw, mai y rhai hyn yn unig a enwir yn *Ezra* ii. 36—39, a *Neh.* vii. 39—42. Ac y mae yn rhoddi cyfrif am grybwylliad dyddgylchoedd ereill, megys Ioiarib (1 *Macc.* ii. 1) ac Abiah (*Luc* i. 5), drwy ddyweyd fod y pedwar dyddgylch hyn yn rhanedig i chwech bob un, fel ag i wneyd i fyny y nifer gwreiddiol o bedwar ar hugain, y rhai a elwid wrth enwau yr hen gylchoedd, er nad wedi hanu mewn gwirionedd oddi wrthynt. Ond y mae yn dra thebygol mai dychymmyg ydyw hwn o eiddo yr Iuddewon, i roddi cyfrif am grybwylliad y pedwar teulu hyn yn unig o'r offeiriaid yn *Ezra* ii. a *Neh.* vii. A pha mor anhawdd bynag ydyw dyweyd paham na enwir ond y pedwar dyddgylch hyn, yn y rhestr neillduol hon, y mae genym awdurdod pendant yn 1 *Cron.* ix. 10, a *Neh.* xi. 10; dros ddyweyd fod Iehoiarib wedi dychwelyd; ac y mae genym ddwy restr arall o ddyddgylchoedd, un yn amser Nehemiah (*Neh.* x. 2—8), a'r llall yn nyddiau Zorobabel (*Neh.* xii. 1—7); y flaenaf yn nodi dau ar hugain o gylchoedd, a'r olaf ddau ar hugain; a'r olaf, hefyd, yn nodi Ioiarib fel un o honynt, ac yn chwanegu yn *adn.* 19, enw blaenor ei ddyddgylch ef yn nyddiau Ioiacim. Felly, nis gall fod ammheuaeth rhesymol ddarfod i Ioiarib ddychwelyd. Nid yw syniad yr Iuddewon, yr hwn a gefnogir gan Prideaux, yn derbyn unrhyw gefnogaeth oddi wrth yr hyn a ddywedir yn y cyfieithiad Lladin o *Josephus* [*Contra Apion*, ii. *adr.* 8]; sef, fod pedwar dyddgylch o offeiriaid, gan mai llygriad amlwg o'r testyn, sef pedwar ar hugain, ydyw, fel y dengys Whiston, ac eraill [nodyn yn *Mywyd Josephus*, *adr.* 1]. Yn y tabl canlynol, gwelir y tair rhestr o gylchoedd a ddychwelasant, gyda'r rhestr wreiddiol yn amser Dafydd, i'w cymmharu wrthi:—

DYDDGYLCHOEDD YR OFFEIRIAID.

| Yn nheyrnasiad Dafydd, 1 *Cron.* xxiv. | Y rhestr yn *Ezra* ii. a *Neh.* vii. | Yn amser Nehemiah, *Neh.* x. | Yn amser Zorobabel, *Neh.* xii. |
|---|---|---|---|
| 1 Iehoiarib, 1 *Cron.* ix. 10, *Neh.* xi 10. | — | — | Ioiarib. |
| 2. Iedaiah. | Meibion Iedaiah. | — | Iedaiah. |
| 3. Harim. | Meibion Harim. | Harim. | Rehum, (Harim, v. 15). |
| 4 Seorim. | — | — | — |
| 5. Malchiah. | Meibion Passur (1 *Cron.* ix. 12), | Malchiah | — |
| 6. Mijamin. | — | Mijamin. | Mimain. |
| 7. Haccos. | — | Meremoth, mab Cos, (*Neh.* iii. 4). | Meremoth. |
| 8. Abiah. | — | Abiah. | Abiah. |
| 9. Iesua. | Tŷ Iesua (?) *Ezra* ii. 36; *Neh.* vii. 39. | — | — |
| 10. Sechaniah. | — | Sebaniah | Sechaniah, (Sebaniah: *adn.* 14). |
| 11. Eliasib. | — | — | — |
| 12. Iacim. | — | — | — |
| 13. Huppah. | — | — | — |
| 14. Iesebeab. | — | — | — |
| 15. Bilgah. | — | Bilgai. | Bilgah. |
| 16. Immer. | Meibion Immer. | Amariah. | Amariah. |
| 17. Hezir | — | — | — |
| 18. Aphses. | — | — | — |
| 19. Pethahiah. | — | — | — |
| 20. Ieheseoel. | — | — | — |
| 21. Iachin. (*Neh.* xi. 10; 1 *Cron.* ix 10). | — | — | — |
| 22. Gamul. | — | — | — |
| 23. Delaiah. | — | — | — |
| 24. Maaziah. | — | Maaziah. | Maadiah (Moad. *ad.* 17). |

Y mae cylchoedd nas gellir eu hun-rhywebu â'r rhai gwreiddiol, ond a enwir fel yn hanfodi ar ol y dychweliad, fel y canlyn:—

| *Neh.* x. | *Neh.* xii. | *Neh.* xi; 1 *Cron.* ix. |
|---|---|---|
| Seraiah. | Seraiah. | Seraiah (?) |
| Azariah. | Ezra. | Azariah. |
| Ieremiah. | Ieremiah. | — |
| Pasur. | — | — |
| Hattus. | Hattus. | — |
| Maluch. | Maluch. | — |
| Obadiah. | Ido. | Adaiah (?) |
| Daniel. | — | — |
| Ginnethon. | Ginnetho. | — |
| Baruch. | — | — |
| Mesullam. | — | — |
| Semaiah. | Semaiah. | — |
| | Salai. | |
| | Amoc. | |
| | Hilciah. | |
| | Iedaiah (2). | |

IEHONADAB, neu IONADAB [defnyddir y ffurf hwyaf yn 2 *Bren.* x, a'r ffurf byraf yn *Ier.* xxxv): mab Rechab, tad y Rechabiaid. Ymddengys oddi wrth 1 *Cron.* ii. 55, fod Rechab ("y marchogwr") yn perthyn i gangen o deulu y Ceniaid—y llwyth Arabaidd a ddaeth i Wlad Canaan gyda'r Israeliaid. Yr oedd un sefydliad o'r eiddynt yn y gogledd eithaf, o dan benaduriaeth Heber, gŵr Iael (*Barn.* iv. 11), ac yn dilyn eu harferion Arabaidd o dan y derw a enwyd oddi wrth eu defod o grwydro yn "dderw y crwydriaid." [Gwel Iael]. Yr oedd y prif sefydliad yn y deheu. O'r rhai hyn, yr oedd un gangen wedi ymlochesu yn nghreigiau Engedi: *Barn.* i. 16; *Num.* xxiv. 21. Yr oedd un wedi dychwelyd i gyffiniau eu hanialwch cyntefig, i'r deheu i Iudah: *Barn.* i. 16. Yr oedd un arall wedi ymsefydlu o fewn neu yn agos i dref Iabes yn Iudah: 1 *Cron.* ii. 55. I'r rhai olaf hyn y perthynai Rechab a'i fab Iehonadab. Yr oedd yr arferion Bedouinaidd, tra yn cael eu dilyn yn barhaus gan y canghenau ereill o'r teulu Ceniaidd, yn cael eu cymmhell gyda manylrwydd gan Iehonadab i'w hiliogaeth; yn fwy felly, fe allai, am fod rhyngddynt gyssylltiad agosach â phreswylwyr cymmydogaethau sefydlog. Mae y cyfammod neu y rheol a gymmhellai arnynt hwy yn nghadw hyd heddyw:—"Nac yfwch win, na chwychwi na'ch plant yn dragywydd. Nac adeiledwch dŷ, ac na heuwch hâd, ac na phlenwch winllan, ac na fydded genych chwi; ond mewn pebyll y preswyliwch eich holl ddyddiau; fel y byddwch chwi fyw ddyddiau lawer ar wyneb y ddaear, lle yr ydych yn ddieithriaid;" *Ier.* xxxv. 6, 7. Parhaodd yr arferion yn y llwyth gyda'r un ystyfnigrwydd ag sydd yn perthyn i'r cyfryw arferion yn mhlith yr Arabiaid o oes i oes; ac yn mhen llawer o flynyddoedd wedi marw Iehonadab, pan orfu i'r Rechabiaid gymmeryd noddfa rhag ymgyrch y Caldeaid o fewn muriau Ierusalem, nid oedd dim a'i perswadiai i dori rheol eu hynafiaid; ac mewn canlyniad, bendithiwyd ef a hwynt gan Ieremiah:—"Ni phalla i Ionadab, mab Rechab, ŵr i sefyll ger fy mron i yn dragywydd;" *Ier.* xxxv. 19. Gwel Rechabiaid.

Gan ddal golwg ar y cymmeriad cyffredinol hwn o eiddo Ionadab fel penaeth Arabaidd, a sylfaenydd sect hanner grefyddol mewn cyssylltiad, fe allai, â'r llym Elias y Thesbiad, a'r Nazareaid a enwir yn *Amos* ii. 11 [*Ewald's Alterhümer*, td. 92, 93]—y mae yn haws i ni ddeall yr unig achlysur ar ba un y dygir Iehonadab i sylw yn

ystod ei fywyd ei hun:—Yr oedd Iehu yn dynesu, ar ol y lladdfa ger dinas Samaria, pryd y cyfarfyddodd yn sydyn â'r Arabiad llym, Iehonadab, yn dyfod tuag ato: 2 *Bren.* x. 15. Ymddengys eu bod eisoes yn gydnabyddus [*Hynaf. Iudd. Josephus*, ix. 6, *adr*. 6]. Yr oedd y brenin yn ei gerbyd; yr Arabiad yn cerdded. Nid yw yn eglur pa un a siaradodd gyntaf. Dywed y testyn Hebraeg, yn cael ei ddilyn gan y cyfieithiad awdurdodedig, fod y brenin wedi bendithio (yn ol yr Hebraeg ymyl y ddalen) Iehonadab. Dywed y Deg a Thrigain, a Josephus [*Hynaf. Iudd.* ix. 6, *adr.* 6], mai Iehonadab a fendithiodd y brenin. Pa fodd bynag, y mae y brenin ar ol hyny yn cynnyg undeb agos rhyngddynt. Ebe fe:—"A yw dy galon di yn uniawn, fel y mae fy nghalon i gyda'th galon di?" Mae atteb Iehonadab yn amrywio mewn gwahanol fanau. Yn y testyn Hebraeg, y mae yn atteb yn danbaid, "Ydyw, ydyw: moes dy law." Yn y Deg a Thrigain, a'r cyfieithiad awdurdodedig, yr atteb syml ydyw, "Ydyw," Yna chwanega Iehu, "Od ydyw, moes dy law." Sut bynag, ysgydwyd dwylaw, ac yna dyrchafodd y brenin Iehonadab ar fin ei gerbyd, fel y gallai sisial ei gyfrinach yn ei glust, dybygid: dywedodd, "Tyred gyda mi, a gwel fy zel i tuag at yr Arglwydd." Dyma yr amlygiad cyntaf o fwriad Iehu i anrheithio addoliad Baal—i'r hwn ddyben efe a wyddai y byddai y selog a'r llym Iehonadab yn gydweithredydd dymunol. Wedi dyweyd wrtho ei gyfrinach, y mae efe (yn ol y Deg a Thrigain), neu ei ganlynwyr (Heb. a'r cyf. awd.) yn peri i Iehonadab fyned gydag ef yn ei gerbyd i Samaria.

Mor gyffredinol yr oedd addoliad Baal wedi ei sefydlu fel y grefydd genhedlaethol, fel yr oedd hyd yn oed Iehonadab yn gallu cuddio ei fwriad o dan broffes o gydymffurfiad. Diammheu ei fod yn cydweithredu â Iehu drwy y cwbl; ond yr unig amgylchiad lle yr enwir Iehonadab ei hun mewn cyssylltiad âg dinystriad y gau-grefydd ydyw, pan (oddi ar wybodaeth flaenorol, fe allai, am addolwyr dirgelaidd yr Iehofah) yr aeth gyda Iehu drwy deml Baal i droi allan bawb o'r gwir addolwyr a allent fod yn mhlith y dorf fawr o addolwyr paganaidd, rhag eu lladd gyda hwy: 2 *Bren.* x. 23. Dyma y tro diweddaf y mae yn ymddangos ei hun mewn hanesiaeth. Gwel Iehu.

IEHONATHAN: ffurf hwyaf a mwyaf anarferedig yr enw Ionathan. Ceir tri pherson o'r enw yn y Beibl:—

1. Iehonathan: mab Uzziah; arolygydd rhai o ystordai ("trysorau") y brenin Dafydd: 1 *Cron.* xxvii. 25. Yr un gair a gyfieithir "selerau" yn *adn.* 27, 28.

2. Iehonathan: un o'r Lefiaid a anfonwyd gan Iehosaphat drwy ddinasoedd Iudah, gyda llyfr y gyfraith i'w ddysgu i'r bobl: 2 *Cron.* xvii. 8.

3. Iehonathan: offeiriad; cynnrychiolydd teulu Semaiah, pan oedd Ioiacim yn archoffeiriad; hyny ydyw, yn y genhedlaeth a ddilynai y dychweliad o Babilon, o dan Zorobabel a Iesua: *Neh.* xii. 18, 6.

Crybwyllir am bymtheg o bersonau o dan yr enw Ionathan.

IEHORAM neu IORAM (="a ddyrchafwyd gan yr Arglwydd;") enw dau o frenhinoedd yr Iuddewon; y naill ar Israel, a'r llall Iudah. Ceir yr enw fynychaf yn y ffurf byraf, Ioram:—

1. Iehoram: mab Ahab brenin Israel. Efe oedd olynydd ei frawd Ahaziah i'r orsedd yn Samaria, o blegid nid oedd i'w frawd fab. Daeth yn frenin c. c. 896, a bu farw c. c. 884. Yn ystod y pedair blynedd cyntaf o'i deyrnasiad yr oedd Iehosaphat yn frenin Iudah; am saith mlynedd neu ragor ar ol hyny, Iehoram, mab Iehosaphat, ac am y flwyddyn, neu y rhan o flwyddyn olaf ei deyrnasiad, Ahaziah, mab Iehoram, yr hwn a laddwyd yr un diwrnod ag y lladdwyd yntau: 2 *Bren.* ix. 27. Yr oedd y cynghrair a ddechreuwyd rhwng y ddwy frenhiniaeth—rhwng Israel a Iudah—gan ei dad a Iehosaphat, yn bur—yn lled agos drwy ystod ei deyrnasiad ef. Cawn ef gyntaf gyda Iehosaphat a brenin Edom—yr hwn oedd y pryd hyny o dan deyrnged i Iudah—mewn rhyfel yn erbyn y Moabiaid. Ar farwolaeth y brenin Ahab, gwrthryfelodd Mesa, brenin y Moabiaid yn erbyn Israel, gan wrthod talu y deyrnged o gan mil o ŵyn, a chan mil o hyrddod. Ceisiodd Iehoram y pryd hyn gynnorthwy Iehosaphat i ddarostwng Mesa i ufudd-dod; ac mewn canlyniad, cawn frenin Israel, brenin Iudah, a brenin Edom, yn teithio gyda'u byddinoedd drwy anialwch Edom i ymosod ar y gwrthryfelwr. Bu y tair byddin yn y cyfyngder mwyaf ofnadwy o eisieu dwfr. Parodd duwioldeb Iehosaphat iddo ymholi â rhyw brophwyd i'r Arglwydd, a chafwyd hyd i Eliseus—y pryd hyny, ac er tua diwedd teyrnasiad Ahab yn gydymaith i Elias (2 *Bren.* iii. 11; 1 *Bren.* xix. 21), cafwyd ef gyda'r fyddin. Derbyniodd Iehoram ganddo gerydd llym, a gorchymynwyd iddo ymholi â phrophwydi ei rieni—prophwydi Baal. Er hyny, er mwyn Iehosaphat, y mae Eliseus yn ymholi â'r Arglwydd, ac yn derbyn addewid o helaethrwydd o ddwfr, ac o fuddugoliaeth fawreddog ar y Moabiaid—addewid a gyflawnwyd yn ebrwydd. Yr oedd y dwfr hwnw a gloddiwyd gan yr Israeliaid i'w disychedu hwy a'u hanifeiliaid, yn fuan yn llenwi y dyffryn a'u gwarchgloddiau, ac yn ymddangos i'r Moabiaid oedd yn dynesu, o dan lewyrchiad haul y boreu, fel gwaed gwirioneddol. Gan gredu fod eu gelynion cynghreiriol wedi ymrafaelio a throi a lladd eu gilydd, daethant yn mlaen yn ddiofal, gan benderfynu eu llwyr ddifetha; ac mewn canlyniad, llwyr wasgarwyd eu byddin eu hunain. Dilynodd y cynghreiriaid hwy gyda lladdfa echrydus i'w gwlad eu hunain, yr hon a lwyr ddifrodasant, ynghyd â'i dinasoedd. Cirharaseth yn unig oedd yn aros, ac yno gwnaeth brenin Moab ei wrthsafiaid diweddaf. Wedi methu tori drwy y fyddin warchaeol, ceisiodd heddychu yr ymosodwyr drwy gyflwyno ei fab hynaf, "yr hwn oedd i deyrnasu yn ei le ef," yn boethoffrwm ar fur y ddinas yn ngwydd ei elynion. Ar hyn, enciliodd yr Israeliaid, gan ddychwelyd i'w gwlad eu hunain. Dichon mai o herwydd y cerydd a roddodd Eliseus iddo, ac hefyd o herwydd y fuddugoliaeth nodedig yn unol â gair y prophwyd, y darfu i Iehoram ar ei ddychweliad i Samaria roddi heibio y ddelw o Baal, yr hon a wnaethai ei dad Ahab: 2 *Bren.* iii. 2. Canys fe welir oddi wrth 2 *Bren.* iv, fod Eliseus ar dir cyfeillgar â Iehoram, gan fod Eliseus yn cynnyg siarad â'r brenin yn ffafr y Sunamees. Y mae yn debyg fod yr argyhoeddiad ar feddwl y brenin wedi ei ddyfnhau drwy adferiad Naaman y Syriad, ac attaliad am amser yr ymgyrchoedd a wnelai y Syriaid i dir Israel, yr hyn hefyd oedd yn ffrwyth yr un peth: 2 *Bren.* v. Yn unol â hyn, pan dorodd rhyfel allan yn ddiweddarach rhwng Syria ac Israel, cawn Eliseus yn gyfeillgar i Iehoram, ac yn ei gyfarwyddo. Gwnaeth fwr-

Digitized by Google

ladau brenin Syria yn hysbys iddo, ac fel hyn galluogwyd ef i'w orchfygu. Ar y llaw arall, pan arweiniasai Eliseus lu mawr o'r Syriaid, y rhai a ddallasai Duw, i ganol Samaria, gofynodd Iehoram iddo yn barchus—"Gan daraw, a darawat hwynt, fy nhad?" Ac ar orchymyn Eliseus, y mae nid yn unig yn eu harbed, ond yn parotoi gwledd iddynt, ac yn eu hanfon adref heb eu niweidio. Bu hyn yn foddion i attal ymgyrchoedd y Syriaid am amser wedi hyn: 2 *Bren.* vi. Pa beth a ddigwyddodd ar ol hyn i newid teimladau Eliseus tuag at y brenin, nis gellir ond tybio. Gan gyssylltu y cymmeriad (cyffredinol) drwg a roddir i Iehoram (2 *Bren.* iii. 2. 3) â'r ffaith fod addoliad y duw Baal yn ffynu yn fawr yn niwedd ei deyrnasiad (2 *Bren.* x. 28), ymddengys yn debygol, pan welodd ymgyrchoedd y Syriaid wedi peidio, ac arno yntau gan hyny lai o angen am y prophwyd, iddo ddychwelyd at eilunaddoliaeth, a chael ei geryddu gan Eliseus, a'i fygythio â dychweliad o'i helyntion blaenorol, y rhai y diangasai rhagddynt, gan wrthod edifarhau, daeth y Syriaid i'w wlad, a gwarchaewyd yn dost ar Samaria yn ol gair y prophwyd. Mewn canlyniad, pan ddigwyddodd i wraig—gan faint y newyn—gyflawni yr erchylldra ofnadwy o ferwi a bwyta ei baban ei hun, priodolodd Iehoram yr holl ddrwg i Eliseus, a phenderfynodd ei ddifetha. Y mae y genadwri a anfonodd gyda'r hwn oedd i dori pen y prophwyd—"Wele y drwg hwn sydd oddi wrth yr Arglwydd; pa ham y disgwyliaf wrth yr Arglwydd mwy?"—o'i chyplysu â'r ffaith ei fod ar y pryd mewn sachlian (2 *Bren.* vi. 30, 33), yn awgrymu fod llawer cymmhelliad a rhybudd, cyffelyb i'r eiddo Ieremiah i frenhinoedd ei amser ef, wedi eu gwastraffu gan Eliseus ar fab gwan a gwrthnysig Ahab. Yn y bennod nesaf (2 *Bren.* vii) dangosir pa fodd yr arbedwyd y prophwyd, ac y gwaredwyd y ddinas; ac ymddengys fod Iehoram wedi dychwelyd i dir cyfeillgar tuag at Eliseus: 2 *Bren.* viii. 4. Ond yr oedd ei fywyd erbyn hyn yn dynesu at ei derfyn. Yn fuan iawn ar ol yr amgylchiad diweddaf aeth Eliseus i Damascus, a phrophwydodd wrthryfel Hazael, a'i ddyfodiad yn frenin ar Syria yn lle Benhadad; ac yn ystod absennoldeb Eliseus, dybygid, y digwyddodd yr ymddiddan rhwng Iehoram a Gehazi, a dychweliad y Sunamees o dir y Philistiaid, yr hyn a gofnodir yn 2 *Bren.* viii. Ymddengys ddarfod i Iehoram, pan ddeallodd fod gwrthryfel wedi tori allan yn Syria, dybio fod ganddo yn awr gyfleusdra rhagorol i geisio ad-ennill Ramoth-Gilead oddi ar y Syriaid—yr hyn y buasai Ahab mor awyddus am ei gyflawni. I'r dyben yma, y mae yn ffurfio cynghrair âg Ahaziah, ei nai, yr hwn oedd newydd ddilyn Ioram ar orsedd Iudah, ac aeth y ddau frenin i gymmeryd meddiant o Ramoth-Gilead trwy drais. Bu yr ymgyrch yn anffodus. Clwyfwyd Iehoram yn y rhyfel, a gorfu iddo ddychwelyd i Iezreel i ymiachau, gan adael ei fyddin o dan Iehu i gadw Ramoth rhag Hazael: 2 *Bren.* viii. 29; ix. 14, 15. Ond darfu i Iehu, a'i fyddin dano, droi yn erbyn Iehoram (2 *Bren.* ix); a chan gerdded yn gyflym i Iezreel, daethant ar warthaf y brenin yn ddisymmwth. Aethai Iehoram i gyfarfod y tywysog, ond cwympodd gan saeth oddi ar fwa Iehu, a hyny ar y darn hwnw o dir a gymmerasai Ahab oddi ar Naboth yr Iesreeliad, gan gyflawni i'r llythyren brophwydoliaeth Eliseus: 1 *Bren.* xxi. 21—29. Gyda marwolaeth Iehoram, terfynodd brenhiniaeth teulu Omri.

Gwnaed teyrnasiad Iehoram yn nodedig gan breswyliad dau brophwyd nodedig ynddo, sef Elias ac Eliseus. Ymddengys fod y blaenaf wedi byw hyd y chweched flwyddyn o'i deyrnasiad, ac fod yr olaf wedi dechreu ei gyhoeddusrwydd yn nechreu y teyrnasiad. Gwel Elias ac Eliseus.

2. Iehoram: mab hynaf Iehosaphat, yr hwn a ddilynodd ei dad ar orsedd Iudah pan oedd yn ddeuddeg ar hugain oed, ac a deyrnasodd wyth mlynedd, sef o c. c. 893—2, hyd c. c. 885—4. Yr oedd ei ferch, Iosabea, yn wraig i Iehoiada yr archoffeiriad. Y mae drwg effeithiau ei briodas âg Athaliah merch Ahab, a dylanwad yr ail Iezebel hono arno, yn bur amlwg. Mor fuan ag yr esgynodd i'r orsedd, cawn ef yn gosod ei chwe brawd i farwolaeth, gyda llawer o brif bendefigion y deyrnas. Wedi hyny prysurodd i sefydlu addoliad Baal, a ffieidd-derau ereill, ac i orfodi pawb i eilunaddoliaeth dan boen erledigaeth. Anfonodd Elias ato ysgrif brophwydol (2 *Cron.* xxi. 12)—y weithred olaf a gofnodir yn hanes ei fywyd—yn ei geryddu am ei gamweddau a'i annuwioldeb, ac yn prophwydo y barnau mwyaf ofnadwy arno ef ac ar ei wlad; ond yn ddieffaith. Yr oedd hyn yn y flwyddyn gyntaf neu yr ail o'i deyrnasiad. Yr oedd y gweddill o hono yn gyfres o flinderau. I ddechreu, cawn yr Edomiaid, y rhai oeddynt dan deyrnged i Iehosaphat, yn ymryddhau oddi wrth awdurdod Iehoram drwy wrthryfel, ac yn sefydlu eu hannibyniaeth cyntefig. Cymmaint ag a allai Ieboram ei wneyd, mewn ymosodiad un noswaith gyda'i holl luoedd, ydoedd diangc rhag y fagl yr oedd yr Edomiaid ar ei ddal ynddi drwy ei amgylchu. Wedi hyny, yr ydym yn cael Sibnah, un o'r prif ddinasoedd caerog yn Iudah (2 *Bren.* xix. 8), ac un o'r "dinasoedd caerog" a roddasai Iehosaphat i'w feibion ereill, fe allai (2 *Cron.* xxi. 2)—cawn hithau yn ddigofus, o blegid ei greulonderau, ac yn ffieiddio ei annuwiaeth, yn gwrthryfela yn ei erbyn. Dilynwyd hyn gan ymgyrchoedd heidiau arfog o'r Philistiaid a'r Arabiaid—y rhai hefyd oeddynt dan warogaeth i Iehosaphat; 2 *Cron.* xvii. 11—y rhai a dorasant i Iudea a anrheithiasant balas y brenin, a ddifethasant neu ynte a gaethgludasant ei holl wragedd, a'i blant, oddigerth un, sef Ahaziah (2 *Cron.* xxii. 1), ac a ysbeiliasant ei holl drysorau. Ac yn goron ar y cwbl, syrthiodd arno glefyd ofnadwy ac anfeddygol yn ei ymysgaroedd, o'r hwn y bu farw ar ol dwy flynedd o drueni, a hyny, medd yr hanesydd yn 2 *Cron.* "heb hiraeth am dano." Aeth i'r bedd mewn dianrhydedd ac yn mlodau ei ddyddiau, heb alar cyhoeddus na phersonol, ac heb hyd yn oed "le beddrod" yn mhlith eiddo ei dadau: 2 *Cron.* xxi. 19, 20. Bu farw yn gynnar yn y ddeuddegfed flwyddyn o deyrnasiad Iehoram, ei frawd yn nghyfraith, ar Israel.

IEHOSADAC: mab yr archoffeiriad Seraiah—yr archoffeiriad yn amser Sedeciah: 1 *Cron.* vi. 14, 15. Pan laddwyd ei dad yn Riblah, drwy orchymyn Nebuchodonozor, yn yr unfed flwyddyn ar ddeg o deyrnasiad Sedeciah (2 *Bren.* xxv. 18, 21), caethgludwyd Iehosadac i Babilon (1 *Cron.* vi. 15), lle y bu farw, yn ddiammheu. Ni ddaeth efe i'r archoffeiriaeth o gwbl, gan fod y deml wedi ei llosgi hyd ei sylfaeni, ac yn aros felly, ac yntau yn gaeth ar hyd ei oes. Ond efe oedd tad Iesua yr archoffeiriad—yr hwn, gyda Zorobabel, a flaenorai y dychweledigion o Babilon: *Ezra* iii. 2; *Neh.* xii. 26, &c. A'i hiliogaeth ef oedd yn y swydd hyd ddyfodiad Alcimus iddi: 1 *Mac.*

Digitized by Google

IEHOSAPHAT, DYFFRYN. Yr ydym eisoes wedi gwneyd sylw o'r dyffryn hwn; ond gan nad ydyw ond crybwylliad, a chan nad yw yn cynnwys amryw ffeithiau dyddorol a phwysig —ffrwyth ymchwiliadau diweddar—mewn cyssylltiad â Dyffryn Iehosaphat, barnasom mai gwell oedd helaethu arno yn y lle hwn.

Enwir y dyffryn hwn gan y prophwyd Ioel yn unig, fel y llanerch i'r hwn, ar ol dychweliad Iudah ac Ierusalem o'r caethiwed, y casglai yr Arglwydd yr holl baganiaid (*Ioel* iii. 2; Heb. iv. 2), i'w barnu am eu camwri tuag at Israel: *Ioel* iii. 12; *Heb.* v. 4. Mae yr ymadrodd yn un anghyffredin ac ëofn (*bold*)—yn llawn o'r troellau geiryddol y mae barddoniaeth Hebrëig yn ymhyfrydu ynddynt. Gwelir hyn yn neillduol yn ymdröad y prophwyd rhwng yr enw a rydd i'r llanerch, sef Iehosaphat="barnedigaeth yr Arglwydd," a'r "farnedigaeth" oedd yno i'w chyhoeddi. Mae y prophwydi yn fynych yn cyfeirio at hen orchestion gogoneddus eu cenedl. Fel hyn, cawn Esaiah yn sôn am "ddydd Midian," a buddugoliaethau y brenin Dafydd a Iosuah yn "Mynydd Gerisim" a "Dyffryn Gideon;" ac yn gyffelyb, y mae Ioel, wrth brophwydo y dïaledd oedd i syrthio ar yr estroniaid a flinent ei wlad (*Ioel* iii. 14), fel yn edrych yn ol at y dydd hwnw o eiddo Iehosaphat —y brenin mwyaf a fu ar y genedl er dyddiau Solomon, a gwron mwyaf yr Iehofah—y dydd gogoneddus hwnw, pryd yr arweiniodd ei bobl i ddyffryn yn niffaethwch Tecoah, lle yr ennillodd fuddugoliaeth nas gwelsid ei chyffelyb yn holl hanes y genedl: 2 *Cron.* xx.

Ond er fod cyfeiriad o'r fath yma at Iehosaphat yn eithaf naturiol a nodweddiadol, etto nid yw yn sicr mai dyma oedd amcan y prophwyd Ioel. Dichon nad yw yr enw ond dychymmygol, heb fod yn perthyn i lanerch oedd yn hanfodi yn un man, ond yn nychymmyg y prophwyd. Dyma farn rhai o'r cyfieithwyr boreuaf. Fel hyn, cyfieithia Theodotian yr ymadrodd, *chōra ceiseos*="dyffryn cyfraniad barn." Dyma hefyd ddarlleniad *Targum Jonathan.* Cyffelyb yw syniad Michaelis [*Bibel für Ungelehzten*], ac ystyria mai prophwydoliaeth yw yr ymadrodd o fuddugoliaethau y Maccabeaid. Gan eraill, barnwyd mai diwedd y byd oedd gan y prophwyd mewn golwg. Ac nid yn unig hyn, ond pennodwyd safle gorsedd barn yr Iehofah mewn dyffryn neu nant ddofn sydd yn gwahanu Ierusalem oddi wrth fynydd yr Olewydd, drwy yr hwn y rhedai unwaith yr afon Cedron, ac ar yr hwn y gosodwyd yr enw o "ddyffryn Iehosaphat." Pa bryd y gosodwyd yr enw hwn arno, nis gellir dyweyd. Nis gellir olrhain yn y Beibl, nac yn *Josephus.* Yr enw a ddefnyddir yn y ddau ar y nant hwn yw Cedron, neu Cidron. Yr ydym yn cyfarfod gyntaf â'r enw newydd yn nghanol y bedwaredd ganrif, yn *Onomasticon* Eusebius a Jerome [erth. *Coelas*], ac yn *Esboniad* Jerome ar *Ioel.* Er y pryd hwnw, cydnabyddwyd a mabwysiadwyd yr enw gan deithwyr o bob oes a phob cred:—gan Gristionogion, megys Arculf yn y flwyddyn 700 [*Early Travels*, i. 4]; gan awdwr *Citez Jherusalem*, yn 1187; a chan Maundrell, yn ei *Early Travels* (td. 469) yn 1697. Hefyd, gan Iuddewon, megys Benjamin o Tudela, o ddeutu 1170. Gan y Mahometiaid, gelwir ef etto *Wady Jûhaffat*, neu *Shaffat* [*Seetzen*, ii. 23, 26], er mai yr enw mwyaf cyffredin ganddynt ydyw *Wady Sitti Maryam.* Creda yr Iuddewon a'r Mahometiaid fod y farn ddiweddaf i gymmeryd lle yno. Cael gwneyd ei fedd yno ydyw hoff ddymuniad yr Iuddew [*Brigg's Heathen Holy Lands*, 290]; a dengys y Mahometiaid, er's o leiaf ddwy ganrif, y lle yr eistedd Mahomet i farnu y byd yn y "farn ddiweddaf;" sef, careg sydd yn ymestyn allan o'r mur dwyreiniol sydd yn amgylchu yr *Haram es Sheriff*, lle y safai y deml, yn agos i gongl ddeheuol y mur. Un o'r colofnau[1] a addurnent eglwys Helena neu eglwys Justin ydyw hon. Ceir cyflawnder o'r colofnau hyn yn mysg meini dïaddurn muriau diweddaf Ierusalem. Mae ystlysau serth y nant, yn mha le bynag y ceir llanerch lled wastad, yn frithion—mewn rhai manau bron wedi eu palmantu—gan feddrodau y Mahometiaid, neu feddfeini mwy dïaddurn yr Iuddewon —yr oll o honynt yn disgwyl cynnulliad yr holl bobloedd i farn. Mae nant mor serth a chul yn gwbl anghyfaddas i'r fath amgylchiad; ond nid yw yn ymddangos fod hyn wedi cael yr argraph leiaf ar ffurfwyr na choleddwyr y traddodiad hwn. Ond awgrymir yr anghyssondeb yn y geiriau Hebraeg a ddefnyddir yn y ddau amgylchiad—mewn cyssylltiad â Dyffryn Iehosaphat a Dyffryn Cedron. Y gair a ddefnyddir gan Ioel yw *Emec*—gair a ddefnyddir i ddynodi dyffrynoedd helaeth a lled wastad; megys, Esdraelon a Gibeon. O'r tu arall, dynodir *nant* Cedron â'r gair *nachal*—gair sydd yn cyfatteb o ran ystyr i'r gair Arabaidd *Wady.* Nid oes cymmaint ag un esampl yn yr hen Destament o fod y geiriau hyn yn cael eu defnyddio y naill yn lle y llall; a dylai y ffaith hon yn unig fod yn ddigon o sail i'r penderfyniad, nas golygwyd mai yr un oedd *Emec* Iehosaphat a *Nachal* Cedron hyd nes yr oedd yr Hebraeg wedi dechreu peidio bod yn dafodiaith. Dichon i'r golygiad hwn darddu oddi wrth ddau beth:—1. Fod Ioel mor fynych yn y rhan hwn o'i lyfr yn crybwyll Seion, Ierusalem, a'r deml (*Ioel* ii. 32; iii. 1, 6, 16—18); yr hyn a arweiniodd i'r dybiaeth y byddai y farn fawr ddiweddaf yn yr un gymmydogaeth. Cefnogid yr un golygiad gan waith Zechariah, mewn ymadrodd tebyg, yn enwi Mynydd yr Olewydd: *Ioel* xiii. 3, 4. 2. Fod cred gyffredinol yn ffynu y byddai i Grist ail ymddangos ar Fynydd yr Olewydd, i farnu y byd. Yr oedd hyn ar un adeg yn un o erthyglau hanfodol Cristionogaeth, a sylfaenid hi ar eiriau yr angylion:—"Yr Iesu hwn, yr hwn a gymmerwyd oddi wrthych i'r nef, a ddaw felly yn yr un modd ag y gwelsoch ef yn myned i'r nef;" *Act.* i. 11.

Mae yn bossibl mai Dyffryn Iehosaphat mewn gwirionedd oedd enw gwreiddiol Dyffryn Cedron, ac fod ei gyssylltiad â phrophwydoliaeth Ioel, a'r traddodiad mai dyma le y farn ddiweddaf, wedi tarddu oddi wrth hyn. Gall hyn fod yn gywir: ond yn sicr, gallasem ddisgwyl gweled yr enw, neu ryw olion o hono, cyn y bedwaredd ganrif ar ol Crist. Mae yn wir ei fod yn cael ei ddefnyddio yn gladdfa mor foreu a theyrnasiad Iosiah (2 *Bren.* xxiii. 6); ond nis gellir tynu un casgliad oddi wrth hyn.

Ond pa beth bynag a roddodd fod i'r traddodiad, y mae wedi dal ei dir mewn modd ystyfnig. Gallwn sylwi yn mhellach:—(1.) Yn y dyffryn ei hun, yr oedd un o'r cofgolofnau nodedig sydd yn sefyll wrth droed yr Olewydd yn cael ei chyssylltu er yn bur foreu âg Iehosaphat. Pan ymwelodd Arculf â'r lle yn 700, ymddengys fod

[1] Gelwir y golofn *Et-Tarik*="y ffordd." [*De Saulcy's Voyage*, ii. 199]. Oddi wrthi fe ymestyn y bont a elwir *As-Sirat*-croesi yr hon sydd yn profi y gwir gredinwyr. Bydd y rhai hyny nas gallant sefyll y prawf yn syrthio i agendor Gehennah, yn ngwaelodion y dyffryn.—*Ali Bey*, 224—5; *Mejr ed Din*, yn *Robinson's Researches*, i. 269.



Digitized by Google

y gwyliwr, cyn i ddychryn ddechreu ymdaenu yn y llys. Ac hyd yn oed y pryd hyny, ymddengys fod y ddau frenin yn disgwyl newyddion ynghylch y rhyfel â'r Syriaid, yn hytrach na gwrthryfel yn erbyn un o honynt hwy. Nid cyn attebiad y cadlywydd i gwestiwn Iehoram—"A oes heddwch, Iehu?"—y darfu i'r perygl ddyfod i'r amlwg. Ebe Iehu, "Pa heddwch tra fyddo putteindra Iezebel, dy fam di, a'i hudoliaeth mor aml?" A chan wneyd defnydd o'i gyfleusdra, cyfeiriodd Iehu ei fwa, a saethodd ef drwy ei galon: 2 *Bren*. ix. 22—24. Taflwyd ei gorph i "faes Naboth yr Iesreeliad," a thra yr ymlidiai y milwyr frenin Iudah, yr hwn a laddasant ar ffordd Beth-gan (Cyf. Awd., "tŷ yr ardd")—Engannim dybygid, aeth Iehu ei hun at byrth Iezreel a chyflawnodd y bygythiad dwyfol ar Iezebel, megys y gwnaethai ar Iehoram. [Gwel Iezebel]. Wedi hyny dechreuodd ar orchwyl o ddinystriad a difodiad sydd heb ei gyffelyb yn hanes y frenhiniaeth Iuddewig. Llwyr ysgubwyd ymaith bawb o hiliogaeth Ahab oedd yn Iezreel, ynghyd â holl swyddogion y llys, ac addoliad Astaroth.[1] Ei orchwyl nesaf ydoedd cymmeryd meddiant o Samaria. Dynodid pob cam o'i fynediad â gwaed. Wrth byrth y ddinas Iezreel cafodd benau Deg a Thrigain o dywysogion o dŷ Ahab, wedi eu trefnu yn ddau bentwr, wedi eu hanfon yn iawn gan eu gwarcheidwaid ("tadmaethod") yn Samaria, y rhai a heriasai i'w wrthsefyll, a'r rhai a orfodasai fel hyn i ddinystrio gwrthddrychau eu gwarcheidwaid eu hunain. Wedi hyny wrth "y tŷ cneifio" (neu Betheced), rhwng Iezreel a Samaria, cyfarfu â dau a deugain o feibion neu neiod (2 *Cron*. x ii. 8) i frenin diweddar Iudah, a'r rhai oeddynt felly yn perthyn (trwy briodas) i Ahab. Yr oeddynt ar ymweliad â'u perthynasau, ac fe ellid meddwl, heb glywed am eu dinystriad. Rhoddwyd hwythau yn aberth i'r cleddyf wrth bydew Betheed, yn dra thebyg fel y gwnaed gan Ismael wrth bydew Mispah, a chan yr Indiaid, yn y gwrthryfel echrydus diweddaf, wrth bydew Cawnpore. [Gwel Ismael, rhif. :; ac India]: 2 *Bren*. x. 14. Fel y gyrai yn mlaen, cyfarfu â pherson hynod ei ymddangosiad—person a allasai ei adgofio am yr enwog Elias. Iehonadab ydoedd, y penaeth Arabaidd llym, a mab Rechab. Ynddo ef, gwelai Iehu lygadgraff gydymaith gwasanaethfawr. Cymmerodd ef i'w gerbyd, a lluniasant eu cynlluniau o barth i ddinystriad Baal-addoliaeth ar eu ffordd tua Samaria: 2 *Bren*. x. 15, 16. Gwel Iehonadab.

Yr oedd rhai o weddillion tŷ Ahab yn aros etto yn Samaria i'w dinystrio. Ond yr oedd y dyrnod mwyaf etto i ddyfod; a lluniwyd a chyflawnwyd ef gyda chyfuniad o feiddgarwch diwrthdro a dirgelwch neillduol—yr hyn sydd yn nodweddu holl yrfa y gŵr hwn. Hyd yn hyn, nid oedd wedi amlygu ond tueddfryd angerddol i ddinystrio holl hiliogaeth a dilynwyr Ahab, yn wreiddyn a changen. Mae yn bossibl ei fod etto, o ran ei galon, megys ar gyhoedd, dybygid, hyd yn hyn, yn awyddus i oddef addoliad Baal ac Astaroth, os nad hefyd i ymuno âg ef. Yr oedd hyn yn fantais iddo gario allan ei gynllun presennol. Ebe fe, yn awr, "Ahab a wasanaethodd Baal ychydig, ond Iehu a'i gwasanaetha ef lawer." Yr oedd yn bresennol am adgyssegru Baal-addoliaeth. Galwodd ynghyd gymmanfa fawreddog, darparodd wisgoedd cyssegredig, ac aberthau lawer. Yr oedd y deml fawr a wnaethai Ahab yn Samaria [1 *Bren*. xvi. 32; *Hynaf. Iudd*. x. 7, adr. 6] yn orlawn o benbwygilydd. Aberthwyd yr aberth cyntaf, megys yn angerdd ei zel, gan Iehu ei hun. Ymunodd Iehonadab yn y twyll. Ofnid fod rhai o addolwyr yr Iehofah yn y deml—y fath, fe ymddengys, oedd cymmysgiad y ddwy grefydd. Ond mor fuan ag y sicrhawyd fod pawb oedd yn y deml yn eilunaddolwyr, ac yn eilunaddolwyr yn unig, rhoddwyd arwydd i bedwar ugain o filwyr profedig, ac ar unwaith dinystriwyd holl drigolion paganaidd breuhiniaeth Israel. Anrheithiwyd cyntedd mewnol a chyssegredicaf y deml ("dinas tŷ Baal"), maluriwyd delw fawr gareg y duw Baal, llusgwyd allan a llosgwyd y delwau coed o dduwiau llai â'i hamgylchynent [*Ewald's Geschen*, iii. 526], a gwnaed safle y cyssegr sancteiddiaf yn gynnullfan trigolion y ddinas i'r dybenion ffieiddiaf. Dyma y weithred gyhoeddus ddiweddaf a gofnodir yn hanes Iehu. Eir heibio i'r saith mlynedd ar hugain oedd yn ngweddill o'i deyrnasiad gydag ychydig eiriau, yn y rhai y mae dau beth gwerth sylw:—1. Ni ddinystriodd addoliad y lloi aur, yr hwn a sefydlasid gan Ieroboam. 2. Cafodd y llwythau oedd yn y tiriogaethau dwyreiniol eu hanrheithio a'u poeni yn fawr gan Hazael, "sef holl wlad Gilead, y Gadiaid, a'r Reubeniaid, a'r Mannasiaid, o Aroer, yr hon sydd wrth yr afon Arnon; Gilead a Basan hefyd;" 2 *Bren*. x. 29—33. Claddwyd ef yn Samaria, a dilynwyd ef i'r orsedd gan ei fab Ioahaz: *adn*. 35. Ei enw ef ydyw y cyntaf o enwau brenhinoedd Israel sydd yn ymddangos ar gofadeiliau Assyria. Gwelir ef ar y pigadail du a ddarganfyddwyd yn Nimroud, a'r hwn sydd yn awr yn y *British Museum* yn Llundain. Enwir ef yn mhlith y brenhinoedd a dalent deyrnged i Salmanezer i. Yr oedd ei deyrnged ef yn gynnwysedig o aur ac arian, a nwyddau wedi eu gweithio o aur. Mae ei enw yn y ffurf sydd genym ni, neu yn bur agos felly:—"Iahua mab Cumri" (Omri). Gellir rhoddi cyfrif am y ffaith ei fod yn cael ei alw yn fab Omri—tad Ahab a'i hiliogaeth—yn lle mab Iehosaphat neu Nimsi, naill ai drwy ei briodoli i'r pwysigrwydd a feddai yr enw Omri fel ail sylfaenydd brenhiniaeth Israel, neu ynte i'r ffaith mai yr unig enw a roddir ar Samaria yn y cofadeiliau hyn ydyw "Beth-Cumri"="Tŷ neu brifddinas Omri."—*Layard's Nineveh and Babylon*, i. 396, 643; *Rawlinson's Herodotus*, i. 465.

Nid yw cymmeriad Iehu yn anhawdd i'w ddeall, os cymmerwn olwg arno yn ei gyfanswm, a'i farnu ar dir cyffredinol. Rhaid edrych arno, fel llawer ereill mewn hanesiaeth, fel offeryn i gyflawni amcanion mawrion, yn hytrach nag fel un mawr a da ynddo ei hun. Yn nghyfnod maith a boreuaf ei oes, pryd yr oedd ei ddyfodol, tra yn adnabyddus i ereill, ac, fe allai, iddo ei hun, etto megys yn gorwedd yn nghwsg; yn ei ddyrchafiad mor ebrwydd i awdurdod; yn y beiddgarwch didostur â'r hwn y dygai ei amcanion i ben; yn nghyfuniad celgarwch a dwfn gyfrwysdra â zel llym, angerddol—penboeth, ond ansefydlog—yn hyn i gyd, nid oedd heb ei gyffelyb mewn amseroedd diweddarach. Mae yr hanes Ysgrythyrol,

[1] Prif *dduwies* y Phoeniciaid, yr Assyriaid, y Sidoniaid, &c., megys yr oedd Baal yn brif *dduw* iddynt. Yr oedd ei haddoliad yn dra hen a chyffredinol. Yr un ydoedd ag Astarte y Groegiaid a'r Rhufeiniaid. Cynnrychiolai yr egwyddor o gynnyrchiad, mewn gwrthgyferbyniad i fel yr oedd Baal yn cynnrychioli yr egwyddor o genhedliad. Os yr un ydyw Astaroth ag *Istar* yr Assyriaid, yr hyn sydd yn dra thebygol, yna yr un ydoedd a Gwener. Bernir mai yr un gair wedi ei amrywio ydyw *Istarah* y Bersiaeg, *Tara* y Sanscrit, *Staranum* y Zend, *Setaran* y Pehlevi, *Stella* y Lladin, *Star* y Saesneg, a *Seren* y Gymraeg.

Digitized by Google

babell sanctaidd lle y gosodwyd yr arch gyntaf yn Ierusalem: 1 *Cron.* xv. 18. Yr oedd yn perthyn iddo hefyd chwareu ar y delyn (*adn.* 21), neu ar y nabl a'r delyn (*Cron.* xvi. 5), yn y gwasanaeth crefyddol o flaen yr arch.

3. Ieiel: Lefiad Gersonaidd; un o hiliogaeth Asaph, a chyndad Iahaziel yn amser Iehosaphat: 2 *Cron.* xx. 14.

4. "Ieiel yr ysgrifenydd," yr hwn a gadwai gyfrif o rifedi milwyr ansefydlog neu gynnorthwyol Uzziah: 2 *Cron.* xxvi. 11.

5. Ieiel: Lefiad Gersonaidd; un o hiliogaeth Elisaphan; ac un a gynnorthwyodd yn adferiad y deml o dan Hezeciah: 2 *Cron.* xxix. 13.

6. Ieiel: un o benaethiaid y Lefiaid yn amser Iosiah, a chynnorthwywr yn ngweinyddiad pasc mawr y brenin hwnw: 2 *Cron.* xxxv. 9.

7. Ieiel: un o hiliogaeth Adonicam, yr hwn deulu a ffurfiai ran o'r fintai a ddychwelodd o Babilon i Ierusalem gydag Ezra: *Ezra* viii. 13.

8. Ieiel: un o hiliogaeth Nebo, a gymmerasai wraig estronol ac a orfodwyd i ymwrthod â hi: *Ezra* x. 43.

IEMIMAH: yr hynaf o'r tair merch a anwyd i Iob ar ol ei adferiad i iechyd a hawddfyd: *Iob* xlii. 14. Y mae Rosenmüller yn cymmharu yr enw â Diana yr ysgrifeniadau clasurol; ond y mae Gesenius yn cael mai yr un ydyw â gair Arabaeg sydd yn golygu "colomen." Yn yr *Historical Geography of Arabia* (ii. 67), lle y mae Forster yn olrhain hiliogaeth Iob yn Arabia, cynnygir yr enw *Iemama* fel yr un â Iemimah. Enw ydyw hwn ar diriogaeth fwyaf mewnol gorynys Arabia, yr hwn yn ol traddodiad Arabaidd, a alwyd ar ol Iemama, brenhines gynt ar yr Arabiaid. Gwel *Bochart's Phaleg.* ii. *adr* 26.

IEMIMI: gair a ddefnyddir amryw weithiau yn y Beibl Cymraeg am Beniamin. Ni ddefnyddir ef yn y Seisoneg. Ac yn ein cyfieithiad ni, nid ydyw un amser yn enw personol, ond ar y llwyth: *Barn.* iii. 15; 1 *Sam.* ix. 1; 2 *Sam.* xx. 1. Gwel Beniamin.

IEPHTHÆ: ffurf Groeg yr enw Iephthah: *Heb.* xi. 32.

IEMUEL: mab hynaf Simeon: *Gen.* xlvi. 10; *Exod.* vi. 15. Yn y rhestr yn *Num.* xxvi. a 1 *Cron.* iv; dodir yr enw i lawr yn Nemuel, yr hyn, fel y penderfyna Gesenius, sydd yn llygriad o'i ffurf wreiddiol.

IEPHTHAH (יפתח, *h. y.*, *Yiphtah*, Ἰεφθάε, *Iephthe*), barnwr, c. c. 1143—1137. Efe ydoedd y nawfed barnwr a lywodraethodd yn Israel, o lwyth Manasseh. Ceir ei hanes yn *Barn.* xi. 1; xii. 7. Yr oedd yn fab i Gilead, o orddercbwraig. Wedi marwolaeth ei dad, cyfododd ei frodyr yn ei erbyn, a throwyd ef oddi cartref, a gwrthodwyd iddo ran o'r etifeddiaeth; ffodd yntau i wlad Tob, y tu hwnt i derfynau y tiriogaethau Hebreaidd. Yr oedd y wlad hon fel y golygir yn gyffredin, yn perthyn i Ammon: 2 *Sam.* x. 6. Tua'r amser hwn yr oedd yr Israeliaid eilunaddolgar yn Gilead yn dioddef yn llymdost o dan orthrwm brenin yr Ammoniaid; ac arweiniwyd Iephthah, gan gymmeriad ansefydlog ei oes, a chan ei amgylchiadau teuluaidd ei hun, i ddilyn bywyd aflywodraethus ac anturiaethus. Mor fuan ag y daeth ei gymmeriad yn adnabyddus, ymgasglodd ato liaws o ddynion o gyffelyb dueddfryd, a neilltuwyd ef yn flaenor arnynt. Yr oedd ei sefyllfa yn awr yn gyffelyb i'r eiddo Dafydd, pan wedi ymneillduo o lys Saul; gyda'r gwahaniaeth hwn nad oedd gan Iephthah un cyfaill yn mysg paganiaid y wlad yr oedd yn byw ynddi. Cyrhaeddodd ei enwogrwydd fel blaenor dewr a llwyddiannus ei fro enedigol, Gilead; a phan ddaeth adeg gyfleus i daflu ymaith iau meibion Ammon, yn ofer y chwiliai henuriaid Gilead am flaenor a feddiannai ymddiried ei gydwladwyr fel y gwrthodedig Iephthah. Anfonwyd ato i wlad Tob, a chydsyniodd yntau i fod yn dywysog arnynt ar yr ammod—wedi ei gadarnhau yn ddifrifol ger bron yr Arglwydd yn Mispah—os byddai iddo lwyddo yn erbyn meibion Ammon y caffai efe fod yn ben arnynt. Y peth cyntaf a wnaeth Iephthah wedi ymaflyd yn ei swydd, ydoedd agor cyflafareddiad â brenin meibion Ammon, trwy anfon cenhadau ato i gwyno o herwydd ei ymddygiad yn goresgyn y wlad, ac i geisio rheswm ganddo am ei waith. Dengys hyn, fod hyd yn oed yn yr oes hono, ryw achos o ryfel yn cael ei farnu yn angenrheidiol—ni olygid i neb ryfela heb ryw annogaeth gyfreithlawn; a hawliai Iephthah wybod gan yr Ammoniaid y rheswm a'u cyfreithlonai yn eu hymosodiadau. Yr atteb a dderbyniodd ydoedd, fod gwlad yr Israeliaid, yr hon oedd y tu hwnt i'r Iorddonen, yn eiddynt hwy. Ni lwyddwyd i wneuthur heddwch yn y ffordd hon. Yna daeth ysbryd yr Arglwydd [*h. y.*, nerth meddwl a chorph i ymgymmeryd â gwaith mawr (cym. *Barn.* iii. 10; vi. 34; xi. 29, xv. 14) ar Iephthah. Casglodd ynghyd holl ryfelwyr Gilead a Manasseh, y taleithiau a gydnabyddent ei awdurdod. Ac addunedodd adduned i'r Arglwydd. "Yna yr hwn a ddelo allan (*h. y.*, gyntaf) o ddrysau fy nhŷ i'm cyfarfod, pan ddychwelwyf mewn heddwch oddi wrth feibion Ammon, a fydd eiddo yr Arglwydd, a mi a'i hoffrymaf ef yn boeth-offrwm." Bu yn fuddugoliaethus. Gorchfygwyd yr Ammoniaid â lladdfa fawr. Cymmerwyd oddi arnynt ugain dinas, o Aroer i Mimith. Dychwelodd y gorchfygwr mewn heddwch i'w dŷ yn Mispah. Fel yr agosai at y tŷ, yr hon a ddaeth allan gyntaf i'w gyfarfod oedd ei ferch ei hun, ei unig blentyn, â'r hon yr oedd ei galon wedi ymglymu. Daeth hi a'i chyfeillesau mewn gorymdaith "gyda thympanau a dawnsiau" i longyfarch yr arwr buddugoliaethus. Ond nid cynt y canfu efe hi nag y rhwygodd ei ddillad, a gwaeddai, "A! A! fy merch, gan ddarostwng y darostyngaist fi,......canys myfi a agorais fy ngenau wrth yr Arglwydd, ac ni allaf gilio." Ni fynai y ferch uchelfryd iddo gilio; yr oedd yn barod i wneyd unrhyw aberth personol yn nydd goruchafiaeth ei thad. "Hi a ddywedodd hefyd wrth ei thad, gwneler i mi y peth hyn; paid a mi ddau fis, fel yr elwyf i fyny ac i waered ar y mynyddoedd, ac yr wylwyf o herwydd fy morwyndod, mi a'm cyfeillesau." Cydsyniodd ei thad â'r cais; a phan y daeth yr amser i fyny hi a ddychwelodd; a dywedir wrthym, iddo "wneuthur â hi yr adduned a addunedasai efe." Chwanegir hefyd iddi ddyfod "yn ddefod yn Israel, fyned o ferched Israel bob blwyddyn i alaru am ferch Iephthah y Gileadiad, bedwar diwrnod yn y flwyddyn."

Ond nid hir y caniatawyd i Iephthah lonyddwch i borthi ei ofid teuluaidd, os oedd yn tueddu i hyny. Dadleuai llwyth balch Ephraim yn erbyn ei hawl i fyned i ryfel yn erbyn Ammon, heb eu cydsyniad hwy; digient, fel yr ymddengys, am na chawsant hwy ran yn ngogoniant y fuddug-

Digitized by Google

o osodiadau mwyaf pendant cyfraith Moses. (6.) Yn olaf, dadleuir nad oes un gorchymyn nag esampl yn bleidiol neu yn ffafriol i weddwdod crefyddol i'w cael yn yr Hen Destament.

Y mae rhai personau, wrth ystyried fod Iephthah wedi ei restru yn mysg gwroniaid ffydd yn *Heb.* xi. 32, yn gystal a'r gair hwnw a ddywed am dano, "Yna y daeth ysbryd yr Arglwydd ar Iephthah," *Barn.* xi. 29, yn petruso credu iddo fod yn euog o'r fath bechod a llofruddio ei blentyn. Ond dylid cofio fod pechodau mawrion amryw o ffyddloniaid ereill yn cael eu cofnodi yn yr Ysgrythyr, weithiau heb ddim eglurhâd yn cael ei roddi; a chan i Iephthah gael amser wedi hyny, dichon iddo gael gras i edifarhau am ei adduned a'i gyflawniad o honi. O leiaf, gwyddom iddo deimlo euogrwydd, yr hyn sydd yn aml yn rhag-gysgodi ad-daliad, neu yn rhagredegydd edifeirwch.

Os edrychir etto ar y testyn, addunedodd Iephthah y byddai "yr hwn a ddelai allan o ddrysau ei dŷ i'w gyfarfod," fod yn eiddo yr Arglwydd, "a mi a'i hoffrymaf ef yn bechoffrwm;" yr hyn, mewn gwirionedd, ydyw y ffordd i wneyd peth yn gwbl yn eiddo yr Arglwydd. Wedi hyny, dywedir iddo wneuthur "â hi yr adduned a addunedasai efe;" hyny ydyw, yn ol ystyr amlwg y geiriau, ei hoffrymu yn boethoffrwm. Yna y canlyn yr hysbysiad yr arferai merched Israel alaru am dani bedwar diwrnod yn y flwyddyn. Am y meirw y galerir, ac nid am y byw. Y mae yr holl hanes yn gysson a dealladwy, pan yr ystyriom fod yr aberthiad wedi cymmeryd lle yn weithredol; ond yn ddyrus a thywyll pan y ceisir rhoddi rhyw esboniad arall arno.

Yn ddiammheuol, y mae barnau duwinyddol wedi effeithio rai gweithiau i arwain dynion i roddi y flaenoriaeth i un olwg ar adduned Iephthah ar y llall. Crybwylla Selden i Iuddew ddywedyd wrth Genebrard, fod deongliad Kimchi ar yr adduned wedi ei ddyfeisio mewn trefn i Iuddias y Cristionogion i wneyd defnydd o aberthiad merch Iephthah fel cysgod o aberthiad mab Duw. Ysgrifenodd y proffeswr Bush yn helaeth a rhagorol ar y mater hwn. Y mae efe yn amddiffyn y syniad fod aberth dynol yn cael ei fwriadu; ond awgryma y dichon y gall fod Iephthah yn ystod y ddau fis wedi cael gwybodaeth chwanegol ynghylch addunedau, nas gallai yn gyfreithlawn gyflwyno ei ferch yn aberth, megys y bwriadai, ac iddo ei phrynu am bris pennodol (*Lef.* xxvii. 2—12). Gall hyn fod yn bossibl; ac ar ryw olwg, ymddengys yn fwy tebygol na'r syniad mwy poblogaidd iddi gael ei thynghedu i weddwdod parhaus; ond ymgyfyd ammheuon pwysig ynom nad yw hyn chwaith yn cyfarfod y mater yn deg—iddo wneuthur "â hi fel yr addunedasai efe." Heblaw hyny, os felly yr oedd, pa sail oedd fod merched Israel yn galaru yn flynyddol am ferch Iephthah; neu, fel y dealla rhai y geiriau, yn ei "hanrhydeddu?"

Ymdrinir yn helaeth â'r mater hwn gan lawer o awdwyr o awdurdod uchel ac enwogrwydd mawr, megys Awstin, Capellus, Esgob Hall, Selden, Lightfoot, Pfeiffer, Dr. Hales, Bush, Randolf, Eichhorn, ac esgob Russell.

**IEPHUNEH**: tad Caleb, yr ysbïwr, yr hwn a ddynodir fel "Caleb, mab Iephuneh." Ymddengys ei fod yn perthyn i lwyth Edomaidd, a elwid y Ceneziaid, oddi wrth Cenez, ei sylfaenydd; ond nid ydyw ei dad, na neb arall o'i hynafiaid, yn cael eu henwi. [Gwel *Num.* xiii. 6; xxxii. 12; *Ios.* xiv. 15; 1 *Cron.* iv. 15].

**IERAH**: pedwerydd mab Ioctan (*Gen.* x. 26; 1 *Cron.* i. 20), a sylfaenydd llwyth yn Arabia ddeheuol. Nid ydyw ei enw, modd bynag, wedi ei olrhain yn foddhaol yn gysylltiedig âg unrhyw le neu lwyth yn y wlad hono, er fod amddiffynfa (a thebygol hen dref hefyd), o'r enw Yeràkh, yn cael ei chrybwyll yn perthyn i ddosbarth Nizyàd, yr hwn sydd yn Mahreh, ar derfynau Yemen.

1. **IERAMEEL**: mab hynaf Hesron, mab Phares, mab Iudah (1 *Cron.* ii. 9, 25—27, 33, 34, 42). Mae ei ddisgynyddion yn cael eu henwi yn yr un bennod. Preswylient ar derfyn deheuol Iudah: 1 *Sam.* xxvii. 10; cymmh. 1 *Sam.* xxx. 29.

2. **IERAMEEL**: Lefiad o dylwyth Merari; cynnrychiolydd teulu Cis, mab Mali, yn amser adnewyddiad ac ail drefniad y gwasanaeth crefyddol gan Dafydd: 1 *Cron.* xxiv. 29; cymmh. 1 *Cron.* xxiii. 21.

3. **IERAMEEL**: mab Hammalech, yr hwn a ddefnyddiwyd gan Iehoiacim i wneyd Ieremiah a Baruch yn garcharorion, wedi iddo losgi llyfr prophwydoliaeth y blaenaf: *Ier.* xxxvi. 26.

**IEREMIAH** (ירמיהו, y ffurf fwyaf cyffredin, neu ירמיה, *Ier.* xxxvi—xxxviii; Ἱερεμίας, *Ieremias*). Y mae ystyron gwahanol yn cael ei roddi i'r enw gan wahanol awdwyr; dywed Jerome a Simonis (*Onomast.* td. 536), ei fod yn arwyddo "Dyrchafedig yr Arglwydd;" dywed Gesenius (s. B), yr arwydda "appwyntiedig yr Arglwydd;" a thybia Carpzov a Hengstenberg, y golyga "yr Arglwydd a dafla"—gwelant yn yr enw gyfeiriad prophwydol at y gwaith a ddisgrifir yn *Ier.* i. 10.

1. *Ei fywyd.*—Byddai yn fanteisiol a chyfleus i ni drefnu yr hyn a wyddys am fywyd a gwaith y prophwyd hwn yn adranau a fyddo yn cyfatteb i'r prif ddigwyddiadau ynddo. Y mae bron yr oll o ddefnyddiau ei hanes i'w cael yn y llyfr sydd ar ei enw. Cyssylltir llawer o ddyddordeb gan draddodiadau Iuddewig a Christionogol âg enw y prophwyd hwn; ond nis gellir edrych arnynt yn meddu ar awdurdod hanesyddol. Gadewir ni i ffurfio darlun, oreu y gallom, o'r dyn a'i amserau gan yr hanesion a'r prophwydoliaethau a adawodd efe ei hun ar ei ol. Yn ffortunus, modd bynag, y mae ei ysgrifeniadau wedi eu trosglwyddo i ni yn llawn, a dichon nad oes yr un o'r prophwydi y gellir deall a myned i mewn i'w fywyd, ei waith, a'i ddioddefiadau, yn fwy llwyr na'r eiddo ef. Gellir edrych ar ei fywyd fel esampl neillduol o'r bywyd prophwydol, fel cynnyrchiolydd yr urdd brophwydol. Nid rhyfedd fod y rhai oedd yn meddu ar y teimladau Cristionogol goreu yn yr eglwys foreuol, yn gweled ynddo gysgod o'r hwn ydoedd awdwr Cristionogaeth (*Hieron. Comm. on Ierem.* xxiii. 9; Origen, *Hom. in Ierem.* i. a vii.; Aug. *de Pres. Dei*, c. xxxvii). Ac y mae rhai ysgrifenwyr diweddar—er y mae yn ddiau yn hollol gyfeiliornus—yn ceisio canfod ynddo ef yr hwn a elwir "Gwas yr Arglwydd," yn y pennodau diweddaf yn mhrophwydoliaethau Esaiah.

(1.) O dan Iosiah, c. c. 838—608. Yn y drydedd flwyddyn ar ddeg o deyrnasiad Iosiah, llefara y prophwyd am dano fel yn "fachgen," yn ol y Seisoneg "plentyn," (בער, i. 6). Nis gellir dibynu ar y gair hwn gyda golwg ar amseriad a dyddiad. O herwydd y mae yn bossibl nad oedd yn cael ei arfer ond i osod allan ymwy bod-

Digitized by Google

olrwydd o wendid ac annigonolrwydd at waith arbenig, ac fel ymadrodd yn gosod allan oedran, y mae yn cyrhaedd o sefyllfa o fabandod (*Exod.* ii. 6; 1 *Sam.* iv. 21); hyd nes y cyrhaeddir addfedrwydd oedran gŵr: 1 *Sam.* xxx. 17; 1 *Bren.* iii 7. Gan y gellir olrhain ei fywyd mewn llawn weithgarwch am dros ddeugain mlynedd wedi y cyfnod hwn, fe allwn yn naturiol gasglu, modd bynag, nad oedd yn nechreuad y teyrnasiad hwn ond plentyn o ran oedran. Gosodir ef allan fel "mab Hilciah, o'r offeiriaid y rhai oedd yn Anathoth" (i. 1). Tybia llawer mai ei dad ydoedd yr archoffeiriad o'r enw hwnw (2 *Bren.* xxii. 8); yr hwn a gafodd lyfr y gyfraith yn y ddeunawfed flwyddyn o deyrnasiad Iosiah. Ond ymddengys hyn yn annhebyg ar amrywiol ystyriaethau:—(1.) Nid yw yr enw ei hun yn ddigon o sail i dybio mai yr un oeddynt, canys yr oedd yn un cyffredin yn mysg yr Iuddewon: 2 *Bren.* xviii. 18; 1 *Cron.* vi. 45; xxvi. 11; *Neh.* viii. 4; *Ier.* xxix. 3. (2.) Nid oes dim yn ysgrifeniadau Ieremiah yn ein harwain i feddwl fod ei dad yn ddim amgen nag offeiriad cyffredin, yn wir, y mae y modd y crybwyllir enw Hilciah yn anghysson â'r syniad ei fod yn archoffeiriad yn Israel: *Ier.* i. 1. (3.) Nid yw Ieremiah ei hunan, na'i wrthwynebwr, yn cyfeirio at ei berthynas â'r archoffeiriad. (4.) Fod yr offeiriad oedd yn byw yn Anathoth yn perthyn i deulu Ithamar (1 *Bren.* ii. 26; 1 *Chon.* xxiv. 3); tra yr oedd yr archoffeiriadaeth o Sadoc i lawr yn llinach Eleazer [Carpzov, *Introd. in Lib. V. T. Ierem.*]. Gellir edrych ar y digwyddiad hwn o'r un enw, modd bynag, yma, fel mewn lliaws o enghreifftiau ereill yn yr Hen Destament, fel arwydd tebygol o agosrwydd a chyfeillgarwch; a hyn, yn nghyd â'r cyd-darawiad:—(1.) Fod ewythr Ieremiah o'r un enw a gŵr Huldah y brophwydes (2 *Bren.* xxii. 14); a (2.) bod Ahicam mab Saphan, cynnorthwr Hilciah a Huldah yn ei gwaith mawr (2 *Cron.* xxxiv. 24); yn amddiffynwr gwastadol i'r prophwyd (*Ier.* xxvi. 24); a all daflu goleuni ar yr addysg, trwy yr hwn y parotowyd ef at y gwaith, i'r hwn y dysgwyd ef i gredu ei fod wedi ei "neillduo iddo o groth ei fam.". Gall y traddodiad Rabbinaidd rhyfedd (Carpzov, c. c.), fod wyth o'r personau mwyaf cyhoeddus oedd yn dal cyssylltiad â hanesiaeth crefyddol y cyfnod hwnw (Ieremiah, Baruch, Seraiah, Maasiah, Hilciah, Hanameel, Huldah, a Sallum); oll yn ddisgynyddion o Rahab y buttain, fod yn ŵyrdroad o'r ffaith eu bod yn berthynasau, mewn rhyw fodd neu gilydd, fel aelodau o'r un teulu. Os felly yr oedd, ni a allwn ffurfio syniad lled glir am y dylanwadau oedd ar waith yn llunio cymmeriad Ieremiah yn ei ieuengctid. Yr oedd y bachgen mewn cyfleusdra i glywed yn mhlith offeiriaid ei dref enedigol, Anathoth, yr hon nid ydoedd ond tair milldir o bellder o Ierusalem, am ddelwaddoliaeth a chreulonderau Manasseh a'i fab Amon. Diammheu iddo gael ei ddysgu yn fanwl yn nhraddodiadau ac ordinhadau y gyfraith; ac iddo ddyfod yn gyfarwydd âg enwau ac ysgrifeniadau prophwydi hŷn nag ef, megys Micah ac Esaiah. Fel y tyfai i fyny i oedran gŵr, sylwai ar y modd yr oedd y brenin a'i gynghorwyr yn dwyn pethau yn mlaen, a chlywai am ddysgeidiaeth y wraig, yr hon o bawb, yn y diwygiad crefyddol hwnw, yr edrychid arni yn llefaru yn fwyaf uniongyrchol o dan ddylanwad ysbrydoliaeth prophwydol. Yn ol pob argoelion, fel y gwelwn, efe a ddaeth i gydgyfarfyddiad gweithredol â hwynt. Mae yn bossibl hefyd mai i'r cyfnod hwn ar ei fywyd y gellir olrhain dechreuad ei gyfeillgarwch â theulu Neriah, yr hwn wedi hyny a fu mor ffrwythlawn yn ei ganlyniadau. Yr oedd y ddau frawd Baruch a Seraiah, fel yr ymddengys, yn ddysgyblion i'r prophwyd (xxxvi. 4; li. 59); yr oeddynt eill dau yn feibion i Neriah, mab Maaseiah, ac yr oedd Maasiah (2 *Cron.* xxxiv. 8) yn dywysog neu yn llywodraethwr Ierusalem, yn cydweithio â Hilciah a Saphan yn nygiad yn mlaen ddiwygiadau crefyddol Iosiah. Fel ffrwyth yr holl ddylanwadau hyn, ni a gawn yn ei gymmeriad nodweddion amlycaf y meudwy crefyddol: ymwybodolrwydd dwfn o'i wendid ei hun, parodrwydd mawr i dderbyn argraph oddi wrth ddigwyddiadau allanol, ac ysbryd hawdd ei daflu i lawr a'i lethu. Ond yr oedd ynddo hefyd, ni allwn gredu (a thybied nad yw y cymmeriad prophwydol ond dadblygiad wedi ei buro a'i ddyrchafu o'r cymmeriad naturiol, ac nid un gwrthgyferbyniol), deimladau cenhedlaethol cryfion yr Israeliad, y dymuniad i weled ei genedl yn dyfod mewn gwirionedd yr hyn y galwyd hi i fod; ammheuon pryderus pa un a oedd hyn yn bossibl i bobl oedd wedi suddo mor isel [Maurice, *Prophets and Kings of the Old Testament*, *Serm.* xxii. xxiv; Ewald, *Propheten*, ii. td. 6–8.] Pe y gadawsid ef iddo ei hun, diammheu y buasai yn gwneyd ei ran yn mhlith offeiriaid diwygiadol teyrnasiad Iosiah, yn rhydd oddi wrth ffurfioldeb a rhagrith. Ond "gair yr Arglwydd a ddaeth ato" (i. 2); a chan y llais Dwyfol hwnw dadguddiwyd iddo ddirgelwch ei fywyd dyfodol, ar y pryd pan yr oedd y gwaith diwygiadol yn cael ei ddwyn yn mlaen gydag egni chwanegol (2 *Cron.* xxxiv. 3), ac yntau yn dechreu meddiannu meddyliau a theimladau dyn.[1] Yr oedd yn rhaid iddo roddi heibio bob diffyg ymddiried ynddo ei hun, pob ofn a dychryn naturiol (*Ier.* i. 7, 8), a derbyn ei alwedigaeth fel prophwyd yr Iehofah wedi "ei osod ar y cenhedloedd, ac ar y teyrnasoedd, i ddiwreiddio, ac i dynu i lawr, i ddifetha, ac i ddistrywio, i adeiladu, ac i blanu: i. 10. O'i flaen y gosodwyd tymmor maith o lafur dyfal ac egniol, o ymdrech barhaus yn erbyn brenhinoedd, offeiriaid, a phobl: i. 18. Pa bryd yr ymddadblygodd y genadwriaeth hon i weithrediad? Pa effaith a gafodd ar fywyd mewnol ac allanol y gŵr a'i derbyniodd? Dros dymmor, fe ymddengys iddo gadw yn ol, heb gymmeryd rhan yn y gwaith pwysig a ddygid yn mlaen yn mysg y genedl. Ni chrybwyllir ei enw o gwbl mewn cyssylltiad â hanes gogoneddus y ddeunawfed flwyddyn o deyrnasiad Iosiah. Er fod pum mlynedd wedi myned heibio er pan yr ymgymmerodd â gwaith prophwyd, â Huldah, ac nid â Ieremiah, yr oedd brenin a'i dywysogion yn ymgynghori. Nis gallai darganfyddiad llyfr y gyfraith, modd bynag, lai na dylanwadu yn rymus ac yn effeithiol ar feddwl y prophwyd: dengys ei ysgrifeniadau diweddar arwyddion eglur o hyn; un effaith amlwg arno ydoedd, nas gallai gyfranogi yn y gobeithion yr oedd ereill yn eu coleddu. I ereill, yr oedd y diwygiad yn ymddangos yn fwy trwyadl na'r hwn a effeithiwyd gan Hezeciah. Dichon eu bod yn ystyried y buasai yr ymprydiau, a'r aberthau, a'r gospedigaeth a weinyddid ar eilunaddolwyr, yn cadw draw y cospau y clywent am danynt yn y llyfr a ddarganfyddwyd mewn dull mor hynod (*Deut.* xxvii. xxviii. xxxii.), ac edrychent yn mlaen at adeg o lwyddiant a heddwch,

1 Tybia Carpzov (c. o.) fod Ieremiah yn ugain mlwydd oed pan y galwyd ef.

Digitized by Google

dduwioldeb, a diogelwch: *Ier.* vii. 4. Edrychai ef ar y diwygiad fel un arwynebol. Yr oedd Israel eisoes wedi ei dwyn i gaethiwed, ac yr oedd Iudah yn waeth nag Israel: iii. 11. Anhawdd iddo ef, fel y buasai i Esaiah, gael yn mysg y tywysogion a'r bobl a addolent yn y deml, un a wnelai farn, ac a geisiai wirionedd: v. 1, 28. Yr oedd ei waith ef ei hun, fel prophwyd ac offeiriad, yn ei arwain i weled y twyll a'r awydd am lywodraeth oedd ar waith o dan gochl sêl grefyddol: v. 31. Fe allai fod prophwydoliaethau llafaredig ac ysgrifenedig ei gydoeswyr, Sephaniah, Habacuc, Uriah, a Huldah, yn gwasanaethu i ddyfnhau ei argyhoeddiadau fod y gollfarn eisoes wedi ei chyhoeddi, ac nad oedd modd diangc rhagddi. Dysgai y weledigaethau rhyfeddol a gafodd—ar ol ei alw (i. 11—16)—ef i gredu, y byddai i'r Iehofah "brysuro" cyflawniad ei air; ac yr oedd ymosodiadau y Scythiaid, yn mlynyddoedd olaf teyrnasiad Iosiah, yn cyd-daraw â'r rhagfynegiad mai "o'r gogledd y tyr drwg allan ar holl drigolion y tir." Nid oes genym grybwyllion am unrhyw ddigwyddiadau neillduol yn mywyd Ieremiah, yn ystod y deunaw mlynedd a aethant heibio o'r pryd y galwyd ef i'w swydd hyd farwolaeth Iosiah; er hyny, y mae prif linellau ei fywyd yn dyfod yn eglur ger ein bron. Cafodd hyd yn oed y pryd hwnw brofiad o chwerwder y bywyd yr oedd Duw wedi ei alw iddo. Ymdoddodd dyledswyddau yr offeiriad, hyd yn oed os oedd yn parhau i'w cyflawni, i'r swydd newydd ac arbenig yr appwyntiwyd ef iddi. Peth dieithr ydoedd i offeiriad fyw heb briodi, ond ei dynged ef oedd byw mewn unigedd: xvi. 2.[1] Nid oedd efe i fyned i dŷ gwledd, nac i dŷ galar: xvi. 5, 8. Ymddangosai o bryd i bryd wedi ei wisgo yn "nghrys rhawn" y prophwyd (*Zech.* xiii. 4), yn Anathoth a Ierusalem. Clywid ef yn cyhoeddi ac yn rhybuddio, "gan foreu godi a llefaru" (xxv. 3); ac fel canlyniad o hyn, gwnaed ef yn "waradwydd ac yn watwargerdd beunydd;" xx. 8. Bradychwyd ef gan ei dylwyth ei hun (xii. 6), erlidiwyd ef yn y modd creulonaf gan ei gyd-drefwyr (xi. 21), a gofynid mewn gwawd iddo y cwestiwn, "Pa le y mae gair yr Arglwydd?" xvii. 15. Yr oedd ganddo brofedigaethau ysbrydol mewnol, yn gystal a'r rhai allanol hyn. Fel ysgrifenwyr Llyfr Iob a *Salm* lxxiii, blinid ef gan betrusder wrth sylwi ar yr annhrefn a ymddangosai yn y byd (xii 1, 2); weithiau, meddiannid ef gan yr ymsyniad poenus "ei fod yn ŵr cynhen i'r holl ddaear" (xv. 10); teimlai ammheuaeth fod ei holl waith yn dwyll a chelwydd (xx, 7); temtid ef ar brydiau i syrthio yn ol i ddistawrwydd, hyd nes y llosgai y tân o'i fewn drachefn, ac nis gallai ymattal: xx. 9. Pa un bynag a ydyw yr ymadroddion y cyfeiriwyd atynt i gyd yn perthyn i'r cyfnod hwn, neu un diweddarach, y maent yn gosod allan yr hyn sydd anwahanol gysylltiedig â bywyd y prophwyd bob amser, a'r hyn, mewn cymmeriad fel Ieremiah, a ddadblygid yn ei ffurf gryfaf. Tua diwedd y teyrnasiad hwn, modd bynag, ymddengys iddo gymmeryd rhan yn y cwestiynau mawr gwladwriaethol oedd yn cael eu trafod. Parodd dymchweliad brenhiniaeth Assyria—tuag at ddwyn oddi amgylch yr hyn y gwnaeth Manasseh ei ran—i'r hen blaid Aiphtaidd yn mysg tywysogion Iudah i adnewyddu eu cynlluniau, a chymmhellent wneuthur cynghrair â Pharaoh Necho, fel yr unig lwybr o ddiogelwch. Dilynodd Ieremiah gamrau Esaiah (*Esa.* xxx. 1—7), a rhybuddiodd hwynt y byddai i hyny eu harwain i warth a gwaradwydd: ii. 18, 31. Mae yn debyg i wladlywiaeth Iosiah gal ei benderfynu, gan y cynghor hwn. Dewisodd ef ymuno â theyrnas newydd Caldea, a chollodd ei fywyd yn yr ymdrech ofer i geisio rhoddi attalfa ar ffordd mynediad yn mlaen brenin yr Aipht. Gallem ystyried hwn fel y cyntaf o ofidiau mawrion bywyd Ieremiah. Gall ei alarnadau am y brenin (2 *Cron.* xxxv. 25) fod yn ffrwyth cyfeillgarwch personol. Diammheu eu bod yn gynnyrchion un—wrth edrych yn mlaen, na welai ond annhrefn a thrais—yn edrych yn ol ar deyrnasiad, yn yr hon yr oedd cyfiawnder a barn yn cael eu gweinyddu: xxii. 3, 16.

(2.) O dan Ieohaz (=Sàlum), c. c. 608. Ni roddes teyrnasiad byr y brenin hwn—yr hwn a ddewiswyd gan y bobl ar farwolaeth Iosiah, ond wedi tri mis a ddiorseddwyd gan Pharaoh Necho—ond ychydig gyfeiriad uniongyrchol i waith y prophwyd. Mae y ffaith o'i ddiorseddiad, modd bynag, yn dangos ei fod wedi ei osod i fyny yn erbyn yr Aipht; ac felly, yn cario allan y ffurf hono o wladlywiaeth ag yr oedd Ieremiah yn ddadleuydd drosto; a rhydd, fe ddichon, gyfrif am y tynerwch a arwydda y prophwyd wrth gyfeirio ato yn ei alltudiaeth yn yr Aipht: *Ier.* xxii. 11, 12.

(3.) Iehoiacim, c. c., 607—597.—Yn y gwendid a'r annhrefn a nodweddai y teyrnasiad hwn, yr oedd gwaith Ieremiah bob dydd yn dyfod yn fwy amlwg a hyglod. Daeth y brenin i'r orsedd dan warogaeth i'r Aipht, ac am beth amser yr oedd y blaid Aiphtaidd yn oruchaf yn Ierusalem. Rhifai yn mhlith ei haelodau lawer o dywysogion Iudah, lliaws o offeiriaid a phrophwydi, y Pashuriaid a'r Hananiahiaid. Safodd ereill yn ffyddlawn i wladlywiaeth Iosiah, a mynent mai y ffordd i ddiogelwch ydoedd cydnabod uwchafiaeth y Caldeaid. Ymddangosodd Ieremiah fel prif gynnrychiolydd y blaid hon. Yr oedd efe wedi dysgu darllen arwyddion yr amserau; nid oedd drygau y genedl i gael eu gwella gan hanner mesurau diwygiadol, 'na chan gynghreiriau â gwledydd tramor. Gwas Duw ydoedd brenin Babilon (xxv. 9; xxvii. 6), yn gwneuthur ei waith ef, ac am dymmor i lwyddo er gwaethaf pob ymosodiad. Er mor galed oedd hyn i un oedd yn cydymdeimlo mor ddwfn â chystuddiau ei wlad, dyna ydoedd argyhoeddiad ei feddwl. Wrth ei amlygu, gosodai ei hun yn agored i'r ammheuaeth o fradwriaeth. Yr oedd ereill, a broffesent eu hunain yn brophwydi, yn gosod "gair yr Arglwydd," yn erbyn yr eiddo ef (xiv. 13, xxiii. 7), a'r oll a allai oedd cyflwyno ei achos i Dduw, a disgwyl y canlyniadau. Y mae rhai o'r golygfeydd mwyaf hynod a gymmerodd le yn yr ymdrechfa hon yn cael eu dwyn ger ein bron mewn modd bywiog iawn. Yn fuan wedi esgyniad Iehoiacim i'r orsedd, ar un o brif ddyddiau eu huchel-ŵyl—pan yr oedd cynteddoedd y deml yn llawn o addolwyr wedi ymgasglu o holl ddinasoedd Iudah—ymddangosodd y prophwyd, i gyhoeddi ei genadwri, y gwnelid Ierusalem yn felldith, ac y byddai i'r deml gyfarfod yr un dynged a'r babell yn Siloh: xxvi. 6. Dyna'r pryd y dechreuodd ymdrechfa fawr ei oes; ymunodd yr offeiriaid, y prophwydi, a'r bobl, i wneyd deisyfiad am ei roddi i farwolaeth: xxvi. 8. Ceisiodd tywysogion Iudah—yn mhlith

[1] Dyma yn ddiau ydyw y casgliad amlwg a naturiol oddi wrth y geiriau, cymmerai y tadau Cristionogol hyn yn ganiatâd. Mewn amseroedd diweddarach, tybiwyd ei fod yn dal perthynas â'r cwestiwn o feddwdod yr offeiriaid, yr hyn a wedir gan Brotestaniaid, ond a amddiffynir gan feirniaid Pabaidd.

y rhai yr oedd amryw o gynghorwyr Iosiah, neu eu meibion—ei amddiffyn yn erbyn yr ymosodiad hwn: xxvi. 16. Appeliodd ei gyfeillion at waith Michah y Morastiad, yr hwn yn nyddiau Hezeciah a brophwydodd yn gyffelyb, ac a ddiangodd yn ddigosp. Yr oedd tynged un arall a brophwydodd yn gyffelyb iddo yntau yn dangos, modd bynag, beth a allesid oddi wrth frenin egwan a chreulawn. Os na erlidwyd Ieremiah i farwolaeth, fel Uriah (xxvi. 23), yr achos o hyny ydoedd, am fod ei gyfaill Ahicam yn ddigon cryf i'w amddiffyn. Bu y bedwaredd flwyddyn o deyrnasiad Iehoiacim yn fwy nodedig fyth. Yn mrwydr Charchemis, bwriwyd i lawr obeithion y blaid Aiphtaidd (xlvi. 2), a gyrodd byddinoedd Nebuchodonosor y rhai hyny nad oedd ganddynt ddinasoedd amddiffynol i Ierusalem am ddiogelwch: *Ier.* xxxv. 11. Mewn canlyniad i hyn y daw hanes dyddorol y Rechabiaid i mewn. Yr oedd meddwl y prophwyd, yr hwn oedd yn feudwyol ei arferion, yn ymgilio oddi wrth ffurfiau cyffredin bywyd cymdeithasol, yn cael ei dynu yn naturiol at lwyth a hynododd ei hun o herwydd ei lwyrymwrthodiad â gwin, a'i adgasrwydd dwfn at eilunaddoliaeth yn ei holl agweddau: 2 *Bren.* x. 15. Mae enw Ieremiah mewn cyssylltiad â hwynt, yn nghyd â'r derbyniad parod a gawsant yn y deml, yn cyfeirio, fe ddichon, at adnabyddiaeth flaenorol oedd ganddynt o hono ef a'i frodyr offeiriadol. Yr oeddynt hwy, gyda'r parch oedd ganddynt i gynghorion sylfaenydd eu tylwyth, yn dystiolaeth fwy yn erbyn meibion Iudah, yn eu condemnio am anufudd-dod i gyfraith uwch: xxxv. 18. Yn y flwyddyn hon, daeth cenadwri ddifrifol arall at y brenin; fe gasglwyd y prophwydoliaethau a gyhoeddwyd yma a thraw ar wahanol achlysuron, ac ysgrifenwyd hwynt mewn llyfr, yr hwn a ddarllenwyd yn nghlyw y bobl. Baruch, yr hwn a adwaenid yn flaenorol fel dysgybl Ieremiah, a'i hysgrifenodd; ac ar ddydd ympryd difrifol, galwyd y bobl yn nghyd i'r deml (xxxvi. 1—9), ymgadwodd y prophwyd draw—pa ham, nis gwyddom—ac anfonodd yr ysgrifenydd i'w cyhoeddi. Bu y canlyniad o hyn yn debyg fel y digwyddodd o'r blaen; rhwyddhaodd tywysogion Iudah y ffordd i'r prophwyd a'i ysgrifenydd ddiangc: xxxvi. 19. Dialodd y brenin hyn trwy ddistrywio y llyfr a ysgrifenwyd. Ond yn eu hymneillduaeth, fe adysgrifenwyd y llyfr gan Ieremiah a Baruch, gyda chwanegiadau o lawer o brophwydoliaethau ereill; ac yn eu plith, fe ddichon, y rhagfynegiad pennodol y rhoddid y brenin i farwolaeth drwy y cleddyf, ac y dianrhydeddid ei weddillion marwol: xxii. 30. Yn *pen.* xlv, yr hon a berthyna i'r cyfnod hwn, ni a gawn gipdrem ar y perthynasau oedd yn bodoli rhwng yr athraw a'r dysgybl, ac i mewn i'w meddyliau ar y pryd. Disgwyliasai Baruch, yr ieuengaf a'r mwyaf tanbaid, am gyfnewidiad er gwell. I gymmeryd rhan bwysig yn y gweithrediadau, a bod yn arwr adfywiad cenhedlaethol, ac ennill ffafr y gorchfygwr, y bu yn cyhoeddi ei ddyfodiad - hyn, neu rywbeth cyffelyb, oedd y weledigaeth y bu yn ymhyfrydu ynddi; a phan yr aeth hyn heibio, syrthiodd i anobaith wrth ystyried diffrwythder ymddangosiadol ei ymdrechion. Aethai Ieremiah trwy y wedd hono o brofedigaeth, a gallai gydymdeimlo âg ef, a gwyddai pa fodd i'w chyfarfod. Dadguddiwyd y dyfodol yn ei holl erchylldra i feddwl y dysgybl, fel y gwnaed unwaith i'r athraw ei hun. Ond nid oedd i geisio "mawredd iddo ei hun," yn nghanol distryw ei wlad: ei einioes, a hwnw yn unig, a roddid iddo yn "ysglyfaeth." Fel yr oedd y perygl yn agoshau, rhoddwyd i'r prophwyd weledïad eglurach i mewn i fwriadau Duw tuag at ei bobl. Gallasai dybio yn flaenorol i hyn, fel yr oedd ereill wedi gwneyd, na buasai y cerydd ond dros amser byr; gydag edifeirwch y genedl y buasai ei nerth yn dychwelyd, ac iau y Caldeaid yn cael ei hysgwyd ymaith: ond yn awr, deallodd y byddai iddi bara am ddeng mlynedd a thrigain (xxv. 12), nes y byddai efe a'r holl genhedlaeth hono wedi eu claddu. Ac nid ar Iudah yn unig yr oedd brenin Babilon i gyflawni barnau Iehofah: ond ar yr holl genhedloedd o fewn cylch adnabyddiaeth y prophwyd, rhaid oedd iddynt yfed o "Phiol gwin ei ddigofaint ef;" xxv. 15—38. Yn absennoldeb dyddiad neillduol digwyddiadau ereill yn nheyrnasiad Iehoiacim, fe allwn ddwyn ynghyd i un darlun rai o linellau mwyaf nodedig y cyfnod hwn o fywyd Ieremiah. Fel yr oedd y perygl oddi wrth y Caldeaid yn dyfod yn fwy bygythiol, cynnyddai yr erledigaeth arno, suddai ei feddyliau yntau i fwy o ofid ac anobaith. Ceisiai y bobl am ei fywyd. Parai hyny iddo ddyrchafu ei lef at Dduw mewn gweddi am arbediad iddo ei hun a dial ar ei wrthwynebwyr. Taflai ffeithiau cyffredin bywyd oleuni iddo ar wirioneddau oeddynt yn newyddion iddo, ac yn rhyfeddol yn ei olwg; oddi wrth waith y crochenydd yn ceisio cynnyrchu gwaith perffaith, ac yn ymwrthod â llestri ammherffaith, sylfaenodd ddammeg ar ymddygiadau Duw tuag at Israel a'r byd: xxiii. 1—6 [Maurice, *Prophets and Kings*, c. c.] Yn fuan, fe alwodd sylw at y drychfeddwl hwnw mewn gweithred yn gystal ag mewn gair. Safodd yn nyffryn mab Hinnom, a thorodd y llestr pridd oedd yn ei law, a phrophwydodd i'r bobl yr halogid yr holl ddinas a chyrph meirw y preswylwyr, fel yr halogwyd y dyffryn, o fewn eu cof hwynt, gan Iosiah: xix. 10—13. Parodd hyfder y brophwydoliaeth hon i gospedigaeth ddisgyn arno yn ddiattreg. "Tarawodd" Pasur yr offeiriad ef, a rhoddodd ef "yn y carchar" (xx. 2); ac yna yr ymaflwyd ynddo —fel y digwydd yn fynych mewn adegau o ofid—gan syniad o wendid a methiant. Ymddangosai gwaith cenhadon Duw iddo yn rhy ofnadwy i'w dwyn: braidd nad ewyllysiai ymneillduo o'r gwaith: xx. 9. Mabwysiadodd iddo ei hun alarnad Iob, pan yn nyfnderoedd ei ing a'i ofidiau: xx. 14—18. Ni chafwyd cyfnewidiad er gwell yn y blynyddoedd a ddilynodd. Chwanegodd sychder a newyn at drueni y bobl (xiv. 1), ond yr oedd gau brophwydi yn eu twyllo trwy sicrhau iddynt gyflawnder a llwyddiant; ac edrychid ar Ieremiah gyda chasineb fel un yn prophwydo "drwg," ac yn ol ei dystiolaeth ef ei hun, "melldithiai pawb" ef: xv. 10. Gwnaed ef, modd bynag, "yn fagwyr efydd gadarn" (xv. 20), ac aeth yn mlaen â'i waith, gan geryddu brenhinoedd, pendefigion, a phobl, am lawer o bechodau, ond yn arbenigol am halogiad y Sabbath (xvii. 19—27), am y parchedigaeth dall a dalent i'r deml, a'r ymddiried a roddent ynddi, hyd yn oed pan yn addoli brenhines y nefoedd yn heolydd Ieruselem: vii. 14, 18. Fel o'r blaen, felly yn awr, yr oedd a fyno ei brophwydoliaethau â gwledydd ereill; ni chaent hwy lawenychu yn nghwymp Iudah, ond cyfranogi ynddo. Yr oeddynt oll i gael eu llyngcu i fyny yn ymherodraeth y Caldeaid: xlviii.—xlix. Pe na buasai dim y tu draw i hyn, dim gobaith i Israel na'r byd, ond mewn ymherodraeth gyffredinol wedi

Digitized by Google

ei sylfaenu ar nerth y cleddyf, buasai y rhagolygon yn orthrechol ac anobeithiol; ond trwy y tywyllwch, pelydrai gwawr gobaith gwynfydedig. Pan yr elai heibio y deng mlynedd a thrigain, disgwylid adferiad mor ryfeddol a gogoneddus a'r adferiad o'r Aipht: xxxiii. 7. Yn y dyfodol pell, ceid golwg ar deyrnas adnewyddol; a "blaguryn cyfiawn" o dŷ Dafydd, "yn gwneuthur barn a chyfiawnder," ac Israel a Iudah yn trigo mewn diogelwch, wedi eu huno unwaith yn rhagor o dan faner "Yr Arglwydd ein Cyfiawnder;" xxiii. 5, 6.

Y mae yn ammheus pa mor bell y gellir ymwneyd â'r hanes rhyfedd sydd yn *pen.* xiii., fel ffaith yn mywyd Ieremiah. Gwrthoda Ewald y darlleniad *Euphrates* o gwbl (*Prophetem des* A. B., *in loc*); tybia Hitzig a Bochart y dylid darllen Ephratah. Edrychir ar yr hanes gan y mwyafrif o esbonwyr diweddar fel arwyddluniol yn unig. A golygu (gyda Calmet a Henderson, a'r esbonwyr cyntefig) yma, fel yn xix. 1, 10; xxvii. 2; *Esa.* xx. 2, fod yr arwyddluniau, pa mor ddieithr a rhyfedd bynag y gallant ymddangos, yn weithredoedd, ac nid gweledigaethau, y mae yn naturiol i ni ddyfalu iddo, trwy yr ymweliad hwn â gwlad y Caldeaid, ddyfod i gydnabyddiaeth â'r tywysogion a'r llywyddion hyny a fuant wedi hyn yn noddwyr caredig iddo. Pa fodd bynag, ymddengys fod y gorchymyn caredig a roddodd Nebuchodonozor yn ei ffafr (xxxix. 11) yn lled arwyddo gwybodaeth flaenorol am dano.

(4.) O dan Ioachim, c. c. 597. Agoshaodd y perygl y bu Ieremiah am dymmor mor faith yn ei ragfynegu. Cymmerwyd Iehoiacim yn gyntaf, ac wedi hyny ei olynydd, i alltudiaeth, a chyda hwynt bawb oedd yn cyfansoddi teilyngdod a gwerth y genedl—tywysogion, rhyfelwyr, a chrefftwyr: 2 *Bren.* xxiv. Yn eu mysg hefyd yr oedd rhai o'r gau-brophwydi a fu yn calonogi y bobl trwy ddal allan obaith am adferiad buan iddynt, y rhai ni allent er pob peth roddi i fyny eu hyder twyllodrus. Am waith y prophwyd yn ystod y teyrnasiad byr hwn, ni feddwn ond y cofnodion a geir yn *pen.* xxii. 24—30. Ni allwn gasglu, pa fodd bynag, oddi wrth iaith ei brophwydoliaethau diweddarach, yr edrychai gyda gofid a chydymdeimlad ar dynged ei genedl yn Babilon; a bod cyflawniad yr oll a orchymynwyd iddo ddywedyd yn ei wneyd yn gryfach nag erioed yn ei wrthwynebiad i bob cynllun i geisio ymgodi mewn gwrthryfel a chyrhaedd annibyniaeth.

(5.) O dan Sedeciah, c. c. 597—586. Yn y tywysog hwn (a appwyntiwyd, y mae yn debyg, gan Nebuchodonozor), ni welir y fath wrthwynebrwydd anhyblyg i gynghorion y prophwyd ag yn Iehoiacim. Parchai ef, ofnai ef, a cheisiai ei gynghor; ond nid oedd ond cysgod o frenin, ni feddai allu i wrthsefyll ymosodiadau ei gynghorwyr ei hun; ac yn ei deyrnasiad ef, o ganlyniad, yr oedd dioddefiadau Ieremiah yn chwerwach nag o'r blaen. Dygid yn mlaen yr ymrysonfa â'r gau-brophwydi. Pa ddyfnaf y suddai eu gwlad i drueni ac anobaith, mwyaf hyf a beiddgar oedd eu rhagfynegiadau hwythau am waredigaeth fuan iddi. Rhwng y fath ddynion, yn byw yn wastad yn y presennol, a'r gwir brophwyd, yn rhodio mewn ffydd yn nyfodol anweledig teyrnas gyfiawn (xxiii. 5, 6), nis gallai fod ond gelyniaeth marwol. Canfyddai yn eglur nad oedd ond gweddillion mwyaf diwerth y genedl wedi eu gadael yn Iudah (xxiv. 5—8), a chondemniai dwyll y rhai a gyhoeddent heddwch. Ei gynghor i'r rhai a alltudiwyd (a gyfiwynwyd trwy lythyr, yr hwn, o holl ranau yr Hen Destament, sydd yn dyfod agosaf o ran ffurf a chymmeriad i lythyrau y Testament Newydd) oedd ar iddynt ymostwng i'w tynged, parotoi eu meddyliau ar gyfer caethiwed maith, a disgwyl yn dawel am lwyr waredigaeth. Yn y gobaith hwn, cafodd y prophwyd gymmaint o gysur iddo ei hun ag a wnaeth ei gwsg yn "felus" iddo, yn nghanol ei lafur a chynhen ei elynion (xxxi. 26). Ond hyd yn oed yn Babilon, pa fodd bynag, gwrthwynebid ef gan y gau-brophwydi, a siaradent am dano fel "gŵr gorphwyllog" (xxix. 26), a chymmhellent offeiriaid Ierusalem i'w erlid yn fwy. O'r diwedd, fe ddaeth y prawf mawr arno. Ymddangosai y brenin ar y cyntaf fel yn foddlawn cymmeryd ei arwain gan y prophwyd, ac anfonodd ato i geisio ganddo eiriol drostynt (xxxvii. 3); ond effeithiodd adfywiad gallu yr Aipht o dan Apries (Pharaoh-Hophra) i greu gobeithion twyllodrus, yr hyn a barodd iddo ef a'r tywysogion cymmydogaethol ffurfio cynlluniau gwrthryfelgar. Yr oedd yr eglurdeb â pha un y rhagfynegodd Ieremiah gwymp ymherodraeth Babilon yn y diwedd, mewn llythyr a anfonodd at y rhai oeddynt wedi eu halltudio i'r ddinas hono gyda'i ddisgybl Baruch, fab Seraiah (gwel *pen.* l. a li.), yn peri iddo ef deimlo yn hollol sicr nad oedd amser ei chwymp etto wedi dyfod, ac na ddeuai chwaith trwy ddwylaw yr Aiphtiaid. Fe ymddangosodd yn heolydd y ddinas, â rhwymau a gefynau am ei wddf (xxvii. 2), [gan roddi ar ddeall eu bod wedi eu bwriadu ar gyfer Iudah a'i chynghreirwyr. Cafodd y gau-brophwyd Hananiah, yr hwn a gymmerodd yr arwyddlun adgas, ac a'i torodd (xxviii. 10), ac a ragfynegodd ddinystr y Caldeaid o fewn ysbaid dwy flynedd (xxxviii. 3), weled fod "gefynau o haiarn" wedi eu gosod ar yddfau y cenhedloedd, a bu yntau ei hunan farw tra yr ydoedd yn gwasgu yn drwm ar Iudah: *Ier.* xxviii. 16, 17. Gwnaeth dynesiad byddin Aiphtaidd, pa fodd bynag, ac ymadawiad y Caldeaid mewn canlyniad i hyny, sefyllfa Ieremiah yn un dra pheryglus. Ceisiodd yntau ddiangc o ddinas, fel yr ymddengys, nas gallai wneyd dim llawer mwy o les ynddi, a ffoi i'w dref ei hun, Anathoth, neu ei chymmydogaeth, am noddfa a diogelwch (xxxvii. 12). Ar ddarganfyddiad y cynllun hwn, dygwyd yn ei erbyn y cyhuddiad o enciliad; tybiwyd ei fod yntau hefyd yn "cilio at y Caldeaid," fel yr oedd ereill yn gwneyd (xxxviii. 19); ac er gwaethaf ei wadiad o hyn, taflwyd ef i'r dacardy (xxxvii. 16). Trwy gyfryngwriaeth y brenin, yr hwn a'i parchai ac a ymgynghorai âg ef, ysgafnhawyd ychydig ar lymder ei garchariad (xxxvii. 21); ond am na ddarfu hyn ei luddias i siarad â'r bobl, penderfynodd tywysogion Iudah—y rhai oeddynt yn awyddus am ymgynghreirio â'r Aipht, ac a ystyrient nad oedd y brenin yn ddigon cryf i'w gwrthwynebu hwy (xxxiii. 5)—gan hyny, gollyngwyd ef i waelod y dacardy, i ganol tom a llaid, i farw yno. O'r dynged ofnadwy hon, fe'i gwaredwyd drachefn, gan eunuch Ethiopaidd, o'r enw Ebedmelech, a'r parch a deimlai y brenin tuag ato; ac adferwyd ef i gyntedd y carchardy—y man y cedwid ef yn flaenorol—a lle, fel yr ymddengys (xxxii. 16) y cafodd gymdeithas a chwmni Baruch. Yn ei gyfyngder, ymgynghorodd Sedeciah yn ddirgelaidd âg ef unwaith yn rhagor (xxxviii. 14); ond y tro hwn hefyd, fe'i sicrhawyd mai methiant llwyr a ddilynai gwrthwynebu awdurdod y Caldeaid. Yr un cynghor a roddwyd yn

fwy cyhoeddus pan anfonodd y brenin Pasur (nid yr hwn y cyfeiriwyd ato o'r blaen) a Sephaniah—yr hwn oedd yn gyfeillgar, fel yr ymddengys, yn flaenorol i Ieremiah, o leiaf nid oedd yn wrthwynebwr iddo (xxix. 29)—i ymgynghori âg ef. Er mor aneffeithiol ydoedd y cynghor, fe allwn olrhain, yn yr iaith dyner a ddefnyddir yn *Ier.* xxxiv. 5, un o ganlyniadau caredigrwydd y brenin; er fod alltudiaeth yn anocheladwy, rhoddwyd ar ddeall iddo y byddai "farw mewn heddwch." Llanwodd ail ddychweliad y fyddin Galdeaidd y brenin a'r bobl â'r dychryn mwyaf (xxxii. 1); a'r tebygolrwydd yn awr ydoedd y byddai iddynt golli eu hymddiried rhyfygus, a myned i'r eithafion gwrthgyferbyniol, a suddo mewn anobaith, heb ffydd yn Nuw, na gobaith am y dyfodol. Dysgwyd y prophwyd pa fodd i gyfarfod y perygl hwnw hefyd. Yn ei garchar, tra yr oedd y Caldeaid yn anrheithio y wlad, fe brynodd faes yn Anathoth, yr hwn a werthid gan ei ewythr Hanameel; ac wrth ei werthu, aed trwy yr holl ffurfiau arferol ar y fath achlysuron (xxxii. 6—9). Ni ddiffygiodd ei ffydd yn addewidion Duw. Gydag ymddiried yn ngogoniant a llwyddiant dyfodol ei wlad, yr hwn a gymmharwyd (*Nägelsbash*, *l. c.*) âg eiddo y Rhufeinwr hwnw a bwrcasodd am ei lawn werth y tir ag yr oedd byddin Hannibal ar y pryd yn gwersyllu arno (*Lef.* xxxvi. 11), credai nid yn unig "y meddiennid tai, a meusydd, a gwinllanoedd etto yn y wlad" (xxxii. 15), ond y clywid "llef gorfoledd" a "llef llawenydd" ynddi (xxxiii. 11), ac o dan yr ARGLWYDD EIN CYFIAWNDER.... Ni phallai i dŷ Dafydd, i'r offeiriaid, a'r Lefiaid.... ger bron Duw yn dragywydd: *pen.* xxxiii. 15—18. O'r diwedd, disgynodd y dyrnod. Nid oedd eu hadnewyddiad o'r cyfammod cenhedlaethol (xxxiv. 19), na'r cyhoeddiad o ryddid i bawb oedd mewn caethiwed, yn tycio dim. Yr oedd hunanolrwydd y pendefigion hyd yn oed yn gryfach na'u hofnau, a gosodwyd y prophwyd—yr hwn o'r blaen a'u ceryddodd am eu halogiad o'r Sabbath—yn awr dan angenrheidrwydd i'w condemnio am ddianrhydeddu y flwyddyn Sabbathol (xxxiv. 14). Cymmerwyd y ddinas, a llosgwyd y deml. Cyfranogodd y brenin a'i dywysogion o dynged Iehoiacim. A rhoddodd y prophwyd amlygiad i'w ofid yn ei *Alarnad*.

(6.) Ar ol cymmeriad Ierusalem, c.c. 586. Ymddangosai rhagolygon y blaid Galdeaidd yn Iudah yn awr yn rhagorol. Nis gallai Nebuchodonozor beidio gwobrwyo y rhai, yn nghanol anfanteision a chaledi, a'u gwasanaethodd yn ffyddlawn. Gan hyny, gwelwn fod gorchymyn arbenig wedi ei roddi i Nebuzaradan (xxxix. 11) i amddiffyn person Ieremiah; ac wedi ei ddwyn mor bell a Ramah gyda'r lliaws caethion, fe'i gollyngwyd ef yn rhydd, a gwnaed Gedaliah, mab ei gyfaill ffyddlawn Ahicam, yn llywodraethwr dros ddinasoedd Iudah. Amlygwyd teimlad y Caldeaid tuag ato yn gryfach drachefn drwy y cynnygiad a osodwyd o'i flaen gan Nebuzaradan (xl. 4, 5). Gadawyd iddo ef benderfynu pa un ai myned i Babilon, a chael byw yno dan amddiffyniad neillduol y brenin, ai aros yn ei wlad ei hun gyda Gedaliah a'r gweddill dros y rhai y llywodraethai. Pa beth bynag a allasai ei gymmhell—ai cydymdeimlad â dioddefiadau, a gofidiau y bobl, ai ymlyniad wrth wlad ei enedigaeth, neu ddymuniad i gynnorthwyo ei gyfaill—dewisodd y prophwyd y diweddaf, a rhoddodd y penaeth Caldeaidd iddo "rodd, ac a'i gollyngodd ef ymaith." Am ysbaid byr, cafwyd heddwch (xl 9—12), yr hwn a dorwyd yn fuan, modd bynag, trwy lofruddiaeth Gedaliah gan Ismael a'i gymdeithion. Gadewir ni i ddyfalu pa fodd y diangodd y prophwyd rhag bradwriaeth a fwriedid i gynnwys holl ddilynwyr Gedaliah. Y mae manylrwydd hanes y fradwriaeth, fel ei cofnodir yn *Ier.* xli., yn ein tueddu i gredu ei fod yn mysg y carcharorion a gymmerwyd gan Ismael at yr Ammoniaid, ond a ryddhawyd gan Iohanan yn fuan wedi hyny. Torwyd un o gyfeillion Ieremiah oddi wrtho, ond yr oedd Baruch gydag ef; a throes y bobl, y rhai oeddynt o dan Iohanan, yr hwn a gymmerasai y flaenoriaeth ar farwolaeth Gedaliah, ato am hyfforddiant ac arweiniad. "Llofruddiwyd y penaeth a appwyntiwyd gan y Caldeaid. Ai ni ddisgynai eu digofaint ar yr holl bobl? A oedd diogelwch yn rhywle i'w gael, heb law mewn troi eu hwynebau tua'r Aipht am ymwared, tra y gallent wneyd hyny?" Ni fynent gredu y caent heddwch a llwyddiant yn eu gwlad (xlii. 14); anghredent yr hyn a ddywedai y prophwyd, a diystyrent ei rybuddion, a dygent yr hen gyhuddiad o fradwriaeth yn ei erbyn ef a Baruch: *Ier.* xliii. Dilynodd y bobl eu meddyliau a'u ffyrdd eu hunain; a rhag y buasai y ddau a ammheuent yn eu bradychu ac yn gwrthweithio yn eu herbyn—cymmerasant hwynt trwy drais i'r Aipht. Ac yno, yn ninas Taphanes, y cawn y gipdrem glir olaf ar fywyd y prophwyd. Y mae ei eiriau yno yn gryfach ac yn fwy miniog nag erioed. Ni phetrusai, hyd yn oed yno, i siarad am frenin Caldea fel "Gwas yr Iehofah" (xliii. 10). Cyhoeddai y byddai iddynt weled gorsedd y gorchfygwr wedi ei gosod i fyny yn y lle a ddewiswyd ganddynt fel eu noddfa ddiogelaf. Ni gawn, yn *Ier.* xliv., ei wrthdystiad diweddaf yn erbyn eilunaddoliaeth, o'r hyn yr oeddynt hwy a'u tadau wedi bod yn euog; a'r pryd hwnw, a adnewyddid yn eu mysg. Wedi hyn, y mae pob peth yn ansicr o berthynas iddo. Pe gellid sicrhau fod *Ier.* lii. 31, wedi ei hysgrifenu gan Ieremiah ei hunan, dangosai hyny iddo fyw i fyned yn hen iawn, ond y mae hyn braidd yn ammheus; gan hyny, gadewir i ni dynu casgliad oddi wrth amgylchiadau ereill. Ar un llaw y mae traddodiad Cristionogol, wedi ei sylfaenu yn ddiammheuol ar grediniaeth foreuach, yn dyweyd [*Tertull. adr. Gnost. pen.* 8; *Hieron. adr. Jovin.* ii. 37], fod gofidiau mawrion ei fywyd maith wedi terfynu mewn merthyrdod, ac i'r Iuddewon yn Tapanhes, wedi eu cythruddo gan ei geryddon llymion, ei labyddio â meini nes y bu farw. Y mae y mwyafrif o esbonwyr y Testament Newydd yn tybied fod cyfeiriad at hyny yn *Heb.* xi. 27. Fe ddywed traddodiad Alexandriaidd i esgyrn y prophwyd gael eu dwyn i'r ddinas hono gan Alexander Fawr [*Chron. Pasch.* td. 156, arg. Dindorf]. Yn nechreuad y ganrif ddiweddaf, mynegid i deithwyr nad oedd neb yn gwybod am y llanerch pennodol yn mha un y claddwyd ef yn Ghizeh [Lucas, *Travels in the Levant*, td. 28]. Ar yr ochr arall, y mae traddodiad Iuddewig yn mynegi, pan orchfygwyd yr Aipht gan Nebuchodonosor, iddo ef a Baruch ffoi i Babilon neu Iudea [Genebrard, *Chronol. Heb.* 1608; R. Solomon Jarchi, *on Ier.* xliv. 14], a marw mewn heddwch. Y mae Josephus yn hollol ddistaw gyda golwg ar ei dynged, ond gwna gyfeiriad cyffredinol a dywed fod yr Iuddewon a gawsant noddfa yn yr Aipht yn y diwedd wedi eu cymmeryd i Babilon yn garcharorion [*Hyn.* x. 9]. Nid ydyw yn ammhossibl, pa fodd bynag, fod y traddodiad Iuddewig a

distawrwydd Josephus hefyd wedi eu hachosi gan ddymuniad i guddio gwrthuni trosedd mawr, a bod y cynnygiad a wnaed gan Nebuzaradan [*Hyn.* xl. 4] wedi achlysuro iddynt wneuthur yr hacriad hwn. Fel y mae, diau fod y tywyllwch a'r ammheuaeth sydd yn orchuddiedig dros y rhan ddiweddaf o fywyd y prophwyd, yn fwy arwyddocaol nag un o'r ddau ddiwedd ag y mae dychymmyg dynol wedi eu priodoli i'w yrfa ddaearol. Nid oedd raid iddo ef gael ei roddi i farwolaeth trwy drais er ei wneyd yn ferthyr gwirioneddol. Yr oedd marw, heb neb yn cofnodi yr amser na'r dull y bu farw, yn derfyniad priodol i fywyd un oedd wedi llefaru ar hyd ei oes, nid i sicrhau mawl a chymmeradwyaeth dynion, ond am fod gair yr Arglwydd yn ei "galon yn llosgi fel tân" (xx. 9). Oni ellir yn rhesymol dyfalu fod y distawrwydd yn ddyledus i'r prophwyd ei hunan? Os credwn ni fod Baruch, yr hwn oedd gyda Ieremiah yn yr Aipht, wedi byw ar ei ol ef, a bod ganddo ran mewn casglu ac arolygu ei brophwydoliaethau, ymddengys yn anhawdd rhoddi cyfrif am adael allan ffeithiau mor ddyddorol—amseriad, lle, a dull marwolaeth y prophwyd—ond ar y dybiaeth fod ei wefusau wedi eu selio gan orchymynion yr athraw a ddysgodd iddo, drwy esamplau yn gystal a thrwy eiriau, nad oedd yn ceisio "mawredd" iddo ei hun.

Y mae traddodiadau ereill yn gyssylltiedig âg enw Ieremiah, y rhai, er nad ydynt yn taflu goleuni ar ei hanes, sydd yn ddyddorol, yn gymmaint a'u bod yn amlygu yr argraph a wnaed gan ei fywyd a'i lafur ar genhedlaethau diweddarach. Fel yr oedd y gaethglud yn myned yn mlaen, daeth y brophwydoliaeth am ddeng mlynedd a thrigain, yn lle bod fel yr oedd ar y cyntaf yn creu cymmaint o arswyd, yn sylfaen gobaith: *Dan.* x. 2; 2 *Cron.* xxxvi. 21; *Ezra* i. 1. Ar ddychweliad y genedl o Babilon, casglwyd yn nghyd ei brophwydoliaethau, a derbyniwyd hwy i'r canon, a chyflewyd hwynt yn ail yn mhlith prophwydi mawr Israel. Mewn trefniad a ddilynir gan rai o'r hen ysgrifenwyr Iuddewig [Walff, *Bibl. Hebr.* ii. 148], iddo ef, ac nid i Esaiah, y rhoddir y lle blaenaf. Y mae y dywediad Iuddewig, "fod ysbryd Ieremiah yn preswylio wedi hyny yn Zechariah" [Grotius, ar *Mat.* xxvii. 9], yn arwyddo mor fawr yr oedd meddwl y naill wedi ei ddylanwadu gan addysgiaeth y llall. Arweiniodd cyflawniad ei ragfynegiadau am adferiad cenhedlaethol ddynion i edrych arno, a meddwl am dano, nid fel un yn prophwydo drwg yn unig, ond yn gwylio dros ei gydwladwyr, ac yn eiriol ar eu rhan. Yn anad un o'r prophwydi, edrychid arno fel sant noddawl Iudea. Efe a guddiodd y babell a'r arch, a phrif drysorau y deml, yn un o ogofeydd mynydd Sinai, hyd ddydd adferiad y genedl: 2 *Mac.* ii. 1—8. Yn ngweledigaeth Iudas y Maccabead, ymddangosai yn "ŵr penllwyd, yn rhagori mewn gogoniant, yr hwn oedd o ryfeddol fawredd;" "yn hoff ganddo y brodyr, ac yn gweddïo llawer dros y bobl a'r ddinas sanctaidd;" o law yr hwn y derbyniodd yr arwr y cleddyf aur, fel rhodd Duw: 2 *Mac.* xv. 13—16. Mewn cyfnod diweddarach, priodolid prophwydoliaeth iddo, gwirioneddol neu ammheus, ag yr oedd enw y gwir awdwr wedi ei anghofio [*Hieron, on Mat.* xxvii. 9; *Grot. in Eph.* v. 14]. Hyd yn oed yn nyddiau gweinidogaeth ein Harglwydd Iesu Grist, yr oedd crediniaeth yn ffynu (yn gorphwys, mewn rhan, fe ddichon, fel yr oedd yn ei berthynas âg Elias, ar y dirgelwch oedd yn gorchuddio amser a dull ei farwolaeth), nad oedd ei waith wedi ei orphen. Dywedai rhai am yr Iesu mai "Ieremias, neu un o'r prophwydi" ydoedd: *Mat.* xvi. 14. Myn llawer o esbonwyr mai efe oedd y prophwyd a ddisgwyliai y bobl: *Ioan* i. 21. Y mae y grediniaeth mai ynddo ef y cyflawnwyd y brophwydoliaeth yn *Deut.* xviii. 18; yn cael ei dal gan ddeonglwyr Iuddewig diweddar [*Abarbanel in Carpov*, n. c. Yr oedd traddodiadau am dano yn parhau hyd yn oed yn yr eglwys Gristionogol, ac ymddangosent yn y syniad nad oedd erioed wedi marw mewn gwirionedd, ond y byddai iddo ddychwelyd o baradwys ryw ddiwrnod fel un o'r "ddau dyst" y sonir am danynt yn Llyfr y Datguddiad [Victorinus, *Comm. in Apoc.* xi. 13. Y mae y chwedlau Aiphtaidd am dano yn hynotach drachefn. Yn ol y rhai hyn, efe a ragfynegodd i offeiriaid yr Aipht y byddai eu delwau rywbryd yn cwympo i'r llawr yn mhresennoldeb y forwyn a enid [*Epiph. de Vit. Proph. Opp.* ii. td. 239]. Mynegid iddo waredu un dosbarth o lanau y Nilus, oddi wrth y crocodile a'r wiber, ac hyd yn oed yn y bedwaredd ganrif o'r cyfrifiad Cristionogol, edrychid ar lwch yr ardal hono fel meddyginiaeth rhag eu brathiadau. Yn ol traddodiad arall, efe a ddychwelodd o'r Aipht i Ierusalem, a bu fyw yno am dri chant o flynyddau [D. Herbelit, *Bibliath. Orient.* td. 499]. Trefnwyd hanes ei ddioddefiadau yn yr Hen Destament, a llanwyd hwy i fyny â digwyddiadau cyffredin merthyrdod Cristionogol [Eupolem, Polyhist, *in Euseb. Praep. Evang*, ix. 39].

II. *Cymmeriad ac arddull.*—Fe welir oddi wrth yr hanes hwn, fod dioddefiadau llymach wedi digwydd i ran Ieremiah nag un o'r prophwydi blaenorol. Nid yn unig dioddefai efe yn bersonol, a dioddefai ei wlad, y trueni ag yr oedd ereill wedi ei ragweled o bell, nid yn unig goddefai fywyd o erledigaeth, tra yr oeddynt hwy yn gwybod beth oedd mwynhau tawelwch, ac yn cael eu hanrhydeddu, eu parchu, a'u gwrandaw; ond yn chwanegol at bob gwahaniaethau yn yr amgylchiadau allanol, yr oedd ar ei ben ei hun o ran cymmeriad personol. Yn mhob tudalen o'i brophwydoliaethau ni a ganfyddwn arwyddion o dynmeredd, yr hon, tra nad ydoedd yn peri iddo gilio yn ol rhag cyflawni gwaith Duw, pa mor boenus bynag a fyddai, etto, parai fod y cyflawniad o hono yn gwneyd y boen o hyny yn annhraethol fwy llym, a rhoddai i'w holl gymmeriad argraph fwy dwfn a pharhaol o'r prudd-der hwnw a'i nodweddai mor amlwg. Yr oedd efe mewn modd arbenig yn "ŵr a welodd flinder" [*Galar.* iii. 1]. Nid oedd gofid fel ei ofid ef: *Galar.* i. 12. Gwelodd ei obeithion am ddiwygiad a gwaredigaeth wladwriaethol, un ar ol un, yn diflanu o'i olwg. Fel Cassandra, ymddangosodd i brophwydo drwg, i daflu i'r llawr y gobeithion twyllodrus yn y rhai yr ymddiriedai y bobl. Anfonwyd prophwydi ereill—Samuel, Elias, ac Esaiah—i gynnhyrfu y bobl i wrthsafiad. Ond daeth Ieremiah i benderfyniad, er mor chwerw ydoedd, fod diogelwch ei gydgenedl yn gorphwys mewn gwneyd derbyniad o'r teleran hyny a ystyrient hwy yr anffawd a'r drwg mwyaf; ac mewn canlyniad i hyn, dygwyd yn ei erbyn y cyhuddiad anghyfiawn o fradwr ac enciliwr. Oni b'ai fod ei ymddiried yn Nuw Israel, a'i obaith am weled dyfodol gwell yn dyfod o'r holl gymmysgfa a'r tywyllwch hwn, pallasai ei galon o'i fewn. Ond y mae ei weledigaeth ar hyn yn glir a disglaer, a rhydd iddo, agos mor briodol ag i

Digitized by Google

Esaiah, y cymmeriad o brophwyd efengylaidd. Y mae efe, nid yn unig yn Israeliad, yn edrych yn mlaen am waredigaeth genhedlaethol, ond yn nghanol y gwaeau a gyhoedda uwchben cenhedloedd cymmydogaethol, y mae ganddo obeithion ac addewidion iddynt hwythau hefyd: *Ier.* xlviii. 47; xlix. 6, 39. Edrycha yn mlaen, ac yn yr ysbryd, gwel drwy y tywyllwch ystormus wawr boreu gogoneddus, disglaer, tragwyddol. Gwel, os oes rhyw obaith am iachawdwriaeth i'w bobl ef ei hun, nas gall fod trwy ddychwelyd at yr hen drefn a'r hen ordinhadau, er eu bod unwaith o appwyntiad dwyfol: *Ier.* xxxi. 31. Y mae yn rhaid cael cyfammod newydd. Ymddengys y gair yna, sydd mor arwyddocaol i'r holl oesoedd dyfodol, am y waith gyntaf yn ei brophwydoliaethau ef. Rhaid i'r perthynasau rhwng y bobl ac Arglwydd Israel, rhwng dynolryw a Duw, orphwys, nid ar gyfraith allanol, ynghyd â'i gofynion am ufudd-dod; ond ar gymmundeb âg ef, ac ymwybodolrwydd llawn o lwyr ddibyniaeth arno. I hyn oll, gwelai yn eglur fod yn rhaid cael rhyw ganolbwynt personol. Nis gallasai teyrnas Dduw gael ei harddangos ond trwy ddyn perffaith gyfiawn, yn llywodraethu dros ddynion ar y ddaear. Nid breuddwydion gwag am amseroedd gwell yn y dyfodol ydoedd gobeithion y prophwyd. Ond ymgasglent o amgylch person Crist fel y gwir a'r hanfodol Fessiah.

Mewn llawer o hyn i gyd—yn eu cymmeriad personol, yn eu gofidiau, yn yr olwg a gymmerent ar gwestiynau mawr eu hamseroedd—y mae tebygolrwydd, sydd ar unwaith yn arwyddocaol a dyddorol, rhwng prophwyd Anathoth ag awdwr y *Divina Commedia.* Yr hyn ydoedd yr Aipht a Babilon i deyrnas Iudah, dyna oedd Ffraingc a'r ymherodraeth i weriniaeth Florence. Yr oedd Dante, fel Ieremiah, yn gweled ei hun wedi ei amgylchynu gan ddrygau, heb allu i wneuthur dim yn eu herbyn ond gwrthdystiad ag y gwyddai nas gallai effeithio fawr o wellhad. A'r prif oruchwylwyr yn cynnyrchu y drygau hyn oedd athrawon awdurdodedig y grefydd a broffesai. Cyssylltai ei obeithion am weled pethau yn cael eu hadfer i well trefn, a'u gwaith yn cydnabod uchafiaeth gallu, ag yr oedd y mwyafrif o'i gydwladwyr yn edrych arno gyda'r atgasrwydd mwyaf. Bu yntau mewn alltudiaeth blinderus am dymmor maith, yn cael ei sirioli a'i loni yn awr ac eilwaith gan gydymdeimlad cyfeillion ffyddlawn. Ynddo ef, fel yn y prophwyd, fe gawn—wedi ei uno, mae yn wir, gyda mwy o nerth a gerwindeb—y parodrwydd hwnw i deimlo yn ddwfn yn wyneb rhyw gamwri, a dengys ei hun weithiau mewn cŵyn galarus, bryd arall mewn ymadroddion chwerwon o edliwiaeth a sarhâd. Yn y ddau fe ganfyddir tuedd i ddewis meddylrith, nid yn gymmaint am ei fod yn brydferth neu yn oruchel, ond am yr hyn a gynawysa; ac ni phetrusent hyd yn oed i wneuthur defnydd o'r hyn a ymddangosai yn ysgafn a digrif, gan orchuddio ei ystyr rai gweithiau â chyfeiriadau tywyll a dammegol. Cynnaliwyd y ddau drwy eu holl drallodion gan eu ffydd gref yn yr anweledig—gan eu crediniaeth yn y cyfiawnder tragwyddol a amlyga ei hun ryw ddiwrnod, ac a orchfyga.

Y mae cyferbyniad uwch, pa fodd bynag, yn cyflwyno ei hun i'n sylw. Yr oedd bywyd y prophwyd mewn modd neillduol yn gysgod o fywyd ein Harglwydd Iesu Grist. Yn y ddau, y mae yr ymwybodolrwydd o'u cenhadwriaeth ddwyfol yn ymddangos yn foreu (*Luc* ii. 49). Anfonwyd y prophwyd o Anathoth gan erledigaeth y bobl; cyfododd gwŷr Nazareth hefyd yn erbyn yr Iesu, a bwriasant ef allan o'r ddinas (*Luc* iv. 29). Gellir edrych ar geryddon llym Ieremiah i'r offeiriaid a'r prophwydi yn rhagarwyddo y gwaeau a gyhoeddwyd uwch ben yr ysgrifenyddion a'r Phariseaid (*Mat.* xxiii). Yr oedd ei alarnadau am ofidiau dyfodol ei wlad yn cyfatteb i'r dagrau a dywalltwyd dros y ddinas sanctaidd gan Fab y dyn. O holl lu y merthyron, ei ddioddefiadau ef a ddaeth agosaf at ddioddefiadau a gofidiau yr Athraw Mawr; ac yr oedd y tywysogion, yr offeiriaid, yr henuriaid, a'r bobl wedi cydymosod yn ei erbyn. Gwelodd yn fwy clir nag ereill y cyfammod newydd hwnw, ynghyd â'i holl roddion a'i fendithion ysbrydol a gyhoeddwyd ac a gadarnhawyd yn y farwolaeth ar y groes. Barna rhai mai Ieremiah ydoedd awdwr yr ail Salm ar hugain. Ar y dybiaeth yna, y mae y geiriau a ddefnyddiwyd gan ein Harglwydd yn ing y croeshoeliad yn cyfeirio at gyfattebiaeth ddyfnach drachefn.

Y mae cymmeriad y dyn wedi gosod ei argraph i raddau mwy neu lai ar iaith yr ysgrifenydd. Y mae beirniadaethau ar "arddull" prophwyd, mae yn wir, y rhan fynychaf, pa un bynag ai er mwyn canmawl ai beio, yn ymddangos braidd yn ddiffygiol mewn parchedigaeth. Nid llawer a ennillir genym trwy wybod yr ymddengys i un ysgrifenydd, "fod ymadroddion Ieremiah o'u cymmharu âg ymadroddion prophwydi ereill yn wledig, ond ar yr un pryd yn oruchel a dwfn" (Hieron, *Præf. in Jerem, Prooem in* c. L); fod un arall yn ei gymmharu ef i Simonides (Lowth, *Proel*, xxi); a'r trydydd i Cicero (Seb Schmidt); fod beirniaid mwy hyf yn canfod ynddo ddiffyg gwreiddiolder (Knabel, *Prophetismus*); "delweddau cysgodol o radd isel, a gweithredoedd cysgodol wedi eu trefnu yn anghelfydd" (Davidson, *Introd. to the Old Test.*, pen. xix). Pa fodd bynag, nyni a adawn y gwahanol farnau hyn, ac a ymofynwn yn mha ystyr yr oedd ffurf allanol ei ysgrifeniadau yn cyfatteb i'w fywyd, a ni a ganfyddwn rai nodweddion hynodol a'n cynnorthwyant ni i ddeall y naill a'r llall. Fel y gallesid disgwyl mewn un oedd yn byw yn nyddiau olaf y frenhiniaeth; ac yr oedd ganddo, gan hyny, weithiau y prophwydi boreuol i edrych yn ol arnynt, ni gawn ynddo adgofion o'r hyn a ysgrifenwyd ganddynt hwy, a arwydda yn amlwg y modd yr addysgwyd ei galon a'i ysbryd ef ei hun (cymmharer *Esa.* xl. 19, 20, â *Ier.* x. 3—5; *Salm* cxxxv. 7, â *Ier.* x. 13; *Salm* lxxix. 6, â *Ier.* x. 25; *Esa.* xlii. 16, â *Ier.* xxxi. 9; *Esa.* iv. 2, xi. 1, â *Ier.* xxxiii. 15; *Esa.* xv. â *Ier.* xlviii; *Esa.* xiii., xlvii., â *Ier.* l., li). Y mae arwyddion o ddylanwad llyfr y gyfraith a ddarganfyddwyd yn ei ddyddiau ef, ac yn arbenig *Deuteronomium*, yn ymddangos yn amlwg yn ei ysgrifeniadau ef, yn gystal ag yn yr eiddo ereill hefyd, a berthynent i'r cyfnod hwnw (cymmharer *Deut.* xxvii. 26, iv. 20, vii. 12, â *Ier.* xi. 3—5; *Deut.* xv. 12, â *Ier.* xxxiv. 14; *Exod.* xx. 6, â *Ier.* xxxii. 18; *Exod.* vi. 6, â *Ier.* xxxii. 21). Fe sylwir fod y cyferbyniadau a nodir yma ag sydd i'w cael mewn enghreifftiau ereill hefyd, y rhan fynychaf o lawer, nid yn ddyfyniadau llythyrenol, ond yn gyfryw ag oedd yn naturiol i un ag yr oedd ei iaith a'i ddull o feddwl wedi eu ffurfio gan efrydiaeth fanwl a gwastadol o'r llyfrau hyny a ddeuent ger ei fron, yn meddu ar awdurdod ddwyfol. Ynghyd â hyn, gellir dywedyd ei fod yn naturiol i'r hwn sydd yn llefaru o helaethrwydd ei galon,

Digitized by Google

i ail ddyweyd yn mron yn yr un geiriau y gwirioneddau mawrion hyny ar y rhai y gorphwysai ei enaid ef ei hun, ac at y rhai yr ymdrechai arwain eraill hefyd. Drwy ei holl ysgrifeniadau, ceir arwyddion o'i dymmeredd personol; rhoddir amlygiad llawnach o'r elfen alarnadol ganddo nag un arall o'r prophwydi, llai o nerth i ddal i fyny, a llai o drefn a gofal yn ngorpheniad ei frawddegau [De Wette, *Einleit*, adr. 217; Ewald, *Propheten*, ii. 1—11]. Y mae ymchwiliad manwl yn arwain i'r argyhoeddiad y gellir olrhain cynnydd y nodweddion hyn ynddo yn gyfattebol i liosogiad profedigaethau mawrion ei fywyd [*Ewald*, b. c.]. Dengys ei ysgrifeniadau boreuol dôn fwy tawel, goruchel, ac unffurf; tra y mae y rhai olaf yn dwyn arwyddion o henaint, blinder, a gofid: argoela yr iaith a ddefnyddia iddo ddioddef llawer o ofidiau personol. Yr oedd Ieremiah yn byw mewn amser pan yr oedd yr Hebraeg bur yn cael ei llygru yn feunyddiol, o herwydd ei bod yn dyfod i gydgyfarfyddiad â thafod-ieithoedd eraill cyffelyb iddi; a gwelir fod ei iaith yntau yn ddarostyngedig i'r dylanwad hwn a effeithiai i ryw raddau ar holl ysgrifenwyr yr amseroedd hyny. Mae yn llawn o'r ffurfiau Caldeaidd; a chynnwysa ei ysgrifeniadau lawer o eiriau nad ydynt i'w cael yn yr Hebraeg bur [Eichhorn, *Einleit. in das Old Test.* iii. 121].

Wrth gyssylltu enw Ieremiah âg awduriaeth unrhyw gyfran arall o'r Hen Destament, yr ydym yn myned allan o faes hanesyddiaeth i faes dychymmyg; ond y mae y ffaith fod Hitzig [*Com. über dei Psalm*], yn cael ei ddilyn mewn rhan gan Rödiger [Ersch und Gruber, *Encycl.*, *art. Jerem.*], yn priodoli dim llai na deg ar hugain o'r Salmau (sef v., vi., xiv., xxii—xli., lii—lv., lxix—lxxi.) i'w awduriaeth ef, o leiaf yn addysgiadol, mor bell ag yr arwyddai pa rai ydoedd yr hymnau hyny a berthynent i gyfnod boreuach, ag yr oedd ei ysbryd ef yn dal mwyaf o gyfrinach â hwynt, ac at y rhai y gallai efe, a dioddefwyr cyffelyb iddo, droi atynt, fel yn rhoddi yr amlygiad llawnaf o'u teimladau.

III. *Trefniad.*—Y mae absennoldeb amseryddiaeth rheolaidd yn ffurfiad presennol prophwydoliaethau Ieremiah yn amlwg ar yr olwg gyntaf; ac arweiniodd rai ysgrifenwyr [Blayney, *Pref. to Jeremiah*] i gredu nad ydyw y llyfr fel y mae yn awr ond cymmysgfa ddireol o brophwydoliaethau o wahanol gyfnodau. Gwnaed llawer ymgais i ail drefnu y llyfr yn amseryddol gan liaws sydd wedi bod yn ei esbonio; ac y mae ffrwyth llafur y beirniaid diweddar yn tueddu i gondemnio golygiad Blayney. Pa wahaniaethau bynag a ddichon fod yn ngolygiadau Movers, Hitzig, Ewald, Bunsen, Nägelsbach, ac eraill, o berthynas i'r llyfr hwn, y maent yn cyttuno i gydnabod fod rheol i'w ganfod yn nghanol yr afreoleidd-dra ymddangosiadol; ac ymdrechant i roddi cyfrif boddhaol am yr annhrefn tybiedig. Casgliad y tri diweddaf a enwyd ydyw, fod y llyfr genym ni yn sylweddol yn yr un sefyllfa ag y gadawyd ef gan y prophwyd, neu Baruch.

Ni a gyfyngwn ein hunain yn awr at y drefn Hebreaidd, yr hon a ddilynir yn y cyfieithiad awdurdodedig; ac wrth wneuthur hyny, ni a gawn ddau ddosbarthiad mawr:—

(1.) *Ier.* i—xlv. Prophwydoliaethau a gyhoeddwyd ar wahanol amserau, wedi eu cyfeirio yn benaf at Iudah, neu yn dal cyssylltiad â hanes personol Ieremiah.

(2.) *Ier.* xlvi—li. Prophwydoliaethau yn gyssylltiedig â chenhedloedd eraill.

*Ier.* lii., yr hon a gymmerwyd yn benaf, er nad yn llwyr, o 2 *Bren.* xxv. Gellir edrych arni naill ai fel attodiad i'w brophwydoliaeth, neu (fel y gwna Grotius a Lowth) yn rhagymadrodd i'r Galarnad.

Wrth edrych yn fanylach i'r dosbarthiadau hyn, ni a gawn yr adranau a ganlyn. Gwasanaetha yr hanes a geir yn xxxvi. 32, i egluro cynnydd y llyfr i'w ffurf bresennol; a rhydd gyfrif, am rai, o leiaf, o'r pethau hyny a ystyrir yn afreolaidd ynddo. Hyd y bedwaredd flwyddyn o deyrnasiad Iehoiacim, ymddengys nad oedd y prophwydoliaethau hyn wedi eu hysgrifenu; neu, os yn ysgrifenedig, nad oeddynt wedi eu casglu a'u cadw. Y pryd hwnw, ysgrifenwyd y cenadwriaethau mwyaf hynod a dderbyniodd efe oddi wrth yr Arglwydd o bryd i bryd, wrth orchymyn, ac yn ol hyfforddiad y prophwyd ei hun. Pan y distrywiwyd y llyfr, ysgrifenwyd un arall, a chwanegwyd ato brophwydoliaethau a hanesion fel y digwyddent. Nis gallwn gredu ail ysgrifenu y fath ysgrif, neu y fath gasgliad o mai y llawysgrif hon ydyw sylfaen y testyn presennol; ond y mae yn hawdd i ni ddeall, wrth ysgrifau, y gallai yr adysgrifwr deimlo awydd i wneyd yr hyn a ystyriai efe yn welliant, trwy drefnu yn wahanol i'r hyn ydoedd y trefniad gwreiddiol. Fel y mae, ni a ganfyddwn—trwy fabwysiadu dosbarthiad Bunsen [*Gott. in Geschichte*, i. 113] fel y mwyaf naturiol, a'r hwn sydd o ran sylwedd yn cyttuno âg Ewald—y casgliad canlynol o brophwydoliaethau—adranau gwahanol, pa rai a ddynodir â'r ymadrodd, "Yna y daeth gair yr Arglwydd at Ieremiah," mewn ffurf llawnach neu byrach.

1. *Ier.* i—xxi. Cynnwysa y pennodau hyn, mae yn debyg, sylwedd yr hyn oedd yn y llyfr y sonir am dano yn *Ier.* xxxvi. 32, yn cymmeryd i mewn y prophwydoliaethau o'r drydedd flwyddyn ar ddeg o deyrnasiad Iosiah hyd y bedwaredd o deyrnasiad Iehoiacim. Modd bynag, y mae *Ier.* i. a iii., yn rhyw led arwyddo fod gwelliant diweddarach wedi bod arno; a dichon y gellir ei ystyried fel peth possibl, fod yr holl bennod gyntaf wedi ei chwanegu gan y prophwyd wrth adolygu ei holl waith, o'i ddechreuad cyntaf. Perthyna *Ier.* xxi. i gyfnod diweddarach; ond tebygol yw iddi gael ei chyfleu yn ei lle presennol trwy fod enw Pasur wedi digwydd fel y mae yn y bennod flaenorol iddi.

2. *Ier.* xxii—xxv. Prophwydoliaethau byrach a gyhoeddwyd ar wahanol amserau, yn erbyn brenhinoedd Iudah a'r gau-brophwydi. Y mae yn eglur fod *Ier.* xxv. 13, 14, yn nodi terfyniad cyfres o brophwydoliaethau; a'r hyn sydd yn canlyn, sef *Ier.* xxv. 15—38, yn cynnwys eginyn rhagfynegiadau llawnach yn *Ier.* xlvi—xlix., wedi eu gosod yma fel math o gwblhâd i'r brophwydoliaeth am y deng mlynedd a thrigain, a chwymp dilynol Babilon.

3. *Ier.* xxvi—xxviii. Y ddwy brophwydoliaeth fawr am gwymp Ierusalem, a'r hanes cyssylltiedig â hwynt. Perthyna *Ier.* xxvi. i gyfnod boreuol, a *Ier.* xxvii. a xxviii. i gyfnod diweddarol gwaith y prophwyd.

4. *Ier.* xxix—xxxi. Cynnwysa y pennodau hyn genadwri gysurlawn i'r rhai oedd yn y caethiwed yn Babilon.

5. *Ier.* xxxii—xliv. Hanes y ddwy flynedd ddiweddaf cyn cymmeryd Ierusalem, ynghyd â gwaith y prophwyd ynddynt, ac yn y cyfnod a'i dilynodd. Mae *Ier.* xxxv. a xxxvi. yn hynod am eu bod yn tori ar y drefn amseryddol; yr hon,

wedi hyny yr un modd ar pennodau ereill, o leiaf yn un tebygol.

iii. Pa oleuni a deflir yn Llyfr y Galarnad ar hanes personol y prophwyd, neu ar yr amser yr ydoedd yn byw? Y mae myned i mewn i ysbryd ac ystyr caneuon o'r natur yma yn dibynu ar ddau ammod pennodol. Rhaid i ni ymdrechu gweled, fel â'n llygaid ein hunain, yr anrhaith, y trueni, a'r trallod a ddaeth dan sylw y prophwyd. Rhaid i ni ymdrechu teimlo fel y teimlai efe wrth edrych arnynt. A'r diweddaf ydyw yr anhawsaf o'r ddau. Yr oedd Ieremiah, nid yn unig yn fardd gwladgarol, yn wylo uwch ben distryw a gorthrymderau ei wlad, ond yn brophwyd hefyd, yn eu canfod yn dyfod, ac wedi eu rhagddywedyd fel pethau anocheladwy. Bu efe yn cymmhell ymostyngiad i'r Caldeaid, fel yr unig lwybr i leihau dychrynfeydd y dydd ofnadwy hwnw o ymweliad oddi wrth yr Arglwydd. Ac yn awr, pan ddaeth y Caldeaid, wedi eu cyffroi gan frâd a gwrthryfel brenin a thywysogion Iudah, pan y gwelodd y prophwyd yn weithredol y gofidiau y bu yn eu rhagfynegi, yr oeddynt tu hwnt mewn arswydolrwydd i ddim y bu efe erioed yn alluog i ddychymygu am danynt. Er y teimlad o falchder, yn yr hwn y gallasai fel un yn prophwydo drwg ymhyfrydu, wrth weled ei ragfynegiadau yn cael eu cyflawni, fe'i llyngcwyd i fyny gan ofid dwfn ac anorchfygol. Ond y mae gofid, fel rhyw deimlad arall, yn dylanwadu ar ddynion yn ol eu gwahanol gymmeriadau: ni allai un yn meddu ar ddoniau Ieremiah yn yr amgylchiadau yna, eistedd i lawr mewn syndod a distawrwydd i fynwesu gofid anobeithiol. Gorfodwyd ef i roddi amlygrwydd i'r hyn oedd yn difa ei galon ef ei hun a chalon y bobl; ac yr oedd y weithred hon ynddi ei hunan yn dwyn ysgafnhâd iddo. Arweiniodd ef (fel y cawn ddangos etto) o ran ansawdd ei feddwl, i sefyllfa fwy tawel a siriol. Bu yn adnewyddiad i'r ffydd a'r gobaith oedd yn mron wedi eu gweithio allan o hono.

Dylid cofio fod y prophwyd, wrth ysgrifenu fel y gwna yma, yn cyflawni yr hyn yn ddiau ag yr oedd llawer yn ei ddisgwyl wrtho; ac felly, yr oedd ar yr un pryd yn cyfarfod eu disgwyliadau a'u hangenion. Rhoddodd prophwydi a beirdd ereill ymadroddion i deimladau y genedl ar farwolaeth ei brenhinoedd a'i harwyr. Ac yr oedd y blaid a barhaodd yn ffyddlawn i egwyddorion a threfniadau Iosiah yn cofio yn dda fel y cyfansoddodd Ieremiah alarnad ar ei farwolaeth ef. Derbyniwyd y farwnad hono (er ei bod yn awr ar goll) fel galarnad fawr genhedlaethol. Ai gweddus a phriodol iddo fod yn ddistaw yn awr pan yr oedd trychineb mwy ofnadwy wedi goddiweddyd y genedl? Onid oedd ar y rhai a alltudiwyd i Babilon angen cysur a diddanwch yn y ffurf hwn? Onid yw ymddangosiad y llyfr yn nghanon yr ysgrifeniadau ysbrydoledig, wedi y dychweliad o'r caethiwed, yn arwyddo eu bod yn ystod y gaethglud wedi cael ynddo gysur a diddanwch o'r fath ag yr oedd angen arnynt?

Gall gwneyd dewisiad o gynllun mor gelfyddydol a'r un a ddisgrifir uchod ymddangos ar yr olwg gyntaf yn anghydweddol â'r gofid dwys a dwfn y mae yn proffesu bod yn amlygiad o hono. Buasai mydr mwy gwyllt ac anghyfartal yn ymddangos yn fwy priodol i ni. Arwyddai, pa fodd bynag, feirniadaeth frysiog a bâs i gyhoeddi y farn yna. Y mae y dyn sydd yn ffyddlawn i'r ddawn a ymddiriedwyd iddo yn croesawu y ddysgyblaeth a osyd arno ei hun, a gwna i ofid dwys ymostwng i reolau yn gystal a theimladau cynnhyrfiol ereill. Yn gyfartal i'w ofnau y dygir ef ymaith gan lifeiriant cryf ei deimlad, y bydd ei bryder am wneyd y cyfreithiau yn fwy rhwym, a'r ddysgyblaeth yn fwy effeithiol. Y mae rhywbeth o hyn i'w ganfod yn y ffaith fod cymmaint o ben campwyr llenyddiaeth Ewropaidd wedi dewis, fel y cyfrwng cymmhwysaf i drosglwyddo eu meddyliau dyfnaf, tyneraf, a mwyaf cynnhyrfus, y mesur anhawdd a dyrus a elwir y *ganig* (*sonnet*). Yr hyn oedd y ganig i Petrarch a Milton, dyna oedd y dull *Acrostaidd* o ysgrifenu caneuon i feirdd amser Ieremiah—y mwyaf anhawdd o'r holl ffurfiau yr arferid ysgrifenu barddoniaeth ynddo; ac etto, y mae rhai o feddyliau mwyaf goruchel, a syniadau mwyaf dyrchafedig barddoniaeth Feiblaidd wedi eu traethu ynddo. Gan hyny, ni raid rhyfeddu i Ieremiah ei ddefnyddio fel y cymmhwysaf i'r amcan yr arferodd ef. Os oedd y galarnadau hyn wedi eu bwriadu i liniaru chwerwder y gaethglud Fabilonaidd, yr oedd ynddynt, gyda hyny, y fantais o roddi cynnorthwy celfyddydol i'r côf. Am hymnau a chaneuon o'r natur hyn, wedi unwaith eu dysgu, nid yn hawdd yr anghofir hwynt; ac yr oedd amgylchiadau y caethion y pryd hwnw yn fwy nag erioed, yn peri fod y cynnorthwy hwn yn angenrheidiol iddynt.

Gwna ymchwiliad i'r pum cân hyn ein cynnorthwyo i farnu pa mor bell y mae y naill yn annibynol ar y llall, a pha mor bell y maent yn gyssylltiedig fel rhanau yn ffurfio un cyfanwaith. Mae yn rhaid i ni ymdrin â hwy fel y maent, heb roddi iddynt ein hystyr ein hunain, heb edrych arnynt nac yn brophwydol, yn addysgiadol, na hanesol; ond yn unig fel galarnadau, yn gosod allan wahanol arweddion gofid dwfn.

*Galar* i. Mae yr adnod gyntaf yn taraw cyweirnod yr holl gân. Yr hyn sydd yn trallodi meddwl y prophwyd ydyw yr unigrwydd yn yr hwn y mae yn ei gael ei hunan. Y hi, yr hon a fuasai yn "dywysoges yn mhlith y Cenhedloedd" (*adn.* 1) a eisteddai yn awr ei "hunan," "megys yn weddw." Ei "chariadau" (y Cenhedloedd oedd mewn cynghrair â hi) yn ymgadw oddi wrthi (*adn.* 2.) Y Cenhedloedd yn halogi ei chyssegr, ac yn gwawdio ei Sabbathau: *Galar.* i. 7, 10. Yn ol y dull sydd mor nodweddiadol o farddoniaeth Hebreig, y mae personoliaeth yr ysgrifenydd yn awr yn ymgilio o'r golwg; a phryd arall yn ymddangos, ac yn ymgymmysgu braidd yn ddiarwybod i ni â'r ddinas a bersonola, ac â'r hon y mae megys yn ei uno ei hun. Weithiau, merch Seion sydd yn gofyn, "Onid gwaeth genych chwi, y fforddolion oll?" (*adn.* 12). Bryd arall, y mae y prophwyd yn edrych arni, ac yn ei phortreadu fel yn "lledu allan ei dwylaw, heb neb yn ei diddanu" (*adn.* 17). Yn gymmysgedig â'r llifeiriant hwn o ofid, ymddengys dau syniad ag sydd yn nodweddiadol o'r dyn a'r amser. Mae y blinfyd a ddioddefai y genedl yn ganlyniad a ffrwyth ei phechodau. A rhaid cyffesu y pechodau hyny: "Cyfiawn yw'r Arglwydd; o blegid myfi a fûm anufudd i'w air ef" (*adn.* 18). Y mae, pa fodd bynag, y pelydr hwn o gysur, nad oedd Iudah ddim wrthi ei hun yn gorfod dioddef. Rhaid i'r rhai a lawenychent yn ei drygfyd yfed o'r un cwpan; a bod yn gyffelyb iddi yn y dydd y galwai yr Arglwydd (*adn.* 21).

*Galar.* ii. Unigrwydd y ddinas ydyw testyn yr alarnad gyntaf; ond ei distryw a'i hanrhaith sydd yn fwyaf amlwg yn yr ail. Difrododd yr Iehofah yn ei ddigder holl amddiffynfeydd merch

Digitized by Google

Iudah (*adn.* 2). Gwnaeth i'r mur a'r rhagfur gyd-alaru (*adn.* 8). Rhoddodd gaerau ei phalasau hi yn llaw y gelyn (*adn.* 7). Yr oedd y rhwyg yn fawr, fel pe buasai wedi ei wneyd gan orlifiad y môr (*adn.* 13). Ynglŷn â hyn yr unwyd holl arswydolrwydd rhyfel a newyn; llewygai y plant o newyn yn mhen pob heol (*adn.* 19): bwytäai gwragedd eu plant eu hunain, ac felly cyflawnid y felldith, yr hon a gyhoeddir yn *Deut.* xxviii. 53; a lladdwyd yr offeiriaid a'r prophwydi yn nghysegr yr Arglwydd (*adn.* 20). Yn chwanegol at hyn oll, yr oedd adgof o'r hyn a fuasai yn brofedigaeth fawr bywyd Ieremiah—yn erbyn yr hyn y dygai yn mlaen ryfel gwastadol—yn ei boeni. Yr oedd prophwydi Ierusalem wedi gweled pethau ynfyd ac ofer—"beichiau celwyddog, ac achosion deol" (*adn.* 14). Disgynodd barn gyfiawn arnynt. Ni chafodd y prophwydi weledigaeth gan yr Arglwydd (*adn.* 9), a chymmerwyd y brenin a'r tywysogion a wrandawsant arnynt yn gaethion i blith y Cenhedloedd.

*Galar.* iii. Y mae y gwahaniaeth sydd yn nghynlluniad y gân hon, ag y sylwyd arno yn barod, yn arwyddo gwahaniaeth cyfattebol yn ei sylwedd. Yn y ddwy gân flaenorol, llefara Ieremiah am ddinystr a thrueni Ierusalem. Yn y drydedd, llefara yn benaf, er nad yn hollol, am ei anffodion ei hun. Efe ei hun ydyw y gŵr a welodd flinder (*adn.* 1), ac a arweiniwyd i dywyllwch, ac nid i oleuni (*adn.* 2). Edrychai yn ol ar ei fywyd maith o ofid, yn yr hwn y dioddefodd ddirmyg a gwaradwydd y bobl, ac y chwerwyd ei enaid fel un a fuasai wedi ei feddwi ar wermod (*adn.* 14, 15). Ond nid oedd ei brofiad hwn yn ei arwain i dywyllwch ac anobaith. Ceir yma, yn y prophwydoliaethau, efengyl i'r blinderog a'r llwythog—ymddiried nas gellir ei siglo yn nhrugaredd a chyfiawnder yr Iehofah. Y mae trugareddau yr Arglwydd yn newydd bob boreu (*adn.* 22, 23). "Daionus yw efe i'r rhai a ddisgwyliant wrtho" (*adn.* 25). A diau fod adolygu ei brofiad chwerw yn dangos iddo ei fod yn ffurfio rhan o'r ddysgyblaeth a fwriadwyd i'w arwain i wynfydedigrwydd uwch. "Da ydoedd i ŵr ddwyn yr iau yn ei ieuengctid; da iddo obeithio, a disgwyl yn ddistaw" (*adn.* 26, 27). Gyda hyny, ni a gawn wrthdystiad y prophwyd yn erbyn y camwri a gyflawnwyd gan y llywodraethwyr a'r tywysogion, neu y gallasent fod yn euog o hono yn y dyfodol (*adn.* 34–36); a chyfaddefiad nad oedd yr oll a ddaethai arno ef a'i bobl ond cyfiawn gospedigaeth, i'w gydnabod yn ostyngedig, gan ddyfal chwilio y meddwl a'r galon, a throi i edifeirwch (*adn.* 39–42). Dichon fod y rhan ddiweddaf o'r bennod hon yn cyfeirio at y cyfnod hwnw yn mywyd y prophwyd pan yr oedd ei ddioddefiadau chwerwaf (*adn.* 53—56), a chreulonderau ei elynion yn fwyaf buddugoliaethus. Os felly, ni a allwn fyned i mewn yn fwy llwyr, wrth gofio hyn, i'r teimlad diolchgar yn mha un y mae yn cydnabod y cymmhorth, yr adferiad, a'r waredigaeth a gafodd gan Dduw (*adn.* 57, 58). Gallwn i ryw fesur gydymdeimlo âg ef, hyd yn oed pan y gwna yr appeliad ofnadwy o ddifrifol oddi wrth farnau anghyfiawn y ddaear at farnwr cyfiawn, ac y gwaedda am ddial; heb yr hyn, yn ei olwg ef, y pallai cyfiawnder tragwyddol (*adn.* 64–66).

*Galar.* iv. Ar yr olwg gyntaf, gall ymddangos nad ydyw y bedwaredd gân ond ail argraphiad o ddarluniau, meddyliau, a syniadau y gyntaf a'r ail. Daw ger ein bron unwaith etto y newyn, y trueni, a'r anrhaith a ddisgynodd ar y ddinas sanctaidd, a barai i bob wyneb gasglu düwch. Ond y mae un elfen newydd yn cael ei dwyn i mewn i'r darlun, yn y cyferbyniad a wneir rhwng gogoniant a mawredd blaenorol y teuluoedd brenhinol ac offeiriadol ("Nazareaid" y gelwir hwynt yma), a'u hiselder a'u gwarth presennol. Y mae yma rai cyfnewidiadau, pa fodd bynag, nad ydynt yn annyddorol yn eu perthynas â bywyd y bardd ei hun, ac â hanesyddiaeth y dyddiau hyny. Y mae yr holl ffeithiau yn dwyn arwyddocâd newydd wrth edrych arnynt yn ngoleuni y profiad personol a amlygir yn y drydedd gân. Dywedir fod yr anffodion hyn oll wedi dyfod "am bechodau ei phrophwydi, ac anwiredd ei hoffeiriaid" yn fwy clir a phenderfynol nag o'r blaen (*adn.* 13). Rhoddir i fyny y gobaith diweddaf a fynwesai Ieremiah, pan y cymmhellai ar Sedeciah y doethineb o ymostwng i'r Caldeaid (*adn.* 20). Dengys yr ymadroddion diweddaf nerth y teimlad a fodolai yn erbyn yr Edomiaid, ac a barhaodd drwy ystod y gaethglud (*adn.* 21, 22; cymmh. ***Obad.*** 10, â *Salm* cxxxvii. 7). Yr oedd merch Edom wedi bod yn llawenychu yn nghwymp Iudah a Ierusalem, ac yn gwneyd ei goreu i brysuro y trychineb; ond yr oedd y dynged ofnadwy o fod yn feddw ar gwpan digofaint Duw yn ei haros hithau hefyd. I ferch Seion, yr oedd gobaith am faddeuant, pan y byddai i'r ddysgyblaeth orphen ei gwaith arni, a chospedigaeth ei hanwiredd gael ei gyflawni.

*Galar.* v. Y mae un gwahaniaeth mawr sydd yn y bummed adran—y ddiweddaf yn y gân—wedi ei nodi allan eisoes. Naill ai arwydda fod y cynllun yn ol y wyddor (*alphabetical*), a fabwysiadwyd yn y caneuon ereill, wedi ei roddi i fyny yn fwriadol; neu ynte, dengys gymmeriad anorphenol yr alargân. Ceir rhyw arwyddion ynddi fod ei dyddiad yn ddiweddarach na'r rhai blaenorol. Er fod dychrynfeydd rhyfel yn aros yn annileadwy o flaen meddwl yr ysgrifenydd, etto yr hyn sydd ganddo ger ei fron yn benaf ydyw y dioddefiadau gwastadol oedd yn cyfodi oddi ar reolaeth barnaol y Caldeaid. Mae mynydd Seion yn anrheithiedig, a'r llwynogod yn rhodio ar hyd-ddo (*adn.* 18). Gweision yn llywodraethu dros bobl yr Iehofah (*adn.* 8). Gwragedd Seion a morwynion Iudah yn cael eu darostwng i'r iselder mwyaf (*adn.* 11). Cymmerwyd ei gwŷr ieuaingc i falu (gwel *Barn.* xxvi. 21), a syrthiodd y plant o dan y coed (*adn.* 13). Ond yn hyn hefyd, er mor ddwfn y darostyngiad, yr oedd gobaith, fel y bu gan y prophwyd yn oriau tywyllaf ei fywyd. Cynnaliwyd ef a'i bobl i fyny gan yr hen feddwl a fuasai mor ffrwythlawn o gysur i brophwydi a salmwyr ereill. Nid oedd cyfnodau eu gofidiau a'u hymdrechion, er eu bod yn ymddangos yn faith, ond fel eiliad yn mywyd y Duw tragwyddol (*adn.* 19); ac yr oedd meddwl am y tragwyddoldeb hwnw yn dwyn gydag ef obaith y byddai i fwriadau y cariad a ddadguddiwyd mor amlwg, gael eu cyflawni rywddiwrnod. Mae ymadroddion diweddaf yr alarnad yn gyfryw ag sydd yn ymgodi yn fynych o galonau drylliedig a chystuddiedig, "Dychwel ni, O Arglwydd! atat ti, a ni a ddychwelir. Adnewydda ein dyddiau megys cynt" (*adn.* 21). Diwedda yr hyn a ddechreuodd mewn galar ac wylofain (wrth ddilyn cyfieithiad Ewald a Michaelis) gyda chwestiwn llawn o obaith—"A lwyr wrthodi di nyni? A ddigi di wrthym yn ddirfawr?"

Nid oes ond ychydig ranau o'r Hen Destament wedi gwneuthur eu gwaith yn effeithiolach nag y gwnaeth y gyfran hon. Ni cheir yma ond

Digitized by Google

mewn gwastadedd mor ardderchog, ger llaw afon mor ffrwythlawn—yn ddigon i ddangos ei phwysigrwydd mewn gwlad lle yr oedd y manteision naturiol hyn bob amser yn cael eu gwerthfawrogi mor fawr, ac mewn oes pan oedd y bobl yn ymddibynu mwy ar adnoddau cynhenid natur nag eu gorfodir i wneyd yn awr. Oni bai melldith Iosuah (pen. vi. 26), diammheu y buasai Iericho yn cydymgais am anrhydedd a mawredd â dinas Dafydd yn fwy nag yr ydoedd hyd yn oed Samaria.

Crybwyllir gyntaf am Iericho fel y ddinas yr anfonodd Iosuah y ddau ysbïwyr iddi, o Sittim. Llettywyd hwynt yn nhŷ Rahab y butain, yr hwn oedd wedi ei adeiladu ar y mur; a chyn dychwelyd, addawsant ei harbed hi a phawb yn ei thŷ rhag dinystr (ii. 1—21). Pan anrheithiwyd y ddinas, cadwyd yr addewid hon yn y modd manylaf. Adnabyddwyd ei thŷ wrth yr "edau goch" yn y ffenestr y gollyngesid yr ysbïwyr i mewn trwyddi, a chymmerwyd hi a'i pherthynasau o hono, a gosodwyd "hwynt o'r tu allan i



Dar. 360. Iericho.

wersyll Israel;" ond ni ddywedir yn un man, ac ni ellir casglu yn deg, fod ei thŷ wedi ei arbed pan losgwyd y ddinas â thân. Gan iddi "drigo yn Israel" am y dyfodol; gan iddi briodi Solomon, mab Nahson, "tywysog meibion Iudah," a rhoddi genedigaeth i Boaz, gŵr Ruth, un o hynafiaid Dafydd, brenin Israel, a'r Arglwydd Iesu Grist yn ol y cnawd; ac yn olaf, gan mai ei henw hi ydyw yr unig enw Cenhedlig a ymddengys yn rhestr ffyddloniaid yr Hen Destament, y rhai a nodir allan gan Paul (*Ios.* vi. 25; 1 *Cron.* ii. 10; *Mat.* i. 5; *Heb.* xi. 31), tybiem fod yr holl ffeithiau hyn yn arwyddo na bu iddi aros i drigiannu yn y lle a felldithiwyd; ac os felly, yn absennoldeb pob prawf a thystiolaeth uniongyrchol o'r Beibl, pa fodd y gellir casglu fod ei thŷ wedi ei adael i sefyll?

Fel y gadawyd hi wedi y dinystr gan Iosuah, rhoddwyd hi ganddo i lwyth Beniamin (*Ios.* xviii. 21); ac o'r pryd hwnw, aeth cryn amser heibio heb ddim sylw yn cael ei wneyd o honi, ac heb un crybwylliad am ei henw. Sonir am dani yn ddigwyddiadol yn mywyd Dafydd, mewn cyssylltiad â'i genhadaeth ef at frenin Ammon: 2 *Sam* x. 5. Y mae y modd difrifol a phwysig y crybwyllir am ei hail sylfaeniad gan Hïel, y Betheliad—ar yr hwn y disgynodd melldith Iosuah yn ei llawn nerth (1 *Bren.* xvi. 34)—yn ddiau fel yn arwyddo ei bod y pryd hwnw yn hollol anrheithiedig ac annhrigiannol. Gwir y sonir am "ddinas y palmwydd" (*Barn.* i. 16; a iii. 13) oedd mewn bod, fel y gellid casglu, yn yr amser y crybwyllir am dani, a bod Iericho ddwywaith—unwaith cyn ei dinystr, ac unwaith wedi ei hail sylfaenu—yn cael ei galw wrth yr enw hwnw (gwel *Deut.* xxxiv. 3; 1 *Cron.* xxiii. 15). Ond dichon mai lled anhawdd profi i foddlonrwydd—er fod llawer o awduron o awdurdod uchel yn tybio hyny—mai yr un ydyw y ddinas a grybwyllir yn Llyfr y Barnwyr (yr hon, fel y gellir casglu, oedd yn nhiriogaeth Iudah) ac Iericho Modd bynag, wedi ei hail adeiladu unwaith, ymgododd Iericho yn raddol i fod yn dref bwysig. Yn ei chymmydogaeth hi yr oedd ysgol meibion y prophwydi, yno yr oedd y myfyrwyr ieuaingc yn ceisio ymneillduaeth oddi wrth y byd. Yno yr iachaodd Eliseus "ffynnonell y dyfroedd;" ac ar ei chyfer hi, y tu hwnt i'r Iorddonen, "y dyrchafodd Elias mewn corwynt i'r nefoedd;" 2 *Bren.* ii. 1—22. Ar wastadedd Iericho y syrthiodd Sedeciah i ddwylaw y Caldeaid: 2 *Bren.* xxv. 5; *Ier.* xxxix. 5. Ni throes yr ymgais a wnaed i'w hadferu allan yn fethiant llwyr; canys yn ol y cyfrif a wnaed o dan Zorobabel, wedi y dychweliad o gaethiwed Babilon, yr oedd "meibion Iericho" yn dri chant a phump a deugain mewn nifer (gwel *Ezra* iii. 34; *Neh.* vii. 36); ac fel y gellir casglu, dychwelasant yno drachefn, o herwydd yr oedd "gwŷr Iericho" yn cynnorthwyo Nehemiah i ail adeiladu y rhan hono o furiau Ierusalem oedd ger llaw porth y defaid (*Neh.* iii. 2). Deuwn yn awr at ei hanes mewn amseroedd

Digitized by Google

Mor foreu ag yn y bedwaredd ganrif, pan yr ymwelodd pererin Bourdeaux (argr. Wesseling) â'r lle, dangosid iddo dŷ yr hwn y mynai y preswylwyr, yn eu hofergoeledd, ei fod y tŷ y bu Rahab fyw ynddo. Yr oedd heb dô arno pan y gwelwyd ef gan Arculfus; ac nid yn unig hyny, ond fod y drydedd ddinas mewn adfeilion. A ymwelwyd âg Iericho gan ddaeargryn, fel yr adrodda Antonius [*Ap. Ugol. Thesaur.* vii. *P.* MCCXIII], ac fel, yn ddiammheuol, yr ymwelwyd â Syria, yn y 27ain o deyrnasiad Justinian, B. A. 553? Os felly, y mae yn hawdd iawn deall am yr adgyweiriad y cyfeiriwyd ato eisoes; a phan y chwanega Antonius, a dyweyd fod tŷ Rahab wedi ei wneyd yn clusendy dieithriaid, gellir braidd sierhau mai dyna yr un a adgyweiriwyd gan yr ymherawdwr. Ymddengys braidd yn debyg fod mwy o adeiladau crefyddol o amgylch Iericho yn y seithfed nag yn y chweched ganrif. Yn ol Arculfus, un eglwys oedd yn Gilgal; un arall ar y llanerch y myn traddodiad i'r Arglwydd Iesu Grist roddi ei ddillad cyn ei fedyddio; a'r drydedd yn ymyl rhyw fynachlog fawr oedd wedi ei chyflwyno i Ioan, ar fryn yr hwn a edrychai dros yr Iorddonen. Yn y cyfamser, syrthiodd Iericho fel tref, ac i beidio ymgodi mwy. Ymgodai eglwysi a mynachlogydd ar bob llaw; ond yr oeddynt yn malurio ymaith yn eu tro. Yr ogofeydd meudwyol sydd yn ochrau creigiog y bryn a elwir Quarantena ydyw y cofnodion mwyaf nodedig sydd yn aros o frwdfrydedd y Cristionogion boreuol.

Dichon i'r dref gael ei hanrheithio yn amser y concwest Mahometanaidd; o blegid tua diwedd y seithfed ganrif, disgrifia Adamnanus y llanerch y safai arno yn hollol anghyfannedd, ac wedi ei orchuddio gan ŷd a gwinwydd. Yr oedd y palmwydd enwog yn parhau i flodeuo o amgylch y lle. O ddeutu y pryd hwn, sonir am wastadedd Iericho fel lle hynod am ei ffrwythlonrwydd a'i gynnyrchion nodedig. Ymddengys fod y Saraceniaid yn ei amaethu i godi sugr a ffrwythau ereill ag yr oedd y tir a'r hinsawdd yno yn fwy cymhwys iddynt nag un parth arall o Palestina. Y mae hen weddillion adfeiliedig yn aros hyd heddyw yn brawf o ymdrechion y Saraceniaid i ddyfrhau ac amaethu y gwastadedd ardderchog hwn. Tra thebygol yw mai yn yr oesau hyny y sylfaenwyd y castell a'r pentref sydd yn awr yn cynnrychioli yn hen Iericho gynt. Sonir am y lle gan deithwyr a phererinion fel pentref tlawd, yn cael ei wneyd i fyny o ychydig dai. Yn y bymthegfed ganrif, edrychai pererinion ar y castell neu y tŵr fel tŷ Zaccheus:—teitl a roddir iddo hyd heddyw. Ymddengys na chafodd Iericho fel tref erioed ei hadferu a'i hadgyweirio gan filwyr y groes; ond yr oedd ei gwastadedd yn parhau i ddwyn ffrwyth toreithiog, ac yn cael ei ddiwyllio a'i drefnu allan yn erddi ac yn winllanoedd gan y mynachod.

Gyda llawer o reswm, y mae Dr. Robinson [*Bibl. Res.* i. 552—568] yn dywedyd y safai yr hen Iericho—y gyntaf—yn nghymmydogaeth ffynnon Eliseus; a bod yr ail (y ddinas y sonir am dani yn y Testament Newydd, a chan Josephus) yn agoriad yr afon Cerith, taith hanner awr oddi wrth y ffynnon. Y mae hyn yn cydsynio yn gymmhwys â'r hyn a ellir gasglu oddi wrth yr hyn a ddywed Josephus am eu sefyllfaoedd. Yr enw sydd ar y pentref a gynnrychiola Iericho yn awr ydyw Rahib. Saif yn nghanol y gwastadedd, o ddeutu chwe milldir i'r gorllewin o'r Iorddonen. Mynega amryw deithwyr am y pentref presennol ei fod "y gwaelaf a'r budraf yn Palestina." Gall fod yno o ddeutu deugain o dai, wedi eu gwneyd o geryg bychain gwael. Y mae y muriau egwan, a fygythiant gwympo gyda'r cyffyrddiad lleiaf, yn cael eu gorchuddio gan do gwastad, wedi ei wneyd o wiail neu wellt plethedig, a'i ddwbio â llaid. Yr adeilad mwyaf pwysig yn y lle ydyw y castell neu y tŵr a grybwyllwyd eisoes, yr hwn, fel y tybia Dr. Robinson, a adeiladwyd gan y Saraceniaid i ddybenion amddiffynol. Mesura ddeg ar hugain neu ddeugain o droedfeddi bob ffordd, ac o ddeutu yr un uchder; ond y mae yn awr mewn sefyllfa adfeiliedig. Mynai y pererinion, fel y cyfeiriwyd, edrych arno fel tŷ Zaccheus; a chyfeirient at balmwydden unigol, yr unig un a adawyd o'r llwyni gogoneddus hyny a roisant unwaith ei henw i'r dref, fel y sycamorwydden wirioneddol hono y dringodd yr un person i fyny iddi i gael golwg ar y Gwaredwr fel yr elai heibio.

Cynnwysa Rihah o ddeutu dau cant o breswylwyr, ar y rhai y mae golwg wael, a chyfrifir hwynt yn bobl ddrygionus, diofal, a diog. Cadwant ychydig wartheg a defaid, a llafuriant ryw gymmaint o'u tir yn gystal a'u gerddi. Pe yr arferent ond ychydig fedrusrwydd a llafur ar y tir cynnyrchiol a goludog hwn, sydd wedi ei ffafrio mor ragorol â dwfr i'w fwydo a'i ddyfrhau, gwobrwyid eu llafur yn helaeth. Ond y mae hyn yn ddiffygiol yma. Arwydda pob peth o gwmpas dlodi iselaf y trigolion. Gwelir rhai ffigyswydd yn agos i'r pentref, a rhai gwinwydd yn y gerddi. Ond yr olygfa brydferthaf, fe ddichon, a geir ar yr holl wastadedd, ydyw y llwyn ardderchog o goed sydd yn ymylu ar y pentref ar yr ochr orllewinol, ac yn ymestyn yn mlaen yn ogleddol am ddwy filldir o ffordd, neu fwy.

Yn nes i'r mynyddoedd, ar gyffiniau gorllewinol y gwastadedd, o ddeutu dwy filldir o Rihah, ger llaw y fan y daw y ffordd o Ierusalem i mewn i'r gwastadedd, y mae cryn lawer o hen adfeilion ar yr ochr ogleddol a deheuol i'r ffordd fawr. Nid oes dim yn gryf nac yn fawreddog iawn yn y gweddillion hyn, er yn ddiammheu eu bod yn nodi allan y fan lle y safai tref bwysig gynt. Mân ydyw y ceryg, ac ychydig o ôl y cŷn a'r morthwyl sydd wedi bod arnynt. Ymddangosant yn debyg fel pe wedi eu gadael ar ol, pan y cymmerwyd ymaith y defnyddiau mwyaf gwerthfawr i godi adeiladau ereill. Mr. Buckingham ydoedd y cyntaf i ddadgan ei farn mai adfeilion yr hen Iericho ydyw y gweddillion hyn. Dengys fod y sefyllfa yn cyttuno yn well â'r hen gyfeiriadau a wneir ati na'r pentref a nodwyd, o gwmpas yr hwn nis gellir olrhain dim hen adfeilion [*Travels in Palestine*, td. 293]. Er pan amlygwyd y syniad hwn, y mae teithwyr ereill wedi bod yn chwilio i mewn i'r mater; a'r penderfyniad mwyaf cyffredin y deuant iddo ydyw, mai nid Rihah ydyw yr hen Iericho, ac nad oes hen adfeilion ar y gwastadedd yn cyfateb mor gywir i'r disgrifiadau a geir o honi a'r rhai a nodir uchod. Gwna Dr. Olin y sylwadau canlynol ar hyn:—"Cyttuna teithwyr i alw y lle truenus (Rahih) yn Iericho, er nad wyf fi yn gwybod am un rheswm dros gredu ei fod yn sefyll ar y fan lle y safai yr hen ddinas arno gynt. Ni cheir yma hen adfeilion yn arwyddo fod tref fawr wedi bod yma erioed; yr unig beth a all gyfodi y dybiaeth leiaf yn y meddwl, iddo fod un amser yn ddim amgen i'r pentref budr ydyw yn bresennol, ydyw y tŵr neu y castell. Nid ydyw ei sefyllfa

Digitized by Google

yn cyttuno â sefyllfa yr hen ddinas, yr hon, yn ol Josephus, oedd ger llaw y mynydd, ac yn nes i Ierusalem o rai milldiroedd. Y mae yr adfeilion a ddisgrifiwyd yn barod, yn nhroed y mynydd, lle y mae ffordd Ierusalem yn dyfod i mewn i'r gwastadedd, yn nodi allan y fan y safai yr hen Iericho. Fe welir fod eu pellder o Ierusalem ac o'r Iorddonen yn cyttuno yn dda â'r Iericho oedd yn amser Josephus, yr hon, fel y dywed ef, oedd hanner cant o ystadiau oddi wrth yr afon, a chant a hanner oddi wrth y brif ddinas. Y mae y fan hon hefyd yn cyfatteb i'r darluniad a rydd—ei bod yn sefyll "yn y gwastadedd, tra yr oedd mynydd noeth a diffrwyth uwch law iddi." Nid ydyw sefyllfa yr hen ddinas yn cael ei nodi allan yn fanwl yn y Beibl, er y sonir am dani bob amser fel yn sefyll gryn bellder oddi wrth yr Iorddonen. Y mae y sefyllfa wrth droed y mynydd hefyd yn cydsefyll â hen arferion yr oesoedd boreuol hyny; ac yn enwedig yn Palestina, lle yr oedd agos eu holl ddinasoedd a grybwyllir mewn hanesiaeth foreuol yn cael eu hadeiladu mewn sefyllfaoedd cedyrn, i'r dyben i fod yn gyfleus i barotoi amddiffynfeydd.—[*Olin's Travels in the East*].

IECABSEEL: [ffurf hwyaf yr enw CABSEEL]: y ddinas bellaf ar derfyn deheuol llwyth Iudah, a'r hon, gydag ereill, a orweddai ar gyffiniau Edom neu Idumea. Mae y ffurf hwn ar yr enw yn digwydd ar ol y caethiwed, yn rhestr y lleoedd a adboblogwyd y pryd hyny: *Neh.* xi. 25. Mae y lle yn nodedig, am mai yma y ganwyd gwron mawr Dafydd, Benaiah mab Iehoiada: 2 *Sam.* xxiii. 20; 1 *Cron.* xi. 22. Enwir y lle ddwywaith yn yr *Onomasticon*—gan Eusebius (yr hwn sydd yn camgymmeryd y lle am Carmel) o dan y ffurf *Capseel;* a chan Jerome, o dan y ffurf *Cabseel.* Tybia Le Clerc mai yn y gymmydogaeth hon y cysgodd Elias, ac y derbyniodd ei weledigaeth, pan yn ffoi oddi ar ffordd Iezebel: 1 *Bren.* xix. 4—8. Ond nid oes olion o'r ddinas, nac enw cyffelyb wedi dyfod i'r golwg hyd yma yn y llanerch diffaeth hwnw o'r dwyrain. Yn wir y mae ymchwiliadau i'r wlad hono yn ychydig ac ammherffaith hyd yma.

1. IERIMOTH: mab Bela, yn ol 1 *Cron.* vii. 7; a sylfaenydd tylwyth Beniaminaidd, yr hwn a ffynai yn amser Dafydd. Yr un ydoedd efe, fe ddichon, a'r Ierimoth a ymunodd â Dafydd yn Sielag: 1 *Cron.* xxii. 5.

2. IERIMOTH: mab Becher: 1 *Cron.* vii. 8. Pen tylwyth Beniaminaidd arall.

3. IERIMOTH: ydoedd fab Mushi, fab Merari, penaeth un o'r teuluoedd Meraraidd a rifwyd pan y cymmerwyd cyfrif o'r Lefiaid gan Dafydd: 1 *Cron.* xxiv. 30.

4. IERIMOTH: mab Heman, blaenor y pymthegfed dosbarth o gerddorion: 1 *Cron.* xxv. 4, 22.

5. IERIMOTH: mab Azriel, penaeth llwyth Naphtali yn nheyrnasiad Dafydd: 1 *Cron.* xxvii. 19. Gelwir y penaethiaid hyn yn dywysogion llwythau Israel yn *adn.* 22.

6. IERIMOTH: (Ἰεριμούθ), mab y brenin Dafydd. Mahaleth, merch yr Ierimoth hwn, ydoedd un o wragedd Rehoboam: 2 *Cron.* xi. 18. Yn gymmaint ag nad ydyw Ierimoth yn cael ei enwi yn rhestr plant gwragedd Dafydd yn 1 *Cron.* iii., neu xiv. 4—7; ymddengys yn gasgliad teg ei fod yn fab i ordderchwraig, a dyna ydyw y traddodiad Iuddewig [Jerome, *Quæstiones, ad loc.*]. O'r ochr arall, y mae yn ammheus a fuasai Rehoboam yn priodi ŵyres i ordderchwraig hyd yn oed brenin mor enwog a Dafydd.

7. IERIMOTH: Lefiad, yn nheyrnasiad Hezeciah; un o arolygwyr yr offrymau a'r pethau sanctaidd a ddygid i gelloedd tŷ yr Arglwydd, y rhai a reolid gan Conaniah a Simei y Lefiaid, trwy orchymyn Hezeciah y brenin, ac Azariah yr archoffeiriad: 2 *Cron.* xxxi. 13.

IEROBOAM [ירבעם=Yarabam; Ἱεροβοάμ]. Arwyddocâd yr enw ydyw "ei bobl ydynt lawer;" ac felly, gwelir ei fod yn agos yr un ystyr a Rehoboam—"Amlhawr y bobl." Ymddengys y ddau enw cyntaf yn amser Solomon, a gallai iddynt gael eu hawgrymu gan liosogiad y genedl Iuddewig yn y dyddiau hyny.

1. IEROBOAM I.: y brenin cyntaf a ranodd deyrnas Israel. Yr hen awdurdodau am hanes ei deyrnasiad a'i ryfeloedd oeddynt "Llyfr Croniclau brenhinoedd Israel;" 1 *Bren.* xiv. 19: a "gweledigaethau Ido, y gweledydd yn erbyn Ieroboam, mab Nebat;" 2 *Cron.* ix. 29. Mab ydoedd efe i Ephratead o'r enw Nebat. Bu farw ei dad tra yr oedd efe etto yn ieuangc; ond bu ei fam, yr hon a fuasai wraig o gymmeriad isel (yn ol y Deg a Thrigain), fyw yn weddw, gan ymddibynu, fe ddichon, am ei chynnaliaeth ar ei mab. Ei henw ydoedd Serfah; lle eu preswylfod ar fynydd Ephraim oedd Seredah.

Pan yr oedd Solomon yn adeiladu amddiffynfeydd Milo, islaw tŵr Sïon, ac yn cau adwyau dinas Dafydd ei dad, canfu llygad craff y brenin ŵr ieuangc o Ephratead medrus a bywiog yn gweithio wrth y gwaith. Dyrchafodd a gosododd ef yn "oruchwyliwr" ar yr holl waith a gyflawnid gan lwyth Ephraim: 1 *Bren.* xi. 28. Y gŵr ieuangc hwn oedd Ieroboam. Gellir edrych ar y dyrchafiad hwn fel gwobr teilyngdod. Gwnaeth ei oreu o'i swydd. Wedi gorphen y gwaith hwn a ymddiriedwyd iddo yn anrhydeddus a llwyddiannus, edrychai i fyny wedi hyny at swydd uwch, a sefyllfa fwy anrhydeddus. Fel Absalom o'i flaen, yn y cyffelyb amgylchiadau, cadwai lawer o feirch a cherbydau (Deg a Thrigain), nes o'r diwedd i Solomon weled ei fod yn edrych i fyny at y frenhiniaeth.

Meithrinid ei amcanion uchelgeisiol, gellir tybied, gan yr anfoddlonrwydd cynnyddol a amlygid gan y llwyth galluog yr oedd efe yn llywodraethwr arno, yn gystal a chan drosglwyddiad yr urdd brophwydol o dylwyth Solomon. Gwnaed hyn yn hysbys iddo pan yr oedd yn lled ieuangc. Fel yr oedd Ieroboam yn myned allan o Ierusalem, cyfarfu Ahiah y prophwyd âg ef, yr hwn a berthynai i hen gyssegr Siloh. Cymmerodd y prophwyd ef o'r neilldu o'r ffordd i'r maes (Deg a Thrigain), ac ymaflodd Ahiah yn y wisg newydd oedd am dano ef, a rhwygodd hi yn ddeuddeg o ddarnau, a rhoddodd ddeg darn i Ieroboam, gan ei sicrhau ar yr un pryd, os byddai iddo ufuddhau i'w gyfreithiau, y byddai i Dduw sicrhau ei frenhiniaeth, fel y gwnaeth a Dafydd ei was: 1 *Bren.* xi. 29—40.

Ar ol ei hysbysu gan y prophwyd o'i appwyntiad dwyfol i deyrnasu yn frenin ar ddeg llwyth Israel, dechreuodd ffurfio cynllwynion a bradwriaethau yn erbyn Solomon—darganfyddiad y rhai a achosodd ei ffoedigaeth i'r Aipht. Derbyniwyd ef gan frenin y wlad hono yn groesawgar; canys fel y gallesid tybio, yr oedd ef yn eithaf parod i gefnogi un oedd â'i holl fywyd ar dori grym a nerth teyrnas mor alluog a'r hon a sylfaenwyd gan Dafydd a Solomon, a'r hon oedd eisoes wedi

Digitized by Google

estyn ei therfynau i lanau y Môr Coch. Arosodd Ieroboam yn llys brenin yr Aipht am y gweddill o deyrnasiad Solomon. Ond ar farwolaeth y brenin hwnw, anfonodd y deg llwyth i alw Ieroboam o'r Aipht. Ceisiodd yntau genad brenin y wlad hono i ddychwelyd, yr hyn, wedi peth anewyllysgarwch, a ganiatawyd iddo. Ar ei ddyfodiad yn ol i wlad ei dadau (yn ol y Deg a Thrigain), ymsefydlodd yn Seredah, ei le genedigol—yr hwn le a gadarnhaodd efe. Pan y daeth Rehoboam, mab Solomon, i Sichem i'w urddo yn frenin, yn ol arfer brenhinoedd Israel, blaenorwyd y llwythau gogleddol yn eu cais i geisio symmud ymaith yr hyn a ystyrient yn iau orthrymus a osododd ei dad arnynt, gan Ieroboam. Sarug ac angharedig ydoedd attebiad Rehoboam i'r cais hwn. Gwnaeth attebiad anghall Rehoboam i'r genadwriaeth a anfonwyd ato wrthryfel y deg llwyth bron yn anocheladwy; a'r canlyniad fu, i Ieroboam gael ei osod yn frenin arnynt, wrth y teitl, "Brenin Israel;" 1 *Bren*. xii. 1—20. Perswadiodd Semaiah, gŵr Duw, Rehoboam rhag gwneyd yr ymgais a fwriadai i adfeddiannu ei awdurdod ar y deg llwyth. Un o'r pethaf cyntaf a wnaeth Ieroboam, wedi ymaflyd yn ei swydd, ydoedd cadarnhau Sichem fel ei brif ddinas yn y gorllewin, a Phenuel yn y dwyrain.

Ymddengys i bob peth fyned yn mlaen yn llwyddiannus gydag ef dros dymmor, heb i ddim ddigwydd oedd â thuedd ynddo i luddias y rhagddisgwyliadau prophwydol am ei lwyddiant, nac i gymmylu gogoniant dyfodol ei deyrnasiad. Ond cyflawnodd Ieroboam un pechod marwol, yr hwn a gloddiodd o dan sylfeini ei lywodraeth, ac a anurddodd ei enw fel brenin cyntaf Israel. Yr oedd y rhwygiad gwleidyddol rhwng Israel a Iudah eisoes yn gyflawn; ond yr oedd eu hundeb crefyddol yn parhau heb ei ammharu. Ofnai yntau i'r pererindodau blynyddol i Ierusalem ddadwneyd y gwaith y buasai efe mewn trafferth yn ei berffeithio; ac mewn rhyfyg ac anystyriaeth, penderfynodd ysgaru yr undeb hwn. Ac i'r dyben hwn, ni phetrusai aberthu ymrwymiadau mwyaf cyssegredig pobl gyfammodol yr Arglwydd, trwy wahardd iddynt ymgynnull i'r deml, ac at allor Duw i Ierusalem. Yr oedd dau gyssegr o hynafiaeth mawr eisoes yn hanfodi—un ar derfyn deheuol a'r llall ar derfyn gogleddol ei diriogaethau. Pennododd a dyrchafodd y rhai hyn yn lleoedd i roddi addoliad cenhedlaethol, mewn gwrthgyferbyniad i'r deml yn Ierusalem. Cododd allorau yn Dan a Bethel; ac heb foddloni ar droseddu cyfraith Moses trwy dori ar yr undeb cenhedlaethol a ordeiniasai efe, gosododd i fyny yn y lleoedd hyny loi aur, i gynnrychioli yr Iehofah, i'r rhai y gorchymynid y bobl i ddwyn eu hanrhegion a'u hoffrymau. Dichon fod ei arosiad yn yr Aipht wedi cynnefino ei feddwl â'r ffurfiau allanol hyn trwy y rhai y cynnrychiolid y Duwdod; ac yn awr am y tro cyntaf wedi y dyfodiad o'r anialwch, y dygwyd i mewn yr elfen Aiphtaidd i addoliad cenhedlaethol preswylwyr Palestina. Gosodwyd un llo aur yn Dan, a'r llall yn Bethel, gyda'r anerchiad, "Wele dy dduwiau di ('Elohim,' cymmh. *Neh*. ix. 18), O Israel! y rhai a'th ddwg di i fyny o wlad yr Aipht." Cyssegr Dan—y pellaf o Ierusalem—a sefydlwyd gyntaf (1 *Bren*. xii. 30), i'r hwn yr ordeiniwyd "offeiriaid o'r rhai gwaelaf o'r bobl, y rhai nid oedd o feibion Lefi" (1 *Bren*. xii. 31; xiii. 33). Ond y mwyaf pwysig, a'r agosaf i'r brif ddinas a'i ganol y wlad, ydoedd Bethel. Parhaodd yr uchelfeydd hyn, a'r gwasanaeth ynddynt, tra y safodd y frenhiniaeth ogleddol. Cyssegrid yr offeiriaid mewn modd hynod. Gallai rhywun o un o lwythau Israel bwrcasu y swydd trwy offrymu "bustach ieuangc a saith o hyrddod;" 1 *Bren*. xiii. 33; 2 *Cron*. xiii. 9. Ar y pymthegfed dydd o'r wythfed mis, aeth Ieroboam mewn rhwysg i fyny i Bethel at yr allor i arogldarthu. Y pryd hwn, yn hollol ddisymmwth ac annisgwyliadwy, ymddangosodd prophwyd yr Arglwydd o Iudah, yr hwn, fel y tybia Josephus, ydoedd Ido y gweledydd (geilw ef yn Iadân, *Hyn*. viii. 8, adr. 5; gwel Jerome, *Qu. Hebr.* ar 2 *Cron*. x 4). Efe a gondemniodd yr allor, ac a ragfynegodd ei llwyr ddinystr gan Iosiah. Estynodd y brenin allan ei law i ddal y prophwyd; ond diffrwythodd a gwywodd yn y fan, ac mewn attebiad i weddi y prophwyd yr adferwyd hi, yr hyn a barodd iddo gydnabod dwyfoldeb cenadwri gŵr Duw. Arwydd arall a wnaethpwyd i brofi y deuai ei ragfynegiadau i ben, oedd rhwygo yr allor, a gwasgaru ei lludw hi, yr hyn a ddigwyddodd mewn modd goruwchnaturiol. Ond ni chafodd hyn oll effaith barhaol er daioni ar Ieroboam; dilyn ei hen arferion, a cherdded ei hen ffyrdd a wnaeth efe wedi hyn. Sonid llawer am "bechod Ieroboam mab Nebat, trwy yr hwn y gwnaeth i Israel bechu;" esampl ddrwg yr hwn a ddilynwyd gan holl frenhinoedd Israel o'r bron: 1 *Bren*. xii. 25—33; xiii.

O'r diwedd, tynodd gwrthnysigrwydd a chyndynrwydd Ieroboam arno y dynged yr oedd yn ei hofni yn fwyaf o bob peth, fe ddichon, sef arwydd o ddadymchweliad buan y frenhiniaeth o'i deulu—brenhiniaeth ag yr oedd wedi cymmeryd cymmaint o boen, a bod yn euog o gymmaint o gamwedd i geisio ei sefydlu ar sylfeini sier. Clafychodd ei fab Abiah. Anfonodd y tad pryderus ei wraig i ymofyn â Duw o berthynas iddo. Ierusalem, fel y gallesid meddwl, fuasai y lle cymmhwysaf i ymweled âg ef ar y fath neges. Ond yr oedd rhesymau neillduol ac arbenig yn attalfa effeithiol i hyny. Yr oedd hen gyssegr Siloh yn agos atynt; a digwyddai fod yno ar y pryd brophwyd o'r cymmeriad uchaf, sef Ahiah, yr hwn a adwaenai Ieroboam o'r blaen; canys efe a ragfynegodd iddo gynt ei dynged ddyfodol, y teyrnasai efe yn frenin ar Israel. Erbyn hyn, yr oedd y prophwyd yn hen, ac ni allai weled: 1 *Bren*. xiv. 4. Dygodd gwraig Ieroboam anrhegion derbyniol iawn iddo ef a'i deulu, yn enwedig pan yr ystyriom, fel y gellir casglu, ei fod yn isel ei amgylchiadau—sef "deg o fara, a theisenau, a chostreiaid o fêl." Ceisiodd gwraig Ieroboam ymddieithro, fel na byddai iddi gael ei hadnabod; a dichon y gellir edrych ar y rhoddion cyffredin hyn fel rhan o'r cynllun i gadw dieithrwch. Ond ar ei dynesiad cyntaf, adnabu y prophwyd dall hi, a rhoddodd ar ddeall iddi fod drwg yn aros tŷ Ieroboam nad oedd yn bossibl ei osgoi, y rhai a fyddent feirw yn y dref a fwytëid gan gŵn gwangcus; a'r rhai a fyddent feirw yn y maes gan adar ysglyfaethus. Ond yr oedd y mab—yn achos yr hwn y daethai i ymgynghori â'r prophwyd—i farw cyn i anffodion tŷ Ieroboam ddechreu—"A holl Israel a alarant am dano ef, ac a'i claddant ef; canys efe yn unig o Ieroboam a ddaw i'r bedd; o herwydd cael ynddo ef beth daioni tuag at Arglwydd Dduw Israel, yn nhŷ Ieroboam;" 1 *Bren*. xiv. 13. Dychwelodd y fam alarus; a phan oedd ar drothwy ei thŷ, bu farw y mab, a chladdwyd ef mewn rhwysg; ac yn ol rhagfynegiad y prophwyd, "holl Israel a alarasant am dano ef."

Digitized by Google

Yr oedd Ieroboam mewn rhyfel parhaus â thŷ Iudah; ond ni chofnodir yn fanwl ond hanes y frwydr fawr a ymladdwyd rhyngddo et âg Abiah, mab Rehoboam; yn yr hon, er y cynllwyn a osododd o amgylch ei elyn, ac er fod ei fyddin yn llawer lliosocach na'r eiddo Abiah, y gorchfygwyd ef â lladdfa fawr; canys "syrthiodd yn archolledig o Israel bum can mil o wŷr etholedig;" a chymmerwyd tair o ddinasoedd pwysig, sef Bethel, Iesanah, ac Ephraim. Teimlwyd y trychineb hwn yn fawr gan Ieroboam; ac nid ymddengys iddo adfeddiannu ei nerth a'i gryfder blaenorol wedi hyn. Bu farw yn fuan, wedi teyrnasu ar Israel am ddwy flynedd ar hugain (2 *Cron*. xiii. 20); a chladdwyd ef yn meddrod ei dadau: 1 *Bren*. xiv. 20. Dilynwyd ef yn y frenhiniaeth gan Nadab ei fab; ac efe oedd y diweddaf o dŷ Ieroboam a deyrnasodd ar Israel: 1 *Bren*. xv. 25—31. Bu enw Ieroboam yn hir o dan gwmmwl du fel y brenin "a wnaeth i Israel bechu."

IEROBOAM II., ydoedd fab Ioas, y pedwerydd o deulu Iehu a eisteddodd ar orsedd Israel. Efe oedd y mwyaf llwyddiannus o holl frenhinoedd Israel. Teyrnasodd am yr ysbaid maith o un mlynedd a deugain Cadwodd i fyny esampl Ieroboam I. trwy addoli y lloi aur. Ond er hyny, cymmerodd yr Arglwydd drugaredd ar Israel; ni ddaethai dydd ei dinystr etto. Yr oedd y wlad yn flodeuog ac yn llwyddiannus yn ei amser ef. Dygodd i derfyniad buddugoliaethus y rhyfel a gychwynwyd gan ei dad. Byddai yn wastad yn orchfygwr ar y Syriaid; cymmerodd oddi arnynt eu prif ddinasoedd—Damascus a Hamath, y rhai a fuasai gynt o dan deyrnged i Dafydd, ac adferodd i frenhiniaeth Israel ei hen derfynau o Libanus i'r Môr Marw. Fe ragfynegwyd yn nheyrnasiad Ioahaz yr ymddangosai gwaredydd mawr i waredu Israel oddi wrth iau orthrymus y Syriaid (cymmh. 2 *Bren*. xiii. 4; xiv. 26, 27), ac i estyn ei therfynau fel yn nyddiau Solomon: 2 *Bren*. xiv. 26. Y gwaredydd hwn oedd Ieroboam. Nid yn unig fe gurodd yn ol y Syriaid, ond fe gymmerodd eu prifddinas—Damascus (2 *Bren*. xiv. 28; *Amos* i. 3—5), ac adfeddiannodd yr holl hen diriogaethau o "Hamath hyd fôr y rhos;" 2 *Bren*. xiv. 25; *Amos* vi. 14. Prophwydodd Amos y byddai i Ieroboam a'i dŷ gael eu dinystrio â'r cleddyf: *Amos* vii. 9, 17; a chwynai Amasiah, archoffeiriad Bethel, o herwydd hyn wrth y brenin: *Amos* vii. 10—13. Ni roddir ar ddeall pa effaith a gafodd hyn arno. Y mae yr hanesiaeth ysgrythyrol yn lled fyr i allu ffurfio barn benderfynol ar gymmeriad y tywysog yma, o dan yr hwn y cyrhaeddodd teyrnas Israel y fath fri ac enwogrwydd.

JEROME: yr hwn yn gyffredin a ystyrir y mwyaf dysgedig o'r tadau Lladinaidd, a anwyd yn Stridon, dinas yn Pannonia, fel yr ymddengys, o ddeutu y flwyddyn 342. Enw ei dad ydoedd Eusebius; y mae enw ei fam yn anwybyddus. Yr oedd ganddo chwaer, yr hon a ymgyflwynodd i fywyd crefyddol; a brawd, Paulinian, yr hwn oedd yn llawer ieuengach nag efe. Pan yn nghylch pum mlwydd ar hugain oed, efe a aeth i Rufain, ac a astudiodd rammadeg, o dan yr enwog Donatus. Yma y bedyddiwyd ef: ar ol hyn, aeth i Gaul, ac a dreuliodd gryn amser yn ninas Treves, lle y gwnaeth ei hun yn hyddysg yn ngweithiau yr hyglod Hilary, gan ysgrifenu mwy nag un o honynt â'i law ei hun. Yna treuliodd ychydig amser yn Acquillia, lle y daeth i gydnabyddiaeth â llawer o wŷr enwog, yn mhlith y rhai yr oedd Rufinus a Heliodorus: â'r olaf o'r rhai, Evagrius, gweinidog yn Antioch, ac amryw ereill, y teithiodd efe trwy Thracia, Pontus, Bithynia, Galatia, a Chappadocia. Wedi hyny aeth tua'r dwyrain, ac arosodd am beth amser yn Ierusalem; o'r ddinas hono efe a aeth i Antioch, lle y daeth i gydnabyddiaeth âg Appollinarius, yr hwn nid oedd y pryd hwnw wedi cyhoeddi ei heresi. Yn 372, ymneillduodd i anialwch oedd rhwng Syria ac Arabia, lle y gwnaeth yr iaith Hebraeg yn brif bwngc ei efrydiaeth, ac yma hefyd y dechreuodd ei esboniad ar lyfrau yr Ysgrythyrau. Wedi astudio am bedair blynedd yn yr anial gwyllt hwn, a gweled un o'i gymdeithion yn ei adael, a dau ereill yn suddo yn gyflym o dan galedi ac anghysur bywyd yn yr anialwch, ac yntau ei hun yn gwanychu mewn afiechyd, efe a adawodd fywyd o unigedd, ac a ddaeth i Antioch. Yr oedd yr eglwys yn y ddinas hono wedi ymranu yn wahanol bleidiau ar y pryd, mewn canlyniad i ddadl oedd yn eu plith yn nghylch pwy a fyddai yn esgob, o herwydd yr oedd tri yn hòni hawl i'r swydd, ac yr oedd gan y tri eu pleidwyr, sef Paulinus, Meletius, a Vitalis. Yn ol cyfarwyddyd Damasus, esgob Rhufain, cydnabyddodd Jerome Paulinus; ac o ddeutu y flwyddyn 375 ordeiniwyd ef yn offeiriad ganddo, ond ar yr ammod na byddai iddo roddi i fyny ei fywyd mendwyaidd, ac na orfodid ef i gyflawni dyledswyddau y swydd. Tuag amser ei ordeiniad, neu fe ddichon ychydig yn flaenorol i hyny, ymosodwyd arno gan y pleidiau gwrthwynebus, yr Ariaid a'r Sabeliaid, gyda golwg ar yr ystyr yn yr hwn y deallai y gair *Hypostasis;* term a ddefnyddid gynt i osod allan—yn gystal y naill a'r llall —natur Ddwyfol a phersonau y Drindod sanctaidd; ond yr hwn, er y cynghor a gynnaliwyd yn Alexandria yn y flwyddyn 362, yn yr hwn y llywyddai Athanasias, a gyfyngid yn benaf i'r ystyr ddiweddaf. Pan y gofynwyd i Jerome pa un a oedd efe yn cydnabod gyda'r Ariaid dri *Hypostasis;* neu gyda'r Sabeliaid, nad oedd ond un; efe a attebodd gyda manylrwydd a phriodoldeb mawr, "Os *natur* a olygir wrth y term hwn, yna nid oes ond un; ond os *person*, y mae tri." Ar gyfrif yr ymraniadau hyn, efe a ymadawodd âg Antioch, ac a wnaeth ei breswylfod yn Bethlehem. Yn 380, efe a aeth i Gaer Cystenyn, ac a ddaeth yn ddysgybl i Gregory o Nazianzen, esgob y ddinas hono. Yn y flwyddyn ganlynol, rhoddodd Gregory ei esgobaeth i fyny, a dychwelodd Jerome i Syria. Yn fuan ar ol hyn, yngliyd â Paulinus o Antioch, ac Epiphanius, ail ymwelodd â Rhufain, a gwnaed ef yn ysgrifenydd i Damasus, yr esgob, ac ar yr un pryd cymmerai ofal ysbrydol amryw Rufeiniaid enwog, yn feibion a merched. Bu farw Damasus yn 384; a'r flwyddyn ddilynol dychwelodd Jerome i'r dwyrain; gwelodd Epiphanius yn Cyprus wrth fyned heibio; aeth i Antioch ac Ierusalem, treuliodd fis o amser gyda Didymus ddall, yr hwn, y pryd hwnw, ydoedd un o ddysgawdwyr enwocaf Alexandria; ymwelodd â rhai mynachdai Aiphtaidd, ac oddi yno dychwelodd i Bethlehem, lle y treuliodd efe y gweddill o'i oes yn ben ar sefydliad mynachaidd, lle y cyfansoddodd y nifer liosocaf o'i weithiau. Tua diwedd ei oes, dioddefai Palestina lawer oddi wrth ymosodiadau y barbariaid; ac yn 416, ar ol y cynghor a gynnaliwyd yn Diospolis, anfonodd y Pelagiaid, yn cael eu cefnogi gan Ioan—esgob hereticaidd Ierusalem—fintai o wŷr arfog i ddinystrio mynachdy eu

Digitized by Google

gwrthwynebydd, Jerome, ac i wasgaru y rhai hyny oedd yn byw yno dan ei arweiniad ef. Lladdwyd un Diacor, a chyda chryn anhawsder yr achubodd Jerome ei fywyd trwy ddiangc. Wedi hyn, aeth yn mlaen â'i lafur llenyddol gyda diwydrwydd mawr; ac ar y 30ain o Fedi, 420, bu farw.

Ei waith mwyaf gwerthfawr ydyw ei gyfieithiad Lladinaidd o Ysgrythyrau yr Hen Destament a'r Newydd, yr hwn a elwir yn gyffredin y *Vulgate*, o ba un nid yw y Salmau, pa fodd bynag, yn eiddo ef. Cyfieithwyd hwy o'r Deg a Thrigain, ac nid o'r testyn Hebraeg, yr hwn yn ddieithriad a ddefnyddid gan Jerome. Gadawodd allan lyfrau yr Apocrypha hefyd, oddi eithr *Tobit* ac *Iudith*, am nad oeddynt yn gynnwysedig yn y Canon Hebraeg. Mwynhaodd Jerome fanteision arbenig i gyflawni y gwaith mawr hwn, nid yn unig o herwydd ei gydnabyddiaeth fanwl â'r Hebraeg, ei breswylfod maith yn Syria, a'i wybodaeth am y cymmydogaethau y sonir am danynt, am draddodiadau lleol, ac am arferion y wlad; ond hefyd, o blegid y ffaith fod Origen wedi cyhoeddi ei weithiau mewn chwe cyfrol, trwy gymmhorth cyfieithiad Groegaidd yr hwn (y cywiraf sydd yn bod) y galluogwyd ef i ddiwygio a gwella y testyn Groegaidd a arferid yn gyffredin, ynghyd â'r hen un Italaidd. Cyhoeddodd Cynghor Trent y *Vulgate* yn gyfieithiad gwirioneddol, ac ymddangosodd argraphiadau diwygiedig o hono o dan nodded y pabau, Sixtus v. a Clement VIII., B.A. 1590, 1592, 1593. Yr ydym yn ddyledus i Jerome hefyd am un o'r esboniadau goreu a gyfansoddwyd erioed ar y prophwydi, am un ar Lyfr y Pregethwr, ar Matthew, ac ar Epistolau Paul at y Galatiaid, yr Ephesiaid, Titus, a Philemon. Yr oedd, hefyd, yn un o brif ysgrifenwyr dadleuol ei oes. Gwrthwynebodd y Montaniaid, Helvidius, Jovinian, Rufinus, yr Origeniaid, y Luciferiaid, Vigilantius, a Pelagius. Cyfieithodd waith Didymus ar yr Ysbryd Glân, cyfansoddodd amrywiol fywgraphiadau i ysgrifenwyr Cristionogol a flodeuent cyn ei ddyddiau ef, a gwnaeth lawer o chwanegiadau hefyd at *Groniclau* Eusebius, y rhai a ddygwyd i lawr ganddo i'r fl. 378. Cynnwysir ei waith ef yn yr wythfed gyfrol o argraphiad Villarius. Gadawodd ar ei ol 150 o lythyrau ar wahanol destynau, yn dwyn perthynas â duwinyddiaeth a'r Ysgrythyrau. Y mae Jerome, yn ei esboniad ar y prophwydi, yn gwrthwynebu syniadau llythyrenol a hanner Iuddewaidd Theodore, y 'deonglydd,' fel y gelwir ef, yr hwn ydoedd esgob Mopsuesta yn nyddiau Jerome, ac un o brif athrawon a chynnrychiolwyr ysgol Syria ac Antioch. Yr oedd efe wedi ymosod ar Jerome, fel yr ymddengys, o dan yr enw *Aram*, am ei fod yn dysgu yr athrawiaeth o bechod gwreiddiol. Mae Theodore, yn mhob man lle y gwel fod hyny yn bossibl, yn rhoddi i'r prophwydoliaethau ystyron llythyrenol a thymmorol yn unig; a'r canlyniad ydyw, ein hamddifadu o'r dystiolaeth hono dros ein crefydd a geir mewn prophwydoliaeth, i ddifeddiannu cyfran helaeth o ysgrifeniadau cysgodol yr Hen Destament o ran bwysig o'u hystyr, a thrwy gyfyngu y bendithion addawedig i ardal neu wlad neillduol, i wneyd i ffordd â phob syniad am eglwys Gristionogol a chyffredinol. Fel hyn, gyda golwg ar ymadroddion nodedig Hosea (vi. 2, 3)—'Efe a'n bywhâ ni ar ol deuddydd, a'r trydydd dydd y cyfyd ni i fyny, a byddwn fyw ger ei fron ef. Yna yr adnabyddwn, os dilynwn adnabod yr Arglwydd: ei fynegiad a ddarperir fel y boreu; ac efe a ddaw fel gwlaw atom, fel y diweddar-wlaw a'r cynnarwlaw i'r ddaear"—esbonir hwy gan Theodore fel yn cyfeirio yn unig at adferiad pobl etholedig yr Arglwydd i'w llwyddiant tymmorol ar ol y gaethiwed Assyriaidd; ond y mae Jerome, fel y gallesid disgwyl, yn eu hegluro trwy eu cymmhwyso at adgyfodiad Crist, a dyrchafiad yr hil ddynol trwy hyny. Y mae yr ymadroddion a ddefnyddiwyd gan yr un prophwyd yn *pen.* xiii. 14—"O law y bedd yr achubaf hwynt: oddi wrth angeu y gwaredaf hwynt: byddaf angeu i ti, O angeu, byddaf drangc i ti y bedd!" —yn cael eu hesbonio gan Theodore yn yr un modd, ac y mae yn cyfeirio at eu cyflawniad yn yr un cyfnod; ond y mae Jerome yn eu cymmhwyso yn eu hystyr berffeithiaf at farwolaeth Crist. Am yr ymadroddion blaenaf yn *Ioel* ii. —"Canys daeth dydd yr Arglwydd, canys y mae yn agos; diwrnod tywyll du, diwrnod cymmylog a niwliog"—tybia Theodore eu bod yn disgrifio tywyllwch naturiol yn unig; yr hwn, fel y dywed yn gyffredinol, a gymmerodd le yn nyddiau Hezeciah a Senacherib; a meddylia ef fod "dydd yr Arglwydd" yn golygu yn unig rhyw gyfnod o drychineb mawr a achoswyd gan yr Assyriaid. Ond rhydd Jerome i'r naill a'r llall ystyr ysbrydol a Christionogol, gan eu helaethu â'r ystyr gulranol a roddir iddynt gan Theodore, at ddiwedd pob peth, a dydd mawr y farn ddiweddaf. Yn olaf, er y mynegiad apostolaidd o gyflawniad yn mradychiad ein Harglwydd eiriau *Zech.* xi. 12, 13— "A'm gwerth a bwysasant yn ddeg ar hugain o arian. A dywedodd yr Arglwydd wrthyf, bwrw ef i'r crochenydd: pris teg o'r hwn y'm prisiwyd ganddynt. A chymmerais y deg ar hugain arian, a bwriais hwynt i dŷ yr Arglwydd i'r crochenydd"—myn Theodore nad yw y rhif "deg ar hugain," a grybwyllir yma, i'w gymmeryd fel yn arwyddo unrhyw swm pennodol, "ond yn unig yn dangos caredigrwydd mawr y bobl i'r prophwyd, ynghyd â'r parch a deimlent tuag ato," tra y mae bwrw y deg ar hugain i'r crochenydd, yn ol ei syniad ef, yn golygu yn unig prawf y bobl mewn ffwrn fawr o ddioddefaint. Y mae Jerome yn gwrthwynebu y ddau syniad, fel y gwna hefyd haeriad Theodore, fod "cyfodiad Haul y Cyfiawnder" yn Malachi, yn arwyddo yn unig fuddugoliaethau y Maccabeaid. Yr ydym yn casglu fod Jerome yn gwrthwynebu Theodore, nid yn unig oddi ar y dystiolaeth fewnol a geir wrth gymmharu gweithiau y ddau; ond o blegid fod y blaenaf, fwy nag unwaith, yn gwneyd cyfeiriad at ryw berson o enwogrwydd oedd yn fyw ar y pryd, er nad ydyw yn crybwyll ei enw, yr hwn, oddi wrth ei ddull o ymdrin â phrophwydoliaeth, y buasai yn fwy priodol, medd efe, ei alw yn Iuddew nag yn Gristion. Y mae yn eglur nad oedd neb yn yr amseroedd hyny yn cyfatteb mor gymmhwys i ddarluniad Jerome a Theodore. Y mae arddull Jerome yn amrywio, yn ol natur y testyn y byddo yn ymdrin âg ef. Yn ei weithiau dadleuol, mae'n ffrwythlawn a miniog, ac yn profi ei hun yn feistr nodedig mewn rheitheg a rhesymeg; a dengys ei gydnabyddiaeth gydag ysgrifeniadau yr hen athrawon a beirdd, trwy ddyfynu o'u gweithiau. Symlrwydd a difrifwch a gyfansoddant brif nodweddau ei esboniadau; yn y rhai, ar yr ysgrifeniadau prophwydoliaethol, y mae ei wybodaeth fanwl o

Digitized by Google

ddwys ar fy meddwl, ac yn achosi i mi deimlo y fath euogrwydd llym, a'r hwn a gyflawnais yn y lle angeuol hwn; pan y cymmeradwyais y ddedfryd ddrygionus a ddygwyd yn erbyn Wicliffe, ac yn erbyn y merthyr sanctaidd John Huss, fy athraw a'm cyfaill." Yr oedd ei amddiffyniad wedi tueddu ei farnwyr i drugarhau wrtho; ond seliodd yr ymadroddion hyn ei dynged farwol.

Traddodwyd ef i'r galluoedd gwladol i'w roddi farwolaeth. Pedwar diwrnod yn ddiweddarach (Mai 30ain, 1416), llosgwyd ef yn gyhoeddus wrth yr ystangc, a chafodd ei weddillion eu casglu, fel yr eiddo Huss, a'u taflu i'r afon Rhine. Pan yn cael ei amgylchu gan y tân, gwaeddai allan, "O Arglwydd Dduw! cymmer drugaredd arnaf!" ac yn fuan wedi hyny, "Ti a wyddost y modd y cerais dy wirionedd." Cyfarfu ei dynged â gwyneb siriol. Sylwai fod y dienyddwr yn parotoi i roddi tân yn y coed y tu cefn iddo, a dywedodd wrtho, "Dwg yma dy ganwyll, a chyflawna dy swydd o flaen fy ngwyneb. Pe buaswn yn ofni angeu, gallaswn ei ochelyd" Ac fel yr oedd y coed yn cynneu, dechreuodd ganu hymn, ac ni luddiwyd ef i fyned yn mlaen gan flyrnigrwydd y fflamau.

Y mae haneswyr Pabaidd, yn gystal a Phrotestanaidd, fel yn ymgystadlu i dalu gwarogaeth i'r dewrder penderfynol, a'r ymroddiad apostolaidd â'r hwn y cyfarfu Jerome ei dynged. Y mae oesoedd diweddarach wedi cadarnhau eu ddedfryd, ac yn ei barchu fel merthyr i'r gwirionedd, yr hwn, yn ddiflino yn ei fywyd, ac arddderchog yn ei farwolaeth, a ennillodd iddo ei hun anrhydedd anfarwol am y gyfran a gymmerodd yn nygiad oddi amgylch y Diwygiad Protestanaidd. Yr oedd Jerome, yn ddiau, yn ddyn rhagorol, yn ddiffuant yn ei broffes grefyddol, fel y profwyd yn ei waith yn sefyll mor gadarn yn mblaid y gwirionedd. Goleuni ydoedd wedi ei osod ar fryn; ac er ei fod dros ychydig amser wedi ei dywyllu, torodd allan drachefn gyda disgleirdeb chwanegol.

IEROSOLYMITIAID [Gr. *Ierosolymitai*]: neu, mewn ffurf arall, *Ierusalemitiaid*—trigolion Ierusalem. Mae yr enw yn tarddu o'r enw Groeg am Ierusalem a ddefnyddir yn y Testament Newydd, sef *Ierosolyme*: neu y Lladin, *Hierosolyma*; ac i'w weled yn *Marc* i. 5, lle y cofnodir yr un gwirionedd ag yn *Mat.* iii. 5, "Yna yr aeth allan ato ef *Ierusalem* a holl wlad Iudea." Yn yr argraphiadau diweddaraf o'r Beibl Cymraeg, dechreuir y gair âg H; ond yn yr argraphiad hynaf fel uchod y mae. Cyfieithiad y Saeson dyw "*they of Jerusalem.*"

IERUEL: yr anialwch yn yr hwn yr hysbyswyd Iehosophat gan Iahaziel y Lefiad, y byddai iddo oddiweddyd lluoedd yr Ammoniaid, a'r Moabiaid, a thrigolion mynydd Seir, y rhai a heidient ar ddeuddau deheuol y môr mawr gyda'r bwriad i ymosod ar Ierusalem. "A chwi a'u goddiweddwch hwynt yn nghwr yr afon, tuag anialwch Ieruel;" 2 *Cron.* xx. 16.

IERUSA: ydoedd ferch i Sadoc, a mam Iotham, mab Uzziah brenin Iudah: 2 *Bren.* xx. 16.

1. IESAIAH: mab Hananiah, brawd Petaliah, ac ŵyr i Zorobabel: 2 *Cron.* iii. 21.

2. IESAIAH: Benjaminiad, hiliogaeth yr hwn a ddewiswyd trwy goelbren i breswylio yn Ierusalem wedi dychweliad y genedl o Babilon: *Neh.* xi. 7.

3. IESAIAH: un o chwe mab Ieduthun, a neillduwyd at wasanaeth cerddorol y deml, o dan arweiniad eu tad, y telynor ysbrydoledig; efe ydoedd blaenor yr wythfed dosbarth o'r cerddorion. Y mae yr enw yn Hebraeg yr un ag enw y prophwyd Esaiah.

4. IESAIAH: Lefiad yn nheyrnasiad Dafydd, mab hynaf Rehebiah, disgynydd o Amram trwy Moses: 1 *Cron.* xxvi. 25. Gelwir ef yn 1 *Cron.* xxiv. 21, o'r cyfieithiad awdurdodedig, yn *Isiah*—y ffurf Hebraeg byraf o'r enw.

5. IESAIAH: mab Athaliah, a phenaeth tylwyth Bene Elam, a ddychwelodd gydag Ezra o Babilon: *Ezra* viii. 7.

6. IESAIAH: Merariad, a ddychwelodd gydag Ezra: *Ezra* viii. 19.

IESANAH [ישנה; Gr. *Iesana*]: dinas yn Ephraim, yr hon, ynghyd â'r pentrefi cymmydogaethol, ydoedd un o'r tair a gymmerwyd gan Abiah oddi ar Ieroboam: 2 *Cron.* xxiii. 19. Y ddwy ereill oeddynt Bethel ac Ephraim, ac enwir Iesanah rhyngddynt. Mewn lle o'r un enw, cymmerodd brwydr le rhwng Herod a Pappus, cadfridog byddin Antigonus, am yr hon y rhydd Josephus rai manylion cywrain [*Hyn.* xiv. 15; *adr* 12]; ond nid ydyw, modd bynag, yn crybwyll dim am ei sefyllfa. Nid ydym yn hysbys yn awr yn mha le y safai, ond tybia Shwarz mai yr un ydoedd a lle a elwir yn awr yn "Al-sanim, pentref dwy filldir i'r gorllewin o Bethel, ond nid yw y lle i'w weled yn mapiau gwlad Palestina.

IESARELAH: blaenor y seithfed o'r pedwar dosbarth ar hugain, i ba rai yr oedd y cerddorion Lefiaidd wedi eu dosbarthu: 1 *Cron.* xxv. 14. Efe a berthynai i deulu Asaph, ac yr oedd ganddo ddeuddeg o'i dylwyth dan ei arweiniad. Gwel HEMAN; IEDUTHUN.

IESARIAH: efe ydoedd blaenor y seithfed dosbarth, allan o'r pedwar ar hugain, i ba rai yr oedd y cerddorion wedi eu dosbarthu yn mhlith y Lefiaid: 2 *Cron.* xxv. 14. Perthynai i dylwyth Asaph, ac yr oedd ganddo ddeuddeg o'i deulu ei hun yn gwasanaethu dano.

IESEBEAB [ישבאב; Gr. *Isbaab*]: penaeth y pedwerydd teulu ar ddeg a berthynai i'r offeiriadaeth: 2 *Cron.* xxiv. 13.

IESER: un o feibion Caleb, mab Hesron, o'i wraig Ahuzah: 1 *Cron.* ii. 18.

IESISAI: mab Iado, un o hynafiaid y Gadiaid, y rhai a breswylient Gilead, y cymmerwyd eu hachau yn nyddiau Iotham, brenin Iudah: 2 *Cron.* v. 14.

IESSE [ישי; *h. y.*, *Ishai*; Gr. *Isai*]: tad Dafydd, brenin Israel, ac un o hynafiaid ein Harglwydd Iesu Grist. Efe ydyw yr unig un o'r enw a ymddengys yn y gyfrol ysbrydoledig. Yr oedd Iesse yn fab i Obed, yr hwn ydoedd yn fab i Boaz, o Ruth y Foabees. Nid gwaed Ruth oedd yr unig waed cenhedlig a redai yn ei wythienau, o herwydd ei hen nain oedd Rahab y Ganaanead, o Iericho: *Mat.* i. 5. Mae achau Iesse yn cael eu rhoddi yn llawn ddwywaith yn yr Hen Destament, sef yn *Ruth* iv. 18—22; a 1 *Cron.* ii. 5—12 Yn mhell cyn i Dafydd ddyrchafu urddas

Digitized by Google

ei deulu, fe welwn ei fod yn un o'r rhai anrhydeddusaf yn Iudah; ei sylfaenydd ydoedd Phares, trwy Hesron ei fab hynaf. Un o'r dolenau cyssylltiol yn nghadwen y llinach oedd Nason (Naason y Testament Newydd), blaenor y llwyth yn yr adeg gynnhyrfus pan y daethpwyd allan o gaethiwed yr Aipht. Yn y Testament Newydd hefyd y mae ei achau yn cael eu nodi ddwywaith; *Mat.* i. 3—5; *Luc* iii. 32—34.

Dynodir ef yn gyffredin fel "Iesse y Bethlehemiad;" 1 *Sam.* xvi. 1, 18. Felly y gelwir ef gan ei fab Dafydd, y pryd hwnw newydd ddod oddi cartref (1 *Sam.* xvii. 58); ond ei deitl llawn ydyw "Ephratëwr o Bethlehem Iudah:" 1 *Sam.* xvii. 12. Y mae y ddau ddynodiad, y defnydd a wneir o'r gair hynafol *Ephratëwr*, fe ddichon, yn arwyddo ei fod yn un o'r teuluoedd hynaf yn y lle. Yn "hynafgwr" y cyflwynir ef gyntaf i'n sylw (1 *Sam.* xvii. 12), a chanddo wyth o feibion (1 *Sam.* xvi, 10; a xvii. 12), ac yn preswylio yn Bethlehem: 1 *Sam.* xvi. 4, 5. Ymddengys, pa fodd bynag, yn ol yr hyn a ddywedir yn 1 *Sam.* xvi. 4, 5, ac yn ol Josephus [*Hyn.* vi. 8, *adr.* 1], nad oedd Iesse yn un o "henaduriaid" y ddinas. Gellir yn rhwydd adgofio y cipolwg a geir arno yn awr ac eilwaith. Yn ol hen draddodiad Iuddewig, a gofnodir yn y *Targum*, ar 2 *Sam.* xxi. 19, gwehydd ydoedd Iesse wrth ei gelfyddyd, yn gwneuthur lleni at wasanaeth y cyssegr; ac os nad oes dim yn gwrthddweyd hyn, nid oes dim chwaith yn ei gadarnhau yn cael ei ddywedyd yn y Beibl. Y mae yn bossibl i hyn gael ei awgrymu oddi wrth fod y gair *orgim*, "gwehyddion," yn digwydd mewn cyssylltiad âg aelod o'i deulu ef (*Iaare-Oregim*): 2 *Sam.* xxi. 19. Yr oedd cyfoeth Iesse yn gynnwysedig, fel yr ymddengys, mewn deadelloedd o ddefaid a geifr, y rhai oeddynt o dan ofal Dafydd: 1 *Sam.* xvi. 11; xvii. 34, 35. O gynnyrch y deadelloedd hyn, ni a'u cawn ar ddau achlysur yn anfon anrhegion syml, y rhai yn y dyddiau hyny a dderbynid gan y personau mwyaf anrhydeddus—deg cosyn i dywysog y fyddin yn mha un y gwasanaethai ei feibion (1 *Sam.* xvii. 18.), a myn i Saul (1 *Sam.* xvi. 20.); a chyda'r ddwy anrheg ŷd wedi ei grasu, a dyfodd ar y meusydd a fu yn eiddo i Boaz, a thorthau o'r bara oddi wrth yr hyn y mae Bethlehem wedi cymmeryd ei henw, a gwin o'r gwinllanoedd sydd etto yn addurno llechweddau y bryn is law y pentref.

Pan y cymmerodd rhwyg le rhwng Dafydd a Saul, ac yr anfonwyd y blaenaf o'r llys, "aeth ei frodyr a holl dŷ ei dad" ato ef i ogof Adulam: 1 *Sam.* xxii. 1. Enwir ei "frawd"—Eliab, dybygid—ar achlysur blaenorol (1 *Sam.* xx. 29.), fel yn cymmeryd y flaenoriaeth yn y teulu. Y mae hyn yn beth a allesid ddisgwyl wrth ystyried oedran mawr Iesse. Yr oedd pryder Dafydd yr adeg hon am gael allan noddfa ddirgel i'w rieni o gyrhaedd llidiogrwydd y brenin Saul, yn cydsefyll â'r syniad hwn am eu sefyllfa ddiamddiffyn. Cymmerodd ei dad a'i fam i wlad Moab, ac fe'u rhoddodd o dan ofal ac amddiffyniad brenin y wlad hono (1 *Sam.* xxii. 3, 4); wedi hyny, ni cheir eu hanes yn y cofnodiad ysgrythyrol. Y mae traddodiad Iuddewig yn dywedyd i frenin Moab, wedi myned Dafydd ymaith, roddi ei rieni a'i holl frodyr—ond un, yr hwn a gafodd noddfa gan frenin Ammon—i farwolaeth. Tybia rhai mai i ddial y camwri hwn y tarawodd Dafydd y Moabiaid: 2 *Sam.* viii. 2.

Ni fynegir pwy oedd gwraig Iesse. Yr oedd ganddo wyth o feibion, o ba rai Dafydd ydoedd yr ieuengaf. Cynnwysai y teulu hefyd ddwy o ferched, Serfiah ac Abigail; y mae rhai yn ammheu a oeddynt yn ferched i Iesse, er eu bod yn cael eu galw yn chwiorydd ei feibion (2 *Cron.* ii. 16), o herwydd mewn man arall gelwir Abigail yn ferch Nahas: 2 *Sam.* xviii. 25. Mae dau eglurhâd ar hyn yn cael ei gynnyg. 1. Yr un Iuddewig; sef, mai enw arall ar Iesse ydoedd Nahas: *Jerome*, 2 *Hebr.* ar 2 *Sam.* xvii. 25. 2. Un Dr. Stanley; sef, fod gwraig Iesse wedi bod yn flaenorol yn wraig i Nahas, yr hwn, fe ddichon, oedd frenin yr Amoriaid.

Nis gall y darllenydd beidio sylwi mor fynych y mae enw Iesse yn cael ei grybwyll, a hyny wedi i Dafydd ddyfod yn ddigon enwog i daflu o'r golwg megys ei riant gwylaidd ac anamlwg. Tra yr oedd Dafydd yn ffoadur diamddiffyn, digon naturiol iddo fod i gyfaill a gelyn—i Saul, i Doeg, i Nabal, ac i dywysogion Iudah a Beniamin—i'w adnabod yn unig wrth yr enw "Mab Iesse" (1 *Sam.* xxii. 9, 13; cymh. xxiv. 16; xxv. 10; 1 *Cron.* xii. 18); ond fod enw Iesse yn cael ei ddwyn ger bron mewn cofnodiad mor ddiweddar a'r rhai a grybwyllir yn 1 *Cron.* xxix. 26, a *Salm* lxxii. 20, amser maith wedi i Dafydd sefydlu ei dŷ ei hun, sydd yn ddiau yn deilwng o sylw. Yn enwedig dylid sylwi mai yn ei enw ef—y "wialen o gyff Iesse"..............gwreiddyn Iesse, yr hwn a saif yn arwydd i'r bobloedd" (*Esa.* xi. 1, 10)—y cyhoeddai Esaiah ei brophwydoliaethau mwyaf ardderchog, y rhai a fwriadwyd ganddo i ddyrchafu a sirioli calon y genedl yn amser ei hanobaith a'i thrallod dyfnaf.

IESUA: offeiriad yn nheyrnasiad Dafydd, i'r hwn y disgynodd y nawfed dosbarth trwy goelbren: 1 *Cron.* xxiv. 11. Dychwelodd un gangen o'r teulu hwn, sef meibion Iedaiah, o gaethiwed Babilon: *Ezra* ii. 36.

2. IESUA: un o'r Lefiaid yn amser Hezeciah, wedi diwygio y gwasanaeth crefyddol, a osodwyd mewn swyddau yn ninasoedd yr offeiriaid, i ddosbarthu yn mhlith eu brodyr offrymau y bobl: 2 *Cron.* xxxi. 15.

3. IESUA: mab Iehosadac, archoffeiriad cyntaf y drydedd gyfres; sef, wedi y dychweliad o'r caethiwed Babilonaidd. Ganwyd Iesua, fel ei gydoesydd Zorobabel, y mae yn dra thebygol, yn Babilon, lle y cymmerwyd ei dad Iehosadac yn garcharor pan yn ieuangc: 2 *Cron.* vi. 15. Dychwelodd o Babilon, fel Zorobabel, yn y flwyddyn gyntaf i Cyrus, a chymmerodd ran flaenllaw yn ail adeiladiad y deml, ac yn adsefydliad gwladwriaeth Israel. Mae yr oll a ddarllenir genym am dano yn arwyddo ei fod yn ddyn dewr, yn wladgarwr twymgalon, ac yn meddu ar dduwioldeb dwfn. Nis gallasai un â llai o ffydd a phenderfyniad byth orchfygu yr holl anhawsderau a'i cyfarfu. Ei ofal blaenaf wedi ei ddyfodiad i Ierusalem ydoedd ail adeiladu yr allor, ac adferu yr aberth dyddiol oedd wedi ei roddi heibio er's haner can mlynedd. Yna, ynghyd â Zorobabel, prysurodd i gasglu defnyddiau i ail adeiladu y deml, a buont yn alluog i osod i lawr ei sylfaen mor fuan a'r ail fis o'r ail flwyddyn wedi dychweliad y genedl i Ierusalem. Dygwyd yn mlaen y gwasanaeth ar yr achlysur hwnw gan yr offeiriaid yn eu gwisgoedd priodol, a chyda'u hudgyrn, a'r Lefiaid a meibion Asaph, a'u symbalau, yn ol ordinhâd y brenin Dafydd: *Ezra* iii. Pa fodd bynag, attaliwyd y gwaith yn mlaen gan elyniaeth y Samariaid, y rhai trwy

Digitized by Google

lwgr-wobrwyo cynghorwyr brenhinoedd Persia, a lwyddasant i datlu rhwystrau mor effeithiol ar ffordd yr Iuddewon, fel nas gallent fyned rhagddynt hyd yr ail flwyddyn o deyrnasid Darius—cyfwng o bedair blynedd ar ddeg. Yn y flwyddyn hono, c. c. 520, trwy brophwydoliaeth Haggai a Zechariah (*Ezra* v. 1: vi. 14; *Hag.* i. 1, 12, 14; ii. 1—9; *Zech.* i—viii), adnewyddwyd y gwaith gan Iesua a Zorobabel gyda grym chwanegol, a gorphenwyd ef yn llwyddiannus erbyn y trydydd dydd o fis Adar (sef Mawrth), yn y chweched flwyddyn i Darius. Cyssegrwyd y deml, a chadwyd y Pasc y mis canlynol gyda sirioldeb a llawenydd mawr (*Ezra* vi. 15—22); ac yn arbenigol, "offrymwyd deuddeg o fychod geifr yn bech-aberth dros Israel, yn ol rhifedi llwythau Israel. Mae mab Sirach yn mawr gymmeradwyo sel a gweithgarwch Iesua (*Preg.* xlix. 12). Heb law y pwysigrwydd a berthynai i Iesua fel cymmeriad hanesyddol, oddi wrth yr amseroedd enbyd yr oedd yn byw ynddynt, y gwaith mawr a gyflawnodd, y rhan a gymmerodd yn adferiad y deml, ei enw Iesu, ei swydd fel archoffeiriad, ac yn neillduol oddi wrth y ddwy brophwydoliaeth oedd yn dal cyssylltiad âg ef yn *Zech.* iii; a vi. 9—15, gwelwn fod hyn oll yn ei nodi allan fel cysgod enwog o Grist. Nid oes dim yn wybyddus am Iesua yn ddiweddarach na'r seithfed flwyddyn o deyrnasiad Darius, pan y mae yr hanes yn *Ezra* yn terfynu: *Ezra* i—vi. Nid ydyw Josephus yn chwanegu dim at ein gwybodaeth am dano. Y mae yn dra thebygol fod Iesua yn eithaf adnabyddus i Daniel ac Ezeciel, ac iddo fod yn cymdeithasu llawer â hwynt; a dichon ei fod yn adnabod Ieholacim hefyd yn ei ieuengctyd. Mwy na thebyg iddo farw yn Ierusalem. Mae ei enw yn cael ei ysgrifenu yn Iosua yn *Zech.* iii. 1, 3, &c; *Hag.* i. 1, 12, &c.

4. IESUA: penaeth teulu Lefiaidd, un o'r rhai a ddychwelasant o'r caethiwed Babilonaidd, ac a weithiodd yn egniol o dan Zorobabel, Ezra, a Nehemiah: *Ezra* ii. 40; iii. 9; *Neh.* iii. 19; ix. 4, 5.

IESUI: mab Aser, hiliogaeth yr hwn (yr Ieseriaid) a rifwyd ar wastadedd Moab ar lan yr Iorddonen, gerllaw Iericho: *Num.* xxvi. 44. Gelwir ef, yn *Gen.* xlvi. 17, *Isui*; ac yn 1 *Cron.* vii. 30, *Isuai.*

IESURUN: enw arwyddluniol a ddefnyddir am genedl Israel; gwneir arferiad o hono bedair gwaith yn yr Hen Destament, sef yn *Deut.* xxxii. 15; xxxiii. 5, 26; *Esa.* xliv. 2. Am darddiad y gair, y mae amrywiol farnau wedi eu cyhoeddi. Cyfieithir ef unwaith yn "uniawn," a dwywaith yn "Israel:" yn *Esaiah*, gadewir ef heb ei gyfieithu o gwbl. Am gymmhwysiad y gair at Israel, ymddengys nad oes gwahaniaeth barn yn bod. Dywed Kimchi, wrth sylwi ar *Esa.* xliv. 2, fod y gair yn deilliaw o ישר—*yâshar*, yr hyn a arwydda "i fod yn iawn neu uniawn," "am fod Israel yn uniawn yn mysg y Cenhedloedd." "Yr uniawn" (*Num.* xxiii. 10; *Salm* cxi. 1), sydd gyfenwad barddonol ar y bobl etholedig, y rhai a wnaethant yr hyn oedd uniawn yn ngolwg yr Arglwydd, mewn gwrthgyferbyniad i'r Cenhedloedd eilunaddolgar a wasanaethent dduwiau gau a thwyllodrus. Dyma y golygiad a fabwysiedir gan Acquila, Symmachus, a Theodotion. Yn y cymmeriad hwn, fel rhai cyfiawn ac uniawn, y cydnabyddai yr Iehofah ei bobl yn rhinwedd eu perthynas gyfammodol âg ef. Tra y cadwent delerau y cyfammod, safent ger ei fron yn gyfiawn yn wyneb y gyfraith, ac yn lân ei olwg. Yn yr ystyr hwn y dywedir i'r hen frenhinoedd gynt "wneuthur yr hyn oedd uniawn yn ngolwg yr Arglwydd."

IESUITIAID: neu Cymdeithas yr Iesu: enw ar urdd grefyddol enwog a ffurfiwyd tua chanol yr unfed ganrif ar bymtheg. Os caniateir ychydig iawn o eithriadau, saif yn gywir, fel rheol, fod seintoliad yn cau y drws yn erbyn hanesyddiaeth gredadwy. Nid oes gan yr enghraifft sydd ger ein bron hawl i gael ei hystyried yn mhlith yr eithriadau prinion hyny. Y mae y bywgraphiadau, yn y rhai y ceir y wybodaeth a feddiennir genym am hanes personol sylfaenydd yr urdd Iesuitaidd, fe ddichon yn wirioneddol; ac ar y cyfan, fe allai y gellir eu hystyried yn gredadwy; ond y mae yn ammhossibl i ni yn awr wybod, hyd sicrwydd, eu bod felly. Y maent yn cynnwys, yn wir, ychydig bethau a ymddengys yn annhebygol, a rhyw gymmaint ag sydd yn hollol anghredadwy; ond y mae yr ychdyig hyn o'r fath ansawdd ag y gall darllenydd sydd yn gyfarwydd yn llenyddiaeth y *Calendar* eu dcoli lle y digwyddant heb ddinystrio corph yr hanes.

Wrth dderbyn y defnyddiau o hanes ei fywyd sydd yn awr ar gael, yr ydym yn gwneyd hyny mewn ffydd syml; canys nid oes genym o fewn ein cyrhaedd yn awr fanteision i benderfynu, hyd sicrwydd, yr hyn a gydnabyddir fel gwirionedd, nac i adael allan yr hyn sydd ffugiol. Y mae bywyd St. Ignatius, fel yr ydym yn ei gael yn y cofnodion hyny ag y mae yr Eglwys Babaidd a'r gymdeithas ei hun yn cydnabod eu gwirionedd, yn gyfryw ag nad yw yn tynu sylw neillduol. Yr unig beth sydd yn hynod yn ein taraw wrth ddarllen bywgraphiadau o Ignatius Loyola yw hyn: fod hanes sydd yn amlygu mor lleied o arwyddion gwybodaeth anghyffredinol a chymmhwysderau o natur foesol na cheir hwy yn aml, yn sefyll yn mlaen cyfres o ddygwyddiadau nad oes dim i'w cystadlu â hwynt yn hanes yr hil ddynol. Cymmhellir y darllenydd i ofyn, Ai hwn yw y dyn y daeth y sefydliad Iesuitaidd a'i reolau manylgraph allan o'i ymenydd? Prin y gellir derbyn attebiad cadarnhaol ar wahân oddi wrth y dybiaeth fod Iesuitiaeth, yr hon y gellir ystyried Loyola ei hun fel ei hawdwr, yn ddim amgen na drychfeddwl ffrwythlawn, yr hwn a gymmerwyd i fyny, a goleddwyd, ac a ddadblygwyd gan feddyliau llawer galluocach ac eangach na'r eiddo ef.

Bydded hyn fel y byddo; nis gellir rhoddi hanes priodol am Iesuitiaeth heb ei ragflaenu—er wedi ei wasgu i ychydig le—â bywgraphiad o'r dyn a hynododd ei hun fel ei sylfaenydd; i'r hwn yn ddiammheu y perthynai yr awdurdod uchaf tra yr ydoedd y sefydliad yn ei fabandod. Tynir defnyddiau bywgraphiad Loyala, y rhan fynychaf, yn benaf o'r ysgrifeniadau y mae y gymdeithas ei hun wedi eu cyhoeddi, neu y rhai y mae wedi cydnabod eu hawdurdod.

Y mae y Bollandiaid, yn eu casgliad anferth, yr *Acta Sanctorum*, yn eu dull manwl a llafurfawr arferol, wedi casglu yr holl ddefnyddiau tuag at wneyd i fyny hanes Iesuitiaeth a ddaeth yn eu ffordd. Aeth Orlandinus drwy y defnyddiau hyn yn ofalus, a chwanegodd atynt, a chyhoeddodd fywgraphiad maith o'r sylfaenydd, i'r hwn y rhoddodd y gymdeithas ei chefnogaeth Y mae yr Iesuit, John Peter Maffei, ysgrifenydd

Digitized by Google

cymmeradwy a dymunol, awdwr hanes India, a hanes bywyd y gwrol Francis Xavier, wedi rhoddi adroddiad o fywyd Loyala mewn cylch cymmedrol, ac mewn ffurf sydd yn dderbyniol gan ddarllenwyr cyffredin. Ymddengys iddo wneyd cryn lawer o ddefnydd o sylwadau a wnaed gan ei gydoesydd, Polancus, yr hwn a fuasai fyw ar delerau o gyfeillgarwch â Loyola. Cyhoeddwyd llyfr Maffei gyntaf yn y flwyddyn 1585. Gadawodd Ludovico Gonsalvo, yr hwn ydoedd Yspaeniad, yr hwn hefyd a fu yn gydymaith i Loyola, ar ei ol nodiadau ar fywyd boreuol ei athraw, ac y mae y sylwadau hyn yn ymddangos yn meddu ar symledd gwirioneddol. Mewn amseroedd diweddarach, cyfansoddodd yr Iesuit Pietro Ribadeneira, yr hwn a gymmerodd fywgraphiad Gonsalvo fel sylfaen—hanes helaeth am sylfaenydd yr urdd. Gwahaniaetha yr ysgrifenydd mewn amryw bethau oddi wrth Maffei; ac yn gyffredin, gwna hyny pan y byddo a fyno yr hanes â rhywbeth goruwchnaturiol; yn yr amgylchiadau hyny, y mae yr awdwr hwn yn ymwneyd mor lleied ag y gall â'r anhygoel, ac yn prysuro yn mlaen i osod ei draed ar dir cadarnach. Oddi wrth yr ysgrifenwyr rhaggrybwylledig, rhaid casglu yr hyn a ellir ei wybod yn awr am hanes personol y sylfaenydd.

Ignatius neu Ingo De Recalde Loyola, ydoedd fab i bendefig o Guipuscoa, ac a anwyd yn y flwyddyn 1491. Gwnaed ef yn was yn llys Ferdinand ac Isabella o Yspaen; lle yr hynododd efe ei hun trwy y medrusrwydd a'r rhagoriaethau a berthynai iddo fel milwr a gŵr y llys; a mwy na hyn, sicrheir ei fod yn hynod am ei ymarweddiad dichlynaidd, ei barch i grefydd, a'i ymlyniad manwl wrth wirionedd. Yn y cyfnod boreuol hwn ar ei fywyd, fe ddywedir i ni, iddo roddi profion o'r synwyr cryf hwnw a'i gwnaeth ef ar hyd ei oes y fath feistr ar ogwyddiadau mwyaf dirgel meddwl y rhai y deuai i gyflyrddiad â hwy; ac o'r doethineb hwnw a'i galluogodd i blygu pob tueddfryd i'w ewyllys ei hun. Yr oedd y dyn hynod hwn wedi cyrhaedd ei nawfed flwydd ar hugain oed, pan y cymmerodd digwyddiad le, y sonir cymmaint am dano, a roddes gyfnewidiad i'w feddwl, ei amcanion, a holl yrfa ei fywyd; cyfnewidiad, i'r hwn, fel achos digwyddiadol, yr ydym yn olrhain ymddadblygiad cynllun sydd wedi effeithio yn ddwfn ar sefyllfa gwledydd cred trwy ystod y tair canrif diweddaf. Digwyddai fod yn un o amddiffynwyr Pampeluna, pan y gwarchaewyd hi gan y Ffrangcod a'r Navariaid; ac yno fe'i clwyfwyd yn dost a pheryglus, yr hyn a'i dygodd yn mron i borth marwolaeth. Bu yn wael am dymmor maith; eithr yn y diwedd, pan yr oedd pob gobaith am ei wellhâd fel yn gwywo ymaith, adferwyd ef trwy gyfryngiad uniongyrchol—fel y credai efe—"Tywysog yr Apostolion." Bu am fisoedd lawer yn dihoeni cyn ei lwyr adferu i'w iechyd, ac yn ystod yr adeg hon daeth i gydnabyddiaeth â llyfrau crefyddol. O hyn allan yr oedd cyfnewidiad mawr i'w ganfod ynddo. Yr Anfeidrol, yr Anweledig, a'r Tragwyddol, a gymmerai le pethau darfodedig y ddaear yn ei feddwl yn awr. Ymroddodd y milwr cloff i fyw bywyd crefyddol yn ol y syniadau ammherffaith a feddai am y fath fywyd. Am Gristionogaeth, ymddengys ei fod yn gwybod y prif ddigwyddiadau yn mywyd Crist; ond ychydig, neu ddim, am yr egwyddorion a ddadlenir yn ysgrifeniadau yr apostolion. Etto, er nad oedd hyd y diwedd ond duwinydd diffygiol ac egwan iawn, yr oedd ei adnabyddiaeth o'r natur ddynol yn drwyadl: yr oedd yn feistr ar holl amrywiaethau teimladau crefyddol, fel yr amlygir hwy gan wahanol gymmeriadau; a dyma yn ddiau oedd ei gymmhwysder penaf i fod yn sylfaenydd urdd grefyddol.

Y mae y pwngc dyrys hwnw, sef ymroddiad rhai o ddynion rhagoraf yr Eglwys Babaidd i addoliad a gwasanaeth y "Forwyn Fendigedig," yn ein cyfarfod ar drothwy hanes personol Loyola. Dichon ei fod yn hawdd ymwneyd â'r cwestiwn hwn yn ei berthynas â dynion fel Bernard, neu Bonaventura, neu Ignatius Loyola, ar egwyddorion a fyddont yn dal cyssylltiad â natur y meddwl yn unig: eithr y mae y dyryswch penaf a'n cyferfydd yn cyfodi, pan yr ymdrechir gwneyd i ffurf mor amlwg o amldduwiaeth gydsefyll â duwioldeb gwirioneddol, yn ystyr Gristionogol y gair. Yn y fan hon, nid ydym yn bwriadu myned i mewn i'r cwestiwn hwn; ac etto, y mae cyffyrddiad â'r mater wrth fyned heibio yn gweddu i'r brasddarluniad mwyaf brysiog o'r sefydliad Iesuitaidd, yr hwn sydd wedi dangos ei hun bob amser yn arbenigol yn "grefydd Mair." Pan yr edrychom ar Iesuitiaeth wedi aeddfedu mewn amseroedd diweddarach, gwelir yn amlwg fod cynllun o fywyd sydd yn diorseddu cydwybod bersonol, ac yn gweneuthur yn ddieffaith wir foesoldeb, yn cydsefyll yn eithaf priodol â'r syniad cnawdol o ddwyfoldeb benywaidd, yr hyn sydd i raddau yn cymmeryd lle y drychfeddwl crefyddol am y Bod anfeidrol, tragwyddol, anghyfnewidiol, a sanctaidd.

Yn y flwyddyn 1522—blwyddyn i'w chofio yn hanes y diwygiad yn yr Almaen—y cyflwynodd Loyola ei hun, trwy weithred ffurfiol, gorph ac enaid, i wasanaeth "Bendigedig Fam Duw;" ac ynghylch y pryd hwnw, fel yr hysbysir i ni, y cyfansoddodd efe y llyfr—os llyfr y gellir ei ystyried—yr hwn a elwir *Ymarferion Ysbrydol;* am yr hwn lyfr y bydd genym rywbeth i'w ddyweyd etto. Ond yr oedd uchelgais, neu ddyngarwch, yr hwn a gofleidiai yr holl hil ddynol, eisoes wedi dechreu ymddadblygu o'i fewn. Ymffurfiodd ei feddyliau yn gynllun rheolaidd, a phenderfynodd sefydlu urdd grefyddol, a'r amcanion canlynol ganddo mewn golwg:—1. Addysgu ieuengctyd. 2. Pregethu, a defnyddio moddion ereill i addysgu pobl wedi tyfu i fyny. 3. Amddiffyn y ffydd Babaidd yn erbyn pob hereticiaid ac anghredinwyr. 4. Lledaenu Cristionogaeth yn mhlith y paganiaid, ac anffyddwyr ereill, trwy gyfrwng cenhadon. Yr oedd ei sylw y pryd hwn mewn modd arbenig yn gyfeiriedig at y dwyrain; a phenderfynodd ymgymmeryd â'r gwaith mawr o ddychwelyd y dwyreinfyd i'r ffydd Babaidd—y cenhedloedd Mahometaidd, y Tyrciaid, yr Arabiaid, a'r Persiaid. Mewn trefn i gario allan y cynllun beiddgar hwn, y cam cyntaf a gymmerodd oedd pererindod i'r Tir Sanctaidd. Y lliaws digwyddiadau a'i cyfarfu ar y daith hon, o'r hon y dychwelodd yn 1524, sydd raid eu gadael lle y ceir hwy, ar ddalenau llydain ei fywgraphwyr. Yn y diwedd, bu raid iddo adael dilynwyr y gau "brophwyd yn eu hamryfusedd a'u cyfeiliornadau; ac yna dewisodd y byd Cristionogol fel maes ei genhadaeth. Ar y tir hwn ni chyfarfu â'r fath siomedigaeth; ac yn wir, fe ellir dywedyd, er fod y cenhedloedd Mahometaidd wedi aros yn annychweledig, etto, cafodd fyw i'w gweled wedi eu hamgylchu ar bob tu, y dwyrain a'r gorllewin, gan ei genhadon, ac fel pe buasent wedi eu gwarchau gan y sefydliad Iesuitaidd.

Digitized by Google

Yr oedd amcan pennodol eang yn ei gyssylltiadau erbyn hyn wedi ymsefydlu yn gadarn yn ei feddwl; ac i sicrhau llwyddiant wrth ymgyrhaedd ato, efe a ymroddodd, pan yn ddeng mlwydd ar hugain oed, i lafurio er gwneyd ei hun yn gyfarwydd mewn dysgeidiaeth nad oedd yn feddiannol arni o'r blaen. Os ydyw yr hyn a draethir gan ei ddysgyblion am yrfa bywyd eu hathraw yn yr adeg hon yn wirionedd llythyrenol, yr oedd y cyfyngderau yr aeth drwyddynt, y diwydrwydd a ddangosodd, a'r cynnydd a wnaed ganddo mewn dysgeidiaeth, yn rhoddi y prawf mwyaf nodedig o nerth meddwl ag oedd yn peri iddo lawn hyderu y buddugoliaethai ar bob anhawsderau nad oeddynt yn hollol anorchfygol. Yn ystod y blynyddau hyn o barotoad personol, parhaodd i ymarfer ei ddoniau neillduol fel cynghorwr ysbrydol ac fel dysgawdwr poblogaidd.

O ddeutu y pryd hwn, yr oedd cwrs efrydiaeth duwinyddol Loyola yn mhrifysgol Paris yn tynu i derfyniad, ac edrychodd yntau o'i amgylch am gymdeithion a chydweithwyr i gario allan y cynllun yr oedd eisoes wedi ei ddyfeisio er diwygio y byd Pabyddol. Nid oes dadl nad oedd yn perchenogi, i raddau helaeth, y gallu anghyffredin hwnw sydd wedi galluogi ychydig o ddynion i dynu atynt eu hunain, ac i sicrhau yn barhaus wasanaeth dynion ereill o feddyliau mwy grymus, a chyrhaeddiadau mwy amrywiol. Yr oedd amryw o'r rhai hyny, y rhai hyd y diwedd a gydnabyddent awdurdod Ignatius Loyola, yn ymddangos yn drech nag ef mewn gallu meddyliol, tra yr oeddynt yn rhagori llawer arno mewn dysgeidiaeth ac mewn gwybodaeth o'r byd. Yn mysg yr enwogion a ddaethant yn dadau yr urdd, y rhai penaf oeddynt—Peter Faber, o Savoy, dyn o dymmer frwdfrydig, ac o duedd grefyddol o'i febyd; yr arwraidd Francis Xavier, apostol yr India, fel y gelwir ef, yr hwn a enillodd iddo ei hun enwogrwydd mawr yn annibynol ar ei gyssylltiad â Loyola, er nad oedd yn ffurfiol wedi ymddieithrio oddi wrtho; James Laynez, yr hwn a'i dilynodd fel penaeth yr urdd, yr hwn oedd ddyn o wybodaeth a chraffder anarferol; credir mai efe a gasglodd ynghyd y rhan fwyaf o reolau y gymdeithas; Alphonso Salmeron; Nicolas Alphonso, a gyfenwid Babadilla, dyn o feddwl treiddgar, a meistr nodedig mewn adnabyddiaeth o'r natur ddynol; a Simon Rodrigues d' Arevedo, Yspaeniad, o deulu pendefigaidd, dyn tra dysgedig a chrefyddol. At y rhai hyn, y rhai oeddynt gymdeithion boreuaf Loyola, fe chwanegwyd ereill mewn amser. Un o'r rhai mwyaf nodedig o honynt ydoedd Claude le Jay. Trwy eu cynnorthwy hwy, yn gweithredu mewn undeb â'u blaenor Loyola, y ffurfiwyd cymdeithas yr Iesu: hwynt hwy a'i cychwynasant ar ei gyrfa—gyrfa o effeithiolrwydd a gallu digyffelyb. O hyn allan, yr ydym braidd yn colli yr agoriad i olrhain meddwl neillduol Loyola ei hun, fel y prif symmudydd yn llywodraethiad yr urdd, fel enaid y gymdeithas; o herwydd fe ymddengys fod dau, o leiaf, o'i gymdeithion—Laynez a Faber—yn ei gynnorthwyo â holl nerthoedd a galluoedd eu meddyliau, ac heb deleran yn y byd gyda golwg am gael cyfran o'r clod na'r awdurdod gweledig. Yr oeddynt yn ymfoddloni ar fod yn dystion o lwyddiant yr anturiaeth fawr, i'r hon yr oeddynt wedi cwbl ymroddi, ac i wylio mewn distawrwydd ei buddugoliaethau ymdaenol.

Cyflwynodd y dynion hyn eu hunain, trwy weithred ddifrifol, i'r gwasanaeth neillduol hwn, gan erfyn am amddiffyniad a ffafr "Mair, brenhines y morwynion," ac ymffurfiasant yn gorph crefyddol, drwy seremoniau ac addunedau, ar y 15ed dydd o Awst, yn y flwyddyn 1534. Ond nid oedd y weithred hon yn eu cyfansoddi yn "urdd grefyddol," yn ol y gwir ystyr yn yr hwn y deallir yr ymadrodd gan Eglwys Rhufain. I'r dyben o gael caniatâd y pab, yr hyn oedd yn angenrheidiol i'r amcan hwn, anfonodd Loyola amryw o'i gyfeillion i Rufain, yn 1537; ac yno y buont am amser maith yn dadleu eu hachos ger bron y pab, Paul III. Yr hyn a ofynid ar y cyntaf oedd y caniatâd, a'r fendith apostolaidd ar genhadaeth bererindodol i'r tir sanctaidd; a chaniatawyd o'r diwedd eu herfyniad. Tra yn aros yn Venice am gyfleusdra i groesi y môr, tybir i'r tri chyfaill, Loyola, Laynez, a Faber, ddyfod i benderfyniad terfynol gyda golwg ar egwyddorion y sefydliad, a rhoddi i lawr y rheolau nodedig hyny; y rhai, pan y dygir hwy i orphwys ar gydwybodau y goruchwylwyr Iesuitaidd, ac ar feddiannau bydol, a ymddangosant yn anghysson âg egwyddorion cyntaf moesoldeb, ac a dueddant i gloddio dan holl sylfeini cymdeithas wladol. Etto, dichon mewn rhyw ystyr, y gellir edrych ar y dynion hyn yn ddiffuant a chrefyddol, ac ar ryw olygiad yn ddyngarwyr, ond eu bod yn cael eu llywodraethu gan syniadau cyfeiliornus. Wedi aros o'r "tadau" hyn am flwyddyn yn Venice, chwiliasant am esgusawd iddynt eu hunain dros roddi i fyny eu cenhadaeth fwriadedig, sef dychwelyd y cenhedloedd Mahometaidd; ac yn lle ymosod ar waith mor anymarferol, penderfynasant ddechreu ar y gorchwyl o adnewyddu y byd Pabyddol. Yr oedd appeliad newydd i Rufain yn awr yn angenrheidiol; a'r tro hwn, cymmerodd Loyola ei hun y flaenoriaeth, fel sylfaenydd yr urdd; ac wedi cael yr hyn a geisiai, ni a'i cawn o hyny allan yn ymarfer yr awdurdod a berthynai iddo fel "penaeth" y sefydliad. Yr oedd y broffes a wnaed y tro hwn yn cynnwys nid yn unig y tair adduned o "ufudd-dod, tlodi, a chariad," ond hefyd, ymostyngiad llwyr a hollol i ewyllys y pab yn mhob achos, ac ymgyflwyniad corph ac enaid i wasanaeth yr eglwys, ac i gynnal i fyny yr awdurdod Babaidd, yn enwedig fel yr oedd yn cael ei beryglu y pryd hwnw gan yr heresi lwyddiannus ag yr oedd Martin Luther yn brif arweinydd iddo. Er nad oedd yr ammod diweddaf wedi ei gosod i lawr mewn cynnifer o eiriau, er hyny, deallid hyn yn glir, a chedwid golwg arbenig ar hyn gan y tadau Iesuitaidd a gyflwynent eu hunain i wasanaeth yr awdurdod Babaidd, yn gystal a chan yr awdurdod a dderbyniai y gwasanaeth a gynnygiwyd mewn adeg mor amserol. Y mae y warant Babaidd sydd yn cyfansoddi y gymdeithas fel urdd grefyddol, wedi ei dyddio yn 1540. Ar ol hyn y cydnabyddwyd etholiad Loyola fel blaenor, neu benaeth, am ei oes, yn ffurfiol a chyhoeddus.

Perchenogai Loyola radd uchel o berffeithrwydd y gallu defnyddiol hwnw sydd yn amlygu ei hun mewn rhanu gwaith, a dosbarthu llafur, mewn trefn sydd yn cyrhaedd y manylion lleiaf mewn sefydliadau mawrion. Fel un wedi ei ddonio â'r gallu hwn, efe a ordeiniodd ar fod i ganolbwynt y sefydliad Iesuitaidd fod yn Rhufain, ac ymdrechodd ddiogelu cynnildeb yn mhob peth, yn enwedig mewn amser; ac appwyntiad swyddogion yn ol galluoedd personol pob aelod. Trwy hyn y cwblhaodd efe, i'r graddau uchaf



Digitized by Google

fod yn euog, sef *anufudd-dod*, neu y dueddfryd lleiaf yn y meddwl i ammheu cywirdeb gorchymynion swyddog a fyddo yn uwch nag ef.

*Gosodiadau* y gymdeithas ydynt y corph hyny o reolau a threfniadau, y rhai ydynt gyfraith y cyfundeb, ac ydynt yn dwyn perthynas â'r arferion a'r defodau yr eir trwyddynt wrth ethol a derbyn aelodau; dosbarthiad y rhai hyny sydd eisoes wedi eu derbyn, yn ol eu cymmhwysderau personol; gwrthodiad ymgeiswyr, a llywodraethiad y corph gan lywyddion taleithiol a phenaeth cyffredinol, yr hwn a etholir am ei oes, yn cynnwys hefyd ddarpariaeth ar gyfer cadw yr archdeyrn o fewn terfynau, ac hyd yn oed i'w ddiswyddo mewn achosion eithafol.

Tybiwn fod y darllenydd eisoes wedi chwilio i'r *Ymarferiadau Ysbrydol* a'r *Llythyr* crybwylledig, a thrwy hyny, ei fod yn meddu syniadau lled gywir am ysbryd Iesuitiaeth. Cyfarfydd â pheth dyryswch pan yr edrycha i'r rhai hyn, eu ffurfiau, a'u dull o weithredu, fel y gosodir hwy allan yn y *Gosodiadau*, wrth geisio dyfalu beth yw eu gwir amcan—yr amcan neu y dyben ymarferol yr ymdrechir ei gyrhaedd trwy y fath gynllun eang o ddysgyblaeth ac awdurdod. Pa beth yn y diwedd a fydd ffrwyth peirianwaith mor ddwfndreiddiol yn ei gynlluniad, mor eang ac amrywiol yn ei foddion, ac mor ofnadwy yn yr ammodau a esyd i lawr? I'r cwestiynau hyn, nid yw yr ysgrifeniadau y cyfeirir atynt yn rhoddi un atteb. I'r cwestiynau rhesymol hyn, ni roddir attebiad gan un o'r ysgrifeniadau hyny, at y rhai y mae y gymdeithas yn arfer appelio pan y gelwir arni i amddiffyn ei gweithrediadau ger bron y byd. Pe caniateid fod Iesuitiaeth, i ryw raddau, yn sefydliad crefyddol, wedi ei fwriadu, fel yr hen urddau mynachaidd ereill, i chwanegu a chynnyddu duwioldeb personol yr aelodau, neu i ledaenu egwyddorion crefyddol yn mysg y bobl —pe yr addefid hyny er rhoddi y golygiad mwyaf ffafriol arno, y mae wedi hyny yn ngweddill beiriant galluog arswydus nad oes un berthynas rhyngddo â gwrthddrychau a dybenion o'r fath. Pa beth ynte ydyw yr amcanion sydd gan y cynllun dwfn hwn yn weithredol mewn golwg? Rhaid ymofyn am attebiad i'r cwestiwn nwn wrth ddilyn y gymdeithas Iesuitaidd trwy ei hanes ofnadwy o'i dyddiau boreuaf i lawr i'r amser presennol. Yr hanesyddiaeth hwn a esbonia y *Cyfreithiau* a'r *Gosodiadau*, o'r rhai y dywedir fod Ignatius Loyola yn awdwr.

Mae y *Gosodiadau* gwreiddiol wedi eu hamgau, os priodol defnyddio y gair, gan esboniadau helaeth, a dilynir hwy gan gorph o reolau addysgiadol a elwir y *Directorium*, y rhai a gyfaddasant yr egwyddorion cyffredinol at liaws amrywiol o achosion neillduol. Oddi wrth y rhai hyn, gellir cael gwir syniad am y trefniadau sydd yn hynodi y sefydliad hwn—i orfodi cyffesiad, ac i amgylchu pob Iesuit â rhwydwaith o gwestiynau. Mae yr ymarferiadau hyn, sydd yn nodweddau arbenig o Iesuitiaeth, fel ei gwahaniaethir oddi wrth Babyddiaeth, ac oddi wrth urddau mynachaidd oeddynt yn hanfodi yn flaenorol iddi, yn galw am yr ystyriaeth ddyfalaf, os mynwn, mewn modd trwyadl, a chydag ammhleidgarwch rhesymol, ddyfod i adnabyddiaeth o'r urdd hono—y fwyaf nodedig ac ofnadwy o'r holl gynlluniau crefyddol a welwyd neu a oddefwyd erioed yn y byd.

Wrth wneyd ymchwiliad o berthynas i gymdeithas yr Iesu, fel yr ydoedd yn yr adeg y bu Loyola farw, pe bai i ni ei gosod yn gyferbyniol i'r cyfundraethau, a'r sefydliadau, a'r dynion oedd yn byw yn y cyfnod hwnw, gwelem mai un o'i phrif nodweddau, a'i hynodrwydd penaf, ydoedd, y gallasai orchymyn, ar unrhyw foment, wasanaeth dibetrus dosbarth lliosog o ddynion, wedi eu cymmhwyso gan dalentau naturiol, a chan yr hyfforddiadau mwyaf gofalus, i swyddi, ac at waith a llafur o bob natur, ysbrydol, deallol, gwleidyddol, cymdeithasol, ac hyd yn oed masnachol. Cyfarwyddo i ethol goruchwylwyr priodol o'u plith eu hunain, a fyddant wedi eu cymmhwyso gan dalent naturiol at y gwaith a fwriedir iddynt ei gyflawni, y mae yn eithaf eglur, ydyw un o brif amcanion y *Gosodiadau* a'r *Directorium*, ac ysgrifeniadau ereill a berthynant i'r gymdeithas. Yna, wedi sicrhau dynion cymmhwys, eu hyfforddiant a'u dysgyblaeth ydoedd ail brif ofal y gymdeithas; a'u dosbarthiad dros y byd oedd y trydydd. Yn mhob cangen o waith a llafur, yn mron, yr oedd aelodau o'r gymdeithas yn rhagori ar ereill; yr oeddynt, trwy dalent naturiol, wedi eu cyfaddasu yn well at eu gwaith; yr oeddynt yn fwy diwyd, yn fwy gofalus, yn fwy hunanymwadol a phenderfynol, ac mewn gair yr oeddynt yn meddu ar fwy o gymmhwysder ymarferol, ac yn fwy llwyddiannus na'u cydymgeiswyr yn yr un maes o lafur. Yn mhob cylch o orchwylion, cyhoeddus a dirgel, yr Iesuit yn yr adeg foreu hon ar ei hanes oedd yr Ioseph yn nhŷ Potiphar. Nis gall fod yn rhyfeddod, gan hyny, yr ymofynid am ei wasanaeth gwerthfawr yn mhob man, ac y prisid ef yn uchel. Ymofynid â'r Iesuit yn arbenig yn mhob peth a berthynai i addysg, pa un bynag ai mewn ysgolion ai mewn athrofäau; a mynych yr appwyntid ef i'r sefyllfa foneddigaidd a chwennychid mor fawr gan yr aelodau, sef cyfarwyddo cydwybodau gwladweinyddion a thywysogion.

Y swyddogaethau a'r dyledswyddau y proffesai y gymdeithas ymgymmeryd â'u cyflawni ar y cyntaf—y rhai yn ymddangosiadol oedd yn unig mewn golwg ganddi, ac a lanwai ei dwylaw â gwaith—ydoedd, megys y dywedwyd o'r blaen, bugeiliaeth eneidiau, dychweliad y byd paganaidd, ac addysgu ieuengetyd. Eithr y gwaith mawr ar yr hwn, mewn gwirionedd—fel y mae yn rhaid i ni gasglu oddi wrth ei hanes—yr oedd meddwl arweinwyr y blaid Iesuitaidd wedi ymsefydlu bob amser, ond o berthynas i'r hwn yr oeddynt yn dewis bod yn hollol ddistaw, ydoedd, rhoddi eu cynnorthwy a'u cyfarwyddyd i ddynion mewn awdurdod, ac i ferched hefyd—dylanwad y rhai yn fynych a effeithiai mor fawr ar achosion gwleidyddol. Cyflawniad y swydd ddirgelaidd hon sydd wedi rhoddi i'r gymdeithas ei chymmeriad; y cyfrwysder diegwyddor y gorfodid hwy i'w arfer er mwyn cyflawni y gwaith hwn sydd wedi tynu arnynt gasineb a chondemniad cyffredinol, a'u gwneyd yn ddigon naturiol yn wrthddrychau eiddigedd ac ofn yn mron yn mhob gwlad—Pabaidd yn gystal a Phrotestanaidd.

Y mae rhai cenhadon Iesuitaidd yn y byd paganaidd wedi rhoddi enghreifftiau o sel ac ymroddiad Cristionogol, fel y gellir dyweyd mai anfynych y rhagorwyd arnynt; ond ar yr un pryd y mae rhai o'u cenhadon wedi dangos, fel y gwnaethpwyd yn India ac yn America Ddeheuol, y nodweddion hyny o eiddo y sefydliad Iesuitaidd a gondemnir yn benaf, sef gwneyd cyttundebau dibetrus âg ofergoelion a drygau paganiaeth, fel ag i wneuthur cymmysgedd o baganiaeth a Christionogaeth; ac awydd am feddiannu dylanwad ac awdurdod fydol, fel y gellir nodi

Digitized by Google

Paraguay, a hyny ar wahân oddi wrth unrhyw sel wirioneddol dros les ysbrydol na thymmorol y bobl y mynent eu llywodraethu.

Mewn modd cyffelyb, y mae y cynllun Iesuitaidd o addysg yn amlygu y teilyngdod uchaf ar un llaw, ond bob amser wedi ei gyfuno âg elfen lygredig; yr hon, pe y llwyddasai, a fuasai yn arwain meddwl Ewrop yn ol i gyfeiriad yr oesau tywyll, pan yr oedd y galluoedd deallol mewn cadwynau. Nid oedd athrawon na phroffeswyr i'w cael yn unman yn fwy gofalus, ac yn fwy galluog, na'r Iesuitiaid a lywyddent yr ysgolion a'r athrofäau yn yr unfed ganrif ar bymtheg. Anfynych y gallai neb gydymgais â hwy yn hyn. Ond yr oedd yr addysg a gyfrenid ganddynt bob amser yn meddu un nodwedd arbenig – yr oedd yn sefydlog, ond nid yn gynnyddol; yn awdurdodol, ond nid yn awgrymiadol. Yr oedd y gydnabyddiaeth tanylaf a helaethaf am bethau fel yr oeddynt yn cael eu cyfleu gan yr athrawon Iesuitaidd; ond, yn nglŷn â'r rhagoriaeth yma, rhoddid gwaharddiad eglur a phendant ar ymchwiliad a chynnydd. Derbyniodd y meddwl dynol gyffroad anorchfygol yn yr unfed ganrif ar bymtheg, yr hwn a'i gyrodd yn mlaen yn mhob cyfeiriad dros faes ymchwiliad a gwybodaeth; eithr daeth y sefydliad Iesuitaidd i'r golwg, fel cynllun o addysg, i roddi attalfa ar y cyffro hwn, trwy geisio dysgu a hyfforddi meddyliau preswylwyr gwledydd cred yn y fath fodd fel ag i ddangos fod ymchwiliad yn ddiangenrhaid, a chynnydd yn beth annymunol. Bu yr ymdrechion hyn i ladd ysbryd ymofyngar yr oes, ac attal y symmudiad, i ryw raddau yn llwyddiannus; a gallasai sefyll ar ffordd cynnydd a dadblygiad gwybodaeth yn llawer mwy effeithiol, pe na buasai i'r corph Iesuitaidd, yn yr adeg foreuol hono, amlygu eu tueddiadau niweidiol mewn cylch arall, a chyffroi ofnau a diffyg ymddiried ynddynt trwy holl Ewrop. Dechreuodd y gwrthweithiad hwn yn erbyn yr Iesuitiaid o fewn cylchoedd gwleidyddol, lle yr oeddynt eisoes wedi sibrwd a chefnogi egwyddorion ag yr oedd syniad moesol dynion yn peri iddynt gyfodi eu llef yn eu herbyn.

Wrth gymmeryd trem ar hanes yr urdd Iesuitaidd, ychydig sydd yn galw am sylw neillduol y tu hwnt i faes eu hymyraeth â gwleidyddiaeth gwahanol deyrnasoedd Ewrop. Mor bell ag yr oedd Iesuitiaeth yn amlygiad o sêl grefyddol; ac mor bell ag y gwasanaethodd mewn adeg o ddifrawder i gyffroi a deffro y byd Pabyddol, ac felly amddiffyn Pabyddiaeth yn erbyn ymosodiadau Lutheriaid a Chalfiniaid y Diwygiad Protestanaidd—mor bell a hyny, gellir edrych ar y gymdeithas wedi bod yn wasanaethgar a defnyddiol i'r grefydd Babaidd fel y cyfryw: o blegid pe na buasai Eglwys Rhufain yn yr adeg hon wedi cael y cynnorthwy hwn, neu un o gyffelyb natur iddo, yr ydym yn rhwym o gredu y buasai wedi llwyr golli ei gafael ar y teyrnasoedd hyny y bu am dymmor mor faith yn derbyn eu gwarogaeth, trwy ddylanwad ymosodiadau egniol y lluoedd gwrthwynebol; ac felly y lleoedd a'u hadwaenent unwaith nis hadwaenasent mwy. Ond nid felly yr oedd i fod. Daeth Iesuitiaeth i mewn i waredu Pabyddiaeth; eithr nid yw y gwaith a gyflawnodd yn yr ystyr hwn yn gwneyd i fyny ond pennod fer yn nghofnodion yr urdd.

Y mae gwir hanes Iesuitiaeth, fel y dywedasom, yn golygu ei hanes *gwleidyddol;* a chynnwysa hwnw bennod ddu o ymyraeth cyfrwysddrwg âg achosion mewnol teyrnasoedd—tywyll ddigon, hyd yn oed pan y gadewid iddo ei weithio ei hun allan yn ei ffordd ei hun. Ond yr oedd iddo liw duach, ac ystaen ddyfnach o lawer iawn, nid yn gymmaint am fod troseddau mwy ysgeler yn cael eu cyflawni gan ddwylaw, neu mewn ufudddod i gymhellion o eiddo y goruchwylwyr Iesuitaidd, eithr am fod yr Iesuit—pa un bynag ai yn awgrymu troseddau, ai yn esmwytho llwybr y troseddwr, ai ynte yn tynu ymaith golyn euogrwydd—byddai efe yn myned at ei orchwyl gan arfer dadleuon cywrain, a rhesymeg reolaidd, a chynllun o foesddysg dwyllodrus wedi ei drefnu yn ofalus, yr hwn, mor fynych ag y gwnelai un dyn yn droseddwr gweithredol, oedd yn parotoi cant i rodio yr un llwybr. Yr oedd yr ysgrifenwyr cyfrwysgall hyny, y rhai yn dra buan ar ol marwolaeth Loyola, a thra yr ydoedd rhai o'i olynwyr agosaf etto yn fyw, wedi ymroddi at y gwaith o ffurfio cyfundraeth o foesddysg gyfaddas i ofynion y cyffeswyr Iesuitaidd, a gellir eu hystyried fel yn ysgrifenu mewn celnodau y digwyddiadau duaf yn hanes llysoedd gwledydd deheuol Ewrop am 150 o flynyddau i ddyfod. Y mae y gyfres o ysgrifenwyr a anfarwolir yn y *Llythyrau Taleithiol*, megys Sanchez, Molina, Bauney, Babadilla, ac Escobar, yn ddeonglwyr ar ddigwyddiadau a gymmerai le yn yr holl wledydd ag yr oedd Cymdeithas yr Iesu wedi cyfodi ei sefydliadau ynddynt, ac wedi derbyn ffafr gan frenhinoedd, a brenhinesau, a gwladweinyddion. Eled y darllenydd trwy weithiau yr ysgrifenwyr hyn, a gwnaed ei hun yn feistr ar yr athrawiaeth a ddysgant – yr athrawiaeth, yr hon sydd yn sicr wedi rhoddi grym yn mraich lluoedd o lofruddion—a gwel fath o ddarlun du o'r ysgelerderau a gofnodir mewn hanesiaeth Ewropaidd yn y ganrif a ddilynodd. Er fod adroddiadau cyffredinol o'r fath hyn, yn condemnio cyfundeb o ddynion, yn wirionedd; etto ni ddylent gael sefyll wrthynt eu hunain, megys pe baent i'w cymmeryd am wirioneddau cyffredinol a dieithriad am bawb o'r aelodau. Gwneir adroddiadau gwrthwynebol iddynt, a chefnogir y rhai hyny gan dystiolaeth, a chydsynir â hwy gan ysgrifenwyr enwog nad oeddynt aelodau o'r gymdeithas; a diammheu fod pob meddwl diragfarn yn ymlawenhau wrth gael lle i gredu y gall ei fod yn wirionedd am hyd yn oed yr urdd Iesuitaidd, fel am y nifer liosocaf o sefydliadau a chyfundebau ereill, fod ei haelodau yn eu bywyd ymarferol yn gwella ac yn diwygio eu trefniadau, eu cyfreithiau, a'u rheolau ysgrifenedig.

Edrychid ar yr Iesuit o fewn terfynau gwledydd Protestanaidd, ac ymddygid tuag ato, nid fel dysgawdwr crefyddol a wrthodid gan y preswylwyr, yn gymmaint ag fel bradwr, a chynllwynwr, a gelyn condemniedig y llywodraeth. Mewn amgylchiadau neillduol, dichon fod llymder gormodol a diangenrhaid wedi ei arfer; eithr, fel rheol, y mae y rhesymau dros hunan-amddiffyniad yn cyfiawnhau, i raddau helaeth, y cospedigaethau y bu yr Iesuitiaid yn ddarostyngedig iddynt yn yr amseroedd hyny. Yn Mhrydain, er enghraifft, nid oedd cyhoeddiad Iago I. (1604), a'r gweithrediadau a gymmerodd le mewn canlyniad iddo, yn troseddu un reol mewn gwladlywiaeth gyfiawn, os caniateir fod pob llywodraeth yn rhwym i amddiffyn ei hun yn erbyn cynllwynion bradwyr, neu oruchwylwyr dros lywodraethau tramor, a ymguddient yn llechwraidd o gwmpas palasau, wedi eu harfogi â bidogau cuddiedig, ac yn gwylio am adeg gyfleus i gymmeryd ymaith fywyd tywysogion. Hyd yn oed yn yr amseroedd hyn, pe bai bradwriaeth yn

Digitized by Google

gyfnewid am ryw diriogaeth a berchenogai y Portugaiaid ar lan yr afon La Plata, a gorchymynodd y llywodraeth Yspaenaidd i'r Iesuitiaid a'u hysgolheigion Indiaidd adael eu cartrefi, a symmud i ryw gyfran arall o'r tiriogaethau Yspaenaidd. Yn ofer yr ymddadleuai y tadau yn erbyn yr anghyfiawnder a'r creulondeb o anfon dynion o'r meusydd, y rhai yr oeddynt wedi llafurio mor ddiwyd i'w diwyllio; ond adnewyddwyd y gorchymyn caled, ac ymbarotodd yr Iesuitiaid i roddi ufudd-dod iddo. Eithr gwrthodai y brodorion ymostwng, a gwrthwynebasant yn egniol filwyr Yspaen a Portugal a anfonwyd yn eu herbyn; ac er fod cyfnewidiad yn mherthynasau y ddwy wlad, a gymmerodd le wedi hyny, wedi gadael yr Indiaid mewn meddiant o'u tiriogaeth, etto, cyhuddwyd yr Iesuitiaid ar gam—yn ol barn llawer o ysgrifenwyr diduedd—o gefnogi yr hyn a elwid yn wrthryfel. Wedi ymchwiliad manylaidd i'r achos, rhyddhawyd hwy oddi wrth yr achwyniad gan lywodraeth Yspaen, ond mynai llywodraeth Portugal gredu eu bod yn euog; a pharodd hyn, ynghyd â rhyw ddigwyddiadau a gymmerodd le yn Portugal, i'r llywodraeth hono benderfynu eu hymlid allan o'i thiriogaethau.

Ychydig wedi hyny, ymlidiwyd yr Iesuitiaid allan o Yspaen. Cynlluniwyd yr holl drefniadau gyda'r dirgelwch mwyaf. Ysgrifenodd y brenin Charles III. lythyrau â'i law ei hun at holl lywodraethwyr y taleithiau o fewn terfynau y frenhiniaeth yn Ewrop a'r trefedigaethau, y rhai nid oeddynt i gael eu hagor hyd ddiwrnod penodol, ac mewn lle penodol. Pan ddaeth yr amser appwyntiedig, sef Mawrth 31ain, 1767, amgylchynwyd holl golegau a thai yr Iesuitiaid trwy holl Yspaen gan filwyr ganol nos, gosodwyd gwylwyr wrth bob drws, a sicrhawyd pob cloch; ac wedi cynnull y frawdoliaeth at eu gilydd yn eu gwahanol fanau, darllenid iddynt gan ddirprwywyr y brenin y gorchymyn brenhinol i'w hanfon allan o'r wlad. Ac wedi i'r aelodau gael ychydig o'u llyfrau a'u dillad at eu gilydd, rhoddwyd hwy mewn cerbydau, yn cael eu dilyn gan warchodlu o feirchfilwyr, i'w dwyn i lan y môr, a rhoddwyd hwy mewn llongau i fyned tuag Italy. Gwrthodwyd caniatâd iddynt ddyfod i mewn i amryw borthladdoedd, a chadwyd hwy am fisoedd mewn llongau wedi eu gorlenwi, ac yn ystod yr amser bu llawer oedd yn hen ac afiach farw. O'r diwedd, glaniwyd y rhai a adawyd yn Corsica. Yn rhinwedd cyttundeb a wnaed rhwng brenin Yspaen a'r pab, caniataodd y diweddaf dâl-wobr o swllt yn y dydd i'r Iesuitiaid ymlidiedig; ond ar yr ammod nad oedd un aelod o'r urdd i ysgrifenu amddiffyniad o un math, dan boen attal y tâl-wobr oddi wrth yr oll o honynt.

Yn y flwyddyn ganlynol, 1768, llethwyd y gymdeithas Iesuitaidd gan frenin y ddwy Sicily a'r Duc o Parma yn eu tiriogaeth hwythau. Goddefwyd hwy yn Sardinia, ac yn nhiriogaethau y pab; ond yn Chwefror, 1769, bu farw eu hamddiffynwr, Clement XIII., ac etholwyd Ganganelli yn ei le. Dadleuai Ffrainge, Yspaen, Portugal, a Naples, dros lwyr ddiddymiad yr urdd. Yr oedd Ganganelli yn ochelgar; a chymmerodd dair blynedd i ystyried y mater. Appwyntiodd bump o gardinaliaid i wneyd ymchwiliad i'r achwynion a ddygid yn erbyn y gymdeithas; ac o'r diwedd, ar yr 21ain o Orphenaf, 1773, cyhoeddodd y pab lythyr awdurdodol, yn yr hwn, wedi traethu ar amcanion canmoladwy sylfaenwyr y gymdeithas, ac ar y gwasanaeth a wnaeth i grefydd, y sylwai fod ymrysonau wedi tori allan rhyngddynt âg awdurdodau eglwysig ereill ar amryw achlysuron; fod llawer o gyhuddiadau pwysig wedi eu dwyn yn erbyn aelodau unigol, y rhai a wyrasant oddi wrth ysbryd ac amcanion gwreiddiol eu sefydliadau; ac yn olaf, yr oedd amryw frenhinoedd a broffesent y grefydd Babaidd wedi barnu yn angenrheidiol, mewn trefn i ddiogelu heddwch eu tiriogaethau, eu hymlid oddi yno; ac yn awr, er mwyn heddwch y byd Cristionogol, ac oddi ar lawer o'r ystyriaethau pwysicaf, ystyriai efe nad allai Cymdeithas yr Iesu bellach ddwyn y ffrwythau da a rhinweddol hyny y bwriadwyd iddi ei dwyn. Cyhoeddai, gan hyny, fod y gymdeithas ddywededig yn cael ei darostwng a'i diddymu, ei rheolau eu dileu, a'r aelodau a ordeiniasid yn offeiriaid yn cael eu hystyried yn offeiriaid lleyg, a'r gweddill i gael eu llwyr ryddhau oddi wrth eu hadduned-au.

Edrychid ar Iesuitiaeth gydag arswyd ac eiddigedd gan y Babaeth ei hun yn fynych; *h. y.*, gan y pab a'r gweinidogion a'i cylchynent. Gwelai y pab fod eu hadduned ddiammodol o ufudd-dod i ficer Crist yn hollol amddifad o ystyr, pan y digwyddai amgylchiadau i beri fod eu hymostyngiad distaw yn anghyfleus iddynt. Yr *athrawiaeth* Iesuitaidd ydoedd, fod eu hadduned o ufudd-dod yn cynnwys nid yn unig gydsyniad allanol â gorchymyn yr hwn a fyddai yn uwch mewn awdurdod, ond cydffurfiad meddwl a barn hefyd — cymmeradwyaeth fewnol a diammodol o'r cyfryw orchymynion, pa mor groes bynag i gydwybod a barn bersonol y gallent fod. Nid yn unig rhaid oedd *dyweyd* fod y gwyn yn ddu, ond *credu* ei fod felly. Gan hyny, yr oedd yr ufudd-dod allanol yma, a'r cyttundeb mewnol hwn o eiddo yr ewyllys, yn attalfa ar ffordd pob ymgais, hyd yn oed yn yr enghreifftiau mwyaf cymmhelliadol i hyny, i geisio perswadio swyddog uwchraddol, er ei ddwyn drosodd, trwy ymresymu, ymddadleu, ac eiriol, i synio yn wahanol. Nis gall dim fod yn fwy eglur a phendant na'r amrywiol ddadganiadau a wneir o'r athrawiaeth hon yn ysgrifeniadau awdurdodedig y gymdeithas. Er hyny, yn ngwyneb y broffes hon, ni phetrusai Loyola ei hun, a'r penaethiaid a'i dilynodd, i arfer pob moddion o fewn eu cyrhaedd er perswadio y pabau pan y tybient mai dewisol oedd eu troi oddi ar ryw lwybr a ystyrid yn niweidiol i fuddiannau, neu yn wanychdod i ddylanwad yr urdd. Nis gallai neb ragori ar y penaeth Iesuitaidd mewn distawrwydd gwasaidd pan fyddai hyny yn gwasanaethu ei amcanion, ond ni cheid neb yn fwy eofn a gwrthnysig nag ef pan nad oedd yn dewis ymostwng. Os ystyriai y pabau yr urdd yn gynnorthwy grymus iddynt, gwyddent fod gan yr urdd hono bob amser ewyllys o'i heiddo ei hun, ac na ellid yn hawdd ei llywodraethu.

Mae y ffaith dra arwyddocaol hon wedi bradychu ei hun o'r dechreuad. Dadguddiwyd hyn amrywiol weithiau yn ystod tymmor bywyd Loyola a Phaul IV. Megys ar yr achlysur pan y llwyddodd y penaeth i gael rhyddhâd i'w gymdeithas oddi wrth y ddyledswydd o gymmeryd gofal ysbrydol merched, oddi eithr yn wir—ac yr oedd hwn yn eithriad hawdd iawn ei ganiatau—pan y byddai boneddigesau yn ymofyn gwasanaeth cyffeswr Iesuitaidd, y rhai a safent yn uchel mewn llysoedd brenhinol. Achlysur arall o'r un natur ydoedd, pan y caniatawyd i'r rheol a waharddai i'r Iesuit dderbyn esgobaeth neu unrhyw fywoliaeth eglwysig arall fod mewn grym. Y mae yr un ymarferiad o ufudd-dod, pan yn gyf-

Digitized by Google

gwleidyddol distaw, wedi myned dan gyfnewidiad, a phob dydd yn cyfnewid mwy—cyfnewidiad sydd yn dal perthynas â bodolaeth yr urdd. Mae gwledydd Ewrop, yn ddiau, yn myned yn mlaen yn y dyddiau hyn, er, fe allai, nad mor gyflym ag yr ewyllysiai llawer gwleidyddwr goleuedig, ac y disgwyliai llawer o ddyngarwyr gwresog; er hyny, y mae y dyfodol yn llawn o obeithion addawol. Mae y pethau yn y rhai y mae llwyddiant cenhedloedd yn gynnwysedig yn cael eu deall yn well y naill flwyddyn ar ol y llall; y mae ffolineb—yn gystal ag euogrwydd—trais, uchelgais, twyll gwleidyddol, a chyfrwysder, yn dyfod i gael eu gweled a'u teimlo fwyfwy yn barhaus: disgwylir i ddynion cyhoeddus ymddwyn yn onest a theg, a disgwylir iddynt lywodraethu mewn cyfiawnder. Onid ydyw yn wirionedd fod y trefniadau cyfrwysddrwg hyny o lywodraethu, a'r cynllwynion bradwrus, i ba rai am lawer o amser y rhoddid y cyfenw difriol "Iesuitaidd," yn syrthio yn gyflym i warth, ac yn dyfod yn wrthddrychau dirmyg? Er y gellir, fe allai, nodi enghreifftiau neillduol i'r gwrthwyneb i hyn, credwn fod hon yn ffaith gyffredinol, a'i bod yn ffaith ag sydd yn un o nodweddau y dyddiau presennol. Ond os felly, os ydyw pob peth sydd yn "Iesuitaidd" yn ymddangos yn fwy dirmygus yn barhaus, ac felly yn llai gwasanaethgar, yna yn ddiammheuol fe deimla Iesuitiaeth ei hun fod yr anhawsderau yn cynnyddu yn barhaus i gadw y dylanwad a feddiennir yn y gwahanol gyssylltiadau gwladol ac eglwysig y mae wedi ymwthio iddynt. Mae y cyfnewidiad daionus hwn ar bethau, yr hwn a dybir genym sydd yn myned yn mlaen, yn tueddu yn wastadol at symmudiad prysur, yn enwedig pan ystyriwn ei fod yn cael ei gynnorthwyo gan y moddion cyffredinol ac uniongyrchol hyny i drosglwyddo hysbysiad a gwybodaeth yn mhlith y gwahanol genhedloedd ag y mae celfyddyd a pheirianwaith diweddar wedi eu cael allan, y rhai sydd bron wedi difodi amser a lle, ac yn ysbeilio twyll, a thrais, a bradwriaeth, o'u prif adnoddau. Dadguddir trosedd yn mron mor fuan ag y cyflawnir ef; ac y mae swyddogion y gyfraith yn gallu blaenu y troseddwr yn y rhedegfa; os caniateir y fath ymadrodd, y mae Ewrop yn awr yn byw yn nghanol disgleirdeb gwastadol dydd celfyddydol—goleuni a daenir yn gyffredinol, goleuni nad oes un nos yn ei ymlid ymaith. Gan hyny, y mae y rhai ag y mae eu hymarferion yn peri iddynt garu y tywyllwch—y cynllwynwyr hyny yn erbyn iawnderau a rhyddid dynolryw—yn cael eu gyru i gonglau culach, culach, o hyd, nes o'r diwedd y myn y byd waredigaeth gyflawn oddi wrthynt.

Er ein bod yn dadgan syniadau gobeithiol fod Ewrop, a'r byd, i gael gwaredigaeth lwyr yn fuan oddi wrth ddylanwad llygredig yr Iesuitiaid, o herwydd fod dylanwadau gwrthweithiol yn cael eu teimlo yn gweithredu yn rymus; etto, rhaid addef fod ymdrechion y blaid hon yn fawr yn y dyddiau presennol. Ymwthiant i bob cyssylltiad mewn gwlad ac eglwys lle y tybiant y gallant fod o ryw wasanaeth i'r Eglwys Babaidd; ac o herwydd eu bod yn dwyn yn mlaen eu gweithrediadau gyda'r fath ddirgelwch—yn yr hyn y maent mor hynod—y mae'n ddiammheuol y teimlir eu dylanwad mewn llawer o gyssylltiadau nad oes genym un ddirnadaeth am danynt. Y mae arwyddion yr amserau presennol yn ein harwain i gredu eu bod, trwy eu dichellion, yn gallu gweithio i gylchoedd y gallant ddylanwadu yn bwysig ynddynt ar Eglwys Sefydledig ein gwlad. Y mae eu cyfrwysder a'u diwydrwydd yn ddiderfyn; ac o herwydd hyny, y maent yn sicr o fod yn beryglus. Modd bynag, er cymmaint ydyw eu hymdrechion presennol, er eu holl sel a'u hymroddiad, y mae y gwirionedd yn eu herbyn, ac efe a lwyr orchfyga cyn hir.

**IESUS:** a elwid Iustus, Cristion selog oedd gyda Paul yn Rhufain, ac yn uno âg ef yn y llon-gyfarchiadau a anfonodd efe i'r Colossiaid. Yr oedd Iesus yn un o'r cydweithwyr hyny a fu yn gysur i'r apostol: *Col.* iv. 11.

**IESUS FAB SIRACH:** yr hwn a ddisgrifir yn *Ecclesiasticus*, fel awdwr y llyfr hwnw, "Iesus mab Sirach o Ierusalem a ysgrifenodd yn y llyfr hwn athrawiaeth deall a gwybodaeth, yr hwn a wlawiodd ddoethineb o'i galon: *Eccles.* l. 27. Yn gyffredinol, oddi eithr yn yr eglwys orllewinol, gelwir y llyfr yn *Ddoethineb Iesus mab Sirach;* neu, yn fwy syml, yn *Ddoethineb Sirach.* Gwelir fod yr ymadrodd uchod yn son am dano fel brodor o Ierusalem; ac y mae cymmeriad mewnol y llyfr yn profi ei darddiad Iuddewig. Yr oedd yr enw Iesus yn digwydd yn fynych, a chynnrychiolid ef yn aml gan yr enw Groeg *Iason.* Yn y rhestr ammheus o'r deuddeg a thrigain dirprwywyr a anfonwyd gan Eleazar at Ptolemy, fe ymddengys ddwywaith; ond nid oes y seiliau gwanaf i gyssylltu awdwr *Ecclesiasticus* â'r naill na'r llall o'r personau a grybwyllir yno. Mae yr amrywiol dybiaethau sydd wedi eu mabwysiadu gyda golwg ar sefyllfa mab Sirach oddi wrth gynnwysiad ei lyfr—megys, er enghraifft, mai offeiriad ydoedd, oddi wrth *pen.* vii. 29; xlv; xlix. 1, neu mai meddyg ydoedd, oddi wrth *pen.* xxxviii. 1—yn gyfartal ddisail.

Yn mhlith yr Iuddewon diweddarach, dynodid "mab Sirach" wrth yr enw *Ben Sira*, ac ystyrid ef yn enwog fel ysgrifenydd diarebion; a dywedir fod rhai o honynt sydd wedi eu cadw yn dwyn tebygolrwydd mawr i ymadroddion a geir yn *Ecclesiasticus;* ond yn nhreigliad amser, y mae casgliad diweddarach wedi cymmeryd lle gwaith gwreiddiol Ben Sira, ac nid yw traddodiad wedi cadw i ni fanylion sicr am ei berson a'i fywyd.

Yn ol y rhagymadrodd cyntaf i Lyfr Ecclesiasticus, yr oedd cyfieithydd y llyfr o'r un enw a'i awdwr. Os yw y dybiaeth hon yn gywir, saif yr achyddiaeth fel y canlyn:—1. Sirach. 2. Iesus, mab (tad) Sirach (awdwr y llyfr). 3. Sirach. 4. Iesus, mab Sirach (cyfieithydd y llyfr). Y mae yn dra thebyg, pa fodd bynag, mai *gweddi Iesus fab Sirach* yn y bennod olaf a roddes achlysur i'r dybiaeth hon. Mae y weddi yn cael ei phriodoli i'r cyfieithydd, ac yna y mae taflen yr olyniaeth yn dilyn o angenrheidrwydd oddi wrth y teitl a roddir iddi.

Ecclesiasticus ydyw y teitl a roddir i'r testyn Lladinaidd o *ddoethineb* Iesu fab Sirach. Rhoddir gwir ystyr y gair gan Rufinus, yr hwn a sylwa "nad ydyw yn dynodi awdwr y llyfr, ond cymmeriad y gwaith," fel yr arferid ef yn gyhoeddus yn ngwasanaeth yr eglwys. Bu y llyfr hwn yn dra phoblogaidd; dywed Athanasius iddo gael ei "barotoi gan y tadau i gael ei ddarllen gan y rhai a ewyllysient gael eu haddysgu yn ngeiriau duwioldeb." Yn ol Jerome, teitl y testyn Hebraeg gwreiddiol ydoedd *Diarebion;* ac yr oedd Llyfr Doethineb Sirach yn cael ei ystyried gyda'r llyfrau canonaidd, y Diarebion a Doethineb Solomon, yn *llyfr yr holl rinweddau.*

Digitized by Google

hiliogaeth Esau: *Gen.* xxxvi. 40; 1 *Cron.* i. 51. Y mae achau meibion Esau yn cael eu nodi ar wahân mewn rhan flaenorol o *Gen.* xxxvi, "yn ol eu teuluoedd, wrth eu trigleoedd, erbyn eu henwau," ac "yn ol eu preswylfeydd yn ngwlad eu perchenogaeth;" *adn.* 40—43. Gall y rhestr hon o enwau dugiaethau Edom fod yn cyfeirio yn arbenig at leoedd eu preswylfod, neu y dinasoedd a alwyd ar eu henwau, neu a berchenogid ganddynt; neu ynte, fe ddichon eu bod yn cyfeirio at ryw barthau yn yr anialwch mawr; ag yr oedd y llwythau crwydredig hyny yn arfer gadael eu hol arno mewn rhyw fodd neu gilydd.

IETHRO [יתרו, *h. y.*, *Iithro*]: gelwir ef hefyd Iether, a Hobab, mab Raguel, offeiriad a thywysog Midian; y ddwy swydd, dybygid, wedi eu huno ynghyd yn yr un person. Treuliodd Moses ddeugain mlynedd o dymmor ei alltudiaeth o'r Aipht gydag ef, a phriododd ei ferch Sephorah. Yn ol cynghor Iethro, appwyntiodd Moses gynnrychiolwyr i farnu cynnulleidfa Israel, ac i ddwyn rhan o faich y llywodraeth gydag ef ei hun: *Exod.* xviii. Ar gyfrif ei wybodaeth o'r wlad, erfyniwyd arno aros gyda'r Israeliaid ar hyd y daith trwy yr anialwch i Gaanan; ond yr oedd y gwasanaeth a ofynid ganddo ef, modd bynag, yn cael ei wneyd i fyny gan arch y cyfammod, yr hon mewn modd goruwchnaturiol a ddangosai y lleoedd hyny y bwriadwyd iddynt wersyllu: *Num.* x. 31, 33. Y drychfeddwl a gyflëir yn yr enw Iethro, neu Iether, mae yn debyg, ydyw *rhagoriaeth;* a golyga Hobab *anwyl* neu *garedig*, a dichon fod y ddau enw hyn wedi eu rhoddi ar yr un person am resymau cyffelyb. Yr oedd yr arfer o roddi mwy nag un enw yn ffynu yn gyffredin yn mysg yr Iuddewon, fel y geliir gweled yn ei berthynas â Beniamin—Benoni; Solomon—Iedaiah, &c., &c.

Dywedir yn *Exod.* ii. 18, mai enw offeiriad Midian ag y priododd Moses ei ferch ydoedd Reuel; wedi hyny, yn *pen.* iii. 1, gelwir ef yn Iethro, fel y gwneir hefyd yn *pen.* xviii.; ond yn *Num.* x. 29, "Hobab, mab Raguel y Midianiad," a elwir yn "dad yn nghyfraith" Moses: a golygu mai yr un ydoedd Hobab a Iethro, rhaid i ni dybied fod "eu tad Reuel," y sonir am dano yn *Exod.* ii. 18, mewn gwirionedd eu tad cu, ac mai y person a ddywedodd, "Pa ham y daethoch heddyw cyn gynted?" ydoedd yr offeiriad y cyfeirir ato yn *adn* 16; ar y llaw arall, os coleddir y syniad nad yr un dyn oedd Hobab a Iethro, ymddengys yn anhawdd iawn penderfynu perthynas Reuel, Hobab, Iethro, a Moses. Y mae y lletygarwch calon-agored â'r hwn y croesawodd Iethro y crwydryn digartref ac anadnabyddus, pan yr adroddodd ei ferched y modd y dyfrhaodd efe eu praidd, yn ddarlun gwirioneddol a phrydferth o arferion dwyreiniol. Gallwn dybied, fe ddichon, cyn ei ymgydnabyddiaeth â Moses, nad oedd Iethro yn addolwr y gwir Dduw. Ymddengys arwyddion o hyn yn yr oediad a ganiataodd Moses i gymmeryd lle mewn perthynas i enwaediad ei fab (*Exod.* iv. 24—26); ac yn wir, y mae hyd yn oed yn bossibl fod Sephorah wedi hyny, fel y tybia rhai, wedi ymwahanu oddi wrtho (*Exod.* xviii. 2), ar gyfrif ei hymlyniad wrth grefydd arall; ond yr oedd dylanwad ar waith yn gweithio argyhoeddiad yn meddwl Iethro, wrth weled Israel yn llwyddo ac yn myned yn mlaen, nes o'r diwedd iddo roddi ffordd i'r dylanwadau hyn, ac ymwrthod â'i ragfarnau blaenorol, a dwyn ei ferch yn ol, a chyhoeddi fod ei feddwl wedi ei gadarnhau a'i sefydlu yn y gwirionedd—"Yn awr y gwn mai mwy ydyw yr Arglwydd na'r holl dduwiau; o blegid yn y peth yr oeddynt falch o hono, yr oedd efe yn uwch na hwynt:" yn ganlynol i hyn, fe fynegir i ni i "Iethro, chwegrwn Moses, gymmeryd poethoffrwm ac ebyrth i Dduw; a daeth Aaron, a holl henuriaid Israel, i fwyta bara gyda chwegrwn Moses ger bron Duw:" fel pe buasent yn bwriadu cynnal coffadwriaeth barchus am ei ddychweliad. Pa un bynag a ydyw y cofnodiad a wneir yn *Num.* x. 29—32, yn cyfeirio at yr un digwyddiad, ai nid yw, y mae yr hanes yn *Exod.* xviii. 27, yn cydsynio â geiriau Hobab ei hun yn *Num.* x. 30; ac wrth gymmharu y ddau, gallwn dybied na lwyddodd Moses gyda'i dad yn nghyfraith i beri iddo aros gyda chynnulleidfa Israel. Y mae Calvin (*in* 5 *lib.*, *Moses's Comment.*), yn deall *adn.* 31, 32, fel hyn: "Tydi a ddaethost gyda ni hyd yma, ac a fuost yn lle llygaid i ni; ac yn awr pa lesiant fydd i ti, ar ol dioddef cymmaint o ofidiau ac anhawsderau, os na ddeui gyda ni i etifeddu y fendith addawedig?" A meddylia Mathew Henry fod Hobab wedi cydsynio â'r gwahoddiad hwn, a bod amlygiadau o sefydliad ei hiliogaeth yn Ngwlad Canaan i'w canfod yn *Barn.* i. 16; a 1 *Sam.* xv. 6. Tybia rhai, ac yn eu plith Calvin, mai yr un ydyw Reuel a Iethro; ac ystyriant Hobab yn "frawd yn nghyfraith" i Moses. Ond nid yw gwahannodiaeth ein Beiblau yn gwarantu hyn.

Yr enw Mahometaidd a roddir ar Iethro ydyw *Shoaib* (*Coran* 7 a 11). Y mae ystori yn y *Midrash*, fod Iethro yn gynghorwr i Pharaoh, yr hwn a ymdrechai ei berswadio i beidio difetha plant yr Hebreaid, ac felly, ar gyfrif ei dynerwch, iddo orfod ffoi i Midian, ond a wobrwywyd wedi hyny trwy gael yr anrhydedd o fod yn dad yn nghyfraith i Moses (*Weil's Biblical Legends*, td. 93, *note*). Gwel HOBAB.

IERUBBAAL; neu IERUBBESHETH, cyfenw Gideon, yr hwn a gafodd efe mewn canlyniad i ddinystrio allor Baal, pan yr amddiffynwyd ef gan ei dad rhag dial yr Abiezriaid: *Barn.* vi. 32; vii. 1. Yn y cyfieithiad awdurdodedig yn *pen.* vi. 32, darllenir, "Ac efe a'i galwodd ef y dwthwn hwnw yn Ierubbaal;" yn arwyddo iddo gael ei gyfenwi felly gan loas, ond cydsyniai yn well â'r priod-ddull Hebraeg, ddywedyd, "un a'i galwodd;" hyny yw, galwyd ef felly gan wŷr y ddinas. Heblaw yn y lleoedd a nodwyd, arferir yr enw hefyd yn *Barn.* viii. 29; ix. 1, 5, 16, 19, 24, 28; ac yn *Sam.* xii. 11. Ymddengys yn bur hynod nad ydyw Josephus yn gwneyd un crybwylliad am y cyfnewidiad hwn yn enw Gideon, nac am yr amgylchiad yr oedd yn goffadwriaethol o hono. Gwel GIDEON.

IESER: un o feibion Caleb mab Hesron, o'i wraig Ahuzah: 1 *Cron.* ii. 18.

1. IEUS: mab Esau, o Ahalibamah, merch Anah, mab Sibeon yr Hefiad: *Gen.* xxxvi. 14, 18; 1 *Cron.* i. 35. Ymddengys oddi wrth *Gen.* xxxvi. 20—25, mai enw mab ydyw Anah (ac nid merch, fel y gallesid meddwl oddi wrth *adn.* 2); ac wrth gymmharu *adn.* 2, gwelir mai yr Horiaid ydoedd yr Hefiaid. Yr oedd Ieus yn un o Dduciaid Edom.

2. IEUS: penaeth teulu o lwyth Beniamin; yr oedd yn byw yn nyddiau Dafydd: 1 *Cron.* vii. 10, 11.

Digitized by Google

**3. IEUS:** Lefiad, mab Simei, o dylwyth y Gersoniaid. Cyfrifwyd Ieus a Beriah fel un teulu yn y cyfrif a gymmerwyd yn amser Dafydd: 1 *Cron* xxiii. 10, 11.

**4. IEUS:** mab Rehoboam, brenin Iudah, a Abihail, merch Eliab, mab Iesse: 2 *Cron.* xi. 18, 19.

**IEZANIAH:** mab Hosiah, y Maachathiad, ac un o dywysogion y lluoedd, a ddiangasant o Ierusalem yn ystod ymosodiad diweddaf byddin y Caldeaid arni: *Ier.* xl. 8; xlii. 1. Ymlidiodd y gelyn ar eu hol, a chymmerwyd Sedeciah yn garcharor, a gwasgarwyd y fyddin oddi wrtho drwy y wlad agored o amgylch, ac i blith yr Ammoniaid a'r Moabiaid cymmydogaethol, o'r lle y gwylient y digwyddiadau a gymmerent le. Pan ymadawodd y Babiloniaid, Iezaniah, ynghyd â'r dynion oedd dan ei lywyddiaeth, oeddynt yn mysg y rhai cyntaf a ddychwelodd at Gedaliah i Mispah. Yn y digwyddiadau a ddilynodd lofruddiaeth y swyddog hwnw, cymmerodd Iezaniah ran flaenllaw. Ymunodd â Iohanan i ymlid ar ol Ismael a'i gymdeithion llofruddiog; ac yn wyneb y dychryn a'r cyffro cyffredinol, a'r diffyg ymddiried a ddilynodd hyn, efe oedd un o'r dadleuwyr mwyaf brwdfrydig dros ymfudo i'r Aipht, yr hyn a wrthwynebid mor gadarn a diysgog gan Ieremiah. Yn wir, yn yr ymddiddan a fu rhwng y prophwyd a hwynt yn "Nhrigfa Cinham," ymddengys mai Iezaniah (yr hwn a elwir yno yn Azariah), ydoedd yr arweinydd yn y ddadl, ac am unwaith yn blaenori Iohanan: *Ier.* xliii. 2. Y mae yr un gŵr yn 2 *Bren.* xxv. 23, yn cael ei alw **Iaazaniah.**

**IEZEBEL** [איזבל; Gr. *Iezabel*]: gwraig Ahab, brenin Israel, a mam Athaliah, brenhines Iudah, ac Ahaziah a Iehoram, brenhinoedd Israel. Tywysoges ydoedd o Phœnicia, merch "Ethbaal brenin y Sidoniaid." Yr oedd ei phriodas âg Ahab yn creu cyfnod pwysig yn hanes Israel. Nid yn unig yr oedd undeb â gwraig Ganaaneaidd yn beth anghyffredin yn y deyrnas ogleddol, ond yr oedd cymmeriad y frenhines yn rhoddi grym ac arwyddocâd chwanegol i'r hyn y gallesid edrych arno, oni bai hyny, fel mesur masnachol neu wleidyddol, gan un o duedd i fyw yn heddychol ac yn foethus fel y brenin Ahab. Gwraig ydoedd Iezebel, yn yr hon yr oedd yn unedig holl arferion aflywodraethus brenhines ddwyreiniol, a'r teithi mwyaf anhyblyg a chreulawn oeddynt yn gynhenid yn nodweddu pobl ei gwlad. Fel rheol, yr oedd teulu brenhinol Tyrus y pryd hwnw yn nodedig am eu penboethni crefyddol a'u tymmer greulawn. Gyda bod yn frenin Sidonia, ei thad Ethbaal oedd prif offeiriad y dduwies Astarte; esgynodd y gŵr hwn i'r orsedd trwy lofruddio ei ragflaenor Phelles (*Iesalt.* i 18). Yn yr oes ddilynol y bu fyw Matgenes, brenin ac offeiriad Baal, a'r llofrudd Pygmalion, ac Elisa, neu Dido, yr hon a sylfaenodd Carthage. O'r teulu hwn yr hanodd Iezreel. Nid oedd ei gŵr Ahab ond offeryn yn ei llaw, â'r hwn y gallasai wneuthur fel yr ewyllysiai: 1 *Bren.* xxi. 25. Hyd yn oed ar ol ei farwolaeth ef, drwy ystod teyrnasiad ei meibion, teimlid ei dylanwad er niwed a drwg yn ddirfawr yn y wladwriaeth. A thrwy briodas ei merch Athaliah â brenin Iudah, ymestynodd dros derfynau y deyrnas hono hefyd. Yr oedd ei bywyd annuwiol a'i harferion halogedig yn ddiareb yn mhlith y genedl: 2 *Bren.* ix. 22. Wedi ei marwolaeth, edrychid ar ei chymmeriad fel ysgymunbeth; ac yn Llyfr y Dadguddiad, rhoddir ei henw ar eglwys neu berson yn Asia Leiaf, a gyfranogai yn gyffelyb o'i halogrwydd a'i phenboethni: *Dat.* ii. 20. Ymddengys iddi briodi Ahab cyn iddo esgyn yr orsedd.

Effeithiodd y briodas annuhriodol ac annedwydd hon yn ddinystriol iawn ar deyrnas Israel; canys perswadiodd Iezebel ei gŵr egwan ac ansefydlog, nid yn unig i gael caniatâd i sefydlu gwasanaeth duwiau ei gwlad ei hun o fewn y tir, ond hefyd yn y diwedd i'w wneuthur ef ei hunan yn addolwr o honynt, ac i arfer pob moddion o fewn ei gyrhaedd i'w sefydlu yn lle gwasanaeth Duw Israel. Ffrwyth cyntaf ei dylanwad ydoedd sefydliad y gwasanaeth pechadurus hwn ar raddfa helaeth yn llys Ahab. Wrth ei bwrdd, croesawid 450 o brophwydi Baal, a 400 o brophwydi y llwyni: 1 *Bren.* xvi. 31, 32; xviii. 19. Hyd yn hyn, yn y deyrnas ogleddol, yr oedd prophwydi yr Arglwydd wedi cael yr amddiffyniad mwyaf; ond yn ol ei gorchymyn hi, ymosodwyd arnynt a rhoddwyd hwynt i farwolaeth drwy y cleddyf: 1 *Bren.* xviii. 13; 2 *Bren.* ix. 7. Pan, o'r diwedd, ar annogaeth Elias, y cyfododd y bobl yn erbyn ei gweinidogion, a'u lladd wrth droed mynydd Carmel; a phan yr oedd Ahab wedi ei ddychrynu i ymostyngiad yn mron, fe gadwodd hi ei phresennoldeb meddwl a'i dewrder arferol y pryd hwnw; a phan y derbyniodd y newydd yn ei phalas yn Iezreel fod ei chrefydd wedi ei llwyr ddistrywio o'r bron (1 *Bren.* xix. 1), ei hunig attebiad ydoedd un o'r llwon dychrynadwy hyny a wnelai arweinwyr rhai o'r cenhedloedd dwyreiniol mor ofnadwy, naill ai er daioni neu er drwg—yn cael ei amlygu mewn cenadwri at y dyn, y gallesid meddwl, ond un awr cyn hyny, fod ei bywyd yn ei law:—"Fel hyn y gwnelo'r duwiau, ac fel hyn y chwanegont, oni wnaf erbyn y pryd hyn yfory dy einioes di fel einioes un o honynt hwy;" 1 *Bren.* xix. 2. Ac y mae Elias ei hunan, y gŵr a safodd yn ddigryn ger bron Ahab, ac a wynebodd holl nerth prophwydi Baal, yn "ofni" (yn ol y Deg a Thrigain) llid y frenhines ofnadwy, ac yn diange am ei fywyd y tu hwnt i derfynau eithaf teyrnas Israel: 1 *Bren.* xix. 3.

Y mae yr enghraifft nesaf o'i gallu a'i phenderfyniad yn fwy nodedig a chyflawn. Yr oedd Ahab wedi gosod ei fryd ar gael gwinllan Naboth yr Iezreeliad yn berchenogaeth iddo ei hun; ond ni foddlonai Naboth i ymadael â threftadaeth ei hynafiaid. Tristaodd hyn y brenin. Yn yr amgylchiad hwn, daeth ei gwir gymmeriad i'r golwg, ac amlygwyd natur y dylanwad a feddai yn eglur iawn. Pan y canfu ei phriod yn gofidio o herwydd ei siomedigaeth, o herwydd gwrthodiad Naboth, cymmerodd y mater yn ei llaw ei hun, a hyny gyda'r fath ysbryd ag a'n hadgofia am Clytemnestra, neu arglwyddes Macbeth:—"Ydwyt ti yn awr yn teyrnasu yn Israel ("chwareu y brenin," yn ol y Deg a Thrigain). Cyfod, bwyta fara, a llawenyched dy galon; myfi a roddaf i ti winllan Naboth yr Iezreeliad;" 1 *Bren.* xxi. 7. Ysgrifenodd lythyrau yn enw Ahab, ac a'u seliodd â'i sel ef. Yr oedd y wys hon wedi ei geirio yn iaith swyddol cyfraith Israel—cyhoeddi ympryd, gosod tystion, dwyn cyhuddiad o gabledd, ac awdurdodi y gosp o labyddiaeth. Iddi hi, ac nid i Ahab, yr anfonwyd y genadwri fod y dymuniadau brenhinol wedi eu cwblhau (1 *Bren.* xxi. 14); hi a archodd ei phriod i feddiannu y winllan; ac arni hi, gan hyny, y disgynodd

Digitized by Google

yn ymestyn allan tua'r dwyrain, fel bysedd o law, yn cael eu gwahanu gan ddau drum o fryniau llwyd a diffrwyth—un o ba rai sydd yn dwyn yr enw adnabyddus Gilboa; gelwir y llall yn Hermon fychan. Saif Tabor ar un ochr i'r gaingc ogleddol, a Hermon fychan ar y llall; yma y daeth lluoedd Barac o Tabor (*Barn.* iv. 6); ac ar yr ochr wrthgyferbyniol draw mae y fan lle y safai Nani ac Endor. Y gaingc ddeheuol a orwedda rhwng Ienin a Gilboa, ac a derfyna mewn pwynt rhwng y bryniau tua'r dwyrain; ar draws y rhan yma y diangodd Ahaziah brenin Iudah pan yr ymlidiodd Iehu ar ei ol: 2 *Bren.* ix. 27. Y mae y gaingc ganol, yr hon ydyw y ffrwythlonaf, yn gystal a'r fwyaf enwog, yn disgyn yn llechweddi gwyrddlas cynnyrchiol i lanau yr Iorddonen, ac ar y naill ochr iddo yn y pen gorllewinol y mae Iezreel, ac ar y llall Shunem, a Beth-san yn y canol tua'r dwyrain. "Dyma ddyffryn Iezreel" yn yr ystyr fanylaf—maes y frwydr yn yr hon y gorchfygodd Gideon; ac yma hefyd yr ymladdwyd y frwydr yn yr hon y cwympodd Saul a Ionathan: *Barn.* vii. 1; 1 *Sam.* xxix, a xxxi.

Y mae dau beth yn deilwng o sylw mewn cysylltiad â'r gwastadedd hwn. 1. Ei ffrwythlonrwydd neillduol. Mae ei wyrddlesni prydferth yn sefyll mewn cyferbyniad hynod i ochrau llwydaidd noethlwn Gilboa, ac ysgythredd y bryniau ar y gogledd a'r deheu. Dengys yr ysgall talgryf, y glaswellt toreithiog, a ffrwythlonrwydd y cnydau mewn rhai llanerchau a fyddo wedi eu hamaethu, mor ryfeddol o gynnyrchiol yw y rhan hono o'r wlad. Dyma derfynau Zabulon—"Ymlawenycha, Zabulon, yn dy fynediad allan;" *Deut.* xxxiii. 18. Ond cyfran neillduol Issachar ydoedd—"Ac a wel lonyddwch mai da yw, a'r tir, mai hyfryd yw: efe a ogwydda ei ysgwydd i ddwyn, ac a fydd yn gaeth dan deyrnged;" *Gen.* xlix. 15. 2. Ei anghyfanedd-dra. Os bydd i ni eithrio y ceingciau dwyreiniol, nid oes un pentref yn cael ei drigiannu ar ei holl arwynebedd, ac nid oes dros un ran o chwech o'r tir yn cael ei lafurio. Cartref yr Arabiaid gwyllt crwydredig ydyw, carnau meirch buan y rhai a fathrai ei dywarchen esmwyth mewn ymchwiliad am ysbail; a phan y gwesgir arnynt, symmudant eu pebyll a'u deadelloedd yn ebrwydd y tu hwnt i'r Iorddonen, allan o gyrhaedd llywodraeth egwan. Er pan y mae hanesyddiaeth wedi dechreu cofnodi digwyddiadau, y mae wedi bod bob amser yn lle anniogel. Gyrodd yr hen Ganaaeaid drwyddo yn fuddugoliaethus yn eu cerbydau heiyrn (*Barn.* iv. 3, 7); a'r Amaleciaid a'r Midianiaid lliosog—"meibion y dwyrain" hyny, y rhai oeddynt "fel locustiaid o amldra," ac "nad oedd rhifedi ar eu camelod"—a fathrasant ei borfeydd breision (*Barn.* vi. 1—6; vii. 1); bu yn nwylaw y Philistiaid am amser maith, y rhai a sylfaenasant amddiffynfa Bethsan (1 *Sam.* xxix. 1; xxxi. 10); ac anrheithid ef yn fynych gan fyddinoedd y Syriaid: 1 *Bren.* xx. 26; 2 *Bren.* xiii. 17. Yn y sefyllfa hon, yn agored i bob ymgyrch brysiog, ac i bob ymosodiad rhyfelgar, yr ydym yn darllen tynged y llwyth hwnw, yr hwn, er mwyn ffrwythlondeb y lle, a gydsyniodd i ymsuddo i stâd hanner crwydrol." Ymlawenycha Issachar yn dy bebyll......Issachar sydd asyn asgyrnog, yn gorwedd rhwng dau bwn. Ac a wel lonyddwch mai da yw, a'r tir, mai hyfryd yw: efe a ogwydda ei ysgwydd i ddwyn, ac a fydd yn gaeth dan deyrnged;" *Gen.* xlix. 14, 15; *Deut.* xxxiii. 18. Unwaith yr ydym yn darllen am danynt yn ysgwyd ymaith yr iau; pan dan orthrwm Sisera, "a thywysogion Issachar oedd gyda Deborah;" *Barn.* v. 15. Yr oedd eu sefyllfa ddiamddiffyn a'u meddiannau gwerthfawr yn y gwastadedd agored hwn yn peri eu bod yn bryderus iawn am esgyniad Dafydd i'r orsedd, fel un y caffent o dan ei amddiffyniad galluog fwynhau yr heddwch a'r llonyddwch yr ymhyfrydent gymmaint ynddo; ac ymunasant â'u cymmydogion Zabulon a Naphtali i anfon i Dafydd anrhegion o gynnyrchion rhagoraf eu gwlad fras: 1 *Cron.* xii. 32—40.

Y mae holl gyffiniau dyffryn Iezreel neu Esdraelon wedi ei fritho â lleoedd o ddyddordeb mawr mewn ystyr hanesyddol a chyssegredig. Ni wnaed ond cyfeirio atynt yma, gan gyfeirio y darllenydd am fanylion pellach at wahanol erthyglau yn y gwaith hwn. Ar du y dwyrain, y mae Endor, Nain, a Sunem, yn amgylchu godrau mynydd Moreh; yna Beth-san, yn nghanol "glyn Iezreel," dyna Gilboa, a "ffynnon Harod," ac adfeilion Iezreel ar ei odrau gorllewinol. Ar du y deheu y mae Engannim, Taanach, a Megido. Ar y pen gorllewinol, ar gopa crogedig Carmel, y bu Elias yn aberthu; ac yn ymyl troed y mynydd islaw y rhed y Cison, ar lanau yr hon y lladdwyd prophwydi twyllodrus Baal. Ar du y gogledd, yn mhlith manau ereill llai eu henwogrwydd, y mae Nazareth a Tabor. Mae y Syriaid diweddar wedi anghofio ei hen enw, fel y maent wedi anghofio hen hanes Esdraelon—adwaenir ef ganddynt fel "gwastadedd mab Amer."

Deuwn yn awr at y gair *Iezreel*, fel ei arferir yn yr ystyr gyfyngaf, yn cael ei gymmhwyso at ddinas o'r enw hwnw; y cyfeiriad cyntaf a wneir ati sydd yn *Ios.* xix. 18, lle y crybwyllir am dani fel dinas o Issachar, yn nghymmydogaeth Cesulath a Sunem; yr oedd ynddi ddinaswyr, henuriaid, a phenaethiaid o'i heiddo ei hun: 1 *Bren.* xxi. 1—3; 8—11. Pa fodd bynag, gellir dyddio adeg ei phwysigrwydd hanesyddol o'r amser y teyrnasodd Ahab; yr hwn a'i dewisodd fel prif le ei breswylfod, fel y dewisodd Omri Samaria, a Baasha Tirzah.

Dengys sefyllfan y pentref presennol Zerin, gymmhwysder y dewisiad a wnaeth. Saif ar un o'r llechweddi esmwyth sydd yn ymgodi o'r dyffryn ffrwythlawn; ond y mae dau o neillduolion yn ei hynodi oddi wrth y gweddill. Un ydyw ei gadernid. Ar y gogledd-ddwyrain y mae disgyniad creigiog, serth, yr hwn sydd, o leiaf, yn gan troedfedd (*Robinson*, argr. 1af. iii. 162). Peth arall ydyw ei sefyllfa ganolog. Saif ar agoriad y gaingc ganol o dair ffordd ddwyreiniol y gwastadedd, ac edrycha yn syth tua'r gwastattir llydan gorllewinol; ac felly y mae yr olygfa yn agored tua'r Iorddonen ar y tu dwyreiniol (2 *Bren.* ix. 17), ac yn weledig o Carmel ar du y gorllewin: 1 *Bren.* xviii. 46.

Yn y gymmydogaeth, neu o bossibl, o fewn y ddinas, yr oedd teml a llwyn y duw Baal, gyda sefydliad o bedwar cant o brophwydi yn cael eu cynnal gan Iezebel: 1 *Bren.* xvi. 33; 2 *Bren.* x. 11. Yr oedd palas Ahab (1 *Bren.* xxi. 1; xviii. 46), yr hwn a gynnwysai, mae yn debyg, ei "dŷ ifori" (1 *Bren.* xii. 39), ar ochr ddwyreiniol y ddinas, ac yn ffurfio rhan o furiau y ddinas; cymmharer 1 *Bren.* xxi. 1; 2 *Bren* ix. 25, 30, 33. Yr oedd y palas yn yr hwn y trigianai Iezebel hefyd ar fur y ddinas, ac ynddo ffenestr uchel yn gwynebu tua'r dwyrain: 2 *Bren.* ix. 30. Yn agos i, os nad yn ffurfio rhan o'r palas hwn, fel y tybia Josephus (*Hyn.* ix. 6, *adr.* 4), yr oedd tŵr

Digitized by Google

IFORI [שֵׁן, *shên*, yn mhob man ond 2 *Bren.* x. 22, a 2 *Cron.* ix. 21, lle y defnyddir y gair *shenhabbim*]. Y mae y gair *shên* yn llythyrenol yn golygu "dant" unrhyw anifail, ond yn fwy neillduol yn golygu ysgythr-ddannedd yr elephant. Dychymygai y cenhedloedd gynt mai cyrn oedd y dannedd hyn (*Ezra* xxvii. 15; *Plin.* viii. 4; xviii. 1), er fod Diodorus Siculus mewn modd cywir yn eu galw yn ddannedd. Gan mai trwy yr ifori y daethant i wybod am yr elephant, yn yr hwn yr oedd cryn lawer o fasnachu ar y pryd, ffurf y dannedd, yn ol pob tebyg, a arweiniodd i'r camgymmeriad yna. Peth tra hynod ydyw nad oes un gair yn yr Hebraeg Beiblaidd yn dynodi elephant, os nad ellir tybied fod y rhan ddiweddaf o'r gair cyfansawdd, *shenhabbim*, yn meddu yn ystyr yma.

Ymddengys fod yr Assyriaid yn dwyn yn mlaen fasnach eang mewn ifori. Yr oedd eu buddugoliaethau yn India wedi eu gwneyd yn gyfarwydd âg ef, ac yr oedd eu crefftwyr cywrain yn arfer gweithio "ifori o ynysoedd Chittim;" *Ezra* xxvii. 6. Ar golofn yn yr Amgueddfa Brydeinig, yn Llundain, ceir cerfluniau o gaethion yn cael eu cynnrychioli yn cario yr ysgythr-ddannedd hyn. Y mae gorymdeithiau o ddynion yn cario anrhegion, &c., etto i'w canfod ar furiau palasau, ac ar feddau yn yr Aipht, fel y gwelir yn y darlun isod.



Dar. 361. Ifori.

Yn mysg pethau ereill oedd yn gwneyd i fyny marsiandïaeth Babilon, y rhai a enwir yn *Dad.* xviii. 12, dywedir fod "pob llestr o ifori." Yr oedd gweithwyr cywrain Hiram, brenin Tyrus, yn llunio gorseddfangc fawr Solomon o ifori, ac yn ei gwisgo âg aur pur: 1 *Bren.* x. 18; 2 *Cron.* ix. 17. Dygid yr ifori a ddefnyddid fel hyn yno gan gludfeni marsiandwyr Dedau (*Esa.* xxi. 13; *Ezra* xxvii. 15), neu ynte gan lynges Tarsis, gyda'r epaod a'r paunod: 2 *Bren.* x. 22. Gwnaeth yr Aiphtiaid, mewn cyfnod boreuol, arfer o'r defnydd hwn i wneuthur addurniadau. Mae yr enghreifftiau a welir mewn llawer casgliad'yn Ewrop o waith yr Aiphtiaid mewn ifori, yn ol barn Mr. Birch, y rhan fwyaf o honynt, wedi eu gwneyd yn mhell cyn i'r Persiaid oresgyn y wlad.

Yr oedd yr ifori a arferai yr Aiphtiaid yn cael ei ddwyn yno yn benaf o Ethiopia [*Herod.* iii. 114], er fod eu helephantiaid yn wreiddiol yn dyfod o Asia. Dygai yr Ethiopiaid, yn ol Diodorus Siculus, anrhegion i Sesostris yn gynnwysedig o "ebonwydd ac aur, a dannedd elephantiaid." Yn y deyrnged a delid ganddynt i frenhinoedd Persia, yn mysg pethau ereill, yr oedd "ugain o ddan nedd mawr o ifori" [*Herod.* iii. 97]. Dywed rhai haneswyr mai y lle penaf am ifori i'r Aipht oedd Coloe (*Calai*). Yr oedd yn cael ei ddwyn i lawr oddi yno i Adouli (*Zulla*, neu *Thulla*), porthladd yn y Môr Coch, taith o ddeutu tridiau o Coloe, ynghyd â chrwyn yr afon-feirch, epaod, a chaethion [*Plin.* vi. 34]. Lleddid yr elephantiaid yn uwch i fyny yn y wlad, ond yr oedd rhai o honynt yn cael eu cymmeryd yn agos i'r môr, o ddeutu cymmydogaeth Adouli. Gwnaeth Ptolemy Philadephus y porthladd hwn yn ystorfa y fasnach mewn ifori [*Plin.* vi. 34]. Yn ol Pliny (viii. 10), yr oedd y fath gyflawnder o ifori ar derfynau Ethiopia fel yr oedd y brodorion yn gwneuthur pyst eu drysau o hono, a defnyddid ef hyd yn oed i wneyd i fyny feudai i'w gwartheg. Y mae awdwr *Periplus* (c. 16) yn son am Rhapta fel ystorfa fawr arall i'r fasnach mewn ifori; ond dywedid fod yr ifori a ddygid i lawr i'r porthladd hwn yn waelach o ran ei ansawdd, y rhan fwyaf o hono wedi ei gael yn y coedwigoedd wedi ei niweidio gan y gwlawogydd, neu ei gasglu oddi wrth anifeiliaid a foddwyd gan orlifiad afonydd y cyhydedd. Bu y marsiandwyr Aiphtaidd hefyd yn masnachu mewn ifori a meini onyx yn Barygaza—y porthladd i'r hwn y daeth masnach y rhan orllewinol o India o Ozene.

Yn oesoedd boreuaf Groeg, yr oedd llawer o ddefnydd yn cael ei wneyd o ifori i ddybenion addurniadol. Yr oedd gwisgoedd addurniadol y meirch yn cael eu britho âg ef [*Hom. Il.*, *b.* 584], a defnyddid ef yn foglynau i darianau. Yr oedd "tŷ ifori" y brenin Ahab (1 *Bren.* xxii. 39), yn balas, dybygid; ac yr oedd ei furiau wedi eu gorchuddio gan ifori, fel palas Menelaus, yr hwn a ddisgrifir gan Homer [*Odyss.* iv. 73]. Yr oedd gwelyau o ifori mewn arferiad yn mhlith yr Hebreaid (*Amos* vi. 4), ac hefyd yn mysg yr Aiphtiaid [Wilkinson, *Anc. Eg.*, iii. 169]. Crybwyllwyd eisoes am orseddfaingc fawr ifori Solomon; ond y mae yn anhawdd penderfynu gyda golwg ar y "tŵr ifori" yn *Can.* vii. 4, pa un ai ffugr ymadrodd yn unig ydyw, ai ynte a oes yno gyfeiriad at rywbeth oedd yn bodoli. Yr oedd y Phœniciaid moethus hefyd yn gwneuthur llawer o ddefnydd o hono. Y mae llawer o enghreifftiau o waith yr Assyriaid yn cerfio mewn ifori wedi eu darganfod wrth gloddio yn Ninefeh. Cafwyd darn o wialen ifori, yr hon, o bosibl, oedd deyrnwialen, ac amryw ddannedd cyfain, ond yn y sefyllfa olaf o bydredd, fel mai gyda'r anhawsder mwyaf y gallai Mr. Layard, ar ol darganfod y gweddillion dyddorol hyn, eu diogelu.

1. IGAL: mab Ioseph, o lwyth Issachar; yr hwn a ddewiswyd gan Moses i gynnyrchioli y llwyth yn mysg yr ysbïwyr a aethant i fyny o Cades i chwilio ansawdd Gwlad yr Addewid: *Num.* xiii. 7.

2. IGAL: un o arwyr gwarchodlu y brenin Dafydd, mab Nathan o Sabah: 2 *Sam.* xxiii. 36. Yn y daflen gyferbyniol a roddir yn 1 *Cron.*, rhoddir yr enw yn "Iael mab Nathan" (xi. 38). Y mae Kennicott, ar ol ymchwiliad manwl i'r ddau ymadrodd yn y testyn gwreiddiol, ac yn yr hen gyfieithiadau, yn penderfynu yn ffafr y darlleniad diweddaf fel y mwyaf cywir [*Dissertations*, 212—214].

IGEAL: mab ydoedd i Semaiah, ac un o ddisgynyddion tŷ breninol Iudah: 1 *Cron.* iii. 22. Yn ol sefyllfa bresennol y testyn Beiblaidd o'r achau dyrys hyn, efe oedd y pedwerydd disgynydd o



Digitized by Google

Zorobabel; ond yn ol y cyfnewidiad cywrain y mae Arglwydd A. Hervey wedi ei wneyd, mab i Simei ydyw, brawd Zorobabel, ac felly nid yw ond dwy genhedlaeth o bellder oddi wrth yr olaf. Yr un yw yr enw ag Igal; ac felly cyfieithir ef gan y Deg a Thrigain yn Ioel.

IGDALIAH: prophwyd neu ddyn sanctaidd—"gŵr i Dduw." Nid ydyw yn cael ei enwi ond unwaith (*Ier.* xxxv. 4). Tad Hanan, yn ystafell meibion yr hwn y bu y cyfarfyddiad rhyfeddol a gymmerodd le rhwng Ieremiah a'r Rechabiaid, yr hwn a gofnodir yn y bennod hon.

IGNATIUS: un o'r tadau apostolaidd. Syriad ydoedd; ond y mae lle ac amser ei enedigaeth yn anhysbys. Gelwir ef *Theophorus*, neu *Deifer*—enw, fel y tybia rhai, a roddwyd arno am mai efe oedd y plentyn a gymmerodd yr Iesu yn ei freichiau pan yn ceryddu uchelgais ei ddysgyblion (*Marc* ix. 36); ond y mae Ignatius ei hun yn rhoddi gwir ystyr y cyfenw, "un ag y mae Crist yn ei galon;" a dywed Chrysostom na welodd Ignatius erioed Iesu Grist. Geilw rhai ef yn ddysgybl i Pedr, eithr y mae awdurdod y *Martyrium Ignatii* yn rhoddi ar ddeall mai dysgybl i Ioan oedd efe a Pholycarp. Ychydig sydd yn wybyddus o'i hanes, cyn ac yn ystod tymmor ei weinidogaeth. Yr oedd Antioch yn enwog am ei Christionogaeth o'r amseroedd boreuaf. Ymsefydlodd Paul yno dros rai blynyddau, a dygodd y cyfundeb Cristionogol i drefn eglwysig reolaidd. Ignatius ydoedd un o ddilynwyr agosaf Paul—os nad y nesaf ato—yn ei lywyddiaeth dros yr eglwys hon, neu yn y swydd o weinidog, arolygydd, neu esgob—pa enw bynag yr oedd yr apostolion ac enwogion penaf y Cristionogion boreuaf yn cael eu galw arno yn eu cyssylltiad â'r eglwysi. Ymddengys i gyssylltiad Ignatius âg eglwys Antioch ddechreu mor foreu a'r flwyddyn 67; *h. y.*, cyn dinystr Ierusalem, a thra yr oedd lliaws mawr o bersonau yn fyw, y rhai oeddynt yn cofio ein Gwaredwr, ac amgylchiadau ei fywyd, ei weinidogaeth, a'i farwolaeth. Gellir casglu oddi wrth yr hyn a wyddys am dano, iddo fod mewn cyssylltiad â'r eglwys hono am ddeugain mlynedd cyn y flwyddyn 107, pan y talodd yr ymherawdwr Trajan ymweliad âg Antioch. Golygfa i dosturio drosti yw gweled dyn o gymmeriad a doethineb Trajan yn sefydlu erledigaeth chwerw a blin yn erbyn y Cristionogion. O angenrheidrwydd, gellid meddwl y buasai Ignatius, o herwydd ei gymmeriad uchel fel Cristion, a'i swydd fel bugail yr Eglwys Gristionogol yno, yn cael ei osod yn nod arbenig i ymosodiad yr erledigaeth hon; ac efe ydoedd un o'r rhai cyntaf a ddioddefodd oddi wrthi. Ar y cyntaf, ymdrechwyd ei ddarbwyllo i wadu ei egwyddorion, ac i roddi i fyny ei swydd; ond yr oedd yr hen ŵr yn ammhlygedig. Y canlyniad a fu, iddo gael ei anfon i Rufain, ac yno rhoddwyd ef i farwolaeth yn y modd mwyaf creulawn, trwy ei daflu i gael ei rwygo gan y llewod o flaen cynnulleidfa fawr. Y mae y meddwl yn cael ei ddolurio gan olygfa o'r fath yma; yr ydym yn cael ein hargyhoeddi ar unwaith gymmaint gwell ydyw yr amseroedd hyn na'r amseroedd a aethant heibio, mor werthfawr ydyw sefydliadau gwladol amseroedd diweddar, ac mor bwysig ydyw lledaenu gwirioneddau moesol a gwladol yn mhlith y bobl. Yr hyn a adawyd o weddillion yr hen ŵr oedranus, fe'u casglwyd gan ychydig o gyfeillion a dilynwyr, ac yn ol yr arferiad a flynai yn bur gyffredin yn oesoedd boreuaf yr eglwys, symmudwyd hwy i Antioch, lle y claddwyd hwy; a dywedir fod ei fedd yn cael ei ddangos yn amser Jerome.

Ond y mae y dyddordeb mwyaf a deimlir yn Ignatius yn cydgyfarfod yn y gweithiau a adawodd ar ei ol, y rhai,—er nad ydynt ond ychydig, sydd wedi achosi cryn ddadleuaeth o adeg y Diwygiad Protestanaidd hyd yn awr. Dywedir iddo, pan ar y ffordd o Antioch i Rufain, ysgrifenu saith o epistolau, y rhai a nodir gan Eusebius a Jerome; ond y mae yn awr ar gael bymtheg o lythyrau, y rhai a briodolir iddo, er nad ystyrir ei fod yn awdwr ond i saith o honynt; ac yn wir, meddylia llawer mai pedwar o'r llythyrau hyn a gyfansoddwyd ganddo. Y mae un o'r ddau gopi o'r llythyrau hyn yn fyrach na'r llall; ac y mae beirniaid yn gyffredin yn rhoddi eu dedfryd yn ffafr y byraf. Tybia rhai ysgrifenwyr mai ffugiol yw y cyfan, eithr y mae dysgedigion yn gyffredin yn cydnabod gwiredd saith. Ond fel y sylwasom, y mae hyn yn cael ei ammheu gan lawer; ac yn mhlith ereill, dadleua Calvin mai ffugiol oeddynt. Yn 1644, cyhoeddodd yr archesgob Usher argraphiad o'r epistolau, a dadleuai dros wiredd chwech o honynt, ac a chwanegodd atynt ragymadrodd a sylwadau gwerthfawr. Yn 1666, ymosodwyd yn dost ar y casgliad gan Daillè, yr hyn a barodd i'r esgob Pearson wneyd amddiffyniad, yr hwn am beth amser a roddodd derfyn ar y ddadl.

Pan y dygwyd i'r wlad hon amryw o drysorau llenyddiaeth Syriaidd gan Dr. Tattam, adnewyddwyd y dyddordeb a deimlid yn ysgrifeniadau Ignatius. Yn mysg y llawysgrifau a brynwyd gan y mynachod yn anialwch Nitria, cafwyd copi Syriaidd yn cynnwys yr epistolau at *Polycarp*, y *Rhufeiniaid*, a'r *Ephesiaid* yn unig. Golygwyd a chyhoeddwyd y rhai hyn, gyda sylwadau eglurhaol, gan y Parch. W. Cureton, yn 1845. Y mae y cyfieithiadau hyn yn llawer byrach na'r rhai a dybid eu bod yn wreiddiol, y rhai a ysgrifenwyd yn yr iaith Roeg; a'r hyn sydd yn hynod yw, fod y darnau sydd allan, rai o honynt, yn dwyn perthynas âg awdurdod esgobaethol, a Duwdod Crist; y rhai, fel y tybia Mr. Cureton, a ddygwyd i mewn i'r testyn Groegaidd i gyfarfod cyfeiliornadau a heresiau a ymddangosodd yn yr eglwys mewn amseroedd diweddarach. Rhoddodd y boneddwr hwn ystyriaeth lawnach i holl lenyddiaeth y pwngc wedi hyny yn ei *Corpus Ignatianum*; ac y mae yn ddadleuydd gwresog dros burdeb y cyfieithiad Syriaeg, neu y byraf. Hyd yn hyn, nid ydym yn deall fod casgliadau Mr. Cureton yn cael eu hammheu; ond y mae ymchwiliadau pellach i gyfieithiadau Syriaidd yn dwyn tystiolaeth eu bod yn arferol cwttogi neu dalfyru y traethodau gwreiddiol a gyfieithid; a dichon y meddylia rhai i hyn gael ei wneyd gydag epistolau Ignatius. Dylid dyweyd, pa fodd bynag, cyn darganfod y cyfieithiad hwn, fod llawer o feirniaid—megys Beausobre, Lardner, a Priestley—wedi dadgan eu barn fod llawer o chwanegiadau wedi eu gwneyd at y copïau Groegaidd.

IGNATIUS LOYOLA. Gwel IESUITIAID.

IIBSAM: un o feibion Tala, mab i Issachar, y rhai oeddynt benaethiaid ar dŷ eu tadau, a gwroniaid o nerth yn eu cenhedlaethau: 1 *Cron.* vii. 2. Ymddengys fod ei olynwyr yn gwasanaethu yn myddin Dafydd; y rhai, ynghyd âg ereill o'r un tylwyth, a rifent dros 22,000.

Digitized by Google

IIM: y ffurf feraf neu ranol o'r enw *Ije-abarim*—un o wersyllfanau olaf cenedl Israel ar eu taith i Ganaan: *Num.* xxxiii. 45. Yn y cyfieithiad Samariaidd, y mae Iim yn cael ei droi yn "bentrefi." Ond nid ydyw hyn yn rhoddi un agoriad i ni i gael allan sefyllfa y lle.

2. IIM: tref ar derfynau deheuol Iudah, yr hon a enwir yn yr un rhestr a Beer-seba, Baalah, &c.: *Ios.* xv. 28. Nid oes dim o olion yr enw wedi ei gael allan etto yn y cyfeiriad hwn.

IIMNAH: cyntafanedig Aser, yr hwn a gynnrychiolwyd yn rhosydd Moab pan y rhifwyd y bobl gan dylwyth yr Iimniaid: *Num.* xxvi. 44. Gelwir ef yn Iimnah mewn lle arall o'r cyfieithiad awdurdodedig (*Gen.* xlvi. 17); ond yn 1 *Cron.* vii. 30, yr enw a roddir arno yw Inmah. Y mae yr Hebraeg yn y ddwy enghraifft yr un.

ILEUERWYR [*Illuminati*]. Y mae y gair yn golygu goleuedig. Cymmhwysir yr enw Ileuerwyr at aelodau cymdeithas ddirgelaidd a ffurfiwyd yn y ganrif ddiweddaf. Dywedir i gymdeithas gael ei ffurfio gan un o ddysgyblion Swedenborg, dyben proffesedig yr hon ydoedd dwyn oddi amgylch ddiwygiad cymdeithasol yn Ewrop; ac oddi wrth y gymdeithas hon, yn gystal ag oddi wrth gymdeithasau yr Iesuitiaid, a'r "seiri rhyddion" (*Freemasons*), y cymmerodd Adam Weishaupt, proffeswr y gyfraith yn Ingolstadt, y drychfeddwl i ffurfio cymdeithas, amcan proffesedig yr hon ydoedd uno mewn un rhwymyn ddynion pob gwlad, er gwaethaf gwahaniaeth sefyllfaoedd, opiniynau, a chrefyddau; i addysgu pob dosbarth, ac i amgylchu brenhinoedd a dynion gonest, cyfiawn, a dewr. Yr oedd ei ddilynwyr ar y cyntaf yn cael eu galw *Perffeitholion*, ond wedi hyny rhoddasant arnynt eu hunain yr enw *Ileuerwyr*. Dewisodd Weishaupt amryw o'r efrydwyr mwyaf galluog oedd dano yn apostolion i'w gynllun newydd. Galwai yr apostolion hyn yn *Areopagiaid*, ac anfonwyd hwynt i amryw ranau o Ewrop i weithio allan ei gyfundraeth. Cyn i fodolaeth y gymdeithas ddyfod yn hysbys yn Ingolstadt, yr oedd amrywiol ganghenau wedi eu sefydlu yn Bavaria, Suabia, Franconia, Milan, a Holland, yn rhifo mil o aelodau. Llwyddodd Weishaupt i ennill drosodd y Barwn de Knigge, a Bode, yr athronydd, i fod yn gefnogwyr i'w gynlluniau. Yr oedd yr holl gymdeithas yn ffurfio cyfundraeth gynnwysedig o wyth o raddau swyddogol—yn annibynol ar fân raniadau—yn dechreu gyda dysgybl, ac yn diweddu gyda brenin. Rhoddid y flaenoriaeth i ddynion ieuaingc, rhwng deunaw a deg ar hugain oed, a Lutheriaid yn hytrach na Phabyddion, i fod yn aelodau o'r gymdeithas. Yr oedd y Barwn de Knigge yn gefnogydd selog i olygiadau y sylfaenydd. Yn nghydgynghorfa Wilhelmsbad, yn 1783, yn yr hon yr oedd yn bresennol ddynion o wahanol barthau o'r byd, efe a lwyddodd i droi llawer i goleddu yr un syniadau. Rhif aelodau y gymdeithas oedd dwy fil—pum cant o ba rai a restrwyd ynddi trwy ei offerynoliaeth ef. Cyfododd dadl rhwng Weishaupt a Knigge: diswyddwyd yr olaf, ymneillduodd yntau i Brême, ac ysgrifenodd yn erbyn y gymdeithas. Yn 1785, dadguddiwyd cyfrinach y cynllun, ac ymneillduodd Weishaupt i Ratisbon. Pan y cymmerwyd gafael yn mhapurau ac ysgrifeniadau arweinwyr y symmudiad yn y flwyddyn ganlynol, diangodd Weishaupt i Halle, lle y bu farw yn y flwyddyn 1830, wedi cyrhaedd yr oedran o 83 mlwydd.

Yn fuan, ffurfiwyd math o gymdeithas o dan yr enw yr *Undeb Germanaidd*, sylfaenydd yr hon ydoedd Dr. Bahrdt; a gweithrediadau gwleidyddol yr hon oedd yn ffafriol i, ac a brysurodd yn mlaen y chwyldroad yn Ffraingc. Dywedir fod Talleyrand, Mirabeau, ac ereill, wedi mabwysiadu egwyddorion yr undeb newydd, ag y bu Bode yn eu dadleu ac yn eu hegluro mewn amryw o gymdeithasau dirgelaidd yn Paris. Ammheuir, pa fodd bynag, na chyrhaeddodd y gymdeithas hon i unrhyw berffeithrwydd cyfansoddiadol, ac na bu cylch ei dylanwad yn helaeth iawn chwaith.

ILYRICUM, neu ILYRIA: nid oedd teyrnas Ilyria, fel yr oedd cyn i Awstria wneyd ei threfniadau tiriogaethol newydd yn 1849, yn cynnrychioli ond rhan fechan yn gymmharol i'r peth oedd yr hen Ilyria neu Ilyricum. Yn ei ystyr helaethaf, y mae y gair yn cynnwys yr holl wlad sydd yn ymestyn ar hyd glanau y môr Adriaidd, o enau y Po i derfynau Epirus. Yn fewnol, ymestynai oddi wrth y môr i lanau yr Ister neu y Danube, ac i'r Alpau sydd yn ysgaru Italy oddi wrth Germany. Ar du y dwyrain, yr oedd Macedonia yn ymylu arni, a'r llwythau anwar a ufuddhäent unwaith i awdurdod y Macedoniaid. Mewn ystyr gyfyngach, gellir ystyried ei bod yn cynnwys yr holl wlad gyda glan y môr rhwng y Naro (*Neretva*), a'r Drilo (*Drin*), ac yn cyrhaedd i mewn i'r tir mor bell a Triballi. Yn nghwrs amser, estynwyd terfynau Ilyria ar bob llaw; ac yn niwedd yr ail ganrif, cynnwysai Noricum yr oll o Pamronia, yr oll o Moesia, Dacia, a Thrace. Yn y bedwaredd ganrif, chwanegwyd ati gan Cystenyn Fawr, Macedonia, Thessaly, a holl Groeg, a gwnaed hi yn un o'r pedwar chwarter mawr i'r rhai y dosbarthwyd ymherodraeth Rhufain i'r dyben o hwyluso amcanion llywodraethol. Mewn cyfnod diweddarach, dadgyssylltwyd y taleithiau a chwanegwyd ati gan Cystenyn oddi wrthi, ac unwyd hwynt â'r ymherodraeth ddwyreiniol, tra y cafodd yr Ilyricum wreiddiol ei hail uno âg ymherodraeth y gorllewin.

Yr oedd preswylwyr y diriogaeth eang hon yn cael eu hadwaen wrth yr enw cyffredinol "Illyrii." Mewn ystyr genhedlaethol, yr oeddynt yn gwahaniaethu oddi wrth eu cymmydogion Sclafonaidd ar du y gogledd, ac oddi wrth eu cymmydogion a breswylient Epirus ar yr ochr ddeheuol iddynt; ond y mae mor lleied yn wybyddus am eu hiaith a'u dull o fyw, fel y mae yn ammhossibl olrhain gydag un math o sicrwydd eu perthynasau cenhedlig. Mae y pwngc hwn wedi ei olrhain gyda gofal a medrusrwydd neillduol gan Ritter Von Xylander. A cheir ffrwyth yr ymchwiliadau dyfal hyn yn llawn yn y drydedd gyfrol o waith mawr y Dr. Pritchard. Cymmaint a hyn sydd yn sicr, mai oddi wrth yr hen Ilyriaid y deilliodd yr Albaniaid diweddar; neu, fel y gelwir hwynt gan y Tyrciaid, yr "Arnautiaid." Y mae yr Albaniaid, yn rhinwedd y wlad y maent yn awr yn ei meddiannu, yn cynnrychioli rhan o Epirus; ond nid oes nemawr debygrwydd rhyngddynt a'r hen Epiriaid hyd gellir casglu. Pan y gwasgwyd arnynt yn galed gan y Gauliaid a'r Sclafoniaid o'r dwyrain a'r gogledd, ciliasant tua'r dê, a chymmerasant Epirus; a chymmaint o'r preswylwyr a ddiangodd rhag bod yn aberth i'r cleddyf a ymdoddasant yn raddol i'r llwythau Ilyriaidd. Y mae yr ysgrifenwyr boreuaf sydd yn gwneyd crybwylliad am yr Ilyriaid yn eu disgrifio yn

Digitized by Google

marcio ac yn lliwio eu cyrph, yr hyn oedd mewn arferiad hefyd gan eu cymmydogion o Thrace. Fel pobl y wlad hono hefyd, ymdrechent ddyhuddo llid eu duwiau trwy gyflwyno iddynt aberthau dynol. Yr oedd y gwragedd yno yn meddu cryn ddylanwad mewn pethau gwladol, yn gystal ag mewn bywyd cymdeithasol, ac ymddengys nad oeddynt yn ymgadw yn fanylaidd iawn i'w hymrwymiadau priodasol.

Y crybwylliad cyntaf a wneir mewn hanesyddiaeth am yr Ilyriaid sydd mewn cyssylltiad â'r rhyfel Peloponnesiaidd, pan y desgrifir hwy gan Thucydides yn gwneyd gwrthsafiad gwrol a phenderfynol yn erbyn Brasidas a'r Spartiaid. Yn y flwyddyn c. c. 383, fe geir fod y llwythau hyn wedi ymuno yn fath o deyrnas o dan lywodraeth y blaenor ysbeilgar Bardylis wrth ei enw. Ymosododd y Bardylis hwn ar Macedonia, a gorchfygodd y brenin Amyntus, a chymmerodd amrywiol ddinasoedd oddi arno. Yn mhen blynyddau wedi hyny, ymosododd drachefn ar y Macedoniaid, a gorchfygodd a lladdodd Perdiccas. Adnewyddwyd y rhyfel pan esgynodd Phylip orsedd Macedonia, a thrwy ei ymdrechion egniol ef, attaliwyd rhuthriadau yr Ilyriaid, ac mewn rhan darostyngwyd eu gwlad. Ofer a fu holl ymdrechion Cletus, mab Bardylis, i adfeddiannu oddi ar Alexander y tiriogaethau a ennillasai Phylip yn amser ei dad. Yn fuan wedi hyn, daeth yr Ilyriaid i'w harswydo ar y môr, canys troisant allan yn fôr-ladron, a dygent yn mlaen eu gweithrediadau difrodgar ar hyd tueddau Italy, ac ynysoedd y môr Ioniaidd. Yr oedd eu glenydd hwy eu hunain yn fanteisiol iawn iddynt gario y gwaith hwn yn mlaen, o herwydd fod yno liaws o borthladdoedd rhagorol, ond anhawdd myned i mewn iddynt, canys nid oeddynt yn adnabyddus ond i'r môr-ladron eu hunain. Gan fod y Groegiaid yn analluog i amddiffyn eu hunain, gwnaethant appeliad at y Rhufeiniaid am gymmhorth. Yr oedd y Rhufeiniaid eu hunain wedi dioddef yn dost oddi wrthynt yn eu masnach, ac am hyny dygent yn mlaen ofynion am iawn. Nid yn unig gwrthodwyd cydsynio â'r gofynion hyn gan Teuta, brenhines Ilyria, ond llofruddiwyd y cenhadon Rhufeinaidd. Yn ganlynol i hyn, cyhoeddwyd rhyfel yn eu herbyn; ac yn y flwyddyn c. c. 229, goresgynwyd eu gwlad gan fyddin Rufeinig, ac yn mhob man buont yn fuddugoliaethus. Gorfodwyd Teuta i ymbil am heddwch, yr hyn ni chaniatawyd iddi ond ar yr ammod fod iddi roddi i fyny ddarn mawr o'r wlad oedd yn ymylu ar y môr, ac nad oedd i anfon allan un llestr yn arfog yn mhellach i'r deheu na môrgainge Lyssus. O ddeutu deng mlynedd yn ddiweddarach, adnewyddodd yr Ilyriaid eu hymosodiadau, a chyhoeddwyd yr ail ryfel Ilyriaidd, yr hwn a derfynodd yn union fel y cyntaf—yn llwyddiant arfau Rhufain. Yn ystod y rhyfel Macedoniaidd, profasant eu hunain yn ffyddlawn i'r gallu Rhufeinaidd, a gwnaed chwanegiadau pwysig at eu tiriogaeth; ond yn y flwyddyn c. c. 168, gwrthryfelasant drachefn. Yna y Rhufeiniaid, wedi gorchfygu a chymmeryd yn garcharor Gentius, eu brenin, a meddiannu Scadra, eu prifddinas, a gymmerasant yr holl wlad oddi arnynt, gan ei huno â'u tiriogaethau eu hunain. Yr oedd yr Ilyriaid, er wedi eu gorchfygu, yn mhell o fod wedi eu llwyr ddarostwng; ac yr oedd yn angenrheidiol cael presennoldeb byddin liosog yno er mwyn cadw i lawr eu gwrthryfel parhaus. O dan yr ymherodraeth, pan oedd y Rhufeiniaid yn diogelu eu goruchafiaeth yn y rhan hon o'r byd trwy gadwen o amddiffynfeydd ar hyd y Danube, adgyfnerthent eu llengoedd milwrol o blith ieuengctyd rhyfelgar Ilyria; ac yr oedd balchder yr hiliogaeth oresgynedig weithiau yn cael ei borthi wrth weled cydwladwr iddynt yn eistedd ar orsedd y Cæsariaid. Yr oedd Claudius, Aurelian, Probus, Diocletian, a Maximian, oll yn feibion i wladwyr o Ilyricum. Pan ranwyd yr ymherodraeth, yr oedd Ilyricum yn gwneyd i fyny ran o'r un orllewinol; ond yn y flwyddyn 476, unwyd hi â'r dosbarth dwyreiniol o'r ymherodraeth hono. Yn y chweched ganrif, ymsefydlodd y Sclafoniaid o Rwssia a Pholand yn y wlad, ac yn fuan taflasant ymaith iau ymherawdwyr Caer Cystenyn, a sefydlwyd teyrnasoedd annibynol Croatia a Dalmatia. Y Venetiaid a'r Hungariaid ydoedd y goresgynwyr nesaf, y rhai yn 1030 a gymmerasant rhyw gyfran o'r wlad; yn 1170, sefydlwyd teyrnas Rascia, allan o ba un, 200 o flynyddoedd yn ddiweddarach, y ffurfiwyd Bosnia. Ymostyngodd Dalmatia i Venice, ond fe'i gorchfygwyd yn 1270 gan yr Hungariaid; ond yn fuan ennillwyd agos yr holl wlad oddi ar y Venetiaid a'r Hungariaid gan y Tyrciaid. Cadwodd y Venetiaid feddiant o gyfran fechan o Dalmatia, a'r Hungariaid o Croatia a Sclafonia. Ar ol dechreuad y bedwaredd ganrif ar ddeg, collwyd Ilyricum fel enw daearyddol allan o fap Ewrop, hyd 1809, pryd yr adnewyddwyd ef gan Napoleon. Yn y flwyddyn hono y gwnaed cyttundeb heddwch Presburg, yn rhinwedd yr hwn y rhoddodd Awstria i fyny i ymherawdwr Ffrainge y taleithiau Hungaraidd oeddynt yr ochr deheuol i'r Drave, rhan o'r Tyrol, *Dalmatia*, a thir y goron yn Carinthia, Carniola, a'r *Kusten*. Pan y gwnaed cyttundeb heddwch *Vienna*, *dy*chwelwyd y gwledydd hyn yn ol i dŷ Hapsburg, unwyd y tair talaeth ddiweddaf a enwyd, a sefydlwyd teyrnas Ilyria. Fel y cyfansoddwyd hi y pryd hwn, yr oedd teyrnas Ilyria yn cael ei therfynu ar du y gogledd gan daleithiau Salzburg a Styria, ar du y dwyrain gan Styria a Croatia, ar du y deheu gan y Môr Adriaidd, ac ar du y gorllewin gan Lombardy. Ei hyd o'r gogledd i'r deheu ydoedd 160 milldir, ei lled 110; ac yr oedd ei harwynebedd ychydig yn fyr o 11,000 o filldiroedd petryal. Yn 1822, cymmerwyd tiriogaethau Carlstadt oddi wrthi gan yr ymherawdwr Francis, ac unwyd hwy â Hungary gyda'r amcan o ddadblygu adnoddau mewnol y wlad hono. Nid ydyw teyrnas Ilyria yn bodoli yn awr ond mewn enw yn unig. Yn 1849, ail gynlluniodd ac ail drefnodd yr Awstriaid diriogaethau eu hymherodraeth, a diddymwyd teyrnas Ilyria. Y mae Paul yn cofnodi iddo ef bregethu yr efengyl "o amgylch hyd Ilyricum" (*Rhuf.* xv. 19); ac y mae yn debyg y defnyddia efe y gair yn ei ystyr helaethaf.

**ILLTYD FARCHOG:** a elwir hefyd Illtyd Sant, ydoedd Lydawiad o enedigaeth, a mab i Bicanus, o chwaer Emyr Llydaw, yr hon a eilw John o Teignmouth yn Riengulida; ac felly, medd Rees, yr oedd yn or-nai (*great nephew*) i Garmon Sant. Dywed *Bucheddau'r Saint* mai enw ei fam oedd Rieinguled (Rhieinwledd?), "merch i Anbland (Amlawdd Wledig), brenin Prydain"—"Tywysog y Brytaniaid Gogleddol, a flodeuai tua diwedd y bummed ganrif," medd *Enwogion Cymru*. Merch i Amlawdd oedd Eigr (*Ygraine* y Chwedlau), mam y Brenin Arthur; ac felly yr oedd Illtyd yn gefnder i Arthur, fel y dywed y *Bucheddau*. Merch arall i Amlawdd

Digitized by Google

oedd Tywynwedd, mam Tyfrydog Sant, cefnder arall i Illtyd. Lled awgryma'r *Bucheddau* fod ei fam, Rhieinwledd, yn frenhines; canys dywedant mai ystyr yr enw "Riengled" (Lat. *Rieingulid*), yw "Brenhines Wylaidd" (*Regina Pudica*); ond dylid cofio fod tywysogion bychain yn cael eu galw yn y dyddiau hyny yn frenhinoedd, a'u gwragedd, wrth gwrs, yn frenhinesau. Dywedir mai milwr, o fri mawr, oedd ei dad, Bicanus; a'i fod wedi hanu o'r prif dywysogion, yn Llydaw, bid sicr. Ymddengys, ar y cyfan, fod Illtyd wedi deilliaw o deulu tywysogaidd neu frenhinol, o du ei dad a'i fam.

Ystyr yr enw Illtyd, medd y *Bucheddau*, ydyw "un diogel rhag pob trosedd." Nis gwyddom a oes gwell sail i'r ystyr yma na dychymmyg; yr hyn, yn ddiau, yw sail y rhan fwyaf o *Fucheddau'r Saint*. Ysgrifenir yr enw hefyd, yn yr hen lyfrau, yn *Elltud*, *Illtud*, ac *Ylltud*. Y ffurf Lladin yw *Ilutus*. Gwyddys mai ystyr *tud* yw *tir* neu wlad; ac yr ydym ni yn tueddu i feddwl mai amrywiadau o'r gair *alltud* (*foreigner*) ydyw *elltud*, &c., gan mai brodor o Lydaw, yn Gâl, oedd *Illtyd*; ac felly, yn *alltud* yn y wlad hon.

Yr oedd ei rieni yn awyddus am ei ddwyn i fyny yn ŵr dysgedig; am hyny, anfonasant ef (i ba le ni ddywedir) "i gael ei hyfforddi yn y saith gelfyddyd;" a dywedir fod ei gof mor gryf fel nas gollyngai ddim a glywai gan ei athraw byth yn anghof.

Pa fodd bynag, yn lle dilyn ei fyfyrdodau fel llenor, yn ol dymuniad ei rieni, trodd ef yn filwr, fel ei dad Bicanus; ac wedi clywed am anrhydedd a gwrolgampau ei gefnder Arthur, moriodd ef, a'i ewythr Garmon yn ei ganlyn, medd rhai, o "Brydain Bellaf" (Llydaw), a daeth i lys Arthur, yn y cymmeriad o filwr, lle y derbyniwyd ef yn anrhydeddus. Cymmerodd hyn le yn gynnar yn y bummed ganrif.

Wedi aros yn llys Arthur dros ysbaid anhysbys i ni, ac wedi cael croesaw a gwobrau anrhydeddus yno fel milwr, ymadawodd o'r llys brenhinol hwnw yn dra boddhaol, ac aeth ef a'i wraig dra anrhydeddus, Trynihid, neu Trinhid, gydag ef at Paulinus, brenin Morganwg. Ni ddywedir pa bryd y priododd, na merch pwy oedd ei wraig, na dim o'r fath; ac y mae ffurf Gymreig ei henw yn hollol anhysbys i ni. Y cwbl a ddywedir am dani, gyda golwg ar hyn yw, ei bod yn "wraig dra anrhydeddus."

Cafodd ef a'i wraig dderbyniad tra chroesawgar gan frenin Morganwg etto; yr hwn wedi cael prawf o'i fedr fel milwr, a chanfod ei fod yn ddyn galluog ac anrhydeddus, a'i cadwodd gydag ef, ac a'i gwnaeth yn llywydd ar ei lys; yr hwn a lywodraethodd efe yn ddoeth a thangnefeddus, er llawn foddhâd i'w arglwydd a phawb o wŷr y llys. Ar ol bod yn y swydd hono am ryw ysbaid, gwnaeth y brenin Paulinus ef yn gadlywydd i'w holl filwyr, "o blegid ei ffraethineb godidog, a'i synwyr digyffelyb; canys nid oedd neb o'i gydoeswyr yn haeddu eu cyffelybu iddo ef o ran gallu meddyliol; yr hyn a brofwyd ac a gadarnhawyd trwy dystiolaeth gwŷr dysgedig."

Yn y cyfamser, anfonodd Paulinus ei dylwyth, ac Illtyd yn eu plith, i hela i diriogaeth Catwg Sant, a elwid hefyd Catwg Ddoeth; ac o herwydd iddynt anfon cenad at y sant, i orchymyn yn sarhaus iddo anfon ciniaw iddynt, llyngcodd y ddaear yr holl giwdod, ond Illtyd, yr hwn ni chyttunasai yn eu sarhâd. Wedi gweled y wyrth hon, medd y chwedl, aeth Illtyd at Catwg i ofyn ei gynghor a'i gyfarwyddyd; ac yntau a'i annogodd i newid ei wisg filwrol am un eglwysig. Mewn cydsyniad ufudd i hyn, dychwelodd at Paulinus; ac wedi cael caniatâd y brenin, ymadawodd ef, ei wraig, a'i osgordd, ac aethant hyd lan yr afon Nadawan; sef, yr afon Daw, neu Dawon, yn Morganwg, fel y tybir.

Wedi dyfod i'r lle hwn, a'r hin yn boeth yn yr haf, cyfododd bebyll iddo ei hun a'i osgordd, gan eu toi â hesg yr afon; a thra yr oedd ef a'i wraig yn cysgu yn un o honynt, ymddangosodd angel iddo, mewn breuddwyd, gan orchymyn yr un peth iddo ag a gynghorodd Catwg, gan chwanegu, y rhaid iddo *ysgar â'i wraig* yn ddioed, y boreu dranoeth, a myned rhagddo i ddyffryn coediog a ffrwythlawn, oedd ar ochr orllewinol yr afon, lle y caffai balas, a rhandir hyfryd i'w breswylio.

Y mae yn sicr mai rhyw "angel syrthiedig" Pabyddol a chelwyddog ydoedd hwn; canys yr oedd ei genadwri i Illtyd, druan, yn hollol groes i'r Testament Newydd, yr hwn a ddywed yn bendant y "*rhaid* i esgob fod yn *wr un wraig*," &c. (1 *Tim.* iii. 2); ac a ddengys hefyd fod gan hyd yn oed apostolion, "awdurdod i arwain o amgylch *wraig* a fyddai chwaer," fel yr oedd y rhan fwyaf o honynt yn gwneuthur: 1 *Cor.* ix. 5. Ac y mae yr apostol Paul, prif genad "Angel" mawr y Testament Newydd, yn rhestru "gwahardd priodi" yn mysg "ysbrydion cyfeiliornus, athrawiaethau cythreuliaid, a dywedyd celwydd mewn rhagrith"—arwyddion pendant ymadawiad "rhai yn yr amseroedd diweddaf oddi wrth y ffydd;" 1 *Tim.* iv. 1—3.

Pa fodd bynag, cenadwri dra gwahanol oedd gan yr "angel" yr hòna'r chwedl Babaidd, yn y *Bucheddau*, ddarfod iddo ymddangos i Illtyd. Wedi cael y weledigaeth, neu yn hytrach y breuddwyd Pabaidd a nodwyd (os nad ffugchwedl gelwyddog y mynachod yw yr holl ystori am Illtyd), prysurodd Illtyd, dranoeth, i ufuddhau iddo, gan ysgar ei wraig, ac ymadael â phob peth bydol, a myned yn bererin unigol ar ei daith, nes cyrhaedd y dyffryn a grybwyllwyd, yr hwn a elwir Hodnant; yr hyn a arwydda, medd y chwedl, "dyffryn ffrwythlawn." Yn ebrwydd ar ol cyrhaedd y dyffryn hwn, fel yr ymddengys, aeth Illtyd at Dyfrig (*Dubricius*), esgob Llandaf, yr hwn a osododd benyd arno am ei gamymddygiadau blaenorol; ac wedi eillio ei farf a'i wallt, cyssegru ei goron, a chymmeryd y wisg fonachaidd am dano, dychwelodd eilwaith i Ddyffryn Hodnant, ac adeiladodd yma breswylfod, capel, ac eglwys. Cyssegrwyd y lle gan Dyfrig. Wedi hyny, rhoddwyd yr holl ddyffryn iddo dros byth, gan un Meirchion, wedi cael ei rybuddio i wneuthur hyny gan angel, wrth gwrs, trwy freuddwyd. Yn y dyffryn hwn y saif Llanilltyd Fawr (*Lantwit Major*), a elwid cyn amser Illtyd, medd hanesion neu chwedlau, yn Gôr Tewdws, ac yn Gaer Worgorn, a sefydlasid ar y dechreu gan yr ymherawdwr Tewdws (*Theodosius*), ond a ddistrywiasid gan y Gwyddelod Paganaidd, y rhai a gaethgludasent Padrig, oedd yno yn abad, i'r Iwerddon. Y mae Carnhuanawc yn ammheu mai yr *un lle* oedd Caer Worgorn a Llanilltyd Fawr, er nad yw yn ammheu mai Illtyd a sefydlodd y lle olaf, neu, o leiaf, a'i hadgyweiriodd.

Wedi ei adsefydlu, neu ei sefydlu am y tro cyntaf (ni wyddys pa un, gan fod y chwedlau a'r traddodiadau yn anghyttuno) gan Illtyd, galwyd y lle Côr Illtyd, Bangor Illtyd; ac yn awr, Llanilltyd Fawr. Dywedir i Illtyd gael ei osod yn benaeth neu yn abad yno gan Garmon, B.A. 520;

Digitized by Google

Digitized by Google

Digitized by Google

Digitized by Google

Digitized by Google

Digitized by Google

Digitized by Google